




3 1761 06980524 0



Presented to
The Library
of the
University of Toronto
by
Mrs. S. Collins

J. M. Griffiths
Book
1865



Digitized by the Internet Archive
in 2010 with funding from
University of Toronto

Y

DEONGLYDD BERNIADOL,

NEU

EGLURHAD MANWL AR BOB ADNOD

YN YR

HEN DESTAMENT A'R NEWYDD,

ER GWASANAETH

Yr Ysgolion Sabbathol.

GAN Y PARCH. JOHN JONES, (IDRISYN,)

FICER LLANDYSILIO, CEREDIGION,

Golygydd a Chasglydd yr "Esboniad Berniadol," &c.

CYFROL III.

O EZRA HYD Y CANIADAU.

MACHYNLLETH:

CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN J. WILLIAMS.

AC AR WERTH HEFYD

GAN HUGHES A BUTEER, LLUNDAIN,

A'R HOLL LYFRWERTHWYR.

1863.

BS

308

1858

V. 3

609296

27.5.55

I'R

GWIR BARCHEDIG CONNOP THIRLWALL, D. D.,

ARGLWYDD ESGOR TYDDEWI,

Y CYFLWYNIR YN OSTYNGEDIG Y GWAITH HWN,

FEL ARWYDD O ANRHYDEDD

I'W SWYDD UCHEL YN EGLWYS CRIST,

A'I DDEFNYDDIOLDEB YNDDI;

FEL CYDNABYDDIAD

O'I DALENTAU UCHEL, EI DDYSGEIDIAETH HELAETH,

A'I WYBODAETH EANG O'R GYMRAEG;

AC FEL AMLYGIAD

O'R PARCH A DEIMLIR IDDO YN BERSONOL, AR GYFRIF

EI YMOSTYNGIAD, A'I DIRIONDEB ARFEROL

AT EI ANNHEILYNGAF WASANAETHYDD,

YR AWDWR.



LLYFR E Z R A .

CYNSWA y llyfr hwn hanes dychweliad yr Iuddewon o Babilon i Jerusalem gyda Zorobabel, ac wedi hynny gydag Ezra, ar ol dyoddef yno 70 mlynedd o gaethiwed am eu pechodau, fel y rhagfynegasai Jeremiah, pen. xxv. 9—12, a xxix. 10. Canys pa un bynag ai o ddechre y caethiwed hyd ddechre yr adferiad, (sef o'r drydedd flwyddyn i Joacim hyd y laf i Cyrus,) ai yntc o orpheniad y caethiwed hyd orpheniad yr adferiad, (sef o'r 11eg i Zedeciah hyd y 4edd i Darius,) y bydd i ni gyfrif, cawn yr amser yn y ddau ddull yn 70 mlynedd cymhwys; yr hyn sydd yn brawf eglur o ddwyfol ysbrydoliaeth llyfr Duw. Y mae y llyfr hwn yn cynwys hanes yr Iuddewon am oddeutu 82 o flynyddoedd, sef o'r flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Cyrus yn Babilon, o. n. 3468, hyd yr ugeinfed i Artaxerxes Longimanus, neu Ahasferus, yr hwn a fonfodd Nehemiah i Jerusalem, o. n. 3550. Addefir yn gyffredin mai EZRA (nen ESDRAS) yw awdwr y llyfr hwn, yn gystal a rhai o'r llyfrau ereill, fel y gwelwom eisoes. Yr oedd ef yn offeriad o dŷ Aaron, ac yn wylwr i Seraiah, yr hwn oedd yn archoffeiriad dan deyrnasiad Zedeciah: gwel 2 Bren. xxv. 18, Ezra vii. 1, &c. Yr oedd ei swydd, ei ddysgeidiaeth, a'i dduwioldeb, yn gymhwysderau mawrion ynddo ef fel ysgrifenydd; ac yr oedd ef ei hun wedi bod yn wyddodol ac yn gyfranog mewn rhai o'r gorehwyliathau a adroddir yma. Cawn yn y llyfr hwn, (1) Hanes dychweliad yr Iuddewon o Babilon, pen. i a ii. (2) Adeiladid yr allor, a sylfaeniad y deml, pen. iii. (3) Gwrthwynebiad y Samariaid i hynny, pen. iv. (4) Gorchymyn Darius yn nghyfeirio adeiladu y deml, pen. v a vi. (5) Ymadawid Ezra o Babilon, a'i ddyfodiad i Jerusalem, pen. vii a viii. (6) Gofid Ezra, a'i weddi, am i'r bobl ymgfyfathachu â'r cenhedloedd, pen. ix. (7) Y diwygiad a wnaeth efe yn ganlynol i hynny, pen. x.

PENNOD I.

YN y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenin Persia, (i gyflawni gair yr Arglwydd o enau Jeremi,) y cyffôrdd yr Arglwydd ysbryd Cyrus brenin Persia, fel y cyhoeddodd efe trwy ei holl deyrnas, a hynny hefyd

mewn ysgrifen, gan ddywedyd, 2 Fel hyn y dywed Cyrus brenin Persia, Arglwydd Dduw y nefoedd a roddes i mi holl deyrnasoedd y ddaear, ac efe a orchymynodd i mi adeiladu iddo ef dŷ yn Jerusalem, yr hon sydd yn Judah.

PEN. I. Adn. 1. *Yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenin Persia* Nid yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad ef ar Persia, canys yr oedd efe wedi bod yn teyrnasu yno yn hir, ac ar lawer o deyrnasoedd ereill hefyd, adn. 2; eithr yn y flwyddyn gyntaf ar ol iddo ef ennill Babilon, lle yr oedd yr Iuddewon mewn caethiwed. Yr oedd Cyrus yn fab i *Cambyses* brenin Persia, ac i *Mandane* merch *Astyages* brenin y Mediaid; a ganed ef o gylch 600 o flynyddoedd cyn Crist. *I gyflawni gair yr Arglwydd o enau Jeremi*—yr hwn a ragfynegasai y byddai i frenin Babilon a'r Caldeaid gael eu maeddu gan Cyrus, a gwŷr Juda gael eu gollwng adref i'w gwlad, yn mhen deng mlynedd a thringain: gwel Jer. xxv. 11, 12, a xxix. 10, yn nghyda'r rhagarweiniad uchod. *Y cyffôrdd yr Arglwydd ysbryd Cyrus*—fe allai trwy weledigaeth neu freuddwyd, neu trwy ddylanwad uniongyrchol ei Ysbryd ar ei feddwl ef. Y mae Josephus, Prideaux, ac ereill, yn priodoli ei bledigarwch ef i'r Iuddewon i'r amgylchiad hwn: ddarford i Daniel, fel prif-weinidog y llywodraeth, ddangos i Cyrus y manau hynny yn mhroffwydoliaeth Esay, lle y crybwyllir am dano wrth ei enw, fel yr hwn a waredai Israel, a hynny 200 o flynyddau cyn ei eni: gwel Esay xlv. 28, a xlv. 1, &c. Wrth ei weled ei hun yn cael ei hynodi fel hyn gan Dduw yr Iuddewon, yr oedd yntau

yn awyddus i roddi iddo brawf o'i ddiolchgarwch am hynny; ac felly efe a wnaeth ddeddf o blaid yr Iuddewon, dychwelodd iddyn eu llestri cyssegredig, caniatodd iddyn ryddid i ddychwelyd i'w gwlad, a chefnogodd hwynt i ailadeiladu teml JERHOFA. *Fel y cyhoeddodd efe trwy ei holl deyrnas*—neu y parodd osod i fyny yr ysgrifen ganlynol, wedi ei selio yn ddiamau â sel y brenin, i annog yr Iuddewon oll i ddychwelyd i Jerusalem i adeiladu tŷ yr Arglwydd: gwel ar adn. 3.

Adn. 2. *Arglwydd Dduw y nefoedd*] Yn yr holl lyfrau a ysgrifenydd yn *flaenorol* i'r caethiwed, gelwir JERHOFA bob amser yn *Arglwydd y lloedd*; ond yn y llyfrau a ysgrifenydd *ar ol* y caethiwed, megys yr ail Croniel, Ezra, Nehemiah, a Daniel, gelwir ef *Dduw y nefoedd*. Y mae yn debyg ddarford i'r neb a ddanghosodd neu a eglurodd i Cyrus broffwydoliaeth Esay am dano ef, synegu iddo hefyd fod y Dduw ag yr oedd Esay yn broffwyd iddo, yn cael ei addoli gan yr Iuddewon nid fel Dduw rhyw wlad neillduol yn unig, ond fel 'Creawdwr ac Arglwydd nef a ddaear': a gallai Cyrus gydnabod a pharchu JERHOFA fel Dduw mawr y nefoedd a'r ddaear, heb iddo ymwrthod yn hollol â chrefydd ei wlad ei hun. *A roddes i mi holl deyrnasoedd y ddaear*—dywed hen haneswyr fod Cyrus y pryd hyn yn teyrnasu ar y Mediaid, y Persiaid, yr Hlyrcaniaid, yr

3 Pwy sydd o honoch o'i holl bobl ef? bydded ei Dduw gydag ef, ac eled i'fyny i Jerusalem, yr hon sydd yn Judah, ac adeiladed dŷ Arglwydd Dduw Israel, (dyna y Duw,) yr hwn sydd yn Jerusalem.

4 A phwy bynag a adawyd mewn un man lle y mae efe yn ymdeithio, cynorthwyed gwŷr ei wlad ef âg arian, ac âg aur, ac â golud, ac âg anifeiliaid, gydag ewyllysgar offrum tŷ Dduw yr hwn sydd yn Jerusalem.

Armeniaid, y Syriaid, yr Assyriaid, yr Arabiaid, y Cappadociaid, y Phrygiaid, y Lydiaid, y Pheniciaid, y Babiloniaid, y Bactriaid, yr Indiaid, y Saciaid, y Ciliciaid, y Paphlagoniaid, y Moriandriaid, ac amrai genhedloedd ereill. Yr oedd ei amherodraeth yn cyraedd, o du y *deyrain*, hyd y Môr Coch; o du y *gogledd*, hyd y Môr Dù; o du y *gorllewin*, hyd Cyprus a'r Aifft; ac o du y *deau*, hyd Ethiopia. Er mai pagan oedd Cyrus, eto efe a gydnabyddai yn gyhoeddus fel hyn mai Arglwydd Dduw y nefoedd, ac nid duwiau gau y ddaear, a roddasai yr holl deyrnasoedd hyn yn ei law ef. *Ac efe a orchymynodd i mi adeiladu iddo ef dŷ yn Jerusalem*—gallai gasglu hynny oddiwrth broffwydoliaeth Esay, pen. xlv. 13, lle y dywed Duw am Cyrus, 'Efe a adeilada fy ninas,' yr hon yr oedd y deml y rhan benaf o honi; ac yn eglurach oddiwrth Esay xlv. 28, 'Gan ddywedyd wrth Jerusalem, 'Ti a adeiledir; ac wrth y deml, 'Ti a sylfaenir.' Dywed rhai i Cyrus broidi chwara Zorobabel, ac i hōno ei berswadio ef i ryddhau yr Iuddewon ac adeiladu y deml.

Adn. 3. *Pwy sydd o honoch o'i holl bobl ef?* Nid o lwyth Juda a Benjamin yn unig, ond o'r deg llwyth hefyd, y rhai oeddynt dan ei lywodraeth ef, trwy fod yr Assyriaid a'r Mediaid, yn mhlith y rhai yr oeddynt yn wasgaredig, yn ddeiliaid iddo. *Bydded ei Dduw gydag ef*—i dueddu ei galon i fyned, i'w gadw ar ei daith, ac i'w lwyddo yn ei waith ar ol myned. *Ac eled i'fyny i Jerusalem*—i adeiladu tŷ Arglwydd Dduw Israel. Fel hyn y mae efe nid yn unig yn cyhoeddi rhyddid iddynt, ond yn eu hannog i fyned, ac yn gweddio am i'w Duw fod gyda hwy i'w lwyddo. *Dyna y Duw!*—fel pe dywedasai, Dyna un gwerth ei alw yn Dduw, neu i'w addoli fel Duw. Onid yw hyn yn gyfaddefiad amlwg o JEROFA fel y gwir Dduw, os nid fel yr unig Dduw?

Adn. 4. *A phwy bynag a adawyd mewn un man?* Cyfeiria hyn at rai yn dymuno myned i'fyny gyda'u brodyr, ond yn gorfod aros ar ol o herwydd tylodi, neu o ddiffyg modd i ddwyn cost y daith. *Cynorthwyed gwŷr ei wlad ef*—sef y genhedloedd Babiloniaidd, neu ynte yr Iuddewon goludog nad oeddynt yn dewis ym-adael â Babilon; *âg arian ac âg aur*—i dalu costau y daith; *ac â golud ac âg anifeiliaid*—i'w gludo ef a'i deulu ar y daith, ac i lafurio ei dir ar ol cyraedd i'w etifeddiaeth; *gydag*

5 ¶ Yna y cododd penau cenedl Judah a Benjamin, a'r offeiriad a'r Lefiaid, a phob un y cyffrôdd Duw ei ysbryd, i fyned i'fyny i adeiladu tŷ yr Arglwydd yr hwn oedd yn Jerusalem.

6 A'r rhai oll o'u hamgylch a'u cynorthwasant hwy â llestri arian, ac aur, a golud, ac âg anifeiliaid, ac â phethau gwerthfawr, heblaw yr hyn oll a offrymwyd yn ewyllysgar.

7 ¶ A'r brenin Cyrus a ddyg allan lestri tŷ yr Arglwydd, y rhai a ddyg-

ewyllysgar offrum tŷ Dduw—neu roddion gwirfoddol at adeiladu y deml, ac at gynl gwasanzeth Duw ynddi ar ol ei hadeiladu.

Adn. 5. *Yna y cododd penau cenedl Juda a Benjamin*] Y dynion penaf o ran doethineb, crefydd, ac awdurdod, yn y ddau lwyth hyn; a chydha hwy rai o'r llwythau ereill hefyd, fel yr ymddengys oddiwrth 1 Cron ix. 3; *a'r offeiriad a'r Lefiaid*—y rhai, fel y gweddai iddynt, oeddynt yn mhlith y rhai cyntaf i droi eu gwyneb tua Seion; *a phob un y cyffrôdd Duw ei ysbryd*—neu a ufyddhaodd i'w gyffrodd ef, mewn hiraeth am ryddid, serchog-rwydd at ei wlad, ac awydd am yr ymarferiad rhydd o'r wir grefydd. Oni buasai i Dduw ddylanwadu ar eu hysbryd, nid aethai nemawr o honnyt yno. Yr oedd llawer o honnyt wedi cyraedd bywioliaeth dda yn Babilon, ac wedi eu geni a'u magu yno, ac heb wybod dim am wlad Canaan ond a glywsent gan eu rhieni; yr oedd y ffordd yn mhell, ac yn anhawdd ei theithio, os nad yn beryglus gan elynion: gwyddent fod eu gwlad wedi ei difodi, a bod pawb ag oedd yn y wlad yn elynion iddynt hwy; ac na chaent ei hail feddiannu, nac adeiladu tŷ eu Duw, na muriau Jerusalem, heb llawer o wrthwynebiadau cryfion: ac yr oedd hyn oll yn foddion i'w digalonni, neu i'w gwneyd yn ddiffater am fyned; ac felly aihosodd llawer ar ol.

Adn. 6. *A'r rhai oll o'u hamgylch*] Sef yr Iuddewon hynny nad oeddynt yr chwennyth myned eu hunain, yn nghyda'r Caldeaid hefyd fel y meddylir; *a'u cynorthwasant hwy*—yn ol gorchymyn y brenin, adn. 4; *heblaw yr hyn oll a offrymwyd yn ewyllysgar*—at wasanaeth y deml. Ymddengys oddiama fod cyfraith y brenin yn *rhywyo* neu yn *gorfodi* y rhai goludog i gynorthwyo y tylodion, gan y gwneir gwahaniaeth yma rhwng y rhoddion hynny a'r offrymau *ewyllysgar*. Fel hyn yr oedd eu mynediad o Babilon yn debyg i'w mynediad gynt o'r Aifft: aethant allan y pryd hynny â chyfoeth yr Aiffitiaid, a'r pryd hynny â chyfoeth y Babiloniaid.

Adn. 7. *A'r brenin Cyrus a ddyg allan lestri tŷ yr Arglwydd*] Y rhai a ddygasai Nebuchodonosor o'r deml yn Jerusalem, pan y cymerodd ac y llosgodd efe hi, 2 Cron. xxxvi. 7, 10, 18; *ac a roddasai efe yn nhŷ ei dduriau ei hun*—sef yn nheml Belus, trwy yr hyn y cadwyd hwynt yn rhagluniaethol heb eu colli.

asai Nebuchodonosor allan o Jerusaleam, ac a roddasai efe yn nhŷ ei dduwiau ei hun.

8 Y rhai hyny a ddyg Cyrus brenin Persia allan trwy law Mithredath y trysorydd, ac a'u rhifodd hwynt at Sesbazzar penaeth Juda.

9 A dyma eu rhifedi hwynt; Deg ar hugain o gawgiau aur, mil o gawgiau arian, naw ar hugain o gyllyll.

10 Deg ar hugain o orflychau aur, deg a phedwar cant o ail fath o orflychau arian, a mil o lestri ereill.

11 Yr holl lestri, yn aur ac yn arian, oedd bum mil a phedwar cant. Y rhai hyn oll a ddyg Sesbazzar i fyny gyda'r gaethglud a ddygwyd i fyny o Babilon i Jerusaleam.

PENNOD II.

A DYMA feibion y dalaeth y rhai a ddaeth i fyny o gaethiwed y

Adn. 8. *Ac a'u rhifodd hwynt at Sesbazzar penaeth Juda*] Neu a'u rhoddodd hwynt iddo ef dan eu rhif, heb golli un o honynt. Meddylir yn gyffredin mai yr un oedd *Sesbazzar a Zorobabel*, yr hwn oedd o lin Jechoniah brenin Juda, I Cron. iii. 17—19. Yr oedd yn arferiad i dywysogion Juda, yn ystod y caethiwed, gael dau enw: un yn perthyn i'w cenedl eu hunain, a'r llall yn Galdeaid, yr hwn a ddefnyddid yn y llys. Oud tybia rhai, modd bynag, mai Persiad neu Galdead oedd y Sesbazzar hwn, yr hwn a benodasid gan Cyrus i gynorthwyo yr Iuddeuon yn eu teithiau trwy wlad y Caldeaid tua Jerusaleam.

Adn. 9. *A dyma eu rhifedi hwynt*] Neu, yr oedd y rhai a enwir yma yn mhlith y rhai penaf o honynt; *deg ar hugain o gawgiau aur*—at dderbyn gwaed yr aberthau; *mil o gawgiau arian*—at y bwyd-offrymau ondodid; *a naw ar hugain o gyllyll*—at fingo a darnio yr ebyrth, meddai rhai; ac at enwaedu, meddai ereill. Gallwn feddwl fod eu carnau o aur neu arian, pan y cymerwyd hwynt ymaith gyda'r lestri aur ac arian hyn; a thybia rhai fod eu llafnau wedi eu gwneyd o gallestr.

Adn. 10. *Deg ar hugain o orflychau aur*] Sef phiolau neu ddysglau â chauadau arnynt; *a deg a phedwar cant o ail fath o orflychau arian*—rhai o'r un llun a'r rhai cyntaf, ond eu bod o wahanol ddefnydd; *a mil o lestri ereill*—o aur neu arian. Nid yw yn hawdd nodi allan wasanaeth y rhai hyn oll yn y deml, ac nid yw chwaith yn angenrheidiol.

Adn. 11. *Yr holl lestri, yn aur ac yn arian*] Y rhai a ddygwyd gan Nebuchodonosor i Babilon, ac a ddychwelyd yn awr gan Cyrus i'w doddi yn yr ail deml; *oedd bum mil a phedwar*

gaethglud, yr hon a gaethgludasai Nebuchodonosor brenin Babilon i Babilon, ac a ddychwelasant i Jerusaleam a Judah, pob un i'w ddinas ei hun;

2 Y rhai a ddaeth gyda Zorobabel: Jesua, Nehemiah, Seraiah, Relaiiah, Mordecai, Bilsan, Mispar, Bigfai, Rehum, Baanah. Rhifedi gwyr pobl Israel.

3 Meibion Paros, dwy fil a deuddeg ac wyth ugain.

4 Meibion Sephatiah, tri chant a deuddeg a thriugain.

5 Meibion Arah, saith cant a phymtheg a thriugain.

6 Meibion Pahath-Moab, o feibion Jesua a Joab, dwy fil wyth cant a deuddeg.

7 Meibion Elam, mil dau cant a phedwar ar ddeg a deugain.

8 Meibion Zattu, naw cant a phump a deugain.

9 Meibion Zaccai, saith cant a thriugain.

cant—nid yw rhif y llestri penaf, y rhai a gyfrifwyd yn adn. 9, 10, ddim ond 2499; gan hyny yr oedd yno 2901 o fân bethau ereill aur ac arian, megys llwyau, efeiliau, saltringau, &c. Dywedir yn I Esdras ii. 14, fod eu nifer oll yn 5469.

PEN. II. Adn. I. *A dyma feibion y dalaeth*] Felly y gelwir JUDEA, yr hon oedd unwaith yn *deyrnas* flodeuog, ond yn awr yn *dalaeth* dan deyrnged, ac wedi ei darostwng a'i dinystrio! Tybia rhai mai BABILON a feddylir wrth y dalaeth hon; ond nid yw hyny yn debyg, trwy fod Babilon yn cael ei gwrthgyferbynu iddi yn yr adnod hon: 'Dyma feibion y dalaeth—yr hon a gaethgludasai Nebuchodonosor i Babilon.' *Ac a ddychwelasant i Jerusaleam a Juda*—yr oedd rhai yn awr yn fyw a ddygysid gan Nebuchodonosor o Juda i Babilon; a'r rhai a anesid yn Babilon, gellid dywedyd iddo ef eu caethgludo hwythau yn lwynau eu rhieni. *Pob un i'w ddinas ei hun*—lle y cyfaneddasai efe cyn ei gaethgludo; neu ynte yr hon a berthynai iddo fel ei etifeddiaeth drefstadol, neu a syrthiai iddo trwy goelbren, Neh. xi. 1, &c.

Adn. 2. *Y rhai a ddaeth gyda Zorobabel*] Eu blaenor hwy a phenaeth Juda, pen. i. 8; *Jesua*—yr un a Josua yr archoffeiriad, pen. iii. 2, Hag. i. 1. *Nehemiah*—nid hwn yw yr un ag y mae y llyfr dylynol ar ei enw, canys nid aeth hwnw i Judea am hir amser wedi hyn; neu os aeth, rhaid ei fod wedi dychwelyd i Babilon. *Rhifedi gwyr pobl Israel*—hyn sydd fath ar deitl i'r adnodau canlynol.

Adn. 3—35. *Meibion Paros, dwy fil a deuddeg ac wyth ugain*] Sef 2172. Pan y

10 Meibion Bani, chwe chant a dau a deugain.

11 Meibion Bebai, chwe chant a thri ar hugain.

12 Meibion Azgad, mil dau cant a dau ar hugain.

13 Meibion Adonicam, chwechant a chwech a thriugain.

14 Meibion Bigfai, dwy fil ac onid pedwar triugain.

15 Meibion Adin, pedwar cant a phedwar ar ddeg a deugain.

16 Meibion Ater o Hezeciah, onid dau pum ugain.

17 Meibion Besai, tri chant a thri ar hugain.

18 Meibion Jorah, cant a deuddeg.

19 Meibion Hasum, dau cant a thri ar hugain.

20 Meibion Gibbar, pymtheg a phedwar ugain.

21 Meibion Bethlehem, cant a thri ar hugain.

22 Gwŷr Netophah, onid pedwar triugain.

23 Gwŷr Anathoth, cant ac wyth ar hugain.

24 Meibion Azmafeth, dau a deugain.

25 Meibion Ciriath-arim, Cepherah, a Beeroth, saith cant a thri a deugain.

26 Meibion Ramah a Gaba, chwe chant ac un ar hugain.

27 Gwŷr Michmas, cant a dau ar hugain.

28 Gwŷr Bethel ac Ai, dau cant a thri ar hugain.

29 Meibion Nebo, deuddeg a deugain.

30 Meibion Magbis, cant ac onid pedwar triugain.

31 Meibion Elam arall, mil dau cant a phedwar ar ddeg a deugain.

32 Meibion Harim, tri chant ac ngain.

33 Meibion Lod, Hadid, ac Ono, saith cant a phump ar hugain.

34 Meibion Jericho, tri chant a phump a deugain.

35 Meibion Senaah, tair mil a chwe chant a deg ar hugain.

36 ¶ Yr offeiriaid: meibion Jedaiab, o dŷ Jesua, naw cant deg a thriugain a thri.

37 Meibion Immer, mil a deuddeg a deugain.

38 Meibion Pasur, mil dau cant a saith a deugain.

39 Meibion Harim, mil a dau ar bymtheg.

40 ¶ Y Lefiaid: meibion Jesua a Chadmiel, o feibion Hodafiah, pedwar ar ddeg a thriugain.

41 ¶ Y cantoriaid: meibion Asaph, cant ac wyth ar hugain.

42 ¶ Meibion y porthorion: sef meibion Salum, meibion Ater, meib-

mae y gair *meibion* yn cael ei roddi yn y daflen hon o flaen enw *dyn*, y mae yn arwyddo *hiliogaeth* y dyn hwnw, megys o'r adnod hon hyd adn. 20; a phan y ceir ef o flaen enw *Ue* neu *ddinas*, y mae yn arwyddo *trigolion* y lle hwnw, megys o adn. 21 hyd adn. 35. Y mae llawer o anhawsderau yn y daflen hon o enwau; ond trwy fod genym dri ailun o honi, — sef yr un yn y bennod hon, a'r ail yn Neh. vii. 6—69, a'r trydydd yn 1 Esdras v. 7, &c., — ceir, wrth chwilio yn fanwl, eu bod yn diwygio eu gilydd. Y mae y cyfieithiadau hefyd, ac vsgriflyfrau Kennicott a De Rossi, yn gwneyd llawer tuag at gysoni yr enwau. Er fod y cyfanswm yn niwedd pob un o'r cyfrifon hyn yn gyfartal, sef 42,360; eto ni wnant, o'u rhifo bob yn un, ond 29,818 yn Ezra, a 31,089 yn Nehemiah. Cawn fod Nehemiah yn enwi 1765 o bersonau nad ydynt yn Ezra, ac Ezra yn enwi 494 na chrybwyllir am danynt gan Nehemiah. Tybia Mr. Altling mai yr amgylehiad hwn, yr hwn a ymddengys fel yn gwneuthur eu cysoniad yn annichonadwy, yw yr unig beth a all eu cysoni; canys os bydd i ni chwaneugu gweddillrif Ezra at gyfanswm Nehemiah, a gweddillrif Nehemiah at gyfanswm Ezra, bydd y nifer yn gyfartal. Fel hyn:

Y cyfanswm yn Ezra..... 29,818
Y gweddillrif yn Nehemiah..... 1,765

 Oll yn cyraedd i..... 31,583
Y cyfanswm yn Nehemiah..... 31,089
Y gweddillrif yn Ezra..... 494

 Oll yn cyraedd i..... 31,583
Os bydd i ni dynu y swm hwn 31,583, fel y sylwa Clarke, allan o 42,360, yr hyn oedd nifer yr holl dyfua, adn. 64, ni a gawn fod y rhai a rifir yn y testyn yn llai o 10,777 nag y dywedir eu bod: telly rhaid fod y 10,777 hynny heb gael eu henwi yn y daflen hon, naill ai am nad oedd eu hachau ar gael, neu ynte am nad oeddynt o *Juda* a *Benjamin*, y rhai a enwid yn fwyaf neillduol, eithr o rywlywthan Israelaidd ereill: gwel ar 1 Cron. ix. 3, Neh. vii. 7, &c.

Adn. 36—39. *Yr offeiriaid* O'r 24 dosbarth a osodwyd gan Dafydd, 1 Cron. xxiv. 7, &c., ni ddychweledd ond *pedwar* o honynt, trwy fod y lleill wedi eu colli, neu yn aros ar ol. Eto yr oedd y pedwar dosbarth hyn yn cynwys 4289 o offeiriaid, y rhai a ranwyd yn 24 o ddosbarthiadau yn ol yr hen drefn.

Adn. 40—42. *Y Lefiaid* Yn cynwys y

ion Talmon, meibion Accub, meibion Hatita, meibion Sobai, *oedd* oll gaut ac onid un deugain.

43 ¶ Y Nethiniaid: meibion Siba, meibion Hasupha, meibion Tabbaoth,

44 Meibion Ceros, meibion Siaha, meibion Padon,

45 Meibion Lebanah, meibion Hagabah, meibion Accub,

46 Meibion Hagab, meibion Samlai, meibion Hanan,

47 Meibion Gidel, meibion Gahar, meibion Reaiah,

48 Meibion Resin, meibion Necoda, meibion Gazzam,

49 Meibion Uzza, meibion Paseah, meibion Besai,

50 Meibion Asnah, meibion Mehanim, meibion Nephusim,

51 Meibion Bacbuc, meibion Haenpha, meibion Harhur,

52 Meibion Basluth, meibion Mehida, meibion Harsa,

53 Meibion Barcos, meibion Siscara, meibion Thamah,

54 Meibion Nesiah, meibion Hattipha,

55 ¶ Meibion gweision Solomon: meibion Sotai, meibion Sophereth, meibion Pheruda,

56 Meibion Jaalah, meibion Darccon, meibion Gidel,

57 Meibion Septhiah, meibion Hattil, meibion Pochereth o Sebaim, meibion Ami.

58 Yr holl Nethiniaid, a meibion gweision Solomon, *oedd* dri chant deuddeg a phedwar ugain.

59 A'r rhai hyn a aethant i fyny o Tal-melah, Tal-harsa, Cerub, Adan, ac Immer: ond ni fedrent ddangos tŷ eu tadau, na'u hiliogaeth, ai o Israel *yr oedd* ynt:

60 Meibion Delaiah, meibion Tobiah, meibion Necoda, chwe chant a deuddeg a deugain.

61 ¶ A meibion yr offeiriaid: meibion Habaiiah, meibion Cos, meibion Barzilai; (yr hwn a gymerasai wraig o ferched Barzilai y Gileadiad, ac a alwasid ar eu henw hwynt.)

62 Y rhai hyn a geisiasant eu hysgrifen *yn mhllith* yr achau, ond ni chafwyd hwynt: am hyny y bwrwyd hwynt allan o'r offeiriadaeth.

63 A'r Tirsatha a ddywedodd wrthynt, na fwytäent o'r pethau santeiddiaf, hyd oni chyfodai offeiriad äg Urim ac ä Thurmmim.

64 ¶ Yr holl dyrfa yn nghyd,

cantorion a'r porthorion. Nid oedd nifer y rhai hyn oll ddim ond 341, tra yr oedd ynt yn amser Dafydd yn 38,000, 1 Cron. xxiii. 3. Nid oedd eu rhif ond bychan iawn wrth ei gydmaru ä rhif yr offeiriaid dychweledig. Trwy nad oedd gwaith iddynt yn eu swyddau eu hunain yn Babilon, gellir meddwl i'r rhan fwyaf o'r Lefaiid droi at ryw orchwyllion byd-ol; ac yn awr ni fynt adael y rhai hyny, a myned i weini i'r offeiriaid yn nghyftwr anghyfanedd presenol Juda a Jerusalem.

Adn. 43—54. *Y Nethiniaid*] Meddylir yn gyffredin mai hiliogaeth yr hen Gibeoniaid oedd y rhai hyn, y rhai a roddesid yn weision cyffredin i gynulleidfa Israel: gwel ar Jos. ix. 23—27, 1 Cron. ix. 2.

Adn. 55—58. *Meibion gweision Solomon*] Y rhai a fuasant yn byw yn nheulu Solomon, ac, ar ol ei farwolaeth ef, a'u galwent eu hunain a'u teuluoedd ar yr enw hwn, gan ei chyfrif yn anrhydedd mawr iddynt fod yn weision i frenin mor enwog. Ond tybia rhai mai gweddillion yr hen Ganaanaiid a adewsid yn Nghanaan gan Solomon a feddylir, y rhai, yn nghyda'u meibion o oes i oes, oedd ynt brosel-ytiaid i'r grefydd Iuddegig, ac a gaethglud-cesid gyda'r Iuddeuon i Babilon, ac a oedd ynt yn awr yn dychwelyd i Ganaan eilwaith.

Adn. 59, 60. *A'r rhai hyn*] A enwir isod, nid y Nethiniaid; a *aethant i fyny o Tel*

melah, &c.—dinasoedd yn Caldea, lle yr oedd ynt yn cartrefu hyd yn awr. *Ond ni fedrent ddangos tŷ eu tadau*—yr oedd ynt wedi colli eu cofrestr achawl, fel nad allent olrhain eu henafiaid ddim pellach yn ol na'u tadau un-iongyrchol, na phrofi i ba ddinas y perthynent, neu a oedd ynt mewn gwirionedd yn Israeliaid.

Adn. 61, 62. *A meibion yr offeiriaid*] Ni fedrai y rhai hyn brofi eu bod o'r offeiriaid, er eu bod yn cael eu galw yn feibion neu hiliogaeth yr offeiriaid. *Meibion Barzilai*—yr hwn a gafodd ei enw oddiwrth Barsilai y Gileadiad: gwel ar 2 Sam. xvii. 27, a xix. 31—39. Cymerodd yr offeiriad hwn wraig o ferched neu hiliogaeth yr hen Barsilai y Gileadiad, yr hwn oedd wr enwog iawn yn amser Dafydd; a barnodd yn fwy o anrhydedd iddo ymgyfenwi ar enw henafid ei wraig, a galw ei feibion felly, na bod yn offeiriad i Dduw. Ymddengys iddo ddibrisio yr offeiriadaeth gymaint pan yr ymgyfenwodd ar enw Barsilai, fel na chymerodd ddim gofal i gadw ei gofrestr achawl; ac yn awr, o herwydd y difalwch hwnw, gwrthodwyd ei feibion ef, adn. 62. Os yn Babilon y trödd efe ei enw, fe allai iddo foddwl na ddeuai byth achos iddo ef na'i feibion brofi eu hachau fel offeiriad.

Adn. 63. *A'r Tirsatha*] Ymddengys mai enw swyddog neu raglaw y brenin oedd *Tir-*

oedd ddwy fil a deugain tri chant a thriugain :

65 Heblaw eu gweision a'u morwynion; y rhai hyny oedd saith mil tri chant a dau ar bymtheg ar hugain: ac yn eu mysg yr oedd dau cant yn gantorion ac yn gantoresau.

66 Eu meirch oedd saith cant ac onid pedwar deugain; eu mulod yn ddau cant ac yn bump a deugain;

67 Eu camelod yn bodwar cant ac yn bymtheg ar hugain; eu hasynod yn chwe mil saith cant ac ugain.

68 ¶ Ac o'r penau cenedl pan ddaethant i dŷ yr Arglwydd, yr hwn oedd yn Jerusalem, rhai a offrymasant o'u gwaith eu hun tuag at dŷ yr Arglwydd, i'w gyfodi yn ei le.

satha, ac mai Zorobabel a feddylir yma; canys gelwir Nehemiah felly ar ol hyn, Neh. viii. 9, a x. 1. Y mae y Syriaeg a'r Arabaeg yn ei ddarllen. 'A thyrwysogion Juda a ddywedasant.' *Nā fuytiant o'r pethau sant-eiddiaf*—megys y bara gosod, a'r rhanau hyny o'r ebyrth a berthynent yn unig i'r offeiriad; *hyd oni chufodai offeiriad ág Urim a Thummim*—i ymofyn â'r Arglwydd trwy y cyfryngau hyny, pa un a oedd y dynion uchod yn offeiriad mewn gwirionedd, ai nid oeddynt. Yr oedd ganddynt archoffeiriad y pryd hyn, ond ni feddai ef yr *Urim a'r Thummim*, trwy eu bod wedi eu colli, fel y dywed yr Iuddeuon, yn amser y caethgludiad. Am yr *Urim a'r Thummim*, gwel y sylwadau ar Exod. xxviii. 30, a'r adfeddyliadau yn niwedd y benod hono.

Adn. 64. *Yr holl dyrfa yn nghyd*] Y rhai a ddaethant y pryd hyn o Babilon; *oedd ddwy fil a deugain a thri chant a thriugain*—rhwyg y rhai ni allent ddangos eu rhachau, a'r Israeliaid perthynol i'r deg llwyth, y rhai a ddaethant i Jerusalem y pryd hyn gyda'u brodyr Juda a Benjamin: gwel ar adn. 3—35.

Adn. 65. *Heblaw eu gweision a'u morwynion*] Y rhai ni roddwyd yn y cyfrif uchod; *ac yn eu mysg yr oedd dau cant yn gantorion ac yn gantoresau*—trwy ddarfod crybwyll eisioes am y cantorion o lwyth Lefi, adn. 41, tybia rhai nad cantorion i'r deml oedd y rhai hyn, eithr rhai i ganu ar hyd y ffordd o Babilon i Jerusalem, i sirïoli a bywiogi y dyrfa ar eu taith tuag adref: ac onid oes cyfeiriad at hyn mewn amrai ranau o'r ysgrhythr? gwel Essay xxxv. 10, a lv. 12.

Adn. 66, 67. *Eu meirch—eu mulod, &c.*] Aethant i gaethiwed wedi eu dyosg o bob peth; y maent yn awr yn dychwelyd yn llawn o bob golud; 736 o feirch, neu, yn ol Esdras, 7036; mulod, 245; camelod, 435; asynod, 6720; heblaw aur ac arian, a thrysorau gwerthfawr ereil.

Adn. 68. *Ac o'r penau cenedl*] Sef y rhai penaf a chyfoethocaf o'r dyrfa uchod; *pan ddaethant i dŷ yr Arglwydd*—i'r fan lle y

69 Rhoddasant yn ol eu gallu i drysordy y gwaith, yn fil a thriugain o ddrachmonar aur, a phum mil o bunnoedd o arian, a chant o wisgoedd offeiriad.

70 Yna yr offeiriad a'r Lefiaid, a rhai o'r bobl, a'r cantorion, a'r porthorion, a'r Nethiniaid, a drigasant yn eu dinasoedd; a holl Israel yn eu dinasoedd.

PENNOD III.

A PHAN ddaeth y seithfed mis, a meibion Israel yn eu dinasoedd, y bobl a ymgasglasant i Jerusalem megys un gŵr.

2 Yna y cyfododd Jesua mab Jo-

buasai y deml, a lle yr oedd ei hadfeilion o hyd yn aros; *rhai a offrymasant o'u gwaith eu hun*—neu o'u gwirfodd eu hun, yn chwanelog at yr offrymau ewyllysgar a ddygasent o Babilon.

Adn. 69. *Rhoddasant yn ol eu gallu*] Rhai fwy, a rhai lai, yn ol fel yr oedd modd ganddynt. Dengys hyn nad oeddynt yn gaethweision hollol yn Babilon, ond fod ganddynt ryddid i fasnachu ac elwa iddynt eu hunain; ac yr oedd rhai o honynt mewn swyddau uchel yn llys y brenin. *Un fil a thriugain o drachmonau aur*—neu driugain ac un o filoedd. Dywed Clarke mai deryn Persiaidd oedd hwn, gwerth oddeutu £1 5s.; ac felly yr oedd 61,000 o honynt yn cyraedd i £76,250 o'n harian ni. *A phum mil o bunnoedd o arian*—dywed Clarke fod y maneh neu y mina a gyfieithir yma yn *bunt*, yn werth oddeutu £9; ac felly yr oedd 5000 o honynt yn cyraedd i £45,000; yn gwneuthur gyda'u gilydd oddeutu £121,250 o'n harian ni. Y rheswm fod cymaint o wahaniaeth barn yn nllith esbonwyr o berthynas i werth y *drachmon a'r mina* yw, fod eu pwsau, ac o ganlyniad eu prisiau, yn amrywio mewn gwahanol wledydd, ac yn yr un wlad ar wahanol amserau, megys cyn ac wedi amser Alexander. Yr oedd *drachmon* Alexandria gymaint a dwy o eiddo y Groegiaid. *A chant o wisgoedd offeiriad*—y rhai yr oedd yn angenrheidiol iddynt eu gwisgo wrth weinyddu. Sonir am lawer yn chwanelog yn Neh. vii, 70, 72; ond dichen mai wedi hyn y rhoddwyd y rhai hyny, neu lawer o honynt.

Adn. 70. *A drigasant yn eu dinasoedd*] Lle y trigasai gwahanol lwythau a theuluoedd eu henafliaid cyn eu myned i gaethiwed.

PEN. III. Adn. 1. *A phan ddaeth y seithfed mis*] Neu pan oedd y mis hwnw ar ddyfod, canys yr oedd yr allor wedi ei hadeiladu ganddynt cyn i'r mis hwnw ddechreu, adn. 6. Tybia rhai iddynt gychwyn o Babilon ddechreu yr haf, a'u bod bedwar mis ar eu taith; canys bu Ezra a'i gwmni cyhyd a hyny ar eu taith, pen vii. 9; ac felly dechreuodd *Tisri*, yn cyf-

sadae, a'i frodyr yr offeiriaid, a Zorobabel mab Salathiel, a'i frodyr, ac a adeiladasant allor Duw Israel, i offrymu arni offrymu poeth, fel yr ysgrifenasid yn nghyfraith Moses gwŵr Duw.

3 A hwy a osodasnt yr allor ar ei hystolion, (canys yr oedd arnynt ofn pobl y wlad,) ac a offrymasant arni boeth-offrymau i'r Arglwydd, poeth-offrymau bore a hwyr.

4 Cadwasant hefyd wyl y pebyll, fel y mae yn ysgrifenedig, ac a offrymasant boeth-aberth beunydd dan rifedi, yn ol y ddefod, dogn dydd yn ei ddydd;

5 Ac wedi hyny y poeth-offrwm gwastadol, ac offrwm y newydd-loerau, a holl santiaid osodedig wyliau yr Arglwydd, offrwm ewyll-

ateb i ddiwedd ein *Medi* ni, yn fuan ar ol iddynt gyraedd i Jerusalem. Ond gellir meddwl oddiwrth yr adnod hon a'r un flaenorol, eu bod wedi dyfod i Judea yn mhell cyn hyn, ac iddynt fod yn trigo yn eu dinasoced yn y wlad am ryw enyd i'w hadgyweirio, ac mai oddiyno y daethant yn awr i adeiladu yr allor yn Jerusalem.

Adn. 2. *Yna y cyfododd Jesua mab Josadac*] Yr oedd Jesua, neu Josua, yn wŵr i Seraiah yr archoffeiriad, yr hwn a laddwyd gan Nebuchodonosor, 2 Bren. xxv. 18, 21; ac efe oedd yr archoffeiriad cyntaf ar ol y caethiwed; a'i frodyr yr offeiriaid—sef yr offeiriaid cyffredin dano ef; a Zorobabel mab Salathiel—neu ei wŵr ef; canys mab Pedaiah, a llefaru yn briodol, oedd efe; ac a adeiladasant allor Duw Israel—sef allor y poeth-offrwm, yr hon oedd at wasanaeth ac addoliad Duw Israel. Yr oedd mwy o angen am hon yn awr nag am y deml, fel y gallent wneyd cymod dros eu pechodau, a chael cymhorth a bendith Duw i adeiladu y deml, ac i gadarnhau eu calonau a'u dwylaw eu hunain yn y gwaith mawr hwnw.

Adn. 3. *A hwy a osodasnt yr allor ar ei hystolion*] Hyny yw, gorphenasant ei chodi, a hyny ond odid yn y fan lle y safai yr hen allor; canys yr oedd arnynt ofn pobl y wlad—am hyny brysiasant i godi yr allor, ac i offrymu arni, gan obeithio y byddai i'r Arglwydd trwy hyny eu hamddiffyn hwy rhag pobl y wlad; neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'codasnt yr allor er fod arnynt ofn pobl y wlad;' hyny yw, ni ddarfu i'r ofn hwnw eu lluddias hwy. Pobl y wlad hōno yn awr oedd hiliogaeth y cenbedloedd hyny a ddygasai brenin Assyria i ddinasoedd Samaria, 2 Bren. xvii. 24. *Poeth-offrymau bore a hwyr*—gwel ar Exod. xxix. 38—42.

Adn. 4. *Cadwasant hefyd wyl y pebyll*] Yr hon a ddechreuai yn ol y gyfraith ar y 15fed dydd o'r mis hwn, ac a barhâi saith

ysgar pob un a offrymai o hono ei hun, a offrymasant i'r Arglwydd.

6 O'r dydd cyntaf i'r seithfed mis y dechreuasant offrymu poeth-offrymau i'r Arglwydd. Ond teml yr Arglwydd ni sylfaenesid eto.

7 Rhoddasant hefyd arian i'r seiri maen, ac i'r seiri pren; a bwyd, a diod, ac olew i'r Sidoniaid, ac i'r Tyriaid, am ddwyn coed cedr o Libanus hyd y môr i Joppa: yn ol caniatâd Cyrus brenin Persia iddynt hwy.

8 ¶ Ac yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfod hwy i dŷ Dduw i Jerusalem, yn yr ail mis, y dechrenodd Zorobabel mab Salathiel, a Jesua mab Josadac, a'r rhan arall o'u brodyr hwynt yr offeiriaid a'r Lefiaid, a'r rhai oll a ddaethai o'r caethiwed

niwrnod: gwel ar Lef. xxiii. 34—42, a Num. xxix. 12—38.

Adn. 5. *Ac wedi hyny y poeth-offrwm gwastadol*] Er fod ganddynt boeth-cbyrth ereill bob dydd o wyl y pebyll, nid oeddnt yn esgeuluso y poeth-offrwm boreol a hwyr, adn. 3, yr hwn a offrymid o flaen y lleill. *Ac offrwm y newydd-loerau*—neu y dydd cyntaf o bob mis, Num. xxviii. 11—15. *A holl santiaid osodedig wyliau yr Arglwydd*—pob gwyl arall a osodasai efe er anrhydedd i'w enw, megys gwyl y cymod, yr hon a gynleidi ar y 10fed o'r mis hwn: gwel ar Lef. xxiii. 27, &c. *Offrwm ewyllysgar pob un*—yr oedd y gyfraith yn gofyn llawer o offrymu, ond yr oeddnt hwy yn dwyn mwy; canys er nad oedd ganddynt ond ychydig o gyfoeth, yr oedd ganddynt lawer o sel. Dedwydd yw y rhai a ddygant gyda hwy o ffwrn cystudd y fath wres santiaid a hwn!

Adn. 6. *O'r dydd cyntaf i'r seithfed mis y dechreuasant offrymu*] Yr hwn ydoedd nid yn unig yn ddydd newydd-loer, fel y cyntaf o bob mis arall, ond hefyd yn ddydd o uchel-wyl arbenig, sef 'coffadwriaeth caniad udgyrn:' gwel ar Lef. xxiii. 24, 25. *Und teml yr Arglwydd ni sylfaenesid eto*—trwy nad oeddnt eto wedi cael amser i ddim ond adeiladu yr allor, ac offrymu arni yr holl aberthau ag oeddnt yn ofynol y mis hwn.

Adn. 7. *Rhoddasant hefyd arian i'r seiri maen, &c.*] I brynu meini a choed at waith y deml, neu yn gyfflog iddynt am eu gwaith. *A bwyd, a diod, ac olew i'r Sidoniaid, &c.*—felly yr oeddnt yn dilyn yn gywir drefn Solomon wrth adeiladu y deml gyntaf, 1 Bren. v. 9—11. *Yn ol caniatâd Cyrus*—canys yr oedd Tyrus a Sidon dan ei lywodraeth ef yn awr, yr gystal a Judea.

Adn. 8. *Ac yn yr ail flwyddyn—yn yr ail mis*] Yr hyn oedd yn mhyn saith mis ar ol codi yr allor yn Jerusalem, adn. 6: cymerwyd cymaint a hyny o amser iddynt i barotai y tir

i Jerusalem; ac a osodasant y Lefiaid, o fab ugein-mlwydd ac uchod, yn olygwyr ar waith tŷ yr Arglwydd.

9 Yna y safodd Jesua, a'i feibion a'i frodyr, Cadmiel a'i feibion, meibion Judah yn gytun, i oruchwylio ar weithwyr y gwaith yn nhŷ Dduw: meibion Henadad, a'u meibion hwythau a'u brodyr y Lefiaid.

10 A phan oedd y seiri yn sylfaenu teml yr Arglwydd, hwy a osodasant yr offeiriad yn eu gwisgoedd âg udgyrn, a'r Lefiaid meibion Asaph â symbalau, i foliannu yr Ar-

glwydd, yn ol ordinhad Dafydd brenin Israel.

11 A hwy a gydganasant, wrth foliannu ac wrth glodfori yr Arglwydd, mai da oedd, mai yn dragywydd yr ydoedd ei drugaredd ef ar Israel. A'r holl bobl a bloedd fawr, gan foliannu yr Arglwydd, am sylfaenu tŷ yr Arglwydd.

12 Ond llawer o'r offeiriad a'r Lefiaid, a'r penau cenedl, y rhai oedd hen, ac a welsent y tŷ cyntaf, wrth sylfaenu y tŷ hwn yn eu golwg, a wylasant â llef uchel; a llawer

a'r defnyddiau, cyn dechreu sylfaenu. *Y dechreuodd Zorobabel—a Jesua—y cyntaf yn dywysog gwladol, a'r ail yn archeffiriad eglwysig; a'r rhan arall o'u brodyr—yn weinidogion a phobl. Fel hyn y mae gwaith yr Arglwydd yn debyg o fyned yn mlaen yn dda, pan y mae yr ynadon, y gweinidogion, a'r bobl, yn dwyn sel drosto, ac yn gwneyd en rhan i'w ddwyn yn mlaen. Ac a osodasant y Lefiaid o fab ugain mlwydd ac uchod—gwel ar l Cron. xxxiii. 24; yn olygwyr ar waith tŷ yr Arglwydd—i osod y gweithwyr ar waith, i'w cyfarwyddo pa beth i'w wneyd, ac i'w cadw yn ddyfal wrth eu gwaith.*

Adn. 9. *Yna y safodd Jesua a'i feibion* Nid yr archeffiriad, adn. 8, eithr un o'r Lefiaid, a grybwyllwyd pen. ii. 40; *meibion Judah*—nid meibion o lwyth Judah, canys Lefiaid oedd y goruchwylywr hyn; eithr meibion Hodafnia, neu Hodefah, Neh. vii. 43; *yn gytun*—hyny yw, yr oedd y teuluoedd hyn fel un gwŷr yn goruchwylio y gweithwyr.

Adn. 10. *A phan oedd y seiri yn sylfaenu* Sef yn gosod i lawr y sylfaen, neu faen cyntaf yr adeilad; *hwy a osodasant yr offeiriad yn eu gwisgoedd âg udgyrn*—y rhai a benodwyd gan Moses; *a'r Lefiaid meibion Asaph â symbalau*—y rhai a benodwyd gan Dafydd; *i foliannu yr Arglwydd*—nid er gwag-ddiffrwch, ond i foliannu yr Arglwydd mewn gwirionedd, am iddo eu dwyn o gaethiwedd Babilon, ac am gael dechreu adeiladu ei deml santiaidd ef; *yn ol ordinhad Dafydd*—gwel ar l Cron. xv. 16, a xxv. 1, &c.

Adn. 11. *A hwy a gydganasant* Saes., 'a gydganasant bob yn ail'; hyny yw, un dosbarth yn canu, a'r dosbarth arall yn tewi; neu, yr oeddynt yn ateb eu gilydd bob yn ail. *Mai da oedd*—yr Arglwydd yn ei natur a'i weithredoedd; *mai yn dragywydd yr ydoedd ei drugaredd ef ar Israel*—gwel ar 2 Cron. vi. 13. Trwy fod y geiriau hyn yn diweddu pob adnod yn Salm cxxxvi, meddylia rhai mai y Salm hōno a genid ganddynt ar yr achlysur hwn, a'r cerddorion yn chwareu yr un dōn a hwy ar eu hoffer cerdd. *A'r holl bobl a floeddiasant â bloedd fawr*—o foliant i'r Arglwydd, gan ymuno ond odid â'r cydgor yn niwedd pob pennill. Nis gallent ganu caniad-

au Seion yn Babilon, am fod eu telynau yn nghrog ar yr helyg, ac yn anngywair eu tannau; ond yn awr yr oeddynt wedi dwyn eu telynau gyda hwy i Jerusalem, y rhai oeddynt mewn perffaith gywair ar y dydd gorfoleddus hwn, yn ol profwyddoliaeth Jeremiah, pen. xxxiii. 10, 11.

Adn. 12. *Ond llawer o'r offeiriad—y rhai oedd hen* O 60 i 80 mlwydd oed; *ac a welsent y tŷ cyntaf*—gallai y rhai hyny oll gofio gwel y deml gyntaf yn ei gwycher a'i gogoniant; canys nid oedd dros 52 o flynydd-odd er y caethgludiad olaf i Babilon, pryd y llosgwyd hi. Dyldid cofio fod y 70 mlynedd o gaethiwed i'w cyfrif o ddechre y caethgludiad yn y 4edd flwyddyn i'r brenin Joacim, (yr hyn oedd oddeutu 18 mlynedd cyn gorpheniad y caethgludiad a dinstyr y deml,) hyd y flwyddyn gyntaf i Cyrus; neu ynte o losgiad y deml a gorpheniad y caethgludiad, hyd y bedwaredd flwyddyn i Darius, pryd y gorphenwyd yr adferiad o Babilon: gwel y rhag-arweiniad i'r llyfr hwn, a'r sylwadau ar 2 Bren. xxv. 13, &c. *A wylasant â llef uchel*—wrth gofio gwychder a dinstyr y tŷ cyntaf, a meddwl nad allai yr ail dŷ hwn fod yn debyg iddo mewn gogoniant, ac na chaent hwy fyw i weled ei orphen. Diamau fod yr ail deml gymaint a'r gyntaf, fel y gallent weled oddiwrth eu sylfaeni; a dywed rhai ei bod yn llawer mwy: ond hyn a barai i'r lien bobl wŷlo, meddwl na byddai yr ail dŷ mor odidog a'r cyntaf, o ran defnyddiau, gwaith, ac addurniadau. Yr oedd y cyntaf wedi ei adeiladu gan y brenin doethaf a chyfoethocaf, a'i addurno yn barhaus gan ei olynwyr ef; tra yr oedd hwn i gael ei adeiladu gan ychydig o alltudion ag oeddynt newydd ddychwelyd o'u caethiwed: codwyd hwnw mewn amser o heddwch, llwyddiant, a chyfoethogrwydd mawr; a hwn mewn amser o drallod a chyfyngder cyffredinol. Ond yr hyn oedd yn eu blino hwy fywaf oedd, meddwl fod rhai o ddodrefn gogoneddusaf y deml gyntaf wedi eu colli am byth. Dywed yr Iudewon fod pump o bethau yn eisiau yn yr ail deml, y rhai a geid yn y gyntaf; sef arch y cyffammod a'r drugareddfa; y tân santiaid ar allor y poeth-offrwm; yr Urim a'r Thummim; ysbryd profwyddoliaeth; a'r Secina, neu y pre-

oedd yn dyrchafu llef mewn bloedd gorfoledd:

13 Fel nad oedd y bobl yn adnabod sain bloedd y llawenydd oddiw'rth sain wylofain y bobl: canys y bobl oedd yn bloeddio â bloedd fawr, a'r sw'n a glywid yn mhell.

PENNOD IV.

YNA gwrthwynebwy'r Judah a Benjamin a glywsant fod meibion y gaethglud yn adeiladu y deml i Arglywydd Dduw Israel;

2 Ac a ddaethant at Zorobabel, ac at y penau cenedl, ac a ddywedasant wrthynt, Adeiladwn gyda

chwi: canys fel chwithau y ceisiwn eich Duw chwi; ac iddo ef yr ydym ni yn aberthu, er dyddiau Esar-hadon brenin Assyria, yr hwn a'u dyg ni i fyny yma.

3 Eithr dywedodd Zorobabel a Jesua, a'r rhan arall o benau cenedl Israel, wrthynt, Nid yw i chwi ac i ninau adeiladu tŷ i'n Duw ni; eithr nyni a gyd-adeiladwn i Arglywydd Dduw Israel, megys y'n gorchymnodd y brenin Cyrus, brenin Persia.

4 A phobl y wlad oedd yn anghysuro pobl Judah, ac yn eu rhwystro hwy i adeiladu.

5 Ac yn cyflogi cynghorwyr yn eu herbyn hwynt i ddi-ddymu eu

senoldeb dwyfol. Yr oedd meddwl am y pethau hyn yn wir achos o alar i'r hen bobl; ac am hyny anfonwyd y proffwyd Haggai i fynegu iddynt y byddai i'r holl ddiffygion hyn gael niwy na'n gwneyd i fyny trwy ddyfodiad y MESSIA, gwir Fab Duw, i'r ail deml: 'Dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw: llanwaf y tŷ hwn belyd â gogoniant.—Bydd mwy gogoniant y tŷ diweddfaf hwn na'r cyntaf, medd Arglywydd y lluoedd,' Hag. ii 3—9. *Allawer oedd yn dyrchafu llef mewn bloedd gorfoledd*—sef y bobl ieuainc, y rhai ni welent y tŷ cyntaf. Clywsant lawer am y tŷ hwnw, ac am aml fendithion a gawsai eu tadau ynddo, a gobeithiant lhywthau gael yr un pethau yn y tŷ hwn ar ol ei orphen; ac am hyny yr oeddynt yn canu ac yn gorfoleddu ar ddydd ei sylfaeniad ef.

Adn. 13. *Fel nad oedd y bobl*] Sef trigolion ceneddig yr ardal oedd oddiangylch; *yn adnabod sain bloedd y llawenydd*—sef eiddo y bobl ieuainc; *oddiw'rth sain wylofain*—yr hen bobl. *Canys y bobl oedd yn bloeddio â bloedd fawr*—rhaf yn wlylo a rhaf yn gorfoleddu ar yr un pryd, fel nas gellid gwybod pwy oedd yn wlylo na phwy oedd yn gorfoleddu, na deall yn iawn, o bell ffordd, pa un ai wlylo ai gorfoleddu yr oeddynt oll gyda'n gilydd! Wrth ystyried mai y bobl ieuainc oeddynt amlaf, a chryfaf eu lleisïau, gellid meddwl mai sw'n eu gorfoledd hwy a glywid bellaf; ond dywed yr Iuddewon mai sw'n wylofain yr hen bobl oedd gryfaf, ac a gyrhaeddai bellaf. Y mae y cymysgedd hwn o dristwch a llawenydd yn arddanghosiad tég o gyflwr pethau yn y byd hwn. Yn y nef, y mae pawb yn gorfoleddu, heb neb yn wlylo; yn uffern, y mae pawb yn wlylo, heb neb yn llawenhau; ond yma, ar y ddaear, nis gallwn braidd 'adnabod bloedd y llawenydd oddiw'rth sain yr wylofain.'

PEN. IV. Adn. 1. *Yna gwrthwynebwy'r Judah a Benjamin*] Sef gweddillion y deg llwyth, a'r dyeithriaid a ddygasai brenin Assyria i drigiannu yn Samaria, y rhai a wnaent rhyngddynt y grefydd gymysgryw hono ag y

darllenwn am dani yn 2 Bren. xvii. 33. *A glywsant fod meibion y gaethglud*—felly y gelwir yr Iuddewon, nid yn unig am iddynt fod gynt yn gaethion yn Babilon, ond am eu bod o hyd dan lywodraeth brenin Persia. Dywed Josephus iddynt glywed sain yr udgyrn ar sylfaeniad y deml, pen. iii. 10. *Yn adeiladu y deml*—eu bod eisioes wedi gosod y sylfaen, ac yn parotoi i fyned â'r gwaith yn nlaen.

Adn. 2. *Adeiladwn gyda chwi*] Cynygient eu gwasanaeth iddynt, fel y gallent gael mantais i chwilio i mewn i'w cynghoran, a chael allan ryw gyhuddiad yn eu herbyn, ac felly ddyrсу ac attal y gwaith; neu ynte fel y gallent, os ai y gwaith yn nlaen, hōni hawl i'r deml, neu i ran o honi, a gosod eu heilunod eu hunain i fyny ynddi. *Canys fel chwithau y ceisiwn eich Duw chwi*—yr oedd hyn yn anwiredd; canys nid oeddynt yn addoli Duw Israel yn unig, fel y gwnei yr Iuddewon, nac yn y ffordd a benodasai efe, ond mewn cysylltiad âg eilunod: gwel ar 2 Bren, xvii. 32—34. *Ac iddo ef yr ydym ni yn aberthu er dyddiau Esar-hadon*—mab Senacherib, a brenin Assyria ar ei ol ef, yr hwn a anfonasai y bobl hyn i Samaria.

Adn. 3. *Nid yw i chwi ac i ninau adeiladu tŷ i'n Duw ni*] Fel pe dywedasant, Nis gallwn adael i chwi fod yn gyfranog â ni yn y gwaith santiaidd hwn, trwy eich bod o genedl arall, ac yn addoli duwiau ereill yn gystal a Jehofa; *eithr nyni*—ein hunain, gwyr Judah a Benjamin; *a gyd-adeiladwn i Arglywydd Dduw Israel*—heb eich cynorthwy chwi, megys y gorchymnodd Cyrus.

Adn. 4. *A phobl y wlad*] Sef y Samariaid, *oedd yn anghysuro pobl Judah*—trwy eu gwawdio, eu bygwth, a cheisio eu rhwystro gyda'u gwaith yn mhob dull a modd.

Adn. 5. *Ac yn cyflogi cynghorwyr*] I ddyllanwadu ar lys brenin Persia, fel y diddymid y gorchymyn a roisai Cyrus i adeiladu y deml; *holl ddyddiau Cyrus*—am oddeutu pedair blynedd; *a hyd deyrnasiad Darius*—mab Hystaspes, yr hyn oedd lawer bliwyddyn ar ol marwolaeth Cyrus, fel y tybia rhai; canys

cynghor hwynt, holl ddyddiau Cyrus brenin Persia, a hyd deyrnasiad Darius brenin Persia.

6 Ac yn nheyrnasiad Ahasferus, yn nechread ei deyrnasiad ef, yr ysgrifenasant ato achwyn yn erbyn trigolion Judah a Jerusalem.

7 ¶ Ac yn nyddiau Artaxerxes yr ysgrifennodd Bislam, Mithridath, Tabeel, a'r rhan arall o'u cyfeillion, at Artaxerxes brenin Persia; ac ysgrifenydd y llythyr a ysgrifenydd yn Syriaeg, ac a eglurwyd yn Syriaeg.

8 Rehum y cofiadur a Simsai yr ysgrifenydd a ysgrifenasant lythyr yn erbyn Jerusalem at Artaxerxes y brenin, fel hyn:

9 Yna yr ysgrifennodd Rehum y cofiadur, a Simsai yr ysgrifenydd, a'r rhan arall o'u cyfeillion, y Dinaiaid, yr Apharsathchiaid, y Tarpel-

iaid, yr Apharsiaid, yr Archefiaid, y Babiloniaid, y Susanchiaid, y Dehafiaid, yr Elamiaid,

10 A'r rhan arall o'r bobl y rhai a ddyg Asnappar mawr ac enwog, ac a osododd efe yn ninasoedd Samaria, a'r rhan arall tu yma i'r afon, a'r amser a'r amser.

11 ¶ Dyma ystyr y llythyr a fonasant ato ef, sef at Artaxerxes y brenin; Dy wasanaethwyr o'r tu yma i'r afon, a'r amser a'r amser.

12 ¶ Bid hysbys i'r brenin, fod yr Iuddewon a ddaethant i fyny oddi-wrthyt ti atom ni, wedi dyfod i Jerusalem, ac yn adeiladu y ddinas wrthryfelgar ddrygionus, a'r muriau a sylfaenasant hwy, ac a gydwniasant y sylfaenau.

13 Yn awr bydded hysbys i'r brenin, os adeiledir y ddinas hon, a

bu Cambyses yn teyrnasu rhwng Cyrus a Darius.

Adn. 6. *Ac yn nheyrnasiad Ahasferus*] Tybia Clarke mai hwn oedd yr un a elwid *Cambyses* gan y Groegiaid. Bu ef yn teyrnasu saith mlynedd a phum mis; ac yn ystod yr holl amser hwnw cafodd adeiladiad y deml ei rwystro yn fawr.

Adn. 7. *Ac yn nyddiau Artaxerxes*] Dywed rhai fod *Xerxes* ac *Artaxerxes* yn enwan a gymerid gan frenhinoedd Persia ar ol dyddiau Cyrus Fawr, pa beth bynag oedd eu henwau o'r blaen; a bod *Cambyses*, *Ahasferus*, ac *Artaxerxes* yn dynodi yma yr un gwŷr; yn un enw Persiaidd, yr ail yn enw Caldeiaidd, a'r trydydd yn enw brenhinol. Tybia ereill mai *Smerdis*, brawd hōnedig *Cambyses* oedd yr *Artaxerxes* hwn, ac iddo fod yn teyrnasu ar ol Cambyses, ac o flaen Darius. Yr *ysgrifennodd Bislam*, &c.—rhyw swyddogion dan frenin Persia yn Samaria. *Ac ysgrifenydd y llythyr a ysgrifenydd yn Syriaeg*—sef mewn llythyr enau Syriaeg, nid Hebraeg; ac a eglurwyd yn Syriaeg—hyn yw, *iaith* y llythyr, yn gystal a'i *lythyrenau*, oedd y Syriaeg, neu y Syro-Galdeaeg.

Adn. 8. *Rehum y cofiadur*] Saes., 'y canghellwyr; a *Simsai* yr ysgrifenydd—dywed yr Iuddewon mai mab i Haman oedd hwn; a *ysgrifenasant lythyr*—sef yr un a grybwyllwyd adn. 7, yn cynwys achwynion yn erbyn trigolion Jerusalem, fel y gwelwn yn adn. 11—16.

Adn. 9. *A'r rhan arall o'u cyfeillion*] Sef penaethiaid y naw cenedl a enwir yma, y rhai a ddygasai brenin Assyria gynt i Samaria a'i hamgylchoedd. Rhoddodd y rhai hyn eu henwau wrth y llythyr a ysgrifenydd gan Rehum a Simsai yn erbyn yr Iuddewon.

Adn. 10. *Asnappar mawr ac enwog*] Tybia rhai mai *Esar-hadon* oedd hwn, ac ereill mai *Salmaneser*; ond y mae yn debycach mai rhyw

swyddog milwraidd enwog ydoedd, yr hwn a benodasid i arwain y bobl i ddinasoedd Samaria. *A'r rhan arall tu yma i'r afon*—sef o dn y gorllewin i afon Euphrates; *a'r amser a'r amser*—meddylir yn gyffredin fod llyn yn cyfeirio at ddyddiad neu amseriad y llythyr; tra y tybia rhai fod y wreiddiol, *ucheeneth*, yn cyfeirio at enw lle: gwel ar adn. 17.

Adn. 11. *Dyma ystyr y llythyr*] Ceir ei gynwysiad ef o ddiwedd yr adnod hon hyd ddiwedd adn. 16. Y mae yn debyg i Ezra gael hyd i'r llythyr gwreiddiol yn Babilon, ac iddo ysgrifenu allan o hono dan gyfarwyddyd Ysbyrd Duw, i'w roddi yn yr ysgythyrr santaidd.

Adn. 12. *Ac yn adeiladu y ddinas wrthryfelgar ddrygionus*] Felly y galwant Jerusalem, am i'w thrigolion gynt wrthsefyll brenhinoedd Assyria a Babilon; *a'r muriau a sylfaenasant hwy*—neu a godasant eisioes i gryu uchder; *ac a gydwniasant y sylfaenau*—y maent wedi cydgyssylltu y conglau yn y modd cadarnaf. Yr oedd byn oll yn anwiredd maleisus, i geisio ennill y brenin i rwystro yr Iuddewon yn adeiladiad y deml. Y cwbl a wnaethai gwŷr Juda eto oedd adgyweirio rhai o'r tai i fyw ynddynt, a sylfaenu y deml; eithr am furiau y ddinas, nid oeddny hyd yma wedi cyffwrdd â hwy. Yr oedd y cyhinddwyr hyn yn ddigon cyfrwys i beidio dywedyd gair am y deml, prif wrthldrych en gelyniaeth a'u gwrthwynebiad hwy, yr hon y rhoisai Cyrus orchymyn i'w hadeiladu; ac wrth en cybuddo o adeiladu muriau y ddinas, gobeithient allu eu hattle hwy i adeiladu y deml.

Adn. 13. *Na roddant na tholl*] Oddiar feddiannau; *na theyrngeid*—oddair bersonau; *na threth*—oddair fasnach: *felly y drygi drysor y brenhinoedd*—nid yn unig yn dy amser dy hun, ond hefyd yn amser dy olynwyr i'r orsedd. Awgrymai y Samariaid y byddai yr Iuddewon, ar ol cadarnhau y ddinas,

gorphen ei chaerau, na roddant na tholl, na theyrnged, na threth; felly y drygi drysor y brenhinoedd.

14 Ac yn awr o herwydd ein bod ni yn cael ein cynaliath o lys y brenin, ac nad oedd weddaidd i ni weled gwarth y brenin; am hynny yr anfonasom ac yr hysbysasom i'r brenin,

15 Fel y ceisier yn llyfr historiau dy dadau: a thi a gei yn llyfr yr historiau, ac a elli wybod, fod y ddinas hon yn ddinas wrthryfelgar, niweidiol i frenhinoedd a thaleithiau, a bod yn gwneuthur bradfwriad o fewn hon er ys talm: am hynny y dinstriwyd y ddinas hon.

16 Yr ydym yn hysbysu i'r brenin, os y ddinas hon a adeiledir, a'r muriau a sylfaenir, wrth hynny ni fydd i ti ran o'r tu yma i'r afon.

yn alluog i ymysgwyd odditan iau brenin Persia, ac amddiffyn eu hunain rhag ei fyddinoedd ef; a thybient y byddai y chwedl ddisail hon yn rheswm cryf i beri i'r brenin roddi attaliad dioedi ar eu holl adeiladwaith hwynt.

Adn. 14. *Ac yn awr, o herwydd ein bod ni yn cael ein cynaliath o lys y brenin*] Yn cael swyddau uchel dan y brenin, a chyflogan da am eu gwasanaethu. Eithr arwydda yr Hebraeg, 'o herwydd ein halltŵ a halen y llys;' neu, fel y mae Locke yn ei gyfieithu, 'o herwydd i ni fwyta o halen y brenin.' Yr oedd halen yn cael ei ddefnyddio fel arwydd o *gyffammod dilwgr*; ac ystyrir y rhai a fwytaent fara a halen gyda'u gilydd, fel wedi ymgyffammodi yn dra difrifol. Awgrymai y rhag-rithwyr hyn eu bod yn teimlo eu cydwybod yn rhywm trwy y cyffammod ag oedd rhyngddynt hwy a'u brenin; ac am hynny nad allent hwy, o gydwybod, oddef i ddim fyned yn mlaen ag ydoedd yn debyg o droi allan yn niweidiol i'r brenin.

Adn. 15. *Fel y ceisier yn llyfr historiau dy dadau*] Sef yn y croniclau hanesyddol a gedwid gan frenhinoedd Persia, Assyria, a Caldea, lle y ceid cofnodiadau o wrthryfelgarwch yr Iuddewon cyn eu caethgndiad, am yr hyn, meddent hwy, y dinstriwyd Jerusalem gan Nebuchodonosor.

Adn. 16. *Os y ddinas hon a adeiledir, a'r muriau a sylfaenir*] Yn adn. 12 dywedent fod y muriau wedi eu sylfaenu; ond yma awgrymant eu bod heb eu sylfaenu, yr hyn oedd wirionedd, ac a brofa eu hannghysondeb hwy. *Ni fydd i ti ran o'r tu yma i'r afon*—mynent i frenin Persia gredu, os goddefid i'r Iuddewon adeiladu a chadarnhau eu dinas, y byddai iddynt nid yn unig wrthod talu toll, a theyrnged, a threth iddo ef eu hunain, ond hefyd ghymeryd oddiwrtho yr holl wledydd a safent rhwng Canaan a'r Euphrates, a'u gwneyd yn drethol i frenhinoedd Juda.

17 ¶ *Yna yr anfonodd y brenin air at Rehun y cofiadur, a Simsai yr ysgrifenydd, a'r rhan arall o'u cyfeillion hwynt y rhai a drigent yn Samaria, ac at y lleill o'r tuhwnt i'r afon, Tangufedd, a'r amser a'r amser.*

18 Y llythyr a anfonasoch ataf, a ddarllenwyd yn eglur ger fy mron.

19 A mi a osodais orchymyu, a chafwyd fod y ddinas hon er ys talm yn ymddyrc hafu yn erbyn brenhinoedd, a gwneuthur ynddi anufydd-dod a gwrthryfel.

20 A brenhinoedd cryfion a fu ar Jerusalem, yn llywodraethu ar bawb o'r tuhwnt i'r afon; ac iddynt hwy y rhoddid toll, teyrnged, a threth.

21 Yn awr rhoddwch orchymyn, i beri i'r gwŷr hynny beidio, ac nad

Adn. 17. *Yna yr anfonodd y brenin air*] Fel atebiad i'r llythyr uchod, yr hyn oedd yn anrhydedd mawr i Rehun a'i gyfeillion, ac yn achos o orfoledd iddynt, gan iddynt lwyddo i attal i'r Iuddewon adeiladu y deml am beth amser. *Tangufedd*—dyma rag-gyfarachiad y llythyr brenhinol, yn dymuno pob daioni a dedwyddwch i'r dynion drygionus hynny; *a'r amser a'r amser*—arwydda hyn ddyddiad y llythyr, neu y flwyddyn a'r mis a'r dydd yr ysgrifenydd ef. Yr oedd y rhai hynny wedi eu nodi yn y llythyr gwreiddiol; eithr gadawodd Ezra hwynt allan o'r adysgrif hon, gan roddi y geiriau uchod yn lle yr amseriad.

Adn. 18. *Y llythyr a anfonasoch ataf*] Yn y Syriaeg, neu y Syro-Galdoaeg, adn. 7; *a ddarllenwyd yn eglur ger fy mron*—neu a gyfieithwyd i'r Bersiaeg, yr hon ond odid oedd unig iaith y brenin.

Adn. 19. *A mi a osodais orchymyn*] I chwilio llyfr yr historiau neu y croniclau, adn. 15; *a chafwyd fod y ddinas hon er ys talm yn ymddyrc hafu yn erbyn brenhinoedd*—fel y dywedaisid yn y llythyr, adn. 15. Y mae yn debyg iddynt ganfod yn y croniclau hynny hanes gwrthryfel Hezechial yn erbyn brenin Assyria, 2 Bren. xviii. 7, yn nghydag eiddo un nen ddau o frenhinoedd diweddaf Juda cyn y caethgndiad; ac yr oeddnynt yn ystyried ymdrech yr Iuddewon i gadw neu adennill eu hannbinyiaeth, yr hon a gawsent gan Ddnw, yn anufydd-dod, gwrthryfel, a brad-fwriad.

Adn. 20. *A brenhinoedd cryfion a fu ar Jerusalem*] Megs Dafydd a Solomon, y rhai a grybwyllid yn y llyfr, a'r rhai yr oedd eu llywodraeth yn cyraedd hyd afon Euphrates, 2 Sam. viii. 3, &c., 1 Bren. iv. 21, 24; *ac iddynt hwy y rhoddid toll, teyrnged, a threth*—yr hyn oedd yn tueddu i gadarnhau y dywediad yn y llythyr at y brenin, adn. 13, 16, y collai efe bob treth yn y gwledydd hynny eto, os na rwystrai efe i'r Iuddewon adeiladu.

adeilader y ddinas hõno, hyd oni roddwyf fi orchymyn *eto*.

22 A gwyliwch wneuthur yn amryfus yn hyn: paham y tyf niwed i ddrygu y brenhinoedd?

23 ¶ Yna pan ddarllenwyd ystyr llythyr Artaxerxes y brenin o flaen Rehum a Simsai yr ysgrifenydd, a'u cyfeillion, hwy a aethant i fyny ar frys i Jerusalem at yr Iuddewon, ac a wnaethant iddynt beidio trwy fraich a chryfder.

24 Yna y peidiodd gwaith tŷ Dduw yr hwn sydd yn Jerusalem; ac y bu yn sefyll hyd yr ail flwyddyn o deyrnasiad Darius brenin Persia.

Adn. 21. *I beri i'r gwŷr hyny beidio*] Sef peidio adeiladu y ddinas. Hyny yn unig oedd gwaharddiad y brenin, trwy nad oeddynt wedi son yn y llythyr am waith yr Iuddewon yn adeiladu y deml. Eithr cymerodd y Samariaid tantais ar hyn i beri i'r Iuddewon beidio adeiladu y deml; ac felly yr oeddynt yn euog nid yn unig o orthrymu ar yr Iuddewon, ond hefyd o dwyllo y brenin ei hun. *Hyd oni roddwyf fi orchymyn eto*—y mae yn debyg fod y brenin yn amcanu chwilio yn fanylach i'r mater hwn ar ol hyn, a rhoddi gorchymyn eto iddynt adeiladu neu beidio, yn ol fel y gwelai efe achos.

Adn. 22. *A gwyliwch wneuthur yn amryfus yn hyn*] Trwy esgeuloso peri i'r Iuddewon beidio adeiladu: paham y tyf niwed i ddrygu y brenhinoedd—i'w amddifadu ef a'i olynwyr oddiwrth doll, teyrnged, a threth? gwel ar adn. 16.

Adn. 23. *Yna pan ddarllenwyd ystyr llythyr Artaxerxes*] Neu pan y cyfieithwyd ef i iaith y Samariaid hyn; hwy a aethant i fyny ar frys i Jerusalem—dan rith o gyflawni gorchymyn y brenin, ond, mewn gwirionedd, mewn awydd i attal adeiladu y deml; ac a wnaethant iddynt beidio trwy fraich a chryfder—trwy fygwth cospi yr Iuddewon os anfyddhäent, neu ynte trwy beri i'r milwyr wasgar yr adeiladwyr.

Adn. 24. *Yna y peidiodd gwaith tŷ Dduw*] Er gofid dirfawr i'r Iuddewon defosiynol, ac er llawenydd aunnraethol i'w gelynydd; ac y bu yn sefyll hyd yr ail flwyddyn o deyrnasiad Darius—am naw neu ddeuddeg mlynedd, yn ol rhai; neu bymtheg mlynedd, yn ol ereill. Rhaid mai Darius mab *Hystaspes* oedd hwn, ac nid Darius *Nothus*, mab Artaxerxes Longimanus, fel y tybia rhai; canys ni bu yr olaf yn amherawdwr hyd 100 mlynedd ar ol Cyrus; a buasai felly 130 mlynedd rhwng dechread a diweddad adeiladiad y deml; yr hyn sydd anghredadwy i bob un a ystyrio mai yr un Zorobabel a sylfaenodd y tŷ ag a'i gorphenodd, Zech. iv. 9.

PEN. V. Adn. 1. *Haggai—a Zechariah*] Am y proffwydi hyn, gwel y llyfrau ag sydd

PENNOD V.

YNA y proffwydi, Haggai y proffwyd, a Zechariah mab Ido, a broffwydasant i'r Iuddewon oedd yn Judah ac yn Jerusalem; yn enw Duw Israel y proffwydasant iddynt.

2 Yna Zorobabel mab Salathiel, a Jesua mab Josadac, a godasant, ac a ddechreuasant adeiladu tŷ Dduw yr hwn sydd yn Jerusalem: a phroffwydi Duw oedd gyda hwynt yn eu cynorthwyo.

3 ¶ Y pryd hwnw y daeth atynt hwy Tatnai tywysog y tu yma i'r afon, a Setharboznai, a'u cyfeillion,

ar eu henwan. Meddylir i'r ddaun gael eu geni yn Babilon yn ystod y caethiwed; ac yr oeddynt ill dau yn selg yn cefnogi y bobl i adeiladu y deml. *Mab Ido*—neu yn hytrach ei ŵyr et; canys Zechariah ydoedd fab Barachiah fab Ido, Zech. i. 1. *A broffwydasant i'r Iuddewon*—hyny yw, a'u ceryddasant hwy am beidio adeiladu y deml. Trwy farwolaeth Artaxerxes daethai ei orchymyn ef i beidio adeiladu yn ddirym; ac er hyny yr oedd yr Iuddewon yn esgeuloso ail ymafyd yn y gwaith. *Yn enw Duw Israel*—trwy ei anfoniad a'i awdurdod ef, a chan lesaru ei eiriau ef, fel y gwelwn yn y bennod gyntaf o Haggai, yr hon yw yr esboniad goraf ar yr adnodau hyn.

Adn. 2. *Yna Zorobabel—a Jesua*] Y cyntaf yn dywysog gwladol, a'r ail yn archoffeiriad eglwysig; a ddechreuasant adeiladu tŷ Dduw—cynghorasant y bobl i ail ymafyd yn y gwaith o'r newydd; canys yr oeddynt wedi ei sylfaenu ef oddentu pymtheg mlynedd cyn hyn, ac ond odid wedi codi y muriau i gryn uchder; a phroffwydi Duw—Haggai a Zechariah, oedd gyda hwynt yn eu cynorthwyo—yn eu cefnogi a'u presenoldeb, ac yn eu hannog yn mlaen trwy addaw y byddai Duw gyda hwynt i'w hamddiffyn a'u bendithio. 'Mor ogoneddus yw,' fel y sylwa CLARKE, 'pan y gwelwn y llywodraeth wladol yn cyduno a'r offeiriadaeth a'r proffwydi i sefydlu ac eangu gwir grefydd!'

Adn. 3. *Tatnai tywysog y tu yma i'r afon*] Neu raglaw dan fremin Persia ar yr holl wlad rhwng Samaria a'r Euphrates; a *Setharboznai*—hwn ond odid oedd gofiadwr neu ysgrifenydd dan Tatnai. Ymddengys mai swyddogion newyddion oedd y rhai hyn yn lle Rehum a Simsai, trwy fod y rhai hyn naill ai wedi marw, neu ynte wedi eu diswyddo pan ddaeth Darius i'r orsedd. *Pwy a rodde i chwi orchymyn i adeiladu y tŷ hwn?*—gwyddent i Artaxerxes orchymyn iddynt beidio adeiladu, ac yn awr dymunent wybod pwy a roisai orchymyn iddynt adeiladu wedi hyny. Nid cynt y cynhyrfodd Ysbyrd Duw yr Iuddewon i adeiladu y deml, nag y cynhyrfodd yr ysbyrd drwg eu gelynydd i geisio eu

ac fel hyn y dywedasant wrthyt; Pwy a roddes i chwi orchymyn i adeiladu y tŷ hwn, ac i sylfaenu y muriau hyn?

4 Yna fel hyn y dywedasant wrthyt; Beth yw enwau y gwŷr a adciladant yr adeiladaeth yma?

5 A golwg eu Duw oedd ar henuriaid yr Iuddewon, fel na wnaethant iddynt beidio, nes dyfod yr achos at Darius: ac yna yr atebasant trwy llythyr am hyn.

6 ¶ Ystyr y llythyr a fonodd Tatnai tywysog y tu yma i'r afon, a Setharboznai, a'i gyfeillion yr Apharsachiaid, y rhai oedd o'r tu yma i'r afon, at y brenin Darius:

7 Anfonasant llythyr ato ef, ac fel hyn yr ysgrifenasid ynddo; Pob heddwch i'r brenin Darius.

8 Bydded hysbys i'r brenin, fyned o honom ni i dalaeth Judea, i dŷ y Duw mawr, a bod yn ei adeiladu ef â meini mawr, a bod yn gosod coed yn ei barwydydd ef; a bod y gwaith

yn myned rhagddo ar frys, a'i fod yn llwyddo yn eu dwylaw hwynt.

9 Yna y gofynasom i'r henuriaid hyny, ac a ddywedasant wrthyt fel hyn; Pwy a roddes i chwi orchymyn i adeiladu y tŷ hwn, ac i sylfaenu y mur yma?

10 Gofynasom hefyd iddynt eu henwau, fel yr hysbysem i ti, ac fel yr ysgrifenom enwau y gwŷr oedd yn benau iddynt.

11 A'r geiriau hyn a atebasant hwy i ni, gan ddywedyd, Nyni ydym weision Duw nef a daear, ac yn adciladu y tŷ yr hwn a adeiladwyd cyn hyn lawer o flynyddoedd; a brenin mawr o Israel a'i hadeiladodd, ac a'i seiliodd ef.

12 Eithr wedi i'n tadau ni ddigio Duw y nefoedd, efe a'u rhoddes hwynt yn llaw Nebuchodonosor brenin Babilon y Caldear; a'r tŷ hwn a ddinystriodd efe, ac a gaethgludodd y bobl i Babilon.

13 Ond yn y flwyddyn gyntaf i

hattal. *Ac i sylfaenu y muriau hyn?*—*fel muriau y deml, neu furiau y cyntedd o'i hamgylch hi.*

Adn. 4. *Yna fel hyn y dywedasant wrthyt*] Y dywedodd yr Iuddewon wrth Tatnai a'i gyfeillion; *Beth yw enwau y gwŷr*—yn lytrach, 'Dyma enwau y gwŷr a adciladant yr adeiladaeth yma.' Nid gofyniad yw y geiriau, ond atebiad yr Iuddewon i Tatnai a'i gyfeillion, adn. 10.

Adn. 5. *A golwg eu Duw oedd ar henuriaid yr Iuddewon*] I'w hamddiffyn a'u calonogi i fyned yn mlaen â'u gwaith; *fel na wnaethant iddynt beidio*—ni adawodd Duw i'r swyddogion hyn wneyd dim i'w hattal yn eu gwaith, fel y gwnaethai eu gwrthwynebwyr blaenorol; *nes dyfod yr achos at Darius*—trwy y llythyr canlynol, adn. 7—17.

Adn. 6. *Ystyr y llythyr, &c.*] Hyny yw, y mae yr adnodau canlynol, hyd ddiwedd y bennod, yn adysgrif o'r llythyr a fonodd Tatnai at y brenin Darius; ac ymddengys ei fod yn un gwahanol iawn i'r llythyr celwyddog a fonodd Rehun a'i gyfeillion yn y bennod flaenorol; canys nid oes dim ynddo ond adroddiad teg o ffeithiau, gyda dymuniad i gael gwychod meddwl y brenin ar ol iddo chwilio i'r achos.

Adn. 7. *Pob heddwch i'r brenin Darius*] Hwn oedd y rhag-gyfarchiad, neu yr arweiniad i mewn; a chynwysa dymuniad i'w fawrhydi gael ei fendithio â phob llywyddiant a daioni.

Adn. 8. *Fyned o honom ni i dalaeth Judea*] Yr hon, o fod yn deyrnas annibynol, oedd wedi ei darostwng yn awr yn dalaeth o amherodraeth Persia; *i dŷ y Duw mawr*—yr hwn a ystyrir gan yr Iuddewon yn Dduw mawr, neu Dduw y duwiau; *a bod yn ei adeiladu ef*

â meini mawr—yn gadarn, hardd, a chostfawr; *a bod yn gosod coed yn ei barwydydd ef*—i'w gadarnhau a'i addurno; *a bod y gwaith yn myned rhagddo ar frys*—trwy fod llawer o weithwyr wrtho, a phawb yn efwylsger a diflino; *a'i fod yn llwyddo*—yn myned yn mlaen yn llwyddiannus yn eu dwylaw hwynt; ac os ydoedd i'w attal gan Darius, fod yn rhaid iddo orchymyn hyny yn ddiodei.

Adn. 9. *Yna y gofynasom i'r henuriaid hyny*] Sef arolygwyr gwaith y deml; *Pwy a roddes i chwi orchymyn i adeiladu*—gwel ar adn. 3.

Adn. 10. *Gofynasom iddynt eu henwau*] Sef enwau Zorobabel, Jesua, Haggai, a Zechariah; *fel yr hysbysem i ti*—i'th alluogi i'w galw i gyfrif wrth eu henwau, os myni. Diamau fod yr enwau uchod wedi eu doddi yn y llythyr gwreiddiol, er nad ydynt yn yr adysgrif hon.

Adn. 11. *Nyni ydym weision Duw nef a daear*] Neu addolwyr y Duw ag y mae yr holl greadigaeth yn ymddibynnu arno; *ac yn adciladu y tŷ yr hwn a adeiladwyd cyn hyn lawer o flynyddoedd*—tua 500 o flynyddoedd cyn hyny; felly nid peth newydd yr oeddynt hwy yn ei wneyd; *a brenin mawr o Israel a'i hadeiladodd*—y waith gyntaf, sef Solomon.

Adn. 12. *Eithr wedi i'n tadau ni ddigio Duw y nefoedd*] Trwy eu heilunaddoliaeth; *efe a'u rhoddes hwynt yn llaw Nebuchodonosor*—i'w cospi am eu heilunaddoliaeth, fel y gwelsom yn 2 Cron. xxxvi. 17, &c.

Adn. 13—15. *Ond yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus*] Fod yn frenin ar Babilon. Fel pe dywedasant, Y mae genym ni orchymyn brenhinol Cyrus i'n cyfiawnhau a'n hawddodi yn yr hyn yr ydym yn ei wneuthur. Nid

Cyrus brenin Babilon y rhoddes y brenin Cyrus orchymyn i adeiladu y tŷ Dduw hwn.

14 A llestri tŷ Dduw hefyd o aur ac arian, y rhai a ddygasai Nebuchodonosor o'r deml yn Jerusalem, ac a'u dygasai i deml Babilon, y rhai hyn a ddyg y brenin Cyrus allan o deml Babilon, a rhoddwyd hwynt i un Sesbassar wrth ei enw, yr hwn a osodasai efe yn dywysog.

15 Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymer y llestri hyn, dos, dwg hwynt i'r deml yn Jerusalem, ac adeilader tŷ Dduw yn ei le.

16 Yna y daeth y Sesbassar hwnw, ac a osododd sylfaeni tŷ Duw yn Jerusalem. Ac o'r pryd hyn hyd yr awr hon yr ydys yn ei adeiladu, ac nis gorphenwyd ef.

17 Ac yn awr, (os da gan y brenin,) ceisier yn nhrysordy y brenin yna yn Babilon, a ddarfu i'r brenin Cyrus osod gorchymyn am adeiladu y tŷ Dduw hwn yn Jerusalem; ac anfoned y brenin ei ewylllys atom am y peth hyn.

yn unig efe a oddefodd, ond gorchymynodd i ni adeiladu y tŷ hwn, a'i adeiladu 'yn ei le,' adn. 15, yn y fan lle y safai o'r blaen. Ac efe a roddodd y llestri aur ac arian ag oeddynt yn yr hen deml, yn llaw Sesbassar, gan beri iddo eu hadfer hwynt i'w lle a'u gwasanaeth gyntefig; ac y mae y rhai hyn genym yn awr i'w dangos, i gadarnhau gwirionedd ein hadroddiad.

Adn. 16. *Yna y daeth y Sesbassar hwnw, ac a osododd sylfaeni tŷ Dduw*] Tybia rhai mai y swyddog milwraidd az ydoedd yn arweinydd i'r Iuddewon o Babilon a feddylir, ac ereill mai Ezra; ond gan mai Zorobabel a sylfaenodd y tŷ, Zech. iv. 9, yr hyn a briodolir yma i Sesbassar, y mae yn debycach mai Zorobabel a feddylir yma: gwel ar pen. i. 8. *Ac o'r pryd hyn hyd yr awr hon yr ydys yn ei adeiladu*—yn awr ac yn y man, sef am yr yspaid o tua 18 mlynedd, yn ol rhai, yn gwneuthur i fyny 70 mlynedd yn gywir er pan losgwyd y deml gyntaf; ac nis gorphenwyd ef—o herwydd y rhwystrau a fodd yr Iuddewon oddiwrth eu gelynyddion, fel y gwelom yn y benod flaenorol. Fel hyn adroddasant y cwbl yn ffyddlon i Tatnai a'i gyfeillion, a danfonasant hwythau y cwbl yn ffyddlon mewn llythyr i Darius.

Adn. 17. *Ac yn awr, os da gan y brenin*] Os ewyllysiai Darius edrych i mewn i'r achos; ceisier yn nhrysordy y brenin—mewn llyfrau o hanes gweithredoedd a deddfau Cyrus ag oeddynt yn nghadw yn y trysordy yn Babilon; a ddarfu i'r brenin Cyrus osod gorchymyn am adeiladu y tŷ Duw hwn—fel y dywedai

PENNOD VI.

YNA y brenin Darius a osododd orchymyn; a chwiliwyd yn nhŷ y llyfrau, lle y cedwid y trysorau yn Babilon.

2 A chafwyd yn Achmetha, yn y llys yn nhalaeth Media, ryw lyfr, ac fel hyn yr ysgrifenasid ynddo yn goffadwriaeth:

3 Yn y flwyddyn gyntaf i'r brenin Cyrus y gosododd y brenin Cyrus orchymyn am dŷ Dduw o fewn Jerusalem, Adeilader y tŷ, y fan lle yr aberthent aberthau, a gwnaer yn gadarn ei sylfeini; yn driugain cufydd ei uchder, ac yn driugain cufydd ei led:

4 Yn dair rhes o feini mawr, a rhes o goed newydd: a rhodder y draul o dŷ y brenin.

5 A llestri tŷ Dduw hefyd, yn aur ac yn arian, y rhai a ddyg Nebuchodonosor o'r deml yn Jerusalem, ac a ddyg efe adref i Babilon, rhodder hwynt i'w dwyn i'r deml yn Jerusalem, i'w lle, a gosoder hwynt yn nhŷ Dduw.

yr Iuddewon iddo wneyd; ac anfoned y brenin ei ewylllys atom—pa un a gai yr Iuddewon fyned yn mlaen â'u gwaith ai peidio.

PEN. VI. Adn. 1. *Yna y brenin Darius a osododd orchymyn*] I chwilio am y coflyfrau yn amser Cyrus, i edrych a oedd ynddynt orchymyn i adeiladu y deml; a *chwiliwyd yn nhŷ y llyfrau*—yn y llyfrgell frenhinol; *lle y cedwid y trysorau*—pob ysgrif o bwys berthynol i'r llywodraeth.

Adn. 2. *A chafwyd yn Achmetha*] Ar ol methu cael llyfr yn cynwys y gorchymyn uchod yn Babilon, aed i chwilio yn Achmetha, neu Ecbatana, dinas frenhinol y Mediaid a'r Persiaid, a chafwyd ef yno. Yr oedd y lle hwn yn mhell i'r dwyrain-ogledd o Babilon, ac yn drigfa i frenhinoedd Persia yn yr haf; ac ymddengys fod holl goflyfrau Cyrus wedi eu trosglwyddo yno. *Ac fel hyn yr ysgrifenasid ynddo*—fel yr adroddir yn adn. 3—5.

Adn. 3. *Adeilader y tŷ y fan lle yr aberthent*] Lle yr oedd yr hen deml yn sefyll; a *gwnaer yn gadarn ei sylfaeni*—yn ddigon cadarn i ddal yr oruwchadeiladaeth, ac i barhau dros holl ystod yr oruchwyliaeth Foesenaidd; *yn driugain cufydd ei uchder*—yr hyn oedd yn uwch ddwywaith na theml Solomon, 1 Bren. vi. 2, 20; *ac yn driugain cufydd ei led*—neu ei hyd, fel y mae rhai yn ei ddarllen.

Adn. 4. *Yn dair rhes o feini mawr*] Y nail ar y llall; a *rhos o goed newydd*—yn gwneyd y bedwaredd res; ac felly bob yn ail nes cyraedd i'r pen; a *rhodder y draul o dŷ y brenin*—o arian neu deyrnged y llywodraeth.

6 Ynawr Tatnai tywysog y tuhwnt i'r afon, Setharboznai, a'ch cyfeillion yr Apharsachiaid, y rhai *ydych* o'r tuhwnt i'r afon, ciliwch oddiyno.

7 Gadewch yn llonydd waith tŷ Dduw hwn: adeiladed tywysogion a henuriaid yr Iuddewon y tŷ hwn i Dduw yn ei le.

8 Gosodais hefyd orchymyn am yr hyn a wnewch i henuriaid yr Iuddewon hyn wrth adeiladu y tŷ Dduw hwn; mai o gyfoeth y brenin, *sef* o'r deyrnged o'r tuhwnt i'r afon, y rhoddir traul i'r gwŷr hyn, fel na pheidio *y gwaith*.

9 A'r hyn a fyddo angenrheidiol i boeth-offrymau Duw y nefoedd, yn eidionau, neu yn hyrddod, neu yn ŵyn, yn fŷd, yn halen, yn win, ac yn olew, yn ol yr hyn a ddywedo yr offeiriad *sydd* yn Jerusalem, rhodder iddynt bob dydd yn ddbaid:

10 Fel yr offrymont aroglau peraid i Dduw y nefoedd, ac y gweddiout dros einioes y brenin a'i feibion.

11 Gosodais hefyd orchymyn, pa ddyn bynag a newidio y gair hwn, tŷner coed o'i dŷ ef, a gosoder i sefyll, *ac* ar hwnw croger ef; a bydded ei dŷ ef yn domen am hyny.

12 A'r Duw, yr hwn a wnaeth i'w enw breswyllo yno, a ddinystria bob brenin a phobl, a estyno ei law i newidio *ac* i ddystrywio y tŷ hwn eiddo Duw yn Jerusalem. Myfi Darius a osodais y gorchymyn; gwneler ef yn ebrwydd.

13 ¶ Yna Tatnai tywysog y tu yma i'r afon, Setharboznai, a'u cyfeillion, megys yr anfonodd y brenin Darius, felly y gwnaethant yn ebrwydd.

14 A henuriaid yr Iuddewon a adeiladasant, ac a lwyddasant trwy

Adn. 5. *A llestri tŷ Dduw hefyd*] Gwel ar pen. i. 7—11; *gosoder hwynt yn nhŷ Dduw*—pan adeilader y deml. Pan ganfu Darius hyn yn ngorchymyn Cyrus, yr oedd yn gwelod mai gwir a ddywedasai yr Iuddewon wrth Tatnai a'i gyfeillion, ac a adroddasant hwythau yn eu llythyr ato ef, pen. v. 14, 15.

Adn. 6. *Ciliwch oddiyno*] Sefo Jerusalem, gan adael llonydd i'r Iuddewon fyned â'u gwaith yn mlaen.

Adn. 7. *Yn ei le*] Yn y fan lle y safai yr hen deml cyn ei dinystrio.

Adn. 8. *Gosodais hefyd orchymyn am yr hyn a wnewch i henuriaid yr Iuddewon*] Ymdengys oddiyma fod Darius yn dangos parch mawr i goffadwriaeth Cyrus yn mhob peth, er mwyn ennill parch iddo ei hun gan ei ddeiliaid; a hyn a barodd iddo ef fod mor dŷner a chymwynasgar tuag at yr Iuddewon. *Mai o gyfoeth y brenin*—o'r deyrnged a delid iddo ef yn y talcithiau o du y gorllewin i afon Euphrates; *y rhoddir traul i'r gwŷr hyn*—neu arian i adeiladu y deml, rhag i'r gwaith sefyll.

Adn. 9. *A'r hyn a fyddo angenrheidiol i offrymau Duw y nefoedd*] Gwyddai Darius, er mai pagan ydoedd, rywbeth am JEHOFA, ac am yr offrymau a ofynid yn ei addoliad ef; *yn ŷd*—i wneyd peillied at y bwyd-offrymau; *yn halen*—i haltu y bwyd-offrymau, Lef. ii. 13; *yn win*—at y diod-offrymau; *ac yn olew*—i eneinio yr afrilladau a chlymysgu y teisenau, Lef. ii. 4. *Rhodder iddynt bob dydd*—o gyfoeth y brenin at y poeth-offrymau boreol a bwyrol.

Adn. 10. *Ac y gweddiout dros einioes y brenin a'i feibion*] Yr oedd yr Iuddewon yn arfer â gweddio ar amser yr offrymau boreol a hwyrol, a hyny dros genhedloedd ereill pan geisid ganddynt, ac yn enwedig dros frenhin-oced a llywodraethwyr gwladol a fyddent

mewn awdurdod drostynt hwy, Jer. xxix. 7, 1 Tim. ii. 1, 2; ac yr oedd y ceuhedloedd, wrth gydnabod luosogrwydd o dduwiau, yn addef fod Duw Israel yn wir Dduw, yn gystal a'u duwiau eu hunain.

Adn. 11. *Pa ddyn bynag a newidio y gair hwn*] A weithredai yn groes i'w orchymyn ef o berthynas i'r Iuddewon a'u teml; *tŷner coed o'i dŷ ef*—i wneyd crogber i'w grozi arno; *a bydded ei dŷ ef yn domen*—yn garnedd adfeiliedig, heb gael ei ddefnyddio byth mwyach ond fel geudy.

Adn. 12. *A'r Duw yr hwn a wnaeth i'w enw breswyllo yno*] Trwy y SEGNA, yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol; *a ddinystria bob brenin a phobl*—efe a ddwyedai hyn rhag i neb gynyrg rhwystro adeiladu y tŷ yn awr, na'i ddystrywio ar ol ei adeiladu. Er i'r deml hon gael ei dinystrio o'r diwedd gan gyfiawn farn Duw, eto y mae yn debyg i'r Rhufeiniaid, y rhai oeddynt offerynau y dinystr hwnw, deimlo effeithiau y felddith hon; canys cyn hir dechreuodd yr amherodraeth hōno adfeilio, nes iddi o'r diwedd gael ei chwbl dinystrio. *Myfi Darius a osodais y gorchymyn*—i adeiladu y deml, a dyfetha y sawl a geisio attal hyny. Fel hyn, yn lle gwrandao ar y rhai a geisient rhwystro yr Iuddewon gyda'u gwaith, efe a osodd orchymyn o'n plaid, gan fygwth eu gelynnion, a'u cefnogi hwythau yn mhob dull a modd; ac i ba beth y gallwn briodoli hyn oll, ond i ragluniaeth oruwchlywodraethol a doeth Duw?

Adn. 13. *Felly y gwnaethant yn ebrwydd*] Adroddodd Tatnai a'i gyfeillion i'r Iuddewon yr hyn a ysgrifenasai Darius, a rhoddasant iddynt arian at y gwaith o gyfoeth y brenin, a hyny yn ebrwydd ac ewyllysgar. Fel hyn daeth gelynnion yr Iuddewon yn gyfeillion iddynt ar unwaith.

Adn. 14. *A henuriaid yr Iuddewon a ad-*

broffwydoliaeth Haggai y proffwyd, a Zechariah mab Ido; i.e. adeiladasant, a gorphenasant wrth orchymyn Duw Israel, ac wrth orchymyn Cyrus a Darius, ac Artaxerxes brenin Persia.

15 A'r tŷ hwna orphenwyd y trydydd dydd o fis Adar, pan oedd y chweched flwyddyn o deyrnasiad y brenin Darius.

16 ¶ A meibion Israel, yr offeiriaid a'r Lefiaid, a'r rhan arall o feibion y gaethglud, a gysegrasant y tŷ hwn eiddo Duw mewn llawenydd;

17 Ac a offrymasant wrth gysgreu y tŷ hwn eiddo Duw, gant o ychain, dau cant o hyrddod, pedwar cant o ŵyn, a denddeg o fychod

geifr, yn bech-aberth dros Israel, yn ol rhifedi llwythau Israel.

18 Gosodasant hefyd yr offeiriaid yn eu dosbarthiadau, a'r Lefiaid yn eu cylchoedd hwythau, i wasanaeth Duw yn Jerusalem, yn ol ysgrifen llyfr Moses.

19 Meibion y gaethglud hefyd a gadwasant y pasc ar y pedwarydd dydd ar ddeg o'r mis cyntaf.

20 Canys yr offeiriaid a'r Lefiaid a ymlanhasant yn gyttun, yn lân i gyd oll, ac a aberthasant y pasc dros holl feibion y gaethglud, a throes eu brodyr yr offeiriaid, a throstynt en hunain.

21 A meibion Israel, y rhai a ddychwelasant o'r gaethglud, a phob

eiladasant] Yn fwy calonog yn awr nag erioed; *ac a lwyddasant trwy broffwydoliaeth*—neu trwy gefnogaeth a chyfarwyddyd y ddau broffwyd hyn; *i.e. adeiladasant a gorphenasant*—heb ymatal mwych nes gorphen y deml; *wrth orchymyn Duw Israel*—trwy ei broffwydi uchod, pen. v. 1; *ac wrth orchymyn Cyrus*—yr hwn a geir yn adn. 3—5, a pen. i. 3, 4; *a Darius*—yn adn. 6—12 o'r bennod hon; *ac Artaxerxes*—tybia rhai mai *Xerxes*, mab ac olynnydd Darius, ydoedd hwn, a'i fod yn cydlywodraethu a'i dad, ac yn cyduno âg ef i roddi y gorchymyn uchod yn nghylch adeiladu y deml: tybia ereill mai *Artaxerxes Longimanus* a feddylir, yr hwn a anfonodd Ezra i Judea gyda breintiau newyddyn, a Nehemiah ar ol hynny. Amcan yr ysgrifenydd ydyw enwi y gwahanol frenhinoedd a funont yn blaid i'r Iuddewon ar ol y caethiwed Babilonaidd.

Adn. 15. *A'r tŷ hwn a orphenwyd y trydydd dydd o fis Adar*] Yn cyfateb i ran o'n Chwefror a'n Mawrth ni; ac felly yr oeddynt yn barod i gynnal y pasc yn nghanol y mis canlynol, adn. 19; *y chweched flwyddyn o deyrnasiad y brenin Darius*—yr hyn, yn ol Clarke, oedd oddeutu o. B. 3489, neu yn mhen ugain mlynedd ar ol ei sylfaenu gan Zorobabel.

Adn. 16. *A meibion Israel*] Sef y rhai hyny o'r deg llwyth a ymunasant â Juda a Benjamin yn amser Jerobam, neu a adewsid yn y wlad pan gaethgludwyd y lleill i Assyria, neu ynte rai o hiliogaeth y gaethglud hōno a'r a ddychwelasant ar ol cyhoeddi rhyddid iddynt gan Cyrus; *yr offeiriaid a'r Lefiaid*—sef gweinidogion y deml a'u cynorthwywyr; *a'r rhan arall o feibion y gaethglud*—sef llwyth Juda a Benjamin, y rhai a wnaent i fyny gorff lluosocaf pobl Jerusalem y pryd hyn; *a gysegrasant y tŷ hwn eiddo Duw mewn llawenydd*—neillduasant ef i wasanaeth Duw, trwy ddechreu ar y wasanaeth hōno ynddo; ac yr oeddynt yn llawen am weled y dydd hwn wedi gwawrio.

Adn. 17. *Ac a offrymasant—gant o ychain, dau cant o hyrddod, pedwar cant o ŵyn*]

Rhai yn boeth-offrymau, i'w llosgi oll i'r Arglwydd ar yr allor; a rhai yn ebyrth hedda a diolch, ar ranau o ba rai y gallai yr addolwyr wledda mewn llawenydd a diolchgarwch ar gysegriad y deml. *A denddeg o fychod geifr yn bech-aberth dros Israel*—sef un dros bob llwyth. Nid oedd yma ond ychydig o anifeiliaid mewn cydmarhaeth i'r hyn oedd gan Solomon ar gysegriad y deml gyntaf, 1 Bren. viii. 5, 63; ond yr oedd y cannoedd hyn, yn nghyflwr presenol yr Iuddewon tylodion, yn gymaint a'r miloedd hyny yn nyddiau llwyddiannus Solomon. Tybia rhai fod y rhai hyn oll wedi en darparu iddynt ar gost Darius, adn. 9; ond gellir meddwl mai at yr offrymau beunyddiol fore a hwyr yn unig y cyfeirir yno.

Adn. 18. *Gosodasant hefyd yr offeiriaid yn eu dosbarthiadau*] Ar ol iddynt gysgreu y tŷ, trefnasant y tylwyr; canys ni buasai iddynt fawr o gysur yn y deml, pa mor edmygol bynag ei cysegrwyd, heb wasanaeth ac addoliad rheolaidd. *Yn ol ysgrifen llyfr Moses*—gwel Num. iii. 6, a viii. 11, 14, 15. Haera yr anfyddwyr mai Ezra a ysgrifennodd bun llyfr Moses; ond dyma Ezra ei hun yn dywedyd mai Moses a'u hysgrifennodd.

Adn. 19. *Meibion y gaethglud hefyd a gadwasant y pasc*] Ar ol iddynt yn awr gael eu rhyddhan o gaethiwed Babilon, yr oedd yn iawn iddynt goffâu eu gwaredigaeth o gaethiwed yr Aifft; *ar y pedwarydd dydd ar ddeg o'r mis cyntaf*—o'r flwyddyn eglwysig, yr hwn oedd y seithfed o'r flwyddyn wladol. Cadwasant y pasc hwn ar yr amser cymhwys yn ol y gyfraith, Exod. xii. 2, 6.

Adn. 20. *Yn lân i gyd oll*] Heb un o honnynt yn seremonïol aflan. Fel hyn yr oeddynt yn rhagori yn fawr ar yr offeiriaid a'r Lefiaid yn amser Hezechiah; gwel ar 2 Cron. xxx. 15—20.

Adn. 21. *A phob un a ymneillduasant*] Cyfeirir yma at y *proselytiaid* ag oeddynt wedi cofleidio y grefydd Iuddewig trwy gymysgu â'r Iuddewon yn eu caethiwed. Y mae hyn yn profi fod rhai o honnynt, os nid y

un a ymneillduasai oddiwrth halog-edigaeth cenhedloedd y wlad atynt hwy, i geisio Arglwydd Dduw Israel, a fwytasant,

22 Ac a gadwasant wyl y bara croyw saith niwrnod mewn llawenydd: canys yr Arglwydd a'u llawenasai hwynt, ac a droisai galon brenin Assyria atynt hwy, i'w cynorthwyo hwynt yn ngwaith tŷ Dduw, Duw Israel.

PENNOD VII.

AC wedi y pethau hyn, yn nheyrnasiad Artaxerxes brenin Persia, Ezra mab Seraiah, fab Azariah, fab Hilciah,

2 Fab Salum, fab Sadoc, fab Ahitub,

3 Fab Amariah, fab Azariah, fab Meraioth,

rhan twyaf, yn ymddwyn yn Babilon yn ol egwyddorion eu crefydd bur, nes yr oedd y cenhedloedd, wrth eu gwelod hwy, yn cael eu hennill i roddio yn ffyrdd yr Arglwydd gyda hwy. *A fwytasant*—dywedir hyn am feibion Israel a'r cenhedloedd ymneillduedig, ac felly rhaid fod y rhai olaf hyn yn 'broselytiaid y *cysfamod*,' am nad allai 'proselytiaid y *porth*' fwyta y pasc: gwel Exod. xii. 43.

Adn. 22. *Ac agadwasant wyl y bara croyw saith niwrnod mewn llawenydd*] Gan fod bellach oddentu ugain mlynedd er pan fuwyd yn sylfaenu y deml hon, y mae yn debyg fod pawb o'r hen bobl ag oeddynt yn wyl y pryd hyn wrth gofio am y deml gyntaf, wedi marw erbyn hyn, fel nad oedd yn awr ddim dagrau yn gymysg â'u llawenydd: gwel ar pen. iii. 12, 13. *Canys yr Arglwydd a'u llawenasai hwynt*—trwy roddi iddynt achos i lawenhau, yn gystal a chalonau i lawenhau; *ac a droisai galon brenin Assyria*—sef brenin Persia, yr hwn a elwir yma yn 'frenin Assyria,' am ei fod yn llywodraethu ar yr holl deyrnas oedd ag oeddynt gynt dan awdurdod yr Assyriaid.

PEN. VII. Adn. 1—5. *Ac wedi y pethau hyn*] Sef ar ol gorphen y deml, a chadw y pasc; *yn nheyrnasiad Artaxerxes brenin Persia*—sef yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad ef, adn. 7, 8. 'Hwn oedd Artaxerxes Longimanus, a'r seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad ef oedd o. b. 3547, neu yn mhen 68 o flynyddoedd ar ol i Zorobabel gael ei anfon yn ol gan Cyrus.'—CALMET. *Ezra mab Seraiah*—os Seraiah yr archeffeiriad a feddylir yma, yr hwn a laddwyd gan Nebuchodonosor er's mwya na 130 o flynyddoedd cyn hyn, 2 Bren. xxv. 18—21, rhaid mai un o'i *hiliogaeth* ef ydoedd Ezra, ac nid ei fab uniongyrchol. *Fab Azariah—fab Aaron*—yn 1 Cron. vi. 3—15, ni a gawn 22 o genedlaethau o'r mynediad i Babilon hyd Aarop, eithr yma nid oes ond 16;

4 Fab Zerachiah, fab Uzzi, fab Bucci,

5 Fab Abisua, fab Phinees, fab Eleazar, fab Aaron yr offeiriad penaf:

6 Yr Ezra hwn a aeth i fyny o Babilon; ac efe oedd ysgrifenydd cyflym yn nghyfraith Moses, yr hon a roddasai Arglwydd Dduw Israel: a'r brenin a roddes iddo ef ei holl ddymunniad, fel yr ydoedd llaw yr Arglwydd ei Dduw arno ef.

7 *A rhai a aethant i fyny o feibion Israel*, ac o'r offeiriad, a'r Lestiaid, a'r cantorion, a'r porthorion, a'r Nethiniaid, i Jerusalem, yn y seithfed flwyddyn i'r brenin Artaxerxes.

8 Ac efe a ddaeth i Jerusalem yn y pummed mis, yr hwn oedd yn y seithfed flwyddyn i'r brenin.

felly rhaid fod chwech o genedlaethau wedi eu gadael allan o'r rhestr offeiriadol hon.

Adn. 6. *Yr Ezra hwn a aeth i fyny o Babilon*] Trwy ganiatâd Artaxerxes y brenin. Tybia rhai mai dyma y waith gyntaf i Ezra fyned i Jerusalem; ond barna ereill mai yr ail waith ydoedd i a chasglant oddiwrth Neh. xiii. 1, iddo fyned i fyny y tro cyntaf gyda Zorobabel; ac wedi hyny iddo ddychwelyd i Babilon, i gymhell yr Iuddewon a adewsid yno i ddyfod i fyny i Jerusalem, ac i ofyn rhyw gymhorth pellach gan y brenin. *Ac efe oedd ysgrifenydd cyflym yn nghyfraith Moses*—y mae *sopher machir* yn arwyddo yma, nid yn gymaint cyflymder ei law fel adysgrifenydd o'r gyfraith, ond cyflymder ei ddeall fel ei hesboniwr, neu ei fedruswydd parod ef i'w hegluro a'i dysgu i ereill. *A'r brenin a roddes iddo ef ei holl ddymunniad*—caniatâd i fyned i fyny i Jerusalem, pob arlwyneith angenrheidiol i'r daith, a rhoddion chwanegol at wasanaeth y deml. *Fel yr ydoedd llaw yr Arglwydd ei Dduw arno ef*—ar Ezra, i ddyysgu iddo pa beth i'w ofyn; neu ar y brenin, i'w dueddau ef i roddi i Ezra ei ddymunniad.

Adn. 7. *A rhai a aethant i fyny, &c.*] Dyma yr ail gwmi a aeth i fyny i Jerusalem, yn cynwys rhai tebyg i'r gwmi a aeth i fyny y tro cyntaf gyda Zorobabel, pen. ii. 2, 70. Ar ol iddynt glywed fod y deml wedi ei hadeiladu, a bod addoliad Duw wedi ei adferu, gwrulwyd hwynt i fyned i Jerusalem gydag Ezra, er iddynt ommedd myned gyda Zorobabel.

Adn. 8. *Ac efe a ddaeth i Jerusalem yn y pummed mis*] Dywedir yn yr adnod nesaf i Ezra a'i gwmi gychwyn o Babilon ar y dydd cyntaf o'r mis cyntaf, ac felly buont dros bedwar mis ar eu taith. Nis gallent deithio yn gyflym, gan eu bod yn dorf fawr, yn cynwys llawer o rai hen a methiedig, heblaw llauws o wragedd a phlant. Yr oedd y pellter hefyd, mewn llinell union, yn agos i 600 o filldroedd;

9 Canys ar y dydd cyntaf o'r mis cyntaf y dechreuodd efe fyned i fyny o Babilon; ac ar y dydd cyntaf o'r pummed mis y daeth efe i Jerusalem, fel yr oedd daionus law ei Dduw gydag ef.

10 Canys Ezra a barotoisai ei galon i geisio cyfraith yr Arglwydd, ac i'w gwneuthur, ac i ddysgu yn Israel ddeddfau a barnedigaethau.

11 ¶ A dyma ystyr y llythyr a roddodd y brenin Artaxerxes i Ezra yr offeiriad a'r ysgrifenydd, sef ysgrifenydd geiriau gorchymynion yr Arglwydd, a'i ddeddfau ef i Israel.

12 Artaxerxes brenin y brenhin-oedd at Ezra yr offeiriad, ysgrifenydd deddf Duw y nefoedd, perffaith dangnefedd, a'r amser a'r amser.

13 Myfi a osodais orchymyn, fod i bwy bynag yn fy nheyrnas i o bobl Israel, ac o'i offeiriaid ef, a'i Lefiaid, sydd ewyllysgar i fyned i Je-

rusalem, gael myned gyda thi.

14 O herwydd dy anfon di oddiwrth y brenin, a'i saith gynghoriaid, i ymweled â Judah ac â Jerusalem, wrth gyfraith dy Dduw yr hon sydd yn dy law di;

15 Ac i ddwyn yr arian a'r aur a offrymodd y brenin a'i gynghoriaid, o honynt eu hunain, i Dduw Israel, yr hwn y mae ei breswylfa yn Jerusalem,

16 A'r holl arian a'r aur a fedrych ei gael yn holl dalaeth Babilon, gydag offrymau gwirfodd y bobl a'r offeiriad, y rhai a offrymant o honynt eu hunain tuag at dŷ eu Duw yn Jerusalem :

17 Fel y prynech yn ebrwydd â'r arian hyny ychain, hyrddod, wŷn, a'u bwyd-offrymau, a'u diod-offrymau, a'u hoffrwm hwynt ar allor tŷ eich Duw yn Jerusalem.

18 A'r hyn a fyddo da genyt ti, a chan dy frodyr, ei wneuthur â'r

ac ymddengys oddiwrth y bennod nesaf iddynt orfod amgylchu llawer o'r wlad, trwy fod afonydd, mynyddoedd, ac amialwch ar eu ffordd.

Adn. 9. *Ar y dydd cyntaf o'r mis cyntaf* Sef mis Nisan, yn cyfateb i ran o'n Hebrill ni, yr hwn oedd y cyntaf o'r flwyddyn eglwysig; ac felly yr oedd yr hafo'u blaen, pryd yr oedd yn haws teithio.

Adn. 10. *Canys Ezra a barotoisai ei galon* Trwy ddwys ffyrddod a gweddi; i geisio cyfraith yr Arglwydd—i geisio gwybodaeth o honi, a deall da ynddi; ac i'w gwneuthur—yn gystal a'i gwybod; ac i ddysgu yn Israel ddeddfau a barnedigaethau—moesol, seremonïol, a gwladol. Fel hyn yr oedd Ezra yn siampl ddylynwïw i holl weinidogion y cysegr hyd heddyw: nid yn unig yr oedd efe yn hyddysg yn neddfau a barnedigaethau yr Arglwydd ei hun, ond yr oedd hefyd yn eu cadw yn fanwl ei hunan, ac yn eu dysgu yn ffyddlon i ereill. Yn hyn efe a ragorai yn mhell ar yr ysgrifenyddion a'r dysgwadwyr yn nyddiau ein Hiachawdwr, Mat. xxiii. 2—4.

Adn. 11. *A dyma ystyr y llythyr* Ei sylwedd neu ei gynwysiad ef, fel y mae ar lawr o ddechre adn. 12 hyd ddiwedd adn. 26. Ymddengys iddo gael ei ysgrifenu yn y Galdeaeg.

Adn. 12. *Artaxerxes brenin y brenhinoedd* Efe a ymgyswrtai fel hyn mewn balchder a gwag-ymffrost, trwy fod llawer o is-frenhinoedd dan deyrnged iddo; at Ezra yr offeiriad, ysgrifenydd deddf Duw y nefoedd—fel hyn rhoddaï y brenin fwy o anrhydedd i Ezra wedi y cwbl nag iddo ei hun, er nad oedd yn bwriadu hyny; perffaith dangnefedd—pob heddwch a daioni i ti. Ond trwy nad yw y gair tangnefedd yn y wreiddiol, myn rhai mai enwad o ganmoliaeth i Ezra a olygir, a chyf-

ieithant ef, 'ysgrifenydd perffaith deddf Duw y nefoedd.' *A'r amser a'r amser*—dyddiad neu amseriad y llythyr: gwel ar pen. iv. 10, 11.

Adn. 13. *Fod i bwy bynag yn fy nheyrnas i o bobl Israel* Y rhai nid aethant i'w gwlad yn amser gorchymyn Cyrus, ac a oeddynt yn awr yn ewyllysio myned; gael myned gyda thi—nid oedd neb yn eael eu gorfodi i fyned, nac i beidio myned.

Adn. 14. *O herwydd dy anfon di oddiwrth y brenin* Ar ddymuniad neu trwy ddylanwad Esther, fel y meddylir; canys yr Artaxerxes hwn oedd Ahasferus gŵr Esther; a'i saith gynghoriaid—gwel ar Esther i. 14; i ymweled â Judah ac â Jerusalem—i edrych a oedd y bobl yno yn ymddwyn yn mhob peth, gwladol a chrefyddol, yn ol cyfraith Duw Israel; yr hon sydd yn dy law di—dan dy ofal; neu yr hon yr wyt ti mor hyddysg ynddi, ac yn ei deall mor berffaith.

Adn. 15. *Ac i ddwyn yr arian a'r aur* Ymddengys i'r brenin a'i gynghoriaid offrymu rhyw swm mawr o aur ac arian, yn wirfoddol o honynt eu hunain, a'u danfon yn llaw Ezra y pryd hyn i Jerusalem; i Dduw Israel—at wasanaeth ei deml ef, yr hwn a breswyliai yno gyda'i bobl mewn modd ysbrydol, er nad yn amlwg rhwng y cerubiaid, fel y gwnaï yn y deml gyntaf.

Adn. 16. *A'r holl arian a'r aur a fedrych ei gael* Gan y Babiloniaid a'r Iuddewon, yn ol siampl y brenin a'i gynghoriaid yn adn. 15.

Adn. 17. *Ychain, hyrddod, wŷn* Y rhai hyn oeddynt i fod yn boeth-offrymau, fel y mae yn amlwg oddiwrth fod bwyd-offryman a diod-offryman i fod gyda hwynt.

Adn. 18. *Gwneuch yn ol ewyllys eich*

rhan arall o'r arian a'r aur, gwnewch yn ol ewyllys eich Duw.

19 A'r llestri, y rhai a roddwyd i ti i wasanaeth tŷ dy Dduw, dod adref o flaen dy Dduw yn Jerusalem.

20 A pheth bynag ychwaneg a fyddo angenrhaid i dŷ dy Dduw, yr hyn a ddygwyddo i ti ei roddi, a roddi di o drysordy y brenin.

21 A minau y brenin Artaxerxes ydwyf yn gosod gorchymyn i holl drysorwyr y tuhwnt i'r afon, beth bynag a geisio Ezra, offeiriad, ac ysgrifenydd deddf Duw y nefoedd, gennyh, gwneler yn ebrwydd;

22 Hyd gan talent o arian, a hyd gan corus o wenith, a hyd gan bath

o win, a hyd gan bath o olew, a halen heb fesur.

23 Beth bynag yw gorchymyn Duw y nefoedd, gwneler yn ddyfal i dŷ Duw y nefoedd: canys paham y byddai lliidiogrwydd yn erbyn teyrnas y brenin a'i feibion?

24 Yr ydym yn hysbysu i chwi hefyd, am yr holl offeiriad, a'r Lefiaid, cantorion, porthorion, Nethiniaid, a gweinidogion y tŷ Duw hwn, na ellir bwrw arnynt doll, na theyrnged, na threth.

25 Tithau, Ezra, yn ol doethineb dy Dduw, yr hwn sydd yn dy law, gosod swyddogion a barnwyr, i farnu yr holl bobl o'r tuhwnt i'r afon, y rhai oll a fedrant gyfraith

Duw] Yr oeddynt i ddefnyddio y gweddill o'r aur a'r arian, ar ol prynu yr offrynnau uchod, yn ol fel y cyfarwyddai Duw eu meddwl ar y pryd; neu yn ol ewyllys datguddiedig Duw yn ei gyfraith, yr hon yr oedd Ezra mor gyfarwydd ynddi.

Adn. 19. *A'r llestri*] Nid llestri teml Solomon, canys yr oedd y rhai hyn wedi eu dychwelyd gan Cyrus yn hir cyn hyn; eithr llestri ereill, o roddiad y brenin presenol a'i gynghoriaid, pen. viii. 25—27: *dod adref o flaen dy Dduw*—at ei wasanaeth a'i addoliad ef yn Jerusalem, ac i harddu y deml.

Adn. 20. *A pheth bynag ychwaneg a fyddo angenrhaid*] Tnag at adgyweirio, addurno, neu orphen y deml; a *roddi di o drysordy y brenin*—ymddengys fod trysordy o'r fath yn Jerusalem, lle y derbynid ac y cedwid toll, teyrnged, a threth i'r brenin hwn; ac yr oedd y llythyr hwn yn ddigon o awdurdod i Ezra godi arian y brenin oddiyno at wasanaeth angenrheidiol y deml.

Adn. 21. *Yn gosod gorchymyn i holl drysorwyr y tuhwnt i'r afon*] Yr ochr orllewinol i'r Euphrates. Heblaw awdurdodi Ezra i godi yr arian a'r pethau ereill angenrheidiol, y mae y brenin yn rhoddi gorchymyn hefyd i'w holl drysorwyr eu rhoddi iddo yn ebrwydd, ac yn y modd parotaf.

Adn. 22. *Hyd gan talent o arian*] Yn cyfateb i £31,218 15s. o'n harian ni; a *hyd gan corus o wenith*—yr hyn a gyrrhaeddi at oddeutu 944 o fwseli at y bwyd-offrymau; a *hyd gan bath o win*—at y diod-offrymau, yr hyn oedd fwy na 732 o alwyni; a'r un faint o *olew*—i'w gymysgu â'r peillied yn y bwyd-offrymau; a *halen heb fesur*—gan nad oedd o werth mawr, a bod ei eisian gyda phob off-rrwm, Lef. ii. 13.

Adn. 23. *Beth bynag yw gorchymyn Duw y nefoedd*] Yn y gyfraith a roddodd efe i'w bobl Israel; *gwneler yn ddyfal i dŷ Duw y nefoedd*—cyflawnr yn y modd manylaf yn ol llythren y gyfraith hono: *canys paham y byddai lliidiogrwydd yn erbyn teyrnas y brenin a'i feibion*—am esgeuluso unrhyw ran o'i wasanaeth a'i addoliad ef, a hyny trwy fy

niotalwch neu fy nghrintachrwydd i? Yr oedd Artaxerxes yn canfod ei ddyledswydd yn hyn, a'r perygl ag y byddai ei deyrnas ynddi ryw- bryd neu gilydd, yn ei maer ef neu yn auser ei feibion, os esgeulusai efe wneyd ei ddyled- swydd tuag at achos Duw Israel; a hyny mewn rhan trwy oleuni natur, ond yn benaf trwy y wybodaeth a enillasai efe wrth gymysgu â'r Iuddewon. Y mae yr esgeulusiad a'r dir- myg o grefydd yn dwyn barn Duw ar frenhin- oedd a theyrnasoedd; a'r peth goraf i droi ymaith ei lliidiogrwydd ef, pan y byddo yn barod i ymarllwys ar ben dynion, yw cynal a chefn- ogi gwir grefydd. Ar yr aduod hon *Jacobus Cappellus* a sylwa, 'O eirian i'w hysgrifenu ar balasau brenhinoedd mewn llythyrenau o aur, ac i'w cerfio ar feddylliau pawb â phin o adamant! Canys y maent yn arddangos ys- tyriaeth dra mawr o Dduw, ac o'i oruchaf awdurdod ef, a'r parch dyledus iddo oddiwrth y brenhinoedd a'r penaduriaid mwyaf!'

Adn. 24. *Na ellir bwrw arnynt doll, na theyrnged, na threth*] Am y buasai hyny yn anghyfiawn, trwy na feddnt gyllidion, mas- nach, na meddiannau. Arferai y cenhedloedd eilunaddolgar ryddhau eu hofferiaid oddiwrth drethi am yr un rheswm.

Adn. 25. *Tithau Ezra, yn ol doethineb dy Dduw, yr hwn sydd yn dy law*] Heblaw y doethineb dwyfol ag oedd yn ei feddwl a'i galon ef, yr oedd y gyfraith, llyfr doethineb Duw, yn ei law ef hefyd, i'w gyfarwyddu yn mhob peth a orchymynai y brenin iddo yn awr; *gosod swyddogion a barnwyr i farnu yr holl bobl*—yn ol gosodiad Duw, Deut. xvi. 18; *o'r tuhwnt i'r afon*—sef rhwng yr Eu- phrates a Jerusalem; neu os yr Iorddonen a feddylir, yr oedd hyn i'w gyfyngu i wlad Ju- dea; y rhai oll a fedrant gyfraith dy Dduw—nid oedd neb arall i'w gosod yn swyddogion a barnwyr; a *dysgwch y rhai nis medrant*—fel y byddo pawb yn eich mysg, yn Iuddewon a Chenhedloedd, yn hyddysg yn y gyfraith ddwyfol. Cyuwysa hyn ryddid iddynt i wneuthur proselytiaid o'r cenhedloedd i'r gref- ydd Iuddewig.

Adn. 26. *A phwy bynag ni wnelo gyfraith*

dy Dduw; a dysgwch y rhai nis medrant.

26 A phwy bynag ni wnelo gyfraith dy Dduw, a chyfraith y brenin, gwneler barn yn ebrwydd arno ef, pa un bynag ai i farwolaeth, ai i'w ddeol, ai i ddirwy o dda, ai i archar.

27 ¶ Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw ein tadau, yr hwn a roddes fel hyn yn nghalon y brenin, i harddu tŷ yr Arglwydd yr hwn sydd yn Jerusalem:

28 Ac a barodd i mi drugaredd o flaen y brenin a'i gynghoriaid, ac o flaen holl gedyrn dywysogion y brenin. A mi a gynorthwywyd, fel yr oedd llaw yr Arglwydd fy Nuw arnaf fi, a chesglais o Israel benaethiaid fyned i fyny gyda mi.

PENNOD VIII.

A DYMA eu penau cenedl hwynt, a'u hachau, y rhai a aeth i fyny gyda mi, yn nheyrnasiad Artaxerxes y brenin, allan o Babilon.

2 O feibion Phinees; Gersom: o feibion Ithamar; Daniel: o feibion Dafydd; Hattus:

dy Dduw] Yr hon hefyd a elwir yma yn 'gyfraith y brenin,' trwy ei fod ef yn ei phleidiu; gwneler barn yn ebrwydd arno ef—yn gyfatebol i'w drosedd; *pa un bynag ai i farwolaeth*—os bydd efe yn ol y gyfraith yn haeddu hyn; *ai i'w ddeol*—neu ei alltudio allan o'r wlad; *ai i ddirwy*—o'i feddiannau; *ai i garchar*—am dymhor penodol. Yr oedd y gorp i fod yn wastadol yn ol natur a maint y trosedd, fel ei nodid yn llyfr y gyfraith ddwyfol. Pa beth yn fwy a allasai Jehosaphat, Hezeciah, neu Dafydd ei hun ei wneuthur, fel brenin, er anrhydedd i Dduw, a lledaeniad rhinwedd a chrefydd, nag a wnaed gan y brenin paganaid hwn? Yma y terfyna y llythyr brehinol.

Adn. 27. *Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw ein tadau*] Geiriau Ezra yw y rhai hyn, yn bendithio Duw am roddi yn nghalon Artaxerxes y tueddiadau daionus a ddangoswyd yn y llythyr uchod, ac am ei gynhyrfu ef i gyfranu mor helaeth at wasanaeth y deml; *i harddu tŷ yr Arglwydd*—â'r llestri a grybwyllwyd adn. 19, ac â'r aur a'r arian a gyfranwyd mor helaeth ganddo o a'i gynghoriaid, adn. 15. Hefyd yr oedd darpariaeth haelionus y brenin tuag at gael aberthau ac ofrymau i'r deml, yn harddwch arbenig iddi.

Adn. 28. *Ac a barodd i mi drugaredd o flaen y brenin a'i gynghoriaid*] Trwy fy marnu yn deilwng i ddwyn eu hoffrymau gwirfodd hwy i Jerusalem, a'm penodi i'r

3 O feibion Sechaniah, o feibion Pharos; Zechariah: a chydag ef y rhifwyd wrth eu hachau gant a deg a dengain o wrywiaid.

4 O feibion Pahath-Moab; Elihoenai mab Zerariah, a chydag ef ddau cant o wrywiaid.

5 O feibion Sechaniah; mab Jahaziel, a chydag ef dri chant o wrywiaid.

6 O feibion Adin hefyd; Ebed mab Jonathan, a chydag ef ddeg a deugain o wrywiaid.

7 Ac o feibion Elan; Jesaiah mab Athaliah, a chydag ef ddeg a thriugain o wrywiaid.

8 Ac o feibion Sephatiah; Zebadiah mab Michael, a chydag ef bedwar ugain o wrywiaid.

9 O feibion Joab; Obadiah mab Jehiel, a chydag ef ddau cant a deunaw o wrywiaid.

10 Ac o feibion Selomith; mab Josiphia, a chydag ef wyth ugain o wrywiaid.

11 Ac o feibion Bebai; Zechariah mab Bedai, a chydag ef wyth ar hugain o wrywiaid.

12 Ac o feibion Azgad; Johanan

swydd. *A mi a gynorthwywyd*—yn fy ŷsbryd i gymeryd arnaf y gwaith hwn, trwy ddylanwad Ysbryd Duw arnaf, a'i amddiffyniad ef drosaf. *A chesglais o Israel benaethiaid i fyned i fyny gyda mi*—y rhai, yn nghyda'u teuluoedd, a enwir yn y bennod nesaf. Y mae yn debyg i Ezra fyned ar hyd y taleithiau i berswadio a chasglu ei frodyr i fyned gydag ef i'w hen wlad.

PEN. VIII. Adn. 1. *A dyma eu penau cenedl hwynt*] Y rhai a enwir yn mlaenaf yn nechre pob adnod hyd y 14eg; *a'u hachau*—rhaf wedi disgyn oddiwrthynt, neu o'r un llywyth a hwynt, ac o dan eu hawdurdod a'u gofal ar hyd y ffordd o Babilon i Jerusalem.

Adn. 2. *O feibion Ithamar, Daniel*] Nid Daniel y proffwyd, canys yr oedd ef o'r had brehinol, ac o lwyth Juda; eithr offeiriad oedd hwn yn llinell Ithamar, megys yr oedd *Gersom* yn llinell Phinees mab Eleazar. *O feibion Dafydd, Hattus*—felly yr oedd yma ddau o'r teulu offeiriadol, ac un o'r teulu brehinol.

Adn. 3—14. *Gant a deg a deugain o wrywiaid*] Yr oedd nifer yr holl wrywiaid a grybwyllir yn yr adnodau hyn, y rhaf a aethant i Jerusalem gydag Ezra, yn 1496, heblaw eu penau cenedl; a diamau iddynt gymeryd eu gwragedd gyda hwynt, er na ddywedir hynny yma, fel y cymerasant eu 'plant,' adn. 21. Wrth ddywedyd i 'feibion olaf Adoniam'

mab Haccatan, a chydag ef ddeng mab a chant.

13 Ac o feibion olaf Adoniam, dyma hefyd eu henwau hwynt, Eliphelet, Jeiel, a Semaiah, a chyda hwynt dringain o wrywiaid.

14 Ac a feibion Bigfai; Uthai, a Zabbud, a chyda hwynt ddeg a thringain o wrywiaid.

15 ¶ A chesglais hwynt wrth yr afon sydd yn myned i Ahafa; ac yno y gwersyllasom ni dridiau: a mi a ystyriais y bobl, a'r offeiriad, ond ni chefais yno *neb* o feibion Lefi.

16 Yna yr anfonais am Eliezer, am Ariel, am Semaiah, ac am Elnathan, ac am Jarib, ac am Elnathan, ac am Nathan, ac am Zechariah, ac am Mesulam, y pen-aethiaid; ac am Joiarib, ac am Elnathan, y rhai doethion:

17 A rhoddais orchymyn gyda hwynt at Ido; penaeth yn y fan a

elwir Chasiphia; a gosodais yn eu penau hwynt eiriau i'w traethu wrth Ido, a'i frodyr y Nethiniaid, yn y fan a *elwir* Chasiphia, fel y dygent atom ni weinidogion i dŷ ein Duw.

18 A hwy a ddygasant atom (fel yr oedd daionus law ein Duw arnom ni) wr deallgar o feibion Mali, fab Lefi, fab Israel, a Serebiah, a'i feibion, a'i frodyr, ddeunaw;

19 A Hasabiah, a chydag ef Jesaiah o feibion Merari, a'i frodyr, a'u meibion, ugain;

20 Ac o'r Nethiniaid, a roddasai Dafydd a'r tywysogion yn ngwasanaeth y Lefiaid, dau cant ac ugain o Nethiniaid: hwynt oll a hysbysasid erbyn eu henwau.

21 ¶ Ac yno, wrth afon Ahafa, y cyhoeddais ympryd, i ymgystuddio gerbron ein Duw ni, i geisio ganddo ef ffordd union i ni, ac i'n plant, ac i'n golud oll.

fyned gydag Ezra y tro hwn, ymddengys i rai o'i feibion ef fnyed gyda Zorobabel y tro o'r blaen, pen. ii. 13, ac i'r holl weddill eu dylyn hwy yn awr; er yn ddiamau i lawer o bob teulu arall aros fyth yn Babilon, yr hyn oedd yn dangos eu difaterwch mawr am eu gwlad a'u crefydd.

Adn. 15. *A chesglais hwynt wrth yr afon sydd yn myned i Ahafa*] Y mae yn debyg mai yr un lle yw hwn a'r *Afa* a grybwyllir 2 Bren. xvii. 24, o ba le y dyg brenin Assyria bobl i gyfaneddu yn Samaria, ar ol iddo gaethgludo y deg llwyth o Palestina i'w wlad ei hun. *Ac yno y gwersyllasom ni dridiau*—i ysgrifenu mewn llyfr enwau y bobl, a'u nifer, a'u hachau; ac i anfon cenadau ond odid i wahodd yr Iuddewon a allent fod yn cyfaneddu yn y parthau hyn i ddychwelyd i'w gwlad eu hun gyda hwy. *Onid ni chefais yno neb o feibion Lefi*—ond yr offeiriad; *neb ag oedd ynt yn Lefiaid cyffredin*. Felly rhaid fod y Lefiaid a rag-grybwyllwyd yn pen. vii. 7, heb ymuno â hwynt eto.

Adn. 16. *Yna yr anfonais am Eliezer, &c.*] Efe a anfonodd am yr unardeg hyn, fel y gallai eu gyrru ar neges i fan lle y gwyddai fod llawer o Lefiaid, &c.; ac am *Joiarib, &c.*—y rhai a feddent fwy o ddoethineb a gwybod-aeth, nag o sel dros Dduw a'i addoliad.

Adn. 17. *Ido, penaeth yn y fan a elwir Casiphia*] Tybia rhai mai mynyddoedd *Caspia*, rhwng Media a Hyrcania, a feddylir wrth *Casiphia* yn y testyn; ond barna ereill fod y lle hwn yn rhy bell o'i lwybr ef yn awr. Tybia ereill mai hen ddinas *Caspi*, yn Parthia, a olygir. Y mae y LXX yn ei gyfieithu, 'Lle yr arian,' am fod *keseph*, yn yr Hebraeg, yn arwyddo 'arian'; ac os hyn a feddylir, y mae yn debyg fod y Nethiniaid ar waith yn cloddio arian yno. Beth bynag am hyn, ym-

ddengys fod yno lawer o Lefiaid a Nethiniaid, a bod Ido yn bennaeth arnynt, naill ai fel arol-ygwr cyffredinol ar y gweithwyr, neu ynte, fel y tybia rhai, yr oedd ef yn atlawr ar fath o ysgol i'r Lefiaid a'r Nethiniaid yno. *Fel y dygent atom ni weinidogion i dŷ ein Duw*—i ddwyn yr arian, a'r aur, a'r llestri santaidd yno, adn. 25—28.

Adn. 18, 19. *A hwy a ddygasant atom*] Ni ddychwelasant heb eu neges; eithr, er byred oedd y rhybydd, dygasant oddeutu deugain o Lefiaid at Ezra; *fel yr oedd daionus law ein Duw arnom ni*—yn eu bendithio a'u llwyddo yn yr hyn oll a wnaent.

Adn. 20. *Ac o'r Nethiniaid*] Sef y Gibeoniaid, y rhai a roddwyd i wasanaethu y Lefiaid gan Josua a'r tywysogion yn ei amser ef, Jos. ix. 21; ac a ddywedir yma ddarford eu rhoddi gan Dafydd a'i dywysogion, am ddarford iddynt hwy eu cadarnhau yn eu swydd, a'u defnyddio at is-wasanaeth y cysegr. Ar y byr rhybydd hwn darfu i 220 o honynt ymrestru, a chawsant yr anrhydedd o gael eu cofrestru wrth eu henwau gan Ezra ar y pryd.

Adn. 21. *Ac yno wrth afon Ahafa*] Sef yr afon ag oedd yn myned i Ahafa, adn. 15; *y cyhoeddais ympryd*—sef wedi i'r cenadau uchod, a'r Lefiaid a'r Nethiniaid, ddyfod yno atynt; *i ymgystuddio gerbron ein Duw ni*—i ymstwyng mewn edifeiriwch ger ei fron ef am ein pechodau, ac i ofyn am faddauent o honynt; *i geisio ganddo efffordd union i ni*—sef taith ddiogel a llwyddiannus; *ac i'n plant*—er na soniwyd ond am y gwrywiaid o'r blaen, adn. 3—14, neu wŷr wedi tyfu i fyny, eto ymddengys oddiyma fod eu plant gyda hwy, a'u mamau hefyd yn ddiamau i ofalu am y plant hyn; *ac i'n golud oll*—gallwn feddwl fod gan rai o honynt lawer o olud o'r eiddynt eu hunain, heblaw y golud a offrymesid at dŷ

22 Canys cywilydd oedd genyf geisio gan y brenin fyddin a gwŷr meirch, i'n cynorthwyo rhag y gelym ar y flordd: canys llefarasem wrth y brenin, gan ddywedyd, Llaw ein Duw ni sydd er daioni ar bawb a'i ceisiant ef, a'i gryfder a'i ddigter yn erbyn pawb a'i gadawant ef.

23 Am hyny yr ymprydiasom ac yr ymbiliasom a'n Duw am hyn; ac efe a wrandawodd arnom.

24 ¶ Yna y neillduais ddeuddeg o benaethiaid yr offeiriaid, Serebiab, Hasabiah, a deg o'u brodyr gyda hwynt;

25 Ac a bwysais atynt hwy yr arian, a'r aur, a'r llestri, sef offrwm tŷ ein Duw ni, yr hyn a offrymasai y brenin, a'i gynghoriaid, a'i dy-

wysogion, a holl Israel, y rhai a gawsid yno.

26 Ie, pwysais i'w dwylaw hwynt chwe chant a deg a deugain talent o arian, ac o lestri arian gan talent, a chan talent o aur;

27 Ac ugain o orflychau aur o fil o drachmonau; a dau lestr o bres melyn da, mor brydferth ag aur.

28 A dywedais wrthynt, Sантаidd ydych chi i'r Arglwydd; a'r llestri ydynt sантаidd; yr arian hefyd a'r aur sydd offrwm gwirfodd i Arglwydd Dduw eich tadau.

29 Gwylwch, a chedwch hwynt, hyd oni phwysoch hwynt gerbron penaeithiaid yr offeiriaid a'r Lefiaid, a phenau cenedl Israel yn Jerusaleml, yn nghelloedd tŷ yr Arglwydd.

Dduw gan y brenin a'i gynghoriaid; a chan fod mintoedd o Arabiaid ac yspellwyr ereill yn crwydro ar hyd y fyrdid hyny, yn barod i'w hyspeilio os nid eu lladd, yr oedd yn addas iddynt fel hyn geisio yr amddiffyniad dwyfol.

Adn. 22. *Canys cywilydd oedd genyf geisio gan y brenin, &c.*] Yr oedd Ezra a'r luddewon mewn cymaint parch gan y brenin, fel y cawsent yn ebrwydd fyddin a gwŷr meirch ganddo ef i'w hamddiffyn rhag lladron ar eu taith; eithr wedi iddo ef son mor fynych ei fod yn hyderu ar ddaioni a ffyddlondeb Duw, a dywedyd fod Duw yn amddiffynyd sicr i'r rhai oll a ymddiriedent ynddo, ac yn elyn cadarn i bawb a'i gadawent ef, yr oedd arno gywilydd myned eilwaith i geisio help gan y brenin, rhag y buasai trwy hyny yn dianrhydeddu Duw, gan ddangos nad oedd ef ei hun yn credu fod Duw mor dda, neu mor barod i'w cynorthwyo hwy, ag y dywedasai wrth y brenin ei fod.

Adn. 23. *Am hyny yr ymprydiasom ac yr ymbiliasom a'n Duw*] Am iddo ef ein 'cynorthwyo rhag y gelym ar y flordd,' adn. 22, fel na fyddai i'n geiriau a'n hymddygiad ymddangos yn annghyson yn ngolwg y brenin. *Ac efe a wrandawodd arnom*—rhoddodd Duw sicrwydd dedwydd yn ein meddyliau y byddai iddo ein diogelu ar ein taith, yr hyn hefyd a wnaeth.

Adn. 24. *Yna y neillduais ddeuddeg o benaethiaid yr offeiriaid*] I ofalu am yr offrymau at wasanaeth y deml. *Serebiab, Hasabiah*—ymddengys oddiwrth adn. 18, 19, mai Lefiaid oedd y ddau hyn; a *deg o'u brodyr gyda hwynt*—sef o'r offeiriaid, y rhai oeddnynt yn frodyr iddynt o'r un llwyth, ac a wnaent i fyny rhyngddynt y 'deuddeg penaeith' uchod. Nid oedd y penaeithiaid hyny i gyd yn offeiriaid, canys ni a welwn oddiwrth adn. 30, fod y trysorau cysegredig hyn wedi eu hymddiried i ofal yr offeiriaid a'r Lefiaid.

Adn. 25. *Ac a bwysais atynt hwy yr arian, &c.*] Fel y byddai ganddo sicrwydd yn

mhen y daith nad oedd dim o honynt wedi ei gollu.

Adn. 26. *Ie, pwysais i'w dwylaw hwynt chwe chant a deg a deugain talent o arian*] Yr hyn, yn nghyda'r 'can talent o lestri arian,' a chyfrif y dalent arian yn werth £342 3s. 9c., a wna £256,640 12s. 6c. o'n harian ni. *A chan talent o aur*—yr hyn, a chyfrif y dalent aur yn werth £5,475, a wna £547,500 o'n harian ni. Felly y mae yr holl arian ac aur a nodir yn yr adnod hon, heblaw y llestri a grybwyllir yn yr adnod nesaf, yn werth £804,140 12s. 6c. o'n harian ni.

Adn. 27. *Ac ugain o orflychau aur*] Gwel ar pen. i. 10; *o fil o drachmonau*—ond ni ddywedir pa un ai yr oll rhyngddynt, ynte pob un ar ei ben ei hun, oedd fil o drachmonau. Yr oedd drachmon aur yn werth oddeutu punt o'n harian ni; a chyrrhaeddi y gorflychau hyn felly i oddeutu £1,000 neu £20,000 o'n harian ni. *A dau lestr o bres melyn da*—y mae y Syriaeg yn ei gyfieithu *nechosho corinthotoba*, llestri o'r pres *Corinthaid goraf*; a elwid felly oddiwrth y pres a gaed ar ol llosgi Corinth gan *Lucius Mummius*, yr hwn oedd bres, aur, ac arian wedi cyd-doddi ac ymgymysgu fel y meddylir, ac a werthfawrogid gan yr benaethiaid uwchlaw aur ac arian. Y mae yn debyg mai rhyw ddefnyddiau cymysgedig felly oedd y pres hwn. *Mor brydferth ag aur*—o ran ei ddysgleirdeb; *Saes*, 'mor werthfawr ag aur.'

Adn. 28. *Sантаidd ydych chi i'r Arglwydd*] Yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid hyn yn sантаidd i'r Arglwydd, am ddarfod eu neillduo fel llwyth gan Dduw gynt i'w wasanaeth sантаidd ef, ac hefyd am eu neillduo yn awr i edrych ar ol y llestri hyn; *a'r llestri ydynt sантаidd*—am ddarfod eu rhoddi at wasanaeth sантаidd y deml.

Adn. 29. *Gwylwch a chedwch hwynt*] Hyd oni ddyger hwynt i gelloedd y deml yn Jerusaleml, lle y rhaid eu pwysio eto yn ngolwg y penaeithiaid, i weled eu bod yn ateb i'w pwysu, heb i ddim o honynt gollu.

Adn. 30. *Felly yr offeiriaid a'r Lefiaid a*

30 Felly yr offeiriaid a'r Lefiaid a gymerasant bwys yr arian, a'r aur, a'r llestri, i'w dwyn i Jerusalem i dŷ ein Duw ni.

31 ¶ A chychwynasom oddiwrth afon Ahafat, ar y deuddegfed dydd o'r mis cyntaf, i fyned i Jerusalem: a llaw ein Duw oedd arnom ni, ac a'n gwaredodd o law y gelyn, a'r rhai oedd yn cynllwyn ar y ffordd.

32 A ni a ddaethom i Jerusalem, ac a arosasom yno dridiau.

33 ¶ Ac ar y pedwarydd dydd y pwyswyd yr arian, a'r aur, a'r llestri, yn nhŷ ein Duw ni, trwy law Merimoth mab Uriah yr offeiriad; ac Eleazar mab Phinees oedd gydag ef; a Jozabad mab Jesua, a Noadiah mab Binnui, y Lefiaid, oedd gyda hwynt:

34 Wrth rifedi, ac wrth bwys pob un. A'r holl bwysau a ysgrifenywyd y pryd hwnw.

35 Meibion y gaethglud, y rhai a ddaeth o'r caethiwed, a offrymasant boeth-offrymau i Dduw Israel, *sef*

deuddeg o fustych dros holl Israel, onid pedwar pum ugain o hyrddod, namyn tri pedwar ugain o wŷn, a deuddeg o fychod yn bech-aberth: y cwbl oedd yn offrwm poeth i'r Arglwydd.

36 ¶ A rhoddasant orchymyn y brenin at benefigion y brenin, a thywysogion y tuhwnt i'r afon: a hwy a gynorthwyasant y bobl, a thŷ Dduw.

PENNOD IX.

A C wedi darfog hyn, y tywysogion a ddaethant ataf fi, gan ddywedyd, Nid ymneillduodd pobl Israel, a'r offeiriaid, a'r Lefiaid, oddiwrth bobl y gwledydd: *gunaehtant* yn ol en ffeidd-dra hwynt; *sef* y Canaanaid, yr Hethiaid, y Phereziaid, y Jebusiaid, yr Ammoniaid, y Moabiaid, yr Aiffitiaid, a'r Amoriaid.

2 Canys cymerasant o'u merched iddynt eu hun, ac i'w meibion; a'r had santaidd a ymgymysgodd â

gymerasant bwys yr arian, &c.] Yn ysgrifenedig mewn llyfr, yn nghyda'u rhif hefyd, adn. 34.

Adn. 31. *A llaw ein Duw oedd arnom ni]* I'n nerthu a'n hamddiffyn ar hyd ein ffordd faith a pheryglus mewn atebiad i'n gweddïau; *ac a'n gwaredodd o law y gelyn—y rhai oedd yn cynllwyn ar y ffordd.* Gwnaed hyn naill ai trwy roddi eu harswyd yn meddyliau eu gelynon, neu ynte trwy eu harwain ar hyd ffordd arall yn ddiarybod iddynt.

Adn. 32. *A ni a ddaethom i Jerusalem]* Ar y dydd cyntaf o'r pummed mis, pen. vii. 9; *ac a arosasom yno dridiau—i* orphwys, cyn dechreu traddodi a phwyso y trysorau cysegredig.

Adn. 33. *Ac ar y pedwarydd dydd y pwyswyd yr arian, &c.]* Yn ngwyd dau offeiriad a dau Lefiad, fel y byddent dystion o blaid neu yn erbyn gonestrwydd eu brodyr, dan ofal pa rai eu dygwyd yno, adn. 24, 30.

Adn. 34. *A'r holl bwysau a ysgrifenywyd y pryd hynny]* Fel y byddai yr ysgrif hon yn ddanghosiad parliaus pa offrymau gwirfodd a wnaed yn Babilon tuag at deml Jerusalem, ac yn brawf parhaus o ffyddlondeb a gonestrwydd y rhai a ddygasant yr offrymau hyn y Jerusalem; canys diamau fod rhif a phwys y cyfan yn cyfateb yn fanwl i'r hyn oeddynt cyn cychwyn, adn. 30.

Adn. 35. *Meibion y gaethglud, y rhai a ddaeth o'r caethiwed]* Yn awr gydag Ezra; a *offrymasant boeth-offrymau i Dduw Israel—*mewn ffordd o ddiolchgarwch iddo am eu dwyn yn ddiogel i Jerusalem; *sef deuddeg o fustych dros holl Israel—sef* bustach dros bob

llwyth, canys y mae yn debyg fod rhai o bob llwyth wedi dychwelyd yno erbyn hyn. Nid oeddynt mwyach yn ymrann—deg llwyth un ffordd, a dau y ffordd arall; ond yr oedd y deuddeg llwyth, trwy eu cynrychiolwyr, yn cyfarfod wrth yr un allor.

Adn. 36. *A rhoddasant orchymyn y brenin]* Yr hwn a gynwysir yn pen. vii. 21—24; *at benefigion y brenin—y rhai oeddynt yn rhaglawiad* dano ef ar yr holl daleithiau o'r tu gorllewinol i'r afon Euphrates. *A hwy a gynorthwyasant y bobl, a thŷ Dduw—y* pendefigion hyn, y rhai o'r blaen a wrthwynebant adeiladu y deml, a ddaethant yn awr yn bleidwyr iddi. Ond tybia rhai mai am Ezra a'i gyd ddychweledigion y dywedir hyn; a diamau iddynt hwythau hefyd gynoorthwyo eu brodyr.

PEN. IX. Adn. 1. *Y tywysogion a ddaethant ataf fi]* Y rhai oeddynt yn ofni Duw, ac yn deal fod Ezra wedi dyfod yno oddiwrth y brenin i ddiwygio y bobl. *Nid ymneillduodd pobl Israel—sef* y rhai a ddaethant o Babilon y tro cyntaf gyda Zorobabel; *oddiwrth bobl y gwledydd—y rhai a enwir yn niwedd yr adnod hon; gunaehtant yn ol eu ffeidd-dra hwynt—y mae yr ymadrodd hwn yn gyffredin yn yr ysgrthyir yn arwyddo eilunaddoli; ond ymddengys nad yw efe yma yn arwŷddo dim mwy nag efelychu y cenedloedd mewn priodi y neb a fyneant, ac mewn rhai arferion llygredig creill, yr hyn a allai eu harwain hwy cyn hir i eilunaddoliaeth. Yr oedd yr offeiriad a'r Lefiaid wedi ymuno â'r werin yn y pechod hwn, yn lle eu hannog hwy trwy athrawiaeth*

phobl y gwledydd: a llaw y penaethiaid a'r tywysogion fu gyntaf yn y camwedd hyn.

3 Pan glywais inau hyn, mi a rwygais fy nillad a'm gwisg, ac a dynais wallt fy mhen a'm barf, ac a eisteddais yn syn.

4 Yna yr ymgasglodd ataf fi bob un a'r a ofnodd eiriau. Duw Israel, amgamwedd yr rhai a gaethgludesid; a myfi a eisteddais yn syn hyd yr aberth prydawnol.

5 ¶ Ac ar yr aberth prydawnol mi a gyfodais o'm cystudd; ac wedi i mi rwygo fy nillad a'm gwisg, mi a ostyngais ar fy ngliniau, ac a ledais fy nwyllaw at yr Arglwydd fy Nuw,

6 Ac a ddywedais, O fy Nuw, y mae arnaf gywilydd a gorchwyledd godi fy wyneb atat ti, fy Nuw; o herwydd ein hanwireddau ni a aethant yn aml dros ben, a'n camwedd a dyfodd hyd y nefoedd.

7 Er dyddiau ein tadau yr ydym ni mewn camwedd mawr hyd y dydd hwn; ac am ein hanwireddau y rhoddwyd ni, ein brenhinoedd, a'n hofferiaid, i law brenhinoedd y gwledydd, i'r cleddyf, i gaethiwed, ac i anrhaith, ac i warthrudd wyneb, megys heddyw.

8 Ac yn awr dros enyd fechan y daeth gras oddiwrth yr Arglwydd ein Duw, i adael i ni weddill i ddi-auc, ac i roddi i ni hoel yn ei le

a siampl i ymgadw oddiwrtho yn ol y gyfraith, Deut. vii. 2—4.

Adn. 2. *A'r had santiaidd*] Hiliogaeth Abraham, sef y genedl a neillduodd yr Arglwydd i fod yn bobl briodol a santiaidd iddo ei hun, ac i fod ar wahan oddiwrth yr holl genedloedd. *A llaw y penaethiaid a'r tywysogion fu gyntaf yn y camwedd hyn*—dylasai y rhai hyn attal y werin, trwy awdurdod, rhag y cyfryw briodasau; ond yn lle hyny, dchreuodd y drwg gyda hwy, a thrwy eu siampl tynasant ereill i'r un camwedd, nes yr oedd yr had santiaidd yn cael ei lygru yn gyflym gan bobl y gwledydd, o ran gwaedoliaeth ac arferion.

Adn. 3. *A mi a rwygais fy nillad a'm gwisg*] Y rhai nesat at ei groen, yn gystal a'i fantell uwchaf, yn arwydd o'i alar a'i ofid dirfawr am yr hyn a glywsai; *ac a dynais wallt fy mhen a'm barf*—yr oedd eillio y pen a'r farf yn arwydd o ofid mawr; canys mewn galar cyffredin, nid oeddynt ond yn esgeuluso y gwallt, gan adael iddo grogi i lawr yn wasgarog ac anhrefnus: eithr yma efe a wnaeth fwy na'i eillio, sef ei dynu o'r guraidid, yr hyn oedd ar unwaith yn weithred dra phoenus, ac yn arwydd o'r galar mwyaf; *ac a eisteddais yn syn*—mewn gofid a chywilydd o herwydd eu pechod, a'u hanniolchgarwch i Dduw, yr hwn a'u dygasai mor ddiweddar o gaethiwed; ac mewn ofn rhag y byddai i ryw farn fwy eu goddiweddyd.

Adn. 4. *Yna yr ymgasglodd ataf fi*] I ymuno â mi mewn galar ac ymostyngiad am y camwedd, ac mewn ymdrech i attal y gomp am dano; *bob un a'r a ofnodd eiriau Duw Israel*—ac felly a ymgadwasai yn lân oddiwrth y camwedd hwn; neu bob un ag ydoedd yn ofni ei farn ef yn erbyn troseddwy'r ei gyfraith; *y rhai a gaethgludesid*—ond a oeddynt yn awr wedi eu rhyddhau o'r caethiwed er's llawer o fynyddoedd, eithr heb gael fawr o les oddiwrth eu caethgludiad na'u hadferiad; *a myfi a eisteddais yn syn hyd yr aberth prydawnol*—pryd yr ymgynullai yr addolwyr i'r deml.

Adn. 5. *Ac ar yr aberth prydawnol mi a gyfodais o'm cystudd*] O'i agwedd ymgreint-

iol a syn, yn yr hon y buasai yn galaru yn ddwys er y bore; *ac wedi i mi rwygo fy nillad a'm gwisg*—yr hyn a wnaeth ete eilwaith ond odid, adn. 3; *mi a ostyngais ar fy ngliniau*—i gyffesu ein pechodau, ac ymbil gerbron yr Arglwydd; *ac a ledais fy nwyllaw*—fel pe buasai am ymaflyd yn nhrugredd Duw: gwel ar I Bren. viii. 22. Gan i Ezra wneyd hyn oll yn amser yr aberth prydawnol, diamau fod ganddo olwg ar yr Iawn mawr, o'r hwn yr oedd yr aberth-hwn yn gysgod neillduol.

Adn. 6. *Y mae arnaf gywilydd a gorchwyledd godi fy wyneb atat ti, fy Nuw*] I ofyn am faddeuant, wrth ystyried fod y genedl wedi digio Duw mor fynych, ac mor fynych wedi cael maddeuant, ac wedi hyny yn parhau i droseddu ei gyfraith santiaidd efe! *O herwydd ein hanwireddau ni*—y mae Ezra yn ei roddi ei hun yma yn mysg y troseddwy'r, am ei fod yntau yn euog o lawer o feisiau; a thrwy fod y penaethiaid a'r tywysogion, yr ofseiriaid a'r Lefiaid, yn 'gyntaf yn y camwedd hwn,' yr oedd y camwedd yn un cenedlaethol. *Yn aml dros ben*—dros ben eu rhifo; neu, yn ol y Saesonae, 'dros ein pen,' fel dyfroedd chwyddedig yn barod i'w boddi. *A'n camwedd a dyfodd hyd y nefoedd*—yn amlwg i bawb, neu i alw am i farn ddisgyn oddiyno ar ein penau.

Adn. 7. *Er dyddiau ein tadau yr ydym ni mewn camwedd mawr*] Yn yr arferiad o rai o'r pechodan a wnaethai eu tadau cyn y caethgludaid, yr hyn oedd yn mwybau euogrwydd y genhedlaeth bresenol yn fawr iawn. *I law brenhinoedd y gwledydd*—y deg llwyth i law brenin Assyria, a'r ddau lwyth ereill i law brenin Babilon. *I'r cleddyf*—lladdwyd rhai o honynt a'r cleddyf, dygwyd ereill i gaethiwed, ac anrheithiwyd pawb o honynt o'u meddiannau. *Ac i warthrudd wyneb, megys heddyw*—sef i gywilydd amlwg. Er i lawer o honynt gael eu dwyn o'u caethiwed, eto yr oedd y rhan fwyaf o'r deg llwyth yn eu caethiwed o hyd; ac yr oedd effaith eu caethiwed i'w weled arnynt oll y dydd hwn.

Adn. 8. *Ac yn awr dros enyd fechan y*

santaidd ef; fel y goleuai Duw ein llygaid, ac y rhoddai i ni ychydig orphwysdra yn ein caethiwed.

9 Canys caethion *oeddyn* ni; ond ni adawodd ein Duw ni yn ein caethiwed, eithr parodd i ni drugaredd o flaen brenhinoedd Persia, i roddi i ni orphwysdra i ddyrchafu tŷ ein Duw ni, ac i gyfodi ei leoedd anghyfanedd ef, ac i roddi i ni fur yn Judah a Jerusalem.

10 Ac yn awr beth a ddywedwn wedi hyn, O ein Duw? canys gadawsom dy orchymynion di,

11 Y rhai a orchymynaist trwy law dy weision y proffwydi, gan ddywededy, Y wlad yr ydych yn myned iddi i'w meddiannu, gwlad halogedig *yw* hi, trwy halogedig-

aeth pobl y gwledydd, oblegid eu ffeidd-dra hwynt, y rhai a'i llanwasant hi â'u haflendid o gwr bwy gilydd.

12 Ac yn awr, na roddwch eich merched i'w meibion hwynt, ac na chymrwch eu merched hwynt i'ch meibion chwi, ac na cheisiwch eu heddwch hwynt na'u daioni byth: fel y cryfhaoch, ac y mwynhaoch ddaioni y wlad, ac y gadawoch hi yn etifeddiaeth i'ch meibion byth.

13 Ac wedi yr hyn oll a ddaeth arnom am ein drwg weithredoedd, a'n mawr gamwedd, am i ti ein Duw ein cospi yn llai na'n hanwiredd, a rhoddi i ni ddiangfa fel hyn;

14 A dorem ni drachefn dy orchymynion di, ac ymgyfathrachu

daeth gras] Nid oedd ond enyd fechan er pan ddechreuasai yr Arglwydd ddangos ffafri iddynt trwy eu gwaredu o'n caethiwed; ac wrth ystyried eu pechodau uchod yn ebrwydd ar ol hyny, gallai Ezra ofni mai dros enyd fechan y parhâi yr Arglwydd y ffafri hōno iddynt, heb eu cospi drachefn. *I adael i ni weddill i ddiac*—yr oedd y rhan fwyaf o'r deg llwyth wedi eu colli, a llawer o Juda a Benjamin yn aros fyth tuhwnt i'r Euphrates, fel mai da y gallai Ezra ddywededy mai *gweddill* a ddiangasai. *Ac i roddi i ni hoel yn ei le santaidd ef*—tybia rhai, wrth yr *hoel* yma, (1) Mai *cartref* yn ngwlad Judea a feddylir, neu le i grogi lleni eu pebyll, yn lle cael eu hymlid o fan i fan. (2) Tybia ereill mai *deml* a ail-adeiladasant hwy yn ninas santaidd Jerusalem a feddylir. (3) Eithr barna ereill mai *tywysog* o'r eiddynt eu hunain, megys Zerobabel, a olygr, dan yr hwn y gallent fwynhau llwyddiant a dedwyddwch parhaus: gwel Essay xxii. 23, Zech. x. 4. *Fel y goleuai ein Duw ein llygaid*—amean Duw wrth ein dwyn yma oedd rhoddi i ni wybodaeth drwydd o honom ein hunain, ac o hono vntau yn ei ddaioni a'i ras i ni. *Ac y rhoddai i ni ychydig orphwysdra yn ein caethiwed*—yr oeddynt hwy tyth mewn gradd o gaethiwed, gan eu bod yn ddarostyngedig i frenhinoedd Persia; ond trwy eu bod yn awr yn eu gwlad eu hunain, yr oedd iddynt fwy o orphwysdra na phan yn Babilon. 'Ychydig *adfywiad*' yw y Saesonaeg, pan yr oeddynt bron a *threngu* yn eu caethiwed; canys yr oedd eu dychweliad o Babilon megys bywyd iddynt oddiwrth y meirw.

Adn. 9. *Canys caethion oeddyn ni*] Mewn caethiwed mwy na'r hwn yr ydym ynddo yn awr; ond ni adawodd ein Duw ni yn ein caethiwed—yn hwy na'r 70 mlynedd a ddywedasai efe; nen ni ymadawodd oddiwrthym yn hollol tra yr oeddyn yn ein caethiwed yn Babilon; eithr parodd i ni drugaredd—cynhyrfodd Cyrus, Darius, ac Artaxerxes i roddi goillynged y ffafrau i ni; i ddyrchafu tŷ ein Duw ni—i adeiladu y deml a'r ddinas, ac i

adferu addoliad Duw yno; ac i roddi i ni fur—neu *nawdd* brenhinoedd Persia, yn Juda a Jerusalem, rhag rhuthriadau y Samariaid ac ereill.

Adn. 10. *Ac yn awr beth a ddywedwn wedi hyn, O ein Duw?*] Pa esgusawd a allwn ni ei wneuthur drosom ein hunain, ar ol i ti roddi i ni y fath freintiau mawrion ac uchel, ac i ninau eu camddefyddio mor gywilyddus? *Canys gadawsom dy orchymynion di*—y rhai a orchymynaist trwy law dy weision y proffwydi, ac a enwir yn adn. 12.

Adn. 11. *Gwlad halogedig yw hi*] Nid ynddi ei hun, ond am ddarod ei halogi gan ffeidd-dra moesol ei thirgolon cyntefi, yr hwn a ymledodd fel dylif dros yr holl wlad: gwel anghreifftau o bechodau y Canaancaid yn Lef. xviii. 24, &c.

Adn. 12. *Ac yn awr, na roddwch eich merched, &c.*] Wrth y genhedlaeth hōno a aeth gyntaf i Ganaan y dywedodd Duw hyn; eithr yr oedd y gyfraith hōno yr un mor rwyntiadol ar eu bolynwyr tra y parhâi y wladwr-iaeth Iuddewig, ac yr oedd ei haddewidion a'i hygythion yn perthyn yr un mor briodol i'r genedl yn amser Ezra, ag y gwnaent yn amser Moses a Josua.

Adn. 13. *Ac wedi yr hyn oll a ddaeth arnom am ein drwg weithredoedd*] Megys cleddyf, caethiwed, anrhaith, a gwarthrudd wyneb, adn. 7; ac hefyd, *am i ti ein Duw ein cospi yn llai na'n hanwiredd*—â chospau tymhorol yn unig, pan yr haeddasom gosp dragwyddol; a rhoddi i ni ddiangfa—o'n caethiwed yn Babilon, i ddyfod fel hyn i'n gwlad ein hunain;

Adn. 14. *A dorem ni drachefn dy orchymynion di?*] A oedd hyn yn ad-daliad priodol am dy holl diriondeb di tuag atom? *Oni ddiigit ti wrthym nes ein dyfetha*—oll fe'i cenedl, os byddai i ni, ar ol profi cymaint o'rh ddaioni a'th amynedd, syrthio drachefn i'r un camweddau?

Adn. 15. *Arglwydd Dduw Israel*] Sef Duw mewn cyfammod âg Israel; *cyfiawu ydwyti*—er i ni oll gael ein dyfetha; neu. fel y mae

â'r ffiaidd bobl hyn? oni ddigrit ti wrthym, nes ein dyfetha, fel na byddai un gweddill na diangol?

15 Arglwydd Dduw Israel, cyfiaw'n ydwyt ti; eithr gweddill diangol ydym ni; megys heddyw: wele ni o'th flaen di yn ein camweddau; canys ni allwn ni sefyll o'th flaen di am hyn.

PENNOD X.

AC wedi i Ezra weddio a chyffesu, gan wŷlo a syrthio i lawr o flaen tŷ Dduw, tyrfa fawr o Israel a ymgasglasant ato ef, yn wŷr ac yn

wragedd, ac yn blant: canys y bobl a wŷlasant âg wŷlofain mawr.

2 Yna y llefarodd Sechaniah mab Jehiel, o feibion Elam, ac a ddywedodd wrth Ezra, Ni a bechasom yn erbyn ein Duw, ac a gyttaiasom â gwragedd dyeithr o bobl y wlad: eto yn awr y mae gobaith i Israel am hyn.

3 Yn awr, gan hyny, gw'nawn gyfammod â'n Duw, ar fwrw allan yr holl wragedd, a'u plant, wrth gynghor yr Arglwydd, a'r rhai a ofnant orchymynion ein Duw: a gwneler yn ol y gyfraith.

y gair *tsedek* yn fynych yn arwyddo, 'trugarog ydwyt ti,' a dyna yr achos fod gweddill o bonom ni heddyw yn ddiangol. Dyma ystyr y gair yn Rhuf. iii. 25: 'I ddangos ei gyfiawnder ef, (neu ei drugaredd yn cyfiawnhau) trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen.' *Wele ni o'th flaen di yn ein camweddau*—i wneyd â ni fel y gwelych fod yn dda; *canys ni allwn ni sefyll o'th flaen di am hyn*—'os creffi ar anwireddau,' Salm cxxx. 3. Nid oes geamym ddim i'w ddyweddy i'n cyfiawnhau ein hunain, nae i'th feio dithau am ein dyfetha yn llwyr fel cenedl.

PEN. X. Adn. 1. *Ae wcdi i Ezra weddio a chyffesu*] Yn y geiriau a adroddwyd uchod; gan wŷlo—neu dywallt dagran, yn chwanelog at yr arwyddion ereill o wir alar a ddangosais ai efe, pen. ix. 3, 5; *a syrthio i lawr o flaen tŷ Dduw*—ar ei hmlau yn nghyntedd y deml, a'i wyneb tuag ati; *tyrfa fawr o Israel a ymgasglasant ato ef*—ar ol clywed fod gŵr mor fawr, yr hwn oedd yn offeiriad i Dduw, ac yn deyrn-genedl i frenin Persia, wedi rhwygo ei ddillad, tynu ei wallt a'i farf, ac yn awr yn wŷlo ac yn gweddio yn nghyntedd y deml: *Y bobl a wŷlasant âg wŷlofain mawr*—wedi eu dihuono trwy eiriau a siampyl yr offeiriad duwio hwn, a chan ofni rhag y byddai i anffodlonrwydd cyfiawn Duw ddisgyn arnynt yn anocheladwy am eu camweddau.

Adn. 2. *Yna y Uefarodd Sechaniah mab Jehiel*] Yr hwn ond odid oedd un o'r ddau Sechaniah a ddychwelasant gydag Ezra o Babilon, ac a oeddynt yn bennaethiaid yn mhilith y bobl, pen. viii. 3, 5. *Ni a bechasom yn erbyn ein Duw*—trwy gymeryd gwragedd dyeithr o blith pobl y wlad. Nid oedd Sechaniah ei hun wedi pechu felly, canys nid yw ei enw ef yn y gofrestr isod o'r troseddwy'r hyn; ac heblaw hyny, yr oedd y troseddwy'r hyn oll wedi dyfod i Jerusalem gyda Zorobabel flynyddau cyn i Ezra a Sechaniah ddyfod yno; ond efe a ddywed, 'Ni a bechasom,' am ei fod yn un o'r genedl, a bod ei dad, a phumpeireill o frodyr ei dad, yn cael eu rifo yn mhilith y troseddwy'r, adn. 26. *Eto yn awr y mae gobaith i Israel am hyn*—sef gobaith am ddiwygiad oddiwrth y trosedd, ac am faddouant o

hono. Fel pe dywedasai, Y mae yr achos yn ddrwg, ond nid yn anobeithiol; y mae y clefyd yn fygythiol, ond nid yn anfddyngiaethol. Fe allai fod Sechaniah yn gweled Ezra yn ymollwng yn ormodol yn yr olwg ar y camwedd; ac am hyny y mae yn ei gymbhell ef i ddefnyddio moddion adferiad, yn gystal a chwyno a galaru.

Adn. 3. *Yn awr, gan hyny, gw'nawn gyfammod â'n Duw*] Heb., *nichrath berith*, 'boed i ni dori neu hollti yr aberth cyfammodol:' gwel ar Gen. xv. 10. *Ar fwrw allan yr holl wragedd a'u plant*—o wladwriaeth Israel; *wrth gynghor yr Arghwydd*—yn ei air a'i gyfraith, yr hon oedd eu rheol hwy; *a'r rhai a ofnant orchymynion ein Duw*—hyny yw, yn ol eu cynghor hwythau, y rhai a grybwyllwyd pen. ix. 4. Dynion o'r fath yma oeddynt debycaf o ddeall cynghor yr Arglwydd, a gweithredu yn ddiuedd yn ol ei gynghor ef. *A gwneler yn ol y gyfraith*—beth bynag fyddo y canlyniadau. Y mae yn debyg nad oedd y gwragedd a'r plant i gael eu llwyr adael, ond fod rhyw ddarpariaeth i gael ei gwneuthur ar eu cyfer; canys yr oedd y cwbl i gael ei ddwyn yn mlaen yn ol cyfarwyddyd Ezra, a dynion da ereill ag oeddynt yn ofni Duw, y rhai ni wnaent ddim ag yd-oedd greulon neu annghyfiawn: a gwellen feddwl y byddai i'r plant gael eu dwyn i fyny yn y grefydd Iuddewig. Os tybia neb fod hyn yn doster mawr, os nid yn annghyfiawnder, boed iddo sylwi fod y gyfaith (Deut. vii. 1, &c.) yn bendant yn erbyn y priodasau pagan-aidd hyn; ac am hyny, gan fod pa beth bynag a wneir yn groes i'r gyfraith yn hollol ddirym, nid oedd y priodasau hyn â gwragedd eilun-oddolgar, y rhai a waherddid yn benodol gan Dduw, mewn gwirionedd yn *briodasau*; ac nid oedd y plant a ddeillient oddiwrthynt ddim amgen na *bastarddiad*. Felly, os oedd y priodasau yn anghyfreithlon, yr oedd cadw y gwragedd a'r plant yn y cwlwm hwnw yn anghyfreithlon; a'u dyledswydd oedd eu bwrw hwynt allan o'u tir, er harddwch a phurdeb crefydd, ac er cadw yr 'had santaid,' neu waedoliaeth Israel, yn ddigymysg a dilwgr, pen. ix. 2, &c.

Adn. 4. *Cyfyd*] Oddiar y ddaear, lle yr oedd

4 Cyfod; canys arnat ti y mae y peth: a ni a fyddwn gyda thi: ymwrola, a gwna.

5 Yna y cyfododd Ezra, ac a dyngodd benaethiaid yr offeiriaid a'r Lefaiad, a holl Israel, ar wneuthur yn ol y peth hyn. A hwy a dyngasant.

6 ¶ Yna y cyfododd Ezra o flaen tŷ Dduw, ac a aeth i ystafell Jonathan mab Eliasib: a phan ddaeth yno, ni fwyaodd fara, ac nid yfodd ddwfr; canys galaru yr oedd am gamwedd y gaethglud.

7 A chyhoeddasant yn Judah a Jerusalem, ar i holl feibion y gaethglud ymgasglu i Jerusalem;

8 A phwy bynag ni ddelai o fewn tridiau, yn ol cynghor y penaethiaid a'r henuriaid, efe a gollai ei holl

olud, ac yntau a ddidolid oddiwrth gynulleidfa y rhai a gaethgludesid.

9 ¶ Felly holl wŷr Judah a Benjamin a ymgasglasant i Jerusalem o fewn tridiau: hyny oedd y nawfed mis, ar yr ugeinfed dydd o'r mis; a'r holl bobl a eisteddasant yn heol tŷ Dduw, yn crynu o achos y peth hyn, ac o achos y gwlawogydd.

10 Ac Ezra yr offeiriad a gyfododd, ac a ddywedodd wrthynt, Chwi a bechasoeh, ac a gyttaliasoeh â gwragedd dyeithr, gan chwaneгу ar bechoh Israel.

11 Ac yn awr rhoddwch foliant i Arglwydd Dduw eich tadau, a gwnewch ei ewyllys ef; ac ysgerwech oddiwrth bobl y tir, ac oddiwrth y gwragedd dyeithr.

12 A holl dyrfa Israel a atebas-

Ezra ond odid yn gorwedd o hyd; canys arnat ti y mae y peth—fel offeiriad, ac ysgrifenydd deddf Duw; ac yn ol deddf Artaxerxes, yr oedd ef yn rhwym o wneyd pa beth bynag oedd gorchymyn Duw y nefoedd, pen. vii. 23—28. A ni a fyddwn gyda thi—i'th bleidio a'th gynorthwyo yn y diwygiad hwn. Ymwrola—yn dysbryd a'th feddwl; a gwna—dy ddyledswydd yn hyn, heb ofni y canlyniadau.

Adn. 5. A hwy a dyngasant] Pef penaethiaid yr offeiriaid a'r Lefaiad, a phenau cenedl holl Israel: hyny yw, gwnaethant lw difrifol gerbron Duw, y byddai iddynt gynorthwyo Ezra i effeithio yr ysgariad hwn.

Adn. 6. Yna y cyfododd Ezra] Ar ol tyngn y penaethiaid uchod; ac a aeth i ystafell Jonathan—yr hwn oedd fab neu ŵyr i Eliasib yr archoffeiriad, (a'r un a Jonathan, Neh. xii. 11.) fel y gallai ymgynghori â'r penaethiaid yn nghylch y ffordd oraf i ddwyn y peth i weithrediad: a phan ddaeth yno, ni fwyaodd fara, ac nid yfodd ddwfr—am fod ei alar yn parhau o herwydd y priodasau gwaharddedig hyn. Ond trwy nad yw y gair pan yn y wreiddiol, myn rhai ei gyfieithu, 'ac nes y daeth yno;' hyny yw, nes y gwelodd rywbeth yn cael ei wneuthur tuag at ddiwygio y drwg hwn, ni fwyaodd ddim.

Adn. 7. Ar i holl feibion y gaethglud] Y rhai oeddynt yn awr wedi dychwelyd o'u caethiwed, ac wedi ymsefydlu ar hyd gwlad Juda.

Adn. 8. A phwy bynag ni ddelai o fewn tridiau] Yr hyn oedd yn ddigon o amser i'r cenadau fyned i bob lle, ac i'r bobl ddyfod i Jerusalem o bob man trwy holl Judah a Benjamin, lle yr oeddynt yn awr yn cyfaneddu; ac hefyd yr oedd brys ar Ezra i gael hyn drosodd, rhag y defnyddid rhwy ystrywiau i attal y cyfandawd o hono. Efe a gollai ei holl olud—yr hwn a florffetid, ac a roddid yn nhrysorfa tŷ Dduw; ac yntau a ddidolid—fel na byddai iddo ran mwyach yn mhilith pobl yr Arglwydd,

yn wladol nac eglwysig. Efe a garodd gyfathrachu â'r cenedloedd, ac at y cenedloedd y ca'i fyned; ni fynai ddyfod i Jerusalem, ac i Jerusalem ni chái ddyfod mwyach. Yr oedd gan Ezra awdurdod i roi cosp drymach ar ddyntion aflywodraethus, pen. vi. 26; ond nid ewyllysiaf efe roddi neb i farwolaeth, os gallai mewn un modd beidio.

Adn. 9. Felly holl wŷr Judah a Benjamin a ymgasglasant i Jerusalem] O fewn yr amser penodedig; y nawfed mis—yn cyfateb i ran o'n Rhagfyr ni: a'r holl bobl a eisteddasant yn heol tŷ Dduw—yr hon a arweinai at borth ddyreiniol y deml; neu yn y cyntedd, fel y mae llywrebigant yn ei deall, yr hwn oedd eto yn 'lle agored,' heb ei gau â mur; yn crynu o achos y peth hyn—o achos priodi gwragedd dyeithr yn groes i orchymyn Duw, a rhag y disgynai barn arnynt o'r herwydd; ac o achos y gwlawogydd—oerion a ddisgynent arnynt yn y tymhor gauafaid hwnw: a chan fod y tymhor gwlawog yn parhau y fiwyddyn hono yn hwy nag arferol, yr oeddynt ond odid yn ystyried hyny fel arwydd o anffoddolrwydd Duw iddynt.

Adn. 10. Chwi a bechasoeh] Yn erbyn cyfraith Duw trwy briodi gwragedd dyeithr, hillio-gaeth yr her Ganaanaid ac ereill; gan chwaneгу ar bechoh Israel—sef ar eu pechod gynt, yr hwn a fu yn achos o'u dwyn i gaethiwed.

Adn. 11. Ac yn awr rhoddwch foliant i Arglwydd Dduw eich tadau] Trwy gyffesu eich pechodau, ac edifarhan am danant; a gwnewch ei ewyllys ef—trwy ysgarn oddiwrth bobl y tir, ac oddiwrth y gwragedd dyeithr. Trwy na chrybwyllir yma am ysgar eu plant, tybia rhai iddynt gadw eu plant, a'u cyflwyno hwy i Dduw trwy enwaediad. Canys er i Sechaniah gyfyng eu hysgaru hwythau, adn. 3, eto gall ddarfod i Ezra, i'r hwn yr ymddiriedwyd yr achos, ysgafnhau toster y cynygiad.

Adn. 12. Yn ol dy ar di y mae arnom ni

ant ac a ddywedasant â llef uchel, Yn ol dy air di y mac arnom ni wneuthur.

13 Eithr y bobl sydd lawer, a'r amser yn wlawog, ac ni ellir sefyll allan, ac nid gwaith un diwrnod na dau ydyw: canys pechasom yn ddirfawr yn y peth hyn.

14 Safed yn awr ein penaethiaid o'r holl dyrfa, a deued y rhai o'n dinasoedd a gyttaliasant â gwragedd dyeithr, ar amseroedd gosodedig, a henuriaid pob dinas, a'u barnwyr gyda hwynt, nes troi digter ein Duw oddiwrthym am y peth hyn.

15 ¶ Yn unig Jonathan mab Asahel, a Jahasiah mab Tiefah, a osodwyd ar hyn: Mesulam hefyd a Sabbethai y Lefiad a'u cynorthwysasant hwy.

16 A meibion y gaethglud a

wneuthur] Yr ydym yn ymostwng yn dawel i'r hyn a osodi di arnom. Wedi y cwbl y mae yn amheus a nfyddhasant hwy oll i'w orchymyn ef; canys yn mhen blynyddoedd wedi hyn cafodd Nehemiah Iuddeon a briodasant Asoddesau, Ammonesau, a Moabesau, Neh. xiii. 23; ac os nid yr un gwragedd oedd y rhai hyn ag a goffeir yma, rhaid fod meibion Juda yn parhau fyth yn yr un camwedd.

Adn. 13. *Eithr y bobl sydd lawer*] Y rhai a briodasant wragedd dyeithr; *a'r amser yn wlawog*—ac yn oer, ac felly yr oedd yn ber-yglus iddynt sefyll allan yn rhy hir yn y fath dywydd; *ac nid gwaith un diwrnod na dau ydyw*—ymholi i'r mater hwn trwy yr holl genedl, i edrych pwy oedd wedi troseddu, a'u darbwyllo i ysgar eu gwragedd: *canys pechasom yn ddirfawr yn y peth hyn*—trwy ei fod yn drosedd amlwg o gyfraith bendant Jehofa; neu, yn ol y Saesonaeg, 'yr ydym ni yn *llawer*, y rhai a droseddasant yn y peth hyn.'

Adn. 14. *Safed yn awr ein penaethiaid*] O ddydd i ddydd, fel y bo yr achos yn galw, neu gyflensdra yn caniatáu, a deued y rhai o'n dinasoedd a gyttaliasant â gwragedd dyeithr—i'w cyfarfod hwy yn Jerusalem ar amseroedd gosodedig; a henuriaid pob dinas a'u barnwyr gyda hwynt—i brofi fod gwŷr eu dosbarth hwy yn ddieuog, neu yn parhau yn gynyddyn yn eu camwedd, neu wedi bwrw ymaith eu gwragedd dyeithr yn ol y gyfraith; *nes troi digter ein Duw oddiwrthym*—trwy edit-eirwch a diwygiad y troseddwyd, nen ynte trwy gospi yr anedifeiriol.

Adn. 15. *Yn unig Jonathan mab Asahel, a Jahasiah mab Tiefah*] Dau offeiriad, yn cael eu cynorthwyo gan y ddau Lefiad a enwir yn niwedd yr adnod; a *osodwyd ar hyn*—i weled fod yr ymchwiliad yn cael ei ddwyn yn mlaen fel y cynygiwyd yn yr adnod flaenorol, ac i rybyddio pa ddinas oedd i ddyfod yn mlaen yn nesaf. Ond tybia Lightfoot ac ereill mai *gierthwyrnebu* y drefn uchod yr oedd y

wnaethant felly. Ac Ezra yr offeiriad, a'r gwŷr oedd benau cenedl tŷ eu tadau, a hwynt oll wrth eu henwau, a neillduwyd, ac a eisteddasant ar y dydd cyntaf o'r degfed mis, i ymofyn am y peth hyn.

17 A hwy a wnaethant ben â'r holl wŷr a gyttaliasant â gwragedd dyeithr, erbyn y dydd cyntaf o'r mis cyntaf.

18 ¶ A chafwyd o feibion yr offeiriad, y rhai a gyttaliasant â gwragedd dyeithr: o feibion Jesua mab Josadac, a'i frodyr; Maaseiah, ac Eliezer, a Jarib, a Gedaliah.

19 A hwy a roddasant eu dwylaw ar fwrw allan eu gwragedd; a chan iddynt bechu, a offrymasant hwrdd o'r praidd dros eu camwedd.

20 Ac o feibion Immer; Hanani, a Zebadiah.

pedwar hyn; a dywedir y goddef y wreiddiol y cyfieithiad canlynol: 'Yn unig Jonathan mab Asahel, a Jahasiah mab Tiefah, a wrthwynebasant hyn,' &c.

Adn. 16. *A meibion y gaethglud a wnaethant felly*] A gydsyniasant yn y cyfiredin â'r drefn gynygiedig, os darfu i rai wrthwynebu. *Ac Ezra yr offeiriad*—yn nghydad ereill o benau cenedl tŷ eu tadau wrth eu henwau; a neillduwyd—oddiwrth bob achos arall, i ymroddi yn gwbl at y gwaith hwn, sef i edrych ar fod i'r holl wragedd dyeithr gael eu bwrw ymaith; *ac a eisteddasant ar y dydd cyntaf o'r degfed mis*—yn mhen deng niwrnod ar ol i'r bobl ymgasglu i Jerusalem, adn. 9.

Adn. 17. *A hwy a wnaethant ben*] Gorphenasant yr ymchwiliad, a pharasant i'r holl rai euog fwrw ymaith eu gwragedd; *erbyn y dydd cyntaf o'r mis cyntaf*—felly buont *dri mis cyfan* yn chwilio i mewn i'r achos hwn, ac yn gwneyd yr ysgariadau ag yr oedd y gyfraith yn eu gofyn.

Adn. 18. *A chafwyd o feibion yr offeiriad*] Yn ol tystiolaeth y tywysogion, pen. ix. 1, 2; a chan fod yr offeiriad yn euog o briodi gwragedd dyeithr, pa ryfedd i'r llygriad ymdaenu yn mhllith y bobl gyffredin! Tybia rhai mai am i Jesua, nen Josua yr archeoffeiriad, beidio attal ei feibion a'i frodyr yn y peth hyn, yr arddanghosir ef mewn dillad budron yn Zech. iii. 3.

Adn. 19. *A hwy a roddasant eu dwylaw ar fwrw allan eu gwragedd*] Hyny yw, tyngasant y gwnaent hyn, trwy estyn eu dwylaw tua'r nefoedd: a *chan iddynt bechu*—o'r hyn yr oedd eu cydwybod yn eu cyhuddo; *offrymasant hwrdd o'r praidd dros eu camwedd*—i wneuthur iawn drosto. Fel hyn, gan i'r offeiriad flaenori yn y bai, yr oedd yn gweddu iddynt flaenori yn y diwygiad hefyd, a rhoddi siampl o aberth i'r holl enogion ereill, y rhai y bernir iddynt oll eu hefelychau.

Adn. 20—43. *Ac o feibion Immer, &c.*] Y

21 Ac o feibion Harim; Maaseiah, ac Eliah, a Semaiah, a Jehiel, ac Uzziath.

22 Ac o feibion Pasur; Elieonai, Maaseiah, Ismael, Nethaneel, Jozabad, ac Elalah.

23 Ac o'r Lefaid; Jozabad, a Simei, a Chelalah, (hwnw yw Celita,) Pethahiah, Judah, ac Eliezer.

24 Ac o'r cantorion; Eliasib: ac o'r porthorion; Salum, a Thelem, ac Uri.

25 Ac o Israel: o feibion Paros; Ramiab, a Jesiah, a Malchiah, a Miamin, ac Eleazar, a Malchiah, a Benaiah.

26 Ac o feibion Elam; Mattaniah, Zechariah a Jehiel, ac Abdi, a Jeremoth, ac Eliah.

27 Ac o feibion Zattu; Elieonai, Eliasib, Mattaniah, a Jeremoth, a Zabad, ac Aziza.

28 Ac o feibion Bebai; Jehohan-an, Hananiah, Zabbai, ac Athlai.

29 Ac o feibion Bani; Mesulam, Maluch, ac Adaiah, Jasub, a Seal, a Ramoth.

30 Ac o feibion Pahath-Moab; Adna, a Chelal, Benaiah, Maaseiah,

Mattaniah, Bezalcel, a Binni, a Manasseh.

31 Ac o feibion Harim; Eliezer, Isiah, Malchiah, Semaiah, Simeon, 32 Benjamin, Maluch, a Sema-riah.

33 O feibion Hasum; Mattenai, Mattathah, Zabad, Eliphelet, Jeremai, Manasseh, a Simei.

34 O feibion Bani; Maadai, Amram, ac Uel,

35 Benaiah, Bedeiah, Celu,

36 Faniah, Meremoth, Eliasib,

37 Mattaniah, Mattenai, a Jaasan,

38 A Bani, a Binuni, a Simei,

39 A Selemiah, a Nathan, ac Adaiah,

40 Machnadebai, Sasai, Sarai,

41 Azarcel, a Selemiah, a Sc-mariah,

42 Salum, Amariah, a Joseph.

43 O feibion Nebo; Jeiel, Mat-tithiah, Zabad, Zebina, Jadau, a Joel, a Benaiah.

44 Y rhai hyn oll a gymerasant wragedd dycethr: ac yr oedd i rai o honynt wragedd a ddygasai blant iddynt.

rhai a enwir yn adn. 20—22, oeddynt offeir-iaid; y rhai a enwir yn adn. 23, 24, oeddynt Lefaid; a'r holl rai ereill, o adn. 25 hyd adn. 43, oeddynt Israeliaid cyffredin, neu lëygwyr fel y gellir eu galw, am y rhai nis gwyddom ddim ond eu henwau.

Adn. 44. *Y rhai hyn oll a gymerasant wragedd dycethr* [Nid yw eu rhif yn fawr iawn o'u cydmaru a'r rhai oll a ddychwelasant o Babilon; ond gan eu bod oll yn wŷr enwog, diamau y buasai i'w siaml hwy chwaneu y drwg, pe na roddesid ataliad buan arno. *Ac yr oedd i rai o honynt wragedd a ddygasai blant iddynt*—arwydda hyn fod y rhan fwyaf o'u gwragedd yn ddiépil. yr hyn a ddygwyddodd trwy ragluniaeth neillduol Duw, er amlygu ei anfeddlourwydd ef i'r fath briodasau, ac fel na byddai i'r ysgariad dyfodol gael ei lwytho

A gormod o anhawsderau.—Dywed *Justin Ferthyr*, yn ei gydymddyddan à *Trypho* yr Iuddew, ddartod i Ezra ofirymu oen pase ar yr achlysur hwn, a chyfarch y bobl yn y modd a ganlyn: 'Ac Ezra a ddywedodd wrth y bobl, Yr oen hwn yw ein Hiachawdwr a'n Noddfa ni;' [sef cysgod o hono:] 'ac os bydd i chwi gredu hyn, a gadael iddo suddo i'ch calonau, ein bod i ymstwg iddo ef mewn arwydd, ac wedi hyny gredu ynddo ef, y lle hwn ni ddy-fethir yn dragwydd, medd Arglwydd y lluoedd: eithr os chwi ni chredwch ynddo, ac ni wrandewch ar ei bregethiad ef, chwi a fyddwch yn watwargerdd i'r Cenhedloedd.'—*Dial. cum Tryphone*, dos. 72. Dywed *Justin* i'r Iuddewon, trwy eu gelyniaeth at Grist, ddileu yr ymadrodd hwn o lyfr Ezra, yn gystal a rhai brawddegau ereill.

LLYFR

N E H E M I A H .

GELWIR y llyfr hwn yn y *Fulgate*, a chan y LXX, yn *All Lyfr Ezra*; ond addeffir gan y rhan fwyaf yn y dyddiau hyn fod y fath wahaniaeth arddull rhwng y ddau yn yr Hebraeg, fel nas gallai Ezra fod yn awdwr o hono; ac heblaw hyny, y mae Nehemiah yn llefaru am dano ei hun trwy yr holl lyfr yn y person cyntaf, oddiwrth yr hyn y ceshgir yn naturiol mai efe ei hun a raid fod ei awdwr. Ganed ef yn Babilon yn amser y caethiwd, neu yn fun ar ol hyny; a myn rhai ei fod wedi dis-gyn o lwyth Lefi, ac o deulu Aaron, ac felly ei fod o'r llin offeiriadol; tra y dadleua ereill mai o

lwyth Juda yr ydoedd, ac o'r hill frenhinol.—Y mae lle i feddwl nad yr un Nehemiah yw hwn ag a grybwyllir Ezra ii. 2, yr hwn a ddychwelodd i Jerusalem gyda Zorobabel. Yn ol cyfrifiad yr amseryddwyr enwocaf, daeth Zorobabel i Jerusalem yn y flwyddyn o. b. 3468; ond ni ddaeth y Nehemiah hwn yno hyd yr 20fed flwyddyn o deyrnasiad Artaxerxes, sef o. b. 3558, yr hyn oedd 90 o flwyddoedd yn ddiweddarach: a chan fod ei hanes ef yn cael ei dwyn i lawr yma hyd o. b. 3570, pryd y dychwelodd efe i Babilon, pen. xiii. 6, rhaid ei fod ef y pryd hynny wedi cyraedd yr oedran mawr o 122, os yr un gwr ydoedd, a chaniatua nad oedd ef uwchlau 20 mlwydd oed pryd yr aeth Zorobabel i Jerusalem. Felly nid yw hwn mewn un modd yn debygol, am y busas raid iddo felly fod grym lawer dros 100 mlwydd oed pan yr oedd yn *drullid* i'r brenin, pen. i. 11, a phan yn dwyn yn mlaen ei ddiwygiadau mawrion yn Jerusalem, a hyny gyda'r fath wroldeb a bywiogrwydd. Gan hyny rhaid i ni gasglu fod y Nehemiah hwn yn berson gwahanol i Nehemiah Ezra, er o'r un enw.—Y mae llyfr Nehemiah yn barhad o'r hanesiaeth a roddwyd gan Ezra, am oddeutu deuddeg mlynedd neu fwy: gwel ar pen. xiii. 6. Fel y mae llyfr Ezra yn rhoddi i ni hanes am adferiad yr Iuddewon o'n caethiwed, ac adeiladiad yr ail deml; felly y mae y llyfr hwn yn rhoddi i ni hanes chwanebol am eu sefydliad hwy yn eu gwlad, adeiladiad muriau Jerusalem, a diwygiad amrai lygridiau a ymlusgasent i'w plith; a diamau fod Ezra ac ereill yn gymhorth mawr i Nehemiah yn ngyd yn mlaen y pethau hyn.—Addeffir yn gyffredinol na ddarfu i'r Iuddewon erioed syrthio i eilunaddoiaeth ar ol dychwelyd o Babilon; ac un achos mawr o hyny, dan Dduw, oedd y sel a ddanghoswyd a'r gofal a gymrwyd gan Ezra a Nehemiah i'w haddysgu hwynt yn nghyfraith yr Arglwydd, ac i roddi iddynt attaliad ebrwydd a dysgog ar yr arferiad peryglus a phechadurus o briodi i deuluoedd eilunaddolgar.—Cawn yn y llyfr hwn, (1) Hanes galar Nehemiah, yn Susan, yn achos Jerusalem; a'i fynediad ef yno gyda gorelymyn y brenin, pen. i a ii. (2) Cyweirio muriau Jerusalem, pen. iii a iv. (3) Esmwthau beihlau y bobl, pen. v. (4) Gorphen y mur, er gwaethaf Sanbalat a'i gyfeillion, pen. vi. (5) Cofrestr o'r dychweledigion o Babilon, pen. vii. (6) Galw y bobl i ddarllen y gyfraith, ymprydio a gweddio, ac adnewyddu eu cymmod, pen. viii—x. (7) Poblogi Jerusalem, a sefydlu y Lefaid, pen. xi a xii. (8) Diwygio amrai bechodau a chananferion, pen. xiii. Nid ydym yn darllen am neb yn cael ei benodi gan frenhinoedd Persia i lywodraethu ar Judea ar ol Nehemiah; ac ymddengys fod achosion eu gwlad wedi eu gadael i ofal yr archoffeiriadau ar ol ei ddyddiau ef, fel y cawn eu bod yn amseroedd dylunol y Maccabeid.

PENNOD I.

GGEIRIAU Nehemiah mab Hachaliah. A bu yn mis Cisleu, yn yr ugeinfed flwyddyn, pan yr oeddwn i yn mrenhinllys Susan,

2 Ddyfod o Hanani, un o'm brodyr, efe a gwŷr o Judah: a gofynais iddynt am yr Iuddewon a ddiangasai, y rhai a adawsid o'r caethiwed, ac yn Jerusalem.

3 A hwy a ddywedasant wrthyf,

Y gweddillion, y rhai a adawyd o'r gaethglud yno yn y dalaeth ydynt mewn blinder mawr a gwaradwydd, mur Jerusalem hefyd a ddrylliwyd, a'i phyrth a losgwyd â than.

4 ¶ A phan glywais y geiriau hyn, myfi a eisteddais ac a wylais, ac a alerais *dalm* o ddyddiau; a bŵm yn ymprydio, ac yn gweddio gerbron Duw y nefoedd;

5 A dywedais, Atolwg, Arglwydd

PEN. I. Adn. 1. *Geiriau Nehemiah*] Nen 'weithredoedd Nehemiah,' fel y mae y gair Hebreig a arferir yma yn arwyddo yn fynych; hyny yw, y pethau a wnaeth efe. *Yn mis Cisleu*—yn ateb i ran o'n Tachwedd a'n Rhagfyr ni. *Yn yr ugeinfed flwyddyn*—o deyrnasiad Artaxerxes. *Pan yr oeddwn i yn mrenhinllys Susan*—hen ddinas *Susa*, yr hon a elwir yn y Bersiaeg *Shuster*, trigle brenhin-oedd Persia yn y gaaf. Yr oedd Nehemiah yno fel *trullid* i'r brenin, adn. 11.

Adn. 2. *Ddyfod o Hanani, un o'm brodyr*] Yr hwn oedd yn frawd naturiol iddo ond odid, yn gystal ag o'r un grefydd, pen. vii. 2; *efe a gwŷr o Juda*—y rhai a ddaethant yn gymdeithion ac yn amddiffynwyr iddo ar y daith; *a gofynais iddynt am yr Iuddewon*—pa fodd yr oedd arnynt yn awr yn eu gwlad eu hunain; *ac am Jerusalem*—a oedd hi wedi ei hadeiladu o'r newydd, ai nid oedd.

Adn. 3. *Y gweddillion, y rhai a adawyd o'r gaethglud yno yn y dalaeth*] Yn Judea, yr hon nid oedd yn awr ond *talaeth* o amherodraeth fawr Persia; ac nid oedd ond *gweddillion* o'r rhai a ddychwelasant o'r caethiwed yno yn awr, trwy fod llawer o honynt wedi

marw; *ydynt mewn blinder mawr a gwaradwydd*—yn cael eu diystyru a'u gorthrymu gan y cenedloedd cymydozaethol; *mur Jerusalem hefyd a ddrylliwyd*—y mae y mur a'r pyrth yn aros fel y gadawyd hwynt gan y Caldeaid ar ol gorchfygu y ddinas, trwy fod yr Iuddewon yn analluog i'w hadeiladu hwynt, ac heb gael caniatad gan frenhinoedd Persia i adgyweirio dim ond y deml a'u tai eu hunain. Ond tybia Clarke fod hyn yn cyfeirio at ddrylliad y muriau a *ail-adeiladwyd* gan yr Iuddewon ar ol dychwelyd o Babilon, am nas gallai clywed am y drylliad gan Nebuchodonosor gynt fod yn ddim *newydd* i Nehemiah.

Adn. 4. *A phan glywais y geiriau hyn, myfi a eisteddais*] Ond odid ar y ddaear, mewn tristwch mawr, ac fe allai mewn lludw; *ac a wylais ac a alerais dalm o ddyddiau*—am oddeutu pedwar mis, sef o fis *Cisleu*, adn. 1, hyd fis *Nisan*, pen. ii. 1; *a bŵm yn ymprydio ac yn gweddio gerbron Duw y nefoedd*—yn ddirgel, ac ar amserau penodol, yn ystod yr holl amser hwnw.

Adn. 5. *Atolwg, Arglwydd Dduw y nefoedd*] Nid oedd ef yn gweddio ar yr haul yn y nefoedd, fel y gwnai y Persiaid a'r Caldeaid

Dduw y nefoedd, y Duw mawr ac ofnadwy, yr hwn sydd yn cadw cyfammod a thrugaredd i'r rhai a'i carant ef ac a gadwant ei orchymynion:

6 Bydded, atolwg, dy glust yn clywedd, a'th lygaid yn agored, i wrando ar weddi dy was, yr hon yr ydwyf fi yn ei gweddio ger dy fron di yr awr hon ddydd a nos, dros feibion Israel dy weision, ac yn cyffesu pechodau meibion Israel, y rhai a bechasom i'th erbyn: myfi hefyd a thŷ fy nhad a bechasom.

7 Gwnaethom yn llygredig iawn i'th erbyn, ac ni chadwasom y gorchymynion, na'r deddfau, na'r barn-edigaethau, a orchymynaist i Moses dy was.

8 Cofia, atolwg, y gair a orchymynaist wrth Moses dy was, gan ddywedyd, *Os chwi a drosedddech, myfi a'ch gwasgaraf chwi yn mysg y bobloedd:*

o'i ddeutu; ond ar y Duw yr hwn a wnaeth y nefoedd, a'u holl luocedd hwynt; *y Duw mawr ac ofnadwy*—yr hwn sydd yn llenwi nefoedd a dacar, ac yn gallu gweinyddu y barnau trymaf; *yr hwn sydd yn cadw cyfammod a thrugaredd*—sef ei gyfammod ag Israel fel ei bobl briodol, a'i drugaredd addawedig iddynt yn y cyfammod hwnw; *i'r rhai a'i carant ef ac a gadwant ei orchymynion*—felly arnynt hwy yr oedd y bai fod y cyfammod wedi ei dorri, a'r drugaredd wedi cilio oddiwrthynt, am na pharhausant i'w garu ef, ac i gadw ei orchymynion: gwel ar Exod. xx. 6.

Adn. 6. *Bydded, atolwg, dy glust yn clywedd*] Yr hyn yr wyf yn awr yn ei gyffesu ac yn ei erfyn; *a'th lygaid yn agored*—i weled trueni dy bobl; *ddydd a nos*—yn ystod y pedwar mis hyn: *myfi hefyd a thŷ fy nhad a bechasom*—ac am hyny cyfiawn wyt ti wrth ein cystuddio fel cenedl. Yn gyffelyb i hyn y cyffesasai Ezra o'r blaen, pen. ix. 6, &c., a Daniel hefyd, pen. ix. 5, &c.

Adn. 7. *Ni chadwasom y gorchymynion*] A roddwyd i reoleiddio ein bucheddau; *na'r deddfau*—neu ddeddfau a seremonïau crefydd; *na'r barnedigaethau*—a berthynent i'n hymddygiadau gwladol, neu gyfiawnder rhwng gwŷr a gwŷr.

Adn. 8. *Cofia, atolwg, y gair a orchymynaist wrth Moses dy was*] Gwel ar Dent. xxviii. 64, a xxx. 3—5. *Os chwi a drosedddech*—yr hyn a wnaethant yn gyffredinol cyn eu caethgludo; *myfi a'ch gwasgaraf chwi yn mysg y bobloedd*—pa fygythiad a gyflawnwyd yn llythyrenol, trwy eu gwasgaru i blith yr Assyriaid, y Caldeaid, y Mediaid, a'r Persiaid.

Adn. 9. *Ond os dychwelwch ataf fi*] Mewn gwir edifeirwch; *a chadw fy ngorchymynion*—yn brawf o wirionedd eich edifeirwch a'ch

9 Ond os dychwelwch ataf fi, a chadw fy ngorchymynion, a'u gwneuthur hwynt; pe gyrid rhai o honoch chwi hyd eithaf y nefoedd, *eto mi a'u casglaf hwynt oddi yno*, ac a'u dygaf i'r lle a etholais i drigo o'm henw ynddo.

10 A hwy ydynt dy weision a'th bobl, y rhai a waredaist a'th fawr allu, ac a'th law nerthol.

11 Atolwg, Arglwydd, bydded yn awr dy glust yn gwranddo ar weddi dy was, ac ar weddi dy weision y rhai sydd yn ewyllysio ofni dy euw: llwydda hefyd, atolwg, dy was heddyw, a chaniata iddo *gael* trugaredd gerbron y gwŷr hwn. Canys myfi oedd drulliad i'r brenin.

PENNOD II.

AC yn mis Nisan, yn yr ugeinfed flwyddyn i Artaxerxes y brenin, yr oedd gwin o'i flaen ef: a mi a

dychwelid; *pe gyrid rhai o honoch chwi hyd eithaf y nefoedd*—sef i'r manau pellaf dan y nefoedd; *eto mi a'u casglaf hwynt oddiyno*—yr hyn a gyflawnwyd mewn un ystyr trwy frenhinoedd Persia: gwel ar Deut. xxx. 4, 5. Yr ystyr yw, Gan i ti gyflawni dy fygythiad, cyflawna hefyd dy addewid yn llwyr.

Adn. 10. *A hwy ydynt dy weision a'th bobl*] Sef yr Iuddewon hyny ag oddynt wedi eu dwyn eisiois i Jerusalem; *y rhai a waredaist a'th fawr allu*—o'n caethiwyd yn Babilon. Am hyny na fyddid iddynt hwy, y rhai y mae iddynt Dduw o'n anfeidrol allu o'u plaid, gael eu gorchfygu gan eu gelynydd.

Adn. 11. *Ar weddi dy was, ac ar weddi dy weision*] Gallwn feddwl i Hanani fynegu i Nehemiah fod llawer o ddynion gwir dduwiol yn Judea yn gweddio am i'r Arglwydd drugariau wrth ei bobl adfyds yno; ac yna y mao yntau yn gweddio am wrandawiad i weddiau y rhai hyny, yn gystal ag i'w weddi ei hun. *Llwydda hefyd, atolwg, dy was heddyw*—yr oedd yn bwriadu myned gerbron y brenin y dydd hwnw, a chrybwyll wrtho am adfyd yr Iuddewon, os cai gyffe; ac am hyny gweddïai am i'r Arglwydd ei lwyddo ef yn ei amcan. *Canys myfi oedd drulliad i'r brenin*—Saes., *cup-bearer*, yr hwn a ofalai am ei win a'i ddiodydd, ac a yfai beth o hono yn ngwydd y brenin, i sierchau nad oedd gwenwyn ynddo. Yr oedd hon yn swydd o ymddiriediad ac anrhydedd mawr yn mhliith y Persiaid; ac oddiwrth y cyfoeth a gasglasai Nehemiah, pen. v. 14—19, gallwn feddwl ei fod yn cael cyflog mawr.

PEN. II. Adn. 1. *Ac yn mis Nisan*] Yn cyfateb i ran o'n Mawrth a'n Hobrill ni, sef

gymerais y gwin, ac a'i rhoddais i'r brenin. Ond ni byddwn arferol o fod yn drist ger ei fron ef.

2 Am hyn y brenin a ddywedodd wrthyf, Paham ymae dy wynebpryd yn trist, a thithau heb fod yn glaf? nid yw hyn ond tristwch calon. Yna yr ofnais yn ddirfawr:

3 A dywedais wrth y brenin, Byw fyddo y brenin yn dragywydd: paham na thristâi fy wyneb, pan fyddai y ddinas, tŷ beddrod fy nhadau, wedi ei ddinystrio, a'i phyrth wedi eu hysu â thân?

4 A'r brenin a ddywedodd wrthyf,

yn mhen pedwar mis ar ol i Hanani ddyfod ato, pen. i. 1, 2, 4; yr oedd gwin o'i flaen ef—trwy fod y brenin wedi gnewthur gwledd fawr ond odid i'w dywysogion; a mi a gymerais y gwin—neu a yfais beth o hono, yn ol yr arferiad, cyn ei roddi i'r brenin. Tybia Clarke fod gan y brenin wahanol drulliad am bob chwarter o'r flwyddyn, a bod tymlor Nehemiah yn dechreu y pryd hyn. Ond ni byddwn arferol o fod yn trist ger ei fron ef—rhag i'r brenin dybio fod rhyw ddrwg wedi ei fwrïadu.

Adn. 2. Paham y mae dy wynebpryd yn trist, a thithau heb fod yn glaf? Yr oedd ei ympryd a'i alar yn ystod y pedwar mis a aethent heibio wedi gwneud cyfnewidiad amlyg yn ei wedd; a thybïai y brenin fod hyn yn deilliaw oddiwrth fwrïad i'w wenwyno ef, yn hytrach nag oddiwrth afiechyd corfforol. Nid yw hyn ond tristwch calon—neu ddrwg-fwrïad dy galon. Yna yr ofnais yn ddirfawr—rhag y rhodda i'r brenin fi i farwolaeth oddi-ar y ddrwgdybiaeth hōno. Nid oedd ond peth bychan gan frenhinoedd y dwyrain roddi eu cyfeillion penaf i farwolaeth, neu i'r arteithiau erchyllaf, ar y ddrwgdybiaeth leiaf; ac ofnai Nehemiah yn awr yr ymddygid felly ato yntau, yr hyn ar yr un pryd a attaliai y drugared a ddysgwyliai efe i'r Iuddewon.

Adn. 3. Byw fyddo y brenin yn dragywydd] Yn mhell oddiwrth fwrïadu drwg i'm meistr, mi a ddimunwn iddo gael byw yn llywyddianus am byth; ac efe a gaiff fyw felly yn dragywydd, o ran dim a wnaiff y'n erbyn ei einioes ef. Hwn oedd gyfarchiad cyffredin i frenhinoedd yr amseroedd hyn, gan y rhai a ddeuent ger eu bron; a chyflwynid iddynt yn flynyddol offrwm o bridd a dwfr, i arwyddo dymuniad iddynt gael llywodraethu ar y rhai hyn yn dragywydd. Paham na thristâi fy wyneb pan fyddai y ddinas, tŷ beddrod fy nhadau—y rhai a vstyrïd yn gysegredig yn mhllith pob cenedl; wedi ei dinystrio—gan ei gelynyon; a'i phyrth wedi ei hysu â thân—heb neb i'w badgyweirio! Yr oedd gwlad enedigol cenedl gwŷr, a'r fan lle y gorwedda llwch ei henafiaid, yn cael ei hysgytyried bob amser yn anwyl gan bawb; ac nis gallai y brenin hwn ryfeddu nac anfodloni fod Nehemiah yn teimlo felly yn awr. Hyn oedd

Pa beth yr wyt ti yn ei ddymunno? Yna y gweddïais ar Dduw y nefoedd.

5 A mi a ddywedais wrth y brenin, O rhynga bodd i'r brenin, ac od yw dy was yn gymeradwy ger dy fron di, a'r it' fy anfon i Judah, i ddinas beddrod fy nhadau, fel yr adeiladwyf hi.

6 A'r brenin a ddywedodd wrthyf, (a'i wraig yn eistedd yn ei myl ef,) Pa hyd y bydd dy daith di, a pha bryd y dychweli? A gwelodd y brenin yn dda fy anfon i, a minau a nodais iddo amser.

7 Yna y dywedais wrth y brenin,

gwir ac nnig achos ei dristwch ef, a chredodd y brenin hyn yn y fan, fel y gwelwn eto. Ni ddywedodd efe air am y deml, gan y tybiai nad allai brenin paganaidd fod yn teimlo nemawr dros hōno.

Adn. 4. Pa beth yr wyt ti yn ei ddymunno? Yr oedd gan y brenin barch mawr iddo, a chasglai ei fod am ofyn rhyw gymwynas ganddo, a rhoddai bob cefnogaeth iddo i ddywedyd ei feddwl. Yna y gweddïais ar Dduw y nefoedd—yn ddystaw yn ei feddwl, mewn saeth-weddi i'r nef, i ddiolch i Dduw am ei lwyddo hyd yma; ac i ofyn am gyfarwyddyd pa beth i'w geisio, ac i'w geisio yn y modd tebycaf i'w gael.

Adn. 5. Ar it' fy anfon i Judah, i ddinas beddrod fy nhadau] I adeiladu tai a muriau y ddinas anrheithiedig ac adfeiliedig Jerusalem. Gwyddai Nehemiah y byddai i'r crybwylliad am dani, fel 'dinas beddrod ei dadau,' effeithio yn ddwys ar deimladau brenin Persia.

Adn. 6. A'r brenin a ddywedodd wrthyf, a'i wraig yn eistedd yn ei myl] Crybwyllir hyn i ddangos hynoddrwydd y peth, trwy nad oedd yn arferol i frenhinesau Persia eistedd gyda'u gwŷr i giniawa; ac hefyd i ddangos rhaegluniaeth Daw yn hyn, yn trefnu i'r frenhines fod yn myl ei gwŷr ar y pryd, yr hon a ddadleuai o blaid Nehemiah. Tybia rhai mai Esther oedd hon, ac mai yr un oedd yr Artaxerxes hwn ag Ahaserfus gwŷr Esther; ond barna ereill nad Esther oedd hon, ac nad brenhines a arwydda y gair shegal, yr hwn a gyfieithir yma ei wraig, eithr gordderchwraig neu butan; a phutan y cyfieithir ef yma gan y LXX. Pa hyd y bydd dy daith di, a pha bryd y dychweli?—cans nid oedd y brenin, o herwydd ei hoffder o hono, yn ewyllysio bod heb ei wasanaeth yn hwy nag yr oedd yn angenrheidiol. A gwelodd y brenin yn dda fy anfon i—ar ol i Nehemiah nodi iddo yr amser ag yr vdoedd yn debyg o ddychwelyd. Ni ddywedir pa amser a nododd Nehemiah; eithr nid yw yn debyg ei fod yn hir, ond odid ddim mwy na chwe mis neu flwyddyn; cans ni a welwn oddiwrth pen. vi. 15, i'r mur gael ei orphen mewn deuddeg niwrnod a deugain, a hyn oedd neges Nehemiah i Jerusalem y pryd hyn. Tybir iddo ddychwelyd at y brenin

O rhynga bodd i'r brenin, rhodder i mi lythyrau at y tywysogion o'r tuhwnt i'r afon, fel y trosglwyddont fi nes fy nyfod i Judah;

8 A llythyr at Asaph, ceidwad coedwig y brenin, fel y rhoddo efe i mi goed i wneuthur trawstiau i byrth y palas yrhai a *berthyn* i'r tŷ, ac i fur y ddinas, ac i'r tŷ yr elwyf iddo. A'r brenin a roddodd i mi, fel yr *oedd* daionus law fy Nuw arnaf fi.

9 ¶ Yna y daethym at y tywysogion o'r tuhwnt i'r afon, ac a roddais iddynt lythyrâu y brenin. (A'r brenin a anfonasai dywysogion y llu, a marchogion gyda mi.)

10 Pan glybu Sanbalat yr Horoniad, a Thobiah y gwas, yr Ammoniad, y *peth hyn*, bu ddrwg iawn

ganddynt, am ddyfod dyn i geisio daioni i feibion Israel.

11 Felly mi a ddaethym i Jerusalem. ac a fun yno dridiau.

12 ¶ A chyfodais liw nos, myfi ac ychydig wŷr gyda mi; ac ni fynegais i neb beth a roddasai fy Nuw yn fy nghalon ei wneuthur yn Jerusalem: ac anifel nid *oedd* genyf, ond yr anifel yr oeddwn yn marchogaeth arno.

13 A mi a aethym allan liw nos, trwy borth y glŷn, ar gyfer ffynnon y ddraig, ac at borth y dom; a deliais sylw ar furiau Jerusalem y rhai oedd wedi eu dryllio, a'i phyrth y rhai oedd wedi eu bysu â than.

14 Yna y tramwyais i borth y ffynnon, ac at bysgodlyn y brenin:

erbyn yr amser a nodasai efe, neu ynte ddarod iddo gael cenad i aros yn hwy; canys gwnaed ef yn dywysog yr Iuddeuon yn yr un flwyddyn, pa swydd a ddaliodd efe ddeuddeng mlwydd, sef o'r ugeinfed flwyddyn i Artaxerxes hyd y ddeuddegfed flwyddyn ar hugain, pen. v. 14. Wedi hynny efe a ddechwelodd i Susau; ac ar ol aros yno beth amser, cafodd ganiatid i ddechwelwyl i Jerusalem drachefn, i ddiwygio rhyw feiau a ddygasai Tobiah i'r deml, pen. xiii. 6, 7, yn nghyda drygau ereill ag yr oedd y bobl yn euog o honnt. Ar ol cyflawni y wasanaeth hon yn Jerusalem, y mae yn debyg iddo ddechwelwyl at frenin Persia, a marw yno yn ei swydd fel *trulliad*: ond ni chyrbwyllir hyn yn yr ysgrthyrau.

Adn. 7. Rhodder i mi lythyrâu at y tywysogion o'r tuhwnt i'r afon] Sef rhwng yr Euphrates a gwlad Judea; fel y trosglwyddont fi—yn ddiogel trwy eu tiriogaethau, ac y diwallont fi âg angenrheidiau i'r daith.

Adn. 8. A llythyr at Asaph, ceidwad coedwig y brenin] Sef coedwig Libanus, yr hon oedd yn glodfawr am ei dewisol brenau, ac a elwir yn y wreiddiol yn *'baradwys* y brenin; fel y rhoddo efe i mi goed i wneuthur trawstiau i byrth y palas—neu y deml; canys er fod y deml ei hun wedi ei hadeiladu, eto ymddengys fod y cynteddau heb eu cau i mewn, a'r pyrth heb eu gorphen; ac i fur y ddinas—yr hwn oedd o amgylch Jerusalem; ac i'r tŷ yr elwyf iddo—gellir meddwl oddi-ma fod ganddo ef ryw ragolwg ar fod yn dywysog sefydlog yn Jerusalem; canys nid yw yn debygol yr ai efe i drafferthu llawer am dŷ iddo ei hun dros ychydig fisodd yn unig. A'r brenin a roddodd i mi—y llythyrâu uchod, nid am i mi fod yn was ffyddlon i'r brenin, ond am i Dduw dueddu ei galon ef i'w rhoddi. Efe a eilw y ffafr ddwyfol yn 'ddaionus law Duw,' am mai â'r llaw yr ydym ni yn arferol o'estyn rhoddi.

Adn. 9. A'r brenin a anfonasai dywysogion y llu, a marchogion gyda mi] Efe a

wnaeth hyn dros ben yr hyn a geisiasai Nehemiah; a diamau i'r gofal ag y gwelai y tywysogion ddarod i'r brenin ei gymeryd am ddiogelwch Nehemiah, ennill iddo fwy o barch oddiwrt h rai o honnt.

Adn. 10. Pan glybu Sanbalat yr Horoniad] Tybir mai Moabiad oedd Sanbalat, o ddinas Horonaim yn Moab, Esay xv. 5. Yr oedd ef y pryd hyn yn dywysog y Samariaid, neu y Moabiaid, dan frenin Persia; a thybria rhai mai efe a berswadiodd Alexander Fawr i adeiladu y deml ar ffynyd Garizim, i beri ymranïad yn mhllith yr Iuddeuon. A Thobiah y gwas—dywedir yma mai Ammoniad oedd hwn, ac y mae yn debyg ei fod yn dywysog ar yr Ammoniad dan frenin Persia; a gelwir ef yn was, naill ai am fod rhywun yn uwch nag ef dan frenin Persia, neu ynte am ei fod wedi ei ddyrehafu o gyflwr caethwas i fod yn dywysog neu raglaw fel y nodwyd. Bu ddrwg iawn ganddynt—am ddyfod Nehemiah i wneuthur daioni i feibion Israel; canys yr oedd ganddynt hwy hen elyniaeth reddfol yn erbyn Israel fel pobl Dduw.

Adn. 11. Felly mi a ddaethym i Jerusalem] Wedi cael ei drosglwyddo yno ond odid gan y tywysogion, adn. 7; ac a fun yno dridiau—yn gorphwys, cyn gwneyd dim tuag at adeiladu y muriau. Yr un modd y dywed Ezra am dano ei hun, pen. viii. 32.

Adn. 12. A chyfodais liw nos] Er mwyn cadw ei amcan yn ddirlgel, ac fel y gallai sylwi ar y muriau ond odid wrth olenni y lloer; ac ni fynegais i neb—rhag y buasai i rywrai ddyfeisio rhyw foddion i'w rwystro ef yn ei amcan: ac anifel nid oedd genyf—i'r gwŷr oedd gydag ef; ond yr anifel yr oeddwn yn marchogaeth arno—am ei fod yn hen wŷr, ac yn flinedig ar ol ei dait.

Adn. 13. Trwy borth y glŷn] O du y gorllewin, yr hwn a arweinïai i'r glŷn neu ddyffryn Jehosaphat; ar gyfer ffynnon y ddraig—a elwid felly ond odid am fod yno lun draig, o enau pa un y ffyrddai y dwf allan; at borth

ac nid oedd le i'r anifel oedd danaf i fyned heibio.

15 A mi a aethym i fyny gan lân yr afon liw nos, ac a ddeliais sylw ar y mur, ac a ddychwelais, ac a ddaethym trwy borth y glŷn, ac felly y troais yn ol.

16 A'r penaethiaid ni wyddent i ba le yr aethwn i, na pheth yr oeddwn yn ei wneuthur; a hyd yn hyn ni fynegawn ddim i'r Iuddewon nac i'r offeiriaid, nac i'r pendefigion, nac i'r penaethiaid, nac i'r rhan arall oedd yn gwneuthur y gwaith.

17 ¶ Yna y dywedais wrthynt, Yr ydych yn gweled yr adfyd yr ydym ynddo, fod Jerusalem wedi ei dinystrio, a'i phyrth wedi em llosgi â thân; deuwech, ac adeiladw'n fur Jerusalem, fel na byddom mwyach yn waradwydd.

18 Yna y mynegais iddynt fod llaw fy Nuw yn ddaionus tuag ataf; a geiriau y brenin hefyd y rhai a

y dom—o du y dwyrain, trwy yr hwn y dygid y budreddi o'r ddinas i ddyffryn Hinnon. *A deliais sylw ar furiau Jerusalem*—a gwelais en bod fel y dywedasai Hanani wrthyf, pen. i. 3.

Adn. 14. *Yna y tramwyais i borth y ffynnon*] Yr hwn oedd yn arwain i lyn Siloam; ac at *bysgodlyn y brenin*—lle y buasai pysgodlyn y brenhinoedd gynt: eithr tybia Clarke mai y gwter a wnaethai Hezeciah a feddylir: gwel ar 2 Cron. xxxii. 30. *Ac nid oedd le i'r anifel oedd danaf i fyned heibio*—o herwydd y carneddau o adfeilion a orweddent ar y ffordd.

Adn. 15. *A mi a aethym i fyny gan lân yr afon liw nos*] Ar hyd glân afon Cedron; ac a ddeliais sylw ar y mur—ei fod yn gorwedd yn garneddau yn nïohol man; ac a ddychwelais—trwy borth y glŷn, trwy yr hwn yr aethai efe allan, adn. 13. Felly efe a amgylchodd yr holl ddinas y noson hòno.

Adn. 16. *A'r penaethiaid*] Yn eglwysig a gwladol, at y rhai y cyfeirir yn niwedd yr adnod; *ni wyddent i ba le yr aethwn i*—er y gwyddent fy mod wedi myned o'r ddinas i rywle; *na pheth yr oeddwn yn ei wneuthur*—neu ar fedr ei wneuthur yn Jerusalem: *a hyd yn hyn ni fynegawn ddim i'r Iuddewon, &c.*—sef i'r rhai penaf o honynt, am fod rhai o honynt yn rhy gyfeillgar â'r Cenhedloedd; *nac i'r rhan arall oedd yn gwneuthur y gwaith*—sef i'r dynion cyffredin, y rhai oedd-ynt i weithio ar ol hyn; canys nid oedd eto ddim o'r gwaith wedi ei ddechreu.

Adn. 17. *Yna y dywedais wrthynt*] Ei neges, gan eu cymbhell hwythau i'w gynorthwyo ef i adeiladu y muriau; *fel na byddom mwyach yn waradwydd*—i'w gelynyon, fel rhai heb fur i'w diwas.

Adn. 18. *Fod llaw fy Nuw yn ddaionus tuag ataf*] Trwy ei ddyrchafu i lys brenin

ddywedasai efe wrthyf. A hwy a ddywedasant, Cyfodwn, ac adeiladw'n. Felly y cryfhasant eu dwylaw i ddaioni.

19 Ond pan glybu Sanbalat yr Horoniad, a Thobiah y gwais, yr Ammoniad, a Gesem yr Arabiad, hyn, hwy a'n gwatwarasant ni, ac a'n dirmygasant, ac a ddywedasant, Pa beth yw hyn yr ydych chiwi yn ei wneuthur? a wrthryfelwch chiwi yn erbyn y brenin?

20 Yna yr atebais hwynt, ac y dywedais wrthynt, Duw y nefoedd, efe a'n llwyddda ni; a ninau ci weision ef a gyfodwn, ac a adeiladw'n: ond nid oes i chiwi ran, na chyflawnder, na choffadwriaeth yn Jerusalem.

PENNOD III.

YNA Eliasib yr archeffeiriad a gyfododd, a'i frodyr yr offeiri-

Persia, a rhoddi iddo ffaf'r yn ngolwg y brenin, ac awdurdod oddiwrth y brenin i ddyfod i Jerusalem i adeiladu murian y ddinas. *A hwy a ddywedasant, Cyfodwn, ac adeiladw'n*—wedi clywed y newyddion annogaethol hyny, cytunasant oll yn unfryd i ddechreu ar y gwaith, gan annog a chryflau dwylaw eu gilydd at y gorchwyl daionus hwn.

Adn. 19. *Ond panglybu Sanbalat yr Horoniad, a Thobiah y gwais*] Gwel ar adn. 10; *a Gesem yr Arabiad*—yr hwn oedd ond odid yn dywysog ar yr Arabiad dan frenin Persia, fel yr oedd y ddau arall ar y Moabiaid a'r Ammoniad; *hwy a'n gwatwarasant ni, ac a'n dirmygasant*—fel dynion fiol yn dechreu ar waith nas galleu ac na feiddiem ei orphen. *A wrthryfelwch chiwi yn erbyn y brenin?*—tybiai y rhai hyn mai gweithred o wrthryfel yn erbyn brenin Persia oedd adeiladu y mur, a mynent i'r Iuddewon ar eu perygl beidio yn y fan. Y mae yn debyg nad oedd dim yu y llythyrâu a gawsent hwy oddiwrth frenin Persia yn nghylch dyben Nehemiah yn myned i Jerusalem, ac na fynegodd yntau ei awdurdod i hyn gan y brenin.

Adn. 20. *Duw y nefoedd*] Yr hwn yr ydym ni yr Iuddewon yn ei wasanaothu; *efe a'n llwyddda ni*—yn y gorchwyl hwn nes ei orphen. *Ond nid oes i chiwi ran*—y mae Jerusalem allan o'ch tywysogaeth chiwi; *na chyflawnder*—neu hawl i lywodraethu; *na choffadwriaeth yn Jerusalem*—un gogolofn na thystiolaeth eich bod yn perthyn i'r lle hwn erioed; ac am hyny, fel pe dywedasai, gwell yw i chiwi ofalu am eich achosion eich hunain yn y manau lle y gosodwyd chiwi gan y brenin, nag ymyraeth â ni, y rhai nid ydym dan eich rhaglafiaeth na'ch gofal.

PEN. III. Adn. 1. *Yna Eliasib yr arch-*

iaid, a hwy a adeiladasant borth y defaid; hwy a'i cysegrasant, ac a osodasant ei ddorau ef; i.e., hyd dŵr Meah y cysegrasant ef, a hyd dŵr Hananeel.

2 A cherllaw iddo ef yr adeiladodd gwŷr Jericho. A cherllaw iddynt hwy yr adeiladodd Zaccur mab Imri.

3 A meibion Hassenaah a adeiladasant borth y pysgod; hwynt-hwy a osodasant ei drawstiau ef, ac a osodasant ei ddoran, ei gloiau, a'i farau.

4 A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Meremoth mab Uriah, mab Cos. A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Mesulam mab Berechiah, mab Mesozabeel. A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Sadoc mab Baana.

5 A cherllaw iddynt hwy y cyweiriodd y Tecoaïad; ond eu gwŷr mawr ni osodasant eu gwddf yn ngwasanaeth eu Harglwydd.

6 A Jehoiada mab Pascah, a Mesulam mab Besodeiah, a gyweiriasant yr hen borth; hwy a osodasant ei drawstiau ef, ac a osodasant i fyny ei ddoran, a'i gloiau, a'i farau.

7 A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Melatiah y Gibeoniad, a Jadon y Meronothiad, gwŷr Gibeon a Mispah, hyd orseddfa y llywydd oedd tu yma i'r afon.

8 Gerllaw iddo ef y cyweiriodd Uzziel mab Harhaiah, o'r gofaint aur. Gerllaw iddo yntau y cyweiriodd Hananiah, mab un o'r apothecariaid: a hwy a gyweiriasant Jerusalem hyd y mur llydan.

9 A cher eu llaw hwynt y cyweir-

offeiriad] Yr hwn oedd ŵyr i Jesua, neu Josua, yr archoffeiriad cymraeg ar ol dychwelyd o Babilon, pen. xiii. 10; *a'i frodyr yr offeiriad*—y rhai a ddylasant fod yn mlaenaf yn mhob gwaith da, gan annog ereill trwy siampl yn gystal a thrwy athrawiaeth; *a hwy a adeiladasant borth y defaid*—yr hwn a enwid felly oddiwrth y defaid a ddygid trwyddo i'w haberthu. *Hwy a'i cysegrasant*—naill ai trwy aberthu ar yr achlysur o'i orpheniad, neu ynto trwy weddi a mawl. Gan fod y porth hwn at wasanaeth gysegredig, ac wedi ei adeiladu gan wŷr cysegredig, yr oedd yn weddus iddo gael ei gysegru i'r wasanaeth hono; a chan mai y porth hwn a adeiladwyd gyntaf, yr oedd cysegriad hwn megys yn gysegru yr holl waith, ac yn fath o ofyn bendith Duw ar y cwbl. *Ie, hyd dŵr Meah y cysegrasant ef*—o un tu i borth y defaid; *a hyd dŵr Hananeel*—o'r tu arall: hyny yw, yr oedd cymaint a hyny o'r mur wedi ei adeiladu gan yr offeiriad pryd y cysegrwyd ef.

Adn. 2. *A cherllaw iddo ef*] Sef i Eliasib a'i frodyr; *yr adeiladodd gwŷr Jericho*—bilioegaeth heu drigolion Jericho, neu rai a gartrefent yno yn awr. Ymddengys i'r rhai hyn ddechreu lle y gorphenodd yr offeiriad, sef wrth un o'r ddau dŵr uchod. *A cherllaw iddynt hwy yr adeiladodd Zaccur mab Imri*—nis gwyddom ni pwy oedd hwn, na llawer ereill a enwir yn y bennod hon, er eu bod yn dra adnabyddus i'r Iuddewon yn y dyddiau hyny.

Adn. 3. *A meibion Hassenaah a adeiladasant borth y pysgod*] Yr hwn, yn ol rhai, oedd o du y gorllewin i Jerusalem, yn gwyn-ebu tua'r môr, o'r lle y dygid pysgod i'w gwerthu yn y farchnadfa ger y porth hwn. Ond nid yw safle cywir un o'r pyrth hyn yn adnabyddus yn awr, er i lawer ddychymygu hyny.

Adn. 4. *A cher eu llaw hwynt y cyweir-*

iodd] Gan mai *cyweirio*, ac nid *adeiladu*, a ddywedir oddiyma yn mlaen, tybia rhai nad oedd y mur a'r pyrth wedi eu llwyr ddiystroio yn y manau hyn, fel nad oedd oisiau eu had-eiladu o'r newydd, eithr yn unig eu hadgyweirio.

Adn. 5. *Ond eu gwŷr mawr*] Pendefigion Tecoa, dinas yn lwyth Juda, 2 Sam. xiv. 2; *ni osodasant eu gwddf yn ngwasanaeth eu Harglwydd*—goummeddasant roddi dim cymhorth i gyweirio muriau Jerusalem, trwy eu harian, trwy eu llafur, na thrwy eu gweision. Tybia rhai mai Nehemiah a fellyllir wrth 'eu harglwydd' yma; ond wrth ddiystyrn ei awdurdod ef, yr oeddynt hefyd yn diystyra awdurdod y brenin, ac awdurdod Duw y nef-oedd, i'r hwn y perthynai y gwaith. Gwrthodasant gymeryd rhan yn y gwaith naill ai o gybydd-dod, neu rhag ofn aufoddloni gelynyon yr Iuddewon.

Adn. 6. *Yr hen borth*] 'Yn nghanol y mur gogleddol; ac a elwid felly am ei adeiladu gynt gan y Jebusiaid.'—SUTCLIFFE.

Adn. 7. *Hyd orseddfa y llywydd*] Y llo hwn oedd fath ar lys barn yn Jerusalem, i ba un y deuai tywysogion brenin Persia o du gorllewinol yr Euphrates, i driu a barnu achosion gwladol yn mhilith yr Iuddewon, o dro i dro, cyn dyddiau Nehemiah, pen. v. 15.

Adn. 8. *Gofaint aur*] Yr oedd yr Iuddewon, o'r amser boreaf, yn meddu crefitywr enwog yn mhob gyfreinwaith addurniadol; ac ymddengys fod y gofaint aur, yr apothecariad, a'r marchnadyddion, wedi ymgorffori yn *gwerniau* yn amser Nehemiah; gwel ar adn. 32. *Mab un o'r apothecariad*—neu y cyffyrwyr, y rhai a barotoent ac a werthent gyffyrion, perlysiau, a'r cyffelyb, tuag at ber-eineio y meirw, neu at aroglarthu yn y deml. *A hwy a gyweiriasant Jerusalem hyd y mur llydan*—yr hwn odd odid nid oedd nicwa angen am ei gyweirio.

iodd Rephaiah mab Hur, tywysog hanner rhan Jerusalem.

10 A cherllaw iddynt hwy y cyweiriodd Jedaiah mab Harumaph, ar gyfer ei dŷ. A Hattus mab Hasabniah a gyweiriodd gerllaw iddo yntau.

11 Malchiah mab Harim, a Hasub mab Paath-Moab, a gyweiriasant ran arall, a thŵr y ffyrnau.

12 A cherllaw iddo ef y cyweiriodd Salum mab Haloheh, tywysog hanner rhan Jerusalem, efe a'i ferched.

13 Porth y glŷn a gyweiriodd Hanun, a thrigolion Zanoah; hwynt-hwy a'i hadeiladasant ef, ac a osodasant ei ddorau ef, ei gloiau, a'i farau, a mil o guffyddau ar y mur, hyd borth y dom.

14 Ond porth y dom a gyweiriodd Malchiah mab Rechab, tywysog rhan o Beth-haccereh; efe a'i had-

eiladodd, ac a osododd ei ddorau, ei gloiau, a'i farau.

15 A Salum mab Col-hozeheh, tywysog rhan o Mispah, a gyweiriodd borth y ffynnon; efe a'i hadeiladodd, ac a'i tódd, ac a osododd ei ddorau ef, ei gloiau, a'i farau, a mur pysgodlyn Siloah, wrth ardd y brenin, a hyd y grisiau sydd yn dyfod i waered o ddinas Dafydd.

16 Ar ei ol ef y cyweiriodd Nehemiah mab Azbuc, tywysog hanner rhan Bethsur, hyd ar gyfer beddrod Dafydd, a hyd y pysgodlyn a wnelid, a hyd dŷ y cedyrn.

17 Ar ei ol ef y cyweiriodd y Lefaiid, Rehum mab Bani. Gerllaw iddo ef y cyweiriodd Hazabiah, tywysog hanner rhan Ceilah, yn ei fro ei hun.

18 Ar ei ol ef eu brodyr hwynt a gyweiriasant, Bafai mab Henadad, tywysog hanner rhan Ceilah.

Adn. 9. *Tywysog hanner rhan Jerusalem*] Ymddengys fod Jerusalem wedi ei rhanu yn ddwy ran, un yn llywyth Benjamin, a'r llall yn llywyth Juda; a bod *Rephaiuh* yn llywydd ar un ran, a *Salum* ar y rhan arall, adn. 12; a'r ddau dan lywodraeth Nehemiah, prif dywysog y ddinas.

Adn. 10. *Ar gyfer ei dŷ*] Gan gael ei gymhell i hyn oddiar hunan-les, yn gystal ag mewn ufydd-dod i Nehemiah: gwel ar adn. 23.

Adn. 11. *A thŵr y ffyrnau*] Lle yr oeddynt yn pobi bara, neu yn crasu priddfeini.

Adn. 12. *Tywysog hanner rhan Jerusalem*] Gwel ar adn. 9; *efe a'i ferched*—y rhai oeddynt yn etifeddesau mawrion, neu yn wragedd gweddwon cyfoethog, a'u cyfoeth ganddynt at eu llaw eu hunain.

Adn. 13. *Porth y glŷn a gyweiriodd Hanun*] Trwy yr hwn yr aethai Nehemiah ar y cyntaf, ac y dychwelodd ar ol bod yn edrych y muriau, pen. ii. 13, 15; a *thrigolion Zanoah*—dinas yn llywyth Juda, Jos. xv. 34; *hwynt-hwy a'i hadeiladasant ef*—ymddengys fod y porth hwn wedi ei lossi á thàn yn hollol, fel yr oeddynt yn rhaid ei adeiladu ef oll o'r newydd, heblaw cyweirio y mur bob tw iddo; canys sonir yma am gyweirio ac adeiladu. *A mil o guffyddau ar y mur*—hyny yw, cyweiriasant fil o guffyddan o'r mur, sef o borth y glŷn hyd borth y dom.

Adn. 14. *Ond porth y dom*] Gwel ar pen. ii. 13; a *gyweiriodd Malchiah mab Rechab*—os un o dylwyth y Rechabiaid oedd hwn, yr oedd yn gyfreithlon iddo gynorthwyo i adeiladu mur Jerusalem, er fod yn waharddedig iddo adeiladu tŷ iddo ei hun, Jer. xxxv. 7; *tywysog rhan o Beth-haccereh*—tref neu ddinas yn llywyth Benjamin, yr hon oedd dan lywodraeth dau ŵr; *efe a'i hadeiladodd*—o'r

newydd, am ei fod, fel y pyrth ereill, wedi ei lossi oll i'r llawr.

Adn. 15. *A gyweiriodd borth y ffynnon*] Trwy ei adeiladu o'r newydd, a'i doi; a *mur pysgodlyn Siloah*—yr hwn oedd ar gyfer y llyn hwnw: gwel ar pen. ii. 14. Tybia rhai mai yr un oedd hwn a llyn Siloah, i'r hwn yr anfonodd ein Harglwydd y dyn dall, Ioan ix. 7. *A hyd y grisiau sydd yn dyfod i waered o ddinas Dafydd*—i ranau is o Jerusalem, yr hon oedd yn sefyll ar dir anwastad neu fryniog.

Adn. 16. *Nehemiah*] Gŵr o'r un enw, er nad o'r un teulu, ag ysgrifenydd y llyfr hwn; *tywysog hanner rhan Bethsur*—felly ni a welwn fod llywodraeth ddonblyg yn beth cyffredin iawn yn mysg y Persiaid, fel y byddai i eiddigedd y pleidiau dueddu at ddiogelweh yr amherodraeth. *Hyd ar gyfer beddrod Dafydd*—yr hwn ni ddinstyriwyd gan y Babiloniaid, ond a oedd yn aros yn amser Nehemiah, ac hefyd hyd amser yr apostolion, Act. ii. 29; a *hyd y pysgodlyn a wnaethid*—gan Hezeciah, 2 Bren. xx. 20, trwy yr hyn y gwahaniaethir ef oddiwrth y llyn naturiol; a *hyd dŷ y cedyrn*—lle yr oedd gwarchwadu y brenin yn aros, y rhai oeddynt oll yn wŷr cedyrn.

Adn. 17. *Ar ei ol ef y cyweiriodd y Lefaiid*] A Rehum mab Bani yn flaenor arnynt ond odid. *Yn ei fro ei hun*—Saes., 'yn ei ran ei hun,' sef y rhan o'r mur a benodwyd iddo.

Adn. 18. *Eu brodyr hwynt a gyweiriasant*] Sef brodyr naturiol y ddau ŵr uchod, neu ynte y Lefaiid, eu brodyr yn gyffredinol. *Tywysog hanner rhan Ceilah*—fel yr oedd Hasabiah yn dywysog ar yr hanner arall iddi, adn. 17. *Ceilah* ydoedd ddinas gaerog yn llywyth Juda, ar y ffordd i Hebron, 1 Sam. xxiii. 1.

19 A cherllaw iddo ef y cyweiriodd Ezer mab Jesua, tywysog Mispah, ran arall ar gyfer y ddringfa i dŷ yr arfau, wrth y drofa.

20 Ar ei ol ef Baruc mab Zabbar yn awyddus a gyweiriodd y mesur arall, o'r drofa hyd ddrws tŷ Eliasib yr archoffeiriad.

21 Ar ei ol ef Meremoth mab Uriah, fab Cos, a gyweiriodd y mesur arall, o ddrws tŷ Eliasib hyd daleen tŷ Eliasib.

22 Ac ar ei ol ef yr offeiriad, gwŷr y gwastadedd a gyweiriasant.

23 Ar ei ol ef y cyweiriodd Benjamin, a Hasub, gyferbyn â'u tŷ. Wedi yntau Azariah mab Maaseiah, mab Ananiah, a gyweiriodd wrth ei dŷ.

24 Ar ei ol yntau Binnui mab Henadai a gyweiriodd fesur arall, o dŷ Azariah hyd y drofa, sef hyd y gongl.

25 Palal mab Uzai, ar gyfer y drofa, a'r tŵr sydd yn myned allan

o ucheldy y brenin, yr hwn sydd wrth gyntedd y carchar. Ar ei ol ef, Pedaiiah mab Paros.

26 A'r Nethiniaid, y rhai oedd yn trigo yn Ophel, hyd ar gyfer porth y dwfr, tua'r dwyrain, a'r tŵr oedd yn myned allan.

27 Ar ei ol yntau y Teccoiaid a gyweiriasant fesur arall, ar gyfer y tŵr mawr sydd yn myned allan, hyd fur Ophel.

28 Oddiar borth y meirch, yr offeiriad a gyweiriasant bob un gyferbyn â'i dŷ.

29 Ar eu hol hwynt Sadoc mab Immer a gyweiriodd ar gyfer ei dŷ. Ac ar ei ol yntau y cyweiriodd Semaiiah mab Sechaniah, ceidwad porth y dwyrain.

30 Ar ei ol ef y cyweiriodd Hananiah mab Selemiah, a Hanan, chweched mab Salaph, y mesur arall. Ar ei ol yntau Mesulam mab Berechiah a gyweiriodd ar gyfer ei ystafell.

Adn. 19. *Ar gyfer y ddringfa i dŷ yr arfau*] Neu y grisiau i dŷ coedwig Libanus, lle y cedwid yr artau o ddyddiau Solomon, Esay xxiii. 8; *wrth y drofa*—neu gongl y mur, adn. 24.

Adn. 20. *Yn awyddus a gyweiriodd y mesur arall*] Ni ddywedir awyddus am neb arall; ac ymddengys fod Baruch yn rhagori arnynt oll yn ei awydd a'i egnai i orphen ei ran neu ei fesur o'r gwaith.

Adn. 21. *O ddrws tŷ Eliasib*] Lle y gorphenodd Baruch; *hyd daleen tŷ Eliasib*—yr hwn, trwy ei fod yn dŷ gwŷr mawr, a raid fod yn ddarn mawr.

Adn. 22. *Ac ar ei ol ef yr offeiriad*] Y rhai a gyfaneddent yn ngwastadedd Jericho, lle yr oedd llawer iawn o offeiriad; neu yn y gwastadedd o amgylch Jerusalem, peu. xii. 28, lle yr oedd cryn llawer o Lefiaid, ac ond odid offeiriad hefyd.

Adn. 23. *Gyferbyn â'u tŷ*] Ymddengys fod amrai o'r gwŷr a grybwyllir yma yn adeiladu neu yn cyweirio ar gyfer eu tai, trwy yr hyn y dysgwylid iddynt wneyd gwaith da, er diogelu eu tai a'u meddiannau eu hunain.

Adn. 24. *Hyd y drofa*] Neu gongl y mur, oblegid yr oedd iddo lawer o gonglau.

Adn. 25. *Ucheldy y brenin*] Rhyw dŵr uchel i'r brenhinoedd gynt rodio ar ei ben, neu ynte i'r gwylieddyddion edrych allan oddiarno; *yr hwn sydd wrth gyntedd y carchar*—gwel Jer. xxxii. 2.

Adn. 26. *A'r Nethiniaid*] Gweddillion yr hen Gibeoniaid, neu gaethweision o blith rhyw genhedoedd ereill, y rhai a drigent yn nhŵr Ophel: gwel ar Jos. ix. 22—27. *Hyd ar gyfer porth y dwfr*—os y Gibeoniaid oedd y

rhai hyn, yr oedd yn briodol iawn iddynt hwy gyweirio ar gyfer porth y dwfr, gwaith pa rai oedd cyrchu dwfr i'r cysegr. *A'r tŵr oedd yn myned allan*—wedi ei adeiladu lle yr oedd congll, neu blygiad allan y mur.

Adn. 27. *Ar ei ol yntau*] Sef penaeth y Nethiniaid; neu, yn ol y Sacsonaeg, 'ar eu hol hwythau,' sef y Nethiniaid a grybwyllwyd yn adn. 26; *y Teccoiaid a gyweiriasant fesur arall*—cyweiriodd y rhai hyn ran arall o'r blaen, adn. 5; ac wedi gorphen hŵn, cyweiriasant fesur arall yma drachetn, yr hyn oedd yn dangos ffyddlondeb a diwydrwydd y bobl dylodion hyn, er fod eu gwŷr mawr yn rhoi siampl i'r gwrthwneb iddynt: gwel ar adn. 5.

Adn. 28. *Oddiar borth y meirch*] Trwy yr hwn yr âi y meirch allan i'w dyfrhau, neu hyd yr hwn y cai yr addolwyr ddwyn eu meirch wrth ddyfod o'r wlad i addoli. Yr oedd y porth hwn yn sefyll rhwng gardd y brenhinoedd a'r deul. *Yr offeiriad a gyweiriasant bob un gyferbyn â'i dŷ*—yr oedd y tai hyn yn rhes hir, ac felly cyweiriwyd ganddynt ran helaeth o'r mur.

Adn. 29. *Ar eu hol hwynt Sadoc mab Immer*] Meddylir mai offeiriad oedd hwn hefyd, trwy fod ei dŷ ef yn nglŷn â thai yr offeiriad ereill; ond ymddengys ei fod ef yn ŵr enwocach na'r offeiriad cyffredin. *Mab Sechaniah*—yr hwn a grybwyllwyd Ezra x. 2; *ceidwad porth y dwyrain*—porth dwyreiniol y deul, yn ol rhai; neu borth y ddinas, yn ol ereill.

Adn. 30. *Hanan, chweched mab Salaph*] Ymddengys fod i Salaph chwech o feibion, ac na weithiodd ond yr ieuangaf o honynt; yr

31 Ar ei ol yntau Malchiah, mab y gof aur, a gyweiriodd hyd dŷ y Nethiniaid, a'r marchnadyddion ar gyfer porth Miphcad, hyd ystafell y gongl.

32 A rhwng ystafell y gongl a phorth y defaid, yr eurychod a'r marchnadyddion a gyweiriasant.

PENNOD IV.

IDAN glybu Sanbalat ein bod ni yn adeiladu y mur, efe a gynddeirio-godd yndo, ac a lidiodd yn ddirfawr, ac a watwarodd yr Iuddewon.

2 Ac efe a lefarodd o flaen ei frodyr a llu Samaria, ac a ddywed-

hyn a grybwyllir er anrhydedd iddo ef, ac er gwardh i'r lleill.

Adn. 31. *Mab y gof aur*] Penaeth cwmmi yr eurychod; a *gyweiriodd hyd dŷ y Nethiniaid*—sef hyd Ophel, adn. 26, os nad oedd iddynt ryw dŷ arall hefyd; a'r *marchnadyddion*—hyn yw, cyweiriodd Malchiah hyd dŷ y Nethiniaid, ac hefyd hyd dŷ y marchnadyddion, yr hwn oedd ar gyfer porth Miphcad, a hyd ystafell y gongl. Y mae yn debyg ei fod ef, fel mab y gof aur, yn ŵr cyfoethog iawn; ac am hynny ymgymrodd yn ewyllysgar â'r tair rhan hyn.

Adn. 32. *A rhwng ystafell y gongl*] Lle y gorphenodd Malchiah, adn. 31; a *phorth y defaid*—lle y dechreuwyd y gwaith hwn, adn. 1; yr *eurychod*—Saes., 'gofaint aur'; a'r *marchnadyddion*—y rhai yr ymddengys eu bod wedi ymgorfiori yn *gwmmi* i fasnachu mewn gwahanol nwyddau, adn. 8; a *gyweiriasant*—fel ag i orphen yr holl fur wrth borth y defaid, lle y dechreuodd yr archefferiad a'i frodyr weithio. Fel hyn gorphenwyd yr holl fur, yr hwn oedd dros bedair milldir o hyd, mewn deuddeng niwrnod a deugain, pen. vi. 15.

PEN. IV. Adn. 1. *Pan glybu Sanbalat ein bod ni yn adeiladu y mur*] Yn myned ag ef yn mlaen o ddirif, ar ol iddo fod yn ceisio eu dychrynu o'r blaen, pen. ii. 19; *efe a gynddeirio-godd*—yn ddau gwaeth nag o'r blaen; ac a *lidiodd yn ddirfawr*—nes yr oedd yn barod i'w dyfetha, pe gwybasai pa fodd; ac a *watwarodd yr Iuddewon*—yn y geiriau a adroddir yn yr adnod nesaf.

Adn. 2. *Ac efe a lefarodd o flaen ei frodyr*] Tobiah a Gesem, ei gyd-dywysoegion; a *llu Samaria*—neu fyddin Samaria, yr hon oedd ond odid dan ei lywodraeth ef fel tywysog, ac a ddygasai efe yno i geisio dychrynu y gweithwyr. *Beth y mae yr Iuddewon gwciniaid hyn yn ei wneuthur?*—hynny yw, beth a allant hwy ei wneuthur, rai gwciniaid, ſſol, ac anfedrus? *A adewir iddynt hwy*—ymgadarnhau, trwy furio eu dinas i'w hamddiffyn eu unain? *A aberthant?* a *orphenant mewn*

odd, Beth y mae yr Iuddewon gwciniaid hyn yn ei wneuthur? a adewir iddynt hwy? a aberthant? a orphenant mewn diwrnod? a godant hwy y cerig o'r tyrau llwch, wedi eu llosgi?

3 A Thobiah yr Ammoniad oedd yn ei ymyl, ac efe a ddywedodd, Er eu bod hwy yn adeiladu, eto ped elai llwynog i fyny, efe a fwriai i lawr eu mur cerig hwynt.

4 Gwrando, O ein Duw; canys yr ydym yn ddirmygus: dychwel hefyd eu gwardwydd ar eu penau hwynt, a dod hwynt yn anrhaith yn ngwlad y cacthiwed:

5 Ac na orchuddia eu hanwiredd

diwrnod?—y meddwl yw, a allant hwy orphen y mur, ac ymlaenbahu trwy aberthu ar ol ef orphen ef, a hynny mewn byr amser, megys mewn nn diwrnod? Canys os treuliant ryw lawer o amser wrtho, nis gallant foddwl y bydd i ni a'n cymydogion oddef iddynt fyned yn mlaen. Fel hyn y perswadiai efe ei hun a'i gymdeithion fod eu hymgais yn ſſolineb, a darfu i'r camgymeriad hwn eu cadw hwy rhag eu hafonyddu nes yr oedd yn rhy ddiweddar; ac fel hyn yr ymfyddodd Duw Sanbalat er ei ofid a'i gywilydd ei hun, ac er mantais i'r Iuddewon. *A godant hwy y cerig o'r tyrau llwch*—neu o'r adfeilion lle y buont yn gorwedd bellach er's yn agos i I44 o flynyddau; *wedi eu llosgi*—a'u chwilffiriwio gan Nebuchodonosor?

Adn. 3. *A Thobiah yr Ammoniad oedd yn ei ymyl*] Sef un o gyd-dywysoegion Sanbalat, pen. ii. 10, 19. *Er eu bod hwy yn adeiladu*—mur amddiffynol iddynt eu hunain; *eto ped elai llwynog i fyny*—o'r rhai yr oedd llawer yn Jerusaleim y pryd hyn, Galar. v. 18; *efe a fwriai i lawr eu mur cerig hwynt*—amcan yr araeth ddirmygus hon oedd dangos, os adeiladid y mur, (1) Y byddai efe mor isel, fel y gallai llwynog yn hawdd neidie i'w ben; ac, (2) Mor wael ei ddefnyddiau, ac wedi ei adeiladu mor frysiog ac esgeulus, fel y byddai i'r cyffyrddiad lleiaf ei dafu i lawr. Gan hynny yr oedd Tobiah hefyd yn bannu mai afreidiol oedd attal yr adeiladwyr trwy drais.

Adn. 4. *Gwrando, O ein Duw!* Y mae Nehemiah yma yn tori ar yr adroddiad, i grybwyll y weddi a wnaeth efe ar yr achlysur. Efe a weddai am i Dduw wrando ar ddirmyg ei elymion, ac ar ei weddi yntau yn eu herbyn hwy. *Canys yr ydym yn ddirmygus*—yn eu golwg hwy, am ein bod yn adgyweirio dy ddinas di. *Dychwel hefyd eu gwardwydd ar eu penau hwynt*—yn lle ar ein penau ni; a *dod hwynt yn anrhaith yn ngwlad y caethiwed*—fel y buom ninau yn Babilon.

Adn. 5. *Ac na orchuddia eu hanwiredd*] Ond byddid yn noeth yn dy wyddfod, fel ag i ddwyn dy farnedigaethau arnynt, er diwygiad iddynt hwy, neu er rhybydd i eirell; ac

hwynt, ac na ddilêr eu pechod hwynt o'rh wydd di: canys digiasant *dydi* gerbron yr adeiladwyr.

6 Felly nyini a adeiladasom y mur; a chyfanwyd yr holl fur hyd ei hanner: canys yr oedd gan y bobl galon i weithio.

7 ¶ Ond pan glybu Sanbalat, a Thobiah, a'r Arabiaid, a'r Ammoniaid, a'r Asodiaid, gwbl-gyweirio muriau Jerusalem, a dechreu cau yr adwyau; yna y lldiasant yn ddirfawr:

8 A hwynt oll a frad-fwriadasant yn nghyd i ddyfod i ymladd yn erbyn Jerusalem, ac i'w rhwystro.

9 Yna y gweddiasom ar ein Duw, ac y gosodasom wyladwriaeth yn

eu herbyn hwynt ddydd a nos, o'u plegid hwynt.

10 A Judah a ddywedodd, Nerth y eludwyr a wanhaodd, a phriidd lawer *sydd*, fel na allwn ni adeiladu y mur.

11 A'n gwrthwynebwyr a ddywedasant, Ni chânt wybod, na gwelod, nes i ni ddyfod i'w mysg hwynt, a'u lladd, a rhwystro eu gwaith hwynt.

12 A phan ddaeth yr Iuddewon oedd yn preswyllo yn eu hymyl hwynt, dywedasant wrthym ddengwaith, O'r holl leoedd *trwy* y rhai y gallech ddychwelyd atom ni, *y byddant arnoch chiwi*.

13 ¶ Am hyny mi a osodais *rai* yn

ddilêr eu pechod hwynt o'rh wydd di—trwy ei faddeu yn ddigosp: *canys digiasant dydi gerbron yr adeiladwyr*—wrth ein gwaradwyddo ni. Er y gallai y weddi hon gael ei hesgusodi o enau *Iuddew* dan gythruddiad llym, eto nid yw yn gweddu i un *Cristion* yn y dyddian hyn, ar ol ein dysgu gan ein Hathraw bendigedig, i 'garu ein gelynyon, bendithllo y rhai a'n melltithiant, gwneyd da i'r sawl a'n casant, a gweddio dros y rhai a wnel niwed i ni, ac a'n herlidiant,' Mat. v. 44. Ond wedi y cwbl, fe allai y dylem ni ddeall y geiriau hyn fel yn *fynegol* neu *broffwydol*, yn hytrach nag yn *ddcisfydol*, canys fe oddef y wreiddiol ei chyfieithu fel hyn: '*Dychweli* hefyd eu gwaradwydd ar eu penau hwynt, a *rhoddi* hwynt yn anrhaith yn ngwlad eu caethiwed: ac ni *orchuddi* eu hanwired hwynt, ac ni *dhlieu* eu pechod hwynt o'rh wydd di, canys digiasant dydi gerbron yr adeiladwyr.' Ac yn gyson â hyn cafodd y cenhedloedd hyn eu dinystrio gan y Maccabeaid a'u holynwyr.

Adn. 6. *Felly nyini a adeiladasom y mur*] Er holl waradwydd Sanbalat a'i gyfeillion; *a chyfanwyd yr holl fur hyd ei hanner*—hyny yw, cyfanwyd ef o amgylch-ogylch yr holl ddinas hyd hanner ei nchder, fel nad oedd un bwlech ynddo, trwy fod pawb yn gweithio ar unwaith; *canys yr oedd gan y bobl galon i weithio*—yr oeddnt yn galonog ac ewyllysgar yn y gwaith, a gwnaent bob egni a brys i'w orphen ef.

Adn. 7. *Ond pan glybu Sanbalat*] Yn nghyda'r tywysogion ereill ag oeddnt yn llywodraethu ar yr Arabiaid, yr Ammoniaid, a'r Asodiaid neu y Philistiaid, 1 Sam. v. 1—3; *gwbl-gyweirio muriau Jerusalem*—nid eu gorphen, ond eu codi yn gwbl o amgylch y ddinas hyd eu hanner, adn. 6; *a dechreu cau yr adwyau*—yn y rhanau hyny o'r mur nad oeddnt wedi cael nemawr o niwed; *yna y lldiasant yn ddirfawr*—wrth yr Iuddewon y rhai oeddnt wedi bod mor lwyddianus, ac wrthent yn hunain ond odid am na buasant yn eu battal yn gynt.

Adn. 8. *A hogni oll a frad-fwriadasant*

yn nghyd] Dan yr esgus fod yr Iuddewon yn gwrthryfela yn erbyu brenin Persia, pan mewn gwirionedd mai hwynt-hwy oedd yn gwrthryfela, trwy fod y brenin hwnw wedi caniatáu iddynt adeiladu y mur; i *ddyfod i ymladd yn erbyn yr Iuddewon*—ond paham? a oedd yr Iuddewon wedi gwnentur rhyw niwed iddynt, neu yn bwriadu gwnentur? Nac oeddnt: yr oeddnt yn byw yn heddychol yn eu hymyl. Eithr yr oedd Sanbalat a'i gyfeillion yn casâu duwioldeb yr Iuddewon, ac yn cenfigenu wrth eu llwyddiant.

Adn. 9. *Yna y gweddiasom ar ein Duw*] Am ei gymorth, ei gyfarwyddyd, a'i amddiffyniad ef; *ac y gosodasom wyladwriaeth*—i roddi rhybydd o ddyfodiad y gelynyon, os deuant liw dydd neu liw nos. Er eu bod yn ymddiried yn Nuw, eto nid oeddnt yn esgeuloso arferd pob moddion addas i'w diogelu eu hunain; ac fel hyn y dylem ninaw wneyd.

Adn. 10. *A Juda a ddywedodd*] Sef rhai o'r adeiladwyr mywaf llwfr a blinedig; *Nerth y eludwyr a wanhaodd*—trwy lafurio mor hir ac mor galed, a thrwy ofn eu gelynyon; *a phriidd lawer sydd*—yn gorluddio y cerig, yr hwn y rhaid ei symud cyn medru cael gafael ynddynt; *fel na allwn ni adeiladu y mur*—neu ei orphen, cyn i'n gelynyon ddyfod am ein penau.

Adn. 11. *Ni chânt wybod na gwelod*] Symudiadau eu gwrthwynebwyr; *nes i ni ddyfod i'w mysg hwynt*—i ganol Jerusalem yn ddisymwth a diarwybod iddynt; *a rhwystro eu gwaith hwynt*—trwy ladd y gweithwyr.

Adn. 12. *A phan ddaeth yr Iuddewon oedd yn preswyllo yn eu hymyl*] Sef yn ymyl y gelynyon, ac mewn mantais i wybod eu bwriadau a'u darpariadau yn erbyn Jerusalem; *dywedasant wrthym ddengwaith*—rhybyddiasant ni yn fynych, drachefn a thrachefn: gwel ar Gen. xxxi. 7. *O'r holl leoedd trwy y rhai y gallech ddychwelyd atom ni, y byddant arnoch chiwi*—hyny yw, hwy a ymosodant arnoch yn yr holl leoedd trwy y rhai y gallwn ni ddyfod atoch chiwi, neu chiwi atom ni, ac am hyny gofawch am gadw gwyladwriaeth ar

y lleoedd isaf, o'r tu ol i'r mur, ac yn y lleoedd uchaf; yn ol eu teuluoedd hefyd y gosodais y bobl, â'u cleddyffau, â'u gwaewffyn, ac â'u bwâu.

14 A mi a edrychais, ac a gyfodais, ac a ddywedais wrth y pendefigion, a'r swyddogion, ac wrth y rhan arall o'r bobl, Nac ofnweh rhagddynt: cofwch yr Arglwydd mawr ac ofnadwy, ac ymleddwch dros eich brodyr, eich meibion a'ch merched, eich gwragedd a'ch tai.

15 A phan glybu ein gelynyon fod y peth yn lysbys i ni, Duw a ddi-ddymodd eu cynghor hwynt; a ninaw oll a ddychwelasant at y mur, bawb i'w waith.

bob tu. Ond trwy nad yw yr ymadrodd 'byddant amoch chiwi,' yn y wreiddiol, tybia rhai mai yr ystyr yw, O'r holl leoedd lle yr ydych yn adeiladu, deuwch atom ni, fel y golloch fywmlau heddwch a llywyddiant dan Sanbalat, ac na ddelo efe a'i blaid amoch chiwi yna.

Adn. 13. *Am hynny mi a osodais rai yn y lleoedd isaf*] Yn y manau lle yr oedd y mur isefal, a lle y gallai y gelynyon ddyfod drosto hawsaf; *o'r tu ol i'r mur*—sef yn yr ochr nesaf i'r ddirnas, fel y byddai y mur rhyngddynt a'r gelynyon; *ac yn y lleoedd uchaf*—sef ar y tyrau ag oeddynt ar y mur; *yn ol eu teuluoedd*—teulu cyfan gyda'u gilydd mewn un lle, ac felly mewn lle arall; *â'u cleddyffau a'u gwaewffyn*—i'w defnyddio pan ddeuai y gelynyon yn agos; *ac â'u bwâu*—i saethu atynt pan fyddent yn mhell.

Adn. 14. *A mi a edrychais*] I weled a oedd y bobl yn eu priodol leoedd, ac â'u harfau priodol ganddynt. *Nac ofnweh rhagddynt*—rhag eu nifer na'u grym, eu lliid na'u bygythion. *Cofwch yr Arglwydd mawr ac ofnadwy*—yr hwn sydd yn fwy ac yn gryfach na'i holl elynion. Fel pe dywedasai, Yr ydych chiwi yn meddwl fod eich gelynyon yn fawr ac ofnadwy; ond beth ydynt hwy mewn cyd-mhariaeth i Dduw? ac yn enwedig mewn gwrthwynebiad iddo ef? *Ac ymleddwch dros eich brodyr*—y rhai sydd yn addoli yr un Duw, ac wedi disgyn oddiwrth yr un tad; *eich meibion*—y rhai yr ewyllysiant hwy eu ladd neu eu caethiwo; *a'ch merched*—y rhai, yn nghyda'u mamau hwy a'ch gwragedd chwithau, yr ewyllysiant eu darostwng a'u halogi; *a'ch tai*—y rhai y maent am eu dryllio, neu eu troi at eu gwasanaeth eu hunain. Yr oedd eu holl eiddo mewn perygl; ac am hynny yr oedd yn rhaid iddynt ymladd dros eu crefydd, eu bywydau, a'u heiddo. Nis gall pobl yn teimlo fel hyn, megys y gwna ein RHUCH-FILWYR ni yn y dyddiau yna, byth gael eu *gorehfygu*. Gwnaed cyfarchiad cyffelyb i hwn i'r Groegiaid, i'w cyulhyrfu hwy yn erbyn y Persiaid, gan eu blaenor yn Æschylus, Pers. llin. 402.

Adn. 15. *Pan glybu ein gelynyon*] Fod eu brad-fwriad lofruddiog hwy yn lysbys i ni, ac

16 Ac o'r dydd hwnw, hamner fy ngweision oedd yn gweithio yn y gwaith, a'u hamner hwynt oedd yn dal gwaewffyn, a tharianau, a bwâu, a llurigan; a'r tywysogion oedd ar ol holl dŷ Judah.

17 Y rhai oedd yn adeiladu ar y mur, ac yn dwyn beichiau, a'r rhai oedd yn llwytho, oeddynt âg un llaw yn gweithio yn y gwaith, ac â'r llaw arall yn dal arf.

18 Canys pob un o'r adeiladwyr oedd wedi gwregysu ei gleddyf ar ei glun, ac yn adeiladu: a'r hwn oedd yn lleisio mewn udgorn ydoedd yn fy ymyl i.

19 ¶ A mi a ddywedais wrth y

nad oedd ganddynt un gobaith i allu syrthio amon yn ddarwybod i ni, ond ein bod yn barod i'w derbyn hwy; *Duw a ddi-ddymodd eu cynghor hwynt*—trwy lwfrhan eu calonau; *a ninaw oll a ddychwelasant at y mur*—i orphen ein gwaith.

Adn. 16. *Ac o'r dydd hwnw*] Rhag i'n gelynyon gael eu tentio i wneuthur ail ymosodiad; *hamner fy ngweision oedd yn gweithio yn y gwaith*—sef ei weision teuluaidd ef, neu ei warchawdlu personol, y rhai a arferent wlyio ei berson of fel tywysog; *a'u hamner hwynt oedd yn dal gwaewffyn, &c.*—arfau ymosodol ac amddiffynol, yn barod i ymladd os deuai en gelynyon atynt: gwel ddarluniad o'r arfogeth hon ar Eph. vi. 13. *A'r tywysogion oedd ar holl dŷ Juda*—Saes, 'tu ol iddynt, i'w cefnogi yn y gwaith, ac yn barod i'w cyfarwyddo a'u hamddiffyn os ymosodid arnynt. Nid yw hyn yn beth anarferol yn Palestina hyd heddyw; canys y mae gwŷr arfog yn sefyll yn fynych gerllaw yr hauwyr, i attal yr Arabiaid eu hyspeilio hwynt o'r had.

Adn. 17. *Ag un llaw yn gweithio yn y gwaith, ac â'r llaw arall yn dal arf*] Ni ddylid deall hyn yn llythyrenol, canys ni allent felly weithio âg un law; eithr y meddwl yw, fod yr arfau gwaith a'r arfau rhyfel ganddynt yn eu hymyl: gwel adn. 18. Gweithient tra y caent lonydd i weithio; ac os byddai raid ymladd, yr oeddynt yn barod at hynny hefyd: yr oedd pob un yn weithiwr ac yn filwr ar yr un pryd, heblaw y milwyr professedig ag oeddynt tu ol iddynt, adn. 16.

Adn. 18. *Canys pob un o'r adeiladwyr oedd wedi gwregysu ei gleddyf ar ei glun*] Tra yr oedd yn adeiladu; a hyn a feddylir wrth ddal arf yn ei law, yn adn. 17. *A'r hwn oedd yn lleisio mewn udgorn ydoedd yn fy ymyl i*—yr oedd rhywai o hyd yn edrych allan am ddyfodiad y gelynyon, fel y gallent fynegu hynny i Nehemiah yn gyntaf; ac yna parai yntau i'r dyn hwn udgaau yn y fan, fel y clywai pawb o amgylch—oglych y mur.

Adn. 19. *I' gwaith sydd fawr a helaeth*] Dywedir fod y mur uwchlaw pedair milldir o hyd; *a nymî a wasgarwyd ar hyd y mur*—

pendefigion, ac wrth y swyddogion, ac wrth y rhan arall o'r bobl, Y gwaith *sydd* fawr a helaeth, a nyini a wasgarwyd ar hyd y mur, yn mhell oddiwrth ein gilydd.

20 Yn y fan lle y clywoch sain yr udgorn, yno ymgwsglwh atom. Ein Duw ni a ymladd drosom.

21 Felly yr oeddym ni yn gweithio yn y gwaith: a'u hanner hwynt yn dal gwaewffyn, o gyfodiad y wawr hyd gyfodiad y ser.

22 Dywedais hefyd y pryd hwaw wrth y bobl, Lletŷed pob un â'i was yn Jerusalem, fel y byddont i ni yn wyliauwriaeth y nos, a'r dydd *mewn* gwaith.

23 Felly, myfi, a'm brodyr, a'm gweision, a'r gwylwyr *oedd* ar fy ol, ni ddyosgasom ein dillad, *ond* a ddyosgai pob un i'w golchi.

rhai yn gweithio yn y fan yma, a rhai yn y fan draw, encyd oddiwrth eu gilydd.

Adn. 20. *Yn y fan lle y clywoch sain yr udgorn*] Gan y gŵr yn ymyl Nehemiah, yr oeddynt i ymgwsglu o bob man yno ato ef, i dderbyn gorchymyn pa beth i'w wneyd. *Ein Duw ni a ymladd drosom*—ac a ddyry i ni fuddugoliaeth ar ein gelynyon: felly nid oedd achos iddynt hwy ofni pan glywent sain yr udgorn.

Adn. 21. *Felly yr oeddym ni yn gweithio*] Yn ddiwyd, er mwyn gorphen y gwaith gyda phob brys; *a'u hanner hwynt yn dal gwaewffyn*—ac arfau ereill, sef hanner gweision Nehemiah, adn. 16; *o gyfodiad y wawr*—cyn gynted ag y byddai yn ddigon goleu iddynt allu gweled; *hyd gyfodiad y ser*—gan ddal ati yn ddiwyd hyd nes y byddai yn rhy dywyll.

Adn. 22. *Lletŷed pob un â'i was yn Jerusalem*] Yr oedd gan rai o'r gŵyr mawrion eu gweision gyda hwy yn y gwaith, y rhai a arferent fyned adref bob prydawn at eu teuluoedd yn y pentrefi oddiamgylch; ond yn awr parai Nehemiah iddynt hwy a'u gweision 'leŷya yn Jerusalem; *fel y byddont i ni yn wyliauwriaeth y nos*—rhag i'r gelynyon ruthro arnynt yn y nos, gan gymeryd mantais ar abensoldeb y gweithwyr; *a'r dydd mewn gwaith*—fel y byddont yn barod at eu gwaith ar gyfodiad y wawr yn y bore.

Adn. 23. *Ni ddyosgasom ein dillad*] Na dydd na nos, fel y gallent fod yn barod bob amser, ar y rhybydd lleiaf, i'w hamddiffyn eu hunain os deuai y gelynyon arnynt; *ond a ddyosgai pob un i'w golchi*—yr hyn oedd yn wir angenrheidiol ar amserau. Ond y mae y darn olaf hwn yn cael ei ddarllen ar ymyl y ddalen, 'pob un elai â'i arf i'r dwfr'; fel pe mai yr ystyr fyddai, nad âi neb i geisio dwfr i un man heb eu harfau gyda hwynt, rhag ofn y gelyn.

PENNOD V.

AC yr oedd gwaeddi mawr gan y bobl, a'u gwagedd, yn erbyn yr Iuddewon eu brodyr.

2 Canys yr oedd rhai yn dywedyd, *Y mae llawer o honom ni*, ein meibion, a'n merched: am hyny yr ydym yn cymeryd ŷd, fel y bwytaom, ac y byddom byw.

3 Yr oedd rhai hefyd yn dywedyd, Ein maesydd, a'n gwinllanoedd, a'n tai, yr ydym ni yn eu gwystlo, fel y prynom ŷd rhag y newyn.

4 Ac yr oedd rhai *ereill* yn dywedyd, Benthyciasom arianⁿⁱ i dalu treth y brenin, *a hyny* ar ein tiroedd a'n gwinllanoedd.

5 Ac yn awr, ein cnawd ni *sydd* fel cnawd ein brodyr, ein plant ni fel eu plant hwy: ac wele ni yn dar-

PEN. V. Adn. 1. *Ac yr oedd gwaeddi mawr gan y bobl*] Gan y rhai tylodion o honnynt, yn wŷr ac yn wragedd, yn amser y newyn; *yn erbyn yr Iuddewon eu brodyr*—sef yn erbyn y cyfoethogion, y rhai a'u gorthryment hwy, er eu bod o'r un genedl.

Adn. 2. *Y mae llawer o honom ni*] Y mae ein teuluoedd yn lluosocach nag y medrwn eu cynal; *am hyny yr ydym yn cymeryd ŷd*—yn gorfod ei brynu gan y cyfoethogion am bris rhy uchel, neu ar ammodau rhy orthrymus; ac y mae yn rhaid i ni ymostwng i'r ammodau hyny, neu fod heb fara, ac felly drengu. Ilyn oedd cynffaniad y dosbarth tylotaf.

Adn. 3. *Yr oedd rhai hefyd yn dywedyd*] Sef dosbarth arall, y rhai yr oedd eu sefyllfa yn y byd ychydig yn well. *Ein maesydd, a'n gwinllanoedd, a'n tai, &c.*—yr oeddynt yn gorfod rhoddi y rhai hyn yn meddiant y cyfoethogion am yr amser hwnw, fel gwystl neu sierwydd iddynt ar arian a fenthycent ganddynt i brynu bara iddynt eu hunain a'u teuluoedd.

Adn. 4. *Ac yr oedd ereill yn dywedyd*] Sef y trydydd dosbarth, y rhai yr ymddengys fod ganddynt ddigon o arian i brynu ymborth iddynt eu hunain, ond heb ddim i dalu treth i frenin Persia, fel arwydd o'u darostyngiad iddo ef; ac am hyny yr oeddynt yn gorfod gwystlo eu tiroedd a'u gwinllanoedd fel y lleill.

Adn. 5. *Ac yn awr ein cnawd ni sydd fel cnawd ein brodyr*] Yr ydym ni o'r un natur, cenedl, a chrefydd a hwythau, ac heb un gwahaniaeth rhyngom ond eu bod hwy yn gyfoethog a ninau yn dylawd; ac eto y maent yn ein trin fel pe baem anifeiliaid neu baganiaid, gan anghofio dynoliaeth a chyfraith Dduw, Deut. xv. 7—11. *Ein plant ni fel eu plant hwy*—mor anwyl yn ein golwg ni, ag yw eu plant hwy yn eu golwg hwythau. *Ac wele ni yn darostyng ein meibion a'n merched*—yn gor-

ostwng ein meibion a'n merched yn weision, ac y mae rhai o'n merched ni wedi eu caethiwo, ac heb fod genym i'w rhyddhau; canys gan ereill y mae ein maesydd a'n gwinllanoedd hyn.

6 ¶ Yna y lldiais yn ddirfawr, pan glywais eu gwaedd hwynt, a'r geiriau hyn.

7 Fy nghalon hefyd a feddyliondd ynof, a mi a ddwrdais y pendefigion, a'r swyddogion, ac a ddywedais wrthynt, Yr ydych chiwi yn cymeryd oeraeth bob un gan ei frawd. A gosodais yn eu herbyn hwynt gynulleidfa fawr.

8 Dywedais hefyd wrthynt, Nyni yn ol ein gallu a brynasom ein brodyr yr Iuddewon, y rhai a werthas-

fod eu gwerthu hwy yn gaethion er mwyn cael bara i'n cadw yn fyw. Mewn achosion o fawr galedi yr oedd hyn yn cael ei oddef, Exod. xxi. 7, 2 Bren. iv. 1; ond yr oedd yr Iuddewon hyn yn dra didosturi, y rhai a orfodent eu brodyr i wneyd yr hyn oedd mor groes i natur; ac yn enwedig i werthu eu merched yn gaethforwyrion, y rhai oeddynt yn fwy tyner ac egwan na'u meibion, ac yn fwy darostyngedig i gael eu niweidio. *Ac heb fod genym i'w rhyddhau*—trwy na rydd neb fenthyg arian i ni, a bod ein tiroedd wedi eu gwystlo eisioes i ddywylaw ein gorthrymwyr.

Adn. 6. *Yna y lldiais yn ddirfawr*] Wrth y cyfoethogion ac oeddynt yn gorthrymu y tylodion mor ddirugaredd.

Adn. 7. *Fy nghalon hefyd a feddyliondd ynof*] Ystyrtais yn bwylllog pa beth oedd oraf ei wenthur yn ngwyneb y fath amgylchiad. *A mi a ddwrdais y pendefigion a'r swyddogion*—efe a'u ceryddodd hwy yn llym a ddi-dderbyn-wyneb am orthrymu y tylodion felly. *Yr ydych chiwi yn cymeryd oeraeth bob un gan ei frawd*—yr hyn oedd yn groes i'r gyfraith, Deut. xxiii. 19, 20, yn enwedig mewn amser o ddrygfyd a newyn. *A gosodais yn eu herbyn hwynt gynulleidfa fawr*—(1) Un ai o'r tylodion a orthrymesid ganddynt, i dystiolaethu yn gyhoeddus yn eu herbyn; (2) Neu o'r cyfoethogion nad oeddynt euog, i roi barn yn erbyn y rhai euog, a'u dwyn dan warth cyhoeddus, er rhybydd i bawb ar ol hyn; (3) Neu ynte gall mai y cyngor mawr a feddylir, y rhai oeddynt i chwilio i mewn i'r mater, holi y tystion, a chyhoeddi barn ar y troseddwyr.

Adn. 8. *Nyni yn ol ein gallu a brynasom ein brodyr*] Yr oedd Nehemiah a'i ragflaenoriaid wedi arfered eu boll ddylanwad a'n hawdurdod gyda brenhinoedd Persia i ryddhan neu waredu eu brodyr o gaethiwed, ac wedi llywddo i'w hadfer hwynt i'w rhyddid a'u gwlad: a dichen ddarod iddynt a'u harian brynu rhyddid rhai ag oeddynt yn gaethweision i bersonau neillduol yn mhllith y Babiloniaid, y rhai mis gollyngent hwy heb dalu prid-

id i'r cenhedloedd; ac a ydych chiwithau yn gwerthu eich brodyr? neu a werthir hwynt i ni? Yna y tawsant, ac ni chawsant air i ateb.

9 A mi a ddywedais, Nid da y peth yr ydych chiwi yn ei wneuthur: oni ddylech chiwi rodio mewn ofn ein Duw ni, o achos gwaradwydd y cenhedloedd ein gelynyon?

10 Myfi hefyd, a'm brodyr, a'm llanciau, ydym yn echwyno iddynt arian ac yd: peidiwn, atolwg, a'r oeraeth yma.

11 Rhoddwch, atolwg, iddynt heddyw eu maesydd, eu gwinllanoedd, a'u holewyydd-lanoedd, a'u tai drachefn: a chanfed ran yr arian, a'r yd, y gwin, a'r olew, yr ydych chiwi yn ei fynu ganddynt.

werth drostynt. *Ac a ydych chiwithau yn gwerthu eich brodyr?*—a ydych chiwi yn dysgwyl i ni dalu pris am Iuddewon i Iuddewon, fel y gwnaethom i'r Babiloniaid? *Neu a werthir hwynt i ni*—eilwaith, a ninaw wedi en prynu hwynt o'r blaen? *Yna y tawsant*—ni wnaethant un atebiad, am nas gallent wadu y ffaith na'i chyflawnhau, trwy fod cyfraith bendant Duw yn eu herbyn.

Adn. 9. *Nid da y peth yr ydych chiwi yn ei wneuthur*] Canys er y caech arian, chiwi a dynech euogrwydd arnoch eich hunain, ac a'ch gosodech eich hunain yn agored i anfodlonrwydd Duw. *Oni ddylech chiwi rodio mewn ofn ein Duw ni?*—diamau y dylech; canys yr ydych yn profesu crefydd, a pherthynas ag ef: ac os rhodiwch chiwi yn ei ofn ef, ni fydd i chiwi garu gwobr anghyflawdur, na bod yn greulon tnag at eich brodyr. *O achos gwaradwydd y cenhedloedd*—y rhai a'ch cablant chiwi am y fath ymddygiad, ac a waradwyddant y wir gwyddiad o'ch achos. Fel hyn y mae ymddygiad anghyson rhai profesywyr yn gwneyd llawer o niwed yn eglwys Dduw.

Adn. 10. *Myfi hefyd, a'm brodyr*] Swyddogol, y rhai sydd yn rhwym fel finau yn llywodraethiad y bobl hyn; a'm llanciau—neu ei weision, y rhai a weithredent yn ei enw a than ei awdurdod; *ydym yn echwyno iddynt arian ac yd*—yn rhad, heb godi arnynt oeraeth na llog. Eithr yn ol y Saesonaeg yr ystyr yw, *a allem godi arnynt arian ac yd*—fel yr oedd Nehemiah a'i frodyr yn swyddogion ar yr Iuddewon dan frenin Persia, gallent godi arian yn dal, ac yd yn gynaliaeth, oddiar yr Iuddewon oll, a llawer oddiar y cyfoethogion; a oni nid oeddynt wedi codi dim: gwel ar adn. 15, &c. *Peidiwn, atolwg, a'r oeraeth yma*—rhag i'n gelynyon ein gwaradwyddo, ac i'n Duw ddigio.

Adn. 11. *Rhoddwch, atolwg, iddynt heddyw eu maesydd, &c.*] Y rhai a wystlasi y tylodion iddynt am yd, ac am arian benthyg i brynu yd, ac i dalu treth y brenin, adn. 2—4; *a chanfed ran yr arian, a'r yd, &c.*—canfed

12 Hwytbau a ddywedasant, Ny-
ni a'u rhoddwn drachefn, ac ni
cheisiwn ddim ganddynt; felly y
gwnawn fel yr ydwynt yn llefaru.
Yna y gelwais yr offeiriad, ac a'u
tyngais hwynt a'r wneuthur yn ol y
gair hwn.

13 A mi a ysgydwais odre fy
ngwisg, ac a ddywedais, Felly yr
ysgydwo Duw bob gŵr o'i dŷ, ac o'i
lafur, yr hwn ni chwblhao y gair
hwn, ac felly y byddo efe yn ys-
gydwedig, a yn wag. A'r holl gy-
nulleidfa a ddywedasant, Amen; ac
a foliannasant yr Arglwydd. A'r
bobl a wnaeth yn ol y gair hwn.

14 ¶ Ac o'r dydd y gosodwyd fi
yn dywysog iddynt hwy yn ngwlad

Judah, o'r ugeinfed flwyddyn hyd
y ddenddegfed flwyddyn ar hugain
i Artaxerxes y brenin, sef deuddeg
mlynedd, ni fwytais i na'm brodyr
fara y tywysog.

15 Ond y tywysogion cyntaf, y
rhai a fuasai o'm blaen i, fuasant
drymion ar y bobl, ac a gymerasant
ganddynt fara a gwin, heblaw deu-
gain siel o arian; eu llanciau hefyd
a arglwyddiaethent ar y bobl: ond
ni wnaethym i felly, rhag ofn Duw.

16 Eithr myfi a gyweiriais ran yn
ngwaith y mur hwn, ac ni phrynas-
om un maes: a'm holl weision i a
ymgynnullasant yno at y gwaith.

17 Ac yr oedd ar fy mwrdd i, o
Iuddewon ac o swyddogion, ddeng-

ran yr arian oedd y llog a goent hwy yn fisol
am eu benthyg, yn ol arferiad y gwledydd
hyny yn y cyfanser, yr hyn a ddaeth yn arfer-
iad wedi hyny yn mhllith y Rhufeiniaid. Os
benthycai un gan punt o arian, talai bunt, sef
y 'ganfed ran,' bob mis yn llog, yr hyn oedd
ddeuddeg punt yn y flwyddyn o log ar gan
punt; ac felly hefyd am yr ŷd, y gwin, a'r
olew: ac yr oedd hyn yn fwy creulon ynddynt
yn awr, os oedd yn flwyddyn gollyngdol, fel y
tybia rhai: gwel ar Deut. xv. 2.

Adn. 12. *Hwytbau a ddywedasant*] Ar ol
eu hargyhoeddi o'u bai, ac o uniondeb yr hyn
a geisiai Nehemiah ganddynt. *Nyni a'u
rhoddwn drachefn*—sef y tai a'r tiroedd y rhai
a wystlasant; *ac ni cheisiwn ddim ganddynt*
—fel llog am feathyg yr arian a'r ŷd, &c. *Yna
y gelwais yr offeiriad*—i'w tyngu hwynt yn
ngwydd Duw i gyflawni y cytundeb hwn.

Adn. 13. *A mi a ysgydwais odre fy ngwisg*]
Yr hon oedd yn weithred arwyddocaol lynch
yn mhllith yr Iuddewon a chenheledd ereill:
gwel *Livy*, llyfr xxi. pen. 18. *Felly yr ys-
gydwo Duw bob gŵr o'i dŷ, &c.*—fel hyn ete
a arddanghosai, trwy arwydd allanol, yn ol ar-
feriad mlyneg y profwydi, y modd y byddai
i Dduw ysgywyd a bwrw allan o'u tai a'u tir-
oedd, ac odliwrth ffirwyth eu llafar, bob un a
dorai y llw hwn. *A'r holl cynulleidfa a ddy-
wedasant, Amen*—bydded felly, fel y dywed-
odd Nehemiah; *ac a foliannasant yr Ar-
glwydd*—am beidio eu cospi am eu creulondeb
tuag at eu brodyr tylodion, am roddi iddynt y
fath dywysog cyflawn a thostoriol, ac am du-
ceddu eu calon hwytbau i ymostwng iddo.

Adn. 14. *Deuddeg mlynedd*] Yn ystod pa
rai y bu Nehemiah yn dywysog i'r Iuddewon
yn Jerusalem: gwel ar pen. ii. 6. *Ni fwyte-
ais i na'm brodyr*—sef ei gydswyddogion, neu
y rhaglafiaid dano ef yn amser ei absenoldeb;
fara y tywysog—yr hwy y gallasant yn gyf-
iawn ei wneuthar fel tywysogion dan frenin
Persia. Ni dderbyniai Nehemiah y gynaliaeth
hono, am y gwelai y byddai yn faich ar ei gyd-
wladwyr; ond bu byw ar y cyfoeth a ennillasai
efe yn Babilon fel trulliad y brenin, pen. i. 11.

Adn. 15. *Ond y tywysogion cyntaf*] Y rhai
a ddaethent i mewn ar ol Zorobabel, ac o fhaen
Nehemiah, ac a oeddynt ond odid yn Iuddew-
on. Nid oedd Ezra yn mhllith y rhai hyn, am
mai offeiriad oedd ef, yn lytrach na thywysog.
Fuasant drymion ar y bobl—trwy godi oddi-
armynt nid yn unig gynaliaeth fras, ond cyf-
logau hefyd: gwel ar adn. 18. *Deugain siel
o arian*—yn debygol bob dydd; yr llyn, yn ol
2s. Ge. y siel, a gyflaeddai i £5 y dydd o'n
harian ni. *Eu llanciau hefyd a arglwyddi-
aethent ar y bobl*—trwy ofyn anrhegion
ganddynt, os nid cyflogau, ac ymddwyn mewn
llawor ffordd yn drahaus a gormesol. *Ond ni
wnaethym i felly*—ni chymerodd Nehemiah
ei hun ddim gan y bobl, ac ni oddefodd i'w
weision chwaeth gymeryd dim ganddynt, nac
arglwyddiaethu arnynt; *rhag ofn Duw*—rhag
ofn ei anfoddloni ef, a thynu i lawr ei soriant.

Adn. 16. *Eithr myfi a gyweiriais ran yn
ngwaith y mur hwn*] Trwy ei weision, pen.
iv. 16. Fel pe dywedasai, Nid yn unig llyw-
odraethais y bobl ar fy nhrall fy hun, ond cy-
weiriais fy rhan o'r mur felly hefyd. *Ac ni
phrynasom un maes*—myni na'm cydswydd-
wyr gan ein brodyr tylodion, y rhai yr oedd
eu hanghenion mawrion yn rhoddi i ni gyf-
leusdra digonol i ymglyfoethogi trwy bryniad-
au rhad.

Adn. 17. *Ac yr oedd ar fy mwrdd i*] Yn
cael eu cynal ar fy nhrall i yn hollol, er nad
oeddwn i yn cael dim at y draul hono oddiwrth
y bobl; *ddengwr a saith ugain*—a thrwy fod
llawer o'r rhai hyny yn swyddogion o radd
nchel, yr oedd yn gostus iawn iddo eu cynal, a
chynal nifer mawr o wasanaethyddion i arlwy-
o iddynt; *heblaw y rhai oedl yn dyfod atom
ni o'r cenhedloedd*—yn achlysurol, naill ai i
addoli fel proselytiaid o radd nchel, neu i ym-
gynghori â Nehemiah fel tywysog doeth, neu
ynte i roddi rlyw hysbysuwydd iddo am sym-
udiadan a bwriadu eu gelynicu o'ddiann-
gylch.

Adn. 18. *A'r hyn a arlwyid beunydd*] Bob
dydd, neu yn ddyddiol; *oedd un ŷch, chwech
o ddefaid dewisol, ac adar*—yr hyn oedd yn

wr a saith ugain, heblaw y rhai oedd yn dyfod atom ni o'r cenhedk-oedd y rhai oedd o'n hamgyleh.

18 A'r hyn a arlwyid beunydd oedd un ŷeh, chwecch o ddefaid dewisol, ac adar wedi eu paratoi i mi; a phob deng niwrnod y rhoddid gwin o bob math, yn ddiandlawd: ac er hyn ni cheisiais fara y tywysog; canys, trwm oedd y caethived ar y bobl yma.

19 Cofia fi, O fy Nuw, er lles i mi, yr ol yr hyn oll a wnaethym i'r bobl hyn.

PENNOD VI.

A PHAN glybu Sanbalat a Thobiah, a Gesem yr Arabiad, a'r rhan arall o'n gelynyon, adeiladu o honof fi y mur, ac nad oedd adwy

ddigon o gigfwyd i fwy na 400 o ddyinion am ddiwrnod. *A phob deng niwrnod y rhoddid gwin o bob math yn ddiandlawd*—neu helaeth. Arwydda hyn mai unwaith bob deg niwrnod yn unig yr yfent win, a dwf neu laeth ar y dyddiau ereill; nen ynte fod ei weision ef yn dwyn ystôr newydd o win i'w seleri ef bob deng niwrnod, at wasanaeth pob diwrnod. *Ac er hyn ni cheisiais fara y tywysog*—er fod ei gost ef yn fawr iawn bob dydd i ddarpar yr holl arlwy uchod, eto ni cheisiodd efe ddim o'r gynaliaeth oedd ddyledus iddo fel tywysog, ac a fynodd y tywysogion a fuasant o'i faen ef; am ei bod yn drwm ar y bobl eisioes gan dreth y brenin, cost adeiladu y mur, a'r prinder oedd ar y wlad y dyddiau hyn.

Adn. 19. *Cofia fi, O fy Nuw, er lles i mi*] Nid oedd ef yn dysgwyl unrhyw dâl oddiwrth y bobl, eithr oddiwrth ei Dduw; a hynny mewn ifordd nid o haeddiant, ond o cwyllys da; 'canys nid yw Daw yn anngyfiawn, fel yr anghofio ein gwaith, a'r llefurus gariad, yr hwn a ddangosasant tuag at ei enw ef.' Heb. vi. 10. *Yn ol yr hyn oll a wnaethym i'r bobl hyn*—with adeiladu mur eu dinas, symud ymaith adfyd a gorthrynder eu tylodion, a llawer o ddiwygiadau ereill yn eu plith.

PEN. VI. Adn. 1. *A phan glybu Sanbalat, &c.*] Am y rhai hyn gwel ar pen. ii. 10, 19, a iv. 7; *adeiladu o honof fi y mur*—ei fod wedi ei orphen yn gwbl oll, fel nad oedd un adwy ynddo, ond fod rhai o'r dorau yn unig heb eu gosod i fyny.

Adn. 2. *Yna yr anfonodd Sanbalat a Gesem ataf*] Trwy ryw genadau pwrpasol; *Tyred, ac ymgyffurfyddwn yn nghyd*—dan rith o gyfeillgarwch, fel cyd-dwyysogion dan frenin Persia; *yn un o'r pentrefi yn ngwastadedd Ono*—lle yn llwyth Benjamin, yn agos i'r Iorddonen. Yr oeddynt am ei gael ef allan o Jerusalem o blith ei gyfeillion, fel y gallent ei

wedi ei gadael ynddo; (er na osod-aswn i y pryd hwnw y dorau ar y pyrth);

2 Yna yr anfonodd Sanbalat a Gesem ataf, gan ddywedyd, Tyred, ac ymgyffurfyddwn yn nghyd yn un o'r pentrefi yn ngwastadedd Ono. Ac yr oeddynt hwy yn bwriadu gwneuthur niwed i mi.

3 Minau a anfonais genadau atynt hwy, gan ddywedyd, Gwaith mawr yr ydwyff fi yn ei wneuthur; o herwydd hynny ni allaf ddyfod i waered: paham y safai y gwaith, pan ymadawn âg ef, a dyfod i waered atoch chwi?

4 Eto hwy a anfonasant ataf fi yn y wedd hon bedair gwaith; ac yn y modd hwnw yr atebais hwynt.

5 Yna Sanbalat a anfonodd ei was ataf fi y bummed waith yr un

gaethgludo neu ei ladd, a thrwy hynny attal y gwaith a chymeryd y ddinas.

Adn. 3. *Minau a anfonais genadau atynt hwy*] Ni ddanghosodd efe ddim dirmyg ar eu cenadau hwy, ac ni ddanfonodd ei atebiad gyda hwy; ond anfonodd ei genadau ei hun, yr hyn oedd yn fwy anrhydeddus. *Gwaith mawr yr ydwyff fi yn ei wneuthur*—mwy ei bwys ond odid na dim a allai fod genych chwi mewn llaw, ac y mae brys mawr am ei orphen hefyd; *o herwydd hynny ni allaf ddyfod*—fel hyn efe a grybwylla un achos o'i ommeddiad, er mai y prif achos oedd ei wybodaeth o'u bwriad i'w niweidio ef, yr hyn ni farnai yn ddoeth ei grybwyll iddynt. *Paham y safai y gwaith?*—yr hyn o angenheidrwydd a gymerai le os âi efe atynt, trwy fod gorchywyliaeth y cwbl dan ei ofal ef.

Adn. 4. *Eto hwy a anfonasant ataf fi yn y wedd hon bedair gwaith*] Gan gymaint oedd eu hawydd am ei gael i'w dwylaw, fel yr attelid y gwaith cyn gosod y dorau ar y pyrth, adn. 1; *ac yn y modd hwnw yr atebais hwynt*—bob tro, trwy fy mod i gymaint am orphen y gwaith, ag yr oeddynt hwythian am ei attal; ac am fy uiogelu fy hun, ag yr oeddynt hwythau am fy niweidio.

Adn. 5. *Yna Sanbalat a anfonodd ei was ataf fi y bummed waith*] Yn ei enw ei hun ond odid yn awr, heb fod mewn cysylltiad â'r lleill, adn. 1. 2; gan feddwl y byddai yn hawddach gan Nehemiah ddyfod i gyfarfod âg un o bonynt, na dyfod i'w cyfarfod hwy oll; *a llythyr agored yn ei law*—o'r blaen yr oedd y genadwyr yn cael ei chario mewn geiriau, ond yn awr mewn llythyr, am fod mwy o honi; ac yr oedd y llythyr hwnw yn agored, gan ei fod yn cynwys pethau a dybid yn hysbys i bawb, neu fel y gallai pawb weled yr hyn y cyhuddid Nehemiah o'i blegid. Ond tybia rhai fod y llythyr agored yn cael ei anfon mewn ffordd o sarhad ac Nehemiah; canys y

ffunud, â llythyr agored yn ei law :

6 Ynddo yr oedd yn ysgrifenedig, Yn mysg y cenhedloedd y mae y gair, a Gasmu sydd yn dywedyd, dy fod di a'r Iuddewon yn ancanu gwrthryfela: o herwydd hyny dy fod di yn adeiladu y mur, fel y byddit frenin arnynt, yn ol y geiriau hyn.

7 A'th fod dithau hefyd wedi gosod proffwydi i bregethu am danat yn Jerusalem, gan ddywedyd, *Y mae brenin yn Judah.* Ac yn awr y fath ymadroddion a hyn a glyw y brenin: gan hyny tyred yn awr, ac ymgyng-horwn yn nghyd.

8 Yna yr anfonais ato, gan ddywedyd, Ni ddarfau yn ol yr ymadroddion hyn yr ydwyt ti yn eu dy-

wedyd; ond o'th galon dy hun yr ydwyt yn eu dychymyge hwynt.

9 Oblegid hwynt-hwy oll oedd yn ceisio ein hofni ni, gan ddywedyd, Eu dwylaw hwy a laesant oddiwrth y gwaith, fel nas gwneir ef. Gan hyny cryfha yu awr, O Dduw, fy nwyllaw i.

10 A mi a ddaethym i dŷ Semaiah mab Delaiah, mab Mehetabeel, yr hwn oedd wedi cau arno; ac efe a ddywedodd, Cyfarfyddwn yu nhŷ Dduw, a chauwn ddrysau y deml: canys y maent yn dyfod i'th ladd di; a lliw nos y deuant i'th ladd di.

11 Yna y dywedais, A fy gw'r o'm bath i? neu pwy sydd fel myfi yr hwn a elai i'r deml, fel y byddai byw? Nid âf i mewn.

mae llythyrau a anfonir at benaethiaid a thywysogion yn y dwyrain yn cael eu plygu yn ofalus bob amser, a'u rhoddi mewn còd werthfawr o sidan, wedi ei selio i fyny yn ofalus.

Adn. 6. *Ynddo yr oedd yn ysgrifenedig*] Y geiriau a gawn yn adn. 6, 7. *Yn mysg y cenhedloedd y mae y gair*—trwy holl daleithiau amberodraeth Persia; a *Gasmu sydd yn dywedyd*—efe yw dy gyhuddwr, sef yr un a *Gesem* yr Arabiah, adn. 1; *dy fod di a'r Iuddewon yn ancanu gwrthryfela*—yn erbyn brenin Persia ar ol gorphen y mur hwn; *fel y byddit frenin*—ar yr Iuddewon dy hunan, ar ol adeiladu y mur a chadarnhau y ddinas; *yn ol y geiriau hyn*—fel y mae yr adroddiad yn mynegu, yr hwn y cadarnha Gasmu ei fod yn wir.

Adn. 7. *A'th fod dithau hefyd wedi gosod proffwydi i bregethu am danat*] Neu i gyhoeddi yn mhlith trigolion Jerusalem, *Y mae brenin yn Judah*—y mae genym yn awr frenin arnom, o'n cenedl ein hunain, ac nid oes achos i ni ymostwng mwyach i iau brenin Persia. *Ac yn awr y fath ymadroddion a hyn a glyw y brenin*—gan fod y gair yn ngenau pawb: ond anwired Sanbalat oedd y cyfan, trwy nad oedd neb wedi dywedyd na meddwl y fath Beth. *Gan hyny tyred yn awr*—i'r lle a enwyd yn adn. 2; ac *ymgyngorhwr yn nghyd*—fel y gallom ddyteisio rhyw drefn i roddi atalfu ar y chwedl hon cyn i'r brenin ei chlywed.

Adn. 8. *Yna yr anfonais ato*] Sef at Sanbalat, a hyny mewn llythyr, neu trwy enau cenadwr; *Ni ddarfau yn ol yr ymadroddion hyn*—ni bu dim o'r fath Beth ag amcan i wrthryfela o'n tu ni, ac ni chlywaist tithan y fath bethau gan neb; *ond o'th galon dy hun yr ydwyt yn eu dychymyge hwynt*—i edrych a elli fy nghael i allan i'm niweidio.

Adn. 9. *Oblegid hwynt-hwy oll oedd yn ceisio ein hofni*] Neu ein dychrynu ni, fel y byddai i'r gwaith gael ei adael heb ei orphen. *Gan hyny cryfha yu awr, O Dduw, fy nwyllaw i*—ceisiai y gelynyon wanhau ei ddwyllaw

ef, ond ceisiai yntau gan Dduw eu cryfha hwynt. Ac yr oedd yn esmwythder mawr i'w feddwl ei fod yn gallu nesau at ei Dduw mewn ffydd a gweddi dan bob angylchiad, ac yn enwedig wrth deimlo fod Duw yn gwrandan arno.

Adn. 10. *A mi a ddaethym i dŷ Semaiah*] Yr hwn yr ymddengys oddiwrth adn. 12 ei fod yn broffwyd hōnedig, ac a ystyrir gan Nehemiah hyd yn hyn fel ei gyfaill; *yr hwn oedd wedi cau arno*—yn ei ystafell, dan rith o ymroddi i fyfyrdod a gweddi, neu dan yr esgus o ofni y gelynyon, gan fluant ei fod wedi cael hysbysrwydd o'i berygl gan Ysbryd Duw. *Cyfarfyddwn yu nhŷ Dduw, a chauwn ddrysau y deml*—i ymmoddi yno, fel yr unig le diogel rhag ymosodiad y gelynyon; *canys y maent yn dyfod i'th ladd di*—y noson hōno, ac felly nid oedd dim amser i'w gollu. Fel hyn efe a geisiai ddychrynu Nehemiah, a thurwy hyny ddychrynu yr holl bobl, ac attal y gwaith; canys pe gwrandawsai Nehemiah arno ef, buasai y bobl heb flaenr, ac felly gadawsent y gwaith, daethai Sanbalat i'r ddinas, a ffoisai pob un am ei einioes. Efe a oethbiai hefyd trwy hyn osod Nehemiah yn ddirmygus yn ngolwg y bobl, trwy anlygu y fath annewrder fel ag i adael ei waith, ac ymmoddi yn y deml mewn awr o berygl; a buasai hyny yn dycethrio y bobl oddiwrtho, ac yn parotoi y fiordd i'r gelynyon gymeryd y ddinas.

Adn. 11. *A ffy gw'r o'm bath i?*] Myfi, yr hwn wyf yn dywysog y bobl, ac wedi fy mhenodi i'r swydd gan Dduw a'r brenin, a fydd i mi fradychu fy ymddriediad, a gadael fy mhraidd heb fugal arnynt? Myfi, yr hwn y mae bywyd a llwyddiant yr holl ddinas a'r genedl yn ymddibynu i fesur helaeth ar fy mhresenoldeb, fy nghyngor, a'm siampl? Myfi, yr hwn a broffesais y fath hyder yn Nuw, ac a gefais brawf mor hynod o'i gymborth grasol a nerthol ef, trwy iddo fy nghynnal yn y gwaith hwn pan yr oedd ein perygl yn fwy nag y mae yn awr? A fydd i mi yn awr ddianrhydeddu Duw, a bradychu y bobl a'r ddinas saptaidd trwy fy llwffala? Na ato Dew!

12 Ac wele, gwybŷm nad Duw a'i hanfonasai ef; ond llefaru o hono ef y broffwydoliaeth hon yn fy erbyn i: canys Tobiah a Sanbalat a'i cyflogasant ef.

13 O herwydd hyn y cyflogesid ef, fel y'm hofnid i, ac y gwnawn felly, ac y pechwn; ac y byddai hynny ganddynt yn enllib i'm herbyn, fel y'm gwaradwyddent.

14 O fy Nuw, cofia Tobiah a Sanbalat, yn ol eu gweithredoedd hyny; a Noadiah y broffwydes hefyd, a'r

rhan arall o'r proffwydi y rhai oedd yn fy nychrynu i.

15 ¶ A'r mur a orphenwyd ar y pummed dydd ar hugain o Elul, mewn deuddeug niwrnod a deugain.

16 A phan glybu ein holl elynion ni hynny, a gweled o'r holl genhedloedd y rhai oedd o'n hamgylch, hwy a ofnasant, ac a lwfrasant yn ddirfawr ynddynt eu hun: canys gwybuant mai trwy ein Duw ni y gwnelsid y gwaith hwn.

17 ¶ Ac yn y dyddiau hyn pen-

Neu pwy sydd fel mysfi yr hwn a elai i'r deml—hyd yn nod eri gadwraeth ei fywyd fod yn ymddibynu ar hynny? A fydd i mi fyned i'r deml, fel pe byddai genyf achos drwg, neu gydwybod ddrwg? fel pe byddwn droseddwr, ac yn ffoi yno am noddfa? neu fel pe na feiddiwn ymddiied fy mywyd i Ddaw, oddieithr fy mod yn y deml, lle nad yw gyfreithlon i neb fyned ond yr offeiriad yn unig? Nid af i mewn—canys pe bae yn gyfreithlon ac yn anrlydeddus i mi fyned i mewn, nid hir y byddai y gelyniion heb dori i mewn i'r ddinas, ac wedi hynny i'r deml, a'm lladd i.

Adu. 12. *Ac wele, gwybŷm nad Duw a'i hanfonasai ef!* Mewn rhan wrth ystyried fod ei gynghor ef yn erbyn achos Duw a gwir greffydd, ac yn anghyfreithlon i'w gyflawni ganddo ef yr hwn nid oedd yn offeiriad, ac yn ddianrhydedd iddo fel tywysog yn Israel; ac mewn rhan trwy awgrymiad Ysbyrd Duw, yr hwn y ceisiasai efe ei gyfarwyddyd yn yr achos. *Ond llefaru o hono ef y broffwydoliaeth hon—*yr hon y cymerai efe arno ei bod yn geauddwr iddo oddiwrth yr Arglwydd; *yn fy erbyn i—*gyda bwriad i'm dyfetha i a'r ddinas: *canys Tobiah a Sanbalat a'i cyflogasant ef—*fel y gwnaed a Baltham gan Balac, i geisio rhywdo Nehemiah, a dwyn atiwydd arno ef, ac ar holl waith y mur.

Adu. 13. *O herwydd hyn y cyflogesid ef!* I'r dyben yma; *fel y'm hofnid—*neu y dychrynid fi; *ac y gwnawn felly—*yr awn i'r deml i ymddiogelu; *ac y pechwn—*nid yn unig trwy anymddriedd yn agallu a rhaglun-iaeth Duw i'm cadw, ond trwy fyned i ran o'r deml nad oedd gyfreithlon i neb ond yr offeiriad iddychyd; *ac y byddai hynny ganddynt yn enllib i'm herbyn—*fel dyn llwfr, pechadurus, ac ymwybodol o'm heugrwydd fy hun; yr hyn a'm gwnai yn ddiogus yn ngolwg fy mhobl fy hun, ac fel bradur yn ngolwg beain Persia.

Adu. 14. *O fy Nuw, cofia Tobiah a Sanbalat!* Ti a adwaenost eu calonau, ac yr ydwynt yn ddairlydd llid ar holl elynion dy bobl: cymer sylw o'n hysterywiau, a sioma a dyrysa hwy yn eu holl amcanion pechadurus, a thai iddynt yn ol haeddiant eu gweithredoedd: gwel ar pen. iv. 4, 5. *A Noadiah y broffwydes hefyd—*sef rhyw an-broffwydes ddyrgionus, yr hon a gydwethredai a Samuiah i geisio maglu Nehemiah. Ond y mae llawer o'r hen gyfreith-

adian yn darllen 'Noadiah y proffwyd,' yn y rhyw wrywaidd. *A'r rhan arall o'r proffwydi—*y rhai a gymerasant arnynt fod yn broffwydi, ac a gyflogesid gan Tobiah a Sanbalat i geisio dychrynu Nehemiah, a pheri iddo ffoi, a gadael y mur heb ei orphen.

Adu. 15. *A'r mur a orphenwyd ar y pummed dydd ar hugain o Elul!* Yn cyfateb i ran o'n Hawst a'n Medi ni; *mewn deuddeg niwrnod a deugain—*i'w cyfrif naill ai o'r amser ag yr anfonodd Sanbalat y llythyr ato ef; neu ynte, fel y mae yn debycach, o'r amser ag y dechreuwyd y gwaith; trwy fod miloedd o wŷr yn gweithio wrtho, a phob un yn gweithio megys dros Ddaw. Diauanu fod amrai ranau o'r hen fur yn aros fyth yn gyfan, a rhanau ereill lawer yn uwch na'r sylfaen; hefyd yr oedd defnyddiau yr hen fur ganddynt wrth law: ac er fod ganddynt lawer o ysbwriaid i'w gludo ymaith, eto nid ymddengys eu bod yn gorfod myned i'r gloddfa am gerig newyddion; ac nid oeddynt yn odrychl gymaint am addurn-waith ag a wnaent am gadernid a diogelwch. I'r y bernir fod y gwaith a grybwyllir yma dros bedair milldir o hyd, eto nid oedd efe ond bychan o'i gydmaru â'r hwn a wnaeth Cesar yn Gaul a manau ereill; ac â'r hyn a wnaeth Titus yn Jerusalem, yr hwn a adeiladodd fur yno o bum mil o gamrau mewn tri diwrnod, heblaw triarddeg o dyran o faint-ioli dirfawr. A dywedir i Alexander Ewro adeiladu muriau Alexandria newydd, y rhai oeddynt agos i wyth milldir o amgylchedd, mewn llai na mis.

Adu. 16. *A phan glybu ein holl elynion ni hynny!* Fod yr holl fur wedi ei orphen mewn cyn lleied o amser; *hwy a ofnasant ac a lwfrasant yn ddirfawr—*wrth ystyried fod eu holl ysterywiau hwy wedi eu sionni, a rhag y talai yr Iuddewon y pwyth iddynt hwythau bellach, ar ol cadarnhau eu dinas fel hyn: *canys gwybuant mai trwy ein Duw ni y gwnelsid y gwaith hwn—*mewn cyn lleied o amser, ac yn ngwyneb y fath yngais i'w rwystro; ac ofnant y byddai i'r Duw hwnw gynorthwyo ei bobl yn eu herbyn hwy o hyny allan.

Adu. 17. *Ac yn y dyddiau hyn!* Tra yr oedd y mur yn cael ei adeiladu; *pendefigion Juda oedd yn mynych idanfon eu llythyrâu at Tobiah—*i hysbysu iddo ef pa fodd yr oedd y gwaith yn myned yn mlacen yn Jerusalem;

defigion Judah oedd yn mynych ddanfon eu llythyrâu at Tobiah; a'r eiddo Tobiah oedd yn dyfod atynt hwythau.

18 Canys yr oedd llawer yn Judah mewn cynghrair ág ef; o herwydd daw oedd efe i Sechaniah mab Arah; a Johanan ei fab ef a gymerasai ferch Mesulam mab Berechiah yn wraig iddo.

19 A'i gymwynasau ef y byddent hwy yn eu mynegu ger fy mron i; fy ngeiriau inau hofyd y byddent yn eu hadrodd iddo yntau. A Thobiah a anfonodd llythyrâu i'm dychrynu i.

PENNOD VII.

AC wedi adeiladu y mur, a chyfodi o honof y dorau, a gosod y

a'r eiddo Tobiah oedd yn dyfod atynt hwythau—i'w dysgu pa fodd y gallent oraf dalu rhwystrau ar ffordd y gwaith; ac y mae yn debyg mai mewn canlyniad i'r llythyrâu hyn y defnyddiwyd y gau-broffwydi a grybwyllir adn. 14. Fel hyn yr oedd gan Nehemiah elnyon oddiallan, a gau-gyfeillion oddifewn. Gallwn feddwl mai gwaith Nehemiah yn dwrddio y pendefigion am orthrymu eu brodyr tylodion, oedd un achos iddynt hwy droi fel hyn yn elnyon iddo ef: gwel ar pen. v. 7.

Adn. 18. *Canys yr oedd llawer yn Judah mewn cynghrair ág ef*] Saes., 'wedi tyngu iddo ef;' y byddent yn bleidwyr iddo yn erbyn Nehemiah. *O herwydd daw oedd efe*—neu fab-yn-nghyfraith i Sechaniah mab Arah, tēlu yr hwn a ddaethai o Babilon gyda Zorobabel. Ezra ii. 5; a *Johanan ei fab ef a gymerasai ferch Mesulam*—yr hwn oedd yn ŵr mawr yn Israel, trwy iddo adeiladu dwy ran o'r mur, pen. iii. 4, 30. Felly ni a welwn achos arall o'r gyfeillach ag oedd rhwng pendefigion Juda a'r gŵr hwn, sef fod Tobiah a'i fab wedi cael gwragedd o'u plith hwynt.

Adn. 19. *A'i gymwynasau ef y byddent hwy yn eu mynegu ger fy mron i*] Gan gamol ei rinweddau, ac felly gyfiawnhau eu cyfeillach ág ef; *fy ngeiriau inau hofyd y byddent yn eu hadrodd iddo yntau*—yn enwedig pob gair a ddywedai Nehemiah yn erbyn Tobiah, ac yn erbyn i bobl yr Arglwydd yn gyfeillaachu â'r fath ddyu. *A Thobiah a anfonodd llythyrâu i'm dychrynu i*—am ddywedyd o honof y fath eiriau am dano ef, y rhai yn ddiamau a fwyheid yn fawr gan y pendefigion hyn.

PEN. VII. Adn. I. *Ac wedi adeiladu y mur*] Gwel ar pen. vi. 15; *a chyfodi o honof y dorau*—sef eu gosod yn eu lle ar y pyrth; *a gosod y porthorion, a'r cantorion, a'r Lefiaid*—yn eu gwahanol leodd i'w swyddau yn

porthorion, a'r cantorion, a'r Lefiaid;

2 Yna mi a orchymyais i Hanani fy mrawd, ac i Hananiah tywysog y palas yn Jerusalem; (canys efe oedd ŵr ffyddlon, ac yn ofui Duw yn fwy na llawer;)

3 A mi a ddywodais wrthyut. Nac agorer pyrth Jerusalem nes gwresogi yr haul; a thra fyddont hwy yn sefyll yno, cauant y drysau, a phreniant: a mi a osodais wylwyr o drigionion Jerusalem, pob un yn'ei wyliadwriaeth, a phob un ar gyfer ei dŷ.

4 A'r ddinas oedd eang a mawr; ac ychydig bobl ynddi: a'r tai nid oeddynt wedi eu hadeiliadu.

5 ¶ A'm Duw a roddodd yn fy nghalon gynull y pendefigion, y tywysogion hofyd, a'r bobl, i'w cyf-

y deml, fel y byddent yn barod at gysegriad y mur, pen. xii. 27.

Adn. 2. *Yna mi a orchymyais i Hanani fy mrawd*] Yr hwn a ddyngasai yr hanes iddo ef i Susan am agwedd adfyddu Jerusalem a'i thrigionion, pen. i. 2, 3; *ac i Hananiah tywysog y palas*—sef palas Nehemiah, lle yr oedd ef yn byw mewn rhwysg mawr fel rhaglaw dan frenin Persia, er yn hollol ar ei draul ei hun, pen. v. 14, &c.; *yn Jerusalem*—Saes., 'ofal Jerusalem.' Ymddengys fod Nehemiah yn awr ar fedr dychwelyd i frenhinllys Persia, a gadael gofal y ddinas i'r ddau ŵr ffyddlon a chynhwys hyn: gwel ar pen. ii. 6. *Canys efe oedd ŵr ffyddlon*—cywir a gonest, ac am hynny dewiswyd ef i ofalu am Jerusalem gyda Hanani, yr hwn hofyd a roddasai brawf o'i ffyddlondeb a'i sel yn ei daith ddiweddar o Jerusalem i Susan. *Ac yr ofui Duw yn fwy na llawer*—yn fwy na'r rhan fwyaf o gynull-eidfa Israel. Byddai i ddynion fel hyn lywodraethu yn ol y gyfraith, a gofalu am anrhydedd gwir grefydd: ni orthryment, ni chymerent wob, ac ni chamddefnyddient eu hawdrddod; eithr ymddygent yn mhob peth fel rhai ág ofn Duw yn wastadol gerbron eu llygaid. Y mae y pethau hyn yn gynhwysderau pioidol i bob llywodraethwr eto.

Adn. 3. *Nac agorer pyrth Jerusalem nes gwresogi yr haul*] Nes y byddai yn llawer o'r dydd, fel, os byddai gelynyon yn llechu oddi-angyleh iddi, y byddai digon o ddynion ar hyd y maesydd erbyn hynny i'w canfod hwy, a phawb wedi codi o'n gwelyau yn barod i'w gwrthsefyll hwy, ac amddiffyn y ddinas; *a thra fyddont hwy yn sefyll yno*—sef gwylwyr y pyrth, neu y bobl ar hyd y maesydd; *cauant y pyrth, a phreniant*—hynny yw, boed iddynt fario neu foltio y pyrth erbyn machlud haul. *A mi a osodais wylwyr o drigionion Jerusalem*—dan Hanani a Hananiah; *pob un yn ei wyliadwriaeth*—pob un yn ei dro yn

rif wrth eu hachau. A mi a gefais lyfr achau y rhai a ddaethai i fyny yn gyntaf, a chefais yn ysgrifenedig yuddo ;

6 Dyma feibion y dalaeth, y rhai a ddaeth i fyny o gaethiwed y gaethglud a gaethgludasai Nebuchodonosor brenin Babilon, ac a ddychwelasant i Jerusalem, ac i Judah, pob un i'w ddinas ei hun ;

7 Y rhai a ddaethant gyda Zorobabel : Jesua, Nehemiah, Azariah, Raamiah, Nahamani, Mordecai, Bilshan, Mispereth, Bigfai, Nehum, Baanah. *Dyma* rifedi dynion pobl Israel ;

8 Meibion Paros, dwy fil cant a deuddeg a thriugain.

9 Meibion Sephatiah, tri chant a deuddeg a thriugain.

10 Meibion Arab, chwe chant a deuddeg a deugain.

11 Meibion Pabath-Moab, o feibion Jesua a Joab, dwy fil ac wyth cant a thri ar bymtheg.

12 Meibion Elam, mil dau cant a phedwar ar ddeg a deugain.

13 Meibion Zattu, wyth cant a phump a deugain.

14 Meibion Zaccai, saith cant a thriugain.

15 Meibion Binnui, chwe chant ac wyth a deugain.

16 Meibion Bebai, chwe chant ac wyth ar hugain.

17 Meibion Azgad, dwy fil tri chant a dau ar hugain.

18 Meibion Adoniam, chwe chant a saith a thriugain.

19 Meibion Bigfai, dwy fil a saith a thriugain.

20 Meibion Adin, chwe chant a phymtheg a deugain.

21 Meibion Ater o Hezeciah, tri ar bymtheg a phedwar ugain.

22 Meibion Hasum, tri chant ac wyth ar hugain.

23 Meibion Besai, tri chant a phedwar ar hugain.

24 Meibion Hariph, cant a deuddeg.

25 Meibion Gibeon, pymtheg a phedwar ugain.

26 Gwŷr Bethlehem a Netophah, cant ac wyth a phedwar ugain.

27 Gwŷr Anathoth, cant ac wyth ar hugain.

28 Gwŷr Beth-asmafeth, dau a deugain.

29 Gwŷr Ciriath-jearim, Cephirah, a Beeroth, saith cant a thri a deugain.

30 Gwŷr Ramah a Gaba, chwo chant ac un ar hugain.

31 Gwŷr Michmas, cant a dau ar hugain.

32 Gwŷr Bethel ac Ai, cant a thri ar hugain.

33 Gwŷr Nebo arall, deuddeg a deugain.

ystod oriau y tywyllwch ; *a phob un ar gyfer ei dj*—fel, wrth i bawb wyllo ei feddiannau ei hun, y gwylid ac y diogelid yr holl ddinas.

Adn. 4. *A'r ddinas oedd eang a mawr*] Dros bedair milldir o amgylchedd, yn ol JOS. EPHUS ; a thros chwe milldir, yn ol HECATEUS ; ac *ychydig bobl ynddi*—canys yr oedd llawer o'r 42,360 a ddaethent gyda Zorobabel, a'r rhai a ddaethent gydag Ezra, wedi ymsefydlu mewn pentrefi o amgylch y wlad ; *a'r tai nid oeddynt wedi eu hadeiladu*—nid oeddynt wedi eu hadeiladu oll ; ac nid oedd y rhai a adeiladwyd, wedi eu cwbl orphen. Tybia Clarke nad oedd dim ond un res o dai wedi eu gorphen, a hyny tufewn i'r mur oddiamgylch.

Adn. 5. *A'm Duw a roddodd yn fy nghalon gynnwll y pendefigion, &c.*] Yr oedd pob peth a feddyliai Nehemiah er lles a daioni Jerusalem, yn cael ei dadogi ganddo i Dduw, yr hwn a'i rhoddodd yn ei galon ef ; *i'w cyfrif wrth eu hachau*—fel y gwybyddid eu nifer, o ba deuluoedd yr oeddynt, ac yn mha ddinasoedd y preswyliai y teuluoedd hyny cyn eu symud i Babilon. Y dyben presenol o wneyd y cyfrif hwn oedd, fel y caid y ddegfed ran o'r bobl

i breswyllo yn Jerusalem, pen. xi. 1, 2 ; a byddai yn fuddiol ar ol hyn, i sicrhau achau y MESSIA dysgwylhedig. *A mi a gefais lyfr achau y rhai a ddaethai i fyny yn gyntaf*—o Babilon i Jerusalem gyda Zorobabel, adn. 7. Ond y mae y gofrestr hon yn gwahaniaethu mewn rhai pethau oddiwrth yr un yn Ezra, pen. ii : gwel y sylwadan yno. Er i'r achau gael eu gwneyd i fyny yn fuan ar ol y dychweliad gyda Zorobabel, eto yr oedd y pryd hyny llawer o deuluoedd o offeriaid, Lefiaid, a phobl, y rhai nas gallent brofi eu teuluoedd a'u llwythau. Ond y mae yn debyg i rai o honnynt wedi hyny allu gwneuthur hyny, ac iddynt gael eu gosod yn y gofrestr newydd a diwygiedig hon, gyda'r rhai a ddaethant i fyny yn awr gyda Nehemiah. Hefyd, dichon fod amrai o'r hen deuluoedd a ddaethent i fyny y tro cyntaf wedi diffodd erbyn hyn ; a gallai pethau fel hyn fod yn achos o'r gwahaniaeth a geir yn yr achau, fel y maent ar la wr yn llyfrau Ezra a Nehemiah.

Adn. 6—66. *Dyma feibion y dalaeth, &c.*] Gwel ar Ezra ii. 1—64 ; hyny yw, 'dyma yr hen gofrestr a wnaed gan Zorobabel, gyda

34 Meibion Elam arall, mil dau cant a phedwar ar ddeg a deugain.

35 Meibion Harim, tri chant ac ugain.

36 Meibion Jericho, tri chant a phump a deugain.

37 Meibion Lod, Hadid, ac Ono, saith cant ac un ar hugain.

38 Meibion Senaah, tair mil naw cant a deg ar hugain.

39 ¶ Yr offeiraid: meibion Jedaiah, o dŷ Jesua, naw cant a thri ar ddeg a thriugain.

40 Meibion Immer, mil a deuddeg a deugain.

41 Meibion Pasur, mil dau cant a saith a deugain.

42 Meibion Harim, mil a dau ar bymtheg.

43 ¶ Y Lefiaid: meibion Jesua, o Cadmiel, ac o feibion Hodefah, pedwar ar ddeg a thringain.

44 ¶ Y cantorion: meibion Asaph, cant ac wyth a deugain.

45 ¶ Y porthorion: meibion Salum, meibion Ater, meibion Talmon, meibion Accub, meibion Hatita, meibion Sobai, cant a thri ar bymtheg ar hugain.

46 ¶ Y Nethiniaid: meibion Siha, meibion Hasupha, meibion Tabbaoth,

47 Meibion Ceros, meibion Sia, meibion Padon,

48 Meibion Lebanah, meibion Hagaba, meibion Salmal,

49 Meibion Hanan, meibion Gidel, meibion Gahar,

50 Meibion Reaiah, meibion Resin, meibion Necoda,

51 Meibion Gazzam, meibion Uzza, meibion Phaseah,

52 Meibion Besai, meibion Meunim, meibion Nephisesim,

53 Meibion Bacbuc, meibion Hancnpha, meibion Harhur,

54 Meibion Baslith, meibion Mohida, meibion Barsa,

55 Meibion Harcos, meibion Sissera, meibion Thamah,

56 Meibion Nesiah, meibion Hatipha.

57 ¶ Meibion gweision Solomon: meibion Sotai, meibion Sophereth, meibion Perida,

58 Meibion Jaala, meibion Darccon, meibion Gidel.

59 Meibion Sephatiah, meibion Hattil, meibion Pochereth, o Sebam, meibion Amon.

60 Yr holl Nethiniaid, a meibion gweision Solomon, *oedd* dri chant a denddeg a phedwar ugain.

61 A'r rhai hyn a ddacthant i fyny o Tel-melah, Tel-haresa, Cerub, Adon, ac Immer: ond ni fedrent ddangos tŷ eu tadau, na'u hiliog-aeth, ai o Israel *yr oedd* ynt.

62 Meibion Delaiah, meibion Tobiah, meibion Necoda, chwe chant a dau a dougain.

63 ¶ Ac o'r offeiraid: meibion Habiah, meibion Cos, meibion Barzilai, yr hwn a gymerth un o ferched Barsilai, y Gileadiad yn wraig, ac a alwyd ar eu henw hwynt.

64 Y rhai hyn a geisiasant eu hysgrifen *yn mhlith* yr achau, ond nis cafwyd: am hyny y bwriwyd hwynt allan o'r offeiradaeth.

65 A'r Tirsatha a ddywedodd wrthynt, na fytiaent o'r pethan santeiddiolaf, hyd oni chyfodai offeirad âg Urim ac â Thummim.

66 ¶ Yr holl gynulleidfa yn nghyd *oedd* ddwy fil a deugair tri chant a thriugain.

67 Heblaw eu gweision hwynt a'u morwynion, y rhai hyny *oedd* saith mil tri chant a dau ar bymtheg ar hugain: a chanddynt hwy *yr oedd* dau cant a phump a deugain o gantorion ac o gantoresau.

68 Eu meirch hwynt *oedd* saith cant ac un ar bymtheg ar hugain; a'u mulod yn ddau cant a phump a deugain;

69 Y camelod *oedd* bedwar cant a phymtheg ar hugain; yr asynod *oedd* chwe mil saith cant ac ugain.

chwanegiadau a chyfnwidiadau gan Nehemiah.—PRIDEAUX.

Adn. 67. *Dau gant a phump a deugain yn gantorion ac yn gantoresau*] Yn Ezra ii. 65, ni ddywedir ond *dau gant*, mewn rhif crwn; ond yma y mae Nehemiah yn crybwyll y 45 ag *oedd* dros ben hyny.

Adn. 68. *Eu meirch hwynt, &c.*] Er fod yr

oll o'r adnod hon yn eisiau mewn 50 o ysgriflyfrau Kennicott, ac mewn 29 o eiddo De Rossi, eto ceir hi yn Ezra ii. 66.

Adn. 69. *Y camelod, &c.*] Gwel Ezra ii. 67.

Adn. 70. *Y Tirsatha*] Neu y llywodraethwr, sef Nehemiah, pen. viii. 9; *a roddodd i'r trysor fil o drachmonau aur*—neu, fel y mae y LXX yn ei ddarllen, yn enwedig yr ailun yn

70 ¶ A rhai o'r tadau penaf a roddasant tuag at y gwaith. Y Tirsatha a roddodd i'r trysor fil o ddrachmonau aur, deg a dengain o phiolau, pum cant a deg ar hugain o wisgoedd offeiriaid.

71 A rhai o'r tadau penaf a roddasant i drysor y gwaith ugain mil o ddrachmonau aur, a dwy fil a deucant o bunnau o arian.

72 A'r hyn a roddodd y rhan arall o'r bobl oedd ugain mil o ddrachmonau aur, a dwy fil o bunnau yn arian, a saith a thriugain o wisgoedd offeiriaid.

73 A'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r porthorion, a'r cantorion, a rhai o'r bobl, a'r Nethiniaid, a holl Israel, a drigasant yn eu dinasoedd. A phau ddaeth y seithfed mis, yr oedd meibion Israel yn eu dinasoedd.

y *Codex Alexandrinus*, 'rhoddasant i'r Tirsatha tuag at y drysorfa fil o ddrachmonau aur,' &c. Dywed rhai fod y *drachmon* yn cyfateb i *bunt* o'n harian ni; tra y myn ereill ei bod yn £1 5s.; ac ereill, £5 14s. Gwel ar Ezra ii. 69.

Adn. 71, 72. *A rhai o'r tadau penaf a roddasant i drysor y gwaith, &c.* 'Nid rhyfedd fod rhif yr arian, a'r pethau ereill a gyfranwyd yma, yn gwahaniaethu oddiwrth ciddo Ezra, pen. ii., oblegid yr oedd hwn yn gasgliad arall. Gwnaed hwn yn amser Zorobabel, a hwn yn amser Nehemiah.'—BENSON.

Adn. 73. *A'r offeiriaid, &c., a drigasant yn eu dinasoedd*] Ar ol i'r holl waith a grybwyllwyd uchod gael ei orphen, anfonodd Nehemiah y bobl yn ol i'w dinasoedd, lle yr arosasant hyd ddechre y seithfed mis, yr hyn oedd yn mhon *pum niwernod* ar ol gorphen y mwr, pen. vi. 15. Yn awr, gan na allasai hyn oll gymeryd lle mewn cyu lleied amser, ai nid allwn feddwi i'r rhifaid hwn gymeryd lle cyn gorphen y mur, neu ynte erbyn y seithfed mis o'r ail flwyddyn, ar ol i Nehemiah ddychwel-yd yr ail waith o Susan? Neu fe allai fod yr hyn a adroddir yn yr adnod hon yn cyfeirio at drigiad yr Iuddewon yn en dinasoedd yn amser Zorobabel: gwel ar Ezra ii. 70.

PEN. VIII. Adn. 1. *A'r holl bobl a ymgasglasant o un fryd*] Ond odid o honynt eu hunain, heb eu cymhell i hyny gan Ezra; i'r heol oedd o flaen porth y dwfr—y lle a elwid wedi hyny, fel y meddylir, 'cyntedd y Cenhedloedd'; ac a ddywedasant wrth Ezra yr ysgrifenydd—yr hwn a ddaethai o Babilon i Jerusalem oddeutu 12 mlynedd cyn hyn: gwel ar Ezra vii. 6—12. Gan nad oes son am dano o'r blaen yn y llyfr hwn, tybia rhai iddo ef ddychwydi Babilon yn fuan ar ol dyfodiad Nehemiah i Jerusalem, neu cyn hyny; ac iddo yn awr ddyfod yn ol, a chanfod er ei la-

PENNOD VIII.

A'R holl bobl a ymgasglasant o un fryd i'r heol oedd o flaen porth y dwfr, ac a ddywedasant wrth Ezra yr ysgrifenydd, am ddywyn llyfr cyfraith Moses, yr hon a orchymynasai yr Arglwydd i Israel.

2 Ac Ezra yr offeiriad a ddyg y gyfraith o flaen y gynulleidfa o wŷr, a gwragedd, a phawb a'r a oedd yn medru gwrandio yn ddeallus, ar y dydd cyntaf o'r seithfed mis.

3 Ac efe a ddarllenodd ynddo ar wyneb yr heol oedd o flaen porth y dwfr, o'r bore hyd hanner dydd, gor bron y gwŷr, a'r gwragedd, a'r rhai oedd yn medru deall: a chlustiau yr holl bobl oedd yn gwrandio ar lyfr y gyfraith.

wenydd y mur wedi ei adeiladu, fel y canfyddasai o'r blaen y deml wedi ei gorphen: ond tybia ereill ei fod ef yn aros yn Jerusalem o hyd, gyda'i waith priodol ei hun fel offeiriad ac ysgrifenydd, gan adael yr achosion gwladol yn benaf yn llaw Nehemiah, y tywysog gwladol. *Am ddywyn llyfr cyfraith Moses*—i wybod beth oedd yn y gyfraith hono, yr hon oedd i'w darllen yn gyhoeddus bob seithfed flwyddyn ar wyl y pebyll, yr hon oedd i'w chynnal tua chanol y mis hwn: gwel ar Lef. xxiii. 34—39, Deut. xxxi. 10, &c. Diamau fod Ezra yn bwriadu gwneyd hyn ar yr amser penodol; ond y fath oedd sel y bobl y pryd hyn, fel y mynent iddo of ddarllen y gyfraith cyn i'r wyl hono ddechren.

Adn. 2. *A ddyg y gyfraith o flaen y gynulleidfa*] Gwel ar Deut. xxxi. 9. Diamau i'r olwg ar y gyfraith effeithio yn ddwys arnynt oll; canys y mae rhith o gyffro mawr felly gan yr Iuddewon hyd heddyw, pan ddygir y gyfraith ger eu bron yn en synagogan. *O wŷr, a gwragedd, a phawb a'r a oedd yn medru gwrandio yn ddeallus*—pawb oddieithr gwallgofiaid a babanod, y rhai ni fedrent wrandio na deall. *Ar y dydd cyntaf o'r seithfed mis*—sef mis *Tisri*, yn cyfateb i ran o'n Medi ni, yr hwn oedd y cyntaf o'r flwyddyn wladol, fel yr oedd *Nisan* y cyntaf o'r flwyddyn eglwysig. Yr oedd y dydd cyntaf o bob mis yn wyl, a'r dydd cyntaf o'r seithfed mis yn wyl yr udgym: gwel ar Lef. xxiii. 24, 25.

Adn. 3. *Ac efe a ddarllenodd ynddo*] Gan gael ei gynorthwyo ond odid, pan y byddai ef yn blino, gan y rhai a enwir isod; *o'r bore hyd hanner dydd*—Heb. 'o'r *goleuni*,' o wawriad y dydd, neu godiad yr haul, hyd ddeuddeg o'r gloch, pryd y gollyngwyd y gynulleidfa i wleda; canys yr oedd hwn yn ddydd o wleda, ac o lawenydd mawr.

Adn. 4. *Ac Ezra yr ysgrifenydd a safodd ar bulpuod o goed*] Sef math ar esgynlawr o

4 Ac Ezra yr ysgrifenydd a safodd ar bulpod o goed, yr hwn a wnelid i'r peth *hyn*; a chydag ef y safodd Mattithiah, a Sema, ac Anaiiah, ac Uriah, a Hilciah, a Maaseiah, ar ei law ddean ef; a Phedaiiah, a Misael, a Malchiah, a Hasum, a Hasbadanah, Zechariah, a Mesulam, ar ei law aswy ef.

5 Ac Ezra a agorodd y llyfr yn ngŵydd yr holl bobl, (canyr yr oedd efe oddi ar holl bobl,) a phan agorodd, yr holl bobl a safasant.

6 Ac Ezra a fendithiodd yr Arglwydd, y Duw mawr. A'r holl bobl a atebasant, Amen, Amen! gan ddyrchafu eu dwylaw: a hwy a ymgrymasant, ac a addolasant yr Arglwydd *â'u* hwynebau *tua'r* ddaear.

goed, digon helaeth a chadarn i gynwys a dal yr holl offeiriad a'r Lefiaid a grybwyllir yma.

Adn. 5. *Ac Ezra a agorodd y llyfr yn ngŵydd yr holl bobl*] Canys yr oeddnt oll yn gallu ei weled a'i glywed ef, trwy ei fod ar esgynlawr uwchlaw yr holl bobl; a *phan agorodd, yr holl bobl a safasant*—o barch i Dduw, ac i'w lyfr santaidd. 'Mewn efelychiad o hyn, pan y mae yr *esengyl* am y dydd yn cael ei darllen yn ein Heglwysi, yr holl bobl a safant.'—CLARKE.

Adn. 6. *Ac Ezra a fendithiodd yr Arglwydd, y Duw mawr*] Efe a'i bendithiodd ef fel y 'Duw mawr,' gan roddi anrhydedd iddo trwy glodfori ei berffeithderan, ac erfyn ei ffaith. *A'r holl bobl a atebasant, Amen, Amen!*—fel arwydd o'u cyduniad âg ef yn ei glodforedd a'i weddi; *gan ddyrchafu eu dwylaw*—*tua'r* nefoedd, i arwyddo fod eu dymuniad taag at Dduw, a'u holl ddysgwyliad oddiwrtho ef. *A hwy a ymgrymasant*—mewn ffordd o ymostyngiad ac addoliad iddo. Dimau i Ezra fendithio Duw am ei gyfraith santaidd a'i holl drugareddau ereill i'w bobl, a chydabod ei anfeidrol fawredd ef fel Duw mawr y nefoedd a'r ddaear, gan weddio am ei fendith ar y wasanaeth bresenol; ac yna dywedai y bobl 'Amen, Amen!' i arwyddo eu bod yn ymuno yn ddiifuant yn yr hyn oll a ddywedasai eu gweinidog. Dywed yr Iuddewon nad oedd y bobl i draethu eu 'Hamen' yn rhy gwta neu frisyog, nac â llais rhy uchel; ac yr oeddnt yn ei ddŷblu fel hyn, i ddangos eu dymuniad diffuant i'r hyn a ofynwyd gael ei roddi iddynt.

Adn. 7. *Jesua hefyd, a Bani, &c.*] Y rhai a safent ond odid ar esgynlawr arall ar gyfer y lleill, pen. ix. 4, neu yma a thraw yn mysg y gynulleidfa; *oedd yn dysgu y gyfraith i'r bobl*—yn egluro meddwl ac ewyllys Duw yn yr hyn a ddarllenid, ac yn ei gymlywso at eu cyffyrzau hwynt; neu ynte yn egluro y gyfraith iddynt yn y Galdeae, ar ol ei darllen yn yr Hebraeg; *a'r bobl yn sefyll yn eu lle*—yr

7 Jesua hefyd, a Bani, Serebiah, Jamin, Accub, Sabbethai, Hodiah, Maaseiah; Celita, Azariah, Jozabab, Hanan, Pellaiah, a'r Lefiaid, oedd yn dysgu y gyfraith i'r bobl, a'r bobl yn sefyll yn eu lle.

8 A hwy a ddarllenasant yn eglur yn y llyfr, yn nghyfraith Dduw; gan osod *allan* y synwyr, fel y deallent wrth ddarllen.

9 ¶ A Nehemiah, efe *yw* y Tirsatha, ac Ezra yr offeiriad a'r ysgrifenydd, a'r Lefiaid y rhai oedd yn dysgu y bobl, a ddywedasant wrth yr holl bobl, *Y mae heddyw yn santaidd i'r Arglwydd eich Duw*; na alerweh, ac na wylweh; canys yr holl bobl oedd yn wlyo pan glywsant eiriau y gyfraith.

holl amser, o'r bore hyd hanner dydd, yr hyn oedd oddeutu chwech o oriau!

Adn. 8. *A hwy*] Sef Ezra a'i gynorthwyr uchod yn olynol; a *ddarllenasant yn eglur yn y llyfr*—â llais uchel a chrofwy, fel yr oedd yn lawdd en clywed yn mhob cwr; *gan osod allan y synwyr*—neu egluro ystyr y geiriau Hebreig yn y Galdeae neu y Syriaeg; *fel y deallent wrth ddarllen*—fel y byddai yr hyn a ddarllenid yn eu clyw yn ddealladwy iddynt. Yr oedd yr Iuddewon, ar ol bod yn Caldea yn gaethlon am 70 mlynedd, lle y ganed y rhan fwyaf o'r tŷ hwnw, a lle y siaredid y Galdeae neu y Syro-Galdeae, wedi colli adnabyddiaeth o'r hen Hebraeg i'r fath raddau, fel nas gallent ddeall llyfr Hebreig y gyfraith heb ei gyfieithu iddynt; ac oddiwrth yr amgylchiad hwn y tarddodd yr angenheidrwydd am y *Targumau* Caldeaid, sef y cyfieithiad neu yr alleiriau o'r gyfraith a'r profwydi i'r iaith hŵno.

Adn. 9. *A Nehemiah, efe yw y Tirsatha*] Neu y *llywodraethwr* yn awr, fel yroedd Zorobabel gynt, Ezra ii. 63; *ac Ezra yr offeiriad a'r ysgrifenydd*—gwel ar Ezra vii. 6; *a'r Lefiaid y rhai oedd yn dysgu y bobl*—yn cynwys hefyd yr offeiriad, y rhai oeddnt o lwyth Leii, adn. 7. *Y mae heddyw yn santaidd i'r Arglwydd eich Duw*—fel dydd y newydd-loer, ac fel gŵyl caniad yr udgryn, adn. 2; neu, y mae heddyw wedi ei benodi yn ddydd o *lawenychiad* cyffredinol yn Nuw, yr hwn a ddychwelodd ein caethiwd, a adferodd i ni ei gyfraith, ac a adsefydlodd ei ordinhadau yn ein plith. *Na alerweh, ac na wylweh*—yr oedd y bobl yn wlyo yn hidl pan glywsant eiriau y gyfraith, wrth ystyried eu bod wedi ei throeddu hi, a chan ofn barn Duw arnynt o berwydd hyny. Yr oedd yn iawn iddynt wlyo a galaru am eu pechodau, ac nid oedd yr athrawon dauwl hyn am eu hattal yn barhaus rhag gwneyd hyny: ond gan fod y dydd hwnw yn wyl santaidd, yr hon y mynai yr Arglwydd ei chadw mewn llawenydd a gofioledd,

10 Ac efo a ddywedodd wrthynt, Ewch, bwytechwch y breision, ac yfwch y melysion, ac anfonych ranau i'r hwn nad oes ganddo ddim yn barod; canys y mae heddyw yn santaidd i'n Harglwydd: am hyny na thristewch; canys llawenydd yr Arglwydd yw eich nerth chwi.

11 A'r Lefiaid a ostegasant yr holl bobl, gan ddywedyd, Tewch: canys y dydd heddyw sydd santaidd, ac na thristewch.

12 A'r holl bobl a aethant i fwyta ac i yfed, ac i anfon ymaith ranau, ac i wneuthur llawenydd mawr; o herwydd iddynt ddeall y geiriau a ddysgasant hwy iddynt.

13 ¶ A'r ail dydd, tadau penaf yr holl bobl, yr offeiriaid, a'r Lefiaid, a ymgynullasant at Ezra yr ysgrifenydd, i'w dysgu yn ngeiriau y gyfraith.

14 A hwy a gawsant yn ysgrifenedig yn y gyfraith, yr hyn a orchymynasai yr Arglwydd trwy law Moses, y dylai meibion Israel drigo mewn bythod ar wyl y seithfed mis;

15 Ac y dylent gyhoeddi, a gyru gair trwy eu holl ddinasoedd, a thrwy Jerusalem, gan ddywedyd, Ewch i'r mynydd, a dygwch ganghenau olewyydd, a changau pinwyydd, a changau y myrtwyydd, a changau y palmwyydd, a changhenau o'r prenau cauadfrig, i wneuthur bythod, fel y mae yn ysgrifenedig.

16 ¶ Felly y bobl a aethant allan, ac a'u dygasant, ac a wnaethant iddynt fythod, bob un ar ei nen, ac yn eu cynteddoedd, ac yn nghyteddoedd tŷ Dduw, ac yn heol porth y dwfr, ac yn heol porth Ephraim.

17 A holl gynulleidfa y rhai a ddychwelasant o'r caethiwed, a

Num. x. 10, mynent hwythau i'r bobl attal eu galar y pryd hyny, a throei eu meddyliau at Dduw am drugaredd, gan lawenhu mewn gobaiath ac mewn daioni.

Adn. 10. *Ewch, bwytechwch y breision, ac yfwch y melysion*] Bwytechwch ac yfwch y pethau goraf a feddwch, ond nid hyd lythineb a meddwod. Yr oedd hi yn awr yn hanner dydd, a hwythau wedi bod yn sefyll yno er y bore, adn. 3, ac felly yr oeddynt mewn angen am luniaeth. *Ac anfonwch ranau i'r hwn nad oes ganddo ddim yn barod*—sef i'ch brodyr tylodion, y rhai amgen a alarant tra y byddoch chwi yn llawenhu: gwel ar Deut. xvi. 11, 14, Esther ix. 19. *Y mae heddyw yn santaidd i'n Harglwydd*—gwel ar adn. 9. *Canys llawenydd yr Arglwydd*—neu lawenyachu yn yr Arglwydd, yn ol ei orchymyn ef ar y fath achlysuron; *yw eich nerth chwi*—y mae yn foddion i'ch nerthu mewn corff a meddwl, ac i'ch galluogi i gyflawni eich dyledswyddau tuag at Dduw a dynion gyda siroldeb; tra y buasai galar ac ympryd yn eu handdassu hwynt, trwy eu gwanychu mewn corff ac ysbryd.

Adn. 11. *A'r Lefiaid a ostegasant yr holl bobl*] Y pethau a ddywedai Nehemiah wrth y rhai agosaf ato ef, adn. 10, a ddywedai y Lefiaid yn mhlith y bobl oll, y rhai oeddynt yn rhy bell i'w glywed ef. *Tewch*—ymattaliwch oddiwrth eich galar, a thrŷer eich wylfain yn llawenydd. Nid gorchymyn yn sarug iddynt dewi yr oeddynt, ond atolygu yn fwynaid, oddiar yr ystyriaeth o santeiddrwydd a llawenydd y dydd.

Adn. 12. *A'r holl bobl a aethant i fwyta ac i yfed*] Sychasant eu dagrau, a gwnaethant megys y gorchymynwyd iddynt, adn. 10; *ac i anfon ymaith ranau*—i'r tylodion, a'r gweddwon, a'r dyeithriaid, y rhai ni feddnt ddim i'w fwyta ac i'w yfed ar yr wyl hon; ac

i wneuthur llawenydd mawr—ond odid trwy ganiadau santaidd i'r Arglwydd; *o herwydd iddynt ddeall y geiriau a ddysgasant hwy iddynt*—o herwydd iddynt ddeall ewyllys Duw, a'u dyledswyddau eu hunain, y rhai yr oeddynt yn penderfynu eu gwneuthur. Rhoddodd hyn iddynt sail i obeithio ac ymddried yn nhrugaredd Duw, ac felly fodd i lawenyachu yn ddirfawr.

Adn. 13. *A'r ail dydd*] O'r seithfed mis, adn. 2, neu dranoeth ar ol clywed y gyfraith; *tadau penaf yr holl bobl*—neu y penau teulu-oedd mwyaf cyrifol; *yr offeiriaid a'r Lefiaid*—y rhai oeddynt yn ddysgawdwy'r ereill o ran eu swydd; *a ymgynullasant at Ezra*—i'w haddysgu yn fanylach yn y gyfraith a ddarllenwyd iddynt, fel y byddent hwythau yn gymhwysach i addysgu ereill.

Adn. 14. *A hwy a gawsant yn ysgrifenedig yn y gyfraith*] Trwy iddo gael ei ddangos iddynt gan Ezra; *y dylai meibion Israel drigo mewn bythod*—yn goffadwriaeth o'u trigriad gynt mewn pebyll yn yr anialwch: gwel ar Lef. xxxiii. 34—43.

Adn. 15. *Ewch i'r mynydd*] Sef mynydd yr Olewyydd, yr hwn oedd yn agos i Jerusalem, ac yn llawn o'r coed a enwir yma, y rhai yr ymddengys ddarod eu planu yno at wasanaeth yr Iuddewon ar yr wyl hon, yr hon, er ei hir esguluso, a ddylasai gael ei chynnal bob blwyddyn.

Adn. 16. *Felly y bobl a aethant allan*] I'r mynydd i geisio y canghenau hyny; *ac a wnaethant iddynt fythod*—rhaf ar nen lleddf eu tai, Deut. xxii. 8; ereill yn y cynteddoedd o flaen eu tai; ac ereill, yn enwedig yr offeiriaid a'r Lefiaid, yn nghynteddu y deml; *ac yn heol porth y dwfr*—lle yr ymgynullasai y bobl i glywed darllen y gyfraith, adn. 3; *ac yn heol porth Ephraim*—o du y gogledd i'r ddinas, o fewn y mur.

wnaethant fythod, ac a eisteddasant yn y bythod: canys er dyddiau Josua mab Nun hyd y dydd hwnw ni wnaethai meibion Israel felly. Ac yr oedd llawenydd mawr iawn.

18 Ac *Ezra* a ddarllenodd yn llyfr cyfraith Dduw beunydd, o'r dydd cyntaf hyd y dydd diweddaf. A hwy a gynaliasant yr wyl saith niwrnod; ac ar yr wythfed dydd *y bu* cymanfa, yn ol y ddefod.

PENNOD IX.

AC ar y pedwarydd dydd ar hugain o'r mis hwn, meibion Israel a ymgynullasant mewn ympryd, ac mewn sachlian, a phridd arnaddynt.

Adn. 17. *Canys er dyddiau Josua—ni wnaethai meibion Israel felly*] Hyn yw, ni chadwasant yr wyl hon gyda'r fath fanlyrwydd, unfrydedd, a dybwyd, er pan gadwyd hi gan Josua yn fuan ar ol sefydlid Israel yn Nghanaan. Er i'r wyl hon gael ei hesgeuloso am lawer o flynyddoedd yn nghyd, eto y mae yn amlwg iddi gael ei chynnal rai gweithian wedi dyddiau Josua: gwel 1 Bren. viii. 2, 65, Ezra iii. 4. *Ac yr oedd llawenydd mawr iawn*—am iddynt gael eu sefydlu yn eu gwlad, a chael y mur a'r deml wedi eu hadeiladu, a llyfr y gyfraith i'w hyfforddi yn ewyllys yr Arglwydd, ac am gael mwynhau eu hen wyliau a'u breintiau fel eu tadau yn yr amserau gynt.

Adn. 18. *Ac Ezra a ddarllenodd yn llyfr cyfraith Dduw beunydd*] Bob dydd o saith niwrnod yr wyl. Er y gorchymynid i'r gyfraith gael ei darllen ar yr wyl hon, Deut. xxxi. 10—12, eto nid oeddynt yn arferol o wneuthur hyn ond ar y dydd cyntaf a'r diweddaf, y rhai a elwid yn 'gymanfa santaidd,' Lef. xxiii. 35, 36: ond y fath oedd eu sel y pryd hyn, fel y mynent ei darllen bob dydd.

PEN. IX. Adn. 1. *Ac ar y pedwarydd dydd ar hugain o'r mis hwn*] Trwy i wyl y pebyll barhau o'r 15fed dydd hyd yr 22ain, nid oedd ond un diwrnod rhwng diwedd hōno a'r ympryd a grybwyllir yma: felly, erbyn iddynt orphen y naill mewn llawenydd, yr oeddynt yn dechreu y llall mewn galar. *Meibion Israel a ymgynullasant mewn ympryd, ac mewn sachlian a phridd*—arwyddion allanol o alar ac ymostyngiad am eu pechodau, y rhai nas gallent eu dangos ar wyl y pebyll, pryd yr oeddynt i wledda a llawenhau, pen. viii. 9. *Arnaddynt*—neu arnynt, sef ar eu penau: gwel ar Jos. vii. 6.

Adn. 2. *A had Israel a ymneillduasant oddiwrth bob dycethriaid*] Oddiwrth bob cymdeithas afreidiol a'r Cenedloedd, ac yn enwedig oddiwrth y gwragedd dycethr ag yr oedd rhai o honynt wedi eu priodi. Er i Ezra ddechreu diwygiad o'r fath yma, pen. x. 3, eto ymddengys i rai ddianc rhag ei sylw ef, neu

2. *A had Israel a ymneillduasant oddiwrth bob dycethriaid, ac a safasant ac a gyffasant eu pechodau, ac anwireddau eu tadau.*

3 *A chodasant i fyny yn eu lle, ac a ddarllenasant yn llyfr cyfraith yr Arglwydd eu Duw, bedair gwaith yn y dydd; a phedair gwaith yr ymgyffasant ac yr ymgymsasant i'r Arglwydd eu Duw.*

4 ¶ *Yna y safodd yn mhulpud y Lefiaid, Jesua, a Bani, Cadmiel, Sebauiah, Bunni, Serebiah, Bani, a Chenani; a gwaeddasant a llef uchel ar yr Arglwydd eu Duw:*

5 *A'r Lefiaid, Jesua, a Cadmiel, Bani, Hasabniah, Serebiah, Hodiah, Sebaniah, a Phethahiah, a ddywed-*

fod allan o'i gyraedd, neu ynte fyned eilwaith at eu gwragedd. *Ac a gyffasant eu pechodau*—gallwn feddwl mai clywed y gyfraith yn cael ei darllen a'i hegluro a barodd hyn; ac y mae yn brawf amlwg o wir edifeirwch y bobl, yn enwedig gan mai gweithred wirfodol oedd yr ymneillduad hwn. *Ac anwireddau eu tadau*—trwy y rhai y dygwyd eu tralodau diweddar arnynt hwy, ac y rhoddwyd iddynt siamplau drwg, y rhai a ddylynasant hwythau.

Adn. 3. *A chodasant i fyny yn eu lle*] Hyn yw, safodd y Lefiaid ar eu traed yn y pulpud a adeiladwyd iddynt, ac a ddarllenasant y gyfraith megys o'r blaen, gan egluro ystyr yr hyn a ddarllenent. *Bedair gwaith yn y dydd*—gan ddechreu cynal y wasanaeth gyntaf ond odid am 6 yn y bore, eilwaith am 10, a thracefn am 2, ac yn olaf am 6 yn yr hwyr, pryd yr oeddynt yn cyffesu ac yn addoli, yn gystal ag yn darllen. *Eithr un bedwaredd ran o'r dydd yw y Saesonacg yn y ddau le yn yr adnod hon, neu am dair awr.* Fe allai iddynt ddechreu y wasanaeth foreol, yr hon oedd yn gynwysedig yn benaf mewn darllen ac esbomio, am 9 o'r gloch, yn union ar ol yr aberth boreol, a pharhau hyd hanner dydd; a threnlio tair awr ereill, sef hyd yr aberth hwyrol, i ymgyffesu, ac ymgyrn mewn flordd o addoliad i'r Arglwydd eu Duw, yr hyn a wna i fyny y wasanaeth brydnawnol. Cawn eu cyffesu a'u gweddi yn yr adnodau dilynol.

Adn. 4. *Yna y safodd yn mhulpud y Lefiaid*] Ond odid yr un a grybwyllwyd pen. viii. 4; neu esgynlawr arall ar ei gyfer ef, pen. viii. 7. *Saes.*, 'y'na y safodd ar y *grisiau*, o'r Lefiaid Jesua, a Bani, &c. Cyfeirir yma at y grisiau neu yr uwch-leoedd lle yr arferai y Lefiaid sefyll wrth ganu neu addysgu y bobl. *A gwaeddasant a llef uchel ar yr Arglwydd eu Duw*—mewn gweddi daer ac uchel, fel y gallai y bobl hefyd eu clywed, a chyduno a hwy.

Adn. 5. *A'r Lefiaid—a ddywedasant*] Wrth y bobl, y rhai oeddynt wedi ymgyrn ar y ddauor o flaen yr Arglwydd eu Duw, adn. 3; *Cyfodoch, bendithiwrch yr Arglwydd*

asant, Cyfodweh, bendithiweh yr Arglwydd eich Duw o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb: a bendithier dy enw gogoneddus a dyrchafedig, goruwch pob bendith a moliant.

6 Ti yn unig wyt Arglwydd: ti a wnaethost y nefoedd, nefoedd y nefoedd, a'u holl luoedd hwynt, y ddaear a'r hyn oll *sydd* arni, y moroedd a'r hyn oll *sydd* ynddynt; a thi sydd yn eu cynal hwynt oll; a llu y nefoedd sydd yn ymgrymu i ti.

7 Ti *yw* yr Arglwydd Dduw, yr hwn a ddetholaist Abram, ac a'i dygaist ef allan o Ur y Caldeaid, ac a rodداist iddo enw Abraham:

8 A chefaist ei galon ef yn ffyddlon ger dy fron di, ac a wnaethost gyfammod ag ef, a'r rodدي yn ddiaw i'w had ef wlad y Canaanaid, yr Hefiaid, yr Amoriaid, a'r Phereziaid, a'r Jebusiaid, a'r Girgasiaid; ac a gwblheast dy eiriau: o herwydd cyliawn *wyt*.

eich Duw—am ei holl ddaioni i chwi hyd yma; o *dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb*—cyhyd ag y byddoch mewn bod. 'Arferiad gwarthus amrai gynulleidfaoedd o bobl yw *eistedd* tra y profesent fendithio a chlodfori Duw trwy ganu *Salmu Dafydd*, neu *emynau* wedi eu gwneuthur, ar gynllun yr efengyl! Yr wyf yn gofyn i'r cyfryw rai, a deimlasant hwy erioed *ysbryd dyheuwyl* tra yn eistedd felly? Os gwnaethant, rhaid addef eu bod hwy, trwy rym ymarferiad, wedi gwrthweithio dylanwad ystum tra anffafriol i'r fath weithredoedd o ddyheuwyl.—CLARKE. *A bendithier dy enw gogoneddus a dyrchafedig*—yma y mae y Lestaid yn bendithio Duw eu hunain, er cynllun i'r bobl wneyd hyn; *goruwch pob bendith a moliant*—a allai dynion byth eu rhoddi iddo.

Adn. 6. *Ti yn unig wyt Arglwydd* Neu JEHOWA hunan-fodol ac annibynol; *ti a wnaethost y nefoedd*—y tair nef; yr WYBRENOL, yn nghyda'r holl adar asgellog ag sydd yn ehedeg ynddi; y SERENOL, yn nghyda'r haul, y lloer, a'r ser a wibiant o'i mewn; a NEF Y GOGONANT, yn nghyda'r holl raddau o angylion a saint a breswylant ynddi; y *ddaear a'r hyn oll sydd arni*—yn ddynion, anifeiliaid, a llysiâu; y *moroedd a'r hyn oll sydd ynddynt*—yr holl aneirif bysgod, ymlusgiaid, a milonion o bob math; a *thi sydd yn eu cynal hwynt oll*—mewn bod a bywyd; a *llu y nefoedd sydd yn ymgrymu i ti*—gan dy gydna-bod fel eu Creawdwr a'u Cynaliwr, a'th addoli fel eu Duw.

Adn. 7. *A'i dygaist ef allan o Ur y Caldeaid* Gwel ar Gen. xi. 31, a xii. 1; ac a *rodداist iddo enw Abraham*—gwel ar Gen. xvij.

9 Gwelaist hefyd gystudd ein tadau yn yr Aifft; a thi a wrandew-aist eu gwaedd hwynt wrth y môr coch:

10 A thi a wnaethost arwyddion a rhyfeddodau ar Pharao, ac ar ei holl weision, ac ar holl bobl ei wlad ef: canys gwybuost i'r rhai hyn falchïo yn eu herbyn hwynt. A gwnaethost it' enw, fel y *gwelir* y dydd hwn.

11 Y môr hefyd a holtaist o'u blaen hwynt, fel y treiddiasant trwy ganol y môr ar hyd sychdir; a'u herlidwyr a fwriaist i'r gwaelod, fel maen i ddyfroedd cryfion.

12 Ac a'u harweiniaist hwy liw dydd mewn colofn gwmwl, a llwynos mewn colofn dân, i oleuo iddynt hwy y ffordd yr oeddynt yn myned ar hyd-ddi.

13 Ti a ddisgynaist hefyd ar fynydd Sinai, ac a ymddydenaist â hwynt o'r nefoedd; rhodداist hefyd iddynt farnedigaethau uniawn, a

5. Yma cawn grynodedd o hanes y genedl, wedi ei gyfansoddi ond odid gan Ezra neu Nehemiah mewn ffurf o weddi, a'i rodدي yn llaw y Lestaid, fel y gallent hwythau ei ddarllen yn eglur yn nghlyw yr holl gynulleidfaoedd ar gwahanol bulpudau neu esgyn-loriau.

Adn. 8. *A chefaist ei galon ef yn ffyddlon ger dy fron di* Yr wir gredadyn yn dy air a'th adweiddion, Gen. xv. 6, &c., ac yn cadw dy orchymynion yn ffyddlon o'r galon, yr hyn a brofwyd yn ddiagon yn ei aberthiad o Isaac. *Ar rodدي yn ddiaw i'w had ef wlad y Canaanaid*—gwel ar Gen. xiii. 15. *Ac a gwblheast dy eiriau*—dy addeud o rodدي gwlad Canaan i had Abraham; o *herwydd cyflawn wyt*—neu gywir a ffyddlon i gyflawni dy holl addeudion.

Adn. 9. *Gwelaist hefyd gystudd ein tadau yn yr Aifft* Pan yr oeddynt yn cael eu gorthrymu yno gan Pharao, Exod. i. 11, &c.; a *thi a wrandew-aist eu gwaedd hwynt wrth y môr coch*—pan oedd yr Aifftiaid yn erlid ar eu hol, Exod. xiv. 10.

Adn. 10. *A thi a wnaethost arwyddion a rhyfeddodau* Trwy osod y deg pla ar yr Aifftiaid, a boddi Pharao a'i lu yn y môr coch; a gwnaethost it' enw—gwel ar Exod. ix. 16.

Adn. 11. *Y môr hefyd a holtaist o'u blaen* Gwel ar Exod. xiv. 21, &c.

Adn. 12. *Ac a'u harweiniaist hwy liw dydd mewn colofn gwmwl* Gwel ar Exod. xiii. 21.

Adn. 13. *Ti a ddisgynaist hefyd ar fynydd Sinai* Gwel ar Exod. xix. 20; ac a *ymddydenaist â hwynt o'r nefoedd*—trwy draethu iddynt y deg gorchymyn: gwel ar Exod. xx.

chyfreithiau gwir, deddfau a gorchymynion daionus:

14 A'th sabboth santaidd a hysbysaist iddynt; gorchymynion hefyd, a deddfau, a chyfreithiau a orchymynaist iddynt, trwy law Moses dy was:

15 Bara hefyd o'r nefoedd a rodd-aist iddynt yn eu newyn, a dwfr o'r graig a dynaist iddynt yn eu syched; a thi a ddywedaist wrthynt, y denent i etifeddu y wlad a dyngaist a'r ei rhoddi iddynt.

16 Ond hwynt-hwy a'n tadau ni a falchiasant, ac a galedasant eu gwarau, ac ni wrandawsant ar dy orchymynion di;

17 Ac a wrthodasant wrando, ac ni chofiasant dy ryfeddodau, y rhai a wnelsit ti erddynt; caledasant hefyd eu gwarau, a gosodasant ben arnynt i ddychwelyd i'w caethiwed yn eu cyndyrwydd: eto ti ydwynt Dduw parod i fadden, graslawn, a thrugarog, hwyrfrydig i ddigter, ac aml o drugaredd, ac ni wrthodaist hwynt.

18 Hefyd, pan wnaethant iddynt lo toddedig, a dywedyd, Dyma dy dduw di yr hwn a'th ddyg di i fyny o'r Aifft, a chablasant yn ddirfawr;

19 Er hyny, yn dy aml dosturiaethau, ni adewaist ti hwynt yn yr anialweh: y golofn gwmwl ni chilioedd oddiwrthynt trwy y dydd, i'w harwain hwynt ar hyd y ffordd; na'r golofn dân trwy y nos, i oleuo iddynt, ac i ddangos y ffordd y cerddent ynddi.

20 Dy Ysbryd daionus hefyd a roddaist i'w dysgu hwynt, ac nid atteliaist dy fanna rhag eu genau; dwfr hefyd a roddaist iddynt yn eu syched.

21 Felly dengain mlynedd y porthaist hwynt yn yr anialweh, heb fod arnynt eisieu *dim*: eu gwisgoedd ni heneiddiasant, a'u traed ni chwyddasant.

22 A thi a roddaist iddynt frenhiniaethau a phobloedd, a rhenaist hwynt i gonglau. Felly hwy a feddiannasant wlad Sihon, a gwlad bren-

22. Rhoddaist hefyd iddynt farnedigaethau uniawn, &c.—cyfeiria y rhai hyn at y deddfau moesol, gwladol, a seremonïol, y rhai oeddynt oll yn uniawn, cywir, a daionus ynddynt eu hunain: gwel ar Exod. xxi. 1, &c.

Adn. 14. *A'th sabboth santaidd a hysbysaist iddynt!* Yr hyn ni wnaed i un genedl arall; a'r dyben oedd, fel y caent hwy orphwysfa i'w cyrff a'u heneidiau, yr hyn oedd yn gysgod o'r orphwysfa sydd eto yn ol i bobl Dduw. *Gorchymynion hefyd, a deddfau, a chyfreithiau*—moesol, seremonïol, a gwladol.

Adn. 15. *Bura hefyd o'r nefoedd!* Sei y manna yn yr anialweh, Exod. xvi. 4, &c.; a dwfr o'r graig—yn Horeb, Exod. xvii. 6, &c., ac wedi hyny yn Cades, Num. xx. 8, 11.

Adn. 16. *Ond hwynt-hwy a'n tadau ni!* Neu, 'hwynt-hwy ein tadau ni'; canys son y mae am eu tadau yn yr anialweh; a *falchiasant*—a lanwyd âg ysbryd balch, traubaus, ac annibynol; *ac a galedasant eu gwarau*—fel fych ystyfnig ac anhywaith, yr hwn ni ddarostwng ei war i'r ian. Ar ol cofâu daioni Duw iddynt i fwyhau eu heugrwydd, y mae efe yn awr yn cyfaddef eu pechodau, i'r dylen i'w dwyn i alaru ac edifarhau am danynt.

Adn. 17. *Ac a wrthodasant wrando!* Saes., 'a wrthodasant *ufyddhau*,' er eu rhybyddio, eu cynghori, a'u bygwth; *ac ni chofiasant dy ryfeddodau*—y rhai a wnaethost erddynt yn yr Aifft, wrth y môr coch, ac wedi hyny yn yr anialweh, trwy raddi iddynt fara o'r nefoedd a'r dwfr o'r graig. *A gosodasant ben arnynt*—neu *gadben*, yn lle Moses, i'w harwain yn ol i'r Aifft: gwel ar Num. xiv. 4. *Eto ti ydwynt*

Dduw parod i fadden—ar eu hedifeirweh a'u hymostyngiad; *graslawn, a thrugarog, &c.*—fel y cyhoeddasai efe ei enw i Moses gynt: gwel ar Exod. xxxiv. 6, 7.

Adn. 18. *Hefyd, pan wnaethant iddynt lo toddedig!* Gwel ar Exod. xxxii. 4; a *chablasant yn ddirfawr*—wrth alw y llo aur hwnw yn dduw, a'i addoli ef.

Adn. 19. *Er hyny, yn dy aml dosturiaethau!* Tuag at rai mor bechadurus a chableddu; *ni adewaist ti hwynt yn yr anialweh*—trwy dynu y golofn gwmwl a'r golofn dân oddiwrthynt, adn. 12, y rhai oeddynt yn arwydd gogonddus o'th bresenoldeb grasol yn eu mysg.

Adn. 20. *Dy Ysbryd daionus hefyd a roddaist i'w dysgu hwynt!* Trwy ei roddi ef yn gyntaf ar Moses, ac wedi hyny ar y deng henuriaid a thriugain, i gyfarwyddo a llywodraethu y bobl yn ddoeth ac yn ofn Duw: gwel ar Num. xi. 17—26. *Ac nid atteliaist dy fanna*—mwy na'r dwfr, yn ystod y deugain mlynedd ag y buont yn yr anialweh, adn. 15.

Adn. 21. *Eu gwisgoedd ni heneiddiasant, &c.* Gwel ar Deut. viii. 4.

Adn. 22. *A thi a roddaist iddynt frenhiniaethau a phobloedd!* Sef dwy frenhiniaeth Sihon ac Og, a holl frenhiniaethau Canaan, Jos. xii. 1—24. *A rhenaist hwynt i gonglau*—y mae rhai yn deall hyn am *Israel*, y rhai a drigent ar y penau eu hunain, heb eu cymysgu â'r Cenhedloedd; ac ereill am y *Canaancaid*, y rhai a wasgarwyd yma a thraw o'u gwlad eu hunain. *Felly hwy a feddiannasant wlad Sihon, a gwlad brenin Hesbon*

in Hesbon, a gwlad Og brenin Basan.

23 Lluosogaist hefyd eu meibion hwynt fel ser y nefoedd, ac a'u dyg-aist hwynt i'r wlad a ddywedast wrth eu tadau y deuent iddi i'w meddiannu.

24 Felly y meibion a aethant i mewn, ac a feddiannasant y wlad, a thi a ddarostyngast drigolion y wlad, y Canaanaid, o'u blaen hwynt, ac a'u rhoddaist yn eu llaw hwynt, eu brenhinoedd hefyd, a phobloedd y wlad, fel y gwnaent iddynt yn ol eu hewyllys.

25 A hwy a ennillasant ddinasoedd cedyrn, a daear fras, ac a feddiannasant dai llawn o bob daioni, pydewau cloddedig, gwinlanoedd, ac olewyydd-lanoedd, a choed ffrwythlon yn aml; a hwy a fwytasant, ac a ddigonwyd, ac a frasawyd, ac a ymhyfydasant yn dy fawr ddaioni di.

26 Eto hwy a anufyddhasant, ac a wrthryfelasant yn dy erbyn, tafasant hefyd dy gyfraith o'r tu ol i'w cefn, a'th broffwydi a laddasant, y

rhai a dystiolaethasant wrthynt am ddychwelyd atat; ac a gblasant yn ddirfawr.

27 Am hyny ti a'u rhoddaist hwynt yn llaw eu gorthrymwyr, y rhai a'u cystuddiasant: ac yn amser eu cyfyngdra, pan waeddasant arnat, a'u gwrandewaist hwynt o'r nefoedd, ac yn ol dy aml dosturiaethau rhoddaist iddynt achubwyr, y rhai a'u hachubasant o law eu gwrthwynebwyr.

28 Ond pan lonyddodd arnynt, dychwelasant i wneuthur drygioni yn dy wydd di: am hyny y gadewast hwynt yn llaw eu gelynyon, y rhai a arglwyddiaethasant arnynt: eto pan dychwelasant, a gwaeddi arnat, tithau o'r nefoedd a wrandewaist, ac a'u gwaredaist hwynt, yn ol dy dosturiaethau, lawer o amseroedd.

29 A thi a dystiolaethast yn eu herbyn hwynt, i'w dychwelyd at dy gyfraith di: ond hwy a falchiasant, ac ni wrandawsant ar dy orchymynion, eithr pechasant yn erbyn dy farnedigaethau, (y rhai os gwna

—neu, fel y mae y LXX yn ei ddarllen, 'a feddiannasant wlad Sihon brenin Hesbon; canys yn Hesbon yr oedd Sihon yn trigo, Jos. xii. 2.

Adn. 23. *Lluosogaist hefyd eu meibion hwynt fel ser y nefoedd*] Gan gyflawni felly ei addewid i Abraham: gwel ar Gen. xv. 5.

Adn. 24. *Felly y meibion a aethant i mewn*] Ar ol i'r *tadau* syrthio yn gelaneddau yn y diffaethwch, o herwydd eu hanghrediniaeth: gwel ar 1 Cor. x. 5, &c.

Adn. 25. *A hwy a ennillasant ddinasoedd cedyrn*] Rhai wedi eu hangaeru hyd y netoedd, Deut. i. 28; *a daear fras*—yn dwyn cyflawnder o bob math ar ffrwythau; *ac a feddiannasant dai llawn o bob daioni*—wedi eu hadeiladu yn barod gan y Canaanaid, a'u llenwi o bob dofrefn ac arlwyddau angenrheidiol; *pydewau cloddedig*—at en gwasan-aeth, a'r rhai hyny yn llawn dwfr; *a hwy a fwytasant*—ffrwyth eu daear fras a'u gwinlanoedd, hyd nes y digonwyd ac y brasawyd hwynt; hyny yw, hyd nes y *pesgwyd* hwy gan fraser: gwel ar Dent. xxxii. 15. *Ac a ymhyfyrdasant yn dy fawr ddaioni di*—yn yr holl gysuron a'r bendithion hyny a estyn-aist iddynt o'th fawr ddaioni.

Adn. 26. *Eto hwy a anufyddhasant ac a wrthryfelasant yn dy erbyn*] Ar ol dy holl ddaioni uchod iddynt; *tafasant hefyd dy gyfraith o'r tu ol i'w cefn*—yn y modd mwyafr dirmygus, yr hon a ddylasai fod yn wastad-ol o flaen eu llygaid, fel rheol iddynt yn mhob peth; *a'th broffwydi a laddasant*—am dyst-

iolaethu yn erbyn eu pechoŷau hwynt, a'u galw i edifarhau am danynt: gwel ar 2 Cron. xxiv. 20, 21, 1 Bren. xviii. 4, a xix. 10. *Ac a gblasant yn ddirfawr*—Saes., 'a wnaethant *gythruddiadau* mawrion,' gan gyffroi Duw i ddigofaint yn eu herbyn.

Adn. 27. *Am hyny ti a'u rhoddaist hwynt yn llaw eu gorthrymwyr*] Set y Canaanaid, y Moabiaid, y Midianiaid, ac amrai elynion ereill, fel y gwelwn yn llyfr y Barnwyr, pen. iii—xvi. *Ac yn amser eu cyfyngdra*—pan yn cael eu gorthrymu yn dost, ac y gwaedd-ent am waredigaeth; *rhoddaist iddynt achubwyr*—sef y BARNWYR yn olynol, megys Oth-niel, Ehwd, Barac, Gedeon, ac ereill, y rhai a roddodd Duw iddynt yn ei aml dosturiaethau.

Adn. 28. *Ond pan lonyddodd arnynt*] Dan nawdd eu barnwyr; *dychwelasant i wneuthur drggioni yn dy wydd di*—neu o flaen dy wyneb. Fel hyn y gwnaent yn barhaus yn amser y barnwyr, *pechu* a syrthio i law eu gelynyon; *yna edifarhau*, a gwaeddi ar Dduw; ac yr oedd yntau yn *tostruo* wrthynt, ac yn eu *gwaredu*. *Lawer o amseroedd*—neu lawer o weithiau, y naill dro ar ol y llall;

Adn. 29. *A thi a dystiolaethast yn eu herbyn hwynt*] Nid yn unig trwy eu cospi, ond hefyd trwy godi proffwydi i dystio yn erbyn eu pechoŷau, a'u dwyn yn ol i ufyddhau i'th gyfraith di. *Ond hwy a falchiasant*—gwel ar adn. 16; *ac ni wrandawsant ar dy orchymynion*—nac ar ddim a ddywedai y proffwydi i'w hannog i ufydd-dod; *eithr pechasant yn erbyn dy farnedigaethau*—sef yr

dyn hwynt, efe fydd byw ynddynt,) a gwnaethant ysgwydd i gilio, ac a galedasant eu gwarau, ac ni wrandawsant.

30 Er hyny ti a'u hoedaist hwynt fynyddoedd lawer, ac a dystiolaethaist wrthynt trwy dy Ysbryd yn dy broffwydi; ond ni wrandawsant: am hyny y rhodaist hwynt yn llaw pobl y gwledydd.

31 Eto, er mwyn dy fawr drugareddau, ni lwy'r-ddyfethaist hwynt, ac ni wrthodaist hwynt; canys Duw graslawn a thrugarog ydwynt.

32 Ac yn awr, O ein Duw ni, y Duw mawr, cadarn, ac ofnadwy, yr hwn wyt yn cadw cyfammod a thrugaredd; na fydded bychan o'th flaen di yr holl flinder a dygwyddodd i ni, i'n brenhinoedd, i'n tywysogion, ac i'n hofferiaid, ac i'n proffwydi, ac i'n tadau, ac i'th holl bobl, er dyddiau brenhinoedd Assyria hyd y dydd hwn.

33 Tithau ydwynt gyfiawn yn yr hyn oll a ddygwyddodd i ni: canys gwirionedd a wnaethost ti, a ninau a wnaethom yn annuwiol.

34 Ein brenhinoedd hefyd, ein tywysogion, ein hofferiaid, a'n tadau, ni chadwasant dy gyfraith, ac ni wrandawsant ar dy orchymynion, na'th dystiolaethau, y rhai a dystiolaethaist wrthynt.

35 A hwy ni'th wasanaethasant yn eni brenhiniaeth, nac yn dy fawr ddaioni a roddaist iddynt, nac yn y wlad eang a bras yr hon a osodaist o'u blaen hwynt; ac ni ddychwelasant oddiwrt h eu drwg weithredoedd.

36 Wele ni heddyw yn weision; ac am y wlad a roddaist i'n tadau ni, i fwyta ei ffrwyth a'i daioni, wele ni yn weision ynddi.

37 A mawr yw ei thoraeth hi i'r brenhinoedd a osodaist arnom ni am ein pechodau: ac arglwyddiaethu y

holl gyfraith, yn foesol, gwladol, a seremonïol; y rhai os gwna dyn hwynt—gwel ar Lef. xviii. 5. A gwnaethant ysgwydd i gilio—fel ých yn gwingo ac yn cilio oddiwrt h yr iau.

Adn. 30. *Er hyny ti a'u hoedaist hwynt fynyddoedd lawer*] Rhag y gosp fygythiedig. Meddylir fod yna gyfeiriad at oeddiad eu caethglndiaid i Assyria a Babilon. *Ac a dystiolaethaist wrthynt trwy dy Ysbryd yn dy broffwydi*—y rhai a'u ceryddent ac a'u rhybyddient fel y cynhyrdd hwy gan yr Ysbryd Glân. *Ond ni wrandawsant*—hyd yn nod ar lais dy Ysbryd Santaidd yn ngenau y proffwydi; am hyny y rhodaist hwynt yn llaw pobl y gwledydd—sef yr Assyriaid a'r Caldeaid.

Adn. 31. *Eto er mwyn dy fawr drugareddau*] Canys nis gallai dim arall dueddu Duw i'w barbed; ni lwy'r-ddyfethaist hwynt—ond gadaewt weddill o'r tylodion yn y wlad, a rhodaist ffafr i'r lleill yn nhir eu caethiwed, a dychwelaist lawer o'r gaethglnd i'w gwlad eu hunain; canys Duw graslawn a thrugarog ydwynt—o ran dy natur a'th weithrediaidau.

Adn. 32. *Ac yn awr, O ein Duw ni*] Yr hwn wyt mewn cyfammod â ni; y Duw mawr, cadarn, ac ofnadwy—gwel ar pen. i. 5; yr hwn wyt yn cadw cyfammod a thrugaredd—efe a chwanea 'drugaredd,' am nad oedd y 'cyfammod' ynddo ei hun yn ddigono sail gobaith, trwy eu bod hwy wedi ei dori ef mor fynych, ac felly wedi rhyddhau Duw oddiwrt hwy medigaeth i'w gadw ef; ac felly y maent yn ffoi am ymwared at ei drugaredd rad a chyfoethog ef. *Na fydded bychan o'th flaen di yr holl flinder a dygwyddodd i ni*—fel ag i chwenege ato; eithr bydded i ti yn dy drugaredd ystyried yr hyn a ddyoddefasom er pan ddechreuodd brenhinoedd Assyria

gaethgludo y deg llwyth, yn ddigon o gosp am ein hannuwioldeb.

Adn. 33. *Tithau ydwynt gyfiawn yn yr hyn oll a wnaethost i ni*] Fel nas gallwn dy gybuddo o'n cospi yn drymach nag yr haeddasom; canys gwirionedd a wnaethost ti—Saes., 'uniawn y gwnaethost ti,' wrth ein cospi felly; a ninau a wnaethom yn annuwiol—ac felly haeddasom yn gyfiawn yr hyn oll a ddaeth arnom.

Adn. 34. *Ein brenhinoedd hefyd, &c.*] Yn yr adnod hon efe a gyfaddeta fod eu brenhinoedd, eu tywysogion, eu hofferiaid, a'u tadau, wedi tori y gyfraith: ond ni sonir am y proffwydi, trwy eu bod hwy ond odid yn parhau yn fyddlon i Dduw, gan dystiolaethu trwy ei Ysbryd yn erbyn pechodau pawb, a hyny ar berygl eu bywydau.

Adn. 35. *A hwy ni'th wasanaethasant yn eni brenhiniaeth*] 'Yn dy frenhiniaeth,' yw darlenniad dau o ysgriflyfrau Kennicott, ac hefyd y LXX, y Syriaeg, a'r Arabaeg; nac yn dy fawr ddaioni—sef yn ngwyneb ei fawr ddaioni a'i drugareddau ef iddynt yn wladol a chrefyddol; nac yn y wlad eang a bras—sef gwlad Canaan, yr hon oedd yn eang o ran maintioli, a bras neu ffrwythlon o ran ei hawsawd; yr hon a osodaist o'u blaen hwynt—neu yn feddiant iddynt ar ol gyru y Canaanaid allan o honi.

Adn. 36. *Wele ni heddyw yn weision*] Yn talu teyrnged i frenin Persia hyd yn nod yn ein gwlad ein hunain, yr hon a roddaist ti i'n tadau.

Adn. 37. *A mawr yw ei thoraeth hi*] Fel gwlad eang a bras; i'r brenhinoedd a osodaist arnom ni am ein pechodau—y rhai a godant doll teyrnged, a threth drom arnom ni, ac ar ein llafurwaith a'n hanifeiliaid: gwel ar Ezra iv.

maent ar ein cyrff, ac ar ein hanifeiliaid, yn ol eu hewylllys; ac yr ydym mewn cyfyngder mawr.

38 Ac o herwydd hyn oll yr ydym yn gwnethur *cyfarnnod* sicr, ac yn ei ysgrifenu: ac y mae ein tywysogion, ein Lefiaid, a'n hofferiaid, yn ei selio.

PENNOD X.

A'R rhai a seliodd *oedd*, Nehemiah y Tirsatha, mab Hachaliah, a Zidciah,

2 Seraiah, Azariah, Jeremiah,

3 Pasur, Amariah, Malchiah,

4 Hattus, Sebaniah, Maluch,

5 Harim, Meremoth, Obadiah,

6 Daniel, Ginnethon, Baruch,

7 Mesulam, Abiah, Mihamin,

8 Maaziah, Bilgai, Semaiah: dyma yr offeriaid.

9 A'r Lefiaid: Jesua mab Azariah, Binnui o feibion Henadad, Cadmiel;

10 A'u brodyr hwynt; Sebaniah, Hodiah, Celita, Pelaiiah, Hanan,

11 Micha, Rehob, Hasabiah,

12 Zaccūr, Serebiah, Sebaniah,

13 Hodiah, Bani, Beninu.

14 Penaethiaid y bobl; Paros, Pahath-Moab, Elam, Zattu, Bani,

15 Bani, Azgad, Bebai,

16 Adoniah, Bigfai, Adin,

17 Ater, Hizciah, Azzur,

18 Hodiah, Hasum, Besai,

19 Hariph, Anathoth, Nebai,

20 Magpias, Mesulam, Hesir,

21 Meszabeel, Sadoc, Judua,

22 Pelatiah, Hanan, Anaiah,

23 Hosea, Hananiah, Hasub,

24 Halohes, Pileha, Sobec,

25 Rehun, Hasabnah, Maaseiah,

26 Ac Abiah, Hanan, Anan,

27 Maluch, Harim, Baanah.

28 ¶ A'r rhan arall o'r bobl, yr offeriaid, y Lefiaid, y porthorion, y cantorion, y Nethiniaid, a phawb a'r a ymneillduasent oddiwrth bobl y gwledydd at gyfraith Dduw, eu gwragedd hwynt, eu meibion, a'u merched, pawb a'r a oedd â gwybodaeth ac â deall ganddo:

29 Hwy a lymasant wrth eu brodyr, eu penaethiaid, ac a aethant mewn rhaih a llw ar rodio yn ngysraith Dduw, yr hon a roddasid trwy law Moses gwas Duw: ac ar gadw ac ar wneuthur holl orchymynion yr Arglwydd ein Harglwydd ni, a'i farnedigaeithau, a'i ddeddfau:

30 Ac ar na roddem ein merched i bobl y wlad: ac na chymmerem eu merched hwy i'n meibion ni:

31 Ac o byddai pobl y tir yn dwyn marchnadoedd, neu ddim lluniaeth ar y dydd sabboth i'w werthu, na phrynem ddim ganddynt ar y sab-

13. *Ac yr ydym mewn cyfyngder*—trwy fod brehneioedd estronol yn arglyddiaethu felly ar ein cyrff a'n hanifeiliaid yn ol eu hewylllys.

Adn. 38. *Ac o herwydd hyn oll yr ydym yn gwnethur cyfarnnod sicr*] Sef yn adnewyddu eu cyfarnnod â Duw, neu yn addaw yn flyddlon a diragrith gadw ei holl gyfreithiau ef, yn enwedig rhoddi ymaith eu gwragedd dycithr, a pheidio ymgysfathachu eilwaith â phobl y gwledydd: gwel ar adn. 2. *Ac yn ei ysgrifenu*—fel y byddai ar gael yn barhaus, ac yn dystiolaeth yn eu herbyn hwynt os torent ef: ac y mae yn debyg fod penaeth pob teulu yn ysgrifenu ei enw yn ei waelod ef ar ran y teulu hwnw. *Ac yn ei ysgrifenu*—fel y byddai ar gael yn barhaus, ac yn dystiolaeth yn eu herbyn hwynt os torent ef: ac y mae yn debyg fod penaeth pob teulu yn ysgrifenu ei enw yn ei waelod ef ar ran y teulu hwnw. *Ac yn ei ysgrifenu*—fel y byddai ar gael yn barhaus, ac yn dystiolaeth yn eu herbyn hwynt os torent ef: ac y mae yn debyg fod penaeth pob teulu yn ysgrifenu ei enw yn ei waelod ef ar ran y teulu hwnw. *Ac yn ei ysgrifenu*—fel y byddai ar gael yn barhaus, ac yn dystiolaeth yn eu herbyn hwynt os torent ef: ac y mae yn debyg fod penaeth pob teulu yn ysgrifenu ei enw yn ei waelod ef ar ran y teulu hwnw.

PEN. X. Adn. 1—27. *A'r rhai a seliodd*] Yn eu henwau eu hunain, ac yn enw y lleill oll; *oedd Nehemiah*—yn gyntaf, fel eu *Tirsatha* neu eu llywodraethwr; a *Zidciah*—yr hwn y meddylir ei fod yn *dywysog* nesaf at Nehemiah. Yna y canlyn yr offeriaid, adn. 2—8; wedi hyn y *Lefiaid*, adn. 9—13; ac yn olaf *penaethiaid* y bobl, adn. 14—27. Y

mae yn hynod nad oes yma un crybwylliad am *Ezra*, nac am *Eliasib* yr archofferiaid, nac am un o'r *proffwydi*, er y rhaid fod rhai o honyr hwythau yn Jerusalem y pryd hyn; ond yr oeddynt yn ddiamau yn cael eu cynrychioli gan rai o'r selyddion uchod.

Adn. 28. *A'r rhan arall o'r bobl*] Y rhai ni roddasat eu henwau a'u seliau wrth y cyfarnnod uchod; a *phawb a'r a ymneillduasent oddiwrth bobl y gwledydd at gyfraith Dduw*—sef y prosllytiaid o blith y Cenedloedd, yn nghyda'u teuluoedd.

Adn. 29. *Hwy a lymasant wrth eu brodyr, eu penaethiaid*] Y mae penaethiaid y werin yn cael eu galw yma yn *brodyr* iddynt, am fod y tylawd a'r cyfoethog yn cydgyfarfod yn mhethau Duw, heb neb yn uwch nac yn is na'u gilydd; ac a *aethant mewn rhaih a llw*—Saes., 'mewn melliith a llw.' Y mae yn debyg iddynt dyngu trwy *llw* y byddai iddynt rodio yn mhob peth yn ol cyfraith yr Arglwydd, gan alw am ei *felldith* ef arnynt os troseddent hi.

Adn. 30. *Ac ar na roddem ein merched*] Na'n meibion, i ymbriodi a'r Cenedloedd cymydogaeithol.

Adn. 31. *Na phrynem ddim ganddynt ar*

both, neu ar y dydd santiaid; ac y gadawem heibio y seithfed flwyddyn, a chodi pob dyled.

32 A ni a osodasom arnom ddeddfau, ar i ni roddi traian siel yn y flwyddyn, tuag at wasanaeth tŷ ein Duw ni,

33 A thuag at y bara gosod, a'r bwyd-offrwm gwastadol, a thuag at y poeth-offrwm gwastadol, y sabbothau, y newydd-loerau, a'r gŵyliau arbenig, a thuag at y cysegredig *bethau*, a thuag at y pech-ebyrth, i wneuthur cymod dros Israel; a *thuag* at holl waith tŷ ein Duw.

34 A ni a fwriasom goelbrenau yr offeiriad, y Lefiaid, a'r bobl, am goed yr offrwm, fel y dygent *hwylt* i dŷ ein Duw ni, yn ol tai ein tadau ni, ar amserau nodedig, o flwyddyn i flwyddyn, i'w llosgi ar allor yr

Arglwydd ein Duw, fel y mae yn ysgrifenedig yn y gyfraith:

35 Ac i ddwyn blaenffrwyth ein tir, a blaenffrwyth o bob ffrwyth o bob pren, o flwyddyn i flwyddyn, i dŷ yr Arglwydd:

36 A'r rhai cyntafanedig o'n meibion, ac o'n hanifeiliaid, (fel y mae yn ysgrifenedig yn y gyfraith,) a chyntafanedigiou ein gwartheg, a'n defaid, i'w dwyn i dŷ ein Duw, at yr offeiriad sydd yn gwasanaethu yn nhŷ ein Duw ni.

37 A blaenion ein toes, a'n hoffrymau, a ffrwyth pob pren, gwin ac olew, a ddygem at yr offeiriad i gelloedd tŷ ein Duw, a degwm ein tir i'r Lefiaid; fel y cai y Lefiaid hwythau ddegwm trwy holl ddinasoedd ein llafur ni.

38 A bydd yr offeiriad, mab

y sabbath] Y mae yn debyg nad oedd yr Iuddewon eu hunain yn *gwerthu* dim ar y sabbath y pryd hyn, ond hwy a *brynt* luniaeth gan y Cenhedloedd ar y dydd hwnw; a cheisai Nehemiah attal hyn trwy y cyfanmod hwn: ond gorfu iddo ef wedi hyn arfer moddion mwy awdurdodol i attal y drwghwnw, pen. xiii. 15, &c. *Neu ar y dydd santiaid*—y gŵyliau sefydlog, megys y pasc, y pentecost, &c. *Ac y gadawem heibio y seithfed flwyddyn*—neu y flwyddyn sabbthol, heb lasurio y ddaear, yn ol y gyfraith: gwel ar Exod. xxiii. 10, 11, Lef. xxv. 2—7. *A chodi pob dyled*—gadawent hyn hefyd heibio, fel yr oedd y gyfraith yn gorchymyn, Deut. xv. 2.

Adn. 32. *Ar i ni roddi traian siel yn y flwyddyn*] Sef y drydedd ran o siel, yr hyn oedd yn cyfateb i 10c. o'n harian ni; *tuag at wasanaeth tŷ ein Duw ni*—i brynu y bara gosod, yr offrwm, a phob peth arall angenrheidiol at wasanaeth y deml, adn. 33. Yn ol y gyfraith, Exod. xxx. 11—16, yr oedd pob un dros 20 mlwydd oed i roddi *hanner siel*, neu 15c., at wasanaeth y cysegr, yr hyn a elwid yn *iaen am eu heinioes*. Ond paham y mae y *drydedd ran* yn cael eu haddaw yn awr, yn lle yr *hanner siel* ag yr oedd y gyfraith yn ei ofyn? Dichon mai am fod *tylddi* y bobl, o herwydd eu casthied diweddar, a'u trethoedd presenol i frenin Persia, yn eu hanalluogi i roddi chwaneg; ac yr oedd y tylawd a'r cyfoethog yn gorfod rhoddi yr *un faint*, trwy fod y rhodd hon i 'wneuthur cymod dros eu heneidiau,' a bod enaid y naill mor werthfawr âg enaid y llall, ac yn sefyll mewn cymaint angen am *gymod*.

Adn. 33. *A thuag at y bara gosod*] Gwel ar Lef. xxiv. 5—9; *a'r bwyd-offrwm gwastadol*—yr hwn oedd yn dilyn y *poeth-offrwm gwastadol*, sef yr oen bob bore a hwyr, Exod. xxix. 38—42; *y sabbothau, y newydd-loerau a'r gŵyliau arbenig*—pryd yr oedd aberthi-

au chwanegol yn cael eu hoffrynu, Num. xxviii. 9, &c.; *y cysegredig bethau*—megys llestri y deml, gwisgoedd yr offeiriad, &c.; *y pech-ebyrth*—ar ddydd y cymod; *a thuag at holl waith tŷ ein Duw*—pob peth arall angenrheidiol, er nad enwir ef yma.

Adn. 34. *A ni a fwriasom goelbrenau—am goed yr offrwm*] I losgi yr aberthau ar yr allor, a'i gadw y tân heb byth ddfioddi arni. Yr oedd y coed hyn gynt yn cael eu darparu gan y Nethiniaid, neu liliogaeth yr hen Gibeoniaid, y rhai a elwid yn 'gymynwyr coed i'r gynulleidfa,' Jos. vi. 27; ond trwy fod y rhan fwyaf o'r rhai hyn ond odid wedi aros ar ol yn Babilon, ac nad oedd digon o honynt yn awr at y gwaith hwn, gwelwyd fod yn angenrheidiol rhanu y gwaith hwn rhwng yr offeiriad, y Lefiaid, a'r bobl, a phenderfynwyd trwy goelbren pwy oedd i ddwyn coed am yr wythnos neu y mwy cyntaf, a phwy am yr ail, &c., o flwyddyn i flwyddyn. *Fel y mae yn ysgrifenedig yn y gyfraith*—gwel ar Lef. vi. 12, 13.

Adn. 35. *Ac i ddwyn blaenffrwyth ein tir, &c.*] Nid bwrw coelbren am hyn yr oeddnt, ond pawb yn ymrwymo trwy y llw uchod (adn. 29) i ddwyn y blaenffrwythau hyn i dŷ yr Arglwydd yn gydwybodol bob flwyddyn: gwel ar Lef. xix. 24.

Adn. 36. *A'r rhai cyntafanedig, &c.*] Gwel y gyfraith hon, a'r rhesymau am dani, Exod. xiii. 2—13.

Adn. 37. *A blaenion ein toes*] Neu y deisen gyntaf, yr hon oedd i fod yn offrwm dyrchafael i'r Arglwydd, Num. xv. 20, 21. *I gelloedd tŷ ein Duw*—i'w cymeryd oddiyno gan yr offeiriad fel y byddai yr angen am danynt. *A degwm ein tir i'r Lefiaid*—gwel ar Num. xviii. 21, &c.

Adn. 38. *A bydd yr offeiriad, mab Aaron, gyfca'r Lefiaid*] Fel yr oedd y bobl yn rhoddi degwm eu tir i'r Lefiaid, felly yr oedd y Lefiaid

Aaron, gyda'r Lefiaid, pan fyddo y Lefiaid yn degymu: a dyged y Lefiaid i fyny ddegfed ran y degwm i dŷ ein Duw ni, i'r celloedd yn y trysordy.

39 Canys meibion Israel a meibion Lefi a ddygant ofirwm yr ŷd, y gwin, a'r olew, i'r ystafelloedd, lle y mae llestri y cysegr, a'r offeiriad sydd yn gweini, a'r porthorion, a'r cantorion; ac nac ymwrthodwn â thŷ ein Duw.

PENNOD XI.

A THYWYSOGION y bobl a drigasant yn Jerusalem: a'r rhan arall o'r bobl a fwriasant goelbrenau iddwy'n un o'r deg i drigo yn Jerusalem y ddinas santaidd, a naw rhai i fod yn y dinasoedd ereill

2 A'r bobl a fendithiasant yr holl wŷr a ymrodasant yn ewyllysgar i breswyllo yn Jerusalem.

3 ¶ A dyma benaethiaid y dal-aeth, y rhai a drigasant yn Jerus-

alem: ond yn ninasoedd Judah pawb a drigasant yn eu meddiant o fewn eu dinasoedd, sef Israel, yr offeiriad, a'r Lefiaid, a'r Nethiniaid, a meibion gweision Solomon.

4 A rhai o feibion Judah, ac o feibion Benjamin a drigasant yn Jerusalem. O feibion Judah; Athaiah mab Uzziab, fab Zechariah, fab Amariah, fab Sephatiah, fab Mahalaleel, o feibion Peres;

5 Maasciah hefyd mab Baruch, fab Colhoseh, fab Hazaiah, fab Adaiah, fab Joiarib, fab Zechariah, fab Siloni.

6 Holl feibion Peres y rhai oedd yn trigo yn Jerusalem, oedd bedwar cant ac wyth a thriugain o wŷr grymus.

7 A dyma feibion Benjamin; Salu mab Mesulam, fab Joed, fab Pedaiab, fab Colaiab, fab Maascia, fab Ithiel, fab Jesaiah.

8 Ac ar ei ol ef Gabbai, Salai; naw cant ac wyth ar hugain.

9 A Joel mab Zichri oedd swydd-

hyn gael ei wneuthur cyn gorphen adeiladu y mur.

Adn. 2. *A'r bobl a fendithiasant yr holl wŷr a ymrodasant yn ewyllysgar*] Heb eu gorfodi i breswyllo yn Jerusalem trwy goelbrenau, fel yr un o bob deg uchod; hyny yw, canmolasant hwy yn fawr am eu hunan-ymwadiad, a gweddiasant am i Dduw eu bendithio a'u llwyddo.

Adn. 3. *A dyma benaethiaid y dal-aeth*] Sef Judea, yr hon oedd yn awr wedi ei gwneyd yn dal-aeth o amherodraeth Persia. Ceir cryn wahaniaeth rhwng y daflen hon a'r un a geir yn 1 Cron. ix. 2, &c. Yno ni chyfrifir neb ond y rhai a ddaethent gyntaf gyda Zorobabel; eithr yma cynwysir hefyd y rhai a ddaethent gydag Ezra a Nehemiah. Ond yn ninasoedd Juda pawb a drigasant yn eu meddiant—sef pawb a'r ni syrthiodd y coelbren arnynt, neu na ddaethant i Jerusalem o'u gwirfodd eu hunain. Sef Israel—y cyffredinolrwydd o bobl Israel, pa un bynag ai o Juda a Benjamin, ynte o ryw lwyth arall. Yr offeiriad, a'r Lefiaid, a'r Nethiniaid—nid oedd y rhai hyn yn cael eu gorfodi i drigo yn Jerusalem ond ar amser eu gwasanaeth; na 'meibion gweision Solomon' chwaith, am y rhai gwel ar Ezra ii. 55—58.

Adn. 4—6. *A rhai o feibion Judah ac o feibion Benjamin*] I'r ddau lwyth hyn y perthynai Jerusalem ar y cyntaf; a thriogodd rhai o honnynt yn yr awr trwy goelbren, a rhai yn wirfoddol. O feibion Judah—oll yn 468 o wŷr grymus, heb son am eu gwagedd a'u plant.

Adn. 7, 8. *A dyma feibion Benjamin*] Oll yn 928, heb son am eu gwagedd a'u plant.

ADN. XI. Adn. 1. *A thywysogion y bobl a drigasant yn Jerusalem*] y gyflawni eu swyddau yno, i amddiffyn y ddinas, ac er siampl i'r bobl, i'w tynu hwythau i drigo yno. A'r rhan arall o'r bobl—y rhai a garent drigo yn ninasoedd y wlad, er mwyn llonyddwch, ac er mwyn dylyn bugeilwaith ac amaethyddiaeth; a fwriasant goelbrenau—ar ddyuniad Nehemiah a'r thywysogion; i ddwyn yn o'r deg i drigo yn Jerusalem—sef un o bob deg o'r Iuddewon, fel y byddai pobl-ogrwydd y ddinas yn ddigonol er amddiffyniad iddi; y ddinas santaidd—yr hon oedd wedi ei neillduo gan Dduw i'w deml, a'i enw, a'i addoliad santaidd ef fod ynddi; a naw rhan i fod yn y dinasoedd ereill—y rhai a berthynai iddynt yn y wlad. Tybia rhai i

og arnynt hwy: a Judah mab Senuah yn ail ar y ddinas.

10 O'r offeiriaid: Jedaiah mab Joiarib, Jachin.

11 Seraiah mab Hilciah, fab Mesulam, fab Sadoc, fab Meraioth, fab Ahitub, blaenor tŷ Dduw.

12 A'u brodyr y rhai oedd yn gweithio gwaith y tŷ, *oedd* wyth cant a dau ar hugain: ac Adaiah mab Jeroham, fab Pelaliah, fab Amsi, fab Zechariah, fab Pasur, fab Malchiah,

13 A'i frodyr, penau cenedl, dau cant a dau a deugain: ac Amasai mab Azareel, fab Ahazi, fab Mesilemoth, fab Immer,

14 A'u brodyr hwynt, yn gedyrn o nerth, *oedd* gant ac wyth ar hugain: a Zabdiel mab Haggadolim yn swyddog arnynt.

15 Ac o'r Lefiaid: Semaiah mab Hasub, fab Azricum, fab Hasabiah, fab Bunni.

16 Sabbethai hefyd, a Jozabad o bennaethiaid y Lefiaid, *oedd oruckaf* ar y gwaith o'r tu allan i dŷ Dduw.

17 Mattaniah hefyd mab Micha, fab Zabdi, fab Asaph, *oedd benaf* i ddechreu tâl diolch mewn gweddi;

a Baucuchiah yn ail o'i frodyr; ac Abda mab Sammua, fab Galal, fab Jeduthan.

18 Yr holl Lefiaid yn y ddinas santaid, *oedd* ddau cant a phedwar a phedwar ugain.

19 A'r porthorion, Accub, Talmon, a'u brodyr yn cadw y pyrth, *oedd* gant a deuddeg a thriugain.

20 ¶ A'r rhan arall o Israel, o'r offeiriaid ac o'r Lefiaid *a drigent* yn holl ddinasoedd Judah, pob un yn ei etifeddiaeth.

21 Ond y Nethiniaid oeddynt yn aros yn y tŵr; Siha a Gispa *oedd* ar y Nethiniaid.

22 A swyddog y Lefiaid yn Jerusalem, *oedd* Uzzi mab Bani, fab Hasabiah, fab Mattaniah, fab Micha: o feibion Asaph, y cantorion *oedd* ar waith tŷ Dduw.

23 Canys gorchymyn y brenin am danynt hwy *oedd*, *fod* ordinhad safadwy i'r cantorion, dogu dydd yn ei ddydd.

24 A Phethahiah mab Meseza-beel, o feibion Zerach mab Judah, *oedd* wrth law y breuin yn mhob peth *a berthynai* i'r bobl.

25 Ac am y trefydd a'u maesydd,

Felly yr oedd mwy o wirfoddolwyr o'r llwyth hwn nag o Juda, trwy fod y rhan fwyaf o'r ddinas ond odid yn perthyn iddynt.

Adn. 9. *A Joel mab Zichri oedd swyddog arnynt hwy*] Fel eu prif yvad neu eu cadfridog; a *Juda*—yn nesaf ato ef mewn awdurdod.

Adn. 10, 11. *O'r offeiriaid*] Gwel ar l Cron. ix. 10, 11.

Adn. 12. *A'u brodyr y rhai oedd yn gweithio gwaith y tŷ*] Yn aberthu, arogldartha, goleuo y lampau, &c.

Adn. 13. *A'i frodyr*] Sef brodyr neu geraint Adaiah; *penau cenedl*—y tadau, neu y prif ddynion yn eu plith.

Adn. 14. *A'u brodyr hwynt*] Sef brodyr Adaiah ac Amasai; *yn gedyrn o nerth*—yn hynod am eu cryfder corfforol a'u gwroldeb millwrol.

Adn. 15. *Ac o'r Lefiaid*] Yr oedd 284 yn trigo yn Jerusalem, adn. 18.

Adn. 16. *Y gwaith o'r tu allan i dŷ Dduw*] Megys gofalu am gyweiriadau allanol y deml, ac am orchwyllion y cynteddoedd, darparu yr ebyrth at wasanaeth yr offeiriaid, dwyn i mewn yr offrymau o bob man, &c.

Adn. 17, 18. *I ddechreu tâl diolch mewn gweddi*] Hyn yw, Mattaniah oedd y blaengainiad, neu arweinydd y gân, yn amser y weddi a'r mawla ddylynent yr aberthau boreol a hwyrol yn wastadol; canys yr oedd y salmau a'r emynau a genid, yn weddi, diolch-garwch, a mawl ar unwaith.

Adn. 19. *A'r porthorion*] Gwel ar l Cron. ix. 17—32.

Adn. 20. *A'r rhan arall o Israel*] Gwel ar adn. 3; *a drigent yn holl ddinasoedd Juda*—lle yr oedd ganddynt eu hetifeddiaeth; tra yr oedd eu brodyr uchod yn cartrefu yn Jerusalem.

Adn. 21. *Ond y Nethiniaid*] Gwel ar pen. iii. 26; *oeddynt yn aros yn y tŵr*—sef tŵr *Ophel*, yr hwn oedd ar fur Jerusalem, ac felly yr oeddynt yn gyfleus at wasanaeth iselaf y deml.

Adn. 22. *A swyddog y Lefiaid*] Neu eu *hesgob* hwynt, fel ei gelwir yn y lxx a'r Vulgate, yr hwn oedd i ofalu eu bod yn gwneyd eu gwaith fel gwasanaethwyr yr offeiriaid. *Y cantorion oedd ar waith tŷ Dduw*—gwel ar l Cron. ix. 33.

Adn. 23. *Canys gorchymyn y brenin*] Sef brenin Persia, yn ol rhai, Ezra vi. 9, 10; neu y brenin Dafydd, yn ol ereill, pen. xii. 24; *fod ordinhad safadwy*—sef cyfrau neu ddogon penodol at eu cynaliath hwy bob dydd.

Adn. 24. *Oedd wrth law y brenin yn mhob peth*] I lefaru wrth y brenin dros y bobl, ac wrth y bobl dros y brenin. Yr oedd yn fantais fawr i'r bobl gael un o'u cenedl eu hunain i gyfyngu rhyngddynt a brenin Persia. Meddylir ei fod yn cartrefu yn Jerusalem, ac mai efe oedd yn gosod ac yn casglu y deyrnged.

Adn. 25—30. *Rhai o feibion Juda a drigasant yn Nghaer Arba*] Neu Hebron, Jos.

rhai o feibion Judah a drigasant yn Nghaer Arba a'i phentrefi, ac yn Dibon a'i phentrefi, ac yn Jecabseel a'i phentrefi,

26 Ac yn Jesua, ac yn Moladah, ac yn Beth-phelet,

27 Ac yn Hasar-sual, ac yn Beerseba a'i phentrefi,

28 Ac yn Siclag, ac yn Mechonah, ac yn ei phentrefi,

29 Ac yn En-rimmon, ac yn Sa-reah, ac yn Jarmuth,

30 Zanoah, Adulam, a'u trefydd, Lachis a'i maesydd, yn Azecah a'i phentrefi. A hwy a wladychasant o Beerseba hyd ddyffryn Hinnom.

31 A meibion Benjamin o Geba a drigasant yn Michmas, ac Aia, a Bethel, a'u pentrefi,

32 Yn Anathoth, Nob, Ananiah,

33 Hasor, Ramah, Gittain,

34 Hadid, Seboim, Nebelat,

35 Lod, ac Ono, glŷn y crefftwyr.

36 Ac o'r Lefaid yr oedd rhanau yn Judah, ac yn Benjamin.

xiv. 15; ac yn Dibon a'i phentrefi—gwel rai o'r dinasoedd hyn yn cael eu crybwyll yn Jos. xv; ac y mae yn debyg en bod oll o fewn y terfynau a roddwyd ar y cyntaf i lwyth Juda, a bod y rhai na enwir yno wedi cael eu had-eiladu ar ol dyddiau Josua.

Adn. 31—34. *A meibion Benjamin*] Trig-odd y rhai hyn yn y rhandira roddwyd iddynt hwythau yn amser Josua, a chawn rai o'r trefydd hyn befyr yn cael eu henwi yn Jos. xviii.

Adn. 35. *Lod ac Ono*] Adeiladwyd y dinasoedd hyn gan fab Elpaal, 1 Cron. viii. 12. *Glŷn y crefftwyr*—neu *Glŷn Charasim*, fel y gelwir ei yn y Saesonaeg yn 1 Cron. iv, 14.

Adn. 36. *Ac o'r Lefaid*] Nad oeddnynt yn trigo yn Jerusalem; yr oedd rhanau yn Juda ac yn Benjamin—gwasgarwyd nwynt yn mhllith y ddau lwyth, fel y gallent hyfforddi y bobl mewn crefydd a moesau da.

PEN. XII. Adn. 1—7. *Dyma hefyd yr offeiriad*] Sef penaethiaid yr offeiriad, nen, fel y tybia rhai, penau y 24 dosbarth a sefydlwyd gan Dafydd, 1 Cron. xxiv. 3, &c. Modd bynag nid oes yma ond 22 yn cael eu henwi, am nad oedd y rhestr ond odid yn llawn eto. *Y rhai a ddaethant i fyny gyda Zorobabel*—ac a oeddnynt yn offeiriad dan Jesua. gwel ar Ezra ii. 2. *Ezra*—gwel ar Ezra vii. 6.

Adn. 8, 9. *A'r Lefaid—oedd ar y gerdd*] Yn edrych ar fod y salmau o ddiolchgarwch yn cael eu canu yn barhaus ac yn weddaidd yn y deml: gwel ar pen. xi. 17, 18. *Eubrodyr hwynt oedd ar eu cyfer yn y gwyliadwriaethau*—tybia rhai mai yr ystyr yw, fod y ddau yn adn. 9 yn sefyll ar gyfer y rhai a enwir adn. 8, i ganu bob yn ail, gan ateb eu

PENNOD XII.

DYMA hefyd yr offeiriad a'r Lefaid, y rhai a ddaethant i fyny gyda Zorobabel mab Selathiel, a Jesua: sef Seraiah, Jeremiah, Ezra,

2 Amariah, Maluch, Hattus,

3 Sechaniah, Rehum, Meremoth,

4 Ido, Ginnetho, Abiah,

5 Miamin, Maadiah, Bilgah,

6 Semaiah, a Joiarib, Jedaiah,

7 Salu, Amoc, Hilciah, Jedaiah:

dyma benaethiaid yr offeiriad, a'u brodyr yn nyddiau Jesua.

8 A'r Lefaid: Jesua, Binnui, Cadmiel, Serebiah, Judah; a Mat-taniah oedd ar y gerdd, efe a'i frodyr.

9 Bacbuciah hefyd ac Unni, eu brodyr hwynt, oedd ar eu cyfer yn y gwyliadwriaethau.

10 ¶ A Jesua a genhedlodd Joiacim, a Joiacim a genhedlodd Eliasib, ac Eliasib a genhedlodd Joiada,

11 A Joiada a genhedlodd Jona-

gilydd, yn y deml yn ngwyliadwriaethau y nos; tra y tybia ereill mai yr ystyr yw, fod y naill blaid yn cadw gwyliadwriaeth y pyrth tra y byddai y lleill yn canu, ac felly bob yn ail.

Adn. 10, 11. *A Jesua*] Neu Josua yr arch-offeiriad; a genhedlodd Joiacim, &c.—yn y ddwy adnod hyn cawn banes y chwech arch-offeiriad cyntaf ar ol y dychweliad o Babilon. *Jonathan*—yr bwn hefyd a elwir Johanan, adn. 22, 23; a genhedlodd Judua—tybir yn gyffredin mai y Judua hwn oedd yr archoffeiriad yn amser Alexander Fawr, yr hwn, gyda'i frodyr, a aeth i gyfarfod â'r buddugoliaethwr hwnw yn ei wisgoedd archoffeiriadol, fel yr oedd efe yn nesau i ddinystrio Jerusalem, ar ol gorchfygu Tyros a Gaza: a dywed Josephus iddo ef gael ei daraw yn y fath fodd gan yr olwg fawreddog ar yr archoffeiriad, fel ag y darfu iddo arbed y ddinas, ymgrymu o flaen Jadua, addoli Jehofa yn y deml, a chaniatau llawer o freintiau i'r Iuddewon. Yr oedd y gofrestr hon o'r archoffeiriad yn fwy angenrheidiol i'r Iuddewon, am fod eu hamser hwy i gael ei fesur yn awr, nid wrth flynyddoedd eu brenhinoedd fel yn yr oesoedd gynt, ond wrth eu harchoffeiriad.

Adn. 12—21. *Ac yn nyddiau Joiacim*] Yr hwn oedd fab i Josua, a'r ail archoffeiriad; yr offeiriad hyn oedd benau cenedl—wedi i'r banesydd grybwyll enwau y rhai oeddnynt benaethiaid yr offeiriad yn nyddiau Jesua, adn. 1—7, y mae efe yn awr yn crybwyll meibion y rhai hyny, y rhai a weinyddent yn nyddiau Joiacim mab Jesua, naill ai fel cynorthwywyr i'w tadau, neu fel eu hollynwyr hwynt ar ol iddynt farw.

than, a Jonathan a genhedlodd Jadua.

12 Ac yn nyddiau Joiacim, yr offeiriad *hyn* oedd benau cenedl: o Seraiah, Meraiah; o Jeremiah, Hananiah;

13 O Ezra, Mesulam; o Amariah, Jehohanau;

14 O Melichu, Jonathan; o Sebastianah, Joseph;

15 O Harim, Adna; o Meraioth, Helcal;

16 O Ido, Zechariah; o Ginethon, Mesulam;

17 O Abiah, Zichri; o Miniamin, o Moadiah, Piltai;

18 O Bilgah, Sammua; o Semai-ah, Jehonathan;

19 Ac o Joiarib, Mattenai; o Jedaiah, Uzzi;

20 O Salai. Calai; o Amoc, Eber;

21 O Hilciah, Hasabiah; o Jedaiah, Nethanceel.

22 ¶ Y Lefiaid yn nyddiau Eliasib, Joiada, a Johanan, a Jadua, oedd wedi eu hysgrifenu yn benau

cenedl: a'r offeiriad hyd deyrnasiad Darius y Persiad.

23 Meibion Lefi, *y penau cenedl*, oedd wedi eu hysgrifenu yn llyfr y croniclau, hyd ddyddiau Johanan mab Eliasib.

24 A phenaethiaid y Lefiaid, oedd Hasabiah, Serebiah, a Jesua mab Cadmiel, a'u brodyr ar eu cyfer, i ogoneddu *ac* i foliannu, yn ol gorchymyn Dafydd gŵr Duw, gwyliadwriaeth ar gyfer gwyliadwriaeth.

25 Mattaniah, a Bebcuchiah, Obadiah, Mesulam, Talmon, Accub, a oedd borthorion, yn cadw gwyliadwriaeth wrth drothwyau y pyrth.

26 Y rhai hyn oedd yn nyddiau Joiacim mab Jesua, fab Josadac, ac yn nyddiau Nehemiah y tywysog, ac Ezra yr offeiriad a'r ysgrifenydd.

27 ¶ Ac yn nghysegriad mur Jerusalem y ceisiasant y Lefiaid o'u holl leoedd, i'w dwyn i Jerusalem, i wneuthur y cysegriad â gorfolodd, mewn diolchgarwch, ac mewn

Adn. 22. *Y Lefiaid yn nyddiau Eliasib, Joiada, a Johanan, a Jadua*] Sef yn nyddiau y pedwar archeffeiriad olaf o'r chwech uchod, adn. 10, 11; oedd wedi eu hysgrifenu yn benau cenedl—y rhai a enwir isod; a'r offeiriad hyd deyrnasiad Darius—yn chwau-egol at y rhestr yn adn. 12—21. Tybia rhai mai Darius Codomanus, brenin olaf Persia, oedd hwn; ond os felly, rhaid fod yr adnod hon wedi ei chwangu ar ol dyddiau Nehemiah, fel y gwnaed yn fynych gan ereill dan ddwyfrol arweinid. Tybia ereill mai Darius Nôthus ydoedd, yr hwn oedd yn teyrnasu 88 o flynyddoedd o'i flaen ef, yn nyddiau yr hwn, fel y tybia Usher, y ganed Jadua.

Adn. 23. *Yn llyfr y croniclau*] Nid llyfrau y Cronicleu yn ein Beiblau ni a feddylir, eithr rhyw gofnyf arall ag sydd yn awr wedi ei gollu, lle yr ysgrifenedd enwau dynion nodedig o amrai urddau a swyddau.

Adn. 24. *I ogoneddu ac i foliannu*] Y tri hyn a'u brodyr oeddnt brif gantorion y deml, i foliannu yn ol gorchymyn Dafydd gynt; gwyliadwriaeth ar gyfer gwyliadwriaeth—neu y naill ddoesbarth ar ol y llall yn olynol: gwel ar adn. 9, a 1 Cron. xxiii. 5, 6.

Adn. 25. *Yn cadw gwyliadwriaeth wrth drothwyau y pyrth*] Sef pyrth y deml, rhag i neb gwaharddedig neu halogedig fyned i mewn.

Adn. 26. *Y rhai hyn oedd yn nyddiau Joiacim, &c.*] Yr oedd Joiacim, Nehemiah, ac Ezra yn gydoeswyr; ac yn eu dyddiau hwy yr oedd y cantorion a'r porthorion a enwyd uchod yn gwasanaethu.

Adn. 27. *Ac yn nghysegriad mur Jerusalem*

em] Yr hyn ond odid a gymerodd le yn ebrwydd ar ol ei orphen ef, cyn i Nehemiah ddy-chwelyd i Susan at frenin Persia; *y ceisiasant y Lefiaid*—i Jerusalem, o bob man lle yr oedd- ynt yn cartrefu; *i wneuthur y cysegriad â gorfolodd*—mewn modd teilwng o'r fath waith mawr, ac o'r fath ddinas santaidd, adn. 43; *mewn diolchgarwch*—i Dduw am eu cynorth- wyo hwynt i'w orphen ef yn y fath amser byr, pen. vi. 15, 16; *ac mewn cân*—gyda'u lleis- iau, a chydaf' offerynau a enwir yma. Y mae yn debyg fod hwn yn gysegriad nid yn unig o'r mur, ond hefyd o'r holl ddinas at wasanaeth Duw; oblegid gan yr arferai yr Iuddewon gy- segru tŷ newydd unigol, pa faint mwy y ddinas oll, ac yn enwedig y ddinas santaidd Jerusa- lem? Arferai yr henafiaid gysegru eu *dinas- oedd* i'r duwian, ac ystwyd hyd yn nod eu *muriau* yn gysegredig. Dyrr *Ovid* i ni hanes y defodau a gymerasant le ar sylfaeniad dinas *Rhufain* gan *Romulus*. Ar y dydd penodol cloddiwyd ffos, i ba un y bwriwyd firwythau y tymhor; ac wedi ei chau i fyny â phridd, adeiladwyd allor arni, ffamiau pa un a'i holltas- ant yn ddau. Yna *Romulus*, gan ymafild mewn arad, wrth yr hon yr oedd annera tharu o liw yr eira, a dynodd gŵys oddiamgylch i nodi lle y muriau. Ac fel hyn y gweddiodd y brenin, 'O Jupiter, a'r tad Mars, a'r ffan Vesta, llwyddwch fi yn sylfaeniad y ddinas hon! A chwithau yr holl dduwiau, dyneswech, pwy bynag y mae yn weddus gweddio arno! Boed i'r adeilad godi dan eich nawdd chwi; boed iddi barhau am oesoedd dirif, a bod yn feistres y byd; a bydded y dwyrain a'r gor- llewin dan ei llywodraeth!'

cân, â symbalan, nablau, ac â thelynau.

28 A meibion y cantorion a ymgynullasant o'r gwastadedd o amgylch i Jerusalem, ac o drefydd Netophathi,

29 Ac o dŷ Gilgal, ac o faesydd Geba ac Azmafeth: canys y cantorion a adeiladasent bentrefi iddynt o amgylch Jerusalem.

30 Yr offeiriaid hefyd a'r Lefiaid a ymlanhasant; glanhasant hefyd y bobl, a'r pyrth, a'r mur.

31 A mi a berais i dywysogion Judah ddringo ar y mur; a gosodais ddwy *shintai* fawr o rai yn molianu; a mynediad *y naill oedd* ar y llaw ddeau ar y mur tua phorth y dom:

32 Ac ar eu hol hwynt yr aeth Hosaiah, a hanner tywysogion Judah,

33 Azariah hefyd, Ezra, a Mesulam,

34 Judah, a Benjamin, a Semaiah, a Jeremiah,

35 Ac o feibion yr offeiriaid âg

udgyrn, Zechariah mab Jonathan, fab Semaiah, fab Mattaniah, fab Michaiah, fab Zaccur, fab Asaph;

36 A'i frodyr ef, Semaiah, ac Azarael, Milalai, Gilalai, Maai, Nethaneel, a Judah, Hanani, âg offer cerdd Dafydd gŵr Duw, ac Ezra yr ysgrifenydd o'u blaen hwynt.

37 Ac wrth borth y ffynnon, yr hon *oedd* ar eu cyfer hwynt, y dringasant ar risiau dinas Dafydd yn mringfa y mur, oddiar dŷ Dafydd, hyd borth y dwfr tua'r ddwyrain.

38 A'r ail *shintai* o'r rhai oedd yn molianu, oedd yn myned ar eu cyfer hwynt, a minau ar eu hol; a hanner y bobl *oedd* ar y mur, oddiar dŵr y ffyrnau, hyd y mur llydan;

39 Ac oddiar borth Ephraim, ac oddiar yr hen borth, ac oddiar borth y pysgod, a thŵr Hananeel, a thŵr Meah, hyd borth y defaid; a hwy a safasant yn mhorth y wyliaidwriaeth.

40 Felly y ddwy *shintai*, y rhai

Adn. 28, 29. *A meibion y cantorion a ymgynullasant*] I Jerusalem o'r holl ddinas oedd lle yr oeddynt yn cartrefu; ac o'r pentrefi a adeiladasent hwy o amgylch Jerusalem, fel y byddent yn agos i'w gwaith pan ddeuai eu tro i wasanaethu yn y deml.

Adn. 30. *Yr offeiriaid hefyd a'r Lefiaid a ymlanhasant*] Trwy olchi eu cyrff a'u dillad, taenellu arnynt ddwfr puredigaeth, eillio eu holl gnawd, offrymu gweddiau ac aberthau, ac ymatal oddiwrth bob peth halogedig: gwel ar Num. viii. 7, &c. *Glanhasant hefyd y bobl, a'r pyrth, a'r mur*—trwy eu taenellu â dwfr puredigaeth, a symud pob aflendid oddiwrthynt.

Adn. 31. *A mi a berais i dywysogion Judah ddringo ar y mur*] Yr hwn oedd yn ddigon llydan a chryf i'r bobl rodio arno; a *gosodais ddwy shintai fawr o rai yn molianu*—i fod hefyd ar y mur; a *mynediad y naill oedd ar y llaw ddeau*—tua phorth y dom: gwel ar pen. ii. 13.

Adn. 32. *Ac ar eu hol hwynt yr aeth Hosaiah*] Yr hwn oedd gadben ar hanner tywysogion Judah, y rhai a ddylyndig y *shintai* flaenaf.

Adn. 33. *Ezra*] Nid Ezra yr ysgrifenydd, canys yr oedd efe o'u blaen hwynt, adn. 36; eithr un o dywysogion Judah, fel y lleill, adn. 32.

Adn. 34. *Judah a Benjamin*] Nid y ddau wrth, eithr dau dywysog o'r enwau hyn.

Adn. 35. *Ac o feibion yr offeiriaid*] Y rhai a leisient mewn udgyrn. Ni yw y rhai hyn yn cael eu henwi, trwy mai un o'r Lefiaid oedd y Zechariah hwn: gwel isod.

Adn. 36. *A'i frodyr ef*] Sef brodyr Zechariah, y rhai a enwir isod; âg offer cerdd Dafydd—gwel ar 1 Cron. xxiii. 5. Trwy nad oedd yr offeiriaid yn arferol o chwareu âg offer cerdd, meddylir yn gyffredin mai Lefiaid oedd Zechariah a'i frodyr, o hiliogaeth Asaph y Lefiaid, y pen cantor gynt. *Ac Ezra yr ysgrifenydd o'u blaen hwynt*—yn arwain y *shintai* o gantorion a thywysogion.

Adn. 37. *Ar risiau dinas Dafydd yn mringfa y mur*] Y ffordd yr elid i fyny i fynydd Seion: ar hyd y grisiau hyn y dringodd y *shintai* hon, i gerdded a chysegru eu rhan hwy o'r mur.

Adn. 38. *A'r ail shintai o'r rhai oedd yn molianu*] Sef yr offeiriaid, y Lefiaid, a'r hanner arall o dywysogion Judah; *oedd yn myned ar eu cyfer hwynt*—neu i'w *cyfarfod* hwy ar y llaw aswy, fel y gallent gerdded a chysegru yr hanner arall o'r mur, a chyfarfod â'u gilydd o flaen y deml ar ol amgylchynu yr holl ddinas. *A minau ar eu hol*—sef Nehemiah, yr hwn oedd yn cerdded ar ol gyda'i gyd-dywysogion, fel yr oedd Ezra yn mlaen gyda'i gyd-offeiriaid, adn. 36. *A hanner y bobl oedd ar y mur*—sef hanner y ddwy *shintai* ar y rhan yma o'r mur; neu ynte hanner yr ail *shintai*, trwy nad oedd y mur yn y rhan yma yn ddigon llydan iddynt oll allu cerdded arno, nes y daethant at y mur llydan.

Adn. 39. *A hwy a safasant yn mhorth y wyliaidwriaeth*] Saes., 'yn mhorth y carchar.' Am y pyrth a'r tyrau a grwbwyllir yn yr adnod hon gwel pen. iii. Gellir meddwl i'r ddwy *shintai* gydgyfarfod yma, ar ol cerdded o amgylch yr holl ddinas.

oedd yn moliannu, a safasant yn nhŷ Dduw, a minau, a hanner y swyddogion gyda mi:

41 Yr offeiriaid hefyd; Eliacim, Maaseiah, Miniamin, Michaiiah, El-ioenai, Zechariah, Hananiah, âg udgyrn;

42 Maaseiah hefyd, a Semaiah, ac Eleazar, ac Uzzi, a Jehohanan, a Malchiah, ac Elam, ac Ezra. A'r cantorion a gasasant yn groch, a Jazrahiah eu blaenor.

43 A'r diwrnod hwnw yr aberthasant ebyrth mawrin, ac y llawenhasant: canys Duw a'u llaweny-chasai hwynt â llawenydd mawr: y gwragedd hefyd a'r planta orfoleddasant: fel y clybuwyd llawenydd Jerusalem hyd yn mhell.

44 ¶ A'r dwthwn hwnw y gosodwyd gwŷr ar gelloedd y trysorau, ar yr offrymau, ar y blaenffrwyth,

ac ar y degymau, i gasglu iddynt hwy o faesydd y dinasoedd y rhanau cyfreithlon i'r offeiriad a'r Lefiaid: canys llawenydd Judah oedd ar yr offeiriad ac ar y Lefiaid y rhai oedd yn sefyll yno.

45 Y cantorion hefyd a'r porthorion a gadwasant wyliadwriaeth eu Duw, a gwyliadwriaeth y glanhad, yn ol gorchymyn Dafydd, a Solomon ei fab.

46 Canys gynt, yn nyddiau Dafydd ac Asaph, yr oedd y pen-cantorion, a chaniadau canmoliaeth a moliant i Dduw.

47 Ac yn nyddiau Zorobabel, ac yn nyddiau Nehemiah, holl Israel oedd yn rhoddi rhanau i'r cantorion, a'r porthorion, dogu dydd yn ei ddydd: a hwy a gysegrasant bethau santiaid i'r Lefiaid; a'r Lefiaid a'u cysegrasant i feibion Aaron.

Adn. 40. *Felly y ddwy fintai—a safasant yn nhŷ Dduw*] Neu yn nghyntedd y deml; canys nid âi neb ond yr offeiriad i mewn i'r cysegr.

Adn. 41. *Yr offeiriad hefyd*] At y rhai y cyfeiriwyd yn adn. 35. *Zechariah*—rhaid mai offeiriad oedd hwn a'i frodyr, er y tybir mai Lefiaid oedd y Zechariah yn adn. 35.

Adn. 42. *A'r cantorion a gasasant yn groch*] Nes yr oedd eu lleisiau a'u hoffer cerdd yn seinio dros yr holl wlad, dan arweiniad Jazrahiah eu blaenor.

Adn. 43. *A'r diwrnod hwnw yr aberthasant ebyrth mawrin*] Neu luosog: ac y llawenhasant—trwy wledda arnynt fel ebyrth bedd, a moliannu Duw am ei ddaioni: canys Duw a'u llaweny-chasai hwynt—trwy adfer y ddinas santiaid i'r fath gyflwr o amddiffyniad a diogelwch. *Y gwragedd hefyd a'r plant a orfoleddasant*—tra yr oedd yr offeiriad yn lleisio mewn udgyrn, a'r Lefiaid yn chwaraeu âg offer cerdd, a'r cantorion yn canu yn groch â'u lleisiau, yr oedd y gwragedd a'r plant yn tori allan mewn sain cân a moliant, gan ddyblu a threblu en 'hosanna' a'u 'haleliwia,' nes yr oedd eu llawenydd a'u gorfoledd hwynt oll i'w glywed o bell ffordd. Fel hyn dylai pawb ag sydd yn cyfranogi o drugareddau cyhoeddus, gyduo yn ddiffuant mewn diolchgarwch cyhoeddus.

Adn. 44. *Canys llawenydd Juda oedd ar yr offeiriad ac ar y Lefiaid*] Yr oedd y bobl wedi en boddhan gymaint yn eu gwasanaeth hwy y dydd hwnw, fel y penderfynasant ofalu am danynt, trwy ddwyn offrymau, blaenffrwythau, a degymau iddynt yn fyddlon: ond buan yr anghofwyd hwy wedi hyn, pen. xiii. 10.

Adn. 45. *Y cantorion a'r porthorion a gadwasant wyliadwriaeth eu Duw*] Neu a gyflawnasant yn fyddlon y wasanaeth a hen-

odasai Duw iddynt trwy Dafydd a Solomon; a gwyliadwriaeth y glanhad—tel na chai neb halogedig fyned i mewn i'r cysegr heb eu glanhau yn ol y gyfraith. Yr ystyr yw, fod y cantorion yn canu yn gyson yn eu tro, a'r porthorion yn gwlylio y pyrth gyda'r manylwch mwyaf.

Adn. 46. *Canys gynt, yn nyddiau Dafydd ac Asaph, &c.*] Dyry yr adnod hon y rheswm paham yr oedd y Lefiaid a'r cantorion yn cyflawni eu swydd mor fanwl; canys o amser Dafydd, yr hwn a osododd eu dosbarthiadau a'u swyddau, yr oedd arolygwr wedi eu gosod arnynt, y rhai a ofalent am ddysgu iddynt eu gwaith, a'u cadw hwynt ato. *A chaniadau canmoliaeth a moliant i Dduw*—Saes., 'caniadau o fawl a diolchgarwch i Dduw,' wedi eu cyfansoddi i'r perwyl hwanw gan Dafydd, Asaph, ac ereill.

Adn. 47. *Ac yn nyddiau Zorobabel, ac yn nyddiau Nehemiah*] Hyny yw, tra yr oedd y ddau dywysog hyn yn fyw, y naill ar ol y llall, ac nid ar ol marwolaeth un o'r ddau; *holl Israel oedd yn rhoddi rhanau i'r cantorion a'r porthorion*—yr oedd yr holl bobl yn cyflawni eu dyledswyddau tuag atynt yn fyddlon a manwl, gan roddi i'r naill a'r llall ddogun dydd yn ei ddydd at eu cynaliath, heb ball nac esgeulusdra. *A hwy a gysegrasant bethau santiaid i'r Lefiaid*—neillduasant y blaenffrwythau a'r degymau i'r Lefiaid; a'r Lefiaid a'u cysegrasant i feibion Aaron—trwy roddi y ddegfed ran o'u degwm i'r offeiriad, pen. x. 38. Yr oedd y cyflwyniad o'r degymau hyn yn cael ei alw yn briodol yn *gysegriad* neu *santeiddiad*, trwy en bod yn cael eu rhoddi i ddynion cysegredig, ac at wasanaeth gysegredig.

PEN. XIII. Adn. 1. *Y dwthwn hwnw*] Saes., 'y dydd hwnw.' Nid dydd cysegriad y mur a'r ddinas a fe'ddyllir; canys prin y gall-

PENNOD XIII.

Y DWTHWN hwnw y darllenwyd yn llyfr Moses lle y clybu y bobl; a chafwyd yn ysgrifenedig ynddo, na ddylai yr Ammoniaid na'r Moabiaid ddyfod i gynulleidfa Duw yn dragywydd;

2 Am na chyfarfuasant â meibion Israel â bara ac â dwfr, eithr cyflogasant Baalam yn eu herbyn i'w melldithio hwynt: eto ein Duw ni a drôdd y felldith yn fendith.

3 A phan glywsant hwy y gyfraith, hwy a neillduasant yr holl rai cymysg oddiwrth Israel.

4 ¶ Ac o flaen hyn, Eliasib yr offeiriad, yr hwn a osodasid ar ys-

tafell tŷ ein Duw ni, oedd gyfathrachwr i Tobiah:

5 Ac efe a wnaeth iddo ef ystafell fawr; ac yno y byddent o'r blaen yn rhoddi y bwyd-offrymau, y thus, a'r llestri, a degwm yr ŷd, y gwin, a'r olew, a orchymynasid eu rhoddi i'r Lefiaid, a'r cantorion, a'r porthorion, ac offrymau yr offeiriad.

6 Ac yn hyn i gyd o amser ni bŵm i yn Jerusalem: canys yn y ddeuddegfed flwyddyn ar hugain i Artaxerxes brenin Babilon y daethym i at y brenin, ac yn mhen *talm* o ddyddiau y cefais genad gan y brenin;

7 Ac a ddaethym i Jerusalem, ac a ddeallais y drygioni a wnaethai

wn feddwl y syrthiai y bobl i'r llygredigaeth a ddanghosir yn y benod hon, mor fuan ar ol yr argoelion daionus yn y benod o'r blaen. Felly ymddengys i'r hyn a ganlyn ddygwydd ar oli Nehemiah fod yn llywodraethu y bobl am 12 mlynedd, yn niwedd pa amser yr aeth efe yr ail waith at frenin Persia: gwel ar adn. 6, pen. ii. 6, a vii. 1, &c. Wedi iddo ddychwelyd i Jerusalem, efe a barhaodd i ddarllen y gyfraith yn gyhoeddus ar amserau penodol, megys ar y gŵyliau sefydlog, pan fyddai yr holl bobl wedi ymgynull yn nghyd: gwel ar pen. viii. *Darllenwyd yn llyfr Moses*—yn Deut. xxiii. 3, 4: gwel y sylwadau, yno. *Na ddylai yr Ammoniaid na'r Moabiaid ddyfod i gynulleidfa Duw yn dragywydd*—yr ystyr yw, nid na chaent ddyfod i addoli yn nghyntedd y Cenhedloedd, ac yn y synagogau; ond na chaent eu derbyn i freintiau yr Iuddewon, ac i fod yn un corff â hwy trwy gysylltiadau priodasol. Nid oedd neb o dŷ Israel i briodi âg un o'r Cenhedloedd, o ba wlad bynag, heb iddo yn gyntaf gael ei broseltyio i'w crefydd hwy; ac hyd yn nod wedi hynny, yr oedd rhai yn cael eu rhwystro am byth, ereill mewn rhan, ac ereill am amser penodol yn unig. O'r math cyntaf yr oedd saith genedl y Canaanaeaid. O'r ail fath yr oedd y Moabiaid a'r Ammoniaid, y rhai yr oedd eu gwrywod yn cael eu cau allan am byth, ond nid eu benywod. Ac o'r trydydd math yr oedd yr Edomiaid a'r Aiffitiaid, y rhai nis gallai yr Iuddewon eu priodi hyd y drydedd genhedlaeth. Ond gyda phawb ereill, y rhai nad oeddynt o'r tri math hyn, gallent briodi yn rhydd pan y deuent yn broseltyiaid trwyadl i'w crefydd hwy: gwel *Dodd, Prid-eaux, &c.*

Adn. 2. *Am na chyfarfuasant â meibion Israel, &c.* [Gwel ar Deut. xxiii. 4, 5.

Adn. 3. *A phan glywsant hwy y gyfraith*] Yr hon oedd yn gwahardd iddynt briodi â'r Cenhedloedd; hwy a neillduasant yr holl rai cymysg oddiwrth Israel—nid yn unig hiliogaeth Ammon a Moab, ond pob cenedl estronol arall ag oedd wedi ymgymysgu âg Israel trwy briodasan. Y mae yn debyg mai gweithred

wirfoddol y bobl oedd hyn, ar ol eu hargyhoeddi fod eu priodas yn groes i'r gyfraith.

Adn. 4. *Ac o flaen hyn*] O flaen yr ysgariad uchod, yr hwn a wnaed ar ol clywed y gyfraith; *Eliasib yr offeiriad*—sef yr archoffeiriad, adn. 28, yr hwn yr oedd llywodraethu y deml a'i hystafelloedd dan ei awurdod; *oedd gyfathrachwr i Tobiah*—yr Ammoniaid, yr hwn oedd elyn mawr i bobl Dduw. Goddefasai Eliasib i'w ŵyr briodi merch Sanbalat, yr hwn oedd gyfaill mynwesol i Tobiah, a gelyn mawr i'r Iuddewon. Crybwyllir hyn fel brycheuyn dŷ ar gymeriad Eliasib, a'r achos o'i gamymddygiadau ereill ef: gwel isod.

Adn. 5. *Ac efe a wnaeth iddo ef ystafell fawr*] Ond odid trwy dynu i lawr y muriau ag oeddynt yn gwahann yr ystafelloedd bychain lle y ceidw y degymau, yr offrymau, a'r llestri santaidd, a thrwy symud y pethau cysegredig hyn efe a wnaeth un ystafell fawr i dderbyn Tobiah pan y denai efe i Jerusalem. Yn hon y lletyai Tobiah, fel y gallai ef a'r archoffeiriad gyfeillachu yn fwy rhydd a dirgelaidd, trwy nad oedd yn gyfreithlon i'r bobl ddyfod yno.

Adn. 6. *Ac yn hyn i gyd o amser ni bŵm i yn Jerusalem*] Neu, nid oeddwn i yn Jerusalem; onid ni oddefasai Nehemiah i'r archoffeiriad wneyd y fath betb; *canys yn y ddeuddegfed flwyddyn ar hugain i Artaxerxes*—ar ol bod yn llywodraethwr yn Jerusalem ddeuddeg mlynedd, pen. ii. 6; *y daethym i at y brenin*—i Persia neu Babilon; *ac yn mhen talm o ddyddiau y cefais genad gan y brenin*—i ddychweled i Jerusalem i lywodraethu yr Iuddewon. Tybia rhai fod y '*talm* o ddyddiau' hyn yn arwyddo *blwyddyn*, er y dywed rhai i Nehemiah aros gyda'r brenin y pryd hyn bum mlynedd.

Adn. 7. *Ac a ddaethym i Jerusalem*] Lle y clywodd yn ebrwydd am y drygioni a wnaethai yr archoffeiriad er mwyn ei gyfathrachwr Tobiah; *gan wneuthur iddo ystafell*—yr hyn oedd yn halogiad ffaidd o gynteddoedd tŷ Dduw.

Adn. 8. *A bu ddrwg iawn genyf*] Fod y

Eliasib er Tobiah, gan wneuthur iddo ystafell yn nghyntedoedd tŷ Dduw.

8 A bu ddrwg iawn genyf; am hyny mi a fwriais holl ddodrefn tŷ Tobiah allan o'r ystafell.

9 Erchais hefyd iddynt lanhau yr ystafelloedd: a mi a ddygais yno drachefn lestri tŷ Dduw, yr offrrwm a'r thus.

10 ¶ Gwybŷm hefyd fod rhanau y Lefiaid heb eu rhoddi iddynt: canys ffoisai y Lefiaid a'r cantorion, y rhai oedd yn gneuthur y gwaith, bob un i'w faes.

11 Yna y dwrdaiais y swyddogion, ac y dywedais, Paham y gwrthodwyd tŷ Dduw? A mi a'u cesglais hwynt yn nghyd, ac a'u gosodais yn eu lle.

12 Yna holl Judah a ddygasant

dddegwm yr ŷd, a'r gwin, a'r olew, i'r trysordai.

13 A mi a wnaethym yn drysorwyr ar y trysorau, Selemiah yr offeiriad, a Sadoc yr ysgrifenydd, a Phedaiah, o'r Lefiaid: a cherllaw iddynt hwy yr oedd Hanan mab Zaccur, mab Mattaniah: canys ffyddlon y cyfrifid hwynt, ac arnynt hwy yr oedd rhannu i'w brodyr.

14 Cofia fi, fy Nuw, o herwydd hyn; ac na ddilea fy ngharedigrwydd a wnaethym i dŷ fy Nuw, ac i'w wyliaethau ef.

15 ¶ Yn y dyddiau hyny y gwelais yn Judah rai yn sengu gwiniwrŷfau ar y sabboth, ac yn dwyn i mewn ysgubau ŷd, ac yn llwytho asynod, gwin hefyd, a grawnwin, a ffigys, a phob beichiau, ac yn eiddw yn i Jerusalem ar y dydd sab-

fath le santaidd wedi cael ei droi at wasanaeth pagan drygionus, a hyny gan yr archefferiad; am hyny mi a fwriais holl ddodrefn tŷ Tobiah allan o'r ystafell—yr hyn yr oedd ganddo awdurdod i'w wneyd fel tywysog dan frenin Persia. Yn hyn efe a ymddygodd yn debyg i'n Hiachawdr bendigedig, pan y dymchwelodd yntau 'drestlau yr arianwyr, a chadeiriau y gwerthwyr colomenod,' Marc xi. 15.

Adn. 9. *Erchais hefyd iddynt lanhau yr ystafelloedd*] Trwy eu hysgubo a'u golchi, a'u taenllu â dwfr puredigaeath, ar ol eu halogi trwy breswiliad Cenedl-ddyn drygionus ynddynt; a mi a ddygais yno drachefn lestri tŷ Dduw—y rhai a fwriais allan i wneyd lle i Tobiah.

Adn. 10. *Gwybŷm hefyd fod rhanau y Lefiaid heb eu rhoddi iddynt*] Sef y degymau ag oeddynt i'w cynal hwy, fel y bu offod i'r Lefiaid adael eu gwasaenaeth santaidd, a myned i drin y maesydd at eu cynaliaeth. Tybia rhai i Eliasib ddefnyddio y degymau hyny i gynal Tobiah a'i gyngbreirwyr; a thybia ereill i'r bobl beidio dyfod â hwy i mewn, naill ai o gybydd-dod, neu ynte o herwydd y camdefnydd a wna'i yr archefferiad o honnynt hwy a'r deml.

Adn. 11. *Yna y dwrdaiais y swyddogion*] Sef yr offeiriad hyny i'r rhai yr ymddiriedesi i y gofal o'r pethau hyn, am iddynt esgeuloso eu dyledswydd, a thori eu hadduned bendant: gwel ar pen. x. 37—39, a xii. 44. *Paham y gwrthodwyd tŷ Dduw*—gan y Lefiaid, y rhai a ffoisent i'w maesydd; a chan y bobl, trwy beidio dyfod yno i offrymu ac addoli? *A mi a'u cesglais hwynt yn nghyd*—sef y Lefiaid a'r cantorion, y rhai a ffoisent bob un i'w faes, adn. 10; *ac a'u gosodais yn eu lle*—yn eu cychododd a'u gwasaenaeth yn i deml.

Adn. 12. *Yna holl Judah a ddygasant ddegwm, &c.*] Pan welodd y bobl fod y Lefiaid a'r cantorion wedi ymafelyd yn eu gwaith drachefn, a bod y camwri uchod wedi ei ddiwygio, hwy

a ddygasant eu hoffrymau i'r trysordai yn ewyllysgar fel o'r blaen, a hyny mewn rhan o barch i Nehemiah, yr hwn y gwyddent y byddai iddo wneyd cyfiawnder a'r cwbl.

Adn. 13. *A mi a wnaethym yn drysorwyr ar y trysorau*] Yn lle yr hen swyddogion, y rhai o ddwrdauid ac addiswyddwyd, adn. 11; *Selemiah, &c.*—sef dau offeiriad dros yr offeiriad, a dau Lefiaid dros y Lefiaid, y rhai oeddynt i dderbyn y degymau gan y bobl, a'u rhanu i'w brodyr; *canys ffyddlon y cyfrifid hwynt*—yr oeddynt yn ddnion gonest a didwyl, ac wedi dangos eu hunain yn ffyddlon yn eu gwaith, tra yr oedd ereill yn ei esgeuloso.

Adn. 14. *Cofia fi, fy Nuw, o herwydd hyn*] Y mae Nehemiah yma yn edrych i fyny at Dduw fel ei wobrwyr, ac yn ei gyflwyno eiddhun a'i wasanaeth i'w ystyriaeth ef; nid mewn balchder ac ymfrost o herwydd yr hyn a wnaethai, neu gan ymddibynu arno fel ei gyfiawnder, neu megys ped ystyriasi ef Dduw yn dyledwr iddo; eithr mewn apeliad gostyngedig ato ef gyda golwg ar ei gywirdeb yn hyn oll, a dysgwiliad hyderus na fyddai Duw yn anghyfiawn, fel ag i anghofio ei waith a'i lafurys gariad ef. *Ac na ddilea fy ngharedigrwydd*—yn troi Tobiah allan o'r ystafell, ac yn gosod y Lefiaid a'r cantorion yn eu gwyliaethau, gan adferu y degymau at eu gwasaenaeth hwy. *Cofia fi yn dy drugaredd* o herwydd hyn, a bydded fy holl ymddygiadau yn gymeradwy ger dy fron.

Adn. 15. *Yn y dyddiau hyny*] Ar ol i Nehemiah ddychwelyd i Jerusalem oddiwrth frenin Persia; *y gwelais yn Juda rai yn sengu gwiniwrŷfau ar y sabboth*—yr hyn oedd yn halogiad gwarthus o'r dydd hwn, yn enwedig gan y gallesid ei adael heb ei wneuthur hyd dranoeth; *a mi a dystiolaethais yn eu herbyn*—gan dangos pechaduruswydd eu gweithredoedd, a bygwth eu cospi.

Adn. 16. *Y Tyriaid hefyd*] Neu wŷr o

both: a mi a dystiolaethais *yn eu herbyn* ar y dydd y gwerthasant luniaeth.

16 Y Tyriaid hefyd oedd yn trigo ynddi, *ac yn dwyn pysgod*, a phob peth gwerthadwy, y rhai yr oedd-ynt hwy yn *eu gwerthu* ar y sabbath: i feibion Judah, ac yn Jerusalem.

17 Yna y dwriais bendefigion Judah, ac y dywedais wrthynt, Pa beth drygionus *yw hwn yr ydych chiwi yn ei wneuthur*, gan halogi y dydd sabbath?

18 Onid fel hyn y gwnaeth eich tadau chiwi? ac oni ddyg ein Duw ni yr holl ddrwg hwn arnom ni, ac ar y ddinas hon? a chwithau ydych yn chwaneu digofaint ar Israel, trwy halogi y sabbath.

19 A phan dywyllasai pyrth Jerusalem cyn y sabbath, yr erchais gau y dorau, ac a orchymynais nad agorid hwynt hyd wedi y sabbath: a mi a osodais *rai* o'm gweision wrth

y pyrth, *fel* na ddelai baich i mewn ar ddydd y sabbath.

20 Felly y marchnadwyr, a gwerthwyr pob peth gwerthadwy, a letyasant o'r tu allan i Jerusalem unwaith neu ddwy.

21 A mi a dystiolaethais yn eu herbyn hwynt, ac a ddywedais wrthynt, Paham yr ydych chiwi yn aros dros nos wrth y mur? os gwnewch eilwaith, mi a estynaf fy llaw i'ch erbyn. O'r pryd hwnw ni ddaethant ar y sabbath *mwyaich*.

22 A mi a ddywedais wrth y Lefiaid, am iddynt ymlanhau, a dyfod i gadw y pyrth, gan santeiddio y dydd sabbath. *Am hyn hefyd cofia fi*, fy Nuw, ac arbed fi yn ol lluaws dy drugaredd.

23 ¶ Yn y dyddiau hyn hefyd y gwelais Iuddewon a briodasant Asdodesau, Ammonesau, a Moabesau, yn wragedd *iddynt*:

24 A'u plant hwy oedd yn llefaru y *naill* hanner o'r Asdodiaeg, ac

Tyrus; *oedd yn trigo ynddi*—sef yn Jerusalem, ac yn gwerthu pysgod a phethau ereill i'r Iuddewon ar y sabbath.

Adn. 17. *Yna y dwriais bendefigion Juda*] Am eu bod nid yn unig yn goddef y fath halogiad o'r dydd sabbath, ond hefyd yn ei gefnogi, trwy brynu eu lluniaeth ar y dydd santeidd hwnw. Ac yr oedd bai y prynwyr yn fwy na bai y gwerthwyr: paganiaid oedd y gwerthwyr, y rhai ni wyddent nemawr am santeiddrwydd y sabbath; eithr gwyddai y prynwyr eu bod yn gwneyd drwg.

Adn. 18. *Onid fel hyn y gwnaeth eich tadau chiwi?*] Sef halogi y sabbath, am yr hyn y caethgludwyd hwy, ac y llosgwyd eu dinas. *A chwithau ydych yn chwaneu digofaint*—yn annog Duw i gopsi y plant fel y tadau.

Adn. 19. *A phan dywyllasai pyrth Jerusalem cyn y sabbath*] Sef ar fachlud haul y chweched dydd, pryd yr oedd eu sabbath hwy yn dechreu; *yr erchais gau y dorau*—fel nad allai neb ddyfod i mewn i'r ddinas i werthu eu nwyddau hyd oni fyddai y sabbath drosodd; *a mi a osodais rai o'm gweision wrth y pyrth*—i'w gwyllo, am nad allai ymddiried eu gofal i'r swyddogion arferol am y pedair awr ar hugain hyn bob wythnos.

Adn. 20. *A letyasant o'r tu allan i Jerusalem unwaith neu ddwy*] I'r dyben o werthu eu nwyddau i'r trigolion o amgylch Jerusalem, neu mewn gobaiht y deuai rhai o'r dinasyddion allan i brynu ganddynt yno.

Adn. 21. *A mi a dystiolaethais yn eu herbyn hwynt*] Yn erbyn eu hasoriad dros y nos wrth y mur, yn gystal ag yn erbyn eu dyfodiad ar y sabbath i'r ddinas. *Os gwnewch eilwaith, mi a estynaf fy llaw i'ch erbyn*—i'ch sarcharu chiwi, a gafaelu yn eich eiddo. *O'r*

pryd hwnw ni ddaethant ar y sabbath mwyaich—ac felly llwyddodd Nehemiah i ddarostwng y llygredigaeth hwn. Gwelwn yma y fath allu sydd gan swyddogion gwladol i attal pechodau cyhoeddus. Ac oni ddylai ymddygiad Nehemiah fod yn siampl i awdurdodau y wlad hon, lle y mae y sabbath yn cael ei halogi yn y modd mwyaf gwarthus, nid yn unig trwy werthu bwydydd, ond hefyd trwy werthu diodydd meddwl, y rhai sydd yn chwaneu pechod at bechod!

Adn. 22. *A mi a ddywedais wrth y Lefiaid am iddynt ymlanhau*] Oddiwrt bob halog-rwydd seremoniol, fel y byddent yn addas i gyflawni eu gwasanaeth ar y dydd sabbath; *a dyfod i gadw y pyrth*—sef pyrth y deml, rhag i neb aflan fyued i mewn trwyddynt. Tybia rhai mai pyrth y ddinas a olygir; ond nid oedd eisiau iddynt hwy gadw y rhai hyn yn awr, am fod ei weision ef i hun yn eu cadw, adn. 19. *Am hyn hefyd cofia fi, fy Nuw*—sef am ei ofal am santeiddiad y sabbath; *ac arbed fi yn ol lluaws dy drugaredd*—ymddengys oddiwy, er ei fod ef yn coffau ei weithredoedd da fel pethau ag yr oedd Duw yn foddlon iddynt, ac wedi addaw eu gwobrwyo, eto nad oedd efe yn ymddiried ynddynt, ond ei fod wedi y cwbl yn ei ystyried ei hun yn mae anfuddiol, ac yn sefyll mewn angen am *drugaredd* Duw i faddu ei holl bechodau, ac yn enwedig y ffaeolldau a'r llygredigaethau hyn ag oedd ynt yn nglŷn â'i weithredoedd goraf ef.

Adn. 23. *Yn y dyddiau hyn hefyd*] Ar ol iddo ddechrelyd i Jerusalem oddiwrt frenin Persia, adn. 6, 15; *y gwelais Iuddewon a briodasant Asdodesau*—gwagedd o Asdod, dnas y Philistiaid, *Ammonesau a Moabesau*

heb fedru ymddyddan yn iaith yr Iuddewon, ond yn ol tafodiaith y ddeubar bobl.

25 Yna yr ymrysonais â hwynt, ac y mellidithiais hwynt; tarewais hefyd rai o honynt, ac a bliciais eu gwallt hwynt: a mi a'u tyngais hwynt trwy Dduw, gan ddywedyd, Na roddwch eich merched i'w meibion hwynt, ac na chymerwch o'u merched hwynt i'ch meibion, nac i chwi eich hunain.

26 Onid o achos y rhai hyn y pechodd Solomon brenin Israel? er na bu brenin cyffelyb iddo ef yn mysg cenhedloedd lawer, yr hwn oedd hoff gan ei Dduw, a Duw a'i

gwnaeth ef yn freini ar holl Israel; eto gwragedd dweithr a wnaethant iddo ef bechu.

27 Ai arnoch chwi y gwrandawn, i wneuthur yr holl ddyrgioni mawr hwn, gan droseddu yn erbyn ein Duw, trwy briodi gwragedd dweithr?

28 Ac un o feibion Joiada, mab Eliasib yr archoffeiriad, oedd ddaw i Sanbalat yr Horoniad: yr hwn a ymlidiais i oddiwrthef.

29 O fy Nuw, cofia hwynt, am iddynt halogi yr offeiriadaeth, a chyfammod yr offeiriadaeth, a'r Lefiaid.

30 Yna y glanheais hwynt oddiwrth bob estron; gosodais hefyd

—y rhai yr oeddynt mor ddiweddar wedi gwneyd rhaith a llw na phriodent hwy, pen. x. 29, 30.

Adn. 24. *A'u plant hwy*] Sef plant yr Iuddewon a briodasant wragedd o Asdod; *oedd yn llefaru y naill hanner o'r Asdodiaeg*—sef iaith eu mamau, yr hon oedd iaith y Philistiaid; *ac heb fedru ymddyddan yn iaith yr Iuddewon*—yr hon oedd y Galdeae, neu y Syro-Galdeae, trwy eu bod yn cael eu dwyn i fyny yn benaf dan ofal eu mamau; *ond yn ol tafodiaith y ddeubar bobl*—rhyw gymysgedd o'r ddwy iaith. Y mae yn debyg mai felly yr oedd yn bod gyda phlant yr Ammonesau a'r Moabésau hefyd. Gan y rhaid fod y plant hyn o gryn oed cyn y gallent argyhoeddi Nehemiah, trwy eu lleferydd, mai plant o briodasau cymysg oeddynt, y mae yn eglur naill ai i Nehemiah fod fwy na blwyddyn yn absenol o Jerusalem, adn. 6, neu ynte na ddaeth efe i wybod am y priodasau hyn yn hir ar ol ei ddychweiliad.

Adn. 25. *Yna yr ymrysonais â hwynt*] Dygais gyhuddiad yn erbyn y tadau drygionus hyn mewn llys barn; *ac y mellidithiais hwynt*—trwy gyhoeddi barn Duw a dedfryd y gyfraith arnynt hwy, a'u hesgymuno o gynulleidfa yr Arglwydd; *tarewais hefyd rai o honynt*—perais i'r swyddogion fflangellu y troseddwr penaf; *ac a bliciais eu gwallt hwynt*—hyny yw, yn ol rhai, gorchymynodd eu heillio, i'r dyben i'w cywilyddio, a pheri iddynt edrych fel caethweision. Eithr arwydda yr ymadrodd hwn i'w gwallt gael ei dynu o'r gwraidd, yr hyn oedd ar unwaith yn gosh warthau a phoenus, ac yn arferiad tra chyffredin yn Persia. *A mi a'u tyngais hwynt trwy Dduw*—nad ymgylfathrachent fel hyn mwyach, rhag dygwdd iddynt beth a fyddai gwaeth. Yr oeddynt wedi tyngu fel hyn unwaith o'r blaen, pen. x. 29, 30, ac wedi tori y llw hwnw; ac felly yr oeddynt yn fwy haeddianol o'r cospan hyn.

Adn. 26. *Onid o achos y rhai hyn y pechodd Solomon brenin Israel?*] Efe a bechodd trwy briodi gwragedd dweithr, a myned ar ol eu duwiau hwynt; gwel ar 1 Bren. xi. 3, &c.

Yr hwn oedd hoff gan ei Dduw—fel yr arwydda ei enw *Jedidiah*: gwel ar 2 Sam. xii. 24, 25. A chan i ddynt mor ddoeth, a'r hwn yr oedd Duw yn ei hoffi mor fawr, gael ei lygru trwy wragedd dweithr, pa faint uwyr y bydd i chwi?

Adn. 27. *Ai arnoch chwi y gwrandawn?* A fynoch chwi i mi oddef y drygioni mawr hwn ynoch yn ddigosp, ac felly ddwyn euogrwydd arnaf fy hun, a dinystr arnoch chwithau? *Gan droseddu yn erbyn Duw*—troseddai y bobl wrth briodi y cyfryw wragedd, a throeddai y swyddogion wrth adael iddynt wneuthur hyny yn ddigosp.

Adn. 28. *Ac un o feibion Joiada mab Eliasib*] Sef wŷr yr archoffeiriad, enw yr hwn oedd *Manasseh*, yr hwn a adeiladodd deul i'r Samariaid ar fynydd Garizim, mewn gwrthwynebiad i'r deul yn Jerusalem; *oedd ddaw i Sanbalat*—neu fab-yn-nghyfraith i'r gelyn mawr hwnw i'r Iuddewon; *yr hwn a ymlidiais i oddiwrthef*—o'r ddinas, ac o gynulleidfa Israel, am iddo briodi y fath wraig. A dywed Josephus iddo ef offeiriadu yn y deul hono, mewn rhan yn ol cyfraith Moses, ac mewn rhan yn ol defodau y Samariaid, ar ol ei esgymuno o offeiriadaeth Israel; a gallwn feddwl oddiwrth yr adnod nesaf iddo ef gael llawer o offeiriad troseddol fel ei hunan i'w gynorthwyo ef yno.

Adn. 29. *O fy Nuw, cofia hwynt*] Y mao y geirian hyn yn cael eu deall dair ffordd: (1) Cofia hwynt fel ag i'w cospi am halogi yr offeiriadaeth. (2) Cofia hwynt fel ag i'w hargyhoeddi o'u pechod, a'u dwyn i editeirwch. Neu, (3) Gellir eu deall yn fynegiadol, 'ti a'u cofi,' fel ag i'w cospi. *Am iddynt halogi yr offeiriadaeth*—trwy briodi gwragedd dweithr, ac felly eu hanaddasu eu hunain i waith santiaid yr offeiriadaeth; *a chyfammod yr offeiriadaeth*—neu yr ammod o 'offeiriadaeth dragwyddol,' yr hwn a wnaed â Phinees a'i had, Num. xxv. 11—13; *a'r Lefiaid*—nid yw yn eglur pa gyfammod a wnaed â'r Lefiaid; ond y mae yn debyg mai yr ystyr yw, iddynt ddiannrhydeddu holl lwyth Lefi, y rhai a neilldawyd i wasanaeth Duw.

oruchwyliaethau i'r offeiriad ac i'r Lefiaid, pob un yn ei waith;

31 Ac at goed yr offirwm mewn

Adn. 30. *Yna y glanheais hwynt oddiwrth bob estron*] Hyny yw, neillduwyd yr offeiriad a'r Lefiaid oddiwrth eu gwragedd dyeitr; *gosodais hefyd oruchwyliaethau i'r offeiriad ac i'r Lefiaid*—fel y gallent gyflawni eu gwahanol swyddau yn eu priodol gylchoedd a'u hanserau.

amserau nodedig, ac at y blaenffrwythau. Cofia fi, O fy Nuw, er daioni.

Adn. 31. *Ac at goed yr offirwm*] Gwel ar pen. x. 34; *ac at y blaenffrwythau*—i'w derbyn i mewn a'u rhanu allan. *Cofia fi, O fy Nuw, er daioni*—geiriau o'r un ystyr a phe dywedasai, 'O fy Nuw, cymer drugaredd arnaf!' Gwel ar adn. 14, 22.

LLYFR ESTHER.

ER i lawer o'r Iuddewon beldio dychwelyd i'w gwlad eu hunain ar ol y caethiwd Babilonaidd, yr oedd rhagluniaeth Duw yn gwylio drostynt fyth mewn modd hynod; a chawn yma hanes methiant cyfradwriaeth ystrygar a wnaed i geisio eu llwyr ddyfetha. Oddiwrth yr amgylchiad hwnw y tarddodd *Gwyl y Purim*, (gwel pen. ix.) yr hon a gynelir gan yr Iuddewon hyd heddw gyda llawer o ddefodau neillduol.—Tybiodd rhai ysgrifenywyr mai y brenin Xerxes oedd yr Ahasferus hwn, yn nheyrnasiad pa un y cymerodd dygwyddiadau y llyfr hwn le; ond y mae y rhan fwyaf o lawer yn meddwl mai yr un ydoedd ág *Artaxerxes* Nehemiah, sef *Artaxerxes Longimanus*, mab Xerxes. Bu y tywysog hwn yn ymryson am yr orsedd gyda meibion *Artabanus*, ewythr Xerxes, pa rai, yn nghyda'u cyngheirwyr, a faeddwyd ganddo mewn rhyfel waed-lyd; ac yn y flwyddyn ganlynol efe a orchfygodd *Hystaspes*, cydyngesydd arall, yn nghyda'r Bactriaid ei gyngheirwyr, ac felly cafodd feddiant sicr o orsedd Persia. Meddylir i rai o'r pethau a gofferir yn y llyfr hwn gymeryd lle o'r drydedd hyd y ddegfed flwyddyn o'i deyrnasiad ef, tua'r un amser a'r dygwyddiadau a adroddir yn y 6ed a'r 7fed bennod o lyfr Ezra.—Gelwir y llyfr hwn yn Hebraeg *Megillah*, 'Y Gyfrol,' mewn ffordd o enwogrwydd; eithr gelwir ef genym ni LLYFR ESTHER, am y cynwysa hanes Esther, caethferch Iuddewyd, yr hon, o herwydd ei harddwch hynod, a briodwyd gan Ahasferus, a ddyrchafwyd i orsedd Persia, ac a fu yn foddion i waredu ei chenedl rhag bradwriaeth Haman.—Nid yw yn eglur pwy a ysgrifenoedd y llyfr hwn: priodola rhai ef i Ezra, ereill i Mordecai, ac ereill i benaethiaid y synagog fawr, y rhai, o amser Ezra hyd ddyddiau Simon y cyflawn, a arolygent ganon yr Ysgrifthyrau Santaidd. Y mae yn hynod na chyfarfyddwn ág *enw Duw* o fewn yr holl lyfr hwn yn yr *Hebraeg*, nac yn y cyfeithiadau yn gyffredinol; a pharodd hyny, yn nghyda rhai pethau ereill, i lawer wrthod y llyfr hwn fel un anysbyrdoledig: ond gwel ar pen. ii. 20. Ond er nad yw *enw Duw* ynddo, y mae ei *lywodraeth* i'w chanfod ynddo yn eglur iawn; ac y mae yr Iuddewon wedi ei dderbyn ef bob amser yn mhlith eu llyfrau canonaidd a chysegredig.—Y mae y llyfr hwn yn cynwys diwedd hanes goruchwyliaeth Duw tuag at y byd a'r eglwys, fel ei hadroddir gan yr ysgrifenywyr ysbyrdoledig yn flaenorol i ddyddiau Crist a'i apostolion. O ddechre Genesis hyd ddiwedd Esther cynwysir holl gylich hanesiaeth yr Hen Destament; ac y mae y cwbl a adroddir yn holl lyfrau ereill yr Hen Destament wedi dygwydd o fewn cylch hanesiaeth y llyfrau hyn. Cawn yma, (1) Hanes gwledd Ahasferus, a darostyngiad Fasti, pen. i. (2) Dyrechafiad Esther i'r orsedd, a gwasanaeth Mordecai i'r brenin, pen. ii. (3) Dyrechafiad Haman, a'i amcan i ladd yr Iuddewon, pen. iii. (4) Galar Mordecai ac Esther o herwydd hyny, a'u cynllun i achub y genedl, pen. iv a v. (5) Drwg-amean Haman yn erbyn Mordecai, a'i siomedigaeth, pen. vi. (6) Drwg-amean Ifaman yn syrthio ar ei ben ei hun, pen. vii. (7) Arbediad yr Iuddewon, eu hanrhydedd, a dyrechafiad Mordecai, pen. viii—x.

PENNOD I.

YN nyddiau Ahasferus, (efe yw Ahasferus yr hwn oedd yn teyrnasu o India hyd Ethiopia, sef ar

gant a saith ar hugain o daleithiau.)

2 Yn y dyddiau hyny, pan esteddodd y brenin Ahasferus ar or-

PEN. I. Adn. 1. *Yn nyddiau Ahasferus*] Yr un gŵr yw Ahasferus y Rhufeiniaid, Artaxerxes y Groegiaid, ac Ardsheer y Persiaid. Tybia rhai mai Darius, mab Hystaspes, oedd yr Ahasferus hwn: ond myn Prideaux ac ereill mai Artaxerxes Longimanus ydoedd.—CLARKE. *Yr hwn oedd yn teyrnasu o India hyd Ethiopia*—o'r Ganges yn y dwyrain, hyd y Nilus yn y gorllewin; sef ar gant a saith ar hugain o daleithiau—yr hyn

oedd saith talaeth yn fwy nag a feddiennid gan Darius y Mediad, Dan. vi. 1.

Adn. 2. *Yn y dyddiau hyny*] Sef yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, adn. 3; *pan eisteddodd y brenin Ahasferus ar orseddfa ei frenhiniaeth*—ar ol darostwng ei elynion, a sefydlu heddwch cyffredinol trwy ei holl amberodraeth; *yr hon oedd yn Susan y brenhinlys*—neu 'Susan y brifddinas,' fel y mae yn Meibl Cranmer, a chan y LXX. Gelwir

seddfa ei frenhiniaeth, yr hon oedd yn Susan y brenhinlys,

3 Yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, efe a wnaeth wledd i'w holl dywysogion, a'i weision cadernid Persia, a Media, y rhaglawiaid, a thywysogion y taleithiau, oedd ger ei fron ef.

4 Fel y dangosai efe gyfoeth a gogoniant ei deyrnas, ac anrhydedd a phrydferthwch ei fawredd, ddyddiau lawer, sef cant a phedwar ugain o ddyddiau.

5 Ac wedi gorphen y dyddian hyny, y brenin a wnaeth i'r holl bobl a gafwyd yn Susan y brenhinlys, o'r mwyafr hyd y lleiaf, wledd dros saith niwrnod, yn nghyntedd gardd palas y brenin.

6 Lle yr oedd lleni gwynion, gwyrddion, a rhudd-gochion, wedi

eu cylymu â llinynau sidan, ac â phorphor, wrth fodrwyau arian, a cholofnau marmor: y gwelyau oedd o aur ac arian, ar balmant o faen grisial, a marmor, ac alabaster, a jasinct.

7 Ac yfed diod yr oeddynt mewn llestri aur, a chyfnewid amryw lestri, a gwin brenhinol lawer, yn ol gallu y brenin.

8 Yr yfed hefyd oedd wrth ddefod, nid oedd neb yn cymhell: canys gosodasai y brenin *orchymyn* ar bob swyddwr o feun ei dŷ, a'r wneuthur yn ol ewyllys pawb.

9 Y frenhines Fasti hefyd a wnaeth wledd i'r gwragedd yn y brenhindy oedd eiddo Ahasferus y brenin.

10 ¶ Ar y seithfed dydd, pan oedd lawen calon y brenin gan win,

y ddinas hon *Shuster* gan y Persiaid; ac yr oedd, gydag Ecbatana a Babilon, yn drigle brenhinoedd Persia. Yr oedd yn sefyll ar lan afon Ulai, yn nghanol gwlad firwythlon, yr hon, yn ol Strabo, a gynrychai firwyth ar ei ganfed, ac weithiau ar ei ddenganfed. Darfu i Darius Hystaspes helaethu y ddinas hon yn rhyfeddol, a'i phrydferthu â phalas mawrwydch, yr hwn a lwai Aristotle yn 'balas brenhinol rhyfeddol, yn dysgleirio gan aur, amber, ac ifori.'

Adn. 3. Efe a wnaeth wledd i'w holl dywysogion] Sef i 127 o dywysogion ei daleithiau; a'i weision—neu ei brif ddeiliaid, y rhai a elwid yn 'weision' yn y gwleddydd hyny; *cadernid Persia a Media*—swyddogion y llywodraeth, a llywodraethwyr ei holl fyddin-odd. Dichon mai ar wyl ei enedigaeth, neu wyl ei goroniad, y dechreuodd y wledd hon.

Adn. 4. Fel y danghosai efe gyfoeth a gogoniant ei deyrnas, &c.] Yr oedd brenhinoedd y dwyrain, ac yn enwedig y Persiaid, yn hynod am eu gwleddoedd rhwygsfawr, y rhai oeddynt o faith barhad; ac ynddynt danghosent eu cyfoeth, eu gogoniant, a'n mawredd, a derbyniend y ganmoliaeth uwchaf gan eu beirdd a'n gweneithwyr. *Cant a phedwar ugain o ddyddiau*—yr hyn oedd hanner blwyddyn o fewn deuddydd a banner. Fel hyn efe a wnaeth wledd fawreddog bob dydd i'w holl benedfegion, neu i rai o honynt, y rhai oll a ddenent i lys y brenin yn olynod, fel yr oeddynt yn cael eu gwahodd.

Adn. 5. Y brenin a wnaeth i'r holl bobl—wledd dros saith niwrnod] Y gyntaf oedd wledd i'r penedfegion, a hon i'r werin yn gyffredinol; yn nghyntedd gardd palas y brenin—am nad oedd yn y palas le i'w cynwys.

Adn. 6. Lle yr oedd lleni gwynion, &c.] Nid yn unig fel mur o'u hamgylch, ond hefyd fel tŷ uwch eu penau; wedi eu cylymu â llinynau sidan—o wahanol liwiau, ac yn crogi wrth fodrwyau arian oddiar y colofnau mar-

mor: y gwelyau—neu y glythan ar y rhai y lled-orweddent wrth fwyta; oedd o aur ac arian—hyny yw, yr oedd attegion neu swddau y glythan hyny o aur ac arian, neu ynte yr oeddynt wedi eu gwisgo â sidan wedi ei gyf-rododdu âg aur ac arian, tra yr oedd y clustogau oddifeun wedi eu llenwi â'r defnyddiau esmwythaf; ar balmant grisial a marmor, &c.—Saes., 'ar balmant o farmor coch, glas, gwŷn, a dŷ.'

Adn. 7. Ac yfed diod yr oeddynt mewn llestri aur] Er dangos cyfoeth y brenin, ac er anrhydedd i'r gwahoddedigion; canys pan fynai brenhinoedd Persia ddiraddiodyn, gwnaent iddo yfed o lestr pridd; a chyfnewid amryw lestri—y naill ar ol y llall, er mwyn dangos fod ganddo amrywiaeth o lestri aur o wahanol wneuthuriad; a gwin brenhinol lawer—o bob math; yn ol gallu y brenin—yr hwn oedd yn fawr iawn, gan ei fod mor gyfoethog.

Adn. 8. Yr yfed hefyd oedd wrth ddefod] Neu yn ol rheol a wnaethai y brenin, i beidio cymbell neb i yfed uwyr nag a ewyllysai. Yn mhllith y Groegiaid yr oedd yn rhaid i bob un yfed ei gwpanaid oll yn ei dro, neu adael y cwmi a myned ymaith; ond yr oedd defod well na hyny yma. Yr oedd y brenin pagan-aidd hwn yn achos o gywilydd i lawer a elwir yn Gristionogion, y rhai a dybiant nad allant groesawu eu cyfeillion yn ddigonol, heb iddynt eu meddwi; a than yr esgus o yfed iechyd i'w gilydd, hwy a yfant farwolaeth yn fynydd.

Adn. 9. Y frenhines Fasti hefyd a wnaeth wledd i'r gwragedd] Ond oddi i wragedd y gwŷr hyny a wledent gyda'r brenin yn nghyntedd yr ardd; canys yn Persia nid arferai y gwragedd wledda gyda'r gwrywiaid. Yn y brenhindy—lle yr oedd digon o le iddi hi a'i chyfeillesau, a lle y gallent fod yn llai amlwg.

Adn. 10. Ac ar y seithfed dydd] Sof y dydd olaf o'r wledd, adn. 5; a dywed yr Iudd-

efe a ddywododd wrth Mehuman, Biztha, Harbona, Bigtha, ac Abagtha, Zethar, a Charcas, y saith ystafellydd oedd yn gweini gerbron y brenin Ahasferus,

11 Am gyrchu y frenhines Fasti o flaen y brenin, yn y frenhinol goron, i ddangos i'r bobloedd ac i'r tywysogion ei glendid hi: canys glân yr olwg ydoedd hi.

12 Ond y frenhines Fasti a wrthododd ddyfod wrth air y brenin trwy law ei ystafellyddion: am hyny y llidiodd y brenin yn ddirfawr, a'i ddigllonedd ef a enynodd yndo.

13 ¶ Yna y dywedodd y brenin wrth y doethion oedd yn gwybod yr amserau, (canys felly yr oedd arfer y brenin tuag at bob rhai a fyddai yn gwybod cyfraith a barn:

14 A nesaf ato ef oedd Carsena, Sethar, Admatha, Tarsis, Meres, Marsena, a Memuchan, saith dy-

wysog Persia a Media, y rhai oedd yn gweled wyneb y brenin, ac yn eistedd yn gyntaf yn y frenhiniaeth.)

15 Beth sydd i'w wneuthur wrth y gyfraith i'r frenhines Fasti, am na wnaeth hi archiad y brenin Ahasferus trwy law yr ystafellyddion?

16 Yna Memuchan a ddywedodd gerbron y brenin a'r tywysogion, Nid yn erbyn y brenin yn unig y gwnaeth Fasti y frenhines ar fai, ond yn erbyn yr holl dywysogion hefyd, a'r holl bobloedd sydd trwy holl daleithiau y brenin Ahasferus.

17 Canys gweithred y frenhines a â allan at yr holl wragedd, fel y tremygant eu gwŷr yn eu golwg eu hun, pan ddywedant, Y brenin Ahasferus a archodd gyrchu Fasti y frenhines o'i flaen; ond ni ddaeth hi.

18 Arglwyddesau Persia a Media, y rhai a glywsant weithred y frenhines, a ddywedant heddyw wrth

ewon mai eu sabboth hwy ydoedd; pan oedd *lacen calon y brenin gan win*—hyny yw, pan yr oedd wedi meddwi, efe a'i westeion ond odid; canys gallent oll yfed i oruodedd os ewyllysient, er nad oeddynt dan orfod i wneyd hyny, adn. 8; *efe a ddywedodd wrth—y saith ystafellydd*—neu yr *eunuchiaid*, fel yr arwydda y gair. Yr oedd anfon saith i'w chyrru yn anrhydedd mawr iddi hi; ond yr oedd ei chyrru ar y fath achos, ac i'r fath le, yn ddirmyg arni.

Adn. 11. *Am gyrchu y frenhines Fasti o flaen y brenin*] 'Yn noeth,' fel y chwanega y *Targum yma*; *yn y frenhinol goron*—fel y byddai yr olwg arni yn fwy mawreddog; *i ddangos i'r bobloedd ac i'r tywysogion ei glendid hi*—yr hyn yr oedd y brenin yn ei feddwdod wedi bod yn ei ganmol yn fursenaidd wrth ei dywysogion; *canys glân yr olwg ydoedd hi*—fel yr oedd ei henw yn arwyddo. Gair Persiaidd yw *Fasti*, neu *Vashti*, yn arwyddo *prydferth*.

Adn. 12. *Ond y frenhines Fasti a wrthododd ddyfod*] Nis goddefai ei gwylder iddi ddyfod felly i wyddot y fath nifer o ddynion meddwn; ac yr oedd hyny yn groes i arferiad y wlad, ac yn ddirmyg ar ei mawredd brenhinol hithau. Hi a wyddai mai gorchymyn y brenin yn ei feddwdod ydoedd; a phed ufyddhasai hi iddo, ni wyddai na byddai iddo ei chospi am ddyfod, ar ol iddo sobri. *Am hyny y llidiodd y brenin yn ddirfawr*—a hyny yn fwy am fod ei waed wedi ei boethi gan win, yr hyn a barai i'w nwydau fod yn gryfhac na'i reswm.

Adn. 13. *Yna y dywedodd y brenin wrth y doethion oedd yn gwybod yr amserau*] Neu hanes yr amserau gynt; hyny yw, gofynodd iddynt a oedd rhyweth tebyg i hyn wedi dy-

gwydd o'r blaen? ac os dygwyddodd, pa fodd y gwnaed? neu os na ddygwyddodd, pa fodd y dylid gwneud yn awr? *Canys felly yr oedd arfer y brenin*—efe a arferai bob amser, ar achosion o bwys, ymgyngori â'i ddoethion, y rhai oeddynt yn gwybod yr amserau, ac yn deall cyfraith a barn. Tybia rhai mai *cyfreithwyr* neu *farnwyr* a olygir wrth y 'doethion' hyn: a thybia ereill mai *seryddwyr* neu *ddewiniaid* a feddylir.

Adn. 14. *A nesaf ato ef*] Wrth y bwrdd, ac mewn awdurdod yn y deyrnas; *oedd—saith ddywysog Persia a Media*—y rhai a enwir uchod; *y rhai oedd yn gweled wyneb y brenin*—neu bob amser gyda'r brenin fel ei brif gynghoriaid a'i gyfeillion mynswol. Anfynych yr oedd neb o ddeiliaid brenhinoedd Persia yn cael derbynai i'w gwyyddod hwy.

Adn. 15. *Beth sydd i'w wneuthur wrth y gyfraith?*] Gwel ar adn. 12, 13.

Adn. 16. *Yna Memuchan a ddywedodd*] Yr olaf o'r saith uchod, ac yn debygol yr ieuangaf o honynt; canys arfer y Persiaid oedd i'r ieuangaf o'r cynghoriaid roddi ei farn yn mlaenaf. *Nid yn erbyn y brenin yn unig*—y troseddodd Fasti wrth anfyddhau i'w orchymyn ef; *ond yn erbyn yr holl dywysogion hefyd*—trwy roddi siampl a chefnogaeth i'w wragedd hwythau anfyddhau i'w gwŷr.

Adn. 17. *Canys gweithred y frenhines a â allan*] Cyrhaeddai y son am ei hanfydd-dod hi i glustiau yr holl wragedd, uchel ac isel, trwy holl daleithiau Persia a Media; a dysgent hwythau, yn ol ei siampl hi, ddirmygu eu gwŷr trwy anfyddhau iddynt.

Adn. 18. *Felly y bydd mwy na digon o ddirmyg a digter*] Dirmyg gan y wragedd ar eu gwŷr, a digter yn y gwŷr tuag at eu wragedd o herwydd y dirmyg hwnw, nes creu

holl dywysogion y brenin. Felly y bydd mwy na digon o ddirmyg a digter.

19 Os bydd boddlon gan y brenin, eled brenhinol orchymyn oddiwrtho ef, ac ysgrifener ef yn mysg cyfreithiau y Persiaid a'r Mediaid, fel na throdder ef; na ddêl Fasti mwy gerbron y brenin Ahasferus; a rhodded y brenin ei brenhinfrain hi i'w chyfeilles yr hon sydd well na hi.

20 A phan glywer gorchymyn y brenin, yr hwn a wnelo efe, trwy ei holl frenhiniaeth, (yr hon sydd fawr,) yna yr holl wragedd a roddant anrhydedd i'w gwŷr, o'r mwyaf hyd y lleiaf.

21 A da oedd y peth yn ngolwg y brenin a'r tywysogion; a'r brenin

a wnaeth yn ol gair Memuchan: 22 Canys efe a anfonodd lythyr- au i holl daleithiau y brenin, i.e. i bob talaeth yn ol ei ysgrifen, ac at bob pobl yn ol eu tafodiaith eu hun; a'r fod pob gwŷr yn arglwyddiaethu yn ei dŷ ei hun; a chyhoeddi hyn yn ol tafodiaith pob rhyw bobl.

PENNOD II.

WEDI y pethau hyn, pan lonydd- odd digllonedd y brenin Ahasferus, efe a gofodd Fasti, a'r hyn a wnelasai hi, a'r hyn a farnesid arni.

2 Am hyny gweision y brenin, y rhai oedd yn gweini iddo, a ddywedasant, Ceisier i'r brenin laucesau tég yr olwg o wryfson:

3 A gosoded y brenin swyddogion

annghydfod ac ymryson yn mhob teulu.

Adn. 19. *Eled brenhinol orchymyn oddiwrtho ef* I ysgaru y frenhines Fasti oddiwrth ei gwŷr am byth; ac *ysgrifener ef yn mysg cyfreithiau y Persiaid a'r Mediaid, fel na throdder ef*—Saes., 'fel na newidier ef; canys wedi i ddeddf gael ei hysgrifenu mewn llyfr, a'i llaw-nodi a'i selio gan frenin Persia, nid oedd newid na diddymu i fod arni mwyach, Dan. vi. 8, 15. Yr oedd Memuchan yn hyn yn gofalu am ei ddiogelwch ei hun; canys pe buasai y brenin yn ysgaru Fasti heb sefydlu cyfraith ddigyfnawd felly, gallasai y brenin edifarhau, a'i chymeryd hi yn ol; ac yna gallasai lithau ddial arno ef am ei gyngor, trwy fynd i ddiswyddo a'i gospi ef, os nid ei roddi i farwolaeth. *A rhodded y brenin ei brenhinfrain hi i'w chyfeilles*—prioded ryw wraig acall a fyddo yn fwy ufydd iddo na hi, a gwneid hōno yn frenhines yn lle Fasti.

Adn. 20. *A phan glywer gorchymyn y brenin* Ei fod ef wedi gwneyd deddi ddigyfnawd i ysgaru Fasti oddiwrtho am byth, o achos ei hanufydd-dod; *yna yr holl wragedd a roddant anrhydedd i'w gwŷr*—trwy ymdwyn yn barchus, ufydd, a charuaid tuag at eu gwŷr, rhag iddynt hwythau gael eu rhoddi ymaith; *o'r mwyaf hyd y lleiaf*—cai gwŷr o bob gradd a sefyllfa eu parcbu gan eu gwragedd; canys ni feiddiai neb anufyddhau i'w gwŷr, ar ol clywed nad allai hyd yn nod nawredd y frenhines ei ctadw hi rhag y fath gomp drom.

Adn. 21. *A da oedd y peth yn ngolwg y brenin a'r tywysogion* Mewn rhan, am fod eu hawdurdod a'u lles hwy eu hunain, fel y tybient, yn cael ei ddiogelu trwy hyny; ond, yn benaf, am fod rhagluniaeth Duw yn agor ffordd trwy hyn i ddwyn oddiamgylch ei waith a'i gynlluniau mawrion ei hun.

Adn. 22. *Canys efe a anfonodd lythyrâu i holl daleithiau y brenin* Wedi eu llaw-nodi gan y brenin, a'u selio a'i sel ef ei hun; *ac at*

bob pobl yn ol eu tafodiaith eu hun—wedi eu hysgrifenu yn iaith pob talaeth, fel y gallent eu darllen a'u deall yn drwydd; *ar fod pob gwŷr yn arglwyddiaethu yn ei dŷ ei hun*—nid yn unig ar ei blant a'i wasanaethyddion, ond ar ei wraig befyd, yr hyn yr oedd cyfraith Duw a synwyr cyffredin yn ei ddysgu o ddechre y byd, cyn belled ag na byddai yn dra- arglwyddiaeth greulon; *a chyhoeddi hyn yn mhob tafodiaith pob rhyw bobl*—hyny yw, yr oedd pob gwŷr i lefaru yn ei deulu yn iaith ei deulu, fel y deallid ef gan ei deulu; yr hyn a'i gwnai hwynt yn anesgusodol os anufyddhaent iddo. Y mae y *Targum* yn chwaneu yma, 'fod i bob gwraig lefaru iaith ei gwŷr;' hyny yw, os byddai y gwŷr wedi priodi ddirmyg o dal- aeth arall, lle y llefarid iaith arall, fod yn rhaid iddi ddysgu a llefaru iaith ei gwŷr.

PEN. II. Adn. 1. *Wedi y pethau hyn* Wedi i'r wledd fyned heibio, ac i'r brenin sobri, a dyfod ato ei hun; *efe a gofodd Fasti*—a gofodd am ei glendid a'i serchogrwydd hi bob amser; *a'r hyn a wnelasai hi*—o herwydd ei gwŷrlder a'i diweirdeb, a thrwy gael ei har- wain iddo gan gyfreithiau ac arferion ei gwlad; *a'r hyn a farnesid arni*—ei bod wedi cael ei bwrw allan o'r llys am byth trwy ddeddf nas gellid ei newid. Efe a gofodd gyda gofid a chywilydd am ymddygiad mor greulon o'r eiddo ef at frenhines mor rinweddol, a hyny dan ddylanwad ei gynddaredd yn ei feddwod.

Adn. 2. *Am hyny gweision y brenin* Y rhai, er mwyn eu lles eu hunain, a geisient dawelu ei feddwl ef, trwy ddarparu gwraig arall iddo. *Ceisier i'r brenin laucesau tég yr olwg o wryfson*—hon oedd y ffordd arferol o wneyd i fyny yr harem neu y seraglio: chwilid am y merched ieuainc glanaf trwy yr holl wlad, o deuluoedd uchel neu isel, a dygid hwy i'r harem, neu dŷ y gwragedd. Cyfrifid hwynt oll yn orderchwragedd i'r brenin; a dewisid un i fod yn brif wraig, neu *sultana*,

trwy holl daleithiau ei frenhiniaeth, a chasglant hwythau bob llances dëg yr olwg, o wryf, i Susan y brenhinlys, i dŷ y gwragedd, dan law Hegai ystafellydd y brenin, ceidwad y gwragedd; a rhodder iddynt bethau i'w glanhau :

4 A'r llances a fyddo da yn ngolwg y brenin, a deyrnasa yn lle Fasti. A da oedd y peth hyn yn ngolwg y brenin; ac felly y gwnaeth efe.

5 ¶ Yn Susan y brenhinlys yr oedd rhyw Iudew a'i enw Mordecai. mab Jair, fab Simei, fab Cis, gŵr o Jemini;

6 Yr hwn a ddygesid o Jerusalem gyda'r gaethglud, a gaethglud-esis gyda Jechoniah brenin Judah, yr hwn a ddarfusai i Nebuchodonosor brenin Babilon ei gaethgludo.

7 Ac efe a fagasai Hadassah, (hòno yw Esther,) merch ei ewythr

ef frawd ei dad; canys nid oedd iddi dad na mam: a'r llances oedd weddeiddlwyys, a glân yr olwg; a phan fuasai ei thad a'i mam hi farw, Mordecai a'i cymerasai hi yn ferch iddo.

8 ¶ A phan gyhoeddwyd gair y brenin a'i gyfraith, pan gasglesid hefyd lancesau lawer i Susan y brenhinlys dan law Hegai, cymerwyd Esther i dŷ y brenin, dan law Hegai ceidwad y gwragedd.

9 A'r llances oedd dëg yn ei olwg ef, a hi a gafodd ffafir ganddo; am hyny efe ar frys a barodd roddi iddi bethau i'w glanhau, a'i rhanau, a rhoddi iddi saith o lancesau golygus, o dŷ y brenin: ac efe a'i symudodd hi a'i llancesau i'r fan oreu yn nhŷ y gwragedd.

10 Ond ni fynegasai Esther ei phobl, na'i chenedl: canys Morde-

yr hon a osodid ar yr orsedd; a'i phlant hi a etifeddent y frenhiniaeth.

Adn. 3. *I dŷ y gwragedd*] Yr hwn oedd yn ddwy ran, un i'r gwryfion cyn eu myned at y brenin, a'r llall i'r rhai a fusuent gydag ef; *dan law Hegai ystafellydd y brenin*—neu 'eunuch y brenin,' fel y mae y LXX, y Vulgate, y Targum, a'r Syriaeg yn ei ddarllen. I eunuchiaid yn unig yr ymddiiedid y gwragedd yn ngwledydd y dwyrain; ac ymddengys fod Hegai yn ben arnynt oll: neu gall mai dan ei ofal ef yr oedd y gwryfion cyn eu myned at y brenin, fel yr oeddynt wedi hynny dan ofal Saasgaz, adn. 14. *A rhodder iddynt bethau i'w glanhau*—megys olew myrr, per-argolau, &c., adn. 12. Nid glanhad seremonïol yr Iudewon a feddylir, ond rhyw barotoad i brydfwrthn eu gwedd, fel yr ymddanghosent yn fwy tég yn ngolwg y brenin anllad.

Adn. 4. *A da oedd y peth hyn yn ngolwg y brenin*] Efe a gymeradwyodd y cynllun ar unwaith, a phrysurodd i'w gario allan i weithrediad.

Adn. 5. *Rhyw Iudew a'i enw Mordecai*] Dywed y Targum ei fod yn 'fab Jair, fab Simei, fab Gera, fab Cis'; a chwanega, mai 'hwn oedd y Simei a feldithiodd Ddafydd, yr hwn y gwaharddodd Dafydd i Joab ei ladd, am ei fod yn rhagwedd, trwy wsbryd profwydoliaeth, y byddai i Esther a Mordecai ddisgyn oddiwrtho; ond wedi iddo fyned yn hen, ac yn analluog i blanta, gorchymynodd Dafydd i Solomon ei roddi i farwolaeth?' gwel ar I Bren. ii. 8, 9. *Gŵr o Jemini*—neu o lwyth Benjamin.

Adn. 6. *Yr hwn a ddygesid o Jerusalem gyda'r gaethglud*] Dywedir hyn am un o henaid Mordecai, ac nid am Mordecai ei hun; canys pe felly, buasai raid i Mordecai yn awr fod oddeutu 140 mlwydd oed o leiaf, ac nis gallasai Esther, ei gyfnither ef, fod felly mewn

un modd yn llances ieuanc, fel y dywedir yma ei bod.

Adn. 7. *Ac efe a fagasai Hadassah, hòno yw Esther*] HADASSAH oedd ei henw Hebraidd hi cyn ei phriodi, ac ESTHER oedd ei henw Persiaidd ar ol myned i'r orsedd; *merch ei ewythr ef frawd ei dad*—ac felly yr oedd Esther yn gyfnither i Mordecai; *canys nid oedd iddi dad na mam*—dywed yr Iudewon i'w thad farw cyn ei geni, ac i'w mam farw ar ei genedigiaeth hi; *a'r llances oedd weddeiddlwyys, a glân yr olwg*—yn lluniaidd ei chorff, a thég a phrydterth ei gwnebyrdd. *Mordecai a'i cymerasai hi yn ferch iddo*—i'w magu a'i dwyn i fyny fel ei ferch ei hun.

Adn. 8. *Pan gasglesid hefyd lancesau lawer*] Dywed Josephus i 400 o lancesau gael eu dwyn y pryd hyn dan law Hegai; *cymerwyd Esther i dŷ y brenin*—a hyny trwy drais, fel yr arwydda y gair *tillakach* yn fyny; canys nid ymostyngasai Mordecai na hithau byth i hyn, pe cawsent en hewllyys. Y fath oedd awdurdod a gormes brenhinoedd Persia, fel y gallent gymeryd y neb a fynent i'w harem.

Adn. 9. *A'r llances oedd dëg yn ei olwg ef*] Sef yn ngolwg Hegai, canys nid oedd y brenin eto wedi ei gweled hi; *a hi a gafodd ffafir ganddo*—neu fwy o garedigrwydd na'r llancesau ereill, o herwydd ei thegwch a'i gŵyl-eidd-dra, ac am y tybiai yn gryf ynddo ei hun mai hon a ddewisid hyn y brenin yn wraig iddo. *Am hyny efe ar frys a barodd roddi iddi bethau i'w glanhau*—gwel ar adn. 3, 12, fel yr addesid hi gyda brys i fyned i mewn at y brenin; *a'i rhanau*—o fwydydd a diodydd o'r math goraf, yn nghyda gwisgoedd a thlysan o'r math gwerthfawrocaf, i'w haddarnu yn y modd prydferthaf. *A rhoddi iddi saith o lancesau golygus*—i weini iddi yn wastadol, fel pe buasai yn frenhines eisioes. *Ac efe a'i symud-*

cai a orchymynasai iddi nad yng-
auai.

11 A Mordecai a rodiodd beunydd
o flaen cyntedd tŷ y gwragedd, i
wybod llwyddiant Esther, a pheth a
wnelid iddi.

12 ¶ A phan ddygwyddai amser
pob llances i fyned i mewn at y
brenin Ahasferus, wedi bod iddi hi
yn ol defod y gwragedd ddeuddeng
mis, (canys felly y cyflawnid dydd-
iau eu puredigaeth hwynt; chwe
mis mewn olew myrr, a chwe mis
mewn peraroglau, a phethau creill
i lanhau y gwragedd.)

13 Yna fel hyn y denai y llances
at y brenin; Pa both bynag a ddy-
wedai hi *am dano* a roddid iddi, i
fyned gyda hi o dŷ y gwragedd i dŷ
y brenin.

14 Gyda'r hwyr yr âi hi i mewn,
a'r bore hi a ddychwelai i dŷ arall

*oddi hi a'i llancesau i'r fan oraf yn nhŷ y
gwragedd*—i ryw ystafell ag ydoedd yn rhag-
ori ar y lleill o ran maintioli, dodrefn, gwy-
cher, a manteision ereill.

Adn. 10. *Ond ni fynegasai Esther ei phobl
na'i ehenedl*] Rhag i'r wybodaeth mai ludd-
ewes ydoedd ei gwneyd yn ddirmygus: a
chan iddi gael ei geni yn Persia, y mae yn
debyg na feddyliodd neb nad un o'r Persiaid
ydoedd.

Adn. 11. *A Mordecai a rodiodd beunydd
o flaen cyntedd tŷ y gwragedd*] Yr hyn a
allai efe ei wneuthur fel gŵr anrhydeddus yn
perthyn i'r breinlinn, adn. 5; i *wybod
llwyddiant Esther*—a oedd hi yn iach a ded-
wydd; a *pheth a wnelid iddi*—a oedd hi yn
cael triniaeth dda, neu a fuasai hi eto gerbron
y brenin, a pha both oedd y canlyniad. Gall-
asai wybod y pethau hyn trwy y llancesau a
weinyddent iddi.

Adn. 12. *A phan ddygwyddai amser pob
llances i fyned i mewn at y brenin*] Ar ol bod
ddeuddeng mis dan buredigaeth. Yr oedd
cymaint a hyny o amser yn ofynol, (1) O ran
rhwysg breinlinol, teilwng i freniu mor fawr;
(2) I brofi ei *dweirdeb* hi, rhag ei bod yn
feichiog o rywun arall pan y daethai i mewn,
ac felly ddegi i'r brenin yr hyn ni pherthynai
iddo. *Wedi bod iddi yn ol defod y gwragedd*
—sef bod am y chwe mis cyntaf mewn olew
myrr, ac am y chwe mis chwanelog mewn per-
aroglau a phethau ereill. Dywed Pliny, llyfr
xiii. pen. 1, i'r eneiadau hyn gael eu dyfeis-
io gyntaf gan y Persiaid. Defnyddid *olew
myrr* nid yn unig ar gyfrif ei berarogled, ond
hefyd i wneyd y croen yn ystwyth a llyfn, ac
i'w bwno oddiwrth bob math o grest neu grach;
ac yr oedd y *peraroglau* yn angenrheidiol, yn
y gwledydd poethion hyn, i gymeryd ynaith
bob drygsawr, ac, fel y tybia rhai, i fywiocau

y gwragedd, dan law Saasgaz, ys-
tafellydd y brenin, ceidwad y gor-
dderchadon: ni ddenai hi i mewn
at y brenin mwyach, oddieithr i'r
brenin ei chwennych hi, a'i galw hi
wrth *ei henw*.

15 ¶ A phan ddygwyddodd amser
Esther, merch Abihail ewythr Mor-
decai, (yr hon a gymerasai efe yn
ferch iddo,) i fyned i mewn at y
brenin, ni cheisiodd hi ddim ond yr
hyn a ddywedasai Hegai, ystafell-
ydd y brenin, ceidwad y gwragedd:
ac Esther oedd yn cael flafwr yn
ngolwg pawb a'r oedd yn edrych
arni.

16 Felly Esther a gymerwyd at y
brenin Ahasferus, i'w frenhindy ef,
yn y degfed mis, (hwnw *yw* mis
Tebeth,) yn y seithfed flwyddyn o'i
deyrnasiad ef.

17 A'r brenin a hoffodd Esther

a nerthu y cyfansoddiaid. *A phethau ereill*—
megys baddon twym, &c.

Adn. 13. *Yna fel hyn y denai y llances at
y brenin*] Yn niwedd y deuddeng mis, ar ol
ei phureiddio yn ddigonol; *pa both bynag a
ddywedai hi am dano a roddid iddi*—mewn
ffordd o ddillad gwychion, a modrwyau, perl-
au, a thlysau addurniadol, i borthi amladrwydd
y dyn auniwair hwn. Ond dylid sylwi yma,
fod pob un a ddygid felly gan y brenin i'w
wely, i gael ei hystyried yn *wraig israddol*
iddo, fel yr oedd Agar i Abraham; ac yr oedd
hyn, yn ol arferiad y gwledydd hyn, yn cyt-
iawnhau ymddygiad Esther, hyd yn nod pe na
ddewisaisd hi yn *frenhines*, a phie na buasai
dan *orfod* i ufyddhau.

Adn. 14. *Gyda'r hwyr yr âi hi i mewn*] O
dŷ y gwyrffon i ystafell y brenin; *a'r bore
hi a ddychwelai i dŷ arall y gwragedd*—sef
i'r tŷ a berthynai i'r gordderchadon yn unig;
dan law Saasgaz—yr hwn oedd eunuch arall,
a cheidwad y gordderchwagedd, fel yr oedd
Hegai yn geidwad y gwyrffon, adn. 3.

Adn. 15. *Ni cheisiodd hi ddim*] Yr hyn oedd
yn arwydd o'i phurdeb a'i gwyleidd-dra; *ond
yr hyn a ddywedasai Hegai*—hi a adawodd
y cwbl yn ei law ef, yr hwn oedd a'i fryd ar ei
dyrchafu; ac a aeth i mewn at y brenin yn
y wisg a'r addurniadau a farnai Hegai yn fwyaf
cryfadas. *Ac Esther oedd yn cael ffwr yn
ngolwg pawb*—yr oedd pawb a'i gwelai yn
rhyfeddu wrth ei harddwch, yr hwn nid oedd
mewn angen am addurniadau; canys pry-
dferthwch penaf gwyrffon yw gwyleidd-dra,
dystawrwyd, edrychiad diwair ac arafaid, a
sirioldeb gwedd: a chan fod y pethau hyn oll
yn cydgyfarfod yn Esther, yr oedd pawb a'i
gwelai yn ei hoffi yn fawr.

Adn. 16. *Felly Esther a gymerwyd at y
brenin*] Gyda'r hwyr, ac ni ddychwelwyd hi

ragor yr holl wragedd, a hi a gafodd ffafur a charedigrwydd yn ei wydd ef ragor yr holl wryfon; ac efe a osododd y deyrn-goron ar ei phen hi, ac a'i gwnaeth yn frenhines yn lle Fasti.

18 Yna y gwnaeth y brenin wledd fawr i'w holl dywysogion a'i weision, sef gwledd Esther; ac efe a wnaeth ryddid i'r taleithiau, ac a roddodd roddion yn ol gallu y brenin.

19 A phan gasglwyd y gwryfon yr ail waith, yna Mordecai oedd yn eistedd yn mhorth y brenin.

20 Nid oedd Esther yn mynegu ei chenedl na'i phobl; megys y gorchymynasai Mordecai iddi: canys Esther oedd yn gwneuthur yr hyn a ddywedasai Mordecai, fel *cynt pan* oedd hi yn ei meithrin gydag ef.

i dŷ y gwagedd bore dranoeth fel y lleill, adn. 14, eithr cadwodd y brenin hi yn ei dŷ ei hun; *yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad ef*—yn mhon oddeutu pedair blynedd ar ol diorseddu Fasti, pen. i. 3.

Adn. 17. *A'r brenin a hoffodd Esther ragor yr holl wragedd* Neu y llancesau ereill a fuasant gydag ef; *a hi a gafodd ffafur a charedigrwydd yn ei wydd ef*—tuhwnt i'r lleill oll, trwy gael ei phriodi, a'i choroni yn frenhines.

Adn. 18. *Yna y gwnaeth y brenin wledd fawr* Yr hon a barhaodd, meddai yr Iuddewon, fis o ddyddiau; *sef gwledd Esther*—ar yr achlysur o'i briodas ef ag Esther, neu ar ei chais hi: *ac efe a wnaeth ryddid i'r taleithiau*—oddiwrth ryw dreth neu deyrnged ag oedd yn disgyn arnynt; *ac a roddodd roddion*—i'w dywysogion a'i ddeiliaid, fel y gallai pawb o'i gyfeillion gydlawenhan ag ef ar yr achlysur hwn.

Adn. 19. *A phan gasglwyd y gwryfon yr ail waith* Trybia rhai fod hyn yn cyfeirio at amser cyn i Esther briodi; i'r gwryfon gael eu casglu y waith gyntaf o'r gwahanol daleithiau, a'r ail waith yn Susun, cyn iddynt gael eu cymeryd i dŷ y gwagedd: ond y mae yn debycach mai at ryw gynulliad o honynt wedi i Esther gael ei gwyneud yn frenhines y cyfeirir. Y fath oedd anladrwydd y brenin hwn, fel, er iddo gael gwaig a garai, ac er fod ganddo lawer o orlderchwagedd, yr oedd yn rhaid casglu gwryfon eilwaith iddo i borthi ei chwantau arian ac anifeiliaid. Ond nid yw y geiriau hyn i'w cael yn nghyfieithiad y LXX. *Yna Mordecai oedd yn eistedd yn mhorth y brenin*—wedi ei ddyrchafu i ryw swydd oruchel yn y palas, ond odid trwy ddyllanwad Esther.

Adn. 20. *Nid oedd Esther yn mynegu ei chenedl na'i phobl* Gwel ar adn. 10. Er nad

21 ¶ Yn y dyddiau hyny, (pan oedd Mordecai yn eistedd yn mhorth y brenin,) y llidiodd Bigthan a Therez, dau o ystafellyddion y brenin, sef o'r rhai oedd yn cadw y trothwy, a cheisiasant estyn llaw yn erbyn y brenin Ahasferus.

22 A'r peth a wybu Mordecai; ac efe a'i mynegodd i Esther y frenhines; ac Esther a'i dywedodd wrth y brenin, yn enw Mordecai.

23 A phan chwiliwyd y peth, fe a gafwyd *felly*: am hyny y crogwyd hwynt ill dau ar bren. Ac ysgrifenywyd *hyny* mewn llyfr croniciol ger bron y brenin.

PENNOD III.

WEDI y pethau hyn, y brenin Ahasferus a fawrhaodd Haman mab Hammadetha yr Agagiad, ac

yw enw Duw, fel y sylwasom, yn dygwydd unwaith yn yr Hebraeg, nac yn y rhan fwyaf o'r cyfieithiadau; eto, yn nghyfieithiad y LXX, cawn y geiriau hyn yn dylyn y frawddeg uchod: 'Canys felly y gorchymynasai Mordecai iddi ofni DUW, a chadw ei orchymynion ef, megys y gwnai pan gydag ef.'

Adn. 21. *Yn y dyddiau hyny* Rywbryd ar ol dyrchafu Esther i'r orsedd, fel y mae yn eglur oddiwrth yr adnod nesaf; *y llidiodd Bigthan a Therez*—ond odid am fod Mordecai wedi ei ddyrchafu i ryw swydd uwch na hwy yn y palas; *a cheisiasant estyn llaw yn erbyn y brenin*—i'w ladd ef am hyny. Dywed y *Targum*, 'iddynt ddeall fod Esther wedi bwriadu dylanwadu ar y brenin i'w troi hwynt o'u swydd, a gosod Mordecai yn eu lle; ac iddynt hwythau o herwydd hyny benderfynu gwenwyno Esther, a lladd y brenin yn ei wely-yst-fell.'

Adn. 22. *A'r peth a wybu Mordecai* Dywed Josephus mai Iuddew o'r enw *Barnabaeus* a'u clybu hwynt yn llunio y fraduriaeth, yr hwn a'i mynegodd i Mordecai, a Mordecai i Esther, ac Esther i'r brenin yn enw Mordecai; ac *efe* a gofrestrwyd fel y datguddwydd.

Adn. 23. *A phan chwiliwyd y peth, fe a gafwyd felly* Cafwyd tystiolaeth sicr, a llawn brawf, fod y ddau ystafellydd uchod wedi bradwriadu yn erbyn einoes y brenin; *am hyny y crogwyd hwy ill dau ar bren*—tybia rhai fod y wreiddiol i'w deall am eu *polyma*, yn ol arferiad rhai gwledydd. Gosodid polyn pigfain yn y ddaear, a'r troseddwr a ddodid i eistedd ar ei flaen; ac yna tynid ef i lawr gerfydd ei goesau, nes yr ai y polyn trwy ei gorff, ac allan trwy ei wddf ef. Yr oedd hon yn gosh dra arswydus, yn nha un yr oedd *dialedd* a *chreulondeb* yn cydgyfarfod; a dywedir fod y dyoddefydd yn byw am grym amser yn y poenau mwyaf. Ond dywed Josephus mai

a'i dyrchafodd ef; gosododd hefyd ei orseddfaine ef goruwch yr holl dywysogion oedd gydag ef.

2 A holl weision y brenin, y rhai oedd yn mhorth y brenin, oedd yn ymgrymu, ac yn ymostwng i Haman: canys felly y gorchymynasai y brenin am dano ef: ond nid ymgrymodd Mordecai, ac nid ymostwngodd.

3 Yna gweision y brenin, y rhai oedd yn mhorth y brenin, a ddywedasant wrth Mordecai, Paham yr ydwytt ti yn troseddu gorchymyn y brenin?

4 Ac er eu bod hwy beunydd yn dywedyd wrtho *fel hyn*, eto ni wrandawai efe arnynt hwy; am hyny y mynegasant i Haman, i edrych a

safai goiriau Mordecai: canys efe a fynegasai iddynt mai Iuddew ydoedd efe.

5 A phan welodd Haman nad oedd Mordecai yn ymgrymu, nac yn ymostwng iddo, Haman a lanwyd o ddiglonedd.

6 Er hyny diystyr oedd ganddo yn ei olwg ei hun estyn llaw yn erbyn Mordecai ei hunan; canys mynegasant iddo bobl Mordecai: am hyny Haman a geisiodd ddyfethu yr holl Iuddewon, y rhai oedd trwy holl frenhiniaeth Ahasferus, sef pobl Mordecai.

7 ¶ Yn y mis cyntaf, (hwnw yw mis Nisan,) yn y ddeuddegfed flwyddyn i'r brenin Ahasferus, efe a barodd furw Pwr, (hwnw yw, y

eu croeshoelio a wnaed. *Ac ysgrifenydd hyny mewn llyfr cronol*—mewn dyddlyfr brenhinol, lle yr ysgrifenid pob dygwyddiad o bwys yn y deyrnas, yn nglydag enwau y rhai a gymerasant ran yddo: gwel ar pen. vi. 1.

PEN. III. Adn. 1. *Wedi y pethau hyn*] Yn mhen oddeutu pedair blynedd, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 7; y brenin Ahasferus a fawrhoedd Haman—yr Agagiad—meddyllir ei fod ef yn dywysog o hiliogaeth Agag brenin yr Amaleciaid, yr hwn a arbedwyd gan Saul, ac a ddyfethwyd gan Samuel; ac mai o achos hyny yr oedd ef mor elyniaethus i'r Iuddewon; ac a'i dyrchafodd ef—goruwch yr holl dywysogion ereill, i'r sedd uwchaf fel prif-gangbelydd, yn nesaf at y brenin ei hun.

Adn. 2. *A holl weision y brenin*] Sef holl swyddogion uchel y llys; oedd yn ymgrymu ac yn ymostwng i Haman—yr rhoddi iddo fath ar addoliad dwyfol, fel yr arwddda y wreiddiol; a dywed y Targum, fod Haman wedi gosod i fyny ei ddolw ei hun, yr hon yr oedd pawb yn gorfod plygu iddi a'i haddoli, yn ol gorchymyn y brenin. Ond nid ymgrymodd Mordecai, ac nid ymostwngodd—am na roddai ef, fel Iuddew, addoliad i neb ond Duw y nefoedd. Y mae yn amlwg mai hyn oedd yr achos o anafydd-dod Mordecai; ac yn y chwaneigiad at Lyfr Esther, yr hwn a geir yn yr *Apocrypha*, cawn Mordecai yn gweddio fel hyn: 'Ti a wyddost, O Arglwydd, nad o draha, nac o falchder, nac o chwant gogoniant, y gwnaethym i hyn, sefnad arnhydeddwn Haman falch; canys mi a fuaswn foddol i gusanu ôl ei draed ef er iachawdwriaeth i Israel: ond mi a wnaethym hyn rhag gosod o honof ogoniant dyn goruwch gogoniant Duw, a rhag addoli o honof neb ond tydi,' pen. xiii. 12—14.

Adn. 3. *Yna gweision y brenin*] Sef cydswyddogion Mordecai yn y llys. Paham yr ydwytt ti—yr hwn a ddyrchafwyd mor uchel

gan y brenin: yn troseddu gorchymyn y brenin—trwy beidio ymgrymu i Haman?

Adn. 4. *I edrych u safai goiriau Mordecai*] A barhiai efe yn ei anafydd-dod ar ol cymeriad sylw o'r peth gan Haman ei hun, neu ar ol ei alw i gyfrif; canys efe a fynegasai iddynt mai Iuddew oedd efe—ac felly nad oedd ef yn gommedd yr arnhydedd hwn i Haman oddiar falchder neu ddygasedd, llai o lawer oddiar wrthryfelgarwch, neu ddirmyg ar awdurdod a gorchymyn y brenin; ceitir o gydwybod, trwy ei fod yn rhwym, fel Iuddew, i roddi y cyfrwy arnhydedd i Ddau yn unig.

Adn. 5. *Haman a lanwyd o ddiglonedd*] Dywed Josephus i Haman ofyn i Mordecai o ba genedl yr ydoedd; ac ar ol deall mai Iuddew oedd efe, ddarhod iddo benderfynu nid yn unig ddial ar Mordecai, ond dyfetha holl genedl yr Iuddewon, gan gofio i'w henafiaid ef, yr Amaleciaid, gael eu gyru gynt allan o'u gwlad, ac agos eu llwyr ddyfetha, gan yr Iuddewon.

Adn. 6. *Er hyny diystyr oedd ganddo yn ei olwg ei hun estyn llaw yn erbyn Mordecai ei hunan*] Gan ei ladd ef yn unig: efe a ystyriai hyny yn rhy fach o gorp am drosedd mor fawr. Haman a geisiodd ddyfethu yr holl Iuddewon—nid yn unig yn y wlad hono, ond yn Judea hefyd, yr hon oedd dalaeth o frenhiniaeth Ahasferus. Efe a ystyriai i'r holl Iuddewon fod yn elynion i'r Amaleciaid, ac y byddai iddynt oll, oddiar yr un egwyddor a Mordecai, wrthod ymgrymu mewn ffordd o addoliad iddo ef.

Adn. 7. *Yn y mis cyntaf*] O flwyddyn eglwysig yr Iuddewon; hwnw yw mis Nisan—yn cyfateb i ran o'n Mawrth a'n Hebrill ni. Ymddengys oddiyma mai rhyw Iuddew a ysgrifennodd y llyfr hwn. Yn y ddeuddegfed flwyddyn i'r brenin Ahasferus—yn mhen pedair blynedd a dau fis ar ol priodas Esther, pen. ii. 16. Efe a barodd furw Pwr, hwnw yw y cochlber—ymddengys mai llygriad Hebreig yw pwr o'r gair Persiaidd *pari*, yr hwn a arwydda unrhyw beth a ddygwyddai yn ddam-

coelbren,) gerbron Haman, o ddydd i ddydd, ac o fis i fis, *hyd* y deuddegfed *mis*, hwnw *yw* *mis* Adar.

8 ¶ A Haman a ddywedodd wrth y brenin Ahasferus, Y mae rhyw bobl wasgareddig a gwahanedig yn mhllith y bobloedd, trwy holl dalcithiau dy frenhiniaeth; a'u cyfreithiau hwynt *sydd* yn amrafaelio oddiwrth yr holl bobl, ac nid ydynt yn gwneuthur cyfreithiau y brenin; am hyny nid buddiol i'r brenin eu dyoddef hwynt.

9 O bydd boddlon gan y brenin, ysgrifener am eu dyfetha hwynt: a deng mil o dalentau arian a dalaf ar ddwyllaw y rhai a wnant y weithred hon, i'w dwyn i drysorau y brenin.

10 A thynodd y brenin ei fodrwy

weniol. Y mae yn debyg mai y brenin a orchymynodd hyn ar ddyuniad Haman, a bod y coelbren yn cael ei fwrw gan ryw ddewin. O ddydd i ddydd, ac o fis i fis—tybia riai eu bod yn bwrw y coelbren bob dydd hyd ganol y deuddegfed mis; tra y barna ereill iddynt wneyd hyn oll y diwrnod cyntaf am yr oll. Trwy fod Haman yn penderfynw dyfetha Mordecai a'r Iuddewon, efe a alwodd yn nghyd ei ddewiniaid, fel y gallent ddeall pa ddiwrnod oedd oraf, neu fwyaf llwyddiannus, i wneuthur hyny. Y ffordd arferol o ddewinio y pryd hyny yn mhllith y Persiaid oedd trwy fwrw coelbren; a thrwy chwilio yn gyntaf am y mis, ac wedi hyny am y dydd o'r mis, penderfynwyd o'r diwedd mai y trydydd dydd ar ddeg o'r deuddegfed mis oedd y dydd goraf i gyflawni y weithred waeddy, adn. 13. Bwrwyd y coelbren yn y mis cyntaf o'r flwyddyn, eithr oedwyd dienyddiad yr Iuddewon hyd ganol y mis olaf o'r flwyddyn; yr hyn a ddefngys yn eglur, er i'r coelbren gael ei fwrw i'r arfed, mai 'oddiwrth yr Arglwydd y mae ei holl llywodraethiad ef, Diar. xvi. 33; canys trwy hyny bu agos i flwyddyn gyfan rhwng y bwriad a'r cyflawniad, yr hyn a roddodd gyfleusdra i Mordecai i fynegu y peth i Esther, ac iddi hitbau i eiriol gerbron y brenin am arbediad i'r Iuddewon, yr hyn oedd yn dra rhaglun-iaethol.

Adn. 8. A Haman a ddywedodd] Neu a ddywedasai wrth y brenin, cyn bwrw y coelbren uchod; Y mae rhyw bobl wasgareddig a gwahanedig—felly y geillw ef yr Iuddewon, fel pe buasant yn rhy wael i gael en henwi; trwy holl dalcithiau dy frenhiniaeth—y rhai, os goddefir hwynt, a allant llygu dy holl ddeiliaid a'u hegwyd Ionion gwrthryfelgar; a'u cyfreithiau hwynt sydd yn amrafaelio—neu yn amrywio oddiwrth eiddo yr holl bobl, trwy fod ganddynt ddefodan a chrefydd neillduol iddynt en hunain; ac nid ydynt yn gwneuthur cyfreithiau y brenin—fel y mae yn eglur oddiwrth ddirmyg ystyfiag Mordecai oeth orchym-

oddiam ei law, ac a'i rhoddes i Haman mab Hammadetha yr Agagiad, gwrthwynebwyr yr Iuddewon.

11 A'r brenin a ddywedodd wrth Haman, Rhodder yr arian i ti, a'r bobl, i wneuthur a hwynt fel y byddo da yn dy olwg.

12 Yna y galwyd ysgrifenyddion y brenin, yn y mis cyntaf, ar y trydydd dydd ar ddeg o'r mis hwnw, ac yr ysgrifenywyd, yn ol yr hyn oll a orchymynasai Haman, at benedfigion y brenin, ac at y dugiaid oedd ar bob talaeth, ac at dywysogion pob pobl i bob talaeth yn ol ei ysgrifen, ac at bob pobl yn ol eu tafodiaith; yn enw y brenin Ahasferus yr ysgrifenasid, ac â modrwy y brenin y seliesid hyn.

13 A'r llythrau a anfonwyd gyd-

yn diweddar mewn perthynas i mi, yr hwn y byddai iddynt oll ei drin yr un modd; am hyny nid buddiol i'r brenin eu dyoddef hwynt—i fyw yn dy deyrnas.

Adn. 9. Ysgrifener am eu dyfetha hwynt] Boed i gyfraith wedi ei hysgrifenu a'i selio gan y brenin gael ei chyhoeddi i'r perwyl hwnw; a deng mil o dalentau arian a dalaf—yr hyn, yn ol y dalent Hebraeg, a gyrhaeddai i £3,421,875 o'n harian ni. Yr oedd hyn yn swm mawr i'w dalu gan un dyn; ond dim amau ei fod ef yn gobettio cael cymaint a hyny trwy ymafnyd yn eu heiddo hwynt. Ar ddwyllaw y rhai a wnant y weithred hon—nid y rhai a laddent yr Iuddewon, ond ar ddwyllaw y rhai ag oeddynt i dderbyn cyllid y brenin, fel yr ymddengys oddiwrth y geiriau nesaf, 'i'w dwyn i drysorau y brenin.'

Adn. 10. A thynodd y brenin ei fodrwy oddiam ei law] Ar yr hen yr oedd sêl y llywodraeth; ac a'i rhoddes i Haman—nid yn unig o barch ac anrhydedd iddo ef, yn ol defod brehinioedd Persia; ond hefyd i'w awlurdodi ef i ysgrifenu gorchymyn i ladd yr holl Iuddewon, a'i selio â sêl y brenin.

Adn. 11. A'r brenin a ddywedodd wrth Haman] With roidi y fodrwy iddo oddiam ei law, Rhodder yr arian i ti, a'r bobl—i'w rhau rhyngddo ef a'r bobl a ddyfethent yr Iuddewon; neu, fel y gellir deall y geiriau, Cymer di yr arian, a rhodder y bobl hefyd i ti, sef yr Iuddewon, i wneuthur a hwynt fel y byddo da yn dy olwg.

Adn. 12. Yna y galwyd ysgrifenyddion y brenin] Oddiwrth bob gorchwyl arall, i ysgrifenu at dywysogion pob talaeth llythrau gan enw y brenin, ac wedi en selio â'i fodrwy ef, yn gorchymyn ladd yr holl Iuddewon ar ddydd penodol trwy yr holl anherodraeth. Gofalodd Haman am i'r llythrau gael en hysgrifenu ar y 13eg o'r mis cyntaf, er nad oedd y gyflafan i gymeryd lle hyd y 13eg o'r deuddegfed mis, adn. 13; a'i ddyben ef yn rhoddi y rhybydd prydlon hwn oedd, rhag y byddai

a'r rhedegwyr i holl dalcithian y brenin; i ddinystrio, i ladd, ac i ddyfetha yr holl Iuddewon, yn ieu-ainc ac yn hen, yn blant ac yn wragedd, mewn un dydd, *sef* ar y trydydd dydd ar ddeg o'r deuddegfed mis, (hwnw *yw* mis Adar,) ac i ysglyfaethu eu hyspail hwynt.

14 Testyn yr ysgrifen, i roi gorchymyn yn mhob talaeth, a gyhoeddwyd i'r holl bobloedd, i fod yn barod erbyn y diwrnod hwnw.

15 Y rhedegwyr a aethant, wedi eu cymhell trwy air y brenin, a'r gorchymyn a roddesid yn Susan y brenhinlys. Y brenin *hefyd* a Haman a eisteddasant i yfed, a dinasyddion Susan oedd yn athrist.

i'r brenin newid ei feddwl, a chwynnych arbed yr Iuddewon, cyn i'r rhybydd fyned allan. Felly ysgrifenyd y llythyrâu hyn y dydd cyn y pas, yr hwn a gynelid ar y 14eg o'r mis cyntaf, Exod. xii. 6.

Adn. 13. *A'r llythyrâu a anfonwyd gyda'r rhedegwyr*] *Sef* gwŷr ar feirch, fel y gallent gyraedd dros yr 127 o daleithian gyda phob brys; i *ddinystrio, i ladd, ac i ddyfetha*—tri gair yn arwyddo y gallent gymeryd y ffordd a fynent i'w lladd, ond fod iddynt wneyd hyn yn effeithiol; *yr holl Iuddewon*—nid yn unig y gwŷr, ond y gwragedd hefyd; *nid yn unig yr hen bobl, ond y plant hefyd; mewn un dydd*—*sef* y 13eg o fis Adar, yr hwn a ddanghowsyd i Haman trwy y coelbren fel y dydd mwyaf llwyddiannus, adn. 7; *ac i ysglyfaethu eu hyspail hwynt*—yr hyn a grybwyllir er mwyn tueddu y bobl i fod yn fwy parod i uffyddhau er eu lles eu hunain.

Adn. 14. *Testyn yr ysgrifen*] *Sef* copi neu ailun o honi; *a gyhoeddwyd i'r holl bobloedd*—*e* osodwyd i fyny mewn lleoedd amlwg, fel y gwybyddid gorchymyn y brenin am yr Iuddewon gan yr holl bobl yn gyffredinol. Nid yn nnig anfonwyd llythyr at y pendefigion, y dugiaid, a'r tywysogion yn mhob talaeth, adn. 12, ond rhoddwyd copi o hono i'r bobl hefyd, fel y byddent hwythau yn barod i gyflawni y gyflafan ar y 13eg o'r deuddegfed mis.

Adn. 15. *Y rhedegwyr a aethant*] *I'r holl daleithiau gyda'r brys mwyaf; wedi eu cymhell trwy air y brenin*—yr hwn a roddwyd allan o Susan y brenhinlys. *Y brenin hefyd a Haman a eisteddasant i yfed*—mewn gwledd a chyfeddach o ddarpariad Haman fel y meddyllir, i ddangos ei ddiolchgarwch i'r brenin am ei ganiatâd gwaedlyd, ac i'w gadw ef rhag edifarhau am ei weithred greulon. *A dinasyddion Susan oedd yn athrist*—nid yn unig yr Iuddewon, ond nifer mawr o'r Persiaid hefyd, y rhai oeddynt naill ai wedi cymysgu â lwynt trwy briodasau a masnachacth, neu yntie yn gofidio am fod y fath nifer o bobl ddi-niwed wedi eu nodi fel defaid i'r lladdfa. Gallai eu bod hefyd yn offni rhag y byddai i

PENNOD IV.

DAN wybu Mordecai yr hyu oll a i'w wnelid, Mordecai a rwygodd ei ddillad, ac a wisgodd sachlian a lludw, ac a aeth allan i ganol y ddinas, ac a waeddodd â chwerw-lef uchel.

2 *Ac efe a ddaeth hyd o flaen porth y brenin: ond ni cheid dyfod i borth y brenin mewn gwisg o sach.*

3 *Ac yn mhob talaeth a lle a'r y daethai gair y brenin a'i orchymyn iddo, yr oedd galar mawr gan yr Iuddewon, ac ympryd, ac wyllofain, ac oernad; a llawer a orweddent mewn sachlian a lludw.*

farn Duw syrthio ar y wlad o herwydd y fath gyfraith waedlyd, neu rhag y byddai i rai o honynt hwythau syrthio yn y fath gyflafan gyffredinol.

PEN. IV. Adn. 1. *Pan wybu Mordecai yr hyu oll a wnelid*] *Fod y ddeddf uchod wedi ei selio, a'r rhedegwyr wedi myned allan i'w chyhoeddi; Mordecai a rwygodd ei ddillad, ac a wisgodd sachlian a lludw*—yn arwydd o'i fawr oîd a'i alar; *ac a aeth allan i ganol y ddinas*—i'r rhanau mwyat poblogaidd a chyhoeddus o honi; *ac a waeddodd â chwerw-lef uchel*—i dynu sylw yr holl Iuddewon yn y ddinas, ac i'w cael i gydalaru âg ef. *Yn nghyfieithiad y LXX chwanegir y goiriau a draethai efe y pryd hyn: 'Y mae pobl i gaei eu dyfetha, y rhai ni wnaethant ddim drwg!'*

Adn. 2. *Ac efe a ddaeth hyd o flaen porth y brenin*] *Fel y byddai i'w chwerw-lef ef gyraedd i glustiau Esther; ond ni cheid dyfod i borth y brenin mewn gwisg o sach*—neu mewn arwyddion galar, rhag i'w bleserau ef gael eu rhwystro trwy feddyliau am glefyd a marwolaeth.

Adn. 3. *Ac yn mhob talaeth*] *Lle y clywid am orchymyn gwaedlyd y brenin; yr oedd galar mawr gan yr Iuddewon*—y rhai a ymprydiant ac a oernadent y dydd; *a llawer a orweddent mewn sachlian a lludw*—y nos, gan anghofio nid yn unig eu galwedigaethau, ond hefyd eu hymborth a'u gwelwau.

Adn. 4. *Ynâ llancesau Esther a'i hystaf-clyddion*] *Sef yr eunuchiaid a weinyddent iddi; a fynegasant hyn iddi hi*—*sef* fod Mordecai yn llefain o flaen y porth mewn sachlian alludw. *A'r frenhines a dristaodd yn ddirfawr*—o herwydd gofid ei chefned a'i meithriawr tirion, canys ni wyddai hi eto pa beth a ddygwyrddasai iddo; *a hi a ddanfonodd wisg oedd i adilladu Mordecai*—fel y gallai efe ddyfod i'r palas i fynegu yr achos o'i alar, yr hyn nid allai ei wneutlur mewn gwisg o sach, adn. 2. *Ond ni chymera i'w hwynt*—am na fynai ei gysuro, na chymaint ag edrych yn siriol yn ei ddrygyfd a'i alar presenol.

4 ¶ Yna llancesau Esther a'i hys- tafellyddion hi a ddaethant ac a fynegasant *hynny* iddi hi. A'r frenhines a dristoodd yn ddirfawr; a hi a ddanfonodd wisgoedd i ddilladu Mordecai, ac i dynu ymaith ei sach- lian ef oddiam dano; ond ni chy- merai efe *hwylt*.

5 Am hyuy Esther a alwodd ar Hatach, *un* o ystafellyddion y brenin, yr hwn a osodasai efe *i wasan- aethu* o'i blaen hi; a hi a orchym- nodd iddo am Mordecai, fynu gwy- bod pa beth oedd hyn, ac am ba beth yr ydoedd hyn.

6 Yna Hatach a aeth allan at Mordecai i heol y ddinas, yr hon sydd o flaen porth y brenin.

7 A Mordecai a fynegodd iddo yr hyn oll a ddygwyddasai iddo; a swm yr arian y rhai a addawsai Haman eu talu i drysorau y brenin am yr Iuddewon, i'w dyfetha hwylt.

8 Ac efe a roddodd iddo destyn ysgrifen y gorchymyn a osodesid yn

Susan i'w dinystrio hwynt, i'w ddangos i Esther, ac i'w fynegu iddi, ac i orchymyn iddi fyned i mewn at y brenin, i ymbil ág ef, ac i ym- nhédd o'i flaen ef dros ei phobl.

9 A Hatach a ddaeth ac a fyneg- odd i Esther eiriau Mordecai.

10 ¶ Ac Esther a ddywedodd wrth Hatach, ac a orchymynodd iddo *dihywedyd* wrth Mordecai;

11 Holl weision y brenin, a phobl taleithiau y brenin, ydynt yn gwy- bod, mai pa wr bynag, neu wraig a ddelo i mewn at y brenin i'r cyntedd nesaf i mewn, heb ei alw, un o'i gyf- reithiau ef *yw ei farwolaethu ef*, oddieithr yr hwn yr estyno y brenin y deyrnwialen aur iddo, fel y byddo byw: ac ni'm galwyd i ddyfod i mewn at y brenin, bellach *erys* deng niwrnod ar hugain.

12 A hwy a fynegasant i Mordecai eiriau Esther.

13 Yna Mordecai a ddywedodd am iddynt ateb Esther; Na feddwl

Adn. 5. *Am hyny Esther a alwodd ar Hatach*] Sef yr eunuch a osodasai y brenin i weini iddi; a *hi a orchymynodd iddo am Mordecai*—i fynu gwybod ganddo beth oedd yr achos o'i alar a'i ofid presenol.

Adn. 6. *Yna Hatach a aeth allan at Mordecai i heol y ddinas*] Lle yr oedd ef yn cerdded yn ol ac yn mlaen, gan waeddi ac oer- nadu i chwewr-lef uchel.

Adn. 7. *A Mordecai a fynegodd iddo yr hyn oll a ddygwyddasai*] Y modd y gwrth- ododd efe addoli Haman, a bwriad Haman o ganlyniad i ddyfetha yr holl genedl; cry- bwyllodd hefyd am y deng mil o dalentau arian y rhai yr addawsai Haman eu talu i dry- sorau y brenin am wventhur deddf i'w lladd hwylt, a rhoddodd iddo gopi o'r ddeddf hōno i'w ddangos i Esther.

Adn. 8. *Ac efe a roddodd iddo destyn ys- grifen y gorchymyn*] Neu gopi ysgrifenedig o'r ddeddf seliedig hōno; *i'w ddangos i Es- ther*—fel y cai hi bob sicrwydd mai gwir oedd y peth; *ac i orchymyn iddi fyned i mewn at y brenin*—ar frys, *i ymbil ág ef*—yn y modd taeraf, *ac i ymhédd*—neu eiriol, *o'i flaen ef dros ei phobl*—sef dros yr Iuddewon, y rhai oeddynt yn bobl iddi hi yn gystal ag iddo yntau. Y mae y cyfieithiad Groeg yn chwana-egu yma: 'Cofia anser dy ddarostyngiad, a'r modd y'th feithrinid ac y'th ddygid yn fy mreithiau i; a bod Haman, yr hwn sydd nes- af i'r brenin, wedi cael deddf i'n dinystrio ni. Gweddia gan hyny ar yr ARLWYDD, ac ymbil â'r brenin, ar fod i ni gael ein gwared rhag angau.' Ond nid oes gair o hyn yn yr Hebraeg, y Syriaeg, na'r Vulgate.

Adn. 9. *A Hatach a ddaeth ac a fynegodd*

i Esther] Holl eiriau ei chefnwr Mordecai.

Adn. 10. *Ac Esther a ddywedodd wrth Hatach*] Fel y byddai iddo yntau gario y genadwri at Mordecai, yr hwn nad oedd yn gyfreithlon iddi hi ei hun ymddyddan ág ef.

Adn. 11. *Holl weision y brenin*] Y mae yn hysbys i bawb, nchel ac isel; *mai pa wr bynag, neu wraig*—bydded en gradd yn y deyrnas y peth y byddo; *a ddelo i mewn at y brenin i'r cyntedd nesaf i mewn*—lle yr oedd ei orsedd a'i arhosfa gyffredin ef; *heb ei alw*—gan y brenin ei hun; *un o'i gyfreithiau ef yw ei farwolaethu*—gwnaed y gyfraith hon i gynal i fynu fawrhydi a diogelwch personol y brenin; *oddieithr yr hwn yr estyno y brenin y deyrnwialen aur iddo*—yr hyn oedd yr arwydd y cai efe ei fywyd. *Ac ni'm galwyd i*—i'w wyddfod ef er's deng niwrnod ar hugain. Yn yr adnod ddiweddar o'r bennod flaen- orol gwelom i'r brenin a Haman *eistedd i yfed*; ac y mae yn dra thebyg i'r dyn dryg- ionus hwnw wneyd ei oraf y pryd hyny i ddy- eithrio serchiadau y brenin oddiwrth Esther, yr hon y gwyddai ef ei bod yn Iuddewes, ac yn gyfnither i Mordecai; canys efe a ofnai y byddai iddi hi fod yn rhwystr iddo efyglawni ei fwriadu: felly y mae yn dra thebyg mai Haman a fu yr achos i'r brenin beidio galw Esther ato gymaint ag unwaith yn ystod y mis a aethai heibio.

Adn. 12. *A hwy*] Sef Hatach a'r llancesau; *a fynegasant i Mordecai eiriau Esther*—y rhai a adroddwyd yn adn. 11.

Adn. 13. *Na feddwl yn dy galon*] Trwy dy fod yn frenhines; *y diengi yn uhaf y brenin*—gan dy fod yn Iuddewes, ni elli obeithio di- anc mwy na'r holl Iuddewon ereill.

yn dy galon y diengi yn nhŷ y brenin
in ragor yr holl Iuddewon.

14 O herwydd os tewi â son a
wnai di y pryd hyn, esmwythdra ac
ymwared a gyfyd i'r Iuddewon o le
arall, tithau a thŷ dy dad a gyfr-
gollir: a phwy sydd yn gwybod ai
o herwydd y fath amser a hwn y
daethost ti i'r frenhiniaeth?

15 ¶ Yna Esther a ddywedodd
am ateb Mordecai fel hyn.

16 Dos a chasgl yr holl Iuddewon
a gaffer yn Susan, ac ymprydiwch
dros of fi, na fwytewch hefyd ac nac
yfwech dros dridiau, nos na dydd: a
minau a'm llancesau a ymprydiaf
felly: ac felly yr âf i mewn at y
brenin, yr hwn both nid yw gyfreith-

lon: ac o derfydd am danaf, dar-
fydded!

17 Felly Mordecai a aeth ymaith,
ac a wnaeth yn ol yr hyn oll a or-
chymynasai Esther iddo.

PENNOD V.

AC ar y trydydd dydd, Esther
a ymwisgodd mewn brenhinol
wisgoedd, ac a safodd yn nghyntedd
tŷ y brenin o'r tu fewn, ar gyfer
tŷ y brenin: a'r brenin oedd yn
eistedd ar ei deyrngadair yn y
brenhindy gyferbyn â drws y tŷ.

2 A phan welodd y brenin Esther
y frenhines yn sefyll yn y cyntedd,
hi a gafodd ffafr yn ei olwg ef: a'r
brenin a estynnodd y deyrnwialen

Adn. 14. *O herwydd os tewi â son a wnaei di y pryd hyn*] Heb eiriol dros yr Iuddewon o flaen y brenin; *esmwythdra ac ymwared a gyfyd i'r Iuddewon o le arall*—felly yr oedd ganddo ef obaith cryf y gwaredai yr Arglwydd rai o'i bobl trwy ryw foddion neu gilydd, yn enwedig y rhai oeddynt yn ei wasanaethu yn y deml yn Jerusalem a Judea. *Tithau a thŷ dy dad*—y rhai ydym yna yn Persia o dan sylw Haman; a *gyfrgollir*—a ddyfethir yn anocheladwy trwy dy esgeulusiad di o wneuthur dy ddyledswydd. *A phwy sydd yn gwybod ai o herwydd y fath amser a hwn*—neu erbyn y fath amser a hwn, y daethost ti i'r frenhiniaeth—fel y byddi yn offeryn yn llaw rhagluniaeth Duw i waredu dy genedl?

Adn. 15. *Yna Esther a ddywedodd*] Neu a orchymynnodd i'r un cenadaw gario y genadwri a ganlyn at Mordecai i'r heol.

Adn. 16. *Dos a chasgl yr holl Iuddewon a gaffer yn Susan*] Fel y gallot orchymyn iddynt wneyd yr hyn a ganlyn, pob un yn ei dŷ ei hun; *ac ymprydiwch dros of fi*—dros dridiau, heb fwyta nac yfed dim nos na dydd. Hi a enwai y nos, am yr arferai yr Iuddewon ar achosion ereill fwyta y nos, er eu bod yn ymprydio y dydd. Diaman fod hyn yn cynwys gweddio ar *Dlww* hefyd, er na chrybwyllir hyn; canys dyben ympryd, yn mhllith yr Iuddewon, oedd cynorthwyo gweddio, neu ei gwneuthur yn fwy cymeradwy. *A minau a'm llancesau a ymprydiaf felly*—gan weddio am i'r Arglwydd fy nerthu yn fy ysbyrd i fyned at y brenin, a rhoddi i mi ffafr yn ei olwg, a'i dueddu ef i ganiatáu fy neisyfiad ar ran fy mhobl. Yr oedd ganddi hi gymaint a hyn o awdurdod dros ei llancesau; neu dichon mai Iuddewesau oeddynt, neu rai wedi eu proseltyo i'r crefydd Iuddewig; canys y mae yn debyg y caniatâi y brenin iddi ddewis y neb a fynai yn forwynion iddi. *Ac felly yr âf i mewn at y brenin*—i eiriol dros fy mhobl, er nad yw hyn yn gyfreithlon, a minau heb fy ngalw, adn. 11. *Ac o derfydd am danaf, darfydded!*—os bydd i fy mywyd gael ei forffetio wrth geisio arbed bywyd fy nghenedl,

ni waeth i mi farw felly, na marw trwy ddeddf waedlyd llaman. Fel hyn hi a'i rhoddai ei hun yn llaw rhagluniaeth ddoeth Daw, gan wybod, os collai hi ei bywyd, nad allai ei gollu mewn gwel achos.

Adn. 17. *Felly Mordecai a aeth ymaith*] I'w dŷ ei hun; *ac a wnaeth yn ol yr hyn oll a orchymynasai Esther iddo*—efe a gasglodd vn nghyd yr holl Iuddewon ag oeddynt yn Susan, ac ympryiodd ef a hwythau dridiau yn ol ei gorchymyn hi, adn. 16. Tybia yr Iuddewon i'r ympryd hwn yn Susan ddechreu ar ddydd y pasce, pryd yr oedd eu brodyr yn Jerusalem yn gwledda ar oen y pasce; gwel ar pen. iii. 12.

PEN. V. Adn. 1. *Ac ar y trydydd dydd*] O'r ympryd, pen. iv. 16; *Esther a ymwisgodd mewn brenhinol wisgoedd*—yn lle y gwisgoedd galar oedd am dani wrth ymprydio; *ac a safodd yn nghyntedd tŷ y brenin*—lle y gallai y brenin ei chanfod hi oddiar ei orsedd. Nid oedd rydd i neb fyned i'r lle hwn heb ei alw; ond trwy mai y frenhines oedd hi, gollyngodd y ceidwaid hi i mewn, gan adael rhwng y brenin a luthan amy canlyniad.

Adn. 2. *Hi a gafodd ffafr yn ei olwg*] Yr hyn yn ddiau oedd o Dduw, i lwyddo neges Esther, ac i waredu yr Iuddewon; *a'r brenin a estynnodd y deyrnwialen aur oedd yn ei law*—i arwyddo ei fod ef yn maddu ei rhyfŷg, ac yn barod i ganiatáu ei deisyfiad, beith bynag ydoedd; *ac Esther a nesodd, ac a gyffyrddodd â phen y deyrnwialen*—i gydabod ei diriondeb ef mewn ffordd o ddiolchgarwch iddo. Y mae y LXX yma yn arddangos y brenin wedi ymgynudderiogi yn fawr pan welodd efe Esther yn meiddio dyfod ger ei fron ef heb ei gorchudd; ac iddi hithau, pan ganfu hyn, ddychrynu gymaint fel y syrthiodd mewn llewyg; ac yna ddarfod i'r brenin, wedi ei lenwi â thynnerwch, neidio oddiar ei orsedd, a'i chodi yn ei freichiau, a gosod y deyrnwialen ar ei gwddf, a llefaru wrthi yn y modd mwyaf serchog. Y mae yr un peth yn cael ei adrodd yn Esthier yr *Apocrypha*, pen. xv. 7, 8; a

aur oedd yn ei law ef tuag at Esther; ac Esther a nesaodd, ac a gyffyrddodd â phen y deyrnwialen.

3 Yna y brenin a ddywedodd wrthi, Beth a fyndi di, y frenhines Esther? a pha beth yw dy ddeisyfiad? hyd yn hanner y frenhiniaeth, ac fe a'i rhoddir it'.

4 A dywedodd Esther, O rhynga bodd i'r brenin, deled y brenin a Haman heddyw i'r wledd a wnaethym iddo.

5 A'r brenin a ddywedodd, Perwch i Haman frysio i wneuthur yn ol gair Esther. Felly y daeth y brenin a Haman i'r wledd a wnaethai Esther.

6 ¶ A'r brenin a ddywedodd wrth Esther yn nghyfeddach y gwin, Beth yr wyt ti yn ei ofyn, ac

fe a roddir i ti? a pheth yr wyt ti yn ei geisio? gofyn hyd yn hanner y frenhiniaeth, ac fe a'i cwblheir.

7 Ac Esther a atebodd, ac a ddywedodd, Fy nymuniad a'm deisyfiad yw,

8 O cheffais ffafr yn ngolwg y brenin, ac o rhyglydda bodd i'r brenin roddi fy nymuniad, a gwneuthur fy neisyfiad; deled y brenin a Haman i'r wledd a arlwywyf iddynt, ac y fory y gwnaf yn ol gair y brenin.

9 ¶ Yna Haman a aeth allan y dwthwn hwnw yn llawen, ac yn hyfryd ei galon: ond pan welodd Haman Mordecai yn mhorth y brenin, na chyfodasai efe, ac na sylfasai erddo ef, Haman a gyflawnwyd o ddigllonodd yn erbyn Mordecai.

chyngorem y darlennydd i droi yno, lle y caiff efe yr holl hanes yn llawer llawnach nag yma.

Adn. 3. *Beth a fyndi di, y frenhines Esther?* Yma y mae efe yn ei chydnabod yn frenhines, ac yn casglu fod ganddi ryw ddeisyfiad pwysig i'w osod o'i flaen, pan y deuai felly ato heb ei galw. *Hyd yn hanner y frenhiniaeth, ac fe a'i rhoddir it'*—arferai brenhinoedd y dwyrain roddi dinasoedd cyfain yn feddiant i'w gwragedd, ac at eu gwasanaeth hwy; ac yma addawai Ahasferus roddi i Esther banner ei 127 o daleithiau, os gofynai hi am hyny. Dull mawreddog o lefaru yw y geiriau, ond er hyny yn arwyddo y rhoddi ei feddi hi unrhyw beth rhesymol a ofynai hi ganddo.

Adn. 4. *A dywedodd Esther, O rhynga bodd i'r brenin* Y mae hi yn llefaru yn y modd myaf gostyngedig, gan ddangos y cyrifai hi yn arhydedd mawr os gwelai efe yn dda gauatiâu ei chais; *deled y brenin a Haman heddyw i'r wledd a wnaethym iddo*—y mae hi yn gwahodd Haman, (1) Fel y byddai yn hawddach gan y brenin ddyfod, ond cael ei hoff dywysog gydag ef. (2) I attal drwgdybiaeth Haman, fel na byddai iddo ef ddyfeisio rhyw gynllun i wrthweithio ei hancan hi. Ac, (3) Fel y gallai hi gael cyfle i achwyn wrth y brenin ar Haman yn ei wnech, pen. vii. 3, &c.

Adn. 5. *Perwch i Haman frysio i wneuthur yn ol gair Esther* I ddyfod gyda mi i'r wledd yn ystafell y frenhines. *Felly y daeth y brenin a Haman*—a mawr oedd ei ymfrost ef y nos hōno, ar ol myned adref at ei deulu, o herwydd yr arhydedd neillduol hwn, adn. 10—12.

Adn. 6. *A'r brenin a ddywedodd wrth Esther yn nghyfeddach y gwin* Yn y rhan hōno o'r wledd pryd y dygid y gwin i mewn; canys dwyr yn unig a yfai y Persiaid gyda'u bwydydd. *Beth yr wyt ti yn ei ofyn, ac fe a roddir i ti?*—tybiai y brenin fod gan Esther

rywbeth mwy mewn golwg na gwahodd Haman ac yntau i'r wledd hon; ac yr oedd ef wedi ei foddhau gymaint gan ei charedigrwydd, fel yr oedd yn foddion i roddi iddi hyd yn hanner y frenhiniaeth: gwel ar adn. 3.

Adn. 7. *Fy nymuniad a'm deisyfiad yw* Yn y lle cyntaf, fod i ti a Haman ddyfod i wledda ataf fi y fory hefyd.

Adn. 8. *Ac y fory y gwnaf yn ol gair y brenin* Hysbysaf i ti fy nymuniad gostyngedig. Hi a welai ei bod yn ennill serch y brenin; ond nid oedd hi eto yn ddigon hyderus; ac am hyny ewyllysiai gael cyfarfod âg ef oilwaith, a'i groesawu, fel y gallai fod yn fwy yn ei ffafr, ac felly ddiogelu yn well lwyddiant ei hancan. Hefyd yr oedd llaw rhagluniaeth Duw yn hyn oll, yr hwn a gymerodd byfdra ei hymadrodd oddiwrthi ar y pryd, fel y cai hi well cyfleusdra i gyflwyno ei deisyfiad y tro nesaf, trwy yr hyn a ddygwyddai yn flaenorol i hyny. Canys yr oedd yr arhydedd mawr a ddanghosodd y brenin i Mordecai dranoeth, yn rhwyddhau y fiordd i'w deisyfiad, yr hwn a ddaeth i mewn yn naturiol yn nghyfeddach y gwin, pen. vii. 2, &c.

Adn. 9. *Yna Haman a aeth allan y dwthwn hwnw* O wledd Esther y diwrnod cyntaf; *yn llawen ac yn hyfryd ei galon*—am ei fod wedi cael y fath groesaw gan y frenhines, a bod gwahoddiad iddo gael yr un arhydedd dranoeth, adn. 12. *Onid pan welodd Haman Mordecai yn mhorth y brenin*—yn dal yr un swydd uchel ag o'r blaen; *na chyfodasai efe*—i dalu arhydedd dwyfol iddo, pen. iii. 2; *ac na sylfasai erddo ef*—mewn fiordd o arhydedd dynol. Yr oedd Mordecai erbyn hyn yn fwy diystyr o Haman nag o'r blaen; canys gwyddai, (1) Ei fod ef wedi llunio mesurau i ladd yr holl Iuddewon. (2) Gwyddai hefyd fod Esther wedi myned i mewn at y brenin i eirioli drostynt, a chael y derbyniad myaf croesawus. Ac, (3) Yr oedd yn credu y llwyddai hi yn ei chais, ac y syrthiai Haman

10 Er hyny Haman a ymattaliodd; a phan ddaeth i'w dŷ ei hun, efe a anfonodd, ac a alwodd am ei garedigion, a Zeres ei wraig.

11 A Haman a adroddodd iddynt ogoniant ei gyfoeth, ac amltra ei feibion, a'r hyn oll y mawrhasai y brenin ef ynddynt, ac fel y dyrchafasai y brenin ef goruwch y tywysogion a gweision y brenin.

12 A dywedodd Haman hefyd, Ni wahoddodd Esther y frenhines neb gyda'r brenini'r wleda wnaethai hi, ond myfi; ac y fory hefyd y'm gwahoddwyd ati hi gyda'r brenin.

13 Ond nid yw hyn oll yn llesâu i mi, tra fyddwyf fi yn gweled Mor-

decai yr Iuddew yn eistedd yn mhorth y brenin.

14 ¶ Yna y dywedodd Zeres ei wraig, a'i holl garedigion wrtho, Parotol pren o ddeg cufydd â deugain o uchder, a'r boro dywed wrth y brenin am grogi Mordecai arno; yna dos gyda'r brenin i'r wledd yn llawen. A da oedd y peth gerbron Haman, am hyny efe a barotodd y crogbren.

PENNOD VI.

Y NOSON hōno cwsg y brenin a giliodd ymaith; am hyny efe a archodd ddwyn llyfr coffadwriaeth-

i warth a dirmyg, os na roddid ei f farwolaeth. *Haman a gyflwynwyd o ddiplonedd yn erbyn Mordecai*—nes y meddyliodd unwaith am ei ladd ef yn y fan.

Adn. 10. *Er hyny Haman a ymattaliodd*] Rhag rhoddi ei law arno, trwy fod rhagluniaeth Duw yn ei ornwchlywodraethu; a phan ddaeth i'w dŷ ei hun—efe a alwodd am ei gyfeillion ato, a Zeres ei wraig—i adrodd yn ymfrostar ger wrthyt y croesaw a gawsai efe gan y brenin a'r frenhines. Dywed yr Iuddewon mai merch Tarnai oedd y Zeres hon; ac os felly, yr oedd hi o deulu mor eynol i'r Iuddewon a Haman ei hun: gwel ar Ezra v. 3.

Adn. 11. *A Haman a adroddodd iddynt ogoniant ei gyfoeth*] A ymfrostiai yn ei feddwod pa mor gyfoethog ydoedd; ac amltra ei feibion—o'r rhai yr oedd ganddo ddeg, pen. ix. 10; a'r hyn oll y mawrhasai y brenin ef ynddynt—trwy ei wneuthur yn brifweinidog y llywodraeth, ac yn wrthddrych addoliad, a rhoddi ei fodrwy iddo, a chaniatâd i ddyfetha yr Iuddewon. A chrybwyllai hyn hefyd i fwyhau bai Mordecai, yr hwn a wrthodai blygu i ŵr mor fawr.

Adn. 12. *Ni wahoddodd Esther y frenhines neb ond myfi*] Gyda'r brenin i'r wled, yr hyn oedd yn brawf ei fod ef yn cael y parch mwyaf gan y frenhines hefyd. *Ac y fory hefyd y'm gwahoddwyd ati hi gyda'r brenin*—a hyny nid trwy anfon cenad ato, ond ar wahoddiad y frenhines ei hun, yr hyn oedd yn barch deublyg iddo. Fel hyn efe a ymfrostiai yn yr hyn oedd yn achlysur o'i ddinystre ef, a phan yr oedd ganddo fwyaf o achos i ofni.

Adn. 13. *Ond nid yw hyn oll yn llesâu i mi*] I'm gwneyd yn ddedwydd; tra fyddwyf fi yn gweled Mordecai yr Iuddew yn eistedd yn mhorth y brenin—yn mwynhau yr anrhydedd uchel hwn heb aflonyddwch, ac yn gwrthod plygu i mi yn ol gorchymyn y brenin. Fel hyn, er i ddynion beilchion gael llawer o bethau yn ol en meddwl, eto, os na chânt y cwbl, nid yw ddim llesâd iddynt.

Adn. 14. *Yna y dywedodd Zeres ei wraig*] Yr hon a gynygodd y peth, yn yr hyn y cytunwyd â hi gan holl gyfeillion Haman; Pa-

rotol pren o ddeg cufydd a deugain—neu bum llath ar hugain o uchder, fel y gellid gwled Mordecai yn nghrog arno o bell, yr hyn a fydd ar unwaith yn fwy o warth iddo ef, ac a dery ddychryn yn ulawb rhag dy ddiystyru dithau yn ol ei siaupl ef. Ili a fynai wneyd y crogbren yn barod y nos hōno, fel, cyn gytedd ag y byddai i'r brenin seio y warant, y gellid crogi Mordecai yn y fan. *A'r bore dywed wrth y brenin am grogi Mordecai arno*—yr hyn y tybient hwy y byddai i'r brenin ar unwaith ei ganiatâd, trwy ei fod eisoes wedi rhoddi caniatâd i ddyfetha yr holl Iuddewon ar gais Haman. *Yna dos gyda'r brenin i'r wledd yn llawen*—wedi gorcystgu dy elyn ystyfnig, a chael gwaredigaeth oddiwrth yr hyn sydd yn chwerti dy fwyntiant u'th ogoniant. *A da oedd y peth gerbron Haman*—efe a welai fod y cyngor yn ddoeth a phriodol; am hyny efe a barotodd y crogbren—ar yr hwn wedi y cwbl y crogwyd ef ei hun, ac nid Mordecai, pen. vii. 10.

PEN. VI. Adn. 1. *Y noson hōno cwsg y brenin a giliodd oddiwrtho*] Sef y nosoa wedi y wledd gyntaf gydag Esther, a chlyn yr ail wled, yr hon oedd i fod dranoeth. Y mae y LXX yn ei ddarlenn, 'Yr Arglwydd a gyfrōdd y brenin y noson hōno trwy freuddwyllion;' a dywed y Targum pa beth a welodd efe yn ei freuddwyd:—'A'r brenin a welai gyffelybiaeth dyn, yr hwn a lefarodd wrtho fel hyn: Y mae Haman yn chwennych dy ladd di, a'i wneuthur ef hun yn frenin yn dy le. Wele, efe a ddaw atat ti yn y bore, i ofyn genyt y gwra'th waredodd di rhag marwolaeth, fel y gallo ei ladd ef; eithr dywed di wrth Haman, Beth a wneir i'r gwŵr y mae y brenin yn owwlyssio ei anrhydeddu? A thi a weli na ofyn efe ddim llai genyt na'r wisg frenhinol, a'r frenhinol goron, a'r march y merch y brenin arno.' *Am hyny efe a archodd ddwyn llyfr coffadwriaethau hanesion yr amseroedd*—yn yr hwn y cofiâd yr holl ddygwyddiadau hynod a gymerasent le bob dydd yn y dŷyrnas, yn nghydag enwau y rhai oedd ynt â llaw ynddynt. *A darlennwyd hwynt gerbron y brenin*—os

au hanesion yr amseroedd; a darllenwyd hwynt gerbron y brenin.

2 Yna y cafwyd yn ysgrifenedig yr hyn a fynegasai Mordecai am Bigthana a Therez, dau o ystafell-yddion y brenin, o'r rhai oedd yn cadw y trothwy, *sef* y rhai a geisiasent estyn llaw yn erbyn y brenin Ahasferus.

3 A dywedodd y brenin, Pa anrhydedd neu fawredd a wnaed i Mordecai am hyn? A gweision y brenin, *sef* ei weinidogion ef, a ddywedasant, Ni wnaed dim erddo ef.

4 ¶ A'r brenin a ddywedodd, Pwy sydd yn cyntedd? (A Haman a ddaethai i gyntedd nesaf allan tŷ y brenin, i ddywedyd wrth y brenin

am grŷgi Mordecai ar y pren a barotoisai efe iddo.)

5 A gweision y brenin a ddywedasant wrtho, Wele Haman yn sefyll yn y cyntedd. A dywedodd y brenin, Deled i mewn.

6 A phan ddaeth Haman i mewn, dywedodd y brenin wrtho, Beth a wneir i'r gŵr y mae y brenin yn ewyllysio ei anrhydeddu? (Yna Haman a ddywedodd yn ei galon, I bwy yr ewyllysia y brenin wneuthur anrhydedd yn fwy nag i mi?)

7 A Haman a ddywedodd wrth y brenin, Y gŵr y mae y brenin yn chwennych ei anrhydeddu,

8 Dygant y wisg frenhinol iddo yr hon a wisg y brenin, a'r march

gofynir, 'Pahan yr oedd y brenin, yn y fath gyflwr meddwl cynhyrfus, yn ewyllysio cael darllen iddo y fath lyfr sychlyd a'r cyfryw gronicleau?' gellir ateb, nas gellid dwyn o'i ffian ef waith mwy dyddorol a difyrus na'r cyfryw gronicleau, fel yr oeddynt yn cael eu hysgrifenu yn mhlith y Persiaid; canys yr oeddynt oll wedi eu hysgrifenu mewn *barddoniaeth*, a hyny yn gyfreilin gan y beirdd enwocaf yn y deyrnas. Y maent yn cael eu hysgrifenu felly hyd heddyw; a'r enwog bryddest, o waith y bardd Persiaidd goraf, FERDUSI, *sef Homer* yr India, nid yw ddim angen na chasgliad o gronicleau wedi eu dwyn i lawr o'r cread hyd deyrnasiad *Mohammed Ghezny*, yn nechre y ddegfed canrif. Ar ol deng mlynedd ar hugain o lafur, efe a orphenodd y bryddest hon, pa un a gynwysai 120,000 o linellau; a chyflwynodd hi i'r Sultan *Mahmoud*, yr hwn a addawodd roddi iddo *dinar* (8s. 6c.) am bob linell. Gorphenwyd y bryddest hon o. c. 984, a flurfiwyd hi o gyfansoddiadau o gyffelyb natur gan feirdd blaenorol. Yr oedd hyd yn nod ein henafiaid Saesonaig trwsgl ni yn meddu en gronicleau barddonol; ac, yn mhlith llawer ereill, y mae *cronicle Robert o Gaerloew* yn brawf o hyny.

Adn. 2. *Yna y cafwyd yn ysgrifenedig yr hyn a fynegasai Mordecai am Bigthana a Therez.* Gwel yr hanes yn pen. ii. 21—23, lle y dywedir, 'Ac ysgrifenyd hyny mewn llyfr cronicle gerbron y brenin; a'r llyfr hwnw, a'r hanes hŏno, a ddarllenwyd yn awr gerbron y brenin. Ac yn hyn yr oedd rhagluniaeth Duw i'w gweld yn amlwg iawn, yn trefnu fod i'r rhan hŏno gael ei darllen yn awr yn hytrach nag un ran arall o'r llyfr hwnw.'

Adn. 3. *A dywedodd y brenin* Ar ol clywed darllen yr hanes; *Pa anrhydedd neu fawredd a wnaed i Mordecai am hyn?*—*sef* am achub bywyd y brenin; canys nid oedd y llyfr yn crybwyll i ddim gael ei wneuthur, yr hyn oedd yn brawf i'r pendefigion na wnaed dim.

Adn. 4. *A'r brenin a ddywedodd, Pwy sydd yn y cyntedd?* Y mae yn debyg iddo glywed

rhywun yn cerdded yno, neu efe a gredai fod Haman yno oddiwrth yr hyn a welsai yn ei freuddwyd; canys ni feiddiai neb ddyfod yn nes i mewn na hyny heb ei alw, pen. iv. 11. *A Haman a ddaethai i gyntedd nesaf allan tŷ y brenin*—a hyny yn fore iawn, am pa oddefai ei falais iddo gyssgu hyd oni chyflawnai efe ei lid ar Mordecai. Felly yr oedd y brenin a'i brif-weinidog yr un mor bryderus yn nghylw Mordecai ar yr awr foreol hŏno, y cyntaf i'w anrhydeddu a'i fawrbau ef, a'r olaf i'w grogi!

Adn. 5. *A dywedodd y brenin, Deled i mewn* Canys yr oedd ef, fel prif-weinidog y llywodraeth, yn un addas iawn i ymgynghori ág ef ar yr achos hwn.

Adn. 6. *A phan ddaeth Haman i mewn* Yn falch o'r anrhydedd o gael ei alw i wely-ystafell y brenin cyn iddo godi; *dywedodd y brenin wrtho*—cyn i Haman gael cyfle i draethu ei neges ei hun; *Beth a wneir i'r gŵr y mae y brenin yn ewyllysio ei anrhydeddu?*—nid enwodd efe y gŵr, fel y gallai Haman roddi ei atebiad yn iwy rhydd a di-ducedd. *Yna Haman a ddywedodd yn ei galon*—neu a feddyliodd yn sicr, cyn rhoddi ei atebiad, mai efe ei hun a raid fod y gŵr hwnw; ac yr oedd yn ddigon naturiol iddo feddwl hyny, am ei fod wedi cael ei ddyrchafu eisioes goruwch yr holl dywysogion ereill, pen. iii. 1.

Adn. 7. *A Haman a ddywedodd* Gan dybied mai ef ei hun oedd i gael yr anrhydedd hwnw, y mae yn enwi yr arwyddion uwchaf o anrhydedd ag y gellid eu rhoddi i un deiliad; i.e., y mae yn enwi pethau rhy fawr i neb eu cael ond y brenin ei hun.

Adn. 8. *Dygant y wisg frenhinol iddo* Sef y fantell ysgarlad, wedi ei gweu ág awr, fel y dywed *Justin* a *Curtius*, yr hon yr oedd yn drosedd angeuol i neb ei gwisgo yn mhlith y Persiaid ond y brenin ei hun. Yr oedd hwn yn gynygiad beiddgar o eiddo Haman, oni busasai fod ganddo yr hyder mwyaf yn ffafr y brenin. *A'r march y merchyyg y brenin arno*—yn ei seirh a'i adduniadau breahinol. Dy-

y merchyg y brenin arno, a rhôdder y frenhinol goron am ei ben ef:

9 A rhodder y wisg, a'r march, yn llaw un o dywysogion ardderchocaf y brenin, a gwisgant am y gŵr y mae y brenin yn chwennych ei anrhydeddu, a pharant iddo farchogaeth ar y march trwy heol y ddinas, a chyhoeddant o'i flaen ef, Fel hyn y gwneir i'r gŵr y mae y brenin yn chwennych ei anrhydeddu.

10 Yna y brenin a ddywedodd wrth Haman, Brysia, cymer y wisg a'r march, fel y lleferaist, a gwna felly i Mordecai yr Iudew, yr hwn sydd yn eistedd yn mhorth y brenin:

wed *Herodotus* fod brenhinoedd Persia yn marchogaeth meirch o Armenia, o brydferth-wch neillduol, y rhai yr oedd yn drosedd ang-euol i neb eu marchogaeth ond y brenin ei hun. *A rhodder y frenhinol goron ana ei ben ef*—sef ar ben y gŵr ag yr oedd y brenin yn ewyllsio ei anrhydeddu: ond tybia llawer mai ar ben *march* y brenin a feddylir, fel yr arferid gwneyd yn Persia a gwledydd ereill ar ryw achlysuron cyhoeddus o'r fath. Ond y dyb gyntaf yw y fwyaf naturiol.

Adn. 9. *A rhodder y wisg a'r march yn llaw un o dywysogion ardderchocaf y brenin* Fel y gallo efe roddi y wisg frenhinol am y gŵr hwnw, a'r gŵr i eistedd mewn rhwysg ar y march; a pharant iddo farchogaeth ar y march trwy heol y ddinas—fel y gallo pawb weled ac anrhydeddu y gŵr ag yr oedd y brenin yn chwennych ei anrhydeddu; a chyhoeddant o'i flaen ef—yn debyg i'r modd y cyhoeddwyd o flaen Joseph, pan yr anrhydeddwyd ef gan Pharao, Gen. xli. 43.

Adn. 10. *Yna y brenin a ddywedodd wrth Haman* Yr hwn oedd 'dywysog ardderchocaf y brenin,' adn. 9; *Brysia, cymer y wisg a'r march, fel y lleferaist, a gwna felly i Mordecai yr Iudew!*—y fath siomedigaeth erchyll a raid fod hyn i falchder ac uchelgais Haman faleisus! Nid yn unig efe a gollai yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr oedd yn rhaid iddo ei roddi i'w elyn! Gallai awdwr y *Targum* lefaru yn ol *natur* pan yn dywedyd, ddarfod i 'Haman geisio gan y brenin ei ladd ef, yn hytrach na'i ddaraddio felly.' Pe dywedasai y brenin, yn ol dysgwylad Haman, 'Tydi yw y gŵr,' y fath gyflensdra rhagorol a fusai hyn iddo i gyflawni ei neges, trwy gael crogi Mordecai y bore hwnw i addurno ei oruchafiaeth orfoleddus! Ond yn awr efe a welai ei bod yn rhy ddiweddar i ddywedyd dim wrth y brenin yn erbyn Mordecai, gan mai efe oedd y gŵr ag y chwennychai y brenin ei anrhydeddu. *Na âd heb wneuthur ddim o'r hyn oll a leferaist*—ac felly rhaid fod y goron wedi ei rhoddi ar ben Mordecai, er nad enwir hi yma, trwy fod hŏno wedi ei chrybwyll yn nghais Haman, adn. 8. Mor hynol yr yu-

na âd heb wneuthur ddim o'r hyn oll a leferaist.

11 Felly Haman a gymerth y wisg a'r march, ac a wisgodd am Mordecai, ac a wnaeth hefyd iddo farchogaeth trwy heol y ddinas, ac a gyhoeddodd o'i flaen ef, Fel hyn y gwneir i'r gŵr y mae y brenin yn mynu ei anrhydeddu.

12 *A dychwelodd Mordecai i borth y brenin.* A Haman a frysiodd i'w dŷ yn alarus, wedi gorchuddio ei ben.

13 A Haman a adroddodd i Zeres ei wraig, ac i'w holl garedigion, yr hyn oll a ddygwyddasai iddo. Yna ei ddoethion, a Zeres ei wraig, a

ddengys rhagluniaeth Duw yn hyn oll! Ac yma y gwelwn yn eglur na thycia cynghor na doethineb yn erbyn yr Arglwydd; ac mai y neb a gloddio bydew i'w gymydog, a syrth yuddo ei hun.

Adn. 11. *Felly Haman a gymerth y wisg a'r march* Er mor anfodlon ydoedd, yr oedd yn rhaid iddo ufyddhau; ac a wisgodd am Mordecai—yr hwn ni feddylodd erioed am y fath anrhydedd: ond er hyn yr oedd yn dda ganddo yn ddiamau gael ei ddyrchafu fel hyn, trwy y rhoddi hyn iddo fwy o fantais i amddiffyn yr Iudewon ddiwed. *Ac a gyhoeddodd o'i flaen ef*—hyn yw, yr oedd Haman ei hun yn gorfod cyhoeddi; *Fel hyn y gwneir i'r gŵr y mae y brenin yn mynu ei anrhydeddu*—yr hyn oedd yn anrhydedd brenhinol i Mordecai, ac yn gefnogaeth i bawb geisio boddhau y brenin yn mhob peth.

Adn. 12. *A dychwelodd Mordecai i borth y brenin* I'w lle a'i swydd flaenorol, ar ol iddo gael ei anrhydeddu felly; yr hyn a ddengys nad oedd ef wedi ymchwyllo trwy yr anrhydedd hwn. *A Haman a frysiodd i'w dŷ yn alarus*—i ymguddio o olwg dynion, o herwydd ei fod wedi ei siomi mor fawr, ac wedi gorfod anrhydeddu ei elyn yn lle ei grogi; *wedi gorchuddio ei ben*—yr hyn oedd yn arwydd o gywilydd a gwarth, yn gystal ag o'fud, yn mhlith y rhan fwyaf o bobloedd y ddaear.

Adn. 13. *A Haman a adroddodd i Zeres ei wraig, ac i'w holl garedigion* Y modd y gorfu iddo roddi i Mordecai yr anrhydedd hwnw ag y goebtllai ei gael iddo ei hun. *Yna ei ddoethion*—y rhai a alwyd o'r blaen ei 'garedigion.' Fe allai mai brudwr a dewiniaid oeddynt, y rhai a gadwai efe yn ei dŷ, i ddangos iddo yr amser goraf i wneyd unrhyw bethau er ei ddyrchafu ei hun a darostwg ei elyision: gwel ar pen. iii. 7. *A Zeres ei wraig*—cymerai hithau hefyd arni fod yn wraig ddoeth; a chydunodd â'r doethion uchod yn eu barn, yr hon am unwaith a ddygwyddodd fod yn gywir. *Oso had yr Iudewon y mae Mordecai*—fel y dywedasai Haman ei fod, pen. v. 13; *yr hwn y dechreuast syrthio o'i*

ddywedasant wrtho, Os o had yr Iuddewon *y mac* Mordceai, yr hwn y dechreuast syrthio o'i flaen, ni orchfygi mohono, ond gan syrthio y syrthi o'i flaen ef.

14 Tra yr *oeddynt* hwy eto yn mddyddan âg ef, ystafellyddion y brenin a ddaethant, ac a gyrchasant Haman ar frys i'r wledd a wnclasai Esther.

PENNOD VII.

FELLY daeth y brenin a Haman i gyfeddach gydag Esther y frenhines.

2 A dywedodd y brenin wrth Esther drachefn yr ail ddydd, wrth gyfeddach y gwin, Beth *yw* dy ddy-

flaen—trwy orfod ymostwng i'w anrhydeddu ef, fel y gwnaethost heddyw; *ni orchfygi mohono*—trwy ei grogi ef, na dyfetha ei bot'; *ond gan syrthio y syrthi o'i flaen ef*—efe a dry y brenin i fod yn elyn marwol i ti, gan i ti fod felly i'w bobl ef. Y mae y LXX yn chwanegu yma, 'cany's y mae y Duw byw gydag ef.'

Adn. 14. Tra yr *oeddynt hwy eto yn mddyddan âg ef*] Yn y geiriau uchod; *ystafellyddion y brenin a ddaethant*—i gyrchu Haman ar frys i'r ail wledd a wnclasai Esther, yn ol ei gwahoddiad hi i dydd o'r blaen. Gallwn feddwl fod yn llawer gwell ganddo ef beidio myned y tro hwn o herwydd ei alar a'i gywilydd, ond yr oedd yn rhaid iddo fyned; ac felly efe a aeth, ac ni ddaeth byth i'w dŷ mwyach.

PEN. VII. Adn. 1. Felly y daeth y brenin a Haman i gyfeddach] Neu wleddu gydag Esther y frenhines yr ail ddydd.

Adn. 2. Beth *yw* dy ddymuniaid, Esther y frenhines?] Dyma y drydedd waith i'r brenin ofyn ac addaw yn y modd yma: gwel ar pen. v. 3, 6. Yr oedd ef o hyd yn awyddus i wybod pa beth a fynai hi ganddo; ac o Ddaw yr oedd fod hyn yn barhaus ar ei feddwl ef; canys heb hynny ni buasai mor hawdd ganddi hi roddi y deisyfiad a ganlyn o flaen y brenin.

Adn. 3. A'r frenhines Esther a atebodd] Gan anfon saeth-weddi at Frenin y brenhin-oedd yn ddiamau am lwyddiant; *O chefsais ffufr yn dy olwg di, O frenin*—dullymadredd gwylaid a pharchus; *ac o rhyglydda bodd i'r brenin*—os gwel efe yn dda o'i radlonrwydd penadurol; *rhodder i mi fy einioes ar fy nymuniaid*—o ddwyllaw y dyn maleisus a drygionus ag sydd yn bwriadu fy lladd; *a'm pobl ar fy neisyfiad*—hynny yw, einioes fy mhobl, yr Iuddewon, o'r rhai yr wyf wedi hâu. Wrth y gair *dymuniad* drosti ei hun, a *deisyfiad* dros ei phobl, gellir meddwl ei bod yn fwy am achubiaeth ei phobl nag am ei hachubiaeth ei hun. Goddefir i estron, i dros-

muniaid, Esther y frenhines? ac fe a roddir i ti; a pha both *yw* dy ddeisyfiad? *gofyn* hyd yn hanner y deyrnas, ac fe a'i cwblheir.

3 A'r frenhines Esther a atebodd, ac a ddywedodd, O chefsais ffufr yn dy olwg di, O frenin, ac o rhyglydda bodd i'r brenin, rhodder i mi fy einioes ar fy nymuniaid, a'm pobl ar fy neisyfiad.

4 Canys gwerthwyd ni, myfi a'm pobl, i'n dinystrio, i'n lladd, ac i'n dyfetha: ond pe gwerthesid ni yn gaethweision ac yn gaethforwynion, mi a dawsw'n â son, er nad yw y gwrthwynebwr yn cystadlu colled y brenin.

5 ¶ Yna y llefarodd y brenin Ahasferus, ac a ddywedodd wrth

eddwr, ofyn am ei fywyd; ond fod i gyfeilles, i wraig, i frenhines ddiniwed a rhinweddol, ofyn am ei bywyd gan y brenin ei gw'r, ydoedd bwysig a chyngyfrus yn wir! Y mae .hai yn meddwl na wyddai y brenin na Haman chwath, hyd yn awr, mai Iuddewes oedd Esther, onid y buasid yn ei heithrio hi i'w harbed pan ddafonwyd y gorchymyn allan i ladd yr holl Iuddewon; ac fe allai na buasai Haman yn meiddio gofyn am y fath orchymyn o gwbl, pe gwybuasai efe mai Iuddewes oedd y frenhines.

Adn. 4. Canys gwerthwyd ni, myfi a'm pobl] Trwy greulondeb y dyn hwnw a gynygiodd ddeng mil o dalentan am ryddid i'n llofruddio; *i'n dinystrio, i'n lladd, ac i'n dyfetha*—y mae hi yma yn dyfynu geiriau y gorchymyn a anfonasai Haman i'r taleithiau, pen. iii.

13. Ond pe gwerthesid ni yn gaethweision ac yn gaethforwynion—i ryw frenin arall yn eithafion y ddaear; *mi a dawsw'n â son*—ni buaswn yn cwyno, eithr dyoddefaswn hynny yn dawel a dirwgnach; ond yn awr, gan mai ein gwerthu i'n dinystrio a'n lladd a wnaed, y mae yn bryd i mi lefaru, a cheisio fy achub fy hun a'm pobl rhag y fath ddinystr anghyfyiawn, os oes modd. *Er nad yw y gwrthwynebwr yn cystadlu colled y brenin*—yn gofalu am ei golled ef, nen yn rhoddi pris cyfartal i'r golled a gai y deyrnas trwy ein gwerthu ymaith neu ein lladd. Beth oedd deng mil o dalentan i'w cystadlu â cholled y deyrnas yn ei theyrnedd a'i threthoedd trwy yr holl oesau, ar ol ei hamddifadn felly o genedi gyfau, ffyddlon, a lluosog, megys mewn un dydd? Fel hyn, heblaw dyfetha dŷnion diniwed, yr oedd y brenin, os caniatâi efe hyn, yn ei ddrygu ei hun yn fawr.

Adn. 5. Yna y llefarodd y brenin] Mewn syndod a chyffro mawr wrth glywed y fath beth gan Esther. Gwyddai ei fod wedi caniatâi i Haman gael dyfetha rhyw dŷnion, ond ni wyddai mai yr Iuddewon a phobl Esther oeddynt hyd yn awr, a'i bod hi ei hun i gael ei dyfetha gyda'i phobl; canys *rhwy* bobl a

Esther y frenhines, Pwy yw hwnw? a pha le y mae efe, yr hwn a glywai ar ei galon wneuthur felly?

6 A dywedodd Esther, Y gwrthwynebw'r a'r gelyn yw yr Haman ddrygionus hwn. Yna Haman a ofnodd gerbron y brenin a'r frenhines.

7 ¶ A'r brenin a gyfododd yn ei ddigllonedd o gyfeddach y gwin, ac a aeth i ardd y palas: a Haman a safodd i ymbil âg Esther y frenhines am ei einioes; canys efe a welodd fod drwg wedi ei barotoi yn ei erbyn ef oddiwrth y brenin.

ddywedasai Haman, heb en benwi, pen. iii. 8. *Pwy yw hwnw? a pha le y mae efe?*—y mae rhyw fyrdra a ddrwschw rhyfeddol yn y wreiddiol, yn gosod allan yn gryfgyflwr meddwl y brenin ar y pryd: *mi hu zeh veey zeh hu*—'pwy? ef? hwn? a phale? hwn? ef?' Efe a ryfeddai fod neb mor ddrygionus ag i allu meddwl am y fath weithred grenlon, na neb mor hyf ag i ofyn am ganiatâd i'w chyflawni. *Yr hwn a glywai ar ei galon wneuthur felly*—sef dyfetha yr Iuddewon, lladd y frenhines, ac yspello y brenin o'i ddeiliaid, ei deyrnged, a'i wraig! Casgla rhai oddiyma fod y brenin wedi llwyr aanghofo iddo erioed roddi caniatâd i Haman i ddyfetha neb; ac mai yn ei win y cymerodd Haman fantais arno i gael y caniatâd hwn ganddo.

Adn. 6. *A dywedodd Esther*] Wedi ei gwroli gan eiriau a theimlad y brenin; *Y gwrthwynebw'r a'r gelyn yw yr Haman ddrygionus hwn!*—efe yw yr hwn a fwriadodd ein lladd ni; dyma efe, a gwaded hyny os gall; ac i'w gyhuddo o flaen ei wyneb y gwahoddais ef i'r wledd hon. *Yna Haman a ofnodd gerbron y brenin a'r frenhines*—yr oedd yn bryd iddo ofni, pan yr oedd y frenhines yn ei gyhuddo, a'r brenin yn ei farnu, a'i gydwybod ei hun yn dyst yn ei erbyn; a diamau i ddaroganau ei wraig a'i ddeiniaid yn y bore ruthro yn rymusi'w feddwl i chwangeru ei ofn, pen. vi. 13.

Adn. 7. *A'r brenin a gyfododd yn ei ddigllonedd*] Am nad allai oddef edrych ar ddydd a amcanasai y fath golled iddo ef, a'r fath ddinystr i'r frenhines a'i phobl; *ac a aeth i ardd y palas*—nes y llonyddai ei lid ef ychydig, ac i ystyried ond odid pa beth a wna ef i Haman. *A Haman a safodd i ymbil âg Esther y frenhines am ei einioes*—efe yn gyntaf a safai, ac wedi hyny syrthiodd i lawr wrth ei thraed, i ymbil am iddi hi faddu iddo, ac eiriol gerbron y brenin na roddai yntau ef i farwlaeth. *Canys efe a welodd fod drwg wedi ei barotoi yn ei erbyn ef oddiwrth y brenin*—gwelodd hyny yn ngwynebryd llidog y brenin, a deallodd hyny ond odid oddiwrth ryw eiriau a ddywedasai efe wrth fyned allan i'r ardd.

Adn. 8. *Yna y dychwelodd y brenin o ardd*

8 Yna y dychwelodd y brenin o ardd y palas i dŷ cyfeddach y gwin. Ac yr oedd Haman wedi syrthio ar y gwely yr oedd Esther arno. Yna y dywedodd y brenin, Ai treisio y frenhines hefyd y mae efe yn tŷ gyda mi! *Hwy yn gyntaf ag yr aeth y gair allan o enau y brenin, hwy a orchuddiasant wyneb Haman.*

9 A Harbona un o'r ystafell-yddion a ddywedodd yn ngwydd y brenin, Wele hefyd y erogbren a barotodd Haman i Mordecai, yr hwn a lefarodd ddaioni am y brenin, yn sefyll yn nhŷ Haman, yn ddeg

y palas i dŷ cyfeddach y gwin] A'i lid ond odid yn fwy angherddol nag o'r blaen; canys pa fwyaf a feddyliai efe am ymddygiad Haman, mwyaf yr ymgyndeiriogai yn ei erbyn ef. *Ac yr oedd Haman wedi syrthio ar y gwely*—neu ar ei linian wrth y *luthfaine* ar yr hon yr eisteddai neu y lled-orweddai Esther wrth y bwrdd, yn ol arferiad y dwyreiniwyr yn eu gwleddoedd. Yr oedd yn arferiad yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid i eiriolwyr osod eu dwylaw ar liniau y rhai yr ymbillid â hwy, fel arwydd o'u taerineb; a dichenod Haman yn gwneuthur hyny pan y daeth y brenin i mewn. *Ai treisio y frenhines hefyd y mae efe yn tŷ gyda mi!*—a ydyw efe yn awr yn cynyg ei halogi hi, fel y darfu iddo o'r blaen gyuny ei lladd! a hyny o flaen fy wyneb i, ac yn fy mhalas fy hun! Efe a wyddai nad allai Haman, dan yr amgylchiadau presenol, fod yn euog o'r fath beth; ond efe a lefarai dan gynhyrriad meddwl cyfröedig, yr hwn a gymer bob achlysur i ddiraddio ei elyn, ac i roddi y lliw gwaethaf ar ei holl eiriau a'i ymddygiadau. *Hwy yn gyntaf ag yr aeth y gair*—brawddeg drwsogl ac amherffaith, yn arwyddo, *'cyn gynted ag yr aeth y gair allan o enau y brenin, hwy a orchuddiasant wyneb Haman*—yn arwydd ei fod ef wedi ei ddiotrydu i farwlaeth, ac fel na phoenid y brenin gan yr olwg ddychrynllyd ag oedd ar ei wedd. Hefyd, ni chaniatâid brenhinoedd Persia i droseddwr condemniedig edrych arnynt hwy.

Adn. 9. *A Harbona un o'r ystafell-yddion*] Un o'r saith a grybwyllwyd pen. i. 10; *Wele hefyd y erogbren a barotodd Haman i Mordecai*—fel pe dywedasai, Heblaw yr hyn oll ag y bwriadodd efe ei wneuthur i'r Iuddewon, efe a gododd grogbren uchel neithiwr i grogi Mordecai arno heddyw, yr hwn a achubasai fywyd y brenin; *yn sefyll yn nhŷ Haman*—neu gerllaw ei dŷ, yr hwn a welsai Harbona y dydd hwnw wrth fyned i gyrchu Haman i'r wledd, pen. vi. 14. *Yna y dywedodd y brenin*—mewn ffordd o gyhoeddi dedfryd arno; *Crogwech ef ar hwnw*—nen, yn ol y LXX, *'croes-hoeliwech ef ar hwnw.'* Fel hyn yn fynych y delir eto elynion eglwys Dduw yn eu cyfrwysdra. Yn y bore yr oedd Haman yn bwriadu y wisg frenhinol iddo ei hun, a'r crogbren

cnfydd a deugain o uchder. Yna y dywedodd y brenin, Crogweh ef ar hwnw.

10 Felly hwy a grogasant Haman ar y pren a barasai efe ei ddarparu i Mordecai. Yna digltonedd y brenin a lonyddodd.

PENNOD VIII.

Y DWTHWN hwnw y rhoddodd y brenin Ahasferus i'r frenhines Esther dŷ Haman gwrthwyncbwr yr Iuddewon. A Mordecai a ddaeth o flaen y brenin; canys Esther a fynegasai beth oedd efe iddi hi.

2 A'r brenin a dynodd ymaith y fodrwy a gymerasai efe oddiwrth Haman, ac a'i rhoddodd i Mordecai. Ac Esther a osodd Mordecai ar dŷ Haman.

i Mordecai; ond yn awr trowyd y byddan, a chafodd Mordecai y goron, a Haman y groes!

Adn. 10. *Felly hwy a grogasant Haman ar y pren a barasai efe ei ddarparu i Mordecai*] Fel yr oedd y ddeddfyd yn fyr, felly yr oedd y dienyddiad yn gyflym; a'r hwn a ddysgwyliasai gael ei godi ar farch y brenin mewn anrhydedd, a godwyd ar grogbren mewn gwarth. Fel hyn 'yr annuwiol a faglywd yn gweithredoedd ei ddwyrlaw ei hun,' Salm ix. 16. Pe na chyffodasai efe y crogbren, y mae yn debyg na feddylasai y brenin am ei grogi ef: ond gan iddo ef yn anghyfiawn ei barotoi i ŵr da, condemnwyd yntau yn gyfiawn i ddyoddef arno ei hun. *Yna digltonedd y brenin a lonyddodd*—ar ol cospî Haman yn ol ei haeddiant. Ysgafnaodd ei galon, a siriolodd ei wedd, a daeth yn noddwr fyddlon i Mordecai a'r Iuddewon.

PEN. VIII. Adn. 1. *Y dwthwn hwnw*] Sef y dydd hwnw, y rhoddes y brenin Ahasferus i'r frenhines Esther dŷ Haman—sef yr holl etifeddiaeth a berthynai i'w deulu ef; a'r *Targum* a chwanea, 'Yn nghyda dynion ei dŷ, a'i drysorau, a'i holl gyfoeth.' Gan fod Haman wedi troi allan yn fradwr yn erbyn heddwch a llwyddiant y brenin a'i deyrnas, yr oedd y cwbl o'i eiddo wedi dyfod yn awr yn ddirwy i'r brenin; a rhoddodd y brenin hwynt oll i'r frenhines, i'w neuthur iawn i ryw fesur am y perygl i'r hwn y darostyngasai Haman hi. *A Mordecai a ddaeth o flaen y brenin*—yn brif-weinidog y llywodraeth yn lle Haman; canys *Esther a fynegasai beth oedd efe iddi hi*—ei fod yn gefnder iddi, ac mai efe a'i dygasai hi i fynd fel ei blentyn ei hun, ar ol iddi gollî ei rhieni pan yn ieuanc, pen. ii. 7. Gwyddai y brenin o'r blaen mai Iuddew oedd Mordecai, pen. vi. 10; ond nis gwyddai hyd yn awr ei fod ef yn perthyn dim i Esther.

Adn. 2. *A'r brenin a dynodd ymaith*

3 ¶ Ac Esther a lefarodd drachefu gerbron y brenin, ac a syrthiodd wrth ei draed ef; wylodd hefyd, ac ymbiliodd âg ef am fwrw ymaith ddyrgioni Haman yr Agagiad, a'i fwriad yr hwn a fwriadasai efe yn erbyn yr Iuddewon.

4 A'r brenin a estynodd y deyrnwialen aur tuag at Esther. Yna Esther a gyfododd, ac a safodd o flaen y brenin.

5 Ac a ddywedodd, O bydd boddlon gan y brenin, ac o cheffais ffafwr o'i flaen ef, ac *od ydyw* y peth yn iawn gerbron y brenin, a minau yn gymeradwy yn ei olwg ef; ysgrifener am alw yn ol lythyrau bwriad Haman mab Hammedatha yr Agagiad, y rhai a ysgrifenedd efe i ddyfetha yr Iuddewon *sydd* trwy holl daleithiau y brenin.

Oddiar ei law ei hun, y fodrwy a gymerasai efe oddiwrth Haman—cyn ei grogi; ac a'i rhoddodd i Mordecai—yn arwydd o'i ddyrchafiad i'r swydd uwchaf yn y deyrnas: gwel ar pen. iii. 10. *Ac Esther a osodd Mordecai ar dŷ Haman*—fel goruchwyliwr dros hi, i drin y cwbl a roddasai y brenin iddi o etifeddiaeth Haman.

Adn. 3. *Ac Esther a lefarodd drachefu gerbron y brenin*] A aeth eilwaith i'w wyddfod ef heb ei galw, fel y mae yn amlwg oddiwrth adn. 4; ac a syrthiodd wrth ei draed ef—i ddangos ei gostyngieddrwydd mwyaf, er ei bod yn frenhines; *wylodd hefyd*—i ddangos fod y peth yn pwyso yn drwm ar ei meddwl; *ac ymbiliodd âg ef am fwrw ymaith ddyrgioni Haman*—am ddirymu y ddeddf grenlon a gwaeddyd hono a gyhoeddwyd gan Haman i ddyfetha yr Iuddewon ar y 13eg o'r deuddegfed mis. Er fod Haman wedi ei grogi, eto yr oedd ei ddeddf ef yn erbyn yr Iuddewon fyth mewn grym; a gwyddai Esther, er y gallai hi fod yn ddiogel ei hunan, y byddai i'r Iuddewon gael eu dyfetha ar y dydd penodol, os na roddai y brenin orchymyn i'r gwrthwnebu.

Adn. 4. *A'r brenin a estynodd y deyrnwialen aur tuag at Esther*] Arwyddoedd nad oedd hi wedi ei anfoddloni ef trwy ddyfod ato heb ei galw: gwel ar pen. v. 2.

Adn. 5. *O bydd boddlon gan y brenin, ac o cheffais ffafwr, &c.*] Y mae Esther yma yn pentyrn nifer o ymadroddion agos o'r un ystyr, er mwyn dangos ei mawr ostyngieddrwydd, a'i hawydd i achub ei phobl; *ysgrifener am alw yn ol lythyrau bwriad Haman*—y mae hi yn gall yn cymeryd ymaith atgarrwydd y weithred oddiwrth y brenin, gan ei thadogi ar Haman, yr hwn a luniodd y ddyffais hon i borthli ei ddiglonrwydd ei hun. Yn wir, llythyrau Haman oedd y llythyran, a Haman a barodd eu hysgrifenu yn enw y brenin, ac

6 Canys pa fodd y gallaf edrych ar y drygfyd a gaiff fy mhobl? a pha fodd y gallaf edrych ar ddyfetha fy nghenedl?

7 ¶ A'r brenin Ahasferus a ddywedodd wrth Esther y frenhines, ac wrth Mordecai yr Iuddew, Wele tŷ Haman a roddais i Esther, a hwy a'i crogasant ef ar y pren, am iddo estyn ei law yn erbyn yr Iuddewon.

8 Ysgrifewch chwithau hefyd dros yr Iuddewon fel y gweloch yn dda, yn enw y brenin, ac inseliwch â modrwy y brenin: canys yr ysgrifen a ysgrifenydd yn enw y brenin, ac a seliwyd â modrwy y brenin, ni all neb ei ddatroi.

9 Yna y galwyd ysgrifenyddion y brenin yr amser hwnw yn y trydydd mis, (hwnw *yw* y mis Sifan,) ar y trydydd dydd ar hngain o hono, ac ysgrifenydd (yn ol yr hyn oll a orchymynodd Mordecai) at yr Iuddewon, ac at y rhaglawiad, y penaduriaid hefyd, a thywysogion y

taleithiau, y rhai oedd o India hyd Ethiopia, *sef* cant a saith ar hugain o daleithiau, i bob talaeth wrth ei ysgrifen, ac at bob pobl yn ol eu tafodiaith: at yr Iuddewon hefyd yn ol eu hysgrifen hwynt, ac yn ol eu tafodiaith.

10 Ac efe a ysgrifennodd yn enw y brenin Ahasferus, ac a'i seliodd â modrwy y brenin; ac a anfonodd lythyrau gyda'r rhedegwyr yn marchogaeth ar feirch, dromedariaid, mulod, ac ebolion cesig:

11 *Trwy* y rhai y caniatodd y brenin i'r Iuddewon, y rhai oedd yn mhob dinas, ymgynull, a sefyll am eu heinioes, i ddiuystrio, i ladd, ac i ddyfetha holl allu y bobl a'r dalaeth a osodai arnynt, yn blant ac yn wragedd, ac i ysglyfacthu eu hyspail hwynt;

12 Mewn un dydd, trwy holl daleithiau y brenin Ahasferus, *sef* ar y trydydd dydd ar ddeg o'r deuddegfed mis, hwnw *yw* mis Adar.

a'u seliodd â sel y brenin: gwel ar pen. iii. 12.

Adn. 6. *Canys pa fodd y gallaf edrych ar y drygfyd a gaiff fy mhobl?* Wrth gael eu dyfetha oll felly! Fy nghalon a doddâ ynof, a byddaf farw trwy yr olygfa, er iddynt hwy fy arbed i.

Adn. 7. *A'r brenin Ahasferus a ddywedodd wrth Esther* I'w dyddanu hi; *ac wrth Mordecai yr Iuddew*—yr hwn a wahoddasai Esther yno trwy ganiatâ y brenin, neu a yd-oedd yn bresenol trwy rinwedd ei swydd; *Wele tŷ Haman a roddais i Esther*—gwel ar adn. 1; *a hwy a'i crogasant ef ar y pren*—gwel ar pen. vii. 9, 10; *am iddo estyn ei law yn erbyn yr Iuddewon*—a chan i'r brenin wneuthur cymaint a hyn erddynt, gallant fod yn sicr na ommeddai efe iddynt unrhyw beth angenrheidiol er diogelwch i'r Iuddewon.

Adn. 8. *Ysgrifewch chwithau hefyd dros yr Iuddewon fel y gweloch yn dda* Neu yn y modd goraf er diogelwch iddynt: *yn enw y brenin*—yr un modd a'r llythyrau o'r blaen, pen. iii. 12; *ac inseliwch â modrwy y brenin*—yr hon oedd yn awr yn meddiant Mordecai, adn. 2. Ond gan y dywedir yn niwedd yr adnod hon na ellid ddatroi neu newid yr ysgrifen flaenorol i ddyfetha yr Iuddewon, pa ddyben oedd ysgrifennu yn awr dros neu o blaidd yr Iuddewon? Mewn atebiad i hyn gellir sylwi, mai y cwbl a feddytir yma yw, fod i ysgrifen gyffelyb i'r gyntaf yn erbyn yr Iuddewon, gael ei gwneyd yn awr o'u plaid hwy, neu yn erbyn y rhai hynny o'r Persiaid a ymosodent arnynt i'w dyfetha, trwy yr hon y gallent yn gyfreithlon, eu hamddiffyn eu hunain, ac felly sefyll ar yr un tir a'u gelynydd; a chan y byddai llythyrau Mordecai wedi eu cyhoeddi

ar ol llythyrau Haman, a'i fod yntau wedi ei grogi, gellid meddwl na wneid yn ol y llythyrau cyntaf, er en bod fyth mewn grym.

Adn. 9. *Yna y galwyd ysgrifenyddion y brenin* Yn union fel y gwnaethai Haman o'r blaen, pen. iii. 12; *yn y trydydd mis*—ar y 23ain o Sifan, yn cyfateb i'n Mai a'n Mehefin ni, *sef* yn mhon dau fis a deng niwrnod ar ol ysgrifenu llythyrau Haman; *at yr Iuddewon*—fel y gallent hwy wybod am eu rhyddid, ac ynwroli i'w hamddiffyn eu hunain; *ac at y rhaglawiad*—yn mhob talaeth, fel y gallent hwythau wybod am ewyllys da y brenin i'r Iuddewon, a hysbysu hynny i'r bobl trwy eu holl daleithiau yn eu hieithoedd priodol.

Adn. 10. *Ac efe a ysgrifennodd yn enw y brenin* Trwy ei orchymyn a'i awdurdod ef; *ac a'i seliodd â modrwy y brenin*—fel nas gallai neb ei ddatroi; adn. 8; *ac a anfonodd llythyrau gyda'r rhedegwyr*—i bob un o'r 127 o daleithiau; *yn marchogaeth ar feirch, &c.*—fel y gwaredid yr Iuddewon ar frys oddiwrth eu hofnau, ac y caent amser i barotoi gogyfer â'u hunan-amddiffyniad. Nid yw y dysgredigion yn hollol gyntuo pa snifeiliaid a feddytir yma; ond diaman eu bod oll o'r fath gyflymaf a chaletaf yn y gwledydd hynny. Y Saesonaeg a'u geill yn 'feirch, mulod, camelod, a dromedariaid ieuaine.'

Adn. 11. *Trwy y rhai y caniatodd y brenin i'r Iuddewon* Nid yn unig godi arfau i'w hamddiffyn eu hunain, ond hefyd i ladd pawb a ymosodai arnynt, os gallent, ac ysglyfacthu eu heiddo. Ond nid estynnodd yr Iuddewon eu llaw at yr anrhaith, pen. ix. 10, 15, 16.

Adn. 12. *Mewn un dydd* Sef y dydd a

13 Testyn yr ysgrifen, i roddi gorchymyn yn mhob talaeth, a gyhoeddwyd i bob rhyw bobl; ac ar fod yr Iuddewon yn barod erbyn y diwrnod hwnw i ymddial ar eu gelynion.

14 Y rhedegwyr, y rhai oedd yn marchogaeth y dromedariaid a'r mulod, a aethant ar frys, wedi eu gyru trwy air y brenin; a'r gorchymyn a roddesid yn Susan y brenhinlys.

15 ¶ A Mordecai a aeth allan o wÿdd y brenin mewn brenhinol wisg o ruddgoch, a gwÿn, ac â choron fawr o aur, ac mewn dillad sidan a phorffor; a dinas Susan a orfoleddodd ac a lawenychodd:

16 T'r Iuddewon yr oedd golcuni,

benodesid gan Haman i ladd yr Iuddewon, pen. iii. 13.

Adn. 13. *Testyn yr ysgrifen*—*a gyhoeddwyd i bob rhyw bobl*] Fel y gallent wybod y perygl y byddent ynddo wrth ymosod ar yr Iuddewon; *ac ar fod yr Iuddewon yn barod erbyn y diwrnod hwnw*—wedi ymarfogi â chleddyfau, gwaewffyn, a phob arfoegaeth arall amddiffynol ac ymosodol.

Adn. 14. *Y rhedegwyr*—*a aethant ar frys*] Gwel ar adn. 10, a pen. iii. 15.

Adn. 15. *A Mordecai a aeth allan o wÿdd y brenin*] I roddio neu farchogaeth ar hyd y ddinas; *mewn brenhinol wisg o ruddgoch a gwÿn*—bob yn ail res, neu yr oedd y wisg ruddgoch wedi ei gwisgo â gwÿn oddifewn, neu ynte yr oedd ei hymylau wedi eu gweithio â sidan neu flew gwÿnion; *ac â choron fawr o aur*—ar ei ben, y fath ag a wisgid gan dywysogion uwchaf Persia, yr hon oedd yn wahanol i'r 'frenhinol goron' a wisgasai efe o'r blaen, pen. vi. 8; *ac mewn dillad sidan a phorffor*—y rhai oeddnt nesaf i'w gorff ef, dan yr arwisg uchod. Y mae yn debyg mai fel hyn yr ymwisgai prif-weinidog llywodraeth Persia wrth weinyddu ei swydd. *A dinas Susan*—nid yn unig yr Iuddewon yno, ond llawer o'r Persiaid hefyd; *a orfoleddodd ac a lawenychodd*—wrth weled gŵr mor deilwng a Mordecai wedi cael ei ddyrchafu i anrhydedd mor uchel.

Adn. 16. *Pr Iuddewon yr oedd golcuni*] Neu lwyddiant a daioni, yn lle yr adfyd a'r gofid dŵ ag y buasent ynddo bellach er's mwya na deutis; *a llawenydd a hyfrydwch*—o herwrth y newydd da am y gobaiith ymwared a ddygesid iddynt trwy y ddaethd newydd; *ac anrhydedd*—yn lle y dirmyg hwnw dan ba un y gorweddent o'r blaen.

Adn. 17. *Ac yn mhob talaeth, ac yn mhob dinas*] Lle yr oedd y gyfraith newydd hon wedi ei gwneyd yn hysbys; *yr oedd llawenydd a hyfrydwch gan yr Iuddewon*—yr un modd ag yn Susan; *gwledd hefyd a diwrnod daionus*—a gadwent hwy; hynny yw, hwy a

a llawenydd, a hyfrydwch, ac anrhydedd.

17 Ac yn mhob talaeth, ac yn mhob dinas, lle y daeth gair y brenin a'i orchymyn, *yr oedd* llawenydd a hyfrydwch gan yr Iuddewon, gwledd hefyd a diwrnod daionus: a llawer o bobl y wlad a aethant yn Iuddewon; oblegid arswyd yr Iuddewon a syrthiasai arnynt hwy.

PENNOD IX.

FELLY yn y ddenddegfed mis, (hwnw yw mis Adar,) ar y trydydd dydd ar ddeg o hono, pan nes-aodd gair y brenin a'i orchymyn i'w cwblhau; yn y dydd y gobeithiasai gelynion yr Iuddewon y caent fudd-

gadwent yn mhob dinas ddydd arbenig i wledda, llawenyachu, a dioteli i Dduw am y fath drugaredd. *A llawer o bobl y wlad a aethant yn Iuddewon*—hynny yw, prosllytiwyd llawer o'r Persiaid at y grefydd Inddewig, wrth weled fod yr Arglwydd yn blaid iddynt, yn ol proffydoliaeth Zechariah, pen. viii. 23; *oblegid arswyd yr Iuddewon a syrthiasai arnynt hwy*—ofnent y dyfethid hwy gan yr Iuddewon, ac am hynny troisiant yn Iuddewon eu hunain, rhai mewn rhlith yn ddiamau, a rhai mewn gwirionedd. Meddyliodd Haman ddyfetha yr holl Iuddewon, ond yn lle hynny cynyddu a wnaethant yn fawr, canys llawer a chwanebwyd at yr eglwys. Fel hyn y mae llawenydd a hyfrydwch santaidd proffeswyr crefydd yn addurnu mawr i'w proffes, ac yn gefnogaeth i ereill gofleiddo crefydd.

PEN. IX. Adn. 1. *A phan nes-aodd gair y brenin a'i orchymyn i'w cwblhau*] Sef ar y trydydd dydd ar ddeg o'r deuddegfed mis. Yr oedd y dydd hwn wedi ei nodi gan y brenin, yn gyntaf, trwy Haman, i'r Persiaid ddyfetha yr holl Iuddewon, pen. iii. 13; ac yn ail, trwy Mordecai, i'r Iuddewon sefyll am eu heinioes, a lladd eu gelynion, pen. viii. 11, 12; ac yr oedd enw y brenin wrth lythrau y ddyw blaid. *Yn y dydd y gobeithiasai gelynion yr Iuddewon y caent fuddugoliaethu arnynt*—trwy eu bod yn llawer lluosocach na'r Iuddewon, ac am i ddewiniaid Haman nodi y dydd hwnw fel yr un mwyaf llwyddiannus i'w dyfetha hwynt. *Onid yn y gwrthwynebi i hynny y bu*—pan ddaeth dydd yr ymdrech, trwy fod yr Iuddewon yn ymddiried yn Nuw, ac yn nghyfiawnder eu hachos; *canys yr Iuddewon a arglwyddiaethasant*—neu a fuddugoliaethasant ar eu gelynion, yn lle i'w gelynion fuddugoliaethu arnynt hwy.

Adn. 2. *Yr Iuddewon a ymgymullasant yn eu dinasoedd*] A ddaethant yn nghyd at eu gilydd yn mhob dinas ar y 13eg o'r deuddegfed mis, fel y byddent yn gryfach i'w hamddiffyn eu hunain os ymosodid arnynt;

ugoliaethu arnynt, (ond yn y gwrthwyneb i hyn y bu; canys yr Iuddewon a arglwyddiaethasant ar eu caseion,)

2 Yr Iuddewon a ymgynullasant yn eu dinasoedd, trwy holl daleithiau y brenin Ahasferus, i estyn llaw yn erbyn y rhai oedd yn ceisio niwed iddynt: ac ni safodd neb yn eu hwynebau; canys eu harswyd a syrthiasai ar yr holl bobloedd.

3 A holl dywysogion y taleithiau, a'r pendefigion, a'r duciaid, a'r rhai oedd yn gwneuthur y gwaith oedd ciddo y brenin, oedd yn cynorthwyo yr Iuddewon: canys arswyd Mordecai a syrthiasai arnynt hwy.

4 Canys mawr oedd Mordecai yn nhŷ y brenin, a'i glod ef oedd yn myned trwy yr holl daleithiau: o herwydd y gŵr hwn Mordecai oedd yn myned rhagddo, ac yn cynyddu.

5 Felly yr Iuddewon a darawsant eu holl elynion â dyrnod y cledd-

yf, a lladdedigaeath, a distryw; a gwnaethant i'w caseion yn ol eu hewyllys eu hun.

6 Ac yn Susan y brenhinlys, yr Iuddewon a laddasant ac a ddyfethasant bum cant o wŷr.

7 Parsandatha hefyd, a Dalphon, ac Aspatha,

8 Poratha hefyd, ac Adalia, ac Aridatha,

9 Parmasta hefyd, ac Arisai, Aridai hefyd, a Bajezatha,

10 Deng mab Haman mab Hammedatha, gwrthwynebwr yr Iuddewon, a laddasant hwy: ond nid estynasant eu llaw ar yr anrhaith.

11 ¶ Y dwthwn hwnw nifer y lladdedigion yn Susan y brenhindy a ddaeth gerbron y brenin.

12 A dywedodd y brenin wrth Esther y frenhines, Yr Iuddewon a laddasant ac a ddyfethasant yn Susan y brenhinlys, bum cant o wŷr, a deng mab Haman; yn y rhan arall

ac ni safodd neb yn eu hwynebau—yn llwyddiannus; oblegid er i lawer godi arfau yn eu herbyn, eto gorchfygwyd a dyfethwyd hwynt yn hawdd, heb i gymaint ag un o'r Iuddewon, ond odid, gael ei ladd; *canys eu harswyd a syrthiasai ar yr holl bobloedd*—trwy fod ganddynt y fath gyfeillion galluog yn y llys, a'r fath Dduw mawr a chadarn o'u plaid. Yr oedd yn hysbys i baw bellach fod Haman wedi ei grogi, a Mordecai yr Iuddew wedi ei ddyrchafu i'w le ef, a bod y frenhines ei hun yn Iuddewes, a bod y brenin wedi gwneyd deddf i'r Iuddewon gael eu hamddiffyn eu hunain, a lladd pwy bynag a ymosodai arnynt; ac felly ofnodd y rhan fwyaf o'u gelynion godi yn eu herbyn.

Adn. 3. *A holl dywysogion y taleithiau*] Yn nghyda phawb ereill ag oeddynt yn dal swyddau dan y brenin trwy yr holl deyrnas; *oedd yn cynorthwyo yr Iuddewon*—nid yn unig ni ddaethant yn erbyn yr Iuddewon, ond daethant i'w hamddiffyn hwynt; *canys arswyd Mordecai a syrthiasai arnynt hwy*—yr hwn oedd y gŵr penaf yn y deyrnas, yn nesaf at y brenin. Ofnai y rhai hyn, os codent yn erbyn yr Iuddewon, y byddai i Mordecai eu diswyddo hwy, neu gael caniatâd y brenin i'w dyfetha.

Adn. 4. *Canys mawr oedd Mordecai yn nhŷ y brenin*] Fel cefnder y frenhines, a phrif-gyngborwr y brenin; *a'i glod ef oedd yn myned trwy yr holl daleithiau*—fel dyn doeth, cyfiawn, a rhinweddol; *ac yn cynyddu*—yr oedd ei awdurdod a'i ddylanwad yn eangu fwyfwy yn barhaus.

Adn. 5. *Felly yr Iuddewon a darawsant eu holl elynion*] Sef y rhai a ddanghousent eu bod yn elynion iddynt trwy ufyddhau i ddoddf Haman ar y dydd penodedig; *a gwnaethant*

i'w caseion yn ol eu hewyllys eu hun—trwy eu bod wedi eu hollol ddarostwng danynt, ac yn gwbl yn eu llaw hwynt; neu ynte, gwnaethant eu hewyllys eu hun, trwy ladd rhai, ac arbed y gwagedd a'r plant. Y nao yn debyg mai yr *Amaleciaid*, y genedl ddiogyddedig hōno, pobl Haman, pen. iii. 1, oedd gelynion fyrrncaf yr Iuddewon yn nhaleithiau Persia, ac mai hwynt-hwy yn benaf a laddwyd ar y dydd hwn yn nihob lle: ac felly y dywed haneswyr Iuddewig.

Adn. 6. *Ac yn Susan y brenhinlys*] Sef yn ninas Susan, lle yr oedd llys y brenin; *yr Iuddewon a laddasant ac a ddyfethasant bum cant o wŷr*—sef hen gyfeillion a cheraint Haman, y rhai a ddaethant allan yn erbyn yr Iuddewon dan arweiciad deng mab Haman, y rhai a enwir isod.

Adn. 7—10. *Parsandatha hefyd, a Dalphon, &c.*] Sef deng mab Haman; *a laddasant hwy*—gyda'r pum cant ereill yn Susan; *ond nid estynasant eu llaw ar yr anrhaith*—yn Susan, nac mewn un man arall, adn. 16, er fod ganddynt awdurdod i wneyd hyn, pen. viii. 11; fel na ddywedai neb iddynt hwy ladd y bobl er mwyn eu heiddo, ond yn unig mewn amddiffyniad iddynt eu hunain.

Adn. 11. *Y dwthwn hwnw nifer y lladdedigion yn Susan*—*a ddaeth gerbron y brenin*] Naill ai ar orchymys y brenin, fel y gallai wybod pa nifer oedd o elynion i'r Iuddewon yn y ddinas frenhinol; neu ynte, dygwyd eu nifer ger ei fron gan ryw rai ymyrgar, y dyben i'w gyffroi ef i gasâu yr Iuddewon, y rhai a laddasant y fath nifer o'i ddeiliaid ef.

Adn. 12. *A dywedodd y brenin wrth Esther y frenhines*] Fod pum cant o'i gelynion hi wedi eu lladd y dydd hwnw yn ninas Susan yn unig, heblaw y rhai a laddwyd yn

o daleithiau y brenin beth a wnaethant hwy? beth gan hyny yw dyddy-muniad? ac fe a roddir i't'; a pheth gw dy ddeisiwyd yn mhellach? ac fe a'i gwneir.

13 Yna y dywedodd Esther, O rhyglydda bodd i'r brenin, caniatäer y fory i'r Iuddewon sydd yn Susan wneuthur yn ol y gorchymyn heddyw: a chrogant ddeng mab Haman ar y pren.

14 A'r brenin a ddywedodd am wneuthur felly, a'r gorchymyn a roddwyd yn Susan: a hwy a grogiant ddeng mab Haman.

15 Felly yr Iuddewon, y rhai oedd yn Susan, a ymgynullasant ar y pedwarydd dydd ar ddeg o fis Adar hefyd, ac a laddasant dri chant o wŷr yn Susan: ond nid estynasant eu llaw ar yr yspail.

16 A'r rhan arall o'r Iuddewon, y rhai oedd yn nhaleithiau y brenin, a ymgasglasant, ac a safasant am

dinasoedd ereill, am y rhai ni ddaethai gwybodaeth eto; beth gan hyny yw dyddy-muniad?—os nad oedd y laddfa-fawr y dydd hwnw yn ddiagon i foddioni Esther, gofyned yn mhellach y peth a fynai, a chaniatäi y brenin iddi ei dymuniad.

Adn. 13. *Caniatäer y fory i'r Iuddewon sydd yn Susan wneuthur yn ol y gorchymyn heddyw*] Sef lladd eu gelynion dranoeth, fel y gwnaethent y dydd hwnw. Ymddengys fod y rhai penaf a gwaethaf o honynt wedi ymruddio am y dydd hwnw, y rhai a ddychwelent i'w tai dranoeth yn ddiöfn, trwy fod diwrnod y lladdediogaeth wedi myned heibio. Nid o ysbryd dial yr oedd hi yn gofyn hyn, ond er diogelwch a llonyddwch i'r Iuddewon; canys hi a wyddai y byddai i'r rhai hyny drallodi yr Iuddewon yn mhob modd, ac fe allai eu lladd yn fradwrus, os gadewid iddynt fyw. *A chrogant ddeng mab Haman ar y pren*—yr oeddynt hwy wedi eu lladd eisioes, adn. 10, 12; a hi a fynai grogi eu cyrff ar grogbron eu tad, er mwyn o ddianrhygded iddynt fel blaenoriaid y terfysg, ac i greu dychryn mewn ereill rhag ymgodi yn erbyn yr Iuddewon, fel y gwnaethai y rhai hyn a'u tad.

Adn. 14. *A'r brenin a ddywedodd am wneuthur felly*] Efe a welodd ar unwaith bridoldeb ei chais; *a'r gorchymyn a roddwyd yn Susan*—sef yn Susan yn unig, trwy nad oedd y frenhines wedi ceisio ail ddiwrnod o gyflafan mewn un ddinas arall; neu cyhoeddwyd y gorchymyn trwy holl ddinas Susan, fel y gwybyddai yr Iuddewon yno fod rhyddid iddynt i ladd eu gelynion dranoeth hefyd, a chrogî meibion Haman.

Adn. 15. *Felly yr Iuddewon y rhai oedd yn Susan*] I'r rhai yn unig y ceisiasai Esther

eu heinioes, ac a gawsant lonyddwch gan eu gelynion, ac a laddasant bymtheng mil a thringain o'u caseion: ond nid estynasant eu llaw ar yr anrhaith.

17 Ar y trydydd dydd ar ddeg o fis Adar y bu hyn, ac ar y pedwarydd dydd ar ddeg o hono y gorphwysasant, ac y cynaliasant ef yn ddydd gwledd a gorfoledd.

18 Ond yr Iuddewon, y rhai oedd yn Susan, a ymgynullasant ar y trydydd dydd ar ddeg o hono, ac ar y pedwarydd dydd ar ddeg o hono; ac ar y pymthegfed o hono y gorphwysasant, a gwnaethant ef yn ddydd cyfeddach a llawenydd.

19 Am hyny Iuddewon y pentrefi, y rhai oedd yn trigo mewn dinasoedd heb gaerau, oedd yn cynnal y pedwarydd dydd ar ddeg o'r mis Adar, mewn llawenydd a chyfeddach, ac yn ddiwrnod daionus, ac i anfon rhanau i'w gilydd.

y ffafir bon; a ymgynullasant ar y pedwarydd dydd ar ddeg o fis Adar hefyd—megys y gwnaethent y dydd o'r blaen, sef y trydydd dydd ar ddeg; ac a laddasant dri chant o wŷr yn Susan—yr hyn, gyda'r pum cant y dydd o'r blaen, a wnai 800 yn y cwbl, heblaw deng mab Haman: ond nid estynasant eu llaw ar yr yspail—gwel ar adn. 10.

Adn. 16. *A'r rhan arall o'r Iuddewon*] Yn mhob dinas arall trwy yr holl daleithiau; a ymgasglasant, ac a safasant am eu heinioes—yr un modd ag y gwnaethent eu brodyr yn Susan; ac a gawsant lonyddwch gan eu gelynion—o'r dydd hwnw allan, ar ol iddynt eu gorchfygu hwy; ac a laddasant bymtheng mil a thringain—yn chwangel at yr 810 a laddwyd yn Susan. Achlysurwyd y difrod ofnadwy hwn ar fywydau y Persiaid neu yr Amaleciaid trwy falchder un dyn, sef Haman; a phe cawsai ef ei ffordd, dinystrisid llawer mwy na hyny o'r Iuddewon!

Adn. 17. *Ar y trydydd dydd ar ddeg o fis Adar y bu hyn*] Yn holl daleithiau Persia; ac ar y pedwarydd dydd ar ddeg y gorphwysasant—oddiwrth ladd eu gelynion, a phob gwaith arall; ac y cynaliasant ef yn ddydd gwledd a gorfoledd—o herwydd iddynt faeddu eu gelynion, a chael gwaredigaeth ddedwydd oddiwrthynt.

Adn. 18. *Ond yr Iuddewon y rhai oedd yn Susan*] Buont hwy ddau ddiwrnod yn baeddu eu gelynion, adn. 13, 15; ac ar y pymthegfed o hono y gorphwysasant—sef un diwrnod ar ol eu brodyr.

Adn. 19. *Am hyny Iuddewon y pentrefi*] Felly y gelwir holl drefi ereill y Persiaid, mewn gwrthgyferbyniad i Susan y brifddinas; oedd yn cynnal y pedwarydd dydd ar ddeg—am iddynt hwy orphen eu gwaith: ar y trydydd

20 ¶ A Mordecai a ysgrifennodd y geiriau hyn, ac a anfonodd lythyr-
au at yr holl Iuddewon oedd trwy
holl daleithiau y brenin Ahasferus,
yn agos ac yn mhell,

21 I ordeinio iddynt gadw y pedwar-
ydydd dydd ar ddeg o fis Adar,
a'r pymthegfed dydd o hono, bob
blwyddyn;

22 Megys y dyddiau y cawsai yr
Iuddewon ynddynt lonydd gan eu
gelynion, a'r mis yr hwn a ddy-
chwelasai iddynt o dristwch i lawen-
ydd, ac o alar yn ddydd daionus:
gan eu cynal hwynt yn ddyddiau
gwledd a llawenydd, a phawb yn
anfon anrhegion i'w gilydd, a rhodd-
ion i'r rhai anghenus.

23 A'r Iuddewon a gymerasant
arnynt wneuthur fel y dechrenas-
ent, ac fel yr ysgrifenasai Mordecai
atynt.

24 Canys Haman mab Hamme-
datha yr Agagiad, gwrthwynebw'r

dydd ar ddeg, fel y sylwyd adn. 17; *mewn
llawenydd a chyfeddach*—yn ddiwrnod o
fwyta ac yfed, yn gystal ag yn ddydd o
ddiolchgarwch a moliant i Dduw; *ac i anfon
rhanau i'w gilydd*—fel y gallai eu brodyr ty-
lotaf hefyd wledda a llawenydu. Er fod rhai
yn ddiamau yn cadw yr ŵyl hon yn ysgafn a
llygredig, eto yr oedd yr rhan fwyaf o honynt,
fel y gallwn feddwl, yn ei chadw yn ddiolch-
gar a chrefyddol.

Adn. 20. *A Mordecai a ysgrifennodd y
geiriau hyn* Sef hanes yr hyn a wnaed ar y
ddau ddiwrnod uchod, yn nghyda'r achos a
barodd iddynt wneyd felly; *ac a anfonodd
lythyr-
au*—i bob man trwy yr holl daleithiau,
yn agos ac yn mhell, i orchymyn i'r Iuddew-
on gadw gwyl flynyddol yn goffiadwriaeth am
hyn.

Adn. 21. *I ordeinio iddynt gadw y pedwar-
ydydd dydd ar ddeg* Yn goffiadwriaeth am yr
hyn a wnaed yn y pentrefi; *a'r pymthegfed
dydd*—yn goffiadwriaeth am yr hyn a gymer-
odd le yn Susan, adn. 18, 19.

Adn. 22. *Megys y dyddiau y cawsai yr
Iuddewon ynddynt lonydd gan eu gelynion*
Nid oeddynt i gadw y dyddiau yn y rhai yr
ymlddent, ond y dyddiau yn y rhai y gor-
phwysent; yr un modd a'r sabbath, ar yr hwn
y gorphwysodd Duw oddiwrth holl waith y
cread. *A'r mis yr hwn a ddychwelasai idd-
ynt o dristwch*—yr oeddynt yn drist wrth ed-
rych yn mlaen at y 13eg o hono; *i lawenydd*
—o herwydd iddynt faeddu eu gelynion, a
chael gwyl i wledda a molianu Duw am
hyny. *A phawb yn anfon anrhegion i'w
gilydd*—fel y gallent ymglymu yn fwy â'u
gilydd mewn cariad; *a rhoddion i'r rhai
anghenus*—fel y gallent bwythau hefyd, trwy

yr holl Iuddewon, a arfaethasai yn
erbyu yr Iuddewon, am eu dyfetha
hwynt; ac esef a fwriasai Pwr,
(hwnw yw y coelbren), i'w dinystrio
hwynt, ac i'w dyfetha:

25 A phan ddaeth *Esther* o flaen
y brenin, esef a archodd trwy lyth-
yrrau, ddychwelyd ei ddrwgfwriad
esef, yr hwn a fwriadodd esef yn er-
byn yr Iuddewon, ar ei ben ei hun;
a'i grogi esef a'i feibion ar y pren.

26 Am hyny y galwasant y dydd-
iau hyny Pwrim, ar enw y Pwr:
am hyny, o herwydd holl eiriau y
lythyr hwn, ac o *herwydd* y peth a
welsent hwy am y peth hyn, a'r
peth a ddygwyddasai iddynt,

27 Yr Iuddewon a ordeiniasant,
ac a gymerasant arnynt, ac ar eu
had, ac ar yr holl rai oedd yn un â
hwynt, na phallai bod cynal y ddau
ddydd hyny, yn ol eu hysgrifen
hwynt, ac yn ol eu tymhor, bob
blwyddyn:

eu bod yn gyfranog o'r un waredigaeth, ym-
gyfranogi o'r un llawenydd.

Adn. 23. *A'r Iuddewon a gymerasant ar-
nynt wneuthur* Yn ol gorchymyn Mordecai,
sef cadw y dyddiau hyn yn ŵyl flynyddol yn
barhaus; *fel y dechreasant*—dranoeth ar ol
dyfetha eu gelynion. Ac y maent yn parhau
i wneuthur hyny hyd heddyw yn yr holl fan-
au lle y gwasgarwyd hwynt.

Adn. 24. *Canys Haman—a fwriasai Pwr*
Neu *goelbren*, i wybod pa ddiwrnod oedd y
mwyaf llwyddiannus i ddyfetha yr holl Iuddew-
on: gwel ar pen. iii. 7—13. Ond yr Ar-
gwydd, yr hwn biai lywodraethu y coelbren,
a barodd i'r diwrnod hwnw fod yn ddydd eu
buddugoliaeth hwy, a dinystr eu gelynion.

Adn. 25. *A phan ddaeth Esther o flaen y
brenin* I ofyn ganddo esef ei heimioes ei hun
ac einioes ei phobl; *esef a archodd trwy lyth-
yrrau*—i'r Iuddewon gacl eu hamddiffyn eu
hunain: gwel ar pen. viii. 5, &c. Hyn yn ddi-
au a archwyd trwy lythyr-
au; canys y gor-
chymyn i grogi Haman a draddododd y brenin
trwy air ei enau, pen. vii. 9.

Adn. 26. *Am hyny y galwasant y dyddiau
hyny Pwrim* Neu 'goelbrenau,' sef y 14eg
a'r 15fed o fis Adar, adn. 21; *ar enw y Pwr*
—neu y 'coelbren': gwel ar pen. iii. 7. *O her-
wydd holl eiriau y lythyr hwn*—a ddanfon-
asai Mordecai at yr Iuddewon yn enw y brenin
—ac o *herwydd y peth a welsent hwy*—sef
y fuddugoliaeth a roisai Duw iddynt ar eu gel-
ynion, adn. 16.

Adn. 27. *Yr Iuddewon a ordeiniasant*
Gwnaethant ddeddf sefydlog i'w rhwymo eu
hunain a'u had am byth, i gynal y ddau ddydd
hyny bob blwyddyn yn ŵyl goffiadwriaethol
o'r fuddugoliaeth a gawsent y pryd hyn ar eu

28 Ac y byddai y dyddiau hyny i'w cofio, ac i'w cynnal trwy bob cenedlaeth, a phob teulu, pob talaeth, a phob dinas; *sef* na phallai y dyddiau Pwrim hyny o fysg yr Iuddewon, ac na ddarfyddai eu coffadwr-iaeth hwy o blith eu had.

29 Ac ysgrifennodd Esther y frenhines merch Abihail, a Mordecai yr Iuddew, trwy eu holl rym, i sierchau ail lythyr y Pwrim hwn.

30 Ac efe a anfonodd lythyrau at yr holl Iuddewon, trwy y cant a'r saith dalaeth ar hugain o frenbin-

gelynon; ac ar yr holl rai oedd yn un â hwynt—wedi eu prosltytio ac Iuddewiaeth o blith y Cenedloedd: hyny yw, yr oedd y ddeddf hon i fod yn rhwymiadol arnynt hwythau hefyd.

Adn. 28. Ac y byddai y dyddiau hyny i'w cofio] Gan yr Iuddewon yn mhob oes, gwlad, a theulu, am byth. Felly y maent yn cadw *gŵyl y Pwrim* yn ofalus hyd heddyw, pryd y darlennir holl lyfr Esther yn mhob teulu, a dwywaith yn y synagogan, i ddwyn ar gof iddynt yr achos o'i chadw. Ond y mae llawer o lygredd wedi ymlusgo i'w plith erbyn hyn, o leiaf mewn rhai gwledydd; canys dywedant y dyld yfed yn y wledd hon hyd oni bydd un mor foddw, fel na wypo wahaniaeth rhwng melldith Haman a bendith Mordecai, pan glywo y geiriau hyny yn cael eu darllen: gwel yr adfeddyliadau.

Adn. 29. Ac ysgrifennodd Esther] Trwy ei lawdurdod fel brenhines; a Mordecai yr Iuddew—trwy ei awdurdod fel prif-weinidog y llywodraeth; i sierchau ail lythyr y Pwrim hwn—i alw sylw yr Iuddewon at yr ail wyl, yr hon oedd i gael ei chadw yn mhben y flwyddyn. Ond tybia rhai mai yn mhben rhyw lawer o amser wedi hyny yr ysgrifennwyd yr ail lythyr hwn, pryd yr oedd llawer yn petruso ei chadw, gan edrych arni fel gosodiad dynol wedi ei chwaneu at y gosodiadau dwyfol a sefydlwyd trwy Moses.

Adn. 30. A geiriau heddwch a gwirionedd] Er eu bod yn ysgrifenu â grym neu awdurdod, adn. 29, yr oeddnt hefyd yn ysgrifenu â geiriau heddwch—yn gyfeillgar a thirion, ac nid mewn iaith sarng a lyf; a gwirionedd—neu gywirdeb, yr hyn a nodir yma, am nad oedd hyny yn arferedig bob amser gan lyswyr Persia. Neu gall mai yr ystyr yw, eu bod yn cynghori yr holl Iuddewon i fyw mewn heddwch â'u gilydd, ac â phawb o'u hamgylch, ac ymgadw yn fanwl a pharhaus at wirionedd crefydd ac addoliad Duw.

Adn. 31. Isierchau y dyddiau Pwrim hyny yn eu tymhorau] Ar y 14eg a'r 15fed o fis Adar, sef y denddegfed mis, bob blwyddyn; *sef yr ordeimiasai Mordecai—ac Esther*—yn eu llythyrau atynt, adn. 21, 29. Nid oes yma ddim son am y brenin yn cymeryd rhan yn hyn, trwy nad oedd ganddo ef ddim i'w wneyd

iaeth Ahasferus, a geiriau heddwch a gwirionedd;

31 I sierchau y dyddiau Pwrim hyny yn eu tymhorau, fel yr ordeimiasai Mordecai yr Iuddew, ac Esther y frenhines, iddynt hwy, ac fel yr ordeimiasent hwythau drostynt eu hun, a throes eu had, eiriau yr ymprydiau a'u gwaedd.

32 Ac ymadrodd Esther a gadarnhaodd achosion y dyddiau Pwrim hyny: ac ysgrifennwyd hyn mewn llyfr.

â chrefydd yr Iuddewon. Ac fel yr ordeimiasent hwythau—drostynt eu hunain, a throes eu had a'u prosltytiad, adn. 27. Eiriau yr ymprydiau a'u gwaedd—tybia rhai fod geiriau eu gwaedd nen en dolef hwynt yn yr ymprydiau hyny yn ysgrifenedig, ac yn cael eu darllen ar wyl y Pwrim, i'w gwneyd hwy yn twy diolchgar a llawen am eu gwaredigaeth: gwel yr adfeddyliadau.

Adn. 32. Ac ymadrodd Esther a gadarnhaodd achosion y dyddiau Pwrim] Cafodd ei lythyr hi y fath efiath ar yr Iuddewon, fel ag i'w hennill yn bleidwyr i'r wyl hon o hyny allan; ac ysgrifennwyd hyn mewn llyfr—yn nghroniciolau y deyrnas, neu mewn rhyw lyfr perthynol i'r Iuddewon, lle yr ysgrifennent hy-nodion eu cenedl eu hunain.

ADFEDDYLIADAU.—Y mae *gŵyl y Pwrim*, fel y crybwyllwyd eisioes, yn cael ei chynnal gan yr Iuddewon hyd heddyw, a hyny gyda llawer o ddefodau neillduol, yn enwedig gorphwys, darllen, ac ymprydio. Cyn dechreu darllen yn y synagog, yr hyn a wneir yn yr hwy, cyn gynted ag yr ymddanghoso y ser, defnyddiant dair fwr o woddi. Yn y gyntaf o'r rhai hyn, hwy a foliannant Dduw am iddo eu cyfrif hwy yn deilwng i ddyfod i'r wasan-aeth ddwyfol hon: yn yr ail, diolchant iddo am gadwraeth wythliol eu henafiaid: ac yn y drydedd, bendithiant ei enw santaidd ef am estyn eu bywyd i gynnal *gŵyl* arall er cofiad-wriaeth am hyny. Yna darlennant holl hanes Haman o'r dechre i'r diwedd; nid o'u llyfr argraffedig, canys nid yw hyny yn gyfeithlon, ond o fennwrn wedi ei ysgrifenu yn yr lleb-raeg. Y mae pump o leoddy yn y testyn lle y mae y darlennydd yn dyrchafu ei lais mor uchel ag y galle: a phan y delo i'r fan lle yr enwir deng nab Haman, efe a drostynt yn gyflym iawn, i ddangos iddynt gael eu dyfetha oll mewn moment: a phob tro y crybwyllir enw Haman, y plant, gyda chyuddedd mawr, a gurant feinciau y synagog â gordd-brenau wedi eu dwyn yn i'r perwyl. Ar ol gorphen darllen, dychwelant i'w tai, lle y swperant, nid ar gig, ond ar gawl. Dranoeth codant yn fore, a dychwelant i'r synagog; ac ar ol darllen y geiriau hyny yn Exodus lle y crybwyllir am y rhyfel â'r Amaleciaid, dechreuant eilwaith

PENNOD X.

A'R brenin Ahasferus a osododd dreth ar y wlad, ac ar ynysoedd y môr.

2 A holl weithredoedd ei rym ef, a'i gadernid, a hysbysrwydd o fawredd Mordecai, â'r hwn y mawrhoedd y brenin ef, onid ydynt hwy yn

ddarllen llyfr Esther, gyda'r nn defodau ag o'r blaen; ac yna terfynant wasanaeth y dydd, gan feldithio Haman a'i wraig, a bendithio Mordecai ac Esther, a moliannu Duw am gadw ei bobl. Y mae eu gorphwysiad ar y dydd hwn yn cael ei gadw mor grefyddol, fel na wnant gymaint a phlanu neu hau dim yn eu gerddi, gan gwbl greu na thyfai efe pe gwnant; ac am hyny naill ai chwerauant ar y tawlfwrdd (*chess*), neu ryw gamp gyffelyb, neu ynte treuliant eu hamsor i ganu a dawnsio hyd nes y byddo yn bryd iddynt ddechreu ar eu gwledd, yn yr hon yr arferant y fath anghymedroldeb, fel ag y cafodd gwyl y Pwrim ei galw yn gyflawn yn 'wyl feddwol yr Iuddewon.' Yfant win hyd ormodedd; i.e. i'r fath raddan fel na allant wahaniaethu rhwng bendith Mordecai a mellidith Haman, fel y dywedant hwy eu hunain. Yn mhilith difyrwech a champau ereill y dydd, arferent gynt godi crogbren, a llosgent arno ddy'n gwellt, yr hwn a alwent hwy Haman; ond gan y tybid eu bod yn bwriadu yn hyn sarhan y Cristionogion, gwaharddodd Theodosius II. iddynt arferyd y seremoni hon dan y gosp o ffoffetio eu holl freintiau. Gwel Eiriadur Calmet, dan y gair *Pur*. Y peth mwyaf canmoladwy yn ngwyl y Pwrim yw yr elusenau mawrion, mewn arian a bwyd, y rhai a ddyry y cyfoethogion i'r tylodion ar y pryd, i'r dyben i'w galluogi hwythau i gynnal yr wyl hon.

PEN. X. Adn. 1. *A'r brenin Ahasferus a osododd dreth ar y wlad.* Ar ei ddeiliaid yn mhob man o'i lywodraeth; ac ar ynysoedd y môr—sef ynysoedd Môr Aegea, y rhai a orchfygwyd gan Darius Hystaspes; a thybia Calmet mai yr Hystaspes hwnw oedd Ahasferus y llyfr hwn: ond gwel ar pen. i. 1.

Adn. 2. *A holl weithredoedd ei rym ef a'i gadernid.* Sef ei rym a'i gadernid fel llywodraethwr gwladol; a *hysbysrwydd o fawredd Mordecai*—sef y dyrchafiad a roisai y brenin iddo ef yn y llywodraeth, yr hyn a drôdd allan er mawredd a llwyddiant i'r brenin ei hun, ac er lles cyffredinol i'r holl deyrnas; onid ydynt hwy yn ysgrifenedig yn llyfr croniel brenhinoedd Media a Phersia?—gwel ar pen. vi. 1. Yr oedd hanes helaethach am weithredoedd y brenin a'i brif-weinidog yn y llyfr hwnw, nag a geir yn y llyfr canon-aidd hwn; a chan fod hwnw ar gael y pryd hyny, ac am oesoedd wedi hyny yn ddiamau,

ysgrifenedig yn llyfr croniel brenhinoedd Media a Phersia?

3 Canys Mordecai yr Iuddewon oedd yn nesaf i'r brenin Ahasferus, ac yn fawr gan yr Iuddewon, ac yn gymeradwy yn mysg lluaws ei frodyr; yn ceisio daioni i'w bobl, ac yn dywedyd am heddwch i'w holl hiliogaeth.

y mae yr ysgrifenydd ysbyrdoledig yn cyfeirio ei ddarllenwyr cyntefig at hwnw, er cadarnhau gwirionedd yr hyn a draethir yma.

Adn. 3. *Canys Mordecai yr Iuddewon oedd yn nesaf i'r brenin.* Yn brif-weinidog iddo, ac yn ben dan o'ef ar yr holl dywysogion, yn gystal ag ar yr holl deyrnas; ac yn fawr gan yr Iuddewon—sef yn fawr ei bareh, ar gyfrif yr hyn a wnaethai iddynt gynt, ac a wna'i yn barhaus; ac yn gymeradwy yn mysg lluaws ei frodyr—sef ganddynt hwy oll, yn mhell ac agos, mawr a bvechan; yn ceisio daioni i'w bobl—yn defnyddio ei holl ddylanwad yn y llys nid er ei les ei hun, ond er lles y deiliaid yn gyffredinol, y rhai a vstyriai efe fel ei bobl ei hun; ac yn dpycedig am heddwch i'w holl hiliogaeth—heb dderbyn wyneb y cyfoethog o flaen y tlawd, na phleiddio y naill yn fwy na'r llall. Nen, fel y mae yn y Saesonaeg, yn llefaru heddwch wrth ei holl hiliogaeth, gan fod yn hygyrth, addfwyn, a thirion tuag atynt oll, ac yn barod i gynorthwyo pawb a geisient hwy ganddo.

ADFFEDYLIADAT.—Yr ydym yn awr wedi myned trwy holl lyfrau hanesiol yr Hen Destament. O hyn hyd enedigeth Crist nid oedd ysgrifenywyr ysbyrdoledig i'w cael; ac am hyny, os mynwn gael hanes yr Iuddewon yn y cyfnod rhwng y ddau Destament, rhaid i ni ddarllen llyfrau yr *Apocrypha*, ac ysgrifenywyr anysbyrdoledig ereill ar helyntion y bobl hynod hyn. Yr attodiad goraf i'r haues yma a geir yn ngwaith tra rhagorol DEAN PRIDEAUX, a elwir, *The Old and New Testaments connected, in the History of the Jews and neighbouring Nations, from the Declension of the Kingdoms of Israel and Judah to the time of CHRIST.* 4 vols. 8vo. 1725. Nid yw yr argraffiadau blaenorol i'r flwyddyn hon yn gwbl mor berffaith. Os cafodd ein darllenwyr ryw gymorth oddiwrth ein hymdrech i egluro y rhanau hanesiol hyn o'r Ysgrhythrau Santaid, fel ag i allu eu darllen hwy gyda mwy o bleser a budd nag o'r blaen, atolygwn iddynt roddi yr holl glod i Dad y Goleuni, oddiwrth yr hwn y mae pob rhoddiad daionus a pherffaith yn disgyn, ac yn enwedig pob iawn ddirnadaeth a gwybodaeth o'i air; a gweddio am iddo roddi chwanagerid o'i gynorthwy grasol at y gwaith sydd yn ol, yn enwedig gan ein bod i ddechreu ar y rhanau mwyaf ymarferol, arddunol, ac ysbyrdol, o'r Ysgrhythr Lân:

LLYFR JOB.

O HOLL lyfrau yr ysgrhythrau, nid oes un a gafodd fwy o esboniadau arno, na mwy o ddysg i geisio ei egluro, na mwy o amrywiaeth barnau yn ei gyleh, na llyfr Job. Y pynciau ag yr anghytunir fwyaf arant yw y rhai canlynol: I. *Personoliaeth Job*.—Myn rhai na bu y fath ddyngriod mewn bod, ac mai arallge, neu gyfansoddiad dyehymyglol neu ddyngwaredol, yw yr holl lyfr. Ond gan y crysbyllir am Job gan Ezeziel, yr hwn a'i rhestraf ef gyda Noa a Daniel fel dynion yn rhagori o ran eu diwioldeb a'u dylanwad ar bawb ereill, pen. xiv. 14, 20, y mae genym gymaint o sail i wadu hanfodiad y ddau olaf, ag sydd genym i wadu hanfodiad y cyntaf. Crysbyllir am dano hefyd gan Iago, pen. v. 11, fel dyn nodedig am ei amynedd, yr hwn a fendithiwyd yn creillduo mewn canlyniad i hynny gan yr Arglwydd. Ac y mae yr Arabiaid hyd heddyw nid yn unig yn credu ei fod unwaith yn bodoli, ond yn cymeryd arnynt hefyd d dangos ei fedd. II. *Ei wlad*.—Dywedir yn pen. i. 1, ei fod o wlad Uz. Ond yn nîha le yr oedd Uz? Dywed rhai ei bod yn Anialweh Arabia; ereill, yn Arabia Petre; ereill yn Mesopotamia; ereill, yn Idumea; ereill yn agos i Damaseus; ac ereill rhwng yr Aifft a Philistia. III. *Ei geneoll*.—Dywed rhai ei fod o hiliogaeth Abraham trwy Esau; ereill, o hiliogaeth Abraham trwy Cetura; ac ereill, o hiliogaeth Naeor brawd Abraham, cyntafanedig yr hwn oedd Hus, neu Uz, oddiwrth ba un y gallasai ei wlad gael ei henw; gwel Gen. xxii. 12. Ac y mae yn amlwg fod addoliad y gwir Dduw yn y teulu hwn am rai oesoedd, trwy fod Jehofa yn cael ei alw nid yn unig yn 'Dduw Abraham,' ond hefyd yn 'Dduw Naeor,' Gen. xxxi. 53. IV. *Yr amser yr oedd yn byr*.—Twybia yr Iuddeon yn gyffredin ei fod yn byw ar unwaith ag Isaac a Jacob; a gesyd Eusebius ef ddwy oes o flaen Moses. Rhai seryddwyr a osodant amser Job oddeutu 184 o flynyddau cyn Abraham; a Dr. Hales, o gyleh 2300 o flyn Crist. Y fam gyffredin, a'r debycaf i fod yn gywir yw, ei fod yn byw yn amser y *patriarchiaid*, ac yn flaenorol i ddiynystr Sodom a Gomorra, trwy nad oes sou yn y llyfr hwn am y dygwyddiad hynod hnw, yr hwn a gymerodd le ar gyffiniau gwlad Job, ac a fuasai mor briodol i gael ei ddwyn yn mlaen yn y cynadleddau hyn i brofi a chadarnhau y mater mewn dadl rhwng Job a'i gyfeillion. Nid oes yma grybwyllid ebwaith am waredigaeth Israel o'r Aifft trwy y môr coch, am roddiad y ddeddf ar Sinai, am fynyddiad Israel i Ganaan, nac am y defodau Moesenaidd, at yr hyn y gallasem ddysgwyl iddo gyfeirio pe buasai efe yn byw ar ol dyddiau Moses. Y mae y dyb ei fod yn byw yn yr oes batriarchaidd yn derbyn peth oefnogaeth nid yn unig oddiwrth ei oedran mawr, ond hefyd oddiwrth y ffaith ei fod yn offrymu poeth-offrymuau ei hunan, pen. i. 5, yr hyn a wneid gan y pen-teulu yn yr oes batriarchaidd, pryd nad oedd teml, allor, nac offeriaeth realiaid. Ond myn rhai, heb fawr o sail, ei fod yn byw lawer yn ddiweddarach; a bod yn ei lyfr gyfeiriad at bethau a ddygwyddasant yn amser Moses, y Barnwyr, a Dafydd, ac hyd yn uod yn amser y caethiwed Babilonaidd. V. *Awdwr y llyfr hwn*.—Dywed Lowth, Magee, Lee, ac ereill, mai Job ei hun a'i hysgrifodd; priodola Lightfoot ac ereill ef i *Elihu*; tybia Kennicott, Michaelis, Dathe, Good, a rhai o'r rabbiniaid Iuddegw, mai Moses yw ei awdwr; a Luther, Grotius, a Doederlin, mai *Solomon*; a Warburton ac ereill mai gwaith *Ezra* ydwr. Yn y sylw ar Exod. ii. 23, awgrymwyd fod rhai yn meddwl i Moses ysgrifenu llyfr Job pan yn aros yn Midian; ond y mae ereill yn meddwl na wnaeth Moses ddim ond ei gyfeithu y pryd hyny o'r Arabaeg at wasanaeth ei frodyr yn ol llaw, ac fe allai osod y rhanau cynadleddol o hono mewn ffarfarddonol, fel y mae yn bresenol yn y testyn Hebreig. Yn wir gallwn yn hawdd gredu, oddiwrth dull Job o ymadroddi yn y llyfr hwn, ei fod ef yn ddigon galluog ei hun i gyfansoddi y fath waith; ac ymdeugys fod y gelfyddyd o ysgrifenu lyfrau yn adnabyddus i Job yn yr oes foreol hono; gwel pen. xix. 23, 24, a xxxi. 35. Gan iddo ef fyw mewn iechyd a llwyddiant am 140 o flynyddoedd ar ol ei gystudd a'i drallod, nid yw yn afresymol meddwl mai efe ei hun, o dan gynhyrffadon a chy-northwy dwyfol ysbrydoliaeth, a ysgrifennodd y llyfr hwn, a hyny er gwasanaeth yfnahwyr hyd ddiwedd y byd. Ond os felly, rhaid fod yr adnodau diweddfad o'i lyfr wedi eu hysgrifennu gan law ddiweddarach. fel yn achos Moses, Deut. xxxiv. 1. VI. *Gweddol ac amcan y llyfr*.—Prif amcan y llyfr hwn yw gwrthbrofi y dyb fod diwioldeb o angenrheidrwydd yn rhydd oddiwrth ddyoddef- iadau a drygan naturiol ac ysbrudol, a bod llwyddiant bob amser yn brawf o ffafir a chymeradwy- aeth y Nefoedd; ac yn enwedig dangos, er i ddynton da gael eu blino a'u cystuddol, eto y bydd iddynt oll, yn fuan neu yn hynny, yr yn y byd hwn neu y nesaf, gael gwaredigaeth lawn o'u holl odia- iau; ac am hynny fod yn gweddu iddynt ddyoddef yr holl ddrygan byn yn amyneddgar. heb rwg- naeh yn erbyn Duw o'u herwydd, yr hwn y mae ei ffridd yn y môr, a'i oruchwyliaethan yn an- chiliaidw, ac oll yn arwain yn ddiifeth at ei ogoniant ei hun a lles ei bobl. Cawn yma wybodaeth drwyddat o allu a threfn crefydd yn yr oes batriarchaidd; yr hyn, fel p; byddai, a ddyry herffeith- iad i ganon yr ysgrhythrau, trwy ddwyn i mewn oruchwyliaeth yr amser boreaf yn chwanegol at y ddeddf ei'rfengyl. Y mae llyfr Job yn taffu llawer o oleuni ar lyfr rhagiuniaeth; a thybia llawer o'r esbonwyr diweddar fod Job ei hun, yn ei ddarostyngiad a'i ddyrchafiad, yn gysgod o'n Hiachawdwr bendigedig yn ei ddyoddefiadau, a'i ddyrchafiad ar ddechulaw y Tad. VII. *Ei safle yn y ganon santiaid*.—Y mae y fan lle y safai y llyfr hwn ar y cyntaf yn yr ysgrhythrau Iuddegw yn dra anhysbys, trwy fod yr hen dafneuau neu y cofrestrau o'r lyfrau cysegredig yn amrywio yn fawr. Yn peth sydd eglur, ei fod yn cael ei ystyried bob amser gan yr Iuddeon fel llyfr ysbrudoleddig, ac yn cael ei gydnabod ganddynt hefyd fel rhan o'r Ysgrhythr Lân. Mewn rhai Beiblaau Hebreig, ceir ef ar ol y llyfr y Caniaidau; ac mewn ereill, o flaen y llyfr y Caniaidau. Yn Meibl Origen, efa saif ar ol Ezeziel; ac yn Meibl Jerome, ar ol y Proffwyd Lleiaf. Yn argraffiad Bomberg, yn y llywyddyn 1521, gosodir ef rhwng y Diarhebon a llyfr Daniel; ac yn argraffiad Buxtorf, rhwng y Diarhebon a llyfr y Caniaidau; gwel y sylw ar Luc xxiv. 44. Ond barna rhai, gan mai llyfr Job yw y llyfr hynaf yn y byd, y dylai efo gael ei osod o flaen llyfr Genesis, neu unig rhwng hanes y dyllf a galwad Abraham. VIII. *Ei gynnwsiad*.—Ceir ynddo, (1) Hanes dwiokle, cyfoeth, teulu,

adfydau, a chyfeillion Job, pen. i a li. (2) Cwynfantal Job o herwydd ei dralodion, yr hyn yw sail y dadleuon rhyngddo ef a'i gyfeillion, pen. iiii. (3) Hanes y gynadledd hynod a fu rhyngddynt, pen. iv—xxxi. (4) Araeth Elihu fel terfyn i'r ddaell, pen. xxxii—xxxvii. (5) Duw yn ymddyddan â Job, allan o'r corwynt, pen. xxxviii—xli. (6) Atebiad Job, a'i adferiad i'w dwyddiant a'i gysur-on, pen. xliii. Y mae y ddwy bennod gyntaf wedi eu hysgrifennu mewn rhyddiaith, a'r gweddill mewn math ar farddoniaeth, oddieithr y deg adnod olaf o'r llyfr. Ddiamau mai nid mewn barddoniaeth y cynadleddai Job a'i gyfeillion; ond trowyd eu hymddyddanion ar fesur cerdd, wrth ysgrifenu y llyfr hwn, er mwyn ei wneyd yn fwy hygof ac effeithiol.

PENNOD I.

YR oedd gŵr yn ngwlad Uz a'i enw Job; ac yr oedd y gŵr hwnw yn berffaith ac yn uniawn, ac yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni.

2 Ac iddo y ganwyd saith o feibion, a thair o ferched.

3 A'i olud oedd saith mil o ddefaid, a thair mil o gamelod, a phum can iau o ychain, a phum cant o asenod, a llawer iawn o wasanaethyddion; ac yr oedd y gŵr hwn yn fwyaf o holl feibion y dwyrain.

PEN. I. Adn. 1. *Yr oedd gŵr yn ngwlad Uz a'i enw Job* [Gwel y rhagarweiniad uchod; ac yr oedd y gŵr hwnw yn berffaith ac yn uniawn—nid yn hollol felly yn ngwyneb manyrwydd gofyniadau deddf Duw, ond yr oedd yn gywir a didwyll yn ei egwyddor, ei fwiadau, a'i ymdrechion i gyflawni ei holl ddyledswyddau yn ddiwyrni tuag at Dduw a dynion; ac yn ofni Duw—yn ei addoli a'i garu ef, gan ofni ei ddigio; ac yn cilio oddiwrth ddrygioni—oddiwrth bob peth ag oedd yn ddianrhydedd i Dduw, neu yn niweidiol i ddyn.

Adn. 2. *Ac iddo y ganwyd saith o feibion, a thair o ferched*] Deg o blant yn y cwbl, yr llyn a gyfrifid yn fendith ac yn anrhydedd mawr i ŵr yn yr oesoedd hyny, ac a grybwyllir yma yn nesaf at ei ddnwioledeb ef, ac o flaen ei olud. Cafodd yr un nifer o feibion ac o ferched ar ol ei adferiad, pen. xliii. 13.

Adn. 3. *A'i olud oedd saith mil o ddefaid*] Y rhai oeddynt yn werthfawr iawn ar gyfrif en gwlan, en llaeth, a'u cig. *A thair mil o gamelod*—y rhai a ddefnyddid i gario beichiau, ac at wasanaeth rhyfel, ac yn gifgwyd. *Darparwyd y camel gan ragluniaeth yn neillduol i wledydd poethion fel anialwch Arabia*; canys ychydig lysiau neu ysgall gwywedig yw yr holl ymborth angenrheidiol iddynt; ac wedi iddynt unwaith gael dwfr, hwy a yfant ddigon am lawer o ddyddiau, ac weithiau am fis, trwy fod ganddynt fath ar lestri mewnol yn y rhai y cadwant ef yn bur a chroew at eu hangen dyfodol. *A phum can iau o ychain*—i aredig ei dir, adn. 14; yn mhlith y rhai yr oedd yn ddiamau wartheg godro, pen. xxix. 6. *A phum cant o asenod*—yn cynwys hefyd rai asynod yn ddiamau i barhau yr epil, er mai y rhyw fenywaidd oedd amlaf. *Yr oedd asenod yn ddefnyddiol iawn yn y wlad hōno, am eu bod nid yn unig yn hawdd eu cadw, ac yn cario beichiau, ond hefyd yn rhoddi llaeth ar*

4 A'i feibion ef a aent ac a wnaent wledd yn eu tai, bob un ar ei ddiwrnod; ac a anfonent ac a wahoddent eu tair chwioroydd, i fwyta ac i yfed gyda hwynt.

5 A phan ddeuai dyddiau y wledd oddiamgylch, yna Job a anfonai ac a'u santeiddiai hwynt, ac a gyfodai yn fore, ac a offrymai boeth-offrymau, yn ol en rhifedi hwynt oll: canys dywedodd Job, Fy meibion ond odid a bechasant, ac a felldithasant Dduw yn eu calonau. Felly y gwnai Job yr holl ddyddiau hyny.

yr un pryd. *A llawer iawn o wasanaethyddion*—i edrych ar ol ei anifeiliaid, ac i drin ei diroedd. *Ac yr oedd y gŵr hwn yn fwyaf o holl feibion y dwyrain*—nid yn unig o ran ei gyfoeth, ond o ran ei awdurdod; canys yr oedd ef fel brenin yn ei wlad; a thybja rhai mai efo oedd *Jobab*, brenin Edom, a grybwyllir i Cron. i. 44. *Yr oedd yr holl fynyddoedd a'r dyffryn oedd y ffordd hōno at ei wasanaeth fel porfa, a bernir fod ei anifeiliaid yn werth oddeutu £40,000 o'n harian ni.* Er nad yw hyn yn gymaint a chyfoeth llawer yn ein gwlad ni y dyddiau hyn, eto yr oedd yn fwy na chyfoeth neb yn y dwyrain yn y dyddiau hyny; a chafodd yntau gymaint arall o'r holl anifeiliaid hyn ar ol ei adferiad, pen. xliii. 12.

Adn. 4. *A'i feibion ef a aent ac a wnaent wledd yn eu tai*] Ymddengys oddiyma fod ei feibion ef wedi priodi, ac yn byw yn eu tai ac ar eu tiroedd eu hunain; *bob un ar ei ddiwrnod*—ond odid ar ddydd genedigaeith pob un, yr hwn a gnyelid yn gyffredin gan y dwyreinwyr yn ddydd o wledd arbenig; *ac a wahoddent eu tair chwioroydd*—i wledda gyda'u holl frodyr ar yr achlysur; yr llyn a ddengys eu bod yn caru eu gilydd fel brodyr a chwioroydd, ac a raid fod yn gysur mawr i'w tad.

Adn. 5. *A phan ddeuai dyddiau y wledd oddiamgylch*] Neu wedi iddynt fynyed heibio; *yna Job a anfonai*—am danynt oll i'w dŷ ei hun; *ac a'u santeiddiai hwynt*—trwy offrymu drostent fel y gwelwn isod, neu trwy weddio am i'r Arglwydd eu santeiddio; *ac a gyfodai yn fore*—canys yn y bore yr arferid offrymu yn yr oes batriarchaidd, Exod. xxxiii. 6; *ac a offrymai boeth-offrymau*—dan oruchwyliaeth Moses gwaith yr offeiriad oedd hyn, ond dan yr oruchwyliaeth batriarchaidd yr oedd pob en-teulu yn offeiriad yn ei dŷ ei hun; *yn ol eu rhifedi hwynt oll*—ond odid aberth ar gyfer pob un o'i blant. Dengys hyn

6 ¶ A dydd a ddaeth i feibion Duw ddyfod i sefyll gerbron yr Arglwydd; a Satan hefyd a ddaeth yn eu plith hwynt.

7 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, O ba le yr ydwyt ti yn dyfod? A Satan a atebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd, O dram-

fod ganddo ef ryw wybodaeth am y MESSIA dyfodol, trwy offrymiad yr hwn yn unig y santeiddir pechador, Heb. x. 10, &c. *Fy meibion ond odid a bechasant*—nid oedd ef yn sicr o hyn, ond gwyddai y gallent hwy, o herwydd llygredd eu natur syrthiedig, syrthio i ysgafnder gormodol ar wleddoedd felly, os nid i foddwdd; *ac a felddithiasant Dduw yn eu calonau*—trwy feddwl yn anmharchus am dano, neu bechu yn ei erbyn ef. Ond gan fod y ferf *barach*, a gyfieithir yma yn 'felledithio,' yn arwyddo yn gyffrediu 'bendithio,' myn Mr. M. Good y dyldid cyfieithu y frawddeg ddiweddar, 'heb fendithio Duw yn eu calonau,' neu *ddiolch* iddo am ei roddion iddynt, a'i arbediad o honynt i weled y dydd hwnw. *Felly y gwnai Job yr holl ddyddiau hyny*—ei arferiad gwastadol ef, ar ol pob cyfryw wledol, oedd offrymu aberth dros bob un o'i blant.

Adn. 6. *A dydd a ddaeth i feibion Duw*] Felly y gelwir yr angylion, yr 'ysbrydion gwasanaethgar' hyny, am ddarod eu creu gan Dduw, a'u bod yn gwisgo ei ddolw ef, ac yn ufyddhau iddo fel meibion i'w tad naturiol. *Ddyfod i sefyll gerbron yr Arglwydd*—neu 'JEHOFA,' i roddi cyfrif o'u gwasanaeth, ac i dderbyn gorchymynion oddiwrtho ef fel llywydd cyffredinol y bydysawd. Er mai EL SHADDAI yw yr enw cyffredin ar yr Hollalluog yn y llyfr hwn, eto ymddengys oddiyma ei fod ef yn adnabyddus i Job fel JEHOFA hefyd: gwel ar Exod. vi. 2, 3. *A Satan hefyd*—prif elyn neu 'wrthwynebydd' Duw a dynion, fel y mae ei enw yn arwyddo; *a ddaeth yn eu plith hwynt*—am ei fod yntau hefyd yn gyfrifol i Jehofa, a than ei lywodraeth neu ei a wurdod ef fel yr angylion santeidd. Rhaid i ni edrych ar hyn oll fel *dammeg* neu *aralleg*, yn hytrach nag fel *gwir hanes* am beth a fu; canys nid ydym i feddwl i'r angylion sefyll fel hyn yn wirioneddol o flaen yr Arglwydd, a llai o lawer ddarod i Satan ymddangos yn bersonol yn y netoedd o flaen Duw yn nghynulleidfia ei angylion santeidd. Y mae yr ysgrythrau yn gyffredin yn llefaru am Dduw yn ol dull dynion, fel y gallem ni, y rhai y mae ein hamgyffrediad mor egwan, gael rhyw feddyddrych am bethan ysbrydol, rhaglunnaethol, a thragyddion. Fel y mae breuhinoedd daearol yn trin achosion eu teyrmas yn mhresenoldeb eu cynghoriaid a'u swyddogion; felly arddanghosir Duw yma fel yn cynal ei lys, ac yn trefnu achosion ei deyrnas, yn mhresenoldeb ei angylion santeidd; gan dderbyn ganddynt hwy, fel swyddogion mawrin ei lywodraeth, gyfrif o'u gweithredoedd, a rhoddi gorchymynidiant pa beth i'w wneyd rhag-

wy ar hyd y ddaear, ac o ymrodio ynddi.

8 A dywedodd yr Arglwydd wrth Satan, A ddoliaist ti ar fy ngwas Job, nad oes gyffelyb iddo ar y ddaear, yn ŵr perffaith ac uniawn, yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni?

llaw. Dywedir yma fod *Satan* yn ymddangos yn en plith hwynt, nid am ei fod effelly mewn gwirionedd, ond i osod allan fod ysbrydion *drwg*, yn gystal a'r rhai *da*, yn ddarostyngedig i lywodraeth Jehofa. Y mae yr achos hwn gan hyny i'w ystyried fel darluniad *dammegol* neu *arwyddocaol*, yn gyffelyb i'r un a welsom o'r blaen yn achos Ahab a Michea, 1 Bren. xxii. 19; ond fod yr hyn a ddarlunir yno yn cael ei osod allan fel *gwledigaeth*, ac yma fel *hanes*. Nid yw yn un rheswm yn erbyn gwirionedd llythyrenol llyfr Job yn y cyffredin, fod i ni ystyried y rhan hon yn *gyffelybiaethol*, mwy nag y mae *dammegion* ein Hiachawdwr yn rheswm yn erbyn gwirionedd llythyrenol y rhanau ereill o'r Efyngylan. Ond fe allai y dyldid crybwyll, fod rhai esbonwyr yn deongli yr adnod hon yn wahanol, gan ddeall wrth 'feibion Duw yn sefyll o flaen yr Arglwydd,' ymgynulliad pobl Dduw mewn addoliad crefyddol ar y ddaear. Fel hyn y dywed Dr. Lightfoot: 'Ar ŷ dydd sabothl, pryd yr oedd profesywyr y wir grefydd wedi cydgyffarfod yn y gynulleidfia gyhoeddus, yr oedd Satan yno yn anweledig yn en plith hwynt;' sef i'w blino a'u hafonyddu yn en haddoliad, ac i sylwi ar en gwendidau a'u diffygion, fel y gallai dddyn cyhuaddi yn en herbyn hwynt. Ond ymddengys i mi mai yr hyn a ddywedwyd uchod yw ystyr tebycaf y geirian dan sylw.

Adn. 7. *A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan*] Fel nad ydym i gasglu oddiwrth yr adnod flaenorol ddarod i Satan fyned i'r nef yn mllith angylion Duw, felly nid ydym i feddwl oddiwrth yr adnod hon fod y Duw santeidd a dyrchafedig yn ymddyddan mewn gwirionedd a'r ysbryd syrthiedig hwnw; ond y mae y cwbl, fel y nodwyd, yn ddammegol ac arwyddluniol. *O ba le yr ydwyt ti yn dyfod?*—yma y mae Duw, yr hwn a osodir allan fel Brenin neu Farnydd ar ei orsedd, yn dechreu trwy ofyniad, yn cael ei ffrwadu yn unig megys arweinid i mewn i'r hyn oedd i ganlyn, fel yn achos Adda (Chain, Gen. iii. 9, a iv. 9). *A Satan a atebodd*—gyda'r fath hyfder a digywilydd-dra, fel pe buasai efe yn dywysog a meddiannudd yr holl ddaear; *O dramwy ar hyd y ddaear*—i brofi gweithredoedd plant dynion, fel y mae y Galdaeg yn chwaneog yma; *ac o ymrodio ynddi*—'megys llew rhwadwy, gan geisio y neb a allai ei llynen,' 1 Petr v. 8.

Adn. 8. *A ddoliaist ti ar fy ngwas Job*] A sylwaist ti arno ef ran ei ysbryd a'i ymddygiad? neu, fel y mae ar ymlyf y ddalen, 'a osodaist ti dy galon arno ef,' fel ag i'w nodi i geisio ei ddrygu? *Nad oes gyffelyb iddo ar*

9 Yna Satan a atebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd, Ai yn ddiachos y mae Job yn ofni Duw?

10 Oni chauaist o'i amgylech ef, ac o amgylech ei dŷ, ac yn nghylech yr hyn oll sydd eiddo oddiamgylech? ti a fendithiaist waith ei ddwy-law ef, a'i dda ef a gynyddodd ar y ddaear.

11 Eithr estyn yn awr dy law, a chyffwrdd â'r hyn oll sydd ganddo, ac efe a'th felldithia o flaen dy wyneb.

12 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, Wele yr hyn oll sydd eiddo ef yn dy law di; yn unig yn ei erbyn ef ei hun nac estyn dy law.

y ddaear—o ran ei berffeithrwydd a'i uniondeb; gwel ar adn. 1.

Adn. 9. *Ai yn ddiachos y mae Job yn ofni Duw?* Ai am ddim? neu, ai nid oddiar hunan-les? Fel pe dywedasai, Y mae gan Job achos, hëblaw ei grefydd, i ofni a gwasanaethu Duw; a phe tynd ei freintiau oddiwrtho, efe a fyddai fel ereill o ddynolryw. Noder, nid taldeigaeth am ddaioni Duw i ni, neu wobr iddo rhag ei ofn, yw gwir grefydd; ond cariad perffiaith ato, ac nydd-dod iddo, am ei fod yn deilwng yndo ei hun o'r holl wasaneth ag a allwn ni ei rhoddi iddo.

Adn. 10. *Oni chauaist o'i amgylech ef?* Fel â chlawdd, i'w ddiogelu trwy dy ofal rhagluniaethol rhag pob drwg; *ac o amgylech ei dŷ*—ei tiant a'i wasanaethyddion; *ac yn nghylech yr hyn oll sydd eiddo*—ei anifeiliaid a'i feddianau? *Ti a fendithiaist waith ei ddwy-law*—neu a'i llwyddaist ef yn mhla beth bynag y rhoddi efe ei law arno; *a'i dda ef a gynyddodd ar y ddaear*—fel i'fwd lifeniol yn ymdori dros ei glanau. Y mae yn wir nad am ddim yr oedd Job yn ofni Duw; efe a ennillodd lawer trwy hyn; canys 'elw mawr yw dwioldeb.' Ond anwiredd oedd na buasai iddo ef ofni Duw pe na chawsai hyny, fel y profodd y canlyniad.

Adn. 11. *Eithr estyn yn awr dy law?* Mewn ffordd o gerydd neu doster; *a chyffwrdd â'r hyn oll sydd ganddo*—trwy daro neu ddyfetha ei blant a'i feddianau; *ac efe a'th felldithia o flaen dy wyneb*—trwy ddywedyd geiriau caledion yn dy erbyn, ymwrthod â chrefydd, a gwadu dy gyfiawnder a'th ragluniaeth. Ond trwy fod y gair am 'feldithio' vma yr un ag yn adn. 5, y mae Mr. Mason Good a Boothroyd yn cyfieithu y frawddeg ddiweddaf yn holiadol, fel hyn: 'A fydd iddo ef wedi hyny, yn wir, dy fendithio o flaen dy wyneb?'

Adn. 12. *Wele yr hyn oll sydd eiddo ef yn dy law di?* Ei blant, ei wasanaethyddion, a'i feddianau, i wneuthur â hwynt yn oll dy ewyllys; *yn unig yn ei erbyn ef ei hun nac estyn dy law*—i gnymeryd ymaith ei iechyd na'i fywyd. Ymddengys yn hynod fod i Dduw

Felly Satan a aeth allan oddi gerbron yr Arglwydd.

13 ¶ A dydd a ddaeth, pan oedd ei feibion ef a'i ferched yn bwyta ac yn yfed gwin yn nhŷ eu brawd hynaf.

14 A daeth cenad at Job, ac a ddywedodd, Yr ychlain oedd yn arddig, a'r asenod oedd yn pori gerllaw iddynt;

15 A'r Sabeaid a ruthrasant, ac a'u dygasant ymaith; y llanciau hefyd a darawsant hwy â miu y cleddyf, a mi fy hunan yn unig a ddiengais i fynegu i ti.

16 Tra yr oedd hwn yn llefaru, un arall hefyd a ddaeth, ac a ddywedodd, Tân Duw a syrthiodd o'r nef-

roddi i Satan y fath ganiatâd a hwn: ond efe a wnaeth hyny er ei ogoniant ei hun, er anrhydedd Job, er eglurhau ei ragluniaeth, ac er cefnogaeth i'w bobl gystuddiedig yn mhob oes. *Felly Satan a aeth allan oddi gerbron yr Arglwydd*—neu o'r cyngolrys arallgeol a nodwyd adn. 6, mewn llawn awydd i ddrygu eiddo Job fel y caniatawyd iddo.

Adn. 13. *A dydd a ddaeth*] Sef gŵyl genedigaeth y brawd hynaf, i'r hon y gwahoddwyd holl blant ereill Job, fel arferol: gwel ar adn. 4.

Adn. 14. *A daeth cenad at Job*] Sef un o'i weision ef, fel yr ymddengys oddiwrth ddiwedd yr adnod nesaf. *Yr ychlain oedd yn arddig*—sef y pum can iau a grybwyllwyd adn. 3; *a'r asenod oedd yn pori gerllaw iddynt*—mewn maesydd cyfasg i'r ychlain, dan oll rhyw nifer o weision Job.

Adn. 15. *A'r Sabeaid a ruthrasant, ac a'u dygasant ymaith*] Y rhai hyn oeddnt lwyth o Arabiaid crywdradd, y rhai oeddnt yn byw ar yspellio eu cymydogion; a meddylir eu bod o hiliogaeth Seba, wyr Can, Gen. x. 7; neu ynte yn hiliogaeth i Abraham trwy Ismael neu Cetura. *Y llanciau hefyd a darawsant hwy â miu y cleddyf*—am eu bod yn gwneyd eu gorafi gadw anifeiliaid eu meistr oddiwrthant hwy. *A mi fy hunan yn unig a ddiengais i fynegu i ti*—o'r holl weision ag oeddnt gyda'r anifeiliaid yn y parth hwnw. Arbedodd Satan un gwas o bob dosbarth (adn. 16, 17, 19), i ddwyn y newyddion drwg i Job yn yr un dydd, i'r dyben i geisio ei lethu ef ar unwaith, a'i ddwyn i feldithio Duw yn ngyrn ei brofedigaeth bedwar-plyg.

Adn. 16. *Tra yr oedd hwn yn llefaru*] A chyn iddo orphen mynegu ei newydd drwg i Job; *un arall hefyd a ddaeth*—sef un o'r gwëision ag oeddnt yn bugeilio defaid Job ar y mynyddoedd; *ac a ddywedodd, Tân Duw a syrthiodd o'r nefocdd, &c.*—efe a'i geilw yn 'dân Duw,' am na wyddai fod gan yr ysbryd drwg law yndo. Ar ynyl y ddalen gelwir ef yn *dân mawr*, fel y mae 'mynydd Duw' yn meddwl 'mynydd mawr.' Nid mellt cyffredin a feddylir yma; canys prin y gallasai y rhai

oedd, ac a losgodd y defaid, a'r gweision, ac a'u hysodd hwynt; ond myfi fy hunan yn unig a ddiengais i fynegu i ti.

17 Tra yr ydoedd hwn yn llefaru, un arall hefyd a ddaeth, ac a ddywedodd, Y Caldeaid a osodasant dair byddin, ac a ruthrasant i'r camelod, ac a'u dygasant ymaith, ac a darawsant y llanciau a min y cleddyf; a minau fy hun yn unig a ddiengais i fynegu i ti.

18 Tra yr ydoedd hwn yn llefaru, un arall hefyd a ddaeth, ac a ddywedodd, Dy feibion a'rh ferched oedd yn bwyta ac yn yfed gwin yn nhŷ eu brawd hynaf:

19 Ac wele, gwynt mawr a ddaeth oddiar yr anialwch, ac a darawodd wrth bedair congl y tŷ, ac efe a syrthiodd ar y llanciau, a buont feirw; ond myfi fy hun yn unig a ddiengais i fynegu i ti.

20 Yna y cyfododd Job, ac a rwygodd ei fantell, ac a eilliodd ei ben, ac a syrthiodd i lawr, ac a addolodd;

21 Ac a ddywedodd, Noeth y daethym o groth fy mam, a noeth y dychwelaf yno. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd.

22 Yn hyn i gyd ni phechodd Job,

hyn ysu saith mil o ddefaid a'r gweision ar unwaith; eithr rhyw fflam ddychrynnydd ac angherddol yn disgyn o'r awyr, oddiwrth 'dy-wysog llywodraeth yr awyr,' yr hwn a gawsai ganiatâd yn awr i arferyd ei holl allu yn erbyn eiddo Job. Gallwn feddwl fod y fflam hon yn ymledu dros yr holl fynydd lle yr oedd y defaid yn pori, ac yn cael ei dilyn ond odid gan ysturm o genllysg, gwynt, a tharanau. *Ond myfi fy hunan*—gwel ar adn. 15.

Adn. 17. *Tra yr ydoedd hwn yn llefaru*] Sef yr ail was, daeth y trydydd yn mlawn gyda newydd gwaeth fyth. *Y Caldeaid a osodasant dair byddin*—fel y gallent ymosod ar y tair mil camelod o dri man gwahanol; *ac a'u dygasant ymaith*—ar ol lladd o honynt y gweision ag oeddynt yn eu gwyllo. Yr oedd y Caldeaid, fel y Sabeaid, yn yspeilwyr crwydraidd; a chawn ddarluniad grymus o honynt hwy a'u meirch, Hab. i. 6—10. *A minau fy hun yn unig*—gwel ar adn. 15.

Adn. 18. *Tra yr ydoedd hwn yn llefaru*] Sef trydydd gwas Job; *un arall hefyd a ddaeth*—meddylir mai gwas i fab hynaf Job oedd hwn, yn dyfod o dŷ ei feistr, lle y cynelid y wledd y diwrnod hwn, adn. 13; a chanddo ef yr oedd y newydd mwyaŷ galarus o'r cwbl. *Dy feibion a'rh ferched*—y rhai oeddynt yn fil mwy gwerthfawr yn ngolwg Job na'i holl anifeiliaid a'i wasanaethyddion; *oedd yn bwyta ac yn yfed gwin yn nhŷ eu brawd hynaf*—gwel ar adn. 4, 13.

Adn. 19. *Ac wele gwynt mawr a ddaeth oddiar yr anialwch*] Sef anialwch Arabia; *aca darawodd wrth bedair congl y tŷ*—fel trownt nerthol yn codi yr holl adeilad oddiar ei sylfaeni ar unwaith; *ac efe a syrthiodd ar y llanciau*—sef ar feibion Job, yn cynwys hefyd ei ferched ef, a phawb yn y tŷ oddieithr y cenad hwn, gan eu lladd hwynt oll ar unwaith! Yr hyn oedd yn mwyhau gofid Job ydoedd, fod ei ddeg plentyn ef wedi eu cymeryd ymaith mor sydyn a dirybydd. Pe buasent yn marw o ryw glefyd nychlyd, trwy yr hwn y cawsai ef a hwythau rybydd i ddysgwyl angau, ni fuasai y tralloed mor chwervu; neu pe buasent yn marw pan yn gweddio, yn lle

pan yn gwledda ac yn yfed gwin, adn. 18, gallasai dderbyn y newydd am eu marwolaeth yn well, am y buasai ganddo yn yr achos hwnw le i obeithio fod angau wedi cyfarfod â hwy mewn cyflwr o barodwrydd, yr hyn yr oedd ganddo yn awr achos i'w ofui. Y mae yn wir mai trwy gorwynt o gynhyrfaid Satan y buont hwy feirw; ond ymddangosai ei fod yn dyfod yn ddi-gyfrwng oddiwrth Dduw, fel cosp am eu pechodau: a chymerwyd hwynt ymaith hefyd pryd yr oedd ar Job gyfawf o'n heisiau i'w gysrau ef dan ei drallodion ereill.

Adn. 20. *Yna y cyfododd Job*] Oddiar ei eisteddfa, lle y gwrandawsai ar y newyddion ereill heb fawr o gynhyrfaid; *ac a rwygodd ei fantell*—yn arwydd o'i ddwfn ofid dan y fath amgylchiad, Gen. xxxvii. 34; *ac a eilliodd ei ben*—yr hyn oedd yn ddefod arferedig arall mewn galar, Ezra ix. 3; *ac a syrthiodd i lawr*—mewn cydnabyddiad o gyfiawnder a mawredd Duw; *ac a addolodd*—felly, yn lle *mellathio* Duw, fel y tybiai Satan, adn. 11, efe a'i bendithiodd ef, gan gydnabod ei ben-arglwyddiaeth, ei gyfiawnder, a'i ddaioni.

Adn. 21. *Noeth y daethym o groth fy mam*] Pan y'm gaeud i'r byd, heb ddim genyf o'r pethau a gollais; neu ynte efe a gyfeiriad at groth y ddaear, o ba un y daethai ef a phob dyn ar y cyntaf; *a noeth y dychwelaf yno*—wedi fy nyos o'r cwbl, hyd yn nod pe na chollaswn hwynt trwy yr aflwydd presenol. Y mae hyn o'r un ystyr a geiriau yr apostol: 'Ni ddygasom ni ddim i'r byd, ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith,' 1 Tim. vi. 7. *Yr Arglwydd a roddodd*—yr oll ag oedd genyf; *a'r Arglwydd a ddygodd ymaith*—trwy fod ganddo nawl gyfiaw yn ei bethau ei hun: *bendigedig fyddo enw yr Arglwydd*—hyn yw, 'bendigedig fyddo JEHOWA,' trwy fod ei enw yn cael ei roddi am dano ei hun. Y mae rhai hen gyfeithiadau yn chwahanu yma 'yn dragywydd.' Y mae yn debyg nas gwyddai Job fod gan Satan law yn yr anffodion uchod; ond os gwyddai, yr oedd yn gwel-edynddynt hefyd law Duw, fel nad yw gymaint ag yn achwyn ar y Sabeaid, y Caldeaid, y tŷ, na'r corwynt, y rhai a ystyriai efe fel

ac ni roddodd yn ynfyd ddim yn erbyn Duw.

PENNOD II.

A DYDD a ddaeth i feibion Duw ddyfod i sefyll gerbron yr Arglwydd; a Satan hefyd a ddaeth yn eu plith hwynt i sefyll gerbron yr Arglwydd.

2 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, O ba le yr ydwyf ti yn dyfod? A Satan a atebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd, O dramwy ar hyd y ddaear, ac o ymrodio ynddi.

3 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, A ddelaist ti ar fy ngwas Job, nad oes gyffelyb iddo ar y ddaear, yn ŵr perffaith ac uniawn,

offerynau yn llaw Duw; a bendithiai yr Arglwydd am reddi iddo gynifer o drugareddau, a gadael iddo eu mwynhau mor hir, yn gystal ag am en dwyn oddiaro pan yr oedd hyn yn oraf er ei les.

Adn. 22. *Yn hyn i gyd ni phecodd Job*] Ni wnaeth ac ni ddywedodd ddim ag ydoedd bechadurus dan ei holl ymweliadau clhierwou, fel y dysgwylasai Satan iddo wneyd, adn. 11; ac ni roddodd yn ynfyd ddim yn erbyn Duw—neu, yn ol y wreiddiol, 'ni chyfrifodd ynfydrwydd i Dduw.' Yn lle ei gablu, efe a'i canmolai; yn lle ei felddithio, efe a'i bendithiai: ac ystyriai fod y cwbl wedi ei wneuthur mewn anfeidrol ddoethineb, cyfiawnder, a daioni.

PEN. II. Adn. 1. *A dydd a ddaeth i feibion Duw, &c.*] Gwel ar pen. i. 6. Wedi i Satan fethu cael Job i felddithio Duw yn ei ymosodiad cyntaf arno, y mae efe yn awr yn dyfod gerbron yr Arglwydd eilwaith, i geisio am brawf arall arno; ac y mae yn debyg i hyn gymeryd lle yn ebrwydd ar ol y tro cyntaf.

Adn. 2. *A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, &c.*] Gwel ar pen. i. 7.

Adn. 3. *A ddelaist ti ar fy ngwas Job, &c.*] Gwel ar pen. i. 8. *Ac yn parhau yn ei berffieithrwydd*—er mor aml a ehweryd y bu ei drallodion ef, ac er mor ymdrechgar y buost tithau i geisio dangos nad oedd ei dduwioldeb ef ddim ond rhagrith, neu yn tarddu oddiar hunan-les.

Adn. 4. *A Satan a atebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd, Croen am groen, &c.*] Ymadrodd diarebol, yn arwyddo y rhoddai dyn bob peth a feddai er mwyn cadw ei einioes. Haerai Satan fod ymostyngiad amyneddgar Job yn brawf o'i ddideimladrwydd ef tuag at ei blant, ei weision, a'i feddiannau. Yr oedd ei fywyd a'i iechyd ei hun ganddo o hyd; a phe buasai y rhai hyn mewn perygl, y rhoisai efe groen unrhyw ddynt, hyd yn nod crwyn ei blant, i arbed ei groen ei hun: neu, mewn geiriau ereill, y buasai efe yn ymadael â phob

yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni? ac yn parhau yn ei berffieithrwydd, er i ti fy annog i yn ei erbyn ef, i'w ddifa ef heb achos?

4 A Satan a atebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd, Croen am groen, a'r hyn oll sydd gan ŵr a ddyry efe am ei einioes.

5 Eithr estyn yn awr dy law, a chyffwrddâ i esgyrn ef ac â i gnawd, ac efe a'th felddithia di o flaen dy wyneb.

6 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, Wele ef yn dy law di; eto cadw ei hoedl ef.

7 ¶ Felly Satan a aeth allan oddi gerbron yr Arglwydd, ac a darawodd Job â chornwydydd blin, o wadn ei droed hyd ei goryu.

peth, hyd yn nod â'i grefydd, er mwyn cadw ei fywyd a'i iechyd.

Adn. 5. *Eithr estyn yn awr dy law*] Gwyddai Satan nad oedd ganddo ef ddim gallu i gyffwrdd â Job, mwy nag â'r duwiolion yn gyffredinol, heb i Dduw oddef hyn; a *chyffwrdd â'i esgyrn ef ac â'i gnawd*—geiriau yn arwyddo yr holl gorff; taraw ef i'r byw a rhyw ddolur poenus, nes y bo mēr ei esgyrn ef yn teimlo; ac efe a'th felddithia di o flaen dy wyneb—gwel ar pen. i. 11.

Adn. 6. *Wele ef yn dy law di*] I'w daraw ef dy hunan: gwnady waethafidde; cystuddia ef hyd eithaf dy allu a'th falais. *Eto cadw ei hoedl ef*—na chlymer ymaith ei fywyd, onid ni ellir gweled canlyniad y brofedigaeth. Hefyd yr oedd gan Dduw drugaredd yn nghanw i Job ar ol y cystudd hwn, ac yr oedd yn rhaid iddo ef gael byw i'w mwynhau hi. Trwy fod y gair am *hoedl* yma yn arwyddo hefyd yr *enaid*, gall fod yr Arglwydd yma yn golygu cadw ei *synwyr* a'i *bwyll* i Job; oblegid os gyrai Satan ef o'i bwyll, ac iddo felddithio felly yn ei *orphweylldra*, ni byddai y prawf yn brawf tēg ar dduwioldeb a pherffieithrwydd Job.

Adn. 7. *Felly Satan a aeth allan*] Gwel ar pen. i. 12; ac a darawodd Job â chornwydydd blin—y mae gwahanol farbau am y cornwydydd hyn. Tybia rhai mai y *frechwen* oeddynt; ereill, mai *pendduynod* mawrion; ereill, mai y *cleftri poeth*; ac ereill, mai yr *elephantiasis*, neu y gwahanglywyf dû, yr hwn a gyfrifir y dolur mwyaf echrhydus a ddiehon ffine y natur ddynol: gwel ar Deut. xxviii. 27, lle y darlunir ef yn fanwl. *O wadn ei droed hyd ei goryn*—sef dros ei holl gorff, oddieithr ei *dafod*, yr hwn a arbedwyd gan Satan, fel y gallai Job âg ef felddithio Duw. Beth bynag oedd y cornwydydd hyn, yr oeddynt mor angherddol nes yr oedd ei gnawd yn gwisgo prysfaid, a'i groen yn agenu ac yn myned yn ffaidd, pen. vii. 5; nes yr oedd ef yn cnoi ei gnawd â'i ddannedd, pen. xiii. 14; nes yr oedd ei groen yn crychu, a'i wyneb yn

8 Ac efe a gymerth gragen i ym-grafu â hi; ac a eisteddodd yn y lludw.

9 ¶ Yna ei wraig a ddywedodd wrtho, A wyt ti eto yn parhau yn dy berffeithrwydd? melldithia Dduw, a bydd farw.

10 Ond efe a ddywedodd wrthi, Lleferaiſt fel y lleferai un o'r ynyfyd-

ion: a dderbyniwn ni gan Dduw yr hyn sydd dda, ac oni dderbyniwn yr hyn sydd ddrwg? Yn hyn i gyd ni phechodd Job â'i wefusau.

11 ¶ A phan glybu tri chyfaill Job yr holl ddrwg yma a ddygwydd-asai iddo ef, hwy a ddaethant bob un o'i fangre ei hun; Eliphaz y Temaniad, a Bildad y Suhiaid, a

fudr gan ŵylo, pen. xvi. 8, 16; nes yr oedd ei anadl yn llygredig, pen. xvii. 1, a'i esgryn yn glynu wrth ei groen a'i gnawd, pen. xix. 20, ac yn cael eu tyllu o'i fewn, pen. xxx. 17; i.e. nes yr oedd ei groen yn duo am dano, a'i esgryn yn llosgi gan wres, pen. xxx. 30.

Adn. 8. *Ac efe a gymerth gragen*] Neu 'ddarn o lestr pridd,' fel y mae rhai yn ei ddeall, yr hwn a gawsai efe yn y lludw; *i ym-grafu â hi*—neu, fel y mae y LXX yn ei gyfieithu, 'i grafu ymaith neu lanhau y crown.' Gallwn feddwl fod ysfa annyoddefol yn dilyn y cornwydydd hyny, heblaw poen, yn enwedig pan ddechreuai rhai o honynt sychu ac ym-iachâu, fel nad oedd yn bosibl iddo beidio eu crasu, er ei fod trwy hyny yn eu gwneyd yn fwy lliodiog a dolurus. *Ac a eisteddodd yn y lludw*—fel yr arferai galarwyr wneyd; neu ynte 'ar y domen y tu allan i'r ddinas,' fel y mae gan y LXX. Yr oedd ei blant a'i weision wedi eu lladd, a'i wraig wedi troi yn ei erbyn, fel nad oedd ganddo neb i'w amgeleddu; ac ofnai ei gymydogion nesáu ato, rhag iddynt hwythau gael yr haint; ac felly gadewid ef ar y domen i ymdaro drosto ei hun.

Adn. 9. *Yna ei wraig a ddywedodd wrtho*] Yr hon a elwir yn y Galdeaeq *Dinah*; a thybia rhai o'r Iuddewon fod Job yn byw yn amser Jacob, ac iddo briodi *Dinah* ei ferch ef, Gen. xxx. 21. Gadawodd Satan ei wraig iddo, nid i'w amgeleddu a'i gysuro ef, ond i'w demtio a'i drallodi yn fwy. *A wyt ti eto yn parhau yn dy berffeithrwydd?*—gellir meddwl oddi yma i Job dreulio rhai dyddiau ar y domen cyn i'w wraig fyned i'w olvg. Fel pe dywedasai, mai ffolineb o'r mwya'f oedd iddo ef barhau yn ei berffeithrwydd a'i grefydd mwya'ch, gan nad oedd Duw yn rhoddi iddo am ei ffyddlondeb ddim ond cerydd ac atwydd yn barhaus. *Melldithia Dduw, a bydd farw*—y mae llawer o wahaniaeth barn yn nghylich ystyr y geiriau hyn. 'Can fod dy waith yn bendithio ac yn molianu Duw yn tycio cyn lleied i ti, y mae yn bryd i ti newid dy iaith. Edliwia iddo yn ei wyneb, a dywed wrtho am ei anghyfiawnder a'i annhirondeb i ti, a'i fod yn caru ei elynion ac yn casâu ei gyfeillion; a bydd i hyny ei annog ef i gymeryd ymaith dy ffywyd, ac telly derfynu dy boenau. Neu, melldithia Dduw, er i ti gael dy ladd am hyny.'—BENSON. 'Melldithia Dduw, ac efe mewn barn a'th brysura di o'r boen yma.'—HALL. 'Gwada Dduw, a bydd farw.'—NOYES. 'Melldithia Dduw, ac ymgroga.'—HENRY. 'Arfer a paganiaid, dan rai amgylchiadau, feiddithio eu duwiau.'—ROBERTS. 'Ond myn rhai gyfieithu y ferf *barach* yn *fendithio*, fel

yn pen. i. 5, 11; ac edrychant ar y geiriau fel gwawdaiſt gref: 'A wyt ti fyth yn dal dy berffeithrwydd, yn *bendithio* Duw ac yn marw?'—BROUGHTON. 'Beth! *bendithio* Duw, yr hwn sydd yn dy ddyfetha?'—BENNER. 'Dyro *daiuteh* i Dduw, a bydd farw.'—CASTELLIO.

Adn. 10. *Lleferaiſt fel y lleferai un o'r ynyfydion*] Fel dynes fyrbwyl, anystyriol, a gorphwyllog; neu yn hytrach fel dynes *annwviol a drygonius*; canys gelwir y cyfryw yn fynych yn 'ynyfydion' yn yr ysgrthyrau. Tybia *Sanctius* fod yma gyfeiriad at y gwraegedd Idumeaidd, y rhai, pan ddigiai eu duwiau hwynt, a'u difenent, ac a'u bwriect ymaith. *A dderbyniwn ni gan Dduw yr hyn sydd dda*—gan ei fendithio ef am danynt; *ac oni dderbyniwn yr hyn sydd ddrwg*—neu y pethau ag y tybiwn ni eu bod yn ddrwg, er nad ydynt felly mewn gwirionedd, gan ei fendithio ef am y rhai hyny hefyd? A fydd i ni, bryfed gwaelion, osod deddfau i'n llywodraethwr goruchel, a'i rwymo ef i beidio ein cystuddio ni ar unrhyw achos? A dderbyniwn ni y trugareddau y rhai ni haeddason, gan rwnnach yn erbyn y cystuddiau y rhai a haeddason, a'r rhai sydd mor angenrheidiol i ni, ac oddiwrth y rhai, os na fydd y bai amom ni ein hunain, y gallwn gael cymaint o les? Ai ni fydd i ni gymeryd ein dysgu i werth-fawrogi ein trugareddau, trwy gael weithiau ein hamddifadu o honynt, i'r dyben i'w gwneyd yn llai pervglus i ni, ac i'n hantall rhag trymddyrchafu? 2 Cor. xii. 7. Os derbyniwn ni gymaint o ddaioni i'r corff, ai ni fydd i ni dderbyn peth daioni i'r enaid hefyd, sef ceryddon tadol Duw, trwy y rhai y'n gwneir yn 'gyfranogion o'i santeiddrwydd ef?' Heb. xii. 10. *Yn hyn i gyd ni phechodd Job â'i wefusau*—trwy roddi yn ynyfyd ddim yn erbyn Duw na'i ragluniaeth, a llai o lawer ei feiddithio ef. Y mae y sylw hwn yn cael ei wneuthur yma ond oddi mewn gwrthgyferbyniad i'r hyn a ddygwyddodd ar ol hyn, pen. iii. 1, &c. Efe a 'bechodd a'i wefusau' ar ol hyn yn ddi-amau, a cheyrdwyd ef am hyny; ond ni wnaethai felly hyd yn hyn: gwel ar y bennod nesaf.

Adn. 11. *A phan glybu tri chyfaill Job*] Y rhai yr ymddengys eu bod yn gyfeillion eu iddo, ac yn profesu y wir grefydd fel yntau, ac yn byw nid yn nihell oddiwrtho. *Eliphaz y Temaniad*—tybia rhai mai Eliphaz mab Esau oedd hwn, mab pa un a elwir yn 'dduc Teman,' Gen. xxxvi. 15, dinas yn Edom, Jer. xlix. 20, Amos i. 11, 12. *Bildad y Suhiaid*—Suah oedd dalaeth yn Arabia Petraea, lle y

Sopnar y Naamathiad: canys hwy a gytnasant i ddyfod i gydofidid ag ef, ac i'w gysuro.

12 A phan ddyrchafasant eu llygaid o bell, ac heb ei adnabod ef, hwy a ddyrchafasant eu llef, ac a wylasant; rhwygasant hefyd bob un ei fantell, a thaenasant lwch ar eu penau tua'r nefoedd.

13 Felly hwy a eisteddasant gydag ef ar y ddaear saith niwrnod a saith noswaith; ac nid oedd neb a ddy-

wedai air wrtho ef: canys gwelent fyned ei ddolur ef yn fawr iawn.

PENNOD III.

WEDI hyn Job a agorodd ei enau, ac a felldithiodd ei ddydd.

2 A Job a lefarodd, ac a ddywedodd,

3 Darfydded am y dydd y'm ganwyd ynddo, a'r nos y dywedwyd, Ennillwyd gwryw.

darfu i feibion Abraham o Agar a Chetura ymsefydlu, Gen. xxv. 2, 6. *A Zophar y Naamathiad*—Naamah ydoedd dinas yn Edom. Jos. xv. 21, 41. Y mae y LXX yn galw Eliphaz yn frenin y Temaniaid, a Bildad yn ormes-deyrn y Subiaid neu y Sauchaid, a Zophar yn frenin y Minaiaid. Y mae yn debyg eu bod yn dduciaid neu benaethiaid y llythau hyn, ond nid yn benaduriaid annibynol; a'u bod oll yn isradol i Job, yr hwn a elwir yn 'fuyaf o holl feibion y dwyrain,' pen. i. 3. *Hwy a gytnasant i ddyfod*—felly rhaid eu bod yn cartrefu yn lled agos i'w gilydd, yn gystal ag i Job: a chasglia rhai oddiwrth hyn fod *Uz* yn ngwlad Idumea neu Edom, yr hon oedd o du y deau i Judea, ac yn ymestyn oddiwrth y môr marw at forgainc ddywreiniol y môr coch. *I gydofidid ag ef, ac i'w gysuro*—yn ei gystudd a'i drallod presenol. Felly yr oedd eu hamcan hwy ar y cyntaf yn dda a brawdol.

Adn. 12. *A phan ddyrchafasant eu llygaid o bell* A'i ganfod ef allan ar y domen; ac heb ei adnabod ef—ar y cyntaf, trwy fod ei wedd wedi newid ac anffurfiog ymiant gan ei gystudd a'i gornwyrddyd; *hwy a ddyrchafasant eu llef*—wedi iddynt ddeall mai eu cyfaill Job oedd efe; *ac a wylasant*—newa cydymdeimlad ag ef; *rhwygasant hefyd bob un ei fantell*—yn arwydd o'u gofid a'u galar, fel y gwnaethai Job ei hun, pen. i. 20; *a thaenasant lwch ar eu penau tua'r nefoedd*—hyny yw, codasant lwch ar eu coryn; neu ynte tafasant ef i'r awyr, fel y byddai iddo ddisgyn ar eu gwisgoedd hwynt, yn ôl arferiad galarwyr.

Adn. 13. *Felly hwy a eisteddasant gydag ef ar y ddaear* Gerllaw y domen ar yr hon yr eisteddai Job, adn. 8; *saith niwrnod a saith noswaith*—yr hyn oedd yr yspaid arferol i alaru am y marw; gwel ar Gen. i. 10. Galarent am feibion Job, y rhai oeddynt wedi marw; ac am Job ei hun, yr hwn oedd mewn ystyr yn farw tra yr oedd yn fyw. Nid ydym i feddwl iddynt eistedd fel hyn yr holl amser yn ddbaid, heb na bwyta nac yfed na chysgu, yr hyn nis gallai eu natur ei ddal, eithr hwy a eisteddant gydag ef felly ran o bob dydd a nos am wythnos. *Ac nid oedd neb a ddywedai air wrtho ef*—mewn flordd o holi pa fodd yr ydoedd; *canys gwelent fyned ei ddolur ef yn fawr iawn*—heb iddo ef fynegri iddynt. Byddai yn annaturiol i ni feddwl na ddywedasant hwy ddim wrtho ef, nac yntau wrthynt hwy-

thau, am wythnos gyfan; eithr yr ystyr yw, na ddywedasant ddim wrtho ar y cyntaf, nac ond ychydig fe allai ar hyd yr wythnos, o herwydd y naill neu y llall o'r ystyriaethau canlynol: (1) Am eu bod wedi synn wrth fawredd ei ddyoddefiadau. (2) Am fod yr olwg ar ofid a dyoddefiadau mawrion, yn gystal a'r teimlad o honnynt, yn syfrdanu dyn, ac felly yn cloi ei leferydd. (3) Am na wrddent pa beth i'w ddywedwyd wrtho dan y fath amgylchiadau. (4) Neu ynte am eu bod yn meddwl yn awr, ar ol cael golwg arno, mai rhagrithiwr oedd Job, a'i fod wedi cyflawni rhyw ddrygau ys-geler dan rith o grefydd, am ba rai yr oedd Duw yn ei gogpi ef: felly ni fynent chwanoeg ei ofid ef trwy draethu eu meddyliau ar y pen hwnw, ac ni allent chwaith ymddyddan ag ef am ddim arall.

PEN. III. Adn. 1. *Wedi hyn Job a agorodd ei enau*] Sef wedi y saith niwrnod o alar ei gyfeillion, neu wedi iddo ddeall nad oedd ddim gobaith am gysur oddiwrthynt; *ac a felldithiodd ei ddydd*—sef dydd ei enedigaeth, adn. 3. Y mae y gair gwerddiol yma am 'felldithio' yn wahanol i'r un yn pen. i. 11, a ii. 9, ac yn arwyddo yn briodol *melliithio*. Y mae yn wir nad aeth efe mor bell a melliithio Duw, fel y tybia rhai y mynai ei wraig a Satan iddo wneuthur; eto efe a feia ar ragluniaeth Duw, am iddo ddwyn y dydd hwnw i fodolaeth, neu roddi iddo ef fodolaeth ynddo. Yn ofer y ceisia rhai egsusodi hyn yn Job; canys y mae Duw yn ei geryddu ef am ei ymadroddion, ac yntau yn cyfaddel iddo wneyd o'i le: gwel ar pen. xxxviii. 2, a xl. 2, 4, 8, a xlii. 3, 6.

Adn. 2. *A Job a lefarodd, ac a ddywedodd*] Hyd yma y mae y llyfr yn hanesiol, ac mewn rhyddiaith; ond o llyn yn mlaen, hyd pen. xlii. 6, y mae ar ddull barddonol. Y mae yn ddiamau mai mewn rhyddiaith yr oedd y gwyadlodd hon yn cael ei dwyn yn mlaen yn wreiddiol; a gallwn feddwl ddarford i Job wedi hyny wrth ysgrifenu y llyfr, neu Moses wrth ei gyfieithu neu ei adysgrifenu, ei droi ar fesur cerdd, i'r dyben i'w wneyd yn fwy hygof a dydorol: gwel y rhagarweiniad.

Adn. 3. *Darfydded am y dydd y'm ganwyd*] Dilêer ef o goffawriaeth dynion, neu o galendar neu gofrestr y dyddiau; *a'r nos y dywedwyd, Ennillwyd gwryw*—dilêer hōno hefyd. Ar ol sôn am ei enedigaeth yn y rhân

4 Bydded y dydd hwnw yn dywyllwch, a Duw oddiuchod heb ei ystyried; ac na thywyned llewyrch arno.

5 Tywyllwch a chysgod marwol-aeth a'i halogo, ac arhosed cwmwl arno; dued y diwrnod a'i dychryno.

6 Y nos hòno, tywyllwch a'i cymero; na chydier hi â dyddiau y flwyddyn, ac na ddeued i rifedi y misoedd.

7 Bydded y noswaith hòno yn unig, ac na fydded gorfoledd ynddi.

8 A'r rhai a felldithiant y dydd, ac sydd barod i gyffroi eu galar, a'i melldithio hi.

9 A bydded ser ei chyffdydd hi yn dywyll: dysgwylid am oleuni, ac na fydded iddi; ac na chaffed weled y wawr ddydd:

10 Am na chauodd ddrysau croth fy mam, ac na chuddiodd ofid oddiwrth fy llygaid.

11 Paham na bùm farw o'r bru? na threngais pan ddaethym allan o'r groth?

12 Paham y derbyniodd gliniau fyfi? a phaham y cefais fronau i sugno?

13 O herwydd yn awr mi a gawswn orwedd, a gorphwys, a huno: yna y buasai llonyddwch i mi;

flaenaf, efe a gyfeiria yma ond odid at ei genhedliad yn y rhan olaf. Eithr tybia rhai mai at ei enedigaeth y cyfeirir yn y ddwy frawddeg: ond os felly, rhaid fod y *dydd* uchod yn cynwys y pedair awr ar lugin. Y mae y llawenydd ar enedigaeth *gweryw*, yn y gwledydd dwyreiniol, yn llawer mwy nag ar enedigaeth *benyw*; a chyhoeddirhyn gan y fydwraig deirgwaith ar hyd yr heol yn nllith yr Hindwaid.

Adn. 4. *Bydded y dydd hwnw yn dywyllwch*] Heb i'r haul godi arno; a *Duw oddiuchod heb ei ystyried*—yn mllith dyddiau y flwyddyn; ac na thywyned llewyrch arno—oddiwrth y lloer na'r ser.

Adn. 5. *Tywyllwch a chysgod marwol-aeth*] Sef y tywyllwch mwyaf yn bosibl; a'i halogo—trwy gymeryd ymaith ei harddwch a'i egoniant; neu 'a ymaffo ynddo,' fel dialydd y gwaed yn ymaffyd yn y llofrudd; ac arhosed cwmwl arno—yr hwn na allo goleuni o un math dywynu trwyddo; *dued y diwrnod a'i dychryno*—Saes., 'tywyllwch y diwrnod a'i dychryno,' neu a'i gwneio ef yn dychryno.

Adn. 6. *Y nos hòno*] Wedi i Job ddimuno y drygau uchod i ddydd ei enedigaeth, y mae efe yma yn dymuno y drygau canlynol i nos ei genhedliad; *tywyllwch a'i cymero*—neu a'i dalio, a hwnw yn fwy dū, erchyll, a dychrynlyd, na thywyllwch naturiol y nos dywyllaf; *na chydier hi â dyddiau y flwyddyn*—bydded i ddyddiau a misoedd y flwyddyn gael eu gwneyd i fyny hebddi hi.

Adn. 7. *Bydded y noswaith hòno yn unig*] Heb neb yn ymgynull ynddi i ymddyddan na chywethasu, mwy na phe baent wedi marw; ac na fydded gorfoledd ynddi—dim sain cân na llawenydd; neu, yn ol y Galdeae, 'na chlywer caniad ceilio ynddi.'

Adn. 8. *A'r rhai a felldithiant y dydd*] Megys godinebwy, lladron, a llofruddion, at weithredoedd pa rai yr ystyrir y nos yn fwy cyffus: gwel CLARKE. Ond tybia rhai fod yma gyfeiriad at yr *Atlantiaid* yn Ethiopia, y rhai a arferent felldithio yr haul ganol dydd, am ei fod yn deifio ac yn diffrwytho eu maesyddid hwy; neu at ddeiniaid a swynyddion, y rhai y tybid eu bod yn gallu troi unrhyw ddydd i fod yn felldith. Y mae Job yma yn galw ar

bawb o'r cyfryw i gyduno âg ef i felldithio y nos hon. *Ac sydd barod i gyffroi eu galar*—y rhai a fedrant eu cyffroi eu hunain i alarn mewn anghladdau ac ar achosion ereill, cyffrôer hwynt hefyd i felldithio y nos hon. Ond y cyfeithiad llythyrenol o'r Hebraeg yw, 'y rhai sydd barod i godi y lefiathan'; ac wrth y 'lefiathan' y dealla rhai y *peryglon mwyaf*; ac ereill y *diafol*, yr hwn yr hònai y swynyddion hyn y gallent ei godi.

Adn. 9. *A bydded ser ei chyffdydd hi yn dywyll*] Cyfeirir yma ond odid at y planedau *Venus, Jupiter, Mars, a Mercury*, y rhai a welir weithiau yn y prydawn, cyn i'r ser ereill ymddangos. Dylasai y gair am 'cyffdydd' gael ei gyfieithu yn *gyfnos* yma. *Dysgwylid am oleuni*—y mae y nos yn cael ei phersonoli yma, fel pe byddai yn dysgwyl yn awyddus am i ryw belydryn gwan o oleuni chwalo peth o'i chaddug dychrynlyd. *Ac na chaffed weled y wawr ddydd*—dymuniad Job yw, fod i'r nos hòno ddechreu ar unwaith, heb gael ei harafu gan y blaned brydnawnol; a bod iddi barbau yn dywyll hyd ei therfyn eithaf, heb gael ei chwtoegi gan wawr y bore.

Adn. 10. *Am na chauodd ddrysau croth fy mam*] I attal i mi gael fy ngeni; ac na chuddiodd ofid oddiwrth fy llygaid—yr hyn a wnaethai pe na'm ganiesid. Ond trwy nad yw y gair *mam* yn y wreiddiol, myn rhai gyfieithu y darn cyntaf, 'am na chauodd ddrysau fy mol,' sef ei fogail ef, trwy ba un y derbyniai faeth cyn ei eni; a phe gwnaethai hyn, buasai ef yn marw yn y groth, ac yn cael ei eni yn farw, heb beryglu bywyd ei fam, yr hyn a wnaethid yn yr achos arall. Yma eto personolir y nos, a beiri hi fel offeryn ei ddygiad ef i'r byd.

Adn. 11. *Paham na bùm farw o'r bru?*] Naill ai yn y bru, neu ynte yn yr esgoredda, ar ei ddyfodiad o'r bru; na threngais pan ddaethym allan o'r groth?—yn y fan ar ol ei eni.

Adn. 12. *Paham y derbyniodd gliniau fyfi*] Ar fy ngenedigaeth, yn lle gadael i mi syrthio yn farw ar y ddaear? a phaham y cefais fronau i sugno—yn lle gadael i mi drengu o eisiau?

14 Gyda brenhinoedd a chynghorwyr y ddaear, y rhai a adeiladasant iddynt eu hunain fanau anghyfanedd;

15 Neu gyda thywysogion *âg* aur ganddynt, y rhai a lanwasant eu tai âg arian;

16 Neu fel erthyl cuddiedig, ni buaswn ddim; megys plant bychan heb weled goleuni.

17 Yno yr annuwiolion a beidiant â'n cyffro; ac yno y gorphwys y rhai lluddedig.

Adn. 13. *O herwydd yn awr*] Pe gadewsid i mi farw felly yn fy mabandod; *mi a gawswn orwedd a gorphwys*—yn y bedd; *a huno*—yn dawel yn angau; *yno y buasai llonyddwch i mi*—oddiwrth bob dolur a phoen, oddiwrth bob gelyn a thralloed.

Adn. 14. *Gyda brenhinoedd a chynghorwyr y ddaear*] Buaswn felly mor anrhydeddus a'r penaduriaid balchaf, y rhai, ar ol eu holl orchestion mawrion, a orweddant yn eu beddau; *y rhai a adeiladasant iddynt eu hunain fanau anghyfanedd*—sef bedd-gôrau, bedd-golofnau, neu fferon gwychion, lle y cleddid eu cyrff, i gadw eu henwau mewn coffadwrtaeth, ar ol i'w rhan farwol droi yn llygredigaeth. Gelwir y rhai hyn yn *anghyfanedd*, am nad oedd neb ond y meirwon yddynt. Weithiau yr oedd y rhai hyn yn naddiadau mewn craig, ac weithiau yn adeiladu mawrion wedi eu codi fel beddrod. Pa loedd mwy anghyfanedd na beraon yr Aifit? a pha beth yn fwy unig na'r ystafell fechan yn nghanol yr adeiladau mawrion hyny, lle y tybir i weddillion brenhinoedd gael eu claddu? Y mae gwlad Edom, yn agos i'r fan lle y tybir fod Job yn byw, yn cynwys hyd heddyw rai o fedd-golofnau hynofaf y byd.

Adn. 15. *Neu gyda thywysogion âg aur ganddynt*] Yn yr adnod o'r blaen soniai Job am ddynion mewn swyddau uchel, ond yma am rai yn berchen cyfoeth mawr yn eu bywyd, a'r naill fel y lliall wedi gorfod gadael y cwbl, a marw a ymned i'r bedd fel y tylotaf. Ond tybia *Rosenmuller* fod yma gyfeiriad at gladdu trysorau gyda'r meirwon; a bod yr ymadrodd, 'y rhai a lanwasant eu tai âg arian,' yn cyfeirio at eu beddau. Dywed *Josephus* i lawer o drysorau gael eu claddu yn meddrod Dafydd, y rhai a gymerwyd i fyny wedi hyny i ddiwallu angen y fyddin; a thystia *Schultens* fod yr arferiad hwn yn beth cyffredin iawn yn mhllith yr Arabiaid. Os hyn yw yr ystyr yma, yna meddwl Job oedd, y cawsai efe yn ei fedd ymuno â'r rhai ag oeddnt hyd yn nod yno â chyfoeth ganddynt, yn lle bod yn dyoddef y goiledd o'i feddiannau, fel y dygwyddasai iddo ef yn mhllith y byw.

Adn. 16. *Neu fel erthyl cuddiedig*] Wedi ei fwrw o'r brw yn fuan ar ol ei ymddwyn, ac felly yn ddisylw hyd yn nod yn ngolwg y fam, ac yn cael ei guddio yn ebrwydd o olwg pawb; *ni buaswn ddim*—amgen na thelwyn o syl-

18 Y rhai a garcharwyd a gânt yno lonydd yn ngbyd; ni chlywant lais y gorthrymydd.

19 Bychan a mawr sydd yno; a'r gwas a ryddhawyd oddiwrth ei feistr.

20 Paham y rhoddir goleuni i'r hwn sydd mewn llafur, a bywyd i'r gofidus ei enaid?

21 Y rhai sydd yn dysgwyl am farwolaeth ac heb ei *chael*; ac yn cloddio am dani yn fwy nag am drysorau cuddiedig?

wedd afuniadaidd a difywyd; *megys plant bych ain*—rhai mewn cyflwr uwch o berffeithrwydd, wedi eu llunio yn y brw, a dyfod yn fyw, ond yn marw yno cyn i'w llygaid weled goleuni y byd hwn. Yn nechre yr adnod dymunai Job pe genesid ef yn erthyl heb gael bywyd o gwbl; ond yma, pe buasai yn marw ar ol cael bywyd, ond eto yn y brw, cyn gweld goleuni.

Adn. 17. *Yno*] Yn y bedd, lle y gorwedd brenhinoedd, tywysogion, a babanod, am y rhai y soniwyd uchod; *yr annuwiolion a beidiant â'u cyffro*—am nad allant yno gyffroi, blino, na phoeni neb; *ac yno y gorphwys y rhai lluddedig*—y rhai a flinwyd ac a boenwyd ganddynt yn eu bywyd.

Adn. 18. *Y rhai a garcharwyd*] Mewn cadwynau, neu a werthwyd yn gaelweision, ac felly a ysgarwyd yn fynyeh oddiwrth eu gilydd fel acelodau o'r nu teulu; *a gânt yno lonydd yn nghyd*—heb neb i'w poeni na'u hysgaru mwyach; *ni chlywant lais y gorthrymydd*—llai o lawer y teimlant ei firewyll ef, am ei fod ef fel hwythiau yn ddystaw yn y bedd. Nid yw Job yn son yma am eu cyflwr tragwyddol hwy ar ol marw, ond yn unig am eu rhyddhad oddiwrth ofidiau *bydol*, yr hyn yw unig bwnc y rhan yma o'i ymadroddion ef.

Adn. 19. *Bychan a mawr sydd yno*] Mewn cyflwr o gydraddoldeb, heb ddim gwahaniaeth rhwng brenin a deiliad, rhwng tylawd a chyfoethog, na rhwng hen ac ieuanc; *a'r gwas a ryddhawyd oddiwrth ei feistr*—oddiwrth ei rwymedigaeth iddo, a'i dyoddefiadau oddiwrtho. Yr oedd caethwasanaeth yn bodoli yn fore, ac ymddengys oddiyma ei bod yn adnabyddus i Job.

Adn. 20. *Paham y rhoddir goleuni*] Sef goleuni naturiol y ddd; *i'r hwn sydd mewn llafur*—Saes, 'i'r hwn sydd mewn trueni?' *a bywyd i'r gofidus ei enaid*—yr hwn nas gall ei fwyndau?

Adn. 21. *Y rhai sydd yn dysgwyl am farwolaeth*] Gvdag awydd pryderus, fel yr arwydda y wreiddiol; *ac heb ei chael*—i roddi terfyn ar eu poenau corfforol; *ac yn cloddio am dani*—yn dangos awydd cryfach am farwolaeth, nag a wna mewn-gloddwyr am yr awr? Er cymaint yr ofna dynion angau, a'r hyn sydd tudraw i angau; eto, y fath yw eu poenau weithiau yn y byd hwn, fel ag yr ystyriant yn fraint gael marw.

22 Y rhai a lawenychant mewn hyfrydwch, ac a orfoleddant, pan gaffont y bedd?

23 *Paham y rhoddir goleuni i'r dyn y mae ei ffordd yn guddiedig, ac y cauodd Duw arno?*

24 O blegid o flaen fy mwyd y daw fy ochenaid; a'm rhuadau a dywelltir megys dyfroedd.

25 Canys yr hyn a fawr ofnais a ddaeth arnaf, a'r hyn a arswydais a ddygwyddodd i mi.

26 Ni chefais na llonydd nac esmwythdra, ac ni orphwysais: er hyny daeth cynhwrf.

Adn. 22. *Y rhai a lawenychant mewn hyfrydwch*] Hyny yw, a lawenychant ac a orfoleddant yn ddirfawr; *pan gaffont y bedd*—pan y teimlont arwyddion eglur eu bod i farw yn fuau.

Adn. 23. *Paham y rhoddir goleuni*] Neu fywyd, *i'r dyn y mae ei ffordd yn guddiedig*—fel na w'yr pa fodd i ddianc o'i drueni; *ac y cauodd Duw arno*—neu o'i amgylch ef, fel nas gallo ddianc?

Adn. 24. *O flaen fy mwyd y daw fy ochenaid*] Fel ag i'm hattal rhag ymborthi. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at ddwyllaw a genau Job yn llawn cornwydydd, fel nad allai godi bwyd i'w ben, na'i gnoi ef ar ol ei godi. Neu, yr oedd ei ochenaid yn cymeryd ymaith ei holl archwaeth ef, ac yn sefyll iddo yn lle bwyd. Yn yr ystyr olaf y dywedodd Dafydd, 'Fy nagrau oedd fywyd im' ddydd a nos,' Salm xlii. 3. *A'm rhuadau a dywelltir megys dyfroedd*—(1) O ran eu hanledd; neu, (2) O ran eu swm; neu yute, (3) Am fod ei ruadau gridffanol ef yn cael eu dilyn â firwd o ddagrau.

Adn. 25. *Canys yr hyn a fawr ofnais a ddaeth arnaf*] Tybia rhai fod Job yn amser ei lwyddiant, wrth ystyried cyfnewidiadau y bywyd hwn, a'r drygau ag y mae dyn yn agored iddynt, a'i amherffeithrwydd ei hun a'i deulu, yn ofni yn aml y dygai Duw ryw ddrygydd fel yr un presenol i'w gyfarfod ef. Ond y mae yn debyceach mai cyfeirir y mae at ei ofnan ar ol i'w drallodion ef ddechreu: wedi iddo gollu ei anifeiliaid, efe a ofnai y collai ei blant; ac wedi iddo gollu ei blant, efe a ofnai y dygwyddai rhywbeth cyffelyb iddo ef ei hun hefyd, fel yr oedd yn awr wedi dygwydd. *A'r hyn a arswydais a ddygwyddodd i mi*—i minau fy hun hefyd. Neu gall mai yr ystyr yw, ei fod yn ofni drygydd, fel y nodwyd, yn y rhan gyntaf o'r adnod; ac yn arswyddo, ar ol i hwnw ddygwydd iddo, rhag y cyfrifid ef yn ddynt drwg a rhagrithiwr, o herwydd dyfod y drygydd hwnw arno.

Adn. 26. *Ni chefais na llonydd nac esmwythdra, ac ni orphwysais*] Hyd yn nod yn nyddiau fy llwyddiant; *er hyny daeth cynhwrf*—neu drallod gwaeth, yn nyddiau fy adfyd. Neu, 'ni'm suais fy hun i lonyddwch,

PENNOD IV.

YNA Eliphaz y Temaniad a atebodd ac a ddywedodd,

2 *Pe profem ni air wrthlyt, a fyddai blin genyt ti? ond pwy a all atal ei ymadroddion?*

3 *Wela, ti a ddysgaist lawer ac a gryfheist ddwyllaw wedi llaesu.*

4 *Dy ymadroddion a godasant i fyny yr hwn oedd yn syrthio; a thi a nerthaist y gliniau oedd yn camu.*

5 *Ond yn awr, daeth arnat tithau, ac y mae yn flin genyt; cyffyrddodd â thi, a chyffroaist.*

esmwythdra, na gorphwysgar; er hyny ni'm cadwyd rhag blinder' gwel *Patriek*. Neu, 'nid oeddwn yn cael llonydd nac esmwythdra, gan fel yr oedd y *gofid* yn dyfod yn blaen;' gan gyfeirio at yr oluniad cyflym o ddrygau a'i goddiweddaï: gwel *Mr. Good*. Eithr myn rhai gyfeithu y rhan gyntaf yn holiadol: 'Onid oeddwn i yn cael llonydd ac esmwythdra? onid oeddwn i yn gorphwys? er hyny daeth lliidiogwydd arnaf: gwel y *Lladin*.

PEN. IV. Adn. 1. *Yna Eliphaz y Temaniad*] Gwel ar pen. ii. 11: *a atebodd ac a ddywedodd*—wrth glywed Job yn melliithio dydd ei enedigaeth, yn dymuno marwolaeth, ac yn son am ei ofid a'i boen, nis gallai Eliphaz ymattal yn hwy heb ymresymu yn ddirifol ag ef am y fath ysbryd a'r fath ymadroddion. Y mae yn debyc eu bod hwy ill tri wedi barnu Job yn rhagrithiwr eisioes, ac wedi cytuno i geisio ei alw ef i adifeirwch; ac y mae Eliphaz, fel yr hynaf a'r mwyaf ei ddylanwad, yn llefaru yn gyntaf.

Adn. 2. *Pe profem ni air wrthlyt*] *Pe byddai i mi a'm cyfeillion geisio ymresymu â thi yn nghylch dy ymadroddion a'th gyflwr, a dywedyd rhywbeth yn groes i'th feddwl; a fyddai blin genyt ti*—oddef hyny oddiwrthym? *Ond pwy a all atal ei ymadroddion*—wrth glywed gŵr fel tydi yn cylhndio dy Wneuthurwr, yn beio ei ragluniaeth, ac yn dirmygu ei fendithion ef? Gwyddai Eliphaz y byddai iddo ef wneyd sylwadau anfodhaol gan Job; ac efe a symudai tuag atynt mor dyner ag y medrai.

Adn. 3. *Wela, ti a ddysgaist lawer*] Trwy roddi cynghorion addas iddynt yn eu cystudd a'u gofid; *ac a gryfheist ddwyllaw wedi llaesu*—trwy eu cyfarwyddo a'u cysuro i ddal yn amyneddgar dan eu profedigaethau.

Adn. 4. *Dy ymadroddion a godasant i fyny yr hwn oedd yn syrthio*] Dan faich ei gystudd a'i drallod; *a thi a nerthaist y gliniau oedd yn camu*—dan ddirfawr bwys eu profedigaethau.

Adn. 5. *Ond yn awr daeth arnat tithau*] Daeth dy dro dithau i ddyoddef cystudd a thrallod; *ac y mae yn flin genyt*—ymollyngodd a gwanhaodd dy ysbryd dan faich dy

6 Onid *dyma* dy ofn di, dy hyder, perffieithrwydd dy ffyrdd, a'th obaith?

7 Cofia, atolwg, pwy, *ac* efe yn ddiniwed, a gollwyd? a pha le y torwyd y rhai uniawn ymaith?

8 Hyd y gwelais i, y rhai a arddant anwiredd, *ac* a hauant ddrygioni, a'u medant.

9 Gan anadl Duw y dyfethir hwynt, a chan chwythad ei ffroenan ef y darfyddant.

10 Rhuad y llew, a llais y llew creulon, a dannedd cenawon y llewod a dorwyd.

11 Yr hen lew a fethodd o eisiau ysglyfaeth; a chenawon y llew mawr a wasgarwyd.

12 *Ac* ataf fi y dygwyd gair yn ddirgel: a'm clust a dderbyniodd ychydig o hono.

13 Yn mblith meddyliau *yn dyfod* o weledigaethau y nos, pan syrthio trymgwsg ar ddynion,

ddolur: *cyffyrddodd â thi*—fel â hwythau; a *chyffroaist*—ymwyltaiaist fel dyn gorphwyllog. Yn lle dyoddef yn dawel ac amyneddgar, fel y cynghorior ereill i wneyd dan y cyffelyb amgylchiadau, daethost yn aflonydd ac anynad, gan achwyn ar Dduw a'i ragluniaeth. Nid 'cyffyrddiad *bychan ac ysgafn* a feddylir yma, fel y tybiodd rhai; 'cany's gwelent fýned ei ddolur o'r *fawr iawn*,' pen. ii. 12.

Adn. 6. *Onid dyma dy ofn di?* [ſc.] Fel pe dywedasai, Yr ydym yn awr yn canfod yn eglur beth oedd natur dy ofn Duw, dy hyder ynddo ef, perffieithrwydd dy ffyrdd, a'th obaith yn nhrugaredd Duw. Y mae dy ymddygiol presenol yn dangos nad oedd y cwbl ddiu ond geiriau ofer neu ragrith.

Adn. 7. *Cofia, atolwg*] Ymdrecha i gofio a welaist, a glywaist, neu a ddarllenaist ti am rywun, *ac efe yn ddiniwed*—heb fod yn bechadur cyhoeddus neu ragrithiwr, a *gollwyd*—neu a roddwyd i fyny i ddyoddef y fath drallodion a'r eiddot ti; a *pha le*—yn yr holl fyd, *y torwyd y rhai uniawn ymaith*—gan gleddyf cyflawnder Daw, a hyny cyn eu hamser, fel y mae yn debyg o fod gyda thi? Fel pe dywedasai, Y mae yn egyptiddor fod yw y llywodraeth ddwyfol, nad yw y diniwed byth i gael ei gollu; a bod drygau mawrion, yn cael eu pentyru fel hyn ar eu gilydd, yn brawf o enogrwydd mawr.

Adn. 8. *Hyd y gwelais i*] Ac yr wyf yn meddwl na welaist tithau ddim yn amgen; *y rhai a arddant anwiredd, ac a hauant ddrygioni, a'u medant*—ymadrodd diarebol yn arwyddo, mai pa rawn bynag a hauo dyn yn ei faes, hwnw a fed efe. Felly y dywed Solomon, 'Y neb a hauo anwiredd, a fed flinder,' *Diar. xxii. 8*; a St. Paul, 'Beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe,' *Gal. vi. 7, 8*; gwel hefyd *Hos. viii. 7, a x. 12, 13*.

Adn. 9. *Gan anadl Duw y dyfethir hwynt*, [ſc.] Fel y mae y dwyreiniwynt niweidiol yn deifio ac yn dytetha hydýfiant a llysiann, felly y derfydd am y rhai annuwiol gan ddigofaint yr Hollalluog. Fe allai fod yma gyfeiriant at ddinystr plant Job gen y corwynt, pen. i. 19.

Adn. 10, 11. *Rhuad y llew, a llais y llew creulon*, [ſc.] Wrth y llew rhuadwy, y llew creulon, yr hen lew, y llew mawr, a chenawon y llewod, y rhai a enwir yma, y meddylir *llywodraethwyr gormesol* o bob math. Amcan Eliphaz, wrth ddefnyddio y flugyrau hyn, yw dangos fod y rhai a feddant y *gallu a'r aw-*

durdod mwyaf, megys brenhinoedd a thywysogion a llywodraethwyr, ar ol iddynt droi yn drwg a gorthrymus i'w deiliaid, yn cael eu bwrw i lawr, eu dryllio, a'u dyfetha gan gyflawnder digofus yr Hollalluog; a bod eu *cenawon*—sef eu plant a'u holynwyr, yn cael eu gwasgaru heb feddiannau nac awlurdod ar hyd wyneb y ddaear.

Adn. 12. *Ac ataf fi y dygwyd gair yn ddirgel*] Oddiwrt h Dduw, neu o'r byd arall. O'r blaen llefarai Eliphaz am bethau naturiol a ddygwyddasant ar y ddaear, hysbys iddo ef ac ereill; ond yma adrodda weledigaeth a gawsai efe yn oruwchnaturiol, yn ddiaurbod i bawb ereill. Yn yr oesoedd hyny, cyn gorphen canon yr ysgrifthyrau, yr oedd dynion yn aml yn cael gwledigaethau gornwehnaturiol, neu ddatguddiedigaethau digyfrwng o'r byd arall, i ddysgu iddynt ffyrdd neu feddl Duw, a dirgelwch goruchwyliaethau dwyfol ragluniaeth. Bu rhai yn amau pa un a gafodd Eliphaz mewn gwirionedd y fath weledigaeth, ai ynte dychlunygu y cyfryw achos yr ydoedd efe mewn arddull barddonol. Tybiaf fod yn fwy naturiol i ni feddlw iddo gael y weledigaeth hon mewn gwirionedd, nid yn unig am fod hyny yn beth arferol fel y crybwyllwyd, ond hefyd am nad oes dim yn yr hyn a draethir yn aunghyson a'r hyn a allides ei ddysgwyl oddiwrt h y fath genad nefol. Y mae y cwbl a draethir yma yn gyson â gwirioneddau a rhediad yr ysgrifthyrau, er i Eliphaz eu hystyried fel prawfiau fod Job yn ddyn twyllodrus a rhagrithiol. *A'm clust a dderbyniodd ychydig o hono*—naill ai ni chlywodd efe ond ychydig, neu ynte ni ddeallodd ond ychydig o'r gair a ddygides felly ato; ac y mae yn adrodd yr ychydig hyny yn adn. 17—21.

Adn. 13. *Yn mblith meddyliau yn dyfod o weledigaethau y nos*] Y mae rhai yn meddwl i Eliphaz gael rhyw weledigaethau o'r blaen y nos hono; a thra yr oedd ef yn myfyrio yn bryderus ar y gwledigaethau hyny, efe a gafodd y weledigaeth hon hefyd, adn 15. *Pan syrthio trymgwsg ar dynion*—y mae y gair *tardemah* yn arwyddo yn gyffredin gwsq wedi ei achosi gan ddwyfol offeryniolaeth. Yn un gair ydyw ag a ddefnyddir am y cwsq i'r hwn y bwriwyd Adda yn faenorol i furiad Efa, *Gen. ii. 21*; a'r hwn a ddaeth ar Abram pan syrthiodd dychryu a thywyllni mawr arno yntau, *Gen. xv. 12*. Pan yr oedd pawb ereill o fewn y tŷ mewn trymgwsg ar eu gwelyau,

14 Ofn a ddaeth arnaf, a dychryn, ac a wnaeth i'm holl esgyrn grynu.

15 Yna ysbryd a aeth heibio o flaen fy wyneb; ac a wnaeth i flow fy nghnawd sefyll.

16 Efe a safodd ac nid adwaenwn ei agwedd ef: drychiolaeth oedd o flaen fy llygaid, bu dystawrwydd, a mi a glywais lef yn dywedyd,

17 A fydd dyn marwol yn gyf-

iawnach na Duw? a fydd gwŷr yn burach na'i Wneuthurwr?

18 Wele, yn ei wasanaethwyr ni roddes ymddiried; ac yn erbyn ei angylion y gosododd ynfydrwydd:

19 Pa faint llai ar y rhai sydd yn trigo mewn tai o glai, y rhai sydd a'i sail mewn pridd, y rhai a falurir yn gynt na gwyfyn?

20 O'r bore hyd hwyr y malurir

yr oedd Eliphaz yn effro, ac mewn ofn a chryndod yn meddwl am y gweledigaethau a gawsai.

Adn. 14. *Ofn a ddaeth arnaf, a dychryn*] Heb., 'a chryndod;' nid yn unig ofn yn ei feddwl, ond cryndod hefyd dros ei holl gorff; ac a wnaeth i'm holl esgyrn grynu—nid yn unig ei gyhyrau a'i gnawd, ond ei holl ddannedd a'i esgyrn hefyd.

Adn. 15. *Yna ysbryd a aeth heibio o flaen fy wyneb*] Mewn fflur weledig. Ond ni ddywedir pa un ai ysbryd dyn ai angel ydoedd. Yr oedd y grediniaeth mewn ymddangosiad ysbrydion, ar achosion neillduol, yn beth cyffredin yn yr oesoedd boreaf, yn gystal ag yn y rhai diweddaraf. *Ac a wnaeth i flow fy nghnawd sefyll*—hon sydd eflaith ag y gwyddom ei bod yn cael ei chynrychu yn lyncyl gan ofn neu dychryn. Y mae ofn mawr, wrth ddal dyn yn ddisymwth, yn gyru y gwaeod o'r rhanau eithafol yn ol i'r galon; ac felly ceir a chrebachir y croen, nes peri i'r blew sefyll.

Adn. 16. *Efe a safodd*] I edrech arnaf. Ar y cyntaf efe a symudai heibio iddo, neu tuag ato; yna efe a safodd, i dynu ei sylw, ac i'w barotoi ef i dlerbyn y genadwri ag yr oedd yn myned i'w thraethu. *Ac nid adwaenwn ei agwedd ef*—yn eglur a llawn, fel ag i wybod pwy na pha beth ydoedd: neu, nid adwaenai ei lun a'i liw, trwy ei fod yn hollol wahanol i ddim a welsai efe erioed o'r blaen. *Drychiolaeth oedd o flaen fy llygaid*—rhyw fath ar ddelw neu lun, yr hwn nis gallwn ei amgylfred na darlunio ei linellau allanol. Dichon fod ofnau Eliphaz, a thywyllwch y nos, yn ei rwystro i graffu ar y petu a welai. *Bu dystawrwydd*—yr oedd pawb yn y tŷ yn ddystaw gan drymgwsg, ac Eliphaz ei hun yn ddystaw gan ofn, ac yr oedd yr ysbryd hefyd yn ddystaw am beth amser wedi iddo ymddangos. *A mi a glywais lef*—yn tori ar y dystawrwydd hwan yn y geiriau canlynol:

Adn. 17. *A fydd dyn marwol*] *Enosh*. 'dyn syrthiedig,' neu 'ddyn egwan a phechadurus,' wrth iddo ef arbed y diniwed; *yn gyfiawnach na Duw*—yr hwn y dywedai Job ei fod yn *cospi* y diniwed? *A fydd gwŷr-gaber*, 'dyn cadarn a galluog,' enwog am nerth, doethineb, santsiddrwydd, neu yrw berlleithderau ereill; *yn burach na'i Wneuthurwr*—yn ymddwyn yn fwy tŷg a chyfiawn na'i Grawdwr yn ei ymddygiadau at ddynton? Y mae y ddau air hyn, *enosh a gaber*, yn meddwl holl ddyndryw, isel ac nchel. Fel pe dywedasai, A all rhyw ddy, pwy bynag fyddo, fod yn gyfiawnach ac yn turach na Duw?

Pe buasai Duw yn cospi dyn nad oedd yn naeddu ei gospi, neu yn ei gospi yn fwy na'i baeddiant, pan nad yw barnwr dynol yn gyffredin yn ymddwyn felly, yna buasai dyn yn gyfiawnach na Duw. Neu pe byddai yn bosibl i Dduw a Job tyned i'w profi o flaen rhyw farnydd daeareol, a ellir meddwl y byddai i Job fyned i'w dŷ wedi ei gyfiawnhau, ac i'r Duw mawr gael ei gondemnio? Ni fydd i un dyn cyfiawn gospi arall yn ddiachos; ac os gwneith Duw hynny â Job, fel y mae ei eiriau ef yn awgrynu, yna y mae Duw yn llai cyfiawn na dyn, yr hyn y byddai yn gabledd ei feddwl! Rhediad ac amean ymadroddion Job, yn pen. iii, yw ei ddangos ym mewn *ddiniwed*, a dangos Duw yn *anngyhyfiaw* wrth ei gystuddio ef fel y gwneithai; ac i'r dyben i geryddu Job am hyn y rhoddes yr ysbryd y geiriau hyn yn ngenau Eliphaz i'w llefaru wrth Job.

Adn. 18. *Wele, yn ei wasanaethwyr*] *Sef* ei angylion, fel y mae yn eglur oddiwrth ddiwedd yr adnod hon, yn gystal a'r adnod nesaf; *ni roddes ymddiried*—y byddai iddynnt hwy ymgadw yn eu cyfiawnder a'u purdeb gwreiddiol yn barhaus, er eu bod yn llawer tebycach i wneyd felly na dyn syrthiedig yn y ddaear. *Ac yn erbyn ei angylion y gosododd ynfydrwydd*—sef yn erbyn y rhai hynny 'na chadwasant eu dechread, eithr a adawsant eu trigfa eu hun,' Judas 6. Ni cheir y gair *toholah*, a gyfieithir yma yn 'ynfydrwydd,' mewn un man arall yn yr ysgrifur, yr hyn sydd yn gwneyd ei ystyr yn fwy annealladwy. Cyfieitha rhai ef yn *oleuni*; ereill, yn *ymffrost*, *balchder*, *diffyg*, *bai*, *pechod*, &c. Y mae COVERDALE yn cyfieithu yr holl adnod fel hyn: 'Wele, efe a safodd *anfyddlondeb* yn mhilith ei wasanaethwyr ei hun, ac *anfydddod balch* yn mhilith ei angylion.' Y meddwl yn ddiamau yw, fod Duw wedi cael achos i gylhuddo hyd yn nod yr *angylion* o ynfydrwydd a phechod; ac o ganlyniad, gan nad yw yr angylion yn y nef mor gyfiawn a phur a Duw, y mae yn sicr nas gall dyn egwan a phechadurus ar y ddaear fod felly. Tybia Benson mai geiriau Eliphaz yw y rhai hyn hyd ddiwedd y bennod, fel eglurhad ar eiriau yr ysbryd yn adn. 17; ond y mae yn debycach mai geiriau yr ysbryd ydynt.

Adn. 19. *Pa faint llai*, &c.] Gan nad yw ef yn rhoddi 'ymddiried' yn ei angylion cedryn, pa faint llai mewn dynton egwan? neu pa faint mwy (felly y myn rhai ei gyfieithu) y gesyd efe 'ynfydrwydd' yn eu herbyn hwy? Fel pe dywedasai, Y fath ryfgy gan hynny yw

hwynt; dyfethir hwynt yn dragywydd heb *neb* yn ystyried.

21 Onid aeth y rhagoriaeth oedd ynddynt ymaith? hwy a fyddant feirw, ac nid mewn doethineb.

i ddyd syrthiedig, egwan, a marwol, ffuantu uwch perffethrwydd na'r angylion, neu geisio ei wneyd ei hun yn gyfiawnach a phurach na Duw; yr hyu y mae pawb yn ei waenthur ag sydd yn beio ar, neu yn ddiamyuedd dan, oruchwyliathau cyfiawn dwyfol ragluniaeth! *Y rhai sydd yn trigo mewn tai o glai*—mewn cryff priddiud, y rhai sydd yn fagl ac yn rhwystr iddynt; tra y mae yr angylion yn ysbrydion rhydd, neu yn trigo mewn cryll nesol a gogoneddus. *Y rhai sydd a'u sail mewn pridd*—wedi eu gwneuthur ar y cyntaf o hono, yn byw arno, ac yn gorfod dychwelyd yn fuan iddo. *Y rhai a falurir yn gynt na gwysyn*—y mae hyn yn cael ei ddeall dair ffordd: (1) Yn gynt nag y difa gwysyn ddarn o frethyn. (2) Neu a falurir yn gynt nag y malurir gwysyn. (3) Neu, fel y gellir cyfieithu *liphnee* yu fwy priodol, 'o flaen gwyneb, neu yn mhresenoldeb gwysyn;' hyny yw, y mae cryff dynion mor frau fel ag y gall ebediad gwysyn yn eu herbyn eu malurio yn chwilffiw. Y casgliad yw, gan hyny pa fodd y gall creadur mor wael a dyn fod yn gyfiawnach ac yn burach na Duw?

Adn. 20. *O'r bore hyd hwyr y malurir hwynt!* Sef y 'tai o glai;' hyny yw, yn ol rhai, malurir hwynt rhwng y bore a'r hwyr, fel nas gallant fyw braidd ddiwrnod. 'Y bore y blodeua, ac y tyf; prydawn y torir ef ymaith, ac y gwywa,' Salm xc. 5, 6. Neu, yn ol ereill, 'ar hyd y dydd,' fel nad oes braidd eiliad o amser heb fod rhywrai yn cael ea tori i lawr, neu o leiaf yn agored i gael eu malurio. *Dyfethir hwynt yn dragywydd*—o ran y dull presenol o fyw, fel na ddaw neb o honynt yn ol i breswyllo daear fel y buont. *Heb neb yn ystyried*—hyny yw, 'ac ni esyd heb at ei galon,' Esay lviii. 1. Ond tybia *Chappelow* mai yr ystyr yw, 'heb neb yn *chwannegu* at eu trueni;' neu, yn ol *Junius*, 'heb neb yn *tresnu*.' Hyny yw, y maent yn malurio neu yn trengu o honynt eu hunain, trwy freuolder en natur, heb i ddim na neb gyffwrdd â hwy â dwylaw trais. Ond y mae ein cyfieithiad ni, modd bynag, yn cyfneu gwirionedd pwysig ac addysgiadol. Leied sydd yn ystyried marwolaeth dyn yn ddyladwy! Bydd i ychydig berthynasau a chyfeillion, fel y sylwa un, deimlo neu wlyo uwelben ein gweddillion, ysgatfydd, am enyd fer; tra y bydd i'r cyffredin fod yn anystyriol o'n symudiad o'r byd i'r bedd. Nid yw hyny ond megys pe cymeraid dyn dywodyn oddiar lan y mor, neu ddyteryn o ddwr o'r cefnfor. Gwir fod yno *un yn llui*; ond llenwyr eile yn fuan, a'r cefnfor a dreigla yn mlaen ei donau terfysglyd unwedd a phe na buasai un wedi ei gollu. Yr un modd yn gymhwys y mae gyda'r bywyd dynol. Helyntion dynion a dreiglant yn mlaen megys cynt; bydd y byd mor brysor, bywiog, ac anystyriol, a phe na buasem ni erioedd mewn bod;

PENNOD V.

GALW yn awr, od oes *neb* a etyb i ti, ac acbwyo o'r saint y troi di? 2 Canys diglondeb a ladd yr yu-

ac yn fuan,—O mor boenus fuan i falchder dyn!—bydd ein henwau ni wedi eu haunhofio! Ein cychl o gyfeillion a beidiant ag wlyo, ac yna a beidiant a'n cofio! Y ty a adeiladasom, yr ystafell lle y cysgem, y lyfrau a ysgrifenasom, a'r golgofni ag y gorchymnasom ei chodi ar ein bead, a fyddant oll wedi ymddryilio, a'r arwydd olaf i Xt erioedd fod yu breswylwyr daear a fydd wedi ei ddeulio ymaith! Y fath ergyd i falchder dyn! a'r fath drugaredd fod genym fyw arall yn ein haros, lle y gallwn fyw yn mlaen am byth, a bod yu dragywyddol ddedwydd!

Adn. 21. *Onid aeth y rhagoriaeth oedd ynddynt ymaith?* Pa beth bynag a dybir yu rhagorol mewn dynion, megys harddwel, nerth, dysg, athrylith, cyfoeth, &c., y mae y pethau hyn mor bell oddiwrth allu eu cadw hwynt rhaig trengu, nes y maent yn trengunau yn darfog eu hunain hyd yn nod o flaen y tai o glai yu y rhai eu cynwysid. *Hwy a fyddant feirw, ac nid mewn doethineb*—heb gyraedd newar o ddoethineb naturiol, ac yn rhy fynych heb ddim doethineb ysbrydol i'w gwneyd yn ddoeth i iachawdwriaeth. Yr ystyr yw, fod dynion mor fyr-boedlog o'u cydmharu a'r angylion, fel nad oes ganddynt ddim cyfleusdra i gyraedd newar o ddoethineb. Leied a'wyr yr athronydd doethaf, gyda i noll wyddiannau a'i gelfyddydau, am ddeddfau a sylweddau y byd materiol, ie, am dano ei hun! Yn awr, a fydd i'r fath creadur ynydd, egwan, pechadurus, a marwol a hwn, a'r hwn sydd gymaint islaw yr angylion, hōni ei fod ef yn 'gyfiawnach na Duw, ac yn burach na'i Wneuthurwr?' adn. 17. Na, yn lle ewerla a'i gystuddiau, a grwnach yn erbyn rhagluniaeth Duw, boed iddo ryfoddn a diolch ei fod allan o uffern!

PEN. V. Adn. 1. *Galw yn awr, od oes neb a etyb i ti?* Y geiriau hyn sydd fath ar wawdiaith, yn cael ei llefaru gan Eliphaz, nid yr ysbryd. Fel pe dywedasai, Ti a gylwaist cisioes mor wael ac anuberffaith y rhaid fod y goraf a'r doethaf o ddynion ac angylion mewn cydmhariaeth i Dduw; ond os nad yw hyn yn dy foddioni, galw gynghorwyr neu farwyr yn nghyd, i edrych a all neb dy bleidion yn dy amddiffyniad o honot dy hun a'th achwyniad ar Dduw. *Ac at bwy o'r saint y troi di?*—y mae y gair *saint* yn meddwl rhai pur neu santaidd; a gellir ei gymhwysol at ddynion neu angylion santaidd: ond meddylir yn gyffredin mai yr angylion a olygir yma.

Adn. 2. *Canys diglondeb a ladd yr ynydd, &c.* Fel pe dywedasai, Nid yw diglondeb Duw yn disgyn ar neb ond yr annuwiol a'r pechadur; ac oni buasai dy fod dithau yn gyfrwy, ni ddisgynasai hyn arnat. Gwelsem yn fynych fod yr enwau *ynydd* ac *annoeth* yn cael eu rhoddi i *bechaduriaid* o bob math.

fyd, a chenfigen a ladd yr annoeth.

3 Mi a welais yr ynyfyd yn gwreiddio: ac a fellldithiais ei drigfa ef yn ddisymwth.

4 Ei feibion ef a bellheir oddiwrth iachawdwriaeth: dryllir hwynt hefyd yn y porth, ac nid oes gwar-odydd.

5 Yr hwn y bwyty y newynog ei gynanaf, wedi iddo ei gymeryd o blith drain, a'r sychedig a lwnc eu cyfoeth.

6 Er na ddaw cystudd allan o'r pridd, ac na flagura gofid allan o'r ddaear:

7 Ond dyn a aned i flinder, fel yr cheda gwreichionen i fyny.

8 Eto myfi a ymgynghorwn â Duw: ac ar Dduw y rhoddwn fy achos:

9 Yr hwn sydd yn gwneuthur pethau mawrion ac anchwiliadwy; rhyfeddol heb rifedi:

10 Yr hwn sydd yn rhoddi gwlaw ar wyneb y ddaear; ac yn danfon dyfroedd ar wyneb y maesydd:

11 Gan osod rhai isel mewn uchelder; fel y dyrchefir y galarus i iachawdwriaeth.

12 Efe sydd yn diddlymu amean-

Ond tybia rhai mai yr ystyr yw, y bydd i ddigllondeb a chenfigen yr annuwil ei hun chwanelu at ei ofid ef, a byrhau ei ddyddiau.

Adn. 3. *Mi a welais yr ynyfyd yn gwreiddio*] Neu ddynion annuwil yn llwyddo yn y byd, ac yn mynd yn gadarn iawn mewn cyfoeth a mawredd, fel prenau yn gwreiddio yn ddwfa a chadarn i waered, ac yn tytu yn uchel a brigog i fyny. *Ae a fellldithiais ei drigfa ef yn ddisymwth*—cefnais achos i'w ystyried a'i gyboeddi ef dan fellldith, wrth weled ei gwymp disymwth. Felly nid yw llwyddiant dynion unwaith yn y byd yn brawf o'u dau-foeldeb hwy, nac o ffafr Duw: gwel Salm xxxvii. 35, 36. Mewn rhai ailunau o'r LXX, y mae yr adran olaf yn sefyll fel hyn: 'ond yn ddisymwth ei drigfa a ddyfethwyd.'

Adn. 4. *Ei feibion ef a bellheir oddiwrth iachawdwriaeth*] Saes., 'sydd bell oddiwrth ddiogelwch,' neu yn agored i beryglon ac adfyddau, heb allu eu gwared eu hunain, na'r etifeddiaeth a adewsid iddynt gan eu tad *Dryllir hwynt hefyd yn y porth*—sef yn y brawdlys, yr hwn a gynelid gynt yn mhorth y ddinas, lle y dygid hwynt i'w profi a'u cospi am eu camweddau; *ac nid oes gwaredydd*—neb i eiriol drostynt na'u cynorthwyo. Gan fod eu llaw hwy gynt yn erbyn pawb, y mae llaw pawb yn awr yn eu herbyn hwythau. Ond tybia rhai fod yma gyfeiriad at feibion Job yn cael eu dryllio yn mhorth y tŷ, pryd y syrtliodd efe arnynt, pen. i. 19.

Adn. 5. *Yr hwn y bwyty y newynog ei gynauaf*] Wedi iddo ef drafferthu i lafurio a hau ei faesydd, daw yr yspeilwyr newynog i mewn i ladrata ei gnwd ef; *o blith y drain*—o faesydd wedi eu hangau â drain; mwy cymerant ymaith yr ŷd a'r chwyn a'r ysgall yn nghyd, yn eu brys a'u hawydd, heb aros i ysgaru yr effre oddiwrth y gwenith; *a'r sychedig a lwnc eu cyfoeth*—sef yr yspeilwyr sychedig am eu cytoeth, fel ag i adael y percheno-ogion heb ddim. *Houbigant* a'i cyfieitha, 'Y rhai newynog a wanciasant eu cynauaf, gwyr arfog a ddygasant ymaith eu hŷd, yspeilwyr a ddifasant eu cyfoeth.'

Adn. 6. *Er na ddaw cystudd allan o'r pridd, &c.*] Yr ystyr yw, na ddylem ni briod-oli cystuddiau a gofidiau i ddamwain, neu fedd-

wl eu bod heb ddyben iddynt; eithr y maent oll dan gyfarwyddyd Duw, ac yn cael eu hanfon er lles i ni, fel y danghosir isod.

Adn. 7. *Ond dyn a aned i flinder*] Gan fod blinderau a chystuddiau wedi eu trefnu i ni yn y fuchedd hon, a hyny mor naturiol ag yr cheda gwreichionen i fyny, y mae yn ddoeth i ni roddi ein hachos i Dduw, yn lle grwgnach yn ei erbyn ef. *Fel yr cheda gwreichionen i fyny*—neu 'fel yr cheda aderyni i fyny:' gwel COVERDALE, yn nghyda'r Syriaeg a'r Arabaeg.

Adn. 8. *Eto myfi a ymgynghorwn â Duw, &c.*] Pe bawn i yn dy gyflwr di, yn lle cyhuddo ymddygiadau dwyfol ragluniaeth, a grwgnach danynt hwy, mi a awn at Dduw, ac a gyfadd-efwn o'i flaen ef fy holl bechodau, y rhai a ddygasant y trueni hwn arnaf, gan edifarhau am danynt, a rhoddi fy achos yn ei law ef. Felly, beth bynag oedd meddwl Eliphaz am gyflwr Job, nid oedd yn barnu fod ei achos ef yn anobeithiol, ond iddo yn edifeiriol droi at Dduw.

Adn. 9. *Yr hwn sydd yn gwneuthur pethau mawrion*] Mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a gras; *ac anchwiliadwy*—pethau nas gallwn eu holrhain na'u hamgyffred; *rhyfeddol*—pethau i beri i deall meidrol synu wrth eu mawredd a'u hynodrwydd; *heb rifedi*—nid yn unig y mae gweithredoedd Duw yn fawrion, anchwiliadwy, a rhyfeddol, ond y mae peth difrifedi o honynt. Bernir fod nifer yr holl ser a'r heuliau ag sydd o fewn cyraedd ein chwyddwydrau a'n pellddyrychau ni, uwchlaw *ugain mil o siliynau*; ac y mae yn debyg nad yw hyn ddim wrth y rhifedi ag sydd allan o'n golwg ni yn y diderfyn eangderau: gwel DR. DICK. Amcan Eliphaz yn yr adnod hon, a'r rhai dylynol, yw dangos mawredd gallu a doethineb Duw, a'i addasrwydd ef i lywodraethu achosion dynion, i'r dyben i annog Job i roddi ei achos yn ei law ef, adn. 8.

Adn. 10. *Yr hwn sydd yn rhoddi gwlaw ar wyneb y ddaear*] Yr hyn sydd drugareidd fawr i ddynion, ac yn un nas gall neb ond Duw ei rhoddi; *ac yn danfon dyfroedd ar wyneb y maesydd*—i'w mwyo a'u maethloni; ac y mae hyn oll yn dangos fod Duw yn gofalu am danom ni, ac yn teilyngu ein hymddiriediad ynddo.

ion y cyfrwys, fel na allo eu dwylaw dddwyn dim i ben.

13 Efe sydd yn dal y doethion yn eu cyfrwysdra: a chynghor y cyn-dyn a ddiddymir.

14 Lliw dydd y cyfarfyddant â thywyllwch, a hwy a balsalant han-ner dydd megys lliw nos.

15 Yr hwn hefyd a achub y tylawd rhag y cleddyf, rhag eu safn hwy, a rhag llaw y cadarn.

16 Felly y mae gobaith i'r tylawd, ac anwiredd yn cau ei safn.

Adn. 11. *Gan osod rhai isel mewn uchelder*] Mewn digonoldeb a chyfoeth, trwy i'r gwlaw ddisgyn ar y ddaear i'w maethu a'i firwythloni; *fel y dyrchefir y galarus*—rhai yn galaru o herwydd sychder, prinder, neu newyn; *i iachardieriaeth*—Saes., 'i ddiogel-wch' rhag newyn.

Adn. 12. *Efe sydd yn diddymu amcanion y cyfrwys*] Yr un modd ag y diddymodd efe amcanion Haman yn erbyn Mordecai a'r Iudd-ewon, Esther v—vii; *fel na allo eu dwylaw dddwyn dim i ben*—o'u hamcanion cyfrwys. Ond tybia rhai mai diddymu amcanion maelerwyr cyfrwys i godi prisiau ymbortha feddylir yma, trwy ddanfon gwlaw ar y ddaear i'w gwneud yn firwythlon a chnydfawr.

Adn. 13. *Efe sydd yn dal y doethion yn eu cyfrwysdra*] Neu yn eu maglu yn eu rhwyd-au eu hunain. Ymddengys fod hwn yn ym-ardrodd diarebol, am y cawn yr un syniad yn fynych yn yr ysgrhythrau, ac mewn hen aw- duron: gwel Salm vii. 15, 16, a ix. 15, a xxxv. 8, 1 Cor. iii. 19. *A chynghor y cyn-dyn a ddiddymir*—fel y diddymwyd cynghor Ahi- topheh: gwel ar 2 Sam. xvii. 14.

Adn. 14. *Lliw dydd y cyfarfyddant â thywyllwch*] Trwy ddallineb barnol ar eu meddyliau, hwy a ymddyrsant yn y pethau egluraf; *a hwy a balsalant han-ner dydd megys lliw nos*—fel dynion ar eu palfau a'u giniâu yn chwilio am eu llwybr yn nhywyll- wch y nos.

Adn. 15. *Yr hwn hefyd a achub y tylawd rhag y cleddyf*] Rhag cael ei dyfetha gan y gwyr cyfrwys a enwyd uchod; *rhag eu safn hwy*—y rhai oeddynt barod i'w lyncu ef, neu rhag eu geiriau celyddog hwy yn ei erbyn; *a rhag llaw y cadarn*—yr hwn oedd barod i estyn ei law i'w yspelio ef o'i eiddo, neu i ddrwyg ei bercon. Ond y mae unarddeg o ys- grifffrau Kennicott a De Rossi, yn nghyda rhai o'r hen gyfieithiadau, yn darllen, 'yr hwn hefyd a achub y tylawd rhag cleddyf eu genau hwynt,' &c. Yr ystyr yw, fod Duw yn cadw y rhai diam-ddiffyn a ymddiriedat ynddo ef, rhag gormes eu gelynyon, ac am hyny y tal i Job ymddiried ei achos i'w law ef.

Adn. 16. *Felly y mae gobaith i'r tylawd*] Oddiwth gyfryngiad Duw; *ac anwiredd yn cau ei safn*—sef meibion anwiredd, y rhai a ddistewir, a siomir, ac a gywilyddir, trwy fod Duw yn dyfod allan yn ei ragluniaeth i achub

17 Wele gwyn ei fyd y dyn a geryddo Duw; am hyny na ddiys- tyra gerydd yr Hollalluog.

18 Canys efe a glwyfa, ac a rwym: efe a archolla, a'i ddwylaw ef a iachant.

19 Mewn chwech o gyfyngderau efe a'th wared di; ie, mewn saith ni chyffwrdd drwg â thi.

20 Mewn newyn efe a'th wared rhag marwolaeth: ac mewn rhyfel rhag nerth y cleddyf.

21 Rhag ffirewyl tafod y'th gudd-

y trlawd, ac i'w maglu hwythau yn eu rhwyd eu hunain.

Adn. 17. *Wele, gwyn ei fyd y dyn a ger- yddo Duw*] Am ei fod yn gwneud hyny er lles iddo: *am hyny na ddiystyra gerydd yr Hollalluog*—trwy feio rhagluniaeth Duw, neu ymgynddeirioi dan ei gerydd ef, fel y gwnaeth- ai Job yn pen. iii. Y mae yr adnod hon yn dechreu rheswm newydd, i ddangos fod cyst- tudidiau yn cael eu dylun gan fanteision mor bwysig, fel ag y dylem ni ymstwg dan-ny yn ddirwgnach: gwel ar Diar. iii. 11, 12, Heb. xii. 5—8, Iago i. 12.

Adn. 18. *Canys efe a glwyfa, ac a rwym, &c.*] Fel meddyg yn agor cornwyd i gael y crawn allan o hono, ac vna yn ei rwymo i fyny i'w iachâu. Amcan Eliphaz oedd dangos mai o law Duw yr oedd pob cystudd o'r fath ag oedd ar Job yn dyfod, ac mai efe yn unig a allai ei feddyginiaethu, ac y gwnai efe hyny i'w blant; ac am hyny y dylasai Job fod yn ddyoddefgar dan ei law ef, fel dyn archolledig dan law y meddyg.

Adn. 19. *Mewn chwech o gyfyngderau*] Hyny yw, mewn amledd o gyfyngderau, y naill yn dylun y llall yn ddisiebiaut, neu yr oll yn dyfod gyda'u gilydd; *efe a'th wared di*—os rhoddi dy achos yn ei law ef, heb ddiys- tyru ei geryddon tadol, adn. 8, 17. *Ie, mewn saith*—rhif mwy fyth; *ni chyffwrdd drwg â thi*—un drwg gwirioneddol, heb fod ynddo fwy o les nag o niwed; neu un drwg *parhaus*, eithr gwaredir di yn fuan o'th holl gyfyngder- au. Fe allai fod *saith* yma, yr hwn a ystyrir yn 'rhif perffeithrwydd,' yn meddwl y *seithfed*, neu yr olaf, sef cyfyngder *angau*, yn yr hwn hefyd ni chaiff y duwio ddim niwed, Salm xxiii. 4. Neu fe allai ei fod yn cyfeirio at y saith o ddrwyg a enwir isod, sef newyn, cleddyf, ffirewyl y tafod, dinystr, drudaniaeth, bwystfilod y ddaear, a cherig y maes. Y mae y dull hwn o enwi yn gyntaf rif penodol, ac yna chwaneu un ato, yn beth tra chyffredin yn yr ysgrhythr: gwel Diar. vi. 16, a xxx. 15—29, Amos i. 3—13, a ii. 1—6.

Adn. 20. *Mewn newyn efe a'th wared rhag marwolaeth*] Fel y gwnaeth ag Elias, trwy y cigfrain a'r wraig weddw, 1 Bren. xvii. 4, 9; *ac mewn rhyfel rhag nerth y cleddyf*—fel y gwnaed â Dafydd rhag cleddyf Goliath; hyny yw, os troi di yn edifeiriol at Dduw, gan ym- ddiried dy achos i'w law ef. Nid at y dy-

ir; ac ni ofni rhag dinystr pan ddelo.

22 Mewn dinystr a newyn y chwerrddi; ac nid ofni rhag bywstfilod y ddaear.

23 Canys â cherig y maes y byddi mewn cynghrair; a bwystfil y maes hefyd fydd heddychol â thi.

24 A thi a gai wybod y bydd heddwch yn dy luest; a thi a ymweli â'th drigfa, ac ni phechi.

25 A chai wybod hefyd mai lluosog fydd dy had, a'th hiliogaeth megys gwellt y ddaear.

26 Ti a ddeni mewn henaint i'r bedd, fel y cyfyd ysgafn o fyd yn ei amser.

gwyddiadau hyn y cyfeiriai Eliphaz yn ddi-aniau, trwy eu bod heb ddygwydd yn amser Job; ond y maent yn anglireistiau eglurhaol yn ein bamsr ni.

Adn. 21. *Rhag ffreyll tafod y'th guddir*] Rhag enllibau, camgylluddiadau, a geiriau caledion a chelwyddog; *ac nid ofni rhag dinystr pan ddelo*—ar ereill o'th amgylch: gwel ar Salm xci. 3, &c.

Adn. 22. *Mewn dinystr a newyn y chwerrddi*] Nid chwerrthin yn anystyriol a gwatwarlyd a feddylir, ond llawenyelu yn santaidd a diolchgar i'r Arglwydd am ei fod ef yn ei gadw yn ddiogel yn nghanol ei farnedigaethau ar y ddaear; *ac nid ofni rhag bywstfilod y ddaear*—y rhai oeddynt aml ac ysglyfaethus iawn yn y gwledydd hyn.

Adn. 23. *Canys â cherig y maes y byddi mewn cynghrair*] Fel na syrthi arnynt, ac na tharewi dy droed wrthynt, Salm xci. 12. Yr oedd y cerig yn Arabia yn aml iawn, fel yr oedd yn dra anhawdd teithio yno; ac os at hyn y cyfeirir, y meddwl yw, y cai efe ei ffordd yn rhydd ac esmwyth. Ond tybia rhai mai yr ystyr yw, y cai Job fod mewn heddwch â'r rha; a drigent mewn creigiau neu gastelli yno, fel na ddrygent ef megys y gwnnethai y Sabeaid gynt. *A bwystfil y maes hefyd fydd heddychol â thi*—nid yn unig ni chai achos i'w ofni, adn. 22, ond efe a'th amddiffyn, am ei fod yn heddychol â thi.

Adn. 24. *A thi a gai wybod*] Trwy brofiad dedrwyd a pharhaus, y bydd heddwch yn dy luest—*oholecha*, yn dy 'babell symudol,' pan y bydd i ti ei lledu yn yr anialwch; *a thi a ymweli o'th drigfa—navecha*, a'th 'gartef sefydlog,' lle y bydd dy deulu yn trigianu; *ac ni phechi*—ni chai achos i feio rhagluniaeth am fod drwg wedi cyfarfod â hwy, a thrwy hyn bechu yn erbyn Duw.

Adn. 25. *A chai wybod hefyd mai lluosog fydd dy had*] Sef ei blant ef; ac felly y bu, pen, xlii. 16; *a'th hiliogaeth*—sef plant ei blant, hyd genhedlaeth a chenedlaeth. Cafodd Job fyw i weled pedair cenedlaeth, a'r rhai hyn yn lluosogi fwyfwy y naill ar ol y llall.

Adn. 26. *Ti a ddeni mewn henaint i'r bedd*]

27 Wele hyn, ni a'i chwiliasom, felly y mae: gwranddo hyny, a gwybydd er dy fwyn dy hun.

PENNOD VI.

A JOB a atebodd ac a ddywedodd,

2 O gan bwysio na phwysid fy ngofid, ac na chydgodid fy nhrychineb mewn clorianau!

3 Canys yn awr trymach fyddai na thywod y môr: am hyny y pallodd geiriau genyf.

4 O herwydd y mae saethau yr Hollalluog ynof, y rhai y mae eu

Heb gael dy dori i lawr yn hanner dy ddyddiau, neu cyn dy amser; *fel y cyfyd ysgafn o fyd yn ei amser*—sef yn amser casglu yr fyd i ddi-ddosfa. Wrth 'ysgafn o fyd' y meddylir tós o fyd, sef fyd wedi tyfu, addfedu, a'i gymauafa. Ti a gai fyw trwy wanwyn, haf, a chynauaf bywyd, nes y bydd yn bryd dy gasglu, fel grawn addfed, i ysgubor y nefoedd.

Adn. 27. *Wele hyn, ni a'i chwiliasom*] Fel pe dywedasai, Nid fy ngolygiadau i yn unig yw yr hyn a ddywedais uchod, ond golygiadau fy nghyfeillion hefyd, a hyny ar ol yr ymchwiliad a'r ystyriaeth fanylaf; *felly y mae*—ac felly y bydd, i'r rhagrithiwr, yr edifeiriol, a phlentyn Duw: *gwranddo hyny*—sef y pethau a ddywedais i ti eisioes; *a gwybydd er dy fwyn dy hun*—cymhwysa y cwbl atat dy hun, fel y caffot les o'ldiwrth fy mardroddion. Fel hyn y terfyna araeth gyntaf Eliphaz, yr hon, er ei bod yn llawn o addysgiadau synwrol, nid oedd yn gyfaddasol yn mhob peth i achos Job.

PEN. VI. Adn. 1. *A Job a atebodd*] Mewn ffordd o'i gyfiawnhau ei hun yn ngwyneb rhai o haeriadau Eliphaz.

Adn. 2. *O gan bwysio na phwysid fy ngofid*] Sef achwyniadau Job o achos ei ofid, fel y mae rhai yn ei ddeall; *ac na chydgodid fy nhrychineb mewn clorianau*—fel y gallai Eliphaz a'i gyfeillion, ar ol rhoddi ei achwyniadau ef mewn un pen i'r clorian, a'i drychineb neu ei ddyoddefiadau yn y pen arall, welod pa un o'r ddau oedd drymaf. Neu, fel y mae ereill yn ei ddeall, efe a fynai i'w bechodau, os gellid eu profi, gael eu cydbwysu a'i ofid a'i drychineb, fel y gwelid nad yn ddiachos yr oedd ef yn achwynu.

Adn. 3. *Canys yn awr trymach fyddai*] Fy nhrychineb, na thywod y môr—Heb., 'mor-oedd,' sef tywod holl foredd y byd; ac yn wlyb fel y mae yn y moroedd, nid wedi sychu ac ysgafnhau: *am hyny pallodd geiriau genyf*—i fynegu ei holl bwysi, neu fy holl drueni.

Adn. 4. *O herwydd y mae saethau yr Hollalluog ynof*] Nid un, ond llawer; nid yn ei gorff oddiallan yn unig, ond yn ei enaid oddi-

gwenwyn yn yfed fy ysbryd : dy-
chrynfâu Duw a ymfyddinasant
i'm herbyn.

5 A rua asyn gwyllt uwchben
glaswellt? a fref ŷeh uwchben ei
borthiant?

6 A fwyteir peth diflas heb halen?
a oes flas ar wŷn wŷ?

7 Y pethau a wrthododd fy enaid
eu cyffwrdd, sydd megys bwyd
gofidus i mi.

8 O na ddeuai fy nymuniad! ac
na roddai Daw yr hyn yr ydwyf yn
ei ddysgwyl!

9 Sef rhyngu bodd i Dduw fy

nryllio, a gollwng ei law yn rhydd,
a'm tori ymaith.

10 Yna cysur a fyddai eto i mi,
ie, mi a ymgaledwn mewn gofid;
nac arbeded, canys ni chelais ymad-
roddion y santaidd.

11 Pa nerth sydd i mi i obeithio?
a pha ddiwedd fydd i mi, fel yr es-
tynwn fy hoedl?

12 Ai cryfder cerig yw fy nghryf-
der? a ydyw fy nghawod o bres?

13 Onid ydyw fy nghymhorth ynof
fi? a fwriwyd doethineb yn llwyr
oddiwrthyf?

14 I'r cystuddiol y byddai tru-

sewn. Tybia rhai fod Job yn hyn yn gysgod
o Grist, yr hwn a gwynai yn benaf o herwydd
dyoddefiadau ei enaid. *Y rhai y mae eu
gwenwyn yn yfed fy ysbryd*—meddylir fod
yma gyfeiriad at arferiad hen ryfelwyr o drochi
blaenau eu saethau mewn gwenwyn; a phan
archollid dyn gan y saethau hynny, treiddiai y
gwenwyn trwy ei waed, poethai a chwyrddai ei
holl gorff, sychid neu yfid i fyny ei holl hylif-
au, dygid yn mlaen lygredigaeth a gorphwyll-
edd, a therfynai ei ddyoddefiadau bob amser
mewn marwolaeth. *Dychrynfâu Duw a
ymfyddinasant i'm herbyn*—fel byddinoedd
arfog wedi ei amgylchu o bob tu, ac yn barod
i'w ddryllio.

Adn. 5. *A rua asyn gwyllt uwchben glas-
wellt? &c.*] Cyffelybai Job dawelwch Eliphaz
a'i gyfeillion, yn eu hawddfyd, i dawelwch
asynod ac ychain uwchben eu porthiant; a
chlyfelybai ei ochain a'i gwynfan ei hun i ruad
a bresiad y creaduriaid hynny pryd na chaent
borthiant: nid oedd neb yn rhyfeddu clywed
y rhai hynny yn rhoi ac yn bresu o eisiau ym-
borth, a phaham y rhyfeddid wrth ei glywed
yntau yn cwyno yn ei gystudd trwm?

Adn. 6. *A fwyteir peth diflas heb halen?*]
Tybia rhai fod Job yn yr adnod hon yn cyfeir-
io at ymadrodd Eliphaz fel yn ddiffas, ac nas
gallai eise ei dderbyn na'i wrando yn gysurus,
mwy nag y gallai un fwyta rhyw fwyd diflas
heb halen. *A oes flas ar wŷn wŷ?*—nac oes;
ac nid oedd dim blas chwaith ar ymadrodd
Eliphaz. Ond tybia ereill mai at ei gystudd
ei hun y cyfeiriai Job, yr hwn oedd mor ddi-
ffas iddo ef a bwyd diflas heb halen; ac nas
gallai ei ddyoddef, o ganlyniad, heb ochain a
chwyno. *Y mae y LXX yn cyfieithu y darn
olaf, 'a oes flas ar eiriau ofer?' a'r Vulgate
'a all un brofi yr hyn, o'i brofi, a bair farwol-
aeth?'* Ond tybia Mr. Mudge mai ystyr y
wreiddiol yw, 'a oes blas dymunol ar feddyg-
lyn gwrthwynebydd neu ffiaidd?'

Adn. 7. *Y pethau a wrthododd fy enaid
eu cyffwrdd*] Sef naill ai ei gystudd trwm, neu
ynte eiriau llymion Eliphaz; *sydd megys
bwyd gofidus i mi*—yr hwn yr wyf yn gorfod
ei gymeryd, er mor ddiffas a chwerw ydyw.
Ond tybia rhai ei fod yn cyfeirio at ymborth
naturiol, yr hwn yr oedd eise yn awr yn gorfod

ei fwyta, er y gwrthodai ei gymeryd yn amser
ei iechyd a'i lwyddiant.

Adn. 8. *O na ddeuai fy nymuniad!*] Yr
hwn a enwa ef yn yr adnod nesaf.

Adn. 9. *Sef rhyngu bodd i Dduw fy nryll-
io*] Fel y darfyddo fy einioes a'm tralloed ar
unwaith; a *gollwng ei law yn rhydd*—oddiar
llynyn ei fwa neu fon ei saeth; *a'm tori ymaith*
—âg un ergyd angeuol. Y mae yn eglur oddi-
yma nad oedd Job yn meddwl y byddai iddo
ef wella o'r cystudd hwn; a dymunai gael
marw yn ddiocid.

Adn. 10. *Yna cysur a fyddai eto i mi*]
Wrth feddwl y cai farw yn fuan, a'i waredu
felly o'i ofid; neu gysur i'w enaid ar ol marw;
ie, mi a ymgaledwn mewn gofid—mi a ym-
gynaliwn dano gyda mwy o wroled, neu 'a
lawenychwn,' fel y myn rhai ei gyfieithu,
wrth feddwl y byddai fy ngofid ar ben yn fuan,
ac y cawn inau wntfyd i'm benaidd yn y nef.
Nac arbeded—Daw fy nryllio a'm tori ymaith;
canys ni chelais ymadroddion y santaidd—
gwnaethym broffes gyhoeddus o'r Daw sant-
aidd yn fy mywyd, ac yr wyf yn credu yn ddi-
ysgog yr arddel yntau finau fel ei eiddo cyf-
ammodol.

Adn. 11. *Pa nerth sydd i mi i obeithio*]
Am wellâd ac estyniad dyddiau, fel yr addaw-
sai Eliphaz iddo, pen. v. 26? *A pha ddiwedd
fydd i mi*—pa ddiwedd dewydd a allai ef ei
ddysgwyl mwyaech yn y byd hwn, fel ag i
chwennych cael estyn ei fywyd i'w fwynlau?

Adn. 12. *Ai cryfder cerig yw fy nghryf-
der? &c.*] Fel pe dywedasai, Nid wyf fi wedi fy
ngwneyd o gerig neu bres, eithr o gig a gwaed
fel ereill; ac am hynny nis gallaf ddal dan y
cystudd hwn yn hir iawn. Neu, a oedd ei
gyfeillion yn meddwl ei fod ef mor ddideimlad
a cherig neu bres, fel ag i allu dyoddef ei holl
gystuddiau heb gwyno ac ocheneidio?

Adn. 13. *Onid ydyw fy nghymhorth ynof
fi?*] Er na feddai nerth yn fy nghorff, neu y
dyn oddiullan, eto y mae genyf beth help a
chynaliaeth yn y dyn oddimewn, sef cydwytod
dda, neu ymwybodolrwydd o'm cywrhded tuag
at Dduw, er mor chwerw yw eich cyhuddiadau
ehwi yn fy erbyn, fel pe bawn ragrithiwr. *A
fwriwyd doethineb yn llwyr oddiwrthyf?*—
os nad oes genyf nerth yn fy nghorff, neu os

garedd oddiwrth ei gyfaill ; ond efe a adawodd ofn yr Hollalluog.

15 Fy mrodyr a'm twyllasant megys afon: aethant heibio fel llif-eiriant afonydd ;

16 Y rhai a dduasant gan rew, ac yr ymguddiodd eira ynddynt :

17 Yr amser y cynhesant, hwy a dorir ymaith : pan wresogo yr hin, hwy a ddarfyddant allan o'u lle.

18 Llwybrau eu ffordd hwy a giliant: hwy a ânt yn ddyddim, ac a gollir.

19 Byddinoedd Tema a edrych-

collais fy iechyd, fy mhlant, a fy meddiannau, ai nid yw fy rheswm genyf, fel ag i allu deall fy nghyflwr fy hun yn well na chwi ?

Adn. 14. *Yr cystuddiol y byddai trugaredd oddiwrth ei gyfaill*] Gallai dyn cystuddiol ddysgwyl cydymdeimlad, tosturi, a thrugaredd oddiwrth bob dyn, ac yn enwedig oddiwrth gyfaill neu frawd crefyddol ; *ond efe*—ei gyfaill, sef Eliphaz, *a adawodd ofn yr Hollalluog*—bwriodd ymaith bob teimlad crefyddol, neu barch i awdurdod Duw, yr hwn sydd yn gorchymyn tosturi tuag at y cystuddiol. Y Ynlgate a'i cyfieitha, 'yr hwn a dyno ymaith drugaredd oddiwrth ei gyfaill, a fwriodd ymaith ofn yr Arglwydd.'

Adn. 15. *Fy mrodyr a'm twyllasant fel afon*] A sychai yn fuan. Ymddanghosai Eliphaz, Bildad, a Sophar, yn frodyr a chyfeillion cywir i Job yn ei iechyd a'i lwyddiant, a dysgwylasai yntau gael llawer o gysur a chynorthwy ganddynt yn ei adfyd a'i gystudd presenol ; ond hwy a'i twyllasant ef yn ei ddysgwyladaw, fel afon a sychai yn fuan. *Aethant heibio fel llif-eiriant afonydd*—pan doddai yr eira ar y mynyddoedd yn y gwledydd hynny, rhedai y dyfroedd am beth amser yn afonydd llifeiriol ar hyd y gwastadedd ; ond buan y llyncid hwy gan y ddaear sychedig a chras, neu yr aent heibio i'r môr, fel na fyddai yno ddim wedi ei adael i ddisychedu y minteioedd a deithiant y ffordd hōno.

Adn. 16. *Y rhai a dduasant gan rew, &c.*] Meddylir fod yma gyfeiriad at afonydd yn rhwy yn ddŷ yn y gauaf, a'r eira yn cuddio y dŷwch hwnw : felly cyfeillion Job a ymddangosent yn dŷg tuag ato yn ei lwyddiant ; ond yn awr, yn ei adfyd, yr oedd y wedd dŷg hōno wedi cilio, ac nid oedd dim ord dŷwch neu ddigter yn cael ei ddangos iddo. Neu, pan welai ymdeithwyr yr afonydd yn llawn o rew ac eira yn y gauaf, gobeithiant gael dwf yr pan ddenent heibio yn yr haf ; ond erbyn dyfod yno yn yr haf poeth, byddai y cwbl wedi sychu i fyny. Felly Job, wrth wled cyfeillgarwch ei frodyr yn ei lwyddiant, a obeithiasai eu cael hwy yr un mor gyfeillgar yn ei adfyd ; ond, er ei ofid, efe a siomwyd ynddynt.

Adn. 17. *Yr amser y cynhesant*] Gan wres yr hin ; *hwy a dorir ymaith*—toddir y rhew, a'r dyfroedd a redant neu a agerant ymaith,

asant, minteioedd Seba a ddysgwylasant am danyrt.

20 Hwy a gywilyddiwyd, am iddynt obeithio ; hwy a ddaethant hyd yno, ac a wladeiddiasant.

21 Canys yn awr nid ydych chwi ddim ; chwi a welsoch fy nhaflu i lawr, ac a ofnasoch.

22 A ddywedais i, Dygwch i mi ? neu, O'ch golud rhoddwch roddion dros of fi ?

23 Neu, Gwaredwch fi o law y gelynn ? neu, Rhyddhewch fi o law y cedyrn ?

Felly cyfeillion Job, pan ddaeth adfyd arno, eu cyfeillgarwch a ddarfu.

Adn. 18. *Llwybrau eu ffordd hwy*] Sef y rhychau neu y flosydd ar hyd y rhai y rhedai y dyfroedd hynny ; *a giliant*—a ddarfyddant, neu a beidiant â bod yn wely dyfroedd, fel na bydd yno ddim o'u hôl. I'r rhai hynny y cyffelybai Job ei gyfeillion, y rhai nad oedd eu cyfeillgarwch ond o fyr barhad. Nid oes nemawr o afonydd parhaus mewn llawer o'r gwledydd dwyreiniol, eithr llifogydd yn dyfluo o'r mynyddoedd ar ol gwlaw nuawr neu doddad eira, y rhai a sychant yn ebrwydd.

Adn. 19. *Byddinoedd Tema a edrychasant*] Am y ffrydiau dyfroedd hynny ; *minteioedd Seba a ddysgwylasant am danynt*—ond yn ofer, am eu bod wedi darfod neu sychu ymaith. Y byddinoedd hyn oeddynt deithwyr masnachol yn Arabia, y rhai a ddaethent yno gyda'u camelod mewn gobaith cael dwf.

Adn. 20. *Hwy a gywilyddiwyd*] Neu a siomwyd yn ddinfawr ; *am iddynt obeithio*—cael dwf yno, ac addaw hynny wrth eu gilydd : *hwy a ddaethant hyd yno*—er pelled oedd, mewn gobaith o gael tori eu syched ; *ac a wladeiddiasant*—cywilyddiwyd a digalonwyd hwy gan eu siomedigaeth a'u syched mawr.

Adn. 21. *Canys yn awr nid ydych chwi ddim*] Nid ydych o ddim cysur i mi, mwy nag yr oedd y ffrydiau twyllodrus hynny i fyddinoedd Tema a Seba, adn. 19. *Chwi a welsoch fy nhaflu i lawr*—o fod yn fwyaf o feibion y dwyrain, i fod yn lleiaf o honnynt oll, neu y mwyafr adfydus a dirmygedig o bawb yn y wlad ; *ac a ofnasoch*—ofnent y denent i warth wrth gyfeillachu âg ef ; neu ofnent y byddai iddo ef yn ei dyfodi fod yn faich arnynt hwy ; neu ynte ofnent nesau ato ef, rhag y byddai ei anadl a'i gorwydydd yn heintus iddynt.

Adn. 22. *A ddywedais i, Dygwch i mi*] Anrhegion i'm cynorthwyo yn fy ahylddi presenol ; *neu, O'ch golud rhoddwch roddion dros of fi*—i brynu fy anifeiliaid yn ol o ddwy-law y Sabeaid a'r Caldeaid ? Y Saesonag yw, 'o'ch golud rhoddwch wobr i mi'—hynny yw, a ofynais i am anrheg genych o'ch eiddo ?

Adn. 23. *Neu, Gwaredwch fi o law y gelynn ?*] A geisiais i genych fy ngwaredu i o law y Sabeaid, fel y gwaredwyd Lot gan Abrahaham o law y brenhinoedd ; *neu, Rhydd-*

24 Dysgwch fi, a myfi a dawaf: a gwnewch i mi ddeall yn mha beth y camgymerais.

25 Mor gryfion ydyw geiriau uniondeb! ond pa beth a argyhoedda argyhoeddiad un o honoch chwi?

26 Ai argyhoeddi ymadroddion a amcenuch chwi i geiriau un diobaith, y rhai sydd megys gwynt?

27 Chwi a ruthrwch hefyd am ben yr amddifad, ac a gloddiwch *bwl* i'ch cyfaill.

28 Yn awr gan hyny byddwch foddlon; edrychwch arnaf fi; canys

y mae yn eglur i chwi os dywedaf gelwydd.

29 Dychwelwch, atolwg, na fydded anwiredd; i.e. trowch eto, *y mae* fy nghyfiawnder yn hyn.

30 A oes anwiredd yn fy nhafod oni ddeall tafnod fy ngenau gam flas?

PENNOD VII.

ONID oes amser terfynedig i ddyn ar y ddaear? *onid yw ei ddyddiau ef megys dyddiau gwas cyflog?*

2 Megys y dyheua gwas am gys-

hewch fi o law y cedyrn—trwy roddi prid-werth drosaf, neu trwy nerth arfau? Y gwirionedd yw, nid oedd Job wedi gofyn am ddim gan neb o honynt, nac wedi eu gwahodd hwy ato: daethant yn mlaen o honynt eu hunain yn gwbl. Ac am hyny, os na allent ddywed-yd dim a fyddai o gysur iddo, efe a awgrymai y buasai yn diriondeb ynddynt beidio dywed-yd dim i'w ddolurio.

Adn. 24. *Dysgwch fi* Danghoswch i mi yn mha beth yr wyf yn cyfeillorni; a *myfi a dawaf*—mi a wrandawaf arnoch yn amynedd-gar; neu mi a beidiaf â chwyno. *Gwnewch i mi ddeall yn mha beth y camgymerais*—argyhoeddych fi o'm cyfeillionadau mewn perthynas i ddwyfol ragluniaeth, os gellwch.

Adn. 25. *Mor gryfion ydyw geiriau uniondeb!* Sef geiriau gwirionedd a rheswm, neu reswm wedi ei seilio ar wirionedd. *Onid pa beth a argyhoedda argyhoeddiad un o honoch chwi?*—y mae eich ymresymiad chwi yn ddiffygiol, am fod eich cynseiliau yn dwyll-odrus; a'ch casgliadau ni phroffant ddim, o herwydd twyll y cynseiliau oddiar ba rai eu tynir.

Adn. 26. *Ai argyhoeddi ymadroddion a amcenuch chwi!* Sef dal ar ymadroddion a ddywedwyd genyf yn fy nghystudd? *a geiriau un diobaith*—y rhai a draethwyd genyf yn fy nolar chwerw ac anobeithiol? *y rhai sydd megys gwynt*—heb fawr o ddal arnynt. Oni wyddoch fod dyn mewn cyflwr o anobaith yn dywedyl llawer o bethau na ddylid eu hystyried fel yn tarddu oddiar faru bwyllig? Paham gan hyny y cymerwch chwi y fath fantais ar ddyd a fyddo yn cwyno yn chwerwder ei ysbryd, a hyny mewn anobaith am fywyd neu ddedwyddwch?

Adn. 27. *Chwi a ruthrwch hefyd am ben yr amddifad!* Yr hwn wyf wedi fy amddifadu o fy meddiannau, fy mhlaent, a'm biechyd; *ac a gloddiwch bwl i'ch cyfaill*—i mi, yr hwn y profleswch fy nghyneryd fel eich cyfaill, yr un modd ag y cloddia helwyr bwl i fagu bwystfilod.

Adn. 28. *Yn awr gan hyny byddwch foddlon!* I'r hyn a ddywedasai efe eisiesio, neu i'r drygyfod a welent arno, heb chwanegu ato trwy en geiriau caledion; *edrychwch arnaf fi*—aill ystyriwch fy achos, fel y galloch farnu am danaf yn fwy tyner; *canys y mae yn eglur i*

chwi os dywedaf gelwydd—gellwch farnu drosoch eich hunain pa un a ydwyf yn gywir ai peidio, neu fy mod yn dywedyl y gwir. Neu, 'os yw foddlon genych, edrychwch neu gwrandewch arnaf fi yn fanylach, ac yna chwi a argyhoeddir na ddywedais ddim ond y gwirionedd.'

Adn. 29. *Dychwelwch, atolwg!* I ail ystyried fy achos; *na fydded anwiredd*—heb ei chwilio allan i'r cithaf; neu, na fydded i chwi fy ystyried i yn feis wrth geisio hyn genych. *I.e. trowch eto*—i ystyried y pwnc hwn yn fanylach; *y mae fy nghyfiawnder yn hyn*—y mae yn gytiawn i mi gael hyn genych; neu, yr wyf yn barod i ddangos fy mod yn hyn oll yn gyfiawn; neu, chwi a argyhoeddir, wrth chwilio yn fanylach, fy mod yn ddiueog. Tybia rhai fod cyfeillion Job y pryd hyn yn troi oddiwrtw ef i fyned ymaith, gau feddwl nad oedd wïw ymresymiad ag ef yn mhellach; a'i fod yntau yn atolygu arnynt ddychwelyd, i wrando yn mhellach arno ef: ac yn hyn efe a lwyddodd.

Adn. 30. *A oes anwiredd yn fy nhafod?* Sef yn y geiriau a lefarodd ete a'i dhafod. Hyn sydd apeliad difrifol at eu cydwybodau hwy eu hunain ei fod ef yn gywir. *Oni ddeall tafnod fy ngenau gam flas?*—efe a gyfeiria yma at ei synwyr, trwy yr hwn y gallai farnu geiriau a gweithredoedd, yn gystal ag y gallai tafnod ei enau, neu ei archwaeth, farnu bwydydd.

PEN. VII. Adn. 1. *Onid oes amser terfynedig i ddyn ar y ddaear?* Yr Hebraeg yw, *halo tsaba leenosh aley arctis*; a'r cyfeithiad llythrenol yw, 'Onid oes milwriaeth i ddyn truenus ar y ddaear?' Ac fel hyn y mae y rhan fwyaf o'r hen gyfeithiadau yn deall y wreiddiol. 'Yr wyf fi yn meddwl,' ebai CLARKE, 'mai yr unig syniad ag yr ewyllyisiai yr ysgrifenydd ei gyfteu yw hyn: Fod bywyd dynol yn *gyflwr o braef*; a bod pob diwrnod a lle yn ddiwrnod a lle o *ymarfariad*, i'n *hyfforddi* i fyny i fywyd tragwyddol.' 'Ond ymddengys fod ein cyfeithiad ni,' ebai BENSON, 'mor gyson a'r Hebraeg, ac yn cynwys crystal ystyr, ag unrhyw un arall. Ymddengys mai meddwl Job yw, Onid oes amser byr, wedi ei derfynu gan l'Iduw, yn mha un y caiff dyn fyw yn y byd pechadurus a thruenys hwn, fel y gallo efe wedi hyny fyw

god, ac y dysgwyl cyflog-ddyn *wobr* ei waith :

3 Felly y gwnaethpwyd i mi feddiannu misoedd o oferedd, a nosweithiau blinion a osodwyd i mi.

4 Pan orweddwyf, y dywedaf, Pa bryd y codaf, ac yr ymedy y nos? canys caf ddigon o ymdroi hyd y cyfddydd.

mewn lle a chyflwr mwy santaidd a dedwydd? Ac a ydyw yn drosedd ynof fi ddymunio i Dduw fy nwyn i'r cyfnod hyfryd hwnw? *Onid yw ei ddyddiau ef megys dyddiau gwas cyflog?*—yn ddyddiau o *lufur* fel dyddiau gwas cyflog, yr hwn sydd i gael ei *wobr-woyo* ar ol hyn? Ac onid yw yn rhesymol i mi, gan hyn, ddymunio neu hiraethu am fod i ddyddiau fy *milwriaeth* a'm *llafur* fyned heibio, fel y byddo i mi gael *gorphwys*, a derbyn fy *ngwobr*? Y mae yn eglur mai amcan Job yw, nid dangos byrdra bywyd, ond ei gyfiawnhau ei hun am ddymunio cael marw. Tybia rhai, oddiwrth y geiriau hyn, fod Duw wedi dangos rhyw amser penodol i ddyw fyw ar y ddaear, fel nas gall effe farw yn *gynt*, na byw yn *hwy*. Ond pa fodd y cysonir y gyfryw dyb â'r ysgrythyr canlynol? 'Gwŷr gwaed-lyd a thwyllodrus ni byddant byw *hanner* eu dyddiau,' Salm lv. 23. 'Anrhydedda dy dad a'th fam, fel yr *estym*er dy ddyddiau ar y ddaear,' Exod. xx. 12: gwel ar pen. xiv. 5. Y mae yn wirionedd eglur fod llawer yn rhoddi terfyn ar eu bywyd eu hunain, ac ar fywyd ereill, cyn yr amser ag y buasai raid iddynt farw; a bod bywyd rhai ereill, trwy fendith Duw ar eu cyffoni, neu ar eu gofal hwy eu hunain am eu biechyd, yn cael chwaneu ato flynyddau lawer yn fynych, fel yn achos Hezociah, 2 Bren. xx. 6, 7. Byddai yn fwy rhesymol deall yr 'amser terfyneidig' uchod fel yn cyfeirio at y *deug mlynedd* a *thriugain* ag sydd wedi eu nodi i ddydolrwy yn awr fel *cyfartaledd* eu hoed, neu at ryw *nifer hel-ethaech* yn nyddiau Job; y rhai er hynny, fel 'dyddiau gwas cyflog,' y gellir eu *hestyn* neu eu *byrhau*. Darfu i lawer gwas, ar ol cyflogi am flyddyddyn, ymadael o'i le cyn pen y mis; ac ereill, o herwydd eu ffyddlondeb, a gawsant aros yn ngwasanaeth eu meist'r am flynyddau lawer.

Adn. 2. *Megys y dyheua gwas* Neu yr hiraetha efe yn awyddus, fel pe byddai ar goll i ei anad; *am gysgod*—sef am y nos, yr hon yw cysgod y ddaear, pryd y dyry efe heibio ei orchwyl; *ac y dysgwyl cyflog-ddyn wob'r ei waith*—neu ei gyflog ar ol ei orphen. Nid cysgod *pren*, rhag gwres y dydd, yn nghanol ei waith, a feddylir uchod; ond cysgodau yr *hwy*r, i gael ymadael oddiwrth ei waith.

Adn. 3. *Felly y gwnaethpwyd i mi feddiannu misoedd o oferedd* Neu fisoedd o fywyd poenus, blinderus, a diorhwys. Gall fod misoedd wedi myned heibio er pan ddechreuasai ei gystudd; neu yr oedd ychydig ddydd-

5 Fy nghnawd a wisgodd bryfed a thom priddlyd: fy nghroen a agenodd, ac a aeth yn ffiائد.

6 Fy nyddiau sydd gynt na gwenol gwehydd, ac a ddarfuant heb obaith.

7 Cofia mai gwynt yw fy hoedl: ni wel fy llygaid ddaioni mwyach.

8 Y llygad a'm gwelodd, ni'm

iau, yn y fath boen, yn ymddangos iddo ef fel misoedd. *A nosweithiau blinion a osodwyd i mi*—cai y gwas uchod orphwys yn y nos; ond i Job nid oedd seibiant y nos mwy na'r dydd, ond blinder a phoen yn ddbaid. Ystyr y dlyw adnod hyn yw, Fel yr oedd y gwas yn llafurio yn galed trwy y dydd, felly yr oedd Job am fisoedd yn nghyd; ond tra yr oedd y gwas yn cael gorhwys y nos, nid oedd Job yn cael dim seibiant: ac fel yr oedd y gwas yn hiraethu am y nos, pryd y cai orphwys a derbyn ei gyflog; felly yr oedd Job yn hiraethu am farw, a chael myned i fwynhau ei wob'r yn y nef.

Adn. 4. *Pan orweddwyf* I gysgu; *y dywedaf, Pa bryd y codaf, ac yr ymedy y nos?*—hyn yw, nid allai gysgu, ond meddwl yn hiraethus am wawriad y dydd, i gael codi eil-waith: *canys caf ddigon o ymdroi hyd y cyfddydd*—sef troi ar y naill ochr, ac wedi hyn ar y llall, yn ol ac yn mlaen trwy y nos. Y mae hwn yn ddarluniad o'r hyn ag y gwŷr y darllenwyd yn brofiadol am dano, os bu efe yn gorwedd ar wely cystudd.

Adn. 5. *Fy nghnawd a wisgodd bryfed* Rhyw fath ar gynrhon a fagent yn ei gornwydd, ac a orchuddient ei holl gorf. Dywed Michaelis fod y fath bryfed yn magu yn fynych gyda'r *elephantiasis*, yr hwn, fel y tybia rhai, oedd dolur Job: gwel ar pen. ii. 7. *A thom priddlyd*—trwy ei fod yn eistedd ac yn ymngreio yn y lludw. *Fy nghroen a agenodd*—yn y dolur a elwir *elephantiasis* y mae y croen, o herwydd ei anystwythdra, yn myned yn agenau fel hyn, yn enwedig yn y cymalau, o ba rai y rhed y cornwydlif ffeiddiaf: gwel ar Deut. xxviii. 27. *Ac a aeth yn ffiائد*—yr olwg arno, trwy y pryd, y dom, a'r cornwydlif.

Adn. 6. *Fy nyddiau sydd gynt na gwenol gwehydd* Yn ei symudiad o naill ochr y wé i'r llall; *ac a ddarfuant heb obaith*—am ddychweliad o honant mwyach, er dim allai ef ei weled. Nid dyddiau ei adfyd presenol a feddylir, canys cwynai fod y rhai hyn yn feithion iawn, ac yr oeddlynt eto heb ddarfod; eithr dyddiau ei icchyd a'i lwyddiant: yr oedd yr holl ddyddiau hyn, yn ei olwg ef, wedi dirwyn i fyny a darfod megys ar unwaith, heb obaith eu cael yn ol.

Adn. 7. *Cofia mai gwynt yw fy hoedl* 'Gwynt yn myned, ac heb dychwelyd,' Salm lxxviii. 39; *ni wel fy llygaid ddaioni mwyach*—adim daioni tymborol yn y bywyd hwn. Y mae Job yma, wrth ganfod arwyddion ond odid fod ei gyfeillion yn blino with wrando

gwel *mwyach*: dy lygad sydd arnaf, ac nid *ydwyf*.

9 *Fel y derfydd y cwmwl*, ac yr â ymaith: felly yr hwn sydd yn disgyn i'r bedd, ni ddaw i fyny *mwyach*.

10 Ni ddychwel mwy i'w dŷ: a'i le nid edwyn ef mwy.

11 Gan hyny ni warafunaf i'm genau; mi a lefaraf yn nghyfyngdra fy ysbryd; myfi a gŵynaf yn chwerverder fy enaid.

12 Ai môr *ydwyf*, neu forfil, gan dy fod yn gosod cadwriaeth arnaf?

13 Pan ddywedwyf, Fy ngwely

a'm cysura, fy ngorweddfa a esmwytha fy nghwynfan;

14 Yna y'm brawychi â breuddwydion, ac a'm dychryni â gweledigaethau:

15 Am hyny y dewisai fy enaid ymdagu, a marwolaeth yn fwy na'm hoedl.

16 Ffieiddiais *cinioes*, ni fynwn fyw byth: paid â mi, canys oferedd *ydwyf* fy nyddiau

17 Pa beth *ydwyf* dyn, pan fawrhêit ef? a phan osodit dy feddwl arno?

arno, yn troi i lefaru wrth ei Wnenthurwr. Y fath gysur yw meddwl, os na wrendy dynion arnom, y gwrendy Dnw; os nad allant hwy ein cynorthwyo, y medr efe; canys ni fyrlhaodd ei law, ac ni thrymaodd ei glust! *Esay* lix. 1.

Adn. 8. *Y llygad a'm gwelodl*] Yn rhodio daear; *ni'm gwel mwyach*—yn rhodio felly, wedi i mi farw, a chael fy nghuddio yn y bedd. *Dy llygad sydd arnaf, ac nid ydwyf*—gelli âg un edrychiad fy nifodi! Y mae hyn o'r un ystyr a Dat. xx. 11, 'Oddiwrth wyneb yr hwn y fôdd y ddaear a'r nef, a lle ni chafwyd iddynt.' Ond tybia HERDER ac ereill mai yr ystyr yw, y byddai i Dduw edrych am dano, ac heb ei gael: gwel ar adn. 21.

Adn. 9. *Fel y derfydd y cwmwl*] Trwy ddylanwad gwynt neu wres; ac yr â ymaith—heb ddychwelyd mwyach i'w safle yn yr awyr fel y bu; *felly yr hwn sydd yn disgyn i'r bedd*—y mae y gair *sheol* yn arwyddo trigle yr ysbrydion ymadawedig, yn gystal a'r bedd; *ni ddaw i fyny mwyach*—i rodio daear fel y bu, adn. 10. Nid yw Job yma yn gwadu yr adgyfodiad cyffredinol yn y dydd diweddaf, nac yn cyfeirio ato; eithr dangos y mae, na ddychwel y meirw i breswlyho yma fel y buont o'r blaen: ac onid yw pawb yn credu hyny?

Adn. 10. *Ni ddychwel mwy i'w dŷ*] I gartrefu yn mynwes ei deulu, fel y dychwelai o'r blaen o bob man lle yr elai; *a'i le nid edwyn ef mwy*—arall fydd yn byw yn ei fwthyn, yn cysgu yn ei wely, yn eistedd yn ei gadair, ac yn gwisgo ei ddillad, ac yntau yn y bedd.

Adn. 11. *Gan hyny ni warafunaf i'm genau*] Gan yr âf i'm bedd yn fuan, lle ni chaf lefaru mwyach, nid attaliaf fy ngenau rhag llefaru tra y byddaf byw; *mi a lefaraf yn nghyfyngdra fy ysbryd*—am fy ngofidiau chwerveron; *myfi a gŵynaf yn chwerverder fy enaid*—o herwydd fy nghystudd a'm poenau. Wrth feddwl na ddychwelai mwy i'w dŷ, ac na welai ddaioni mwyach ar dir y rhai byw, nis gallai lai na rhoddi lle i'w deimladu dori allan mewn cwynfaniadau; ac yr oedd llefaru a chwyno felly yn rhyw esmwythâd i'w feddwl, er maint a feisai ei gyfeillion arno am hyny.

Adn. 12. *Ai môr ydwyf*] Yr hwn y rhaid ei gadw â mur o dywod rhag gorchuddio o

hono y ddaear? *Neu forfil*—yr hwn yr ystyrir yn beryglus neslu ato heb lawer o wyliaid-wriaeth? Wrth y 'môr' yma y dealla rhai y *Nilus*, yr hon a lifa yn fynych dros ei glênnydd, gan wnenthur y galanasdra mwyaf; ac wrth y 'morfil' y deallant y *crocodil*, yr hwn yn aml a ddyfetha ddynion ac anifeiliaid ar lanau yr afon hono. Y LXX a'i cyfieithant yn *ddraig*. *Gan dy fod yn gosod cadwriaeth arnaf*—gan dy fod yn fy nghaethio â'r dolur blin hwn, fel pe bawn fwystfil rheibus, rhag gwnenthur o honof ddirodiadau ar y ddaear.

Adn. 13. *Pan ddywedwyf, Fy ngwely a'm cysura*] Trwy roddi i mi hân felys a thawel, yr hon a bair i mi anghofo fy mhoen am dro.

Adn. 14. *Yna y'm brawychi â breuddwydion*] O'r fath fwyaf arswydu; ac a'm dychryni â gweledigaethau—gwirioneddol neu ddychymgol. Felly, cyn gynted ag yr hunai Job, goddefai Duw i Satan ei ddychrynu ef â drychiolaethau hyllig; neu fe allai fod Satan yn ymrithio ei hunan o'i flaen ef.

Adn. 15. *Am hyny y dewisai fy enaid*] Sef efe ei hun; *ymdagu*—y mae Good yn ei gyfieithu yn *ymfygu*, gan dybio fod Job yn cyfeirio at ddiiffyg anadliad, y fath ag a deulmir mewn *incubus* neu yr hunlell. *A marwolaeth yn fwy na'm hoedl*—huasai yn fy dewisol ganddo gael marw trwy fygu neu dagu, er mor boenus ydoedd, na byw yn ei gyflwr poenus presenol. Yn lle 'yn fwy na'm hoedl,' uyn rhai ei gyfieithu, 'yn hytrach na byw yn y fath *ysgerbwid* o gorff.'

Adn. 16. *Ffieiddiais cinioes*] Gan mor chwerver ydyw i mi ddydd a nos; *ni fyfynn fyw byth*—pe gallwn, a hyny hyd yn nod mewn corff iach, am y cedwid fi felly o'r bywyd gwell ag sydd tudraw i angau. *Paid â mi*—'O gollwng fi!'—GOOD. Neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'Tyn dy law oddiwrthyf;' hyny yw, nail ai, (1) Ei law gynaliol, yr hon oedd yn attal i Job farw; neu ynte, (2) Ei law *geryddol*: gwel ar adn. 19. *Canys oferedd ydyw fy nyddiau*—y maent yn wâg o bob daioni a dedwyddwch, ac yn llawn o boen a blinder, ac felly yn annheilwng o sylw y fath Fôd goruchel.

Adn. 17. *Pa beth ydyw dyn*] Heb., *enosh*, 'dyn gwael a syrthiedig;' *pan fawrhêit ef*—trwy sylwi arno i'w *gospî*? Cawn eiriau cy-

18 Ac ymweled ág ef bob bore, a'i brofi ar bob moment?

19 Pa hyd y byddi heb gilio oddi-wrthyf, ac na adwefi fi yn llonydd tra llynewyf fy mhoeryn?

20 Myfi a bechais, beth a wnaef i ti, O Geidwad dyn? paham y gosodaist fi yn nôd i ti, fel yr ydwyf yn faich i mi fy hun?

21 A phaham na faddeui fy nghamwedd, ac na fwri heibio fy anwiredd? caufs yn awr yn y llwch

y gorweddaf, a thi a'm ceisi yn fore, ond ni byddaf.

PENNOD VIII.

YNA Bildad y Suhiad a atebodd ac a ddywedodd,

2 Pa hyd y dywedi di hyny? ac y bydd geiriau dy enau megys gwynt cryf?

3 A wýra Duw farn? neu a wýra yr Hollalluog gyfiawnder?

ffelyb yn Salm viii. 4, &c., a Heb. ii. 6, &c.; eithr yno cynwysant ystyr hollol wahanol: gwel y sylwadau yno. Yma arwyddai Job fod dyn pechadurus yn cael ei *farwau* hyd yn nod wrth gael ei *gosp*i gan Fôd mor oruchel â Duw; ac yn unol â hyn y Syriaeg a'i darllena, 'Pa beth yw dyn pan *dlystrywit* ef?' A *phan osodit dy feddwl arno*—nid i ymserchu ynddo, ond i'w gosi ef. Y mae rhediad y cyd-destynau yn ein gorfodi i edrych ar y geiriau yn yr ystyr yma. Fel pe dywedasai, Y mae yn ormod o ymostyngiad ynot ti, ac yn ormod o anrhydedd i ddyn mor ddisylw, fod i ti, y Duw mawr hollalluog, ymryson ág ef yn barhaus, a galw allan dy holl fyddinoedd i'w erbyn, fel pe byddai ef yn gyfartal i ti.

Adn. 18. *Ac ymweled ág ef bob bore*] A cheryddon neu gopedigaethau, heb i un diwrnod o louyddwch gael ei estyn iddo; *a'i brofi*—trwy gystudd blin a phoenus, *ar bob moment*—yn barhaus neu diorhphwys, heb gylmair ag un eillid o seibiant.

Adn. 19. *Pa hyd y byddi heb gilio oddi-wrthyf*] Fel ag i adael llonydd i mi? neu, fel y gellir cyfeithu y wreiddiol, 'heb dynu dy *lygaid* oddiarnaf?' Meddylir fod yma gyfeiriad at ymladdwr yn edrych yn barhaus ar eu gilydd. *Ac na adewi fi yn llonydd tra llynewyf fy mhoeryn?*—ymadrodd diarebol, mewn arferiad hyd heddyw yn Arabia, yn arwyddo *amser byr*, neu tra y byddir yn tynu un anadliad.

Adn. 20. *Myfi a bechais*] Er nad addefai Job wrth ei gyfeillion ei fod yn bechadur neu ragrithiwr, eto efe a gyfaddefai gerbron Duw ei fod yn bechadur fel ereill o ddynolryw. *Beth a wnaef i ti*—i foddioni dy gyfiawnder neu adennill dy ffafr? *O Geidwad dyn*—gall fod Job yn defnyddio yr enw hwn fel dadl am drugaredd, gan fod cadw dyn yn fwy hoff gan Dduw na'i ddinystrio ef. Ond y mae rhai yn ei gyfeithu, '*O wyltiwr* dyn!' a thybia Kenicott ei fod yn cyfeirio at Eliphaz. *Paham y gosodaist fi yn nôd i ti*—yn fwy nag ereill, fel ag i dafu dy seethau ataf fi y naill ar ol y llall? *Fel yr ydwyf yn faich i mi fy hun*—o herwydd dirfawr bwys fy nghystuddiau; neu, 'yn faich i ti,' yn ol y LXX. Yr ystyr yw yn ol y Syriaeg, a rhai hen gyfeithiadau ereill, 'Os pechais, beth a wnaethym i ti?' neu, '*pa niweid* a allaf ei wneuthur i ti?' Ni fydd i'm hymddygiad effeithio ar dy ddedwyddwch di, nac mewn un modd niweiddio Bôd mor uchel a

thydi. Yn ol hyn, nid cyfaddefiad edifeiriol yw y geiriau, eithr math ar amddiffyniad iddo ei hun; fel pe dywedasai, A chaniatáu i mi bechu, ni baeddais y fath gerydd trwm ag a dderbynais oddiar law Duw. Pa ystyr bynag a roddwn i'r geiriau, yn enwedig i'r rhan olaf o'r adnod, y mae yma ysbryd afrywiog yn cael ei arddangos, yr hwn hys gellir ei esgusodi; ac yn wir y mae rhediad holl eiriau Job yn y gynlledd hon yn dangos, er ei fod ef yn wr da, nad oedd efe yn wr perffaith.

Adn. 21. *A phaham na faddeui fy nghamwedd?*] A chaniatáu ddarfod i mi bechu, paham, a thithau wedi cael trefn i faddeu, ac mor barod i faddeu i ereill, na baet yn madddeu i minau? *Ac na fwri heibio fy anwiredd*—gan ei dafu i fôr o anghoff tu ol i'th gefn? *Caufs yn awr yn y llwch y gorweddaf*—sef yn y bedd, neu lwch angau; *a thi a'm ceisi yn fore*—Saes., 'a'm ceisi yn y bore,' fel pe bawn i godi dranoeth o'r bedd, fel dyn o'i wely; *ond ni byddaf*—ar dir y rhai byw, neu wedi diuno o gwsgr marwolaeth. Y meddwl yw, Os na chai Job drugaredd yn fuan, y byddai yn rhy ddiweddar i drugarhau wrtho ef, am ei fod bron a disgyn i'r bedd; ac yna, er i Dduw ei geisio yn fore i drugarhau wrtho, na byddai ef i'w gael mewn manlle y gellid trugarhau wrtho.

PEN. VIII. Adn. 1. *Yna Bildad y Suhiad a atebodd*] Iiwn oedd yr ail lefarydd o dri chyfaill Job: gwel ar pen. ii. 11.

Adn. 2. *Pa hyd y dywedi di hyny?*] Sef geiriau grwnagnhlyd a chableddu yn erbyn Duw, y fath ag a draethasai efe yn y ddwy bennod flaenorol, ac yn pen. iii. *Ac y bydd geiriau dy enau megys gwynt cryf*—heb ddim sylwedd ynddyn, namyn trwst a rhuthir-terfsglyd; neu ynte yn chwythu yn barhaus yn yr un cyfeiriad, ac mor swniog fel nas gellir wrando na chlywed llais gwirionedd a rheswm.

Adn. 3. *A wýra Duw farn?*] *Eel*, 'y Duw cadarn; neu a wýra yr Hollalluog gyfiawnder?'—*Shaddai*, y Duw 'hollalluog ac ol-ddigonol.' Defnyddir yr enwau hyn yn twr-iadol i brofi nas gallai Duw ymddwyn yn anghyfiawn tuag at ddyd, am nad oedd angen arno i wneyd felly, trwy ei fod yn hunan-ddigonol er ei ddedwyddwch ei hun, ac yn alluog i wneyd y peth a fynai. Fel pe dywedasai, Y mae Duw yn awr yn dy gosi di, gan hyny rhaid fod achos cyfiawn yn galw am hyny,

4 Os dy feibion a bechasant yn ei erbyn ef; a bwrw o hono ef hwynt ymaith am eu camwedd;

5 Os tydi a fore-godi at Dduw, ac a weddii ar yr Hollalluog;

6 Os pur ac uniawn fyddi, yn wir efe a ddeffry atat ti yr awrhon, ac a wna drigfa dy gyfiawnder yn llywyddiannus.

7 Er bod dy ddechread yn fychan: eto dy ddiwedd a gynydda yn ddirfawr.

8 Oblegid gofyn, atolwg, i'r oes

gynt, ac ymbarotoa i chwilio eu henafiaid hwynt.

9 (Canys er doe yr ydym ni, ac ni wyddom *ddim*, o herwydd cysgod yw ein dyddiau ni ar y ddaear.)

10 Oni ddysgant hwy di? ac oni ddywedant i ti? ac oni ddygant ymadroddion allan o'u calon?

11 A gyfyd brwynen heb wlyb-aniaeth? a dyf hesg heb ddwfr?

12 Tra fyddo hi eto yn wyrddlas heb ei thori, hi a wywa o flaen pob glaswelltyn.

trwy nas gall ef wneuthur annghyfiawnder.

Adn. 4. *Os dy feibion a bechasant*] Neu, fel yr arwydda y wreiddiol, 'gan i'th feibion bechu yn ei erbyn ef.' Efe a gasglai hyny oddiwrth eu *cosp*, ar yr egwyddor a nodasai efe eisioes, adn. 3. *A bwrw o hono ef hwynt ymaith am eu camwedd*—sef eu lladd am y pechod hwnw, ac felly eu bwrw hwynt ymaith o gyraedd trugaredd, pen. i. 19.

Adn. 5. *Os tydi a fore-godi at Dduw*] Gan geisio ei drugaredd ef yn mlaenaf peth, neu fel dy *wnig neges* o hyn allan; ac a *weddii ar yr Hollalluog*—gan gyfaddef dy fai, yn lle grwgnach yn ei erbyn ef am dy geryddu. Fel pe dywedasai, Er i'th blant gael en *cospi* yn anfeddyginiaethol, eto yr wyt ti fyth mewn cyflwr o brawf, lle y gelli gael trugaredd, trwy ymostwng gerbron Duw, a gweddio arno.

Adn. 6. *Os pur ac uniawn fyddi*] Mewn calon a buchedd; yn *wir efe a ddeffry atat ti yr awrhon*—yn y fan, i wrando dy weddi a'th adfer o'th gystudd; ac a *wna drigfa dy gyfiawnder yn llywyddiannus*—hyny yw, os bydd i ti, trwy burdeb ac uniondeb, wneyd dy drigfa yn *gyfiawn*, fel y galler ei galw yn 'drigfa dy gyfiawnder,' yntau a'i gwna hi yn y fan yn *llywyddiannus*. Wrth y 'drigfa' hon y dealla rhai ei *gorff* ef, yr hwn a gai fod yn iach; ereill, ei *enaid*, yr hwn a gai fendithion ysbrydol: ond y mae yn debycach ei fod yn golygw ei *gartref* ef rhagllaw, yn nghyda'i holl amgylchiadau yn dymhorol ac ysbrydol.

Adn. 7. *Er bod dy ddechread yn fychan*] Ei sefyllfa flaenorol ef, yn ol rhai, neu ei gy-chwyniad yn y sefyllfa hōno; eto *dy ddiwedd a gynydda yn ddirfawr*—yn gymaint arall ag yr oedd yn y doehre: gwel ar ei. 3, a xlii. 12. Neu fe allai fod y 'dechread' uchod yn cyfeirio at ei ail ddechread ef ar ol ei adferiad, yr hwn oedd yn fychan iawn, dim ond ychydig roddion gan ei gyfeillion i ail ddechreu ei fyd, pen. xlii. 11.

Adn. 8. *Oblegid gofyn, atolwg, i'r oes gynt*] I wŷr yr oes hōno, y rhai oeddynt yn byw yn llawer hwy na dynion yn nyddian Job; ac *ymbarotoa i chwilio eu henafiaid hwynt*—y rhai a gaent ddatguddiadau anlach oddiwrth Dduw na nynt, a mwy o fanteision, trwy eu hir oes, i gyraedd gwybodaeth brofiadol o'r gwirionedd. Fel pe dywedasai, Chwilia yr hyfforddiadau a adawsant hwy ar ol, naill ai

mewn traddodiad neu ysgrifen, i'r dyben i gael gwybod trefn Duw o ymddwyn at ddy-nion.

Adn. 9. *Canys er doe yr ydym ni*] Ac felly ni chwosom ni fawr o amser i gyraedd gwybodaeth; ac *ni wyddom ddim*—mewn cydmhariaeth i'n henafiaid hir-hoodlog. *Cysgod yw ein dyddiau ni ar y ddaear*—yr hwn sydd yn fuan yn diflannu. Yn nechre yr ad-nod, haera Bildad mai newydd gael eu *geni* yr oeddynt hwy; ac, yn ei diwedd hi, y byddent *farw* megys yn mhen ychydig ddyddiau; ac o ganlyniad nad oeddynt hwy yn meddu yr un manteision a'u henafiaid i gyraedd gwybodaeth o drefn ymddygiadau Duw.

Adn. 10. *Oni ddysgant hwy di?*] Mai fel yr wyf fi ac Eliphaz yn dywedyd y mae pethau yn bod? *Ac oni ddywedant i ti*—yr un pethau a ninaw am ymddygiad Duw at wahanol ddy-nion? *Ac oni ddygant ymadroddion allan o'u calon*—sef ymadroddion gwirioneddol, yn tarddu oddiar wybodaeth wedi ei seilio ar hir brofiad?

Adn. 11. *A gyfyd brwynen heb wlyb-aniaeth*] I roddi maeth iddi? Meddylir yn gyffredin mai y *papyrus* a olygir, ar ba un yr arferid ysgrifenu cyn i'r gelyfddydo wneuthur papyr gael ei dyfeisio, ac oddiwrth ba un y cawsom ni ein gair *papyr*; ac felly ei gelwir yn nghyfieithiad y LXX, ar ba un yn ddiamau yr ysgrifent hwy eu cyfieithiad hwnw yn yr Aifft. *A dyf hesg heb ddwfr*?—cyfeirir yma at ddwfr-lysieuyn tra adnabyddus, yr hwn a dyf mewn llynoedd, ac ar lānau afonydd. Meddylir fod hon, ar' adnodau caulynol hyd ddiwedd adn. 19, yn ddarn o brydteu o eiddo rhai o'r 'henafiaid' crybwylledig, pa un a ddy-fynid gan Bildad i brofi ei bwnc.

Adn. 12. *Tra fyddo hi eto yn wyrddlas heb ei thori*] Os sycha y dwfr oddeutu ei gwraidd, hi a wywa o flaen pob glaswelltyn—yn gynt na phob glaswelltyn arall, yr hwn nid yw yn gofyn cymaint o wlybanaeth. Cawn y cymhwysiad o hyn at y rhagrithiwr yn y geiriau nesaf.

Adn. 13. *Felly y mae llywybrau pawb a'r sydd yn golwgw Duw dros gof*] Fel yr oedd y brwyn a'r hesg yn codi ac yn tyfu yn naturiol mewn dwfr, felly yr oedd y rhagrithiwr yn ymddangos yn ddyd crefyddol tra yr oedd rhagluniaeth Duw yn gweu arno, ac yn ei lwyddo yn y byd; ond pan ballai hyny, pallai

13 Felly *y mae* llwybrau pawb a'r sydd yn gollwng Duw dros gof, ac y derfydd am obaith y rhagrithiwr:

14 Yr hwn y torir ymaith ei obaith: ac *fel tŷ* prif copyn *y bydd* ei hyder ef.

15 Efe a bwysa ar ei dŷ, ond ni saif, efe a ymeifl ynddo, ond ni phery.

16 Y mae efe yn îr o flaen yr haul, ac yn ei ardd y daw ei frig allan.

17 Plethir ei wraidd ef yn nghylch y pentwr, ac efe a wel le cerig.

18 Os diwreiddia efe ef allan o'i le, efe a'i gwâd ef, *gan ddywedyd*, Ni'th welais.

19 Wele, dyma lawenydd ei ffordd ef; ac o'r ddaear y blagura ereill.

20 Wele, ni wrthyd Duw y perffiaith, ac nid ymeifl efe yn llaw y rhai drygionus;

21 Oni lanwo efe dy enau di â chwerthin, a'th wefusau â gorfoledd.

22 A gwisgir dy gaseion di â chywilydd, ac ni bydd lluestty yr annuwiol.

ei grefydd yntau, a gwywai fel brwynen neu hesg ar sychder. *Ac y derfydd am obaith y rhagrithiwr*—huny yw, (1) Naill ai *gwrth-ddrych* ei obaith, megys elw, anrhydedd, neu gyfeillion, neu ba beth bynag arall ag y gobeithiai efe ynddo. Neu, (2) Ei *obaith* ei hun, sef y gobaith am ddyfod i well cyflwr, neu i 'etifeddu sylwedd,' cyn marw. Yn yr ystyr yma, 'pan fyddo marw dyn drygionus, fe a ddarfu am ei obaith ef.' Diar. xi. 7. A llefaru yn briodol, ni all fod gan *ragrithiwr*, fel y cyfryw, obaith am y nefoedd, am mai un yn cario *rhith ddiwioledeb* ydys, ac yn chwennych cael ei dystyried yn ddyng crefyddol er mwyn rhyw ddybenion bydol, pryd y *gwŷr* nad oes ganddo grefydd: felly nis gall efe obeithio am ddedwyddwch tudraw i angau, am y *gwŷr* ei fod yn *duyllodrus*. Oddiar yr ystyriaeth hon myn rhai gyfieithu *chaneph* yma yn *ddyn anfad* neu *halogedig*, am fod y gair yn cyfleu y meddwl o *halogrywydd* yn hytrach na *ragrith*. Modd bynag, gellir ei gyfieithu yn '*ragrithiwr*,' fel y mae yn ein Beiblau ni, a'i dystyried fel yn '*gobeithio*' y derfydd ei ragrith cyn y derfydd ei einioes, ac y caiff yntau yn y diwedd ei dderbyn i'r nef.

Adn. 14. *Yr hwn y torir ymaith ei obaith*] Yn nhorïad ei lwyddiant, torir ymaith ei obaith hefyd; ac *fel tŷ prif copyn y bydd ei hyder ef*—yr hwn sydd yn frau iawn, ac yn hawdd ei ddryllio, ac felly heb fod yn amddiffynfa gadarn i'w berchenog.

Adn. 15. *Efe a bwysa ar ei dŷ*] Fel y pwysa neu yr hydgera y prif copyn ar ei dŷ neu ei wê, ac yr *ymafala* ynddo a'i ddywlaw (Diar. xxx. 28) pan fyddo y gwynt yn chwythu arno, neu yr ysgubell yn cyffwrdd âg ef; felly yr hydgera y dyn halogedig yn ei rith crefydd, a'r rhagrithiwr yn ei lwyddiant. *Ond ni saif*—ni phery ei grefydd a'i hyder ef, mwy na gwê y prif copyn: bydd i ychydig wyntoedd afwyddiant, neu demtasiynau a siomedigaethau, ei ddinystrio; ac yn enwedig ystormydd angau.

Adn. 16. *Y mae efe yn îr o flaen yr haul*] Hon sydd gydmarhaeth arall, yn cyffelybu y rhagrithiwr i winwydden neu blanhigyn iraidd wedi ei blannu mewn gardd frash, lle y mae yn brigo ac yn deilio yn brydierth yn ngwres yr

haul, ac nid yn gwywo fel y brwyn a'r hesg. Felly y rhagrithiwr, dan wên rhagluniaeth a llywyddiant bydol, a ymddengys am dro yn frigog a blodeuog gyda'i grefydd.

Adn. 17. *Plethir ei wraidd ef yn nghylch y pentwr*] Fel y gallai un feddwl ei fod yn ansymudadwy; ac *efe a wel le cerig*—a estyn ei wraidd am y cerig mawrion yn y ddaear, fel ag i ymddangos yn gadarnach fyth. Ond y mae HEATH yn ei gyfieithu, 'Efe a blethia ei wraidd o angylch *ffynnon*; efe a *ymgylma* am garnedd gerig.'

Adn. 18. *Os diwreiddia efe ef allan o'i le*] Os bydd i'r garddwr ei diwreiddio am ei fod yn bren diffrwyth; *efe a'i gwâd ef*—trwy ddywedyd wrtho fel pe byddai, *Ni'th welais*—y mae hon yn debyg i'r iaith a ddefnyddir gan y Barawr wrth y rhagrithiwr yn nydd y farn, 'Nis adnabum chwï erioed!' Mat. vii. 23.

Adn. 19. *Wele, dyma lawenydd ei ffordd ef*] Gwawdiaith gref; fel pe dywedasai, Wedi iddo dyfu a brigo yn bren iraidd am dro, yna y mae yn cael ei ddiwreiddio a'i wrthod fel pren diffrwyth, a'i daslu i'w losgi. Felly hefyd y rhagrithiwr, wedi iddo yntau ymddangos yn frigog, llywyddiannus, a llawen am beth amser, tra yr oedd gwenau rhagluniaeth arno, eto diwreiddir a gwedir yntau gan Dduw yn y diwedd, a bwrir efi i dan tragwyddol. Diamau fod Bildud yn cynhwysu hyn oll at Job, yr hyn oedd yn dra beius a chyfeiliornus ynddo. *Ac o'r ddaear y blagura ereill*—prenau ereill yn lle yr uchod; ac felly daw dynion ereill i le y rhagrithiwr.

Adn. 20. *Wele, ni wrthyd Duw y perffiaith*] Trwy ei ddiwreiddio a'i wadu ef, fel y gwnaeth efe â'r rhagrithiwr uchod; ac *nid ymeifl efe yn llaw y rhai drygionus*—i'w harwain, eu cynorthwyo, a'u bendithio â llywyddiant. Tybia rhai fod yr adnod hon hefyd yn un o ddywediadau diarebol yr 'henafiaid,' adn. 8. Mor sicr ag y cospa Duw y rhai drygionus, efe a amddiffyn ac a achub y perffiaith.

Adn. 21. *Oni lanwo efe dy enau di, &c.*] Fel pe dywedasai, Os wyt ti yn wr perffiaith, ni edy Duw dithau hyd oni lanwo efe dy enau di â *chwerthin*—neu â llawgydd mawr am iddo dy adfer o'th gystudd; *a'th wefusau â*

PENNOD IX.

YNA Job a atebodd ac a ddywedodd,

2 Yn wir mi a wn mai felly y mae: canys pa fodd y cyfiawneir dyn gyda Duw?

3 Os myn efe ymryson âg ef, ni all ateb iddo am nn peth o fil.

4 Y mae efe yn ddoeth o galon, ac yn alluog o nerth: pwy a ymgaledodd yn ei erbyn ef, ac a lwyddodd?

5 Yr hwn sydd yn symud mynddoedd, ac heb wybod iddynt: yr

gorfoledd—o herwydd dy fawr lwyddiant a'th hawddfyd dyfodol.

Adn. 22. *A gwsgir dy gaseion di â chy-wilydd* Wrth iddynt ganfod dy waredigaeth hynod, a'r fath arwyddion amlwg o ffafir Duw, hwy a dōir â chywilydd am iddynt dy ystyr-ied di gynt yn rhagrithiwr; *ac ni bydd lluest-ty yr annwyl*—Saes., 'a thrigfa y drygionus a ddaw i ddim;' hyny yw, er i'w dŷ, ei deulu, a'i gyfoeth fod yn fawr unwaith, eto derfydd am y naill a'r llall yn dragywydd.

PEN. IX. Adn. 1. *Yna Job a ddywedodd* Mewn atebiad i Bildad.

Adn. 2. *Yn wir mi a wn mai felly y mae* Yr wyf yn cydnabod gwirionedd cyffredinol eich egwyddorion, 'na w'ra Duw farn a chyfiawnder,' pen. viii. 3; hyny yw, na fydd iddo ef gopsi y cyfiawn a'r perffaith yn dragywydd, na goddef i'r drygionus a'r rhagrithiwr ddiane yn ddigosp am byth. *Cunys pa fodd y cyfiawneir dyn—enos*, 'dyn gwael a phechadurus,' *gyda Duw?*—pa fodd y gall y fath ddyd fod yn gyfiawn neu ddiennog yn ngolwg Duw, ac yntau yn bechadur? Am gyfiawnder deddfol y sonia Job yma, ac nid am gyfiawnder efengylaidd. Gellir ateb y cwestiwn hwn yn foddhaol ar dir yr efengyl, lle y danghosir trefn rasol, trwy ba un 'y gall Duw fod yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu,' neu yn credu yn ei Fab: gwel ar Rhuf. iii. 20—26.

Adn. 3. *Os myn efe ymryson âg ef* Os myn Duw fyned i faru â dyn, i.e. a'r goraf a'r perffeithiaf o ddynolryw syrthiedig; *ni all ateb iddo am un peth o fil*—nis gall y dyn hwn ymgyfiawnhau yn ngwynneb un cybuddiad o'r mil a allai Duw eu dwyn i'w erbyn ef. 'Os creffi ar anwireddau, Arglwydd; O Arglwydd, pwy a saif!' Salm cxxx. 3. Y fath drugaredd i ddyd syrthiedig a phechadurus yw yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy fydd, a santeiddiad yr Ysbyd trwy waed Crist!

Adn. 4. *Y mae efe yn ddoeth o galon* Yn anfeidrol yn ei wybodaeth o bob dygwyddiad, ac yn canfod yn ein hymddygiadau lawer o ffaeleddau nâs gwyddom ni am danynt; *ac yn alluog o nerth*—yn hollalluog, fel ag i allu cosp pob trosedd, a chario allan ei holl gynlluniau: *pwy a ymgaledodd yn ei erbyn ef*—

hwn sydd yn eu dymchwelyd hwynt yn ei ddigofaint.

6 Yr hwn sydd yn cynhyrfu y ddaear allan o'i lle, fel y cryno ei cholofnau hi.

7 Yr hwn a ddywed wrth yr haul, ac ni chyfyd: ac a selia ar y ser.

8 Yr hwn yn unig sydd yn taenu y nefoedd, ac yn sathru ar ddonau y môr.

9 Yr hwn sydd yn gwneuthur Arcturus, Orion, a Phleiaides, ac ystafelloedd y deau.

10 Yr hwn sydd yn gwneuthur

yn erbyn ei driniaethan doeth, galluog, a chyfiawn; *ac a lwyddodd?*—ymgaledodd llawer, megys Pharo; ond ni lwyddodd neb.

Adn. 5. *Yr hwn sydd yn symud mynddoedd* Trwy ddaeargrynfeydd neu gynhyrfadau anian; *ac heb wybod iddynt*—dull o ymadrodd yn arwyddo sydynrwydd y weithred: *yr hwn sydd yn eu dymchwelyd hwynt yn ei ddigofaint*—fel pe byddai wedi ymgynddeir- iogi yn eu herbyn. I'r dyben i ddangos mor ofer yw ymryson â Duw, neu ymgaledu yn ei erbyn ef, y mae Job yma yn dwyn siamplau o allu, mawredd, a doethineb Duw, at yr hyn y cyfeiriasai yn adn. 4.

Adn. 6. *Yr hwn sydd yn cynhyrfu y ddaear allan o'i lle* Sef rhanau o'r ddaear, trwy suddo nynsoedd yn ngwaeldion y môr; *fel y cryno ei cholofnau hi*—meddylddrych barddonol, fel pe buasai y ddaear yn sefyll ar golofnau. A llefaru yn briodol, gwyddai Job fod y ddaear yn 'crogi ar ddyddim,' pen: xxvi. 7.

Adn. 7. *Yr hwn a ddywed wrth yr haul, ac ni chyfyd* Fel y dywedodd yn amser Josua am iddo beidio machludo. Ar ol dangos gallu Duw dros y ddaear, y mae Job yma yn son am ei awdurdod ef dros y nefoedd. *Ac a selia ar y ser*—â chymylau duon megys ar fordaith P'aul, Act. xxvii. 20, fel nad ellir eu gweled mwy na chynwysiad llythyr a fyddo wedi ei gan a'i selio.

Adn. 8. *Yr hwn yn unig* Trwy ei allu ei hun, heb gael ei gynorthwyo gan arall; *sydd yn taenu y nefoedd*—'fel llen,' Salm civ. 2, yn y dydd i ereodd efe hwynt, ac yn eu cadw ar daen yn barhaus er cysur i drigolion y ddaear; *ac yn sathru ar donau y môr*—hyny yw, yn meddu dylanwad arnynt hyd yn nod yn eu hymchwelyd mwyaf. Gwel brawf llyth- yrenol o hyn yn ngweithred Crist, Mat. xiv. 25.

Adn. 9. *Yr hwn sydd yn gwneuthur* Neu yn trefnu a llywodraethu, fel yr arwyddia y gair yn fynych yn yr ysgrythyr; *Arcturus, Orion, a Phleiaides*—wrth y rhai hyn y deallir cydsar tra adnabyddus, a chynwysir gyda hwynt yr holl ser gwledig ereill, y rhai a wnaed gan Dduw, ac sydd fyth dau ei lywodraeth ef. *Ac ystafelloedd y deau*—sef yr holl ser anweledig yn y parthau hyny o'r ddaear lle yr oedd Job yn byw, y rhai a ddarlunir

pethau mawrion anchwiliadwy, a rhyfeddodau aneirif.

11 Wele, efe a â heibio i mi, ac nis gwelaf ef; ac efe a â rhagddo, ac ni chanfyddaf ef.

12 Wele, efe a ysglyfaetha, pwy a'i lluddia? pwy a ddywed wrtho, Pa beth yr wyt yn ei wneuthur?

13 Oni thry Duw ei ddigllonedd ymaith, dano ef y cryma cynorthwyr balchder.

14 Pa faint llai yr atebaf iddo ef,

ac y gallaf ddewis fy ngeiriau i ymresymu âg ef?

15 I'r hwn, pe bawn gyflawn, nid atebwn, eithr ymbiliwn â'm Barnwr.

16 Pe galwaswn, a phed atebasai efe i mi, ni chredwn y gwrandawai efe fy lleferydd.

17 Canys efe a'm dryllia â chorwyt, ac a amlha fy archollion yn ddiachos.

18 Ni ddyoddef efe i mi gymer-

ganddo megys wedi en cuddio mewn ystafelloedd.

Adn. 10. *Yr hwn sydd yn gwneuthur pethau mawrion anchwiliadwy*] Y mae Job yma yn dywedyd yr un peth ag a ddywedasai Eliphaz, pea. v. 9, i ddangos ei fod yntau o'r un farn âg ef gyda golwg ar briodoliaethau a gweithredoedd Duw: gwel y sylwadau yno.

Adn. 11. *Wele, efe a â heibio i mi*] Yn ngweithredoedd mawrion ei ragluniaeth; ac nis gwelaf ef—yn ei berson neu ei fodneth: nen, addasai Job ei fod yn canfod yr effeithiau, ond nid oedd yn gallu amgyfired yr achos na'r dyben.

Adn. 12. *Wele, efe a ysglyfaetha*] Saes., 'a gymer ymaith' eiddo dyn, ei gyfeillion, ei ieched, neu ei fywyd; *pwy a'i lluddia*—neu a'i hettyl ef? Heb., 'pwy all beri iddo ei adfer?' *Pwy a ddywed wrtho, Pa beth yr wyt yn ei wneuthur?*—hynny yw, pwy a feiddia ei alw ef i gyfrif am ei weithredoedd? Yma y mae Job yn ymostwng i Dduw yn ngwyneb yr hyn oll a gymerasai Duw oddiarno, yn lle beiddio ei alw ef i gyfrif am hynny.

Adn. 13. *Oni thry Duw ei ddigllonedd ymaith*] O hono ei hun, heb gael ei orfodi i hynny; neu os parha efe i weinyddu cosp; *dino ef y cryma cynorthwyr balchder*—llethir hwynt fel nas gallant godi byth. Wrth 'gynorthwyr balchder' y dealla rhai y dynion balchaf, neu y rhai a ymfalchiant fwyaf yn eu cryfder; ac ereill, 'cynorthwyr balchder,' megys ieched, nerth, harddwch, cyfoeth, &c.

Adn. 14. *Pa faint llai yr atebaf iddo ef*] Yr atebaf fi? Os nad allai y dynion cryfaf, iachaf, a balchaf, pa fodd y gallai Job, yn ei gyffwr isel presenol, ateb iddo ef, neu ei wrthsefyll? Neu, os yw y mynyddoedd, a'r ddaear, a'r haul, a'r ser, yn cael eu llywodraethu a'u gyru ganddo ef yn ol ei ewylls, pa faint llei galluog oedd Job i wrthsefyll ei nerth? *Ac y gallaf ddewis fy ngeiriau i ymresymu âg ef*—mewn gweddï oystyngedig, a llai o lawer i ddadlu ei ddiniweidrwydd, neu geisio ei gyfiawnhau ei hun.

Adn. 15. *I'r hwn, pe bawn gyflawn*] Yn fy ngolwg fy hun, gan dybio oddiar y seiliau cryfaf fy mod yn gyfiawn; *nid atebwn*—os barnai ef, yr hwn ni all gyfeilorni, yn wahanol am danaf; *eithr ymbiliwn â'm Barnwr*—am iddo faddau yr llyn a welai ef o'i le ynof, er i mi yn fy nhywyrbwch dybied fy mod yn addafai. Y meddwl yw, fod Daw yn well barn-

wr o'n cyflwr nag y gallwn ni fod; a bod ei waith ef yn ein hystyried ni yn bechaduriaid, y prawf llawnaf ein fod yn gyfryw, er i ni dybio yn wahanol.

Adn. 16. *Pe galwaswn*] Ar Dduw mewn gweddï, fel y gall y gair karati yma fod yn arwyddo; *a phed atebasai efe i mi*—trwy roddi i mi fy nymuniad; *ni chredwn y gwrandawai efe fy lleferydd*—'mai fy ngweddï a wnaethai y gwaith.'—PATRICK. 'Ni chredwn iddo ei wneuthur am fy mod i wedi gofyn iddo, neu o herwydd fy ngweddïau i, eithr ddarfydd iddo roddi y ffafwr yn unig er mwyn ei enw ei hun.'—BENSON. Neu, gan fod yr ymadroddion yn yr adnodau hyn yn rhai cyfieithiol, gall mai yr ystyr yw, *Pe buasai yn bosibl i Job alw Duw i lys barn, i chwilio i mewn i'w ddiniweidrwydd ef, ac i Dduw ateb i'w wysiad ef trwy ddyfod yn mlaen, ni chredai Job y byddai i Fod mor uchel a Duw ymddarostwng i wrando ar ddadl gŵr mor isel a gwael ag ef; ac am hynny, yn lle dadlu ei ddiniweidrwydd ei hun mewn llys barn, efe a gwmpa ar ei fai, ac a ymbilia am drugaredd yn ei gyfyngder presenol. Ond gwel ar adn. 18.*

Adn. 17. *Canys efe a'm dryllia â chorwyt*] Sef â thralodion yn dyfod arno yn sydyn, nerthol, ac anorchfygol fel corwynt; *ac a amlha fy archollion yn ddiachos*—nid yw Job yn meddwl ei fod yn rhydd oddiwrth bechod, ac am hynny nad oedd wedi haeddu dim cerydd, canys y mae efe yn fynych yn datgan i'r gwrthwyr; eithr ei feddwl yw, nad oedd achos neillduol ynddo o am geryddon mor chwerw a'r rhai hyn, ragor ereill o ddyndolryw; neu, nad oedd ef yn euog o ryw bechodau gwaeth nag eiddo pawb ereill, fel yr haerau ei gyfeillion ei fod. Yr oedd Duw ei hun wedi dywedyd yr un peth am dano, pen. ii. 3: 'Er i ti fy annog i yn ei erbyn ef, i'w ddifa ef heb achos.' Gan hynny dangos i Satan a'r byd werth ei grefydd oedd yr achos o gystudd Job, yn hytrach na rhagrith neu bechod neillduol ynddo ef ei hun.

Adn. 18. *Ni ddyoddef efe i mi gymeryd fy anadl*] Ni chafsefiant oddiwrth fy mhocuan cylyd ag y byddwyf yn tynu un anadl; gwel ar pen. vii. 19: *ond efe a'm lleinw â chwerwder*—y mae fy mhocuan nid yn unig yn ddbaid, ond hefyd yn angherddol i'r eithaf. Y mae cyfieithiad Houbigant o hon a'r ddwy adnod flaenorol yn dangos cysylltiad da, ac, yn ol barn Esgob Lowth, yn rhoddi i ni y

yd fy anadi: ond efe a'm lleinw â chwerwder.

19 Os *soniaf* am gadernid, wele ef yn gadarn: ac os am farn, pwy a ddadleu drosof fi?

20 Os myfi a ymgyfiawuhaf, fy ngenau a'm barn yn euog: os perffaith y *dywedaf fy mod*, efe a'm barn yn gildyn.

21 *Pe byddwn* berffaith, eto nid

adwaenwn fy enaid: fflaidd *fyddaf* genyf fy einioes.

22 Dyma un *peth*, am hyny mi a'i dywedais: y mae efe yn dyfetha y perffaith a'r annuwiol.

23 Os lladd y firewyll yn ddi-symwth, efe a chwardd am ben profedigaeth y diniwed.

24 Y ddaear a roddwyd yn llaw yr annuwiol: efe a fwrw hûg dros

gwir ystyr: 'Ond pe galwn am iddo ef fy ateb, nis gallwn yn hawdd gredy y gwrandawai efe fy llefydd; gan iddo fy nryllo a chorwynt, a rhoddi i mi lawer o areholion heb achos; ac ni ddry i mi yspaid i gymeryd fy anadl, gan fel y mae yn fy llenwi â chwerwder.'

Adn. 19. *Os soniaf am gadernid* Fel pe byddai fy achos i gael ei benderfynu trwy nerth; *wele ef yn gadarn*—yn hollalluog, ac felly yn anfeidrol gryfach na fi: *ac os am farn*—os meddyliaf am ddwyn fy achos i'w benderfynu mewn llys barn; *pwy a ddadleu drosof fi*—yr byn Duw? neu, nid oes un barnydd a all ein gwysio ni ill dau i ymddangos o'i flaen, adn. 33. Fel hyn nid oedd gobath i Job yn erbyn Duw trwy *nerth* na *trwy farn*; a'r unig ffordd iddo ef oedd plygu yn ostyngedig gerbron Duw, yr hyn a wnaeth efe yn y diwed, pen. xlii. 5, 6.

Adn. 20. *Os myfi a ymgyfiawuhaf* A haeraf fy mod yn gyfiawn neu ddihechod; *fy ngenau a'm barn yn euog*—bydd y cyfryw haerriad yn anwiredus, ac felly yn fy ngosod dan fwy o euogrydd: *os perffaith y dywed af fy mod*—os parhaf i dystio fy niniweid-rwydd; *efe a'm barn yn gildyn*—yn euog o gildynrydd ystyfnig wrth haeru y fath beth. Tybia rhai mai yr ystyr yw, y byddai i'w enau ei hun felly ei brofi ef yn gildyn; a thybia ereill mai at *Dduw* y cyfeirir, am yr hwn y sonir yn yr adnodau uchod.

Adn. 21. *Pe byddwn berffaith* Neu, pe yr haerwn fy mod yn berffaith; canys nid yw 'pe byddwn' yn y wreiddiol; *eto nid adwaenwn fy enaid*—byddai y cyfryw haerriad yn brawf nad wyf fi yn fy adnabod fy hun, fel y mae Duw yn fy adnabod: *fflaidd fyddaf genyf fy einioes*—am y byddai raid i mi gasglu, oddiwrth waith Duw yn fy nghospi, nad wyf awng na phechadur yn ei olwg ef: neu, byddai ei einioes yn faich iddo dan ei *gystudd* presenol, pa un bynag fyddai ai perffaith ai peidio.

Adn. 22. *Dyma un peth* Yn yr hwn yr wyf yn gwahaniaethu oddiwrthych chiwi, er fy mod yn cyduno mewn pethau ereill, adn. 10; *am hyny mi a'i dywedais*—yn barhaus o'r dechre; *y mae efe yn dyfetha y perffaith a'r annuwiol*—y naill fel y llall, o ran eu cyfoeth, eu cysur, eu hiechyd, ac hyd yn nod eu bywyd. Mynai cyfeillion Job nad oedd Duw yn dyfetha neb ond yr *annuwiol* yn yr ystyr ag yr oedd efe wedi dyfetha Job, ac am hyny casglent ei fod ef yn annuwiol; tra yr haerai yntau o hyd na ddylasant hwy ei farnu ef yn rhag-

rithiwr annuwiol o herwydd ei adfyd presenol, am fod Duw yn ymddwyn yn gyfllebyb tuag at y da a'r drwg yn i bywyd yma.

Adn. 23. *Os lladd y firewyll yn ddisymwth* Os syrth rhyw drychineb angeuol ar wlad neu genedl, gan ladd y da a'r drwg yn ddiwahaniaeth; *efe a chwardd am ben profedigaeth y diniwed*—hyny yw, ni chyfyngfa Duw bob amser i waredu y diniwed mwy na'r drygionus, eithr efe a oddfa i'r un ddamwain, mewn ystyr tymhorol, ddygwyrddi bawb. Y 'chwarddiad' yma sydd ymadrodd baridonol; canys nis gallwn faddwl fod Duw yn *gwardio* am ben adfyd y rhai diniwed, neu yn *chwerthio* uwchben dyoddefiadau ei blut ei hun. Y meddwl yw, ei fod yn ymddangos megys yn ddisylw o honynt, gan oddf i'r naill gael eu hysgubo ymaith, megys yn amser pla neu haint.

Adn. 24. *Y ddaear a roddwyd yn llaw yr annuwiol* I'w meddiarun a'i llywodrethu hi gan mwyaf: *efe a fwrw hûg dros wynebau ei barnwyr hi*—y mae yr annuwiol hwn yn dylanwadu yn fynych hyd yn nod ar firmwyr, i'w tneddu i orthrym y cyfiawn ac arbed y drygionus, tewy eu gwobryw i dderbyn wyneb a gwyrto barn: *onid, pa le y mae, a phwy yw efe*—a all brofi i'r gwrthwyneb? Neu, 'os nid Duw sydd yn gwneuthur hyn, pwy sydd yn ei gwneuthur?'—ROSEMULLER. Tybia yr ESGOB PATRICK fod Job yn cyfeirio yma at ryw ormeswr hynod ag oedd yn byw yn y cyf-amer yn y parthau hyny; ond y mae yn debycach mai cyfeirio y mae at ymddygiad cyffredinol dynion o'r fath. Wedi i Job ddangos yn yr adnodau blizenorol fod Duw yn dyfetha y perffaith a'r annuwiol, efe a ddengys yn hon fod tywysogion a barnwyr daerol yn gwneyd yr un peth; ac fel y mae anffodion tymhorol yn dygwydd yn fynych i'r diniwed, felly fod llwyddiant tymhorol a dylanwad heliaeth yn cael eu meddiannu yn aml gan yr annuwiol. Tybia rhai, fel y gwelom, mai *Duw* a olygir yma fel yn bwrw hûg neu orchudd dros wynebau barnwyr daerol; ond ymddengys i mi fod yn fwy cyson priodoli hyny i'r *annuwiol*, yr hwn a enwir yn nechre yr adnod.

Adn. 25. *A'm dyddiau i gydl gynt na rhedegwr* Yr hwn a farchogai ar gamel neu dromedari i gludo gorchymyn ei frenin. Dywed Harmer y teithia y rhai hyn yn Barbary gant a hanner o filldroedd mewn podair awr ar hugin; a dywedir y rhed yr Indiaid Americanaidd 120 o filldroedd yn yr un amser. *Ffoant ymaith heb weled daioni*—cyn i ni

wynebau ei barnwyr hi: oiidê, pa le y mae, a phwy yw efe?

25 A'm dyddiau i dydd gynt na rhedegwr: ffoant ymaith heb weled daioni.

26 Aethant heibio megys llongau buain; megys yr eheda eryr at ymborth.

27 Os dywedaf, Gollyngaf fy nghŵyn dros gof; mi a adawaf fy nhrymder, ac a ymgysuraf:

28 Yr wyf yn ofni fy holl ddolur-

iau: gwn na'm berni yn wirion.

29 Os enog fyddaf, paham yr ymfliaf yn ofer?

30 Os ymolchaf mewn dwfr eira, ac os glanhaf fy nwyllaw yn lân;

31 Eto ti a'm trochi yn y pwll; a'm dillad a'm ffeiddiant.

32 Cansys nid gŵr fel myfi yw efe, fel yr atebwn iddo, ac y delem yn nghyd i farn.

33 Nid oes rhyngom ni ddyddiwr a all osod ei law arnom ein dau.

gael amser i'w fwynhau. Yma y mae Job yn dychwelyd eilwaith at ei gwynfaniad personol ei hun. Golygai ei ddyddiau neu ei einioes fel wedi dyfod yn sydyn i ddiwedd truenus, yn gyflmach fel pe byddai na'r rhedegwr mwyaf chwyrwth: gwel ar pen. vii. 6.

Adu. 26. *Aethant heibio megys llongau buain* [Geilir cyfieithu y wreiddiol yn 'llongau hyfyrdwch,' y rhai a wneid o frwyn neu hesg ysgafn, ac felly a fordwyent yn gynt na llongau llwythog y marsiantwr. Ond y mae 47 o ysgriflyfrau Kennicott a De Rossi yn ei ddarllen yn 'llongau gelyniaethol,' y rhai a hwyliant yn gyflym i ddael ereill, a'u hyspeilio. *Megys yr eheda eryr at ymborth*—meddylir fod yr ymadrodd hwn yn pleidio, os nid yn cadarnhau, y golygiant diweddfaf, trwy fod y meddylldrych o yspeiliad ac ysglyfaethiad buan yn cael ei gynwys yn y ddau.

Adu. 27. *Os dywedaf, Gollyngaf fy nghŵyn dros gof* [Ceisiafaanghoſio fy nghwynfaniad, a'r achos o'm trymder, ac ymgysuro. Os meddyliaf am wneuthur hyn,]

Adu. 28. *Yr wyf yn ofni fy holl ddoluriau* [Ei gornwydydd poenus a'i ofidiau trymion; hyn yw, yr oedd yn ofni nad allai gan y rhai hyn anghoſio ei gŵyn, gadael ei drymder meddwl, nac ymgysuro. *Gwn na'm berni yn wirion*—na fydd i ti symud fy noluriau a'm trymder, fel ag i roddi prawf amlwg fy mod yn ddieuog. Y mae Job yma yn llefaru oddiar fath o anobaith a diftyg anynedd, yr hyn oedd yn feisus ynddo. Fel pe dywedasai, Bydd i'm dyoddefiadur barhau, ac felly parheir y dystiolaeth a'r prawf ag sydd gan fy nghyfeillion fy mod yn ddyn enog: ac yn y fath gyflwr, pa fodd y gallai lai na chwynfan!]

Adu. 29. *Os enog fyddaf* [Yn eu gŵydd hwynt, ac fel pe byddai yn dy ŵydd dithau; *paham yr ymfliaf yn ofer*—i geisio fy amddiffyn a'm cyfiawnlau fy hun? Neu, gan fod Duw yn fy vstyried i yn euog trwy fy ngheryddu, pa ddyben yw i mi geisio ymddadlu ag ef?]

Adu. 30. *Os ymolchaf mewn dwfr eira* [Yr hwn a dybid yn burach a mwy glanhaol na dwfr cyfiredin; *ac os glanhaf fy nwyllaw yn lân*—neu 'â sebon,' fel y mae yn y Galdeaeag; hyn yw, os dadleuaf fy mod yn ddieuog. Yr oedd goſehi y dwyllaw yn arwydd o ddiniweidrwydd bob amser: 'Golchaf fy nwyllaw mewn diniweidrwydd,' Salm xxvi. 6, a lxxiii. 13; a thrwy y ddefod hon y tystiai Pilat ei fod yn

ddieuog oddiwrth waed Crist, Mat. xxvii. 24. Gall fod rhyw fath o olchiadau seremonïol yn amser Job, ac mai dwfr eira a ddefnyddid ar yr achlysur hwnw; a dichon mai at hyn y cyfeirir yma.

Adu. 31. *Eto ti a'm trochi yr y pwll* [A'm danghosi mor aflan a phe bawn wedi fy nhrochi mewn pwll lleidiog. Wrth yr ymadrodd hwn y deallir, nid ei *ddangos* ef yn aflan yn unig, ond *profi* ei fod ef felly mewn gwirionedd, er maint ei broffes ef o burdeb yn ngolwg dynion, ac er mor aml ei arwyddion o ymlanbad. *A'm dillad a'm ffeiddiant*—a wnaent i mi gael fy ffeiddio, fel dyn a fyddai wedi bod yn yndrybaeddu yn y llaid. Neu, byddwn mor aflan nes y byddai i'm dillad, pe bae ynddnt ryw deimlad, fy ffeiddio a chilio oddiwrthyf.]

Adu. 32. *Cansys nid gŵr fel myfi yw efe, fel yr atebwn iddo* [Fel y gallwn ddaellu fy achos yn ei erbyn ef, neu ateb ei gyhuddiadau ef yn fy erbyn i; *ac y delem yn nghyd i farn*—i ymryson wyneb yn wyneb ar delerau cyfartal. Y mae efe yn anfeidrol ragori arnaf fy unewn mawredd a gallu. Y mae yn amlwg oddiyma mai oddiar yr ystyriaeth fod Duw yn nwech nag ef mewn gallu y tuaddai Job i ildio iddo ef yn awr, yn fwy nag o herwydd ei fod yn cydnaod mai Duw oedd ar yr iawn; a'i fod yn meddwl, pe bnasai ganddo gystal mantais i drin ei achos ag a ydoedd gan Dduw, nad edrychasai pethau mor dywyll yn ei erbyn. Diamau fod hyn yn feisus iawn yn Job; cansys y mae gwir ymstyngiad yn cael ei ddylyn bob amser a'r grediniaeth fod Duw yn iawn, na bynag a allwn ni weled ei fod ef felly ai peidio.]

Adu. 33. *Nid oes rhyngom ni ddyddiwr* [Sef cylafreddwr neu gyfryngwr; *a all osod ei law arnom ein dau*—ar Dduw a minau, i'n rhwymo i sefyll wrth yr hyn a farna neu a benderfyna efe. Y mae gosod llaw ar y ddwyblaid yn arwyddo gallu gorthrechol i *orfodi* cydsyniad y ddwyblaid a'r mesurau a osodid i lawr; a gelwir y gorfodwr hwnw yn *ddyddiwr*, ond odid, am fod ganddo awdurdod i nodi y *dydd* yn yr hwn yr oedd y pleidiau i ddyfod at eu gilydd. Nid oedd na felly i'w gael yn mhlith dynion nac angylion, yr hwn a allai gael y fath awdurdod ar Dduw; ac am hyn ofer oedd meddwl am benderfynu y ddadl hon trwy gylafareddiad. Ein Hargylwydd Iesu Crist yw ein Cyfryngwr a'n Dyddiwr benderdig ni, yr hwn a all osod ei law arnom ein

34 Tyned ymaith ei wialen oddi-arnaf; ac na ddychryned ei ofn ef fyfi.

35 Yna y dywedwn, ac nid ofnwn ef; ond nid felly y mae gyda myfi.

PENNOD X.

Y MAE fy enaid yn blino ar fy einioes: arnaf fy hun y gadawaf fy nghŵyn; ac yn chwerwder fy enaid y llefaraf.

2 Dywedaf wrth Dduw, Na farn

dau fel DUW-DYN: 'cansys y Tad nid yw yn barnu neb, eithr efe a roddes bob barn i'r Mab;' ac 'awrdurid iddo i wneuthur barn hefyd, o herwydd ei fod yn FAB DYN,' yn gystal ag yn FAB DUW, Ioan v. 22, 27. Diannau y gwyddai Job rywbeth am gyfrngod Crist, er nad moreglur a ni dan yr efrugyl: ond nid at gyfringaeith felly y cyfeiria efe yn y testyn, eithr at gylafareddwr cystledin, i benderfynu pa un a oedd yn iawn iddo ef gael ei drin felly ai peidio.

Adn. 34. *Tyned ymaith ei wialen oddi-arnaf*] Ei wialen *geryddol*, yn ol rhai, neu ddyddoddiadau Job. Yn y Beiblau Masoretic y mae y gair *shipto*, 'ei wialen,' yn cael ei ysgrifenu gyda *t* fawr, *shipTo*; a chan fod y llythren hon mewn rhifyn sefyll am 9, dywed y *Masora* fod y gair yn cael ei ysgrifenu fel hyn i arwyddo y *naw tralod* dan ba rai y dyoddefai Job, a'r rhai yr ewyllysiai efe i Dduw eu symud. Ond gan fod y gair *shebet* yn arwyddo nid yn unig *gwialen*, ond hefyd *leynr-wialen*, tybia ereill y gallai Job yma fod yn cyfeirio at Dduw yn eistedd yn ei fawredd brenhinol ar orsedd barn; a bod yr olwg fawreddog hon wedi ei ddychrynu ef yn y fath fodd fel nas gallai lefaru. *Ac na ddychryned ei ofn ef fyfi*—sef ofn ei fawredd a'i gyfiawnder; neu yr ofn rhag mai mewn soriant yr oedd Duw yn ei gystuddio, ac y byddai iddo yn y diwedd ei wrthod a'i ddamnio. Neu fe allai mai yr ystyr yw, Nac ymddyged Duw tuag ataf yn ol cyfiawnder manwl, eithr yn ol ei ras a'i drugaredd.

Adn. 35. *Yna y dywedwn, ac nid ofnwn*] Mi a lefarwn yn hyf drosod fy hun, wedi i mi gael fy ngwaredu oddiwrth yr oin hwnw ag sydd yn yfed i'fny fy ysbryd a'm gwroldeb. *Ond nid felly y mae gyda myfi*—nid wyf yn rlydd oddiwrth yr ofn hwnw, ac am hyny nis gallaf ddadlu fy achos gydag ef; neu, yn ol yr ystyr a ddyryr yr Iuddewon i'r geiriau, 'nid wyf yn euog, fel y tybiwch chwi fy mod; a phe cawn gyfe tég i'm profi, gallwn ddangos nad wyf.'

PEN. X. Adn. 1. *Y mae fy enaid yn blino ar fy einioes*] Yn blino byw yn y corff pŵdr a thruenus hwn. 'Dyna brawf,' ebai Clarke, 'nad yw *nepesh* yn arwyddo y bywyd anifeilaidd, eithr yr enaid, neu y meddwl anfarwol, fel yn walianaethol oddiwrth *chai*, y bywyd anifeilaidd hwnw; ac y mae yn brawf cryf

fy yn euog; gwna i mi wybod paham yr ymrysoni â mi.

3 Ai da i ti orthrymu, fel y diys-tyrit waith dy ddwyllaw, ac y llew-yrchit gynglor yr annuwiol?

4 Ai llygaid o gnawd sydd i ti? ai fel y gwel dyn y gweli di?

5 *A ydyw* dy ddyddiau di fel dyddiau dyn? *a ydyw* dy flynddoedd di fel dyddiau gŵr,

6 Pan geisi fy anwired, a phan ymofyui mi fy mhechod?

fod Job yn credu fod gwalianaeth rhwng y ddwy egwyddor yma; nad oedd ef yn fateriolwr; eithr, yn y gwrthwyneb, ei fod yn credu yn mhriodol anfarwoldeb yr enaid: gwel ar pen. xii. 10. *Arnaf fy hun y gadawaf fy nghŵyn*—mi a barhaf i gŵyno, ac a gymeraf y canlyniad arnaf fy hun: deued yr hyn a ddelo arnaf, mi a roddaf ollyngdod i'm teimladau. Yr ystyr a ddyry Clarke i'r geiriau yw, 'Mi a'm cyhuddaf fy hun a'r achos o'm tralodau, ac ni chlyhuddaf yn ynyd fy Ngwneuthurwr.' Ond y mae yn debycach oddiwrth remiad y bennod hon mai yr ystyr cyntaf yw y cywiraf, am y cawn Job yma yn parhau i gyhuddo Duw. *Ac yn chwerwder fy enaid y lefaraf*—mi a barhaf i dori allan mewn cwynfaniadau galarus, am fod fy nhrucni dirfawr yn fy ngorfodi.

Adn. 2. *Dywedaf wrth Dduw, Na farn fi yn euog*] Na chyhoedda fi yn ddyw drwg, fel y gwna fy nghyfeillion; neu, nac ymddyga tuag ataf fel pe bawn yn gyfryw. *Gwna i mi wybod paham yr ymrysoni â mi*—am ba achos, ac i ba ddyben? Y meddwl yw, fod yn annghyfiawn cospi dyn fel pe byddai yn euog, heb yn gyntaf fynged iddo ei drosedd, neu ddwyn rhesymau dros wneuthur felly.

Adn. 3. *Ai da i ti orthrymu*] Trwy nerth a gorthrech? A ydyw hyny yn hydrydych neu les i ti, neu yn unol â'th gyfiawnder, ac yn ogoniant i'th enw? *Fel y dystyrit waith dy ddwyllaw*—dy greaduriaid dy hun, fel pe baet heb osod dim bri arnynt, neu fel pe yr ymhyr-rydit yn eu dinstyr! *Ac y llewyrchit gynglor yr annuwiol*—trwy roddi mantais a chefnogaeth iddynt i watwar plentyn Duw, i feddwl nad oes dim daioni mewn crefydd, ac i'w caledu yn fwy mewn annuwiaeth a drygioni! Yr oedd Job yma fel yn methu cysoni rhagluniaeth Duw gyda'i ddaioni a'i gyfiawnder ef; ac onid fel hyn y mae yn bod gyda ninau yn fynych?

Adn. 4. *Ai llygaid o gnawd sydd i ti*] Yr un modd a dyn, fel nas gelli weled y galon? meddyliau? *Ai fel y gwel dyn y gweli di*—yr hwn sydd yn edrych yn unig ar y tu allan, ac heb fedra canfod yr egwyddor oddifewn; neu yn edrych yn unig er mwyn gwelod beiau? Tybia rhai fod yma gyfeirad at waith swyddogion yn rhoddi dyn ar yr artheithglwyd, er mwyn cael ganddo gyfaddef rhyw euog-rywyd neu drosedd nas gallent hwy ei ganfod.

Adn. 5. *A ydyw dy ddyddiau di fel dydd-*

7 Ti a wyddost nad ydwyf anuwiol; ac nid oes a waredo o'th law di.

8 Dy ddwyllaw di a'm gweithiasant, ac am cydluniasant o amgylch; cto fy nyfetha yr wyt.

9 Cofia, atolwg, mai fel clai y gwnaethost fi; ac a ddygi di fi i'r pridd drachefn?

10 Oni thywelltaist fi fel llaeth; ac oni cheulaist fi fel caws?

11 Ti a'm gwisgaist i â chroen ac â chnawd; ti a'm diffynaist i âg esgyrn ac â gïau.

12 Bywyd a thrugaredd a ddarperaiast i mi, a'th amgeledd a gadwodd fy ysbryd.

13 A'r *pathau* hyn a guddiaist ti

iaw dyn] *Enosh*, 'dyn egwan a thruenus,' yr hwn nas gall fyw uwchlaw ychydig ddyddiau ar yr hwyaf? *A ydyw dy llynyddoedd di fel dyddiau gwâr—gaber*, 'gwâr cryf a nerthol,' yr hwn a allai fyw ond oddid dros rai *blynyddoedd*, fel y patriarchiaid gynt? Y mae y gwahaniaeth ag sydd yn y geiriau hyn, yn ei gorfodi i wneuthur rhyw wahaniaeth tebyg i'r un uchod yn yr ystyr. Y meddwl yw, fod Duw yn ymddangos i wasgu neu brysuro y mater hwn, fel pe na busasi ganddo ond byr amser i fyw, i'w brofi a'i chwilio.

Adn. 6. *Pan geisi fy awviredl*] Trwy fy nghadw cyhyd ar yr arctheglwyd, adn. 4; a *phau ymofyni am fy mhechod—gyda'r fath frys*, fel pe byddit ddyw byr-hoedlog, adn. 5. Gwyddai Job nad oedd Duw yn yr un cyflwr a dyn byr ei olwg a byr-hoedlog, yr hwn, o herwydd ei amherffeithderau, nad allai iawn-farnu achosion dyn arall; eithr ei fod ef yn hollalluog, hollwybodol, a thragwyddol: paliam gan hyuy, gofynai Job yn ddirifol, yr ydwyf ti yn ymddwyn tuag ataf fi megys pe byddit yn cael dy orfodi gan anfanteision ac amherffeithderau barnwr daearol?

Adn. 7. *Ti a wyddost nad ydwyf annuwiol*] Yn yr ystyr ag y myn fy nghyfeillion fy mod; ac am hyny paliam y nithi ac y dirdyni fi, fel pe baet yn chwilio am bechod ynof? adn. 4. Nid oedd Job yn hōni *perffeithrwydd dibechod*; (gwel ar pen. ix. 20;) ond efe a haerai o hyd nad oedd efe y fath bechadur anedifeiriol a rhagritiol ag a dybiai ei gyfeillion. *Ac nid oes a waredo o'th law di—* gwyddai Job fod Duw yn hollalluog a barnai fod ei ddyoddefiadau yn tarddu oddiar nerth Duw, yn fwy nag oddiar ei *gyfiawnder* ef.

Adn. 8. *Dy ddwyllaw di a'm gweithiasant, ac a'm cydluniasant o amgylch*] A wnaethant yr oll o honof, holl aelodau y ughorff a chynneddfau fy enaid; neu, fel y mae ar ymyl y ddalen, 'cymeraiast boen' i'm gwneyd yn berffaith yn fy holl ranau, fel yr ymboena crochenydd i lunio llestr gwerthfawr. *Eto fy nyfetha yr wyt—* y meddwl yw, fod Duw, ar ol ymdrafferthu fel pe byddai i'w lunio ef yn greadur hardd, yna yn ei ddryllio ef ar unwaith; fel dyn a ymboenai i lunio llestr gwerthfawr, neu i adeiladu palas ardderchog, i'r dyben i ymbleseru wrth ei ddryllio yn deilechion yn y fan!

Adn. 9. *Cofia, atolwg, mai fel clai y gwnaethost fi*] Fel y gweithia ac y tylina crochenydd y clai, i'w wneyd yn llestr cywraim. Meadylir fod yna gyfeiriad at luniad y dyn cyntaf o bridd y ddaear, y wybodaeth o'r hyn a allasai gael ei ddwyn i lawr hyd amser Job

trwy draddodiad: gwel ar Gen. ii. 7. *Ac a ddygi di fi i'r bridd drachefn—* cyn fy amser? Rhaid fod hyn yn ddealladig; canys gwyddai Job ei fod i farw rywberd, yn ganlyniol i'r ddedfryd hōno, 'Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dyhelweli,' Gen. iii. 19: ond ni fynai gael ei ddechwyd i'r pridd mor ieuanc, pryd yr oedd dynion yn byw yn llawer hwy; neu ni fynai gael ei ddwyn yno gan ddedfryd arall, pan nad oedd ef wedi fflofletio ei tywyd.

Adn. 10. *Oni thywelltaist fi fel llaeth?*] Ar ol cyfeirio uchod at *gread* dyn, y mae efe yma yn cyfeirio at ei *genhedliad* ef. Tybia COBBIN, ar ol ROBERTS yr hanesydd dwyreiniol, mai yr ystyr yw, 'fod Duw wedi llwyr wrthod Job,' am yr arferu yr Hindwaid, wrth wrthod mab afradlon, dywallt llaeth ar eu penau. Ond y mae yn eglur oddiwrt yr adnod ganlyniol, mai at *ffurfiaid* baban yn y groth y cyfeirir yma. Yn unol â hyn y dywed CLARKE, 'Wedi yr oll a ddywedodd rhai dysgedigion ar y pwne hwn, i'r dyben i gyfyngu y delweddau yma at *fuethiad* yn unig, boddheir fi mai *cnhedliad* yw y gwir ystyr. *Respicit al fetus in matris utero primam formationem, quum in cabryonem ex utriusque parentis semine coalescit.—Ex semine liquido, lac quodummodo reterente, me formasti.—In interpretando, inquit Hieronymus, omnino his accedo qui de genitali semine accipiunt, quod ipsa tanquam natura emulget, ac dein concrecere in utero ac coalescere jubet.* Nid wyf yn gwneyd un esgusawd dros adael hyn yn anghyfieithiedig.'

Adn. 11. *Ti a'm gwisgaist i â chroen ac â chnawd*] Yn nghroth fy nam. Dywed Grotius mai y croen sydd yn cael ei ffurfio gyntaf, yna y enawd, ac wedi hyny rhanau caletaf y cyfansoddai: gwel *Dunlison's Physiology*, cyf. ii. dal. 3^o, &c. *Ti a'm diffynaist i âg esgyrn ac â gïau—* fel atgeigion cryfion yr holl gnawd a'r aelodau. Gwyddom fod asgwrn y pen yn amddiffyniad i'r ymneydd, a'r asenau i'r rhanau bywydol; a thrwy y gïau y cysylltir yr esgyrn yn y cymalau, ac y galluoig yr holl aelodau i ysgogi a gweithredu.

Adn. 12. *Bywyd a thrugaredd a ddarperaiast i mi*] Y mae y wreiddiol yn arwyddo *bywyddau*, ac yn golygu ei fod ef, yn chwaneogol at y corff a'r sylweddau a enwyd, wedi cael hefyd fywyd naturiol, ac enaid rhesymol ac anfarwol. Fe allai fod y *drugaredd* yma yn golygu y maeth a gai efe yn y brn eyn ei eni, a'r feithriniaeth a gai ar y fron ar ol ei eni, yn nghyda phob gofal rhagluniaethol arall am dano byth wedi hyny. *A'th amgeledd a gadwodd fy ysbryd—* a'i cadwodd ef yr fyw,

yn dy galon: gwn fod hyn gyda thi.

14 Os pechaf, ti a'm gwyli, ac ni'm glanhei oddiwrth fy anwiredd.

15 Os ydwyf annuwiol, gwae fi; ac os cyfiawn ydwyf, er hynny ni chodaf fy mhen: yr ydwyf yn llawn o warthrudd, am hynny gwel fy nghystudd:

16 Canys cynyddu y mae: fy hela yr ydwyf fel llew creulon: er hynny drachefn ti a wnei yn rhyfedd â mi.

17 Yr wyt ti yn adnewyddu dy

yn y brn, yn yr esgoreddfa, ac ar hyd ei oes. Fel pe dywedasai, Ti a wnaethost hyd yn hyn bethau mawrion i mi; ac a fydd i ti yn awr ddaedwneyd yr hyn oll a wnaethost? A fydd i mi, yr hwn a füm hyd yma yn wrthddrych dy drugaredd a'th amgeledd, fod rhagllaw yn wrthddrych dy ddigofaint a'th ddiystia?

Adn. 13. *A'r pethau hyn a guddiaist ti yn dy galon?* Dy drugareddau blaenorol a'th wganu presenol: y mae y cwbl yn ol dy drefn a'th ewyllys, ac yn gyson â'u gilydd, er na fedraf fi eu deall. Neu, tra yr oedd Duw gynt yn gweini trugaredd ac amgeledd i Job, yr oedd y trallodau hyn yn nghudd ganddo yn ei galon, ac yr oedd yn bwriadu eu dwyn lwy arno ef yn y diwedd. *Gwn fod hyn gyda thi*—mai hysbys yw i ti dy holl fyrd, a'th fod yn dwyn yn mlaen dy holl gynlluniau yn ol dy feddwl dy hun.

Adn. 14. *Os pechaf?* Yn y gradd lleiaf, trwy *teyrol* oddiwrth dy gyfraith sannaidd; *ti a'm gwyli*—a gymeri sylw o'm gwyrriad yn y fan; *ac ni'm glanhei oddiwrth fy anwiredd*—ni fydd i ti ei fadden i mi, ond fy nghospi am dano i'r eithaf.

Adn. 15. *Os ydwyf annuwiol?* Fel y myn fy nghyfeillion fy mod; *gwae fi*—gan fod di yn sicr o graffu ar fy annuwioldeb, a'i gopsi. *Ac os cyfiawn ydwyf*—fel y dylwn fod; *er hynny ni chodaf fy mhen*—mewn hyder a siroliodd. *Yr ydwyf yn llawn o warthrudd*—o ddyrswch, poenau, a chywilydd; *am hynny gwel fy nghystudd*—tosturia wrthyf, a chynorthwya fi! Fel pe dywedasai, Pa un bynaog ai annuwiol ai cyfiawn ydwyf, am peth sydd sicr, fy mod yn llawn o wae, gwarth, a phoen. Y mae fy nghyfeillion yn fy marnu yn annuwiol, yr wyt tithau yn fy nghospi fel pe byddwn yn annuwiol, tra y mae fy nghydwylbod fy hun yn fy rhyddiaid oddiwrth euogrrwydd; ac y mae yr ystyriaeth o hyn oll yn fy nrysu, yn fy mhoeni, ac yn peri i mi synu. Edrych arnaf, a thosturia wrthyf!

Adn. 16. *Canys cynyddu y mae?* Sef ei gystudd. Ar ol colli ei eiddo a'i blant, efe a gollodd ei iechedy; ac yr oedd ei dcoluriau, fel y gallwn feddwl, yn myned yn waeth ac yn ddyfnach bob dydd. *Fy hela yr ydwyf fel llew creulon*—yr hwn a neidia yn wancus ar ei ysglyfaeth i'w rwygo. *Er hynny drachefn ti a wnei yn rhyfedd â mi*—deallir hyn yn gyffredin fel pe buasai Job yn rhagweled y

dystion i'm herbyn, ac yn amlhau dy ddigofaint wrthyf; cyfnowidiau a rhyfel sydd i'm herbyn.

18 Paham gan hynny y dygaist fi allan o'r groth? *O na* buaswn farw, ac na'm gwelsai llygad!

19 Mi a fuaswn megys pe na buaswn, a myfi a ddygasid o'r bru i'r bedd.

20 Onid ychydig yw fy nyddiau? paid gan hynny, gad im' lonydd, fel yr ymgysurwyf ychydig;

21 Cyn myned o honof lle ni ddy-

trugarhâi Duw wrtho ef yn ol llaw; ond nid yw y meddwl hwn yn cytuno yn ada â'r adnodau dylno. Y wreiddiol yw *vetashob tithpalla bi*, 'yr ydwyf yn troi drachefn.' Fel pe dywedasai, Y mae y llew yn rhwygo ei ysglyfaeth ar unwaith, yn boddlhau ei wanc, ac yna yn *cefnu* ar ei wrthddrych ar ol terfynu ei boenau; ond yr wyt ti yn *troi yn ol* drachefn a thrachefu i'm llarpio i yn *rhyfedd*, ac felly yr ydwyf yn fy hela yn barhaus, ac yn mwyaflu fy mhoenau!

Adn. 17. *Yr wyt ti yn adnewyddu dy dystion i'm herbyn?* Sef dy geryddon barnol, y rhai sydd yn dystion i'm cyfeillion o'm pechodau i a'th lid dithau; *ac yn amlhau dy ddigofaint wrthyf*—sef yn amlhau fy nhrallodion i, y rhai ydynt effaith dy ddigofaint: *cyfnowidiau a rhyfel sydd i'm herbyn*—neu 'olyniad parhaus o fyddinoedd,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu, y rhai oeddynt yn ymosod ar Job yn olynol. Fel pe dywedasai, Pan y mae un fyddin wedi blino, y mae y llall yn dyfod i'm herbyn gyda nerth adnewyddol. Yn nechre yr adnod y mae Job yn llefaru mewn dull *cyfreithiol*; ond yn ei diwedd hi, mewn dull *mitwraidd*.

Adn. 18. *Paham gan hynny y dygaist fi allan o'r groth?* I fod yn wrthddrych y fath ymosodiadau? gwel ar pen. iii. 10, 11. *O na buaswn farw*—yn ar y groth, cyn i neb fy ngweled!

Adn. 19. *Mi a fuaswn?* Wrth farw yn y groth, *megys pe na buaswn*—wedi cael bodolaeth erioed; *a myfi a ddygasid o'r bru i'r bedd*—genesid fi i'm claddu, ac nid i fyw y bywyd blinderus hwn: gwel ar pen. iii. 16.

Adn. 20. *Onid ychydig yw fy nyddiau?* I fyw eto ar y ddaear? *paid gan hynny, gad im' lonydd*—tyn dy law oddiarnaf, a gad i mi gael ychydig seibiant oddiwrth fy mhoenau dirfawr; *fel yr ymgysurwyf ychydig*—cyn marw. Yr oedd Dafydd wedi hyn yn gofyn am yr un peth, Salm xxxix. 13.

Adn. 21. *Cyn myned o honof lle ni ddychwelwyf?* I breswyllo mwyach ar y ddaear fel y bûm; *i dir tywyllwch a chysgod angau*—sef y bedd, fel y mae yn amlwg oddiwrth yr adnod nesaf: gwel ar pen. vii. 9.

Adn. 22. *Tir tywyllwch fel y fagddu?* Ymadrodd yn cyfeirio nid at uffern, ond at y tywyllwch mwyaf a daaf yn bosibl; ac onid lle felly yr y bedd? *A chysgod angau*—

chwelwyf, i dir tywyllwch a chysgod angau;

22 Tir tywyllwch fel y fagddu, a chysgod angau, a heb drefn; lle y mae y goleuni fel y tywyllwch.

PENNOD XI.

A SOPHAR y Naamathiad a atebodd ac a ddywedodd,

2 Oni atebir amllder geiriau? ac a gyfiawnheir gŵr siaradus?

3 Ai dy gelwyddau a wna i wŷr dewi? a phan watwarech, oni bydd a'th waradwyddo?

4 Canys dywedaist, Pur ydyw fy

ymadrodd barddonol, yn arddangos angau fel yn cysgodi neu yn tywyllu y bedd yn fwy fyth â'i adenydd. *A heb drefn*—ond pawb yn gorwedd yn blith draphlith, hen ac ieuanc, tylawd a chyfoethog, da a drwg. *Lle y mae y goleuni fel y tywyllwch*—heb ddim gwabaniaeth rhyngddynt i'r rhai sydd yno. Y meddwl yw, nid yn unig fod y bedd ynddo ei hun yn dywyll, ond fod golygion y meirw hefyd wedi tywyllu. Unffunud yw goleuni a thywyllwch, dydd a nos, haf a gauaf, i bawb yno. Yn angau y mae eneidiau y duwilion yn myned i wlad o leuni heb ddim tywyllwch, a'u cyrff i dir tywyllwch heb ddim goleuni. Cofia, ddarlennydd, 'nad oes na gwaith, na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd, lle yr wrt ti yn myned!' *Prep. ix. 10.*

PEN. XI. Adn. 1. *A Sophar y Naamathiad*] Yr hwn oedd yr areithydd diweddaf o dri chyfaill Job: gwel ar pen. ii. 11.

Adn. 2. *Oni atebir amllder geiriau?*] A wyt ti yn meddwl cael siared y cwbl dy hun, heb i neb arall gael dywedyd gair? *Ac a gyfiawnheir gŵr siaradus?*—a wyt ti yn meddwl dy gyfiawnhau dy hun â geiriau gweigion, neu yn dysgwyl i ni dy gyfiawnhau trwy goelio dy faldordd? Fel hyn y mae Sophar yn dechreu ei araeth yn y modd mwyaf anfoneddigaidd a thrahas. Dechreuasai Eliphaz ei araeth yn y modd tyneraf, pen. iv. 2; a Bildad wedi hyn ychydig yn fwy gerwin, pen. viii. 2; ond y mae Sophar yn dechreu arni yn y lliwiau dauaf, gan ei gyhuddo ef o faldordd, celwyddau, a gwatwariaith, heb un sail i'w gyhuddiadau.

Adn. 3. *Ai dy gchwyddau*] Neu dy gamddarluniadau o bonot dy hun, ac o gyfiawnder a rhagluniaeth Duw; *a wna i wŷr dewi*—fel pe byddai dy haeriadau yn anatebadwy? *A phan watwarech*—geryddon Duw, a'n cyngorion ffyddlon a chyfeillgar ninau; *oni bydd a'th waradwyddo*—trwy dy watwar dithau, neu dalu i ti yn dy fesnrau dy hun? Neu, a ddysgwyli di na bydd i neb dy gywilyddio di, trwy nodi dy gyfeiliornadau a'th yafdyrwydd?

Adn. 4. *Canys dywedaist*] Yma y mae Sophar yn dwyn ei brofion yn mluaen i gadarn-

nysgeidiaeth, a glân ydwyf yn dy olwg di.

5 Ond O na lefarai Duw, ac nad agorai ei wefusau yn dy erbyn,

6 A mynegu i ti ddirgeledigaethau doethineb, eu bod yn ddau cymaint a'r hyn sydd! cydnebydd gan hyn y Dduw ofyn genyt lai nag a haeddai dy anwiredd.

7 A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? a elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd?

8 Cyfwruch a'r nefoedd ydyw, beth a wnei di? dyfnach nag uffern yw, beth a elli di ei wybod?

hau ei haeriad; *Pur ydyw fy nysgeidiaeth*—efe a gymer arno iddo glywed Job yn dywedyd, fod pob peth a ddywedasai efe am dano ei hun, ac am Dduw a'i ragluniaeth, yn wirionedd pur; *a glân ydwyf yn dy olwg di*—sef cwbl ddirgeledig yn ngolwg Duw. Y mae yn wir i Job ddywedyd, 'Ti a wyddost nad ydwyf annuwiof,' pen. x. 7; ac y mae yn debyg mai at y geiriau hyn y cyfeiria Sophar yma; ond eto nid oedd Job, fel y sylwyd ar yr adnod hono, yn hŏni perffeithrwydd dirbechod, fel y deallai Sophar y gair.

Adn. 5. *Ond O na lefarai Duw*] Anobeithiai Sophar am allu argyhoeddi Job ei hun, a chwennychai yn fawr i Dduw gymeryd y gwaith hwnw mewn llaw; *nad agorai ei wefusau yn dy erbyn*—fel ag i roddi tw arnat ar unwaith.

Adn. 6. *A mynegu i ti ddirgeledigaethau doethineb*] Sef dyfnderoedd archwiliadwy ei ddoethineb yn ei ymddygiadau tuag at ei greaduriaid; *eu bod yn ddau cymaint a'r hyn sydd*—wedi ei amlygu eisioes. Y mae llawer mwy o ddoethineb a chyfiawnder Duw heb eu hamlygu, nag sydd eto wedi eu hamlygu yn dy ddyoddefiadau di. *Cydnebydd gan hyn y Dduw ofyn genyt lai*—hyd yma, *nag a haeddai dy anwiredd*—ddarfod iddo dy gospi yn llai na'th baeddiant, ac am hyn na ddylit rwnnach dan dy ddyoddefiadau. Neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'Cydnebydd fod Duw wedi peri *anngofio* i ti ran o'th anwiredd,' nen wedi ymddywyn tuag ataf fel pe buasai rhan o'th bechodau wedi eu hanngofio. Tybia rhai fod y frawddeg ganol, 'en bod yn ddau cymaint,' yn cyfeirio at bechodau Job; ac y mae hyn yn cysoni yn dda a'r frawddeg olaf.

Adn. 7. *A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw*] Neu ganfod holl ddyfnderoedd ei ddoethineb ef, a'r rheswm am bob un o'i weithredoedd? *A elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd*—fel ag i lawn amgyffred ei natur, ei briodoliaethau, a'i weithredoedd anfeidrol?

Adn. 8. *Cyfwruch a'r nefoedd ydyw, beth a wnei di*] Yn ceisio ei amgyffred? *Dyfnach nag uffern yw, beth a elli di ei wybod*—am ei uwchder a'i ddyfnder anfeidrol ef?

9 *Y mae* oi fesur ef yn hwy na'r ddaear, ac yn lletach na'r môr.

10 Os tyr efe ymaith, ac os carchara: os casgl yn nghyd, pwy a'i rhwystra ef?

11 Canys efe a edwyn ofer ddyinion, ac a wel anwiredd; onid ystyria efe gan hyny?

12 Dyn gwág er hyny a gymer arno fod yn ddoeth; er geni dyn fel llwdn asen wyllt.

13 Os tydi a barotol dy galon, ac a estyni dy ddwyllaw ato ef;

14 Od oes drygioni yn dy law, burw ef ymaith yn mhell, ac na

ddyoddef i anwiredd drigo yn dy luesttai:

15 Canys yna y codi dy wyneb yn ddifrychaw; i.e., byddi safadwy, ac nid ofni:

16 Oblegid ti a ollyngi dy ofid dros gof: fel dyfroedd y rhai a aethant heibio y cofi ef.

17 *Dy* oedran hefyd a fydd ddysgleiriach na hanner dydd; llewyrchi, a byddi fel y boreddydd.

18 Hyderus fyddi hefyd, o herwydd bod gobaith: i.e., ti a gloddi, ac a orweddi mewn diogelwch.

19 Ti a orweddi hefyd, ac ni bydd

Adn. 9. *Y mae ei fesur ef yn hwy na'r ddaear, ac yn lletach na'r môr*] *Y* rhai a ystyrir gynt, pryd yr oedd dacaryddiaeth yn anadnabyddus, fel y gwrthddrychau mwyaf neu eangaf mewn bodolaeth. Ond pa mor eang bynag yr ystyrir hwynt, dywedir yma fod Duw yn hwy na'r ddaear, ac yn lletach na'r môr; i.e., y mae efe yn anfeidrol fwy na hwynt: gwel ar l Bren. viii. 27.

Adn. 10. *Os tyr efe ymaith*] Ddyn neu deulu, fel y gwnaeth a theulu Job; ac os carchara—efe ddyn mewn cystudd, fel y gwnai yn awr â Job; os casgl yn nghyd—fyddin-oedd i'w erbyn, fel yr oedd wedi casglu y Sabaid a'r Caldeaid yn erbyn Job. Ond tybia rhai fod yma gyfeiriad yn hytrach at droseddwr yn cael rhuthro arno i'w ddal, ei garcharu byd ddydd y profi, ac at gasglu tystion i'w erbyn. Yn y naill achos neu y llall, pwy a'i rhwystra ef—i wneyd a fynd â'i greaduriaid, gan ei fod yn hollalluog?

Adn. 11. *Canys efe a edwyn ofer ddyinion*] Neu ddyinion twyllodrus a rhagrithiol. Er na wŷr y cyfryw fawr am Dduw, a'u bod am hyny yn anadass i farnu an ei ragluniaeth, ei natur, a'i weithredoedd ef, eto y mae efe yn ei hadnabod hwy yn berffaith, ac yn gwybod am eu holl oferedd a'u flolineb. *Ac a wel anwiredd*—er ei fod yn nghiliau tywyllaf y galon, neu yn cael ei guddio â mantell rhagrith. *Onid ystyria efe gan hyny*—y cyfryw anwiredd, fel ag i'w gospi? Amcan Sophar yw dangos i Job ei fod ef yn euog yn nghyfrif Duw, er iddo haeru ei ddiwiedrwydd.

Adn. 12. *Dyn gwág*] Yr hwn, byth ar ol y cwmp, sydd yn wág o bob doethineb a daioni ysbrydol; er hyny a gymer arno fod yn ddoeth—yn ddiagon doeth i ganfod beiau yn ffyrdd Duw, a'i alw ef i gyfrif am ei weithredoedd; er geni dyn fel llwdn asen wyllt—mewn anwybodaeth, dylai, a hurtwydd.

Adn. 13. *Os tydi a barotol dy galon*] Trwy wir edifeirwch; ac a estyni dy ddwyllaw ato ef—mewn gweddi. Yr oedd yn arferiad cyffredin yn mhllith yr Iuddeuon a'r paganiaid, i'r gweddiwyr ddyrchafu neu ledn eu dwyllaw wrth weddio, fel pe buasant am goffeidio y cymorth ag y gof'nent am dano. Y mae Sophar yma, yn ei siampl Eliphaz a Bildad o'i

flaen, yn annog Job i edifeirwch am ei bechodau yn erbyn Duw; ac yn addaw iddo, os gwnai of hyny, y cai efe adferiad iechyd, a phob bendith arall yn dymhorol ac ysbrydol.

Adn. 14. *Od oes drygioni yn dy law*] Rhyw eiddo wedi ei gyraedd yn anghyfiaw, neu yn cael ei gadw felly oddiwrth ei berchenog: gwel ar Luc xix. 8. Neu gall ei fod yn cyfeirio yma at unrhyw arferiad neu weithred bechadurus, gan mai y llaw yn gyffredin yw oferyn gweithrediad. *Burw ef ymaith yn phell*—boed i ti ymgadw yn mhell nid yn unig oddiwrth ddrygioni, ond hefyd oddiwrth yr achlysur o hono, a'r tebygolrwydd iddo. *Ac na ddyoddef i anwiredd drigo yn dy luesttai*—yn dy dy, neu yn mhllith dy deulu.

Adn. 15. *Canys yna y codi dy wyneb yn ddifrychaw*] Yn siriol, llawen, a chydya hyddra santaidd; i.e., byddi safadwy—cai sicrwydd cryf a dedwydd yn dy gydwybod o flaff a chlymeradwyaeth Duw; ac nid ofni—golli dy sicrwydd; neu nid ofni rhag digofaint Duw, fel yr wyt yn ofni yn awr.

Adn. 16. *Oblegid ti a ollyngi dy ofid dros gof*] Bydd dy ddedwyddwch mor hir ac mor fawr, nes peri i ti megys aunghofio dy holl ofid gynt; fel dyfroedd y rhai a aethant heibio y cofi ef—fel pe dywedasai, Os cofi ef, ei goffo heb brofi dim o hono a wnai; fel rhywbeth a fu gynt, ond a oedd yn awr wedi myned heibio yn hollol. Y mae yma gyfeiriad at y llif-ddyfroedd yn dylifo o'r mynyddoedd ar ol gwlawogydd trymion neu doddiaid eira, y rhai a ysgubent dai, anifeiliaid, a chnydau o'u blaen, ond a aent heibio yn fuan, ac a lyncid o'r golwg yn y gwastadedd tywodlyd ar hyd yr hwn y rhedent.

Adn. 17. *Dy oedran hefyd*] Sef gweddill ei oes, neu ei henaint; a fydd ddygleiriach na hanner dydd—heb un cwmwl dŷ o drallod i'w weled arnat: *llewyrchi*—fel goleuni yr haul yn tori allan ar ol cael ei guddio yn nhywyllwch y nos a aethai heibio; a byddi fel y boreddydd—neu 'bydd dy lwybr fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwyfwy hyd ganol dydd.

Adn. 18. *Hyderus fyddi hefyd o herwydd bod gobaith*] Yn parhau gyda thi hyd y di-

a'th ddychryno, a llawer a ymbiliant â'th wyneb.

20 Ond llygaid yr annuwiolion a ddiffygiant, metha ganddynt ffoi, a'u gobaith fydd fel ymadawiad yr enaid.

PENNOD XII.

A JOB a atebodd ac a ddywedodd,
2 Diau mai chwydchi sydd bobl; a chyda chwi y bydd marw doethineb,

3 Eithr y mae genyf fi ddcall fel

wedd, ac nid yn ymadael fel eiddo yr annuwiol, adn. 20; neu, bydd fy feddwl yn dawel a rhydd oddiwrth ddychryn, am y bydd genyt hyder cryf ac iawn-seiliedig yn aundiffyniad Duw; *ie, ti a gloddi*—i osod i lawr dy babell yn ddisig, neu o'i hamgylch hi i'w hamddiffyn, neu i gaffael dwfr, fel y mao rhai yn deall y gair; neu ynte, ti a gair lonyddwch i *aredig* a llafario y ddaear, fel y mae ereill yn ei ddeall; *ac a orweddi*—neu a orphwysy ar dy luth ar ol dy lafur; *mewn diogelwch*—heb neb i'th aflonyddu.

Adn. 19. *Ti a orweddi hefyd* Yn dy wely y nos; *ac ni bydd a'th ddychryno*—yn dy gws, llawer llai dy niweidio. Ond tybia rhai mai gorwedd i *gygu* a clygir yn adn. 18, ac mai gorwedd yn y *bedd* a olygir yma. *A llawer a ymbiliant â'th wyneb*—a ofynant am dy gynghor, neu a geisiant dy ffafir, gan faint dy awdurdod a'th gyfoeth.

Adn. 20. *Ond llygaid yr annuwiolion a ddiffygiant* Trwy ofid a dagrau o achos eu hadfyd, neu wrth edrych yn mlaen at ddaioni na echant byth ei fwynhau: *metha ganddynt ffoi*—rhag y gomp a haeddodd eu hanwiredd; *a'u gobaith fydd fel ymadawiad yr enaid*—ymedy ar unwaith fel yr ysbryd o'r corff pan fyddo dyn yn marw, neu fel dyn yn tynu 'un anadliad.' Y meddwl yw, paobaith bynag am ddedwyddwch tudraw i angau a ail fod gan dlyn annuwiol, y derfydd hwnw ar ei anadliad olaf ef, neu pan fyddo ei enaid yn ymadael o'i gorff; tra y bydd i oibaith y ddiwili loewi yn angau, a'i gynal ef wrth rodio y glŷn, a throi yn fwynhad iddo yn y nef.

PEN. XII. Adn. 1. *A Job a atebodd* Mewn amddiffyniad iddo ei hun yn ngwynneb yr hyn a ddywedwyd gan Sophar a'i gyfeillion.

Adn. 2. *Diau mai chwydchi sydd bobl* Mai chwi yw yr unig bobl ddeallus a doeth yn y byd; *a chyda chwi y bydd marw doethineb*—pan y bydd i chwi farw, bydd i ddoethineb farw gyda chwi, neu lwyr ddarfod o'r byd. Yr oedd Sophar a'i ddaen gyfaill wedi siared yn watwarlyd am ymadroddion Job, ac y mae yntau yn awr yn eu gwatwr hwythau.

Adn. 3. *Eithr y mae genyf fi ddcall fel chwydchi* Ond, a llefaru yn ddiawdiaeth, y mae genyf finau galon i ddeall cystal a chwithau ac y pethau ag y dadleuwn yn eu cysch; *nid*

chwithau, nid ydwyf fi waeth na chwithau; a phwy ni wyr y fath bethau a hyn?

4 Yr ydwyf fel un a watwarid gan ei gymydog, yr hwn a cilw ar Dduw, ac efe a'i hetyb: gwatwargerdd yw y cyfiawn perffaith.

5 Lamp diystyr yn meddwl y llwyddiannus, yw yr hwn sydd barod i lithro â'i draed.

6 Llwyddiannus yw lloesttai yspeilwyr, ac y mae diogelwch i'r rhai sydd yn cyffroi Duw, y rhai y cyfoethoga Duw eu dwylaw.

ydwyf fi waeth na chwithau—neu islaw i chwi mewn gwybodaeth o'r pethau dan sylw; *a phwy ni wyr y fath bethau a hyn*—yn gystal a ninau? Awgryma Job nid yn unig ei fod ef yn eu gwybod, ond y byddai yn rhyfedd os nad oedd *paub* yn eu gwybod; canys gallai y cenhedloedd mwyaf barbaraidd wybod fod Duw yn anfeidrol mewn doethineb, daioni, gallu, a chyfiawnder.

Adn. 4. *Yr ydwyf fel un a watwarid gan ei gymydog* Yma y mao Job yn cyfeirio at Sophar, yr hwn a'i gwatwarasai ef a'i eiriau, pen. xi. 2, 3; *yr hwn a cilw ar Dduw, ac efe a'i hetyb*—bynny yw, yn ol rhai, yr oedd Job yn cael ei watwar, er ei fod yn gweddio ar Dduw fel pob dauwel, ac yn cael ei wrando ganddo. Ond tybia ereill mai â'r geiriau hyn y gwatwarid ef gan ei gymydog; fel pe dywedasai, Efe a cilw ar Dduw; ond a ydwy Duw yn ei ateb ef? Efe a haera ei gyfiawnder a'i ddiniweidrwydd, gan apelio at Dduw; ond a ydwy Daw yn ei wrando ef, ac yn ei waredu o'i dralodau? Eithr tybia ereill mai am y cymydog gwatwarus y dywedir, ei fod ef yn galw ar Dduw, ac yn cael atebiad ffafrol; tra nad oedd Job ei hun yn cael dim gwrandawid i'w gwynfaniadau. *Gwatwargerdd yw y cyfiawn perffaith*—fel pe dywedasai, Nid rhyfedd i mi gael fy ngwatwar, oblegid cafodd y dynion cyfiawnaeth a pherffeithiaeth eu gwatwar fel hyn. Fe allai ei fod yn cyfeirio yma at Noa.

Adn. 5. *Lamp diystyr yn meddwl y llwyddiannus* Yn ngolwg neu yn nghyfrif dynion mewn esmwythder neu llyddiant; *yw yr hwn sydd barod i lithro â'i draed*—neu yr hwn a fyddo yn, neu wedi, syrthio i adfyd a thylodi. Er ei fod yntau yn lamp llewyrchus yn ei llyddiant, ac yn cael ei barchu gan fawrion y byd; eto, wedi iddo lithro i dylodi, y mae ei hen gyfeillion yn ei ddiystyru fel lamp ar ddi-fioddi, gan ei gyfrif yn ddiwert. Diaman fod Job yn eymhwyso hyn at ei dri chyfaill llwyddiannus, y rhai a barchent Job cyn ei gystuddio, ac a'i hystyrient ef fel gloenni yn y byd; ond yn awr, yn ei adfyd, diystyrent ef fel lamp myglyd ar ddiffoddi.

Adn. 6. *Llwyddiannus yw lloesttai yspeilwyr* Neu, y mae yr yspeilwyr yn llwyddiannus yn eu pebyll neu eu tai; *ac y mae diogelwch i'r rhai sydd yn cyffroi Duw*—trwy eu hamrywiol bechodau cyhoeddus a rhyfgy-

7 Ond gofyn yw awr i'r anifeiliaid, a hwy a'th ddysgant, ac i chediaid yr awyr, a hwy a fynegant i ti.

8 Neu dywed wrth y ddaear, a hi a'th ddysg: a physgod y môr a hysbysant i ti.

9 Pwy ni wŷr yn y rhai hyn oll, mai llaw yr Arglwydd a wnaeth hyn?

us; y rhai y cyfoethoga Duw eu dwylaw—er eu bod yn yspeilwyr, llofruddion, ac yn euog o bob math o bechodau. Dadleuai cyfeillion Job mai y dwiliolion yn unig oedd yn llwyddiannus a diogel, ac mai arwydd o annawioldeb a rhagrith oedd allwyddiant ac adfyd; ond yma dengys Job nad yw Duw yn ymddwyn at ddyinion yn y fuchedd hon yn ol en gwir gymeriad: ac i brofi hyn, efe a apelia at fleithian ag oeddynt yn adnabyddus iddynt hwy eu hunain yn y parthau hyn, sef fod Duw yn llwyddo, yn cyfoethogi, ac yn diogelu hyd yn nod yspeilwyr a llofruddion, megys y Sabeaid a'r Caldeaid, y rhai oeddynt yn byw ar yspail.

Adn. 7. *Ond gofyn yn awr i'r anifeiliaid*] Am wironedd yr hyn a ddyweddasai Job yn adn. 6; a hwy a'th ddysgant—nad yw Duw yn ymddwyn at baw a phob peth yn ol eu gwir gymeriad; ac i chediaid yr awyr—a hwy a fynegant i ti yr un peth. Yn mblith yr anifeiliaid a'r adar y mae y rhai ysglyfaethus yn llwyddo, a'r rhai diniwed a dôf yn syrthio yn ysglyfaeth iddynt yn fynych, heb i Dduw ddyfod allan i ddŷfodyta y llew a'r fwltau, neu i waredu yr oen ac aderyn y tô o'u crafangau. Ond tybia Rosenmuller ac ereill mai yr ystyr yw, y gallai yr anifeiliaid, yr ehediaid, a'r pysgod ddyngu i Sophar, trwy eu natur, eu cynneddau, a'u dull o fyw, uwch gwybodaeth am ddoethineb, gallu, a chyflawnder Duw, nag a feddai efe, er maint ei ymfrost yn y bennod flaenorol. Gall y nail ystyr neu y llall gynwys synwyr a chysylltiad da, er mai y deongliad blaenaf a ymddengys i ni fel yr un tebycaf.

Adn. 8. *Neu dywed wrth y ddaear*] Hlyn yw, gofyn i'r ddaear; a hi a'th ddygy—mai yn llaw yr annawiol y mae hi a'i chynyrch gan mwya, ac nid yn llaw y cyflawn: a physgod y môr a hysbysant i ti—mai danteithion i'r annawiol ydynt hwythau fynychaf; neu ynte fod y rhai cryfaf a mwyaf ysglyfaethus o honi-ynt hwythau, fel yr anifeiliaid a'r ehediaid, yn ymborthi ar y rhai gwanaf. Y meddwl yw, ei bod yn egwyddor amlgwg yn mblith pob creadur, rhesymol ac afresymol, mai y rheibus a'r drygionus sydd yn llwyddo fynychaf; tra y mae y gwan, y diamddifyn, a'r dwiol, yn ddarostyngedig i lawer o ddrygau, heb i Dduw gymesuro ei ymddygiadau tuag at ei wahanol greaduriaid bob amser yn ol gwir weddnod pob un.

Adn. 9. *Pwy ni wŷr yn y rhai hyn oll*] Sef trwy neu oddiwrth yr holl greaduriaid hyn. ond iddo sylwi arnynt neu ofn megys iddynt; mai llaw yr Arglwydd a wnaeth hyn—mai JEOFA, trwy ei allu a'i ddoethineb anfeidrol, a greodd ac a drefnodd bob peth ynddynt, neu

10 Yr hwn y mae einioes pob peth byw yn ei law, ac anadl pob math ar ddyd.

11 Onid y glust a farna ymadroddion? a'r genau a archwaetha ei fwyd?

12 Doethineb sydd mewn henuriaid; a deall mewn hir ddyddiau.

13 Gydag ef y mae doethineb a

a wneir ganddynt? Yr ystyr yw, od yr egwyddor a amddiffynir gan Job yn un mor eglur, fel ag y gellir ei ddygu hyd yn nod oddiwrth y ddaear ei hun, ac oddiwrth y creaduriaid distadlaf arni. Dyma yr unig fan yn rhanau barddonol llyfr Job, neu yn y gynadledd rhyngddo ef a'i gyfeillion, lle y ceir yr enw JEOFA yn y testyn Hebreig argraffedig; ac y mae efe yn ei siau yma mewn naw o'r hen ysgriflyfrau. Yn pen. xxviii. 28, ceir JEOFA mewn rhai ysgriflyfrau, er mai Adonai a geir yn yr ailunau argraffedig. Er hyn y mae yr enw JEOFA yn dygwedd yn fynych, fel y gwelsom, yn rhanau hanesyddol y llyfr lwn.

Adn. 10. *Yr hwn y mae einioes pob peth byw yn ei law*] 'Nephes col chai, 'enaid pob bywyd;' ac anadl pob math ar ddyd—'verruach col beser, 'ac ysbryd neu anadl pob enwad.' Ai nid yw y blaenaf yn cyfeirio at yr enaid anfarwol, egwyddor pob bywyd deallol; a'r olaf at yr anadl, y moddion arbenig trwy ba un y parheir bodaeth anifeiliaid? gwel pen. x. l.—CLARKE. Ond y mae yr esbortwyr y gyffredin yn deall y bywyd anifeiliaid wrth y blaenaf, a'r enaid anfarwol wrth yr olaf, fel y mae ruoch yn fynych yn arwyddo. Y meddwl yw, fod dyn wedi ei ddarostwng dan yr un deddfau a'r rhan arall o'r creaduriaeth.

Adn. 11. *Onid y glust a farna ymadroddion?*] Gwaith y glust yw gwrando ymadroddion, fel y gallo y deall eu barn: ond nid oedd cyfeillion Job wedi talu y sylw hwnw i'w eiriau ef, fel ag i ddeall ystyr ei ymadroddion of am Dduw a'i weithredoedd. *A'r genau a archwaetha ei fwyd*—yr ystyr yw, fod dyn wedi ei gynysgaethu â gallu i wahaniaethu rhwng y da a'r drwg; ac y dylai efo o ganlyniad ddefnyddio ei alluoedd i wahaniaethu rhwng y gwr a'r gau mewn pynciau moesol, fel y gwahaniaethu y genau rhwng bywyd a bywyd. Neu, danghosai Job y medrai ef farnu cywirdeb neu anghywirdeb ymadroddion ei gyfeillion; yn gystal ag y medrai archwaethu ei fwyd.

Adn. 12. *Doethineb sydd mewn henuriaid*] Y mae y wreiddiol yma yn arwyddo hen wŷr, nid swyddogion; a deall mewn hir ddyddiau—trwy fod y rhai ag oeddynt yn cael byw am gannoedd o flynyddau, fel y patriarch, yn meddu manteision mawrion i weld, dlywed, sylwi, a dygu. Yr oedd Bildad wedi awgrymu yr un peth, pen. viii. 8, 9, ac y mae Job yma yn cyduno âg ef.

Adn. 13. *Gydag ef y mae doethineb a chadernid*] Sef 'gyda Duw,' fel y mae ar ymyl y ddalen. Y mae Job yma yn troi oddiwrth yr henuriaid at Dduw, yr hwn yw ffynnon doethineb a chadernid, fel Duw fragwydd—

chadernid, cynghor a deall sydd ganddo.

14 Wele, efe a ddystrywia, ac nid adeiledir: efe a gau ar ŵr, ac nid agorir arno.

15 Wele, efe a attal y dyfroedd, a hwy a sychant: efe a'u denfyn hwynt, a hwy a ddadymchwelant y ddaear.

16 Gydag of *y mae* nerth a doethineb: efe-biai y twylledig a'r twyllodrus.

17 Efe sydd yn gwneuthur i gyng-horiaid fyned yn anrhaith; ac efe a ynfyda farnwyr.

18 Efe sydd yn dattod rhwym

brenhinoedd, ac yn rhwymo gwr-egys am eu llwynau hwynt.

19 Efe sydd yn gwneuthur i dy-wysogion fyned yn anrhaith; ac a blyga y rhai cedyrn.

20 Efe sydd yn dwyn ymaith ymadrodd y ffyddlon; ac yn dwyn synwyr y rhai hen.

21 Efe sydd yn tywallt diys-tyrwech ar dywysogion; ac yn gwanhau nerth y rhai cryfion.

22 Efe sydd yn datguddio *pethau* dyfnion allan o dywyllwch; ac yn dwyn cysgod angau allan i oleuni.

23 Efe sydd yn amlhau y cenhedl-oedd, ac yn eu dystrywio hwynt: efe

ol. *Cynghor a deall sydd ganddo*—fel yr eglurir eto yn yr adnodau isod.

Adn. 14. *Wele, efe a ddystrywia*] Ddinasoedd, fel y gwnaeth wedi hyn y Sodom, Nifef, Tyrus, &c.; ac amherodraethau, megys eiddo Assyria, Babilon, Groeg, a Rhufain; *ac nid adeiledir*—ni all neb adgyweirio yr hyn y bwriada efe ei lwyd ddystrywio. *Efe a gau ar ŵr*—mewn cyfyngderau neu gystuddiau; *ac nid agorir arno*—i'w ryddhau oddiwrth ei gyfyngderau, heb ei ganiatâd ef. Gellir dywedyd yr un peth am y bedd, neu am y pyded diwaelod.

Adn. 15. *Wele, efe a attal y dyfroedd*] O'r cymylau a'r ffynnonau; a *hwy a sychir*—bydd y cwmwl a'r ffynnon heb ddwr ynddynt: *efe a'u denfyn hwynt*—pan y barno hyn yn angenrheidiol; a *hwy a ddadymchwelant y ddaear*—gall fod yma gyfeiriad at y difrodiad au mawrion a wneid trwy y llifogydd o'r mynyddau, yr hyn, fel y gwelom eisioes, a ddygyddai yn fynych yn y gwledydd hyn; neu at y dylif, yr hwn a raid fod yn hysbys i Job.

Adn. 16. *Gydag of y mae nerth a doethineb*] I lywodraethu holl achosion y byd, ac i wybod yn berffaith am bawb a phob peth; *efe biai y twylledig a'r twyllodrus*—yr un a dwyllwyd, a'r neb a'i twyllodd; hynny yw, y maent ill dau yn gyfrifol iddo ef, ac i gael eu barnu a'u gwobrwyo ganddo yn ol yr hyn a waethant neu a ddyoddefasant. Tybia rhai fod Job yma yn cyfeirio ato ei hun, yr hwn a dwyllwyd gan ei gyfeillion i ymadroddion o rwg-nachrwydd; a thybia ereill ei fod yn cyfeirio at ein rhieni cyntaf, y rhai a dwyllwyd gan y sarff: ond y mae yn debycach mai ei feddwl yw, fod pob dosbarth o ddynion dan lywodraeth Duw, y da a'r drwg.

Adn. 17. *Efe sydd yn gwneuthur i gyng-horiaid*] Rhai doethion i gyng-hori brenhinoedd; *fyned yn anrhaith*—gael eu caethiwo fel carcharorion rhytel: *ac efe a ynfyda farnwyr*—trwy ddynoeithi eu hynfydrwydd, neu ddrysu eu meddylliau, a throï eu cynlluniau i'w dinstyr eu hunain.

Adn. 18. *Efe sydd yn dattod rhwym brenhinoedd*] Sef y rhwyauau gorthrymus a roddant hwy am eu deiliaid; neu ynte, efe sydd

yn eu gwanychu a'u diorseddu hwy, Esay xlv. 1; *ac yn rhwymo gwregys am eu llwynau hwynt*—i'w cryfhau newn nerth ac awurdod brenhinol, fel y gwregysodd efe Cyrus wedi hyn, Esay xlv. 5. Tybia rhai fod hyn yn meddwl, eu darostwng hwynt i gyflwr o *gaethi-wed*, am yr arferu caethweision gwregysu eu dillad wrth wasanaethu eu meistri: ond y mae yn debycach mai yr ystyr yw, fod Duw, fel Breun y brenhinoedd, yn eu diorseddu hwynt yn ol ei ewyllys ei hun, fel y dywedir yn nechre yr adnod; ac yna yn eu dyrchafu hwynt i'r orsedd pan y myno, a'r neb y myno.

Adn. 19. *Efe sydd yn gwneuthur i dywysogion fyned yn anrhaith*] I'w gelynon, fel y dygwyrddodd wedi hyn i dywysogion Israel a Juda yn amser eu caethgludaid. Bitlir tybia rhai mai *offeriaid* a olygir yma wrth y gair *cohanim*, ac nid *tywysogion*: ond pa un bynag, cafodd y tywysogion a'r offeriaid eu gwneyd yn anrhaith gan yr Assyriaid a'r Babiloniaid ar yr un pryd. *Ac a blyga y rhai cedyrn*—megys cadfridogion a chapteiniaid milwrnaidd.

Adn. 20. *Efe sydd yn dwyn ymaith ymadrodd y ffyddlon*] Trwy eu darostwng i'r fath gyfyng-gynghor fel na wyddant pa beth i'w ddywedyd, er y dymument ddywedyd y goraf; *ac yn dwyn synwyr y rhai hen*—trwy eu drysu a'u hynfydu fel na allent lefaru, neu fel y camlefarant â'u gwefusau. Fe allai fod yma gyfeiriad at gymysgiad yr iaith yn Babel: gwel ar Gen. xi. 7.

Adn. 21. *Efe sydd yn tywallt diystyrwech ar dywysogion*] *Nedibim*, 'rhai o'r had brenhinol,' trwy eu gosod yn ddiystyrlld yn ngolwg eu deiliaid ac ereill; *ac yn gwanhau nerth y rhai cryfion*—trwy roddi clefydau yn eu cryff, dychryn yn eu meddwl, neu trwy leihau eu byddinoedd.

Adn. 22. *Efe sydd yn datguddio pethau dyfnion allan o dywyllwch*] Neu yn dwyn i'r amlwg y bradfwriadau dirgelaf; *ac yn dwyn cysgod angau allan i oleuni*—sef y bwriadau tywyllaf a dirgelaf yn bosibl, gan eu gosod yn eglur i bawb.

Adn. 23. *Efe sydd yn amlhau y cenhedl-oedd*] Neu yn eu lloosogi; *ac yn eu dystrywio hwynt*—sef yn eu darostwng i ychydig

sydd yn cangu ar y cenhedloedd, ac efe a'u dwg hwynt *i gyfyngdra*.

24 Efe sydd yn dwyn calon penaethiaid pobl y ddaear; ac efe a wna iddynt grwydro mewn anialwch heb ffordd.

25 Hwy a balfalant yn y tywyllwch heb oleuni; ac efe a wna iddynt hwy gyfeiliorni fel meddwyn.

PENNOD XIII.

WELE, fy llygad a welodd *hyn* oll; fy nghlust a'i clywodd ac a'i deallodd.

2 Mi a wn yn gystal a chwithau: nid ydwyf waeth na chwithau.

3 Yn wir myfi a lefaraf wrth yr

nifer, trwy newyn, clefydau, neu ryfeloedd. *Efe sydd yn cangu ar y cenhedloedd*—nes peri iddynt chwilio am drefedigaethau mewn gwledydd ereill; *ac efe a'u dwg hwynt i gyfyngdra*—trwy beri i'w gelynyon eu gwasgu, eu darostwng, a'u lladd.

Adn. 24. *Efe sydd yn dwyn calon penaethiaid pobl y ddaear*] Yn dyrsu, siomi, neu lwfrbau meddylian en brenhinoedd hwynt; *ac efe a wna iddynt grwydro mewn anialwch heb ffordd*—i geisio ynguddio o olwg eu gelynyon.

Adn. 25. *Hwy a balfalant yn y tywyllwch heb oleuni*] Fel dynion wedi colli eu ffordd yn y nos, ac yn chwilio am dani ar eu gliniau a'u dwylaw; *ac efe a wna iddynt hwy gyfeiliorni fel meddwyn*—yr hwn ni all gerdded heb siglo, ac na wŷr pa beth y mae yn ei wneuthur, nac i ba le y mae yn myned: gwel ar Salm cvii. 27.

PEN. XIII. Adn. 1. *Wele, fy llygad a welodd hyn oll*] Yr holl bethau a adroddasai efe yn y bennod flaenorol, neu a ddywedasai ei gyfeillion wrtho yn nghylch trefniadau dwyfol ragluniaeth; *fy nghlust a'i clywodd ac a'i deallodd*—efe a glywsai hefyd am bethau cyffelyb, ac yr oedd yn eu deall crystal a hwythau.

Adn. 2. *Mi a wn yn gystal a chwithau*] Am driniaethau Dduw tuag at ddynton yn y byd hwn; *nid ydwyf waeth na chwithau*—neu islaw i chwithau yn fy ngwybodaeth am bethau felly, ac am hyn nid oes arnaf eisiau fy nysgu genych chi: gwel ar pen. xii. 3.

Adn. 3. *Yn wir myfi a lefaraf wrth yr Hollalluog*] Yn lle dadlu â chi; *ac yr ydwyf yn chwennych ymresymu â Duw*—yr hwn sydd yn canfod fy nghalon, ac yn gwybod am uniondeb fy egwyddor. Yr oedd ei gyfeillion yn gwrthdroi ei eirian, ac yn ei farnu yn rhagrithiwr; ond credai y byddai i Dduw farnu yn fwy tyner am dano.

Adn. 4. *Onid rhai yn asio celwydd ydych chi*] Yn cydio celwydd wrth gelwydd, neu yn llunio rhesymau twyllodrus i brofi gantabrawiaeth, sef mai dynion rhagrithiol ac annuolig yw yr unig rai ag sydd yn cael eu

Hollalluog, ac yr ydwyf yn chwennychu ymresymu â Duw.

4 Onid rhai yn asio celwydd *ydych chi*: meddygon dyddim *ydych chi* oll.

5 O gan dewi na thawech; a *hyn* a fyddai i chi yn ddoethineb.

6 Clywch, atolwg, fy rheswm, a gwrandewch ar ddadl fy ngwefusau.

7 A ddywedwch chiw anwiredd dros Dduw? ac a ddywedwch chiw dwyll er ei fwyn ef?

8 A dderbyniwch chiw ei wyneb ef? a ymrisonwch chiw dros Dduw?

9 Ai da fydd *hyn* pan chwilio efe chiw? a dwyllwch chiw ef fel twyllo dyn?

10 Gan goryddu efe a'ch crydda

cystuddio a'u tralloidi. *Meddygon dyddim ydych chi* oll—sef meddygon nad oeddynt dda i ddim ond dyfuhau yr atfechyd. Tybia Clarke fod y gair *asio*, yn nechre yr adnod, yn cyteirio at waith llaw-feddyg yn *gwio* neu yn *cysylltu* ochrau gwahanedig clwyf; ac y gellir darllen yr adnod, 'LLAW-FEDDYGON *futsedd* a MEDDYGON *diwerth* ydych chiw oll.' Yr oedd cyfeillion Job wedi dyfod ato i feddyginiaethu ei feddlw ef dan ei drallod; ond yn lle hyn, gwnaethant ei feddlw yn llawer mwy dolurus trwy eu geiriau eherweron: nis gallant iachau clwyf ei foddwl, nac atfechyd ei gorff.

Adn. 5. *O gan dewi na thawech*] Gan mai archeolli Job yn ddyfnach yr oeddynt â'u geiriau pigog, efe a chwennychai iddynt dewi bellach; a *hyn* a fyddai i chiw yn ddoethineb—canys 'y flot, tra tawo, a gyfrifiir yn ddoeth,' Diar. xvii. 28.

Adn. 6. *Clywch, atolwg, fy rheswm*] Ar ol iddynt dewi eu hunain, ceisai Job ganddynt dalu sylw difrifol i'w reswm ef; a *gwrandewch ar ddadl fy ngwefusau*—ar y rhesymau tŷg ag yr wyf fi yn myned yn awr i'w traethu wrthyh. Er trymed oedd cystudd Job, nid oedd ef wedi colli ei reswm na'i leferydd: gadawsai Satan y rhai hyn iddo, gan obeithio y melliithiai efe Dduw: gwel ar pen. ii. 6, 7.

Adn. 7. *A ddywedwch chiw anwiredd dros Dduw*] Gan feddlw eich bod yn ei gyfiawrhau ef wrth ddywydd nad yw efe yn cystuddio neb ond yr annuolig a'r rhagrithiol? *Ac a ddywedwch chiw dwyll er ei fwyn ef*—dan yr esgus o'i foddhau, neu amddiffyn ei anrhydedd a'i gyfiawnder?

Adn. 8. *A dderbyniwch chiw ei wyneb ef*] Heb farnu yn ol cyfiawnder yr achos, ond yn ol uwchraddoldeb un o'r pleidiau, er mwyn ennill ei flaf, fel y gwna barnwyr llygredig? *A ymrisonwch chiw*—neu, 'a ddadleuwch chiw dros Dduw?' Fel pe dywedasai, A ydych chiw achos e'w mor wan, fel ag i fod mewn angen am eich cymhorth chiw i'w amddiffyn?

Adn. 9. *Ai da fydd hyn pan chwilio efe chiw*] Yn nydd mawr y cyfrif, pryd y chwilir eich geiriau a'ch egwyddorion, ac y gwelir yn

chwi, os derbyniwch wyneb yn ddirgel.

11 Oni ddychryna ci ardderchogrwydd ef chwi; ac oni syrth ci arswyd ef arnoch?

12 Cyffelyb i ludw ydyw eich coffadwriaeth chwi; a'ch cyrff i gyrff o glai.

13 Tewch, gadewch lonydd, fel y llefarwyf finau; a deued arnaf yr hyn a ddelo.

14 Paham y cymeraf fy nghnawd

â'm dannedd? ac y gosodaf fy einioes yn fy llaw?

15 Pe lladdai efe fi, eto mi a obeithiaf ynddo ef: er hyny fy ffyrdd a ddiffynaf ger ei fron ef.

16 Hefyd efesyddiachawdwriaeth i mi: canys ni ddaw rhagrithiwr yn ei wydd ef.

17 Gan wrando gwrandewch fy m- adrodd, ac a fynegwyf, â'ch clustiau.

18 Wele yn awr trefnais fy achos, gwn y'm cyfiawnheir.

eglr pa un ai oddiar sel dros ogoniant Duw, ai ynto oddiar eich nwydau a'ch rhagfarn, yr ydych yn lefaru? A fydd i'ch geiriau a'ch ymddygiadau presenol droi allan yn dda y pryd hyny? neu, a fyddant hwy er arnyddedd i Dduw, neu er lles i chwi eich hunain? *A dwylwch chwi ef fel twyllo dyn*—trwy beri iddo feddwl fod eich gwaith a'ch dybenion yn gywir, pan nad ydynt?

Adn. 10. *Gan geryddu efe a'ch cerydda chwi* Nid yn unig efe a anghymeradwya eich gwaith, ond efe a'ch cospa; *os derbyniwch wyneb yn ddirgel*—os lletywch bleidgarwch hyd yn nod yn eich meddyliau, er na byddoch yn ei ddangos trwy eiriau neu weithredoedd. Er mai derbyn wyneb Duw y byddoch, adn. 8, eto efe a'ch cospa yn drwm am amcannu ei foddhan ef trwy fy nghollfarnu i.

Adn. 11. *Oni ddychryna ci ardderchogrwydd ef chwi?* Oni fydd i'r ystyriaeth o fawredd, santeiddrwydd, a chyfiawnder Duw, eich dychrynu chwi rhag lefaru yn dwyllodrus am ei ffyrdd a'i ymddygiadau ef tung ataf fi? *Ac oni syrth ei arswyd ef arnoch*—rhag lle'tya dychymygon na ddaliant i'w chwilio gan ei hollwybodaeth ef?

Adn. 12. *Cyffelyb i ludw ydyw eich coffadwriaeth chwi* Sef y dywediadau diarebol a *gofient*, ac a ddygent hwy yn erbyn Job; nen, fel y mae Clarke yn ei gyfieithu, 'Eich dywediadau cofiadwy ydynt ddiarebion o ludw.' Meddylir fod Job yn cyfeirio yma at hen ddywediadau y doethion, y rhai a ddyfynent hwy mor fynych yn ei erbyn ef; a chydmerhir hwynt ganddo i *ludw* neu *dom*, fel rhai dirmygus a diddefnydd. *A'ch cyrff i gyrff o glai*—er nad ydynt yn llawn o ddoluriau a chornwrydd fel yr eiddo fi, eto nid ydynt ond pridd, ac i'r pridd y dychwelant fel yr eiddo finau. Dylai yr ystyriaeth o'n marwoldeb beri i ni ofni digio Duw.—BENSON. Ond tybia ereill mai cyteirio y mae Job yma at eu *pentwr o eiriau chwyddedig*, y rhai nid allent eu hamddiffyn hwy mwy na mur o glai; neu, y rhai ni allent wrthsefyll ymosodiad arnynt mwy na chastell o bridd.

Adn. 13. *Tewch, gadewch lonydd, fel y llefarwyf finau* Fel y gallwch fyned yn mlaen â'm hymadroddion. Y mae yn debyg eu bod hwy yn ceisio ei attal ef yma, trwy lefaru ar ei draws. *A deued arnaf yr hyn ddelo*—boed y canlyniad y peth y byddo.

Adn. 14. *Paham y cymeraf fy nghnawd*

â'm dannedd? Ymadrodd diarebol, yn arddangos un yn y cyfyngder mwyaf: fel pe dywedasai, Paham y cnoaf fy nhabod a'u gwefusau yn fy mhocanu dirfawr, i rwystro i mi lefaru mewn amddiffyniad i mi fy hun? *Ac y gosodaf fy einioes yn fy llaw?*—ymadrodd yn arwyddo y perygl mwyaf: gwel ar Barn. xiii. 8. Fe allai mai ei feddwl yw, y buasai efe yn peryglu ei einioes wrth beidio llefaru mewn amddiffyniad iddo ei hun; neu, y byddai iddo lefaru yn mlaen, er iddo trwy hyny beryglu ei fywyd.

Adn. 15. *Pe lladdai efe fi* Pe byddai i Dduw ddwyn fy mywyd oddiarnaf trwy y cystudd hwn; *eto mi a obeithiaf ynddo ef*—am fywyd tragwyddol tudraw i angau. *Er hyny fy ffyrdd a ddiffynaf ger ei fron ef*—mi a haeraf fy niuogrwydd hyd angau, nen er iddo fy lladd. Yr oedd ei gyfeillion yn meddwl nas gallai ef fod yn ddyn duwio, os na fyddai i Dduw ei adfer ef i'w iechyd a'i lwyddiant; yr oedd yntau yn meddwl nad oedd ei dralloed presenol yn un prawf o'i ragrithrwydd, ond y gallai Duw adael iddo drengu dan y ceryddon hyn, ac eto ei dderbyn ef ato ei hun i'r nef.

Adn. 16. *Hefyd efesyddiachawdwriaeth i mi* Wedi i mi amddiffyn fy ffyrdd felly ger ei fron ef; nen, os na chaf wardigaeth dymhorol, neu adferiad i'm cyflwr blaenorol, ni a gaf iachawdwriaeth dragwyddol ar ol marw. *Canys ni ddaw rhagrithiwr yn ei wydd ef*—hyny yw, ni all rhagrithiwr sefyll o'i flaen ef, na chael ei achub ganddo: ond safaf fi: gan hyny nid wyf yn rhagrithiwr, fel y tybiwch chwi fy mod.

Adn. 17. *Gan wrando gwrandewch fy m- adrodd* Ceisiasai Job hyn o'r blaen, adn. 6, ac yn awr y mae yn ceisio yr un peth drachefn; naill ai am eu bod hwy yn blino yn ei wrando, neu am ei fod ef yn awr yn dyfod yn fwy adref at y pwne, ac yn myned i lefaru wrth Dduw yn eu clyw hwynt.

Adn. 18. *Wele yn awr trefnais fy achos* Yn rheolaidd yn fy meddwl fy hun; neu ystyriais yn ddiffrifol pa beth a ellir ei ddywedyd o fy mhlaid, neu yn fy erbyn. *Gwn y'm cyfiawnheir*—gwn y gallaf ddwyn yn mlaen y fath resymau i brofi nad wyf yn rhagrithiwr, fel ag y bydd i chwi o'i deimlo eu grym, a dyfod yn mlaen i'm cyfiawnhau; neu, gwn y bydd i Dduw fy rhyddhau i oddiwrth y rhagrith a'r drygioni ag y cyhuddwch chwi fi o honynt, a'm cyhoeddi yn ddyn cyfiawn, er fy

19 Pwy ydyw yr *hwn* a ymddadlen â mi? canys yn awr os tawaf, mi a drengaf.

20 Ond dau *beth* na wna i mi: yna nid ymguddiaf rhagot.

21 Pellha dy law oddiarnaf: ac na ddychryned dy ddychryn fi.

22 Yna galw, a myfi a atebaf: neu myfi a lefaraf, ac ateb di fi.

23 Pa faint o gamweddau ac o bechodau sydd ynaf? pâr i mi wybod fy nghamwedd a'm pechod.

24 Paham y cuddi dy wyneb, ac y cymeri fi yn elyn i ti?

25 A ddrylli di ddeilen ysgwydedig? a ymlidi di sofflyn sych?

26 Canys yr wyt ti yn ysgrifenu pethau chwercwron yn fy erbyn; ac yn gwneuthur i mi feddiannu camweddau fy ieuenctid.

27 Ac yr ydwyf ti yn gosod fy nhraed mewn cyffion, ac yn gwylied ar fy holl lwybrau; ac yn nodi gwadnau fy nhraed.

mod yn meddu gwendidau dynol fel pob dyn arall.

Adn. 19. *Pwy ydyw yr hwn a ymddadlen â mi?* Yma y mae Job yn herio ei gyfeillion i ddadlu âg ef ar ei achos, trwy ei fod wedi rhoddi y mater i'w benderfynu gan Dduw. *Canys yn awr os tawaf, mi a drengaf*—hynny yw, yn ol rhai, 'bydd i'm gofid dori fy nghalon, os na roddaf ollgyngod i'm tomladau;' neu, yn ol ereill, 'os na wnaaf amddiffyniad o hono fy hun.' Ond tybia ereill mai yr ystyr yw, 'byddaf mor dawel i wrando ar yr hwn a ymddadlen â mi, a phe byddwn wedi marw.'

Adn. 20. *Ond dau beth na wna i mi*] Yn hytrach, *gwna* ddau beth i mi, y rhai a enwir yn yr adnod nesaf; *yna nid ymguddiaf rhagot*—eithr ymddaughosaf yn cofni i ddadlu fy achos o'th flaen.

Adn. 21. *Pellha dy law oddiarnaf*] Symud y cystudd trwm a roddodd dy law arnaf, neu attal fy mhoenau tra y byddwyf yn dadlu â thi, fel y byddo fy meddwl yn rhyddach i drin fy mater; *ac na ddychryned dy ddychryn fi*—nac ymddangos o fy mlaen yn arsyddol-rwydd dy fawredd gogonodrus, ac nac ymddyga tuag ataf yn ol manylrywydd dy gyfiawnder: gwel ar pen. ix. 34.

Adn. 22. *Yna galw*] Dechreuca di, trwy fy nghyhadde i e ragriti, neu o bechodau mwy na'r cyffredin, fel y gwnaeth fy nghyfeillion hyn; *a myfi a atebaf*—i'm hamddiffyn fy hun; *neu—os gwell genyt, myfi a lefaraf*—dechreuaf fi, trwy adrodd dy dester anarferel tuag ataf, a thrwy ddangos nad wyf wedi gwneyd dim i headdu y fath gerydd; *ac ateb di fi*—trwy ddangos dy resymau dros dy ymddygiad. Yr oedd y cynnygiad hwn o eiddo Job yn sawrio yn ormedol o hunan-hyder ac amharch i Dduw; am yr hyn, a'r cyffelyb ymadroddion, y ceryddir ef eto, pen. xxxviii. 2, 3, a xl. 2.

Adn. 23. *Pa faint o gamweddau ac o bechodau sydd ynaf?*] Ar ol i Job gael cenad i ddechren yn gyntaf, nen ddechren yn hytrach heb genad, y mae efe, fel yr *achwynwr* yn y cynghaws hwn, yn gofyn yn hyf, pa nifer o gamweddau a phechodau a welai Duw ynddo? Nid oedd yn gwadu fed ynddo bechodau fel yn mbawd ereill; ond a oedd mwy ynddo ef nag yn neb? *Pâr i mi wybod fy nghamwedd a'm pechod*—am y rhai yn neillduol yr wyt ti yn fy nghospi fel hyn. Y mae y ddau eir hyn yn meddwl pechodau o bob math, gommeidd, a

gweithredol; pechodau mewn meddwl, gair, a gweithred. Y mae yn wir nad oedd Job yn rhagrithiwr, neu yn bechadar anedifeiriol, fel y mynai ei gyfeillion ei fod; ond er hyn yr oedd ganddo ef feddyllian rhy dda am dano ei hun. Pe bnasai ef a'i gyfeillion ddim ond yn gwybod am y llaw ag oedd gan *Satan* yn ei gystudd, ac am *ddyben* Duw yn goddef iddo gael ei gystuddio fel hyn, cawsent eglurhad ar y dyrysstwyd y fân: gwel ar pen. ii. 5, 6.

Adn. 24. *Paham y cuddi dy wyneb*] Mewn anghymeradwyaeth o honof? *ac y cymeri fi yn elyn i ti*—neu yr ymddygi tuag ataf fel pe bawn yn elyn i ti?

Adn. 25. *A ddrylli di ddeilen ysgwydedig*] A fyddo yn cael ei gyru yma a thraw gan y gwynt? *a ymlidi di sofflyn sych*—neu welltyn crin o'm bath i? A ydyw yn gweddu i'th fawredd anfeidrol fod i ti arferyd dy nerth bell-alluog i lethu y fath bryfn gwael a myfi, yr hwn nis gallaf wrthsefyll dy nerth, mwy nag y gall deilen neu sofflyn sych wrthsefyll corwynt neu dân ysol?

Adn. 26. *Canys yr wyt ti yn ysgrifenu pethau chwercwron yn fy erbyn*] Cyfeirir yma at yr arferiad mewn llys gwladol o *ysgrifenu* yr *achwyniad* yn erbyn y carcharor, neu y *ddedfryd* ar y condemniedig, Salm. cxlix. 9, Jer. xxii. 30; *ac yn gwneuthur i mi feddiannu camweddau fy ieuenctid*—yn fy nghospi am bechodau a gyflawnwyd gonyf cyn fy nlröedigaeth, er i ti unwaith eu maddeu i mi yn dy dragaredd anfeidrol!

Adn. 27. *Ac yr ydwyf ti yn gosod fy nhraed mewn cyffion*] Yr oedd dau fath ar gyffion gan yr henafiaid; un yn cynwys rhyw glog mawr o haiarn neu bren wedi ei rwyngu wrth y traed, i attal i'r carcharor ddiannic; a'r llall yn fath ar ffrâm sefydlog, debyg i'r hon a geir mewn rhai manau yn Nghymru y dyddiau hyn, yn yr hon y sicrhoid traed y carcharor, fel nad allai efe syflfyd; gwel ar Act. xvi. 24. Y mae yn debyg mai y math cyntaf a olygir yma, am yr awgrymir ei fod syth yn gallu ymlwybro, gan lusgo y clog hwnw ar ei ol. *Ac yn gwylied ar fy holl lwybrau*—yr un modd ag y gwylia y carcharwr, sef ceidwad y carchar, ar symudiadau y carcharor. *Ac yn nodi gwadnau fy nhraed*—yn sylwi ar ôl nen argraff gwadnau fy nhraed ar y llawr, fel y sylwa y carcharwr ar olion corddediad ei garcharorion. Y mae Job yma yn ei gydumharu ei hun i garcharor yn cael ei wyllo yn fanwl tra yn cael ei gospi

28 Ac efe, megys pydrni a heneiddia, fel dilledyn yr hwn a ysa gwyfyn.

PENNOD XIV.

DYN a aned o wraig sydd fyr o ddyddian, a llawn o helbul.

2 Fel blodenyn y daw allan, ac y torir ef ymaith; ac efe a gilia fel cysgod, ac ni saif.

am ei droseddau, at yr hyn y cyfeiriasa; efe yn adn. 26, gan gario yn mlaen y gyffelybiaeth yn y llythren o honi.

Adn. 28. *Ac efe*] Y carcharor a enwyd o'r blaen, sef Job ei hun; *megys pydrni a heneiddia*—efe a gyfeiria ond odid at ei gorff cornwydlyd a braenedig, yr hwn oedd yn heneiddio ac yn gwaelu bob dydd; *fel dilledyn yr hwn a ysa gwyfyn*—felly yr oedd yntau yn cael ei ysu gan bryfed, pen. vii. 5. Amcan Job yw ei arddangos ei hun fel gwrthdych gwael a thruenus, yr hwn yr oedd yn afreidiol ei wyllo felly gan Dduw.

PEN. XIV. Adn. 1. *Dyn a aned o wraig*] Mewn gwrthyferbynid i'r dyn a grewyd ar y cyntaf, neu ddy'n ei gyflwr gwreiddiol; *sydd fyr o ddyddiau*—mewn cydmariaeth i oes Adda, ac yn enwedig mewn cydmariaeth i ddyddiau tragwyddoldeb; *a llawn o helbul*—*rogez*, gofalon, pryderon, ac ofnau; yn agored i lafur a blinder, cystudd a phoen, gofid a dychryn. Nid yn unig y mae yn helbulus, ond y mae yn *llawn* o helbulon, mewn corff a meddwl. Amcan Job yw dangos fod dyn o'r fath yma yn wrthdych addasach o desturi Duw, nag o'i ddiogfaint a'i doster ef.

Adn. 2. *Fel blodenyn y daw allan*] O groth ei fam, yn dyner, iraidd, a hardd, a'i gyneddfau yn ymagor ac yn ymlaeni yn raddol; *ac y torir ef ymaith*—yn sydyn gan bladur angau, fel y torir blodenyn y maes: *ac efe a gilia fel cysgod*—ar y ddeial, yr hwn a ddiplana ar gyfodiad cwmwl, neu yn nhywyllwch y nos; *ac ni saif*—nid erys, neu ni fydd i'w ganfod ar y ddeial. Fe allai fod yma gyfeiriad at symudiad parhaus y cysgod ar y ddeial tua machlud haul, pryd y bydd ef yn sicr o gilia o'r golwg, hyd yn nod pe na chodai cwmwl i'w guddio ef yn gynt. Felly dyn, nid yw yntau yn sefyll am fynydd yn yr un afn, eithr y mae yn ni ned rhagddo yn barhaus tua nos angau, gan ymsymud o fabandod i ieuencid, o ieuencid i ganol oed, ac o ganol oed i henaint, pryd, os na chilia efe ymaith cyn hyny, y bydd iddo yn sicr syrthio i'r bedd, fel na welir ef mwyach ar y ddaear.

Adn. 3. *A agori di dy lygaid ar y fath yma*] I wyllo camrau creadur mor frau a gwael? *ac a ddygi di fi i farn gyda thi?*—a fydd i ti ymostwng i ddadu a'm bath i, neu i ymweled â mi â'th farnedigaethau? Nid oedd Job yn golygu y byddai i Dduw ymddwyn yn anghyfiawn wrth wneuthur felly; eithr efe a edrychai arno ei hun fel creadur rhy wael a

3 A agori di dy lygaid ar y fath yma? ac a ddygi di fi i farn gyda thi?

4 Pwy a ddyry *beth* glân allan o *beth* aflan? neb.

5 Gan *fod* ei ddyddiau ef wedi eu rhagderfynu, rhifedi ei fisoedd ef gyda thi, a gosod o honot ei derfynau, fel nad êl drostynt:

6 Tro oddiwrtho, fel y gorphwyso,

distadl i Dduw ddadu âg ef, neu ry wan i allu dal dan ei ddiogfaint cyfiawn ef.

Adn. 4. *Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan?*] Fel pe dywedasai, Yr wyf yn cyfaddef fy mod yn greadur aflan, ac am hyny yn agored i gael fy ffreiddio gan dy santeiddrwydd, a'm condemnio gan dy gyfiawnder, pe creffit ar fy anwiredd; eithr onid yw pawb felly? A phaham gan hyny yr wyt ti yn fy nghospi i yn fwy na phawb erill? Yr wyfyn aflan, am ddarford fy ngeni o rieni aflan; ac er nad yw fy llygredd naturiol yn egsusodi fy mhochodan gweithredol, eto gobethiaf y bydd i'r ystyriaeth e hyn dueddau dy ddywyll dosturiaethau i liniaru fy nghosp. Y mae yma gyfeiriad amlwg at y *pechod gwreiddiol*, trwy yr hwn y llygrwyd ein rhieni cyntaf, yn gystal a'u holl hiliogaeth hwy; a chawn yma brawf diamheuol fod yr athrawiaeth hon yn adnabyddus yn amser Job, ac yn cael ei chredu yn ddiysgog ganddo ef, yr hon a eglurwyd mor oleu wedi hynny gan yr apostol Paul: gwel ar Rhut. v. *Neb*—nid oedd neb a allai ddwyn peth glân allan o beth aflan, ac ni welisid erioed y fath beth ar ol y cwymp, neu er pan lygrwyd ein rhieni cyntaf: gwel ar Gen. v. 3. Y mae y LXX yn ehwanegu yma, 'Neb, er na byddo byw ond un diwrnod ar y ddaear;' a'r Galde-aeg, 'Neb end Duw.' Y mae yn wir fod Crist yn rhydd oddiwrth halogrydd moesol y natur ddynol; ond nid trwy genhedliaid naturiol y dygwyd ei natur ddynol ef i fodoldeb, eithr ei *chreu* a wnaed gan yr Ysbryd Glân yn nghroth ei fam; ac felly, er ei 'wneuthur o *wraig*,' ni wnaed ef trwy gyfryngiad *gŵr*: gwel ar Luc i. 35, a Gal. iv. 4.

Adn. 5. *Gan fod ei ddyddiau ef wedi eu rhagderfynu*] Neu eu cyfyngu i gyfnod byr ar yr hwyaf; *rhifedi ei fisoedd ef gyda thi*—yn hysbys i ti, a than dy awdurdod a'th lywodraeth; *a gosod o honot ei derfynau fel nad êl drostynt*—fel ag i ddianc rhag marwolaeth; neu, fel nad êl drostynt heb dy ganiatâd di. Nid ydym i gasglu oddiyma fod rhyw amser wedi ei benderfynu i ddy'n fyw ar y ddaear, fel nas gall efe farw yn *gynt*, na byw yn *hwy*; canys y mae genym lawer o brofion ysgrythyr-ol i'r gwrthwyneb: eithr yr ystyr yw, fod rhyw gyfnod penodol wedi ei benderfynu dan bob goruchwyliaeth fel *cyfartaledd* oes dyn ar y ddaear: gwel ar pen. vii. 1. Yr oedd Job yn gwybod hyn, ac am hyny ymnai i Dduw 'droi oddiwrtho,' a gadael lloenydd iddo orphen y tymhor hwnw, ac nid ei dori i lawr megys yn hanner ei ddyddiau: gwel isod.

hyd oni orpheno, fel gwas cyflog, ei ddiwrnod.

7 Canys y mae gobaith o bren, er ei dori, y flagura efe eto, ac na phaid ei flagur ef *â thyfu*.

8 Er heneiddio ei wreiddyn ef yn y ddaear, a marweiddio ei foncyff ef yn y pridd;

Adn. 6. *Tro oddiwetho, fel y gorparhysio*] Tyn dy law geryddod oddiarno, fel y casto efe ychydig esmwythyd oddiweth ei boenau a'i ofid; *hyd oni orpheno, fel gwas cyflog, ei ddiwrnod*—hyd oni ddelo y tymhor hwn yn ben, yr hwn a benodwyd i ddy'n fyw ar y ddaear: gwel ar pen. vii. 1, 2, a x. 20. 'Y mae term cyffredin y bywyd dynol,' fel y sylwa CLARKE, 'wedi ei benderfynu gan Ddew ei hun; ac ofer yw pob ymgais i'w estyn ef tuhwnt i'r term hwn. Gwnaed llawer ymgais yn mllith pob cenedl i gael hyd i *feddylglyn* a yrai ymaith holl hadau afechyd, ac a gadwai ddynion mewn iechyd parhaus; ond methodd yr holl ymgeisiadau hyn. Darfu i *Basil Valentine, Norton, Dastin, Ripley, Sandivogius, Arterphius, Geber, Van Helmont, Paracelsus, Philalethes*, ac amrai er-ei-ll, yn Ewrop ac Asia, ysgrifenu yn helaeth ar y pwnc, a cheisio profi y gellid grweuthur *trwyth*, trwy ba un y gellir trawsgyfnwid pob *mettel anhherffraith yn berffaith*; a *meddyglyn*, trwy yr hwn y gellir cadw y *corff dynol* mewn cyflwr o adgyweiriad ac iechyd diddiwedd. A phroffesa y rhai hyn ddyysu y drefn trwy ba un y gellir gwneud y *drwyth* a'r *meddyglyn* yma! Eto bu yr holl rai hyn farw; a marw, er dim a wyddom ni, yn ieuanc mewn cydmariaeth! Y mae yn wir y dywedir i *Arterphius* frw 90 o flynyddau, yr hwn sydd debygol; eithr darfu i rai o'i ddysgyblion ynydd, i roddi bri ar eu celfyddyd afradus, chwanegu dyddimnod (0) arall, a gwneud ei oed yn 900! Gall dyn ymdrechu myned dros y *terfyn*; a gall Duw, yma a thraw, ddangos *Thomas Parr*, yr hwn a fu farw yn 1635, yn 152 oed; a *Henry Jenkins*, yr hwn a fu farw yn 1670, yn 169 oed; eithr y rhai hyn ydynt anghreiffitiau antynych, ac nid ydynt yn effeithio ar y term cyffredin. Ac nis gellir gorcheilyd angan. *Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweili*, yw y *ddeddy*; a bydd i hōno ddi-rymu byth bob cyfryw *drwyth* a *meddyglyn*.—Ond er nas gall dyn fynd dros ei *derfynau penodedig*, eto efe a all fyw yn y fath fodd fel ag i beidio byth eu *cyraedd* hwynt; canys y mae flolneb a drygioni yn byrhau term y bywyd dynol: ac am hyny y dywed y Salm-ydd, *Gwŷr gwaedlyd a thwyllodrus ni byddant byw HANNER eu dyddiau*, Salm lv. 23; canys trwy ddiogi, anghymedroldeb, a nwydu-afreolus, byrheir bywyd dyn mewn aneirif anghreiffitiau. Nid ydym i ddeall y *terfynau* fel yn cyfeirio at *bersonau neillduol*, ond at yr *hiliogaeth* yn gyffredinol. Fe allai nad oes un achos yn yr hwn y penderfynodd Duw yn hollol a diammodol mai hyn a hyn gai oes y dyn hwn fod, ac na chaf fod yn fwy nac yn llai. Y mae y dybiaeth wrthwynebol yn cy-

9 Efe a flagura oddiweth arogl dyfroedd, ac a fwrw gynghenau fel planhigyn.

10 Ond gŵr a fydd marw, ac a dorir ymaith; a dyn a drenga, a phaele y mae?

11 *Fel* y mae dyfroedd yn pallu o'r môr, a'r afon yn myned yn ddy-hysbydd, ac yn sychu:

nwys afresymolderau dirif.' Gwel yr adfedd-yladau ar Salm xc.

Adn. 7. *Canys y mae gobaith o bren, er ei dori*] Yn gydwastad a'r ddaear, neu uwchlaw y boncyff neu y greiddyn; y *flagura efe eto*—yn impyn byw; ac na phaid ei flagur ef *â thyfu*—yn ren arall mor gadarn ac uchel a'r un a doreid i lawr. Cawn brawf parhaus o hyn yn achos y dderwen, yr helygen, ac amrai brenau ereill.

Adn. 8. *Er heneiddio ei wreiddyn ef yn y ddaear*] Er i'w wreiddyn fod yn hen, ac felly yn annhebyg o ail dyfu; a *marweiddio ei foncyff ef yn y pridd*—neu ymddangos fel wedi marweiddio. Ond dywed naturiaethwyr fod rhai prenau a phlanhigion, megys *rhosyn Jericho*, y rhai, er iddynt fod wedi eu diwreiddio dros amrai flynyddau, eto, os mwydir eu gwraidd mewn dwfr, y bydd iddynt adennill bywyd, a thyfu a blaguro fel o'r blaen.

Adn. 9. *Efe a flagura oddiweth arogl dyfroedd*] Fel yr ymadfywia dyn mewn llestrau oddiweth neu trwy arogl *musc, ammonia*, a'r cyffelyb. Y mae y meddyddrych yn fardd-odol a phrydfertli iawn, yn gosod allan y pren marw fel yn medru arogl dyfroedd, ac yn ymadfywio trwy hyny. *Ac a fwrw ganghenau fel planhigyn*—fel pren ieuanc newydd ei drawsblanu o un gwely i'r llall.

Adn. 10. *Ond gŵr a fydd marw*] Heb., *gaber*, 'gŵr cadarn,' er mor gadarn ydoedd; *ac a dorir ymaith*—o'r goedwig ddydol: a *dyn a drenga*—Heb., *adam*, 'dyn pridd:' gan iddo gael ei wneuthur o'r pridd, efe a falluria iddo. Fe allai fod y tri gair hyn, a ddefnyddir yma am farwolaeth, yn cynwys tri meddyddrych gwahanol; hyny yw, fod *marw* yn arwyddo diffoddiad y bywyd anifeillaidd; *tori ymaith*, yn golygu maluriad a braeniad y corff; a *threngu*, ymadawid yr enaid fel y mae yn cael ei fynegu yn y Sacsonaeg. *A pha le y mae?*—nid yw hyn yn cyfeirio at le neu gyflwr ei enaid ymadawedig, ond at gyflwr neu ansawdd ei *gorff*. Fel pe dywedasai, 'Pa obaith sydd o ŵr, ar ol ei dori ymaith, y blagura efe eto, neu y coda dyn arall oddiweth ei gorff marw ef, fel y tyf blaguryn oddiweth foncyff pren?' Y mae pennill prydfertli gan y bardd Persiaidd *Khosroo*, yr hwn nid yw yn annhebyg i eiriau Job, a'r hwn y gellir ei gyfeithu yn debyg i hyn:

Pr fynwent eis i wylo

Uwch bedd cyfeillion cu,

Y rhai a rwyamid yno

Yn gaeth gan angau dŷ.

Pa le y maent! gofynais:

A'r *Dynged* arw gaent,

Atobodd im' trwy *Adlws*,

Gan ddweyd, 'Pa le y maent!'

12 Felly gŵr a orwedd, ac ni chyfyd hyd oni byddo heb nefoedd; ni ddihunant, ac ni ddeffroant o'u cwsg.

13 O na chuddit fi yn y bedd! na'm cedwit yn ddirgel, nes troi dy lid ymaith; na osodit amser nodedig i mi, a'm cofio!

14 Os bydd gŵr marw, a fydd efe

Adn. 11. *Fel y mae dyfroedd yn pallu o'r môr*] Pan goder hwy yn dath i'r awyr, neu pan y cilio y môr o le ag yr arferai ymlifo iddo; a'r afon yn myned yn ddyhysbydd, ac yn sychu—ar ol iddi fod yn rhedeg am dro o fynyddoedd Arabia i'r gwastadedd cras: gwel ar pen. vi. 15—18. Felly y mae gyda dyn: wedi i ffynnonell ei fywyd yntau sychu i fyny unwaith, y mae efe yn marw, ac ni fywheir ef mwyach i breswyllo yma fel y bu. Ond tybia rhai mai yr ystyr yw, na theimlir y golled am ddyn ar ol iddo farw, mwy nag y teimla y môr y golled o'r tarth hyny, trwy y bydd ef fyth yn llawn; ac er i wely yr afon unwaith sychu, daw dyfroedd i'w llenwi drachefn. Felly er i ddynion gael eu symud ymaith trwy farwolaeth oddiar y ddaear, daw ereill eilwaith i lenwi eu lle hyd ddiwedd amser.

Adn. 12. *Felly gŵr a orwedd*] Yn y bedd; ac ni chyfyd hyd oni byddo heb nefoedd—hyny yw, hyd fore mawr y farn, pryd y disgyn y Barnwr, 'oddiwrth wyneb yr hwn y fly y ddaear a'r nef.' Dat. xx. 11. Y mae 'gŵr' yma yn arwyddo pob gŵr a fydd marw, fel yr eglurir yn y geiriau nesaf. *Ni ddihunant ac ni ddeffroant o'u cwsg*—hyd ddydd y farn. Y mae fod Job yma yn galw marwolaeth yn *gwsg*, yn dangos yn eglur ei fod ef yn credu fod dihuniant neu ddeffroad i gymeryd lle ryw-bryd; ac yma dengys pa bryd, sef yn y dydd diweddaf, 'yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio gyda thwrff,' 2 Pedr iii. 10. Tybia Barnes mai ystyr yr ymadrodd, 'ni chyfyd hyd oni byddo heb nefoedd,' yw, 'ni chyfyd byth;' ac y mae hyny yn wir gyda golwg ar godi i fyw yma fel y bu, neu am ddysgwyl i flaguryn arall godi oddiwrtho ar ol ei dori ef ymaith. Ond yr ystyr cyntaf yw y mwyaf naturiol.

Adn. 13. *O na chuddit fi yn y bedd*] O ran fy nghorff; na'm cedwit yn ddirgel—o ran fy enaid. Felly y mae rhai yn ei ddeall. Neu fe allai fod y ddwy frawddeg yn meddwl yr un peth, sef ei 'guddio' neu ei 'gadw' yn ddirgel yn y bedd. *Nes troi dy lid ymaith*—yn more yr adgyfodiad. Cyhyd ag y byddo y corff yn gorwedd yn y bedd, a'r enaid yn ysgaredig oddiwrth y corff, gellir dywedyd fod rhyw weddillion o lid Duw yn erbyn pechod yn aros; ond wedi i'r corff a'r enaid gael eu hail uno yn more yr adgyfodiad, troir effeithiau y llid hwnw ymaith yn hollol, ac angau, y gelyn diweddaf, a lwyrr ddiynstrir. *Na osodit amser nodedig i mi*—i gael marw; a'm cofio—mewn trugaredd, trwy fy nghymeryd felly allan o'm poenau! Eithr tybia rhai mai yr ystyr yw, fod Job yn dymuno cael marw allan o'i boenau presenol am ychydig amser yn

byw drachefn? dysgwyliaf holl ddyddiau fy milwriaeth, hyd oni ddelo fy nghyfnewidiad.

15 Gelwi, a myfi a'th atebaf; chwennychi waith dy ddwyllaw.

16 Canys yr awrhon y rhifi fy nghamrau: onid wyt yn gwylled ar fy mhechod?

17 Fy nghamwedd a selied mewn

unig, ac yna gael ei godi i fywyd drachefn, a hyny yn rhydd oddiwrth ei boenau a'i adfyd presenol. Ond os hyn oedd ei feddwl, y mae yn ebrwydd yn cofio nad all dyn marw gael ei godi i fyw drachefn cyn yr adgyfodiad cyffredinol, fel y dywed efe yn yr adnod nesaf. Yn wir gallwn feddwl mai prin y gwyddai Job ei hun, ar rai amserau, pa beth yr oedd yn ei ddywedyd, gan faint ei boenau; ac os felly, nid yw yn rhyfedd fod rhai o'i ymadroddion ef mor aneglur.

Adn. 14. *Os bydd gŵr marw, a fydd efe byw drachefn*] Fel preswyllydd daear? hyny yw, ni bydd byw drachefn; y mae y peth yn annhosibl hyd yr adgyfodiad cyffredinol. *Dysgwyliaf holl ddyddiau fy milwriaeth*—yn amyneddgar, heb dymuno marw cyn gorphen fy ngwaith, yn ol rhai; neu heb dymuno adgyfodi o'r bedd hyd fore yr adgyfodiad, yn ol ereill. *Ilyd oni ddelo fy nghyfnewidiad*—yn angau, yn ol yr ystyr blaenaf; neu ei gyfnewidiad yn yr adgyfodiad, yn ol yr ystyr ddiweddaf. Sylwa, ddarllenwydd, fod y ddau amgylchiad hyn yn *gyfnewidiad* pwysig, y rhai a ddygwyddant i ninaw yn gystal ag i Job.

Adn. 15. *Gelwi, a myfi a'th atebaf*] Cyfeiria hyn naill ai, (1) At farwolaeth, pryd y byddai i Dduw alw ei gorrff ei'r bedd, a'i enaid ato ei hun: ac y byddai iddo yntau ateb yn siriol, 'Wele fi!' Fel hyn gall y dyn duwiol ateb gwytsiad angau gyda sirioldeb, am fod arno yn fynych 'chwant i'w ddatod, a bod gyda Christ,' Phil. i. 23. Neu ynte, (2) At yr adgyfodiad, pryd y gelwid ef o'r bedd, ac yr atebai yntau yr alwad trwy ddyfod allan. *Chwennychi waith dy ddwyllaw*—hoffi gael yr enaid atat dy hun trwy farwolaeth, a'r corff trwy adgyfodiad, y rhai ill dau a wnaed genyt ti. Yr oedd Job yn 'waith dwyllaw Duw' fel dyn, pen. x. 8—11, ac yn 'waith Daw' fel creadur newydd, Eph. ii. 10. Ond tybia BARNES mai hiraethu y mae Job yma am i Dduw ei alw ef i'w lys i'w brofi, fel y byddai iddo ef allu ei gyfiawnhau ei hun cyn iddo adael y byd; ac y dylai y rhan ddiweddaf gael ei chyfieithu, 'Boed i ti chwennychi,' neu deimlo dyddordeb ynddo ef fel un o'i greaduriaid, a dwyn yr achos i derfyniad ebrwydd.

Adn. 16. *Canys yr awrhon y rhifi fy nghamrau*] Y creffi yn fanwl ar fy holl ymddygiadau, fel ag i gael allan fy holl feiau. Meddylir fod hyn yn gael ei ddywedyd mewn ffordd o wrthgyferbyniad; fel pe dywedasai, Er fy mod yn credu y bydd i ti o'r diwedd dosturic wrthyf a'm gwaredu, a chyfnewid yn

côd; a thi a wnaist i fyny fy anwiredd.

18 Ac yn wir, y mynydd a syrthio a ddiplana; a'r graig a symudir o'i lle.

19 Dyfroedd a dreuliant y cerig; yr wyt yn golchi ymaith y pethau sydd yn tyfu o bridd y ddaear, ac yn gwneuthur i obaith dyn gollu.

20 Yr wyt yn ei orchfygu ef yn dragywydd, fel yr clo ymaith: a

chan newidio ei wyneb ef, yr wyt yn ei ddanfon efi ffordd.

21 Ei feibion ef a ddaw i anrhydedd, ac nis gwybydd efe: a hwy a ostyngir, ac ni w'yr efe oddiwrthynt:

22 Ond ei gnawd arno a ddoluria, a'i enaid ynddo a alara.

PENNOD XV.

YNA Eliphaz y Temaniad a atebodd ac a ddywedodd,

rhyfedd fy nghyflwr a'm lle; eto, yn awr, y mae yn gwbl wahanol gyda mi. Fel hyn y mae Job yma yn dychweled at ei hen gwynfaniadau; ac er nad yw yn ddiobaith am ddledwyddwch dyfodol, y mae yn ei chael yn anhawdd tori dros ben ei ofidian presenol. *Onid wyt yn gwylicid ar fy mhechod*—yn sylwi aruo, ac yn fy nghospi am dano hyd yr eithaf, heb edrych heibio i ddim o hono? Neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'Na fydded i ti wlydd fy mhechod.'

Adn. 17. *Fy nghamwedd a selied mewn côd*] Cyfeiria hyn at yr arferiad o gasglu profion o droseddau yn nghyd, a'u *selio* neu eu *gwmo* i fyny yn ofalus mewn côd, i'r dyben i'w chwilio a'u barnu gan y swyddogion gwladol yn y llys. Fel hyn yr oedd troseddau Job, (1) Wedi eu *rhifo* yn ofalus, heb anghofio un, adn. 16; ac, (2) Wedi eu *selio* i fyny, fel na allai un fynd ar goll. Neu, yr oeddynt wedi eu rhifo a'u selio i fyny fel *arian* mewn côd, i arbed y drafferth o'u hail rifo: gwel ar 2 Bren. xii. 10.

Adn. 18. *Ac yn wir, y mynydd a syrthio*] Trwy ddaeargryn, neu ryw ysgydwad nerthol mewn anian; a *ddiplana*—allan o'r golwg am byth; *a'r graig a symudir o'i lle*—trwy yr un achos, er cryfied y byddo: gwel isod.

Adn. 19. *Dyfroedd a dreuliant y cerig*] Yn mhen oesoedd, trwy redeg yn barhaus drostyt fel frwd, neu ddisgyn yn barhaus arnynt fel pistyll. Fel pe dywedasai, Heblaw rhyw gynhyrhiadau mawrion a nerthol yn suddo mynyddoedd ac yn symud creigiau, bydd i foddion llai nerthol effeithio yn anadferadwy ar sylweddau celyd a chryfion, er yn araf. *Yr wyt yn golchi ymaith y pethau sydd yn tyfu o bridd y ddaear*—megs coedydd, planhigion, cnydau, &c., gan eu hysgubo ymaith yn anadferadwy trwy lifogydd mawrion a disymwth. *Ac yn gwneuthur i obaith dyn gollu*—am gynaliaeth iddo ei hun a'i aniteiliaid: felly CLARKE. Ond y mae yn debycach mai *cymhwysiad* yw hyn o'r pethau uchod at *ddyn*. Fel pe dywedasai, 'Felly hefyd y mae gyda golwg ar i ddynd ddyfod i ail breswyllo yma, wedi iddo unwaith farw: nid oes dim mwy o *obaith* am dano, nag sydd am ail ymddangosiad mynydd neu graig ar ol eu llyner gan ddaeargryn, neu am adferiad cerig a chynrych y ddaear ar ol eu treulio a'u hysgubo ymaith gan ddwr. Nid oes gobaith am iddo ef wneyd ei ymddangosiad mwyach cyn bore yr adgyfodiad cyffredinol, fel y mae am bren a

dorer i lawr, adn. 7—9; eithr y mae efe fel dyfroedd palledig, adn. 11, neu fynydd neu graig a symuder o'i lle, adn. 18.

Adn. 20. *Yr wyt yn ei orchfygu ef yn dragywydd*] Neu yn anadferadwy, fel y sylwyd uchod; *fel yr clo ymaith*—am byth, yr un modd a'r pethau a enwyd adn. 18, 19. *A chan newidio ei wyneb ef*—trwy glefydau a marwolaeth, nes y bydd y gruddiau harddaf, y gwrid tecaf, a'r llygaid gloewaf, wedi gwelw a thywyllu yn angau; *yr wyt yn ei ddanfon ef i ffordd*—oddiwrth ei gyfeillion, ei berthynsau, a'i feddiannau; yn ei ddanfon ef i'r bedd o ran ei gorff, ac i *dragywyddoldeb* o ran ei enaid; i.e. i'r nef neu i uffern!

Adn. 21. *Ei feibion ef a ddaw i anrhydedd*] Y meddwl yw, y bydd efe yn hollol anwybodus o helyntion y ddaear mwyach, ac hyd yn nod o amgylchiadau ei deulu ei hun; neu o leiaf yr ymddyga efe tuag atynt fel pe byddai felly, o ran ddim cynorthw a all efe ei weini iddynt. Os dycheir ei feibion ef i anrhydedd a llwyddiant bydol, yr hyn sydd yn ddi-munol iawn gan rieni byw; *nis gwybydd efe*—ni chaisff ef fwyngau yr hyfrydwch hwnw a deimla pob tad byw yn llwyddiant ei blant. *A hwy a ostyngir*—hyn yw, os gostyngir hwynt i dyloedi a chyfyngderau, fel ag i fod mewn awen am gynghor a chysur oddiwrtho; *ni w'yr efe*—am eu trallod, ac ni all gydynddeimlo â hwy, na'u cysuro.

Adn. 22. *Ond ei gnawd arno a ddoluria*] Neu, fel y mae Mr. Good yn ei gyfieithu, 'ond ei gnawd a syrth oddiwrtho; *a'i enaid ynddo a alara*—'a'i enaid a â yn hafog (*waste*) oddiwrtho.'—GOOD 'A'i gyfansoddiad mew-nol a dreulia ymaith.'—BOOTHROYD. 'Ac uwch ei ben ei anadl a alara.'—STOCK. Yma, mewn dull barddonol prydfher, priodolr teimlad iddo yn y bedd fel pe byddai; ac arddangosir ei *gnawd* fel yn gofidio o herwydd ei lygriad a'i faluriad yn y bedd, a'i *enaid* nen ei *anadl* fel yn galuro uwchben y dywarchen ag y ba unwaith yn ei bywydoli. Nid cyfeiriad at ddynd ar wely angau, cyn marw, yw hyn, fel y tybia rhai; ond cyfeiriad ato yn y bedd ar ol marw, fel y mae yn unlwg oddiwrth yr adnod haen-rol; ac y mae y meddylddrych yn farddonol, hedegog, a phrydfherth.

PEN. XV. Adn. I. *Yna Eliphaz y Temaniad a atebodd*] Am hwn gwel ar pen. ii. 11; a hon yw yr ail waith iddo ef lefaru wrth Job: gwel ar pen. iv a v.

2 A adrodd *gwr* doeth wybodaeth o wynt? ac a leinw efe ei fol â'r dwyreinwynt?

3 A ymresyma efe â gair ni fuddia? neu âg ymadroddion y *rhai* ni wna efe lesâd â hwynt?

4 Yn ddiau ti a doraist ymaith ofn: yr ydwyt yn attal gweddi gerbron Duw.

5 Canys dy enau a draetha dy anwiredd; ac yr wyt yn dewis tafod y cyfrwys.

6 Dy enau di sydd yn dy fwrw yn euog, ac nid myfi: a'th wesusau sydd yn tystiolaethu yn dy erbyn.

7 A aned tydi yn gyntaf dyn? a lunied tydi o flaen y brynau?

8 A glywaist ti gyfrinach Duw? ac a atteli di ddoethineb gyda thi dy hun?

9 Beth a wyddost ti a'r nas gwyddom ni? *beth* a ddealli di, heb fod hyn hefyd genym ninan?

10 *Y mae* yn ein mysg ni y penllwyd, a'r oedranus hefyd; hyn o oedran na'th dad di.

11 Ai bychan genyt ti ddyddanwch Duw? a oes dim dirgel gyda thi?

12 Pa beth sydd yn dwyn dy

Adn. 2. *A adrodd gwr doeth*] Y fath ag y cymeri di arnat dy fod, *wybodaeth o wynt*—neu eiriau gweigion heb ynddynt synwyr na sylwedd? *Ac a leinw efe ei fol*—a foddona efe ei feddlw a'i gydwybod, *â'r dwyreinwynt*—â thybiau nid yn unig dislwrdd ac anffuddiol, ond hefyd niweidiol iddo ei hun ac ereill, fel yr oedd y dwyreinwynt ystормus neu gras-boeth yn niweidiol i ffrwythau a hlysiann o bob math.

Adn. 3. *A ymresyma efe â gair ni fuddia*] Sef â gair nad yw i bwmpas? *neu âg ymadroddion y rhai ni wna efe lesâd â hwynt*—ond llawer o niwed iddo ei hun ac ereill? Ymadroddion felly y cyfrifai Eliphaz eiddo Job.

Adn. 4. *Yn ddiau ti a doraist ymaith ofn*] Sef ofn Duw, neu barch i dduwioldeb a chrefydd, trwy dy ymadroddion dirmygus am Iduw, fel pe na byddai ef yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng y da a'r drwg yn nhrefn ei ragluniaeth, eithr yn cospi neu yn gwobrwyo y ddau yn gyfartal: *yr ydwyt yn attal gweddi gerbron Duw*—trwy beri i ddynion feddlw nad yw o un dyben iddynt weddio arno ef. Fel pe dywedasai, Os yw Duw yn trin y cyfiawn a'r drygonus fel eu gilydd, nid oes gan y naill ddim i'w obeithio, na'r llall ddim i'w ofni; ac o ganlyniad nid oes na gefuogaeth i neb weddio arno ef.

Adn. 5. *Canys dy enau a draetha dy anwiredd*] Yr hwn sydd yn dy galon, a'r hwn yr wyf i yma yn dy gyhuddo o hono; neu, yr wyt ti, wrth geisio dy amddiffyn dy hun, yn chwaneuog anwiradd at bechod: *ae yr wyt yn dewis tafod y cyfrwys*—yr wyt yn defnyddio twyll-rysiannu i'w amddiffyn dy hun; neu, yr wyt yn cuddio dy egwyddorion anywol gyda geiriau tég o dduwioldeb a pharch i Dduw, er mwyn twyllo dynion.

Adn. 6. *Dy enau di sydd yn dy fwrw yn euog*] Neu yn dy gondemnio fel dyn twyllodrus ac anuwol; *ac nid myfi*—heb i mi ddyweddy dim; neu, y mae fy ngwaith i yn dy gondemnio yn seiliedig ar dy eiriau dy hun: *a'th wesusau sydd yn tystiolaethu yn dy erbyn*—fel nad oes achos i neb arall ddyweddy gair.

Adn. 7. *A aned tydi yn gyntaf dyn?*] Heb, 'a aned tydi o flaen Adada,' fel ag i fod yn

rhydd oddiwrth anwybodaeth a dirywiad hiliogaeth syrthiedig Adada? *A lunied tydi o flaen y brynau*—fel 'doethineb' ei hunan? Diar. viii. 23.

Adn. 8. *A glywaist ti gyfrinach Duw*] Yn ei lys nefol cyn creu y byd, pan y beiddi hōni i ti dy hun y fath wybodaeth oruchel am ei ffyrdd ef? *Ac a atteli di ddoethineb gyda thi dy hun*—fel pe byddai pawb ond tydi yn ymfyrdion, neu heb wybod dim am oruchwyliaethau Duw?

Adn. 9. *Beth a wyddost ti a'r nas gwyddom ni*] Yn gystal a thithau? *Beth a ddealli di*—am drefniadau rhagluniaeth Duw, *heb fod hyn hefyd genym ninan*—yn llawer perffeiithiach na chenynt ti, trwy ein bod yn llawer hynach, ac felly wedi cael mwy o gyfseuderau i gyraedd gw'ybodaeth? gwel isod.

Adn. 10. *Y mae yn ein mysg ni y penllwyd, a'r oedranus hefyd*] Tybia rhai fod Eliphaz yn cyfeirio yma ato ei hun, yr hwn a ddechreuai lesaru yn y tair cynadledd hyn, neu at un o'i ddau gytall; a thybica ereill ei fod yn cyfeirio at rywrai ag oeddynt yno yn gwrandao ar y ddad hon, ac yn barod i dystio yr un peth a hwythau yn erbyn Job. *Hyn o oedran na'th dad di*—yr hyn a allasai fod yn wirionedd llythyrenol. Yr oedd Job wedi addef fod 'doethineb mewn henuriaid, a deall mewn hir ddyddiau,' pen. xii. 12; a myn Eliphaz y dyllasai ef a'i gyfeillion, ar y tir hwn, gael eu hystyried yn addasach nag ef i ffurfio barn am bethau. Y mae y Targum Caldeaid yn all-eirio yr adnod fel hyn: 'Yn wir y mae Eliphaz benllwyd, a Bildad hir-hoedlog, yn ein mysg ni, a Sophar, yr hwn sydd hyn na'th dad di.'

Adn. 11. *Ai bychan genyt ti ddyddanwch Duw*] Yr hwn a addawsom i ti ar dy edifeirwch a'th ymstyngiad? gwel ar pen. v. 17, &c., viii. 5, &c., a xi. 13, &c. *A oes dim dirgel gyda thi?*—a oes rhyw bechod dirgel yn cael ei lochesu yn dy fynwes, yn attal i ti gael dyddanwch dwyfol? Neu, a wyddost ti am ryw flordd well i gael ymwared a dyddanwch Duw, yr hon a gedwi yn ddirgel oddiwrthym ni? Nid oes bradd unrhyw ddau esboniwr yn cytuno yn nghyfeithliad neu ystyr yr adnod hon; ac ymddengys i mi fod yr un uchod mor

feddwl oddiarnat? ac ar ba beth yr amneidia dy lygaid,

13 Gan i ti droi dy feddwl yn erbyn Duw, a gollwng y *fath* eiriau allan o'th enau?

14 Pa beth *yw* dyn, i fod yn lân? a'r hwn a aned o wraig, i fod yn gyfiawn?

15 Wele, ni roddes efe ymddiried yn ei saint; a'r nefoedd nid ydynt lân yn ei olwg ef.

16 Pa faint mwy ffiaidd a drew-

edig *ydyw* dyn, yr hwn sydd yn yfed anwiredd fel dwfr?

17 Danghosaf i ti, gwranddo arnaf; a'r hyn a welais a fynegaf.

18 Yr hyn a fynegodd gwŷr doethion oddiwrth eu tadau, ac nis celasant:

19 I'r rhai yn unig y rhoddwyd y ddaear: ac ni ddaeth alltud yn eu plith hwynt.

20 Holl ddyddiau yr annuwiol y bydd efe yn ymfodio: a rhifedi y

naturiol a clywir ag unrhyw un a ymddangosodd hyd yma.

Adn. 12. *Pa beth sydd yn dwyn dy feddwl oddiarnat?* Fel dyn a fyddai wedi gwallgofi? *Ac ar ba beth yr amneidia dy lygaid?*

—hyn yw, fel y mae rhai yn ei deall, 'beth a arwydda dy lygaid treigledig,' y rhai a droant i fyny ac i waered fel llygaid dyn a fyddai wedi drysu yn ei synwyrâu? Tybia ereill mai yr ystyr yw, ei fod yn edrych ar bawb y phobpeth gyda golwg balch, aystyryld, a sarhaus. Ond y mae *jirzemun* yn arwyddo yn briodol, edrych âg un llygad, fel saethydd yn anelu at nôd.

Adn. 13. *Gan i ti droi dy feddwl yn erbyn Duw*] I fod yn elyn penderfynol iddo ef a'i ffyrdd; a *gollwng y fath eiriau allan o'th enau*—i'w gollfarnu ef fel un a fyddai yn dy gospi heb achos, ac i'th gyfiawnhau dy hun fel dyn glân a chlyfiawn.

Adn. 14. *Pa beth yw dyn*] *Enosh*, 'dyn gwau, marwol, a phechadurus,' *i fod yn lân*—neu yn ddibechod, fel y mynit i ni greda dy fod ti? *a'r hwn a aned o wraig*—ac felly a aned yn halogedig ac aflan, pen. xiv. 2; *i fod yn gyfiawn*—yn ngolwg Duw?

Adn. 15. *Wele, ni roddes efe ymddiried yn ei saint*] Sef yn ei angylion santaid, y rhai, er iddynt gael eu creu, ac nid eu *geni* o wraig bechadurus, er hyny a syrthiasant: gwel ar pen. iv. 18. *A'r nefoedd nid ydynt lân yn ei olwg ef*—neu mewn cydmarhaeth iddo ef.

Nid ydym i gasglu oddiyma fod y nef yn le aflan neu bechadurus; ond dywedir hyn i ddangos anfeidrol burdeb Duw, yr hwn sydd mor santaidd a phur nes y mae pob peth arall yn ymddangos fel yn aflan o'i cydmarharu âg ef. Neu gall fod yma gyfeiriad at bechod yr angylion syrthiedig, am y rhai y soniwyd yn nechre yr adnod, yr hwn a gymerodd le yn y nef; tra nad yw Duw yn alluog i bechu. Neu gall fod y nefoedd yma yn cael ei rhoddi am drigolion y nefoedd, sef yr angylion hyny a gadwasant eu dechrad, pryd y syrthiodd y lleill. Er eu bod hwy yn rhydd oddiwrth halogrwydd pechod, nid ydynt yn rhydd oddiwrth annberffithrwydd.

Adn. 16. *Pa faint mwy ffiaidd a drewedig ydyw dyn*] Ragor yr angylion neu y nefoedd? Fel pe dywedasai, Os nad yw yr angylion santaidd yn rhai ag y gellir ymddiried ynddynt, pa faint llai yw dyn syrthiedig, aflan, a ffiaidd fel tydi? *Yr hwn sydd yn yfed anwiredd fel*

dwfr—yr hwn sydd nid yn unig wedi ei eni yn bechadur gwreiddiol, ond yn cyflawni pechodau gweithredol, a hyny gyda'r fath awydd a hyfrydweh ag yr yfir dwfr gan dlyn neu anifel a fyddo ar drengu o syched.

Adn. 17. *Danghosaf i ti*] Yn eglur; *gwranddo arnaf*—yn ystyriol. Fe pe dywedasai, Mi a brofai i ti yr hyn a bacrais, sef fod y fath drallodion a'r eiddot ti yn cael eu yrrafed yn unig gan ddynion annuwiol a rhagrithiol. *A'r hyn a welais a fynegaf*—nid yn unig ni a fynegaf yr hyn a fynegodd gwŷr doethion o'u blaen, adn. 18, ond mynegaf hefyd yr hyn a welais i fy hun, i gadarnhau eu dywediadau hwy.

Adn. 18. *Yr hyn a fynegodd gwŷr doethion oddiwrth eu tadau*] Yr hyn a glywsant hwy gan eu tadau, ac a fynegasant i ni; *ac nis celasant*—eithr trosglwyddasant y cwbl i'w plant, fel y gallai y rhai hyny eu trosglwyddo i'w plant hwythau o genhedlaeth i genhedlaeth. Y mae Eliphaz, o adn. 20 hyd ddiwedd y benno, yn adrodd cyfres o ddywediadau neu ddoeth-eiriau yr henafiaid, y rhai ydynt oll yn ddigon cywir ynddynt eu hunain, er eu bod yn cael eu caugymhlwysu at Job. Amcan y cwbl yw dangos fod Duw yn cospi yr annuwiol yn ol ei baeddiant; a'r casgliad a wna Eliphaz oddiwrthlynt yw, fod Job yn ddyn drwg, gan ei fod yntau yn cael ei gospi.

Adn. 19. *I'r rhai yn wag y rhoddwyd y ddaear*] Ac felly nid dynion dibwys oedd y doethion hyny, ond gwŷr mawrion ac enwog yn mhob ystyriaeth, a theilwng o gael eu gwranddo a'u credu. *Ac ni ddueth alltud yn eu plith hwynt*—i'w llygru yn eu doethineb, ac crefydd, na'u moesau. Tybia rhai fod Eliphaz yn cyfeirio yn y rhan flaenaf at Noa a'i feibion, i'r rhai y rhoddwyd y ddaear; ac yn awgrymu yn y rhan olaf, nad oeddynt hwy wedi eu llygru gan ddyethriaid, fel y llygredid Job oddiwrth burdeb a symledd crefydd gan y Caldeaid a'r Sabaeid.

Adn. 20. *Holl ddyddiau yr annuwiol y bydd efe yn ymfodio*] O herwydd euogrwydd cydwybod, adydau allanol, neu ddigofaint Duw; a *rhifedi y blynyddoedd a guddiwyd oddiwrth y traws*—neu y *gorthrymur*, fel na wŷr efe y dydd na'r awr y bydd i'r rhai a orthrymur ganddo ei yspeilio o'i fywyd. Gall dyn cyfiawn oethio byw yn hir; ond y gwŷr traws a dorir ymaith yn fynych yn hanner ei ddyddiau: a thra y mae ei oes yn cael ei hes-

blynyddoedd a guddiwyd oddiwrth y traws.

21 Trwst ofnadwy sydd yn ei glustiau ef: mewn heddwch y daw y dinystrydd arno.

22 Ni chred efe y dychwel allan o dywyllwch: ac y mae y cleddyf yn gwylid arno.

23 Y mae efe yn crwydro am fara, pa le y byddo: efe a wŷr fod dydd tywyllwch yn barod wrth ei law.

24 Cystudd a chyfyngdra a'i brawycha ef; hwy a'i gorchfygant, fel brenin parod i ryfel.

25 Canys efe a estynodd ei law

yn erbyn Duw; ac yn erbyn yr Hollalluog yr ymnerthodd.

26 Efe a red yn y gwddf iddo ef, trwy dewdwr torau ei darianau:

27 Canys efe a dôdd ei wyneb â'i frasier: ac a wnaeth dyrch o flogeg ar ei denewynau.

28 A thrigo y mae mewn dinasoedd wedi eu dinystrio, a thai anghyfanedd, y rhai sydd barod i fod yn garneddu.

29 Ni chyfoethoga efe, ni phery ei olud ef chwaith; ac nid estyn efe eu perffeithrwydd hwy ar y ddaear.

30 Nid ymedy-efe allan o dywyll-

tyn iddo, y mae mewn ofnau yn barhans oddiwrth ei elynion, ac felly yn ymoedio dros ei holl ddyddian.

Adn. 21. *Trwst ofnadwy sydd yn ei glustiau ef*] Fel pe byddai yn barhaus yn clywed trwst rhywrai yn dyfod i ddial arno am ei drawsder: *mewn heddwch y daw y dinystrydd arno*—pan y meddylia ef fod 'tangnefodd a diogelwch, yna y mae dinystr disymwth yn dyfod ar ei warthaf,' 1 Thea. v. 3.

Adn. 22. *Ni chred efe y dychwel allan o dywyllwch*] Neu y dychwel i'w dŷ yn fyw, os â efe allan yn nhywyllwch y nos; *ac y mae y cleddyf yn gwylid arno*—yn llaw y llofrudd yn barod i'w ladd.

Adn. 23. *Y mae efe yn crwydro am fara*] Wrth ffoi rhag dialedd y rhai a orthrymwyd ganddo; *pa le y byddo*—yn naha le bynag y byddo; neu, fel y mae yn y Saes., 'gan ddywedyd, *Pa le y mae?*'—hwy yw, gan ofyn am fara o ddrws i ddrws, a methu cael dim. *Efe a wŷr fod dydd tywyllwch yn barod wrth ei law*—pryd y bydd raid iddo farw o newyn, neu ynte syrthio yn llaw ei elynion.

Adn. 24. *Cystudd a chyfyngdra a'i brawycha ef*] Nes y bydd mewn ofnau parhaus am ei fywyd; *hwy a'i gorchfygant, fel brenin parod i ryfel*—fel brenin a fyddo wedi paratoi byddinoedd rhy lnosog a chryfion i'w elyn allu eu gwrthsefyll.

Adn. 25. *Canys efe a estynodd ei law yn erbyn Duw*] Wrth orthrymu ei gymydogion, yr oedd fel pe buasai yn dal arf yn ei law yn erbyn Duw, trwy droseddau ei orchymynion ef yn rhyfygus; *ac yn erbyn yr Hollalluog yr ymnerthodd*—i wneuthur rhyfel ag ef, fel pe buasai yn ei ystyried ei hun yn ddiagon cryf i orchfygu yr Hollalluog!

Adn. 26. *Efe a red yn y gwddf iddo ef*] Neu a ruthra yn mlaen yn hyf a rhyfygus i ymryston â Duw, fel pe buasai am ei lindagn ef, neu dori ymaith ei ben. Yn yr adnod flaenorol arddanghosiir ef fel yn parotai i ryfel, ac yma fel wedi dechren arni. *Trwy dewdwr torau ei darianau*—hwy yw, efe a ymesydd ar Dduw yn y man y mae efe gryfaf, neu wedi ymarfogi oraf. Ond tybia *Calmel, Clarke, Good, Stock*, ac creill, mai am Dduw y dywedir hyn, yr hwn, fel gorchfygwr cadarn, a ruthra yn erbyn yr

annuwiol, ac a ymeifl yn ei wddf ef, yr hwn nis gall ei darianau tewion ei amddiffyn.

Adn. 27. *Canys efe a dôdd ei wyneb â'i frasier*] Crybwyllir hyn fel rheusm dros ei ymosodiad balch a rhyfygus ar Dduw; neu ynte, yn ol Clarke, i brofi ei anallu ef i'w amddiffyn ei hun rhag crafangiad ei elyn, trwy ei fod fel dyn wedi ei orlwytho â chnawd. *Ac a wnaeth dyrch o flogeg ar ei denewynau*—fel anifel bras wedi ei besgu i'r lladfa. Yn amser ei lwyddiant, yr oedd ef wedi brasáu a thewychu a phwyntio, (Deut. xxxii. 15,) ac anghofo Duw, gan bechu yn ddiogywilydd yn ei erbyn ef; ond pan ddaeth cystudd a chyfyngdra arno, efe a ymgyndeiriogodd yn erbyn yr Hollalluog, fel yr adroddwyd yn adn. 25, 26.

Adn. 28. *A thrigo y mae mewn dinasoedd wedi eu dinystrio*] Fel canlyniad o'i waith yn byw yn fras ac yn foethus, neu o'i waith yn gorthrymu ei gymydog, rhag yr hwn yr ymguddia; *a thai anghyfanedd*—y rhai nad oes neb ond ei hunan yn cyfaneddu ynddynt, a'r rhai sydd barod i chwilfrwio am ei ben yntau. Crybwyllir hyn i ddangos y gwahaniaeth sydd rhyngddo yn awr a phan yn nyddiau ei lwyddiant; ac y mae yn ddechread o'r darluniad o'i drueni, yr hwn a adroddir yn yr adnodau dylynol.

Adn. 29. *Ni chyfoethoga efe*] Trwy gyraedd golud o'r newydd; *ac ni phery ei olud ef chwaith*—sef yr ychydig a allai fod ganddo eisioes; *ac nid estyn efe eu perffeithrwydd hwy ar y ddaear*—ei feddiannau bydol oedd perffeithrwydd ei fwyniant a'i ddedwyddwch ef ar y ddaear; ond nid estyn efe hyn, am na phery ei olud.

Adn. 30. *Nid ymedy efe allan o dywyllwch*] O dywyllwch trallod, drygfyd, a thyloidi; *y fflam a wywa ei frig ef*—bydd i ddiogfaint a barn Duw, fel tân ysol, ddeifio ei gyfoeth, ei allu, a'i ogoniaht, y rhai a'i lamgylchent ef unwaith fel yr amgylchir coeden gan ei brigau; neu bydd i'w blant ef, fel y mae rhai yn ei ddeall, gael eu tori ymaith gan farnedig-aethan sydyn: *ac efe a ymedy trwy anadl ei enau ef*—sef trwy anadl genau Duw, am yr hwn y dywedir, 'Ag anadl ei enau y ladd efe yr anwir,' Esay xi. 4.

Adn. 31. *Yr hwn a dwyllid*] Ymddengys

weh, y fflam a wywa ei frig ef; ac efe a ymedy trwy anadl ei enau ef.

31 *Yr hwn* a dwylled nac ymddirieded mewn oferedd: canys oferedd fydd ei wobr ef.

32 Efe a dorir ymaith cyn ei ddydd: a'i gangen ni lasa.

33 Efe a ddyhidla ei rawn anaddfed fel gwinwydden; ac a fwrw ei flodeuyn fel olewwydden.

34 Canys cynulleidfa rhagrithwyr *fydd unig*: a thân a ysa luest-tai gwobrwyr.

35 *Y maent yn ymddwyn blinder*, ac yn esgor ar wagedd: a'u bol sydd yn darpar twyll.

fod Eliphaz yn cyfeirio yma yn neillduol at Job; *nac ymddirieded mewn oferedd*—mewn tai a thiroedd, anifeiliaid a gwasanaethyddion, ac yn enwedig mewn rhith o grefydd, fel y tybiai efe fod Job wedi gwneuthur; *canys oferedd fydd ei wobr ef*—siomedigaeth a thralod, tylodi a gwarth, fel yr eiddo Job yn awr.

Adn. 32. *Efe a dorir ymaith cyn ei ddydd*] Fel pren wedi ei ddeifio gan fellten. 'Gwyr gwaedlyd a thwyllodrus ni byddant byw hanner eu dyddiau,' Salm lv. 23: gwel ar pen. vii. 1, a xiv. 5, 6. *A'i gangen ni lasa*—ni ffrwythlona fel cynt; neu ni bydd iddo epil ar ei ol.

Adn. 33. *Efe a ddyhidla ei rawn anaddfed fel gwinwydden*] Pan ei hysgydwer gan wynt cryf; ac a fwrw ei flodeuyn fel olewwydden—cyn ei ffurfio yn olifiad perffraith. *Y meddwl yw*, y byddai iddo gollu ei olud a'i gysuron, neu ei blant, cyn y byddai iddo ef ei hun farw, fel y dygwyddodd i Job.

Adn. 34. *Canys cynulleidfa rhagrithwyr*] Sef eu plant, eu gwasanaethyddion, neu eu teulnoedd; *fydd unig*—wedi eu cwbl ddinystrio, neu eu darostwng i ychydig nifer, neu i un: *a thân*—rhyw farn ddychrynlod o eiddo Duw, yr hon a osodir allan yn fynych trwy y gyffelybiaeth o dân, Esay ix. 19, a xxvi. 11; a *ysa luest-tai gwobrwyr*—sef y pebyll neu y tai a adeiladwyd neu a gynelid i fyny trwy arferdy trawsder neu dderbyn gwobr, neu trwy ryw anghyfiawnder o'r fath, o'r hyn y tybid fod Job yn euog.

Adn. 35. *Y maent yn ymddwyn blinder*] Sef yn llunio mesurau blinderns i ereill; ac *yn esgor ar wagedd*—gofid, siomedigaeth, a chosp iddynt eu hunain; *a'u bol*—eu meddyliau oddifewn, *sydd yn darpar twyll*—i ereill, yr hwn a dry allan yn y diwedd yn siomedigaeth a thwyll iddynt eu hunain. *Y mae yma gyfeiriad at achos o feichiogiad*, lle yr arddanghosir y rhai drygionus fel yn *ymddwyn blinder*, oddiwrt y had a heuir gan Satan yn eu calonau; ac yna yn *esgor* ar wagedd a thwyll a gofid iddynt eu hunain ac ereill. Gosodir allan y gyffelybiaeth hon gan yr apostol yn llawn a phrydferth: 'Chwant, wedi ymddwyn, a esgor ar bechod; pechod hefyd,

PENNOD XVI.

A JOB a atebodd ac a ddywedodd, 2 Clywais lawer o'r fath hyn: cysurwyr gofidus *ydych chwi oil*.

3 Oni *cheir* diwedd ar eiriau ofer? neu pa beth sydd yn dy gryfhau di i ateb?

4 Mi a fedrwn ddywedyd fel chwithau: pe byddai eich enaid chwi yn lle fy enaid i, medrwn bentyrn geiriau i'ch erbyn, ac ysgwyd fy mhen arnoch.

5 Ond mi a'ch cryfhawn chwi a'm genau; a symudiad fy ngwefusau a esmwythiai eich gofid.

pan orphener, a esgor ar farwolaeth,' Iago i. 15. Diamau fod yr holl ddarluniadau uchod, y rhai a gymerwyd o ddywediadau yr henafiaid, yn cael eu cymhwyso at Job druan, er yn gwbl annbrïodol iddo ef. *Y fath ymdrech mawr o helbulon*, gan hyn, oedd ganddo ef i'w ddyoddef! *Yr oedd ei gorff yn cael ei boeni gan afechyd*, ei *feddwl yn cael ei ofidio gan ei gyfeillion*, a'i *enaid yn cael ei demtio gan Satan*! Nid rhyfedd ei fod ef yn fynyh bron a gwallgofi dan ei bwn, ac weithiau yn llefaru ar fin anobaith. Modd bynag, yr oedd ei holl elynion wrth gadwyni, tuhwnt i'r rhai nis gallent fynd; ac yr oedd ei Dduw yn Noddyr anweledig iddo, yr hwn ni oddefai i'w was fyddlon gael ei lwyrr ddyfetha.

PEN. XVI. Adn. 1. *A Job a atebodd*] Mewn ffordd o'i amddiffyn ei hun yn ngwyneb ail araeth Eliphaz.

Adn. 2. *Clywais lawer o'r fath hyn*] Sef cyffelyb ddywediadau o eiddo yr henafiaid, neu y fath haeriadau a ddygesid yn mlaen gan Eliphaz a'i gyfeillion: *cysurwyr gofidus ydych chwi oil*—y rhai a chwaneget at ei ofid ef, yn lle ei gysuro dan ei ofid: gwel ar pen. xiii. 4.

Adn. 3. *Oni cheir diwedd ar eiriau ofer?*] Heb., 'ar eiriau o *uynt*,' y fath ag y galwasai Eliphaz cirian Job: gwel ar pen. xv. 2, 3. *Neu pa beth sydd yn dy gryfhau di i ateb*—ar ol i mi wrthbrofi dy resymau di a'th gyfeillion mor eglur yn y ddad gyntaf?

Adn. 4. *Mi a fedrwn ddywedyd fel chwithau*] Gan ddyfynu dywediadau yr henafiaid i'ch erbyn chwithau, fel y gwnaethoch chwi i'm herbyn i; *pe byddai eich enaid chwi yn lle fy enaid i*—pe newidid ein cyflwr, ac i chwi fod mewn trueni fel yr wyf fi, ac i minau fod mewn iechyd a hawddfyd fel yr ydych chwi: *medrwn bentyrn geiriau i'ch erbyn*—a'r rhai hyn yn chwernon a phigog i'r byw; ac *ysgwyd fy mhen arnoch*—mewn gwad a dirmyg, i arwyddo y gallwn ddywedyd llawer mwy i'ch erbyn pe dewiswn. Ond y mae *lleath* yn cyfieithu yr adnod hon yn holiadol, fel hyn: 'Pe byddai eich enaid chwi yn lle fy enaid i, a fyddai i mi bentyrn geiriau i'ch er-

6 Os llefaraf fi, nid esmwythâ fy nolur; ac os peidiaf, ai llai fy ngofid?

7 Ond yn awr efe a'm blinodd i; aurheithiaist fy holl gynulleidfa:

8 A chroen-grychaist fi, a hyny sydd dystiolaeth: a'm culni yn codi ynof, a dystiolaetha yn fy wyneb.

9 Yn ei ddigllondeb y'm rhwyga yr hwn a'm casâ: efe a ysgyrnyga ddannedd arnaf; fy ngwrthwynebw'r a flaenllymodd ei lygaid yn fy erbyn.

byn, ac ysgwyd fy mhen arnoch? Na wnawn, 'ond mi a'ch cryfhawn chwi,' &c.

Adn. 5. *Ond mi a'ch cryfhawn chwi a'm genau*] Fel pe dywedasai, Yn hytrach na'ch blino chwi â geiriau pigog a chas, mi a ymdrechw'n eich cynal a'ch dyddau â geiriau cysurus, pe baech chwi yn fy nghyflwr i, a minau yn eich cyflwr chwithau; a *symudiad fy ngwefusau*—fy ymadroddion, yn cael eu traethu yn esmwyth a thyner, a *esmwythâi eich gofid*—yn llê ei chwanoeg, fel y gwnewch chwi â mi. Ond y mae *God* yn ei gyfieithu, 'â'm genau fy hun y gorchfygwn chwi, hyd oni fethai ysgydwad fy ngwefusau;' a *Choppelow*, 'byddwn gryfach na chwi â'm genau; ond y mae efe (sef Duw) yn attal symudiad fy ngwefusau.' Bith: y cyfieithiad cyffredin yw y mwyafl naturiol.

Adn. 6. *Os llefaraf fi*] Wrth Dduw mewn gweddi, neu wrth fy nghyfeillion mewn adroddiad o'm liadfyd, neu mewn amddiffyniad o honof fy hun; *nid esmwythâ fy nolur*—ni chaf gysur nac ymwared: *ac os peidiaf*—os dyoddeiaf fy nhrallod yn dawel a dirwgnach; *ai llai fy ngofid?*—fel pe dywedasai, Nid yw fy ngwaith yn llefaru, neu yn peidio, yn gwneyd dim gwahaniaeth yn fy nghyflwr, nac yn lesu dim i mi gerbron Duw na dynion.

Adn. 7. *Ond yn awr efe a'm blinodd i*] Sef Duw, â'r naill ofid ar ol y llall; *aurheithiaist fy holl gynulleidfa*—dyfethaist fy holl deulu, heb adael i mi gymaint ag un o'm plant i barhau fy enw, nac i'm cysuro yn fy adfyd; gwel ar pen. xv. 34. Ond tybia rhai fod Job yn cyfeirio yma at gynulleidfa o ddauwlion a arferent ymgynull yn ei dŷ ef i addoli Duw, y rhai oeddnt yn awr wedi cefnu arno, gan feddwl mai rhagrithiwr ydoedd. Yn y rhan gyntaf o'r adnod efe a lefara am Dduw yn y trydydd person; ac yn yr ail, efe a lefara wrtho yn yr ail berson; ac y mae y dull hwn yn un cyffredin yn yr ysgyrthyrau, ac yn cael ei ystyried yn addurn mewn barddoniaeth.

Adn. 8. *A chroen-grychaist fi*] Nid trwy henaith, ond trwy gystudd trwm; a *hyny sydd dystiolaeth*—o iawredd fy nghystudd; neu dygir hyny gan fy nghyfeillion yn dystiolaeth i'm herbyn, mai rhagrithiwr ydwyf: *a'm culni yn codi ynof*—sef ei esgryn yn ymdafu allan, heb ddim i'w cuddio ond y croen, trwy fod y cnawd oll wedi curio ymaith; a *dystiolaetha yn fy wyneb*—fod fy nghystudd yn

10 Hwyr a ledasant eu safnau arnaf; tarawsant fy nghernau yn ddirmygnus; ymgasglasant yn nghyd yn fy erbyn.

11 Duw a'm rhoddes i'r anwir; ac a'm trôdd i ddwyllaw yr annuw-liolion.

12 Yr oeddwn yn esmwyth, ond efe a'm drylliodd, ac a ymafloodd yn fy ngwddf, ac a'm drylliodd yn chwilfrw, ac a'm cododd yn nôd iddo ei hun.

13 Ei saethyddion ef sydd yn fy

drwm iawn; neu ystyrid hyny yn dystiolaeth ei fod ef yn ddy'n annuwliol.

Adn. 9. *Yn ei ddigllondeb y'm rhwyga yr hwn a'm casâ*] Fel llew yn rhwygo ei ysglyfaeth; *efe a ysgyrnyga ddannedd arnaf*—fel bwystfil rheibus; *fy ngwrthwynebw'r a flaenllymodd ei lygaid yn fy erbyn*—neu a graffa ar fy symudiadan, fel un parod i'm dyfetha. Tybia *Rosenmuller*, *Reiske*, *Curyl*, ac ereill, fod Job yn cyfeirio yma at Dduw; barna *Crocceius*, *Clarke*, ac ereill, ei fod yn cyfeirio at SATAN; tra y golyga *Schultens*, *Good*, ac ereill, mai cyfeirio y mae efe at ELIPHAZ, fel blaenor ei elynion. Ond gwel isod.

Adn. 10. *Hwyr a ledasant eu safnau arnaf*] Sef Satan a'i ellyllion, yn ol rhai; neu Eliphaz a'i gyfeillion, yn ol ereill. Gellir meddwl oddi yma, yn gystal ag oddiwrth yr adnod nesaf, nad Duw a olygir gan Job yn yr adnod flaenorol. *Tarawsant fy nghernau yn ddirmygnus*—taraw y gern oedd arwydd o ddirmyg mawr; ac os na wnaed hyn â Job yn llythyrenol, rhaid fod yr arwydd yn cael ei enwi yma am y dirmyg a arwyddocëid. *Ymgasglasant yn nghyd yn fy erbyn*—i'm blino a'm gwawdio, yn lle fy nghysuro.

Adn. 11. *Duw a'm rhoddes i'r anwir*] Sef i'r 'gwrthwynebw'r' ag y cyfeiriwyd ato yn adn. 9, yr hwn oedd Satan neu Eliphaz; ac fellw nid Duw ei hun a olygir yno: *ac a'm trôdd*—drosodd, fel carcharor euog, i ddwyllaw yr annuwliolion—i'm cospi. Wrth yr 'annuwliolion' yma y gellir deall Satan a'i lu, Eliphaz a'i gyfeillion, neu ynte y Sabeaid a'r Caldeaid, pen. i. 15, 17.

Adn. 12. *Yr oeddwn yn esmwyth*] Neu yn ddedwydd, yn nyddian fy iechyd a'm llwyddiant; *ond efe a'm drylliodd*—trwy ei offerynau. Cyfeirir yma ond odid at Dduw, yr hwn a ddrylliasai *obeithion* Job, trwy gymeryd ei blant a'i feddiannau oddiarno; a'i *ysbryd* ef, trwy deimlad o'i ddiogfaint; a'i *gorff*, trwy ei gystudd a'i gornwydydd. *Ymafloodd yn fy ngwddf*—fel yr ymalla llew yn ngwddf oenig; *ac a'm drylliodd yn chwilfrw*—yn ddarnau mân, fel pe buasai bwystfil rheibus wedi fy llarpio; *ac a'm cododd yn nôd iddo ei hun*—yma newidur y gyffelybiaeth, fel pe gosodesid Job yn nôd i saethu ato. Rhaid addef fod Job yma yn arferdyd ffugyrau rhy gryfion i fod yn ddarluniad tég o ymddygiad Duw, neu o'i gyflwr ef ei hun.

amgylehu; y mao efe yn hollti fy arenau, ac nid ydyw yn arbed; y mao yn tywallt fy mustl ar y ddaear.

14 Y mae yn fy rhwygo â rhwygiad ar rwygiad: y mae efe yn rhedeg arnaf fel cawr.

15 Gwnïais sachlen ar fy nghroen, a halogais fy nghorn yn y llweh.

16 Fy wyneb sydd fudr gan wŷlo, a chysgod marwolaeth sydd ar fy amrantau:

17 Er nad oes gamwedd yn fy

nwylaw; a bod fy ngweddî yn bur.

18 O ddaecaren, na orchuddia fy ngwaed, ac na fydded lle i'm gwaedd.

19 Wele hefyd yn awr fy nhyst yn y nefoedd; a'm tystiolaeth yn yr uchelder.

20 Fy nghyfeillion sydd yn fy ngwawdio: fy llygaid a ddiferodd ddaegrann wrth Dduw.

21 O na chai un ymddadlêu â Duw dros ddyn, fei mab dyn dros ei gymydog!

Adn. 13. *Ei saethyddion ef sydd yn fy amgylechu*] Gall hyn fod yn cyfeirio at y Sabeaid a'r Caldeaid, ac at Satan a'i lu, yn gystal ag at Eliphaz a'i gyfeillion; yn wir gallwn feddwl ei fod yn cynwys yr oll a ddyoddefodd efe yn ei gorff, ei feddwl, a'i feddiannau. *Y mae efe yn hollti fy arenau*—yn trywanu â'i saethau fy rhanau bywydol oddifewn yn ddiarbed, fel ag y rhaid i mi drengu yn anocheladwy; *y mae yn tywallt fy mustl ar y ddaear*—trwy drywanu y bledren a ddaliai y bustl yn yr afu. Y gyfelybiaeth yma a gymerir oddiwrth hedyddion, y rhai yn gyntaf a amgylchiant y prif, yna a'i saethant trwy ei ymysgaroedd, ac wedi hynny a'i torant yn wahanol ddarnau, fel y dywedir yn yr adnod nesaf: gwel HEATH.

Adn. 14. *Y mae yn fy rhwygo â rhwygiad ar rwygiad*] Yn barhaus, heb adael i mi ddim seibiant. Fel pe dywedasai, Yn gyntaf rhwygodd fy meddiannau oddiarnaf, yna fy mhiant, wedi hynny fy iechyd, ac yn ddiweddar fy mywyd. *Y mae efe yn rhedeg arnaf fel cawr*—gyda nerth anwrthwynebol, fel cawr yn ymosod ar gor eiddil.

Adn. 15. *Gwnïais sachlen ar fy nghroen*] Yn arwydd o'i alar a'i ymostyngiad dwys gerbron Duw yn nechre ei aldyf: nid ar ei ddillad, fel y gwneid yn gyffredin; ond ar ei groen yn lle dillad, i arwyddo dyfaach ymostyngiad. *Halogais fy nghorn yn y llweh*—yr oedd mawrion y dwyrain yn gwisgo corn ar eu penau, fel arwydd o enwogrwydd, awardod, a nerth. Yr oedd hwn yn gyffredin yn cael ei wneyd o arian neu aur, a'i addurno â pherlan neu feini gwerthfawr. Yn mhlith Drusiad Libanus, arferu y benywod wisgo eu cyn yn amrywiol, i osod allan eu gwahanol sefyllfaoedd. Gwraig briod a'i gosyd ef ar ochr ddean ei phen; gweddw, ar yr ochr aswy; a gwyrty, ar ei choryn; ac y maent yn gyffredin oddeutu troedfedd o hyd, ac yn meinbau tua'r pen. Yn Abyssinia, gwisgir hwynt gan benaethiaid y taleithiau wrth adolygu eu byddin-oedd, neu wrth orymdeithio ar ol ennill buddngoliaeth; ond y mae y rhai hynny yn fyrach na chyrn y benywod, ac yn debyg o ran maint a llun i ddiffoddiaidur canwyll. Yr oedd y weithred o 'halogi y corn yn y llweh,' yn arwyddo yr ymostyngiad a'r iselder mwyaf a allai gyfarfod â dyn, yn enwedig os byddai ef cyn hynny wedi cael ei ddyrchafu i sefyllfa uchel.

Adn. 16. *Fy wyneb sydd fudr gan wŷlo*] Ac ni allai Job ei olchi, o herwydd y cornwydd ag oeddynt drosto: neu, fel y myn rhai ei gyfieithu, 'fy wyneb sydd chwyddedig gan wŷlo.' *A chysgod marwolaeth sydd ar fy amrantau*—hynny yw, yr oedd ei olygon ef yn tywyllu, fel y dygwddda yn fynych wrth wŷlo llawer, neu ar ddynesiad marwolaeth.

Adn. 17. *Er nad oes gamwedd yn fy nwyllaw*] Er nad wyf yn euog o ddim bai i beri i mi wŷlo; a bod fy ngweddî yn bur—yn deilliaw o'm ealon, ac nid oddiar ragrith.

Adn. 18. *O ddaecaren, na orchuddia fy ngwaed*] Bithr bydded yn amlwg i bawb, fel y byddo iddo gael ei ofyn ar law fy ngelynyon, y rhai sydd barod i'w dywallt ef yn ddiachos; ac na fydded lle i'm gwaedd—neu 'ymquddfa' iddi, fel y mae rhai yn ei gyfieithu; hynny yw, na fydded i ddim attal i'm gwaedd am ddiadeidd gyaedd i'r nef. Tybia rhai mai yr ystyr yw, fod Job yn dychymygu ei fod yn cael ei gyhuddo o dywallt gwaed gwirion; ac yna, yn ymwybodol o'i ddiweidrwydd ei hun, ei fod yn gweddio na byddai i'r ddaear guddio dim gwaed a dywalltwydd ganddo ef: a hyn yw barn Scott a Good. 'Ond gyda phob parch i'r gwŷr dysgedig hyn,' ebai Clarke, 'nid wyf hi yn gweled y gall yr ystyr hwn gael ei gynal gan y testyn Hebreig; ac ni chafodd yr adnod ei deall felly gan un o'r hen gyfieithiaid.'

Adn. 19. *Wele hefyd yn awr fy nhyst yn y nefoedd*] Sef Duw, yr hwn sydd nid yn unig yn canfod ymddygiad fy ngelynyon tuag ataf, ond hefyd yn gwybod na haeddais hyn oddiar eu llaw hwynt; a'm tystiolaeth yn yr uchelder—yn y nefoedd. Yr ystyr yw, y gallai efe apelio at Dduw, yr hwn oedd yn dyst o'i gywirdeb.

Adn. 20. *Fy nghyfeillion sydd yn fy ngwawdio*] Y mae yn debyg eu bod y pryd hynny yn ei wawdio ef, wrth glywed yr hyn a ddywedai efe yn y tair adnod flaenorol: *fy llygaid a ddyjerodd ddaegrann wrth Dduw*—ar yr hwn y gweddiai efe mewn dagrau am amddiffyniad i'w achos.

Adn. 21. *O na chai un ymddadlêu â Duw dros ddyn*] O na fyddai genyf un i ddadlu fy achos o flaen Duw; fel mab dyn dros ei gymydog—fel y dadleua dyn dros ei gymydog mewn llys barn ar y ddaear! Ond y mae rhai yn cyfieithu yr adnod hon yn wahanol, a dy-

22 Canys pan ddel ychydig flynyddoedd, yna mi a rodiaf lwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelaf.

PENNOD XVII.

FY anadl a lygrwyd, fy nyddiau a ddiffoddwyd, beddau sydd barod i mi.

2 Onid oes watwarwyr gyda mi? ac onid yw fy llygad yn aros yn eu chwerwedd hwynt?

3 Dyro i lawr yn awr, dyro i mi

wedant y goddef y wreiddiol y cyfieithiad hwn yn dda: 'Ac y mae yn a ddadlenu a Duw dros ddyn, sef Mab y dyn, dros ei gyfaill.' Fel hyn rhaid i niniau seilio ein holl obaith am dderbyniad gyda Duw ar eiriolaeth y Cyfrngwr.

Adn. 22. *Canys pan ddel ychydig flynyddoedd* Neu, 'canys y mae fy ychydig flynyddoedd wedi dyfod i ben.'—BOOTHROD. 'Ond y mae y blynyddoedd a rifwyd i mi wedi dyfod.'—GOOB. Rhaid mai rhywbeth tebyg i hyn yw yr ystyr, fel y mae yn eglur oddiwrth yr adnod nesaf, yr hon a ddylasai fod yr olaf yn y bennod hon. Nis gallasai Job, yn ei amgylchiadau presenol, ddisgwyl cael byw flynyddoedd yn hwy ar y ddau; canys yr oedd efe yn ddisgwyl cael marw bob dydd. *Yna mi a rodiaf lwybr ar hejd yr hwn ni ddychwelaf*—i fyw yma fel o'r blaen.

FEN. XVII. Adn. 1. *Fy anadl a lygrwyd*] Y mae yn ffaith i'r rhai sydd yn fy ymyl, o herwydd fy afiechyd. Neu, fel y gellir ei gyfieithu, 'fy anadl a gysfyngwyd,' fel nas gallaf fyw yn bwy: neu, fel y mae ar ymyl y ddalen, 'fy ysbryd a dreuliodd;' hyny yw, y mae fy ysbrydoedd, neu fy ngalluoedd bywiol, wedi darfod. *Fy nyddiau a ddiffoddwyd*—y mae nid yn unig y blynyddoedd, ond hefyd y dyddiau a benodwyd i mi wedi dirwyn i ben, fel lamp ar ddiffoddi. *Beddau sydd barod i mi*—naill ai y mae y lloosog yn cael ei roddi yma gan yr unigol, neu ynte efe a gyfeiria at feddrod ei dadau, lle yr oedd amrai gelloedd, i un o ba rai yr oedd yntau i gael ei gludo: gwel ar adn. 16. Y wreiddiol yw *kebarim li*, 'beddau i mi;' ac y mae unrhyw eiriau llanw, fel sydd gan ein cyfieithwyr ni, yn tori ar dlysi ni byr a sydyn yr ymadrodd. Cofia, ddarllenwyd, yn mha le bynag yr ydwyf, fod bedd yn barod i tithau! Y mae y bedd yn barod, pa beth bynag sydd yn ambarod. A chan fod y bedd yn barod i ni, dylem ninau fod yn barod i'r bedd.

Adn. 2. *Onid oes watwarwyr gyda mi?*] Onid yw fy nghyfeillion, yn lle fy nghysuro, yn fy ngwatwar ac yn fy nirygu? ac onid yw fy llygad yn aros yn eu chwerwedd hwynt?—onid yw fy llygad yn canfod eu trawsawer chwerw hwynt? neu, onid ydynt yn fy nghythraddo yn barhaus o faen fy llygad?

Adn. 3. *Dyro i lawr yn awr*] Yma y mae Job yn dymuno i Dduw roddi i lawr yw ernes

feichiai gyda thi: pwy ydyw efe a dery ei law yn fy llaw i?

4 Canys cuddiaist eu calon hwynt oddiwrth ddeall: am hyny ni ddyrchefi di hwynt.

5 Yr hwn a ddywed weniaith i'w gyfeillion, llygaid ei feibion ef a ballant.

6 Yn ddiau efe a'm gosododd yn ddiareb i'r bobl, ac o'r blaen yr oeddwn megys tympan iddynt.

7 Am hyny y tywyllodd fy llygad

neu wylt y barnai efe ei achos ef yn fuan; *dyro i mi feichiai gyda thi*—y bydd i ti gymeryd fy achos i mewn llaw: *pwy ydyw efe a dery ei law yn fy llaw i*—i sicrhau y bydd efe yn feichiai i mi dros Dduw? hyny yw, yn feichiai y byddai i Dduw farnu ei achos ef, neu na byddai iddo arferyd ei hollalluog nerth yn ei erbyn ef i'w lethu. Ymddengos fod yma gyfeirad at ddull treialon gwladol mewn llys barn yn yr oes hono.

Adn. 4. *Canys cuddiaist eu calon hwynt oddiwrth ddeall*] Y mae meddyliau fy nghyfeillion mor ddywyll, fel nas gallant weled y gwirionedd amlycaf; *am hyny ni ddyrchefi di hwynt*—trwy roddi iddynt fuddugoliaeth arnaf fi yn yr achos hwn; neu ni ddyrchefi di hwynt i'r anrhydedd o fod yn farnwyr ar fy achos, eithr ti a'i cymeri i'th law dy hun.

Adn. 5. *Yr hwn a ddywed weniaith i'w gyfeillion*] Canys felly ond odid yr ystyriai Job gyfeillgarwch y triwyr hyn yn amser ei lwyddiant; *llygaid ei feibion ef a ballant*—efe a ddyg farnau trymion nid yn unig arno ei hun, ond hefyd ar ei blant; neu palla llygaid ei feibion ef wrth ddisgwyl yn ofer am ymwared oddiwrth yr adfyddau a ddaw arnynt am bechod eu tad. Eithr tybia Clarke mai yr ystyr yw, 'y bydd i'r neb a ddisgwylia lawer oddiwrth ei gyfeillion gael ei siomi: tra yw ymddibynu arnynt hwy, gall llygaid ei blant ballu wrth edrych am fara.' Ymddengys mai ymadrodd diarebol yw y geiriau.

Adn. 6. *Yn ddiau efe a'm gosododd yn ddiareb i'r bobl*] Yn destyn gwared iddynt; neu yn un ag y cyfelybid dynion adfydas i mi yn mhob oes a gwlad, trwy ddywedyd eu bod 'cyn dyloted a Job,' neu 'mor gystuddiol a Job.' *Ac o'r blaen*—neu 'o'u blaen,' fel y mae ar ymyl y ddalen, *yr oeddwn megys tympan iddynt*—yn achos o lawenydd a hyfyd-wch iddynt; felly *Caryl* ac ereill: neu, yr oeddwn yn wrthddrych eu dirmyg; felly *Tyndal*, *Good*, *Boothroyd*, *Barnes*, &c.; a'r LXX, 'daethlym yn watwagerdd iddynt.'

Adn. 7. *Am hyny y tywyllodd fy llygad gan ddiagonedd*] Saes, 'gan dristwch,' ac felly ei deallir yn gyffredin; hyny yw, wrth wlylo yn barhaus o herwydd ei dristwch a'i ofid: ac y mae fy *alodun oll fel cysgod*—mor deneu ag ysgerbwad, neu gysgod dyn.

Adn. 8. *Y rhai uniaen a synant am hyn*] Bydd i'r dauwlion hyn yn mhob oes a gwlad synu fod Duw wedi goddef i ddyn cywir fel nyfi

gan ddigllonedd, ac y mae fy aelodau oll fel cysgod.

8 Y rhai uniawn a synant am hyn, a'r diniwed a ymgyfyd yn erbyn y rhagrithiwr.

9 Y cyfiawn hefyd a ddeil ei ffordd; a'r glân ei ddwyllaw a chwanea gryfder.

10 Ond chwi oll, dychwelwch, a deuwch yn awr: am na chaf fi wr doeth yn eich plith chwi.

11 Fy nyddian a aeth heibio, fy amcanion a dŷned ymaith; sef meddyllian fy nghalon.

gael ei suddo yn y fath drueni, neu gael ei wawdio yn y modd yma gan ei gyfeillion; a'r diniwed a ymgyfyd yn erbyn y rhagrithiwr—mewn digter santiaidd am fod rhagrithiwr fel Eliphaz a'i gyfeillion yn ymddwyn mor chwerau tuag at ddyr mor gydwytbodol a Job.

Adn. 9. *Y cyfiawn hefyd a ddeil ei ffordd*] A barha yn ei greffydd, er maint ei gyswadd a'i adfys; a'r glân ei ddwyllaw—yr hwn ni wnaeth ddim allan o'i le, a chwanea gryfder—bydd i ddauoldeb, fel pob peth arall, gryfhau trwy ymarferiad. Neu gall mai yr ystyr yw, y bydd i'r cyfiawnion yn mhob oes, wrth glywed hanes Job, gael eu cryfhau yn eu crefydd, yn hytrach na'u digalon, wrth ystyried nad yw y Duw cyfiawn a da byth yn gadael i'w blant gael eu trallodi, oddieithr fod hyn, yn y pen draw, er eu lles hwy a'i ogoniant ei hun. Tybia Clarke fod Job yma yn llefaru yn broffwydoliaethol, am y daioni a ddeiliai i'r duwionion yn mhob oes oddiwrth hanes cystudd ac adferiad Job, a daioni Duw iddo yn ei ddyddiau diweddaf. Ac yn wir, onid yw llyfr Job yn ateb y dyben hwnw, ac yn eglurhad i ni ar lyfr rhagluniaeth.

Adn. 10. *Ond chwi oll*] Eliphaz a'i ddau gyfaill; *dychwelwch, a deuwch yn awr*—deallir hyn mewn tair ffordd; fel pe dywedasai, 'Ewch adref i ddysgu doethineb;' neu, 'dychwelwch oddiwrth eich barn gyfeiliornus am ddaaf fi;' neu, 'deuwch yn mlaen i ail ddadu â mi ar fy achos.' *Am na chaf fi wr doeth yn eich plith chwi*—neb o honoch yn meddu rheswm gwerth ei wrando; neu, ymdrechwech eilwaith, i edrych a all neb o honoch ddangos mwy o synwyr.

Adn. 11. *Fy nyddian a aeth heibio*] Y mae fy einioes bron ar ben; *fy amcanion a dŷned ymaith*—y mae fy holl gynlluniau am gysur oddiwrth hir ddyddiau, a hiliogaeth luosog, wedi eu siomi a dyfod i'r dim; *sef meddylliau fy nghalon*—y rhai a fwriadwn yn fy nghalon, neu yr ymhyrfdwn wrth feddwl am danynt. Yma y mae Job yn troi eilwaith i adfyfyrio ar ei gyflwr alaethus.

Adn. 12. *Gwnant y nos yn ddydd*] Trwy attal i mi gysgu neu orphwysu y nos mwy na'r dydd: *byr yw y goleuni*—y mae goleuni y dydd, yr hwn sydd yn fynych o ryw gysur i ddynton trallodus a chystuddiol, yn ymddangos fel yn cilio cyn gynted ag y tyr allan; o

12 Gwnant y nos yn ddydd: byr yw y goleuni, o herwydd tywyllwch.

13 Os dysgwyliaf, y bedd sydd dy i mi: mewn tywyllwch y cyweiriaais fy ngwely.

14 Gelwais ar y pwll, Tydi yw fy nhad: ar y pryf, Fy mam a'm chwaer wyf.

15 A pha le yn awr y mae fy ngobaith? pwy hefyd a genfydd fy ngobaith?

16 Disgynant i farau y pwll, pan fyddo ein cyd-orphwysfa yn y llwch.

herwydd tywyllwch—o herwydd fy mhoeau blin, y rhai sydd yn fy nrylun liw dydd yn gystal a lliw nos. Neu gall mai yr ystyr yw, Y mae y dydd i mi bron mor dywyll a'r nos; neu, nid wyf yn cael dim dyddanwch y dydd mwy na'r nos.

Adn. 13. *Os dysgwyliaf*] Am ddiwedd ar fy nhrallod; *y bedd sydd dy i mi*—yno yn unig y caf waredigaeth oddiwrtho; neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'yn wir yr wyf yn dysgwyl mai y bedd fydd fy nghartref.' *Mewn tywyllwch y cyweiriaais fy ngwely*—y bedd tywyll 'sydd barod i mi,' (adn. 1.) ac yr wyf finau wedi paratoi fy meddwl i fyned iddo. Neu, 'yr wyf yn fyned i orphwys mewn gwely lle ni'm hafonyddir; i'r hwn gan hyn yr wyf yn ymbarotoi.'

Adn. 14. *Gelwais ar y pwll*] Sef y bedd, neu 'bwl llygredinweth,' Esay xxxviii. 17; *Tydi yw fy nhad*—o'r hwn y cefais fyfychrechad, Gen. ii. 7: *ar y pryf*—yr hwn sydd yn ymborthi yno ar gyrrf y meirw; *Fy mam a'm chwaer wyf*—perthynasau agos, o'r un defnydd a'n gilydd, ac i gyd-drigo yn yr un tŷ.

Adn. 15. *A pha le yn awr*] Pan yr wyf yn ymyl y bedd, y mae fy ngobaith—am adferiad i iechyd a llwyddiant eilwaith yn y byd hwn, fel yr addawsai ei gyfeillion iddo? gwel ar pen. v. 17—27, viii. 6, 7, a xi. 13—19. *Pwy hefyd a genfydd fy ngobaith*—wedi ei wirieddu, hyd yn nod pe byddai i mi ei letya? Nid gobaith am ddaioni ysbrydol i'w ennid a olygir yma, ond am ddaioni tymhorol i'w gorff.

Adn. 16. *Disgynant i farau y pwll*] Sef ei obeithion, fel y tybia rhai: neu gall mai yr ystyr yw, Rhaid i'r rhai a fynent ganfod fy ngobaith i, ddisgyn i'r bedd i'w weled; canys yr unig obaith ag sydd o'm blaen i, gyda golwg ar y corff afael hwn, yw y gobaith am adgyfodiad dedwydd yn y dydd diweddaf. *Pan fyddo ein cyd-orphwysfa yn y llwch*—pan y byddoch chwi a minau wedi ein claddu; neu, pan y byddwyf fi, a'm gobaith am ddaioni dae-arol, wedi cyd-orwedd yn llwch y bedd. Wrth *farau y pwll*, yn yr adnod hon, y dealla rhai *grafangau* angau; ereill, y gwahanol *gelloedd* mewn beddrod cyffredin; ac ereill, y *fyneddi* i feiddro yr henafiaid, yr hon a gawid i fywy a barau hefyd.

PENNOD XV^{II}.

A BILDAD y Suhriad a ateboddac a ddywedodd,

2 Pa bryd y derfydd eich ymadrodd? ystyriwch, wedi hyn yn ninau a lefarwn.

3 Paham yr cyfrifed nyini fel anifeiliaid? ac yr ydym yn wael yn eich golwg chwî?

4 O yr hwn sydd yn rhwygo ei enaid yn ei ddigllondeb: ai er dy fwyn di y gadewir y ddaear? neu y symudir y graig allan o'i lle?

5 Ie, goleuni yr annuwiolion a ddiffoddir, a gwreichionen ei dân ef ni lewyrcha.

PEN. XVIII. Adn. 1. *A Bildady Suhriad a atebodd*] A ddechreuodd ar ei ail araeth: gwel ar pen. viii. 1.

Adn. 2. *Pa bryd y derfydd eich ymadrodd?*] Sef ymadrodd Eliphaz a Job ond odid, yr hwn a ystyriai Bildad yn rhy faith ac ofer o lawer. *Ystyriwch*—y mater yn fanylach, neu gwrandewch yn fwy ystyriol; *wedi hyn yn ninau a lefarwn*—sef Bildad a Sophar, y rhai oeddynt i gymeryd rhan yn y ddaid hon. Ond tybia rhai fod y rhif lluosog yn cael ei arferdy am Job yn unig yn y darn blaenaf, ac am Bildad yn unig yn y darn olaf. Neu gall ei fod yn cyfeirio at ymadroddion y pedwar, sef Job a'i dri chyfaill; a chyfeirir yr adnod gan Good fel hyn: 'Pa hyd y plennwch ddrain' (ymadroddion pigog a chynhyrfus) 'yn mhlith geiriau? byddwch gymhedrol, ac yna gallwn ddaflu.' Ond os hyn oeddi meddwl Bildad, buan yr aeth efe ei hun i blannu drain.

Adn. 3. *Paham yr cyfrifed nyini fel anifeiliaid?*] Sef fel rhai diddeall ac annoeth? Fe allai ei fod yn cyfeirio at yr hyn a ddywedasai Job yn pen. xii. 7, neu yn pen. xvii. 4, 10. *Ac yr ydym yn wael yn eich golwg chwî*—sef yn ngolwg Job a'i bleidwyr? pen. xvii. 8.

Adn. 4. *O yr hwn sydd yn rhwygo ei enaid yn ei ddigllondeb*] Fel pe byddai wedi gwall-gof! Cyfeirir yma yn benodol at Job. *Ai er dy fwyn di y gadewir y ddaear?*—a raid i Dduw, mewn trefn i attal dy rwnachrwydd a'th ddaidwrdd di, ddodi heibio lywodraethiad y ddaear a'i thrigolion, a gadael i'r cwbl gael ei neoli gan ddamwain, heb iddo ef wneyd dim gwahaniaeth rhwng y drwg a'r da, na thalu un sylw i'w wirionedd, ei ddoethineb, na'i gyfa-wnder ei hun? *Neu y symudir y graig allan o'i lle?*—fel pe dywedasai, A raid i ddeddfau y nefoedd, y rhai sydd yn fwy cadarn a ddysgo na'r graig, gael eu newid neu eu diddymu yn ol dy fympwy di, men er mwyn i ti gael dy adael yn ddiogosp? Y mae yn eglur fod Bildad yn llefaru yma fel dyn wedi colli ei dymherau, neu un a fyddai wedi ymylltio gan natu ddrwg.

Adn. 5. *Ie, goleuni yr annuwiolion a ddiffoddir*] Sef eu llwydiant, ac maured, a'u

6 Goleuni a dywylla yn ei luestty ef; a'i lusern a ddiffydd gydag ef.

7 Camrau ei gryfder ef a gyfyngir, a'i gynghor ei hun a'i bwrw ef i lawr.

8 Canys efe a deflir i'r rhwyd erbyn ei draed, ac ar faglau y rhodia efe.

9 Magl a ymeifl yn ei sawdl ef, a'r gwilliad fydd trech nag ef.

10 Hoeny a guddied iddo ef yn y ddaear, a magl iddo ar y llwybr.

11 Braw a'i brawycha ef o amgylech, ac a'i gyr i gymeryd ei draed.

12 Ei gryfder fydd newynllyd, a dinystr fydd barod wrth ei ystlys.

dedwyddwch; a gwreichionen ei dân ef ni lewyrcha—lleb, 'fflam ei dân,' sef ei ogoniant mwyaf a dysgleirfa.

Adn. 6. *Goleuni a dywylla yn ei luestty ef*] Ei deulu a syrth i iselder a thruni; *a'i lusern a ddiffydd gydag ef*—derfydd am ei blant yr un modd ag yntau; neu, ni throsglwyddir ei ogoniant ef i'w hiliogaeth.

Adn. 7. *Camrau ei gryfder ef a gyfyngir*] Neu a fyreir gan wendid a methiant; *a'i gynghor ei hun a'i bwrw ef i lawr*—ei gynlluniau ffol ef ei hun fyddant yr achos o'i gwymp. Y mae 'camrau hirion' yn ymadrodd diarebol yn mhlith yr Arabiaid, i arwyddo rhyddid, llwyddiant, &c.

Adn. 8. *Canys efe a deflir i'r rhwyd erbyn ei draed*] Saes., 'efe a deflir i'r rhwyd gan ei draed ei hun;' hyn yw, efe a ddyg ddinyst arno ei hun; neu efe a ddelir yn y rhwyd a ddarparodd i ereill: *ac ar faglau y rhodia efe*—ar byllau wedi eu gorchuddio i faglu neu ddal y rhai a rodiant arnynt.

Adn. 9. *Magl a ymeifl yn ei sawdl ef*] Fel nas gallo ddianc o'r ddalia, mwy na bwystyl o'r fagl; *a'r gwilliad*—neu yr yspeiliwr, yr hwn a osododd y fagl hono, *fydd trech nag ef*—yn gallu ei yspeilio neu ei ladd yn ddiwrthwynebiad.

Adn. 10. *Hoeny a guddied iddo ef yn y ddaear*] Soniwyd am dano uchod yn cael ei ddal yn ei rwyd ei hun, ond sonir am dano yma yn cael ei ddal mewn rhwyd wedi ei gosod iddo gan arall; *a magl iddo ar y llwybr*—y mae y gyffelybiaeth yn yr adnodau hyn wedi ei chymeryd oddiwrth helyddion; a'r ystyr yw, y bydd i'r annuwiol gael ei ddal yn ddisymwth gan ddinyst, fel y delir aderyn neu bryf mewn magl.

Adn. 11. *Braw a'i brawycha ef o amgylech*] Ar bob llaw, oddiwrth Dduw a dynion, oddiwrth ei gydwybod ei hun, ac hefyd oddiwrth gythreuliaid; *ac a'i gyr i gymeryd ei draed*—i geisio ffio i rywle am ei fywyd.

Adn. 12. *Ei gryfder fydd newynllyd*] Fydd wedi ei dreulio ymaith gan newyn; *a dinystr fydd barod wrth ei ystlys*—fydd yn ei ymyl, fel swyddog parodi ymallyd ynddo a'i ddyfetha.

13 Efe a ysa gryfder ei groen ef: cyntafanedig angau a fwyty ei gryfder ef.

14 Ei hyder ef a dynir allan o'i luesty: a *hyny* a'i harwain ef at frenin dychryniadau.

15 Efe a drig yn ei luest ef, am nad eiddo ef *ydyw*: brwmstan a wasgerir ar ei drigfa ef.

16 Ei wraidd a sychant odditanodd, a'i frig a dorir oddiarnodd.

17 Ei goffadwriaeth a gollir o'r ddaear, ac ni bydd enw iddo ar wyneb yr heol.

18 Efe a yrir allan o oleuni i dywylwlch: efe a ymlidir allan o'r byd.

19 Ni *bydd* iddo fab nac wŷr yn mysg ei bobl; nac un wedi ei adael yn ei drigfanau ef.

20 Y rhai a ddal ar ei ol, a syna arnynt o herwydd ei ddydd ef; a'r

Adn. 13. *Efe a ysa gryfder ei groen ef*] Heb., 'a ysa farau ei groen,' sef ei *esgyrn* ond odid, y rhai a gynaliant y croen, neu y corff dynol; *cyntafanedig angau a fwyty ei gryfder ef*—sonir am y 'cyntafanedig' yn aml fel yn rhagori mewn cryfder a nerth, Gen. xlix. 3; ac fe allai mai yr ystyr yma yw, y byddai i'r dolur neu yr afiechyd mwyaf dilynstriol a genhedlwyd erioed gan angau ddiata ei nerth ef. Ond y mae *Heath* a *Houbigan* yn efyfieithu yr adnod fel hyn: 'Cornwydydd fflaidd a ysant ei groen ef; a marwolaeth anamserol a ddyfethia ei blant ef.' Y *Galdeag*: 'Nerth ei groen ef a ddifa ei gnawd, ac angel marwolaeth a ysa ei blant ef.' Gwelson yn fynych yn y llyfr hwn y modd yw a llesfarw, yn nghanol ardduniant y cyffelybiaethau dwyreiniol, yn gadael y gyffelybiaeth ar unwaith, gan fyned i drin y pwnc yn ei wisg ei hun: felly yma, ar ol son am y drygionus dan y gyffelybiaeth o fystfyll yn cael ei ddal mewn rhydd neu fagl, ni sonia efe mwyach am dano yn y goleuni hwnw, eithr efe a'i darlunia ef o hyn yn mlaen yn ei gymeriad ei hun.

Adn. 14. *Ei hyder*] Am amddiffyniad a digogelwch; neu wrthddrychau ei hyder, megys ei nerth neu ei blant; a *dynir allan o'i luesty*—o'i dŷ neu ei gartref, pa mor gadarn byuag y byddo; a *hyny a'i harwain ef at frenin dychryniadau*—hyny yw, fel ei deallir yn gyffredin, at *angau* ei hun, yr hwn yw y mwyaf dychrynlyd o'r holl dychryniadau, yn enwedig i'r annuwiol. Y mae y brenin hwn wedi teyrnass ar holl ddynolryw, oddieithr dau, o ddechre y byd hyd yma, gan gymeryd i mewn frenhinoedd y ddaear dan ei lywodraethi, yn gystal a'u deiliaid; ac nid oes ond un ffordd i gyfarfod âg ef yn ddiddychryn, sef trwy ymbywso ar yr Hwn a 'ddiddymodd angau,' 2 Tim. i. 10, ac a ddywedodd, 'Byddaf angan i ti, O angau; byddaf dranc i ti, y bedd,' Hos. xiii. 14. Ond er fod y golygiad uchod yn ddiagon naturiol, ac yn cael ei dderbyn yn gyffredin, eto y mae gan y dysgedigion wahanol faruau ar y geiriau hyn, fel ar bob adnod arall bron yn llyfr Job. Un ystyr a ddyry BENSON i'r geiriau yw, 'Diffyg hyder a'i harwain ef i ddirfawr ofnau a dychrynyfedd meddwl.' Y LXX a'i efyfieithant, 'A chyfyngder a ymeill ynddo gydag awdurdod brenin.' DR. NOYES, 'Dychryn a'i hymnid ef fel brenin.' M. GOOD, 'Dattodiad a rithra arno fel teyrn.' Yn unol â hyn sylwa CLARKE, 'Cafodd yr ymadrodd *brenin dychryniadau* ei ddeall yn gyffredin

am *angau*; ond ni ddefnyddir ef mewn unrhyw ffordd felly yn y testyn.' A DR. SROCK, esgob Killala, a ddywed, 'Y mae yn ddryg genyf ymadael âg ymadrodd prydfferth yn ein cyfieithiad cyffredin ni, sef *brenin dychryniadau*, i esod allan *angau*; ond nid oes un awdurdod drosto yn y testyn llebreig.'

Adn. 15. *Efe a drig yn ei luest ef*] Hyny yw, trig dychryn, dilynstr, neu angau yno, am yr hwn y soniwyd ddiweddar; *am nad eiddo ef ydyw*—ei luest neu ei dŷ: *brwmstan a wasgerir ar ei drigfa ef*—am ei fod yn dal ei drigfa trwy anghyfiawnder, neu am ei fod yn awr wedi gorfod ei gadael hi. Y mae 'brwmstan' yn fynych yn arwyddoedd dilynstr; a'r meddwl yma yw, y bydd i luest neu drigfa yr annuwiol gael ei llwyr ddilynstrio. Casgla rhai fod yma gyfeiriad at ddinystir Sodom a Gomorra, a bod hyny yn brawf fod Job yn byw ar ol y dygwyddiad llhwnw: ond nid yw hyn yn debyg, onid e buasai y cyfeiriad yn eglurach, ac yn cael ei drin yn helaethach; a gallwn feddwl y buasai y dinasoedd hyny yn cael eu henwi, trwy fod y cyfrwy angylechiad yn dal y fath berthynas â'r mater mewn llaw, ac wedi cynmyrd lle yn eu hymyl.

Adn. 16. *Ei wraidd a sychant odditanodd*] Arwydd arall o lwyrr ddinystir; *a'i frig a dorir oddiarnodd*—sef ei blant ond odid: dyfethir ef wreiddyn a changen, efo ei hun a'i hiliogaeth.

Adn. 17. *Ei goffadwriaeth a gollir o'r ddaear*] Ni fydd un o'i hiliogaeth wedi ei adael ar ol, i barhau ei enw yn mllith dynion; *ac ni bydd enw iddo ar wyneb yr heol*—neb yn cwyno y golled am dano, nac yn son am ei enw, wrth gyfarfod â'u gilydd ar yr heol.

Adn. 18. *Efe a yrir allan o oleuni i dywylwlch*] O gyflwr llwyddiannus i gyflwr adfyddus a gwarthus; neu o oleuni y bywyd i dywylwlch y bedd, a'i enaid i'r tywylwlch eithaf: *efe a ymlidir allan o'r byd*—fel pe byddai pawb yn teimlo fod yn fendith ei gladdu ef o'r golwg gyda'r brys mwyaf; neu, 'a yrir ymaith yn ei ddyrgioni,' Diar. xiv. 32.

Adn. 19. *Ni bydd iddo fab nac wŷr yn mysg ei bobl*] I alaru ar ei ol, nac i barhau ei enw. Saes., 'fab na nai,' yr hyn a olyga fod ei berthynasau wedi dyoddef yr un trychineb a'i deulu. *Nac un wedi ei adael yn ei drigfanau ef*—i feddiannu yr eiddo a allai fod yno ar ei ol.

Adn. 20. *Y rhai a ddal ar ei ol*] A enir i'r byd ar ol ei faw ef, neu a ddeuant i gartrefu

rhai o'r blaen a gawsant fraw.

21 Yn wir, dyma drigleoedd yr anwir; a dyma le y *dyn* nid cdwyn Dduw.

PENNOD XIX.

A JOB a atebodd ac a ddywedodd,

2 Pa hyd y cystuddiweh fy enaid? ac y'm drylliweh â geiriau?

3 Dengwaith bellach y'm gwaradwyddasoch; ac nid cywilydd genych ymgaledu i'm herbryn.

4 Hefyd pe *byddai* wir wneuthur o honof fi yn amryfus: gyda mi y trig fy amryfusedd.

5 Yn wir os ymfawrygwch yn fy erbyn, a dadlu fy ngwaradwydd i'm herbryn:

yn yr ardal hōno o ryw wlad arall; a *syna arnynt o herwydd ei ddydd ef*—wrth glywed am ddydd ei ddiinstr, neu farnedigaethau cyfiawn Duw arno: *a'r rhai o'r blaen a gawsant fraw*—sef y rhai ag oeddynt yn byw yn ei auser ef, ac yn dystion o'i ddiinstr dyclrynllyd. Ond y mae *Wemyss* ac ereill yn cyfieithu yr adnod fel hyn! 'Y *gorllewin* asyna wrth ei ddiwedd ef, a'r *dwyrain* a frawycha;' sef trigolion y parthau hyn. Yn naearyddiaeth y dwyreiniwyr trōid y wyneb bob amser tua'r dwyrain, yn lle i'r gogledd fel y gwnawn ni wrth ddarllen ein darluneni; ac felly yr oedd y *tu ol* yn golygu y gorllewin yn wastadol, a'r *tu blaen* yn golygu y dwyrain.

Adn. 21. *Yn wir, dyma drigleoedd yr anwir*! Fel hyn y dygwydd iddynt oll; a *dyma le y dyn nid cdwyn Dduw*—fel hyn y bydd i bob un nad ofna Dduw, neu nis gwasanaetha ef. Y mae yn amlwg fod Bildad yn cynhywso yr oll o'r ymadroddion diarebol hyn at Job druan, er yn hollol ddisail; ac yr oedd yntau yn gwybod mai ato ef y cyfeirid, ac am hyn yr oedd yn teimlo i'r byw, fel y mae yn eglur oddiwrth ei atebiad yn y bennod nesaf.

PEN. XIX. Adn. 1. *A Job a atebodd*! I'r araeth drahaus uchod o eiddo Bildad, yr hon yr ymddengys fod y ddau arall yn ei chymeradwyo.

Adn. 2. *Pa hyd y cystuddiweh fy enaid*! Yn chwanebol at gystudd fy nghorfi? ac y'm drylliweh â geiriau—chwerwon a phigog, y rhai na haeddais oddiar eich llaw?

Adn. 3. *Dengwaith bellach y'm gwaradwyddasoch*! Hyn yw, llawer gwaith, neu drachefn a thrachefn: gwel ar Gen. xxxi. 7. *Ac nid cywilydd genych ymgaledu i'm herbryn*—er eich bod yn gneuthur felly yn ngolwg Daw a dynion!

Adn. 4. *Hefyd, pe byddai wir wneuthur o honof fi yn amryfus*! Ddarfod i mi gyfeiliorni mewn barn a buchedd; *gyda mi y trig fy amryfusedd*—nyfi yn unig a niweidir ganddo, na sydd i ddyoddef am dano; ac am hyn y

6 Gwybyddwch yn awr mai Duw a'm dymchwelodd i, ac a'm hamgylchodd â'i rwyd.

7 Wele, llefaf rhag trawsder, ond ni'm hatebir: gwaeddaf, ond nid oes farn.

8 Efe a gauodd fy ffordd, fel nad elwyf drosodd: y mae efe yn gosod tywyllweh ar fy llwybrau.

9 Efe a ddyosgodd fy ngogoniant oddiam danaf; ac a ddygodd ymaith goron fy mhen.

10 Y mae efe yn fy nystrywio oddiamgylch, ac yr ydwyf yn myned ymaith: ac efe a symudodd fy ngobaith fel pren.

11 Gwnaeth hefyd i'w ddigofaint gyneuo yn fy erbyn; ac a'm cyfrifodd iddo fel un o'i clynyon.

dylech chwí dosturiu wrthyf, yn hytrach na'm gwaradwyddo.

Adn. 5. *Yn wir os ymfawrygwch yn fy erbyn*! Trwy arfer geiriau chwerwon a thrahaus, neu trwy geisio eich dyrchafu eich hunain wrth fy narostwg i; a *dadleu fy ngwaradwydd i'm herbryn*—fy nghystudd a'm tralloed, fel rheswm i brofi fy mod yn rhagritliwr neu ddyn annuwiol.

Adn. 6. *Gwybyddwch yn awr mai Duw a'm dymchwelodd i*! O'm llwyddiant a'm dedwyddwch; neu, mai rhyngddo ef a minau y mae yr achos yn sefyll; ac a'm hamgylchodd â'i rwyd—a hyn y ryw ddybenion nas gallwch chwí eu deall; ac am hyn nid oes genych chwí awdurdod i chwaneagu at ei ger-yddon ef.

Adn. 7. *Wele, llefaf rhag trawsder*! Heb., 'llefaf, Camwri! Trais!' ond ni'm hatebir—fel ag i'w symud: *gwaeddaf*—yn uwchuwch, neu gweddiad yn daerach fyth; ond *nid oes farn*—neu gyfiawnder yn cael ei wneyd â mi gan Dduw na dynion! Ni chyfyngai Duw i symud yr adfyd a ddygasai efe arno, ac ni wnai ei gyfeillion gyfiawnder â'i gymeriad na'i eiriau.

Adn. 8. *Efe a gauodd fy ffordd*! Ag anhawsderau, megys â mur uchel; *fel nad elwyf drosodd*—fel nas gallwyf ddianc o'm tralloedion: *y mae efe yn gosod tywyllweh ar fy llwybrau*—fel nas gallwyf ganfod fy ffordd.

Adn. 9. *Efe a ddyosgodd fy ngogoniant oddiam danaf*! Sef pob peth a'm gwnelai yn anrhydeddus yn ngolwg dynion; ac a ddygodd ymaith goron fy mhen—yr addurn a wisgai efe fel penaethi neu swyddog gwladol ond odid: gwel ar pen. i. 3, ii. 11, a xvi. 15.

Adn. 10. *Y mae efe yn fy nystrywio oddiamgylch*! Yn fy iechedd, fy meddiannau, a'm teulu; ac yr ydwyf yn myned ymaith—yn noeth i'r bedd; ac efe a symudodd ymaith fy ngobaith—am adferiad iechedd a llywyddiant bydol, fel pren—a fyddo wedi ei ddiwreiddio neu wywo.

Adn. 11. *Gwnaeth hefyd i'w ddigofaint*

12 Ei dorfoedd sydd yn dyfod yn nghyd, ac yn palmantu eu ffyrdd yn fy erbyn, ac yn gwersyllu o amgylch fy mhabell.

13 Efe a bellhaodd fy mrodyr oddiwrthyf, a'r rhai oedd yn fy adnabod hefyd a ymddyethrasant oddiwrthyf.

14 Fy nghyfnesaf a ballasant, a'r rhai oedd o'm cydnabod a'm hannghofiasant.

15 Y rhai oedd yn trigo yn fy nhŷ, a'm morwynion, sydd yn fy nghyfrif yn ddyeithr: alltud ydwyf yn eu golwg.

16 Gelwais ar fy ngwasanaethwr, ac nid atebodd; ymbiliais âg ef â'm genau.

17 Dyeithr oedd fy anadl i'm gwraig, er ymbil o honof *â hi er mwyn* fy mhiant o'm corff.

18 Plant hefyd a'm diystyrent: cyfodais, a dywedasant i'm herbyn.

19 Fy holl gyfrinachwyr sydd yn fy ffieiddio: a'r rhai a gerais a droisaut yn fy erbyn.

20 Fy esgyrn a lynodd wrth fy nghroen, ac wrth fy nghnawd; ac â chroen fy nannedd y diengais.

21 Trugarhewch wrthyf, trugarhewch wrthyf, fy nghyfeillion! canys llaw Duw a gyffyrddodd â mi.

22 Paham yr ydych chiwi yn fy erlid i fel Duw, heb gael digon ar fy nghnawd?

23 O nad ysgrifenedd fy ngeiriau yn

gyneu yn fy erbyn] Fel tân dinystriol; ac a'm cystrifodd iddo fel un o'i elynion—ymddyogodd tuag ataf fel pe byddwn elyn iddo, er nad ydwyf felly.

Adn. 12. *Ei dorfoedd sydd yn dyfod yn nghyd*] Sef yr adfydau a anfonodd efe, y rhai a arddanghosir yma fel byddinoedd o filwyr; ac yn palmantu eu ffyrdd yn fy erbyn—fel byddin yn gwneuthur ffyrdd neu yn codi pontydd i fyned at ddinas y gelynon; ac yn gwersyllu o amgylch fy mhabell—yn gwarachae arnaf o bob tu.

Adn. 13. *Efe a bellhaodd fy mrodyr oddiwrthyf*] Sef ei berthynasau o bob gradd; a'r rhai oedd yn fy adnabod hefyd—ei holl gymydogion a'i gydnebod; a ymddyethrasant oddiwrthyf—fel pe bawn ddyr annuwiol yn dyoddef dan fellidith Duw.

Adn. 14. *Fy nghyfnesaf*] At y rhai y cyfeirwyd yn yr adnod o'r blaen; a ballasant—gyflawni y swyddau hyn o garedigrwydd ac amgeledd ag oeddynt ddyledus i mi oddiwrthynt: a'r rhai oedd o'm cydnabod—sef fy nghyfeillion mwyaf adnabyddus; a'm hannghofiasant—fel pe na buaswn wedi bod erioed yn en mysg, neu yn haeddu dim tosturi oddi ar eu llaw.

Adn. 15. *Y rhai oedd yn trigo yn fy nhŷ*] Fel fy ngeision a'm morwynion. Pe allai fod tŷ Job yn sefyll fyth; canys am dŷ ei fab hynaf y dywedir iddo syrthio, a lladd y rhai oedd ynddo, pen. i. 19. *Sydd yn fy nghyfrif yn ddyeithr*—fel alltud allan o'i wlad, i'r hwn ni ddylent ufyddhau.

Adn. 16. *Gelwais ar fy ngwasanaethwr*] Yr hwn ond odid oedd yn aros yn ei dŷ ef fyth gyda gwraig Job, neu yr hwn a 'ddiangasai' gynt i fynegu i Job ei anflawd, pen. i. 15; ac nid atebodd—ni ddaeth ataf i estyn cymhorth i mi, er i mi ymbil arno.

Adn. 17. *Dyeithr oedd fy anadl i'm gwraig*] Ni ddeuai lithau ataf i weini i mi gysur nac amgeledd; er ymbil o honof *â hi er mwyn* fy mhiant o'm corff—er i mi geisio cynhyrfu ei thosturi trwy grybwyll am fy mhiant auffsortunus, i'r rhai yr oedd hi yn fam, fel yr oeddwn

inau yn dad; a marwolaeth pa rai a ddylasai gryfhau ein cydymdeimlad.

Adn. 18. *Plant hefyd a'm diystyrent*] Sef plant y cymydogion: cyfodais—i geisio cerdded ychydig, a dywedasant i'm herbyn—dywedent ryw eiriau câs ac anuharchus wrtho, fel y clywsent o rhieni yn dywedyd am dano. Ond tybia rhai mai ei blant ei hun a olygir, y rhai oeddynt yn rhy ieuanc i fyned i'r wledid yn nhŷ y brawd hynaf, ac felly a ddiangasant rhag dinystr, pen. i. 13, 19; a thybia ereill mai plant ei ordderchadon ef oeddynt: ond y mae yn debycach mai plant ei gymydogion a feddylir.

Adn. 19. *Fy holl gyfrinachwyr sydd yn fy ffieiddio*] Y rhai oeddynt gynt yn gynghoriaid a chyfeillion myuwesol iddo; a'r rhai a gerais a droisaut yn fy erbyn—efe a gyfeiria ond odid at ei dri chyfaill yn y ddaid hon.

Adn. 20. *Fy esgyrn a lynodd wrth fy nghroen, ac wrth fy nghnawd*] Neu, fel y mae rhai yn ei ddarllen, 'wrth fy nghroen fel wrth fy nghnawd;' hyuy yw, yr oedd ei gnawd wedi curio ymait, fel nad oedd dina ond y croen a'r esgyrn mwyach ar ol; ac â chroen fy nannedd y diengais—ymadrodd diarebol, yn arwyddo anhawsder mawr, neu y perygl uwyaaf. 'Prin yr wyf yn rhydd oddiwrth ddoluriau mewn unrhyw ran o'm croen, oddi-eithr cig fy nannedd, yr hwn sydd yn dal ac yn cuddio eu gwraidd hwynt.'—POOLE. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at arferiad yr hen baganiaid o guro allan ddannedd eu carcharorion, heb adael dim ar ol ond y cig. Ond wedi y cwbl, gall mai cyfeirio y mae efe at ei wesusau, (fel y mae yn Meibl Douay,) y rhai a adawsai Satan iddo i fellidith Duw.

Adn. 21. *Trugarhewch wrthyf, trugarhewch wrthyf, fy nghyfeillion!*] Y mae yr ailadroddiad hwn yn dangos y cyfyngder a'r awydd mwyaf; canys llaw Duw a gyffyrddodd â mi—a'm tarawodd, neu sydd yn drwm arnaf.

Adn. 22. *Paham yr ydych chiwi yn fy erlid i fel Duw*] Fel pe byddai genych chiwihan hawl i wneyd hyny yn gystal a Duw, neu fel

awr ! O nad argreffid hwynt mewn llyfr !

24 O nad ysgrifened hwynt yn y

pe byddai ar Dduw angen am eich cymhorth chwi i fy mlino ? *heb gael digon ar fy nghawod*—ond fod yn rhaid i chwi gael blino fy meddwl a'm hysbryd hefyd ?

Adn. 23. *O nad ysgrifened fy ngeiriau yn awr !* Sef ar risgl, dail, neu hesg, fel yr arferid y pryd hyny, cyn dyfeisio papyr. Yr wyf fi yn meddwl fod Job yn cyfeirio yma, nid at y geiriau a ddywedasai efe uchod am ei adfyd, ond at y rhai ag yr oedd efe yn myned i'w traethu yn awr am ei obaith a'i Brynwr byw, adn. 25—27. Fel pe dywedasai, Yr wyf fi yn awr yn myned i draethu athrawiaeth gwerth ei chofio, yr hon a fydd yn gysur i filiynau o'm cydreduriaid hyd ddiwedd y byd. *O nad argreffid hwynt mewn llyfr*—fel y gallo pawb eu darllen, gan nibr bwysig ydynt ! Y mae yn dra hysbys na ddyfeisiwyd y gelfyddyd o argraffu llyfrau hyd fwy na thair mil o flynyddau ar ol dyddiau Job, sef tua chanol y pymthegfed canrif, neu oddeutu 400 mlynedd yn ol ; gan hyny, wrth 'argraffu ei eiriau mewn llyfr,' y meddylir, eu *cerfio* ar blwm, pres, neu gareg. Modd bynag, rhwng y flwyddyn 1450 a 1455, pryd yr argraffwyd yr holl Feibl gyntaf, (sef y Vulgate, neu y Beibl Lladin, yr hwn a argraffwyd yn Mentz, yn yr Almaen,) cafodd dymuniad Job gyflawniad llythyrenol yn ein hystyr ni o'r gair.

Adn. 24. *O nad ysgrifened hwynt yn y graig dros byth!* Mewn llythyrenau dyfynion, i fod mewn bythol goffawriaeth ! *â phin o haiarn ac â phlwm*—sef trwy gerfio llythyrenau dyfynion yn y graig *â chŷn haiarn*, ac yna lenwi y llythyrenau hyny *â phlwm toddelig* fel y gellid eu darllen yn lawddach a'u cadw yn hwy. Er fod yr arferiad o ysgrifenu neu gerfio ar lasfan teneuon o blwm, ac yna en rhwymo yn nghyd fel math ar lyfr, yn bodoli ond odid mor fore ag oes Job ; eto nid hyny a olygir yma, eithr eu hysgrifenu mewn *craig*. Yr oedd hyn yn beth arferedig iawn yn yr amseroedd boreaf yn Arabia, Syria, a manau ereill ; ac y mae llawer o'r heu gerfiadau hyny i'w gweld yno ar greigiau llyfn hyd y dydd hwn.

Adn. 25. *Canys myfi a wn, &c.* Yma y dechreu a geiriau ag y mynai Job eu hysgrifenu neu en cerfio yn y graig. Y mae tri ystyr yn cael eu rhoddi i'r adnodau hyn : I. Tybia rhai eu bod yn cyfeirio at ymddangosiad Daw rywfod i amddiffyn cymeriad Job yn ngwyneb cyhuddiadau ei gyfeillion : dyma farn *Dr. Kennicott*. II. Tybia ereill eu bod yn cyfeirio at ei adferiad ef i'w iechyd a'i lwyddiant yn niwedd ei oes, fel y dygwyddodd iddo : dyma farn *Chrysostom, Ambrose, Grotius, Le Clerc, Reisk, Vogel, Michaelis, Warburton, Stock, Patrick, Dalthe, Rosenmuller, Jahn, Barnes, &c.* III. Eithr tybia ereill mai cyfeirio y maent at ddydd y farn, pryd y disgyn y Barnwr o'r nef, ac yr adgyfodir y meirw : dyma farn *Clarke, Benson, Scott, Poole, Henry, Gill, Pearson,*

graig dros byth â phin o haiarn ac â phlwm !

25 Canys myfi a wn fod fy Mhryn-

Watson, Hales, Ostervald, &c., yn gystal a chyfieithwyr y Beibl. Gyda golwg ar y dyb *gyntaf*, y mae iaith y testyn, yn fy marn i, yn rhy lawn ac amgylchiadol i osod allan y meddwl hwnw yn unig : ac er i Dduw amddiffyn cymeriad Job yn ddiagonol trwy ei adferyd a'i lwyddo yn niwedd ei oes, eto prin y gallwn feddwl fod yr holl ymadroddion arddunol a goruchel yn yr adnodau hyn yn cael eu defnyddio yn fwrriadol, na'u bod chwaith yn briodol, i osod allan yr amgylchiad hwnw. Gyda golwg ar yr *aill* dyb, digon yw dywydedd ei bod yn groes i'r oll a ddywedasai Job o ddechre y llyfr hyd yma, lle y mae efe yn anobeithiol am ddim ond marwolaeth ebrwydd : gwel ar pen. vi. 11, vii. 7, 21, xvi. 22, xvii. 1, 13—16, a xix. 10. Felly yr wyf fi yn meddwl mai ystyr naturiol y geiriau yw y *drydedd* dyb uchod ; hyny yw, eu bod yn cyfeirio at ddydd y farn, disgyniad y Barnwr, ac adgyfodiad dedwydd Job i fywyd tragwyddol. Fel rhesymaer dros y dyb hon gellid crybwyll, (1) Fod y geiriau gwreiddiol, yn gystal a'r cyfieithiadau yn gyffredinol, yn goddef yr ystyr hwn, fel yr addeffr hyd yn nod gan bleidwyr y golygiadau ereill ; hyny yw, na fuasai raid i Job defnyddio unrhyw eiriau ereill i gyfeirio at ddydd y farn a'r adgyfodiad. (2) Fod y deongliad llythyrenol o unrhyw ran o'r ysgrythrau santaidd yn fwy dewisol na'r un cyffelybiaethol, pau fyddo y deongliad hwnw yn gyson a'r cyd-destynau, ac yn cael ei gadarnhau gan ranau ereill o'r ysgrythyr. (3) Fod yr adnodau dan sylw yn cael en deall yn y goleuni hwn gan y rhan fwyaf o esbonywyr hen a diweddar, a chan filoedd o weinidogion dysgedig a duwiol, y rhai nid ysgrifenasant yn benodol ar y pwnc. (4) Fod athrawiaeth yr adgyfodiad yn hysbys i raddau i Job o'r blaen, (gwel pen. xiv. 14, 15, a manau ereill) yn gystal ag i ereill o'r hen batr eirch : ac yn wir yr oedd rhyw wybodaeth o'r Gwaredwr, a'r adgyfodiad, a'r farn ddiweddar, a bywyd tragwyddol, yn angenrheidiol i'r saint yn mhob oes, i'r dyben i iawn lywodraethu eu bucheddau, dyddanu eu meddyliau dan eu tralldion, a chynrychu ynddynt ffydd, gobaith, a chariad. (5) Fod Job yn awr yn llefaru dan ysbrydoliaeth ddigyfrwng yr Ysbyrd Glân ; ac y mae yr ystyriaeth o hyny yn ddigon o reswm pam yr oedd efe yn gallu llefaru mor groew am yr adgyfodiad a'r farn ddyfodol, heb son am y wybodaeth a'ffynai eisoes yn mllith y patricirch ar y pen hwn : gwel ar Heb. xi. 2, &c., a Judas, 14, 15. Yn y goleuni hwn, gan hyny, nid oes dim yn dywyll neu yn anhawdd yn yr adnodau dan sylw ; a gellir crynhoi eu hystyr yn fyr yn y dull a ganlyn : *Canys myfi a wn—yadati*, 'mi a wn yn sicr,' a hyny trwy oleuni dwyfol ysbrydoliaeth. *Fod fy Mhrynwr*—y gair gwreiddiol yma yw *goali* neu *göel*, yn arwyddo *cyfnesaf*, neu berthynas agos, gan yr hwn yr oedd hawl gynt i brynu tir a werthid gan Israeliad rhwng dwy jubili ;

wr yn fyw, ac a saif yn y diwedd ar y ddaear.

26 Ac er ar ol fy nghroen i bryfed ddyfetha y corff hwn, eto caf weled Duw yn fy nghnawd:

27 Yr hwn a gaf fi im' fy hun ei

weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall; er i'm harenau ddarfod ynof.

28 Eithr chwi a ddylech ddywed- yd, Paham yr erlidiwn ef? canys gwreiddyn y mater a gaed ynof.

ac felly gellid ei gyfieithu yma yn *Brynwyr* neu *Gyfnasaf*: gwel ar Lef. xxv. 25. Y mae y gair yn arwyddo hefyd *dialydd* y *gwaged*, Num. xxxv. 19; ond nid yn yr ystyr hwnw y defnyddir ef yma. Felly, pan yr oeddym ninaw wedi gwerthu neu ffurfio ein betifedd- iaeth nefol trwy bechod, daeth Mab Duw i fod yn *Göel* i ni, yn gyfathrachwr neu gyfnasaf: gwisgodd ein cnawd, ymunodd a'n natur, ac felly daeth yn Frawd i ni, fel y gallai farw drosom, a thrwy hynny BRYNWR yr etifeddiaeth ffurfietidig yn ol a'i waed. *Yn fyw—chai*, 'yn Föd byw.' Fel pe dywedasai, Er y rhaid i mi farw, y mae fy Mhrynwr yn fyw; ac er y rhaid iddo yntau farw mewn trefn i *brynu* dyn, eto efe a adgyfyd yn fyw o'r bedd, ac agoriadau uffern a marwolaeth wrth ei wregys; ac wele byw a fydd yn oesoesoedd: gwel ar Dat. i. 18. Y mae yn debyg fod yr ymad- rodd *Prynwr byw* yn golygu yma fywyd ar ol marwolaeth, i arwyddo tod y PRIDWERTH wedi ei *gymeradwyo*, a'r BRYNEDIGAETH wedi ei *selio*, trwy waith y Tad yn ei gyfoni ef o feirw. *Ac a saif yn y diwedd ar y ddaear*—yn y cymeriad o FARNWR, yn niwedd y byd. Y mae yn gysur i ni feddwl mai yr un person yw ein Prynwr a'n Barnwr; mai yr hwn a fydd yn dal y clorian yn ei law ddydd y farn, yw yr hwn a fu farw drosom i'n prynu. Ond yn lle sefyll 'ar y ddaear,' myn rhai ei gyfieithu 'ar y lluch,' neu uwchben lluch y bedd, neu lwch y meirw, i'w galw hwy allan.

Adn. 26. *Ac er ar ol fy nghroen*] Ar oli'm croen gael ei ddyfetha; i *bryfed ddyfetha y corff hwn*—sef y cnawd, y giau, a'r esgyrn, yn gystal a'r croen. Gwelsom yn pen. vii. 5, fod Job eisioes wedi ei orcluddio â phryfed; ac yma efe a edrych yn mlaen at yr amser y llwyr ddyfethid ei gorff gan bryfed yn y bedd. Y wreiddiol yw, 'ddyfetha hwn'; ond y mae yn eglur mai y *corff hwn* a feddylir; ac er nad yw y gair *pryfed* yn y wreiddiol, eto rhaid mai hwy, neu lygredigaeth angau, a olyg- ir. *Eto caf weled Duw yn fy nghnawd*—sef y 'Prynwr byw' a enwyd yn yr adnod flaen- orol, yr hwn a elwir yma yn DDUW. Deallir y geiriau hyn mewn tri ystyr gwahanol: (1) Caf weled Duw yn *gwiso* gy nghnawd, fel fy Nghyfnasaf, yn ei gymeriad cyfryngol. (2) Caf weled Duw o'm cnawd; hynny yw, tra y bydd- ai ei gnawd yn pydru yn y bedd, y ce'i ei ys- bryd ef weled nen fwynhau Duw yn y cyfnod rhwng angau a barn. (3) Codir fy nghorff o'r bedd ar ol ei ddyfetha yno, a chaf finau yn fy nghorff ysbrydol hwnw weled Duw; neu 'yn fy nghorff byw,' fel y mae *Herder* yn ei ddar- llen. Hyn yn ddiaman yw yr ystyr. Y mae vn wir y rhaid i'n cyrrf ni fyned dan gyfnawid- iad mawr, eto yr un cyrrf fyddant. 'Efe a

heir yn gorff *anianol*, ac a gyfodir yn gorff *ysbrydol*, 1 Cor. xv. 43. Ni fuasai yn fodd- lon i'n corff hwn gael ei wahanu am byth oddiwrt; yr enaid, hyd yn nod er i ni gael corff cryf a gogoneddus yn ei le ef. Cododd Crist yn yr un corff ag a gladdwyd yn medd Joseph: a chodir ninaw bob un yn ei gorff ei hun. Y mae y cyfammod a wnaeth Duw a'r saint yn gafaelu yn eu cyrrf yn gystal ag yn eu beneidiau, (gwel ar Mat. xxii. 32.) ac y mae ei holl ranau ef i gael derbyn eu gwobr. Y *traed* a'n cludasant i dŷ Dduw, y *gliniau* a blygasant o flaen ei orsedd ef, y *tafod* a fu yn datgan ei glodydd, y *dwyllaw* a weiniasant i'r saint, a'r *llygaid* a wylasant am nad allem ei garu yn well, a godir drachefn o'r pridd i dder- byn eu gwobr gan y Barnwr.

Adn. 27. *Yr hwn a gaf fi im' fy hun ei weled*] Er fy lles a'm cysur fy hun ar fore yr adgyfodiad. *A'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall*—deallir hyn mewn dau ystyr: (1) Y llygaid hyn a'i gwelant, ac nid llygaid ereill wedi eu rhoddi i mi yn eu lle. (2) Caf ei weled ef ei hun, fy Mhrynwr byw, ac nid rhywun arall wedi dyfod i farnu y byw a'r meirw drosto ef. *Er i'm harenau ddarfod ynof*—hynny yw, adgyfodir fi yn fyw yn y dydd diweddfaf, er i'm *bywydoli*on fod wedi marw nen ddarfod ynof er' os eoedd. Y mae *Coverdale* yn cyfieithu yr adnodau hyn fel y canlyn: 'Canys yr wyf yn sicr fod fy Mhryn- wr yn fyw, ac y caf finau godi o'r ddaear yn y dydd diweddfaf; y caf fy ngwisgo drachefa a'r croen hwn, a gweled Duw yn fy nghnawd. Ie, caf fi fy hun ei weled ef, nid âg ereill, ond a'r llygaid hyn. Fy arenau a vsir ynof pan dly- wedwch, Paham nad erlidiwn ef? cawsom achlysur i'w erbyn ef,' &c.

Adn. 28. *Eithr chwi a ddylech ddywedyd*] Gan mai y cyfryw yw fy fydd a'm gobaith yn Nuw, byddai yn weddus i chwi ddywedyd, *Paham yr erlidiwn ef?*—yr ydym yn feis wrth ei erlid ef yn ddiachos fel hyn, ac ni wnawn hynny mwyach. *Canys gwreiddyn y mater a gaed ynof*—sef egwyddor gwir ras, nen dduwioledd gwreiddiol a diffuant. Gwr- eiddyn pob gwir grefydd yw ffydd fywiol yn y Prynwr ag yr oedd Job newydd son am dano: ffydd yn gweithio trwy gariad, yn gorchfygu y byd, ac yn puro y galon; ffydd yn ddiarfog i angau o'i goly, ac yn cenhellu ynom cbaith bywiol, amyneddgar, a gorfoeddus, am fywyd tragwyddol, y fath ag yr oedd Job newydd ei dangos. Hon yw 'gwreiddyn y mater': nid yw pob peth arall ddim ond dail o'n cydharu â hi. Ond y mae *Good* yn cyfieithu yr adnod hon fel hyn: 'Yna y dywedwch, Pa fodd yr erlidasom ef? pan fo gwreiddyn y mater wedi ei ddatguddio ynof.' A *Rosenmuller*, gan ei chysylltu â'r adnod nesaf: 'Pan ddywedwch,

29 Ofnwch am danoch rhag y cleddyf: canys y mae digofaint yn dwyn cospedigaethau y cleddyf, fel y gwybyddoch fod barn.

PENNOD XX.

YNA Sopnar y Naamathiad a atebodd ac a ddywedodd,

2 Am hyny y mae fy meddyliau yn peri i mi ateb; ac am hyny y mae brys arnaf.

3 Yr ydwyf yn clywed cerydd gwaradwyddus i mi; ac y mae ysbryd fy deall yn peri i mi ateb.

4 Oni wyddost ti hyn erioed, er pan osodwyd dyn ar y ddaear,

5 Mai byr yw gorfoledd yr an-

nuwiolion, a llawenydd y rhagrithwyr dros fynydd awr?

6 Pe dyrchafai ei odidogrwydd ef i'r nefoedd, a chyrrhaeddyd o'i ben ef hyd y cymylau;

7 Efe a gollir yn dragywydd fel ei dom: y rhai a'i gwelsant a ddywedant, Pa le y mae efe?

8 Efe a cheda ymaith megys breuddwyd, ac ni cheir ef: ac efe a ymlidir fel gweledigaeth nos.

9 Y llygad a'i gwelodd, ni wel ef mwy: a'i le ni chenfydd mwy o hono.

10 Ei feibion a gais foddloni y tylodion: a'i ddwyllaw a roddant adref eu golud hwynt.

11 Ei esgyrn sydd yn llawn o

Boed i ni ei erlid ef, ac edrych pa sail cyhuddiad a allwn ei chael ynddo, yna ofnawch y cleddyf, &c.

Adn. 29. *Ofnwch am danoch rhag y cleddyf*] Sef cyfawn farn Duw: canys y mae digofaint—y fath ag a ddangosasoch chwi yn fy erbyn i; yn dwyn cospedigaethau y cleddyf—sef rhyw ddrwyg barnol oddiwrth Dduw; fel y gwybyddoch fod barn—fod un a wna gyfiawnder â mi, er na wneuch chwi; neu, fod un a'u cospai hwynt am iddynt ei gauffarnu ef. Ac fel hyn y dygwyrddasai i'r triwyr hyn, oni buasai i Job eiriol drostynt: gwel ar pen. xlii. 7—9. Y mae yn deilwng o sylw, na ddartu i Job byth wedi hyn ddangos y fath ysbryd diamyneddgar a grwgachlyd yn ei ymddyddanion: yr oedd y rhagolwg a gawsai efe ar ei Brynwr byw, ac ar yr anrhydedd ag ydoedd yn ei aros yntau yn y dydd diweddaf, yn ei alluoigi i ddyoddef y cwbl yn fwy tawel, ac i edrych yn mlaen yn obeitiol at y bore pryd y sych Duw ymaith ddagrau oddiar bob wyneb, ac y danghosir yn eglur y gwna Barnydd yr holl ddaear farn.

PEN. XX. Adn. 1. *Gna Sopnar y Naamathiad a atebodd*] A ddechreuodd ar ei ail araeth: gwel ar pen. xi. 1.

Adn. 2. *Am hyny*] Sef am yr hyn a ddywedasai Job yn niwedd y bennod flaenorol; y mae fy meddyliau yn peri i mi ateb—sef ei deimladau cynhyrfus oddifewn; ac am hyny y mae brys arnaf—am gael cyfle i ateb. Sylwyd o'r blaen mai Sopnar oedd y gwaethaf o holl ebymion Job, y rhai y dylid bellach beidio eu galw yn gyfeillion iddo. Nid yw ef yn gosod dim terfynau i'w enllib, eithr y mae yn tros-eddu holl re-llu boneddigeiddrwydd. Rhaid fod dyn o'r fath ysbryd chwerau a hyn, yn dra annedwydd ynddo e. hun.

Adn. 3. *Yr ydwyf yn clywed cerydd gwaradwyddus i mi*] Efe a gyfeiria ond odid at yr hyn a ddywedasai Job yn pen. xix. 29, sef fod ganddynt achos i ofai barn Duw am eu hymddygiadau tuag ato ef; ac y mae ysbryd fy neall yn peri i mi ateb—sef ei ysbryd neu ei

feddwl deallus ef. Fel llawer yn y dyddian hyn, efe a dybiai fod ei olygiadau ei hun yn anffaeleddig, ac am hyny nas gallai ef gyfeil-iorni.

Adn. 4. *Oni wyddost ti hyn erioed*] Neu, mai fel hyn y mae pethau yn bod erioed, er pan grewyd Adda?

Adn. 5. *Mai byr yw gorfoledd yr annuwiolion*] Beth bynag fyddo yr achos o hono; a llawenydd y rhagrithwyr dros fyrryd awr—efe a gyfeiria ond odid at Job, ac at y llawenydd a amlygasai efe yn y rhagolwg ar y dydd diweddaf, pen. xix. 25—27.

Adn. 6. *Pe dyrchafai ei odidogrwydd ef i'r nefoedd*] I'r graddau uwchaf o anrhydedd ac awdardod; a chyrrhaeddyd o'i ben ef hyd y cymylau—mewn balechder a hunan-dyb.

Adn. 7. *Efe a gollir yn dragywydd fel ei dom*] Yr hwn a iwrir ymaith i'r geudy gyda dirmyg a ffeidd-dra. Y rhai a'i gwelsant—gynt yn ei fawredd a'i wychder, a ddywedant—gyda syndod, Pa le y mae efe!—am na fedrant ganfod dim o'i ôl.

Adn. 8. *Efe a cheda ymaith megys breuddwyd*] Yr hwn nis gellir ei sefogaeth a'i gwelidid—neu a ddiiflana, fel gweledigaeth nos—pa un a ganfyddir gan ddyn yn ei freuddwyd, er na bydd yno ddim i'w weled pan ddi-huno efe.

Adn. 9. *Y llygad a'i gwelodd, &c.*] Gwel ymadroddion cyffelyb gan Job ei hun, pen. vii. 8, 10.

Adn. 10. *Ei feibion a gais foddloni y tylodion*] Trwy ddechrlwelyd eu heiddo iddynt; neu ceisiant i'w aflur oddiar eu dwyllaw hwynt; a'i ddwyllaw a roddant adref—cyn iddo ef farw, eu golud hwynt—sef y golud a ddygasai yr annuwiol trwy drais oddiar y tylodion: Eithr Noyes ac ereill a'i cyfieithant: 'eu dwyllaw a roddant adref ei olud ef,' yr hwn a ddygasai efe oddiar y tylodion, a thrwy hyny ceisiant eu boddloni hwynt, fel y dywedir yn nechre yr adnod.

Adn. 11. *Ei esgyrn sydd yn llawn o bechod ei ieuencid*] Neu o gospedigaeth ei bechod; byny yw, bydd effeithiau pechodau ei ieuenc-

bechod ei ieuencid, yr hwn a orwedd gydag ef yn y pridd.

12 Er bod drygioni yn felys yn ei enau ef; er iddo ei gau dan ei dafod;

13 Er iddo ei arbed, ac heb ei ado; eithr ei attal o fewn tafod ei enau:

14 Ei fwyd a dry yn ei ymysgaroedd: bustl aspiad *ydwr* o'i fewn ef.

15 Efe a lyncodd gyfoeth, ac efe a'i chwyda: Duw a'i tyn allan o'i fol ef.

16 Efe a sugn wenwyn aspiad: tafod gwiber a'i lladd ef.

17 Ni chaiff weled afonydd, ffrydiau, ac aberoedd o fel ac ymenyn.

18 Y mae efe yn rhoddi adref yr

hyn a lafuriodd am dano, ac nis llwnc: yn ol ei olud y rhydd adref, ac heb gael llawenydd o hono.

19 Am iddo ddryllio, a gadaw y tylodion; ysglyfaethu tŷ nid adeiladodd;

20 Diau na chaiff lonydd yn ei fol, na weddill o'r hyn a ddymunodd.

21 Ni bydd gweddill o'i fwyd ef; am hyny ni ddysgwyl neb am ei ddâ ef.

22 Pan gyflawner ei ddigonoldeb, cyfyng fydd arno; llaw pob dyn blin a ddaw arno.

23 Pan fyddo efe ar fedr llenwi ei fol, Duw a ddenfyn arno angerdd ei ddigofaint; ac a'i gwlawia hi arno ef yn mysg ei fwyd.

tid i'w gweled ar ei gorff ef yn ei benaint; yr hwn a orwedd gydag ef yn y pridd—efe a ddwy effeithiau ei bechod gydag ef i'r bedd, neu bydd iddynt hwy ei ddwyn ef yno cyn ei amser, fel y cawn siamplau yn frnych. Ond trwy nad yw y gair *pechod* yn y wreiddiol, myn rhai gyfieithu y darn cyntaf, 'ei esgryn sydd yn llawn ieuencid'; ac felly yr ystyr yw, iddo gael ei dori i lawr yn nghanol ei nerth.

Adn. 12. *Er bod drygioni yn felys yn ei enau ef*] Er ei fod yn cael hyfrydych wrth ei gyflawni, fel wrth ymborthi ar seigiau danteithiol; *er iddo ei gau dan ei dafod*—ei gadw yn hir yn ei enau, fel y gwna y glwth â thamsaid melys.

Adn. 13. *Er iddo ei arbed*] Neu ei adael heb ei llyncu; *eithr ei attal o fewn tafod ei enau*—i'r dyben o allu mwynhau ei felysder.

Adn. 14. *Ei fwyd a dry yn ei ymysgaroedd*] O fod yn felys, i fod yn chwewr a gwrthwynebyd fel 'bustl aspiad.' Yr ystyr yw, er fod pechod yn ddyminol wrth ei gyflawni, eto y bydd efe yn chwewr yn ei ganlyniadan.

Adn. 15. *Efe a lyncodd gyfoeth*] Sef y danteithion a brynasai efe a'i gyfoeth; *ac efe a'i chwyda*—fel y gwna y glwth neu y meddw â'r hyn a fwytaodd neu a yfodd yntau gydag hyfrydych. *Duw a'i tyn allan o'i fol ef*—bydd llaw Duw i'w chanfod yn eglur yn ei amddiffiad ef o'i feddiannau.

Adn. 16. *Efe a sugn wenwyn aspiad*] Bydd i'w gyfoeth anghyfiawn a'i bechodau melysion fod yn achos o'i ddinystr, mor sicr a phe llyncasai efe wenwyn asp neu wiber.

Adn. 17. *Ni chaiff weled afonydd—o fel ac ymenyn*] Ni chaiff fwynhau yr helaethrwydd hwnw o gysur a llwyddiant ag a addawsai efe iddo ei hun oddiwrth ei gyfoeth neu ei bechodau.

Adn. 18. *Y mae efe yn rhoddi adref yr hyn a lafuriodd am dano*] Hyny yw, yn ol rhai, yr ennill a gawsai efe oddiwrth ei lafur; *ac nis llwnc*—ni chaiff fwynhau hyd yn nod ei gyflog ei hun. Neu fe allai mai yr ystyr

yw, Efe a ddychwei yr hyn y lafuriodd neu y trafterthodd i'w gymeryd trwy drais oddiar y tylodion, heb ei fwynhau ar ol ei gymeryd felly oddiarynt. *Yn ol ei olud y rhydd adref*—rhaid iddo wneyd ad-daliad am ei drais o'i ennill neu ei gyfoeth ei hun, neu o'r eiddo a gyrhaeddodd ef felly trwy drais; *ac heb gael llawenydd o hono*—set heb gael mediant neu fwyniant o hono. Ond y mae y *Syriac* a'r *Arabac* yn ei darllen: 'Efe a ddychwel i weithio, ond ni chaiff fwyta; efe a lafuria, ac ni oddefir iddo gael mwynhau frwyth ei lafur.' Dywed *Clarke* fod y darlleniad hwn yn llawer nes i'r testyn Hebreig na'r cyfieithiad cyffredin. *Houbigant* a'i cyfieitha, 'Efe a adfer yr hyn a ennillodd trwy ei lafur, ac ni chaiff ei ddifa: ei farsandiath oedd belach, ond ni chaiff efe ei mwynhau hi.'

Adn. 19. *Am iddo ddryllio*] Neu orthryma y tylodion, ac wedi hyny eu gadael i ddyodd-ef mewn tylodi; *ysglyfaethu tŷ nid adeiladodd*—hyny yw, am iddo ei gymeryd trwy drais oddiar ei berchenog at ei wasanaeth ei hun.

Adn. 20. *Diau na chaiff lonydd yn ei fol*] Sef yn ei feddwl neu ei gydwbybod, wedi iddo ysglyfaethu meddiannau dyn arall; *na weddill o'r hyn a ddymunodd*—neu nad elwa efe trwy yr hyn a drachwantodd, eithr efe a'i cyll oll.

Adn. 21. *Ni bydd gweddill o'i fwyd ef*] Dim wedi ei adael ar ol o'i fwyd, nac arhau chwaith i brynu bywd; *am hyny ni ddysgwyl neb am ei ddâ ef*—trwy na fydd wedi gadael dim yn weddill ar ei ol.

Adn. 22. *Pan gyflawner ei ddigonoldeb*] Neu yn nghanol ei ddigonoldeb, sef y cyfoeth a gyrhaeddodd efe trwy drais; *cyfyng fydd arno*—rhag ofn cael ei yspeilio o'i gyfoeth, ac felly bydd yn fwy truenus na phe buasai heb ddim: *llaw pob dyn blin a ddaw arno*—*Soes.*, 'llaw pob drygionus,' megys lladron ac yspeilwyr: neu gall mai yr ystyr yw, y bydd i bob un a *flinwyd* gan ei orthrymder ef, ei fizio a'i yspeilio yntau.

Adn. 23. *Pan fyddo efe ar fedr llenwi ei*

24 Efe a ffyddiwrtharfau heiyryn; a'r bwa dur a'i trywana ef.

25 Efe a dynir, ac a ddaw allan o'r corff, a gloew-lafn a ddaw allan o'i fustl ef; dychryn fydd arno.

26 Pob tywyllwch a fydd cuddiedig yn ei ddirgeloeedd ef: tân heb ei chwythu a'i hysa ef: yr hyn a adawer yn ei luestai ef, a ddrygir.

27 Y nefoedd a ddatguddiant ei anwiredd ef, a'r ddaear a gyfyd yn ei erbyn ef.

28 Cynydd ei dŷ ef a gilia: ei dda a lifa ymaith yn nydd ei ddigofaint ef.

29 Dyma ran dyn annuwiol gan Dduw; a'r etifeddiaeth a osodwyd iddo gan Dduw.

PENNOD XXI.

A JOB a atebodd ac a ddywedodd, **A** 2 Gan wrando gwraudewch fy ymadrodd; a bydded hyn yn lle eich cysur.

3 Dyoddefwch fi, a minau a lefaraf; ac wedi i mi ddywedyd, gwatwarwch.

4 A minau, ydwyf fi yn gwneuthur fy nghŵyn wrth ddyn? ac os

[fol] Neu fwynhau ei 'ddâ lawer,' fel y goludog yn yr efengyl, Luc xii. 19; *Duw a ddenfyn arno angerdd ei ddigofaint*—ryw farn drom ac arswydus; *ac a'i gwlawia hi arno ef*—yn helaeth, *yn mysg ei fwyd*—neu, 'yn lle bywd.'—NOYES. Tybia Clarke ac creill' fod yn y pedair adnod uchod gyfeiriad at y *soff-eir a'r manna* a roddwyd i Israel yn yr anialwch, ac at ddigofaint yr Arglwydd yn enyn yn eu herbyn hwy am eu tuchanrwydd: gwel Exod. xvi. 2—11, Num. xi. 31—35. Ond nid yw hyn yn debyg, yn enwedig os oedd Job a'i gyfeillion, fel yr awgrymwyd eisioes, yn bodoli lawer o oesoedd cyn y dygwyddiad hwnw.

Adn. 24. *Efe a ffyddiwrtharfau heiyryn*] Rhag y bidawg a'r cleddyf; *a'r bwa dur*—neu y 'bwa pres,' fel y mae rhai yn ei ddarllen, gan nad yw yn eglur fod *dur* y pryd hyn yn adnabyddus; *a'i trywana ef*—a'i harcholla pan fyddo yn fflōi. Wrth iddo ddianc rhag perygl yn ymyl, bydd i un arall ei oddiweddyd ef o bell.

Adn. 25. *Efe a dynir*] Sef y bwa, fel ag i ollwng y saeth i'w gorff ef; neu 'hi a dynir allan,' sef y saeth, wedi iddi fyned i'w gorff ef: *a gloew-lafn a ddaw allan o'i fustl ef*—o ffynnonell ei fywyd: *dychryn fydd arno*—wrth ei deimlo ei hun yn marw o'i archoll, ac yn myned yn nghanol ei bechodau i wyddfod Duw.

Adn. 26. *Pob tywyllwch*] Pob math o drueni mewn meddwl, corff, a chyflwr; *a fydd cuddiedig*—a fydd wedi ei drysori neu ei roddi i'w gadw iddo ef; *yn ei ddirgeloeedd*—Saes., 'yn ei ddirgel-leeodd,' sef y lleoedd ag y gobeithiai efe gael diogelwch ynddynt rhag pob gelyn neu ofid. *Tân heb ei chwythu a'i hysa ef*—sef heb ei chwythu gan ddyn, eithr wedi ei gyneuo gan Dduw. Meddyll' fod Sophar yn cyfeirio yma at y tân o'r nefoedd a vsodd ddefaid a gweision Job, pen. i. 16; neu, fel y tybia y Profesor Lee, at y tân anniffoddadwy a'r hwn y poenir yr annuwiol yn uffern. *Yr hyn a adawer yn ei luestai ef, a ddrygir*—sef ei holl deulu a'i feddiannau.

Adn. 27. *Y nefoedd a ddatguddiant ei anwiredd ef*] Sef tân o'r nefoedd, neu wyntoedd cryfion, y fath ag a ddystrywiasant ei blant ef,

pen. i. 19; neu byddai i Dduw fod yn dyst yn erbyn ei anwiredd ef trwy farnedigaethau trymion: *a'r ddaear a gyfyd yn ei erbyn ef*—sef tralloddion o'r ddaear, megys prinder, diffrwythder, &c.

Adn. 28. *Cynydd ei dŷ ef*] Sef ei blant, *a gilia*—Heb., 'a gilia i gaethiwed;' *ei dda a lifa ymaith yn nydd ei ddigofaint ef*—yn y dydd yr ymwelai Duw ag ef yn ei ddigofaint.

Adn. 29. *Dyma ran dyn annuwiol gan Dduw*] Neu gosp Duw ar yr annuwiol yn y byd hwn; *a'r etifeddiaeth a osodwyd iddo gan Dduw*—neu a arfaethwyd iddo yn ol ei ddeddfau anghyfaewidiol ei hun: fel pe dywedasai, *Y mae hyn yn brawf eglur fod y neb a ddyoddefa y cyfrw bethau yn ddyn annuwiol*. Yr oedd Sophar yn cymhwyso yr holl ddrygau uchod at Job, ac yna yn casglu y rhaid ei fod yntau yn ddyn annuwiol. Yr oedd Bildad cyn hyn wedi tynu y cyffelyb gasgliad: gwel ar pen. xviii. 21. Ond nid wyddent hwy am y dyben ag oedd gan Dduw newn golwg wrth gystuddio Job, sef dangos i Satan ac i bawb fod ei grefydd ef o'r iawn ryw: gwel ar pen. ii. 4—6.

PEN. XXI. Adn. 1. *A Job a atebodd*] A wnaeth amddiffyniad iddo ei hun yn ngwyneb ail araeth Sophar.

Adn. 2. *Gan wrando gwraudewch fy ymadrodd*] Yn ystyriol ac amyneddgar; *a bydded hyn yn lle eich cysur*—'ac eodifarhewch.'—VULGATE. 'Bydded i'r hyn yr wyf yn myned i'w ddywedyd eich tueddau i ddadwneyd, neu dynu yn ol, eich camfarnau.'—CLARKE. Tybia rhai mai gwawdiaith yw y geiriau: 'Yr wyf yn awr yn myned i roddi i chw'i gysuron yn lle yr hyn a roddasoch chw'i i mi: a phan orphenwyf, yna trowch hwynt yn wawd os mynwch.' Ond yr wyf fi yn meddwl mai yr ystyr yw, *Mi a dderbyniaf eich gwrandawriad astud o'm hymadroddion yn lle y cysur a ddylasech ei roddi i mi yn fy nghyflwr tralloddus, yr hwn a ddysgwyllais yn ofer oddiwrthych.*

Adn. 3. *Dyoddefwch fi*] I lefaru yn mlaen yn ddirwystri; *ac wedi i mi ddywedyd*—yr ôll ag sydd ar fy meddwl; *gwatwarwch*—os na byddaf wedi amddiffyn fy achos gyda rhesymau teg ac argyhoeddiadol.

ydwyf, pahan na byddai gyfyng ar fy ysbyrd?

5 Edrychweh arnaf, a synweh; a gosodweh *eich* llaw ar *eich* genau.

6 Minau pan gofiwyf, a ofnaf; a dychryn a ymeifl yn fy nghnawd.

7 Pahan y mae yr annuwiolion yn byw, yn heneiddio, ac yn cryfhau *mewn* cyfoeth?

8 Eu had hwy *sydd* safadwy o'n blaen gyda hwynt, a'u hiliogaeth yn eu golwg.

9 Eu tai *sydd* *mewn* heddwch allan o ofn: ac nid *ydwy* gwialen Dau arnynt hwy.

10 Y mae eu tarw hwynt yn cyf-

Adn. 4. *A minau, ydwyf fi yn gwneuthur fy nghwŷyn wrth ddyn?* Nac ydwyf, ond wrth Dduw yn unig: ato ef yr wyf yn apelio *Ac os ydwyf*—pe byddai i mi wneuthur fy nghwŷyn wrth ddynion; *pahan na byddai gyfyng ar fy ysbyrd?*—oni fyddai genyf achos i gwyno a gofidio, trwy na fedr dynion ddeall fy achos, nac estyn i mi waredigaeth? Neu, gan mai at Dduw y dygais fy achos, ac nad yw yntau yn amlygu i mi ei reswm dros fy nghystuddio, pa ryfedd ei bod yn gyfyng ar fy ysbyrd?

Adn. 5. *Edrychweh arnaf*] Yn fy nghystudd, fy mhoenau, a'm tylodi presenol; *a synweh*—fod dyn a fu yn rhodio mor gydwytodol ar hyd llwybrau crefydd, wedi cael ei ddarostwng i'r fath gyflwr; *a gosodweh eich llaw ar eich genau*—yn arwydd o ddystawrwydd a syndod o herwydd ymddygiadau hynod a thywyll rhagluniaeth Duw tuag ataf.

Adn. 6. *Minau, pan gofiwyf*] Am y cyfnewidiad rhyfedd a ddaeth arnaf, neu y pethau ag yr aethym trwyddynt; *a ofnaf*—ymiefl dychryn yn fy holl gyfansoddiad. Ond y mae rhai yn cysylltu hyn â'r adnodau dylynol, gan faddwl mai rhyfeddu yr oedd Job, hyd at ddychryn, wrth ystyried llwyddiant yr annuwiolion mewn cydmariaeth iddo ef.

Adn. 7. *Pahan y mae yr annuwiolion yn byw*] Yn hir ac yn ddedwydd; *yn heneiddio*—yn eu cyflwr llwyddiannus, heb gael eu tori i lawr yn hanner eu dyddiau; *ac yn cryfhau mewn cyfoeth*—bob dydd, gan gael eu dychrafu i swyddau o awdurdod ac anrhydedd, heb fod dan un arwydd o anfoddlonrwydd Duw? Dywedasai Sophar, yn ei araeth ddiweddar, fod yr annuwiolion yn cael eu cospi yn ddi-fiael yn y bywyd hwn; yn awr gofyna Job, pa fodd y gallai hyn fod yn gyson â'r siamplau a welid o'u hamgylch bob dydd, lle y mae yr annuwiolion yn byw yn hir ac yn llwyddiannus, ac yn y diwedd yn marw mewn heddwch, heb amynt un arwydd o anfoddlonrwydd Duw?

Adn. 8. *Eu had hwy sydd safadwy*] Y maent yn canfod eu plant yn tyfu i fyny, ac yn ymsefydlu yn y byd, gan fwynhau eu cymdeithas; *a'u hiliogaeth yn eu golwg*—y

loi, ac ni chyll ei had; ei fuwch ef a fwrw lo, ac nid erthyla.

11 Danfonant allan eu rhai bychain fel deadell, a'u bechgyn a neidiaut.

12 Cymerant dympan a thelyn, a llawenychant wrth lais yr organ.

13 Treuliant eu dyddiau mewn daioni, ac mewn moment y disgynant i'r bedd.

14 Dywedant hefyd wrth Dduw, Cilia oddiwrthym; canys nid ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd.

15 Pa beth *ydwy* yr Hollalluog, fel y gwasanaethem ef? a pha fudd fydd i ni os gweddiwn arno?

16 Wele, nid *ydwy* eu daioni hwy

maent yn cael byw i weled plant eu plant, a'r rhai hynny oll yn llwyddiannus.

Adn. 9. *Eu tai sydd mewn heddwch*] Sef eu tai a'u teuluoedd, heb gael eu hyspeilio gan ladron; *ac nid ydwy gwialen Dau arnynt hwy*—i'w cospi â chlefydon neu farnau trymion.

Adn. 10. *Y mae eu tarw hwynt yn cyrffio*] Neu yn cenhedlu; *ei fuwch ef a fwrw lo*—sef llo byw yn ei amser, heb i'u on anifawd gyfarfod âg ef.

Adn. 11. *Danfonant allan eu rhai bychain*] Sef eu plant, i'r maesydd i chwerau, fel deadell o wŷyn; *a'u bechgyn a neidiaut*—mewn iechyd a llawenydd.

Adn. 12. *Cymerant dympan a thelyn*] I ddiŷru eu meddyliau, ac i beri iddynt ddawnsio.

Adn. 13. *Treuliant eu dyddiau mewn daioni*] Mewn llawder o dda y byd hwn, a hynny hyd hensaint; *ac mewn moment y disgynant i'r bedd*—heb gael eu poeni â hir nychedd neu gystudd.

Adn. 14. *Dywedant hefyd wrth Dduw*] Yn eu hymddygiadau, os nid mewn geiriau; *Cilia oddiwrthym*—nac ymrysona â ni trwy dy Ysbryd, nac addysga ni trwy dy weision, ac nac attal ni yn ein ffyrdd ein hunain trwy dy ofn; *canys nid ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd*—llai o lawer eu rhodio.

Adn. 15. *Pa beth ydwy yr Hollalluog, fel y gwasanaethem ef?*] Pwy ydwy i hawlio ein gwasanaeth ni, neu pa awdurdod sydd ganddo ef drosom? I hon yw iaith naturiol y galon ddynol yn mhob man, er mor rhyfedd yw fod y creadur yn gallu llefaru fel hyn am ei Grewdwr, ei Gynaliwr, ei Brydwr, a'i Farnwr! *A pha fudd fydd i ni os gweddiwn arno?*—llawer yn mhob rhyw fodd. Heb son am y rhwymau sydd ar y creadur i addoli ei Grewdwr, a'r gosp a ddisgyn arno am beidio, gellir nodi mai trwy weddio ar Dduw y mae dyn yn cael y budd mwyaf iddo ei hun mewn amser a thragwyddoldeb; sef iachawdwriaeth a'i holl gyсурon yma, a bywyd tragwyddol a'i holl ogoniant ar ol hyn.

Adn. 16. *Wele, nid ydwy eu daioni hwy yn eu llaw eu hun*] Ond yn llaw Duw, ac yn

yn eu llaw eu hun: pell yw cynghor yr annuwiol oddiwrtwyf fi.

17 Pa sawl gwaith y diffydd canwyll yr annuwiolion? ac y daw eu dinystr arnynt hwy? *Duw* a ran ofidiau yn ei ddig.

18 Y maent hwy fel sofr o flaen gwynt, ac fel mân-us yr hwn a gipia y corwynt.

19 *Duw* a guddia ei anwiredd ef i'w feibion: efe a dâl iddo, ac efe a'i gwybydd.

20 Ei lygaid a welant ei ddinystr ef; ac efe a yf' oddigofaint yr Hollalluog.

hollol dan ei awdurdod ef, yr hwn a all gymeryd ymaith eu holl drugareddau oddiwrtwynt pan y myno. *Pell yw cynghor yr annuwiol oddiwrtwyf fi*—neu 'pell y byddo.' Fel pe dywedasai, 'Fy marn i yw, fod yr annuwiolion yn ffrwyth yn llwyddo, ac nad yw *Duw* yn ymddwng tuag atynt bob amser yn ol eu baeddiant yn y byd hwn. Ond na thwybiwch am hynny fy mod yn eu pleidio: na, pell oddiwrtwyf fi fyddo eu cynghor a'u fyrrd. Ond yr hyn yr wyf fi yn sefyll ato yw, nad yw gywir eich tyb chwi, sef fod yr annuwiolion yn cael eu darostwng i drueni ac aflwydd bob amser yn y fuchedd hon, neu y gellir adnabod cymeriad moesol yn wastadol oddiwrtwyf ymddygiadau rhagluniaeth *Duw* tuag atynt.

Adn. 17. *Pa sawl gwaith y diffydd canwyll yr annuwiolion?* Neu y derydd am eu llwyddiant a'u gorfoledd hwy? *Ac y daw eu dinystr arnynt hwy?*—fel pe dywedasai, 'Yr wyf yn addfed fod hyn yn cymeryd lle weithiau yn y byd hwn, ond nid mor aml ag yr haerwch chwi. *Duw* a ran ofidiau yn ei ddig—y mae hynny yn cymeryd lle weithiau gyda'r annuwiolion yma; ond nid yw yn rheol heb eithriad, canys yn y byd ar ol hwn y cospir y cyfryw yn gyffredinol.'

Adn. 18. *Y maent hwy fel sofr o flaen gwynt?* Pan ddelo dinystr ar yr annuwiolion, ni byddant hwy ond megys sofr neu fân-us a ddygir ymaith yn anwrthwynebol gan wynt cryf: ond ni ddygwydda iddynt felly yn wastadol yn y byd hwn; a'r rhai a ddiangant yma, a gospir yn sicr yn y byd nesaf, adn. 30.

Adn. 19. *Duw a guddia ei anwiredd ef i'w feibion?* Neu a geidw gosp ef anwiredd ef weithiau, mewn ystyr tymhorol, i'w thywallt ar ei feibion: gwel ar Exod. xx. 5. *Efe a dâl iddo*—felly yn ei feibion; *ac efe a'i gwybydd*—trwy y cymer hynny le cyn ei symud ef oddiyma. Neu gall mai ystyr y darn olaf yw, y bydd i *Dduw*, dro arall, ei gopsi ef am ei anwiredd ei hun, yn lle ei gopsi yn ei feibion. Yn y naill achos neu y llall, nid oedd gweinyddiadau cospawl *Duw* bob amser y fath ag a haerai Sophar a'i gyfeillion.

Adn. 20. *Ei lygaid a welant ei ddinystr ef?* A welant ei ddinystr yn dydnes, ac felly caiff gosp ddeublyg o *ofn a theimlad*: efe a deimla *fi* o farwolaethau wrth ofni *uw*. *Ac efe a yf'*

21 Canys pa wynfyd sydd ganddo ef yn ei dŷ ar ei ol, pan hamnerer rhifedi ei fisoedd ef?

22 A ddysg *neb* wybodaeth i *Dduw*? gan ei fod yn barnu y rhai uchel.

23 Y naill sydd yn marw yn ei gyflawn nerth, *ac efe* yn esmwyth ac yn heddychol yn gwbl.

24 Ei fronau ef sydd yn llawn laeth, a'i esgyrn yn iraidd gan fêr.

25 A'r llall sydd yn marw mewn chwerverwder enaid, ac ni fwytaodd mewn hyfrydwch.

26 Hwya orwedant yn nghyd yn

—hyny yw, yn *helaeth*, o ddigofaint yr Hollalluog.

Adn. 21. *Canys pa wynfyd sydd ganddo ef yn ei dŷ ar ei ol?* Pa gysur a gaiff ef oddiwrtwyth ei feddiannau ar ol ei symud i'r bedd? *Pan hamnerer rhifedi ei fisoedd ef*—pan dorer ef ymaith yn hamner y rhifedi hwn o fisoedd a benodid gan *Dduw* i fod yn hyd oes dyn ar y ddaear? gwel ar pen. vii. 1, a xiv. 5, 6.

Adn. 22. *A ddysg *neb* wybodaeth i *Dduw*?* Pa fodd y mae efe i lywodraethu trigolion y byd hwn? Ystyriai Job fod Sophar a'i gyfeillion fel pe buasant am ddysgu gwybodaeth i *Dduw*, wrth haeru nad yw efe an amser i gystuddio y duwiol, na llwyddo yr annuwiol. *Gan ei fod yn barnu y rhai uchel*—yn rheoli ac yn llywodraethu trigolion y nef, y rhai sydd yn llawer uwch na ni mewn gwybodaeth a doethineb. Neu 'yn barnu pethau uchel,' sef pethau rhy uchel i ddyinion nac angylion allu eu deall.

Adn. 23. *Y naill sydd yn marw yn ei gyflawn nerth?* Yn mldau ei ddyddiau, ac yn nghanol ei gryfder a'i lwyddiant; *ac efe yn esmwyth*—yn meddu pob peth angenrheidiol i'w wneyd yn ddedwydd. Yn yr admod hon a'r tair ganlynol dengys *Job* nad yw anghyffartaledd meddiannau, iechyd, nerth, &c., yn penderfynu dim dros nac yn erbyn dynion gyda golwg ar gymeradwyaeth neu anghymeradwyaeth *Duw*, trwy nad yw y pethau hyn yn un prawf o'u driggion na'u dinwiedrwydd. Y mae y naill yn marw yn *sydyn*, a'r llall yn *araf*; ond nis gellir penderfynu eu cyflwr tragwyddol trwy yr un o'r pethau hyn.

Adn. 24. *Ei fronau ef sydd yn llawn laeth?* Ymadrodd diarebol, yn arwyddo hel-aethrwydd a llwyddiant; *a'i esgyrn yn iraidd gan fêr*—fel dyn mewn iechyd, cryfder, ac ienenctid. Yn y cyflwr hwn y mae un yn marw.

Adn. 25. *A'r llall sydd yn marw mewn chwerverwder enaid?* Wedi ei dreulio ymaith gan hir nychdod, dolur, a phoen; *ac ni fwytaodd mewn hyfrydwch*—ni chatodd ddim pleser ar hyd ei fywyd, hyd yn nod wrth lyncu ei fywyd.

Adn. 26. *Uwya orwedant yn nghyd yn y pridd?* Heb ddim gwahaniaeth rhwng yr hwn a fu farw yn nghanol ei wynfyd, a'r hwn

y pridd, a'r pryfed a'u gorchuddia hwynt.

27 Wele, mi a adwaen eich meddyliau, a'r bwriadau yr ydych chwi yn eu dychymygu ar gam yn fy erbyn.

28 Canys dywedwch, Pa le y mae tŷ y pendefig? a pha le y mae lluesty aneddau yr annuwiolion?

29 Oni ofynasoch chwi i'r rhai oedd yn myned heibio ar hyd y ffordd? ac onid adwaenoch chwi eu harwyddion hwy?

30 Mai hyd ddydd dinystr yr arbedir y drygionus; yn nydd cynddaredd y dygir hwynt allan.

31 Pwy a fynega ei ffordd ef yn

ei wyneb ef? a phwy a dâl iddo fel y gwnaeth?

32 Eto efe a ddygir i'r bedd, ac a crys yn y pentwr.

33 Yn y mae priddellau y dyffryn yn felys iddo, a phob dyn a dyn ar ei ol ef, megys yr aeth ancirif o'i flaen ef.

34 Pa fodd gan hyny y cysurwch fi âg oferedd, gan fod camwedd yn eich atebion chwi?

PENNOD XXII.

YNA Eliphaz y Temaniad a atebodd ac a ddywedodd,

2 A wna gŵr lesâd i Dduw, fel y gwna y synwrol lesâd iddo ei hun?

a fu farw yn nghanol ei wae; a'r pryfed a'u gorchuddia hwynt—y naill yr un ffunud a'r llall. Felly nis gellir barnu dim am eu cyflwr tragwyddol hwynt oddiwrth eu bywyd, eu marwolaeth, na'u rhan yn y bedd.

Adn. 27. *Wele, mi a adwaen eich meddyliau*] Nen y camgasgliadau a dynwch chwi oddiwrth fy nghystudd i, sef y rhaid fy mod yn rhagrithiwr annuwiol, gan fy mod yn gorffod dyoddef y fath adfyd.

Adn. 28. *Canys dywedwch*] I'r dyben i brofi eich pwnc; *Pa le y mae tŷ y pendefig?*—sef y pendefig annuwiol, fel y mae yn eglur oddiwrth ddiwedd yr adnôd. Fel pe dywedasant, Onid yw yn amlwg fod mellidith Duw wedi disgyn arno ef a'i deulu? ac onid yw hyny yn brawf o'i annuwioldeb ef?

Adn. 29. *Oni ofynasoch chwi i'r rhai oedd yn myned heibio*] I ymdeithwyr ag oeddynt yn tramwyo o le i le, ac felly a gaent fantais i wybod am gyflwr pethau yn mhob gwlad? *ac onid adwaenoch chwi eu harwyddion hwy*—sef eu hatebion i'ch gofyniadau? Y meddwl, yw, y gallai ymdeithwyr felly hysbysu iddynt fod drygau fel hyn yn dygwedd yn fynych i ddynion da, tra y mae yr annuwiolion yn cael eu harbed rhagddynt hyd y byd nesaf.

Adn. 30. *Mai hyd ddydd dinystr yr arbedir y drygionus*] Mai eu harbed i'w dinystrio yr ydys; ac felly nid yw eu harbediad a'u llwyddiant yma yn nwr prawf o foddlonrwydd Duw ynddynt. *Yn nydd cynddaredd y dygir hwynt allan*—i'w cospi; sef yn nydd angau, neu ddydd y farw.

Adn. 31. *Pwy a fynega ei ffordd ef yn ei wyneb?*] Y mae rhwysg ac awurdod pendefig drygionus yn fynych mor fawr, fel na feiddia neb ddywedyd wrtho am ei ddrygioni, rhag ei ofn; a phwy a dâl iddo fel y gwnaeth—neu a'i cospa ef am yr hyn a wnaeth? Y meddwl yw, fod gŵyr mawrion annuwiol mor bell oddiwrth gael eu cospi bob amser yn y byd hwn, nes y maent yn fynych yn cael eu ffordd eu hunain yn mhob peth, heb neb i'w ceryddu, nes y byddo i Dduw eu cospi yn nydd ei gvnddaredd.

Adn. 32. *Eto*] Heb., 'ac efe a ddygir i'r

bedd—mewn mawredd a rhwysg, fel y mae y gair *jubal* yn arwyddo; *ac a crys yn y pentwr*—hyd fore y farw, pryd y gelwir ef i gyfrif. Y cyfieithiad llythyrenol yw, 'ac a wylia yn y pentwr'; a thybfa rhai fod hyn yn cyfeirio at ryw golofn wedi ei chodi ar ei fedd, i gadw coffadwriaeth barhaus o hono, fel pe buasai yn fyw o hyd; tra y tybia ereill ei fod yn cyfeirio at rywrai a osodasai efe i wyllo ei fedd. Ond y Professor Lee a'i cyfieitha, 'am y bedd y gwylia efe;' hyny yw, yr oedd yn awyddus yn ei fywyd am gael ei gladdu yn wych ac anrhydeddus. Modd bynag, yr ystyr cyffredinol yw, nad oedd dim yn ei farwolaeth na'i gladdiedigaeth yn arddangos fod Duw yn ei ystyried ef yn ddyn drygionus, er ei fod felly mewn gwirionedd.

Adn. 33. *Yn y mae priddellau y dyffryn yn felys iddo*] Ie y caiff efe orphwys yn dawel o ran ei gorff, fel pe buasai efe y dyn duwiolaf ar y ddaear; a phob dyn a dyn ar ei ol ef—dyma ran pawb, y drwg a'r da, yn gystal ag yntau; megys yr aeth ancirif o'i fluen ef—sef pawb o ddechre y byd hyd amser Job, oddieithr Enoc.

Adn. 34. *Pa fodd gan hyny y cysurwch fi âg oferedd*] Sef â geiriau ofer; *gan fod camwedd yn eich atebion chwi*—neu gyfeiliornad yn eich athrawiaeth? Fel pe dywedasai, Pa fodd y gallwch chwi fod yn addas i'm cysuro i yn fy mhroffedigaethau, y rhai y mae eich golygiadau ar ragluniaeth ac vnyddygiadau Duw mor gyfeiliornus? Neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, Paham y ceisiwch chwi fy nghysuro i â gobethion ofer am adferiad iechyd a llwyddiant ar fy edifeirwch, gan fod eich rhesymau mor ddisail, a bod profiad cyffredin yr holl fyd yn dangos fod dynion da yn fynych mewn tralodion mawrion, tra y mae llawer o'r dynion gwaethaf yn llwyddo yn y byd?

PEN. XXII. Adn. 1. *Yna Eliphaz y Temaniad a atebodd*] A ddechreuodd ar ei drydedd araeth, yr hon oedd yr olaf iddo: gwel ar pen. iv. 1, a xv. 1.

Adn. 2. *A wna gŵr lesâd i Dduw*] Trwy ei gyfiawnder a'i dduwioldeb; *fel y gwna y*

3 Ai digrifwch *ydyw* i'r Hollalluog dy fod di yn gyfiawn? neu ai elw dy fod yn perffectio dy ffyrdd?

4 Ai rhag dy ofn y cerydda efe dydi? neu yr â efe gyda thi i farn?

5 Onid *ydyw* dy ddrygioni di yn aml? a'th anwireddau heb derfyn?

6 Canys cymeraist wystl gan dy frawd yn ddiachos; a dyosgaist ddillad y rhai noethion.

7 Ni roddaist ddwfr i'w yfed i'r lluddedig; a thi a atteliaist fara oddiwrth y newynog.

8 Ond y gŵr cadarn, efe bioedd

y ddaear; a'r anrhydeddus a drigai ynddi.

9 Danfonaist ymaith wragedd gweddwon yn waglaw; a breichiau y rhai amddifaid a dorwyd.

10 Am hyny *y mae* maglau o'th amgylch, ac ofn disymwth yn dy ddychrynu di;

11 Neu dywillwch, *rhag* gweled o honot: a llawer o ddyfroedd a'th orchuddiant.

12 Onid *ydyw* Duw yn uchelder y nefoedd? gwel hefyd uchder y ser, mor uchel ydynt.

13 A thi a ddywedi, Pa fodd y

synmyrol lesâd iddo ei hun—wrth fyw yn ol rheolau gwir grefydd? Yr oedd Eliphaz yn cymeryd yn ganiataol fod Job yn *hawlio* ffâfr Duw trwy ei weithredoedd da, ac oddiar yr ystyriaeth y buasai yn gollod i Dduw dy heb-iddo ef; ac am hyny efe a haera nas gall dyn wneyd dim lesâd i Dduw, fel ag i'w osod ef dan rwymedigaeth iddo. Y mae Duw yn Fôd annibynol, heb ganddo ddim i'w ennill oddiwrth gyfiawnder dyn, na dim i'w gollu trwy ei ddrygioni a'i gosp ef: ac er y gall dyn doeth a duwio ei lesâu ei hun, eto nis gall efe lesâu Duw.

Adn. 3. *Ai digrifwch ydyw i'r Hollalluog dy fod di yn gyfiawn?* Fel na fuasai ei hyfrydwch a'i ddedwyddwch ef yn gyfiawn heb hyny? neu ai elw dy fod yn perffectio dy ffyrdd?—a ydyw o ryw elw i Dduw dy fod di yn rhodio yn berffaith, a chaniatau dy fod felly?

Adn. 4. *Ai rhag dy ofn y cerydda efe dydi?* Rhag ofn i ti, os gad efe lonydd i ti, fyned yn gryfach nag ef; neu yr â efe gyda thi i farn—fel pe brddai efe am gael cymhorth o le arall i'w amddiffyn ei hun rhagot?

Adn. 5. *Onid ydyw dy ddrygioni di yn aml?* Fel ag i haeddu dy gerydd presenol? a'th anwireddau heb derfyn—o ran eu rhifedi?

Adn. 6. *Canys cymeraist wystl gan dy frawd?* Gan dy gyd-ddyn neu dy gymydog; yn *ddiachos*—pan nad oedd yn dy ddyled; neu atteliaist ei wystl oddiwrtho ar ol iddo dalu ei ddyled; a *dyosgaist ddillad y rhai noethion*—trwy gymeryd dilledyn olaf y ty-lodion yn wystl ganddynt. Yr oedd hyn oll yn gyhuddiadau disail, yn cael eu casglu yn unig oddiwrth ddyoddefiadau presenol Job, fel pe buasai efe wedi bod yn euog o'r fath dros-eaddau.

Adn. 7. *Ni roddaist ddwfr i'w yfed i'r lluddedig?* Pan yn sychedig ar ei daith mewn gwlad boeth fel Arabia; a thi a atteliaist fara oddiwrth y newynog—pan ar drengu o eisiau wrth dy ddrws.

Adn. 8. *Ond y gŵr cadarn?* Sef gŵr o gyfoeth a dylanwad; *efe bioedd y ddaear*—yr oedd yr holl wlad yn agored o'i flaen ef: *a'r anrhydeddus*—yr hwn y 'derbynid ei wyneb,

fel yr arwydda y wreiddiol; a drigai ynddi—yn y fan y mynai. Y meddwl yw, tra yr oedd Job yn ymlid y tylwad a'r anghenus o'r fro, ei fod yn croesawu ac yn gwneioitho i'r mawrion a'r cyfoethogion, trwy roddi iddynt y peth a fyntent.

Adn. 9. *Danfonaist ymaith wragedd gweddwon?* Y rhai yr oedd eu cyflwr digynorthwy yn galw am dy dosturi; yn *waglaw*—heb roddi dim elusen iddynt yn eu hangen: a *breichiau y rhai amddifaid*—sef y plant amddifaid; a *dorwyd*—cymeraist oddiarynt yr hyn a adawsai eu rhieni ymadawedig tuag at eu cynal. Yr oedd yr holl gyhuddiadau hyn yn ddisail, a chawn fod Job yn ei amddiffyn ei hun yn pen. xxix. 11—16.

Adn. 10. *Am hyny y mae maglau o'th amgylch?* Am y fath annghyfiawnder a chreulondeb yr wyt ti yn awr yn gorfod dyoddef y fath adfyd; ac ofn disymwth yn dy ddychrynu di—rhag i farnedigaethau trymach dy oddiwedd-yd ar ol hyn.

Adn. 11. *Neu dywillwch, rhag gweled o honot?* Ffordd o ddiangfa o'th adfyd; a *llawer o ddyfroedd*—sef gofidiau fwy na mwy, y rhai oeddynt fel lleifairnt dyfroedd yn ei orchuddio ef. Cwynai Job fod 'tywillwch ar ei lwybrau,' pen. xix. 8; a dywed Eliphaz mai mewn ffordd o farn yr oedd hyny arno.

Adn. 12. *Ond ydyw Duw yn uchelder y nefoedd?* Yn y drydedd net, neu y nef uwchaf? *Gwel hefyd uchder y ser*—eu bod hwy yn uchel iawn; ond y mae Duw yn llawer uwch na'r seren uwchaf. Yr oedd hyn oll yn wirionedd amlwg, yn cael ei addef gan bawb; ond dygir y ffaith hon yn mlaen gan Eliphaz fel *cynsail* ag y tybiai ef ei bod yn cael ei gosod i lawr gan Job, i'r dyben i dynu oddiwrthi gasgliadau anfyddaidd.

Adn. 13. *A thi a ddywedi?* Yn ngwyneb yr ystyriaeth o uchder Duw yn y nefoedd; *Pa fodd y gŵyr Duw*—y pethau sydd yn myned yn mlaen ar y ddaear? *A furn efe trwy y cwmwl tywyll*—ag svdd yn cyfryngu rhyng-ddo ef a'r ddaear? Nid oedd Job erioed wedi tynu casgliadau fel hyn, canys efe a wyddai fod Duw yn hollbrenol a hollwybodol, ac felly yn llenwi pob man ar yr un waith, ac yn gwybod pob peth trwy nef, daear, ac uffern.

gwyr Duw? a farn efe trwy y cwmwl tywyll?

14 Y tew gymylau sydd loches iddo, ac ni wel; ac y mae efe yn rhodio ar gylch y nefoedd.

15 A ystyriaist ti yr hen ffordd a sathrodd y gwyr anwir?

16 Y rhai a dorwyd pan nid oedd amser; a fon a dywalltwyd ar eu sylfaen hwy.

17 Hwya a ddywedasant wrth Dduw, Cilia oddiwrthym: a pha

beth a wna yr Hollalluog iddynt hwy?

18 Eto efe a lanwasai eu tai hwy o ddaioni: ond pell yw cyngor yr annuwiolion oddiwrthyf fi.

19 Y rhai cyfiawn a welant, ac a lawenychant: a'r diniwed a'u gwatwar hwynt.

20 Gan na thored ymaith ein sylwedd ni, eithr y tân a ysodd eu gweddill hwy.

21 Ymarfer, *atolwg*, âg ef, a bydd

Camgasgliad oedd hwn wedi ei dynu yn meddwl Eliphaz ei hun, yr hwn y tybiai ef y rhaid fod Job yn ei ddal, gan ei fod yn dal y cynseiliau. Peth cyffredin iawn yw hyn yn mysg dadlenwyr mewn duwinyddiaeth a llywod-ddysg yn y dyddiau presenol. Pan fyddo gwirionedd addeddig yn cael ei osod i lawr fel cynsail gan un blaid, tybia y blaid arall ei fod yn arwain i ryw olygiad neu gyfeiliornad penodol, ac am hyn priodola y cyfeiliornad hwnw i'w wrthwynebydd, fel pe buasai efe yn ei ddal; pan, mewn gwirionedd, mai anwybod-aeth yr ail blaid am ansoddau neu ddeddfau y cynseiliau a barodd iddo ef wahaniaethu oddiwrth ei frawd, neu dadog i iddo gyfeiliornadan. Yr oedd Job yn gwybod fod Duw yn uchelder y nefoedd; ond nid oedd efe, o herwydd hyny, yn casglu nad oedd efe hefyd yn iselder y ddaear ar yr un pryd: buasai hyny yn gasgliad tŷg gyda golwg ar ddyn neu angel meidrol, ond nid oedd felly gyda golwg ar y Duw anfeidrol a hollbresenol.

Adn. 14. *Y tew gymylau sydd loches iddo*] Meddi di; *ac ni wel*—yr hyn a wneir ar y ddaear; *ac y mae efe yn rhodio ar gylch y nefoedd*—gan ofalu yn unig am y pethau sydd yno. Yr oedd y dyb hon yn cael ei chofioidd gan rai o'r henafiaid gynt, fel gan yr anfyddwyr yn y dyddiau hyn; a phriodola Eliphaz, yn y niodd mwyaf anhŷg, y fath gyfeiliornad i Job.

Adn. 15. *A ystyriaist ti yr hen ffordd*] O ran y diwedd i'r hwn yr oedd yn arwain? neu a 'ddylynaist' ti hi, gan gerdded ar hyd-ddi? *A sathrodd y gwyr anwir*—neu ar hyd yr hon y rhodiai y cynddylfaiad.

Adn. 16. *Y rhai a dorwyd pan nid oedd amser*] Sef cyn eu hanser, neu yn ddisymwth. *Afon a dywalltwyd ar eu sylfaen hwy*—trwy i fenestri y nefoedd gael eu hagar, fel ag i wlawio neu dywallt dylif o ddyfroedd ar y ddaear ddeugain niwrnod a deugain nos: gwel ar Gen. vii. 11, 12.

Adn. 17. *Hwya ddywedasant wrth Dduw*] Yn en holl ymddygiadau blaenorol i'r dylif; *Cilia oddiwrthym*—heb ymrson â ni trwy dy Ysbryd, na phregethu i ni trwy Noa: gwel ar Gen. vi. 3, &c. *A pha beth a wna yr Hollalluog iddynt hwy*—mewn ffordd o dda neu ddrwg? neu 'I NI,' fel y mae gan y LXX, y *Syriaeg*, a'r *Arabeg*. Y mae Eliphaz yma yn ailadrodd geiriau Job, pen. xxi. 14, 15, ond i ddyben tra gwahanol. Adroddodd Job hwynt

i ddangos fod rhai dynion yn llwyddo, er maint eu hannuwioldeb; ond y mae Eliphaz yn eu hadrodd, i ddangos iddynt gael eu tori ymaith am eu drygioni.

Adn. 18. *Eto efe a lanwasai eu tai hwy o ddaioni*] Efe a'u llwyddasai hwynt cyn iddo eu tori ymaith yn ei lid. *Onid pell yw cyngor yr annuwiolion oddiwrthyf fi*—yr oedd Job wedi dywedyd y geiriau hyn am yr annuwiolion, pen. xxi. 16; ac yma y mae Eliphaz yn eu hailadrodd mewn gwawd, gan restru Job yn ddiamau yn mhlith yr annuwiolion hyny, a chian feddwl y gallai ef ddywedyd y cyfryw eiriau ar well sail. Efe a olygai fod Job yn *pleidio* yr annuwiolion wrth ddywedyd eu bod yn llwyddo; tra yr oedd ef ei hun yn eu *herbyn* hwynt, wrth ddangos eu dilynstr.

Adn. 19. *Y rhai cyfiawn a welant*] Gosp y rhai annuwiol; *ac a lawenychant*—nid am eu bod hwy wedi gwneuthur drwg, ond am fod y drwg hwnw, trwy eu cosp hwy, yn debyg o gael ei attal: *a'r diniwed a'u gwatwar hwynt*—yn yr ystyr ag y dywedyd y bydd i Dduw eu gwawdio; gwel ar Ddar. i. 26. Ymddengys fod Eliphaz yn crybwyll hyn oll i'w gyfiawnhau ei hun a'i gyfeillion am ymddwyn mor watwarlyd tuag at Job, yr hwn a ystyrrent hwy yn ddyn annuwiol yn cael ei gopsi.

Adn. 20. *Gan na thored ymaith ein sylwedd ni*] Neu na ddyfethwyd yr oll o ddyngolrwy'n ninystr y rhai annuwiol. *Eithr y tân a ysodd eu gweddill hwy*—sef rhyw farn megys tân. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at ddinystr Sodoma a Gomorra, gan feddwl fod hyny wedi dygwedd cyn dyddiau Eliphaz; a thybia *Dodd* ac ereill mai cyfeirio y mae efe at ddiwedd y byd, pryd yr ysa tân weddill holl annuwiolion y ddaear. Ond y mae *Noyes* yn cyfieithu hon mewn cysylltiad â'r adnod haenorol, fel hyn: 'A'r diniwed a'u gwatwar hwynt, gan ddywedyd, Yn wir, ein gwrthwynebw'r ddyfethwyd; a thân a ysodd ei helacthwydd ef.' Y mae *Rosenmuller* yn pleidio y darlenniad hwn, 'ac ymddengys i mi ei fod yr iawn ystyr.'—BARNES.

Adn. 21. *Ymarfer, atolwg, âg ef*] Sef â Duw, trwy fyfod yn ei gyfraith, gweddio arno, rhodio yn ei ffyrdd, a chyfeillachu âg ef; *a bydd heddygchlon*—âg ef, trwy ddyoddef ei ewyllys, ymstwg dan ei alluog law, yn lle grwgach yn erbyn ei driniaethan. *O hyn y daw i ti ddaioni*—i'w fwynhau genyt yn y

heddychlon: o hyn y daw i ti ddaloni.

22 Cymer y gyfraith, atolwg, o'i enau ef, a gosod ei eiriau ef yn dy galon.

23 Os dychweli at yr Hollalluog, ti a adeiledir, symudi anwiredd yn mhell oddiwrth dy luesttai.

24 Rhoddi aur i gadw fel pridd, ac *aur Ophir* fel cerig yr afonydd.

25 A'r Hollalluog fydd yn amddiffyn i ti, a thi a gei amlra o arian.

26 Canys yna yr ymhoffi yn yr Hollalluog, ac a ddyrcheffi dy wyneb at Dduw.

27 Ti a weddïi arno ef, ac efe a'th

wrendy; a thi a deli dy addunedau.

28 *Pan* ragluniecch di beth, efe a sicrheir i ti; a'r goleuni a lewyrcha ar dy ffyrdd.

29 *Pan* ostynger *hwynt*, yna y dywedi, *Y mae* goruchafiaeth; ac efe a achub y gostyngedig *ei olwg*.

30 Efe a wareda ynys y diniwed: a thrwy lendid dy ddwyllaw y gwar-edir hi.

PENNOD XXIII.

A JOB a atebodd ac a ddywedodd, 2 *Y mae* fy ymadrodd heddyw yn chwerv: fy nialedd sydd drymach na'm huchenaid.

byd hwn, fel ei darlunir yn yr adnodau dylunol.

Adn. 22. *Cymer y gyfraith, atolwg, o'i enau ef*] Nid y gyfraith fel ei traddodwyd ar Sinai a feddyllir, am nad oedd lônno wedi ei rhoddi eto; eithr y gorchymynion dwyfel fel yr hysbyswyd hwynt o oes i oes i'r patieirech, neu gyfraith Noa: *a gosod ei eiriau ef yn dy galon*—i'w cofio, eu caru, ac ufyddhau iddynt, yr hyn ni wnaethai Job eto, fel y tybiai Eliphaz yn ddisaill.

Adn. 23. *Os dychweli at yr Hollalluog*] Mewn adeiferwch, ffydd, a chywirdeb calon; *ti a adeiledir*—a adferir eilwaith i lwyddiant, cysur, ac epiled: *symudi anwiredd*—sef y gosod am dy anwiredd; neu, fel y mae rhai yn ei ddarllen, 'os symudi anwiredd;' hyn yw, os bwri ymaith bob anwiredd o'th bebyll, bendithir di fel yr adroddir isod.

Adn. 24. *Rhoddi aur i gadw fel pridd*] Bydd aur genyt mor helaeth a phridd; neu, ni roddi dy serch arno mwy nag ar bridd, trwy y bydd yr Hollalluog ei hua yn llenwi dy holl ddymuniadau. *Ac aur Ophir fel cerig yr afonydd*—o ran amlra, neu ddifaterwch am dano. Sonir am Ophir yn fynyeh fel gwlad yr aur: gwel ar I Bren. ix. 28, a x. 11, a xxii. 48; 1 Cron. xxix. 4; 2 Cron. viii. 18, a ix. 10.

Adn. 25. *A'r Hollalluog fydd yn amddiffyn i ti*] Rhag rhuthriadau dy gymydogion yspeilgar. Neu, 'a fydd yn aur i ti,' fel y mae ar ymyl y ddalen, ac fel y cyfieithir y gair yn adn. 24. *Y mae* plant y byd hwn yn gwneyd *aur* yn dduw iddynt, a'r saint yn gwneyd *Duw* yn aur iddynt; a'r rhai a gyfoethogir a'i ras ef, a gânt ddigonedd o'r aur goraf, a hwnw wedi ei drysori yn y man goraf. *A thi a gei amlra o arian*—ddigon ar gyfer dy holl angenrheidiau.

Adn. 26. *Canys yna yr ymhoffi yn yr Hollalluog*] Fel dy drysor penaf; *ac a ddyrcheffi dy wyneb at Dduw*—yn hyderus a siroli.

Adn. 27. *Ti a weddïi arno ef*] Heb., 'a weddïi yn daer a dylal;' *ac efe a'th wrendy*—neu a'th etyb yn brydlon: *a thi a deli dy addunedau*—a roddi iddo ef aberth moliant a diolch, fel yr adlewaist, ac yntau a'i derbyn yn gymeradwy.

Adn. 28. *Pan ragluniecch di beth*] *Pan* y ffurfi ryw fwriad neu gynllun; *efe a sicrheir i ti*—galluogir di i'w ddwyn i ben yn ddi-rwystr: *a'r goleuni a lewyrcha ar dy ffyrdd*—dyry Duw i ti lewyrch ei Ysbyd i'th gyfarwyddo, a'th gysuro, a'th lwyddo yn dy holl gynlluniau.

Adn. 29. *Pan ostynger hwynt*] Sef yr anuwiolion, gan geryddon Duw; neu, trwy nad yw y gair *hwynt* yn y wreiddiol, 'pan ostynger di,' gan ryw ymweliad a farno Duw yn angenrheidiol er dy les; *Yna y dywedi, Y mae goruchafiaeth*—ti a gai oruchafiaeth, ac a fyddi yn 'fwy na chonewerwr,' Rhuf. viii. 37; neu, yn ol y golygiad blaenaf, ti a alluogir i'w llesâu hwynt trwy dy weddian a'th gynghorion: *ac efe*—sef Duw, trwy dy weddian di, *a achub y gostyngedig ei olwg*—oddiwrth ei holl drallodion presenol a thragwyddol.

Adn. 30. *Efe a wareda ynys y diniwed*] Tybia *Good* fod y gair *ai* yma yn arwyddo 'ly y diniwed,' ac nid ei *ynys*; a thybia *Clarke* y gellir ei gyfieithu, 'efe a wareda bob un diniwed.' Ond gan fod y gair, yn ei ystyr naturiol, yn meddwl ynys neu wlad arforawl, gall mai yr ystyr yw, Efe a wareda nid yn unig y diniwed ei hun, ond hefyd yr holl *ynys* neu y wlad lle y byddo efe yn cartrefu. *A thrwy lendid dy ddwyllaw*—dy fywyd santaidd a'th weddian taerion, *y gwaredir hi*—canys 'llawer a ddichon taer-weddi y cyfiawn,' Iago v. 15, 16. Fel hyn gwaredwyd Eliphaz a'i ddau gyfaill trwy weddian Job, pen. xlii. 7, 8.

PEN. XXIII. Adn. 1. *A Job a atebodd*] Mewn amddiffyniad iddo ei hun yn ngwyneb trydedd araeth Eliphaz.

Adn. 2. *Y mae* fy ymadrodd heddyw yn chwerv] Trwy nad yw y cwbl a ddywedwch yn gwneyd diin ond chwaneu fy ngofid: *fy nialedd sydd drymach na'm huchenaid*—ond nid yw fy uchenaid yn gymaint a'm gofid; neu, nid wyf yn cwynfan yn gyfatebol i faint fy mhoen a'm tralod. Ond y mae *Good* yn cyfieithu y darn cyntaf fel hyn: 'A ydyw fy achwyniad fyth yn wrthryfel?' Fel pe dywedasai Job, A ydych chiwi yn ystyried fy nghwynfaniadau i uwelben fy nyoddefiadau

3 O na wyddwn pa le y cawn ef!
fel y deunwn at ei eisteddfa ef!

4 Trefnwn fy mater ger ei fron ef,
a llawnw fy ngenau â rhesymau.

5 Mywnw wybod â pha eiriau y'm
hatebai; a deall pa beth a ddywed-
ai efe wrthyf.

6 A ddadleu efe i'm herbyn â
helaethrwydd ei gadernid? Na
wna; ond efea osodai nerth ynof.

7 Yno yr uniawn a ymresymai âg
ef: felly mi a ddiangwn byth gan
fy marnwr.

8 Wele, yn mlaen yr âf, ond nid

ydwy efe yno; yn ol hefyd, ond ni
fedraf ei ganfod ef:

9 Ar y llaw aswy, lle y mae efe
yn gweithio, ond ni fedraf ei weled
ef: ar y llaw ddeau y mae yn ym-
guddio, fel na chaf ei weled:

10 Ond efe a edwyn fy ffordd i:
wedi iddo fy mhrofi, myfi a ddeuaf
allan fel aur.

11 Fy nhroed a ddylynodd ei
gerddediad ef: cedwais ei ffordd ef,
ac ni wýrais.

12 Nid ydwyf chwaith yn cilio
oddiwrth orchymyn ei wefusau ef:

digwffelyb megys gwrthryfel yn erbyn Duw?

Adn. 3. *O na wyddwn pa le y cawn ef?* Yr oedd Eliphaz wedi cynghori Job i 'ymarfer â Duw,' pen. xxiii. 21; ac yma y mae yntau yn biraethu am wybod y fan lle yr oedd Duw i'w gael. *Fely deunwn at ei eisteddfa ef*—at ei orsedd, i ddadlu fy achos ger ei fron ef.

Adn. 4. *Trefnwn fy mater ger ei fron ef*] Gosodwn fy holl achos yn eglur o'i flaen, fel y gwna dadlennwr medrus mewn llys barnol; a llawnw fy ngenau â rhesymau—i brofi fy uniondeb fy hun, ac i wrthbrofi eich cyhuddiadau disail chwithau.

Adn. 5. *Mywnw wybod â pha eiriau y'm hatebai*] Beth fyddai ei ddeddfyd ef yn fy achos; a deall pa beth a ddywedai efe wrthyf—pa un ai fy nghollfarnu a wna'i efe, ynte i'w rhyddhau.

Adn. 6. *A ddadleu efe i'm herbyn â helaethrwydd ei gadernid?* A ddefnyddia efe ei hollalluogrwydd i'm dychrynu a'm llethu, neu i orchfygu fy rhesymau trwy rym, fel y gwna dynion y rhai ni allant eu hateb yn ddeg? *Na wna*—ni chmyer ef fantais ar fy ngwendid i'm condemnio yn anngyfiawn, am ei fod yn gryfach na mi; *ond efe a osodai nerth ynof*—yn lle defnyddio ei nerth yn fy erbyn, efe a'i defnyddiai o fy mhlaid: gosodai nerth ynof i ddadlu drosaf fy hun mewn gweddi, ac i orchfygu (fel Jacob wedi hyny) gyda Duw; i.e., efe a gymedrolai ofynion manwl ei gyfiawnder, heb 'graffu ar anwiredd,' er mwyn dangos gweinyddiadau grasol ei drugaredd.

Adn. 7. *Yno yr uniawn*] Felly yr ystyriai Job ei hun o ran ei egwyddor a'i fwiadau, er nad o ran perffheithrwydd dihalog ei natur: gwel ar pen. i. 1, a ix. 20, 21. *A ymresymai âg ef*—cawn ryddid ganddo i ddadlu fy uniondeb yn y pethau ag yr ydych chiwi yn fy nghondemnio am danynt. *Felly mi a ddiangwn byth gan fy marnwr*—Saes., 'rhag fy marnwr,' sef rhag y neb a fyndai ei gondemnio ef fel y gwnaethai Eliphaz. Y mae y gair *lanetsach*, a gyfieithir yma *buth*, yn arwyddo buddugoliaeth hefyd; ac felly ei gyfieithir gan Good: 'Mi a ddiangwn yn fuddugol rhag fy nghondemniad.'

Adn. 8. *Wele, yn mlaen yr âf*] *Kedem*, 'tua'r dwyrain; ond nid ydwyf efe yno'—ni allaf gyfarfod âg ef, fel ag i drefnu fy mater ger ei fron: *yn ol hefyd*—*achor*, 'tua'r gor-

llewin; ond ni fedraf ei ganfod ef—yn dyfod allan i wrando a barnu i'w achos.

Adn. 9. *Ar y llaw aswy*] *Semol*, 'tua'r gogledd; lle y mae efe yn gweithio—lle y mae y trigolion luosocaf, y rhai a gynelir ac a lywodraethir ganddo; neu, lle y mae yn dangos ei allu rhyfeddol yn y golcuffer, neu yr *aurora borealis*. Yr oedd rhai o'r hen genhedloedd yn ystyried y parthau gogleddol fel trigle neillduol y duwian, a gall fod Job yn cyfeirio at y dyb hono. *Ond ni fedraf ei weled ef*—er ei fod yno, ac yn gweithio yno hefyd. *Ar y llaw ddeau—yanin*, 'tua'r deau.' Yr oedd traddodiad gan yr Iuddewon fod Adda wedi ei greu â'i wyneb tua'r dwyrain, fel y gallai wel-ed yr haul yn codi; ac felly yr oedd y parthau deheuol yn gorwedd ar ei law ddeau ef: gwel ar pen. xviii. 20. *Y mae yn ymguilio*—cyfeiria hyn ond odid at y ffaith nas gellid gweled parth deheuol y nwytre o Idumea, lle y meddylia rhai fod Job yn preswlyho, trwy ei fod yno yn is na'r llywel neu y terfnyglych; (gwel ar pen. ix. 9;) neu ynte cyfeiria at dyb gyffredin y dyddiau hyny, fod parthau deheuol y ddaer yn rhy boeth i ddynion allu byw ynddynt, a'u bod trwy hyny heb eu poblogi. *Fel na chaf ei weled*—mewn un ran o bedwar chwarter y byd. Gwyddai Job fod Duw, fel Bôd holl-bresenol, yn llenwi pob man; ond ni' oedd ef yn gallu cael gafael ynddo mewn unrhyw fan fel Barwr i wrando a phenderfynu ei achos ef.

Adn. 10. *Ond efe a edwyn fy ffordd i*] Er nas gallaf fi ei weled ef, y mae efe yn fy ngweled i, ac yn adnabod ac yn cymeradwyo cywirdeb fy egwyddor, gan beri i'r cwbl gydweithio er fy lies. *Wedi iddo fy mhrofi*—yn ffwrcaisiau poethion adfy, *myfi a ddeuaf allan fel aur*—yn fwy pur a dysglaer, heb ddim o'u sothach yn nglŷn â mi. Efe a gyfeiria ond odid at ei gyflwr mewn byd arall, ac nid at ei adferiad yn y byd hwn.

Adn. 11. *Fy nhroed a ddylynodd ei gerddediad ef*] *Sef* ffyrdd crefydd a chyfiawnder, y rhai a drefnodd efe i'w blant eu rhodio; *cedwais ei ffordd ef*—yn gywir, heb wýro ar y ddeau na'r aswy.

Adn. 12. *Nid ydwyf chwaith yn cilio oddiwrth orchymyn ei wefusau ef*] Yr hwn a draethodd efe i Noa, neu i rai o'r patricieirch ereill: gwel ar pen. xxiii. 22. *Hoffais eiriau ei enau ef*—nid yn unig yr wyf yn afyddhau

hoffais eiriau ei enau ef yn fwy na'm hymborth angenrheidiol.

13 Ond *y mae* efe yn un, a phwy a'i try ef? a'r *hyn* y mae ei enaid ef yn ei chwennychu, efe a'i gwna,

14 Canys efe a gyflawna yr *hyn* a osodwyd i mi: ac *y mae* ganddo lawer o'r fath bethau.

15 Am hyny y dychrynais rhag ei ofn ef: ystyriais, ac ofnais ef.

16 Canys Duw a feddalhaodd fy nghalon, a'r Hollalluog a'm cythryblodd:

17 O herwydd na thorwyd fi ymaith o flaen y tywyllwch, ac na

iddynt fel dyledswydd, ond yr wyf yn hoffi gwneud hyny fel brant; *yn fwy na'm hymborth angenrheidiol*—yr hwn sydd yn angenrheidiol i gynnal bywyd. Ond trwy nad yw y gair *ymborth* yn y wreiddiol, myn rhai gyfieithu y darn olaf, 'Hoffais eiriau ei enau ef yn fwy na'm *ffordd* fy hun.' 'Yn ol yr hyn a *ragnodwyd* i mi, y cedwais eiriau ei enau ef.'—CHAPPELOW. 'Trysorais eiriau ei enau ef yn fy *mynwes*.'—GOOD.

Adn. 13. *Ond y mae efe yn un*] Sef yn un digyfnawid yn ei fwradau tragwyddol; a *phwy a'i try ef*—oddiwrth gario allan ei fwradau ei hun? neu pwy a'i gorfoda ef trwy drais i'w gadael heb eu cyflawni? *A'r hyn y mae ei enaid ef yn ei chwennychu*—neu yn ei farau yn angenrheidiol er dwyn yn mlaen ei ogoniant ei hun a lles ei greaduriaid; *efe a'i gwna*—er gwaethaf dynion a chythreuliaid. Nid ydym i gaslu oddiyma fod pob dyn, o ran ei gyflwr ysbrydol, y peth y mae Duw yn *chwennychu* iddo fod; canys y mae efe yn *'ewylllysio* fod pob dyn yn *gadwedig*, a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd: gwel ar 1 Tim. ii. 4, a Rhuf. ix. 19: eithr cyfeirio y mae at amgylchiadau yn y rhai nad yw dyn yn gyfrifol, neu lle na ddysgwylir iddo ef fod yn gydwethlredydd.

Adn. 14. *Canys efe a gyflawna yr hyn a osodwyd i mi*] Gwyddai Job fod Duw wedi bwriadu ei gystuddio of fel hyn i ryw ddybenion dirgeledig a daionus, ac y byddai iddo gyflawni ei fwradau hyny yn ddiifeith; *ac y mae ganddo lawer o'r fath bethau*—efe a ofnai fod ganddo fwy o'r fath gystuddiau a dyoddefiadau wedi eu bwriadu iddo yn ei feddwl tragwyddol ei hun.

Adn. 15. *Am hyny y dychrynais rhag ei ofn ef*] Rhag ofn y byddai iddo chwangu fy nyoddefiadau; *ystyriais*—ei allu anfeidrol i gyflawni ei fwradau, a'r annhosibilyrwydd o'i droi ef trwy orfodaeth oddiwrthynt; *ac ofnais ef*—wrth ystyried hyny.

Adn. 16. *Canys Duw a feddalhaodd fy nghalon*] A'm llwfrhaodd, fel nad oes gwroldeb na nerth yno; *a'r Hollalluog a'm cythryblodd*—wrth beri i mi feddwl am ei hollalluogrwydd ef i gyflawni ei fwradau.

Adn. 17. *O herwydd na thorwyd fi ymaith*]

chuddiodd efe y tywyllwch o'm gwydd.

PENNOD XXIV.

PAHAM, gan na chuddiwyd yr amseroedd rhag yr Hollalluog, na welai y rhai sydd yn ei adnabod ef, ei ddyddiau ef?

2 Y mae *rhai* yn symudo terfynau; yn ysglyfaethu defaid, ac yn ymborithi *arnynt*.

3 Y maent yn gyru asynod yr amddifaid ymaith: maent yn cymeryd *ŷch* y wraig weddw ar wylt.

Trwy farwolaeth; o *flaen y tywyllwch*—cyn i'r trallodion hyn ddyfod i'm cyfarfod, pryd yr oeddwn yn nghanol fy llwyddiant, ac yn mwyngau gwenau ei gariad; *ac na chuddiodd efe y tywyllwch o'm gwydd*—trwy fy nghadw rhag y trallodion hyn: hyny yw, O na chwawn *farw* cyn i'm hadfyd fy nal, neu *fyw* yn rhydd oddiwrtho! Ond tybia rhai mai tywyllwch y *bedd* a feddylir yn niwedd yr adnod, a bod Job yn cwyno o herwydd fod hwn wedi ei guddio o'i wydd, trwy nad oedd ef yn cael marw o'i gystudd presenol.

PEN. XXIV. Adn. 1. *Paham, gan na chuddiwyd yr amseroedd oddiwrth yr Hollalluog*] Gan fod yr amseroedd priodol i gosi pechaduriaid yn hysbys iddo ef; *na welai y rhai sydd yn ei adnabod ef*—sef y duwion, i'r rhai yr arfero efe ddatguddio ei gyfrinach; *ei ddyddiau ef*—y rhai a benododd efe i gosi pechaduriaid? Mr. Good a'i cyfieitha: 'Paham na byddai dyddiau barn yn cael eu cadw gan yr Hollalluog, fel y gallo ei droseddwr ef weled eu cyfnodau?' Yr oedd Job o hyd yn addef, fel rheol gyffredin, fod y cyfiawnon yn cael eu gwobrwyo, a'r annuwiolion eu cospi, yn fynych yn y bywyd hwn; ond efe a fynai fod eithriadau lawer i'r rheol hon, pen. xxi. 7—13, nes peri i'r cyfyngiad dwyfol fod yn ddirgelwch anamgyffredadwy, pen. xxxiii. 8—12; ac am hyny efe a ofyna, Paham y goddefir i'r cyfiawnon ddyoddef un amser yn nghanol eu cyfiawnder; a phaham na chospir y rhai drygionus *bob* amser yn y bywyd hwn, fel y byddo iddynt ofni?

Adn. 2. *Y mae rhai yn symudo terfynau*] Sef y meini neu y colofnau a osodwyd fel terfyn tiroedd, cyn i gloddiau gael eu gwenthur; hyny yw, yn eu symud yn mhellach oddiwrthynt, i'r dyben i helaethu eu meddiannau eu hunain, a chyfyngu eiddo eu cymydogion: *yn ysglyfaethu defaid*—eu cymydogion i'w gwasanaeth eu hunain. Efe a gyfeiria yma at ormeswyr a lladron, i brofi eu bod yn dianc yn ddigosp, er eu bod yn cael eu gweld gan Dduw.

Adn. 3. *Y maent yn gyru asynod yr amddifaid ymaith*] Y rhai yr oedd eu cyflwr digynorthwy yn galw yn hytrach am eu tosturi

4 Maent yn troi yr anghenog allan o'r ffordd: tylodion y ddaear a ymglydechant.

5 Wele, y maent fel asynod gwylltion yn yr anialwch, yn myned allan i'w gwaith, gan geisio ysglyfaeth yn fore: y diffaethwch sydd yn dwyn iddynt fwyd, ac i'w plant.

6 Medant eu hŷd yn y maes; a gwinnllan yr annuwiol a gasglant.

7 Gwnant i'r tylawd letya yn noth heb ddillad, ac heb wisg mewn oerni.

8 Gwlychant gan lifeiriant y mynyddoedd; ac o eisian diddosrwydd, y cofeidiant graig.

9 Tynant yr amddifad oddiwrth y fron: cymerant wystl gan y tylawd.

a'u trugaredd hwynt; *maent yn cymeryd fych y wraig weddw yn wystl*—yr hwn, wrth weithio ar y maes, oedd yn ennill bywoliaeth iddi.

Adn. 4. *Maent yn troi yr anghenog allan o'r ffordd*] Naill ai o ffordd rhinwedd a chrefydd, neu ynte oddiwrth eu hawliau i gerdded ar hyd y ffyrdd cyffredin; *tylodion y ddaear a ymglydechant*—rhag y fath ormeswyr, y rhai nas gallant eu gwrthsefyll.

Adn. 5. *Wele, y maent fel asynod gwylltion yn yr anialwch*] Yn wancus a chreulon. Tybia *Schultens, Good, Noyes, a Wemyss*, fod hyn yn cyfeirio, nid at y trawsion uchod, ond at y rhai a orthrymid ganddynt, ac a yrid i'r anialwch rhagddynt. Ond y mae yn debycach mai cyfeirio y mae Job yma at ddsbarth arall o ddrwgweithredwyr, sef yr yspeilwyr crwydredig, y rhai a deithiant i bob man am ysglyfaeth. *Yn myned allan i'w gwaith*—yn codi yn fore i yspelio ac ysglyfaethu. *Y diffaethwch sydd yn dwyn iddynt fwyd*—trwy eu bod yno yn yspelio yr ymdeithwyr a'r cymydogion, ac yn cael cynaliaeth trwy hyny iddynt eu hunain a'u teuluoedd; a'r hyn sydd ryfeddach fyth, yr oeddny yn cael eu goddef i gyflawni hyn oll yn ddiogel!

Adn. 6. *Medant eu hŷd yn y maes*] Sef ŷd eu cymydogion; neu, fel y mae y Galdeaeag yn ei ddarlun, 'mewn maes nad yw eiddynt': *a gwinnllan yr annuwiol a gasglant*—neu, fel y mae ar ymyl y ddalen, 'a'r annuwiol a gasglant y winllan'; sef ffirwyth gwinnllan y llafur gonest, yn gystal a chynrych ei faes ef.

Adn. 7. *Gwnant i'r tylawdletya yn noth*] Trwy ei yspelio ef o'r dillad ag oedd ganddo i'w guddio a'i gynhesu.

Adn. 8. *Gwlychant gan lifeiriant y mynyddoedd*] Hyny yw, y mae y tylodion hyny, ar ol cael eu hyspelio o'r dillad a'u pebyll, yn agored i gael eu gwlychu gan y lifeiriant a redai o'r mynyddoedd i'r dyffrynoedd yn y gwledydd hyny, pen. vi. 15—18, a xii. 15; *ac o eisian diddosrwydd*—rhag y gwynt, y gwlaw, a'r lifeiriant; *y cofeidiant graig*—

10 Gwnant iddo fyned yn noeth heb ddillad; a dygant ddyrneidiau *Lloffa* y rhai newynog.

11 *Y rhai sydd yn gwneuthur olew* o fewn eu parwydydd hwynt, ac sydd yn sathru eu casinau gwin, ydynt sychedig.

12 *Y mae gwŷr yn griddfan o'r ddinas*, ac y mae eneidiau y rhai archolledig yn gwaeddi; ac nid yw Duw yn rhoi ffolineb yn eu herbyn.

13 *Y rhai hyny sydd yn mhlith y rhai sydd yn gwrthwnebu goleuni*; nid ydynt yn adnabod ei ffyrdd, nac yn aros yn ei lwybrau.

14 *Gyda'r golenady cyfyd y lleiddiad*, ac y lladd efe y tylawd a'r anghenog; a'r nos y bydd *efe* fel lleidr.

i ymguddio mewn ogof neu agen ynddi.

Adn. 9. *Tynant yr amddifad oddiwrth y fron*] I'w werthu, neu i'w wneyd yn gaethwas iddynt eu hunain: *cymerant wystl gan y tylawd*—sef ei ddillad oddiam dano, neu ei unig anifel, adn. 3. *Cyfeirir yma at ddsbarth arall o ddrwgweithredwyr*, megys maelwyr neu feistriaid tiroedd; a rhyfeddai Job eu bod lwythau yn cael dianc yn ddiogel.

Adn. 10. *Gwnant iddo*] Sef y tylawd uchod, *fyned yn noeth*—trwy ei orfodi i wystlo ei ddillad, neu weithio heb gyflog i brynu dillad; *a dygant ddyrneidiau Lloffa y rhai newynog*—y rhai y buont yn ddiwyd yn eu casglu i dori eu newyn.

Adn. 11. *Y rhai sydd yn gwneuthur olew*] Fel caethweision yn nhai eu meistriaid; *ac sydd yn sathru eu casinau gwin*—i ddarparu gwin i'w meistriaid: *ydynt sychedig*—am na feiddient yfed o'r gwin a wasgent o'r grawn, ac na roddai eu meistriaid ddim arall iddynt i dori eu syched.

Adn. 12. *Y mae gwŷr yn griddfan o'r ddinas*] Yn gystal ag o'r wlad, fel y nodwyd eisioes; *ac y mae eneidiau y rhai archolledig yn gwaeddi*—am ddialedd dwyfol ar eu gormeswyr anghyfiawn ac anhrgarog; *ac nid yw Duw yn rhoi ffolineb yn eu herbyn*—neu yn eu cospi yn y byd hwn am eu ffolineb neu eu drygioni ysgeler.

Adn. 13. *Y rhai hyny sydd yn mhlith y rhai sydd yn gwrthwnebu goleuni*] Sef goleuni y dydd, fel y gwna lladron; neu oleuni rheswm a chlydwybod. 'O herwydd pob un a'r sydd yn gwneuthur drwg, sydd yn casâu y goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef,' Ioan iii. 20. *Nid ydynt yn adnabod ei ffyrdd*—yn chwenych nac yn cymeradwyo ffyrdd goleuni; *nac yn aros yn ei lwybrau*—os dechreuant wneyd rhyw ddaioni, ni pharhant yndo, am fod yn well ganddynt lwybrau tywyllwch neu ddrygioni.

Adn. 14. *Gyda'r goleuad*] Ar wawriad y dydd, *y cyfyd y lleiddiad*—fel y gallo yspil

15 A llygad y godinebwr sydd yn gwylid am y cyfnos, gan ddywedyd. Ni chaiff llygad fy ngwled; ac efe a esyd hŷg ar ei wyneb.

16 Yn y tywyll y maent yn cloddio trwy dai, *y rhai* a nodasant iddynt eu hunain liw dydd: nid adwaenant hwy oleuni.

17 Canys megys cysgod marwolaeth *ydwy* y bore iddynt hwy: dychryn cysgod marwolaeth *yw*, os edwyn neb *hwynt*.

18 Ysgafn *ydwy* ar wyneb y dyfroedd; melliagedig ydyw eu rhandir

hwy ar y ddaear: ni thry efe ei wyneb at ffordd y gwinllanoedd.

19 Sychder a gwres sydd yn cipio dyfroedd eira: *felly* y bedd *y rhai* a bechasant.

20 Y groth a'i gollwng ef dros gof, melys fydd gan y pryf ef; ni chofir ef mwy: ac anwiredd a dorir fel pren.

21 Y mae efe yn dryllio yr anhiantadwy, *yr hon* ni phlanta; ac nid ydyw yn gwneuthur daioni i'r wedd.

22 Ac y mae efe yn tynu y rhai

io yr hwn a fyddo yn cario ei ymborth at ei ddiwrnod gwaith; ac *y lladd efe y tylwad a'r anghenog*—rhag i hwnw, ar ol ei adnabod ef wrth oleuni y bore, ei gyhuddo ef gerbron y swyddogion; *a'r nos y bydd efe fel lleidr*—ni wna oud lladrata yn unig yn y nos, am y gall wneyd hyny yn y tywyllwch heb ei adnabod.

Adn. 15. *A llygad y godinebwr sydd yn gwylid am y cyfnos*] Fel y gallo gyflawni ei fwriad heb i neb ei weled; *ac efe a esyd hŷg ar ei wyneb*—fel y gallo ei ddiogelu ei hun yn well rhag cael ei adnabod.

Adn. 16. *Yn y tywyll y maent yn cloddio trwy dai*] Y rhai a wneid yn y gwledydd hyny o glai, nen o briddfeini heb en llosgi. Efe a gyfeiria yma at ddoesbarth arall o ddrwgweithredwr, sef yspeilwr tai. *Y rhai a nodasant iddynt eu hunain liw dydd*—fel tai llawn o drysorau, a rhai hawdd i gloddio trwyddynt. *Nid adwaenant hwy oleuni*—ni chymradwyant y dydd i gyflawni eu gweithredoedd ysgeler, rhag iddynt gael eu dal.

Adn. 17. *Canys megys cysgod marwolaeth ydwy y bore iddynt hwy*] Os gwawria efe cyn iddynt orphen eu gwaith: *dychryn cysgod marwolaeth yw*—sef dychryn o'r gradd uwchaf, fel dychryn y bedd nen y fagddu; *os edwyn neb hwynt*—wrth eu gwled y ngoleuni y dydd, yr hyn a allai eu harwain dan gosp marwolaeth.

Adn. 18. *Ysgafn ydyw ar wyneb y dyfroedd*] Saes., 'y mae mor gyflym a'r dyfroedd,' yn ei symudiadau yspeigar. Ond y mae ein cyfieithiad ni yn nes i'r Hebraeg; a gall fod yma gyfeiriad at longau mor-ladron, y rhai oeddynt yn ysgafn a buain: gwel ar pen. ix. 26. *Melliagedig ydyw eu rhandir hwy ar y ddaear*—sef eu tai a'u tiroedd lle y maent yn cartrefu; *ni thry efe ei wyneb at ffordd y gwinllanoedd*—i blanu a gwrtheithio gwinllanoedd, fel dyn diwyd a gonest; eithr gad i'w diroedd dyfu yn wyllt, fel pe baent dan fell-dith, gan fyw yn unig ar yspeilio.

Adn. 19. *Sychder a gwres sydd yn cipio dyfroedd eira*] Y mae yr eira yn gyntaf yn toddi ar y mynyddoedd, yna yn rhedeg i lawr yn afonydd i'r gwastadedd crasotheith, lle yn fuan y mae yn cael ei yfed gan y crasdir, neu yn ageru ymaith yn esmwyth a graddol: gwel ar pen. vi. 15—18. *Felly y bedd y rhai a*

bechasant—sef yr yspeilwyr, y godinebwyr, a'r llostruddion uchod; y maent hwythau yn marw ac yn disgyn i'r bedd yn dawel, heb ddim arwyddion o anffoddlonrwydd Duw arnynt.

Adn. 20. *Y groth a'i gollwng ef dros gof*] Hyd yn nod ei fam, ei frodyr, a'i holl gydnabyddion, a'i hanghoiant ef, yn unio fel dyn arall, trwy na fydd un gosp dymhorol wedi disgyn arno i barhan ei goffadwriaeth. *Melys fydd gan y pryf ef*—fel corff pob dyn arall: ni fydd dim yn anghlyffredin yn ei farwolaeth na'i gladdeligaeth ef. *Ni chofir ef mwy*—fel dyn a fyddo wedi dilyn bywyd anfad ac ysgeler. *Ac anwiredd*—sef ei holl yrfa becludurus ef, a'i weithredoedd drygionus; *a dorir fel pren*—a lwyrr anghofir; neu ni fydd dim mwy o son am dano ef nag am bren a dorer ymaith o'r goedwig. Er mai ystyr arall a roddir yn gyffredin i'r ddwy adnod hon, yr wyf fi yn meddwl mai y golygiad uchod sydd yn cytuno oraf â rhediad ymresymiad Job.

Adn. 21. *Y mae efe yn dryllio yr anhiantadwy*] Ar ol son am ei farwolaeth a'i gladdeligaeth ef, y mae Job yma, fel y tybia rhai, yn crybwyll am chwaneig o'i weithredoedd drwg ef yn ei fywyd; ac er hyn oll, gadawyd iddo fyw mewn llwyddiant, a marw heb ddim arwyddion neillduol o anffoddlonrwydd Duw arno. Neu gall mai rhyw ddoesbarth arall o ddrwgweithredwr sydd ganddo mewn golwg yma i brofi yr un athrawiaeth, megys penaeth nen dywysog galluog; canys y mae efe yn dwyn anghreitfian o blith pob gradd o ddrwgweithredwr i brofi ei bwnc yn y bennod hon. *Yr hon ni phlanta*—yr hon ni fedd blant i'w chysuro a'i chynal. Yr oedd bod yn anhiantadwy yn cael ei ystyried yn yr oes patriarchaidd yn ofid mawr; ac yr oedd hwn yn chwaneig at ei gofid hi, trwy edliw iddi ei anhiantadrwydd, a'i gwatwar a'i herlid am hyny, ac felly ei dryllio yn ei themladau a'i chysuron, os nid yn ei meddiannau hefyd. Ond tybia rhai mai 'porthi yr anhiantadwy,' yw meddwl y wreiddiol; tra yr oedd efe yn anhrugarog i'r weddw a'i phlant amddifaid. *Ac nid ydyw yn gwneuthur daioni i'r weddw*—y mae yn gadael iddi bithan ddyoddef newyn, pan y dylai dosturio wrthi, ac estyn elusen iddi.

Adn. 22. *Ac y mae efe yn tynu y rhai*

cedyrn wrth ei nerth : y mae efe yn codi, ac nid oes neb diogel o'i einioes.

23 Er rhoddi iddo fod mewn diogelwch, ar yr hyn y mae ei bwys; eto y mae ei lygaid ef ar eu ffyrdd hwy.

24 Hwyt-hwy a ddyrchafwyd dros ychydig, ond hwy a ddarfuant, ac a ostyngwyd; hwy a ddygpwyd ymaith fel pawb ereill, ac a dorwyd ymaith fel pen twysen.

25 Ac onid ydyw felly yn awr, pwy a'm gwna i yn gelwyddog, ac a esyd fy ymadrodd yn ddyddim?

cedyrn wrth ei nerth] Yn gorthrymu gwŷr mawrion, yn gystal a gwraedd ddamddiffyn: y mae efe yn codi—yn erbyn dynion o bob gradd; ac nid oes neb diogel o'i einioes—yn agos ato. Ac er hyn oll, nid yw efe yn cael ei gospi yn y fuchedd hon.

Adn. 23. *Er rhoddi iddo*] Er rhoddi o'r gormeswr uchod i'r neb y codai efe yn ei erbyn, *fod mewn diogelwch*—ar ryw ammodau; *ar yr hyn y mae ei bwys*—neu ei hdyer am ddiogelwch parhaus; *eto y mae ei lygaid ef ar eu ffyrdd hwy*—i wyllo am gyfle i'w dyfetha dan yr esgus lleiaf. Neu gall mai yr ystyr yw, Eri Dduw ganiatáu i'r gormeswr hwn fod mewn diogelwch a llwyddiant yn ystod ei fywyd, ar yr hyn y mae yn ymbwyso yn holl-ol; eto y mae Duw yn canfod ffyrdd drygionus y cyfryw rai; nid yw yn eu hannghofio; a bydd iddo en cospi oll yn y byd nesaf.

Adn. 24. *Hwyt-hwy*] Sef yr holl ddrwgweithredwyr a nodwyd uchod; a *ddyrchafwyd dros ychydig*—i aurhdedd a llwyddiant, heb gael eu cospi yn y byd hwn yn ol haeriad Eliphaz a'i gyfeillion; *ond hwy a ddarfuant, ac a ostyngwyd*—a fuant feirw ac a gladdwyd, heb i'w farn neillduol ddisgyn arnynt yma. *Hwy a ddygpwyd ymaith fel pawb ereill*—heb un arwydd o anffoddlonrwydd Duw arnynt, mwy na phe buasant y dynion duwiolaf. *Ac a dorwyd ymaith fel pen twysen*—addfed i'r cryman; hyny yw, cawsant farw o farwolaeth naturiol mewn henaint teg, pan yn addfed i'r bedd, ac nid eu tori ymaith trwy farn Duw yn hanner eu dyddiau.

Adn. 25. *Ac onid ydyw felly yn awr?*] Oni wyddoch chi yn gystal a minau mai fel hyn y dygwyrdd yn fynych i'r drwgweithredwyr gwaethaf? *Pwy a'm gwna i yn gelwyddog*—trwy ddangos nad fel y dywedais i y mae pethau yn bdo? *neu a esyd fy ymadrodd yn ddyddim*—trwy brofi mai geiriau gweigion, disail, ac ofer yw y cwbl a ddywedais i uchod? Efe a apelia atynt oll, gan herio Eliphaz a'i gyfeillion i'w wrthbrofi ef os gallant. Rhaid fod Job ballech wedi eu llwyr argyhoeddi hwyt, gallem feddwl, nas gellir barnu cyflwr tragwyddol heb oddiwrt h ymddygiadau rhagluniaethol Duw tuag atynt yn y fuchedd hon;

PENNOD XXV.

YNA Bildad y Suhiad a atebodd
ac a ddywedodd,

2 Arglwyddiaeth ac ofn sydd gydag ef: y mae efe yn gwneuthur heddwch yn ei uchel-fanau.

3 A oes gyfrif o'i lloedd ef? ac ar bwy ni chyfyd ei oleuni?

4 Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw? nen pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?

5 Wele hyd yn nod y lleuad, ac ni lewyrcha hi; a'r ser nid ydynt bur yn ei olwg ef:

ond y gall yr annuwiol lwyddo, a'r duwiol gyfarfod âg adfydau, yn ddiwahaniaeth, yr hyn oedd dadl Job o'r dechre. Cawn Bildad yn y bennod nesaf yn gwneud rhyw fath ar atebiad yn nghylch mawredd Duw, wedi ei gymeryd allan o ddywediadau yr honafiaid; ond nid yw efe yn ceisio gwrthbrofi y fleithiau a nodasai Job, nac yn cyffwrdd â hwy:

PEN. XXV. Adn. 1. *Yna Bildad y Suhiad a atebodd*] A ddechreuodd ar ei drydedd araeth, yr hon oedd yr olaf iddo: gwel ar pen. viii. 1, a xviii. 1.

Adn. 2. *Arglwyddiaeth ac ofn sydd gydag ef*] Y mae gan Dduw hawl i arglwyddiaethu, a gallu i lywodraethu pob peth; a dylai pawb barchu ei fawredd ef, ac ofni ei soriant. *Y mae efe yn gwneuthur heddwch yn ei uchel-fanau*—yn y bydoedd fry; hyny yw, y mae yn cadw heddwch yn mhilith angylion y nef, a threfnu reolaidd yn mhilith y ser a'r planetau. Ateian Bildad oedd dangos fod Duw mor oruchel a galluog, fel mai ynfydrwydd o'r mwyafr oedd i ddyn fel Job gweryla a'i drefniadau ef, neu hōni purdeb yn ei olwg ef.

Adn. 3. *A oes gyfrif o'i lloedd ef?*] A ellir rhoi yr angylion a'r ser, a'r ancirif offernyau ar y ddaear, megys tân, dwfr, gwynt, dynion, bwystfilod, &c., y rhai sydd barod wrth ei zlwad ef i wneyd ei ewyllys? *Ac ar bwy ni chyfyd ei oleuni?*—sef goleuni ei haul ef. Y maddwl ond odid yw, Fel y mae yr haul trwy ei orchymyn ef yn goleuo pob dyn, felly y mae gan Dduw awdnrdod dros bob dyn.

Adn. 4. *Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw?*] Gwel ar pen. ix. 2; *neu pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?*—gwel ar pen. xv. 14. Fel hyn, yn lle cyfarfod â'r fleithiau a ddygesid yn mlaen gan Job, ni allai Bildad wneyd dim ond ailadrodd yr hyn a ddywedais gan ereill o'i flaen ef.

Adn. 5. *Wele hyd yn nod y lleuad*] Er anghraifft; *ac ni lewyrcha hi*—ond y nesaf peth i ddim o'i chydmaru â Duw; a pha faint llai y llewyrcha dyn? *A'r ser nid ydynt bur yn ei olwg ef*—neu mewn cydmhariaeth iddo ef: gwel ar pen. xv. 15.

6 Pa faint llai dyn, yr hwn sydd bryf; a mab dyn, yr hwn sydd abwydyn?

PENNOD XXVI.

A JOB a atebodd ac a ddywedodd, 2 Pwy a gynorthwyaist ti? ai y dinerth? a achubaist ti y braich sydd heb gadernid?

3 Pa fodd y cynghoraist ti yr an-noeth? ac y mynegaist yn helaeth y peth fel y mae?

Adn. 6. *Pa faint llai dyn*] *Enosh*, 'dyn gwael a syrthiedig;' hyny yw, pa faint llai pur, o'i gydmlharu â Daw, yw dyn gwael a thruenns; *yr hwn sydd bryf*—distadl a llygredig yn ymlusgo ar wyneb y ddaear! *A mab dyn*—unrhyw ddyw pa bynag; *yr hwn sydd abwydyn*—neu *gynrhonyg*, fel yr arwydda y wreiddiol, wedi ei fagu mewn llygredigaeth! Rhyfeddwn gan hyny ymstyngiad anfeidrol Daw, wrth iddo gymeryd y fath bryfed gwael a ni i fod mewn cyfammod âg ef, ac yn blant iddo!—Y mae cyuaint ag a ddywedwyd yn y bennod hon yn wirionedd prydfferth, ond nid oes un berthynas rhyngeddo a'r pwnc mewn dadl. Dylasai Bildad naill ai gwrthbrofi fleithiau Job yn y bennod flaenorol, neu ynte addef ar unwaith ei fod ef a'i gyfeillion wedi cael eu gorchfygu ganddo yn ddeg; ond ni wnaeth efe y naill na'r llall. Yn wir gallwn gasglu, nid yn unig oddiwrth annghyfaddasrwydd ei destyn, ond hefyd oddiwrth fyrdra ei araeth, nad oedd ganddo ddim i'w ddywedyd; ac felly, yn lle bod heb ddywedyd dim, efe a adroddodd ychydig o'r hyn a glywsai o'r blaen. Ni ddarfu i *Sophar* gymaint a chynnyg ar ei drydedd araeth; a chafodd Job byth wedi hyn lonydd gan y triwyr yma. Yr ymosodwr nesaf arno yw *Elihu*: gwel ar pen. xxxii. 1, 2.

PEN. XXVI. Adn. 1. *A Job a atebodd*] A wnaeth y sylwadau a ganlyn ar Bildad a'i araeth.

Adn. 2. *Pwy a gynorthwyaist ti*] Trwy dy araeth ddiweddar? *ai y dinerth?*—tybia rhai mai dau gyfaill egwan Bildad a olygri yma wrth y 'dinerth,' ac ereill mai Daw: gwel *Rosenmuller*. Ond y mae yn debycach mai efe ei hun a olygai Job. *A achubaist ti y braich sydd heb gadernid?*—a oes rhywbeth yn yr hyn a ddywedaist ti yn tueddu i ddal i fyny fy mreicliau i?

Adn. 3. *Pa fodd y cynghoraist ti yr an-noeth?*] Gwawdiaith gref, yn arwyddoedd nad oedd ei gynghor ef o ddim gwerth; *ac y mynegaist y peth fel y mae*—sef yr achos mewn dadl rhwng Job a hwythau.

Adn. 4. *Wrth bwy y mynegaist ymadroddion*] Yn nghylich mawredd a phurdeb Daw? Fel pe dywedasai, Os wrthyf fi, nid oedd angen am i ti wneuthur hyny, trwy y gwyddwn am dano ef yn gystal a thithau. Neu, 'oddiwrth bwy y lludrateaist ymadroddion?'—

4 Wrth bwy y mynegaist ymadroddion? ac yspryd pwy a ddaeth allan o honot ti?

5 *Pethau* meirw a lunir odditan y dyfroedd, a'r rhai sydd yn trigo ynddynt hwy.

6 *Y mae* uffern yn noeth ger ei fron ef: ac nid oes dô ar ddys-tryw.

7 *Y mae* efe yn taenu y gogledd ar y gwagle: y mae efe yn crogi y ddaear ar ddyddim.

8 *Y mae* efe yn rhwymo y dyfr-

Good. *Ac ysbryd pwy a ddaeth allan o honot ti?*—efe a gyfeiria ond oddid at y doethion a'r henafiaid, y rhai yr oedd Bildad wedi benthyca eu dywediadau diarebol yn y bennod flaenorol.

Adn. 5. *Pethau meirw a lunir odditan y dyfroedd*] Wrth y 'pethau meirw' hyn y deallia rhai y *cawri* hyn a foddwyd yn y dyflif; ond pa fodd y dywedir i'r rhai hyny gael eu llunio odditan y dyfroedd? Tybia ereill mai y *morfilod* a'r *pysgod* mawrion a olygri; ond paham y gelwir y rhai hyny yn bethau meirw? Wedi yr holl ddychymygion a luniwyd i geisio egluro yr adnod hon, yr wyf fi yn meddwl mai cyfeirio y mae Job at y creigiau, y tywod, a'r holl ddefnyddiau ereill a furliant waelodion y moroedd, neu at y cregin a geir yno; a'r rhai sydd yn trigo ynddynt hwy—yn y dyfroedd neu yn y cregin, sef y pysgod a'r ymlusgiaid o bob math. Y mae Job yma yn dechreu ar ei ddysgrifad ei hun o Dduw, i ddangos y gwyddai yntau am fawredd Daw yn gystal a Bildad a'r henafiaid. Dywedasai Bildad yn y bennod flaenorol fod arglwyddiaeth Daw yn cyraedd i'r nefoedd, ac at luoedd yr wybrenau; fod Daw yn rhageri mewn mawredd a phurdeb ar y lloer a'r ser; a bod dyn, o'i gydmlharu âg ef, megys pryf. Ond dywed Job yma, fod ei lywodraeth ef yn cyraedd i'r ddaear hefyd; i.e. i waelodion y môr; a bod uffern a dystryw yn noeth ger ei fron ef, a than ei awdurdod: mewn gair, fod ei arglwyddiaeth ef yn ynestyn i bob man, a'i fod ef yn llywodraethu ar bob peth.

Adn. 6. *Y mae uffern yn noeth ger ei fron ef*] *Sheol*, 'lle y meirw;' pa un bynag ai y *bedd*, lle eu cyrff; ai *hades*, lle yr eneidiau ymadawedig. *Ac nid oes dô ar ddystryw*—y mae uffern ei hun yn noeth ger ei fron ef, er ei bod mewn trugaredd wedi ei chuddio o'n golwg ni.

Adn. 7. *Y mae* efe yn taenu y gogledd] Wrth y gogledd yma y meddylir ond oddid y nef wybrenol yn y parth gogleddol, neu y ser yno yn troi oddeutu y pegwn neu y seren aglledol, ac yn daenedig fel llen. Ni wyddai trigolion Idumea, lle y tybir fod Job yn cartrefu, ddim am y parth *deheuol* o'r wybren, trwy ei fod islaw eu terfnyglych hwy: gwel ar pen. ix. 9, a xxiii. 9. *Ar y gwagle*—heb ddim i'w cynal ond ei anfeidrol allu ei hun. *Y mae* efe yn crogi y ddaear ar ddyddim—

oedd yn ei gymylau; ac nid ydyw y cwmwl yn hollti danynt hwy.

9 Y mae efe yn attal wyneb ei orseddfaine: y mae efe yn taenu ei gwmwl arni hi.

10 Efe a amgylchodd wyneb y dyfroedd â therfynau, nes dybenu goleuni a thywyllwch.

11 Y mae colofnau y nefoedd yn crynu, ac yn synu wrth ei gerydd ef.

12 Efe a rana y môr â'i nerth; ac a dery falchder â'i ddoethineb.

nid oes dim ond gallu anfeidrol Duw yn cynal y ddaear yn gystal a'r ser.

Adn. 8. *Y mae efe yn rhwymo y dyfroedd*] Y rhai a godir o'r môr; *yn ei gymylau*—megs mewn costrelau, fel na allant ddsigyn yn gawodydd ar y ddaear heb ei ganiatâd ef; *ac nid ydyw y cwmwl yn hollti danynt hwy*—er trymed ydynt, ac er mor wan yw y llestr sydd yn eu dal.

Adn. 9. *Y mae efe yn attal wyneb ei orseddfaine*] Oddiwrtlym ni, rhag i'w dysgleirdeb a'i gogoniant digrëedig ein llethu i farwolaeth: *y mae efe yn taenu ei gwmwl arni hi*—i'w chuddio o'n golwg. Gall fod yr 'orseddfaine' yma yn cynwys y drydedd nef, a pherson ei Brenin hefyd, yr hwn â' wnaeth dywyllwch yn ddirgelfa iddo, Salm xviii. 11. Ond y mae *Patrick* yn deall hyn am waith Duw yn cymwlu gwyneb yr wybren, rhag i belydr yr haul ddeifio y ddaear.

Adn. 10. *Efe a amgylchodd wyneb y dyfroedd â therfynau*] Gall mai cyfeirio y mae Job at y llywel neu y terfyngylch ag oedd yn amgylchu y môr, fel yr oedd y môr, yn ol tyb yr henafiaid, yn amgylchu y ddaear, yr hon a ystyriant hwy fel ynys yn ymgodi o'r môr. *Nes dybenu goleuni a thywyllwch*—fe allai mai yr ystyr yw, 'nes dybenu y goleuni mewn tywyllwch'; gan feddwl ond odid fod yr oll tuhwnt i'r terfyngylch hwnw yn dywyllwch, fel yr oedd pob man tufenn iddo yn oleuni.

Adn. 11. *Y mae colofnau y nefoedd yn crynu*] Sef y mynyddoedd uchel, y rhai y tybiai llawer o'r henafiaid eu bod yn dal i fyny y ffurfafen. *Sonia Virgil* a Hesiod am fynydd yr *Atlas*, yn *Africa*, fel yn cynal y ffurfafen. *Ac yn synu wrth ei gerydd ef*—pan fyddo Duw yn ceryddu trigolion y ddaear trwy ddaeargrynfâu, taranau, a gwynytoedd cryffion. Y mae y meddylddrych yn farddonol a phrydferth iawn.

Adn. 12. *Efe a rana y môr â'i nerth*] Fe allai ei fod yn cyfeirio yma at wahanid y dyfroedd yn amser y cread, Gen. i. 6, &c.; neu at ddsobarthiad y dyfroedd y wahanol foreodd ar ol y dylif; neu at gynhyrriad y môr yn dônau mawrion trwy wynt nerthol; canys ymddengys nad oedd holltiad y môr coch wedi cymeryd lle yn nyddiau Job. Y mae *Luther* yn ei gyfieithu, 'Trwy ei nerth y daw y môr yn ddisymwth yn derfysgtyd'; a'r LXX, 'Trwy ei nerth y gwna efe y môr yn

13 Efe a addurnodd y nefoedd â'i Ysbryd: ei law ef a luniodd y sarff dorchog.

14 Wele dyma ranau ei ffyrdd ef: ond mor fychan ydyw y peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef! ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef?

PENNOD XXVII.

A JOB a barablodd eilwaith, ac a ddywedodd,

dawel. *Ac a dery falchder â'i ddoethineb*—sef balchder neu ymchwydd y môr, trwy ddywedyd wrth y dôn gynddeiriog, 'Hyd yma y deui, ac nid yn uhellach,' pen. xxxviii. 11.

Adn. 13. *Efe a addurnodd y nefoedd*] Trwy osod yno yr haul, y lloer, a'r ser; *â'i Ysbryd*—i'r hwn y priodolir gwaith y cread yn fynych, pen. xxxiii. 4, a Gen. i. 2. *Ei law ef a luniodd y sarff dorchog*—gan feddwl ond odid y cydsder hyny a elwir y *Ddraig*; canys gwel-som eisioes fod rhaniad y ser yn wahanol ddsobeirth, neu arwydd-gylchoedd, yn adnabyddus yn amser Job, pen. ix. 9. Ond tybia rhai mai y *fellten* a olygir yma wrth y 'sarff dorchog'; ereill, mai *Satan*, yr hwn a demtioedd Efa; ereill, mai y *lesiathan*, ac a ereill, mai rhyw *ymhusgiad* mawr yn y môr neu ar y tir.

Adn. 14 *Wele, dyma ranau ei ffyrdd ef*] Neu rai yn unig o'i weithredoedd rhyfedd; canys ofer fyddai i mi geisio mynegu holl rhyfeddodau y Creawdwr nid yw yr hyn a nodais ddim ond rhyw fraslun amherffaith o'i dragwyddol allu ef a'i Ddudod. *Ond mor fychan ydyw y peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef*—mewn cydmariaeth i'r hyn ydyw ei yn ei allu, ei ddoethineb, a'i weithredoedd aneirif! Y mae yma wrthgyferbyniad prydfertth: fel pe dywedasai, Nid yw yr hyn ag yr ydym ni yn ei wybod neu yn ei glywed am ei weithredoedd ef, ddim ond fel rhyw *sibrwd* dystaw, (*shemets*), o'i gydmharu â'r *taranau* cryfiou (*raam*) a grybwyllir yn y frawddeg nesaf. *Ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef*—neu yr holl weithredoedd rhyfedd a mawreddog a wnaeth efe trwy ei gadernid yn mhob man o'i lywodraeth! Y mae meddyliuau dynion ac angyllion yn rhy wan i amgwydd yr oll a wnaeth efe yn yr eangderan dderfyn, a thragwyddoldeb ei hun yn rhy fyr i'w rhifo! Ddarllenwyd, 'Y Duw hwn yw ein Duw; ni byth ac yn dragywydd: efe a'n tywys ni hyd angau,' ie, a thrwy angau: gwel ar Salm xliiii. 4, a xlviii. 14.

PEN. XXVII. Adn. 1. *A Job a barablodd eilwaith*] A ddechreuodd drachefn ar ei *barabl*, sef ei arneth bwysig, neu ei ddoeth-eiriau. Ymddengys oddiwrtly y geiriau hyn ddarford iddo ef *orphwys* ychydig ar ol yr hyn a ddywedodd efe yn y bennod flaenorol, i rodol cyfle i *Sophar* ateb, am mai ei dro ef i lefaru oedd

2 Y mae Duw yn fyw, yr hwn a ddyg ymaith fy marn; a'r Hollalluog, yr hwn a ofidiodd fy enaid;

3 Tra fyddo fy anadl ynof, ac ysbryd Duw yn fy ffroenau;

4 Ni ddywed fy ngwefusau anwired, ac ni thraetha fy nhafod dwyll.

5 Na ato Duw i mi eich cyfiawnhau chwi: oni threngwyf, ni symudaf fy mherifeithrwydd oddiwrthyf.

6 Yn fy nghyfiawnder y glyuais, ac nis gollyngaf hi: ni waradwydda fy nghalon fi tra fyddwyf byw.

7 Bydded fy ngelyn fel yr annuwiol; a'r hwn sydd yn codi yn fy erbyn, fel yr anwir.

hwn, yn ol trefn reolaidd y gynadledd: ond gan na wnaeth efe hyny, na neb arall o'r tri, aeth Job yn mlaen i wneyd y sylwadau canlynol. Nvni a ddysgwn oddiwrth pen. xxix. 1, ddarfod iddo orphwys drachefn, i'r dyben i roddi ail gynyg iddynt: ond gwel ar pen. xxvii. 13.

Adn. 2. *Y mae Duw yn fyw* [Saes., 'fel y mae Duw yn fyw:'] math ar lw difrifol, neu apeliad at y Duw byw: gwel ar 1 Sam. xx. 3, Ezech. xiv. 16, a xxxiii. 11. *Yr hwn a ddyg ymaith fy marn*—yr hwn, er ei fod yn gwybod fy uniondeb, nad yw yn amddiffyn fy achos, neu yn gwneyd cyfiawnder â mi. *Yr hwn a ofidiodd fy enaid*—wrth ymddwyn tuag ataf fel pe bawn yn euog. Ymddengys i mi fod Job yma yn hlesaru yn rhy hyf am yr Hollalluog, ac nas gellir yn hawdd gyfiawnhau ei ymadroddion.

Adn. 3. *Tra fyddo fy anadl ynof* [Neu tra y byddai efe byw; ac ysbryd Duw yn fy ffroenau—neu 'onadl Duw': efe a gyfeiria yma at yr 'anadl euioes' a anadlasai Duw yn ffroenau dyn ar ei gread, Gen. ii. 7.

Adn. 4. *Ni ddywed fy ngwefusau anwired* [I'm cyfiawnhau fy hun; ac ni thraetha fy nhafod dwyll—i'm condemnio fy hun a'ch cyfiawnhau chwthau.

Adn. 5. *Na ato Daw i mi eich cyfiawnhau chwi* [Yn eich tybam danaf, na'ch gwaith yn fy ngheryddu: oni threngwyf—tra y byddaf byw; neu, byddai yn well genyf farw na chyfaddef fod eich cyhuddiad chwi yn wir; ni symudaf fy mherifeithrwydd oddiwrthyf—trwy beidio amddiffyn fy mherifeithrwydd, neu gyfaddef fy anmherifeithrwydd.

Adn. 6. *Yn fy nghyfiawnder y glyuais* [Ar hyd fy mywyd, ac felly nid yw y cystuddiau hyn yn firwyth fy mbechodau; ac nis gollyngaf—fy ngafael o gyfiawnder: ni waradwydda fy nghalon fi tra fyddwyf byw—am ymadael o ffyrdd cyfiawnder: neu, nid yw fy nghydwbydd yn fy nghybuddo am ddim a wnaethym o'i le hyd yma, ac ni chlaf fy nghybuddo am ddim a wnaef o'i le rhagillaw.

Adn. 7. *Bydded fy ngelyn fel yr annuwiol*

8 Canys pa obaith sydd i'r rhag-rithiwr, er elwa o hono ef, pan dyno Duw ei enaid ef allan?

9 A wrendy Duw ar ei lef, pan ddelo cyfyngder arno?

10 A ymlawenycha efe yn yr Hollalluog? a eilw efe ar Dduw bob amser?

11 Myfi a'ch dysgaf chwi trwy law Duw: ni chelaf yr hyn sydd gyda'r Hollalluog.

12 Wele chwychwi oll a'i gwelsoch; a phaham yr ydych chwi felly yn ofera meun oferedd?

13 Dyma ran dyn annuwiol gyda Duw; ac etifeddiaeth y rhai traws, yr hon a gânt hwy gan yr Hollalluog.

iol] Bydded i fy nghybuddwr, a'r hwn sydd yn codi yn fy erbyn, ac nid myfi, gael ei gyfrif yn annuwiol ac yn anwir.

Adn. 8. *Canys pa obaith sydd i'r rhag-rithiwr* [Chaneph, dyn anfad, diffaith, ac ysgeler; gwel ar pen. viii. 13; ar elwa o hono ef—ie, er iddo trwy ei ddyhirwch a'i anfad-rwydd 'ennill yr holl fyd,' Mat. xvi. 26; pan dyno Duw ei enaid ef allan—o'i gorff, i ymddangos yn ysbryd noeth ger ei fron ef i dderbyn ei ddedfryd!

Adn. 9. *A wrendy Duw ar ei lef* [Canys bydd iddo yntau, ar ol i ddrws trugaredd gael ei gau, ddechreu llefau meun gweddi; pan ddelo cyfyngder arno—yn nydd angan, neu ddydd barn? Hyn yw, ni wrendy Duw ar ei weddi, am iddo esgeuloso gweddio yn nydd gras: gwel ar Luc xiii. 24—27.

Adn. 10. *A ymlawenycha efe yn yr Hollalluog* [Yn y dydd cyfyngder hwnw? A eilw efe ar Dduw bob amser?—a ydyw efe yn aser gweddi yn awr, tel ag i allu ymlawenychu meun atebiad i'w weddiau y pryd hyny?

Adn. 11. *Myfi a'ch dysgaf chwi trwy law Duw* [Yn nghylech triniaethau neu weithredoedd Duw; neu, mi a'ch dysgaf chwi trwy ei ddwyfol ysbrydoliaeth ef: ni chelaf yr hyn sydd gyda'r Hollalluog—mi a apeliad at ei weithredoedd neu ei ymddygiadau ef; neu, mi a fynegef i chwi yr hyn a hysbysa yntau i minau.

Adn. 12. *Wele, chwychwi oll a'i gwelsoch* [A welsoch yr annuwiol yn llwyddo yn fynych yn y byd; neu, cawsoch gyfleusdra fel finau i welod ymddygiadau Duw tuag at ddynion yn y bywyd yma. A phaham yr ydych chwi felly yn ofera meun oferedd—yn siarad mor ffol a gwageddus yn eich holl ymadroddion?

Adn. 13. *Dyma ran dyn annuwiol gyda Duw* [Yn fynych yn y bywyd yma, fel yr adroddir yn yr adnodau dylynol. Y mae Job yma yn dechreu ar yr addysg a addawsai efe iddynt yn adn. 11; a'r hyn a ganlyn sydd ddysgriad o ran gyffredin dynion drygionus a gormesol gyda Duw, er na byddo llaw dyn yn cyffwrdd â hwy. Er nad yw ef bob amser yn

14 Os ei feibion ef a amlheir, hwy a amlheir i'r cleddyf: a'i hiliogaeth ef ni ddigonir â bara.

15 Ei weddillion ef a gleddir yn marwolaeth: a'i wragedd gweddwon ni wylant.

16 Er iddo bentyru arian fel llwch, a darparu dillad fel clai ;

dangos ei anfodlonrwydd yn erbyn y drygionus, trwy eu darostwng i gyflwr o dylodi a chystudd, eto y mae yn fynych yn gwneudhur llyny, fel y gallo dynion ei weled ; a thro arall y mae yn ymddangos fel yn myned heibio iddynt, gan gadw ei gopedigaethau hyd y byd nesaf, fel y cofio dynion fod dydd barn i gymeryd lle, pryd y cospi'r y drygionus ac y gwobrwyr y duwiolion. Ond tybia *Kennicott*, *Wemyss*, ac ereill, mai TRYDEDD ARAETH SOPHAR yw yr hyn sydd yn canlyn hyd ddiwedd y bennod hon, os nid hyd ddiwedd y bennod nesaf; (1) Am fod Eliphaz a Bildad wedi traddodi *tair* araeth bob un, tra na thraddododd Sophar ddim ond *dwg*, oddieithr yr ystyrir hon fel ei *drydedd* araeth ef. (2) Am fod y syniadau yma yn cael eu traddodi yn ei arddull cyfredia ef. (3) Ac am fod yr hyn a draethir yma yn ymddangos fel yn groes i'r athrawiaeth ag yr oedd Job wedi ei thraethu yn y pennodau blaenorol mewn perthynas i lwyddiant yr annuwiol. Ond yn erbyn y dyb hon gellir crybwyll, [1] Nad yw y geiriau arweiniol ag sydd yn nechre pob araeth, sef, 'A Sophar a atebodd ac a ddywedodd', yn cael eu dwyn i mewn yma. [2] Nad oes un o'r ysgrifdyftrau na'r cyfieithiadau yn pleidio y gyfryw dyb, nac yn cynwys y geiriau arweiniol llyny. [3] Ac nad yw Job yn y pennodau dilynol yn ateb yr haeriadau a ddygir i mewn yma, nac yn cyfeirio atynt, yr hyn a allisid ei ddysgwyl yn mai araeth Sophar a fuasai hon. Ond y mae *Coverdale*, yn ei gyfieithiad ef o'r Beibl yn 1553, yn dwyn yn mlaen olygiad arall, trwy chwaneu y geiriau *gan ddywedyd* yn niwedd adn. 12, ac felly osod allan yr hyn a ddywedir hyd ddiwedd y bennod fel *a' adroddiad* o'r 'geiriau ofer,' a leferid ganddynt hwy ; a rhaid addef fod yr ystyr hon i'r testyn yn symud ymaith bob anghysondeb ymddangosiadol o du Job : gwel ar adn. 14. 'Ac etifeddiaeth y rhai traws—dynion cedyrn, gortlrymus, gormesol, dychrynallyd, ac anfid, fel y mae y gair *gnaritzim* yn arwyddo; yr hon a gânt hwy gan yr *Hollallwog*—er nas gall dynion eu cospi.

Adn. 14. *Os ei feibion ef a amlheir*] Yr hyn a ystyrir fel bendith oddiwrth Ddaw; *hwy a amlheir i'r cleddyf*—i'w lladd gan gleddyf y llofrudd, neu gan y swyddog gwladol fel drwgweithredwyr, neu mewn rhyfel: *a'i hiliogaeth ef ni ddigonir â bara*—eidir byddant feirw o newyn, os diangant rhag y cleddyf. Er fod rhai dynion annuwiol, a'u hiliogaeth, yn cael eu llywddo a'u bendithio weithiau â bir ddyddian, fel y dywedasai Job yn y pennodau blaenorol; eto y mae genym lawer o anghreiftiau i'r gwrthwyneb, lle y maont yn

17 Efe a'u darpara, ond y cyfiawn a'u gwisg: a'r diniwed a gyfrana yr arian

18 Efe a adeiladodd ei dŷ fel gwyfyn, ac fel bwth a wna gwyliwr.

19 Y cyfoethog a huno, ac nis cesglir ef: efe a egyr ei lygaid, ac nid yw.

cyfarfod âg atlywydd a dinystr barnol; ac am llyny, fel pe dywedasai Job, nis gellir barnu dim am gyflwr mesol heb oddiwrth y llwyddiant neu yr atlywyddiant a all gyfarfod â hwy yn ffyrdd rhagluniaeth. O'r blaen sonias ni Job am *lwyddiant* y rhai annuwiol, ac yma efe a sonia am eu *hafweyddiant*; a'r casgliad naturiol yw, nas gellir profi oddiwrth ymddygiadau Hyn oedd pwnc Job o'r dechre; ac wrth edrych ar y bennod hon yn y goleuni yma, nid yw yn anghyson âg athrawiaeth flenorol Job.

Adn. 15. *Ei weddillion ef*] Sef ei gorff marw, neu ei hiliogaeth y rhai a fyddant yn weddill yr ei ol; a *gleddir yn marwolaeth*—a lwy'r anghofir trwy farwolaeth—bydd i angau a'r bedd lyncu i fyw bob arwydd o'u bodolaeth: neu, yn ol y Galdeneg, 'a gleddir yn yr haint.' *A'i wragedd gweddwon*—sef gweddwon ei hiliogaeth, yn ol rhai; neu ei weddwon ef, yr hwn oedd amlwreicwr; *ni wylant*—ar ei ol, mewn galar am dano: neu, yn ol y LXX, 'ni thosturia neb wrth ei wragedd gweddwon.'

Adn. 16. *Er iddo bentyru arian fel llwch*] O ran amldra; *a darparu dillad fel clai*—yn bentyru mawrion. Yr oedd y dwyreiniwyr yn cadw llawer o dillad yn eu cistiau, trwy nad oedd y dulliau yn newid gyda hwy fel gyda ni.

Adn. 17. *Ond y cyfiawn a'u gwisg*] Trwy i'r barnwr en rhoddi iddynt ond olid fel iawu am y niwed a ddyoddetasant hwy oddiwrth ei ormes ef; *a'r diniwed a gyfrana yr arian*—yn mhlith eu gilydd, neu a gyfranogt o'r arian.

Adn. 18. *Efe a adeiladodd ei dŷ fel gwyfyn*] Yn frau fel tŷ gwyfyn neu bryfocpyn; gwel y LXX; *ac fel bwth a wna gwyliwr*—yn ei wllian neu ei ardd yn amser frwythau. Nid oedd y defnyddiau ond gwael, ac yr oedd y bwth hnw i gael ei dynu i lawr yn ebrwydd.

Adn. 19. *Y cyfoethog*] Sef y cyfoethog annuwiol; *a huno*—yn angau; *ac nis cesglir ef*—ni chaffir gladdedigaeth anrhydeddus i'w gorff, ac ni dderbyniair ei enaid i gynulleidfa y cyfiawnon. Yr oedd yn dyb gyffwrth yn mhlith yr beafiaid fod eneidiau y rhai ni chleddid yn anrhydeddus, yn erwydro yn ddi-orphwys ar hyd y ddaer fel elllyon; a meddylia rhai fod yma gyfeiriad at y dyb hono. *Efe a egyr ei lygaid*—yn uffern; *ac nid yw*—efe a wel nad yw mwyach ar y ddaer: neu, efe a egyr ei lygaid yn more yr adgyfodiad, pryd y gwel na bydd ei enaid yn mhlith

20 Dychryniadau a'i goddiweddant ef fel dyfroedd: corwynt a'i lladrata ef liw nos.

21 Y dwyreiniwynt a'i cymer ef i ffordd, ac efe a â ymaith; ac a'i teifl effel corwynt allan o'i le.

22 Canys *Duw* a deifl arno ef, ac nid arbed: gan ffoi, efe a fynai ffoi rhag ei law ef.

23 Curant eu dwylaw arno, ac a'i hysiant allan o'i le.

PENNOD XXVIII.

DIAU fod gwythen i'r arian; a lle i'r aur, *lle y coethant ef.*

2 Haiarn a dynir allan o'r pridd; ac o'r gareg y toddir pres.

y cadwedigion. Neu gall fod diwedd yr adnod yn cyfeirio at sydnrwydd ei tarwolaeth, yr hon a gymer le mewn amrantiad.

Adn. 20. *Dychryniadau a'i goddiweddant ef fel dyfroedd*] Yn disgyn yn llifeiriant di-symwth o'r mynyddoedd: *corwynt a'i lladrata ef liw nos*—cymeir ef ymaith gan farn *Duw* megys gan gorwynt, ac mor annysgwylidaw y a dyfodiad lleidr yn y nos.

Adn. 21. *Y dwyreiniwynt a'i cymer ef i ffordd*] Sef rhyw farn ddynistriol fel y dwyreiniwynt, neu y poethwynt ystoriad; *ac efe a â ymaith*—i dragwyddoldeb: *ac a'i teifl effel corwynt allan o'i le*—o'i dŷ, o'r corff, ac allan o'r byd, fel y teffir ūs gan gorwynt.

Adn. 22. *Canys Duw a deifl arno ef*] Ei bicellau neu ei blâau yn ddiarbed: *gan ffoi, efe a fynai ffoi rhag ei law ef*—ond nis gall ddianc. Fel hyn, y rhai a wrthodant ffoi i freichiau ei drugaredd ef yn nydd bywyd, ni chânt ffoi rhag dwylaw ei ddialedd ef yn nydd angau. Trwy nad yw y gair *Duw* yn y wreiddiol, mŷn rhai ddarllen *corwynt* yn ei le ef; ond ni wna hyn y wahaniaeth yn y synwyr, trwy nad yw y corwynt ddim ond offeryn yn llaw *Duw*.

Adn. 23. *Curant eu dwylaw arno*] Sef y dynion a orthrymwyd ganddo yn ei fywyd; *ac a'i hysiant allan o'i le*—fel pe buasai yn gi, neu ryw fwstfil peryglus: yr ystyr yw, y bydd ei symudiad ef allan o'r byd yn achos o lawenydd i bawb o'i amgylch.

PEN. XXVIII. Adn. 1. *Diau fod gwythen i'r arian*] Yn y ddaear, o'r lle y codir ef; *a lle i'r aur, lle y coethant ef*—neu 'yr hwn a goethant' oddiwrth ei sotbachi. Y meddwl yw, fod gan ddynion yn yr oesoedd boreol hyn wybodaeth pa le yr oedd y mŷnau hyn i'w cael, a pha fodd i'w puro; er na wyddent ond ychydig am orchwyliaethau rhaglun-iaethol *Duw* tuag at y duwiol a'r annuwiol.

Adn. 2. *Haiarn a dynir allan o'r pridd*] Neu o gerig y ddaear, trwy ddyfais a doethineb dynion; *ac o'r gareg y toddir pres*—neu *gopr*, o'r hwn y gwneir pres. Ni cheir pres yn y ddaear, trwy mai mettel cyfansoddedig

3 Efe sydd yn gosod terfyn ar dywyllwch, ac yn chwilio allan bob perffeithrwydd; *hyd yn nod* meini tywyllwch a chysgod angau.

4 Y mae yr afon yn tori allan oddiwrth y trigolion, *y dyfroedd* a anghofwyd gan y troed: hwy a sychasant ac a aethant ymaith oddiwrth ddynion.

5 Y ddaear, o honi y daw bara: trôwyd megys tân odditani.

6 Ei cherig hi a fyddant le i saphir; a phriddellau aur sydd iddi.

7 Y mae llwybr nid adnabu aderyn, ac ni chanfu llygad bareut:

8 Yr hwn ni sathrodd cenawon llew; nid aeth hen lew trwyddo.

ydyw, yn cael ei wneuthur o ddwy ran o *gopr*, ac un ran o *zinc*.

Adn. 3. *Efe*] Sef y mŷngloddwr, trwy ei ddoethineb, *sydd yn gosod terfyn ar dywyllwch*—trwy ddwyn i'r goleuni y mŷnau cuddiedig, neu trwy ddwyn goleuni i'r mŷngloddiau tywyll i'w gweithio lwynt; *ac yn chwilio allan bob perffeithrwydd*—bob gwybodaeth berffaith gyda golwg ar gael hyd i'r metteloedd hyn, a'u puro a'u defnyddio: *hyd yn nod meini tywyllwch a chysgod angau*—sef y mŷnau ag sydd yn guddiedig yn eigion y ddaear, neu yn gorwedd yn y tywyllwch mwyaf cudd.

Adn. 4. *Y mae yr afon yn tori allan*] Meddylir fod yma gyfeiriad at ddwfr yn tori allan yn y mŷngloddiau; *oddiwrth y trigolion*—o'r rhan hono o'r ddaear lle y mae y mŷngloddwyr yn gweithio: *y dyfroedd a anghofwyd gan y troed*—trwy i bawb orfod dianc oddiyno am eu bywyd. Neu gall fod yma gyfeiriad at eu gwaith yn codi rhyw adeilad i weithio arni uwchben y dyfroedd; neu yn dyfeisio rhyw foddion i sychu y dyfroedd, neu i'w troi ymaith oddiwrth y gweithwyr i ryw rediad arall, fel y gall diwedd yr adnod fod yn arwyddo.

Adn. 5. *Y ddaear, o honi y daw bara*] Sef o'r maesydd ar ei gwyneb hi; *trôwyd megys tân odditani*—tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at feini gwerthfawr o liw tân dan ei chrystyn hi; ereill, at yr afonydd tanllyd ag sydd yn nghrombil y ddaear; neu gall fod Job yn cyfeirio, trwy ddwyfol ysbrydoliaeth, at y *glo* dan y ddaear o'r hwn y gwneid tân, a'r hwn a ddatguddid yn ei amser.

Adn. 6. *Ei cherig hi a fyddant le i saphir*] Neu ceir saphir a meini gwerthfawr ereill yn mhlith ei cherig hi; *a phriddellau aur sydd iddi*—neu lwch aur, yn mhlith ei thywod a'i graian hi.

Adn. 7. *Y mae llwybr nid adnabu aderyn*] Y mae y mŷngloddwr, trwy ei fedrusrwydd a'i ddoethineb, yn treiddio ar hyd llwybr yn nghrombil y ddaear nad allodd un aderyn ei ganfod, hyd yn nod llygad craff y bareut.

Adn. 8. *Yr hwn ni sathrodd cenawon llew*]

9 Y mae efe yn estyn ei law at y gallestr: y mae efe yn dymchwelyd mynyddoedd o'r gwraidd.

10 Y mae efe yn ⁿperi i afonydd dori trwy y creigiau; ac y mae ei lygad ef yn gweled pob peth gwerthfawr.

11 Y mae efe yn ⁿrhwymo yr afonydd rhag llifo, ac yn dwyn peth dirgel allan i oleuni.

12 Ond pa le y ceir doethineb? a pha le y mae trigle deall?

13 Ni wŷr dyn beth a dâl hi; ac ni cheir hi yn nhir y rhai byw.

14 Y mae y dyfnder yn dywedyd, Nid ydyw hi ynof fi: ac y mae y

môr yn dywedyd, Nid ydyw hi gyda myfi.

15 Ni cheir hi er aur pur; ac ni ellir pwyso ei gwerth hi o arian.

16 Ni chyffelybir hi i'r aur o Ophir; nac i'r onix gwerthfawr, nac i'r saphir.

17 Nid aur a grisial a'i cystadla hi: na llestr o aur dilin fydd gydwerth iddi.

18 Ni chofir y cwrel, na'r gabis: canys gwell yw caffaeliad doethineb na gemau.

19 Ni ellir cyffelybu y tophaz o Ethiopia iddi hi: ni chydbrisir hi âg aur pur.

Yr hwn sydd ddyfuach na ffan y llewod; nid aeth hen lew trwyddo—yn ei grwyrdiadau eang am ysglyfaeth i'w genawon. Hyn yw, ni feiddiodd un creadur erioed, megys ehediaid y nefoedd na bwystfilod y ddaear, fyned i'r fan lle y gallodd dyn ei gyraedd trwy ei ddoethineb a'i fedrusrwydd.

Adn. 9. *Y mae efe yn estyn ei law at y gallestr*] Ac yn gallu dryllio y graig hōno, er caleded ydyw, wrth chwilio am fetelloedd dan y ddaear; ac y mae efe yn *dynchwelyd mynyddoedd o'r gwraidd*—wrth gloddio am fetelloedd o dan eu sylfeini hwy.

Adn. 10. *Y mae efe yn peri i afonydd dori trwy y creigiau*] Wrth wneuthur fiordd iddynt i redeg ynaith o'r mŵngloddiau; ac y mae ei lygad ef yn gweled pob peth gwerthfawr—sef yr holl fetelloedd a'r meini gwerthfawr ag sydd yn gorwedd yn nghronbil y ddaear, yn nghyda'r fiordd i'w cael oddiyno.

Adn. 11. *Y mae efe yn rhwymo yr afonydd rhag llifo*] Am ei ben ef a'i waith yn y mŵngloddiau; ac yn *dwyn peth dirgel allan i oleuni*—sef y trysorau ag oeddynt hyd hyn yn guddiedig yn y ddaear.

Adn. 12. *Ond pa le y ceir doethineb*] Sef gwir wybodaeth o Dduw a'i fyrd, yr hon a arweinia ddynt i fywyd santaidd, ac a'i galluoga ef i ddeall dirgelion rhagluniaeth Duw? *A pha le y mae trigle deall*—neu y fan lle y mae cael gafael ynddo? Fel pe dywedasai Job, Yr wyf yn addef fod gan ddynt ryw fath o ddoethineb, fel ag i allu canfod a deall rhai o weithredoedd natur, a chyflawni swyddau celfyddyd; ond gyda golwg ar y ddoethineb oruchel hōno ag sydd yn cynwys gwrebodaeth berffaith o holl gynghor a fyrd Duw, a'r rhesymau am orchwyliaethau dyflion ei ragluniaeth ef tng at ddynt da a drwg yn y bywyd hwn, y mae hon yn mhell uwchlaw cyraedd dyn, ac yn perthyn i Dduw yn unig.

Adn. 13. *Ni wŷr dyn beth a dâl hi*] O ran ei gwerth anfeidrol, ac ni ellir ei phrynu; ac *ni cheir hi yn nhir y rhai byw*—trwy ddysgidiaeth ddynol, eithr rhaid iddi ddyfod i ni oddinched, Iago iii. 17.

Adn. 14. *Y mae y dyfnder yn dywedyd*] Yn ei iaith, sef dyfnder mŵngloddiau y

ddaear; *Nid yw hi ynof fi*—er fod yma ddi-gonedd o aur, arian, a meini gwerthfawr. *Ac y mae y môr yn dywedyd*—am y ddoethineb hon, *Nid ydyw hi gyda myfi*—er fod ynof ymlusgiaid, pysgod, perlau, a thrysorau ereill aneirif. Er fod gwahanol weithredoedd a chreaduriaid Duw yn dangos ei fodaeth, ei allu, a'i fawredd ef, eto nid ydynt yn dysgu i ni y rhesymau sydd gan Dduw dros ei wahanol ymddygiadau rhagluniaethol tng at ddyntion yn y fuchedd hon; a llai o lawer y dysgant i ni y wybodaeth brofiadol ac ymarferol o Dduw ag sydd yn dwyn iachawdriaeth.

Adn. 15. *Ni cheir hi er aur pur*] Am yr holl aur 'trysoredig' neu 'goethedig,' sef yr aur gwerthfawrocaf trwy yr holl ddaear; *ac ni ellir pwyso ei gwerth hi o arian*—cans yn yr amseroedd hynny, cyn dyfeisio y gelfyddyd o fathu arian, pwsysid ef mewn clorianau yn daliadau.

Adn. 16. *Ni chyffelybir hi*] O ran gwerth, i'r aur na'r meini gwerthfawrocaf.

Adn. 17. *Nid aur a grisial a'i cystadla hi*] Trwy ei bod yn anfeidrol ragori ar holl drysorau y ddaear; *na llestr o aur dilin*—neu aur 'gweithiedig.' Gall hyn fod yn arwyddo llestri neu dlysau addurniadol.

Adn. 18. *Ni chofir y cwrel na'r gabis*] Y mae y geiriau hyn yn arwyddo gemau a pherlau a geir yn y môr; ond ni feddylir fod cael y rhai hyn yn gyfartal mewn gwerth i gaffaeliad y ddoethineb hon. *Canys gwell yw caffaeliad doethineb na gemau*—tybia rhai mai yr *chedfaen*, neu y *maen tynu*, a feddylir yma wrth y 'gemau,' *perainim*; ac yn lle 'caffaeliad,' darlennant *attyniad*; gan ddeall yr ymadrodd fel yn arddangos fod attyniad doethineb yn llawer cryfach a phurach nag attyniad yr ehedfaen, trwy fod doethineb yn tynu y meddwl at Dduw, tra nad yw yr ehedfaen yn tynu at ddim ond haiarn a'r cyffelyb, neu at y pegynau gogleddol a dehokol.

Adn. 19. *Ni ellir cyffelybu y tophaz o Ethiopia iddi hi*] Neu y tophaz o 'Arabia,' cans y mae *Cush* yr Hebraeg yn arwyddo y ddwy wlad; ac yr oedd y maen gwerthfawr hwn, yn ol Pliny, i'w gael yn y môr coch, yr hwn a orweddai rhwng y ddwy; ac felly gellid

20 Gan hynny o ba le y daw doethineb? a pha le y mae mangre deall?

21 Canys hi a guddied oddiwrth lygaid pob dyn byw; a hi a guddiwyd oddiwrth ehediaid y nefoedd.

22 Colledigaeth a marwolaeth sydd yn dywedyd, Ni a glywsom a'n clustiau son am dani hi.

23 Daw sydd yn deall ei ffordd hi; ac efe a edwyn ei lle hi.

24 Canys y mae efe yn edrych ar eithafoedd y ddaear, ac yn gwelod dan yr holl nefoedd.

25 I wneuthur pwys i'r gwynt; ac efe a bwysa y dyfroedd wrth fesur.

26 Pau wnaeth efe ddeddf i'r gwlaw, a ffordd i feltt y taranau:

27 Yna efe a'i gwelodd hi, ac a'i monegodd hi; efe a'i parotodd hi, a hefyd efe a'i chwilioodd hi allan.

ei briodoli i'r naill neu y llall. *Ni chydbrisir hi ag aur pur*—neu ag 'addurniadau aur,' y rhai a wisgid yn y pauthau hynny. Ystyr yr adnodau uchod yw, fod y ddoethineb dan sylw yn anfeidrol ragori ar y pethau prydfethaf a gwerthafawrol yn yr holl fydd. Trwy fod cyfner o wahanol farnau yn mhllith naturiaethwyr o berthynas i'r meini uchod, ni wnaethym ond eu henwi, heb geisio eu dysgrifio. Cyfeirir y darlleuydd egrwain at *Phillip's Elementary Introduction to Mineralogy*. Gwel hefyd y sylwadau ar Exod. xxviii. 17—21, a Dat. xxi. 19, 20.

Adn. 20. *Gan hynny o ba le y daw doethineb?* Trwy ba foddion, gan hynny, y cawn ni y trysor gwerthfawr hwn? neu, y mha le yr erys, fel yr elom i chwilio am dano? *A pha le y mae mangre deall?*—gwel ar adn. 12.

Adn. 21. *Canys hi a guddied oddiwrth lygaid pob dyn byw* Hyd yn nod y rhai mwyaf eu dysg a'u gwybodaeth am bethau ereill; *a hi a guddiwyd oddiwrth ehediaid y nefoedd*—er mor uchel yr ehedant, ac er mor graff yw eu golwg. Ystyrir rhai adar gynt fel yw gywod meddwl y dauian, ac yn datguddio eu hewyllys; a dichen fod yma gyleiriad at y dyb hono.

Adn. 22. *Colledigaeth a marwolaeth sydd yn dywedyd* Neu a ddywedent yn eu hiaith, pe byddai yn bosibl gofyn iddynt; *Ni a glywsom a'n clustiau son am dani hi*—ond nid ydyw i'w chael gyda ni. Tybia Clarke mai y *diabol ac angyn* a feddylir yma wrth 'golledigaeth a marwolaeth;' a thybia ereill mai y *dannuedigion* yn usiern a olygir, y rhai a glywsant sou am dani pan yr oeddynt yn byw ar y ddaear, ac a fnant farw heb ei chael hi, nen 'heb ofni yr Arglwydd,' na 'chilio oddiwrth ddrwg,' adn. 28. Y meddwl yw, nad yw y ddoethineb dan sylw i'w chael yn *hades*, y byd isaf, neu drigle yr ysbrydion ymadawedig. Soniwyd o'r blaen nad oedd hi i'w chael yn nhir y rhai byw, nac yn y uwngloddiau dan y ddaear, nac yn nyfnder y môr, nac yn mhllith ehediaid y nefoedd; ac yn awr yr oedd yn naturiol gofyn, ai nid oedd hi i'w chael yn ngororau tywyllion y byd isaf, trigfa yr ysbrydion colledig? ac apelio at *Abaddon*, brenin y lle, a allai ef ddywedyd rhywbeth yn fwy bodhaol am dani? Ond er troi i bob man, ni cheir y ddoethineb hon. Nis gall llyny mesur dynion na diaffiaid byth blymio dyfnderoedd cynghor Daw; ac felly rhaid i ddydd fodloni i fod heb ddeall fydd dyrys rhagluniaeth Daw, a'i resynau dirgel ef ain ei weithrededd, hyd nes y gwelo efe ei hun yn

dda eu hysbysu, neu hyd nes y bydd i oleuni tragwyddoldeb eu beglaro.

Adn. 23. *Daw sydd yn deall ei ffordd hi* Nid oes neb ond Daw ei hun a all lawnd ddeall y drefnu a gymer efe i drin achosion y byd, yn nghyda'i resymau anfeidrol droddwyfol weithrediaidau ei ragluniaeth; *ac efe a chwyr eille hi*—neu ei thrigta. sef ei feidwl anfeidrol ei hun. Ond yn lle *deall* ei ffordd hi, fel y mae yn nechre yr adnod, y mae chwech o ysgriflyfrau, yn nghyda'r LXX, yn darllen, 'Daw sydd yn trefnu (neu yn sefydlu) ei ffordd hi.'

Adn. 24. *Canys y mae efe yn edrych ar eithafoedd y ddaear* A thrwy hynny yn gwelod cysylltiad y naill beth a'r llall yn mhob man, a'r angenberidwydd iddo weithredu fel y gwna; tra nas gallwn ni ganfod ond ychydig, ac felly fod heb wybod pa beth sydd oraf ei wneuthur: *ac yn gwelod dan yr holl nefoedd*—ac felly yn trefnu ei weithrediaidau yn y modd mwyaf cyfaddas i ateb ei ddybenion cyfredinol.

Adn. 25. *I wneuthur pwys i'r gwynt* Tybia rhai fod yma gyfeiriad at bwys i'r awyr, yr hwn, fel y gellir dangos trwy y profion sicraf, sydd yn pwyso 2160 o bwys i bob troedfedd ysgwar. Ond y mae yn debycaeth mai cyfeirio y mae Job at *lywodraethiad* y gwynt, fel nas gall yr awel leiaf na'r corwynt cryfaf ysgogi heb iddo ef i drefnu trwy ei allu a'i ddoethineb anfeidrol. *Ac efe a bwysa y dyfroedd wrth fesur*—fel nas gall y gwlaw ddisgyn, na'r ffynnonau darddu, na'r môr lenwi na threio, heb iddo ef drefnu hynny. Efe sydd yn penodi i'r gwynt a'r dyfroedd eu tymhorau, eu mesurau, a'u terfynau; ac er y gall y pethau hyn ymddangos i ni fel yn cael eu llywodraethu gan ddamwain, eto y maent oll wedi eu trefnu ar y cyntaf, ac yn cael eu rheoli yn barhaus, gan ei allu a'i ddoethineb ef fel wrth bwys a mesur.

Adn. 26. *Pau wnaeth efe* Yn amser y cread, yn ol rhai; neu, pan y mae yn wneuthur yn barhaus yn ffordd ei ragluniaeth; *ddeddf i'r gwlaw*—pa fodd y byddai iddo gael ei genhedlu, a pha bryd y bydd iddo ddisgyn: gwel ar Jer. xiv. 22, Amos iv. 7: *a ffordd i feltt y taranau*—sef i'r mellt ag sydd yn peri y taranau; sef ffordd iddynt dori allan o'r cwmwl tew, lle yr oeddynt yn ganedig fel mewn carchar; neu, efe sydd yn auron y felltan ar hyd y ffordd a benoda ete. Ddarlleuydd, nid o ddamwain yr aeth y felltan heibio i ti heb dy ladd; eithr cerdded yr ydoedd ar hyd y ffordd a drefnwyd iddi gan Ddaw.

28 Ac wrth ddyn efe a ddywedodd, Wele, ofn yr Arglwydd, hyny ydyw doethineb, a chilio oddiwrth ddrwg sydd ddeall.

PENNOD XXIX.

YNA Job a barablodd drachefn, ac a ddywedodd,

2 O na bawn i fel yn y misoedd o'r blaen; fel yn y dyddiau pan gadwai Duw fi;

3 Pan wnai efe i'w oleuni lewyrchu ar fy mhen, wrth oleuni yr hwn y rhodiwn trwy dywyllwch;

4 Pan oeddwn yn nyddiau fy ieuencetid, a dirgelwch Daw ar fy mhabel;

5 Pan oedd yr Hollalluog eto gyda mi, a'm plant o'm hamgylch;

6 Pan olchwn fy nghamrau âg ymenyn, a phan dywalltai y graig i mi afonydd o olew;

7 Pan awn i allan i'r porth trwy y dref; pan barotown fy eisteddfa yn yr heol;

8 Llanciau a'm gwelent, ac a ym-guddient; a henuriaid a gyfodent, ac a safent i fyny.

Adn. 27. *Yna efe a'i gwelodd hi*] A welodd ddoethineb, am yr hon y sonir o hyd. Efe a'i gwelodd hi, nid oddiallan mewn unrhyw greudr a ffarfiwyd ganddo, ond yuddo ei hun: efe a edruchodd arni yn ei foddwl tragwyddol ei hun, fel y rheol wrth yr hon yr âi efe yn mlaen i greu a llwoblaethu pob peth. *Ac a'i mynegodd hi*—dangosodd hi i angylion yn gyntaf, ac yna i ddyn, wedi iddo greu y byd isod hwn; hyny yw, datgundiodd trwy ei weithredodd y ddoethineb ddofo a orweddiad o'r blaen yn guddiedig yn ei fynwes ei hun. *Efe a'i paratodd hi*—llefarir am dano yma yn ol dull dnyon, fel pe buasai yntau yn rhagbarotoi defnyddiau at ei holl waith; neu, fel y gollir cyfieithu *hechinah*, 'efe a'i sefydlodd hi,' a sefydlodd y drefn a osododd efe gyntaf yn y byd, i barhan am yr oesoedd dyllynol. *A hefyd efe a'i chwilioodd hi allan*—nid yn briodol felly, am fod ymchwilid yn rhaglybio anybodaeth, ac yn gofyn amser a dyfalwch, yr hyn a fyddai yn anoglyson â'r dwyfol berffeithderau; ond yn gyffelybiaethol: hyny yw, efe a wnaeth bob peth gyda'r fath berffeithrwydd a phe buasai wedi treulio hir amser i fyfrio arnynt a'u chwilio allan.

Adn. 28. *Ac wrth ddyn efe a ddywedodd*] Sef wrth Adda yn y dydd y creodd efe ef, ac eto wrth bob dyn trwy ei air a'i Ysbryd; *Wele, ofn yr Arglwydd—Adonai*; gwel ar pen. xii. 9; sef gwir grefydd yn ei holl ganghenau a'i ffwrthau; *hyny ydyw doethineb*—dyna y ddoethineb fwyaf priodol i ddyn yn y fuchedd hon, ac nid ymchwilid cywrairi a dirgelion cynghor Daw, neu wybodaeth fanol o ffridd dyfnion ei orchwyliaethau rhagluniaethol ef yn y byd. Felly y mae y ddoethineb a gymhellir yma yn wahanol i'r ddoethineb ag y soniwyd am dani uchod; neu, yn fwy priodol, dyma y gansen o ddoethineb ag sydd fwyaf angenrheidiol i ddyn. *A chilio oddiwrth ddrwg sydd ddeall*—dyma y deall neu y wybodaeth gymhwysaf i ddyn yn y bywyd hwn, yn hytrach nag olrhenniad rhyfyngus i'r achosion paham yr ymddyga Daw fel hyn neu fel arall tuag at ddynion yn ffordd ei ragluniaeth. Fel pe dywedasai, 'Byddai yn llawer gwell i chiw eich bunain ofni Daw, a chilio oddiwrth ddrwg, yn hytrach na chasglu oddiwrth fy nghystudd i fy mod yn ddyn annuwol, a'u condemnio fel rhagrithiwr.

PEN. XXIX. Adn. 1. *A Job a barablodd drachefn*] Ar ol gorphwys dros vchydig i raddli cytleusdra i Sophar neu ei gyfeillion lefaru: gwel ar pen. xxvii. 1.

Adn. 2. *O na bawn i fel yn y misoedd o'r blaen*] Pan yr oeddwn yn mwynhau fy iechyd a'm cysuron; *fel yn y dyddiau pan gadwai Duw fi*—trwy gau o'm hamgylch, i ddiogelu i mi fy nghyfoeth a'm hanrhydedd, a'm cadw rhag yr adfyddau a'r cystuddian hyn: gwel ar pen. i. 10. Pe bawn yn awr fel yr oeddwn gynt, yna chwi a dalech fwy o barch i mi, ac o sylw i'm geiriau, nag a wnewch yn awr yn fy nhrallod.

Adn. 3. *Pan wnai efe i'w oleuni lewyrchu ar fy mhen*] Sef ei wnaeo a'i gysuron rhagluniaethol; *wrth oleuni yr hwn y rhodiwn trwy dywyllwch*—hyny yw, yr oedd efe yn cael nawdd, cyfarwyddyd, ac arweiniad Daw, yn mhob amgylchiad dyrys.

Adn. 4. *Pan oeddwn yn nyddiau fy ieuencetid*] Neu yn ei ddyddiau blodeuog, ffirwythlon, a llwydiannus, cyn ei gystuddio; *a dirgelwch Daw ar fy mhabel*—pan yr oedd bendith dirgel y nefoedd ar ei dŷ a'i deulu. Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at yr addoliad dwyfol a gynaliad Job yn ei dŷ, lle yr oedd Daw yn cyfrinachu â'u heneidiau.

Adn. 5. *Pan yr oedd yr Hollalluog eto gyda mi*] Yn nawdd i mi, neu heb gilio oddiwrthyf; *a'm plant o'm hamgylch*—heb eu chwalo a'u dinystrio, pen. i. 19.

Adn. 6. *Pan olchwn fy nghamrau âg ymenyn*] Neu pan y gallai wneuthur hyny âg ymenyn, gan mor helaeth ydoedd; *a phan dywalltai y graig i mi afonydd o olew*—yr oedd ei olewyydd ef yn tyfu nid yn unig ar y maesydd ffirwythlon, ond hefyd ar leoedd creigiog, ac yn dwyn iddo y fath gyflawnder o olew, nes yr oedd megys afonydd. Wrth yr ymadroddion hyn y deallir helaethrwydd o fendithion tymhorol o bob math.

Adn. 7. *Pan awn i allan i'r porth*] Neu pan yr awn trwy y dref tua'r porth; *pan barotown fy eisteddfa yn yr heol*—i eistedd yno fel prif farnwr. Gwelsom yn fynych fod y dwyreinwyr yn cynal eu llysoedd barnol yn mhorth y ddinas, neu dan yr awyr agored, lle y gallai pawr weled fod cyflawnder yn cael ei weinyddu.

Adn. 8. *Llanciau a'm gwelent ac a ym-*

9 Tywysogion a attalient eu hymadroddion, ac a osodent eu llaw ar eu genau.

10 Pendefigion a dawent â son, a'u tafod a lynai wrth dafnod eu genau.

11 Pan y'm clywai clust, hi a'm bendithiai; a phan y'm gwelai llygad, efe a dystiolaethai gyda mi.

12 Am fy mod yn gwaredu y tylawd a fyddai yn gwaeddi, a'r amddifad, a'r hwn ni byddai gynorthwywr iddo.

13 Bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano, a ddeuai arnaf; a gwnawn i galon y wraig weddw lawenychu.

14 Gwisgwn gyfiawnder, a hithau

a wisgai am danaffi: a'm barnfyddai fel mantell a choron.

15 Llygaid oeddwn i'r dall; a thraed oeddwn i'r cloff.

16 Tad oeddwn i'r anghenog; a'r cwyn ni wyddwn a chwiliwn allan.

17 Drylliwn hefyd gildannedd yr anghyfiawn, ac a dynwn yr ysglyfaeth allan o'i ddannedd ef.

18 Yna y dywedwn, Byddaf farw yn fy nyth; a byddaf mor aml fy nyddiau a'r tywod.

19 Fy ngwreiddyn oedd yn ymdaenu wrth y dyfroedd; a'r gwllith a arhosodd ar hyd nos ar fy mrig.

20 Fy ngogoniant oedd i'r ynof fi; a'm bwa a adnewyddai yn fy llaw.

guddient] A dröent o'r neilldu o ran parch iddo, neu a ymguddient rhag cael eu cospi ganddo am ryw ddyrgfoes ag y buont yn euog o hono; a *henuriaid a gyfoient*—ar eu traed o anrhydedd iddo; *ac a safent i fyny*—a barhäent i sefyll nes iddo ef beri iddynt eistedd.

Adn. 9. *Tywysogion a attalient eu hymadroddion*] Nes i mi lefaru yn gyntaf; neu, nid anturient wrthwynebu fy marn i, trwy fod y fath hyder ganddynt yn nghyfiawnder a gonestryddd fy mhenderfyniadau.

Adn. 10. *Pendefigion a dawent â son*] Pan y byddwn i yn bresenol; *a'u tafod a lynai wrth dafnod eu genau*—byddent mor ddystaw a phe buasai eu tafod wedi glynu felly.

Adn. 11. *Pan y'm clywai clust*] Yn cyhoeddi fy neddfryd; *hi a'm bendithiai*—fel un yn cyhoeddi deddfryd gyfiawn; *a phan y'm gwelai llygad*—pan welai unrhyw un fi yn cyflawni fy swydd farnol; *efe a dystiolaethai gyda mi*—fy mod yn ymddwyn yn ddoeth, cyfiawn, a diduedd.

Adn. 12. *Am fy mod yn gwaredu y tylawd a fyddai yn gwaeddi*] Dan orthrymder ei elyn; *a'r amddifad*—a fyddai yn cael cam gan ei ormeswr; *a'r hwn ni byddai gynorthwywr iddo*—trwy ei fod yn ddyeithr yn y wlad.

Adn. 13. *Bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano*] Yr hwn oedd mewn perygl o gollu ei feddiannau, os nid ei fywyd, a hyny ar gam; *a ddeuai arnaf*—efe a weddiai am i Dduw fy mendithio am wneyd cyfiawnder â'i achos; *a gwnawn i galon y wraig weddw lawenychu*—trwy ei chynorthwyo hi, neu fynu cyfiawnder iddi oddiar law ei gorthrymwyr. Ymddengys fod Job yn yr adnodau hyn yn ei amddiffyn ei hun yn ngwynebu cyhuddiadau disail Eliphaz, pen. xxii. 5—10.

Adn. 14. *Gwisgwn gyfiawnder*] Am danaf fel barnwr; *a hithau a wisgai am danaf fi*—a fyddai fel gwisg o anrhydedd am danaf, neu yn ddiogelwch gwastadol i mi; *a'm barn fyddai fel mantell a choron*—yn addurn ac anrhydedd i mi ar unwaith. Efe a gyfeiria ond odid at wisgoedd llysol y barnwyr; a dywed y byddai y ddeddfryd gyfiawn a gy-

hoeddi efe yn fwy o addurn iddo na'r gwisgoedd swyddogol hyny.

Adn. 15. *Llygaid oeddwn i'r dall*] I'w dywys a'i gyfarwyddo; *a thraed oeddwn i'r cloff*—i'w gynorthwyo ar ei daith.

Adn. 16. *Tad oeddwn i'r anghenog*] I ddiwallu ei eisiau, fel pe buasai yn blentyn i mi fy hun; *a'r cwyn ni wyddwn*—os byddai rhyw Beth yn ddyrys mewn unrhyw achos a ddygid o'm blaen; *a chwiliwn allan*—edrychwn i mewn iddo yn fanwl, yn lle rhoddi deddfryd arwynebol. Neu gall fod yma gyfeiriad at ymchwil Job am rywrai mewn adfryd, fel y gallai eu cynorthwyo.

Adn. 17. *Drylliwn hefyd gildannedd yr anghyfiawn*] Nid yn unig gwaredwn y gorthrymedig, ond cospwn y gorthrymwr; *ac a dynwn yr ysglyfaeth allan o'i ddannedd ef*—gwnawn iddo adferdyd yr hyn a ddygasai trwy drais.

Adn. 18. *Yna y dywedwn*] Oddiar ymwybodolrwydd o uniondeb fy ymddygiadau, ac o gymeradwraeth Duw a dynion; *Byddaf farw yn fy nyth*—yn fy nghartref fy hun, ac mewn tagnefeidd a deddfrydych yn mhllith fy nheulu, gan adael pŕ-arozl enw da ar fy ol; *a byddaf mor aml fy nyddiau a'r tywod*—er y thaid i mi farw, ni chaf farw nes cyraedd henaaint tŕg. Ond yn lle *tywod*, y mae Herder, a'r rabbiniaid yn gyffredin, yn darllen, 'Byddaf mor aml fy nyddiau a'r phœnix.' Hwn oedd aderyn dychymygol ag y dywedid ei fod yn byw fil o flynyddoedd; ac yn niwedd ei oes, trwy nad oedd ond un mewn bod ar unwaith, dywedir ei fod, trwy ysgydwad ei adenydd, yn rhoddi ei nyth ar dân, ac o wŷ yn ei ludw fod un arall yn codi yn ei le. Dywed yr Iuddewon ddarfod i bob creadur ufyddhau i Efa trwy fwyta o'r ffwrth gwaharddedig, oddieithr yr *hul* neu y *phœnix*.

Adn. 19. *Fy ngwreiddyn oedd yn ymdaenu wrth y dyfroedd*] Yr ystyr yw, ei fod yn ei llyddiant boreol yn debyg i bren cadarn, yn cael ei ddyfrhau a'i reiddio yn ei wraidd a'i frig. Yr oedd daear a nefoedd fel yn gwenu arno, ac yn ei lwyddo a'i fendithio yn mhob dim.

Adn. 20. *Fy ngogoniant oedd i'r ynof fi*]

21 Hwyl wrandawent arnaf, ac a ddysgwyliant; dystawent wrth fy nghyngor.

22 Ar ol fy ymadrodd ni ddywedent hwyl eilwaith; a'm hymadrodd a ddyferai arnynt hwyl.

23 A hwyl a ddysgwyliant am danaf fel am y gwylaw; ac a ledent eu genau fel am y diweddar-wlaw.

24 Os chwarrddwn arnynt hwyl, ni chredent; ac ni wnaent hwyl i lewyrch fy wyneb syrthio.

25 Dewiswn eu sffordd hwynt, eist-ddw'n yn benaf, a thrigwn fel bren-

in mewn llw, megys yr hwn a gysura rai galarus.

PENNOD XXX.

OND yn awr yr rhai sydd ieuangach na mi sydd yn fy ngwatwar, y rhai y diystyraswn cu tadau i'w gosod gyda chŵn fy nefaid.

2 I ba beth y gwasanaethai cryfder eu dwylaw hwynt i mi? darfuasai am henaint ynddynt hwyl.

3 Gan angen a newyn, unig oeddynt: yn ffoi i'r anialwch gynt, yn ddiffaeth ac yn wyllt:

Nid oedd ei anrhydedd a'i ddylanwad yn sychu ac yn gwywo fel pren crin; a'm bwa a adnewyddai yn fy llaw—y bwa ydoedd arwyddlun nerth a buddugoliaeth; a'r meddwl yma yw, fod gallu, awdurdod, a llwyddiant Job ar gynydd yn barhaus, fel pren yn adnewyddu ei ddail, ei ffodau, a'i harddwch yn y gwanwyn.

Adn. 21. *Hwyl a wrandawent arnaf*] Sef y tywysogion a'r pendefigion a enwyd o'r blaen, adn. 9, 10; ac a ddysgwyliant—am y ddedfryd o'm genau; dystawent wrth fy nghyngor—gan roddi eu barn eu hunain i fyny i'm barn i, yr hon oedd yn derfyn ar bob ymarson.

Adn. 22. *Ar ol fy ymadrodd ni ddywedent hwyl eilwaith*] Trwy fod pawb yn cael eu llwyr foddloni gan gyfiawnder a doethineb yr hyn a ddywedwn i; a'm hymadrodd a ddyferai arnynt hwyl—fel gwylaw adfywiol i'w tyneru: gwel ar Deut. xxxii. 2.

Adn. 23. *A hwyl a ddysgwyliant am danaf fel am y gwylaw*] Dysgwylent am fy marn a'm cynghor gyda'r awydd ag y dysgwylia y llafurwr am y cynar-wlaw i fwydo y ddaear tuag amser hau; ac a ledent eu genau fel am y diweddar-wlaw—i addfedu eu twysenau erbyn amser medi. Y mae yma gyfeiriad ond odid at y ddaear yn agenu gan wres a sychder.

Adn. 24. *Os chwarrddwn arnynt*] Yn llon, siriol, a chyfeillgar; ni chredent—fy mod yn ymestwng i gyfeillachu felly â hwynt, gan mor lawen oeddynt, fel y dysgwylion wedi hyny: gwel ar Luc xxiv. 41. Neu, 'ni thrangwyddent.'—HERDER. 'Yr oedd fy nghellweiriad, felly y tybient hwyl, yn cynwys rhywbeth yn ddiffrifol.'—GROTIVS. Ond trwy fod y 'chwerthiniaid' yma, yn y wreiddiol, yn arwyddo gwawddiad, a'r 'credu' yn arwyddo hyderu, gall mai yr ystyr yw, Ni chyderent yn eu cynlluniau eu hunain, os byddai i mi eu gwawddio, neu chwerthin am eu pen. Yr oedd dylanwad Job drostynt mor fawr, fel yr oedd yn gallu eu llywodraethu hwyl a gŵen, heb iddo ddywedyd gair: neu os chwarrddai eife am ben eu mesurau, hwyl a'u rhoddent heibio fel pethau ffol ac anweddaidd. Ac ni wnaent hwyl i lewyrch fy wyneb syrthio—ofnent wneyd dim i'm ddiogio, neu i beri i mi wgu arnynt.

Adn. 25. *Dewiswn eu sffordd hwynt*] Neu 'dewiswn eu sffordd iddynt,' trwy eu harwain

a'u haddysgu yn mhob dim; eisteddwn yn benaf—yn ben neu brif-lywydd yn mhob cymdeithas lle y byddwn; a thrigwn fel brenin mewn llw—a phlawb yn ufyddhau i'm deddfau; megys yr hwn a gysura rai galarus—y meddwl yw, nad oedd un dosbarth o ddynion na chaent les oddiwrtho, ac na wargoaethent iddo. Fel pe dywedasai, Yn amser heddwch, deuent ataf am gyngor; yn amser rhyfel, deuent ataf am gyfarwyddyd; ac yn amser galar, deuent ataf am gysur.

PEN. XXX. Adn. 1. *Ond yn awr*] Wedi i Job yn y blaenorol, y mae efe yma, mewn sffordd o wrthygyferbyniad, yn myned yn mlaen i ddarlunio trueni ei gyflwr presenol. Y rhai sydd ieuangach na mi sydd yn fy ngwatwar—efe a gyfeiria yma nid at Eliplaz, Billad, a Sophar, y rhai ond odid oeddynt yn hŷn nag ef, pen. xv. 10, ond at blant y gymydogoeth; y rhai y diystyraswn cu tadau i'w gosod gyda chŵn fy nefaid—i ofalu am y cŵn, y rhai a wylent fy nefaid. Y meddwl yw, fod y plant distadllaf yn y gymdeithas ddynol, biliogaeth dynion llai eu parch na chŵn, ac annheilwng i ddal y swyddau iselaf o herwydd eu diraddiad a'u hanonestrywydd, yn awr yn ei watwar ef, er mor anrhydeddus y buasai gynt!

Adn. 2. *I ba beth y gwasanaethai cryfder eu dwylaw hwynt i mi*] Y rhai, er eu bod yn alluog, eto oeddynt yn rhy anonest i ymddiried iddynt le yn fy ngwasanaeth? Darfuasai am henaint ynddynt hwyl—trwy eu bod, yn eu hantadrwydd, yn dystyrwio eu hiechyd, ac felly yn marw yn mlodau eu dyddiau, neu ynte yn cael eu cospi â marwolaeth cyn cyraedd henaint. Ac eto plant dynion o'r fath yma a watwarent ŵr mor enwog a Job!

Adn. 3. *Gan angen a newyn*] Wedi ei ddwyn arnynt gan ddiogi neu ddrygioni; unig oeddynt—heb neb a gymdeithasai â hwynt; neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'gwywedid oeddynt,' a hyny gan newyn: yn ffoi i'r anialwch—i fyw yno ar wraidd, ffrwythau, a phlanhigion, neu ar ladrad, yn lle gweithio i ennill eu bywiolaeth trwy onestrywydd.

Adn. 4. *Y rhai a dorent yr hocys*] Maltuach, sef math ar lysiau hallt a chwerw, y rhai a dyfent mewn perthi, ac a fwyteid gan y newynog; neu 'y danad poethion,' fel y mae

4 Y rhai a dorent yr hocys mewn brysglwyni, a gwraidd meryw yn fwyd iddynt.

5 Hwy a yrid ymaith o fysg *dynion*, (gwaeddent ar eu hol hwy, fel ar ol lleidr.)

6 I drigo mewn holltau afonydd, mewn tyllau y ddaear, ac yn y creigiau.

7 Hwy a ruent yn mhlith perthi: hwy a ymgasglent dan ddanadl.

8 Meibion yr ynfyd, a meibion rhai anerwog *oeddynt*: gwaelach na'r ddaear *oeddynt*.

9 Ac yn awr eu cân hwy ydwyf fi, a myfi sydd yn destyn iddynt.

10 Y maent yn fy ffeiddio, yn

cilio yn mhell oddiwrtwyf: ac nid arbedant boeri yn fy wyneb.

11 Oblegid iddo ddattoddy f'rhaif, a'm cystuddio; hwythau a ollyngasant y ffrwyn yn fy ngolwg i.

12 Y rhai ieuainc sydd yn codi ar *fy llaw ddeau*; y maent yn gwthio fy nhraed, ac yn sarnu i'm herbyn ffyrdd eu dinystr.

13 Anrheithiant fy llwybr, ychwanegant fy nhrucni, heb *fod* help iddynt.

14 Y maent hwy yn dyfod *arnaf* megys *dwfr trwy* adwy lydan: y maent yn ymdreiglo *arnaf* wrth yr anrhaith.

15 Dychryniadau a drowyd *arnaf*:

Bochart yn ei gyfieithu: *a gwraidd meryw yn fwyd iddynt*—neu 'i grasu en bwyd,' fel y mae rhai yn ei ddeall. Ond nid yw yr Iuddewon eu hunain yn gwybod yn sicr pa blanhigion a olygr yma.

Adn. 5. *Hwy a yrid ymaith o fysg dynion*] O fysg dynion gonest, fel yspeilwyr a lladron; ac eto plant y rhai hyn a watarent Job!

Adn. 6. *I drigo mewn holltau afonydd*] Neu 'holltau dyffrynoedd,' fel y mae ar ynyl y ddalen, ac yn y Saesonaeg; a chan mai yr un gair sydd yn yr Hebraeg am afonydd a dyffrynoedd, gall ei fod yn arwyddo yma ryw holltau a wnaed yn y dyffrynoedd gan lifeiriain, y rhai oeddynt sychion ar dywydd tég; *mewn tyllau y ddaear*—megys pedewau heb ddwfr; *ac yn y creigiau*—lle yr oedd agenau neu ogofau naturiol.

Adn. 7. *Hwy a ruent yn mhlith perthi*] Fel bwystfilod yn rhoio am ysglyfaeth, neu am eu gilydd; neu, 'hwy a riddfant,' fel y mae dan ysgriflyfr yn ei ddarllein: *hwy a ymgasglent dan ddanadl*—neu dan y *llwyni*, i'r dyben i ymgysgodi, neu i dyrchu am wraidd yn ym-borth.

Adn. 8. *Meibion yr ynfyd*] Heb., *nabal*, neu rai heb synwyr ynddynt at yr hyn oedd dda, 1 Sam. xxv. 3; *a meibion rhai anerwog*—rhai anfad a diffaith, neu rai heb *enw* arnynt, mwy nag ar anifeiliaid; *gwaelach na'r ddaear oeddynt*—ar yr hon y saigent; neu, fel yr arwydda y wreiddiol, 'rhai wedi eu gyru allan o'r wlad,' am eu bod yn anaddas i drigo yn mhlith dynion.

Adn. 9. *Ac yn awr eu cân hwy ydwyf fi*] Sef testyn eu gwawd a'u dirmyg.

Adn. 10. *Y maent yn fy ffeiddio*] Yn fy nghasau a'm dirmygu; *yn cilio yn mhell oddiwrtwyf*—mewn diystyrwch o honof; ac, os nesânt ataf, *nid arbedant boeri yn fy wyneb*—yr hyn a gyfrifid y diystyrwch mwyaf. Yn hyn yr oedd Job yn gysgod o Grist: gwel Mat. xxvi. 67.

Adn. 11. *Oblegid iddo ddattoddy f'rhaif*] Oblegid i Dduw lacáu neu dori llinyn ei fwa, sef ei amddifadu o'i fawredd a'i awdurdod, fel na feddai efe allu mwyach i'w amddiffyn ei

hun na'u cospi hwythau: gwel ar pen. xxix. 20: *a'm cystuddio*—a'r cornwyddydd a'r aflwyddiant presenol: *hwythau a ollyngasant y ffrwyn yn fy ngolwg i*—a gymerasant eu rhyddid i'm hanmbarchu fel y mynent.

Adn. 12. *Y rhai ieuainc sydd yn codi ar fy llaw ddeau*] Y rhai gynt a ymguddiant rhagof, pen. xxix. 8. Arferai y cyhuddwyr, mewn llysoedd barn, sefyll ar ddebenlaw y cyhuddedig, i roddi tystiolaeth yn ei erbyn; ac fe allai mai yrystyr yma yw, fod yr ieuenticid hyn yn codi i dystiolaethu yn erbyn Job. *Y maent yn gwthio fy nhraed*—i'm dysoddi, neu i'm taflu i lawr; *ac yn sarnu i'm herbyn ffyrdd eu dinystr*—hyn yw, yn ei gyhuddo ef fel yr achos o'u dinystr, pan yn barnu eu hachosion gynt; neu, 'codant i'm herbyn ffyrdd i'm dinystr.'

Adn. 13. *Anrheithiant fy llwybr*] Neu cauant ef i fyny, fel ag i'm battal rhag ymryddhau oddiwrtwyf eu cyhuddiadau; neu bwrthiant bentryau o gyhuddiadau gwarthus ar fy rhodiad, neu ddull fy mywyd, yn nyddiau fy llwyddiant. *Ychwanegant fy nhrucni*—yn mhob dull ag y medrant; neu, fel y mae rhai yn cyfieithu *joqnilu*, 'y maent yn ymelwa trwy, neu yn llawenyachu yn, fy nhrucni,' *heb fod help iddynt*—heb i neb roddi gwell addysg iddynt; neu, fel y mae *Heath* yn ei gyfieithu, 'heb i neb fy helpu i rhagddynt.'

Adn. 14. *Y maent hwy yn dyfod arnaf megys dwfr trwy adwy lydan*] Yn ffrwd gref ar unwaith. Ond gan nad yw gair 'dwfr' yn y wreiddiol, gall mai cyfeiriad sydd yma at ddyfodiad byddin lusog i ryw ddinas trwy adwy lydan wedi ei thori ganddynt yn y mur. *Y maent yn ymdreiglo arnaf wrth yr anrhaith*—fel yr ymdreiglo byddin ar draws eu gilydd, nen y rhedant am y cyntaf, i anrheithio dinas.

Adn. 15. *Dychryniadau a drowyd arnaf*] O bob math, ac o bob lle; *fel gweynt yr erlidiant fy enaid*—yn gyflym, nerthol, ac anwrthwynebol; *a'm hiachawdwriaeth*—sef ei ddiogelwch rhagddynt; *a â heibio fel cumul*—yr hwn yn fuan a dodda yn wlaw, neu a

fel gwynt yr erlidiant fy enaid: a'm hiachawdwriaeth a â heibio fel cwmwl.

16 Am hyny yr ymdywllt fy enaid yn awr arnaf; dyddiau cystudd a ymasfasant ynof.

17 Y nos y tyllir fy esgyrn o'm mewn: a'm gïau nid ydynt yn gor-phws.

18 Trwy fawr nerth fy nghlefyd, fy ngwisg a newidiodd: efe a'm hamgylcha fel coler fy mhais.

19 Efe a'm taflodd yn y clai; ac aethym yn gyffelyb i lwech a lludw.

20 Yr ydwyf yn llefain arnat ti, ac nid ydwyf yn gwrando: yr ydwyf yn sefyll, ac nid ystyri wrthyf.

21 Yr wyt yn troi yn greulon yn

fy erbyn; yr wyt yn fy ngwrthwynebu â nerth dy law.

22 Yr wyt yn fy nyrchafu i'r gwynt; yr ydwyf yn gwneuthur i mi farchogaeth arno, ac yr ydwyf yn toddi fy sylwedd.

23 Canys myfi a wn y dygi di fi i farwolaeth; ac i'r tŷ rhagderfyndedig i bob dyn byw.

24 Diau nad estyn ef law i'r bedd, er bod gwaedd ganddynt yn ei ddinystre ef.

25 Oni wylais i dros yr hwn oedd galed ei fyd? oni ofidiodd fy enaid dros yr anghenog?

26 Pan edrychais am ddaioni, drygfyd a ddaeth: pan ddysgwyliais am oleuni, tywyllwch a ddaeth.

lyncir gan wres yr haul, neu a wasgerir gan y gwynt.

Adn. 16. *Am hyny yr ymdywllt fy enaid yn awr arnaf* Efe a dodda megys o'm mewn, neu a ymdywllt yn ddagrau ar hyd fy ngruddiau; *dyddiau cystudd a ymasfasant ynof*—yn fy nghorff a'm henaid.

Adn. 17. *Y nos y tyllir fy esgyrn o'm mewn* Gan boenau arteithiol yn treiddio hyd fy mēr; *a'm gïau nid ydynt yn gorphwys*—'a'r rhai a'm difant ni hunant.—VULGATE 'A'm cwadau ni orphwysant.—GOOD. Tybia rhai mai cyfeirio y mae Job at y ddannodd, yr hon a'i poenydiai yn ddiscibiant. Y weddwl yw, ei fod yn dyoddef yn mhob rhan o'i gorff, nid yn unig y dydd, ond y nos hefyd, pryd y dylasai gael huno yn dawel.

Adn. 18. *Trwy fawr nerth fy nghlefyd* Neu yr hylif ffiadd a redai o'i gornwydydd; *fy ngwisg a newidiodd*—efe a ddaeth iddo yn lle gwisg, neu a drôdd liw ei wisg. Y wreiddiol yw, 'trwy fawr nerth, fy ngwisg a newidiodd;' yr hyn a all arwyddo, mai trwy fawr nerth y tynd ei wisg oddiam dano i'w newid, gan fel yr oedd yn glynu yn ei gornwydydd. *Efe a'm hamgylcha fel coler fy mhais*—neu goler ei tunic neu ei grys, yr hwn a gylymid am ei wddf. Y meddwl yw, fod ei gornwydydd yn ei amgylchu o bob tu, neu yn gorchuddio ei holl gorff.

Adn. 19. *Efe a'm taflodd yn y clai* Hyny yw, Duw a'i taflodd; *ac aethym yn gyffelyb i lwech a lludw*—yn arian, ac yn ffiadd yr olwg arnaf: gwel ar pen. ix. 31. 'Yr oedd yn debycach i glamp o sylwedd difywyd, nag i ddyn byw.'—ROSENMULLER.

Adn. 20. *Yr ydwyf yn llefain arnat ti* Am waredigaeth; *ac nid ydwyf yn gwrando*—trwy estyn i mi waredigaeth: *yr ydwyf yn sefyll*—ger dy fron i ymbil am dy dasturiaethau; *ac nid ystyri wrthyf*—er maint fy nhaerineb, fy nagrau, a'm poenau.

Adn. 21. *Yr wyt yn troi yn greulon yn fy erbyn* Fel pe byddit wedi newid dy natur drugarog am natur llew; *yr wyt yn fy ngwrthwynebu â nerth dy law*—yr hon a

fu gynt yn fy nghynnal a'm hamgeleddu.

Adn. 22. *Yr wyt yn fy nyrchafu i'r gwynt* Yn fy ngosod yn agored i bob math ar dymhestl adfydus; *yr ydwyf yn gwneuthur i mi farchogaeth arno*—fel nis yn euel ei luchio gan y gwynt; *ac yr ydwyf yn toddi fy sylwedd*—yn peri i mi ddarford ymaith oddiar y ddaear.

Adn. 23. *Canys myfi a wn y dygi di fi i farwolaeth* Yr wyt yn credu o hyd, er dechre fy nghystudd presenol, y bydd iddo ddiwedd yn fy marwolaeth; *ac i'r tŷ*—yng y bedd, *rhagderfyndedig i bob dyn byw*—gwyddai Job fod Duw wedi rhagbenderfynu i bob dyn farw, fel cosp am y pechod cyntaf. 'Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli,' Gen. iii. 19. 'Gosodwyd i ddynion farw unwaith,' Heb. ix. 27.

Adn. 24. *Diau nad estyn ef law i'r bedd* Nad estynai Duw ei law yn i' boeni ei gorff ef, fel y gwnai eif yma; *er bod gwaedd ganddynt yn ei ddinystre ef*—hyny yw, fe allai, er fod gelynuon Job yn llawen-Hoeddio yn ninystr ei gorff ef, gan ystried hyny yn brawf o'i ragrith a'i annuwioldeb. Neu, fel y gellir deall y rhan olaf yn ol y Syriaeg, 'yn y dinystr hwn bydd diogelwch;' hyny yw, caiff ei gorff ef ei ddiogeln yn ninystr y bedd rhag llaw Duw.

Adn. 25. *Oni wylais i dros yr hwn oedd galed ei fyd?* Do; ac felly, fel pe dywedasai, nid yw fy ngofid presenol yn y 'farn ddiur-garedd i'r hwn ni wnaeth drugaredd,' Iago ii. 13. *Oni ofidiodd fy enaid dros yr anghenog?*—do; ond er hyny nid oes neb yn wylu nac yn gofidio drosod fi yn fy nghaledi a'm hangen!

Adn. 26. *Pan edrychais am ddaioni* Am hir ddyddian edryddi a llwyddiannus yn y byd hwn, fel gwobr fy nhosturi tuag at ereill; *drygfyd a ddaeth*—arnaf yn ddisymwth, i'm hamddifadu o'm meddiannau, fy nghysuron, a'm hechyd: *pan ddysgwyliais am oleuni*—am rywrai i gydymdeimlo â mi yn fy nrygfyd, fel yr oeddwn inau wedi gwneyd âg ereill, adn. 25; *tywyllwch a ddaeth*—ceffais fy llwyr siomi, trwy i bawb chwonegn fy ngofidiau yn lle fy nghysuro.

Adn. 27. *Fy ymysgareodd a ferwasant*]

27 Fy fymysgaroedd a ferwasant, ac ni orphwysasant: dyddiau cystudd a'm rhagflaenasant.

28 Cerddais yn alarus heb yr haul: codais, a gwaeddais yn y gynulleidfa.

29 Yr ydwyf yn frawd i'r dreigiau, ac yn gyfaill i gywion yr estrys.

30 Fy nghroen a dduodd am danaf, a'm hesgyrn a losgasant gan wres.

31 Aeth fy nhelyn hefyd yn alar, a'm horgan fel llais rhai yn wŷlo.

PENNOD XXXI.

MYFI a wnaethym ammod â'm llygaid; pahan gan hyny y meddyliwn am forwyn?

Gan boethder fy nghystudd; ac ni orphwysasant—ni pheidiasant â berwi hyd yma, ond y mae fy nghlefyd heddyw cyn boethed ag erioedd: *dyddiau cystudd a'm rhagflaenasant*—a'm daliasant yn ddisymwth ac annysgywiadwy, pan yr oeddwn yn addaw i mi fy hun lwyddiant a hir dyddiau.

Adn. 28. *Cerddais yn alarus heb yr haul*] Heb gysnron y goleuni: neu, fel y gellir ei gyfieithu, 'cerddais yn ddi heb yr haul'; hyny yw, yr oedd ei groen yn *duo* am dano, ond nid gan wres yr haul: gwel ar adn. 30. *Codais, a gwaeddais yn y gynulleidfa*—neu yn nghanol y bobl a ymgynullent o'i amgylch. Effe a godai gynt i'w cyngori, eu haddysgu, neu i'w barnu hwynt; ond yn awr yr oedd yn sefyll i fyny i wŷlo a galarn oblegid ei drueni! Dengys hyn y cyfnweddiad mawr a ddaethai arno, a dyfnder ei drueni. Y mae yn hawdd gan ddynd wŷlo yn y dirgel; ond ni wna efe hyny yn gyhoeddus, os na fydd ei dristwch yn fawr iawn.

Adn. 29. *Yr ydwyf yn frawd i'r dreigiau*] Neu fel un o honant; hyny yw, yr oedd yn debyg iddynt yn ei waeddiadan galarus a pharhaus. Ond yn lle 'dreigiau,' tybir yn gyffredin mai y *jackal*, neu 'was y llew,' a feddylir yma wrth y *tannin*. *Ac yn gyfaill i gywion yr estrys*—yn gyfelyb iddynt hwythau, y rhai a udant yn fynyeh yn y nos, fel pe baent yn y poenau mwyaf: gwel *Deithiau Shaw*.

Adn. 30. *Fy nghroen a dduodd am danaf*] Gan boethder a natur ei ddolar, yr hwn, fel y meddylir, oedd yr *elephantiasis*, neu y 'gwa-hanglyf dū:' gwel ar pen. ii. 7, a vii. 5. *A'm hesgyrn a losgasant gan wres*—yr hwn a sychai i fyny ei holl fêr.

Adn. 31. *Aeth fy nhelyn hefyd yn alar, &c.*] Yr oedd wedi gorffod rhoddi heibio ei holl offer cerdd, a throi i wŷlo a galarn yn lle canu a chlodfori.

PEN. XXXI. Adn. 1. *Myfi a wnaethym ammod â'm llygaid*] Nad 'edrychwn ar wraig

2 Canys pa ran sydd oddiwrth Dduw oddiuchod? a pha etifeddiaeth sydd oddiwrth yr Hollalluog o'r uchelder?

3 Onid oes dinystr i'r auwir? *dialedd* dyeithr i'r rhai sydd yn gwneuthur anwiredd?

4 Onid ydyw efe yn gweled fy ffyrddi? ac yn cyfrif fy holl gamrau?

5 Os rhodiais mewn oferedd, ac os prysurodd fy nhroed i dwyllo;

6 Pwysed fi mewn clorianau cyfiawn, a myned Duw wybod fy mherffraithrwydd.

7 Os gŵyrodd fy ngherddediad allan o'r ffordd; a myned o'm calon ar ol fy llygaid; neu lynu dim aflan wrth fy nwyllaw:

i'w chwennyachu hi:' gwel ar Mat. v. 28. *Pahan gan hyny y meddyliwn am forwyn*—i'w chwennyachu neu ei halogi hi? Byddai hyny yn ddau bechod ar unwaith, sef yn odineb, ac yn dori cyfammod. Gallwn feddl fod y 'rhai ienain' ag y cyfeiriwyd atynt yn pen. xxx. 1, 9, 12, yn dwyn cyhuddiadau disail o'r fath yma yn erbyn Job. Tybia Clarke fod *bethulah*, a gyfieithir yma yn 'forwyn,' yn meddlw *eilmod*; ond y mae yn debycach oddiwrth yr adnodau dŷlnoł mai *benyw* a olygir.

Adn. 2. *Canys pa ran sydd oddiwrth Dduw oddiuchod*] Yr godinebwr a'r torwr ammod? a *pha etifeddiaeth*—ond y dinystr a'r dialedd a grybwyllir isod?

Adn. 3. *Onid oes dinystr i'r auwir*] Sef i'r godinebwr, yn ei gymeriad a'i feddiannau, yn gystal ag yn ei iechyd a'i fywyd yn aml? a *dialedd dyeithr*—rhyw gomp hynod a neilldnol, yr hon ni weinyddir ar neb ond y dosbarth hwn o ddrwgweithredwyr? Ai nid yw Job yn cyfeirio yma at yr *anlladglwyf*, â'r hwn ni chospir neb ond troseddwr y seithfed gorchymyn?

Adn. 4. *Onid ydyw efe yn gwled fy ffyrddi?*] Ac felly, pe buaswn yn euog o anniweirdeb, neu ryw bechod arall, nis gallaswn ei guddio o olwg Daw; ac yn cyfrif fy holl gamrau—yn sylwi yn fanwl ar fy holl ymddygiadau, i'w gosod i lawr yn ei lyfr erbyn dydd y cyfrif? Y meddlw yw, fod yr ystyr-iaeth o hyn yn ddeigon i'w gadw ef rhag anniweirdeb, a phob pechod marwol arall, pe na buasai dim arall.

Adn. 5. *Os rhodiais mewn oferedd*] Mewn celwydd, twyll, neu ragrith: ac os prysurodd fy nhroed i dwyllo—i dwyllo ereill i'r dyben i'm cyfoethogi fy hun, neu i hudo ereill o ffordd rhinwedd.

Adn. 6. *Pwysed fi mewn clorianau cywir*] Boed i Ddnw chwilio i mewn i'm hymddygiadau, a'm cospi os wyf yn haeddu hyny: a *myned Duw wybod fy mherffraithrwydd*—myned wybod, trwy fy chwilio, pa un a ydwyf

8 Yna hauwyf fi, a bwytaed arall; ie, dadwreiddier fy hiliogaeth i.

9 Os twyiled fy nghalon gan wrraig, ac os cynllwynais wrth ddrws fy nghymydog;

10 Maled fy ngwraig inau i wr arall; ac ymgrymed creill arni hi.

11 Canys ysgelelder ydyw hyn, ac anwiredd ydyw i'w gopsi gan farnwyr.

12 Canys tân ydyw a ysa oni anrheithio, ac efe a ddadwreiddia fy holl ffrwyth.

13 Os diystyrais achos fy ngwas

a'm gwasanaethferch, pan ymrysonent â mi;

14 Pa beth gan hyny a wnaf pan godo Duw? a phan ymwelo efe, pa beth a atebaf iddo?

15 Onid yr hwn a'm gwnaeth i yn y groth, a'i gwnaeth yntau? ac onid yr un a'n lluniodd yn y brŷ?

16 Os atteliais ddim o ddeisyfiad y tylawd, ac os gwnaethym i lygaid y weddw ddiffygio;

17 Ac os bwyteais fy mwyd yn unig, ac oni fwytaodd yr amddifad o hono;

yn berffaith ai peidio. Llefarir yma am yr Hollwybodol yn ol dull dynion.

Adn. 7. *Os gwyrdd fy ngherddediad a' llan o'r sfordd*] O sfordd gwirionedd, rhinwedd, a chrefydd; *a myned o'm calon ar ol fy llygaid*—i drachwantu pob peth a welwn, fel y lleidr, y cybydd, a'r anllad; *neu lymu dim aflan wrth fy nwyllaw*—os gafaelais yn eiddo neb ar gan, neu os cyflawnais ryw bechodau aflan. Y LXX a'i cyfieithant, 'os glynodd dim llugr-wobr wrth fy nwyllaw.'

Adn. 8. *Yna hauwyf fi, a bwytaed arall*] Yr hyn a heuais; hyny yw, bydded i ddy-eithriaid fwynbau firwyth fy llafur: ie, dadwreiddier fy hiliogaeth i—neu 'fy nghynrych i,' fel yr arwydda *tzetzari* yn briodol; canys nid oedd gan Job blant yn awr.

Adn. 9. *Os twyiled fy nghalon gan wrraig*] Sef gan wrraig briod, fel y soniasai efe o'r blaen am forwyn, adn. 1; *ac os cynllwynais wrth ddrws fy nghymydog*—gan wylio am gyfleusdra i halogi ei wely ef yn ei absenoldeb.

Adn. 10. *Maled fy ngwraig inau i wr arall*] Cymered gw'r arall fy ngwraig inau yn ordderchwrraig neu gaethforwyn iddo, Exod. xi. 5; *ac ymgrymed creill*—i'w throisio hi. Nid ydym i feddwl fod Job yn dymuno hyn, eithr addef y mae y buasai hyny yn gosp gyfiaw arno ef, pe buasai ef wedi bod yn euog o'r pechod a grybwyllwyd adn. 9.

Adn. 11. *Canys ysgelelder ydyw hyn*] Sef godineb, pa un bynag a fyddo ef yn cael ei gyflawni trwy wob o du y gw'r, neu hudolaeth o du y wrraig; *ac anwiredd ydyw i'w gopsi gan farnwyr*—yr hyn a wneid i'r eithaf yn mhliith pob cenedl. Yn ol cyfraith Moses, yr oedd godineb i'w gopsi â marwolaeth: gwel ar Lef. xx. 10, a Ioan viii. 5. Ac os dianc y pechod hwn rhag cosp barnwyr gwladol, ni ddianc rhag barn Duw, Heb. xiii. 4.

Adn. 12. *Canys tân ydyw a ysa oni anrheithio*] Y mae y pechod o odineb fel tân yn ei natur, o ran ei chwantau llosgedig; ac fel tân yn ei effeithian, yn ysu ac yn difa cymeriad dyn, yn nghyda'i gorrff a'i enaid: *ac efe a ddadwreiddia fy holl ffrwyth*—bydd iddo gloddio dan sail iechyd dyn, sychu i fyny ei nôd a'i ireidd-dra, a difa ei eiddo a'i feddiannau ef.

Adn. 13. *Os diystyrais achos fy ngwas a'm gwasanaethferch*] Gan ymddwyn yn gneu-

lon tuag atynt, a gommedd iddynt yr hyn oedd gyfiawn; *pan ymrysonent â mi*—pan ddygent ryw gwryn yn fy erbyn, megys fod eu gwaith yn rhy drwm, eu hynborth yn rhy briu, neu eu cyflog yn rhy fach. Y mae Job yma yn troi at achos arall i brofi uniondeb ei fuchedd, yn ngwyneb cylhuddiadau ei elynion: gwel ar adn. 1. Nid oedd hawl gan gaethweision i wneuthur un achwyniad yn erbyn eu meistriaid; ond caniatiai Job hyny i'w wasanaethwyr ef, os byddai achos.

Adn. 14. *Pa beth gan hyny a wnaf pan godo Duw*] I ddadlu achos y gorthrymedig yn erbyn y gorthrymwr? *A phan ymwelo efe*—i alw yr euog i gyfrif, neu i'w gopsi; *pa beth a atebaf iddo*—mewn ffordd o'm cyfiawnbau fy hun? Nid yw Job yma yn cyfaddel ei euogrydd; ond dangos y mae na fusasi ganddo un esgus dros ei ymddygiad ped ymddygasai efe yn anghyfiawn felly tuag at ei wasanaethwyr; a bod yr ystyriaeth o hyny wedi peri iddo ef ymddwyn yn deg a chyfiawn tuag atynt pob amser.

Adn. 15. *Onid yr hwn a'm gwnaeth i yn y groth*] Sef y Creawdwr hollalluog; *a'i gwnaeth yntau?*—ac felly pa hawl oedd genyf fi i ddiystyru achos fy ngwes, yn unig am ei fod ef yn was, a minau yn feistr? Fel pe dywedasai, Yr un yw ein Llunwr ni ill dau; ac yr ydym wedi ein llunio yn yr un lle, o'r un defnyddiau, ac i'r un dyben; ac yn fuan iawn bydd raid i ni sefyll o flaen yr un Barnwr, pryd y bydd pob gwahaniaeth rhwng meist'r a gwas, brenin a deiliad, cyfoethog a thylawd, wedi ei ddfodi am byth. Ddarllenwyd, oni ddylai yr ystyriaethau hwn roddi terfyn tragwyddol ar falchder, gormes, a chaethfasnach?

Adn. 16. *Os atteliais ddim o ddeisyfiad y tylawd*] Pan yn ymbil arnaf am gyfiawnder neu elusen; *ac os gwnaethym i lygaid y weddw ddiffygio*—trwy adael iddi edrych ataf yn ofer am ymwared, neu trwy beidio eiyddanu yn ei dagrau. Yma y mae Job yn troi at ddo-barth arall o'i rinweddau, y rhai yr haerasai ei gyhuddwyr iddo fod yn ddiffygiol ynddynt.

Adn. 17. *Ac os bwyteais fy mwyd yn unig*] Heb ranu peth o hono i'r tylodion a'r amddifaid. Yr oedd hyn yn rhinwedd cyffredin yn mhliith yr Arabiaid, ac yn wir yn mhliith pob cenedl arall yn yr amser gynt. Y mae yn

18 (Canys efo a gynyddodd gyda mi, fel *gyda* thad, o'm hieuentid; ac o groth fy mam mi a'i tywysais hi.)

19 Os gwelais neb yn marw o eisiau dillad, a'r anghenog heb wisg:

20 Os ei lwynau ef ni'm bendithiasant, ac *oni* chynhesodd efe gan gnu fy nefaid i;

21 Os codais fy llaw yn erbyn yr amddifad, pan welwn fy nghymorth yn y porth:

22 Syrthied fy mraich oddiwrth fy ysgwydd, a thorer fy mraich oddiwrth y cymal.

23 Canys ofn dilynstr Duw oedd

arnaf; a chan ei uchelder ef ni allwn oddef.

24 Os gosodais fy ngobaith *mewn* aur; ac os dywedais wrth aur coeth, Fy ymddiried *wyt*;

25 Os llawenychais am *fod* fy nghyfoeth yn fawr, ac oblegid i'm llaw gael llawer;

26 Os edrychais ar yr haul pan dywynai, a'r lleuad yn cerdded yn ddysglaer;

27 Ac os huđwyd fy nghalon yn guddiedig, ac os fy ngenau a gusanodd fy llaw:

28 Hyn hefyd *fuasai* anwiredd i'w gopsi gan y barnwyr: canys gwadaswn Dduw uchod.

ddeddf sefydlog hyd heddyw yn mhlith y dwyreiniwyr, fod i'r dyeithriaid gael y rhan gyntaf a'r oraf yn eu gwleddoedd. Dywed *Shaw*, 'pan fyddai eu bwyd wedi ei barotol, yr arferai un o'r teulu sefyll ar le uchel, gan sefain deirgwaith am i'w holl frodyr, meibion y ffyddloniaid, ddyfod i ymgyfranogi o hono, er na byddai neb o honut yn y golwg, nac efallai o fewn can mildir i'r lle.' Gwel ei *Deithiau*, cyf. i. dal. 20.

Adn. 18. *Canys efo a gynyddodd gyda mi fel gyda thad*] Ymddygaais fel tad tuag at blant amddifaid tylodion, y rhai a dyfasant i fyny yn ddynion trwy fy haelioni a'm lletygarwch i; *o'm hieuentid*—er pan oeddwn yn blentyn, neu er pan ddechreuais gadw tŷ: *ac o groth fy mam*—byth er pan wyf yn alluog i wahaniaethu rhwng da a drwg; *mi a'i tywysais hi*—i gael amgeledd yn mhlith fy nhieuu. Efo a ddywed hyn am y *wedd* a grybwyllwyd yn adn. 16, fel y mae ar ymyl y ddalen; hyny yw, pob gweddwr anghenog.

Adn. 19. *Os gwelais neb yn marw o eisiau dillad*] Hyny yw, pan welwn y noeth, dilladwn ef.

Adn. 20. *Os ei lwynau ef ni'm bendithiasant*] Am roddi gwlan fy nefaid i wneyd dillad i'w cyahesu.

Adn. 21. *Os codais fy llaw yn erbyn yr amddifad*] I'w orthrymu ef mewn n modd; *pan welwn fy nghymorth yn y porth*—pan yr oedd genyf fantais a chyfeusdra i wneyd hyny fel prif farnwr y llys.

Adn. 22. *Syrthied fy mraich oddiwrth fy ysgwydd*] Pydred oddiwrth fy ysgwydd, neu tyner hi o'r gwraidd, a hyny trwy farn Duw arnaf, os wyf yn euog o un o'r troseddau a grybwyllwyd uchod, adn. 16—21; *a thorer fy mraich oddiwrth y cymal*—neu oddiwrth yr *elin*, os codais hi rywbrdyr i wneyd cam â neb, neu os na ddefnyddiais hi bob amser i wneyd daioni pan fyddai yn fy ngallu. Ymddengys fod Job yn cael ei gyhuddo o'r holl bethau yma, yr hyn y mae efe yn y modd difrifolaf yn ei wadu.

Adn. 23. *Canys ofn dilynstr Duw oedd arnaf*] Yn fy nghadw rhag troseddau mewn un

o'r pethau uchod; *a chan ei uchelder ef*—sef mawredd ei nerth a'i ogoniant, *ni allwn oddef*—nis gallwn wrthsefyll ei nerth, neu ddyoddef ei lid a'i ddynstr.

Adn. 24. *Os gosodais fy ngobaith mewn aur*] Yn lle ar Dduw; *ac os dywedais wrth aur coeth*—ond oddid eilun wedi ei wneyd o aur; *Fy ymddiried wyt*—neu wrthddrych ei ymddiriediad am ddiogelwch a dedwyddwch.

Adn. 25. *Os llawenychais am fod fy nghyfoeth yn fawr*] Gan sugno fy nghysur a'm gobaith oddiwrth hyny, yn lle oddiwrth gymdeithas a ffaf Duw; *ac oblegid i'm llaw gael llawer*—o bethau y ddaear; canys yr oedd ef gynt yn 'fwyaf o holl feibion y dwyrain:' gwel ar pen. i. 3.

Adn. 26. *Os edrychais ar yr haul pan dywynai*] Fel ag i ymgyrmu o'i flaen ef, neu y lleuad, mewn ffordd o addoliad crefyddol; *a'r lleuad yn cerdded yn ddysglaer*—ar noson glir, a phan yn llawn.

Adn. 27. *Ac os huđwyd fy nghalon yn guddiedig*] Gan ogoniant a dysgleirdeb yr haul a'r llenad, i greuod fod rhywbeth yn ddwyfol ynddynt, a'u bod am hyny yn wrthddrychau addas i'w haddoli; *ac os fy ngenau a gusanodd fy llaw*—yn arwydd o addoliad iddynt, pan y proffeswn addoli eu Creawdwr yn unig. Pan fyddai yr eilun o fewn cyraedd i'r addolwyr, arferent ei gusanu ef; ond pan fyddai hyny yn annichonadwy, megys yn achos y ser a'r planedau, arferent gusanu eu llaw: gwel ar l Bren. xix. 18. Ond nid oedd Job erioed wedi gwneuthur y naill na'r llall.

Adn. 28. *Hyn hefyd fuasai anwiredd i'w gopsi gan y barnwyr*] Yn gystal a'r pechod o odineb, adn. 11. Yn mhlith yr Israellaid, yr oedd eilunaddoliaeth i'w gopsi gan farnwyr daerol â marwolaeth, Deut. xvii. 2—7. *Canys gwadaswn Dduw*—wrth addoli yr haul a'r lleuad, yr hwn nad oes neb ond efe yn briodol wrthddrych addoliad, a'r hwn ni ddryr ei 'ogoniant i arall, na'i fawl i ddelwau cerfedig.'

Uchod—yr oedd yr haul a'r lleuad yn uchel, ond yr oedd Duw yn anfeidrol uwch na hwynt.

Adn. 29. *Os llawenychais i am drychneb yr hwn a'm casai*] Sef am afwydd neu

29 Os llawenychais i am drych-
eb yr hwn a'm casâi, ac os ymgod-
ais pan ddygwyddodd drwg iddo :

30 (Ac ni ddyoddefais i dafnod fy
ngenau bechu; gan ofyn ei einioes
ef trwy felldithio.)

31 Oni ddywedodd dynion fy
mhabell, O na chaem o'i gnawd ef!
ni ddigonir ni.

32 Ni letyodd dyeithr-ddyn yn yr
heol: agorais fy nrysau i'r ffordd-
olion.

33 Os cuddiais fy nghamweddau
fel Adda; gan guddio fy anwiredd
yn fy mynws;

34 A ofnais i dyrfa luosog, neu
a'm dychrynai dirmyg teulu; fel y
tawn heb fyned allan o'm drws?

35 O am un a'm gwrandawai!
wele, fy nymuniad yw, i'r Hollallu-
og fy ateb i, ac ysgrifenu o'm
gwrthwynebwyr lyfr.

36 Diau y dygwn ef ar fy ys-
gwydd; a rhwymwn ef yn lle coron
i mi.

37 Mynegwn iddorifedi fy nghan-
rau; fel tywysog y nesawn ato.

38 Os ydyw fy nhir i yn llefain yn
fy erbyn, ac os ydyw ei gwysau ef
yn cydwlyo;

ddiynstr ei clyn; ac os ymgodais—i lawen-
ychu a gorfoleddu pan ddygwyddai rhyw
ddrwg iddo.

Adn. 30. *Ac ni ddyoddefais i dafnod fy
ngenau bechu* Yn erbyn Duw; *gan ofyn ei
einioes ef*—sef einioes ei clyn; *trwy felldith-
io*—neu ofyn am felldith Duw arno i'w symud
oddiar y ddaear. Neu, fel y mae yn y Saes-
onaeg, 'ni oddetais i'm genau bechu, trwy
ddymuno mellidith i'w enaid.' Leied o'r rhai
a elwir yn Gristionogion a allant ddywedyd
cymaint a hyn!

Adn. 31. *Oni ddywedodd dynion fy mhab-
ell* Sef ei wasanaethwyr, y rhai oeddynt yn
byw yn ei dŷ; *O na chaem o'i gnawd ef!*—
sef enawd gelyn eu meist, yn ol rhai; *ni ddi-
gonir ni*—heb gael ei gnawd i'w larpio rhwng
ein dannedd! Os hyn yw yr ystyr, yr oedd-
ynt yn dra gwahanol i'w meist yn adn. 29, 30.
Ond gall mai yr ystyr yw, fod ei holl denlu yn
arferol o ddywedyd, 'Pwy ni ddigonwyd â'i
gig ef?' gwel *Noyes, Ikenius, &c.* Os hyn yw
y meddwl, cyfeiriad sydd yma at haelioni Job.

Adn. 32. *Ni letyodd dyeithr-ddyn yn yr
heol* Eithr derbynwn ef bob amser i letya
dros nos yn fy nhŷ i; *agorais fy nrysau i'r
fforddolion*—i'w lletya a'u diwallu ar eu taith
dan fy nghronglwyd fy hun.

Adn. 33. *Os cuddiais fy nghamwedd fel
Adda* Fel y gwnaeth Adda yn mbaradwys
ar ol y cwmp, Gen. iii. 8, &c., yr hyn a allai
ef ei wybod trwy draddodiad o'r cynfyd; neu
megys yr arfera dyn euog wneuthur, fel y myn
rhai ei ddarllen; *gan guddio fy anwiredd yn
fy mynws*—o olwg pawb; neu gan ymddwyn
yn rhagritiol. Nid yw efe yn gwadu fod yndd
gamwedd ac anwiredd, fel yn uhob dyn
arall; ond haera nad yw yn rhagritiwr, neu
nad oedd wedi ceisio cuddio nac esgnsodi ei
gamweddau gerbron Duw na dynion.

Adn. 34. *A ofnais i dyrfa luosog?* Naddo;
eithr llefarwn fy meddwl yn hyf, pwy bynag,
a pha nifer bynag, fyddai yn gwrandao. *Neu
a'm dychrynai dirmyg teulu?*—na wnai;
eithr gwawn yr hyn a farwn yn union, er
i'm teulu fy hun, neu ryw dewlu arall, fy nirm-
ygu am hyny. *Fel y tawn heb fyned allan
o'm drws*—fel y byddai arnaf gywilydd llefaru,
neu ymddangos ar yr heol, o herwydd fy ym-

ddygiadau? Neu gall mai yr ystyr yw, 'Os
cuddiais fy nghanwedd fel Adda, yna bydded
i mi ofni tyrfa luosog, dirmyg fy nbeulu, ac
ymddangosiad cyhoeddus; neu tarawer fi yn
fud.' Dywedir y goddefa y wreiddiol y naill
ystyr neu y llall, a dewised y darlennydd yr un
a fyno.

Adn. 35. *O am un a'm gwrandawai* Nen
a roddai i mi gyfleusdra teg i'm hamdidiFFyn
fy hun! *Wele, fy nymuniad yw, i'r Holl-
alluog fy ateb i*—neu fod yn Farnwr ar fy
achos; *ac ysgrifenu o'm gwrthwynebwyr lyfr*
—fod iddo roddi ei gyhuddiadau yn fy erbyn
mewn ysgrifed, fel y gellid eu chwilio a'u
profi yn ddiudedd. Wrth y 'gwrthwynebwyr'
yma y meddylir Eliphaz, Bildad, neu Sophar,
neu y tri yn nghyd.

Adn. 36. *Diau y dygwn ef ar fy ysgwydd*
Sef y cyfryw lyfr o gyhuddiadau, heb ofni ei
gario ef i'r llys fy hun; ac fe allai ei fod yn
golygu hefyd na fyddai efe yn ormod o faich
iddo, am mai un bychan fyddai, heb gynwys
yndo ond ychydig o gyhuddiadau. *A rhwym-
wn ef yn lle coron i mi*—am y byddai, ar ol
i'r cyhuddiadau hyny gael eu chwilio yn ddeg,
yn fwy o anrhydedd i mi nag o warth.

Adn. 37. *Mynegwn iddo rifedi fy nghan-
rau* Adroddwn i'm Barnwr holl weithredodd
fy mywyd, rhag y byddai fy ngrwrthwynebwyr
wedi anghofoi dodi rhai o bonnynt i lawr yn ei
lyfr: *fel tywysog y nesawn ato*—yn hyderus
a chalonog; neu fel un yn myned i gael ei an-
rhydeddu a'i goroni, yn hytrach na'i gondemni-
o a'i gopsi. I gyflawn ddeall meddwl Job,
dylai y darlennydd gofio mai cyfeirio y mae
efe yma at ei ddiinwiderwydd gyda golwg ar
y cyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn gan
ddynion, yn hytrach nag at ei berffeithrwydd
dibechod yn ngolwg Duw.

Adn. 38. *Os ydyw fy nhir yn llefain yn fy
erbyn* Am fy mod wedi ei gyraedd ef trwy
anonestrwydd, neu ei lafurio trwy orchwysu a
gorthrymu fy ngweision; *ac os ydyw ei gwys-
au ef yn cydwlyo*—am aredig yn rhy fynych,
heb adael i'r tir weithiau gael gorphwysu. Y
mae y tir a'r cwysau, mewn dull barddonol
prydfeth, yn cael eu personoli yma, fel pe
byddent yn alluog i deimlo ac wlyo. Y mae
synwyr cyffredin, yn gystal a phrofiad, yn

39 Os bwyteais i ei gnwd ef heb arian, ac os cystuddiais enaid ei berchenogion ef:

40 Tyfed ysgall yn lle gwenith, a bulwg yn lle haidd.

Diweddwyd geiriau Job.

PENNOD XXXII.

FELLY y tri gŵr yma a beidiasant âg ateb i Job, am ei fod ef

dysgu i ddyyn y dylai y tir gael seibiant weithiau; ac yn mben oesoedd wedi hyn gwnaed deddf yn rhwymo fod i'r tir gael gorphwysio bob seithfed blwyddyn, Lef. xxv. 1—7.

Adn. 39. *Os bwyteais i ei gnwd ef heb arian*] Heb dalu arian am wrteithio y tir, neu am hau a medi i gael cnwd arno; *ac os cystuddiais enaid ei berchenogion ef*—trwy gymeryd eu tir yn annglyfiawu oddiwrtlynt; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'os perais i'w berchenogion gollu eu *bywyd*,' fel y galiwn i gael eu tir ar eu hol hwynt, fel y gwnaeth Ahab â Naboth er mwyn cael ei winllan ef: gwel ar 1 Bren. xxi. 1—10.

Adn. 40. *Tyfed ysgall yn lle gwenith*] I wneyd y tir hwnw yn hollol ddiwerth; *a bulwg yn lle haidd*—sef rhyw fath ar chwyn drwg-sawrus a gwenwynig. Hyn yw, os oedd Job yn euog o un o'r pechodau uchod, efe a ewyllisiai i'w dir ddwyn cnwd o ysgall a chwyn gwenwynig, yn lle y gwenith a'r haidd a hausasai efe ynddo.

Diweddwyd geiriau Job] Dyma ddiwedd y geiriau a draethodd Job mewn amddiffyniad iddo ei hun yn ngwyneb cyhuddiadau disail Eliphaz, Bildad, a Sophar yn y gynadledd flaenorol. Ar ol iddo eu dystywi hwy, efe a ddystawodd ei hunan. Y mae y gweddill o'r llyfr hwn yn cael ei wneyd i fyny âg araeth *Elihu*, hyd ddiwedd pen. xxxvii.; ac oddiyno hyd ddiwedd pen. xli. cawn atebiad arddunawl Duw o'r corwynt, i'r hwn yr etyb Job yn fyr a gostyngedig yn pen. xl. 3—5, a xlii. 1—6.

PEN. XXXII. Adn. 1. *Felly y tri gŵr yma*] Eliphaz, Bildad, a Sophar, *a beidiasant âg ateb i Job*—ni chynygiasant wrthbrofi yr hyn a ddywedasai efe yn pen. xxvi.—xxxi; *am ei fod ef yn gyfiawn yn ei olwg ei hun*—yn parhau i hōni ei gyfiawnder a'i berffeithrwydd yn ngwyneb eu cyhuddiadau hwy yn ei erbyn, heb ganddynt hwythau un gallu i'w wrthbrofi ef. Ond y mae y LXX. y Syriaeg, yr Arabaeg, a'r Galdeaeg, yn nghydag un o ysgribyfau Hebreig Kennicott, yn ei ddarllen, 'Am ei fod ef yn gyfiawn yn eu golwg hwy'; yr hyn a arwydda, eu bod hwy erbyn hyn wedi eu hargyhoeddi ei fod ef yn ŵr da a santaid, a'u bod wedi ei gyhuddo ef o ragrith ac annwioledeb ar gam.

Adn. 2. *Yna digofaint Elihu, mab Barachel y Buziad, o genedl Ram*] Hyn yw y cwbl a wyddom am achau y dyn hwn. *Buz* oedd ail fab Nacor, brawd Abraham, Gen. xxii. 21. Crybwyllir am ddinas o'r enw *Buz* yn Jer. xxv. 23, mewn cysylltiad â Dedan a

yn gyfiawn yn ei olwg ei hun.

2 *Yna digofaint Elihu, mab Barachel y Buziad, o genedl Ram, a gyneuodd: ei ddigofaint ef a enynodd yn erbyn Job, am farnu o honoei enaid yn gyfiawn oflaen Duw.*

3 *A'i ddigofaint ef a gyneuodd yn erbyn ei dri chyfaill, am na chwasant hwy ateb, ac er hynny, farnu o honynt Job yn euog.*

Thema, dwy o ddinasoedd yn Idumea neu Arabia; a thybia rhai fod Barachel, tad Elihu, yn ŵr o'r ddinas hōno. Wrth 'genedl *Ram*' y dealla rhai 'genedl *Aram*,' yr hwn oedd ŵyr i Nacor brawd Abraham, Gen. xxii. 21; neu, fel y mae y Galdeaeg yn ei ddarllen, 'genedl *Abraham*.' Os yw hyn felly, fe ganlyf fod Elihu a Job yn oesi yn hir ar ol amser Abraham; ond nid oes dim sicrwydd ar y pen hwn: gwel y rhagymadrodd. Ystyr yr enw *Elihu* yw 'Duw-Jehofa,' neu 'Fy Nuw yw efe.' Tybia Warburton mai *Ezra* oedd Elihu; a'r rabbiniaid a haerant mai *Balaam* oedd efe; tra y dywed Dr. Hodges mai yr *Arglwydd Iesu Crist* ydoedd, yr hwn a ddaethai i euogbrofi Job o hunan-gyfiawnder, ac i ddyssgu yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd. Ond yn mhla le y mae y *prafw* o wirionedd y tybia hyn? Ymddengys, modd bynag, fod Elihu yn ŵr ieuanc gŵylaidd, duwiol, a doeth; a'i fod yn bresenol ar hyd ystod y gynadledd flaenorol; ac wedi sylwi yn fanwl ar y cwbl a ddywedwyd o bob tu. Y mae efe yn gweldd bai ar y ddwy blaid: ar Job, am ei gyfiawnhau ei hun o flaen Duw; ac ar y tri chyfaill, am eu barn gul a'u geiriau pigog hwythau wrth y patriarch dyoddefus. Yr oeddynt hwy yn meddwl fod Job yn rhagrithiwr, a bod ei bechodau dirgel wedi dyfod yn awr i'r goleu, a bod ei ddyoddefiadau yn goshp arno am danynt. Dengys Elihu fod y dyb hon yn fyrbwyll a disail, ac yn tarddu oddiar olwg amberfaith ar ragluniaeth Duw. Nid yw efe chwaiht yn petruso ceryddu Job am lawer o'i ymadroddion, ac y mae yn coffau iddo anfeidrol berffeithderau Duw fel sail ei hyder a'i ymstyngiad. Ymddengys oddiwrth pen. xxxiii. 23, 24, fod gan Elihu olwg eglur ar drefu yr iachawdwr-iaeth; a thra y mae ei iaith yn gref a gonest, y mae yn fynych yn dirion a theimladwy, er ei fod yntau weithiau yn syrthio i amryfusedd, fel y danghoswn wrth fyned yn mlaen. *Ei ddigofaint ef a enynodd yn erbyn Job*—hyn yw, yr oedd wedi ymgynhyrfu yn fawr, a theimlai awydd cryf i amddiffyn cyfiawnder a rhagluniaeth Duw yn ngwyneb cyhuddiadau Job a'i gyfeillion. *Am farnu o hono ei enaid yn gyfiawn o flaen Duw*—sef ei ymddygiadau, ei egwyddorion, ei feddyliau, a'i eiriau. Neu, fel yr arwydda y wreiddiol, *yn fwy na Duw*; hyn yw, am fod Job yn fwy awyddus i'w gyfiawnhau ei hun, nag yr ydoedd i gyfiawnhau Duw yn ei weinyddiadau tu ag ato.

Adn. 3. *A'i ddigofaint ef a gyneuodd yn erbyn ei dri chyfaill*] Yr un modd ag yn erbyn Job, adn. 2; *am na chwasant hwy ateb*—neu

4 Elihu hefyd a arosasai ar Job nes darfod iddo lefaru: canys yr oeddynt hwy yn hŷn nag ef o oedran.

5 Pan welodd Elihu nad oedd ateb gan y tri wŷr hyn, yna y cyneuodd ei ddigofaint ef.

6 Ac Elihu, mab Barachel y Buziad, a atebodd ac a ddywedodd, Ieuanec ydwyf o oedran, chwithau ydych hen iawn; am hyny yr arswydais, ac yr ofnais ddangos fy meddwl i chi.

7 Dywedais, Dyddiau a draethant, a lluwos o flynyddoedd a ddysgant ddoethineb.

8 Ond y mae ysbryd mewn dyn;

ac ysbrydoliaeth yr Hollallnog sydd yn gwneuthur iddynt hwy ddeall.

9 Nid yw gwŷr mawrion ddoeth bob amser: ac nid yw henafgwyr yn deall barn.

10 Am hyny y dywedais, Gwrando; minau a ddanghosaffy meddwl.

11 Wele, dysgwyliais wrth eich geiriau; clust-ymwrandewais â'ch rhesymau, tra y chwiliasoeh chiwi am eiriau.

12 Ie, mi a ddeliais arnoch: ac wele, nid oedd un o honoch yn argyhoeddi Job, gan ateb ei eiriau ef:

13 Rhag dywedyd o honoch, Ni a gawsom ddoethineb: Duw sydd yn ei wthio ef i lawr, ac nid dyn.

am na ddygasant yn mlaen atebiad boddhaol i brofi fod Job yn euog, pan yr oeddynt yn barnu ei fod fellly.

Adn. 4. *Elihu hefyd a arosasai ar Job*] Neu a ddysgwyliasai gydag amynedd ac awydd, fel yr arwydd *chiccha* yma; *nes darfod iddo lefaru*—efe a'i dri chyfaill; *canys yr oeddynt hwy yn hŷn nag ef*—a'r fath oedd y parch a ddanghosid i henafgwyr yn y dyddiau hyny, fel na chynygiai yr ieuenticid lefaru ar eu traws, yn enwedig ar bnyciau crefyddol.

Adn. 5. *Pan welodd Elihu*] Fod Job wedi darfod lefaru, ac nad oedd un o'r tri yn myned i'w ateb ef; *yna y cyneuodd ei ddigofaint ef*—nid mewn teimlad neu nwyd bechadurn, ond mewn awydd duwiol am gyfiawnder o bob tu i'r ddadl.

Adn. 6. *Ac Elihu, mab Barachel y Buziad, a atebodd ac a ddywedodd*] Ymddengys fod y rhagarweiniad uchod, o ddechre y benod hyd yma, wedi ei ysgrifenu mewn rhyddiaith; ac o hyn yn mlaen, mewn math o farddoniaeth. *Ieuanec ydwyf o oedran, chwithau ydych hen iawn*—gwel ar pen. xv. 10; *am hyny yr arswydais*—rhag i chiwi fy ystyried i yn hŷf a rhyfygus wrth draethu fy meddwl ar y ddadl mewn llaw.

Adn. 7. *Dywedais*] Ynof fy hun, *Dyddiau a draethant*—sef dynion wedi cyraedd llawer o ddyddiau a blynyddoedd; *a lluwos o flynyddoedd a ddysgant ddoethineb*—i ni yr ieuenticid, am fod gwŷr oedranus wedi cael mwy o fanteision na ni i gyraedd gwybodaeth a doethineb.

Adn. 8. *Ond y mae ysbryd mewn dyn*] *Seff* enaid rhesymol; ac am hyny gall pob dyn, pa un bynag ai hen ai ienanc, wahaniaethu i ryw raddau rhwng da a drwg, rhwng gwirionedd a thwyll; ac o ganlyniad, beiddiaf finau ddangos fy meddwl. *Ac ysbrydoliaeth yr Hollallnog sydd yn gwneuthur iddynt hwy ddeall*—sydd yn addysgu enaid rhesymol dynion yn y wybodaeth o bethau dwyfol. Fel pe dywedais, Yr wyf yn gwled nad yw doethineb nesol yn eiddo henafgwyr bob amser, ond fod Duw yn ei roddi yn fynych, mewn atebiad i weddi, i rai ieuangach na hwynt. Rhodd

ddwyfol ydwy, heb fod yn ymddibynu ar aml-dra blynyddoedd, ond yn cael ei rhoddi trwy ddylanwad Ysbryd Duw i ddynion o bob oedran.

Adn. 9. *Nid yw gwŷr mawrion ddoeth bob amser*] Sef rhai mawrion mewn swydd, awdurdod, a chyfoeth; *ac nid yw henafgwyr yn deall barn*—bob amser, sef yn deall yr hyn sydd uniawn a chymhwys, neu drefn Duw o ymddwyn at ddynion, a'i resymau ef dros ei weinyddiadau. Felly yr oedd yn bod gyda chyfeillion Job, y rhai oeddynt wedi camgymeryd yn ddirfawr yn ei achos ef, ac wedi myned o'r diwedd i fetnu dywedyd gair.

Adn. 10. *Am hyny y dywedais*] Yn gyntaf yn fy meddwl fy hun, ac yr wyf yn awr yn myned i'w ddywedyd â'm tafod; *Gwrando fi*—er mai un bychan ac ieuanc ydwyf; *minau a ddanghosaffy fy meddwl*—ar y pynciau mewn dadl rhyngoch.

Adn. 11. *Wele, dysgwyliais wrth eich geiriau*] Yn ddytaw, dyfal, ac amyneddgar; *clust-ymwrandewais â'ch rhesymau*—o bob tu i'r ddadl; *tra y chwiliasoeh chiwi am eiriau*—i roddi allan eich meddyliau, ac am feddyliau i'w cyfleu trwy y geiriau hyny. Yr oedd hon yn wawdiaith gref, a rhaid eu bod hwy oll yn teimlo ei grym.

Adn. 12. *Ie, mi a ddeliais arnoch*] A greffais yn fanwl ar bob gair a ddywedaisoch; *ac wele*—ersyndod, *nid oedd un o honoch yn argyhoeddi Job*—yn gallu ei argyhoeddi ef, trwy wrthbrofi ei resymau; *gan ateb ei eiriau ef*—y rhai a draethai efe mewn amddiffyniad iddo ei hun.

Adn. 13. *Rhag dywedyd o honoch, Ni a gawsom ddoethineb*] Hyny yw, goddefwyd i chiwi fetnu argyhoeddi Job, rhag ymfrostio o honoch yn eich doethineb naturiol fel henafgwyr profedig, fel pe bnasech wedi deall yr achos o adfyd Job trwy synwyr cyffredin. *Duw sydd yn ei wthio ef i lawr, ac nid dyn*—hyny yw, yn ol rhai, barn uniongyrchol oddiwrth Dduw yw adfyd Job, yn gomp arno am ei ragrith a'i annuwioldeb. Ond y mae yn debycach mai geiriau *Elihu* yw y rhan ddiweddar o'r adnod, ac mai ystyr y 'gwthio i

14 Er na hwyliodd efe *ei ymadroddion yn fy erbyn i* : ac nid atebaf finau iddo â'ch geiriau chwi.

15 Hwyl y synasant, nid atebasant mwyl; peidiasant â llesfaru.

16 Wedi dysgwyl o honof, (canys ni lefarent, eithr sefyll heb ateb mwyl,)

17 *Dywedais*, Minau a atebaf fy rhan, minau a ddanghosaffymeddwl.

18 Canys yr ydwyf yn llawn geiriau : y mae yr ysbryd sydd ynof yn fy nghymhell i.

19 Wele, fy mol *sydd* fel gwin nid agorid arno : y mae efe yn hollti fel costrelau newyddion.

20 Dywedaf, fel y caffwyf fy anadl : agoraf fy ngwefusau, ac atebaf.

21 Ni dderbyniaf yn awr wyneb neb : ni wenieithiaf wrth ddyd.

22 Canys ni fedraf wenieithio; *pe gwnawn*, buan y'm cymerai fy Ngwneuthurwr ymaith.

PENNOD XXXIII.

OHERWYDD paham, Job, clyw, atolwg, fy ymadroddion; agwrando fy holl ciriau.

2 Wele yr ydwyf yn awr yn agoryd fy ngenau; y mae fy nhafod

lawr' yma yw *argyhoeddi* Job : fel pe dywedasai, Gwaith Duw, ac nid dynion, yw argyhoeddi a darostwng Job; neu effaith 'ysbrydoliaeth yr Hollalluog,' adn. 8, ac nid effaith doethineb henafgwyr. Y mae y golygiad hwn yn gwneyd synwyr da, ac yn cynwys perffaith gysondeb.

Adn. 14. *Er na hwyliodd efe ei ymadroddion yn fy erbyn i* Fel ag i'm gosod i dan yr angenrheidiolrwydd o lefaru mewn amddiffyniad i mi fy hun; ac nid atebaf finau iddo â'ch geiriau chwi—yn drahaus a phligog fel y gwnaethoch chwi. Nid oedd Elihu wedi cael dolurio ei feddwl ei hun gan ymadroddion Job, ac nid oedd ef yn bwriadu dolurio ei feddwl yntau.

Adn. 15. *Hwyl y synasant*] Sef tri ehyfaill Job, naill ai wrth ei glywed ef yn llefaru mor hyderus am ei ddiwiedrwydd a'i gyfiawnder ei hun, neu ynte am na fyddent wrthbrofi ei iesymau; *nid atebasant mwyl*—mewn ffordd o gyhuddiad iddo, na gwrthbrofiad o hono; *peidiasant â llesfaru*—a dyma y rheswm paham yr wyf fi yn cymeryd y mater mewn llaw. Y mae Elihu yma fel pe byddai yn troi i lefaru wrth yr edrychwyr ag oeddynt wedi ymgynull o amgylch Job. Neu gall fod hyn yn cyfeirio at eu gwaith yn synu wrth ymadroddion Elihu yn yr adnodau blaenorol.

Adn. 16. *Wedi dysgwyl o honof*] A hynv yn ofer hyd yma, am i un o'r tri ddywedwyd gair yn mhellach wrth Job, neu mewn atebiad i eiriau Elihu ei hun : gwel ar adn. 15.

Adn. 17. *Dywedais*] Wrthf fy hun, *Minau a atebaf fy rhan*—a gymeraf achlysur oddiwrth eu dystawrydd hwy i ddangos fy meddwl fy hun ar y mater dan sylw.

Adn. 18. *Canys yr ydwyf yn llawn geiriau*] Y mae genyf lawer i'w ddywedwyd ar yr achos hwn; ac y mae yr ysbryd sydd ynof yn fy nghymhell i—efe a gyfeiria yn debygol at ysbrydoliaeth yr Hollalluog, gan yr hwn, fel y tybiai efe, y cynhyrfid ef i lefaru : gwel ar adn. 8. Fel dyn ieuane, nis gallai hōni llawer o awdurdod a doethineb oddiwrth ei oedran a'i brofiad ei hun, fel y gwai a triwyr ereill; eithr y mae yn eu hōni oddiwrth ysbrydoliaeth ddigyfrwng yr Ysbryd Glân.

Adn. 19. *Wele, fy mol*] Fy mynwes, fy meddwl, neu fy nheimpladau; *sydd fel gwin nid agorid arno*—fel gwin yn ymweithio mewn llestr heb dwll ynddo i ollwng ei nerth allan, ac felly yn barod i beri ffrydriad : *y mae efe yn hollti fel costrelau newyddion*—Saes., 'yn barod i hollti.' Yr oedd gwin newydd yn cael ei roddi mewn costrelau newyddion wedi eu gwneuthur o *grwyn*; ac felly, os na fyddai egoriad ynddynt, yr oeddynt yn debyg o hollti gan rym yr ymweithiad. Crybwyllir 'costrelau newyddion,' am na ddodid gwin newydd ymweithiedig mewn hen gostrelau : gwel ar Mat. ix. 17. Meddwl Elihu oedd, fod ei fynwes yn rhy lawn i allu yngynal, heb iddi roddi gollyngdod i'w deimpladau.

Adn. 20. *Dywedaf, fel y caffwyf fy anadl*] Llefaraf, i'r dyben i esmwythau fy meddwl; *agoraf fy ngwefusau, ac atebaf*—i roddi gollyngdod i'm teimpladau, y rhai sydd fel yn ymweithio o'm mewn trwy gymhelliaid dwyfol ysbrydoliaeth.

Adn. 21. *Ni dderbyniaf yn awr wyneb neb*] Rhag eu hofn, neu er mwyn ennill eu ffaf; *ni wenieithiaf wrth ddyd*—ond dywedaf y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir, yn onest a diduedd.

Adn. 22. *Canys ni fedraf wenieithio*] Y mae yn groes i'm meddwl a'm harferiad bob amser, ac yn llawer mwyl felly yn awr tra yr wyf dan arweiniad dwyfol ysbrydoliaeth : *pe gwnawn*—pe byddai i mi wenieithio wrth ddyd, trwy ei orddyrchafu ef, neu roddi teitlau anrhydeddus iddo er mwyn ennill ei ffaf, pan na bo dim ynddo yn teilyngu y fath rith anrhydedd; *buan y'm cymerai fy Ngwneuthurwr ymaith*—o'r byd hwn, yn gosh am fy rhagrith a'm gweniaith. Ond gan nad yw 'pe gwnawn' yn y wreiddiol, gall mai yr ystyr yw, 'Ni feiddiaf wenieithio, am y bydd i fy Ngwneuthurwr cyn hir fy ngalw ymaith trwy farwolaeth,' pryd y rhaid i mi roddi cyfrif o'i flaeu am fy holl ciriau yn gystal a'm gweithredoedd.

PEN. XXXIII. Adn. 1. *O herwydd paham, Job, clyw, atolwg, fy ymadroddion*] Y mae Elihu yn y bennod hon yn llefaru yn

yn dywedyd yn nhatlod fy ngenau.

3 O uniondeb fy nghalon y bydd fy ngeiriau; a'm gwefusau a adroddant wybodaeth bur.

4 Ysbryd Duw a'm gwnaeth i; ac anall yr Hollalluog a'm bywiocaodd i.

5 Os gelli, ateb fi: ymbarotoa, a saf o'm blaen i.

6 Wele fi, yn ol dy ddymuniad di, yn lle Duw: allan o'r clai y trowyd finau.

7 Wele, ni'th ddychryna fy arswyd i, ac ni bydd fy llaw yn drom arnat.

neillduol wrth Job, fel y gwna efo yn y bennod nesaf wrth ereill hefyd.

Adn. 2. *Wele, yr ydwyf yn awr yn agor- yd fy ngenau*] I roddi gollyngodol i'w deimladau, y rhai oeddynt bron a hollti ei fynwes ef, pen. xxxii. 19; *y mae fy nhasod yn dywedyd yn nhatlod fy ngenau*—y mae fy meddyliau wedi crynhoi yn fy ngenau, fel ag yr wyf ar unwaith yn myned i ddechreu ar y mater ag sydd genyf i'w draethu. Yr oedd y bennod flaenorol yn cael ei hystyried ganddo tel math o arweinid i mewn; ond bellach y mae yn dyfod at ei destyn.

Adn. 3. *O uniondeb fy nghalon y bydd fy ngeiriau*] Er fod fy ngeiriau eisioes yn fy ngenau, eto nid geiriau y wefus yn unig fyddant, neu eiriau gweigion; eithr geiriau yn deilliaw o'm calon, a hōno yn galon union a gonest; *a'm gwefusau a adroddant wybodaeth bur*—heb ei chymysgu â dychymygion ofer.

Adn. 4. *Ysbryd Duw a'm gwnaeth i*] O ran fy nghorff; *ac anall yr Hollalluog a'm bywiocaodd i*—o ran fy enaid; hynny yw, a'm bywiocaodd i â bywyd anifeilaidd neu naturiol, ac â bywyd deallol ac ysbrydol. Efo a gyfeiria yma at greadigaeth dyn ar y cyntaf, Gen. ii 7; a'i feddwl yw, nad oedd efo ddim ond dyn fel yntau, ac am hynny nad oedd gan Job achos i ddychrynu rhagddo ef, adn. 7.

Adn. 5. *Os gelli, ateb fi*] Wedi i mi orphen llefaru; *ymbarotoa*—i wrando arnaf, neu i'm haterb i ar ol i ti fy nghlywed; *a saf o'm blaen*—i ateb, yr hwn nad wyf ond dyn yn unig fel tithau.

Adn. 6. *Wele fi, yn ol dy ddymuniad di, yn lle Duw*] Tybia rhai mai yr ystyr yw, fod Job wedi dymuno yn fynych i ryw farwr di- quedd dros Dduw ddyfod i benderfynu ei achos ef, ac mai hwnw yn awr ydoedd Elihu. *Allan o'r clai y trowyd finau*—dyn fel ti dy hunan, ac wedi ei wneyd ar y cyntaf o bridd y ddaear, ydwyf finau hefyd. Ond yn lle 'yn ol dy ddymuniad,' y mae rhai yn cyfeithu y darn cyntaf, 'wele fi yn gyffelyb i ti'; ac y mae Good yn cyfeithu y darn olaf, 'minau hefyd a ffurfiwyd gan Dduw allan o'r clai.'

Adn. 7. *Wele, ni'th ddychryna fy arswyd i*] Mohonot, gan mai dyn cyffelyb i ti wyf

8 Dywedaist yn ddiau lle y elywais i, a myfi a glywais lais dy ymadroddion:

9 Pur ydwyf fi heb gamwedd: glân ydwyf, ac heb anwiredd ynof.

10 Wele, efo a gafodd achosion yn fy erbyn: y mae efo yn fy nghyfrif yn elyn iddo.

11 Y mae yn gosod fy nbraed yn y cyffion: y mae yn gwylid fy holl lwybrau.

12 Wele, yn hyn nid ydwyf gyfiaw. Mi a'th atebaf, mai mwy ydyw Duw na dyn.

finau hefyd, ac nid Duw; *ac ni bydd fy llaw yn drom arnat*—yr oedd Job wedi ofni llaw a gwialen Duw, pen. ix. 34, a xiii. 21; ond yn awr nid oedd ganddo ddim i'w ofni, gan mai dyn fel yntau oedd yn myned i drin ei achos.

Adn. 8. *Dywedaist yn ddiau lle y elywais i*] Trwy fy mod yn bresenol yn ystod yr holl gynadledol rhyngot ti a'th gyfeillion; *a myfi a glywais lais dy ymadroddion*—ac felly yr wyf yn myned i'th geryddu am eiriau a glywais fy hun genyf, ac nid dy farnu oddiar dychymygion ansier fel y gwna'i dy dri chyfaill. Dyfynir y tair adnod ganlynol gan Elihu fol geiriau Job.

Adn. 9. *Pur ydwyf fi heb gamwedd*] Nid oedd Job wedi dywedyd hyn yn hollol, ond casglai Elihu hynny oddiwrth ei eiriau ef yn pen. x. 7, a xiii. 23: gwel y sylwadau yno, ac hefyd ar pen. ix. 17, 20, 21. *Glân ydwyf, ac heb anwiredd ynof*—nid oedd Job erioed wedi dywedyd ei fod yn berffaith ddibechod, er ei fod yn haeru o hyd nad oedd yn euog o'r rhag- rith a'r annuwioledeb a briodolidd iddo gan ei gyfeillion; ac felly y mae Elihu yn gwneyd cam â Job, wrth roddi ystyr arall i'w eiriau.

Adn. 10. *Wele, efo a gafodd achosion yn fy erbyn*] Hynny yw, y mae Duw yn crasfu ar fy niffygion, fel y gallo gael achos i'm cospi; neu, fel y mae HEATH ac ereill yn ei gyfeithu, 'y mae yn dyfeisio creulonderau yn fy erbyn.' *Y mae efo yn fy nghyfrif yn elyn iddo*—neu yn ymddwyn tuag ataf fel pe bawn yn elyn iddo. Yr oedd Job wedi dywedyd y geiriau olaf hyn, pen. xix. 11.

Adn. 11. *Y mae yn gosod fy nbraed yn y cyffion, &c.*] Yr oedd Job wedi dywedyd hyn hefyd: gwel ar pen. xiii. 27.

Adn. 12. *Wele, yn hyn*] Yn yr ymadroddion cabledus hyn am Dduw; *nid ydwyf gyfiaw*—nis gellir dy gyfiawnhau: ac er nad wyf fi yn dy gyhuddo di o bechodau ereill, fel y gwnaeth dy gyfeillion, eto yn hyn yr wyt yn feis; ac y mae yn rhaid i mi dy ateb, trwy ddywedyd, *mai mwy ydyw Duw na dyn*—nid yn unig mewn mawredd a gallu, yr hyn yr wyt ti dy hun yn ei gydnaboli; ond mwy hefyd mewn cyfiawnder, doethineb, a daioni; ac am hynny ni ddylesit lefaru fel y gwnaethost am y Daw mawr.

13 Paham yr ymrysoni yn ei erbyn ef? o herwydd nid ydyw efe yn rhoi cyfrif am ddim o'i weithredoedd.

14 Canys y mae Duw yn llefaru unwaith, ië, ddwywaith; ond ni ddeall dyn.

15 Trwy hân, a thrwy weledigaeth nos, pan syrthio trymgwsg ar ddynion, wrth hepian ar wely;

16 Yna yr egyr efe glustiau dynion, ac y selia efe addysg iddynt:

17 I dynu dyn oddiwrth ei waith,

ac i guddio balchder oddiwrth ddyd.

18 Y mae efe yn cadw ei enaid ef rhag y pwll; a'i hoedl ef rhag ei cholli trwy y cleddyf.

19 Ac efe a geryddir trwy ofid ar ei wely; a lluaws ei esgyrn ef â gofid caled:

20 Fel y ffeiddio ei fywyd ef fara, a'i enaid fwyd blasus.

21 Derfydd ei gnawd ef allan o olwg: saif ei esgyrn allan, y rhai ni welid o'r blaen.

22 Nesâu y mae ei enaid

Adn. 13. *Paham yr ymrysoni yn ei erbyn ef?* Ar ba sail, ac i ba ddyben? neu pa fantais a ddysgwyl oddiwrth hyny? *Oherwydd nid ydyw efe yn rhoi cyfrif am ddim o'i weithredoedd*—trwy ei fod yn Benarglwydd ar babw a phobpeth. Ond er nad yw Duw yn rhoi cyfrif am ei weithredoedd, neu yn amlygu i ddyd bob amser ei reswm drostynt, eto y mae gando ef resymau digonol dros ymddwyn fel y gwna, a'r rhai hyny yn anfeidrol gyfiawn, doeth, a da; a'u dyledswydd ninaw yw ym-ostwng dan ei alluog law ef, a bodloni i'w drefniadau. Pe baem ni bob amser yn deall y rheswm paham y mae efe yn ein cystuddio ni, ein hymostyngiad felly fyddai nid i *ewyll-ys Duw*, ond i'n *gwylbodaeth* ein hunain o'r hyn sydd i'w peth. ac am hyny y mae Duw yn fynych yn myned heibio i ni mewn cymylau a thew dywyllwch, i'n profi a allni ni gredau ei fod ef yn gwneyd pob peth yn dda, hyd yn nod pan na byddom yn gallu deall ei reswm ef am ei ymddygiadan. Y rheswm dros gystuddio Job oedd, i ddangos i Satan fod ei grefydd ef o'r iawn ryw, ac yn dal yr un dan holl ddrygau bywyd; yr hyn ond odid na wyddai Job eto, mwy na'i gyfeillion: gwel ar pen. i. 12, a ii. 4—6, a xiii. 23.

Adn. 14. *Canys y mae Duw yn llefaru* Er nad yw efe yn rhoddi cyfrif i ddynion am ddim o'i weithredoedd, eto y mae efe yn gwneyd iddynt beth gwell na hyny, sef eu dysgu a'u rhybyddio lawer gwaith a llawer modd, i'r dyben i'w denu hwynt oddiwrth eu drygioni, a'u dwyn i ymddyddid ynddo ef ei hun. *Unwaith, ië, ddwywaith*—hyny yw, yn fynych, drachefn a thrachefn. Y mae efe yn llefaru yn eu cydwybodau trwy ei ragluniaeth a'i ras, trwy ei Ysbyrd a'i weision. *Onid ni ddeall dyn*—hyny yw, y mae efe yn llefaru felly, er nad yw dynion yn fynych yn talu sylw i'w lefydd ef. Y modd y llefaru Duw wrth ddyd a ddarlunir isod, adn. 15—24.

Adn. 15. *Trwy hân*] Saes., 'mewn brenddwyd'; *trwy weledigaeth nos*—efe a grybwylla hyn fel un o'r fflydd ag yr arferai Duw ddat-guddio ei feddwl i ddynion cyn i'r ysgrythyr-au gael eu hysgrifennu, Gen. xx. 6, a xli. 1, 28; gwel hefyd ar pen. iv. 12—17. *Pan syrthio trymgwsg ar ddynion, wrth hepian ar wely*—ceid y gweledigaethau mewn trymgwsg fe allai, a'r breuddwydion wrth hepian, yr hyn

oedd gwsg ysgafnach na'r cyntaf, neu gyflwr rhwng cwsg a bod yn effro.

Adn. 16. *Yna yr egyr efe glustiau dynion*] Sef eu deall a'u meddyliau; *ac y selia efe addysg iddynt*—i'w gofio ganddynt ar ol deffro.

Adn. 17. *I dynu dyn oddiwrth ei waith*] Sef oddiwrth ei weithredoedd pechadurus, trwy ddangos iddo y canlyniad truenus o honynt; *ac i guddio balchder oddiwrth ddyd*—i beri iddo beidio ymddyddir yn ei hunan-gyfiawnder, a'i ddwyn i geisio trugaredd Duw.

Adn. 18. *Y mae efe*] Sef Duw, yn fynych trwy y moddion hyn, *yn cadw ei enaid ef*—sef efe ei hun; *rhag y pwll*—ei goffi rhag bedd anamserol, a'i enaid rhag y pydew diwaelod; *a'i hoedl ef rhag ei cholli trwy y cleddyf*—trwy gleddyf y llofrudd, neu trwy ryw gomp angenol oddiar law y swyddog gwladol am bechodau ysgeler. Y meddwl yw, fod Duw yn fynych trwy y rhybyddion hyn yn cadw dyn oddiwrth yrfa bechadurus, yr hon a all arwain i farwolaeth dreisiol, naill ai fel cosp am ei bechodau, neu trwy law y llofrudd, neu ynte trwy ryfel. Byddai yn hawdd rhoddi siamp-iau o hyn oll; ond gall gwylbodaeth y darllen-ydd arbed y drafferth hon.

Adn. 19. *Ac efe a geryddir trwy ofid ar ei wely*] Sef trwy gystudd trwm a gofidus, ar ol i'r moddion blaenorol brofi yn aneffeithiol: *a lluaws ei esgyrn ef*—canys y mae yn nghorff pob dyn oddentu 240 o wahanol esgyrn; *a gofid caled*—neu â phoenau mawrion, yn debyg i eiddo Job, pen. xxx. 17, 30. Y meddwl yw, fod Duw yn fynych yn ceisio dwyn dynion oddiwrth eu pechodau, ac i edifarhau am danynt, trwy eu cystuddio yn drwm â rhyw glef-lydau poenus yn eu cnaud a'i hesgyrn, yn gystal a thrwy weledigaethau y nos, adn. 15.

Adn. 20. *Fel y ffeiddio ei fywyd ef fara*] Yr hyn sydd yn angenrheidiol i gynnal bywyd; *a'i enaid fwyd blasus*—hyd yn nod y dant-eithion melusaf. A phwy sydd heb fod yn brofiadol o hyn?

Adn. 21. *Derfydd ei gnawd ef allan o olwg*] Gan nerth ei ddolur, ac wrth fethu bwyta i faethu natur; *a saif ei esgyrn allan, y rhai ni welid o'r blaen*—gan dewder y cnaud a'r bloneg arnynt. Fel hyn yr oedd gyda Job yn awr, pen. xix. 20; a diamau fod gan Elihu olwg ar Job yn yr holl ddysgriafad hwn.

i'r bedd, a'i fywyd i'r dinystrwyr.

23 Os bydd gydag ef genad o ladmerydd, un o fil, i ddangos i ddyn ei uniondeb :

24 Yna efe a drugarha wrtho, ac a ddywed, Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd: myfi a gefais iawn.

25 Ireiddiach fydd ei gnawd na

bachgen: efe a ddychwel at ddyddiau ei ieuencid.

26 Efe a weddia ar Dduw, ac yntau a fydd boddlon iddo; ac efe a edrych yn ei wyneb ef mewn gorfoledd: canys efe a dâl i ddyn ei gyfiawnder.

27 Efe a edrych ar ddynion, ac os dywed neb, Mi a bechais, ac a wyr-

Adn. 22. *Nesáu y mae ei enaid i'r bedd*] Set efe ei hun, neu ei ddynsawd, fel yr arwydda y gair 'enaid' yn fynych yn yr ysgrythrau; canys nid yr *ysbryd* a feddyliir yma, am fod hwn yn 'dychwelyd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef,' Preg. xii. 7: *a'r fywyd i'r dinystrwyr*—i bryfed a llygredigaeth ond odid, y rhai yn fuan a ddinystriant y corff ar ol i'r bywyd fyned o hono.

Adn. 23. *Os bydd gydag ef genad o ladmerydd*] Rhyw wr duwiol a doeth wedi ei anfon ato i egluro iddo fediwl ac ewyllys Duw, natur a dyben ei gystudd, a'r fiordd i gael maddeuant ac adferiad. *Un o fil*—un wedi ei iawn gymhwys i'r gwaith mawr ac anhawdd hwn, o'r rhai ni cheid, yn y dyddiau boreol hyn, ond megys un o bob mil. Gallwn feddwl fod Elihu yn ei ystyried ei hun fel y ceud hwn, ac yn gymhwys i'r gwaith, ac wedi cael ei anfon gan Dduw at Job. *I ddangos i ddyn ei uniondeb*—yr uniondeb a ddylai fod gan y dyn claf dan sylw, neu yr hyn a ddylai efe ei wneyd i gael adferiad. Ond y mae rhai yn deall hyn am 'uniondeb Duw'; hyn yw, ei gyfiawnder ef yn ngweinyddiad y cerydd hwn, a drwg-haeddiant y dyoddefydd; trefu Duw i taddeu i'r edifeiriol, a'i adfer i iechyd; ei fyddlondeb i gyflawni ei addeiwidion; a'r angenrheidrwydd o ymostwng i'w ewyllys ef yn ddirwngach, ac o rodio yn llwybrau fydd a santeiddrwydd. Tybia ereill fod hyn oll yn cyfeirio at drefu Duw o achub pechadar trwy gyfryngod ei Fab, adn. 24, 27; santeiddiad ei natur, adn. 25; gorfoledd ei iachawdriaeth, adn. 26; a'i waredigaeth rhag offeru, a'i ddygiad i'r nef, adn. 28, 30. Yr wyf fi yn meddwl fod y dduw athrawiaeth uchod mewn golwg gan Elihu, sef adferiad ei gorff i iechyd a nerth, ac iachawdriaeth dragwyddol ei enaid; ac y mae y dduw fendith yma yn dyfod i dduw trwy iawn Crist. Y mae yn eglur mai rhyw un wedi ei anfon i egluro neu *dleongli* trefn Duw o gadw dyn, a feddyliir wrth y 'genad o ladmerydd' uchod; a thybia rhai mai *angel* o'r nef a olygir; ereill, *angel marwolaeth*; ac ereill, y *Messia*: ond y mae yn debycach mai rhyw broffwyd neu weinidog fyddlon o blith dynion a feddyliir, neu ddyn doeth a chrefyddol fel Elihu.

Adn. 24. *Yna efe a drugarha wrtho*] Bydd i Dduw yn rasol faddeu ei bechodau, a'i achub rhag marwolaeth, ar ei waith yn troi at Dduw mewn edifeirwch a fydd, yn ol cyfarwyddyd y cyfryw genad o ladmerydd. *Ac a ddywed*—wrth angau, wrth gyfiawnder, neu wrth y cenad o ladmerydd; neu yn hytrach, efe a ymddyga fel pe byddai yn dywedyd; *Goll-*

wng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd—gwel ar adn. 28. Os wrth y cenad o ladmerydd y dywedir hyn, fel y tybia rhai, yna yr ystyr yw, Cyhoedda o'lyngdod iddo, neu dywed wrtho, trwy awdarlod dy swydd, fy mod i yn maddeu iddo, ac y bydd i mi iachau ei gorff a'i enaid. *Myfi a gefais iawn*—cyfeirir hyn at rywbeth a ystyrir fel pridwerth neu reswm digonol dros iachau y claf, a thrugariaeth wrtho, neu ei waredu rhag disgyn i'r bedd. Tybia BARNES ac ereill mai cyfeiriad sydd yma at *edifeirwch* y claf, yr hyn a ystyrir yn rheswm dros ei iachau ef, am nas gallai Elihu fod yn gwybod am IAWN CRIST! Ond paham nad allasai efe wybod am dano, yn enwedig os oedd efe yn llefaru dan ddwyfotl ysbrydoliaeth, fel y profesai ei fod? gwel ar pen. xxxii. 18. Ac heblaw hyn, y mae y geiriau hyn yn cael eu hadrodd hid fel iaith Elihu, ond fel iaith Duw ei hun. Felly yr wyf fi yn meddwl mai cyfeiriad sydd yma yn unig at farwolaeth Mab Duw, yr hon a benodwyd i gymeryd lle yn 'nghyflawnder yr amser,' ac ar gyfrif yr hon yn unig y gallai Duw drugarhau wrth ddyw, a'i waredu rhag marwolaeth dynhorol ac ysbrydol; a hon yw y dyb a dderbynir yn fwyaf cyffredin.

Adn. 25. *Ireiddiach fydd ei gnawd na bachgen*] Na chnawd plentyn; *efe a ddychwel at ddyddiau ei ieuencid*—efe a fydd, o ran iechyd, nerth, ac ystwythder ei gorff, mor heinif ag yr oedd yn ydyddiau ei ieuencid. Ond y mae rhai yn cyfyngu hyn at *aienediogaeth*: gwel ar adn. 23.

Adn. 26. *Efe a weddia ar Dduw*] Ar ol iddo gael ei adferyd; neu cyn hyn, ar ol iddo gael addewid o adferiad; *ac yntau a fydd boddlon iddo*—a fydd gymodlon ag ef, ac a etyb ei weddiau: *ac efe a edrych yn ei wyneb ef mewn gorfoledd*—a lawenyca yn llewyrch gwyneb grasol ei Dad nefol: *canys efe a dâl i ddyn ei gyfiawnder*—efe a ymddyga tuag ato fel un gyfiawn, neu a wobrwya ei fyddlondeb a'i gyfiawnder ef.

Adn. 27. *Efe a edrych ar ddynion*] Ar ymddygiadan pob dyn; *ac os dywed neb, Mi a bechais*—hyn yw, os bydd i neb mewn gwirionedd gyfaddef ei bechodau, a'u gadael; *ac a wŷraets uniondeb*—os cyfaddefa neb ei fod wedi gadael union ffyrdd yr Arglwydd, a gwnethur iddo ei hun lwybrau ceimion; neu ei fod wedi gwnethur ar gam wrth feio ar ragluniaeth Duw, yn lle aruo ei hun; *ac ni lwyddodd i ni*—ni cheffais trwy hyn ddaioni i mi fy hun fel y dysgwyliais, eithr llawer o boen, gwarth, a cholled:—

Adn. 28. *Efe a wared ei enaid ef rhag*

ais uniondeb, ac ni lwyddodd i mi;
28 Efe a wared ei enaid ef rhag
myned i'r clawdd, a'i fywyd a wél
oleuni.

29 Welc, hyn oll a wna Duw
ddwywaith neu dair â dyn.

30 I ddwyn ei enaid ef o'r pwll,
i'w oleu â goleuni y rhai byw.

31 Gwrando, Job, clyw fi: taw, a
mi a lefaraf.

32 Od oes geiriau genyt, ateb fi:
llefara; canys chwennychwn dy
gyfiawnhau di.

33 Onidê, gwrando arnaf fi: bydd
ddystaw, a myfi a ddysgaf i ti
ddoethineb.

myned i'r clawdd] Os am y claf uchod y dy-
wedir hyn, yr ystyr ond odid yw, efe a waredir
rhag marw o'i glefyd presenol, neu rhag myned
i'r bedd: gwel ar adn. 22. Ond os cyfeirio y
mae Elihu at bob dyn edifeiriol a chrediniol,
gellir meddwl mai pwll uffern a olygir wrth y
clawdd hwn. *A'i fywyd a wél oleuni*—sef
goleuni yr hawl, neu lwyddiant a dedwyddwch
ar dir y rhai byw: neu ynte, efe a wél lewyrch
gwyneb grasol ei Dad cymodlon, a hyny yn y
byd hwn ac yn y nef.

Adn. 29. *Welc, hyn oll a wna Duw*] Efe
a ddefnyddia yr holl foddion a enwyd uchod i
geisio dwyn dynion i edifeirwch, ac felly i
gaffael iachawdwiarieth mewn corff ac enaid;
ddwywaith neu dair â dyn—hyny yw, yn
fynych. Tybia BARNES mai cyfeirio y mae
Elihu yma at y *tair ffordd* a enwasai efe,
trwy y rhai y llefara Duw wrth ddyn: (1) Rhy-
byddion trwy wledigaethau y nos, adn. 14—
17. (2) Cystuddiau, adn. 19—22. (3) Y
cenad o ladmerydd, yr hwn a anfonir i fynegu
i'r dyoddefydd ddyben y cystudd, a'r ffordd o
wardigaeth, adn. 23—26. Ond dylid cofio
fod y *tair ffordd* hyn yn cael eu cynwys yn yr
ymadrodd '*hyn oll*' yn nechre yr adnod; ac
o ganlyniad rhaid deall yr ymadrodd '*ddwy-
waith neu dair*' fel yn arwyddo, nid dwy neu
dair o'r ffyrdd hyn, ond yr *holl ffyrdd* hyny
ddwywaith neu dair, hyny yw, drachefn a
thrachefn, neu yn fynych.

Adn. 30. *I ddwyn ei enaid ef o'r pwll, &c.*
Gwel ar adn. 22, 28.

Adn. 31. *Gwrando, Job, clyw fi*] Gallwn
feddwl fod Job erbyn hyn yn dechreu dangos
rhyw arwyddion o anesinwythder, neu fel pe
busasai yn myned i ddechreu llefaru: *taw, a
mi a lefaraf*—y mae genyf lawer o bethau
pwyysig i'w dywedyd wrthyt yn mhellach, y
rhai y dylit eu gwrando yn astud ac amynedd-
gar cyn dechreu ateb.

Adn. 32. *Od oes geiriau genyt, ateb fi*
Yma y mae Elihu yn newid ei feddwl, ac fel
pe busasai am i Job gael llefaru yn y fan;
canys chwennychwn dy gyfiawnhau di—
wneyd cyfiawnder â thi, neu wrando rhywbeth
genyt a allai dy gyfiawnhau oddiwrth y cy-
huddiau sydd i'th orbyn.

PENNOD XXXIV.

A C Elihu a lefarodd ac a ddywed-
odd,

2 *Ha wjr* doethion, gwrandewch
fy ymadroddion; a *chwychwi* y rhai
ydych yn gwybod, clust-ymwran-
dewch.

3 Canys y glust a farn ymadrodd-
ion, fel yr archwaetha y genau fywyd.

4 Dewiswn i ni farn, gwybyddwn
rhyngom pa beth sydd dda.

5 Canys gwywedodd Job, Cyfiawn
ydwyf: a Duw a ddyg ymaith fy
marn.

6 A ddywedaf fi gelwydd yn

Adn. 33. *Onidê, gwrando arnaf fi*] Os nad
oes genyt ddim i'w ddywedyd, neu os na elli
wrthbrofi fy rhesymau i; *bydd ddystaw*—nes
i mi orphen; *a myfi a ddysgaf i ti ddoethineb*
—neu yr hyn y byddai yn ddoeth i ti ei
wneuthur yn dy amgylchiadau presenol.

PEN. XXXIV. Adn. 1. *Ac Elihu a lef-
arodd*] A ddechreuodd eilwaith ar ei ymad-
roddion, ar ol iddo fod yn ddystaw dros ychydig
amser, i roddi cyfle i Job neu ei gyfeillion
wneuthur sylwadau ar yr hyn a ddywedasai efe
yn y bennod flaenorol.

Adn. 2. *Ha wjr doethion*] Felly y geillw
efe dri chyfaill Job, neu rywrai ereill ag oedd-
ynt wedi ymgrynboi o'u hamgylch; ac efe a'u
geillw yn 'wjr doethion,' a 'rhai yn gwybod,'
neu yn medru deall a barnu, i'r dyben i ennill
eu sylw yn fwy at yr hyn ag yr oedd yn myned
i'w draethu. *Gwrandewch fy ymadroddion*
—creffwch yn fanwl ar yr hyn a ddywedaf.

Adn. 3. *Canys y glust a farn ymadrodd-
ion, &c.*] Gwel ar pen. xiii. 11.

Adn. 4. *Dewiswn i ni farn*] Boed i ni
chwilio a phrofi pa beth sydd gwir ac uniawn;
gwybyddwn rhyngom pa beth sydd dda—
boed i ni benderfynu rhyngom a'n gilydd pa
fodd y dylem farnu am ymddygiad Duw tuag
at Job, a'i ymddygiad yntau yn ngwyneb
gweinyddiaid Daw, a pha gyngor da a allwn
ei roddi iddo yn ei gyflwr presenol.

Adn. 5. *Canys dywedodd Job, Cyfiawn
ydwyf*] Nid oedd Job erioed wedi dywedyd
ei fod yn gyfiawn yn yr ystyr a ddeallid gan
Elihu, sef yn berffaith ddihechod; ond, ei fod
yn *rhydd* oddiwrth y cyhuddiau a ddygid
i'w erbyn gan ei dri chyfaill: gwel ar pen.
xiii. 18. *A Duw a ddyg ymaith fy marn*—
wrth iddo, tra yn gwybod fy uniondeb, beidio
amddyffyn fy achos, neu esgenluso gwneyd cyfi-
awnder â mi: gwel ar pen. xxvii. 2, &c.

Adn. 6. *A ddywedaf fi gelwydd yn erbyn
fy mater fy hun?*] Dyfynir hyn fel geiriau
Job, ar ba rai y mae Elihu yn bwriadu sylwi.
Fel pe dywedasai Job, A fydd i mi fy nghan-
gyhuddo fy hun o bechodau nad wyf yn enog
o honynt, neu wadu y cywirdeb ag y gwn fy
mod yn ei feddu? *Anaele yw fy archoll*—

erbyn fy mater fy hun? anaele yw fy archoll heb gamwedd.

7 Pa ŵr sydd fel Job, yr hwn a ŷf watwargerdd fel dwfr?

8 Ac a rodio yn nghymdeithas gyda gweithredwyr anwiredd, ac sydd yn myned gyda dynion annuwiol.

9 Canys dywedodd, Ni fuddia i ŵr ymhyfrydu â Duw.

10 Am hyny chwychwi wŷr calonog, gwrandewch arnaf. Pell oddiwrth Dduw fyddo gwneuthur annuwioldeb, ac oddiwrth yr Hollalluog weithredu anwiredd.

11 Canys efe a dâl i ddyn ei waith; ac efe a wna i ŵr gael yn ol ei ffyrdd ei hun.

Saes., 'fy archoll sydd anfeddyginiacthol; heb gamwedd—heb ynof gamwedd a haeddai y fath farn drom.

Adn. 7. *Pa ŵr sydd fel Job*] Yn arfer y fath eiriau cableddus ag a wna efe? *Yr hwn a ŷf watwargerdd fel dwfr*—yr hwn a ymhyfryda mewn ymadroddion gwatwarlyd a cableddus am Dduw, fel yr ymhyfryda dyn neu anifel i yfed dwfr pan fyddo ar drengu o syched.

Adn. 8. *Ac a rodio yn nghymdeithas gyda gweithredwyr anwiredd*] O ran ei syniadau a'i ymadroddion cableddus; *ac sydd yn myned gyda dynion annuwiol*—i ddywedyd yr un peth a hwythau, os nid i weithredu fel y gwnant hwy.

Adn. 9. *Canys dywedodd, Ni fuddia i ŵr ymhyfrydu â Duw*] Nid yw o un lles i ddyn fyw yn dduwiol, neu wasanaethu Duw. Ni ddwydasai Job hyn yn yr ystyr a ddeallid gan Elihu; ond dywedodd beth tebyg i hyn, wrth ddatgan fod drygfyd yn dal y duwiol yn gystal a'r annuwiol yn y fuchedd hon: gwel ar pen. ix. 22.

Adn. 10. *Am hyny chwychwi wŷr calonog*] Neu 'wŷr o ddeall,' fel y mae yn y Saesonacg. Y wreiddiol yw, 'gwŷr o galon,' yr hyn a arwydda 'wŷr deallus,' am y tybiai yr henafiaid mai y galon oedd eisteddle y deall. *Gwrandewch arnaf*—yn amddiffyn cymerial Duw yn ngwyneb cabledd Job. *Pell oddiwrth Dduw fyddo gwneuthur annuwioldeb*—ymadrodd yn dlynodi fod annuwioldeb o bob math yn mhell oddiwrtho, a bod yn gabledd i neb feddwl y dielion iddo ef fod yn euog o hono; *ac oddiwrth yr Hollalluog weithredu anwiredd*—neu ymddwyn yn anghyfiawn at ddyn, fel yr haerasai Job, yn ol barn Elihu, iddo wneyd tuag ato ef.

Adn. 11. *Canys efe a dâl i ddyn ei waith*] Neu yn ol ei waith, pa un bynag ai da ai drwg fyddo; *ac efe a wna i ŵr gael yn ol ei ffyrdd ei hun*—pa un bynag fyddo hyny ai cosp ai gwobr: felly nid 'difudd ydyw i ŵr ymhyfrydu â Duw,' adn. 9.

Adn. 12. *Diau hefyd na wna Duw yn an-*

12 Diâu hefyd na wna Duw yn annuwiol; ac na ŵyra yr Hollalluog farn.

13 Pwy a roddes iddo ef lywodraethu y ddaear? a phwy a osododd yr holl fyd?

14 Os gesyd ei galon ar ddyw, os casgl efe ato ei hun ei ysbryd a'i anadl ef;

15 Pob cnawd a gyd-drenga, a dyn a ddychwel i'r pridd.

16 Ac od oes ddeall ynot, gwranddo hyn: clust-ymwrando â llef fy ymadroddion.

17 A gaiff yr hwn sydd yn casáu barn, lywodraethu? ac a ferni di yr hwn sydd gyfiawn odiaeth, yn annuwiol?

nuwiol] Ailddywedir hyn o adn. 10, er mwyn cadarnhau y gwirionedd pwysig hwn am Dduw; *ac na ŵyra yr Hollalluog farn*—fel yr haerodd Job: gwel ar adn. 5.

Adn. 13. *Pwy a roddes iddo ef lywodraethu y ddaear*] Fel pe buasai rhyw fôd arall, mwy ac uwch nag ef, yn Grawdwr a Meddiannydd o honi? a phwy a osododd yr holl fydd—dan ei ofal a'i reolaeth ef, neu yn ei drofn berflaith bresenol? Y moddwl yw, mai Duw ei hun yw Crawdwr a Llywodraethwr annibynol y cwbl, y bydysawd a'i drigolion; ac am hyny, trwy nad yw ef yn gyfrifol i neb, a'i fod yn anfeidrol uwch na phawb, nis gall ef gael ei demtio i wneyd dim anghyfiawnder er mwyn boddhau na a fyddo yn uwch nag ef, neu i'r dyben i ennill rhywbeth nad all ei grraedd ffordd arall.

Adn. 14. *Os gesyd ei galon ar ddyw*] I'w ddinystrio; *os casgl efe ato ei hun ei ysbryd a'i anadl ef*—v rhai a roddodd Duwiddo a rei greadigaeth, Gen. ii. 7. Ond trwy nad yw y gair *os* yn darn olaf yn y wreiddiol, gellir darllen yr adnod, 'Os gesyd ei galon ar ddyw, i gasglu ato ei hun ei ysbryd a'i anadl ef.' Y moddwl yw, y gallai Duw yn hawdd, pe bac yn cwyllysio hyny, beri i bob cnawd gyd-drengu, a dychwelyd i'r pridd, adn. 15. Y mae ganddo ddigon o allu i hyny, ac nis gall neb amau ei hawl.

Adn. 15. *Pob cnawd a gyd-drenga*] A drengent ar unwaith, neu yn yr un modd. Felly, y mae fod Duw heb beri hyn, yn dangos ei amynedd a'i ddaion ef; ac ni ddylai neb achwyn arno ef yn ngwyneb colli iechyd, cy-suron, a chyfeillion, fel y gwnaethai Job, trwy fod ganddo hawl i ddyw ymaith cu bywyd hefyd.

Adn. 16. *Ac od oes deall ynot, gwranddo hyn*] Yma y mae Elihu yn troi i lefaru wrth Job. Nid amau deall Job yr oedd Elihu, canys gwyddai ei fod yn ddyn deallus iawn; eithr galw arno i ystyried yn ddyfal yr hyn a ddywedai efe.

Adn. 17. *A gaiff yr hwn sydd yn casáu barn lywodraethu?*] A osodir un fully mewn

18 A ddywedir wrth frenin, Drygionus ydwyf? ac, Annuwiol ydych, wrth ddywysogion?

19 Pa faint llai wrth yr hwn ni dderbyn wynebau tywysogion, ac nid edwyn y goludog o flaen y tylawd? canys gwaith ei ddywylaw ef ydynt oll.

20 Hwy a fyddant feirw mewn moment, a hanner nos y cynhyrfa y bobl, ac yr ânt ymaith: a'r cadarn a symudir heb waith llaw.

21 Canys ei lygaid ef sydd ar ffyrdd dyn, ac efe a wêl ei holl gamrau ef.

22 Nid oes dywyllwch, na chysgod angau, lle y gall y rhai sydd yn gweithio anwiredd, ymguddio.

23 Canys ni esyd Duw ar ddyw ychwaneg nag a hoeddo; fel y gallo efe fyned i gyfraith â Duw.

24 Efe a ddryllia rai cedyrn yn aneirif, ac a esyd ereill yn eu lle hwynt.

25 Am hyny efe a edwyn eu gweithredoedd hwy: a phan newidio efe y nos, hwy a ddryllir.

26 Efe a'u tery hwynt, megys rhai annuwiol, yn amlwg:

27 Am iddynt gilio oddiar ei ol

awdurdod? Na wneir yn ddiamau: a chan fod Duw yn llywodraethu, y mae hyny yn brawf ei fod ef yn hosi gwneuthur barn a chyfiawnder. *Ac u ferni di yr hwn sydd gyfiawer odiaeth*—sef Duw, yr hwn sydd yn anfeidrol gyfiawn yn ei holl weithredoedd; *yn annuwiol*—hyny yw, a gondemi di ef fel pe byddai yn ymddwyn yn annuwiol tuag atat ti?

Adn. 18. *A ddywedir wrth frenin, Drygionus ydwyf?* Y meddwl yw, fod parch yn dilyledus i frenhinoedd a thywysogion daearol ar gyfrif eu swydd a'u huwafiaeth: gwel ar Exod. xxii. 28. A chan fod eu cynllunian hwy yn fynych yn guddiedig, y mae yn anhawdd rhoddi barn arnynt hyd nes yr eglurir hwynt: a byddai yn hollol anweiddus i neb gondemnio eu mesurau, neu feio arnynt, cyn eu deall yn drwyddal.

Adn. 19. *Pa faint llai?* Pa faint llai gweddus, neu fwy rhytugus, ydyw i ddyw diddeall gondemnio cynllunian doeth y Duw anfeidrol gyfiawn, doeth, a da, sef Brenin y brenhinoedd? *Yr hwn ni dderbyn wynebau tywysogion*—fel ag i ddangos ffafr iddynt yn unig ar gyfrif eu huchel-radd; *ac nid edwyn y goludog*—i roddi parch iddo yn unig ar gyfrif ei gyfoeth neu ei ddillad gwychion; *o flaen y tylawd*—fel ag i'w ddiystyru ef yn unig am ei fod yn dylawd, carpiog, neu ddiiddysg. *Canys gwaith ei ddywylaw ef ydynt oll*—ei greaduriaid ef yw y tylawd a'r cyfoethog fel eu gilydd; ac y mae y naill a'r llall yn gyfartal ymddibynol arno ef am gynaliaeth ac iachawdwrnaeth.

Adn. 20. *Hwy a fyddant feirw mewn moment!* Y naill fel y llall, pan drefno efe hyny; a hanner nos y cynhyrfa y bobl—wedi eu dychrynu gan berygl disymwth, trwy ddaergryn neu rywethi arall, a hyny pan fyddont ar eu gwelyau, ac yn eu tybied eu hunain yn fwyaf diogel; *ac yr ânt ymaith*—i dragwiddoldeb: *a'r cadarn a symudir heb waith llaw*—heb fod gan ddyw law yn eu symudiad. Ei feddwl yw, y gall Duw pan y myno, a'r modd y myno, eu gwswio hwynt allan o'r byd. Tybia Clarke mai cyfeiriad sydd yma at symudiad y gormeswyr dwyreiniol, y rhai na chaent farw o farwolaeth naturiol ond yn anfynych.

Adn. 21. *Canys ei lygaid ef sydd ar ffyrdd dyn!* Fel ag i ganfod ei holl gamrau ef; ac am

hyny nis gall efe trwy anwybodaeth o weithredoedd dynion, mwy na thrwy dderbyn eu wynebau, adn. 19, basio heibio eu camweddau, na gwneud anghyfiawnder â hwynt.

Adn. 22. *Nid oes dywyllwch!* Un ymguddfa o'r fath fwyaf dirgel; *na chysgod angau*—un caddug o'r fath dywyllaf a thewaf; *lle y gall y rhai sydd yn gweithio anwiredd ymguddio*—o olwg Duw, neu rhag ei gosp gyfiawer ef.

Adn. 23. *Canys ni esyd Duw ar ddyw ychwaneg nag a hoeddo!* Ni chospa efe neb yn drymach na'i haeddiant, yn y byd hwn na'r nesaf; *fel y gallo ef fyned i gyfraith â Duw*—neu gael achos cyfiawn i'w feio am wneyd anghyfiawnder ag ef. Mr. Good a'i cyfieitha: 'Wele, nid i ddyw yr ymddirieddod efe yr amser i ddyfod i barn gyda Duw.' Cyfieithiad WEMYSS yw: 'Ni raid iddo ef ymchwilio yn ddyws mewn trefn i euog-brofi dynion o flaen ei frwydles.'

Adn. 24. *Efe a ddryllia rai cedyrn yn aneirif!* Fel nas gall eu cadernid na'u rhif ef diogelu hwynt rhag dyrnod ei gyfiawnder ef. Ond yn lle 'yn aneirif,' y mae rhai yn ei ddarllen, 'heb chwilio i mewn;' hyny yw, heb iddo ymdrfferthu i chwilio i mewn i'w gweithredoedd hwynt, trwy ei fod yn hollwybodol. *Ac a esyd ereill yn eu lle hwynt*—i ddal eu swyddau a meddiannu eu cyfoeth.

Adn. 25. *Am hyny efe a edwyn eu gweithredoedd hwy!* Ymddengys oddiwrth ei waith yn eu cospi am eu gweithredoedd, ei fod yn eu hadnabod; neu, 'am ei fod yn adwaen eu gweithredoedd,' a hyny 'cyn eu chwilio, adn. 24. *A phan newidio efe y nos*—Saes., 'ac efe a'u dymchwel hwynt yn y nos,' neu mewn un noson, fel cyntafanedigion yr Aifft, byddin yr Assyriaid, ac ereill. Neu, 'ac efe a ddyg nos arnynt,' sef rhyw dralloed a dinstyr erchyll, fel yr arwydda y gair 'nos' yn fynych. *Hwy a ddryllir*—yn anocheladwy, fel na byddo ymwarded.

Adn. 26. *Efe a'u tery hwynt megys rhai annuwiol!* Neu am eu bod yn annuwiol; *yn amlwg*—ar gyhoedd, a hyny er gwarth iddynt hwy, er rhybydd i ereill, ac er ggoniant mynegol i'w gyfiawnder ei hun. Er iddynt bechu yn ddirgel, bydd eu cosp yn amlwg.

Adn. 27. *Am iddynt gilio oddiar ei ol ef!*

ef, ac nad ystyrient ddim o'i ffyrdd of:

28 Gan ddwyn gwaedd y tylawd ato ef, ac efe a wrendy waedd y cystuddiol.

29 Pan esmwythao efe, pwy a anesmwythâ? a phan guddio efe ei wyneb, pwy a edrych arno? pa un bynag ai yn erbyn cenedl, ai yn erbyn dyn yn unig:

30 Fel na theyrnasai dyn ffuantus, ac na rwyder y bobl.

31 Ond wrth Dduw, yr hwn a ddywed, Mi a faddeuais, nid anrheithiaf, y dylid dywedyd;

Oddiwrth ei gyfraith a'i grefydd; ac nad ystyrient ddim o'i ffyrdd ef—i rodio ynddynt; neu, am nad ystyrient ei weithredoedd, ei hawlian, na'i anrhydedd.

Adn. 28. *Gan ddwyn gwaedd y tylawd ato ef*] Neu beri i'r tylodion waeddi ar Dduw, o herwydd eu bod hwy yn eu gorthrymu; ac efe a wrendy waedd y cystuddiol—trwy ddial ar en cystuddiwr.

Adn. 29. *Pan esmwythao efe*] Trwy roddi gwaredigaeth, bawddfyd, neu lwyddiant i ddyn neu genedl; pwy a anesmwythâ—arnynt hwy, neu a rwystra iddo ef esmwythau arnynt? neu, 'pwy a gondemnia?' fel y mae yn y Syriaeg a'r Arabaeg. *A phan guddio efe ei wyneb*—fel ag i'w darostwng hwy drachefn i adfyd a thralod; pwy a edrych arno—gyda sirioldeb a hyder, neu a fedr fwynhau llewyrch ei wynebyrd? *Pa un bynag ai yn erbyn cenedl, ai yn erbyn dyn yn unig*—y meddwl yw, y gall Duw gario allan ei weithredoedd o gyfiawnder neu drugaredd ar genedl gyfan, mor hawdd ag ar ddy'n unigol.

Adn. 30. *Fel na theyrnasai dyn ffuantus*] Saes., 'y rhagrithiwr; ac na rwyder y bobl—gan ei ormes a'i greulonder ef. Auncau Duw, wrth ddal llywodraeth benadurol dros bawb, yw cadw dynion rhag cael en gorthrymu a'u llethu gan rai mewn awdardod.

Adn. 31. *Ond wrth Dduw, yr hwn a ddywed*] Wrth yr edifeiriol; *Mi a faddeuais*—dy bechodan; *nid anrheithiaf*—ni'th ddyfethaf di o'n herwydd; y *dylid dywedyd*—yr hyn a grybwyllir yn yr adnod nesaf. Y mae yr adnod hon yn dra thwyll, a chyfrifa *Schultens* bymtheg o wahanol ddeongliadau arni. Y cyfieithiad Saesonig yw, 'Yn ddiau gweddus yw dywedyd wrth Dduw, Dyoddefais gerydd, ni thorseddaf mwych.' Felly y mae y ddau gyfieithiad uchod yn dra gwahanol. Y Saesonig a gynwysa eiriau dyn wrth Dduw; a'r Cymreig eiriau Duw wrth ddy'n. Ymddengys mai y meddwl cyffredinol yw, y dylai y dyn ag y maddeuwyr iddo, neu a gystuddiwyd, ymostwng gerbron Duw, a pleidio grwngach nac achwyn.

Adn. 32. *Heblaw a welaf*] O'm camweddau fy hun, neu o'th ddyben di yn fy ngheryddu; *dysg di fi*—trwy weithrediadau dy ras ar fy neall a'm benaid: o gwnaethym anwir-

32 Heblaw a welaf, dysg di fi: o gwnaethym anwiredd, ni wnaf fi mwy.

33 Ai wrth dy feddwl di y byddai? efe a'i tâl, pa un bynag a wnelych ai gwrthod ai dewis; ac nid myfi: am hwy dywed yr hyn a wyddost.

34 Gwyr call, dywedant i mi; a'r gwr doeth, clywed fi.

35 Job a ddywedodd yn annoeth; a'i eiriau ydynt heb ddoethineb.

36 Fy Nhad, profer Job hyd y diwedd, am roddi atebion dros ddynion anwir.

edd—fel ag i dynu y cerydd hwn yn gyfiawn arnaf fy hun; ni wnaf fi mwy—trwy gymhorth dy ras a'th Ysbyrd.

Adn. 33. *Ai wrth dy feddwl di y byddai?*] A raid i Dduw weithredu yn mhob peth yn ol dy feddwl di? *Efe a'i tâl*—efe a gospa anwiredd, ac a wobrwya rinwedd, yn ol ei ewylllys a'i reolgyfiawn ei hun; *pa un bynag a wnelych ai gwrthod ai dewis*—pa un bynag a foddloni di i hyny ai peidio. *Ac nid myfi*—gwaith Duw yw 'talu' felly, ac nid fy ngwaith i. *Am hyny dywed yr hyn a wyddost*—eglura dy feddwl, os oes genyt well esboniad i'w roddi ar hawlian a gweithredoedd Duw. Addefir fod yr adnod hon yn dywyll iawn yn y wreiddfol. Y mae *Good* yn cyfieithu ei diwedd hi fel hyn: 'Ti biai dewis, ac nid myfi; felly, yr hyn yr wyt yn ei benderfynu, dywed.' Fe allai mai ystyr yr holl adnod yw, 'Bydd i Dduw ymddwyn yn gyfiawn, pa un bynag ai o'th blaid ai yn dy erbyn y byddo hyny. Dewis pa un a wnei, ai ymostwng dan ei alluog law ef, ynte parhau yn dy gywirdeb hōniadol. Llefara, gan hyny: i ti y mae yn perthyn, nid i mi: ond gad i minau wybod pa beth yr wyt yn penderfynu ei wneuthur.'

Adn. 34. *Gwyr call, dywedant i mi*] Pa un a ydyw fy athrawiaeth hon yn gywir ai peidio; *a'r gwr doeth*—Job ei hun fe allai, neu rywun arall a dybiai fod doethineb ganddo; *clywed fi*—a barned rhyngom ar y mater hwn.

Adn. 35. *Job a ddywedodd yn annoeth*] Wrth lefaru am Dduw a'i weinyddiadau fel y gwnaeth, yn ystod yr holl ddaid hon.

Adn. 36. *Fy Nhad, profer Job hyd y diwedd*] Thybia rhai fod Elihu yma yn galw ar ei Dad nesol i rhabau cystudd Job hyd ddiwedd ei oes, neu hyd onid edifarhâi efe am ei iaith hunan-gyfiawn; a thybia ereill mai at Eliphaz y cyfeiria efe, yr hwn a alwai yn *dad* ar gyfrif ei henaint a'i urddas. Ond dywedir y gellir cyfieithu y gair *abi* yn 'ddymuniad,' fel y mae yn y Saesonag; 'Fy nymuniad yw i Job gael ei brofi hyd y diwedd.' *Am roddi atebion dros ddynion anwir*—neu haeru eu bod hwy yn llwyddo fel y cyfiawnion.

Adn. 37. *Canyis efe a chwaneodd ysgelder*] Saes., 'wrthryfel; at ei bechod—at ei bechod cyntaf, pa un a ddygodd yr afstwydd hwn arno. *Efe a gurodd ei ddwyllaw yn ein*

37 Canys efe a chwane-godd ys-gelerder at ei bechod; efe a gur-odd ei ddwyllaw yn ein plith ni, ac a amlhaodd ei eiriau yn erbyn Duw.

PENNOD XXXV.

AC Elihu a lefarodd ac a ddywedodd,

2 A gyfrifaist ti yn uniawn ddyweddyd o honot, *Y mae fy nghyfiawnder i yn fwy na'r eiddo Duw?*

3 Canys dywedaist, Pa les a wna hynny i ti? pa beth a ennillaf? *er fy nglanhau oddiwrth fy mhechod?*

4 Myfi a atebaf i ti, ac i'th gyfeillion gyda thi.

5 Edrych ar y nefoedd, a gwel; ac edrych ar y cymylau, *y rhai sydd uwch na thi.*

plith ni—fel arwydd o fuddugoliaeth, neu o orfoledd am ei fod wedi trechu ei dri chyfaill yn y ddadl hon. *Ac a amlhaodd ei eiriau yn erbyn Duw*—yn erbyn ei ragluniaeth a'i gerddon cyfiawn ef. Fel hyn gwelwn i Elihu o'r diwedd syrthio i'r un ysbyrd pigog a'r rhai a'i blaenasant, a'i fod yn llefaru yn y modd mwyaf chwerw a disail am y patriarch dydddefus.

PEN. XXXV. Adn. 1. *Ac Elihu a lefarodd*] Eilwaith, ar ol aros am ychydig amser i edrych a wna'i neb wrthateb yr hyn a ddywedasai efe: gwel ar pen. xxxiv. 1.

Adn. 2. *A gyfrifaist ti yn uniawn*] Fod yn beth iawn i ti ddyweddyd, *Y mae fy nghyfiawnder i yn fwy na'r eiddo Duw?*—nid oedd Job erioed wedi dyweddyd hyn; eithr tybiai Elihu fod ei eiriau yn cynwys cymaint a hyny: gwel ar pen. xxxiii. 9.

Adn. 3. *Canys dywedaist, Pa les a wna hynny i ti?*] Sef byw yn dduwiol, a gwasanaethu Duw. *Pa beth a ennillaf er fy nglanhau oddiwrth fy mhechod?*—nid wyf fi yn cael dim mwy o les oddiwrth fywyd o sant-eiddrwydd, nag a gaiff yr annuwiol oddiwrth fywyd o bechod ac atfendig. Ond nid oedd Job erioed wedi dyweddyd hyn; a phe buasai ei eiriau yn cynwys rhwrbeth tebyg i hyn, rhaid mai cyfeiriad oedd ynddynt yn unig at ei gyflwr adfydsu of yn y byd hwn. Gwyddai Job yn dda taai elw mawr yw dduwioldeb, ac y cai efe les ac ennill tragwyddol oddiwrtho yn y byd a ddaw.

Adn. 4. *Myfi a atebaf i ti*] Mi a sylwaf bellach ar dy ymadroddion cablledus, wrth haeru fod dy gyfiawnder yn fwy na'r eiddo Duw. *Ac i'th gyfeillion gyda thi*—pawb ag sydd o'r un olygiadau a thi.

Adn. 5. *Edrych ar y nefoedd, a gwel*] Cyfod dy olwg at yr haul, a'r loer, a'r ser, y rhai a wnaed gan Dduw; *ac edrych ar y cymylau, y rhai sydd uwch na thi*—ac y mae yr olwg arnynt yn ddigon i brofi ei fod ef, yr

6 Os pechi, pa niwed a wnei di iddo ef? os aml fydd dy anwireddau, pa beth yr wyt yn ei wneuthur iddo ef?

7 Os cyfiawn fyddi, pa beth yr wyt yn ei roddi iddo ef? neu pa beth y mae efe yn ei gael ar dy law di?

8 I ŵr fel tydi, dy annuwioldeb, ac i fab dyn, dy gyfiawnder, *a all ryw beth.*

9 Gan faint y gorthrymder, hwy a wnant i'r gorthrymedig lefain: hwy a floeddiant rhag braich y cedyrn.

10 Ond ni ddywed neb, Pa le y mae Duw, yr hwn a'm gwnaeth i; yr hwn sydd yn rhoddi achosion i ganu y nos?

11 Yr hwn sydd yn ein dysgu yn

hwn a'u gwnaeth, yn atfeidrol fwy na thi yn mhob ystyr; i.e. yn uwch na'r nefoedd.

Adn. 6. *Os pechi, pa niwed a wnei di iddo ef?*] Ni fydd i'th bechodau a'th anwireddau ei niweidio ef yn y mesur lleiaf, eithr dy niweidio di dy hun.

Adn. 7. *Os cyfiawn fyddi, pa beth yr wyt yn ei roddi iddo ef?*] Mewn flordd o elw neu lesad? *Neu pa beth y mae efe yn ei gael ar dy law di*—heblaw gogoniant mynegol i'w enw, yr hyn yr wyt ti a phawb dan rymwam tragwyddol i'w roddi iddo? Pa ogoniant hanfodol a gaiff efe oddiwrth dy gyfiawnder di?

Adn. 8. *I ŵr fel tydi*] Yr hwn wyt yn gyfrifol iddo am dy ymddygiadau, ac i gael dy gospital neu dy wobrywo am danynt, gall dy annuwioldeb neu dy gyfiawnder effeithio arnat tu ac ereill am byth.

Adn. 9. *Gan faint y gorthrymder*] Tybia rhai fod hyn yn cael ei ddwyn yn mlaen i brofi yr hyn a ddywedasai efe yn adn. 8, sef y gall annuwioldeb y naill ddyn effeithio yn niweidiol ar y llall; ond tybia ereill fod Elihu yma yn dechreu ar bwnc newydd. *Hwy a wnant i'r gorthrymedig lefain*—dan ddirfawr bwys eu gorthrymder. *Hwy a floeddiant*—mewn grŵnachrwyddol o herwydd eu cyflwr, neu am i'r swyddog gwladol eu gwaredu rhag gorthrymder y cedyrn.

Adn. 10. *Ond ni ddywed neb*] O'r rhai gorthrymedig hyny, oddieithr yn anaml iawn; *Pa le y mae Duw, yr hwn a'm gwnaeth i?*—hyny yw, nid lefain ar eu Creawdwr y maent; ac o ganlyniad, os nad yw Duw yn gwrando eu lefain, fel yr haerasai Job ei hun, pen. xxiv. 12, nid yw efe yn hyny yn annglyfiawn. *Yr hwn sydd yn rhoddi achosion i ganu y nos*—yn y trallddon a'r gorthrymderau mwyaf, fel yr arwydda y gair nos yn fynych.

Adn. 11. *Yr hwn sydd yn ein dysgu yn fwy nag amifeiliaid*] Trwy ein cynysgothu ni a rheswm a deall, trwy yr hyn y gallwn wy-

fwy nag anifeiliaid y ddaear, ac yn ein gwneuthur yn ddoethach nag chediaid y nefoedd.

12 Yna hwy a waeddant rhag balchder y rhai drwg, ac ni chlyw efe.

13 Diau na wrendy Duw oferedd, ac nad edrych yr Hollalluog arno.

14 Er dywedyd o honot na weli ef, *eto y mae* barn ger ei fron ef: dysgwyl dithau wrtho.

15 Ac yn awr, am nad *yw felly*, efe a ymwelodd yn ei ddigofaint; eto ni wŷr efe mewn dirfawr galedi:

16 Am hyny y lleda Job ei safu

yn ofer; ac yr amlha eiriau heb wybodaeth.

PENNOD XXXVI.

AC Elihu a aeth rhagddo, ac a ddywedodd,

2 Goddef i mi ychydig, a myfi a fynegaf i ti, *fod genyf* ymadroddion eto dros Dduw.

3 O bell y cymeraf fy ngwybodaeth, ac i'm Gwneuthurwr y rhoddaf gyfiawnder.

4 Cansys yn wir nid celiwydd fydd fy ymadroddion: y perffaieth o wybodaeth sydd gyda thi.

bod am Dduw, a cheisio ymwared ganddo ef yn nydd tralloed.

Adn. 12. *Yna hwy a waeddant rhag balchder y rhai drwg*] Rhag eu gorthrynwyr balch a drygonus. Ond tybia rhai mai en balchder hwy eu hunain a olygir, yr hwn oedd yn eu cadwr rhag ymestwng i weddio ar Dduw. *Ac ni chlyw efe*—am nad oeddynt yn galw arno ef; neu am eu bod yn gyaeddi o herwydd en tralodion, heb alara oblegid yr achos o honynt.

Adn. 13. *Diau na wrendy Duw oferedd*] Ar weddiwr ofer, neu un heb gywirdeb ynddo; neu ar weddi ofer, yn tarddn oddiar deimlad o drueni yn unig, yr hyn y mae yr anifel di-reswm yn alluog o hono yn gystal a dyn, ac nid oddiar wir edifeirwch, fflydd, neu dduwioldeb; *ac nad edrych yr Hollalluog arno*—a golwg o dosturi, neu gydymdeimlad. Y mae Elihu yma yn cymhwyso hyn oll at weddiau Job.

Adn. 14. *Er dywedyd o honot na weli ef*] Dywedasai Job hyn yn pen. xxiii. 3, 8, 9, at ba eiriau ond odid y cyfeiria Elihu; *eto y mae barn ger ei fron ef*—y mae efe yn sier o wneyd yr hyn sydd gyfiawn: *dysgwyl dithau wrtho ef*—yn lle parhau i feiso a grwgnach, edifurha am dy bechodau, ymestwng dan ei allnog law ef, ymbwysa ar ei drngaredl, a dysgwyl yn amyneddgar am ei iachawdwr-iaeth.

Adn. 15. *Ac yn awr, am nad yw felly*] Am nad wyt ti yn cydoabod cyfiawnder Duw a'th ddrwg-haeddiant dy hun, ac yn dysgwyl yn gywir wrth Dduw am drngaredd; *efe a ymwelodd yn ei ddigofaint*—darfu i Dduw dy gospi di a'r tralodau a'r cystuddiau hyn: *eto ni wŷr efe mewn dirfawr galedi*—'ni wŷr Job,' fel y mae ar ymyl y ddalen; hyny yw, ni ddarfu i'w ddirfawr galedi ei ddwyn ef i wybodaeth iawn o Dduw nac o hono ei hun. Ond y mae rhai yn meddwl mai at Dduw y cyfeirir; a'r ystyr felly yw, na ddarfu i Dduw gynymeryd sylw trugarog o hono yn ei ddirfawr galedi; neu, yn ol ereill, na ddarfu iddo graffu ar ei holl bechodau, fel ag i'w gospi ef yn ol ei lawn haeddiant.

Adn. 16. *Am hyny y lleda Job ei safn yn ofer*] Yn ei weddiau ar Dduw, adn. 13; neu yn ei achwyniadau yn ei erbyn ef; neu yn ei ymddyddanion â'i dri chyfaill: *ac yr amlha*

eiriau heb wybodaeth—heb wybodaeth iawn o'i gyflwr moesol ei hun, neu o drefn gweinydd iadau Duw tuag ato.

PEN. XXXVI. Adn. 1. *Ac Elihu a aeth rhagddo*] Heb., 'a chwanegodd.' Dywed yr esbonwyr Iuddewig fod y gair hwn yn cael ei arferyd, am fod yr hyn a ganlyn yn *chwanegiad* at y *tair* aræth a wnaethai Elihu eisioes, yr un modd a Job a'i gyfeillion yn y gynalledd flaenorol: y gyntaf yn pen. xxxii a xxxiii; yr ail yn pen. xxxiv; a'r drydedd yn pen. xxxv. Gallied dysgwyl yn naturiol iddo ddiweddu yma; ond ete a *chwanegodd* at ei dair aræth yr hyn a geir yn y bennod hon a'r nesaf.

Adn. 2. *Goddef i mi ychydig*] Neu goddef yn amyneddgar am ychydig amser yn mhellach; *a myfi a fynegaf i ti, fod genyf ymadroddion eto dros Dduw*—i gyfiawnhau ei ymddygiadau rhagluniaethol ef tuag atati ti yn dy gyflwr presenol.

Adn. 3. *O bell y cymeraf fy ngwybodaeth*] Oddiwrth amseroedd, lleoedd, a phethau pell-enig. Ei feddwl yw, nad âi efe dros beithau a draethesid eisioes, ond y dygai yn mlaen resymaen newyddion, wedi eu tynu oddiwrth gynseiliau newyddion. *Ac i'm Gwneuthurwr y rhoddaf gyfiawnder*—danghosaf fod y pethau a ddygaf yn mlaen yn *profi* ei fod ef yn anfeidrol gyfiawn, doeth, a da, ac felly ei fod yn haeddu ymddriediad cyfrefinol ynddo.

Adn. 4. *Cansys yn wir nid celiwydd fydd fy ymadroddion*] Ni fyddant yn dwyll-resymau cyfrwys a disail, eithr byddant yn wirioneddau pur, digyfeiliorn, a diweniaith. *Y perffaieth o wybodaeth sydd gyda thi*—tybia rhai mai yr ystyr yw, 'perfffeithrwydd gwybodaeth sydd gyda thi;' yr hyn a barnyddaf *Job* ei hun yn alluog i ddeall a barnu yr hyn a ddywedai Elihu wrtho: tybia ereill fod Elihu yn cyfeirio ato ei hun. fel un llawn o wybodaeth a chymhwysder i draethu ar y pethau a ddygai yn mlaen: tra y barna ereill ei fod yn cyfeirio at Dduw, yr hwn a gwymerai blaidd Job, os dywedai Elihu ddiin o'i lei.

Adn. 5. *Wela, cadarn ydlyw Duw*] Dyma yr ystyriaeth gyntaf a gymhellir gan Elihu; a'i ddyben yw dangos fod Duw mor fawr ac annibynol, fel na raid iddo wŷro oddiwrth ei gynlluniau doeth ei hun ar un cyfrif: *ac ni*

5 Wele, cadarn ydyw Duw, ac ni ddiystyra efe *neb*: cadarn o gadernid a doethineb *yw* efe.

6 Nid achub efe fywyd yr annuw-
iol: ond efe a rydd uniondeb i'r
trueiniaid.

7 Ni thyn efe ei olwg oddiar y
cyfiawn; eithr *y maent* gyda bren-
hinoedd ar yr orseddfaine; i.e. efe
a'u sicrha yn dragywydd, a hwy a
ddyrchefir.

8 Ac os hwy a rwymir â gefynau,
ac a ddelir â rhaffau gorthrymder;

9 Yna cfe a ddengys iddynt hwy
eu gwaith, a'u hanwireddau, aml-
hau o honynt:

ddiystyra efe neb—am eu bod yn wan, tylawd, cystuddiol, neu ddiamddiffyn, fel y gwna cedyrn y ddaear yn fynych. *Cadarn o gadernid a doethineb yw efe*—ac am hyny ni radd iddo ef ddiystyra nac esgeuluso neb o ddiffyg gallu i'w hangeleddu, neu o ddiffyg doethineb i wybod pa beth sydd oraf i'w wneuthur iddynt.

Adn. 6. *Nid achub efe fywyd yr annuwiol*] Ddim pellach na dydd dinysr, pen. xxi. 30; *ond efe a rydd uniondeb i'r trueiniaid*—trwy eu gwaredu yn fuan neu yn hwyr o ddwyllaw eu gorneswyr. Amcan Elihu yw dangos *cyfiawnder* Duw, ac y bydd i bob peth ag sydd yn ymddangos yn awr yn ddyrys neu anghyfiawn, gael ei egluro a'i unioni yn y pen draw; os nid yn y byd hwn, eto gwneir hyny yn sicr yn y byd a ddaw.

Adn. 7. *Ni thyn efe ei olwg oddiar y cyfiawn*] Ery y gallant ymddangos weithiau fel yn ddisylw ganddo, eto y mae efe o hyd a'i olwg arnynt, ac yn peri i bob peth gydweithio er daioni iddynt yn y pen draw, pa un bynag fyddont ai tylawd ai cyfoethog, cystuddiol neu lwyddiannus: *eithr y maent gyda brenhinoedd ar yr orseddfaine*—efe a'u dyrchafa hwy weithiau yn y byd hwn i'r swyddau nwchaf ag y gall brenhinoedd eu rhoddi iddynt, megys y gwnaed wedi hyn â Joseph, Daniel, a Mordecai: *i.e. efe a'u sicrha yn dragywydd*—tel nas gallo eu gelynyon byth eu drygu; neu, hwy a ddyrchefir yn y diwedd i ogoniant tragwyddol yn y nef.

Adn. 8. *Ac os hwy a rwymir â gefynau, &c.*] Os bydd i rai o'r cyfiawnon gael eu tafu gan eu gelynyon i garchar, a'u darostwng i orthrymderau, trallodau, a chystuddiau; eto y mae Duw a'i olwg fyth arnynt er daioni, er ei fod yn barnu yn angenrheidiol iddynt gael eu dysgyblu fel hyn er eu tragwyddol les.

Adn. 9. *Yna efe a ddengys iddynt hwy eu gwaith*] Sef yr hyn a wnaethant ar fai cyn eu cystuddio felly; *a'u hanwireddau, amlhau o honynt*—yr hyn oedd yn galw am i Dduw eu rhoddi am beth amser yn llaw eu gelynyon i'w ceryddu. Dengys Duw hyn iddynt trwy genad o ladmerydd, neu trwy hunan-ystyriaeth, neu trwy dylanwad ei Ysbryd: gwel ar pen.

10 Ac a egyr eu clustiau hwy i *dderbyn* cerydd; ac a ddywed am droi o honynt oddiwrth anwiredd.

11 Os gwrandawant hwy, a'i wasanaethu *ef*, hwy a drenliant eu dyddiau mewn daioni, a'u blynyddoedd mewn hyfrydwech.

12 Ac oni wrandawant, dyfethir hwy gan y cleddyf; a hwy a drengant heb wybodaeth.

13 Ond y rhai rhagrithiol o galon a chwanegant ddig: ni waeddant pan rwymo efe hwynt.

14 Eu henaid hwythau fydd marw mewn ieuencid, a'u bywyd gyda'r aflan.

xxxiii. 15—29. Amcan Elihu oedd dangos na ddylid ystyried ceryddon Duw ar ddyinion da fel prawf o'u rhagrith hwy, fel y gwnaethai Eliphaz a'i gyfeillion; nac fel prawf fod Duw yn anystyriol o'u haclos, fel y tybiai Elihu i Job wneyd; ond, yn hytrach, y dylid edrych ar eu cystuddiau a'u hadfyddau fel moddion trugarog yn llaw Duw i'w dwyn yn edifeiriol wrth ei draed; ac felly y dylid eu rhestru yn mllith ein bendithion gwerthfawrocaf.

Adn. 10. *Ac a egyr eu clustiau hwy i dderbyn cerydd*] I ystyried y wialen, a phwy a'i hordeiniodd; Saes., 'a egyr eu clust i ddysgyblaeth,' neu i wrando ar lais Duw yn ei gerydd, yr hyn ni wnaent yn amser eu llywyddiant: *ac a ddywed am droi o honynt oddiwrth anwiredd*—i ddylyn llwybrau santeidd-rwydd.

Adn. 11. *Os gwrandawant hwy*] Ar lais Duw yn ei geryddon; *a'i wasanaethu ef*—gyda chalon ewyllysgar a da; *hwy a drenliant eu dyddiau mewn daioni*—hwy a adferir i'w hiechyd a'u llywyddiant blaenorol; *a'u blynyddoedd mewn hyfrydwech*—cânt dreulio gweddill eu blynyddoedd mewn hyfrydwech yn gwasanaeth santaidd Duw, ac yn ei gymdeithas a'i ffair ef.

Adn. 12. *Ac oni wrandawant*] Dywedir hyn am y 'cyfiawnon' cystuddiedig, y rhai a geryddid i'r dyben i'w llesâu, adn. 7—11; *dyfethir hwy gan y cleddyf*—gan ryw farn hynod o eiddo Duw; *a hwy a drengant heb wybodaeth*—neu 'am eu bod heb wybodaeth,' fel y gellir cyfieithu *bibli dagnath*; hyny yw, am eu bod heb ddysgu y wers ag y bwriadai Duw iddynt ei dysgu wrth eu ceryddu felly.

Adn. 13. *Ond y rhai rhagrithiol o galon*] Yma cyfeirir at ddoesberth arall o ddyinion, gwahanol i'r rhai uchod, y rhai belyd a gystuddir i'r dyben i'w llesâu; a *chwanegant ddig*—a drysorant iddynt eu hunain ddigofaint erbyn dydd y digofaint, a hyny dan eu ceryddon, yn gystal a chyn eu ceryddu. *Ni waeddant*—am ymwared gan Dduw; *pan rwymo efe hwynt*—â gefynau neu raffau gorthrymder, adn. 8.

Adn. 14. *Eu henaid hwythau*] Sef hwy eu hunain; *fydd marw mewn ieuencid*—yn

15 Efe a wared y truan yn ei gystudd, ac a egyr eu clustiau hwynt mewn gorthrymder.

16 Felly hefyd efe a'th symudasai di o enau cyfyngdra i eangder, lle nid oes gwasgfa; a saig dy fwrdd di *fuasai* yn llawn brasder.

17 Ond ti a gyflawnais farn yr annuwiol: barn a chyfiawnder a ymflant *ynot*.

18 O herwydd *bod* digofaint, *gochel* rhag iddo dy gymeryd di ymaith â'i ddyrnod: yna ni'th wared iawn mawr.

19 A brisia efe ar dy olud di? *na phrisia*, ar aur, nac ar holl gadernid nerth.

20 Na chwennych y nos, pan dorer pobl ymaith yn eu lle.

21 Ymochel, nac edrych ar anwiredd: canys hyny a ddewisaist o flaen cystudd.

22 Wele, Duw trwy ei nerth a ddyrchafa: pwy sydd yn dysgu fel efe?

23 Pwy a orchymynodd ei ffordd ef iddo? a phwy a ddywed, Gwnaethost anwiredd?

24 Cofia fawrhau ei waith ef, ar yr hwn yr edrych dynion.

25 Pob dyn a'i gwel; a dyn a'i cenfydd o bell.

26 Wele, mawr *yw* Duw, ac nid adwaenom ef; ac ni fedrir chwil-

'hanner eu dyddiau;' *a'u bywyd gyda'r aflan*—neu 'gyda'r sodomiaid,' fel y mae ar ymyl y ddalen. Y meddwl yw, y caent yr un driniaeth a'r rhai mwyaf ffaidd a halogedig o ddydolryw.

Adn. 15. *Efe a wared y truan yn ei gystudd*] Neu o'i gystudd; ac a egyr eu clustiau hwynt mewn gorthrymder—efse a wna iddynt wybod i ba ddyben y cystuddiwyd hwynt, a phaham y goddefodd efe iddynt gael eu gorthrymu. Gellir cyfieithu y gair *yigel*, 'efe a wna iddynt lawenyachu mewn gorthrymder,' fel y tri llanc wedi hyny yn y fwrn danyldd boeth.

Adn. 16. *Felly hefyd efe a'th symudasai di o enau cyfyngdra*] Pe buasit ddim ond yn ymestwg dan ei alluog law ef, ac yn wynebu ato am drugaredd; i eangder lle nid oes gwasgfa—i gyflwr o lawddfyd, llwyddiant, a dedwyddwch; a saig dy fwrdd di *fuasai* yn llawn brasder—cawsit gyfiawnder o drugareddau naturiol, ac iechyd a bywyd i'w mwynhau.

Adn. 17. *Ond ti a gyflawnais farn yr annuwiol*] A fuost yn euog o'r un ymadroddion celyd ag a lefarasant hwythau yn erbyn Duw; barn a chyfiawnder a ymflant *ynot*—neu gerydd barnol mewn ffordd o gyfiawnder.

Adn. 18. *O herwydd bod digofaint*] Oddiwrth Dduw wedi dechreu enyn i'th erbyn; *gochel rhag iddo dy gymeryd di ymaith a'i ddyrnod*—editarha ar frys, cyn iddi fyned yn rhy ddiweddar, neu cyn i Dduw dy symud oddiar y ddaear yn ei ddigofaint: *yna ni'th wared iawn mawr*—ni fydd i ddim yn y nefoedd na'r ddaear allu dy waredu. Er nad yw efe yma yn cyfeirio yn neillduol at iawn Crist, y mae yn wir hefyd am hwnw, nad yw Duw yn gwaredu neb trwyddo a fyddont farw yn eu pechodau.

Adn. 19. *A brisia efe ar dy olud di*] Fel iawn am dy fywyd ffioffetiedig? *Na phrisia*, ar aur—pe bae genyt holl aur y byd i'w gynyg yn iawn am dy fywyd; nac ar holl gadernid nerth—y byddinoedd cryfaf ar y ddaear.

Adn. 20. *Na chwennych y nos*] Sef nos angau, yr hon y tybi di y byddai iddi roddi

terfyn ar dy ddyoddefiadu; pan dorer pobl ymaith yn eu lle—neu yn y cyflwr ag y byddont byw ynddo. Y mae llawer, yn eu cystudd, yn hiraethu am farwolaeth; ac eto nid ydynt yn barod i ymddangos o flaen Duw! Y fath ynfyrwydd yw hyn! Pe cymerai efe hwynt ymaith yn ol eu dymuniad, byddent wedi eu dinystrio am byth. Gall cystudd fod yn foddion eu hiachawdriaeth; ond byddai eu marwolaeth ddeisyfiedig yn ddinystyr tragwyddol iddynt.

Adn. 21. *Ymochel, nac edrych ar anwiredd*] Gwylia rhag i ti, yn yr olwg a gymeri ar y gorchwyliaethau dwyfol, ac yn y syniadau a letyi, fod yn bleidiwr i anwiredd; canys hyny a ddewisaist o flaen cystudd—y mae yn well genyt roddi ffrwynt i'th achwyniadau, na dyoddef dy gystudd yn dawel; gwel genyt feio ar ragluniaeth Duw, nac ymestwg yn amyneddgar dan ei geryddon ef.

Adn. 22. *Wele, Duw trwy ei nerth a ddyrchafa*] Y mae Duw yn hollalluog, ac nid wyt ti eto allan o gyraedd ei drugaredd ef: *pwy sydd yn dysgu fel efe?*—nid oes neb mor gymhwys a Duw i roddi i ti olwg briodol ar ei drefniadau a'i lywodraeth oruchel ei hun.

Adn. 23. *Pwy a orchymynodd ei ffordd ef iddo*] Yn yr hon y dylai ymddwyn neu rodio? *A phwy a ddywed*—yn yr olwg ar ei weinyddiadau ef, *Gwnaethost anwiredd*—cyfeiliornais, neu gwnaethost ar fai?

Adn. 24. *Cofia fawrhau ei waith ef*] Fel wedi ei wneuthur oll mewn anfeidrol ddoethineb a daioni; ar yr hwn yr edrych dynion—yn gyffredin, gydag hyfrydwch a rhyfeddod.

Adn. 25. *Pob dyn a'i gwel*] Gall pob dyn weled prawf o ddaioni, mawredd, a doethineb Duw, yn ei holl weithredoedd creadigol a rhagluniaethol; a dyn a'i cenfydd o bell—gan mor eglur ydyw. Y mae gwaith Duw mor fawr, a'i ddaioni ynddo mor amlwg, fel y gellir ei ganfod o bell; ac nid ydyw fel pethau bychain, y rhai nis gellir eu canfod ond pan fyddo un yn eu hymyl.

Adn. 26. *Wele, mawr yw Duw*] Anfeidrol fawr yn ei natur a'i weithredoedd; ac nid adwaenom ef—nis gallwn ei amgyffred ef i ber-

io allan nifer ei flynyddoedd ef.

27 Canys efe a wna y defnyddau dyfroedd yn fan: hwy a dywalltant wlaw fel y byddo ei darth;

28 Yr hwn a ddyfera, ac a ddefnyddia y cymylau, ar ddydd yn helaeth.

29 Hefyd, a ddeall *dyn* daeniadau y cymylau, a thwrff ei babell ef?

30 Wele, efe a daenodd ei oleuni arno, ac a orchuddiodd waelod y môr.

31 Canys â hwynt y barn efe y bobloedd, ac y rhydd efe fwyd yn helaeth.

32 Efe a guddia y goleuni â chymylau; ac a rydd orchymyn

iddo na thywyno trwy y cwmwl sydd rhyngddynt.

33 Ei dwrf a fynega am dano, a'r anifeiliaid am y tARTH.

PENNOD XXXVII.

WRTH hyn hefyd y cryn fy nghalon, ac y dychlamma hi o'i lle.

2 Gan wrando gwrandewch ar swm ei lef, ac ar y sain a ddaw allan o'i enau ef.

3 Efe a'i hyfforddia dan yr holl nefoedd, a'i felld hyd eithafoedd y ddaear.

fseithrwydd; ac ni fedrir chwilio allan nifer ei flynyddoedd ef—yr hwn sydd yu bodoli erioed, ac i barhau am byth, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb.

Adn. 27. *Canys efe a wna y defnyddau dyfroedd yn fan*—Cyteiria hyn ond odid nid at ddyhidliad y defnyddau dyfroedd ar y ddaear, ond at y dyrchafiad i'r cymylau, neu eu canhedliad yno: *hwy a dywalltant wlaw fel y byddo ei darth*—yn oi cyfartaledd y tARTH a sugnir o'r ddaear neu y môr gan wres yr haul.

Adn. 28. *Yr hwn a ddyfera, ac a ddefnyddia y cymylau*] Yn gawodydd araf ac ireiddiol, ac nid a dywalltant yn ffyrdiau dinystriol; *ar ddydd yn helaeth*—ar bob dydd, neu at wasanaeth y teulu dynol.

Adn. 29. *Hefyd, a ddeall dyn daeniadau y cymylau*] Neu y modd y mae cwmwl bychan, fel cledr llaw gwŷr, yn ymledu fel llen dros yr holl nefoedd? gwel ar 1 Bren. xviii. 44. *A thwrff ei babell ef*—sef y taranau cryfion a glywir o'r cymylau, y rhai a elwir yn fynych ei 'babell' ef, Esay xl. 22. Nis gallwn feddwl fod y deddfau, trwy ba rai y cynyrrhid hyn, yn adnabyddus i ddynion yn amser Elihu; ac hyd yn nod yn awr, pryd y mae celfyddyd wedi esgor ar gymaint o wybodaeth, nid yw gallu a doethineb Duw yn ymddangos yn llai anlwg yn y cyfan.

Adn. 30. *Wele, efe a duenodd ei oleuni arno*] Ar y cwmwl, yn nhywyniad y fellden; ac a orchuddiodd waelod y môr—â'r gwlaw a'i canlynai, neu â llewyrch y fellden. Y meddwl yw, fod y gwrthddrychau uwchaf ac isaf dan oi lywodraeth ef: neu fod ei allu a'i ddylanwad yn cyraedd i'r nefoedd uchod, y ddaear isod, a'r dwrf dan y ddaear.

Adn. 31. *Canys â hwynt y barn efe y bobloedd*] Am eu pechodau, sef âg ystoriwydd o felt a tharanau, gwlawogydd a gwyntoedd; ac y rhydd efe fwyd yn helaeth—y meddwl yw, y gall Duw beri i'r un offerynnau fod yn foddion i gopsi dyn, neu ynte yn wasanaethgar i faethloni y ddaear er cynaliaeth iddo.

Adn. 32. *Efe a guddia y goleuni â chymylau*] Heb., 'yn ei ddwylaw;' ac a rydd orchymyn iddo na thywyno trwy y cwmwl sydd rhyngddynt—neu, fel y mae Dr. Stock

yn ei gyfieithu, 'ac a rydd orchymyn pa beth a *gyfarfyddo*,' neu 'pa beth a *darawo*.' Wrth y 'goleuni' yma y meddylir y *fellden* yn ddi-amau; a'r meddwl yw, ei bod yn llaw Duw, neu yn hollol dan ei lywodraeth ef, yn ei holl synudiadau.

Adn. 33. *Ei dwrf a fynega am dano*] Bydd i dwrf y daran, wrth gael ei hachosi gan y fellden, fynegu gallu a phresenoldeb Duw; *a'r anifeiliaid am y tARTH*—a'r anifeiliaid a tyne- negant ddyfodiad y gwlaw. Fe allai mai cyfeiriad sydd yma at y reddd arbenig trwy ba un y chwilia rhai anifeiliaid am le i ymgysgodi pan fyddo yr ystorn yn agosáu. Ond y mae rhai yn cyfieithu y rhan olaf fel hyn: 'Trysorfa o ddigofaint yn erbyn anwired.' Y mae *Good* yn cyfieithu yr holl adnod fel hyn: 'Gyda hi y rhuthra ei ruad: ffyrnigrwydd digofaint o herwydd drygioni.'

PEN. XXXVII. Adn. 1. *Wrth hyn hefyd y cryn fy nghalon*] Sef wrth yr ystyriaeth o lawredd gallu Duw yn y mell a'r taranau; ac y *dychlamma hi o'i lle*—gan ddychryn a brow, yr hyn sydd efaith dra adnabyddus. Dylasai yr adnodau hyn, hyd ganol adn. 5, fod mewn cysylltiad â'r beunod ddiweddaf, ac yn rhan o honi, trwy eu bod yn barhad o'r hyn a ddechrewyd yno, adn. 29.

Adn. 2. *Gan wrando gwrandewch ar swm ei lef*] Gellir casglu oddiyma fod ystorn ddychrynlyd o felt a tharanau, gwynt a gwlaw, yn cymeryd lle y pryd hyny, tra yr oedd Elihu yn llefaru; a meddylir iddi barhau nes i Dduw ddechreu llefaru o'r corwynt, pen. xxxviii. 1, &c. *Ac ar y sain a ddaw allan o'i enau ef*—a gynyrchir trwy ei air neu ei orchymyn ef: gwel ar adn. 5.

Adn. 3. *Efe a'i hyfforddia dan yr holl nefoedd*] A bair i'r daran gerdded, neu gael ei chlywed, yn mhob parth dan y nwyfre; *a'i felld hyd eithafoedd y ddaear*—o'r dwyrain i'r gorllewin, ac o'r gogledd i'r de. Y meddwl yw, fod y mell yn gweu yn mhob cyfeiriad ar unwaith, ac felly yn achosi gwahanol daranau ar yr un pryd, y rhai a glywid yn mhob cwr o fewn y terynglych.

Adn. 4. *Swm a rua ar ei ol ef*] Nen 'ar ei hol hi;' hyny yw, ar ol y fellden clywid y

4 Swn a rua ar ei ol ef: efe a wna daranau â llais ei odidogrwydd, ac ni oeda efe hwynt, pan glywir ei dwrf ef.

5 Duw a wna daranau â'i lais yn rhyfedd: y mae yn gwneuthur pethau mwy nag a wyddom ni.

6 Canys efe a ddywed wrth yr eira, Bydd ar y ddaear; ac wrth gawod o wlaw, ac wrth wlaw mawr ei nerth ef.

7 Efe a selia law pob dyn, fel yr adwaeno pawb ei waith ef.

8 Yna yr â y bwystfil i'w loches, ac y trig yn ei le.

darau. *Efe a wna daranau â llais ei odidogrwydd*—â'i lais mawreddog ac ardderchog. *Ac ni oeda efe hwynt*—ni oeda efe y mellt; *pan glywir ei dwrf ef*—neu lais Duw yn y daran. Gall mai y meddwl yw, fod y mellt a'r taranau yn dilyn eu gilydd yn ddisiebiant: neu dichon fod yma gyfeiriad at dymhestl ofnadwy o wynt a gwlaw, neu genllusg, yn dilyn yr ystorn o fellt a tharanau; ac nad 'oedid' y nail nes y dechrenai y lall. Dyldid sylwi fod y fellten a'r daran yn cymeryd lle ar un-waith; ond trwy fod goleuni yn cyraedd atom ni yn gynt na swn, yr ydym yn gweled y fellten cyn clywed y daran. Yr ydys wedi profi fod swn yn teithio oddentu 380 o latheni mewn eiliad, neu filldir mewn oddentu pedwar eiliad a hanner; ac wrth i un gyfrif yr eiliadau a fyddont rhwng ymdanghosiad y fellten a thwrf y daran, gall wybod pellter y fellten oddiwtho ef. Nid oes genym hanes i fellten wneuthur dim niwed i neb, os byddai oddentu milldir a hanner oddiwtho, neu os na chlywid y daran am saith eiliad ar ol gweled y fellten.

Adn. 5. *Duw a wna daranau â'i lais*] Y mae yn debyg na wyddai Elihu gymaint am ddeddfau y mellt a'r taranau ag a wyddom ni yn y dyddiau hyn, a'i fod yn golygu mai llais Duw yn llythyrenol oedd y daran. Rhoddwyd darluniad naturiol a thra athronyddol o'r fellten a'r daran gan yr hen fardd Cymreig *D. ab Gwilym*, yn y ddwy linell ganlynol:

'Tân a dŵr yn ymwrïaw
Yw taranau dreigiau draw.'

Hyn yw, tân a dwrf yn ymdrechau am feistr-olaeth neu oruchafiaeth ar eu gilydd. *Yn rhyfedd*—mewn modd rhyfedd: gwel ar Salm lxxvii. 16—19. *Y mae yn gwneuthur pethau mwy nag a wyddom ni*—Saes., 'nag a allwn ni eu hamgyffred,' nid yn unig trwy y mellt a'r taranau, ond hefyd trwy bethau ereill mewn natur a rhagluniaeth, at y rhai y cyfeirir yn y rhanau caulnon o'r bennod hon. Ac am hyn nid rhyfedd fod ffyrdd dyfnion rhagluniaeth Duw yn guddiedig oddiwthym ni; a byddai yn rhyfng mawr ynom ni feio ar ei weithredoedd ef, am nad ydym yn gallu eu deall.

Adn. 6. *Canys efe a ddywed wrth yr eira, Bydd ar y ddaear*] Ac efe yn y fan a ffurfr

9 O'r deau y daw corwynt; ac oerni oddiwth y gogledd.

10 A'i wynt y rhydd Duw rew: a lled y dyfroedd a gyfyngir.

11 Hefyd efe a flina gwmwl yn dyfrhau; efe a wasgar ei gwmwl golen.

12 Ac y mae hwnw yn ymdroi oddiamgylch wrth ei lywodraeth ef: fel y gwnelont hwy beth bynag a orchymyno efe iddynt, ar hyd wyneb y byd ar y ddaear.

13 Pa un bynag ai yn gospedigaeth, ai i'w ddaear, ai er daioni, efe a bâr iddo ddyfod.

yn yr awyr, ac a ddisgyn yn gaenau ar y ddaear; ac *wrth gawod o wlaw*—sef gwlaw mân, tynar, ac ireiddlon; ac *wrth wlaw mawr ei nerth ef*—yr hwn a ddisgyn yn ffyrddiau a llifogydd rhuthrol a niweidiol. Y meddwl yw, fod Duw â'i air yn gallu gorchymyn i'r eira, a'r gwlaw o bob math, ddisgyn ar y ddaear pan y myno, a bod hyn yn brawf o'i ddoethineb a'i fawredd ef.

Adn. 7. *Efe a selia law pob dyn*] Y mae Duw trwy ystornymyd tymlestlog o wlaw ac eira, neu trwy rew caled, yn rhoddi attalfa ar orchwyllion dynion, fel pe byddai llaw pob dyn wedi ei chau a'i selio i fyny; *fel yr adwaeno pawb ei waith ef*—fel y caffont haundden i ystyried ac adnabod ei law ef yn yr ystornymyd hyn, ac mai efe a'u trefnodd, a'u bod hwythau felly yn ymddibynol arno ef.

Adn. 8. *Yna yr â y bwystfil i'w loches*] Lle yr crys efe am gysgod a chysur nes yr â yr ystorn hebio.

Adn. 9. *O'r deau y daw corwynt*] Rhyw drownt neu boethwynt ystornus ond odid, *Esay* xxi. 1, *Zech.* ix. 14; ac oerni oddiwth y gogledd—dylynid y gwynt gogleddol yn gyffredin gan oerni, os nid gan genllusg neu eira.

Adn. 10. *A'i wynt y rhydd Duw rew*] *Sef* â'i wynt gogleddol, adn. 9; *a lled y dyfroedd a gyfyngir*—trwy fod glanau yr afonydd o bob tu yn rhewi, heb adael dim ond y canol heb rewi, lle y rhedai y dyfroedd gryfaf.

Adn. 11. *Hefyd efe a flina gwmwl yn dyfrhau*] Fel y blinir dynion wrth gario baich trwm yn barhaus; neu, 'ei ddysgleirdeb a chwâl y cwmwl tew,' fel y myn rhai ei gyfeithu: *efe a wasgar ei gwmwl golen*—trwy wynt neu wres yn ei chwâl, gan sirïoli gwynob yr wybren ar ol y dymbestl.

Adn. 12. *Ac y mae hwnw*] *Sef y cwmwl golen*, am yr hwn y soniwyd ddiweddar; *yn ymdroi oddiamgylch wrth ei lywodraeth ef*—neu wrth gyfarwyddyd Duw, ac nid yn cael ei adael i ddamwain; *fel y gwnelont hwy*—sef y cymylau, *beth bynag a orchymyno efe iddynt*—megys symud i le arall, neu ddiifann, neu dywallt gwlaw, neu guddio yr haul o olwg y ddaear.

Adn. 13. *Pa un bynag ai yn gospedigaeth*] Ar ddyinion o herwydd eu pechoda, fel yn

14 Gwranddo hyn, Job; saf, ac ystyria ryfeddodau Duw.

15 A wyddost ti pa bryd y dosbarthodd Duw hwynt, ac y gwnaeth efe i oleuni ei gwmwl lewyrchu?

16 A wyddost ti oddiwrth bwysau y cymylau, rhyfeddodan yr hwn sydd berffaith-gwbl o wybodaeth?

17 Pa fodd y mae dy ddillad yn gynhes, pan baro efe y ddaear yn dawel a'r deheu-wynt?

18 A daeuaist ti gydag ef yr

amser y dylif; *ai i'w ddaear*—sef daear Duw, trwy i'r cymylau gilio ymaith, a gadael iddi gael ei chrasu i fyny gan wres yr haul; *ai er daioni*—trwy ddyhiddo gwlaw maethlon i ffrwythloni y ddaear. *Efe a bwr iddo ddyfod*—a bwr i'r gwlaw, y gwres, neu y sychder ddyfod; neu a bwr i'r cymylau fod yn offerynu o *gospedigaeth* neu *ddaioni* i ddyn, trwy eu bod oll yn cael eu llywodraethu yn ol ei ewyllys ef.

Adn. 14. *Gwranddo hyn, Job*] Sef y wers a ddyysgir i ti oddiwrth weithredoedd Duw; *saf*—myfyria yn ddiifiof ar y pethau a fynegais i ti; *ac ystyria ryfeddodau Duw*—neu ei weithredoedd mawreddog ef, y rhai sydd yn rhyfedd yn eu natur, yn ddiderfyn yn eu nifer, yn annarluniadwy yn eu rhanau, ac yn anamgryfreadwy yn eu moddau, eu ffurfiau, a'u dyben.

Adn. 15. *A wyddost ti pa bryd y dosbarthodd Duw hwynt*] Neu pa fodd y trefnodd efe y cymylau, y melt, y gwynt, y gwlaw, a'r eira? Y mae y cwestiwn, yn ol rhediad y wreiddiol, yn cyfeirio at y *modd* y trefna ac y llywodraetha Duw hwynt, yn hytrach nag at yr *amser* pryd y gwnaed hwynt. Nid gofyn y mae efe *pa bryd* y gwnaed hyn, ond a allai Job egluro *pa fodd* ei gwnaed? *Ac y gwnaeth efe i oleuni ei gwmwl lewyrchu*—a ellid di egluro yr achos o'r *mellt*, y rhai a ymsaethant o'r ewmwl? Ond tybia rhai mai at yr *ensys* y cyfeirir.

Adn. 16. *A wyddost ti oddiwrth bwysau y cymylau*] Neu y modd y maent, pan yn llwythog o ddwfr, yn cael eu dal i fyny yn yr awyr tenen? *Rhyfeddodau yr hwn sydd berffaith-gwbl o wybodaeth*—nen, fel y mae *Good* yn ei gyfieithu, 'rhyfeddodau, perffeithderan doethineb!' Y meddwl yw, y rhaid fod Duw, yr hwn sydd yn llywodraethu y melt, ac yn dal y cymylau dyffilyd yn grogedig yn yr awyr, yn anfeidrol mewn gallu; ac y rhaid i'r hwn sydd yn anfeidrol mewn gallu, fod yn berffaith hefyd mewn gwyrbodaeth a doethineb.

Adn. 17. *Pa fodd y mae dy ddillad yn gynhes*] Neu yn dy gadw di yn gynhes? *pan baro efe y ddaear yn dawel a'r deheu-wynt*—trwy i wyntoedd oerion y gogledd gael eu newid am awel dynerach y deau? Neu, 'pa beth yw yr achos fod yr awel yn tyneru pan chwytho y deheu-wynt?' Yr ydym ni yn awr yn gallu ateb y cwestiynau hyn trwy ddywedyd, fod ein dillad yn attal gwsgariad gwres

ŵybren, yr hon a sicrhawyd fel drych toddedig?

19 Gwna i ni wybod pa beth a ddywedwn wrtho: ni fedrwn ni gyfleu *ein geiriau* gan dywyllwch.

20 A fynegir iddo ef os llefaraf? os dywed neb, diau y llynceir ef.

21 Ac yn awr, ni wel *neb* y goleuni dysglaer *sydd* yn y cymylau: ond myned y mae y gwynt, a'u puro hwynt.

22 O'r gogleddwynt y daw hin-

natural y corff; a bod y parthau dehenol yn gynbesach na'r parthau gogleddol; a bod yr awel yn cael ei thynnu i fesur mawr, yn ngwlad Job, wrth chwytho ar draws y gwastadedd eang o dywod ag oedd ar y cyffiniau hyn: ond nid yw yn eglur fod y pethau hyn yn hollol adnabyddus i Elihu y pryd hyn. Eithr nid yw fod deddfau natur yn cael eu deall yn well yn ein dyddiau ni, yn peri i ni edrych yn is ar ddoethineb a mawredd y Creawdwr, ond yn hytrach y mae pob datguddiad newydd yn tueddi i newid rhyfeddiad dall yn ddyhweddy deallgar, a thro'i syndod mud yn fawl ac addoliad.

Adn. 18. *A daeuaist ti gydag ef yr ŵybren?*] A oeddit ti yn cynorthwyo Duw yn ffurfio yr ŵybren lās uwchben? *Yr hon a sicrhawyd fel drych toddedig*—fel drych wedi ei wneuthur o bres neu dduw, yn ol arferiad y dyddiau hyn, cyn dyfeisio gwydr. Y mae yr awyr uwchben, er yn denu a thryloew, eto yn sicr a diysgog; a gallwn yn y drych hwn weled gogoniant a mawredd Duw, a doethineb gwaith ei fysedd ef.

Adn. 19. *Gwna i ni wybod pa beth a ddywedwn wrtho*] Yn ngwynebi ei weithredoedd rhyfeddol hyn, a dyfnder ffyrdd ei raglunioaeth: *ni fedrwn ni gyfleu ein geiriau gan dywyllwch*—ni wyddom ni pa beth i'w ddywedyd, na pha fodd i'w ddywedyd, gan dywyllwch ein meddyliau ein hunain, a'r tywyllwch cudd ag sydd o amgylch dyfnion ffyrdd Duw.

Adn. 20. *A fynegir iddo ef os llefaraf?*] Fel pe dywedasai, A anfonaf fi trwy ryw genad her i Dduw i ymruson â mi, neu i fynegu iddo fy mod i yn barod i ddadlu ag ef yn nghylch ei weinyddiadau? Yr wyt ti, Job, wedi gwneuthur hynny mewn effaith; ond pell fyddo y fath ryfug oddiwrthyf fi. *Os dywed neb*—os beiddia neb nesau felly i ymruson â Duw; *diau y llynceir ef*—gan deimlad o'i anfeidrol fawredd a'i burdeb ef; neu y dyfethir ef am y fath ryfug ac ynfydrwydd. Amcan Elihu oedd cerddu Job am y modd rhyfygus y llefarasai efe gyda golwg ar Dduw, ac am chwenych o hono gael dadlu â Duw mewn amddiffyniad i'w achos ei hun.

Adn. 21. *Ac yn awr, ni wel neb y goleuni dysglaer sydd yn y cymylau*] Nid yw dynion yn gallu edrych ar y *mellt* ag sydd yn gweu yn awr yn y cymylau, adn. 2; ac am hynny, fel pe dywedasai, nid rhyfedd ef bod yn methu gwled Duw, neu ddeall ei gynghor a'i

dda: *y mae* yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy.

23 *Am* yr Hollalluog, ni allwn ni mo'i gael ef: ardderchog *yw* o nerth, a barn, a helaethrwydd cyfiawnder: ni chystuddia efe.

24 *Am* hyny yr ofna dynion ef: nid edrych efe ar neb doeth eu calon.

ffyrdd ef. *Onid myned y mae y gwylt, a'u puro hwynt*—en 'chwalu' neu en 'holhti,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu. Ond tybia ereill mai dysgleirdeb yr *haul* a olygr yn nechre yr adnod, ar ol i'r gwynt ysgubo ymaith y cymylau a'r rhai a'i coddient ef. Barna ereill mai cyfeirio y mae Elihu at ryw *lewyrch ysplenydd* yn yr awyr, yr hwn oedd yn arwydd o ddyfodiad Duw i roddi terfyn ar y ddadl hon, a'r hwn nis gallai neb svllw arno. Os *yw* hyn yn wir, pa ryfedd fod Elihu yn llefaru yma fel dyn a fyddai wedi hanner dyrsu?

Adn. 22. *O'r gogleddwylt y daw hindda*] Yr hwn wynt a wasgara y cymylau, ac a bair awyr clir. Ond y mae y gair *zakah*, a gyfieithir yma yn 'hindda,' yn arwyddo yn briodol awr, neu rywbeth o liw euraidd; ac felly y darllenir ef yn y Vulgate, y Syriaeg, a'r rhan fwyaf o'r cyfieithiadau hen a diweddar: 'O'r gogledd y daw awr.' Ond paham y sonia Elihu am ffynonell yr awr yn nghanol ei ddarluniad o'r golenni dysglair ag oedd yn y cymylau, ac o ogoniant Duw? Ymddengys yn debycach mai ei feddwl oedd, fod rhyw oleuni llachar yn ymdori allan yn y rhanbarth ogleddol o'r awyr, o *tiw aur dysglair*, yr hwn oedd yn arwydd o nesad OGONIANIAD DUW. Yn unol â hyn cyfieithir yr holl adnod gan y LXX: 'O'r gogledd y daw cymylau o liw euraidd, ac yddynt ddysgleirdeb arswydol a gogoneddus yr Hollalluog.' *Y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy*—nag a ganfyddir yn ymraidd gwmwl gogleddol uchod, nac mewn un o'i weithredoedd rhyfeddol ef a'r a ddarluniodd eto; a dylai hyny beri i ni ofni ac addoli ger ei fron ef, ac nid ymddwyn yn byf a rhyfygus, fel y tybiai Elihu i Job wncuthur yn ddiweddar.

Adn. 23. *Am yr Hollalluog, ni allwn ni mo'i gael ef*] Mo'i amgyffred ef hyd berffeithrwydd, pen. xi. 7—9. *Ardderchog yw o nerth*—fel y gallo wneyd yr hyn a fyno yn ei ragluniaeth a'i ras; a barn—y mae efe yn ardderchog hefyd yn ei weinyddiadau uniawn; a helaethrwydd *cyslawnder*—y meddwl yw, fod y fath gyflawnder gorlifol o gyfiawnder yn rbedeg trwy ei holl weithredoedd ef, fel nas gellir cael achos i'w feio ef mewn dim: *ni chystuddia efe*—neb uwchlaw ei haeddiant, neu heb fod achos cyfiawn yn galw am hyny, Galar. iii. 33. Ond y mae *Clarke* ac ereill yn cyfieithu *la yeunneh*, 'nid etyb efe;' hyny yw, ni ddyry efe gyfrif i neb am ei weithredoedd.

Adn. 24. *Am hyny yr ofna dynion ef*] Nieu y dylent ei ofni a'i barchu, sef am fod y fath berffeithderau ardderchog yn perthyn iddo, adn. 23. *Nid edrych efe ar neb doeth eu*

PENNOD XXXVIII.

YNA yr Arglwydd a atebodd Job allan o'r corwynt, ac a ddywedodd,

2 Pwy *yw* hwn sydd yn tywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth?

calon—ar eu cynghorion hwynt, fel ag i gymeryd ei addysgu ganddynt pabeth i'w wnehtur. Neu fe allai ei fod yn cyfeirio at rai 'doeth yn eu golwg eu hunain,' ac felly yn awgrymu i Job fod yn rhaid iddo ef feddwl yn isel am dano ei hun, mewn trefn i gael safir oddiar law Duw. Ond y mae y LXX yn darllen y rhan olaf o'r adnod hon fel hyn: 'Y rhai doeth o galon a'i hofnau ef.' Gyda'r geiriau hyn y terfyna Elihu, trwy ei fod ond odid wedi brawychu yn fawr yn yr olwg ar yr arwyddion mawreddog o bresenoldeb JEHOFA, yr hwn oedd bellach wedi disgyn yn y corwynt i roddi terfyn ar y ddadl hon.

PEN. XXXVIII. Adn. 1. *Yna yr Arglwydd a atebodd Job*] Yr oedd Job wedi dymuno amrai weithian i Dduw ei ateb ef, a phenderfynu y ddadl rhyngddo ef a'i gyfeillion; ac yn awr, ar ol i Job ddystewi ei dri chytfaill, ond heb eu llwyr argyhoeddi hwynt; ac wedi i Elihu ei ddystewi yntau, ond heb ei ddarostwng ef yn hollol; wele yr Arglwydd o'r diwedd yn dyfod i'w ateb ef yn ol ei ddydduniad. *Allan o'r corwynt*—o ganol y cwmwl a'r dymhestl a ddarluniwyd yn y benod flaenorol, adn. 2. &c. Ymddanghosodd Duw i lefaru yn y modd hwn, (1) Am mai dyma ei ddull arferol ef o'i amlygu ei hun yn yr amseroedd hyny: gwel Exod. xix. 16, &c., Salm xviii. 9—13, Ezeq. i. 4, Hab. iii. 3—6. (2) I ddihuno Job a'i gyfeillion i sylwi yn fwy dyfal a pharchus ar ei eiriau. (3) I ddangos ei anfoddlonrwydd i Job a hwythau. (4) Ac fel y byddai iddynt oll gael eu darostwng a'u paratoi i dderbyn a choïo yr addysgiadau ag yr oedd efe yn nghyleu eu rhoddi iddynt. Nis gallwn feddwl am ddim yn fwy mawreddog ac aruthrol na'r ymddanghosiad hwn o eiddo JEHOFA. Mellt, taranau, a chorwynt, a gyhoeddant ei ddynesiad; yr holl ddaear a gryno o'i flac; wrth oleuni ei olygon oll dreiddiadol, pob lledrith a ddiffana; a rhwysg balchder dyn, ac oferedd gwybodaeth ddydol, a suddant i'w diddymdra gwreiddiol. Y gw'r o ddeall, y gw'r o odra a phrofiad; efe yr hwn ni chwenychai ddim yn fwy na dadlu y pwnc â Duw; efe yr hwn a fynai amddiffyn ei ffyrdd yn ei wyneb ef; wele hwn yn awr wedi ei ddyddelwi a'i laro yn fud yn mhresenoldeb mawreddog yr Anfeidrol; ac y mae yn barod i'w ffeiddio ei hun, ac i edifarhau mewn llwch a lludw!

Adn. 2. *Pwy yw hwn sydd yn tywyllu cynghor*] Yn lle ei oleuo; âg ymadroddion heb wybodaeth—sef âg ymadroddion yn tarddu oddiar anwybodaeth, camgymeriad, ac anystyriaeth? Wrth y cynghor hwn y deallir

3 Gwregysa dy lwynau yn awr fel gŵr; a mynega i mi yr hyn a ofynwyf i ti.

4 Pa le yr oeddit ti pan sylfaenais i y ddaear? mynega, os medri ddeall.

5 Pwy a osododd ei mesurau hi, os gwyddost? neu pwy a estynodd linyrn arni hi?

6 Ar ba beth y sicrhawyd ei sylfeini hi? neu pwy a osododd ei chonglfaen hi?

fyrdd rhagluniaeth a gweinyddian Duw; ac wrth *dywyllu* y cyngor hwnw ág ymadroddion heb wybodaeth, y golygir camddywydd am fyrdd a gweithredoedd Duw yn ei ragluniaeth. Yr oedd Job wedi lletya meddyliau tra ammbriodol am Dduw, ac wedi defnyddio iaith dra anaddas am gyfiawnder ei weinyddian ef, yr hyn nid oedd yn gweddu i unrhyw ddyw, yn enwedig i ddyw yn proffesu y wir grefydd; ac yr oedd yn angenrheidiol i Dduw ei ddwyn ef i edifeirwch, ac i deimlad priodol, cyn iddo ymddangos fel amddiffynwr iddo, a'i gyfarch ef â geiriau o ddyddanwch. Tybiodd rhai mai am *Elihu* y dywed Duw hyn; ond ymddengys oddiwrth adn. 1, ac oddiwrth pen. xlii. 3, lle y mae Job yn cymhwyso y cerydd hwn ato ei hun, yn gystal ag oddiwrth y defnyddiad o'r un rhesymau ag a arferasai Elihu yn erbyn Job, mai am Job y llefarir yma.

Adn. 3. *Gwregysa dy lwynau yn awr fel gŵr*] A fyddo yn myned i gyflawni rhyw orchestwaith caled; ymwrloa ac ymgyrfa, a chynull yn nghyd dy holl alluoedd at y gwaith ag yr wyf yn myned i'w osod o'th flaen. *A mynega i mi yr hyn a ofynwyf i ti*—gan i ti lefaru mor hunan-lyderus am fy llywodraeth i, mi a gynygiaf i ti rai cwestiynau i brofi dy wybodaeth a'th ddoethineb.

Adn. 4. *Pa le yr oeddit ti pan sylfaenais i y ddaear?*] Pan y gosodais hi mor gadarn ar ei chanolbwynt ei hun, a phe buasai wedi ei hadeiladu ar y sylfeini cryfaf. Y mae y gofyniad yn awgrymu nad oedd ef mewn un man, nad oedd yn bodoli. *Mynega, os medri ddeall*—traetha pa fodd y sylfaenais hi, os gwyddost. Fel pe dywedasai, Ond gan na fedri draethu hyn, pa fodd y rhyfygi di, yr hwn nad wyt ond megys er doe, flurfio barn am fy nghyngor tragwyddol i? Mi a wnaethym y byd heb dy gymhorth di, ac am hyny gallaf ei lywodraethu heb dy gyfarwyddyd.

Adn. 5. *Pwy a osododd ei mesurau hi?* Neu a bendertynodd beth oedd ei hyd, ei lled, a'i dyfnder i fod? *Neu pwy a estynodd linyrn arni hi*—i edrych ei bod yn ateb i'r mesurau hyny?

Adn. 6. *Ar ba beth y sicrhawyd ei sylfeini hi?* I'w dal i fyny? *Neu pwy a osododd ei chonglfaen hi?*—y mae yr iaith yma yn gyffelybiaethol, wedi ei benthycia oddiwrth saerinaeth, gan gydmaru y ddaear i adeilad. Yr oedd llawer o wahanol ddychymygion yn

7 Pan gydganodd ser y bore, ac y gorfoleddodd holl feibion Duw.

8 *A phwy a gauodd y môr â dorau*, pan ruthrodd efe allan megys pe deuai allan o'r groth?

9 Pan osodais i y cwmwl yn wisg iddo, a niwl tew yn rhwymyn iddo,

10 Pan osodais fy ngorchymyn arno, a *phan* osodais drosolion a dorau,

11 Gan ddywedyd, Hyd yma y

mhlith yr henafaid gyda golwg ar yr hyn ag ydoedd yn cynal y ddaear; canys ni wyddent hwy yn gyffredin ei bod yn crogi ar ddim, neu yn cael ei dal i fyny gan ddeddfau dysgyrchiant. Y meddwl yw, os nad allai Job ateb y cwestiynau hyn, na ddylai efe ryfygu estedd mewn barn ar lywodraeth Duw, na meddwl ei fod yn addas i drin ei gynghorau dirgel ef.

Adn. 7. *Pan gydganodd ser y bore*] Tybia rhai mai y ser yn llythrenol a olygir, y rhai a arddanghosir fel yn llawenhau ar chwaneigad byd arall at eu nifer. Ond y mae yn debycach mai yr *angylion* a feddylir, y rhai a elwir yn ser, ar gyfrif eu dysgleirdeb; ac yn ser y bore, am ddarfod eu creu ond odid o flaen y ddaear; ac yn *feibion Duw*, am eu bod yn gwisgo ei ddwlw ogoneddus ef. Gosodir hwynt allan fel yn *cydganu* ac yn *gorfoleddu*, am fod byd newydd wedi ei greu yn amherodraeth eang eu Tad nefol, yr hwn a ddygair ychwaneg o goniant mynegol i'w enw santiaidd ef. Y mae yn debyg fod yr angylion sythiedig wedi pechu cyn hyn, a bod y rhai a gadwasant eu dechredad, at y rhai y cyfeirir yma, wedi cael rhyw awgrymiad o'r hyn a gmerai le ar y ddaear: ac os gwyddent hwy fod y byd hwn i fod yn chwarentwrdd cariad prunedigol, ac mai yma yr oedd Mab Duw i ymgnawdoli, ac i roddi iawn dros bechod; os gwyddent y dygid myrdd milynau o drigolion hwn i ganu anthem y gwaed dros oesoedd tragwyddoldeb, yr hon a fyddai yn rhy oruchel iddynt hwy allu cymeryd rhan ynddi, nid rhyfedd eu bod yn gorfoleddu yn y fath ragolwg hyfrydol.

Adn. 8. *A phwy a gauodd y môr â dorau*] O fewn ei wely ei hun, rhag iddo orllof dros y ddaear? *Pan ruthrodd efe allan*—fel baban yn cael ei eni o groth y ddaear, neu o'r tryblith elfenol.

Adn. 9. *Pan osodais i y cwmwl yn wisg iddo*] Yma, trwy gyffelybiaeth brydfertu, arddanghosir y môr fel baban newydd ei eni, a'r cwmwl fel y wisg a roddid gyntaf o'i ddeutu; *a niwl tew yn rhwymyn iddo*—fel finnen neu gewyn i rwympo y wisg hono am y baban newydd eni.

Adn. 10. *Pan osodais fy ngorchymyn arno*] I'w gadw o fewn ei derfynau, fel baban yn ei gryd; *a phan osodais drosolion a dorau*—sef muriau o greigiau, mynyddau, a thywod, fel erchwynion gwely i'w gadw yn ei gryd.

Adn. 11. *Gan ddywedyd*] Mewn effaith wrth y rhyferthwy cynddeiriocaf; *Hyd yma*

deui, ac nid yn mhellach; ac yma yr attelir ymchwydd dy dônau di.

12 A orchymynaist ti y bore er dy ddyddiau? a ddanghosaist ti i'r wawrddydd ei lle,

13 I ymaflyd yn eithafodd y ddaear, fel yr ysgydwer yr annuwiol allan o honi hi?

14 *Canys* hi a ymnewidia fel clai y sêl; a hwy a safant fel dillad.

15 Ac attelir eu goleuni oddiwrth yr annuwiol: dryllir y braich dyrchafedig.

y deui, ac nid yn mhellach—yn ngorlifad dy lanw; *ac yma yr attelir ymchwydd dy dônau di*—Heb., 'balchder dy dônau.' Y maarddanghosir y tônau cwyddedig yn ymruthro yn mlaen mewn balchder a hunan-hyder, fel pe nas gallai dim eu hattal rhag ysgubo ar draws y ddaear: ond mewn moment wele hwynt yn cael eu hattal a'u dryllio, a nerth eu balchder yn cael ei wasgaru ar wyneb y traeth, a hwythau yn gorfod ymlithro yn ol i'w gwely yn araf a dystaw, fel pe byddent wedi cywilyddio.

Adn. 12. *A orchymynaist ti y bore er dy ddyddiau?* A beraist ti i'r haul godi ryw fore er pan aned di? *A ddanghosaist ti i'r wawrddydd ei lle*—yr amser pryd, a'r rhan hōno o'r terfyngylch lle, y dylai yr haul godi? Y mae yr haul yn newid ei le i godi bob dydd o'r flwyddyn, yn ol estyniad neu fyrhad y dydd; ond Duw oedd yn peri hyn, ac nid Job.

Adn. 13. *I ymaflyd yn eithafodd y ddaear* I dafu ei lewyrch o'r rhan ddwyreiniol o'r terfyngylch i'r rhan orllewinol; *fel yr ysgydwer yr annuwiol allan o honi hi*—oddiwrth y ddaear. Y mae llufruddion, lladron, a godinebwyr, yn casâu y goleuni, ac yn ffioi i ymguddio yn eu llochesau ar wawriad y dydd, ac felly mewn ystyr yn gadael y ddaear; neu ynte y maent yn cael eu dal yn y bore am y drygau a wnaethent yn y nos, ac yn cael eu hysgwyd allan o'r ddaear trwy eu cospi â marwolaeth.

Adn. 14. *Canys hi a ymnewidia fel clai y sêl* Cyfrifodd *Schultens* ugain o wahanol ystyron yn cael eu rhoddi gan esbonwyr i'r adnod hon. Fe allai mai ei meddwl yw, fod goleuni y dydd yn gwneyd argraff newydd ar wyneb y ddaear, fel y gwna sêl ar gŵyr neu glai. Yn nhwyllwch y nos nid oes na phryd na gwedd iddi; ond wedi i'r haul godi, gwelir ei mynyddoedd, ei dyffrynoedd, ei hafonyddi, ei choedydd, ei hadeiladau, a'i blodau. *A hwy a safant fel dillad*—mewn prydfwrthwch adnewyddol ar dywyriad y goleuni, fel pe byddent wedi eu gwisgo â dillad gwychion. Y pethau ni welid yn y nos, megys y porfeydd gleision, y coed-ydd flwythlon, y llwsiau a'r blodau amryliw, &c.; a welid ar doriad y wawr fel dillad prydfwrth yn addurno yr holl ddaear.

Adn. 15. *Ac attelir eu goleuni oddiwrth yr annuwiol* Trwy eu bod hwy yn y dydd yn ffioi i ymguddio yn y tywyllwch, neu yn cael eu cau mewn carcharan tywyllion, fel y nod-

16 A ddaethost ti i eigion y môr? ac a rodiaist ti yn nghilfachau y dyfnder?

17 A agorwyd pyrth marwolaeth i ti? neu a welaist ti byrth cysgod angau?

18 A ystyriaist ti led y ddaear? mynega, os adwaenost ti hi i gyd.

19 Pa ffordd yr eir lle y trig goleuni? a pha le y mae lle y tywyllwch?

20 Fel y cymerit ef hyd ei derfyn, ac y medrit y llwybrau i'w dŷ ef.

wyd ar adn. 13. *Dryllir y braich dyrchafedig*—anallugir hwynt yn ngleuni y dydd i wneyd drygau â'u nerth gorthrymus neu dreisiol.

Adn. 16. *A ddaethost ti i eigion y môr* I chwilio ei waelodion dyfynon ef? *ac a rodiaist ti yn nghilfachau y dyfnder*—i weled pa drysorau a rhyfeddodau sydd yno? Nis gwyrddai Job ddim am hyn, mwy nag am y' pethau a enwyd yn yr adnodau blaenorol; ac eto cymerai arno ei fod yn gwybod pa fodd y dylesid trefnu boll weithredoedd rhagluniaeth!

Adn. 17. *A agorwyd pyrth marwolaeth i ti* Fel ag i allu o honot wybod natur a chanyliadau marwolaeth? *neu a welaist ti byrth cysgod angau*—sef y pyrth ag sydd yn arwain i lawr i'r gororan tywyllion, lle y mae angau yn taflu ei gysgodau cadduglyd dros *hadcs*? gwel ar pen. x. 21, 22. Amcan y ddau ofyniad yw dangos na wyddai Job yn mha le, nac yn mha gylfwr, y mae y meirw: eu bod wedi eu symud i ryw for anadnabyddus, lle nas gallwn ni glywed oddiwrthynt, nac anfon gair atynt. Tra yr ydym ni yma mewn byd teimladwy, yr ydym yn son am fyf yr ysbrydoedd fel y sonia y deillion am liwiau; a phan yr awn yno ein hunain, i weled heb lygaid, i lefaru heb dafod, ac i glywed heb glust, byddwn wedi synu, wrth brofi fod pob peth yno mor dra gwahanol i'r hyn a feddyliasant ar y ddaear!

Adn. 18. *A ystyriaist ti led y ddaear* Mor bell yr ymestyna? neu pa le a pha beth yw ei therfyn? Yn amser Job edrychid ar y ddaear fel gwastadedd eang, yr hwn yr oedd ei derfynau yn anadnabyddus. *Mynega, os adwaenost ti hi i gyd*—yn ei hyd, ei lled, ei therfynau, ei hinsoddau, ei chreaduriaid, &c.; neu cyfaddefa ar unwaith dy anwybodaeth. Fel pe dywedasai, Y mae yn llawer hawddach i ti ateb y cwestiynau hyn, na deall fy ffyrdd a'm rhagluniaeth i, neu fy rhesymau am ymddwyn tuag ataf fel y gwnaethym.

Adn. 19. *Pa ffordd yr eir lle y trig goleuni?* Neu pa le y mae yr haul yn aros cyn iddo godi, neu wedi iddo fachludo? *a pha le y mae lle y tywyllwch?*—o ba le y daw y tywyllwch yn yr hwyr, neu i ba le yr â efe yn y bore? Yma personolir goleuni a thywyllwch fel dau ymdeithydd.

Adn. 20. *Fel y cymerit ef hyd ei derfyn* Neu, 'fel y gallot ymaflyd ynddo ya ei derfyn.'—Goob. *Ac y medrit y llwybrau i'w*

21 A wyddit ti yna y genid tydi? ac y byddai rhifedi dy ddyddiau yn fawr?

22 A aethost ti i drysorau yr eira? neu a welast ti drysorau y cenllusg,

23 Y rhai a gedwais i hyd amser cyfyngder, hyd ddydd ymladd a rhyfel?

24 Pa ffordd yr ymrana goleuni yr hwn a wasgar y dwyreiniwynt ar y ddaear?

25 Pwy a ranodd ddyfrlle i'r llifddyfroedd? a ffordd i fellt y taranau,

26 I wlawio ar y ddaear lle ni byddo dyn; ar yr anialwch, sydd heb ddyn yn ddo;

27 I ddigoni y tir diffaeth a gwyllt, ac i beri i gnwd o laswellt dyfu?

28 A oes dad i'r gwlaw? neu pwy a genhedlodd ddefnyddau y gwllith?

29 O groth pwy y daeth yr iâ allan? a phwy a genhedlodd lwydrew y nefoedd?

30 Y dyfroedd a guddir megys â chareg, ac wyneb y dyfnder a rewodd.

dj ef—i ymaflyd ynddo, a pheri i'r tywyllwch ddyfod yn yr hwyr yn lle y goleuni, a'r goleuni yn y bore yn lle y tywyllwch. Yr oedd Job wedi bod yn ymfrostio yn ei allu a'i wybodaeth, ac amcan Duw yma yw darostwng ei falchder ef.

Adn. 21. *A wyddit ti yna y genid tydi?* A wyddit ti, pan flurfiwyd goleuni a thywyllwch yn nechre y byd, y byddai i ti gael dy eni; ac y byddai rhifedi dy ddyddiau yn fawr—yn cyraedd o ddechre y byd i'w ddiwedd? Y cyfieithiad llythrenol yw, 'Ti a'i gwyddost, canys yr oeddyt ti y pryd hyny wedi dy eni; ac y mae rhifedi dy ddyddiau yn fawr!' Yn yr olwg yma ar y geiriau, y maent yn wawdiaith gref.

Adn. 22. *A aethost ti i drysorau yr eira?* I weled y fath drysorfâ ddirfawr o eira a chenllusg sydd genyf fi at y ngwasanaeth? Neu, a eili di wybod y modd a'r lle yr wyf fi yn eu ffurfio, yr achos o'u lliw gwyn, a pha beth sydd yn peri iddynt fod o luniau gwahanol? gwel ar pen. xxxvii. 6. Y mae celfyddyd wedi dysgu i ni mai tarth yn rhewi yn yr awyr, neu wlaw yn rhewi ar ei ddisgyniad o'r awyr, yw eira a chenllusg; ond nid ymddengys fod hyn yn gwbl hysbys yn nyddiau Job: ac y mae y wybodaeth helaethach ag sydd genym ni o'r ail achosion yn ngweithredoedd Duw, yn dangos ei allu a'i ddoethineb ef mewn goleuni llawer cryfach: gwel ar pen. xxxvii. 17. Y meddwl yw, os na wyddai Job ddim am y trysorfeidd hyn o bethau naturiol, fod yn sicr na wyddai efe ddim am y trysorau anchwiliadwy o ddoethineb a gwybodaeth a orweddent yn nghudd yn ei feddwl aufeidrol ef ei hun.

Adn. 23. *Y rhai a gedwais i hyd amser cyfyngder?* Fel y ceidw breuniu ystôr helaeth o beiriannau ac arlywau rhyfel; hyd ddydd ymladd a rhyfel—pryd y dygir hwynt allan yn erbyn y gelyn: gwel ar Exod. ix. 25, Jos. x. 11, Dat. xvi. 21.

Adn. 24. *Pa ffordd yr ymrana goleuni?* Neu y gwasgerir goleuni y dydd ar hyd wyneb yr holl ddaear? Tybia Stock, Clarke, ac ereill, mai at dywyniad y fellten y cyfeirir yma; eithr sonir am y fellten yn yr adnod nesaf. Yr hwn a wasgar y dwyreiniwynt ar y ddaear—cyfeirir yma at yr haul, wrth godi yn y dwyrain, fel yn cario poethwynt gydag ef oddi-

yno, ac yn ei wasgar ar hyd wyneb yr holl ddaear hyd y gorllewin: gwel ar Jonah iv. 8.

Adn. 25. *Pwy a ranodd ddyfrlle i'r llifddyfroedd?* I'r gwlaw ddisgyn o'r cymylau yn gawodydd ireiddlon, megys trwy bibelli mân, yn lle ymdywallt yn ffrydiau dinstyriol ar y ddaear? a ffordd i fellt y taranau?—pwy a drefnodd eu ffordd iddynt, gan eu tywys yn eu holl symudiadau? gwel ar pen. xxxvii. 27—33.

Adn. 26. *I wlawio ar y ddaear?* Canys y mae yn dra hysbys fod mellt yn achosi gwlaw; lle na byddo dyn—i fod â llaw ynddo, nac i'w fwynhau ef: ar yr anialwch sydd heb ddyn ynddo—yn gystal ag ar y rhannau cyfaneddol o'r ddaear. Y mae yn yr anialwch ryw ehedaiad, anifeiliaid, neu bryfed, y rhai y gofala rhagluniaeth Duw am fwyd a diod iddynt fel i ninau; ac er nas gallwn ni ddeall ffyrdd Duw bob amser, eto y mae yn sicr na ddisgynodd dafn o wlaw erioed ar y môr, na'r graig, na'r anialwch tywodol, heb fod hyny yn ateb rhyw ddybenion doeth a da o eiddo Duw.

Adn. 27. *I ddigoni y tir diffaeth a gwyllt?* Yr hwn a fyddo yn crasu ac yn agenu gan syched; ac i beri i gnwd o laswellt dyfu—yn ymorthi i bob math o greaduriaid.

Adn. 28. *A oes dad i'r gwlaw?* A oes iddo ryw wneuthurwr heblaw Duw? neu pwy a genhedlodd ddefnyddau y gwllith?—pwy a all eu cynrychu hwy ond Daw yn unig?

Adn. 29. *O groth pwy y daeth yr iâ allan?* Pwy yw ei fam ef, neu pwy a roddes fod iddo ond Duw yn unig? a phwy a genhedlodd lwydrew y nefoedd—neu wllith y nefoedd yn ei gyflwr rhwedig? Hyn hefyd sydd waith Duw.

Adn. 30. *Y dyfroedd a guddir megys â chareg?* Neu ag iâ cyn galetod a chareg; ac wyneb y dyfnder a rewodd—sef wyneb y môr, fel y dygwyddau yn fynych yn y meroedd gogleddol. Fel hyn y mae ffurfiad rhew neu iâ yn profi galla a doethineb Duw, ac yn beth nas gallai Job ei ddeall, chwaithach ei wneuthur.

Adn. 31. *Arwymi di hyfrydwch Pleiades?* Sef y cydsar a elwir yn gyffredin y 'saith seren,' y rhai sydd yn gwneud eu hymddanghosiad yn y gwanwyn, neu ddechre yr haf; a'r meddwl yw, A eili di attal iddynt godi, neu droi ymaith eu dylanwad hwy, neu rwystro hin

31 A rwymi di hyfrydwch Pleiades? neu a ddattodi di rwyman Orion?

32 A ddygi di allan Mazzaroth yn eu hamser? neu a dywysi di Areturus a'i feibion?

33 A adwaenost ti ordeiniadau y nefoedd? a osodi di ei lywodraeth ef ar y ddaear?

34 A ddyrcheffi di dy lef ar y cwmwl, fel y gorchuddio helaethrwydd o ddyfroedd dydi?

35 A ddanfoni di fellt allan, fel yr elont ac y dywedont wrthyf, Wele ni?

36 Pwy a osododd ddoethineb yn yr ymysgaroedd? neu pwy a roddodd ddeall i'r galon?

37 Pwy a gyfrif y cymylau trwy ddoethineb? a phwy a all attal costrelau y nefoedd,

38 Pan dröer y llwch yn dom, fel y glyno y priddellau yn nghyd?

39 A elli di hela ysglyfaeth i'r llew? neu a elli di lenwi gwanc cenawon y llewod,

40 Pan ymgrymant yn eu llochesau, pan eistoddant mewn flau i gyllllwyn?

41 Pwy a ddarpar i'r gigfran ei

hyfryd yr haf? *Neu a ddattodi di rwyman Orion*—sef y cydser hyn ag sydd yn gwneyd eu hymddangosiad yn nechre y gauaf, ac yn cael eu dylyn gan ystormydd o wynt a gwlaw, rhew ac eira? *Édrychir ar Orion fel yn rhwymo y ddaear i fyny yn y gauaf*, neu yn rhwymo dynion yn eu tai, a'r creaduriaid yn eu llochesau; a gofynir i Job, a allai ef ddatod y rhwymau hyn, neu rwystro tywydd caled y gauaf? Fel pe dywedasai, Gall Duw yn wir rhwymo hyfrydwch Pleiades, trwy wneyd yr haf yn oer; neu ddattod rhwymau Orion, trwy wneyd y gauaf yn dynyr a dymunol; ond ni elli di: gwel ar pen. ix. 9.

Adn. 32. *A ddygi di allan Mazzaroth yn eu hamser?* Tybia Parkhurst fod Mazzaroth yma yn golygu y *Simoom*, sef poethlwynt heintus yn Arabia, yr hwn a ddygwyrddu yn gyffredin yn mboethder yr haf. Ond tybia Jerome, Coverdale, a Luther, mai y 'seren fer' a foddylir; a Rosenmuller ac ereill, mai y 'deuddeg arwydd.' *Neu a dywysi di Areturus*—y cydser gogleddol; *a'i feibion*—y ser illai ag sydd yn perthyn iddynt, ac o'u deuta fel eu plant.

Adn. 33. *A adwaenost ti ordeiniadau y nefoedd?* Neu y deddfau ag sydd yn llywodraethu symudiadau y cyrff netol? *a osodi di ei lywodraeth ef ar y ddaear*—sef llywodraeth Duw; neu ynte ddylanwad yr haul, y loer, a'r ser ar bothau y ddaear, megys llanw y môr, gwlaw ac eira, oerni a gwres? &c. Darfu i Copernicus, Brahe, Kepler, Newton, Herschel, ac ereill, dafu cryn oleuni ar lawer o'r pethau hyn trwy ddeddfau dymygrech neu ddysgyrchiant; ond nis gallodd neb o honynt egluro pa beth yw ddysgyrchiant, a llai o lawer y gallai Job. Y pethau hyn sydd adnabyddus yn unig i Dduw, ac efe a apelia atynt fel prawf o'i ddoethineb a'i fawredd ei hun.

Adn. 34. *A ddyrcheffi di dy lef ar y cwmwl?* Fel ag i beri iddo daranu, neu ddwyn gwlaw ar y ddaear?

Adn. 35. *A ddanfoni di fellt allan?* O'r cwmwl; *fel yr elont*—wrth dy ewyllys di, neu ar neges drosot; *ac y dywedont, Wele ni*—yn barod i wneyd dy ewyllys fel dy ufydd weision?

Adn. 36. *Pwy a osododd ddoethineb yn yr ymysgaroedd?* Neu allu mewn dyn i amgylfred

dyfnion weithredoedd Duw? *neu pwy a roddodd ddeall i'r galon*—i'r meddwl neu yr enaid dynol? Yr oedd yr Hebreaid yn ystyried y galon bob amser fel eisteddle y deall. Ond y mae yr adnod hon, fel llawer ereill yn llyfr Job, yn cael ei chyfeithu yn amrywiol. 'Pwy a roddodd ddeall i'r cymylau hedegog? neu wybodaeth i orchuddion yr awyr?'—HERDER. 'Pwy a osododd ddoethineb yn y cymylau duon? pwy a roddodd ddeall i ffurfiau yr awyr?'—UMBREIT. Tybia Schultens, Rosenmuller, a Lee, mai at y fellten, y darau, a'r dymhlest y cyfeirir, y rhai a arddangosir fel wedi eu cynysgaethu â deall. 'Pwy a roddodd ddoethineb yn rhanau mewmol dyn? neu pwy a roddodd ddeall i'r ceiliog?'—VULGATE. 'Pwy a roddodd i feunyod fedrusrwydd i weu? neu y wybodaeth o frwydwaith?'—LXX.

Adn. 37. *Pwy a gyfrif y cymylau trwy ddoethineb?* Cyfeirir yma nid at nifer y cymylau, ond at nifer y mân-rwynau o'r rhai y ffurfir y cymylau. *A phwy a all attal costrelau y nefoedd*—sef y cymylau, rhag tywallt gwlaw neu ddyfroedd ar y ddaear? Y meddwl yw, os nad allai Job wneuthur hyn, cydnabydded y gallai Duw, ac ymstodded i'w lywodraeth ef, yr hon sydd yn cyraedd dros bawb a phobpeth yn y nef a'r ddaear.

Adn. 38. *Pan dröer y llwch yn dom?* Trwy ei wlychu gan y gwlaw; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'pan galder y llwch,' trwy ei wlychu yn gyntaf, ac wedi hynny ei sychu yn glai: *fel y glyno y priddellau yn nghyd*—trwy eu crasu yn dalpiannu gan wres yr haul.

Adn. 39. *A elli di hela ysglyfaeth i'r llew?* Pan y byddo heb fwyd? neu, a elli di blanu y reddf hōno ynddo ef, trwy ba un y cyrhaedda efe ei ysglyfaeth? *Neu a elli di lenwi gwanc cenawon y llewod*—neu dori eu gwanc, trwy ddarparu ymborth iddynt? Na, nis gallai Job, yn ei nert, ei hun, gymaint a'i gadw ei hunan rhag syrthio yn ysglyfaeth iddynt. Y mae pen. xxxix, yn y Berblau Hebreig goraf, yn dechreu gyda'r adnod hon, yr hon a draetha am y deyrnas anifeillaidd, fel y gwna y bennod flaenorol ar y deyrnas fateriol, neu ar ddaear-yddiaeth a serdyddiaeth.

Adn. 40. *Pan ymgrymant yn eu llochesau?* Heb allu myned allan mwyach gan henaint neu wendid, a lle y porthir hwyt gan raglun-

bwyd? pan lefo ei chywion ar Dduw, gwibiant o eisiau bwyd.

PENNOD XXXIX.

A WYDDOST ti yr amser i eifr gwylltion y creigiau lydnu? a fedri di wylled yr amser y bwrw yr ewigod loi?

2 A gyfrifi di y misoedd a gyflawnant hwy? ac a wyddost ti yr amser y llydnant?

3 Ymgyrman, bwriant eu llydnod, ac ymadawant â'u gofid.

iaeth Duw; neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'pan ymgyrmanant yn eu llochesau, yn barod i neidio ar eu hysglyfaeth.' *Pan eisteddant mewn ffau i gynnwyllyn*—gan ddysgwyl i ryw anifel ddyfod heibio, fel y gallont ei ddal a'i fwyta.

Adn. 41. *Pwy a ddarpar i'r gigfran ei bwyd?* Ai tydi, ynte Duw? *Pan lefo ei chywion ar Dduw*—dywed Bochart, a rhai naturiaethwyr ereill, fod y gigfran yn troi ei chywion allan o'r nyth mor fuan ag y dysgont ehedeg; ac yn y cyflwr hwnw, pan yn 'gwibio o eisiau bwyd,' arddanghosir hwynt yma fel yn llefia ar Dduw, yr hwn 'sydd yn rhoddi i'r anifel ei borthiant, ac i gywion y gigfran pan lefant,' Salm cxlvii. 9. Y mae yr holl ofyniadau a roddir yma i Job yn dangos, (1) Ei anallu a'i anwybodaeth y'r mbethau natur; ac, (2) Mawredd, doethineb, a daioni Duw, yr hwnsydd yn ei ragluniaeth yn gofalu am ddyd ac anifel.

PEN. XXXIX. Adn. 1. *A wyddost ti yr amser i eifr gwylltion y creigiau lydnu?* Cyfeirir yma at yr *ibex* neu y *beden*, pa un sydd yn anifel tra gwyllt, ac yn byw yn nghreigiau Arabia. Dywedir fod yn dra anhawdd ei ddal, ac y neidia efe dros ugain troedfedd o'r naill glogwyn i'r lllall. Y mae ei gyn yn hirion iawn, ac yn plygu yn ol dros ei holl gorff; a dywedir y bydd iddo ymfwrw i lawr o ben y creigiau, a disgyn ar ei gyrn, heb dderbyn unrhyw niwed. Yr amser y byddont dan eu gofal yw *pum mis*; a chan fod yn hawdd i Job wybod hyny trwy sylwi, rhaid fod rhywbeth niwel na 'gwybod yr amser' yn cael ei gynnwys yma; megys gofalu am danynt, eu hamddiffyn, eu porthi, &c.; yr hyn oedd waith rhagluniaeth Duw yn unig, trwy eu bod allan o gyraedd dyn ar hyd creigiau yr anialwch. *A fedri di wylled yr amser y bwrw yr ewigod loi?*—dywedir y gwant hyny yn mhen *wyth mis* ar ol cyfloi; ac felly rhaid fod rhywbeth mwy na 'gwybodaeth o'r amser' yn cael ei gynnwys yma hefyd. Dywed Pliny fod yr ewig, yn y cyflwr hwnw, yn cael ei harwain trwy reddf at lysieuyn penodol a elwir *seselis*, trwy fwyta pa un y rhyddheir yr esgoriad; ac y mae *taranau* hefyd, trwy ragluniaeth ddaionus Duw, yn peri yr un effaith, Salm xxix. 9: 'Llef yr Arglwydd a wna i'r ewigod lydnu.'

4 Eu llydnod a gryfha, cynyddant yn y maes: ânt allan, ac ni ddychwelant atynt hwy.

5 Pwy a olyngodd yr asyn gwyllt yn rhydd? neu pwy a ddatododd rwyman yr asyn gwyllt?

6 Yr hwn y gosodais yr anialwch yndy iddo, a'r diffaethwch yn drigfa iddo.

7 Efe a chwardd am *ben lluaus* tref: ni wrendy ar lais y geilwad.

8 Cilfachau y mynyddoedd yw ei borfa ef, ac efe a chwilia am bob glaswelltyn.

Y meddwl yw, a fedrai Job effeithio fel hyn? a fedrai ef beri i'r geifr a'r ewigod lydnu yn gynt, neu oedi yn hwy?

Adn. 2. *A gyfrifi di y misoedd a gyflawnant hwy?* A wyddost ti y foment yr ymddwyn pob un, gan eu bod yn wylltion o'th olwg ar hyd y creigiau a'r anialwch? *ac a wyddost ti yr amser y llydnant*—y dydd, yr awr, a'r foment, gan eu bod yn gyffredin yn cael eu hela o'r naill fan i'r lllall, ac yn wastad yn y peryglon mwyaf oddiwrth ddyuon a bwystfiod rheibus?

Adn. 3. *Ymgyrman?* Trwy reddf benodol a blanydd ynddant gan ragluniaeth; *bwriant eu llydnod*—heb i ddyd eu cynorthwyo; *ac ymadawant â'u gofid*—trwy esgor ar eu llydnod; neu trwy fwrw eu *brych*, fel y mae rhai yn ei ddeall. Dywedir fod yr ewig yn pori un math o lysiau, cyn llydnu, i rwyddhau yr esgoriad; a'i bod yn bwyta math arall, ar ol llydnu, i'w hiachâu yn gynt: ac felly gwelwn mai rhagluniaeth Duw oedd ac sydd yn gofalu am danynt, ac nid dyn.

Adn. 4. *Eu llydnod a gryfha!* Er mor wan oeddynt pan aned hwynt; *cynyddant yn y maes*—i'w maintioli naturiol, a hyny trwy ddarpariaeth ac amgeledd rhagluniaeth yn unig: *ânt allan*—i'r maesydd a'r creigiau, i gael eu porthi yno gan Dduw; *ac ni ddychwelant atynt hwy*—at eu rhieni mwyach. Dywedir fod y carw yn elyn penodol i'w lydnod ei hun, a bod yr ewig yn gorfod arferyd pob dyfais i'w cudio hwy rhag ei gynddaredd: gwel *Goldsmith's Nat. Hist.*

Adn. 5. *Pwy a olyngodd yr asyn gwyllt yn rhydd?* I gwydro yn benrhydd ar hyd yr anialwch a'r mynyddoedd? *neu pwy a ddatododd rwyman yr asyn gwyllt*—a'i hanadd-asodd ef yn naturiol i rwyman, neu i'w bod allan yn yr iau at wasanaeth dyn? Wrth hwn y deallir yr *onager*, yr hwn sydd yn wahanol i'r zebra yn ei frithni a'i rywogaeth.

Adn. 6. *Yr hwn y gosodais yr anialwch yn dŷ iddo!* Felly Duw, ac nid dyn, a drefnodd ei drigfa, ei anian, a'i reddf, i'r asyn gwyllt.

Adn. 7. *Efe a chwardd am ben lluaus tref!* Pan fyddo mintai o helyddion yn ceisio ei ddala; *ni wrendy ar lais y geilwad*—fel y gwna anifel dof. Y meddwl yw, y byddai iddo ffroeni arnynt, a charlamu oddiwrthynt ar hyd

9 A gytuna yr unicorn i'th wasanaethu di? a crys efe wrth dy bresebaw di?

10 A rwy mi di unicorn â'i did mewn rhych? a lyfna efe y dolydd ar dy ol di?

11 A ymddiriedi wrtho, am fod ei gryfder yn fawr? a adewi di dy lafur iddo?

12 A goeli di ef, y dwg efe dy had di drachefn, ac y casgl efe ef i'th lawrdyrnu di?

13 A *rod-daist ti* adenydd hyfryd i'r peunod? neu adenydd a phlu i'r estrys?

14 Yr hon a âd ei hwyau yn y ddaear, ac a'u cynhesa yn y llwch;

15 Ac y mae hi yn gollwng dros

yr anialwch, gan herio eu dyfais a'u hystyrwiau i'w ddal.

Adn. 8. *Cilfachau y mynyddoedd yw ei borfa ef*] Yn mhell oddiwrth breswylfod dyn; ac efe *a chubilia am bob glaswelllyn*—i ymborthi arno. Efe a ddeuwa borfeydd llwm y mynyddoedd, gyda rhyddid, o flaen y dyffryn-oedd breision mewn caethwasanaeth.

Adn. 9. *A gytuna yr unicorn i'th wasanaethu di*] I aredig dy faesydd, neu gludo adref dy gnydiau, fel gwas ufydd ac ewyllysgar? *a crys efe wrth dy bresebaw di*—i bori yno fel anifel dôf? Y mae llawer o wahanol farnau yn nghylch y creadur a elwir yn y wreiddiol *reem*, ac a gyfieithir yma *unicorn*. Yn arfbais Lloegr arddangosir yr *unicorn* fel march ardderchog, â chorn ar ei dalcen oddeutu llathen o hyd. Buwyd ar y cyntaf yn ystyr-ied hwn fel creadur dychymygod; ond y mae ei fodolaeth wedi ei phrofi yn ddiweddar tu-hwnt i bob amheneth: gwel Rosenmuller, Robinson, Campbell, Labo, Sparman, Bartema, &c. Modd bynag, nid ymddengys fod yr *unicorn* hwan yn cyfateb i'r dysgrifiad a roddir yma, ac mewn manau ereill o'r ysgrhythyr, o'r *reem*; a pharodd hyn y lawer feddwl mai y *bual*, yr *oriz*, neu yr *afr nyddgorn*, a olygir yma, ac nid yr *unicorn*. Eithr y dyb fwyaf cyffredin yn awr yw, mai yr anifel trwyn-gornog, neu yr *rhinoceros*, a feddyll yn y testyn, yr hwn a elwir *reem* hyd heddyw yn Arabia. Addefir fod y *rhinoceros* yn anifel cryf a gwyllt, yn ail mewn maintioli a nerth i'r cawfril nen yr *elephant*, ond heb ddim ynddo o gyfrwysdra y cawfril. Y mae ganddo gorn cryf a chaled yn tyfu ar ei drwyn, oddeutu llathen o hyd; a cheir dau gan rai, y naill uwchlaw y llall; ond nid yn fynych. Dywedir ei fod yn gallu gorchfygu y cawfril, trwy roddi ei gorn dan ei fol, a'i rwygo yn llarpiau. Y mae ei groen yn dorchau noeth, ac mor dew a chaled fel nas gellir ei drywanu â phicellau, gwaewffyn, na gwn-beledau; a'r unig ranau treiddiadwy o hono yw y bol, y llygaid, ac oddeutu y clustiau. Y mae yn gyffredin oddeutu deuddeg troedfedd o hyd, o chwech i saith troedfedd o uchder, ac y mae amgylchedd ei gorff oddeutu deuddeg troedfedd. Ei goesau sydd fyrion, preiffion, a chryffion; ac y mae ei garnau yn dewion a thair-fiorchog. Y mae y *rhinoceros* i'w ganfod yn fynych yn Asia ac Affrica; ac y mae yn ateb yn gywir i'r dysgrifiad a roddir o'r *unicorn* yn yr ysgrhythrau.

Adn. 10. *A rwy mi di unicorn*] Sef y *rhinoseros* uchod; *â'i did mewn rhych*—neu mewn barnais, i aredig y ddaear yn gŵysau?

A lyfna efe y dolydd ar dy ol di—trwy lusgo yr oged ar hyd y dolydd wrth dy orclwmyn di? Hyn yw, a elli di ei ddoef ef i drin y ddaear?

Adn. 11. *A ymddiriedi wrtho, am fod ei gryfder yn fawr?*] A ydyw fod ganddo gryfder neu nerth, yn ddigon o reswm i'ti ei ddefnyddio ef i lafurio dy faesydd?

Adn. 12. *A goeli di ef, &c.*] A gredi di y gelli di ei ddoef ef, a'i ddefnyddio fel ŷch i gywain dy gnydiau i'th lawr-dyrnu? Y meddwl yw, os na allai Job ddoef a llywodraethu yr asyn gwyllt a'r unicorn, a'u gwneud yn wasanaethgar iddo ei hun, pa fodd y gallai efe lywodraethu y byd, neu ddysgu i Dduw pa fodd i'w lywodraethu ef?

Adn. 13. *A rod-daist ti adenydd hyfryd i'r peunod?*] *Y paun* sydd aderyn tra adnabyddus oddeutu palasau, i.e. yn Nghymru, yr hwn y mae ei harddwch yn fwy yn ei gnyffion nag yn ei adenydd. *Neu adenydd a phlu i'r estrys?*—Duw a wnaethai hyn, ac nid Job. Ond tybia rhai mai yr *estrys* a olygir wrth y *renanim* yn nechre yr adnod, ac nid *peunod*; ac mai y *ciconia* a olygir wrth y *chasidah*, yn ei diwedd hi, ac nid yr *estrys*; ac mai y *cidill* neu y *pelican* a olygir wrth y gair *notsah*, yr hwn a gyfieithir yma yn *blu*.

Adn. 14. *Yr hon a âd ei hwyau yn y ddaear*] I'w deori, ac nid mewn nyth ar frig y coed, fel llawer o adar ereill, *ac a'u cynhesa yn y llwch*—neu y tywod. Dywedir hyn am yr *estrys*. Buwyd unwaith yn meddwl nad yw yr *estrys* byth yn eistedd ar ei hwyau, ond eu bod yn cael eu deori gan gynhesrwydd y tywod, neu wres yr haul; ond y mae hyn yn awr wedi ei wrthbrofi yn ddigonol; canys y mae y fam yn fynych, yn enwedig yn y nos, yn dychwelyd i'w nyth i eistedd ar ei hwyau, os na fydd iddi trwy ei hurtrwydd fethu cael hyd iddo, neu gael ei dychrynu oddiyno. Modd bynag, addefir fod cynhesrwydd y ddaear yn Asia ac Affrica, lle y mae yr *estrys* yn frodorol, yn cynorthwyo y deoriad yn fawr yn absenoldeb y fam. Y mae yr *estrys* yn aderyn mawr, cryf, a chyflym. Y mae yn pwyso o 80 i 100 pwys, ac yn mesur saith troedfedd o'i phig i'w chlyffion, ac yn sefyll oddeutu saith troedfedd o uchder. Nid yw yn gallu ehedeg o herwydd ei plwysy a'i flurf; ond y mae yn gallu rhedeg yn gyflymach na'r march, ac yn ddigon cryf i gario dau ddyr ar unwaith. Dywedir ei bod yn dodwy o 30 i 50 o ŵyau, a bod rhai o honynt dros bum modfedd o dryffesur, ac yn pwyso pymtheg pwys. Y mae ei phlu mor dyner a gwlan, ac o liw dŵ a gwŷn. Dywedir nad oes un aderyn mor wancus a'r

gof y gallai droed eu dryllio hwynt, neu anifel y maes ou sathru.

16 Caled yw hi wrth ei chywion, fel pe na byddent eiddo hi: ei gwaith hi sydd ofer, heb ofn;

17 Oblegid na roddes Duw iddi ddoethineb, ac na chyfranodd iddi ddeall.

18 Yr amser yr ymgodo hi yn uchel, hi a ddiystyra y march a'i farchog.

19 A roddaist ti gryfder i farch? neu a ddysgaist iddo weryru?

20 A ddychryni di ef fel ceiliog rhedyn? dychryn ydyw ardderchogrwydd ei ffroen ef.

21 *Ei draed ef a gloddiant yn y dyffryn, ac efe a lawenycha yn ei gryfder: efe a â allan i gyfarfod arfau.*

22 Efe a ddiystyra arswyd, ac ni ddychryna efe; ac ni ddychwel yn ei ol rhag y cleddyf.

23 Y cawell saethau a drystia yn ei erbyn, y ddysglaer waewffon a'r darian.

24 Efe a lwnc y ddaear gan greu- londeb a chynddaredd: ac ni chred mai llais yr udgorn yw.

25 Efe a ddywed yn mhlith yr udgyrn, Ha, ha! ac a arogl a bell ryfel, twrf tywysogion, a'r bloeddio.

estrys; a chafwyd yn nghylla rhai o honynt ddarnau mawrion o efydd, haiarn, plwm, coed, a cherig. Yr oedd yr estrys yn greudr arian dan y gyfraith: gwel ar Lef. xi. 16.

Adn. 15. *Ac y mae hi yn gollwng dros gof]* Neu, wrth ddodwy yn y llwch neu y tywod, y mae fel pe byddai yn anghofio y gallai troed ymdeithydd neu anifel sathru ar ei hwyau, a'u tori.

Adn. 16. *Caled yw hi wrth ei chywion]* Gwel ar Galar. iv. 3; *fel pe na byddent eiddo hi*—ond yn perthyn i ryw aderyn arall. Dywedir y bydd iddi, pan glywo y swm lleiaf, adael ei hwyau neu ei chywion, at y rhai ond odid ni ddychwel mwvach; neu os daw yn ol rywbryd, gall y bydd hyny yn rhy ddiweddar i roddi bywyd i'r naill, neu i gadw bywyd y lleill. *Ei gwaith hi sydd ofer, heb ofn*—heb ofn fod ei chywion mewn newyn neu berygl, neu heb y gofal lleiaf pa beth a ddaw o honynt. 'Ei gwewvr esgor sydd ofer, ond nid ystyria hi hyny.'—HERDER.

Adn. 17. *Oblegid na roddes Duw iddi ddoethineb]* Fel prawf o ffolineb yr estrys, dywedir, (1) Y bydd iddi wthio ei phen i'r ddaear, gan feddwl, trwy ei bod hi heb allu gweled neb, nad all neb ei gweled hithau. (2) Pan fyddo dyn yn chwennych ei dal, efe a ymwisga â chroen estrys, ac a wthia ei fraich i groen ei gwddf, gan blygu y pen tua'r llawr, fel pe byddai yn bwyta yr had a dafasai efe ar y ddaear; a thrwy y ddyffais hon efe a huda ereill i'r ddalfa. (3) Nid oes ganddi ond ymenydd bychan; a dywedir i'r amherawdwr *Heliogabalus*, i'r dyben i foddhau ei archwaeth a'i lythineb, gael ymenyddiau 600 o estrys i'w swper un tro, yn chwanegol at 'ddant-eithion' ereill a barotoisid iddo, megys cribau ceiliogod, tafodau yr eos, wvanu petris, penau parrot a pheunod, ac ymenyddiau y fronfraith.

Adn. 18. *Yr amser yr ymgodo hi yn uchel]* Nid i ebedeg, yr hyn nis gall; (gwel ar adn. 14;) ond pan godo ei phen, ac yr estyno allan ei hadenydd fel hwylian, i redeg ar hyd y ddaear yn ei dychryn; *hi a ddiystyra y march a'i farchog*—trwy redeg ymaith yn gyflymach na hwy. Dywedir befyd ei bod, wrth redeg, yn lluchio y cerig a'i thraed, a hyny gyda'r fath rym a phe tefid hwy â ffon daf, yr hyn a

wna yn beryglus i'r march a'i farchlog erlid ar ei hol.

Adn. 19. *A roddaist ti gryfder i farch]* Neu nerth a gwroldeb iddo i ryfela? canys at farch rhyfel y cyfeirir yma. *Neu a ddysgaist iddo weryru?*—Duw, ac nid Job, a wnaethai y naill a'r llall. Y Saesonag yw, 'A wisgaist ti ei wddf ef â tharan?' gan gyfeirio ond odid at ei weryriad cryf fel taran.

Adn. 20. *A ddychryni di ef fel ceiliog rhedyn]* Yr hwn y gellir yn hawdd ei ddychrynu a'r swm lleiaf, a pheri iddo ffoi? *Dychryn ydyw ardderchogrwydd ei ffroen ef*—y wreiddiol yw *hod nachro eimah*, 'mawredd ei weryriad ef sydd ddychryn.'

Adn. 21. *Ei draed ef a gloddiant yn y dyffryn]* Wrth iddo brancio dan ei farchog; *ac efe a lawenycha*—a ddengys arwyddion o falchder yn ei gryfder: *efe a â allan i gyfarfod arfau*—yn awyddus i'r frwydr, heb ofni eu min, eu grym, na'u luosogrwydd.

Adn. 22. *Efe a ddiystyra arswyd]* Heb ddychrynu hyd yn nod yn ngwyneb y perygl mwyaf; *ac ni ddychwel yn ei ol rhag y cleddyf*—yr hwn a fyddo yn cael ei ddal yn noeth o'i ffaen ef.

Adn. 23. *Y cawell saethau a drystia yn ei erbyn]* Wrth i'r gelynyon dynu eu saethau o'u ceuwill ar frys, i'w tafu ato; neu wrth i'r saethau hyny chwibianu yn yr awyr oddentu ei ben ef; *y ddysglaer waewffon a'r darian*—a drystiant yr un modd yn nwyllaw y gelynyon: eithr ni chaiff yr holl drwst hwnw un effaith arno ef, amgen na'i wneuthur yn fwy parod ac awyddus i'r frwydr.

Adn. 24. *Efe a lwnc y ddaear gan greu- londeb a chynddaredd]* A neidia ac a brancia fel pe byddai am lynu y ddaear; neu gall fod yr ymadrodd yn arwyddo ei gyflymdra dirfawr wrth garlamu dros y ddaear: *ac ni chred mai llais yr udgorn yw*—gan lawenydd ei fod yn cael ei alw i'r frwydr; neu, fel y mae *Umbreit* ac ereill yn ei gyfieithu, 'ni saif yn lloyydd pan glywo yr udgorn.'

Adn. 25. *Efe a ddywed yn mhlith yr udgyrn, Ha, ha!]* Hyny yw, efe a chwadd fel pe byddai, neu a weryra o lawenydd wrth glywed yr udgyrn yn ei alw i'r frwydr; *ac a arogl a bell ryfel*—efe a ddealla, oddiwrth y

26 Ai trwy dy ddoethineb di yr eheda y gwalech, ac y lleda efe ei adenydd tua'r deau?

27 Ai wrth dy orchymyn di yr ymgwyf yr eryr, ac y gwna efe ei nyth yn uchel?

28 Y trig efe ac yr crys mewn craig; ac ar ysgythredd y graig, a'r lle cadarn?

29 Oddiyno y chwilia am fwyd; ei lygaid a ganfyddant o bell.

30 Ei gywion hefyd a sugnant waed: a lle y byddo celanedd, yno y bydd efe.

parotoadau a wneir, fod y rhyfel ar ddechren; *twrf tywysogion*—neu y swyddogion milwraidd yn galw ac yn trefnu eu byddinoedd; *a'r bloeddio*—gan yr holl filwyr o bob tu.

Adn. 26. *Ai trwy dy ddoethineb di yr eheda y gwalech*] Mor gryf, cyflym, a difino? Darfu i walech (sef yr hebog neu y cudyll coch) perthynol i *Duc o Cleves* ehedeg o Westphalia i Prussia mewn un diwrnod, a chrybwyllia *Thuanus* am walech a ehedodd o Lundain i Paris mewn un noson: ac ar gyfrif ei gyflymdra hynod gosodai yr Aifftiaid ef yn eu harwydd-luniau i ddynodi y gwynt. *Ac y lleda efe ei adenydd tua'r deau*—i chwilio am wlad gynhesach erbyn y gauaf. Duw a blannodd y gallu a'r reddf yma ynddo, ac nid Job; ac y mae cynheddfau neillduol y gwalech a'r eryr, yn cystal a'r march a'r estrys, yn brawf o ofal a daioni rhagluniaeth Duw, ac nid o allu a doethineb dyn.

Adn. 27. *Ai wrth dy orchymyn di y cyfyd yr eryr*] Yr hwn a eheda yn uwch nag un aderyn arall? *Ac y gwna efe ei nyth yn uchel?*—ar y clogwyni a'r creigion uwchaf, fel y gwelir yn yr adnod nesaf.

Adn. 28. *Y trig efe ac yr crys mewn craig*] Lle yr adeilada ei nyth; *ac ar ysgythredd y graig*—neu ar ddannedd y graig, lle nad all dyn ddringo; *a'r lle cadarn*—lle nad all bwystfilod aflonyddu y nyth a'r cywion.

Adn. 29. *Oddiyno y chwilia am fwyd*] Neu y caiff fantais i ganfod ysgyfarngogol a chreaduriaid cyffelyb yn y dyffirnoedd islaw; *ei lygaid a ganfyddant o bell*—dywedir, pan fyddo yr eryr mor uchel yn yr awyr fel nad all dyn ei ganfod, y gwel efe oddiyno y pysgodyn lleiaf yn y dyfroedd.

Adn. 30. *Ei gywion hefyd a sugnant waed*] Pan fyddont yn rhy ieuaine i ymborthi ar gnawd yr ysglyfaeth: *a lle y byddo celanedd*—megys maes y gwaed, lle y byddo cyrff dynion ac anifeiliaid yn gorwedd yn farw; *yno y bydd efe*—yn ymborthi arnynt, neu yn chwilio am ysglyfaeth i'w gywion. Dyfynir y geiriau hyn gan ein Harglwydd, y rhai a gymhwysa efe at y Rhufeiniaid: gwel ar Mat. xxiv. 28. Nid rhyfedd fod darluniau mor gywir yn cael ei roddi yma o'r creaduriaid hyn, canys Duw, yr hwn a'u gwnaeth, sydd yn eu dysgrifio.

PENNOD XL.

YR Arglwydd hefyd a atebodd

Job, ac a ddywedodd,

2 Ai dysgeidiaeth yw ymryson â'r Hollalluog? a argyhoeddo Dduw, atebed i hyny.

3 ¶ A Job a atebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd,

4 Wele, gwael ydwyf; pa beth a atebaf i ti? mi a osodaf fy llaw ar fy ngenau.

5 Dywedais unwaith; ond nid atebaf: ie, ddwywaith; ond ni chwanoegaf.

PEN. XI. Adn. 1. *Yr Arglwydd hefyd a atebodd Job*] Ar ol aros ychydig i edrych a wnai Job amddiffyniad iddo ei hun, neu i roddi cyfleusdra iddo i ateb y cwestiynau blaenorol os gallai; a chan fod Job yn aros yn ddystaw, wedi synu wrth yr hyn a glywsai, neu yn dysgwyl i Dduw lefaru yn mhellach, aeth yr Arglwydd yn mlaen gyda'i ofyniadau ceryddol. Ni ddywedir i'r hyn a ganlyn yn yr adnod nesaf gael ei lefaru o'r corwynt; ac am hyny tybia rhai i Dduw ei ddwywled mewn llef ddystaw fain, yr hyn a effeithiodd yn ddwysach ar Job, megys ar Elias wedi hyn, nag y gwnaethai y corwynt: gwel ar I Bren. xix. 12. Er na ddywedodd Job ddim, eto dywedir i Dduw ei ateb ef; canys efe a edwyn feddyliau dynion, a gall ddychwelyd atebiad priodol i'w dystawrwydd hwynt.

Adn. 2. *Ai dysgeidiaeth yw ymryson â'r Hollalluog?*] A ydwy hyny yn arwydd o ddysgeidiaeth neu ddoethineb? Fel pe dywedasai, A fydd i ti, yr hwn a ryfygi ymryson â mi mewn barn, a gwrthdaddlu rhesymoldeb a chyfiawnder fy ngweinyddiadau, feiddio rhoddi i mi addysgiadau a chyfarwyddiadau pa fodd i lywodraethu fy nghreadruriaid? *A argyhoeddo Dduw*—neu yr hwn a fynai ei argyhoeddi ef; *atebed i hyny*—sef i'r hyn a glywsai eisioes gan Dduw. Ond myn rhai gyfieithu yr holl adnod fel hyn: 'A fydd iddo ef, yr hwn a fynai ddadlu â'r Hollalluog, ei addysgu ef yn awr? a fydd i'r hwn a ewyllysiai ddwyn ei achos gerbron Duw, ateb weithian?'

Adn. 3. *A Job a atebodd yr Arglwydd*] Wedi i'w syndod a'i ddryrschw leddfu ychydig, efe o'r diwedd, mewn gostyngdeiddrwydd mawr, a atebodd fel y canlyn:—

Adn. 4. *Wele, gwael ydwyf*] Crealur egwan, anwybodus, a phechadurus; *pa beth a atebaf i ti?*—yn lle gallu dadlu fy achos, ac amddiffyn fy hun o'th flaen, yr wyf yn gwelod yn eglur nad wyf yn deilwng i gael ymddyddan â'th Fawredd, ac nad oes genyf ddim i'w ddywedod ond cydnabod fy ngwaledd a'm rhyfyg blaenorol. *Mi a osodaf fy llaw ar fy ngenau*—yn arwydd o ddystawrwydd ac ymostyngiad, rhag i mi bechu yn chwanelog wrth geisio ateb.

Adn. 5. *Dywedais unwaith*] Mewn amddi-

6 ¶ A'r Arglwydd a atebodd Job allan o'r corwynt, ac a ddywedodd,
7 Gwregysa yn awr dy lwynau fel gŵr; a myfi a ofynaf i ti, mynoga dithau i mi.

8 A wnei di fy marn i yn ofer? a fegni di fi yn annghyfiawn, i'th gyfiawnhau dy hun?

9 A oes i ti fraich fel i Dduw? neu a wnei di daranau â'th lais fel yntau?

10 Ymdrwsia yn awr â mawredd ac â godidogrwydd ac ymwisga â gogoniant ac â phrydforthwch.

11 Gwasgara gynddaredd dy ddigofaint; ac edrych ar bob balch, a thafel ef i lawr.

12 Edrych ar bob balch, a gos-twng ef; a mathra yr annuwiol yn eu lle.

13 Cuddia hwynt yn nghyd yn y pridd, a rhwym eu hwynebau hwynt mewn lle cuddiedig.

14 Yna hefyd myfi a addefaf i ti, y gall dy ddeheulaw dy achub.

15 ¶ Yn awr wele y behemoth, yr hwn a wnaethm gyda thi; glas-wellt a fwyty efe fel ŷch.

ffyniad iddo ei hun, neu yn gabledus yn erbyn Duw; ond nid atebaf—ni wnaif hyny mwyach. *Ie, ddwywaith*—hyny yw, yn fy-nghyd, neu lawer gwaith, yn ystod ei ymddyddanion blaenorol â'i gyfeillion; ond ni *ckwanegaf*—ni adroddaf mwyach y fath ymadroddion hyf, rhyfygus, a phechadurus. Pan fyddo pechadur yn cyfaddef mewn edifeirwch ei fod wedi troseddu unwaith, y mae yn debyg o weled iddo fod yn enog o fwy nag un trosedd; canys bydd i'r ymwybodolrwydd o un pechod ei arwain i gofio un arall; ac wedi i'r ddyfdrôd gael unwaith ei hagar, bydd i liferiant o'i bechodau ymruthro i'w gof.

Adn. 6. *A'r Arglwydd a atebodd Job allan o'r corwynt*] Gwel ar pen. xxxviii. 1. Os oedd Duw wedi ateb Job mewn modd arall yn adn. 2, eto y mae efe yma yn ei ateb o'r corwynt megys o'r blaen, fel y byddai i'w gyfeillion hefyd sylwi, a derbyn addysg.

Adn. 7. *Gwregysa yn awr dy lwynau, &c.*] Gwel ar pen. xxxviii. 3.

Adn. 8. *A wnei di fy marn i yn ofer?*] A fydd i ti ei newid neu ei diddymu li trwy ddangos y dylai fod yn wahanol i'r peth ydyw? *A fegni di fi yn annghyfiawn*—yn fy ngwein-yddiadau tuag ataf ti; *i'th gyfiawnhau dy hun*—fel dyn wedi cael cam oddiar fy llaw i, trwy nad oeddit yn haeddu dim o'r pethau a ddaethant i'th gyfarfod? Ein dyledswydd ni, fel pechaduriaid, yw ein condemnio ein hunain a chyfiawnhau Duw, fel y gwnaeth Dafydd, Salm li. 4: gwel hefyd Neh. ix. 33, Dan. ix. 7.

Adn. 9. *A oes i ti fraich fel i Dduw*] Neu allu anfeidrol i wneyd pa beth bynag a ewyllysi? neu a wnei di daranau â'th lais fel yntau?—gwel ar pen. xxxvii. 5. Y meddwl yw, fod Job yn anfeidrol islaw Duw mewn gallu; ac am hyny y dylasaf efe, yn lle ymryson â Duw, ymostwng yn grynedig wrth ei draed ef.

Adn. 10. *Ymdrwsia yn awr â mawredd ac â godidogrwydd*] Fel pe dywedasai, Gan dy fod yn hŏni cyfartaledd â mi, neu ragoriaeth arnaf, ymwisga yn awr â mawredd dy nerth, a dadlêna dy berffeithderau dwyfol yn ngwydd y bydoedd; ac ymwisga â gogoniant ac â phrydforthwch—fel brenin a barnwr y byd: gwel ar Salu xciii. 1. Y geiriau hyn, hyd ddiwedd adn. 14, sydd wawdiath briodol, i wneyd Job yn fwy teimladwy o'i waeledd ei

hun, a'i ddwyn i ymostyngiad dyfnach ger-bon Duw: gwel ar adn. 4.

Adn. 11. *Gwasgara gynddaredd dy ddigofaint*] Tywallt farnedigaethau trymion ar dy elynion, sef ar y Sabead a'r Caldeaid y rhai a'th yspeiliasant, neu ar rywrai ereill a'th ddiariasant, fel y gwnaethai Duw ar y cynddy-liffaid: ac edrych ar bob balch—gyda golwg digllon; a thafel ef i lawr—oddïar binacl ei falchder; hyny yw, darostwng ef.

Adn. 12. *A mathra yr annuwiol yn eu lle*] Yu mha le bynag y maent, fel y byddo i gyffredinolrwydd a sydynrwydd y weithred brofi i bawb ei bod yn cael ei gwneuthur gan law ddwyfol.

Adn. 13. *Cuddia hwynt yn nghyd*] Y ty-lawd a'r cyfoethog, yr uchel a'r isel; yn y pridd—naill ai mewn dyfa-gelloedd priddlyd a chaethiwus dan y ddaear, neu ynte yn llwch y bedd trwy ryw ddarnod angeuol; a rhwym eu hwynebau hwynt mewn lle cuddiedig—efe a gyfeiria ond odid at dynged drwgweithred-wyr, y rhai y gorchuddid eu hwynebau yn arwydd eu bod wedi eu condemnio i farwolaeth, megys Haman, Esther vii. 8; neu at gyflwr y meirw, y rhai y rhwymid eu hwynebau mewn napcyn cyn eu claddu, megys Lazarus, Ioan xi. 44. Yr oedd gan Dduw awdurdod fel hyn dros yr holl annuwiolion, a galwai ar Job i wneyd yr un modd os gallai, neu ynte i gyd-nabod ei wendid a'i anallu.

Adn. 14. *Yna hefyd myfi a addefaf i ti*] Os medri di wneyd y pethau a enwyd uchod; y gall dy ddeheulaw dy achub—hyd yn nod o'm llaw i. Fel pe dywedasai, Bydd hyny yn brawf eglur nad oes arnat angen am gyfryngiad dwyfol, a bod ynot gymhwysleri i gyhoeddi barn ar fy ngweinyddiadau rhagluniaethol i, neu i drin achosion y bydysawd dy hunan.

Adn. 15. *Yn awr wele y behemoth*] Y gair behemoth yw y luosog o behemah, yr hwn a arwydda anifel porsof, yn wrthygyferbyniol i fwythyl cigysawl. Defnyddir y fwrfl luosog yma i arwyddo ei ragoriaeth, neu i'w osod allan fel anifel mawr. Yr hwn a wnaethm gyda thi—myfi yw eich Creawdwr ill dau; neu, fel y myn Bochart ei ddeall, 'yr hwn a wnaethm yn agos ataf ti,' sef yn yr Aifft. Glaswellt a fwyty efe fel ŷch—crybwyllir hyn fel rhyw hynodrwydd yn yr anifel dan sylw, a lled-arwydda ei fod ef yn bynaw yn dwf

16 Wele yn awr, ei gryfder ef sydd yn ei lwynau, a'i nerth yn mogel ei fol.

17 Efe a gyfyd ei gynffon fel cedrwydden: gewynau ei arenau ef sydd blethedig.

18 Pibellau pres ydyw ei esgyrn ef: ei esgyrn sydd fel ffyn heiyrn.

19 Penaf o ffyrdd Duw ydyw efe:

yn gystal ag ar y tir, ac yn ymborthi ar bysg yn gystal ag ar laswellt. Ond pa anifel a feddylir wrth y behemoth? Y dyb gyffredin cyn amser *Bochart* oedd, mai y cawrfil neu yr *elephant* a olygir; eithr arol ei ymchwiliadau manwl ef, y dyb a dderbyniau amlaf yw, mai yr afon-farch neu yr *hippopotamus* a feddylir; er y tybia *Good, Clarke*, ac creill, mai y *mammoth* a olygir, yr hwn y dywedir ei fod yn fwy ddwywaith na'r cawrfil, a thros wyth lath o uchder. Modd bynag, y mae y *mammoth* erbyn hyn wedi darfod oddi ar y ddaear, er y ceir esgyrn rhai o honant weithiau yn y ddaear; ac y mae hyn yn drugaredd fawr i'r byd, am y buasai i'w amludd o'r fath creaduriaid mawrion ddyfetha pob rhyngwraeth arall o anifeiliaid oddi ar wyneb y ddaear. Cesglir oddiwrth yr adnod hon, yn gystal ag oddiwrth adn. 21, 22, fod y behemoth yn byw yn y dwfr yn gystal ag ar y tir, yr hyn nis gellir ei ddywedyd am yr *elephant* na'r *mammoth*. Ar ol i Dduw apelio uchod at anifeiliaid y ddaear, ac eheidiad yr awyr, fel profion amlwg o'i allu a'i fawredd, gellid dysgwyl yn naturiol iddo gyfeirio hefyd at rai o creaduriaid mawrion y dyffuder, yr hyn y meddylir ei fod yn ei wneuthur yn y behemoth a'r *lethan*, pen. xli. 1, &c. Am y *mammoth* nis gwyddom ddim; ac nid yw y dysgrifiad a roddir yma yn cydweddu yn dda a'r *elephant*; ac, o'r tri, y mae yn hawddach genym dderbyn yr *hippopotamus* fel y creadur mewn golwg. Ceir yr afon-farch, neu yr *hippopotamus*, yn fynych yn y *Nilus*, yn afonydd *Affrica*, ac yn llyn-oedd *Ethiopia*. Y mae yn ymborthi yn benaf ar laswellt a gwreiddiau, y rhai yr a allau i'w ceisio liw nos; ond ni chwydra un amser uwchlaw ychydig filldroedd oddiwrth lan yr afon. Efe a ddifa blanhigfeydd cyfain o siwrgyrs, reis, a grawn oreill, mewn byramser; ac ymbortha hefyd ar bysgod. Pan y cynhyfir neu yr archollir ef, efe a ymesyd gyda chyn-dlaredd a nerth mawr ar fadau a dynion. Ei gerddediad sydd araf a thrymaidd, pa un bynag ai ar y tir, ynte ar waelodion yr afonydd; ond y mae yn nosfedydd da. Nis gall aros yn hir dan y dwfr, heb ddyfod i'r awyr i anadlu. Arferu gysgu mewn llochesau o gyrs a siglenau, adn. 21. Ei lais sydd gryf, rywbeth rhwng brefiad ŷch a rhuad cawrfil. Y mae ganddo ben mawr, safn lydan, a dannedd llynonia a chryfion. Y mae ei groen mor dew a chaled fel nas gall cleddyf ei dreiddio, ac wedi ei orchuddio âg ychydig flew rhuddgoch; ac y mae ei gynffon yn foel, ac oddeutu troedfedd o hyd; ac y mae hyd ei gorff oddeutu chwe lath: gwel isod.

yr hwn a'i gwnaeth, a all beri i'w gledddyf nesáu ato ef.

20 Y mynyddoedd yn ddiâu a ddygant laswellt iddo: ac yno y chwery holl anifeiliaid y maes.

21 Efe a orwedd dan goedydd cysgodfawr, mewn lloches o gyrs a siglenydd.

22 Coed cysgodfawr a'i gorehudd-

Adn. 16. *Wele yn awr, ei gryfder ef sydd yn ei lwynau*] Dywedir nad oes gan un creadur asenau cryfach na'r afon-farch. Y mae cryfder y cawrfil yn ei wddf, a chryfder y march a'r ŷch yn eu hysgwyddau, a chryfder y llew yn ei grafangau; eithr cryfder yr afon-farch, neu yr *hippopotamus*, sydd yn ei lwynau, yr hyn a ddengys mai cryfder amddiffynol ydyw yr eiddo ef yn benaf, ac nid cryfder ymosodol. *A'i nerth yn mogel ei fol*—hyn yw, y mae croen ei fol ef yn dew ac anhreiddiadwy, ac nid yn hawdd ei rwygo fel eiddo yr *elephant* a'r *rhinoseros*: gwel ar pen. xxxix. 9.

Adn. 17. *Efe a gyfyd ei gynffon fel cedrwydden*] Yr hon, er nad yw ond ber, eto sydd yn llyfn, trwchus, a chadarn, ac yn hawdd ei siglo fel brigau y gedrwydden. Pe mai at faintioli y gyffon y cyfeirir yma, cytunai y dysgrifiad yn well a'r *mammoth*, yr hwn y mae ei gynffon yn llawer mwy nag eiddo yr *hippopotamus* na'r *elephant*. *Gewynau ei arenau ef*—neu 'ei forddwydydd', fel y gellir ei gyfieithu; *sydd blethedig*—hyn yw, sydd gryfion a chelyd fel rhaff blethedig.

Adn. 18. *Pibellau pres ydyw ei esgyrn ef*] Neu y mae ei esgyrn ef cyn gryfed a phe byddent bres neu gopr; ei esgyrn sydd fel ffyn heiyrn—o ran caledrwydd a nerth.

Adn. 19. *Penaf o ffyrdd Duw ydyw efe*] O rau maint, nerth, a hynodrydd; neu y mae efe yn un o'r anifeiliaid rhyfedd a greodd Duw. *Yr hwn a'i gwnaeth*—sef Duw yn unig, a all beri i'w gledddyf nesáu ato ef—i'w ladd neu ei orchfygu pan y myno. Ond y mae rhai yn ei gyfieithu, 'Yr hwn a'i gwnaeth a'i harfogodd a chledddyf,' neu a *phladur*, gan gyfeirio at ei ddannedd minniog, a'r rhai y tyr efe y glaswellt.

Adn. 20. *Y mynyddoedd yn ddiâu a ddygant laswellt iddo*] Efe a fwyty laswellt yn y nos, er ei fod yn gyffredin y dydd yn ymborthi ar bysgod; ac yno y chwery holl anifeiliaid y maes—yn ddiddychryn, trwy nad yw efe yn anferol o ysglyfaethu anifeiliaid y maes; neu am y gallant yn hawdd ddianc rhagddo, trwy ei fod mor araf yn ei symudiadau: gwel ar adn. 15.

Adn. 21. *Efe a orwedd dan goedydd cysgodfawr*] Sef dan gysgod y *lotus* gwylltion, y rhai a dviant yn aml ar lauan y *Nilus*; *mewn lloches o gyrs a siglenydd*—o herwydd ei ddredd naturiol at y dwfr: gwel ar adn. 15. Nid yw yr *elephant* yn bosibl lleoedd o'r fath h; n, nac i'w weled un amser ynddynt; a thwy nad yw efe ond anfyfych yn *gorwedd*, eithr yn cysgu yn gyffredin uwchben ei draed, casgla

iant â'u cysgod: helyg yr afon a'i hamgylchant.

23 Wele, efe a ff yr afon, ac ni phrysurâ: efe a obeithiai y tynai efe yr Iorddonen i'w safn.

24 A ddeil neb ef o flaen ei lygaid? a dylla neb ei drwyn ef â bachau?

Bochart ac ereill nad efe yw y creadur dan sylw.

Adn. 22. *Coed cysgodfawr a'i gorchuddiant â'u cysgodj* Sef y lotus uchod, dan ba rai y gorwedda yr hippopotamus i' gysgu; helyg yr afon a'i hamgylchant—wrth iddo orwedd yn eu mysg ar lanau yr afonydd.

Adn. 23. *Wele, efe a ff yr afonj* Hyny yw, efe a ff yn helaeth ar un trafwn; ac ni phrysurâ—ni ddianc wrth weled dyfroedd yr afon yn ymgodi; neu nid ofna rhag y crocodil, fel y gwna cŵn wrth yfed ar lan y Nilus. Efe a obeithiai y tynai efe yr Iorddonen i'w safn—efe a ff mor awyddus, o herwydd ei fawr syched, fel pe byddai am lyncu holl ddwfr yr afon. Tybia Bochart fod yr 'Iorddonen,' yr hon oedd yn fwy adnabyddus i Job na'r Nilus, yn cael ei rhoddi yma an unrhyw afon. Ond y mae Gesenius, Noyes, Schultens, Rossmüller, Umbreit, a Lee, yn cyfieithu yr addod hon yn wahanol: 'Y firwd a orlifa, ac ni ddychryna efe; y mae yn ddiolaf hyd yn nod er i'r Iorddonen rutlro i'w safn.'

Adn. 24. *A ddeil neb ef o flaen ei lygaidj* Pan fyddo ei lygaid yn agored, ac yntau yn gwelod ei helydydd? Mewn achos felly efe a ff rhag ei elynion, neu ynte a ymladd â hwynt mewn amddiffyniad iddo ei hun. *A dyllu neb ei drwyn ef â bachau*—fel y tylla pysgotwr drwyn pysgodyn wrth ei ddal, neu i'w gaethiwo ar ol ei ddal? Y mae y Saesonaeg yn dra gwahanol, fel hyn: 'Efe a'i cymer â'i oblon'—hyny yw, efe a dybia, wrth weled yr afon ag y soniwyd am dani yn adn. 23, y gall efe ei hyfed oll: 'ei drwyn a dreiddia trwy saglau'—pa beth bynag a rodder i'w attal i'r afon, efe a'u dryllia â'i ddannedd, neu a'u teifi ymaith â'i drwyn.

PEN. XLI. Adn. 1. *A dyni di y lefiathanj* Y mae llawer o wahanol farnau wedi bod mewn perthynas i'r creadur hwn, yr un modd a'r rhai blaenorol. Tybia Grotius mai y mular neu y musar a olygir, yr hwn sydd bysgodyn mawr yn Môr-y-canoldir; a thybia Hasencus mai yr orca a feddylir, yr hwn sydd anghenfil danneddol, a gelym mawr i'r morfil. Y mae y LXX, yn gystal a'r Syriaeg a'r Arabaeg, yn ei alw yn *ddraig*; eithr yn y Vulgate a'r Galdeae, yn gystal a'r Gymraeg a'r Saesonaeg, cedwir yr enw Hebreig *lefiathan*. Bu llawer yn meddwl mai y morfil a olygir wrtho; ond addefir yn gyffredin yn awr nad oes dim yn y morfil yn cyfateb i'r dysgrifiad a roddir yma o'r lefiathan, oddieithr ei faintioli; ac heblaw hyny, ni cheir y morfil yn Môr-y-canoldir, nac mewn un o'r afonydd a ymarllwysant iddo. Y farn fwyaf cyffredin yn awr, a'r debycaf o

PENNOD XLI.

A DYNi di y lefiathan allan â bach? neu a rwymi di ei dafod ef â rhaff?

2 A osodi di fach yn ei drwyn ef? neu a dylli di asgwrn ei ên ef â mynawyd?

fod yn wir, yw, mai y CROCODIL a olygir, yr hwn sydd yn breswlydd naturiol y Nilus, ac afonydd ereill yn Asia, Africa, ac America Ddeheuol; ac y mae y darluniad a gawn yma o'r lefiathan yn cyfateb yn gywir i'r crocodil, fel y gwelir isod. Y mae y crocodil yn creadur gwancus a chryf iawn, yn gallu nosio yn dda, a byw ar y tir ac yn y dwfr. Efe a ym-esydd ar y creaduriaid cadarnaf, ac hefyd ar ddynion, a hyny gyda'r fflynnigrwydd mwyaf. Ei hyd cyffredin yw oddeutu 20 troedfedd, er i rai fesur 30 troedfedd o'r trwyn i flaen y gynnffon. Dywedir mai gan y crocodil y mae y safn fwyaf o bob creadur yn ol ei faint; ac y mae ei ên uwchaf wedi ei harfogi â 40 o ddannedd cryfion a llym, a'r isaf â 38. Y mae wedi ei wisgo â chroen cenog ac anhreiddiadwy; ei goesau ydynt fyrion a chryfion; ac yn briodol yr ystyrir ef yn ddychryn i ddyn ac anifel. Y gair *lefiathan* a arwydda y 'ddraig ddyblyg,' neu yr 'anifel plethedig;' a chyfeiria ei enw ond odid naill ai at y cen torchog a chaled ag sydd yn haenau dros ei gefn, neu ynte, fel y sylwa Parkhurst, at ei gyfranogiad o natur sarff a physgodyn, trwy ei fod yn gallu byw ar y tir ac yn y dwfr, yr un modd a'r *behemoth*, pen. xl. 15. *Allan â bach*—fel y tynir pysgodyn allan o'r dwfr? Gwneir felly yn awr; ond ymddengys nad oedd hyny yn arferedig yn amser Job. Dywed *Herodotus* (lyfr ii, pen. 70,) am y math o'r creaduriaid hyn, eu bod yn rhoddi darn o gig moch yn abwyd iddynt ar fach, ac yn ei dafu i'r afon; a bod y pysgotwr yn sefyll ryw bellder oddiwrth fin y dwfr, gan ddal mochyn bychan yn ei law, yr hwn y pair efe iddo wichian. Pan glyw y crocodil ei swm, efe a frysia tua'r lle; ac wrth ddyfod felly ar draws y bach a'r abwyd, efe a'i llwnc, trwy yr hyn y llusgir ef i dir, lle y teffir llaid i'w lygaid i'w ddallu, ac y leddir ef yn ebrwdd. *Neu a rwymi di ei dafod ef â rhaff*—fel ag i'w ddal neu ei ddo? Dywed *Thevenot* am drefn arall i ddal y crocodil. Cloddir tyllau dŷfion ar lanau yr afon, a chuddir hwynt â brigau; ac wrth i'r crocodil fyned y ffordd hono, efe a syrth i'r twll, o'r hwn nis gall ddyfod allan. Gadewir ef yno dros rai dyddiau heb fwyd, ac yna gollyngir rhaff ddolenog i lawr ar draws ei ên, gerfydd pa un y llusgir ef allan. Ond nid oedd hyn chwaith yn arferedig yn amser Job. Yn awr, gan na allai Job drechu y crocodil mwy na'r *behemoth*, paham y beiddiai efe 'ymryson â'r Hollalluog,' pen. xl. 2, yr hwn yw eu Creawdwr hwynt?

Adn. 2. *A osodi di fach yn ei drwyn efj* Neu *raff*, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, i'w

3 A fawr ymbil efe â thi? a ddywed efe wrthyt ti yn dëg?

4 A wna efe ammod â thi? a gymeri di ef yn was tragwyddol?

5 A chwareui di âg ef fel âg aderyn? neu a rwymi di ef i'th lancesau?

6 A swpera cyfeillion arno? a gyfranant hwy ef rhwng marsiandwyr?

7 A lenwi di ei groen ef â phigau heyrn? neu ei ben â thryferau?

8 Gosod dy law arno ef; cofia y rhyfel; na wna mwy.

9 Wele, ofer ydyw ei obaith ef: oni chwymp un gan ei olwg ef?

10 Nid oes neb mor hyderus a'i godi ef: a phwy a saif ger fy mron i?

11 Pwy a roddodd i mi yn gyntaf, a mi a dalaf? beth bynag sydd dan yr holl nefoedd, eiddof fi yw.

12 Ni chelaf ei aelodau ef, na'i gryfder, na gweddeidd-dra ei ystum ef.

13 Pwy a ddatguddia wyneb ei wisg ef? pwy a ddaw ato ef â'i ffrwyn ddau-ddyblyg?

arwain oddiamgylch fel fych? neu a dylli di asgurn ei ên ef â mynawyd?—hyny yw, a feiddi di nesâu ato, tra yn fyw, i wneyd felly âg ef? Arferir rhwymo gën neu safu y crocodil hyd heddyw, ar ol ei ddal; ond nid oedd hyny yn arferedig yn amser Job. Eithr tybia rhai mai at yr arferiad o roddi modrwyau addurniadol yn ei ên ef, a'i arwain oddiamgylch fel gwrthdrysych addoliad, yn ol arferiad yr Aifftiaid, y cyfeirir yma.

Adn. 3. *A fawr ymbil efe â thi*] Fel carclaror yn crefu am gael ei ollwng yn rhydd? a ddywed efe wrthyt ti yn dëg—i'r dyben i'th ennill i dosturio wrtho, a pheidio ei ladd?

Adn. 4. *A wna efe ammod â thi*] Sef ammod o heddwel, rhag dy ofn; neu ammod o gytundeb, i'th wasnaethu yn ffyddlon? a gymeri di ef yn was tragwyddol—i'th wasnaethu di dros ei oes, fel fych neu farch? Y meddwl yw, nad allai Job gymaint a dofi neu lywodraethu un crocodil, a llai o lawer holl greaduriaid y byd.

Adn. 5. *A chwareui di âg ef fel âg aderyn*] Yn ddiberygl, fel y chwery plant âg aderyn diuiwed mewn cawell? neu a rwymi di ef i'th lancesau—i ddyfyr dy ferched bychain, y rhai y mae yn hawddach eu dychrynu na bechgyn?

Adn. 6. *A swpera cyfeillion arno*] O lawenydd am eu bod wedi ei ddal? a gyfranant hwy ef rhwng marsiandwyr?—a werthlir ei gig ef yn y farchnadfa, fel cig dafad neu eidion? Ymddengys na fwyteid cig y crocodil yn amser Job, neu yn ei wlad ef; er y dywed *Plutarch* fod trigolion *Apollinopolis* yn ymborthi arno: ond nid oedd hyny yn arferiad cyffredinol.

Adn. 7. *A lenwi di ei groen ef â phigau heyrn, &c.*] Neu â thryferi, fel y gwneir â'r morfil, neu â'r gleisiad yn ein hafonydd ni? Cyfeirir yma at galedrwydd croen cenawg y crocodil. Dywed *Herrera* iddo ef weled crocodil yn gallu ei amddiffyn ei hun yn ngwyneb deg-ar-hugain o ddyinion; ac iddynt ollwng clwë phelen o wa ato heb allu ei glwyfo. Nis gellir ei archolli ond dan ei fol.

Adn. 8. *Gosod dy law arno ef*] F'w ddal, os beiddi; cofia y rhyfel—ddychrnyllyd ag sydd yn ngyloch cymeryd lle rhyngoch; na wna mwy—neu, ni anturi mwyaeh i ymladd âg ef, os gelli ddianc unwaith rhagddo. *Heath*

a'i cyfieitha, 'Bydd sicr o daro hyd adref; gofala am dy ddyrnod; nac ymddibyna ar ail ergyd.'

Adn. 9. *Wele, ofer ydyw ei obaith ef*] Sef gobaith y dyn a chweynychai ei orchfygu ef: oni chwymp un gan ei olwg ef—wrth weled y fath greadur mawr, erchyll, a chadarn, sydd ganddo i ymrson âg ef?

Adn. 10. *Nid oes neb mor hyderus a'i godi ef*] Neu mor lyf fel ag i anturio ymosod hyd yn nod ar y crocodil, pan fyddo yn gorwedd 'mewn lloches o gyrs a siglenydd,' pen. xl. 21; a phwy a saif ger fy mron i?—fel pe dywedasai, Os yw un o'm creaduriaid mor gryf ac erchyll, fel na feiddi di ymrson âg ef; pa fodd y beiddi ymrson â mi, ei Greadwr ef? Yr oedd Job wedi dangos awydd i nesâu at Dduw, i ddadlu ei ddiinweidrwydd ger ei fron ef; ond os yw yr olwg ar un o'i greaduriaid yn ei ddychrynu ef, pa beth a wna'i yr olwg ar fawredd a nerth yr Hollalluog!

Adn. 11. *Pwy a roddodd i mi yn gyntaf*] I'm gwneyd yn ddyledwr iddo ef? a mi a dalaf—iddo am ei roddion a'i gymwynasau: gwel ar Rhuf. xi. 35. *Beth bynag sydd dan yr holl nefoedd*—ie, ac yn y nefoedd lefyd; *eiddof fi yw*—ac telly nid wyf yn ddyledwr i neb. Ar ol profi nas gall neb ymrson â Duw o ran nerth, y mae efe yma yn dangos nas gall neb ymrson âg ef o ran cyflawnder neu hawl, trwy nad yw ef yn nyled neb o ddim: ac yna y mae efe yn dychwelyd eilwaith at ei destyn blaenorol, sef i ddyysgrifio y lesiathan neu y crocodil.

Adn. 12. *Ni chelaf ei aelodau ef, na'i gryfder*] Eithr llefaraf am danynt oll yn y modd egluraf; na gweddeidd-dra ei ystum ef—sef ei gyfaddarswydd i'w amddiffyn ei hun. Ond myn rhai gysieithu yr adnod hon, 'Ni'm dychrynnir gan ei aelodau a'i fflrynigrwydd ef, na chan nerth a chyfansoddiad ei gorff.' Er fod y crocodil yn ddychrn i ddyd ac anifel, nid yw felly i Dduw.

Adn. 13. *Pwy a ddatguddia wyneb ei wisg ef?*] Pwy a feiddia nesâu i'w ymyl, i graffu yn fanwl ar ei holl groen ef? Neu ynte, fel y mae rhai yn ei ddeall, pwy a ddyosg ei groen ef oddiam dano, fel ag i allu rhoddi archoll marwol iddo? *Pwy a ddaw ato ef â'i ffrwyn ddau-ddyblyg*—i'w rhoddi am ei ben, i'r dyben i'w arwain oddiamgylch fel asyn neu farch?

14 Pwy a egyr ddorau ei wyneb ef? ofnadwy yw amgylchoedd ei ddannedd ef.

15 *Ei falchder yw ei emau, wedi eu cau yn nghyd megys â sêl gaeth.*

16 *Y mae y naill mor agos at y llall, fel na ddaw gwynt rhyngddynt.*

17 Pob un a lŷn wrth eu gilydd; hwy a gyd-yngysylltant, fel na wahanir hwy.

18 Wrth ei disian ef y tywyna goleuni, a'i lygaid ef sydd fel amrantau y bore.

19 Ffaglau a ânt allan, a gwr-eichion tanlyd a neidiant o'i enau ef.

20 Mwg a ddaw allan o'i ffroenau, fel o bair neu grochan berwedig.

21 Ei anadl a wna i'r glo losgi, a fflam a ddaw allan o'i enau.

22 Yn ei wddf y trig cryfder, a thristwch a dry yn llawenydd o'i flaen ef.

23 Llywethau ei gnawd a lynant yn nghyd; caledodd ynddo ei hun, fel na syfio.

24 Caled ydyw ei galon fel careg; a chaled fel darn o'r maen isaf i *felin*.

25 Rhai cryfion a ofnant pan godo efe: rhag ei ddrylliadau ef yr ymlanhant.

26 Cleddyf yr hwn a'i tarawo, ni ddeil; y waewffon, y bicell, na'r llurig.

27 Efe a gyfrif haiarn fel gwellt, a phres fel pren pwr.

Ond gan mai darlunio gwahanol ranau corff y lesiatian yr ydych, myn rhai gyfieithu y frawddeg olaf, 'Pwy a ddaw yn agos i ddyblygiad ei en ef?' neu, fel y mae *Heath* yn ei chyfieithu, 'pwy a ddaw yn agos i ddyw res ei ddannedd?'

Adn. 14. *Pwy a egyr ddorau ei wyneb ef?* Sef ei enau? *ofnadwy yw amgylchoedd ei ddannedd ef*—ac felly ni feiddia neb nesáu ato i agor ei enau. Dywed *Pliny*, pan fyddo y crocodil yn dylfu gen, ei fod yn ymddangos fel yn gôg i gyd, a hōno yn llawn o'r dannedd mwyaf ofnadwy.

Adn. 15. *Ei falchder yw ei emau* Sef y ceu anhydraidd ag sydd ar hyd ei gefu; *wedi eu cau yn nghyd megys â sêl gaeth*—fel nas gellir eu hagar, na threiddio trwyddynt.

Adn. 16. *Y mae y naill mor agos at y llall* Dros ei holl gefn; *fel na ddaw gwynt rhyngddynt*—llai o lawer pelen o wn.

Adn. 17. *Pob un a lŷn wrth eu gilydd* Mor naturiol a phe buasant wedi eu hasio neu eu gludio; *hwy a gydymgysylltant*—fel un darn, er eu bod yn llawer; *fel na wahanir hwy*—gan gleddyf, tryfer, na phelen o wn.

Adn. 18. *Wrth ei disian ef y tywyna goleuni* Tybia rhai mai y meddwl yw, pan fyddo y crocodil yn chwythu y dwf o'i ffroenau, ar ol bod yn hir dan y dwf, fod math o enffys yn ymddangos, ar dywyniad haul, yn y dyferion. *A'i lygaid ef sydd fel amrantau y bore*—yn ddysglaer iawn; neu i'w gweled, wrth iddo ymgodi i wyneb y dwf, o flaen ei gorff. Yn arwydd-luniau yr Aiffiaid, ar-ddangosir y bore trwy lun llygad y crocodil.

Adn. 19. *Ffaglau—a gwr-eichion tanlyd* Neu ddyfroedd yn trochioni fel gwreichion; *a neidiant o'i enau ef*—cyfeirir ond odid at chwistrelliad neu ewyniad y dyfroedd wrth i'r crocodil godi o waeld yr afon i anadl. Ond dylid cofio fod llawer o'r ymadroddion a arferir yma yn iaith gyffelybiaethol, neu yn orwreb barddonol prydieth.

Adn. 20. *Mwg a ddaw allan o'i ffroenau* Cyfeirir yma at ei anadl, pa un yn fynych, ar

dywydd oer, a ganfyddir fel mwg neu ager yn dyrchafu oddiwrth ddfwr berwedig.

Adn. 21. *Ei anadl a wna i'r glo losgi* Gorwreb yn arwyddo gwres mawr, ar ol iddo hir attal ei anadl yn y dwf, neu wrth iddo redeg ar ol ei ysglyfaeth ar y tir; *a fflam a ddaw allan o'i enau*—gwel ar adn. 19.

Adn. 22. *Yn ei wddf y trig cryfder* Yr lŷn sydd wirionedd eglur gyda golwg ar y crocodil; *a thristwch*—sef tristwch y creaduriaid a ddelir ganddo, *a dry yn llawenydd o'i flaen ef*—neu iddo ef, trwy ei fod yn mawr hofi ynlladd er uwyn ysglyfaethu.

Adn. 23. *Llywethau ei gnawd* Sef ei gyhyrau, neu y rhanau llyng ag sydd yn feddal a lipa mewn creaduriaid ereill; *a lynant yn nghyd*—yn gadarn a chaled fel asgwrn; *fel na syfio*—er maint o guro a fyddo arno.

Adn. 24. *Caled ydyw ei galon fel careg* Cyfeiria lŷn ond odid at ei fawr ddeiwdr ef; eithr tybia *Bochart* mai ei galon yn llythyr-enol a olygir: *a chaled fel darn o'r maen isaf i felin*—yr hwn yw y caletaf a'r mwyaf o'r ddau. Y melinau yn yr amser hwn oeddant *freuanau*, neu law-felinau: gwel ar Exod. xi. 5.

Adn. 25. *Rhai cryfion* Sef y morwyr deiraf a chryfaf; *a ofnant pan godo efe*—i wyneb y dwf i ymosod arnynt: *rhag ei ddrylliadau ef*—rhag i'w llestri gael eu dryllio, ac i'w bywydau fnyed yn ysglyfaeth iddo; *yr ymlanhant*—yr ymdrechiant i lanhau eu cydwybodau oddiwrth euogrwydd a halogrwydd pechod, trwy edifeirwch, addunedau, a gweddiau: gwel ar Saln cvii. 28, Jonah i. 5.

Adn. 26. *Cleddyf yr hwn a'i tarawo, ni ddeil* Eithr efe a dyr yn ddarnant, heb wneuthur dim nived iddo ef; *y waewffon, y bicell, na'r llurig*—ni ddeil y waewffon a'r bicell eu gafael ynddo, trwy nad allant dreiddio iddo; ac nid amddiffyna y llurig ei pherchenog rhag ei ddfirod ef.

Adn. 27. *Efe a gyfrif haiarn* Sef arfau wedi eu gwneuthur o haiarn neu bres; *fel gwellt*—fel pe byddent wedi eu gwneuthur o wellt neu bren pwr.

28 Ni phair saeth iddo ffoi : cerig taf a dröed iddo yn sofl.

29 Picellau a gyfrifir fel sofflyn ; ac efe a chwardd wrth ysgwyd gwaewffon.

30 Dano ef y bydd megys darnau llymion o lestri pridd : efe a daena bethau llymion ar hyd y clai.

31 Efe a wna i'r dyfnder ferwi fel crochan : efe a esyd y môr fel crochan o enaint.

32 Efe a wna lwybr goleu ar ei ol ; fel y tybygid fod y dyfnder yn frigwyn.

33 Nid oes ar y ddaear gyffelyb iddo, yr hwn a wnaethpwyd heb ofn.

34 Efe a edrych ar bob peth uchel : brenin ydyw ar holl feibion balchder.

PENNOD XLII.

A JOB a atebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd,

2 Myfi a wn y gelli di bob peth ; ac na atellir un meddwl oddiwrthyt.

3 Pwy ydyw yr hwn sydd yn

Adn. 28. *Ni phair saeth iddo ffoi*] Trwy na fena hi arno ef mwy na phe buasai welltyn : cerig taf—wrth en lluchio ato o'r ffon dafl, a dröed iddo yn sofl—ni wnant ddim mwy o niwed iddo ef na dyrnaid o sofl neu wellt.

Adn. 29. *Picellau a gyfrifir fel sofflyn*] Pa mor fflenllym bynag y byddont ; ac efe a chwardd wrth ysgwyd gwaewffon—trwy y gwyr nas gall ei drywanu. Hon sydd iaith farddonol brydforth.

Adn. 30. *Dano ef y bydd megys darnau llymion o lestri pridd*] Y rhai a ddyrllwyd ganddo yn yr ymladdfa ; *efe a daena bethau llymion ar hyd y clai*—sef y picellau a dafesiad ato ar lan yr afon. Neu gall fod yma gyfcriad at dewdr ei groen, trwy yr hyn y gall orwedd yn esmwyth ar wely pigog o ddrain, fel pe buasai ar wely o blyf.

Adn. 31. *Efe a wna i'r dyfnder ferwi fel crochan*] Trwy ei symudiadau nerthol a chyflwm yn yr afon : *efe a esyd y môr*—sef y Nilus, yr hon a elwir 'môr yr Aifft,' Essay xi. 15, a xix. 5 ; *fel crochan o enaint*—yn ymferwi ac yn ewynu o'r gwaelod. Ond tybia Bochart ac ereill fod yma gyfeiriad at yr arogl a edy y crocodil ar ei ol yn y dyfroedd, yr hwn sydd yn debyg i arogl *mwsq*. Dywed naturiaethwyr fod pleredn dan ysgwyddau yr hen crocodil, yn cynwys sylwedd tew yn arogl fel *mwsq*, pa un a werthfawrogir yn fawr gan bendeigion yr Aifft, fel yr enaint pereiiddiaf. Dywed *Hasselquist* fod bustl y crocodil yn llesol i'r llygaid ; a bod yr Aiffitesau yn ei ddefyddio rhag anhiantadrwydd ; a bod bloneg y crocodil yn feddyginiaeth i glefyd y gian.

Adn. 32. *Efe a wna lwybr goleu ar ei ol*] Fel pe buasai agerlong wedi myned y ffordd hōno ; *fel y tybygid fod y dyfnder yn frigwyn*—neu wedi llwydrewi. Ond tybia rhai fod yma gyfeiriad at ansawdd *phosphoraidd* y môr ar rai amserau, yr hwn, wrth i long neu bysgodyn nosio yn gyflym ar hyd ei wyneb, a ymddengys fel llwybr tanlyd.

Adn. 33. *Nid oes ar y ddaear gyffelyb iddo*] Nid oes un creadur ar y tir mor gryf, peryglus, ac anhawdd ei orchfygu a'r crocodil ; *yr hwn a wnaethpwyd heb ofn*—yn hyf a dewr, heb arno ofn dyn nac anifel.

Adn. 34. *Efe a edrych ar bob peth uchel*] Ar greaduriaid mawrion, ar longau uchel, ac

ar ddynion beilchion, gyda difaterwch a dirmyg ; *brenin ydyw ar holl feibion balchder*—ar baw a phobpeth a ymfrostiant yn eu nerth. Tybia *Culmet* mai yr Aiffitiaid a feddylir yma wrth 'feibion balchder,' a bod y crocodil yn cael ei alw en 'brenin' hwy, nid yn unig am ei fod yn un o'u prifdduwiau, ond hefyd am mai ystyr yr enw *Pharao* yw CROCODIL. Tybia *Houbigant* fod y lesathian yma yn arwyddo *Satan*, yr hwn nid yn unig a fynai ymddyrchafu cyfowch â Duw, ond sydd hefyd yn frenin ar bob dyn balch, rhyfygus, ac annuwiol. Y mae *Coke* ac ereill yn meddwl mai at Dŵr y cyfeirir yn yr adnod hon, yr hwn a all edrych yn ddiddychryn ar 'bob peth uchel,' pa un bynag ai bwystfilod, cvthreuliaid, neu ddynion, a darostwng 'holl feibion balchder,' yr hyn ni allai Job ei wneyd, pen. xl. 11, 12 ; ac am hyn y dylasai Job ymostwng dan ei alluog law ef, a chydnabod mawredd, gallu, a doethineb anfeidrol Duw yn ei holl ffyrdd a'i weithredoedd, yn lle beio ar ei weinyddiadau. Yma y terfyna geiriau Duw wrth Job o'r corwynt, y rhai a gawsant yr effaith a fwriedid arno ef, fel y gwelwn yn y bennod nesaf.

PEN. XLII. Adn. 1. *A Job a atebodd yr Arglwydd*] Yr oedd Duw wedi gorchymyn i Job ei ateb ef, hyd yn nod ar ol iddo ddywedyd nad atebai mwyach, pen. xl. 5, 7 ; ond y mae ei atebiad ef y tro hwn yn ddigon gostyngedig, trwy ei fod wedi cael iawn olwg ar ei waledd ei hun.

Adn. 2. *Myfi a wn y gelli di bob peth*] Efe a ddywed hyn gyda golwg ar ddatganiadau Duw yn y pennodau blaenorol. Cyfaddefiad ydyw o hollalluogrwydd Jehofa, ac y dylai dyn ymostwng dan ei anfeidrol allu ef. Un dyben mawr o gyfarchiad yr Hollalluog oedd argyhoeddi Job o'i fawredd ei hun, a chyflawnwyd y dyben hwn yn hollol. *Ac na atellir un meddwl oddiwrthyt*—na atellir un meddwl o eiddo dyn rhag dy wybodaeth di, nac un bwriad o'th eiddo ditlun rhag cael ei gyflawni.

Adn. 3. *Pwy ydyw yr hwn sydd yn cuddio cynghor heb wybodaeth* ?] Beth wyfif, bryfyn gwael, i fod yn euog o'r fath ryfag ac ynfydrwydd ! Yr oedd Duw wedi ei gyhuddo ef o hyn yn pen. xxxviii. 2, ac yma y mae yntau yn addef priodoldeb y cyhuddiad, neu yn ei gyhuddo ei hun yn yr un geiriau : gwel y sylw-

cuddio cynghor heb wybodaeth? am hyny y lleferais yr hyn ni ddeallais; *pethau* rhy ryfedd i mi, y rhai nis gwyddwn.

4 Gwranddo, atolwg, a myfi a lefaraf: gofynaf i ti, dysg dithau finau.

5 Myfi a glywais a'm clustiau son am danat: ond yn awr fy llygad a'th welodd di.

6 Am hyny y mae yn ffiائد gen-

adau yno. *Am hyny*—am fy mod heb wybodaeth; *y lleferais yr hyn nis deallais*—y cyhoeddais farn ar bethau ag oeddnt yn rhy ddyfnion i mi allu eu hamgyffred. *Pethau rhy ryfedd i mi, y rhai nis gwyddwn*—neu, fel y mae *Good* yn ei gyfieithu, 'Rhyfedd wyt ti tuhwnt i mi, ac nis gwn ddim!'

Adn. 4. *Gwranddo, atolwg, a myfi a lefaraf*] Nid yn rhyfygu a grwgnachlyd fel o'r blaen, ond mewn cyfaddefiad o'm gwaeledd fy hun, ac o uniondeb dy ffyrdd a'th weinyddiadau dithau. *Gofynaf i ti*—gyda'r parch a'r gostyngieddrwydd mwyaif; *dysg dithau finau*—dy greadur gwael ac anwybodus. Hon yw iaith gwir ostyngieddrwydd ac edifeirwch; a dengys y eglur fod gan Job feddyliau nehel am Dduw, er iddo gael ei arwain gan ei gyfeillion, a chan fawredd ei ddyoddefiadau, i draethu rhai geiriau anhriodol. Y mae yn debyg na ofynnodd Job ddim i Dduw yn awr, fel y bwriadodd wneuthur; ac iddo orphen ei arawd gyda'r geiriau a adroddir yn y ddywadno ganlynel.

Adn. 5. *Myfi a glywais a'm clustiau son am danat*] Trwy y traddodiadau e ddygwyd i lawr oddiwrth ein henafiaid, pen. xv. 18; *ond yn awr fy llygad a'th welodd di*—ac wrth iddo welod *Duw*, efe a'i gwelodd ei hun hefyd. Fel hyn, y mae y goleuni ag sydd yn rhoddi i ni olwg ar ogoniant a mawredd Duw, yn dangos i ni hefyd ein gwaeledd a'n bychander ein hunain. Tybia rhai i Job gael rhyw olwg ar ogoniant Duw a'i lygaid *corfforol*; ond y mae yn debycach mai cyfeirio y mae at yr olwg a gafodd efe ar ei berffeithderau a llygad ei *feddwl*, yr hyn oedd yr un mor argyhoeddiadol iddo ef a phe buasai wedi ei welod a'i lygaid naturiol.

Adn. 6. *Am hyny y mae yn ffiائد genyfffi fy hun*] Yn yr olwg ar fawredd a gogoniant anfeidol Duw, ac wrth ei gydmharu ei hun ag ef, gwelai Job fod ei nerth ei hun yn wendid, ei ddoethineb yn ynydrwydd, a'i gyfiawnder yn ffiائد-dra. *Ac yr ydwyf yn edifarhau mewn llwch a lludw*—sef yn y modd difrifolaf, a chydar arwyddion amlycaf o offid ac ymostyngiad, megys yr arferai galarwr wneyd, Essay lviii. 5. Fel pe dywedasai, Yr wyf yn edifarhau am y meddyliau caledion a letyais, am yr ysbryd grwgnachlyd a ddangosais, ac am y geiriau anystyriol a draethais yn dy erbyn di, yn gystal ag am holl gollidau ereill fy mwyd; ac yr wyf yn awr yn gwelod yn eglur fod fy achos yn galw am yr holl drallodion a'r dyoddefiadau a ddaethant i'm cyfarfod. Gyda

yf fi *fy hun*; ac yr ydwyf yn edifarhau mewn llwch a lludw.

7 ¶ Ac wedi dywedyd o'r Arglywydd y geiriau hyn wrth Job, yr Arglywydd a ddywedodd wrth Eliphaz y Temaniad, Fy nigofaint a gyneuodd yn dy erbyn di, ac yn erbyn dy ddau gyfaill; am na ddywedasoch am danaf fi yn uniawn fel fy ngwasanaethwr Job.

golwg ar ei syniadau cyffredinol yn y gynadled rhyngddo a'i gyfeillion mewn perthynas i ffyrdd a rhagluniaeth Duw, nid oedd ganddo ddim achos i edifarhau, am y cyhoeddir hwynt gan Dduw ei hun fel yn *uniawn*, adn. 7, 8; ond yr oedd yn awr yn gwelod fod yr ysbryd a ddangosasai efe mewn rhai o'r dadleuon hyn, a than ddifrawr bwys ei gystuddiau, yn mhell oddiwrth fod y peth a ddylasai; ac am hyny y mae yn edifarhau mewn llwch a lludw.

Adn. 7. *Ac wedi dywedyd o'r Arglywydd y geiriau hyn wrth Job*] Y rhai a gawsom yn y pedair pennod flaenorol. Ond tybia rhai mai y geiriau yn pen. xl. 1—14 a olygir, y rhai y meddylir eu bod yn sefyll ar y cyntaf rhwng adn. 6 a 7 o'r bennod hon, am y casglant oddiwrth yr adnod hon mai yr Arglywydd a lefarodd ddiweddar: gwel Heath, Kennicott, a Clarke. *Yr Arglywydd a ddywedodd wrth Eliphaz*—yr hwn oedd y blaenaf yn y gynadled hon, ac yn debygol yr hynaf o'r tri, pen. iv. 1. *Fy nigofaint a gyneuodd yn dy erbyn di, ac yn erbyn dy ddau gyfaill*—y rhai oeddnt ill tri yn bresenol o'r dechre. Nid yw *Elihu* yn cael ei gynnwys yma, am ei fod ef wedi ymddwyn yn fwy trugarog tuag at Job na'r tri ereill; canys nid oedd ef wedi condemnio person Job, eithr yn unig ei eiriau. *Am na ddywedasoch am danaf fi yn uniawn, fel fy ngwasanaethwr Job*—nid yw hyn yn cynwys fod yr oll a ddywedasai Job am Dduw yn *uniawn*, mwyaif am bod yr oll a ddywedasai ei gyfeillion ef am dano yn *feius*; ond y meddwl yw, naill ai eu bod hwy ar y cyfan wedi gwro ym fwy oddiwrth uniondeb na Job; neu wedi cyfeiliorni yn y pethau mwyaif eu pwrs, yn y rhai yr oedd Job yn ddiffiaus. (1) Yr oedd syniadau Job am y llywodraeth ddwyfol yn lled gwir yn gyffredin; ond nid oedd yr eiddynt hwy felly. (2) Hefyd yr oedd dyoddefiadau mawrion Job yn rhyw esgus dros ei iaith chwerw ef; pan nad oeddnt hwy yn y fath gyflwr. (3) Yr oedd Job yn wasanaethwr Duw, fel y dywedir yma; ond nid oes sicrwydd eu bod hwy felly. (4) Yr oeddnt hefyd yn ei ffino ac yn ei wawdio ef yn y modd creulonaf, gan awgrymu ei fod yn rhagrithiwr annwiel; pryd y dylasent ei gvsuro yn ei gystudd a'i ffinfyd. (5) Ond dichon mai yu ei SYNIADAU am y *cyflwr dyfodol* yr oedd y prif wahaniaeth rhyngddynt. Byddai yn anhawdd cael dim yn ymadroddion Eliphaz a'i gyfeillion i gyfiawahan y gwahaniaeth a weir yma rhwng Job a hwythau, oddieithr y cawn hyny yn yr athrawiaeth o *gyflwr dyfodol*, neu fyd ar ol

8 Yn awr gan hyny cymerwch i chwi saith o fustych, a saith o hyrddod, ac ewch at fy ngwasanaethwr Job, ac offrymwch boethaberth drosoch; a gweddied fy ngwasanaethwr Job drosoch: canys mi a dderbyniaf ei wyneb ef: fel na wnelwyf i chwi yn ol eich ffolineb, am na ddywedasoeh yr uniawn am danaffi, fel fy ngwasanaethwr Job.

9 Felly Eliphaz y Temaniad, a

Bildad y Suhiad, a Sophar y Namathiad, a aethant ac a wnaethant fel y dywedasai yr Arglwydd wrthynt. A'r Arglwydd a dderbyniodd wyneb Job.

10 Yna yr Arglwydd a ddychwelodd gaethiwed Job, pan weddiodd efe dros ei gyfeillion: a'r Arglwydd a chwaneodd yr hyn oll a fuasai gan Job, yn ddau ddyblyg.

11 Yna ei holl geraint, a'i holl

hwn. Yn mhob ystyr arall yr oedd Eliphaz a'i gyfeillion fel yn llefaru yn fwy cyson am Dduw nag y gwnai Job, trwy geisio amddiffyn uniondeb ei ragluniaeth a'i griaawnder ef yn ngweinyddiad cospau a gwobrwyon yn y byd hwn; tra yr oedd Job yn haeru o hyd ei fod ef yn *dyfetha y perffaieth a'r annuwiol* yn ddiwahaniaeth, pen. ix. 22, yr hyn a ymddanghosai fel cyhuddiad o anghyfiawnder yn erbyn Duw, fel pe buasai efe heb wneyd dim gwahaniaeth rhwng da a drwg. Ond os cymerwn ni yn *cyflwr dyfodol* i ystyriaeth, fel yn sicr y gwnai Job, bydd i'r cyfan ymddangos mewn goleuni gwahanol; a gallwn yn hawdd weled y rheswm paham yr oedd Duw yn cymeradwyo syniadau Job, tra yr oedd yn condemnio eiddo *Eliphaz* a'i gyfeillion. Wrth iddynt lwy haeru nad yw y da byth yn *dyoddef* yma, na'r *drwg* byth yn *llwyddo*, yr oedd eu hathrawiaeth nid yn unig yn groes i'r gwirionedd, ond hefyd yn arddanghosiad anghywir o ragluniaeth Duw yn y byd cymysg-lyd hwn; ac wrth i Job haeru fod y da a'r *drwg* yn y byd hwn o brawf, weithiau yn *dyoddef* fel en gilydd, ac weithiau yn *llwyddo*, ac mai yn y *byd ar ol hwn* yr oeddnt i gael en *gwobrwyo* neu eu *cospi* yn briodol, yr oedd hyny nid yn unig yn wirionedd ynddo ei hun, ond hefyd yn berffaith gyson a'r gweinyddiadau dwyfol. Y rheswm moesol cryfaf ag sydd genym ni i brofi fod *cyflwr ar ol hwn*, yw yr un a haera Job, sef nad oes dim gwahaniaeth yn cael ei wneuthur yma bob amser rhwng y da a'r *drwg*; ac am hyny y rhaid fod byd ar ol hwn, lle y derbyn pob un ei briod wobr ei hun: canys os yw pob *rhinwedd* yn cael ei *wobrwyo* yma, a phob *pechod* yn cael ei *gospio* yma, fel yr haera Eliphaz a'i gyfeillion, pa le y mae yr angenrheidrwydd am wobrwyon a chospau mewn byd arall? Ac wrth ystyried hyn, nid rhyfedd i syniadau Job gael eu cymeradwyo, ac i syniadau y lleill gael eu condemnio.

Adn. 8. *Yn awr gan hyny cymerwch i chwi saith o fustych, a saith o hyrddod* [I wneuthur cymmod am yr hyn a ddywedasoeh ar fai. Tybia rhai fod pob un o'r tri i gymeryd y nifer hyn, yr hyn a wnai 42 yn y cwbl; a thrwy y rhif *saith* yn rhif perffeihrwydd, yr oeddnt yn gysgod o berffeihrwydd a chyflawnder aberth Crist. *Ac ewch at fy ngwasanaethwr Job*—yr hwn, er i chwi ei gondennio fel rhagrithiwr, yr wyf i fi yn ei arddel fel fy ngwasanaethwr ffyddlon. *Ac offrymwch boeth-*

aberth drosoch—trwy ei weinyddiad ef. Ymddengys oddiyma fod Job yn gweithredu fel *offeiriad*, nid yn unig yn ei deulu ei hun, ond hefyd dros ereill: gwel ar pen. i. 5. *A gweddied fy ngwasanaethwr Job drosoch*—am i'ch aberthau gael eu cymeradwyo, a'ch pechodau gael eu maddeu. Gwyddai yr Arglwydd y gwnai Job hyn, er iddynt lwy ei amharchu ef; a gwyddai Job, os mynai ef ei hun gael trugaredd, fod yn rhaid iddo ddangos trugaredd: gwel ar Iago ii. 13. *Canys mi a dderbyniaf ei wyneb ef*—fel eiriolwr drosoch, gan ei fod yn wasanaethwr ffyddlon i mi. *Fel na wnelwyf i chwi yn ol eich ffolineb*—fel na byddo i'm digolaint cyfiawn eich ysu am eich geiriau ynfyd a chyfeiliornus: gwel ar adn. 7.

Adn. 9. *Felly Eliphaz y Temaniad, &c.* Gwel ar pen. ii. 11; a *aethant*—i geisio y bustych a'r hyrddod i'w haberthn; ac a *wnaethant fel y dywedasai yr Arglwydd wrthynt*—gan ddangos trwy hyny eu hedifeirwch a'u ffydd. *A'r Arglwydd a dderbyniodd wyneb Job*—a dderbyniodd ei aberth a'i weddiâu ef dros ei gyfeillion; neu a faddeuodd eu pechod hwy trwy ei eiriolaeth a'i gyfryngdod ef. Yr oedd Job yn hyn yn gysgod arbenig o Grist, yr hwn yw ein Heiriolwr a'n Cyfryngwr mawr ninau.

Adn. 10. *Yna yr Arglwydd a ddychwelodd gaethiwed Job* [A'i hadferodd ef i'w iechyd, ei nerth, a'i gysuron blaenorol, ac a'i gwaredodd o'r caethiwed ysbrydol yn yr hwn y daliesid ef mor hir gan Satan, pen. i. 12, a ii. 6, &c. Y mae rhai yn deall y geiriau hyn fel yn arwyddo, ddarford iddo gael adferiad o'r eiddo a gollasai; iddo arfogi ei gyfeillion, a syrthio ar y rhai a'i hyspeiliasant, a chael ei anifeiliaid yn ol, yn nghydag arnhaith fawr oddiar yr yspeilwyr. *Pan weddiodd efe dros ei gyfeillion*—hyny yw, wedi iddo weddio drostynt. Nid yw hyn yn cynwys o angenrheidrwydd, fel y sylwa Barnes yn briodol, ddarford i'w weddi ef dros ei gyfeillion effeithio dim er a'wferyd iddo ei eiddo a'i iechyd, er mai hyny yw y dyb gyffredin. *A'r Arglwydd a chwaneodd yr hyn oll a fuasai gan Job, yn ddau ddyblyg*—nid yn unig efe a roddodd iddo gymaint ag a gollasai, ond chwaneodd atynt gymaint arall; ac y mae yn debyg iddo gael dau cymaint ag o'r blaen o fendithion ysbrydol i'w enaid hefyd.

Adn. 11. *Yna ei holl geraint a'i holl garesau* [Snes, 'ei holl frodyr a chwiorydd;'] a *phawb o'i gydabod ef o'r blaen*—y rhai a

garesau, a phawb o'i gydnabod ef o'r blaen, a ddaethant ato, ac a fwytasant fwyd gydag ef yn ei dŷ, ac a gwynasant iddo, ac a'i cysurasant ef, am yr holl ddrwg a ddygasasai yr Arglwydd arno ef: a hwy a roddasant iddo bob un ddarn o arian, a phob un dlws o aur.

12 Felly yr Arglwydd a fendithiodd ddiwedd Job yn fwy na'i ddechread: canys yr oedd ganddo bedair mil ar ddeg o ddefaid, a chwe mil o gamelod, a mil o gyplau ychain, a mil o asenod.

giliansent oddiwrtho yn amser ei gystudd a'i aflwydd, pen. xix. 13, 14: a ddaethant ato—gan chwennych adnewyddu eu cyfeillgarwch ag ef yn ei lwyddiant; ac a fwytasant fwyd gydag ef yn ei dŷ—yn arwydd eu bod wedi ymgymodi, canys gwelsoem eisioes fod ei dŷ ef yn sefyll fyth, pen. xix. 15—17; ac a gwynasant iddo, ac a'i cysurasant ef—ond yr oedd arno fwy o angen am hyn oddiwrthant yn ei drallodion blaenorol: a hwy a roddasant iddo bob un ddarn o arian, a phob un dlws o aur—yn ol adferiad y dwyreiniwyr wrth fyned i wyddfod gŵr mawr. Y mae y gair *kesitah*, a gyfieithir yma yn 'ddarn o arian,' yn arwyddo oen, ac felly y darllenir ef yn yr hen gyfieithiadau; ond y mae yn debyg mai darn o arian â llun oen arno a feddylir, yr hwn a osodwyd arno ond odid am ei fod yn gyfartal i werth oen: gwel ar Gen. xxxiii. 19. Y mae y gair *nezem*, 'dlws o aur,' yn arwyddo yn briodol trwy-*dlws*, yr hwn a wisgir yn y dwyreini fel addurn hyd heddyw.

Adn. 12. *Felly yr Arglwydd a fendithiodd ddiwedd Job yn fwy na'i ddechread* Gwel ar Iago v. 11. Tybia rhai mai trwy iddo yspello y Sabeaid a'r Caldeaid y bu hyn, fel y nodwyd ar adn. 10; a thybia ereill mai trwy gyfraniadau ei berthynasau a'i gyfeillion, a bendith Duw ar eu rhoddion. Ond pa fodd bynag y cyrhaddodd efe ei olud, yr oedd yn canfod llaw Duw yn y cwbl, a gallai chwaneu at yr hyn a ddywedasai yn pen. i. 21, 'A'r Arglwydd a roddodd drachefn.' *Bedair mil ar ddeg o ddefaid, &c.*—sef cymaint arall o ddefaid, camelod, ychain, ac asenod, ag a feddai ar y cyntaf: gwel pen. i. 3.

Adn. 13. *Ac yr oedd iddo saith o feibion, a thair o ferched* Yr un nifer ag o'r blaen, y rhai oll a fuasant feirw, pen. i. 2, 19; ac er dim a wyddom ni i'r gywthwyneb, yr un oedd eu man hwynt oll. Os gofynir, 'Paham na ddyblwyd ei blant iddo, yn gystal a'i anifeiliaid?' gellir ateb, fod hwy mewn effaith wedi cael ei wneuthur, trwy fod y rhai cyntaf yn bodoli ar yr un pryd mewn byd arall. Ond dywed y Galdeaeu fod ganddo yn awr 'beduar-ar-ddeg o feibion, a thair o ferched.'

Adn. 14. *Ac efe a alwodd enw y gyntaf Jemima* Yr hyn a arwydda dyddiau ar

13 Ac yr oedd iddo saith o feibion, a thair o ferched.

14 Ac efe a alwodd enw y gyntaf Jemima; ac enw yr ail Cezia; ac enw y drydedd. Ceren-happuch.

15 Ac ni cheid gwragedd mor lân a merched Job yn yr holl wlad hōno: a'u tad a roddes iddynt hwy etifeddiaeth yn mhlith eu brodyr.

16 A Job a fu fyw wedi hyn gant a deugain o flynyddoedd; ac a welodd o'i feibion, a meibion ei feibion, bedair cenhedaeth.

17 Felly Job a fu farw yn hen, ac yn llawn o ddyddiau.

ddyddiau, mewn cyfeiriad ond odid at estyniad dyddiau Job; neu, fel y dywed y Targum, 'am fod ei phrydferthwch hi fel eiddo y dydd.' *Ac enw'yr ail, Cezia*—am ei bod morddymunol a'r *casia*, meddai y Targum, yr hwn oedd bwr lysesieun dymunol a gwerthfawr, Salm xlv. 8. *Ac enw y drydedd, Ceren-happuch*—yr hyn a gyfieithir gan y LXX yn *Gorn Amalthea*, neu 'gorn cyflawnder,' mewn cyfeiriad ond odid at gyflawnder meddiannau Job. Ond dywed y Targum iddi gael ei galw felly, 'am fod ei gwneb mor ddysglaer a'r *emerald*.' Arferir y Persiaid roddi enwau i'w merched oddiwrth enaint, pwr-lysiu, perlan, meini gwerthfawr, neu rywbeth arall a ystyrir yn hardd, llesol, neu werthfawr: gwel *Deithian Roe*.

Adn. 15. *Ac ni cheid gwragedd mor lân a merched Job*] O ran pryd a gwedd, *yn yr holl wlad hōno*—yr hyn a grybwyllir yma fel un arwydd o ddaioni Duw i Job ar ol ei fawr ddrygfyd a'i gystudd. Canmolir benwyd yn fynych am eu glendid i'w harddwch yn yr Hen Destament, ond nid byth yn y Testament Newydd, am fod prydfertwch santeiddrwydd wedi ei ddwyn i oleuni llawer eglurach dan yr efengyl. *A'u tad a roddes iddynt hwy etifeddiaeth yn mhlith eu brodyr*—yr un faint ag i'w brodyr, trwy fod ganddo gyfran helaeth i bob un; neu yn yr un fan a'u brodyr, fel na phriodid hwy i blith dychethriaid eilunaddolgar.

Adn. 16. *A Job a fu fyw wedi hyn*] Sef wedi ei adferiad i'w iechyd a'i gyfoeth; *gant a deugain o flynyddoedd*—ond gan na ddywedir beth oedd ei oedran pan gystuddiwyd ef, nis gellir penderfynu beth oedd ei oedran pan y bu farw. Dywed yr Arabaeu ei fod yn 240; ac felly y dywed y LXX, y rhai a gyfieithant yr adnodd hon fel hyn: 'A Job a fu fyw wedi y cystudd hwn gant a deg-a-thrï ugain o flynyddoedd: felly holl flynyddoedd ei eisioes ef oedd ddau gant a deugain.' Yn ol hyn yr oedd Job yn 70 mlwydd oed pan gystuddiwyd ef: ond pa sail oedd ganddynt hwy i ddywedyd hyn, neu i chwaneu 30 mlynedd at yr amser ag y dywedir yn y testyn iddo fyw ar ol ei adferiad, sef 170 yn lle 140, nis gwyddom. *Ac a welodd ei feibion, a meibion ei feibion*—yr hyn a ystyrir yn fendith fawr

vn yr hen amseroedd: gwel Gen. xlviii. 11, Diar. xvii. 6, Salm cxxviii. 6. *Bedair cenhedlaeth*—rhaid fod hyn yn ei gynwys ef ei hun, ei feibion, ei wryon, a'i orwryon, y rhai y gallasai yn hawdd eu gweled mewn 140 neu 170 o flynyddau, fel y dywedir uchod.

Adn. 17. *Felly Job a fu farw yn hen*] Fel y dywedasai Eliphaz wrtho, pen. v. 25, 26; ac yn llawn o ddyddiau—*sebang jamim*, 'wedi ei ddigoni & dyddiau;' ac felly bu farw mewn

hiraeth am fyned at ei 'Brynwr byw' i'r nefoedd, lle na chai gystudd, poen, na marwolaeth mwyach.—Fel hyn y gorphenwyd y sylwadau uchod ar y 5ed o Fai, (1862,) sef y dydd a gedwir gan yr Eglwys Roegiaid yn *ddydd gwyl St. Job*. Cedwir yr ŵyl hon gan Eglwys Rufain ar y 10fed o Fai, pryd y gweddiant arno rhag yr holl glefydau ag y tybiant i Job gael ei fino â hwy!

LLYFR Y SALMAU.

GELWIR Y LLYFR HWN YN YR Hebraeg *Sepher Tehillim*, sef LLYFR EMYNAU neu FAWL, am fod y rhan fwyaf o hono yn eael ei wneydi i fyny o fawli Dduw, er fod rhanau ereill o hono yn cynwys gweddian, hanesion, dysgrifiadau, &c. Y Groegiaid a'i galwant *Psalmoi* neu SALMAU, yr hyn a arwyddia *odlau* i'w canu neu eu cerddori. Cyfansoddwyd y rhan fwyaf o'r Salmau hyn gan Dafydd, fel y cawn nodi wrth fyned yn mlaen; a'r lleill gan Solomon, Moses, Asaph, Ethan, Meibion Corah, &c. Dywed y rabiniaid, heb lawer o sail, fod rhai o honynt wedi eu cyfansoddi gan Adda, Melchisedec, ac Abraham; tra yr haera amrai o'r Tadau Groeg a Lladin mai Dafydd yw eu hawdwr hwynt oll. Yn ol y traddodiad Iuddegw, yr hon hefyd yw y dyb gyffredin, casgwyd hwynt yn nghyd gan *Ezra* ar ol y dychweliad o Babilon, yr hwn a'u gosododd yn mhllith llyfrau canonaidd a dilyn yr Ysgrifau Lla. Y maent wedi eu cyfansoddi oll mewn rhyw fath ar farddoniaeth Hebreig, ac mewn arddull tra chyfaddas i genhedu yn y meddwl wrth ddyhewyd santaidd; ac o herwydd hynny edrychid ar y llyfr hwn yn mhob oes gyda'r parch mwyaf, a derbynid ef fel un wedi ei ysgrifenu dan ddwylo ysbyrdoliaeth. Yn oesoedd boreaf yr Eglwys Gristionogol, dysgwyd i'r holl esgobion, yr offeiriad, a'r acodau eglwysig, ei drysori yn eu cof, a'i adrodd yn fynych. Dywed Melanethon am dano, ei fod y gwaith prydferthaf yn y byd; a dywed Basil, fod ynddo gorff cyflawn o dduwinyddiaeth. O herwydd hyn cafodd uwchlaw chwe chant o esboniaidau eu ysgrifenu arno, heb law y rhai a ysgrifenyd ar yr holl Ysgrifau, neu ar Salmau neillduol. Y mae y Salmau hyn yn gyfaddas i'w darllen gan ddyonion o bob oed a gradd, ac yn holl sefyllaedd ac amgylchiadau bywyd; a chynwysant aurai broffwydoliaethu hynod am Grist a'i eglwys. Casgla y dysgedig Esqob Chandler, oddiwrth eiriau diweddf Dafydd, 2 Sam. xxiii. 1, &c., fod Dafydd yn wir broffwyd, ac iddo gyfansoddi ei Salmau dan ddylanwad dwylo ysbyrdoliaeth, a'i fod ynddynt yn lefaru am y MESSIA yn ei berson ei hun; ac felly hefyd y'gellir dywedyd am y lleill. Pan y mae Dafydd gan hyn yn lefaru am ei elynion, ei ddyoddeffadau, ei lwyddiant, ei ddyrchafiad, a'r cyffelyb, y mae efe yn meddwl y pethau hynny, nid yn gymaint am dano ei hun ag am y MESSIA: efe a gymer aehlysur, oddiwrth bethau a ddygwyddasant iddo ef ei hun, i ragfynnu rhyw bethau cyffelyb am y MESSIA. Pe na buasai fel hyn, ni wnaethai yr eglwys Iuddegw byth mo Salmau Dafydd yn rhan o'u haddoliad dyddiol; ac ni roddasai Dafydd byth mohonynt i'r eglwys i'w defnyddio felly. Buasai yn ynydrwydd i'r Iuddeuon eu darllen neu eu coganu dduw-waith y dydd yn eu haddoliad cyhoeddus, a hwythau yn ddim amgen na hanes dygwyddiadau yn mywyd yn yn unig, a hwnnw wedi marw er's eynifer o oesoedd; neu fod iddynt godi darnau cyfain o honynt i'w gweddian am ddyfodiad y MESSIA. Y mae holl llyfr y Salmau, yn nhrefn Gwasanaeth Eglwys Loegr, i gael ei ddarllen drosodd unwaith bob mis; ac y mae wedi bod o'r budd mwyaf i holl blant Duw trwy yr holl oesoedd. Yr oedd ein Harglwydd a'i apostolion yn dyfynu yn fynych o llyfr y Salmau, fel y gwelir yn y cyfeiriadau; ac y mae hynny yn dangos y bri a osodent hwy arno fel llyfr ysbyrdoledig. Y mae yr Iuddeuon yn rhanu y Salmau yn bum llyfr: Y cyntaf yn diweddu gyda Salm xli; yr ail, gyda Salm lxxii; y trydydd, gyda Salm lxxxix; y pedwarydd, gyda Salm evi; a'r pumed, gyda Salm cl. Y mae y tri cyntaf yn gorphen gydag 'Amen, ac Amen;' y pedwerydd, gydag 'Amen: molweh yr Arglwydd;' a'r pumed, gyda 'Molweh yr Arglwydd.' Ni oddef ein terfynau i ni ddwyn i mewn i'r rhagarweiniad bob peth a ewyllysiem ei grybwyll mewn perthynas i'r llyfr gwerthfawr hwn; a chyfeirir y darlennydd at Hammond, Allix, Calmet, Clarke, &c. Gellir dangos ansawdd a ehymysiant yr holl llyfr yn y modd a ganlyn i—**I. SALMAU ERFYNIOL:** (1) Am faddeuant pechod, Salm 6, 25, 32, 38, 51, 102, 130, 143. (2) Pan yn amddifod o foddion cyhoeddus crefydd, Salm 42, 43, 63, 84. (3) Pan mewn gorthymderau, Salm 13, 22, 69, 77, 88. (4) Pan yn dadu uniondeb a chywirdeb ei achos, Salm 7, 17, 25, 35. (5) Pan yn dangos hyder yn Nuw, Salm 3, 16, 27, 31, 54, 56, 57, 61, 71, 86. (6) Pan y mae pobl yr Arglwydd dan erlidiau, Salm 44, 60, 74, 79, 89, 83, 89, 94, 122, 137. (7) Gweddianu ereill mewn gorthymderau, Salm 4, 5, 11, 24, 41, 55, 53, 64, 70, 109, 120, 140, 141, 142. **II. SALMAU O DDIOLCHGARWCH:** (1) Am drugareddau ar bersonau neillduol, Salm 9, 18, 30, 34, 40, 75, 103, 108, 116, 118, 133, 144, 145. (2) Am drugareddau i'r genedl yn gyffredinol, Salm 46, 48, 65, 66, 68, 76, 81, 85, 98, 105, 117, 124, 126, 129, 135, 136, 149. **III. SALMAU O ARDOLIAD:** (1) Am ofal rhaguniacth Duw dros ddyonion da, Salm 23, 34, 36, 91, 100, 103, 107, 117, 121, 146. (2) Am Dduw a'i berffeithderau, Salm 8, 19, 24, 29, 33, 47, 50, 65, 66, 77, 89, 93, 96, 99, 104, 111, 113, 114, 115, 134, 139, 148, 159. **IV. SALMAU ADDYSGIADOL:** (1) Rhagoriaethau yr Ysgriflyfrau, Salm 19, 119. (2) Gwagder a breuolder dyn, Salm 39, 49, 90. (3) Nodweddiad dyonion da a drwg, yn nghyda dedwyddwch y naill a thrunni y lleill, Salm 1, 5, 7, 9, 10, 11, 12, 14, 15, 17, 24, 25, 34, 36, 37, 52, 53, 58, 73, 75, 84, 91, 92, 94, 112, 121, 125, 127, 128, 133. **V. SALMAU FROFFWYDOL:** yn cyfeirio yn neillduol at Grist a'i deyrnas, Salm 2, 8, 16, 22, 40, 45, 68, 72, 87, 90, 100, 118. **VI. SALMAU HANESTOL,** megys Salm 78, 105, 106, 135, 136.

SALM I.

GWYN ei fyd y gŵr ni rodia yn nghynghor yr annuwiolion, ac ni saif yn ffordd pechaduriaid, ac nid eistedd yn eisteddfa gwatwarwyr.

2 Ond sydd â'i ewyllys yn nghyfraith yr Arglwydd; ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.

3 Ac efe a fydd fel pren wedi ei

SALM I. Nid oes un teitl i'r Salm hon, ac ystyriwyd hi gan rai fel *rhagymadredd* i'r holl lyfr. Tybia rhai mai Ezra a'i cyfansoddodd hi, ond priodolir hi gan ereill i Dafydd.

Adn. 1. *Gwyn ei fyd y gŵr*] Y mae y wreiddiol yn dra grymus, ac yn y ffurf luosog: 'O wynfydedigaethau y gŵr hwnw!' neu 'O mor ddedwydd ydyw!' Y mae nodweddiad y dylun duwiol, neu y gŵr gwir ddedwydd, yn cael ei ddysgrio yma yn NACAOL mewn tri gair: (1) *Ni rodia yn nghynghor yr annuwiolion*—wrth y rhai hyn y meddylir dynion heb addoli nac adnabod Duw, na meddwl dim am grefydd; ac wrth 'rodio yn eu cynghor' y meddylir dilyn eu cynghor, neu eu siamp, neu eu dull esgeulus hwy o fyw. Gall nad oes dim yn anfoesol yn eu hymddygiad allanol, ond nid oes ynddynt cwaith ddim duwioldeb: y maent yr hyn a eilw rhai yn 'dlynion diddrwg didda.' (2) *Ac ni saif yn ffordd pechaduriaid*—rhai yn dilyn pechodau cyhoeddus a rhyfysu, neu droseddwy'r gweithredol o orchymynion Duw, megys llofruddion, ladron, godinebwy'r, cybuddion, meddwon, &c. (3) *Ac nid eistedd yn eisteddfa gwatwarwyr*—rhai yn gwawdio Duw a'i grefydd, ac yn gwadu dwyfoldeb yr ysgrthyrau, anfarwoldeb yr enaid, a chyflwr dyfodol. Y mae y rhai *cyntaf* yn ddedfiedwl am Dduw; yr *ail*, yn chwaneagu troseddau at eu hannuwioldeb; a'r *trydydd*, yn anfyddwyr os nad yn Dduw-wadwyr, ac yn gwatwar pob peth santaidd neu grefyddol. Y mae 'sefyll yn ffordd pechaduriaid' yn golygu gradd uwch o enogrwydd na 'rhodio yn nghynghor yr annuwiolion,' ac y mae 'eistedd yn eisteddfa gwatwarwyr' yn golygu y gradd uwchaf o bechod, trwy ei fod yn cynwys y ddau arall. Y wers fawr a ddysgir yma yw, fod pechod yn *gynyddol* yn ei natur. Yr hwn sydd yn *rhodio* mewn gyrra o annuwioldeb, a ddaw yn fuan i *sefyll* yn ffordd pechaduriaid; a'r hwn a ymrodda i weithredoedd pechadurus, a all orphen ei yrra mewn *hollol wrthgiliaid* oddiwrth Dduw. Ond y mae y dyn duwiol, neu y gŵr gwynfydedig' yn y testyn, yn ymgadw yn mhell oddiwrth y tair gradd hyn, fel oddiwrth ddyw wedi ei ddal gan y pla; ac am hyn y mae yn ddedwydd wrth fyw, wrth farw, a thros dragwyddoldeb. Tybia Awstin, Fenwick, ac ereill, mai am y MESSIA y dywedir hyn; ond y mae yn debycach mai am ddedwyddwch a llwyddiant y *dyn duwiol*, mewn gwrthgyferbyniad i'r annuwiol, y traethir yn yr oll o'r Salm hon.

Adn. 2. *Ond sydd â'i ewyllys yn nghyfraith yr Arglwydd*] Gan ymhyfrdy ynddi

blanu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffirwyth yn ei bryd; a'i ddalen ni wywa, a pha beth bynag a wnel, Efe a lwydda.

4 Nid felly y bydd yr annuwiol; ond fel mân ũs yr hwn a chwâl y gwynt ymaith.

5 Am hyn y'r annuwiolion ni safant yn y farn, na pechaduriaid yn nghynulleidfa y rhai cyfiawn.

fel unig real ei fywyd; ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos—nid yn unig tra yn dilyn ei orclwyllion y dydd, ond hefyd yn fynych ar ei wely y nos. Yma darlunir ei nodweddiad ef mewn ystyr CADARNHAOL. Wrth 'gyfraith yr Arglwydd' y meddylir yma yr oll o'r ysgrthyrau ag odddynt yn ysgrifenedig y pryd hyn, y rhai sydd yn llawer llawnach genym ni. Y mae y dyn duwiol nid yn unig yn *darllen* y rhai hyn, ond yn *myfyrio* ynddynt, fel y gallo eu deall, a chael budd i'w enaid oddiwrthynt.

Adn. 3. *Ac efe a fydd fel pren wedi ei blanu ar lan afonydd dyfroedd*] Fel y mae hwnw yn derbyn ireidd-dra a nôdd oddiwrth y dyfroedd, felly y derbynia y duwiol faeth ac adeiladaeth ysbrydol i'w enaid wrth fyfyrion yn barhaus yn ngair Duw. *Yr hwn a rydd ei ffirwyth yn ei bryd*—yn nhyahor ffirwythau. Felly y duwiol, dan ddyllanwad yr Ysbryd Glân, (yr hwn ni ommeddwr byth i'r neb ai hwiawn geisia, ac a fyfyrta yn ddylladwy yn ngair Duw,) a ddyg yn helaeth ffirwythau yr Ysbryd, y rhai sydd 'yn mhob daioni, a chyfiawnder, a gwirionedd,' Eph. v. 9, Gal. v. 22. *A'i ddalen ni wywa*—fel y mae dalen werdd y pren yn brawf o'i fywyd naturiol ef, felly y mae profles selog y dyn duwiol, wrth gael ei dilyn â gweithredoedd da, yn brawf o'i fywyd ysbrydol yntau. *A pha beth bynag a wnel, efe a lwydda*—bendithia Duw ei waith, ac efe a fydd 'dedwydd' yn ei weithred; ac os cyferfydd ef â siomedigaethau, colledion, profedigaethau, neu gystuddiau, caiff pob peth gydweithio er daioni iddo yn y byd hwn, ac yn y byd a ddaw efe a fêd fywyd tragwyddol.

Adn. 4. *Nid felly y bydd yr annuwiol*] Llai o lawer y pechadur a'r gwatwarwr, adn. 1; ond fel mân ũs—yn wyweddig, ysgaf, a diles; yr hwn a chwâl y gwynt ymaith—wrth nithlio y grawn. Nid oes dim sylwedd na sefydlogrwydd ynddo ef na'i ffyrdd; ac am hyn bydd iddo ef a'i weithredoedd gael eu hysgubo i ddystryw yn y diwedd gan gorwynt digofaint Duw.

Adn. 5. *Am hyn y'r annuwiolion ni safant yn y farn*] Rhaid iddynt sefyll oll, o ran eu personau, gerbron brawdle Crist; ond ni saif eu hachos, neu ni ddeil i'w brofi. *Na pechaduriaid yn nghynulleidfa y rhai cyfiawn*—eithr didolir hwy oddiwrthynt ddydd y farn, a gyrir hwynt ymaith gan y Barnwr i'r 'tân tragwyddol,' Mat. xxv. 41. Y maent yma yn ymgymysgu yn fynych yn yr un gynulleidfa, fel gwenith ac efre; ond ni byddant

6 Canys yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn: ond ffordd yr annuwiolion a ddyfethir.

SALM II.

PAHAM y terfysga y cenhedloedd, ac y myfyria y bobloedd beth ofer?

2 Y mae brenhinoedd y ddaear yn ymosod, a'r penaethiaid yn ymgynghori yn nghyd, yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist ef, gan ddywydedd,

felly yn y byd arall. Ddarllenwyd, pa le y byddi di?

Adn. 6. *Canys yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn*] Hlyn yw, y mae efe yn cymeradwyo eu ffyrdd a'u gweithredoedd hwynt, ac yn ymhyfydu ynddynt, a bydd iddo eu gwobrwyo: *ond ffordd yr annuwiolion a ddyfethir*—condemair eu bwriadau, eu cynlluniau, a'u gwaith, a chospir hwythau â 'dinstyr tragwysddol oddigerbron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef:' gwel ar 2 Thes. i. 9.

SALM II. Y Salm hon yw yr *ail* mewn trefn, ac felly y gelwir hi yn Act. xiii. 33; ac y mae genym awdurdod y Testament Newydd i brofi mai Dafydd a'i cyfansoddodd trwy yr Ysbryd Glân, Act. v. 25. Meddylir i Dafydd ei hysgrifennar ar iddo ennill Jerusalem oddiar y Jebusiaid, a'i gosod yn ben y llywodraeth, 2 Sam. v. 7, &c. Y Philistiaid, ar ol clywed hyn, a wersyllasant yn nyffryn Rephaim, yn agos i Jernsalem; a dywed Josephus ddarofed i holl Syria, Phenicia, a cenhedloedd rhyfelgar ereill, uno eu byddioedd gyda'r Philistiaid i ddyfetha Dafydd, cyn iddo ymgryfhau yn y frenhiniaeth. Eithr Dafydd, ar ol ymfafyn â'r Arglwydd, a aeth yn eu herbyn hwy, ac a lwy'r ddimchwelodd ei holl clynon, 2 Sam. v. 17—19. Felly gan hyny, yn y lle *cyntaf*, gallwn feddwl i'r Salm hon gael ei chyfansoddi er cof am ennilliad Jerusalem gan Dafydd, a dymchweliad holl frenhinoedd a phenaeithiaid y cenhedloedd o'i hamgylch. Yn yr *ail* le, ni a ddysgwn oddiwrth y defnydd a wnaed o'r Salm hon gan yr apostolion, Act. iv. 27, fod Dafydd yn *gysgod* o CRIST, a bod y Salm hon yn arddangos buddngoliaeth yr efengyl ar yr *Iuddewon Philistiaidd*, ac ar holl alioedd cynghreiriol *penaeithiaid cenhedlig* yr amherodraeth Rufeinig, &c. Rabbi Solomon Jarchi a gyfaddefa, 'Ein doctoriaid ni a ddeonglent y Salm hon am y Brenin MESSIA; ond fel y gallom ni ateb yr hereticiaid,' (gan feddwl y Cristionogion,) 'y mae yn well ei deall am berson *Dafydd*.'

Adn. 1. *Paham y terfysga y cenhedloedd*] Wrth ddyrchafiad *Dafydd* i frenhiniaeth Juda ac Israel, neu wrth llywyddiant teyrnas CRIST ar y ddaear? ac y myfyria y bobloedd beth ofer?—paham y bwriadant ddimchwelyd gor-

3 Drylliwn eu rhwymau hwy, a thafllwn eu rheffynau oddiwrthym.

4 Yr hwn sydd yn preswyllo yn y nefoedd a chwardd: yr Arglwydd a'u gwatwar hwynt.

5 Yna y llefara efe wrthynt yn ei lid, ac yn ei ddigllonrwydd y dychryna efe hwynt.

6 Minau a osodais fy Mrenin ar Seion fy mynydd santaidd.

7 Mynegaf y ddeddf: dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Fy Mab *ydwyf* ti; myfi heddyw a'th genhedltais.

sedd *Dafydd*, neu attal llywyddiant brenhiniaeth ysbrydol CRIST yn y byd?

Adn. 2. *Y mae brenhinoedd y ddaear*] Y rhai a elwir felly mewn ffordd o israddiad, neu i ddangos eu hynfydrwydd yn *ymosod* yn erbyn Brenin hollalluog y nefoedd; *a'r penaethiaid yn ymgynghori yn nghyd*—felly y gwnaeth penaethiaid y Philistiaid a'r Syriaid yn amser *Dafydd*; a Herod, Pilat, ac ereill, yn amser CRIST; *yn erbyn yr Arglwydd*—yn erbyn cynlluniau a bwriadau Jehofa; *ac yn erbyn ei Grist ef*—neu 'ei FESSIA,' fel y mae yn y wreiddiol: ond gan fod yr enw hwn yn arwyddo *eneiniog*, fel y mae yn y Saeson-aeg, a bod pob *brenin* yn cael ei eneinio, gall gyteirio yn briodol at *Dafydd* neu CRIST.

Adn. 3. *Drylliwn eu rhwymau hwy*] Sef deddfau yr Arglwydd a'i Grist ef; *a thafllwn curheffynau oddiwrthym*—unrhyw lyffeithuriau trwy y rhai yr attelid hwynt rhag dylun eu ffyrdd eu hunain, neu y rhwymid hwynt i ufydd-dod i Dduw.

Adn. 4. *Yr hwn sydd yn preswyllo yn y nefoedd a chwardd*] Am ben y terfysgwau a'r gwrthryfelwyr hyn; *yr Arglwydd a'u gwatwar hwynt*—dywedir hyn yn ol iaith dynion, i arwyddo ei hollol ddfaterwch ef gyda golwg ar wrthwynebiad ei dlynion, a'r perffaiith hawsdra â pha un y gall efe eu gorclifygu hwynt.

Adn. 5. *Yna y llefara efe wrthynt yn ei lid*] Trwy y barnedigaethau â pha rai yr ymwelodd efe â'r Philistiaid gelynon *Dafydd*, ac â'r Iuddewon gelynon CRIST; *ac yn ei ddigllonrwydd y dychryna efe hwynt*—fel na byddo calon na nerth ynddynt i'w hamddiffyn eu hunain.

Adn. 6. *Minau a osodais fy Mrenin*] Felly y gelwir *Dafydd*, am ei fod yn frenin o osodiad *Duw* ei hun, ac nid wedi dringo i'r orsedd trwy ddeddiad y bobl, na thrwy ddisgyniad rheolaidd oddiwrth frenhinoedd; ac felly yn enwedig y gelwir CRIST, 'etholedig *Duw*,' Luc xxiii. 35, 1 Pedr ii. 6. *Ar Seion fy mynydd santaidd*—ar eglwys a phobl *Dduw*: gwel ar 2 Sam. v. 7.

Adn. 7. *Mynegaf y ddeddf*] Neu 'arfaeth JEHOFA,' fel y mae yn yr Arabaeg; hyny yw, mynegaf ewylls a bwriad *Duw* o berthynas i'm dyrchafiad i yn frenin ar Juda ac Israel, a dyrchafiad y MESSIA yn Frenin ar ei eglwys. *Dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Fy Mab*

8 Gofyn i mi, a rhoddaf y cenhedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau y ddaear i'th feddiant.

9 Drylli hwynt â gwialen haiarn; maluri hwynt fel llestr pridd.

10 Gan hyn yr awr hon, frenhinoedd, byddwch synwrol: barnwyr y ddaear, cymerwch ddysg.

ydwyt ti—gellid dywedyd hyn mewn rhyw ystyr wrth *Dafydd*, nid yn unig am y gelwir brenhinoedd ac ynadon yn 'feibion y Goruchaf,' Salm lxxxii. 6; ond hefyd am i Dduw, gwir Frenin Israel, osod Dafydd ar orsedd ei brenhinaeth fel olyndd iddo, ac felly ei wneuthur yn 'gynfab goruwch brenhinoedd y ddaear,' Salm lxxxix. 27. Ond y mae y geiriau yn ddiau yn perthyn yn fwy priodol i GRIST, yr hwn a adwaenir wrth yr enw 'Mab Duw' yn yr Hen Destament a'r Newydd. *Muji hedyw a'th genhedlais*—gall hyn, yn ei berthynas â *Dafydd*, fod yn cyfeirio at y *dydd* y gosodwyd ef yn frenin; canys gwyddom fod amherawdwr Rhufain yn cadw dau 'ddydd genedigaeath' bob blwyddyn, sef y dydd y ganed lwy, a'r dydd y gwnaed hwy yn amherawdwr. Ond rhaid addef fod y geiriau hyn yn perthyn yn fwy cyffadas i GRIST, ac yn cyfeirio naill ai at ei dragwyddol genhedliad neu ei faboliaeth ef, trwy mai un *heddyw* diddechre a diddiwedd yw dragwyddoldeb yn briodol, heb gynwys ynddo *ddoe* nac *y fory*, neu amser gorphenol a dyfodol; neu yute at yr *amlygiad* o'i dragwyddol faboliaeth ef mewn *amser*, yr hyn a wnaed gan yr angel cyn ei eni, Luc i. 35; gan ei Dad ar ol ei fedyddio, ac ar ei weddnewidiad, Mat. iii. 17, a xvii. 5; a thrwy ei adgyfodiad, Rhuf. i. 4. Gwel ar Act. xiii. 33, a Heb. i. 5; ac am *dragwyddol faboliaeth Crist*, gwel ar Luc i. 35, a'r sylw ar Heb. i. 3, a'r nodyn yno ar waelod y ddalen.

Adn. 8. *Gofyn i mi, a rhoddaf y cenhedloedd yn etifeddiaeth i ti*] Hyn, yn ei berthynas â *Dafydd*, a gyfeiria at addewid Duw i estyn ei lywodraeth ef dros yr holl genhedloedd cymydogaeathol a'i gwrthwyneben ef; a *therfynau y ddaear i'th feddiant*—yn cyraedd o afon yr Aifft hyd yr afon Euphrates: gwel ar Gen. xv. 18, Jos. i. 4, a i Bren. iv. 21. Ond yn ei berthynas â CHRIST, cyfeiria at ei nodweddïad ef fel *Eiriolwr*, a'r awdardod a ennillodd fel *Cyfringwr*, ar sail ei iawn mawr, dros holl ddynolryw: ac y mae yr amser yn dyfod pryd y caiff efe *feddiant* gwirioneddol o holl derfynau y ddaear fel taleithiau o'i deyrnas gyffredinol: gwel fy NARLITH i ar y *Milflwyddiant*.

Adn. 9. *Drylli hwynt â gwialen haiarn*] Sef yr holl genhedloedd nad ymstyngent iddo; *maluri hwynt fel llestr pridd*—yn anadferadwy fel llestr pridd drylliedig, neu mor hawdd ag y dryllir hwnw. Cyflawnwyd hyn i ryw fesur gan *Dafydd*, yn ei fuddugoliaethan ar y Philistiaid a'u cinghreirwyr; a chyflawnir hyn yn fwy llythyrenol gan GRIST, yn y dydd diweddfaf, ar holl elynion ei deyrnas yntau: gwel ar Luc xix. 27. Neu gall fod

11 Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn ofn, ac ymlawenhewch mewn dychryn.

12 Cusenwch y Mab, rhag iddo ddigio, a'ch dyfetha chwi o'r ffordd, pan [g]ynewo ei lid ef, [ie] ond ychydig. Gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo ef.

yma gyfeiriad at ddinistr Jerusalem, pryd y dyfethwyd uwchlaw *milïon* o'r Iuddewon gan y Rhufeiniaid. Mor drwm y disgynodd 'gwialen haiarn' barnedigaethau Duw arnynt hwy o herwydd eu cnyd yn wrthodiad o'r MESSIA!

Adn. 10. *Gan hyn yr awr hon, frenhinoedd, byddwch synwrol*] Boed i chwi a'ch pobl ystyried eich lles eich hunain, fel dynion synwrol, tra y mae genych gyfleusdra i ymestwng mewn edifeirwch: *barnwyr y ddaear, cymerwch ddysg*—Heb., 'diwygiwch'; bwrwch ymaith eich holl eilunod, a'ch gwrthryfel, a'ch arferion llvgreddig; a derbyniwch air Duw fel rheol eich fydd a'ch ymarweddiad, a safon eich crefydd a'ch deddfau.

Adn. 11. *Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn ofn*] Gyda theimlad parchus o'i fawredd, ei santeiddrwydd, a'i ogoniaet ef, yn gystal ag mewn ofn rhag ei ddigio; ac *ylawenhewch*—nac ystyriwch ei ian ef yn bonnau yn ddi-anrhydedd i chwi, ond yn lystrach yn bleser; gan lawenychu yn fwy mewn bod yn ddeiliaid i Frenin y brenhinoedd, nag mewn bod yn amherawdwr y ddaear; *mewn dychryn*—rhag syrthio o honoch yn fyr o'ch gwobr yn y diwedd. Chwanegir hyn i ddangos natur y *llawenychiad* ag y gelwir hwynt iddo, neu i'w wabaniaethu oddiwrth y llawenydd enawdol Duw. Fel hyn y darfu i Samuol gusanu Saul ar ol ei eneinio yn frenin, yn arwydd o anrhydedd, ac ymstyngiad iddo ef, a pharch i'w lywodraeth, 1 Sam. x. 1; ac y mae hyn i'w weled yn ein dyddiau ni, yn yr arferiad o gusanu llaw brenhinoedd. Ond wrth ei gymhwysu at GRIST, arwydda ymstyngiad ac addoliad iddo yn ei gymeriald cyfringol, neu ei anrhydedd ef fel yr ydym yn anrhydeddu y Tad, Ioan v. 23. *Rhag iddo ddigio*—yn anghymodadwy, canys y mae efe eisioes yn ddigllon wrth bob dyn annuwiol, Salm vii. 11. *A'ch dyfetha chwi o'r ffordd*—oddia'r ddaear, yn nghanol eich gwrthryfel yn ei erbyn. *Pan gynewo ei lid ef, [ie] ond ychydig*—am ychydig amser, neu i ychydig raddan, fel yr arwydda y wreiddiol; canys y mae y gradd *lleiaf* o'i lidiogrwydd ef yn ddechrynydd yn wir, ac yn ddigon i ddyfetha byd cyfan o wrthryfelwyr; a mwy o lawer felly *angherddolrwydd* ei lid, pan fyddo wedi cynewo hyd yr eithaf. Ond y mae rhai yn ei gyfeithu,

SALM III.

A RGLWYDD, mor aml yw fy nhrallodwyr! llawer yw y rhai sydd yn codi i'm herbyn.

2 Llawer yw y rhai sydd yn dywedyd am fy enaid, Nid oes iachawdwriaeth iddo yn ei Dduw. Selah.

3 Ond tydi, Arglwydd, ydwyf darian i mi; fy ngogoniant, a dyrchafydd fy mhen.

4 A'm llef y gelwais ar yr Ar-

glwydd, ac efe a'm clybu o'i fynydd santaid. Selah.

5 Mi a orweddais, ac a gysgais; ac a ddeffroais: canys yr Arglwydd a'm cynaliodd.

6 Nid ofnaf fyrddiwn o bobl, y rhai o amgylch a ymosodasant i'm herbyn.

7 Cyfod, Arglwydd; achub fi, fy Nuw: canys tarewaist fy holl elynion ar gar yr ên; toraist ddannedd yr annuwiolion.

'Canys ei lid ef a gyneuir yn fuan, neu yn ddisymwth.' *Gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo ef*—yn Mab Duw, sef y rhai a ymmodant dan ei gysgod ef, a ymbwysant ar ei aberth, ac a gredant ynddo fel eu Hiachawdwr hollalluog. Nis gellir cymhwyso hyn at Dafydd, canys y mae efe yn wastadol yn annog pawb i beidio ymddiried mewn dyn, nac mewn twysogion, eithr yn yr Arglwydd yn unig, Salm cxviii. 8, 9; a chyhoedda Duw ei hun *feldith* uwchben 'y gwŷr a hydero mewn dyn, ac a wnelo gnawd yn fraich iddo.' Jer. xvii. 5: gan hyny nis gallwn feddwl fod Dafydd yma yn gwabod dynion i ymddiried ynddo ef. Eithr danghosir *CRIST* yn mhob man fel gwrthddrych addas i ymddiried ynddo, nid yn unig yn y Testament Newydd, ond yn yr Hen Destament hefyd: gwel Esay xxviii. 16.

SALM III. Gelwir hon yn yr Hebraeg *mizmor ledavid*, neu *Salm Dafydd*, 'pan ffôdd efe rhaig Absalom ei fab i' gwel yr hanes, 2 Sam. xv. 1, &c. Meddyllir i Dafydd ei chyfansoddi wrth ffoi o Jerusalem, heibio mynydd yr Olewyrdd, dan wŷlo, ac yn droednoeth, a'i ben wedi ei orchuddio. Y mae y gair *mizmor*, 'Salm,' yn dyfod oddiwrth *zamar*, 'tori,' ac yn meddwl Salm wedi ei thori yn sillebau, neu frawddegau byrion, neu wedi ei clerfio ar bren mewn math ar nodau cerddorol, er hyfforddiant i'r cantorion.

Adn. 1. *Arglwydd, mor aml yw fy nhrallodwyr!* Yn 2 Sam. xv. 6, dywedir i Absalom ladrata calon 'holl wŷr Israel' i'w bleidio ef yn erbyn Dafydd, at yr hyn ond odid y cyfeirir yma. *Llawer yw y rhai sydd yn codi i'm herbyn*—gyda'm mab Absalom. Yn y gwrthryfel hwn y gwelwn ran o gosp Dafydd am ei odineb â Bathseba, a'i lofruddiad o Urias yr Hethiad, yn ol gair Nathan, 'Nid ymedy y cleddyf â' th dŷ di byth.' gwel ar 2 Sam. xii. 10, &c.

Adn. 2. *Llawer yw y rhai sydd yn dywedyd am fi, enaid!* Oes am berson Dafydd, neu efe ei hun; *Nid oes iachawdwriaeth iddo yn ei Dduw*—y mae Duw wedi cefnu arno o herwydd ei droseddau aml, ac ni fydd iddo ei gy-northwyo ef uwych. *Selah*—y nwy y gair hwn yn dygwydd 74 o weithiau yn llyr y Salmu, a thair gwaith yn ngân Habaccuc, pen. iii. 3, 9, 13. Y mae llawer wedi ei ddywedyd am ddyben neu ddefnydd y gair hwn;

ond nid oes genym ddim sicrwydd o berthynas iddo. Y mae rhai yn ei olrhain ef oddiwrth y gair *sal*, yr hwn a arwydda *codi* neu *dyrchafu*, gan ei ddeall fel arwydd cerddorol i ddyrchafu y llais wrth ganu. Y mae *Gesenius* ac ereill yn ei olrhain ef oddiwrth air yn arwyddo *dyslawrwydd*, gan ei ddeall fel arwydd o *orphwysiad* yn y gân, neu i nodi y fan lle yr oedd y lleisiau dynol i roddi lle i'r offerynau cerdd. Myn rhai ei fod yn arwyddo *dechreud* ystyr newydd, neu dôn newydd; tra yr haera ereill mai ei ddyben oedd galw *sylw* y cantorion at bwysigrwydd yr hyn a draethid yno, a'u cymhell i sylwi neu fyfyrrio arno. Un peth sydd sicr; na wnaei ei ddilead ef o'n Beiblau ni beri dim cyfnewid neu wahaniaeth yn y synwyr.

Adn. 3. *Ond tydi, Arglwydd, ydwyf darian i mi!* I'm hamddiffyn yn fy holl beryglon; *fy ngogoniant*—sef fy anrhydedd, neu destyn fy ngorfoledd; a *dyrchafydd fy mhen*—i'm cyflwr blaenorol o urddas ac awdurdod. Rhaid i ni gofio fod Duw yn awr wedi 'tynn ymaith bechod Dafydd,' 2 Sam. xii. 13, yr hyn oedd yr achos o'i hyder a'i orfoledd ef.

Adn. 4. *A'm llef y gelwais ar yr Arglwydd!* Sef mewn gweddi daer; *ac efe a'm clybu o'i fynydd santaid*—sef oddiar fynydd Seion lle yr oedd yr arch, neu o'r nefoedd; gwel ar Salm xv. 1.

Adn. 5. *Mi a orweddais!* Yn ddiddychryn yn fy ngwely y nos; *ac a gysgais*—yn dawel trwy yr holl nos, heb i neb fy aflonyddu; *ac a ddeffroais*—yn y bore mewn diogelwch, iechyd, a nerth; *canys yr Arglwydd a'm cynaliodd*—a'm cadwodd rhag cael diu niwed oddiwrth fy ngelynyon lluosog, adn. 1.

Adn. 6. *Nid ofnaf fyrddiwn o bobl!* A fyddont wedi canu o'm hamgylch i'm dyfetha. Fel pe dywedasai, Nid yw amledd fy ngelynyon, mwy na'u nerth, yn ddim yn ngwyneb hollalluogrwydd Duw, yr hwn yw fy nbarian a'm cynaliydd.

Adn. 7. *Cyfod, Arglwydd!* Yn amddiffynydd i mi yn awr, fel y buost llawer gwaith o'r blaen; *achub fi, fy Nuw*—yr hwn wyt yn Dduw i mi trwy gyfammod: *canys tarewaist fy holl elynion*—yu yr amser a aeth heibio; *ar gar yr ên*—Saes., 'ar asgwrn y gern;' *toraist ddannedd yr annuwiolion*—ymadrodd yu arwyddo llwyr orchfygiad neu faeddiad ei 'nyion, fel nas gallent ei niweidio ef, mwy na chŵn wedi tori eu dannedd.

8 Iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd: dy fendith sydd ar dy bobl. Selah.

SALM IV.

GWRANDO fi pan alwyf, O Dduw fy nghyfiawnder: mewn cyfyngder yr ehengaist arnaf; trugarha wrthyf, ac erglyw fy ngweddi.

2 O feibion dynion, pa hyd y trowch fy ngogoniant yn warth? yr

hoffwch wegi, ac yr argeisiwch gelwydd? Selah.

3 Ond gwybyddwch i'r Arglwydd neillduo y duwiol iddo ei hun: yr Arglwydd a wrendy pan alwyf arno.

4 Ofnwch, ac na phechwch: ymddyddenwch â'ch calon ar eich gwely, a thewch. Selah.

5 Aberthwch ebyrth cyfiawnder; a gobeithiwch yn yr Arglwydd.

6 Llauer sydd yn dywedyd, Pwy a ddengys i ni ddaioni? Arglwydd,

Adn. 8. *Iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd*] Efe yw y ffynnonell fawr o ba un y tardda pob gwaredigaeth, yn dymhorol ac ysbrydol, i'r corff a'r enaid. Fel pe dywedasai, Nid wyf yn dysgwyl gwaredigaeth rhag Absalom a'i wŷr trwy fy medruswydd fy hun, na thrwy nerth fy myddin, ond yn unig trwy dy allu a' th ddaioni di. *Dy fendith sydd*—neu, fel y mhn rhai ei ddarllen, 'dy fendith fyddo,' ar *dy bobl*—naill ai (1) Ar gyfeillion a byddin Dafydd, y rhai yn briodol oeddynt bobl yr Arglwydd, trwy fod y lleill oll yn wrthryfelwyr yn erbyn Duw, yn gystal ag yn erbyn Dafydd; neu, (2) Ar holl bobl Israel, i ddiogelu byddin a chyfeillion Dafydd, i argyhoeddi a throï ei elynion ef, ac i achub corff y genedl, y rhai oeddynt yn debyg o gael eu terfysgu a'u dyfetha trwy ryfel gartrefol.

SALM IV. Meddylir i Dafydd gyfansoddi y Salm hon, megys yr un flaenorol, pan yn ffoi rhag Absalom; ac iddi gael ei bwriadu fel *emyn lwyrol*, i'w chanu gan Dafydd a'i wŷr cyn myned i gysgu. Cyflwynir hi i'r *pencerdd ar Neginoth*. Wrth y *pencerdd* y golygir blaenor y côr, neu arweinydd y canu; ac wrth y *Neginoth*, yr hwn yr ymddengys ei fod yn deilliaw oddiwrth *nagan*, 'taro,' y meddylir ond odid ryw offeryn cerdd a chwareuid â'r llaw, megys y crwth, y delyn, y tabwrdd, &c.

Adn. 1. *Gwrando fi pan alwyf, O Dduw fy nghyfiawnder*] Arwydda hyn mai Duw oedd amddiffynnydd ei achos cyfiawn ef, neu ei hawlau i'r orsedd; neu ynte mai efe oedd ffynnonell ei gyfiawnder, a'i holl rasau ereill. *Mewn cyfyngder yr ehengaist arnaf*—rhyddheiaist fi lawer gwaith cyn hyn o bob math o gyfyngderau tymhorol ac ysbrydol; *trugarha wrthyf*—estyn i mi yr un drugaredd y waith hon hefyd, mewn atebiad i'm gweddi.

Adn. 2. *O feibion dynion*] Neu 'wŷr grymans,' fel y mae Clarke yn ei gyfieithu, y rhai oeddynt wrth ben gwrthryfel Absalom: *pa hyd y trowch fy ngogoniant yn warth*—trwy geisio fy amddifadu o arhwydedd fy mrenhiniaeth, yn yr hon yr wyf yn gysgod o'r MESSIA yn ngogoniant ei deyrnas; *yr hoffwch wegi*—yr anghyfiawnder presenol o geisio gosod Absalom ar yr orsedd, yr hyn sydd yn wagedd neu oferedd ynddo ei hun, ac a deimlir felly genych chwithau yn y diwedd; *ac yr argeisiwch gelwydd*—yn fy erbyn i a'm llywodraeth! *Selah*—sylwch ar hyn, neu edrych-

wch pa beth fydd y diwedd: gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 3. *Ond gwybyddwch i'r Arglwydd neillduo y duwiol*] Sef y dyn sydd yn ei ofni, yn ei garu, ac yn ei wasanaethu ef; *iddo ei hun*—i fod yn frenin dano ef ar Juda ac Israel. Diamau fod Dafydd yn cyfeirio yma at ei amgylchiadau neillduol ef ei hun. *Yr Arglwydd a wrendy pan alwyf arno*—ac am hynny ofer yw i chwi ddsyngwyl llwyddo yn fy erbyn i.

Adn. 4. *Ofnwch, ac na phechwch*] Ofnwch rhag i chwi, trwy wrthryfela yn fy erbyn i, bechu yn erbyn Duw. Ond y mae cyfieithiad y LXX, yr hwn a ddyfynir gan St. Paul, Eph. iv. 26, yn darllen yma, '*Digwch*, ac na phechwch'; ac felly hefyd y mae yn y Vulgate, y Syriaeg, yr Arabaeg, a'r Ethiopiaeg. Am yr ystyr hwn i'r gair gwel ar Eph. iv. 26.

Ymddyddenwch â'ch calon—gwrandewch ar lais eich cydwylbod, neu myfyrwch ar ganlyniadau eich gwrthryfel; *ar eich gwely*—yn nystawrwydd a thywyllwch y nos, pan na byddo neb i'ch afonyddu; *a thewch*—rlioddwch heibio eich gwrthryfel, ac edifarhewch am dano. Y mae hwn yn gynghor priodol i bob pechadur eto, yn mha amgylchiad bynag y byddo.

Adn. 5. *Aberthwch ebyrth cyfiawnder*] Nac aberthwch aberth i Dduw mewn dysgwiliad anghyfiawn am iddo ef lwyddo eich gwrthryfel presenol; eithr trowch ato mewn gwir ediferiwch, ac aberthwch iddo ebyrth cyfiawn, sef y fath ag y mae y gyfraith yn eu penodi, a hynny mewn ediferiwch, fydd, a duwioldeb diragrith. *A gobeithiwch yn yr Arglwydd*—am faddeuant o'ch gwrthryfel, ac iachawdwriaeth i'ch eneidiau.

Adn. 6. *Llauer sydd yn dywedyd*] Sef y cyffredinolrwydd o ddynolrwy yn mhob gwlad a sefyllfa; *Pwy a ddengys i ni ddaioni?*—gan bwy, neu yn mha le, y cawn anrhydedd, cyfoeth, pleser, a mwyniant ddaerol? *Arglwydd, dyrcha arnom lewyrch dy wyneb*—gywyddai Dafydd mai llewyrch gwyneb yr Arglwydd, neu ei amddiffyniad a'i foddlonrwydd a'i gymdeithas hyfryd ef, oedd y daioni penaf; ac am hynny, tra yr oedd ereill yn chwilio am ddaioni mewn gwrthdrrychau a lloedd siomedig, gweddiai ef am dano yn llewyrch gwyneb ei Dduw: gwel ar Num. vi. 25, 26.

Adn. 7. *Rhodaist lawenydd yn fy nghalon*] Sef llawenydd ysbrydol yn fy enaid; *mwy na'r amser yr anlhaodd eu hŷd a'u gwin hwynt*—neu lawenydd mwy na'r un a deulau

dyrcha arnom lewyrch dy wyneb.

7 Rhoddaist lawenydd yn fy nghalon, mwy na'r amser yr amlhaodd eu hŷd a'u gwin hwynt.

8 Mewn heddwch hefyd y gorweddaf, ac yr hunaf: canys ti, Arglwydd, yn unig a wnei i mi drigo mewn diogelwch.

SALM V.

GWRANDO fy ngeirian, Arglwydd; deall fy mysfyrdod.

2 Erglyw ar lef fy ngwaedd, fy Mrenin, a'm Duw: canys arnat y gweddïaf.

y dynion bydol uchod ar amser cynauaf tor-eithiog. Y mae bron yr holl hen gyfeithiadau yn chwangu *olew* yma; ac yr oedd yd, gwin, ac olew, yn cael en hystyried gynt yn mblith y bendithion tymhorol gwerthfawrocaf.

Adn. 8. *Mewn heddwch hefyd*] Sef mewn heddwch neu dawelwch meddwl, a hyny hyd yn nod yn amser gwrthryfel Absalom a'i bleidwyr; *y gorweddaf, ac yr hunaf*—heb gael fy nychrynu gan ofalon pryderus, na chan freuddwydion poenus, na chan fy ngelynyion maleisus: *canys ti, Arglwydd, yn unig*—ac nid neb arall; neu 'ti, Arglwydd, pan y byddwyf unig,' fel y mae rhai yn ei ddarllen; *a wnei i mi drigo mewn diogelwch*—fel na feiddia dynion na chythreuliaid nesau ataf i'm drygu.

SALM V. Cafodd y Salm hon hefyd ei chyflwyno gan Dafydd i'r *pencerdd*, fel yr un o'r blaen; ond yma 'ar *Nehiloth*.' Nid ydym yn cyfarfod â'r gair hwn mewn un man arall o'r ysgrthyf. Tybia rhai fod ei enw yn arwyddo rhyw offeryn cerdd i *chwythu* ynddo, megys chwibanogl neu udgorn, fel yr oedd y *Neginoth* yn arwyddo offeryn i'w chwaren â'r llaw. Y Salm hon sydd weddi Dafydd ar Dduw mewn rhyw amser o dralloed a chyfyngder mawr; a thybia rhai ddarod ei bwriadu yn *emyn foreol*, fel yr oedd y Salm flaenorol yn *emyn hwyrol*.

Adn. 1. *Gwranddo fy ngeirian*] Sef yr hyn a DRAETHWYF yn fy ngweddî; *deall fy mysfyrdod*—yr hyn a FEDDYLIWYF. Fel pe dywedasai, 'Pan fyddo genyf nerth i *waeddi*, ac i ofyn am y petbau ag y mae arnaf eu heisiau, yna, O Arglwydd, gwranddo fy ngeirian; ond pan yr ofno fy nghalon, ac na bo genyf allu i lesfain, yna, O Arglwydd, deall fy mysfyrdod.' Neu gall ei fod yn galw ei weddi yn *mysfyrdod*, i arwyddo mai nid geirian ei wefusau yn unig ydoedd, ond ei bod yn tarddu oddiar, ac yn cael ei dilyn â, meddyliau dyfnaf a serchiadau gwresocaf ei enaid.

Adn. 2. *Erglyw ar lef fy ngwaedd*] Ar fy ngweddî daer mewn geirian; *fy Mrenin a'm Duw*—yr hwn wyt nid yn unig yn Dduw cyf-ammodol â mi, i'm haclub a'm dedwyddoli; ond hefyd yn frenin arnaf, i'm cyfarwyddo a'm llywodraethu; *canys arnat y gweddïaf*—arnat

3 Yn fore, Arglwydd, y clywi fy llef; yn fore y cyfeiriaf *fy ngweddî* atat, ac yr edrychaf i fyny.

4 O herwydd nid wyt ti Dduw yn ewyllysio anwiredd: a drwg ni thrig gyda thi.

5 Ynfydion ni safant yn dy olwg: caseaist holl weithredwyr anwiredd.

6 Dyfethi y rhai a ddywedant gelwydd: yr Arglwydd a ffeiddia y gŵr gwaedlyd a'r twyllodrus.

7 A minau a ddeuaf i'th dŷ di yn amlder dy drugaredd; ac a addolaf tua'th deml santaidd yn dy ofn di.

ti yn unig, a hyny mewn gostyngeddrrwydd a thaerineb mawr.

Adn. 3. *Yn fore, Arglwydd, y clywi fy llef*] Sef bob bore, yn gystal ag yn gynar yn y bore; *yn fore y cyfeiriaf fy ngweddî atat*—cyffelybiaeth oddiwrth saethlydd, yr hwn a anela at y nôd, ac yna a ollwng ei saeth ymaith; *ac yr edrychaf i fyny*—Heb., 'yr edrychaf allan,' i edrych pa un a darawyd y nôd ai peidio. Bydd i weddi wedi ei chyfeirio yn gywir at Dduw, trwy Grist, gyraedd i'r nef; ac os na ddaw atebiad i lawr yn ebrwydd, cofrestrir hi ar lyfrau y nef i'w hateb mewn amser priodol.

Adn. 4. *O herwydd nid wyt ti Dduw yn ewyllysio anwiredd*] Neu 'yn ymhyfydu mewn dynion drwg,' na chwaith yn eu gweddïau; *a drwg ni thrig gyda thi*—'y dyn drwg,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu. Y mae hyny yn wir hefyd am bob math o ddirgyoni.

Adn. 5. *Ynfydion ni safant yn dy olwg*] Felly yn briodol y gelwir pechaduriaid, am eu bod yn ynfyd yn ymladd yn erbyn hollallugrwydd, ac yn eu gosod eu hunain yn wirfoddol yn agored i'r fath drueni ag a gynnwysir mewn tragwyddol alltudiad oddiwrth Dduw, a hyny er mwyn cyraedd pleserau gweigion a byrbarhaol pechod. *Caseaist holl weithredwyr anwiredd*—yn unig am eu bod yn gweithredu anwiredd. Y maent, fel ynfydion, yn rhedeg allan o wynt, a hyny heb un gwobr mewn golwg ond colli y nef, ac ennill iddynt eu hunain gasineb Duw!

Adn. 6. *Dyfethi y rhai a ddywedant gelwydd*] Y maent yn cael eu dyfetha weithiau yn y byd hwn, ond gwneir hyny yn anocheladwy yn y diwedd, â 'dinystr tragwyddol oddigerbron yr Arglwydd,' 2 The. i. 9. *Yr Arglwydd a ffeiddia y gŵr gwaedlyd a thwyllodrus*—se allai fod yma gyfeiriad at Absalom a'i wŷr, neu at Saul a'i fyddin, y rhai a droisant yn dwyllodrus tuag at Dafydd, gan sychedu am ei waed.

Adn. 7. *A minau a ddeuaf i'th dŷ di yn amlder dy drugaredd*] Mewn mwynhad o honynt, neu i ddiolch i ti am danynt; *ac a addolaf tua'th deml santaidd*—gan droi fy wyneb tua'r arch a'r drugareddfa yn y cysegr santoiddiolaf, lle yr oedd y *SACINA* yn aros.

8 Arglwydd, arwain fi yn dy gyfiawnder, o achos fy ngelnyon; ac uniona dy ffordd o'm blaen.

9 Canys nid oes uniondeb yn eu genau; eu ceudod sydd anwirreddau; bedd agored yw eu cêg; gwneithiant â'u tafod.

10 Dystrywia hwynt, O Dduw; syrthiant oddiwrth eu cynghorion: gyr hwynt ymaith yn amlder eu camweddu: canys gwrthryfelasant i'th erbyn.

11 Ond llawenhâed y rhai oll a

ymddiriedant ynot ti: llafar-ganant yn dragywydd; am i ti orchuddio drostynt: a'r rhai a garant dy enw, gorfoleddant ynot.

12 Canys ti, Arglwydd, a fendithi y cyfiawn: â charedigrwydd megys â tharian y coroni di ef.

SALM VI.

ARGLWYDD, na cherydda fi yn dy lidiogrwydd, ac na chospa fi yn dy lid.

Neu gall mai yr ystyr yw, y byddai iddo droi ei wyneb tua'r *babell*, pan yn methu myned iddi; canys nid oedd y *deml* wedi ei hadeiladu eto. *Yn dy ofn di*—gyda'r gostyngeddrwydd, y parch, a'r cywirdeb mwyaf.

Adn. 8. *Arglwydd, arwain fi yn dy gyfiawnder*] *Yn dy grefydd a'th lwybrau cyfiawn; o achos fy ngelnyon*—rhag iddynt gael achos i'm beio i, na chablu crefydd ynof fi; *ac uniona dy ffordd o'm blaen*—fel y gallwyf ei gweled yn eglur, a rhodio ynddi yn ddiwyrni a didramgywydd, er gogoniant i'th enw.

Adn. 9. *Canys nid oes uniondeb yn eu genau*] *Y mae fy ngelnyon yn dywedyd yn peth, ac yn meddwl peth arall; eu ceudod sydd anwirreddau*—y mae eu calon o'u mewn yn llawn o bob drygioni; *bedd agored yw eu cêg*—i gladdu enw da pawb ynddo, neu i chwydu drygsawr o hono, neu i lyncu y rhai a ddelont yn agos atynt fel bwystfil rheibus; *gwneithiant â'u tafod*—cymerant arnynt fod yn gyfeillion i'r diniwed, fel y gallont yn hawddaeh ei ddal a'i ddyfetha. *Y mae hwn yn ddisgrifiad cywir o holl ddyndolryw yn eu cyflwr natur; ac yn y goleuni hwn y dyfynir y geiriau hyn gan yr apostol: gwel ar Rhuf. iii. 13, &c.*

Adn. 10. *Dystrywia hwynt, O Dduw*] *Nid mewn ysbryd dial y dywedai Dafydd hyn, ond llefaru yr ydoedd yn broffwydol, neu fynegu, trwy ddywylf ysbrydoliaeth, mai eu dystrywio a gaent onid edifarhäent. Dylai yr holl ddatganiadau hyn, y rhai a ymddanghosant fel rhesg neu *felldith*, fel y sylwa Clarke, gael eu cyfieithu yn yr amser *dyfodol*, i'r hwn y perthynant, a'r hwn a ddengys mai *proffwydol* ydynt: *Ti a'u dystrywi, ti a'u gyri hwynt ymaith, &c. Syrthiant oddiwrth eu cynghorion*—heb allu cyflawni eu bwriadau yn fy erbyn i; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'syrthiant trwy eu cynghorion,' y rhai, yn lle fy niweidio i, a fyddant yn ddiynstr iddynt hwy eu hunain yn unig. *Canys gwrthryfelasant i'th erbyn*—yn erbyn dy ewyllys a'th lywodraeth di. *Yr oedd gwrthryfel y rhai hyn yn erbyn Dafydd, yn wrthryfel hefyd yn erbyn Dduw, am mai efe a osodasai Dafydd yn y frenhinaeth, fel cysgod o Grist a'i eglwys.**

Adn. 11. *Ond llawenhâed y rhai oll a ymddiriedant ynot ti*] *Set yn dy allu anfeidr-ol, neu yn dy addewidion grasol iddynt; llafar-ganant yn dragywydd*—yn y byd hwn ac

yn y nef; *am i ti orchuddio drostynt*—i'w hamddiffyn rhag eu holl elnyion. *Y mae yma gyfeiriad at iâr yn gorchuddio ei chlywion â'i hadenydd. A'r rhai a garant dy enw*—a garant Dduw ei hun fel eu gwrthdrysych anwylyf; *gorfoleddant ynot*—fel eu rhan, a Dduw eu hiachawdriaeth. *Datganiad proffwydol yw y geiriau hyn hefyd, fel yr adnod flaenorol: Calnt lawenhau, llafar-ganu, a gorfoleddu ynot byth.*

Adn. 12. *Canys ti, Arglwydd, a fendithi y cyfiawn*] *Yr hwn sydd yn gweithredu cyfiawnder, ac wedi ei gyfiawnhau trwy fydd: â charedigrwydd*—sef â phob math o fendithion haelionus dy gariad; *megys â tharian*—y mae yma gyfeiriad, ebai *Mant*, at y math hwnw o darian a orchuddiai yr holl gorff; *y coroni di ef*—neu 'yr amgylchyni ef,' fel nas gallai neb ei niweidio wrth ruthro i'w wyneb neu erlid ar ei ol.

SALM VI. Teitl y Salm hon yw, '*P'r pen-cerdd ar Neginoth, ar y Seminieth, Salm Dafydd*;' yr hyn a gyfieithir yn y Galdeae, '*I'w chanu ar seminieth, telyn yw-th-dant.*' *Y mae yr amrywiol ddeongliadau a roddir i'r teitl hwn gan awduron hen a diweddar, yn dangos na wŷr neb ddim am ei ystyr; canys nid oes gan yr Iuddewon eu hunain wybodaeth gywir am gerddoriaeth eu henafiaid. Gwelsom eisioes fod *neginoth*, yn debygol, yn arwyddo unrhyw offeryn cerdd a seinid trwy ei *dar*, neu *offer tannau* yn gyffredinol. *Yr oedd y Salm hon i'w dilyn â'r cyfryw offer; ond y mae un o fath neidduol yn cael ei enwi, sef *seminith*, yr hwn a elwir felly oddiwrth ei *wyth* tant. Gorchymynir i'r pen-cerddor ddylyn datganiad y Salm hon â'r offeryn hwnw.**

Adn. 1. *Arglwydd, na cherydda fi yn dy lidiogrwydd*] *Gyda'r fath doster ag a baeddais; ac na chospa fi yn dy lid*—Saes., 'yn dy beoth anffodlonrwydd.' *Meddylir i hon, sef y gyntaf o'r saith Salm edifeiriol, gael ei hysgrifenu yn ystod rhyw afiechyd poenus, â pha un y cystuddiwyd Dafydd ar ol iddo bechu gyda Bathseba. Y mae efe yn dangos dwfn ymwybodolrwydd o'i bechod, ac arswyd mawr rhag cyfiawn anffodlonrwydd Dduw. Y mae y Salm hon yn iaith dyn gwir edifeiriol, yr hwn sydd yn edrych oddiamgylch am ymwar- ed, a'r hwn, fel y sylwa yr *Esog Horne* yn briodol, 'sydd yn canfod *fry* Dduw digofus*

2 Trugarha wrthyf, Arglwydd; canys llesg ydwyf fi: iachâ fi, O Arglwydd; canys fy esgryn a gys-tuddiwyd.

3 A'm henaid a ddychrynwyd yn ddirfawr: tithau, Arglwydd, pa hyd?

4 Dychwel, Arglwydd, gwared fy enaid: achub fi er mwyn dy drugaredd.

5 Canys yn angau nid oes goffa am danat: yn y bedd pwy a'th folianna?

6 Diffygiais gan fy ochain; bob nos yr ydwyf yn gwneuthur fy ngwely yn foddfa: yr ydwyf fi yn gwlychu fy ngorweddfa a'm dagrau.

7 Treuliodd fy llygad gan ddi-

ter: heneiddiodd o herwydd fy holl elynion.

8 Ciliwch oddiwrthyf, holl weith-redwyr anwiredd: canys yr Arglwydd a glywodd lef fy wylofaïn.

9 Clybu yr Arglwydd fy neisfyad: yr Arglwydd a dderbyn fy ngweddi.

10 Gwaradwydder a thralloder yn ddirfawr fy holl elynion: dychweler a chywilyddier hwynt yn ddisymwth.

SALM VII.

ARGLWYDD fy Nuw, ynot yr ymddriedais: achub fi rhag fy holl erlidwyr, a gwared fi.

yn barod i ddial; obry, uffern dân yn barod i'w dderbyn; *oddifues*, y byd yn filamio; *oddifewn*, y pryf adgnoawl.' O'r holl rai hyn nid oes un mor arswydd a'r Duw digofus, rhag lliid yr hwn y gweddïa ef yn neillduol. Y mae Duw yn ei geryddu ac yn ei gospi ef, ac y mae yntau yn ymstwg; ond erlynia na bydo i ddau ei geryddu ef yn ei *lidiogruwydd*, na'i gospi yn ei *tid*, am y gwyddai y byddai i hyn y lwy'r *ddyfetha* ef.

Adn. 2. *Trugarha wrthyf, Arglwydd*] Nid wyf am ddadlu fy haeddiant fy hun, eithr dy rad drugaredd di; *canys llesg ydwyf fi*—y mae fy nghorff yn curio ymaith, a'm meddwl yn pallu, trwy ddirfawr been a gofid. *Iachâ fi, O Arglwydd*—oddiwrth anwlyderau fy nghorff a'm meddwl; *canys fy esgryn a gys-tuddiwyd*—y rhanau mwyaf mewol o'm corff. Ond y mae 'esgryn,' yn yr ysgrythrau, yn dynodi yn fynych y galon, yr enaid, a'r meddwl: gwel Salm xxxv. 10.

Adn. 3. *A'm henaid a ddychrynwyd yn ddirfawr*] Mewn rhan trwy gydymdeimlad a'm corff; ac mewn rhan gan faich fy mbechodau, a theimlad o'th anffoddlonrwydd dithau, a'r perygl ag yr wyf ynddo. *Tithau, Arglwydd, pa hyd?*—y goddefi i mi aros yn y cyflwr hwn?

Adn. 4. *Dychwel, Arglwydd*] Ataf fi yn dy gynorthwyo'n a gwenau dy wyneb, y rhai a dynaist oddiwrthyf; *gwared fy enaid*—oddiwrth euogrwydd ac ofn; *achub fi er mwyn dy drugaredd*—o law angau a'r bedd.

Adn. 5. *Canys yn angau nid oes goffa am danat*] Nis gallaf, ar ol marw, weddio arnat, na chynghori pechaduriaid i droi ataf; *yn y bedd pwy a'th folianna?*—pwy a gana dy fawl, neu a glodfora dy enw? Cyfeirir yma at y corff yn unig, neu at weithredoedd o dduw-ioldeb yn y byd hwn; canys nid yw yr ysbryd yn disgyn i'r bedd, eithr efe a 'ddychwel at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef,' Preg. xii. 7.

Adn. 6. *Diffygiais gan fy ochain*] O herwydd cystudd fy nghorff a dychlryn fy enaid; *bob nos yr ydwyf yn gwneuthur fy ngwely yn foddfa*—yn ddigon gwlyb i'm boddi, neu 'i nofio,' fel y mae yn y Saesonaeg. Gorwireb

prydfertth, yn gosod allan helaethrwydd ei ddagrau edifeiriol.

Adn. 7. *Treuliodd fy llygad gan ddi-gter*] Saes., 'gan ofid,' o herwydd ei bechod a'i drueni; *heneiddiodd o herwydd fy holl elynion*—neu tywyllodd fel pe bawn wedi heneiddio, trwy fy nagrau heilltion wrth glywed edliwiad- au chwerwon fy ngelyniau.

Adn. 8. *Ciliwch oddiwrthyf, holl weith-redwyr anwiredd*] Fel na flinoch fi a'ch edliwiadau pigog a phechadurus; *canys yr Arglwydd a glywodd lef fy wylofaïn*—ac a ddyry i mi y waredigaeth ag y bwm yn gweddio am dani mewn dagrau. Yr oedd gobaith y pryd hyn yn dechreu gwawrio ar ei enaid; canys efe a wyddai fod hyd yn nod dagrau dystaw yn llefiadau uchel a theaerion yn nghlustiau y nefoedd.

Adn. 9. *Clybu yr Arglwydd fy neisfyad*] Yr lwn a adroddwyd yn adn. 1—4; *yr Arglwydd a dderbyn fy ngweddi*—a'i cymerad-wya ac a'i letyl.

Adn. 10. *Gwaradwydder a thralloder yn ddirfawr fy holl elynion*] Trwy iddynt gael eu siomi yn ymddygiadau trugarog Duw tuag ataf; *dychweler a chywilyddier hwynt yn ddisymwth*—tröer hwynt ar frys oddiwrth eu pechodau, a'u gelyniaeth faleisus tuag ataf; a boed iddynt gywilyddio am danynt, fel y gwnaeth Simeï, gelyn Dafydd: gwel ar 2 Sam. xix. 18—23. Neu fe allai y dyliid deall y geiriau hyn fel proffwydoliaeth neu ddatgan- iad o'r hyn a ddygwyddai iddynt: gwel ar Salm v. 10.

SALM VII. Teitl y Salm hon yw, '*Sigaion Dafydd, yr hwn a ganodd efe i'r Arglwydd oblegid geiriau Cus fab Senimi.*' Y mae y gair *sigaion* yn deilliaau oddiwrth *shagan*, 'erwydro,' ac fe allai mai yr ystyr yw, ddar- fod i Dafydd gyfansoddi y Salm hon yn ystod ei *grwydrïadau*, pau yn ffoi rhag cynddaredd Saul a'i weision; yn yr hyn yr oedd efe yn gysgod nodedig o Grist a'i eglwys, yn cael eu herlid gan Satan a'i gynghreiriaid. Tybia yr *Esgob Horstey* y gallai y Salm hon gael ei galw yn *gân grwydrol*, neu *wasgaredig*, am

2 Rhag iddo larpio fy enaid fel llew, gan ei rwygo, pryd na byddo gwaredydd.

3 O Arglwydd fy Nuw, os gwnaethym hyn; od oes anwiredd yn fy nwyllaw;

4 O thelais ddrwg i'r neb oedd heddychol â mi, (ie, mi a waredais yr hwn sydd elyn i mi heb achos,)

5 Eriidied y gelyn fy enaid, a goddiwedded: sathred hefyd fy mywyd i'r llawr, a gosodedd fy ngogoniant yn y llwch. Selah.

6 Cyfod, Arglwydd, yn dy ddig-

llonedd, ymddyrrha, o herwydd llid fy ngelynion: deffro hefyd drosof i'r farn a orchymynaist.

7 Felly cynulleidfa y bobloedd a'th amgylchynant: er eu mwyn dychwel dithau i'r uchelder.

8 Yr Arglwydd a farn y bobloedd: barn fi, O Arglwydd, yn ol fy nghyfiawnder, ac yn ol fy mherffethirwydd sydd ynof.

9 Darfydded weithian anwiredd yr annuwiolion, eithr cyfarwydda di y cyfiawn: canys y Duw cyfiawn a chwilia y calonau a'r arenau.

ei bod yn gyfansoddedig o wahanol ranau, yn cymeryd i fyny wahanol bynciau, ac mewn gwahanol arddulliau. Neu gall fod y gair yn cyfeirio at y *gwahanol donau* ar ba rai y cenid hi. Y mae *Cus fab Semimi*, neu *Cus y Benjaminiad*, yn berson anadnabyddus yn yr hanesiaeth Iuddeuwig: ond tybia rhai ei fod yn meddwl *Saul* ei hun, yr hwn oedd yn fab i *Cis*, ac o lwyth *Benjamin*; a thybia ereill mai un o lyswyr neu gadfridogion *Saul* a feddylir; tra y tybia ereill mai *Simeï* a olygir, am fod hwn wedi arfer geiriau tebyg i'r rhai y cyhuddir Dafydd o honnynt yma.

Adn. 1. *Arglwydd fy Nuw*] Yr hwn wyt Dduw mewn cyfammod â mi; *ynot yr ymddriedais*—hyd yma, am gyflawniad dy addewidion cyfammodol: *achub fi rhag fy holl erlidwyr*—yn gyffredinol; a *gwared fi*—rhag yr erlidwyr hwn yn neillduol.

Adn. 2. *Rhag iddo larpio fy enaid fel llew*] Fel y larpia llew ei ysglyfaeth; *gan ei rwygo pryd na byddo gwaredydd*—gerllaw, i attal iddo gwblhau ei erchyllwaith. Meddylia Clarke fod hyn yn cyfateb yn dda i *Saul*, yr hwn oedd yn frenin cryf a fyrnig, fel y llew brenin y goedwig.

Adn. 3. *O Arglwydd fy Nuw*] Y ma y mae Dafydd yn apelio at y Duw hollwybodol, yr hwn a wyddai am ei uniondeb a'i ddiiniweidrydd ef; *os gwnaethym hyn*—y peth y camgyhuddid ef yn awr o hono, yr hyn oedd yn hysbys i Dduw heb iddo ef ei enwi, ac befyd i holl Israel; *od oes anwiredd yn fy nwyllaw*—yn ei weithredoedd, y rhai yn gyffredin a wneir a'r dwyllaw. Meddylir fod yma gyfeiriad at eu gwaith hwy yn cyhuddo Dafydd o drachwantu yr orsedd a'r frenhiniaeth, ac o chwilio am gyfleusdra i ladd *Saul*, ei frenin, ei noddwr, a'i gyfaill. Felly y cyhuddwyd Dafydd gan *Simeï*, 2 Sam. xvi. 8.

Adn. 4. *O thelais ddrwg i'r neb oedd heddychol â mi*] Fel yr oedd *Saul* weithiau; *ie*—yn mhell oddiwrth dalu drwg iddo, *mi a waredais*—*Saul*, yr hwn sydd elyn i mi heb achos—pan y gallaswn yn hawdd ei ladd ef yn yr ogof, 1 Sam. xxiv. 9, &c.

Adn. 5. *Eriidied y gelyn fy enaid*] Hyny yw, os wyf yn euog o'r hyn y cyhuddir fi o hono; *sathred hefyd fy nwywyd i'r llawr*—i'r bedd, neu sathred fi yn farw ar y llawr; *a gosodedd fy ngogoniant yn y llwch*—dan y

gwarth a'r anfri mwyaf. *Selah*—'sylwer ar hyn:' gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 6. *Cyfod, Arglwydd, yn dy ddiigllonedd*] Sef yn dy eiddgedd cyfiawn yn erbyn eu cynyddaredd diachos hwy; *ymddyrrha o herwydd llid fy ngelynion*—yr hwn sydd yn taro yn dy erbyn di a'th bobl, fel yn fy erbyn inau: *deffro hefyd drosof i'r farn a orchymynaist*—yn erbyn *Saul* a'i dŷ, sef eu dyosg o'r frenhiniaeth: gwel ar adn. 7.

Adn. 7. *Felly cynulleidfa y bobloedd a'th amgylchynant*] A ddeuant eilwaith i'th gynteddoedd i'th addoli yn ffyddlon. Yr oedd pabell, arch, ac addoliad Duw, wedi cael eu hesgeuloso yn fawr yn amser *Saul*, 1 Cron. xiii. 3; ac yr oedd ei annuwioldeb a'i erledigaeth ef wedi peri i'w ddeiliaid gilio oddiwrth ordinhadau Duw, ac ymlygru yn ddirfawr. *Er eu mwyn dychwel dithau i'r uchelder*—i eistedd ar orsedd barn, fel y gallo dy bobl weled, trwy orchywliaethau dy ragluniaeth, pwy sydd euog, a phwy nid yw. Nid er mwyn darostwng *Saul*, na'i godi ei hun, yr oedd Dafydd yn gweddio am hyn; eithr er mwyn lles Israel yn wladol a chrefyddol: a gwyddai hefyd ei fod yn gweddio yn ol meddwl Duw, yr hwn a orchymynasai y farn hon, adn. 6.

Adn. 8. *Yr Arglwydd a farn y bobloedd*] Sef pobl Israel, y rhai oeddnt gyda *Saul* yn erbyn Dafydd; neu, efo a wna gyfiawnder â phawb. *Barn fi, O Arglwydd, yn ol fy nghyfiawnder*—neu fy niniweidrydd yn yr achos hwn; *ac yn ol fy mherffethirwydd*—neu y 'cywirdeb' ag sydd ynof. Fel pe dywedasai, Os wyf fi yn euog o'r bwriadu drwg hyny yn erbyn *Saul*, y rhai y cyhuddir fi o honnynt gan *Cus* ac ereill, cyboedda ddedfryd yn fy erbyn; ond os wyf yn ddieuog, fel y gwyddost fy mod, amddiffyn di fy uniondeb.

Adn. 9. *Darfydded weithian anwiredd yr annuwiolion*] Sef eu drwgdybiau am danaf, a'u malais yn fy erbyn: dyro derfyn ar eu drygioni, trwy droi eu calonau neu rwymo eu dwyllaw. *Eithr cyfarwydda di y cyfiawn*—cryfha, arwain, ac amddiffyn ef. Ato ei hun yn ddiannau y cyfeiria Dafydd yma. *Canys y Duw cyfiawn a chwilia y calonau a'r arenau*—y mae ef yn adnabod bwriadu ac ewyllysiau dirgelaf y drwg a'r da, fel pe buasai wedi bod yn eu chwilio yn y modd manylaf.

10 Fy amddiffyn sydd o Dduw, Iachawdwr y rhai uniawn o galon.

11 Duw sydd Farnydd cyfiawn, a Duw sydd ddigllon beunydd wrth yr annuwiol.

12 Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf: efe a annelodd ei fwa, ac a'i parotôdd.

13 Parotôdd hefyd iddo arfau angeuol: efe a drefnodd ei saethau yn erbyn yr erlidwyr.

14 Wele, efe a ymddwg anwiredd, ac a feichiogodd ar gamwedd, ac a esgorodd ar gelwydd.

15 Torodd bwl, cloddiodd ef,

syrthiodd hefyd yn y clawdd a wnaeth.

16 Ei anwiredd a ymchwel ar ei ben ei hun, a'i draha a ddisgyn ar ei gopa ei hun.

17 Clodforaf yr Arglwydd yn ol ei gyfiawnder, a chanmolaf enw yr Arglwydd goruchaf.

SALM VIII.

A RGLWYDD ein Ior ni, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear! yr hwn a osodaist dy ogoniant uwch y nefoedd.

Adn. 10. *Fy amddiffyn sydd o Dduw* | Heb., 'fy nharian sydd o Dduw,' yr hwn fel pe byddai sydd yn dwyn fy nharian o'm blaen i'm hamddiffyn, 1 Sam. xvii. 7. *Iachawdwr y rhai uniawn o galon*—ac felly fy Iachawdwr inau, gan y gwyr fy mod yn ddiuog.

Adn. 11. *Duw sydd Farnydd cyfiawn* | Gan ei fod yn anfeiddol gyfiawn ynddo ei hun, rhaid ei fod felly hefyd yn ei weithredoedd. Saes., 'Duw a farn y cyfiawn;' hyny yw, a'i hamddiffyn ef. *A Duw sydd ddigllon beunydd wrth yr annuwiol*—hyd yn nod pan na byddo yn ei gopsi ef, neu pan y byddo ei ragluniaeth fel yn gwenu arno. Er fod Duw yn ei garu ef fel ei creadur, ac yn tustorior wrtho fel gwrthdrys truenus, er hyny y mae yn ddigllon wrtho fel pechadur. Ond y mae y cyfieithiadau yn amrywio yn fawr yn yr adnod hon: 'Duw a farn y cyfiawn, a'r hwn a ddirmyga Dduw beunydd.'—BEIBL GENEVA. 'Duw sydd Farnydd cyfiawn, a Duw sydd byth yn bygwth.'—COVERDALE. 'A fydd efe yn ddigllon beunydd?'—VULGATE. 'Duw sydd Farnydd cyfiawnder; nid yw efe yn ddigllon beunydd.'—SYRLAEG; ac yn gyffelyb yr ARABAE, yr ETHIOPAEG, a'r LXX. Yr achos o'r gwahaniaeth hwn a geir yn y nodau Hebreig. Y mae y gair gwreiddiol yn nechre yr ail frawddeg, gyda'r nód *tsere*, (EL,) yn arwyddo *Duw*; ond gyda'r nód *pathach*, (AL,) y mae yn arwyddo *nid*; yr hyn a barodd i rai ei darllen, 'Ac *nid* yw ddigllon beunydd wrth yr annuwiol.' Ond bernir mai yr iawn ystyr yw yr hwn a osodir allan yn ein Beiblan ni.

Adn. 12. *Oni ddychwel yr annuwiol* | O'i ffyrdd drygonus; *efe a hoga ei gleddyf*—bydd i Dduw barotai i dywallt arno y farn a haeddodd; *ie, efe a annelodd ei fwa*—eisioes, *ac a'i parotôdd*—gosododd y saeth ar ei fwa, annelodd hi at yr annuwiol, ac y mae yn barod i'w gollwng i'w galon ef.

Adn. 13. *Parotôdd hefyd iddo arfau angeuol* | Meddylir fod yma gyfeiriad at arfau y Philistiaid, y rhai, wedi iddynt archolli Saul, a dorasant ei ben ef, ar ol iddo syrthio ar ei gleddyf ei hun, 1 Sam. xxxi. 3, 4, 9. *Efe a drefnodd ei saethau yn erbyn yr erlidwyr*—sef yn erbyn Saul a'i wŷr. Y mae hyn yn yr hefyd, mewn rhyw ystyr, am holl erlidwyr

pobl ac eglwys Dduw, yn gystal ag am bob pechadur anedifeiriol.

Adn. 14. *Wele, efe a ymddwg anwiredd* | A ghenhedlodd neu a ffurfiodd gynlluniau drygonus; *ac a feichiogodd ar gamwedd*—yr hwn a gynyddai fel plentyn yn y groth; *ac a esgorodd ar gelwydd*—sionwyd ef yn ei gynlluniau, y rhai a droisant yn y diwedd er niwed i Saul ei hun, ac nid i Dafydd.

Adn. 15. *Torodd bwl* | I ddal Dafydd ynddo, fel y gwna yr helwir i faglu bywstfilod; gwel ar Job xli. 1; *cloddiodd ef*—yn ddwfn, gan gau drosto a brigau neu frwyn; *syrthiodd hefyd yn y clawdd a wnaeth*—hyny yw, syrthiodd ei hun i'r pwll hwnw: ac felly y drwg a fwriadodd efe i arall, a ddaeth iddo ei hun.

Adn. 16. *Ei anwiredd a ymchwel ar ei ben ei hun* | Cymeredd Saul lawer o drafferth i ddal a lladd Dafydd; ond disgynodd y drwg hwnw ar ei gopa ef ei hun, yn ol rhagfynegiad Dafydd yma ac yn 1 Sam. xxvi. 10. *A'i draha*—sef ei greulondeb a'i ffynigrwydd angerddol.

Adn. 17. *Clodforaf yr Arglwydd yn ol ei gyfiawnder* | Neu o herwydd ei gyfiawnder yn cospri yr euog ac yn amddiffyn y diniwed; *a chanmolaf enw yr Arglwydd goruchaf*—yn y byd hwn, ac yn y nefoedd dros dragwyddoldeb.

SALM VIII. Teitl y Salm hon yw, 'I'r pencerdd ar Gittith, Salm Dafydd.' Trwy fod gittith yn arwyddo *gwinwrif*, tybia rhai ddarfod rhoddi y teitl hwn iddi am ei bod wedi ei bwriadu i'w chanu yn ystod y *cynauaf gwin*, ar gyfer yr amser pryd y crewyd y byd; ac am hyny fod cyfeiriad ynddi at waith y cread, a chyflwr gwreiddiol dyn. Os felly, y mae yn debyg i Salm lxxxi a lxxxiv gael eu bwriadu i'w canu ar yr un amser, trwy fod yr un teitl iddynt hwythau. Tybia ereill fod yn debycach mai offeryn cerdd wedi ei ddwyn o Gittith, neu *Gath*, a olygir yma, neu *dôn* wedi ei dysgu yn *Gath*; a meddylir i Dafydd gyfansoddi y Salm hon ar yr achlysur o ladd Goliath o Gath: gwel ar adn. 2. Fod yn y Salm gyfeiriad at ein Harglwydd Iesu Grist, ac amser yr efengyl, sydd amlwg oddiwrth y

2 O enau plant bychain, a rhai yn sugno, y peraiast nerth, o achos dy elynion, i ostegu y gelyn a'r ymddialydd.

3 Pan edrychwyf ar y nefoedd,

cyfeiriad a wneir at adn. 2 yn Mat. xi. 25, a 1 Cor. i. 27, a'r dyfyniad o houï yn Mat. xxi. 16. Y mae adn. 4, 6, yn cael eu dyfynu yn Heb. ii. 6—9; gwel hefyd 1 Cor. xv. 27, Eph. i. 22. Cyfeirir yma hefyd at yr Adda cyntaf a'r ail, a'r greadigaeth gyntaf a'r ail, yn nghyda'r gogoniant a ddeillia i Dduw oddi-wrth y naill a'r llall.

Adn. 1. *Arglwydd ein Ior ni* | *Yehovah Adoneynu*, 'Jehofa ein Cynalydd, ein Hatteg, a'n Cymhorth.' Y mae y ddaeu enw hyn yn dangos pa beth yw Duw *ynddo ei hun*, a pha beth ydyw i *ddyn*; a gall yma yn dra phriodol gyfeirio at ein Harglwydd Iesu. *Mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear*—fel Creawdwr, Iachawdwr, a Llywodraethwr y cwbl; ac fel Duw trugarog, maddeugar, a glasawn! Y mae yma gyfeiriad neillduol at oruchwyliaeth yr efengyl, pryd y byddai i'r holl ddaear gael ei llenwi a'i ogoniant ef, a'r holl genhedloedd ymgyrnu wrth ei draed. *Yr hwn u osodaist dy ogoniant uwch y nefoedd*—fel pe dywedasai, Paham y soniaf am y *ddaear*? Y mae dy ogoniant di yn rhagori ar ogoniant y nef serenog, ac ar ogoniant y drydedd nef, a'i holl todau dysglar: y mae yn uwch na'u gogoniant hwy, yn ei raddau, ei natur, a'i le; ac mewn dysgleirdeb, purdeb, ac ardderchogrwydd.

Adn. 2. *O enau plant bychain, a rhai yn sugno, y peraiast nerth* | *Tybia Patrick, Hammond, a Dodd*, fodd yma gyfeiriad at Dafydd ei hun, yr hwn, er nad oedd ond megys plentyn mewn cymhariaeth i Goliath, eto, trwy gael ei nerthu gan allu Duw, a ennilodd lwyfr fuddugoliaeth ar y cawr hwnw. Y mae ein Harglwydd, modd bynag, yn cymhwyso y geiriau hyn at y werin anlythyrenog, a'r plant yn y deul, y rhai, wrth ystyried ei wyrthian rhyfeddol ef, a lefant, 'Hosanna i Fab Dafydd!' pryd yr oedd yr archoffeiriad a'r ysgrifenyddion beilchion yn ei ddiystyru a'i wrthod: gwel ar Mat. xxi. 9, 16. Gellir cymhwyso y geiriau hefyd, fel ond odid y bwriedid hwynt yn y lle blaenaf, at yr apostolion a phregethwyr cyntaf yr efengyl, y rhai, er yr edrychid arnynt fel 'plant bychain,' yn 'anlythyrenog ac annysgedig,' Act. iv. 13, eto a gaent oruchwyliaeth ar holl ddoethineb y doethion a chryfder y cedyrn, ac a dymchwelent deyrnas Satan fel y dymchwelais caeru Jericho trwy udganiad y cynn hyrddod. Ac y mae 'nerth Duw' o hyd yn dwyn oddiamgylch bethau mawrion yn yr eglwys a'r byd, a hyny trwy offerynau gwael; gan waradwyddo y doethion a'r cedyrn trwy rai distad a dirmygus, 'fel na orfoleddo un cnawd ger ei fron ef; ac y 'byddo godidogrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni.' gwel ar Mat. xi. 25, 1 Cor. i. 27—29, a 2i Cor. iv. 7. *O achos dy elynion*—o achos eu balchder a'u trabausder hwynt. *I ostegu y*

gwaith dy fyseidd; y lloer a'r ser, y rhai a ordeiniaist;

4 Pa beth yw dyn, i ti i'w gofio? a mab dyn, i ti ymweled âg ef?

5 Canys gwnaethost ef ychydig is

gelyn a'r ymddialydd—trwy eu dwyn i ddytawrwydd a gwarth, fel yn achos Goliath a'r Philistiaid. Eithr *diafol* yw y gelyn a'r ymddialydd mawr; a thrwy bregethiad yr efengyl y mae yntau i raddau helaeth yn cael ei ostegu, a'i bleidwyr yn cael eu dryssu, a'r ysbrydion aflan eu hunain yn gorfod tewi, Marc i. 34, Luc iv. 41.

Adn. 3. *Pan edrychwyf ar y nefoedd* | Y nefoedd serenog neu wybrenol; *gwaith dy fyseidd*—er fod yr Ysbyrd Glân yn cael ei alw yn 'fys Duw,' (cydmarharer Luc xi. 20, a Mat. xii. 28.) eto ymddengys fod yr ymadrodd hwn yn cael ei ddefnyddio yma i osod allan yr *hawsdra* â pha un y gallodd Duw greu yr holl nefoedd serenog, trwy nad oedd yn angenrheidiol iddo ddefnyddio ei *law*, llawer llai ei *fraich*, i'w creu hwynt. *Y lloer a'r ser*—meddylir i Dafydd dyfiansoddi y Salm hon yn y *nos*, pryd nad oedd ond y lloer a'r ser yn weledig; ac am hyny nid yw efe yn enwi yr *haul* yma, er fod hwnw hefyd yn cael ei gynnwys yn y 'nefoedd, gwaith bysedd Duw.' *Y rhai a ordeiniaist*—*conantah*, 'y rhai a greaist neu a drefnaist,' neu a 'osodaist i lywodraethu y nos,' Gen. i. 16. Nid edrych ar y lloer a'r ser i'w *haddoli* yr oedd Dafydd, eithr i addoli a mawrygu eu Creawdwr hollalluog hwy, a chanfod ei waeledd ei hun mewn cymhariaeth iddynt hwy.

Adn. 4. *Pa beth yw dyn* | *Mah enosh*, 'dyn gwael, marwol, a thruenus;' dyn yn ei gyflwr syrthiedig, yn llawn o wendid, anwybodaeth, a phechod. *I ti i'w gofio*—neu gymeryd sylw trugarog o hono, gofalu yn dyner am dano, a darparu iachawdwriaeth dragwyddol iddo? *A mab dyn*—*ben Adam*, 'mab Adda,' y gwrthryfelwr mawr cyntaf; mab syrthiedig i dad syrthiedig; ei fab trwy gyfielybrwydd tueddiad ac ymddygiad pechadurus, yn gystal a thrwy haniaid neu ddisgynydd oddiwrtho. *I ti ymweled âg ef*—nid mewn barn, fel yr arwydda y gair weithiau, Job vii. 17, 18, ond mewn daioni a thrugaredd; ymweled âg ef fel Cyfaill, Noddw, ac Iachawdwr. Pa beth yw dyn, i ti ei anrhydeddu mor fawr, a dangos y fath dosturiaethau a daioni iddo! Ar ol i'r Salmwydd fod yn syllu ar eangder ac ardderchogrwydd y *nef wybrenol*, yr hon a addurnid a'r lloer gron yn rhodio fel brenhines fawreddog ar hyd-ddi, ac a frithid â dysgleirdeb llachar mîsodd o ser tanlyd, y rhai fel gosgorddlu brenhinol a amgylchent y lloer, gan ragori ar eu gilydd mewn maintioli a gogoniant; ac ar ol iddo wedi hyny droi ei feddwl i syllu ar *ddyn* gwael, marwol, aflan, a gwrthryfelgar, a chanfod yr Anfeidrol yn ymweled âg ef â holl ddaioni ei ragluniaeth a'i ras, gan roddi ei Fab i farw drosto, ei Ysbyrd i'w ddyddanu a'i santeiddio, a'i air a'i weision i'w ddyssu yn ddoeth i iachawdwriaeth, a holl

na'r angylion, ac a'i coronaist â gogoniant ac â harddwch.

6 Gwnaethost iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwyllaw; gosodaist bob *peth* dan ei draed ef:

7 Defaid ac ychain oll, ac anifeiliaid y maes hefyd;

8 Ehediaid y nefoedd, a physgod y môr, ac y sydd yn tramwyo llwybrau y moroedd.

9 Arglwydd ein Ior, mor ardderchog *yw* dy enw ar yr holl ddaear!

anifeiliaid y ddaear at ei wasanaeth a'i gysur; yn yr olwg ar hyn oll, meddaf, y mae y Salm-ydd fel yn yngolli mewn rhyfeddod, ac yn synu yn fwy wrth *drugared* Duw yn cofseiduo y fath nn, nag a wnaethai wrth ei *allu* a'i *ddoethineb* yn creu y lleill.

Adn. 5. *Canys gwnaethost ef*] Hyd yn nod yn ei gyflwr creadigol; *ychydig is na'r angylion*—ie, yn is na'r angylion syrthiedig, y rhai a adawaist heb eu *cofio* fel hyn. Ai nid hyn oedd yn ngolwg y Salm-ydd yn y fan yma? gwel ar Heb. ii. 16, a'r nodyn yno ar waelod y ddalen. Yr oedd dyn wedi ei wneuthur yn *is* na'r angylion, trwy fod ei gorff wedi ei lunio o bridd y ddaear, a'i fod ef felly yn frawd i'r pryf; ond trwy fod ganddo yntau enaid yn preswyllo yn y corff hwnw, yr hwn oedd yn ysbryd pur ac anfarwol, yr oedd yn perthyn yn agos i'r angylion hefyd, heb fod ond *ychydig* is na hwynt, ac yn nesaf atynt mewn graddoliaeth. *Ac a'i coronaist â gogoniant*—â galluoedd a chynneddfau ardderchog; *ac â harddwch*—â chyfiawnder, gwybod-aeth, a gwir santeiddrwydd, yr hyn yw delw Duw, a barddwch penaf dyn: gwel ar Eph. iv. 24, Col. iii. 10.

Adn. 6—8. *Gwnaethost iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwyllaw*] Ar y ddaiar, i'w thrin a'i hamaethu; ac ar y creaduriaid, i'w llywodraethu a'u defnyddio. *Gosodaist bob peth dan ei draed ef*—neu yn ddarostyngedig iddo, ac at ei wasanaeth: gwel ar Gen. i. 26, &c. *Defaid ac ychain oll*—dan y rhai y cynwysir yr holl greaduriaid dofnon, neu y rhai a fyddent yn addas i ddyrn ymborthi arnynt; *ac anifeiliaid y maes hefyd*—sef yr holl greaduriaid gwyllt o bob math. Ond dylem gofio, modd bynag, fod hyn oll yn cyfeirio yn fwy neillduol at yr ARGLWYDD IESU CRIST, ac mai ynddo ef yn unig y mae yn cael ei lawn gyflawniad: canys, fel y dywed yr apostol, Heb. ii. 6—9, 'nid ydym ni eto yn gwleud pob peth wedi eu darostwng' i *ddyn* yn yr ystyr helaethaf hwn; 'eithr yr ydym ni yn gwleud IESU, yr hwn a wnaed ychydig yn is na'r angylion,' neu yn is am ychydig amser, fel y gallai ddyoddef i'w rholoeth; yr ydym ni yn ei weled ef 'wedi ei goroni â gogoniant ac arnydedd,' a 'phob peth wedi eu darostwng iddo' yn yr ystyr eangaf, trwy fod pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear wedi ei roddi iddo

SALM IX.

CLODFORAF *di*, O Arglwydd, a'm holl galon: mynegaf dy holl ryfeddodau.

2 Llawenychaf a gorfoleddaf ynot: canaf i'th enw di, y Goruchaf.

3 Pan ddychweler fy ngelnyion yn er hol, hwy a gwmpant ac a ddyfethir o'th flaen di.

4 Canys gwnaethost fy marn a'm mater *yn dda*: eisteddaist ar orsedd-faine, gan farnu yn gyfiawn.

yn ei gymeriad cyfryngol, Mat. xxviii. 18. Y mae ein natur ni, ynddo ef, wedi ei dyrchafu yn uwch na'r nefoedd; a bydd i'r holl saint, trwyddo ef, gael eu codi yn uwch nag Adda yn ei gyflwr paradwysaidd: gwneir hwynt, nid 'ychydig is na'r angylion,' ond yn 'gyd-ystad â'r angylion,' Luc xx. 36, os nid yn llawer uwch na hwy.

Adn. 9. *Arglwydd ein Ior*] Gwel ar adn. 1. Fel hyn y mae Dafydd yn diweddu y Salm hon yn yr un geiriau ag y dechreuodd hi, i arwyddo ei fod o hyd yn rhyfeddu' wrth ardderchogrwydd a mawredd enw a gwaith Duw ar y ddaear.

SALM IX. Teitl y Salm hon yw, '*Pr pen-cerdd ar Muth-labben, Salm Dafydd.*' Dywed rhai fod *muth-labben* yn arwyddo yma *offeryn cerdd*; ereill, enw *lôn*. Dywed ereill mai ystyr y gair yw, *ar farwolaeth mab*, trwy yr hyn y cafodd Dafydd ryw waredigaeth, neu yr ennillodd ete ryw fuddugoliaeth; ond pwy oedd y mab hwnw, ni fynegrir. Tybia awdr y *Targum* mai Goliath ydoedd; ereill, mai Nabal; a Gilei, mai Absalom. Dywed *Ainsworth* a *Gill*, fod y Salm hon yn cyfeirio at ddinystyr anghrist, fel yr oedd yr un flaenorol at ledaeniad teyrnas Crist; ac amrai o'r *Tadua* a'i deonglant hi am gnawdoliaeth Crist. Y teitl yn yr *Arabaeg* yw, 'Am ddirgelwch y Mab, gogoniant Crist, ei adgyfodiad, ei frenhiniaeth, a dinystyr yr holl rai anafydd.' Yn y *Syriaeg*, 'Salm Dafydd, am Grist yn derbyn ei orsedd a'i frenhiniaeth, ac yn baedda ei elynion.'

Adn. 1. *Clodforaf di*, O Arglwydd, *a'm holl galon*] Ac nid a'm gwefusau yn unig, neu mewn modd oeraidd i rhagritheil; *mynegaf dy holl ryfeddodau*—Heb., 'dy holl *wyrthiau*,' neu gyfryngiadau goruchwatoriol dy allu a'th ddaioni.

Adn. 2. *Llawenychaf a gorfoleddaf ynot*] O herwydd y cymorth neu y waredigaeth a estynasai y Goruchaf iddo; *canaf i'th enw di*—canaf foliant i ti, trwy gyfansoddi Salm yn gyntaf, ac yna ei datganu.

Adn. 3. *Pan ddychweler fy ngelnyion yn eu hol*] Yn nydd y frwydr; *hwy a gwmpant ac a ddyfethir o'th flaen di*—yr hwn wyt y prif achos o'r fuddugoliaeth arnynt. Y mae rhai yn darllen hon yn yr amser gorphenol.

5 Ceryddaist y cenedloedd, dystrywiaist yr annuwiol; eu henw hwynt a ddileiaist byth bythol.

6 Ha elyn! darfu am ddinystyr yn dragywydd: adiwreiddiaist y dinasoedd; darfu eu coffadwriaeth gyda hwynt.

7 Ond yr Arglwydd a bery yn dragywydd: efe a barotôdd ei orseddfaine i farn.

8 Ac efe a farn y byd mewn cyf-iawnder: efe a farn y bobloedd mewn uniondeb.

9 Yr Arglwydd hefyd fydd noddfa i'r gorthrymedig, noddfa yn amser tralod.

10 A'r rhai a adwaenant dy enw,

a ymddiriedant ynot: canys ni adewiaist, O Arglwydd, y rhai a'th geisient.

11 Canmolwch yr Arglwydd, yr hwn sydd yn preswlyo yn Seion: mynegwch yn msg y bobloedd ei weithredoedd ef.

12 Pan ymofyno efe am waed, efe a'u cofia hwynt: nid anghofia waedd y cystuddiol.

13 Trugarha wrthyf, Arglwydd; gwel fy mlinder gan fy nghaseion, fy Nyrchafydd o byrth angau.

14 Fel y mynegwyf dy holl foliant yn mhyrth merch Seion: llawenyachaf yn dy iachawdwriaeth.

15 Y cenedloedd a soddasant yn

Adn. 4. *Canys gwnaethost fy marn a'm mater yn ddu*] Yn amlwg i bawb, trwy fload, cwmp, a dinystr fy ngelynyon, adn. 3: *eist-ddaist ar orseddfaine*—fel barnwr goruchel; *gan farnu yn gyfiawn*—gan goudemnio fy ngelynyon diachos, a'm hamddiffyn inau y dietuog.

Adn. 5. *Ceryddaist y cenedloedd*] Sef y Philistiaid, yr Anoriaid, a phobloedd ereill o dro i dro yn amser Dafydd; a'r paganiaid eilunaddolgar, trwy bregethiad yr efengyl, dan yr orchwyliaeth hon. *Dystrywiaist yr annuwiol*—tybia rhai fod yma gyfeiriad at Agag, Goliath, neu Saul; a thybia ereill mai at allu Rhufain baganaidd y cyfeirir: ond fe allai mai ymddygiad cyffredinol Duw tuag at bob un annuwiol a olygir. *Eu henw hwynt a ddileiaist byth bythol*—eu clod a'u gogoniant, neu y goffadwriaeth am danant. *Gwnaed hyn â llawer o'r hen genhedloedd, gelynyon Dafydd; a gwneir hyn yn y man â holl elynion Crist.*

Adn. 6. *Ha elyn!*] Iaith o ymorfoleddiad; *darfu am ddinystyr yn dragywydd*—y mae dy allu i ddinystrio pobl yr Arglwydd ar ben am byth. *A diwreiddiaist y dinasoedd*—sef llawer o ddinasoedd Israel o dro i dro. *Neu fe allai mai wrth Dduw y dywedir hyn mewn gorfolodd a diolchgarwch, yr hwn â ddiwreiddiasai ddinasoedd a choffadwriaeth llawer o elynion y saint.*

Adn. 7. *Ond yr Arglwydd a bery yn dragywydd*] Er i ddinasoedd a phobloedd gael eu dyfetha, y mae yr Arglwydd yn parhau yr un o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb; *efe a barotôdd ei orseddfaine i farn*—er y gall ymddangos fel yn oedi ei chyflawni.

Adn. 8. *Ac efe a farn y byd*] Nid yn unig chwychwi, gelynyon ei saint, ond holl bobloedd y ddaear hefyd, y da a'r drwg; *mewn uniondeb*—gan dalu i bob un, yn y dydd olaf, yn ol ei weithredoedd.

Adn. 9. *Yr Arglwydd hefyd sydd noddfa i'r gorthrymedig*] Bydd iddo nid yn unig farnu y byd mewn cyfiawnder yn y dydd diweddaf, ond hefyd noddi ei bobl yn mhob amser o dralod yn y byd hwn.

Adn. 10. *A'r rhai a adwaenant dy enw*]

Y rhai sydd yn gwybod rhywbeth trwy brofiad am allu, doethineb, daioni, a fyddlondeb Duw; *a ymddiriedant ynot*—am ddiogelwch a chynaliaeth amserol a thragywyddol. *Felly nid oedd y 'gwas drwg a diog' hwnu yn 'adnabod' Duw, fel yr haerai ei fod, Mat. xxv. 24, 25; onid ni fuasai yn ei ofni ef fel 'gwr caled,' eithr yn ymddiried ynddo. *Canys ni adewiaist, O Arglwydd, y rhai a'th geisient*—sef y rhai a geisient noddod ac amddiffyniad ganddo trwy weddi daer a fyddiog.*

Adn. 11. *Canmolwch yr Arglwydd*] Am ei ddaioni; neu 'cenwech fawl' iddo, fel y mae yn y Saesonaeg; *yr hwn sydd yn preswlyo yn Seion*—yn mynydd Seion, pa un oedd yn gysgod o'i eglwys, lle y mae efe yn cyfarfod â'i bobl o hyd, i dderbyn eu mawl a'u gweddi, ac i fendithio en beneidiau. *Mynegwch yn msg y bobloedd*—nid yn unig yn msg eich brodyr crefyddol, ond hefyd yn msg paganiaid y byd; *ei weithredoedd ef*—sef gweithredoedd ei ragluniaeth: a'i ras, fel y delont hwythau hefyd i'w adnabod a'i addoli.

Adn. 12. *Pan ymofyno efe am waed*] Am waed ei bobl oddiar ddwyllaw y rhai a'i tywalltasant; *efe a'u cofia hwynt*—sef y gwyr gwaedlyd hyny, i'w cospi; neu efe a gofia ei bobl, i ddial eu gwaed hwynt: *nid anghofia waedd y cystuddiol*—er y gall ymddangos fel yn hir oedi drostynt, Luc xviii. 7, 8.

Adn. 13. *Trugarha wrthyf, Arglwydd*] Tueddwyd Dafydd i waeddi fel hyn gan yr ystiriaeth o'r hyn a ddywedasai efe ddiweddaf: *gwel fy mlinder gan fy nghaseion*—y rhai sydd yn sychedu am fy ngwaed; *fy Nyrchafydd o byrth angau*—yr hwn yn unig a'm cedwaist yn fyw hyd yma, ac a elli fy llwyr waredu o'm perygl presenol.

Adn. 14. *Fel y mynegwyf dy holl foliant yn mhyrth merch Seion*] I ddinasyddion Seion, y rhai a ddeuant i byrth Seion i'th addoli. Y mae efe yma yn gwrthgyferbynu pyrth Seion i byrth angau yn yr adnod flaenorol; ac yn tystio, os bydd iddo gael ei waredu rhag y rhai olaf, yr â efe i foliannu Duw i'r rhai blaenaf. *Llawenyachaf yn dy iachawdwriaeth*—sef yn ngwaredigaeth ei gorff o byrth

y ffios a wnaethant : yn y rhwyd a guddiasant, y daliwyd eu troed eu hun.

16 Adwaenir yr Arglwydd wrth y farn a wna : yr annuwiol a faglywyd yn ngweithredoedd ei ddwyllaw ei hun. Higgsaion; Selah.

17 Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern, a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw.

18 Canys nid anghofir y tylawd byth : gobaiith y trueiniaid ni chollir byth.

19 Cyfod, Arglwydd ; na orfydd-

ed dyn : barnier y cenhedloedd ger dy fron di.

20 Gosod, Arglwydd, ofn arnynt : fel y gwybyddo y cenhedloedd mai dynion ydynt. Selah.

SALM X.

PAHAM, Arglwydd, y sefi o bell? yr ymguddi yn amser cyfyngder?

2 Yr annuwiol mewn balchder a erlid y tylawd : dalier hwynt yn y bwriadau a ddychymygasant.

angau, yn gystal ag yn iachawdwriaeth ei enaid yn mlyrth Seion, neu rhag pyrth uffern.

Adn. 15. *Y cenhedloedd a soddasant yn y ffios a wnaethant*] Goddiweddyd hwynt gan y dinvstr a fwriadasant i ereill : gwel ar Salm vii. 15, 16.

Adn. 16. *Adwaenir yr Arglwydd wrth y farn a wna*] Ei fod yn ddech na'i holl elynion ; neu bydd i'r farn a weynydda efe fod yn gyfryw nad allai neb ond Duw ei gwneuthur. *Yr annuwiol a faglywyd yn ngweithredoedd ei ddwyllaw ei hun*—yn y ffios neu y rhwyd a weithiodd efe i ddal ereill, adn. 15. *Higgsaion*—'myfyriwch ar hyn : selah—'sylwch yn fanwl arno :—gwel CLARKE. Ond tybia MUDGE ac ereill fod y ddau air hyn yn cael eu bwriadu fel cyfarwyddyd i'r cantorion ; fod y cyntaf yn arwyddo gostyngiad neu arafiad y llais, a'r olaf ei ddyrchafiad : gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 17. *Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern*] 'Yr bedd.'—VULGATE. 'I hades,' neu 'jystad y meirw.'—LXX. Ond ymddengys i mi mai nid y bedd neu farwolaeth a feddylir yma, am fod y duwilion i ymchwelyd yno yn gystal a'r rhai drygionus. *A'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw*—hyny yw, ymchwelant hwythau i uffern yn gystal a'r drygionus. Dichon fod y rhai cyntaf yn golygu pechaduriaid gweithredol, neu droseddwy'r ymarferol o gyfraith Duw ; a bod y rhai olaf yn golygu annuwiolion yn gyffredinol, neu droseddwy'r mewn ystyr gommeddol ; hyny yw, dynion anystyriol o Dduw a'i grefydd, o'i weithredoedd a'i hawlian, o'i addewidion a'i fgythion : gwel ar Salm i. 1.

Adn. 18. *Canys nid anghofir y tylawd byth*] Neu yn barhaus. Er y gall Duw ymdangos am dro fel yn ddisylw o'r tylodion duwiol, neu fel pe byddai wedi eu hannghofio, trwy adael i'w gelynyon eu baeddu ; eto, nid felly y bydd o hyd. *Gobaiith y trueiniaid*—am ymwared oddiwrth yr Arglwydd, ni chollir byth—eithr hwy a gânt yn y diwedd fil mwy nag a ddysgwyliasant am dano, neu a feddylasant ei fod yn gyraeddadwy.

Adn. 19. *Cyfod, Arglwydd*] I amddiffyn dy drueiniaid ; na orfydded dyn—na fydded i 'ddyn gwael, brau, a marwol,' ymddangos fel pe byddai yn gryfach na'r Hollalluog : barnier y cenhedloedd ger dy fron di—neu

geuyt ti, am yr holl anfrï a ddangosasant i ti, a'r niwed a wnaethant i'th bobl.

Adn. 20. *Gosod, Arglwydd, ofn arnynt*] Darostwng di eu hysbryd balch, trahaus, a chreulon, fel yr ofnont rhag dy farnedigaethau ; fel y gwybyddo y cenhedloedd mai dynion ydynt—*enosh*, 'dynion egwan, brau, a marwol,' ac felly yn analluog i'th wrthsefyll di, y Duw anfeidrol a hollalluog. Ond y mae yr holl hen gyfieithiadau, oddieithr y *Coldeidd*, yn darllen yma *dysgawdwr* neu *ddeddfwr*, yn lle *ofn*. Yr ystyr felly fyddai, Gosod athraw yn mysg y cenhedloedd, fel y gwybyddont eu bod yn greaduriaid moesol a chyfrifol, ac mewn angen am iachawdwriaeth, ac fel y gallont gael eu parotol trwy ras i gyflwr o dragwyddol wynfyd.

SALM X. Nid oes deitl i'r Salm hon, na sicrwydd mawr pwy yw ei hawdwr, nac ar ba achlysur y cyfansoddwyd hi. Ond y mae gan y rabbiniaid reol, fod pob Salm nad oes deitl iddi, i gael ei phriodoli i'r awdwr a gyfansoddodd y Salm flaenorol ; ac felly y mae v LXX a'r VULGATE yn ei chysylltu â'r nawfed Salm, gan wneyd y ddwy yn un ; ac felly hefyd y mae mewn pedwar o ysgriflyfrau Kennicott a De Rossi. Y farn gyffredin yw, mai Dafydd a'i cyfansoddodd ; er y tybia rhai ddarfod ei chyfansoddi tuag amser y dychweliad o Babilon, yn mhen mwy na phedwar cant o flynyddoedd ar ol amser Dafydd ; a bod ynddi gyfeiriad at *Sanbat*, a gelynyon ereill yr Iuddewon. Arddanghosir Duw yma fel yn sefyll o bell, yn edrych ar orthrymder ei bobl, ac eto fel pe byddai yn anystyriol o hono.

Adn. 1. *Paham, Arglwydd, y sefi o bell*] Fel pe byddit yn ddiystyr o'r amharch a ddanghosir i ti, neu o'r niwed a wneir i'th bobl? *Yr ymguddi yn amser cyfyngder*—fel pe byddai arnat ofn y gelyn?

Adn. 2. *Yr annuwiol mewn balchder a erlid y tylawd*] Os Dafydd yw awdwr y Salm hon, gall ei fod yn cyfeirio at *Saul* ; ond os tuag amser y dychweliad o Babilon yr ysgrifenywyd hi, gall mai *Sanbat* a'i frodyr a feddylir : gwel uchod. Neu dichon y gellir edrych ar y dysgrifiad a roddir yn y Salm hon fel yn gosod allan ymddygiad cyffredin annuwiolion beilchion a fyddont mewn awdurdod neu fyddiant. *Dalier hwynt yn y*

3 Canys yr annuwiol a ymfrostia am ewyllys ei galon; ac a fendithia y cybydd, yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ffeiddio.

4 Yr annuwiol, gan uchder ei ffroen, ni chais *Dduw*: nid yw *Duw* yn ei holl feddyliau ef.

5 Ei ffyrdd sydd ffin bob amser; uchel yw dy farnedigaethau allan o'i olwg ef: chwythu y mae yn erbyn ei holl elynion.

6 Dywedodd yn ei galon, *Ni'm symudir*: o herwyddni byddaf mewn drygfyd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

7 Ei enau sydd yn llawn mellidith, a dichell, a thwyll: dan ei dafod y mae camwedd ac anwiredd.

8 Y mae efe yn eistedd yn nghyn-

llwynfa y pentrefi: mewn cilfachau y lladd efe y gwirion: ei lygaid a dremiant yn ddirgel ar y tylawd.

9 Efe a gynllwyna mewn dirgelwch megys llew yn ei ffau: cynllwyn y mae i ddal y tylawd: efe a ddeil y tylawd, gan ei dynu i'w rwyd.

10 Efe a ymgyrma, ac a ymostwng, fel y cwympo tyrfa trueiniaid gan ei gedyrn ef.

11 Dywedodd yn ei galon, *Anghofiodd Duw*: cuddiodd ei wyneb; ni wel byth.

12 Cyfod, Arglwydd; O *Dduw*, dyrcha dy law: nac anghofia y cystuddiol.

13 Paham y dirmyga yr annuwiol *Dduw*? dywedodd yn ei galon, Nid ymfofni.

bwriadau a ddychymygasant—i faglu ereill, neu yn eu rhywiau eu hunain: gwel ar Salm vii. 15, 16.

Adn. 3. *Canys yr annuwiol a ymfrostia am ewyllys ei galon*! Yn ei ddrygioni, neu draclwant ei enaid ei hun; ac a fendithia y cybydd—a gannola ddyn o'r un aniap ddrygionus ag ef ei hun; yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ffeiddio—fel eilunaddolwr, Eph. v. 5. Ond y mae rhai cyfeithiaid yn ei ddarllen, 'Y cybydd a'i bendithia ei hun, ac a ffeiddia yr Arglwydd'; ac ereill, 'Y cybydd a ymfendithia yn y pethau ag y mae yr Arglwydd yn eu ffeiddio.'

Adn. 4. *Yr annuwiol, gan uchder ei ffroen, ni chais Dduw*! Ni weddia arno am ei gyfarwyddyd, ei amddiffyniad, na'i ras: nid yw *Duw* yn ei holl feddyliau ef—nid yw yn meddwl am *Dduw* mwy na plie na buasai yn bodoli, trwy fod y byd a'i bethau yn llenwi ei holl feddwl a'i ffyrddod. Nea, fel y gellir ei gyfeithu, 'Ei holl feddyliau yw, Nid oes *Duw*!'

Adn. 5. *Ei ffyrdd sydd ffin bob amser*! I bawb yn agos ato: uchel yw dy farnedigaethau allan o'i olwg ef—naill ai deddfau *Daw*, y rhai a hawlient uffydd-dod ganddo; neu ynte ei fygythion a'i gospan ef, fel pe na buasent byth i ddisgyn arno: *chwythu y mae*—fygythion a chelaneddau, yn erbyn ei holl elynion—os tybia efe fod rhywair yn elynion iddo, efe a geisia eu dyfetha, heb ofni *Daw* na pharchu dyn.

Adn. 6. *Dywedodd yn ei galon, Ni'm symudir*! O'm hawdardod a'm llwyddiant presenol; ni byddaf mewn drygfyd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth—ni ddaw drygfyd i'm cyfarfod i na'm hiliogaeth byth. Y mae hyn yn ddarluniad cywir o *Saul*, yr hwn a dybiai y cai ef a'i hiliogaeth barhau yn y ffeiniaeth trwy yr holl genedlaethau.

Adn. 7. *Ei enau sydd yn llawn mellidith, a dichell, a thwyll*! Darluniad cywir o ddyu yn ei gyflwr natur: gwel ar Rhuf. iii. 13, 14. Yr oedd *Saul* yn anaf yn mellidithio neu yn

rhagi Dafydd yn ei absenoldeb; ac yn arfer dichell, twyll, a gweniaith, yn ei wyneb; a thybia rhai mai at hyn y cyfeirir yma. *Dan ei dafod y mae camwedd ac anwiredd*—yn barod i'w fwrw allan, fel gwenwyn aspiaid, gyda phob brathiad: gwel ar Salm xli. 3.

Adn. 8. *Y mae efe yn eistedd yn nghynllwynfa y pentrefydd*! Y mae yn llechu yn ddirgel yn y ffyrdd ag sydd yn arwain i'r pentrefi: mewn cilfachau y lladd efe y gwirion—lle y gobeithia allu dianc rhag sylw dynion, ac ysgoi eu gwarthrudd nen eu cosp hwy: ei lygaid a dremiant yn ddirgel ar y tylawd—sef ar y dwielo diamddiffyn, fel y tremia lleidr ar y cyfoethog pan fyddo ar fedr ei yspeillio ef.

Adn. 9. *Efe a gynllwyna mewn dirgelwch megys llew yn ei ffau*! I ddal y tylawd yn ddiarwybod iddo, a'i larpio.

Adn. 10. *Efe a ymgyrma ac a ymostwng*! Yr un modd ag y gwna llew cyn neidio ar ei ysglyfaeth: fel y cwympo tyrfa trueiniaid—*Saes*, 'fel y cwympo y tylawd'; gan ei gedyrn ef—gan ei balfau a'i ddannedd cedyrn.

Adn. 11. *Dywedodd yn ei galon, Anghofiodd Duw*! Ofalu am ei bobl; cuddiodd ei wyneb—rhagddynt; ni wel byth—y bwriad a lunir i'w herbyn, neu y niwed a weir iddynt. Felly yr oedd *Saul* yn meddwl y cai ef wneyd fel y mynai â Dafydd, heb i *Dduw* sylwi arno, neu ei alw i gyfrif; ac yr oedd *Sanbalat* hefyd yn meddwl fod *Duw* wedi gadael ei bobl am byth.

Adn. 12. *Cyfod, Arglwydd*! I amddiffyn dy bobl dy hun; dyrcha dy law—i ddychrynu neu daro eu gelynyon hwy: nac anghofia y cystuddiol—dy bobl gystuddiedig yn eu cyfyngder presenol.

Adn. 13. *Paham y dirmyga yr annuwiol Dduw*?! Paham yr wyt ti, wrth beidio ei gopsi, yn rhoddi achlysur iddo i'aman dy fod-aeth, adn. 4, neu i ddbrisio dy ddeddfau, a gwadu dy ofal rhagluniaethol am dy bobl gystuddiedig? *Dywedodd yn ei galon*—wrth weled dy fod yn ymguddio yn amaer cyfyng-

14 Gwelaist hyn; canys ti a ganfyddi anwiredd a cham, i roddi tâl â' th ddwyllaw dy huu; arnat ti y gedy y tylawd; ti yw cynorthwywr yr amddifad.

15 Tor fraich yr annuwiol a'r drygionus: cais ei ddrygioni ef hyd na chaffech ddim.

16 Yr Arglwydd sydd Frenin byth ac yn dragwydd: dyfethwyd y cenhedloedd allan o'i dir ef.

17 Arglwydd, clywaist ddymuniaid y tylodion: parotô ei calon hwynt, gwrendy dy glust arnynt;

18 I farnu yr amddifad a'r gorthrymedig, fel na chwaneo dyn daearol beri ofn mwych.

der, adn. 1; *Nid ygyfyni*—na fydd i ti ei alw ef i gyfrif am un o'i weithredoedd.

Adn. 14. *Gwelaist hyn*] Er iddo ef feddwl i'r gwrthwyneb; *canys ti a ganfyddi anwiredd a cham*—gan bwy bynag ei gwneir, ac er ei wneuthur yn y modd dirgelaf; *i roddi tâl â' th ddwyllaw dy huu*—am bob gweithred ryfgyus ac ysgeler a wnelar gan orthrymwr dy bool. *Arnat ti y gedy y tylawd*—i' th law di yr ymddirieda efe ei achos; *ti yw cynorthwywr yr amddifad*—yr hwn na fedd neb arall i'w amddiffyn, na gofalu am dano.

Adn. 15. *Tor fraich yr annuwiol a'r drygionus*] Sef offeryn ei drais a'i greulondeb; hyn yw, amddifada ef o bob gallu i wneuthur drwg. *Cais ei ddrygioni ef*—i'w gopsi neu ei ddisodi; *hyd oni chaffech ddim*—drygioni ynddo. Neu, 'parha i farnu a chospi trosedd-wyr, hyd oni byddont oll wedi darfog o'r tir.' Y mae yr ystyr hwn yn cysoni yn dda â'r adnod nesaf. Gellir ystyried y geiriau naill ai fel gweddi am i hyn y gymeryd lle, neu ynte fel rhagfynegiad fod amser yn dyfod pryd y bydd i'r Goruchaf lwyrr ddiddymu nerth ei elynion, trwy eu dinystrio hwy neu eu pechodau.

Adn. 16. *Yr Arglwydd sydd Frenin byth ac yn dragwydd*] Ac am hyny iddo ef y perthyn amddiffyn ei ddeiliaid: *dyfethwyd y cenhedloedd allan o'i dir ef*—sef y saith genedl Ganaaneaidd, a llyny trwy eu troi allan o Ganaan, eu tori ymaith trwy y cleddyf, dyfetha eu nerth, neu eu dychwelyd at y grefydd Iuddewig: ac yr oedd yr ystyriaeth o'r hyn a wnaethai Duw eisioes yn rhoddi sail i'r Salmydd obehithio ynddo ef rhagllaw.

Adn. 17. *Arglwydd, clywaist ddymuniaid y tylodion*] Yn yr amser gynt, ac feily ti a'i clywi neu a'i gwrandewi yn yr amser a ddaw, gan dy fod yr un o hyd: *parotô ei calon hwynt*—i lefain arnat, neu i dderbyn atebiad odhwrthlyt; *gwrendy dy glust arnynt*—bob amser, er y gelli ymddangos fel yn sefyll o bell, neu yn ymguddio mewn amser o gyfyngder, adn. 1.

Adn. 18. *I farnu yr amddifad a'r gorthrymedig*] I'w hamddiffyn hwynt, a chospi

SALM XI.

YN yr Arglwydd yr wyf yn ymddiried: pa fodd y dywedwch wrth fy enaid, Ehedu i'ch mynydd fel aderyn?

2 Canys wele, y drygionus a annelant fwa, parotoisant eu saethau ar y llynyn; i saethu yn ddirgel y rhai uniawn o galon.

3 Canys y seiliau a ddinystriwyd, pa beth a wna y cyfiawn?

4 Yr Arglwydd sydd yn nheml ei santeiddrwydd; gorsedda yr Arglwydd sydd yn y nefoedd: y mae ei lygaid ef yn gwelod, ei amrantau yn profi meibion dynion.

eu gorthrymwr; *fel na chwaneo dyn daearol*—dyn brau a marwol, er fod ei awurdod a'i ddylaowad yn fawr; *beri ofn mwych*—beri i'r amddifad ofni; ond yn byrach fod iddo ef ei hun ofni neu deimlo dy ddaledd di. Tybia rhai mai at *Salmaneser*, brenin Assyria, y cyfeirir yn y Salm hon: gwel ar 2 Bren. xvii. 3, &c.

SALM XI. Teitl y Salm hon yw, '*I'r pencerdd, Salm Dafydd*;' hyn yw, i'w ofal, neu at ei wasanaeth ef, yr hwn oedd *arweinydd y côr*; neu '*i'r gorchfugwr*,' fel y mae rhai yn ei ddeall. Y dyb gyffredin yw, ddarfog i Dafydd gyfansoddi y Salm hon pan yn cael ei erlid gan Saul.

Adn. 1. *Yn yr Arglwydd yr wyf yn ymddiried*] Yn ei addeiwion a'i ffyddlondeb ef, ac nid yn amddiffynfedd neu ogofau y mynyddoedd. *Pa fodd y dywedwch wrth fy enaid*—yn ngwyneb hyny, *Ehedu i'ch mynydd*—i ymguddio yno rhag cynyddaredd Saul; *fel aderyn*—mor gyflym ag aderyn, neu fel y ffoa aderyn rhag yr heliwr?

Adn. 2. *Canys wele, y drygionus a annelant fwa, &c.*] I dy saethu a' th ladd, fel lladd aderyn. Hon yw iaith cyfeillion Dafydd, i'w annog i ffoi rhag Saul a'i wŷr.

Adn. 3. *Canys y seiliau a ddinystriwyd*] Sef seiliau crefydd, rhinwedd, a chyfiawnder; *pa beth a wna y cyfiawn*—am ddiogelwch bellach? Hyn hefyd sydd barhad o eiriau cyfeillion Dafydd, i'r rhai yr ystyb efo yn yr adnodau nesaf. Tybia *Kimchi* fod y 'seiliau' uchod yn cyfeirio at yr *offeiriad* a laddwyd gan Doeg wrth orchymyn Saul, (1 Sam. xxii. 18,) y rhai fel *seiliau* a gynalient grefydd, gwybodaeth, a gwirionedd yn y wlad.

Adn. 4. *Yr Arglwydd sydd yn nheml ei santeiddrwydd*] Fel pe dywedasai Dafydd mewn atebiad i'w gyfeillion, Er fod yr offeiriad wedi eu lladd, eto y mae y Duw a wasanaethent hwy yn fyw fyth; ac y mae i'w gael o hyd yn ei *babell*, lle y gosododd efe goffadwriaeth o'i enw, er nad addawodd efe gyfarfod â mi ar y 'mynydd,' adn. 1. *Gorsedda yr Arglwydd sydd yn y nefoedd*—yn

5 Yr Arglwydd a brawf y cyfiawn: eithr cās gan ei onaid ef y drygionus, a'r hwn sydd hoff ganddo drawsder.

6 Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus: *dyma* ran eu phiol hwynt.

7 Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder: ei wyneb a edrych ar yr uniawn.

SALM XII.

ACHUB, Arglwydd; canys darfu y trugarog: o herwydd pallodd

mhell uwchlaw gorseddaf y brenin uwchaf a chryfaf ar y ddaear. *Y mae ei lygaid ef yn gweld*—holl feddyliau calon dyn, yn gystal a'i weithredoedd oddiall; *ei amrantau yn profi meibion dynion*—ac felly gŵyr i berffeihrwydd pa beth yw cyflwr ac amcanion pawb.

Adn. 5. *Yr Arglwydd a brawf y cyfiawn*] A brawf ei flyddlondeb a'i grefydd ef, trwy adael iddo gyfarfod â thralodau ac erledigaethau, fel yn achos Dafydd y pryd hyn; ac efe a'i prawf ef felly, nid o gasineb ato, eithr i'r dyben i roddi iddo, trwy ei waredigaethau, amlygiadau llawnach o'i gariad ato, a'i buro yn fwy i'w wasanaethu ei hun. *Eithr cās gan ei enaid ef y drygionus*—hyn yw, cās i'r graddau eithaf, fel y gwelir isod; *a'r hwn sydd hoff ganddo drawsder*—neu *drais*, sef un a fyddo yn sychedu ama waed ei gymydog, fel yr oedd Saul am waed Dafydd.

Adn. 6. *Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau*] Rhyw farnedigaethau angeuol disymwth, rhag y rhai nis gallant ddianc mwy nag aderyn o'r fagl. *Tân a brwmstan*—mewn cyfeiriad at y tân a'r brwmstan a wlawiodd yr Arglwydd ar Sodoma a Gomorra, Gen. xix. 24. *A phoethwynt ystormus*—y fath ag a ganlynai y tân a'r brwmstan yn ninestr y Sodomaiaid, i'w henyn hwynt yn fwy effeithiol; neu gall fod yma gyfeiriad at boethwynt dinystriol Arabia, a elwir *Sinoom*, yr hwn sydd fel ager oddiwrth ddwfr berwedig. *Dyma ran eu phiol hwynt*—sef cynnysiad eu phiol, neu y phiol ag y bydd eu rhan i yfed o honi byth, am iddynt hwy yfed o phiol pechod yn eu bywyd, gan wrthod phiol iachawdwriaeth. Ymddengys fod hyn yn cael ei fwrriadu yma i osod allan gosp dragwyddol yr annuwiolion yn utlern, yn bytrach na'u tralodau yn y byd hwn, yr hon a ddechreuaf fel hyn ddydd y fern, Dat. xx. 9, 10. Mahomet, wrth ddarlunio ei uffern ef, a ddywed: 'Ni chaiff y rhai drygionus yfed dim yno ond dwfr poeth drewedig; nac anallu dim ond poeth-wyntoedd; na bwyta dim ond ffrwyth y pren *zukon*, yr hwn a fydd yn eu hymysgaroedd fel pŷg berwedig.'

Adn. 7. *Canys yr Arglwydd cyfiawn*] Yr hwn sydd yn aufeiddrol gyfiawn ynddo ei hun;

y flyddloniaid o blith meibion dynion.

2 Oferedd a ddywedant bob un wrth ei gymydog: *â* gwefus wenieithgar, *ac â* chalon ddau-ddyblyg, y llefarant.

3 Tored yr Arglwydd yr holl wefusau gwenieithus, a'r tafod a ddywedo fawrhydri.

4 Y rhai a ddywedant, A'n tafod y gorfyddwn; ein gwefusau *sydd* eiddom ni: pwy *sydd* arglwydd arnom ni?

5 O herwydd anrhaith y rhai cystuddiedig, o herwydd uchenaid

a gâr gyfiawnder—yr hwn yw ei ddelw ef wedi ei hargraflu ar y cyfiawntion gan ei Ysbryd ei hun. Crybwyllir hyn fel rheswm pahan y cospa Duw y drygionus mor ofnadwy; canys rhaid ei fod ef yn casâu aanghyfiawnder i'r un graddau ag y câr efe gyfiawnder; ac am hyn yw efe a ddenys ei gasineb ato yn ngwydd yr holl fydoedd, trwy gospi felly y sawl a fyddont byw a marw yn y cyfiawntion o hono. *Ei wyneb a edrych ar yr uniawn*—gyda boddlonrwydd a hostifer: ac efe a edrych arnynt felly yn eu holl brofedigaethau ar y ddaear, ac am byth yn y nef.

SALM XII. Teitl y Salm hon yw, '*I'r pencerdd ar Seminit, Salm Dafydd*.' Gwel deitl Salm vi. Tybia rhai fod Dafydd yn cyfeirio yma at y llygredd a ffinai yn llys Saul; ac yn neillduol at Doeg a'r Ziphiaid bradwrus, y rhai a broffesent fod yn gyfeillion i Dafydd, i'r dyben i allu ei draddodi ef i ddwyllaw Saul.

Adn. 1. *Achub, Arglwydd*] Y mae Dafydd yn gweddio yma naill ai am achubiaeth i'r wlad oddiwrth yr annuwioldeb a ffinai ynddi, neu ynte am waredigaeth iddo ei hun oddiwrth gyfrwysdra a chynddaredd ei elynion. *Canys darfu y trugarog*—o'r wlad; *o herwydd pallodd y flyddloniaid o blith meibion dynion*—y mae dynion yn gyffredin wedi syrthio nid yn unig oddiwrth weithredoedd o drugaredd a thiriondeb, ond hefyd oddiwrth wirionedd a flyddlondeb yn eu hymadroddion a'u hymddygiadau.

Adn. 2. *Oferedd*] Neu 'gelwydd,' a ddywedant bob un wrth ei gymydog; *â* gwefus wenieithgar—neu wefus fials a rhagrithiol, y llefarant; *ac â* chalon *ddau-ddyblyg*—Heb., 'â chalon a chalon,' un galon yn llefaru geiriau tég wrth ei gymydog, a'r llall yn llunio rhyw ddrwg iddo ar yr un pryd.

Adn. 3. *Tored yr Arglwydd yr holl wefusau gwenieithus*] Sef y dynion fials a ddywedant un peth, tra yn meddwl peth arall; *a'r tafod a ddywedo fawrhydri*—neu a firostia bethau mawrin a chwyddedig. Saes., 'Yr Arglwydd a dŷr,' &c.

Adn. 4. *Y rhai a ddywedant, A'n tafod y gorfyddwn*] Neu yr ennillw fuddugoliaeth ar ein gwrthwynebwyr, trwy godi rhyw gelwydd

y tylodion, y cyfodaf yn awr, (medd yr Arglwydd,) rhoddaf mewn iachawdwriaeth yr hwn y magler iddo.

6 Geiriau yr Arglwydd ydynt eiriau purion; *fel arian wedi ei goethi* mewn ffwrn bridd, wedi ei buro seithwaith.

7 Ti, Arglwydd, a'u cedwi hwynt: cedwi hwynt rhag y genhedlaeth hon yn dragywydd.

8 Yr annuwiolion a rodiant o amgylch, pan ddyrchafer y gwaelaf o feibion dynion.

arynt, neu daenu rhyw chwedl ddrwg am danant. *Ein gwefusau sydd eiddom ni*—i lefaru â hwynt y peth a fynom. *Pwy sydd arglwydd arnom ni?*—gan bwy y mae hawl i'n galw ni i gytrif am ddim a ddywedom?

Adn. 5. *O herwydd anrhaith y rhai cystuddiedig* Hyny yw, o herwydd fod fy mhobl gystuddiedig a thylodion yn cael eu hanrheithio fel hyn gan eu gelynlion, ac yn ocheneidio dan eu gorthrwm; *y cyfodaf yn awr, medd yr Arglwydd*—i'w gwaredu hwynt: *rhoddaf mewn iachawdwriaeth yr hwn y magler iddo*—paraf i'r fagl gael ei thori, ac iddo yntau allu dianc.

Adn. 6. *Geiriau yr Arglwydd ydynt eiriau purion* Neu bur, heb y cymysgedd lleiaf o dwyl ynddynt; ac am hyny caiff ei addewidion ef eu cyflawni oll; *fel arian wedi ei goethi mewn ffwrn bridd*—yr hwn na byddo dim sothach neu amnhuredd ynddo; *wedi ei buro seithwaith*—hyny yw, wedi ei buro i'r perffieithrwydd mwyaf.

Adn. 7. *Ti, Arglwydd, a'u cedwi hwynt* A gedwi dy bobl; neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, a gedwi dy eiriau, neu dy addewidion iddynt. *Cedwi hwynt*—neu 'cedwi ni,' fel y mae amrai ysgriflyfrau yn ei ddarllen, yn nghyda'r LXX, y Vulgate, a'r Abaraeg; *rhag y genhedlaeth hon yn dragywydd*—rhag cael eu twylo ganddynt trwy fraid, na'u llethu ganddynt trwy ormes.

Adn. 8. *Yr annuwiolion a rodiant o amgylch* Yn ben-uchel a hyf, gan lygru a drygu ereill fel ellyllon a bleiddiaid; *pan ddyrchafer y gwaelaf o feibion dynion*—pan y mae gwheilion y bobl yn cael eu dyrchafu i swyddau uchel, ac i lawredd ac awdurdod yn y deyrnas. Yn nyddiau diweddf Saul, drygioni oedd y fiordd i anrhydedd, a dynion da a erlidid, fel y gwelwn yn achos Doeg ac ereill.

SALM XIII. Teitl y Saltn hon yw, '*Pr pencerdd, Salm Dafydd.*' Tybia Theodoret i Dafydd ei hysgrifenu pan yn ffoi rhag ei fab Absalom.

Adn. 1. *Pa hyd, Arglwydd, y'm hannghofi?* Neu yr ymddygi tuag ataf fel pe byddit yn fy annghofio? *ai yn dragywydd?*—ai dros holl ystod fy mywyd? *Pa hyd y*

SALM XIII.

Pa hyd, Arglwydd, y'm hannghofi? *ai yn dragywydd?* pa hyd y cuddi dy wyneb rhagof?

2 Pa hyd y cymeraf gynghorion yn fy enaid, *gan fod* blinder beuydd yn fy nghalon? pa hyd y dyrcheffir fy ngelyn arnaf?

3 Edrych a chlyw fi, O Arglwydd fy Nuw: *goleua fy llygaid,* rhag i mi huno yn yr angau.

4 Rhag dywedyd o'm gelyn, Gorchfygais ef; *ac i'm gwrthwyn-ebwyr lawenychu,* os gogwyddaf.

5 Minau hefyd a ymdiriedais

cuddi dy wyneb rhagof—gan fy ngadael yn suddedig mewn trallodion tymhorol? Ond tybia rhai fod Dafydd y pryd hyn yn amddifad o gysuron ysbrydol hefyd.

Adn. 2. *Pa hyd y cymeraf gynghorion yn fy enaid* Neu y gadewi fi i ymboeni mewn cyfng-gynghor, neu mewn blinder a chyfyngder meddwl, fel nas gwn pa beth i'w wneyd, na pha le i droi? *Pa hyd y dyrcheffir fy ngelyn arnaf?*—Absalom, yn ol rhai; Satan, yn ol ereill.

Adn. 3. *Edrych* Ar fy nhruenus gyflwr; *a chlyw fi*—clyw ac ateb fy ngweddiann; *O Arglwydd fy Nuw*—yr hwn wyf Arglwydd hollallnog, a Duw mewn cyfammod â'm henaid. *Goleua fy llygaid*—â goleuni dy iachawdwriaeth, yn ol rhai. Neu gall yr ymadrodd fod yn arwyddo, 'siriola ac adfywia fy ngwedd,' (1 Sam. xiv. 29), trwy gyfarwyddo fy meddwl, neu trwy ddangos i mi pa fodd i ddyfod allan o'm cyfyngder presenol. *Rhag i mi huno yn yr angau*—hyny yw, *cyn* i mi farw; neu rhag i mi dori fy nghalon, â threngu yn y tywyllwch.

Adn. 4. *Rhag dywedyd o'm gelyn* Os byddaf farw felly; *Gorchfygais ef*—er maint yr ymfrostiaid yn nerth ei Dduw: *ac i'm gwrthwynebwyr lawenychu*—yn fy nghwmp; yr hyn a fydd yn ddianrhydedd i tithau, fel pe byddit yn anffyddlon i'th addewidion, neu yn analluog i'w cyflawni hwynt. Fe allai fod y 'gelyn' yn yr adnod hon yn cyfeirio at Satan, a'r 'gwrthwynebwyr' yn arwyddo Absalom a'i blaid.

Adn. 5. *Minau hefyd a ymdiriedais yn dy drugaredd di* Ni allodd ymfrost a malais fy ngelynlion, na'm prygion fy hun chwaith, siglo fy hyder yn y drugaredd a addewaist i mi: *fy nghalon a ymlawenycha yn dy iachawdwriaeth*—yn iachawdwriaeth fy enaid, pa beth bynag a ddaw o'm corff. *Canaf i'r Arglwydd am iddo synio arnaf*—am iddo erioed roddi ei feddwl arnaf. Saes., 'am iddo ymddwyn yn haelionus tuag ataf.' Neu, fel y gellir cyfieithu y wreiddiol, 'am iddo fy ngwobrwyo,' sef âg iachawdwriaeth ysbrydol, neu â gwaredigaeth dymhorol o'i gyfyngderau presenol. Arferai Dafydd ei'r proffwydi son am warodigaethau dyfodol fel pe buasant wedi

yn dy drugaredd di; fy nghalon a ymlawenycha yn dy iachawdwr-iaeth: canaf i'r Arglwydd, am iddo sŷnio arnaf.

SALM XIV.

YR ynfyd a ddywedodd yn ei galon, Nid oes un Duw. Ymlygrasant; ffieiddwaith a wnaethant: nid oes a wnel ddaioni.

eu derbyn eisioes, trwy yr hyn y danghoseit hwy eu hyder diysgog yn ffyddlondeb Duw, a sierwydd y waredigaeth. Y mae y frawddeg ddwivedaf yn gwneyd i fyny y *chweched* adnod yn y Beiblau Saesong.

SALM XIV. Teitl y Salm hon yw, '*I'r pencerdd, Salm Dafydd*;' yr hyn a gyfieithir gan Dr. Good, '*Ar y Goruchaf, gan Dafydd*;' canys nid yw y gair *Salm* yn y wreiddiol. Y mae llawer o'r esbonwyr yn meddwl mai Dafydd yw ei hawdwr hi, ac iddi gael ei chyfansoddi ar yr uchlysur o wrthgiliaid Israel yn amser gwrthryfel Absalom; eithr tybia ereill mai *Haggai* neu *Daniel* yw ei hawdwr, a'i bod wedi ei chyfansoddi yn amser caethiwed Babilon, a bod ynddi gyfeiriad at y waredigaeth o hono, adu. 7.

Adn. 1. *Yr ynfyd a ddywedodd yn ei galon* Yn meddyliau neu ddymuniaidau llygredig ei galon; *Nid oes un Duw*—i edrych ar ol achosion dynion, i lywodraethu y byd, nac i gopsi pechod. Ac *ynfyd* yn wir a raid fod y dyn a ddywed neu a feddylia felly, am y rhaid ei fod yn dywededyd neu yn meddwl yn erbyn y golenni egluraf a'r dystiolaeth gadarnaf, ac yn groes i'w argyhoeddiad ei hun, yn gystal ag i syniadau y dynion doethaf a dysgedicaf. (1) Bu rhai dynion, ond nid llawer, yn ddiagon ynfyd i wadu *bodaeth Duw*, neu i'w gymysgu â *mater*. (2) Y mae ereill a gredant yn ei fodaeith, ond a wadant ei *ragluniaeth*; hyny yw, y maent yn addef Bôd o anfeidrol *allu*, ond ni chaiff efe ddim i'w *wneyd* ganddynt. (3) Ac y mae dosbarth arall tra lluosog, y rhai, tra yn credu yn ei fodaeith a'i ragluniaeth, a wadant y ddau yn eu calon, trwy fucheddu fel pe baent yn credu nad oes un Duw mewn bod, i gopsi pechod na gwobrwyo rhinwedd. *Ymlygrasant*—mewn ymarferiad a buchedd, yn gystal ag mewn barn. *Ffieiddwaith a wnaethant*—pechodau ffaidd o bob math, am y tybiant nad oedd un Duw mewn bod i'w cospï am danynt. '*Anffyddiaeth*,' ebai yr Esgob Horne, 'yw dechredad peched; ynfydrwydd yw sylfan anffyddiaeth; a'r galon yw eisteddole y ddau.' *Nid oes a wnel ddaioni*—hyny yw, nid oes neb yn mhlith yr ynfydion uchod, nac yn wir yn mhlith holl ddyndolryw wrth natur, neu ar wahân i ras goruwelnaturiol, a all wneyd daioni. Nid oes neb wrth natur yn gwneyd daioni oddiar iawn egwyddor, i iawn ddyben, nac mewn iawn ysbyrd; ac nid oes un o'u gweith-

2 Yr Arglwydd a edrychodd i lawr o'r nefoedd ar feibion dynion, i weled a *oedd* neb deallgar, yn ymgeisio â Duw.

3 Ciliodd pawb; cydymddifwynasant: nid oes a wnel ddaioni, nac oes un.

4 Oni wŷyr holl weithredwyr anwiredd? y rhai sydd yn bwyta fy mhobl *fel* y bwytaent fara: ni alwasant ar yr Arglwydd.

redoedd yn wir a pherffaith dda. Os oes rhai o honynt yn dda ynddynt eu hunain, neu o ran y sylwedd o honynt, megys gweithred o gyflawnder neu elusen; eto y mae hyd yn nod y gweithredoedd hyny yn llygredig o ran egwyddor a dyben, trwy nad ydynt yn cael eu cyflawni oddiar gariad at Dduw, a dymuniad a gofal cydwybodol i ryngu ei fodd ef, a chyda golwg ar ei ogoniant; canys pe felly, hwy a wnaent bob gweithred dda arall i'r un dyben, yn gystal ar yr rhai hyn.

Adn. 2. *Yr Arglwydd a edrychodd i lawr o'r nefoedd* Hyn a ddywedir yn oll dull dynion, canys gwŷyr Duw bob peth heb ei chwilio; *ar feibion dynion*—ar holl ddyndolryw, canys efe a lefaru am bawb yma oddieithr ei 'bobl' a'r 'cyflawn,' y rhai a wrthgyferbynir i'r rhai hyn, adn. 4, 5; *i weled a oedd neb deallgar*—a oedd neb yn deall fod Duw, yr hwn a'u galwai i roddi cyfrif iddo am eu gweithredoedd; neu a oedd neb yn ei wir adnabod ef, gan ei ofni, ei garu, ac ufyddlau iddo; *yn ymgeisio â Duw*—yn ceisio boddloni a gogoneddu Duw, neu yn ymgais am ei drugaredd, ei ras, a'i ewylllys da. Yn awr, gan fod y Duw hollbresenol a hollwybodol yn chwilio am un yn gwneuthur daioni, rhaid ei fod ef wedi ei ganfod, os oedd un felly i'w gael. Beth fu y canlyniad? Wel, gwrandewch y dystiolaeth:—

Adn. 3. *Ciliodd pawb*) Oddiwth Dduw a'i ffyrdd; *cydymddifwynasant*—troisant oll yn bwdr, sur, a drowedig, fel celan ffaidd: *nid oes a wnel ddaioni, nac oes un*—ddim cymaint ag un trwy yr holl fydd, nac o ddechre y byd i'w ddiwedd! 'Arglwydd, pa beth yw dyn?'—Y mae y *Vulgate*, yr ailun Vaticanaid o'r LXX, yn nghyda'r *Ethiopiaeg* a'r *Arabaeg*, yn chwaganegu yma y *chwech* adnod a ddyfynir gan St. Paul yn Rhuf. iii. 13—18: gwel y sylwadau yno.

Adn. 4. *Oni wŷyr holl weithredwyr anwiredd?* A gollasant hwy eu holl synwyr, yr hwn a allai ddyngu iddynt yr afresymoldeb o ymladd yn erbyn hollalluogrwydd, neu ddewis marwolaeth dragwyddol o ffaen bywyd a gogoniant diddiwedd? *Y rhai sydd yn bwyta fy mhobl*—sef yr Israeliaid duwiol a thyldion; *fel y bwytaent fara*—gyda'r un awydd a phleser ag y bwytaent eu pryddian bywyd yn eu newyn. *Ni alwasant ar yr Arglwydd*—y maent oll nail ai yn ddi-dduwiad, neu ynte yn eilunadollwyr. Y maent yn euog nid yn unig o drais ac anghyfiawnder tuag at ddyndion, ond hefyd o annuwioldeb a dirwyg ar

5 Yno y dychrynasant gan ofn; canys y mae Duw yn nghanhedlaeth y cyfiawn.

6 Cynghor y tylawd a waradwyddasoch chwi; am fod yr Arglwydd yn obaith iddo.

7 Pwy a ddyry iachawdwriaeth i Israel o Seion? pan ddychwelo yr Arglwydd gaethiwed ei bobl, yr ymfryda Jacob, ac y llawenha Israel.

Dduw; gan nid yn unig beidio ei addoli, ond hefyd wadu ei fodaeth neu ei ragluniaeth! Fel y sylwyd eisioes, tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at y rhan wrthgiledig o Israel; ereill, at annwiaeth a chreulondeb y Caldeaid yn amser caethiwed Babilon; ac ereill, at gyflwr boll ddynolrwy wrth natur.

Adn. 5. *Yno y dychrynasant gan ofn*] Tybia Patrick fod yr amser gorphenol yn cael ei arfer yma am y dyfodol; ac mai yr ystyr yw, 'Yno y dychrymant gan ofn,' pan welant Dduw yn dyfod allan yn erbyn ei elynion, ac o blaid ei gyfeillion. *Canys y mae Duw yn nghanhedlaeth y cyfiawn*—i'w bendithio a'u hamddiffyn. Y mae efe yn fur o dân o amgylch ei bobl, ac yn ogoniant yn eu canol.

Adn. 6. *Cynghor y tylawd a waradwyddasoch*] Sef ei benderfyniad ef i ymddiried yn Nuw, ei garu, a'i wasanaethu; am fod yr Arglwydd yn obaith iddo—hyn oedd sail en gwaradwyddiad hwy, sef ei fod yn gobeithio yn Nuw. Ystyriant hyn yn wagedd ac ynfydrwydd, a chwawddent am ei ben.

Adn. 7. *Pwy a ddyry iachawdwriaeth i Israel o Seion?*] Yn y babell ar fynnydd Seion yr oedd yr arch a'r drugareddfa, ac yno yr oedd yr Arglwydd yn gwrandao ac yn ateb gweddiau ei bobl; a chan mai o Seion yr oedd iachawdwriaeth i ddyfod, pwy a ddefnyddid gan yr Arglwydd fel ei offerynau? *Pan ddychwelo yr Arglwydd gaethiwed ei bobl*—pan waredo efe ei bobl o gaethiwed pechod a Satan, gan droi Israel i goffeid y MESSIA a'i grefydd; yr ymfryda Jacob—sef gwŷr Juda a Benjamin, hiliogaeth Jacob; ac y llawenha Israel—sef y deg llwyth, y gweddill o hiliogaeth Jacob. Neu gall fod JACOB yma yn golygu yr holl Iuddewon; ac ISRAEL, holl bobl ysbrydol Duw, yn Iuddewon a Chenhedloedd. Y mae yn dra thebyg mai proffwyoliaeth yw hyn am gyflwr pethau dan yr efengyl. Nis gellir ei gyfeirio yn dda at amser Dafydd, am nad oedd pobl yr Arglwydd yr pryd hynny mewn caethiwed; nac at amser dychweliad yr Iuddewon o Babilon, am na ddychelodd ond rhan o lwythau Juda a Benjamin yr pryd hynny, yn nghydag ychydig bersonau o'r deg llwyth ereill: ac heblaw hynny, nid oedd yr hufrydych a'r llawenydd a deimlid yr pryd hynny ddim ond isel; ac yr oedd yn gymysg â llawer o ofnau, peryglon, ac edliwiadau, fel y gwelwn yn llyfrau Ezra a Nehemiah. Dywed y proffwyd fod y Gwaredydd i ddyfod i Seion,

SALM XV.

ARGLWYDD, pwy a drig yn dy babell? pwy a breswylia yn mynydd dy santeiddrwydd?

2 Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnel gyfiawnder, ac a ddywed wir yn ei galon:

3 Heb absenu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymydog, ac heb dderbyn enllibyn erbyn ei gymydog.

4 Yr hwn y mae y drygionus yn

Esay lix. 20: a dywed yr apostol i fford i fyned allan o Seion, ac i droi ynaith annwioledeb oddiwrth Jacob, Rhuf. xi. 26: ac yr oedd llawer o'r Tadau, yn gystal a'r ben Iuddewon, fel yr ymddengys oddiwrth Dargum Jonathan a Thargum Jerusalem, yn deall y testyn fel yn cyfeirio at iachawdwriaeth ysbrydol dynion trwy y MESSIA, a than orchwyliaeth yr efengyl.

SALM XV. Teitl hon yw, 'Salm Dafydd'; a meddylir i Dafydd ei chyfansoddi yn fuan ar ol dwyn yr arch i'r babell ar fynnydd Seion. Ei hamcan yw dangos y fford i'r nef; a'n hargyhoeddi, os mynwn ni fod yn ddedwydd, y rhaid i ni fod yn santeidd.

Adn. 1. *Arglwydd, pwy a drig yn dy babell?*] *Mi yagur*, 'pwy a ymdaith neu a letya yno?' *Pwy a breswylia yn mynydd dy santeiddrwydd?*—*mi yiscon*, 'pwy a erys neu a breswylia yno yn barhaus?' Yr oedd y babell yn cael ei symud o le i le, ac felly yn gysgod o'r eglwys filwriaethus ar y ddaear, neu gyflwr y saint yn y fuchedd hon; eithr yr oedd mynydd santeiddrwydd Duw, neu y mynydd ar yr hwn yr adeileid y deml, yn gysgod o'r nef. Yn y deml cafodd yr arch orphwysfa, heb ei symud o le i le; ac yr oedd hynny yn gysgod o'r orphwysfa sydd eto yn ol i bobl Dduw. Y meddwl gan hynny yw, Pwy a ystyrir yn aelod addas o eglwys Dduw ar y ddaear? a phwy a gaiff etifeddu gogoniant tragyddol yn y nef? Yr hyn a ganlyn sydd atebiad priodol i'r gofyniadau hyn.

Adn. 2. *Yr hwn a rodia yn berffaith*] Yn holl orchymynion Duw; ac a wnel gyfiawnder—tuag at Dduw mewn pethau crefyddol, a thuag at ddyn mewn pethau tymhorol neu wladol; ac a ddywed wir yn ei galon—heb lefaru diu â'i enau ond a fyddo yn wirionedd didwyll yn tarddu o'i galon; neu yr hwn y byddo ei eiriau oll yn bur a diragrith.

Adn. 3. *Heb absenu â'i dafod*] Nen enllibio a goganu dyn yn ei absenoldeb; heb wneuthur drwg i'w gymydog—ar air nac mewn gweithred, neu heb ei ddrygu yn ei gymeriad na'i feddiannau; ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymydog—heb wrando arno gan ereill, mwy na'i draethu ei bun.

Adn. 4. *Yr hwn y mae y drygionus yn ddirmygus yn ei olwg*] Nid fel dyn, ond fel dyn drwg ac am ei fod yn ddrwg. Ond nid yw hyn yn cynwya ein bod i'w fellithio ef,

ddirmygus yn ei olwg; ond a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd: yr hwn a dwng i'w niwed ei hun, ac ni newidia.

5 Yr hwn ni roddes ei arian ar usuriaeth, ac ni chymer wobr yn erbyn y gwirion. A wnelo hyn, nid ysgogir yn dragywydd.

llai o lawer ei niweidio; eithr y meddwl yw, ein bod i gasâu ei ffyrdd drygionus ef, a pheidio eu dilyn. Nid yw yn golygu na ddylem weddio drosto, ac ufyddhau iddo fel meist'r, neu fel swyddog gwladol mewn awdurdod; yn hytrach, yr ydym i anrhydeddu ei swydd, tosturio wrth ei gyflwr, a dwyn ei achos mewn gweddi at Dduw, tra yn 'dirmygu' ei ddrvgioni: gwel ar Rhuf. xiii. 1-7. *Onid a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd*—er y gallant fod yn dylawd eu hamgylchiadau, neu yn wahanol i ni yn eu barn. *Yr hwn a dwng i'w niwed ei hun*—y cyflawna efe ryw weithred a fernid yn llesol i arall; ond, wedi iddo addaw felly trwy lw, y mae yn gweled y bydd cadw ei addewid yn niweidio ei amgylchiadau ef ei hun; ac ni newidia—ei feddwl, eithr efe a saif yn ddiysgog at y cytundeb, ac a gyflawna ei addewid, er i hynny beri niwed neu golled iddo ef ei hun.

Adn. 5. *Yr hwn ni roddes ei arian ar usuriaeth* I gael mwy o lóg oddiwrthynt na'u gwir werth, neu fwy nag y mae y gyfraith yn ei ganiatáu: gwel ar Exod. xxii. 25. *Ac ni chymer wobr yn erbyn y gwirion*—fel ag y gondemnio y diniwed er gwobr, a rhyddhau yr enog: gwel ar Exod. xxiii. 8, Deut. xvi. 19. *A wnelo hyn*—oddair 'ffydd yn gweithio trwy gariad; nid ysgogir yn dragywydd—eithr caiff aros yn ffaf'r ac yn eglwys Dduw ar y ddaear, a phreswyllo gydag ef byth yn y nef: gwel ar 2 Pedr i. 10. Nid ydym i gasglu oddiyma fod dyn i gael ei achub trwy weithredoedd-da; canys 'trwy weithredoedd y ddeddfni chyfiawnheir un cnawd yn ei olwg ef,' Rhuf. iii. 20; eithr y meddwl yw, mai dyma y ffordd y mae i ddyn a fyddo eisioes wedi ei achub trwy ffydd, gael ei gadw yn ddiysgog ar y llwybr ag sydd yn arwain i'r nef, sef y dyn newydd ag sydd 'wedi ei greu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da,' Eph. ii. 10.

SALM XVI. Teitl y Salm hon yw 'Mich-tam Dafydd;' neu, fel y mae llawer yn ei gyfieithu, 'Salm euraidd Dafydd;' yr hon a elwir felly naill ai am fod yr ysgrifan, fel y tybia rhai, wedi ei goreuro; neu ynte am ei bod mor werthfawr ag aur, trwy ei bod yn traethu am Grist a'i adgyfodiad; gwel ar deitl Salm lx. Ceir yr un teitl i rai Salmiau ereill, yr hwn a gyfieithir yn mhob lle gan y LXX, *stélographia*, neu 'arysgrifen i'w cherfio ar golofn.' Y mae genym awdurdod St. Pedr i brofi mai Dafydd yw ei hawdwr, ac iddo ef ei hysgrifenu yn benaf gyda golwg ar Grist, er y

SALM XVI.

CADW fi, O Dduw: canys ynot yr ymddiriedaf.

2 Fy enaid, dywedaist wrth yr Arglwydd, Fy Arglwydd ydwyf ti: fy nâ nid yw ddim i ti:

3 Onid i'r saint sydd ar y ddaear, a'r rhai rhagorol, yn y rhai y mae fy holl hyfrydwch.

gallai rhai rhanau ynddi fod yn cyfeirio at ei hunan hefyd fel cysgod o Grist: gwel ar Act. ii. 25-31.

Adn. 1. *Cadw fi, O Dduw* Tybia Clarke maj gweddi y dyn Crist Iesu yw y geiriau hyn, wrth ddechreu ar ei waith iawrol neu gymodol, yn enwedig ei ddyoddefaint yn ngardd Geth-semane. Ond gan fod Dafydd ei hun yn fynych mewn cyfyngderau a pheryglon oddiwrth ei elynion, gall ei fod yn eu traethu mewn un ystyr yn ei berson ei hun; ac y maent yn dra chyfaddas i'w harferyd mewn amgylchiadau cyffelyb gan bob credadyn. *Canys ynot yr ymddiriedaf*—ac am hynny, fel y cyfryw, yr wyt wedi addaw i mi dy amddiffyniad brasol.

Adn. 2. *Fy enaid, dywedaist!* Trwy nad yw 'fy enaid' yn y wreiddiol, myn *Houbigant* ei darllen, 'Dywedaist wrth yr Arglwydd;' hynny yw, addunedais a phroffessais hyn yn fynych, ac yr wyf yn sefyll ato o hyd. *Fy Arglwydd ydwyf ti*—fy Mrenin, i'r hwn yr wyf yn ddeiliad; fy Meistr, yr hwn yr wyf yn ei wasanaethu; fy Nhad, i'r hwn yr wyf yn ufyddhau. *Fy nâ nid yw ddim i ti*—pa dduw-oldeb, rhuwedd, neu ddaioni bynag a all fod ynof, nid yw yn chwaneu dim at dy ddedwyddwch a'th ogoniant di. Os cymhwyswn hyn at GRIST, rhaid i ni ei ystyried ef fel *Dyn a Chyfringwr* yn arddel y Tad fel ei Arglwydd, ei Dad, a'i Dduw, Ioan xx. 17. Yn yr ystyr yma nid oedd yr holl ddaioni a wna'i efe fel Cyfringwr, na'r budd a ddeilliai oddiwrth ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth, yn effeithio dim er gwneyd y Tad yn fwy dedwydd agogoneddus; canys, fel Bôd anfeidrol berffaith ynddo ei hun, nis gellir chwaneu dim at ei ogoniant ef trwy unrhyw wasanaeth a wneir iddo, mwy na thynu oddiwrtho trwy droseddau ei greaduriaid.

Adn. 3. *Onid i'r saint sydd ar y ddaear* Iddynt hwy, mewn amser ac yn nhragwydd-oldeb, y deillia y prif ddaioni, neu y llesâd penaf, oddiwrth fy nghyfyngdod i. Caiff *pechaduriaid* gynyg ar fy iachawdwriaeth, a'u codi oll i gyflwr o brawf yn yr hwn y gallant ei chyraedd hi; ond y saint yn unig, sef y rhai a fyddant byw yn santaidd, a gânt ei mwynhau hi: gwel ar 1 Tim. iv. 10, Heb. ii. 9, 10, a v. 9. *A'r rhai rhagorol*—rhai 'arderchog, mawreddog, ac anrhydeddus;' rhai yr rhagori ar bawb ereill mewn gras, duwioldeb, a rhuwedd; caiff pawb o'r cyfryw, a fyddont felly mewn gwirionedd, ac felly yn nghyfrif Duw, er y gallant fod yn wael a dirnygedig yn nghyfrif dynion, gyfranogi o holl ffrwythau fy marwolaeth mewn amser ac am byth. *Yn y rhai y mae fy holl hyfrydwch*—

4 Gofidiau a amlhant i'r rhai a frysiant ar ol duw dyeithl: eu diod-offrwm o waed nid offrymaf fi, ac ni chymeraf eu henwau yn fy ngwefusau.

5 Yr Arglwydd *yw* rhan fy etifeddiaeth i a'm phiol: ti a gyneli fy nghoelbren.

6 Y llinynau a syrthiodd i mi

am eu bod yn dwyn fy nelw, gan ymddiried yn fy nhrugaredd, ac ufyddhau i'm gorchymynion. Eithr y mae y geiriau hyn, wrth eu cymhwysu at *Dafydd*, yn dangos ei fod ef yn ffeiddio cyfeillach yr halogedig a'r drygionus, ac yn ymhyfydu yn unig yn nghyfeillach y rhai a ragorent mewn crefydd, rhinwedd, a santeiddrwydd.

Adn. 4. *Gofidiau a amlhant i'r rhai a frysiant ar ol duw dyeithl*] I'w addoli ac offrymu iddo: er maint eu holl sel a'u llatur, nid ydynt yn ennill dim iddynt eu hunain ond helaethrwydd o ofid a thrueni. *Eu diod-offrwm o waed nid offrymaf fi*—cymwysir yma holl offrymau ereill i'w cenedloedd eilunaddolgar, llawer o ba rai nid yn unig a offrymwt waed eu hebrth, ond hefyd a'i *hyfent*: yr hyn a raid fod yn dra ffridd yn ngolwg Duw, yr hwn a waharddai i'w bobl ef yfed a bwytia gwaed: gwel ar Gen. ix. 4, Act. xv. 20. *Ac ni chymeraf eu henwau yn fy ngwefusau*—sef enwau y duwiau dyeithl hyny: ni alwai *Dafydd* arnynt, ac nid addolai hwynt. Ond wrth gymhysu y geiriau hyn at CRIST, gallant awgrymu y byddai i'r holl aberthau a'r offrymau beidio dan oruchwyliaeth yr ofengyl, am y gwai yr offrymiad o hono ef ei hun ar bren y groes beri iddynt oll fod yn afreidiol, a rhoddi i'r Cenedloedd well gwaed i'w ddadlu am faddenant.

Adn. 5. *Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth i]* Nid wyf yn cenniguen wrth gyfoeth na gogoniant yr eilunaddolwyr, eu tiroedd eang na'u llywyddiant bydol; ond yr wyf, fel yr offeiriad luddewig, yn gorloedd yn Nuw fel fy rhan a'm hetifeddiaeth; a'm phiol—ac y mae hyny yn adgyferthiad i'm henaid i, fel phiolaid o ddwfr i'r sychedig, neu phiolaid o win i'r hwn sydd ar ddarfod am dano. *Ti a gyneli fy nghoelbren*—dywedir hyn mewn cyfeiriad at wlad Canaan, yr hon a roddwyd i Israel trwy goelbren. Fe allai fod *Dafydd* yn cyfeirio yma at ei hyder yn Nuw, y byddai iddo barhau iddo ef frenhiniaeth Israel, yr hon a benodwyd iddo yn Jerusaleu, y fan lle yr oedd pabell ac addoliad Duw; neu y byddai iddo gynal yn barhaus ei gysurion ysbrydol ef. Neu os cymhwyswn y geiriau at CRIST, gall mai yr ystyr yw, fod Duw wedi darparu iddo ef wobr gogoneddus gydag ef ei hun, yr hwn yr oedd efe i'w fwyntiau yn ei gymeriad cyfryngol; ac yr oedd hwn i'w gael ei roddi iddo yn sicr, fel ei goelbren neu ei etifeddiaeth: gwel ar Salm ii. 8.

Adn. 6. *Y llinynau a syrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd]* Cyfeiriad at raniad y tir i deuluoedd Israel gynt wrth linyu mesur; i.e.,

mewn *lleoedd* hyfryd; i.e., y mae mi etifeddiaeth ddeg.

7 Bendithiaf yr Arglwydd, yr hwn a'm cyngorrodd: fy arenau hefyd a'm dysgant y nos.

8 Gosodais yr Arglwydd bob amser ger fy mron: am ei fod ar fy neheulaw, ni'm hysgogir.

9 O herwydd hyny llawenychodd

y mae i mi etifeddiaeth ddeg—yr oedd y frenhiniaeth wedi dyfod i ran *Dafydd* yn y fan lle yr oedd gwasanaeth, addoliad, a phresenoldeb Duw. Yn yr un modd y gallai CRIST lawenyachu yn y rhagolwg ar ei eglwys neu ei devnas ysbrydol yntau, pryd y byddai iddo weled o lafur ei enaid, a chael ei ddiwallu, Esay liii. 11.

Adn. 7. *Bendithiaf yr Arglwydd, yr hwn a'm cyngorrodd]* Neu a drefnodd i mi, trwy ei gynglor, etifeddiaeth mor ddeg. *Fy arenau hefyd*—ymadrodd yn arwyddoedd digel feddyliau, myfyrdodau, neu fwradiad ei galon, Jer. xi. 20, xii. 2, a xvii. 10; a'm *dysgant y nos*—pan fyddai ereill yn cysgu, yr oedd *Dafydd* yn myfyrio ar Ddew a'i waith. Ystyriai yr Iuddeuon fod unrhyw beth poenus neu ddymunol yn effeithio yn neillduol ar arenau dyn; ac mewn cyfeiriad at y dyb hōno ond odid y sonir mor fynych am yr 'arenau' yn yr ysgrifthyf. Yr oedd CRIST hefyd, fel *dyn*, yn cael ei 'gynglori' gan ei Dad, neu yn derbyn ei holl wybodaeth a'i ddoethineb oddiwrth Ddew, Luc ii. 40—52; ac yr oedd ei 'arenau,' neu fwradiad ei galon i brynu dyn, yn gynaliaeth i'w feddlw yn *nos* ei ddyvoddefaint.

Adn. 8. *Gosodais yr Arglwydd bob amser ger fy mron]* Fel fy nhyst a'm barnwr, fy nghyfarwyddwr a'm hamddiffynnydd, yn fy holl dralodau a'm peryglon. *Am ei fod ar fy neheulaw*—i'm tywys, i'm cynorthwyo, a'm hamddiffyn: ni'm hysgogir—ni'm syffir o'm 'hetifeddiaeth ddeg,' nac oddiwrth fy ngwaith na'm gwobr. Tybia rhai fod *Dafydd* hyd yma yn llefaru yn ei berson ei hun, a chydag golwg neillduol arno ei hun; ond yn awr ei fod yn cael ei gario allan gan Ysbyrd proffwydoliaeth tuhwnt iddo ei hun, a bod ei olwg ar CRIST IESU yn unig; neu ynte, ar ol bod yn llefaru am dano ei hun fel *aedol*, ei fod yn awr yn llefaru am dano ei hun fel *cysgod* o CRIST, yn yr hwn yn unig y cai yr adnodau canlynol lwyg gyflawniad. Yr oedd CRIST, fel *dyn*, yn gosod ewyllys a gogoniant ei Dad bob amser ger ei fron, fel y tvstiaid ef ei hun yn fynych: gwel Mat. xxvi. 39, Ioan x. 18, a xiv. 31.

Adn. 9. *O herwydd hyny llawenychodd fy nghalon]* Sef o herwydd fod yr Arglwydd ar ei ddeheulaw i'w gadw rhag ysgogi; ac *ymhyfyrdodd fy ngogoniant*—neu 'fy nhafod,' fel y mae Pêdr yn ei fynegu, Act. ii. 26; yr hwn y gellir yn briodol ei alw felly, am ddarfod ei roddi i ddyn i'w gogonedd Duw ag ef, ac am ei fod ynddo ei hun yn ogoniant i ddyu, yn ei ddyrchafu uwchlaw pob creadur arall ar y ddaear. Ond y mae *Aben Ezra*, *Kimchi*,

fy nghalon, ac ymfrydodd fy ngogoniant: fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith.

10 Canys ni adewi fy enaid yn uffern; ac ni oddefi i'th Sant weled llygredigaeth.

11 Danghosi i mi lwybr bywyd: digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron, ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd.

SALM XVII.

CLYW, Arglwydd, gyfiawnder; ystyria fy llefain, gwrando fy ngweddi o wefusau didwyll.

Ben Melech, a rhai ysgrifenyddion Cristionogol, yn meddwl mai yr enaid a olygir yma, yr hwn yw prif ogoniant dyn. *Fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith*—am adgyfodiad ebrwydd o'r bedd, neu am gael ei ailuno a'm henaid. Priodolir gobaith yma i'r corff marw yn fngyrol.

Adn. 10. *Canys ni adewi fy enaid yn uffern*] Deallir hyn yn gyfiredin am y byd anweledig, neu sefyllfa yr ysbrydion ymadawedig; *ac ni oddefi i'th Sant weled llygredigaeth*—neu ni adewi i'm corff by drwy yn y bedd. Nid santeiddrwydd ei gorff, neu fod ein Harglwydd bendedig yn ddihechod, oedd y rheswm paham na chai weled *llygredigaeth*, fel y tybiodd rhai; canys pe felly, buasai yn rheswm yn erbyn iddo farw hefyd: ond yr oedd ei adgyfodiad ebrwydd ef, cyn iddo lygru, yn angenrheidiol yn o'r trefn fawr yr iawn: gwel ar Act. ii. 24—28.

Adn. 11. *Danghosi i mi lwybr bywyd*] Neu flordd i ddyfod i fynd o'r bedd; neu ynte, danghosi i mi lwybr bywyd tragwyddol, lle na raid i mi farw mwyach, Dat. i. 18. *Digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron*—digon i bawb, a digon am byth. *Ar dy ddeheulaw*—lle y dywedir i Grist eistedd, Col. iii. 1, Heb. i. 3, a lle hefyd y gosodir y saint yn y dydd diweddar, Mat. xxv. 33; *y mae digrifwch yn dragywydd*—hyfrydwch, llawenydd, a phleserau ysbrydol a santeidd yn ddi-ddiwedd, heb byth gael eu cymysgu â phechod na dagrau, poen na marwolaeth.

SALM XVII. Teitl y Salm hon yw, '*Gweddi Dafydd*,' a thybia Dr. Delaney i Dafydd ei hysgrifenu yn ebrwydd ar ol iddo ymadael â Jonathan i ffoi rhag Saul, 1 Sam. xx. 42.

Adn. 1. *Clyw, Arglwydd, gyfiawnder*] Neu fy achos cyfiawn i, yr hwn ni wnaethym gam â neb, er maint eu cyhuddiadau yn fy erbyn. *Ystyria fy llefain*—bydded i ti dalu sylw manwl i gynwysiad fy ngweddi, ac i'r taerineb a'r dagrau â pha rai yr wyf yn ei hanfon atat. *Gwrando fy ngweddi o wefusau didwyll*—y rhai a lefrant yn gywir deimlad fy nghalon, a'r gwirionedd fel y mae.

2 Deued fy marn oddiger dy fron; edryched dy lygaid ar uniondeb.

3 Profaist fy nghalon, gofwyaiast fi y nos; chwiliaist fi, ac ni chei ddim: bwriedais na throeddai fy ngenau.

4 Tuag at am weithredoedd dynion, wrth eiriau dy wefusau yr ymgedwais rhag llwybrau yr yspeilydd.

5 Cynal fy ngherddediad yn dy lwybrau, fel na lithro fy nhraed.

6 Mi a elwais arnat; canys gwrandewi arnaf fi, O Dduw: gostwng dy glust ataf, ac erglyw fy ymardrodd.

Adn. 2. *Deued fy marn*] Neu y ddedfryd yn fy achos; *oddiger dy fron*—oddiwrthyt ti, neu oddiar dy orseddfaine, at ba un yr wyf yn dduw yn fy achos. *Edryched dy lygaid ar uniondeb*—canys er fod arnaf angen am dy drugaredd mewn llawer o bethau ereill, eto nid wyf yn gofyn am ddim ond cyfrygiad dy gyfiawnder yn yr achos hwn rhwng fy ngelyn a minau.

Adn. 3. *Profaist fy nghalon*] Edrychaist i mewn i'm meddyliu dirgelaf; *gofwyaiast fi y nos*—sef yn amser fy encilliad o wydd dynion, pryd y mae y drygionus a'r rhagrithiwr yn debyg o fod yn ffurfio dyelmyngion a bwriad-an drwg, i edrych a oedd rhyweth telly yn fy nghalon inau. *Chwiliaist fi*—yn y modd manylaf; neu 'profaist fi,' fel y prawf yr eurych ei fettel, a llyny trwy y prawfiadau mwyaf tanlyd; *ac ni chei ddim*—sothach neu anghyfiawnder ynof; hyny yw, ni chei ddim ynof o'r pethau ag y cyhuddir fi o honynt gan fy ngelynion, na ym bynag ai rhagrith tuag atat ti, neu frawdriaeth yn erbyn Saul. *Bwriedais na throeddai fy ngenau*—yr wyf mor bell o lunio brad yn erbyn Saul, fel na wnaf gau âg ef hyd yn nod mewn geiriau.

Adn. 4. *Tuag at am weithredoedd dynion*] Neu gyda golwg ar weithredoedd yn gystal a geiriau; *wrth eiriau dy wefusau*—sef yn ol rheol dy air, neu gyfraith dy enau; *yr ymgedwais rhag llwybrau yr yspeilydd*—sef llwybrau Saul ond odid, yr hwn a geisiai 'yspeilio' Dafydd o'i fywyd; neu, fel y mae yn y Saesonag, 'rhag llwybrau y dinstrydd,' yr hyn a ddeallir gan rai fel yn arwyddoedd llwybrau y diafol, yr hwn a elwir *Abaddon* ac *Apollyon*, sef y dinstrydd, Dat. ix. 11.

Adn. 5. *Cynal fy ngherddediad yn dy lwybrau*] Yr oedd 'geiriau gwefusau Duw' wedi dangos i Dafydd y llwybrau ag yr oedd efe i'w rhodio, ac efe a weddia yma am gael ei gynnal ynddynt yn barhaus; *fel na lithro fy nhraed*—i lwybrau pechod a diafol. Efe a deimlai nas gallai wneyd dim ag oedd dda, heb gael ei gynnal a'i nerthu gan ras Duw.

Adn. 6. *Mi a elwais arnat*] Dyma fy arferiad gwastadol; *canys gwrandewi arnaf*—er y gelli fod fel 'Duw' yn ymguddio' dros enyd:

7 Dangos dy ryfedd drugareddau,
O Achubydd y rhai a ymddiriedant
ynot, rhag y sawl a ymglyfodant yn
erbyn dy ddeheulaw.

8 Cadw fi fel canwyll llygad:
cudd fi dan gysgod dy adenydd.

9 Rhag yr annuwiolion, y rhai
a'm gorthrymant; *rhag* fy ngelyn-
ion marwol, y rhai a'm hamgylch-
ant.

10 Cauasant gan eu brasder: â'u
genau y llefarant mewn balchder.

11 Ein cyniweirfa ni a gylchyn-

asant hwy yr awrhon: gosodasant
eu llygaid i dynu i lawr i'r ddaear.

12 Eu dull *sydd* fel llew a chwen-
nychai ysglyfaethu, ac megys llew
ieuanc yn aros mewn lleoedd dirgel.

13 Cyfod, Arglwydd, achub ei
flaen ef, cwympa ef: gwared fy
enaid rhag yr annuwiol, *yr hwn yw*
dy gleddyf di.

14 Rhag dynion y rhai yw dy
law, O Arglwydd, rhag dynion y
byd, y rhai y mae eu rhan yn y
bywyd *yma*, a'r rhai y llenwaist eu

gostwng dy glust ataf—y waith hon hefyd;
ac erghyw fy ymadrodd—sef ei weddi yn y
Salm hon. Yr oedd Dafydd yn gweddio oddiar
gallhoeddïad fod Duw yn ei wrardo; ond nis
gallai ymfodloni heb dderbyn atebïad.

Adn. 7. *Dangos dy ryfedd drugareddau*
Yr oedd ef yn awr yn y fath ddirfawr berygl,
fel y tybiai nas gallai cyfryngedig cyffredin
rhaigluniaeth ei waredu: ac ofnai, os na wnai
Duw rywbeth yn *wyrthiol* ar ei ran, fod yn
rhaid iddo syrthio yn nwyllw Saul. *O*
Achubydd y rhai a ymddiriedant ynnot—y
mae Duw yn Achubydd tymhorol ac ysbrydol
i bawb a ymddiriedant yn ei addewid, ei
ffyddlondeb, a'i allu anfeidrol ef. *Rhag y*
sawl a ymglyfodant yn erbyn dy ddeheulaw
—yn erbyn 'gŵr ei ddeheulaw,' Salm lxxx.
17; neu yn erbyn gallu ac awdurdod Duw ei
hun.

Adn. 8. *Cudw fi fel canwyll llygad*] Fel
canwyll dy lygad dy hun, Deut. xxxii. 10,
Zech. ii. 8; neu fel y cedwaist ganwyll llygad
dyn, trwy ei osod nid yn unig o fewn amddi-
ffynfa asgrwn y pen, ac yn amgaueidig gan
amrantau ac aelïau, ond hefyd yn nghyraedd
dwyllaw amddiffïynol ei berchenog: *cudd fi dan*
gysgod dy adenydd—dan nawdd dy raglun-
iaeth, fel y cuddia yr iar ei chywion rhag y
dinstyrydd.

Adn. 9. *Rhag yr annuwiolion*] Sef Sael a'i
wŷr, y rhai a orthrymant ac a erlidient Da-
fydd yn barhaus; *rhag fy ngelynyon marwol*
—y rhai oeddynt yn ei amgylchynu of y byd
hyn fel helyddion â'u cŵn, ac yn sychedu
am ei waed.

Adn. 10. *Cauasant gan eu brasder*] Y
maent yn byw yn fras a llwyddïannus, tra yr
wyf fi yn cael fy ngofwyo â thrallodion blin.
Tybia *Dodd* ac ereill mai ymadrodd bardd-
onol neu ddiarebol yw hwn, yn arwyddo
balchder ac uchelfrydedd yn tarddu oddiar
gyfoeth a llwyddiant nawr, ac oddiar anwes-
ïad moethus o'r chwantau anïanol, nes peri i
ddynt lwyrr anghofio ei ddyledswyddau tuag
at Dduw a dynion: gwel ar Deut. xxxii. 15,
Job xv. 27, Salm lxxiii. 7, Esay vi. 10. Ond
y mae *Kennicott*, *Horsley*, *Houbigant*, ac
ereill, yn darllen y frawddeg, 'Cauasant eu
rhwyd am danaf;' a dywelid y goddef y
wreiddiol y darllenïad hwn trwy gylchgyf-
newid dwy lythren. *A'u genau y llefarant*

mewn balchder—neu y gorfoleddant, fel po
byddent bellach yn sicr o'm dyfetha.

Adn. 11. *Ein cyniweirfa ni*] Sef y fan lle
yr oedd Dafydd a'i wŷr yn tramwyo; *a gylch-*
ynasant hwy yr awrhon—gwel anghraiffit o
hyn, 1 Sam. xxiii. 26. *Gosodasant eu llygaid*
i dynu i lawr i'r ddaear—ymgrymasant ar y
ddaear fel llew cyn neidio ar ei ysglyfaeth,
Salm x. 10; neu fel helyddion yn chwilio am
ôl ein traed ar y ddaear, fel y gallent ein dal
a'n dyfetha; neu ynt, fel y gellir cyfieithu y
wreiddiol, 'i'n cwmpo ni ar y ddaear:' yr
oeddynt yn edrych arnynt gyda bwriad i'w
dyfetha.

Adn. 12. *Eu dull sydd fel llew a chwen-*
nychai ysglyfaethu] Sef fel llew *ncwynog* yn
rhodio oddiamgylch i chwilio am ysglyfaeth;
ac megys llew ieuane yn aros mewn lleoedd
dirgel—yn barod i neidio ato a'i rwygo pan o
fewn cyraedd iddo.

Adn. 13. *Cyfod, Arglwydd*] I'm hamddiff-
yn; *achub ei flaen ef*—trwy daenu dy aden
dros of cyn iddo ef fy rllwygo; *cwympa ef*—rhag
iddo ef fy nghwynipo i; neu, fel y mae rhai
yn ei ddeall, 'gwna iddo ef ymostwng a
phlygu.' *Gwared fy enaid rhag yr annuwi-*
ol—sef rhag y brenin Saul; *yr hwn yw dy*
gleddyf di—i geryddu a phrofi dy bobl: gwel
ar Esay x. 5. Ond gellir cyfieithu y geirïau,
'Gwareded dy *gleddyf* fi rhag yr annuwiol;
dy law, O Arglwydd, rhag dynion y byd.'
Adn. 14. Y mae yr ymadrodd *gleddyf a llaw*
Jehofa yn cael eu defnyddio yn fynych i osod
allan ei allu a'i ddialedd ef.

Adn. 14. *Rhag dynion y rhai yw dy law*
Y rhai sydd offerynau yn dy law i ddiol ar dy
elynyon a cheryddu dy bobl; neu 'gwared fi
â' th law:' gwel ar adn. 13. *Rhag dynion y*
byd—sef dynion bydol, anïanol, ac annuwiol;
y rhai y mae eu rhan yn y bywyd yma—y
rhai a gânt yma yn unig yr holl ddaion a
allant ei ddysgwyl am byth, trwy nad oes dim
yn eu haros yn y byd a ddaw ond rhan y golud-
og, Luc xvi. 22—25. *A'r rhai y llenwaist*
eu boltau—en dymuniadau a'u harchwaeth
anïanol; *â' th guddiedig drysor*—nid yn unig
â thrugareddau cyffredin, megys ymborth a
dillad, ond hefyd â phob math o olud a thry-
sorau daerol, y rhai yr arfera dynion eu cadw
a'u cuddio yn y modd niwyaf gofalus; sef â
helaethrwydd o gyfoeth, anrhydedd, a chysar-

boliau â'th guddiedig *drysor*: llawn ydynt o feibion, a gadawant eu gweddill i'w rhai bychain.

15 Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder: digomir fi, pan ddihunwyf, â'th ddelw di.

SALM XVIII.

CARAF di, Arglwydd fy nghadernid.

2 Yr Arglwydd *yw* fy nghraig,

on y bywyd hwn. *Llawn ydynt o feibion*—y mae eu hiliogaeth yn lluosog, yr hyn a ystyrir yn fendith fawr y pryd hyn; *a gadawant eu gweddill i'w rhai bychain*—nid yn unig cânt ddigon eu hunain dros holl ystod eu bywyd, ond bydd ganddynt feddiannau helaeth i'w gadael i'w plant ar eu hol, y rhai a gerddant yn llwybrau eu tadau, heb ofni Duw na pharchu dyn. Rhag y fath ddynion a'u ffyrdd y mae genym oll achos i ddywedyd gyda Dafydd, 'Gwared ni, Arglwydd daionns.'

Adn. 15. *Myfi a edrychaf ar dy wyneb*] Fel pe dywedasai, Nid wyf fi yn cenhennu wrth eu llwyddiant, nac yn ceisio rhan mewn daioni daearol fel y gwnant hwy, eithr yn y mwynhad o wenau dy wyneb di yn unig; *mewn cyfiawnder*—mewn unionbed buchedd a santeiddrwydd calon yu y byd hwn; neu '*trwy* gyfiawnder,' sef y cyfiawnder ag sydd o ffydd: gwel ar Rhuf. iv. 2, &c. *Digomir fi, pan ddihunwyf*—yn more yr adgyfodiad cyffredinol; *â'th ddelw di*—trwy y caiff i'w nghorff ei gyfnwyd y pryd hyn i'r un ffuri a chorff gogoneddus Crist, Phii. iii. 21, 1 Ioan iii. 2. Y mae yr *enaid* yn cael ei buro, a'i wisgo â delw Duw, yr ochr yma i'r bedd, am na chaff neb heb santeiddrwydd weled Duw; ond ni chaff y *corff* ei wisgo â'r ddelw hōno hyd nes y byddo yr ochr draw: gwel ar Rhuf. viii. 23. Tybia Clarke ac ereill fod y *dihunrad* yma yn cyfeirio nid at adgyfodiad y *corff*, ond at adgyfodiad yr *enaid* i ddelw Duw yn y byd hwn. Ond ymddengys i mi mai yr ystyr blaenaf oedd yn ngolwg y Salmddy; canys yr oedd ei enaid ef eisioes wedi ei *ddihuno* yn yr ystyr hwnaw, ac eto yr oedd ef yn edrych yn nulaen at ryweth dyfodol. Hefyd, nis gellir dywedyd fod neb o'r saint yn cael eu *digoni* â delw Duw yr ochr yma i'r bedd; ond y maent yn gobeithio am hynny gyda'r Salmddy yr ochr draw.

SALM XVIII. Teitl y Salm hon yw, '*I'r pencerdd, Salm Dafydd, gwas yr Arglwydd, yr hwn a lesurodd wrth yr Arglwydd eiriau y gân hon, yn y dydd y gwaredodd yr Arglwydd ef o law ei holl elynion, ac o law Saul.*' Cawsom y Salm hon o'r blaen yn 2 Sam. xxii. 2—51; a chawn y rhan fwyaf o'r teitl uchod yno yn adn. 1, fel rhagarweiniad i'ddi: gwel y sylwadau yno. Y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr yn cymhwyso geiriau y Salm hon at Grist, er fod rhai rhanau o honi yn gyfaddasol hefyd i achos Dafydd ei hun.

a'm hamddiffynfa, a'm gwaredydd; fy Nuw, fy nghadernid, yn yr hwn yr ymddiriedaf; fy nharian, a chorn fy iachawdriwaeth, a'm huchel-dŵr.

3 Galwaf ar yr Arglwydd canmoladwy: felly y'm cedwir rhag fy ngelynion.

4 Gofidion angau a'm cylehynasant, ac afonydd y fall a'm dychrynsant i.

Tybia rhai fod y Salmddy yma, trwy ysbryd profiwydoliaeth, yn arddangos Crist fel yn adolygu ei ddyoddefadau a'i fuddugoliaethau ar ol iddo adgyfodi o'r bedd.

Adn. 1. *Caraf di, Arglwydd*] Y mae y ferf *racham* yn arwyddo caru gyda holl deimladau tyneraf a chryfaf natur, gan ddangos ei gariad mewn gweithredoedd o ufydd-god a moliant iddo. *Fy nghadernid*—yr hwn a'm cadarnheist â gras yn fy enaid, neu yn y frehniaeth, ac a'm gwaredaist o ddwyllaw fy holl elynion.

Adn. 2. *Yr Arglwydd yw fy nghraig*] Y mae y gair *selu* yn arwyddo y clogwyni ysgythrog hynny ag sydd yn noddfa i dynion a chreaduriaid; *a'm hamddiffynfa*—lle o gadernid a diogelwch rhag ei elyion; *a'm gwaredydd*—o'u dwyllaw hwynt ar ol iddynt fy na. *Fy Nuw*—Heb., 'fy Nuw cadarn;' nid yn unig gwrthddrych ei addoliaid, ond yr hwn oedd yn rhoddi nerth yn ei enaid. *Fy nghadernid*—*tsuri*, yr hwn sydd air gwahanol i'r un yn adn. 1; ac yn arwyddo, meddai Rabbi Maimon, pan ei cymhysir at Dduw, 'ffynnonell, taradaiad, gweiddyn,' &c. Yr oedd y Salmddy yn ystyried Duw nid yn unig fel awdwr ei fōd, ond hefyd fel gwreiddyn ei gysur a'i holl ddaioni, yn yr hwn yr ymddiriedaf fel mewn ffynnonell ddihiyspydd. *Fy nharian*—i'm diogelu nid yn unig rbag arfau Saul, ond hefyd rhag holl bicellau tanllyd y fall. *A chorn fy iachawdriwaeth*—fe allai fod yr ymadrodd hwn wedi ei gymeryd oddiwrth gorn yr allor, yr hwn oedd yn noddfa i'r neb a ymaffai ynddo; neu oddiwrth gyrn anifeiliaid, y rhai sydd yn addurn a nerth iddynt, a thrwy y rhai y maent yn gallu eu hamddiffyn eu hunain a gorchfygu eu gelynion: gwel ar Luc i. 69. *A'm huchel-dŵr*—lle yr wyf nid yn unig mewn diogelwch o gyraedd fy ngelynion, ond hefyd yn gallu eu canfod hwynt cyn nesáu o honynt ataf.

Adn. 3. *Galwaf ar yr Arglwydd canmoladwy*] Yr hwn sydd yn haeddau cael ei ganmol a'i glodfori: *felly y'm cedwir rhag fy ngelynion*—sef wrth weddio, neu mewn atebiad i'm gweddiau.

Adn. 4. *Gofidion angau a'm cylehynasant*] Heb., 'rhwymau neu gortynau marwolaeth;' hynny yw, bu Dafydd bron a chael ei ddal mewn maglan neu ystrywiaw a fuasant yn angeuol iddo. *Afonydd y fall a'm dychrynsant i*—y rhai a ddyllitent am fy mben yn ffrydiau gorwllt ac anwrthwynebadwy.

5 Gofidiau uffern a'm cylchynasant: maglau angau a achubasant fy mlaen.

6 Yn fy nghyfyngder y gelwais ar yr Arglwydd, ac y gwaeddais ar fy Nuw: efe a glybu fy llef o'i deml, a'm gwaedd ger ei fron a ddaeth i'w glustiau ef.

7 Yna y siglodd ac y crynodd y ddaear; a seiliau y mynyddoedd a gynhyrfodd ac a ymsiglodd, am iddo ef ddigio.

8 Dyrchafodd mwg o'i ffroenau, a thân a ysodd o'i enau: glo a enynasant ganddo.

9 Efe hefyd a ostyngodd y nef-oedd, ac a ddisgynodd: a thywyllwch oedd dan ei draed ef.

10 Marchogodd hefyd ar y cerub,

ac a ehedodd: ië, efe a ehedodd ar adenydd y gwynt.

11 Efe a wnaeth dywyllwch yn ddirgelfa iddo; a'i babell o'i amgylch oedd dywyllwch dyfroedd, a thew gymylau yr awyr.

12 Gan y dysgleirdeb oedd ger ei fron, ei gymylau a aethant heibio; cenllusg a marwor tanllyd.

13 Yr Arglwydd hefyd a daranodd yn y nefoedd, a'r Goruchaf a roddes ei lef; cenllusg a marwor tanllyd.

14 Ie, efe a anfonodd ei saethau, ac a'u gwasgarodd hwynt; ac a saethodd ei fellt, ac a'u gorchfygodd hwynt.

15 Gwaelodion y dyfroedd a welwyd, a seiliau y byd a ddynoeth-

Adn. 5. *Gofidiau uffern a'm cylchynasant* [Heb., 'cortynau y bedd'; a thybïa Clarke eu bod yn cyfeirio at y rhaffau â pha rai y goll-yngid y cyrff i'r bedd, nen at y rhwymynau a roddid am y meirw. *Maglau angau a achubasant fy mlaen*—y rhai a roddai ei elynion ar ei lwybrau, i'w ddal a'i ddyfetha. Y meddwl yw, fod Dafydd yn y perygl mwyat am ei fywyd. Trwy gyfryngiad trugarog Duw di angodd Dafydd rhag y maglau hyn; eithr rhoddwyd Iesu i farwolaeth gan ei elynion angeol.

Adn. 6. *Yn fy nghyfyngder y gelwais ar yr Arglwydd* [Yr hwn oedd alluog i'm gwaredu; ac y gwaeddais ar fy Nuw—yr hwn oedd mewn cyfammod â'm henaid. *Efe a glybu fy llef o'i deml*—naill ai o'r babell, lle yr oedd Duw yn preswyllo ar y drugareddfa, rhwng y cerubiad; neu ynte o'r nefoedd, yr hon a elwir yn fynych ei 'deml' ef: *a'm gwaedd ger ei fron a ddaeth i'w glustiau ef*—hyn yw, efe a glybu, ac a atebodd.

Adn. 7. *Yna y siglodd ac y crynodd y ddaear*] Bu daeargryn mawr mewn canlyniad i'r llef a'r waedd uchod; *a seiliau y mynyddoedd a gynhyrfodd ac a ymsiglodd*—nid oes genym hanes i ddim o'r fath yma ddygwydd yn llythrenol yn amser Dafydd; eithr siglodd a chrynodd y ddaear pan yr oedd ein Ceidwad ar y groes, at yr hyn, fel y tybia rhai, y cyfeirir yma: *am iddo ef ddigio*—o achos pechod dyn, neu am y weithred o groeshoelio ei Fab ef. Ond tybia ereill mai cyfeiriad sydd yma at ryw ystorn a thymhestl ddychrynalld y gymerodd le yn amser Dafydd, yr hon a ddarlunir yma mewn iaith farddonol a hedegog, fel pe buasai Jehofa yn disgyn o'r nefoedd, gan beri i'r ddaear grynu, i'r mell wau, a'r taranau ruo, wrth ei ymddanghosiad ef i waredu Dafydd a chospi ei elynion.

Adn. 8. *Dyrchafodd mwg o'i ffroenau*] Yr oedd yr henafiaid yn ystyried y ffroenau fel eisteddle digofaint, am eu bod yn gyffredin, pan y mae y nwyd hōno yn angherddol mewn dyn, yn ymledu, ac yn bwrw allan anad

boeth a chref; ac at hyn ond odid y cyfeirir yma. *A thân a ysodd o'i enau*—cyfeirir ond odid at y mell, y rhai yn fynych a enynant neu a daniant goed, glo, a'r cyffelyb.

Adn. 9. *Efe hefyd a ostyngodd y nefoedd*] Trwy beri i gymylau duon a thewion ddynesu at y ddaear; *ac a ddisgynodd*—i waredu ei was, a dial ar ei elynion; *a thywyllwch oedd dan ei draed ef*—sef cymylau duon, i attal i'w elynion ei weled ef.

Adn. 10. *Marchogodd hefyd ar y cerub*] Neu gwnaeth yr angylion yn gerbyd iddo, Salm lxviii. 17; *ië, efe a ehedodd ar adenydd y gwynt*—fe allai mai y meddwl yw, ddarford iddo ddefnyddio yr angylion, neu ei 'genadaw' o wynt, gwlaw, mell, &c., yn offerynau yn ei law i gario allan ei aucionion mawron.

Adn. 11. *Efe a wnaeth dywyllwch yn ddirgelfa iddo*] Neu yn lle i ymguddio ynddo; *a'i babell o'i amgylch oedd dywyllwch dyfroedd*—neu 'ddyfroedd tywyll,' fel y mae yn y Saesonaeg; *a thew gymylau yr awyr*—y rhai a gynwysent y dyfroedd hyn.

Adn. 12. *Gan y dysgleirdeb oedd ger ei fron*] Sef y mell tuaelbar; *ei gymylau a aethant heibio*—neu a rwygasant, iel ag i ollwng i lawr *cenllusg a marwor tanllyd*—neu belenau o dân byw.

Adn. 13. *Yr Arglwydd hefyd a daranodd yn y nefoedd*] Canys y mae y daran, yr hon a elwir yma 'llef y Goruchaf,' yn dilyn y fellten yn wastadol, er y gall fod weithiau yn rhy bell i ni ei ehlwyd. *Cenllusg a marwor tanllyd*—y mae y geiriau hyn yn eisiau yma yn y LXX a'r Arabaeg, ac mewn pum o ysgrifysfrau Kennicott a De Rossi, ac yn 2 Sam. xxii. 14.

Adn. 14. *Ie, efe a anfonodd ei saethau*] Sef y mell uchod; *ac a'u gwasgarodd hwynt*—sef ei elynion cedyrn, adn. 3, 17, y rhai a lwy'r orchfygwyd trwy offerynoliaeth yr ystorn hon.

Adn. 15. *Gwaelodion y dyfroedd a welwyd, &c.*] Hyn sydd ddarlunio o effeithiau y daeargryn uchod, adn. 7, 8.

wyd gan dy gerydd di, O Arglwydd, a chan chwythad anadl dy ffroenau.

16 Anfonodd oddiuchod, cymerodd fi, tynodd fi allan o ddyfroedd lawer.

17 Efe a'm gwaredodd oddiwrth fyngelincadarn, arhag fy nhaseion: canys yr oeddynt yn drech na mi.

18 Achubasant fy mlaen yn nydd fy ngofid: ond yr Arglwydd oedd gynaliad i mi.

19 Dyg fi hefyd i eangder: gwar-edodd fi; canys ymhoffodd ynof.

20 Yr Arglwydd a'm gwobrwyodd yn ol fy nghyfiawnder; yn ol glendid fy nwyllaw y talodd efe i mi.

21 Canys cedwais ffyrdd yr Ar-

glwydd, ac ni chiliais yn annuwiol oddiwrth fy Nuw.

22 O herwydd ei holl farnedig-aethau ef oedd ger fy mron i, a'i ddeddfau ni fwriais oddiwrthyf.

23 Bâm hefyd yn berffaith gydag ef, ac ymgedwais rhag fy anwiredd.

24 A'r Arglwydd a'm gwobrwyodd yn ol fy nghyfiawnder, yn ol purdeb fy nwyllaw o flaen ei lygaidd ef.

25 A'r trugarog y gwnei drugaredd; â'r gŵr perffaith y gwnei berffethrwydd.

26 A'r glân y gwnei lendid; ac â'r cyndyn yr ymgyndyni.

27 Canys ti a waredi y bobl

Adn. 16. *Anfonodd oddiuchod*] Ei farnedig-aethau ar elynion Dafydd, neu waredigaeth i Dafydd ei hun; *cymerodd fi*—megys yr ei law; *tynodd fi allan o ddyfroedd lawer*—sef o drallodion lawer, y rhai a achosid gan ei elynion.

Adn. 17. *Efe a'm gwaredodd oddiwrth fy ngelincadarn*] Sef o ddwyllaw Saul, fel y tybia rhai; *a rhag fy nghaseion*—y rhai a bleidid Saul; *canys yr oeddynt yn drech na mi*—heb i Dduw fy nghynorthwyo. Neu gall ei fod yn cyfeirio yma at ei waredigaeth o ddwyllaw y cawr Isbibenod, a'r Philistiaid ereill, 2 Sam. xxi. 16—22.

Adn. 18. *Achubasant fy mlaen yn nydd fy ngofid*] Cymerasant fantais ar Dafydd pryd yr oedd efe wedi 'distygio' yn y rhyfel â'r Philistiaid uchod; *ond yr Arglwydd oedd gynaliad i mi*—trwy ddanfon Abisai ac ereill i'w gynorthwyo.

Adn. 19. *Dyg fi hefyd i eangder*] I gyflwr o ryddid, cysur, a digonoldeb; *gwaredodd fi*—'o law fy holl elynion, ac o law Saul,' 2 Sam. xxii. 1; *canys ymhoffodd ynof*—am y rhesymau a enwir isod.

Adn. 20. *Yr Arglwydd a'm gwobrwyodd yn ol fy nghyfiawnder*] Sef yn ol ei uniondeb nen ei ddiiniweidrwydd yn y pethau ag y cyhuddid ef o honnynt y pryd hyn gan ei elynion; *yn ol glendid fy nwyllaw y talodd efe i mi*—ond pa fodd y gallai Dafydd lefaru fel hyn ar ol ei bechodau yn achos Bathseba ac Urias? Yn ddigon bawdd, os deallwn ef fel yn cyfeirio at ei ymlyniad diysgog wrth addoliad y gwir Dduw, neu at ei ddiiniweidrwydd gyda golwg ar y fradwriaeth hōnedig gynt yn achos Saul. Hefyd, y mae llawer yn meddwl iddo gyfansoddi y Salm hon yn flaenorol i'w bechodau uchod. Ond tybia ereill mai lefaru y mae Dafydd yma yn mherson Crist, yr hwn yr oedd ei gyfiawnder a'i burdeb yn ddifrycheulyd.

Adn. 21. *Canys cedwais ffyrdd yr Arglwydd*] Trwy rodio yn ol ei orchymynion a'i ewyllys ef; *ac ni chiliais yn annuwiol oddiwrth fy Nuw*—oddiwrth ei grefydd ef, i fyned ar ol eilunod.

Adn. 22. *O herwydd ei holl farnedig-aeth-*

au ef] Neu y deddfau a roddes efe trwy Moses; *oedd ger fy mron i*—oeddynt yn wastad o flaen fy llygad, fel y gallwn weled fy nyledswydd, a gwybod pa fodd i ryngu bodd Duw: *a'i ddeddfau ni fwriais oddiwrthyf*—ddydd na nos, Salm i. 2. Yr oedd hyn i raddau yn wir am Dafydd, ac yn hollol felly am Grist.

Adn. 23. *Bâm hefyd yn berffaith gydag ef*] O ran fy egwyddor a'm bwriad; *ac ymgedwais rhag fy anwiredd*—rhag yr llyn a fuasai yn anwiredd ynof, neu yn anwiredd i mi, pe cyflawnaswn ef; neu, rhag y pechod parotaf i'm hamgylchu. Y mae *Gill* ac ereill yn priodoli y geiriau hyn i Grist, gan feddwl fod yr ymadrodd, '*fy anwiredd*,' yn golygu 'anwiredd ei bobl yn gyfrifedig arno ef.' Ond os felly, pa fodd y dywed efe yma ei fod wedi '*ymgadw* rhagddo?' canys 'yr Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd.' gwel ar Essay liii. 6.

Adn. 24. *A'r Arglwydd a'm gwobrwyodd,* &c.] Gwel ar adn. 20.

Adn. 25. *A'r trugarog y gwnei drugaredd*] Ymadrodd o'r un ystyr a geiriau ein Harglwydd, 'Gwyn eu byd y rhai trugarogion, canys hwy a gânt drugaredd:' gwel ar Mat. v. 7, a vii. 2: *â'r gŵr perffaith y gwnei berffethrwydd*—canys 'ni attal Duw ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith,' Salm lxxxiv. 11.

Adn. 26. *A'r glân y gwnei lendid*] Canys 'pob cangen a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanbau, fel y dygo fwy o ffrwyth,' Ioan xv. 2: *â'r cyndyn*—sef yr hwn a barhao yn gyndyn a gwrthnysig hyd y diwedd, heb ymstwtwng i geryddion Duw, na dychwelyd wrth ei alwadau grasol ef; *yr ymgyndyni*—nes ei lwy'r orchfygu a'i ddyfetha ef: gwel ar Lef. xxvi. 23, 24, Diar. i. 24—32, Luc xix. 27.

Adn. 27. *Canys ti a waredi y bobl gystuddiedig*] Sef y rhai a orthymir gan eu gelyniion beilchion; neu y bobl 'gystuddiedig ac isel o sbyrdd, y rhai sydd yn crynu wrth ei air ef,' Essay lvii. 15, a lxxi. 2: *ond ti a ostynqi olygon uchel*—sef gwrthwynebwyr beilchion pobl Dduw.

gystuddiedig; ond ti a ostyngi olgon uchel.

28 O herwydd ti a oleui fy nghanwyll: yr Arglwydd fy Nuw a lewyrcha fy nhywyllwch.

29 Oblegid ynot ti y rhedais trwy fyddin; ac yn fy Nuw y llemais dros fur.

30 Duw sydd berffaith ei ffordd: gair yr Arglwydd sydd wedi ei buro: tarian yw efe i bawb a ymddiriedant ynddo.

31 Canys pwy sydd Dduw heblaw yr Arglwydd? a phwy sydd graig ond ein Duw ni?

32 Duw sydd yn fy ngwregysu â

nerth, ac yn gwneuthur fy ffordd yn berffaith.

33 Gosod y mae efe fy nhraed fel traed ewigod; ac ar fy uchelfanau y'm sefydla.

34 Efe sydd yn dysgu fy nwyllaw i ryfel; fel y dryllier bwa dur yn fy mreichiau.

35 Rhoddaist hefyd i mi darian dy iachawdwriaeth; a'th ddeheulaw a'm cynaliodd, a'th fwynder a'm lluosogodd.

36 Eangaist fy ngherddediad danaf; fel na lithrodd fy nhraed.

37 Erlidiais fy ngelynion, ac a'u

Adn. 28. *O herwydd ti a oleui fy nghanwyll*] A roddi i mi ddiogelwch, cysur, gogoniant, neu hiliogaeth, y rhai oll a arwyddir weithiau yn yr ysgrhythrau wrth yr ymadrodd hwn; neu gall ei fod yn cyfeirio at y MESSIA, yr hwn oedd i ddisgyn oddiwrtbo ef, a'r hwn oedd 'oleuni i oleuo y Cenhedloedd, a gogoniant ei bobl Israel,' Lucii. 32: yw ar I Bren. xi. 36, a xv. 4, Job xviii. 5, 6. *Yr Arglwydd fy Nuw a lewyrcha fy nhywyllwch*—trwy ei oleuni ysbyrdol; neu a'm gwared i oddiwrtbo fy holl ofidiau yn dymhorol ac ysbyrdol.

Adn. 30. *Oblegid ynot ti y rhedais trwy fyddin*] Gan ddyfetha rhenciau y gelynion, heb gael dim niwed fy hwn; ac yn fy Nuw y llemais dros fur—i gymeryd meddiant o amddiffynfa neu ddinas; neu i ffoi o'r unrhyw, fel y gwnaethai efe o Ceilah, 1 Sam. xxiii. 7, &c. Gall ei fod yn cyfeirio at ei waith yn ennill amddiffynfa Seion, 2 Sam. v. 7, &c.

Adn. 30. *Duw sydd berffaith ei ffordd*] Y mae ei holl weithredoedd ef, fel ei natur, yn gwbl berffaith, uniawn, a santaidd. *Gair yr Arglwydd sydd wedi ei buro*—neu wedi ei brofi yn bur. Heb., 'wedi ei brofi trwy dan,' fel y profir mettel, i edrych a oedd efe yn bur: ac y mae efe wedi dal yn ngwyneb pob prawf, fel na chaed cymaint ag un achos erioed yn yr hwn y torodd Duw ei addewid. *Tarian yw efe*—neu amddiffynydd cadarn a sicr, i bawb a ymddiriedant ynddo—sef yn Nuw, neu yn ngwrionedd ei addewidion ef, Salm xci. 4.

Adn. 31. *Canys pwy sydd Dduw heblaw yr Arglwydd*] Neu 'heblaw JEHOWA,' y Bôd mawr hunan-ymddibynol, oll-ddigonol, a thragwyddol, yr hwn yn unig y tâl i ddyinion ymddiried ynddo? a phwy sydd graig ond ein Duw ni—at ba un y gallwn ffoi am gysgod a diogelwch?

Adn. 32. *Duw sydd yn fy ngwregysu â nerth*] Mewn corff a meddwl, at fy holl orchwylion milwrol, gwladol, a chrefyddol. Cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrtbo arferiad y dwyreiniwyr o wregysu y lwynan, yr hyn a'u haddasai yn fwy at unrhyw orchwyl. *Ac yn gwneuthur fy ffordd yn berffaith*—yn berffaith eglur a gwastad o'm blaen, gan fy nghy-northwyo inau i rodio ynddi yn uniawn a didramgydd.

Adn. 33. *Gosod y mae efe fy nhraed fel traed ewigod*] Y mae efe yn peri i'm cerddediad fod yn ysgafn a heinif, fel ag i allu dringo y clogwyni mwyaf serth; ac ar fy uchelfanau y'm sefydla—dywedir hyn mewn cyfeiriad at waith yr ewigod a chreaduriaid ereill yn ymmoddi ar gopa creigiau; a'r meddwl yw, fod Duw yn ei lwyddo a'i ddiogelu ef yn mhob peth, mewn ystyr tymhorol ac ysbyrdol.

Adn. 34. *Efe sydd yn dysgu fy nwyllaw i ryfel*] Yr wyf yn ddyledus i Dduw a fy holl fedruswydd a'm gwroldeb milwraidd. Rhyfel-oedd yr Arglwydd yr oedd Dafydd yn eu rhyfela, a hyny yn erbyn gelynion yr Arglwydd, 1 Sam. xxv. 28; ac am hyny yr oeddnt nid yn unig yn gyfreithlon ynddynt eu hunain, ond yn orchymynedig gan Dduw. Ond nis gellir dywedyd hyn am bob rhyfel, hyd yn nod am rai a ymleddir gan Gristionogion mewn enw. *Fel y dryllir bwa dur yn fy mreichiau*—neu 'fwa pres,' fel y myn rhai ei ddarllen, am y tybiant nad oedd dur yn adnabyddus y pryd hyny. Y mae y frawddeg hon yn cyfeirio yr ddiamau at gryfder Dafydd; ac y mae yr holl hen gyfieithiadau yn ei darllen, 'Gwnaethost fy mraich fel bwa pres.'

Adn. 35. *Rhoddaist i mi darian dy iachawdwriaeth*] Sef dy amddiffyniad cadarn, y'r hwn a fu i mi fel tarian i'm diogelu; a'th ddeheulaw a'm cynaliodd—rhag syrthio yn ysglyfaeth i'm gelynion, neu i'r pwll a gloddiasant i'm dal; a'th fwynder a'm lluosogodd—yn nifer fy myddinoedd a'm deliadau; neu, fel y mae yn y Saesonag, 'a'm gwnaeth yn fawr.' Ond y mae rhai yn deall hyn oll am fendithion ysbyrdol yn unig; ac ereill yn eu cymhywso oll at Grist.

Adn. 36. *Eangaist fy ngherddediad danaf*] Trwy wneyd fy ffordd yn llydan; fel na lithrodd fy nhraed—dros ei hymvlon hi, fel y dygwdda yn fynych mewn llwybrau culion. Cyfeirir yma at ddiogelwch Dafydd ei ei hynt filwraidd.

Adn. 37—39. *Erlidiais fy ngelynion, &c.*] Meddylir ei fod yn cyfeirio yma at ei fuddugoliaethau ar yr Amaleciaid, y rhai a adroddir yn 1 Sam. xxx. 1, &c.; neu ar y Philistiaid,

godiweiddais: ac ni ddychwelais nes eu difa hwynt.

38 Archollais hwynt, fel na allent godi: syrthiasant dan fy nhraed.

39 Canys gwregysaist fi â nerth i ryfel: darostyngaist danaf y rhai a ymgododd i'm herbyn.

40 Rhoddaist hefyd i mi warau fy ngelynyon; fel y dyfethwn fy nghaseion.

41 Gwaeddasant, ond nid oedd achubydd: sefar yr Arglwydd, ond nid atebodd efe hwynt.

42 Maluriais hwynt hefyd fel llwch o flaen y gwynt: teflais hwynt allan megys tom yr heolydd.

43 Gwaredaist fi rhag cynhenau y bobl; gosodaist fi yn ben cenhedloedd: pobl nid adnabûm, a'm gwasanaethant.

44 Pan glywiant am danaf, ufyddhant i mi: meibion dyeithr a gymertant arnynt ymddarostwng i mi.

45 Meibion dyeithr a ballant ac a ddychrynant allan o'u dirgel fanau.

46 Byw yw yr Arglwydd, a bendithier fy Nghraig: a dyrchafer Duw fy iachawdwriaeth.

47 Duw sydd yn rhoddi i mi allu ymddial, ac a ddarostwng y bobloedd danaf.

48 Efe sydd yn fy ngwared oddiwrth fy ngelynyon: ïe, ti a'm dyrcheffu uwchlaw y rhai a gyfodant i'm herbyn: achubaist fi rhag y gŵr traws.

49 Am hyn y moliannaf di, O Arglwydd, yn mhllith y Cenhedloedd, ac y canaf i'th enw.

yr Edomiaid, a'r Syriaid, fel y cawn hanes yn 2 Sam. viii. 1, &c.

Adn. 40. *Rhoddaist hefyd i mi warau fy ngelynyon*] I roddi fy iau ar en gwraau, neu i'w gosod hwy dan deyrnged a threth. Ond y mae *Houbigant* ac ereill yn cyfieithu y frawddeg yn fwy cyson â'r wreiddiol, 'Rhoddaist i mi eu cefnau;' hwy yw, gwnaethost iddynt droi eu cefnau ataf wrth geisio ffoi, fel y dyfethwn hwynt.

Adn. 41. *Gwaeddasant, ond nid oedd achubydd*] Yr oedd y rhan Genheddig o elynion Dafydd yn gwaeddi ond odid ar eu duwiau eu hunain, tra yr oedd Saul a'i wŷr yn gwaeddi ar Dduw Israel; ond ni fynai efe eu hateb, ac nid allai y lleill.

Adn. 42. *Magluriais hwynt hefyd fel llwch, &c.*] Ymadrodd yn arwyddo eu llwyr ddiinvstr hwynt, fel *llwch* yn cael ei gario ymaith o flaen y gwynt, neu *dom* yn cael ei sathru dan draed. Fel hyn yr oedd buddugoliaethau Dafydd yn gysgod o fuddugoliaethau Crist ar ei holl elynion yntau.

Adn. 43. *Gwaredaist fi rhag cynhenau y bobl*] Sef cynhenau ei bobl ei hun dan Saul, 2 Sam. xxii. 44; ac yn ystod y rhyfel gartrefol a godwyd gan Abner o blaid Isboseth, 2 Sam. ii. 8, &c.; a gwrthryfel Absalom, 2 Sam. xv. 13, &c. *Gosodaist fi yn ben cenhedloedd*—yn frenin ar yr Ammoniaid, y Moabiaid, yr Edomiaid, y Syriaid, ac ereill, y rhai a ddarostyngwyd gan Dafydd i dalu teyrnged iddo ef. *Pobl nid adnabûm*—cenhedloedd barbaraid a phellenig; *a'm gwasanaethant*—a fyddant yn mhlith fy ufydd ddeiliaid.

Adn. 44. *Pan glywiant am danaf*] Am fy enw, fy arfau, a'm buddugoliaethau, neu am fy nesâd tuag atynt; *ufyddhant i mi*—taflant eu harfau i lawr i gydsynio a'm hewylls. *Meibion dyeithr a gymertant arnynt ymddarostwng i mi*—a broffesant hyn ar air, ac a ofordir i hynny mewn gweithred, tra y mae eu calon yn llawn o elyniaeth at fy mherson a'm

llywodraeth. Y mae hyn yn ddarluniad cywir o lawer o broffeswyr crefydd Crist.

Adn. 45. *Meibion dyeithr a ballant*] A ddiflanant o ran eu nerth, neu a fyddant yn analluog i wneyd dim yn fy erbyn; *ac a ddychrynant allan o'u dirgel fanau*—denant allan o'u llochesau i'w rhoddi eu hunain i fyny i mi, heb gynyw unrhyw wrthsafad. Fe allai y dylai yr holl fersau hyn, fel y sylwa Clarke, gnel eu deall yn yr *amser gorphenol*, trwy fod Dafydd yn son yma am freuhiniaeth mewn *llonyddwch*, ar ol darostwng pob gelynyon; neu, fel y dywedir yn nheith y Salm, 'wedi i'r Arglwydd ei waredu ef o law ei holl elynion.'

Adn. 46. *Byw yw yr Arglwydd*] Trwy JEHOVA yn unig, yr hwn yw y Duw byw, y cefais i fy holl fuddugoliaethau. Neu, fel y gellir ei gyfieithu, 'Byw fyddo yr Arglwydd.' Yn y goleuni hwn y mae yr ymadrodd yn gyfarchiad gorfoleddus a diolchgar, y fath ag a roddir gan ddeiliaid i'w brenhinoedd. *A bendithier fy Nghraig*—am y diogelwch a'r amddiffyniad a estynwyd i mi. *A dyrchafer Duw fy iachawdwriaeth*—sef awdwr fy iachawdwriaeth dymhorol ac ysbyrdol. Boed i bawb trwy nef a daear ei fendithio a'i ddyrchafu ef yn dragwydd.

Adn. 47. *Duw sydd yn rhoddi i mi allu ymddial*] Efe, i'r hwn 'y perthyn dial,' Deut. xxxii. 35, sydd yn fy nefyddio i fel offeryn yn ei law i ddial ar ei elynion; *ac a ddarostwng y bobloedd danaf*—trwy eu digaloni hwy, a gwanbau eu dwylaw.

Adn. 48. *Efe sydd yn fy ngwared oddiwrth fy ngelynyon*] Fel hyn priodolai Dafydd ei waredigaethau i Dduw yn unig, ac nid i'w fedrusrwydd, ei arfau, neu ei nerth ei hun. *Ie, ti a'm dyrcheffu uwchlaw y rhai a gyfodant i'm herbyn*—sef uwchlaw eu malais a'u gallu hwynt. *Achubaist fi rhag y gŵr traws*—sef rhag Saul, yr hwn y mae efe yn foneddigaidd yn ei adael heb ei enwi

Adn. 49. *Am hyn y moliannaf di, O*

50 Efe sydd yn gwneuthur mawr ymwared i'w frenin; ac yngwneuthur trugaredd i'w eneiuiog, i Dafydd, ac i'w had ef byth.

SALM XIX.

YNEFOEDD sydd yn datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sydd

Arglwydd] Sef am y gwaredigaethau uchod; yn mhllith y *Cenhedloedd*—y rhai a ddarostyngir danaf, nen yn ngwydd y Cenhedloedd llyna a gyrchant i Jerusalem ar y gwyliau arbenig; *ac y canaf i'w enw*—yn yr hyn y cydanant hwythan hefyd, yn euwedig yn yr amser a ddaw. Fe allai fod Dafydd yn cael ei gario yma tubwnt iddo ei hun, i lefaru am CRIST; canys y mae yr apostol yn cymhwysio y geirian hyn ato ef, ac at alwad y Cenhedloedd i'w eglwys, Rhuf. xv. 9. Modd bynag y mae ystyr, fel y sylwa *Theodoret*, yn yr hwn y maent yn briodol i Dafydd ei hun. 'Ni a welwn,' meddai efe, 'gyflawniad y broffwydoliaeth hon; canys y mae Dafydd hyd heddyw yn molianu yr Arglwydd yn mhllith y Cenhedloedd trwy enau y gwir gredinwyr; gan nad oes dinas, tref, pentref, gwlad, nac hyd yn nod anlwyb, lle y mae Cristionogion yn byw, heb i Dduw gael ei foliannu yno trwy eu caniad hwy o Salmau Dafydd.'

Adn. 50. *Efe sydd yn gwneuthur mawr ymwared i'w frenin*] Sef i Dafydd, yr hwn oedd yn frenin ar Israel dan Dduw, a thrwy osodiad Duw ei hun: *ac yn gwneuthur trugaredd i'w eneiuiog*—i Dafydd, yr hwn a eneiuiwyd yn frenin, a'r hwn nad oedd wedi haeddu cymaint ag un o'r bendithion mawrion uchod: i *Dafydd*—ei hun yn gyntaf, ac yna i'w had ef byth—sef i'w hiliogaeth trwy eu holl genedlaethau. Gallaf ddiweddu fy nodiadau ar y Salm hon yn ngeirian Clarke, yr hwn a ddywed, 'fod yr oll o'r Salm hon wedi cael ei deall fel yn cyfeirio at ddyoddefiadau a buddugoliaethau CRIST, a llwyddiant yr efengyl ar y ddaear. Yn yr ystyr yma y darfu i'r Esgob *Horne* ei deall a'i halleirio hi; ac y mae llawer o'r hen Dadau, ac o'r esbonwyr diweddar, wedi edrych arni yn yr un goleuni. Y rhanau hyn ag y barnwn i fod iddynt yr ystyr hwn, mi a'i nodais allan; ac nid oes genyf ond chwaneu, trwy fod Dafydd yn gysgod o Crist, fod llawer o bethau a ddywedid am Dafydd mewn ystyr *cyntefig*, yn cyfeirio at ein Harglwydd mewn *ad ystyr*: ond y mae llawer o faru a gwylidwriaeth yn ofynol yn y cymhwysiad o honny. Ymdengys i mi fod cymhwysio yr holl Salm yn y ffordd hon yn beth tra annoeth, ac yn fynych yn anfri ar fawrhdy Crist. Bydded hyn fy esgus i dros beidio dilyn y llwybr ar hyd yr hwn y teithiodd llawer o'r rhai a fuont o'm blaen i.'

SALM XIX. Teitl hon yw, '*I'r pencerdd, Salm Dafydd*.' Tybia rhai i Dafydd ei chyfansoddi yn yr anlwyb, pan yn cael ei erlid gan Saul; ond nid oes sicrwydd hollol yn mha le, pa bryd, na chan bwy, yr ysgrif-

yn mynegu gwaith ei ddwyllaw ef.

2 Dydd i ddydd a draetha ymadrodd, a nos i nos a ddengys wybodaeth.

3 Nid oes iaith nac ymadrodd, lle ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt.

wyd hi. Y mae hi yn Salm werthfawr, ac yn gosod o'n blaen y ddau llyfr mawr a ysgrifenyddwyd ac a gyhoeddwyd gan Dduw ei hun er hyfforddiant i ddyd, sef llyfr natur, adn. 1—6, a llyfr yr ysgrifthyrau, adn. 7—11.

Adn. 1. *Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw*] Y mae y nefoedd weledig yn datgan nid yn unig fod Duw yn bodoli, ond hefyd ei fod yn un tra gogonedus a mawreddog: *a'r ffurfafen sydd yn mynegu gwaith ei ddwyllaw ef*—neu mai ei ddwyllaw ef a'i lluniodd, trwy nad allai neb ond y Creawdwr hollalluog, doeth, a da, ei gwneyd hi a'r defnyddiau sydd ynddi. Y mae y nefoedd yma yn arwyddo y nef serenog, ac yn cynwys yr haul, y lloer, a'r ser; ac y mae y *ffurfafen* yn arwyddo yr eangder dirfawr ag sydd yn cyraedd oddiyno i'r ddaear, ac yn cynwys awyr, goleuni, nwyon, yn nghyda'r holl llylfau a'r agerau a nofiant uwchben. Y mae dirfawredd y nefoedd a'r ffurfafen yn mynegu *hollalluogrwydd* Duw; eu dyfeisiad a'u hamrywiaeth yn datgan ei *hollwybodaeth* ef; ac y mae eu cyfaddasiad i'r dybenion mwyaf daionus yn dangos ei anfeidrol *ddoethineb* a'i *ddaioni* ef.

Adn. 2. *Dydd i ddydd a draetha ymadrodd*] Am Dduw, ei briodoliaethau, a'i weithredoedd; nen a '*ffynonella* ymadrodd,' fel yr arwyddia y wreiddiol; hynny yw, a'i bwrlyma ef yn helaeth, grymus, a dibaid. *Anos i nos a ddengys wybodaeth*—am yr un gwrthdrysychau goruchel. Y meddwl yw, nid fod y nail ddydd a nos yn traethu am weithredoedd Duw i ddydd a nos arall, fel y tybiodd rhai; ond, fod dydd ar ol dydd, a nos ar ol nos, yn gwneuthur hyn yn ddisiebiant. Y mae yr haul, brenin y dydd, a'r lloer a'i gosgorddlu, brenhines y nos, yn pregethu yn barhaus, yn eu dull hwy, fawrion weithredoedd Duw, nes y mae hyd yn nod y paganiaid yn ddiessus: gwel ar Rhuf. i. 19—21.

Adn. 3. *Nid oes iaith nac ymadrodd, lle ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt*] Yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r geirian hyn yw, fod pawb yn gallu deall eu lleferydd hwy, yn mhllith pob cenedl, pan nas gallant yn amlddeall iaith eu gilydd. Ond dylid sylwi, nad yw y geirian *oes a lle*, y rhai a argraffwyd mewn llythyrenau *Itali*, yn yr Hebraeg; ac wrth eu gadael allan, bydd i'r cyfeithiad gyfateb yn gywir i'r wreiddiol, a chyfieu ystyr arall: 'Nid iaith nac ymadrodd, ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt.' Hynny yw, er nad yw y dydd a'r nos, neu y nefoedd a'r ffurfafen, yn meddu iaith, ymadrodd, na lleferydd, fel ag sydd gan ddynion; eto gall pawb ddeall yr hyn a ddydsant neu a ddanghosant hwy am Dduw.

4 Eu llinyn a aeth trwy yr holl ddaear, a'u geiriau hyd eithaf oedd y byd: i'r haul y gosododd efe babell ynddynt;

5 Yr hwn sydd fel gŵr priod yn dyfod allan o'i ystafell: ac a ymlawenha fel cawr i redeg gyrfa.

6 O eithaf y nefoedd y mae ei fynediad ef allan, a'i amgylchiad hyd eu heithaf oedd hwynt: ac nid ym-

gudd dim oddiwrth ei wres ef.

7 Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi yr enaid: tystiolaeth yr Arglwydd sydd sicr, ac yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth.

8 Deddfau yr Arglwydd sydd uniawn, yn llawenhau y galon: gorchymyn yr Arglwydd sydd bur, yn goleuo y llygaid.

Adn. 4. *Eu llinyn a aeth trwy yr holl ddaear*] Y mae *kw*, yr hwn a gyfieithir yma yn *llinyn*, yn cael ei gyfieithu yn *sun* gan y LXX a'r Vulgate, ac felly y geilw St. Paul ef: gwel ar Rhf. x. 18. 'Fe allai fod y meddyl-drych yma,' ebai CLARKE, 'wedi ei gymeryd oddiwrth llinyn wedi ei *dynhau*, yr hwn a swnia wrth ei daro; ac felly gall y ddau feddyl-drych fod yn gywysedig yn yr un gair, sef *llinyn a sun*.' Ond tybia POOLE ac ereill fod y gair yn arwyddo *linelli* neu *ysgrifen*, megys a gwynysir mewn llyfr neu ddarlunlen. Os felly, gall mai y meddwl yw, er na fedd dydd a nos, mwy na'r nefoedd a'r ffurfafen, iaith nac ymadrodd na lleferydd dynol, eto eu bod yn arddangos Bodaeth eu Hawdwr, fel y dengys ysgrif neu *sap* fod rhyw un wedi bod yn eu gwneuthur hwythau. *A'u geiriau hyd eithaf oedd y byd*—fel y gall holl drigolion y ddaear ddarllen neu amgyffred yr ysgrif neu y ddarlunlen hon yn llyfr natur. *I'r haul y gosododd efe babell ynddynt*—sef yn y nefoedd neu y ffurfafen, lle yr ymguddia efe dros nos. Ond y mae yr holl hen gyfieithiadau, oddieithr y Caldeaid, yn ei ddarllen, 'Yn yr haul y gosododd efe ei babell;' gan feddwl, os oedd gan Dduw ryw drigfa *leol*, y rhaid mai yr haul ydoedd. Eithr y mae ein cyfieithiad ni yn nes i'r Hebraeg, ac yn gosod yr haul allan fel *cadfridog* yn ei babell, yn cael ei amgylch-yau gan ei fyddinoedd, y rhai a lywodraethir ganddo, ac a ufyddhant iddo.

Adn. 5. *Yr hwn sydd fel gŵr priod*]—Neu briodfab yn dyfod allan i gyfarfod a'i ddyweddi, wedi ymdrwio yn ysplenydd mewn gwisgoedd o oleuni; *o'i ystafell*—yn y dwyrain, gan wenu ar y byd: *ac a ymlawenha fel cawr i redeg gyrfa*—o eithaf y dwyrain hyd eithaf y gorllewin. Y mae yr *haul* yn cael ei gymharu yma i *briodfab* yn dyfod allan i briodi mewn *harddwisgoedd*, o herwydd *dysgleirdeb* gogoneddus ei belydr; ac i *gawr* yn rheiddeg gyrfa, o herwydd nerth ei oleuni a'i wres. Nid ydym i gasglu oddiyma fod yr haul yn ymsymud, neu yn troi oddenta y ddaear; eithr yr ymadrodd sydd farddonol a hedegog, yn arddangos yr haul fel gŵr wedi bod yn gorphwys yn ei ystafell dros nos, ac yn dyfod allan bore dranoeth i ddechreu ar ei daith.

Adn. 6. *O eithaf y nefoedd y mae ei fynediad ef allan*] Sef o eithaf y terfyngyloch dwyreiniol; *a'i amgylchiad*—nen ei gylch-daith, *hyd eu heithaf oedd hwynt*—efe a red fel cawr hyd y terfyngyloch gorllewinol, ac a â

rhagddo nes amgylchu y byd, fel y ceir ei weled ef bore dranoeth yn y fan lle y cyclwyn-odd ei daith y bore o'r blaen. Hyn a achosir, nid trwy gylchrediad yr haul oddeutu y ddaear, ond trwy gylchdrod y ddaear ar ei hechel bob pedair awr ar hugain yn ngolwg yr haul: gwel ar Gen. i. 4, 14. *Ac nid ymgudd dim oddiwrth ei wres ef*—yr ochr yma i'r ddaear, na'r ochr draw. Y mae ei wres, ei oleuni, a'i ddylunwad daionus ef, yn cyraedd pawb a phob peth ar y ddaear; ac yn hyn y mae yn rhyw gysgod gwan o'i Greadwr haelionus: gwel ar Iago i. 17.

Adn. 7. *Cyfraith yr Arglwydd*] Sef datguddiad ysgrifenedig Duw, neu yr holl ysgrhythyrau santaidd cyn belled ag yr oeddynt yn cyraedd y pryd hyn. Ar ol i'r Salmudd ddangos y modd y mae llyfr natur yn traethu ar Dduw, ei berffeithderau, a'i ogoniant, y mae efe yma yn myned rhagddo i ddangos rhagoriaeth llyfr yr *ysgrhythyrau* yn ei dystiolaeth am Dduw, a'i fuddioldeb i ddyn. *Sydd berffaith*—sydd yn llawn ddatguddio natur a pherffeithderau Duw fel Bôd trugarog, madd-eugar, a graslawn; ac yn dysgu i ddyn pa beth sydd yn angenrheidiol iddo yntau ei gredu a'i wneyd mewn trefn i gyraedd dedwyddwch presenol a thragwyddol. Er fod llyfr natur yn traethu digon am Dduw i wneyd dyn yn ddi-essus fel gwadwr ei fodaeth; eto nid yw hwnw yn *berffaith* fel hwn, neu yn llawn gyhoeddi ewyllys Duw, gan ddyngu y ffordd i bechadwr gael ei achub. *Yn troi yr enaid*—hyn yw, yn mae yn foddion, yn llaw yr Ysbryd Glân, i ddychwelyd dyn oddiwrth bechod at gyfiawnder; neu i'w ddwyn yn ol at Dduw, ac i gyflwr o iachawdriaeth. *Tystiolaeth yr Arglwydd*—yr un llyfr, yn cael ei alw felly am ei fod yn dyst rhwng Duw a dyn, neu yn tystiolaethu pa beth y mae Duw yn ei ofn gan ddyn, a'r hyn a wna efe iddo mewn canlyniad i'w ufydd-dod neu ei anuffydd-dod. *Sydd sicr*—neu safadwy a fyddlon; *ac yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth*—y mae dynion o'r cyraeddiadau gwanaf, a'r rhai hawddaf eu twyllo uewn pethau ereill, wrth fyfrio yn yr ysgrhythyrau, a byw yn ol rheol gair Duw, yn cael eu gwneud yn ddoeth i iachawdriaeth, 2 Tim. iii. 15.

Adn. 8. *Deddfau yr Arglwydd*] Yr un rhai ond odid ag' a elwir uchod yn 'gyfraith' a 'thystiolaeth'; *sydd uniawn*—ynddynt eu hunain, ac yn eu heffeithiau; *yn llawenhau y galon*—trwy ddatguddio i ddyn colledig gariad Duw, a'r ffordd i gael trugaredd. *Gor-*

9 Ofn yr Arglwydd sydd lân, yn parhau yn dragywydd; barnau yr Arglwydd ydynt wirionedd, cyfiawn ydynt i gyd.

10 Mwy dymunol fnt nag aur, i.e. nag aur coeth lawer: melysach hefyd na'r mêl, ac na dyferiad diliau mêl.

11 Ynddynt hwy hefyd y rhybyddir dy was: o'u cadw y mae gwobr lawer.

12 Pwy a ddeall ei gamweddau? Glanha fi oddiwrth fy meiau cuddiedig.

Chymyn yr Arglwydd sydd bur—heb y cymysgedd lleiaf o gyfeillionad; *yn goleuo y llygaid*—sod llygad y meddwl, gydag amlygiad cywir o ewyllys Duw, a dyledswydd dynion tuag at eu Creawdwr.

Adn. 9. *Ofn yr Arglwydd*] Sef gwir grefydd, neu y llyfr dwyfol ag sydd yn ei dysgu; *sydd lân*—sydd hollol bur oddiwrth bob cymysgedd a thwyll, ac yn arwain ei berchenog i lendid ealon a buchedd; *yn parhau yn dragywydd*—yn aros yn ddiglyfnawd yr un o ran sylwedd, trwy nad oes ond un ffordd i gadw pechadur dan bob goruchwyliaeth, sef trwy Grist a'i waed. *Barnau yr Arglwydd*—sef ei ddeddfau, yn ol pa rai y barna efe ynddygiadau dynion; *ydynt wirionedd*—a safant yn ddiwyrni yn dragywydd, trwy en bod yn seiliedig oll ar y cyfiawnder manylaf: *cyfiawn ydynt i gyd*—heb drais, gormes, nac anghyfiawnder mewn un o honynt. Y mae rhai yn gwahaniaethu rhwng y gyfraith, y deddfau, a'r barnau hyn, gan feddwl eu bod yn dynodi y rhanau moesol, seremonïol, neu athrawiaethol o'r gair datguddiedig; ond yn niha ystyr bynag y deallir hwynt, y maent oll yn *wirionedd* digymysg, a *chyt ven* ydynt i gyd.

Adn. 10. *Mwy dymunol fnt nag aur*] Er fof y rhan fwyaf yn dymunio hwnw o ffaen gair Duw; *ie, nag aur coeth lawer*—nag aur o'r fath oraf, ac yn yr helaethrwydd mwyaf. *Melysach hefyd na'r mêl*—i'r enaid ag sydd wedi ei brofi yn allu Duw er ei iachawdwr-iaeth; *ac na dyferiad diliau mêl*—yr hwn sydd yn felysach na mêl a fyddo wedi cael ei ddynoethi mewn awyr agored am beth amser. 'Nis gall neb,' ebaï Clarke, 'ond y rhai a fwyasant fel o'r crwybr, deimlo grym cydnabariaeth y Salmydd.' Nid ym mwyniant daearol ddim ond pleser anifeiliaid, ac am hyn y mae yn darostwng enaid dyn; tra y mae nawyniant crefyddol yn bleser angylion, ac am hyn yn ei ddyrchafu ef. Y mae pleserau daearol yn dwilodrus, ac yn troi yn wrthwynebydd yn fuan, heb byth ddigoni; ond y mae pleserau crefyddol yn sylweddol, ac yn parhau yn eu blas am byth.

Adn. 11. *Ynddynt hwy hefyd y rhybyddir dy was*] O'm dyledswydd yn inob amgylchedd, ac o'r perygl o'i hesgeuluso hi: *o'u cadw y mae gwobr lawer*—sef heddwch cydwbydd yn y byd hwn, a bywyd tragwyddol yn y byd

13 Attal hefyd dy was oddiwrth bechodau rhyfygus; na arglwyddiaethout arnaf: yna y'm perffeithir, ac y'm glanheir oddiwrth anwiredd lawer.

14 Bydded ymadroddion fy ngenau, a myfyrdod fy nghalon, yn gymeradwy ger dy fron, O Arglwydd, fy Nghraig a'm Prynwr.

SALM XX.

GWRANDAWED yr Arglwydd
Garnat yn nydd cyfyngder: enw
Duw Jacob a'th ddiifyno.

a ddaw. Gwneir ein croesau yn ysgafn, ein bywyd yn ddymunol, a'n marwolaeth yn êlw i ni; a hyn oll, nid fel cyflog wedi ei haeddu, ond fel gwobr yn cael ei roddi o rás a thur-garedd.

Adn. 12. *Pwy a ddeall ei gamweddau*] O ran eu rhif, eu llysgelerder, a'u drwg haeddiant? *Glanha fi oddiwrth fy meiau cuddiedig*—y rhai a gyflawnais trwy wendid ac anwybodaeth, neu a anghofiais, ac felly nad edifarheais yn ddyladwy am danynt. Symud ymaith yr euogrydd o honynt trwy faddenant, a'r halogrwydd o honynt trwy santeiddhad: gwel ar Lef. iv. 2, &c., Num. xv. 27, 28.

Adn. 13. *Attal hefyd dy was oddiwrth bechodau rhyfygus*] Yn cael eu cyflawni yn bwyllg a bwriadol yn erbyn goleuni a gwybodaeth, neu yn groes i argyhoeddiad cydwbydd, ac ymrystoriadau yr Ysbyrd Glân. Ond y mae y LXX yn ei ddarlleu, 'oddiwrth dduwiau dycithr'; ac ereill, 'oddiwrth ysbrydion drwg.' *Na arglwyddiaethout arnaf*—fel ag i'm gorchfygu, yr hyn a fyddai yn arwydd fy mod wedi fy rhoddi i fyny i bechod. *Yna y'm perffeithir*—Saes., 'yna y byddaf uniawn;' bydd hyn yn brawf o'm cywirdeb i, ac o'th ofal grasol dithau am danaf. *Ac y'm glanheir oddiwrth anwiredd lawer*—neu y'm cedwir rhagddynt. Ond y mae y Saesonaeg yn ei ddarlleu, 'byddaf dffueog o'r trosedd mawr;' a thybria llawer fod hyn yn cyfeirio at bechod rhyfygus, gwrthgiliaid, neu eilunoddoliaeth; tra y tybia ereill mai y pechod yn erbyn yr Ysbyrd Glân a olygir.

Adn. 14. *Bydded ymadroddion fy ngenau*] Nid yn unig fy ngwethrededd, adn. 13, ond hefyd pob gair a ddywedwyf; *a myfyrdod fy nghalon*—o helaethrwydd yr hon y llefara y genau, Mat. xii. 34; *yn gymeradwy ger dy fron*—yn bur, grasol, a santeidd, y fath ag y gelli eu cymeradwyo; *O Arglwydd, fy Nghraig*—yr hwn a fuost yn noddfa a nerth i mi hyd yma; *a'm Prynwr*—Gwel, 'fy nghyfnesaf,' gan yr hwn yr oedd bawl i brynu: gwel ar Job xix. 25. Ymddengys fod yr ymadrodd hwn yn cael ei chwaneu yma yn fwrriadol mewn cyfeiriad at Grist, trwy waed ac Ysbyrd yr hwn yn unig y gallai y Salmydd gael maddueant, santeidriwydd, a gras, am yr hyn y gweddia efe yma.

2 Anfoned i ti gymhorth o'r cysegr, a nerthed di o Seion.

3 Cofied dy holl offrymau, a bydded foddlon i'th boeth-offrwm. Selah.

4 Rhodded i ti wrth fodd dy galon; a chyflawned yn holl gynghor.

5 Gorfoleddwn yn dy iachawdwr-iaeth di, a dyrchafwn faner yn enw ein Duw: cyflawned yr Arglwydd dy holl ddymuniaidau!

6 Yr awr hon y gwn y gwared yr Arglwydd ei eneiog: efe a wrendy arno o nefoedd ei santeiddrwydd, yn nerth iechyd ei ddeheulaw ef.

7 *Ymddiried* rhai mewn cerbydau, a rhai mewn meirch: ond ny ni a gofiwn enw yr Arglwydd ein Duw.

8 Hwya a gwmpasant, ac a syrthiasant; ond ny ni a gyfodasom, ac a safasom.

SALM XX. Y teitl yw, '*I'r penceerdd, Salm Dafydd.*' Meddylir i'r Salm hon gael ei chyfansoddi fel fflurf o weddi i'w harferyd neu ei channu cyn i Dafydd fyned allan i ryfel, ond oddi yn erbyn yr Ammoniaid a'r Syriaid, y rhai a ddaethant allan gyda llawer o feirch a cherbydan yn ei erbyn ef: gwel ar 2 Sam. x. 6, &c. 'Y mae yn un o'r *Salmau cynadleddol,*' ebai Clarke, 'ac ymddengys ei bod yn cael ei rhanu fel hyn: Cyn dechreu ar y rhyfel, y mae Dafydd yn myned i'r babell i offrymu aberth. Wedi hyny y mae y *bobl* yn offrymu eu gweddiau ar ran eu brenin, y rhai a gynnwysir yn y *tuir* adnod gyntaf. Y mae yn debyg fod adn. 4 yn cael ei thraethu gan yr *archoffeiriad*; ac adn. 5, gan *Dafydd a'i wŷr*; a'r rhan olaf o honi gan yr *archoffeiriad*: adn. 6, gan yr *archoffeiriad* ar ol i'r aberth gael ei ysu: adn. 7, 8, gan *Dafydd a'i wŷr*: ac adn. 9, yn *gydgor* gan yr holl *gynulleidf.*'

Adn. 1. *Gurawdewd yr Arglwydd arnat yn nydd cyfyngder*] Yr oedd Dafydd eisioes wedi bod yn aberthu ac yn gweddio; ac y mae y *bobl* yn awr yn gweddio am i Dduw wrando ei weddi ef, a'i amddiffyn rhag pob niwed yn nydd ei gyfyngder, sef yn y rhyfel nesael. Ni wnai y galon oedd ar ei ben, na'r gras oedd yn ei goron, fel y sylwa Henry, ei gadw ef rhag cyfyngder. *Enw Duw Jacob*—sef Duw Jacob ei hun, trwy fod yr enw yn cael ei arfer yn fynych am y person; *a'th ddiffymo*—boed i'r Duw hwnw a ddiffynodd Jacob yn ei gyfyngder, ac sydd Dduw mewn cyfammod â thithau, dy amddiffyn dithau. Hwn oedd yr Arglwydd Iesu Grist, Angel mawr y cyfammod: gwel ar Gen. xxxii. 24, &c.

Adn. 2. *Anfoned i ti gymhorth o'r cysegr*] Lle yr oedd yr arch a'r drwgareddfa, a lle yr oedd y SECINA, neu yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol, yn aros rhwng y cerubiad; a *nerthed di o Seion*—oddiaf fynydd Seion, lle yr oedd y babell. Ond tybia rhai mai y nefoedd a feddylir yma, fel yn adn. 6.

Adn. 3. *Cofied dy holl offrymau*] Sef y *minchah*, neu offrymau diolchgarwch; a *bydded foddlon i'th boeth-offrwm*—danghosed ei foddlonrwydd ynddo trwy 'ei ysu yn lludw,' fel yr arwydda y gair. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 4. *Rhodded i ti wrth fodd dy galon*] Yr hyn oll yr wyt yn ei ddymuno; a *chyflawned dy holl gynghor*—yr hyn yr wyt yn amcanu ei wneuthur o blaid dy wlad, ac yn erbyn dy elynion. Tybia Clarke mai

gweddi yr archoffeiriad yw yr adnod hon.

Adn. 5. *Gorfoleddwn yn dy iachawdwr-iaeth di*] Sef yn y waredigaeth dymhorol a roddai Duw iddynt o law eu gelynyon; a *dyrchafwn faner yn enw ein Duw*—dan ei awdurdod ef, ac er anrhydedd i'w enw, neu âg enw Duw Israel yn argraffedig arni. Dywedir i'r Maccabeid gael eu henw oddiwrth yr arysgrifen ag oedd ar eu banerau, yr hon a gymerwyd o Exod. xv. 11, *mi camochah baelim Iehovah*, 'pwy sydd debyg i ti, O Arglwydd, yn mhlith y duwiau?' hyny yw, fuffiasant eu henw oddiwrth lythrenau cyntaf y pedwar gair Hebreig uchod, 'MaCaBI.' Tybia Clarke i'r geiriau uchod gael eu llefaru gan Dafydd a'i wŷr; ac i'r archoffeiriad chwaganu yn ddiatreg, *Cyflawned yr Arglwydd dy holl ddymuniaidau!*

Adn. 6. *Yr awr hon y gwn y gwared yr Arglwydd ei eneiog*] Sef Dafydd, yr hwn a eneiesid yn frenin. Tybia Clarke mai geiriau yr archoffeiriad yw y rhai hyn hefyd, ar ol i'r aberth gael ei ysu, yr hyn oedd yn brawf o foddlonrwydd Duw ynddo; tra y tybia ereill mai geiriau Dafydd ei hun ydynt. *Efe a wrendy arno o nefoedd ei santeiddrwydd*—rhaid i Dafydd ei hun barhau i weddio, ac yna fe barhau Duw i wrando ac ateb ei weddi ef o'r nefoedd. *Yn nerth iechyd*—neu nerth achubol, ei ddeheulaw ef—LLAW Dduw yw ei nerth ef; ei DDEHEULAW yw ei nerth hollalluog; NERTH ei ddeheulaw yw ei hollalluogrwydd mewn *gweithrediad*; NERTH ACHUBOL ei ddeheulaw yw yr *effeithiau gweyrthiol* a wneir trwy *weithrediad* ei hollalluogrwydd ef. Dyma yr hyn yr oedd Dafydd i'w ddysgwyl; a'r rhagolwg o hyn a barodd iddo ef a'i swyddogion lawenyachu fel y gwanant yn y ddwy adnod nesaf: gwel CLARKE.

Adn. 7. *Ymddiried rhai mewn cerbydau*] Sef mewn cerbydan heilyn yn eu rhyfeloedd; gwel ar Jos. xviii. 16; a *rhai mewn meirch*—fel y gwnai y Syriaid y pryd hyn, 2 Sam. x. 18: *ond ny ni a gofiwn enw yr Arglwydd ein Duw*—i ymddiried yn ei nerth a'i ffyddlondeb ef yn unig. Yn ol y gyfraith, Deut. xvii. 16, nis gallai Dafydd ddefnyddio meirch na cherbydau rhyfel, yr hyn oedd yn antafais fawr iddo ef ragor ei elynion: ond efe a wyddai fod yr Arglwydd ei Dduw yn gryfach na hwynt oll, ac ynddo ef gan hyny yr ymddiriedai. Ymddengys mai geiriau Dafydd a'i swyddogion yw yr adnod hon a'r nesaf.

Adn. 8. *Hwya a gwmpasant ac a syrth-*

9 Achub, Arglwydd: gwrandawed y Brenin arnom yn y dydd y llefom.

SALM XXI.

A RGLWYDD, yn dy nerth y llawenycha y brenin: ac yn dy iachawdwriaeth di mor ddirfawr yr ymhyfryda!

2 Deisyfiad ei galon a roddaist iddo; a dymuniad ei wefusau nis gommeddaist. Selah.

3 Canys achubaist ei flaen ef â

iasant] Er fod ganddynt feirch a cherbydau i'w hamddiffyn; *ond nyri a gyfodasom ac a safasom*—yn fuddugoliaethus arnynt oll, er na feddem y naill na'r llall. Yr oedd Dafydd a'i wŷr mor herudus y caent oruchafiaeth, nes y maent yn canu am dani yn mlaenllaw, fel pe buasant wedi ei chyraedd eisioes.

Adn. 9. *Achub, Arglwydd*] Dy bobl rhag eu gelynydd hyn: *gwrandawed y Brenin arnom*—sef Brenin mawr nef a daear; *yn y dydd y llefom*—dros ein brenin ein hunain a'n gwlad. Ond y mae y LXX, y Vulgate, yr Ethiopaeg, yr Arabaeg, a'r Anglo-Saxonaeg, yn darllen yr adnod hon yn wahanol: 'Arglwydd, achub y brenin; a gwrando ni pa bryd bynag y galwom arnat.' Ymddengys fod yr holl *gymulleidfa* yn cyduno i ganu y geiriau hyn fel diweddglö i'r Salm.

SALM XXI. Y teitl yw, '*Pr pencerdd, Salm Dafydd*.' Yr un yw testyn y Salm hon a'r un flaenorol, trwy i'r ddwy gael eu cyfansoddi at wasanaeth y bobl yn achos y brenin; ond fod y *gweddiau* a arferwyd yno yn cael eu troi yma yn *fawl* am y bendithion a dderbyniwyd mewn atebiad i'r *gweddiau* hyn. Ond gan fod *Dafydd* yn gysgod gogoneddus o GRIST, y mae efe mewn llawer o'i ymadroddion yn edrych tuhwnt iddo ei hun at Grist, yn yr hwn yn unig y maent yn cael eu llawn a'u priodol gyflawniad.

Adn. 1. *Arglwydd, yn dy nerth y llawenycha y brenin*] Sef yn y nerth a arferiast yn erbyn ei elynion ef; *ac yn dy iachawdwriaeth*—neu y fuddugoliaeth a beraiast iddo ar y Syriaid a'r Ammoniaid; *mor ddirfawr yr ymhyfryda!*—ond y mae rhai yn cymhwyso hyn at iachawdwriaeth ysbyrdol Dafydd; ac ereill at y nerth dwyfol a arferwyd gan Dduw o blaid teyrnas Crist.

Adn. 2. *Deisyfiad ei galon a roddaist iddo*] Sef pob peth a ddimunodd Dafydd yn ei galon, neu a ofynodd efe mewn geiriau. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at y *gweddiau* a offrymwyd yn y Salm flaenorol. Modd bynag, gellir dywedyd yr un peth am Grist, yr hwn yr oedd 'y Tad yn ei wrando bob amser,' Ioan xi. 42. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 3. *Canys achubaist ei flaen ef â ben-*

bendithion daioni: gosodaist ar ei ben ef goron o aur coeth.

4 Gofynodd oes genyt, a rhoddaist iddo: *ie*, hir oes, byth ac yn dragywydd.

5 Mawr *yw* ei ogoniant yn dy iachawdwriaeth: gosodaist arno ogoniant a phrydferthwch.

6 Canys gwnaethost ef yn fendithion yn dragwyddol; llawenychaist ef â llawenydd â'th wynebpryd.

7 O herwydd bod y brenin yn ymddiried yn yr Arglwydd, a thrwy drugareddy Goruchafnid ysgogir ef.

8 Dy law a gaiff afael ar dy holl

dithion daioni] A phob math o fendithion daionus, a hyn yn brydlon; neu, 'enciniaist ef yn frenin yn gynt nag yr oedd yn dysgwyl:' a *gosodaist ar ei ben ef goron o aur coeth*—fel brenin ar dy bobl. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at goron brenin Rabbah, yr hon a osodwyd ar ben Dafydd, 2 Sam. xii. 30; a thybia ereill mai at goronid Crist, fel Brenin y saint, y cyfeirir, Heb. ii. 7, Dat. xiv. 14.

Adn. 4. *Gofynodd oes genyt*] Gofynasai Dafydd yn fyfych yn ddiamau, pan mewn peryglon, neu wrth fyned i ryfel, am arbediad ei fywyd; a *rhoddaist iddo*—yr hyn a ofynodd: *ie*, *hir oes*—dros 70 mlynedd ar y ddaear, 2 Sam. v. 4, 5; *byth ac yn dragywydd*—yn y nef. Ond gellir deall y geiriau yn fwy priodol am Grist, yr hwn a ofynodd am gael ei ogoneddu â'r gogoniant ag oedd iddo ef gyda'r Tad cyn bod y byd, ac a gyfodwyd oddi-wrth y meirw i fyw yn dragywydd mewn canlyniad i hynny: gwel ar Ioan xii. 28, a xvii. 5, Dat. i. 18.

Adn. 5. *Mawr yw ei ogoniant yn dy iachawdwriaeth*] Sef yn y waredigaeth a roddaist iddo o law ei elynion: *gosodaist arno ogoniant a phrydferthwch*—sef clod ac anrhydedd cyfatebol i'w urddas fel cadfridog a brenin. Ond yn iachawdwriaeth ei *enaid* yr oedd gogoniant a phrydferthwch penaf Dafydd. Y mae hwn yn ddarluniad priodol o'n Cyfryngwr bendigedig hefyd: gwel Heb. ii. 7—9.

Adn. 6. *Canys gwnaethost ef yn fendithion yn dragwyddol*] I Israel tra y bu byw; ac i'r eglwys, trwy ei Salmau bendithiol, hyd ddiwedd amser: *llawenychaist ef â llawenydd â'th wynebpryd*—trwy weniadau mynych Duw ar ei enaid. Ond am Grist yn benaf y dywedir hyn, yr hwn, trwy ei iawn, yw Ffynnon fawr pob bendith dymhorol ac ysbyrdol; a'r hwn a 'enciniawyd âg olew gorfoledd tuhwnt i'w gyfeillion,' Heb. i. 9.

Adn. 7. *O herwydd bod y brenin yn ymddiried yn yr Arglwydd*] Fel un achos; a *thrwy drugareddy Goruchaf*—fel achos arall; *nid ysgogir ef*—o'i orsedd fel brenin, nac o gyflwr o iachawdwriaeth fel sant. Ilyn hefyd a gyflawnir yn neillduol yn Nghrist: gwel ar Esaus ix. 7.

Adn. 8. *Dy law a gaiff afael ar dy koll*

elyniion: dy ddeheu law a gaiff afael ar dy gascion.

9 Ti a'u gwnei hwynt fel ffwrn danllyd yn amser dy lid: yr Arglwydd yn ei ddigllonedd a'u llwnc hwynt, a'r tân a'u hysa hwynt.

10 Eu ffwrwyth hwynt a ddinystri di oddiar y ddaear, a'u had o blith meibion dynion.

11 Canys bwriadasant ddrwg i'th erbyn: meddylasant amcan, heb allu o honynt ei gwblhau.

12 Am hyny y gwnei iddynt droi

eu cefnau: ar dy linyrau y parot-ôi di saethau yn erbyn eu gwynebau.

13 Ymddyreha, Arglwydd, yn dy nerth: canwn, a chanmolwn dy gadernid.

SALM XXII.

FY Nuw, fy Nuw, paham y'm gwrthodaist! paham yr ydwy't mor bell oddiwrth fy iachawdwr-iaeth, a geiriau fy llefain!

elyniion] Pa-le bynag y gallont fod yn ym-guddio; *dy ddeheu law*—sef y llaw ag sydd yn ymaffyd yn y cleddyf, *a gaiff afael ar dy gascion*—i'w tori ymaith.

Adn. 9. *Ti a'u gwnei hwynt fel ffwrn danllyd*] Bydd i'th lid eu llysu fel pe byddent mewn ffwrn dân: *yr Arglwydd yn ei ddigllonedd a'u llwnc hwynt*—a'u llwyr ddyfetha, fel y dyfethwyd y Sodomiaid gynt; *a'r tân a'u hysa hwynt*—fel y gwnaed â llawer o'r Iuddewon, gelyniion Crist, yn ninystri diweddaf Jerusalem: ac yr oedd hyny yn gysgod o gosp ddiddiwedd yr annwiliou: gwel ar Mat. xiii. 42, a xxv. 41.

Adn. 10. *Eu ffwrwyth hwynt*] Sef eu hiliog-aethl, ffirwyth eu bru; *a ddinystri di oddiar y ddaear*—am en bod hwythau yn dylun pechodau eu rhieni. Neu, os golygir yma gosp *dymhorol* yn unig, gall fod hyn yn cyfeirio at ymweliad barnol a'r plant am anwiredd eu rhieni: gwel ar Exod. ii. 5, 6.

Adn. 11. *Canys bwriadasant ddrwg i'th erbyn*] Gall hyn fod yn cyfeirio at elyniaeth y plant yn gystal a'u rhieni: *meddylasant amcan*—yn erbyn yr Arglwydd, trwy ei fod yn erbyn ei eneiniog ef; *heb allu o honynt ei gwblhau*—chwanegir hyn i ddyngu i ni, y bydd i ddyinion yn y diwedd gael eu cospi yn gyflawn am eu bwriadau a'u hamcanion drygionus, yr un modd a phe buasant wedi eu cyflawni hwy yn weithredol. Methodd gelyniion Dafydd gwblhau llawer o'u hamcanion yn ei erbyn ef, a metha gelyniion Crist a'i eglwys gyflawni eu hamcanion drygionus yn eu herbyn hwythau.

Adn. 12. *Am hyny y gwnei iddynt droi eu cefnau*] I geisio ffoi ymaith, ar ol iddynt iddeall fod saethau angenol wedi eu parotôï yn erbyn eu gwynebau hwynt. *Ar dy linyrau y parotôï di saethau*—sef saethau naturiol rhyfel, os am Dafydd y dywedir hyn; neu ynte ryw farnedigaethau angenol, os am Grist y llefarir, y rhai y gellir yn briodol eu galw yn *saethau*, am eu bod yn gyflym, yn sicr o'u nôd, ac yn ddinystriol. Y mae Ainsworth yn darllen yr adnod hon fel hyn: 'Ti a'u gosodi hwynt fel nôd; a'th linyrau y parotôï yn erbyn eu gwynebau.' *Boothroyd* fel hyn: 'Yn ddiau ti a'u gosodi hwynt yn nôd i'th saethau, y rhai yn eu herbyn hwy a gymhwysaist i'th linyr.'

Adn. 13. *Ymddyreha, Arglwydd, yn dy*

nerth] I achub dy bobl, a darostwng eu gelyniion hwy: *canwn*—glod i ti am dy waredigaethau; *a chanmolwn dy gadernid*—trwy yr hwn y gwnaesth hwynt. Canmolai Israel ef yn y byd hwn am waredigaethau tymhorol, a chaumola y saint ef byth yn y nef am waredigaeth ysbrydol.

SALM XXII. Y teitl yw, '*I'r pencerdd ar Aielech hasaher, Salm Dafydd*.' Gelwir *Aielech hasaher* ar ymyl y ddalen yn *Ewig y bore*; a thybia rhai mai enw y dôn ydyw; creill, mai enw y côr; creill, mai enw yr offeryn cerdd a'r hwn y cenid hi; ac creill, mai enw y Salm ei hun ydyw, am yr arferai y dwyrainwyr roddi rhyw enw i'w cyfansoddiadau. Tybia rhai fod Crist yma, dan y gyffelybiaeth o *ewig*, yn cael ei erlid gan Satan a'i offerynau yn more ei oes ar y ddaear; ac iddynt barhau i'w erlid nes ei gael rhwng yr erlidwyr ar y groes, fel yr amgylchid ewig i'w dal a'i lladd gan yr helwyr; a meddyliant fod amrai ymadroddion yn y Salm yn cyfeirio at y golygiad hwn, megys yn adn. 12, 13, 16, 20, 21. Y mae rhai yn cyfeirio yr oll o'r Salm hon at *Dafydd*, ac creill yn cyfeirio yr oll o honi at *Grist*; tra y mae creill yn ei chymhwyso oll at *Dafydd* yn yr *ystyr cyntaf*, ac at *Grist* mewn ail *ystyr*. Fod llawer o ranau o honi yn cyfeirio yn wreiddiol at *Dafydd*, fel cysgod o *Grist*, sydd amlwg i'm tyb i; ac y gellir cymhwyso y rhanau hyn mewn ffordd o *gyfaddasiad* at *Grist*, a ymddengys i mi yr un mor amlwg; ond fod rhanau ereill o honi yn *broffwydoliaeth uniongyrchol* am ddyoddefaint, marwolaeth, a buddugoliaeth ein Harglwydd bendigedig, sydd wirionedd rhy amlwg i neb allu er wadu yn llwyddiannus: ac ar y cynllun hwn y ceisiaf fi ei hegluro.

Adn. 1. *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gwrthodaist!* Yr un geiriau ag a lefarwyd gan ein Harglwydd bendigedig ar y groes: gwel eu hystyr yn cael ei egluro yn y sylw ar Mat. xxvii. Y mae yr ailadroddiad, '*Fy Nuw, fy Nuw!*' yn dynodi dyfnder ei drueni. Nid oedd ein Harglwydd yn anwybodus paham y rhoddwyd ef i fyny i ddwyllaw ei elynion, canys efe a wyddai mai 'cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef;' eithr y mae y geiriau yn arddangos nad oedd ef ei hun wedi gwneyd dim i haeddu y driniaeth yma. *Paham yr ydwy't mor bell, &c.*—ymddengys fod

2 Fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd, ac ni wrandewi; y nos hefyd, ac nid oes ostieg i mi.

3 Ond tydi wyt santaidd, O dydi yr hwn wyt yn cyfaneddu yn moliant Israel.

4 Ein tadau a obeithiasant ynot: gobeithiasant, a gwaredaist hwynt.

5 Arnat ti y llefasant, ac achubwyd hwynt: ynot yr ymddiriedasant, ac nis gwaradwyddwyd hwynt.

6 A minau, pryf ydwyf, ac nid gŵr; gwarthrudd dynion, a dirmyg y bobl.

7 Pawb a'r a'm gwelant, a'm

gwatwarant: llaesant wefl, ysgydwant ben, gan ddywedyd,

8 Ymddiriedodd yn yr Arglwydd; gwareded ef: achubed ef, gan ei fod yn dda ganddo.

9 Canys ti a'm tynaist o'r groth: gwnaethost i mi obeithio pan oeddwn ar fronau fy mam.

10 Arnat ti y'm bwriwyd o'r bru: o groth fy mam fy Nuw ydwyf.

11 Nac ymbellha oddiwrthyf; o herwydd cyfyngder sydd agos: canys nid oes cynorthwywr.

12 Teirw lawer a'm cychynasant: gwrdd deirw Basan a'm hamgyliasant.

y geiriau hyn yn cyfeirio at ei weddi a'i inget yn ngardd Gethsemane: gwel ar Mat. xxvii. 37, &c., Heb. v. 7.

Adn. 2. *Fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd, &c.*] Tybia Clarke mai profiad Dafydd ei hun yw y geiriau hyn. Fel pe dywedasai, 'Er nad wyf fi yn cael fy ngwrando, a'th fod dithau fel pe byddit wedi fy anghofio neu fy ngwrthod; eto yr wyf yn parhau i lefain ddydd a nos am dy iachawdriaeth.'

Adn. 3. *Ond tydi wyt santaidd*] Ac felly nis gelli wneyd dim ond yr hyn sydd iawn, er nad wyt ti yn fy ngwrando i. Hon sydd iaith o lwy'r ymostyngiad i ewyllys Duw yn y profedigaethau chwerfaf. *O dydi yr hwn wyt yn cyfaneddu yn moliant Israel*—sef yn y cysegr, lle yr oedd moliant, diolchiadau, gweddian, ac aberthau y bobl yn cael en hoffrwm yn barhaus.

Adn. 4. *Ein tadau a obeithiasant ynot*] Sef Abraham, Isaac, a Jacob, yn nghyda'r patriarchiaid, a thadau ereill y genedl; *a gwaredaist hwynt—yn fynych, er nad wyt yn fy ngwaredu i. Gwaredwyd hwynt o gaethiwd yr Aifft, ac o ddwyllaw eu gelynyon yn amser y barnwyr, ac yn fynych cyn ac wedi hynny. Gellir edrych ar y rhai hyn fel geiriau Dafydd a Christ; canys yr oedd yntau, fel dyn, wedi hannu o genedl Israel.

Adn. 5. *Arnat ti y llefasant*] Yn eu cyfyngderau; a gwaredwyd hwynt—o honnynt oll: ynot yr ymddiriedasant—felly yr oedd yntau yn llefain mewn hyder y caent eu gwrando; ac nis gwaradwyddwyd hwynt—neu ni siomwyd hwynt yn eu dysgwyliadau.

Adn. 6. *A minau, pryf ydwyf, ac nid gŵr*] Wrth beidio gwrando arnaf, yr wyt yn ymddwyn tuag ataf fel pe bawn bryf gwael ac annheilwng, ac nid gŵr; canys gwrandeuaist ar y gwŵr uchod. Neu, yr oedd Dafydd a Christ yn cael eu hystyried felly yn ngolwg eu gelynyon. *Gwarthrudd dynion*—sef gwrth-ddrych eu gwarthruddiad a'u dirmyg: gwel Esay xlix. 7, a liii 2, 3.

Adn. 7. *Pawb a'r a'm gwelant a'm gwatwarant*] Y mae hyn yn wir gyda golwg ar y sarhad a gafodd Dafydd gan Simeï ac ereill yn amser gwrthryfel Absalom. *Llaesant wefl*—

trwy fin-gamu arnaf; ysgydwant' ben—arwydd arall o anmharch a dirmyg.

Adn. 8. *Ymddiriedodd yn yr Arglwydd*] Cymerodd arno neu haerodd ei fod yn ymddiried ynddo; gwareded ef—i brofi fod hynny yn wir. Saes., 'Ymddiriedodd yn yr Arglwydd y byddai iddo ei waredu.' *Achubed ef, gan ei fod yn dda ganddo*—neu i ddangos fod yn dda gan yr Arglwydd am dano ef, neu ei fod yn hoff o hono, fel yr haerasai Dafydd. Cafodd y geiriau yn y ddwy adnod hyn gyflawniad llythrenol yn ngwatwariad yr arch-offeiriaid, yr ysgrifenyddion, a'r henuriaid o Grist, pan yr oedd efe ar y groes; canys arferasant hwy y pryd hynny y geiriau hyn, y rhai a roddwyd yn eu genau gan ysbryd profiwydoliaeth tua mil o flynyddau yn mlaenllaw: gwel ar Mat. xxvii. 39—41.

Adn. 9. *Canys ti a'm tynaist o'r groth*] Ti a'm gwnaethost i, ac a'm diffynaiest er y dydd y'm ganed. Ond tybia Benson fod yma gyfeiriad at flurfiad gwyrthiol natur ddynol ein Gwaredwr yn nghroth y Forwyn: gwel ar Luc i. 15, 35. *Gwnaethost i mi obeithio pan oeddwn ar fronau fy mam*—dull o ymadrodd cyffredin, yn arwyddo o'i ieuencid boreaf, ac o'r amser cyntaf ag y gallai obeithio: neu, 'ti a'm diogelaist pan oeddwn ar fronau fy mam,' fel y mae rhai yn ei ddarllen.

Adn. 10. *Arnat ti y'm bwriwyd o'r bru*] Ar dy ofal tadol a thrugarog; o groth fy mam fy Nuw ydwyf—derbyniwyd Dafydd a Christ hefyd, yn eu babandod, yn eiddo i Dduw, ac i feddu hawl grasol ynddo yntau, trwy gyfammod yr enwaediad.

Adn. 11. *Nac ymbellha oddiwrthyf*] Gan dy fod felly yn Dduw mewn cyfammod â mi; o herwydd cyfyngder sydd agos—ac nid oes genyf neb arall i'm cynorthwyo.

Adn. 12. *Teirw lawer a'm cychynasant*] Yr oedd y tarw yn arwydd cysgodol o ddirfawr nerth anifeilaidd, yr hwn a rwygai ac a fathrai y cwbl o'i flaen. *Gwrdd deirw Basan*—sef 'teirw cryfiog neu ffyrnig Basan.' Basan oedd dalaeth tuhwnt i'r Iorddonen, yr hon oedd yn nodedig am ei phorfa fras a'i gwartheg tewion. Y meddwl yw, dynion gelynyddion yn rhagori yn eu cynddeiriogrwydd ar bob

13 Agorasant arnaf eu genau, fel llew rheibus a rhuadwy.

14 Fel dwfr y'm tywalltwyd, a'm hesgyrn oll a ymwahanasant: fy nghalon sydd fel cŵyr; hi a doddodd yn nghanol fy mherfedd.

15 Fy nerth a wywodd fel pridd-lestr; a'm tafod a lynodd wrth dasfod fy ngenau: ac i lwch angau y'm dygais.

16 Canys cŵn a'm cylchynasant; cynulleidfa y drygionus a'm hamgylchasant: trywanasant fy nwyllaw a'm traed.

17 Gallaf gyfrif fy holl esgyrn: y

dynion ereill, yn gymaint ag yr oedd teirw Basan yn rhagori mewn ffyrnigrwydd a nerth ar deirw pob gwlad arall. Yr oedd Absalom wedi lladrata calon y rhan fwyaf o gedyrn Israel, a'u gwneyd yn elynion i Dafydd, 2 Sam. xv. 6, &c.; ac yr oedd penaethiaid yr Iuddewon a'r Cenhedloedd befyd wedi ymuno yn erbyn Crist. Y mae y rhai hyn yn cael eu gosod allan trwy bedwar math o greaduriaid ysglyfaethus yn y Salm hon, sef *teirw, cŵn, llewod, ac unicorniaid*.

Adn. 13. *Agorasant arnaf eu genau* [I'w larpio a'i lyncu fel llew rheibus, yr hyn yw yr ystyr yma, fel y mae yn amlwg oddiwrth y geiriau yn niwedd yr adnod hon.

Adn. 14. *Fel dwfr y'm tywalltwyd* [Hyn yw, yn anadferadwy, fel dwfr tywalltedig ar y ddaear, yr hwn nis gellir ei gasglu yn nghyd drachefu; neu, 'ni feddyliant fwy o fy lladd, nag a feddyliant o dywallt dwfr ar y ddaear.' *A'm hesgyrn oll a ymwahanasant*—yr wyf mor ddolurus a phe byddai fy holl esgyrn wedi dadgymalu. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at ddirdyniad aelodau ein Ceidwad ar y groes. *Fy nghalon sydd fel cŵyr*—wedi toddi gan ddychryn ac angherddolrwydd ei boenau.

Adn. 15. *Fy nerth a wywodd fel pridd-lestr* [Yr oedd ireidd-dra naturiol ei gorff, yr hwn oedd ei nerth ef, wedi sychu i fyny fel llestr pridd erasedig. *A'm tafod a lynodd wrth dasfod fy ngenau*—gan ddirfawr wres a syched: gwel ar Ioan xix. 28. *Ac i lwch angau y'm dygais*—sef i'r bedd.

Adn. 16. *Canys cŵn a'm cylchynasant* [Sef ei elynion yn gyffredinol, neu filwyr *pagan-aidd* Rhufain, y rhai a'i cylchynent ef fel y cylchyna helgwn yr ewig: gwel y teitl. *Cynulleidfa y drygionus*—sef yr Iuddewon a'r Cenhedloedd ereuol. *Trywanasant fy nwyllaw a'm traed*—trwy eu hoelio wrth y groes. Yr Iuddewon a waedent am hyn, a'r Rhufeiniaid a'i gwnaethant. Nis gellir cymbwyso hyn at Dafydd, canys ni thyllwyd ei ddwyllaw na'i draed ef; ac am hyn y mae y geiriau yn broffwydoliaeth uniongyrchiol am groesoeliad ein Harglwydd bendigedig.

Adn. 17. *Gallaf gyfrif fy holl esgyrn* [Gan mor deneu a gwywedid ydyf. Trwy fod Iesu yn ŵr gofidus a chynefin â dolur,

maent yn tremio ac yn edrych arnaf.

18 Y maent yn rhanu fy nillad yn eu mysg, ac ar fy ngwisg yn bwrw coelbren.

19 Ond tydi, Arglwydd, nac ymbellha: fy nghadernid, bryisia i'm cynorthwyo.

20 Gwarded fy enaid rhag y cleddyf, fy unig enaid o feddiant y ci.

21 Achub fi rhag safn y llew: canys o blith cyrn unicorniaid y'm gwrandewaist.

22 Mynegaf dy enw i'm brodyr: yn nghanol y gynulleidfa y'th folaf.

rhaid nad oedd fawr o gnawd arno ef. Y *maent yn tremio ac yn edrych arnaf*—naill ai ei esgyrn, y rhai a safent allan gan deneuder ei gorff, Job xxxiii. 21; neu ynte, fel ei deallir yn gyffredin, yr oedd ei elynion yn tremio ar ei gorff noeth a rheuon ef ar y groes.

Adn. 18. *Y maent yn rhanu fy nillad yn eu mysg* [Nis gellir dywedyd hyn chwaith mewn un modd am ddillad Dafydd; ond gwnaed hyn yn llythyrenol â dillad Crist: gwel ar Ioan xix. 23, 24.

Adn. 19. *Ond tydi, Arglwydd, nac ymbellha* [Dywed Jerome mai *dynoliaeth* ein Harglwydd bendigedig a ddywedai hyn wrth ei *ddwyfoliaeth*. Rhaid i ni gosio fod Iesu yn berffaith DDYX, yn gystal ag yn berffaith DDW. Fel *Duw* nis gallai *ddyoddef*; ac fel *dyn*, nis gallai ei ddyoddefiadau wneyd *iawn* dros bechod, heb i'w natur *ddwyfol* roddi rhinwedd a haeddiant yn ei ddyoddefiadau, a'i 'gynorthwyo' ef danynt. Eto yr un person oedd yn gwneyd ac yn dyoddef y cwbl, sef 'Duw wedi ymddangos mewn enawd.'

Adn. 20. *Gwarded fy enaid rhag y cleddyf* [Nid rhag cleddyf cyfiawnder *Duw*, Ceddy. xiii. 7; canys nid oedd efe am ysgo hwnw; eithr rhag cleddyf anghyfiawnder *dynion*, yr hwn nid oedd yn wir angenrheidiol er gwneyd iawn dros bechod: gwel fy MUREGETH i ar Heb. v. 9, a'r sylw ar Mat. xxvii. 19. *Fy unig enaid*—neu 'fy enaid unig,' trwy fod pawb o'i ddysgybllion y pryd hyn wedi ei adael ef; neu 'fy mywyd anwyl.'—BOOTHROYD. *O feddiant y ci*—sef o afaelion Satan ond odid, yr hwn oedd y ffyrnigaf o'r holl gŵn a'i cylchynent ef, adn. 16.

Adn. 21. *Achub fi rhag safn y llew* [Neu 'allan o safn y llew.' Yr wyf fi yn meddwl mai gweddio am gael *adgyfodiad* y mae efa yma, at yr hwn y cyfeirir yn yr adnod nesaf; a'i fod yn niwedd yr adnod hon yn cyfeirio at y gwrandawriad a gafodd efe i'w weddi. *Canys o blith cyrn unicorniaid y'm gwrandewaist*—hyn yw, pryd yr oedd fy ngelynyon cryfaf wedi can am danaf i'm dytetha yn dragywydd. Am yr *unicorn*, gwel ar Job xxxix. 9.

Adn. 22. *Mynegaf dy enw i'm brodyr* [Ar ol fy adgyfodiad o'r bedd, bydd i mi ymddangos i'm ddysgybllion, 'a dywedyd y pethau

23 Y rhai sydd yn ofni yr Arglwydd, molwch ef: holl had Jacob, gogoneddwch ef; a holl had Israel, ofnwch ef.

24 Canys ni ddirmygodd, ac ni ffeiddiodd gystudd y tylawd; ac ni chuddiodd ei wyneb rhagddo: ond pan lefodd efe arno, efe a wrandawodd.

25 Fy mawl sydd o honot ti yn y gynulleidfa fawr: fy addunedau a dalaf gerbron y rhai a'i hofnant ef.

26 Y tylodion a fwyntant, ac a ddiwellir: y rhai a geisiant yr Arglwydd, a'i moliannant ef: eich calon fydd byw yn dragywydd.

27 Holl derfynau y ddaear a gofiant, ac a droant at yr Arglwydd: a holl dylwythau y cenhedloedd a addolant ger dy fron di.

28 Canys eiddo yr Arglwydd yw y deyrnas: ac efe sydd yn llywodraethu yn mhlith y Cenhedloedd.

29 Yr holl rai breision ar y

a berthynant i deyrnas Dduw, Act. i. 3. *Yn nghanol y gynulleidfa yth folaf*—yn nghanol ei ddysgyblion cynulledig fe allai; neu, mewn ystyr eangach, 'yn nghanol yr eglwys,' fel ei mynegir Act. ii. 12, a hyny trwy ei weinidogaeth ei hun yn y lle cyntaf, ac wedi hyny trwy weinidogaeth ei apostolion a'i genbadon hyd ddiwedd y byd.

Adn. 23. *Y rhai sydd yn ofni yr Arglwydd* Sef yr holl dduwiolion yn mhlith pob cenedl; *molwch ef*—am yr hyn a wnaeth efe i chwí eisioes. *Holl had Jacob*—yr Iuddewon yn neilldool, i'r rhai yr oedd yr efengyl i gael ei phregethu gyntaf ar ol adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw; *gogoneddwch ef*—canys y mae arnoch chwí fwy o rywmanu na neb, oblegdyd yr hyn a wnaeth yr Arglwydd eroch yn mhob oes: *a holl had Israel, ofnwch ef*—yr un rhai a 'had Jacob.' Gellir meddwl mai galwad ar yr Iuddewon *annghrediniol* i ofni a moli Duw sydd yma, trwy fod pawb ag oeddynt eisioes yn ofni yr Arglwydd yn cael eu cynwys yn nechre yr adnod; ac y mae yr alwad ar eu hol yn ddyblyg, i ddangos ei fawr awydd ef am ddychweliad yr holl genedl.

Adn. 24. *Canys ni ddirmygodd ac ni ffeiddiodd gystudd y tylawd* Sef cystudd Crist, yr hwn a ddaeth er ein mwyn ni yn *tylawd*, fel y cyfoethogid ni trwy ei dylodi ef, 2 Cor. viii. 9. Fel pe dywedasai, Yn lle dirmygn fy nyoddefiadau a'm marwolaeth, efe a'n derbyniodd yn LAW dros bechodau y byd, yr hyn a brofir trwy fy adgyfodiad i oddiwrth y meirw, fel y mae rhyddhad y meichiai yn brawf o daliad y ddyled. Hyn fydd prif destyn mawl a diolchgarwch yr eglwys am byth. *Ac ni chuddiodd ei wyneb rhagddo*—yn barhaus, sef rhag ei Fab dyoddefus. Gwnaeth y Tad hyny mewn rhyw ystyr am dro; ond gwenodid ar ei Fab eilwaith ar fore y trydydd dydd. *Onid pan lefodd efe arno*—yn ei ddyoddefiadau cyn marw; gwel ar adn. 21; *efe a wrandawodd*—fel y profir trwy ei adgyfodiad ef oddiwrth y meirw.

Adn. 25. *Fy mawl sydd o honot ti* Neu 'a fydd i ti; yn y gynulleidfa fawr—yn yr egwys gyffredinol, yr hon a wneir i fyny o Iuddewon a Cenhedloedd: *fy addunedau a dalaf gerbron y rhai a'i hofnant ef*—cyfeiria hyn naill ai at ei adduned o fynegu enw ei Dad i'w frodyr, ac o'i foli ef yn nghanol y gynulleidfa, adn. 22; neu ynte, fel y dywed yr

Esgob Horne, at ei adduned o 'adeiladu a chyssegru i Jehofa deml ysbrydol, vn yr hon yr offrynid aberthau ysbrydol o weddi a mawl vn barhaus. Cyflawnodd Crist yr adduned hon, ar ol ei adgyfodiad, trwy ddwyrlaw ei apostolion; ac y mae yn parhau i wneyd hyny o hyd trwy ddwyrlaw ei weinidogaeth.' Ond tybia rhai mai Dafydd ei hun sydd yn llefaru yn yr adnod hon a'r ddwy flaenorol.

Adn. 26. *Y tylodion a fwyntant ac a ddiwellir* Caiff y tylodion, os byddant dydion yn yr ysbryd hefyd, gyfranogi o'r holl fendithion ysbrydol a barotodd Duw iddynt yn yr efengyl. *Y rhai a geisiant yr Arglwydd*—mewn gwirionedd, neu a'n holl galon; *a'i moliannant ef*—am wleddoedd danteithiol ei iachawdwriaeth. *Eich calon a fydd byw yn dragywydd*—bydd eich cysur yn un parhaol, neu chwí a gedwir i fywyd tragywyddol. Y mae efe yn son am yr un rhai o hyd, er ei fod wedi llithro o'r trydydd person i'r ail, fel y gwneir yn fynych yn y llyfrau barddonol hyn.

Adn. 27. *Holl derfynau y ddaear* Nen holl cenhedloedd y ddaear yn mhob rhan o'i therfynau; *a gofiant*—am Dduw, ac am ei hawliau ef ynddynt, a'u dyledswydd hwythau iddo ef; ac *a droant at yr Arglwydd*—oddiwrth eu heilunod meirwon, i wasanaethu y bywiol a'r gwir Dduw: *a holl dylwythau y cenhedloedd*—nid yn unig pob cenedl ar y ddaear, ond pob teulu yn mhob cenedl, a phob person yn mhob teulu; *a addolant ger dy fron di*—a gwneir hyny gan y rhan fwyaf o honynt, fel y gallwn feddwl, mewn ysbryd a gwirionedd. Cyfeirir yma yn ddiamau at gyflwr moesol y byd yn ystod y millfwyddiant.

Adn. 28. *Canys eiddo yr Arglwydd yw y deyrnas* Crybwyllir hyn fel rheswm dros ddychweliad y Cenhedloedd yn gyffredinol, am fod Duw yn Frenin nid yn unig ar yr Iuddewon, ond ar y Cenhedloedd hefyd. Ond tybia Clarke mai llywodraethu gyffredinol yr efengyl a feddylir, yr hon a elwir yn *deyrnas Dduw* yn y Testament Newydd. *Ac efe sydd yn llywodraethu yn mhlith y Cenhedloedd*—fel Brenin mawr yr holl ddaear.

Adn. 29. *Yr holl rai breision ar y ddnear* Sef holl gyfoethogion a mawrion y ddaear, megys pendefigion, brenhinoedd, ac amberawdwy'r y byd; *a fwyntant, ac a addolant*—chwanegir y gair diweddfaf i ddangos pa fath fwyta a feddylir, sef cyfranogiad ysbrydol o

ddae'r a fwynt, ac a addolant: y rhai a ddisgynant i'r llwch, a ymgrymant ger ei fron ef; nid oes neb a all gadw yn fyw ei enaid ei hun.

30 *Eu had a'i gwasanaetha ef: cyfrifir ef i'r Arglwydd yn genhedlaeth.*

31 *Deuant, ac adroddant ei gyfiawnder ef i'r bobl a enir, mai efe a wnaeth hyn.*

wleddeodd yr efengyl neu o ddanteithion
breision yr iachawdwriaeth. Dywedwyd o'r blaen, adn. 26, y cai y *tylodion* fwyta, a'u diwallu; ac yma ddywedir yr un peth am y *cysthoegion* hefyd; canys y mae gwleddeodd Seion wedi eu darparu ar gyfer pawb. *Y rhai a ddisgynant i'r llwch*—tybia rhai bod hwn yn ddull o ymadrodd i arwyddo holl ddynolryw, am nas gall neb ysgoi marwolaeth; a thybia ereill ei fod yn cyfeirio at rai isel a thylawd: ond gall mai ei feddwl yw, rhai yn disgyn neu yn ymgrymu ar eu gliniau yn y llwch i addoli. *A ymgrymant ger ei fron ef*—sef gerbron y gwir Dduw yn unig y pryd hyn, ac nid o flaen duwiau gau. *Ac nid oes neb a all gadw yn fyw ei enaid ei hun*—nis gall neb fod yn gadwedig heb iddo ymgrymu felly gerbron Duw, neu ei addoli a'i wasanaethu ef. Ond y mae rhai yn darllen diwedd yr adnod hon, a dechre y nesaf, fel hyn: 'Fy enaid a fydd byw iddo ef; fy had a'i gwasanaetha ef.' Tybia Clarke y gall y rhai hyn fod yn eiriau Dafydd ei hun: 'Byddaf byw i'r Gwaredwr hwn tra y byddaf fi byw; a'm hiliogaeth ysbrydol a'i gwasanaethant ef trwy yr holl genedlaethau.'

Adn. 30. *Eu had*] Y wreiddiol yw, 'Had a'i gwasanaetha ef;' hyn yw, ni fydd Crist yn amddifad o had neu hiliogaeth; canys er y bydd i'r Iuddewon ei wrthod ef, daw y Cenedloedd i mewn yn eu lle hwynt. *Cyfrifir ef i'r Arglwydd yn genhedlaeth*—bydd i Dduw a dynion gyfrif neu ystyried yr had crediniol ym genedl neu bobl i'r Arglwydd, fel yr oedd yr Iuddewon o'r blaen; neu, 'gelwir hwynt yn *Gristionegion*,' ebai Clarke, 'ar ol enw Crist.'

Adn. 31. *Deuant*] Sef yr had crediniol nchod; neu fe allai ei fod yn cyfeirio at apostolion Crist, neu weinidigion yr efengyl o oes i oes; ac a adroddant ei gyfiawnder ef—neu ei drefn ef o gyfiawnhau pechadur trwy ffydd yn Nghrist; *i'r bobl a enir*—o genhedlaeth i genhedlaeth; *mai efe a wnaeth hyn*—mai gwaith yr Arglwydd yw achub pechadur trwy ffydd, a hyny o'i ras a'i drugaredd ei hun yn unig, heb ddim haeddiant o du dyn; neu mai efe a drefnodd yr iachawdwr, ac a benododd ammodau yr iachawdwriaeth.

SALM XXIII. Y teitl yw, '*Salm Dafydd*;' a meddylir iddo ef ei chyfansoddi yn ebrwydd ar ol cael rhyw waredigaeth hynod, ac ymsefydlu mewn llonyddwch yn ei deyrnas. Ond tybia Clarke mai nid Dafydd yw ei hawdwr, eithr ddarfod iddi gael ei llysgrifenu lawer

SALM XXIII.

YR Arglwydd *yw fy Mugail*; ni bydd eisiau arnaf.

2 Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd gwelltog: efe a'm tywys gerllaw y dyfroedd tawel.

3 Efe a ddychwel fy enaid: efe a'm harwain ar hyd llywbrau cyfiawnder er mwyn ei enw.

4 Ie, pe rhodiwn ar hyd glŷn

wleddeodd yr efengyl, neu o ddanteithion
yn ddiweddarach, sef ar ol y waredigaeth o gaethiwed Babilon, ac mewn ffjord o ddiolchgarwch am hyny.

Adn. 1. *Yr Arglwydd yw fy Mugail*] Yr hwn sydd yn alluog i'm tywys, fy noddi, a'm porthi; *ni bydd eisiau arnaf*—unrhyw beth ag sydd yn wir angenrheidiol i mi yn y byd hwn a'r nesaf. Y mae ein hanwybodaeth yn peri i ni feddwl fod llawer o bethau yn angenrheidiol i ni yn y tuchedd hon, y rhai y gwŷr Duw y byddent yn fagl ac yn niwed i ni; ac am hyny y mae efe yn drugarog yn eu cadw oddiwrthym, hyd yn nod er gofyn o honom am danant. Y mae yn debyg fod y Salm ydd yn cyfeirio yma at Grist, y 'Engail da,' Ioan x. 11, &c.

Adn. 2. *Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd gwelltog*] Yn nghanol helaethrwydd o fanteision a bendithion ysbrydol, fel y gwna bugail i'w braidd orwedd mewn porfeydd breision; *efe a'm tywys gerllaw y dyfroedd tawel*—i foddion gras, ac ordinhadau crefydd, lle y'm disychedir â dyfroedd peraid yr iachawdwriaeth. Y mae y gyslybiaeth o 'ddyfrwedd tawel' yn wrthgyferbyniol i afonydd cryfion a gwylltion, y rhai sydd yn dychrynu y defaid a'u swm wrth bori ar en glanau, ac yn debyg o'u cario gyda'r firwd wrth geisio eu croesi neu yfed o honant. Dywed Rabbi Solomon, pan aeth Dafydd i goedwig Hareth, (1 Sam. xxii. 5.) iddi fyned ar anwaith yn ddyfrllyd a frwythlon, er ei bod cyn hyny yn sych a diffrwyth; a bod Dafydd yma yn cyfeirio at hyny.

Adn. 3. *Efe a ddychwel fy enaid*] O'm crwydriadau ysbrydol, fel y dychwel bugail ddafad a fyddo wedi myned ar gyfeillion: *efe a'm harwain ar hyd llywbrau cyfiawnder*—sef llywbrau cyfiawn, santaid, a da, y rhai y dylwn eu rhodio; *er mwyn ei enw*—nid er mwyn dim teilyngdod ynof fi, ond er mwyn dangos ei ras, ei ddaioni, a'i drugaredd ei hun. Yr oedd Dafydd wedi bod yn fugal ei hunan, a gwyddai beth oedd gwaith bugail, yr hyn oedd yn fantais iddo wrth gyfansoddi y Salm hon.

Adn. 4. *Ie, pe rhodiwn ar hyd glŷn cysgod angau*] Ar hyd glŷn tywyll ac erchyll, llawn o ddychryn a pheryglon, fel yr arwydda yr ymadrodd hwn, Job xxiv. 17, Salm xlv. 19, Jer. ii. 6. Pe byddai i mi fod yn nghanol peryglon mor *ddwfn* a 'glŷn,' mor *ddu* a 'chysgod,' ac mor *ddychnrhyll* ag 'angau';

cysgod angau, nid ofnaf niwed; canys yr wyt ti gyda mi; dy wialen a'th ffon a'm cysurant.

5 Ti a arlwyi ford ger fy mron yn ngwýdd fy ngwrthwynebwyr: irast fy mhen ág olew; fy phiol sydd lawn.

6 Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd: a phreswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd.

neu, yn hytrach, pe byddai i mi groesi afon dōnog marwolaeth ei hun. *Nid ofnaf niwed*—nid yn unig ni chawn niwed, ond nid ofnwn niwed; *canys yr wyt ti gyda mi*—i'm cynal, a'm hamddiffyn, a'm dwyn trwyodd yn ddiogel. *Dy wialen a'th ffon a'm cysurant*—dy addewidion a'th Ysbyrd, neu dy bresenoldeb a'th ras, a wnant i mi ganu hyd yn nod yn afon angau. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at wialen ben-gam y bugail, a'r hon y tynai efe y defaid o'r pydew neu y dryysni; ac at y ffon a'r hon y cadwai efe y cŵn a'r bleiddiaid draw. Tybia ereill fod y 'wialen' yn arwyddo teyrnwialen, neu yr arwydd o awdurdod brenhinol; a bod y 'ffon' yn arwydd ateg neu gynaliath. Yr ystyr felly yw, fod gallu awdurdodol Brenin Seion yn amddiffyniad cyfreithlon i'r Salmwydd, a bod ei ateg grasol ef yn gynaliad i'w feddwl, a'r ddan yn gysur digonol iddo hyd yn nod wrth radio ar hyd glŷn cysgod angau. Prin y gallwn feddwl mai gwialen *geryddol* Duw a feddyllr, am 'na welir yn cerydd dros yr amser presenol yn hyfryd,' (Heb. xii. 11,) neu yn peri *cysur*, fel y dywedir yma fod y wialen hon yn gwneyd.

Adn. 5. *Ti a arlwyi ford ger fy mron*] Neu a ddarperi i mi fwrdd lawn o ddanteithion a bendithion cysurlawn. Y mae y Salmwydd yma yn troi oddiwrtel y gyflerlybiaeth o *fugail*, i son am Dduw fel *gylfyr* neu *gymwynaswr* haelionus, yn parotōi ar ei gyfer wleddoedd helaeth yn dymhorol ac ysbyrdol. *Yn ngwýdd fy ngwrthwynebwyr*—y rhai, er maint efo centigen a'u malais, nis gallant fy auddifadu o honynt. *Irast fy mhen ág olew*—fel yr arferai y dwyreinwyr wneyd a'u gwesteion, i'w croesawu; gwel ar Luc vii. 46. *Fy phiol sydd lawn*—nid yn unig darperiaist ar fy nghyfer *ymborth* danteithiol, ond llenwaist fy nghwpan a'r *gwin* paraf, yn ol arferiad y dwyreinwyr yn eu gwleddoedd. Y meddwl yw, ei fod yn cael helaethrwydd o fendithion tymhorol oddiar law Duw, ac yn enwedig o gysuron ysbyrdol yr iachawdwriaeth.

Adn. 6. *Daioni a thrugaredd*] Sef bendithion tymhorol ac ysbyrdol; *yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd*—tra y byddaf byw yn y byd; *a phreswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd*—i addoli a molliannu Duw am ei ddaioni a'i drugaredd; *yn dragywydd*—yn y babell tra y byddaf byw yma, ac wedi hyny yn y nef. Gan mai hyn oedd profiad a phen-derfyniad duwiol y Salmwydd, pa ryfedd ei fod yn gallu dywedyd, 'Pe rhodiwn ar hyd glŷn cysgod angau, nid ofnaf niwed?' adn. 4.

SALM XXIV.

EIDDŌ yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder; y byd, ac a breswylia ynddo.

2 Canys efe a'i seiliodd ar y moroedd, ac a'i sicrhaodd ar yr afonydd.

3 Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd? a phwy a saif yn ei le santaid ef?

SALM XXIV. Y teitl yw, '*Salm Dafydd*.' Meddyllir iddi gael ei chyfansoddi ar yr achlysur o symudiad yr arch o dŷ Obededom i fynydd Seion: gwel ar 2 Sam. vi. 15, &c. Ond gan fod y cysegr a'r arch yn gysgod o Grist a'i eglwys, a bod symudiad yr arch y pryd hyn i'r cysegr yn gysgod arbenig o esgyniad ein Harglwydd bendigedig i'r nef, sef i'r 'cysegr nid o waith llaw,' yr oedd Dafydd, trwy ddwyfodl ysbyrdoliaeth, yn estynai feddwl at yr aungylchiad gogoneddus hwnw befyd; ac am y rhwym hwn y penodwyd y Salm hon gan yr Eglwys i'w darllen neu ei chanu ar Ddydd Iau y Dyrcrafael.

Adn. 1. *Eiddo yr Arglwydd y ddaear*] Sef yr holl belen ddaearol, am mai efe yw ei Chreawdydd a'i Chynalydd; *a'i chyflawnder*—neu ei holl gynwysiad o fônau, llyisiau, coedydd, cerig, dyfroedd, &c. Gall dymion arddelwi rhannau o honi. Ie, taloithian neu deyrnasoedd eang; ond JEHŌFA yw Arglwydd y tir. *Y byd*—sef y rhanau arwynebol o'r ddaear a'r môr, yn gystal a'r rhanau mewnoi; *ac a breswylia ynddo*—pob bōd dynol, yn gystal ag anifeiliaid y maes, elediaid yr awyr, a physgod y môr: gwel ar Salm l. 10, 11.

Adn. 2. *Canys efe a'i seiliodd ar y moroedd*] Sef yn *wuch* na'r moroedd a'r afonydd, fel na lifent drosti. Cyfeirir yma ond odid at waith y Creawdwr yn gorchymyn i'r sychdir ymddangos, trwy ymgodi o'r dyfroedd, Gez. i. 9.

Adn. 3. *Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd*] Sef i fynydd Seion, lle yr oedd yr arch i'w codi yn y cysegr? *a phwy a saif yn ei le santaid ef*—i weinyddu yno ger ei fron, neu i'w addoli a'i wasanaethu ef wrth ei fodd? Tybia Dr. Hammond fod y Salm hon wedi ei bwriadu i'w chanu gan ddau gŵr, neu ddwy fintai o gantorion, a'r naill i ateb y llall yn ol arferiad yr Iuddewon ar achosion pwysig: gwel Neh. xii. 31, 38; a thybia Dr. Delaney ac ereill i'r brenin Dafydd ddechreu y gân trwy gorganu yr adnod gyntaf, a'r bobl ond odid yn corganu yr ail adnod, yr hyn a barhaodd nes i'r orymdaith gyraedd at droed mynydd Seion; ac yno ddarod i'r brenin ddechreu eilwaith, trwy ganu, 'Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd?' &c., adn. 3; i'r hyn yr atebwyd gan y cŵr blaenaf, 'Y glân ei ddwyllaw, a'r pur ei galon,' &c., adn. 4; a chan yr ail gŵr, 'Efe a dderbyn fendith,' &c., adn. 5, 6. Yna, ar ol i'r orymdaith gyraedd at byrth y dlinas, dan ganu y geiriau uchod ar hyd yr

4 Y glân ei ddwyllaw, a'r pur ei galon; yr hwn ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thyngodd i dwyllo.

5 Efe a dderbyn fendith gan yr Arglwydd, a chyfiawnder gan Dduw ei iachawdwriaeth.

6 Dyma genhedlaeth y rhai a'i ceisiant ef, y rhai a geisiant dy wyneb di, O Jacob. Selah.

7 O byrth, dyrchefwch eich penau; ac ymddyrcchefwch, ddrysau

tragwyddol; a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn.

8 Pwy yw y Brenin gogoniant hwn? yr Arglwydd nerthol a chadarn, yr Arglwydd cadarn mewn rhyfel.

9 O byrth, dyrchefwch eich penau; ac ymddyrcchefwch, ddrysau tragwyddol; a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn.

10 Pwy yw y Brenin gogoniant hwn? Arglwydd y lluoedd, efe yw Brenin y gogoniant. Selah.

holl ffordd, meddylir i'r brenin ddechreu drachefn, 'O byrth, dyrchefwch eich penau,' &c., adn. 7; pryd y gofynai y porthorion, neu ynte y wragedd dan ganu fel yn amser Saul, (1 Sam. xviii. 6, 7.) 'Pwy yw y Brenin gogoniant hwn?' adn. 8. I'r hyn yr atebai y ddau gôr gyda'u gilydd, 'Yr Arglwydd nerthol a chadarn, yr Arglwydd cadarn mewn rhyfel,' adn. 8; yr hyn a ail ddatgenid ond odid gan yr holl dorf, a hyny trwy leisiau dynol ac offer cerdd, adn. 9, 10.

Adn. 4. *Y glân ei ddwyllaw*] Yr hwn y mae ei weithredoedd a'i ymarweddiad yn santaidd a difeius; a'r pur ei galon—yr hwn sydd yn rhydd oddiwrth ragrith, yn gystal ag oddiwrth ffridiadau a chwantau afian a halogedig: *yr hwn ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd*—at eilunaddoliaeth; neu at bethau gwâg y byd hwn, megys cyfoeth, anrhydedd, a phleserau cnawdol: *ac ni thyngodd i dwyllo*—ei gymydog; neu nid yw yn enog o anudoniaeth, bradwriaeth, neu dori addunedau: gwel ar Salm xv.

Adn. 5. *Efe a dderbyn fendith gan yr Arglwydd*] Caiff hwn esgyn i fynnyd yr Arglwydd, a sefyll yn ei le santaidd ef, a derbyn gras, gogoniant, a bendith yno gan yr Arglwydd; a *chyfiawnder*—sef y cyfiawnder a wared rhag angau, neu frwyth y gwobr ei gyfiawnder, a phob gras a thrugaredd angenrheidiol arall; *gan Dduw ei iachawdwriaeth*—yr hwn yw 'Awdwr ei iachawdwriaeth dragwyddol,' Heb. v. 9.

Adn. 6. *Dyma genhedlaeth y rhai a'i ceisiant ef*] Dyma wir blant Duw, y rhai a gymeradwyir ac a arddelir ganddo ef: nid y rhai a hânasant oddiwrth Abraham a'r patrieirch a ystyrir ganddo ef fel ei genedl gadwedig, eithr y rhai sydd yn ceisio yr Arglwydd, ac yn ei addoli ef mewn gwirionedd. *Y rhai a geisiant dy wyneb di*—neu a geisiant ras, trugaredd, ac iachawdwriaeth Duw, yr hyn yn fynych a elwir ei 'wyneb' ef yn yr ysgrifysrau. *O Jacob*—nen 'O Dduw Jacob,' fel y mae mewn dau o ysgrifysfrau Kennicott, ac yn y Syriaeg, yr Arabaeg, y Vulgate, yr Æthiopaeg, yr Anglo-Saxonaeg, a'r LXX. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 7. *O byrth, dyrchefwch eich penau*] Sef pyrth dinas Seion, fel y sylwyd ar adn. 3; neu, fel y tybia rhai, pyrth cyntedd y babel, nen byrth y babel ei hun. Meddylir fod yma

gyfeiriad at rywbeth tebyg i'r porthgwlas (*portcullis*) ni, neu ollyngddor danneddog crogedig uwchben pyrth dinasoedd caerog, yr hwn a ollyngid i lawr dros ddrys y porth i attal iddo gael ei agor trwy drais, ac a dynid i fyny gyda chwerfan pan yr agorid ef. Yn yr achos hwn yr oedd y gollyngddor hwnw wedi ei ollwng i lawr, a gorchymynir iddo gael ei ddyrchafu, fel y byddai i'r pyrth gael eu hâgor. *Ac ymddyrcchefwch, ddrysau tragwyddol*—gelwir y pyrth hyn yn 'ddrysau tragwyddol,' yn ystyr blaenaf y Salm, am ddarhof eu gwneuthur o ddefnyddiau cedryn a pharhaol; ac yn yr ail ystyr, lle y cyfeirir at esgyniad ein Harglwydd bendigedig i'r nef, y mae yr ymadrodd i'w ddeall yn ei ystyr naturiol. *A Brenin y gogoniant a ddaw i mewn*—sef y Brenin gogoneddus JEHOFA, yr hwn a breswyliai ar gaeaf yr arch, neu y drugareddfa, rhwng y cerubiad. Ond diamau fod yma gyfeiriad, fel y crybwyllwyd eisoes, at esgyniad gorfoleddus ein Hiachwdrwr i'w ogoniant yn y nef, pryd y byddai mil myrdd o angylion yn osgoroddlu iddo i'w arwain trwy y pyrth i'r ddinas uesol: gwel y teitl, a'r addedyliadau, a'r sylw ar adn. 3, ac ar Act. i. 11.

Adn. 8. *Pwy yw y Brenin gogoniant hwn?*] Hyn a ofynid gan y porthorion oddifewn, nid am na wyddent pwy oedd efe, ond i'r dyben i fawrhau Brenin y gogoniant, trwy arwain y rhai oddiallan i ddywedyd yr hyn a ganlyn am dano. *Yr Arglwydd nerthol a chadarn*—hyn yw atebiad y gosgorddlu tuallan i'r porth; *yr Arglwydd cadarn mewn rhyfel*—yr hwn a faeddodd ei holl elynion, ac sydd yn awr yn dychwelyd i'w ddinas ei hun mewn rhwyg fel buddugwr gorfoleddus.

Adn. 9. *O byrth, dyrchefwch eich penau,* &c.] Gwel ar adn. 7. Ailadroddir yr un geiriau yma, i'r dyben i wneyd argraff dyfnach o'u pwysigrwydd ar feddyllian y gwrandawyr, neu ergwneyd y gân yn fwy arddunawla mawreddog.

Adn. 10. *Pwy yw y Brenin gogoniant hwn?*] Y mae y gofyniad yma yr un fath a'r un yn adn. 8; ond y mae yr atebiad ychydig yn wahanol, ac yn fyrach. *Arglwydd y lluoedd*—yr hwn y mae holl luoedd nefoedd, daear, ac uffern dan ei lywodraeth, ac angylion, dynion, a chythreuliaid yn gorfod plygu iddo. *Efe yw Brenin y gogoniant*—a Brenin ei eglwys hefyd, neu Frenin y saint. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

SALM XXV.

ATAT ti, O Arglwydd, y dyrchafaf fy enaid.

2 O fy Nuw, ynot ti yr ymddiriedais: na'm gwaradwydder; na orfoledded fy ngelynyd arnaf.

3 Ie, na waradwydder neb sydd yn dysgwyl wrthyt ti: gwarad-

ADFFEDYLIADAU.—Bydd yn dda gan y darllynydd weled yma gymhwysiad Dr. Horne o'r adnodau hyn at esgyniad ein Harglwydd bendedig. 'Rhaid i ni yn awr,' ebai efe, 'ffurfio i ni ein hunain feddyddrych am Arglwydd y gogoniant, ar ol ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, yn myned i mewn i'w dragwyddol deml yn y nef; fel y darfu iddo gynt, trwy yr arwyddlun o'i bresenoldeb, gymeryd meddiant o'r adeilad gysgolod a byrbarhaol hōno, yr hon a safai unwaith ar fynydd Seion. Rhaid i ni edrych arno yn dyrchafu yn raddol oddiar fynydd yr Olewyydd i'r awyr, gan gymeryd y cymylau yn gerbyd iddo, ac esgyn i'r uchelder; tra y mae rhai o'r angylion, fel y Lefiaid mewn gorymdaith, y rhai a weinyddent i'r Messia buddugol yn nydd ei nerth, yn gorchymyn yn awdurdodol i'r pyrth a'r drysau tragwyddol hyny, y rhai oeddynt hyd yn hyn wedi eu cau a'u bolltio yn erbyn hil Adda, gael eu bago i'w dderbyn ef i mewn i deyrnas y gogoniant: *O byrth, dyrcheffwch eich penau, &c.* Wrth glywed y llef hon o ryddhad ac yuorfoleddiad o'r ddaear, preswylfod trueni a thristwch, y mae y lleill o'r angylion, mewn synod wrth feddwl am ddyu yn hawlio derbyniad i mewn i'w trigfanau deddydd hwy, yn gofyn oddifewn, fel y Lefiaid yn y deml, *Pwy yw y Brenin gogoniant hun?* I ba ofyniad y mae yr angylion gywddodol yn ateb mewn iaith o lawenydd a buddugoliaeth, a boed i'r eglwys waredigol ateb gyda hwynt, *Yr Arglwydd nerthol a chadarn—yr ARGWYDD IESU,* yr hwn a gafodd fuddugoliaeth ar behod, angau, ac uffern. Am hyny yr ydym yn dywedyd, a chyda llawenydd santaidd yn ei ail ddywedyd, *O byrth, dyrcheffwch eich penau, &c.* Ac os gofyn neb, *Pwy yw y Brenin gogoniant hun?* nynia a gyhoeddwn yn groch yn nghlyw nef a daear, *Arglwydd y lluoedd—y MESSIA oll-fuddugol, pen pob creadur, arweinydd byddinoedd Jehofa, Efe yw Brenin y gogoniant!* Byrdded felly. Gogoniant a fo i ti, O Arglwydd goruchaf! Amen, Haleliwia.†

SALM XXV. Teitl hon yw, 'Salm Dafydd.' Hon yw y gyntaf o'r saith Salm a gyfansoddwyd mewn ffurf-wyddorol neu groes-enwol, lle y mae pob adnod neu frawddeg yn dechreu gyda llythren wahanol o'r wyddor Hebreig yn olynol. Y lleill yw Salm xxxiv, xxxvii, cxii, cxiii, cxix, a cxlv. Tybia Dr. Lowth mai dyben y drefn hon oedd cynorthwyo y cof. Arferar rhai ganmol yr Iuddewon am eu ffyddlondeb yn gwlydo dros yr ysgrythrau Hebreig; ond nid ydynt hwy yn mhob

wydder y rhai a droseddant heb achos.

4 Pâr i mi wybod dy ffyrdd, O Arglwydd: dysg i mi dy lwybrau.

5 Tywys fi yn dy wirionedd, a dysg fi: canys ti yw Duw fy iachawdwriaeth; wrthyt ti y dysgwyliaf ar hyd y dydd.

achos yn haeddu y ganmoliaeth hōno, fel y gwelwom yn fynyach; ac hyd yn nod yn y Salm hon y mae y llythren *oau* yn eisiau yn adn. 5, a'r *koph* yn adn. 18; ac y mae y *resh* wedi cael ei dodi i mewn ddwywaith, un tro yn lle y *koph*; ac y mae llinell gyfan wedi cael ei chwaneu yn y diwedd, yn hollol allan o'r drefn wyddorol. Y mae rhai yn meddwl i'r Salm hon gael ei chyfansoddi gan Dafydd, a hyny yn ystod gwrthryfel Absalom, neu par mewn cyfyngder mawr o herwydd ei bechod yn achos Iathseba ac Urias; tra y barna ereill mai yn hir wedi hyny yr ysgrifenyddwyd hi, a chan 'Salmydd arall; a thlybiant ei bod yn cyfeirio at achos y caethion yn Babilon, y rhai a gwynent o herwydd gorthrymder eu gelynyddion, ac a erfynent yn daer am help a thru-garedd Duw.

Adn. 1. *Atat ti, O Arglwydd, y dyrchafaf fy enaid!* Efe a ddyrchafai nid yn unig ei lef, ei olygon, a'i ddwyllaw mewn gweddï at Dduw, ond ei holl enaid hefyd, i ofyn a dysgwyl am waredigeth ganddo.

Adn. 2. *O fy Nuw, ynot ti yr ymddiriedais!* Y mae y Salmydd yma yn nesáu at Dduw fel ei Dduw cyfammodol ef, gan ddangos ei fod yn awr, fel bob amser o'r blaen, yn ymddiried ynddo ef fel y cyfryw. *Na'm gwaradwydder*—na siomer fi yn fy nysgwyliaf wrthyt, yr hyn a fyddai yn waradwydd i mi, ac yn anfrï i tithau, ar ol i mi ymfrostito gymaint yn dy allu a'th ffyddlondeb. *Na orfoledded fy ngelynydion arnaf*—pa un bynag ai dynol ai ysbrydol: gwel y teitl.

Adn. 3. *Ie, na waradwydder neb sydd yn dysgwyl wrthyt ti!* Na siomer hwynt gyda myfi, neu o'm hachos o'r blaen, y mae efe yn gweddïo yma dros yr holl dduwiolion, yn gystal a throsto ei hun. *Gwaradwydder y rhai a droseddant heb achos*—heb i mi roddi dim achos iddynt i'm herlid, neu wrthryfela yn fy erbyn. Pa wanaf yw y demtasiwn i bechod, cryfaf yw y llygredd trwy ba un y cyflawnir ef. Ond tybia rhai mai at eilunaddolwyr y cyfeirir yma.

Adn. 4. *Pâr i mi wybod dy ffyrdd, O Arglwydd!* Efe a ddymunai gael gwybod ei ddyledswydd yn ei amgylchiadau dyrys presenol; ac yr oedd yn barod i'w chyflawni ar ol ei gwybod, pa beth bynag fyddai y canlyniad: *Dysg i mi dy lwybrau—y rhai y mynit ti i mi eu rhodio.*

Adn. 5. *Tywys fi yn dy wirionedd!* Ar hyd gwir lwybrau dy orchymynion; a dysg fi—pa beth a ddylyn ei wneyd, ei ddywedyd, a'i feddwl: *canys ti yw Duw fy iachawdwriaeth*—yr hwn a'm gwaredaist hyd yma, ac a

6 Cofia, Arglwydd, dy dosturiaethau, a'th drugareddau: canys erioed *y maent* hwy.

7 Na chofia bechodau fy ieuencid, na'm camweddau: yn ol dy drugaredd meddwl di am danaf, er mwyn dy ddaioni, Arglwydd.

8 Da ac uniawn *yw* yr Arglwydd: o herwydd hyny y dysg efe bechaduriaid yn y ffordd.

9 Y rhai llariaidd a hyffordda efe mewn barn: a'i ffordd a ddysg efe i'r rhai gostyngedig.

10 Holl lwybrau yr Arglwydd *ydynt* drugaredd a gwirionedd, i'r rhai a gadwant ei gyfammod a'i dystiolaethau ef.

11 Er mwyn dy enw, Arglwydd, maddeu fy anwiredd: canys mawr *yw*.

12 Pa ŵr *yw* efe sydd yn ofni yr Arglwydd? efe a'i dysg ef yn y ffordd a ddewisio.

13 Ei enaid ef a erys mewn daioni: a'i had a etifedda y ddaear.

14 Dirgelwch yr Arglwydd *sydd* gyda'r rhai a'i hofnant ef: a'i gyfammod hefyd, i'w cyfarwyddo hwynt.

15 Fy llygaid *sydd* yn wastad ar yr Arglwydd: canys efe a ddwg fy nhraed allan o'r rhwyd.

16 Tro ataf, a thrugarha wrthyf: canys unig a thylawd *ydwyf*.

addewaist fy ngwaredu rhagllaw: *wrthyt ti y dysgwyliaf ar hyd y dydd*—yn yr ymarferiad o bob moddon o ras o fewn fy nghyaredd, a hyn yn ddyfal a pharhaus.

Adn. 6. *Cofia, Arglwydd, dy dosturiaethau a'th drugareddau*] Ystyria dy natur dosturiol a thrugarog dy hun, a'th aul fendithion i mi ac ereill yn yr amser a aul heibio, ac ymddwyn y waith hon hefyd fel ti dy hun: *canys erioed y maent hwy*—yr wyt wedi arfer â bod yn drugarog i rai o'm bath i o ddechre y byd.

Adn. 7. *Na chofia bechodau fy ieuencid*] Y rhai a gyflawnais yn fy ffolineb plentynaidd cyn fy nhrōdigaeth. Y mae Duw yn fynych yn cospi y rhai hyn mewn henaint, Job xiii. 26; ac am hyny gweddïai Dafydd na fyddai i Dduw wneyd felly âg ef. *Na'm camweddau*—y rhai a gyflawnais ar ol fy nhrōdigaeth. F'e allai ei fod yn cyfeirio yma at ei gamweddau yn achos Bathseba ac Urias. *Yn ol dy drugaredd meddwl di am danaf*—canys nid oes genyf, fel pechadur, ddim i'w ddadlu ond dy drugaredd a'th ddaioni dy hun. *Er mwyn dy ddaioni*—daioni yw natur Duw, a thrugaredd a ddylyfa o'r daioni hwnw.

Adn. 8. *Da ac uniawn yw yr Arglwydd*] Da yn ei natur, ac uniawn neu gyfiawn yn ei ymddygiadau; o herwydd hyny y dysg efe bechaduriaid yn y ffordd—ag y dylent ei rhodio. Yn lle eu dyfetha yn y fan am y pechodau, efe a ddefnyddia amryw foddion i geisio eu tywys hwynt i edifeirwch.

Adn. 9. *Y rhai llariaidd*] *Anavim*, 'rhai tylawd a thrallodus'; a *hyffordda efe mewn barn*—yn llwybrau barn a chyfiawnder: *a'i ffordd a ddysg efe i'r rhai gostyngedig*—sef y ffordd o iachawdriaeth, neu y ffordd a ddarparodd efe iddynt rodio ynddi.

Adn. 10. *Holl lwybrau yr Arglwydd*] Neu ei ymddygiadau ef at ddyinion; *ydynt drugaredd a gwirionedd*—ydynt mewn tiriondeb a ffyddlondeb, fel yn wir angenrheidiol iddynt hwy, ac yn tueddur er eu lles; *i'r rhai a gadwant ei gyfammod*—sef ammodau ei gyfammod; *a'i dystiolaethau ef*—sef ei orchymynion, y rhai ydynt dystion o ewyllys Duw a

dyledswydd dyn: hyny yw, i'r rhai a gydymffurfiant âg ysbryd ei grefydd santaidd ef.

Adn. 11. *Er mwyn dy enw, Arglwydd*] Er mwyn anrhydedd a gogoniant dy enw; *maddeu fy anwiredd*—y mae yn debyg ei fod yn cyfeirio yma at y pechodau a'r camweddau a grybwyllwyd o'r blaen, ada. 7; *canys mawr yw*—felly yr oedd mawredd ei bechod yn ddaidl gref dros ei faddeu. Ond y mae rhai yn ei gyfieithu, 'Maddeu fy anwiredd, er ei fod yn fawr.' Fel pe dywedasai, Er cymaint ydyw, nid yw yn rhy fawr i ti allu ei faddeu.

Adn. 12. *Pa ŵr yw efe sydd yn ofni yr Arglwydd*] Sydd yn parchu Duw a'i grefydd; neu sydd yn ofni ei sorianet cyfiawn ef, ac yn gweddio am faddeuanf, fel yr oedd Dafydd yn awr? Yn mla le y mae yn byw, neu o ba geuedl yr hana? *Efe a'i dysg ef yn y ffordd a ddewisio*—yn ffordd crefydd, yr hon y mae efe yn awr yn ei dewis, a'r hon y mae Duw hefyd yn ei chymeradwyo.

Adn. 13. *Ei enaid ef a erys mewn daioni*] Mewn mwynhad o bob daioni ysbrydol a thymborol; *a'i had a etifedda y ddaear*—er mwyn eu tad ag oedd yn ofni ac yn gwasanaethu yr Arglwydd. Efe a antonodd lawer o weddïau i fyny ar eu rhan, ac y mae Duw yn awr yn ateb y gweddïau hyny er eu lles.

Adn. 14. *Dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda'r rhai a'i hofnant ef*] Sef gwbyodaeth o ewyllys yr Arglwydd mewn perthynas iddynt; *a'i gyfammod hefyd*—sef bendithion ei gyfammod ond odid, megys ei wenau, ei air, ordinhadau ei gysegr, a dylanwadau ei Ysbryd; *i'w cyfarwyddo hwynt*—yn yr iawn gyflawniad o'u dyledswyddau crefyddol, neu yn y wybodaeth o ewyllys Duw. Y Saeson-aeg yw. 'Ac efe a ddengys iddynt ei gyfammod,' yn ei fendithion a'i ammodau. Ond y mae rhai yn deall hwn am y cyfammod o bryn-edigaeth trwy Grist Iesu.

Adn. 15. *Fy llygaid sydd yn wastad ar yr Arglwydd*] Oddiwrth yr hwn yn unig yr wyf yn dysgwyl ymward; *canys efe a ddwg fy nhraed allan o'r rhwyd*—a osodwyd i'm maglu gan fy ngelynyon.

Adn. 16. *Tro ataf, a thrugarha wrthyf*]

17 Gofidiau fy nghalon a helaethwyd: dwg fi allan o'm cyfyngderau.

18 Gwel fy nghystudd a'm helbul, a maddeu fy holl bechodau.

19 Edrych ar fy ngelynyon; canys amlhasant; â chasineb traws hefyd y'm casasant.

20 Cadw fy enaid, ac achub fi: na'm gwaradwydder; canys ymddiriedais ynot.

21 Cadwed perffeithrwydd ac uniondeb fi: canys yr wyf yn dysgwyl wrthyt.

22 O Dduw, gwared Israel o'i holl gyfyngderau.

Yn fy adfyd presenol; *canys unig a thylawd ydwyf*—wedi fy ngadael gan y rhan fwyaf o'm cyfeillion, ac yn cael fy erlid gan fy ngelynyon. Fel hyn yr oedd yn bod gyda Dafydd yn amser gwrthryfel Absalom.

Adn. 17. *Gofidiau fy nghalon a helaethwyd*] Y mae fy nhrallodau oddiallan yn cael eu dilyn â gofidiau blinion oddifewn, o herwydd fy mbechodau y rhai a'u hachosasant, ac o herwydd dy anffodlonrwydd diathau yr hwn a ddanghosir ynddynt. *Dwg fi allan o'm cyfyngderau*—trwy faddeu fy mbechodau, a'm gwaredu o ddwyllaw fy ngelynyon.

Adn. 18. *Gwel fy nghystudd a'm helbul*] A golwg o drugaredd; a maddeu fy holl bechodau—y rhai yw yr achos o honynt.

Adn. 19. *Edrych ar fy ngelynyon*] Ac yna ti a weli fod yn amhosibl i'm byddin egwan i eu gwrthsefyll, trwy eu bod wedi aulhau yn ddifrawr: *â chasineb traws*—diachos, annglyfiawn, ac angeul; *y'm casasant*—ac felly yr oedd yn bod yn amser gwrthryfel Absalom.

Adn. 20. *Cadw fy enaid*] Sef ei fywyd, neu ei berson; canys yr oedd ei ran anfarwol ef allan o gyraedd ei elynion: *na'm gwaradwydder, &c.*—gwel ar adn. 2.

Adn. 21. *Cadwed perffeithrwydd ac uniondeb fi*] Sef ei berffeithrwydd a'i uniondeb tuag at ei elynion. Yr oedd Dafydd yn euog o lawer o bechodau yn erbyn Dduw, fel y mae yn cyfaddef yn fynych yn y Salm hon; ond tuag at ei fab Absalom, a'i ddeiliaid bradwrs, yr oedd efe wedi ymddyngwyl bob amser mewn perffeithrwydd ac uniondeb, heb wneuthur dim i haeddu hyn oddiar eu llaw hwnt; ac am hyny y mae yn gweddio am i Dduw ei gadw ef rhagddynt hwy o herwydd y perffeithrwydd a'r uniondeb hyny; neu, am gael ei gadw yn yr unrhyw, heb gael ei ollwng i wneyd dim o'i le tuag atynt hwy. *Canys yr wyf yn dysgwyl wrthyt*—wrth dy ddaioni, dy drugaredd, a'th fyddlondeb di, am gael fy nghadw fel hyn.

Adn. 22. *O Dduw, gwared Israel o'i holl gyfyngderau*] Cymer drugaredd nid yn unig arnaf fi, ond hefyd ar yr holl genedl. Tra yr oedd Dafydd ar ffo rhag Absalom, yr oedd y

SALM XXVI.

BARN fi, Arglwydd; canys rhodiais yn fy mherffeithrwydd: ymddiriedais hefyd yn yr Arglwydd; *am hyny ni lithraf.*

2 Hola fi, Arglwydd, a phrawf fi: chwilia fy arenau a'm calon.

3 Canys dy drugaredd sydd o flaen fy llygaid: ac mi a rodiais yn dy wirionedd.

4 Nid eisteddais gyda dynion coegion; a chyda'r rhai trofaus nid âf.

5 Caseais gynulleidfa y drygionus; a chyda'r annuwiolion nid eisteddaf.

bobl yn cael eu gorthrymu, a'r rhai drygionus yn ymorfoleddu, ac achos crefydd yn cael ei niweidio; ac os llwyddi y gwrthryfelwyr, yr oedd holl Israel yn dra thebyg o fyned i fwy o gyfyngderau: ac am hyny y mae Dafydd, fel brenin Israel, yn gweddio am i'w holl ddeiliaid gael eu hadfer i beddwch a llyonddwch.

SALM XXVI. Y teitl yw, '*Salm Dafydd.*' Tybia Theodoret i Dafydd gyfansoddi y Salm hon pryd yr oedd ar ffo rhag cynddaredd Saul yn ngwlad y Philistiaid, neu mewn rhyw wlad ddyveithr arall. Y mae efe yn dadlu ei ddiniweidrwydd mor gryf, nes y mae yn dra thebyg iddo ei chyfansoddi cyn ei gwmp yn achos Bathseba ac Urias, ac felly yn flaenorol i'r un ddiweddaf. Modd bynag, y mae yn sier iddo ei hysgrifenu pan mewn cyfyngder mawr o herwydd camgyhuddiadau ei elynion.

Adn. 1. *Barn fi, Arglwydd*] Cymer di fy achos mewn llaw i'w benderfynu, canys ni allaf gael cyfiawnder gan ddynion. *Canys rhodiais yn fy mherffeithrwydd*—heb wneuthur dim ar fai yn erbyn Saul na'i lys, ac am hyny yr wyf yn gallu apelio atat ti. *Ymddiriedais hefyd yn yr Arglwydd*—yn ei allu amddiffynol ef; *am hyny ni lithraf*—i gamweddau yn erbyn Saul, nac i'r rhwyd a osododd efe i'm maglu.

Adn. 2. *Hola fi, Arglwydd, a phrawf fi*] Gyda'r manylwch mwyaf, o ran fy ymddygiadau at Saul a'm holl elynion ereill: *chwilia fy arenau a'm calon*—nid yn unig fy ymddygiadau oddiallan, ond fy mwriadau a'm meddyliau oddifewn.

Adn. 3. *Canys dy drugaredd sydd o flaen fy llygaid*] Y mae teimlad o'th fiast a'th gymeradwyaeth di yn fwy gwerthfawr yn fy ngolwg na choron a gosedd ddaerol; *ac mi a rodiais yn dy wirionedd*—yn ol rheol dy air a'th orchymynion di yn mhob peth, er mwyn gallu parhau yn dy fiast a'th gymeradwyaeth.

Adn. 4. *Nid eisteddais gyda dynion coegion*] Dynion gwâg o bob daioni, rhinwedd, a chrefydd; a *chyda'r rhai trofaus nid âf*—y

6 Golchaf fy nwyllaw mewn diniweidrwydd: a thallor, O Arglwydd, a amgylchynaf:

7 I gyhoeddi â llef clodforedd, ac i fynegu dy holl ryfeddodau.

8 Arglwydd, hoffais drigfau dy dŷ, a lle preswylfa dy ogoniant.

9 Na chasgl fy enaid gyda phechaduriaid, na'm bywyd gyda dynion gwaedlyd.

10 Y rhai y mae ysgelerder yn eu dwylaw, a'u deheulaw yn llawn gwobrau.

11 Eithr mi a rodiaf yn fy mherffeithrwydd: gwared fi, a thrugarha wrthyf.

12 Fy nbroed sydd yn sefyll ar yr uniawn: yn y cynulleidfaoedd y'th fendithiaf, O Arglwydd.

SALM XXVII.

YR Arglwydd yw fy ngoleuni a'm hiachawdwriaeth; rhag pwy yr ofnaf? yr Arglwydd yw nerth fy mywyd; rhag pwy y dychrynaf?

rhai yn ddirgel a fwrriadant wrthdroi a dymchwelyd yr orsedd a'r llywodraeth.

Adn. 5. *Caseis cynulleidfa y drygionus*] Y rhai a fwrriadant fradwriaeth yn erbyn y brenin a'i orsedd; a *chyda'r annuwiolion nid eisteddaf*—i gymeryd rhan yn eu cynghor annuwiol hwy yn erbyn y llywodraeth.

Adn. 6. *Golchaf fy nwyllaw mewn diniweidrwydd*] Oddiwrt holl gamgghuddiadau a ddygir yn fy erbyn. Yr oedd yn arferiad cyffredin yn mhilith yr Iuddewon i ymolchi cyn gweddio; ac nid oedd yr offeiriaid yn enwedig i gyflawni un wasnaeth santaidd yn y cysegr cyn iddynt dywallt dwfr o'r noe bres, a golchi eu dwylaw ynddo; ac ymddengys mai at hyn y cyfeiria Dafydd yma: gwel ar Exod. xxix. 4, a xl. 30, Deut. xxi. 6, Mat. xxvii. 24. *A th allor, O Arglwydd, a amgylchynaf*—i offrwu fy aberth i ti â dwylaw glân. Y mae yma gyfeiriad at waith yr offeiriaid yn amgylchynu yr allor ar ol dodi yr aberth arni.

Adn. 7. *I gyhoeddi â llef clodforedd*] Heblaw offrymu aberth ar yr allor, yr oedd Dafydd yn penderfynu clodfori Duw â llef uchel yn mhilith y cantorian, a mynegu yn gyhoeddus holl ryfeddodau rhagluniaethol a grasol Duw tuag ato yn barhaus.

Adn. 8. *Arglwydd, hoffais drigfandy dŷ*] Ond odid y babell, lle yr oedd addoliad Duw yn cael ei ddwyn yn mlaen; a *lle preswylfa dy ogoniant*—y cysegr santeiddiolaf fe allai, lle yr oedd y SECINA, yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol, yn preswyllo ar y drugareddfa rhwng y cerubiaid. Fel pe dywedasai, Er fy mod yn awr wedi gorfod ffoi o'm gwlad, er hynny, tra yr oeddwn yn cartrefu yno, yr oeddwn yn hoffi dy gysegr a th addoliad di, yr hyn sydd yn brawf o'm duwioldeb tuag atat ti, yn gystal ag o'm cywirdeb a'm diniweidrwydd tuag at dynion yn gyffredinol. Os yw hyn oll yn cyfeirio at y babell ar fynydd Seion, y mae yn brawf mai ar ol marwolaeth Saul yr ysgrifenydd y Salm hon; canys yr oedd y tabernacl cyn hynny yn Gibeon, 1 Cron. xvi. 39, a xxi. 29, 2 Cron. i. 3, a'r arch yn Ciriath-jearim, 1 Sam. vii. 2.

Adn. 9. *Na chasgl fy enaid gyda phechaduriaid*] I fod yn eu cyfeillach hwy yn y byd hwn, nac yn gyfranog o'u cosp gyfiaw yn y bydnasaf; *na'm bywyd gyda dynion gwaedlyd*—na foed i mi dreulio fy mywyd gyda

hwy; neu, na fydded i'r rhai sydd yn sychedu am fy ngwael gael eu goddef i'w dywallt ef.

Adn. 10. *F rhai y mae ysgelerder yn eu dwylaw*] Nid yn unig yn cael ei lunio a'i fwrriadu yn eu meddylliau, ond yn cael ei gyflawni â'u dwylaw; *a'u deheulaw yn llawn gwobrau*—y rhai a dderbyniwyd ganddynt am gyflawni eu hysgelerder erchyll, neu a gynygir ganddynt i'r neb a laddo y diniwed.

Adn. 11. *Eithr mi a rodiaf yn fy mherffeithrwydd*] Trwy gymhorth dy ras, yr wyffi yn penderfynu ymddwyn yn gywir a gonest yn mhob peth, fel y gwnaethym hyd yma, adn. 1: *gwared fi*—rhag y maglaw a osodir i'm herbyn, a rhag y dynion a fwrriadant nived i mi; a *thrugarha wrthyf*—canys ar dy drugaredd di yn unig yr wyf yn ymddibynnu am iachawdwriaeth, ac nid ar fy mherffeithrwydd fy hun.

Adn. 12. *Fy nbroed sydd yn sefyll ar yr uniawn*] Ar lwybrau uniawn, oddiar y rhai nis gallaf lithro, adn. 1; hynny yw, yr oedd efe yn penderfynu parhau hyd y diwedd i gasâu y drwg, a glynu wrth y da, gan radio yn ffyrdd cyfiawnder a phereffithrwydd, ac ymddibynnu yn hollol ar drugaredd a gras Duw am iachawdwriaeth i'w enaid. *In y cynulleidfaoedd y'th fendithiaf, O Arglwydd*—pa le bynag yr oedd Dafydd yn awr, yr oedd yn credu y cai efe eto ddyfod i gysegr Duw, i fendithio yr Arglwydd yn nghynulleidfaoedd Israel am ei aml waredigaethau iddo.

SALM XXVII. Y teitl yw, 'Salm Dafydd.' Tybia yr Esgob Patrick i Dafydd ei chyfansoddi pan yr oedd efe mewn rhyw gyfyngder mawr, neu newydd iddo gael ei waredu o hono. Nid yw yn hawdd penderfynu pa un ai pan yn cael ei erlid gan Saul cyn iddo gael ei goroni, fel y dywed y LXX; neu pan yn gorfod ffoi rhag Absalom; neu ynte, fel y tybia rhai o'r Iuddewon, pan yn ymladd â'r Philistiaid, ac newn perygl o gael ei ladd gan y cawr, yr ysgrifennodd efe hi. Tybia y rhan fwyaf mai ar yr achlysur diweddar, pryd y gwaredodd Abisai ef o law y cawr, ac y dywedodd ei wŷr wrtho, 'Nid ai di allan mwyach gyda ni i ryfel, rhag i ti ddifffodi *goleuni* Israel,' 2 Sam. xxi. 17. I'w gyngorwyr hynny meddylir iddo wneuthur yr atebiad canlynol:—

Adn. 1. *Yr Arglwydd yw fy ngoleuni*] Ac

2 Pan nesaodd y rhai drygionus, sef fy ngrwthwynebwy'r a'm gelynyon, i'm herbyn, i fwyta fy nghuawd, hwy a dramgwyddasant ac a syrthiasant.

3 Pe gwersyllai llu i'm herbyn, nid ofna fy nghalon: pe cyfodai câd i'm herbyn, yn hyn mi a fyddaf hyderus.

4 Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny a geisiaf; sef caffaél trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml.

am hyny nis gall dynion byth ei ddi-foddi ef; a'm hiachawdwr iaeth—fy amddiffynydd a'm tarian; rhag pwy yr ofnaf—yn ngwyneb hyn? Yr Arglwydd yw nerth fy mywyd—diogelydd cadarn fy mywyd, yr hwn sydd yn fy nghadw yn fyw yn uhob rhyw berygl a'm cyferfydd; rhag pwy y dychrynaf—pan mai fel hyn y mae arnaf?

Adn. 2. Pan nesaodd y rhai drygionus] Ond odid y pedwar cawr Philistaidd a grybwyllir 2 Sam. xxi. 16—22; i fwyta fy nghuawd—i'm dryllio yn ddarnau; hwy a dramgwyddasant ac a syrthiasant—bron o honynt eu hunain, heb i mi ond prin gyffwrdd â hwy: yr oeddnt wedi cael eu dyrŷu a'u dychrynu gymaint, fel nas gallent sefyll yn fy wyneb.

Adn. 3. Pe gwersyllai llu i'm herbyn] I'm herbyn i fy hun yn unig; nid ofna fy nghalon—am fod 'Arglwydd y luoedd' yn darian ac iachawdwr iaeth i mi. Pe cyfodai câd i'm herbyn—nid llu yn unig, ned ofna blaid o ryfelwyr, ond y ddwy blaid, neu y gâd oll; yn hyn mi a fyddaf hyderus—am fuddugoliaeth arnynt oll, am fod y Duw ag yr wyf ymddiried ynddo yn amddiffynydd i mi, ac yn gryfach na hwynt oll.

Adn. 4. Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd] Gorŵch pob peth arall ar hyd fy oes; hyny a geisiaf—yn barhaus hyd y diwedd; sef caffaél trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd—i'w wasanaethu ef wrth ei fodd yn yr addoliad boreol a hwyrol; i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd—i fyfyrto ar ei Fawredd gogoneddus, a'i briodoliaethau a'i ddaionin anfeidrol, megys ei ddoethineb, ei santeiddrwydd, ei gyfiawnder, ei wirionedd, ei ras, a'i dngaredd, y rhai, er eu bod yn guddiedig i fesur oddiwrth y byd, a amlygir i raddau helaeth i'w saint yn ei eglwys a'i ordinhadau. Neu gall mai yr ystyr yw, fel y tybia Boothroyd ac ereill, 'i edrych ar yr offeiriad a'r Lefiaid a llwythau Israel, y rhai sydd yn gysgod o Grist, ac o'i eglwys yn mberffeithrwydd ei phrydferthwch.' Ac i ymofyn yn ei deml—am wybodaeth helaethach o feddl ac ewyllys Duw, ac o'm dyledswyddau fy hun; neu, uwern geriau ereill, i ymofyn am fwy o santeiddrwydd calon a

5 Canys yn y dydd blin y'm cuddia o fewn ei babell: yn nirgelfa ei babell y'm cuddia; ar graig y'm cyfyd i.

6 Ac yn awr y dyrecha efe fy mhen goruwch fy ngelynyon o'm hamgyleh: am hyny yr aberthaf yn ei babell ef ebyrth gorfoledd; canaf, i.e. canmolaf yr Arglwydd.

7 Clyw, O Arglwydd, fy lleferydd pan lefwyf: trugarha hefyd wrthyf, a gwrando arnaf.

8 Panddyweddist, Ceisiwch fy wynneb; fy nghalon a ddywedodd wrthyf, Dy wyneb a geisiaf, O Arglwydd.

buchedd, a helaethach profiad crefyddol. Y mae Dafydd yma, ac mewn manau ereill, yn galw y babell yn deml, am fod ordinhadau crefydd yn cael eu gweinyddu ynddi, fel y gwneid wedi hyn yn y deml. Os ar yr achlysur o waredigaeth Dafydd rhag y Philistiaid y cyfansoddodd efe y Salm hon, pryd yr oedd ei wŷr yn dymuno nad âi efe mwyach i ryfel, rhag iddo ddi-foddi goleuni Israel, fel y dychymygydd yn y sylw ar deitl y Salm hon, gall mai amlygiad o'i benderfyniad ef gyda golwg ar ei hen ddyddiau yw yr adnod hon. Fel pe dywedasai, 'Os wyf yn rhy ben a methiedig i wasanaethu fy ngwlad mwyach, mi a ddymunwn gael encilio i'r babell, i wasanaethu Duw yno dros yr hyn sydd yn ol o'm dyddiau ar y ddaear; canys yno y caf edrych ar ei ogoniant ef, ac yno gallaf ymofyn a chael atebion pwysig o berthynas i Israel.'

Adn. 5. Canys yn y dydd blin] Sef yn nyddian henaint a phenllwydni, neu pan fyddo gelynyon lluosog a chryfion yn ymosod arnaf; y'm cuddia o fewn ei babell—yr hon oedd y noddfa i rai mewn perygl: gwel ar 1 Bren. i. 50. Yn nirgelfa ei babell y'm cuddia—os bydd raid, lle na feiddia fy ngelynyon nesau ataf. Maddyrlir fod yma gyfeiriad at y cysegr santeiddiolaf, yr hwn a elwir yn 'ddirgelfa' Duw, Ezeec. vii. 22, lle nad allai neb fyned ond yr archeoffeiriad, nac yntau oddieithr ar un dydd yn y flwyddyn, sef dydd y cymod. Ond dichen mai y meddwl yw, y byddai Duw yn ei ragluniaeth yn ymguddfa ac yn ddiogelwch iddo ef, fel yr oedd y babell neu gorn yr allor i'r neb a floai ati. Ar graig y'm cyfyd i—i amddiffynfa gadarn, allan o gyraedd pob perygl oddiwrth fy ngelynyon.

Adn. 6. Ac yn awr y dyrecha efe fy mhen goruwch fy ngelynyon] Thyroddi i mi oruchafiaeth arnynt oll: am hyny yr aberthaf yn ei babell ef ebyrth gorfoledd—sef ebyrth diolch a moliant: canaf, i.e. canmolaf yr Arglwydd—mewn Salmau cân, ac âg offer cerdd, y rhai a ddefnyddid ar y cyfryw achos.

Adn. 7. Clyw, O Arglwydd, fy lleferydd pan lefwyf] Canys yr oedd Dafydd yn penderfynu parhau i sefain ar yr Arglwydd mewn gweddi, hyd oni roddai efe yr oruchafiaeth hon iddo; a gwrando arnaf—Sacs., 'ac ateb fi.'

9 Na chuddia dy wyneb oddi-wrthyf; na fwrw ymaith dy was mewn sorian: fy nghymborth fuost; na âd fi, ac na wrthod fi, O Dduw fy iachawdwriaeth.

10 Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn.

11 Dysg i mi dy ffordd, Arglwydd, ac arwain fi ar hyd llwybrau uniondeb, o herwydd fy ngelynion.

12 Na ddyro fi i fyny i ewyllys fy ngelynion: canys gau dystion, a rhai a adroddant drawsder, a gyfodasant i'm herbyn.

13 *Diffygiaswn*, pe na chredaswn weled daioni yr Arglwydd yn nhir y rhai byw.

14 Dysgwyl wrth yr Arglwydd: ymwrola, ac efe a nertha dy galon: dysgwyl, meddaf, wrth yr Arglwydd.

SALM XXVIII.

ARNAT ti, Arglwydd, y gwaeddaf; fy nghraig, na ddystawa wrthyf: rhag, o thewi wrthyf, i mi fod yn gyffelyb i rai yn disgyn i'r pwll.

Adn. 8. *Pan ddywedaist*] Trwy dy air wrth dy eglwys, neu trwy dy Ysbryd wrth fy nghalon i; *Ceiswch fy wyneb*—sef presenoldeb, ffafr, a chymhorth Duw: *fy nghalon a ddyweddod wrthyt*—mewn atebiad i ti, neu trwy gyfnyddiad parod â'th gais; *Dy wyneb a geisias*, O Arglwydd—trwy weddi daer, os-tyngedig, a diragrith. Ond gan nad yw yr ymadrodd '*pan ddywedaist*' yn y wreiddiol, mewn rhai ei chyfeithu, 'Wrthyt ti, O fy nghalon, y dyweddod efe, Ceiswch fy wyneb: dy wyneb a geisias, O Arglwydd.'

Adn. 9. *Na chuddia dy wyneb oddiwrthyf*] Yr hwn, mewn ufydd-dod i'th alwad di, yr wyf yn awr yn ei geisio. *Na fwrw ymaith dy was mewn sorian*—oddiwrth lewyrch dy wyneb, neu oddiwrth orsedd dy ras. *Fy nghymhorth fuost*—hyd yma; *na âd fi, ac na wrthod fi*—o hyn allan.

Adn. 10. *Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod*] Nid yw yn debyg fod tad a mam Dafydd yn fyw y pryd hyn: a'i feddwl yw, ei gyfeillion agosaf ac anwylaf, oddiwrth y rhai y gallai efo yn rhesymol ddisgwyl y cymhorth a'r tosturi mwyafr. Pan y maent hwy yn marw, neu yn mhell oddiwrthyf, neu yn analluog i'm cynorthwyo, neu yn troi yn greulon tuag ataf; ie, er iddynt fy ngwthio allan o'u tŷ, a'm gyru i grwydro y ddaear fel cardotyn diamgeledd. *Yr Arglwydd a'm derbyn*—dan ei amddiffyniad trugarog. Y meddwl yw, fod Duw yn well cyfailli i ni na'n perthynasan agosaf, ac yn fwy parod a galluog i'n cynorthwyo na hyd yn nod ein rhieni naturiol. Cafodd y geiriau hyn eu cyflawni yn llythrenol lawer gwaith, trwy i raglun-iaeth dyner Duw godi cyfeillion ac amgeledd-wyr i blant amddiffaid mewn manau nad oeddidd yn dysgwyl.

Adn. 11. *Dysg i mi dy ffordd, Arglwydd*] Y ffordd i ryngu dy fodd di, i gyflawni fy nyddsgwyddau fy hunan, neu i gyraedd gwared-igaeth o'm cyfyngderau presenol; *ac arwain fi ar hyd llwybrau uniondeb*—neu lwybrau gwastad, fel na lithrwyf, neu fel yr ymddygywyl yn gyflawn a gonest yn mhob peth; *o herwydd fy ngelynion*—y rhai sydd yn fy ngwyllo yn fanwl. Na fydded i mi gael fy ngollwng i raddi achos iddynt i'm beio i mewn

dim, nac i gablu crefydd o herwydd fy ymddygiad anwastad.

Adn. 12. *Na ddyro fi i fyny i ewyllys fy ngelynion*] Y rhai sydd yn chwennych fy nyfetha; *canys gau-dystion*—rhai yn tyngu celwydd; *a rhai a adroddant drawsder*—rhai yn dywedyd ar draws neu yn groes i'r gwirionedd; *a gyfodasant i'm herbyn*—i geisio fy nyfetha oddiar y ddaear.

Adn. 13. *Diffygiaswn*] Yn yr olwg ar amldra fy ngelynion a mawredd fy mheryglon; *pe na chredaswn weled daioni yr Arglwydd yn nhir y rhai byw*—hyn yw, oni buasai fy mod yn credu y cawswn orfucheddu fy nhrallodion presenol ar y ddaear, a mwyn-iau ordinhadu dy dŷ mewn llonyddwch yn fy beniant. Er nad yw y gair '*diffygiaswn*' yn y wreiddiol, rhaid ei fod yn cael ei ddeall yno, trwy fod rhyw air o'r fath yn angenrheidiol i wneyd i fyny y synwyr.

Adn. 14. *Dysgwyl wrth yr Arglwydd*] Yn ddyfal, hiraethlon, a fyddiog. Yma y mae y Salmydd yn cyfarf ei enaid ei hun, neu ynte bob nn a allai fod mewn cyfyngder megys yntau hyd ddiwedd y byd. *Ymwrola*—cadw dy ysbryddod i fyny yn nghalon dy beryglon a'th anhawsderau, gan ymddiried yn yr Arglwydd; *ac efe a nertha dy galon*—â phob gras angenrheidiol i orchfygu neu ddyoddef. *Dysgwyl, meddaf, wrth yr Arglwydd*—yr oedd Dafydd yn edrych ar y ddyledswydd hon yn un mor bwysig ac angenrheidiol, nes yr oedd yn ei chymhell gyda thaerineb deublyg.

SALM XXVIII. Y teitl yw, '*Salm Dafydd*.' Ymddengys iddo ei chyfansoddi ar achlysur tebyg i'r un blaenorol, os nid ar yr un achlysur. Yn y *pum* adnod flaenaf y mae efe yn gweddio am wardigaeth rhag ei elynion, ac yn proffwydo eu cosp. Yn y *chweched* a'r *seithfed* ymddengys fel pe buasai wedi cael buddugoliaeth arnynt, ac yn dychwelyd adref gyda chaniadan gorfoledd. Yr *wythfed* sydd gydgân o eiddo y bobl, yr hon a ganent i'w brenin budduol. Y *naufed* yw gweddi y brenin dros ei bobl.

Adn. 1. *Arnat ti, Arglwydd, y gwaeddaf*] Mewn gweddi uchel a thaer. *Fy nghraig*—fy nghadernid a'm noddfa mewn awser o

2 Erglyw lef fy ymbil pan waeddyfarnat, pan ddyrchafwyf fy nwyllaw tuag at dy gafell santaidd.

3 Na thyn fi gyda'r annuwlion, a chyda gweithredwyf anwired; y rhai a lefarant heddwch wrth eu cymydogion, a drwg yn eu calon.

4 Dyro iddynt yn ol eu gweithred, ac yn ol drygioni eu dychymygion: dyro iddynt yn ol gweithredoedd eu dwylaw; tâl iddynt eu haeddeditaethau.

5 Am nad ystyriogion weithredoedd yr Arglwydd, na gwaith ei ddwyllaw

of, y dinystria efe hwynt, ac nis adeilada hwynt.

6 Bendigedig fyddo yr Arglwydd: canys clybu lef fy ngweddiâu.

7 Yr Arglwydd yw fy nerth, a'm tarian; ynddo ef yr ymddiriedodd fy nghalon, a myfi a gynorthwywyd: o herwydd hyn y llawenychodd fy nghalon, ac ar fy nghân y clodforaf ef.

8 Yr Arglwydd sydd nerth i'r cyfryw rai, a chadernid iachawdwr-iaeth ei eneiog yw efe.

9 Cadw dy bobl, a bendithia dy etifeddiaeth: portha hwynt hefyd, a dyrcha hwynt yn dragywydd.

drallod; na ddystawa wrthyf—Hebr., 'na fydd fyddwr wrthyf,' nac ymddyga tuag ataf fel pe byddit heb allu clywed fy ngweddi: rhag, o thewi wrthyf—os ymddygi tuag ataf fel pe byddit fud yn gystal a byddar; i mi fod yn gyffelyb i rai yn disgyfwr i'r pull—hyn yw, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'rhag i mi farw': neu ynte, rhag i mi fod yn gyffelyb i ddynion meirw yn disgyfwr i'r bedd, y rhai ni allant weddio arnat; neu yn debyg i rai yn disgyfwr i bwl uffern, y rhai ni wnant weddio. Ei feddwl ond odid yw, os byddai efe heb atebiad, yr ymddangosai hefyd fel pe byddai heb weddio.

Adn. 2. *Erglyw lef fy ymbil*] Fy ngweddi daer a difrifol; pan ddyrchafwyf fy nwyllaw—pa fyddwyf yn gweddio; tuag at dy gafell santaidd—tuag at y cysegr santeiddiolaf, lle yr oedd yr arch a'r drugareddfa, a lle yr oedd Duw yn preswyllo rhwng y cerubiad: gwel ar 1 Bren. viii. 50. Yr oedd y gafell hon yn gysgod o'r nef; ac oddiwrt Dduw yno, fel ein Tad nefol, yr ydym ni i ddisgyfwr atebiad i'n gweddiâu. Yr ydoedd hefyd yn gysgod o Grist; a dylem ddyrchafu ein golwg a'n dwylaw ato ef, trwy yr hwn y mae pob daioni i ddyfod i ni oddiwrt y Tad.

Adn. 3. *Na thyn fi gyda'r annuwlion, &c.*] Na oddef i mi gael fy nhynu ymaith trwy eu cyngbor na'u siampl hwy, i'w hefelychu yn eu rhagrith a'u gweithredoedd drygionn; neu, na yra fi gyda hwynt yn y diwedd i ddynstr tragwyddol. Y rhai a lefarant heddwch wrth eu cymydogion—fel pe byddent yn eu caru; a drwg yn eu calon—neu fwriad i'w newidlo. Dynion twyllodrus a bradychus a feddylir, yn ymddwyn fel y gwnaeth Joab at Abner, 2 Sam. iii. 27, neu Judas at ein Harglwydd bendigedig, Luc xxii. 48.

Adn. 4. *Dyro iddynt yn ol eu gweithred*] Yr hon a wnant a'u dwylaw; ac yn ol drygioni eu dychymygion—y rhai a fwriadant yn eu calonau: tâl iddynt eu haeddeditaethau—sef y gosp a baeddasant yn gyfiawn trwy weithredoedd a meddylian drwg. Dylid darllen yr adnod hon yn yr amser dyfodol, 'Ti a roddi iddynt, ti a deli iddynt'; canys dat-

ganiad proffwydol yw y geiriau o'r hyn a ddygwyddai iddynt: gwel ar yr adnod nesaf, a'r sylw ar Salm 10.

Adn. 5. *Am nad ystyriogion weithredoedd yr Arglwydd*] Yn ei ragluniaeth a'i ras; na gwaith ei ddwyllaw ef—yn y greadigaeth, yr hon sydd yn datgan gogoniant a phriodoliaethau Duw; y dinystria efe hwynt—fel y rhagddywedwyd yn adn. 4; ac nis adeilada hwynt—hyn yw, dinystrir hwynt yn anadferadwy.

Adn. 6. *Bendigedig fyddo yr Arglwydd*] Yma y gwelwn mor fuan y troir tristwch y saint yn orfoledd! canys clybu lef fy ngweddiâu—eisioes. Gweddiâu Dafydd trwy fydd, adn. 2, 'Erglyw lef fy ymbil'; a thrwy yr un fydd y mae efe yma fel yn blaenbrof atebiad, ac yn bendithio Duw am hynny. Fel hyn, y rhai a weddiant mewn ffydd, a allant lawen-ghau mewn gobaiath.

Adn. 7. *Yr Arglwydd yw fy nerth a'm tarian*] Fy ngwareddad a'm hamddiffynnydd; ynddo ef yr ymddiriedodd fy nghalon—ac nid yn fy mraich fy hun, nac yn medruswydd milwraidd fy myddin; a myfi a gynorthwywyd—yr wyf mor sicr o fuddugoliaeth a phe bawn wedi ei chyraedd eisioes. O herwydd hyn y llawenychodd fy nghalon—neu y llamodd o lawenydd o'm mewn; ac ar fy nghân y clodforaf ef—mewn Salmu o gân a moliant, yn cael eu dilyn âg offer cerdd.

Adn. 8. *Yr Arglwydd sydd nerth i'r cyfryw rai*] I bawb a ymddiriedant ynddo fel y gwnaethai Dafydd; a chadernid iachawdwr-iaeth ei eneiog yw efe—neu awdwr y buddugoliaethan grymus a'r gwaredigaethau lluosog a estynnodd efe i'r hwn a eneiwyd ganddo yn frenin a'i bobl. Hon, fel y sylwa *Mudge*, yw cydgan y bobl am waredigaeth eu brenin.

Adn. 9. *Cadw dy bobl*] Rhag pob drwg tymborol ac ysbyrdol; a bendithia dy etifeddiaeth—â phob daioni angenrheidiol i'w cryff a'u heneidiau. Yma y mae Dafydd yn gweddio dros ei ddeiliaid ei hun, y rhai yr edrycha efe arnynt fel pobl ac etifeddiaeth yr Arglwydd, yn fwy nag fel ei boblei hun. *Portha hwynt hefyd*—y mae *raah* yma yn arwyddo portha i llywodraethu. *Portha* hwynt, fel y portha bugail

SALM XXIX.

MOESWCH i'r Arglwydd, chwi *feibion* cedyrn, moeswch i'r Arglwydd ogoniant a nerth.

2 Moeswch i'r Arglwydd ogoniant ei enw: addolwch yr Arglwydd yn mhrydferthwch ei santeiddrwydd.

3 Llef yr Arglwydd *sydd* ar y dyfroedd: Duw y gogoniant a darana; yr Arglwydd *sydd* ar y dyfroedd mawrion.

ei braidd; *llywodraetha* hwynt, fel y llywodraetha tad ei blant, neu frenin ei ddeiliaid. *A dyrcha hwynt yn dragywydd*—o'u cyflwr isel a chystuddiedig presenol, i gyflwr o ddiogelwch ac anrhydedd parhans. Fe'allai ei fod yn cynwys hefyd eu dedwyddwch yn y nefoedd; canys yno yn unig y dyrcheir y saint yn *dragywydd*, heb byth gael eu darostwg na'u blino.

SALM XXIX. Y teitl yw, '*Salm Dafydd*.' Y mae rhai yn meddwl iddo ei chyfansoddi ar ol ystorn ddychrynllyd o wlaw, melt, a tharanau, trwy yr hon y baeddodd Duw elynion Dafydd, ac y rhoddodd efe hwynt yn y fath anhrefn fel y gallodd Dafydd yn hawdd eu gorchfygu, fel yr adroddir yn 2 Sam. viii. 1, &c. Tybia ereill iddo ei hysgrifenu yn goffawriaeth am y gwlaw a'r ystorn a ddygwyddodd yn ei anser ef, ar ol i'r nefoedd fod yn ganeid dros dair blynedd, 2 Sam. xxi. 1, &c. A barna ereill iddo ei chyfansoddi yn ystod rhyw ystorn na chrybwyllir yn hanes Dafydd, tra yr oedd y meltt yn ynwsgaru, a'r taranau yn peri i'r ddaear grynu dan ei draed.

Adn. 1. *Moeswch i'r Arglwydd* Hyny yw, *rhoddwch* i'r Arglwydd ogoniant, fel y dywedir eto. *Chwi feibion cedyrn*—sef brenhinoedd a llywodraethwyr mawrion y ddaear. *Moeswch i'r Arglwydd ogoniant a nerth*—priodolwch iddo ogoniant a nerth, neu addefwch ei fod yn ogoneddus a nerthol, ac yn anfeidrol gryfach na holl gedyrn y ddaear. Meddylir fod Dafydd yn cyfeirio yn neillduol yma at y brenhinoedd hyny a orchfygesid ganddo trwy gyfryngiad Duw yn yr ystorn dan sylw; a'i fod yn galw arnynt hwy i'w foliannu ef yn ei gysegr am eu cadw yn fyw yn ngwyneb y fath dymhestl.

Adn. 2. *Moeswch i'r Arglwydd ogoniant ei enw* Sef yr anrhydedd ag y mae ei Fawredd yn ei hawlio genych: trowch ato ef oddiwrth eich eilunod, ac addefwch ef fel yr unig wir Dduw. *Addolwch yr Arglwydd yn mhrydferthwch ei santeiddrwydd*—canys y mae prydfferthwch mewn santeiddrwydd ag sydd yn harddwch i frenhinoedd myaf y ddaear. Ond y mae Clarke y cyfeirio *behadrath kodesh*, 'yn ngwisgoedd prydfferth santeiddrwydd,' gan feddl ei fod yn cyfeirio at wisgoedd glân yr offeiriad a'r Lefaiad. Y mae ereill yn ei gyfieithu, 'yn mhrydferthwch ei

4 Llef yr Arglwydd *sydd* mewn grym: llef yr Arglwydd *sydd* mewn prydfferthwch.

5 Llef yr Arglwydd *sydd* yn dryllio y cedrwydd: ie, dryllia yr Arglwydd gedrwydd Libanus.

6 Efe a wna iddynt lamu fel llo; Libanus a Sirion, fel llwdn unicorn.

7 Llef yr Arglwydd a wasgara y fflamau tân.

8 Llef yr Arglwydd a wna i'r

gysegr, neu ei 'santeiddle;' a'r *Vulgate*, 'yn mhahal ei santeiddrwydd,' sef y babell. Fel hyn y mae ef yn eu cymbell hwy i droi yn broseltyiaid i'r grefydd luddewig, yr hyn oedd eu dyledswydd a'u lles.

Adn. 3. *Llef yr Arglwydd* Sef y daran, yr hon a elwir felly yn fynych yn yr ysgrythyrâu; *sydd ar y dyfroedd*—naill ai ar Fôr-y-canoldir, lle yr oedd ystornymyd o fellt a tharanau yn dechreu yn gyffredin yn y parthau hyny; neu ynte ar y dyfroedd cynulleidig yn y cymylau, i beri iddynt ddisgyn yn wlawog—yrr hwn sydd yn anfeidrol ogoneddus ynddo ei hun, yn gystal ag yn ei weithredoedd. *Yr Arglwydd sydd ar y dyfroedd mawrion*—yn llywodraethu y meltt, y taranau, a'r gwlaw: gwel ar Job xxxvii. 4.

Adn. 4. *Llef yr Arglwydd sydd mewn grym* Neu yn rymus a nerthol iawn, fel y daoghosir isod; ac addefir yn gyffredinol nad oes dim mewn natur yn fwy ierthol na'r hylif trydanaid, yr hwn yn fynych a ddryllia gastelli, ac a rwyga y dderwen gadarnaf yn ysgyrion. *Llef yr Arglwydd sydd mewn prydfferthwch*—Saes, 'yn llawn mawrhydi,' neu yn fawreddus i'r eithaf.

Adn. 5. *Llef yr Arglwydd sydd yn dryllio y cedrwydd* Arddanghosir y daran yma, mewn dull barddonol, fel yn gwneyd gwaith y meltt; neu arwyddir fod yr Arglwydd a'i lef, neu trwy ei orchymyn, yn peri i'r meltt eu dryllio hwynt. *Ie, dryllia yr Arglwydd gedrwydd Libanus*—er cryfed ydynt. Dywed *Maundrell* fod yno rai cedrwydd yn aros eto, yn mesur o 35 i 40 troedfedd o amgylchedd, ac yn bwrw allan ganghenau breisgion 37 o latheni o hyd.

Adn. 6. *Efe a wna iddynt lamu fel llo* Trwy beri i ddarnau mawrion o bonynt, wedi eu dryllio felly gan y fellten, gael eu tafu yma a thraw i bellder mawr. *Libanus a Sirion*—efe a bair nid yn unig i'r coed lamu felly ar y mynyddoedd hyn, ond i'r mynyddoedd eu lunnain siglo trwy ddaeargryn nerthol. *Sirion* ydoedd lynydd uchel o du y dwyrain i Libanus, yr hwn a elwir yn gyffredin mynydd *Hermon*, Dent. iii. 9. *Fel llwdn unicorn*—Hebr., *reem*, yr hwn sydd yn nodedig am brancio: gwel ar Job xxxix. 9.

Adn. 7. *Llef yr Arglwydd a wasgara y fflamau tân* Neu y meltt. Yma hefyd arddanghosir y daran, mewn dull barddonol, fel

anialwch grynu: yr Arglwydd a wna i anialwch Cades grynu.

9 Llef yr Arglwydd a wna i'r ewigod lydnu, ac a ddynoetha y coedydd: ac yn ei deml pawb a draetha ei ogoniant ef.

10 Yr Arglwydd sydd yn eistedd ar y llifeiriant; i.e. yr Arglwydd a eistedd yn Frenin yn dragwydd.

11 Yr Arglwydd a ddyry nerth i'w bobl: yr Arglwydd a fendithia ei bobl â thangnefedd.

yn lluchio y mellt oddiamgylch; neu gosodir yr Arglwydd allan fel yn gorchymyn â'i lef i'r mellt ymwasgaru; neu ynte y mae y daran yma i gael ei deall am y fellten.

Adn. 8. *Llef yr Arglwydd a wna i'r anialwch grynu* [Sef anialwch mawr ac erchyll Cades, (Num. xx. 1.) lle ond odid y gwelsant hwy ddaeargryn dychrynlllyd yn ddiweddar, neu effithiau arswydol ystorn o'r fath ag a ddarlunir yma.

Adn. 9. *Llef yr Arglwydd a wna i'r ewigod lydnu* [Dywedir fod mellt a tharanau yn dychrynu ewigod, defaid, a chreaduriaid ereill, i'r fath raddau, nes prysuro esgoriad; ond enwir ewigod yn neillduol yma, am fod eu hesgoriad hwy yn dra anhawdd a phoenus: gwel ar Job xxxix. 1. &c. *Ac a ddynoetha y coedydd*—trwy rwygo ymaith eu brigau a'u dail; neu, fel y dywed rhai, trwy eu gwneyd yn amlwg ar y noson dywyllaf, trwy oleuni y inellt. *Ac yn ei deml pawb a draetha ei ogoniant ef*—lle y floant i ymmoddi rhag yr ystorn, neu i ddiolch i Dduw am eu cadw ynddi: gwel ar adn. 2.

Adn. 10. *Yr Arglwydd sydd yn eistedd ar y llifeiriant* [I'w lywodraethu yn ol ei ewyllys ei hun, o'r llyn y rhoddes efe brawf haelneth yn amser y dylif; i.e. yr Arglwydd a eistedd yn Frenin yn dragwydd—ar yr holl elfenau, ac hefyd ar bawb a phobpeth trwy yr holl fyd-ysawd.

Adn. 11. *Yr Arglwydd a ddyry nerth i'w bobl* [I'w cadw yn dawel yn yr ystornymydd a'r cynnyrftaduan mwyaŷ dychrynlllyd; yr Arglwydd a fendithia ei bobl a thangnefedd—â thangnefedd meddwl yn nghanol eu peryglon; â heddwch oddiwrth y cenhedloedd o'u hamgylch; ac yn y diwedd â thangnefedd tragwyddol, Esay lvii. 2.

SALM XXX. Y teitl yw, 'Salm neu Gân o gysegriad tŷ Dafydd;' a meddylir i Dafydd ei chyfansoddi fel Salm o ddiolchgarwch am waredigaethau mawrion Duw iddo, i'w chanu ar gysegriad ei dŷ cedrwydd, a grybwyllir 2 Sam. v. 11; canys yr oedd hyn yn orchymynedig gan y gyfraith, Deut. xx. 5. Ond tybia Calmet mai ar yr achlysur o gysegriad yr allor ar lawr-dyrnu Arafnab, yn amser y pla dnystriol am iddo gyfais ei bobl,

SALM XXX.

MAWRYGAF di, O Arglwydd: Canys dyrchefaist fi, ac ni lawenheiaist fy ngelnyion o'm plegid.

2 Arglwydd fy Nuw, llefais arnat, a thithau a'm hiacheaist.

3 Arglwydd, dyrchefaist fy enaid o'r bedd: cedwaist fi yn fyw, rhag disgyn o honof i'r pwll.

4 Cenweh i'r Arglwydd, ei saint ef; a chlodforweh wrth goffadwriaeth ei santeiddrwydd ef.

5 Canys enyd fechan y bydd yn

y cyfansoddwyd hi: gwel ar 2 Sam. xxiv. 25, a 1 Cron. xxi. 26. Tybia ereill ddarford ei chyfansoddi i'w chanu ar bureiddiad tŷ Dafydd oddiwrth ddyrygion ac ymlongach ei fab Absalom, sef ar ddychwelid Dafydd iddo ar ol y gwrthryfel hwnw, 2 Sam. xx. 3.

Adn. 1. *Mawrygaf di, O Arglwydd* [Trwy ganu dy glod, a dywedyd yn dda am dy enw; canys dyrchefaist fi—o'm trallodion a'm peryglon mawrion; ac ni lawenheiaist fy ngelnyion o'm plegid—trwy fy nlori ymaith, neu fy ngadael i'w hewyllys hwynt.

Adn. 2. *Arglwydd fy Nuw* [Sef fy Nuw cyfammodol; llefais arnat—mewn gweddi daer; a thithau a'm hiacheaist—tybia rhai mai iachâu ei gorff o ryw glefyd angeuol a feddylir; tybia ereill mai symud y pla oddiwrth ei bobl a olygir, fel y nodwyd yn y sylw ar y teitl; tra y barna ereill mai ei waredu oddiwrth drallodion a chyfyngderau meddwl a olygir, y rhai yn fynych a gydmherir i afiechyd.

Adn. 3. *Arglwydd, dyrchefaist fy enaid o'r bedd* [Efe a'i hystyria ei hun wcdi ei ddwyn fel i ymyl y bedd gan gystudd ei gorff, trallod ei feddwl, neu berygl oddiwrth ei elynion; ac edrychai ar ei waredigaeth fel math o adgyfodiad o farwolacth i fywyd. *Cedwaist fi yn fyw, rhag disgyn o honof i'r pwll*—sef i'r bedd, yr llyn sydd yn destyn cân i mi, ac i'th eglwys yn gyffredinol.

Adn. 4. *Cenweh i'r Arglwydd* [Am iddo fy nghadw yn fyw; ei saint ef—sef y Llesiaid ond odid, gwaith y rhai oedd canu i'r Arglwydd yn y cysegr; a chlodforweh wrth goffadwriaeth ei santeiddrwydd ef—wrth gofio ei fod ef yn santeidd, neu am ei fod yn santeidd, ac yn santeiddio ei bobl trwy eu cystuddio.

Adn. 5. *Canys enyd fechan y bydd yn ei lid* [Nid ei lid tuag at yr annuwiol a feddylir, canys parha hwnw yn dragwyddol; ond ei soriant neu ei geryddon tadol tuag at ei bobl ei hun pan droseddont. *Yn ei fforddionrwydd y mae bywyd*—Hebr., 'bywydau;' sef bywyd ysbrydol, a bywyd tragwyddol; neu fywyd naturiol i'r corff, a bywyd ysbrydol a thragwyddol i'r enaid. *Dros brydau yn yr crys wylofain*—sef am enyd fechan yn unig, fel ymdeithydd yn lletya dros nos; ac erbyn y

ei lid; yn ei foddlonrwydd *y mae* bywyd: dros brydnawn yr erys wylfain, ac erbyn y bore *y bydd* gorfoledd.

6 Ac ini a ddywedais yn fy llwyddiant, Ni'm syflir yn dragywydd.

7 O'th ddaioni, Arglwydd, y gosodaist gryfder yn fy mynydd: cuddiaist dy wyneb, a bwm helbulus.

8 Arnat ti, Arglwydd, y llefais, ac â'r Arglwydd yr ymbiliais.

9 Pa fudd *sydd* yn fy ngwaed, pan ddisgynwyf i'r ffos? a glodfora y llwch di? a fynega efe dy wirionedd?

bore y bydd gorfoledd—sef gorfoledd sylweddol a pharhaus, yr hwn a wna fwy na gwrthbwyso yr holl drallod a'r wylfain a'i rhagflaenasant. Nid yw oes gyfan o drallod a galar i'r saint, ddim ond megys prydawn byr; ac ac ol iddynt groesi glŷn cysgod angau, gwawria bore o dragywdol orfoledd iddynt, yr hwn ni ddyllynr gan brydnawn wylotus mwyaich.

Adn. 6. *Ac mi a ddywedais yn fy llwyddiant*] Wedi i Dduw ei sefydlu ef mewn tawelwch ac awdurdod ar yr orsedd; *Ni'm syflir yn dragywydd*—caf fwynhau fy llwyddiant bellach tra y byddaf byw, heb i ddim na neb fy aflonyddu. Yr oedd yma ryw fesur o hyder cnawdol yn Dafydd, neu ymddiriediad yn nerth a nifer ei filwyr ei hun, er ei fod yn cydnabod mai yr Arglwydd a'i llwyddasai felly.

Adn. 7. *O'th ddaioni, Arglwydd*] O'th rad drugaredd dy hun yn unig; *y gosodaist gryfder yn fy mynydd*—sef yn ei lywodraeth neu ei deyrnas, yr hon a elwir yn 'fynydd,' (1) Am fod teyrnasodd yn cael eu galw yn 'fynyddoedd' yn fynych yn iaith broffwydoliaethol yr ysgrhythrau; ac, (2) Mewn cyfeiriad at fynydd Seion, amddiffynfa pa un a gymerasai efe yn ddiweddar; a'r hwn a elwir yn briodol ei 'fynydd ef,' am ei fod wedi adeiladu ei balas brenhinol yno. *Cuddiaist dy wyneb*—buost anfoddol n'r rhyfgy a'm balchder yn addaw i mi fy hun ddiogelwch yno, a thynaist oddiwrthef dy wenau, dy ffaf, a'th amddiffyniad; *a bwm helbulus*—dygwyd fy n y fan i drallodion, anhawdserau, a pheryglon, nes y gwelais ar unwaith wagedd fy holl hyder cnawdol. Tybia Chandler fod Dafydd yn cyfeirio yma at ddau ymosodiad y Philistiaid arno, yn fuan ar ol iddo gael ei eneinio yn frenin ar Israel, 2 Sam. v. 17, 22; a thybia ereill ei fod yn cyfeirio at y pla a ddisgynodd arno ef a'i deyrnas yn gosh am rifo y bobl: gwel ar 2 Sam. xxiv. 10, &c.

Adn. 8. *Arnat ti, Arglwydd, y llefais*] Am faddeuant o'm pechod hwnw, yr hwn a fu yn achos i ti guddio dy wyneb oddiwrthef; *ac â'r Arglwydd yr ymbiliais*—y parheais i lefain yn daer, er maint fy helbul: gwel ar 2 Sam. xxiv. 17.

Adn. 9. *Pa fudd sydd yn fy ngwaed*] Sef

10 Clyw, Arglwydd, a thrugarha wrthef: Arglwydd, bydd gynorthwyr i mi.

11 Troaist fy ngalar yn llawenydd i mi: dyosgaist fy sachwisg, a gwregysaist fi â llawenydd;

12 Fel y cano *fy ngogoniant* i ti, ac na thawo. O Arglwydd fy Nuw, yn dragywdol y'th foliannaf.

SALM XXXI.

YNOT ti, Arglwydd, yr ymddiriedais: na'm gwaradwydder yn dragywydd: gwared fi yn dy gyfiawnder.

yn fy marwolaeth anamserol? Pa fantais a fydd hyny i ti, i'r deyrnas, neu i wir grefydd? *Pan ddisgynwyf i'r ffos*—pan fyddwyf wedi cael fy nghladdu? *A glodfora y llwch di*—sef fy nhafod, wedi iddo droi yn llwch? *A fynega efe dy wirionedd*—sef gwirionedd dy air a'th addewid? Fel pe dywedasai, Ni fydd i'm marwolaeth i fawrygu dy ddaioni na'th drugaredd: ond os bydd i ti fadden fy mhechod ac arbed fy mywyd, mi a gyhoeddaf i baw y fath Dduw trugarog a graslawn y ceffais di.

Adn. 10. *Clyw, Arglwydd*] Fy ngweddi; *a thrugarha wrthef*—trwy symud ymaith dy farn gyfiawn: *bydd gynorthwyr i mi*—yn fy helbul presenol, neu waredwr i mi oddiwrtho.

Adn. 11. *Troaist fy ngalar yn llawenydd i mi*] Ar ol adrodd ei weddi, y mae Dafydd yma yn adrodd yr atebiad grasol a roddodd Duw iddo. Ar ol i'w wylfain aros megys dros brydnawn, efe a droes yn orfoledd iddo megys erbyn y bore, adn. 5. *Dyosgaist fy sachwisg*—trwy roddi i mi achos i'w dyosg; *a gwregysaist fi â llawenydd*—yr oedd dynion mewn galar yn gwisgo sachwisg, ac mewn llawenydd yn gwisgo dillad gwŷnion; ac at hyny y cyfeirna Dafydd yma, pa un bynag a oedd ef yn gwneyd hyny yn llythrenol ai peidio.

Adn. 12. *Fel y cano fy ngogoniant i ti, ac na thawo*] Sef ei enaid, neu yn hytrach ei dafod; canys i'r tafod y perthyna canu a thewi yn fwyaf priodol: gwel ar Salm xvi. 9. *O Arglwydd, fy Nuw*—yr hwn wyt Dduw mewn cyfiammod tragywdol a'm henaid; *yn dragywdol y'th foliannaf*—am dy fawrion drugareddau i mi. Canaf i ti tra y byddaf byw ar y ddaear, a molianaf di yn oesoesoedd yn y nef.

SALM XXXI. Y teitl yw, '*Yr pencerdd, Salm Dafydd*;' neu yr hon a gyfansoddodd Dafydd i'w chanu gan flaenor y cor. Tybia yr Esgob Patrick i Dafydd ei chyfansoddi yn fuan ar ol ei gyfyngder yn anialwch Ziph, wedi iddo ffioi o Ceilach, lle y bu agos â syrtio i ddwyllaw Saul: gwel ar 1 Sam. xxiii. 10, &c. Ond barna ereill mai *Jeremiah* yw awdwr

2 Gogwydda dy glust ataf; gwarded fi ar frys: bydd i mi yn graig gadarn, yn dŷ amddiffyn i'm cadw.

3 Canys fy nghraig a'm castell ydwyf: gan hyny er mwyn dy enw tywys fi, ac arwain fi.

4 Tyn fi allan o'r rhwyd a guddiasant i mi: canys ti yw fy nerth.

5 I'th law y gorchymynaf fy ysbryd: gwaredaist fi, O Arglwydd Dduw y gwirionedd.

6 Caseais y rhai sydd yn dal ar ofer-wagedd: minau a obeithiaf yn yr Arglwydd.

7 Ymlawenhaf ac ymhyfydaf yn dy drugaredd: canys gwelaist fy adfyd; adnabuost fy enaid mewn cyfyngderau;

8 Ac ni warcheast fi yn llaw y gelyu; ond gosodaist fy nhraed mewn eangder.

9 Trugarha wrthyf, Arglwydd;

y Salm hon, am fod llawer o ymadroddion ynddi yn gyffelyb i eiddo y profwyd hwnw.

Adn. 1. *Ynot ti, Arglwydd, yr ymddiriedais*] Am wareidaeth; *na'm gwaradwydder yn dragwydd*—na siomer fi byth yn fy nysgwylid wrthyf; *gwared fi yn dy gyflawnder*—yn ol dy ddaioni, dy drugaredd, a'th ffyddlondeb, y rhai yn fynych a elwir yn 'gyflawnder;' neu gwared fi yn dy drefn gyflawn dy hun.

Adn. 2. *Gogwydda dy glust ataf*] Fel y gwna un i wrando yr hyn a ddyweder gan ŵr claf, analluog i lefaru yn uchel ac eglur; *gwared fi ar frys*—o herwydd mawredd ac enbydrwydd fy mherygl; *bydd i mi yn graig gadarn*—i'm hamddiffyn a'm cadw. Yr oedd y creigiau, a'r ogofeydd mewn creigiau, yn amddiffynfeydd naturiol i lawer yn ngwlad Judea, at y rhai y cyfeirir yn fynych gan y beirdd Hebreig.

Adn. 3. *Canys fy nghraig a'm castell ydwyf*] Fel yr oedd y creigiau yn y wlad hōno yn gysgod rhag ystormydd a gwres, ac fel yr oedd y castelli yn amddiffynfa rhag y gelynydd, felly yr oedd yr Arglwydd yn gysgod ac yn amddiffynfa i Dafydd rhag poethder erledigaeth ei elynion. *Er mwyn dy enw*—er gogoniant mynegol i'th enw dy hun; *tywys fi*—dan dy gysgod; *ac arwain fi*—i'th amddiffynfa gadarn.

Adn. 4. *Tyn fi allan o'r rhwyd a guddiasant i mi*] Fe allai ei fod yn cyfeirio yma at gydfwriad y Ziphiaid a Saul, nen at amcan gwyr Ceilah i'w draddodi ef i ddwyllaw Saul: gwel ar 1 Sam. xxiii. 7, &c. *Canys ti yw fy nerth*—ti yw yr unig un a all fy ngwaredu o'u rhwyd hwy.

Adn. 5. *I'th law y gorchymynaf fy ysbryd*] I'th ofal a'th gadwraeth, i'w ddiogelu rhag malais fy ngelynyddion. *Gwaredaist fi*—lauer gwaith cyn hyn o beryglon mawrion, ac am hyny ymddiriedaf ynot rhagllaw. *O Arglwydd Dduw y gwirionedd*—yr hwn wyt Dduw mewn gwirionedd, ac yn cyflawni yn wirioneddol dy holl adawidion. Adroddodd ein Harglwydd y rhan flaenaf o'r adnod hon pan yn marw ar y groes, Luc xxiii. 46, i argyhoeddi yr Iuddewon mai efe, er ei fod yn marw, oedd y MESSIA, a'r mab hwnw i Dafydd ag ydoedd i eistedd yn dragwydd ar ei orseddfa ef: eithr nid oedd y rhan ddiweddfaf o'r adnod yn gyfaddas i Iachawdrw y byd, ac am hyny ni ddefnyddiodd hi: ond y mae yn addas i ni, y rhai a brynwyd trwy y farwol-

aeth aberthol hōno. Yr oedd y frawddeg flaenaf o'r adnod hon, fel y mae yn y *Vulgate*, yn y bri mwyaf yn mhlith ein henafiaid, y rhai a'i hadroddent hi yn mhob achos o berygl, dyrswch, ac wrth farw. Pan fyddai y cleifion yn marw, ac yn eu synwyrâu, dywedent, *In manus tuas, Domine, commendo spiritum meum*; ac os na fyddent yn eu synwyrâu, dywedai yr offeiriad y geiriau hyn ar eu rhan hwy. Mewn ffurfiau o weddiau dros y cleifion a fyddent yn marw, yr oedd y geiriau hyn yn ysgrifenedig yn y Lladin, er fod y rhanau ereill o'r gweddian hyn yn yr iaith gyffredin; canys tybid fod rhywbeth yn swynol a goruchel yn y *Lladin* ei hun. Fel saeth-weddi, nis gall dim eto fod yn well, yn enwedig pan fyddo y duwiol, y tentiedig, neu y claf ar wely angau, yn ei defnyddio mewn ffydd a chywirdeb calon. Yr oedd geiriau diweddfaf Stephan bron o'r un ystyr: 'Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd,' Act. vii. 59.

Adn. 6. *Caseais y rhai sydd yn dal ar ofer-wagedd*] Sef y peth oferaf a gwacaf o bob gwagedd. Y mae yn debyg mai eilunaddoliaeth y Cenhedloedd a feddylir yma, i'r hwn yr oedd Israel yn dra chwannog bob amser. Ond tybia rhai mai ymddiriediad mewn braich o gnawd a olygri yma, yr hyn yn wir sydd yn ofer-wagedd; neu ddewiniaeth a swynyddiaeth, y rhai a ffynent yn gyffredin yn mhlith y cenhedloedd dwyreiniol, ac a arferid weithiau yn mysgr yr Iuddewon yn ol eu siampl hwy. *Minau a obeithiaf yn yr Arglwydd*—yn unig, ac nid mewn duwiau gan, nac mewn dynion, na dewiniaeth o un math.

Adn. 7. *Ymlawenhaf ac ymhyfydaf yn dy drugaredd*] Yr hon sydd yn ddiogol i mi yn mhob amgylchiad tralodus a'm cyferfydd. *Canys gwelaist fy adfyd*—a'r olwg arno a gynhyrffodd dy dosturiaethau tuag ataf. *Adnabuost fy enaid mewn cyfyngderau*—fel ag i'm gwaredu o honnynt oll. Pan yr oedd pawb wedi fy ngadael, a phan mad allai neb fy nghynorthwyo, y prydd hyny cefais ynot ti Gyfaill a Gwardwr hollalluog a thrugarog. Y mae *Cicero* yn ddefinio gwir gyfaill, *Amicus certus in re incerta cernitur*, yr hyn sydd o'r un ystyr a'n harwireb ni, 'Y cyfaill cywir, mewn ing ei gwelir.' Ddarllenwydd, Cyfaill felly yw yr ARGLWYDD.

Adn. 8. *Ac ni warcheast fi yn llaw y gelyu*] Ni chawast fi yn ei law ef, neu ni oddefaist iddo warchae arnaf; *ond gosodaist fy nhraed mewn eangder*—galluogaist fi i

cansys cyfng yw arnaf: dadwinodd fy llygad gan ofid, *ie*, fy enaid a'm bol.

10 Cansys fy mywyd a ballodd gan ofid, a'm blynyddoedd gan ochain: fy nerth a ballodd o herwydd fy anwiredd, a'm hesgyrn a bydrasant.

11 Yn warthrudd yr ydwyf yn mysg fy holl elynion, a *hyny* yn ddirfawr yn mysg fy nghymydogion; ac yn ddychryn i'r rhai a'm hadwaenant: y rhai a'm gwelent allan, a gilient oddiwrthyf.

12 Anghofiwyd fi fel un marw

ddianc o'u rhwyd hwy, adn. 4. Ymddengys ei fod yn cyfeirio yn y ddiwy adnod hyn at waradigaethau blaenorol.

Adn. 9. *Trugarha wrthyf, Arglwydd*] Y waith hon hefyd; *cansys cyfng yw arnaf*—a gallwn feddwl, oddiwrth y darluniad a ddyry efre isod, ei fod yn awr mewn mwy o gyfngder nag erioed. *Dadwinodd fy llygad gan ofid*—Saes., 'difawyd' neu 'dreuliwyd fy llygad gan ofid,' sef wrth wlyo yn barhaus; *ie*, *fy enaid a'm bol*—neu ei ymysgaroedd. Ond tybia rhai fod y *bol* yma yn arwyddo yr holl gorff, a bod y frawddeg hon yn cynwys yr holl ddyd, yn fewnol ac allanol. Gall fod Dafydd yn dyoddef eisiau bywyd yn ei grwydriadau presenol, ac mai at hyny y cyfeiria efe yma.

Adn. 10. *Cansys fy mywyd a ballodd gan ofid*] A dreuliwyd ymaith, neu a ddyrwnodd i'r pen. Da y gwyddys fod *gofid* yn gwanychu y meddwl, yn attal treuliad ymborth, yn dyfetha yr archwaeth, yn amharu y gïau, yn llacáu y cybyrau, yn dwyn yn mlaen afiechyd, ac yn prysuro marwolaeth; ac y mae Dafydd yn cyfeirio at rai o'r effeithiau hyn yn yr adnod dan sylw. *A'm blynyddoedd gan ochain*—hyny yw, treuliwyd ymaith fy ulynyddoedd gan ochain, nes y mae fy mywyd ar derfynu. Y gair gwreiddiol am *ochain* yma yw *anachah*, sef yr arwydd allanol o ofid, neu y swm a wthir allan yn naturiol gan feddwl gofidus. Y mae *och-och-on* y Gwyddelod yn gywir o'r un ystyr, ac yn agos o'r un swm; ac y mae y ddolef ofidus hon yn lled debyg yn mhob iaith, ac yn mblith pob cenedl. *Fy nerth a ballodd o herwydd fy anwiredd*—o herwydd fy ngofid, yr hwn yw effaith neu ganlyniad fy anwiredd. *A'm hesgyrn a bydrasant*—neu a 'wywasant,' trwy i'w mēr ireiddiol gael ei sychu i fyny gan ddirfawr ofid.

Adn. 11. *Yn warthrudd yr ydwyf yn mysg fy holl elynion*] Y rhai a'm gwawdiant fel un wedi ei dael gan ddyinion a'i wrthod gan Dduw; *a hyny yn ddirfawr yn mysg fy nghymydogion*—y rhai a edrychent arnaf gynt fel dyn duwiol dan nawdd y Goruchaf; *ac yn ddychryn i'r rhai a'm hadwaenant*—gan mor druenus a gresynol yw yr olwg arnaf: neu, yr oedd arnynt ofn ei gynorthwyo ef, rhag tynu arnynt eu hunain w'g Saul. *Y rhai*

allan o feddwl: yr ydwyf fel llestr methodig.

13 Cansys clywais ogan llaweroedd; dychryn oedd o bob parth: pan gydymgynghorasant yn fy erbyn, y bwriadasant fy nieneidio.

14 Ond mi a obeithiais ynot ti, Arglwydd: dywedais, Fy Nuw ydwyf.

15 Yn dy law di y mae fy amserau: gwared fi o law fy ngelynion, ac oddiwrth fy erlidwyr.

16 Llewyrcha dy wyneb ar dy was: achub fi er mwyn dy drugaredd.

17 Arglwydd, na waradwydder fi;

a'm gwelent allan—neu a gyfarfyddent â mi ar y flordd: *a gilient oddiwrthyf*—fel pe busasai y gwahanglwyf arnaf: cilient oddiwrthyf i ochel eu dinystr eu hunain, neu anfoddlonrwydd Saul.

Adn. 12. *Anghofiwyd fi fel un marw allan o feddwl*] Pa faint bynag o ddaion i wnaethm gynt i'r brenin, i'r deyrnas, neu i bersonau neillduol, y mae pawb erbyn hyn wedi fy anngofio fel pe na buaswn erioed mewn bod, neu fel pe byddwn wedi marw a chael fy nghladdu o'r golwg. *Yr ydwyf fel llestr methodig*—neu ddrillyedig, yr hwn nid yw dda i ddim.

Adn. 13. *Cansys clywais ogan llaweroedd*] Y rhai a'm henllibient fel gelyn i'r brenin a'i lywodraeth: *dychryn oedd o bob parth*—yr oeddwn mewn perygl bywyd o bob tu: *pan gydymgynghorasant yn fy erbyn*—pan yr eisteddasant i chwilio i mewn i'm hachos; *y bwriadasant fy nieneidio*—fy rhoddi i farwolaeth fel teyrnfrawdr.

Adn. 14. *Ond mi a obeithiais ynot ti, Arglwydd*] Nid yn unig y gellit fy ngwaredu, ond y byddai i ti weydy hyny: *dywedais*—yn fy myfyrdodau am danat, a'm gweddiant wrthyt; *fy Nuw ydwyf*—fy Nuw cyfammolol, yr hwn a addawais fy niogel yn y tân a'r dwfr.

Adn. 15. *Yn dy law di y mae fy amserau*] Yr amser i mi fyw, a'r amser i mi farw; neu, y mae holl helyntion a dygwyddiadau fy mywyd yn hollol dan dy lywodraeth di. *Gwared fi o law fy ngelynion*—y rhai a dybiant fod amser fy marwolaeth yn eu llaw hwy; *ac oddiwrth fy erlidwyr*—fel na byddo iddynt fy nieneidio yn ol eu bwriad, adn. 13.

Adn. 16. *Llewyrcha dy wyneb ar dy was*] Amlyga dy ffafr a'th ewylls dan tuag ataf, trwy ateb fy ngweddiant; neu dyro i mi gael mwynhau dy wena a'th gymdeithas yn fy adfyd: *achub fi*—oddiwrth fy ngofid presenol; *er mwyn dy drugaredd*—Hebr., 'yn dy drugaredd.' Felly, er fod Dafydd yn was i Dduw, ac yn ei wasanaethu ef yn ffyddlon a chywir, eto ar drugaredd Duw yn unig yr oedd efe yn ymbwyso.

Adn. 17. *Arglwydd, na waradwydder fi*] Trwy fy ngadael yn llaw fy ngelyniou, na

cany s gelwais arnat: gwaradwydder yr annuwiolion, torer hwynt i'r bedd.

18 Gosteger y gwefusau celwyddog, y rhai a ddywedant yn galed, trwy falchder a diystyrwch, yn erbyn y cyfiawn.

19 Mor fawr yw dy ddaioni a roddaist i gadw i'r sawl a'th ofnant; ac a wnaethost i'r rhai a ymddiriedant ynot, gerbron meibion dynion!

20 Cuddi hwynt yn nirgelfa dy wyneb rhag balchder dynion: cuddi hwynt mewn pabell rhag cynhen tafodau.

21 Bendigedig fyddo yr Arglwydd: canys danghosodd yn rhyfedd ei garedigrwydd i mi mewn dinas gadarn.

22 Canys mi a ddywedais yn fy ffrwst, Fe'm bwriwyd allan o'th olwg: er hyny ti a wrandewaist lais fy ngweddiau pan lefais arnat.

23 Cerwch yr Arglwydd, ei holl saint ef: yr Arglwydd a geidw y ffyddloniaid, ac a dâl yn helaeth i'r neb a wna falchder.

24 Ymwrolwch, ac efe a gryfha eich calon, chwychw i oll y rhai ydych yn gobeithio yn yr Arglwydd.

thrwy fy ngollwng i wneyd dim a ddygai waradwydd cyfiawn arnaf; canys gelwais arnat—mewn gweddi daer; ac am hyny, pe peidit a'm gwando, byddai fy ngwaradwydd i yn waradwydd i tithau hefyd, megys pe byddit yn analluog i gyflawni dy addewidion i'r rhai a alwant arnat, neu heb fedru gwahaniaethu rhwng y cyfiawn a'r drygionus. *Gwaradwydder yr annuwiolion*—trwy eu siomi yn eu gobeithion a'u hamecanion drygionus o berthynas i mi; *torer hwynt i'r bedd*—os rhaid i'r cyfiawn neu y drygionus gael ei dori ymaith, syrthied dinstyr ar y neb a'i haedda fwyaf. Ond dichon fod hyn yn cael ei lefaru yn fwy fel rhagfynegiad nag fel dymuniad: gwel ar Salm v. 10.

Adn. 18. *Gosteger y gwefusau celwyddog*] Trwy ddynoethi eu celwydd hwy, neu amlygu fy nghywirdeb i; *y rhai a ddywedant yn galed*—y rhai a draethant bethau caled ac anhawdd eu dyoddef, megys celwyddau, gwawdiaith, enllib, neu fygythion dychrynnyd; *trwy falchder a diystyrwch*—sef balchder eu calonau eu hunain, a diystyrwch ar Dafydd a'i gyfeillion, y rhai oeddynt yn vchydig mewn nifer, ac yn ffœedigion diamddiffyn o le i le; *yn erbyn y cyfiawn*—sef Dafydd, neu efe a'i wŷr, y rhai ni wnaethant ddim ar fai yn erbyn Saul a'i frenhiniaeth i haeddu yr erledigaeth hon. Da y gallai Dafydd ei alw ei hun yn *gyfiawn* gyda golwg ar orsedd Saül, er nad oedd yn ei ystyried ei hun felly tuag at orsedd Duw.

Adn. 19. *Mor fawr yw dy ddaioni*] Yn dymhorol ac ysbrydol; *a roddaist i gadw*—yn mhlith dy drysorau gwerthfawr dy hun; *i'r sawl a'th ofnant*—erbyn y bydd arnynt ei eisian fwyaf! *Ac a wnaethost i'r rhai a ymddiriedant ynot*—yn mhob ocs er dechre y byd; neu 'a wnei,' fel y mae rhai yn ei ddeall, y rhai a dybiant fod yr amser gorphenoll yn cael ei ddefnyddio yma am y dyfodol, i arwyddo y *sierwydd* o hono, yr hyn sydd dra chyffredin mewn proffwydoliaethau. *Gerbron meibion dynion*—yn gyhoeddus, ac yn ngolwg y byd, heb i neb allu dy luddias! Fel hyn, er maint ei drallod, yr oedd gan Dafydd hyder cryf yn naioni a ffyddlondeb ei Dduw.

Adn. 20. *Cuddi hwynt yn nirgelfa dy wyneb*] *Besether pancycha*, 'à gorchudd dy wynebryd; *rhag balchder dynion*—rhag eu trahausder a'u bygythion hyfion: *cuddi hwynt mewn pabell*—megys yn dy babell, lle na feiddia neb nesau atynt i'w drygu; gwel ar Salm xxvii. 5; *rhag cynhen tafodau*—fel nas gall celwydd, enllib, na bygythion eu gelynyion eu niweidio.

Adn. 21. *Bendigedig fyddo yr Arglwydd*] Am ei ddaioni a'i ddiogelwch i mi, ac i bawb a'i hofnant ac a ymddiried ynddo, adn. 19, 20; *cany s danghosodd yn rhyfedd ei garedigrwydd i mi*—trwy fy niogelwch rhag fy ngelynyion lluosog; *mewn dinas gadarn*—cadwdd fi mor ddiogel mewn anialwch ac ogofeydd, a phe buaswn mewn dinas gaerog. Ond tybia rhai fod Dafydd yn cyfeirio yma at ei ddiogeliad yn Siclag, 1 Sam. xxvii. 6; a thybia ereill ei fod yn cyfeirio at y caredigrwydd a ddanghoswyd iddo dros hir amser yn Jerusalem.

Adn. 22. *Cany s mi a ddywedais yn fy ffrwst*] Wrth ffoi ar frws o Ceilah rhag Saul; neu, tel y gellir cwicithu *bechaphzi*, 'yn fy ofn,' pryd yr oedd fy nychryn wedi gwanhau fy fydd; *Fe'm bwriwyd allan o'th olwg*—o fod yn wrthidrrych dy ofal amgeleddgar; anghofiaist fi fel yr anghofia dynion y neb na byddont yn ei weled; neu tynaist dy amddiffyniad grasol a rhagluniaethol oddiwrthyf. *Er hyny ti a wrandewaist lais fy ngweddiau pan lefais arnat*—yr hyn sydd yn brawf na fwrwyd fi allan o'th olwg, nac o'th glyw, pan yn fy nhrallodion mwyaf.

Adn. 23. *Cerwch yr Arglwydd, ei holl saint ef*] Yr oedd Dafydd ei hun yn ei garn ef yn wresog, a galwai ar bawb ag oeddynt yn brofiadol o'i ddaioni i'w garn ef yr yn modd. *Yr Arglwydd a geidw y ffyddloniaid*—rhag pob gwir niwed yn y byd hwn, ac i fywyd tragwyddol yn y byd ddaw; hyny yw, efe a geidw y rhai sydd yn ei wasanaethu ef yn ffyddlon, ac yn ymddiried yn ei drngared. *Ac a dâl yn helaeth i'r neb a wna falchder*—sef i'r rhai mewn balchder a erlidiant weision ffyddlon Duw, fel yr oedd Saul yn awr yn erlid Dafydd.

Adn. 24. *Ymwrolwch*] Gan hyny yn

SALM XXXII.

GWYN ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd, ac y cuddiwyd ei bechod.

nghadernid yr Arglwydd; ac efe a gryfha eich calon—â gras, fel y galloch ymwroli yn fwy ynddo; *chwychwi oll y rhai ydych yn gobeithio yn yr Arglwydd*—am ras, trugaredd, a gogoniant. Yr oedd yr ystyriaeth fod yr Arglwydd yn sicr o gadw y ffyddloniaid, a chospi eu herlidwr beilebion, yn annogaeth gref i'r saint ymwroli yn yr Arglwydd yn nghanol eu cyfyngderau mwyaf, ac i lynu yn wrol wrth ei wasanaeth a'i addoliad ef yn ngwyneb pob gwrthwynebiad.

SALM XXXII. Y teitl yw, 'Salm Dafydd er athrawiaeth'; a gelwir hi felly, am ei bod yn rhoddi yr addysg penaf gyda golwg ar eu-ogryddwch pechod, a'r gwynfydedigrwydd o faddeuant a santeiddhad. Meddylir i Dafydd ei chyfansoddi ar ol iddo dderbyn maddeuant o'i bechod gyda Bathseba. Y mae y *Syriaeg* yn ei galw, 'Salm Dafydd yn nghylch pechod Adda, yr hwn a ryfygodd ac a droseodd; a phroffwydoliaeth am Grist, o herwydd mai trwyddo ef y gwaredir ni rhag uffern.' Yr *Arabaeg* a ddywed, 'Llesarodd Dafydd y Salm hon yn broffwydoliaethol am y bryn-edigaeth.' Y teitl *Hebreig* yw, 'Lledawid maskil'; a'r *Saesong*, 'Salm Dafydd, Maskil'; ac ystyr y gair *maskil* neu *maskil* yw, 'er hyfforddiant neu ddoethineb.'

Adn. 1. *Gwyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd*] Trwy a berth a gwaed Iesu, yr hwn a dywalltwyd er maddeuant pechodau. Y mae y gair *pasha*, 'trosedd,' yn arwyddo 'myned dros y terfyn,' neu 'wneyd yr hyn sydd warhaddedig;' ac y mae y gair *nesui*, 'maddeu,' yn arwyddo ei 'dldwn ymaith' trwy a berth dirprwyol, mewn cyfeiriad at y bwch diangel a'r bwch aberthol: gwel ar Lef. xvi. 10—22. *Ac y cuddiwyd ei bechod*—nid ganddo ei hun, adn. 5, ond gan Dduw, â mantell dwyfol drugaredd. Y mae y gair *chataah*, 'pechod,' yn arwyddo 'methu y nod,' neu 'beidio gwneyd yr hyn sydd orchymynedig;' ac y mae y gair *kesui*, 'cuddio,' yn arwyddo ei 'roddi o'r golwg,' fel peth arian a ffaidd; ei gelu, nid oddiwrth hollwybodaeth Duw, yr hyn sydd annichonadwy, ond oddiwrth ei gyfiawnder dialeddol ef; ei guddio trwy faddeuant gan Dduw, neu trwy iddo ei 'dafu tu ol i'w gefn,' Essay xxxviii. 17. Yn ofer y dysgwylia dyn wynfyd neu ddedwyddwch tra y byddo ei drosedd heb ei faddeu, a'i bechod heb ei guddio.

Adn. 2. *Gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd*] Yr hwn nis cybuddir gan yr Arglwydd o anwiredd, neu o drosedd a phechod, trwy fod y naill wedi ei faddeu, a'r llall wedi ei guddio. Y mae y gair *aron*, 'anwiredd,' yn arwyddo 'yr hyn sydd wrygam,' neu 'groes i uniondeb neu gyfiawnder;' ac y mae yr ymadrodd *lo*

2 Gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd, ac ni byddo dichell yn ei ysbryd.

3 Tra y tewais, heneiddiodd fy esgyrn, gan fy rhwad ar hyd y dydd.

yachshob, 'ni chyfrif,' yn arwyddo 'peidio ei briodoliidd,' neu 'beidio ei gyhuddo efo bono.' Ni sonir yma am gyfrif cyfiawnder gweithredol Crist i bechador, ond yn unig am beidio cyfrif iddo ei anwiredd ei hun. Ar ol i bechador gael madden ei drosedd, ei bechod, a'i anwiredd, trwy haeddiant marwolaeth aberthol ac iawnol Crist, edrychir arno fel pe buasai heb bechu, ac felly yn gyfiawn; a dyma yr holl gyfiawnder ag sydd ar bechador, fel y cyfryw, ei eisiau. Ond pe buasai cyfiawnder gweithredol Crist, neu ei ufydd-dod ef i'r ddeddf foesol, i gael ei gyfrif i ni yn gyfiawnder, neu yn 'wisg berffaith am danom i'n cuddio rhag digofaint Duw,' fel yr haera rhai, pa angen oedd am i Grist farw yn iawn dros ein pechodau? Oni fuasai perffethrwydd ei fywyd ef, wrth iddo gael ei gyfrif i ni, yn ein rhyddhad ni oddiwrth felldith y ddeddf, fel yr oedd yn ei ryddbau yntau? a pha raid, felly, oedd iddo farw drosom ni, mwy na throsto ei hun? Felly y mae yr athrawiaeth o gyfrifiad ufydd-dod Crist yn ei fywyd i ni yn gyfiawnder, yn llwyr ddinystrio yr athrawiaeth gysurus o iawn trwy farwolaeth Crist: gwel fy MUREGETH i ar Rhuf. iv. 5, a'r sylwadau ar Rhuf. iv. 6, 7. *Ac ni byddo dichell yn ei ysbryd*—y mae y gair *renkiyah*, 'dichell,' yn arwyddo 'twyll, hocoed, anonestrwydd,' &c.; a rhaid i ddyn, mewn trefn i fod yn wynfydedig neu ddedwydd, fod yn rhydd oddiwrth y pethau hyn: rhaid iddo gyfaddef yn onest ei bechodau, edifarhau yn diddwyll am danynt, eu casáu yn wirioneddol yn ei galon, a throï oddiwrthynt at Dduw; ac nid yn unig hyn, eithr rhaid iddo hefyd gael maddeuant o honynt trwy waed Crist. Y mae y pedwar gair uchod, *trosedd*, *pechod*, *anwiredd*, a *dichell*, bron o'r un arwyddocâd, ac yn cynwys pob drwg moesol ag y mae dyn yn agored iddo yn y fuchedd hon; ac y mae y pedwar gair gwrthgyferbyniol, *maddeu*, *cuddio*, *peidio cyfrif*, a *bod heb ddichell*, er yn agos o'r un ystyr â'u gilydd, yn cynwys holl elfenau iachawdwriaeth gras; neu, mewn geiriau ereill, y maent yn gwneyd i fyny y ddwy fendith fawr o *gyfiawnder a santeiddhad*, y rhai sydd i'w derbyn yn unig trwy flydd yn a berth neu iawn ein Harglwydd bendigedig.

Adn. 3. *Tra y tewais*] Tra yr oeddwn heb gyfaddef yn onest fy mbechodau yn achos Bathseba ac Urian, neu heb weddio yn daer am faddeuant o honynt; *heneiddiodd fy esgyrn*—yr oedd fy nerth corfforol yn gwywo ynof fel y gwna mewn benaint; *gan fy rhwad ar hyd y dydd*—gan fy ochain o herwydd dychrynfeydd fy nghydywybod, dan deimlad o anffondlonrwydd Duw. Dywed yr Iuddewon iddo fod yn y cyflwr hwn am naw mis o leiaf: gwel ar 2 Sam. xii. 13.

4 Canys trymhaodd dy law arnaf ddydd a nos : fy irder a dröwyd yn sychder haf. Selah.

5 Addefais fy mhechod wrthyt, a'm hanwiredd ni chuddiais : dywedais, Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd ; a thi a faddeuwaist anwiredd fy mhechod. Selah.

6 Am hyn y gweddia pob duwiol arnat ti yn yr amser y'th geffir : yn ddiâu yn llifeiriant dyfroedd

Adn. 4. *Canys trymhaodd dy law arnaf ddydd a nos*] Trwy ddwyn fy mhechodau i'm cof yn barhau, a'm llenwi â dychryn meddwl o'n herwydd : *fy irder a dröwyd yn sychder haf*—sychodd fy hylifau o'm mewn, fel y sycha y ddaear yn amser haf, neu fel y gwywa llysiau ar wres mawr, Y mae y rhan gyntaf o'r adnod yn cyfeirio at yr effaith a gai ei ofid ar ei ysbryd ; a'r ail, at y modd yr effeithiai ar ei gorff. *Selah*—dalier sylw ar fawredd fy ngofid a'm cystudd : gwel ar adn. 5.

Adn. 5. *Addefais fy mhechod wrthyt*] Yn ddiwydd y gonest ; *a'm hanwiredd ni chuddiais*—oddiwrthyt ti, fel y byddai i ti ei guddio â mantell trugaredd oddiwrthyfi, adn. 1. *Dywedais*—yn fy nghalon, dan deimlad gwir edifeiriol, *Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd*—gan gymeryd arnaf fy hun yr holl euogrydd a'r cywilydd o honynt ; *a thi a faddeuwaist anwiredd fy mhechod*—sef euogrydd fy mhechod, neu dra-bechaduruswydd fy mhechod ; hyny yw, yr holl ddrwg mawr ag ydoedd yn fy mhechod yn erbyn Duw a dynion. *Selah*—defnyddiwyd y gair hwn yn niwedd yr adnod flaenorol i ddynodi mawr ofid a chystudd Dafydd ; a rhoddir ef yma, ond odid, i ddynodi mawr drugaredd Duw yn maddeuaddo.

Adn. 6. *Am hyn*] Am fod Duw mor drugarog fel ag i faddeu i Dafydd bechod mor fawr ; neu ynte, am yr *un peth* ag y gweddiodd Dafydd am dano, sef am drugaredd a maddeuant, *y gweddiau pob duwiol arnat ti*—sef pob un edifeiriol, a phenderfynol i wasanaethu Duw yn fyddon o hyny allan, yr hyn sydd ben-derfyniad duwiol ; *yn yr amser y'th geffir*—mewn amser cymeradwy, ac yn nydd iachawdriaeth, tra y mae drws trugaredd heb ei gau, a phan y mae Duw yn cynyg gras, trugaredd, ac iachawdriaeth. *Yn ddiâu yn llifeiriant dyfroedd mawrion*—yn amser cystuddiau, temtasiynau, a thralloadau dyfnion, y rhai a gydmlherir yn fynyeh yn yr ysgrythrau i 'ddyfroedd mawrion ;' neu yn awr marwol- aeth ei hun ; *ni chânt nesâu ato ef*—sef at y duwiol, tel ei deallir yn gyffredin ; hyny yw, ni chaiff y cystuddiau, y temtasiynau, na'r tralloadau hyny, nac hyd yn nod angau ei hun, woedyd dim gwir *nwyd* iddo ef, trwy y bydd i Dduw ei gadw ynddynt oll, fel y cadwodd efe Noa yn amser y dylif, at yr hyn y cyfeirir yma fel y tybia rhai. Y mae yn wir y *cys-*

mawrion, ni chânt nesâu ato ef.

7 Ti ydwyt loches i mi ; cedwi fi rhag ing : amgylchyni fi â chaniadau ymwared. Selah.

8 Cyfarwyddaf di, a dysgaf di yn y ffordd yr eiyh : a'm llygaid arnat y'th gynghoraf.

9 Na fyddweh fel march, neu ful, heb ddeall : yr hwn y mae yn rhaid attal ei ên â genfa, ac â ffrwyn, rhag ei ddynesâu atat.

tuddir y duwiol ; ond efe a deimla mai *da* yw iddo gael ei gystuddio, Salm cxix. 71 : rhaid iddo yntau *farw* ; ond efe a brofa farwolaeth yn *elw* iddo, Phil. i. 21. Eithr tybia Dr. Hammond mai at yr *annuwiolion* y cyfeirir yma ; a gall mai yr ystyr yw, na chaiff dynion annuwiol, ar ol iddynt deulio eu dydd gras mewn gwrthryfel yn erbyn Duw, gan wrthod ymostwng i weddio arno ef ar hyd eu holl tywyd, nesâu at *Dhuw* yn llifeiriant tönog aflon marwolaeth ; hyny yw, ni chânt nesâu 'ato ef yn llwyddianus, fel ag i'w *gael* ef yn noddfa iddynt. Gellir meddwl fod rhyw wrth- osodiad neu gyferbyniaeth o'r fath yn ddeall- edig yn y testyn ; ac y mae yr athrawiaeth hon yn eithaf cyson â rhanau ereill o'r ysgrythyr suntuaid : gyl ar Diar. i. 26—32.

Adn. 7. *Ti ydwyt loches i mi*] Neu noddfa ac ynguddfa yn nydd trallod a pherygl, ysbrydol a thymhorol : *cedwi fi rhag ing*—rhag cael fy llethu gan ing, neu rhag cael fy ngwasgu gan drallodion a chyfyngderau uwchlaw yr hyn a allaf ei ddyoddef : *amgylchyni fi â chaniadau ymwared*—â gwardigaeth o'm cyfyngderau, yr hyn a fydd yn achos i mi ac ereill gau dy glodydd neu dy foliannu o'r herwydd.

Adn. 8. *Cyfarwyddaf di*] Yn yr hyn y dylit ei wneuthur ; *a dysgaf di*—yn y ffordd y dylit ei rhodio : *a'm llygaid arnat*—fel tad a'i lygad ar ei blantyn, neu fel athraw a'i lygad ar ei ddysgybl ; *y'th gynghoraf*—Saes, 'y'th arweiniaw,' sef ar hyd y llwybrau ag y dylit en cerdded, neu yn y pethau ag y dylit eu dysgu. Y mae rhai yn deall hyn fel geiriau *Dafydd* wrth rai unwir, ar ol iddo gael iachawdriaeth ei hun, fel yn Salm li. 13 ; ond y mae yn debyeach mai geirian *Duw* wrth Dafydd ydynt, yn addaw iddo bob cymorth a gras angenleidiol ar ei daith trwy y byd hwn.

Adn. 9. *Na fyddweh fel march, neu ful, heb ddeall*] Y rhai nid oes reswm ganddynt ; *yr hwn y mae yn rhaid attal ei ên â genfa, ac â ffrwyn*—am nad oes ganddo ddeall i amgylfred yr hyn a ddywedir wrtho ; *rhag ei ddynesâu atat*—i'th droedio neu i'th gnoi. Ond gan nad yw meirch a mulod yn y cyffredin yn greaduriaid dialgar a pheryglus, myn *Hou-* *bigant* gyfieithu y frawddeg olaf, 'Onid ni ddaw yn agos atat : ac y mae y darlleniad hwn yn dra phriodol, trwy mai dyben ffrwyn a genfa yw dwyn y creaduriaid hyn at ddynt, ac

10 Gofidiau lawer fydd i'r annuwiol: ond y neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd, trugaredd a'i cylchyna ef.

11 Y rhai cyfiawn, byddwch lawen a hyfryd yn yr Arglwydd: a'r rhai uniawn o galon oll, cenwch yn llafar.

SALM XXXIII.

YMLAWENHEWCH, y rhai cyfiawn, yn yr Arglwydd: i'r rhai uniawn gweddus yw mawl.

nid en cadw oddiwrtho. Y meddwl yw, Na fydded i chwi, y rhai a gynysgaethwyd â rheswm, ddylyn yn afreolus eich chwantau a'ch tueddiadau pechadurus: na fydded i chwi beri i'ch Gwneuthurwr ddefnyddio cystuddiau, blinderau, ac ymweliadau poenus rhagluniaeth, i'ch cadw yn y ffordd ag y dylech ei rhodio, neu i'ch dwyn iddi ar ol i chwi tyned allan o honi.

Adn. 10. *Gofidiau lawer fydd i'r annuwiol*] Canys y mae cysylltiad naturiol rhwng annuwioldeb a thrueni, fel y mae rhwng duwioledeb a dedwyddwch. Hwn sydd reswm i ddirgymhell y rhybydd blaenorol. Fel pe dywedasai, Os byddwch chwi yn wrthnysig ac afreolus, y mae gan Dduw lawer ffordd i'ch llywodraethu a'ch ceryddu. Rhaid i'r rhai na ddiwygiant dan foddion tyner, ddysgu cyfiawnder dan wialen cystudd, ac yn ysgol y groes; ac os na thycia gofidiau ceryddol i'w dwyn i'w lle yn y byd hwn, bydd i'ofidiau dialledol eu dal am byth yn y byd a ddaw. *Ond y neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd*—yn ei allu a'i ffyddlondeb, yn ei addewid, ei ragluniaeth, a'i ras, heb droi oddiwrtho i geisio diogelwch na dedwyddwch yn fyrrdd pechod; *trugaredd a'i cylchyna ef*—o bob tu, i'w gadw rhag maglau ei elynion yn y byd hwn, ac i'w ddwyn i ddedwyddwch diddiwedd yn y byd a ddaw.

Adn. 11. *Y rhai cyfiawn*] Y rhai a gyfiawnhawyd trwy ffydd; neu y rhai y maddeuwid eu trosedd, y cuddiwyd eu pechod, ac na chyfrif yr Arglwydd iddynt anwreidd, adn. 1, 2; *byddwch lawen a hyfryd yn yr Arglwydd*—fel eich gwaredwr, eich tarian, a'ch gwobr mawr iawn: *a'r rhai uniawn o galon oll*—canys rhaid i uniondeb calon, neu gyfiawnder ymarferol, yn gystal a chyfiawnhad personol, fod yn sail i lawenydd ysbrydol; *cenwch yn llafar*—yn nghanol yr holl drallodion a ddichon eich cyfarfod yn y byd hwn, ac mewn rhagolwg ar yr hyn sydd yn eich aros yn y byd a ddaw.

SALM XXXIII. Nid oes deitl i'r Salm hon, ac ni wyddys yn iawn ar ba achlysur y cyfansoddwyd hi, na phwy yw ei hawdwr. Y dyb gyffredin yw, mai Dafydd yw ei hawdwr; ac mewn wyth o ysgriflyfrau Kennicott y mae yn gysylltedig â'r Salm flaenorol. Y mae yn

2 Molwch yr Arglwydd â'r delyn: cenwch iddo â'r nabl, ac â'r degtant.

3 Cenwch iddo ganiad newydd: cenwch yn gerddgar, yn soniarus.

4 Canys uniawn yw gair yr Arglwydd; a'i holl weithredoedd a wnaed mewn ffyddlondeb.

5 Efe a gâr gyfiawnder a barn: o drugaredd yr Arglwydd y mae y ddaear yn gyfiawn.

6 Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd; a'u holl

debyg iddi gael ei bwriadu fel Salm o foliant i Dduw am ei allu, ei ddoethineb, a'i drugaredd; neu ynte o ddiolchgarwch iddo am ei weithredoedd mawrion a gogoneddus fel yr ymddanghosant mewn creadigaeth a rhagluniaeth.

Adn. 1. *Ymlawenhech, y rhai cyfiawn, yn yr Arglwydd*] Gwel ar Salm xxxiii. 11; *i'r rhai uniawn gweddus yw mawl*—y mae yn iawn iddynt hwy foliannu Duw am yr hyn ydyw ynddo ei hun, ac am yr hyn a wnaeth efe iddynt.

Adn. 2. *Molwch yr Arglwydd â'r delyn*] Yr hon a ddyfeisiwyd gyntat gan Jubal, Gen. iv. 21, ac a chwareuid yn fedrus gan Dafydd ei hun: *cenwch iddo â'r nabl, ac â'r degtant*—neu, fel y mae rhai yn ei ddarllen, 'â'r nabl degtant.' Y mae efe yn enwi y rhai hyn, am eu bod yn cael eu defnyddio yn addoliad cyhoeddus Duw yn y tabernacl.

Adn. 3. *Cenwch iddo ganiad newydd*] Sef cân newydd ei chyfansoddi, gan feddwl ond odid y Salm hon; canys y mae trugareddau newyddion yn galw am ganiadau newyddion; neu ganiad yn cael ei adnewyddu, neu ail tyned drosto. *Cenwch yn gerddgar*—yn ol rheolau canu; *yn soniarus*—gan gydblecth y lleisiau dynol â sain yr offer cerdd. Boed swm a synwyr yn cydfyned, neu boed i'r gerddoriaeth gael ei chyffaddasu i'r geiriau.

Adn. 4. *Canys uniawn yw gair yr Arglwydd*] Ei gynghor a'i orchymyn, ei addewidion a'i fygythion; y maent oll yn seiliedig ar wirionedd a chyfiawnder: *a'i holl weithredoedd a wnaed mewn ffyddlondeb*—sef y cyfiawniad o'i addewidion a'i fygythion, neu holl orchwyliaethau ei ragluniaeth a'i ras.

Adn. 5. *Efe a gâr gyfiawnder a barn*] Neu farn gyfiawn yn mhob rhyw achos. Neu gall fod y *cyfiawnder* yn cyfeirio at y ddedfryd, a'r *farn* at y gweinyddiad o honi. Nid yn unig y mae efe yn gwneyd cyfiawnder i baw ei hun, ond y mae yn ei garu yn mhawb. *O drugaredd yr Arglwydd y mae y ddaear yn gyflawn*—y mae trugaredd a daioni Duw i'w gweld ar bob peth, ac yn mhob man: 'y mae efe yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn,' Mat. v. 45.

Adn. 6. *Trwy air yr Arglwydd*] Sef trwy Grist, yr hwn yw y tragwyddol Air, fel y mae

luoedd hwynt trwy ysbryd ei enau ef.

7 Casglu y mae efe ddyfroedd y môr yn nghyd megys pentwr : y mae yn rhoddi y dyfnderoedd mewn trysorau.

8 Ofned yr holl ddaear yr Arglwydd : holl drigolion y byd arswydant ef.

9 Canys efe a ddywedodd, ac *felly* y bu : efe a orchymynodd, a hyny a safodd.

10 Yr Arglwydd sydd yn diddymu cynghor y cenhedloedd : y mae efe yn diddymu amcanion pobloedd.

11 Cynghor yr Arglwydd a saif

y Galdeag yn ei ddeall, Ioan i. 1—3, Col. i. 16 ; y *gwnaethpwyd y nefoedd*—nid yn unig y nef wybrenol, ond nef y gogoniant hefyd : *a'u holl luoedd hwynt*—yr haul a'r lloer a'r ser, a'r angylion yn eu holl raddau ; *trwy ysbryd ei enau ef*—sef trwy yr Ysbryd Glân, Job xxxiii. 4. Fel hyn cyfeirir yma at y tri Pherson dwyfol, sef y Tad a'r Gair a'r Ysbryd ; i bob un o ba rai, o herwydd eu hundeb annatodadwy a'u gilydd, y priodolir y gwaith o greu mewn rhanau ereill o'r ysgrythyr : gwel ar Gen. i. 1, 26. Ond tybia rhai mai trwy *orchymyn* yr Arglwydd a feddylir, fel yr adroddir yn adn. 9.

Adn. 7. *Casglu y mae efe ddyfroedd y môr yn nghyd megys pentwr*] Cyfeirir yma naill ai at waith y trydydd dydd, Gen. i. 9, neu ynte at holltiad y môr coch, Exod. xiv. 16. *Y mae yn rhoddi y dyfnderoedd*—sef dyfroedd y dyfnderoedd, mewn trysorau—naill ai yn y cymylau i'w gwllawio ar y ddaear, neu ynte yn ngirombwl y ddaear i darddu allan yn ffynonau, yn ol ei ewyllys ei hun. Ond gellir cyfeithu y frawddeg ddiweddar, 'Y mae yn eu cadw yn nhyrsorfeydd y dyfnder.'

Adn. 8. *Ofned yr holl ddaear yr Arglwydd*] Canys gall ef, yr hwn a rwyddodd y dyfroedd fel yr adroddwyd uchod, eu gollwng hwynt yn rhydd pan y myno, fel y gwnaeth efe yn amser y dylif. *Holl drigolion y byd arswydant ef*—canys yr hwn a greodd, a all hefyd ddinystrio.

Adn. 9. *Canys efe a ddywedodd*] 'Bydded i' : *ac felly y bu*—daeth yr holl greadigaeth i'w Hurf weledig trwy orchymyn ei enau ef : gwel ar Gen. i. 3, &c. Crybwyllir yma am allu Duw, fel ei danghoswyd yn ngwaith y cread, i ddirgymhell holl drigolion y byd i ofni ac arswydo ger ei fron ef, adn. 8.

Adn. 10. *Yr Arglwydd sydd yn diddymu cynghor y cenhedloedd*] Pan y byddo hyny er lles i'w bobl, neu er gogoniant iddo ei hun ; y mae *efe yn diddymu amcanion pobloedd*—pan y byddont yn groes i'w amcanion daionus ef ei hun : gwel ar Salm ii. 1, &c. Ar ol bod yn son am waith y cread, y mae efe yma yn dyfod i draethu am weithredoedd rhagluniaeth Duw,

yn dragywydd : meddyliau ei galon o genhedlaeth i genhedlaeth.

12 Gwyn ei byd y genedl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddi ; a'r bobl a ddetholodd efe yn etifeddiaeth iddo ei hun.

13 Yr Arglwydd sydd yn edrych i lawr o'r nefoedd : y mae yn gwelend holl feibion dynion.

14 O breswyl ei driffa yr edrych efe ar holl drigolion y ddaear.

15 Efe a gydluniodd eu calon hwynt : efe a ddeall eu holl weithredoedd.

16 Ni waredir brenin gan luaws llu : ni ddianc cadarn trwy ei fawr gryfder.

neu ei allu ef i oruwchlywodraethu meddyliau, ewyllsiau, a gweithredoedd dynion, pa un bynag fyddont ai unedig ynte unigol.

Adn. 11. *Cynghor yr Arglwydd a saif yn dragywydd*] Sef ei ewylls a'i arfaeth gyda golwg ar ei bobl ei hun a'i elynion ; *meddyliau ei galon o genhedlaeth i genhedlaeth*—hyd ddiwedd y byd, i.e., hyd eithaf tragwyddoldeb. Ac er cysur i'r ofnus gellir dywedyd, fod cynghor yr Arglwydd a meddyliau ei galon oll yn dda, ac mewn perffaith gydgordiad a'i drugaredd a'i dosturi.

Adn. 12. *Gwyn ei byd y genedl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddi*] Yr hon y mae y fath Fod daionus, galluo, a doeth, ag a ddarluniwyd uchod, yn Dduw mewn cyfammedd â hi ; *a'r bobl a ddetholodd efe yn etifeddiueth iddo ei hun*—sef pobl neu genedl Israel, y rhai a gadwodd efe yn etifeddiueth iddo ei hun am yn agos i ddywy fil o flynyddoedd, ac a wrthodwyd bellach er's yn agos i gymaint a hyny o amser o herwydd eu hannghrediniaeth a'u gwrthryfel. Gellir cyhoeddi y gwynfydedig-rwydd hwn yn awr uwchben eglwys y Testament Newydd, sef holl Israel vsbrydol Duw, y rhai a ddetholodd efe yn etifeddiueth iddo ei hun yn eu lle hwynt : gwel ar Rhuf. ix. x. i.

Adn. 13. *Yr Arglwydd sydd yn edrych i lawr o'r nefoedd*] Cyfeirir hyn at ei sylw rhagluniaethol a grasol ef, y mae yn gwelend holl feibion dynion—yn mhob man ar yr un waith. Er mai Israel yw ei etifeddiueth vsbrydol ef, eto y mae pob dyn yn wrthddrych ei drugaredd a'i ofal grasol, adn. 5.

Adn. 14. *O breswyl ei driffa*] Sef o'r nefoedd, lle y mae ei driffa ogoneddus ef, adn. 13 ; *yr edrych efe ar holl drigolion y ddaear*—gan ofalu am danynt oll ddydd a nos.

Adn. 15. *Efe a gydluniodd eu calon hwynt*] Neu, fel y gellir ei gyfeithu, 'a luniodd eu calon hwynt oll ;' neu, 'a luniodd eu calon hwynt yr un fath,' sef gyda'r un galluedd a chynneddau a'u gilydd, er eu bod yn wanach mewn rhai nag mewn ereill : *efe a ddeall eu holl weithredoedd*—i.e., a'u calonau hefyd, o'r rhai y deillia eu holl weithredoedd da a drwg.

Adn. 16. *Ni waredir brenin gan luaws*

17 Peth ofer *yw* march i ymwar-
ed: ac nid achub efe *neb* trwy ei
fawr gryfder.

18 Wele, *y mae* llygad yr Ar-
glwydd ar y rhai a'i hofnant ef, *sef*
ar y rhai a obeithiant yn ei drugar-
edd ef;

19 I waredu eu henaidd rhag angau,
ac i'w cadw yn fyw yn *amser*
newyn.

20 Ein henaidd sydd yn dysgwyl
am yr Arglwydd: efe *yw* ein porth
a'n tarian.

21 Canys ynddo ef y llawenycha
ein calon, o herwydd i ni obeithio
yn ei enw santaidd ef.

22 Bydded dy drugaredd, Ar-
glwydd, arnom ni, megys yr ydym
yn ymddiried ynot.

SALM XXXIV.

BENDITHIAF yr Arglwydd bob
amser: ei foliant *fydd* yn fy
ngenuau yn wastad.

2 Yn yr Arglwydd y gorfoledda
fy enaid: y rhai gostyngedig a
glywant *hyn*, ac a lawenychant.

3 Mawrygwch yr Arglwydd gyda
mi; i a chyd-ddyrchafwn ei enw ef.

4 Ceisiais yr Arglwydd, ac efe
a'm gwrandawodd; gwaredodd fi
hefyd o'm holl ofn.

llu) Ond yn unig gan ragluniaeth Duw, yr
hwn a ddryr y fuddugoliaeth weithiau i'r
blaid wanaf: *ni ddianc cadarn trwy ei fawr*
gryfder—er iddo fod cyn gryfed a Goliath
gynt, os na fydd i'r Arglwydd drefnu hyn yn
ei ragluniaeth. Fe allai fod Dafydd a'i lygad
y pryd hyn ar y frwydr a fuasai rhwng Goliath
ac yntau: gwel I Sam. xvii.

Adn. 17. *Peth ofer yw march i ymward*
Canys gall hwnw gwmpo dan ei farchogwr,
a'i ladd; neu gael ei ladd ei hun yn gystal a'i
feistr; *ac nid achub efe neb trwy ei fawr*
gryfder—os bydd Daw yn ymladd yn ei
erbyn.

Adn. 18. *Wele, y mae llygad yr Arglwydd*
ar y rhai a'i hofnant ef I'w gwaredu hwynt,
os hyn fydd orat, pan fo llu a weirch yn
methu; *sef ar y rhai a obeithiant yn ei dru-*
garedd ef—am waredigaeth ac iachawdwr-
iaeth. Y mae ofni Duw, a gobeithio yn ei
drugaredd ef, fel ei mynegir yma, yn cynwys
pob gras arall ag sydd yn gwneyd i fyny wir
aduwioledeb.

Adn. 19. *I waredu eu henaidd rhag angau*
Sef eu bywyd rhag angau anamserol, os hyn
fydd oraf er eu lles, a'u heneidiau rhag angau
tragwyddol; *ac i'w cadw yn fyw yn amser*
newyn—fel y gwnaeth efe â Jacob a'i feibion
yn yr Aifft, ac âg Elias yn Sarepta. Y mae
weithiau yn well i'r duwiol gael marw trwy
ryw glefyd, na byw, yr hyn a w'yr yr Ar-
glwydd yn dda; ac felly nid ydym i ddysgwyl
cyflawniad llythyrenol o'r addewid hon yn
mhob achos, nac i'w ddymuno chwaieth end
mewn ymostyngiad i ewyllys ddoeth a grasol
Duw.

Adn. 20. *Ein henaidd sydd yn dysgwyl am*
yr Arglwydd Yn yr ymarferiad cydwybodol
o bob moddion o ras; *efe yw ein porth a'n*
tarian—ein cymborth a'n gwaredydd, ac nid
llu, meirch, na chrydier dynol, adn. 16, 17.

Adn. 21. *Canys ynddo ef y llawenycha ein*
calon Yn ei amddiffyniad a'i allu grasol ef
yn unig; *o herwydd i ni obeithio yn ei enw*
santaidd ef—sef ynddo ef ei hun, neu yn ei
drugaredd, adn. 18.

Adn. 22. *Bydded dy drugaredd, Ar-*
glwydd, arnom ni Cyfrana i ni bob bendith

dymhorol ac ysbrydol ag y mae arnom ei
hangen, nid ar gyfrif ein teilyngod ni, ond
yn ol dy drugaredd rad dy hun; *megys yr*
ydym yn ymddiried ynot—canys nis gallwn
ddysgwyl hyd yn nod *drugaredd* gan Dduw,
heb i ni ymddiried ynddo.

SALM XXXIV. Y teitl yw, '*Salm Da-*
fydd, pan newidiodd efe ei wedd o flaen
Abimelec; yr hwn a'i gryffodd ef ymaith, ac
efe a ymudawodd;' hynny yw, pan y cymerth
Dafydd arno ynfydu o fien brenin Gath, ac y
gollyngwyd ef ymaith fel gwallgofddyn, ac yr
ymadawodd yntau i ogof Adulam, lle odd odid
y cyfansoddodd efe y Salm hon: gwel yr hanes
yn I Sam. xxi. 10, &c., a'r sylwadau yno.
Achis y gelwir y brenin hwn yno; ond ym-
ddengys oddiwrt Gen. xx. 2, a xxvi. 1, fod
Abimelec yn enw cyffredin ar frenhinoedd y
Philistiaid, fel yr oedd *Pharao* ar frenhin-
oedd yr Aifft. Hon yw yr ail o'r Salmu
gwyddorig, lle y mae pob adnod yn dechreu
gyda llythyren Hebreig wahanol: gwel deitl
Salm xxv.

Adn. 1. *Bendithiaf yr Arglwydd bob am-*
ser Ac yn mhob lle; *ei foliant fydd yn fy*
ngenuau yn wastad—canaf iddo a chlodforaf ef
yn bathaus am fy ngwaredigaeth bresenol, ac
am ei aneirif drugareddau i mi ar bob pryd.

Adn. 2. *Yn yr Arglwydd y gorfoledda fy*
enaid Hyn fydd fy nuhrif orchwyl i ar y
ddaeur: *y rhai gostyngedig—anavim*, 'y rhai
cystuddiedig,' neu rai yn yr un cyflwr ag y
buasai Dafydd ynddo; *a glywant hyn, ac a*
lawenychant—bydd clywed am fy ngwared-
igaeth i yn annogaeth iddynt hwythau ym-
ddiried yn yr Arglwydd, a llawenychu yn ei
drugaredd ef.

Adn. 3. *Mawrygwch yr Arglwydd gyda*
mi Neu fel myfi; os nid yn yr un lle, eto
byddwch yn rhwym yn yr un gwaith, a chyfl-
awnych ef gyda'r un gwresogrydd: *a chyd-*
ddyrchafwn ei enw ef—mewn caniadau o
foliant a gogoniant iddo.

Adn. 4. *Ceisiais yr Arglwydd* Yn fy
nghyfyngder yn Gath; *ac efe a'm gwrandaw-*
odd—er mai yn fy nghalon neu fy meddwl, ac
nid mewn geiriau byglyw, yr oeddwn yn

5 Edrychasant arno, a hwy a oleuwyd; a'u hwynebau ni chywil-yddiwyd.

6 Y tylawd hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu, ac a'i gwarddodd o'i holl drallodau.

7 Angel yr Arglwydd a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef, ac a'u gwarded hwynt.

8 Profwch, a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd: gwyn ei fyd y gw'r a ymddiriedo ynddo.

9 Ofnwch yr Arglwydd, ei saint

galw arno: *gwarddodd ũ hefyd o'm holl ofn*—nid yn unig rhag y farwolaeth a ofnai, ond o'r dychryn a'i daliai ar y pryd; neu o'r pang, neu y llasmeir-glwyf, i ba un y syrthiasai efe yn anfyriadol yr amser hwnw, fel y mae rhai yn ei ddeall: gwel ar 1 Sam. xxi. 12, 13.

Adn. 5. *Edrychasant arno*] Sef pob un gostyngedig neu gystuddiedig, adn. 2; *a hwy a oleuwyd*—a gysurwyd ac a gefnogwyd; *a'u hwynebau ni chywil-yddiwyd*—ni siomwyd hwy yn eu dysgwiliad wrth Dduw. Tybia *Chandler* mai y meddwl yw, ddarfod i'r rhai gostyngedig, neu dduwiol, weddio ar Dduw dros Dafydd, ac iddynt gael cysur mawr yn ei waredigaeth ef. Ond y mae rhai yn darllen yr adnod hon yn y modd gorchymynol: 'Edrychwch arno,' mewn fydd a gweddi; 'a goleuer chwi,' neu dyddaner chwi yn y dysgwiliad am drugaredd ganddo.

Adn. 6. *Y tylawd hwn a lefodd*] Felly y mae Dafydd yn ei alw ei hun, ac felly yr oedd efe o ran ei ysbryd a'i amgylchiadan; *a'r Arglwydd a'i clybu*—er mor isel oedd ei gyflwr; *ac a'i gwarddodd o'i holl drallodau*—y rhai oeddynt wedi cau am dano yn Gath: gwel ar adn. 4.

Adn. 7. *Angel yr Arglwydd*] Un yn cael ei enwi am lawer, canys nis gall un amgylchynu yr holl saint yn mhob man ar yr un waith; *a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef*—fel gosgorddlu o filwyr o amgylch tywsog daearol; *ac a'u gwarded hwynt*—ie, tra y maent hwy yn dueddol i briodoli eu gwardigaeth i ryw achos arall. 'Ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdriaeth:' gwel ar Heb. i. 14, a Salm xci. 11. Ond tybia rhai mai at Angel mawr y cyfammod y cyfeirir yma, yr hwn yw amddiffynydd ac arweinydd ei holl bobl.

Adn. 8. *Profwch a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd*] Mynwch adnabyddiaeth o greffyd brofiadol. Nid yn unig *gwelwch* ei fod yn dda, fel y mae ei holl weithredoedd yn ei ddingos, ond *profwch* ei fod ef felly; nid yn unig profwch *ei fod yn dda*, ond profwch *mor dda ydyw*: fywch yn ddwfn o frydiau ei ddaioni, mwynhewch yn helaeth ei drugaredd a'i ras. *Gwyn ei fyd y gw'r a ymddiriedo ynddo*—y mae efe yn ddedwydd yma, a bydd yn ddedwydd byth. Y mae *ymddiried* yn yr

ef: canys nid *oes* eisiau ar y rhai a'i hofnant ef.

10 Y mae eisiau a newyn ar y llewod ieuainc: ond y sawl a geisiant yr Arglwydd, ni bydd arnynt eisiau dim daioni.

11 Deuwch, blant, gwrandewch arnaf: dysgaf i chwi ofn yr Arglwydd.

12 Pwy yw y gw'r a chwennych fywyd, ac a gâr hir ddyddiau, i weled daioni?

13 Cadw dy dafod rhag drwg,

Arglwydd, yn iaith yr Hen Destament, yr un peth a *chredu* ynddo, yn iaith y Testament Newydd; canys trwy *ffydd* yr ydym i gael crefydd ar y cyntaf, ac wedi hyny i brofi y dedwyddwch ag sydd yn nglŷn â hi.

Adn. 9. *Ofnwch yr Arglwydd, ei saint ef*] Perchwch, cerwch, gwasanaethwch, ac ymddiriedwch yn yr Arglwydd; canys hyny a teddylir yn aml yn yr ysgriflyrau wrth ei 'ofni' ef: *canys nid oes eisiau ar y rhai a'i hofnant ef*—ni chânt fod yn ddiffygiol o ddim daioni angenrheidiol iddynt mewn amser nac yn nhragwyddoldeb.

Adn. 10. *Y mae eisiau a newyn ar y llewod ieuainc*] Yn fynych, er mor ymdrechgar, cryf, ac ysglyfaethus yw yr hen lewod i chwilio am ymborth iddynt. Ond yn lle *kephirim*, 'llewod ieuainc,' y mae un o ysgriflyfrau Kennicott yn darllen *cabbirim*, 'gwyr cryfion;' a hyn hefyd yw darlleniad y LXX, y Vulgate, yr Ethiopaeg, y Syriaeg, yr Arabaeg, &c. *Onid y sawl a geisiant yr Arglwydd*—a'u holl galon, fel ag i'w gael ef, Jer. xxix. 13; *ni bydd arnynt eisiau dim daioni*—dim daioni gwir angenrheidiol iddynt yn marn Duw. Y mae yn wir ei fod ef weithiau yn gadael i'w blant ei hun gyrfarod â chroesau a chyfyngderau mawrion; eithr y pryd hyny y mae y cyfryw bethau yn fwy angenrheidiol a llesol iddynt na'r pethau ag y gallant hwy fod yn eu dymuno; a'u dyledswydd hwy y pryd hyn yw ymstwg i ewyllys Duw, gan greu y caiff pob peth gdwethio er daioni i'r rhai sydd yn ei garu ef, Rhuf. viii. 28.

Adn. 11. *Deuwch, blant, gwrandewch arnaf*] Sef pawb ag sydd o ysbeyd gostyngedig ac addysgadwy fel plant: *dysgaf i chwi ofn yr Arglwydd*—sef egwyddorion gwir greffyd, neu y ffordd i wasanaethu yr Arglwydd wrth ei fodd, fel ag i gael bendith a daioni oddiar ei law ef.

Adn. 12. *Pwy yw y gw'r a chwennych fywyd*] Sef bywyd tawel a dedwydd; *ac a gâr hir ddyddiau*—cysurus a hyfryd ar y ddaear; *i weled daioni*—neu i fwynhau pob math o ddaioni tymhorol ac ysbrydol yn y fuchedd hon? Pwy yw y gw'r ag sydd yn chwennych hyn mewn gwirionedd, fel ag i ewyllysio gwneud yr hyn sydd yn angenrheidiol er ei gyraedd? Y ffordd i gyraedd hyn a nodir yn yr adnodau dilynol.

Adn. 13. *Cadw dy dafod rhag drwg*] Rhag

a'th wefusau rhag traethu twyll.

14 Cilia oddiwrth ddrwg, a gwna dda; ymgais â thangnefedd, a dylun hi.

15 Llygaid yr Arglwydd *sydd* ar y cyfiawn: a'i glustiau *sydd yn agored* i'w llefain hwynt.

16 Wyneb yr Arglwydd *sydd* yn erbyn y rhai a wna ddrwg, i dori eu coffa oddiar y ddaear.

17 Y rhai *cyfiawn* a lefant; a'r Arglwydd a glyw, ac a'u gwared o'u holl drallodau.

18 Agos *yw* yr Arglwydd at y rhai drylliedig o galon; ac efe a geidw y rhai briwedig o ysbryd.

19 Aml ddrygan a *gaiff* y cyfiawn:

enllib, athrod, a gogan; *a'th wefusau rhag traethu twyll*—rhag gweniaith, rhagrith, a chelwydd.

Adn. 14. *Cilia oddiwrth ddrwg*] Oddiwrth bob drwg, ac yn enwedig oddiwrth wneuthur drwg i'th gmydod; *a gwna dda*—pob da, i bawb o'th amgylch; *ymgais â thangnefedd*—ymdrecha i fyw mewn heddwch â phawb, tylawd a chyfoethog; *a dylun hi*—tra y byddot byw ar y ddaear. Neu, pan fyddo y fendith o dangnefedd fel yn ffoi o'r eglwys neu o'r gymydogaeith, dos ar ei hol, a gwna yr hyn a allot i'w dwyn yn ol, a'i hail sefydlu: na letŷa ysbryd dial at y troseddwr, ond bydd faddeugar, hynaws, a thirion hyd yn nod tuag at dy elynion: gwel ar Heb. xii. 14, 1 Pedr iii. 10—12.

Adn. 15. *Llygaid yr Arglwydd sydd ar y cyfiawn*] I ofalu yn dadol am danynt ar bob pryd; *a'i glustiau sydd yn agored i'w llefain hwynt*—i wrando eu gweddiau yn mhob trallod a'u cyferfydd.

Adn. 16. *Wyneb yr Arglwydd*] Ei ddigofaint cyfiawn, yr hwn a elwir ei 'wyneb' ef, am fod digofaint gw'r yn ymddangos bob amser yn ei wynebryd; *sydd yn erbyn y rhai a wna ddrwg*—unrhyw ddrwg, yn enwedig y drygau a grybwyllwyd uchod; *i dori eu coffa oddiar y ddaear*—i'w hamddifadu o'r bendithion a enwyd adn. 12, neu i'w diwreiddio hwy a'u hiliogaeth oddiar y ddaear.

Adn. 17. *Y rhai cyfiawn a lefant*] Ar Dduw yn eu trallodau; *a'r Arglwydd a glyw*—am fod ei glustiau ef yn agored i'w llefain hwynt, adn. 15; *ac a'u gwared o'u holl drallodau*—yn ei ffordd a'i amser ei hun.

Adn. 18. *Agos yw yr Arglwydd at y rhai drylliedig o galon*] Y rhai sydd mewn galar am eu pechodau, neu trwy ryw achos arall; *ac efe a geidw y rhai briwedig o ysbryd*—neu rai gwir edifeiriol, rhag pechod a'i ganlyniadau.

Adn. 19. *Aml ddrygan a gaiff y cyfiawn*] Caiff y cyfiawn yn y byd hwn, fel pawb ereill, lawer o ofndiau, croesau, a dyoddefiadau; *ond yr Arglwydd a'i gwared ef oddiwrthyt oll*—weithiau yn y byd hwn, ond yn enwedig yn y byd a ddaw. Eithr tybia rhai mai proffwyd-

ond yr Arglwydd a'i gwared ef oddiwrthyt oll.

20 Efe a geidw ei holl esgryn ef: ni thoric un o honynt.

21 Drygioni a ladd yr annuwiol: a'r rhai a gasânt y cyfiawn, a anrheithir.

22 Yr Arglwydd a wared eneidiau ei weision: a'r rhai oll a ymddiriedant yddo ef, nid anrheithir hwynt.

SALM XXXV.

DADLEU *fy nadl*, Arglwydd, yn erbyn y rhai a ddadleuant i'm herbyn: ymladd â'r rhai a ymladdant â mi.

oliaeth am ddyoddefiadau Crist, pan yr aeth y Cyfiawn hwnw i le yr anghyfiawn, yw y geiriau hyn; ac am ei waredigaeth ef yn more yr adgyfodiad: gwel isod.

Adn. 20. *Efe a geidw ei holl esgryn ef*] Nid yn unig ei enaid, ond ei gorff hefyd; *ni thoric un o honynt*—ni chaiff efe ddim gwir niwed, neu ddim ond archollion a chreithiau: er iddo gael ei glywfo a'i gystuddio, ni chaiff ei lwy'r ddyfetha. Ond os cymhwyswn y geiriau hysa at Grist, y maent yn broffwyddoliaeth na thoric ei esgeiriau ef ar y groes: gwel ar Ioan xix. 32, 33.

Adn. 21. *Drygioni a ladd yr annuwiol*] Cyn gwelod o hono hir ddyddiau dedwydd ar y ddaear, adn. 12; neu, bydd i'w ddrygioni, yr hwn yr oedd efe yn ei garu fswaf, arwain i'w hollol ddinystre ef; tra y bydd i'r cyfiawn gael ei waredu oddiwrtho, fel y crybwyllwyd uchod: *a'r rhai a gasânt y cyfiawn*—sef holl erlidwyr Crist a'i frodyr; *a anrheithir*—dedfrydir a chospir hwynt fel erlidwyr euog. Cafodd y geiriau hyn gyflawniad llythrenol yn nghosp yr Iuddewon, erlidwyr Crist a'i apostolion, yn amser dinystr Jerusalem: gwel ar Mat. xxiv.

Adn. 22. *Yr Arglwydd a wared eneidiau ei weision*] Sef eu bywydau mewn amser o berygl, neu eu heneidiau i fywyd tragwyddol: *a'r rhai a ymddiriedant yddo ef*—a gradant yddo, neu a'u rhoddant eu hunain i'w gadwraeth rasol ef; *nid anrheithir hwynt*—ni chondemuir hwynt fel rhai euog, ac ni chospir hwynt. Fel hyn gwaredwyd yr holl Gristionogion yn amser dinystr yr Iuddewon a'u dinas: gwel ar Mat. xxiv. 13, 16.

SALM XXXV. Y teitl yw, 'Salm Dafydd.' Tybia yr Esgob Patrick i'r Salm hon cael ei chytansoddi gan Dafydd pryd yr oedd efe yn cael ei erlid gan Saul a'i lys, a'i gamgyhuddo gan Doeg ac ereill, 1 Sam. xxii. Y mae yr Esgob Horne ac ereill yn meddwl fod Dafydd yn y Salm hon yn personoli y MESSIA yn ei gyflwr o ddarostyngiad a dyoddefaint; ac, o ganlyniad, mai y gelynyon ag y cyfeirir atynt yma yw gelynyon Crist a'i eglwys, yn

2 Ymafael yn y darian a'r astalch, a chyfod i'm cymhorth.

3 Dwg allan y waewffon, ac argaea yn erbyn fy erlidwyr: dywed wrth fy enaid, *Myfi yw dy iachawdwr* iaeth.

4 Cywilyddier a gwaradwydder y rhai a geisiant fy enaid: ymchweler yn eu hol a gwarthäer y sawl a furiadant fy nrygu.

5 Byddant fel ũs o flaen y gwynt: ac angel yr Arglwydd yn eu herlid.

6 Bydded eu ffordd yn dywyllwch

ac yn lithrigfa: ac angel yr Arglwydd yn eu hymliid.

7 Canys heb achos y cuddiasant eu rhwyd i mi *mewn pydew*, yr hun heb achos a gloddiasant i'm henaidd.

8 Deued arno ddystryw ni wypo: a'i rwyd yr hon a guddiodd, a'i dalio: syrthlied yn y dystryw hwnw.

9 A llawenycha fy enaid i yn yr Arglwydd: *efe* a ymhyfyda yn ei iachawdwr iaeth ef.

10 Fy holl esgyrn a ddywedant, O Arglwydd, pwy *sydd* fel tydi, yn

enwedig bydol-lywiawdwy'r tywyllwch y byd hwn, y rhai y rhagfynegrir eu dinystr yn broffwydoliaethol.

Adn. 1. *Dadlœu fy nadl, Arglwydd*] Amddiffyn di fy achos, fel dadlœu'r mewn llys barn; *ymladdd a'r rhai a ymladdant â mi*—canys ni allaf fi fy amddiffyn fy hun rhagddynt, ac nid oes genyf neb ond tydi i gymeryd fy mhlaid.

Adn. 2. *Ymafael yn y darian a'r astalch*] I'm cysgodi a'm hamddiffyn. Dywedir hyn yn debygol mewn cyfeiriad at yr arferiad o ddwyn tarian o flaen y rhyfelwr, 1 Sam. xvii. 7. *A chyfod i'm cymhorth*—yn y frwydr boeth hon.

Adn. 3. *Dwg allan y waewffon*] Yr arfau ymosodol, yn gystal a'r rhai amddiffynol: boed i ti nid yn nnig fy amddiffyn i, ond en maeddu hwy. *Ac argaea yn erbyn fy erlidwyr*—cyfod glawdd rhyngddynt a mi, fel nas gallant ddyfod ataf drosto na thrwyddo. *Dywed wrth fy enaid, Myfi yw dy iachawdwr iaeth*—amlyga i fy meddwl dy fod yn iachawdwr iaeth i mi, neu cadarnha fy enaid yn y grediniaeth y bydd i ti o'r diwedd fy ngwared o'r erledigaeth hon.

Adn. 4. *Cywilyddier a gwaradwydder y rhai a geisiant fy enaid*] Neu a geisiant ddyfetha fy mywyd; *ymchweler yn eu hol a gwarthäer*—tröer yn ol mewn gwarth, y sawl a furiadant fy nrygu—sef Saul a'i bleidwyr. 'Y mae y drwg-erfyniau yn yr adnodau hyn yn erbyn *gelymion*,' ebai Clarke, 'oll yn *gyf-reithlon*. Nid ydynt yn erbyn eneidiau neu les tragwyddol pechaduriaid, eithr yn erbyn en dyfeisiadau a'u cynlluniau hwy i ddyfetha bywyd y ddiwedd; a gall y Cristion mwyaf santiaidd offrw m i fyny y fath weddiau yn erbyn ei wrthwynebwyr.' Neu gellir darllen y geiriau fel datganiad proffwydoliaethol, 'Cywilyddir a gwaradwyddir,' &c.; 'canys gellir ystyried hon, a'r adnodau dylunol hyd adn. 9,' fel y sylwa Benson, 'megys rhagfynegrid o'r dinystr ag ydoedd ar syrthio ar elynion Dafydd, ac ar elynion Crist a'i eglwys.'

Adn. 5. *Byddant fel ũs o flaen y gwynt*] Yn cael en chwalo a'u gyru ymaith yn anocheladwy; *ac angel yr Arglwydd yn eu herlid*—rhyw angel da neu ddrwg a benoder i'r gwaith gan' Dduw, neu ryw offeryn arall a drefno efe i'w gwargaru

Adn. 6. *Bydded eu ffordd*] Ar hyd yr hon y byddont yn cael eu gyru ymaith; *yn dywyllwch*—yn aflwyddiannus a pheryglus iddynt; *ac yn lithrigfa*—fel na allont sefyll ar eu traed, na dianc rhag eu hymliidiwr; *ac angel yr Arglwydd yn eu hymliid*—tybia Mudge mai *coruynt* nerthol a olygir wrth yr 'angel' yn y ddyw adnod hyn.

Adn. 7. *Canys heb achos*] O'm tu i, neu heb i mi wneyd dim i haeddu hyn; *y cuddiasant eu rhwyd i mi mewn pydew*—ar wyneb pydew, i'm maglu iddo, fel y gwna yr heliwr i faglu y creadur ag y byddo yn chwennych ei ddal: gwel ar Job xli. 1. Ond gellir darllen yr holl adnod fel hyn: 'Canys heb achos y cuddiasant eu rhwyd i mi; ydew heb achos a gloddiasant i'm henaidd.' Y mae yr ymadrodd *heb achos* yn cael ei ailadrodd yma, i'r dyben i ddangos yn gryfach ddiinweidrydd Dafydd, a mawr falais ei elynion.

Adn. 8. *Deued arno ddystryw ni wypo*] Sef rhyw *ystorm* ddychryllydd a disymwth, fel y mae y gair a gyfieithir yma 'dystryw' yn arwyddo; *a'i rwyd yr hon a guddiodd a'i dalio*—boed iddo syrthio ei hun i'r dystryw y furiadodd i mi; neu, 'efe a syrth iddo,' fel y rhagfynegrir yma: gwel ar adn. 4. Y mae yn debyg fod Dafydd yn eysteirio yma yn neillduol at Saul, yr hwn oedd ei brif elyn ef; ac y mae yn nodedig, ar ol i Saul geisio gwneud y Philistiaid yn rhwyd i ddal a dyfetha Dafydd, 1 Sam. xviii. 17, 25, ddarfod iddo ef ei hnn syrthio trwy ddwylaw y Philistiaid hyny, 1 Sam. xxxi. 3.

Adn. 9. *A llawenycha fy enaid i yn yr Arglwydd*] Am iddo fy ngwaredu i, heb fy rhoddi i fyny i ewylls fy ngelymion; *efe*—sef fy enaid, a *ymhyfyda yn ei iachawdwr iaeth ef*—nid yn unig mewn gwaredigaeth dymhorol, ond hefyd mewn iachawdwr iaeth ysbrydol a thragwyddol.

Adn. 10. *Fy holl esgyrn a ddywedant, &c.*] Nid yn unig ei enaid, am ba un y soniwyd yn adn. 9, ond ei gorff hefyd, yn nghyda'i holl alluoedd: byddent oll dan deimlad dwys o ddaioni yr Arglwydd iddo ef, ac yn barod i'w glodfodi ef am hyny. Iaith ffugryol yw hon, yr un modd a phan y dywedir fod yr esgyrn yn llawenychu, Salm li. 8, ar lwynau yn bendithio, Job xxxi. 20.

Adn. 11. *Tystion gau a gyfodasant*] I'm

gwaredu y tylawd rhag yr hwn a fyddo trech nag ef: y truan hefyd a'r tylawd, rhag y neb a'i hyspeilio?

11 Tystion gau a gyfodasant: holasant i mi yr hyn nis gwn oddi-wrtho.

12 Talasant i mi ddrwg dros dda, i yspeilio fy enaid.

13 A minau, pan glafychent hwy, oeddw'n â'm gwisg o sachlen: gostyngais fy enaid âg ympryd, a'm gweddi a ddychwelodd i'm mynwes fy hun.

14 Ymddygais fel *pe buasai* yn gyfaill, *neu yn frawd* i mi: ymos-

tyngais mewn galarwisg, fel un yn galaru *am ei* fam.

15 Ond ymlawenhasant hwy yn fy adfyd i, ac ymgasglasant: *ie*, ymgasglodd efryddion yn fy erbyn, ac nis gwyyddwn; rhwygasant *fi*, ac ni pheidient.

16 Yn mysg y gwatwarwyr rhagrithiol mewn gwleddoedd, ysgyrngasant eu dannedd arnaf.

17 Arglywydd, pa hyd yr edrychi di *ar hyn?* gwared fy enaid rhag eu dystryw hwynt, fy unig *enaid* rhag y llewod.

18 Mi a'th glodforaf yn y gynull-

herbyn, gan haeru fy mod yn bwriadu niwed i Saul, 1 Sam. xxiv. 9; *holasant i mi yr hyn*—neu 'cyhuddasant fi o'r hyn,' *nis gwn oddi-wrtho*—neu yr hyn yr wyf yn ddieuog ac anwybodus o hono. Fel hyn hefyd y cododd gan-dystion yn erbyn Crist, Mat. xxvi. 59, 60; a thybja yr Esgob Horsley fod yr hyn a ddywedir oddiyma hyd adu. 16, yn cyfeirio yn unio-gyrcchiol at achos ein Harglywydd bendigedig.

Adn. 12. *Talasant i mi ddrwg dros dda*] Yr oedd Dafydd wedi gwneyd llawer o ddaioni i Saul a'i deyrnas, trwy ladd Goliath a baeddu y Philistiaid; ac felly hefyd y gwnaethai Crist i bawb. *I yspeilio fy enaid*—neu i'w amddifadu of o'i *fywydd*; canys hyn yw ystyr y gair *nephesh* mewn llawer o fanau lle y dododd ein cyfieithwyr ni y gair *enaid*. Ond y mae y berfau Hebreig yma oll yn yr amser dyfofol, 'Tystion gau a gyfodant, *holant fi, talant i mi,*' &c.; yr hyn sydd brawf fod Dafydd yn cyfeirio yn fwy at yr hyn a wneid i Grist, nag at yr hyn a wnaethid iddo ef ei hun.

Adn. 13. *A minau, pan glafychent hwy*] Pan fyddent hwy mewn rhyw dralloed mawr; *oeddw'n â'm gwisg o sachlen*—yn ol arferiad galarwyr: *gostyngais fy enaid âg ympryd*—mewn cydymdeimlad â hwy, a gweddi drostynt: *a'm gweddi a ddychwelodd i'm mynwes fy hun*—ni wnaeth fy ympryd a'm gweddi ddim lles iddynt hwy, am ea bod yn parhau mewn ysbryd maleicus a gelyniaethus; ond dychwelodd ataf *fi*, fel rhodd a wrthodid gan ddy'n anfoesgar, ac a ddeuai yn ol i'r rhoddwr. Ond tybja rhai mai yf ystyr yw, 'A'm gweddi yn fy mynwas a ddychwelodd; hyn yw, yr oeddw'n yn mynychu fy ngweddian, neu yn anfon y naill weddi ar ol y llall. Ereill a'i cyfieithant, 'A'm gweddi a orphwysodd yn fy mynwas; hyn yw, nid oeddw'n un amser heb weddio o'm calon drostynt.'

Adn. 14. *Ymddygais fel pe buasai yn gyfaill neu yn frawd i mi*] Fel pe buaswn mewn perygl o gollu cyfaill neu frawd naturiol: *ymostyngais mewn galarwisg, fel un yn galaru am ei fam*—ag ydoedd wedi marw; neu 'fel mam alarus.' Fe allai i Saul fod ywbrwyd mewn rhyw glefyd peryglus; ac yr oedd ym-

ddygiad Dafydd tuag ato ef ar y pryd yn gysgod o Grist yn wlyo dros Jerusalem a'r Iuddewon, Luc xix. 41.

Adn. 15. *Ond ymlawenhasant hwy yn fy adfyd i*] Yn lle galaru mewn cydymdeimlad â mi; ac *ymgasglasant*—i gydymulawenbau ar yr achos, neu i ddyfeisio rhyw gyullun newydd i'w ffino ef yn fwy yn ei adfyd. *Ie, ymgasglodd efryddion yn fy erbyn*—y mae y gair *nechim*, 'efryddion,' yn arwyddo cloffion neu anafusion. Y mae hefyd yn arwyddo *tarauyddion*; rhai yn taraw â'u tafodan, fel gwatwarwyr neu eullibwyr; neu rai yn taraw âg arf, fel llofruddion. Y mae y gair yn arwyddo y rhai gwaelaf a diffeithiaf o'r bobl, neu rai wedi eu cyflogi i ddwyn ei fywyd oddiarno. *Ac nis gwyyddwn*—fod i mi y fath nifer o elymion, neu rai mor greulon, nes i mi eu canfod. Felly yr oedd gyda Dafydd; ond gwyddai Crist yn mlawn am ei holl elymion ef, ac am eu holl driniaethau iddo, Ioan xviii. 4. *Rhwygasant fi*—yn fy enw da, ac yn fy nbeimladau; *ac ni pheidient*—mwy na phe buasant lewod gwancus. Eithr cyflawnwyd hyn yn fwy llythyrenol yn Nghrist; canys rhwygasant ei ystlys ef, a thyllasant ei ddwyllaw a'i draed.

Adn. 16. *Yn mysg y gwatwarwyr rhagrithiol mewn gwleddoedd*] Y rhai a watwarent Dafydd er mwyn rhyngu bodd i'r mawrion, a chael gwleda ar eu bwrd; *ysgyrnygasant eu dannedd arnaf*—fel llewod; hyn yw, dangosant bob arwydd o gynddaredd a dygasedd tuag ato, er mwyn boddhuw y pen-aethiaid gelyniaethus. Ymddengys fod hyn yn gysgod o'r driniaeth a gai ein Harglywydd bendigedig oddiar law y milwyr Rhufeinig, Mat. xxvii. 28—31; ac fe allai i hyn ddygwydd yn amser un o wleddoedd Herod.

Adn. 17. *Arglywydd, pa hyd yr edrychi di ar hyn?* Fel gwr difater a didosturi? neu pa hyd y goddeff di hyn? *Gwared fy enaid rhag eu dystryw hwynt*—neu ei fywyd, rhag iddynt ei ladd. *Fy unig enaid*—neu, fel y mae rhai yn ei ddarllen, 'fy mywyd atwyl;' gwel ar Salm xxii. 20; *rhag y llewod*—rhag dynion ag oeddynt mor greulon a llewod.

Adn. 18. *Mi a'th glodforaf yn y gynullerfa fawr*] Yn addoliadau y cysegr, ac ar y gwyl-

eidfa fawr: moliannaf di yn mhlith pobl lawer.

19 Na lawenychant o'm herwydd y rhai sydd elynion i mi heb achos: y sawl a'm casant yn ddiachos, *nac* anneidiat â llygad.

20 Gan nad ymddyddanant yn dangneffeddus; eithr dychymygant eiriau dichellgar yn erbyn y rhai llonydd yn y tir.

21 Lledasant eu safn arnaf, gan ddywedyd, Ha, ha, gwelodd ein llygad.

22 Gwelaist *hyn*, Arglwydd: na thaw dithau; nac ymbellha oddi-wrthyf, O Arglwydd.

23 Cyfod, a deffro i'm barn, *sef* i'm dadl, fy Nuw a'm Harglwydd.

24 Barn fi, Arglwydd fy Nuw,

yn ol dy gyfiawnder; ac na lawen-hant o'm plegid.

25 Na ddywedant yn eu calon, O ein gwynfyd! na ddywedant, Llyncasom ef.

26 Cywilyddier a gwaradwydder hwy i gyd, y rhai sydd lawen am fy nrygfyd; gwisger â gwarth ac â chywilydd y rhai a ymfawrygant i'm herbyn.

27 Caned a llawenyched y rhai a hoffant fy nghyfiawnder: dywedant hefyd yn wastad, Mawryger yr Arglwydd, yr hwn a gâr lwyddiant ei was.

28 Fy nhafod inau a lefara am dy gyfiawnder a'th foliant ar hyd y dydd.

ian arbenig, ar ol i mi gael fy ngwaredu o'm cyfynged presenol. *Moliannaf di yn mhlith pobl lawer*—yn gyhoeddus ar bob rhyw bryd. Gall fod y geiriau *hyn*, yn eu perthynas â Christ, yn cyfeirio at y cyfnod ar ol ei adgyfodiad o'r bedd: gwel ar Salm xxii. 21, 22.

Adn. 19. *Na lawenychant o'm herwydd*] Sef o herwydd iddynt fy nghael dan eu traed; *y rhai sydd elynion i mi heb achos*—sef Saul a'i lyswyr, y rhai oeddynt yn casâu Dafydd yn ddiachos. *Nac anneidiat â llygad*—i'm gwawdio yn fy aflwydd, neu fel rhai wedi cael eu gwynfyd arnaf. Felly yr oedd gelynyon Crist yn ei 'gasâu yntau yn ddiachos,' Ioan xv. 25.

Adn. 20. *Gan nad ymddyddanant yn dangneffeddus*] Mewn iaitu heddyehol a thirion; *eithr dychymygant eiriau dichellgar*—twyllodrus, cwerylus, a gwaedlyd; *yn erbyn y rhai llonydd yn y tir*—sef Dafydd a'i bleidywyr, y rhai oeddynt am fyw yn dawel a heddyehol dan lywodraeth Saul.

Adn. 21. *Lledasant eu safn arnaf*] I dywallt allan ffrydiau o wawd, dirmyg, a thraha; *gan ddywedyd, Ha, ha*—neu gan chwerthin am fy mhen, neu ortoleddu am fod eu llygaid wedi gwelod eu bewyllys arnaf. Yr Hebraeg am 'Ha, ha,' yw *heach, heach*, lle y seinir yr *ch* fel yn y Gymraeg.

Adn. 22. *Gwelaist hyn, Arglwydd*] Os ghwelsant hwy fy adfyd i, adn. 21, gwelaist tithau eu gwawd a'u dirmyg hwythau: *na thaw dithau*—chwardda dithau yn eu dialedd hwy; neu, na phaid â gwrandao ac ateb fy ngweddi: *nac ymbellha oddiwrthyf*—o ran dy bresenoldeb a'th gymhorth grasol.

Adn. 23. *Cyfod, a deffro i'm barn*] Sef i ddadlâ fy achos yn erbyn fy ngwrthwyneb-wyr, adn. 1; *fy Nuw a'm Harglwydd*—yr hwn wyt, fel fy Nuw, mewn cyfammod â mi; ac, fel fy Arglwydd, yn ddigon galluog i'm hamddiffyn.

Adn. 24. *Barn fi, Arglwydd fy Nuw, yn ol dy gyfiawnder*] Trwy yr hwn yr wyt yn arferol o amddiffyn y diniwed, a chospi eu

gorthrymwyr. Y mae ffurf yr apeliad hwn at Dduw yn dangos yr hyder cryf oedd gan Dafydd yn yr Arglwydd, ac yn ei ddiiniwed-rywydd ei hun.

Adn. 25. *Na ddywedant yn eu calon*] Sef yn eu meddyliau o'u mewn; *O ein gwynfyd!*—neu, fel y mae yn y wreiddiol, 'Ha ein henaid!' Dull o ymadrodd yn arwyddo llawenydd a gorfoledd yn ninyst'r neu aflwyddiant Dafydd. *Nac ddywedant, Llyncasom ef*—gorchfygasom ef, fel llew yn llyncu ei sylgfaeth.

Adn. 26. *Cywilyddier a gwaradwydder hwy i gyd*] Neu 'gyda'u gilydd.' Yr un weddi, neu ragfynegiad o'r hyn a fyddai, ag o'r blaen: gwel ar adn. 4. *Y rhai sydd lawen am fy nrygfyd*—neu yn chwerthin am ben fy aflwydd, adn. 21. *Gwisger â gwarth ac â chywilydd*—cuddier hwynt oll o'u pen i'w traed â gwarth a chywilydd, fel y cuddir corff dyn â'i ddillad; *y rhai a ymfawrygant i'm herbyn*—y rhai, ar draul fy narostyngiad i, a'u dyrchafant eu hunain mewn balchder a llawenydd. Felly y gwnaed â Saul a'i filwyr pan y syrthiasant i ddwylaw y Philistiaid, ac y gorchfygwyd hwynt, I Sam. xxxi. 1, &c.

Adn. 27. *Caned a llawenyched y rhai a hoffant fy nghyfiawnder*] Neu fy achos cyfiawn, er na feddant nerth na gwroldeb i'w amddiffyn: *dywedant hefyd yn wastad*—mewn caniadau o orfoledd a diolchgarwch, *Mawryger yr Arglwydd*—am iddo ddangos ei fod yn caru llwyddiant ac iachawdwriaeth ei was Dafydd. Aucas gelynyon Dafydd oedd eu mawrygu eu hunain, adn. 26; ond amcan Dafydd oedd cael pawb i fawrygu a chlodfori yr Arglwydd.

Adn. 28. *Fy nhafod inau*] Gydag eiddo dy holl saint, a lefara am dy gyfiawnder—yn amddiffyn fy achos, ac yn fy ngwaredu o ddwylaw fy ngelynyon; *a'th foliant*—neu y clod a'r mawl ag sydd ddyledus i ti; *ar hyd y dydd*—yn wastadol, neu tra y byddaf byw ar y ddsear.

SALM XXXVI.

Y MAE anwiredd yr annuwiol yn dywedyd o fewn fy nghalon, nad oes ofn Duw o flaen ei lygaid ef.

2 O herwydd ymwenieithio y mae efe iddo ei hun yn ei olwg ei hunan, nes cael ei anwiredd yn atgas.

3 Geirian ei enau ydynt anwiredd a thwyll: peidiodd â bod yn gall i wneuthur daioni.

4 Anwiredd a ddychymyg efe ar ei wely: efe a'i gesyd ei hun ar y ffordd nid yw dda; nid ffaidd ganddo ddyrgioni.

SALM XXXVI. Y teitl yw, 'I'r penceidd, Salm Dafydd gwas yr Arglwydd.' Y teitl yu yr Hebraeg yw, 'I'r gorchfygwr, i was Jehoiada, i Dafydd.' Meddylir yn gyfiredin i Dafydd ei chyfansoddi yn nechre yr erledigaeth a ddyoddefai efe oddiwrth Saul: eithr tybia Calmet mai rhywun arall a'i hysgrifennodd hi, a hyn yn ystod y caethiawed Babiloniaidd.

Adn. 1. *Y mae anwiredd yr annuwiol yn dyncedyd o fewn fy nghalon*] Yn tystio yn eiddur yn fy nghydwylbod i; *nad oes ofn Duw o flaen ei lygaid ef*—hyn yw, yr wyf yn tynn casgliad yn fy meddwl fy hun, wrth ganfod ei ffordd annuwiol, nad yw ef yn ofni Duw. Ond yn lle, 'o fewn fy nghalon,' y mae pedwar o ysgrifffraun Kennicott a De Rossi yn darllen 'o fewn ei galon.' Tybia yr Esgob Horsley fod y gair *pesha*, yr llyn a gyfieithwn ni 'anwiredd,' yn arwyddol y *diafol*. Yna yr ystyr yw, 'Y mae y diafol yn dywedyd wrth yr annuwiol o fewn ei galon, Nid oes ofn; hyn yw, nid oes achos i otni: 'nid yw Duw o flaen ei lygaid ef.' Y mae yntau fel pe byddai yn credu hyn, ac yn myned yn mlaen yn ei yrfa bechadurus!

Adn. 2. *O herwydd ymwenieithio y mae efe iddo ei hun yn ei olwg ei hunan*] Y mae efe yn ei ddarbwyllio neu ei dwyllo ei hun i feddwl nad yw Duw yn sylwi ar ei bechodau, ac na fydd iddo eu cospi; *nes cael ei anwiredd yn atgas*—nes iddo ddeall, trwy y gosp a ddisgyn arno, fod ei annuwioldeb yn atgas a ffaidd yn ngolwg Duw. Y mae yn debyg inai at Saul y cyfeirir yn yr adnodau hyn.

Adn. 3. *Geirian ei enau ydynt anwiredd a thwyll*] Yr oedd Saul weithiau yn dywedyd yn dëg wrth Dafydd; eithr anwiredd a thwyll oedd ei eiriau ef, i dafu Dafydd oddiar ei wyladwriaeth. *Peidiodd â bod yn gall i wneuthur daioni*—yr hyn a fuasai yn gallineb ynddo. Yr oedd Saul, yn nechre ei deyrnasiad, yn ymddwyn yn bur gall, canys gwnaeth lawer o ddaioni i'w ddeiliaid; ond yn fuan declreuedd ymddwyn yn anghall iawn, trwy anfyddhau i orchymynion yr Arglwydd; ac yn y diwedd peidiodd yn hollol â defnyddio ei gallineb i wneuthur daioni. Gellir dywedyd yr un peth am bob pechadar, ac yn enwedig am y gwrthgilywr.

5 Dy drugaredd, Arglwydd, sydd hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd y cymylau.

6 Fel mynyddoedd cedyrn y mae dy gyfiawnder; dyfnder mawr yw dy farnedigaethau: dyn ac anifel a gedwi di, Arglwydd.

7 Mor werthfawr yw dy drugaredd, O Dduw! am hyn yr ymddiried meibion dynion dan gysgod dy adenydd.

8 Llawn-ddigonir hwynt â brader dy dŷ; ac âg afon dy hyfrydwech y diodi hwynt.

9 Canys gyda thi y mae ffynnon

Adn. 4. *Anwiredd a ddychymyg efe ar ei wely*] Hyn yw, o'i duedd ddrwg ei hun yn unig, pan na byddo neb yn agos ato i'w aunog i hyn; neu, yr oedd dyfetha Dafydd yn gorphwys gymaint ar ei feddwl, nes yr oedd yn nyfyrno yn ei wely y nos pa fodd y gallai ei ddwyn i ben. *Efe a'i gesyd ei hun ar y ffordd nid yw dda*—fel pe byddai yn gwahodd y brofedigaeth i ymosod arno; *nid ffaidd ganddo ddyrgioni*—unrhyw ddyrgioni, hyd yn nod llofruddiaeth.

Adn. 5. *Dy drugaredd, Arglwydd, sydd hyd y nefoedd*] Yn fawr a diderfyn; *a'th wirionedd hyd y cymylau*—sef dy fyddlondeb i gyflawni dy addewidion, y rhai a wnaethost i'th bobl. Yr oedd yn dda gan Dafydd feddwl am hyn yn nghauol ei holl drallodion a'i ofidiau oddiwrth Saul.

Adn. 6. *Fel mynyddoedd cedyrn*] Yn sicr a ddysgog; *y mae dy gyfiawnder*—neu dy weinyddiaidau cyfiawn yn llywodraethiad y byd; *dyfnder mawr yw dy farnedigaethau*—y mae dy feddyliau, dy ffordd, a'th weithredoedd oll, yn anamgylfredadwy ac anolrheiniadwy: gwel ar Rhuf. xi. 33. *Dyn ac anifel a gedwi di*—ac am hyn ni ddylwn i anobeithio am dy gadwraeth.

Adn. 7. *Mor werthfawr yw dy drugaredd, O Dduw!*] Er fod dy holl brodoliaethau ereill yn werthfawr a gogoneddus, eto y mae dy drugaredd, i ddyd pechadurus a thruennus, yn werthfawroch na hwynt oll. *Am hyn yr ymddiried meibion dynion*—er maint eu pechaduruswydd hwy, a chynddaredd eu gelynyddion; *dan gysgod dy adenydd*—am ddiogelwch a thrugaredd. Y mae yma gyfeiriad at i'w cysgodi ei chysuron â'i hadenydd.

Adn. 8. *Llawn-ddigonir hwynt â brader dy dŷ*] Caiff y rhai a ymddiriedant ynot nid yn unig ddiogelwch tymhorol, ond hefyd gyfiawnder o freintiau eglwysig neu fendithion ysbrydol; *ac âg afon dy hyfrydwech y diodi hwynt*—sef â chysuron ysbrydol yn helaeth fel afon. Y mae rhai ysgrifffraun yn darllen yma, 'âg afon dy Eden;' a'r meddwl felly yw, y caent eu hadfer eilwaith i'w cyflwr paradwysaidd; canys y mae yma gyfeiriad at yr afon ag oedd yn rhedeg trwy ardd Eden i'w dyfrhau hi, Gen. ii. 10.

Adn. 9. *Canys gyda thi y mae ffynnon y*

y bywyd: yn dy oleuni di y gwelwn oleuni.

10 Estyn dy drugaredd i'r rhai a'th adwaenant, a'th gyfiawnder i'r rhai uniawn o galon.

11 Na ddeued troed balchder i'm herbyn: na syfled llaw yr amuwïol fi.

12 Yno y syrthiodd gweithwyr anwiredd: gwrthwyd hwynt i lawr, ac ni allant gyfodi.

SALM XXXVII.

NAC ymddigia o herwydd y rhai drygionus, ac na chenfigena

bywyd] Neu 'ffynnon fyw,' neu *redegog*, (Dat. xxii. 1.) o'r hon y tardda yr afon hôno o hwyfrydwlch a chysuron ysbydol, ac o'r hon y cawn ni fywyd naturiol, ysbydol, a thragwyddol. *Yn dy oleuni di*—yr hwn a gyfreni di i'th bobl, neu mewn gwybodaeth achubol o honot ti: *y gwelwn oleuni*—neu y cawn twynhau 'goleuni y bywyd,' fel ei gelwir yn Ioan viii. 12; sef goleuni pur heb ddim tywyllwch, gwybodaeth heb ddim anwybodaeth, santeiddrwydd heb bechod, a dedwyddwlch heb boen. Yn ngoleuni gair ac Ysbryd Duw, ac yn llewyrch ei wyneb ef yn unig, y cawn ni wir oleuni ar ddrwg pechod, gwerth crefydd, a gogoniant pethau ysbrydol a nefol.

Adn. 10. *Estyn dy drugaredd i'r rhai a'th adwaenant*] Hebr., 'tyn allan dy drugaredd,' sef o'r ffynnon ddilysbydd o ras a thrugaredd ag sydd gyda thi; *a'th gyfiawnder*—dy nodd-ei a'th amddiffyniad cyfiawn; *i'r rhai uniawn o galon*—fe allai fod Dafydd yn cyfeirio yna ato ei hun a'i wŷr, y rhai oeddynt yn uniawn eu calon tuag at Saul a'i lywodraeth. Ond gellir deall y geiriau hwyd fel gweddi y duwïolion am bob gras, trugaredd, a bendith ag sydd arnynt eu heisiau yn y fuchedd hon.

Adn. 11. *Na ddeued troed balchder i'm herbyn*] Sef traed ei elynion beilchion a ffroen-uchel; *na syfled llaw yr annuwïol fi*—na fydded i Saul a'i wŷr fy nhabu i lawr â'u dwylaw, na'm sathru â'u traed. Na fydded iddynt siglo fy hyder, cythryblu fy ysbyrd, na niwedio fy nghorff.

Adn. 12. *Yno y syrthiodd gweithwyr anwiredd*] Yno, lle y daethant i'm herbyn i'm dyfetha i, y syrthiasant hwy eu hunain. Y mae Dafydd fel yn cyfeirio at y lle â'i fys, un-wedd a phe buasai eu dynstr wedi ei gyflawni yno eisioes. *Gwrthwyd hwynt i lawr*—efe a lefar am eu dynstr, dan ddylanwad ysbyrd profwydoliaeth, gyda'r un sicryddad a phe buasai wedi dygwdd eisioes. *Ac ni allant gyfodi*—i'm aystriwio i, nac i ddianc rhag dystryw eu hunain.

SALM XXXVII. Y teitl yw, 'Salm Dafydd.' Meddylir yn gyfiredia i Dafydd ei chyfansoddi yn ei benaint, adn. 25, a lyny i

wrth y rhai a wnant anwiredd.

2 Canys yn ebrwydd y torir hwynt i'r llawr fel glaswellt, ac y gwywant fel gwyrdd-lyisiau.

3 Gobeithia yn yr Arglwydd, a gwna dda; *felly* y trigi yn y tir, a thi a borthir yn ddian.

4 Ymddigrifa hefyd yn yr Arglwydd; ac efe a ddyry i ti ddy-muniadau dy galon.

5 Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo; ac efe a'i dwg i ben.

6 Efe a ddwg allan dy gyfiawnder fel y goleuni, a'th farn fel hanner dydd.

amddiffyn rhaguniaeth Duw, a thawelu meddyliau dynion o berthynas i anghyfurtalwch ymddangosiadol ei orchwyliaethau ef tuag at ddynion, pan y mae fel yn gwgu ar ddynion da, ac yn llwyddo dynion drwg. Ond tybia ereill iddi gael ei chyfansoddi yn hir ar ol amser Dafydd; ac mai amean yr awdwr oedd addysgu a chysuro y caethion yn Mabilon, y rhai a deimtid i rwnachrwydd wrth weled llwyddiant yr eilunaddolwyr yno, tra yr oedd-ynt hwy eu hunain, addolwyr y gwir Dduw, yn gorfod dyoddef cystudd a chaethiwed; a thybiant yn mbellaeth en bod yn canfod rhag-fynegiad am eu dychweliad i'w gwlad eu hunain mewn deg o wahanol fanau yn y Salm hon. Hon yw y drydedd o'r Salmau gwydd-orïg; eithr gwahaniaetha oddiwrt y ddywy flaeaf trwy feddu dwy adnod dan bob llythyren Hebraeg, yn lle un: gwel y sylw ar deit Salm xxv.

Adn. 1. *Nac ymddigia o herwydd y rhai drygionus*] O herwydd eu llwyddiant hwy yn y byd hwn, tra yr wyt ti, addolwr y gwir Dduw, yn astwyddiannus; *ac na chenfigena wrth y rhai a wnant anwiredd*—sef wrth eu dedwyddwch ymddangosiadol hwy, gan ewyll-ysio bod dy hun yn eu cyflwr hwy.

Adn. 2. *Canys yn ebrwydd y torir hwynt i'r llawr*] Gan bladur angau, fel gwair; *ac y gwywant fel gwyrdd-lyisiau*—naill ai gan gystudd cyn marw, neu yn y bedd ar ol marw; a'u henw, eu cofiadwriaeth, a'u heiddo hefyd, a wywant fel glaswellt neu wyrdd-lyisiau ar ol eu tori.

Adn. 3. *Gobeithia yn yr Arglwydd*] Ymbwysa ar addewid, ffyddlondeb, a gallu Duw, am lwyddiant a chynaliaeth; *a gwna dda*—cadw yn gydwybodol ei holl orchymynion ef: *felly y trigi yn y tir*—yn ngwlad Canaan; *a thi a borthir yn ddian*—â phob peth angenrheidiol i gynal a dedwyddoli bywyd.

Adn. 4. *Ymddigrifa hefyd yn yr Arglwydd*] Yn ei addoliad a'i wasanaeth ef; *ac efe a ddyry i ti ddy-muniadau dy galon*—pa beth bynag ag sydd ddymunol ynddo ei hun, ac yn unol âg ewyllys Duw.

Adn. 5. *Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd*] Dy holl ofal a'th anghenion; *ac ymddiried*

7 Dystawa yn yr Arglwydd, a dysgwyl wrtho: nac ymddigia o herwydd yr hwn a lwyddo ganddo ei ffordd, wrth y gŵr sydd yn gwneuthur ei ddrwg amcanion.

8 Paid â digofaint, a gâd ymaith gynddaredd: nac ymddigia er dim i wneuthur drwg.

9 Canys torir ymaith y drwg ddynion: ond y rhai a ddysgwylant wrth yr Arglwydd, hwynt-hwy a etifeddant y tir.

10 Canys eto ychydigyn, ac ni welir yr annuwiol: a thi a edrychi am ei le ef, ac ni bydd dim o hono.

11 Eithr y rhai gostyngedig a etifeddant y ddaear; ac a ymhyfrydant gan luaws tangnefedd.

ynddo—yn ei allu a'i ffyddlondeb; *ac efe a'i dwg i ben*—a wna i fyny dy holl eisiau, ac a ddyry i ti ddymuniaidau dy galon, adn. 4.

Adn. 6. *Efe a ddwg allan dy gyfiawnder fel y golenni*] I olwg y byd, yr hwn oedd o'r blaen yn guddiedig gan adfyd ac aflwyddiant, neu gan warthruddiaidau dy elynion; *a'th farn fel hammer dydd*—bydd dy uniondeb mor eglur i bawb a'r haul ganol dydd.

Adn. 7. *Dystawa yn yr Arglwydd*] Heb rwnnach yn erbyn ei ffyrdd ef; *a dysgwyl wrtho*—am gyfiawndd o'i addewidion: *nac ymddigia o herwydd yr hwn a lwyddo ganddo ei ffordd*—neu sydd lwyddiannus a fiodus yn y byd; *wrth y gŵr sydd yn gwneuthur ei ddrwg amcanion*—wrth yr hwn sydd yn lwyddo yn ei ffordd, ac ar yr un pryd yn bechadur cyboeddus neu yn eilunaddolwr.

Adn. 8. *Paid â digofaint*] Paid â digio wrth y dyn drwg lwyddiannus, nac wrth Dduw yr hwn sydd yn goddef iddo lwyddo dros ychydig; *a gâd ymaith gynddaredd*—gradd uwch o ddigofaint, neu weithred ddial-eddol yn dilyn digofaint, fel y dywedir yn y geiriau nesaf: *nac ymddigia er dim i wneuthur drwg*—mor bell ag i ddial ar y neb yr ymddigi wrtho.

Adn. 9. *Canys torir ymaith y drwg ddynion*] Gan farn Duw, heb i ti ddial arnynt: *ond y rhai a ddysgwylant wrth yr Arglwydd*—ar lwybrau crefydd a dyledswydd; *hwynt-hwy a etifeddant y tir*—a barhant i etifeddu gwlad Canaan, a phob cynaliaeth angenrheidiol ynddi, yn ol addewid Duw i'r cyfryw rai, Essay lvii. 13. Ond tybia rhai mai addewid i'r gaethglud am ddychwelid adref o Babilon yw y geiriau hyn, ac felly hefyd adn. 3, 11, 22, 29, &c.; gwel y teitl.

Adn. 10. *Canys eto ychydigyn*] Yn mhen ychydig bach o amser eto; *ac ni welir yr annuwiol*—ar dir y rhai byw: *a thi a edrychi am ei le ef*—am ei dŷ, ei gartref, neu ei ogoniant; *ac ni bydd dim o hono*—bydd ef a'i ogoniant wedi difannu; gwel ar adn. 36. Tybia rhai mai cyfeiriad sydd yma at ddinystir Babilon.

12 Yr annuwiol a amcana yn erbyn y cyfiawn, ac ysgyrnyga ei ddannedd arno.

13 Yr Arglwydd a chwadd am ei ben ef: canys gwel fod ei ddydd ar ddyfod.

14 Yr annuwiolion a dynasant eu cleddyf, ac a annelasant eu bwa, i fwrw i lawr y tylawd a'r anghenog, ac i ladd y rhai uniawn eu ffordd.

15 Eu cleddyf a â yn eu calon eu hunain, a'u bwâau a ddryllir.

16 Gwell yw yr ychydig sydd gan y cyfiawn na mawr olud annuwiolion lawer.

17 Canys breichiau yr annuwiolion a dorir: ond yr Arglwydd a gynal y rhai cyfiawn.

Adn. 11. *Eithr y rhai gostyngedig*] Neu y rhai cystuddiedig, isel, a duwiol; *a etifeddant y ddaear*—sef gwlad Canaan; *ac a ymhyfrydant gan luaws tangnefedd*—tra y bydd y drwg ddynion wedi eu tori ymaith. Cânt ymhyfrydu mewn mwynhad o bob math o dangnefedd; tangnefedd cartrefol, ysbrydol, a thragwyddol; tangnefedd yn eu cydwboedau, a thangnefedd rhyngddynt â Duw.

Adn. 12. *Yr annuwiol a amcana yn erbyn y cyfiawn*] Yn erbyn ei gysur a'i fywyd ef, gan genigenu wrtho am fod y fath dangnefedd ganddo; *ac a ysgyrnyga ei ddannedd arno*—yn arwydd o'i ddiruwyg arno, a'i elyniaeth ato.

Adn. 13. *Yr Arglwydd a chwadd am ei ben ef*] Am ben yr annuwiol gwatwarlyd; *canys gwel fod ei ddydd ar ddyfod*—sef dydd ei ddinystir: gwel ar Diar. i. 26.

Adn. 14. *Yr annuwiolion a dynasant eu cleddyf*] Allan o'r wain; *ac a annelasant eu bwa*—parotoisant bob math o arfau ymosodol; *i fwrw i lawr y tylawd a'r anghenog*—y rhai nid allent eu hamddiffyn eu hunain rhagddynt; *ac i ladd y rhai uniawn eu ffordd*—y rhai ni wnaethant ddim drwg i baeddu cael eu lladd felly. Ond tybia rhai mai ymadrodd ffugryol yw y cleddyf a'r bwa yma, yn arwyddo enllib a chehwydd: gwel ar Salm lxi. 3.

Adn. 15. *Eu cleddyf a â yn eu calon eu hunain*] Bydd i'r drwg a amcanasant hwy i'r cyfiawnon, droi yn eu herbyn hwy eu hunain; *a'u bwâau a ddryllir*—a wneir yn aneffeithiol, fel nas gallant eu niweidio.

Adn. 16. *Gwell yw yr ychydig sydd gan y cyfiawn*] O bethau y byd hwn, gyda bendith yr Arglwydd arnynt; *na mawr olud annuwiolion lawer*—am eu bod hwy a'u golud dan fellldith Duw, fel y danghosir yn eglur yn y diwedd: gwel ar adn. 22.

Adn. 17. *Canys breichiau yr annuwiolion*] Eu llyyddiant, eu nerth, a'u dylanwad; *a dorir*—neu a dddidymir, fel na allent orthrymu na niweidio y cyfiawnon mwyach: *ond yr Arglwydd a gynal y rhai cyfiawn*—a fydd yn nerth ac yn amddiffyn iddynt:

18 Yr Arglwydd a edwyn ddyddiau y rhai perffaith: a'u hetiffedd-iaeth hwy fydd yn dragywydd.

19 Nis gwaradwyddir hwy yn amser drygfyd: ac yn amser newyn y cânt ddigon.

20 Eithr collir yr annuwiolion, a gelymion yr Arglwydd fel brasder wŷn a ddiflanant: yn fwg y diflanant hwy.

21 Yr annuwiol a echwyna, ac ni thâl adref: ond y cyfiawn sydd dragarog, ac yn rhoddi.

22 Canys y rhai a fendigo efe, a etiffeddant y tir; a'r rhai a felldithio efe, a dorir ymaith.

23 Yr Arglwydd a fforddia gerddediad gŵr da: a da fydd ganddo ei ffordd ef.

24 Er iddo gwympo, ni lwyr-fwrir ef i lawr: canys yr Arglwydd sydd yn ei gynal ef â'i law.

25 Mi a fŷm ieuanc, ac yr ydwyf yn hen; eto ni welais y cyfiawn wedi ei adu, na'i had yn cardota bara.

26 Bob amser y mae efe yn dru-

bydd yn gynaliaeth iddynt mewn bywyd, yn angau, ac am dragwyddoldeb.

Adn. 18. *Yr Arglwydd a edwyn ddyddiau y rhai perffaith*] Y mae yn gwybod am eu holl amgylchiadau—eu peryglon, eu dyodde-iaidau, eu hofnau, a'u gwendid. Y mae dyddiau, blynyddoedd, neu amserau, yn cael eu rhoddi yn aml am y pethau a wneir neu a ddyoddefir ynddynt; megys dyddiau dedwydd, blynyddoedd blin, amserau enbyd. *A'u hetiffeddiaeth hwy fydd yn dragywydd*—yn ngwlad Canaan, adn. 29: neu, pery eu hetiffeddiaeth o ras tra y byddant byw yma, a phery eu hetiffeddiaeth o'ogoniant byth yn y nef: gwel ar Heb. ix. 15, 1 Pedr i. 4.

Adn. 19. *Nis gwaradwyddir hwy yn amser drygfyd*] Am y bydd Duw iddynt hwy yn gymborth hawdd ei gael yn mhob cyfyngder; *ac yn amser newyn y cânt ddigon*—nid yn unig cânt ran, ond cânt ddigon, hyd yn nod pe gorfyddai i Dduw wneyd gwyrthiau i'w porthi, fel y gwnaeth efe âg Elias yn Sarepta, ac â'r Israeliaid yn yr anialwch.

Adn. 20. *Eithr collir yr annuwiolion*] Oddiar y ddaear trwy drygfyd a newyn; i.e., collir eu heneidiau yn ngwlad y golledigaeth dragyddol: a *gelymion yr Arglwydd fel brasder wŷn a ddiflanant*—fel gwêr neu fraser wŷn y poeth-offrwm, yr hwn a lwyr losgid mewn ychydig amser: *yn fwg y diflanant hwy*—fel yr oedd hwnw yn dyrchafu yn fwg oddiar allor y poeth-offrwm.

Adn. 21. *Yr annuwiol a echwyna*] Neu a ofyn fenthyg; ac *ni thâl adref*—yr hyn a roddwyd yn fenthyg iddo: *ond y cyfiawn sydd dragarog*—wrth y tylawd a'r anghenus; *ac yn rhoddi*—y mae ei galon yn cael ei thueddu i hyny gan ddylanwad dwyfol ras, ac y mae ei law yn alluog i hyny trwy fendith rhagluniaeth Duw, adn. 22. Y mae y Salm-ydd yma yn cydmaru yr annuwiol a'r drygionns yn fwy gyda golwg ar eu gallu i weith-redu, na chydâ golwg ar eu rhinwedd neu eu hamsoddau moesol, fel y mae yn eglur oddi-wrth yr adnod nesaf, lle y cawn reswm am y gwahaniaeth rhyngddynt.

Adn. 22. *Canys y rhai a fendigo efe, a etiffeddant y tir*] Fel ag y bydd ganddynt fodd i roddi; *a'r rhai a felldithio efe, a dorir ymaith*—oddiwrth feddianau bydol, oddiar y ddaear, ac i dragyddol golledigaeth, adn. 2, 9, 16.

Adn. 23. *Yr Arglwydd a fforddia gerddediad gŵr da*] At bob rhinwedd a duwioldeb, neu a'i tuedda ac a'i cadarnha ef fel na syrthio i ddrygioni; *a da fydd ganddo ei ffordd ef*—sef da gan Dduw, am ei bod o drefniad Duw ei hun, a'i fod yntau yn ei cherdded dan hyfforddiad ac arweiniad Duw, ac er gogoniant i'w enw ef. Ond tybia rhai mai yr ystyr yw, fod y gŵr da yn ymhyfrydu yn ffordd Duw, neu yn nghyfraith a gwasanaeth ei Wneuthurwr. Ond nid yw y gair da yn yr Hebraeg yn y frawddeg gyntaf: *gaber* yn unig sydd yn y wreiddiol, yr hwn a arwddda 'gŵr cadarn,' Job x. 5, a xiv. 10: a gall ei fod yn cael ei ddefnyddio yma, i arwyddo fod yn rhaid i'r dyn cadarnaf a gwrolaf gael ei gynal a'i dywys gan yr Arglwydd, onid na fydd ei gadernid a'i wroldeb o ddim lles.

Adn. 24. *Er iddo gwympo*] I gyfyngder neu drallod, Mica vii. 8; *ni lwyr-fwrir ef i lawr*—fel ag i gael ei hollol lethu, am fod yr Arglwydd yn gynaliaeth a chysur iddo. Y mae y wreiddiol yn dra byr a pluwysig, *ki yippol, lo yutal*, yr hyn a gyfeithir yn y Galdeaeag, 'Er iddo glafychu, ni bydd marw.' Nid yw y testyn Hebraeg, nac un o'r cyfieithiadau, fel y sylwa Clarke, 'yn arwyddo mai cwympo i bechod a feddylir; eithr cwympo i drallod, anhawsder, &c.'

Adn. 25. *Mi a fŷm ieuanc*] Fel pawb ereill; *ac yr ydwyf yn hen*—wedi cyraedd bellach henaint a phenllwydni: *eto ni welais y cyfiawn wedi ei adu*—gan ragluniaeth dadol Duw; *na'i had yn cardota bara*—ac yn methu ei gael; neu yn gorfod naill ai cardota, neu farw o newyn; yn enwedig os byddent yn rhodio yn llwybrau cyfiawn eu tad. Nid yw yn dywedyd nad allai hyn ddygwydd weithiau fel eithriad, ond ni *welais* Dafydd y fawr beth, neu ni welais hyny yn beth cyffredin. Ond yr oedd addewidion *tymorol* o'r fath yma yn fwy cymhwysiadol i'r Israeliaid dan yr hen oruchwyliaeth, pryd yr oedd gan bob llwyth a theulu etiffeddiaeth iddynt eu hunain yn Nghanaan, yr hon a drosglwyddid i'w hiliog-aeth trwy yr holl genedlaethau, nag y maent i ni dan yr oruchwyliaeth newydd: ac eto rhaid addef fod gan dduwioldeb o hyd adewid o'r bywyd sydd yr awr hon, yn gystal a'r hwn a fydd, 1 Tim. iv. 8; ac y bydd i'r neb a geisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, gael yr holl bethau angenrheidiol hyn yn

garog, ac yn rhoddi benthg; a'i had a fendithir.

27 Cilia di oddiwrth ddrwg, a gwna dda; a chyfanedda yn dragywydd.

28 Canys yr Arglwydd a gâr farn, ac ni edy ei saint; cedwir hwynt yn dragywydd: ond had yr annuwiol a dorir ymaith.

29 Y rhai cyfiawn a etifeddant y ddaear, ac a breswylant ynndi yn dragywydd.

30 Genau y cyfiawn a fynega ddoethineb, a'i dafod a draetha farn.

chwaneg, Mat. vi. 33. 'Yr wyf fi yn credu fod hyn yn llythrenol wrth yn mhob achos,' ebai Clarke; ac efe a chwanega, 'Yr wyf fi yn awr yn benllwyd fy hunan; bwm yn teithio mewn gwahanol wledydd, a chefais lawer o gyfeusderau i weled ac ymddyddan â phobl grefyddol yn mhob sefyllfa mewn bywyd; ac ni welais, trwy wybod i mi, un siampl i'r gwrthwyneb.'

Adn. 26. *Bob amser y mae efe yn dragarog*] Yn rhoddi elusen i'r tylawd, heb ddysgwyl ei chael yn ol; *ac yn rhoddi benthg*—i'r anghenus dros amser penodol vn unig; *a'i had a fendithir*—â phob digonoldeb er ei fwyn ef, fel na fydd rair iddynt gardota bara. Y mae y cyfiawn mor bell o orfod cardota, nes y mae ganddo allu ac ewylls i gynorthwyo ei gymydeigion anghenus, a rhywfaint gyda hyny i'w adael i'w blant ar ei ol.

Adn. 27. *Cilia di oddiwrth ddrwg, a gwna dda*] Y mae gras Duw yn rhoddi y *galbi deublyg* hwn i bob un ag sydd yn ewyllysgar i'w dderbyn ef; sef gallu i gilio oddiwrth bob drwg, a gallu i wneyd pob da a ofynir genyn. *A chyfanedda yn dragywydd*—yn nhŷ yr Arglwydd. Neu gellir deall hyn fel addewid y cai y cyfryw un gyfaneddu yn dragywydd, yn y Ganaan ddaearol tra y byddai byw, ac yn y Ganaan nefol wedi iddo farw. Fel hyn y mae addewid a dyledswydd yn myned bob amser law-yn-llaw. Y mae yn debyg fod y Salmwydd yn cyfeirio yma at yr hyn a ddywedasai efe uchod: Gan fod genym yr addewidion hyn, na fydded i ti *wneyd drwg*, neu ymgadw oddiwrth elusen, i'r dyben i ymygythog; na *phleidio gwneyd da*, sef peidio rhoddi elusen, rhag myned yn dylawd; eithr yn hytrach bydded i ti fyw yn y cyflawniad cydywobodol o'th holl ddyledswyddau tuag at Dduw a dynion, yr hyn yw y ffordd i sicrhau i ti dy hun bob bendith dymhorol ac ysbrydol.

Adn. 28. *Canys yr Arglwydd a gâr farn*] Sef barn gyfiawn, neu weithredoedd o gyfiawnder; *ac ni edy ei saint*—Hebr., 'ei rai trugarog,' neu desturiol wrth y tylawd: *cedwir hwynt yn dragywydd*—rhag y rhai a geisiant eu dyfetha, ac i fywyd tragwyddol. *Ond had yr annuwiol a dorir ymaith*—sef eu plant hwy: gwel ar Salm xxi. 10.

Adn. 29. *Y rhai cyfiawn a etifeddant y ddaear*] Sef gwlad Canaan; *ac a breswyl-*

31 Deddf ei Dduw sydd yn ei galon ef; a'i gamrau ni lithrant.

32 Yr annuwiol a wylia ar y cyfiawn, ac a gais ei ladd ef.

33 Ni âd yr Arglwydd ef yn ei law ef, ac ni âd ef yn euog pan ei barner.

34 Gobeithia yn yr Arglwydd, a chadw ei ffordd ef, ac efe a'th ddyrchafa fel yr etifeddech y tir: pan ddyfether yr annuwiolion, ti a'i gweli.

35 Gwelais yr annuwiol yn gadarn, ac yn frigog fel y lawryf gwyrd.

iant ynddi yn dragywydd—o genhedlaeth i genhedlaeth, heb eu tori ymaith fel had yr annuwiol: gwel ar adn. 9, 11, 18.

Adn. 30. *Genau y cyfiawn a fynega ddoethineb*] Ac nid ymadrodd ffol a llygredig; *a'i dafod a draetha farn*—yr hyn sydd uniawn a chyfiawn ar bob achos. Ar ol bed yn sylwi ar freintiau y cyfiawn yn yr adnodau blaenorol, y mae efe yma yn dysgrifio eu cymeriad neu eu gwaith hwy.

Adn. 31. *Deddf ei Dduw sydd yn ei galon ef*] Yn ol gorchymyn Duw, Deut. vi. 6, a'i addewid ef, Jer. xxxi. 33; *a'i gamrau ni lithrant*—trwy ei fod yn rhodio yn ol deddfau Duw, ac yn cael ei arwain a'i gynal gan ei Waredwr hollallueg, adn. 24.

Adn. 32. *Yr annuwiol a wylia ar y cyfiawn*] Fel llew yn gwylio ei ysglyfaeth; *ac a gais ei ladd ef*—trwy ei gamgyhuddo o ryw drosedd yn haeddu marwolaeth.

Adn. 33. *Ni âd yr Arglwydd ef yn ei law ef*] I gael ei ddyfetha ganddo; *ac ni âd ef yn euog pan ei barner*—neu y dedfryder ef i farw. Bydd i'r Arglwydd rwyfodd amdiffyn ei ddiniweidrwydd ef, a'i ollwng yn rhvdd.

Adn. 34. *Gobeithia yn yr Arglwydd*] Am waredigaeth felly, a phob bendith angenrheidiol arall; *a chadw ei ffordd ef*—yr hon y gorchymyna efe yn ei air santiaidd i ti ei rhodio; hyn yw, ufyddia iddo, a gwasanetaeth ef wrth ei fodd; *ac efe a'th ddyrchafa, fel yr etifeddech y tir*—sef gwlad Canaan: gwel ar adn. 9. *Pan ddyfether yr annuwiolion, ti a'i gweli*—nid yn unig cai ddianc rhag y dinystr a fwr-iadasant hwy i ti, ond cai fyw i weled eu dinystr hwy eu hunain.

Adn. 35. *Gwelais yr annuwiol yn gadarn*] Mewn cyfoeth, llwyddiant, ac awdurdod, nes yr oedd yn ddychryu i baw o'i amgylch; *ac yn frigog fel y lawryf gwyrd*—yr hwn a ymddengys yn i'r a gwyrdllas pan fo pob pren arall wedi colli ei ddail; neu wedi ei goroni â *lawryf*, yn arwydd o anrhydedd a gogoniant. 'Yn frigog fel y cedrwydd yn Libanus.'—*Arabaeg, Ethiopaeg*. 'Fel pren gwyrdllas yn ei dir priodol.'—*Caldeaeg*. Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at frenin Babilon, a'r weledigaeth a gawsai efe o'r pren mawr a chadarn: gwel ar Dan. iv. 10, &c.

Adn. 36. *Er hynny efe a aeth ymaith*] Yn ddisymwth o ganol ei fawrodd, er mor gadarn

36 Er hyny efe a Æth ymaith, ac welc, nid oedd mwyl o hono: a mi a'i ceisiais, ac nid oedd i'w gael.

37 Ystyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn: canys diwedd y gwŕ hwnw fydd tangnefedd.

38 Ond y troseddwy'r gyd-ddys-trywir: diwedd yr annuwiolion a dorir ymaith.

39 A iachawdwriaeth y cyfiawn sydd oddiwrth yr Arglwydd: efe yw ei nerth yn amser trallod.

40 A'r Arglwydd a'u cymhorth hwynt, ac a'u gwared: efe a'u gwared hwynt rhag yr annuwiolion, ac

a'u ceidw hwynt, am iddynt ymddiried ynddo.

SALM XXXVIII.

ARGLWYDD, na cherydda fi yn dy lid: ac na chospa fi yn dy ddigllonedd.

2 Canys y mac dy saethau yn nglŷn ynof, a'th law yn drom arnaf.

3 Nid oes iechyd yn fy nghnawd, o herwydd dy ddigllonedd; ac nid oes heddwch i'm hesgyrn, oblegid fy mhechod.

4 Canys fy nghamweddau a aeth-

a brigog ydoedd; ac welc, nid oedd mwyl o hono—trwy iddo gael ei lwy'r ddiwroiddio, a'i svmd o'r ffordd. Ond y mac y *Syriac*, *Houbigant*, ac ereill, yn ei ddarllen, 'Mi a aethym heibio, ac welc, nid oedd mwyl o hono.' A mi a'i ceisiais—yn y fan lle yr oedd gynt yn fodeuog, ac nid oedd i'w gael—trwy fod ei enw a'i goffawriaeth wedi diflanu.

Adn. 37. *Ystyr y perffaith*] Yn ei fywyd; ac edrych ar yr uniawn—yn ei farwolaeth, a thi a gai weled gwahaniaeth mawr rhyngddo a'r annuwiol. *Canys diwedd y gwŕ hwnw*—pa fodd bynag y bu dechre ei daith; *fydd tangnefedd*—neu beddwch mawr: gwel ar adn. 11. Fe allai ei fod wedi cael llawer o groesan, ystormydd, a rhyfel yn ei fywyd; fe allai ei fod wedi cael ei fino gan clymion, a'i ffeuddu gan anghrediniaeth; ac wedi cael gwaethaf y byd, enawd, a diafol; fe allai i'w ddyddiau fod yn gymlog, a'i ffordd yn ddreiniog, a'i lygaid yn llawn dagrau yn aml gan orthlymyder y gelyn; er hyny y mac yn goleuo arno wrth iddo nesân at y glŷn: Ei ddiwedd yw tangnefedd llawn: ac mewn tangnefedd, 'efe a â i dangnefedd,' Esay lvii. 2. Ond y mac bron yr oll o'r hen gyfieithiadau yn darllen yr adnod hon yn debyg i'r hyn ydyw yn y Salmu a geir yn y Llyfr Gweddi Saesonig: 'Cadw ddiniweidrwydd, a gwylia ar y peth sydd uniawn; canys hyny a ddwg dangnefedd i ddy'n y diwedd'; neu 'a ddwg iddo hiliogaeth huosog,' fel y mac rhai yn ei gyfieithin: gwel *Horsley, Kennicott, Montanus*, &c. 'Yr wyf fi yn meddwl nad all y wreiddiol oddef ein cyfieithiad ni.'—*Clarke*.

Adn. 38. *Ond y troseddwy'r gyd-ddys-trywir*] Y nail fel y llall, neu y plant yn gystal a'u rhieni; *diwedd yr annuwiolion a dorir ymaith*—eu diwedd fydd eu tori ymaith, neu tori hwynt ymaith yn y diwedd. Ond yn lle *diwedd*, y mac yr *Esgob Horsley* ac ereill yn ei ddarllen fel yn adn. 37, 'hiliogaeth yr annuwiolion a dorir ymaith.'

Adn. 39. *A iachawdwriaeth y cyfiawn sydd oddiwrth yr Arglwydd*] Ac am hyny cânt ei mwynhau yn sicr; canys gwnaed Crist 'yn Awdwr iachawdwriaeth dragwyddol i'r rhai oll a nyddhant iddo,' Heb. v. 9. *Efe yw eu nerth yn amser trallod*—a chan ei fod yn

HOLLALLTŌG, y mac ganddynt ddigon o nerth

i'w cynal yn y trallod mwylaf a all eu cyfarfod.

Adn. 40. *A'r Arglwydd a'u cymhorth hwynt*] Tra y bydd eu trallod yn parhau; ac a'u gwared—yn y diwedd oddiwrtho. *Efe a'u gwared hwynt rhag yr annuwiolion*—rhag cael eu dinystrio ganddynt; ac a'u ceidw hwynt—i fywyd tragwyddol; am iddynt ymddiried ynddo—am iddynt gredu ynddo, neu ymddiried gofal eu heneidiau i'w gadwraeth ef.

SALM XXXVIII. Y teitl yw, 'Salm Dafydd, er coffa;' hyny yw, ond odid, naill ai er coffa i Dduw, trwy y weddi ostyngedig a galarus hon, ei gyflwr adfydu a phoenus ef, fel ag i'w annog i dosturio wrtho; neu ynte er coffa iddo ei hun, wrth adolygu y Salm hon ar ol hyn, ei berygl a'i drueni blaenorol, a rhyfedd drugaredd Duw yn ei waredigaeth; ac fel y gallai ereill hufyd gofio yr hyn a wnaethai Duw erddo ef, a'i foliannu am hyny. Y mac hon yn un o Salmu adifeiriol Dafydd.

Adn. 1. *Arglwydd, na cherydda fi yn dy lid*] Fel yr wyf yn cyfiawn haeddu; ac nu chospa fi yn dy ddigllonedd—nid oedd Dafydd yn erbyn i Dduw ei gospi ef i ryw raddau, eithr dymunai iddo gymedroli y gosp, neu beidio ei gweinyddu yn ei heithafion: gwel ar Salm vi. 1, &c.

Adn. 2. *Canys y mac dy saethau yn nglŷn ynof*] Hebr., 'wedi suddo ynof; a'th law yn drom arnaf—i wneyd fy archoll yn ddyfnach. Cyfeiria hyn at ryw boenau llymion yn nghorff Dafydd, a blinder trwm yn ei feddw ef.

Adn. 3. *Nid oes iechyd yn fy nghnawd*] Mewn un ran o'm corff; ac nid oes heddwch i'm hesgyrn—y mac fy esgyrn oddifown, yn gystal a'm cnawd a'm croen oddiallan, yn dyoddef y poenau mwylaf; *oblegid fy mhechod*—yr hwn a'th annogodd di i'm cospi fel hyn. Tybia rhai mai ei bechod yn achos Bathseba ac Urias a feddydd, 2 Sam. xi. 2, &c., a bod Duw wedi ei geryddu ef yn ei gorff â rlyw gornwydydd neu ddolur blin yn gosp am hyny. Tybia ereill nad yw yr holl ymadroddion yn yr adnodau hyn ddim ond iaith ffugryol neu gyffelybiaethol, i osod allan drueni a gofid ei feddw: gwel ar Ezeq. xxi. 6, 7.

Adn. 4. *Canys fy nghamweddau a aethant dros fy mhen*] Fel dyfroedd dros ben y neb a

ant dros fy mhén: megys baich trwm y maent yn rhy drwm i mi.

5 Fy nghleisiau a bydrasant, ac a lygrasant, gan fy nfydrwydd.

6 Crymwyd a darostyngwyd fi yn ddirfawr: beunydd yr ydwyf yn myned yn alarus.

7 Canys fy lwynau a lanwyd o ffeidd-glwylf; ac nid oes icchyd yn fy nghnawd.

8 Gwanhawyd a drylliwyd fi yn dra mawr: rhuais gan aflonyddwch fy nghalon.

9 O'th flaen di, Arglwydd, y mae fy holl ddymuniad; ac ni chuddiwyd fy uchenaid oddiwrthyt.

10 Fy nghalon sydd yn llamu; fy nerth a'm gadawodd; a llewyrch fy llygaid nid yw chwaith genyf.

11 Fy ngharedigion a'm cyfeill-

ion a safent oddiar gyfer fy mhla; a'm cyfnescifiad a safent o hirbell.

12 Y rhai hefyd a geisient fy einioes, a osodasant faglau; a'r rhai a geisient fy niwed, a draethent anwireddau, ac a ddychymygent ddichellion ar hyd y dydd.

13 A minau fel byddar ni chlywn; eithr oeddwn fel mudan heb agoryd ei enau.

14 Felly yr oeddwn fel gŵr ni chlywai, ac heb argyhoedion yn ei enau.

15 O herwydd im' obeithio ynot, Arglwydd; ti, Arglwydd fy Nuw, a wrandewi.

16 Canys dywedais, *Gwrando fi*, rhag llawenyachu o honynt i'm herbyn: pan lithrai fy nhroed, ymfawrygent i'm herbyn.

fyddo wedi suddo iddynt; megys baich trwm—o ran yr euogrydd o honynt, neu y gosh am danynt; y maent yn rhy drwm i mi—i allu sefyll danynt heb gael fy llethu ganddynt.

Adn. 5. *Fy nghleisiau a bydrasant ac a lygrasant*] Nes y maent nid yn unig yn boenus i mi, ond yn fflaidd hefyd i ereill; gan fy nfydrwydd—fel cosp am fy nfydrwydd yn cyflawn y fath bechod.

Adn. 6. *Crymwyd a darostyngwyd fi yn ddirfawr*] Mewn corff a meddwl; beunydd yr ydwyf yn myned yn alarus—yn rhodio oddi-amgylch yn alarus, neu yn myned yn alarus tua'r bedd. Hebr., 'yn myned yn *ddô*,' neu 'mewn *dô*.' Ei feddwl ond odid yw, fod ei groen yn *duo* gan ei glefyd, fel croen Job gynt, pen. xxx. 30; neu yate yr oedd yn gwisgo dillad duon yn arwydd o'i alar.

Adn. 7. *Canys fy lwynau a lanwyd o ffeidd-glwylf*] *Nikleh*, 'llosg-glwylf,' neu 'glefyd poeth.' 'Fod Dafydd yma yn darlunio clefyd naturiol, [ac nid yn defnyddio iaith gyffelybiaethol.] nis gellir yn rhesymol ei amau; ond pwy a feiddia ddywedyd pa beth oedd y clefyd hwn? Byddai yn hawdd dangos clefyd o'r hwn y mae yr hyn a enwa efe yma yn arwyddion tra chyffredin.'—CLARKE. *Ac nid oes icchyd yn fy nghnawd*—efe a ddywedasai hyn o'r blaen, adn. 3; ond y mae yn hawdd gan ddyn dolurus gwyno yn barhaus yn yr un geiriau.

Adn. 8. *Gwanhawyd a drylliwyd fi yn dra mawr*] Gan boenau corff a thralod meddwl; rhuais gan aflonyddwch fy nghalon—fel llew wedi ei archolli, neu fel y môr pan gynhyrfer ei donau gan wynt.

Adn. 9. *O'th flaen di, Arglwydd, y mae fy holl ddymuniad*] Y mae fy nymuniadau oll yn hysbys i ti, neu nid wyf yn dymuno dim yn gymaint a'th ffafr a'th faddeuau di; ac ni chuddiwyd fy uchenaid oddiwrthyt—yr wyt yn deall fy uchenaid yn gystal a'm geiriau, a dymuniad fy nghalon yu gystal ag ymadrodd fy ngenau.

Adn. 10. *Fy nghalon sydd yn llamu*] Yn

neidio neu yn curo ynof gan ofn; fy nerth a'm gadawodd—o herwydd fy nghystudd; a llewyrch fy llygaid nid yw chwaith genyf—yr wyf bron â myned yn ddall wrth ofidio ac w'lo yn barhaus.

Adn. 11. *Fy ngharedigion a'm cyfeillion*] Y rhai a arferent fod felly i mi o'r blaen; a safent oddiar gyfer fy mhla—rhag ofn iddo ymafilynddynt hwythau hefyd: a'm cyfnescifiad—fy mberthynasau agosaf; a safent o hirbell—fel pe buasai y gwahanglwylf araf. Ymddygydd fel hyn tuag at Job hefyd, pen. xix. 13—19.

Adn. 12. *Y rhai hefyd a geisient fy einioes*] Ar ol son am ymddygiad ei gyfeillion a'i berthynasau, efe a sonia yma am ymddygiad ei elynion; a osodasant faglau—fel, os na fyddai i mi farw o'm cystudd, y gallent fy nyfetha ryw ffordd arall. Traethent anwireddau am danaf, a dychymygent ddichellion yn fy erbyn, gan faint eu gelyniaeth ataf.

Adn. 13. *A minau fel byddar ni chlywn*] Ni chlymerwn arnaf glywed eu hanwireddau; eithr oeddwn fel mudan heb agoryd ei enau—yr oeddwn yn dyoddef y cwbl yn dawel, mewn ymstyngiad am fy mbechod. Yr oeddwn yn ymddywn tuag atynt fel pe na buasai genyf glust i glywed eu henllib, na thafod i'w ceryddu am eu hedliwiadau cas.

Adn. 14. *Felly yr oeddwn fel gŵr ni chlywai*] Eu hanwireddau hwynt; ac heb argyhoedion yn ei enau—heb ganddo ddim i'w ddywedyd mewn amddiffyniad iddo ei hun, neu i argyhoeddi ei elynion mai anwireddau a draethent.

Adn. 15. *O herwydd im' obeithio ynot, Arglwydd*] Gan oddef eu sarbad hwy yn dawel, heb wrthateb eu hanwireddau; ti, Arglwydd fy Nuw, a wrandewi—fy ngweddi. Fel hyn, er ei fod fel mudan tuag at ei elynion, adn. 13, efe a lesarai wrth ei Dduw cyf-ammodol.

Adn. 16. *Canys dywedais*] Ynof fy hun, neu wrthyt ti, pan yr oeddwn yn tewi wrthynt

17 Canys parod wyf i gloffi, a'm dolur sydd ger fy mron yn wastad.

18 Dïau y mynegaf fy anwiredl, ac y pryderaf o herwydd fy mhechod.

19 Ac y mae fy ngelyrion yn fyw, ac yn gedryn: amhawydd hefyd y rhai a'm casânt ar gam.

20 A'r rhai a dalant ddrwg dros dda a'm gwrthwynebant; am fy mod yn dylu daioni.

21 Na âd fi, O Arglwydd: fy Nuw, nac ymbellha oddiwrthyf.

22 Brysia i'm cymhorth, O Arglwydd fy iachawdriacth.

SALM XXXIX.

DYWEDAIS, Cadwaf fy ffyrdd, rhag pechu â'm tafod: cadwaf ffwrwn yn fy ngenau, tra fyddo yr annuwiol yn fy ngolwg.

2 Tewais yn ddystaw, i.e. tewais â daioni; a'm dolur a gyffrôdd.

3 Gwresogodd fy nghalon o'm mewn: tra yr oeddwn yn myfyrio, enynodd tân, a mi a leferais â'm tafod.

4 Arglwydd, pâr i mi wybod fy niwedd, a pheth yw mesur fy nydd-

hwy; *Gwrandio fi, rhagllawenychu o honynt i'm herbyn*—wrth fy nghlywed yn ceisio eu hargyhoeddi hwy, pan yr oeddwn fy hun dan y fath euogrydd a thralod. Dyma reswm Dafydd dros fod fel dyn mnd a byddar tuag at ei elynion; canys dylai teimlad o'n trosedd-iadau ein hunain yn erbyn Duw, ein gwneyd yn amyneddgar dan gythruddiadu ein gelynon. *Pan lithrai fy nbroed*—pan syrthiwn unrhyw bryd i'r pechod lleiaf, trwy air neu weithred; *yfnawrygent i'm herbyn*—arferent orfoleddu fel rhai wedi cael eu gwynfyd arnaf.

Adn. 17. *Canys parod wyf i gloffi* Neu lithro fel dyn cloff, adn. 16; hyny yw, y fath oedd gwendid a llygredd Dafydd, fel nas gallai gerdded un cam yn gywir yn ffyrdd cyfiawnder, heb gynorthwy Ysbyrd Duw. *A'm dolur sydd ger fy mron yn wastad*—sef gwendid ei natur sythiedig, euogrydd ei bechod presenol, neu ofid a phoen fel cosp o'i herwydd.

Adn. 18. *Dïau y mynegaf fy anwiredl* Mewn cyfaldefiad edifeiriol o hono wrth Dduw; *ac y pryderaf o herwydd fy mhechod*—Sacs., 'ac y bydd yn ddrwg genyf am fy mhechod.' Ond y mae y gair gwreiddiol *edog* yn arwyddo pryder neu awydd; a'r meddwl yw, fod Dafydd yn llawn o ofid am yr hyn a aeth heibio, ac o brydwr ac ofnau am yr hyn oedd o'i flaen.

Adn. 19. *Ac y mae fy ngelgion yn fyw* Yn fywiog ac effro; *ac yn gedryn*—o ran cyfoeth, galla, a dylanwaf; *amhawydd hefyd y rhai a'm casânt ar gam*—heb i mi wneyd dim yn eu herbyn hwy i haeddu hyny.

Adn. 20. *A'r rhai a dalant ddrwg dros ddu a'm gwrthwynebant* Nid yn unig y rhai ni wnathym ddim drwg iddynt, ond y rhai a dderbynasant lawer o ddanioni a ffasiâu oddiar fy llaw; *am fy mod yn dylu daioni*—yn ymddwyn yn gyfiawn, trugarog, a daionus fel breinia. Ond rhaid addef fod yr adnodau hyn yn fwy cyfaddasol i Grist nag i Dafydd, ac yn cyfeirio ond oddid ato ef.

Adn. 21. *Na âd fi, O Arglwydd!* I'w cyn-ddaredd hwy; *fy Nuw, nac ymbellha oddiwrthyf*—o ran dy wenau a'lh gynorthwyon.

Adn. 22. *Brysia i'm cymhorth* Onidde bydd yn rhy ddiweddar; *O Arglwydd fy iachawdriacth*—yr hwn wyt A wldwr fy iachawdriacth, neu fy unig Iachawdwr.

SALM XXXIX. Y teitl yw, '*Salm Dafydd i'r penceerdd, sef i Jeduthun.*' Yr oedd Jeduthun yn un o brif gantorion y cysegr, 1 Cron. xxv. 1—4; a meddylir i Dafydd, ar ol cyfansoddi y Salm hon, ei rhoddi yn llaw Jeduthun a'i gwmi i'w chanu, neu i gyfansoddi tôn arni. Y mao yn debyg iddi gael ei hysgrifenu ar yr un achlysur a'r Salm ddiweddaaf, sef pan yr oedd Dafydd yn dyoddef poen ddfawr o herwydd ei bechod â Bathseba. Ond tybia rhai mai pan yr oedd Dafydd yn ffordi rhag Absalom, ac yn cael ei feiddigo gan Simeï, y cyfansoddodd efo hi, 2 Sam. xvi. 5, &c; a thybia ereill mai ar ol marwolaeth Absalom, pryd yr oedd Joab yn edliw iddo am ei ofid, 2 Sam. xix. 5, &c.

Adn. 1. *Dywedais* Sef wrtho ei hun, neu penderfynodd yn eifeddwl; *Cadwaf fy ffyrdd, rhag pechu â'm tafod*—rhag gwneuthur dim allan o'i le, ac yn enwedig rhag dywedyd dim a fyddo yn sarbad ar Dduw a'i ragluniacth: *cadwaf ffwrwn yn fy ngenau*—neu rwymin fel pe byddai am fy ngenau, i attal i mi ddywedyd dim yn rhyfygus a phechadurus; *tra fyddo yr annuwiol yn fy ngolwg*—sef yn ngwydd y rhai a geisiant fy niwedi, Salm xxxviii. 12—16; neu tra y byddwyf yn ystyried cyflwr llwyddiaannus yr annuwiol, Salm xxxviii. 1, &c. Ond tybia rhai ei fod yn cyfeirio at Simeï neu Joab: gwel y teitl.

Adn. 2. *Tewais yn ddystaw* Neu yn hollol; i.e. tewais â daioni—ymattellais rhag dywedyd dim da, yn gystal a rhag dywedyd dim drwg; rhag rhoddi gogoniant i Dduw gyda golwg ar unioedeb fy nghosp, yn gystal a rhag cyfaddef fy mhechaduruswydd fy hun, yr hyn a barasai i'm gelynyon lawenychu i'm herbyn, Salm xxxviii. 16. *A'm dolur a gyffrôdd*—a waethygodd, wrth i mi gadw y ewl o'm mewn fy hun, heb roddi ffwrwn i'm teimladau.

Adn. 3. *Gwresogodd fy nghalon o'm mewn* Yr hyn yw efaith naturiol gofid attaliedig neu guddiedig. *Tra yr oeddwn yn myfyrio*—ar ddanioni Duw, a'm pechaduruswydd fy hun; neu ar falais fy ngelynyon; nou ynte ar y gosg dragwyddol ag yr oeddwn trwy fy ynyfyryddu wedi ei chyflawn haeddu; *enynodd tân*—torodd y gwres ag oedd yn fy nghalon allan yn fflau, fel nad allwn ynnatal yn hwy; *a mi a leferais â'm tafod*—yr hyn a ganlyna yn yr adnodau nesaf.

iau; fel y gwypwyf o ba oedrau y byddaf fi.

5 Welc, gwnaethost fy nyddiau fel dyrnfedd; a'm heiniocs sydd megys dyddim yn dy olwg di: diau mai cwbl wagedd yw pob dyn, pan fo ar y goraf. Selah.

6 Dyn yn ddiâu sydd yn rhodio mewn cysgod, ac yn ymdrafferthu yn ofer: efe a dÿra olud, ac ni wÿr pwy a'i casgl.

7 Ac yn awr beth a ddysgwyliaf,

Adn. 4. *Arglwydd, pâr i mi wybod fy niwedd*] Sef diwedd ei einioes; a pheth yw mesur fy nyddiau—sydd eto ar ol; fel y gwypwyf o ba oedrau y byddaf fi—farw, fel y mae yn naturiol i ni ddeall y cyfieithiad Cymreig; neu, fel y mae y Saesonaeg yn ei ddarllen, 'fel y gwypwyf mor frau ydyf.' Ond tybia llawer nad oedd Dafydd yma yn gofyn am gael gwyrbod y dydd a'r awr y byddai efe farw, am nad allai efe mewn ffydd ofyn am y fath beth, trwy nad oedd Duw wedi ei addaw, a'i fod yn ei drugaredd yn cuddio y wybodaeth hōno oddiwrthym ni; ac mai ei feddwl oedd, Dyro i mi ras a doethineb i ystyried fy niwedd, a pha mor fyr yw mesur fy nyddiau, fel y gallwyf ddefnyddio yr hyn sydd yn ol i ymbarotoi erbyn marw. Yn unol â hyn yr alleiria yr *Esgob Patriek* yr admod hon: 'Arglwydd, nid wyf yn grwgach o herwydd fy nyoddefiadau; ond fel y gallwyf ymgynnal danynt fyth yn amyneddgar, gwna fi yn deimladwy, yr wyf yn atolwg i ti, pa mor fyr yw y bywyd brau hwn, a pha mor fuan y diwedda; fel, wrth ddydladwy ystyried hyn, y gallwyf fod yn llai fy mbrwyder yn nghylch y trueni ag yr wyf yn ei ddyoddef, yr hwn a ddiwedda gydag ef.'

Adn. 5. *Welc, gwnaethost fy nyddiau*] Holl ddyddiau fy einioes, o'r dechre i'r diwedd; fel dyrnfedd—neu led dwrn. Ni raid i ni wrth linyr i fesur ein dyddiau, na gwybodaeth fanwl o rifyddge i'w cyfrif hwynt, trwy fod eu mesur yn wastadol o flaen ein llygaid, neu yn ein llaw, sef lled ein pedwar bys. *A'm heiniocs sydd megys dyddim yn dy olwg di*—megys dim, neu both rhy fach i fodoli, mewn cymhariaeth i'r Duw anfeidrol, yr hwn y mae ei ddyddiau o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb. *Diau mai cwbl wagedd yw pob dyn*—y brenin a'i ddeiliaid, yr uchel a'r isel, y cyfoethog yn gystal a'r tylawd; *pan fo ar y goraf*—hyd yn nod pan y ieuanc, cryf, ac iach; pan yn nghanol ei gyfoeth, ei falchder, ei anrhydedd, a'i rwysg. *Selah*—ddarllenwydd, aros yma; ystyria mai cwbl wagedd ydywt: gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 6. *Dyn yn ddiâu sydd yn rhodio mewn cysgod*] 'Sydd yn dylun cysgod.'—BOOTHROYD. 'Sydd fel cysgod.'—MUSCULUS. 'Y mae dyn a'i fywyd, a'i boll ddedwyddwch yn y byd hwn, yn rhithiau, ymddangosiadau, a breuddwydion, yn hytrach na gwirioneddau neu sylweddau.'—BENSON. 'Nid yw efe ddim

O Arglwydd! fy ngobaith sydd ynot ti.

8 Gwared fi o'm holl gamweddau, ac na osod fi yn waradwydd i'r ynfyd.

9 Aethym yn fud, ac nid agorais fy ngenau: canys ti a wnaethost hyn.

10 Tyn dy bla oddiwrthyf: gan ddyrnod dy law y darfûm i.

11 Pan gospit ddynd â cheryddon am anwiredd, dattodit fel gwryfyn ei ardderchogrwydd ef: gwagedd yn ddiâu yw pob dyn. Selah.

ond rhith bôd; yn ymddangos dros enyd, ac yna yn diflanu.'—CLARKE. *Ac yn ymdrafferthu yn ofer*—i gyraedd anrhydedd, digrifwch, neu gyfoeth, ac heb fod nemawr gwel ei hun ar ol eu cyraedd. *Efe a dÿra olud*—iddo ei hun, fel y tybia efe; ac ni wÿr pwy a'i casgl—neu a'i mwynha; pa un ai ei blant, ynte dyeithriad, neu ei elynion. Y mae y gyffelybiaeth wedi ei chymryd oddiwrth am-aethwr yn cribinio ei fyd neu ei wair yn dŵr ar y maes, yr hwn y mae ei einioes mor ansicr fel na wÿr pwy a'i casgl i'r ysgubor.

Adn. 7. *Ac yn awr beth a ddysgwyliaf, O Arglwydd!*] Pa beth a allaf ei ddysgwyl, fel dyn byr-hoedlog a gwâg? Nis gallai ddysgwyl hir einioes, gan nad oedd ei ddyddiau ond megys dyrnfedd neu ddim; nis gallai ddysgwyl dedwyddwch mewn golud bydol, oblegid buan y gadawai hwnw ar ei ol i ereill. *Fy ngobaith sydd ynot ti*—ac a gaiff fod ynot ti yn unig, am ddedwyddwch, cyfoeth, a bywyd ysbrydol a thragwyddol.

Adn. 8. *Gwared fi o'm holl gamweddau*] Trwy faddeu y rhai a wnaethym eisioes, a'm cadw rhag gamweddau mwyach, fel na siomer fi yn fy nysgwyliaid a'm gobaiith am ddedwyddwch a bywyd tragwyddol oddiwrthyt ti: ac na osod fi yn waradwydd i'r ynfyd—trwy fy ngadael i bechu, na thrwy fy ngheryddol fel hyn am fy mhechod: neu, na fydded i'm harsosiad dan euogrwydd fel nghamweddau, a than gosp o'u herwydd, roddi achos i'r annuwilion fy ngwaradwyddol fel rhagrithiwr dirmygedig yn ngolwg Duw a dynion.

Adn. 9. *Aethym yn fud*] Gwel ar adn. 1; ac nid agorais fy ngenau—mewn flordd o rwngech yn dy erbyn di, nac yn erbyn cyfiawnder dy geryddon: canys ti a wnaethost hyn—a roddais y cerydd hwn arnaf; neu ti a'm darostyngaist fel hyn trwy wrthryfel a marwolaeth fy mab Absalom, ac edliwiadau fy ngelynyon: gwel y teitl.

Adn. 10. *Tyn dy bla oddiwrthyf*] Sef fy nghystudd a'm gofid presenol: gan ddyrnod dy law y darfûm i—y gorchfygwyd fi, neu yr wyf ar ddarod am danaf. Fel hyn, er nad agorai efe ei enau i rwngech yn erbyn Duw, efe a'i hgorai i weddio arno am drugaredd.

Adn. 11. *Pan gospit ddynd â cheryddon am anwiredd*] Trwy roddi gofid yn ei feddwl neu gystudd yn ei gorff; dattodit fel gwryfyn ei ardderchogrwydd ef—ei brydferthwch, ei nerth, ei gysur, a'i gyfoeth; a hys ny mor hawdd

12 Gwranddo fy ngweddi, Arglwydd, a chlyw fy llef; na thaw wrth fy wyllofaïn: canys ymdeithydd ydwyf gyda thi, ac alltud, fel fy holl dadau.

13 Paid â mi, fel y cryfhawyf cyn fy myned, ac na byddwyf mwy.

SALM XL.

DYSGWYLLIAIS yn ddyfal am yr Arglwydd; ac efe a ymstyngodd ataf, ac a glybu fy llefaïn.

2 Cyfododd fi hefyd o'r pydew

ag y dyfethit wyfyn, neu mor bawdd ag y dyfetha gwyfyn ddilledyn: gwel ar Job iv. 19, a xiii. 28. *Gwagedd yn ddiau yw pob dyn*—y mae y cryfaf o ddynion yn analluog i'w waredu ei hun: gwel ar adn. 5.

Adn. 12. *Gwranddo fy ngweddi, Arglwydd]* Trwy ei hateb hi; *na thaw wrth fy wyllofaïn*—na fydd ddystaw, heb ateb fy llef wyllofaïn: *canys ymdeithydd ydwyf gyda thi*—neu ddy-eithrddyn yn dy olwg di, neu yn dy wlad di, Lef. xxv. 23, 24; *ac alltud, fel fy holl dadau*—fel Abraham, y patieirch, a'r Israellaïd; gwel ar Heb. xi. 13. Fel pe dywedasai, Gan i ti ofalu am y duwiohon gynt, er nad oedd ynt ond dyeithriaid ar y ddaear, neu bererinion ar eu taith i fy arall; gofala yn drugarog am danaf finau yr un modd, a pharotô fi i wlad sydd well.

Adn. 13. *Paid â mi]* Hyn yw, paid â'm cystuddio, neu tyn dy law geryddol oddiarnaf; *fel y cryfhawyf*—mewn corff ac enaid, neu fel yr adferer fi i'th ffafar a'th ddelfw, oddiwrth bari y syrthiaïs; *cyn fy myned*—i'r bedd a thregwyddoldeb; *ac na byddwyf mwy*—yn breswlydd daear: gwel ar Job x. 20, 21. Y meddwl yw, Na symud fi o gyflwr o brawf, nes i mi gael fy mharotô i gyflwr o ogoniant.

SALM XL. Y teitl yw, 'I'r pencerdd, *Salm Dafydd*;' hyn yw, i'w otal neu at ei wasanaeth ef. Ymddengys mai Dafydd a'i cyfansoddodd hi, a hyn yw yr un achlysur a'r ddwy flaenorol; gyda hyn o wahaniaeth, ei fod ef yma yn mawrygu Duw am roddi iddo y drugaredd a geisiai efe yno. Gan hyn y Salm o *ddiolegharwech* ydyw am adferiad Dafydd o'i gystudd blin, ac am roddi iddo brofiad newydd o'r ffafar ddwyfol. Modd bynag, y mae rhai rhanau o'r Salm hon na pherthynant yn briodol i Dafydd ei hun, nac i'r cyflwr a'r amserau hyn o eiddo yr eglwys; eithr yn unig i Grist, ac amserau y Testament Newydd, at y rhai y cymhwysir hwynt gan yr apostol: cydharer adn. 6—8 gyda Heb. x. 5—9. Yn yr adnodau hyn y mae Dafydd yn llefaru nid yn ei enw a'i berson ei hun, ond yn enw a pherson y MESSIA, o'r hwn yr oedd efe yn gysgod tra nodedig. Y mae o adn. 13 hyd ddiwedd y Salm, o'r un ystyr, a bron yn yr un geiriau, a Salm lxx.

crehyll, allan o'r pridd tomlyd; ac a osododd fy nhraed ar graig, gan hwylio fy ngherddeddiad.

3 A rhoddodd yn fy ngenau ganiad newydd o foliant i'n Duw ni: llawer a welant hyn, ac a ofnant, ac a ymddiriodant yn yr Arglwydd.

4 Gwyn ei fyd y gw'r a osodo yr Arglwydd yn ymddiried iddo; ac ni thry at feilchion, nac at y rhai a w'yrant at gelwydd.

5 Lluosog y gwnaethost ti, O Arglwydd fy Nuw, dy ryfeddodau, a'th amcanion tuag atom: ni ellir

Adn. 1. *Dysgwyliaïs yn ddyfal am yr Arglwydd]* Saes., 'am ymneddgar;' neu mewn gweddï ddyfal, fel y gwelom yn y ddwy Salm flaenorol; *ac efe a ymstyngodd ataf*—er mor isel oeddwn; *ac a glybu fy llefaïn*—y mae yma gyfeiriad at tu yn gostwng ei glust at enau y claf, yr hwn ni allai lefaru yn uchel, i glywed yr hyn a ddywedid ganddo.

Adn. 2. *Cyfododd fi hefyd o'r pydew erchyll]* Ymadrodd cyffelybiaethol, yn arwyddo ei gyflwr truenus a'i beryglon dychrynllyd; *allan o'r pridd tomlyd*—neu allan o'r clai yn ngwaelod y pydew erchyll hwnw, i'r hwn yr oeddwn yn suddo yn ddyfnach yn barhaus. Meddylir fod yma gyfeiriad at bydewau neu ddaear dai y teyrn-ormeswyr dwyreiniol, yn y rhai y rhoddeat eu carcharorion, megys y rhoddwyd Jeremia, pen. xxxviii. 6, &c.; ac y mae y 'pridd tomlyd,' yn yr hwn y glynai y Salmwyd, yn arwyddo yr amhosbïlirwydd iddo allu ei waredu ei hun oddiyno. *Ac a osododd fy nhraed ar graig*—lle o wardigaeth, cadernid, a diogelwch; *gan hwylio fy ngherddeddiad*—yn ddiysgog tua thir y bywyd.

Adn. 3. *A rhoddodd yn fy ngenau ganiad newydd]* Nid yn unig rhoddodd iddo achos neu destyn newydd i ganu, ond ysbrydolodd ef â geiriau y gân, wrth gyfansoddi y Salm hon. *Llawer a welant hyn*—a welant neu a glywiant hanes fy nghystudd a'm gwardigaeth i; *ac a ofnant*—bechu yn erbyn Duw, fel y pechais i; *ac a ymddiriedant yn yr Arglwydd*—wrth weled, gan iddo fy achub i, ei fod yn alluog ac ewyllysgar i achub y penaf o bechaduriaid.

Adn. 4. *Gwyn ei fyd y gw'r a osodo yr Arglwydd yn ymddiried iddo]* Neu a ymddiriedo yn yr Arglwydd. Ar ol dywedyd uchod y byddai i lawer ymddiried yn yr Arglwydd, y mae efe yma yn dangos eu baint: cânt fod yn wynfydedig mewn anser, ac am byth. *Ac ni thry at feilchion*—at dywysogion cedyn y ddaear i ymddiried ynddynt hwy; *nac at y rhai a w'yrant at gelwydd*—sef at eilunaddolwyr, i ymddiried yn eu gau-dduwiau hwythau.

Adn. 5. *Lluosog y gwnaethost ti, O Arglwydd fy Nuw]* Yr hwn wyt Dâuw mewn cyfammod adnewyddol â mi; *dy ryfeddodau*

yn drefnus eu cyfrif hwynt i ti : pe mynegwn a phe traethwn hwynt, amlach ydynt nag y gellir eu rhifo.

6 Aberth ac offrw m nid ewyllysiaist; agoraist fy nghlustiau: poeth-offrw a phech-aberth nis gofynaist.

—dy weithredoedd rhyfeddol o ddechre y byd hyd yma; a'th amcanion—neu dy friadau grasol gyda golwg ar yr amser a ddaw; tuag atom—ni, y rhai a ymddiriedasom ynot. Fe allai fod y 'rhyfeddodau' uchod yn cyfeirio at weithredoedd rhagluniaethol Duw, neu ei ddaioni tymhorol; a'r 'amcanion,' at ei weithredoedd grasol a phrynedigol, y rhai a wrgrymir yn eglurach yn yr adnodau dilynol. Ni ellir yn drefnus eu cyfrif hwynt i ti—neu eu rhifo o'th flaen, gan mor luosog ydynt. Pe mynegwn a phe traethwn hwynt—lyny yw, pe ceiswn eu mynegu a'u traethu; amlach ydynt nag y gellir eu rhifo—byddai tragwyddoldeb ei hun yn rhy fyr i adrodd yr oll o'th weithredoedd rhyfedd tuag atom eisioes, a'r hyn yr wyt ti yn amcanu ei wneuthur i ni rhagllaw.

Adn. 6. *Aberth ac offrw m nid ewyllysiaist*] Y mae genym awdurdod apostol ysbrydoledig i ystyried y geiriau hyn yn cael eu llefaru gan Dafydd yn mherson Crist, (gwel ar Heb. x. 5—7,) ac am hyny ni cheiswn eu cymhwyso at Dafydd ei hun. Pan y dywed efe, 'Aberth ac offrw m nid ewyllysiaist,' rhaid mai ei feddwl yw, nad oedd y Tad yn ewyllysio i'r aberthau a'r offrymau seremonïol dan y gyfraith gael eu hystyried fel yn gwneyd LAWY DROS BECHOD, eithr yn rhagddangos cnaiddoliad a marwolaeth aberthol Crist, yr hwn yn unig a 'osododd Duw yn LAWN,' Rhuf. iii. 25. Yr oedd Duw yn ewyllysio i'r aberthau a'r offrymau hyny ragddangos iawn Crist, ac 'adgoffa pechodau,' Heb. x. 3, onid ni fuasai yn eu sefydlu; ond nid ewyllysiodd erioed iddynt wneyd yn lle Crist; 'cany amhosibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau,' Heb. x. 4. *Agoraist fy nghlustiau*—i wrando a derbyn dy orchymynion; neu 'tyllaiist fy nghlustiau,' fel y gwas hwnw a ewyllysiai aros dros byth yn ngwasanaeth ei feistr, Exod. xxi. 6. Y wreiddiol yma yw, *oznayim charitha lli*, yr hyn a gyfeithir gan y LXX, 'cithr corff a gymhwysiaist i mi;' ac o'r cyfieithiad hwnw y dyfynai yr apostol, (fel y gwnai Crist a'i apostolion yn wastadol,) rhag cael ei gyhuddo o ddyfynu yn anghywir. Ar y gwahaniaeth rhwng y ddau ddarlleniad gellir sylwi, (1) Ei fod yn gynnwysedig yn wreiddiol mewn un gair, AZ GEVAH *charitha lli*, yn lle OZDAYIM *charitha lli*; ac y mae y tebygolrwydd rhwng y llythrenau Hebreig yn y ddau air hyn yn gyfryw ag y gallai adysgrifenydd esgeulus yn hawdd eu samgymeryd: gwel *Kennicott*. (2) Y mae yr *Arabaeg* yn cynwys y ddau ddarlleniad, 'Corff a gymhwysiaist i mi, ac agoraist fy nghlustiau.' (3) Nid yw y gwahaniaeth wedi y cwbl yn gymaint yn y synwyr, ag yn y geiriau; canys y mae 'clustiau' yn tybio corff i'r hwn y perthynant, ac y mae 'cymhwyso y corff' yn cynwys *parotai y*

7 Yna y dywedais, Wele yr ydwyf yn dyfod: yn rhol y llyfr yr ysgrifenydd am danaf.

8 Da genyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw: a'th gyfraith sydd o fewn fy nghalon.

clustiau, a rhwymedigaeth y neb ag y cymhwyswyd ei gorff felly i wasanaethu yr hwn a'i cymhwysasai neu a'i parotiai. *Poeth-offrw a phech-aberth nis gofynaist*—fel iawn priodol a digonol ynddynt eu hunain dros bechod. Y mae yn wir ddarfog i'r Tad eu *gofyn* hwy fel cysgodau, i ragddangos iawn Crist, hyd oni ddeuai efe yn nghyflawnder yr amser; eithr wedi i'r Sylwedd mawr ddyfod, a marw ei hun yn aberth dros bechod, 'y mae yn tynu ymaith y cyntaf,' megys y sylwa yr apostol, 'fel y gosodai yr ail,' Heb. x. 9; hyny yw, efe a ddileodd yr aberthau a'r offrymau cysgodol hyny, fel y byddai i offrymiad corff Crist, fel y dywedir yn Ngwasanaeth y Cymun, fod yn 'gyflawn, berffaith, a digonol aberth, offrw, ac iawn, dros bechodau yr holl fyd.' Dylid sylwi, fod yr adnod hon yn cynnwys yr oll o'r aberthau a'r offrymau ag oedd ynt o natur ddyhuddol a glauhaol dan y gyfraith; ac amcau Dafydd wrth ei ysgrifenu, a'r apostol wrth ei dyfynu, oedd dangos nad allai un o honynt, na'r oll o honynt, dynu ymaith bechod, ac mai gwaed Crist yn unig a allai wneuthur hyny.

Adn. 7. *Yna y dywedais*] Ynddo ei hun, trwy benderfyniad diysgog; neu wrth y Tad, mewn ffordd o addeuid neu ymrwymiad. *Wele, yr ydwyf yn dyfod*—i roddi fy nghorff fy hun yn aberth ac offrw dros bechod. *Yn rhol y llyfr yr ysgrifenydd am danaf*—y llyfr hwn oedd Pumllyfr Moses, canys nid oedd un ran arall o'r datguddiad dyfod yn ysgrifenedig cyn amser Dafydd. Gelwid ef yn 'rhol y llyfr,' am ei fod wedi ei ysgrifenu yn golofnau ar un len hir, yr hon a *rosid* ar ddau *rolbren*; ac wrth ei ddarllen, dadrolid ef *oddi-am* un i'w agor, ac *am y llall* i'w gau i fyny wrth fyned yn mlaen. Yn y modd yma yr ysgrifenu Pumllyfr Moses hyd heddyw yn y synagogau Iuddewig. Sonia Clarke am un yn ei feddiant ef, wedi ei ysgrifenu ar femrwn, yn mesur 102 o droedfeddi o hyd, a 2 droedfedd a 2 fodfedd o led. Y mae yn eglur oddiwrth Luc xxiv. 27, 44, Ioan v. 46, Act. iii. 22, a xxvi. 22, a xxviii. 23, fod Moses yn y Pumllyfr yn ysgrifenu am Grist; ac nid yn unig cyfeiria ato fel 'had y wraig, yr hwn a ysgai ben y sarff,' Gen. iii. 15, a'r 'Proffwyd a gyfodai Duw iddynt megys yntau,' Deut. xviii. 15; ond yr oedd yr aberthau, y cysegr, a'r offeiriad dan y gyfraith, oll yn ei rag-gysgodi ef yn y modd egluraf.

Adn. 8. *Da genyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw*] Sef diddymu yr aberthau a'r offrymau seremonïol, trwy farw fy hun yn aberth dros bechod. Fel hyn ni a welwn, tra yr oedd y Tad heb ewyllysio 'y rhai cyntaf' yn yr ystyr a nodwyd, ei fod ef yn ewyllysio 'yr ail,' sef aberthiad ei Fab; a darfod iddo 'gymhwyso

9 Pregethais gyfiawnder yn y gynulleidfa fawr: welc, nid attelais fy ngwefusau; ti, Arglwydd, a'i gwyddost.

10 Ni chuddiais dy gyfiawnder o fewn fy nghalon; traethais dy ffyddlondeb, a'th iachawdwriaeth; ni chelais dy drugaredd na'th wirionedd yn y gynulleidfa luosog.

11 Tithau, Arglwydd, nac attal dy drugareddau oddiwrthyf: cadwed dy drugaredd a'th wirionedd fi byth.

12 Canys drygau annifeiriol a'm cylchynasant o amgylch: fy mhechodau a'm daliasant, fel na allwn

edrych i fyny: amlach ydynt na gwallt fy mhen; am hyny y pallodd fy nghalon genyf.

13 Rhynged bodd i ti, Arglwydd, fy ngwaredu: bryisia, Arglwydd, i'm cymhorth.

14 Cydgywilyddier a gwaradwydder y rhai a geisiant fy einioes i'w dyfetha; gyrrer yn eu hol a chywilyddier y rhai a ewyllysiant i mi ddrwg.

15 Anrheithier hwynt yn wobr am eu gwaradwydd, y rhai a ddywedant wrthyf, Ha, ha.

16 Llawenyched ac ymhyfryded ynot ti y rhai oll a'th geisiant: dy-

coff' iddo i'r perwyl hwnw yn unig, fel y gallai ddyoddef a marw: ac yr oedd hyny hefyd yn unol âg ewyllys Crist ei hun, gan y dywed, 'Da genyf wneuthur dy ewyllys.' A'th gyfraith sydd o fewn fy nghalon—yr wyf nid yn unig yn ei deall hi, ond hefyd yn ei charu, ac yn ymhyfrydu mewn rhoddi nfydd-dod iddi.

Adn. 9. *Pregethais gyfiawnder yn y gynulleidfa fawr*] Sef y drefn o gyfiawnhau pechadur euog trwy ffydd yn aberth Crist: gwel ar Rhuf. iii. 25, 26. Y mae yn debyg fod yr adnod hon a'r nesaf yn cyfeirio at bregethiad Crist a'i apostolion; gwel Salm xxii. 22, 25: ac os deallwn hwynt mewn un modd am Dafydd, rhaid i ni ei ystyried ef yn hyn fel cysgod o Grist. *Welc, nid attelais fy ngwefusau*—rhag pregethu cyfiawnder, er i hyny fy narostwng i wawd a dyoddefiadau, fel y gwyddost.

Adn. 10. *Ni chuddiais dy gyfiawnder o fewn fy nghalon*] Eithr cyhoeddais ef yn eglur i'r byd, er gogoniant i ti, a lles i ddydolryw. *Traethais dy ffyddlondeb*—i gwblhau dy gynghor a'th amcanion dy hun, neu i gyflawni dy addewidion gyda golwg ar gnawdiad a dyoddefaint dy Fab; *a'th iachawdwriaeth*—yr hon a gaed trwy hyny. *Ni chelais dy drugaredd*—yr hon a ddarperais ar gyfer pechaduriaid trwy farwolaeth dy Fab; *na'th wirionedd*—neu dy ffyddlondeb i'w chyfranu; *yn y gynulleidfa luosog*—eithr hysbysais hwynt, fel y byddai i'r datguddiad o'th bridoliaethau hyn ddwyn gogoniant mynegol i'th enw dy hun, a chreu hyder a gorfoledd yn nghalonau holl blant dynion.

Adn. 11. *Tithau, Arglwydd, nac attal dy drugareddau oddiwrthyf*] Y mae y gair *rachameycha*, a gyfeithir yma 'trugareddau,' yn arwyddo y cyfryw duediadau a theimladau ag a ddanghosir gan fam dosturiol tuag at ei phlant. *Cadwed dy drugaredd—chasdecha*, 'dy drugaredd orllof a helaethlawn;' *a'th wirionedd*—yr hwn a ddatguddir yn dy air, neu dy ffyddlondeb i'estyn trugaredd; *fi byth*—rhag pechod yma, ac i fywyd tragwyddol yn y byd a ddaw.

Adn. 12. *Canys drygau annifeiriol*] Y

rhai nas gellir traethu eu nifer; *a'm cylchynasant o amgylch*—fel nad oes dim ond dy drugaredd a all fy ngwaredu. *Fy mhechodau a'm daliasant*—yn yr euogrwydd o honynt, neu y gomp am danynt; *fel na allwn edrych i fyny*—fel na allwn godi fy mhen yn ngwydd dynion, neu edrych i fyny yn hyderus mewn gweddî am drugaredd gan Dduw. *Amlach ydynt na gwallt fy mhen*—trwy eu bod yn cynwys ei bechodau mewn meddwl, gair, a gweithred; *am hyny y pallodd fy nghalon genyf*—yr anobeithiais yn fynech am drugaredd. Nid yw geiriau Dafydd yma yn gyson â'i brofiad ef yn nechre y Salm hon; gan hyny rhai i ni ei ystyried ef fel yn cyfeirio at ei brofiad cyn iddo gael y waredigaeth ag y sonia efe am dani yn adn. 1—3; neu ynte rhaid i ni edrych ar yr adnodau hyn fel rhan o Salm arall, neu yn Salm ar ei phen ei hun. Cawn y pum adnod nesaf yn gwneyd i fyny Salm lxx; ac fe allaf fod y ddyw adnod uchod, ar y cyntaf, yn ddechread i'r Salm hono.

Adn. 13. *Rhynged bodd i ti, Arglwydd, fy ngwaredu*] Oddiwrth fy mhechodau aml, ac oddiwrth y gomp a haeddais trwyddynt: *bryisia, Arglwydd, i'm cymhorth*—cyn iddi fyned yn rhy ddiweddar.

Adn. 14. *Cydgywilyddier a gwaradwydder y rhai a geisiant fy einioes i'w dyfetha*] Megys y gwnaethai Saul ac ereill yn fynych; *gyrrer yn eu hol a chywilyddier y rhai a ewyllysiant i mi ddrwg*—ond gellir deall y wreiddiol fel rhagfynegiad proffwydol y byddai iddynt gael eu gyru yn eu hol a'n cywilyddio, yn hytrach nag fel gweddî am i hyny gymeryd lle; gwel ar Salm v. 10.

Adn. 15. *Y rhai a ddywedant wrthyf, Ha, ha*] Hebr., 'heach, heach:' gwel ar Salm xxxv. 21.

Adn. 16. *Llawenyched ac ymhyfryded ynot ti y rhai oll a'th geisiant*] Trwy iddynt bob amser dy gael: *dyweddy y rhai a garant dy iachawdwriaeth*—sef y rhai a garant ei chael hi yn dy ffordd ac ar dy ammodau dy hun; *Mawrygyr yr Arglwydd*—am ddarparu y fath iachawdwriaeth, ac am adael i rai mor anheilwng ei chael.

Adn. 17. *Onid yr wyf fi yn dylawd ac yn*

weded y rhai a garant dy iachawdwriaeth bob amser, Mawryger yr Arglwydd.

17 *Ônd yr wyf fi yn dylawd ac yn anghenns; eto yr Arglwydd a feddwl am danaf: fy nghymhorth a'm gwaredydd ydwyf ti; fy Nuw, na hir drig.*

SALM XLI.

GWYN *ei fyd a ystyria wrth y tylawd: yr Arglwydd a'i gwared ef yn amser adfyd.*

2 Yr Arglwydd a'i ceidw, ac a'i bywha; gwynfydedig fydd ar y ddaear: na ddod dithau ef wrth cwylls ei elynion.

anghenus] Ynof ac o honof fy hun; *eto yr Arglwydd a feddwl am danaf*—yn ei drugaredd a'i ras: *fy nghymhorth a'm gwaredydd ydwyf ti*—tydi yw yr unig un a all fy nghynorthwyo a'm gwaredu: *fy Nuw, na hir drig*—cofia dy gyfammod, a brysia i'm gwaredu cyn disgyn o honof i'r bedd.

SALM XLI. Y teitl yw, 'I'r penceirdd, *Salm Dafydd.*' Ymddengys iddi gael ei chyfansoddi ar yr un achlysur a'r tair blaenorol, a'i bod yn cyfeirio at gystudd ac adferiad Dafydd, a'r ddrwgdriniaeth a gafodd efe gan ei elynion yn ystod ei gystudd. Y mae ein Harglwydd, mewn flordd o gyfadasiad, yn cynhwysu adn. 9 at fradwriaeth Judas, Ioan xiii. 18; a thybia rhai fod yr holl Salm yn traethu ar ddarostyngiad a dyrchafiad Crist.

Adn. 1. *Gwyn ei fyd a ystyria wrth y tylawd*] *Maschil*, 'a fyddo yn dosturiol, call, a thyner wrtho,' heb ei gondemnio a'i feio yn fyrbwyll a ffol, nac ymddwyn tuag ato yn greulon a chaled. Y mae y gair *dal*, a gyfieithir yma 'tylawd,' yn arwyddu un gwan, afiach, neu nychlyd; ond cynwysa hefyd y tylawd a'r anghenus. *Yr Arglwydd a'i gwared ef yn amser adfyd*—a'i gwared yntau o'i adfyd, am iddo ef waredu y tylawd.

Adn. 2. *Yr Arglwydd a'i ceidw ac a'i bywha*] 'Y mae yn deilwng o sylw,' ebai Clarke, 'mai tra anfyfych y mae dlynion ystyriol wrth y tylawd, ac yn enwedig wrth *dylodion claf*,—y rhai a chwiliant seleri, coeglofftidd, heolanan culion, a chyffelyb *drigfanau trueni*, i gael gafael ynddynt, (ie, yn y manau lle y ffynna haint,)—yn syrthio yn ysglyfaeth i'w caredigrwydd eu hunain. Y mae yr Arglwydd mewn modd neillduol yn eu cadw hwy yn *fyw*; tra y mae llawer a geisiant ymgadw rhag yr haint, yn cael eu dal ganddo, ac yn syrthio yn ysglyfaeth iddo.' *Gwynfydedig fydd ar y ddaear*—bydd dan amddiffyniad y Goruchlaf yn barhaus, ac mewn mwynhad o bob bendith dymhorol angenrheidiol iddo. *Na ddod dithau ef wrth ewythyys ei elynion*—i'r dinystr a chweynychant hwy

3 Yr Arglwydd a'i nertha ef ar ei glaf-wely: cyweiri ei holl wely ef yn ei glefyd.

4 Mi a ddywedais, Arglwydd, trugarha wrthyf: iachâ fy enaid; canys pechais i'th erbyn.

5 Fy ngelynyon a lefarant ddrwg am danaf, *gan ddywedyd*, Pa bryd y bydd efe farw, ac y derfydd am ei enw ef?

6 Ac os daw i'm hedrych, efe a ddywed gelwydd; ei galon a gasgl ati anwired: *pan êl allan*, efe a'i traetha.

7 Fy holl gaseion a gyd-hustingant i'm herbyn: yn fy erbyn y dychymyngant ddrwg i mi.

8 Aflwydd, *meddant*, a lŷn wrtho:

iddo. Tybia i'hai fod llyn yn cael ei ddywedyd wrth yr *Arglwydd* gyda golwg ar y dyn ystyriol; eithr tybia ereill ei fod yn cael ei ddywedyd wrth y *dyn ystyriol* gyda golwg ar y tylawd.

Adn. 3. *Yr Arglwydd a'i nertha ef ar ei glaf-wely*] A gynal ei feddwl ef, megys y cynaliodd yntau feddwl y tylawd: *cyweiri ei holl wely ef yn ei glefyd*—ti a roddi iddo lonyddwch ac esmwythdra, yr un fath ag a deimlai y tylawd claf ar ol cyweirio ei wely.

Adn. 4. *Mi a ddywedais*] Dywedasai Dafydd yr hyn a ganlyn yn fynych yn ei gystudd; *Arglwydd, trugarha wrthyf*—canys ni allaf ddal ymchwilid cyfiawnder noeth: *iachâ fy enaid*—yr hwn sydd mewn mwy o angen am drugaredd ac iachawdwriaeth, nag y mae fy nghorff am iachâd; *canys pechais i'th erbyn*—a chyflog pechod yw marwolaeth dragwyddol!

Adn. 5. *Fy ngelynyon a lefarant ddrwg am danaf*] A ddymunant ryw ddrwg neu aflwydd i mi; *gan ddywedyd*—nid yw y ddau air llyn yn y Saesonaeg na'r Hebraeg, ond y maent yn ddealliedig, ac yn angenrheidiol i gyflenwi y synwyr. *Pa bryd y bydd efe farw*—fel y caffom waredigaeth rhagdo? *ac y derfydd am ei enw ef*—neu y goffadwriaeth am dano, o blith meibion dlynion?

Adn. 6. *Ac os daw i'm hedrych*] Os deuai rhyw un o elynion Dafydd i edrych am dano ef yn ei gystudd; *efe a ddywed gelwydd*—megys, fod y ddrwg ganddo drosod, neu, ei fod yn gobethio yr iachâf. *Ei galon a gasgl ati anwired*—rhyw foddyliau drwg a disail am danaf, neu fwrïadau dicheilgar i'm herbyn, hyd yn nod tra wrth erchwyn fy ngwely: *pan êl allan, efe a'i traetha*—i foddhau ei gyfeillion, neu i'w cynhyrfu yn fwy yn fy erbyn. Tybia rhai mai at ei fab Absalom, neu Ahitophel, y cyfeiria efe yma.

Adn. 7. *Fy holl gaseion a gyd-hustingant*] A sisialant yn ddystaw i'm herbyn, yn ganlynol i'r hyn a draethwyd gan y cyfaill rhagrithiol uchod: *yn fy erbyn y dychymyngant ddrwg i mi*—i ddinystrio fy nghymymeriad a'm heinioes.

a chan ei fod yn gorwedd, ni chyfyd mwy.

9 Hefyd y gŵr oedd anwyl genyf, yr hwn yr ymddiriedais iddo, ac a fwytaodd fy mara, a ddyrchafodd ei sawdl i'm herbyn.

10 Eithr ti, Arglwydd, trugarha wrthyf; a chyfod fi, fel y talwyf iddynt.

11 Wrth hyn y gwn hoffi o honot fi, am na chaiff fy ngelyn orfoleddu i'm herbyn.

Adn. 8. *Afwydd, meddant, a lŷn wrtho*] *Debar beliyal yatsuk bo*, 'gair neu bla Belial a dywalltwyd arno.' Nid yw ei afechyd o fath cyffredin; anhwyldeb *dieflig* ydyw. *A chan ei fod yn gorwedd, ni chyfyd mwy*—y mae ei anhwydeb yn anfeddyginaethol heb wyrth, ac y mae Duw yn ei gasâu ef yn ormodol i wneyd gwyrrh ar ei ran. Ond y mae rhai yn cynhwysu hyn at farwolaeth ac adgyfodiad Crist: 'Y mae yn gorwedd yn *farw* yn y bedd, ac ni chyfyd yn *fyw* byth mwyach.

Adn. 9. *Hefyd y gŵr oedd anwyl genyf*] Meddylir fod Dafydd yn cyfeirio yma, yn yr ystyr blaenaf, at Ahitophel, yr hwn a fuasai yn gyfaill mynnesol iddo, ac yn brif-weinidog ei deyrnas, 2 Sam. xv. 12: *yr hwn yr ymddiriedais iddo*—fel cyfaill a chynghorwr fyddon a doeth; *ac a fwytaodd fy mara*—yr hwn a eisteddai yn ei wleddoedd ef, neu a gynelid ar ei fwrdd: *a ddyrchafodd ei sawdl i'm herbyn*—ymadrodd yn arwyddo niwed, yn gysylltedig âg anniolchgarwch a dirmyg; mewn cyfeiriad at farch afreolus yn troedio ei feistr a'i borthwr. Y mae hyn yn cael ei gymhwysu gan ein Harglwydd at Judas, yr hwn a fwytaodd y tamaid o'i law ef, Ioan xiii. 18, 26; ac yr oedd Ahitophel yn gysgod nodedig o'r Bradwr hwnw, trwy iddo nid yn unig fradychu ei feistr, ond hefyd ymgrogi ar ol hwny, 2 Sam. xvii. 23.

Adn. 10. *Eithr ti, Arglwydd, trugarha wrthyf*] Trwy fy iachân i er siomedigaeth i'm gelynyon; *a chyfod fi*—oddiar wely cystudd; *fel y talwyf iddynt*—dda dros ddrwg. Eithr y dyb gyffredin yw, mai 'talu iddynt gosp eu drygioni' a feddylir. Ond os felly, nid oedd efe am dalu iddynt mewn ysbryd *dialgar*, an y buasai hyn yn bechadurus ynddo; eithr talu mewn ffordd o *gyfiawnder*, fel brenin a barnwr, yr llyn oedd yn ddyledsdydd arno tu ag at deyrnfradwyr a drwgweithredwyr. 'Canys nid yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer; oblegid gweinidog Duw yw efe,' wedi ei wisgo âg awdurdod Duw; 'dialydd llid i'r hwn sydd yn gwneuthar drwg,' Rhaf. xiii. 4. Mod bynag, yr oedd Dafydd yn ei gymeriad unigol, neu fel dyn cyffredin, mor bell oddiwrth ddial ar y rhai a wnaent gam âg ef, fel y talai efe iddynt bob amser dda dros ddrwg, Salm xxxv. 12, 13. Ond tybia rhai fod yn y weddi bon broffwydoliaeth am adgyfodiad a dyrchafiad ein Harglwydd bendigedig, fel y byddai iddo ddial yn gyfawn am yr holl ddrwg a wnaethai yr Iudd-

12 Ond am danaf fi, yn fy mherffeithrwydd y'm cyneli, ac y'm gosodi ger dy iron yn dragywydd.

13 Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel, o dragwyddoldeb a hyd dragwyddoldeb. Amen, ac Amen.

SALM XLII.

FEL y brefa yr hŷdd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw.

ewon iddo ef a'i ganlynwyr, yr hyn a gyflawnwyd cyn hir yn en dilynstr hwy a'u gwladwr-iaeth.

Adn. 11. *Wrth hyn y gwn hoffi o honot fi*] Fel brenin danat ti ar dy bobl; *am na chaiff fy ngelyn orfoleddu i'm herbyn*—sef trwy na chai Absalom a'i blaid ei orchfygu ef, a dwyn y goron a'r orsedd oddiaro.

Adn. 12. *Ond am danaf fi*] Er anled yw fy ngelynyon; *yn fy mherffeithrwydd y'm cyneli*—heb wŷro oddiwrtho; neu, 'cyneli fi am fy mherffeithrwydd;' hynny yw, am iddo ganfod diniwdeirwydd Dafydd yn achos Absalom: *ac y'm gosodi ger dy iron yn dragywydd*—i lywodraethu danat ti ar dy bobl Israel tra y byddaf byw, neu i fwynhau dy bresenoldeb byth yn y nef. Ond tybia rhai mai cyfeiriad sydd yma at eisteddiad Crist ar ddechulaw ei Dad yn ei gymeriad cyfryngol.

Adn. 13. *Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel*] Yr hwn sydd Dduw mewn cyf-ammud â'r bobl Israel, a'r hwn a wnaeth gymaint erddynt eisioes, ac a wna eto lawer mwy: bendithier, molianner, a dyrchafer ef yn oesoedd am hynny. *O dragwyddoldeb, a hyd dragwyddoldeb*—Hebr., *meholam wead holam*, 'o'r amser cuddiedig hyd yr amser cuddiedig;' hynny yw, o'r amser diddechre hyd yr amser diddiwedded. Y mae yr ystyr hwn i'r wreiddiol yn cael ei fynegu yn llawn yn ein biaith ni: *tra-gwydd-oldeb*—yr hyn sydd guddiedig o'n *gwydd*, o ran ei natur a'i barhad. *Amen, ac Amen*—y mae y gair 'Amen,' ac yn enwedig yr ailadroddiad o hono, yn arwyddo cydsyniad diffuant â'r hyn a ddywedwyd, ac awyddu calon am iddo gymeryd lle, sef fod i'r Arglwydd Dduw Israel fod yn *fendigedig* o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb. Fel hyn y diwedda yr hyn a eilw yr Iuddewon yn *llyfr cyntaf* y Salmu, y rhai a renid ganddynt hwy yn *bun llyfr*: gwel y rhagarweiniad.

SALM XLII. Y teitl yw, '*I'r pencerdd, Maschil, i feibion Corah.*' Ystyr y gair *maschil* yw rhoddi addysg, athrawiaeth, neu ddoethineb: gwel deitl Salm xxxii. Yma y dechreuau *ail lyfr* y Salmu, yn ol y rhanid Iuddewig; ac y mae y dosbarth cyntaf o hono yn cynwys darnau cyfeiriedig at feibion Corah, i'w hyfforddi hwy, neu i'w canu ganddynt dan gyfarwyddyd y prif gerddor. Meddylir yn gyffredin mai Dafydd a'i cyfansoddodd, a hynny pan ar ffo rhag Absalon; er y tybia rhai mai

2 Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw: pa bryd y deuaſ ac yr ymddanghosaf gerbron Duw?

3 Fy nagrau oedd fwyd im' ddydd a nos, tra dywedant wrthyf bob dydd, Pa le y mae dy Dduw?

4 Tywalltwn fy enaid ynof, pan gofwn hyny: canys aethwn gyda'r gynulleidfa, cerddwn gyda hwynt i dŷ Dduw, mewn sain can a moliant, fel tyrfa yn cadw gŵyl.

5 Paham, fy enaid, y'th ddaros-

tyngir, ac yr ymderfysgi ynof? go-beithia yn Nuw: oblegid moliannaf ef eto, am iachawdwriaeth ei wyneb-pryd.

6 Fy Nuw, fy enaid a ymddaros-twng ynof: am hyny y cofiaſ di o dir yr Iorddonen, a'r Hermoniaid o fryn Misar.

7 Dyfnder a eilw ar ddyfnder, wrth sw'n dy bistylloedd di: dy holl dōnau a'th lifeiriant a aethant dros- of fi.

yn amser y caethiwed Babilonaidd y gwnaed hyny, a hyny gan un o feibion neu hiliogaeth Corah.

Adn. 1. *Fel y breſa yr hŷdd am yr aſonydd dyfroedd*] Dywedir mai creadur sychedig iawn yw yr hŷdd, yn enwedig pan yn cael ei erlid gan gŵn yr helyddion; ac mai ei noddfa olaf ef rhagdynt yw yr aſon, lle yr erys dan y dwr cyhyd ag y gallo, heb ddim o'i gorff yn y golwg oddieithr ei ffroean i anadlu. Pan yn cael ei hela felly efe a freſa am yr aſon yn y modd mwyaf cwynfaſus, gan faint ei syched, a rhag ofn cael ei ladd. *Felly yr hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw*—ſef am fwynhau cymdeithas Duw yn ei gyſegr, pan yr oedd wedi gorſod ffoi o'i wlad. Dywed *Ælian, Appian, Aristotle, Nicander, a Pliny*, mai un achos paham yr oedd yr hŷdd mor sychedig ydoedd, eu bod yn bwyta *seirff a nadrodd*, y rhai yr oedd eu gwenwyn yn peri *hogſa* angherddol yn eu cylla; ac yr oedd amrai o'r *Tadau* o'r un faru, er fod ereill yn gwadu hyny.

Adn. 2. *Sychedig yw fy enaid am Dduw*] Fel yr oedd yr hŷdd am y dyfroedd; am y *Duw byw*—yr hwn yw 'Ffynnon y dyfroedd byw,' Jer. xvii. 13. *Pa bryd y deuaſ*—i'w gynteddoedd ef, i ymddangos yno ger ei fron?

Adn. 3. *Fy nagrau oedd fwyd im' ddydd a nos*] Nis gallwn fwyta gan wŷlo; neu, yr oedd ei ddagrau yn ymgymysgu â'i fwyd pan geisiai fwyta: *tra dywedant wrthyf bob dydd*—ſef tra y gofynai ei elynion iddo yn barhaus, *Pa le y mae dy Dduw*—yr hwn yr ymfrostit gymaint ynddo fel un galluog ac ewyllysgar i waredu y rhai a ymddiriedent ynddo.

Adn. 4. *Tywalltwn fy enaid ynof*] Mewn goſid a hiraeth santaidd; *pan gofwn hyny*—fy mod wedi fy amddifadu o foddion cyhoeddus gras, a bod fy ngelnyon felly yn fy ngwawdio: *canys aethwn gyda'r gynulleidfa*—yr oeddwn yn arferol o fyned gynt gyda miloedd Israel i dŷ Dduw, yn enwedig ar y gŵyliau arbenig; *mewn sain cŵn a moliant*—dan ganu yn hyfryd a gorſoeddus; *fel tyrfa*—hyny yw, 'yn dyrfa,' neu 'gyda thyrfa yn cadw gŵyl' i'r Arglwydd: gwel ar Exod. xxiii. 14—16.

Adn. 5. *Paham, fy enaid, y'th ddarostyngir*] Gan dristwch a galar wrth goſio y pethau hyn; *ac yr ymderfysgi ynof*—fel pe byddai pob gobaith am gael cydaddoli eto â'm brodyr

wedi darſod? *Gobeithia yn Nuw*—yn ei allu, ei addewidion, a'i ffyddlondeb: *oblegid moliannaf ef eto*—daw amser eto pryd y caf ſangu ei gynteddoedd i'w foliannu a'i glodfori ef; *am iachawdwriaeth ei wyneb-pryd*—am waredigaeth oddiwrth fy ngelnyon, ac am ei gysuron ysbyrdol ef yn fy enaid: gwel ar adn. 11.

Adn. 6. *Fy Nuw, fy enaid a ymddaros-twng ynof*] Gan ofid a galar wrth orſod ffoi fel hyn o'm gwlad: *am hyny yr cofiaſ di*—y myfyrfa ar dy drugaredd, dy allu, a'th ffyddlondeb, neu ar dy bresenoldeb grasol yn dŷ gyſegr; *o dir yr Iorddonen*—ſef o'r anialwch tuhwnt i'r Iorddonen, i'r hwn y ffoisai efe; *a'r Hermoniaid*—ſef o dir yr Hermoniaid; neu o'r 'Hermonau,' mewn cyfeiriad at wahanol grŷbau y mynydd hwnn, yn mharthau gogledd-ddwyreiniol gwlad Canaan; *o fryn Misar*—Hebr., 'o'r bryn bychan.' Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at unrhyw fryn tuhwnt i'r Iorddonen, llai na mynydd Hermon, i'r hwn y dygwyddai iddo ffoi; a thybia ereill ei fod yn cyfeirio at fynydd Seion, neu fryn Soar. Ymddengys mai y meddwl yw, y byddai i Dafydd goſio yr Arglwydd, a'i bresenoldeb yn y cyſegr, o unrhyw fan lle y gorfyddai iddo ffoi, neu yn mha le bynag y byddai.

Adn. 7. *Dyfnder a eilw ar ddyfnder*] Y mae y naill dralod yn dyfod arnaf mor ddisymwthar ol y llall, nes y maent fel pe byddent yn galw ar eu gilydd i ymosod arnaf; neu y mae y naill dŵn o ofid yn liffo drosod mor gyflym ar ol tŵn arall, unwedd a phe byddent yn gwa-hodd eu gilydd i geisio suddo fy llestr, neu i'w chwilfrwio yn erbyn y graig. Yn gyson â'r meddwl diweddat tybia rhai mai cyfeiriad sydd yma at long ar y môr, yn cael ei lluchio gan yr ystorm; tra y tybia ereill mai cyffelybiaeth yw y geiriau wedi ei chymeryd oddiwrth y dyllif, pryd yr oedd y dyfroedd ag oedd yn nyfnder y môr, ac yn nghrombil y ddaear, fel yn galw ar y casgliad mawr o ddyfroedd ag ydoedd yn y cymylau, i gyduno â'u gilydd i fodd i byd. *Wrth sw'n dy bistylloedd di*—meddylir fod yma gyfeiriad at y *dwfr-bistylloedd*, y rhai, yn ol Dr. Shaw ac ereill, a ddygwyddant yn fynwch ar ddeuadd dwyreiniol Môr-y-cauldor. Trwy weithrediad yr golof trydanaudd flurfir y cymylau yn fath ar golof genol droellog, yn cyraedd i lawr hyd y môr, yr hon a sugna y dwf i fyny, ac a'i pistyllia yn ffrydiau neu afonydd ar y ddaear gyda swa

8 Eto yr Arglwydd a orchymyn ei drugaredd liw dydd, a'i gân fydd gyda mi liw nos; *sef* gweddi ar Dduw fy einioes.

9 Dywedaf wrth Dduw fy nghraig, paham yr anghofiaist fi? paham y rhodiaf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?

10 *Megys* â chleddyf yn fy esgyrn y mae fy ngwrthwynebwyr yn fy ngwaradwyddo, pan ddywedant wrthf bob dydd, Pa le y mae dy Dduw?

11 Paham y'th ddarostyngir, fy enaid? a paham y terfysgi ynof? ymddiried yn Nuw: canys eto y moliannaf ef, *sef* iachawdwriaeth fy wyneb, a'm Duw.

dinawr. *Dy holl donau a'th lifseiriant*—mewn cyfeiriad fe allai at y dyfroedd a dywelltid felly o'r pistylloedd hyny; a *oethant drosaf fi*—y mae y nail dralloed blin ar ol y llall yn fy ngorchuddio yn barhaus, nes yr wyf bron â chael fy nyfetha ganddyn.

Adn. 8. *Eto yr Arglwydd a orchymyn ei drugaredd liw dydd*] A enfy arwydd o gar-edigrwyd i mi mewn amser dyladwy, neu mor amlwg a'r dydd, neu bob dydd; *a'i gân fydd gyda mi liw nos*—mewn canlyniad i hyny; *sef gweddi ar Dduw fy einioes*—Gwaredydd ei einioes, neu wrthddrych ei fawl a'i weddi ar hyd ei einioes. Fel pe dywedasai, Er amled ty bhrallodau blin, yr wyf bob dydd yn cael rhyw brawf newydd o drugareddau yr Arglwydd, nes yr wyf yn treulio llawer o'm nosweithiau i ganu ei glodydd, ac i alw ar ei eow.

Adn. 9. *Dywedaf wrth Dduw fy nghraig*] Yr hwn a fu hyd yn hyn yn gadernid, amddiffynfa, a chysgod i mi; *Paham yr anghofiaist fi*—neu yr ymddygi tuag ataf fel pe byddit yn fy aunglofio, trwy adael i'm gelynon fy erlid a'm gwawdio? *Paham y rhodiaf yn alarus trwy orthrymder y gelyn*—a tliuthau wedi addaw bod yn amddiffynydd, arweinydd, a chysur i mi?

Adn. 10. *Megys â chleddyf yn fy esgyrn*, &c.] Hyny yw, y mae gwaredyddiadau parhaus fy ngwrthwynebwyr yn poeni cymaint ar fy ysbryd, a phé byddai cleddyf yn trywanu fy nghnawd hyd at yr asgwrn, pan y gofynant i mi bob dydd, *Pa le mae dy Dduw?*—gwel ar adn. 3.

Adn. 11. *Paham y'th ddarostyngir, fy enaid*] Yma y mae Dafydd yn troi eilwaith i geryddu ei enaid ei hun am fod mor lwfr yn ei adfyf presenol: gwel ar adn. 5. *Canys eto y moliannaf ef*—yn gyhoeddus yn ei gysegr; *sef iachawdwriaeth fy wyneb, a'm Duw*—yn adn. 5 dywedasai Dafydd, 'Moliannaf ef eto am iachawdwriaeth ei wynebwyr,' i arwyddo mai oddiwrth wynebwyr Duw y tardda ein hiachawdwriaeth ni yn gwbl; ond yma efe a ddywed, 'Iachawdwriaeth fy wyneb,' i

SALM XLIII.

BARN fi, O Dduw, a dadleu fy naddl yn erbyn y genhedlaeth amhrugarog: gwared fi rhag y dyn twyllodrus ac amghyfiawn.

2 Canys ti yw Duw fy nerth: paham y'm bwri ymaith? paham yr âf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?

3 Anfon dy oleuni a'th wirionedd: tywysant hwy fi; ac arweiniant fi i fynydd dy santeiddrwydd, ac i'th bebyll.

4 Yna yr âf at allor Duw, at Dduw hyfrydwch fy ngorfoledd; a mi a'th foliannaf ar y delyn, O Dduw, fy Nuw.

ddangos effeithiau daionus yr iachawdwriaeth ar y neb a'i mwynha hi. Fel y mae iechyd y corff yn ymddangos yn wyneb dyn, felly y mae iachawdwriaeth yr enaid yn lloai ac yn sirioli gwynebwyr y credadyn.

SALM XLIII. Y mae testyn y Salm hon yr un peth a thestyn y Salm flaenorol, a chafodd ei hysgrifenu yn ddiamau gan yr un awdwr; a thrwy nad oes un teitl iddi, tueddwyd llawer i feddwl mai parhad o'r Salm uchod ydyw; ac felly y saif mewn 46 o ysgriflyfrau Kennicott a De Rossi.

Adn. 1. *Barn fi, O Dduw*] Trwy ddadlu fy naddl, neu amddiffyn fy achos; *yn erbyn y genhedlaeth amkrugarog*—*sef* Absalom a'i blaidd ond odid, er y tybia rhai mai y Babiloniaid a feddylir: *gwared fi rhag y dyn twyllodrus ac amghyfiawn*—*sef* Ahiotophel fe allai, yr hwn a droisai yn dwyllodrus tuag at Dafydd. Ond tybia rhai mai Nebuchodonosor a olygwr gwel deitl Salm xlii.

Adn. 2. *Canys ti yw Duw fy nerth*] Nid oes genyf neb ond tydi i wynebu ato am ddiogelwch. *Paham y'm bwri ymaith*—oddiwrth freintian y cysegr, trwy oddef i'm gelynon fy ngyru fel hyn ar fi? *Paham yr âf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?*—gwel ar Salm xlii. 9, 10.

Adn. 3. *Anfon dy oleuni*] *Sef* goleuni yr Ysbryd Glân ond odid; *a'th wirionedd*—*sef* gwirionedd ei addewidion yn y cyflawniad o honynt; neu ynte efe a weddia am oleuni a doethineb oddiuchod i'w gyfarwyddo yn ei adfyf presenol. *Tywysant hwy fi*—adref o'r anialwch pell hwn; *ac arweiniant fi i fynydd dy santeiddrwydd*—i fynydd Seion, lle yr oedd yr arch a'r drugareddfa y pryd hyn; *ac i'th bebyll*—heblaw y babbell yn Jerusalem, yr oedd un arall yn Gibeon, *sef* hen babbell Moses, lle yr oedd allor y poeth-offwrn yn aros hyd ddyddiau Solomon, i Bren. iii. 4. Fel hyn yr oedd Dafydd yn caru y cysegr yn fwy na'r orsedd, neu ei balas ei hun.

Adn. 4. *Yna yr âf at allor Duw*] I offrynu aberth diolclgarwch yno am fy ngwaredig-

5 Paham y'th ddarostyngir, fy enaid? a paham y terfysgi ynof? gobeithia yn Nuw; canys eto y moliannaf ef, sef iachawdwriaeth fy wyneb, a'm Duw.

SALM XLIV.

DUW, clywsom â'n clustiau, ein tadau a fynegasant i ni, y weithred a wnaethost yn eu hamser hwynt, yn y dyddiau gynt.

2 Ti â'th law a yraist allan y cenhedloedd, ac a'u plenaist hwythau: ti a ddrygaist y bobloedd, ac a'u cynyddaist hwythau.

3 Canys nid â'u cleddyf eu hun y goresgynasant y tir, nid eu braich a barodd iachawdwriaeth iddynt; eithr dy ddeheulaw di, a'th fraich, a llewyrch dy wyneb, o herwydd i ti eu hoffi hwynt.

4-Ti, Dduw, yw fy Mrenin: gorchymyn iachawdwriaeth i Jacob.

5 Ynot ti y cilgwrthiwn ni ein gelymion: yn dy enw di y sathrwn y rhai a gyfodant i'n herbyn.

6 O herwydd nid yn fy mwa yr ymddriedaf; nid fy nghleddyf chwaith a'm hachub.

7 Eithr ti a'n hachubaist ni oddi-

aeth; at *Dduw hufrydwech fy ngorfoledd*—yr hwn yw gwrthddrych hyfryd fy ngorfoledd, yn gystal a'r awdwr o hono; a *ni a'th foliannaf ar y delyn*—gartref hefyd, sef yn fy nhŷ fy hun; *O Dduw, fy Nuw*—yr hwn wyt Dduw mewn cyfammod â'm lenaid.

Adn. 5. *Paham y'th ddarostyngir fy enaid? &c.*] Gwel ar Salm xlii. 5, 11.

SALM XLIV. Y teitl yw, '*Yr pencerdd, i feibion Corah, Maschil.*' Hon yw y drydedd o'r Salmau hyny a elwir *Muschil*, a'r ail o'r rhai a gyfeirir at *feibion Corah*: gwel deitlau Salm xxxii a xlii. Nid ymddengys, meddai Benson, iddi gael ei chyfansoddi gan Dafydd, canys nid oedd Israel yn ei ddyddiau ef yn cael eu gorthrymu gan eflynon estronol, fel y cwynir yma eu bod. 'Eto nid wyf fi yn meddwl,' meddai yr Esgob Patrick, 'ddarfod ei chyfansoddi yn ystod caethiweid Babilon, eithr yn flaenorol i hyny, er yn hir ar ol dyddiau Dafydd; tra yr oedd eu teyrnas eto yn parhau, a phan yr oedd ganddynt rai byddinoedd yn aros, er nad oedd Duw yn en bendithio â llwyddiant, adn. 9.' Efe a dybia yn mhellach ddarfod ei chyfansoddi yn nyddiau Hezeciah, yr hwn oedd yn ddiwygiwr duwiol yn yr eglwys Iuddewig, ac eto er hyny a ymosodwyd arno gan frenin Assyria, at ba drallod, fel y tybia efe, y cyfeirir yn y Salm hon: gwel 2 Bren. xviii. 13, &c. Gall mai y brenin duwiol hwnw ei hun, neu ryw ddyd dwyfolysbrydoledig arall yn ei amser ef, a'i hysgrifennodd. Ond pwy bynag oedd ei hawdwr, rhaid i ni ystyried eglwys neu bohl Dduw fel yn llefaru ynddi. Tybia Henry ac ereill ei bod wedi ei chyfansoddi trwy ysbyrd proffydoliaeth gyda golwg ar gyflwr cystuddiedig yr eglwys Gristionogol yn ei dyddiau boreaf, at yr hwn y cymhwysir adn. 22 gan yr apostol, Rhuf. viii. 36; ac, yn wir, gyda golwg ar ei chyflwr yn ystod ei holl amser ar y ddaear. Ar y tir hwn gallasai Dafydd ei hysgrifenu yn gystal a rhywun arall.

Adn. 1. *Duw, clywsom â'n clustiau*] Hyny yw, clywsom ni, trigolion yr oes hon, ein tadau yn son llawer am *y weithred a wnaethost yn eu hamser hwynt*—nis gallwn ni wybod yn sicr at ba weithred neillduol y cyfeirir

yma, gan nas gwyddom pwy oedd awdwr y Salm hon, na pha bryd yr oedd efe yn byw. Gellir meddwl fod yma gyfeiriad at ryw war-edigaeth hynod a wnaed yn yr oes flaenorol i eiddo yr ysgrifenydd. *Yn y dyddiau gynt*—neu, fel y mae y *Litani* yn ei ddarllen, 'ac yn y cynfyd o'u blaen hwy;' hyny yw, adroddasant i ni y gweithredoedd arddrechog a wnaethost yn eu dyddiau hwy, yn gystal a'r rhai a wnaethost oesoedd cyn eu geni. Cyfeiria hyn at ddygiad y genedl o'r Aifft i Ganaan, fel yr ymddengys oddiwrth y geiriau nesaaf.

Adn. 2. *Ti a'th law a yraist allan y cenhedloedd*] *Sef* saith genedl y Canaanaid o'u gwlad eu hunain; *ac a'u plenaist hwythau*—sef genedl Israel, yno yn eu lle. *Ti a ddrygaist y bobloedd*—Saes, 'a'u cystuddiaist,' am eu drygioni, trwy *leihau* eu nifer; *ac a'u cynyddaist hwythau*—yn genedl luosog. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at farnau Duw ar yr Aifftiaid, fel y mae yn nechre yr adnod at ei farn ar y Canaanaid.

Adn. 3. *Canys nid â'u cleddyf eu hun y goresgynasant y tir*] Nid eu harfau, eu medrusrwydd, a'u dewrder eu hunain a ennillodd iddynt wlad Ganaan: *eithr dy ddeheulaw di a'th fraich*—dy ewyllys da a'th allu anfeidrol dy liun; a *llewyrch dy wyneb*—dy foddlonrwydd ynddynt â'th ffair iddynt, o herwydd i ti eu hoffi hwynt. Yr oedd yn rhaid i Israel ddefayddio eu cleddyf eu hun, ond bendith Duw ar eu hymdrechiadau a barai iddynt fuddugoliaeth.

Adn. 4. *Ti, Dduw, yw fy Mrenin*] Yr wyt ti yn Frenin ar dy bobl, neu yn dy eglwys, yn awr, fel yr oeddit y blynyddau a acthant heibio: *gorchymyn*—fel Brenin, *iachawdwriaeth i Jacob*—yn y dyddiau hyn, fel yr oeddit yn gwneyd yn y dyddiau gynt.

Adn. 5. *Ynot ti*] *Sef* yn dy allu di, *y cilgwrthiwn ni ein gelymion*—cyfeiriad at ych yn gwrthio ymaith a'i gyrn y cŵn a ymosodent arno: *yn dy enw di*—neu trwy dy awdurdod di, *y sathrwn y rhai a gyfodant i'n herbyn*—fel dom yr heolydd.

Adn. 6. *O herwydd nid yn fy mwa yr ymddriedaf*] Er cryfied ydyw, ac er i mi orfod ei ddefnyddio; *nid fy nghleddyf chwaith a'm hachub*—er llymed yw ei fia.

wrth ein gwrthwynebwy, ac a waradwyddaist ein caseion.

8 Yn Nuw yr ymfrostiwn trwy y dydd; a ni a glodforwn dy enw yn dragywydd. Selah.

9 Ond ti a'n bwriaist ni ymaith, ac a'n gwaradwyddaist; ac nid wyt yn myned allan gyda'n lluoedd.

10 Gwnaethost i ni droi yn ol oddiwrth y gelyn: a'n caseion a anrheithiasant iddynt eu hun.

11 Rhoddaist ni fel defaid i'w bwyta; a gwasgeraist ni yn mysg y cenhedloedd.

12 Gwerthaist dy bobl heb elw, ac ni chwanegaist dy olud o'u gwerth hwynt.

13 Gosodaist ni yn warthrudd i'n cymydogion, yn watwargerdd ac yn

wawd i'r rhai ydynt o'n hamgylch.

14 Gosodaist ni yn ddiareb yn mysg y cenhedloedd, yn rhai i ysgwyd pen arnynt yn mysg y bobloedd.

15 Fy ngwarthrudd sydd beunydd ger fy mron, a chywilydd fy wyneb a'm tôdd:

16 Gan lais y gwarthruddwr a'r cablwr; o herwydd y gelyn a'r ymddialwr.

17 Hyn oll a ddaeth arnom; eto ni'th anghofiasom di, ac ni buom anffyddlon yn dy gyfammod.

18 Ni thrôdd ein calon yn ei hol, ac nid aeth ein cerddediad allan o'th lwybr di;

19 Er i ti ein curo yn nhrigfa dreig-

Adn. 7. *Eithr ti a'n hachubaiſt ni*] Yn mhob cenhedaeth; ac a waradwyddaist ein caseion—trwy eu siomi, a'u rhoddi yn ein llaw i'w dyfetha. Yr oedd pobl Israel wedi ymladd yn ddewr a'n gwrthwynebwy yn amser Josua a'r Barnwyr, ac wedi hyny yn amser Dafydd; ond priodolent eu hachubiaeth bob amser i'r Arglwydd.

Adn. 8. *Yn Nuw yr ymfrostiwn bob dydd*] Am ei fod y fath Waredwr ffyddlon a galluog; a ni a glodforwn dy enw yn dragywydd—am y rhyfeddodau a wnaethost i ni ac i'n tadau. Selah—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 9. *Ond ti a'n bwriaist ni ymaith*] Y waith hon; ac a'n gwaradwyddaist—trwy ein bwrw ymaith ar ol ein holl ymfrost ynot yn ngwydd dy elynion; ac nid wylt yn myned allan gyda'n lluoedd—i'w harwain, eu hamddiffyn, ac ymladd drostynt. Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at yr amser pryd y cymerwyd yr arch gan y Philistiaid; neu, yn ol ereill, at amser Hezeciah; neu at amser y caethglndiad i Babilon; neu at amser y Maccabeaid. Ond gellir dywedyd yr un peth am bob cyfnod pryd y byddau paganiaeth, annwriaeth, neu lygredigaethau yr oes, yn fwy blodeuog na'r wir grefydd.

Adn. 10. *Gwnaethost i ni droi yn ol oddiwrth y gelyn*] Heb allu eu gwrthsefyll; a'n caseion a anrheithiasant iddynt eu hun—ein meddiannau.

Adn. 11. *Rhoddaist ni fel defaid i'w bwyta*] I'n lladd, fel y lleddir defaid i'w bwyta; a gwasgeraist ni yn mysg y cenhedloedd—gorfodwyd ni i ffoi am ein bywyd i'w mysg, neu dygwyd ni i'w gwlad hwy yn garcharorion rhyfel. Fel hyn y bu yn fynych gyda'r Iuddeuon, ac wedi hyny gyda'r Cristionogion.

Adn. 12. *Gwerthaist dy bobl heb elw*] Gan mor wael oeddynt yn dy olwg; ac ni chwanegaist dy olud o'u gwerth hwynt—ni ddygodd hyny ddim gogoniant chwanegol i ti.

Adn. 13. *Gosodaist ni yn warthrudd i'n cymydogion*] Yn wrthdrrychau iddynt chwertbin am ein pen, ein gwatwar, a'n gwawdio:

ac yn hyn cyflawnwyd geiriau Moses, Dent. xxviii. 37.

Adn. 14. *Gosodaist ni yn ddiareb yn mysg y cenhedloedd*] Y rhai, pan chwennychiant ddangos trueni unrhyw ddyd, a ddywedant, 'Y mae ef mor ddifffraith neu druenus ag Iuddeu;' yn rhai i ysgwyd pen arnynt—mewn ffloedd o ddiystyrwch neu ddirmyg, hyd yn nod tra heb ddywedyd gair.

Adn. 15. *Fy ngwarthrudd sydd beunydd ger fy mron*] Nis gallaf agor fy llygaid yn amser heb ganfod arwyddion o warthruddiad oddiwrth rywrai neu gilydd; a chywilydd fy wyneb a'm tôdd—a'm llwyr orchuddia yn mhla le bynag y byddwyf. Ymddengys mai nid am dano ei hun fel person unigol y dywed y Salmydd hyn, ond ei fod yn llefaru yn enw holl Israel, neu yn enw eglwys Dduw dan ei gwarth gan ei gelynion.

Adn. 16. *Gan lais y gwarthruddwr a'r cablwr*] Y rhai y mae swn eu gwarthruddiaidau a'u cableddau yn llenwi ein clustiau yn barhaus; o herwydd y gelyn a'r ymddiolwr—y rhai sydd nid yn unig yn elynion mewn meddwl, ond yn amlygu eu gelyniaeth yn wastadol trwy weithredoedd o ddaledd cyhoeddus.

Adn. 17. *Hyn oll a ddaeth arnom*] Sef y drygau a grybwyllwyd adn. 9—16; eto ni'th anghofiasom di—ni syrthiasom i eilunaddoliaeth neu annwriaeth; ac ni buom anffyddlon yn dy gyfammod—hyny yw, ni lwyr anghofiasom dy gyfammod, neu ni chiliasom oddiwrthty trwy hollol wrthgiliaid. Yr oeddynt yn ddiad wedi bod yn 'anffyddlon' i raddau pell, pe amgen ni ddaethai y drygyd yma i'w cyfarfod. Ond fe allai eu bod yn cyfeirio nid at eu cyflwr cyn eu cospi, ond at eu hymlyniad wrth Dduw yn ystod ei gerydd ef.

Adn. 18. *Ni thrôdd ein calon yn ei hol*] Oddiwrth dy addoliad a'th wasanaeth di; ac nid aeth ein cerddediad allan o'th lwybr—yr hwn a osodaist o'n blaen yn dy air i rodio ynddo.

iau, a thoi drosom â chysgod angau.

20 Os anghofiasom enw ein Duw, neu estyn ein dwylaw at dduw dyeithr:

21 Oni chwilia Duw hyn allan? canys efe a w'yr ddirgeloedd y galon.

22 Ie, er dy fwyn di y'n lleddir beunydd; cyfrifir ni fel defaid i'w lladd.

23 Deffro, paham y cysgi, O Arglwydd? cyfod, na fwrw ni ymaith yn dragywydd.

24 Paham y cuddi dy wyneb?

Adn. 19. *Er i ti ein curo yn nkrigfa dreigiau* Mewn awialwch lle nad oes dim i'w glywed ond swm nadrodd a seirff, neu, er i ti ein traddodi i ddwyllaw dynion creulon, ffyrnig, a llofruddiog, neu rai cyffelyb i ddreigiau o ran eu llid, eu dichell, a'u gwenwyn. *A thoi drosom â chysgod angau*—sef â thrallodion dychrynllyd ac angeuol, nes yr oedd yn ddû a thywyll arnynt hyd yr eithaf.

Adn. 20. *Os anghofiasom enw ein Duw* Ei fodfaeth, ei briodolaethau, a'i hawliau ynom; *neu estyn ein dwylaw at dduw dyeithr*—mewn ffordd o weddi neu addoliad.

Adn. 21. *Oni chwilia Duw hyn allan?* Oni raid ei fod ef yn gywybod am ein gweithredoedd hyn? *Canys efe a w'yr ddirgeloedd y galon*—y briadau a'r tueddiadau mwyaf cudd o'n mewn. Hyn sydd fath ar apeliad at Dduw o berthynas i'w diniweidrwydd.

Adn. 22. *Ie, er dy fwyn di* O herwydd ein hymlyniad disigl wrthyt ti a'th grefydd; *y'n lleddir beunydd*—yr ydym oll yn agored bob dydd i gael ein lladd, ac y mae llawer ohonom yn syrthio yn fynych yn ysgrifaeith i gynddaredd dy elynion: *cyfrifir ni fel defaid i'w lladd*—neu rai wedi eu nodi i'w lladdfa. Yr oedd y Cristionogion cyntefig yn yr un cyflwr a hyn yn gywir; a chymhwysa St. Paul y geiriau hyn at eu hachos hwythau: gwel Rhuf. viii. 36.

Adn. 23. *Deffro, paham y cysgi, O Arglwydd* Paham yr ymddanghosi fel un yn cysgu yn ddfater am ddiogelwch ei gyfeillion? Y mae hwn yn hyfira ymadrodd na chaniteir ond i ysgrifenywyr ysbrydoledig; ac yn eu genau hwythau y mae i'w ddeall bob amser yn gyffelybiaethol. *Cyfod*—i waredu dy bobl; *na fwrw ni ymaith yn dragywydd*—i ddwyllaw ein caseion, neu oddiwrth dy bresenoldeb grasol dy hun.

Adn. 24. *Paham y cuddi dy wyneb* Heb edrych ar ein cystudd? *ac yr anghofi*—yr ymddygi tuag atom fel pe byddit yn anghofio ein cystudd a'n gorthrymder?

Adn. 25. *Canys gostyngwyd ein henaid i'r llwch* Gan ofid ac ofnau; *glynodd ein bol wrth y ddaear*—heb ynom nerth i godi oddi-tan draed y rhai a'n mathrant. Hwn sydd ymadrodd ffugyrol, yn arwyddo y darostyngiad mwyaf mewn corff, meddwl, ac amgylchiadau; ac arddengys hwynt fel rhai heb obaith ar fin y bedd.

ac yr anghofi ein cystudd a'n gorthrymder?

25 Canys gostyngwyd ein henaid i'r llwch; glynodd ein bol wrth y ddaear.

26 Cyfod yn gynorthwy i ni, a gwared ni er mwyn dy drugaredd.

SALM XLV.

TRAETHA fy nghalon beth da: I dyweddyr yr ydwyf y pethau a wnaethim i'r brenin: fy nhafoed sydd bin ysgrifenydd buan.

Adu. 26. *Cyfod yn gymorthwy i ni* Yn erbyn ein gelynyon; *a gwared ni*—o'u dwylaw hwynt; *er mwyn dy drugaredd*—fel hyn, er eu bod yn ymwybodol o'n ffyddlondeb i gyfammod Duw, adn. 17, 18, eu hunig obaith am waredigaeth a orphwysai ar drugaredd Duw.

SALM XLV. Y teitl yw, '*Yr pencerdd, ar Sosannim, i feibion Corah, Maschil, Cân cariadau.*' Y mae rhai yn cyfieithu *sosannim* yn *lili* yn y rhif lluosog, a thybiant mai Crist, a'i briodferch yr eglwys mewn dillad *gwjnion fel y lili*, a feddylir. Tybia ereill mai *telyn chwech-tant* a feddylir wrth y *sosannim* hwn, ar ba un yr oedd meibion Corah i ganu y Salm hon, a hyny er hyfforddiant neu athrawiaeth, fel yr arwydda y gair *maschil*: gwel deitl Salm xxxii a xlii. Y mae llawer yn meddwl ei bod yn cael ei galw yn 'Gân cariadau' mewn cyfeiriad at briodas Solomon gyda merch Pharao, yr hon ond odid oedd wedi ei phroselytio i'r grefydd Iuddewig; a thybia ereill ei bod yn cael ei galw felly mewn cyfeiriad at y cariad ag sydd rhwng Crist a'i eglwys, yr hwn a osodir allan trwy y gyffelybiaeth o gariad brenin at ei ddyweddi. Ymddengys fod yr holl gyffelybiaethau yn y Salm hon wedi eu cymeryd oddiwrth ddefodau llysoedd dwyr-einiol, fel pe buasai yr awdwr, pwy bynag ydoedd, yn darlunio priodas frenhinol. Ond y mae yn amlwg fod meddwl y Salmydd yn cael ei gario yn fynych yn mhell tuhwnt i frenin daearol, i ddarlunio Brenin yr eglwys, sef y MESSIA; ac yn y goleuni hwn y darfu i'r deonglwyr Iuddewig penaf, megys *Kimchi, Aben Ezra, a Solomon Jarchi*, &c., ei deall hi; ac fel hyn ei deallid gan ein Heglwys, pan y nododd y Salm hon i gael ei darllen ar fore y Nadolig. Heblaw hyn, y mae adn. 6, 7, yn cael eu cymhwyso gan yr apostol at Grist: gwel Heb. i. 8, 9. Y farn gyffredin yw, fod yma gyfeiriad at ddychweliad y Cenhedloedd, ac at ogoneddiad yr eglwys Gristionogol yn y diwedd; er y thybia yr Abyssiniaid mai profiwydoliaeth yw y Salm hon am ddyfodiad brenhines y deau at Solomon, gyda merch Hiram: gwel yr adfeddyliadau ar l Bren. x.

Adn. 1. *Traetha fy nghalon beth da* Neu, 'fy nghalon a fwrlyma allan beth da,' fel ffynnon yn bwrlymn ei dyfroedd. Y 'peth

2 Tecach ydwyt na meibion dynion: tywalltwyd gras ar dy wefusau: o herwydd hyny y'th fendithiodd Duw yn dragywydd.

3 Gwregysa dy gleddyf ar dy glun, O gadarn, a'th ogoniant a'th harddwch.

4 Ac yn dy harddwch marchoga yn llwyddiannus, o herwydd gwirionedd, a lledneisrwydd, a chyfiawnder; a'th ddeheulaw a ddysg i ti bethau ofnadwy.

5 Pobl a syrthiant danat; o herwydd dy saethau llymion yn glynu yn nghalon gelynyon y Brenin.

6 Dy orsedd di, O Dduw, sydd byth ac yn dragywydd: teyrnwialen uniondeb yw teyrnwialen dy frenhiniaeth di.

7 Ceraist gyfiawnder, a chasaist ddrygioni: am hyny y'th eneiniodd Duw, sef dy Dduw di, âg olew llawenydd yn fwy na'th gyfeillion.

8 Arogl myrr, aloes, a chasia,

da' hwn yw cynwysiad y Salm hon. *Dywedyd yr ydwyf y pethau a wnaethym*—fy ngwaith neu fy nghyfansoddiad; *i'r brenin*—neu *'wrth y brenin*, sef wrth y MESSIA, Brenin ei eglwys. Meddylir fod yma gyfeiriad at waith y beirdd dwyreiniol yn adrodd eu cyfansoddiadau o flaen brenhinoedd a gw'yr anrhydeddus, yn enwedig y rhanau hyny a'u mawrygnt neu a'u clodforent hwy. Dywedir i *Virgil* ddarlennu rhan o'i *Aeneid* o flaen Augustus, yr hwn a foddhawyd gymaint trwy hyny fel ag y gorchymynodd roddi iddo ddeg *sestertia* am bob llinell. A darllenodd y bardd Persiaidd *Ferdusi* ran o'i *Shah Nameh* o flaen y Sultan Mahmoud, yr hwn a addawodd iddo 30,000 *denar* am y bryddest. *Fy nhafod sydd bin ysgrifenydd buan*—hyny yw, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'Mi a adroddaf yr hyn a gyfansoddais mor gyflym ag y gall yr ysgrifenydd mywaf medrus ei ysgrifennu.' Neu gall mai ei feddwl yw, Nid yw fy rhafod i ddim ond y pin neu yr offeryn yn nhraethiad y gân hon: y mae iddi awdwr uwch, sef Ysbryd Duw, yr hwn a ddefnyddia fy nhafod i fel pin i'w thraethu.

Adn. 2. *Tecach ydwyt na meibion dynion*] Yr hyn sydd yn wirionedd hollol am Grist, ond nid am Solomon; canys rhagorodd llawer arno ef, os nid mewn doethineb, eto mewn santeiddrwydd a chyfiawnder, yr hyn yw y *teguch* a ganmolir yn y Salm hon. *Tywalltwyd gras ar dy wefusau*—neu dylifa gras o'th wefusau, fel y gellir ei ddeall; er y tybia rhai mai harddwch y gwefusau a feddylir. *O herwydd hyny y'th fendithiodd Duw yn dragywydd*—o herwydd ei addasrwydd i'r swydd gyfryngol y gosododd Duw ef yn Frenin ar ei eglwys byth. Ymddengys fod y Salm ydd yn llefaru yma wrth y Brenin yn enw ei ddyweddi, neu ynte yn enw ei morwynion hi, y rhai a anrhyddedent y briodas a'u presenoldeb, adn. 9, 14.

Adn. 3. *Gwregysa dy gleddyf ar dy glun, O gadarn*] Y cleddyf hwn ond odid yw ei *air*, yr hwn sydd yn 'llymach nag un cleddyf dau-finiog,' (Heb. iv. 12, Eph. vi. 17, Dat. i. 16,) ac a'r hwn y lleadaena efe ei deyrnas yn y byd; *a'th ogoniant a'th harddwch*—neu, 'yr hwn yw dy ogoniant a'th harddwch,' neu yr offeryn i ddangos gogoniant a harddwch dy frenhiniaeth yn y byd.

Adn. 4. *Ac yn dy harddwch marchoga yn llwyddiannus*] I wneyd dy holl elynion yn

ddeiliaid ufydd i'th deyrnas; o herwydd *gwirionedd*—i sefydlu gwirionedd ar y ddaear, yn wrthgyferbyniol i au-grefyddau a thwyll; a *lledneisrwydd*—neu addfwynder a gostyng-eiddrwydd, yn lle balchder a gwâg-ogoniant; a *chyfiawnder*—mewn calon a buchedd. *A'th ddeheulaw a ddysg i ti bethau ofnadwy*—'a'th ddeheulaw a'th arwain di yn rhyfeddol.'—LXX. Y meddwl yw, Ni fydd dim yn alluog i'th wrthsefyll; a'r barnedigaeithau a weinyddir genyt ar dy elynion a fyddant ofnadwy.

Adn. 5. *Pobl a syrthiant danat*] Naill ai wedi eu gorchfygu gan dy saethau, neu ynte mewn vmostyngiad edifeiriol o'th flaen; o herwydd *dy saethau llymion yn glynu yn nghalon gelynyon y Brenin*—y mae pawb wrth natur yn elynion i Dduw; ac fe wneir pregethiad y gair yn arogl marwolaeth i farwolaeth, neu ynte yn arogl bwydd i fwydd, i bawb a'i clywont: gwel ar 2 Cor. ii. 15, 16.

Adn. 6. *Dy orsedd di, O Dduw*] Yma y mae yr hwn a elwir yn *Frenin* yn adn. 1, ac yn *Gadarn* yn adn. 3, yn cael ei alw yn *Dduw*, i ddangos i ni fod yn 'mwy na *Solomon* yma,' a bod Crist, Brenin ei eglwys, yn wir a phriodol Dduw: gwel ar Heb. i. 8, 9. *Sydd byth ac yn dragywydd*—vn cyraedd dros amser a thragwyddoldeb. *Teyrnwialen uniondeb yw teyrnwialen dy frenhiniaeth di*—y deyrnwialen oedd yn arwydd o lywodraeth, ac fe'i rhoddir yma am y llywodraeth neu y frenhiniaeth ei hun. Fel pe dywedasai, Y mae teyrnwial brenhinoedd y ddaear yn cael eu hestyn neu eu chwyfio yn fynyeh mewn *annghyfiawnder* mawr, yr hyn sydd yn gosod sail i'w dymchweliad; ond yr wyt ti yn llywodraethu mewn *cyfiawnder*; ac am hyny 'trwy gyfiawnder y cadarnheir dy orsedd,' Diar. xvi. 12.

Adn. 7. *Ceraist gyfiawnder, a chasaist ddrygioni*] Danghosodd yr Arglwydd Iesu trwy santeiddrwydd ei fywyd, haeddiant ei farwolaeth, a rhediad ei weinidogaeth, ei fod yn *caru cyfiawnder*; canys trwy ei orchymynion, ei siamplau, a'i aberth, a thrwy ddyllanwad ei ras a'i Ysbryd, efe a ddyg i mewn gyfiawnder tragwyddol: ac y mae ei *gasineb* at *ddrygioni* yr un mor amlwg; canys nid ymddanghosodd casineb Duw at bechod eriodd mor fawr ag yn nyoddefiadau a marwolaeth Crist: gwel ar Rhuf. iii. 26. *Am hyny*—sef am i ti roddi y fath brawf dy fod yn *caru* cyfiawnder ac yn casân drygioni; *y'th eneiniodd*

sydd ar dy holl wisgoedd: allan o'r palasau ifori, â'r rhai y'th lawenhasant.

9 Merched brenhinoedd oedd yn mhlith dy bendefigesau: safai y frenhines ar dy ddehenlaw mewu aur coeth o Ophir.

10 Gwranddo, ferch, a gwel, a

Dduw, sef dy Dduw di—neu, fel y gellir ei dderlenn, 'Am hyny, O Dduw, dy Dduw a'th enniiodd di.' Gelwir y Tad yn Dduw i'r Mab gyda golwg ar ei natur ddynol, Ioan xx. 17; er fod y Mab, o ran ei natur ddwyfol, yn ogyfuwch â'r Tad, ac yn un âg ef: gwel ar Ioan x. 30, 33. *Ag olew llawenydd yn fwy na'th gyfeillion*—gwel ar Heb. i. 9.

Adn. 8. *Arogl myrr, aloes, a chasia, sydd ar dy holl wisgoedd*] Yr oedd y dwyreinwyr yn bleidiol iawn i bêr-aroglau: arferent bêr-arogli agos bob peth, ond yn enwedig eu gwisgoedd: gwel ar Exod. xxx. 23—31. *Myrr* yw môl, nôdd, neu gum pren pêr-aroglaidd yn Arabia ac Abyssinia. *Aloes* yw sudd pren Indiaidd, neu sudd ei ddail; a dywedir fod un math o hono, yr hwn a geir yn Sumatra a Ceylon, yn werth mwy na'i bwysi o aur, a'i fod yn feddyginiaeth radorol i'r llesemeirlwyf ac anhwylderau ereill. *Casia* yw rhisgl pren tra thebyg i'r pren cinnamon, yr hwn a dyf yn yr India. Gall hyn fod yn cyfeirio at rinweddau gogoneddus Crist, y rhai a aroglent yn beraidd yn ei holl fywyd a'i weithredoedd ef; ac yr oedd ei athrawiaeth hefyd yn arogl peraid i Dduw a dynion, 2 Cor. ii. 14, 15. *Allan o'r palasau ifori*—yr oedd palasau brenhinoedd, yn yr hen amseroedd, yn cael eu gwisgo yn fynych âg ifori, fel y dysgwn oddiwrth *Homer, Horace, a Virgil*: gwel ar 1 Bren. x. 18. Ond tybia rhai mai *cistiau* wedi eu gwisgo âg ifori a feddylir yma, yn y rhai y cedwid y gwisgoedd hyny. *A'r rhai y'th lawenhasant*—sef â'r gwisgoedd wedi eu pêr-arogli felly, neu â'r aroglau peraid oddiwrthynt, y rhai a lonent yr ysbrydoedd.

Adn. 9. *Merched brenhinoedd oedd yn mhlith dy bendefigesau*] Y rhai a'i cyfrifent yn anrhydedd gael gwneini i frenin a brenhines mor ardderchog, fel morwynion neu gyfeillesau, adn. 14. *Safai y frenhines ar dy ddehenlaw*—yn y lle mwyaf anrhydeddus; *mewu aur coeth o Ophir*—yn y gwisgoedd ardderchocaf, wedi eu gwneuthur o'r defnyddiau puraf: gwel ar 1 Bren. ix. 28. Os cymhwyswn hyn oll at Solomon a merch Pharao, nid oes un anhawsder yn y geiriau: ond os cymhwyswn hwy at Grist, gall fod y *frenhines yma* yn arwyddo yr eglwys yn gyffredinol; a'i gwisg o *aur coeth*, yn arwyddo y grasau â'r rhai ei haddurnwyd; a'r *merched brenhinoedd*, yn cyfeirio naill ai at aelodau yr eglwys wedi eu gwneyd i fyny mewu rhan o'r teluuoedd uwel ef ar y ddaear, neu ynte atynt oll yn eu cymeriad goruchel fel plant y Brenin tragwyddol, Dat. i. 6: ond gwel ar adn. 14.

Adn. 10. *Gwranddo, ferch, a gwel, a gostwng dy alust*] Geiriau yn deis: yf ei sylw

gostwng dy glust; ac annghofia dy bobl dy hun, a thŷ dy dad.

11 A'r Brenin a chwennych dy degwch: canys efe yw dy Ior di; ymostwng dithau iddo ef.

12 Merch Tyrus hefyd fydd yno âg anrheg; a chyfoethogion y bobl a ymbiliant â'th wyneb.

manylaf at yr hyn ag yr oedd efe yn myned i'w ddywydd. Ar ol i'r Salm ydd fod yn llefaru hyd yma wrth y Brenin neu y Priodfab, y mae efe yn awr yn troi i lefaru wrth y frenhines neu y briodferch, a hynaf ond odid yn enw cyfeillion y Priodfab, neu yn enw cyfeillesau y briodferch, y rhai a anrhydeddent y briodas â'u presenoideb. *Ac annghofia dy bobl dy hun, a thŷ dy dad*—efe a gyfeiria yma at ddeddf priodas, Gen. ii. 24. Os yw y geiriau yn cyfeirio mewn un modd at ferch Pharao, yr ystyr yw, fod iddi ymadael yn llwyr âg arferion yr Aifftiaid, ac yn enwedig â'u heilunaddoliaeth hwy, a chydymffurfio yn hollol â defodau a chrefydd pobl Israel. Ond wrth eu cymhwyso at eglwys Crist, y meddwl yw, fod i bawb o'i haelodau ymwrthod yn gwbl â'u hen arferion pechadurus, wrth y rhai yr ymlenent yn eu cyflwr natur.

Adn. 11. *A'r Brenin a chwennych dy degwch*] Ti a fyddi hawddgar a hoff yn ei olwg ef. *Canys efe yw dy Ior di*—dy Arglwydd a'th Gynalydd, dy Brenin a'th Briod. *Ymostwng dithau iddo ef*—fel y cyfryw. Gan dy fod wedi gadael dy bobl dy hun a thŷ dy dad er ei fwyn ef, ufyddha bellach iddo ef yn mhob peth; neu 'addola ef,' fel y mae yn y Saesonaeg.

Adn. 12. *Merch Tyrus hefyd fydd yno*] Sef pobl Tyrus; fel y mae 'merch Seion,' neu 'ferch Jerusalem,' yn cael ei rhoddi am y trigolion. Efe a enwa y Tyrusiaid, am y byddent hwy yn mhlith y rhai blaenaf a gofiedient Gristionogaeth: gwel Marc iii. 8, a vii. 24, Act. xxi. 3—5. Meddylir fod hyn yn broffwydoliaeth am alwad y Cenhedloedd. Dywedir mai Tyrus oedd y ddinas fwyaf ei masnach yn y byd y pryd hyny; ac felly yr oedd hi fel yn cynrychioli yr holl wledydd â'r rhai y masnachai, megys yr Aifft, yr Eidal, tir Groeg, Ffrainc, yr ynysoedd Prydeinig, &c., y rhai a dderbyniasent efengyl Crist yn mhlith y rhai blaenaf, ac a fuont yn offerynau i'w hanfon hi i barthau ereill y ddaear. *Ag anrheg*—i ddangos ei gwarogaeth a'i hymostyngiad i ti, yr hyn a wneid yn wastadol trwy anrhegion. *A chyfoethogion y bobl a ymbiliant â'th wyneb*—hyny yw, bydd i amherawdwy, tywysogion, a mawrion y ddaear, ymfyn am le yn yr eglwys; a daw brenhinoedd a breninesau yn dadmaethod ac yn fau-maethod iddi: ie, bydd i bob amherodraeth, teyrnas, a thalaeth trwy y byd, a phob sir, a chantref, a chwmmwd ynddynt, gofiedio yr efengyl cyn hir, ac ymbil am le yn eglwys Crist.

Adn. 13. *Merch y Brenin*] Felly y gelwir yr eglwys yma, megys ag y gelwir hi yn

13 Merch y brenin sydd oll yn ogoneddus o fewn: gemwaith aur yw ei gwisg hi.

14 Mewn gwaith edau a nodwydd y dygir hi at y Brenin: y morwynion y rhai a ddeuant ar ei hol, yn gyfeillesau iddi, a ddygir atat ti.

15 Mewn llawenydd a gorfoledd y dygir hwynt: deuant i lys y Brenin.

16 Dy feibion fydd yn lle dy dad-

au, y rhai a wnei yn dywysogion yn yr holl dir.

17 Paraf gofio dy enw yn mhob cenhedlaeth ac oes: am hyny y bobl a'th foliannant byth ac yn dragywydd.

SALM XLVI.

DUW sydd noddfa a nerth i ni, cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

wraig, yn ehwaer, ac yn ddyweddi iddo mewn lleoedd ereill; canys y mae hi yn dal yr holl gymeriadau hyn, yn gystal a'r gymeriad o frenhines, yn ei chysylltiad â Brenin Seion. *Sydd oll yn ogoneddus o fewn*—am fod preseneddeb gogoneddus Duw ynddi, ac ordinhad- au, trefniadau, a deddfau gogoneddus yn perthyn iddi. *Gemwaith aur yw ei gwisg hi*—ac felly y mae yn ogoneddus oddiallan hefyd. Cyfeirir yma at ei rhiuweddau, ei firwythau, a'i gweithredoedd o fydd a chariad, a'r rhai y mae yr eglwys wedi ymdrwio fel mewn gwisg o aur a gemau. Pe cyfeiriem hyn at ferch Pharao, arwyddai ei bod wedi diwyllio ei meddwl yn dda, yn gystal ag yn gwisgo dillad gwychion.

Adn. 14. *Mewn gwaith edau a nodwydd y dygir hi at y Brenin* Wrth ddwyn tywysoges ddwyreiniol gyntaf at ei gŵr, gorchuddir hi â gwisg a elwir *palokee*, fel na fydd dim o'i pherson yn y golwg; a dylunir hi gan ei morwynion neu ei chyfeillesau gyda llawenydd mawr, at yr hyn y cyfeirir yma ac yn yr adnod nesaf. Gally 'gwaith edau a nodwydd' yma, wrth ei gymhwyso at yr eglwys, fod yn gosod allan ei harddwch, ei santeiddrwydd, a'i llawenydd hi wrth gael ei dwyn i wyddfod ei Phriod ar fore yr adgyfodiad. *Y morwynion, y rhai a ddeuant ar ei hol yn gyfeillesau iddi, a ddygir atat ti*—yr un modd a hitbau. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at gredinwyr unigol; barna ereill mai yr eglwys Israelaidd a osodir allan trwy y *frenhines*, ac mai yr eglwys yn mhliith y Cenhedloedd, neu yr eglwys Gristionogol, a feddylir wrth ei *chyfeillesau*.

Adn. 15. *Mewn llawenydd a gorfoledd y dygir hwynt* I wyddfod y Brenin gyda'u gilydd, yr un modd ag ar ddygiad priodferch i wyddfod ei phriodfab. *Deuant i lys y Brenin*—i'r nef, palas eu Harglwydd a'u Brenin.

Adn. 16. *Dy feibion fydd yn lle dy dadau* Bydd dy blant, y rhai a ennillir trwy y briodas hon, yr hyn oedd dy dadan, sef yn bobl etholedig a phriodol i Dduw. Y mae hyn yn cael ei ddywedwyl wrth y Priodfab, fel y mae yn eglur oddiwrth y geiriau Hebreig, y rhai sydd yn y rhyw wrywaidd, yn gystal ag oddiwrth yr adnod nesaf. Nis gellir deall hyn yn cael ei ddywedwyl wrth Solomon mewn cyfeiriad at ei briodas â merch Pharao, am na chafodd ef ddim plant o honi hi, nac ond ychydig o'i holl wragedd a'i ordderchadon; ac yr oedd ei blant ef mor bell o fod yn *dywysogion yn*

yr holl dir, fel na feddiannasant ond rhan fechan o diriogaethau en tad. Ond cyflawnwyd hyn yn llawn yn Nghrist, yr hwn, yn lle ei dadau o'r genedl Iuddewig, a gafodd hiliog- aeth llosgog o Gristionogion o blith holl genhedloedd y ddaear, y rhai a elwir yma ac mewn manau ereill yn 'dywysogion' ac yn 'frenhin- oedd,' ar gyfrif eu gallu a'u dylanwad mawr gyda Duw a dynion.

Adn. 17. *Paraf gofio dy enw yn mhob cenhedlaeth ac oes* Yr hyn a wneir trwy bregethiad yr efengyl, a thrwy sefydliad a lluosogiad yr eglwys Gristionogol. Dywedir hyn wrth Grist gan y Salmwydd yn broffwydol, neu gan y Tad yn addewidiol. *Am hyny y bobl a'th foliannant byth ac yn dragywydd*—bydd iddynt fawrygu enw y Priodfab nefol, a channu am ei gariad anfeidrol at ei ddyweddi yr Eglwys, dros holl ddyddiau y ddaear, ac wedi hyny dros holl oesoedd tragwyddoldeb. Ac y mae y darlenniad a'r caniad cyson o'r Salm hon yn yr eglwys Gristionogol yn gyflawniad llythyrenol o'r broffwydoliaeth hon mewn rhan.

SALM XLVI. Y teitl yw, '*I'r penceidd o feibion Corah, Câr ar Alamoeth*.' Cyfieithir y gair hwn gan rai yn *wyryson*, gan feddwl ei fod yn cyfeirio at ryw dôn, neu offeryn cerdd, a genid gan y cantoresau, I Cron. xv. 20. Eithr ereill a gyfieithant y gair yn *bethau cuddiedig*, gan feddwl ei fod yn cyfeirio at ddirgeledigaethau yr efengyl; ac yn unol â hyn y dywed y Syriaeg, fod y Salm hon, yn ei hystyr proffwydoliaethol, yn cyfeirio at bregethiad yr apostolion. Y mae anghytundeb mawr o berthynas i'w hawdwr, a'r achlysur o'i chyfansoddi. Meddylia *Calmet* iddi gael ei chyfansoddi gan un o feibion Corah, ar ddychweliad Israelogaethiwd Babilon. Barna *Henry* iddi gael ei hysgrifenu gan Dafydd, ar ol ei fuddugoliaethau ar ei elvniion oddiam- gylch, 2 Sam. vii. 1. Tybia *Houbigant* iddi gael ei chyfansoddi ar ol y ddaeargryn, trwy ba un, yn ol ei farn ef, y dinystriwyd byddin Senacherib, 2 Bren. xix. 35. A dychymwga *Rosenmuller* iddi gael ei hysgrifenu ar ol y fuddugoliaeth, dan deyrnasiad Jehosaphat, a grybwyllir 2 Cron. xx. Y mae y Salm hon yn addas iawn i'w chanu gan y duwiolion mewn unrhyw amser o dralloid; a dywedir am *Luther*, pan y clywai ef ryw newydd drwg, ei fod yn arferol o ddywedwyl wrth ei gyfeillion, 'Deuwch, canwn y chweched Salm a deugain.'

Adn. 1. *Duw sydd noddfa a nerth i ni*]

2 Am hyny nid ofhwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr.

3 *Er rhuo a therfysgu o'i ddyfroedd, er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwylld ef.* Selah.

4 *Y mae afon a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw; cysegr preswylfeydd y Goruchaf.*

5 Duw *sydd* yn ei chanol; nid ysgog hi: Duw a'i cynorthwya yn fore iawn.

6 Y cenhedloedd a derfysgasant, y teyrnasoedd a ysgogasant: efe a roddes ei lef, toddodd y ddaear.

7 *Y mae* Arglwydd y lluoedd gyda ni; *y mae* Duw Jacob yn amddiffynfa i ni. Selah.

8 Deuwch, gwelwch weithredoedd yr Arglwydd; pa anghyfanedd-dra a wnaeth efe ar y ddaear.

9 Gwna: ryfeloedd beidio hyd eithaf y ddaear; efe a ddryllia y

Sydd *noddfa* i ni yn ngwyneb pob perygl tymhorol ac ysbrydol, a *nerth* i ffoi iddi am ddiogelwch: *cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder*—y mae ef yn *hollalluog*, ac felly yn gymhorth digonol; yn *hollbresenol*, ac felly yn ein hymyl bob amser; ac yn llawn *tosturi*, ac felly yn ewyllysgar i'n cynorthwyo.

Adn. 2. *Am hyny nid ofhwn pe symudai y ddaear*] O'i chylech presenol yn nghyfundrefn yr haul, neu pe lluchid hi ar draws y planedau ereill; a *phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr*—nes y byddai y tir a'i drigolion wedi eu gorchuddio a'u boddi yn eigion y dyfroedd.

Adn. 3. *Er rhuo a therfysgu o'i ddyfroedd*] Er iddynt guro yn ddiâu chwyddedig a chynulleiriog yn erbyn y glanau dau fy ntraed, gan swno yn uwch na deng mil o gyfflegrau; *er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwylld ef*—fel pe byddent yn nghylich cael eu llyncu i'r eigion gorwylt. Ond meddylir fod y Salm yr yn llefaru yn ffugyrol neu gyffelybiaethol yma; a bod y *ddaear* yn gosod allan drefn sefydlog pethau; y *mynyddoedd*, twysogion a theyrnasoedd; y *dyfroedd*, y werin yu gyffredinol; y dyfroedd yn *rhuo*, cynhyrhiadau neu derfysgoedd gwladwriaethol. Y meddwl felly yw, Er na byddo dim ond cynhyrhiadau, terfysgoedd, ac anrheithiadau yn mhilitr y holl genhedloedd o'm hamgylch; er i deyrnasoedd a thaleithiau gael eu hysgwyd gan gythrwff, a'u dymchwelyd gan chwyldroadau, a'u suddo mewn rhyfeloedd; neu er iddynt oll uno eu galluoedd yn erbyn eglwys Dduw, gan amcuanu ei thrallodi, ei mathen, a'i dinystrio; er hyn oll nid ofhwn niwed, gan fod y Duw hollalluog yn noddfa ac yn nerth i ni, ac yn gymhorth hawdd ei gael yn mhob cyfyngder.

Adn. 4. *Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw*] Sef yr eglwys yn mhob oes, a hyny ar y pryd ag y byddo dyfroedd y môr yn rhuo ac yn terfysgu, gan fygwth ei dinystrio hi. Meddylir fod yma gyfeiriad naill ai at Cedron, yr hon a redai ger Jerusaalem, neu ynte at ddyfroedd Siloah, y rhai a redent yn wabanol ffrydiau trwy y ddinas i'w dyrhanu a'i lloni. Agyryniwr yma gyflwr egwan yr eglwys, trwy na feddai ond *afon* i'w llawenbau, ar gyfer y môr ag oedd yn ei bygwth. Yn awr, fel y mae yr ymadroddion yn y radnodau blaenorol i'w deall yn gyffelybiaethol, felly hefyd y maent yma. Y mae yr *afon* yn arwyddo y cyfammod gras; a'i *ffrydiau*, addew-

idion y cyfammod hwaw: neu ynte, yr Ysbryd Glân yw yr *afon*, a'i ddylanwadau a'i gysuron ysbrydol ef yw y *ffrydiau*. Ond y mae rhai o'r Isddeuwon yn deall yr *afon* a'i ffrydiau fel yn nodi allan y gwahanol bobloedd a ddychwelid i'r ffydd, ac felly a lawenhant Jerusaalem trwy ddylifo yno i addoli y gwir Dduw. *Cysegr preswylfeydd y Goruchaf*—dywedir *preswylfeydd*, yn y rhif lluosog, am fod y babell yn cynwys dwy rao, sef y cysegr a'r cysegr santeiddiolaf, heblaw y gwahanol gynteddau.

Adn. 5. *Duw sydd yn ei chanol*] Nid yn unig yr oedd ef felly yn y cysegr gynt, trwy yr arwyddion hyny o'i bresenoldeb, sef yr arch, y drugareddfa, a cherubiad y gogoniant; ond y mae ef felly yn ei eglwys o hyd, trwy breswyliad neillduol ei Ysbryd, Mat. xviii. 20, Zech. ii. 5. *Nid ysgog hi*—er i'r ddaear a'r mynyddoedd ysgogi, adn. 2. Bydd i'r eglwys orosi y byd, a sefyll yn ddigryn pan y bydd i'r ddaear syrthio yn adeilion, am ei bod wedi ei hadeiladu ar y graig, fel nas gall pyrrh uffern ei gorchfygu hi, Mat. xvi. 18. *Duw a'i cynorthwya yn fore iawn*—cyn i un gelym ddefro i'w drygn.

Adn. 6. *Y cenhedloedd a derfysgasant*] Gwnaethant hyny ar ddyrchafiad Dafydd i'r orsedd, a gwanant hyny wrth lwyddiant teyrnas Crist; *y teyrnasoedd a ysgogasant*—yn erbyn yr Arglwydd a'i Grist ef, Salm ii. 1, &c. *Efe a roddes ei lef*—yn ei farnedigaethau; neu trwy bregethiad yr efengyl, fel y mae rhai yn ei deall: *toddodd y ddaear*—mewn dychryn a braw, fel y todda y cŵyr yn ngwres y tân.

Adn. 7. *Y mae Arglwydd y lluoedd*] Yr hwn y mae holl luoedd y nefoedd a'r ddaear dan ei lywodraeth; *gyda ni*—i'n diogelu a'n nerthu: *y mae Duw Jacob*—yr hwn a waredodd ein tad Jacob yn ei holl gyfyngderau; *yn amddiffynfa i ni*—yn gystal ag iddo yntau, trwy fod y cyfammod a wnaeth efe a Jacob gynt, yn cynwys ei holl hiliogaeth ysbrydol ef hefyd.

Adn. 8. *Deuwch, gwelwch weithredoedd yr Arglwydd*] Ystyriwch y modd hynod y cyfryngodd efe o blaid ei bobl yn mhob oes; *pa anghyfanedd-dra a wnaeth efe ar y ddaear*—yn mysg ei elynion ei hun a gelynon ei bobl: gwel siamplau nodedig yn 2 Sam. viii. 1, &c., a 1 Cron. xviii. 1, &c.

Adn. 9. *Gwna i ryfeloedd beidio hyd eithaf*

bwa, ac a dyr y waewffon, efe a lysg y corbydau â thâu.

10 Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi sydd Dduw: dyrchefir fi yn mysig y cenhedloedd, dyrchefir fi ar y ddaear.

11 Y mae Arglwydd y lloedd gyda ni; amddiffynfa i ni yw Duw Jacob. Selah.

SALM XLVII.

YR holl bobl, curwch ddwyllaw; llafar-geuwch i Dduw â llef gorfoledd.

2 Canys yr Arglwydd goruchaf sydd ofnadwy; Brenin mawr ar yr holl ddaear.

3 Efe a ddwg y bobl danom ni, a'r cenhedloedd dan ein traed.

4 Efe a ddethol ein hetifeddiaeth i ni, ardderchogwydd Jacob, yr hwn a hoffodd efe. Selah.

5 Dyrchafodd Duw â llawenfloedd, yr Arglwydd â sain udgorn.

6 Cenwch fawl i Dduw, cenwch: cenwch fawl i'n Brenin, cenwch.

7 Canys Brenin yr holl ddaear yw Duw: cenwch fawl yn ddeallus.

af y ddaear] Pan y gwelo efe yn dda; *efe a ddryllia y bwa, &c.*—tybia Dr. Delany fod yma gyfeiriad neillduol at fuddugoliaeth Dafydd ar Hadadezer, 2 Sam. viii: 4.

Adn. 10. *Peidiwch*] Dystwch, ynlonyddwch. Yma y mae Duw ei hun yn lletaru trwy y Salmwydd, naill ai wrth ei bobl ei hun i'w cysuro, neu wrth y cenhedloedd terfysglyd i'w dychrynu, adn. 6. *A gwybyddwch mai myfi sydd Dduw*—yr hwn a allaf amddiffyn y rhai a ymddiriedant yno, a dyfetha y rhai a godant i'm herbyn. *Dyrchefir fi yn mysig y cenhedloedd*—fel yr unig wir Dduw; *dyrchefir fi ar y ddaear*—sef trwy yr holl ddaear. Bydd i'm barnedigraethau ar fy ngelynyon cydyn, a'm hiachawdwriaeth i'r rhai oll a ddysgwyliant wrthyf, beri i'm henw fod yn ddyrchafedig a gogoneddus trwy yr holl byd. Dichon fod yma gyfeiriad neillduol at lwyddiant cyffredinol yr efengyl yn y dyddiau diwedaf.

Adn. 11. *Y mae Arglwydd y lloedd gyda ni*] Gwel ar adn. 7. *Selah*—sylwch ar hyn: gwel ar Salm iii: 2.

SALM XLVII. Y teitl yw, 'I'r penceird, Salm i feibion Corah.' Tybia llawer mai Datydd yw ei hawdwr hi, ac iddo ei chyfansoddi ar yr achlysur o ddygiad yr arch, sef yr arwydd o bresenoldeb Duw yn eu mysig, naill ai o Gibeah, neu ynte o dy Obadedom, gyda bloddest a sain udgorn i'fynydd Seion: gwel ar 2 Sam. vi: 5, 12. Tybia ereill iddi gael ei chyfansoddi gan Solomon, neu un o feibion Corah, ar ddygiad yr arch o'fynydd Seion i'r deml, 1 Bren. viii: 1, &c. Ond fel yr oedd Seion a'r deml yn gysgodau o'r eglwys, a'r arch yn gysgod o Crist, y mae iddi gyfeiriad pellach, sef at esgyniad Crist i'r nef, a lledaeniad ei deyrnas ef trwy yr holl ddaear; ac yn unol â hyn y darllenir hi yn yr Eglwys yn wastadol ar ddydd Iau y Dyrchafael.

Adn. 1. *Yr holl bobl, curwch ddwyllaw*] Yn arwydd o lawenydd ar ddygiad yr arch i'r cysegr; *llafar-geuwch i Dduw â llef gorfoledd*—ar y tath achos gogoneddus.

Adn. 2. *Canys yr Arglwydd goruchaf*] Yr hwn sydd goruchaf pawb a phob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear; *sydd ofnadwy*—i'w holl elynion, neu 'sydd i'w ofni' yn barchus

gan bawb: *Brenin mawr ar yr holl ddaear*—ar yr holl Genhedloedd, yn gystal ag ar bobl Israel: neu ar yr holl ddaear, yn gystal a'r nefoedd.

Adn. 3. *Efe a ddwg y bobl danom ni*] Yn ddarostyngedig i'm cyfreithiau a'm crefydd; *a'r cenhedloedd dan ein traed*—sef y rhai hynny nad ymostyngant i'n cyfreithiau a'n crefydd. Y mae rhai yn darllen yr adnod hon yn yr amser *gorphenol*, gan ei deall fel yn cyfeirio at fuddugoliaethau Josua yn Nglanaan; ac ereill yn yr amser *dyfodol*, gan ei deall fel profwydoliaeth am ddychweiliad y Cenhedloedd i'r wir fydd.

Adn. 4. *Efe a ddethol ein hetifeddiaeth i ni*] Neu a 'ddetholodd' wlad Canaan yn etifeddiaeth i blant Israel; canys yn yr amser *gorphenol* ei darllenir yn y Syriaeg, yr Arabaeg, a'r Lladin; *ardderchogwydd Jacob*—felly y gelwir yr etifeddiaeth hono, ar gyfrif y breintiau ysbrydol ardderchog a fwyneid ynddi; *yr hwn a hoffodd efe*—crybwyllir hyn fel y rheswm pabani y rhoddodd Duw etifeddiaeth i'w hiliogaeth ef.

Adn. 5. *Dyrchafodd Duw â llawenfloedd*] Deallir hyn yn llythrenol am yr arch, yr arwydd o bresenoldeb Duw, yn cael ei dyrchafu i'r babe' ar fynydd Seion, neu i'r deml ar fynydd Moriah, yn nghanol bloddest a sain udgorn: gwel ar 2 Sam. vi: 15, 1 Cron. xv: 16. Ond mewn ail ystyr cyfeiria at ddyrchafiad Crist ar ddebenlaw ei Dad, a gorfoledd y llunetol ar ei esgyniad ef, neu orfoleddiad yr apostolion yn y pregethiad o'u Gwaredwr dyrchafedig: gwel ar Salm lxxviii: 18, Eph. iv: 8.

Adn. 6. *Cenwch fawl i Dduw, cenwch*] Gorchymynir hyn bedair gwaith yn yr adnod fer hon, gan mor awyddus oedd y Salmwydd i Dduw gael ei foliannu. *Cenwch fawl i'n Brenin, cenwch*—anlygwch eich teimlad diolchgar iddo ef, yr hwn yw eich Daw a'ch Brenin, mewn caniadau addas o fawl.

Adn. 7. *Canys Brenin yr holl ddaear yw Duw*] Gwel ar adn. 2. *Cenwch fawl yn ddeallus—zammeru maskil*, 'cenwch gan addysgiadol.' Boed i swm a synwyr gydfyned. Deallwch yr hyn a ganoch; a theimlwch yr hyn a ddealloch; a boed i'r gan roddi hyffordd mewn cyflawnder i'r neb a'i cano ac a'i gwrandawo. Am ystyr y gair *maskil* gwel

8 Duw sydd yn teyrnasu ar y cenhedloedd: eistedd y mae Duw ar orseddfainc ei santeiddrwydd.

9 Pendefigion y bobl a ymgasglasant yn nghyd, *sef* pobl Duw Abraham: canys tarianau y ddaear *ydylnt* eiddo Duw: dirfawr y dyrchafwyd ef.

SALM XLVIII.

MAWR *yw* yr Arglwydd, a thra molianus, yn ninas ein Duw ni, *yn* ei fynydd santaidd.

deitl Salm xxxii. Hefyd, dylem ganu mawl bob amser yn *ddeallus*, gan fod yn gyfarwydd â'r dôn ac â'r geiriau; a dylem ganu yn *wresog* ein calon, gan ystyried mawredd ein Brenin, a'r rhwymau sydd arnom i'w folianu ef.

Adn. 8. *Duw sydd yn teyrnasu ar y cenhedloedd* Gan eu trin hwy a'u hamgylchiadau fel y myno, er nad ydynt yn ei adnabod ef; *eistedd y mae Duw ar orseddfainc ei santeiddrwydd*—fel Brenin a Barnydd santaidd a chyfiawn. Gelwir y nef yn fynych yn 'orseddfa Duw,' o ba le y mae yn canfod ac yn llywodraethu holl genhedloedd y ddaear.

Adn. 9. *Pendefigion y bobl a ymgasglasant yn nghyd* Sef penaethiaid holl lwythau Israel, i ddwyn yr arch i'r cysegr; *sef pobl Duw Abraham*—neu bobl mewn cyfammod â Duw, fel yr oedd Abraham. *Canys tarianau y ddaear ydynt eiddo Duw*—hyny yw, fel y mae rhai yn ei deall, y mae *cedyrn* y ddaear o amgylch Canaan yn hollol dan lywodraeth Duw, yr hwn ni oddef iddynt ddrwygu y wlad tra y byddo pendefigion Israel yn gynulledig yn Jerusalem gyda'r arch: gwel ar Exod. xxxiv. 24. Neu, yn ol ereill, yr oedd Duw ei hun yn *darian amddiffynol* i'r holl wlad ar yr amser hwnw. *Dirfawr y dyrchafwyd ef*—goruwch pob gallu ac awurdod ar y ddaear. Oud y mae *Mudge* yn cyfieithu yr adnod fel hyn: 'Pendefigion y cenhedloedd a ymgorfforasant â Duw Abraham; canys Duw a gymer iddo ei hun darianau y ddaear; dyrchafwyd ef yn uchel iawn.' Y mae agos yr holl hen gyfieithiadau, a llawer o'r beirniaid diweddar, yn ei darllen yn gyffelyb; a thybia *Horne* ac ereill ei bod yn broffwydoliaeth am ddyfodiad brenhinoedd y Cenhedloedd, yn nghyda'u deiliaid, i fod yn blant ysbyrdol i Abraham trwy fydd yn Nghrist Iesu, yr hwn a ddyrchefid ar ddebeulaw y Tad.

SALM XLVIII. Y teitl yw, '*Cân a Salm i feibion Corah*,' neu Salm i'w channu gan feibion Corah. Nid yw yn eglur pwy yw ei hawdwr, nac ar ba achlysur yr ysgrifenyd hi. Tybia *Mudge* mai ar yr achlysur o gynghreiriad Resin a Phecah y cyfansoddwyd hi, 2 Bren. xvi. Tybia *Dathe* mai dan deyrnasiad Jehosphat, pryd yr ymosododd y Moabiaid, yr Ammoniaid, a'r Edomiaid ar Jerusalem, 2 Cron. xx. Tybia *Horsley* mai dau deyrnasiad Uziah, am fod muriau Jerusalem wedi

2 Tegwch bro, llawenydd yr holl ddaear, *yw* mynydd Seion, *yn* ystylysau y gogledd, dinas y Brenin mawr.

3 Duw yn ei phalasu a adwaenir yn amddiffynfa.

4 Canys wele y brenhinoedd a ymgynullasant, aethant heibio yn nghyd.

5 Hwy a welsant, felly y rhyfeddasant; brawychasant, *ac* aethant ymaith ar ffrwst.

6 Dychryn a ddaeth arnynt yno,

eu cryfhau yn fawr yn ystod ei deyrnasiad ef, 2 Cron. xvi. Tybia *Clarke* mai ar ol dychwelid yr Iuddewon o gaethiwed Babilon. Ymddengys ddarfod ei chyfansoddi ar ol rhyw waredigaeth ryfeddol a estynasai Duw i ddinas Jerusalem; a gellir meddwl ei bod cyn hyned a dyddiau Dafydd, am fod mynydd Seion yn y bri uwyafl pan y cyfansoddwyd hi, yr hyn nid oedd felly ar ol i'r arch gael ei symud oddiyno i'r deml. Dywed *Kimchi* ei bod yn cyfeirio at ddyddiau y MESSIA, ac yn traethu ar ei fawredd ef.

Adn. 1. *Mawr yw yr Arglwydd* O ran ei briodoliaethau a'i weithredoedd; *a thra molianus*—tra theilwng o gael ei folianu gan bawb; *yn ninas ein Duw ni*—sef yn Jerusalem, yr hon oedd yn gysgod o'r eglwys Gristionogol; *yn ei fynydd santaidd*—lle yr oedd ei addoliad yn cael ei ddwyn yn mlaen.

Adn. 2. *Tegwch bro* Neu brydforthwch yr holl fro oddiamgylch; *llawenydd yr holl ddaear*—sef holl wlad Canaan, am fod yr holl lwythau yn cyrchu yno deirgwaith yn y flwyddyn i addoli; *yw mynydd Seion*—sef y cysegr, neu Jerusalem lle yr oedd y cysegr; *yn ystylysau y gogledd*—yr oedd rhan o Jerusalem yn sefyll ar ystlys ogleddol mynydd Seion, ac yr oedd y deml yn sefyll yn ogleddol oddiyno, er ei bod yn ddeheuol i'r rhan arall o'r ddinas. *Dinas y Brenin mawr*—nid dinas brenhinoedd Juda yn unig oedd Jerusalem, ond yr oedd yn benaf yn ddinas a neillduasai Jehofa iddo ei hun, yr hwn yw Brenin y brenhinoedd.

Adn. 3. *Duw yn ei phalasu* Yn nhai y galluog, yn gystal ag yn mythod y gweiniaid; neu fe allai fod yma gyfeiriad at y palas brenhinol, yn nghyda'r cysegr, palas y Brenin mawr; *a adwaenir yn amddiffynfa*—i gadw nid yn unig y palas a'r babel, ond yr holl ddinas hefyd, rhag rhuthriadau y gelynyon. Nid ei mynyddoedd, ei muriau, a'i milwyr a'i hamddiffynent hi, eithr Duw ei hun.

Adn. 4. *Canys wele y brenhinoedd a ymgynullasant* Fel cynghreirwyr yn erbyn Jerusalem; gwel y teitl: *aethant heibio yn nghyd*—o amgylch y ddinas i'w bedrych, neu i yspio am le i dori i mewn iddi.

Adn. 5. *Hwy a welsant* Gadernid ei rhagfuriau a'i thyrâu; *felly y rhyfeddasant*—wrth ei chadernid hi, neu wrth weled fod Duw yn amddiffynydd iddi: *brawychasant, ac*

a dolur, megys gwraig yn esgor.

7 A gwynt y dwyrain y drylli longau y môr.

8 Megys y clywsom, felly y gwel-som yn ninas Arglwydd y lluoedd, yn ninas ein Duw ni: Duw a'i sicr-ha hi yn dragywydd. Selah.

9 Meddyliasom, O Dduw, am dy drugaredd yn nghanol dy deml.

10 Megys y mae dy enw, O Dduw, felly y mae dy fawl hyd eithafoedd y tir: cyflawn o gyfiawnder yw dy ddehenlaw.

11 Llawenyched mynydd Seion, ac ymhyfyred merched Juda, o herwydd dy farnedigaethau.

aethant ymaith ar ffwrst—heb gynyg ymosod arni.

Adn. 6. *Dychryn a ddaeth arnynt yno*] Tu allan i'r muriau lle y gwersyllent; *a dolur*—yr oedd y dychryn a'u dahiodd yn ddolurus neu boenus iddynt, fel gwewyr gwraig yn esgor.

Adn. 7. *A gwynt y dwyrain y drylli longau y môr*] Crybyllir hyn i ddangos fod dinystr gelynon Jerusalem, dinas Arglwydd y lluoedd, yr un mor ddisymwth, sicr, a chyffredinol, a dinystr longau ar ystorn o ddwyrein-wynt cryf. 'Llongau Tarsis' yw y Saeson-eg, yr hyn a arwydda y llongau mwyaf a chadarnaf.

Adn. 8. *Megys y clywsom*] Gan ein tadau, am waredigaethau mawrion yr Arglwydd i'w bobl yn eu hamser hwy; *felly y gwel-som*—cawsom brawf ein hunain o'r un peth yn awr yn Jerusalem. *Duw a'i sicrha hi yn dragywydd*—ac felly y gwnaethai oni buasai i'w bobl anfyddhau i'w orchymynion ef, a florffio ei amddiffyniad. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 9. *Meddyliasom, O Dduw, am dy drugaredd*] Neu '*dysgywliasom* am dy drugaredd,' sef pryd yr oedd y gelynon uchod wedi ymgynull i'w herbyn; *yn nghanol dy deml*—gwel anghraifft, 2 Cron. xx. 5.

Adn. 10. *Megys y mae dy enw, O Dduw*] Yn adnabyddus hyd eithafoedd gwlad Canaan; *felly y mae dy fawl*—canyis molienir a dyrcheffir di yn mhob man lle y'th adwaenir. *Cyflawn o gyfiawnder yw dy ddehenlaw*—sef cyflawn o weithredoedd cyfiawn, trwy y rhai y dadleni dy wirionedd, dy gyfiawnder, a'th santeiddrwydd, a hyny nid yn unig yn ninystr dy elynion, ond hefyd yn nghyflawniad dy addewidion i'th eglwys.

Adn. 11. *Llawenyched mynydd Seion*] Sef Jerusalem; *ac ymhyfyred merched Juda*—sef y dinasoedd a'r trefi llai; *o herwydd dy farnedigaethau*—ar dy elynion dy hun a'u gelynon hwythau.

Adn. 12. *Amgylchwch Seion*] I weled fel yr amddiffynodd yr Arglwydd y ddinas; *rhifwch ei thyllau hi*—i edrych a oes cymaint ag un wedi syrthio.

12 Amgylchwch Seion, ac ewch o'i hamgylch hi; rhifwch ei thyllau hi.

13 Ystyriwch ei rhagfuriau, edrychwch ar ei phalasu; fel y mynegoch i'r oes a ddelo ar ol.

14 Canys y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd: efe a'n tywys ni hyd angau.

SALM XLIX.

CLYWCH hyn, yr holl bobloedd; gwrandewch hyn, holl drigolion y byd:

2 Yn gystal gwreng a bonheddig, cyfoethog a thylawd yn nghyd.

Adn. 13. *Ystyriwch ei rhagfuriau*] Mor gedyrn ydynt; *edrychwch ar ei phalasu*—y rhai ni chwasant ddim niwed; *fel y mynegoch i'r oes a ddelo ar ol*—yr amddiffyniad hynod a wnaeth yr Arglwydd iddi. Y mae rhai yn meddwl fod hyn yn cael ei ddywedyd wrth drigolion Jerusalem a dinasoedd ereill Juda; tra y tybia ereill fod y Salmudd fel yn galw ar y brenhinoedd gelyniaethus a'u byddinoedd, y rhai a ffoisent ymaith, i droi yn ol, a myned o amgylch y ddinas, i weled mor gryfion oedd ei muriau, ei thyllau, a'i phalasu, fel y gallent fynegu i'r oes a ddelai mai ofer fyddai i neb ymosod i'w niweidio, tra y byddai JEHOWA yn amddiffynydd iddi.

Adn. 14. *Canys y Duw hwn*] Yr hwn a'n gwaredodd ni mor hynod; *yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd*—i'w olui, ei wasan-aethu, a'i addoli yn dragywydd, neu i'n hamddiffyn a'n diogelu ni tra y byddom byw ar y ddaear. *Efe a'n tywys ni hyd angau*—neu '*tukunt i angau*,' fel y mae *Vansiltart* yn ei gyfieithu.

SALM XLIX. Y teitl yw, '*Tr pencerdd, Salm i feibion Corah*.' Ni wyddys pa bryd yr ysgrifenyddwyd hi, na chan bwy. Yn y rhan fwyaf o'r Salmiau cawn yr awdwr yn gweddio neu yn molianu; ond yma, fel y sylwa *Henry*, cawn ef yn pregethu. Ymddengys mai ei amcan yw argyhoeddi dynion bydol o'u pechod a'u ffolineb yn gosod eu calonau ar bethau y byd hwn, a chysuro pobl Dduw yn ngwyneb y gofidiau a darddant oddiwrt lwyddiant y rhai drygionus. Y mae mor debyg i arddull llyfr Job, ebai *Clarke*, fel y gallai un feddwl mai yr un yw eu hawdwr, neu fod y Salm hon ar y cyntaf yn rhan o'r llyfr hwnw.

Adn. 1. *Clywch hyn, yr holl bobloedd*] Nid yn unig gwŷr Juda ac Israel, ond 'holl drigolion y byd,' fel ei mynegir yn niwedd yr adnod; canys y mae goleuni natur, yn gystal a'r datguddiad dwyfol, yn dysgu i ddyinion na lesâ eu cyfoeth iddynt yn nydd angau.

Adn. 2. *Yn gystal gwreng a bonheddig*] Saes., 'isel ac uchel; cyfoethog a thylawd yn nghyd'—y mae y pedwar dosbarth hyn yn

3 Fy ngenau a draetha ddoethineb; a myfyrdod fy nghalon fydd am ddeall.

4 Gostyngaf fy nghlust at ddiareb; fy nammeg a ddatguddiaf gyda'r delyn.

5 Paham yr ofnaf yn amser adfyd, pan y'm hamgylchyno anwiredd fy sodlau?

6 Rhai a ymddiriedant yn eu golud, ac a ymfrostiant yn lluosog-rydd eu cyfoeth.

7 Gan waredu ni wared neb ei frawd, ac ni all efe roddi iawn drosto i Dduw:

8 (Canys gwerthfawr yw pryniad eu henaid, a hyny a baid byth:)

9 Fel y byddo efe byw byth, ac na welo lygredigaeth.

10 Canys efe a wel fod y doethion yn meirw, yr un ffunud y derfydd am ffol ac ynfyd, gadawant eu golud i ereill.

11 Eu meddwl yw, y pery eu tai yn dragwydd, a'u trigfeydd hyd genhedlaeth a chenedlaeth: enwant eu tiroedd ar eu henwau eu hunain.

12 Er hyny dyn mewn anrhydedd, nid ers: tebyg yw i anifeiliaid a ddyfethir.

13 Eu ffordd yma yw eu hynfydrwydd: eto eu hiliogaeth ydynt foddlon i'w hymadrodd. Selah.

cynwys holl ddynolryw, pa un bynag ai isel ai uchel o ran gwaedoliaeth a swyddau, cyfoethog neu dylawd o ran meddiannau bydol.

Adn. 3. *Fy ngenau a draetha ddoethineb*] Pethau o'r pwys mwyaf, a theilwng o wrandawriad gan yr uwchaf ei ddeall a'i gyraedd-iadau; a *myfyrdod fy nghalon fydd am ddeall*—mi a draethaf bethau ag yr wyf yn eu deall, ac wedi eu myfyrio yn dda.

Adn. 4. *Gostyngaf fy nghlust*] Cyfeiria hyn at arferiad cerddor pan yn cyweirio ei ddannau; *at ddiareb*—neu ymadrodd dam-negol, yr hyn oedd y dull cyffrinod o gyflwr addysg yn mblith y dwyreinwyr, ac a rwymai y gwrandawyr i feddlw yn ddwys er ceisio deall yr hyn a draethid. *Fy nammeg a ddatguddiaf gyda'r delya*—gosodaf hi ar fesur cerdd, i'w datganu gyda'r delyn.

Adn. 5. *Paham yr ofnaf yn amser adfyd?*] Yma y dechreu a ddoethineb, y ddiareb, neu y ddammeg ag y cyfeiriwyd ati; *pan y'm hamgylchyno anwiredd fy sodlau*—hyny yw, pan fyddo anwiredd fy *mysodlwoyr* yn fy amgylchynu; neu pan fyddo fy ngelwynnau yn amgylchu fy sodlau a'u bwriadu drygionus, fel cynifer o faglau neu rwydau i'm dal.

Adn. 6. *Rhai a ymddiriedant yn eu golud*] I'w cadw rhag adfyd, cystudd, a marwolaeth; *ac a ymfrostiant yn lluosogrydd eu cyfoeth*—megys eu tai, eu tiroedd, a'n hanifeiliaid, fel yr unig bethau a allant weini cysur parhaus iddynt.

Adn. 7. *Gan waredu ni wared neb ei frawd*] Rhag cystudd a marwolaeth; *ac ni all efe roddi iawn drosto i Dduw*—er lluos-oced fyddo ei gyfoeth. A chan na wna golud gadw bywyd naturiol ei frawd, ni chadwai chwaith ei fywyd yntau, llai o lawer ei enaid.

Adn. 8. (*Canys gwerthfawr yw pryniad eu henaid*) Sef ei enaid neu ei fywyd ef a'i frawd. Y maent yn rhy ddrud i'w prynu a phethau llygredig, megys arian neu aur, fel y rhaid cael 'gwerthfawr waed Grist' i wneuthur hyn, 1 Pedr i. 18, 19. *A hyny a baid byth*—neu a beidia byth â chymeryd lle, gan nas gall un dyn byth brynu ei enaid ei hun, nac enaid ei frawd.)

Adn. 9. *Fel y byddo efe byw byth*] Heb brofi marwolaeth; *ac na welo lygredigaeth*—yn y bedd. Trwy fod adn. 8 mewn crom-fachau, y mae yr adnod hon yn cysylltu âg adn. 7, fel hyn: 'Gan waredu ni wared neb ei frawd, ac ni all efe roddi iawn drosto i Dduw, fel ag i'w gadw ef rhag marw byth, na chael ei gladdu.'

Adn. 10. *Canys efe a wel fod y doethion yn meirw*] Gwyr pob dyn mai dyma ran pawb, er maint eu doethineb, eu daioni, neu eu cyfoeth: *yr un ffunud y derfydd am ffol ac ynfyd*—sef yr un ffunud a'r doeth a'r da: *gadawant eu golud i ereill*—heb allu ei wario i brynu bywyd yn y byd hwn, na'i ddwyn gyda hwynt i fyd arall.

Adn. 11. *Eu meddwl yw, y pery eu tai yn dragwydd*] Gan nad allant hwy eu hunain barhau; *a'u trigfeydd hyd genhedlaeth a chenedlaeth*—yn etifeddiaeth i'w hiliogaeth yn olynol: *enwant eu tiroedd ar eu henwau eu hunain*—fel y byddo i'w henwau barhau, er na byddo i'w bywyddau. Ond y mae rhai o'r prif gyfieithiadau yn ei darllen, 'Y beddau yw eu tai yn dragwydd, er trigfeydd hyd genhedlaeth a chenedlaeth: gosodant eu henwau ar bentyrau o bridd,' neu fedd-golofnau: gwel y LXX, *Mudge*, ac ereill. Neu, 'er fod en henwau yn glodfawr trwy y gwledydd.'—*Boothroyd*.

Adn. 12. *Er hyny dyn mewn anrhydedd*] Wedi iddo ddringo i'r anrhydedd daearol mwyaf, a chyraedd y swyddau uwchaf a'r meddiannau helaethaf; *nid ers*—Hebr., *bal jalin*, 'ni letya dos nos': fel ymdeithydd yn lletya mewn gwesty, rhaid iddo yntau ymad-ael weithiau cyn codi o'r haul bore dranoeth. *Tebyg yw i anifeiliaid a ddyfethir*—y rhai ni oddeffr iddynt fwynhau bywyd cyhyd ag y gallasant pe cawsent lonydd: gwel ar adn. 20.

Adn. 13. *Eu ffordd yma*] I gasglu cyfoeth, neu i anfarwoli eu henwau; *yw eu hynfydrwydd*—er eu bod hwy ac ereill yn ei hystyr-ied yn ddoethineb: *eto eu hiliogaeth ydynt foddlon i'w hymadrodd*—y mae y plant yn cymeradwyo addysgiadau, arferion, a fyrd

14 Fel defaid y gosodir hwy yn uffern; angau a ymborth arnynt; a'r rhai cyfiawn a lywodraetha arnynt y bore; a'u tegwch a dderfydd yn y bedd, o'u cartref.

15 Eto Duw a wared fy enaid i o feddiant uffern; canys efe a'm derbyn i. Selah.

16 Nac ofna pan gyfoethogo un, pan ychwanego gogoniant ei dŷ ef.

17 Canys wrth farw ni ddwg efe ddim ymaith, ac ni ddisgyn ei ogoniant ar ei ol ef.

18 Er iddo yn ei fywyd fendithio

vnfyd eu tadau, gan eu bod yn dilyn yr un llwybrau.

Adn. 14. *Fel defaid*] Ar ol eu pesgi mewn porfeydd breision i'r cigydd; *y gosodir hwynt yn uffern*—neu yn y bedd, fel y mae yn y Saesonaege. *Angau a ymborth arnynt*—nes llwyr ddfa eu enawd, fel y bwyty dynion gig defaid. *A'r rhai cyfiawn a lywodraetha arnynt y bore*—sef bore yr adgyfodiad, er i'r rhai cyfiawn gael eu gorthrymu ganddynt hwy yn fynych yn y byd hwn. *A'u tegwch a dderfydd yn y bedd o'u cartref*—codant o'u beddan heb ddim tegwch yn eu gwedd. Ond y mae rhai yn cyfieithu yr adnod hon fel hyn: 'Gorweddant yn y bedd fel defaid; angau a'u bngellia ac a'u llywodraetha hwynt; eu gogoniant ni bydd mwyach, eu ffurf a falurir ymaith, y bedd fydd eu cartref.'

Adn. 15. *Eto Duw a wared fy enaid i o feddiant uffern*] Adgyfodir fy nghorff o'r bedd ar ddelfw Ngwaredwr, a chedwir fy enaid rhag ei ysglyfaethu gan uffern; *canys efe a'm derbyn i*—gorff ac enaid ato ei hun i'r nef. *Selah*—swlwer ar hyn: gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 16. *Nac ofna pan gyfoethogo un*] Sef rhyw ddydd annuwiol; *pan ychwanego gogoniant ei dŷ ef*—trwy helaethrwydd o bethau daeol; canys ni wna hwy yn y pen draw ddim niwed i ti, na lles iddo yntau.

Adn. 17. *Canys wrth farw ni ddwg efe ddim ymaith*] O'i gyfoeth na'i fawredd daeol; *ac ni ddisgyn ei ogoniant ar ei ol ef*—i'r bedd; ac am hynny ni ddylai y duwiel ei ofni ef, na chefnegu wrtho. Y mae llwyddiant pechaduriaid yn peri ofn a gofid weithiau i rai dynion da, rhag i hynny eu galluogi hwy i wneyd mwy o ddrygan yn eu hoes; ac y mae tuedd ynddo hefyd i siglo eu ffydd hwy yn rhagluniaeth ac addewid Duw, fel pe na byddai Duw yn sylwi ar ymddygiadau dynion, nac yn gwahaniaethu rhwng y da a'r drwg, neu fel pe byddai crefydd yn beth hollol ddiles.

Adn. 18. *Er iddo yn ei fywyd fendithio ei enaid*] Neu ei ganmol ei hun fel dyn doeth a dedwydd, Luc xii. 19; eto, pan ddelo efe i farw, fel y darlunir yd uchod y dygwyrddo iddo. *Cunmolant dithau*—canys dyna yw arfer dynion y byd hwn; *o byddi da wrthyt dy hun*—gan fyw yn fras a moethus fel hwy, ac edrych am gyfoeth daeol, heb feddwl dim am dy enaid anfarwol.

ei enaid: canmolant dithau, o byddi da wrthyt dy hun.

19 Efe a â at genhedlaeth ei dadau, ac ni welant oleuni byth.

20 Dyn mewn anrhydedd, ac heb ddeall, sydd gyffelyb i anifeiliaid a ddyfethir.

SALM L.

DUW y duwiau, *sef yr Arglwydd, a lefarodd, ac a alwodd y ddaear, o godiad haul hyd ei fachludiad.*

2 Allan o Seion, perffeithrwydd tegwch, y llewyrchodd Duw.

Adn. 19. *Efe a â at genhedlaeth ei dadau*] Bydd i'r bydolddyn hwn farw fel ei dadau; *ac ni welant oleuni byth*—ni ddaw nu o honnynt byth mwyach i breswlyo y ddaear megys gynt; neu, teffir hwynt yn y diwedd i'r tywyllwch eithaf, Mat. viii. 12.

Adn. 20. *Dyn mewn anrhydedd*] Dyn yn meddiannu cyfoeth a mawredd daeol; *ac heb ddeall*—pww a'u rhoddes iddo, nac i ba beth, na pha fodd i'w defnyddio er gogoniant i Dduw; neu heb ddeall ysbrydol i ofalu am iachawdwriaeth ei enaid; *sydd gyffelyb i anifeiliaid a ddyfethir*—y mae yn byw fel anifel anvstoriol ac anniolchgar, heb ganddo ddim hvyrdwch ond mewn ymlenwi â phethau v ddaear; a bydd farw yn y diwedd fel anifel, heb ganddo ddim cysur ysbrydol i'w enaid anfarwol.

SALM L. Y teitl yw, '*Salm Asaph.*' Y mae denddeg o Salmu ar ei enw ef; canys yr oedd ef mewn bri mawr yn nyddiau Dafydd, fel cantor, gweledydd, a phroffwyd, 1 Cron. xxv. 1, 2 Cron. xxix. 30; er nad ystyriai ei Salmu ef mor goeth a mawreddog ag eiddo Dafydd, Nid yw yn eglur ar ba achlysur y cyfansoddodd efe y Salm hon; ond y mae yn gyffadans i gyflwr yr eglwys Iuddeidd bron yn mhob cyfnod.

Adn. 1. *Duw y duwiau, sef yr Arglwydd, a lefarodd*] 'Yma y mae enwau hanfodol Duw yn cael eu defnyddio: EL, ELOHIM, YEHOWAH. Ymddengys fod y chwech adnod flaenaf o'r Salm hon yn cynwys dysgrifiad o'r farn fawr.'—CLARKE. *Ac a alwodd y ddaear*—sef holl trigolion y ddaear; *o godiad haul hyd ei fachludiad*—o'r dwyrain byd y gorllewin, ac o'r dean hyd eithaf y gogledd. Os yw hyn yn cyfeirio at y farn ddiweddar, rhaid deall yr ymadrodd yn llythyrenol; ond os at ryw amgylchiad arall, rhaid ei ddeall yn ffugrol neu gyffelybiaethol: gwel ar adn. 6.

Adn. 2. *Allan o Seion, perffeithrwydd tegwch*] Sef o Jerusalem, neu o'r cysegr yno, y lle mwyaf dymunol yn yr holl fyd, o herwydd fod presenoldeb, addoliad, a berdith Duw yno; *y llewyrchodd Duw*—vn nvsgeirdebe ei ogoniant o bryd i bryd. 'Y gyfraith a â Allan o Seion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem:' gwel ar Esay ii. 3.

Adn. 3. *Ein Duw ni a ddaw*] I wneuthur

3 Ein Duw ni a ddaw, ac ni bydd dystaw: tân a ysa o'i flaen ef, ath ymhestul ddirfawr fydd o'i amgylch.

4 Geilw ar y nefoedd oddiuchod, ac ar y ddaear, i farnu ei bobl.

5 Cwsglwech fy saint yn nghyd ataf fi, y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth.

6 A'r nefoedd a fynegant ei gyfiawnder ef: canys Duw ei hun sydd Farnwr. *Selah.*

7 Clywch, fy mhobl, a mi a lefaraf; O Israel, a mi a dystiolaethaf i'th erbyn: Duw, *sef* dy Dduw di, *ydwylf* fi.

8 Nid am dy aberthau y'th geryddaf, na'th boeth-offrymau, *am nad oeddynt* ger fy mron i yn wastad.

9 Ni chymeraf fustach o'th dŷ, *na* bychod o'th gorlanau.

10 Canys holl fwystfilod y coed *ydont* eiddof fi, a'r anifeiliaid ar fil o fynyddoedd.

11 Adwaen holl adar y mynyddoedd: a gwyllt anifeiliaid y maes *ydont* eiddof fi.

12 Os bydd newyn arnaf, ni ddywedaf i ti: canys y byd a'i gyflawnder *sydd* eiddof fi.

barn, neu i alw dynion i gyfrif. Os yw hyn yn cyfeirio at y farn ddiweddaf, rhaid mai Crist a feddylir yma, 'canys y Tad nid yw yn barnu neb, eithr efe a roddes bob barn i'r Mab,' Ioan v. 22. *Ac ni bydd dystaw*—'oblegid yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyda bloedd, a llef yr archangel, ac ag udgorn Duw,' 1 Theis iv. 16. Ond gellir ei gyfieithu, 'ac ni pheidia.' *Tân a ysa o'i flaen ef*—canys y 'defnyddiau gan wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir,' 2 Pedriiii. 10; *a thymhestul ddirfawr fydd o'i amgylch*—fel ar roddiad y ddeddf ar Sinai, Exod. xix. 16, Heb. xii. 18.

Adn. 4. *Geilw ar y nefoedd oddiuchod*] *Sef* anglyion y nefoedd; *ac ar y ddaear*—*sef* trigolion y ddaear; *i farnu ei bobl*—i fod yn dystion o uniondeb ei weinyddiadau, neu i'w gynorthwyo ar yr achos, fel y dywedir yn yr adnod nesaf.

Adn. 5. *Cwsglwech fy saint yn nghyd ataf fi*] I'w profi, neu ynte i'w gosod ger fy mron, neu ar fy nebeulaw, Mat. xxv. 32, 33; *y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth*—os at ryw brawf neillduol ar genedl Israel y cyfeirir yn yr adnodau hyn, y meddwl yw, eu bod wedi gwneuthur cyfammod âg ef trwy eu rhieni yn Horeb, Exod. xxiv. 4, &c., ac ya aml wedi hyn yn eu personau eu hunain; ond os at y farn gyffredinol yn niwedd y byd y cyfeirir, golygir yma y rhai a ddaethant i undeb achubol â Duw trwy fydd yn aberth ei Fab.

Adn. 6. *A'r nefoedd*] *Sef* yr anglyion, y rhai oeddynt gymhlwysaf i roddi barn ddiuedd ar yr achos, ond yn cael eu henwi yma am yr oll, adn. 4; *a fynegant ei gyfiawnder ef*—neu uniondeb ei weinyddiadau; *canys Duw ei hun sydd Farnwr*—yr hwn ni all wneuthur anghyfiawnder. Nid yw efe yn awr yn myned i geryddu ei bobl anffyddlon trwy ei offeiriad a'i broffwyll, fel yr arferai wneuthur, eithr efe a gymer yr achos i'w law ei hun yn hollol. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2. Tybia rhai, fel y gwelom, fod hyn oll yn ddarlunio o ddull y farn ddiweddaf; tybia ereill ei fod yn cyfeirio yn unig at ryw amgylchiad yn hanes Israel gynt; tra y cyfeirir y cwbl gan ereill at ddinystr diweddaf yr Iuddewon a'u gwladwriaeth, yr hyn y rhaid addef ei fod yn gysgod o'r farn ddiweddaf.

Adn. 7. *Clywch, fy mhobl, a mi a lefaraf*] Mi a ragddangosaf ddull a threfn y farn, a'r achos o honi; *O Israel*—*sef* y bobl ag oeddynt i gael eu barnu; *a mi a dystiolaethaf i'th erbyn*—fel pobl anffyddlon i'r cyfammod a wnaethoch â mi, adn. 5. *Duw, sef dy Dduw di, ydwylf fi*—yr wyf yn dal y berthynas agosaf â chwi, nid yn unig fel eich Creawdwr, ond hefyd fel eich Duw cyfammodol.

Adn. 8. *Nid am dy aberthau y'th geryddaf, &c.*] Nid am esgeuloso yr aberthau a'r poeth-offrymau, canys yr oedd y rhai hynv ger ei fron ef ar ei allor yn wastadol, yn enwedig yn amser Dafydd ac Asaph.

Adn. 9. *Ni chymeraf fustach o'th dŷ*] Neu o'th feudŷ; *na bychod o'th gorlanau*—er eu mwyn eu hunain, fel pe byddai arnaf fi mewn gwirionedd angen am aberthau felly. Nid oedd yr aberthau gynt o ddim gwasanaeth i Dduw; eu dyben oedd cynorthwyo ffydd yr aberthwr, a'i alluogi i edrych yn mlaen at Crist. Ond gan fod yr Iuddewon yn awr yn aberthu er mwyn aberthu, neu o ddefod yn unig, heb ffydd yn Nghrist, ni chymerai Duw yr aberthau hynv ganddynt. Fe allai fod yma gyfeiriad at y deugain mlynedd ar ol aberthiad Crist, *sef* yr yspaid rhwng ei farwol-aeth ef a dinystr Jerusalem, pryd yr oedd yr Iuddewon yn parhau i offrymu yr aberthau seremonïol, gan wrthod aberth Crist; ac am hyn ni chymerai Duw fustych a bychod ganddynt mwyach, trwy fod tymhor y cysgodau ar ben.

Adn. 10. *Canys holl fwystfilod y coed ydnt eiddof fi*] Fel eu Creawdydd a'u Cynalydd; ac am hynv gallow gael y rhai hynv, pe mynwn, heb ofyn i ti; *a'r anifeiliaid ar fil o fynyddoedd*—*sef* ar holl fynyddoedd a dyffrnoedd y byd.

Adn. 11. *Adwaen holl adar y mynyddoedd, &c.*] Yn mha le y maent, a pha fodd i'w cael; nid yn unig y rhai ddf a theuluaid, ond hefyd y rhai sydd yn wylltion ar y mynyddoedd; y maent oll dan fy llywodraeth ac wrth fy ngalwad i, er eu bod allan o gryaedd dyn.

Adn. 12. *Os bydd newyn arnaf*] Pe byddai arnaf eisiau cig yr anifeiliaid a'r adar hyn; *ni ddywedaf i ti*—ni ofynwn i ti fy niwallu: *canys y byd a'i gyflawnder sydd eiddof fi*—

13 A fwytaf fi gig teirw? neu a yfaf fi waed bychod?

14 Abertha foliant i Dduw; a thâl i'r Goruchaf dy addunedau:

15 A galw arnaf fi yn nydd trallod: mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi.

16 Ond wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymerch ar fy nghyfammod yn dy enau?

17 Gan dy fod yn casâu addysg, ac yn taflu fy ngeiriau i'th ol.

18 Pan welaist leidr, cytunaist âg ef; a'th gyfran oedd gyda'r godinebwyr.

19 Gollyngaist dy safn i ddrygioni, a'th dafof a gydblethadichell.

20 Eisteddaist a dywedaist yn erbyn dy frawd: rhoddaist enllib i fab dy fam.

21 Hyn a wnaethost, a mi a dewais: tybiaist ditheu fy mod yn gwbl fel ti dy hun: ond mi a'th argyhoeddaf, ac a'u trefnaf o flaen dy lygaid.

fel y gallaf fy niwallu fy hun pryd y mynwyf. Ond dylid cofio fod Duw yn llesaru am dano ei hun yma mewn dull dynol.

Adn. 13. *A fwytaf fi gig teirw*] Fel dyn newynog? *neu a yfaf fi waed bychod*—fel yr ff dyn ddwfr i dori ei syched? Fel pe dywedasai, A ydych chiwi mor ffol a meddwl ddarod i mi, yr hwn wrf Ysbryd pur, benodi yr aberthau hyn er fy niwallu fy hun? neu fy mod yn bwriadu iddynt barhau ar oli fy Mab farw? Nid oedd y rhai hyn ddim ond cysgodan o aberth mawr 'Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd,' ac arweiniad i mewn i'r addoliad ysbrydol purach hwnw dan oruchwyliath yr efengyl: gwel ar Salm xl. 6, &c.

Adn. 14. *Abertha foliant i Dduw*] Dyro iddo 'aberth o *ddiolechgarwch*' gwresog a diffluant am ei aml drugareddau, yn enwedig am roddi o hono ei Fab yn aberth dros dy bechodau, yn lle yr holl aberthau seremonïol; a *thâl i'r Goruchaf dy addunedau*—o roddio yn ei orchymynion ef, a'i garu a'i wasanaethu o galon bur yn helaeth.

Adn. 15. *A galw arnaf fi*] Mewn gweddi ffyddiog a thaer, yr hyn s'fdd gyfaddefiad o'th ddarostyngiad i mi, a'th ymddibyniad arnaf; *yn nydd trallod*—mewn unrhyw amser o gyfyngder personol, teuluol, neu wladol; *a mi a'th waredaf*—er mwyn aberth fy Mab, hebi ti gwrth at yr aberthau seremonïol, y rhai a ddilëir dan yr efengyl; *a thi a'm gogoneddi*—am y gyfryw waredigaeth, trwy fyw er gogoniant i'm hennw.

Adn. 16. *Ond wrth yr annuwiol*] Sef y profleswyr rhagrithiol, y rhai, er y gelwir hwynt yn *saint* ar gyfrif en profies, adn. 5, eto a elwir yma yn *annuwiol* ar gyfrif eu hymddygiadau. Tybia rhai ei fod yn cyfeirio at yr offeiriad, y Phariseid, a'r ysgrifenyddion beilchion; ond gellir cymbywso yr un geiriau yn barhans at weinidgion anghymwys yr efengyl, lle bynag y ceir hwynt. *Y dywedodd Duw*—trwy ei Ysbryd yn ngeinau ei broffwydi, neu yn ngeinau Crist a'i apostolion. *Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfau*—mewn ffordd o addysgu ereill; *neu a gymerch ar fy nghyfammod yn dy enau*—a thithan heb gadw fy neddfau a'm cyfammod dy hun? Neu, yn ol rhai, 'palam y meiddi di wasgn defodau seremonïol y cyfammod ar y bobl, a hwythau wedi eu diddymu?' Ar ol dangos am ba bethau nis ceryddai efe hwynt, adn. 8, y

mac efe yma yn mynegu am ba bethau yr oedd yn eu ceryddu ac yn eu condemnio, sefam broffies wâg a thwyllodrus o grefydd, neu am gymhell ar y bobl ddefodau diddymedig.

Adn. 17. *Gan dy fod yn casâu addysg*] Dy hunan, er dy fod yn ei wasgu ar y bobl; *ac yn taflu fy ngeiriau i'th ol*—tu oli'th gefn, fel pethau aflan, trwy ymddywyn yn groesidd-ynt, ac yn ddiystyr o honynt.

Adn. 18. *Pan welaist leidr*] Yn lle tystiol-aethu yn ei erbyn, neu geisio ei ennill oddiwrth y pechod hwnw; *cytunaist âg ef*—er mwyn cael rhan o'r yspelddach: *a'th gyfran oedd gyda'r godinebwyr*—ymunaist â hwythau yn eu harferion aflan, yn lle ceisio eu dychwelyd. Yr oedd llawer hys yn nod o'r dysgawdwy'r Iuddewig yn dra euog o'r pechodau hyn yn amser Crist a'i apostolion: gwel ar Mat. xii. 39. Ioan viii. 3—10, Rhuf. ii. 21, 22.

Adn. 19. *Gollyngaist dy safn i ddrygioni*] I draethu geiriau drygionus, anwireddus, ac aflan; *a'th dafof a gydblethadichell*—i dwyllo, rhwydo, neu ddrygu ereill.

Adn. 20. *Eisteddaist*] Yn eisteddfa y gwatwarwyr, neu ynte ar orsedd barn yn y cynghor neu y senedd Iuddewig; *a dywedaist yn erbyn dy frawd*—mab âg dad dy hun, a llyny ar gam: *rhoddaist enllib i fab dy fam*—un a sturfiwyd yn yr un groth a thi dy hun, ac am hyn y ddylasai fod yn anwylach genyt na brawd o fam arall. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at y gamdriniaeth a ddanghoswyd tuag at Grist a'i apostolion gan eu cenedl hwy eu hunain.

Adn. 21. *Hyn a wnaethost, a mi a dewais*] Ymddygaist fel pe buaswn heb glywed dy eiriau enllibaidd, neu heb weled dy weithrededd drygionus. *Tybiaist ditheu fy mod yn gwbl fel ti dy hun*—yn cymeradwyo ymddygiadau annuwiol felly, neu yn ddiystyr o'r drwg sydd ynddynt, neu ynte yn analluog i ganfod a chlywed pob peth a wneir ar y ddaear. *Ond mi a'th argyhoeddaf*—o'th gamsyniad; *ac a'u trefnaf o flaen dy lygaid*—trefnaf dy holl bechodau o'th flaen fel byddin amlwg: dygaf hwynt oli'th gof, a gosodaf hwynt ar dy gydwybod yn eu llawn rif, ac yn eu trefn reolaidd, yn nghyda'u holl amgylchiadau, eu cysylltiad â'u gilydd, a'u heffeithiau ar ereill; fel ag i'th lwy'r argyhoeddi fy mod yn adnabyddus o honynt oli, ac yn eu casâu i'r eithaf, ac na ddianc cymaint ag un o honynt yn ddiagos.

22 Deallwch hyn yn awr, y rhai ydych yn anghofio Duw; rhag i mi eich rhwygo, ac na byddo gwaredydd.

23 Yr hwn a abertho foliant, a'm gogonedda i: a'r neb a osodo ei ffordd yn iawn, danghosaf iddo iachawdwriaeth Duw.

SALM LI.

TRUGARHA wrthyf, O Dduw, yn ol dy drugarogrwydd: yn

Adn. 22. *Deallwch hyn yn awr*] Cyn i'r farn hōno eich goddiweddyd; y rhai ydych yn anghofio Duw—neu yn ddiystyr o'i hawliau ef ynoch, a'ch rhwymedigaethau chwithau iddo, Deut. xxxii. 18; *rhag i mi eich rhwygo*—a'm barnedigaethau cyfiawn; ac na byddo gwaredydd—neb a allo eich gwaredu o'm llaw.

Adn. 23. *Yr hwn a abertho foliant*] Neu 'ddiolchgarwch,' fel y mae y gair *todah* yn arwyddo yma ac yn adn. 14; *a'm gogonedda i*—sef hwn yn unig, ac nid yr hwn a lwytha fy allor ag aberthau; *a'r neb a osodo ei ffordd yn iawn*—gan ymagweddu yn mhob peth yn ol rheol yr efengyl, fel ag i ddwyn firwyth lawer er gogoniant i'm nenw, Ioan xv. 8; *danghosaf iddo iachawdwriaeth Duw*—caiff weled a mwynhau y fath iachawdwriaeth lawn a thragwyddol ag a fydd yn deilwng o Dduw fel ei hawdwr a'i rhoddwr.

SALM LI. Y teitl yw, 'Pr pencerdd, Salm Dafydd, pan ddaeth Nathan y proffwyd ato, wedi iddo fyned i mewn at Bathseba.' Cafodd priodoldeb y teitl hwn ei amau yn fawr, yn enwedig gan *Horsley* a *Kennicott*, o herwydd yr hyn a ddywedir yn adn. 4, 18, 19; ac oni bae yr adnodau hyn, cytunai y Salm yn dda â'r teitl, a'byddai yr edifeirwch a amlygir ynddi yn ddigon cyfaddas i achos Dafydd ar y pryd: ond gwel y sylwadau ar yr adnodau hyn. Ceir hanes pechod Dafydd yn achos Bathseba yn 2 Sam. xi, a hanes mynediad Nathan ato i'w argyhoeddi o hono yn 2 Sam. xii; ac ar ol i'r pechod fyned yn gyhoeddus, rhoddodd Dafydd y Salm hon i'r pencerdd i'w chanu yn gyhoeddus, er dangos ei edifeirwch ef am y pechod hwn, ac er mawl i Dduw am faddu iddo.

Adn. 1. *Trugarha wrthyf, O Dduw*] Yr hwn wyt oruchaf Ddeddfroddwr, Llywodraethwr, a Barnwr y byd; *yn ol dy drugarogrwydd*—neu dy dueddiad cryf i drugarhau wrth bechaduriaid truenus ac anheilwng o'm bath i: *yn ol lluaws dy dosturiaethau*—yn ol 'amledd dy dynner drugareddau,' neu yn ol 'dy ymysgaroedd o dosturiaethau,' y rhai a gynhesant mewn cydymdeimlad trugarog â'th greaduriaid syrthiedig, truenus, ac edifeiriol. Y mae yma dri gair yn cael eu dadlu gan Dafydd, a'r naill yn gryfach na'r llall: (1) TRUGAREDD, neu y teimlad naturiol hwnw a

ol lluaws dy dosturiaethau, dilea fy anwireddau.

2 Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd, a glanha fi oddiwrth fy mhechod.

3 Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau: a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron.

4 Yn dy erbyn di, dydi dy hunan, y pechais, ac y gwnaethym y drwg hwn yn dy olwg: fel y'th gyfiawnhäer pan leferych, ac y byddit bur pan farnech.

ddanghosir tuag at un mewn trueni. (2) TRUGAROGRWYDD, neu dueddiad parod a chryf i gynorthwyo y truenus. (3) TOSTURIAETHAU, neu gynhyrfiad grymus y galon a'r ymysgaroedd, yr hyn yw y gradd uwchaf o deimlad trugarog ag y mae natur yn alluog iddo. *Dilea fy anwireddau*—yn achos Bathseba ac Urias; hyn yw, na fydded iddynt gael lle i fodoli, nac o ganlyniad *fodoldeb*. Dilea yr euogrwydd o honyt trwy faddauent neu gyfiawnhad, a dilea eu halogrwydd trwy santeiddhad.

Adn. 2. *Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd*] Hebr., 'golch fi drachefn a thrachefn.' Y mae yr ymadrodd yn arwyddod fod ei halogrwydd ef yn un mwy na chyffredin, a bod rhywbeth mwy na golchiad seremonïol yn angenrheidiol i'w buro a'i lanhau ef.

Adn. 3. *Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau*] Gyda gofid, eywilydd, a hunan-fieiddiad; *a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron*—yn ei holl erchylltra a'i ddrwg-haeddiant. Y mae yn eglur oddiwrth y Salm hon nad oedd Dafydd eito wedi cael maddenant o'i bechod; a phan y dywedodd Nathan wrtho, 'Yr Arglwydd a dynodd ymaiti dy bechod di,' rhaid mai yr ystyr yw, ei dynn ymaiti cyn belled fel na byddai raid iddo farw o'i herwydd, yr hyn oedd cosp y godinebw, Lef. xx. 10. Gwel y sylw ar 2 Sam. xii. 13.

Adn. 4. *Yn dy erbyn di, dydi dy hunan, y pechais*] Casgla *Kennicott* ac ereill oddiwrth yr adnod hon, nad at *odineb* a *llofruddiaeth* Dafydd y cyfeirir yma, y rhai oeddynt bechodau yn erbyn *dymion* yn gystal ag yn erbyn *Duw*; ac o ganlyniad ddarodf ysgrifenu y Salm hon gan rywan yn amser caethiwed Babilon, pryd yr oedd yr awdwr wedi syrthio i ryw bechod uniongyrchol yn erbyn JEHORFA, megys *eilunaddoliaeth* neu y cyffelyb: gwel ar adn. 14. Ond paham nad allai Dafydd lefaru fel hyn oddiar yr ystyriaeth ei fod yn *frenin*? canys fel y cyfryw yr oedd ef uwchlaw bod yn gyfrifol i'w ddeiliaid, y rhai nid allent ei *farnu* na'i *gosp* ef. Nid oedd neb ond Duw ei hun yn uwch na'r brenin yn y deyrnas; ac i Dduw yn unig yr oedd efe, fel brenin, yn gyfrifol. 'Pan droseddo brenin,' ebai *Cassiodorus*, 'i Dduw yn unig y mae efe yn gyfrifol.' Felly, yn ol y rheol hon, yr hon a gydnabyddir yn mhob gwlad, gallai Dafydd ddywedyd yn ngeiriau y testyn, 'Yn

5 Wele, mewn anwiredd y'm llunwyd; ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.

6 Wele, ceraiſt wirionedd oddi-mewn: a pheri i mi wybod doethineb yn y dirgel.

7 Glanha fi âg isop, a mi a lanheir: golch fi, a byddaf wynach na'r eira.

8 Pâr i mi glywed gorfoledd a llawenydd; fel y llawencho yr esgryn a ddrylliaist.

9 Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodau, a dilea fy holl anwireddau.

10 Crea galon lân ynof, O Dduw; ac adnewydd ysbryd uniawn o'm mewn.

11 Na fwrw fi ymaith oddiger dy fron; ac na chymer dy Ysbryd santaidd oddiwrthyf.

12 Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth; ac d'rh hael ysbryd cynal fi.

dy erbyn di, dydi dy hunan, y pechais.' Fel pe dywedasai, Er nas gellir fy ngwysio at fainc fy neiliaid, yr wyf yn fy nghybuddo fy hun o ſlaen dy fainc di; a'r fath yw fy nhrosedd, fel y'th gyfiawnheid yn ngolwg dynion ac anglynon hyd yn nod pe gosodit ti arnaf y gosp drymaf. *Ac y gwnaethym y drwg hwn yn dy olwg*—mewn anystyriaeth neu ddiystyrwch o borot ti, yr hwn y gwyddwn dy fod yn gwelod fy ngweithredoedd dirgelaf. *Fel y'th gyfiawnhaer pan leferych*—yn nghyhoeddiad dy ddedfryd uwch fy mhen; *ac y byddit bur pan farnech*—sef yn y gweinyddiad o honi arnaf fi bechadur euog.

Adn. 5. *Wele, mewn anwiredd y'm llunwyd*] Neu 'y'm ganed,' fel yr arwydda *cholati*; hyn yw, gyda thuedd gref yn fy natur at bechod: *ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf*—yr wyf yn blentyn dirywiedig a syrthiedig, i nieni dirywiedig a syrthiedig. Rhaid mai hyn yw yr ystyr, trwy fod Dafydd wedi ei genhedlu mewn priodas gyfreithlon, fel y gellir casglu oddiwrth 1 Sam. xvi. 10, 11; canys nid oes air yn erbyn di-wiedeb Jesse o fewn yr ysgrifthyrau; a sonia Dafydd am ei fam fel 'gwasanaethferch yr Arglwydd,' Salm lxxvi. 16. Y mae yr adnod hon yn cael ei hystyried gan Iuddeon a Christianogion yn brawf o'r hyn a alwn ni yn *bechod gwreiddiol*; yr hyn a grybwylla Dafydd yma, nid i esgusodi ei bechod, ond i'w fwyhan; gan y dylasai efe, ac yntau yn gwybod am lygredd ei natur, a'i theddrwydd at bechod, fod yn fwy gwyliadwrus dros ei nwydau anianol.

Adn. 6. *Wele, ceraiſt wirionedd oddi-mewn*] Yn y meddwl a'r galon, yr hyn a wyddwn yn dda; a pheri i mi wybod doethineb yn y dirgel—neu 'peraiſt i mi wybod,' fel y gellir ei gyfieithu: hyn yw, yr oedd Dduw wedi ei gynysgaethu ef, cyn ei gwmp, â doethineb yn ei enaid, trwy yr hyn y gwyddai efe pa beth yr oedd yn ei wneuthur; ac y mae hyn eto yn mwyhau ei bechod ef.

Adn. 7. *Glanha fi âg isop*] Neu 'megys âg isop;' canys nid oedd Dafydd yn golygu taenellid seremonïol, onidë aethai at yr offeiriad; eithr gofynai am i Dduw ei lanbau ef trwy waed *Crist*, yr hwn a gysgodd trwy y gwaed a daenellid a'r isop, &c.; gwel ar Lef. xiv. 4, &c. *Golch fi, a byddaf wynach na'r eira*—mewn ystyr moesol ac ysbrydol. Arol i'r gwahanglywys gael ei daenellu gynt a'r

gwaed a'r isop, yr oedd efe i *ymolchi* mewn dwfr, at yr hyn y cyfeirir yma, Lef. xiv. 8. Gall fod y *glanhad* yn arwyddo cyfiawnhad neu faddeuant, a'r *golchiad* yn arwyddo santeiddiad neu bureiddiad yr Ysbryd Glân.

Adn. 8. *Pâr i mi glywed gorfoledd a llawenydd*] Yn deilliaw oddiar deimlad o faddeuant ac iachawdwriaeth; *fel y llawencho yr esgryn a ddrylliaist*—yr oedd Dafydd yn ei gytlybn ei hun i ddynd wedi syrthio o uwchder i ddyfnder mawr, trwy yr hyn y dryllwyd ei esgryn ef, ac y poenid ef yn ddirfawr; ac nid oedd dim ond ei adferiad i ffafr Dduw a allai ei feddyginiaethu ef.

Adn. 9. *Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodau*] Trwy eu taflu tu ol i'th gefn; neu, nac edrych ar fy mhechodau gyda bwriad penderfynol i'w cospi: a dilea fy holl anwireddau—trwy faddeuant a santeiddhad: gwel ar adn. 1.

Adn. 10. *Crea galon lân ynof, O Dduw*] Yr oedd ef yn teimlo na wnai *gwelldu* yr hwn galon ateb y dyben, ond tod yn rhaid *creu* calon newydd ynddo; ac felly yr addawodd Dduw wedi hyn, Ezec. xi. 19: 'Tynaf hefyd y galon gareg ymaith o'u enawd bwynt, a rhoddaf iddynt galon gig.' Y mae hyn hefyd yn gyson âg athrawiaeth yr apostol: 'Ni ddiehon enwaediad ddim, na dienwaediad, ond *creatur newydd*,' Gal. vi. 15. 'Od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn *greatur newydd*,' 2 Cor. v. 17. 'A gwisgo y *dyn newydd*, yr hwn yn ol Dduw a *grëwyd* mewn cyfiawnder a gwir santeiddrwydd,' Eph. iv. 24. *Ac adnewyddu ysbryd uniawn o'm mewn*—yr oedd Dafydd unwaith wedi cael ysbryd uniawn neu 'sefydlog'; ac ar ol iddo ei gollu, y mae ef am ei gael drachefn. *Adnewyddu*, neu newydd ef *eilwaith*, fel yr arwydda y gair. Y mae hyn hefyd yn gyson âg addewid Dduw, 'Ac ysbryd newydd a roddaf ynoch,' Ezec. xi. 19.

Adn. 11. *Na fwrw fi ymaith oddiger dy fron*] Heb ateb fy ngweddi; *ac na chymer dy Ysbryd santaidd oddiwrthyf*—yr hwn sydd yn awr yn ymyron a'm cydwybod, a'r hwn yn unig a all fy santeiddio.

Adn. 12. *Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth*] Neu deimlad dedwydd a gorfoleddus fy mod wedi fy achub. Yr oedd Dafydd wedi bod yn feddiannol ar hwn cyn ei gwmp, ac yma y mae yn deisyf ei gael *drachefn*. Efe a weddïasai o'r blaen am yr *iachawdwriaeth*, adn. 1, 2, 7, 9, 10; ac yn awr

13 Yna y dysgaf dy ffyrdd i rai anwir; a phechaduriaid a droir atat.

14 Gwared fi oddiwrth waed, O Dduw, Duw fy iachawdwriaeth: a'm tafod a gân yn llafar am dy gyfiawnder.

15 Arglwydd, agor fy ngwefusau, a'm genau a fynega dy foliant.

16 Canys ni chwennychi aberth; pe amgen mi a'i rhoddwn: poeth-offrwm ni fyni.

efe a weddia am y *gorfoledd* a gynyrchir gan yr iachawdwriaeth. *Ac a'th hael Ysbryd*—sef yr Ysbryd Glân, yr hwn a roddir yn haelionus a helaeth i'r rhai a ofynant am dano, Luc xi. 13; *cynal fi*—rhag syrthio mwyach oddiwrthyt.

Adn. 13. *Yna y dysgaf dy ffyrdd i rai anwir*] Y flordd iddynt lwythau gael maddeuant ac iachawdwriaeth; a *pechaduriaid a droir atat*—wrth weled fod dy ras a'th drugaredd, y rhai a achubasant bechadur mor fawr a mi, yn ddigonol i'w hachub hwythau hefyd. Yn briodol y sylwodd *Dr. Delaney*, 'Pwy a all hyderu yn ei nerth ei hun, wrth weled *Dafydd* yn syrthio? Pwy a all anobeithio yn nbrugaredd Duw, wrth ei weled ef yn cael iuaddeuant? Athrist fuddugoliaeth pechod ar bob peth ag sydd fawr a rhagoroll mewn dyn! Ogoneddus fuddugoliaeth edifeirwch ar bob peth ag sydd warthus ac erchyll mewn pechod!'

Adn. 14. *Gwared fi oddiwrth waed, O Dduw*] *Heb, middamim*, 'oddiwrth waedau'; canys yr oedd ef wedi bod yn enog o farwol-aeth nid yn unig Urias, ond ereill o bobl yr Arglwydd gydag ef, 1 Sam. xi. 17. Y mae y geiriau hyn yn brawf o briodoldeb teitl y Salm hon, ac nad mewn edifeirwch am *eitunaddol-waeth* y cyfansoddwyd hi: gwel ar adn. 4. Yr oedd Dafydd yn ystyried fod gwaed Urias a'r lleill yn gwaeddi o'r ddaear am ddialedd arno ef, ac nad oedd dim ond trugaredd Duw a allai ei ddystewi yn ei gydwbybod. *Duw fy iachawdwriaeth*—yr hwn yn unig a all roddi i mi iachawdwriaeth. *A'm tafod a gân yn llafar am dy gyfiawnder*—am dy drefn rasol i achub a chyfiawnhau yr anauwl.

Adn. 15. *Arglwydd, agor fy ngwefusau*] Y rhai a ganesid gan gywlydd, a dylchryn; neu dyro i mi achos i'w hagor mewn caniaidau llafar am dy waredigaeth i'm henaid. *A'm genau a fynega dy foliant*—neu a'th glodfora yn gyhoeddus am hyny. Nis gallai ef foliant Duw am faddeu iddo, hyd oni themlai ei fod wedi derbyn maddeuant.

Adn. 16. *Canys ni chwennychi aberth*] Nid oedd y gyfraith wedi darparu aberth dros odineb a llofruddiaeth, eithr yr oedd y pechodau hyny i gael eu cospi â marwolaeth, neu ynte i gael eu maddeu trwy weithred benarglwyddiaethol trugaredd rad: *pe amgen mi a'i rhoddwn*—yn ewyllysgar, pa beth bynag a gostiai: *poeth-offrwm ni fyni*—dros y pechodau hyn, er ei fod wedi ei drefnu, ac

17 Aberthau Duw *ydnyt* ysbryd drylliedig: calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi.

18 Gwna ddaioni yn dy ewyllysgarwch i Seion: adeilada furiau Jerusalem.

19 Yna y byddi foddlon i ebyrth cyfiawnder, i boeth-offrwm ac aberth llosg: yna yr offrymant fustych ar dy allor.

yn cael ei dderbyn, dros bechodau ereill.

Adn. 17. *Aberthau Duw*] Y rhai y mae Duw yn eu gofyn yn y fath achos a'r eiddof fi; *ydnyt ysbryd drylliedig*—ysbryd a calon wedi eu dryllio dan deimlad edifeiriol o ddrwg pechod, gofid o'i herwydd, a chasineb gwirioneddol ato. *Calon ddrylliog gystuddiedig*—o'r fath uchod, *O Dduw, ni ddirmygi*—y mae aberth felly yn gymeradwy genyt hyd yn nod yn fy achos i. Gallwn feddwl ddarod i Dduw yn awr wrando ei weddi, iacháu ei ysbryd drylliedig, a thlywynau ar ei enaid lewyrch ei wyneb. Tybia rhai fod y Salm hon yn diweddu yma, a bod y ddwy adnod nesaf yn rhan o Salm arall ar y cyntaf, neu yn Salm wrthi ei hun, yr hon a gywysa weddi fer am waredigaeth y caethion o Babilon, adgyweirid Jerusalem, ac adferiad gwasanaeth y deml: gwel *Clarke*. Os yw llyn felly, nis gellir dadlu mwyach amhriodoldeb teitl y Salm hon. Ond nis gallaf fi weled un sail i amau eu perthynas a'r Salm hon, wrth eu deongli yn y modd a ganlyn:

Adn. 18. *Gwna ddaioni yn dy ewyllysgarwch i Seion*] Ac na fydded i'm pechodau i fod yn achos i ti guddio dy wyneb oddiwrth dy bobl: *adeilada furiau Jerusalem*—gwna i fyne y rhwyg moesol a achoswyd trwy fy mbechodau i yn dy eglwys. Neu os deallwn 'furiau Jerusalem' yn llythyrenol, gall fod y muriau a ddechreuasai Dafydd heb eu gorphen y pryd hyn; (cydmarher 2 Sam. v. 9, & 1 Bren. iii. 1;) a bod Dafydd yn ofni i'w bechodau ef fod yn raiwyrst iddynt gael eu hadeiladu, fel y bu pechod y llo aur cyn hyny yn achos o oeddiad gwneuthuriad y babell yn yr anialwch.

Adn. 19. *Yna*] Ar ol caniatáu fy neisfyfiad gostyngedig i, neu ar ol i ti fy achub a'm cy-suro i, ac adfer dy ffaf i'th bobl a'r ddinas yma; *y byddi foddlon i ebyrth cyfiawnder*—y rhai a benodir gan y gyfraith, a'r rhai y bydd i mi a'm pobl eu hoffirym gyda chalonau edifeiriol a diolchgar i ti; *i boeth-offrwm ac aberth llosg*—y rhai oeddynt yn gysgod neillduol o aberth mawr ein Harglwydd bendigedig. Y 'poeth-offrwm,' meddai yr Iuddewon, oedd yr aberthau dyddiol; a'r 'aberth llosg' oedd bwyd-offryman yr offeiriad, y rhai a losgid oll, Lef. vi. 22, 23. *Yna yr offrymant justych ar dy allor*—yr aberthau penaf a drutaf, a'r rhai hyny mewn helaethrwydd, yn dystiolaeth o'u diolchgarwch am dy fawr ddaioni yn maddeu fy mbechodau i a'r eiddynt

SALM LII.

PAHAM yr ymfrosti mewn drygioni, O gadarn? y mae trugaredd Duw yn *parhau* yn wastadol.

2 Dy dafod a ddychymyg ysgelderer; fel ellyn llym, yn gwneuthur twyll.

3 Hoffaist ddrygioni yn fwy na daioni; a chelwydd yn fwy na thraethu cyfiawnder. Selah.

4 Hoffaist bob geiriau dystryw, O dafod twyllodrus.

5 Duw a'th ddystrywia dithau yn dragywydd: efe a'th gipia di ymaith, ac a'th dŷn allan o'th babell,

hwythau, ac yn attal oddiwrthym y llwydr helystr hwnw ag yr oedd genym achos i'w ofni.

SALM LII. Y teitl yw, 'I'r pencerdd, *Naschil, Salm Dafydd, pan ddaeth Doeg yr Eddiad a mynegu i Saul, a dywedyd wrtho, Daeth Dafydd i dŷ Ahimelech.*' Neu 'Salm hyfforddiadol o eiddo Dafydd, pan ddaeth Doeg,' &c.; gwel teitl Salm xxxii. Ceir haues yr orchwyliach hon yn 1 Sam. xxi. 1—7, a xxii. 8—23: gwel y sylwadau yno.

Adn. 1. *Paham yr ymfrosti mewn drygioni*] Y mae gwneuthur drygioni yn bechod mawr; ond y mae ymfrostio mewn drygioni ar ol ei wneuthur, yn bechod mwy. *O gadarn*—naill ai efe a gyfeiria at swydd Doeg, fel pen bugelliad Saul; neu ynte efe a'i geilw fel hyn mewn gwatwariath. *Y mae trugaredd Duw*—dan amddiffyniad pa un yr wyf fi yn aros, yn *parhau yn wastadol*—yn fy nghadw i rhagot ti a'th feistr yn barhaus. Fel hyn, tra yr oedd Doeg yn ymfrostio yn ei ddrygioni, yr oedd Dafydd yn ymfrostio yn nhugaredd Duw.

Adn. 2. *Dy dafod a ddychymyg ysgelderer*] Neu a draetha yr ysgelderer a ddychymygodd dy galon; *fel ellyn llym, yn gwneuthur twyll*—â'r hwn y byddo dyn, tra yn cymeryd arno eillio y farf, yn tori ymaith y pen befyd. Felly Doeg, tra yn profusu ei amddiffyn ei hun fel gwas ffyddlon i'r brenin, yr oedd yn bwriadu mewn gwirionedd ddyfetha holl offeiriad yr Arglwydd.

Adn. 3. *Hoffaist ddrygioni yn fwy na daioni*] Onidŷ gallest tithau nacâu lladd offeiriad yr Arglwydd, yr un modd ag y nacodd gweision ereill y brenin, 1 Sam. xxii. 17; a *chelwydd yn fwy na thraethu cyfiawnder*—nen wirionedd. Efe a gyfeiria ond odid at y celwydd a ddywedasai Doeg ar Ahimelech yr archoffeiriad, sef ddarford iddo ymgynghori â'r Arglwydd dros Dafydd yn erbyn Saul: gwel ar 1 Sam. xxii. 10, 15. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 4. *Hoffaist bob geiriau dystryw*] Sef geiriau a duddent i ddystrywio Dafydd a'r offeiriad; *O dafod twyllodrus*—yn traethu geiriau gwneithus a thêg ond odid wrth Ahi-

melech yn y babell, 1 Sam. xxi. 7, ond geiriau celwyddog am dano ef wrth Saul!

6 Y cyfiawn hefyd a welant, ac a ofnant, ac a chwarddant am ei ben.

7 Wele y gŵr ni osododd Dduw yn gadernid iddo; eithr ymddiriedodd yn luosogrwydd ei olud, ac a ymnerthodd yn ei ddrygioni.

8 Ond myfi sydd fel olewyydden werdd yn nhŷ Dduw: ymddiriedaf yn nhrugaredd Duw byth ac yn dragywydd.

9 Clodforaf di yn dragywydd, o herwydd i ti wneuthur *hyn*: a dysgwyliaf wrth dy enw; canys da yw gerbron dy saint.

melech yn y babell, 1 Sam. xxi. 7, ond geiriau celwyddog am dano ef wrth Saul!

Adn. 5. *Duw a'th ddystrywia dithau yn dragywydd*] Gorff ac enaid, am i ti ddystrywio oleiriad yr Arglwydd: *efe a'th gipia di ymaith*—yn ddisymwth megys â chorwnt; *ac a'th dŷn allan o'th babell*—o'th dŷ lle y preswyl; *ac a'th ddiureiddia o dir y rhai byw*—oddiar y ddaear, tydi a'th hiliogaeth, trwy farn, neu farwolaeth dreisidol.

Adn. 6. *Y cyfiawn hefyd a welant*] Dy lwyrr ddinystr di, ac felly a fyddant byw ar dy ol di, er gwaethaf dy holl falais i'w dyfetha; *ac a ofnant*—wneyd fel y gwnaethost ti, o barch i Dduw, neu gan ei arswyd ef. Ond yn lle 'ofnant,' y mae tri o ysgrifyfrau Kennicott a De Rossi, yn nghyda'r Syriaeg, yn darllen, 'ac a *lawenychant*,' sef yn dinystr cyfiawn y fath adyn drygionus. *Ac a chwarddant am ei ben*—nid yn gymaint o hytrydwech yn dinystr un o'u cyd-ddynion, ond oddiar yr ystyriaeth fod yn ogoniant i Dduw, ac yn lles i'w eglwys, i'r fath ddyw peryglus gael ei symud ymaith: gwel ar Dat. xix. 1, &c.

Adn. 7. *Wele y gŵr ni osododd Dduw yn gadernid iddo*] Ond a ymddiriedodd yn Saul yn twy nag yn Nuw, ac a ddewisodd brynu ffafr Saul ar draulanfoddlonrwydd y Goruchaf! *Eithr ymddiriedodd yn luosogrwydd ei olud*—yr hwn a gyrhaeddodd ef ond odid trwy anghyfiawnder a thrais, ac oddiwrth yr hwn y cipiwyd ef yn awr trwy farn gyfiawn Duw. Meddylir i Doeg gael arian lawer gan Saul am ladd yr offeiriad, a gall mai at hyn y cyfeirir yma. *Ac a ymnerthodd yn ei ddrygioni*—trwy ymgaledu i wneyd mwyfwy o ddrwg.

Adn. 8. *Ond myfi sydd fel olewyydden werdd*] Yn iraidd a bloddeuog, neu yn dwyn ffrwyth er gogoniant i Dduw a lles i ddyinion; a hyn y tra yr oedd Doeg, fel pren crin, wedi ei ddiureiddio oddiar y ddaear, adn. 5. *Yn nhŷ Dduw*—er ei fod am dymhor wedi gorffod ffoi o'i gartref, lle yr oedd y babell. *Ymddiriedaf yn nhrugaredd Duw*—y bydd iddo fy nwyn yn ol, ac y caf fod yn ffrwythlon a defnyddiol yn ei dŷ tra y byddaf byw, ac yn ddedwydd yn ei gymdeithas ar ol marw.

Adn. 9. *Clodforaf di yn dragywydd, o*

SALM LIII.

DYWEDODD yr ynfyd yn ei galon, Nid oes un Duw. Ymlygrasant, a gwnaethant ffaidd anwiredd: nid oes un yn gwneuthur daioni.

2 Edrychodd Duw i lawr o'r nef-oedd ar feibion dynion, i edrych a oedd *neb* yn ddeallus, *ac* yn ceisio Duw.

3 Ciliaasai pob un o honynt yn wysg ei gefn: cydymddifwynasant; nid oes a wnel ddaioni, nac oes un.

4 Oni wŷr gweithredwyr anwiredd? y rhai sydd yn bwyta fy mhobl, *fel* y bwytaent fara: ni alwasant ar Dduw.

5 Yno yr ofnasant *gan ofn*, *lle* nid oedd ofn: canys Duw a wasgarodd

herwydd i ti wneuthur hyn] Sef naill ai dyfetha Doeg, neu ynte sefydlu Dafydd ar yr oedd, ac yn ei dŷ, yr hyn yr oedd efe morsic o hono a phe buasai wedi ei wneuthur eisioes. *A dysgwyliaf wrth dy enw*—sef wrth Dduw ei hun yn ei dŷ; *canys da yw gerbron dy saint*—llawenba dy holl bobl wrth weled eu brenin yn ymgymysgu â hwynt felly i'th addoli yn dy gysegr.

SALM LIII. Y teitl yw, '*I'r pencerdd ar y Mahalath, Maschil, Salm Dafydd*;' neu '*Salm addysgiadol neu hyfforddiadol Dafydd*,' fel yr arwydda y gair *maschil* yma. Ystyr y gair *malath*, yn ol rhai, yw chwibanog, neu ryw offeryn cerdd cenol; ei ystyr yn ol ereill yw llywydd neu arweinydd: dywed ereill mai cydgôr neu gydgân a feddylir wrtho; tra y tybia ereill mai ei ystyr yw, 'Salm ar yr anhwylderâu'; hyny yw, yn ol Horsley, 'ar anhwylderâu moesol y byd.'

Adn. 1—4. *Dywedodd yr ynfyd yn ei galon, Nid oes un Duw, &c.*] Y mae cynwysiad y Salm hon wedi ei egluro yn fanwl yn y sylwadau ar Salm xiv, at y rhai y deisyfŷr i'r darlennydd droi. Meddylir mai y Salm hōno ydyw hon, wedi newid ychydig arni gan ryw broffwyd diweddarach, er mwyn ei chyfaddasu yn fwy pwrpasol at ryw amgylchiad arall.

Adn. 5. *Yno yr ofnasant gan ofn*] Gwel ar Salm xiv. 5: *lle* nid oedd ofn—neu achos digonol i ofni. *Canys Duw a wasgarodd esgyrn yr hwn a'th warchaeodd*—nen ei nerth a'i rym, fel nas gellir ei adferu. *Gwaradwyddaist hwynt, am i Dduw eu dirmygu hwy*—gwel y darlennydd fod y geiriau hyn yn chwaneigiad at yr hyn a geir yn Salm xiv. 5; a barna rhai eu bod yn cael eu cyfeirio yn erbyn y *Babiloniaid*, y rhai a anrheithiasant ac a ddytethasant Jerusalem, ac a oeddynt eu hunain yn awr yn cael eu hanrheithio a'u dyfetha yr un modd. Tybia ereill mai am fyddin Absalom y dywedir hyn; tra y tybia ereill

esgyrn yr hwn a'th warchaeodd: gwaradwyddaist *hwynt*, am i Dduw eu dirmygu hwy.

6 O na roddid iachawdwriaeth i Israel o Seion! pan ymchwelo Duw gaethiwd ei bobl, y llawenycha Jacob, *ac* yr ymhyfryda Israel.

SALM LIV.

ACHUB fi, O Dduw, yn ol dy enw; a barn fi yn dy gadernid.

2 Duw, clyw fy ngwedd; gwrando ymadrodd fy ngenau.

3 Canys dyeithriaid a gyfodasant i'm herbyn, a'r trawisiau a geisiant fy enaid: ni osodasant Dduw o'u blaen. Selah.

4 Wele, Duw, *sydd* yn fy nghynorthwyo: yr Arglwydd *sydd* yn mysg y rhai a gynaliant fy enaid.

mai at Seba a'i blaid y cyfeirir, 2 Sam. xx. 1, &c. Y mae adn. 6 o'r Salm xiv, 'Cynghor y tylawd a waradwyddasoch chwi, am fod yr Arglwydd yn obaith iddo,' yn cael ei chwaneigiad yma gan fwy nag ugain o ysgriflyfrau Kenicott a De Rossi.

Adn. 6. *O na roddid iachawdwriaeth i Israel o Seion*] Gwel ar Salm xiv. 7.

SALM LIV. Y teitl yw, '*I'r pencerdd ar Neginoth, Maschil, Salm Dafydd, pan ddaeth y Ziphiaid a dywedwyd wrth Saul, Onid ydyw Dafydd yn ymguddio gyda ni?*' Am *neginoth*, gwel deitl Salm iv; ac am *maschil*, gwel deitl Salm xxxii. Gwel hanes y Ziphiaid yn mynegu hyny i Saul, 1 Sam. xxiii. 19—29, a xxvi. 1.

Adn. 1. *Achub fi, O Dduw, yn dy enw*] Neu er mwyn dy enw a'th ogoniant dy hun: *a barn fi*—dadleua ac amddiffyn fy achos; *yn dy gadernid*—trwy dy ddirfawr nerth dy hun.

Adn. 2. *Duw, clyw fy ngwedd*] Hyny yw, gwrando ac ateb hi; *gwrando ymadrodd fy ngenau*—sef y geiriau a adroddwyd yn adn. 1.

Adn. 3. *Canys dyeithriaid a gyfodasant i'm herbyn*] Neu y *beilchion*, fel y mae Μυρμιρον yn ei ddarlenn; canys yr oedd y Ziphiaid o geneid a llwyth Dafydd; *a'r trawisiau a geisiant fy enaid*—neu ei fywyd ef, sef Saul a'i wŷr: *ni osodasant Dduw o'u blaen*—ni pharhent ei awdurdod ef, ac nid ofnent ei farnau. *Selah*—y mae hyny yn wir: gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 4. *Wele*] Er syndod i bawb; *Duw sydd yn fy nghynorthwyo*—trwy ddanfyn y Philistiaid i wlad Saul, yr hyn a barodd i'r brenin ddychwelyd o erlid ar ol Dafydd pryd yr oeddynt bron â'i ddal, 1 Sam. xxiii. 27, 28. *Yr Arglwydd sydd yn mysg y rhai a gynaliant fy enaid*—sef yn mysg y Philistiaid, trwy eu gwneuthur yn offerynau i gadw bywyd ei was.

5 Efe a dâl ddrwg i'm gelynion :
tor hwynt ymaith yn dy wirionedd.

6 Aberthaf i ti yn ewyllysgar :
clodforaf dy enw, O Arglwydd ;
cansys da yw.

7 Cansys efe a'm gwaredodd o bob
trallod ; a'm llygad a welodd ei
ewyllys ar fy ngelynion.

SALM LV.

GWRANDO fy ngweddi, O Dduw ;
ac nac ymguddia rhag fy neis-
yfiad.

2 Gwranddo arnaf, ac erglyw fi :
cwynfan yr ydwyf yn fy ngweddi,
a thuchan,

3 Gan lais y gelyn, gan orthrym-

Adn. 5. *Efe a dâl ddrwg i'm gelynion*] Sef y drwg hwnw a fwriadant hwy i mi : *tor hwynt ymaith yn dy wirionedd*—hyny yw, ti a'u tori hwynt ymaith oddiar y ddaear, yn ol dy gygythiad yn eu herbyn hwynt, a'th addeudw i minau : gwel ar Salm v. 10.

Adn. 6. *Aberthaf i ti yn ewyllysgar*] Am i ti wneuthur hyny, nid yn unig â llaw haelionus, ond â meddwl ewyllysgar ; neu aberthaf aberth moliant a diolch i ti : *clodforaf dy enw, O Arglwydd*—mewn caniaidau o fawl ; *cansys da yw*—da yw dy enw, yr hwn sydd ddysgriafad o'th natur ddaionus ; neu da yw dy gloydri felly, yr hyn sydd yn gymeradwy genyt ti, ac yn waith hoff gan y saint.

Adn. 7. *Cansys efe a'm gwaredodd o bob trallod*] Efe a sonia am ei wardigaeth fel wedi ei chyflawni eisioes, naill ai i fynegu y sicrwydd o honi, neu ynte am ei bod wedi ei chyflawni pryd yr ysgrifennodd efe y Salm hon. *A'm llygad a welodd ei ewyllys ar fy ngelynion*—sef eu henciliad ond oddid oddi-wrtho ef, i fyned yn erbyn y Philistiaid, adn. 4. Ond gan nad yw y geiriau *ei ewyllys* yn yr Hebraeg, gellir ei chyfieithu, 'A'm llygad a welodd fy ngelynion,' sef dim ond eu gwled. Daethant yn ddigon agos ato iddo allu eu gweled, ac yna gorfa iddynt ddychwelyd heb allu ei ddrwy, 1 Sam. xxiii. 26—28.

SALM LV. Y teitl yw, '*Yr pencerdd ar Neginoth, Maschil, Salm Dafydd.*' Gwel deitl Salm liw. Meddyllir i Dafydd gyfan-soddi y Salm hon yn amser gwrthryfel Absalom, am yr hyn y darllenwn yn 2 Sam. xv. 1, &c. Y mae y Tadau yn gyffredinol yn cymhwyso prif ranau y Salm hon at ddyoddef-iaidau ein Cyfryngwr, bradwriaeth Judas, a drygioni yr Iuddewon ; a gellir gwneuthur hyny yn ddiogel mewn ail ystyr.

Adn. 1. *Gwranddo fy ngweddi, O Dduw*] Yn fy nghyfyngder presenol ; ac nac ym-guiddia rhag fy neisyfiad—fel pe byddit am fy ngadael i ewyllys fy ngelynion.

Adn. 2. *Cwynfan yr ydwyf yn fy ngweddi*] Gan fawredd fy ing ; a thuchan—neu riddfan.

der yr annuwiol : o herwydd y maent yn bwrw anwiredd arnaf, ac yn fy nghasâu yn lliidiog.

4 Fy nghalon a ofidia o'm mewn :
ac ofn angau a syrthiodd arnaf.

5 Ofn ac arswyd a ddaeth arnaf,
a dychryn a'm gorchuddiodd.

6 A dywedais, O na bae i mi ad-
enydd fel colomen ! yna yr ehedwn
ymaith, ac y gorphwyswn.

7 Wele, crwydrwn yn mbell, ac
arhoswn yn yr anialwch. Selah.

8 Brysiwn i ddianc, rhag y gwynt
ystormus a'r dymhestl.

9 Dinystrïa, O Arglwydd, a gwa-
hân eu tafodau : cansys gwelais
drawsder a chynhen yn y ddinas.

'Yr wyf yn tywallt dagrau yn fy ngweddi, ac yn llefain yn uchel.'—GREEN.

Adn. 3. *Gan lais y gelyn*] Eu dadwrdd, eu henllib, a'u bygthion ; *gan orthrymder yr annuwiol*—sef Absalom ei fab, neu Abithophel ei gyngorwr ; neu ynte efe a gyfeiria at yr holl annuwiolion ag oeddynt yn bleidwyr iddynt. *O herwydd y maent yn bwrw anwiredd arnaf*—yn fy nghyluddo o droseddau erchyll na bwm erioed yn euog o honyt, a hyny i gyflawnhau eu gwrthryfel presenol yn fy erbyn ; *ac yn fy nghasâu yn lliidiog*—gan amscanu fy lladd.

Adn. 4. *Fy nghalon a ofidia o'm mewn*] A deimla boen megys gwerywr gwaig yn esgor, fel yr arwydda y wreiddiol ; *ac ofn angau a syrthiodd arnaf*—ofnai y lleddid ef a'i wŷr, yn nghyda thrigolion Jerusalem, 2 Sam. xv. 14.

Adn. 5. *Ofn ac arswyd a ddaeth arnaf*] Nes peri i'm calon a'm cnawd grynu ; a dychryn a'm gorchuddiodd—fel dyfroedd yn llifo drosol.

Adn. 6. *A dywedais*] Sef wrtho ei hun, yn yr arswyd a'r dychryn hwnw ; *O na bae i mi adenydd fel colomen*—yr hon sydd dra chyflwm ei symudiadau ; *yna yr ehedwn ymaith*—yn mbell i'r anialwch, adn. 7 ; *ac y gorphwyswn*—yn llonydd a diogel rhag brâd fy ngelynion.

Adn. 7. *Wele, crwydrwn yn mbell*] O'm gwlad fy hun, sef yn mbellach nag yr aethai efe eisioes ; *ac arhoswn yn yr anialwch*—lle y cawn fod yn ddiogel rhag cynddaredd fy ngelynion, y rhai sydd yn fwy mileinig yn fy erbyn na bwystfodol yr anialwch. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 8. *Brysiwn i ddianc*] Pe cawn adenydd felly ; *rhag y gwynt ystormus a'r dymhestl*—sef rhag lliid a chynddaredd Absalom a'i blaid. Hyn sydd yn gwneyd y nef yn ddy-munol i'r Cristion, ei bod yn orphwysfa dra-gyddol rydd oddiwrt holl ystornwydd a thymbestloedd y byd hwn.

Adn. 9. *Dinystrïa, O Arglwydd*] En bwr-iaidau hwy, y rhai a lefarant i'm herbyn, neu dyrysa hwy yn eu bwriadau ; a gwahân eu

10 Dydd a nos yr amgylchiant hi ar ei muriau: ac y mae anwiredd a blinder yn ei chanol hi.

11 Anwireddau sydd yn ei chanol hi; ac ni chilia twyll a dichell o'i heolydd hi.

12 Canys nid gelyn a'm difenwodd; yna y dyoddefaswn: nid fy nghas-ddyn a ymfawrygodd i'm herbyn; yna mi a ymguddiaswn rhagddo ef:

13 Eithr tydi, ddyn, fy nghyd-radd, fy fforddwr, a'm cydnabod,

14 Y rhai oedd felys genym gyd-gyfrinach, ac a rodiasom i dŷ Dduw yn nghyd.

15 Rhuthred marwolaeth arnynt, a disgyant i nffern yn fyw: canys drygioni sydd yn eu cartref, ac yn eu mysg.

16 Myfi a waeddaf ar Dduw; a'r Arglwydd a'm hachub i.

17 Hwyr a bore, a hanner dydd, y gweddiaf, a byddaf daer: ac efe a glyw fy lleferydd.

18 Efe a waredodd fy enaid mewn

tafodau—fel na ddeallont iaith eu gilydd mwy na'r rhai hyny yn Babel gynt; neu bydded i'w cynghorwyr anghytuno, neu roddi cynghorion croes i'w gilydd: *canys gwelais drawsder a chyphen yn y ddinos*—yn lle y cyf-iawnder a'r heddwch a sefydlwyd yno genyf fi.

Adn. 10. *Dydd a nos yr amgylchiant hi ar ei muriau*] Yr amgylcha gwŷr Absalom hi, i gyflawni pob trawsder a chyphen; neu dywedir hyn am y trawsder a'r gyphen ei hun: *ac y mae anwiredd a blinder yn ei chanol hi*—yn gystal ag ar y muriau o'i hamgylch, nes y mae pob rhan o'r ddinas wedi ymlygru.

Adn. 11. *Anwireddau sydd yn ei chanol hi*] Yn mhllith ei swyddwyr a'i barnwyr; *ac ni chilia twyll a dichell o'i heolydd hi*—neu o blith ei masnachwyr a'i chrefftwyr.

Adn. 12. *Canys nid gelyn a'm difenwodd*] Trwy ddywydd pob drygair am danaf ermwyn dweithrio meddylliau fy mhobl oddiwrthyf; *yna y dyoddefaswn*—gyda mwy o amynedd, am nas gallwn ddsygrwyi pethau gwel oddiwrth eim: *nid fy nghas-ddyn a ymfawrygodd i'm herbyn*—neu un yn fy nghasau yn gyhoeddus, fel y gwna'i Saul a'r Philistiaid; *yna mi a ymguddiaswn rhagddo ef*—fel y gwnaethem yn fynych rhag Saul ac areill; neu cuddiaswn fy nghynllunian a'm bwriadau oddiwrth gas-ddyn felly.

Adn. 13. *Eithr tydi, ddyn*] Tydi, Ahitophel dwyllodrus, yr hwn y cymerit arnat dy fod yn gyfaill gwirioneddol i mi, ac nid gelyn neu gas-ddyn; *fy nghydradd*—nid mewn swydd, ond mewn bri a dylanwad; *fy fforddwr*—neu brif-gyngorwr Dafydd yn y llywodraeth; *a'm cydnabod*—neu ei gyfaill myn-wesol ef.

Adn. 14. *Y rhai oedd felys genym gydgyfrinach*] Yn nhriniaeth achosion y deyrnas; *ac a rodiasom i dŷ Dduw yn nghyd*—i addoli yr Arglwydd yn ei gysegr. Arferem yn barhaus gydgyfeillachn a chydymgyngori mewn pethau gwladol ac eglwysig. Ond, fel y gwel-som o'r blaen, yr oedd Ahitophel yn mhob peth yn gysgod priodol o Judas fradwr: gwel ar Salm xli. 9.

Adn. 15. *Rhuthred marwolaeth arnynt*] Hyn sydd ragfynegiad yn hytrach na dymuniad, fel y sylwyd ar Salm v. 10; ac felly y rhuthrodd marwolaeth ar Absalom, Ahitophel, ac ngain mil o'u gwŷr, fel gofynwr yn attafaelu eiddo ei ddyledwr. *A disgyant i uffern*

yn fyw—yr un modd a Dathan ac Abiram, a'u pleidwyr, Num. xvi. 32. Meddylir fod yn nghoed Ephraim bydewau lawer, i'r rhai y syrthiodd gwŷr Absalom wrth ffoi rhag gwŷr Dafydd: gwel ar 2 Sam. xviii. 8. *Canys drygioni sydd yn eu cartref*—yn nhŷ pob un o honynt; *ac yn eu mysg*—pan gyfarfyddant â'u gilydd; neu 'o'u mewn,' yn eu calonau.

Adn. 16. *Myfi a waeddaf ar Dduw*] Am waredigaeth. Fel pe dywedasai, Os ydnt hwy yn ymddiried mewn drygioni a thrawsder, ymddiriedaf fi mewn gweddi, neu yn Nuw. *A'r Arglwydd a'm hachub i*—mewn atebiad i'm gweddi, yn ol ei addewid ei hun, Salm l. 15.

Adn. 17. *Hwyr a bore, a hanner dydd*] Yr oedd gweddio ar yr amserau hyn yn arferiad gan yr Iuddewon duwiol, Dan. vi. 10; ac yr oedd hanner dydd yn un o oriau gweddio Pedr, Act. x. 9. Dywed y rabbiniaid y dylai dynion weddio dair gwaith bob dydd, am fod y dydd yn newid dair gwaith; ac yr oedd hyny yn arferiad yn yr eglwys gyntefig. 'Y rhai a dybiant fod tri phyd o fwrdd bob dydd yn ddigon bach i'r corff,' ebai Henry, 'a ddylent feddwl yn fwy fod tair gweddi ddifrifol bob dydd yn ddigon bach i'r enaid; a chyfrif hyny yn bleser, nid yn boen. Fel y mae yn iawn i ni yn y bore ddechreu y dydd gyda Duw, ac yn yr hwyr ei orphen ef gyda Duw; felly y mae yn iawn i ni ganol dydd encilio am vch-ydig i ymddyddan ag ef. Na foed i ni flino ar weddio yn fynych, canys nid yw Duw yn blino gwranddo.' *Y gweddiaf, ac y byddaf daer*—Saes, 'ac y llefaf yn uchel,' yr hyn sydd yn arwydd o dacrineb. Y mae y gair *asicha*, a gyfeithir yma 'gweddiaf,' yn arwyddo hefyd 'myfriaif,' neu eurychaf am eiriau addas; canys dylai y gweddiwr 'gymryd geiriau gyda ef,' Hos. xiv. 2. *Ac efe a glyw fy lleferydd*—a etyb fy ngweddi, trwy gau-iatau i mi fy neisysiad.

Adn. 18. *Efe a waredodd fy enaid mewn heddwch oddiwrth y rhyfel oedd i'm herbyn*] Y mae rhai yn deall hyn am ei gadw ef mewn heddwch rsbyddol yn ei enaid, yn nghanol holl wrthryfel Absalom a'i blaid. Tybia ereill ei fod yn cyfeirio at waredigaethau blaenorol, fel rheswm i ymddiried yn Nuw yn awr; neu ynte ei fod yn cyfeirio at waredigaeth dyfodol fel wedi ei chyraedd eisioes, am ei fod yn sicr o'i chael. *Canys yr oedd llawer gyda*

heddwch oddiwrth y rhyfel oedd i'm herbyn: canys yr oedd llawer gyda mi.

19 Duw a glyw, ac a'u darostwng hwynt, yr hwn sydd yn aros erioed, Selah: am nad oes gyfnewidiau iddynt, am hyny nid ofnant Dduw.

20 Efe a estynnodd ei law yn erbyn y rhai oedd heddychlon ág ef: efe a dorodd ei gyfammod.

21 Llyfnach oedd ei enau nag ymenyn, a rhyfel yn ei galon: tynerach oedd ei ciriau nag olew, a hwynt yn gleddyfau noethion.

mi—yr oedd mwy o bleidwyr iddo yn mhllith ei ddeiliaid nag a dybiai ar y cyntaf; neu efe a ddywed hyn am fod Duw a'i angylion yn blaidd iddo, fel yn achos Eliseus a'i was, 2 Bren. vi. 16, 17.

Adn. 19. *Duw a glyw* [Fy ngweddi i, adn. 16, 17, neu ynte eu bygythion a'u traha hwy, adn. 3, &c.; ac a'u darostwng hwynt—fy ngelynyon presenol, fel na allant gyfodi mwyaeb. Yr hwn sydd yn aros erioed—yr hwn sydd dragwyddol, ac am hyny yn annglyfnewidiol a hollalluog; neu ynte, 'yr hwn sydd yn teyrnasu erioed,' neu yn 'preswyllo tra-gwyddoldeb,' fel y myn rhai ei gyfieithu. Selah—gwel ar Salm iii. 2. Am nad oes gyfnewidiau iddynt—dim aflwyddiant, siomedigaethau, na chroesau, ond pob peth yn myned yn mlaen yn wastad a dirwyr; am hyny nid ofnant Dduw—y mae eu rhwysg a'u llwyddiant digyfnwid yn peri iddynt anghofio Duw, neu feddlw y gallant ymdaraw hebdo ef; ac felly ni pharchant ef, ac ni ofsyant am gymhorth ganddo. Y rhai ni sfinir gan groesau a phroffedigaethau, ni feddant ond ychydig neu ddim crefydd; ac nid oes dim a wna galonau dynion yn galed a rhyfegns, yn fwy na llwyddiant parhaus a digyfnwid: gwel Salm xxx 6, Diar. i. 32, Preg. viii. 11, Jer. xxii. 21.

Adn. 20. *Efe a estynnodd ei law yn erbyn y rhai oedd heddychlon ág ef* [I'w niweidio yn fradychus. Ar ol son am ddrigioni a chosp Absalom a'i wŷr, y mae Dafydd yma yn dychwelyd at Ahitophel eilwaith, yr hwn ond odid oedd brif gynlluniwr y gwrthryfel. Efe a dorodd ei gyfammod—ei holl ymrwymiad—au a Dafydd fel ei feistr a'i frenin.

Adn. 21. *Llyfnach oedd ei enau nag ymenyn* [Llefarai Ahitophel yn ddeg a gwenieithus wrth Dafydd, fel pe buasai y cyffail ffyddlonaf iddo; a rhyfel yn ei galon—sef briad i godi gwrthryfel yn ei erbyn ef: tynerach oedd ei ciriau nag olew—fel ag y galleid casglu oddiwrth ei ddywediadau nad oedd neb mor fwyn, caruaid, a chyfeillgar ag ef ar y ddaear; a hwynt yn gleddyfau noethion—yn brathu i'r byw yn eu hamcanion a'u canlyniadau.

Adn. 22. *Bwrw dy faich ar yr Arglwydd* [Sef dy ofal a'th achos. Hyn a ddywed efe wrth ei enaid ei hun, yn ol ei arferiad yn

22 Bwrw dy faich ar yr Arglwydd, ac efe a'th gynal di: ni âd i'r cyfiawng ysgogi byth.

23 Tithau, Dduw, a'u disgyni hwynt i bydew dinystr: gwŷr gwaclyd a thwyllodrus ni byddant byw hanner eu dyddiau; ond myfi a obeithiaf ynot ti.

SALM LVI.

TRUGARHA wrthyf, O Dduw, canys dyn a'm llyncai: beunydd, gan ymladd, y'm gorthryma.

fynych yn y llyfr hwn; ac hefyd wrth bawb mewn amgylchiadau cyffelyb. *Ae efe a'th gynal di—*a'th faich hefyd; neu, fel y mao y LXX yn ei ddarlenn, 'ac efe ei hun a'th faetha di;' efe a 'gyflawnia dy holl raid di yn ol ei olud of mewn gogoniant,' Phil. iv. 19. *Ni âd i'r cyfiawng ysgogi byth*—tra y byddo yn gweithredu cyfiawnder. Y mae y cyfryw un mor ddiogel a phe byddai yn y nefoedd; canys 'pwy a'ch dryga chwi, os byddwch yn dilyn yr hyn sydd dda?' 1 Pedr iii. 13.

Adn. 23. *Tithau, Dduw, a'u disgyni hwynt* [Sef ei clynyon gwaclyd, am y rhai y soniasai efe uchod; i bydew dinystr—i ddinystr hollol ac anadferol, o ran eu cyrrf a'u heneidiau; neu, fel y mae y Galdeaeag yn ei ddarlenn, 'i Gehenna, y pydew diwaelod, o'r hwn ni ddeuant byth allan.' *Gwŷr gwaclyd a thwyllodrus*—y rhai a guddiant eu bwriadau gwaclyd dan fantell rhagrith a thwyll, fel y gwnai Absalom, Ahitophel, ac creill o elynion presenol Dafydd; ni byddant byw hanner eu dyddiau—cithr tori hwynt ymaith gan farn Duw, neu trwy farwolaeth gospital ac anamserol, yn fynych cyn iddynt gael byw hanner yr amser a benodwyd fel oes dyn, neu a allasant ei gyrnodd o ran iochyd a nerth; gwel ar Job vii. 1, a xiv. 5. *Ond myfi a obeithiaf ynot ti*—am waredigaeth rhag y gwŷr gwaclyd a thwyllodrus hyny, neu am gael byw hyd eithaf ei amser terfynedig: ac felly y cafodd, canys yr oedd efe yn 70 mlwydd oed pan y bu farw, 2 Sam. v. 4, 5.

SALM LVI. Y teitl yw, 'I'r penceirdd ar Jonath-elim-rehoccim, Michtam Dafydd, pan ddatiodd y Philistiaid ef yn Gath.' Am Dafydd yn Gath, gwel 1 Sam. xxi. 11—15. Ystyr y gair Michtam yw 'Salm enraidd:' gwel deitl Salm xvi. Tybia rhai mai enw rhyw dôn, neu offeryn cerdd, yw y rhan gyntaf o'r teitl uchod; a Bochart a'i halleiria, 'I dôn y golomen yn y coedydd pell;' neu, fel y mae gan Clarke, 'Yn nghylch y golomen fud mewn lleoedd dyeithr.' Yr oedd Dafydd wedi bod mor ddiinied a'r golomen yn nghanol holl erlidian Saul; ac yr oedd ef yn awr wedi ei yru fel colomen ofnus yn mhell oddicartref: ac efe a gyfansoddodd y Salm hon fel gweddi ar Dduw yn ei dralod.

Adn. 1. *Trugarha wrthyf, O Dduw* [Yn

2 Beunydd y'm llyncai fy ngelynion : canys llawer sydd yn rhyfela i'm herbyn, O Dduw Goruchaf.

3 Y dydd yr ofnwyf, mi a ymddiriedaf ynot ti.

4 Yn Nuw y clodforaf ei air, yn Nuw y gobeithiaf; nid ofnaf beth a wnel enawd i mi.

5 Beunydd y camgymerant fy ngeiriau : eu holl feddylliau sydd i'm herbyn er drwg.

6 Hwyl a ymgasglant, a lechant, ac a wyliant fy nghamrau, pan ddysgwylant am fy enaid.

7 A ddiangant hwyl trwy anwiredd? disgyn y bobloedd hyn, O Dduw, yn dy lidiogrwydd.

8 Ti a gyfrifaist fy symudiadau : dod fy nagrau yn dy gostrel : onid ydynt yn dy lyfr di?

9 Y dydd y llefwyf arnat, yna y dychwelir fy ngelynion yneu gwrthol : hyn a wn; am fod Duw gyda mi.

10 Yn Nuw y moliannaf ei air : yn yr Arglwydd y moliannaf ei air.

11 Yn Nuw yr ymddiriedais : nid ofnaf beth a wnel dyn i mi.

fy nghyflwr tralodus presenol. Y mae deisyfiad fel hwn yn cynnwys yr holl ddaioni ag y mae ar ddydd ei eisiau byth; ac y mae yn cynnwys hefyd y ddadl oraf, sef frugaredd rad Duw, nid ei haeddiant ei hun. *Canys dyn o'm llyncai*—fel pe byddai yn fwystil ysglyfaethus, yn hytrach na dyn. *Beunydd, gan ymladd, y'm gorthryma*—efe a gyfeiria ond oddi at Saul, neu at Achis brenin Gath; canys wedi iddo ffoi rhag dwylaw creulon Saul, efe a svrthiodd i ddwyllaw creulon y Philistiaid, 1 Sam. xxi. 10, &c.

Adn. 2. *Beunydd y'm llyncai fy ngelynion*] *Shoreri*, 'fy ngwylwyr,' y rhai a wyliant fy symudiadau yn fanwl i geisio fy nyfetha: *canys llawer sydd yn rhyfela i'm herbyn*—gartref ac oddiartref; *O Dduw Goruchaf*—trwy nad yw y gair 'Dduw' yn y wreiddiol, meddylir fod y gair *marom*, 'goruchaf,' yn arwyddo yma fel *uchel* yn unig. 'Llawer sydd yn rhyfela i'm herbyn a llaw uchel.'—MUDGE. 'Yn eu balchder.'—BOOTHROYD. 'O'r uchelfa, neu le o awdurdod, sef llys Saul.'—CLARKE.

Adn. 3. *Y dydd yr ofnwyf*] Pan fyddo genyf fwyaf o achos i ofni fy ngelynion; *mi a ymddiriedaf ynot ti*—yn dy drugaredd a'th ragluniaeth, am waredigaeth.

Adn. 4. *Yn Nuw y clodforaf ei air*] Sef trwy nerth neu gymorth Duw; neu clodforaf Dduw am ei air, sef am ei addewid werthfawr o noddod a gwaredigaeth i mi. *Yn Nuw y gobeithiaf*—canys er nad yw efe eto wedi cyflawni ei addewid i mi, yr wyf yn credu y gwna efe. *Nid ofnaf beth a wnel enawd i mi*—sef dynion brau a marwol, y rhai nas gallant dy wrthsefyll di: gwel ar adn. 11.

Adn. 5. *Beunydd y camgymerant fy ngeiriau*] Neu y gwyrdroant hwyl, gan roddi ystyr arall iddynt, i'r dyben i gyhyrfu Saul yn fwy yn fy erbyn: *eu holl feddylliau sydd i'm herbyn er drwg*—i geisio fy nyfetha.

Adn. 6. *Hwyl a ymgasglant*] I ryw un lle, i ymyngkori pa fodd y gallant fy nyfetha; *a lechant*—fel y gallont ymosod arnaf yn ddi-rybydd; *ac a wyliant fy nghamrau*—fel y gallont fy nyfetha dan yr esgus o gyfiawnder, heb beryglu diogelwch y llywodraeth; *pan ddysgwylant am fy enaid*—neu am fy mywyd i'm lladd.

Adn. 7. *A ddiangant hwyl trwy anwiredd?*

A fydd i'w dehurwydd mewn anwiredd beri iddynt ddianc yn ddigosp? *Disgyn y bobloedd hyn, O Dduw, yn dy lidiogrwydd*—sef Saul a'i bleidwyr, neu ynte y Philistiaid. Y geiriau hyn ydynt ragfynegiad proffwydol am danynt, yn hytrach na dymuniad neu weddi am iddynt gael eu dinystrio: gwel ar Salm v. 10.

Adn. 8. *Ti a gyfrifaist fy symudiadau*] Pa mor fynych y bu orfod i mi ffoi o'm gwlad rhag fy ngelynion, yr hyn a barodd i mi dywallt llawer o ddagrau. Cyfrifa yr Iuddewon ddeuddeg o leiaf o ffedigaethau felly. *Dod fy nagrau yn dy gostrel*—y mae yma gyfeiriad at arferiad yn mhllith rhai o'r hen gnehedloedd, megys y Groegiaid, y Rhufeiniaid, yr Hindwaid, &c., o roddi dagrau a dywelltidd yn achos marwolaeth unrhyw un, mewn costrel fechan, i'w hoffrymu ar fedd y marw, yn goffawriaeth o alar a thristwch ei berthynasau a'i gyfeillion ar ei ol, a'u serch ato. Boed i'm dagrau inau beri i ti fy nghofio yn serchog, a boed iddynt ddadlu o'th flaeu am ymwared i mi. *Onid ydynt yn dy lyfr di*—yn llyfr dy goffawriaeth? Fel pe dywedasai, Paham y gweddiat am yr hyn y gwn fod Duw o hono ei hun yn dueddol i'w wneuthur, ac a wnaed ganddo eisioes? Ond os gwerthfawr gan Dduw ddagrau ei saint, pa faint mwy eu gwaed hwyl, yr hwn a dywelltir gan eu gelynion?

Adn. 9. *Y dydd y llefwyf arnat*] Am dy gyfryngaeth ar fy rhan; *yna y dychwelir fy ngelynion yn eu gwrthol*—heb allu fy niweidio; o'r hyn y cawn brawf yn 1 Sam. xxiii. 26—28. *Hyn a wn, am fod Duw gyda mi*—yr hwn ni'm gad yn ysglyfaeth iddynt; neu, 'wrth hyu y gwn fod Duw gyda mi.'

Adn. 10. *Yn Nuw y moliannaf ei air*] Gwel ar adn. 4; *yn yr Arglwydd y moliannaf ei air*—dywed yr Iuddewon fod ΕΛΟΗΙΜ, yn nechre yr adnod hon, yn arwyddo Duw yn ei gyfiawnder; a bod YEHOWAH, yn ei diwedd hi, yn arwyddo Duw yn ei drugaredd.

Adn. 11. *Yn Nuw yr ymddiriedais*] Fel y dywedodd y gwna, adn. 3, 4: *nid ofnaf beth a wnel dyn i mi*—fe allai fod *dyn* yma yn arwyddo ei elynion cryfaf, neu benaethiaid y bobl; a bod *enawd*, yn adn. 4, yn arwyddo ei elynion distadlaf, neu y werin.

Adn. 12. *Arnaf fi, O Dduw, y mae dy addunedau*] Y rhai yr addunedais eu talu i ti,

12 Arnaf fi, O Dduw, *y mae* dy addunedau: talaf i ti foliant.

13 Canys gwaredaist fy enaid rhag angau: oni *waredi* fy nhraed rhag syrthio, fel y rhodiwyf gerbron Duw yn ngoleuni y rhai byw?

SALM LVII.

TRUGARHA wrthyf, O Dduw, trugarha wrthyf: canys ynot y gobeithiodd fy enaid; ië, yn nghysgod dy adenydd y gobeithiaf, hyd onid ÷l yr aflwydd *hwn* heibio.

os byddai i ti fy ngwaredu i: *talufi ti foliant*—megys yr addunedais. Ymddengys i Dafydd yn ei gyfyngder addunedu i Dduw, os gwaredai efe ei fywyd, y rhoddai yntau foliant cyboeddus iddo ef am hynny; ac yn awr y mae yn penderfynu talu ei addunedau.

Adn. 13. *Canys gwaredaist fy enaid rhag angau*] Neu ei fywyd rhag y tarwolaeth a fygythid arno gan Saul a'r Philistiaid. *Oni waredi fy nhraed rhag syrthio*—i faglau angenol fy ngelynyon o hyn allan? neu, fe allai, rhag syrthio oddiar lwybrau santeiddrwydd? *Fel y rhodiwyf gerbron Duw*—ar hyd llwybrau gwir grefydd er gogoniant i' th enw; *yn ngoleuni y rhai byw*—sef yn y bywyd hwn; neu ynte yn llewyrch grasol dy wyneb, yr hwn a fwyneir gan etifeddon bywyd ysbrydol a thragyfodol.

SALM LVII. Y teitl yw, '*Pr pincerdd, Al-taschith, Michtam Dafydd, pan ffödd rhag Saul i'r ogof*.' Gwel yr hanes yn I Sam. xxiv. Am *Michtam*, gwel deitl Salm lvi; ac ystyr *Al-taschith* yw, 'Na ddystryw-ia.' Y mae rhai yn deall hyn fel rhybydd Duw i Dafydd, i beidio lladd Saul yn yr ogof; ac ereill, fel rhybydd Dafydd i'w wŷr; ac ereill, fel gweddî Dafydd ar Dduw, na byddai iddo adael i'w elynion ei ddystrywio ef ei hun. Yn mha ystyr bynag y deallwn yr ymadrodd, yr oedd mor bwysig yn ngolwg Dafydd, fel, pan gyfansoddodd efe y Salm hon, y rhoddodd ef yn deitl iddi.

Adn. 1. *Trugarha wrthyf, O Dduw, trugarha wrthyf*] Efe a ailadrodda ei deisyfiad, gan faint ei berygl a'i daerineb; *canys ynot y gobeithiodd fy enaid*—yn mhob cyfyngder ag y bwm ynddo hyd yma: *ië, yn nghysgod dy adenydd y gobeithiaf*—y waith hon hefyd, fel y cysgoda cywion dan adenydd yr iâr; *hyd onid ÷l yr aflwydd hwn heibio*—sef gelyniaeth waedlyd Saul a'i wŷr.

Adn. 2. *Galwaf ar Dduw Goruchaf*] Yr hwn sydd yn anfeidrol uwch na'm holl elynion tymhorol ac ysbrydol; *ar Dduw a gwblha ÷ mi*—Hebr., 'ar y Duw cadarn,' yr hwn a all orphen ei waith ar fy rhan, neu gyflawni yr hyn oll a addawodd. Y mae Dafydd yn edrych ar Dduw fel y Bôd uwchaf, cadarnai, a ffyddlonaf o bawb, ac felly yn galw arno dan y cymeriadau hynny ag oeddynt yn fwyaf cyf-

2 Galwaf ar Dduw goruchaf; ar Dduw a gwblha ÷ mi.

3 Efe a enfyw o'r nefoedd, ac a'm gwared *oddiwrth* warthrudd yr hwn a'm llyncai. Selah. Denfyn Duw ei drugaredd a'i wirionedd.

4 Fy enaid *sydd* yn mysg llewod: gorwedd yr wyf *yn mysg* dynion poethion, *sef* meibion dynion, y rhai *y mae* eu dannedd yn waewffyn a saethau, a'u tafod yn gledddyf llym.

5 Ymddyrycha, Dduw, uwch y nefoedd; a *bydded* dy ogoniant ar yr holl ddaear.

addas i'w amgylchiadau ef, yr hyn sydd yn briodol iawn i bob gweddîwr.

Adn. 3. *Efe a enfyw o'r nefoedd, ac a'm gwared*] Efe a orchymyn o'r nefoedd i mi gael fy ngwared ar y ddaear; neu, yn niflyg offerynau daearol, efe a enfyw rai nefol. *Oddiwrth warthrudd yr hwn a'm llyncai*—oddiwrth y dinystr gwarthau ag y bwriadau Saul ei ddwyn arnaf; neu, fel y mae ar ymyl y ddalen, 'efe a warthrudda yr hwn a'm llyncai,' trwy siomi ei obeithion ef, a'm gwaredu inau rhag ei gynddaredd. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2. *Denfyn Duw ei drugaredd a'i wirionedd*—dyma y cenadau netol a fonfau Duw i'w waredu ef. Yr oedd *trugaredd* Duw yn ei dueddu ef i achub y truenus, yr hyn hefyd a *addawsai*; ac yr oedd ei *wirionedd* yn ei rwymo i gyflawni ei addeiwion i'w saint, yn gystal a'i fygythion i bechaduriaid.

Adn. 4. *Fy enaid sydd yn mysg llewod*] Neu ddynion mor greulon a llewod: *gorwedd yr wyf yn mysg dynion poethion*—Saes., 'rhai a daniwyd,' neu a wnaed yn filam gan uffern, Iago iii. 6. *Sef meibion dynion*—yma efe a eglura yr hyn a feddyliai wrth y 'llewod' uchod, sef bwystfodol ar lun dynion; yr oedd a'u geilw yn 'feibion dynion,' i arwyddo mas rhai anianol a halogedig oeddynt, fel y dywedir am 'ferched dynion' cyn y dyllif, Gen. vi. 2. *Y rhai y mae eu dannedd*—â'r rhai yr ysgyrngant arnaf, *yn waewffyn a saethau*—neu yn barod i'm trywanu a'm rhwygo fel yr arfau hynny; *a'u tafod*—â'r hwn y'm melliðthiant, neu y drygant fy nghymeriad, *yn gledddyf llym*—yn archolli fy nheimladau. Fel hyn y mae Dafydd yn cyfelybu ei elynion i'r creaduriaid mwyaf creulon, i'r elfen fwyaf dinystriol, ac i'r arfau mwyaf angenol. Ond y mae *Kennicott* ac ereill yn cyfieithu y dau cyntaf, 'Fy enaid a drig mewn lleoedd *crusboeth*,' &c.

Adn. 5. *Ymddyrycha, Dduw, uwch y nefoedd*] I'r graddau uwchaf yn bosibl. Gogonedda dy allu a' th ddaioni, dy gyfiawnder a' th ffyddlondeb, trwy fy ngwaredu i; pa briodoliaethau a warthruddir oll trwy i ti oddef i'r annuwiolion orthrymu a baeddu y cyfiawnon, y rhai sydd yn ymddiried ynot: *a bydded dy ogoniant ar yr holl ddaear*—dadlana dy ogoniant nid yn unig yn mysg dy bobl dy hun, ond hefyd yn mhllith holl genhedloedd y

6 Darparasant rwyd i'm traed; crymwyd fy enaid: cloddiasant bydew o'm blaen; syrthiasant yn ei ganol. Selah.

7 Parod yw fy nghalon, O Dduw, parod yw fy nghalon: canaf a chanmolaf.

8 Deffro, fy ngogoniant; deffro, nabl a thelyn: deffroaf yn fore.

9 Clodforaf di, Arglwydd, yn mysg y bobloedd: canmolaf di yn mysg y cenhedloedd.

10 Canys mawr yw dy drugaredd hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd y cymylau.

11 Ymddyrrha, Dduw, uwch y nefoedd; a bydded dy ogoniant ar yr holl ddaear.

ddaear. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at *adgyfodiad Crist*.

Adn. 6. *Darparasant rwyd i'm traed*] Rhyw ddyfais gyfrwys i'm maglu a'm dal; *crymwyd fy enaid*—gan flinder ysbodd, ac ofn rhag i Saul a'i wŷr ei ddytetha. *Cloddiasant bydew o'm blaen*—yn y ffordd y cerddwn; *syrthiasant yn ei ganol*—eu hunain, a diengais i: gwel ar Salm vii. 15, 16. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 7. *Parod yw fy nghalon, O Dduw*] I wneyd a dyoddef dy ewyllys; *parod yw fy nghalon*—i ganu dy fawl am fy ngwaredu, a chanmol dy weithredoedd. Ond myn rhai ei gyfieithu, 'Sefydlwyd fy nghalon,' mewn llawn hyder y bydd i ti estyn dy gynorthwy trugarog i mi.

Adn. 8. *Deffro, fy ngogoniant*] Sef ei enaid, neu ei dafod, i ganmol Duw, Salm xvi. 9, a xxx. 12; *deffro, nabl a thelyn*—fel y gallwyf ganu clodydd Duw nid yn unig a'm tafod, ond hefyd âg offer cerdd: *deffroaf yn fore*—i ganu mawr i'm Gwaredwr ar doriad y wawr.

Adn. 9. *Clodforaf di, Arglwydd, yn mysg y bobloedd*] Yn nghynulleidfaoedd Israel; *canmolaf di yn mysg y cenhedloedd*—yn mysg holl bobloedd ereill y byd: gwel ar Salm xvi. 49, a Rhuf. xv. 9.

Adn. 10. *Canys mawr yw dy drugaredd hyd y nefoedd*] Trwy yr hon y bwriedaist ac yr adewaist gadw y rhai a ymddiriedant yn ot; *a'th wirionedd hyd y cymylau*—sef y cyflawniad gwirioneddol o'th adnewidion: gwel ar Salm xxxvi. 5.

Adn. 11. *Ymddyrrha, Dduw, &c*] Gwel ar adn. 5. Y mae yr ailadroddiad o'r geiriau nryn yn dangos awyddfyrd gwresog enaid Dafydd am ogoniant Duw.

SALM LVIII. Y teitl yw, 'I'r pencerdd, *Al-taschith, Michtam Dafydd*.' Gwel deitl Salm lvii. Meddylir i Dafydd gyfansoddi y Salm hon ar yr achlysur o'r enllib, y sarhad, a'r gain-farn a gyhoeddodd yn ei erbyn of gan Saul a'i lyswyr.

Adn. 1. *Ai cyflawnder yn ddiau a draeth-*

SALM LVIII.

AI cyflawnder yn ddiau a draeth-wch chwi, O gynulleidfâ? a fernwch chwi uniondeb, O feibion dynion?

2 Anwiredd yn hytrach a weithredwch yn y galon: trawsder eich dwylaw yr ydych yn ei bwyso ar y ddaear.

3 O'r groth yr ymddeithrodd y rhai annuwiol: o'r bru y cyfeiliornasant, gan ddywedyd celwydd.

4 Eu gwenwyn sydd fel gwenwyn sarff: y maent fel y neidr fyddar yr hon a gau ei chlustiau;

5 Yr hon ni wreudy ar lais y

wch chwi?] A oes sail i'ch tystiolaethau a'ch cyhuddiadau yn fy erbyn i? *O gynulleidfâ*—sef henuriaid, barnwyr, a llyswyr Saul. *A fernwch chwi uniondeb*—yn fy achos i; *O feibion dynion?*—felly y geilw eife hwynt, i gofio iddynt nad oeddynt ddim ond dynion, a bod yn rhaid iddynt roddi cyfrif i Dduw am eu geiriau caledion a'u dedfryd annglyfiawn yn ei erbyn ef; canys i ryngu bodd Saul hwy a wŷrent farn, ac a gondemniant y diniwed, yn groes i dystiolaeth eu cydwybodau eu hunain.

Adn. 2. *Anwiredd yn hytrach a weithredwch yn y galon*] Yr ydych yn llunio ac yn dychymgu anwiredd yn fy erbyn i yn eich meddyliau, yn hytrach na chyflawnder. *Trawsder eich dwylaw yr ydych yn ei bwyso*—neu yn ei weinyddu. Y mae yma gyfeiriad at bwyso mewn clorianau, y rhai oeddynt yn arwyddion o weinyddiad cyflawnder: gwel ar Esay xxviii. 17. *Ar y ddaear*—neu yn ngwlad Canaan, lle yr oedd Duw yn bresenol, a lle yr oedd ganddynt gyfreithiau cyfiawn i'w llywodraethu, a lle yr oeddynt hwythau yn profesu ufyddhau i'r cyfreithiau hyn.

Adn. 3. *O'r groth yr ymddeithrodd y rhai annuwiol*] Oddiwrt Dduw a phob daioni; *o'r bru y cyfeiliornasant*—oddair lwybrau rhinwedd a santeiddrwydd; *gan ddywedyd celwydd*—cyn gynted ag y gallent lefaru. Dengys hyn fod yn mhob dyn duedd neu egwyddor i gilio oddiwrt bob daioni, ac i ymarfer â phob drygioni, o'i febyd, i'e o'r groth; ac nis gellir rhoddi rheswm am hyn ond ar gyfrif dirywiad ein natur trwy gyfranogiad o'r llygredd gwreiddiol, yn nglŷn â'r hwn y ganed ni oll: gwel ar Salm li. 5.

Adn. 4. *Eu gwenwyn*] Eu tueddfrdy drygionus, llygreddig, a niweidiol; *sydd fel gwenwyn sarff*—sydd naturiol a chynwryd ynddynt, neu sydd ddifaol ac adwythig. *Y maent fel y neidr fyddar, yr hon a gau ei chlustiau*—rhag gwrandao ar lais swynol y rhinwyr. Meddylir fod yma gyfeiriad at fath o nadroedd a lanwant eu clustiau â llwch, neu a roddant un glust yn y llwch a'u cynffon yâ

rhinwyr, er cyfarwydded fyddo y swynwr.

6 Dryllia, O Dduw, eu dannedd yn eu geneuau: tor, O Arglwydd, gilddannedd y llewod ieuainc.

7 Todder hwynt fel dyfroedd sydd yn rhedeg yn wastad: pan saetho eu saethau, byddant megys wedi eu tori.

8 Aed ymaith fel malwoden dawdd, neu erthyl gwraig; fel na welont yr haul.

9 Cyn i'ch crochanau glywed y mieri, efo a'u cymer hwynt ymaith

y llall, rhag cael eu swyno gan gerddoriaeth y rhinwyr; a gwnant hyny, nid am eu bod yn casáu clywed cerddoriaeth, ond fel nad effeithier arnynt i ddoei eu gelyniaeth farwol at ddyn. Yn gyffelyb i hyn yr ymddygai Saul a'i lyswyr tuag at Dafydd, y rhai ni fynent eu hennill oddiwrtu eu gelyniaeth yn ei erbyn ef. Y mae *Avicenne*, fel ei dyfynir gan *Bochart*, yn crybwyll am lawer o seirff ag sydd yn naturiol fyddar; eithr nid at un o'r rhai hyny, os ydynt i'w cael, y cyfeirir yma, ond at neidr yn 'cau ei chlustiau' rhag clywed.

Adn. 5. *Yr hon ni wendyr ar lais y rhinwyr*] Yr hon ni oddef iddi ei hun gael ei swyno oddiwrtu ei thuoddiaidau gwenwynig a pheryglus; er cyfarwydded fyddo y swynwr—er mor fedrus a pheraidd y cyflawna efo ei gerddoriaeth. Crybwyllir mewn rhanau ereill o'r ysgrythyr, a chan awduron hen a diweddar o bob gwlad, am swyno nadroedd, dywalgwn, a bwystfild ereill; ac y mae genym siamplau a phroffion eglur o ddylanwad y tabwrdd ac offer cerdd ereill ar rai o'r nadroedd mwyaf gwenwynig.

Adn. 6. *Dryllia, O Dduw, eu dannedd yn eu geneuau*] Cyfeirir yma ond oddid at ddannedd nadroedd a seirff, y rhai y mae eu gwenwyn, neu eu gallu i niweidio, yn eu dannedd. *Tor, O Arglwydd, gilddannedd y llewod ieuainc*—ar ol cyffelybu ei elynion i seirff a nadroedd, y mae Dafydd yn eu cyffelybu yma i lewod. Saul a'i lyswyr oedd yr hen lewod; a'i bleidwyr ieuangaf, y rhai oeddynt fwyaf heinfaf a flyrnig yn ei wasanaeth ef yn erbyn Dafydd, oedd y llewod ieuainc. Y meddwl yw, Au-ddifada hwy o'u gallu i'm niweidio i.

Adn. 7. *Todder hwynt fel dyfroedd sydd yn rhedeg yn wastad*] Heb fod byth yn alluog i droi yn ol yn fy erbyn i; neu *llyncwr* hwynt, fel y llyncir afonydd gan y tywed. *Pan saetho eu saethau*—tuag ataf fi; *byddant megys wedi eu tori*—bydded iddynt syrthio wrth draed y sachyddion, heb allu cyraedd en nôd.

Adn. 8. *Aed ymaith*] Diflaned Saul ymaith, yr hwn yw gelyn penaf Dafydd; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'boed i bob un o hon-ynt fyned ymaith;' *fel malwoden dawdd*—yr hen, wrth ymlusgo ar y ddaear, sydd yn gad-ael ei llysnafedd ar ol, ac fel pe byddai yn toddi neu yn diflanu ymaith; neu, 'todded

megys â chorwynt, yn fyw, ac yn ei ddigofaint.

10 Y cyflawn a lawenycha pan welo ddial: efo a ylch ei draed yn ngwaeo yr annawiol.

11 Fel y dywedo dyn, Diau fod ffrwyth i'r cyflawn: diau fod Duw a farna ar y ddaear.

SALM LIX.

FY Nuw, gwared fi oddiwrtu fy ngelynion: amddiffyn fi oddiwrtu y rhai a ymgyfodant i'm herbyn.

ymaith fel *cŵyr*,' fel y mae rhai yn ei ddarllen. *Neu erthyl guraiu*—yr hwn a fyddo marw yn y groth cyn gwelo golcuni yr haul: gwel ar Job iii. 16.

Adn. 9. *Cyn i'ch crochanau glywed y mieri*] Cyn twymno y dwfr yn eich crochanau gan flagliad y mieri: hyny yw, boed i'm gelynion inau ddiifanu ymaith yn sydyn, fel clindarddach drain dan grochan. *Efo a'u cymer hwynt ymaith megys â chorwynt*—o'r byd i'r bedd; *yn fyw, ac yn ei ddiogfaint*—yn nghanol eu bywyd a'u cryfder, neu pan yn meddwl fod iddynt hir amser eto i fyw. Amcan y Salmwydd yw dangos sydynrwydd ac echrystlonrwydd dinystr yr annuwiolion.

Adn. 10. *Y cyflawn a lawenycha pan welo ddial*] Efo a lawenycha nid yn ninystr yr annawiol, ond yn yr ystyriaeth o'i ddiogelwch ei hun, a'r fantasia a gai gwir grefydd trwy hyuny. *Efo a ylch ei draed yn ngwaeo yr annuwiol*—bydd i'r fath alanasdra gael ei wncuthur, a'r fath helaethrwydd o waed gael ei dywallt, fel y gallai y cyflawn elchi ei draed yn eu gwaeo hwy pe mynai.

Adn. 11. *Fel y dywedo dyn*] Yn yr olwg ar arbediad y duwiolion, a dinystr yr annuwiolion; *Diau fod ffrwyth i'r cyflawn*—oddiwrtu yr had santiaid a haaasaf efo; *diau fod Duw a farna ar y ddaear*—yr hwn ni âd i'r drygionus ddiane yn ddiogos, na'r daionus fod yn fyr o'i wobr. Cyflawnwyd hyn mewn rhan yn ninystr Saul ac erlidwyr ereill Dafydd, ac yn nyrchafad Dafydd i'r ersedd; ac yn y dydd diweddaf ceir gwelo yn amlwg 'ragor rhwng y cyflawn a'r drygionus; rhwng yr hwn a wasanaetho Dduw, a'r hwn nis gwasanaetho ef,' Mal. iii. 18.

SALM LIX. Y teitl yw, 'I'r pencerdd, *Altaschith, Michtam Dafydd; pan yrodd Saul rai i gadw y tŷ i'w ludd ef.*' Am eglurhad ar y rhan gyntaf o'r teitl, gwel yn nechre Salm lvii; a'r hanes at ba un y cyfeirir yn y rhan olaf a geir yn 1 Sam. xix. 11—18. Ond tybia Calmet, Clarke, ac ereill, mai yn amser Nehemiah y cyfansoddwyd hi, pan yr oedd efo yn ecisio aildeiladu muriau Jerusaleum; ac mai Nehemiah ei hun, neu Ezra, yw ei hawdwr hi.

Adn. 1. *Fy Nuw*] Sef ei Dduw cyfammodol; gwared fi oddiwrtu fy ngelynion—malcis-

2 Gwared fi oddiwrth weithredwyr anwiredd, ac achub fi rhag y gwyr gwaedlyd.

3 Canys wele, cynllwynasant yn erbyn fy enaid: ymgasglodd cedyrn i'm herbyn; nid ar fy mai na'm pechod i, O Arglwydd.

4 Rhedant, ymbarotoant, heb anwiredd *ynof ji*: deffro dithau i'm cymhorth, ac edrych.

5 A thi, Arglwydd Dduw y lluoedd, Duw Israel, deffro i ymweled â'r holl genhedloedd: na thrugarha wrth neb a wnant anwiredd yn falcisus. Selah.

6 Dychwelant gyda'r hwyr, cyfarthant fel cŵn, ac amgylchant y ddinas.

7 Wele, bytheiriant â'u genau:

us, cyfrwys, a chryfion; *amddiffyn fi oddiwrth y rhai a ymgysfodant i'm herbyn*—os Dafydd yw awdwr y Salm hon, cyfeirir yma at Saul a'i genadau, 1 Sam. xix. 11; ond os Nehemiah, fel y tybia rhai, cyfeirir ond odid at Sanbalat, Tobiah, a Gesem, Neh. ii. 10, 19.

Adn. 2. *Gwared fi oddiwrth weithredwyr anwiredd*] Y rhai a grybwyllwyd ar adn. 1; *ac achub ji rhag y gwyr gwaedlyd*—y rhai a sychedant am fy ngwaed.

Adn. 3. *Canys wele, cynllwynasant yn erbyn fy enaid*] Neu yn erbyn ei fywyd, fel yr arwydda y gair; *ymgasglodd cedyrn i'm herbyn*—y rhai nas gallaf fi eu gwrthsefyll yn fy nerth fy hun; *nid ar fy mai na'm pechod i*—heb i mi wneyd dim yn eu herbyn i haeddu hyny.

Adn. 4. *Rhedant*] O amgylch fy nhŷ, 1 Sam. xix. 11, &c.; *ymbarotoant*—i'm dyfetha; *heb anwiredd ynof ji*—i haeddu y fath driniaeth oddiar eu llaw. *Deffro dithau i'm cymhorth*—pysura i'm gwaredu oddiwrth eu brad hwy; *ac edrych*—â golwg o drugaredd ar fy nghyflwr, neu ar y perygl dirfawr ag yr wyf ynddo.

Adn. 5. *A thi, Arglwydd Dduw y lluoedd*] Yr hwn y mae dy awdurdod yn cyraedd dros bawb; *Duw Israel*—yr hwn wyt mewn cyfammod â'th wir bobl Israel, i'w bendithio a'u hachub; *deffro i ymweled â'r holl genhedloedd*—Saes., 'â'r holl baganiaid,' hyny yw, amlyga ar frys dy fod yn amddiffynydd i'th wasanaethwyr cywir, ac yn erbyn dy holl elynion, o ba geneled bynag y byddont. *Na thrugarha wrth neb a wnant anwiredd yn falcisus*—yn fwrriadol a diachos, fel y gwnai Saul a'i wŷr. Na ddangos iddynt ffafur, rhag i hyny beri iddynt ymgaledu mewn drygioni.

Adn. 6. *Dychwelant gyda'r hwyr*] Anfonasai Saul genadau unwaith i ladd Dafydd, y rhai a aethant yn ol i fynegu i Saul fod Dafydd yn glaf; ond dychwelasant yn yr hwyr i'w ddwyn ef at Saul yn ei wely, 1 Sam. xix. 15. *Cyfarthant fel cŵn*—a fyddent barod i gnoi i rhygo pawb o'u deutu. *Ac amgylch-*

ceddyfau *sydd* yn eu gwefusau: canys pwy (*meddant*) a glyw?

8 Ond tydi, O Arglwydd, a'u gwatwari hwynt; ac a chwerddi am ben yr holl genhedloedd.

9 O herwydd ei nerth ef, y dysgwyliaf wrthyt ti: canys Duw yw fy amddiffynfa.

10 Fy Nuw trugarog a'm rhagflaena: Duw a wna i mi weled fy ewylllys ar fy ngelynon.

11 Na ladd hwynt, rhag i'm pobl annghofio: gwasgar hwynt yn dy nerth, a darostwng hwynt, O Arglwydd ein tarian.

12 Am bechod eu genau, ac ymadrodd eu gwefusau, dalier hwynt yn eu balchder: ac am y felldith a'r celwydd a draethant.

ant y ddinas—i geisio cael hyd i Dafydd, ar ol methu ei ddal yn ei dŷ ei hun: gwel ar adn. 14.

Adn. 7. *Wele, bytheiriant â'u genau*] Fellydithion a rhegleydd; *ceddyfau sydd yn eu gwefusau*—sef y bygythion a'r cabledau mwyaf adwythig: *canys pwy (meddant) a glyw*—fel a'i'n galw i gyfrif?

Adn. 8. *Ond tydi, O Arglwydd, a'u gwatwari hwynt*] Trwy siomi eu bwriadau, a'u gwneyd yn ddirmygus yn ngolwg dynion; *ac a chwerddi am ben yr holl genhedloedd*—Saes., 'yr holl baganiaid.' Yr oedd Saul a'i wŷr, er yn Israeliaid yn ol y cnawd, eto mewn gwirionedd, o ran eu moesau a'u harferion, yn 'baganiaid' hollol.

Adn. 9. *O herwydd ei nerth ef*] Sef nerth Duw, fel y mae rhai yn ei ddeall; neu fawr grytder y gelyn, yr hwn oedd yn drech na Dafydd; *y dysgwyliaf wrthyt ti*—yr hwn yn unig a elli fy ngwaredu i, a gorslyfgy fy ngelyn: *canys Duw yw fy amddiffynfa*—rhag holl gryfder fy ngelynon.

Adn. 10. *Fy Nuw trugarog a'm rhagflaena*] A bendithion ei ddaion, a hyny yn brydlon. *Duw a wna i mi weled fy ewylllys ar fy ngelynon*—yn eu siomedigaeth a'u gwasgariad hwy; neu, fel y mae yn y wreiddiol, 'a wna i mi weled fy ngelynon,' dim ond eu gweled, heb gael fy niweidio ganddynt: gwel ar Salm liv. 7.

Adn. 11. *Na ladd hwynt*] Oll, neu ar unwaith; neu na chymer ymaith eu heinioes, adn. 13; *rhag i'm pobl annghofio*—eu perygl gynt, a'r anghurheidrwydd o ymddiried ynot rhagllaw. *Gwasgar hwynt yn dy nerth*—trwy yr holl wledydd; *a darostwng hwynt*—o'u hawdurdod presenol, a'u gallu i'm niweidio i. *O Arglwydd ein tarian*—neu amddiffynydd y rhai oll a ymddiriedant ynot. Y mae rhai yn deall y geiriau hyn fel gweddi Crist, yn ngenau y Salmwydd, yn achos yr Iudewon hyny a'i croeshoelient ef.

Adn. 12. *Am bechod eu genau, ac ymadrodd eu gwefusau*] Sef eu hanwireddau, eu

13 Difa hwynt yn dy lid, difa, fel na byddont: a gwybyddant mai Duw sydd yn llywodraethu yn Jacob, hyd eithafoedd y ddaear. Selah.

14 A dychwelant gyda'r hwyr, a chyfarthant fel cŵn, ac amgylchant y ddinas.

15 Crwydrant am fwyd; ac onis digonir, grwgnachant.

16 Minau a ganaf am dy nerth, i'e, llafar-ganaf am dy drugaredd

yn fore: canys buost yn amddiffynfa i mi, ac yn noddfa yn y dydd y bu cyfyngder arnaf.

17 I ti, fy nerth, y canaf: canys Duw yw fy amddiffynfa, a Duw fy nhrugaredd.

SALM LX.

O DDUW, bwriaist ni ymaith, gwasgeraist ni, a soraist: dychwel atom drachefn.

cabledau, a'u bygthion: *dalier hwynt yn eu balchder*—am eu balchder, neu yn nghanol eu hymddygiadau uchel a balch; *ac am y felldith a'r celwydd a draethant*—yn erbyn Duw a'i bobl.

Adn. 13. *Difa hwynt yn dy lid*] Nid yn ddisymwth, neu ar unwaith, eithr yn raddol, ac ar ol iddynt gael eu gwasgaru yn gyntaf; neu difa eu hawdurdod, adn. 11: *difa, fel na byddont*—yn genedl neu wladwriaeth uwych. Nid yw yn meddwl eu *lladd hwynt*, canys efe a weddiasai yn erbyn hyny, adn. 11; eithr difa eu gallu, eu hawdurdod, a'u llywodraeth fel brenin a phobl: *a gwybyddant*—oddiwrth y farn hon arnynt, *mai Duw sydd yn llywodraethu yn Jacob*—yn gystal ag yn mhlith holl bobloedd ereill y byd. Y meddwl yw, Eglorer iddynt hwy a phawb ereill, trwy y dadleniadau hyn o'th allu, a'th ddoethineb, a'th gyfiawnder, nad wyt ti yn gyffelyb i dduwiau meirwon y cenhedloedd: eithr dy fod, fel JEHOFA, yn Greadwr, Cynaliwr, Llywodraethwr, a Barnwr gornchaf yr holl ddaear. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 14. *A dychwelant gyda'r hwyr, &c.*] Hyn sydd ailarddodol o'r geiriau yn adn. 6, ond i'w deall yma mewn ystyr gwahanol. Yn adn. 6, y mae y geiriau yn achwyniad ar eu cynddaredd a'u diwydrwydd hwy yn erlid y Salmydd; ond yma efe a lefaru am danynt gyda math o ddiystyrwch a dirmyg, ac fel un heb deimlo eu hofa. 'Boed iddynt, os mynant, ddychwelyd gyda'r hwyr, cyfarth fel cŵn, ac amgylchu y ddinas i geisio fy nal i, yr hyn nis gallant.' Neu gellir ystyried y geiriau fel darluniad o'u *pechod* yn adn. 6, ac o'u *cosp* yn adn. 14, 15. 'Fel cŵn gwancus dychwelant gyda'r hwyr i grwydro am fwyd o amgylch y ddinas, ac udant yn rwnachlyd am nas gallant gael eu digoni.'

Adn. 15. *Crwydrant am fwyd*] Fel cŵn newynog; *ac onis digonir, grwgnachant*—neu udant fel cŵn siomedig yn methu cael dim i dori eu newyn: gwel ar adn. 14. Tybia rhai fod y geiriau hyn yn broffwydoliaeth am y newyn yn Jerusalem yn amser ei gwarchaeiad gan y Rhufeiniaid.

Adn. 16. *Minau a ganaf am dy nerth*] Yr hwn a roddi mewn gweithrediad o'm plaid i; *i'e, llafar-ganaf am dy drugaredd yn fore*—ar doriad y wawr, a hyny bob bore: *canys buost yn amddiffynfa i mi, ac yn noddfa*—rhag malais a chynddaredd fy erlidwyr; *yn y dydd y bu cyfyngder arnaf*—pan y ceisiodd Saul fy

nhywanu a'i waewffon, a'm dal yn fy nhŷ, 1 Sam. xix. 10, &c. Fel hyn, tra yr oedd gelynyion Dafydd yn grwgnach yn eu newyn, yr oedd yntau yn llafar-ganu yn nghanol ei lawnder a'i ddiogelwch.

Adn. 17. *I ti, fy nerth, y canaf*] Sef i Dduw, yn yr hwn y gobethiasai efe am nerth, a'r hwn a roisai nerth ac ymwared iddo: *canys Duw yw fy amddiffynfa*—yn mhob cyfyngder: *a Duw fy nhrugaredd*—o law yr hwn yr wyf yn derbyn trugaredd, am nas gallaf haeddu dim. Fel hyn, cyn y gall Duw fod yn *amddiffynfo* i ni, rhaid fod ganddo y ddwy briodoledd a enwir yma, sef *nerth a thrugaredd*. I'eb *nerth*, ni allai ein hamddiffyn; ac heb *drugaredd*, neu dosturi, ni wnai.

SALM LX. Y teitl yw, '*I'r pencerdd ar Susan-eduth, Michtam Dafydd, i ddyngu; pan ymladdodd yn erbyn Syriaid Mesopotamia, a Syriaid Sobah, pan ddychwelodd Joab, a lladd deuddng mil o'r Edomiaid yn nyffryn yr halen.*' Ystyr y gair *Susan-eduth*, yn ol rhai, yw offeryn cerdd chwe-tant, a pha un ond odid y cenid y Salm hon. *Michtam Dafydd* a arwydda 'Salaw *euraid* Dafydd,' fel y nodwyd yn nheitl Salm xvi. *I ddyngu*—neu er addysg a hyfforddiant i eglwys a phobl Dduw mewn materion pwsig. Am yr *ymlddfeudd* a'r Syriaid a grybwyllir yma, gwel ar 2 Sam. viii. Ymdeingys fod y fuddugoliaeth hon o eiddo Joab yn wahanol i fuddugoliaeth Abisai, yr hon a grybwyllir 2 Sam. viii. 13, 1 Cron. xviii. 12. Ar ol i Abisai ladd 18,000 o'r Edomiaid, fel y dywedir yno, syrthiodd Joab arnynt eilwaith; ac, fel y dywedir yn y teitl uchod, lladdodd o honynt 12,000 yn ychwaneg, ac wedi hyny dyfethodd hwynt yn llwyr, 1 Bren. xi. 15, 16. Am *nyffryn yr halen*, gwel ar 2 Sam. viii. 13. Ond tybia Clarke ac ereill nad oes un berthynas rhwng y teitl uchod a chynwysiad y Salm hon, am yr awgrym ynddi i Israel gael eu baeddu gan eu gelynyion, yn hytrach na'u gorchfygu hwynt. Addefir yn gyffredin mai mewn oesoedd diweddarach yr ysgrifenydd y teitlau hyn, a chan ysgrifenydd anysbrdydoledig: ac felly nid yw yn hynod os oedd yr ysgrifenywyr weithiau heb ddeall ar ba achlysur y cyfansoddwyd y Salm dan sylw.

Adn. 1. *O Dduw, bwriaist ni ymaith*] Oddiwrth dy bresenoldeb, dy flafar, a'th amddiffyniad; *gwasgeraist ni*—o flaen ein gelynyion; *a soraist*—o herwydd ein haml bechodau:

2 Gwnaethost i'r ddaear grynu, a holltaist hi: iachâ ei briwiau; canys y mae yn crynu.

3 Danghosaist i'th bobl galedi: diodaist ni â gwin madronod.

4 Rhoddaist faner i'r rhai a'th ofnant, i'w dyrchafu o herwydd y gwirionedd. Selah.

5 Fel y gwareded dy rai anwyl: achub â'th ddeheulaw, a gwrando fi.

6 Duw a lefarodd yn ei santeiddrwydd, Llawnychaf: rhanaf Sichein, a mesuraf ddyffryn Succoth.

7 Eiddof fi yw Gilead, ac eiddof

fi Manasse: Ephraim hefyd yw nerth fy mhen; Juda yw fy neddfwr.

8 Moab yw fy nghrochan golchi; dros Edom y bwriaf fy esgid: Philistia, ymorfoledda di o'm plegid i.

9 Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn? pwy a'm harwain hyd yn Edom?

10 Onid tydi, Dduw, yr hwn a'n bwriast ymaith? a thydi, O Dduw, yr hwn nid ait allan gyda'n lluoedd?

11 Moes i ni gynorthwy rhag cyfyngder: canys ofer yw ymwardd dyn.

dychwel atom drachefn—i breswylion yn ein mysg, i'n cysuro, a'n gwaredu.

Adn. 2. *Gwnaethost i'r ddaear grynu, a holltaist hi*] Ymadrodd barddonol, yn arwyddo terfysg a chyffro trwy yr holl wlad: *iachâ ei briwiau*—gwladol, y rhai a wnaed gan ryfel a therfysg yn mllith y bobl; *canys y mae yn crynu*—ac nid oes neb ond tydi a all ei sefydlu a'i meddygriaethu. Meddylir fod yma gyfeiriad at y brwydrau a gymerasant le rhwng tŷ Dafydd a thŷ Saul.

Adn. 3. *Danghosaist i'th bobl galedi*] Yn gosp am eu pechodau blaenorol: *diodaist ni â gwin madronod*—nes yr ydym, o dan deimlad o'n caledi, fel pe byddem wedi meddwi neu bendroni.

Adn. 4. *Rhoddaist faner i'r rhai a'th ofnant*] At ba un y gall dy holl bobl bellach gyrchu am ddiogelwch; *i'w dyrchafu*—fel canolbwynt undeb; *o herwydd y gwirionedd*—yn ol addewiad wionolled Duw o hyny. Megys y mae baner ddyrchafedig yn arwydd i'r holl filwyr gwsgaredd gyrchu ati, felly yr oedd Dafydd, pan yr aeth i'r orsedd, yn arwydd i holl lwythau Israel gyrchu ato yntau; ac yn hyn yr oedd efe yn gysgod o Grist, Esay xi. 12. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 5. *Fel y gwareded dy rai anwyl*] Sef dy bobl Israel, yn enwedig y 'rhai a'th ofnant,' adn. 4, o ddwyllaw eu gorthrymwyr. *Achub â'th ddeheulaw*—achub dy bobl trwy dy fawr allu, a'th ddoethineb, a'th ras; a *gwrando fi*—yn fy ngweddiâu ar eu rhan.

Adn. 6. *Duw a lefarodd yn ei santeiddrwydd*] Neu a 'dyngodd i'w santeiddrwydd,' Salm lxxxix. 35; *Llawnychaf*—yn y pethau canlynol ag yr wyf yn bwriadu en gwneyd i Dafydd. Ond y mae rhai yn deall hyn am Dafydd yn llawenychu; a'r ystyr felly yw, ei fod ef yn llawenychu yn yr olwg ar yr hyn ag yr oedd Duw yn myned i'w wneuthur orddo ef. *Rhanaf Sichein*—yr hon oedd yn Samaria, o du y gorllewin i'r Iorddonen, i fod yn etifeddiaeth i Dafydd; a *mesuraf ddyffryn Succoth*—o du y dwyrain i'r Iorddonen, i fod yn etifeddiaeth iddo hefyd. Yr oedd y manau hyn unwaith dan lywodraeth Isoboseth; ond tynghasai Duw y rhoddai efe hwynt i Dafydd.

Adn. 7. *Eiddo fi yw Gilead*] Yr holl wlad

o'r tu hwnt i'r Iorddonen, yr hon a feddiennid gan Reuben a Gad, a hanner llwyth Manasse; ac eiddof fi Manasse—sef yr banner arall o'r llwyth hwnw o du y gorllewin i'r Iorddonen. *Ephraim hefyd yw nerth fy mhen*—a fydd yn blaid i mi yn erbyn fy ngelynion, yr hwn oedd yn llwyth dewr a lloosog iawn. Yr oedd yr holl rai hyn unwaith dan lywodraeth Isoboseth, cydymgeisydd Dafydd; ond daethant o'r diwedd yn rhan o frenhiniaeth Dafydd. *Juda yw fy neddfwr*—yn y llwyth hwn yr arhosodd yr awurdod llywodraethol o ddechre brehiniaeth Dafydd hyd ddyfodiad y Messia: gwel ar Gen. xlix. 10.

Adn. 8. *Moab yw fy nghrochan golchi*] Darostyngaf y Moabiaid i'r gaethwasanaeth iselaf; *dros Edom y bwriaf fy esgid*—ymadrodd diarebol, yn arwyddo y byddai yr Edomiaid yn gaethweision iddo, a'u gwlad dan ei awurdod ef; neu, y byddai iddo gerdded dros dir Edom i gymeryd meddiant o hono. *Philistia, ymorfoledda di o'm plegid i*—neu 'arnaf fi,' os gelli, neu os beiddi. Hon sydd wawdiaith gref, yn arwyddo fod eu hymorfoleddiad arno ef wedi darford bellach.

Adn. 9. *Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn?*] Tybia rhai mai Rabbah, dinas frenhinol meibion Ammon, a feddylir; a thybia ereill mai Bozrah yn Edom a olygir, gan yr enwir Edom yn y frawddeg nesaf; ond dichon ei fod yn golygu dinas gadarn, neu eisteddell nerth, pob un o'r gwledydd uchod, gan roddi yr unigol am y lloosog. *Pwy a'm harwain hyd yn Edom?*—yr hon oedd yn wlad fynyddig a chreigiog, a thra anhawdd ei hennill. Nid oedd Dafydd eto wedi darostwng y gwledydd hyn; a gwyddai nad oedd neb ond Duw a allai ei gynorthwyo ef i wneuthur hyny.

Adn. 10. *Onid tydi, Dduw, yr hwn a'n bwriast ymaith*] Am ein pechodau? adn. 1; a thydi, O Dduw, yr hwn nid ait allan gyda'n lluoedd—yn yr amser gynt? Os nad arweinid di ni, nid oes neb arall a all wneuthur hyny. Y mae Dafydd yma yn adgofio iddo ei hun a'i bobl eu hadfyd blaenorol, fel y byddai iddynt ofni digio Duw, a bod yn fwy diolchgar iddo am drugareddau a gwaredig-acthau dyfodol.

Adn. 11. *Moes i ni gynorthwy rhag cyf-*

12 Yn Nuw y gwnawn wroldeb : canys efe a sathr ein gelynion.

SALM LXI.

CLYW, O Dduw, fy llefain ; gwr-andaw ar fy ngweddi.

2 O eithaf y ddaear y llefaf atat, pan lesmeirio fy nghalon : arwain fi i graig a fyddo uwch na mi.

3 Canys buost yn noddfa i mi, ac yn dŵr cadarn rhag y gelyn.

4 Preswyliaf yn dy babell byth : a'm hymddiried fydd dan orchudd dy adenydd. Selah.

5 Canys ti, Dduw, a glywaist fy

yngher] Rhag y drygau a fygythir arnom gan ein gelynion oddiamgylch ; canys ofer yw ymwared dyn—pa mor ewyllysgar bynag y byddo, heb i tithau hefyd ein cynorthwyo.

Adn. 12. *Yn Nuw*] Yn neu trwy ei nerth ef ; y gwnawn wroldeb—ar faes y gwaed : canys efe a sathr ein gelynion—dan ein traed ni, pa mor gadarn a lluosog bynag y byddont.

SALM LXI. Y teitl yw, '*I'r pencerdd ar Neginoth, Salm Dafydd.*' Neu Salm o eiddo Dafydd i'w chanu ar oferyn cerdd a elwid *Neginoth* : gwel deitl Salm iv. [Meddyliir iddo ei chyfansoddi ar ol bod mewn rhyw berygl mawr, ond oddid oddiwrth ei fab Absalom. Ond tybia Clarke ddarfod ei chyfansoddi gan ryw un tua diwedd y caethiwd Babilonaidd.

Adn. 1. *Chyw, O Dduw, fy llefain*] Yn fynhralod presenol ; *qwrandaw ar fy ngweddi*—am waredigaeth o hono. Ymddengys nad yw y weddi hōno ar lawr yma, er iddo ef yn ddi aman ei gwneuthur at Dduw.

Adn. 2. *O eithaf y ddaear y llefaf atat*] Sef o Mahanaim ond odid, y tuhwt i'r loddonen, lle y gyresid Dafydd yn amser gwrthryfel Absalom, 2 Sam. xvii. 24 ; *pan lesmeirio fy nghalon*—yn nyfnder fy nhrallod a'm hofnau : *arwain fi i graig a fyddo uwch na mi*—lle nas gallo fy ngelynion nesŵa ataf i'm drygu.

Adn. 3. *Canys buost yn noddfa i mi*] Rlag fy ngelynion yn yr amser a aeth heibio ; *ac yn dŵr cadarn*—ac yr oedd yr adgof o hyn yn gwroli meddwl Dafydd i ymddiried yn Nuw rhagllaw.

Adn. 4. *Preswyliaf yn dy babell byth*] Er fod Dafydd yn awr yn mhell oddiwrth y babell, eto yr oedd yn credu y cai ef ddychwelyd iddi ar ol hyn, a phreswylio ynddi holl ddyddiau ei fywyd ar y ddaear, ac yn y nefoedd ar ol marw : *a'm hymddiried fydd dan orchudd dy adenydd*—caf fod yn ddiogel dan dy amddiffyniad di, fel y cwision dan adenydd yr iâr. Selah—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 5. *Canys ti, Dduw, a glywaist fy addunedau*] I fyw yn gwbl er gogoniant i' th enw, y rhai a wnaethym ger dy fron yn fy nhrallod : *rhoddaist etifeddiaeth i'r rhai a*

addunedau : rhoddaist etifeddiaeth i'r rhai a ofnant dy enw.

6 Ti a estyni oes y brenin ; ei flynyddoedd fyddant fel cenedlaethau lawer.

7 Efe a erys byth gerbron Duw : darpar drugaredd a gwirionedd, fel y cadwont ef.

8 Felly y canmolaf dy enw yn dragywydd, fel y talwyf fy addunedau beunydd.

SALM LXII.

WRTH Dduw yn unig y dysgwyl fy enaid : o hono ef y daw fy iachawdwriaeth.

ofnant dy enw—sef etifeddiaeth ysbrydol, neu ran yn Nuw ; canys y mae llawer o annuwiolion yn meddu etifeddiaeth ddaearol.

Adn. 6. *Ti a estyni oes y brenin*] Er i fy ngelynion geisio fy lladd ; *ei flynyddoedd fyddant fel cenedlaethau lawer*—trwy i'w had yn olynol ddyfod i'r orsedd ar ei ol, 2 Sam. vii. 12, 16. Ond y dwb gyffiedin yw, fod hyn yn cyfeirio at Grist, Brenin ei eglwys, i'r hwn y 'rhvdd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd : ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob vn dragywydd, ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd,' Luc i. 32, 33.

Adn. 7. *Efe a erys byth gerbron Duw*] Yn frenin dano ef ar ei bobl, efe a'i olynwyr : *darpar drugaredd a gwirionedd*—cynysgaetha ef â thrugaredd a gwirionedd, neu â 'thosturi a ffyddlondeb,' y rhai yw atgeigion mawrion gorseddau daearol ; *fel y cadwont ef*—ar yr orsedd holl ddyddiau ei einioes. Neu, 'boed i drugaredd a gwirionedd Duw ei gadw ef.'

Adn. 8. *Felly y canmolaf dy enw yn dragywydd*] Am dy drugaredd a' th wirionedd tuag ataf ; *fel y talwyf fy addunedau beunydd*—fel y rhoddwyf i ti y wasanaeth a'r anrhydedd a addunedais yn fy nhrallod, adn. 5.

SALM LXII. Y teitl yw, '*I'r pencerdd, i Jeduthun, Salm Dafydd.*' Yr oedd *Jeduthun* yn un o'r pen-cerddorion yn amser Dafydd, y rhai, yn nghyda'n teuluoedd, a ddygent yn mlaen gerddoriaeth y cysegr : gwel 1 Cron. xvi. 42, a xxv. 1, &c. Meddyliir i Dafydd gyfansoddi y Salm hon yn amser gwrthryfel Absalom, a'i rhoddi i ddosbarth *Jeduthun* i'w chanu.

Adn. 1. *Wrth Dduw yn unig y dysgwyl fy enaid*] Am waredigaeth dymhorol ac vs brydol ; neu, fel y gellir cyfieithu y wreiddiol, 'y dystwya fy enaid,' am fod ganddo ef hawl i osod arnaf yr hyn a fyno : ac y mae yr hyn a esyd efe arnaf yn llawer llai na'm haeddiant, ac am hyn yr wyf yn *fud* gerbron Duw. *O hono ef y daw fy iachawdwriaeth*—nid oes genyf un gobaith am waredigaeth ond oddiwrth ef yn unig.

Adn. 2. *Efe yn unig yw fy nghraig*] I lochesu ynddi ; *a'm iachawdwriaeth*—yn

2 Efe yn unig *yw* fy nghraig, a'm hiachawdwriaeth, a'm hamddiffyn; ni'm mawr ysgogir.

3 Pa hyd y bwriedwch aflwydd yn erbyn gwŷr? lleddir chwi oll; a *byddwch* fel magwyr ogwyddedig, neu bared ar ei ogwydd.

4 Ymgynghorasant yn unig i'w fwrw ef i lawr o'i fawredd; hoffasant gelwydd: â'u geneuau y bendithiant, ond o'u mewn y melldithiant. Selah.

5 O fy enaid, dysgwyl wrth Dduw yn unig: canys ynddo ef *y mae* fy ngobaith.

6 Efe yn unig *yw* fy nghraig, a'm hiachawdwriaeth; *efe yw* fy amddiffynfa: ni'm hysgogir.

dymhorol ac ysbrydol; a'm hamddiffyn—rhag picellan fy holl elynion: ni'm mawr ysgogir—er y gallaf gael fy ysgwyd, eto ni'm bwriwr i lawr; neu ni'm hamddifadwr o'r goron na'r frenhiniaeth.

Adn. 3. *Pa hyd y bwriedwch aflwydd yn erbyn gwŷr?* [Sef yn erbyn Dafydd ei hun, yr hwn oedd yn *ddyn* fel hwythau, ac am hyny dylasai dynoliaeth gyffredin eu tueddu hwy i dosturio wrtho. *Lleddir chwi oll*—bydd i'r drwg a fwriedwch yn fy erbyn i syrthio ar eich penau eich hunain. *A byddwch fel magwyr ogwyddedig*—neu fur ar syrthio; *neu bared ar ei ogwydd*—y meddwl yw, y byddai yn hawdd eu dryllio, neu eu tafu i lawr, fel mur neu bared gogwyddedig.

Adn. 4. *Ymgynghorasant yn unig i'w fwrw ef i lawr o'i fawredd*] I dynu Dafydd oddiar ei orsedd: *hoffasant gelwydd*—neu ddywedwyd pob drygair am Dafydd, a hyny i dduo ei gymeriad ef, ac i'w cyfiawnhau eu hunain wrth geisio ei ddiorseddu. *A'u geneuau y bendithiant, &c.*—cyfeirir yma ond odid at *weniaith* Absalom a'i gynghorwyr gynt yn ei wyneb ef, tra yr oeddnt yn ei feldithio yn eu calonau; neu at y *rhiith* o barch a danglhosid i Dafydd ar y cyntaf gan rai o gyfeillion Absalom yn Jerusalem. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 5. *O fy enaid, dysgwyl wrth Dduw yn unig*] Ac nid wrth ddyn twyllodrus neu gyfnewidiol; *canys ynddo ef y mae* fy ngobaith—am waredigaeth o'm tralloed presenol: gwel ar adn. 1.

Adn. 6. *Efe yn unig yw fy nghraig, &c.*] Gwel ar adn. 2: *ni'm hysgogir*—yma gwelwn fod ffydd Dafydd wedi crythau er pan ddechreuodd lefaru. Dywedasai yn adn. 2, 'Ni'm mawr ysgogir;' eithr dywed yma, 'Ni'm hysgogir,' sef yn y gradd lleiaf.

Adn. 7. *Yn Nuw y mae fy iachawdwriaeth*] Yr hwn a gymerodd arno ei hun fy achub; *a'm gogoniant*—efe a biai ddiogelu fy aurhydedd i a'm brenhiniaeth: *craig fy nghadernid, a'm noddfa, sydd yn Nuw*—efe

7 Yn Nuw *y mae* fy iachawdwriaeth a'm gogoniant: craig fy nghadernid, a'm noddfa *sydd* yn Nuw.

8 Gobeithiwch ynddo ef bob amser: O bobl, tywelltwch eich calon ger ei fron ef: Duw *sydd* noddfa i ni. Selah.

9 Gwagedd yn ddiaw *yw* meibion dynion, geudab *yw* meibion gwŷr: i'w gosod yn y clorian, *ysgafnach ydynt* hwy i gyd na gwegi.

10 Nac ymddriedwch mewn trawsder, ac mewn trais na fyddwch ofer: os cynyddda golud, na roddwch eich calon arno.

11 Unwaith y dywedodd Duw, clywais hyny ddwywaith; mai eiddo Duw *yw* cadernid.

yw fy nghadarn graig a'm noddfa yn mhob perygl.

Adn. 8. *Gobeithiwch ynddo ef bob amser*] Yma y mae Dafydd yn troi i gynghori yr holl dduwiolion i obeithio yn Nuw fel y gwnai yntau. *O bobl, tywelltwch eich calon ger ei fron ef*—dadlenwch o'i flaen ef eich holl ofalon, a'ch gofidiau, a'ch eisiau, a hyny yn fynych, a chan gredu y gwrendy efe arnoch. *Duw sydd noddfa i ni*—nid yn unig i mi, adn. 7, ond i bawb o honoch chwithau a ffy am noddfa ato ef.

Adn. 9. *Gwagedd yn ddiaw yw meibion dynion*] Saes., 'yw dynion o isel radd,' neu y werin: *geudab yw meibion gwŷr*—Saes., 'celwydd yw dynion o uchel radd,' neu y cyfoethogion. Y rhai cyntaf nis gallant ein cynorthwyo a'n noddi; a'r rhai diweddaff, yn fynych, nis gwant, er iddynt addaw. Dywedir hyn fel rheswm i'n cymbell i ddysgwyl wrth Dduw yn unig, am nas gall dynion, o ba radd bynag y byddont, roddi i ni y pethau ag y mae arnom eu heisiau. *I'w gosod yn y clorian*—neu o'u cydmharu â Duw; *ysgafnach ydynt hwy i gyd*—y ddau gyda'u gilydd, neu bawb yn nghyd; *na gwegi*—neu ddim.

Adn. 10. *Nac ymddriedwch mewn trawsder*] Mwy nag mewn dynion gwag; *ac mewn trais na fyddwch ofer*—fe allai fod yn y ddwy frawddeg uchod gyfeiriad at yr yspail ag y bwriadent ei chymeryd o dŷ Dafydd yn Jerusalem, neu a oeddnt wedi ei chymeryd eisioes. *Os cynyddda golud*—trwy drais, neu mewn rhyw ffordd onest; *na roddwch eich calon arno*—nac ymddriedwch ynddo, fel ag i anghofio Duw.

Adn. 11. *Unwaith y dywedodd Duw*] Sef yn rhoddad ei air dwyfol i ddyn, neu ei gyfraith ar fynydd Sinai; *clywais hyny ddwywaith*—neu yn fynych, sef yn narllenid yr ysgrythyrau. Ond y mae rhai yn cyfeithu y frawddeg olaf fel yma: 'Clywais y ddau beth hyn,' sef, (1) *Mai eiddo Duw yw cadernid*—hyny yw, mai oddiwrtho ef y mae pob nerth a chadernid yn deilliaw. (2) *Mai eiddo Duw*

12 Trugaredd hefyd sydd eiddot ti, O Arglwydd: canys ti a deli i bob dyn yn ol ei weithred.

SALM LXIII.

TI, O Dduw, *yw* fy Nuw i; yn fore y'th geisiaf: sychedodd fy enaid am danat, hiraethodd fy nghnawd am danat, mewn tir cras a sychedig heb ddwfr;

2 I weled dy nerth a'th ogoniant, fel y'th welais yn y cysegr.

3 Canys gwell *yw* dy drugaredd di na'r bywyd: fy ngwefusau a'th foliannant.

4 Fel hyn y'th glodforaf yn fy mywyd: dyrchafaf fy nwyllaw yn dy enw.

5 Megys *â mër* ac *â brasder* y digonir fy enaid; a'm genau a'th fawl â gwefusau llafar:

6 Pan y'th gofiwyf ar fy ngwely, myfyriaf am danat yn ngwyliadwriaethau y nos.

7 Canys buost gynorthwy i mi;

yw trugaredd hefyd: gwel ar adn. 12.

Adn. 12. *Trugaredd hefyd sydd eiddot ti* | Ty yw Ffynnonell fawr *trugaredd*, o ba un y dylifa pob daioni, cariad, a thosturi ag sydd mewn bod. *Canys ti a deli i bob dyn yn ol ei weithred*—yr hyn sydd yn brawf fod y ddwy briodoledd yna, *canernid a thrugaredd*, yn perthyn i Dduw. Am ei fod yn *godarn*, gall gopri drwgweithredwyr; am ei fod yn *dru-garog*, gall wobrwyo gweithredwyr da.

SALM LXIII. Y teitl yw, '*Salm Dafydd, pan oedd efe yn niffaethwch Juda.*' Ymddengys ddaroddi i Dafydd ei hysgrifenu ar ol dyfod i goed Hareth, yn anialwch Ziph, wedi iddo, yn ei ffrödiggaeth rhag Saul, ddianc olys Achis: gwel ar I Sam. xxii. 5, &c.

Adn. 1. *Ti, O Dduw, yw fy Nuw i* | Fy eiddo a'm rhan gyfiawn i trwy gyfammod. Y neb a all gyfarch Duw yn wirioneddol fel hyn, ni raid iddo ofni unrhyw elyn. *Yn fore y'th geisiaf*—mewn gweddi daer. Yr hyn a ymaffo gyntaf yn y galon yn y bore, sydd debycaf o ddal ei afael ynddi trwy y dydd. Yr agraffiadau cyntaf yw y rhai mwyaf parhau, am nad oes y pryd hyn yfeddyldrychau ereill i'w gyru hwynt allan, neu i'w hattal rhag glynu yn ddwys yn y teimlad moesol. *Sychedodd fy enaid am danat*—fel y sycheda ac y brefa yr bydd am yr afonydd dyfroedd; *hiraethodd fy nghnawd am danat*—nen efe a 'guriodd ymaith' gan faint fy awydd am dy gymdeithas yn y cysegr; *mewn tir cras a sychedig heb ddwfr*—lle nad yw yr afon bur o ddwfr y bywyd yn dylifo trwyddo. Er fod anialwch Ziph, lle yr oedd Dafydd y pryd hyn, yn gras a sychedig mewn ystyr naturiol, eto efe a gyfeiria yn hytrach yn y geiriau hyn at ei gyflwr mewn amddifadrwydd o foddion cyhoeddus gras i ddisychedu ei enaid.

Adn. 2. *I weled dy nerth a'th ogoniant* | I fyw'nghau effeithiau a dylanwadau nerthol a gogoneddus dy bresenoldeb grasol yn y cysegr; *fel y'th welais*—yno lawer gwaith cyn hyn. Efe a hiraethai am gael ei ddwyn o'r anialwch hwn, nid fel y gallai weled ei gyfeillion eil-waith, a chael ei adferu i rwyg a'i crwychedd, ond fel y gallai fyw'nghau adoliad a bendithion ysbrydol a grasol y cysegr. Nid yw yn cyfeirio at yr arch, na'r gogoniant dwyfol ysblynydd ag oedd yn llewyrchu arni rhwng y cerubiadau, am nad allai neb gael gwled y rhai

hyn ond yr archoffeiriad, nac yntau ychwaith ond unwaith yn y flwyddyn, sef ar ddydd y cywod. Nid oedd yn hiraethu am weled yr offeiriad a'r Lefiaid yn gweini yno yn eu gwisgoedd santaid, yn gymaint ag am weled Duw. Ac nid oedd yn hiraethu am weled *hanfod* Duw ychwaith, am y gwyddai nad allai neb ei weled ef felly, a byw. Ond yr oedd am gael ei weled ef yn ei ordinhadau trwy fydd, ac am gael teimlo y cysuron ysbrydol hyn y fwyneir gan holl wir addolwyr Duw yn ei gysegr.

Adn. 3. *Canys gwell yw dy drugaredd di na'r bywyd* | Hiraef, goraf, a dedwyddaf. Hebr., 'na'r bywydau;' v mae yn well nag oesau dirif o fywyd naturiol. Y mae y drugaredd aclubol a fwyneir gan holl wir addolwyr Duw yn ei gysegr, yn cynwys bywyd ysbrydol a thragywyddol, yn gystal ag 'addeuid o'r bywyd sydd yr awrhon,' I Tim. iv. 8; ac felly y mae yn anfeidrol ragori ar bob bywyd ymhorol a fwyneir yn y byd hwn. *Fy ngwefusau a'th foliannant*—a ganant i ti, neu a ddiolchiant am dy drugaredd.

Adn. 4. *Fel hyn y'th glodforaf yn fy mywyd* | Sef dros fy holl fywyd: *dyrchafaf fy nwyllaw yn dy enw*—arferaf weddi yn gystal a mawl. Yr oedd dyrchafu y dwyllaw yn arferiad cyffredin yn mhliyr yr Iuddewon a phaganiaid wrth weddio, ac yn cael ei arfer am weddio: gwel ar I Tim. ii. 8.

Adn. 5. *Megys â mër ac â brasder* | Y rhai a enwir yma am y danteithion natur mwyaf dymunol; y digonir fy enaid—fel pe dywedasai, Ar ol i mi gael fy adfer i'th gysegr, a mwynhau yno dy fendith a'th ras, bydd yr hyfrydwech a deimla fy enaid fel gwledd fras a danteithiol, ac yn llawer mwy dymunol i mi na'r gwleddoedd brasaf i'r glwth blysig. *Am genau a'th fawl â gwefusau llafar*—yn gyhoeddus, soniaru, a gwresog. Fel y canai y glwth yn ei wleddoedd natur, y canai Dafydd yn ei wledd ysbrydol.

Adn. 6. *Pan y'th gofiwyf ar fy ngwely* | Cyn huno, neu ar ol dihuo yn uhyrmyder y nos; *myfyriaf am danat yn ngwyliadwriaethau y nos*—sef am dy hawddgarwch, dy ddaioni, a'th ryfeddodau. Pan yr oedl blinderau a belbulon yn luddias i Dafydd allu cysgu yn oriau y tywyllwch, yr oedd yn hyfrydwech iddo gael cymdeithas â Duw y pryd hynny.

am hyny yn nghysgod dy adenydd y gorfoleddaf.

8 Fy enaid a lŷn wrthyt: dy ddeheulaw a'm cynal.

9 Ond y rhai a geisiant fy enaid i ddystryw, a ânt i iselderau y ddaear.

10 Syrthiant ar fin y cleddyf: rhan llwynogod fyddant.

11 Ond y brenin a lawenycha yn Nuw: gorfoledda pob un a dyngo iddo ef: eithr cauir genau y rhai a ddywedant gelwydd.

SALM LXIV.

CLYW fy llef, O Dduw, yn fy ngweddi: cadw fy einioes rhag ofn y gelyn.

2 Cudd fi rhag cyfrinach y rhai

Adn. 7. *Cynys buost gynorthwy i mi*] Cyn hyn mewn mil o gyfyngderau; *am hyny yn nghysgod dy adenydd*—dan dy amddiffyniad a'th nawdd; *y gorfoleddaf*—o hyn allan. Fel hyn yr oedd yr adgofiad o hen drugareddau Duw, yn ei dueddu ac yn ei alluogi ef i ymddiried yndo rhaglawn.

Adn. 8. *Fy enaid a lŷn wrthyt*] Mewn serch gwresog, hyd yn nod tra y mae fy nghorff yn mhell o'th gysegr; *dy ddeheulaw a'm cynal*—rhag suddo dan fy niralldodau, na difateru am dy dŷ a'th waith.

Adn. 9. *Ond y rhai a geisiant fy enaid i ddystryw*] Neu a geisiant ddystrywio fy mywyd; *a ânt i iselderau y ddaear*—a syrthiant eu hunain i'r bedd o ran eu cyrff, ac i uffern o ran eu beneidiau, oni edifarhant.

Adn. 10. *Syrthiant ar fin y cleddyf*] Ac felly y dygwyddodd i Saul a'i wŷr, 1 Sam. xxxi. 4—6; *rhan llwynogod fyddant*—trwy i gyrrif llawer o honyng gael eu gadael ar wyneb y ddaear yn ysglyfaeth i fwystilod.

Adn. 11. *Ond y brenin a lawenycha yn Nuw*] Nid oedd Dafydd eto yn gyflawn frenin, er ei fod wedi ei eneinio; ond gwyddai y cai fod yn frenin, ac y cai lawenycha fel brenin yn iachawdriaeth Duw, ar ol i Saul a'i elynion ereill gael eu dyfetha. *Gorfoledda pob un a dyngo iddo ef*—a dyngo lw o ffyddlondeb i Dafydd; neu a dyngo i Dduw, i'w garn a'i wasanaethu ef yn ffyddlon. *Eithr cauir genau y rhai a ddywedant gelwydd*—ar Dafydd, i'w gamgyhuddo ef; neu wrth Dafydd neu Dduw, trwy droi yn dwyllodrus ar ol tyngu llw o ffyddlondeb iddo.

SALM LXIV. Y teitl yw, 'I'r pencerdd, Salm Dafydd.' Meddylir iddi gael ei chyfansoddi gan Dafydd pan yn cael ei erlid gan Saul, neu yn amser gwrthryfel Absalom: ond tybia Calmet mai achwyniad y caethion yn Babilon ydyw.

Adn. 1. *Clyw fy llef, O Dduw, yn fy ngweddi*] Efe a lefai yn uchel wrth weddio,

drygionus; rhag terfysg gweithredwyr anwiredd:

3 Y rhai a hogant eu tafod fel cleddyf, ac a ergydiant eu saethau, sef geiriau chwervon:

4 I saethu y perffaith yn ddirgel: yn ddisymwth y saethant ef, ac nid ofnant.

5 Ymwrolant mewn peth drygionus: ymchwedleuant am osod maglau yn ddirgel; dywedant, Pwy a'u gwel hwynt?

6 Chwiliant allan anwireddau; gorphenant ddyfal chwilio: ceudod a chalon pob un o honyng sydd ddofn.

7 Eithr Duw a'u saetha hwynt; â saeth ddisymwth yr archollir hwynt.

8 Felly hwy a wnant i'w tafodau

yr hyn a ddengys ei daerineb: *cadw fy einioes rhag ofn y gelyn*—neu rhag y perygl ag yr oedd ei einioes yndo oddiwrth ei elyn. Fel hyn yr oedd einioes Dafydd yn barhaus yn yr enbydrydd mwyaf.

Adn. 2. *Cudd fi rhag cyfrinach y rhai drygionus*] Sef rhag y farwoiaeth a fwriadent i mi yn eu cyfrinacbau; *rhag terfysg gweithredwyr anwiredd*—yn yr lwn y bwriadent gario allan eu brad yn fy erbyn. Bwriadent yn ddirgel greu terfysg cyhoeddus, fel y gallent yn y terfysg hwnw ei ladd ef.

Adn. 3. *Y rhai a hogant eu tafod fel cleddyf*] Yn llym, fel yr hoga milwr ei gleddyf erbyn dydd y frwydr; *ac a ergydiant eu saethau*—yn fy erbyn, *sef geiriau chwervon*—neu eiriau pigog, maleisus, celwyddog, ac angeuol.

Adn. 4. *I saethu y perffaith yn ddirgel*] Sef Dafydd ddiiniwed, yr hwn ni wnaethai ddim yn eu herbyn: *yn ddisymwth y saethant ef*—ar y cyfleusdra cyntaf, os gallant; *ac nid ofnant*—y geilw Duw na dynion hwynt i gyfrif am hyny.

Adn. 5. *Ymwrolant mewn peth drygionus*] Sef dal a ladd Dafydd; *ymchwedleuant am osod maglau yn ddirgel*—i rwydo a maglu y diniwed: *dywedant*—yn nghaledrwydd eu calonau, *Pwy a'u gwel hwynt*—pwy a wel y maglau hyny? neu pwy a'u geilw hwy i gyfrif am osod y maglau hyny i ddal Dafydd?

Adn. 6. *Chwiliant allan anwireddau*] Yn erbyn Dafydd i'w gollfarnu; *gorphenant ddyfal chwilio*—ânt trwy eu gwaith, heb adael un gareg heb ei throï er cyraedd eu hamcan gwaedlyd. *Ceudod a chalon pob un o honyng*—Saes., 'mewnol feddwl a chalon pob un o honyng,' *sydd ddofn*—cyn ddyfned a chyfrwyseid a chalon y sarff uffernol ei hwn.

Adn. 7. *Eithr Duw a'u saetha hwynt*] Yn lle iddynt hwy saethu Dafydd, adn. 4; *â saeth ddisymwth yr archollir hwynt*—ac felly y dygwyddodd i Saul a'i wŷr, 1 Sam. xxxi. 3.

Adn. 8. *Felly hwy a wnant i'w tafodau eu*

eu hun syrthio arnynt: pob un a'u gwelo a gilia.

9 A phob dyn a ofna, ac a fynega waith Duw: canys doeth-ystryiant ei waith ef.

10 Y cyfiawu a lawenycha yn yr Arglwydd, ac a obeithia ynddo; a'r rhai uniawnogalon oll a orfoleddant.

SALM LXV.

MAWL a'th erys di yn Seion, O Dduw: ac i ti y telir yr adduned.

2 Ti yr hwn a wrandewi weddi, atat ti y daw pob cnawd.

hun] Sef melldithion eu tafodau, y rhai a draethent yn erbyn Dafydd; *syrthio arnynt*—sef arnynt hwy eu hunain yn unig. *Pob un a'u gwelo a gilia*—rhag i farn gyffelyb syrthio arnynt hwythau.

Adn. 9. *A phob dyn a ofna*] Fod yn eog o'r un pechodau; *ac a fynega waith Duw*—mai barn oddiwth Dduw oedd y fath gomp: *canys doeth-ystryiant ei waith ef*—gan gymeryd rhybydd oddiwtho.

Adn. 10. *Y cyfiawu a lawenycha yn yr Arglwydd*] With weled, yn achos Dafydd, nad yw efe yn gadael i'w weision flyddlon fod yn ysglyfaeth i'w gelynyon, nac yn goddef i'w gelynyon ddianc yn ddogisop; *ac a obeithia ynddo*—fwy-fwy, yr hwn sydd fel hyn yn Amddiffynydd i'r cyfiawion: *a'r rhai uniawnogalon oll a orfoleddant*—am fod ganddynt y fath Dduw da, doeth, a chyfiawu, o'u plaid.

SALM LXV. Y teitl yw, 'I'r pencerdd, *Salm a Chân Dafydd*.' Meddyllir i Dafydd gyfansoddi y Salm hon ar ol rhyw sychder mawr, yr hwn a ddygasai, neu a fygythiai ddwyn, newyn i'r wlad; a thybia rhai mai at y tair blynedd o newyn a grybwyllir yn 2 Sam. xxi. 1, &c., y cyfeirir, yr hwn a achoswyd o herwydd i Saul ladd y Gibeoniaid. Modd bynag, ar ol i'r newyn hwnw gael ei symud trwy gawodydd ireiddlon a helaeth o wlaw, ymdeingys i'r Salmddy gyfansoddi y Salm hon i'w chann mewn ffordd o ddiolchgarwch i Dduw am hynny.

Adn. 1. *Mawl a'th erys di yn Seion, O Dduw*] A erys am dy ddyfodiad yno; a erys neu a ddysgwylia am dy drugaredd; a erys yno pan na byddot ti yn ymddangos: canys yr oedd y Lefiaid yn canu yn barhaus yn y cysegr. Neu, 'mawl a orphwys arnat ti yn Seion.' gwel *Horsley*. Ond y mae rhai yn cyfeithu y geiriau, 'Mawl sydd ddygstaw neu fud i ti yn Seion'; ac ereill, 'Dystawrwydd i ti sydd fawl.' Tybia *Martin* fod yma gyfeiriad at ddygstawrwydd crefyddol yr holl gynulleidfa yn y babbell, tra yr oedd yr offeiriad yn aroglarthu yn y cysegr. *Ac i ti y telir yr adduned*—sef addunedau crefyddol meibion Israel, y rhai a wnaethant yn eu cyfyngder, pan yn ceisio gwaredigaeth gan Dduw.

Adn. 2. *Ti yr hwn a wrandewi weddi*] Yr

3 Pethau anwir a'm gorchfygasant: ein camweddau ni, ti a'u glanhei.

4 Gwŷn ei fyd yr hwn a ddewis-ech, ac a nesäech atat; fel y trigo yn dy gynteddoedd: ny ni a ddogonir â daioni dy dŷ, sef dy deml sant-aid.

5 Atebi i ni trwy bethau ofnadwy, yn dy gyfiawnder, O Dduw ein hiachawdwriaeth; gobait holl gyra- au y ddaear, a'r rhai sydd bell ar y môr.

6 Yr hwn a sicrha y mynydd-

hwn a ymhyfydi mewn gwranddo ac ateb gweddiau dy greaduriaid anghenus; *atat ti y daw pob cnawd*—gan nad oedd nemawr heb- law pobl Israel yn dyfod at Dduw mewn gweddi y pryd hyny, meddyllir fod y geiriau hyn yn rhagfynegu dychweliad y Cenhedl- oedd, a llwyddiant cyfiredinol yr eiengyl yn y dyddiau diweddat.

Adn. 3. *Pethau anwir a'm gorchfygasant*] Meddyllir yn gyfiredin fod Dafydd yn cyfeirio yma at ei ffaeolddau a'i lygredid ei hun; ond myn rhai gyfeithu y wreiddiol, 'Geiriau an- wir a lwyddasant i'm herbyn,' sef pob math o enllib a chelwyddau, y rhai a ddywedai ei elynion am dano i dduo ei gymeriad. *Ein camweddau ni*—pa bethau bynag a wnaethym i a'th bobl mewn gwirionedd i'th erbyn; *ti a'u glanhei*—trwy waed y cyfammod, ar ein dychweliad atat mewn gwir edifeirwch a flydd.

Adn. 4. *Gwŷn ei fyd yr hwn a ddewis-ech, ac a nesäech atat*] Cyfeirir yma ond odid at yr offeiriad, y rhai a drigent yn wastadol, i weini iddo mewn pethau santaid. *Ny ni a ddogonir â daioni dy dŷ*—fel pe dywedasai, Er na clawu ni, fel addolwyr cyfiredin, drigo yn barhaus yn dy gynteddoedd, na chyfranogi o lawer o'r aberthau a offrymir yno, fel y caiff yr offeiriad; eto eawn ninaw oll ein digoni â bendithion ysbyrdol dy gysegr, sef â gras, dyddanwch, ac iachawdwriaeth.

Adn. 5. *Atebi i ni trwy bethau ofnadwy*] Y mae rhai yn deall hyn am y cerbyddon a ddyry Duw yn ei ragluniaeth weithiau i'w bobl ei hun, i'r dyben i'w dihuo a'u bywiogi hwy; ond bob ausser *mewn cyfiawnder*—heb wneyd dim cam â hwy, na bwriadu eu niweidio; canys y mae efe hyd yn nod y pryd hyny, fel y dywedir yma, yn *Dduw eu hiachawdwriaeth*. Y mae ereill yn meddwl mai barned- igaethau ofnadwy Duw ar ei elynion a olygry, y rhai a dywelltir mewn atebiad i weddau ei bobl, y rhai a orthrymir ganddynt. Ond fe allai fod y 'pethau ofnadwy' hyn i'w deall yn hytrach am weithredoedd *rhyfeddol* Duw yn ei ragluniaeth a'i ddaioni, y rhai a grybwyllir yn yr addonau dylunol. *Gobait holl gyrau y ddaear*—neu wrthdrrych gobait dy holl saint yn mhob rhan o'r ddaear; *a'r rhai sydd bell ar y môr*—yn nynsoedd y môr, neu mewn

oedd trwy ei nerth, ac a wregysir â chadernid.

7 Yr hwn a ostega dwrf y moroedd, twrf eu tônau, a therfysg y bobloedd.

8 A phreswylwyr eithafoedd *y byd* a ofniant dy arwyddion: gwnei i derfyn bore a hwyr lawenychu.

9 Yr wyt yn ymweled â'r ddaear, ac yn ei dyfrhau hi: yr ydwynt yn ei chyfoethogi hi yn ddirfawr âg afon Duw, *yr hon* sydd yn llawn dwfr: yr wyt yn parotoi ŷd iddynt, pan ddarperaiist felly iddi.

10 Gan ddyfrhau ei chefnau, a gostwng ei rhychau, yr ydwynt yn mwydo hi â chafodau, ac yn bendithio ei chnwd hi.

11 Coroni yr ydwynt y flwyddyn â'th ddaioni; â'th lwybrau a ddyferant fraser.

12 Dyferant *ar* borfeydd yr anialwch: a'r bryniau a ymwregysant â hyfrydwch.

13 Y dolydd a wisgir â defaid, a'r dyffrynoedd a orchuddir âg ŷd; *am hynny* y bloeddiant, ac y canant.

llongau ar y môr yn mbell o'th gysegr. Ond tybia rhai fod y geiriau hyn yn arwydd mai Duw sydd yn gotalu am bawb, dros wyneb y ddaear a'r moroedd, mewn ystyr tymborol neu ragluniaethol; ac ereill, fod yma gyfeiriad at alwad y Cenhedloedd.

Adn. 6. *Yr hwn a sicrha y mynyddoedd trwy ei nerth*] Fel na ddimchweler ac na syfler hwynt gan y llifeiriant, gan ddaeargryn, na chan unrhyw achos naturiol arall; *ac a wregysir â chadernid*—hyn yw, ti a wregysir y mynyddoedd â chadernid, fel y gwregysir neu yr amgylchir llestr â chylchau.

Adn. 7. *Yr hwn a ostega dwrf y moroedd*] A gair ei nerth, Mat. viii. 26; *twrf eu tônau*—pan yn bygwth llyneu y llongau a nofiant arnynt, neu y mynyddoedd ar lanau y môr, gan eu hymchwydd; *a therfysg y bobloedd*—pan yr ymgodent hwythau yn 'erbyn yr Arglwydd a'i Grist ef,' neu yn erbyn ei saint.

Adn. 8. *A phreswylwyr eithafoedd y byd*] Y rhai sydd yn trigo yn y parthau mwyaf pellenig ac anghysbell o'r ddaear; *a ofniant dy arwyddion*—y barnedigaethau mawrion a dychrynllyd trwy y rhai yr ymweli â phechaduriaid eyn dyn, ac yn enwedig â gelynyddion dy bobl, fel y gwnaed â'r Aifftiaid. Neu fe allai ei fod yn cyfeirio at felt a tharanau, ystoriwydd a daeargrynfaiau, comedau a diffygadau ar yr haul a'r loer, y rhai sydd arwyddion i'r paganiaid mwyaf barbaraidd fod Duw o anfeidrol nerth yn bodoli. *Gwnai i derfyn bore a hwyr lawenychu*—sef trigolion y dwyrain a'r gorllewin; neu y gweithiwr bob bore a hwyr. Yn y bore efe a â allan at ei orchwylion gyda sirioldeb, ac yn yr hwyr efe a ddychwel adref yn llawen i orphwys dros nos. Fel y mae y gwylwyr yn hiraethu am y bore, felly y mae y llaforwr am yr hwyr; ac y mae y ddau yn llawenychu yn dy weithredoedd di, a holl natur yn ymddangos fel wrth ei bodd.

Adn. 9. *Yr wyt yn ymweled â'r ddaear*] Yn ngerbydd dy ragluniaeth drugarog, ar ol yr holl sychder mawr; *ac yn ei dyfrhau hi*—â chawodydd ireiddlon a maethlon. Efe a wna felly â'r holl ddaear, er y cyfeirir yma yn benaf at wlad Canaan. *Yr ydwynt yn ei chyfoethogi hi yn ddirfawr âg afon Duw*—sef â gwlaw yn helaeth o'r cymylau; yr hyn a eilw efe yn 'afon,' o herwydd ei helaethrwydd; ac

yn 'afon Duw,' am mai efe a'i darparodd. *Yr hon sydd yn llawn dwfr*—tybia rhai mai at yr lorddonen y cyfeirir yma; ond y mae yn debycach mai at y cymylau, y rhai a dywalltiant ddwfr yn afonydd ar y ddaear. *Yr wyt yn parotoi ŷd iddynt*—yn ymborth i drigolion y ddaear; *pan ddarperaiist felly iddi*—parotoi ymborth i ddyn ac anifel oedd dy amcan daionus wrth beri i'r gwlaw ddisgyn mor helaeth ar y ddaear.

Adn. 10. *Gan ddyfrhau ei chefnau*] Neu ei gryniau; *a gostwng ei rhychau*—neu wastatau ei rhychau, y rhai a wnaed wrth aredig; *yr ydwynt yn ei mwydo hi â chafodau*—i'w pharotoi i dderbyn yr had; *ac yn bendithio ei chnwd hi*—trwy beri i'r had dyfu, i'r egin frwythloni, ac i'r twysenau addfedu yn gwnw toreithiog.

Adn. 11. *Coroni yr ydwynt y flwyddyn d'i ddaioni*] Y mae y llyisiau, y blodau, a'r frwythau a dyfant o'r ddaear ar ol y fath wlaw maethlon, fel *coron* hardd iddi; neu y mae dy ddaioni tymborol a rha gluniaethol yn *amgylchynu* yr holl flwyddyn fel coron. Fe allai fod yma gyfeiriad at fynediad yr haul trwy ddeuddeg arwydd y nef serenog, gan ddoisbarthu y flwyddyn yn ddeuddeg mis. Y mae *gwlawogydd* Tachwedd a Chwefror, a *rheu* ac *eira* Rhagfyr a Ionawr, mor angenrheidiol er frwythloni y ddaear, ag yw *carod-ydd* ireiddlon y gwanwyn, *cynhesrwydd* yr haf, neu *sychder* yr hydref. *Â'th lwybrau a ddyferant fraser*—yma arddanghosir Duw fel yn teithio yn ngerbydd ei ragluniaeth o amgylch y ddaear, neu o naill ben y flwyddyn i'r llall, gan ddyferu brasder a frwythlondeb yn mhob man lle yr elo.

Adn. 12. *Dyferant ar borfeydd yr anialwch*] Er lles y bystfilod a'r ymlusgiaid yno; *a'r bryniau a ymwregysant âg hyfrydwch*—â choedydd, blodau, a phorfeydd hyfryd. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at yr wne a'r mlynod yn prancio ar y bryniau, a'r bugeiliaid yn ymbyfrynu yn yr olwg ar fendithion gwerthfawr rha gluniaeth Duw.

Adn. 13. *Y dolydd*] Saes, 'y porteydd,' pa un bynag ai dolydd ynte bryniau; *a wisgir â defaid*—â deadelloedd lluosog o wahanol greaduriaid; *a'r dyffrynoedd a orchuddir âg ŷd*—sef â'r fath helaethrwydd o hono, fel nas

SALM LXVI.

LLAWEN-FLOEDDIWCH i Dduw, yr holl ddaear.

2 Datgenwch ogoniant ei enw: gwnewch ei foliant yn ogoneddus.

3 Dywedwch wrth Dduw, Mor ofnadwy wyt yn dy weithredoedd! o herwydd maint dy nerth, y cymer dy elynion arnynt fod yn ddarostyngedig i ti.

4 Yr holl ddaear a'th addolant di, ac a ganant i ti; *ïe*, canant i'th enw. Selah.

5 Deuwch, a gwelwch weithred-

oedd Duw: ofnadwy yw yn ei weithred tuag at feibion dynion.

6 Trôdd efe y môr yn sychdir: aethant trwy yr afon ar draed: yna y llawenychasom ynddo.

7 Efe a lywodraetha trwy ei gadernid byth; ei lygaid a edrychant ar y cenhedloedd: nac ymddyrchafed y rhai anafydd. Selah.

8 O bobloedd, bendithiwech ein Duw, a pherwch glywed llais ei fawl ef:

9 Yr hwn sydd yn gosod ein henaid mewn bywyd, ac ni âd i'n troed lithro.

10 Canys profaist ni, O Dduw: coethaist ni fel coethi arian.

gellir canfod y ddaear ar ba un y tŷf: *am hyny y bloeddiant*—mewn llawenydd; *ac y canant*—glodydd a mawl er gogoniant i'w Cymwynaswr baelionus. Bydd i bob gradd o ddynion gwllawenhau, a diolch o'r galon i Dduw, am iddo ail ymweld â hwy â bendithion ei ragluniaeth ar ol blynyddoedd o sychder a newyn.

SALM LXVI. Y teitl yw, '*Yr pencerdd, Cân neu Salm.*' Nid ydys yn sicr pwy yw awdr y Salm hon, nac ar ba achlysur y cyfansoddwyd hi. Ymddengys yn debygol, fel y sylwa yr Esgob Patrick, iddi gael ei hysgrifennu gan Dafydd, a hyny ar ol i Dduw ei ddyrchafu ef i'r orsedd, a rhoddi iddo fuddugoliaeth ar ei holl elynion oddiamgylch, a'i sicrhau yn ei frenhiniaeth.

Adn. 1. *Llawen-floeddiwch i Dduw* Yr hwn a wnaeth i ni y fath bethau mawrion; yr holl ddaear—sef pawb yn mhlih yr holl genhedloedd a glywant am ei weithredoedd ef.

Adn. 2. *Datgenwch ogoniant ei enw* Bydded ei briodoliaethau a'i weithredoedd gogoneddus yn destyn eich cân; *gwnewch ei foliant yn ogoneddus*—moliennwch ef yn y modd mwyaf teilwng, fel y caffo wir ogoniant mynegol oddiwrthy.

Adn. 3. *Dywedwch wrth Dduw* Bydded y geiriau canlynol yn sylwedd neu gynwysiad eich cân a'ch mawl: *Mor ofnadwy wyt yn dy weithredoedd*—sef yn dy farnedigaethau cyfiawn ar dy elynion, megys yr Aiftiaid, y Canaanaid! &c. *O herwydd maint dy nerth*—yr hwn nas gall daear nac uffern ei wrthsefyll; *y cymer dy elynion arnynt fod yn ddarostyngedig i ti*—pan na byddont felly mewn gwirionedd. Fel hyn yr oedd yn bod gyda Pharao a'r Aiftiaid, pan oedd llaw yr Arglwydd yn drwm arnynt.

Adn. 4. *Yr holl ddaear a'th addolant di* Yn unig; *ac a ganant i ti*—mewn ffordd o fawl ac addoliad, heb i neb blygu o flaen eilun trwy holl lwythau Israel. Cyflawnwyd hyn ar ol y dychweliad o Babilon; a chyflawnir ef yn fwy llythyrenol yn ystod y milfwylliant. *Ie, canant i'th enw*—er gogoniant a moliant

i'th enw di yn unig. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 5. *Deuwch, a gwelwch weithredoedd Duw* Yn ei farnau ar ei elynion, a'i drugareddau i'w bobl: *ofnadwy yw yn ei weithred tuag at feibion dynion*—fel y gwelir yn yr hyn a wnaeth efe yn yr Aift gynt.

Adn. 6. *Trôdd efe y môr yn sychdir* Sef y môr coch; *aethant trwy yr afon ar draed*—sef trwy yr Iorddonen: *yna y llawenychasom ynddo*—sef ein cenedl ni, wedi iddynt guraedd i Ganaan. Yma, fel mewn rhanau ereill o'r ysgrythyr, edrychir ar holl bobl Israel yn mhob oes fel un corff, yn ymestyn trwy yr holl genedlaethau.

Adn. 7. *Efe a lywodraetha trwy ei gadernid byth* Yr un modd ag y llywodraethai yn anser ein tadau: *ei lygaid a edrychant ar y cenhedloedd*—y rhai a orthrymant ei bobl ef, yr un modd ag yr edrychodd ar yr Aiftiaid gynt. *Nac ymddyrchafed y rhai anafydd*—yn erbyn Duw, fel y gwnaeth Pharao. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 8. *O bobloedd* Nid yn unig holl lwythau Israel, ond chwithau holl genhedloedd ereill y ddaear, y rhai ydych hyd yma yn gwasanaethu duwiau ereill; *bendithiwech ein Duw ni*—deuwch i addoli y gwir Dduw, yr hwn sydd yn haeddu cael ei glodfori a'i wasanaethu gan bob dyn; *a pherwch glywed llais ei fawl ef*—yn adseinio trwy yr holl ddaear, mewn canïadan soniarus o fawl ac addoliad iddo ef yn unig.

Adn. 9. *Yr hwn sydd yn gosod ein henaid mewn bywyd* Hebr., 'mewn bynyddau.' Yr hwn, trwy olyniad o wyrthiau ei drugaredd, a'n cadwdd ni yn fyw yn nghanol mil o farwolaethau i'r rhai yr oeddym yn agored; ac a roddodd i ni fywyd ysbyrdol, a blaenbrawf yn ein heneidiau o fywyd tragwyddol. *Ac ni âd i'n troed lithro*—oddiar lwybrau y bywyd, neu i ddinystr a cholledigaeth.

Adn. 10. *Canys profaist ni, O Dduw* Trwy galedi a phrofedigaethau tanllyd. Cydmhariaeth wedi ei chymeryd oddiwrth waith y toddydd yn profi ei fettleoedd. *Coethaist ni fel coethi arian*—mewn fwrneisiau poethion:

11 Dygaist ni i'r rhwyd; gosodaist wasgfa ar ein llwynau.

12 Peraist i ddyinion farchogaeth ar ein penau; aethom trwy y tân a'r dwfr: a thi a'n dygaist allan i le diwall.

13 Deuaf i'th dŷ âg offrymau poeth: talaf i ti fy addunedau,

14 Y rhai a adroddodd fy ngwefusau, ac a ddywedodd fy ngenau yn fy nghyfyngder.

15 Offrymaf i ti boeth-offrymau breision, yn nghydag aroglarth hyrdod; aberthaf ychain a bychod. Selah.

Yr oedd y rhai da yn cael eu diwygio a'n puro trwy y tralodau a'u dalient; a'r rhai drwg yn cael naill ai eu dyfetha, neu ynte eu dychwel-ydd oddiwrth eu drygioni.

Adn. 11. *Dygaist ni i'r rhwyd*] Cytuna hyn yn dda â chyflwr plant Israel wrth ffoi o'r Aifft, pryd yr oedd Pharao o'u hol, y môr coch o'u blaen, a Pihahiroth a Baal-sephon o bob tu iddynt, Exod. xiv. 2. *Gosodaist wasgfa ar ein llwynau*—tybia rhai fod yma gyfeiriad at boen a deimlir weithiau yn y cefn a'r llwynau, pan ddalier dyn gan berygl disymwth a dinystriol; tybia ereill ei fod yn cyfeirio at gyflwr o gaethwasolach.

Adn. 12. *Peraist i ddyinion farchogaeth ar ein penau*] Ein mathru, ein gorthrymu, a'n dirmygu yn ddiosturi, fel gwyr meirch yn mathru eu gelynyon ar faes y gwaed: *aethom trwy y tân a'r dwfr*—trwy y peryglon a'r dyoddefiadau mwyaf: *a thi a'n dygaist allan i le diwall*—Hebr., 'lle dyfrllud,' ac felly ffirwythol a thoreithiog, o ganol ein boll dy-lodi, ein cyfyngderau, a'n profedigaethau. Fe allai ei fod yn cyfeirio at ddygiad Israel i wlad Canaan, yr hon oedd yn llifeirio o laeth a mel. Fel hyn y mae Duw yn fynych yn goddef i'w blant gael eu gorthrymu a'u baeddu, fel y byddo i'w gwaredigaeth oddiwrth y drygau hyn y fod yn amlycach a melysach.

Adn. 13. *Deuaf i'th dŷ âg offrymau poeth*] Sef â phob math o ebyrth a benodid gan y gyfraith: *talaf i ti fy addunedau*—y rhai a addewais yn nydd fy nghyfyngder.

Adn. 14. *Y rhai a adroddodd fy ngwefusau*] Yr oedd efe nid yn unig wedi bwriadu yr offrymau hyn yn eifeddwl, ond wedi eu haddaw mewn geiriau wrth yr Arglwydd, ac am hyn y 'ni allai gilio,' Barn. xi. 35.

Adn. 15. *Offrymaf i ti boeth-offrymau breision*] O blith yr anifeiliaid goraf, ac nid y cloff a'r dall; *yn nghydag aroglarth hyrdod*—braser pa rai, pan losgid ef ar yr allor, a esgynai yn aroglarth peraidd, cymeradwy gan Dduw: *aberthaf ychain a bychod*—y rhai brasaf o bob anifel glân, a llawer o honynt hefyd. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 16. *Deuwch, gwrandewch, y rhai oll a ofnwch Dduw*] Pa un bynag ai Israeliaid, ynte Cenedloedd wedi eu proselytio at eu crefydd hwy; a *mynegaf yr hyn a wnaeth*

16 Deuwch, gwrandewch, y rhai oll a ofnwch Dduw; a mynegaf yr hyn a wnaeth efe i'm henaid.

17 Llefais arno â'm genau, ac efe a ddyrchafwyd â'm tafod.

18 Ped edrychaswn ar anwiredd yn fy nghalon, ni wrandawsai yr Arglwydd.

19 Duw yn ddiau a glybu, ac a wrandawodd ar lais fy ngweddi.

20 Bendigedig fyddo Duw, yr hwn ni thrôdd fy ngweddi oddi-wrtho, na'i drugaredd ef oddiwrthyf finau.

efe i'm henaid—mewn atebiad i'w weddi, fel y dywedir isod. Nid mewn balchder a hunanoldeb y mynegai efe hyn, fel pe buasai am i ddyinion feddwl ei fod ef yn anwylach gan y nefoedd na rhywun allan; eithr er anrhydedd i Dduw, ac er cefnogaeth i ereill alw arno.

Adn. 17. *Llefais arno â'm genau*] Mewn gweddi daer am drugaredd, cysur, ac ymwared yn fy nghyfyngder; *ac efe a ddyrchafwyd â'm tafod*—mewn caniaadu o glodfodded a mawl am iddo ateb fy ngweddi, a rhoddi i mi y bendithion a geisiais ganddo.

Adn. 18. *Ped edrychaswn ar anwiredd yn fy nghalon*] Fel ag i ymfrydu ynddo, neu gyda bwriad i'w gyflawni; *ni wrandawsai yr Arglwydd*—ar fy ngweddi, neu ni roddasai i mi y bendithion a geisw'n ganddo. Nyni a ddysgwn oddi'ma, yn gystal ag oddiwrth ranau ereill o'r Hen Destament, mai yr un yw crefydd, o ran ei natur a'i sylwedd, dan bob goruchwyliaeth; a bod yn wir angenrheidiol i ddyd, hvd yn nod yn amser yr aberthau a'r seremonïau, gael cywirdeb calon, purdeb bwriad, a gofal cydwytodol i ymgadw oddiwrth bob pechod adnabyddus, mewn trefn i ryngu bodd Daw, a bod yn gymeradwy yn ei olwg ef; ac nad oedd miloedd o fyheryn, neu fyrdd-iwn o ffrydiau olew, yn nghyda'r gadwriaeth fanylaf o seremonïau allanol, heb burdeb calon, o ddim lles yn ei olwg Et, yr hwn sydd yn chwilio y galon, ac yn caru gwirionedd oddi-fewn, Salm li. 6.

Adn. 19. *Duw yn ddiau a glybu*] O'r hyn y mae genyf y dystiolaeth a'r prawf cadarnaf; *ac a wrandawodd ar lais fy ngweddi*—trwy roddi i mi fy muniad, ac felly ddwyn tystiolaeth i uniondeb a chywirdeb fy nghalon ar y pryd.

Adn. 20. *Bendigedig fyddo Duw*] Molian-ner ef yn dragywydd; *yr hwn ni thrôdd fy ngweddi oddiwrtho*—heb ei hateb; *na'i drugaredd ef oddiwrthyf finau*—heb ei chaniatâu. Fel hyn yr oedd eael trugaredd yn brawf fod yr Arglwydd wedi gwrandao ei weddi ef, ac yr oedd gwrandawiad y weddi yn brawf o uniondeb calon Dafydd; ac eto efe a briodola y bendithion a dderbynnasai, nid i'w deilyng-dod ei hun fel gwediwr gonest, ond i drugar-edd Duw.

SALM LXVII.

DUW a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio; a thywyned ei wyneb arnom. Selah.

2 Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear, a'th iachawdwriaeth yn mhllith yr holl genhedloedd.

3 Molianned y bobl di, O Dduw; molianned yr holl bobl dydi.

4 Llawnhäed y cenhedloedd, a byddant hyfryd: canys ti a ferni y bobl yn uniawn, ac a lywodraethi y

cenhedloedd ar y ddaear. Selah.
5 Molianned y bobl di, O Dduw; molianned yr holl bobl dydi.

6 Yna y ddaear a rydd ei ffwrth; a Duw, sef ein Duw ni, a'n bendithia.

7 Duw a'n bendithia; a holl derfynau y ddaear a'i hofnant ef.

SALM LXVIII.

CYFODED Duw, gwasgarer ei elynion: a fföed ei gaseion o'i flaen ef.

SALM LXVII. Y teitl yw, 'Pr penceerdd ar Neginoth, Salm neu Gân.' Am ystyr Neginoth, gwel deitl Salm iv. Nid yw yn eglur gan bwy y cyfansoddiad y Salm hon, na pha bryd. Tybia rhai ddarford ei bysgrifenu yn amser yr adferiad o Babilon, ac i ragfynegu dychweliad y Cenhedloedd; barna ereill mai Dafydd yw ei hawdwr hi, ac iddo ei chyfansoddi fel gweddi dros yr eglwys Iuddewig, a phroffwydoliaeth am ddwcheliad y Cenhedloedd dan deyrnasiad y Messia.

Adn. 1. *Duw a drugarhao wrthym*] Sef wrth yr eglwys Iuddewig yn gyffredinol; ac a'n bendithio—âg arwyddion eglurach o'i gymeradwyaeth a'i ras; a thywyned ei wyneb arnom—i oleuo, gwresogi, a dyddanu ein calonau. Y mae y geiriau hyn yn debyg i'r ffurf o fendith a arferid gynt gan yr archoffeiriad, Num. vi. 24—26.

Adn. 2. *Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear*] Sef ffordd gwirionedd a chrefydd; a'th iachawdwriaeth yn mhllith yr holl genhedloedd—tel yr ennill holl bobloedd y ddaear i goffeidio y gyfundrefn o ras, bywyd, ac iachawdwriaeth, yr hon a ddarperiaist ar gyfer dynolrwy syrhiedig.

Adn. 3. *Molianned y bobl di, O Dduw*] Am dy ddaioni a'th iachawdwriaeth; molianned yr holl bobl dydi—yn mhob man o'th lywodraeth. Tybia rhai fod y 'bobl,' yn y frawddeg flaenaf, yn golygu pobl Israel; ac, yn yr olaf, holl genhedloedd ereill y ddaear.

Adn. 4. *Llawnhäed y cenhedloedd, a byddant hyfryd*] Am dy drefn rasol i'w gwaredu oddiwrth eu heilunod a'u coelgrefydd, a'u dwyn i wybodaeth o honot dy hun a'th iachawdwriaeth: canys ti a ferni y bobl yn uniawn—yn ol egwyddion cyfiawnder a chrefydd; ac a lywodraethi y cenhedloedd ar y ddaear—Hebr., 'a'u harweini hwynt,' yn dyner a gofalus, fel yr arweinia bugail ei braidd, neu gadfridog ei fyddin. Selah—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 5. *Molianned y bobl di, &c.*] Gwel ar adn. 3. Wrth ystyried yr helaethrwydd o fendithion ysbrydol a thymhorol ag yr oedd y Cenhedloedd i'w derbyn, y mae efe drachefn a thrachefn yn galw ar bawb i fawrygu a moliannu Duw am y fath drugaredau.

Adn. 6. *Yna y ddaear a rydd ei ffwrth*] Ar ol i holl drigolion y ddaear gael eu dychwelyd at adoligaeth a gwasanaeth y gwir Dduw, efe

a symud ymaith y feldith wreiddiol i raddau pell oddiar y ddaear, ac a bair iddi gynrychlu beiaethrwydd o bob math o ffwrthau; a Duw, sef ein Duw ni, a'n bendithia—nid yn unig â ffwrthau y ddaear, ond â bendithion ysbrydol hefyd.

Adn. 7. *Duw a'n bendithia*] Yn ddiarnheudol a gwirioneddol; a holl derfynau y ddaear a'i hofnant ef—a'i haddolant ac a'i gwasanaethant ef wrth ei fodd. Cyfeiria hyn ond oddi at gyflwr dedwydd y milffwyddiant dan deyrnasiad y Messia.

SALM LXVIII. Y teitl yw, 'Pr penceerdd, Salm neu Gân Dafydd.' Meddylir yn gyffredin i'r Salm hon gael ei chyfansoddi gan Dafydd, i'w chanu ar symudiad yr arch o Ciriath-jearim i Jerusalem, neu o dŷ Obededom i'r babel a adeiladwyd iddi ar fynydd Seion; canys y mae yr adnod gyntaf o honi yn debyg i'r geiriau a ddefnyddiaid Moses gynt wrth gychwyn yr arch vn nheithiau Israel yn yr anialwch: gwel ar Num. x. 35. Ond gan y gwyddai Dafydd ei fod ef a'r arch yn gysgodau o Grist, a bod yr eglwys Iuddewig yn gysgod o'r eglwys Gristionogol, a'r gweinyddiaidau deddfol yn grsgod o'r gweinyddiaidau dan yr efengyl; yr oedd ef, mewn ysbryd proffwydoliaeth, yn edrych trwy y cysgodau hyn ar ddirgedigaethau mawrion adgyfodiad acesgyniad Crist, breintiau yreglwys Gristionogol, a dychweliad y Cenhedloedd; ac y mae yn dwn yn mlaen yn y Salm hon ymadroddion ag sydd yn cyfeirio yn uniongyrchol at y pethau hyn. Addeir yn gyffredin fod hon yn un o'r Salmau mwyaflanawdd i'w hesbonio yn yr holl lyfr; a geilw Simon de Muis hi yn 'boenydfa berniaid, a gwaradwydd esbonwyr.' 'Byddai cynyg unrhyw oleuni newydd arni yn beryglus,' ebai Clarke; 'a dywedyd yr hyn a ddywedwyd mor fynych, a fyddai yn anffodhaol. Cyfeirir yma at ddefodau nad wyf fi yn eu llawn ddeall; cynwysa ymadroddion nas gallaf fi sicrhau eu hystyr; a chyfeiriadau ag sydd i mi yn anegluradwy. Eto y mae genyf y dyb uwchaf am y cyfansoddiad ei hun; y mae yn aridunawl tuhwnt i bob cydmharu iaeth; y mae wedi ei gyflunio â medrusrwydd gwir ryfeddol; y mae yn meddu holl urddas yr iaith gysegredig; nid allasai neb ond Dafydd ei gyfansoddi; ac, yn y pelltra amser hwn, byddai yn ofynol cael cryn lawer o ddy-

2 Chweli hwynt fel chwalu mwg; fel y tawdd cŵyr wrth y tân, dyfether y rhai annuwiol o flaen Duw.

3 Ondllawenycher y rhai cyfiawn, a gorfoleddant gerbron Duw; a byddant hyfryd o lawenydd.

4 Cenwch i Dduw, canmolwch ei enw: dyrchefwch yr hwn sydd yn marchogaeth ar y nefoedd, a'i enw yn JAH, a gorfoleddwch ger ei fron ef.

5 Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon, yw Duw, yn ei breswylfa santaidd.

6 Duw sydd yn gosod yr unig mewn teulu; yn dwyn allan y rhai a rwymwyd mewn gefynau; ond y

rhai cyndyn a breswylant gras-dir-

7 Pan aethost, O Dduw, o flaen dy bobl, pan gerddaist trwy yr anialwch; Selah:

8 Y ddaear a grynnodd, a'r nefoedd a ddyferasant o flaen Duw: Sinai yntau a grynnodd o flaen Duw, sef Duw Israel.

9 Dyhidlaist wlaw graslawn, O Dduw, ar dy etifeddiaeth: ti a'i gwrteithiaist wedi ei blino.

10 Dy gynulleidfa di sydd yn trigo ynddi; yn dy ddaioni, O Dduw, yr wyt yn darpn i'r tylawd.

11 Yr Arglwydd a roddes y gair; mawr oedd mintai y rhai a'i preg-ethent.

lanwad yr Ysbyrd ag oedd arno ef, i roddi ei wir ystyr.'

Adn. 1. *Cyfoded Duw*] Fel Brenin galluog i ryfel; *gwaspwr ei elynion*—trwy nerth ei arfau ef; *a ffloed ei gaseion o'i flaen*—heb ynddant nerth i'w wrthsefyll ef. Cenid y geiriau hyn wrth i'r Lefaiad godi yr arch ar eu hysgwyddau: gwel ar Num. x. 35, 36.

Adn. 2. *Chweli hwynt fel chwalu mwg*] Gan wynt cryf, sef yn sydyn, effeithiol, ac andferadwy: *fel y tawdd cŵyr wrth y tân*—yr hwn cyn hyn y mddanghosai yn galed a chadarn; *dyfether y rhai annuwiol o flaen Duw*—sef gelynyon ei arch a'i grefydd, o flaen tân ei ddigofaint ef. Dylid deall y geiriau yn y tair adnod flaenaf fel proffwydoliaeth am yr hwn a fyddai, yn hytrach nag fel gweddi am iddo fod.

Adn. 3. *Ond llawenycher y rhai cyfiawn*] Dan amddiffyniad y presenoldeb dwyfol; *a gorfoleddant gerbron Duw*—yr hwn a breswyliait ar y drugareddfa, neu gaeaf yr arch, rhwng y cerubiaid; *a byddant hyfryd o lawenydd*—wrth nesáu ato i'w addoli ef.

Adn. 4. *Cenwch i Dduw*] Mewn salmnan, hymnau, ac odlau ysbrydol; *canmolwch ei enw*—am ei weithredoedd rhyfedd o blaid ei bobl, ac yn erbyn eu gelynyon hwy: *dyrchefwch yr hwn sydd yn marchogaeth ar y nefoedd*—gwel ar adn. 33; neu 'trwy yr anialwch,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu, gan ei ddeall fel yn cyfeirio at arhosiad y Secina ar gaeaf yr arch yn yr anialwch, neu ei ymdeithiad o flaen ei bobl yn y golofn niwl. Nen, 'yr hwn sydd yn marchogaeth yn awr fel yn yr anialwch;' hynny yw, yr hwn y mae ei arch, gyda'r hon y mae yn bresenol, yn cael ei chario yn awr o le i le, fel yr oedd yn yr anialwch. *A'i enw yn Jah*—talfyriad o'r enw JEHOFA, yn arwyddo yr 'Hunan-fodol.' *A gorfoleddwch ger ei fron ef*—sef gerbron yr arch, ar yr hon y mae yn preswyllo.

Adn. 5. *Tad yr amddifaid*] I ofalu am eu holl reidiant hwy; *a Barnwr y gweddwon*—i'w hamddiffyn hwythau rhag cam, ac i ddial ar eu gorthrymwr; *yw Duw, yn ei breswylfa*

santaidd—yn y babell, neu yn hytrach yn y nefoedd.

Adn. 6. *Duw sydd yn gosod yr unig mewn teulu*] Yn ei fendithio â chydmar bywyd, ac â phlant; *yn dwyn allan y rhai a rwymwyd mewn gefynau*—neu yn rhyddhau y caethion: *ond y rhai cyndyn a breswylant gras-dir*—a amddifadir o bob gwir gysur, neu a finir ág amrai dralodau. Fe allai fod yma gyfeiriad at waredigaeth Israel o'r Aifst, a'r gosp a ddisgynnodd ar yr Aifstiaid.

Adn. 7. *Pan aethost, O Dduw, o flaen dy bobl*] Yn eu teithiau trwy yr anialwch; *pan gerddaist trwy yr anialwch*—vn y golofn niwl a thân. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2

Adn. 8. *Y ddaear a grynnodd*] Naill ai trigolion y parthau hynny o'r ddaear, yn ol Exod. xv. 14—16; neu ynte y ddaear ei hun, Salm cxiv. 4—7; *a'r nefoedd a ddyferasant o flaen Duw*—gawodydd mawrion o wlaw a chenllusg: *Sinai yntau a grynnodd o flaen Duw*—er cryfedyd doedd: gwel ar Exod. xix. 18.

Adn. 9. *Dyhidlaist wlaw graslawn, O Dduw, ar dy etifeddiaeth*] Sef ar wlad Canaan, fel ei deallir gan rai; *ti a'i gwrteithiaist wedi ei blino*—trwy fwydo y ddaear â chawodydd maethlon, ar ol iddi fod yn svch a diffwrth. Ond tybia Chandler, Clarke, ac ereill, mai cyfeiriad svdd yma at wlawio manna a chig i'w bobl Israel yn yr anialwch: gwel Salm lxxviii. 24, 27.

Adn. 10. *Dy gynulleidfa di sydd yn trigo ynddi*] Sef Israel yn ngwlad Canaan, yr etifeddiaeth a grybwyllwyd uchod; *yn dy ddaioni, O Dduw, yr wyt yn darpn i'r tylawd*—ar gyfer eisiau tymhorol ac ysbrydol dy bobl angbenus. Ond yn lle 'dy gynulleidfa,' y mae yr hen gyfieithiadau yn darllen, 'dy greaduriaid byw sydd yn trigo ynddi;' yr hyn a ddeallir gan rai am y *soffleir* ag oedd ynt yn ehedeg mewn amledd oddeutu y gwersyll yn yr anialwch.

Adn. 11. *Yr Arglwydd a roddes y gair*] Sef y gorchymyn i Israel fyned yn erbyn eu gelynyon, neu fyned rhagddynt yn eu teithiau yn ddiystyr o'u gelynyon; neu, yn hytrach, yr

12 Brenhinoedd byddiog a ffoisant ar ffrwst: a'r hon a drigodd yn tŷ, a ranodd yr yspail.

13 Er gorwedd o honoch yn mysg y crochanau, *byddwch fel esgyll colomen wedi ei gwisgo âg arian, a'i hadenydd âg aur melyn.*

14 Pan wasgarodd yr Hollalluog frenhinoedd ynddi, yr oedd hi yn wên fel eira yn Salmon.

15 Mynydd Duw *sydd fel myn-*

ydd Basan; yn fynydd cribog *fel mynydd Basan.*

16 Paham y llemwch, chwi fynyddoedd cribog? *dyma y mynydd a chwennychodd Duw ei breswyllo; ie, preswylia yr Arglwydd ynddo byth.*

17 Cerbydau Duw *ydnyt* ugain mil, *sef* miloedd o angylion: yr Arglwydd *sydd* yn eu plith *megys* yn Sinai yn y cysegr.

Arglwydd a roddes y gân fuddugol yn eu genau hwynt. *Mawr oedd mintai y rhai a'i pregethent*—Hebr., 'mawr oedd mintai y *pregeth-uragedd*.' Meddylir fod yma gyfeiriad at y *benyced* a gyhoeddent fuddugoliaethau plant Israel ar eu gelynion, ac a glodforent am yr unrhyw mewn cynganedd, cerddoriaeth, a dawnsiau. I'r gwragedd y perthyn cyhoeddi *newyddion da* yn y gwledydd llyn y hyd heddyw: gwel ar Esay xl. 9.

Adn. 12. *Brenhinoedd byddiog a ffoisant ar ffrwst*] Sef Jabin, a brehinoedd y Czanaeaid, y rhai a unasant eu byddinoedd i lethu yr Israeliaid; *a'r hon a drigodd yn tŷ, a ranodd yr yspail*—yr oedd yr yspail mor fawr, fel yr oedd digon nid yn unig i'r rhai a'i cymerasant, ond helyd i'w ranu rhwng eu gwragedd a'u plant ar ol iddynt ddyfod adref. Ar ol gorchfygu y Midaniaid, gorchymynodd Duw i'r yspail a gymerwyd oddiarnyt gael ei rhanu rhwng y rhyfelwyr a aethent i'r filwriaeth, a'r rhai a cyfeiriodd yn eu pebyll, Num. xxxi. 27; ac felly yr oedd hyn yn rhan o gân y llancesan, fod y gwragedd, y rhai a edrychent ar ol achosion eu teuluoedd gartref, yn cael eu cyfoethogi â rhan o yspail y gelynion.

Adn. 13. *Er gorwedd o honoch yn mysg y crochanau*] Neu yn mysg y *ffurneisiau* yn yr Aifft fel caethweision, heb fawr o lewyrch arnoch; *byddwch fel esgyll colomen*—yn brydferth a gogoneddus fel plu y golomen, y rhai, wrth iddi aros dan belydr yr haul, a ymddangosant yn ddysglaer ac amryliw fel arian neu aur. Efe a gyfeiriaid ond odid at gyflwr plant Israel ar ol iddynt gael meddiant o yspail y Midaniaid, sef o'u gwisgoedd, eu pebyll, a'u trysoran; neu ynte at eu sefyllfa ddedwydd hwy yn Nghanaan. Y mae llawer o ystyron ereill yn cael eu rhoddi i'r geirian dan sylw, ond ymddengys i mi mai yr un uchod yw y mwyaf naturiol.

Adn. 14. *Pan wasgarodd yr Hollalluog frenhinoedd ynddi*] Sef yn Nghanaan, ar ddyfodiad plant Israel iddi; *yr oedd hi yn wên fel eira yn Salmon*—mor bur a glân odidwrth dralodau, eilunaddoliaeth, a phechodau ysgeler, ag yw yr eira yn bur a glân ar gopa Salmon, yr hwn oedd fynydd uchel yn agos i Sichem, Barn. ix. 48. Ond yn lle *Salmon*, myn rhai ei gyfieithu 'tywyllwch' neu 'gysgod': 'Efe a'i gwnaeth yn wên fel yr eira mewn tywyllwch.' Hyny yw, pan yr oedd cyflwr gwlad Canaan yn ddû a thralodus trwy ryfeloedd gwaedlyd y brenhinoedd ynddi,

darfu i Dduw beri cyfnewidiad ebrwydd ynddi, trwy ei choethi a'i pluri fel eira.

Adn. 15. *Mynydd Duw*] Sef Seion, eistedd-le arch Duw; *sydd fel mynydd Basan*—yn gyffelyb iddo, ie, yn rhagori yn fawr arno. Yr oedd Basan, tuhwnt i'r Iorddonen, yn fynydd enwog a frwythlon; ond yr oedd gan fynydd Seion fanteision mwy, ac yr oedd yn cynrychu gwell frwythau. *Yn fynydd cribog*—neu uchel, *fel mynydd Basan*—er nad oedd mynydd Seion ond un bychan o'i gydmaru â Basan; eto yr oedd yn llawer uwch ar gyfrif ei fanteision ysbrydol, fel lle adoliaid, gogoniant, a phresenoldeb Duw. Yn yr ystyr yma yr oedd 'mynydd tŷ' yr Arglwydd wedi ei barotoi yn mben y mynyddoedd, ac yn ddyrchafedig goruwch y bryniau; Esay ii. 2. Meddylir fod yr adnodau hyn yn cael eu canu ar ddyfodiad yr arch at droed mynydd Seion, neu wrth iddynt ddechreu ei ddringo.

Adn. 16. *Paham y llemwch, chwi fynyddoedd cribog?*] Paham yr ymorfoleddwch, neu yr ymfrostiwrch yn eich uwchder a'ch mawredd, gan edrych fel yn ddirmygu ar fynydd Seion, yr hwn sydd yn is na chwi? *Dyma y mynydd a chwennychodd Duw ei breswyllo*—yn hytrach nag un o honoch chwi. *Ie, preswylia yr Arglwydd ynddo byth*—hyd ddiwedd yr hen oruchwyliaeth, neu hyd oni byddo i' Dduw ymddangos yn y cnawd.' Er i'r arch a'r drugareddfa, ar yr hon y preswylia y Secina dwyfol, neu yr arwydd gogoneddus o bresenoldeb Duw, gael ei symud wedi hyn i fynydd Moriah, ar ba un yr adeiladwyd y denil; eto yr oedd Seion a Moriah yn ymyl eu gilydd, fel dau gopa, ar yr un mynydd, ac ill dau yn Jerusalem; ac ni symudwyd yr arch oddiyno mwyach i gyrchu ati mewn lle arall, fel y gwneid yn fynych cyn hyn.

Adn. 17. *Cerbydau Duw ydynt ugain mil*] Yma dysgrifir Duw fel brenin buddugol yn dyfod i'w lws i gymeryd meddiant o'i orsedd, gyda llu mawr o cerbydau a gwŷr meirch yn osgordd iddo. Wrth ddywedyd 'ugain mil,' gosodir rhif penodol am un antahenodol; neu gellir cyfieithu y wreiddiol, ebai Clarke, 'Cerbydan Duw ydynt *ddwy fyrddiwn o filoedd ddwywaith*,' yr hyn a wna ddeugain miliwn. *Sef miloedd o angylion*—fel pe dywedasai, Na foed i'r cenedloedd ymfrostio yn nifer eu byddinoedd, neu yn lluosogrydd eu cerbydau, yn y rhai yn benaf y mae eu nerth hwy yn gynywsegid; canys y mae yn Seion fwy o ddeng mil o weithian, sef lluoedd aneirif o

18 Dyrchefaisti'r uchelder, caethgludaist gaethiwed: derbyniaist roddion i ddyinion; i.e., i'r rhai cyn-dyn hefyd, fel y preswyliaid yr Arglwydd Dduw yn eu plith.

angylion, y rhai sydd gyda Duw i wneyd ei ewylllys, ac i ymladd drosto ef a'i bobl. Yr Arglwydd sydd yn eu plith megys yn Sinai yn y cysegr—neu 'yn eu plith yn y cysegr, megys yn Sinai.' Y meddwl yw, fod JEOFA ei hun yn nghanol yr osgordd luosog hon o angylion, yn dyfod i mewn gyda'r arch i'w gysegr ar fynydd Seion, fel y disgynodd gynt ar fynydd Sinai.

Adn. 18. *Dyrchefaist i'r uchelder*] Ar ol iddnt ddwyn yr arch i ben mynydd Seion, a'i gosod yn y babel a benodwyd iddi, meddylir i'r cantorion ganu y rhan yma o'r Salm i anrhydeddu esgyniad eu Duw a'u Brenin i ben mynydd Seion, ar ol iddo orchfygu eu gelynion, a chyfoethogi ei bobl âg yspail y rhai gorchfygedig, ac â rhoddion y cenhedloedd a osodesid dan ddyrnedd iddynt; o ba rai yn debygol y defnyddid cryn lawer yn ngwasanaeth y babel, ac wedi hyny i adeiladu y deml, yr hon a fwriadwyd gyntaf gan Dafydd, fel y preswyliaid yr Arglwydd Dduw yn eu plith. Ond er y gallai fod Dafydd, wrth gyfansoddi y Salm hon i'w chanu ar yr achlysur hwnw, yn cyfeirio at ddyrchafiad yr arch i ben mynydd Seion; eto y mae yn amlwg fod ei ymadroddion ef yn rhy gryfion ac arddunawl i gael eu cyfyngu at yr amgylleliad hwnw yn unig, neu i fod yn cyfeirio yn mlaenaf ato. Ymddengys ei fod yn llefaru yn benaf am ddygywyddiad arall llawer mwy pwysig, yr hwn a gysgodid yn wir yn symudiad yr arch, ac yn y manteision a ddeuent i'r bobl trwy hyny, sef am esgyniad ein Cyfryngwr i'r nefoedd ar ol ei fuddugoliaeth ar ei elynion ef a'ninau, yr hon a ennillodd efe trwy ei farwolaeth a'i adgyfodiad. Ac yn yr ystyr yma y cymhwysir y geiriau hyn gan yr apostol, yr hwn, gan ei fod dan ar ymdebydd yn un Ysbryd ag a gynhyrfai y Salmwydd i'w hysgrifenu, nis gallai gamgymeryd eu hystyr: gwel ar Eph. iv. 8. Rhaid addef modd bynag ei fod ef, ar ol bod yn son am fuddugoliaethau rhyfel, yn bentyca iaith tywysogion a chadfridogion milwraidd, y rhai, ar ol gorchfygu eu gelynyon, a arferent fyned i fyny i'w dinasoedd brenhinol mewn cerbydau buddugol, yn cael eu dilyn gan eu gelynyon gorchfygedig mewn cadwynau, ac wedi hyny a ranent amrywiol roddion i'w milwyr a'u deiliaid, gan d dangos weithiau ryw ffafrau hyd yn nod i'w gelynyon gwrthryfelgar, a'u derbyn i blith eu pobl eu hunain. Mewn cyfeiriad at hyn efe a arddengys Dywysog buddugol ein hiachawdwriaeth ni fel yn *dyrchofu i'r uchelder*—neu yn esgyn i'w ddinas frenhinol y nef, gan arwain ei elynion yn gaethion rhyfel, a chyfrannu y rhoddion a'r ffafrau gwerthfawrocaf i'w ddeiliaid, ac hyd yn nod i'r rhai a fuont yn wrthryfelwyr yn erbyn ei lywodraeth ef. *Caethgludaist gaethiwed*—neu 'caethgludaist rai wedi eu caethiwo,' yn ol arferiad gorchfyg-

19 Bendigedig fyddo yr Arglwydd, yr hwn a'n llywtha beunydd â daioni; sef Duw ein hiachawdwriaeth. Selah.

20 Ein Duw ni sydd Dduw iach-

wyr, y rhai a rwyment frenhinoedd a chadfridogion gorchfygedig wrth eu cerbydan, ac a gadwynent y naill wrth y llall, i'r dyben i ardderchogi y gorffoeddiad. Yma y meddylir diafol, pechod, uffern, a marwolaeth, a holl elynion ereill Crist a'i bobl, y rhai a faeddwyd gan ein Gwaredwr buddugol: gwel ar Col. ii. 15. *Derbyniaist roddion i ddyinion*—neu 'rhoddaist roddion,' Eph. iv. 8. Dywedir hyn mewn cyfeiriad at arferiad gorchfygwyr o dafu arian a dderbyniasent i'r perwyl hwnw, i blith y dyrfa. Y mae rhai yn ei gyfieithu, 'Derbyniaist roddion MEWN DYN,' hyny yw, yn y natur ddydol. Y rhoddion a dderbyuodd ein Cyfryngwr fel hyn oeddynt rasau a bendithion achubol, yn nghyda doniau yr Ysbryd Glân i gymhwyso dnyon i waith y weinidogaeth, (Eph. iv. 11, 12,) y rhai a roddodd efe yn helaeth ar ddydd y pentecost. *Ie, i'r rhai cyndyn hefyd*—sef y rhai a faont yn codi arfaug gwrthryfelgar yn ei erbyn ef, ac a drochasant eu dwylaw yn ei waed. O rai o'r fath yma, wedi eu dychwelyd trwy nerth yr efengyl, y flurfwyr yr eglwsi Cristionogol cyntaf, 'gan ddechreu yn Jerusalem.' *Fel y preswyliaid yr Arglwydd Dduw yn eu plith*—tel, wedi eu gwneuthur yn breswylfod addas i Dduw, y deuai efe i breswyllo yn eu plith, nid yn unig trwy ei ordinhadau, ond hefyd trwy ei Ysbryd yn trigo yn eu calonau. Y mae yma gyfeiriad at y gorchfygwyr yn gosod ei driga yn y taleithiau gorchfygedig, gan ddarostwng y bobl yno dan ei lywodraeth ei hun.

Adn. 19. *Bendigedig fyddo yr Arglwydd*] Ar ol bod yn syllu ar weithredoedd gras a thrugaredd Duw i'w bobl, y mae Dafydd yn teimlo y fath ddiolchgarwch yn ei enaid nes y mae yn tori allan ar unwaith i fendithio a molianu Duw am danynt. Yr hwn a'n llywtha beunydd â daioni—yr hwn, yn chwanagerol at y fendith fawr o brynedigaeth trwy Grist, yr hon a rodded unwaith am byth i ni, sydd bob dydd o'n bywyd yn estyn i ni ryw fendithion o'r newydd, yn dymhorol ac ysbrydol. Y mae daioni Duw i ni mor fawr a phwysig, fel ag y gellir dywedyd ei fod yn ein llywtho âg ef; y mae mor aml a dior-phwys, fel ag y gellir dywedyd ei fod yn ein llywtho beunydd âg ef; i.e., bob dydd a nos. Ond trwy nad yw 'â daioni' yn y wreiddiol, myn rhai ei gyfieithu, 'Yr hwn a'n cynorthwya beunydd;' a *Boothroyd* a gyfieitha yr holl adnod fel hyn, 'Bendigedig fyddo Jehofa o ddydd i ddydd! Pan ein gorthymir, y Duw hwn yw ein hiachawdwriaeth.' Selah—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 20. *Ein Duw ni sydd Dduw iachawdwriaeth*] Y mae yn estyn i ni yn barhaus waredigaethau tymhorol, ac y mae hefyd yn 'Awdwr iachawdwriaeth dragwyddol i'r rhai oll a ufyddhant iddo,' Heb. v. 9; ac i'r Ar-

awdwriaeth; ac i'r Arglwydd Duw y perthyn diangfâau rhag marwolaeth.

21 Duw yn ddiau a archolla ben ei elynion; a chopa walltog yr hwn a rodio rhagddo yn ei gamweddau.

22 Dywedodd yr Arglwydd, Dygaf fy mhobl drachefn o Basan, dygaf hwynt drachefn o ddyfnder y môr:

23 Fel y trocher dy droed yn ngwaed dy elynion, a thafod dy gŵn yn yr unrhyw.

24 Gwelsant dy fynediad, O

glwydd Duw y perthyn diangfâau rhag marwolaeth—naturiol, ysbrydol, a thragwyddol. Efe sydd yn rhoddi diangfa i ni rhag marwolaeth naturiol, pan y byddom mewn peryglon neu glefydau; rhag marwolaeth ysbrydol a thragwyddol, trwy ein gwaredu oddiwrth ein pechodau; ac ef hefyd a gyfyd ein cyrff o afaelion marwolaeth yn y dydd diweddafn.

Adn. 21. *Duw yn ddiau a archolla ben ei elynion*] 'Y rhai ni fyant iddo ef deyrnasu arnynt,' Inc xix. 27; a chopa walltog yr hwn a rodio rhagddo yn ei gamweddau—heb edif- arhau am danynt, na'u gadael. Wrth 'gopa walltog' y meddylir coryn y pen, yn arwyddo yma eisteddle nerth, gogoniant, a balchder y gelyn. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at hen arferiad yn mllith rhyfelwyr, y rhai a wisgent eu gwallt yn hir ac vsygtbrog, fel y byddai i'r olwg arnynt fod yn ddychryn i'w gelynyon. Y mae yr adnod hon yn ddechred y rhagfynegiad o'r dialedd hwnw a weinyddai yr hwn a 'ddyrchafodd i'r uchelder' ar ei elynion anedifeiriol, yr hyn a gysgodd i'w ainystyr gelynyon Israel gan Dafydd ar ol i'r arch gael ei gosod ar fynydd Seion.

Adn. 22. *Dygaf fy mhobl drachefn o Basan*] Ail duanghosaf i'm pobl fy hen dwareddau, a rhoddaf iddynt, trwy law Dafydd, waredigaethau mor fawr ag a roddais iddynt gynt pan y gwaredais hwynt o law Og brenin Basan, Deut. iii. 1, &c. *Dygaf hwynt drachefn o ddyfnder y môr*—ymddanghosaf mor gryf ac eglur o'u plaid, a phan yn hollti y môr coch i'w gwaredu o law yr Aiftiaid.

Adn. 23. *Fel y trocher dy droed yn ngwaed dy elynion*] Yr hwn a dywelltir o'th flaen; a thafod dy gŵn yn yr unrhyw—y meddwl yw, y byddai dinystr eu gelynyon mor fawr, fel y byddai i Israel sathru ar eu celaneddau, a'u cŵn lyfu eu gwaed. Y mae y geiriau yn arwyddo y caent fuddugoliaeth gyflawn arnynt, ac yn ddarluniad o'r hwn a ddygwydda yn fynyeb ar ol rhyfel waedlyd.

Adn. 24. *Gwelsant dy fynediad, O Duw*] Sef mynediad yr arch i'r babel ar fynydd Seion, yr hon oedd yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol; *mynediad fy Nuw, fy Mrenin*—efe a'i hailadrodda, am fod yr ymorfoleddiad buddugol hwn yn un mor bwysig, ac ar achlysur mor ogoneddus, pryd yr oedd y Goruchaf yn cymeryd meddiant o Seion fel Brenin. *Yn y*

Dduw; mynediad fy Nuw, fy Mrenin, yn y cysegr.

25 Y cantorion aethant o'r blaen, a'r cerddorion ar ol; yn eu mysg yr oedd y llancesau yn canu tympanau.

26 Bendithiwech Dduw yn y cynulleidfaoedd, sef yr Arglwydd, y rhai ydych o ffynnon Israel.

27 Yno y mae Benjamin fychan a'u llywydd, tywysogion Juda a'u cynulleidfa; tywysogion Zabulon, a thywysogion Naphtali.

cysegr—neu 'mewn santeiddrwydd,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu; canys nid oedd yr orymdaith hŏno yn un gyffredin neu gnawdol, eithr yn un bwysig a santaidd. Neu 'yr cysegr,' fel y gellir ei gyfieithu, sef i'r babel santaidd a barotoisid i'r arch.

Adn. 25. *Y cantorion a aethant o'r blaen*] O flaen yr arch, sef y rhai a ganent a'u tafodau; a'r cerddorion ar ol—y rhai a chwarent ag offer cerdd: yn eu mysg yr oedd y llancesau yn canu tympanau—yr oedd pawb yn cymeryd rhan yn y gynganedd orfoleddus er gogoniant i Dduw: gwel ar Salm xxiv. Fe allai fod y geiriau hyn, yn eu cyfeiriad at ES- OYNIAD ein Hluchawdr, yn arwyddo y llawenydd a'r gorledd a ddangosid gan bob gradd o angylion a saint ar yr achlysur hwnw, y rhai a aethant allan i gyfarfod ag ef ar ei ddychweliad adref o'r ddaear, i'w arwain fel Brenin buddugol i'w deyrnas a'i ogoniant. Y cantorion, sef yr angylion santaidd y rhai a gadwasant eu dechread, a aethant o'r blaen, heb ymddibynu ar waed Crist am dderbyniad i'r nef; a'r cerddorion a'r llancesau, sef y gwaredigion o blith dynolryw, y rhai a chwarent eu telynau aur mewn mawl am eu prynu a'u golchi, a aethant ar ol, gan adael i'w Prynwr fyned i mewn yn gyntaf, am mai trwy rinwedd ei waed ef yr oeddynt hwy yn cael derbyniad i'r nef. Canai y rhai blaenaf fawl i'r Cytirnyngwr fel eu *Crawdwr* a'u *Brenin*, wrth fyned i mewn trwy y pyrth na chausid erioed yn eu herbyn hwy; a chanai y rhai olaf fawl iddo fel eu *Prynwr* a'u *Gwaredwr*, ac aent i mewn ar ei ol ef trwy y pyrth a agorwyd iddynt hwy trwy ei waed.

Adn. 26. *Bendithiwech Dduw yn y cynulleidfaoedd*] Y rhai oeddynt wedi ymgynull yn nghyd ar yr achlysur o ddygiad yr arch i Seion, neu yn nghynulleidfaoedd Israel pan ddenent yno i addoli o dro i dro; sef yr Arglwydd—yr hwn yw Arglwydd a Brenin mawr nef a daear; y rhai ydych o ffynnon Israel—wedi tardu o lwynau Israel neu Jacob. Ond gan nad yw 'y rhai ydych' yn y wreiddiol, tybia rhai mai am yr Arglwydd Iesu y dywedir hyn, yr hwn oedd o ffynnon neu gŷff Israel o ran y cnawd.

Adn. 27. *Yno y mae Benjamin fychan*] Yn bresenol ar ddygiad yr arch i Seion. Gelwir y llwyth hwn yn 'fychan,' am ei fod wedi deilliaw oddiwrth fab ieuangaf Israel neu

28 Dy Dduw a orchymynodd dy nerth: cadarnha, O Dduw, yr hyn a wnaethost ynom ni.

29 Brenhinoedd a ddygant i ti arnheg er mwyn dy deml yn Jerusalem.

30 Cerydda dyrfa y gwaewffyn, cynulleidfa y gwrrd-deirw, gyda lloi y bobl, fel y delont yn ostyng-

edig â darnau arian: gwasgar y bobl sydd dda ganddynt ryfel.

31 Pendefigion a ddeuant o'r Aifft; Ethiopia a estyn ei dwylaw yn brysur at Dduw.

32 Teyrnasoedd y ddaear, cenwch i Dduw; canmolwch yr Arglwydd, Selah:

33 Yr hwn a ferchyg ar nef y

Jacob; ac am ei fod yn fychan o rifedi, trwy iddo gael ei leihau, ac agos ei ddi-ddymu, trwy y rhyfel a'r llwythau ereill yn Gibeah, Barn-xx. *A'u llwydd*—neu benaeth eu llwyth, yr hwn ond odid a gerddai o'u blaen hwynt yn yr orymdaith. Yn y wreiddiol gelwir Benjamin fychan yn *llwydd* y llwythau, am mai o'r llwyth hwn yr hânai Saul, brenin cyntaf Israel, cyn i'r deyrnwialen gael ei rhoddi i Dafydd, yr hwn oedd o lwyth Juda. Yr oedd presenoldeb y llwyth hwn yn yr orymdaith yn brawf fod pob gwrthlwynebiad i Dafydd oddiwrth dŷ Saul wedi darfod. *Tywysogion Juda a'u cynulleidfa*—neu eu 'cynghor,' canys llwyth Juda oedd brif gynorthwy yr holl genedl yn y llys ac ar y maes: ac y mae Dafydd yn enwi eu 'tywysogion' hwy, am mai lwy a'i dewisant ef i fod yn frenin ar ynt, 2 Sam. ii. 4, 7. *Tywysogion Zabulon, a thywysogion Naphtali*—o'r holl ddeuddeg llwyth ag oeddynt bresenol ar ddygiad yr arch i fynydd Seion, ni elhrybwyllir ond pedwar, sef *Benjamin a Juda*, y rhai a drigent agosaf at ddinas Dafydd; a *Zabulon a Naphtali*, y rhai oeddynt bellaf oddiwrthi: ac efe a enwa y rhai hyn, i ddangos unfrydedd yr holl genedl, a'r holl lwythau yn mhell ac agos, ar yr achlysur hwn; a'u bewyllysgarwch i gydnabod Dafydd fel eu brenin, a dinas Dafydd, sef Jerusalem, fel cartrefle eu llywodraeth a'u crefydd.

Adn. 28. *Dy Dduw a orchymynodd dy nerth* Neu a roddodd i ti, O Israel, nerth i orchfygu dy elynion, yr hwn a gynyddodd yn fawr trwy ymuniad yr holl lwythau dan un brenin. *Cadarnha, O Dduw, yr hyn a wnaethost ynom ni*—cadarnha undeb y genedl dan Dafydd ein brenin, llwyddia y wir grefydd yn ein plith, a chwanea at ein bendithion tymhorol ac ysbrydol.

Adn. 29. *Brenhinoedd a ddygant i ti arnheg* Yr hyn a wnaed mewn rhan dan deyrnasiad Solomon, Hezechial, a brenhinoedd ereill; *er mwyn dy deml yn Jerusalem*—sef at ei gwasanaeth hi. Meddylir fod hyn hefyd yn broffwydoliaeth am ddychweliad brenhinoedd y ddaear at Dduw, neu i'r eglwys Gristionogol, yn y dyddiau diweddaf.

Adn. 30. *Cerydda dyrfa y gwaewffyn* Y rhai a ddeuant i ryfel yn erbyn meibion Israel; neu, fel y mae ar ymyl y ddalen, ac fel y gellir cyfeithu y wreiddiol, 'Cerydda fwystrfilod y cyrs.' Tybia Poole, Lowth, Chandler, Horne, ac ereill, fod yma gyfeiriad at *allu* yr Aifft, yr hwn a osodid allan trwy yr arwyddluniau o *grocodil* a'r *hippopotamus*, y rhai a drigent yn mhllith cyrs yr aton Nilus. Ond trwy nad oedd Dafydd yn awr yn cael ei fygwth gan yr Aifft-

iaid, tybia Patrick mai at y Syriaid, a Hadad-ezer brenin Zobah, y cyfeirir, 2 Sam. viii. 3. *Cynulleidfa y gwrrd-deirw*—sef rhyw elynion cryfion a pheryglus fel teirw. *Gyda lloi y bobl*—sef gelysion afreolus fel lloi ieuainc, y rhai a redent yn ddilywodraeth ar y maes. *Fel y delont yn ostyngedig â darnau arian*—mewn ffordd o deyraged, ac yn arwydd o ymostyngiad, i lywodraeth Dafydd. *Gwasgar y bobl sydd dda ganddynt ryfel*—fel na allont ei chario allan yn erbyn dy bobl Israel. Yn unol â hyn alleirir yr holl adnod, 'Dystyrwia y tywysog ffyrnig, yr hwn fel bwystfil o'r goedwig sydd yn dyfod yn ein herbyn ni, gyda nifer mawr o swyddogion milwraidd mor wyllt a theirw, ac o filwyr haerllng mor allywodraethus a lloi.' Ond y mae rhai yn meddwl mai gwrthdychau addoliad yr Aifftiaid a feddylir yma wrth *loi y bobl*, megys yr *apis*, yr *osiris*, &c., o amgylch pa rai yr oedd 'cynulleidfa y gwrrd-deirw' yn ymgasglu i'w haddoli.

Adn. 31. *Pendefigion a ddeuant o'r Aifft* Nid i ryfela mwyach, ond i addoli y gwir Dduw; *Ethiopia a estyn ei dwylaw yn brysur at Dauw*—i ymbeddychu âg ef, neu i weddio arno. Er na enwir yma ond yr Aifftiaid a'r Ethiopiadaid, y rhai oeddynt yn eithun addolwyr hynod, ac yn hen elynion i Dduw a'i eglwys, eto cynwysir ynddynt yr holl genhedloedd ereillo gyfelyb weddnod. Calodd y geiriau hyn eu cyflawni yn llythyrenol yn auster Solomon, pryd yr ymgynghreiriodd yr Aifft âg ef trwy ei briad a merch Pharao; a hefyd pryd y daeth brenhines Seba i Jerusalem i glywed doethineb Solomon. Cyflawnwyd hwynt hefyd ar ddydd y pentecost, pryd yr oedd yn Jerusalem ddyethriaid o'r Aifft, Act. ii. 10; ac yn nychweliad yr eunuch galluog o Ethiopia, Act. viii. 27. A chyflawnir hwynt eto yn llawnach yn y dyddiau diweddaf, pryd y bydd holl deyrnasoedd y ddaear wedi dyfod yn eiddo ein Harglwydd ni.

Adn. 32. *Teyrnasoedd y ddaear* Sef holl genhedloedd y byd; *cenwch i Dduw*—rhoddwch fawl, addoliad, a gogoniant i'r gwir Dduw, ac nid i'ch gau-dduwiau eich hunain: *canmolwch yr Arglwydd*—sef JEHOWA yn unig, yr hwn a wnaeth y fath bethau mawrion eroch yn dymhorol ac ysbrydol. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 33. *Yr hwn a ferchyg ar nef y nef-oedd* Yr hwn sydd â'i llywodraeth yn cyraedd allan yn unig dros yr holl ddaear, ond hefyd dros y nef serenog, a thros nef y gogoniant. Efe sydd yn llywodraethu yr haul, y loer, a'r ser, gan eu harwain a'u rheoli yn ol ei ewylls

nefoedd, *y rhai oedd erioed*: wele efe yn anfon ei lef, a hōno yn llef nerthol.

34 Rhoddwch i Dduw gadernid: ei oruchelder *sydd* ar Israel, a'i nerth yn yr ŵybrenau.

35 Ōfnadwy *wyt*, O Dduw, o'th gysegr: Duw Israel *yw* efe sydd yn rhoddi nerth a chadernid i'r bobl. Bendigedig *fyddo* Duw.

ei hun, fel yr arweinia marchog ei farch â ffrwyn. *Y rhai oedd erioed*—neu o ddechred â greadigaeth, Gen. i. 1. *Wele efe yn anfon ei lef*—gelwir y daran yn fynych yn yr ysgrthyrau yn 'llef Duw,' yr hon sydd yn fwy nerthol o lawer yn y gwledydd dwyreiniol, ac mewn hinsoddau poethion, na chydā ni. Ond tybia rhai mai pregethiad yr efengyl a olygir yma, yr hyn a allai gael ei alw yn 'llef nerthol,' o herwydd ei effeithiau grymus a hynod yn nychweliad brenhinoedd a theyrnasoedd y ddaear.

Adn. 34. *Rhoddwch i Dduw gadernid* | Hyn yw, addefwch a chydabyddwch ei gadernid ef: *ei oruchelder sydd ar Israel*—sef mawredd brenhinol Duw, neu oruchelder ei gadernid i'w hamddiffyn hwy; *a'i nerth yn yr ŵybrenau*—fel y gall oddiyno anfon cynllorth iddynt, trwy fellt, taranau, a chenuslusg.

Adn. 35. *Ōfnadwy wyt, O Dduw, o'th gysegr* | Saes, 'o'th gysegroedd;' o'r nefoedd, ac o'th babell ar y ddaear. Y mae Duw yn ofnadwy yn ei weithredoedd nerthol, y rhai a weinyddir ganddo o'i gysegr er dychryn i'w elynion, neu er cysur i'w bobl; neu, efe a haedda gael ei ofni a'i barchu yn ei gysegr. *Duw Israel yw* efe—sef Duw mewn cyfammod âg Israel; *yn rhoddi nerth a chadernid i'r bobl*—er mor weiniaid ydynt ynddynt eu hunain i wynebu eu gelynyon. *Bendigedig fyddo Duw*—am ei holl ddaion i'w bobl; a dywedded nefoedd a daear, 'Amen!' Y mae yr Arabaeg yn chwaneu yma, 'Haleliwia!'

SALM LXIX. Y teitl yw, '*I'r pencerdd ar Sosannim, Salm Dafydd.*' Am ystyr y gair *sosannim*, gwel deitl Salm xlv. Ymddengys i Dafydd gyfansoddi y Salm hon pryd yr oedd efe mewn rhyw dralloed mawr; ond oddiwrth ba achos, nid yw yn hawdd penderfynu. Tybia yr Esgob Patrick mai pan yr oinai y dyfethid ef ryw ddydd trwy law Saul (1 Sam. xxvii. 1) yr ysgrifennodd efe hi; a darfod iddo ei hail gymhwysu drachefn yn amser ei gyfyngder trwy wrthyfel A bsalom, pryd y tybia yr Esgob dysgedig iddo chwaneu ati adn. 35, am gariad Duw at Seion, yr hon nid oedd yn meddiant Israel hyd wedi dyddiau Saul. Ymddengys fod rhacau o'r Salm hon yn cyfeirio at ddyoddefaint ac adgyfodiad ein Harglwydd, galwad y Cenhedloedd, sefydliad yr eglwys Gristionogol, a gwrthodiad yr Iuddeon. Rhaid addef fod Dafydd yn gysgod o

SALM LXIX.

A CHUB fi, O Dduw; canys y dyfr-oedd a ddaethant i mewn hyd at fy enaid.

2 Soddais mewn tom dwfn, lle nid oes sefyllfa: daethym i ddyfnderdyfroedd, a'r ffrwdalifodd dros of.

3 Blinais yn llefain, sychodd fy nghog: pallodd fy llygaid, tra yr ydwyf yn dysgwyl wrth fy Nuw.

4 Amlach na gwallt fy mhen yw

Grist yn ei frenhiniaeth a'i ddyoddefiadau; a lle bynag y mae ei eiriau ef yn cael eu cymhwyso at Grist gan ysgrifenywyr y Testament Newydd, gallwn ninaw yn ddiogel eu cymhwyso ato wrth egluro y Salmau; ond gyda golwg ar ranau ereill dylem fod yn wyliadwus. Eithr tybia ereill mai yn amser caethiwed Babilon yr ysgrifenydd y Salm hon, a hynny gan ryw Lefiad dwyfol ysbrydoledig: gwel CLARKE.

Adn. 1. *Achub fi, O Dduw* | Gwel ar adn. 3: *canys y dyfroedd a ddaethant i mewn hyd at fy enaid*—nes yr wyf bron a threngu gan fawredd fy nhrallod. Y mae yma gyfeiriad at long yn agenu ac yn suddo, pryd y mae byswd y morwyr yn y perygl niwraf.

Adn. 2. *Soddais mewn tom dwfn* | Lle nad oes gwaelod caled i sefyll arno; *daethym i ddyfnder dyfroedd*—nid i le bās wrth y lan, lle y gallai gadw ei ben uwcllaw y don; ond i'r man dyfnaf, ac i waelod hwnw, lle yr oedd yn soddi yn y llaid, a'r ffrwd yn lifo drosto. Y mae yn amhosbi cael cydmhariaeth gryfach i osod allan drallodion cynyddol Dafydd, ac eiddo Crist, o'r lwn yr oedd efe yn gysgod.

Adn. 3. *Blinais yn llefain* | O ran fy ysbryd a'm corff; *sychodd fy nghog*—wrth hir lefain yn uchel; *pallodd fy llygaid*—gan ddagrau heilltion a pharhaus; *tra yr ydwyf yn dysgwyl wrth fy Nuw*—am waredigaeth o'm cyfyngder.

Adn. 4. *Amlach na gwallt fy mhen yw y rhai a'm casant heb achos* | Heb i mi wneyd dim i haeddu hynny oddiar eu llaw. Yr oedd hyn yn wir am Dafydd; eithr cymhwys y geiriau hyn gan ein Harglwydd ato ei hun: gwel ar Ioan xv. 25. *Cedura yw fy ngelynyon diachos*—yr oedd cedryn Israel gydag A bsalom yn erbyn Dafydd, y rhai a fyuent ei *dyfetha* ef; ac yr oedd holl rym a chadernid yr Iuddeon, y Rhufeiniaid, ac uffern, am ddyfetha ein Ceidwad. *Yna y telais yr hyn ni chymerais*—yn lle cweryla â hwynt, yr oeddwn yn foddlon i ymadael a'r eiddod fy hun, a gwneyd iawn iddynt am gamwedd na wnaethym i'w herbyn. Y mae rhai yn cymhwyso y geiriau hyn at ein Harglwydd; 'Trwy fy nyoddefiadau a'm marwolaeth adferais i ddyinion ffaf a delw Duw, y rhai ni chymerais oddiarnynt.'

Adn. 5. *O Dduw, ti a adwaenost fy nyfrwydd* | Y rhai hyn ydynt eiriau y Salmydd am dano ei hun; *ac nid yw fy nghamweddau guddiedig rhagot*—canys er fod Da-

y rhai a'm casânt heb achos: ced-
yr rhai *yw* fy ngelynyon diachos, y rhai
a'm dyfethent: yna y telais yr hyn
ni chymerais.

5 O Dduw, ti a adwaenost fy yn-
fydrwydd; ac nid yw fy ngham-
wedduau guddiedig rhagot.

6 Na chywilyddier o'm plegid i y
rhai a obeithiant ynot ti, Arglwydd
Dduw y lluoedd: na waradwydder
o'm plegid i y rhai a'th geisiant di,
O Dduw Israel.

7 Canys er dy fwyn di y dygais
warthrudd, ac y tôdd cywilydd fy
wyneb.

8 Aethym yn ddeythr i'm brodyr,
ac *fel* estron gan blant fy mam.

9 Canys sel dy dŷ a'm hysodd;

fydd yn w'r da, yr oedd ynddo, fel yn mhaw
ereill, lawer o ynfyrwydd a chamwedduau yn
ngolwg hollwybodaeth Duw. Ond tybia rhai,
heb lawer o sail, fod Crist yma yn llefaru am
ein hynfydrwydd a'n camwedduau ni, y rhai a
'rodded arno ef.'

Adn. 6. *Na chywilyddier o'm plegid i*]
Oblegid ynfyrwydd, camwedduau, neu ddy-
oddefiadu Dafydd; *y rhai a obeithiant ynot*
ti—sef y duwion hyn y rhai sydd yn credu
dy addewidion, ac yn dysgwyl wrthyt am gyf-
lawniaid o honynt: *na waradwydder o'm*
plegid i—oblegid fy siomedigaethau i. Na
fydded i'r rhai a'th geisiant di ostwng eu pen-
au mewn gwarth a chywilydd wrth fy ngwel-
ed i, yr hwn wyf yn dy wasanaethu di, yn
cael fy erlid gan fy ngelynyon, a'm gwrthod
fel pe byddai genyt tithau. Y mae efe yn
galw JEHOFA yn 'Arglwydd Dduw y lluoedd,'
a 'Duw Israel,' i'r dyben i woli y duwion
i obeithio yn fwy ynddo, ac i'w geisio yn fwy
taer.

Adn. 7. *Canys er dy fwyn di*] O herwydd
fy ymlyniad wrthyt ti a'th grefydd; *y dygais*
warthrudd—y gwaradwyddir fi gan fy ngelyn-
ion fel dyn ffol neu benboeth; *ac y tôdd cy-*
wilydd fy wyneb—fel y tôid gwyneb trosedd-
wr collfarnedig â gorchudd.

Adn. 8. *Aethym yn ddeythr i'm brodyr*]
Sef i lywthan Israel; *ac fel estron gan blant*
fy mam—gan rai o lywth Juda hefyd, neu rai
o'r uh teulu ag ef. Fel hyn yr ymddygodd yr
Iuddewon, brodyr Crist o ran y cnawd, tuag
ato yntau: gwel Ioan vii. 5.

Adn. 9. *Canys sel dy dŷ*] Sef sel Dafydd
dros dŷ Dduw, neu ei awydd i ddwyn yn
mlaen addoliad Duw yn bur yn y cysegr; *a'm*
hysodd—a lyncodd i fyny bob teimlad arall
ynddo, yr hyn oedd y rheswm pahan yr oedd
ei frodyr yn ei gasâu ef. Cymhwysir y geir-
iau hyn at achos ein Harglwydd; gwel ar Ioan
ii. 17. *Gwaradwyddiad y rhai a'th warad-*
wydded di—y rhai a lefarent yn ddirmygus
am dy enw, dy ragluniaeth, dy addoliad, a'th
dŷ; *a syrthiodd arnaf fi*—fel dy wasanaeth-
wr; neu yr oedd eu gwaith hwy yn gwarad-

a gwaradwyddiad y rhai a'th waraf-
adwyddent di, a syrthiodd arnaf fi.

10 Pan wylais, *gan gystuddio* fy
enaid âg ympryd, bu hyny yn war-
adwydd i mi.

11 Gwisgais hefyd sachlian; ac
aethym yn ddiareb iddynt.

12 Yn fy erbyn y chwedleuai y
rhai a eisteddent yn y porth; ac i'r
meddwon *yr oeddwn* yn wawd.

13 Ond myfi, fy ngweddi *sydd*
atat ti, O Arglwydd, *mewn* amser
cymeradwy: O Dduw, yn lluosogr-
rwydd dy drugaredd gwrando fi, yn
ngwirionedd dy iachawdwriaeth.

14 Gwared fi o'r dom, ac na sodd-
wyf: gwareder fi oddiwrth fy nghas-
eion, ac o'r dyfroedd dyfnion.

wyddo Duw a'i achos mor boenus i deimladau
Dafydd, a phe buasai yn cael ei waradwyddo
am ei achos ei hun: gwel ar Rhuf. xv. 3.

Adn. 10. *Pan wylais*] Am annuwldeb
fy ngelynyon, a'u gwaradwyddiad o Dduw a'i
grefydd; *gan gystuddio fy enaid âg ympryd*—
fel ag i wneyd fy ngweddiâu ar eu rhan hwy
yn fwy cymeradwy; *bu hyny yn waradwydd i*
mi—gwaradwyddent fi am fy ymostyngiad
galarus, gan feddlw mai am fy meiau fy hun
yr ymostyngwn felly. Neu gwaradwyddent
ef am ei dduwldeb manwl, ac am ei ffydd a'i
obaith yn Nuw.

Adn. 11. *Gwisgais hefyd sachlian*] Yrarwydd
arferol o alar a hunan-ffieiddiad wrth ymprydio;
ac aethym yn ddiareb iddynt—fel dyn a ys-
tyriant yn benboeth ac otergelus. Neu
galwent bob dyn tebyg iddo ar enw Dafydd,
neu mor ffol a Dafydd: gwel ar Job xvii. 6.

Adn. 12. *Yn fy erbyn y chwedleuai y rhai*
a eisteddent yn y porth] Sef barnwyr ac
ynadon; neu ynte cardotwyr a segurwyr, y
rhai a ymgynullent oddentu y pyrth: *ac i'r*
meddwon yr oeddwn yn wawd—y rhai a
chwarddent am fy mhen i a'm grefydd, neu a
ganent ganiadau i'm gwaradwyddo uwchben
eu cwpaneidiau.

Adn. 13. *Ond myfi, fy ngweddi sydd*
atat ti] Tra y maent hwy yn gwawdio, yr wyf
finau yn gweddio arnat ti, O Arglwydd;
mewn amser cymeradwy—pryd yr wyt yu
gwrando gweddi. Efe a awgryma y byddai
i'r gawdwyr hyny hefyd ddyfod i weddio,
eithr wedi iddi fyned yn rhy ddiweddar. *Yn*
lluosogrwydd dy drugaredd gwrando fi—yn
ol goludoedd ac amledd dy drugareddau, adn.
16; *yn ngwirionedd dy iachawdwriaeth*—
gwrando ac ateb fi âg iachawdwriaeth wirion-
eddol, neu mewn cyflawniad gwirioneddol o'th
iachawdwriaeth addawedig.

Adn. 14. *Gwared fi o'r dom*] Sef o'r cyflwr
trallodus ag y cwynai ei fod ynddo yn adn. 2;
gwared fi oddiwrth fy nghaseion—y rhai a'i
casiant heb achos, adn. 4; *ac o'r dyfroedd*
dyfnion—neu y trallodau mawrion i'r rhai yr
oedd wedi suddo, adn. 1, 2.

15 Na lifed y ffrwd ddwfr dros of, ac na lynced y dyfnder fi; na chawed y pydew chwaith ei safn arnaf.

16 Clyw fi, Arglwydd; canys da yw dy drugaredd: yn ol lluwais dy dosturiaethau edrych arnaf.

17 Ac na chuddia dy wyneb oddiwrth dy was; canys y mae cyfyngder arnaf: brysia, gwrandao fi.

18 Nesâ at fy enaid, a gwared ef: achub fi o herwydd fy ngelynyon.

19 Ti a adwaenost fy ngwarthrudd, a'm cywilydd, a'm gwaradwydd: fy holl elynion ydynt ger dy fron di.

20 Gwarthrudd a dorodd fy nghalon; yr ydwyf mewn gofid: a dys-

gwyliais am rai i dosturio wrthaf, ac nid oedd neb; ac am gysurwyr, ac ni chefais neb.

21 Rhoddasant hefyd fustl yn fy mwyd, ac a'm diodasant yn fy sychedd â finegr.

22 Bydded eu bwrdd yn fagl ger eu bron, a'u llywdiant yn dramgwydd.

23 Tywyllwr eu llygaid, fel na welont; a gwna i'w llwynau grynu bob amser.

24 Tywallt dy ddig arnynt; a chyrhaedded lliidogrwydd dy ddigofaint hwynt.

25 Bydded eu preswylfod yn anghyfanedd; ac na fydded a drigo yn eu pebyll.

Adn. 15. *Na lifed y ffrwd ddwfr dros of* | Yn barhaus; canys yr oedd wedi dechreu llifo drosto, adn. 2; *ac na lynced y dyfnder fi*—yn anadferadwy; *na chawed y pydew chwaith ei safn arnaf*—heb byth ei hagar mwy mewn ffordd o ollyngded i mi.

Adn. 16. *Clyw fi, Arglwydd* | Ac ateb fy ngweddi bresenol; *canys da yw dy drugaredd*—y mae yn helaeth, haelionus, a pharod i goffeidio y trueniaid a lefant arnat: *yn ol lluwais dy dosturiaethau edrych arnaf*—y mae y gair *rachamim*, a gyfieithir yma yn 'dosturiaethau,' yn arwyddo y fath serch ag a deimla mam at ei phlant; ac y mae yn Nuw lluwais o'r fath deimladu tosturiol tuag at blant dynion: gwel ar Salm li. 1.

Adn. 17. *Ac na chuddia dy wyneb oddiwrth dy was* | Yn barhaus. Yr oedd Dafydd yn was i Ddnw mewn dau ystyr, sef fel dyn duwiol, ac fel brenin Israel. *Canys y mae cyfyngder arnaf*—oddiwrth Absalom a'i blaid ond oddid. *Brysia, gwrandao fi*—onidë bydd yn rhy ddiweddar arnaf am byth.

Adn. 18. *Nesâ at fy enaid, a gwared fi* | Neu gwared fy mywyd, O dydi yr hwn wyt yn ymdangos fel wedi cilio oddiwrthyf: *achub fi o herwydd fy ngelynyon*—o ddwyfaw fy ngelynyon; neu 'am fod fy ngelynyon i, yn elynion i tithau hefyd,' fel y mae rhai yn ei ddeall.

Adn. 19. *Ti a adwaenost fy ngwarthrudd, fy nghywylydd, a'm gwaradwydd* | Y rhai yr wyf yn eu dyoddef oddiwrth fy ngelynyon er dy fwyn di: *fy holl elynion ydynt ger dy fron di*—dan dy sylw a'th wyboäeth, ac o fewn cyraedd dy law a'th saethau di.

Adn. 20. *Gwarthrudd a dorodd fy nghalon* | Gan mor drwm, poenus, a diachos yd-oedd; neu, gan ei fod yn sarhad ar grefydd a gogoniant Duw, yn gystal ag ar gymeriad gonest Dafydd. *Yr ydwyf mewn gofid*—nas gallaf ei ddarlunio. *A dysgwyliais am rai i dosturio wrthaf*—ac i'm cysuro, oddiar yr ystyriaeth na wnaethym ddim i haeddu y fath driniaeth; *ac nid oedd neb*—neu ond ychydig; canys pa un bynag ai am Dafydd ynte am

Grist y deallir hyn, yr oedd rhywrai yn tosturio wrthynt till dau. Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at ein Gwaredwr bendigedig yn ngardd Gethsemane, pryd y darfu i'w holl ddisgyblion ei adael ef, Mat. xxvi. 56.

Adn. 21. *Rhoddasant hefyd fustl yn fy mwyd* | I'w chwerwi; *ac a'm diodasant yn fy sychedd â finegr*—hyny yw, yn lle rhoddi i Dafydd y tosturi a'r cysur ag yr oedd ei gyflwr yn ei ofyn, chwaneegasant yn greulon at ei drueni. Ni chyflawnwyd y geiriau hyn yn Dafydd ond yn gyffelybiaethol, eithr cyflawnwyd hwynt yn llythyrenol yn Nghrist: gwel ar Mat. xxvii. 34.

Adn. 22. *Bydded eu bwrdd yn fagl ger eu bron* | Am iddynt roddi bustl yn fy mwyd i, bydded eu bwyd hwythau yn chwewder a gofid iddynt; *a'u llywdiant yn dramgwydd*—bydded iddynt dramgwydd yn lle llywdiant; neu bydded i'w gwleddoedd a'u bwyd-offrymau, neu i'w glythineb a'u meddwod, fod yn ddinystyr iddynt. Gan mai darluniad o ddyoddefiadau ein Gwaredwr yw y geiriau yn adn. 21, y mae yr ymadroddion yu yr adnod hon a'r rhai canlynol i'w deall yn yr amser *dyfodol*, ac fel *rhagfynegiad* o'r gosp a ddisgynai ar elynion Crist, yn hytrach nag fel *gweddi* Dafydd yn erbyn ei elynion ef: gwel ar Salm v. 10.

Adn. 23. *Tywyllwr eu llygaid* | Hyny yw, 'tywyllir eu llygaid,' sef llygad eu meddwl; *fel na welont*—fel na ddeallont wirionedd Duw, eu dyledswydd eu hunain, na ffordd iachawdwriaeth: *a gwna*—neu gwneir, *i'w llwynau grynu bob amser*—fel y cryna llwynau corff dyn dan faich trwm, neu gan ofn dirfawr: gwel ar Rhuif. xi. 10.

Adn. 24. *Tywallt dy ddig arnynt* | Neu, 'ti a'i tywellti;' a chyflawnwyd hyn hyd yr eithaf ar y genedl Iuddewig, 1 The. ii. 16: *a chyrhaedded lliidogrwydd dy ddigofaint hwynt*—neu cyrhaeddir hwynt gan y digofaint mwyaf lliidiog ac angherddol pa le bynag y byddont.

Adn. 25. *Bydded eu preswylfod yn anghyfanedd* | Ni bydd neb yn cyfaneddu yn

26 Canys erlidiasant yr hwn a darawsit ti; ac am ofid y rhai a archollaist ti, y chwedleuant.

27 Dod ti anwiredd at eu hanwiredd hwynt; ac na ddelont i'th gyfiawnder di.

28 Dilêr hwynt o lyfr y rhai byw; ac na ysgrifener hwynt gyda'r rhai cyfiawn.

29 Minau, truan a gofidus *ydwyf*: dy iachawdwriaeth di, O Dduw, a'm dyrchafu.

30 Moliannaf enw Duw ar gân, a mawrygaf ef mewn mawl.

31 A *hyn* fydd well gan yr Ar-

glwydd nag *ŷch neu fustach* corniog, carnol.

32 Y trueiniaid a lawenychant *pan welant hyn*: eich calon chwithau, y rhai a geisiwch Dduw, a fydd byw.

33 Canys gwrendy yr Arglwydd ar dylodion, ac ni ddiystyra efe ei garcharorion.

34 Nefoedd a daear, y môr a'r hyn oll a ymlusgo ynddo, molant ef.

35 Canys Duw a achub Seion, ac a adeilada ddinasoedd Juda; fel y trigont yno, ac y meddiannont hi.

eu palasau mawreddog; ac na fydded a drigo *yn eu pebyll*—ni fydd neb yn byw yn eu tai cyffredin. Cyflawnwyd hyn yn fanwl yn niysr Jerusalem.

Adn. 26. *Canys erlidiasant yr hwn a darawsit ti*] Sef Crist, yr hwn a darawyd gan Dduw, Essay liii. 4: *ac am ofid y rhai a archollaist ti*—sef dysgyblion neu ganlynwyr Crist; *y chwedleuant*—yn ysgrifenu a gwatwarllyd. Ond y mae rhai yn deall hyn am Dafydd, yr hwn a darawyd gan Dduw â cherwydd tost am ei bechod yn achos Bathseba ac Urias, Salm xxxviii. 2—8; ac am y rhai oedd- ynt gyda' ef.

Adn. 27. *Dod ti anwiredd at eu hanwiredd hwynt!* Neu, 'ti a ddodi.' Goddefir iddynt syrthio o'r naill bechod i'r llall; neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, ymwelir â hwynt a'r naill *gosp* ar ol y llall. *Ac na ddelont i'th gyfiawnder di*—'ni ddeuant' i'th lwybrau cyfiawn di, neu i'th ffordd o gyfiawnhau pechadur trwy flydd yn Nghrist.

Adn. 28. *Dilêr hwynt o lyfr y rhai byw*] Hyny yw, 'dilêr hwynt o lechres bywyd,' neu torir hwynt ymaith o blith y rhai byw eyn eu hamser: *ac na ysgrifener hwynt gyda'r rhai cyfiawn*—ni chânt le yn nghynulleidfa y saint, na mwynhau y bendithion addawedig i'r cyfiawnion. Meddylir fod yma gyfeiriad at y cofystfrau yn y rhai y cedwid enwau dynion byw, ac o ba rai y dilêir hwynt pan fyddent feirw: gwel ar Luc x. 20.

Adn. 29. *Minau, truan a gofidus ydwyf*] Felly yr oedd Dafydd pan yn ffoi rhag Absalom; ac felly yr oedd Crist, o ran ei natur ddynol, pan yn nghanol ei ddyoddefadau mawrion: *dy iachawdwriaeth di, O Dduw, a'm dyrchafu*—gweddiâ Dafydd am i iachawdwriaeth dymborol ac ysbrydol Duw ei ddyrchafu ef goruwch ei holl elynion; ac os gellir cymhwysu y geiriau hyn at Crist, y meddwl yw, fod i'w Dad ei ddyrchafu yntau o'r bedd, ac ar ei ddeheulau mewn gogoniant.

Adn. 30. *Moliannaf enw Duw ar gân*] Mewn salmau, hymnau, ac odlau ysbrydol; a *mawrygaf ef mewn mawl*—trwy ddatgan ei fawredd a'i ogoniant.

Adn. 31. *A hyn fydd well gan yr Arglwydd*] Na'r aberthau deddfol mwyaf gwych a chost-

fawr. Yr oedd aberth diffuant o fawl o'r galon yn well gan Dduw na'r aberthau seremonïol dan y gyfraith, lle na byddai y galon yn y gwaith; ac y mae felly yn enwedig dan yr efengyl. *Nag ŷch neu fustach corniog, carnol*—meddylir fod yma gyfeiriad at anifeiliaid wedi cael addurno a goseuro eu *cyrn* a'u *carnau*, fel y rhai a aberthid yn mysg y Rhuteiniaid a chonhedloedd ereill: gwel *Dodd, Clarke, &c.*

Adn. 32. *Y trueiniaid a lawenychant pan welant hyn*] Pan welant mor barod yw Duw i wrando ar gri Dafydd yn ei ofid, yr hyn a fydd yn annogaeth iddynt hwythau ymddried yn Nuw yn eu trueni. *Eich calon chwithau, y rhai a geisiwch Dduw*—yr un modd ag y ceisiodd Dafydd ef; a *fydd byw*—nen a *adfywheir* trwy waredigaeth gyfelybi'r eiddo ef.

Adn. 33. *Canys gwrendy yr Arglwydd ar dylodion*] Er i ddynion eu diystyru, ac yn enwedig ar dylodion yn yr ysbryd; *ac ni ddiystyra efe ei garcharorion*—a fyddont mewn carchar neu gystudd er ei fwyn ef, neu wedi eu carcharu o ran eu hysbryd trwy argyhoedd- iad ei Ysbryd ef.

Adn. 34. *Nefoedd a daear*] A'u holl luoedd hwynt; *y môr a'r hyn oll a ymlusgo ynddo*—yr holl greadigaeth resymol ac afresymol; *molant ef*—yn eu hiaith, gyda mi, adn. 30; ac am yr hyn a wna efeto i Seion a dinas- oedd Juda, adn. 35. 'Y mae trugareddau Duw yn Nghrist yn gyfryw,' ebai yr *Esgob Horne*, 'fel nas gellir ei foliannu ef yn ddy- ladwy am danynt ond trwy gydgân gyffredin- ol yr holl greadigaeth, hen a newydd.'

Adn. 35. *Canys Duw a achub Seion*] Sef dinas Jerusalem; neu ynte ei eglwys a'i bobl, y rhai yn fynych a elwir felly am fod yr arch a'r cysegr ar fynydd Seion; gwel y teitl. *Ac a adeilada ddinasoedd Juda*—trwy beri heddwch a chadernid gwladol a chrefyddol ynddynt. *Fel y trigont yno, ac y meddiannont hi*—sef holl wlad Juda, neu ynte Seion, eisteddle cref- ydd a'r llywodraeth. Ond tybia rhai fod yma gyfeiriad at ddychweliad y gaethglud o Babil- ion, pryd y byddai i'r holl ddinasoedd malur- iedig gael eu hailadeiladu, ac i'r Iuddewon adfeddiannu eu hetfeddiaethau fforffetiedig: gwel *Venema, Clarke, &c.*

36 A hiliogaeth ei weision a'i meddiannant hi: a'r rhai a hoffiant ei enw ef, a breswylant ynddi.

SALM LXX.

O DDUW, *prysura* i'm gwaredu; brysia, Arglwydd, i'm cymhorth.

2 Cywilyddier a gwarthrudder y rhai a geisiant fy enaid: tröer yn eu hol a gwaradwydder y rhai a cwyllsiant ddrwg i mi.

3 Datröer yn lle gwobr am eu cywilydd, y rhai a ddywedant, Ha, ha.

4 Llawenyched, a gorfoledded ynot ti y rhai oll a'th geisiant; a dyweded y rhai a garant dy iachawdwriaeth yn wastad, Mawryger Duw.

5 Minau *ydwyf* dylawd ac anghehus; O Dduw, brysia ataf: fy nghymhorth a'm gwaredydd *ydwyf* ti, O Arglwydd; na hir drig.

Adn. 36. *A hiliogaeth ei weision a'i meddiannant hi*] Sef plant y rhai a gaethgludesid i Babilon; neu, bydd i eglwys Dduw barhau trwy yr holl oesoedd, trwy i'r plant ddyfod yn aelodau o honi yn lle y tadau. *A'r rhai a hoffiant ei enw ef*—sef enw neu addoliad Duw; a *breswylant ynddi*—yn yr eglwys luddedig hyd ddyfodiad y Messia, ac wedi hyny yn yr eglwys Gristionogol hyd ddiwedd amser.

SALM LXX. Y teitl yw, '*Pr penceirdd, Salm Dafydd, i goffu.*' Gwel deitl Salm xxxviii. Tybia *Wells* fod y Salm hon wedi ei chymeryd o Salm xl. 13—17; ac iddi gael ei newid ychydig, i'r dyben i'w chanu yn barhaus yn gwrthryfel Absalom.

Adn. 1. *O Dduw, prysura i'm gwaredu*] Cyn iddi fyned yn rhy ddiweddar: gwel y sylwadau ar Salm xl. 13—17.

Adn. 2. *Y rhai a geisiant fy enaid*] Neu, fel y mae yn Salm xl. 14, 'y rhai a geisiant fy einioes i'w dyfetha.'

Adn. 3. *Datröer*] Neu, tröer hwynt yn ol, yn wobr neu gosh am eu gwaradwyddiad o bonof fi, neu am chwerrthin am fy mhien yn fy adfyd.

Adn. 4. *Llawenyched a gorfoledded ynot ti*] Gwel ar Salm xl. 16.

Adn. 5. *O Dduw, brysia ataf*] Canys y mae fy amser yn fyr, fy mberyl yn fawr, a'm hanghenion yn llawer. Ond yn lle y geiriau hyn, 'Eto yr Arglwydd a feddlw am danaf,' yw y darlenniad yn Salm xl. 17: gwel y sylwadau yno.

SALM LXXI. Gan nad oes deitl i'r Salm hon yn yr *Hebraeg*, meddylir ei bod yn bardd o'r Salm flaenorol, fel y mae mewn 27 o ysgriflyfrau *Kennicott* a *De Rossi*. Yn ol y

SALM LXXI.

YNOT ti, O Arglwydd, y gobeithiais; na'm cywilyddier byth.

2 Achub fi, a gwared fi yn dy gyfiawnder: gostwng dy glust ataf, ac achub fi.

3 Bydd i mi yn drigfa gadarn, i ddyfod iddi bob amser: gorchymynaist fy achub; canys ti *yw* fy nghraig a'm hamddiffynfa.

4 Gwared fi, O fy Nuw, o law yr annuwiol, o law yr annghyfiawn a'r traws.

5 Canys ti *yw* fy ngobaith, O Arglwydd Dduw; fy ymddiried o'm hieucntid.

6 Wrthyt ti y'm cynaliwyd o'r bru; ti a'm tynaist o groth fy mam: fy mawl *fydd* yn wastad am danat ti.

7 Oeddwn i lawer megys yn rhyfeddod: eithr tydi *yw* fy nghadarn noddfa.

Syriaeg, 'ysgrifenwyd hi gan Dafydd pan yn cael ei flino gan Saul.' Yn ol *Kimchi*, *Arama*, *Trabell*, ac ereill, 'pan yn ffioi rhag Absalom.' Yn ol y *Vulgate*, yr *Ethiopaeg*, yr *Arabaeg*, a'r LXX, 'Salm Dafydd i feibion Jonadab, a'r rhai cyntaf a gaethgludwyd.'

Adn. 1. *Ynot ti, O Arglwydd, y gobeithiais*] Hyd yma; na'm cywilyddier byth—na siomer fi yn fy nysgwyliaid wrthyt rhagllaw.

Adn. 2. *Achub fi, a gwared fi yn dy gyfiawnder*] Neu yn dy *fyddlondeb* i gyflawni dy fwriadau a'th addewidion, fel y mae rhai yn ei ddeall: *gostwng dy glust ataf*—i wrando fy ngweddî am achubiaeth; ac *achub fi*—mewn atebiad i'm gweddî.

Adn. 3. *Bydd i mi yn drigfa gadarn*] I ffioi iddi bob amser yn fy nghyfyngder: *gorchymynaist fy achub*—bwriedaist ac addewaist wneuthur hyny; neu gorchymynaist i'th anglylion fy nghadw, Salm xci. 11, 12: *canys ti yw fy nghraig a'm hamddiffynfa*—gwel ar Salm xxxi. 2, 3.

Adn. 4. *Gwared fi, O fy Nuw, o law yr annuwiol*] Sef o law Absalom ond odid; o law yr *annghyfiawn a'r traws*—tybia rhai ei fod yn cyfeirio yma at Ahitophel, yr hwn oedd yn gynghorwr traws a maleisus i'w fab annuwiol Absalom.

Adn. 5. *Canys ti yw fy ngobaith*] Ynot ti yr wyf yn gobeithio am wareidgaeth; *fy ymddiried o'm hieucntid*—set gwrthdych ei ymddiriediad a'i hyder er pan yr oedd yn gallu meddlw a sylwi.

Adn. 6. *Wrthyt ti*] Neu *genyt* ti, y'm cynaliwyd o'r bru: *ti a'm tynaist o groth fy mam*—a alluogaist fy mam i esgor arnaf, heb i hyny fod yn farwolaeth i mi na hitau: *fy mawl fydd yn wastad am danat ti*—am dy ofal rhagluniaethiol a grasol am danaf.

8 Llanwer fy ngenau a'th foliant, ac a'th ogoniant beunydd.

9 Na fwrw fi ymaith yn amser henaint: na wrthod fi pan ballo fy nerth.

10 Canys fy ngelynion sydd yn dywedyd i'm herbyn; a'r rhai a ddysgwyliant am fy enaid a gydymgynghorant,

11 Gan ddywedyd, Duwa'i gwrthododd ef: erlidwch a deliwch ef; canys nid oes gwaredydd.

12 O Dduw, na fydd bell oddiwrthyf: fy Nuw, brysia i'm cymhorth.

13 Cywilyddier a dyfether y rhai

a wrthwynebant fy enaid: a gwarth ac a gwaradwydd y gorchuddier y rhai a geisiant ddrwg i mi.

14 Minau a obeithiaf yn wastad, ac a'th foliannaf di fwyfwy.

15 Fy ngenau a fynega dy gyfiawnder a'th iachawdwriaeth beunydd: canys ni wn rifedi arnynt.

16 Yn nghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf: dy gyfiawnder di yn unig a gofiat fi.

17 O'm hieuentid y'm dysgaist, O Dduw: hyd yn hyn y mynegais dy ryfeddodau.

18 Na wrthod fi chwaith, O Dduw,

Adn. 7. *Oeddw'n i lawer megys yn rhyfeddod*] O ran fy nhrallodion mawrion, fy hyder dyssgog ynot ti, a'th waredigathau hynod i mi hyd yma. Fe allai ei fod yn cyfeirio at ei waith yn lladd y llew a'r arth, yn cwmpo Goliath, yn dianc rhag cynddaredd Saul, ac yn cael ei godi i'r orsedd o gyflwr bugail. Ond y mae rhai yn cyfieithu *kemopheth* yn 'ddyehryn'; fel pe yr ofnid nesau ato; ac ereill yn 'arwydd' neu 'gysgod,' gan ei ystyried yn mhob peth fel cysgod o'r MESSIA. *Eithr tydi yw fy nghadarn noddfa*—yn fy holl dralodau a'm gorthrymderau.

Adn. 8. *Llanwer fy ngenau a'th foliant, &c.*] Dyro i mi achos beunydd i'th foliannu a'th ogoneddu am dy waredigathau; neu rhodder yu fy nghalon ysbyrd mawl, fel y byddo i'm genau ei ddatgan.

Adn. 9. *Na fwrw fi ymaith*] Oddiwrth dy amddiffyniad, neu o'r frenhiniaeth, fel y bwriast Saul ymaith; *yn amser henaint*—canys yr oedd Dafydd yn ei hen ddyddiau yn amser gwrthryfel Absalom: *na wrthod fi pan ballo fy nerth*—pryd y mae arnaf fwyaf o eisiau dy auddiffyniad a'th siatr. Ond y mae rhai yn deall hyn am ei wrthod mewn ystyr ysbyrdol.

Adn. 10. *Canys fy ngelynion sydd yn dywedyd i'm herbyn*] Yn y geiriau a adroddir adn. 11; *a'r rhai a ddysgwyliant am fy enaid*—neu am ei einioes i'w dyfetha; *a gydymgynghorant*—pa fodd i'w ddal, fel y gwnai Absalom, Ahitophel, a'u cynghreirwyr.

Adn. 11. *Gan ddywedyd, Duw a'i gwrthododd ef*] Yr hyn a gasglent oddiwrth waith Dafydd yn flori o Jerusalem, ac oddiwrth fod calonau holl wŷr Israel yn myned gydag Absalom yn ei erbyn ef, 2 Sam. xv. 6, 12. *Erlidwch a deliwch ef*—fel y galloch ei ladd; *canys nid oes gwaredydd*—iddo, ar ol i Dduw ei wrthod.

Adn. 12. *O Dduw, na fydd bell oddiwrthyf*] Yn fy nghyfyngder presenol: *fy Nuw*—yr hwn wyt mewn cyfammod neillduol â mi; *brysia i'm cymhorth*—gan roddi prawf trwy hynt i'm gelynion nad wyt wedi fy ngwrthod.

Adn. 13. *Cywilyddier a dyfether y rhai a wrthwynebant fy enaid*] Neu a geisiant fy mywyd i'w ddyfetha: *a gwarth ac a gwar-*

adwydd y gorchuddier y rhai a geisiant ddrwg i mi—y rhai hyn ydynt ddatgasiadau proffwydoliaethol o'r hyn a ddygwyddai i elynion Dafydd a Christ: gwel ar Salm xxxv. 4, 26.

Adn. 14. *Minau a obeithiaf yn wastad*] Yn dy drugaredd di, O Arglwydd, hyd yn nod yn fy ngwasgfeun a'm perygion mwyaf; *ac a'th foliannaf di fwyfwy*—am dy waredigathau adnewyddol.

Adn. 15. *Fy ngenau a fynega dy gyfiawnder*] Sef dy weinyddiadau cyfiawn a thrugareg tuag ataf fi; *a'th iachawdwriaeth*—yn dymhorol ac ysbyrdol; *beunydd*—hyn fydd testyn fy ymddyddanion a'm caniadau bob dydd: *canys ni wn rifedi arnynt*—gan mor aml yw yr anghreiffiaau o'th ddaion tuag ataf. Ond tybia rhai fod y 'cyfiawnder,' yn nechre yr adnod, yn golygu cyfiawnder dialeddol Duw ar ei elynion ef a Dafydd; a'r 'iachawdwriaeth,' yu y frawddeg ganlynol, yn meddwl gwaredigaeth Dafydd oddiwrth y gelynion hyn.

Adn. 16. *Yn nghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf*] Neu y cyfiawnaf fy holl ddyledswyddau, yn wladol, moesol, a chrefyddol; *dy gyfiawnder di yn unig a gofiat fi*—cofiat gyda diolchgarwch am dy ffyddlondeb, dy uniondeb, dy drugaredd, a'th ddaioni tuag ataf; neu canaf yn barhaus am dy iachawdwriaeth i mi.

Adn. 17. *O'm hieuentid y'm dysgaist, O Dduw*] Trwy hysforddiadau fy rhieni, addysgiadau dy air, a goleuni dy Ysbyrd; hyn yw, yr oedd Dafydd yn wrthdrrych addysgiadau moesol a chrefyddol pan yn fugeil defaid, yn filwr cyffredin, ac yn frenin Israel. *Hyd yn hyn y mynegais dy ryfeddodau*—bwm mor ddiwyd ar hyd fy oes yn cyfranu addysg i ereill, ag a fŷm i dderbyn addysg fy hun. Yr un peth a olygir yma wrth *ryfeddodau* Duw, ag a feddylir wrth ei nerth a'i gadernid ef yn yr adnod nesaf; a chyfeiria ond oddi at ei weithredoedd rhyfedd ef mewn rhagluniaeth a gras, ac at ei natur oruchel cyn belled ag yr oedd Dafydd yn ei deall. Ond y mae *Mudge* yn cyfieithu yr adnod hon fel hyn: 'O'm hieuentid y'm harweiniaist,' O Dduw: hyd yn

mewn henaint a phenllwydni; hyd oni fynegwyf dy north i'r genhedlaeth hon, a'th gadernid i bob un a ddelo.

19 Dy gyfiawnder hefyd, O Dduw, sydd uchel, yr hwn a wnaethost bethau mawrion: pwy, O Dduw, sydd debyg i ti?

20 Ti, yr hwn a wnaethost i mi weled aml a blin gystuddiau, a'm bywhoi drachefn, ac a'm cyfodi drachefn o orddyfnder y ddaear.

21 Amlhei fy mawredd, ac a'm cysuri oddiamgylch.

22 Minau a'th foliannaf ar offeryn nabl, sef dy wirionedd, O fy Nuw:

hyn y gallaf fynegu dy weithredoedd rhyfedd.'

Adn. 18. *Nu wrthod fi chwaith, O Dduw, mewn henaint a phenllwydni*] Sef yn y cyflwr ag yr oedd efe ynddo y pryd hyn, adn. 9; *hyd oni fynegwyf dy north i'r genhedlaeth hon*—i'm cydoeswyr, trwy gyfansoddi Salmu yn traethu iddynt am Dduw a'i ryfeddodau; *a'th gadernid i bob un a ddelo*—i'r holl genhedlaethau dyfodol hyd ddiwedd amser, yr hyn a wna efe trwy y Salmu a adawedd ar ei ol i ni.

Adn. 19. *Dy gyfiawnder hefyd, O Dduw*] Sef ei weinyddiadau cyfiawn yn llywodraethiad y byd; *sydd uchel*—sydd amlwg, tel mynydd uchel; neu sydd bell uwchlaw ein hamgyffrediad ni. *Yr hwn a wnaethost bethau mawrion*—mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a gras. *Pwy, O Dduw, sydd debyg i ti*—mewn gallu, doethineb, cyfiawnder, a daioni?

Adn. 20. *Ti, yr hwn a wnaethost i mi weled aml a blin gystuddiau*] Nes yr ydwyf trwy fy nghyfyngderau presenol fel nn wedi marw, a'i gladdu o olwg ei gyfeillion; *a'm byrhegi drachefn*—a'm dygi eilwaith fel i fywyd o'r newydd; *ac a'm cyfodi drachefn o orddyfnder y ddaear*—ymadrodd cyfielybiaethol yn arwyddo y trallddon dyfnaf, o ba rai y byddai ei waredigaeth: ef fel bywyd o feirw, neu adgyfodiad o'r bedd. Ond y mae rhai yn cymhwyso y geiriau hyn at ddyoddefaint ac adgyfodiad ein Gwaredwr bendigedig.

Adn. 21. *Amlhei fy mawredd*] Trwy fy adferu i'm gorsedd a'm brenhiniaeth; *ac a'm cysuri oddiamgylch*—trwy beri heddwch i mi o bob parth, ac oddiwrth bob llwyth a chenedl; neu gysur yn fy nghorff a'm henaid.

Adn. 22. *Minau a'th foliannaf ar offeryn nabl*] Yn dy gysegr yn Jerusalem; *sef dy wirionedd, O fy Nuw*—hyn yw, molianaf di am dy wirionedd a'th ffyddlondeb yn cyflawni dy adawedd o waredigaeth i mi. *Cunaf i ti a'r delyn*—gwel ar Salm xxxiii. 2; *O Sant Israel*—yr hwn wyt yn anfeidrol santaidd yn dy natur a'th weithredoedd, ac yn wrthdrysych caniadau a mawl santaidd pob gwir Israelaidd.

Adn. 23. *Fy ngwefusau a fyddant hyfryd*] Sacs., 'a lawnychant yn fawr,' pan ganwyf i

canaf i ti a'r delyn, O Sant Israel.

23 Fy ngwefusau a fyddanthyfryd pan ganwyf i ti; a'm henaid, yr hwn a waredaist.

24 Fy nhafof hefyd a draetha dy gyfiawnder beunydd: o herwydd cywilyddiwyd a gwaradwyddwyd y rhai a geisiant niwed i mi.

SALM LXXII.

O DDUW, dod i'r brenin dy farn-edigaethau, ac i fab y brenin dy gyfiawnder.

2 Efe a farn dy bobl mewn cyfiawnder, a'th druciniaid â barn.

ti; a'm henaid yr hwn a waredaist—bydd i'm gwefusau arferyd geiriau yn gosod allan hyfrydych a diolchgarwch fyf enaid am fy ngwaredigaeth.

Adn. 24. *Fy nhafof hefyd a draetha dy gyfiawnder beunydd*] Yr hwn a fydd yn wrthdrysych nid yn unig i'w gofio genyf fi, adn. 16, ond hefyd i draethu am dano wrth ereill. Mawrygaf dy wirionedd, a'th ffyddlondeb, a'th drugaredd tuag ataf fi, a'th ddialedd cyfiawn ar dy elynion. *O herwydd cywilyddiwyd a gwaradwyddwyd y rhai a geisiant niwed i mi*—sef Absalom, Ahitophel, a'u plaid. Llefara Dafydd yma am waradwyddiad ei elynion tel wedi dygwydd eisioes, gan wor sicr ydoedd yn ei feddwl y byddai i hyn y gymeryd lle.

SALM LXXII. Y teitl yw, 'Salm i Solomon.' Mai Dafydd yw awdwr y Salm hon a ymddengys oddiwrth ei diwedd hi: 'Gorphen gweddiau Dafydd mab Jesse,' adn. 20. Ymddengys ddarfod iddo ei chyfansoddi tua diwedd ei oes, pan ar ei wely angau, pryd y gorchymynodd efe i Sadoc yr offeiriad a Nathan y proffwyd osod Solomon ar ei orseddfa ef, 1 Bren. i. 32, &c., fel y gallai efe gael yr hyfrydych o weled mawrion ei deyrnas yn gwarogaethu i Solomon, ac yn ei gydnabod ef fel eu brenin, cyn iddo farw. Modd bynag, y mae amrai ranau o'r Salm hon nad ydynt yn gweddu i Solomon, nac i unrhyw frenin ond y MESSIA, fel yr addefa y doctoriaid Iuddegw eu hunain; ac am hyn rhaid i ni ei hystyr-ied hi, fel amrai ereill, yn Salm gymysg, yn perthyn mewn rhan i Solomon, ond yn cyteirio yn benaf at Grist a'i frenhiniaeth.

Adn. 1. *O Dduw, dod i'r brenin dy farn-edigaethau*] Dod dy gyfraith i Solomon, fel y deddfyf: gwladol ac eglwysig wrth ba un y llywodraetha efe y deyrnas; *ac i fab y brenin dy gyfiawnder*—dyro iddo egwyddor i llywodraethu yn gyfiawn a doeth, ac yn ofn Duw, yn mhob rhyw achos. Gelwir Solomon yma yn frenin, am ddarfod ei eneinio cyn hyn gan Sadoc yr offeiriad, 1 Bren. i. 39; ac yn fab y brenin, i arwyddo ei hawl i'r orsedd ar ba un yr eisteddai.

Adn. 2. *Efe a farn dy bobl mewn cyfiawn-*

3 Y mynyddoedd a ddygant heddwch i'r bobl, a'r bryniau, trwy gyfiawnder.

4 Efe a farn drueiniaid y bobl, efe a achub feibion yr anghenus, ac a ddryllia y gorthrymydd.

5 Tra fyddo haul a lleuad y'th ofnant, yn oesoesoedd.

6 Efe a ddisgyn fel gwlaw ar gnu gwlan; fel cawodydd yn dyfrhau y ddaear.

7 Yn ei ddyddiau ef y blodena y cyfiawn; ac amllder o heddwch fydd tra fyddo lleuad.

8 Ac efe a lywodraetha o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear.

9 O'i flaen ef yr ymgyrma trigolion yr anialwch: a'i elynion a lyfant y llwch.

10 Brenhinoedd Tarsis a'r ynys-oedd a dalant arhreg: brenhinoedd Sheba a Seba a ddygant rodd.

11 Ie. yr holl frenhinoedd a ymgrymant iddo: yr holl genhedloedd a'i gwasanaethant ef.

12 Canys efe a wared yr anghenog

der] Os bydd i ti roddi iddo yr hyn yr wyf yn ei ddyuno; *a'th drueiniaid â barn*—neu âg uniondeb, pan y byddo dynion yn eu gorthrymu.

Adn. 3. *Y mynyddoedd*] Y rhai sydd yn awr mor beryglus i'w teithio oblegid yr yspilwyr; *a ddygant heddwch i'r bobl*—wrth iddynt deithio drostynt. Neu fe allai fod *heddwch* yn cael ei enwi yma am lwyddiant a llawnder, yr hyn yw firrwy heddwch: os felly, y meddwl yw, y byddai i'r mynyddoedd a'r bryniau gael eu llafurio a'u gwrteithio dan deyrnasiad Solomon, ac felly ddwyn cnydiau toreithiog i'r bobl: gwel ar adn. 16. Ond tybia ereill fod y *mynyddoedd* a'r *bryniau* yma yn meddwl *barnwyr* ac *ynadon*, y rhai a ddygent *heddwch* i'r bobl trwy weinyddiad chyfiawnder. *Trwy gyfiawnder*—y mae y LXX yn cysylltu y ddaen air hyn â'r adnod nesaf: 'Trwy gyfiawnder y barna efe drueiniaid y bobl,' &c.

Adn. 4. *Efe a farn drueiniaid y bobl*] Trwy gyfiawnder; *efe a achub feibion yr anghenus*—o law eu gorthrymwr; *ac a ddryllia y gorthrymydd*—a ddryllia ei awdurdod ef, trwy ei alw i gyfrif, a'i gospi yn ol ei haeddiant.

Adn. 5. *Tra fyddo haul a lleuad*] Hyn yw, 'yn oesoesoedd,' fel ei mynegir yn niwedd yr adnod; *y'th ofnant*—fel brenin galluog a chyfiawn. Ond gan nas gellid dywedyd am Solomon y byddai i ddyinion ei ofni ef *yn oesoesoedd*, rhaid i ni ystyried y geiriau hyn fel yn cyfeirio at Grist, yr hwn a gaiff ei ofni, ei barchu, a'i addoli tra fyddo haul a lleuad yn llywyrchu yn y ffurfafen, ac yn oesoesoedd yn y nef.

Adn. 6. *Efe a ddisgyn fel gwlaw*] Neu, fel y mae rhai yn ei ddarllen, 'fel gwllith,' yn esmwyth a thawel; *ar gnu gwlan*—Saes., 'ar wair wedi ei ladd.' Ond y mae y gair *gez* yn arwyddo yn fwy priodol *welld yn tyfu*, neu *dir porfa*, trwy fod y gwlaw neu y gwllith disgynol yn cael ei fwriadu i dyfu y gwllt a borwyd yn ystod y dydd. *Fel cawodydd yn dyfrhau y ddaear*—yr oedd llywodraeth heddychol Solomon yn peri adfywiad trwy holl wlad Israel, fel yr adnewyddir gwyneb y ddaear ar ol cawodydd maethlon ac ireiddlon o wlaw. Ond fe allai fod y geiriau yn cyfeirio yn benaf at deyrnasiad ysbrydol yr Arglwydd

Iesu, a'r bendithion grasol a ddisgynent ar y byd trwy bregethiad yr efengyl, a dylanwadau yr Ysbryd Glân.

Adn. 7. *Yn ei ddyddiau ef y blodena y cyfiawn*] Neu '*gyfiawnder*,' trwy y bydd i ddrygioni gael ei gospi, ac i rinwedd gael ei gefnogi; *ac amllder o heddwch fydd*—nid oedd dim ond heddwch a llywyddiant dros holl ddyddiau Solomon, 1 Bren. iv. 24, 25; *tra fyddo lleuad*—Hebr., 'hyd nes na byddo lleuad.' Dengys y geiriau hyn mai at ddyddiau teyrnasiad Crist y cyfeirir yn benaf, fel yn adn. 5.

Adn. 8. *Ac efe a lywodraetha o fôr hyd fôr*] O Fôr-y-canoldir yn y gorllewin, hyd y gainc ddwyreiniol i'r Môr Coch yn y deau, 1 Bren. ix. 26; *ac o'r afon hyd derfynau y ddaear*—o'r afon Euphrates, hyd wlad y Philistiaid a therfyn yr Aifft, 1 Bren. iv. 21, 24. Ond gan fod llywodraeth Dafydd ei hun yn cyraedd mor eang a hyn, a bod yma lywodraeth heliaethach na'r eiddo ef yn cael ei haddaw, rhaid i ni ddeall y geiriau fel yn cyfeirio at lywodraeth Crist, yr hon sydd i ymestyn o fôr hyd fôr, a thros holl derfynau y ddaear yn gyffredinol: gwel ar Salm ii. 8.

Adn. 9. *O'i flaen ef yr ymgyrma trigolion yr anialwch*] Sef brenhinoedd a phobloedd Arabia, 1 Bren. x. 15; *a'i elynion a lyfant y llwch*—a lwyr ddarostyngir iddo. Cyflawnwyd hyn yn Solomon, a chyflawnir ef eto yn helaethach yn Nghrist: gwel Esay xlv. 23, Phil. ii. 9—11.

Adn. 10. *Brenhinoedd Tarsis*] Yr oedd dinas o'r enw hwn yn Cilicia, yn Asia Leiaf, lle y ganed Paul; ac hefyd yn yr Hispaen, Affrica, a'r India, 1 Bren. x. 22; *a'r ynys-oedd*—sef ynysoedd Môr-y-canoldir ond odid; *a dalant arhreg*—er nad oedd Solomon yn llywodraethu ar y gwledydd hyn, eto gallai dderbyn *arhregion cyfeillgar* oddiyno, canys 'yr oedd yr holl fyd yn ceisio gwledid ei wyneb ef,' 1 Bren. x. 24. *Brenhinoedd Sheba a Seba a ddygant rodd*—gwledydd yn Arabia neu Ethiopia. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at y doethion o'r dwyrain yn dwyn arhregion i Grist ar ei enedigaeath, Mat. ii. 11.

Adn. 11. *Ie, yr holl frenhinoedd a ymgrymant iddo*] Yr hyn a gyflawnwyd mewn rhan yn Solomon, 1 Bren. x. 24, 2 Cron. ix. 23; *a'r holl genhedloedd a'i gwasanaethant*

pan waeddo: y truan hefyd, a'r hwn ni byddo cynorthwywr iddo.

13 Efe a arbed y tylawd a'r rheidus, ac a achub eneidiau y rhai anghenus.

14 Efe a wared eu henaid oddiwrth dwyll a thrawsder: a gwerthfawr fydd eu gwaed yn ei olwg ef.

15 Byw hefyd fydd efe, a rhoddir iddo o aur Seba: gweddiant hefyd drosto ef yn wastad: beunydd y clodforir ef.

16 Bydd dyrnaid o Ƴd ar y ddaear yn mhen y mynyddoedd: ei ffrwyth a ysgwyd fel Libanus; a phobl y

ddinas a flodeuant fel gwellt y ddaear.

17 Ei enw fydd yn dragywydd: ei enw a bery tra fyddo haul; ac ymfendithiant ynddo: yr holl genhedloedd a'i galwant yu wynfydedig.

18 Bendigedig fyddo yr Arglwydd Dduw, Duw Israel, yr hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau.

19 Bendigedig hefyd fyddo ei enw gogoneddus ef yn dragywydd; a'r holl ddaear a lanwer o'i ogoniant. Amen, ac Amen!

ef—yr hyn a gyflawnir yn llythrenol yn Nghrist yn ystod y milfwyddiant.

Adn. 12. *Canys efe a wared yr anghenog*] O ba genedl bynag y byddo; *pan waeddo*—dan orthymder y gelyn: *y truan hefyd*—bydd iddo ei waredu yntau, a'r hwn ni byddo neb arall i'w gynorthwyo.

Adn. 13. *Efe a arbed y tylawd a'r rheidus*] Rhag cael eu gwerthu yn gaethweision am eu dyled; *ac a achub eneidiau*—neu fywydau, *y rhai anghenus*—rhag marw o newyn.

Adn. 14. *Efe a wared eu henaid*] Sef hwy eu hunain yn beronol; *oddiwrth dwyll a thrawsder*—trwy Ƴnu cyfiawnder iddynt: *a gwerthfawr fydd eu gwaed yn ei olwg ef*—efe a gyfrynga i'w diogelu rhag i'w gwaed gael ei dywallt ar gam, neu i ddial ar y neb a wnelo hyn.

Adn. 15. *Byw hefyd fydd efe*] Yn hir a llywyddianus yn ei frenhiniaeth, sef deugain mlynedd, 1 Bren. x. 42; ond bydd Crist byw yn oesoesoedd, Dat. i. 18. *A rhoddir iddo o aur Seba*—yn arheg gan frenhinoedd y wlad hōno, adn. 10. *Gweddiant hefyd drosto ef yn wastad*—am barhad ei einioes a'i lwyddiant. Ond os cymhwyswn y geiriau hyn at Grist, y meddwl yw, y byddai i'w ddeiliaid ysbrydol ef weddio am lwyddiant ac eangiad ei deyrnas: neu, 'gweddiant trwyddo ef yn wastad,' fel Cyfryngwr, fel y mae rhai yn ei deall y gair. *Beunydd y clodforir ef*—neu y canmolir ef am ei weithredoedd daionus.

Adn. 16. *Bydd dyrnaid o Ƴd ar y ddaear*] Saes., 'yn y ddaear,' *yn mhen y mynyddoedd*—ag oeddynt o'r blaen yn ddiŵrwyth. Ymddengys mai y meddwl yw, y bydd y ddaear yn y cyfamsyr yn dra ffrwythlon, nes y bydd i ddyrnaid o Ƴd a hauer ar ben mynydd gynrychu ffrwyth bras a thoreithiog. Ceir llawer o ffrwyth y pryd hyny oddiwrth ychydig had, sef oddiwrth ddyrnaid; neu bydd y ffrwyth mor gnydfawr a thoreithiog nes y bydd yn ddyrneidiau, neu lonaid dwrn, yn mhob rhychwant o dir, ac nid ambell welltyn yma a thraw. *Ei ffrwyth a ysgwyd fel Libanus*—fel cedrwydd Libanus, gan mor uchel fydd y gwelltyn, ac mor drwm a llawn fydd y dwysen. *A phobl y ddinas a stodeuant fel gwellt y ddaear*—bydd cynydd yn mhoblogaeth y

dinasoedd yn gyffelyb i'r cynydd a fydd yn yr Ƴd. Y mae rhai yn deall yr adnod hon fel yn cyfeirio at *gynydd* teyrnas Crist ar y ddaear, yr hon oedd yn fechan yn ei dechread, fel dyrnaid o Ƴd; ond yr ystyr blaenaf, yn ol fy meddwl i, yw y mwyaf naturiol: gwel ar Deut. xcviii. 4—11.

Adn. 17. *Ei enw fydd yn dragywydd*] Sef ei glod, neu goffadwriaeth am ei enw; *ei enw a bery tra fyddo haul*—sef ar ddalenau yr ysgrhythrau: ond pery enw yr IESU mewn coffadwriaeth a bri ar ol i'r haul a'r lleuad ddarŵd. *Ac ymfendithiant ynddo*—cyfrifa dynion eu hunain yn dderwydd am fod ganddynt ei hanes neu ei ysgrifeniadau ef yn eu meddiant; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'a dynion a fendithir ynddo.' *Yr holl genhedloedd a'i galwant yn wynfydedig*—ar gyfrif y modd hynod y bendithiwyd ef gan Dduw. Y mae y geiriau hyn, yn yr ystyr uchod, yn eithaf priodol i Solomon a Christ.

Adn. 18. *Bendigedig fyddo yr Arglwydd Dduw*] Sef Duw cyfammodol Israel, am osod y fath Ƴd a Solomon yn frenin ar ei bobl. Gallwn feddwl na ddatguddiodd Duw wrthgiliad ac eilunaddoliaeth ffaidd Solomon i Dafydd, rhag i hyny flino ei ysbryd ef ar ei wely angau: gwel ar 1 Bren. xi. 4, &c. *Yr hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau*—neu *wyrthiau*. Golygai Dafydd fod yn angenrheidiol cael yr un gallu ag a wnai wyrthiau, i godi y fath ddyrn a Solomon i'r frenhiniaeth: ac felly yr ydoedd; canys nid allai neb ond Duw roddi iddo y ddoethineb a feddianai: gwel ar 1 Bren. iv. 29—34. Duw yn *unig* a all wneuthur gwyrtiau; canys lle bynag y mae *gwyrt*, y mae *Duw* yno. Nis gall un creadur o hono ei hun, pa mor uchel bynag y byddo, wrthdroi neu attal deddfau natur: rhaid cael hollalluogrwydd y Creawdwr i beri hyny. Ond gwnaeth CRIST hyny yn y modd mwyaf eglur ac anwadadwy: gan hyny y mae CRIST yn DDUW.

Adn. 19. *Bendigedig hefyd fyddo ei enw gogoneddus ef yn dragywydd*] Sef enw Duw Israel, yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân. Bendithier ef byth gan bawb am ei holl weithredoedd rhyfeddol, mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a gras. *A'r holl ddaear*—nid yn unig

20 Gorphen gweddiau Dafydd
mab Jesse.

SALM LXXIII.

YN ddiau da yw Duw i Israel; sef
i'r rhai glân o galon.

2 Minau, braidd na lithrodd
fy nhraed: prin na thripiodd fy
ngherddediad.

3 Canys cenfigenais wrth y rhai

gwlad Canaan, ond yr holl fyd; a *lanwer o'i ogoniant*—o wybodaeth am ei ogoniant trwy yr efengyl, fel y toa y dyfroedd y môr, Hab. ii. 14; neu a lanwer o oeoniant mynegol iddo oddiwrth achubiaeth dynolryw. *Amen, ac Amen!*—'felly bydded, felly bydded!' ac felly hefyd y *bydd*. Gwelwn yma mor ddiffrifol a thaer oedd Dafydd yn ei weddi, pan yn dyblu ei 'Amen' yn ei diwedd hi. Fel hyn yr oedd efe yn gorphen ei weddiau a'i einioes bron ar unwaith; canys ar ei wely angau efe a weddiai am i Dduw gael ei ogonedu trwy yr holl ddaear yn achubiaeth eneidiau dynion.

Adn. 20. *Gorphen gweddiau Dafydd mab Jesse*] Y geiriau hyn a chwangwyd ond odid gan Ezra, wrth gasglu y llyfr yn nghyd; ac efe a eilw Dafydd yn 'fab Jesse,' nid o ddirmyg arno fel y gwnai Saul, 1 Sam. xx. 27, ond i arwyddo ei fod ef y pryd hyn wedi trosglwyddo y frenhiniaeth i'w fab. Ymddengys mai hon oedd y *Salm olaf* a ysgrifenyd gan Dafydd. Er y gall fod amrai o Salmau Dafydd yn y rhanau sydd ar ol o'r llyfr, megys Salm lxxxvi, ci, &c.; eto ymddengys eu bod wedi eu cyfansoddi ganddo *cyn hyn*, a'u doddi yno gan y casgyllyd allan o'n trefn amseryddol.—Yma hefyd y terfyna *ail* llyfr y Salman, yn ol y rhaniad Iuddewig; ac y mae y *trydydd* yn dechreu gyda'r Salm nesaf: gwel y rhagarweiniad.

SALM LXXIII. Y teitl yw mewn *rhai* o'n Beiblau Cymreig, '*Salm i Asaph*;' wedi ei hysgrifenu rywbryd gan *Dafydd*, fel y tybia rhai, i'w chanu gan Asaph. Ond y teitl yn y Saesonaeg a'r Hebraeg yw, '*Salm Asaph*;' a thybia llawer mai *Asaph* ei hun a'i cyfansoddodd hi, sef naill ai y cantor hwn yn amser Dafydd, neu ryw Asaph arall yn amser y caethiwed Babiloniaidd, yr hwn a chwennychai ymysuro yn ei Dduw.—Yma y dechreu *trydydd* llyfr y Salmau, yn ol y rhaniad Iuddewig, yn cynwys casgliad o 17 o Salmau, wedi eu hysgrifenu gan myaf i neu gan Asaph.

Adn. 1. *Yn ddiau da yw Duw i Israel*] Y mae ef yn dda iddynt yn ddiarnheul, ery gallai un gasglu oddiwrth groes-ragluniaethau nad yw efe felly; *sef i'r rhai glân o galon*—neu y gwir dduwion yn eu plith, y rhai sydd yn ei wasanaethu ef â chalon berffaith, neu mewn ysbryd a gwirionedd. Ymddengys fod y *Salm*-ydd wedi cael ei demtio unwaith i amau danioli Duw iddynt; ond cafodd fuddugoliaeth ar y brofedigaeth hōno; ac y mae yn tori allan

ynfyd, *pan* welais lwyddiant y rhai annuwiol.

4 Canys nid oes rhwymau yn eu marwolaeth; a'u cryfder *sydd* heini.

5 Nid *ydnyt* mewn blinder *fel* dynion *ereill*; ac ni ddialeddir arnynt hwy gyda dynion *ereill*.

6 Am hyny y cadwynodd balchder hwynt, *ac* y gwisg trawsder am danynt *fel* dilledyn.

yn sydyn i addef a sicrhau fod Duw yn dda iddynt oll mewn ystyr tymbhorol, ac i'r duwion yn eu plith mewn ystyr ysbrydol hefyd.

Adn. 2. *Minau, braidd na lithrodd fy nhraed*] Bu agos i'm ffydd yn addewidion a rhagluniaeth Duw gael ei gorchfygu gan rym y brofedigaeth; *prin na thripiodd fy ngherddediad*—i dir gwrthgiliaid ac annuwiaeth, neu i ddylyn siampl y rhai annuwiol.

Adn. 3. *Canys cenfigenais wrth y rhai ynfyd, &c.*] Wrth weled rhai nad oeddynt yn *addoli* Duw, ac ereill ag oeddynt yn ymdroi mewn pob math o *ddrygion*, yn llwyddo yn y byd, ac yn mwynhau pob math o gysuron daearol; tra yr oeddwn i, a'r duwion yn gyffredinol, mewn cyfyngderau, helbulon, ac aflwyddiant.

Adn. 4. *Canys nid oes rhwymau yn eu marwolaeth*] Y mae y geiriau hyn yn cael eu deall mewn tri ystyr: (1) Nid ydynt yn marw mewn *cadwynau*, dan ddeddfyd y swyddog gwladol, er iddynt yn aml baeddu hyny. (2) Nid ydynt mewn rhyw *gyfyngder* neu *wasgfa* mawrion yn eu marwolaeth, o ran poenau naillion yn eu cyrff, neu ddychryn dirfawr yn eu meddyliau, am nad yw eu cydwybod hwy yn cael ei dihuno hyd yn nod yn eu marwolaeth. (3) Nid oes rhwymau arnynt *hyd* eu marwolaeth: cânt rodio yn rhydd â llwyddiant trwy eu hoed, hyd nes y deuant i farw. *A'u cryfder sydd heini*—y maent yn parhau yn gryf ac iachus ar hyd eu hoed, nes o'r diwedd y maent yn marw yn dawel, fel lamp yn difoddi ar ol i'r olew ddarfod.

Adn. 5. *Nid ydynt mewn blinder fel dynion ereill*] Trwy groesau, siomedigaethau, a chystuddiau; neu fe allai ei fod yn cyfeirio at flinder *corff*, yn deilliau oddiwrth lafur caled i ennill eu bywoliaeth, fel y gorfydda i'r duwion yn gyffredin wneyd. *Ac ni ddialeddir arnynt hwy gyda dynion ereill*—trwy eu gorfodi i fwya eu bara trwy chwys eu gwyneb, yr hyn oedd un rai o'r feldith wreiddiol, Gen. iii. 19.

Adn. 6. *Am hyny y cadwynodd balchder hwynt*] Amgylchynir hwynt â balchder fel â chadwyn, yr hwn a dybiant yn addurn iddynt. Gall fod yma gyfeiriad at y cadwyni aur a gemawg a wisgid am y gwddf, (Diar. i. 9, Can. iv. 9,) y rhai oeddynt yn arwyddion o fawredd, cyfoeth, a swyddau uchel. *Ac y wisg trawsder*—neu ormes tuag at eu hisraddolion, *am danynt fel dilledyn*—drostynt oll, yr hwn a ymddengys yn eu gwedd, eu geiriau, a'u hymddygiadau.

7 Eu llygaid a saif allan gan frasder: aethant dros feddwl calon o gyfoeth.

8 Y maent wedi llygru, yn chwedleua yn ddrygionus *am drawsder*; yn dywedyd yn uchel.

9 Gosodasant eu genau yn erbyn y nefoedd: a'u tafod a gerdd trwy y ddaear.

10 Am hyny y dychwel ei bobl ef yma; ac y gwesgir iddynt ddwfr *phiol lawn*.

11 Dywedant hefyd, Pa fodd y gwyr Duw? a oes gwybodaeth gan y Goruchaf?

12 Wele, dyma y rhai annuwiol, a'r rhai sydd lwyddiannus yn y byd, ac a amhlasant olud.

13 Diau mai yn ofer y glanheais fy nghalon, ac y golchais fy nwyllaw mewn diniweidrwydd.

14 Canys ar hyd y dydd y'm maeddwyd; fy ngherydd *a ddeuai bob bore*.

15 Os dywedwn, Mynegaf fel hyn; wele, *a* chenhedlaeth dy blant di y gwnawn gam.

16 Pan amcenis wybod hyn, blin oedd hyny yn fy ngolwg i;

17 Hyd onid aethym i gysogr

Adn. 7. *Eu llygaid*] Sef eu hedrychiad, neu eu gwyneb; *a saif allan gan frasder*—a â yn grwn a chnawdol gan flogeg a phesg, Job xv. 27. *Aethant dros feddwl calon o gyfoeth*—cynyddodd eu cyfoeth tuhwnt i'w meddwl neu eu dysgwiliad.

Adn. 8. *Y maent wedi llygru*] Mewn calon a buchedd, gan ymollwng i bob natli o ddrygioni; yn *chwedleua yn ddrygionus am drawsder*—pa fodd i allu treisio a gorthrymu ereill; *yn dywedyd yn uchel*—yn llefaru am bawb a phobpeth yn y modd mwyaf trahaus, balch, a digywilydd.

Adn. 9. *Gosodasant eu genau yn erbyn y nefoedd*] Sef yn erbyn Duw, gan gaeblu a dirmygu ei enw, ei awdurdod, a'i ragluniaeth, a chwerthin am ben crefydd, barn, a byd arall: *a'u tafod a gerdd trwy y ddaear*—i ddirmygu pawb ar y ddaear hefyd; neu i ledaenu eu hannuwiaeth trwy yr holl fyd, ac i ennill dysgyblion.

Adn. 10. *Am hyny y dychwel ei bobl ef*] Sef pobl yr Arglwydd ond odid; *yma*—at y rhai annuwiol hyn, i fyw fel hwythau; *ac y gwesgir iddynt ddwfr phiol lawn*—sef hel-aethrwydd o brofedigaethau chwerwon fe allai, i'w ymredd am hyuy. Neu gall mai y meddwl yw, y byddai i bobl yr Arglwydd, yn yr ystyriaeth o ddrygioni a chaledrwydd yr annuwiolion hyn, ddychwelyd ato ef, i wlyo yn bidl am ei fod yn eu goddef fel hyn. Addefir yn gyffredin fod yr adnod hon yn dra thywyl. Y cyfieithiad llythyrenol o honi yw, 'Am hyny y dychwelir fy mhobl, lle y cânt ddiagon o ddyfroedd;' a thybja Clarke mai yr ystyr yw, y byddai i bobl Dduw, wrth weled anwiredd y *Babiloniaid*, a theimlo eu gorthrymder hwy, gael eu dychwelyd ato ef; ac y byddai iddo yntau eu dwyn hwy i'w gwlad eu hunain, lle y caent ddiagonedd o holl angenrheidiâu bywyd.

Adn. 11. *Dywedant hefyd, Pa fodd y gwyr Duw?*] Y mae rhai yn priodoli y geiriau hyn i bobl yr Arglwydd, y rhai oeddynt yn barod i ddywedyd yn eu profedigaeth, 'Diau nas gall Duw fod yn gwybod am hyn, onidê ni fuasai efe byth yn cyfranu ei roddion iddynt.' Y mae ereill yn eu deall fel geiriau yr annuwiolion: 'Gallwn orthrymu y bobl hyn fel y

mynom, a byw fel y gwelom yn dda; ni wŷr Duw ddim am hyny.'

Adn. 12. *Wele, dyma y rhai annuwiol*] Fel pe dywedasai, Dyma hwy, edrychwch arnynt! Er maint eu liannuwioldeb, y maent yn llawer mwy lwyddiannus yn y byd hwn, ac yn casglu llawer mwy o olud, na nynt y duwiolion!

Adn. 13. *Diau mai yn ofer y glanheais fy nghalon*] Yr oedd y Saluydd yn cael ei demtio i feddwl fod ei holl grefydd yn beth ofer a diles; ei holl weddian, ei ymptydian, ei gariad, ei fydd, a'i weithredoedd da; wrth ystyried fod yr annuwiolion yn cael mwyntau y fath freintiau yn y byd hwn, tra yr oedd ef ei hun, yr hwn oedd yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni, yn cael ei lethu gan drallodau a helbulon yn barhaus. *Ac y golchais fy nwyllaw mewn diniweidrwydd*—y dwylaw yw prif offerynu gweithrediad, a chynwysant yma holl aelodau ereill ei gorrff, y rhai a gadwai efe yn bur oddiwrth weithredoedd drwg. Y mae calon lân a dwylaw glân yn cynwys yr oll o wir grefydd, oddifewn ac oddiallan.

Adn. 14. *Canys ar hyd y dydd y'm maeddwyd*] A rhyw drallodion yn barhaus, er fy holl ofal i gadw fy nghalon a'm dwylaw yn lân; *fy ngherydd a ddeuai bob bore*—denai rhyw ofid neu gilydd i'm cyfarfod a'r newydd bob dydd.

Adn. 15. *Os dywedwn*] Y nos fy hun, *Mynegaf fel hyn*—adroddaf fy mhrofedigaeth i'r duwiolion; neu mynegaf nad oes dim gwahaniaeth pa un ai duwiol neu annuwiol a fydd dyn yn y bywyd hwn; neu ei bod yn well ar y drygionus nag ar y cyfiawn yn y fuchedd yma: *a chenhedlaeth dy blant di y gwnawn gam*—trwy eu blino a'u digaloni yn eu meddyliau, a'u demtio i gilio oddiwrthyt ti a'th wasanaeth, am yr hyn y gwesgid iddynt ddwfr phiol lawn, neu geryddon chwerwon o'r herwydd, adn. 10.

Adn. 16. *Pan amcenis wybod hyn*] Wrth oleuni rheswm yn unig; hyny yw, pan yr amceni efe wybod paham yr oedd yr annuwiol yn llwyddo, a'r duwiol yn afwyddo, gan geisio cysoni hyny â chyfiawnder a doethineb Duw; *blin oedd hyny yn fy ngolwg i*—yr oeddwn

Duw: *yna* y deallais eu diwedd hwynt.

18 Diau osod o honot hwynt mewn llithrigfa, a chwympo o honot hwynt i ddinystyr.

19 Mor ddisymwth yr aethant yn anghyfanedd! pallasant, a darfuant gan ofn.

20 Fel breuddwyd wrth ddihuno un; *felly*, O Arglwydd, pan ddeffroech, y dirmygi eu gwedd hwynt.

21 Fel hyn y gofiodd fynghalon, ac y'm pigwyd yn fy arenau.

22 Mor ynfyd oeddwn, ac heb wybod; anifel oeddwn o'th flaen di.

23 Eto yr ydwyf yn wastad gyda thi; ymaflaist yn fy llaw ddeau.

24 A'th gynghor y'm harweini; ac wedi hyn y'm cymeri i ogoniant.

25 Pwy sydd genyf fi yn y nef-oedd ond tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thydi.

26 Pallodd fy nghawd a'm calon: ond nerth fy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd.

yn ei gael yn orchwyl rhy anhawdd i'w gylawni. Yn wir, nis gall goleuni natur a rheswm egluro hyn; canys pe na byddai byd arall ar ol hwn, nis gallen byth gysoni llwyddiant yr annuwiol â chyfiawnder Duw.

Adn. 17. *Hyd onid aethym i gysegr Duw*] I weddio am oleuni; neu hyd onid aethym i'r cysegr i ymgynghori â gair Duw, neu â'r offeir-iaid a'r Lefiaid y rhai oedd yn dysgu gwybodaeth ddaionus yr Arglwydd, 2 Cron. xxx. 22. *Yna y deallais eu diwedd hwynt*—nad yw eu llwyddiant ond o fyr barhad, ac y bydd iddo gael ei ddylyn â diwedd dychrynllyd, fel yr adroddir isod. Efe a ddeallodd hefyd ddiwedd gwynfydedig y duwiolion, adn. 23—26.

Adn. 18. *Diau osod o honot hwynt mewn llithrigfa*] Mewn man peryglus ac ansafadwy, lle nas gallant aros yn hir, mwy na dyn ar lethr craig uchel; a *chwympo o honot hwynt i ddinystyr*—sef i ddinystyr tragwyddol, pan y bydd i ti eu gwthio i lawr oddiar glogwyni llwyddiant, bywyd, ac amser.

Adn. 19. *Mor ddisymwth yr aethant yn anghyfanedd*] Heb dŷ i'w cyrff, a heb gorff i'w heneidiau; neu mor ddisymwth yr amddifadwy hwy o'u llwyddiant, eu cyfoeth, a'u bywyd! *Pallasant*—o ran eu dedwyddwch a'u gwroldeb; a *darfuant gan ofn*—wrth newid dau fyd, neu wrth gael eu hyrddio ym-aith i ddinystyr.

Adn. 20. *Fel breuddwyd wrth ddihuno un*] Yr hwn na fydd iddo sail na sylwedd; *felly*, O Arglwydd, pan ddeffroech—pan y dihuni neu y codi ditbau i'w cospï am eu hannuwioldeb; y *dirmygi eu gwedd hwynt*—y gwnai eu gwedd, neu eu mwyniannau dychymyglol, yn wael a dirmygus hyd yn nod yn eu golwghwy eu hunain. Ond yn lle 'pan ddeffroech,' gellir cyfieithu *bagrir*, 'pan ddeffroant,' yna yr ystyr yw, Fel y mae breuddwyd yn diflanu ar ddeffroad dyn, felly y bydd i tithau, O Arglwydd, pan ddeffroant hwy o'u cwsig presenol, beri i'w dedwyddwch dychymyglol hwy ddiffanu. Nid yw cyfoeth, pleser, a mwyniant daerol yr annuwiolion ddiu ond breuddwyd siomedig, cysgod disylwedd, neu ddim; ac nid yw eu bywyd ei hun ddim ond *cwsig*: yn nydd angau dihunir hwynt o'u cwsig hwn, diflana y breuddwyd, a chânt hwythau deimlo eu bod wedi eu trosglwyddo i dragwyddol wae!

Adn. 21. *Fel hyn y gofiodd fy nghalon*]

Naill ai gan ei brofedigaeth cyn iddo fyned i gysegr Duw, adn. 17; neu ynte ar ol iddo weled ei gamsyniad, ac o herwydd iddo dynu casgliad mor fïol dan ei brofedigaeth, adn. 13. *Ac y'm pigwyd yn fy arenau*—yr oedd fy ysbryd yn cael ei fïno yn ddirfawr o herwydd fy nghamgasgliadau, ac yr oedd hyn yn effeithio yn ddwys ar fy nghorff hefyd.

Adn. 22. *Mor ynfyd oeddwn*] Wrth genfigenu wrth y rhai ynfyd, adn. 3; *ac heb wybod*—yr hyn y gallaswn ei wybod, ond i mi edrych arno yn ngoleuni crefydd a gair Duw. *Anifel oeddwn o'th flaen di*—yr oeddwn yn ymddwyn fel pe buaswn yn amddifad nid yn unig o ras, ond o reswm hefyd. Yr oeddwn yn edrych yn unig ar y pethau a welir, fel y gwna anifel; ac heb edrych yn mlaen ar bethau i ddyfod, fel y dylai creadur rhesymol edrych.

Adn. 23. *Eto yr ydwyf yn wastad gyda thi*] Yn dy ffafir, a than dy ofal a'th amddiffyniad, er maint fy ynfydrwydd: *ymaflaist yn fy llaw ddeau*—i'm cynal a'm tywys, fel na'm llwyr orchfygid gan fy mhrofedigaethau.

Adn. 24. *A'th gynghor*] Sef rhagluniaeth, gair, ac Ysbryd Ddw; *y'm harweini*—ar hyd llawybraw y bywyd, er bod o honof yn amddifad o'r llwyddiant daerol ag y mae yr annuwiol yn ei feddiannu: *ac wedi hyn y'm cymeri i ogoniant*—tragwyddol yn y nef, yr hyn oedd yn ddiwedd tra gwahanol i ddiwedd yr annuwiolion, adn. 17—20. Fel hyn yr oedd y Salmwydd duwiol, yr hwn yn ddiweddar a anieuei ragluniaeth a gofal Ddw am ei blant, yn gallu gofioledd mewn hyder dedwydd yn iachawdwriaeth Duw. Y fath oedd effeithiau bendigedig ei fynediad i gysegr Duw, i ymgynghori yno â'r oraclau bywiol yn ngwyneb ei amheuan a'i brofedigaethau!

Adn. 25. *Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi*] Yn wrthdrrych fy addoliad, fy hyder, a'm digrifwch santaid? *Ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thydi*—i fod yn arweinydd a chydymaith i mi, neu i gyfranogion a'm serch a'm calon.

Adn. 26. *Pallodd fy nghawd a'm calon*] Dan fy mhrofedigaethau uchod, adn. 14, 21; neu hwy a ballant cyn hir dan ddwy-law oerion angau: *ond nerth fy nghalon*—neu '*graig* fy nghalon,' *tzur lebabi*, y sylfaen gadarn a dysgog dan fy enaid; *a'm rhan*—fy etifeddiacth nefol, er na feddai yn ddaerol;

27 Canys wele, dyfethir y rhai a bellhant oddiwrthyt: toraist ymaith bob un a buteinio oddiwrthyt.

28 Minau, nesáu at Dduw sydd dda i mi: yn yr Arglwydd Dduw y gosodais fy ngobaith, i draethu dy holl weithredoedd.

SALM LXXIV.

PAHAM, Dduw, y'n bwriast heibio yn dragwydd, ac y myga dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa?

2 Cofia dy gynulleidfa yr hon a

brynaist gynt; a llwyth dy etifedd-iaeth yr hwn a waredaist; mynydd Seion hwn y preswylly ynddo.

3 Dyrcha dy draed at anrhaith dragwyddol; sef at yr holl ddrwg a wnaeth y gelym yn y cysegr.

4 Dy elynion a ruasant yn nghanol dy gynulleidfaeodd; gosodasant eu banerau yn arwyddion.

5 Hynod oedd gŵr, fel y codasai fwyll mewn drys-goed.

6 Ond yn awr y maent yn dryllio ei cherfiadau ar unwaith â bwyll ac â morthwylion.

Yw Dduw yn dragwydd—yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân. Creodd Dduw enaid dyn gyda'r fath alluoedd, fel nas gall dim llai na'r Dduw-Don ei hun fod yn rhan ddiagonol iddo; ac efe a gaiff hon ond iddo ei rbeisio â'i holl galon. Yn y clyngder dan sylw cyfeiria y Salmwydd at ei gnawd a'i galon yn palls; eithr ni sonia efe am nerth ond i un, sef ei galon. Ar ol cael craig o dan ei enaid, y mae fel yn ddiystyr o'i gorff; canys gwyddai y byddai i gadwddigaeth ei enaid ddwyn ei gorff hefyd i ogoniant.

Adn. 27. *Canys wele, dyfethir y rhai a bellhant oddiwrthyt*] Sef y rhai a giliant oddiwrth Dduw a'i wasanaeth: *toraist ymaith bob un a buteinio oddiwrthyt*—trwy eilau-addoliaeth; hyny yw, torai Dduw ymaith bob un a droai at eilunod rhaglawn, fel yr oedd efe wedi tori ymaith laweroedd eisioes.

Adn. 28. *Minau*] Pa both bynag a wnelo ereill i nesáu at Dduw sydd dda i mi—mewn gwedd ac addoliad yn ei gysegr, lle y cawsai y Salmwydd eisioes lawer o les, adn. 17. *Yn yr Arglwydd Dduw y gosodais fy ngobaith*—am ddedwyddwch ac iachawdriaeth i'm henaid. *I draethu dy holl weithredoedd*—i dystio i baw mor dda yw nesáu at Dduw, fel y tu-edder hwythau i nesáu atat, ac i osod eu gobaiht ynot, fel y gwnaethym i. Y mae y LXX, y Vulgate, yr Arabeg, a'r Ethiopaeig, yn chwaneu yma, yn mhryth merch Seion. Y mae y geiriau hyn yn gwneyd terfyniad da i'r Salm; ond ni cheir hwynt mewn un ysgriflyf Hebreig.

SALM LXXXIV. Y teitl yw, 'Maschil Asaph,' neu 'Salm Asaph, er hysforddiant neu addysg;' gwel deitl Salm xxxii. Y mae yn amlwg mai ar ol dinstrio y deml, a llosgi Jerusalem, a lladu neu wasgar y proffwydi, y cyfansoddwyd hi; ac felly rhaid fod yr Asaph hwn yn byw tuag amser y caethgludiad i Babilon, yr hwn a ailai fod yn broffwyd o liliog-aeth Asaph y gweledydd, pa un oedd yn byw yn nyddiau Dafydd. Tybia rhai iddo ei chyfansoddi cyn ymadael o Jerusalem.

Adn. 1. *Paham, Dduw, y'n bwriast heibio yn dragwydd*] O dy flar, neu o Jerusalem, gan ein gadael heb un gobaiht neu arwydd gwledig y bydd i ni gael ein derbyn yn ol?

Ac y myga dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa—sef yn erbyn dy bobl gyfammodol dy hun?

Adn. 2. *Cofia dy gynulleidfa yr hon a brynaist gynt*] Sef cynulleidfa meibion Israel, yr hon a waredasit efe o'r Aifft; a *llwyth dy etifeddiaeth*—sef llwyth Juda, yn mhlith pa rai yr oedd eisteddle yr eglwys a'r llywodraeth yn Jerusalem; neu 'wialen dy etifeddiaeth,' sef gwlad Cauaan, yr hon a fesurwyd iddnt â gwialen; *mynydd Seion hwn y preswylly ynddo*—sef y deml, lle yr oedd yr arch a'r drugareddfa wedi bod. Er mai ar fynydd *Moriah*, yn ymyl mynydd *Seion*, yr oedd y deml wedi ei hadeiladu; eto gelwid y deml, neu eglwys Dduw, yn fynyach yr enw hwn, byth er pan adeiladwyd y cysegr yno yn amser Dafydd.

Adn. 3. *Dyrcha dy draed*] I gerdded ar frys; *at anrhaith dragwyddol*—sef dinas Jerusalem, yr hon oedd yn garneddau adfeiliedig er's hir amser, ac yn debyg o barhau felly byth, os na ddeuai yr Arglwydd i'w gwaredu; *sef at yr holl ddrwg a wnaeth y gelym yn y cysegr*—a wnaethai y Caldeaid yn y ddinas santaid, neu yn y deml, trwy ei llosgi â thân.

Adn. 4. *Dy elynion a ruasant*] Mewn bloddestau buddngawl a sarhaus; *yn nghanol dy gynulleidfaeodd*—yn mhob man lle yr ymgynullai dy bobl i gydofidio neu gydaddoli: *gosodasant eu banerau yn arwyddion*—o lwyr fuddngoliaeth arnom ni a thitlau.

Adn. 5. *Hynod oedd gŵr, fel y codasai fwyll mewn drys-goed*] Saes., 'ar goed preiffion.' Neu, 'fel y cyfyd gŵr medrus ei fwyll mewn coedwig, felly yn awr y dryllia dynion addurniadau a choed dy gysegr;' gwel isod.

Adn. 6. *Ond yn awr y maent yn dryllio ei cherfiadau ar unwaith*] Wrth adeiladu y deml, yr oedd yn rhaid cael y gŵyr mwyaf hynod o ran eu medrusrwydd mewn saerniaeth i naddu ei choed ac i'w cerfio; ond yn awr, wrth ei dinstrio hi, y gŵyr cryfaf at y gorchwyl yw y rhai goraf. *A bwyll ac â morthwylion*—dywed rhai nad Hebraeg yw y ddau air a gyfieithir 'bwyll' a 'morthwylion,' eithr Caldeaeig neu Syriaeg; a bod hyny yn dynodi amser y diuyst, sef ar ol i'r Caldeaid ddwyn eu hiaith a'u hafau i blith yr luddewon.

7 Bwriasant dy gysegroedd yn tân; hyd lawr yr halogasant breswylfa dy enw.

8 Dywedasant yn eu calonau, Cyd-anrheithiwn hwynt: llosgasant holl synagogau Duw yn y tir.

9 Ni welwn ein harwyddion: nid oes broffwyd mwy, nid oes genym a wŷr pa hyd.

10 Pa hyd, Dduw, y gwarthrudda y gwrthwynebwr? a gabla y gelyn dy enw yn dragwydd?

11 Paham y tyni yn ei hol dy law, sef dy ddeheulaw? tyn hi allan o ganol dy fynwes.

12 Canys Duw yw fy Mrenin o'r dechread, gwneuthurwr iachawdwriaeth o fewn y tir.

13 Ti yn dy nerth a berthais y môr: drylliaist benau dreigiau yn y dyfroedd.

14 Ti a ddrylliaist ben lefiathan; rhoddaist ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch.

15 Ti a holltaist y ffynnon a'r afon: ti a ddyhysbyddaist afonydd cryfion.

16 Y dydd sydd eiddot ti, y nos hefyd sydd eiddot ti: ti a barotoaist oleuni a haul.

17 Ti a osodaist holl derfynau y

Adn. 7. *Bwriasant dy gysegroedd yn tân*] Neu llosgasant y ddau gysegr â thân, fel yr adroddir 2 Bren. xxv. 9: *hyd lawr yr halogasant breswylfa dy enw*—halogasant y deml yn gyntaf trwy fyned iddi fel parganiaid diennwadedig, a chyda'u banerau, ar y rhai, fel y meddylir, yr oedd lluniau eu duwiau; ac yna llosgasant a drylliasant hi hyd y sylfaen.

Adn. 8. *Dywedasant yn eu calonau*] Neu oddiar dymuniad eu calonau; *Cyd-anrheithiwn hwynt*—Saes., 'cyd-ddystriwiwn hwynt,' wreiddyn a changhen, ac oll ar unwaith. Hyn oedd dymuniad llawer o honynt yn eu calonau, er iddynt wedi hynny eu caethgludo hwynt, yn lle eu lladd. *Llosgasant holl synagogau Duw yn y tir*—tybia *Vitringa* nad oedd synagogau, yn ystyr priodol y gair, gan yr Iuddewon hyd ar ol y dychweliad o Babilon; ond yr oedd ganddynt ryw loedd ar hyd y wlad lle yr ymgynullent i addoli ar y sabbothau a'r newydd-loerau, y rhai a elwir yma yn *synagogau*, a'r rhai a losgwyd gan y Caldeaid fel y dywedir yma. Fe allai fod tai yr holl broffwydydd yn gyfryw: gwel 2 Bren. iv. 23, Eze. xxxiii. 31.

Adn. 9. *Ni welwn ein harwyddion*] Sef yr aberthian gwastadol ar yr allor, a chadwraeth y gŷyiliau arbenig yn eu hamserau, y rhai oedd-ynt yn arwyddion o bresenoldeb Duw yn eu plith. *Nid oes broffwyd mwy*—yn tramwy trwy y wlad i ddysgu y bobl, trwy eu bod oll wedi eu gwasgaru neu wedi eu lladd. *Nid oes genym a wŷr pa hyd*—y pery ein caethiwd. Os gwyddai rhai o honynt mai am 70 mlynedd yr oedd ef i barhau, eto, gan ddarfod eu caethgludo hwy ar wahanol amseroedd, nis gwyddent yn iawn pa bryd y deuai y cyfnod hwnw i ben.

Adn. 10. *Pa hyd, Dduw, y gwarthrudda y gwrthwynebwr*] Dy bobl, trwy eu gwawdio yn eu caethiwd? Salm cxxxvii. 3. *A gabla y gelyn*—yr un a'r 'gwrthwynebwr' uchod, sef y Caldeaid; *dy enw yn dragwydd*—trwy haeru dy fod yn greulon tuag at dy bobl, yn auffyddlon i'th gyfamod, neu yn analluog i'n gwaredu ni o'u dwylaw hwy?

Adn. 11. *Paham y tyni yn ei hol dy law*] Yr hon a estynit allan gynt i achub ein tadau; *sef dy ddeheulaw*—neu dy hollalluogrwydd?

Tyn hi allan o ganol dy fynwes—i'n gwaredu ninau hefyd, neu i ddial ar dy elynion. Dywedir hyn yn ol dull dynion o lefaru am un anweithgar neu ddiog, Diar. xix. 24, a xxvi. 15.

Adn. 12. *Canys Duw yw fy Mrenin o'r dechread*] Tydi a gydnabyddem bob amser fel ein Brenin, i'n llywodraethu a'n hamddiffyn; *gwneuthurwr iachawdwriaeth o fewn y tir*—sef awdwr eu holl waredigaethau yn Nghanaan, yn gystal ag yn yr Aifft a'r anialwch.

Adn. 13. *Ti yn dy nerth a berthais y môr*] Sef y môr coeli, i'n tadau fynydd trwyodd; *drylliaist benau dreigiau yn y dyfroedd*—sef cedyrn Pharaou, y rhai oeddnt fel dreigiau mewn nerth a chreulondeb.

Adn. 14. *Ti a drylliaist ben lefiathan*] Sef Pharaou ei hun, dan arweiniad pa un y gweithredai y lleill; *rhoddaist ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch*—dywed Josephus i'r Israellaid gael llawer o gyfoeth, dillad, ac arfau yr Aiffitiaid ar fin y môr, wedi eu tafu i'r traeth gyda'u cyrff hwy: ac fe allai mai at hynny y cyfeirir yma. Ond y mae y LXX, y Vulgate, yr *Arabae*, a'r *Ethiopaeg* yn ei ddarllen, 'Rhoddaist ef yn fwyd i'r *Ethiopiaid*,' neu yr *Abyssiniaid*. Neu, fel y tybia *Horsley*, *Gill*, ac ereill, darfu i'r bobl fwyta y pysgod, ar ol i'r rhai hynny fwyta cyrff yr Aiffitiaid. Eithr barna *Poole*, *Horne*, ac ereill, mai bwyd i'w fwyfildod ac adar ysglyfaethus a feddylir yma, y rhai a elwir yn 'bobl' mewn lleoedd ereill: gwel Diar. xxx. 25, 26; a'r Beiblau Hebreig yn Esay xiii. 21, a xxxiv. 14.

Adn. 15. *Ti a holltaist y ffynnon a'r afon*] Neu, ti a holltaist y *gruig*, o'r hon, fel o ffynnon, y dylifai afon i ddisychedu dy bobl: *ti a ddyhysbyddaist afonydd cryfion*—cyfeiria hyn ond odid at waith yr Arglwydd yn sechu yr Iorddonen o flaen Israel, i'r hon y rhedai llawer o afonydd ereill. Ond fe allai i'r Arglwydd ddyhysbyddu rhai afonydd ereill o flaen Israel, er na feddwn ni hanes am hynny. Dywed y *Targum*, 'Sychaist i fyny Hermon, Jacob, a'r Iorddonen.'

Adn. 16. *Y dydd sydd eiddot ti*] Fel Creawdwr y goleuni; *y nos hefyd sydd eiddot ti*—fel pe dywedasai, Nid rhyfedd i ti allu

ddaeur: ti a luniaist haf a gauaf.

18 Cofia hyn, i'r gelyn gablu, O Arglwydd, ac i'r bobl ynfyd ddifenydi dy enw.

19 Na ddyro enaid dy durtur i gynulleidfa y *gelynion*: nac anghofia gynulleidfa dy drueiniaid byth.

20 Edrych ar y cyfammod: canys llawn yw tywyll-leoedd y ddaeur o drigfanau trawsder.

21 Na ddychweled y tylawd yn waradwyddus: molianned y truan a'r anghenus dy enw.

22 Cyfod, O Dduw, dadleu dy

ddadl: cofia dy waradwydd gan yr ynfyd beunydd.

23 Nac anghofia lais dy clyinion: dadwrdd y rhai a godant i'th erbyn sydd yn dringo yn wastadol.

SALM LXXV.

CLODFORWN dydi, O Dduw, clodforwu; canys agos yw dy enw; dy ryfeddodau a fynegant *hyny*.

2 Pan dderbyniwyf y gynulleidfa, mi a farnaf yn uniawn.

tynu dwf o'r graig, a bollti yr Iorddonen; canys ti a wnaethost bethan llawer mwy na hyny wrth greu yr haul a'r lloer i lywodraethu y dydd a'r nos. *Ti a barotoaist oleuni a haul*—neu ti a 'sefydlaist' oleuni i'w dros-glywddo i'r holl ddeseb trwy offeryniaeth yr haul: gwel ar Gen. i. 3, 4—16.

Adn. 17. *Ti a osodaist holl deryfynau y ddaeur*] Sef terfynau ei hynsoedd a'i chyfandiroedd hi; *ti a luniaist haf a gauaf*—sef holl dymborau y flwyddyn, trwy gylchrediad y ddaeur o amgylch yr haul, Gen. i. 14. Y mae hyn oll yn cael ei enwi fel annogaeth i Dduw wneyd chwanege i'w bobl Israel, sef eu dwyn hwy eilwaith i'w gwlad a'u terfynau eu hunain, lle y gosodasai efe hwynt ar y cyntaf.

Adn. 18. *Cofia hyn*] Fel annogaeth chwanegeol; *i'r gelyn gablu*—megys yr adroddwyd adn. 10; *ac i'r bobl ynfyd ddifenydi dy enw*—trwy lefaru yn ddirmygus am danat ti, a'th briodoliaethau, a'th grefydd. Diamau fod y Caldeaid yn euhystyried eu hunain yn dra doethion, ac felly yr edrychid arnynt gan lawer o'u cymydogion; ond wrth iddynt gablu a difenwi yr Hollalluog, yr hwn nas gallent wrthsefyll ei allu a'i ddigofaint, yr oeddynt yn eu dangos eu hunain yn 'bobl ynfyd.'

Adn. 19. *Na ddyro enaid dy durtur*] Sef pobl ac eglwys Dduw, y rhai a gydmherir yma i golomen ddiarnddiffyn ac ofnus; *i gynulleidfa y gelynion*—neu i 'fwystfild rheibus,' fel y mae y gair *chajath* yn arwydd yn fynych. Yr oedd Duw wedi rhoddi ei bobl eisioes yn llaw y Caldeaid i'w caethiwo; a'r meddwl yma yw, Na ddyro eu *henaid*, neu eu *bywyd*, i'w ddyfetha ganddynt yn ngwlad eu caethiwed. *Nac anghofia gynulleidfa dy drueiniaid byth*—eithr brysia bellach i'w gwaredu.

Adn. 20. *Edrych ar y cyfammod*] Yr hwn a wnaethost a'n tatau, i roddi gwlad Canaan i'w hiliogaeth hwynt, a'n dwyn iddi drachefn ar ein hedifeirwch, ar ol i ni gael ein caethgludo o honi am ein pechodau: eydmharer i Bren. ix. 3 à i Bren. viii. 46—50. *Canys llawn yw tywyll-leoedd y ddaeur*—i'r rhai y'n caethgludwyd ni; *c drigfanau trawsder*—lle y trigar ac y flyna trais, gormes, anghyfiawnder, a phob math o greulondeb tuag at dy bobl gyfammodol.

Adn. 21. *Na ddychweled y tylawd yn waradwyddus*] Oddiweth orseddfainc y gras,

heb gael ei wrando; *molianned y truan a'r anghenus dy enw*—dyro i ni achos o'r newydd i'th foliannu, trwy gael ein gwaredu mewn atebiad i'n gweddïau.

Adn. 22. *Cyfod, O Dduw*] I'n gwaredu; *dadleu dy dadl*—Saes., 'dadleu dy achos dy hun:' *cofia dy waradwydd gan yr ynfyd beunydd*—canys y mae y gwaredwydd a defir arnom ni gan y Caldeaid, yn waradwydd i tithau hefyd: gwel ar adn. 10, 18.

Adn. 23. *Nac anghofia lais dy clyinion*] Sef eu geiriau cableddus hwy yn dy erbyn di a'th achos, yn gystal ag yn ein herbyn ninau. *Dadwrdd y rhai a godant i'th erbyn*—eu rhuad, eu bloddest, a'u sarhad, adn. 4; *sydd yn dringo yn wastadol*—sydd yn cynyddu twyfwy yn barhaus; neu, y mae eu dadwrdd yn dringo i'r nefoedd, fel pechod y Sodomiad, wrth i ti fod yn amyneddgar tuag atynt.

SALM LXXV. Y teitl yw, '*I'r pendercdd, Al-taschith, Salm neu Gân Asaph.*' Ystyr y gair *Al-taschith* yw, 'Na ddystrywia.' Y mae awdwr y *Targum* yn meddwl i'r Salm hon gael ei chyfansoddi yn amser y pla, pryd y gweddïodd Dafydd am i'r Arglwydd 'beidio dystrywio y bobl.' Tybia *Clarke* iddi gael ei hysgrifennu yn ystod y caethiwed, a'i bod yn barhad o'r nn pwnc ag yn y Salm flaenorol. Barna yr *Esgob Patrick* ac ereill ddarfod ei chyfansoddi yn achos y waredigaeth fawr a gawsai Jerusalem rhag byddin luosog Senacherib, yn amser Hezeciah. Ond, fel y sylwa *Benson*, y mae yn cytuno mor dda âg amgylchiadau Dafydd ar ei ddyfodiad i'r orsedd ar ol marwolaeth Saul, nes y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr yn ei chymhwyso at yr amser hwnw, gan feddwl ddarfod ei chyfansoddi gan Dafydd ei hun, ac nid gan Asaph, trwy y goddefa y teitl ei gyfieithu yn 'Salm i Asaph,' wedi ei rhoddi iddo gan Dafydd i'w cbanu, neu i gyfansoddi ton iddi.

Adn. 1. *Clodforwn dydi, O Dduw, clodforwn*] Am y trugareddau hynod a wnaethai efe i'w bobl, y rhai oeddynt yr achlysur o gyfansoddi y Salm hon: gwel y teitl. *Canys agos yw dy enw*—y mae dy bresenoldeb grasol a galluog yn ein plith; *dy ryfeddodau a fynegant hyny*—dy wyrthiau ar ein rhan a brofant hyny yn y modd egluraf.

Adn. 2. *Pan dderbyniwyf y gynulleidfa*]

3 Ymddattododd y ddaear a'i holl drigolion: myfi sydd yn cynal ei cholofnau. Selah.

4 Dywedais wrth y rhai ynyfd, Nac ynyfdwch; ac wrth y rhai annuwiol, Na ddyrchefwch eich corn.

5 Na ddyrchefwch eich corn yn uchel: na ddywedwch yn warsyth.

6 Canys nid o'r dwyrain, nac o'r gorllewin, nac o'r deau, y daw goruchafiaeth.

7 Ond Duw sydd yn barnu; efe a ostwng y naill, ac a gyfyd y llall.

8 Oblegid y mae phïol yn llaw yr Arglwydd, a'r gwin sydd goch; yn llawn cymysg, ac efe a dywalltodd o hono: eto holl annuwiolion y tir a wasgant, ac a yfant ei waelodion.

9 Minau a fynegaf yn dragywydd, ac a ganaf i Dduw Jacob.

10 Toraf hefyd holl gyrn y rhai annuwiol; a chyrn y rhai cyfiawn a ddyrchefir.

Fel brenin, i roddi barn yn eu hachos; *mi a farnaf yn uniawn*—gan wneuthur cyfiawnder rhwng gwŷr a gwŷr: ond gwel ar adn. 3. Y mae rhai yn cyfieithu y frawddeg gyntaf, 'pan ddaw yr amser cyfaddas,' sef pan y gosodid Dafydd mewn llawn awdurdod fel brenin. Tybia *Mudge* ac ereill mai geiriau Duw yw yr adnod hon a'r nesaf, yn y rhai y cyfeiria efe at uniondeb y farn gyffredinol yn y dydd diweddfaf; a thybia *Clarke* mai cyfeiriad sydd yma at ddychweiliad Israel o Babilon, pryd y cospid i Caldeaid.

Adn. 3. *Ymddattododd y ddaear a'i holl drigolion*] Ar ddisgyniad y Barnwr yn y dydd olaf, fel y tybia rhai. *Myfi sydd yn cynal ei cholofnau*—y mae y geiriau hyn, yn eu hystyr llythyrenol, yn dra chyfaddasol i Dduw. Ond wrth eu cyuhwysu at *Dafydd*, yr ystyr yw, Y mae achosion y deyrnas wedi myned i'r anhreftn mwyaf o herwydd trais ac anghyfiawnder; ac y mae yn rhaid i mi, 'pan dderbyniwyf y gynulleidfa,' adn. 2, pan y bydd i'r holl lwythau fy nghydnabod i fel eu brenin, 'gynal ei cholofnau,' hyn yw, rhaid i mi amddiffyn y swyddogion gwladol, dal i fynd y wir grefydd, a noddi profiwyd ac offeiriad yr Arglwydd, y rhai yw *colofnau* y deyrnas. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 4. *Dywedais wrth y rhai ynyfd*] Sef gwrthwynebwyr ystyfnig Dafydd; *Nac ynyfdwch*—ymgedwch oddiwrth eich arferion fiol a drygonus, y rhai ni oddefr iddynt mwyach ddianc yn ddigosp: *ac wrth y rhai annuwiol*—pleidwyr Saul a'i dy; *Na ddyrchefwch eich corn*—fel tarw gwyllt, mewn gwrthwynebiad i mi a'm brenhiniaeth. Ond tybia *Clarke* mai cynghor i'r Caldeaid eilunaddolgar i dael eu heilunod yw y geiriau hyn, a pheidio *cornio* neu orthymu yr Iuddewon ag oeddynt y gorthion yn eu plith. Yr oedd 'dyrchafu y caer' yn arwydd o *fuddugoliaeth*. Arferai rhai hen ryfelwyr wisgo *corn dur* ar eu helmau, yr hwn yn gyffredin a orwedai yn *Uddaf* ar eu penau hyd nes y byddai iddynt ennill y fuddugoliaeth, ac wedi hyny *dyrchaf-ef* yf yn arwydd o hyny: gwel ar 1 Sam. ii. 1, 10, Job xvi. 15, a Luc i. 69.

Adn. 5. *Na ddyrchefwch eich corn yn uchel*] Mewn ymddanghosiad neu ystumiau balch; neu na wrthryfelwch yn erbyn Duw, fel yr ydych yn gwneuthur yn fy erbyn i; *na ddywedwch yn warsyth*—na fyddai i chwi

arferyd geiriau beilchion, mwy nag ystumiau beilchion a thrhaws.

Adn. 6. *Canys nid o'r dwyrain, &c.*] Nid oddiwrth gynorthwy unrhyw genedl neu bobl o'ch angylech; neu, fel y mae *Green* yn ei ddeall, 'nid o'r dwyrain, nac o'r gorllewin, nac o'r deau, eithr o'r goyledd, lle y mae dynas y Brenin mawr Jehofa: y daw goruchafiaeth'—neu 'ddyrchafiad,' fel y mae yn y Saesonaeg.

Adn. 7. *Ond Duw sydd yn barnu*] Neu yn llywodraethu yn mrenhiniaeth dynion: *efe a ostwng y naill*—megys Saul; *ac a gyfyd y llall*—i'r orsedd yn ei le ef. Fel hyn mynai Dafydd i bawr wybod mai Duw a'i dyrchafasai ef i fod yn frenin arnynt.

Adn. 8. *Oblegid y mae phïol yn llaw yr Arglwydd*] Y mae 'phïol' weithiau yn arwyddo bendith Duw i'w bobl, Salm xvi. 5, a xxiii. 5; ond y rhan amlat gesyd allan ei lid a'i farnedigaeithu ef ar ei elynion, Salm xi. 6, Esay li. 22, Jer. xlix. 12, Mat. xx. 23, Dat. xvi. 1; ac felly yr arwydda yma, fel y dengys y geiriau nesaf. *A'r gwin sydd goch*—neu 'gynhyrfus,' fel yr arwydda *chamar* yma; *yn llawn cymysg*—mewn cyfeiriad at y ddioid gymysgedig a syfrdanol a roddid i ddrwgweithredwyr cyn eu dienyddio: gwel ar Jer. xxv. 15—26. *Ac efe a dywalltodd o hono*—ar ei elynion lawer gwaith o ddechre y byd: *eto holl annuwiolion y tir a wasgant*—gorfydda iddynt wasgu; *ac a yfant ei waelodion*—y rhan sydd yn ol o hono, yr hon yw y chwerraf a'r waethaf o'r cwbl. Fe allai ei fod yn cyfeirio yn benaf at eu cosp dragwyddol hwy yn uffern: gwel ar Salm xi. 6.

Adn. 9. *Minau a fynegaf yn dragywydd*] Am ddaion a thrugaredd Duw; *ac a ganaf i Dduw Jacob*—sef i'm 'Duw cyfammodol,' am uniondeb ei weinyddiadau, a hyny holl ddyddiau fy einioes. Neu gall mai yr ystyr yw, Tra y bydd holl elynion Duw yn yfed yn dragywydd o phïol ei ddigofaint ef yn uffern, adn. 8, cai Datydd ganu yn hyfryd am ei drugaredd a'i iachawdwriaeth ef yn y nef.

Adn. 10. *Toraf hefyd holl gyrn y rhai annuwiol*] Sef eu holl nerth a'u dylanwad hwy, neu eu holl allu i gormio a niweidio ereill; *a chyrn y rhai cyfiawn a ddyrchefir*—gosodaf hwynt mewn anrhydedd ac awdurdod yn y llywodraeth, am na fydd perygl iddynt hwy gormio na niweidio neb. Ond tybia

SALM LXXVI.

HYNOD *yw* Duw yn Juda; mawr *yw* ei enw ef yn Israel.

2 Ei babell hefyd sydd yn Salem, a'i drigfa yn Seion.

3 Yna y torodd efe saethau y bwa, y tarian, y cleddyf hefyd a'r frwydr. Selah.

4 Gogoneddusach *wyt*, a chadarn-

Clarke i hyn gael ei gyflawni yn ninystr y Caldeaid, ac yn nygiad yr Iuddewon yn ol i'w gwlad.

SALM LXXVI. Y teitl yw, 'Pr penceerdd ar Neginoth, Salm neu Gân Asaph.' Am Neginoth, gwel deitl Salm iv a vi. Y mae y *Vulgate* a'r LXX yn ei ddarllen, 'Salm ar yr Assyriaid,' neu wedi ei chyfansoddi ar yr achlysur o'u maeddiad hwy. Dywed y *Syriac* mai 'Salm o ddiolchgarwch ydyw am gymeryd Rabbah oddiar feibion Ammon,' 2 Sam. xii. 29. Ond tybia rhai o'r esbonwyr penaf mai ar ol dinystr byddin Senacherib y cyfansoddwyd hi, 2 Bren. xix. 35; a barna *Clarke* fod yn amlwg oddiwrth yr adnod gyntaf mai ar ol marwolaeth Dafydd, a rhaniad Juda ac Israel yn ddwy frenhiniaeth, y cyfansoddwyd hi. Gan hyn, os Asaph yw ei hawdrwr, nis gallai ef fod y gweledydd hwnw yn amser Dafydd, eithr rhyw ŵr ysbrydoledig arall o'r un enw, ac fe allai o'i hiliogaeth ef. Tybia ereill y gallai hon gael ei galw yn 'Salm neu Gân Asaph,' am ei bod yn cael ei chanu bob amser gan feibion Asaph.

Adn. 1. *Hynod yw Duw yn Juda*] Neu 'adnabyddus' yw Duw yn mrenhiniaeth Juda; mawr *yw* ei enw ef yn Israel—sef yn mrenhiniaeth y deg llwyth, fel ei deallir gan rai. Er fod yr addoliad dwyfol wedi ei lygru yn fawr yn Israel trwy weithred Jeroboam, eto yr oedd enw Duw yn barchus yno fyth gan laweroedd.

Adn. 2. *Ei babell hefyd sydd yn Salem*] Neu yn Jerusalem, yr hon gynt a elwid 'Salem'; a'i drigfa yn Seion—sef yn y deml ar fynydd Seion. Yr oedd Moriah, lle yr adeiladwyd y deml, yn cael ei alw felly am ei fod yn ymyl Seion, neu yn rhan o'r un mynydd: gwel Salm lxxv. 2.

Adn. 3. *Yna y torodd efe*] Neu *yno*, sef yn nen ger Jerusalem; *saethau y bwa*—Hebr., 'y saethau tanllyd,' megys y *phalarica*, y rhai a gysueu ar eu mynediad trwy yr awyr, ac a osodent adeiladau y gelynyon yn fflamiau. Barna ereill mai saethau *gwenwynig* a feddylir, y rhai a elwir yn *dantlyd* o herwydd y gwres tanbeidiol a barent yn nghyrrif y rhai a archollid ganddynt: gwel ar Eph. vi. 16. *Y tarian, y cleddyf hefyd, a'r frwydr*—gwnaed y cwbl yn aneffeithiol trwy ofal Duw am ei bobl. Os yw hyn yn cyfeirio at ddinystr byddin Senacherib, fel y tybir yn gyffredin, da y gellir dywedyd fod Duw wedi *tori*, neu osod yn ddi-defnydd, eu holl arfau rhyfel hwy, trwy

ach, na mynyddoedd yr yspail.

5 Yspeiliwyd y cedyrn galon, hunasant eu hûn: a'r holl wŷr o nerth ni chawsant eu dwylaw.

6 Gan dy gerydd di, O Dduw Jacob, y rhoed y cerbyd a'r march i gysgu.

7 Tydi, tydi, *wyt* ofnadwy! a phwy a saif o'th flaen pan *enyuo* dy ddigter?

i'w angel ef ladd 185,000 o'r Assyriaid mewn un noson: gwel ar 2 Bren. xix. 35. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 4. *Gogoneddusach wyt, a chadarnach, na mynyddoedd yr yspail*] Y mae gwahanol ystyrion yn cael eu rhoddi i'r geiriau hyn: (1) Yr oedd *mynydd Seion*, am fod Duw a'i addoliad yno, yn ogoneddusach a chadarnach na mynyddoedd ereill, lle nad oedd dim ond dynion drwg yn yspeilio, neu greaduriaid rheibus yn ysglyfaethu. (2) Neu yr oedd yn ogoneddusach na'r mynyddoedd ereill o amgylch Jerusalem, lle yr oedd yr Assyriaid yspeilgar yn gwersyllu. (3) Yr oedd *Jehofa*, yr hwn a anfonodd ymwared i'w bobl o Seion, yn rhagori mewn gogoniant a chadernid ar dduwiau y mynyddoedd, dan nawdd pa rai yr oedd dynion drwg yn yspeilio yno. (4) Yr oedd *Brenin Seion* yn ogoneddusach a chadarnach na brenhinoedd a thywysogion daearol, y rhai yn fynych a elwir yn 'fynyddoedd' yn yr ysgrythyrau; a gelwir hwynt yma yn 'fynyddoedd yr yspail,' am eu bod yn gyffredin y pryd hyny yn cael eu sefydlu trwy drais, ac yn cael eu cynnal trwy yspeilio eu deiliaid, neu deyrnasoedd ereill gwanach na hwy eu hunain. Y mae amrai bleidwyr i bob un o'r golygiadau uchod.

Adn. 5. *Yspeiliwyd y cedyrn galon*] Sef yr Assyriaid hfyon, y rhai a ddaethant eu hunain yn yspail i'r rhai ag y bwriadent hwy eu hyseilio; *hunasant eu hûn*—sef hûn marwolaeth, neu lladdwyd hwy gan yr angel yn en cwsg; *a'r holl wŷr o nerth ni chawsant eu dwylaw*—ni allai y rhai mwyaf nerthol o honynt wneyd dim tuag at eu hachub eu hunain rhag yr angel dinystriol, mwy na phe buasant heb ddwyllaw.

Adn. 6. *Gan dy gerydd di, O Dduw Jacob*] Yr hwn wyt Dduw mewn cyfammod â Jacob a'i hiliogaeth; *y rhoed y cerbyd a'r march i gysgu*—sef y 'cerbyd-feirch,' fel y mae rhai yn ei ddarllen. Yr oedd y meirch a'r marchogion, yn gystal a'r gwŷr traed, weid eu ladd eisioes; ac felly nid oedd y cerbydau o ddim defnydd mwyach, os gadawyd hwynt heb eu dryllio.

Adn. 7. *Tydi, tydi, wyt ofnadwy!*] Y mae yr ailadroddiad yma yn gwneyd yr ymadrodd yn fwy dws a phwysig. Fel pe dywedasai, Yr ydwynt mewn gwirionedd yn ofnadwy ac arsywdol i'th holl elnyon, ac i elnydion dy bobl. *A phwy a saif o'th flaen*—i ymrison â thi, llai o lawer i'th orchfygu; *pan enyuo dy ddigter*—i ysua a difa pechaduriaid!

8 O'r nefoedd y peraid glywed barn; ofnodd, a gostegodd y ddaear;

9 Pan gyfododd Duw i farn, i achub holl rai llednais y tir. Selah.

10 Diau cynddaredd dyn a'th folianna di: gweddill cynddaredd a waherddi.

11 Addunedwch, a thelwch i'r Arglwydd eich Duw: y rhai oll ydynt o'i amgylch ef, dygant arnheg i'r Ofnadwy.

12 Efe a dyr ymaith ysbryd tywysogion: y mae yn ofnadwy i frenhinoedd y ddaear.

Adn. 8. *O'r nefoedd y peraid glywed barn*] Yr hon a weinyddwyd gan angel o'r nefoedd: *ofnodd a gostegodd y ddaear*—sef trigolion y ddaear; hyny yw, pan glywodd y gelynon ereill am y dinstyr hwn, ofnasant wneuthur dim i aflonyddu pobl yr Arglwydd, ac arosant gartref yn llonydd a thawel.

Adn. 9. *Pan gyfododd Duw i farn*] I dywallt ei farn ar yr Assyriaid; i achub holl rai llednais y tir—sef pobl isel neu orthrymedig y tir, neu yr Iudewon trallodus. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 10. *Diau cynddaredd dyn a'th folianna di*] Yr oedd cynddaredd yr Assyriaid yn ddirfawr yn erbyn yr Arglwydd a'i bobl, fel y gwelwn oddiwrth gabledw Rabsaceh a'r capteniaid ereill, 2 Bren. xviii a xix; ond trôdd Duw y cynddaredd hwn yn achlysur moliant iddo ei hun oddiwrth wŷr Juda, o herwydd y doethineb, y gallu, y fyddlondeb, a'r daioni a ddanghosodd efe iddynt yn ninistr y gelynon hyny. *Gweddill cynddaredd a waherddi*—amcanai yr Assyriaid ddangos chwang o'u cynddaredd, ond gwaharddodd Duw hyny trwy eu dyfetha hwynt oll mewn un noson. Ond myn llawer gyfieithu y frawddeg ddiweddar, 'â gweddill cynddaredd yr ymwregysi.' Fel y mae dyn yn ymwregysu mewn trefn i allu gwneyd ei waith yn well; felly yr ymwregysai yr Arglwydd â *chynddaredd*, i'r dyben i ddyfetha ei elynion.

Adn. 11. *Addunedwch*] Aberth o ddiolchgarwch a moliant i Dduw am iddo eich gwaredu mor hynod; a *thelwch i'r Arglwydd eich Duw*—canys 'gwell i chwi fod heb addunedu, nag i chwi addunedu, a bod heb dalu,' Preg. v. 5. *Y rhai oll ydynt o'i amgylch ef*—nid yn unig holl wŷr Juda o amgylch Jerusalem, ond hefyd yr holl genhedloedd o amgylch Canaan; *dygant arnheg i'r Ofnadwy*—rhag iddynt gael eu dyfetha ganddo am eu heilunaddoliaeth a'u drygioni yr un modd a'r Assyriaid.

Adn. 12. *Efe a dyr ymaith ysbryd tywysogion*] Sef eu hysbryd balch, uchel, a gwrol hwy, fel eiddo Senacherib: y mae yn ofnadwy i frenhinoedd y ddaear—y rhai nad ymstyngant iddo tra y mae yn galw arnynt. Y mae holl frenhinoedd a thywysogion y ddaear yn ddeiliaid i Jehofa, yr hwn yw 'Brenin y brenhinoedd;' a rhaid iddynt oll, yn fuan

SALM LXXVII.

A'M llef y gwaeddais ar Dduw, a'm llef ar Dduw; ac efe a'm gwrandawodd.

2 Yn nydd fy nhrallod y ceisiais yr Arglwydd: fy archoll a redodd liw nos, ac ni pheiddodd: fy enaid a wrthododd ei ddyddanu.

3 Cofiais Dduw, ac a'm cythryblwyd: cwynais, a therfysgwyd fy ysbryd. Selah.

neu yn hwyr, roddi cyfrif iddo am eu goruchwyliaeth.

SALM LXXVII. Y teitl yw, '*Pr penceerdd, i Jeduthun, Salm Asaph.*' Gellid meddwl oddiyma mai Asaph y gwledydd, yn amser Dafydd, yw awdwr y Salm hon, ac iddo ei rhoddi i Jeduthun y penceerdd i'w chanu, neu i gyfansoddi tôn arni: gwel deitl Salm xxxix. Tybia rhai mai ar ol clefyd Hezechiai y cyfansoddwyd hi, i osod allan deimladau y brenin hwnw ar y pryd; a thybia ereill mai cwyn yr eglwys yn amser caethiwd Babilon ydyw; canys ymddengys fod dyn ysbrydoledig o'r enw 'Asaph' yn eu plith ar y pryd: neu gall fod y penceerddorion a'r corau hanedig oddiwrth deulnoedd Asaph a Jeduthun yn cael eu galw yn barhaus ar eu benwau hwy. Pwy bynag yw awdwr y Salm hon, ymddengys iddo fod mewn trallod mawr yn y dyddiau hyny, nes y 'gwrthodai ei enaid gymeryd ei ddyddanu,' adn. 2. Y mae y Salm hon eto yn dra chyfaddasol i unrhyw Gristion a fyddo mewn cyfyngder ysbryd trwy brofedigaeth gref, neu i unrhyw ddyn a fyddo yn gofidio dan deimlad o anffodlonrwydd dwyfol o herwydd ei wrthgiliaid.

Adn. 1. *A'm llef y gwaeddais ar Dduw*] Mewn gweddi daer ac uchel; *a'm llef ar Dduw*—dengys yr ailadroddiad hwn ddiifrifoldeb dwys ei enaid ar y pryd: *ac efe a'm gwrandawodd*—trwy fy ngwaredu o'm trallod. Felly, ar ol cael ei waredu yr ysgrifonodd efe y Salm hon, i ddangos ei drueni cyn ei waredu.

Adn. 2. *Yn nydd fy nhrallod y ceisiais yr Arglwydd*] Mewn gweddi daer. *Fy archoll a redodd*—sef cornwyd Hezechiai, yn ol rhai. Ond yn lle 'fy archoll a redodd,' y mae *Lowth, Horne, Horsley, Boothroyd, Clarke*, ac ereill, yn cyfieithu *yadi niggerah*, 'fy llwr oedd estynedig,' sef mewn gweddi. *Liw nos*—efe a barhaodd ar hyd y nos i ddyrchafu ei lef a'i ddwyllaw at Dduw mewn gweddi; *ac ni pheiddodd*—er maint ei drallod a'i dddigalondid. *Fy enaid a wrthododd ei ddyddanu*—gan neb na dim, nes cael atebiad grasol oddiwrth Dduw i sicrhau iddo nad oedd efe wedi ei 'fwrw heibio yn dragwydd,' adn. 7—9.

Adn. 3. *Cofiais Dduw*] Yn ei drugaredd a'i ddaioni gynt i mi; *ac a'm cythryblwyd*—wrth feddwl nad oedd ef felly mwyach i mi.

4 Deliaist fy llygaid yn effro :
synodd arnaf, fel na allaf lefaru.

5 Ystyriais y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd.

6 Cofio yr ydwyf fy nghân y nos :
yr ydwyf yn ymddyddan â'm calon ;
fy ysbyrd sydd yn chwilio yn ddyfal.

7 Ai yn dragywydd y bwrw yr
Arglwydd heibio? ac oni bydd efe
boddllon mwy?

8 A ddarfu ei drugaredd ef dros
byth? a balla ei addewid ef yn oesoedd?

9 A aunghofodd Duw drugar-
hau? a gauodd efe ei drugareddau
mewn soriant? Selah.

10 A dywedais, Dyma fy ngwen-
did! *eto cofiaf* flynnyddoedd deheu-
law y Goruchaf.

11 Cofiaf weithredoedd yr Ar-

Neu, efe a gofodd am *allu a chyfiawnder* Duw, a chythryblwyd ef wrth feddlwl am ei euogrydd ei hun, a'i fod yn awr dan ei gerddol law ef. *Cwynais*—wrth Dduw mewn gweddi; *a therfsgwyd fy ysbyrd*—yr oeddwn mor bell oddiwrth gael ymwared trwy fy nghwynfaniadau, nes yr oeddynt yn chwaneu fy nhrueni. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 4. *Deliaist fy llygaid yn effro* [Gan boenau corff a gofid meddwl: *synodd arnaf*—gan fawredd fy nhrallod; *fel na allaf lefaru*—dengys hyn gynydd ei boen a'i ofid. Ar y cyntaf ete a *waeddai* yn ei drallod, adn. 1; ond yn awr yr oedd ei dafod wedi ei gloi gan ormod tristwch, fel na allai lefaru. Y Lladin-wyr a ddywedent, 'Trallodion bychain ydynt faldorddus; rhai mawrion ydynt fud.'

Adn. 5. *Ystyriais y dyddiau gynt* [Sef dy drugareddau i'th bobl yn y dyddiau a aethant heibio, gan geisio sugno rhyw gysur oddiwrth hyn; *blynyddoedd yr hen oesoedd*—pryd yr oedd Israel yn yr Aifft ac yn yr anialwch. Rhoddir 'dyddiau' a 'blynyddoedd' yma am y *bendithion* a fwynhâi y genedl oddiar law Duw ydynt.

Adn. 6. *Cofio yr ydwyf fy nghân y nos* [Fy mhrofiad melys fy hun yn yr amser a aeth heibio. *Yr ydwyf yn ymddyddan â'm calon*—neu yn myfyrio ynof fy hun yn y geiriau a adroddir yn yr adnodau nesaf; *fy ysbyrd sydd yn chwilio yn ddyfal*—âm yr achos o'r fath gyfnewidiad hynod yn fy amgylchiadau, neu i wybod paham y daeth y fath drallod blin i'm cyfarfod.

Adn. 7. *Ai yn dragywydd y bwrw yr Arglwydd heibio* [Ei bobl, neu ynte y Salmydd ei hun? *ac oni bydd efe boddllon mwy?*—ai ni fydd iddo byth mwyach ymgymodi? Gwel yr atebion ar adn. 9.

Adn. 8. *A ddarfu ei drugaredd ef dros byth?* [A ydyw holl drysorfa ei drugaredd ef wedi ei ddyhysbyddu? neu a beidiodd efe â bod yr hyn yr ymgysfennodd, 'Y Duw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddiag, ac aml o drugaredd a gwirionedd?' Exod. xxxiv. 6. *A balla ei addewid ef yn oesoedd*—yr hon a roddodd efe i ni i'w chredu, a gobeithio ynddi?

Adn. 9. *A aunghofodd Duw drugarhau* [Fel yr anghofia dyn? neu, os nad yw trugaredd Duw wedi *darfod*, adn. 8, a ydyw efe wedi *aunghofio* ei defnyddio? *Neu a gauodd efe ei drugareddau mewn soriant*—fel na chânt ddylifo byth mwyach i waredu y trallodus? Os nad yw ei drugaredd ef wedi 'darfod,' nac wedi ei 'hanghofio,' a ydyw hi wedi

ei *chau i fyny* am byth oddiwrth y truan a'r trallodus? Hon yw iaith enaid a 'wrthododd ei ddyddanu,' adn. 2, yr hwn oedd yn 'rhodio mewn trwyllwch, ac heb lawerch iddo;' yr hyn yn fynyh yw cyflwr llawer hyd yn nod o'r rhai sydd yn 'ofni yr Arglwydd, ac yn gwrandaw ar lais ei was ef,' Esay i. 10. Ond ni ddylem ni roddi lle i'r fath feddyliau a'r rhai hyn. Os bydd i ofoan a chul amheuan ofyn y fath gwestiynau a'r rhai uchod, boed i fydd eu hateb yn ngeiriau yr ysgrythyr. *Ai yn dragywydd y bwrw yr Arglwydd heibio?*—'Na ato Duw,' Rhuf. xi. 1. Na, 'ni âd yr Arglwydd ei bobl' ufydd, Salm xciv. 14. *Oni bydd efe boddllon mwy?*—Bydd; canys 'er iddo gystuddio, eto efe a dosturia,' Galar. iii. 32. *A ddarfu ei drugaredd ef dros byth?*

—Naddo; 'o herwydd ei drugaredd a bery yn dragywydd,' Salm cxviii. 1. *A balla ei addewid ef yn oesoedd?*—Na wna; canys 'nid posibl yw myned gair Duw yn ddirym,' Rhuf. ix. 6. *A aunghofodd Duw drugarhau?*—Naddo; canys cyhoeddodd ei hun yn 'Dduw trugarog a graslawn,' ac 'nis gall efe ei wadu ei hun,' 2 Tim. ii. 13, Exod. xxxiv. 6. *Neu a gauodd efe ei drugareddau mewn soriant?*—Naddo; 'o herwydd ni phalla ei dosturiaethau ef: bob bore y deuant o'r newydd,' Galar. iii. 22, 23. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 10. *A dywedais* [Ynof fy hun, ar ol ystyried pethau yn ddydlawy; *Dyma fy ngwendid!*—y mae yr amheuan hyn o berthynas i fyddlondeb a daioni Duw, yn tarddu oddiar wendid fy fydd, neu lesgeid corff a meddwl. *Eto cofiaf flynnyddoedd deheulaw y Goruchaf*—cofiaf y blynyddoedd yn y rhai y gwnaeth Duw weithredoedd mawrion a gogoneddus, y rhai yn fynyh a briodolir yn yr ysgrythyrâu i *ddeheulaw* Duw. Efe a gofiaf am y rhai hyn y gynol ei fydd yn ei adfydd presenol, gan obeithio y gwnai Duw â'i ddeheulaw iddo yntau, fel y gwnaethai i'w dadan gynt. Ond gan fod *shenoth*, a gyfieithir yma yn *flynnyddoedd*, yn arwyddo *cyfnewidiadau*, darllenir yr adnod hon gan rai fel hyn, 'Dyma fy ngofid, cyfnewidiad deheulaw y Goruchaf;' yr hyn a alleirir gan yr *Esgob Patrick*, 'Dyma yr hyn sydd yn fy mlino mor fawr, gweled y fath gyfnewidiad yn ymddygiad y Goruchaf; fod yr un llaw ag a ydoedd gynt yn ein hamddiffyn, yn awr yn ein ffrewyllu yn drwm!' Y mae *De Dieu*, yr hwn a dybia fod *challothi*, yn nechre yr adnod, yn deilliaw oddiwrth *chalah*, 'gweddio,' yn ei darllen, '*Gweddio* yw fy ngwaith i, i *newid*

glwydd; i.e. cofiaf dy wyrthiau gynt.

12 Myfyriaif hefyd ar dy holl waith, ac am dy weithredoedd y chwedleuaf.

13 Dy ffordd, O Dduw, *sydd yn y cysegr*: pa dduw mor fawr a'n Duw ni?

14 Ti yw y Duw sydd yn gwneuthur rhyfeddodau: danghosaist dy nerth yn mysy y bobloedd.

15 Gwaredaist a'th fraich dy bobl, meibion Jacob a Joseph. *Selah.*

16 Y dyfroedd a'th welsant, O Dduw, y dyfroedd a'th welsant:

hwy a ofnasant; y dyfnderau hefyd a gynhyrfwyd.

17 Y cymylau a dywalltasant ddwfr: yr wÿbrenau a roddasant dwrf: dy saethau hefyd a gerddasant.

18 Twrf dy daran a *glywyd* o amgylch: mellt a oleuasant y byd; cyffrôdd a chrynodd y ddaear.

19 Dy ffordd *sydd yn y môr*, a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion; ac nid adwaenir dy ôl.

20 Tywysaist dy bobl fel defaid, trwy law Moses ac Aaron.

debeulaw y Goruchaf.' *Mr. Berlin* a'i cyfieithia, '*Griddfan* yw fy rhan i; *newid* [fy nghyflwr] a berthyn i ddeheulaw y Goruchaf.' Ond y mae y deongliad blaenaf yn cysoni yn dda â'r adnodau dilynol.

Adn. 11. *Cofiaf weithredoedd yr Arglwydd*] Y rhai a wnaeth efe i'w bobl yr holl ffordd o'r Aiffit i Ganaan; *i.e. cofiaf dy wyrthiau gynt*—megys bollti y môr coch a'r Iorddonen, gwlawio manna o'r nef, a thynu dwfr o'r graig. Gwnaethai Duw yn fynyth lawer o wyrthiau a thrugareddau ar ran Israel, yn mhell uwchlaw eu dysgwyliadau; ac ymgy-surai y Salmwydd yn yr adgofion o honynt, ac yn yr ystyriaeth ei fod ef o hyd yr un o ran ei allu, ei ffyddlondeb, a'i ddaion, ac y byddai iddo cyn hir dosturio wrtho yntau, a'i waredu o'i gyfyngder presenol.

Adn. 12. *Myfyriaif hefyd*] Pan wrthyf fy hun mewn unigedd, *ar dy holl waith*—mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a gras; *ac am dy weithredoedd y chwedleuaf*—pan mewn cymdeithas, er addysg a chysur i ereill.

Adn. 13. *Dy ffordd, O Dduw, sydd yn y cysegr*] I'w deall yno, fel y deallid *diwedd yr annuwilion*, Salm lxxiii. 17; neu, 'dy ffordd sydd mewn *santeiddrwydd*,' fel y gellir ei gyfieithu. Y mae holl ffyrdd Duw yn santeidd, cyflawn, a da, a hyny yn ei geryddon yn gystal ag yn ei fendithion, er eu bod yn dywyll yn aml i ddynion. *Pa dduw mor fawr a'n Duw ni*—o ran ei allu i achub, yn gystal ag i ddystrywio?

Adn. 14. *Ti yw y Duw sydd yn gwneuthur rhyfeddodau*] Neu *wyrthiau*, o ddechre y byd i'w ddiwedd; canys nid oes dim ond gallu dwyfol a ddichon wneuthur y rhai hyn, Salm lxxii. 18. *Danghosaist dy nerth yn mysy y bobloedd*—sef yn mysy yr Aiffitiaid ac ereill. Y mae *nerth* Duw yn amlwg i bawb, a'i ddoethineb yn eglur i'r naturiaethwr, a'i ddaion a'i gariad i'r Cristion.

Adn. 15. *Gwaredaist a'th fraich dy bobl*] Allan o'r Aiffit a'th allu mawr; *meibion Jacob a Joseph*—neu, fel y mae y *Galdaege* yn ei ddarllen, 'y bobl a genhedlwyd gan Jacob, ac a borthwyd gan Joseph.' Neu dichon eu bod yn cael eu galw yn feibion Joseph yn gystal a Jacob, am fod *Ephraim a Manasse*, dau fab Joseph, yn cael eu rhifo yn mhllith y deuddeg llwyth. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 16. *Y dyfroedd a'th welsant, O Dduw*] Sef dyfroedd y môr coch; *y dyfroedd a'th welsant*—ail ddywedir hyn, i gadarnhau gwirionedd y wyrth, ac i alw sylw pawb ati. Yma, trwy arddull barddonol prydferth, priodolir bywyd, teimlad, a synwyr i'r dyfroedd: *Trwy a ofnasant*—neu a ffoasant ar bob llaw, fel dynion a fyddent wedi dychrynu yn ddirfawr. *Y dyfnderau hefyd a gynhyrfwyd*—effeithiodd yr ofn nid yn unig ar wyneb y dyfroedd, ond hyd y gwaelodion, gan wneyd ffordd rydd i Israel fyned trwyodd ar dirsydch.

Adn. 17. *Y cymylau a dywalltasant ddwfr*] Neu wlaw mawr ar yr Aiffitiaid; *yr wÿbrenau a roddasant dwrf*—sef taranau cryfion; *dy saethau hefyd a gerddasant*—sef mellt ofnadwy, y rhai a elwir yma yn 'saethau,' ond odid, am iddynt ladd llawer o'r Aiffitiaid.

Adn. 18. *Twrf dy daran a glywyd o amgylch*] Trwy yr holl wÿbren, neu o bob tu i'r môr coch, i sierhan i Israel fod yr Arglwydd yn ymladd drostynt; *mellt a oleuasant y byd*—yn nghanol tywyllwch y nos, Exod. xiv. 24; *cyffrôdd a chrynodd y ddaear*—ymddengys oddiyma fod daeargryn arswydol yn cymeryd lle ar y pryd, a hyny ond odid yn ngwaelod y môr, pryd yr oedd yr Aiffitiaid yn ceisio myned trwyodd. Fel hyn yr oedd yr holl elfenau yn ymladd yn erbyn yr Aiffitiaid, ac o blaid Israel. Ni chrybwyllir y pethau hyn gan Moses, oddieithr ei fod yn cyfeirio atynt, fel y tybia rhai, yn Exod. xiv. 24, 25; ond gan y gwneir hyny yma, trwy ddwyfol ysbrydoliaeth, rhaid eu bod wedi cymeryd lle.

Adn. 19. *Dy ffordd sydd yn y môr*] Neu, 'a oedd yn y môr' y pryd hyny; *a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion*—ar hyd y rhai y tywysaist dy bobl fel ar dir syd; *ac nid adwaenir dy ôl*—trwy i'r dyfroedd ddychweidd cyn y bore i'w gwely arferol: gwel ar Exod. xiv. 27.

Adn. 20. *Tywysaist dy bobl fel defaid*] Nid yn unig trwy y môr coch, ond hefyd trwy holl beryglon yr anialwch; *trwy law Moses ac Aaron*—y rhai oeddynt fel dau fugail iddynt dan Dduw, y naill mewn pethau gwladol, a'r llall mewn pethau crefyddol. Trwy yr adgofion hyn am weithredoedd Duw cafodd y Salmwydd yn ddiamau ei gryfhau yn fawr yn ei ysbryd a'i brofiad; a gall y cyfryw ystyriaethau fod o les annhraethol eto i bob Cristion gwan ac olnus.

SALM LXXVIII.

GWRANDO fy nghyfraith, fy mhobl: gostyngwch eich clust at eiriau fy ngenau.

2 Agorafy ngenau mewn diareb: traethaf ddammegion o'r cynfyd:

3 Y rhai a glywsom ac a wybuom, ac a fynegodd ein tadau i ni.

4 Ni chelwn rhag eu meibion, gan fynegu i'r oes a ddel foliant yr Arglwydd, a'i nerth a'i ryfeddodau y rhai a wnaeth efc.

5 Canys efe a sicrhaodd dystiolaeth yn Jacob, ac a osododd gyfraith yn Israel, y rhai a orchymynodd efe i'n tadau eu dysgu i'w plant:

SALM LXXVIII. Y teitl yw, '*Maschil Asaph*;' neu Salm 'er byfforddiant ac addysg' i Asaph, neu *gan Asaph*. Tybia rhai mai Dafydd yw ei hawdwr; eithr yr *Arabaeg* a'i geilw, 'Pregeth Asaph i'r bobl.' Cynwysa hanes yr Israeliaid o amser eu dygiad o'r Aifft hyd ddyddiau Dafydd, neu hyd ar ol adeiladu y deml, adn. 69.

Adn. 1. *Gwrando fy nghyfraith, fy mhobl*] Sef yr addysg neu yr athrawiaeth a gynwysir yn y Salm hon; *gostyngwch eich clust at eiriau fy ngenau*—y rhai a draethaf trwy ysbrydoliaeth Duw. Y mae y Salm ydd yn eu galw 'fy mhobl,' am eu bod o'r un genedl ag ef; er y tybia rhai ei fod yn llefaru yn ōherston Crist.

Adn. 2. *Agoraf fy ngenau mewn diareb*] Mewn brawddegau byrion ac eglur; neu addysgaf chi trwy *siânpiau*, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, neu *hanesion wedi eu trosglwyddo* i lawr hyd atom ni. Rhaid mai hyn yw yr ystyr, trwy nad oes cymaint ag un *ddi-areb*, yn briodol felly, yn y Salm. *Traethaf ddammegion o'r cynfyd*—neu hanesion addysgiadol am ddygwyddiadau a gymerasant le yn yr hen oesoedd: gwel ar Mat. xiii. 35. Tybia *Horne* eu bod o'r un natur a 'dammeg,' trwy eu bod yn gofyn doethineb a sylw i'w deall a'u cymhwyso.

Adn. 3. *Y rhai a glywsom ac a wybuom*] Trwy i'n tadau eu trosglwyddo i lawr i ni.

Adn. 4. *Ni chelwn*] Y pethau a enwir yn y Salm hon; *rhag eu meibion*—rhag meibion yr hen dadau Iuddewig, a'u meibion union-grychiol hwy eu hunain; *gan fynegu i'r oes a ddel*—fel y gallont hwy eu mynegu i'w plant hwythau; *foliant yr Arglwydd*—sef ei weithredoedd gogoneddus, am y rhai y dylid ei folianu ef; *a'i nerth a'i ryfeddodau*—y rhai a wnaeth efc ar ran Israel yr amseroedd gynt. Y pryd byny nid oedd fawr o *ddarllen*, am nad oedd nemawr o *lyfrau* mewn bod; ac, am hyn, trwy *draddodiad* yn benaf y cedwid cofiadwriaeth o ddygwyddiadau a gymerasant le.

Adn. 5. *Canys efe a sicrhaodd dystiolaeth yn Jacob*] Yn mhlith meibion Jacob, sef y

6 Fel y gwybyddai yr oes a ddel, sef y plant a enid; *a phan* gyfodent, y mynegent *hwy* i'w plant hwythau:

7 Fel y gosodent eu gobaith ar Dduw, heb anghofio gweithredoedd Duw, eithr cadw ei orchymynion ef:

8 Ac na byddent fel eu tadau, yn genhedlaeth gyndyn a gwrthryfelgar; yn genhedlaeth ni osododd ei chalon yn uniawn, ac nid yw eu hysbryd ffyddlon gyda Duw.

9 Meibion Ephraim, yn arfog, ac yn saethu â bwa, a droisant *eu cefnau* yn nydd y frwydr.

10 Ni chadwasant gyfammod

ddeddf foesol ond odid, yr hon yn fynych a elwir yn 'dystiolaeth,' am ei bod yn dyst rhwng Duw a dynion, neu yn tystio ei ewyllys ef i ddyinion, gan ddwyn tystiolaeth yn erbyn y troseddwr, Exod. xxv. 16. *Ac a osododd gyfraith yn Israel*—sef holl gyfraith Moses, yn foesol, gwladol, a seremonïol. *Y rhai a orchymynodd efe i'n tadau eu dysgu i'w plant*—gwel ar Deut. iv. 9, a vi. 7.

Adn. 6. *Fel y gwybyddai yr oes a ddel*] Foliant, nerth, a rhyfeddodau yr Arglwydd, adn. 4, yn gystal a'u dyledswyddau eu hunain; *a phan gyfodent*—pan y byddai i'r plant a enid dyfu i fyny i oedran a synwyr, a dyfod yn rhieni eu hunain; *y mynegent hwy i'w plant hwythau*—ac felly yn olynol. Fel hyn byddai i wybodaeth o Dduw, ei ewyllys, a'i weithredoedd, gael ei throsglwyddo yn mlawn o oes i oes, i'r dyben a enwir isod.

Adn. 7. *Fel y gosodent eu gobaith ar Dduw*] Wrth glywed am ei allu, ei ddaioni, a'i ffyddlondeb ef; *heb anghofio gweithredoedd Duw*—y rhai a wnaethai efc yn ei drugaredd i'w tadau; *eithr cadw ei orchymynion* ef—o gariad ato ef, ac er lles iddynt eu hunain.

Adn. 8. *Ac na byddent fel eu tadau*] Yn bobl gyndyn a gwrthryfelgar yn erbyn yr Arglwydd; yn *genhedlaeth ni osododd ei chalon yn uniawn*—yn rhai, er fod ganddynt ffurfiau allanol crefydd, nad oeddynt yn ei addoli ef mewn ysbryd a gwirionedd; *ac nid yw eu hysbryd ffyddlon gyda Duw*—yr hyn a ddanghosen yn eglur trwy eu henciliadau mynych at eilunaddoliaeth.

Adn. 9. *Meibion Ephraim*] Er eu bod yn arfog, ac yn fedrus i saethu â bwa; *a droisant eu cefnau yn nydd y frwydr*—gan nad ydym yn darllen dim yn hanes Israel am lwfrdra meibion Ephraim ragor y llwythau ereill, tybia rhai fod 'meibion Ephraim' yma yn arwyddo yr holl genedl, y rhai a droisant eu cefnau wrth ymladd â'r Amaleciaid a'r Canaaneaidd, Num. xiv. 40—45. Tybia *Kimchi, Hammond*, ac ereill, fod yma gyfeiriad at yr hyn a adroddir yn 1 Cron. vii. 20—22, pryd y lladdwyd meibion Ephraim gan wŷr Gath.

Duw, cithr gwrthodasant rodio yn ei gyfraith ef;

11 Ac annghofiasant ei weithredoedd a'i ryfeddodau, y rhai a ddangosasai efe iddynt.

12 Efe a wnaethai wyrthiau o flaen eu tadau hwynt yn nhir yr Aiff, *ym* maes Soan.

13 Efe a barthodd y môr, ac a aeth â hwynt trwyodd; gwnaeth hefyd i'r dwfr sefyll fel pentwr.

14 Y dydd hefyd y tywysodd efe hwynt â chwmwl, ac ar hyd y nos â goleuni tân.

15 Efe a holltodd y creigiau yn yr anialwch; a rhoddes ddiod *oddi-yno* megys o ddyfnderau dirfawr.

16 Canys efe a ddyg ffrydiau allan o'r graig, ac a dynodd i lawr megys afonydd o ddyfroedd.

17 Er hyny chwaneasant eto

bechu yn ei erbyn ef, gan ddigio y Goruchaf yn y diffaethwch.

18 A themtiasant Dduw yn eu calon, gan ofyn bwyd wrth eu blys.

19 Llefarasant hefyd yn erbyn Duw; dywedasant, A ddichon Duw arlwygo bwrdd yn yr anialwch?

20 Wele, efe a darawodd y graig, fel y pistyllodd dwfr, ac y llifodd afonydd; a ddichon efe roddi bara hefyd? a ddarpara efe gig i'w bobl?

21 Am hyny y clybu yr Arglwydd, ac y ddigiodd: a thân a enynodd yn erbyn Jacob, a digofaint hefyd a gyneuodd yn erbyn Israel;

22 Am na chredent yn Nuw, ac na obeithient yn ei iachawdwriaeth ef:

23 Er iddo ef orchymyn i'r wýbr-

Adn. 10. *Ni chadwasant gyfammod Duw*] Yr hwn a wnaethai efe â holl Israel yn Horeb; *eithr gwrthodasant rodio yn ei gyfraith ef*—yr hyn oedd yr achos i Dduw eu rhoddi yn llaw eu gelynon.

Adn. 11. *Ac annghofiasant ei weithredoedd a'i ryfeddodau*] Nid yn hanesiol, ond yn ymarferol. Ni chofient hwynt fel ag i garu a gwasanaethu Duw, ac ymddiried yn ei allu a'i ddaioni anfeidrol ef, o'r hyn y cawsent y fath brofion amlwg. *Y rhai a ddangosasai efe iddynt*—yn yr Aiff, wrth y môr coch, ac yn yr anialwch a Chanaan.

Adn. 12. *Efe a wnaethai wyrthiau o flaen eu tadau hwynt yn nhir yr Aiff!*] Cyfeirir yma ond odid at y deg pla; *ym* *maes Soan*—hen ddinas enwog yn yr Aiff Isaf, lle yr oedd Pharao yn byw, gerlaw pa un y gwnaethid y gwrthiau hyny. Gelwir hi *Tanis* gan yr hen ysgrifenywyr paganaidd: gwel ar Num. xiii. 22.

Adn. 13. *Efe a barthodd y môr*] Sef y môr coch, i Israel fyned trwyodd: gwel ar Exod. xiv. 21, 22. Gan fod yr holl ddygwyddiadau hyn wedi eu hegluro yn helaeth yn y manau ag y cyfeirir atynt, dymunir i'r darlennydd droi yno, yn lle i ni ail fyned drostynt.

Adn. 14. *Y dydd hefyd y tywysodd efe hwynt â chwmwl*] Neu golofn niwl, fel y gwnai efe y nos â cholofn dân: gwel yr hanes, Exod. xiii. 21, 22.

Adn. 15. *Efe a holltodd y creigiau yn yr anialwch*] Un yn Horeb, Exod. xvii. 6, a'r llall yn Cades, Num. xx. 11; *a rhoddes ddiod oddiyno megys o ddyfnderau dirfawr*—sef mewn cyflawnder a helaethrwydd iddynt hwy a'u hanifeiliaid.

Adn. 16. *Canys efe a ddyg ffrydiau*] 'Megys afonydd o ddyfroedd;' *allan o'r graig*—y ddau dro uchod.

Adn. 17. *Er hyny chwaneasant eto bechu yn ei erbyn ef*] Er amldegi y wrthian trugarog ar eu rhan; *gan ddigio y Goruchaf yn yr*

anialwch—lle y derbyniasant gymaint o'i ddaioni, a lle yr oeddynt yn ymddibynu yn hollol ar ei haelioni gwrthiol ef!

Adu. 18. *A themtiasant Dduw yn eu calon*] Trwy feddwl yn galed am dano, neu yn wael a diystyrlyd am y manna; *gan ofyn bwyd wrth eu blys*—nid oddiar wir angen; canys yr oedd y manna ganddynt i dori eu newyn, yn gystal a dwfr i dori eu syched; ond oddiar *fflys* aflywodraethus, Num. xi. 4—6. Hebr., 'gan ofyn bwyd i'w heneidiau,' neu i gynal eu bywydau.

Adn. 19. *Llefarasant hefyd yn erbyn Duw*] Gan ei demtio ef nid yn unig yn eu 'calon,' adn. 18, ond hefyd mewn geiriau. *A ddichon Duw arlwygo bwrdd yn yr anialwch?*—a all efe ddarparu amrywiaeth o ddant-eithion i ni yn yr anialwch, fel yr hyn a gaem yn yr Aiff?

Adn. 20. *Wele, efe a darawodd y graig fel y pistyllodd dwfr*] Y mae hyny yn ddigon gwir; gallodd wneuthur hyny: ond, *a ddichon efe roddi bara hefyd*—yn yr anialwch diffrwrth hwn, lle nad oes fyd yn tyfu? Yr oedd ganddynt y manna eisioes, ond mynent gael bara gwenith hefyd, a hyny trwy wyrth. *A ddarpara efe gig i'w bobl?*—hyny yw, a all efe ei ddarparu?

Adn. 21. *Am hyny y clybu yr Arglwydd*] Yr ymadroddion grwgnachlyd hyn; *ac y digiodd*—yn angherddol, fel yr arwydda y gair; *a thân a enynodd yn erbyn Jacob*—sef yn erbyn Israel, hiliogaeth Jacob, 'ac a yssodd gwŷr y gwersyll: gwel ar Num. xi. 1—3.

Adn. 22. *Am na chredent yn Nuw*] Sef yn ei allu ef i'w porthi hwy; *ac na obeithient yn ei iachawdwriaeth ef*—y byddai iddo ef eu cadw rhag newynu, a'u dwyn yn ddiogel i Ganaan.

Adn. 23. *Er iddo ef orchymyn i'r wýbr- enau*] Saes, 'i'r cymylau;' *ac agoryd drysau y nesoedd*—heiniardy mawr Duw, i wlawio

enau oddiuchod, ac agoryd drysau y nefoedd.

24 A gwlawio manna arnynt i'w fwyta, a rhoddi iddynt yd y nefoedd.

25 Dyn a fwytaodd fara angylion: anfonodd iddynt fwyd yn ddigonol.

26 Gyrodd y dwyreinwynt yn y nefoedd: ac yn ei nerth y dyg efe ddeheuwynt.

27 Gwlawiodd hefyd gig arnynt fel llwch, ac adar asgellog fel tywod y môr.

28 Ac a wnaeth iddynt gwmpo o fewn eu gwersyll, o amgylch eu preswylfeydd.

29 Felly y bwytasant, ac y llwyrdiwallwyd hwynt; ac efe a barodd eu dymuniad iddynt;

30 Ni ommeddwyd hwynt o'r

hyn a flysiasant: er hyny, tra yr ydoedd eu bywd yn eu safnau,

31 Digllonedd Duw a gyneuodd yn eu herbyn hwynt, ac a laddodd y rhai brasaf o honynt, ac a gwympodd etholedigion Israel.

32 Er hyn oll pechasant eto, ac ni chredasant i'w ryfeddodau ef.

33 Am hyny y treuliodd efe eu dyddiau hwynt mewn oferedd, a'u blynyddoedd mewn dychryn.

34 Pan laddai efe hwynt, hwy a'i ceisient ef, ac a ddychwelent, ac a geisient Dduw yn fore.

35 Cofient hefyd mai Duw oedd eu Craig, ac mai y Goruchaf Dduw oedd eu Gwaredydd.

36 Er hyny, rhagrithio yr oedd-ynt iddo ef â'u genau, a dywedyd celwydd wrtho â'u tafod:

oddiyno fanna arnynt, adn. 24; eto, er hyny, ni chredent yn ei allu ef, neu ya ei ofal am danynt.

Adn. 24. *A rhoddi iddynt yd y nefoedd*] Felly y gelwir y manna, am ddarfod ei wlawio arnynt o'r nefoedd, sef o'r wbyren neu y cymylau.

Adn. 25. *Dyn a fwytaodd fara angylion*] Neu fara o drefniad angylion. Hebr., 'bara y cedyrn;' hyny yw, bara o'r detnydd goraf, trwy yr hwn y gwneid hwy yn gedyrn; neu fara teilwng i fod ar fyrddau gwyr cedyrn, sef tywysogion a brenhinoedd y ddaear. *Anfonodd iddynt fwyd yn ddigonol*—nid yn unig fwyd rhagorol o ran ei natur a'i ansawdd, ond digon o hono. Ond dylid sylwi fod y manna hwn yn gysgod o Grist, 'Bara y bywyd, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef:' gwel ar Ioan vi. 31—58.

Adn. 26. *Gyrodd y dwyreinwynt yn y nefoedd*] Yn y nef wbyrenol; ac yn ei nerth y dyg efe ddeheuwynt—y naill ar ol y llall, a'r ddau i gynnul adar yn fwyd iddynt, Num. xi. 31, 32.

Adn. 27. *Gwlawiodd hefyd gig arnynt fel llwch*] Sef adar asgellog, neu soffieir, y rhai oeddnt fel llwch a thywod o ran amledd.

Adn. 28. *Ac a wnaeth iddynt gwmpo o fewn y gwersyll*] Neu 'o amgylch y gwersyll,' Num. xi. 31, fel y gallai yr Israeliaid yn hawdd eu dal. Dywed Moses eu bod yn amgylchu y gwersyll 'daith diwrnod ar y naill du, a thraith diwrnod ar y tu arall,' yr hyn oedd ugain milldir bob ffordd.

Adn. 29. *Felly y bwytasant*] Yr adar, ar ol eu pluo a'u cogyddio yn briodol; ac y llwyrdiwallwyd hwynt—yn ol eu dymuniad blysig, Num. xi. 4.

Adn. 30. *Ni ommeddwyd hwynt o'r hyn a flysiasant*] Ond cawsant oll eu gwala a'n gweddill: er hyny, tra yr ydoedd eu bywd yn eu safnau—tra yr oedd 'y cig eto rhwng

eu dannedd heb ei gnoi,' a thra yr oeddnt hwythau heb laru arno a'i ffeiddio, Num. xi. 20, 33.

Adn. 31. *Digllonedd Duw a gyneuodd yn eu herbyn*] Fel ag i'w 'taraw â phla mawr iawn,' Num. xi. 33; ac a laddodd y rhai brasaf o honynt—y dynion iachaf a chryfaf, y rhai yn debygol oeddnt fwyaf blysig am dano, ac annhebycaf o gael niwed oddiwrtho; ac a gwympodd etholedigion Israel—y rhai dewraf, cadarnaf, a mwyaf dewisol yn eu plith.

Adn. 32. *Er hyn oll pechasant eto*] Heb gymeryd rhybydd oddiwrth farnau Duw arnynt, mwy na'i wyrthiau trugarog ef iddynt, adn. 17; ac ni chredasant i'w ryfeddodau ef—yr oeddnt yn eu credu o ran y gwirionedd o honynt, ond nid oeddnt yn eu credu fel ag i ymddiried yn Nuw yn ngwyneb ei drugareddau, neu fel ag i ymostwng yn edifeiriol wrth ei draed yn ngwyneb ei farnedigaethau!

Adn. 33. *Am hyny y treuliodd efe eu dyddiau hwynt mewn oferedd*] Mewn teithiau ofer am ddeugain mlynedd yn yr anialwch; a'u blynyddoedd mewn dychryn—rhag na chaent byth fyned i Ganaan, neu mewn peryglon ac ofnau parhaus.

Adn. 34. *Pan laddai efe hwynt*] Neu pan y bygythiai eu lladd am eu heilunaddoliaeth; hwy a'i ceisient ef—cyfaddefent eu pechod, a gweddiant am arbediad rhag y gosg; neu, pan laddai efe rai o honynt, llefai y lleill am drugaredd, ac addawent ufydd-dod rhagllaw; ac a ddychwelent—oddiwrth eu heilunol, i geisio Duw ar frys.

Adn. 35. *Cofient hefyd mai Duw oedd eu Craig*] Eu Creawdwr, eu Noddwr, a Flynnonell eu holl drugareddau: ac mai y Goruchaf Dduw—ac nid eu heilunol gwag, oedd eu Gwaredydd—o'r Aifft hyd yma. Dywed yr Iuddeuon mai y geiriau hyn yw canol llyfr y Salmu.

Adn. 36. *Er hyny, rhagrithio yr oeddnt*

37 A'u calon heb fod yn union gydag ef, na'u bod yn ffyddlon yn ei gyfammod ef.

38 Er hyny efe yn drugarog a faddeuodd eu hanwiredd, ac ni ddyfethodd hwynt: ie, trôdd ymaith ei ddigofaint yn fynych, ac ni chyffrôdd ei holl lid.

39 Canys efe a gofiai mai cnawd oeddynt, a gwynt yn myned, ac heb ddychwelyd.

40 Pa sawl gwaith y digiasant ef yn yr anialwch, ac y gofidiasant ef yn y diffaethwch?

41 Ie, troisant a phrofasant Dduw, ac a osodasant derfyn i Sant yr Israel.

42 Ni chofiasant ei law ef, na'r dydd y gwaredodd efe hwynt oddiwrth y gelyn.

iddo â'u genau] Gan feddwl y byddai i eiriau tŷg droi y farn ymaith; *a dywedyd celwydd urtho â'u tafod*—heb ystyried ei fod ef yn chwilio y galon.

Adn. 37. *A'u calon heb fod yn union gydag ef*] Nid oedd eu holl gyfaddefiadau a'u gweddian ddim ond rhagrith; *na'u bod yn ffyddlon yn ei gyfammod ef*—yr hwn a wnaed ar Sinai, Exod. xix. 8, &c.

Adn. 38. *Er hyny efe yn drugarog*] Gan ystyried eu gwendid a'u breuolder hwy; *a faddeuodd eu hanwiredd*—nid yn hollol, canys ni faddena efe felly i neb ond y gwir edifeiriol; eithr yn rhanol, neu dymhorol, fel ag i beidio eu 'dyfetha,' fel y dywedir yma: *ie, trôdd ymaith ei ddigofaint yn fynych*—yn ystod eu crwydriadau yn yr anialwch; *ac ni chyffrôdd ei holl lid*—fel ag i'w dyfetha oll ar unwaith; eithr yn nghanol barn, efe a gofiai drugaredd.

Adn. 39. *Canys efe a gofiai mai cnawd oeddynt*] Rhai brau a marwol yn eu natur, y rhai a fyddent feirw yn fuan o honynt eu hunain, heb iddo ef eu dyfetha: *a gwynt yn myned*—neu, fel y gellir deall y wreiddiol, 'ysbryd yn myned,' yr hyn hefyd yw darlenniad yr *Arabaeg*, ac ereill o'r hen gyfieithiadau; *ac heb ddychwelyd*—i adfywio eu cyrff eilwaith, neu i'w dwyn i gyflwr a brawf drachefn ar y ddaear.

Adn. 40. *Pa sawl gwaith y digiasant ef yn yr anialwch?*] Dywed Duw ei hun iddynt ei demtio ef ddengwaith yno fel cenedl, heblaw yr aneirif weithiau ag y gwnaethant hyny fel personau unigol: gwel ar Num. xiv. 22. *Ac y gofidiasant ef*—fel y mae dyn, wrth gael ei ddigio, yn cael hefyd ei ofidio, felly dywedir yr un peth yma, mewn dull dynol, am Dduw.

Adn. 41. *Ie, troisant*] I fyned yn ol i'r Aifft, Num. xiv. 3, 4; *a phrofasant Dduw*—neu a'i tentiasant ef i'w dyfetha am hyny; *ac a osodasant derfyn i Sant yr Israel*—trwy ddygu iddo pa beth i'w wneyd, pa fodd, pa bryd, ac yn mha le. Ni oddefent iddo ddefn-

43 Fel y gosodasai efe ei arwyddion yn yr Aifft, a'i ryfeddodau yn maes Soan:

44 Ac y troisai eu hafonydd yn waed; a'u ffrydiau, fel na allent yfed.

45 Anfonodd gymysgbla yn eu plith, yr hon a'u difaodd hwynt; a llyffiant i'w dyfetha.

46 Ac efe a roddodd eu cnwd hwynt i'r lindys, a'u llafur i'r locust.

47 Dystrywiodd eu gwinwydd â chenllusg, a'u sycamorwydd â rhew.

48 Rhoddodd hefyd eu hanifeiliaid i'r cenllusg, a'u golud i'r mell.

49 Anfonodd arnynt gynddaredd ei lid, lliidiogrwydd, a digter, a chyfyngder, trwy anfon angylion drwg.

yddio ei gynlluniau ei hun, ond mynent hwy drefnu a phenderfynu ei weithrediadau.

Adn. 42. *Ni chofiasant ei law ef*] Mor alluog ydoedd, neu mor anlwg y dangoswyd hi yn eu gwaredigaethau; *na'r dydd y gwaredodd efe hwynt oddiwrth y gelyn*—sef o law Pharao. Dylem gofio nid yn unig ein gwaredigaethau, ond hefyd y dyddiau, y lleoedd, a'r moddion trwy ba rai yr effeithiwyd hwynt, i'r dyben i'n cadw yn ddiolchgar am danynt, Exod. xiii. 3.

Adn. 43. *Fel y gosodasai efe ei arwyddion yn yr Aifft*] Sef y deg pla, y rhai oeddynt yn arwyddion o'i allu a'i ddigofaint ef yn erbyn yr Aifftiaid, ac o'i ofal am ei anrhydedd ei hun a'i bodl. *A'i ryfeddodau yn maes Soan*—gwel ar Exod. 12.

Adn. 44. *Ac y troisai eu hafonydd yn waed*] Sef y Nilus a'i changhenau: gwel ar Exod. vii. 20, 21.

Adn. 45. *Anfonodd gymysgbla yn eu plith*] Gwel ar Exod. viii. 21, 24; *a llyffiant i'w dyfetha*—gwel ar Exod. viii. 2, &c.

Adn. 46. *Ac efe a roddodd eu cnwd hwynt i'r lindys*] Y rhai yn ddiamau a gynorthwyent y locustiaid i'w ddifa ef, er na chrybwyllir hyny gan Moses; *a'u llafur i'r locust*—gwel ar Exod. x. 4, &c.

Adn. 47. *Dystrywiodd eu gwinwydd â chenllusg*] Gwel ar Exod. ix. 18; *a'u sycamorwydd â rhew*—ar y rhai y tyfai math o ffîgys gwerthfawr. Crybwyllir y ddau bren hyn, y rhai oeddynt yn gynaliaeth fawr i'r Aifftiaid, i osod allan bob pren ffwrthlon arall, y rhai a holltid trwy ddisgyniad y cenllusg arnynt fel talpiau o rew, neu ynte yr oedd eu nôdd yn cael ei rewi i fyny fel ag i'w ddi-firwytho.

Adn. 48. *Rhoddodd hefyd eu hanifeiliaid i'r cenllusg*] Yn gystal ar coed a'r llysiâu, Exod. ix. 19, 25; *a'u golud i'r mell*—Saes., 'eu deadelloedd.'

Adn. 49. *Anfonodd arnynt gynddaredd ei*

50 Cymhwysodd ffordd i'w ddigofaint: nid attaliodd eu henaidd oddiwrth angau; ond eu bywyd a roddodd efe i'r haint.

51 Tarawodd hefyd bob cyntafanedig yn yr Aifft; *sef* blaenion eu nerth *hwynt* yn mhebyll Ham:

52 Ond efe a yrodd ei bobl ei hun fel defaid, ac a'u harweiniodd *hwynt* fel praidd yn yr anialwch.

53 Tywysodd *hwynt* hefyd yn ddiogel, fel nad ofnasant: a'r môr a orchuddiodd eu gelynyon *hwynt*.

54 Hwytthau a ddyg efe i oror ei santeiddrwydd; i'r mynydd hwn, a ennillodd ei ddeheulaw ef.

55 Ac efe a yrodd allan y cenhedloedd o'u blaen *hwynt*, ac a ran-

odd iddynt etifeddiaeth wrth linyon, ac a wnaeth i lwythau Israel drigo yn eu pebyll *hwynt*.

56 Er hyny temtiasant a digiasant Dduw Goruchaf, ac ni chadwasant ei dystiolaethau:

57 Eithreiliasant a buant anffyddlon fel eu tadau: *troisant* fel bwa twyllodrus.

58 Digiasant ef hefyd a'u huchel-fanau; a gyrasant eiddigedd arno a'u cerfedig ddelwau.

59 Clybu Duw *hyn*, ac a ddigiodd, ac a ffeiddiodd Israel yn ddirfawr:

60 Fel y gadawodd efe dabernacl Silo, y babel a osodasai efe yn mysg dynion;

61 Ac y rhoddodd ei nerth mewn

lid] *Sef* lliidiogrwydd a digter i'r graddau uwchaf; a *chyfyngder*—mawr fel effaith hyny; *trwy anfon angylion drwg*—gall y rhai hyn fod yn arwyddo unrhyw *genadau* neu *offerynau* a ddefnyddid gan Dduw i'w blino, pa un bynag ai ysbrydol ai corfforol, bywydol neu ddiwydol. Ond y mae traddodiad gan yr Iuddeuon fod yr Aifftiaid, yn y tywyllwch dudew a roddwyd arnynt fel y nawfed pla, Exod. x. 21, yn cael eu dychrynu gan ym-dlanghosiad *ysbrydion drwg*, yn yr hytrach gan eu trwst a'u dolefau arswydus bwy: gwel y darluniad a roddir o'r pla hwn yn llyfr Doethineb Solomon yn yr Apocryphia, pen. xvii.

Adn. 50. *Cymhwysodd ffordd i'w ddigofaint*] Trwy symud pob rhwyster a dafesid gan drugaredd ar lwybrau cyfiawnder er ei rag-faenu: *nid attaliodd eu henaidd*—neu eu heinioes, *oddiwrth angau*—yn yr amrywiol bliant hyn; *ond eu bywyd a roddodd efe i'r haint*—yn ysglyfaeth.

Adn. 51. *Tarawodd hefyd bob cyntafanedig yn yr Aifft*] Gwel ar Exod. xii. 29; *sef blaenion eu nerth*—gwel ar Gen. xlix. 3; *yn mhebyll Ham*—*sef* yn nhai yr Aifftiaid, y rhai oeddynt wedi digsyn oddiwrth Ham neu Cam, Gen. x. 6.

Adn. 52. *Ond efe a yrodd ei bobl ei hun fel defaid*] Gan waliaethau rhyngddynt hwy a'r Aifftiaid, 'megys y didola y bugail y defaid oddiwrth y geifr; ac a'u harweiniodd *hwynt fel praidd*—yn ddiogel, a than ei nod; *yn yr anialwch*—*sef* anialwch y môr coch, Exod. xiii. 18.

Adn. 53. *Tywysodd hwynt hefyd yn ddiogel*] Trwy yr anialwch hwnw; *fel nad ofnasant*—nes iddynt weled Pharaon yn erlid ar eu hol, Exod. xvi. 10; neu, 'fel nad oedd *achos* iddynt ofni,' fel y mae rhai yn ei ddeall. Ond dichen ei fod yn cyfeirio yma at eu tywysiad trwy y môr coch, pryd nad ydym yn cael iddynt ofni. *A'r môr a orchuddiodd eu gelynyon*—gan eu boddi oll: gwel ar Exod. xiv. 28.

Adn. 54. *Hwytthau a ddyg efe i oror ei santeiddrwydd*] *Sef* i Ganaan, yr hon a elwir

yn 'dir santaidd,' Zec. ii. 12, am ddarod ei neillduo at ei wasanaeth santaidd ef. Ni chrybwyllir yma am eu taith trwy yr anialwch, gan fod hyny wedi ei nodi o'r blaen, adn. 14, &c. *I'r mynydd hwn*—naill ai y mynydd ar ba un y safai y babel neu y deml, neu ynte gwlad fynyddig Canaan, yr hon a elwir yn 'fynydd-dir a dyffryndir,' Deut. xi. 11, yr hon a ennillasai efe oddiar y Canaanecid trwy ei fawr nerth.

Adn. 55. *Ac efe a yrodd allan y cenhedloedd*] *Sef* y saith genedl a breswylient yno; *ac a ranodd iddynt etifeddiaeth wrth linyon*—neu ffeiddiau penodol, pa ran a roddid iddynt wedi hyny wrth goelbren, Jos. xiii. 6—8, a xiv. 1—5. *Ac a wnaeth i lwythau Israel*—y naw llwyth a hanner, *drigo yn eu pebyll hwynt*—eu tai, eu trefi, a'u dinasoedd.

Adn. 56. *Er hyny temtiasant a digiasant Dduw Goruchaf*] Yn Nghanaan, fel y gwnaethent o'r blaen yn yr anialwch, adn. 18—41; *ac ni chadwasant ei dystiolaethau*—neu ei ddeddfau ef.

Adn. 57. *Eithr eiliasant*] Oddiwrth Dduw a'i addoliad at eilunod, fel y gwnaethai eu tadau yn yr anialwch: *troisant fel bwa twyllodrus*—yr hwn a olyngai y saeth yn wrygam, yn lle at y nod a amceniid.

Adn. 58. *Digiasant ef a'u huchel-fanau*] *Sef* a'r allorau a godasant i Baal a gau-dduwiau ereill ar uchelfeydd, 2 Bren. xxiii. 13; *a gyrasant eiddigedd arno a'u cerfedig ddelwau*—fel eiddigedd gŵr tuag at ei wraig anffyddlon.

Adn. 59. *Clybu Duw hyn*] Efe a'i deallodd trwy ei hollwybodaeth, fel y deallai dyn yr hyn a glyw; *ac a ddigiodd*—o herwydd eu godineb; gwel ar Barn. x. 6, 7; *ac a ffeiddiodd Israel yn ddirfawr*—y rhai o'r blaen yr ymhyfrydai ynddynt, ac a garai fel ei bobl etholedig.

Adn. 60. *Fel y gadawodd efe dabernacl Silo*] Am byth; gwel ar 1 Sam. iv—vi; *y babel a osodasai efe yn mysg dynion*—dywedir hyn i arwyddo, (1) Ymostyngiad a dationi rhyfedd Duw, wrth roddi ei babel yn mysg dynion mor anheliwng; ac, (2) Eu

caethiwed, a'i brydfertwhwch yn llaw y gelyn.

62 Rhoddes hefyd ei bobl i'r cleddyf; a digiodd wrth ei etifeddiaeth.

63 Tân a yssodd eu gwŷr ieuainc; a'u morwynion ni phriodwyd.

64 Eu hoffeiraiad a laddwyd â'r cleddyf; a'u gwragedd gweddwon nid wylasant.

65 Yna y deffrôdd yr Arglwydd fel un o gysgu, fel cadarn yn bloeddio gwedi gwin.

66 Ac efe a darawodd ei elynion o'r tu ol: rhoddes iddynt warth tra-gwyddol.

67 Gwrthododd hefyd babel Josph, ac ni etholodd lwyth Ephraim:

68 Ond efe a etholodd lwyth Juda, mynydd Seion, yr hwn a hoffodd.

69 Ac a adeiladodd ei gysegr fel llys uchel, fel y ddaear yr hon a seiliodd efe yn dragywydd.

70 Etholodd hefyd Dafydd ei was, ac a'i cymerth o gorllanau y defaid:

71 Oddiar ol y defaid cyfebron, y daeth âg ef i borthi Jacob ei bobl, ac Israel ei etifeddiaeth.

72 Yntau a'u porthodd hwynt yn ol perffeithrwydd ei galon; ac a'u triniodd wrth gyfarwyddyd ei ddwyllaw.

drygioni a'n hynfydrwydd hynod hwythau wrth ddiystyru a phechu ymaith fraint môr ogoneddus.

Adn. 61. *Ac y rhoddodd ei nerth mewn caethiwed*] Sef yr arch, yr hon a elwir yn 'arch cadernid Duw,' Salm cxxxii. 8, am ei bod yn arwydd ac yn wystl o'i nerth a'i gadernid ef o blaid ei bobl; *a'i brydfertwhwch*—felly hefyd y gelwir yr arch, am fod ei ogoniant prydferth ef yn aros arni rhwng y cerubiaid, neu am ei bod yn offeryn ei weithredoedd prydferth a gogoneddus ef; *yn llaw y gelyn*—sef y Philistiaid, y rhai a'i dygasant hi i 'gaethiwed,' 1 Sam. v. 1.

Adn. 62. *Rhoddes hefyd ei bobl i'r cleddyf*] Pryd y lladdodd y Philistiaid oddeutu 34,000 o honynt, 1 Sam. iv. 2, 10; *a digiodd wrth ei etifeddiaeth*—sef wrth ei bobl etholedig ei hun.

Adn. 63. *Tân a yssodd eu gwŷr ieuainc*] Sef tân digofaint Duw, yr hwn a'u hysai hwynt trwy gleddyf y Philistiaid; *a'u morwynion ni phriodwyd*—am nad oedd neb i'w priodi, trwy fod gwŷr ieuainc Israel wedi eu lladd.

Adn. 64. *Eu hoffeiraiad a laddwyd â'r cleddyf*] Sef Hophni a Phinees, ac ereill ond odid; *a'u gwragedd gweddwon nid wylasant*—neu 'ni chadwasant arwyl anghladdol.' Bu gwraig Phinees farw yr un dydd a'i gwŷr; ac am ddal yr arch yr wylai hi yn benaf, 1 Sam. iv. 22: ac fe allai na wylodd gwraig Hophni ddim ar ef gwŷr mor ddrwg. Dywed y Targum mai y rheswm paham nad wylasant oedd 'am i'r ddwy farw yn yr un dydd.'

Adn. 65. *Yna y deffrôdd yr Arglwydd fel un o gysgu*] Tra yr oedd y Philistiaid, trwy ganiatad Duw, yn ceryddu Israel am eu pechodau, yr oedd ef yn ymddangos yn ddiggyfro, fel un yn cysgu; ond wedi i'r cerydd hwnw ddwyn y troseddwy'r atynt eu hunain, darfu i lesau taer ei bobl edifeiriol fel pe byddai ei ddeffro ef, a'i godi i'w gwaredu: *fel cadarn yn bloeddio gwedi gwin*—fel un wedi ei adfywio a'i wroli i'r frwydr trwy gynhyrfiad gwin.

Adn. 66. *Ac efe a darawodd ei elynion o'r tu ol*] Sef â chlyf y marchogion yn eu heist-

eddlle, yr hwn oedd yn boenus a gwarthus iawn, 1 Sam. v. 6—12: *rhoddes iddynt warth tragywyddol*—bu y elwyf hwnw yn warth i'r Israeliaid tra y buont byw; neu parwyd iddynt fytholi eu gwarth eu hunain trwy anton yr arch tuag adref gyda lluniau ffolanau a llygod: gwel ar 1 Sam. vi. 4, &c.

Adn. 67. *Gwrthododd hefyd babel Josph*] Sef tabernacl Silo, adn. 60; *ac ni etholodd lwyth Ephraim*—fel cartrefe ei arch: hyny yw, ni oddefodd efe i'w arch gael ei dychwelyd i Silo, yr hon oedd yn llwyth Ephraim mab Joseph; eithr parodd iddi gael ei chyrcu i Ciriath-jearim, lle y bu yn aros am oddeutu 46 o flynyddoedd; ac oddiyno symudwyd hi i ddy Obed-edom, ac wedi hyny i fynydd Seion yn Jerusalem: gwel ar 2 Sam. vi. 10, 16.

Adn. 68. *Ond efe a etholodd lwyth Juda*] I fod yn eisteddle ei arch a'i addoliad: *mynydd Seion, yr hwn a hoffodd*—yn fwy na phob man arall i fod yn fangre ei breswylod.

Adn. 69. *Ac a adeiladodd ei gysegr fel llys uchel*] Fel palas ardderchog, mawreddog, a gogoneddus. Meddylir yn gyffredin mai *templ Solomon* a olygir yma, trwy nad oedd y *babel* a adeiladwyd gan Dafydd ddim ond adeilad isel; ac os felly, rhaid fod y Salm hon wedi ei hysgrifenu ar ol dyddiau Dafydd: gwel y teitl. *Fel y ddaear yr hon a seiliodd efe yn dragywydd*—yn adeilad safadwy, trwy nad oedd yr arch i gael ei symud oddiyno mwyach. Dywedir yma mai Duw a adeiladodd ei gysegr, am mai yn ol ei orchymyn a'i bostreid ef y gwnaed hyny.

Adn. 70. *Etholodd Dafydd ei was*] I fod yn frenin ar Israel; *ac a'i cymerth o gorllanau y defaid*—lle yr oedd efe yn bugeilio, 1 Sam. xvi. 11—13.

Adn. 71. *Oddiar ol y defaid cyfebron*] Y rhai oeddynt barod i lydnw; *i borthi Jacob ei bobl, ac Israel ei etifeddiaeth*—i fod yn llywodraethwr, noddwr, ac arweinydd iddynt. Yr oedd ei swydd fugeiliol yn ei gynefino ef erbyn y gofal, y diwydrwydd, a'r hunan-ymwadiad ag oeddynt ofynol ynddo ef fel brenin.

Adn. 72. *Yntau a'u porthodd hwynt*] A'u bugeiliodd, a'u hamddiffynodd, ac a'u llywodr-

SALM LXXIX:

Y CENHEDLOEDD, O Dduw, a ddaethant i'th etifeddiaeth; halogasant dy deml santaidd; gosodasant Jerusalem yn garneddau.

2 Rhoddasant gelanedd dy weision yn fwyd i adar y nefoedd, a chig dysaint i fwystfilod y ddaear.

3 Tywalltasant eu gwaed fel dwfr o amgyleh Jerusalem: ac nid oedd a'u claddai.

4 Yr ydym ni yn warthrudd i'n cymydogion; dirmyg a gwatwargerdd i'r rhai sydd o'n hamgyleh.

5 Pa hyd, Arglwydd? a ddigi di yn dragywydd? a lysg dy eiddigedd di fel tân?

6 Tywallt dy lid ar y cenhedloedd

aethodd; yn ol perffeithrwydd ei galon—heb gyfeirio at ddim ond gogoniant Duw a lles ei bobl; ac a'u triniodd wrth gyfarwyddyd ei ddwyllaw—gyda deheurwydd a medrusrwydd nawr. Yn ei gymeriad brenhinol yr oedd Dafydd yn 'w'r wrth fodd calon Duw,' 1 Sam. xiii. 14.

SALM LXXIX. Y teitl yw, 'Salm Asaph,' neu 'Salm i Asaph.' Diamau mai ar yr achlysur o ddinystro Jerusalem a'r deml gan y Caldeaid yr ysgrifenydd hi; ac am hyny nid allai yr Asaph hwn fod y gwelydydd hwn yn amser Dafydd, eithr rhyw Asaph o'i hiliogaeth ef ag ydoedd yn byw yn amser y caethiwed Babilonaidd. Tybia rhai mai *Jeremiah* yw ei hawdwr hi, yr hwn a'i rhoddodd i Asaph i'w chanu, neu i *gôr* yn dwyn yr enw hwnw: gwel deitl Salm lxxvii. Y mae yn sicr fod adn. 6 a 7 o'r Salm hon i'w cael yn Jer. x. 25.

Adn. 1. *Y cenhedloedd, O Dduw, a ddaethant i'th etifeddiaeth*] I Ganaan a Judea, y rhai a ddewisast yn etifeddiaeth i ti; halogasant dy deml santaidd—trwy fyned i mewn iddi, tywallt gwaed dy offeiriad ynddi, dwyn ymaith ei llestri santaidd, ac wedi hyny ei llosgi â thân: gosodasant Jerusalem yn garneddau—trwy ei dryllio a'i llosgi: gwel ar 2 Bren. xxv. 9.

Adn. 2. *Rhoddasant gelanedd dy weision yn fwyd i adar y nefoedd*] Trwy beidio claddu eu cyrff ar ol eu lladd, eithr eu gadael yn fwyd i adar a bwystfilod ysglyfaethus.

Adn. 3. *Tywalltasant eu gwaed fel dwfr*] Yn helaeth, neu heb ei brisio mwy na dwfr; ac nid oedd a'u claddai—am fod eu cyfeillion, oddiwrth y rhai y gellid dysgwyl hyny, wedi eu lladd, neu wedi dianc, neu wedi eu caethgludo.

Adn. 4. *Yr ydym ni yn warthrudd i'n cymydogion*] Sef i'r Philiistiaid, yr Edomiaid, y Moabiaid, &c., y rhai a ymhyfrydent yn narostyngiad yr Iuddewon, ac a'u gwaradwyddent hwy a'u crefydd.

Adn. 5. *Pa hyd, Arglwydd*] Y byddwn fel

ni'th adnabuant, ac ar y teyrnasoedd ni alwasant ar dy enw.

7 Canys yasant Jacob, ac a wnaethant ei breswylfa yn anghyfanedd.

8 Na chofia yr anwireddau gynt i'n herbyn: brysia, rhagflaened dy dostur drugareddau ni: canys llesg iawn y'n gwnaethpwyd.

9 Cynorthwya ni, O Dduw ein hiachawdwriaeth, er mwyn gogoniant dy enw: gwared ni hefyd a thrugarha wrth ein pechodau, er mwyn dy enw.

10 Paham y dywed y cenhedloedd, Pa le y mae eu Duw hwynt? bydded hysbys yn mhlith y cenhedloedd yn ein golwg ni, wrth ddial gwaed dy weision yr hwn a dywalltwyd.

hyn? *A ddigi di yn dragywydd*—am ein pechodau ni? *a lysg dy eiddigedd di fel tân*—nes ein llwyr ddfia am ein godineb ysbrydol, neu ein heilnaddoliaeth?

Adn. 6. *Tywallt dy lid ar y cenhedloedd ni'th adnabuant*] Yn hytrach nag arnom ni; ac ar y teyrnasoedd ni alwasant ar dy enw—eriod mewn ffordd o addoliad. Fel pe dywedasai, Er i ni haeddu dy lid, eto y mae y cenhedloedd, trwy y rhai y'n ceryddi, yn ei haeddu yn fwy, gan eu bod yn euog o fwy o eilnaddoliaeth, ac yn dy ddirmygu di a'th grefydd santaidd. Ond dichon fod y geiriau i'w deall fel proffwydoliaeth am dywallt iad lliad arnynt, yn fwy nag fel gweddi am i hyny gymeryd lle: gwel ar Salm v. 10.

Adn. 7. *Canys yasant Jacob*] Sef yr Iuddewon, hiliogaeth Jacob, trwy ein hanrheithio, eu caethgludo, neu eu lladd; ac a wnaethant ei breswylfod yn anghyfanedd—trwy ddinystro Jerusalem a'r trefi oddiamgylch: gwel ar Jer. x. 25.

Adn. 8. *Na chofia yr anwireddau gynt i'n herbyn*] Yr eiddom ni na'n tadau: brysia—i'n gwaredu; rhagflaened dy dostur drugareddau ni—boed i'th drugareddau tosturiol ragflaenu neu attal ein llwyr ddinystro; canys llesg iawn y'n gwnaethpwyd—Hebr., 'tenuwyd ni yn i'r rhyfedd,' fel nad oes ond ychydig o honom yn fyw.

Adn. 9. *Cynorthwya ni, O Dduw ein hiachawdwriaeth*] Dan ein hadfyd presenol; er mwyn gogoniant dy enw—yr hwn svdd yn awr dan gwmwl trwy ddirmyg a chledded dy elynion, y rhai a briodolant eu buddugoliaeth i'w dwiaeu eu hunain, ac a edrychant arnat ti fel yn analluog i'n gwaredu ni o'u dwyllaw hwy, Dan. iii. 15. *Gwared ni hefyd*—o'n hadfyd; a thrugarha wrth ein pechodau—neu wrthyn ni er maint ein pechodau, nen trwy faddeu ein pechodau, er gogoniant i'th enw dy bun.

Adn. 10. *Paham y dywed y cenhedloedd*] Yn barhaus mewn gwawd, *Pa le y mae eu Duw hwynt*—yn ngallu a fyddlondeb yr hwn

11 Deued uchenaid y carcharorion ger dy fron: yn ol mawredd dy nerth cadw blant marwolaeth.

12 A thâl i'n cymydogion ar y seithfed i'w mynwes, eu cabledd trwy yr hon y'th gablasant di, O Arglwydd.

13 A ninau dy bobl a defaid dy borfa, a'th foliannwn di yn dragwydd: datganwn dy foliant o genedlaeth i genedlaeth.

SALM LXXX.

GWRANDO, O Fugail Israel, yr hwn wyt yn arwain Joseph fel

yr ymfrostient gymaint? *Bydded hysbys yn mhlith y cenhedloedd*—bydded Duw yn hysbys, neu danghoser trwy ein gwaredigaeth ni fod genym Dduw hollalluog a ffyddlon yn gymhorth i ni; *yn ein golwg ni*—yn ein dyddiau ni, neu tra y byddom ni byw i dy foliannu am hyny; *wrth ddial gwaed dy weision*—yr hwn a dywalltwyd ganddynt fel dwfr, adn. 3. Gwneir Duw yn hysbys i'r cenhedloedd, nid yn unigwrth ein gwaredu ni, ond wrth eu cospi hwythau, yr hyn a all fod yn lles tragwyddol iddynt hwy.

Adn. 11. *Deued uchenaid y carcharorion*] Sef llefan y gaethglud yn Babilon; *ger dy fron*—i gynhyrfu dy dosturiaethau, fel y gwnaethai uchenaid eu tadau gynt yn yr Aifft, Exod. ii. 23, a iii. 7, 9. *Yn ol mawredd dy nerth*—neu allu anfeidrol 'dy fraich,' yr hon nis gall neb ei gwrthsefyll; *cadw blant marwolaeth*—y rhai a haeddasant farw am eu pechodau yn erbyn Duw, neu a oeddynt mewn perygl o farw, trwy eu bod yn hollol wrth ewyllys eu gelynnion creulon a barbaraid.

Adn. 12. *A thâl i'n cymydogion ar y seithfed*] Sef yn helaeth yn ol eu haeddiant; *i'w mynwes*—neu hyd adref, fel y dywedwn, nes y gwybyddont ac y teimlont eu bod yn cael eu talu; *eu cabledd trwy yr hon y'th gablasant di*—fel pe basait yn Dduw anffyddlon, creulon, neu analluog. Dangos iddynt mai hwy sydd wan, a'th fod dithau yn gadarn.

Adn. 13. *A ninau dy bobl*] Y rhai a etholaist i fod yn eglwys i ti; *a defaid dy borfa*—y rhai a borthir ac a fugeilir genyt yn dymhorol ac vsbydol; *a'th foliannwn di yn dragwydd*—trwy ein holl genedlaethau olynol ar y ddaear, a byth yn y nef.

SALM LXXX. Y teitl yw, 'Tr pencerdd ar Sosannim Eduth, Salm Asaph.' Am ystyr y gair *Sosannim*, gwel deitl Salm xlv. Ystyr y gair *Eduth* yw 'tystiolaeth;' a thybja rhai fod y Salm hon yn dystiolaeth rhwng Duw a'i bobl, o'i berthynas ef â hwynt, ac o'u hymddibyniad hwythau arno ef. Barna rhai iddi gael ei chyfausoddi gan yr un awdwr, ac ar yr un achlysur, a'r Salm flaenorol; ac mewn hen ysgriflyfr yn Nghaergrawnt, nid yw y ddwy ond un Salm. Tybia Benson iddi

praidd; ymddygleiria, yr hwn wyt yn eistedd *rhung* y cerubiaid.

2 Cyfod dy nerth o flaen Ephraim a Benjamin a Manasse, a thyred yn iachawdwriaeth i ni.

3 Dychwel ni, O Dduw, a llewyrcha dy wyneb; a ni a achubir.

4 O Arglwydd Dduw y lluoedd, pa hyd y sori wrth weddi dy bobl?

5 Porthaist hwynt â bara dagrau; a diodaist hwynt â dagrau wrth fesur mawr.

6 Gosodaist ni yn gynhen i'n cymydogion; a'n gelynnion a'n gwatwarant yn eu mysg eu hun.

gael ei hysgrifennu yn amser rhyw drallod dirfawr a syrthiasai ar Israel ar ol iddynt ymrannu yn dwy deyrnas, a chyn eaethgludiad y nall na'r llall. 'Yn amser gwarchaead Samaria.'—*Horsley*. 'Yn ystod ymosodiad Senacherib.'—*Fenton*. Felly nis gallai *Dafydd* fod yn awdwr iddi, er y dywedir hyny yn nghywnysiad y Salm.

Adn. 1. *Gwrando, () Fugail Israel*] Yr hwn a fuost yn Amddiffynydd ac Arweinydd i'th bobl yn mhob oes; *yr hwn wyt yn arwain Joseph fel praidd*—meddylir fod 'Joseph' yma yn arwyddo yr holl genedl, nen o leiaf y deg llwyth. *Ymddygleiria*—amlyga dy allu gogoneddus o blaid dy bobl; *yr hwn wyt yn eistedd rhung y cerubiaid*—ar y drugareddfa yn y cysegr santeiddiolaf, Exod. xxv. 17—22.

Adn. 2. *Cyfod dy nerth*] Sef arch cadernid yr Arglwydd, yr hon oedd yn arwydd o'i nerth ef, Salm cxxxii. 8; *o flaen Ephraim a Benjamin a Manasse*—tybia rhai fod y tri hyn yn cynwys yr holl llwythau. Tybia ereill, wrth i'r Salmydd weddio am i Dduw 'gyfodi ei nerth o'u blaen hwynt,' ei fod yn cyfeirio at y drefn o wersyllu a theithio yn yr anialwch, pryd yr oedd y tri llwyth hyn yn dylun y Cothaliaid, y rhai a gariant yr arch ar eu hysgwyddau: gwel Num. ii. 17—24, a x. 21—24. Neu fe allai fod y tri llwyth hyn yn dyoddef mwy o'r trallodion presenol na'r llwythau ereill. *A thyred yn iachawdwriaeth i ni*—neu yn waredwr i ni o'n cyfyngder presenol.

Adn. 3. *Dychwel ni, O Dduw*] O'n gwrthgiliadau, atat dy hun; neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'dychwel ni i'n gwlad ein hunain;' *a llewyrcha dy wyneb*—arnom, neu dyro i ni arwydd o'th foddlonrwydd a'th ffaf; *a ni a achubir*—âg achubiaeth dymborol ac vsbrydol. Y mae y Salm hon yn cael ei gwneyd i fyny o bedair rhan, a phob yn yn diweddu yn y geiriau hyn neu eu cyffelyb: gwel adn. 7, 14, 19.

Adu. 4. *O Arglwydd Dduw y lluoedd*] Duw lluoedd Israel i'w cadw, a Duw lluoedd y cenhedloedd, gelynnion Israel, i'w darostwng hwy; *pa hyd y sori wrth weddi dy bobl*—neu y peidi â'i hateb, fel pe byddit wedi sori?

Adn. 5. *Porthaist hwynt â bara dagrau*]

7 O Dduw y lluoedd, dychwel ni, a llewyrcha dy wyneb; a ni a achubir.

8 Mudaist winwydden o'r Aifft: bwriaist y cenedloedd allan, a phlenaist hi,

9 Arloesaist o'i blaen, a pheraist i'w gwraidd wreiddio, a hi a lanwoedd y tir.

10 Cuddiwyd y mynyddoedd gan ei chysgod; a'i changhenau oedd fel cedrwydd rhagorol.

11 Hi a estynodd ei changau hyd y môr, a'i blagur hyd yr afon.

12 Paham y rhwygaist ei chaeau, fel y tyno pawb a elo heibio ar hyd y ffordd ei grawn hi?

13 Y baedd o'r coed a'i turia, a bwystfil y maes a'i pawr.

14 O Dduw y lluoedd, dychwel, atolwg: edrych o'r nefoedd, a chenfydd, ac ymwel â'r winwydden hon;

15 A'r winllan a blannodd dy ddeheulaw, ac â'r planhigyn a gadarnheist i ti dy hun.

16 Llosgwyd hi â than; torwyd hi i lawr: gan gerydd dy wyneb y dyfethir hwynt.

Neu â dagrau yn lle bara, trwy fod eu gofid wedi pei iddynt golli eu harehwaeth at fywyd; neu bwyntall eu bara mewndagru: a diodaist hwynt â dagrau wrth fesur mawr—eu dagrau oedd eu diod hefyd, o ba un y caent arddigonedd.

Adn. 6. *Gosodaist ni yn gynhen i'n cy-mydogion*] Yn rhai iddynt gynhenu â ni, neu gynhenu â'u gilydd yn ein hachos ni: *a'u gelynyon a'u gwatwarant yn eu mysg eu hun*—o achos ein crefydd, neu ein trueni a'n hafwydd.

Adn. 7. *O Dduw y lluoedd, &c.*] Gwel ar adn. 3.

Adn. 8. *Mudaist winwydden o'r Aifft*] Sef Israel, neu eglwys Dduw, yr hon a gydmberir yn fynych i winwydden, Esay v. 2, Jer. ii. 21, Ezec. xvii. 6, Hos. x. 1, Joel i. 7, Mat. xxi. 33; *bwriaist y cenedloedd allan*—o wlad Canaan, sef sailth genedl, i wneyd lle i un; a *phlenaist hi*—plenaist Israel yno yn eu lle hwynt, fel planu gwinwydden mewndagru.

Adn. 9. *Arloesaist o'i blaen*] Ymadrodd amaethyddol, yn arwyddo paratoi y tir i dderbyn Israel, trwy fwrw ymaith yr eilonaddolwyr; a *pheraist i'w gwraidd wreiddio*—fel nad allai ei gelynyon ei syund ymaith tra yr oeddit ti yn ei hamddiffyn; a *hi a lanwoedd y tir*—sef holl wlad Canaan, yn enwedig yn nyddian Solomon, 1 Bren. iv. 20.

Adn. 10. *Cuddiwyd y mynyddoedd gan ei chysgod*] Trwy i lawer o'r bryniau, yn gystal a'r dyffirnoedd breision, gael eu poblogi; a'i changhenau oedd fel cedrwydd rhagorol—yr oedd eenedl Israel nid yn weiniaid fel canghenau y winwydden, ond yn bobl gryfion a safadwy fel canghenau y cedrwydd cryfion.

Adn. 11. *Hi a estynodd ei changau hyd y môr*] Sef Môr-y-canolidir yn y gorllewin; a'i blagur hyd yr afon—sef afon yr Euphrates yn y dwyrain, neu y gogledd-ddwyrain. Yr oedd yn cyrhaedd hefyd o Syria yn y gogledd, hyd Arabia a'r Aifft yn y deau; gwel ar Deut. xi. 24, 1 Bren. iv. 21. Yn Jerusalem y planesid gwreiddyn y winwydden hon, lle yr oedd eisteddle yr eglwys a'r wladwriaeth; ac oddi yno yr estynai ei changau tua phedwar chwarter y byd.

Adn. 12. *Paham y rhwygaist ei chaeau*] Neu ei chloddiau, trwy dynu dy amddiffyniad oddiwrthi; fel y tyno pawb a elo heibio

ar hyd y ffordd ei grawn hi?—yma arddanghosir y genedl neu yr eglwys fel gwinllan ar ochr y ffordd, heb glawdd amddiffynol o'i hamgylch, eithr yn agored i gael ei drygu a'i hyspeilio gan bob gelyn, megys yr Assyriaid, y Caldeaid, ac ereill. Atebwr y gofyniad *paham* y gwnaed hyn yn Esay v. 1—7.

Adn. 13. *Y baedd o'r coed a'i turia*] Sef brenin Assyria ond odid, fel pe buasai yn faedd gwyllt; a *bwystfil y maes a'i pawr*—sef y Caldeaid, neu ryw elynion ereill. Yr oedd Israel yn awr, ar ol i Dduw dynu ei amddiffyniad oddiwrthynt, yn agored i gael eu drygu gan bob gelyn, fel gwinllan heb iddi glawdd.

Adn. 14. *O Dduw y lluoedd*] Gwel ar adn. 3, 4; *dychwel, atolwg*—i waredu dy winllan a'th winwydden dy hun rhag y baedd a'r bwystfil: *edrych o'r nefoedd, a chenfydd*—gyflwr truenus dy bobl, a chreulondeb eu gelynyon; ac *ywmwel â'r winwydden hon*—yn dy drugaredd unwaith eto. Yn y gyffelybiaeth brydferth hon y mae y Salmwydd yn llithro yn ddiarwybod, fel pe byddai, oddiwrth y gydmhariaeth a't testyn ei hun, ac oddiyno at y gydmhariaeth eilwaith, a hyny trwy raddoliaeth anghanfyddadwy bron.

Adn. 15. *A'r winllan a blannodd dy ddeheulaw*] Sef Israel yn ngwlad Canaan, yn ol rhai; neu deulu Dafydd, o'r hwn yr oedd y Messia i hânu, yn ol ereill: ac *â'r planhigyn a gadarnheist i ti dy hun*—sef y winwydden, neu yr eglwys Iuddewig, yn ol rhai; neu y Messia, yn ol ereill: gwel ar adn. 17. Y wreiddiol *yn weal ben*, 'ac â'r mab a gadarnheist i ti dy hun,' yr hwn a ddeallai rhai am Dafydd, neu un o'i hiliogaeth ef. Tybia llawer mai yr *Arglwydd Iesu* a feddylir; ac y mae y *Galdeag* yn ei gyfieithu, 'Ac â'r *Brenin Messia*, yr hwn a gadarnheist i ti dy hun.' Y mae y LXX, y *Vulgate*, y *Syriac*, yr *Arabaeg*, yr *Ethiopaeg*, yn nghyda *deunaw* o ysgrifffrau *Hebreig*, yn darllen *Mab dyn*, neu *Fab y dyn*, fel yn adn. 17.

Adn. 16. *Llosgwyd hi â than*] Sef yr eglwys neu y genedl Iuddewig, yn ol rhai; *torwyd hi i lawr*—fel gwinwydden ddiffwyth, neu ganghenau gwywydd yn y winwydden, Ioan xv. 5, 6; *gan gerydd dy wyneb y dyfethir hwynt*—naill ai yr Israeliaid, neu ynte eu gelynyon hwynt.

17 Bydded dy law dros ŵr dy ddeheulaw, a thros Fab ydyn yr hwn a gadarnheist i ti dy hun.

18 Felly ni chiliwn yn ol oddiwrthyt ti; bywha ni, a ni a alwn ar dy enw.

19 O Arglwydd Dduw y lluoedd, dychwel ni, llewyrcha dy wyneb; a ni a achubir.

SALM LXXXI.

CENWCH yn llafar i Dduw ein cadernid: cenwch yn llawen i Dduw Jacob.

Adn. 17. *Bydded dy law*] Sef dy amddiffyniad grasol; *dros ŵr dy ddeheulaw*—dros dy bobl Israel.—ROSENMULLER. 'Dros y brenin o dy Dafydd ag ydoedd yn awr i lywodraethu.'—BENSON. 'Dros y Messia.'—HORNE, CLARKE, &c. *A thros Fab y dyn*—yr Arglwydd Iesu, yn ol rhai: gwel ar adn. 15. *Yr hwn a gadarnheist i ti dy hun*—i fod yn Waredwr cadarn a digonol i'th bobl.

Adn. 18. *Felly ni chiliwn yn ol oddiwrthyt ti*] At eilunaddoliaeth: *bywha ni*—a gras yn ein beneidiau; *a ni a alwn ar dy enw*—ni a'th addolwn di mewn ysbryd a gwirionedd.

Adn. 19. *O Arglwydd Dduw y lluoedd*, &c.] Gwel ar adn. 3. Yn adn. 3 efe a ddywed, 'O Dduw;' yn adn. 7, 14, efe a chwanea air, 'O Dduw y lluoedd;' ac yma, 'O Arglwydd Dduw y lluoedd;' yr hyn a ddengys barch y Salmydd i fawredd Duw, a'i daerineb am gael yr hyn a geisia.

SALM LXXXI. Y teitl yw, '*Yr pencerdd ar Gittiith, Salm Asaph.*' Am ystyr y gair *Gittiith*, gwel deitl Salm viii. Y mae amrywiaeth barnau o berthynas i *awdwr*, *amser*, ac *achlysur* y Salm hon: oud addeffir yn gyffredin naill ai ddarfedd ei hysgrifenu *erbyn*, neu ynte ei bod yn cael ei chanu ar, ŵyl yr udyrn, (gwel ar Lef. xxiii. 24, 25,) yr hon a gynhelid ar y dydd cyntaf o fis *Tisri*, pryd y dechreuai y flwyddyn wladol; a cheuir hi eto ar y dydd hwn yn yr addoliad Iuddewig. Yn ol traddodiad yr Iuddewon, a barn llawer o Gristionogion, crewyd y byd yn *Tisri*, yr hwn sydd yn cyfateb i ran o'r *Medi* ni: gwel ar Exod. xii. 2. Gallai fod y Salm hon yn cael ei chanu ar *ŵyl yr udyrn* y dydd cyntaf o *Tisri*, ar *ŵyl y peyll* ar y *pymthegfed* o'r un mis, ar y *newydd-loerau*, ac wrth gofio *gwar-edigaeth* Israel o'r Aifft, at ba amgylchiadau yr ymddengys ei bod yn cyfeirio.

Adn. 1. *Cenwch yn llafar i Dduw ein cadernid*] Yr hwn yw ein noddfa gadarn rhag ein holl eilynion; *cenwch yn llawen i Dduw Jacob*—yr hwn hefyd yw ein Duw ninan, hilogaeth Jacob. Dywedir hyn yn benaf wrth yr offeiriad a'r Leſiaid.

Adn. 2. *Cymerwch salm*] Ond odid y Salm hon, yr hon oedd i'w chanu â'r offerynau a enwir eto; er y tybia *Clarke* a *Horsley* mai offeryn cerdd a feddylir wrth *zimirah*, yr hwn

2 Cymerwch salm, a moeswch dympan, y delyn fwyn a'r nabl.

3 Udgenuwch udgorn yn y lloer newydd, yn yr amser nodedig, yn nydd ein huchel-ŵyl.

4 Canys deddf yw hyn i Israel, a defod i Dduw Jacob.

5 Efe a'i gosododd yn dystiolaeth yn Joseph, pan aeth efe allan trwy dir yr Aifft: lle y clywais iaith ni ddeallwn.

6 Tynais ei ysgwydd oddiwrth y baich: ei ddwyllaw a ymadawsant â'r crochanau.

a gyfieithir yma yn 'salm.' *A moeswch dympan*, &c.—sef yr offerynau hyn a ddefnyddid mor fynych yn mhilith yr Iuddewon.

Adn. 3. *Udgenuwch udgorn yn y lloer newydd*] Ar y dydd cyntaf o bob lloer newydd, ac yn enwedig ar y dydd cyntaf o fis *Tisri*. O ddifffyg taflenau seryddol, neu wybodaeth fanol o drefu y rhod, yr oedd yr Iuddewon druan mewn cryn benbleth i wybod amser newidiad y lloer. 'Tua'r amser ag y tybient fod y lloer newydd ar ymddangos, anfonent wŷr i ben rhyw fynydd uchel; ac yr oedd y cyntaf a'i gwelai i roddi hysbysrwydd ar frys i'r Sanhedrim: ac os caent fod yr adroddwr yn ddyd geirwir, a bod ei dystiolaeth yn cytuno â'r cyfrifiadau ag yr oeddynt hwy eu hunain yn allnog i'w gwnentbur, cyhoeddai y llywydd y newydd-loer trwy waeddi, *Mikkodesh*, 'y mae yn gysegredig.' Ailadrodd hyn ddwywaith yn uchel gan y bobl; ac wedi hyn gorchymynid ei gyhoeddi yn mhob man trwy udganiaid udgorn. Y mae yn debyg fod sain y naill udgorn yn rhoddi rhybydd i'r lleill, a hwythau drachefu i wylwyr ereill, nes yr oedd y rhybydd yn cyraedd bron ar unwaith trwy yr holl wlad. *Yn yr amser nodedig*—yr hwn a benodid yn y dull uchod i fod yn 'uchel-ŵyl.'

Adn. 4. *Canys deddf yw hyn i Israel*] Wedi ei gosod gan Dduw Jacob ei hun: gwel ar Lef. xxiii. 24, Num. x. 10.

Adn. 5. *Efe a'i gosododd yn dystiolaeth yn Joseph*] Sef yn mhilith pobl Israel, fel y mae yn awlgw oddiwrth adn. 4, ac oddiwrth y geiriau nesaf yn yr adnod hon, lle y darlunir hwynt yn dyfod allan o'r Aifft, yr hyn oedd gyffredin i holl lwythau Israel. *Pan aeth efe allan*—pan aeth Joseph neu Israel allan; neu, yn ol rhai, pan aeth Duw allan fel cadben o flaen ei bobl. *Trwy dir yr Aifft*—neu 'o dir yr Aifft,' fel y mae y berniaid goraf yn ei ddarllen. *Lle y clywais*—hyn yw, lle y clywsai ei benafiaid; canys nid oedd holl genedlaethau Israel ddim ond un corff, a sonir am danynt yn fynych fel un person. *Iaith ni ddeallwn*—sef yr Aifftaeg, yr hon nid oedd Israel yn ei deall, Gen. xlii. 23. Y mae yn debyg na ddarfu i Israel erioed ei deall yn gyffredinol, trwy eu bod yn byw wrthynt eu hunain ar wahan oddiwrth yr Aifftiaid.

Adn. 6. *Tynais ei ysgwydd oddiwrth y baich*] Sef oddiwrth eu caledwaith yn yr

7 Mewn cyfyngder y gelwaist, a mi a'th waredais: gwrandewais di yn nirgelwch y daran: profais di wrth ddyfroedd Meribah. Selah.

8 Clyw, fy mhobl, a mi a dystiolaethaf i ti: Israel, os gwrandewi arnaf;

9 Na fydded ynot dduw arall; ac nac ymgyrma i dduw dycieithr.

10 Myfi yr Arglwydd dy Dduw yw yr hwn a'th ddyg di allan o dir yr Aifft: lleda dy safn, a mi a'i llanwaf.

11 Ond ni wrandawai fy mhobl ar fy llef; ac Israel ni'm mynai.

12 Yna y gollyngais hwynt yn nghyndynrwydd eu calon: aethant wrth eu cynghor eu hunain.

Aifft; ei ddywylaw a ymadawent â'r croch-anau—â'r ffrnau neu yr odyrau lle y crasent eu priddfeini, yn ol rhai. Ond ymddengys oddiwrth hen haneswyr mai yn ngwres yr haul y crasent hwy eu priddfeini; ac os felly, gall mai y basgedi a olygir, yn y rhai y carient y clai. Ardanghosir Duw fel yn llefaru yma, ac felly yn mlaen hyd ddiwedd y Salm.

Adn. 7. *Mewn cyfyngder y gelwaist*] Nid yn unig yn yr Aifft, ond hefyd wrth y môr coch, Exod. ii. 23, a xiv. 10—12; a mi a'th waredais—o'th gyfyngderau hyn. *Gwrandewais di yn nirgelwch y daran*—yn y golofn dywyll o niwl, o ba le y taranais ac yr ymleddais yn erbyn yr Aifftiaid, Exod. xiii. 21, Salm lxxvii. 16—18. Ond y mae rhai yn deall hyn am y taranau ar Sinai, lle yr oedd Duw i'w glywed, ond nid i'w wedd. *Profais di wrth ddyfroedd Meribah*—profais dy amynedd trwy attal dwfr oddiwrthyt: gwel ar Exod. xvii. 1—7. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 8. *Clyw, fy mhobl*] Fel pe dywedasai, Gwrandewais i di, gwrando dithau finau; a mi a dystiolaethaf i ti—fy ewyllys i, a'th ddyledswydd dithau. *Israel, os gwrandewi arnaf*—ar yr ammod hon y tystiolaethaf.

Adn. 9. *Na fydded ynot dduw arall*] Gwel ar Exod. xx. 3—5.

Adn. 10. *Myfi yr Arglwydd dy Dduw, &c.*] Gwel ar Exod. xx. 2. *Lleda dy safn*—mewn gweddi arnaf; a mi a'i llanwaf—caniatâf dy holl ddyuniadau ar yr ammod o'th ufydd-dod.

Adn. 11. *Ond ni wrandawai fy mhobl ar fy llef*] Ar fy ngorchymynion na'm gwaharddiadau; ac Israel ni'm mynai—i lywodraethu arnynt, nac i fod yn Dduw iddynt.

Adn. 12. *Yna y gollyngais hwynt yn nghyndynrwydd eu calon*] Rhoddais hwynt i fyny i'w calon-galedwch, trwy dynu fy Ysbryd a'm gras yn ol oddiwrthyt: aethant wrth eu cynghor eu hunain—i gyflawni pob drwg yn ol tueddiadau llygreidig eu calon.

Adn. 13. *O na wrandawsai fy mhobl arnaf*] Yr hyn ni wnaethant, adn. 11; na

13 O na wrandawsai fy mhobl arnaf! na rodiasai Israel yn fy ffyrdd!

14 Buan y gostyngaswn eu gelynyddion, ac y troiswn fy llaw yn erbyn eu gwrthwynebwyr.

15 Caseion yr Arglwydd a gymerasant arnynt ymostwng iddo ef: a'u hamser hwythau fuasai yn dragywydd.

16 Bwydasai hwynt hefyd â brasder gwenith: ac â mêl o'r graig y'th ddiwallaswn.

SALM LXXXII.

DUW sydd yn sefyll yn nghynullidfa y galluog: yn mhlith y duwiau y barn efe.

rodiasai Israel yn fy ffyrdd!—yn lle fy annog i'w gollwng hwynt yn nghyndynrwydd eu calon eu hunain, adn. 12. 'Y fath yw tyner drugareddau ein Duw ni, fel y mae efe nid yn unig yn gotalu am ddarparu i ni foddion iachawdwriaeth, ond yn ei arddangos ei hun tel yn galaru â serch tadol uwchben ei blant, pan y mae eu cyndynrwydd â'u hystyfnigrwydd yn siomi ymdrechladau egiariad.'—HORNE. 'Ond os yw Duw mor awyddus am achubiaeth dynion, palm na bae efe yn eu hachub trwy ei hollalluog nerth?' Gwel atebiad i'r gofyniad hwn yn y sylwadau ar Deut. v. 29; gwel hefyd Mat. xxiii. 37.

Adn. 14. *Buan y gostyngaswn eu gelynyddion*] Er amled a chryfed oeddnt; ac y troiswn fy llaw yn erbyn eu gwrthwynebwyr—i'w gyru yn ol, neu eu tori ymaith.

Adn. 15. *Caseion yr Arglwydd*] Sef y Canaanaid, gelynyddion Duw a'i bobl; a gymerasant arnynt ymostwng iddo ef—neu 'a gymerasant arnynt; hyn yw, gwnaethent hynny pe buasai Israel yn rhodio yn ffyrdd Duw, adn. 13, ac yntau yn eu pleidio hwythau, adn. 14, yr hyn a fuasai yn tantais fawr i Israel. *A'u hamser hwythau a fuasai yn dragywydd*—cawsai Israel felly aros yn Nghanaan yn barhaus, a buasai daioni a llwyddiant iddynt yn wastadol, heb i neb o'u caseion feiddio eu hafsonyddu.

Adn. 16. *Bwydasai hwynt hefyd â brasder gwenith*] Gwnaethai Duw i'w gwlad gynyrchu digon o fara iachusol iddynt; ac â mêl o'r graig y'th ddiwallaswn—sef mêl yn cael ei fustro yn agenau y graig fel mewn cychod, neu yn cael ei gasglu oddiar flodau yn tyfu ar y creigiau: gwel ar Deut. xxxii. 13, 1 Sam. xiv. 25, 26. Yn nechre yr adnod y mae Duw yn llefaru yn mherson un arall, ond yn ei diwedd hi efe a lefaru yn ei berson ei hun.

SALM LXXXII. Y teitl yw, 'Salm Asaph,' neu 'Salm i Asaph.' Tybia Patrick iddi gael ei hysgrifenu yn amser Hezeciah, i rybyddio y barnwyr; eithr barna Clarke mai yn amser Jehosaphat y cyfansoddwyd hi, pryd

2 Pa hyd y bernwch ar gam? ac y derbyniwch wyneb y rhai annuwiol? Selah.

3 Bernwch y tylawd a'r amddifad: cyfiawnhewch y cystuddiedig a'r rheidus.

4 Gwardedwch y tylawd a'r anghenus: achubwch hwynt o law y rhai annuwiol.

5 Ni wyddant, ac ni ddeallant; mewn tywyllwch y rhodiant: holl sylfaenau y ddaear a symudwyd o'u lle.

6 Myfi a ddywedais, Duwiau ydych chwi; a meibion y Goruchaf ydych chwi oll.

7 Eithr byddwch feirw fel dynion, ac fel un o'r tywysogion y syrthiwech.

8 Cyfod, O Dduw, barna y ddaear: canys ti a etifeddi yr holl genhedloedd.

SALM LXXXIII.

O DDUW, na ostega: na thaw, ac na fydd lonydd, O Dduw.

2 Canys wele, dy elynionsydd yn

y diwygiodd efe y llysoedd barn trwy yr holl wlad, 2 Cron. xix. 5—7.

Adn. 1. *Duw sydd yn sefyll yn nghynulleidfau y galluog* Hebr., 'yn nghynulleidfau Duw; sef yn y llysoedd cyfiawnder hyny a sefydlasai efe ei hun: *yn mhliith y duwiau y barn efe*—neu y sylwa efe ar eu gweinyddiadau, i'w barnu yn ol hyny, fel y gwelwn yn yr adnodau nesaf. Gelwir tywysogion, barnwyr, ac ynadon yn *dduwiau*, am eu bod yn cynrychioli awdurdod Duw ar y ddaear, adn. 6: gwel hefyd Exod. xxi. 6, a xxii. 28, Ioan x. 34, 35.

Adn. 2. *Pa hyd y bernwch ar gam*] Heb ddylyn y rheol a roddwyd i chwi? Deut. xvi. 18—20; *ac y derbyniwch wyneb y rhai annuwiol*—gan ryddiau y troseddwy'r gyfrif eu cyfoeth, eu gwobr, neu eu cyfeillgarwch? *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 3. *Bernwch y tylawd a'r amddifad*] Saes., 'amddiffynwch' hwynt yn ngwyneb y cam a wneir iddynt gan y cyfoethog a'r galluog; *cyfiawnhewch y cystuddiedig a'r rheidus*—mynwch gyfiawnder iddynt pan fyddo ereill am eu drygu ar gam: gwel ar Lef. xix. 15.

Adn. 4. *Gwardedwch y tylawd a'r anghenus*] O dduwylaw eu gorthrymwy'r anghyfiawn; *achubwch hwynt o law y rhai annuwiol*—pan na allont, gan eu tylodi a'u hangen, eu hachub eu hunain. Barnwyr ac ynadon yw noddwyr y tylodion dan Dduw, a dylent fynu cyfiawnder iddynt hyd yn nod pan na fyddo ganddynt ddim i dalu.

Adn. 5. *Ni wyddant*] Hyny yw, ni wyddai y barnwyr a'r ynadon uchod y gyfraith; *ac ni ddeallant*—hi, er ei hysgrifenu yn eglur iddynt gan Moses: *mewn tywyllwch y rhodiant*—gan gau eu llygaid yn wirfodol, heb chwilio yr achos ger eu bron; neu ynte yr oedd gwobr wedi 'dallu eu llygaid,' Deut. xvi. 19. *Holl sylfaenau y ddaear a symudwyd o'u lle*—yr oedd holl sefydliadau gwladol y tir wedi myned i anhrefn, neu yr oedd holl seiliau crefydd a chyfiawnder wedi eu dinystrio: gwel ar Salm xi. 3. Mor wahanol yw ein gwlad ddedwydd ni i Judea, hyd yn nod yn nyddiau Jehosaphat a Hezechia! Y mae ein holl farnwyr ni yn ddyndion gwybodus, dysgedig, cyfiawn, a diduedd; ac ni bu gwyr enwocach yn eu profes erioed yn urddasu unrhyw wlad.

Adn. 6. *Myfi a ddywedais*] Ar eich penod-

iad i'ch swydd; *Duwiau ydych chwi*—rhoddais i chwi fy enw a'm hawdurdod i farnu fy mhobl danaf fi; *a meibion y Goruchaf ydych chwi oll*—rhai ag y dysgwylid iddynt fod yn debyg i'w Tad nefol mewn cyfiawnder a daioni, fel y mae plant yn debyg i'w tad naturiol.

Adn. 7. *Eithr byddwch feirw fel dynion*] Sef fel dynion cyffredin, er eich bod yn *dduwiau* o ran enw a swydd; *ac fel un o'r tywysogion y syrthiwech*—hyny yw, os bydd i chwi barhau i wro barn, chwi a syrthiwech trwy ddwyllaw cyfiawnder fel tywysog a fyddo wedi troi yn deyrn-fracwr. Neu, 'chwi a syrthiwech, O dywysogion, fel un o honynt hwy,' sef fel un o'r dynion cyffredin a enwyd ddiweddaf.

Adn. 8. *Cyfod, O Dduw, barna y ddaear*] Gan fod cyflwr y byd mor lygredig, a bod dy swyddogion di mor anghyfiawn, fel ag i orthryma y sawl ag y bwriadwyd iddynt eu hamddiffyn, cymer di gleddyf cyfiawnder i'th law dy hun, a boed i wirionedd a chyfiawnder gael eu gweinyddu yn mhob man. *Canys ti a etifeddi yr holl genhedloedd*—sef holl bobloedd y byd, y rhai ydynt eiddot ti trwy brynedigaeth yn gystal a thwyr greadigaeth. Tybia llawer o'r hen dadau fod yma broffwyddoliaeth am alwad y Cenedloedd, a lledaeniad Cristionogaeth trwy yr holl fyd; canys nis gall cyfiawnder a barn gael eu sefydlu dros yr holl ddaear, ond yn unig trwy ledaeniad crefydd Crist.

SALM LXXXIII. Y teitl yw, '*Cân neu Salm Asaph*.' Tybia rhai iddi gael ei chyfansoddi yn nyddiau Jehosaphat, pryd y darfu i lawer o genhedloedd ymgynghreirio yn ei erbyn ef, fel yr adroddir yn 2 Cron. xx. 1, &c. Barna ereill mai Dafydd a'i chyfansoddodd hi, ar ol ei amrywiol fuddugoliaethau ar y cenedloedd a enwir yma; trwy ei fod ef yn frenin ar holl Israel, yn erbyn y rhai yr ymosodid, adn. 4; tra nad oedd Jehosaphat yn llywodraethu ond ar *Juda* yn unig.

Adn. 1. *O Dduw, na ostega*] Fel un difater neu anystyriol; *na thaw—al tachereth*, 'na fydd fyddar' tuag at ein gweddiâu ni, neu tuag at gabledau a bygythion dy elynion di a ninau; *ac na fydd lonydd*—neu ddiweithrediad, ar y fath amser peryglus.

Adn. 2. *Canys wele, dy elynion sydd yn terfysgu*] Neu yn 'rhuo,' fel tônau y mor,

terfysgu; a'th gaseion yn cyfodi eu penau.

3 Ymgyfrinachasant yn ddichellgar yn erbyn dy bobl, ac ymgynghorasant yn erbyn dy rai dirgel di.

4 Dywedasant, Deuwch, a dyfethwn hwynt fel na byddont yn genedl; ac na chofier enw Israel mwyach.

5 Canys ymgynghorasant yn unfryd; ac ymwnaethant i'th erbyn.

6 Pebyll Edom, a'r Ismaeliad; y Moabaiad, a'r Hagariaid;

7 Gebal, ac Ammon, ac Amalec; y Philistiaid, gyda phreswylwyr Tyrus.

8 Assur hefyd a ymgyplysodd â hwynt: buont fraich i blant Lot. Selah.

9 Gwna di iddynt fel i Midian; megys i Sisera, megys i Jabin, wrth afon Cison:

10 Yn Endor y dyfethwyd hwynt: aethant yn dail i'r ddaear.

11 Gwna eu pendefigion fel Oreb ac fel Zeeb; a'u holl dywysogion fel Zeba, ac fel Salmunna:

12 Y rhai a ddywedasant, Cymerwn i ni gyfaneddau Duw i'w meddiannu.

13 Gosod hwynt, O fy Nuw, fel olwyn; fel sofr o flaen y gwynt.

14 Fel y llysg tân goed, ac fel y goddeithia fflam fynyddoedd;

15 Felly erlid di hwynt â'th dystymestl, a dychryna hwynt â'th gorwynt.

gan dy waradwyddo di a'n bygwth ninaw; a'th gaseion yn cyfodi eu penau—mewn nerth, balchder, ac ymfrost gwaedlyd.

Adn. 3. *Ymgyfrinachasant yn ddichellgar yn erbyn dy bobl*] Gan gynllunio pa fodd i'n dyfetha ni; ac ymgynghorasant yn erbyn dy rai dirgel di—sef dy saint, y rhai a gedwi yn ddiregel neu guddiedig fel dy 'drysor priodol,' Exod. xix. 5. Ond darllena rhai 'dy bethau dirgel,' megys yr arch, a llestri a thrysorau y cysegr, y rhai a gedwid yn guddiedig yn ystafelloedd y deml.

Adn. 4. *Dywedasant*] Wrth eu gilydd, mewn llawn hyder am fuddugoliaeth; *Deuwch, a dyfethwn hwynt*—llwyr ddiwreiddiwn yr holl genedl; *ac na chofier enw Israel mwyach*—ar wyneb y ddaear. Fel hyn bwriadent ddyfetha nid yn unig *Juda*, ond *Israel* hefyd, sef yr holl genedl.

Adn. 5. *Canys ymgynghorasant yn unfryd*] Hebr., 'o un galon,' er eu bod yn ddeg o wahanol genhedloedd, a'r rhai hyny yn lluosog iawn, adn. 6—8; *ac ymwnaethant i'th erbyn*—Hebr., 'ac ymgyfammodasant,' neu 'holltasant yr aberth cyfammodol,' gan ymrwymo felly i gyflawni eu bwriad.

Adn. 6. *Pebyll Edom*] Sef yr Edomiaid, hiliogaeth Esau, y rhai a drigent mewn pebyll, ac a elwir 'trigolion mynydd Seir,' 2 Cron. xx. 10; *a'r Ismaeliad*—hiliogaeth Ismael, mab Abraham o Agar, Gen. xvi. 10; *y Moabaiad*—hiliogaeth Lot o'i ferch hynaf, Gen. xix. 37; *a'r Hagariaid*—cangen arall o'r Ismaeliad fe allai, y rhai a elwid ar enw Agar eu nain; neu hiliogaeth Agar, mam Ismael, o dad arall, fel y tybia rhai: gwel ar 1 Cron. v. 10.

Adn. 7. *Gebal*] Neu y Gibliad, trigolion Gebal, Jos. xiii. 5, 1 Bren. v. 18; *ac Ammon*—hiliogaeth Lot o'i ferch ieuangaf, Gen. xix. 38; *ac Amalec*—sef yr Amaleciad, gelymion greddfoll Israel; *y Philistiaid*—y rhai oeddynt dan deyrnged i Jehosaphat, 2 Cron. xvii. 11, ond a gymerasant fantasia o'r cystleusdra presentol i wrthryfela yn ei erbyn ef; *gyda phreswylwyr Tyrus*—lle ar lan Môr-y-canol-

dir, lle y buasai Hiram yn frenin, 1 Bren. v. 1.

Adn. 8. *Assur hefyd a ymgyplysodd â hwynt*] Sef yr Assyriaid, Gen. x. 11; *buont fraich i blant Lot*—yn gymborth i'r Moabaiad a'r Ammoniaid, y rhai oeddynt flaenaf yn y rhyfel yma, 2 Cron. xx. 1. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 9. *Gwna di iddynt fel i Midian*] Y rhai a ddyfethwyd yn amser Moses a Gedeon, Num. xxxi. 7, 8, Barn. vii. 15—25; *megys i Sisera, megys i Jabin*—Jabin oedd frenin Canaan, a Sisera oedd dywysog ei ln ef, y rhai a ddifrodwyd wrth afon *Cison*: gwel ar Barn. iv. 7—24.

Adn. 10. *Yn Endor y dyfethwyd hwynt*] Cyfeiria hyn at faeddiad y Midianiaid gan Gedeon, y rhai a wersyllent yn nyffryn Jezreel, yn agos i Endor, Barn. vi. 33, a vii. 1, &c.; *aethant yn dail i'r ddaear*—trwy iddynt gael eu gadael ar wyneb y tir heb eu claddu.

Adn. 11. *Gwna eu pendefigion fel Oreb ac fel Zeeb*] Tywysogion Midian, y rhai a laddwyd gan wŷr Ephraim, Barn. vii. 25; *a'u holl dywysogion fel Zeba a Salmunna*—brenhinoedd Midian, y rhai a laddwyd gan Gedeon, Barn. viii. 5, 21.

Adn. 12. *Y rhai a ddywedasant*] Sef gelymion Jehosaphat yn amser y Salmydd, ac nid y Midianiaid uchod; *Cymerwn i ni gyfaneddau Duw i'w meddiannu*—sef dinasoedd *Juda*, neu *Jerusalem* a'r deml. Y mae y geiriau hyn yn debyg i'r rhai a gawn yn 2 Cron. xx. 11.

Adn. 13. *Gosod hwynt, O fy Nuw, fel olwyn*] I dreiglo i lawr yn gyflymach-gyflymach o hyd tua dinystr; *fel sofr o flaen y gwynt*—yr hwn a chwelir ymaith yn gyflym ac anadferadwy.

Adn. 14. *Fel y llysg tân goed*] Neu goedwig, gan ei dyfetha yn llwyr oddiar y ffordd; *ac fel y goddeithia fflam fynyddoedd*—trwy losgi y gwellt a'r prysglwyni arnynt. Meddylir fod yma gyfeiriad at losgi a glanhau anial-diroedd i'w llafurio, yr hyn a wneid gyda chyflymdra mawr pan fyddai y gwynt yn uchel.

16 Llanw eu hwynebau â gwarth; fel y ceisont dy enw, O Arglwydd.
17 Cywilyddier athralloder hwynt yn dragwydd; i.e, gwaradwydder a dyfether hwynt:

18 Fel y gwympont mai tydi, yr hwn yn unig *wyt* JEHOFA wrth dy enw, *wyt* Oruchaf ar yr holl ddaear.

Adn. 15. *Felly erlid di hwynt â'th dy-mhestl*) Nes eu llwyr vsgrubo ymaith, fel na byddo dim o'u holion i'w canfod; a *dychryna hwynt â'th gorwyn*—sef â rhyw farnedig-aethau disymwth ac anwrthwynebol.

Adn. 16. *Llanw eu hwynebau â gwarth*] Am eu pechod yn ceisio ein dyfetha ni, adn. 4, a'th yspeilio dithau o'th gyfaneddau, adn. 12; *fel y ceisont dy enw, O Arglwydd*—'fel wedi eu siomi am eu gobethion, ac wrth weled anallu eu heilunod, yr addefont ac yr addolont di fel yr unig wir Dduw.'—BENSON. Ond gan y tybia rhai fod gwarth a dinystr *tragwyddol* i oddiwedd y rhai hyn, fel y deallant adn. 13—17, meddyliant mai yr ys-tyr yma yw, 'Fel y ceisio ereill adnabyddiaeth achubol o honot ti, wrth weled dy farnau ar y rhai hyn;' gwel ar adn. 18.

Adn. 17. *Cywilyddier a thralloder hwynt yn dragwydd*] Hyny yw, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'nid yn unig tra y byddant byw ar y ddaear, ond am byth yn uffern.' Yn yr ys-tyr yma rhai i ni edrych ar y geiriau *fel profwyddoliaeth* am yr hyn a ddygwyddai iddynt, yn hytrach na *gweddi* am iddo fod: gwel ar Salm v. 10. *I.e, gwaradwydder a dyfether hwynt*—ynddymwared; neu, gwneler hyny 'os nad ymstyngant o'th flaen di.'—BENSON.

Adn. 18. *Fel y gwympont*] Trwy brofiad athrist o'u dinystr eu hunain, yr hyn ni fyneent ei wybod er eu lles yn eu bywyd. Y Saeson-aeg yw, 'fel y gwypo *dynion*,' sef *dynion ereill*, ac y ceisont adnabyddiaeth achubol o honot ti wrth weled dinystr y rhai hyn: gwel ar adn. 16. *Mai tydi*—O Arglwydd, *yr hwn yn unig wyt* JEHOFA wrth dy enw—sef Bôd hollalluog, annibynol, a hunan-fodol; *wyt Oruchaf*—mewn gallu ac awdurdod; *ar yr holl ddaear*—nid yn unig ar dy bobl Israel, yr hyn a addefid gan rai o'r cenedloedd eilunaddolgar; ond hefyd ar holl drigolion y byd, yr hyn ni addefent hwy. Tybia CLARKE nad oes dim yn yr erfyniadau uchod yn cyfeirio at *eneidiau* y cynghreirwyr hyn, neu at eu *cystwr tragwyddol* hwy, ond yn unig at eu *gorchfygiad* yn eu hynghais bresenol: ac am hyny efe a chwana: 'Tybier fod galluoedd y cyfandir yn ymuno i ddarostwng Prydain, a dyfetha y grefydd Brotestanaidd; a oes rhyw Gristion yn y wlad na chyflawnheid wrth gyfarfod â hwy gyda'r un neu y cyffelyb fellldithiadau? Byddai i mi ar liniau fy enaid offrw m pob un o honynt at Dduw yn erbyn y cyfryw oresgynwyr. Selah.—A. C.'

SALM LXXXIV.

MOR hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd!

2 Fy enaid a hiraetha, i.e, ac a flysia am gynteddau yr Arglwydd: fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Dduw byw.

3 Aderyn y tô hefyd a gafodd

SALM LXXXIV. Y teitl yw, 'I'r pen-cerdd ar Gittith, Salm meibion Corah.' Am Gittith, gwel deitl Salm viii; ac am *feibion Corah*, gwel deitl Salm xlii. Tybia *Patrick* i'r Salm hon gael ei chyfansoddi gan ryw Lefiad duwiol pryd yr oedd byddin Sen-acherib yn cau y ffordd i Jerusalem. ac yn attal i'r bobl fynd i wasanethu Duw yn ei deiml. Barna *Henry* ei bod yn anadlu ysbryd *Dafydd*, ac mai efe yw ei hawdwr. A thybia *Poole* iddo ei hysgrifenu yn amser gwrth-ryfel Absalom.

Adn. 1. *Mor hawddgar yw dy bebyll di*] Sef y deiml a'i chynteddau, os yn amser Sen-acherib, fel y tybia *Patrick*, yr ysgrifenydd y Salm hon; neu y *tabernacl* a'i ranau, Heb. ix. 2—7, os yn amser *Dafydd*: gwel y teitl.

Adn. 2. *Fy enaid a hiraetha*] Yn y modd mwyaf angherddol; i.e, ac a flysia—a 'ysir i fyny,' neu a 'guria ymaith,' gan faint fy hiraeth am gynteddau yr Arglwydd: *fy nghalon a'm cnawd*—ei enaid a'i gorff, a *waeddant am y Dduw byw*—am gael myned i'w gysegr i'w addoli ef.

Adn. 3. *Aderyn y tô hefyd a gafodd dŷ*] Sef nyth, neu dŷ i nythu ynddo; a'r *wenol nyth iddi, lle y gesyd ei chywion*—heb neb i aflonyddu y naill na'r llall; pan nad wyf fi yn cael hyny! Nid yw naturiaethwyr yn cytuno yn hollol pa adar a olygir wrth y rhai uchod: tybia rhai mai yr adar a enwir a olygir: tra y barna ereill mai y golomen a feddylir wrth y cyntaf, a'r durtur wrth yr ail. *Sef dy allorau di, O Arglwydd y lluoedd*—gellid meddwl oddiwrth y geiriau hyn fod yr adar uchod yn nythu wrth allor y poeth-offrwm ac allor yr arogldarth: ond gan y cedwid yr allorau hyny yn y purdeb y gair glendid mwyaf, y mae yn dra annhebyg y goddefid iddynt fagu eu cywion yn y fath le; ac nid yw yn rhesymol i ni feddwl y gallent wneuthur hyny yn nghanol y fath swm, gwres, a mwg, trwy fod tân yn cyneu arnynt yn wastadol, i losgi yr ebyrth, arogldarthu, &c. Nid yw y gair *sef* yn y wreiddiol, a gellir doddi am i mewn yn ei le, gan ddarllen y rhan flaenaf o'r adnod mewn cromfachau, a chysylltu y frawddeg ddiweddar uchod gyda'r adnod flaenorol, fel hyn: 'Fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Dduw byw—am dy allorau di, O Arglwydd y lluoedd.' Ymddengys mai meddwl y Salmwydd yw, Fod yr adar o bob math yn cael llonydd yn eu tai a'u nythod, pa le bynag y gwnaent hwy; ond nad oedd ef yn cael llonydd i aros yn nghynteddau ac wrth allorau ei Frenin a'i Dduw.

dŷ, a'r wenol nyth iddi, lle y gesyd ei chywion; *sef* dy alloran di, O Arglwydd y lluoedd, fy Mrenin, a'm Duw.

4 Gwyn fyd preswylwyr dy dŷ; yn wastad y'th foliannant. Selah.

5 Gwyn ei fyd y dyn y mae ei gadernid ynot; a'th ffyrdd yn eu calon.

6 Y rhai yn myned trwy ddyffryn Baca a'i gwnant yn ffynnon: a'r gwlaw a leinw y llynau.

7 Ant o nerth i nerth; ymddengys pob un gerbron Duw yn Seion.

Adn. 4. *Gwyn fyd preswylwyr dy dŷ*] *Sef* yr offeiriad a'r Lefaid, yn nghyda'r Iuddewon defosiynol ereill, a drigent neu a addolent yno, Luc ii. 37; *yn wastad y'th foliannant*—trwy ganu dy glodydd, a'th addoli a'th wasanaethu. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 5. *Gwyn ei fyd y dyn y mae ei gadernid ynot*] Yr hwn a ymddirieda ynot ti fel ei unig nerth, ei noddfa, a'i ran; *a'th ffyrdd yn eu calon*—y rhai sydd yn caru dy ffyrdd, neu yn penderfynu teithio y ffyrdd sydd yn arwain i Seion. 'Hyder a deyrnasa yn eu calon.'—BOOTHROYD. Neu gall mai yr ystyr yw, 'Gwyn eu byd y rhai y mae ganddynt nerth corfforol, ac awydd calon, i fyned i Seion.'

Adn. 6. *Y rhai yn myned trwy ddyffryn Baca*] Neu 'ddyffryn y morwydd.' 'Lle o sychder mawr, ac am hyn y'n anngyflus i deithwyr ar dymborau sychion yn y gwledydd poethion hyny.'—BENSON. 'Yr un a *Rephaim*, lle yr oedd morwydd yn tyfu, 2 Sam. v. 22, 23.' gwel COBBIN. 'Dyffryn dagrau.'—VULGATE. 'Glŷn wŷlofain.'—LXX. 'Yn lle BACHA, morwydden, y mae saith o'r ysgrifysfau yn darllen BECHEH, *galar*. Yr wyf fi yn credu mai yr un lle yw *Baca* yma a *Bochim*, Barn. ii. 1—5, a elwir *glŷn wŷlofain*.'—CLARKE. 'Ymddengys nad yw yn meddwl un lle neillduol, eithr unrhyw le anhawdd a blinderus, neu dir sych a chras.'—GILL. *A'i gwnant yn ffynnon*—neu a gloddiant amrai bydewau neu llynau yno; *a'r gwlaw a leinw y llynau*—trwy yr hyn y disychedir y teithwyr ar eu ffordd tua Seion. Y meddwl yw, Fod yr ymdeithwyr hyn, wrth fyned trwy leoedd sychion a chras i'r gwŷyliau arbenig yn Jerusalem, yn cloddio ydewau i gael dwfr i dori eu syched eu hunain ar eu taith, ac i ddal dwfr gwlaw erbyn y deuent hwy ac ereill heibio drachefn. Gan eu bod yn carn tŷ Dduw, a'r ffordd a arweiniant tuag ato, ac yn awyddus i gefnogi y bobl i fyned i Jerusalem i addoli Duw, ymdrechent i wneyd y ffyrdd tuag yno yn hawdd a chyflus.

Adn. 7. *Ant o nerth i nerth*] Neu 'o fntai i fntai,' sef bob yn fntai, neu ynta 'ant o ffynnon i ffynnon,' lle y caent ddwfr i'w disychedu a'u nerthu ar eu taith; *ymddengys pob un gerbron Duw yn Seion*—heb i gymaint ag un farw o syched ar y ffordd.

8 O Arglwydd Dduw y lluoedd, clyw fy ngweddi: gwrando, O Dduw Jacob. Selah.

9 O Dduw ein tarian, gwel, ac edrych ar wyneb dy eneiniog.

10 Canys gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil: dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo yn mhebyll annuwioldeb.

11 Canys haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw: yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant; ni attal efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith.

Adn. 8. *O Arglwydd Dduw y lluoedd*] Yr hwn y mae pob gallu ac awdurdod yn dy law; *clyw fy ngweddi*—am gael dyfod i'th gynteddau i'th addoli: *gwrando, O Dduw Jacob*—y mae yr enw yn nechre yr adnod yn arwyddo gallu Duw, a hwn yn arwyddo ei berthynas gyfammodol ef â Jacob a'i hiliogaeth. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 9. *O Dduw ein tarian*] Ein noddwr a'n hamddiffynwr yn barhaus; *gwel*—ein cyflwr alaethus presenol; *ac edrych ar wyneb dy eneiniog*—ar Dafydd neu Hezeciah, yr hwn a eneiniesid yn frenin. Ond y mae rhai yn ei ddeall am Grist, Eneiniog y Tad; a'r ystyr felly yw, 'Trugarha wrth dy bobl er ei fwyn ef.'

Adn. 10. *Canys gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil*] O ddyddiau mewn unrhyw le arall, ac yn enwedig 'yn mhebyll annuwioldeb,' fel y dywedir yn niwedd yr adnod. *Dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw*—yr hyn a ystyrir yn wasanaeth Lefaid o'r fath iselaf; *o flaen trigo yn mhebyll annuwioldeb*—a wnyhau yno anrhydedd brenhinol: Wrth y 'pebyll' hyn y meddyddr oddid balasau y mawrion, lle y cynelid gwleddoedd, cyfeddach, dawnsiau, a digrifwch enawdol. 'Yr oedd y Salmiann yn dewis cadw drws tŷ ei Dduw,' meddai un, 'fel y gallai fod yno yn hwy na neb; o flaen y cyntaf, ac ar ol y diweddaf.' Yr oedd brenhinoedd a breninesau gynt yn ei gyfrif yn anrhydedd mawr gael ysgubo y llawr yn nheml Diana: gwel ar Act. xix. 24, &c.

Adn. 11. *Canys haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw*] Haul i oleu, gwresogi, sir-ioli, a bywhau ei bobl; a tharian i'w diogelu, eu noddi, a'u hamddiffyn. *Yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant*—efe a ddyry ras, neu ddylanwadau ei Ysbryd, i achub a phuro eu heneidiau oddiwrth bechod yma; a *gogoniant* tragwyddol yn y nef ar ol iddynt orphen eu gyrfa ar y ddaear. *Ni attal efe ddim daioni*—ddim a fyddo yn wir ddaioni ynddo ei hun, ac yn dda ac angenrheidiol iddynt hwythau; *oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith*—yn ol ewyllus Duw, ac er gogoniant i'w enw ef: gwel ar 1 Thes. v. 22, 23, 1 Ioan iii. 3, a'r cyfeirnod yno ar waelod y ddalen. Ni attelir oddiwrth y cyfryw unrhyw ddaioni tymhorol nac ysbrydol; a phan y byddo cystudd, ty-

12 O Arglwydd y lluoedd, gwŷn fyd y dyn a ymddiriedo ynot.

SALM LXXXV.

GRASLAWN fuost, O Arglwydd, i'th dir: dychwelaist gaethiwed Jacob.

2 Maddeuaist anwiredd dy bobl: cuddiaist eu holl bechod. Selah.

3 Tynaist ymaith dy holl lid: troaist oddiwrth lidiogrwydd dy ddigter.

4 Tro ni, O Dduw ein hiachawdwr-

lodi, a phrofedigaethau yn dda er ein lles, neu yn anghenheidiol i ddiwyfnu ein meddyliau oddiwrth y byd a'i bethau, ni attelir y rhai hynychwaith oddiwrth blant Duw: ond gofelir bob amser am iddynt gydweithio er daioni iddynt, Rhuf. viii. 28, Heb. xii. 10, 11.

Adn. 12. *O Arglwydd y lluoedd*] Creawdwr, Cynaliwr, a Llywodraethwr pawb oll; *gwŷn fyd y dyn a ymddiriedo ynot*—rhaid iddo fod yn wynfydedig neu ddedwydd, gan dy fod di yn haul a tharian iddo, ac yn rhoddi iddo ras, gogoniant, a phob daioni angenrheidiol arall er ei wneyd yn ddedwydd, adn. 11. Er fod y Salmwydd ei hun yn awr wedi ei amddifadu o freintiau y cysegr, eto yr oedd ef yn ymddiried fyth yn Nuw, ac fel y cyfryw yn gallu mwynhau y gwynfydedigrwydd ag y cyfeirir ato yma.

SALM LXXXV. Y teitl yw, '*Tr pencerdd, Salm meibion Corah*,' neu 'Salm i feibion Corah;' gwel deitl Salm xlii. Y mae rhai yn ei phriodoli i *Dafydd*, ac yn ei chymhwysu at ei ddychweliad ef i Jerusalem ar ol bod ar flo rhag Absalom; ond ymddengys ei bod yn llawer mwy cymhwysiadol at y dychweliad o gaethiwed Babilon. Yn y tair adnod flaenaf y mae y Salmwydd yn cydnabod daioni Duw yn nygiad ei bobl eilwaith i'w gwlad eu hun; wedi hyn y mae yn gweddio am i Dduw eu hadferi'w llwyddiant blaenorol, neu i fwyuhad achubol o hono ei hun. Neu ynte, efe a ddiolcha yn yr adnodau cyntaf am waredigaeth dymhorol, ac yna a weddia am iachawdwriaeth ysbrydol trwy y Messia. Y mae efe, mewn ysbryd proffwddoliaeth, yn dysgwyl wrth Dduw, ac fel yn ei glywed ef yn addaw gwneuthur hyn; ac yna llawenycha yn y rhagolwg ar ddaioni mor fawr. Ymddengys fod yn yr holl Salm gyfeiriad at bryn-edigaeth y byd trwy ein Harglwydd Iesu Grist; ac y mae yn un o'r Salmau hyn y ddarlennir gan yr Eglwys ar fore y Nadolig.

Adn. 1. *Graslawn fuost, O Arglwydd, i'th dir*] Trwy ddwyn dy bobl yn ol iddo: *dychwelaist gaethiwed Jacob*—neu '*gaethion Jacob*,' fel yr arwydda y gair yn fynych: gwel Salm xiv. 7, a lxviii. 18.

Adn. 2. *Maddeuaist anwiredd dy bobl*] Am yr lwn y caethgludwyd hwynt; *cuddiaist eu ho'l bechod*—fel ag i beidio eu cospi yn dymhorol am dano. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

iaeth, a thor ymaith dy ddigofaint oddiwrthym.

5 Ai byth y digi wrthym? a estyni di dy soriant hyd genedlaeth a chenedlaeth?

6 Oni throi di a'n bywhau ni, fel y llawenychu dy bobl ynot ti?

7 Dangos ini, Arglwydd, dy drugaredd, a dod i ni dy iachawdwr-iaeth.

8 Gwrandawaf beth a ddywed yr Arglwydd Dduw: canys efe a draetha heddwch i'w bobl, ac i'w

Adn. 3. *Tynaist ymaith dy holl lid*] Sef yr adfydau a'r trallodau hyn ag oeddynt yn effeithiau dy gyfiawn lid yn ein herbyn ni; *troaist oddiwrth lidiogrwydd dy ddigter*—neu oddiwrth 'angherddolrwydd' dy ddigter. Rhaid mai mewn ystyr tymhorol y dywedir hyn, am nas gallwn feddwl fod pob un a waredwyd o'r caethiwed uchod yn derbyn maddeuant mewn ystyr ysbrydol. Eithr cyfeirir at fenthion ysbrydol yn yr adnodau dilynol.

Adn. 4. *Tro ni, O Dduw ein hiachawdwr-iaeth*] Atat dy hun mewn modd achubol. Fel pe dywedasai, Dychwelaist gaethiwed ein cyrff, adn. 1; dychwel yn awr gaethiwed ein heneidiau hefyd. *A thor ymaith dy ddigofaint* (*oddiwrthym*—fel na syrthiom i gaethiwed tragwyddol yn y byd a ddaw. Ond tybia rhai mai am gaethiwed Israel mewn rhyw amser blaenorol y sonia y Salmwydd yn y tair adnod gyntaf, ac am eu caethiwed presenol yn yr adnod hon; tra y barna ereill mai dychweliad rhan o'r Iuddewon o Babilon a olygir yn yr adnodau blaenorol, ac mai gweddi y rhai oedd ar ol sydd yn yr adnodau hyn.

Adn. 5. *Ai byth y digi wrthym*] Fel ag i'n gadael yn barhaus dan ryw arwyddion o'th anfoddolrwydd, hyd yn nod er i ni gael ein dwyn yn ol i'n gwlad? *A estyni di dy soriant hyd genedlaeth a chenedlaeth*—ary plant hefyd, yn gystal ag ar eu tadau?

Adn. 6. *Oni throi di a'n bywhau ni*] Mewn ystyr ysbrydol; *fel y llawenychu dy bobl ynot ti*—sef yn y mwyuhad o'th iachawdwr-iaeth?

Adn. 7. *Dangos i ni, Arglwydd, dy drugaredd*] Symud ymaith euogryddol ein pechodau trwy gyfiawnhad neu faddeuant; *a dod i ni dy iachawdwr-iaeth*—symud ymaith eu halogrydd trwy santeiddhad. Neu dod i ni yr 'iachawdwr' hwnw a addawyd cyhyd i ddynolryw: gwel *Horne*.

Adn. 8. *Gwrandawaf beth a ddywed yr Arglwydd Dduw*] Sylwaf yn fanwl pa atebiad a ddyry efe i'm gweddiau hyn. *Canys efe a draetha heddwch i'w bobl*—sef i'w bobl edifeiriol, ufydd, a chrediniol; *ac i'w saint*—sef ei bobl santiaid. Yr oedd y Salmwydd yn hyderus yn hyn, a hyny oddiar dystiolaeth y proffwydi, addewidion aml Duw, a'i natur raslawn a thrngarog. *On na throant at ymfydrwydd*—sef at bechod, eilnaddoliaeth, neu wrthgiliaid. Chwanegir hyn fel rhybydd pryd-

saint: ond na throant at ynfyd-rywydd.

9 *Diau fod ei iechyd ef yn agos i'r rhai a'i hofnant*; fel y trigo gogoniant yn ein tir ni.

10 *Trugaredd agwirionedd a ymgysuriant*; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant.

11 *Gwirionedd a dardda o'r ddaear*; a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd.

lon; canys ar yr ammod hon yn unig y gallent hwy ddysgwyl *heddwch*.

Adn. 9. *Diau fod ei iechyd ef*] Saes., 'ei iachawdriaeth,' sef iachawdriaeth Israel trwy y MESSIA, fel y mae yr Iuddewon eu hunain yn deall yr ymadrodd; *yn agos i'r rhai a'i hofnant*—ac a geisiant yr iachawdriaeth hōno gando trwy edifeirwch a fydd; *fel y trigo gogoniant yn ein tir ni*—sef yn Nghanaan. Teml ac addoliad Duw oedd prif ogoniant Israel gynt, yr hys a adferwyd iddynt mewn rhan ar ol caethiwed Babilon; y Messia oedd gogoniant yr Iuddewon a'u gwlad pryd yr oedd efe yn trigo yn eu plith lwy, Hag. ii. 7; a phregethiad yr efengyl, yr ysgrythyrn santiaid, a gweinidogaeth yr Ysbryd Glân, yw gogoniant penaf pob gwlad eto.

Adn. 10. *Trugaredd a gwirionedd a ymgysuriant*] Pan ddychwelodd Duw gaethiwed yr Iuddewon, efe a gyflawnodd yn *drugarog* ei addewidion *gwirioneddol* iddynt, nes yr oedd *trugaredd a gwirionedd* fel yn ymgyf arfod yn gyfeillgar yn eu gwaredigaeth hwy. *Cyfiawnder a heddwch*—neu 'gyfiawnder a gras,' fel y mae rhai yn ei ddarlenn; a *ymgusanasant*—yr oedd *cyfiawnder* wedi gweithredu yn eu caethgludiad hwy, ac yr oedd *heddwch* neu *ras* yn gweithredu yn eu rhyddhad; ac yr oedd y ddau fel yn *ymgusanu* ar deryn y caethiwed; y naill ar deryniad ei waith, a'r llall ar ddechread ei waith. Ond cyflawnir hyn yn fwy nodedig o lawer yn iachawdriaeth pechaduriaid trwy iawn ac aberthein Cyfryngwr bendigedig. 'Darfu i'r pedair priodoledd yma ymwahanu trwy gwmp Adda, a chyfarfod drachefn ar enediggaeth Crist. Yr oedd *trugaredd* bob amser yn dueddol i wasanaethu dyn, ac nis gallai *heddwch* fod yn elyn iddo; ond yr oedd *gwirionedd* yn gwaeddi am gyflawniad bygythiad Duw. 'Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw;' ac nis gallai *cyfiawnder* lai na rhoddi i bob un ei hawl.'—HORNE. 'Dadlenu *trugaredd*, Os dinystrir dyn, y mae creadigaeth yn ofer; dadlenu *cyfiawnder*, Os na chospir dyn, y mae y gyfraith yn ofer. *Gwirionedd* a bleidia *gyfiawnder*, a *gras* a gefnoga *drugaredd*. Beth a wneir yn ngwyneb hyn? Nid amlygir *trugaredd*, os na fadddeuir i ddyu; achywua *cyfiawnder* os na chospir dyn. Caed allan drefn gan ddoethineb Duw i ateb y gofynion hyn, ac i uniawid y gwahaniaeth rhyngddynt. Y mae dadleuon *cyfiawnder* yn cael eu boddhu mewn *cospi*, a dadleuon *trugaredd* yn cael eu der-

12 Yr Arglwydd hefyd a rydd ddaioni; a'n daear a rydd ei chnwd.

13 *Cyfiawnder a â o'i flaen ef*; ac a esyd ei draed ef ar y ffordd.

SALM LXXXVI.

GOSTWNG, O Arglwydd, dyglust, gwrando fi: canys truan ac angenus ydwyf.

byn mewn *maddeu*. Y mae hawliau y ddau yn cael eu cadw, a gofynion y ddau yn cyd-gordio yn gyfeillgar mewn cosp a maddeant, trwy drosglyddo cospedigaeth ein troseddau ni ar y Meichia; trwy fyngu iawn oddiwrth ei waed ef gan *gyfiawnder*, a rhoddi bywyd ac iachawdriaeth i ni gan *drugaredd*, heb gostio dytern o'n gwaged ein hunain. Fel hyn boddlonir *cyfiawnder* yn ei doster, a *thrugaredd* yn ei hynawsedd: fel hyn y mae Duw yn *gyfiawn*, heb fod yn greulon; ac yn *drugarog*, heb fod yn anghyfiawn.'—CHARNOCK.

Adn. 11. *Gwirionedd a dardda o'r ddaear*] Ar ol i'r Iuddewon gael eu dychwelyd i'w gwlad, ac i grefydd gael ei hail sefydlu yno, yr oedd *gwirionedd* megys yn tarddu o'r ddaear, yn gnwd toreithiog; a *chyiawnder* a *edrych i lawr o'r nefoedd*—ar llyny, gyda boddlon-rywydd a hoffder mawr. Ond gellir cymhwyso hyn hefyd at Grist a'i waith. 'Pan ymddangosodd Crist yn ein natur ni, cyflawnwyd yr addewid hon, a *gwirionedd* a darddodd o'r ddaear: ac yn awr *gyfiawnder*, gan edrych i lawr o'r nefoedd, a ganfu ynddo ef bob peth a geisiai; genedigaeth ddihalog, bywyd santiaid, a marwolaeth ddiiniwed; ysbryd a genau heb dwyll, ac enaid a chorff heb bechod. Hi a edrychodd, ac a foddlonwyd, ac a ddychwelodd i'r ddaear. Fel hyn ymgyfarfu y pedair plaid drachefn mewn perffaith gysondeb. Rhedodd *gwirionedd* at *drugaredd*, a chofleidiodd hi; rhedodd *cyfiawnder* at *heddwch*, a chusanodd hi.—Y rhai a gysylltwyd fel hyn megys *priodoliaethau* yn Nghrist, ni ddylent, fel *rhinweddau*, gael eu gwahanu yn y Cristion, yr hwn a all ddyngu pa fodd i ymdebygoli i'w Arglwydd a'i Feistr bendigedig trwy sylwi ar y rheol fer ond perffaith hōno o fuchedd a gynwysir yn y geirian canlynol: Dangos *drugaredd*, a dywed y *gwir*; gwna *gyfiawnder*, a dylun *heddwch*.'—HORNE.

Adn. 12. *Yr Arglwydd hefyd a rydd ddaioni*] Gwlaw, gwres, a thynlorau ffrythlon; *a'n daear a rydd ei chnwd*—yn helathlawn er ein cyrhaeth. Ond gellir deall hyn am waith yr Arglwydd yn rhoddi bendithion ysbrydol i'w bobl, a hwythau yn rhoddi iddo yntau gnwd o ffrythau ysbrydol er gogoniant i'w enw ef.

Adn. 13. *Cyfiawnder a â o'i flaen ef*] O flaen y duwiof, fel arweinydd gwastadol iddo; neu o flaen *Crist*, fel y mae rhai yn ei ddeall; *ac a esyd ei draed ef ar y ffordd*—sef ar ffordd *cyfiawnder* a rhinwedd. Saes., 'a'n

2 Cadw fy enaid; canys santaidd ydwyf: achub di dy was, O fy Nuw, yr hwn sydd yn ymddiried ynot.

3 Trugarha wrthyf, Arglwydd: canys arnat y llefaf beunydd.

4 Llawenha enaid dy was: canys atat ti, Arglwydd, y dyrchafaf fy enaid.

5 Canys ti, O Arglwydd, ydwyf dda, a maddeugar; ac o fawr drugaredd i'r rhai oll a alwant arnat.

6 Clyw, Arglwydd, fy ngweddi;

gesyd ni ar ffordd ei gamrau ef, sef ar y ffordd a rodiodd efe, ac a benododd i minau.

SALM LXXXVI. Y teitl yw, 'Salm Dafydd.' Y mae yr holl hen gyfieithiadau yn priodoli y Salm hon i Dafydd, a meddylir iddo ei chyfansoddi yn ystod ei drallodau oddi-wrth Saul neu Absalom. Dywed yr Iuddewon iddi gael ei defnyddio wedi hyny gan Hezeciah, pryd yr ymosodwyd ar Jernsalem gan yr Assyriaid; ac y mae y geiriau cyntaf ynddi yn debyg i eiddo Hezeciah, 2 Bren. xix. 16. Yr oedd Dafydd ynddi yn gysgod o Grist yn ei ddyroddesiadau; ac y mae y Salm hon eto yn weddi dra chyfaddas i unrhyw un yn cael ei flino gan erledigaeth neu athrod.

Adn. 1. *Gostwng, O Arglwydd, dy glust!* Dywedir hyn yn ol dull dynion; *gwrando fi*—fel pe dywedasai, Yr wyf mor isel a gwan, fel, os nad ymostyngi ataf, nas gall fy llais dy gryaedd di: *canye truan ac angherfus ydwyf*—yn cael fy erlid gan fy ngelynyon, ac 'yn amddifad o angenrheidiau bywyd.—CLARKE.

Adn. 2. *Cadw fy enaid!* Neu ei fywyd; *canys santaidd ydwyf*—wedi fy santeiddio i ryw fesur gan dy ras, ac wedi ymroddi yn ddiidwyl i'th wasanaeth. Gall mai yr ystyr yw, nad oedd ef wedi gwneyd dim o'i le yn erbyn Saul nac Absalom. Hebr., *ki chasid ani*, 'canys trugarog ydwyf.' Fel pe dywedasai, Dangos y drugaredd hōno i mi, yr hon yr wyf fi yn ewyllysgara pharod i'w dangos i ereill. Crybwylla Dafydd hyn, nid mewn ymfrost gwāg, ond fel rheswm i' anog Duw i ateb ei weddi, am ei fod yn un o'r rhai hyny ag yr ymrwymasai Duw, trwy addewid a chyfammod, i'w gwrando; ac hefyd mewn amddiffyniad iddo ei hun yn ngwyneb cyhuddiadau ei elynion. *Achub di dy was, O fy Nuw*—yr hwn wyt fy Meistr a'm Harglwydd; *yr hwn sydd yn ymddiried ynot*—sef yn dy drugaredd, adn. 3, am achubiaeth.

Adn. 3. *Trugarha wrthyf, Arglwydd!* Nid wyf yn dadlu unrhyw haeddiant o'r eiddof fy hun, ond yn ymddiried yn dy drugaredd di yn unig; *canys arnat y llefaf beunydd*—mewn gweddi daer, a chyda dysgwyliaid hir-aethlon.

Adn. 4. *Llawenha enaid dy was!* A gorfododd dy iachawdwriaeth, a hyny trwy amlygiadau adnewyddol o'th gariad; *canys atat*

ac ymwrando â llais fy ymbil.

7 Yn nydd fy nghyfyngder y llefaf arnat: canys gwrandewi fi.

8 Nid oes fel tydi yn mysy y duwiau, O Arglwydd; na gweithredoedd fel dy weithredoedd di.

9 Yr holl genhedloedd y rhai a wnaethost a ddeuant, ac a addolant ger dy fron di, O Arglwydd, ac a ogoneddant dy enw.

10 Canys ydwyf fawr, ac yn gwneuthur rhyfeddodau: ti yn unig wyt Dduw.

ti, Arglwydd, y dyrchafaf fy enaid—mewn gweddiau am y fendith hōno.

Adn. 5. *Canys ti, O Arglwydd, ydwyf dda!* Yn dy natur a'th weithredoedd; *a maddeugar*—i'r rhai a'th ddi-giasant trwy eu pechodau; *ac o fawr drugaredd i'r rhai oll a alwant arnat*—mewn gweddi edifeiriol, fyddiog, a thaer.

Adn. 6. *Clyw, Arglwydd, fy ngweddi!* Fel hyn efe a luosoga ei ddeisiadau i'r dyben i esmwythāu ei feddwl trailodus ei hun, ac i lwyddo gyda Duw, yr hwn sydd yn hoffi taerineb yn ngweddio ei bobl, Luc xviii. 1, &c. *Ac ymwrando â llais fy ymbil*—boed i ti dalu sylw trugarog i'r geiriau ag yr wyf yn eu gosod o'th flaen.

Adn. 7. *Yn nydd fy nghyfyngder y llefaf arnat!* Pau mewn unrhyw gyfyngder, yn dymhorol neu ysbrydol; *canys gwrandewi fi*—o'r hyn y mae genyf y sicrwydd mwya, nid yn unig oddiwrth dy hynawsedd di, adn. 5, ond hefyd oddiwrth fy mhrofiad fy hun yn yr amseroedd a aethant heibio.

Adn. 8. *Nid oes fel tydi yn mysy y duwiau!* Tybia rhai mai brenhinoedd, barnwyr, neu ynadon y ddaer a olygir yma, am y gelwir hwy weithiau yn 'dduwiau'; ond y mae yn debycach mai y gau-dduwiau a feddylir, y rhai a addolid gan y genhedloedd: nid oes un o'r rhai hyny mor ddoeth, mor dda, nac mor alluog a'n Duw ni. Fel pe dywedasai, Nid wyf yn galw ar eilun byddar a marw, canys felly buasai raid i'm gweddiau, pa mor daerion a gwresog bynag, fod heb eu gwrando, fel eiddo addolwyr Baal, 1 Bren. xviii. 26, 29; ond yr wyf yn galw ar y *Duw byc*, yr hwn sydd yn anfeidrol mewn gallu, doethineb, a daioni. *Na gweithredoedd fel dy weithredoedd di*—y rhai a ganyf mewn creadigaeth, ac a amlygi yn barhaus mewn rhagluniaeth a gras.

Adn. 9. *Yr holl genhedloedd y rhai a wnaethost!* Ac a ffont am oesau lawer yn addoli gwaith eu dwylaw eu hunain, heb wybod dim am eu Creawdwr anfeidrol; *a ddeuant, ac a addolant ger dy fron di*—yn y dyddiau diweddar, ar ol iddynt glywed am danat trwy bregethiad yr efengyl; ac a ogoneddant dy enw—am dy drugaredd a'th iachawdwriaeth iddynt: gwel ar Salm xxii. 27—29.

Adn. 10. *Canys ydwyf fawr!* Mewn hanfod, llywodraeth, a gallu, yn gystal ag mewn

11 Dysg i mi dy ffordd, O Arglwydd; mi a rodiaf yn dy wirionedd: una fy nghalon i ofni dy enw.

12 Moliannaf di, O Arglwydd fy Nuw, a'm holl galon: a gogoneddaf dy enw yn dragywydd.

13 Canys mawr yw dy drugaredd tuag ataf ti: a gwaredaist fy enaid o uffern isod.

14 Rhai beilchion a gyfodasant i'm herbyn, O Dduw, a chynulleidfa y trawsion a geisiasat fy enaid; ac ni'th osodasant di ger eu bron.

15 Eithr ti, O Arglwydd, wyt Dduw trugarog a graslawn: hwyr-

fyddig i lid, a helaeth o drugaredd a gwirionedd.

16 Edrych arnaf, a thrugarha wrthyf: dyro dy nerth i'th was, ac achub fab dy wasanaethferch.

17 Gwna i mi arwydd er daioni: fel y gwelo fy nghaseion, ac y gwardwydder hwynt; am i ti, O Arglwydd, fy nghynorthwyo a'm dyddanu.

SALM LXXXVII.

El sail sydd ar y mynyddoedd santaidd.

2 Yr Arglwydd a gâr byrth Seion

trugaredd a daioni; ac yn gwneuthur rhyf-
eddodau—neu 'wyrthiau,' fel yr arwydda y
wreiddiol: *ti yn unig wyt Dduw*—yr hyn nid
yw eilunod y cenbedloedd, fel y cydnabyddir
cyn hir gan bawb, pan ddeallant dy fawredd
a'th wyrthiau di.

Adn. 11. *Dysg i mi dy ffordd*] Yn yr hon
y dylwn rodio; hyny yw, dysg hi yn eglurach
i mi trwy dy Ysbryd, fel y gwelwyf yn amlwg
dy ewylllys di, a'm dyledsdyddau fy hun yn
mhob amgylchiad: *a mi a rodiaf yn dy wir-
ionedd*—yn llwybrau gwir grefydd, heb gyfeil-
iorni mewn barn na buchedd. *Una fy nghalon
i ofni dy enw*—una holl gyneddffau fy nghorff
a'm benaid yn dy wasanaeth, fel na wahaner
ac na raner hwynt rhwng y byd a chrefydd.

Adn. 12. *Moliannaf di, O Arglwydd fy
Nuw*] Fy Nuw cyfammodol a grasol; a'm
holl galon—ar ol i ti ei 'huno' felly; *a go-
goneddaf dy enw yn dragywydd*—nid yn
unig tra y byddaf byw yr y ddaear, ond byth
yn y nef.

Adn. 13. *Canys mawr yw dy drugaredd
tuag ataf ti*] O'm mebyd byd yma; *a gwar-
edaist fy enaid o uffern isod*—nid yn unig fy
mywyd rhag disgyn o honof i'r bedd, ond fy
enaid rhag syrthio i blith cythreuliaid, yr hyn
a gyfiawn haeddais.

Adn. 14. *Rhai beilchion a gyfodasant i'm
herbyn*] Sef Saul a'i blaid, neu ynte Absalom
a'i gydwrthyfelfyr; *a chynulleidfa y traws-
ion a geisiasat fy enaid*—neu fy mywyd i'w
ddyfetha; *ac ni'th osodasant di ger eu bron*—
nid ystyriasant dy fod di yn amddiffynwr i mi,
neu nid oedd ofn Duw o flaen eu llygaid
hwynt.

Adn. 15. *Eithr ti, O Arglwydd, wyt Dduw
trugarog a graslawn*] Yr wyt ti yn drugarog
wrthyf, er i mi bechu yn ddifawr yn dy er-
byn; er na maent hwy yn greulon; er na
wnaethym ddim i haeddu hyny oddiar eu llaw:
*hwyrfyddig i lid, a helaeth o drugaredd a
gwirionedd*—gwel y geirion hyn wedi eu
hegluro ar Exod. xxxiv. 6.

Adn. 16. *Edrych arnaf*] Yn fy nghyfyng-
der presenol; *a thrugarha wrthyf*—trwy fy
ngwaredu o hono: *dyro dy nerth i'th was*—
i'm cynal dan fy nhrallod, neu i'm dwyn o

hono; neu, yn ol y *Vulgate*, 'dyro y frenhin-
iaeth iddo;' *ac achub fab dy wasanaeth-
ferch*—yuddengys oddiyma fod mam Dafydd
yn wraig dduwiol iawn, ac felly yr oedd hi a'i
had mewn cyfammod â'r Arglwydd; ac ar
gyfrif y cyfammod hwnw, neu weddiau ei fam
drosto pan yn ieuanc, y deisysa efe yma gael
ei achub: gwel ar Salm li. 5.

Adn. 17. *Gwna i mi arwydd er daioni*] Tybia rhai fod hyn yn golygu, rhoddi gwyst
iddo, trwy ddylanwad yr Ysbryd Glân ar ei
feddwl, y cai efe y bendithion ag yr oedd wedi
bod yn eu gofyn; ond nis gall olygu hyny, am
fod yr arwydd hwn i fod yn *welodig* i ereill:
gan hyny y meddwl yw, Awlyga dy raglun-
iaeth mor hynod yn fy ngwaredigaeth, *fel y
gwelo fy nghaseion*—mai trwy dy gyfrfyngiad
di yn unig y ceisais waredigaeth; *ac y gwar-
adwydder hwynt*—trwy eu siomi yn eu ham-
can i'm dyfetha; *am i ti, O Arglwydd, fy
nghynorthwyo*—i ddyfod allan o'm tralod
presenol; *a'm dyddanu*—â dyddanwch dy
iaehawdwriaeth.

SALM LXXXVII. Y teitl yw, 'Salm
neu Gân meibion Corah.' Ystyrir y Salm
hon yn fawlderdd i Seion fel cysgod o'reglwys
Gristionogol, i ba un y mae ei chynwysiad yn
dra chyffaddasol. Tybia rhai ddarod ei chyf-
ansoddi i osod allan lawenydd pobl Dduw
pryd yr oedd Seion mewn cyflwr blodeug; tybia
ereill ddarod ei hysgrifenu i gefnogi eu
fydd a'u gobaith hwy pryd yr oedd Seion yn
adeilion, ac i gael ei hail adeiladu ar ol y
caethiwd; tra y barna ereill ddarod ei chyf-
ansoddi ar osodiad sylfaen teml Solomon.

Adn. 1. *Ei sail*] Saes., 'ei sail ef,' sef Duw;
neu sail teml neu ddinas Duw; *sydd ar y
mynyddoedd santaidd*—sef ar fryniau Seion
a Moriah, y rhai a ddewisasai Duw o flaen pob
rhai ereill i adeiladu yno y ddinas a'r deml.
Gelwir hwynt yn *fynyddoedd santaidd*, neu
'fynyddoedd santeiddrwydd,' am eu bod wedi
eu neillduo a'u cysegru mewn modd arbenig at
wasanaeth santaidd Duw.

Adn. 2. *Yr Arglwydd a gâr byrth Seion*] Sef 'dinas' Seion, neu Jerusalem, fel lle ei
gysegr a'i breswylfod: *yn fwy na holl bres-*

yn fwy na holl breswylfeydd Jacob.

3 Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, O ddinas Duw. Selah.

4 Cofiaf Rahab a Babilon wrth fy nghydnabod: wele Philistia, a Thyrus, yn nghydag Ethiopia. Yno y gauwyd hwn.

5 Ac am Seion y dywedir, Y gŵr

wylfeydd Jacob—hyny yw, yn fwy nag un man arall yn nhiriogaeth Israel i fod yn breswylfod iddo; neu yn fwy nag un man arall lle y buasai yr arch a'r babel yn aros. Tybiodd rhai mai yr ystyr yw, fod yr Arglwydd yn caru addoliad cyhoeddus y cysegr, lle yr oedd yr aberthau yn cael eu hoffrymu, yn fwy na'r addoliadau teuluiaidd mwyaf defosiynol, lle yr ydoedd gwasanaeth y deml yn cael ei hesguluso.

Ado. 3. *Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, O ddinas Duw*] Sef fod y deml a'i gwasanaeth ynot, a'rh fod yn drigle brenhinoedd, offeiriadaid, a phroffwydi, ac yn degwech bro, a llawenydd yr holl ddaear. Ond dywedir pethau mwy gogoneddus am eglwys Crist dan oruchwyliaeth yr efengyl, fel priodasferch yr Oen, a'r hon a brynwyd ganddo a'i werthfawr waed, ac a wnaed yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd, Eph. ii. 20—22. Am ogoniant mwy rhagorol yr eglwys Gristionogol, gwel Esay lx. 1, &c., a Dat. xxi a xxii. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 4. *Cofiaf Rahab a Babilon*] Sef yr 'Aift a Babilon,' fel yr arwydda y gŵr, Esay li. 9; *wrth fy nghydnabod*—hyny yw, yn ol rhai, mynegaf am dan ynt fel gwledydd nad yw eu dinasoedd penaf mor ogoneddus a Jerusalem; neu, yn ol ereill, efe a gofiaf y gwledydd hyn fel rhai a ddychwelid at Gristionogaeth yn y dyddiau diweddaf. *Wele Philistia, a Thyrus, yn nghydag Ethiopia*—enwir y rhai hyn am yr holl genhedloedd amgylchynol, i arwyddo nad oedd yn anrhydedd na braint i neb gael ei eni yno, mewn cydmariaeth i fod yn ddinasydd yn Seion; neu ynte, i arwyddo y dychwelid hwythau hefyd i eglwys Crist, yr hyn a gyflawnwyd mewn rhan ar ddydd y pentecost, ac a lwyf gyflawnir yn ystod y millfwyddiant: *yno y gauwyd hwn*—trwy fabwysiad ac adenedigaeth; hyny yw, bydd i'r holl Genhedloedd gael eu dwyn i eglwys Crist, a'u gwneyd yn wir aelodau o honi. Ond tybia *Clarke, Buchanan, Coke*, ac ereill, mai yr ystyr yw, 'Nad oedd yr Aift, Babilon, Philistia, Tyrus, ac Ethiopia, mor anrhydeddus a Jerusalem; ac nad oedd yn un fraint i neb gael ei eni ynddynt hwy, mewn cydmariaeth i fod yn enedigol yn Jerusalem; nad oedd eu dinasoedd penaf hwy ddim ond pentref, ac mai Jerusalem yn unig oedd y ddinas.' Yn gyson â hyn y sylwa *Jarchi*: 'Y *Philistiaid*, &c., a ddyrchafant yr *Aift a Babilon* fel gwledydd enwog am henafiaeth, dysgeidiaeth, a chelfyddydau, pan y dywedant, *Yno y gauwyd y cyfryw ŵr*. Ond bydd i'r clod hwnw a berthynai gynt iddynt hwy, ddychwelid yn awr i Seion; am ba un y gellir dywedyd gyda

a'r gŵr a anwyd ynddi: a'r Goruchaf ei hun a'i sicrha hi.

6 Yr Arglwydd a gyfrif pan ysgrifeno y bobl eni hwn yno. Selah.

7 Y cantorion a'r cerddorion a fyddant yno: fy holl ffynnonau sydd ynot ti.

llawer mwy o gyflawnder, er ei anrhydedd, *Gauwyd hwn neu y llall yno.*' Yr oedd y fraint o fod yn ddinasyddion Seion yn anbraethol fwy na'r hon ag yr oedd trigolion unrhyw ddinas arall yn y byd yn meddu hawl iddi; fel dinas ag yr oedd Duw yn sylfaenydd iddi, a'r hon yr oedd arch ei bresenoldeb ef ynddi, a'i addoliad mawreddog yn cael ei ddwyn yn mlaen ynddi; yr hon oedd yn cael ei llywodraethu gan ei gyfreithiau ef, ac yn aros yn barhaus dan ei amddiffyniad digyfrwng.

Adn. 5. *Ac am Seion y dywedir*] Sef am Jerusalem, yn ol rhai; neu am eglwys Crist, wedi ei gwneyd i fyny o Iddewon a Chenhedloedd, yn ol ereill; *Y gŵr a'r gŵr a anwyd ynddi*—gwel ar adn. 4. 'Gwyr o bob math, ac o wahanol genhedloedd.'—*Pagninus, Montanus, Vatublus*. 'Gŵr y gwyr, neu y Gŵr enwocaf, sef Crist.'—*Durell*. 'Dafydd frenin, a Solomon ei fab, a ddygwyd i fyny yma.'—*Targum*. Meddylir yn gyffredin fod yr ymadrodd hwn yn golygu llysoegyrrwyd o wŷr, neu y gwyr enwocaf. *A'r Goruchaf ei hun a'i sicrha hi*—fel nas gall yrth uferna mo'i gorchfygu. Am yr eglwys Gristionogol yn unig y gellir dywedyd hyn yn briodol: gwel ar Mat. xvi. 18.

Adn. 6. *Yr Arglwydd a gyfrif pan ysgrifeno y bobl*] Hebr., *bichthob ammim*, 'yn nghoflyfr y bobl,' yr hwn a elwir 'lyfr y bywyd'; *eni hwn yno*—mewn dinasoedd trefnus cedwid cyfrif ysgrifenedig o'r holl ddinasyddion wrth en henwau a'u rhif; a phan enid plentyn i un o honynt, ysgrifenedid eaw hwnw hefyd gyda'i deulu, fel un o'r dinasyddion; gwel ar Luc x. 20. Yn debyg i hyny arddanghosir Duw fel yn cadw cyfrif o bob un a adgenhedlir yn Seion gan yr Ysbryd Glân, neu a 'enir oddiuchod.' Y mae pob un o'r cyfryw yn wir ddinasydd Seion; hyny yw, bydd i Dduw gyfrif y cyfryw rai er o hiliogaeth y Cenedloedd, yn wir aelodau o'i eglwys ef, pan y bydd iddo, ddydd y farn, arolygu ei ddinasyddion a'i ddeiliaid. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 7. *Y cantorion a'r cerddorion a fyddant yno*] Sef rhai yn canu â'u lleisiau, ac ag ofer cerdd. Yr oedd y rhai hyn ar waith yn ngwasanaeth y cysegr gynt, ac awgrymir yma eu bod i barhau yn ngwasanaeth yr eglwys Gristionogol hefyd. *Fy holl ffynnonau sydd ynot ti*—sef yn Nuw, neu yn ei eglwys. Tybia rhai mai y geriau hyn yw y gân a genid gan y cantorion a'r cerddorion uchod; a thybia ereill mai profiad y Salmydd ei hun ydynt, yn arwyddo tud ei holl gysuron a'i hyfrydwch ysbrydol ef yn Nuw, neu yn ei gysegr a'i

SALM LXXXVIII.

O ARGLWYDD Dduw fy iachawd-wriaeth, gwaeddais o'th flaen ddydd a nos.

2 Dened fy ngweddi ger dy frongostwng dy glust at fy llefain.

3 Canys fy enaid a lanwyd o flinderau; a'm heinioes a nesâ i'r beddrod.

4 Cyfrifwyd fi gyda'r rhai a ddisgynant i'r pwll: ydwyf fel gŵr heb nerth.

5 Yn rhydd yn mysg y meirw, fel rhai wedi eu lladd, yn gorwedd

waith ef. Ond gan fod ffynnonau weithiau yn arwyddo plant, hiliogaeth, teulu, barna rhai mai ei feddwl oedd, fod ei holl deulu ef yn Seion, ac yn mwynhau breintiau eglwys Dduw.

SALM LXXXVIII. Y teitl yw, 'Salm neu Gân meibion Corah, i'r pencerdd ar Maholath Leannoth, Maschil Heaman yr Ezerahiad,' neu 'yr Israeliad.'—LXX. Am ystyr y gair Maholath, gwel deitl Salm liii. Ystyr y gair Leannoth, yn ol Mudge, yw 'pradd-der neu iselder meddwl,' o'r hyn y ceir digon yn y Salm hon; yn ol ereill, arwydda ganu bob yn ail, neu ar gylch; ac, yn ol ereill, enw tôn neu osferyn cerdd ydyw. Tybia Clarke y gellid cyfieithu y teitl fel hyn: 'Salm i'w chanu i'r Gorchfygwr, gan feibion Corah, bob yn ail, ar ran dyn mewn cyfyngder; i roddi hyfforddiad i Heman yr Ezerahiad.' Tybia Kennicott mai gweddi dyn ydyw wedi ei gau i fyny mewn tŷ ar wahan, o herwydd y gwahanglwyf, yr hwn yr ymddengys ei fod yn y graddau diweddaf o'r dolur hwnw. Barna Calmet ei bod yn cyfeirio at y caethiwydd, lle yr arddanglosir y genedl Israellaidd fel dyn yn cael ei gystuddio yn drwm dros ei holl fywyd. Tybia Lightfoot ei bod yn gosod allan gyflwr Israel yn yr Aifft, yn cael eu herlid a'u gorthrymu gan Pharao. Ymae Horsley a Vitringa yn meddwl mai arddanglosiad profwydol ydyw o ddyoddeffiadau y Messia. Tybia rhai mai Heman yw ei hawdwr hi, o'r rhai yr oedd dau; un yn nodedig am ei ddoethineb, 1 Bren. iv. 31, a'r llall am gerddoriaeth, 1 Cron. vi. 33. Ond ceisio cysoni y materion a gynnwysir yn nheitlau y Salmiau, fel y sylwa Clarke, 'yw talu gormod o barch iddynt; gan fod llawer o honynt wedi eu camosod, ac nad oes un o honynt wedi ei ddwyfol sbyrdoli.'

Adn. 1. O Arglwydd Dduw fy iachawd-wriaeth] Oddiwrth yr hwn yn unig y gallat ddysgwyl iachawdwriaeth; gwaeddais o'th flaen ddydd a nos—am waredigaeth o'm hadfyd presenol.

Adn. 2. Deued fy ngweddi ger dy fron] Yn gymeradwy; gostwng dy glust at fy llefain—fel un a fyddai am wrando ar ty nghwyn.

Adn. 3. Canys fy enaid a lanwyd o flin-

mewn bedd, y rhai ni ehofi mwy; a hwy a dorwyd oddiwrth dy law.

6 Gosodaist fi yn y pwll isaf, mewn tywyllwch, yn y dyfnderau.

7 Y mae dy ddigofaint yn pwysu arnaf; ac â'th holl ddonau y'm cystuddiaist. Selah.

8 Pellheist fy nghydnabod oddiwrthyf; gwnaethost fi yn ffeidd-dra iddynt; gwarchaewyd fi, fel nad awn allan.

9 Fy llygad a ofidiodd gan fy nghystudd: llefaisarnat, Arglwydd, beunydd; estynais fy nwyllaw atat.

derau] Fel llestr yn llawn o dddwr; a'm heinioes a nesâ i'r beddrod—gan angherddolrwydd fy nolur a'm poen: gwel y teitl.

Adn. 4. Cyfrifwyd fi gyda'r rhai a ddisgynant i'r pwll] Neu i'r bedd; hyn yw, ymddygir tuag atat fel pe bawn wedi marw, adn. 5; neu yr wyf wedi fy rhoddi i fyny i farw gan bawb o'm cydnabod; ydwyf fel gŵr heb nerth—i allu byw nemawr yn hwy.

Adn. 5. Yn rhydd yn mysg y meirw] Y mae rhai yn ei gyfieithu, 'Wedi fy nyosg yn mysg y meirw, fel rhai wedi eu lladd, yn gorwedd-mewn bedd.' Meddylir fod yma gyfeiriad at waith anrbeithwyr ar faes y gwaed yn dyosg y meirw, a'r rhai a archollwyd i farwolaeth, o'u dillad a'u trysorau. Tybiodd rhai o'r tadau fod yma gyfeiriad at farwolaeth rydd neu wirfoddol ein Harglwydd, pan nad oedd dim rhuymau arno ef i farw, fel y mae arnom ni bechaduriaid. Y rhai ni chofinwy—i ofalu am danynt yn dy ragluniaeth. A hwy a dorwyd oddiwrth dy law—oddiwrth ei law gynaliol ef. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at y gofrestr yn llaw y cadfridog, yr hon a gynnwysai enwau yr holl fyddin; a phan y lleidd rhai o honynt ar faes y gwaed, fod eu henwau yn cael eu dileu o'r gofrestr, 'y rhai ni chofid mwy.'

Adn. 6. Gosodaist fi yn y pwll isaf] Yn y tralod a'r iselder mwyaf; mewn tywyllwch—sef mewn gofid, poen, ac anobaith; yn y dyfnderau—fel dyfn mewn dyfny-gell dan y ddaear.

Adn. 7. Y mae dy ddigofaint yn pwysu arnaf] Fel na allaf sefyll dano; ac â'th holl donau y'm cystuddiaist—cystuddiaist fi â'r nail ofid ar ol y llall. fel tônau y môr yn curo yn olynol yn erbyn llestr, gan ei ddryllo a'i suddo. Selah—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 8. Pellheist fy nghydnabod oddiwrthyf] Y rhai ni fynent neu ni feiddient nesâu atat; gwnaethost fi yn ffeidd-dra iddynt—wrth fy ngweld yn cael fy nghystuddio fel hyn genyt; gwarchaewyd fi, fel nad awn allan—i gymdeithasu â'm cydnabod. Tybia rhai oddiwrth y dysgrifiad hwn mai y gwahanglwyf oedd dolur y Salmwydd.

Adn. 9. Fy llygad a ofidiodd gan fy nghystudd] Wrth wlylo yn ddbaid; llefais arnat,

10 Ai i'r meirw y gwnai ryfeddod? a gyfyd y meirw a'th foliannu di? Selah.

11 A draethir dy drugaredd mewn bedd? a'th wirionedd yn nystryw?

12 A adwaenir dy ryfeddod yn y tywyllwch? a'th gyfiawnder yn nhir annghof?

13 Ond myfi a lefais arnat, Arglwydd; yn fore yr achub fy ngweddi dy flaen.

14 Paham, Arglwydd, y gwrthodi fy enaid? y cuddi dy wyneb oddiwrthyf?

15 Truan ydwyf fi, ac ar drancedigaeth o'm hieuenctid: dygais dy ofn, ac yr ydwyf yn petruso.

Arglwydd, beunydd—am ymward; *estynais fy nwyllaw atat*—mewn gweddi daer am waredigaeth.

Adn. 10. *Ai i'r meirw y gwnai ryfeddod?* Trwy eu codi hwy drachetn i fywyd? *a gyfyd y meirw a'th foliannu di*—eilwaith ar y ddaear? *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 11. *A draethir dy drugaredd mewn bedd?* A folianna y meirw di yn y bedd am dy drugaredd? *a'th wirionedd yn nystryw?*—a gannolir dy wirionedd di gan rai wedi eu ddistrywio?

Adn. 12. *A adwaenir dy ryfeddod yn y tywyllwch?* Sef yn y bedd, yr hwn a elwir yn 'dir tywyllwch?' *a'th gyfiawnder yn nhir annghof?*—felly hefyd y gelwir y bedd, am fod y meirw yno wedi annghofio pob peth ar y ddaear, ac yn cael eu hannghofio yn fuan gan y byw. Ni wyddant yno ddim am weithrededd a phriodoliaethau Duw, at y rhai y cyfeirir uchod.

Adn. 13. *Ond myfi a lefais arnat, Arglwydd?* Am waredigaeth; *yn fore yr achub fy ngweddi dy flaen*—o flaen pawb ereill, neu cyn awr yr offrw m boreol. Fel pe dywedasai, *Er nad wyf hyd yma wedi cael atebiad, eto ni roddaf i fy ny weddio am atebiad.*

Adn. 14. *Paham, Arglwydd, y gwrthodi fy enaid?* Neu 'fy ngweddi,' fel y mae mewn amrai o'r hen gyfieithiadau; *y cuddi dy wyneb oddiwrthyf?*—ymddengys fod y Salmydd y pryd hyn dan guddiad gwenau yr Arglwydd oddiwrth ei enaid, yn chwanelgol at ei ddolur corfforol.

Adn. 15. *Truan ydwyf fi?* Mewn meddwl, corff, ac ysbryd; *ac ar drancedigaeth o'm hieuenctid*—yr wyf wedi bod dros fy holl oes yn dyoddef oddiwrth y dolur a'r trallod yma: *dygais dy ofn*—sef ofn soriant a cheryddon Duw; *ac yr ydwyf yn petruso*—heb wybod pa beth a ddaw o honof yn y diwedd; neu, 'yr ydwyf yn gorphwyllo.'

Adn. 16. *Dy soriant a aeth drosod?* Fel llifeiriant arswydol; *dy ddychrynedigaethau a'm torodd ymaith*—oddiwrth bob gobaith am fywyd neu ymward.

Adn. 17. *Fel dwfr y'm cylchynasant beu-*

16 Dy soriant a aeth drosod: dy ddychrynedigaethau a'm torodd ymaith.

17 Fel dwfr y'm cylchynasant beunydd, ac y'm cydamgylchasant.

18. Câr a chyfaill a yraist yn mhell oddiwrthyf, a'm cydnabod i dywyllwch.

SALM LXXXIX.

TRUGAREDDAU yr Arglwydd a ddatganaf byth: â'm genau y mynegaf dy wirionedd o genedlaeth hyd genedlaeth.

2 Canys dywedais, Adeiledir trugaredd yn dragywydd: yn y nefoedd y sicrhâi dy wirionedd.

nydd? Gan ymgodi o'm deutu yn uwch-uwch, fel llanw y môr; *ac y'm cydamgylchasant*—gan gau am danaf fel na allw ddiace.

Adn. 18. *Câr a chyfaill a yraist yn mhell oddiwrthyf?* Fel na feddaf neb i gydymdeimlo â mi, nac i'm cysuro yn fy nhrallod, adn. 8: *a'm cydnabod i dywyllwch*—dichon ei fod yn cyfeirio yma at rywrai ag oeddynt wedi marw. Meddylir yn gyffredin fod y Salmydd a'i flinderau yn gysgod o Grist a'i ddyoddefiadau, a gall y darlennydd ei hun wneyd y cymlhwyriad hwn bron yn mbob adnod.

SALM LXXXIX. Y teitl yw, 'Maschil Ethan yr Ezrahiad,' yr hwn y gellir ei gyfieithu, 'Er hyfforddiad i neu gan Ethan yr Ezrahiad.' Y mae y LXX, a rhai o'r hen gyfieithiadau, yn darllen 'Ethan yr Israeliad,' a'r *Arabaeg*, 'Nathan yr Israeliad.' Y mae yn dra thebyg i'r Salm hon gael ei chyfansoddi yn ystod caethiwed Babilon, neu ychydig cyn hyny. Tybia Kennicott mai *Esay* a'i hysgrifenodd hi, fel cyfarchiad difrifol a chyhoeddus i Ddnw, pryd yr oedd Resin a Phecah yn dyfod i fyny yn erbyn Jerusalem, 2 Bren. xvi. 5. Y mae amrai o'r esbonwyr Iuddewig yn ei chyfeirio at y Messia; a darllenir hi yn ein Heglwys ar ddydd Nadolig.

Adn. 1. *Trugareddau yr Arglwydd a ddatganaf byth.* Y rhai a ddanghosodd efe i ni a'n tadau yn mhob oes; *â'm genau y mynegaf dy wirionedd*—sef dy gyflawniad gwirioneddol o'th addewidion i ni yn dymborol ac ysbrydol; *o genedlaeth hyd genedlaeth*—yr hyn a wna efe hyd heddyw yn y Salm hon.

Adn. 2. *Canys dywedais?* Arferwn ddywedwyd bob amser, hyd yn nod dan yr amgylchiadau tywyllaf; *Adeiledir trugaredd yn dragywydd*—danghosir hi yn dragywydd, yn ol dy addewid i dŷ a brenhiniaeth Dafydd, 2 Sam. vii. 12, 13; *yn y nefoedd y sicrhâi dy wirionedd*—yn mhell goruwch gallu daear ac uffern i'w ddiddymu; neu, ti a beri i'th wirionedd ymddangos mor gadarn a diysgog a'r haul a'r lleuad, adn. 36, 37.

3 Gwnaethym ammod â'm hetholedig, tyngais i'm gwias Dafydd.

4 Yn dragywydd y sierhaf dy had di; ac o genhedlaeth i genhedlaeth yr adeiladaf dy orseddfainc di. Selah.

5 A'r nefoedd, O Arglwydd, a foliannant dy ryfeddod; a'th wirionedd yn nghynulleidfa y saint.

6 Canys pwy yn y nef a gystedlir â'r Arglwydd? *pwy* a gyffelybir i'r Arglwydd yn mysg meibion y cedyrn?

7 Duw sydd ofnadwy iawn yn nghynulleidfa y saint, ac i'w arwyddo yn ei holl amgylchoedd.

8 O Arglwydd Dduw y lluoedd, *pwy sydd* fel tydi, yn gadarn

Ior? a'th wirionedd o'th amgylch?

9 Ti wyt yn llywodraethu ymchwydd y môr: pan gyfodo ei dônau, ti a'u gostegi.

10 Ti a ddrylliaist yr Aifft, fel un lladdedig: trwy nerth dy fraich y gwasgeraist dy elynion.

11 Y nefoedd *ydylnt* eiddot ti, a'r ddaear *sydd* eiddot ti: ti a seiliaist y byd a'i gyflawnder.

12 Ti a greaist ogledd a deau: Tabor a Hermon a lawenychant yn dy enw.

13 Y mae i ti fraich a chadernid: cadarn yw dy law, *ac uchel yw dy ddeheulaw.*

14 Cyfiawnder a barn *yw* trigfa dy orseddfainc: trugaredd a gwir-

Adn. 3. *Gwnaethym ammod â'm hetholedig*] Sef â Dafydd, yr hwn a etholodd Duw i fod yn frenin yn lle Saul; ac yn enwedig â Christ, o'r hwn yr oedd Dafydd yn gysgod, a'r hwn oedd i ddyfod allan o'i ymysgaroedd ef.

Adn. 4. *Yn dragywydd y sierhaf dy had di*] Ar yr orseddfainc, yr hwn a lwy'r gyflawnir yn Nghrist yn unig: gwel ar 2 Bren. vii. 12—16. Y ddwy adnod hyn ydynt eiriau Duw, ac a ddarllenir gan *Mudge* ac ereill mewn cromfachau. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 5. *A'r nefoedd, O Arglwydd*] Sef holl deula y nef; a *foliannant dy ryfeddod*—sef rhyfeddodau gras ac iachawdwriaeth Duw; *a'th wirionedd yn nghynulleidfa y saint*—bny yw, molienir Duw am ei flyddlondeb yn cyflawni ei addewidion grasol gan yr eglwys filwriaethus ar y ddaear, yn gystal a chan yr eglwys orfoleddus yn y nef.

Adn. 6. *Canys pwy yn y nef*] Yn mysg yr angylion a'r saint; a *gystedlir â'r Arglwydd*—mewn mawredd, gallu, doethineb, a daioni? *pwy a gyffelybir i'r Arglwydd yn mysg meibion y cedyrn*—ar y ddaear? Wrth y rhai olaf hyn y meddylir brenhinoedd a thywysogion. Tybia rhai fod yma gerydd i'r sawl a addolent yr haul, y ser, a'r planedau.

Adn. 7. *Duw sydd ofnadwy iawn yn nghynulleidfa y saint*] Neu i'w ofni a'i barchu yn fawr; canys nid oes gan fraw neu ddychrym ddim lle yn y trigfanau dedwydd; *ac i'w arwyddo*—Saes., 'i'w barchu gan bawb o'i amgylch.'

Adn. 8. *O Arglwydd Dduw y lluoedd*] Yr hwn y mae pawb a phobpeth dan dy awurdod, yn y nefoedd ac ar y ddaear; *pwy sydd fel tydi, yn gadarn Ior*—yn meddu nerth a chadernid yddo ei hun, fel tydi, Jehofa? *a'th wirionedd o'th amgylch*—fel gwregys neu addurn, yr hwn a ganfyddir yn dy holl symudiadau, dy eiriau, a'th weithredoedd?

Adn. 9. *Ti wyt yn llywodraethu ymchwydd y môr*] Gan beri i'w dônau ymchwyddo, pan fyddo y môr yn dawel: *pan gyfodo ei dônau, ti a'u gostegi*—yr hyn nad all neb arall ei wneuthur. Gwnaeth Crist hyn, Mat. ix. 26;

gan hyn y mae Crist yn 'gadarn Ior,' adn. 8.

Adn. 10. *Ti a ddrylliaist yr Aifft*] A phlâau dinystrïol; *fel un lladdedig*—'fel celan farw.'—*Berlin*. 'Cyn lawsed a phe buasant oll wedi marw.'—*Clarke*. Y wreiddiol yw, 'Tydi, fel gwron, a ddrylliaist Rahab,' sef yr *Aifft*, Salm lxxxvii. 4. Profodd *Ken-nicott* yn helaeth fod y gair *chahal*, a gyfieithir yma 'lladdedig,' yn meddwl gwron, milwr, rhyfelwr. *Trwy nerth dy fraich y gwasgeraist dy elynion*—sef yr Aifftiaid yn y môr coch.

Adn. 11. *Y nefoedd ydynt eiddot ti*] Sef y nef wybrenol a nef y gogoniant; *a'r ddaear sydd eiddot ti*—fel Creawdr a Chynaliwr y cwbl: *ti a seiliaist y byd*—ar ddim, nen a'i creast ef fel pelen yn yr eangderau; *a'i gyflawnder*—yr holl creaduriaid a'r pethau sydd ynddo, Salm xxiv. 1. Y meddwl yw, gan mai Duw oedd Creawdr, llywodraethwr, a Chynaliwr pob peth trwy y nefoedd a'r ddaear, nas gallai neb na dim, o ganlyniad, ei attal ef rhag cyflawni ei addewid i dŷ a brenhiniaeth Dafydd.

Adn. 12. *Ti a greaist ogledd a deau*] Y parthau gweledig o'r creadigaeth, yn gystal a'r parthau anweledig: gwel ar Job ix. 9, a xxiii. 9, a xxvi. 7. Gall yr ymadrodd hwn, o ganlyniad, fod yn cynwys pedwar chwarter y byd; nen gall fod y *dwyrair* a'r *gorllewin* yn cael eu gosod allan yn y geiriau nesaf. *Tabor a Hermon*—dan fyngydd enwog, y cyntaf yn gorwedd o dn y gorllewin i'r Iorddonen, a'r llall o du y dwyrair iddi. *A lawenychant yn dy enw*—a fyddant yn flwrthlon a chynrychiol, fel ag i beri i'w triglïon lawenychu yn dy ddaioni rhagluaniaethol di.

Adn. 13. *Y mae i ti fraich a chadernid*] Saes., 'fraich gadarn,' i wneyd a fynot â'r hyn a greaist. *Cadarn yw dy law*—ond oddid ei law aswy, yr hon a all fod yn arwyddo ei weithredoedd cospawl; *ac uchel yw dy ddeheulaw*—nen ddyrchafedig a gogoneddus yn dy weithredoedd achubol.

Adn. 14. *Cyfiawnder a barn*] Sef barn gyflawn ac uniawn; *yw trigfa dy orseddfainc*—

ionedd a ragflaeniant dy wyneb.

15 Gwyn *eu* byd y bobl a adwaenant yr hyfryd lais: yn llewyrch dy wyneb, O Arglwydd, y rhodiant hwy.

16 Yn dy enw di y gorfoeddant beunydd; ac yn dy gyfiawnder yr ymddyrchafant.

17 Canys godidogrwydd eu cadernid hwynt *ydwynt* ti; ac yn dy ewyllys da y dyrchefir ein corn ni.

18 Canys yr Arglwydd *yw* ein tarian; a Sant Israel *yw* ein Brenin.

19 Yna yr ymddyddenaist mewn gweledigaeth â'th sant, ac a ddy-

wedaist, Gosodais gymhorth ar un cadarn: dyrchefais un etholedig o'r bobl.

20 Cefais Dafydd fyngwasanaethwr: eneiniais ef â'm holew sant-aidd:

21 Yr hwn y sicrheir fy llaw gyd-ag ef; a'm braich a'i nertha ef.

22 Ni orthryma y gelyn ef; a'r mab anwir nis cystuddia ef.

23 Ac mi a goethaf ei elynion o'i flaen; a'i gaseion a darawaf.

24 Fy ngwirionedd hefyd a'm trugaredd *fydd* gydag ef; ac yn fy enw y dyrchefir ei gorn ef.

neu ei 'sail' hi. Y mae gorseddfaine Duw wedi ei seilio ar gyfiawnder; ac ni weinydda efe oddir ei orseddfaine ddim ond cyfiawnder i bawb. *Trugaredd a gwirionedd a ragflaeniant dy wyneb*—neu 'a ânt o flaen dy wyneb.' Dyma yr herodron neu y rhagredegywr a gyboeddant ddyfodiad y Barnwr. Ei *wirionedd* a'i rhwmya ef i gyflawni ei holl ddatganiadau; a'i *drugaredd* a goffeidia bawb a float i gymeryd gafael yn y gobait a osodwy o'u blaen yn yr efengyl: gwel ar Salm lxxxv. 10, 11.

Adn. 15. *Gwyn eu byd y bobl a adwaenant yr hyfryd lais*] Meddylir fod yma gyfeiriad naill ai at lais udgorn y jubili bob deng mlynedd a deugain, pryd yr oedd yr holl Hebraid caethion i gael eu rhyddhau, Lef. xxv. 8, &c.; neu ynte at lais yr udgryn yn cyhoeddi gŵylliau yr eglwys Iuddewig, ac yn galw y bobl yn nghyd i addoli yr Arglwydd. Yr oedd y bobl yn 'wynfydedig,' am fod gair ac ordinladau Duw yn eu mysg, ac am eu bod wedi cael eu bendithio â'i bresenoldeb ef, ac â'r arwyddion hyn o'i drugaredd, ei ras, a'i ddaioni. *Yn llewyrch dy wyneb, O Arglwydd*—sef dan dy foddlonrwydd, dy flafr, a'th wenau; y rhodiant hwy—neu y gallant rodio. Ond mewn ryster ysbrydol gallwn ddeall y geiriau am hyfryd lais yr efengyl yn galw pechaduriaid at Grist, ac yn cyhoeddi gollyngod iddynt o gaethiwed Satan a phechod, trwy waed Crist; a mhw eu byd y bobl a adwaenant yr hyfryd lais hwn, fel ag i brofi y gollyngod uchod yn effeithiol. Boed i ni wrando ar yr hyfryd lais hwn, boed i ni rodio yn llewyrch gwyneb ein Duw.

Adn. 16. *Yn dy enw di y gorfoeddant beunydd*] Yn y wybodaeth a'r goffiadwriaeth o'th enw; ac yn dy gyfiawnder yr ymddyrchafant—i'r cyflwr anrhydeddus a goruchel o fod yn blant i ti.

Adn. 17. *Canys godidogrwydd eu cadernid hwynt ydwynt ti*] Oddiwrthyt ti y mae ein holl gadernid godidog hwy yn deilliaw, neu i ti y perthyn holl ogoniant eu buddugoliaethau ar eu gelynydd; ac yn dy ewyllys da y dyrchefir ein corn ni—neu y coronir ni â llwyddiant a buddugoliaeth: gwel ar Salm lxxxv. 4, 10.

Adn. 18. *Canys yr Arglwydd yw ein*

tarian] Neu ein hamddiffynydd rhag ein gelynydd; a Sant Israel *yw* ein Brenin—yr hwn a ddiogela ei holl ffyddlon ddeiliaid: gwel ar Salm lxxi. 22.

Adn. 19. *Yna yr ymddyddenaist mewn gweledigaeth*] Yr hon oedd ffordd arferol Duw o lefaru wrth y proffwydi; *a'th sant*—neu 'â'th saint,' fel y mae yn yr holl hen gyfieithiadau, ac mewn 134 o ysgriflyfrau Hebreig. Y mae yn debyg ei fod yn meddwl Samuel a Nathan; canys traddodwyd rhan o'r genadwri ganlynol i'r blaenaf, a rhan i'r olaf: gwel ar 1 Sam. xvi. 1, &c., 2 Sam. vii. 4, &c., 1 Cron. xvii. 3, 7—15. *Gosodais gymhorth ar un cadarn*—sef ar Dafydd, yr hwn a gymhlwysais â nerth a doethineb i fod yn gymhorth ac yn waredwr i Israel; *dyrchefais un etholedig o'r bobl*—y mwyaf addas o'r bobl i fod yn frenin arnynt, adn. 3.

Adn. 20. *Cefais Dafydd fy ngwasanaethwr*] Wrth ddywedyd 'cefais,' y mae Duw yn llefaru mewn dull dynol, i arwyddo anamled y cyfryw rai, a'r anhwawder o gael hyd iddynt: *eneiniais ef â'm holew sant-aidd*—nid yn unig deirgwaith âg olew materiol, (1 Sam. xvi. 13, 2 Sam. ii. 4, a v. 3.) ond hefyd â doniau a grasau yr Ysbryd Glân, y rhai a gyffelybir yn fynych i olew, Salm xlv. 7.

Adn. 21. *Yr hwn y sicrheir fy llaw gyd-ag ef*] I'w arwain, ei amddiffyn, a'i gynorthwyo yn mhob dim; *a'm braich a'i nertha ef*—i amddiffyn ei ddeiliaid, a darostwng ei elynion.

Adn. 22. *Ni orthryma y gelyn ef*] Fel ag i'w osod dan deyrnged iddo; *a'r mab anwir nis cystuddia ef*—fel ag i'w ddyfetha. Y mae yn deilwng o sylw na orchfygwyd Dafydd erioed yn hollol; eithr efe a faeddodd bob gelyn a gyfododd i'w erbyn, fel y dengys ei holl hanes; a rhaid i Grist deyrnasu 'hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed,' 1 Cor. xv. 25.

Adn. 23. *Ac mi a goethaf ei elynion o'i flaen*] Saes., 'mi a guraf i lawr ei elynion o flaen ei wyneb;' *a'i gaseion a darawaf*—â chleddyf rhyfel, neu â 'phlatau' dinystrïol.

Adn. 24. *Fy ngwirionedd hefyd a'm trugaredd fydd gydag ef*] *Gwirionedd*, neu ffyddlondeb, i gyflawni fy addewid iddo; a *thrugaredd*, i wneuthur mwy iddo nag a addeuwais: ac yn fy enw—trwy fy nghymhorth, fy ewyll-

25 *A gosodaf ei law yn y môr, a'i ddeheulaw yn yr afonydd.*

26 *Efe a lefa arnaf, Ti yw fy Nhad, fy Nuw, a Chraig fy iachawdwr-iaeth.*

27 *Minau a'i gwnaf yntau yn gynfab, goruwch brenhinoedd y ddaear.*

28 *Cadwaf iddo fy nhrugaredd yn dragywydd; a'm cyfammod fydd sier iddo.*

29 *Gosodaf hefyd ei had yn dragywydd; a'i orseddfaine fel dyddiau y nesoedd.*

30 *Os ei feibion a adawant fy nghyfraith, ac ni rodiant yn fy marnedigaethau;*

31 *Os fy neddfau a halogant, a'm gorchymynion ni chadwant;*

ys da, a'm ffafir; *y dyrcheffir ei gorn ef*—fel buddugoliaethwr galluog ar ei holl elynion.

Adn. 25. *A gosodaf ei law yn y môr*] Estynaf ei lywodraeth, yn orllewinol, cyn belled a Môr-y-canoldir; *a'i ddeheulaw yn yr afonydd*—yn ddwyreiniol, cyn belled a'r Euphrates a'r Tigris, a'u gwahanol ganghenau. Ond os cymerwn hyn am helaethiad teyrnas Crist, rhaid deall y 'môr' a'r 'afonydd' yma fel yn rhwys yr holl fyd.

Adn. 26 *Efe a lefa arnaf*] Yn ei weddau gwastadol, *Ti yw fy Nhad*—trwy fabwysiad neu adenedigaeth; *fy Nuw*—cyfammodol; *a Chraig fy iachawdwr-iaeth*—sef flynnonell neu gadernid ei iachawdwr-iaeth.

Adn. 27. *Minau a'i gwnaf yntau yn gynfab*] Neu fab cyntafanedig. Fel pe dywedasai, Gan ei fod ef yn fy ngalw i yn *Dad*, adn. 26, ymddygaif finau ato yntau fel fy *mab*, ie fy *nglynfab*, i'r hwn y perthynai amrai freintiau uwchlaw y meibion ereill, Gen. xxv. 31, Heb. xii. 16. Y mae y frawddeg hon a'r nesaf yn cyfeirio mewn rhyw ystyr at Dafydd, ond cyflawnir hwynt yn fwy llawn a phriodol yn Nghrist; ac ymddengys eu bod yn cael eu dywedyd am Dafydd fel yr oedd ef yn gysgod o Grist, ac i arwain meddwl y darlennydd trwyddo ef at Grist. *Goruwch brenhinoedd y ddaear*—yr oedd Dafydd yn meddu mwy o awdurdod, llywodraeth, a breintiau, nag un brenin ar y ddaear yn ei amser ef: ond am Grist, fel tragwyddol Fab Duw, y gellir dywedyd hyn yn briodol, yr hwn yw Brenin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi, a Chyntafanedig pob creadur: gwel ar Col. i. 15—17, a Salm ii. 7.

Adn. 28. *Cadwaf iddo fy nhrugaredd yn dragywydd*] Sef y drugaredd addawedig o roddi y frenhiniaeth i Dafydd a'i had; *a'm cyfammod fydd sier iddo*—gwel ar 2 Sam. vii. 13—16.

Adn. 29. *Gosodaf hefyd ei had yn dragywydd*] Yn y frenhiniaeth ar ei ol; *a'i orseddfaine fel dyddiau y nesoedd*—hyn a gyflawnir yn Nghrist yn unig, yr hwn sydd o had

32 *Yna mi a ymwelaf â'u camwedd â gwialen, ac â'u hanwiredd â ffreyllau.*

33 *Ond ni thoraf fy nhrugaredd oddiwrtho, ac ni phallaf o'm gwirionedd.*

34 *Ni thoraf fy nghyfammod, ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau.*

35 *Tyngais unwaith i'm santeiddrwydd, na ddywedwn gelwydd i Dafydd.*

36 *Bydd ei had ef yn dragywydd, a'i orseddfaine fel yr haul ger fy mron i.*

37 *Sicrheir ef yn dragywydd fel y lleuad, ac fel tyst ffyddlon yn y uef. Selah.*

Dafydd yn ol y cnawd, a'i orseddfaine i barhau yn oesoesoedd, Heb. i. 8.

Adn. 30. *Os ei feibion a adawant fy nghyfraith*] Sef meibion neu hiliogaeth Dafydd; *ac ni rodiant yn fy marnedigaethau*—eithr troi o honyt yn eilunaddolwyr, fel y gwnaeth Solomon ac ereill, 1 Bren. xi. 4, &c.

Adn. 31. *Os fy neddfau a halogant*] Trwy weithredu yn groes iddynt; *a'm gorchymynion ni chadwant*—trwy ommedd yn wirfoddol eu cyflawni.

Adn. 32. *Yna mi a ymwelaf â'u camwedd â gwialen*] Sef â cheryddon cospawl, fel yr adroddir adn. 38, &c.; *ac â'u hanwiredd â ffreyllau*—neu gospau trymach yn barhaus, nes diweddol yn eu llwyr gaethgludiad o'u gwlad: gwel ar 2 Sam. vii. 14.

Adn. 33. *Ond ni thoraf fy nhrugaredd oddiwrtho*] Nid am drugaredd achubol i'r enaid y sonir yma, ond am y drugaredd o barhau y frenhiniaeth yn nheulu Dafydd, fel y mae yn eglur oddiwrth adn. 36; *ac ni phallaf o'm gwirionedd*—ni pheidiaf â chyflawni fy addewid wirioneddol gyda golwg ar hyny, yr hon a geir yn 2 Sam. vii. 15, 16: gwel y sylwadau yno.

Adn. 34. *Ni thoraf fy nghyfammod*] Sef cyfammod y frenhiniaeth; *ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau*—sef ei addewid ar y pen hwn.

Adn. 35. *Tyngais unwaith*] Sef unwaith am byth; *i'm santeiddrwydd*—sef iddo ei hun, neu i'w hanfod santaidd a digyfnawid; *na ddywedwn gelwydd i Dafydd*—gyda golwg ar barhad y frenhiniaeth iddo ef a'i had. Felly, ar ol i'w ddau sicrhau parhad y frenhiniaeth i Dafydd a'i had 'trwy ddau beth dianwadal,' sef ei addewid a'i lw, 'yr oedd yn annhosibl iddo fod yn gelwyddog,' Heb. vi. 18.

Adn. 36. *Bydd ei had ef yn dragywydd*] Yn y frenhiniaeth; *a'i orseddfaine fel yr haul ger fy mron i*—yn parhau cyhyd a'r haul, neu mor ddiysgog ac amlwg a'r haul: gwel ar adn. 29.

Adn. 37. *Sicrheir ef yn dragywydd fel y lleuad*] Yr hon a bery cyhyd a'r haul, er ei

38 Ond ti a wrthodaist ac a ffeiddiaist, ti a ddigiaist wrth dy eneinog.

39 Diddymaist gyfammod dy was; halogaist ei goron, gan ei thafu i lawr.

40 Drylliaist ei holl gaeau ef; gwnaethost ei amddiffyfydd yn adwyau.

41 Yr holl fforddion a'i hyspeiliant ef: aeth yn warthrudd i'w gymydogion.

42 Dyrchefaist ddeheulaw ei wrthwynebwyr; llawenheist ei holl elynion.

43 Troaist hefyd fin ei gleddyf, ac ni chadarnheist ef mewn rhyfel.

44 Peraist i'w harddwch ddarfod, a bwriaist ei orseddfainc i lawr.

45 Byrheiaist ddyddiau ei ieuencid: toaist gywilydd drosto ef. Selah.

46 Pa hyd, Arglwydd, yr ymguddi? ai yn dragywydd? a lysg dy ddigofaint di fel tân?

47 Cofia pa amser sydd i mi: pamam y creiaist holl blant dynion yn ofer?

48 Pa ŵr a fydd byw, ac ni wel

bod i'n golwg ni yn cyfnewid bob mis, ac i ryw fesur bob dydd. Felly, er i ryw gyfnewidiadau ymlusgo i mewn i'r frenhiniaeth yn amser rhai o liliogaeth Dafydd, fel yr adroddir isod; eto sicheir yr orsedd i Grist, Brenin Seion, tra fyddo haul a lleuad. *Ac fel tyst ffyddlon yn y nef*—tybia rhai mai y lleuad a olygir yma, fel tyst o wirionedd yr addewid uchod; ond y mae yn debyach mai yr *ensys* a feddylir, yr hon sydd yn arwydd cyfammod tragwyddol rhwng Duw a dynion, na foddâ efe y byd byth mwyach â dyllif: gwel ar Gen. ix. 12—17. Y meddwl gan hyny yw, y bydd i'r 'Dafydd' ysbrydol hwn a'i had lwyddo a chynyddu cyhyd ag y bydd i'r *haul*, y *lleuad*, a'r *ensys* ymddangos yn y nef. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 38. *Ond ti a wrthodaist ac a ffeiddiaist*] Dy bobl gyfammodol, ar ol yr holl addewidion uchod; *ti a ddigiaist wrth dy eneinog*—sef wrth y brenin a osodaist yn ben arnynt. Ar ol bod yn son uchod am sicrwydd cyfammod Duw â Dafydd a'i had, y mae y Salmydd yn troi yua i gwyno yn erbyn Duw, fel pe buasai ef wedi bod yn anffyddlon i'w gyfammod a'i addewidion. Ymddengys fod rhyw afwydd wedi dygwydd i'r frenhiniaeth y pryd hyn, nes peri i'r Salmydd ofni fod Duw wedi gwrthod a ffeiddio ei bobl. Tybia rhai mai Rehoboam mab Solomon oedd yr 'eneiniog' hwn, ac mai rhwygo rhan o'r frenhiniaeth oddiw'rtho ef yn amser Jeroboam oedd yr achos o'r cwyn yma: gwel ar I Bren. xii. Ond barna ereill mai at amser y caethgludiad y cyfeirir.

Adn. 39. *Diddymaist gyfammod dy was*] Yr hyn a ymddanghosai fel yn groes i'r addewid yn adn. 28, 34; *halogaist ei goron, gan ei thafu i lawr*—oddier ei ben ef, a'i rhoddi yn llaw ei elynion.

Adn. 40. *Drylliaist ei holl gaeau ef*] Holl foddion ei nawdd a'i ddiogelwch, trwy dynu ymaith bob amddiffyniad rhagluniaethol oddiw'rth y brenin a'i deyrnas; *gwnaethost ei amddiffyfydd yn adwyau*—neu fylchau, trwy y rhai y dringa ei elynion i'w gastelli cryfaf.

Adn. 41. *Yr holl fforddion*] Pawb a elont heibio, a'i hyspeiliant ef—trwy fod ei deyrnas fel gwinllan heb glawdd iddi. Yr Assyriaid

a'r Caldeaid a ddechreusant yr yspail, a'r Samariaid a'r Edomiaid a'i gorphenasant hi. *Aeth yn warthrudd i'w gymydogion*—y rhai a ofyent mewn gwawd, Ai hwn yw eneinog yr Arglwydd? ai dyma y teulu a'r frenhiniaeth dragwyddol?

Adn. 42. *Dyrchefaist ddeheulaw ei wrthwynebwyr*] Trwy roddi gwroldeb, gallu, a llywyddiant iddyn yn erbyn dy eneinog; *llawenheist ei holl elynion*—trwy dynu dy amddiffyniad oddiw'rtho.

Adn. 43. *Troaist hefyd fin ei gleddyf*] Nen pŷlaist ef, fel nas gallai ei amddiffyn ei hun na niweidio ei elyn; *ac ni chadarnheist ef mewn rhyfel*—â gwroldeb ysbryd na nerth milwraidd, ond gorfu iddo ffoi neu gwmpo o flaen ei wrthwynebwyr.

Adn. 44. *Peraist i'w harddwch ddarfod*] Sef ei urddas a'i ogoniant, trwy adael i'w elynion ei ddarostwng a'i anrheithio ef a'i deyrnas; a *bwriaist ei orseddfainc i lawr*—fel nas gall efe eistedd arni mwyach.

Adn. 45. *Byrheiaist ddyddiau ei ieuencid*] Neu ddyddiau ei awdurdod a'i nerth, ei urddas a'i anrhydedd. 'Ni pharlaodd cyflwr ieuangaid a blodeuog teyrnas Dafydd ond am amser byr, sef hyd farwolaeth Solomon.' Neu, 'ni theyrnasodd eu breninoedd dros hanner eu dyddiau.' Byr iawn fu bywyd pedwar brenin diweddaf Juda; a buant oll feirw trwy y cleddyf, neu mewn caethiwed. Ni theyrnasodd Joachaz ond tri mis, a dygwyd ef yn garcharor i'r Aiffit, lle y bu farw. Ni theyrnasodd Joacim ond un mlynedd ar ddeg, na Joacin ond tri mis a deng niwrnod, na Sedeciah ond un mlynedd ar ddeg: gwel ar 2 Bren. xxxiii a xxiv, 2 Cron. xxxvi. *Toaist gywilydd drosto ef*—gosodaist y naill frenin ar ol y llall dan warth a dirmyg. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 46. *Pa hyd, Arglwydd, yr ymguddi*] Oddiw'rth dy bobl? *ai yn dragywydd*—heb ddyfod byth mwyach i'n gwaredu, yn ol dy gyfammod a'th addewid? *A lysg dy ddigofaint di fel tân*—nes llwyrr ddiifa tŷ Dafydd a brenhinoedd Juda?

Adn. 47. *Cofia pa amser sydd i mi*] Saes, 'cofia mor fŷr yw fy amser,' sef amser y brenin a'i bobl, yn enw pa rai y llefarai y

farwolaeth? a wared efe ei enaid o law yr bedd? Selah.

49 Pa le y mae dy hen drugareddau, O Arglwydd, y rhai a dyng-aist i Dafydd yn dy wirionedd?

50 Cofia, O Arglwydd, waradwydd dy weision, yr hwn a ddygais yn fy mynwes gan yr holl bobloedd fawrion;

51 A'r hwn y gwaradwyddodd dy elynion, O Arglwydd; a'r hwn y

gwaradwyddasant ôl troed dy en-einiog.

52 Bendigedig fyddo yr Ar-glwydd yn dragywydd. Amen, ao Amen.

SALM XC.

TI, Arglwydd, fuost yn breswylfa i ni yn mhob cenhedlaeth.

2 Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaear a'r byd;

Salmydd. *Paham y creast holl blant dyn-ion yn ofer*—neu i ddim dyben? Fel pe dywedasai, Os mewn adfyd fel hyn y mae brenin Juda a'i bobl i drehnu a diweddu eu hamser byr ar y ddaear, nid oedd dy waith yn eu creu ddim gwel nag oferedd; eu codi i fywyd, ac yna eu darostwng i farwolaeth!

Adn. 48. *Pa ŵr a fydd byw*] Yn dragywydd, ac ni wel farwolaeth—fel y dygwyddodd i Enoc ac Elias? *A wared efe ei enaid*—neu ei tywyd, rhag syrthio yn ysglyfaeth i angau a'r bedd? Y meddwl yw, Gan fod yn naturiol i baw farw, pabam y prysuri amser ein marwolaeth? Selah—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 49. *Pa le y mae dy hen drugareddau, O Arglwydd*] Y rhai yr arferit eu dangos gynt i'n tadau, ac a addwast i ninau? *Y rhai a dyngust i Dafydd yn dy wirionedd*—y byddai i ti eu rhoddi iddo ef a'i bad, a'r rhai a elwir am hyny yn 'sier drugareddau Dafydd,' Esay lv. 3.

Adn. 50. *Cofia, O Arglwydd, waradwydd dy weision*] Gwel ar adn. 41; *yr hwn a ddygais yn fy mynwes*—neu a ddygai y brenin a'i bobl, am y rhai y llefarai y Salmydd yn ei berson ei hun; *gan yr holl bobloedd fawrion*—sef tywysogion a brenhinoedd y Cenhedloedd.

Adn. 51. *A'r hwn y gwaradwyddodd dy elynion*] Dydi a'th weision; *a'r hwn y gwaradwyddasant ôl troed dy eneiog*—sef llwybrau, arferion, a gweithredoedd brenhinoedd Juda, neu ynte y cofgolofnan o'u gwychder blaenorol hwy. Y mae y *Galdeueg* yn rhoddi i'r geiriau hyn ystyr hynod: 'Dy elynion a waradwyddasant arafach camrau dy FESSIA, O Arglwydd. Yr oeddyd ni yn ymddiried ynddo ef fel ein Gwaredwr mawr, a beunydd yn dysgwyl ei ddyfodiad: ond nid oes Waredwr, a'n gelynyon a watwarant ein hyder.' Y mae llawer o'r esbonwyr goraf yn cymhwyso yr oll o'r Salm hon at Grist a'i ddyoddefiadau.

Adn. 52. *Bendigedig fyddo yr Arglwydd yn dragywydd*] Fel pe dywedasai, Pa fodd bynag y trinia efe nyini, y mae ei enw santaidd ef yn haeddu tragwyddol foliant; canys y mae ein dyoddefiadau, er yn fawrion, yn llai o lawer nag a haeddasom. Amen, ac Amen—'felly bydded, felly bydded.' Y mae yr ailadroddiad o'r gair yn dangos dymuniad gwresog calon y Salmydd am i Dduw gael ei fendithio gan baw yn dragywydd. Yma y diwedda *tryddlyfr* y Salmau, yn ol y rhaniad Iuddewig:

gwel y rhagarweiniad i'r llyfr hwn, a'r sylwadan ar Salm xli. 13, a lxxii. 19, 20.

SALM XC. Y teitl yw, '*Gweddi Moses gw'r Duw.*' Y mae yr holl hen gyfieithiadau, a'r esbonwyr yn gyffredin, yn ei phriodoli i *Moses*; a'r *Galdeueg* a'i geitw, '*Gweddi Moses*, proffwyd yr Arglwydd, yr hon a weddi-odd ete ar ol i bobl Israel bechu yn yr anial-wch.' Ond tybia *Clarke* nad *Moses* y *dedd-rodwr* a'i cýfansoddodd hi, eithr rhyw Foses arall yn amser y caethiwed yn Babilon, neu yn fuan wedi hyny, pryd yr oeddynt yn ail adeiladu y deml. Ei reswm dros y dyb hon yw, nad oedd oes dyn y pryd hyny wedi ei byrhau i 70 neu 80 mlynedd, fel y dywedir yma ei bod, adn. 10; eithr cyrhaeddodd oes *Moses* ei hun i 120 mlynedd, *Aaron* ei frawd i 123, a *Miriam* ei chwaer i 130. Ond gallasai y rhai hyn fod yn eithriadau i oes dynion yn gyffredin y pryd hyny, fel y ceir eithriadau cyffelyb hyd yn nod yn ein dyddiau ni: gwel yr adfeddyliadau yn niwedd y Salm. Defnyddir y *Salm* hon, yn nghyda *Salm xxxix*, fel rhan o wasanaeth y claddedigaeth yn Eglwys Loegr.

Adn. 1. *Ti, Arglwydd, fuost yn breswylfa i ni*] Neu 'yn noddfa i ni,' fel y mae yn y *Vulgate*, yr *Arabaeg*, yr *Ethiopaeg*, a'r LXX; *yn mhob cenhedlaeth*—yn yr Aifft gynt, ac yn yr anialwch eto. Dywedir hyn mewn ffordd o ragymadrodd i'r Salm, i arwyddo nad oedd y trueni a ddaethai arnynt yn awr i gael ei briodoli i Dduw, ond iddynt hwy eu hunain.

Adn. 2. *Cyn gwneuthur y mynyddoedd*] Y rhai a dybid gan rai fel yn ddiiddechre; *a llunio o honot y ddaear a'r byd*—i'w flurf bresenol; hyny yw, yn y tragwyddoldeb diiddechre hwnw a faenorai bob gwaith creadigol; *ti hefyd wyt Dduw*—nid a oeddit neu a fyddi, ond a wyt yn Dduw hollbresenol o ran amser yn gystal ag o ran lle; *o dragwyddoldeb*—diiddechre, *hyd dragwyddoldeb*—diidweda. Dyma y dysgrifiad llawnaf o dragwyddol fodolaeth Duw ag y gall iaith ddynol ei osod allan; a chrybwyllir hyn i ddau ddyben: (1) Fel y gallai dynion letya y meddyliau distadlaf am eu breuolder a'u gwaeledd en hunain, a'r meddyliau uwclaf a pharclusaf am y *JEHOFA* anfeidrol a thragywyddol. Ac, (2) Er cysur a chalondid i bobl Dduw, y rhai, er eu bod yn awr mewn adfyd, a feddant noddfa sicr a thragywyddol ynddo ef.

ti hefyd wyt Dduw, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb.

3 Troi ddyn i ddinistr; a dywedi. Dychwelwch, feibion dynion.

4 Canys mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg di fel doe, wedi yr el heibio, ac fel gwyliadwriaeth nos.

5 Dygi hwynt ymaith megys â llifeiriant; y maent fel hûn: y bore y maent fel llysieuyn a newidir.

6 Y bore y blodena, ac y tyf; prydawn y torir ef ymaith, ac y gwywa.

7 Canys yn dy ddig y dyfethwyd ni, ac yn dy lidiogrwydd y'n brawychwyd.

8 Gosodaist ein hanwiredd ger dy fron, ein dirgel bechodau yn ngoleuni dy wyneb.

9 Canys ein holl ddyddian ni a ddarfuant gan dy ddigofaint di: treuliasom ein blynyddoedd fel chwedl.

10 Yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng mlynedd a thriugain: ac os o gryfder y cyrhaeddir ped-

Adn. 3. *Troi ddyn i ddinistr*] Ond gyda golwg ar ddyn, fel pe dywedasai, y mae ei gyflwr ef yn dra gwahanol; y mae ei amser ef yn fyr yn wir: ac er ei wneuthur yntau ar y cyntaf yn ddedwydd ac anfarwol, eto, trwy bechod, daeth yn farwol a thruenus. *A dywedi*—wrth bob dyn, trwy ddedfryd anocheladwy; *Dychwelwch, feibion dynion*—ewch yn ol i'r pridd, o ba un y'ch gwnaed. Ond y mae rhai yn deall y geiriau hyn mewn dau ystyr gwahanol: (1) Troi ddyn i ddinistr marwolaeth; a dywedi, megys trwy enau y marw, Dychwelwch, feibion dynion, oddiwrth eich pechodau, neu at Dduw i gael eich aclub. (2) Ti a ddywedi yn y dydd diweddfaf, Dychwelwch o'r pridd, feibion dynion, trwy adgyfodiad.

Adn. 4. *Canys mil o flynyddoedd*] Pe byddai i ni allu byw cyhad a hyny; ydynt yn dy olwg di fel doe, wedi yr el heibio—hyny yw, ydynt fel un dydd yn unig, 2 Pedr iii. 8; ac fel gwyliadwriaeth nos—yr hon ni pharha ond teirawr neu bedair: gwel ar Mat. xiv. 25. Bu rhai o'r cynddlifaidd byw am yn agos i fil o flynyddoedd cyn eu troi i ddinistr y bedd; ond nid oedd yr oes hir hõno yn ymddangos i Dduw, wedi iddi fyned heibio, ond fel un dydd, neu fel gwyliadwriaeth nos. Neu gall mai yr ystyr yw, Er gorwedd o'r meirw yn y bedd am filoedd o flynyddoedd, gall Duw eu dychwelyd hwy o'r bedd yr un mor hawdd a phe na buasent ond wedi eu claddu ddoe, a'u deffro cyn hawdd a phe na buasent wedi bod yn cysgu yno ond dros wyliadwriaeth nos.

Adn. 5. *Dygi hwynt ymaith megys â llifeiriant*] Yn sydyn ac anwrthwynebol, ac weithiau luaws yn nghyd, trwy ryfel, haint, neu newyn. *Y maent fel hûn*—hyny yw, y mae eu bywyd fel hûn neu gwsg, yn fyr a gwâg, yr hwn ni wyddom am dano hyd nes y byddo wedi myned heibio; neu fel 'breuddwyd' dyn yn ei gwsg, pryd y mae yn dychymygu am bleser neu ofid, ond heb fwynhau y naill na'r llall: gwel ar Salm lxxiii. 20. *Y bore y maent fel llysieuyn a newidir*—Saes., 'fel llysieuyn yn tyfu.' Y maent yn iraid, cryf, a bardd yn y bore, ond erbyn y prydawn wedi eu newid, adn. 6.

Adn. 6. *Y bore y blodena, ac y tyf*] Ar ol i'r ddaear gael ei mwyo gan wllth y nos, a'i chynbesu gan belydr yr haul; prydawn y

torir ef ymaith—gan y pladurwr, neu trwy ryw foddion ereill; ac y gwywa—er mor iraid ydoedd. Yn y ddwy adnod uchod, fel y sylwa yr *Esgob Horne*, 'y mae byrdra bywyd, a sydynrwydd ein hymadawiad oddiyma, yn cael eu hegluro trwy dair cyfelybiaeth: (1) *Llifeiriant* neu frydlif yn dylio yn annysgwyliadwy a gorwylt o'r mynyddoedd, ac yn ysgubo y cwbl o'i flaen arunwaith. (2) *Hûn*, yr hwn y tybia dyn, pan ddihuna efe o hono, nad oedd yr amser a dreuliodd efe ynddo yn ddim. (3) Yn y drydedd gyfelybiaeth cydmherir dyn i *lysieuyn* y maes. Yn more ieuencidd, yn dæg a phrydfertih, efe a dyf ac a flodeua; yn mhrydnawn henaint (a pha mor fynych cyn y prydawn hwnw!) efe a dorir i lawr gan ddyrnod angau; i ei hoil nõddau, i gylchrediad pa rai yr oedd yn ddyledus am fywyd, iechyd, a nerth, a sychir i fyny; ac yntau a wywa, ac a ddychwel i'w ddaear.'

Adn. 7. *Canys yn dy ddig y dyfethwyd ni*] Lawer o honom, yn yr anialwch, Num. xiv. 29, &c.; ac yn dy lidiogrwydd y'n brawychwyd—hyny yw, yr oedd y rhai ni ddyfethwyd felly yn brawychu yn barhaus rhag y dyfethid hwythau.

Adn. 8. *Gosodaist ein hanwiredd ger dy fron*] Yn amlwg o'th flaen, fel pe buasai yn ysgrifenedig mewn llyfr agored; ein dirgel bechodau—sef pechodau ein meddyllian a'n calonau, y rhai oeddny guddiedig o olwg dynion; yn ngoleuni dy wyneb—i'w canfod a'u cospi; canys 'un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti,' Salm cxxxix. 12.

Adn. 9. *Canys ein holl ddyddiau ni a ddarfuant gan dy ddigofaint di*] Dan arwyddion amlwg o'th ddigofaint; treuliasom ein blynyddoedd fel chwedl—yr hon, ar ol ei hadrodd a'i gwranddo, sydd yn diflunau ymaith; neu, 'fel gwé y pryf copyn.'—*Syriacg.* Gellir cyfieithu y wreiddiol, *kemo hegeh*, 'fel griddfanïad'; ac yn Job xxxvii. 2, fe'i cyfieithir yn *sain*. Fe allai fod y deugnain mlynedd o grywro yn yr anialwch bron ar ben pryd yr oedd Moses yn ysgrifenu y geiriau hyn.

Adn. 10. *Yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng mlynedd a thriugain*] Fel cyfartaledd oes dyn ar y ddaear y pryd hyny: gwel ar Job vii. 1, a xiv. 5, 6. *Ac os o gryfder*—sef cyfansoddiad cryf, neu iechyd da, y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd—fel yr oedd rhai yn

war ugain mlynedd, eto eu nerth sydd boen a blinder; canys ebrwydd y derfydd, a ni a ehedwn ymaith.

11 Pwy a edwyn nerth dy soriant? canys fel y mae dy ofn, y mae dy ddipter.

12 Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb.

13 Dychwel, Arglwydd, pa hyd? ac edifarha o ran dy weision.

14 Diwalla ni yn fore â'th drugar-

gweyd y pryd hyny, ac y maent eto hefyd; eto eu nerth sydd boen a blinder—iddynt hwy eu hunain yn y cyffredin, ac yn fynych i ereill o'n hamgylch, fel y gwelwn yn feunyddiol; canys ebrwydd y derfydd—ein heinioes, neu ein nerth poenus a blinderus; a ni a ehedwn ymaith—aiff yr ysbryd anfarwol o'r tŷ o glai i'w dragwyddol gartref, fel aderyn yn ehedeg ymaith o'i gawell.

Adn. 11. *Pwy a edwyn nerth dy soriant?* Neu pwy sydd yn ei ystyried yn ddyldaw? Y mae soriant nerthol a chyfiawn Duw yn dylun yr annuiol i dragwyddoldeb, ac yno y teimlir ef yn ei raddau mwyaf dychrynlyd. *Canys fel y mae dy ofn, y mae dy ddipter*—y mae gwahanol ystyrion yn cael eu rhoddi i'r geiriau hyn: (1) Bydd dy ddipter yn gyfatebol i'r parchedig ofn a ddylai dynion ei ddangos i ti fel Penarglwydd y bydysawd. (2) Bydd dy ddipter yn llawn cymaint a'r ofn a deimlir yn mynws yr annuiol gyda golwg arno. (3) Y mae *Houbigant* yn cyfieithu yr holl adnod fel hyn: 'Pwy a edwyn, neu a ystyria, nerth dy soriant a'th ddipter i'r graddau ag yr wyt yn arswydus? neu mewn cyfartalwch i'th arswydolrwydd? Bydd diglonrwydd Duw yn erbyn yr annuiol yn y byd a ddaw, yn llawer mwy na dim a ofnodd nen a ddychymygodd ei galon ef yn y byd hwn. Gan hyny y mae y weddi ganlynol yn dyfod i mewn yma yn dra chyffaldas.

Adn. 12. *Dysg i ni felly* Trwy dy Ysbryd a'th ras, megys ag y dysgaist i ni eisioes trwy dy air; *gyfrif ein dyddiau*—neu ystyried bydrda a thrueni y bywyd hwn, sicrwydd ac agosrwydd marwolaeth, a'r achos a'r canlyniad o honi; *fel y dygom ein calon i ddoethineb*—i fod 'yn ddoeth i achawdwriaeth,' 2 Tim. iii. 15; neu dysg i ni iawn ddefnyddio ein hamser byr ar y ddaear, fel ag i yubarotoi erbyn tragwyddoldeb.

Adn. 13. *Dychwel, Arglwydd* Atom ni mewn trugaredd; *pa hyd*—y byddi heb ddychwelyd atom, neu y parhai ni dy soriant a'th ddipter? *Ac edifarha o ran dy weision*—newid dy ymddygiadau presenol tuag at Israel dy weision; neu, fel y gellir cyfieithu y gair, 'llawenha ynddynt i wneuthur iddynt ddaion.' Am edifeirwch yn Nuw, gwel ar Gen. vi. 6.

Adn. 14. *Diwalla ni yn fore â'th drugar-*edd] Yn ebrwydd neu ar frys, cyn ein llwyr ddyfetha; *fel y gorfoleddom ac y llawenych-*

edd; fel y gorfoleddom ac y llawenychom dros ein holl ddyddiau.

15 Llawenha ni yn ol y dyddiau y cystuddiaist ni, a'r blynyddoedd y gwelsom ddrygfyd.

16 Gweler dy waith tuag at dy weision, a'th ogoniant tuag at eu plant hwy.

17 A bydded prydfferthwch yr Arglwydd ein Duw arnom ni: a threfna weithred ein dwylaw ynom ni; i'e, trefna waith ein dwylaw.

om—yn Nuw ein hiachawdwriaeth; *dros ein holl ddyddiau*—y rhai sydd yn ol i ni ar y ddaear.

Adn. 15. *Llawenha ni yn ol y dyddiau y cystuddiaist ni*] Bydded ein llawenydd yn gyfatebol i'n cystudd, mewn graddau a pharhad; *a'r blynyddoedd y gwelsom ddrygfyd*—sef y 40 mlynedd yn yr anialwch, yn ol rhai; neu y 70 mlynedd yn Babilon, yn ol ereill: gwel y teitl.

Adn. 16. *Gweler dy waith tuag at dy weision*] Gwna waith, fel y galler ei weld; neu, bydded i'r gwaith ag yr wyt yn ei weithio o'n plaid gael ei weled gan bawb o'n hamgylch, fel y gwypo y byd nad wyt wedi ein gwrthod ni: *a'th ogoniant tuag at eu plant hwy*—boed i'th waith mawr a gogoneddus o ddwyn dy bobl i'w gwlad, yr hyn a addewaist, gael ei gyflawni i'n plant ni, a'i wneyd yn awlwg i'r holl fyd. Cyflawnwyd hyn yn nygiad Israel o'r anialwch i Ganaan, ac yn eu dychweliad o Babilon.

Adn. 17. *A bydded prydfferthwch yr Arglwydd ein Duw arnom ni*] Sef ei ddelw santiaid a phrydfferth ef; neu bydded i ni gael mwynhau ei bresenoldeb, ei wneau, a'i ras: *a threfna weithred ein dwylaw ynom ni*—cyfarwydda a chadarnha ni yn yr hyn oll ag svdd genym i'w wneyd drost ac erot ti. Tybia y rhai a osodant ddyddiad y Salm hon ar ol y caethiwed, fod y geiriau hyn yn cyfeirio at ail adeiladiad y deml yn Jerusalem, yr hyn yr ewyllysiai y cenhedloedd amgylchynol ei attal. *Ie, trefna waith ein dwylaw*—y mae yr ailadroddiad hwn yn eisiau yn y *Galdeae*, yr *Ethiopneg*, a'r LXX, ac mewn tri o'r ysgriflyfrau *Ilebreig*. Os yw yr ailadroddiad hwn yn ddilys, dengys fawr daerineb a difrifoldeb y Salmydd.

ADFEDYLIADAU.—Er mai cyfartaledd oes dyn yn awr yw 70 mlynedd, fel y nodwyd ar adn. 10, eto y mae genym amrai anghreiffitiau o rai wedi byw lawer yn hwy yn v wlad hon. (1) Adwaenwn ŵr yn Nolgellau, Meirion, o'r enw *David Pugh*, yr hwn a welais yn cario ei bladur i'r cae gwair y diwrnod yr oedd yn cael ei ganfed flwyddyn, a'r hwn a fu farw Medi 2, 1827, yn 104 mlwydd oed. (2) Crybwylla *Dr. A. Clarke* am un *Mrs. Somerhill*, o Gaerodor, yr hon a fu farw yn y flwyddyn 1791, yn 107 mlwydd oed. Yr oedd yn gallu darllen yr argraff manaf heb wydran; a phan nas gallai, gan wendid ei haelodau, fyned

SALM XCI.

YR hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, a erys yn nghysgod yr Hollalluog.

2 Dywedaf am yr Arglwydd, Fy noddfa a'm hamddiffynfa ydyw:

mwyach i le o addoliad, arferai bob dydd ddarllen yr oll o Wasanaeth yr Eglwys, yn nzhya'r Llithiau a'r Salmu. (3) *Agnes Shuner*, o Camberwell, Surrey, a fu farw yn 1499, yn 119 mlwydd oed, ar ol gorfucheddu ei gŵr 92 o flynyddau. (4) *Iarles Desmond* a fu farw yn 1612, yn 145 mlwydd oed. Cafodd ddannedd newyddion ddwywaith neu dair; a phan yn 149 mlwydd oed, ac wedi ei darostwng i dylodi, gorfu iddi fyned o Gaerodor i Lundain i geisio cymhorth o'r ilys. (5) *Thomas Parr*, o Winnington, yn sir Anwythig, oedd yn 88 mlwydd oed pan y priododd ei wraig gyntaf, o'r hon y cafodd ddau o blant. Pan yn 102, syrthiodd mewn cariad â Catherine Milton, o'r hon y cafodd blentyn annghyfreithlon, am yr hyn y gorfu iddo ddwyn ei benyd yn yr eglwys. Pan yn 120, efe a briododd wraig weddw; a phan yn 130, gallai wneuthur unrhyw waith ar ei dyddyn. Bu farw yn 1635, yn 152 mlwydd oed, ar ol gwelod deg o frenhinoedd a breninesau ar orsedd Prydain. (6) *Thomas Danme*, o Leighton, ger Minshul yn sir Gaerlleon, a fu byw 154 o flynyddoedd, ac a fu farw yn 1648. (7) *Henry Jenkins*, o Ellerton, yn sir Gaerfrog, ydoedd bysgotwr; ac efe a nofai yn fynych yn yr afonydd pan uwchlaw canmlwydd oed. Bu farw yn 1670, yn 169 mlwydd oed. (8) *Peter Toston*, o Temiswar, yn Hungary, a fu farw yn 1724, yn 185 mlwydd oed, yr hyn oedd 10 mlynedd yn lwy nag einioes Abraham: gwel *Clarke*. Gallen yn hawdd chwaneu at y gofres hon; ond y mae hyn yn ddigon i brofi fod rhai yn y dyddiau hyn yn dyblu cyfartaledd oes dyn ar y ddaear, fel y mae ereill yn marw cyn ei gyraedd.

SALM XCI. Nid oes deitl i'r Salm hon yn yr *Hebraeg*, y *Saesonaeg*, na'r *Gymraeg*; eithr yn y LXX, y *Syriac*, y *Vulgate*, a'r *Arabaeg*, priodolir hi i *Dafydd*, fel y gwneir hefyd gan amrai o'r esbonwyr, y rhai a dybiant iddo ei hysgrifenu ar ol yr haint a grybwyllir yn 2 Sam. xxiv. Tybia ereill mai *Moses* yw ei hawdwr hi, yr hwn a ysgrifennodd y Salm flaenorol; ac mewn 15 o ysgryfityfrau *Kenricott* a *De Rossi* y mae yn gwneyd rhan o'r Salm hōno, ac yn dyfod i mewn rhwng adn. 13 a 14. Os felly, rhaid mai at ddiogelwch y gwir dduwion yn yr *anialwch* yn unig y cyfeirir yma. Addefir fod hon yn un o'r Salmu mwyaf ardderchog yn yr holl gasgliad, a bod yn annhosibl cyfansoddi dim yn fwy prydfêrth, mawreddog, ac arddunawl. Dywed *Muis* nad oes genym un bryddyst yn y Roeg na'r Lladin yn gyffelyb iddi, o ran prydfêrthwch y geiriau a'r brawddegau, fel y saif yn yr *Hebraeg*.

fy Nuw; ynddo yr ymddiriedaf. 3 Canys efe a'th wareda di o fagl yr heliwr, ac oddiwrth haint echryslon.

4 A'i asgell y cysgoda efe trosot, a than ei adenydd y byddi diogel: ei wirionedd fydd darian ac astalch i ti.

Adn. 1. *Yr hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf*] Hyn yw, yr hwn sydd yn gwneyd tŷ Dduw yn driŷfa iddo, ac yn ei addoli ef mewn ysbryd a gwirionedd, gan ymddiried ynddo, a byw mewn cymdeithas agos âg ef; a *erys yn nghysgod yr Hollalluog*—sef dan ei nawdd a'i auddiffyniad ef, fel yn nghysgod Craig fawr a chadarn. Y mae y *Turgum* yn arddangos y Salm hon fel cydymddyddan rhwng *Dafydd*, *Solomon*, a *Jehofa*. Yn adn. 1, y mae *Dafydd* yn llefaru: 'Yr hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, a erys yn nghysgod yr Hollalluog.' I hyn y mae *Solomon* yn ateb: 'Dywedaf am yr Arglwydd, Fy noddfa a'm hamddiffynfa ydyw: fy Nuw; ynddo yr ymddiriedaf.' adn. 2. Y mae *Dafydd* yn ei ateb yntau, gan ddangos pa fendithion a dderbyn efe gan Dduw, os parha efe yn fyfddlon iddo, adn. 3—13. Yna y mae *Jehofa* yn cadarnhau yr oll a ddywedasai *Dafydd* wrth *Solomon*, adn. 14—16.

Adn. 2. *Dywedaf am yr Arglwydd*] Sef wrth ei enaid ei hun, neu wrth ereill er cefnogaeth iddynt; *Fy noddfa a'm hamddiffynfa ydyw*—y mae yr Arglwydd felly eisiao i mi yn mhob amgylchiad o berygl, neu efe a gaiff fod felly o hyn allan: *fy Nuw*—sef ei Dduw cyfammodol ef, a'r hwn oedd yn fyfddlon i'w gyfammod; *ynddo yr ymddiriedaf*—am ddiogelwch neu ynwared, ac am bob bendith angenrheidiol i'm corff a'm henaid.

Adn. 3. *Canys efe a'th wareda di*] Os ymddiriedi felly ynddo. Yma efe a lefara eto wrth ei enaid ei hun, neu wrth unrhyw un arall ymddiriedi felly yn Nuw, ac a erys yn nghysgod yr Hollalluog, adn. 1. *O fagl yr heliwr*—neu rhag cael dy fagl gan unrhyw elyn a geisia dy ddyfetha. Yma newidir y gyffelybiaeth, ac edrychir ar y credadyd fel aderyn yn cael ei hela gan yr adarwr. *Ac oddiwrth haint echryslon*—gwel ar adn. 6; neu 'oddiwrth enllib echryslon,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu.

Adn. 4. *A'i asgell*] Saes., 'a'i blŷf; y cysgoda efe trosot'—fel y cysgoda yr iâr dros ei chywion; *a than ei adenydd y byddi diogel*—rhag pob gelyn a geisio dy ddrygu: *ei wirionedd*—sef ei wirionedd yn cyflawni ei addewidion, *fydd darian ac astalch i ti*—rhag saethau dy holl elynion. Y mae y gyffelybiaeth yn newid yma oddiwrth aderyn at ryfelwr; ac y mae cyflawniad addewid o auddiffyniad a chynaliaeth, yr un peth i'r enaid ag yw y darian oraf i'r corff. Fe allai fod yma gyfeiriad at yr addewid a wnaed i blant y tuchanwyr yn yr anialwch, Num. xiv. 31, 32: 'Ond eich plant chwi, y rhai y dywedasoch y byddent yn yspail, hwynt-hwy a ddygar i'r wlad, a hwy a gânt adnabod y tir a ddymyg-

5 Nid ofni rhag dychryn nos; na rhag y saeth a ehedo y dydd:

6 Na rhag yr haint a rodio yn y tywyllwch; na rhag y dinystr a ddinystrio ganol dydd.

7 Wrth dy ystlys y cwmp mil, a deng mil wrth dy ddeheulaw: ond ni ddaw yn agos atat ti.

8 Yn unig ti a ganfyddi â'th lygaid, ac a weli dâl y rhai annuwiol.

9 Am i ti wneuthur yr Arglwydd

fy noddfa, sef y Goruchaf, yn breswylfa i ti;

10 Ni ddygwydd i ti niwed, ac ni ddaw pla yn agos i'th babell.

11 Canys efo a orchymyn i'w angylion am danat ti, dy gadw yn dy holl ffyrdd.

12 Ar eu dwylaw y'th ddygant, rhag taro dy droed wrth gareg.

13 Ar y llew a'r asp y cerddi: y cenaw llew a'r ddraig a fethri.

asoch chwi: a'ch celaneddau chwi a gwmpant yn y diffaethwch hwn.'

Adn. 5. *Nid ofni rhag dychryn nos*] Rhag nrhyw beth dychrynlyd a all ddygwydd yn y nos, megys haint, yspeilad, llofruddiaeth, &c.; canys y mae y dyn duwiol yn huno mewn beddwch, ar ol iddo yn gyntaf gyflwyno ei gorff, ei enaid, a'i eiddo, i ddwyllaw ei Dad nefol: *na rhag y saeth a ehedo y dydd*—sef unrhyw farn neu bla, y rhai a elwir yn 'saethau,' Deut. xxxiii. 23, 42. Dwyodir 'saeth a ehedo y dydd,' am mai yn ngeuluoni y dydd yn gyffredin y teilir saethau. Ond y mae y *Galdeag* yn darllen yr adnod hon fel hyn: 'Nid ofni yr ellyllon a rodiant liw nos; na saeth angel marwolaeth, yr hon a defir liw dydd.'

Adn. 6. *Na rhag yr haint a rodio yn y tywyllwch*] Yr hwn nas gellir ei weled na'i attal; *na rhag y dinystr a ddinystrio ganol dydd*—yr hwn, erei weled, nis gellir ei rwystro. Yr oedd y rabbiniaid yn meddwl fod llywodraeth marwolaeth dan ddan ellyll, nn o ba rai a lywodraethai yn y dydd, a'r llall yn y nos; a thybiai yr benafiaid fod rhai ellyllon a feddent allu i niweidio yn neillduw ganol dydd. At hyn y cyfeiria *Theocritus*, Id. i. llin. 15, a *Lucan*, llyfr iii. llin. 399. Tybiai y pagan-iaid y dylid addoli y duwiau *bob amser*, a'r ellyllon ganol dydd.

Adn. 7. *Wrth dy ystlys*] Sef ei ystlys aswy, y *cwmp mil*—gan yr haint neu y dinystrydd; *a deng mil wrth dy ddeheulaw*—fe allai ei fod yn cyfeirio at y *tuchanwyr* hyny, y rhai yr oedd eu 'celaneddau i gwmpo yn y diffaethwch,' Num. xiv. 29, 32: *ond ni ddaw yn agos atat ti*—am y bydd i Dduw gysgodi drosot a'i adenydd, adn. 4. Nid yw yr addewid hon o gymhwysiad cyffredinol, fel pe na byddai i un dyn duwiol farw trwy yr haint; ond felly yr oedd i fod gyda golwg ar y credinwyr, y rhai a wnaethent Dduw yn noddfa iddynt yn y diffaethwch y pryd hyny. Eithr tybia *Calmet* mai yr ystyr yw, 'Gall mil o elynion gwmpo arnat o un tu, a deng mil o'r tu arall; ond ni ddeuant yn agos atat ti, i gymeryd ymaith dy einioes.' Yn y goleuni hwn y mae y geiriau yn addewid o amddiffyniad a diogelwch perffaitl.

Adn. 8. *Yn unig ti a ganfyddi â'th lygaid*] Y *tuchanwyr* hyny yn cwmpo, neu dy elynion yn ceisio ymosod arnat; *ac a weli dâl y rhai annuwiol*—neu ddialedd Duw arnynt lwy yn gosp gyfiawn am eu pechodau, tra y bydd efo yn amddiffynnydd i ti.

Adn. 9. *Am i ti wneuthur yr Arglwydd fy noddfa*] Yr hwn sydd yn noddfa i mi, yn noddfa ac yn breswylfa i titiau hefyd; *sef y Goruchaf*—yr hwn sydd yn ddigon uchel a chadarn i'th waredu; *yn breswylfa i ti*—i drigo yn ei ddirgelwch ef, adn. 1, 2. Tybia rhai fod y Salmydd yn llefaru yma wrth ei fab, neu wrth y credinwyr; tra y tybia ereill mai wrth ei enaid ei hun y llefaru efe.

Adn. 10. *Ni ddygwydd i ti niwed*] Oddi wrth un o'r drygau uchod, adn. 3—7; *ac ni ddaw pla yn agos i'th babell*—paham? 'Am i ti wneuthur yr Arglwydd yn noddfa ac yn breswylfa i ti,' adn. 9. Tybia rhai mai yr ystyr yw, na chaf efo ddim gwir niwed, hyd yn nod er iddo farw o'r pla, am y byddai marw yn elw iddo. Y mae hyny yn wir, ond nid dyna y gwir a feddylir yma; canys dwyedir yn bondant, na ddeuai y pla yn agos i'w babell ef.

Adn. 11. *Canys efo a orchymyn i'w angylion*] Y rhai sydd yn ysbrydion gwasanaethgar i etifeddion iachawdriaeth, lleb. i. 14; *dy gadw yn dy holl ffyrdd*—sef yn holl ffyrdd ei ddyledswyddau, y rhai yn unig ydynt ffyrdd diogelwch. Nid oes yn y geiriau hyn un addewid o gadw neb yn ffordd Satan a phechod: gwel ar Mat. iv. 6, 7.

Adn. 12. *Ar eu dwylaw y'th ddygant*] Fel mam ofalus yn codi ei phlentyn egwan yn ei breichiau, pan fyddo y ffordd yn arw neu garegog; *rhag taro dy droed wrth gareg*—fel ag i'w ddolurio, neu syrthio, a thrwy hyny fethu cyraedd pen y daith. Y mae yr angylion, fel cenadau rhagluniaeth Duw, yn ein cynorthwyo ac yn ein hamddiffyn ni, o ran ein cyrff a'n heneidiau, mewn mil o ffyrdd nad ydym ni yn awr yn gallu eu deall; ond cawn eu deall yn llawn ar ol hyn.

Adn. 13. *Ar y llew a'r asp y cerddi*] Neu y *sethri*, fel ag i'w gorchfygu lwynt trwy gynorthwyo yr angylion amddiffynol uchod, ped ymosodent arnat. Y mae y llew yn greadur tra adnabyddus; a'r asp sydd neidr fechan dra gwenwynig yn Libya a'r Aiffit. Y mae ei gwenwyn yn lladd yn anocheladwy mewn o dair i wyth o oriau ar ol iddi frathu dyn; a dywedir fod y rhai a frethri ganddi yn marw yn eu cwsg, yn hollol ddihoen. Y mae yn debyg mai ar y cyfrif hwn y dewisodd *Cleopatra*, brenhines yr Aiffit, farw trwy wlenwyn yr asp, yn hytrach nag i *Augustus* ei claeathgludo i Rufain i urddasu ei fuddugoliaeth ef. Y cenaw llew a'r ddraig a fethri—sef y 'llew ieuanc,' a 'sarff' o'r rhywogaeth fwyaf a

14 Am iddo roddi ei serch arnaf, am hyny y gwaredaf ef: dyrchafaf ef, am iddo adnabod fy enw.

15 Efe a eilw arnaf, a mi a'i gwrandawaf: mewn ing y byddaf fi gydag ef, y gwaredaf, ac y gogonedd af.

16 Digonaf ef â hir ddyddiau; a danghosafiddo fy iachawdwriaeth.

SALM XCII.

DA yw moliannu yr Arglwydd, a chanu mawl i'rh enw di, y Goruchaf:

ffyrncaf. Ond tybia *Clarke* mai y *crocodil* a olygr yma wrth y *tamin*, neu y 'ddraig.' Gallai Duw beri i'w bobl fathru y rhai hyn oll heb gael dim niwed; i.e. eu lladd, fel yn achos Samson, Dafydd, ac ereill. Ond tybia rhai mai Satan, y ddraig uffernol, yn ngyda holl clynyon ereill y credinwyr, a olygr yma wrth y creaduriaid hyn: gwe! ar Luc x. 19.

Adn. 14. *Am iddo roddi ei serch arnaf* } Neu ymserchu yn enw, deddfau, ac addoliad Duw, gan ymddiried yn ei drugaredd ef. Yma arddanghosir Duw fel yn cadarnhau geiriau ei was yn yr adnodau uchod, gan roddi rheswm dros ei ofal am y credadyn. *Am hyny y gwaredaf ef*—oddiwrth yr holl ddrygan a enwyd uchod. *Dyrchafaf ef*—goruwch pob perygl, neu i anrhydedd a gogoniant; *am iddo adnabod fy enw*—am iddo fy nghydnabod a'm cymeradwyo yn fy holl berffeithlderau a'm gweithredoedd gogoneddus.

Adn. 15. *Efe a eilw arnaf*. Mewn gweddianu gwastadol; *a mi a'i gwrandawaf*—neu a'i hatebaf ef, trwy roddi iddo ba beth bynag a fydd oraf er ei les. *Mewn ing y byddaf fi gydag ef*—i ddyddanu a chynnal ei feddwl; *y gwaredaf*—ef o'i ing, pan y bydd hyny er lles iddo ef, ac er gogoniant i'm henw fy hun; *ac y gogonedd af*—âg anrhydedd weithiau ar y ddaear, neu â gogoniant tragwyddol yn y nef. Cyn i ing ei ddal, caiff yr angylion ofalu am dano, fel plentyn iach yn cael ei ymddiried i ofal y forwyn, adn. 11, 12; ond fel y mae y fam ei hun yn rhedeg at ei phlentyn pan y clyw ef yn *llefain*, felly addawa Duw fod ei huanu gyda'i blant yntau pan y byddont mewn ing.

Adn. 16. *Digonaf ef â hir ddyddiau* } Ar y ddaear; ac wedi hyny, *danghosaf iddo fy iachawdwriaeth*—yn y nef; hyny yw, efe a gaiff lawn fwynhad tragwyddol o honi ar ol i'w ddyddiau ar y ddaear ddybenu. Pa nifer bynag o ddyddiau a fwyneir gan y duwiol yn y byd hwn, efe a deimla ei fod wedi cael digon, trwy fod ganddo obaith da am iachawdwriaeth tudraw i'r bedd, a hiraeth am fyned yno i'w mwynhau hi.

SALM XCII. Y teitl yw, '*Salm neu Gân ar y dydd Sabboth.*' Dywed y rabbiniaid mai *Adda* a'i cyfansoddodd bi, yn goffadwriaeth am sefydliad y sabboth i addoli Duw.

2 A mynegu y bore am dy drugaredd, a'rh wirionedd y nosweithiau;

3 Ar ddegtant, ac ar y nabl; ac ar y delyn yn fyfyrion.

4 Canys llawenychaist fi, O Arglwydd, â'rh weithred: yn ngwaith dy ddwyllaw y gorfoleddaf.

5 Mor fawredig, O Arglwydd, yw dy weithredoedd! dwfn iawn yw dy feddyliau.

6 Gŵr annoeth ni wŷr, a'r ynfyd ni ddeall hyn.

7 Pan fiodeno y rhai annuwiol

Eithr priodolir hi i *Dafydd* gan y cyfieithiad *Arabaidd*; ac y mae yr offerynau cerdd a enwir yma, a'r crybwylliad am dŷ a chyntedd-oedd yr Arglwydd, yn cytuno yn well âg amserau Dafydd. Tybia *Patrick* iddi gael ei chyfansoddi gan Dafydd ol i'r Arglwydd roddi iddo lonyddwch oddiwrth ei holl clynyon oddiamgylch, 2 Sam. vii. 1. Ond barna *Calmet* iddi gael ei hysgrifenu gan un o'r *Lefiaid* tua diwedd caethiedd Babilon, i gydnabod trugaredd Duw, ac mewn rhagolwg ar ddinystyr eu gelynyon, a'u dychweliad hwythan i Jerusalem, ac at wasanaeth eu templ. Ymddengys ei bod yn cael ei chanu gan yr Iuddewon yn eu haddoliad cyhoeddus ar y sabbothau, i'r hyn y mae yn dra chyffadas.

Adn. 1. *Da yw moliannu yr Arglwydd* } Neu 'ddiolch' iddo, fel y mae yn y Saeson-aeg; *a chanu mawl i'rh enw di, y Goruchaf*—y mae y naill a'r llall yn waith da ynddo ei hun, ac yn llesol i'r neb a'i gwnele yn gywir.

Adn. 2. *A mynegu y bore am dy drugaredd*] I ni y nos flaeonorol, neu ar byd yr wythnos a aethai heibio er y sabboth o'r blaen; *a'rh wirionedd y nosweithiau*—sef dy wirionedd neu dy fyddlondeb yn cyflannu dy addewidio o gadwraeth i ni ddydd a nos.

Adn. 3. *Ar ddegtant, ac ar y nabl, ac ar y delyn*] Y rhai hyn, fel y gwelom yn fynych eisioes, oeddynt y prif offerynau cerdd a ddefnyddid yn ngwasanaeth y deml; *yn fyfyrion*—neu yn ystyriol o bwysigrwydd y gwaith. Saes., 'gyda sain edmygol,' neu ddfirifol. 'Yr wyf fi yn meddwl y dylai yr holl adnod gael ei chyfieithu fel hyn: '*Ar yr asur, ar y nebel, ar yr haggaton, gyda'r kinnor.*' Fel hyn y saif yn yr Hebraeg.'—CLARKE.

Adn. 4. *Canys llawenychaist fi, O Arglwydd, â'rh weithred*] Fe allai ei fod yn cyfeirio at ryw weithred benodol o drugaredd a wnaed i'r Salmudd ei hun, neu i Israel oll; *yn ngwaith dy ddwyllaw y gorfoleddaf*—fel yn gwbl wrth fy modd. Cynwysa hyn nid yn unig waith creadigol Duw, ond hefyd weithredoedd ei ragluniaeth a'i ras.

Adn. 5. *Mor fawredig, O Arglwydd, yw dy weithredoedd*] Ni cheisai y Salmudd eu dysgrifio, eithr efe a safai mewn syndod i fyfyrion ar eu rhif a'u mawredd. *Dwfn iawn yw dy feddyliau*—trwy y rhai y dyfeisiaist

fel y llysiuyn, a blaguro holl weithredwyr anwiredd; *hyny sydd i'w dinystrio byth bythoedd.*

8 Tithau, Arglwydd, *wyt ddyrchafedig yn dragywydd.*

9 Cansys wele, dy elynion, O Arglwydd, wele, dy elyunion a ddyfethir: gwasgerir holl weithredwyr anwiredd.

10 Ond fy nghorn i a ddyrchefi fel unicorn: *âg olew i'r y'm heneinir.*

11 Fy llygadhefyda wel *fy ngwynfyd* ar fy ngwrthwynebwy: fy nghlustiau a glywant *fy ewylllys* am y rhai drygionus a gyfodant i'm herbyn.

12 Y cyflawn a flodeua fel palmwydden; ac a gynydda fel cedrwydden yn Libanus.

13 Y rhai a blawnt yn nhŷ yr Arglwydd, a flodeuant yn nghynteddoedd ein Duw.

14 Ffrwythant eto yn eu henaint; tirsion ac iraidd fyddant:

15 I fynegu mai uniawn yw yr Arglwydd fy Nghraig; ac nad oes anwiredd ynddo.

SALM XCIII.

YR Arglwydd sydd yn teyrnasu, efe a wisgodd ardderchog-

neu y cynlluniaist y fath weithredoedd mawreddog a rhyfeddol!

Adn. 6. *Gŵr annoeth ni ŵyr*] Fod dy weithredoedd di mor fawreddog a rhyfeddol; *a'r ynyfyd ni ddeall hyn*—y dyfader doethineb a dhangosir yn dy gynlluniau, a'r nerth a amlygir yn dy weithredoedd. Y mae *kesil*, 'yr ynyfyd,' yn niwedd yr adnod, yn wahanol i'r *ish baar*, 'gŵr annoeth,' yn ei dechre hi, yr hwn a arwydda ddyun anifeilaidd, anianol, neu fochy-naidd. Y mae gan yr 'ynyfyd' *feddol*, ond ei fod wedi ei gladdu mewn enawd; eithr y mae y blaenaf fel pe byddai heb feddwl, ac y mae ei hurtrwydd o ganlyniad yn anocheladwy.

Adn. 7. *Pan flodeuo y rhai annuwiol fel y llysiuyn*] Mewn tegwch, mawredd, a llwyddiant. Y mae llawer o'r esbonwyr yn cysylltu hon â'r adnod flaenorol, fel hyn: 'Gŵr annoeth ni ŵyr, a'r ynyfyd ni ddeall hyn, pan flodeuo y rhai annuwiol, mai *hyny sydd i'w dinystrio byth bythoedd*—y maent yn cael eu porthi a'u pessi fel anifeiliaid mewn porfa fras, erbyn dydd y lladdedigaeth.'

Adn. 8. *Tithau, Arglwydd, wyt ddyrchafedig yn dragywydd*] Fel pe dywedasai, 'Er iddynt hwy flodeuo a blaguro am dro, eto dinystrir hwy yn y diwedd; eithr tydi wyt ddyrchafedig yn dragywydd. 'Hwy a ddarfyddant, a thi a barhei,' Salm cii. 26.

Adn. 9. *Cansys wele, dy elynion, &c.*] Enwir gelynyddion Duw yma ddwywaith, i ddangos sierwydd eu dinystr; a *ddyfethir*—'yn y byd a ddaw,' fel y clwanegir yma gan yr Iuddeuon. *Gwasgerir holl weithredwyr anwiredd*—oddiwrth eu gilydd, fel nad allont ymgryfhau yn erbyn pobl Dduw; neu oddiwrth y saint, fel nad allont eu blino hwynt mwyach.

Adn. 10. *Ond fy nghorn i a ddyrchefi*] Ti a'm coroni i â llwyddiant a buddugoliaeth; *fel unicorn*—Saes., 'fel corn unicorn;' gwel ar Job xxxix. 9; *âg olew i'r y'm heneinir*—tybia rhai fod Dafydd yn cyfeirio yma at ei eneidiaid fel brenin; ond y mae yn debycach mai yr ystyr yw, y rhoddid achos o lawenydd a gorfoledd iddo.

Adn. 11. *Fy llygad hefyd a wel fy ngwyn-*

fyd ar fy ngwrthwynebwy, &c.] Gellid meddwl oddiwrth y geiriau hyn fod Dafydd yn *gwynfydu* yn ninystr ei elynion; ond trwy nad yw y geiriau 'fy ngwynfyd,' a 'fy ewylllys,' yn yr Hebraeg, gellir cyfieithu yr adnod fel hyn: 'Fy llygad hefyd a edrych ar fy ngwrthwynebwy; fy nghlustiau a glywant am y rhai drygionus a gyfodant i'm herbyn.' Yr oedd y Salmwydd yn ddiamau yn rhagweled eu cosp ddychrynllyd; ond nis gellir casglu oddiyma ei fod yn ymhlyfydu ynddi.

Adn. 12. *Y cyflawn a flodeua fel palmwydden*] Yr hon sydd yn wastad yn wyrdd, ac yn cynyrchu firwyth imelys a gwerthfawr; *ac a gynydda fel cedrwydden yn Libanus*—yr hon sydd yn tyfu i faintioli dirfawr, ac yn parhau yn iraidd a gwerthfawr am lawer o ganrifau. Fel hyn cydunherir y cyflawn i *brenau* mawrion, cedyrn, a defnyddiol; tra y cyffelybir yr annuwiol i *lysiuyn* egwan, yr hwn sydd heddyw yn y maes, ac y fory a fwrir i'r ffwrn, adn. 7; gwel ar Salm xxix. 5.

Adn. 13. *Y rhai a blawnt yn nhŷ yr Arglwydd*] Sef yn ei eglwys ef, o'r hon y mae yr holl gyflawnion yn wir a bywiol aelodau; a *flodeuant yn nghynteddoedd ein Duw*—mewn gwybodaeth, doethineb, a santeiddrwydd.

Adn. 14. *Ffrwythant eto yn eu henaint*] Tra y bydd y dyn oddiallan yn llygru ac yn gwaclu, bydd y dyn oddifeun yn cael ei adnewyddu o ddydd i ddydd, 2 Cor. iv. 16; *tirsion ac iraidd fyddant*—Saes., 'bras a blodeuog,' neu iraidd a gwyrdilas; nid yn wir yn eu cyrff, ond yn ysbrydol yn eu heneidiau, dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân. Fe allai fod yma gyfeiriad at y palmwydd, y rhai a gynyddant mewn firwythlondeb wrth heneiddio. Dywedir na ddygant nemawr o firwyth hyd nes y byddant oddeutu 30 mlwydd oed; ac wedi hyny cynyrcha pob pren o dri i bedwar can pwys o afalau bob blwyddyn.

Adn. 15. *I fynegu mai uniawn yw yr Arglwydd*] Neu ffyddlon yn y cyflawniad o'i addewidion; *fy Nghraig*—ar ba un yr adeil- edais fy holl hyder a'm gobaith; neu fy amddiffynfa gadarn, a fflynnionell fy holl ddaioni; *ac nad oes anwiredd ynddo*—neu 'annghyfiawnder' o un math.

rwydd; gwisgodd yr Arglwydd nerth, ac ymwregysodd: y byd hefyd a sicrhawyd, fel na syflo.

2 Darparwyd dy orseddfaine erioed: ti wyt er tragwyddoldeb.

3 Y llifeiriaint, O Arglwydd, a ddyrchafasant, y llifeiriaint a ddyrchafasant eu twrf; y llifeiriaint a ddyrchafasant eu tônau.

4 Yr Arglwydd yn yr uchelder sydd gadarnach na thwrf dyfroedd lawer, na chedyrn donau y môr.

5 Sier iawn yw dy dystiolaethau: santeiddrwydd a weddai i' th dŷ, O Arglwydd, byth.

SALM XCIII. Nid oes deiti i'r Salm hen yn yr *Hebraeg*; ac mewn deuddeg o ysgriflyfrau *Kennicott* a *De Rossi* y mae yn gwneyd rhan o'r Salm flaenorol. Yn y *LXX*, y *Vulgate*, yr *Ethiopaeg*, a'r *Arabaeg*, gelwir hi yn 'Pawl-gân o eiddo Dafydd erbyn y dydd o flaen y sabboth, pan sylfaenwyd y ddaear.' Y farn gyffredin yw, mai *Dafydd* yw ei hawdwr; a thybja *Mudge* iddo ei hysgrifenu ar ol rhyw lfeiriaint dychrynydd.

Adn. 1. *Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu*] Yn barhaus ar y cwbl a greodd: *efe a wisgodd ardderchogrwydd*—fel y gwisga teyrn ei addurniadau brenhinol: *gwisgodd yr Arglwydd nerth*—sef ei hollalluoigrwydd; *ac ymwregysodd*—ag ef, fel yr ymwregysa gŵr i wneyd rhyw orchwyl pwysig: *y byd hefyd a sicrhawyd fel na syflo*—trwy fod yr Arglwydd fyth yn cynal ac yn llywodraethu yr hyn a greodd.

Adn. 2. *Darparwyd dy orseddfaine erioed*] Plyn yw, yr oedd yn bod erioed, heb ddechread iddi; *ti wyt er tragwyddoldeb*—yn eistedd fel Brenin arni. Addefa yr Iuddewon mai at y *MESSIA* y cyfeirir yma; ac y mae geiriau cyffelyb yn cael eu cymhwyso ato ef yn Heb. i. 8: gwel ar Salm xc. 2.

Adn. 3. *Y llifeiriaint, O Arglwydd*] Deallir hyn yn gyffredin am elynion Crist a'i eglwys, yrhai a gyffelybir yn fynyh i lfeiriaint ar gyfrif eu nifer a'u dadwrdd, eu nerth a'u gorwylltedd; a *ddyrchafasant eu twrf*—yn dy erbyn; neu gwithwynebasant dy deyrnas di mewn geiriau a gweithredoedd, a hyny yn olynol fel tônau cynddeiriog y môr.

Adn. 4. *Yr Arglwydd yn yr uchelder*] Ar ei orsedd yn uchelder y neofedd; *sydd gadarnach na thwrf dyfroedd lawer*—pa un bynag ai yn llythyrenol ynte yn gyffelybiaethol y deallwn y geiriau; *na chedyrn donau y môr*—yr hyn a brofodd llawer o'i elynion galluocaf o oes i oes.

Adn. 5. *Sier iawn yw dy dystiolaethau*] Nid yn unig y mae dy orsedd a' th deyrnas yn ddiysgog, ond y mae dy gyfreithiau felly hefyd, trwy y rhai y llywodraethi dy deyrnas. *Santeiddrwydd a weddai i' th dŷ, O Arglwydd, byth*—am dy fod di felly yn dy natur

SALM XCIV.

O ARGLWYDD Dduw y dial, O Dduw y dial, ymddysgleiria.

2 Ymddyrycha, Farnwr y byd: tâl eu gwobr i'r beilchion.

3 Pa hyd, Arglwydd, y caiff yr annuwiolion, pa hyd y caiff yr annuwiol orfoleddu?

4 Pa hyd y siaradant ac y dywedant yn galed? yr ymfawryga holl weithredwyr anwiredd?

5 Dy bobl, Arglwydd, a ddrylliant; a' th etifeddiacth a gystuddiant.

6 Y weddw a'r dyeithr a laddant, a'r amddifad a ddiencidiant,

a' th holl weithredoedd. Dylai holl weinidogion eglwys Dduw fod yn santaidd, a phob aelod ynddi hefyd. Ie, fel y sylwa CLARKE, 'dylai yr adeilad ei hun gael ei santeiddio—ei chysegru yn y fath fodd i addolai Duw yn unig, fel ag i beidio cael ei defnyddio byth at unrhyw wasanaeth arall.'

SALM XCIV. Nid oes un teitl i'r Salm hon mwy nag i'r ddiweddaf; ac mewn tri o ysgriflyfrau *Kennicott* y mae yn gwneyd rhan o'r Salm ddiweddaf. Modd bynag, y mae y *LXX*, y *Vulgate*, yr *Ethiopaeg*, a'r *Arabaeg* yn ei chyfenwi, 'Salm Dafydd erbyn y pedwarydd dydd o'r wythnes.' Y farn gyffredin yw, mai *Dafydd* yw ei hawdwr, ac iddo ei hysgrifenu yn ystod un o'i rhyfeloedd, neu ynte pan yn dyoddef rhyw erledigaeth, fo allai addiw'rth Saul a'i lys. Ond tybja rhai mai gweddi y caethion yn Babilon ydyw, yn llefain am waredigaeth.

Adn. 1. *O Arglwydd Dduw y dial*] I'r hwn 'y perthyn dial,' Deut. xxxii. 35. Heb. x. 30; *ymddysgleiria*—amlyga dy ogoniant a' th gyfiawnder, trwy gospi dy elynion, a thrwy waredu dy bobl o'u dwylaw hwynt.

Adn. 2. *Ymddyrycha, Farnwr y byd*] Es-gyn i orsedd dy gyfiawnder; *tâl eu gwobr i'r beilchion*—y rhai a feddyliant nad oes neb a all eu galw hwy i gyfrif.

Adn. 3. *Pa hyd, Arglwydd, y caiff yr annuwiolion*] Sef Saul a'i lys fe allai, neu ynte y Caldeaid; (gwel y teitl); *orfoleddu*—yn eu creulondeb llwyddiannus tuag at dy bobl di?

Adn. 4. *Pa hyd y siaradant*] Yn falch a chwyddedig, ac y dywedant yn galed—yn dy erbyn di a' th bobl? yr ymfawryga—neu yr 'ymffrostia,' holl weithredwyr anwiredd—yn eu nerth a'u llwyddiant, heb i ti dalu eu gwobr iddynt?

Adn. 5. *Dy bobl, Arglwydd, a ddrylliant*] Tybja rhai ei fod yn cyfeirio yma at yr offeiriad a laddwyd gan Doeg wrth orchymyn Saul, 1 Sam. xxii. 18; *a' th etifeddiacth a gystuddiant*—sef y bobl a etholasai Duw yn etifeddiacth iddo ei hun.

Adn. 6. *Y weddw a'r dyeithr a laddant*] Y rhai y gorchymynaist ti desturio wrthynt,

7 Dywedant hefyd, Ni wel yr Arglwydd; ac nid ystyria Duw Jacob *hyn*.

8 Ystyriwch, chwi rai annoeth yn mysg y bobl: ac ynfydion, pa bryd y deallwch?

9 Oni chlyw yr hwn a blannod y glust? oni wel yr hwn a luniodd y llygad?

10 Oni cherydda yr hwn a gospa y cenhedloedd? *oni wŷyr* yr hwn sydd yn dysgu gwybodaeth i ddyn?

11 Gwŷyr yr Arglwydd feddyliau dyn, mai gwagedd *ydnyt*.

12 Gwŷn ei fyd y gŵr a geryddi

di, O Arglwydd, ac a ddysgi yn dy gyfraith:

13 I beri iddo lonydd oddiwrth ddyddiau drygfyd, hyd oni chloddier ffos i'r annuwiol.

14 Canys ni âd yr Arglwydd ei bobl, ac ni wrthyd efe ei etifeddiaeth.

15 Eithr barn a ddychwel at gyfiawnder: a'r holl rai uniawn o galon a ânt ar ei ol.

16 Pwy a gyfyd gyda mi yn erbyn y rhai drygionus? pwy a saif gyda mi ynerbyngweithredwyr anwiredd?

17 Oni *buasai* yr Arglwydd yn

a'u cynorthwyo, Exod. xxii. 21—24; a'r *amddifad* a *ddieneidiant*—neu a lofruddiant.

Adn. 7. *Dywedant hefyd*] Mewn ymddygiad, os nid mewn geiriau; *Ni wel yr Arglwydd*—hon oedd iaith anfyddiaeth; *ac nid ystyria Duw Jacob hyn*—os bydd iddo ei welad, ni eilw efe ni i gyfrif am dano.

Adn. 8. *Ystyriwch, chwi rai annoeth—ac ynfydion*] Gwel yr un geiriau yn cael eu hegluro ar Salm xcii. 6; *pa bryd y deallwch*—bethau gwell am Dduw Jacob, ac am eich cyflwr peryglus eich hunain?

Adn. 9. *Oni chlyw yr hwn a blannod y glust*] *Dian y clyw; oni wel yr hwn a luniodd y llygad?*—dywedir hyn i ddangos fod Duw yn clywed ac yn gwled, er i'r ynfydion uchod wadu hyn, adn. 7. Addefir fod hwn yn ddull o ymresymiad anatebadwy. Pa ragoroldeb bynag a geir yn y *creadur*, rhaid ei fod wedi deilliaw oddiwrth y *Creawdwr*, a'i fod yn bodoli ynddo ef mewn perffeithrwydd anfeidrol. Ni ddywed y Salmydd, Onid oes *clust* gan yr hwn a blannod y glust? onid oes *llygad* gan yr hwn a luniodd y llygad? eithr, *Oni chlyw? oni wel?* A phaham y dywed efalli? I attal yr amryfusedd o wneyd Duw yn debyg i ddyn, neu briodoli aelodau neu ranau corfforol i'r Ysbryd anfeidrol.

Adn. 10. *Oni cherydda*] Duw rai annoeth, ynfyd, a lofruddiwr fel chwi, adn. 6, 8; *yr hwn a gospa y cenhedloedd*—fel y cospodd efe y cynddyliſiaid, y Sodomiaid, yr Aifitiaid, a'r Canaanaid? Neu, 'yr hwn a *ad-dysga* y cenhedloedd,' fel yr arwydda *jasar* yn fynych, ac fel y cyfieithir ef yn Esay viii. 11. *Oni wŷyr*—er nad yw yr ymadredd hwn yn y wreiddiol, eto y mae yn ddealledig; *yr hwn sydd yn dysgu gwybodaeth i ddyn*—ystyr yr holl adnod yw, 'Yr hwn sydd yn addysgu y cenhedloedd, ac yn eu diwallu hwy â'r holl wybodaeth a feddant, a all ef fod yn ddiſfygiol o foddion i wybod yr hyn y maent hwy yn ei ddyfeisio ac yn ei wneuthur?'

Adn. 11. *Gwŷyr yr Arglwydd*] Hyn sydd atebiad i'r gofyniad blaenorol; *feddyliau dyn*—nid yn unig ei eiriau a'i weithredoedd, ond hefyd ei feddyliau dirgelaf ef; *mai gwagedd ydnyt*—neu ofer, llygredig, a drygionus, Gen. vi. 5.

Adn. 12. *Gwŷn ei fyd y gŵr a geryddi di*] Mewn cariad, fel y cerydda tad ei blentyn, Heb. xii. 7; neu, 'a *hyfforddi* di,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu; *ac a ddysgi yn dy gyfraith*—fel ag i'w wneuthur yn ddoeth i iach-awdwriaeth.

Adn. 13. *I beri iddo lonydd oddiwrth ddyddiau drygfyd*] Sefllonyddwch a dedwyddwch yn eu canol hwynt; neu waredigiaeth rhag cael niwed oddiwrthynt, trwy beri iddynt oll gydweithio er daioni iddo yn y pen draw; *hyd oni chloddier ffos i'r annuwiol*—neu, 'tra y mae ffos yn cael ei chloddio i'r annuwiol,' i'r hon y swrth efe yn anocheladwy ac anadferadwy. Wrth y ffos hen y meddylir naill ai trallodion mawrion yn y byd hwn, neu gosp dragwyddol yn y byd a ddaw, neu ynte bob un o'r ddau.

Adn. 14. *Canys ni âd yr Arglwydd ei bobl*] Er y gall eu ceryddu hwy am amser, eto ni lwy'r ddyfetha efi ei bobl gyfammodol, y rhai sydd yn ei wasanaethu ef, ac yn ufyddhau i'w ddysgediaeth rasol, adn. 12; *ac ni wrthyd efe ei etifeddiaeth*—tra y byddant yn *glymu* wrth ei addoliad a'i wasanaeth ef. Rhaid mai hyn yw yr ystyr, am ddarfod iddo, wedi iddynt droi yn anfyddlon, eu gadael a'n gwrthod hwynt: gwel ar 1 Sam. xiii. 22, 1 Cron. xxviii. 9, 2 Cron. xv. 2.

Adn. 15. *Eithr barn a ddychwel at gyfiawnder*] Pan y mae Duw yn goddef i'w elynion lwyddo, ac i'w bobl a'i etifeddiaeth ei hun gael eu gorthymu ganddynt, y mae barn a chyfiawnder yn ymddangos fel yn *cilio* oddiwrth eu gilydd; ond pan roddo Duw ddial ar y drygionus, ac ymwared i'w bobl, neu gellir dywedyd fod barn yn *dychwelyd* at gyfiawnder. *A'r holl rai uniawn o galon a ânt ar ei ol*—hwy a gymeradwyant ac a efelychant *gyfiawnder* Duw yn ei holl weithredoedd; neu ynte, hwy a ânt ar ol yr *Arglwydd* yn fwy diysgog a gwrol.

Adn. 16. *Pwy a gyfyd gyda mi yn erbyn y rhai drygionus*] I bleidio achos cyfiawnder *pwy a saif gyda mi yn erbyn gweithredwyr anwiredd?*—sef Saul a'i blaidd, neu ynte y Babiloniaid: gwel ar adn. 3—6.

Adn. 17. *Oni buasai yr Arglwydd yn gymhorth i mi*] Pan yr oedd pawb ereill yn

gymhorth i mi, braidd na thrigasai fy enaid mewn dystawrwydd.

18 Pan ddywedais, Llithrodd fy nbroed: dy drugaredd di, O Arglwydd, a'm cynaliodd.

19 Yn amler fy meddyliau o'm mewn, dy ddyddanwch di a lawenycha fy enaid.

20 A fydd cydymdeithas i ti â gorseddafaino anwiredd, yr hon a lunia anwiredd yn lle cyfraith?

21 Yn finteioedd y deuant yn erbyn enaid y cyfiawn, a gwaed gwirion a farnant yn euog.

gwrthod sefyll gydag ef, neu er eu bod yn ei bleidio ef yn erbyn y rhai drygionus uchod; *braidd na thrigasai fy enaid mewn dystawrwydd*—braidd na chollassan fy mywyd trwy ddywylaw fy ngelynion, fel ag i syrthio i ddistawrwydd angau a'r bedd.

Adn. 18. *Pan ddywedais, Llithrodd fy nbroed*] Pan feddyliais fod y cwbl drosodd g. a mi; *dy drugaredd di, O Arglwydd, a'm cynaliodd*.—rh. gysrthioi ddiynstr trwy ddywylaw fy ngelynion.

Adn. 19. *Yn amler fy meddyliau o'm mewn*, Sef ei feddyliau pryderus, dyrys, a thriododas: *dy ddyddanwch di*—sef addewidion Dawid, a'i wenau ysbrydol ef arei enaid; *a awenycha fy enaid*—a ddyry nid yn unig arynedd a thawelwch i mi, ond hefyd lawenydd a gofodol mawr.

Adn. 20. *A fydd cydymdeithas i ti â gorseddafaino anwiredd?*] A fydd i ti bleidio a chefnogi yr orsedd a'r llywodraeth hōno a orthyma ac a flina dy bobl? *yr hon a lunia anwiredd yn lle cyfraith*—yn lle cyfraith gyfliaun ac uniawn; neu yr hon a wna gyfreithiau anwireddus i gyfreithloni anghyfiawdar a thrais.

Adn. 21. *Yn finteioedd*] Lluosog a chryfion, *y deuant yn erbyn enaid y cyfiawn*—sef yn erbyn ei fywyd ef, i geisio ei ladd; *a gwaed gwirion a farnant yn euog*—collfarnant y diniwed fel pe buasai yn euog. Cafodd y geiriau hyn gyflawniad llythrenol yn ymddygiad yr Iuddewon a'r Rhufoiniaid tuag at ein Harglwydd bendigedig, pan y traddodasant ef i'w groeshoelio.

Adn. 22. *Eithr yr Arglwydd sydd yn amddiffynfa i mi*] Yu ngwyneb eu holl anghyfiawnder hwy; *a'm Duw yw craig fy nodded*—ar ben pa un yr wyf allan o'gyraedd perygl, nen yn holltau pa un y byddaf ddiogel.

Adn. 23. *Ac efe a dâl iddynt eu hanwiredd*] Sef cosp gyfiawn am eu hanwiredd a'u drygioni uchod; *ac a'u tyr ymaith yn eu drygioni*—heb iddynt ni' adael, na chael maddeuant o hono: *yr Arglwydd ein Duw*—sef Duw cyfammodol Jacob, yr hwn y dywedent hwy nad oedd efe yn gweled nac yn ystyried hyn, adn. 7; *a'u tyr hwynt ymaith*—cyflawnwyd hyn yn ninystr gelynion Dafydd a'r eglwys Iuddewig; yn ninystr y Caldeaid, gelynion yr Iuddewon; ac yn ni-

22 Eithr yr Arglwydd sydd yn amddiffynfa i mi; a'm Duw yw craig fy nodded.

23 Ac efe a dâl iddynt eu hanwiredd, ac a'u tyr ymaith yn eu drygioni: yr Arglwydd ein Duw a'u tyr hwynt ymaith.

SALM XCV.

DEUWCH, canwn i'r Arglwydd: ymlawenhawn yn nerth ein hiechyd.

2 Deuwn ger ei fron ef â diolch; canwn yn llafar iddo â salmau.

nyst yr Iuddewon, gelynion Crist a'r efengyl; ac fe'i cyflawnir i'r eithaf yn holl elynion yr eglwys Gristionogol. Dywed y rabbiniaid Iuddewig fod y Lefiaid yn canu y geiriau hyn yn y deml, yn eu cylch priodol, pan losgwyd y deml gyntaf gan y Caldeaid, a'r ail deml gan y Rhufoiniaid, trwy i'r ddau ddygwyddiad gymeryd lle yn yr un mis o'r flwyddyn, ac ar yr un dydd o'r mis! gwel ar 2 Bren. xxv. 9.

SALM XCV. Y mae y Salm hon hefyd heb deill iddi yn yr *Hebraeg a'r Galdeae*; ond yn y LXX, y *Vulgate, Ethiopiaeg, Arabae*, a'r *Syriaeg*, a chan awdwr yr Epistol at yr Hebraid, (pen. iv. 3—7,) priodolir hi i *Dafydd*. Eithr tybia *Calmet*, a berniaid enwog ereill, ddarfod ei hysgrifenu yn amser y *caethived*: ac nad oedd yr apostol, wrth ei dyfynu fel gwaith Dafydd, ddim ond yn dylun y dyb gyffredin, am y priodoltyr yn gyffredin yr holl Salmau iddo ef. Ystyrir hi gan *Houbigant* ac ereill fel yn gyfansoddedig o dair rhan: (1) Rhan y *bobl*, adn. 1 hyd ganol adn. 7. (2) Rhan yr *offeriad* neu y *proffwyd*, o ganol adn. 7 hyd ddiwedd adn. 8. (3) Rhan *Jehofa*, adn. 9—11. Cynwysa wahoddiad difrifol i'r bobl, pan wedi ymgynull mewn addoliad cyhoeddus, i foliannu Duw oddiar deimlad o'i ddaionir dirfawr, ac i wrando yn ddyfal ar yr hyfforddiadau ag yr oeddynt yn nghylch eu derbyn oddiwrth ddarllen ac esbonio y gyfraith; 'ac ar y cyfrion hyn,' fel y sylwa *Clarke* ar ol *Ihorne*, 'y mae wedi bod mewn hir arferiad yr yr eglwys Gristionogol, yn nechre y wasanaeth gyhoeddus, i barotoi meddyliau y bobl i addoli Duw mewn ysbryd a gwirionedd.'

Adn. 1. *Deuwnch, canwn i'r Arglwydd*] Fel hyn yr oedd yr Iuddewon duwiol, yn yr ameroedd gynt, yn annog eu gilydd i ddyrchafu eu lleisiau mewn caniadau o fawl er anrhydedd i JEHOFA; a dedwydd fyddai pe cenid y geiriau hyn yn fywiog a gwresog o'r galon eto yn mhob eglwys, yn lle eu darllen yn oeraidd a marwaidd. *Ymlawenhawn yn nerth ein hiechyd*—Saes., 'gwnawn sain orfoleddus i Graig ein hiachawdwriaeth;' neu, fel y mae yn y Llyfr Gweddi Saesnog, 'ymlawenhawn yn galonog yn nerth ein hiachawdwriaeth.'

Adn. 2. *Deuwn ger ei fron ef â diolch*]

3 Canys yr Arglwydd sydd Dduw mawr, a Brenin mawr goruwch yr holl dduwiau.

4 Yr hwn y mae gorddynderau y ddaear yn ei law, ac uchelderau y mynyddoedd yn eiddo.

5 Y môr sydd eiddo, ac efe a'i gwnaeth: a'i ddwyllaw a luniasant y sychdir.

6 Deuwch, addolwn, ac ymgrymwn: gostyngwn ar ein gliniau gerbron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr.

7 Canys efe yw ein Duw ni; a ninau ym bobl ei borfa, a defaid ei

law. Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd,

8 Na chaledwch eich calonau, megys yn yr ymrysonfa, fel yn nydd profedigaeth yn yr anialwch:

9 Pan demtiodd eich tadau fi, y profasant fi, ac y gwelsant fy ngweithredoedd.

10 Deugain mlynedd yr ymrysonais â'r genhedlaeth hon, a dywedais, Pobl gyfeiliornus yn eu calon ydynt hwy, ac nid adnabuant fy ffyrdd:

11 Wrth y rhai y tyngais yn fy llid, na ddelent i'm gorphwysfa.

Am ei drugareddau aml i ni. Hebr., *bethodah*, 'â chyffesiad.' *Diotehwn* iddo am yr hyn a wnaeth efe i ni eisioes, a *chyffeswn* nad ym yn haeddu un o'i fendithion ef. *Cunwn yn llafar iddo â salmau*—sef â'r salm hon ac ereill.

Adn. 3. *Canys yr Arglwydd sydd Dduw mawr*] Ac am hyn y'w folianu yn fawr; a *Brenin mawr goruwch yr holl dduwiau*—goruwch pawb a elwir yn 'dduwiau,' wrf un bynag ai angylion, brenhinoedd a barnwyr ddaerol, ynte gau-dduwiau y cenhedloedd; neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'Duw sydd Frenin mawr goruwch oll.'

Adn. 4. *Yr hwn y mae gorddynderau y ddaear*] A'r holl drysorau cynwysedig ynddynt; *yn ei law*—yn ei feddiant, a than ei awdurdod; *ac uchelderau y mynyddoedd yn eiddo*—y rhai a ddyrehafant eu penau, gyda balchder mawreddog, hyd y cymylau. Y maent oll dan ei draed ef, ac wrth ei lywodraeth.

Adn. 5. *Y môr sydd eiddo*] Am mai efe a'i gwnaeth; *a'i ddwyllaw a luniasant y sychdir*—ac am hyn y mae y ddaear, yn gystal a'r môr, yn eiddo iddo, a than ei lywodraeth. Y casgliad naturiol oddiwrth hyn oll yw, mai Duw yn unig a ddylai gael ei addoli gan holl creaduriaid rhesymol y bydysawd.

Adn. 6. *Deuwch, addolwn ac ymgrymwn*] Na fydded i ni, gan hynny, fod yn ol o gydymffurfio â'r gwahoddiad taer hwn; *gostyngwn ar ein gliniau gerbron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr*—gyda pharch diffuant ac ofn santaid. Fel hyn dylai agwedd ein cyrff, wrth addoli Duw, osod allan agwedd ein ben-eidiau; neu dylai difrifoldeb a gostyngedd-rydd ein meddyliau gael eu hamlygu trwy blygiad ein gliniau o flaen y Duw mawr yr hwn a roddodd i ni ein bôd, ac ar yr hwn yr ydym yn ymddibynu am barhad o hono, a'n holl fendithion ereill.

Adn. 7. *Canys efe yw ein Duw ni*] Ein Duw cyfammodol, yn gystal a'n Creawdwr a'n Cynaliwr; *a ninau ym bobl ei borfa*—y rhai a borthir ganddo yn dymhorol ac ysbrydol; *a defaid ei law*—y rhai a amddiffynir gan ei law ragluniaethol, ac a arweinir ganddo ar hyd llywbrau cyfiawnder, a cherllaw y dyfroedd tawel: gwel ar Salm xxiii. 2, 3. *Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd*—nid oes genych un diwrnod i'w gollu, a gall y bydd y fory yn

rhy ddiweddar. Dylasai yr wythfed adnod ddechreu yma, gan fod y geiriau hyn yn ddechreu rhan yr *offeiriad* neu y *proffwyd*, yr hwn yn awr sydd yn cyngori y bobl, gan eu bod yn y fath ysbryd rhagorol, i beidio anghofio eu penderfyniadau gwresog eu hunain: gwel y teitl.

Adn. 8. *Na chaledwch eich calonau*] Trwy anfydd-dod gwyfoddol neu anghrediniaeth gyndyn: na plechlwch yn erbyn argyhoeddiad eich cydwybod, ac na wrthwynebwlch yr Ysbryd Glân. *Megys yn yr ymrysonfa*—Hebr., 'megys yn *Meriba*,' sef enw y fan lle y dygwyddodd hyn; *fel yn nydd profedigaeth*—neu 'ddydd *Massa*;' hynny yw, fel y gwnaeth eich tadau pan yr oeddynt yn *Massa* yn yr anialwch: gwel ar Exod. xvii. 7.

Adn. 9. *Pan demtiodd eich tadau fi*] Hon yw iaith JERHOFA, fel y nodwyd; a themtiasant ef trwy amau ei allu, a thrwy ofyn am broffion adnewyddol o'i bresenoldeb yn eu plith, Exod. xvii. 7. *Y profasant fi*—fel pe buasant am wybod pa faint o amynedd oedd genyf. *Ac y gwelsant fy ngweithredoedd*—neu y gwelsant nad oedd dim yn rhy anhawdd i mi ei gyflawni. Neu, temtiasant y profasant Dduw fel hyn ar ol gweled ei weithredoedd rhyffeddol yn eu gwaredigaeth o'r Aifit, yn mhreiddiad dyfroedd Mara, ac yn rhodd-iad y manna iddynt.

Adn. 10. *Deugain mlynedd yr ymrysonais â'r genhedlaeth hon*] Trwy fy marnon arnynt, a'm trugareddau iddynt, a thrwy weinidogaeth fy Ysbryd santaid; neu, fel y mae yn y Saesonag, 'deugain mlynedd y *gofidwyd* fi gan y genhedlaeth hon.' Fel pe dywedasai, Nid yn unig temtiasant fi a gwrthrytelasant i'm herbyn yn nechre eu taith yn yr anialwch, ond parhausant i wneuthur hyn yn ystod y deugain mlynedd ag y buont yno. *A dywedais*—o'r diwedd, neu yr oedd ef yn cael achos i ddywydyd o hyd; *Pobl gyfeiliornus yn eu calon ydynt hwy*—y mae holl feddylfryd eu calon yn ddrwg; neu, fel y mae y *Galdaeag* yn ei ddarllen, 'Pobl â'u heilunod yn eu calonau ydynt hwy.' *Ac nid adnabuant fy ffyrdd*—neu, 'ni chymradwyent fy ffyrdd.' Yr oeddynt yn gwybod ffyrdd Duw yn eithaf da; ond nid oeddynt yn eu hoffi, ac ni roddent ynddynt.

Adn. 11. *Wrth y rhai y tyngais yn fy llid*]

SALM XCVI.

CENWCH i'r Arglwydd ganiad newydd: cenwch i'r Arglwydd, yr holl ddaear.

2 Cenwch i'r Arglwydd, bendigwch ei enw; cyhoeddwch o ddydd i ddydd ei iachawdriaeth ef.

3 Datgenwch yn mysg y cenhedloedd ei ogoniant ef, yn mhllith yr holl bobloedd ei ryfeddodau.

4 Canys mawr yw yr Arglwydd, a chanmoladwy iawn: ofnadwy yw efe goruwch yr holl dduwiau.

Sef wrth y rhai ag oeddynt ngain oed ac nehod yn dyfod o'r Aifft, Num. xiv. 29; *na ddaelent i'm gorphwysfa*—sef i Ganaan, yr hon oedd yn gysgod o'r orphwysfa dragwyddol yn y nef: gwel ar Heb. iii. 7—11. Yn awr y mae yr achos hwn yn cael ei gymhwyso yma gan y Salmudd at eu hiliogaeth hwynt, y rhai oeddynt yn byw yn ei amser ef, a chan yr apostol at y rhai ag oeddynt yn byw yn ei amser yntau, nen a fyddant byw hyd ddiwedd y byd: gwel ar Heb. iii a iv.

SALM XCVI. Nid oes i'r Salm hon un teitl yn yr *Hebraeg* na'r *Galdeae*; ond yn y *Syriac* gelwir hi yn 'Salm Dafydd: profwydoliaeth am ddyfodiad Crist, a galwad y Cenhedloedd i greu ynddo.' Gelwir hi yn y *LXX*, y *Vulgate*, *Ethiopaeg*, a'r *Arabaeg*, 'Cân Dafydd, pan adeiladwyd y Tŷ ar ol y Caethiwed.' Yn 1 Cron. xvi. 23—33, cawn Salm gyffelyb i hon wedi ei chyfansoddi gan Dafydd, ar ddygiad yr arch i Seion o dŷ Obededom. Ond y mae y Salm, fel y saif yn 1 Cron., yn cynwys 30 o adnodau; tra nad yw hon ond rhan o honi, sef o adn. 23 hyd adn. 33. Y mae yn dra thebyg, fel y sylwa *Clarke*, 'i'r rhan hon gael ei chymeryd o'r Salm hōno, i'w harferyd ar gysegriad yr ail deml. Y mae Salm cv bron yr un fath a'r Salm yn 1 Cron., ond ei bod yn llawer helaethach.' Y mae amrai o'r Iuddewon a'r Cristionogion yn ei chymhwyso at ddyddiau y **MESSIA**:

Adn. 1. *Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd*] Am drugareddau newyddion; nen 'ganiad ardderchog,' fel cynyrch serchiauau newyddion, ac wedi ei gwisgo mewn geiriau newyddion. *Cenwch i'r Arglwydd, yr holl ddaear*—Iuddewon a Cenhedloedd.

Adn. 2. *Cenwch i'r Arglwydd*] Sef i **JEHOFA**, wrth yr hwn y meddylir yma iachawdwyd y byd, neu y **Messia**; *bendigwch ei enw*—mewn caniaidau o foliant, a thrwy ddywedyd yn dda am dano: *cyhoeddwch o ddydd i ddydd ei iachawdriaeth ef*—sef prynedigaeth y byd trwy y **Messia**. Y mae y wreiddiol yn dra grymus, *basseru miyom leyom yeshuatho*, 'pregethwch efengyl ei iachawdriaeth ef o ddydd i ddydd.' Y mae y gair **ARGLWYDD**, neu **JEHOFA**, dair gwaith yn y ddwy adnod uchod;

5 Canys holl dduwiau y bobloedd ydynt eilunod: ond yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd.

6 Gogoniant a harddwch sydd o'i flaen ef; nerth a hyfrydwch sydd yn ei gysegr.

7 Tylwythau y bobl, rhoddwch i'r Arglwydd, rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant a nerth.

8 Rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw: dygwch offrwm a deu-wch i'w gynteddoedd.

9 Addolwch yr Arglwydd mewn prydferthwch santeiddrwydd: yr holl ddaear, ofnwch ger ei fron ef.

a thybia rhai fod athrawiaeth y *Drindod* yn cael ei hawgrymu yma.

Adn. 3. *Datgenwch yn mysg y cenhedloedd ei ogoniant ef*] Sef gogoniant ei briodoliaethau yn nhrefn hynod ei iachawdriaeth; *yn mhllith yr holl bobloedd ei ryfeddodau*—sef rhyfeddodau ei berson a'i weithredoedd, ac yn enwedig rhyfeddodau ei gariad a'i ras. Y mae hyn oll yn perthyn yn gyfartal i Iuddewon a Cenhedloedd, ac i gael ei ddatgan yn mhllith pob llwyth, iaith, a phobl.

Adn. 4. *Canys mawr yw yr Arglwydd*] Yn ei hanfod a'i briodoliaethau; *a chanmoladwy iawn*—neu deilwng iawn o gael ei ganmol a'i glodfori gan bawb: *ofnadwy yw efe goruwch yr holl dduwiau*—hyn yw, y mae efe i'w ofni, mewn ffordd o barch ac addoliad, goruwch holl au-dduwiau y bobloedd, fel y mae yn eglur oddiwrth y geiriau nesaf.

Adn. 5. *Canys holl dduwiau y bobloedd ydynt eilunod*] Ydynt 'wageddau' neu 'ddim,' fel yr arwydda y gair *elhim*, ac fel y gelwir hwynt 1 Cor. viii. 4, a x. 19. Nid yn unig nid ydynt **DDUW**, ond nid ydynt **DDIM**. *Ond yr Arglwydd*—yr hwn yr ydym ni yn ei addoli, *a wnaeth y nefoedd*—ac felly, fel Creawdwr mawr a goruchel, dylai gael ei addoli gan bawb.

Adn. 6. *Gogoniant a harddwch sydd o'i flaen ef*] Neu yn ei bresenoldeb; *nerth a hyfrydwch*—*Saes.*, 'nerth a phrydferthwch,' *sydd yn ei gysegr*—tybia rhai fod yma gyfeiriad at y cwmwl o ogoniant ag ydoedd yn myned o flaen yr arch yn en symudiadan yn yr anialwch, ac yn gorphwys arni yn y babel a'r deml.

Adn. 7. *Tylwythau y bobl*] Chwi denlucodd yn holl lwythau Israel, ac yn mhllith holl genhedloedd y ddaear; *rhoddwch i'r Arglwydd*—yn barhaus a difino; *rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant a nerth*—pridolwch ogoniant a nerth iddo ef, neu addefwch ei fod ef yn ygoneddus a nerthol.

Adn. 8. *Rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw*] Sef y gogoniant ag sydd ddydladwy i'w hanfod a'i briodoliaethau; *dygwch offrwm*—yn gydnabyddiad o'ch diolchgarwch iddo, o'ch ymddibyniad arno, a'ch cariad ato; *a deu-wch i'w gynteddoedd*—i'w addoli ef mewn ysbryd

10 Dywedwch yn mysg y cenhedloedd, Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; a'r byd a sicrhaodd efe, fel nad ysgogo: efe a farna y bobl yn un-iawn.

11 Llawenhäed y nefoedd, a gorfoledded y ddaear; rhued y môr a'i gyflawnder.

a gwirionedd. Y mae y Salmydd yma yn llefaru am addoliad y Testament Newydd yn ngeiriadaeth yr addoliad Iuddeuwig, fel y gwna y profwydi yn fynych: gwel Mal. i. 11.

Adn. 9. *Addolwch yr Arglwydd mewn prydfertwch santeiddrwydd*] Neu wedi eieh prydfertu â santeiddrwydd. Ondtobia Clarke fod hyn yn arwyddo, 'mewn addurniadau santeidd,' y fath ag a wisgai yr archoffeiriad wrth weinyddu. *Yr holl ddaear*—sef holl drigolion y ddaear, *ofnwch ger ei fron ef*—neu deuoch ger ei fron ef gyda pharchedig ofn, gan ofui hefyd ei lid os na wneuch felly.

Adn. 10. *Dywedwch yn mysg y cenhedloedd*] Chwi ghenhadon Duw, *Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu*—ei fod ef wedi gosod i fyny ei deyrnas ysbrydol yn y byd. Y mae *Justin Ferthyr*, yn ei ymddyddan â *Trypho* yr Iuddeu, yn dyfynu yr adnod hon fel hyn: 'Dywedwch yn mysg y cenhedloedd, Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu trwy'r pren,' gan ffeiddl pren *ÿ groes*; ac efe a gyhudda yr Iuddeuon o ddileu yr ymadrodd hwn o'u Beiblau, am ei fod yn brawf o wirionedd Cristionogaeth. Ymddengys fod yr ymadrodd hwn i'w gael ar y cyntaf yn y LXX, neu o leiaf mewn rhai hen ailunau o'r cyfieithiad hwn, am y dyfynir y geiriau gan *Tertullian*, *Lactantius*, *Arnobius*, *Awstin*, *Cassiodorus*, y *Pab Leo*, *Gregory o Tours*, ac ereill. Y mae y darlenniad hwn i'w gael eto yn yr hen Sallwyr *Lladin*, ac mewn rhai ereill. 'Mewn hen Sallwyr ysgrifenedig o'm blaen i,' ebai *Clarke*, 'tra y mae y testyn yn arddangos y darlenniad a dderbynnir yn gyffredin, y mae ar ymyl y ddalen yr egnirhad canlynol: 'Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu trwy bren y groes.' Modd bynag, y mae yn angenrheidiol chwaneu, nad yw y geiriau hyn yn bodoli mewn unrhyw ailun Hebreig argraffedig ag sydd yn awr ar gael, nac mewn un ysgrifiyfwr a chwiliwyd eto, nac mewn un o'r hen gyfieithiadau.' *A'r byd a sicrhaodd efe, fel nad ysgogo*—cyn belled ag y mae y wir grefydd, neu efengyl Crist, wedi cyraedd eto. Wrth y 'byd' y meddylir yma, yn ol rhai, *trigolion* y byd; ac, yn ol ereill, yr *eglwys* yn y byd. *Efe a farna y bobl yn un-iawn*—yn ol egwyddorion crefydd a gair Duw. 'Teyrnwialen uniondeb yw teyrnwialen dy deyrnas di,' Heb. i. 8.

Adn. 11. *Llawenhäed y nefoedd, &c.*] Yma y mae y Salmydd, mewn dull barddonol prydfertu, yn priodoli bywyd a deall i naturiaeth yn gyffredinol, ac yn galw ar y *nefoedd*, y *ddaear*, y *môr*, y *maesydd*, a'r *prenau*, sef yr holl fydsawd, a phob peth ynddo, i gydlawenhau a gorfoleddu o herwydd y llwyddiant a'r dedwyddwch a ffyna dan deyrnasiad y MESSIA, ac

12 Gorfoledded y maes, a'r hyn oll y sydd ynddo: yna holl brenau y coed a ganant

13 O flaen yr Arglwydd: canys y mae yn dyfod, canys y mae yn dyfod i farnu y ddaear: efe a farna y byd trwy gyflawnder, a'r bobloedd a'i wirionedd.

i gyduno mewn anthem o fawl i Greawdwr a Phrynwr y byd.

Adn. 12. *Gorfoledded y maes, &c.*] Gwel ar adn. 11. *Yna holl brenau y coed a ganant*—y mae rhai yn deall y 'maes,' yn nechre yr adnod, am yr *eglwys*; a 'phrenau y coed,' am y *dynion* hynotaf yn yr eglwys: eithr yr ystyr uchod yw y mwyaf naturiol.

Adn. 13. *O flaen yr Arglwydd*] Ar ei ddyfodiad, ac yn ei bresenoldeb ef. *Canys y mae yn dyfod*—dywedir hyn ddywywaith, i arwyddo sicrwydd ei ddyfodiad; *i farnu y ddaear*—i gymeryd iddo ei hun ei allu a'i awdurdod mawr, ac i osod i fyny ei orsedd a'i deyrnas ysbrydol ar y ddaear. *Efe a farna y byd trwy gyflawnder*—efe a ddiwygia y byd, ac a lywodraetha ddynolrwy trwy ddeddfau cyfiawn a thrugarog; *a'r bobloedd a'i wirionedd*—sef yn ol gwirionedd ei air a'i addewidion. 'Y mae dyfodiad Crist,' ebai yr *Esgob Horne*, 'yn ddenblyg: yn gyntaf, efe a ddaeth i santeiddio y creadur; ac efe a ddaw drachefn i'w ogoneddu ef. (Rhuf. viii. 21—23.) Gall un o'i ddwy deyrnas, sef teyrnas ei ras neu deyrnas ei ogoniant, fod yn cael ei harwyddo trwy ei waith yn barnu y byd mewn cyflawnder a gwirionedd.' Ac y mae hyn yn wir hefyd am y farn ddiweddaf, pryd y barna efe bawb yn ol y cyflawnder manylaf, ac yn ol ei air perffaith ei hun: gwel ar Ioan xii. 48.

SALM XCVII. Nid oes deitl i'r Salm hon yn yr *Hebraeg* na'r *Galdeuag*; ac mewn 14 o ysgrifiyfwr *Kennicott* a *De Rossi*, y mae yn rhan o'r Salm flaenorol. Gelwir hi yn y *Vulgate*, 'Salm Dafydd pan adferwyd ei dir,' hyny yw, ar ol iddo gael meddiant o deyrnas Israel a Juda, neu ynte ar ol iddo ennill y gwledydd hyny a roddwyd i Israel yn yr addewid ddwyfol: gwel I Cron. xviii. 1, 2. Y mae y teitl yn y LXX, yn nghyda'r *Ethiopiaeg* a'r *Arabaeg*, yn dra thebyg i'r un uchod. Eithr y teitl yn y *Syriaeg* yw, 'Salm Dafydd, yn yr hon y rhagifynoga efe ddyfodiad Crist, a'i ymddangosiad diweddaf;' hyny yw, ei ddyfodiad yn y cnaud, a'i ail ddyfodiad i farnu y byd. Y mae rhan o adn. 7 yn cael ei chymhwysu at Grist gan yr apostol, Heb. i. 6; ac y mae y rabbiniaid Iuddeuwig en hunain, fel yr addeff *Kimchi*, yn cymhwysu y Salm hon at Grist. Nid yw yn gwbl sicr pwy yw ei hawdwr; ond y mae yn lled debyg i gyf-soddidiadau goraf Dafydd, ac yn enwedig i Salm xviii. Ac eto barna llawer iddi gael ei hysgrifenu i arddangos gallu a daioni Duw yn aferiad yr Iuddeuon o gaethiwd Babilon.

Adn. 1. *Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu*] *ГЕИОФА*, yr hwn a wnaeth y byd, sydd hefyd

SALM XCVII.

YR Arglwydd sydd yn teyrnasu; gorfoledded y ddaear: llawenyched ynsoedd lawer.

2 Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef: cyflawnder a barn yw trigfa ei orseddfaine ef.

3 Tân a â allan o'i flaen ef, ac a lysg ei elynion o amgylch.

4 Ei fellt a lewyrchasant y byd: y ddaear a welodd, ac a grynodd.

5 Y mynyddoedd a doddasant fel cŵyr o flaen yr Arglwydd, o flaen Arglwydd yr holl ddaear.

6 Y nefoedd a fynegant ei gyflawnder ef, a'r holl bobl a welant ei ogoniant.

yn ei lywodraethu ef. Neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'yr Arglwydd Iesu sydd yn teyrnasu.' Y mae teyrnas rhagluniaeth wedi ei chydgyfylltu â'r teyrnas gyfryngol, ac y mae gweinyddiad y dŵy yn llaw Crist. *Gorfoledded y ddaear*—sef holl drigolion y ddaear, am eu bod wedi eu bendithio â'r fath Frenin, yr hwn a ofala am eu hanghenion tymhorol ac ysbrydol. *Llawenyched ynsoedd lawer*—sef holl ynsoedd y môr, y rhai sydd filoedd lawer o rifedi.

Adn. 2. *Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef*] Y mae llawer o'i weinyddiadau ef yn rhy uchel i ni allu eu hamgyffred, ac yn rhy ddŵn i ni allu eu dirnad; er hynny, *cyflawnder a barn yw trigfa*—neu sail, ei orseddfaine ef—y mae ei holl gynghorau, ei arfaethau, a'i ddeddfau, wedi eu seilio ar gyflawnder, ac yn cael eu gweinyddu gyda'r uniondeb mwyaf, fel y cawn oll wled ar ol hyn.

Adn. 3. *Tân a â allan o'i flaen ef*] Y mae digofaint a barnau Duw, a'u heffeithiau ar y byd, yn cael eu harddangos yma dan y gyffel ybiaeth o dân neu fellt; *ac a lysg ei elynion o amgylch*—sef gelynydd Crist a'i eglwys. Bydd felly yn neillduol yn y dydd olaf: gwel ar z Thes. i. 8, 2 Pedr iii. 7, 10.

Adn. 4. *Ei fellt a lewyrchasant y byd*] Efe a lefaru am hyn fel peth wedi dygwydd, i arwyddo ei sicrwydd: *y ddaear a welodd, ac a grynodd*—sef trigolion y ddaear; neu efe a gyfeiria at ddaeargryn ofnadwy, gan briodoli, mewn dull barddonol, fywyd a theimlad i'r ddaear.

Adn. 5. *Y mynyddoedd a doddasant fel cŵyr*] Neu a doddant felly yn y dydd olaf, 2 Pedr iii. 10. Ond tybia rhai mai brenhin-oedd a phenaeithiad daearol a olygir yma, y rhai a ymosodant yn erbyn teyrnas Crist. *O flaen Arglwydd yr holl ddaear*—yr hwn y mae ei lywodraeth yn cyraedd dros yr holl byd. Ymdengys fod yr holl ddelweddau uchod wedi eu benthyca oddiwirh ddisgyniad JEHOWA ar fynydd Sinai.

Adn. 6. *Y nefoedd a fynegant ei gyflawnder ef*] Trwy i'r Tad ddwyn tystiolaeth o'r

7 Gwaradwydder y rhai oll a wasanaethant ddelw gerffedig, y rhai a ymfrostiant mewn eilunod: addolwch ef, yr holl dduwiau.

8 Seion a glywodd ac a lawenyched; a merched Juda a orfoleddasant, o herwydd dy farnedigaethau di, O Arglwydd.

9 Canys ti, Arglwydd, wyt oruchel goruwch yr holl ddaear: dirfawr y'th ddyrchafwyd goruwch yr holl dduwiau.

10 Y rhai a gerwch yr Arglwydd, casewch ddrygioni: efe sydd yn cadw eneidiau ei saint; efe a'u gwared o law y rhai annuwl.

11 Hauwyd goleuni i'r cyfiawn, a llawenydd i'r rhai uniawn o galon.

nef o blaid ei Fab, neu anfon ei farnedigaethau odiiyno ar ei elynion; *a'r holl bobl a welant ei ogoniant*—sef gogoniant ei fuddugoliaethau ar ei elynion, neu ogoniant ei berson a'i iawn, a gogoniant ei ras a'i iachawdwr-iaeth.

Adn. 7. *Gwaradwydder y rhai oll a wasanaethant ddelw gerffedig*] Hynny yw, gwaradwyddir hwynt, neu bydd arnynt gywilydd o'u delwau, Salm v. 10; *y rhai a ymfrostiant mewn eilunod*—mewn 'gwageddau' a 'dim,' (Salm xcvi. 5.) fel pe baent yn bob peth er iachawdwr-iaeth eu haddolwyr. *Addolwch ef*—pw? Mab Duw, meddai yr apostol; a phwy a feiddia amau ei awdurdod ef? *Yr holl dduwiau*—neu yr 'holl angylion,' fel y gelwir hwynt gan y LXX, a chan yr apostol, Heb. i. 6. Gwelsom yn fynych fod angylion a dynion yn cael eu galw yn *dduwiau* ar gyfifir eu swyddau, nid eu natur; a gorchymyng yma i'r naill a'r llall addoli Crist. *Y Galdeae* a ddywed, 'Bydd i'r holl genhedloedd ag sydd yn addoli eilunod, ei addoli ef.'

Adn. 8. *Seion a glywodd*] Sef Jerusalem; a merched Juda—sef y dinasoedd o'i hamgylch hi: ond tybia rhai mai eglwys Dduw a'i changhenau a feddylir. *A orfoleddasant o herwydd dy farnedigaethau di*—o herwydd dymchweliad eilunaddoliaeth, a llywyddiant teyrnas y Messia. Tybia rhai fod yn yr adnodau uchod gyfeiriad at gwymp Rhufain baganaid yn amser Cystenyn Fawr.

Adn. 9. *Canys ti, Arglwydd, wyt oruchel*] Yn dy hanfod a'th briodoliaethau; *goruwch yr holl ddaear*—goruwch holl frenhinod y ddaear, ac angylion y nef hefyd: *dirfawr y'th ddyrchafwyd*—yn dy gymeriad cyfryngol, neu yn meddyliu pawb am danat; *goruwch yr holl dduwiau*—a addolid o'r blaen.

Adn. 10. *Y rhai a gerwch yr Arglwydd*] Neu a broffeswch eich bod yn ei garu; *casewch ddrygioni*—fel peth anghyson â'i natur santaidd ef, a chroes i'ch profes eich huanin. *Efe sydd yn cadw eneidiau ei saint*—neu eu bywydau; ac y mae hyn yn wir am eu heniedian hefyd: *efe a'u gwared o law y rhai*

12 Y rhai cyfiawn, llawenychwch yn yr Arglwydd; a molienwch wrth goffadwriaeth ei santeiddrwydd ef.

SALM XCVIII.

CENWCH i'r Arglwydd ganiad newydd; canys efe a wnaeth *bethau* rhyfedd: ei ddeheulaw a'i fraich santeidd a barodd iddo fuddugoliaeth.

2 Hysbysodd yr Arglwydd ei iachawdwriaeth: datguddiodd ei gyf-

jawnder yn ngolwg y cenedloedd.

3 Cofiodd ei drugaredd a'i wirionedd i dŷ Israel: holl derfynau y ddaear a welsant iachawdwriaeth ein Duw ni.

4 Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear: llefwch, ac ymlawenhwch, a chenwch.

5 Cenwch i'r Arglwydd gyda'r delyn; gyda'r delyn, a llef salm.

6 Ar udgyrn a sain cornet, cenwch yn llafar o flaen yr Arglwydd y Brenin.

annuwiol—pa un bynag ai dynion drwg ai cythreuliaid.

Adn. 11. *Hauwyd goleuni i'r cyfiawn*] Neu lwyddiant a chysur; a *llawenydd i'r rhai uniaen o galon*—y rhai yn eu hiawn bryd a fedir ganddynt, fe allai yn y byd hwn, ond yn sicr yn y nesaf; ac am hynny gall holl ganlynwyr Crist, y rhai a ddyysgir i ddysgwyl gorthymnderau yn y bywyd hwn, ddyoddet eu cistuddiau gydag amynedd a sirioldeb, gan wybod, er eu bod yn 'hau mewn dagrau,' y bydd iddynt yn sicr 'fedi mewn gorfoledd.' Ond cofier mai i'r 'cyfiawn,' a'r 'rhai uniaen o galon,' yr hauwyd yr hadau hyn, ac mai hwynt-hwy yn unig a gânt eu meddi.

Adn. 12. *Y rhai cyfiawn, llawenychwch*] Yn y rhagolwg ar y cynauaf sydd o'ch blaen; *yn yr Arglwydd*—canys pob llawenydd arall sydd 'chwerthiniad dyn ynfyd,' yr hwn sydd fel 'clindarddach drain dan grochan,' yn ffiam oleu am fynyd, heb aedal dim ar ol ond mwg a lludw. *A molienwch*—Saes., 'diolchwch,' wrth goffadwriaeth ei santeiddrwydd ef—wrth gofio am ei natur a'i lywodraeth gyfiawn a santeidd ef, neu am ei ffyddlondeb yn cyflawni ei addewidion yn sefydliad teyrnas Crist ar y ddaear. Dylai pa beth bynag ag sydd yn destyn ein llawenydd a'n gorfoledd ni, fod hefyd yn destyn ein diolch a'n moliant, ac yn enwedig *santeiddrwydd* Duw. Y mae y rhai sydd yn casâu pechod eu hunain, yn llawenhan am fod Duw yn ei gasâu ef, gan obeithio trwy hynny na oddef efe i bochod gael yr oruchafiaeth arnynt hwy.

SALM XCVIII. Er mai y teitl yn yr *Ebraeg* a'r *Gynraeg* yw 'Salm' yn unig; eto gelwir hi yn y *Galdeag* yn 'Salm broffwydol'; ac yn y *LXX*, y *Vulgate*, *Ethiopaeg*, a'r *Syriaeg*, 'Salm Dafydd.' Y mae yn dra thebyg mai *Dafydd* a'i cyfansoddodd hi; a chynwysa lawer o ymadroddion tebyg i'r rhai a geir yn Salm xcvi. Tybia yr *Esgob Patrick* dda'fod ei hysgrifenu ar yr achlysur o ryw waredigaeth bynod a roddasai Duw yn ddiweddar i Israel, fel ernes o fendithion dyfodol, ac yn enwedig y fendith fawr o ddyfodiad y Messia i roddi iachawdwriaeth gyflawn i'w bobl. Tybia ereill dda'fod ei chyfansoddi ar yr achlysur o waredigaeth yr Iuddewon o Babilon. Modd bynag, edrychir arni yn gy-

ffredin fel proffwydoliaeth am brynedigaeth y byd trwy Grist Iesu.

Adn. 1. *Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd*] Gwel ar Salm xcvi. 1; *canys efe a wnaeth bethau rhyfedd*—yn ngwaredigaeth dymhorol Israel, yr hyn oedd yn gysgod o'r waredigaeth ysbrydol trwy Grist. *Ei ddeheulaw a'i fraich santeidd*—sef ei hollalluog nerth; *a barodd iddo fuddugoliaeth*—Hebr., *hoshiah llo*, 'a wnaeth iachawdwriaeth iddo ei hun.'

Adn. 2. *Hysbysodd yr Arglwydd ei iachawdwriaeth*] Gwaredodd ei bobl yn y fath fodd ag a ddanghosai mai efe oedd Awdwr eu gwaredigaeth; neu eglurodd ei iachawdwriaeth trwy y Messia, yr hyn o'r blaen oedd ddirgelwch yn mysg yr Iuddewon, ac heb gael ei wybod yn gyflawn hyd yn nod ganddynt hwythau. *Datguddiodd ei gyfiawnder yn ngolwg y cenedloedd*—sef ei drefn rasol o gyfiawnhau pechadur trwy ffydd yn Nghrist.

Adn. 3. *Cofiodd ei drugaredd a'i wirionedd*] Efe a roddodd y drugaredd fawr hono i'r byd, yr hon a addawsai efe i dŷ Israel. *Holl derfynau y ddaear*—neu holl genhedloedd y ddaear yn mhob rhan o'i therfynau; *a welsant iachawdwriaeth ein Duw ni*—hyn oll a gyflawnir dan yr efengyl: gwel ar Salm xxii. 27.

Adn. 4. *Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear*] Gan eich bod oll yn awr yn gyfranog o'r un breintiau a'r Iuddewon, cydunwch â hwynt i addoli a molianu Duw: *llefwch, ac ymlawenhwch, a chenwch*—geiriau o gyflwyb ystyr, yn arwyddo y gwresogrwydd a ddylai fod yn mhawb wrth folianu Duw.

Adn. 5. *Cenwch i'r Arglwydd gyda'r delyn*] Yr hon a ddefnyddid yn fynych yn addoliad Duw dan yr oruchwyliaeth hono; *gyda'r delyn, a llef salm*—defnyddiwech eiriau priodol i'w canu, a rhoddwch allan eich lleisiau gyda'r offer cerdd.

Adn. 6. *Ar udgyrn a sain cornet*] Offerynau cerdd ereill i elwthynt ynddynt, y rhai a arferid yn yr addoliad Iuddewig: *cenwch yn llafar o flaen yr Arglwydd y Brenin*—o flaen yr Arglwydd Iesu, Brenin ei eglwys. Fel hyn y mae addoliad yr oruchwyliaeth newydd yn cael ei osod allan yn ngeiriadaeth addoliad y deml.

7 Rhued y môr a'i gyflawnder; y byd a'r rhai a drigant o'i fewn.

8 Cured y llifeiriant eu dwylaw; a chydganed y mynyddoedd

9 O flaen yr Arglwydd: canys y mae yn dyfod i farnu y ddaear: efe a farna y byd â chyfiawnder, a'r bobloedd âg uniondeb.

SALM XCIX.

YR Arglwydd sydd yn teyrnasu; Y cryned y bobloedd: eistedd y mae rhwng y cerubiaid; ymgynhyrfed y ddaear.

2 Mawr yw yr Arglwydd yn Seion, a dyrchafedig yw efe goruwch yr holl bobloedd.

Adn. 7—9. *Rhued y môr a'i gyflawnder*, &c.] Gwel ar Salm xcvi. 11—13. Diamau fod y Salm hon yn cynwys proffwydoliaeth amlwg am ddyfodiad Crist i achub y byd; a'r hyn a ragddywedir yma gan *Dafydd*, a osodir allan gan *Mair* fel wedi ei gyflawni, Luc i. 46—54: gwel yr *Esgob Nicholson*.

SALM XCIX. Nid oes yn yr *Hebraeg* na'r *Galdeaeg* un teitl i'r Salm hon; ac mewn wyth o ysgrythyrau *Kennicot* a *De Rossi*, y mae yn gysylltiedig â'r Salm flaenorol. Ond y mae yr holl hen gyfieithiadau, oddieithr y *Caldeaid*, yn ei phriodoli i *Dafydd*. Dywed y *Syriaeg* ei bod yn traethu ar 'lofruddiad y Midianiad, ac yn broffwydoliaeth am ogoniant teyrnas Crist.'

Adn. 1. *Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu*] Gwel ar Salm xcvi. 1; *cryned y bobloedd*—ag sydd yn clynnion iddo: *eistedd y mae rhwng y cerubiaid*—ar yr arch neu y drugareddfa, Exod. xxv. 22; *ymgynhyrfed y ddaear*—sef trigolion y ddaear, rhai trwy ofn, ac ereill trwy lawenydd. Y mae eisteddiad Duw rhwng y cerubiaid yn arwyddo ei bresenoldeb ef yn mhlith ei bobl, i'w hamddiffyn hwy, a chospi ou gelynyon.

Adn. 2. *Mawr yw yr Arglwydd yn Seion*] Yn ei eglwys, lle y mae efe yn eistedd fel Brenin; a *dyrchafedig yw efe goruwch yr holl bobloedd*—sef holl bobloedd y byd, y rhai a godant yn ei erbyn ef.

Adn. 3. *Moliannant dy enw mawr ac ofnadwy*] Boed i bawb, neu bydd i bawb ei foliannu a'i ofni ef; *canys santaidd yw*—yn gystal a mawr, ac am byny yn deilwng o gael ei foliannu. Y mae *Green* yn chwaegu yma, a *nerthol*, o'r adnod nesaf, yr hon a ddechreuir ganddo fel hyn: 'Y Brenin a hoffa farn.'

Adn. 4. *A nerth y Brenin a hoffa farn*] Fel pe dywedasai, Er fod nerth y Brenin yn anfeidrol, nid yw efe byth yn ei ddefnyddio i orthrynu ei ddeiliaid, eithr i wneyd cyfiawnder a thrugaredd â hwy. *Ti a sierhe'i uniondeb*—trwy roddi iddynt ddeddfan i'w llywodraethu yn wladol a chrefyddol: *barn a chyfiawnder a wnei di yn Jacob*—yn mysg

3 Moliannant dy enw mawr ac ofnadwy; *canys santaidd yw*.

4 A nerth y Brenin a hoffa farn: ti a sierhe'i uniondeb, barn a chyfiawnder a wnei di yn Jacob.

5 Dyrchefwch yr Arglwydd ein Duw, ac ymgrymwech o flaen ei ystôl draed ef: *canys santaidd yw*.

6 Moses ac Aaron yn mhlith ei offeiriaid ef; a Samuel yn mysg y rhai a alwant ar ei enw: galwasant ar yr Arglwydd, ac efe a'u gwrandawodd hwynt.

7 Llefarrowd wrthynt yn y golofn gwmwl; cadwasant ei dystiolaethau, a'r ddeddf a roddodd efe iddynt.

8 Gwrandewaist arnynt, O Ar-

dy bobl dy hun, y rhai, pan droseddont, a gospir genyt fel dynion ereill, adn. 8: gwel ar Heb. x. 30.

Adn. 5. *Dyrchefwch yr Arglwydd ein Duw*] Yn eich calonau, eich geiriau, a'ch gweithredoedd; *ac ymgrymwech o flaen ei ystôl draed ef*—sef o flaen yr arch neu y drugareddfa, (1 Cron. xxviii. 2.) uwelben pa un yr eisteddai efe rhwng y cerubiaid, adn. 1; *canys santaidd yw*—efe, sef Duw. Arferai yr Iuddewon, wrth addoli, droi eu gwynbeban tuag at yr arch, am mai uwelben hono yr oedd y SECINA santaidd, neu yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol.

Adn. 6. *Moses ac Aaron yn mhlith ei offeiriaid ef*] Neu 'gyda'i dywysogionef,' fel y gellir cyfieithu y wreiddiol, neu 'ei benaethiaid ef;' hyny yw, ei weinidogion penaf ac enwocaf. Modd bynag, gellir rhestru Moses yn mhlith yr offeiriaid, am ei fod o lwyth yr offeiriaid, ac wedi bod yn gweithredu fel offeiriad cyn neillduo Aaron: gwel ar Exod. xxiv. 8, a xxix. 25, 26. Yr oedd Moses ac Aaron hefyd yn *weddiwyr* taer a llwyddianus dros Israel wrthyrfelgar, yr hyn oedd yr achos penaf o grybwyll am danynt yma, fel y dangosir yn niwedd yr adnod. *A Samuel yn mysg y rhai a alwant ar ei enw*—yr oedd yntau hefyd yn *weddiwr* enwog yn ei amser ef: gwel ar I Sam. vii. 9, 10. *Galwasant ar yr Arglwydd*—lawer gwaith pan yr oedd efe yn bygwth llwyr ddiinystru Israel am e pechodau; *ac efe a'u gwrandawodd hwynt*—fel ag i arbed y genedl trwy eu heiriolaeth. Fel hyn y mae y Salmydd yn eu cymhell i wasanaethu, dyrchafu, ac addoli Duw, trwy siamplau tri o'r dynion enwocaf, y rhai a alwasant ar Dduw gyda llwyddiant mawr.

Adn. 7. *Llefarrowd wrthynt yn y golofn gwmwl*] Wrth Moses ac Aaron, ac wrth Israel trwyddynt hwy: *cadwasant ei dystiolaethau*, &c.—chwanegir hyn, i ddyysgu i Israel ac i ninan, na wrendy Duw weddïau neb ond y rhai a gadwant ei dystiolaethau a'i ddeddfau ef.

Adn. 8. *Gwrandewaist arnynt*] Sef ar y gweddiwyr a'r eiriolwyr uchod. *Duw odddi*

glwydd ein Duw: Duw oedd it yn eu harbed, i.e. pan ddieliet am eu dychymygion.

9 Dyrchefwch yr Arglwydd ein Duw, ac ymgyrwmch ar ei fynydd santaidd: canys santaidd yw yr Arglwydd ein Duw.

SALM C.

CENWCH yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear.

2 Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd: deuwch o'i flaen ef â chân.

3 Gwybyddwch mai yr Arglwydd

yn eu harbed—Saes., 'yn maddeu iddynt;' naill ai, (1) I Moses ac Aaron, y rhai a bechasant, ac y maddeuwyd eu pechodau, ond eto fel ag i'w cospi lwythau ág attaliad rhag myned i Ganaan; neu, yn lytrach, (2) I'r bobl, dros y rhai y gweddient hwy. *Ie, pan ddieliet am eu dychymygion*—neu tra yr oedd it yn eu cospi am eu pechodau. Er i Dduw eu cospi hwy yn drwm am eu grwnnachrwydd, eu cyndynrwydd, a'u hannahrediniaeth, eto ni chospodd efe hwynt mior drwm ag yr haeddasant; er iddynt gael eu cau allan o Ganaan, dichon na chauwyd hwynt oll allan o'r nef: o leiaf arbedwyd hwynt rhag cael eu llwyr ddiwreiddio fel cenedl, yr llyn a haeddasant hwy, ac a fygythiwyd yn fynych yn eu herbyn: gwel ar Exod. xxxii. 10—31, Deut. i. 35.

Adn. 9. *Dyrchefwch yr Arglwydd ein Duw*] Gwel ar adn. 5; ac ymgyrwmch ar ei fynydd santaidd—sef yn ei deml yn y dyddiau hyn, ac yn ei eglwys yn ein dyddiau ni: canys santaidd yw yr Arglwydd ein Duw—yn ei hanfod, ei briodoliaethau, a'i weithredoedd. Gan y dywedir hyn dair gwaith yn y Salm hon, (adn. 3, 5, 9,) tybia rhai fod y geiriau yn fath ar *gydgor* i'w ganu yn niwedd pob un o'r tair rhan.

SALM C. Y teitl yw, 'Salm o Foliant.' Hon yw yr unig Salm a elwir felly; a meddylir iddi gael yr enw hwn am ei bod yn dra chyfaddas, os nid wedi ei bwriadu, i'w chanu ar offrymiad yr 'byrth diolch.' gwel Lef. vii. 12. Tybia y LXX ddarfod ei chyfansoddi gan Dafydd, yr hwn a wahodda yma yr holl fyd i gydnwyo â'r Israeliadau yn ngwasanaeth Duw. Tybia Clarke ddarfod ei chyfansoddi ar ol y caethiweid; ond, fel y sylwa *Sutcliffe*, nid oes y sail leiaf i'r fath dyb.

Adn. 1. *Cenwch yn llafar i'r Arglwydd*] Hebr., *haru*, 'bloeddiwch, gorfoleddwch, llemwch o lawenydd;' yr holl ddaear—Juddewon a Chenhedloedd: gwel ar Salm xcvi. 4.

Adn. 2. *Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd*] Canys y mae ei grefydd ef wedi ei bwriadu i symud ymaith bob prudd-der o feddwl dyn, a gwneyd dynolryw yn ddedwydd: *deuwch o'i flaen ef â chân*—o foliant a diolch iddo,

sydd Dduw: efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain: ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa.

4 Ewch i mewn i'w byrth ef â diolch, ac i'w gynteddau â mawl: diolchwch iddo, a bendithiwch ei enw.

5 Canys da yw yr Arglwydd: ei drugaredd *sydd* yn dragrywydd; a'i wirionedd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

SALM CI.

CANAF am drugaredd a barn: i ti, Arglwydd, y canaf.

Adn. 3. *Gwybyddwch mai yr Arglwydd*] Mai JEMOFA, y Bôd digrëedig, hunan-fodol, annibynol, a thragywydd; *sydd Dduw*—yn unig; sef Duw mewn cyfammod â dyn, i'w hyfforddi, ei waredu, a'i wneyd yn dragrywyddol ddedwydd; neu, gwybyddwch mai efe yw unig wrthdrysych addoliad dynion ac angylion. *Efe a'ngwnaeth*—efe yw ein Creawdwr, ac am hyn y mae ganddo hawl yn ein gwasanaeth, i.e. yn holl alluoedd ein cyrif a'n benediciau; ac nid ni ein hunain—cawsom ein bodoliaeth nid oddiwrth ein rhieni, ond oddiwrth Dduw, yr Achos mawr cyntaf o bob peth; neu, 'a'i eiddo ef ydym,' fel y mae mewn rhai ysgriflyfrau a chyfieithiadau. *Ei bobl ef ydym*—neu 'ei ddielid ef,' yr hwn yw ein Brenin yn gystal a'n Duw; a *defaid ei borfa*—y rhai a borthir, a gynelir, ac a amddiffynir ganddo ef fel ein Bugail, Salm xxiii. 1. Ond tybia rhai fod y geiriau hyn yn cyfeirio at Israel yn unig, y rhai a wnaed gan Dduw yn bobl briodol iddo ei hun, heb ddim o'u gwaith na'u teilyngod hwy eu hunain; a'r rhai a borthir ganddo yn dymhorol ac ysbrydol.

Adn. 4. *Ewch i mewn i'w byrth ef â diolch*] Hebr., *bethodah*, 'âg aberth neu offrum cyffesiad;' ac i'w gynteddau â mawl—cenwch fawl yn gyhoeddus iddo yn ei deml am eich breintiau mawrion: *diolchwch iddo*—yn ddiffuant o'ch calon; *a bendithiwch ei enw*—am ei all ddaioni i chiwi; neu, fel y mae yn y Llyfr Gweddi Saesonig, 'dywedwch yn dda am ei enw.' Yn wir, nid oes gan neb ddim ond da i'w ddywedyd am Dduw a'i weithredoedd oll.

Adn. 5. *Canys da yw yr Arglwydd*] 'I bawb,' Salm cxlv. 9; *ei drugaredd sydd yn dragrywydd*—'ar ei holl weithredoedd,' fel fyfannon ddihsbydd yn estyn ei frydiau trwy amser i dragrywyddoldeb; *a'i wirionedd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth*—pa beth bynag a addawodd, efe a'i cyflawnna trwy holl genedlaethau olynol dyn.

SALM CI. Y teitl yw, 'Salm Dafydd;' ac y mae yr Hebraeg a'r holl hen gyfieithiadau yn ei phriodoli iddo ef. Cawn ynddi y penderfyniadau a fluriodd Dafydd ar ol dyfod i'r orsedd; ac y maent yn gyullun perffaith,

2 Byddaf ddeallus mewn ffordd berffaith. Pa bryd y deui ataf? rhodiaf mewn perfeithrwydd fy nghalon o fewn fy nhŷ.

3 Ni osodaf ddim anwir o flaen fy llygaid: cās genyf waith y rhai cildynus; ni lŷn wrthyf fi.

4 Calon gyndyn a gilia oddiwrthyf: nid adnabyddaf *ddyn* ddrygionus.

5 Toraf ymaith yr hwn a enllibio ei gymydog yn ddirgel: yr uchel o olwg, a'r balch ei galon, ni allaf ei ddyoddef.

6 Fy llygaid *fydd* ar ffyddloniaid

y tir, fel y trigont gyda mi: yr hwn a rodio mewn ffordd berffaith, hwnw a'm gwasanaetha i.

7 Ni thrig o fewn fy nhŷ yr un a wnelo dwyll: ni thrig yn fy ngolwg yr un a ddywedo gelwydd.

8 Yn fore y toraf ymaith holl annuwiolion y tir, i ddiwreiddio holl weithredwyr anwiredd o ddinas yr Arglwydd.

SALM CII.

A RGLWYDD, clyw fy ngweddi, a deled fy llef ataf.

yn ol pa un y dylai pob tywysog doeth reoliddio ei fuchedd a llywodraethu ei ddeiliaid.

Adn. 1. *Canaf am drugaredd a barnj Hyn yw, yn ol rhai, am drugaredd Duw iddo ei hun, ac am ei farn ar ei elynion: i ti, Arglwydd, y canaf*—fel gweinyddwr y naill a'r llall. Ond tybia ereill mai yr ystyr yw, Canaf am drugareddau a chroes-ragluniaethau, canys y mae y naill a'r llall wedi bod o'r lles mwyaf i mi. Neu, gan fod Dafydd yn awr wedi dechreu teyrnasu, gall mai yr ystyr yw, Y byddai iddo ddangos trugaredd a ffafir i'r rhai da yn mhlith ei ddeiliaid, a rhoddi barn neu gosp ar y rhai cyndyn a drwg, gan gymeryd dull Duw o ymddwyn at ddynion yn rheol iddo.

Adn. 2. *Byddaf ddeallus mewn ffordd berffaithj* Trefnaf fy materion fy hun, a materion fy nheyrnas, mewn doethineb a chyfiawnder. *Pa bryd y deui ataf*—i'm cynorthwyo i wneuthur hyn? *Rhodiaf mewn perfeithrwydd fy nghalon*—gan ymdrechu i ryngu bodd Duw a gogoneddu ei enw; *o fewn fy nhŷ*—yn fy nheulu, yn gystal ag yn y llys. Y mae llawer o ddynion o ymddygiad tra addas yn yr eglwys, ac hefyd yn y byd, ond heb fod felly yn eu tai eu hunain: y maent fel *wyn* yn mysg ereill, ond *gartref* y maent fel *cawen* neu *ddywalgun*!

Adn. 3. *Ni osodaf ddim anwir o flaen fy llygaidj* I'm hudo i bechod trwy ei chweunychu. Fe allai ei fod yn cyfeirio at ryfel-oedd anngyfiawn, cyfathrachau pechadurus, neu drethiadau gormodol i gynal rhwysg ei lys. *Cās genyf waith y rhai cildynus*—Saes., 'y rhai a droant draw,' neu o'r neilldu, oddiwrth Dduw, ei gyfraith, a'i grefydd. *Ni lŷn wrthyf fi*—hyn yw, ni lŷn y fath weithred, na'r fath weithredwyr: ni chânt gefnog-aeth, na swydd, na ffafir genyf fi.

Adn. 4. *Calon gyndynj* Neu ddyn o feddwl llygredig a buchedd annuwiol; *a gilia oddiwrthyf*—tel un yn ffeiddio ei ffyrdd; neu a droir allan o'm llys, rhag iddo lygru ereill: *nid adnabyddaf ddyn drygionus*—ni chymradwyaf ef, neu ni roddaf swydd iddo danaf.

Adn. 5. *Toraf ymaithj* O'm teulu ac o'm llys, yr hwn a enllibio ei gymydog yn ddirgel—i'w ddyrchafu ei hun trwy ddarostwng ereill,

neu i geisio ennill fy ffafir i trwy gyhuddo ei gydweision. *Yr uchel o olwg, a'r balch ei galon*—y rhai a feddyliant yn fawr am danynt eu hunain, ac a edrychant yn wael ar ereill; neu yr hwn a garo hunan-ddyrchafiad yn fwy na lles y deyrnas; *ni allaf ei ddyoddef*—yn fy ngwasanaeth, nac yn agos ataf.

Adn. 6. *Fy llygaid fydd ar ffyddloniaid y tirj* Mi a edrychaf am ddynion ffyddlon, cywir, a duwiol; *fel y trigont gyda mi*—yn ngwasanaeth fy llys a'm teyrnas. *Yr hwn a rodio mewn ffordd berffaith*—yn ffordd gorchymynion Duw; *hwnw a'm gwasanaetha i*—yn fy nhŷ, fy llys, a'm byddin.

Adn. 7. *Ni thrig o fewn fy nhŷ yr un a wnelo dwyllj* Pa un bynag ai gwas ai morwyn; *ni thrig yn fy ngolwg yr un a ddywedo gelwydd*—cyn belled ag y deallaf ei fod yn dwylodrus a chelwyddog. Dywedir am *Tiberias*, ei fod yn cefnogi gweieithwyr yn ei lys; ond cawn hanes i *Titus* losgi rhai, alltudio ereill, a gwerthu y lleill yn gaethweision.

Adn. 8. *Yn fore y toraf ymaith holl annuwiolion y tirj* Byddi mi ymafyd yn y cyfleusdra cyntaf i gopsi y troseddwr trwy yr holl deyrnas, yn oleu baeddiant; *i ddiwreiddio holl weithredwyr anwiredd o ddinas yr Arglwydd*—ymdrechaf hyd yr eithaf i buro yr holl wlad, ac yn enwedig fy nhŷ a'm llys fy hun, a dinas a theml yr Arglwydd. Yr eglwys yw dinas yr Arglwydd yn awr; ac yr oedd Dafydd yn y pethau hyn yn gysgod o Grist, yr hwn a burodd y deml, (Mat. xxi. 12, 13,) ac a lanha ei eglwys yn y man oddiwrth holl weithredwyr anwiredd.

SALM CII. Y teitl yw, '*Gweddi y cystuddiedig, pan fyddo mewn blinder, ac yn tywallt ei gwŷn gerbron yr Arglwydd.*' Felly y mae yn yr *Hebraeg*, ac yn y rhan fwyaf o'r cyfeithiadau. Bernir yn gyffredin mai gweddi y caethioun yn Babilon yw y Salm hon, pan yr oeddylnt, tua diwedd eu caethiwed, bron wedi eu treulio ymaith gan orthrymder, creulondeb, a chyfyngder. Pridolwyd hi i *Daniel, Jeremiah, Nehemiah*, neu i un o'r *proffwydi* ereill a flodeuent yn ystod y caethiwed. Y mae awdwr yr Epistol at yr Hebraid

2 Na chudd dy wyneb oddiwrth yf yn nydd fy nghyfyngder, gostwng dy glust ataf: yn y dydd y galwyf, bryisia, gwranddo fi.

3 Canys fy nyddiau a ddarfuant fel mwg, a'm hesgryn a boethasant fel aelwyd.

4 Fy nghalon a darawyd, ac a wywodd fel llysiuyn; fel yr anghofiais fwyta fy mara.

5 Gan lais fy nhuchan y glynodd fy esgryn wrth fy nghnawd.

6 Tebyg wyf i belican yr anialwch: ydwyf fel dallhuan y diffaethwch.

7 Gwyliais, ac ydwyf fel aderyn y tô, unig ar ben y ty.

8 Fy ngelynion a'm gwaradwydd-

ant beunydd: y rhai a ynfydant wrth yf, a dyngasant yn fy erbyn.

9 Canys bwyteais ludw fel bara, a chymysgais fy niod âg wylomain;

10 O herwydd dy lid di a'th ddogofaint: canys codaist fi i fyny, a theflaist fi i lawr.

11 Fy nyddiau sydd fel cysgod yn cilio; a minau fel glaswelltyn a wywais.

12 Tithau, Arglwydd, a barhei yn dragwyddol, a'th goffadwriaeth hyd genhedlaeth a chenedlaeth.

13 Ti a gyfodi, ac a drugarhei wrth Seion: canys yr amser i drugarhau wrthi, ie, yr amser nodedig, a ddaeth.

yn cymhwyso adn. 25—27 at ein Harglwydd, a pharhad ei deyrnas ef: gwel ar Heb. i. 10—12.

Adn. 1. *Arglwydd, clyw fy ngweddi*] Yn fy nghystudd presenol; a *deled fy llef ataf*—i'th glustiau trugarog. Fel hyn efe a weddia am wrandawid i'w weddi.

Adn. 2. *Na chudd dy wyneb oddiwrth yf yn nydd fy nghyfyngder*] Canys yr oedd y Salmwydd ei hun, a'r Iuddewon fel cenedl ac eglwys, y rhai y mae efe yma yn eu personoli, mewn cyfyngder mawr y pryd hyn: *gostwng dy glust ataf*—i wrando fy nghŵyn: *yn y dydd y galwyf, bryisia, gwranddo fi*—rhag y derydd am danaf tra y byddot yn oedi.

Adn. 3. *Canys fy nyddiau a ddarfuant fel mwg*] Hebr., 'yn fwg'; a'm hesgryn a boethasant fel aelwyd—gan angerdd dy lid a'th ddogofaint di, adn. 10; neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'fel pentewyn neu danwydd.'

Adn. 4. *Fy nghalon a darawyd, ac a wywodd fel llysiuyn*] Cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth wair yn cael ei daraw â'r bladur, ac yna ei adael i wywo yn ngwres yr hanl. Fel hyn tarawyd yr Iuddewon gan farn Duw, ac yr oeddynt yn awr yn gwywo dan law y Caldeaid. *Fel yr anghofiais fwyta fy mara*—nid oedd ganddynt hamdden i feddwl am fwyd, nac archwaeth ato gan eu dirfawr ofid.

Adn. 5. *Gan lais fy nhuchan*] Saes., 'fy ngriddfaniad,' y *glynodd fy esgryn wrth fy nghnawd*—Saes., 'wrth fy nghroen,' trwy fod eucnawd wedi curio ymaith gan eu gofid.

Adn. 6. *Tebyg wyf i belican yr anialwch*] Mewn cyflwr o unigedd; *ydwyf fel dallhuan y diffaethwch*—heb neb i gyfeillachu â mi.

Adn. 7. *Gwyliais*] Y nosweithiau, heb allu cysgn gan fy ngofid; *ac ydwyf fel aderyn y tô*—mewn cyflwr o anhunedd, unigedd, ac anedwyddwch. Yr oedd yr adar hyn yn dra adnabyddus yn y gwledydd hyn, er fod gwahanol farnau am danynt yn ein gwlad ni: gwel ar Lef. xi. 17, 18.

Adn. 8. *Fy ngelynion a'm gwaradwyddant beunydd*] Yr oedd y Caldeaid yn gwaradwyddo yr Iuddewon ar gyfrif eu crefydd a'u

harferion, yn gystal a'u darostyngiad, Salm xlii. 3, &c. *Y rhai a ynfydant wrth yf*—mewn gwallgofrwydd gelyniaethus; a *dyngasant yn fy erbyn*—rhwymasant eu hunain â dioffryd neu law, y lladdent rai o honom ni: gwel aebos cyffelyb, Act. xxiii. 12—14.

Adn. 9. *Canys bwyteais ludw fel bara*] Arferai yr Iuddewon, yn eu galar, daenu ludw ar eu penan, ac ymgreinio yn y lludw, nes yr oedd yn ymgyngysgu â'u bwyd; neu yr oeddynt mor amlued yn y lludw ag wrth eu prydiau bwyd; neu ni chaent ddim blas ar eu bwyd mwy na phe buasai ludw: a *chymysgais fy niod âg wylomain*—trwy fod ein dagrau yn disgyn i'n cwpanau pan yfem.

Adn. 10. *O herwydd dy lid di a'th ddogofaint*] Yr hwn a dywalltwyd arnom yn gyfiawn am ein heilunaddoliaeth a'n drygioni: *canys codaist fi i fyny*—yr oeddym unwaith fel cenedl yn uchel yn dy ffafir; a *theflaist fi i lawr*—yn is na holl genhedloedd y ddaear. Y mae yma gyfeiriad at waith dyn yn codi unrhyw beth yn uchel, fel y gallo ei fwrw i lawr gyda mwy o rym.

Adn. 11. *Fy nyddiau sydd fel cysgod yn cilio*] Sef cysgod bys y ddael fe allai, yr hwn a ddiffnara ar gyfodiad cwmwl, neu ar facludiad yr haul; a *minau fel glaswelltyn a wywais*—heb ynof degwch, nerth, na bywyd.

Adn. 12. *Tithau, Arglwydd, a barhei yn dragwyddol*] Er i ni wywo a chilio ymaith; *a'th goffadwriaeth hyd genhedlaeth a chenedlaeth*—cofir am danat yn barchus ar y ddaear hyd ddiwedd y byd, ac wedi hyny byth yn y nef; a choffi dithau am dy bobl gyfammodol yn dragwyddol.

Adn. 13. *Ti a gyfodi*] Fel gŵr o gysgu; *ac a drugarhei wrth Seion*—sef wrth Jerusalem, a'r deml a fnasai yno, ac wrth dy eglwys a'th bobl: *canys yr amser i drugarhau wrthi*—yn ol arfaeth neu fwrriad Duw; *ie, yr amser nodedig, a ddaeth*—sef diwedd y deng mlynedd a thringain, pryd yr oedd yr Iuddewon i gael eu rhyddhau o'u caethiwed, yn ol gair yr Arglwydd trwy enau Jeremiah: gwel ar 2 Cron. xxxvi. 21, Jer. xxix. 10.

14 Oblegid y mae dy weision yn hoffi ei meini, ac yn tosturio wrth ei llwch hi.

15 Felly y cenhedloedd a ofnant cnw yr Arglwydd, a holl frenhinoedd y ddaear dy ogoniant.

16 Pan adeilado yr Arglwydd Seion, y gwelir ef yn ei ogoniant.

17 Efe a edrych ar weddi y gwael, ac ni ddiystyrodd eu dymuniad.

18 Hyn a ysgrifenis i'r genhedlaeth a ddol: a'r bobl a grëir a foliannant yr Arglwydd.

19 Canys efe a edrychodd o uchelder ei gysegr: yr Arglwydd a edrychodd o'r nefoedd ar y ddaear;

20 I wrandaw uchenaid y carcharorion; ac i ryddhau plant angau;

21 I fynegu enw yr Arglwydd yn Seion, a'i foliant yn Jerusalem:

22 Pan gasgler y bobl yn nghyd, a'r teyrnasoedd i wasanaethu yr Arglwydd.

23 Gostyngodd efe fy nerth ar y ffordd; byrhaodd fy nyddiau.

24 Dywedais, Fy Nuw, na chymer fi ymaith yn nghanol fy nyddiau: dy flynyddoedd di sydd yn oesoesoedd.

25 Yn y dechread y seiliaist y ddaear; a'r nefoedd ydynt waith dy ddwyllaw.

26 Hwyl ddarfyddant, a thi a barhei: ie, hwy oll a henciddiant fel dilledyn; fel gwisg y newidi hwynt, a hwy a newidir.

Adn. 14. *Oblegid y mae dy weision*] Y rhai duwiolaf o'r Iuddewon; *yn hoffi ei meini*—sef meini Jerusalem a'r deml, y rhai oedd-ynt yn awr yn garneddau; *ac yn tosturio wrth ei llwch hi*—neu ei hadfeillion.

Adn. 15. *Felly y cenhedloedd a ofnant cnw yr Arglwydd*] Wrth weled yr Iuddewon yn cael eu dwyn ganddo i'w gwlad eu hunain, a theml Jehofa yn cael ei hadeiladu o'r newydd; *a holl frenhinoedd y ddaear dy ogoniant*—sef gogoniant Jehofa, yr hwn a amlygid yn hyn oll, adn. 16.

Adn. 16. *Pan adeilado yr Arglwydd Seion*] Priodolir hyn y Dduw, am fod ei law ef gyda'r adeiladwyr mewn modd amlwg a rhyfedd; *y gwelir ef yn ei ogoniant*—amlygir y pryd hyny ei fodaeth a'i briodoliaethau gogoneddus yn y modd egluraf; neu dadlenir ei allu, ei ddoebineb, a'i ddaioni yn y modd llawnaf, nid yn unig yn ngolwg yr Iuddewon, ond yn ngolwg y cenhedloedd hefyd, adn. 15. Neu, fel y mae y LXX yn ei ddarllen, 'Y gwelir hi yn ei gogoniant.'

Adn. 17. *Efe a edrych ar weddi y gwael*] Ei bobl wael a dirmygedig yn Babilon; *ac ni ddiystyrodd eu dymuniad*—ond rhoddodd iddynt eu cais.

Adn. 18. *Hyn a ysgrifenis i'r genhedlaeth a ddol*] Sef parodwyrdd yr Arglwydd i wrando ar weddi y gwael, ac i roddi iddynt eu dymuniad, trwy eu gwaredu o'u caethiwed, a'u dwyn yn ol i Seion: *a'r bobl a grëir*—neu a enir ar ol hyn, *a foliannant yr Arglwydd*—am ei rhyfedd ddaioni i'w tadau, neu iddynt hwy eu hunain. Tybia rhai fod yma gyfeiriant at y rhai a grëid o'r newydd yn Nghrist Iesu hyd ddiwedd y byd, neu at alwad y Cenhedloedd.

Adn. 19. *Canys efe a edrychodd o uchelder ei gysegr*] Sef o'r nefoedd; *ar y ddaear*—sef ar drigolion y ddaear.

Adn. 20. *I wrandaw uchenaid y carcharorion*] Sef uchenaid yr Iuddewon yn Babilon; *ac i ryddhau plant angau*—y rhai a ddyfarnwyd i angau. Meddylir fod llawer o'r Iuddewon yn cael eu rhoddi i farwolaeth yno, o bryd i bryd, ar yr esgus lleiaf.

Adn. 21. *I fynegu enw yr Arglwydd yn Seion*] Sef yn y deml yn Jerusalem, trwy ei addoli a'i foliannu ef yno.

Adn. 22. *Pan gasgler y bobl yn nghyd*] Sef yr Iuddewon i'w gwlad eu hunain; *a'r teyrnasoedd i wasanaethu yr Arglwydd*—sef yr Arglwydd Iesu. Felly yr oedd gan y Salmwydd yn yr adnodau hyn olwg ar alwad y Cenhedloedd dan deyrnasiad y Messia, yn gystal ag ar waredigaeth yr Iuddewon o Babilon.

Adn. 23. *Gostyngodd efe*] Sef Duw, *fy nerth ar y ffordd*—nerth y Salmwydd ei hun, yn ol rhai; neu nerth y genhedlaeth hono, yn enw pa un y llefara efe: *byrhaodd fy nyddiau*—fel yr ofnai na chai efe ei hun fyw i gyraedd i Jerusalem, i fyw'nghau y waredigaeth a'r breintiau ag y cyfeiriwyd atynt uchod.

Adn. 24. *Dywedais*] Wrth Dduw, mewn gweddi daer a gwresog; *Fy Nuw*—yr hwn wyt mewn cyfammod â mi, ac a ddechreuist ein gwaredu; *na chymer fi ymaith yn nghanol fy nyddiau*—eithr gad i mi gael byw i weled gorpheniad y waredigaeth hon. Fe allai fod y Salmwydd wedi cael ei daro yn glaf ar y ffordd tua Jerusalem, neu ynte yr oedd ei nerth wedi gwywo gan orthrymder y Babiloniaid. *Dy flynyddoedd di sydd yn oesoesoedd*—fel pe dywedasai, Os na chawn ni fyw i weled daioni Jerusalem, byddi di byw i roddi y fraint hon i 'blant dy weision,' adn. 28.

Adn. 25. *Yn y dechread y seiliaist y ddaear*] Fel adeilad ardderchog; *a'r nefoedd ydynt waith dy ddwyllaw*—sef y nef wrybrenol, y nef serenog, a nef y gogoniant. Y mae TRAGWYDDOLIAETH Duw yn edrych yn ol ac yn mlaen, gan ei fod yn ddidechre yn gystal ag yn ddiidiwedd. Cadarnheir yr olaf yn adn. 24, 26, 27, a'r blaenaf yn yr adnod hon. Fel pe dywedasai, Yr oeddit ti yn bodoli yn nhragwyddoldeb cyn creu daear na nefoedd, a rhoddaist ddechread iddynt hwy trwy dy nerth hollallnog dy hun. Y mae yr apostol yn dywedyd hyn oll am Crist, i brofi ei Dduwdod yntau: gwel ar Heb. i. 10—12.

Adn. 26. *Hwyl ddarfyddant*] Sef y ddaear a'r nef serenog. Arwydda hyn naill ai,

27 Tithau, yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni ddarfyddant.

28 Plant dy weision a barhant, a'u had a sierheir ger dy fron di.

SALM CIII.

FY enaid, bendithia yr Arglwydd; a chwbl sydd ynof, ei enw sant-aidd ef.

2 Fy enaid, bendithia yr Arglwydd; ac nac anghofia ei holl ddoniau ef.

3 Yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau; yr hwn sydd yn iachâu dy holl lesgedd;

4 Yr hwn sydd yn gwaredu dy fywyd o ddystryw: yr hwn sydd yn dy goroni â thrugaredd ac â thosturi:

5 Yr hwn sydd yn diwallu dy enau â daioni; fel yr adnewyddir dy ieuenticid fel yr eryr.

6 Yr Arglwydd sydd yn gwneuthur cyfiawnder a barn i'r rhai gor-thrymedig oll.

(1) En bod o natur ddarfyddol yn dynt eu hunain, oddieithr iddynt gael en cynnal mewn bod gan allu Duw; neu ynte, (2) Y newidir hwynt ar ol hyn o ran en dyben, os nid o ran eu defnydd, eu deddfau, a'u dull hefyd. Dichon y troir y belen ddaearol, trwy gyflogiad nerthol dydd y farn, yn gorff grisialaidd dysglgar, nen ynte yn belen o dân; ac na fydd i'r haal a'r lloer, ar ol y dydd hwnw, wasgaru golenni a gwres i'r ddaear, na gweithredu trwy ddeddfau atyniad, fel y gwnant yn awr. Eithir y pethau hyn a ddeallwn yn well y pryd hyny. *A thi a barhei*—vn ddigynfnewid, yn eystal ag yn ddiddarfod. *Ie, hwy oll a heneiddiant fel dilledyn*—yr hwn yn mhen amser y bydd angen am ei newid. *Fel quisg y newidi hwynt*—felly nid darfod a wnant, yn ol ein hystyr ni o'r gair, eithr cael eu newid; a *hwy a newidir*—i 'nefoedd newydd a daear newydd,' 2 Petr iii. 13. Fe allai mai y geiriau hyn yw yr adnewid ag y cyfeiria yr apostol ati yno.

Adn. 27. *Tithau, yr un ydwyt* [Heb ddarfod, heneiddio, na newid; a'th flynyddoedd ni ddarfyddant—dros holl oesoedd tragwyddoldeb. Y mae yn gysur i ni feddlw fod holl addewidion Duw yr un mor ddiddarfod a'i natur ef: 'Nef a daear a ânt heibio, eithr fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim,' Mat. xxiv. 35.

Adn. 28. *Plant dy weision a barhant* [I fyw yn Nghanaan, neu i wasanaethu yr Arglwydd yn Seion, ar ol i'w tadau fyned i'r bedd; a'u had a sierheir ger dy fron di—i fwynhau dy bresenoldeb yn Seion ar y ddaear, ac wedi hyn yn y nef am byth.

SALM CIII. Y teitl yw, 'Salm Dafydd;' ac felly y gelwir hi vn yr *Hebraeg*, ac yn yr holl gyfieithiadau. *Tybia Delaney* i Dafydd ei chyfansoddi ar ol cael ei adferwyd o ryw gystudd trwm. Cynwysa gydnabyddiad diolchgar o drugareddau mawrion a lluosog Duw, yn enwedig ei waith yn maddeu ei bechodan ef, ac yn gwaredu ei fywyd o ddystryw. Gellir dywedyd yn briodol fod y Salm hon yn ddarluniad o ryfeddodau gras, fel y mae yr un ganlynol yn ddarluniad o ryfeddodau natur. Y mae Dafydd yn diweddu y Salm hon trwy elw ar y nefoedd a'r ddaear i gyduno âg ef i fendithio Duw.

Adn. 1. *Fy enaid, bendithia yr Arglwydd* [Am ei holl ddaioni a'i drugareddau i ti; a

chwbl sydd ynof—holl alluoedd a chyneddffau ei enaid a'i gorff. Nid oedd gwasanaeth ei wefusau yn ddigon ganddo, eithr cynhella ei enaid a'i galon i fendithio, clodfori, a chanmol yr Arglwydd am ei ddaioni a'i ras.

Adn. 2. *Fy enaid, bendithia yr Arglwydd* [Ymae y Salm ydd yma yn dyblu ei gymbelliaid, i ddihibo ei enaid yn drwyallt ef y gwaith; ac nac anghofia ei holl doniau ef—y rhai a enwir isod. Y mae y goffadwriaeth o drugareddau yr Arglwydd i ni yn bywiogi ein heneidiau i ddiolch yn wresog iddo am danynt; tra y mae anghof neu anystyriaeth o honynt yn gwneud ein holl ddybwyd yn oeraidd a marwaid.

Adn. 3. *Yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau* [Crvbwyllir y fendith fawr o faddauent neu gyfiawnder yn mlaenaf, nid yn unig am ei bod yn werthfawr iawn yn ngolwg Dafydd, ond yn benaf am ei bod yn diogelu iddo ef bob bendith arall wr angenrheidiol. *Yr hwn sydd yn iachâu dy holl lesgedd*—Saes, 'dy holl glefyddau,' yn cynwys ond oddid afiechyd ei gorff a'i enaid. Llygredd ein natur yw afiechyd yr enaid, yr hwn, os na symudir ef, a ddiwedda yn yr ail farwolaeth. Iachêir hwn trwy santeiddiad yr Ysbryd Glân yn unig; ac i'r graddan ag y byddo pechod yn cael ei farweiddio ynom, y bydd yr afiechyd ysbrydol hwn vn cael ei iachâu. Y mae y ddywy fendith fawr hyn, maddeuant a santeiddhad, yn cydfyned; o leiaf, y mae gradd o'r olaf bob amser yn dylun y flaenaf. Pan y mae Duw yn symud ymaith euogrwedd pechod trwy faddauent, y mae efe hefyd yn lladd erym ei halogrwedd ef trwy adnewyddiad yr Ysbryd Glân.

Adn. 4. *Yr hwn sydd yn gwaredu dy enaid o ddystryw* [Neu o'r bedd, trwy iddo ei iachâu ef yn ddiweddar; ac yn gwaredu ei enaid rhag uffern, trwy ei gyfiawnder a'i santeiddio ef. *Yr hwn sydd yn dy goroni â thrugaredd ac â thosturi*—neu yn dy amgylchynu ac yn dy addurno â hwy fel â choron.

Adn. 5. *Yr hwn sydd yn diwallu dy enau â daioni* [A bydd a diod i gynal ac adfywio y corff; fel yr adnewyddir dy ieuenticid fel yr eryr—fel ag i'th wneuthur yn gryf, iach, a bywiog fel yr eryr. Dywedir fod yr eryr, pryd oddentu can mlwydd oed, yn colli ei holl blyf, ac yn myned mor noeth a phan y daeth

7 Hysbysodd ei ffyrdd i Moses; ei weithredoedd i feibion Israel.

8 Trugarog a graslawn yw yr Arglwydd; hwyrffrydig i lid, a mawr o drugarogrwydd.

9 Nid byth yr ymryson efe: ac nid byth y ceidw efe ei ddigofaint.

10 Nid yn ol ein pechodau y gwnaeth efe â ni; ac nid yn ol ein hanwireddau y talodd efe i ni.

11 Canys cyfuwch ag yw y nefoedd uwchlaw y ddaear, y rhagorodd ei drugaredd ef ar y rhai a'i hofnant ef.

12 Cyn belled ag yw y dwyrain oddiwrth y gorllewin, y pellhaodd

efe ein camweddau oddiwrthym.

13 Felly y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.

14 Canys efe a edwyn ein defnydd ni: cofia mai llwch ydym.

15 Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn: megys blodeuyn y maes, felly y blodeua efe.

16 Canys y gwynt a â drosto, ac ni bydd mwy o hono; a'i le nid edwyn ddim o hono ef mwy.

17 Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ar y rhai a'i hofnant ef; a'i gyfiawnder i blant eu plant;

allan o'r wy; ac yna fod plyf newyddion yn ail dyfu drosto.

Adn. 6. *Yr Arglwydd sydd yn gwneuthur cyfiawnder a barn*] Neu uniondeb a thrugaredd; *i'r rhai gorthrymedig oll*—yn lle eu gorthrymu yn fwy, fel y gwna rhai penaethiaid daearol, efe a'u cynal ac a'u hamgeledda hwyt.

Adn. 7. *Hysbysodd ei ffyrdd i Moses*] Sef ei ffyrdd ef o ymddwyn at ddyinion, neu y ffyrdd ag y mynai efe i ddyinion rodio ynddynt; neu ynte ei 'ddeddfau,' yn foesol, seremonïol, a gwladol: *ei weithredoedd i feibion Israel*—sef ei waredigaethau iddynt, a'i gyfyngiadan ar eu rhan.

Adn. 8. *Trugarog a graslawn yw yr Arglwydd, &c.*] Gwel ar Exod. xxxiv. 6.

Adn. 9. *Nid byth yr ymryson efe*] Yn ei farnedigaethau â dnyion; *ac nid byth y ceidw efe ei ddigofaint*—am fod yn hoff ganddo drugarhau, 'Mica vii. 18. Y mae yn wir tod ynddo ef ddigofaint cyfiawn yn erbyn y pechadur cyndyn; ond cyn gynted ag y dychwelo hwn yn edifeiriol i geisio trugaredd trwy Grist, efe a ddywed wrtho yn y fan, 'Nid oes lidioerwydd yno!' Essay xxvii. 4.

Adn. 10. *Nid yn ol ein pechodau y gwnaeth efe â ni*] Sef â chenedl Israel o oes i oes, ac yn enwedig â'r 'rhai a'i hofnent ef,' adn. 11; *ac nid yn ol ein hanwireddau y talodd efe i ni*—y mae yn wir iddo eu ceryddu yn fynych am eu pechodau a'u hanwireddau, ond nid i'r graddau ag yr baeddasant hwy: ac felly y gall y dyn mwyaf adfyddus tu yma i uffern ddywed eto.

Adn. 11. *Canys cyfuwch ag yw y nefoedd uwchlaw y ddaear*] Pellder nas gall neb ei amgylfred ond Duw ei hun; *y rhagorodd ei drugaredd ef*—yr hon sydd yn llenwi yr holl wagle a'r pellder hwnw, ac yn cyraedd o'r nefoedd uchod i'r ddaear isod; *ar y rhai a'i hofnant ef*—chwanegir hyn, yma ac yn adn. 13, 17, rhag i bechadur anedifeiriol dynu cam-gasgliad oddiwrth drugaredd Duw, a meddwl fod hawl ganddo ef ynddi: gwel ar adn. 18.

Adn. 12. *Cyn belled ag yw y dwyrain oddiwrth y gorllewin*] Pegytau ag sydd yn aros byth yn y pellder mwyaf oddiwrth eu gilydd;

y pellhaodd efe ein camweddau oddiwrthym—trwy faddenant llawn a thrugwyddol o bonnyt.

Adn. 13. *Felly y tosturia tad wrth ei blant*] Sef wrth rai ufydd i'w orchymynion, neu edifeiriol am eu troseddau, a fyddont mewn rhyw dralloed nen enbydrwydd; *felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef*—ac yn llawer mwy. Gwel brawf o hyn yn ymddygiad tad yr afradlon, Luc xvi. 20—32.

Adn. 14. *Canys efe a edwyn ein defnydd ni*] Sef gwendid a breuolder ein natur, yn gystal a thrueni ein cyflwr; *cofia mai llwch ydym*—ac na allwn ddal dan ei ddyrnod ef. Dyma y rheswm ei fod ef yn tosturio wrthym fel tad trugarog, ac yn ein harbed mor dyner.

Adn. 15. *Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn*] Yn tyfu allan o'r ddaear, heb ymddyrchafu fawr uwchlaw ei gwyneb hi, ac yn ebrwydd yn gwywo, ac yn syrthio yn ol iddi; *megys blodeuyn y maes*—yr hwn sydd yn fwy agored i gael ei niweidio gan wyntoedd, neu ei fathru dan draed, na blodeuyn a fyddo mewn gardd, neu mewn llestr yn y tŷ; *felly y blodeua efe*—yn iraidd a hardd dros ychydig amser yn unig: gwel ar Salm xc. 5, 6, Essay xl. 6, 7.

Adn. 16. *Canys y gwynt a â drosto*] Rhyw boethwng deifol tra chyffredin yn y dwyrain; *ac ni bydd mwy o hono*—dan ddyllanawd hwnw 'gwywodd y welltyn, a'i flodeuyn a gwympodd, a thegwech ei bryd ef a gollodd,' Iago i. 11; *a'i le nid edwyn ddim o hono ef mwy*—ni bydd yno yn mhen ychydig un arwydd fod y fath flodeuyn wedi bod yno erioed. Yr un modd y mae gyda dyn brau a marwol: gwel ar Job vii. 10, a xx. 9.

Adn. 17. *Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb*] Yn y bwriad o honi; *hyd dragwyddoldeb*—yn y cyflawniad o honi; *ar y rhai a'i hofnant ef*—gwel ar adn. 11: *a'i gyfiawnder i blant eu plant*—sef i'r 'rhai a'i carant, ac a gadwant ei orchymynion,' Exod. xx. 6. Gelwir trugaredd yn *gyfiawnder* yma, am fod Duw wedi mwrwmo mewn addewid i drugarhau wrth y cyfryw. Felly y mae trugaredd nid yn unig yn weithred o radlonrwydd, ond hefyd yn weithred o gyfiawnder a ffyddlondeb graslawn.

18 I'r sawl a gadwant ei gyfammod ef, ac a gofiant ei orchymynion i'w gwneuthur.

19 Yr Arglwydd a barotôdd ei orseddfa yn y nefoedd: a'i frenhiniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth.

20 Bendithiwech yr Arglwydd, ei angylion ef, cedryn o nerth, yn gwneuthur ei air ef, gan wrandaw ar leferydd ei air ef.

21 Bendithiwech yr Arglwydd, ei holl luoedd ef; ei holl weision yn gwneuthur ei ewylls ef.

22 Bendithiwech yr Arglwydd, ei holl weithredoedd ef, yn mhob man

o'i lywodraeth. Fy enaid, bendithia yr Arglwydd.

SALM CIV.

FY enaid, bendithia yr Arglwydd. O Arglwydd fy Nuw, tra mawr ydwyf; gwisgaist ogoniant a harddwch.

2 Yr hwn wyt yn gwisgo goleuni fel dilledyn: ac yn taenu y nefoedd fel llen.

3 Yr hwn sydd yn gosod tylathau ei ystafelloedd yn y dyfroedd; yn gwneuthur y cymylau yn gerbyddo; ac yn rhodio ar adenydd y gwynt.

Adn. 18. *I'r sawl a gadwant ei gyfammod ef*] Sef ammodau ei gyfammod, trwy ei garu ac ufyddhan iddo; *ac a gofiant ei orchymynion i'w gwneuthur*—y rhai a fyfyrant yn ei gyfraith ef, i'r dyben i ufyddhau iddi mewn gweithred. Dywedir hyn i rybyddio yr Israeliaid rhag gorphwys yn ormodol ar y cyfammod a wnaed a'u rhieni, na dysgwyl lles oddiwroth, heb iddynt barhau yn fyddlon eu hnnain yn nghyfammod Duw.

Adn. 19. *Yr Arglwydd a barotôdd ei orseddfa yn y nefoedd*] Ymadrodd yn dynodi rhagoroldeb, gogoniant, awurdod, a sefydlogrwydd ei orsedd ef; *a'i frenhiniasth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth*—yn y nefoedd ac ar y ddaear.

Adn. 20. *Bendithiwech yr Arglwydd, ei angylion ef*] Y rhai, er eu bod yn fodau gogoneddus, nid ydynt ond ei weinidogion a'i genhadon ef; *cedryn o nerth*—cawn brawf o nerth un o honynt yn 2 Bren. xix. 35; *yn gwneuthur ei air ef*—bob amser gyda'r parod rwydd mwyaf; *gan wrandaw ar leferydd ei air ef*—neu ddisgwyl yn awyddus am orchymyn ganddo. Bendithiwech ef am eich creu yn fodau mor ogoneddus a nerthol, ac am eich cynal yn eich cyflwr creadigol.

Adn. 21. *Bendithiwech yr Arglwydd, ei holl luoedd ef*] Sef bob gradd o angylion trwy yr holl nefoedd; *ei holl weision yn gwneuthur ei ewylls ef*—neu, 'y rhai sydd yn gwneuthur ei ewylls ef.' Neu gall mai y *gwaredigion* o blith dynolryw a feddylir yma, y rhai sydd yn gwneuthur ewylls Duw yn y nefoedd, fel y gwnaent hi gynt ar y ddaear. Ond tybia rhai mai aelodau yr eglwys filwriaethus ar y ddaear a olygir yma wrth ei luoedd ef, ac mai gweinidogion y gair a feddylir wrth ei weision.

Adn. 22. *Bendithiwech yr Arglwydd, ei holl weithredoedd ef*] Yn fywydol a difwyd; neu bob bôd a grewyd, a brynwyd, neu a gynelir gan ei allu a'i ddaionion ef; *yn mhob man o'i lywodraeth*—trwy nef a ddaear. *Fy enaid, bendithia yr Arglwydd*—bendithia di ef, pwy bynag a beidio. Fel hyn y mae Dafydd yn ddiweddu y Salm hon yn yr un geiriau ag y dechreuodd hi.

SALM CIV. Nid oes un teitl i'r Salm hon yn yr *Hebraeg* na'r *Galdeae*; ond priodolir hi i *Dafydd* gan y LXX, y *Vulgate*, yr *Ethiopaeg*, y *Syriaeg*, a'r *Arabaeg*. Mewn rhai ailunau o'r LXX gelwir hi 'Salm Dafydd yn nghylch creadigaeth y byd.' Y *Syriaeg* a'i geillw, 'Salm Dafydd pryd yr aeth efe gyda'r offeiriad i addoli yr Arglwydd o flaen yr arch.' Tybia rhai ei bod yn barhad o'r Salm flaenorol; ac y mae wedi ei hysgrifenu fel rhan o honi mewn naw o ysgriflyfrau *KenNICOTT* a *De Rossi*. Y mae yn briodol, fel y sylwa *Clarke*, yn bryddest ar weithredoedd Duw yn nghread a llywodraethiad y byd; ac ystyriwyd hi gan rai fel math ar grynodedd o hanes y greadigaeth, fel ei hadroddir yn llyfr Genesis.

Adn. 1. *Fy enaid, bendithia yr Arglwydd*] Nid yn unig am waith ei ras, fel yr adroddwyd yn y Salm flaenorol, ond hefyd am weithredoedd natur. *O Arglwydd fy Nuw*—sef ei Dduw cyfammodol ef; *tra mawr ydwyf*—nid yn unig yn dy hanfod a'th briodoliaethau, ond hefyd yn dy holl weithredoedd: *gwisgaist ogoniant a harddwch*—cans y 'gogoniant a harddwch' yw ei waith ef; Salm cxi. 3. Saes., 'gwisgaist anrhydedd a mawredd.

Adn. 2. *Yr hwn wyt yn gwisgo goleuni fel dilledyn*] Neu 'yn trigo yn y goleuni ni ellir dyfod ato,' 1 Tim. vi. 16. Ond tybia rhai fod yma gyfeiriad at y goleuni a grybwyllir Gen. i. 3, yr hwn oedd y cyntaf o weithredoedd *gweledig* Duw. *Ac yn taenu y nefoedd fel llen*—rhyngom ni a goleuni digrëedig Duw; neu fel mŵd neu babell o amgylch y ddaear.

Adn. 3. *Yr hwn sydd yn gosod tylathau ei ystafelloedd*] Saes., 'beams ei ystafelloedd,' *yn y dyfroedd*—sef yn y 'dyfroedd oddiar y ffurtafen,' Gen. i. 7. Neu, fel y mae *Mudje* ac ereill yn ei ddarllen, 'Yr hwn sydd yn llawrio ei ystafelloedd a dyfroedd;' hyny yw, y cymylau yw llawr ei balas ef. *Yn gwneuthur y cymylau yn gerbyddo*—yn ei symudiadau i amddiffyn ei weision neu gospi ei elynion. *Ac yn rhodio ar adenydd y gwynt*—gyda'r cyflymder mwyaf. Neu gall fod y gair 'rhodio' yma, fel y tybia *Hervey*, yn arwyddo hollol lywodraeth ar yr elfen dra af-

4 Yr hwn sydd yn gwneuthur ei genhadon yn ysbrydion; a'i weinidogion yn dân ffamlyd.

5 Yr hwn a seiliodd y ddaear ar ei sylfeini, fel na symudo byth yn dragwydd.

6 Toaist hi â'r gorddyfnder, megys â gwisg; y dyfroedd a safent goruwch y mynyddoedd.

7 Gan dy gerydd di y ffoisant: rhag swn dy daran y prysurasant ymaith.

8 Gan y mynyddoedd yr ymgodant: ar hyd y dyffrynoedd y disgyant, i'r lle a seiliaist iddynt.

9 Gosodaist derfyn, fel nad elont drosodd; fel na ddychwelont i orchuddio y ddaear.

10 Yr hwn a yr y ffynnonau i'r

dyffrynoedd, y rhai a gerddant rhwng y brynau.

11 Diodant holl fwystfildod y maes: yr asynod gwylltton a dorant eu syched.

12 Adar y nefoedd a drigant gerllaw iddynt, y rhai a leisiaut oddirhwng y cangau.

13 Y mae efe yn dyfrhau y brynau o'i ystafelloedd; y ddaear a ddigonir o frwyth dy weithredoedd.

14 Y mae yn peri i'r gwellt dyfu i'r anifeiliaid, a llysiau i wasanaeth dyn: fel y dyco fara allan o'r ddaear:

15 A gwin, yr hwn a lawenyha galon dyn; ac olew, i beri i'w wyneb ddysgleirio; a bara, yr hwn a gynal galon dyn.

reolus hon, hyd yn nod yn ei chlynddaredd mwyaf: gwel ar Salm xviii. 9—11.

Adn. 4. *Yr hwn sydd yn gwneuthur ei genhadon yn ysbrydion*] Neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'Yr hwn sydd yn gwneuthur ei angylion yn wyntoedd,' sef mor gyflym neu ddinstriol a'r gwynt; a'i weinidogion yn dân ffamlyd—mor angherdol, nerthol, neu awrthwynebol a than neu fellt. Ond myn ereill gyfieithu yr adnod hon fel hyn, ac addefir fod y wreiddiol yn goddef hyn: 'Yr hwn sydd yn gwneuthur y gwyntoedd yn genhadon iddo, a filamau tân [neu fellt] yn weinidogion iddo.' Y mae Duw yn fynydd yn defnyddio yr elfenau hyn, yn gystal a'i angylion santaudd, i wasanaethu ei fwriadau ei hun. Nid yw yr adnod hon, o'i deall fel hyn, yn milwrio dim yn erbyn dadl yr apostol yn Heb. i. 7, yr hwn a awgryma yno fod y geiriau yn cyfeirio at yr angylion santaudd: canys wrth i'r Salm-ydd fynegu fod Duw yn gwneyd y gwyntoedd yn 'angylion neu genhadon (*malachaiw*) iddo,' efe a arwyddda yn eglur fod yr angylion yn weinidogion neu genhadon i Dduw yn gystal a'r gwyntoedd. Ac y mae hyn yn ddigon i gyfiawnhau dadl yr apostol, sef profi rhagoriaeth Crist ar yr angylion: gwel ar Heb. i. 7.

Adn. 5. *Yr hwn a seiliodd y ddaear ar ei sylfeini*] Ymadrodd cyffelybiaethol, yn dynodi cadernid ei sefyllfa trwy allu cynaliol Duw; fel na symudo byth yn dragwydd—hyd ddiwedd amser o leiaf, os nid am dragwyddoldeb.

Adn. 6. *Toaist hi â'r gorddyfnder, megys â gwisg*] Cyfeirir yna naill ai at gyflwr gwreiddiol y ddaear, pryd yr oedd yn orchuddiedig â dyfroedd, Gen. i. 2, 9; neu ynto at ei chyflwr yn amser y dylif: y dyfroedd a safent goruwch y mynyddoedd—gwel ar Gen. vii. 19, 20.

Adn. 7. *Gan dy gerydd di y ffoisant*] Nou trwy dy orchymyn di yn peri iddynt dreio, ac i'r sychdir ymddangos: rhag swn dy daran y prysurasant ymaith—i'w gwely yn y môr. Ymddengys oddiyma fod Duw yn defnyddio

yr hylif trydanaudd fel ei offeryn ar y pryd.

Adn. 8. *Gan y mynyddoedd yr ymgodant*] Yn ffynnonau neu darth ar benau y mynyddoedd; ar hyd y dyffrynoedd y disgyant—yn ffrydiau yn rhedeg i'r môr. Y mae rhai yn ei chyfieithu, 'Ymgodant yn fynyddoedd, disgyant yn ddyffrynoedd,' gan ddeall hyn am llurfiad y mynyddoedd a'r dyffrynoedd; ond y mae yn debycach mai son am y dyfroedd y mae y Salm-ydd yn yr adnodau hyn.

Adn. 9. *Gosodaist derfyn, fel nad elont drosodd*] Sef y creigiau a'r tywod ar lanau y môr, Job xxxviii. 10, 11, Jer. v. 22; fel na ddychwelont i orchuddio y ddaear—megys y gwnaent yn y cread, neu yn amser y dylif.

Adn. 10. *Yr hwn a yr y ffynnonau i'r dyffrynoedd*] Sef y nentydd a'r afonydd y rhai a ddyllifant o'r ffynnonau, ac a gerddant tua'r môr rhwng y brynau.

Adn. 11. *Diodant holl fwystfildod y maes*] Yn gystal a phob creadur arall; a gwasanaethant mewn mil o flyrdd er cysur dyn.

Adn. 12. *Adar y nefoedd a drigant gerllaw iddynt*] Gan ymhyfrdu i wneyd eu nythod ar lanau yr afonydd; y rhai a leisiaut oddirhwng y cangau—'ogoniant' i Dduw, 'am roddi o hono ddwfr yn yr anialwch,' Esay xliii. 20.

Adn. 13. *Y mae efe yn dyfrhau y brynau*] A clawdydd ireiddlon o wlaw; o'i ystafelloedd—yn y cynyrlau uwchben, adn. 3: y ddaear a ddigonir o frwyth dy weithredoedd—â gwlaw maethlon yn cael ei anfon gan Dduw, neu â ffirwythlondeb mawr mewn canlyniad i hyn.

Adn. 14. *Y mae yn peri i'r gwellt dyfu i'r anifeiliaid*] Fel y gallont lwythau fod yn wasanaethgar i ddyn; a llysiau i wasanaeth dyn—rhai yn fwyd a rhai yn feddygriaeth iddo; neu 'lysiau o wrteithiad dyn,' fet y mae rhai yn ei ddarllen; fel y dyco fara allan o'r ddaear—yn gynahaeth iddo.

Adn. 15. *A gwin, yr hwn a lawenyha galon dyn*] Yn briodol y sylwa Clarke, 'Y

16 Prenau yr Arglwydd sydd lawn *sugn*: cedrwydd Libanus, y rhai a blannodd efe;

17 Lle y nytha yr adar: y ffynidwydd *yw* tŷ y ciconia.

18 Y mynyddoedd uchel sydd noddfa i'r geifr; a'r creigiau i'r cwningod.

19 Efe a wnaeth y lleuad i amserau nodedig: yr haul a edwyn ei fachludiad.

20 Gwnai dywyllwch, a nos fydd: ynddi yr ymlusga pob bwystfil coed.

21 Y cenawon llewod a ruant am ysglyfaeth, ac a geisiant eu bwyd gan Dduw.

22 Pan godo haul, ymgasglant, a gorweddant yn eu llochesau.

23 Dyn a â allan i'w waith, ac i'w orchwyl hyd yr hwy.

24 Mor luosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwuaethost hwynt oll mewn doethineb: lawn yw y ddaear o'th gyfoeth.

25 *Felly y mae* y môr mawr, llydan: yno *y mae* ymlusgiaid heb rifedi, bwystfilod bychain a mawrion.

mae gan *win*, mewn mesur cymhedrol, duedd ryfeddol i adytwio a chryfhau dyn. Y mae *gyroddydd poethron* yn lloni, ond yn *dyhysbyddu* y nerth; ac y mae pob liymaid yn gadael y dyn yn waeth. Y mae *gwin pur*, i'r gwrthwyneb, yn *lloni* ac yn *crushau*: y mae yn gwneyd dyn yn siriol, ac yu darparu gogyfer â pharhad y sirioldeb hnw, trwy *nerthau* y *cyhyrau* a *chryfhau* y *giaw*. Dyma y *defnydd* o hono. Y mae y rhai sydd yn parhau i yfed hyd nes yr enyno y gwin hwynt, yn *canddefnyddio* y drugaredd hon o eiddo Duw. *Ac olew, i beri i'w wyneb ddsygleirio*—hyny yw, i eneinio y corff, ac yu enwedig y rhanau mwyaf agored i'r haul a'r tywydd. Y mae hyn o bwys mawr yn nabob gwlad sech a hiu-sawdd poeth. Trwy hyn cedwir y chwysdyllan yn agored, ac y cynyrchir chwys.—CLARKE. *A bara, yr hwn a gynul galon dyn*—yr hwn a faetha ac a nertha ei holl natur ei. Y meddwl yw, mai trwy *ddyfchrau* y ddaear y mae yr Arglwydd yn dwyn y tair bendith fawr uchod i ddy; ac y mae cyniaut o allu Duw i'w weled yn y cynyrchiad o honant, ag oedd yn rhoddiaid y manna gynt o'r nefoedd, neu y dwfr o'r graig.

Adn. 16. *Prenau yr Arglwydd sydd lawn sugn* Neu nôdd, trwy ei fod ef, yr hwn a'u gwanaeth ar y cyntaf, yn gofalu am en dyfirhan hefyd: *cedrwydd Libanus, y rhai a blannodd efe*—yn ei ddaonion rhagluniaethol. Pwy ond Duw a blannod yr holl filoedd coedwigodd ag sydd yn tyfu ar hyd wyneb y ddaear, i.e. mewn manau na bu dyn erioed ynddynt?

Adn. 17. *Lle y nytha yr adar* O bob math, lliw, a maint; y *ffynidwydd*—Saes., 'y ffawdd,' *yw tŷ y ciconia*—gwel ar Lef. xi. 19. Amcan y geirian yw dangos gofal Duw am bob creadar, yn gystal ag am ddy, adn. 14, 15.

Adn. 18. *Y mynyddoedd uchel sydd noddfa i'r geifr* Saes., 'i'r geifr gwylltion;' *a'r creigiau i'r cwningod*—y meddwl yw, fod y rhanau hyny o'r ddaear a dybir yn ddiifryth a diles, yn meddu eu dyben a'u defnydd fel noddfa i greaduriaid ofnus.

Adn. 19. *Efe a wnaeth y lleuad i amserau nodedig* I 'lywodraethu y nos,' neu i fod yn fesuriad i'r misoedd: *yr haul a edwyn ei fachludiad*—yr amser a'r lle i facludo bob

dydd trwy y flwyddyn, yr hyn, er yn awrywio o ddydd i ddydd, a geidw efe mor fauwl a chywir a phe byddai deall neu synwyr ganddo.

Adn. 20. *Gwnai dywyllwch* Trwy beri i'r haul facludo; *a nos fydd*—dros y rhau hōno o'r ddaear: *ynddi yr ymlusga pob bwystfil coed*—i chwilio am ymborth. Gan fod dynion a bwystfilod yn ofni eu gilydd, Gen. ix. 1, trefnodd Duw y dydd i ddyoniou weithio, a'r nos i fwystfilod gasgu eu hymborth. *Felly, pan y mae dyn yn gweithio*, y maent hwy yn *gorphwys*; a phan y mae dyn yn *gorphwys*, y maent hwy yn *gweithio*.

Adn. 21. *Y cenawon llewod a ruant am ysglyfaeth* Pan fo newyn arnynt, neu pan yn ngolwg eu hysglyfaeth: cyn hyny y maent yn ddystaw, Amos iii. 4. *Ac a geisiant eu bwyd gan Dduw*—eu rhuad sydd tath ar weddi naturiol ar Dduw am fydd, fel y mae cri baban yn fath ar weddi ar y fam am y fron.

Adn. 22. *Pan godo haul, ymgasglant* At eu gilydd o'u crwydriadau; *a gorweddant yn eu llochesau*—i ymborthi ar eu hysglyfaeth, a rhag ofn dyn, adn. 20.

Adn. 23. *Dyn a â allan i'w waith* Wedi i'r haul godi, ac i'r bwystfilod encilio; *hyd yr hwy*—pryd y dychwel yntau i orphwysio: gwel ar adn. 20.

Adn. 24. *Mor luosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd!* Y mae y Salmydd fel yn synu wrth ystyried luosogrwydd, awrywiaeth, a mawredd gweithredoedd Duw yn y greadigaeth; ond beth yw y rhai hyn o'u cymharu â gweithredoedd ei gariad a'i ras, y rhai sydd yn nghadw ganddo i'r rhai a'i carant of! *Gwuaethost hwynt oll mewn doethineb*—heb y difyng lleiaf yn eu cymhwysedd, eu dyben, na'u gwneuthuriad. *Llawn yw y ddaear o'th gyfoeth*—y mae ynddi drysorau aneirif, a'r rhai hyny oll yn eiddo Duw: gwel ar Salu xxiv. 1. Cyhoeddodd *Mr. Ray* lyfr gwerth-fawr ar yr adnod hon, o'r enw 'Doethineb Duw yn y Greadigaeth,' yr hwn a haeddai gael ei ddarllen a'i fyfyrion yn ofalus.

Adn. 25. *Felly y mae y môr mawr llydan* Yn llawn o weithredoedd a chyfoeth Duw, yr un modd a'r ddaear. *Yno y mae ymlusgiaid*—Hebr., 'nofiedyddion heb rifedi'; *bwystfilod*—Hebr., 'anfeliariaid bychain a mawrion,'

26 Yno yr â y llongau: *yno y mae y lefiathan, yr hwn a luniaist i chwareu ynddo.*

27 Y rhai hyn oll a ddysgwyliant wrthyt; am roddi *iddynt* eu bwyd yn ei bryd.

28 A roddech iddynt, a gasglant: agori dy law, a diwellir hwynt â daioni.

29 Ti a guddi dy wyneb, hwythau a drallodir: dygi ymaith eu hanadl, a threngant, a dychwelant i'w llwch.

30 *Pan ollyngych dy Ysbryd, y creïr hwynt; ac yr adnewyddi wyneb y ddaear.*

31 Gogoniant yr Arglwydd fydd yn dragywydd: yr Arglwydd a lawenychna yn ei weithredoedd.

32 Efe a edrych ar y ddaear, a hi a gryna: *efe a gyffwrdd â'r mynyddoedd, a hwy a fygant.*

33 Canaf i'r Arglwydd tra fyddwyf fyw: canaf i'm Duw tra fyddwyf.

34 Bydd melys fy myfyrdod am dano: mi a lawenychnaf yn yr Arglwydd.

35 Darfydded y pechaduriaid o'r tir, na fydded yr annuwiolion mwy. Fy enaid, bendithia di yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.

SALM CV.

CLODFORWCH yr Arglwydd; gelwch ar ei enw: mynegwch ei weithredoedd yn msg y bobloedd.

Y mae y ddau air hyn yn cynwys pob math o bysgod a chreaduriaid ag sydd yn y môr.

Adn. 26. *I'no yr â y llongau*] I gludo nwyddan o'r naill wlad i'r llall: *yno y mae y lefiathan*—gall hwn fod yn golygu y *morfil*, neu ryw bysgodyn mawr arall. Y LXX a'r *Vulgate* a'i galwant yn *ddraig*; ac woithiau arwydda y *crocodil*: gwel ar Job xli. 1. *Yr hwn u luniaist i chwareu ynddo*—er mor arw a dychrynlyd y gall y môr ymddangos ar y storm, nid yw ond fel chwareufa hyfryd i'r creadur hwn, yr hwn a ymddifyra yn ymchwedd a threigliad ei ddonau.

Adn. 27. *Y rhai hyn oll a ddysgwyliant wrthyt*] Yn eu flordd ac yn ol eu natur hwy; *am roddi iddynt eu bwyd yn ei bryd*—fel rhan o'th deulu mawr.

Adn. 28. *A roddech iddynt*] Yn nhrefn dy ragluniaeth; a *gasglant*—eu hunain, heb ddysgwyl i ti ei roddi yn eu geneuau: *agori dy law*—fel dyn yn tafu ŷd i ieir; a *diwellir hwynt â daioni*—sef âg ymborth addas i'w natur, y fath ag a garant hwy.

Adn. 29. *Ti a guddi dy wyneb*] Neu a ateli ffraun dy ragluniaeth oddiwrthyt; *hwythau a drallodir*—trwy eisiau a newyn: *dygi ymaith eu hanadl*—pa un sydd yn dy law di; a *threngant, a dychwelant i'w llwch*—i'w cyflwr gwreiddiol. Dywedir hyn am holl creaduriaid y dwf'r ar tir.

Adn. 30. *Pan ollyngych dy Ysbryd, y creïr hwynt*] Trwy ofterynoliaeth yr un Ysbryd santaid ag a greodd bob peth yn y dechre, y parheir bodoliaeth pob peth o oes i oes, ac o dō i dō; *ac yr adnewyddi wyneb y ddaear*—â gwellt a llyisiau yn ymborth i bob creadur, ar ol eu deifio gan wres yr haf neu rew y gaeaf: gwel ar Gen. i. 2, Job xxvii. 13, a xxxiii. 4.

Adn. 31. *Gogoniant yr Arglwydd fydd yn dragywydd*] Ni pheidia efa â gweithredu yn ogoneddus, ac ni fydd dnyfon a chreaduriaid ereill yn eisiau i roddi iddo y gogoniant a'r mawl dyledus i'w enw: *yr Arglwydd a la-*

wenychna yn ei weithredoedd—am ddarfed eu gwneuthur oll 'mewn doethineb,' adn. 24, ac am eu bod oll yn 'dda iawn,' fel ar y cyntaf, Gen. i. 31.

Adn. 32. *Efe a edrych ar y ddaear, a hi a gryna*] Fel yn analluog i ddyoddef ei ŵg ef; *efe a gyffwrdd â'r mynyddoedd, a hwy a fygant*—y mae hyn yn ddarlunniad pellach o ragluniaeth nerthol Duw. Fel y mae ei holl creaduriaid ef yn byw ac yn cynyddu, a gwyneb y ddaear yn cael ei adnewyddu, pan y mae efe yn gwenu arnynt; felly bydd i un edrychiad digofus o'i eiddo ar y ddaear neu y mynyddoedd, beri iddynt grynu a mygu fel *Sinai* gynt.

Adn. 33. *Canaf i'r Arglwydd tra fyddwyf fyw*] Am weithredoedd ei ragluniaeth; *canaf i'm Duw tra fyddwyf*—am weithredoedd ei ras. Y mae y gair 'Arglwydd,' neu *Jehofa*, yn cyfeirio ato fel Creawdwr a Chynaliwr pob peth; ac y mae y gair 'Duw' yn cyfeirio ato fel mewn cyfammod â'i enaid ef.

Adn. 34. *Bydd melys fy myfyrdod am dano*] Yn y ddau gymeriad uchod, sef fel Creawdwr a Cheidwad; *mi a lawenychnaf yn yr Arglwydd*—mewn amser ac yn nhragwyddoldeb.

Adn. 35. *Darfydded y pechaduriaid o'r tir*] Trwy eu dychwelyd neu eu dyfetha; neu yn hytrach, 'darfyddant, ac ni byddant;' gwel ar Salm v. 10. *Fy enaid, bendithia di yr Arglwydd*—pwy bynag a beidio. *Molwch yr Arglwydd*—holl drigolion y ddaear a'r nef. Eithr y gair Hebreig yma yw *Haleliwia*, trwy ba un y mae y Salmydd yn 'bendithio yr Arglwydd,' yn ol ei orchymyn i'w enaid ei hun. Dyma y lle cyntaf y cawn y gair hwn.

SALM CV. Nid oes un teitl i'r Salm hon yn yr *Hebraeg* na'r *Galdeae*; ond y mae y LXX, y *Vulgate*, yr *Ethiopaeg*, a'r *Arabae*, yn gosod y gair *Haleliwia*, yr hwn a derfyna y Salm ffaenorol, yn deitl iddi. Y mae yn eglur mai *Dafydd* yw ei hawdwr, gan y cawn

2 Cenwch iddo, canmolwch ef: ymddyddenwch am ei holl ryfeddodau ef.

3 Gorfoleddwch yn ei enw sant-aidd: llawenyched calon y rhai a geisiant yr Arglwydd.

4 Ceisiwch yr Arglwydd a'i nerth: ceisiwch ei wyneb ef bob amser.

5 Cofiwch ei ryfeddodau y rhai a wnaeth efe; ei wyrthiau, a barned-igaethau ei enau;

6 Chwi had Abraham ei was ef, chwi meibion Jacob ei etholedigion.

7 Efe yw yr Arglwydd ein Duw ni: ei farnedigaethau ef sydd trwy yr holl ddaear.

8 Cofodd ei gyfammod byth, y

gair a orchymynodd efe i fil o genhedlaethau:

9 Yr hyn a ammododd efe âg Abraham, a'i lw i Isaac;

10 A'r hyn a osododd efe yn ddeddf i Jacob, ac yn gyfammod tragwyddol i Israel;

11 Gan ddywedyd, I ti y rhoddaf dir Canaan, rhandir eich etifeddiaeth.

12 Pan oeddynt ychydig o rifedi, ië, ychydig, a dyeithriaid ynddi:

13 Pan rodient o genhedlaeth i genhedlaeth, o'r naill deyrnas at bobl arall:

14 Ni adawodd i neb eu gorthrymu: ië, ceryddodd frenhinoedd o'u plegid;

15 Gan ddywedyd, Na chyffyrdd-

Adn. 7. *Efe yw yr Arglwydd ein Duw ni*] Ein Creawdwr, ein Cynaliwr, a'n Ceidwad: *ei farnedigaethau ef sydd trwy yr holl ddaear*—naill ai y son am ei farnedigaethau ef ar eu gelynion hwy; neu ynte ei lywodraeth ragluniaethol a barnol ef ar bawb.

Adn. 8. *Cofodd ei gyfammod byth*] Yr hwn a wnaeth efe âg Abraham a'i had; *y gair a orchymynodd efe*—efe a gofodd hwnw i'w barhau mewn grym trwy yr holl oesoedd.

Adn. 9. *Yr hyn a ammododd efe âg Abraham*] Gwel ar Gen. xvii. 2—8; *a'i lw i Isaac*—gwel ar Gen. xxvi. 3, 4.

Adn. 10. *A'r hyn a osododd efe yn ddeddf i Jacob*] Neu mor gadarn a deddf, Gen. xxviii. 13, 14; *ac yn gyfammod tragwyddol i Israel*—y rhai oeddynt oll yn lwynau y tri uchod pan ammododd Duw â hwynt.

Adn. 11. *I ti y rhoddaf dir Canaan*] Hyn oedd un o ammodau y cyfaanod uchod; *rhandir eich etifeddiaeth*—nen y tir a renid rhyngddynt trwy goelbren.

Adn. 12. *Pan oeddynt ychydig o rifedi*] Abraham yn unig ar y cyntaf, Isaac yn unig wedi hyny, a Jacob yn nnig drachefn; *ië, ychydig*—neu 'ddibwys' o ran gallu a dylanwad; *a dyeithriaid ynddi*—wedi dyfod iddi o Ur y Caldeaid, Gen. xii. 1. Yn wir nid oeddynt ond dyeithriaid a pherinion yn Nghanaan o amser Abraham hyd fynediad Jacob a'i deulu i'r Aiff, canys at yr amser hwnw y cyfeirir yma.

Adn. 13. *Pan rodient o genhedlaeth i genhedlaeth*] Nen o genedi i genedi, o ba rai yr oedd saith o leiaf yn Nghanaan; *o'r naill deyrnas at bobl arall*—o deyrnas Caldea i deyrnas Canaan, ac oddiyno i deyrnas yr Aiff; ac yn wir yr oedd Canaan ei hun yn wahanol deyrnasoedd bychain, Jos. xii. 9—24.

Adn. 14. *Ni adawodd i neb eu gorthrymu*] Yr holl amser hwnw, er mawr niwed iddynt; *ië, ceryddodd frenhinoedd o'u plegid*—pan amcanasant eu drygu; gwel Gen. xii. 17, a xx. 3, 18.

Adn. 15. *Na chyffyrddwch â'm rhai en-*

y pymtheg adnod gyntaf yn 1 Cron. xvi. 8—22, y rhai a roddwyd gan Dafydd yn llaw Asaph a'i frodyr i'w canu yn ngwasanaeth y babbell. Cyfansoddiwyd hi ar ol iddo gael amrai fuddugoliaethau ar y Philistiaid, a sefydlu yr arch yn Seion, 1 Cron. xiv a xv; ac y mae yn dra thebyg ddarfod iddo wedi hyny ei helaethu hi, fel y byddai yn goffadwriaeth gyflawn o holl drugareddau Duw i Israel, o ddyddiau Abraham hyd eu sefydliad yn ngwlad Canaan.

Adn. 1. *Clodforwch yr Arglwydd*] Chwi holl gantorion y cysegr; *gelwch ar ei enw*—neu 'cyhoeddwyd ei enw,' fel y gellir ei gyfieithu: *mynegwch ei weithredoedd yn mysq y bobloedd*—y rhai a wnaeth efe mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a gras.

Adn. 2. *Cenwch iddo*] Ag offer cerdd; *canmolwch ef*—â geiriau llafar; Saes., 'cenwch Salmau iddo.' *Ymddyddenwch am ei holl ryfeddodau ef*—Hebr., 'am ei wyrthiau,' y rhai a goffeir yn y Salm hon.

Adn. 3. *Gorfoleddwch yn ei enw santaidd*] Fel yr unig wir Dduw: *llawenyched calon y rhai a geisiant yr Arglwydd*—am fod modd iddynt ei gael.

Adn. 4. *Ceisiwch yr Arglwydd a'i nerth*] Sef ei ras i'ch nerthu i wneyd a dyoddef ei ewyllys ef: ond gelwir yr arch a'r drugareddfa yn *nerth* Duw, Salm lxxviii. 61, a thybja rhai mai hōno a olygir yma. *Ceisiwch ei wyneb ef bob amser*—sef ei foddlonrwydd a'i ewyllys da, yn nghyda'i bresenoldeb a'i gymdeithas.

Adn. 5. *Cofiwch ei ryfeddodau*] Sef ei wyrthiau ar eu rhan, fel eu gelwir eto; *a barnedigaethau ei enau*—sef ei ddeddfau y rhai a lefarodd efe; neu ei gospau a orchymynodd efe yn erbyn eu gelynion hwy, a'i fygythion a'i addewidion iddynt hwythan.

Adn. 6. *Chwi had Abraham ei was ef*] Y rhai ydych wrthdrrychan yr addewidion a wnaed i Abraham; *chwi meibion Jacob ei etholedigion*—y rhai ydych yr unig ganghen o deulu Abraham a etholwyd i fwynhau breintiau yr eglwys.

weh â'm rhai eneniog, ac na ddrygwch fy mhroffwydi.

16 Galwodd hefyd am newyn ar y tir: a dinystriodd holl gynaliaeth bara.

17 Anfonodd ŵr o'n blaen hwynt, Joseph, yr hwn a werthwyd yn was.

18 Cystuddiasant ei draed ef mewn gefyn: ei enaid a aeth mewn heigrn:

19 Hyd yr amser y daeth ei air ef: gair yr Arglwydd a'i profodd ef.

20 Y brenin a anfonodd, ac a'i gollyngodd ef; llywodraethwr y bobl, ac a'i rhyddaodd ef.

21 Gosododd ef yn arglwydd ar ei dŷ, ac yn llywydd ar ei holl gyfoeth:

22 I rywmo ei dywysogion ef

wrth ei ewyllys; ac i ddysgu doethineb i'w henuriaid ef.

23 Aeth Israel hefyd i'r Aifft; a Jacob a ymdeithiodd yn nhir Ham.

24 Ac efe a gynyddodd ei bobl yn ddirfawr; ac a'u gwnaeth yn gryfach na'u gwrthwynebwyr.

25 Trôdd ef calon hwynt i gasâu ei bobl ef, i wneuthur yn ddichellgar â'i weision.

26 Efe a anfonodd Moses ei was; ac Aaron, yr hwn a ddewisasai.

27 Hwyl a ddangosasant ei arwyddion ef yn eu plith hwynt, a rhyfeddodau yn nhir Ham.

28 Efe a anfonodd dywyllwch, ac a dywyllodd; ac nid anfyddasant hwy ei air ef.

einio] Eneiniad yr Ysbryd Glân ond odid a feddylir yma; ac na ddrygwch fy mhroffwydi—yr rhai a gwent hysbysrwydd o ewyllys Duw, ac a ddyssent i'w teuluoedd ac ereill adoliad y gwir Dduw.

Adn. 16. *Galwodd hefyd am newyn ar y tir]* Yr hwn a ymdaenodd dros Ganaan a'r holl wledydd, Gen. xli a xlii; a *dinystriodd holl gynaliaeth bara*—neu y gynaliaeth a geid trwy fara.

Adn. 17. *Anfonodd ŵr o'u blaen hwynt]* Sef Joseph, i achub einioes pobl lawer; *yr hwn a werthwyd yn was*—neu gaethwas, yn gyntaf i'r Ismaeliad, a chanddynt hwythau i Putiphar tywysog Pharao, Gen. xxxvii. 28, 36.

Adn. 18. *Cystuddiasant ei draed ef mewn gefyn]* Neu gadwyni, trwy i'w feistres ei gamgyhuddo ef, Gen. xxxix. 20; *ei enaid a aeth mewn heigrn*—sef ei gorff, neu ei berson; neu ynte yr oedd y fath gosp annghrifiawn, ar gamgybuddiad mor warthw, yn dirboeni ei enaid ef fel pe buasai saeth yu myned trwy ei galon.

Adn. 19. *Hyd yr amser y daeth ei air ef]* I ben, yr hwn a ragfynegasai efe wrth ei frodyr am ei ddyrchafiad; neu 'hyd yr amser y daeth ei achos o'folaen y brenin,' fel y mae rhai yn ei ddeall. Nis gall hyn olygu cyflawniad gair Joseph am y pentrulliad a'r penpobydd, canys bu Joseph yn ngharchar ddwy flynedd wedi hyny, Gen. xli. 1. *Gair yr Arglwydd a'i profodd ef*—trwy garchariad a chaledi mawr, fel profi aur trwy dân. Ond gall mai meddwl yr adnod yw, i Joseph fod yn y carchar hyd yr amser y daeth gair yr Arglwydd i'w brofi ef yn ddeonglwr breuddwydion; hyny yw, hyd nes y cafodd efe fodd gan yr Arglwydd i ddeongli breuddwydion Pharao.

Adn. 20. *Y brenin a anfonodd]* Am Joseph o'r carchar, Gen. xli. 14; *ac a'i gollyngodd ef*—yn rhydd, wedi iddo ddeongli ei freuddwydion ef: *llywodraethwr y bobl*—sef y brenin ei hun, a wnaeth hyny.

Adn. 21. *Gosododd ef yn arglwydd ar ei dŷ, &c.]* Fel yr adroddir yn Gen. xli. 40, &c.

Adn. 22. *I rywmo ei dywysogion ef wrth ei ewyllys]* I fod yn ben arnynt oll, a chospi yr holl rai gwrthnysig ac anafydd; *ac i ddysgu doethineb i'w henuriaid ef*—sef i'w senedd-wyr.

Adn. 23. *Aeth Israel hefyd i'r Aifft]* Sef Jacob, tad Joseph, a'i holl dylwyth, Gen. xli. 5, &c.; a *Jacob a ymdeithiodd yn nhir Ham*—hyd ddydd ei farwolaeth. Gelwir yr Aifft yn 'dir Ham,' am mai hiliogaeth Ham, neu Cam, oedd yr Aifftiad, Gen. x. 6.

Adn. 24. *Ac efe a gynyddodd ei bobl yn ddirfawr]* Fel ser y gwneodd, yn ol ei addewid i Abraham; *ac a'u gwnaeth yn gryfach na'u gwrthwynebwyr*—fel yr addefai Pharao, Exod. i. 7, 9.

Adn. 25. *Trôdd ei calon hwynt i gasâu ei bobl ef]* Wrth ystyried yr rhif a'u nerth; *i wneuthur yn ddichellgar â'i weision*—trwy eu gorthrymu hwynt, a lladd eu babanod gwryw, Exod. i. 11—16.

Adn. 26. *Efe a anfonodd Moses ei was]* O dir Midian i'r Aifft; *ac Aaron yr hwn a ddewisasai*—i gvnorthwyo Moses i waredu ei bobl, Exod. iv. 27.

Adn. 27. *Hwyl a ddangosasant ei arwyddion ef yn eu plith]* Hebr., 'dangosasant eiriau ei arwyddion;' hyny yw, dywedasant am yr arwyddion cyn eu gwneyd, ac yna gwnaethant hwy yn ol y geiriau hyny; *a rhyfeddodau*—neu wyrthiau, yn nhir Ham—sef yr Aifft: gwel ar adn. 23.

Adn. 28. *Efe a anfonodd dywyllwch]* Hwn oedd y nawfed pla: gwel ar Exod. x. 21. *Ac nid anfyddasant hwy ei air ef*—sef Moses ac Aaron, yn ol rhai; nen blant Israel gyda golwg ar ladd oen y pasc, ac ymbarotai i ymadael o'r Aifft, yn ol ereill; neu nid anfyddhaodd y tywyllwch a'r plâu ereill trwy beidio ymddangos. Ond y mae y LXX, y *Syriaeg*, yr *Arabeog*, a'r *Ethiopaeg* yn ei ddarllen, 'ac nid anfyddasant hwy i'w air ef,' sef Pharao a'r Aifftiad.

29 Efe a drôdd eu dyfroedd yn waed, ac a laddodd eu pysgod.

30 Eu tir a heigiodd lyffaint yn ystafelloedd eu brenhinoedd.

31 Efe a ddywedodd, a daeth cymysgbla, a llau yn eu holl fro hwynt.

32 Efe a wnaeth eu gwlaw hwynt yn genllusg, ac yn fflamau tân yn eu tir.

33 Tarawodd hefyd eu gwinwydd, a'u ffigyswydd; ac a ddrylliodd goed eu gwlad hwynt.

34 Efe a ddywedodd, a daeth y loenstiaid, a'r lindys, yn aneirif;

35 Y rhai a fwytasant yr holl laswellt yn eu tir hwynt, ac a ddi-fasant ffrwyth eu daear hwynt.

36 Tarawodd hefyd bob cyntafanedig yn eu tir hwynt, blaenffrwyth eu holl nerth hwynt.

37 Ac a'u dyg hwynt allan âg arian ac aur; ac heb un llesg yn eu llwythau.

38 Llawenychodd yr Aifft pan aethant allan: canys syrthiasai eu harswyd arnynt hwy.

39 Efe a daenodd gwmwl yn dô, a thân i oleu liw nos.

40 Gofynasant, ac efe a ddyg soffieir; ac a'u diwallodd â bara nefol.

41 Efe a holltodd y graig, a'r dyfroedd a ddyllfodd; cerddasant ar hyd lleoedd sychion yn afonydd.

42 Canys efe a gofodd ei air santiaid, ac Abraham ei was.

43 Ac a ddyg ei bobl allan mewn llawenydd; ei etholedigion mewn gorfoledd.

44 Ac a rodde iddynt diroedd y cenhedloedd: a meddiannasant lafur y bobloedd.

45 Fel y cadwent ei ddeddfau ef, ac y cynalient ei gyfreithiau. Molwch yr Arglwydd.

Adn. 29. *Efe a drôdd eu dyfroedd yn waed, &c.*] Hwn oedd y pla cyntaf: gwel ar Exod. vii. 20, 21.

Adn. 30. *Eu tir a heigiodd lyffaint*] Yr ail bla, Exod. viii. 2: *yn ystafelloedd eu brenhinoedd*—y lleoedd glanaf yn yr Aifft. Wrth y 'brenhinoedd' hyn y meddylir Pharao, ei feibion, a'i dwysogion.

Adn. 31. *Efe a ddywedodd, a daeth cymysgbla*] Y pedwerydd pla, Exod. viii. 21; *a llau yn eu holl fro hwynt*—y trydydd pla, Exod. viii. 16.

Adn. 32. *Efe a wnaeth eu gwlaw hwynt yn genllusg*] Y seithfed pla, Exod. ix. 18; *ac yn fflamau tân*—sef y mellt ag oeddynt yn dilyn, adn. 24.

Adn. 33. *Tarawodd hefyd eu gwinwydd, &c.*] Trwy y cenllusg a'r mellt hyn, Exod. ix. 25.

Adn. 34, 35. *Efe a ddywedodd, a daeth y locustiaid*] Yr wythfed pla, Exod. x. 4, &c.: *a'r lindys yn aneirif*—y rhai a gynorthwyent y locustiaid i ddi-fa ffrwyth y ddaear, er na chrybwyllir hyn gan Moses: gwel ar Salm lxxviii. 46.

Adn. 36. *Tarawodd hefyd bob cyntafanedig*] Y degfed pla, Exod. xi. 4, &c.: *blaenffrwyth eu holl nerth*—wedi eu cenedlu ganddynt yn nerth eu dyddiau, Gen. xlix. 3. Nid yw y Salmydd yn crybwyll yma y 5ed a'r 6ed pla, y rhai a adroddir yn Exod. ix. 3, 8.

Adn. 37. *Ac a'u dyg hwynt allan âg arian ac aur*] Gwel ar Exod. xii. 35, 36; *ac heb un llesg yn eu llwythau*—yn analluog trwy afiechyd i ymgymeryd â'r daith. Yr oedd daioni Duw i'w weled yn amlwg yn hyn, wrth ystyried mor lucosog oeddynt, a'r fath farwoldeb a fuasai yn mhllir yr Aifftiaid.

Adn. 38. *Llawenychodd yr Aifft pan aethant allan*] Rhag iddynt oll gael eu dyfetha

o'u hachos hwynt, Exod. x. 7, a xii. 33.

Adn. 39. *Efe a daenodd gwmwl yn dô*] Sef y golofn niwl a thân: gwel ar Exod. xiii. 21, 22.

Adn. 40. *Gofynasant*] Nid mewn gweddi ostyngedig, eithr yn duchanllyd; *ac efe a ddyg soffieir*—yn gígwyd iddynt; *ac a'u diwallodd â bara nefol*—sef y manna: gwel ar Exod. xvi. 12, &c.

Adn. 41. *Efe a holltodd y graig*] I gael i'wfr iddynt yn yr anialwch sych: gwel ar Exod. xvii. 6.

Adn. 42. *Canys efe a gofodd ei air santiaid*] Sef ei gyfammod âg Abraham, a'i addewid iddo ef a'i had.

Adn. 43. *Ac a ddyg ei bobl allan mewn llawenydd*] Gwel eu cân hwy ar y pryd, Exod. xv. 1, &c.; *ei etholedigion*—felly y gelwir holl blant Israel, nid am eu bod wedi eu harfaethu i fywyd traegyddol, ond am eu bod wedi eu hethol i freintiau eglwysg: gwel ar Eph. i. 4, a'r traethawd yn niwedd Rhuf. ix.

Adn. 44. *Ac a rodde iddynt diroedd y cenhedloedd*] Sef gwlad Canaan, a'r wlad o du y dwyrain i'r Iorddonen, Jos. xiii. 1—6; *a meddiannasant lafur y bobloedd*—neu ffrwyth eu llafur, sef eu dinasoedd, eu trefi, a'u tai, eu maesydd, eu gwinllanoedd, a'u gerddi.

Adn. 45. *Fel y cadwent ei ddeddfau ef*] Nid i fyw yn segur a moethus ynddi y rhodde Duw wlad Canaan i Israel, ond i ufyddhau i'w ddeddfau a'i gyfreithiau ef, yn foesol, seremonïol, a gwladol, a thrwy hynny barotoi eu heneidiau i'r Ganaan nefol. Gwareddwyd Israel gan Moses, a phrynwyd yr eglwys gan Grist, fel y gallai Duw 'buro iddo ei hun bobl briodol, awyddus i weithredoedd da,' Titus ii. 14. *Molwch yr Arglwydd*—gwel ar Salm civ. 35.

SALM CVI.

MOLWCH yr Arglwydd. Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwydd ei drugaredd a bery yn dragywydd.

2 Pwy a draetha nerthoedd yr Arglwydd? ac a fynega ei holl fawlf ef?

3 Gwŷn eu byd a gadwant farn, a'r hwn a wnel gyfiawnder bob amser.

4 Cofia fi, Arglwydd, yn ol dy raslonrwydd i'th bobl; ymwel â mi â'th iachawdwriaeth.

5 Fel y gwelwyf ddaioni dy etholedigion, fel y llawenychwyf yn llawenydd dy genedl di, fel y gorfoleddwyf gyda'th etifeddiaeth.

SALM CVI. Nid oes un teitl i'r Salm hon yn yr *Hebraeg*, na chan un o'r cyfieithiadau oddieithr y *Syriaeg*. Fel y mae y Salm flaenorol yn grynodeb o hanes daioni Duw i Israel, felly y mae hon o banes eu gwrthryfel hwy yn ei erbyn ef. Y mae yn dra thebyg mai *Dafydd* yw ei hawdwr hi; canys eawn yr adnod flaenaf, a'r ddwy olaf, yn y Salm a gyfansoddodd efe i'w rhoddi yn llaw *Asaph* a'i frodyr: gwel I Cron. xvi. 34—36. Ond tybia *Poole*, *Mudge*, ac ereill, mai yn amser y caethiwed Babilonaidd yr ysgrifenydd hi, yn yr hon y mae y caethion yn cydnabod trngareddau Duw, yn cyffesu eu beiau eu hunain ac eiddo eu tadau, ac yn gweddio am i Dduw eu cynull hwy o blith y cenhedloedd, a'u hadfer i'w gwlad eu hunain, adn. 47.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd*] Hebr., *Huleliwia*. Y mae y gair hwn, pa un a ystyrir gan rai fel *teitl* y Salm, yn eisiau mewn amrai ysgrifysfrau Hebreig, ac yn y *Syriaeg*. *Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw*—ac felly yn haeddu ei glodfori a'i ganmol gan bawb. *O herwydd ei drugaredd a bery yn dragywydd*—gan hyny dylem briodoli ein cyfyngder presenol nid i ddiffyg daioni a thrugaredd yn Nuw, ond i'n pechodau ein hunain.

Adn. 2. *Pwy a draetha nerthoedd yr Arglwydd*] Sef maint ei nerth? neu pwy a all draethu yr holl weithredoedd nerthol a wnaeth efe erioed? *Ac a fynega ei holl fawlf ef*—ag sydd ddyledus iddo am ei weithredoedd?

Adn. 3. *Gwŷn eu byd a gadwant farn*] Y rhai a wnant yr hyn sydd gyfiawn ac uniawn tuag at Dduw a dynion; *a'r hwn a wnel gyfiawnder bob amser*—mewn adfyd yn gystal ag mewn llwyddiant; neu, y maent hwy yn wynfydedig neu ddedwydd bob amser, ac yn mhob amgylchiad.

Adn. 4. *Cofia fi, Arglwydd*] Neu, 'cofia ni'; canys y mae yr adnod hon a'r nesaf yn cael eu darllen yn y rhif lluosog mewn amrai ysgrifysfrau a chyfieithiadau; *yn ol dy raslonrwydd i'th bobl*—yn yr holl oesoedd a aethant heibio: *ywmwel â mi*—neu â ni, *â'th iachawdwriaeth*—yn dymhorol ac ysbrydol.

6 Pechasom gyda'n tadau; gwnaethom gamwedd, anwiredus fyom.

7 Ein tadau ni ddeallasant dy ryfeddodau yn yr Aifft, ni chofiasant luosogrwydd dy drugareddau; eithr gwrthryfelgar fuont wrth y môr, sef y môr coch.

8 Eto efe a'u hachubodd hwynt er mwyn ei enw, i beri adnabod ei gadernid.

9 Ac a geryddodd y môr coch, fel y sychodd efe: a thywysodd hwynt trwy y dyfnder, megys trwy yr anialwch

10 Achubodd hwynt hefyd o law eu dygasog; ac a'u gwaredodd o law y gelyn.

11 A'r dyfroedd a doisant eu

Adn. 5. *Fel y gwelwyf*] Neu fel y gwelom, ddaioni dy etholedigion—gwel ar Salm cv. 43; *fel y llawenychwyf yn llawenydd dy genedl di*—fel y llawenychom â'r un fath llawenydd ag yr arferai Israel ei brofi pan fyddit yn eu gwaredu hwy gynt o'u tralodau; *fel y gorfoleddwyf gyda'th etifeddiaeth*—fel y gallom gydorfoleddu â'th bobl di yn mhob oes a gwlad.

Adn. 6. *Pechasom gyda'n tadau*] Neu fel y gwnaeth ein tadau o'n blaen; *gwnaethom gamwedd*—o bob math; *anwiredus fyom*—yr un modd a'n tadau.

Adn. 7. *Ein tadau ni ddeallasant dy ryfeddodau yn yr Aifft*] Nid ystyrient dy wrthbiau rhyfedd yno, fel ag i gael lles ac addysg oddiwrthyt; *ni chofiasant luosogrwydd dy drugareddau*—neu ymddygasant fel pe buasant wedi eu hanghofo: *eithr gwrthryfelgar fuont wrth y môr*—gwel ar Exod. xiv. 11, 12; *sef y môr coch*—Hebr., *beyam suph*, 'yn y môr coch.' Tybia rhai o'r rabiniaid fod yma gyfeiriad at *ddau* fai o'r eiddynt: (1) Tuchaasant yn erbyn Moses am iddo eu dwyn o'r Aifft, pan welsant y môr o'u blaen a Pharao ar eu hol. (2) Ac ar ol i'r dyfroedd gael eu hollti, ofnent fyned i'r môr, rhag iddynt llyn yn y llaid ag ydoedd yn ei waelod.

Adn. 8. *Eto efe a'u hachubodd hwynt er mwyn ei enw*] I ogoneddu ei enw, a'i amddiffyn rhag y cableddau a fwriasai yr Aifftiaid ac ereill arno pe dyfethesid yr Israellaid; *i beri adnabod ei gadernid*—nad oedd ef yn rhy wan neu analluog i'w haclub hwynt.

Adn. 9. *Ac a geryddodd y môr coch*] Am sefyll ar eu ffordd i'w rhwystru yn mlaen; *fel y sychodd efe*—gwel ar Exod. xiv. 22; *a thywysodd hwynt trwy y dyfnder*—dywed ymdeithwyr fod y môr yno oddeutu 12 milldir o led, a 28 llath o ddyfnder; *megys trwy yr anialwch*—mor ddiogel a phe buasant yn rhodio ar dir sych.

Adn. 10. *Achubodd hwynt hefyd o law eu dygasog*] Sef o law Pharao a'i fyddin.

Adn. 11. *A'r dyfroedd a doisant eu gwrth-*

gwrthwynebwy; ni adawyd un o honynt.

12 Yna y credasant ei eiriau ef; canasant ei fawl ef.

13 Yn y fan yr anghofiasant ei weithredoedd ef; niddysgwylasant am ei gynghor ef:

14 Eithr blysiasant yn ddirfawr yn yr anialwch; a themtiasant Dduw yn y diffaethwch.

15 Ac efe a roddes eu dymuniad iddynt; eithr efe a anfonodd gulni i'w henaid.

16 Cenfigenasant hefyd wrth Moses yn y gwersyll, ac wrth Aaron sant yr Arglwydd.

17 Y ddaear a agorodd, ac a lyncodd Dathan, ac a orchuddiodd gynulleidfa Abiram.

18 Cyneudd tân hefyd yn eu cynulleidfa hwynt: fflam a losgodd y rhai annuwiol.

wynebwy] A orchuddiasant gerbydau, marchogion, a holl fyddin Pharao; *ni adawyd un o honynt*—yn fyw, i ddwyn y newydd athrist yn ol i'r Aifft, Exod. xiv. 28.

Adn. 12. *Yna y credasant ei eiriau ef]* Y rhai a adroddir Exod. xiv. 16—18; *canasant ei fawl ef*—yn y geiriau a adroddir Exod. xv. 1, &c.

Adn. 13. *Yn y fan yr anghofiasant ei weithredoedd ef]* Sef yn mhen tri diwrnod, wrth ddyfroedd Mara, Exod. xv. 22, 23; *ni ddysgwylasant am ei gynghor ef*—neu nid arosant hyd nes y byddai i Dduw gyflawni ei fwrriadan yn ei ffordd ei hun.

Adn. 14. *Eithr blysiasant yn ddirfawr yn yr anialwch]* Nid yn unig am fara a dwfr, ond am gig hefyd, a phethau ereill yn fynych; *a themtiasant Dduw yn y diffaethwch*—i'w tori hwynt ymaith am eu blys, eu tuchan, a'u hannghrediniaeth parhaus.

Adn. 15. *Ac efe a roddes eu dymuniad iddynt]* Efe a roddes iddynt gig, ond yn ei ddigofaint, a chyda mellidith, Num. xi. 31—34; *eithr efe a anfonodd gulni i'w henaid*—sef i'w cyrff, fel y mae rhai yn ei ddeall, trwy beri i'r cig fod yn angau iddynt, yn lle yn faeth. Ond gellir deall *nepheš* yma am yr enaid, yr hwn a lanwyd â dychryn, gofid, a gwae.

Adn. 16. *Cenfigenasant hefyd wrth Moses yn y gwersyll]* Fel eu penllwydd mewn pethau gwladol; *ac wrth Aaron sant yr Arglwydd*—yr hwn oedd yn bennaeth arnynt mewn pethau eglwysig, fel eu harchoffeiriad. Cyfeirir yma at wrthryfel Corah, Dathan, ac Abiram.

Adn. 17. *Y ddaear a agorodd, ac a lyncodd Dathan]* Gwel ar Num. xvi. 31—33; *ac a orchuddiodd gynulleidfa Abiram*—neu Abiram a'i gynulleidfa. Ymddengys mai ei losgi a gafodd Corah, trwy nad oes son yma

19 Llo a wnaethant yn Horeb; ac ymgyrmasant i'r ddelw dawdd.

20 Felly y troisiant eu gogoniant i lun eidion yn pori glaswellt.

21 Anghofiasant Dduw eu Hachubwr, yr hwn a wnelsai bethau mawrion yn yr Aifft;

22 Pethau rhyfedd yn nhir Ham; pethau ofnadwy wrth y môr coch.

23 Am hyny y dywedodd y dinystriai efe hwynt, oni buasai i Moses ei etholedig sefyll ar yr adwy o'i flaen ef; i droi ymaith ei lidiogrwydd ef, thag eu dinystrio.

24 Diystyrasant hefyd y tir dymunol: ni chredasant ei air ef:

25 Ond grwgnachasant yn eu pebyll; ac ni wrandawsant ar lais yr Arglwydd.

26 Yna y dyrchafodd efe ei law yn eu herbyn hwynt, i'w cwmpo yn yr anialwch;

am ei lyncu ef: gwel y sylw ar Num. xvi. 32.

Adn. 18. *Cyneudd tân hefyd yn eu cynulleidfa hwynt]* Sef 'tân oddiwrth yr Arglwydd,' Num. xvi. 35; *fflam a losgodd y rhai annuwiol*—sef Corah, a 250 o'r rhithoffeiriad ag oeddynt gydag ef yn offrymu yr aroglarth.

Adn. 19. *Llo a wnaethant yn Horeb, &c.]* Gwel ar Exod. xxxii. 1—6.

Adn. 20. *Felly y troisiant eu gogoniant]* Neu eu Duw, yr hwn oedd eu gogoniant penaf; *i lun eidion yn pori glaswellt*—sef i lun llo, adn. 19.

Adn. 21. *Anghofiasant Dduw eu Hachubwr]* Yr hwn a'u hachubasai yn ddiweddar o'r Aifft trwy wyrthiau mawrion.

Adn. 22. *Pethau rhyfedd yn nhir Ham]* Felly y gelwir yr Aifft, lle y gwnaethid y deg pla; gwel ar Salm cv. 23; *pethau ofnadwy wrth y môr coch*—sef ei hollti i Israel fyned trwyodd, ac wedi hyny ei gau i foddri yr Aifftiaid.

Adn. 23. *Am hyny y dywedodd y dinystriai efe hwynt]* Sef am wneyd y llo ar, ac anghofio Duw; *oni buasai i Moses ei etholedig*—yr hwn a etholasai efe i fod yn waredwr iddynt; *sefyll ar yr adwy*—i ymbil yn llwyddiannus drostynt: gwel yr hanes, Exod. xxxii. 10—14.

Adn. 24. *Diystyrasant hefyd y tir dymunol]* Sef Canaan, gwlad yn llifeirio o laeth a mêl; *ni chredasant ei air ef*—fod y tir mor ddymunol ag y dywedasai Duw ei fod, neu y rhoddai efe ef iddynt yn ol ei addewid.

Adn. 25. *Ond grwgnachasant yn eu pebyll]* Ar ol clywed anghlod yr yspïwr i'r wlad, Num. xiv. 1—4; *ac ni wrandawsant ar lais yr Arglwydd*—yr hwn a orchymynasai iddynt fyned a pherchenogi y wlad.

Adn. 26. *Yna y dyrchafodd efe ei law yn eu herbyn hwynt]* I dyngu yn ei lid na

27 Ac i gwympe eu had yn mysg y cenhedloedd; ac i'w gwasgaru yn y tiroedd.

28 Ymgysylltasant hefyd â Baal-peor, a bwytasant ebyrth y meirw.

29 Felly y digiasant ef â'u dychymygion eu hun; ac y tarawodd y pla yn eu mysg hwy.

30 Yna y safodd Phinees, ac a iawn-farnodd: a'r pla a attaliwyd.

31 A chyfrifwyd hyn iddo yn gyfiawnder, o genhedlaeth i genhedlaeth byth.

32 Llidasant ef hofyd wrth ddyfroedd y gynhen; fel y bu ddrwg i Moses o'u plegid hwynt:

33 O herwydd cythruddo o honynt ei ysbryd ef, fel y camddywedodd â'i wefusau.

34 Ni ddinystriasant y bobloedd, am y rhai y dywedasai yr Arglwydd wrthynt:

35 Eithr ymgymysgasant â'r cen-

hedloedd; a dysgasant eu gweithredoedd hwynt:

36 A gwasanaethasant eu delwau hwynt; y rhai a fu yn fagl iddynt.

37 Aberthasant hefyd eu meibion a'u merched i gythreuliaid,

38 Ac a dywalltasant waed gwirion, sef gwaed eu meibion a'u merched, y rhai a aberthasant i ddelwau Canaan: a'r tir a halogwyd â gwaed.

39 Felly yr ymhalogasant yn eu gweithredoedd eu hun, ac y puteiniasant gyda'u dychymygion.

40 Am hyny y cyneudd dig yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel y ffeiddiodd efe ei etifeddiaeth.

41 Ac efe a'u rhoddes hwynt yn llaw y cenhedloedd; a'u caseion a lywodraethasant arnynt.

42 Eu gelynion hefyd a'u gorthrymasant; a darostyngwyd hwynt dan eu dwylaw hwy.

chaent fyned i Ganaan, Num. xiv. 28, 29; neu fel gŵr yn codi ei ddwrn i'w cwympe hwynt yn yr anialwch.

Adn. 27. *Ac i gwympe eu had yn mysg y cenhedloedd*] Gan ddwyn anwiredd y tatau ar y plant, Exod. xx. 5.

Adn. 28. *Ymgysylltasant hefyd â Baal-peor*] Mewn addoliad halogedig a ffaidd, Num. xxv. 3; *a bwytasant ebyrth y meirw*—y rhai a aberthid i dduwiau meirw, yn lle i'r Duw byw; neu i ddynion meirw a addolidd ganddynt.

Adn. 29. *Felly y digiasant ef â'u dychymygion eu hun*] Trwy wahanol fathau o ffaidd eilunaddoliaeth; *ac y tarawodd y pla yn eu mysg hwy*—o'r hwn y bu feirw bedair mil ar hugain, Num. xxv. 9.

Adn. 30. *Yna y safodd Phinees*] Gan eiddigeddu dros ei Dduw; *ac a iawn-farnodd*—neu a wnaeth farn uniawn, trwy ladd Zimri a Cosbi; *a'r pla a attaliwyd*—gwel ar Num. xxv. 6—8.

Adn. 31. *A chyfrifwyd hyn iddo yn gyfiawnder*] Yn weithred gyfiawn, am yr hon y sefydlwyd yr offeiriadaeth yn ei deulu ef yn barhaus; gwel ar Num. xxv. 13.

Adn. 32. *Llidasant ef hofyd wrth ddyfroedd y gynhen*] Yn Cades, lle y cynhenodd y bobl a'r Arglwydd am ddwfr, Num. xx. 3—13; *fel y bu ddrwg i Moses o'u plegid hwynt*—trwy iddo gael ei attal i Ganaan.

Adn. 33. *O herwydd cythruddo o honynt ei ysbryd ef*] Fel ag i'w yru i natur ddrwg; *fel y camddywedodd â'i wefusau*—yn y geiriau hyn, 'Ai o'r graig hon y tynwn i chwi ddwfr?' gwel ar Num. xx. 10—12.

Adn. 34. *Ni ddinystriasant y bobloedd*] Sef cenhedloedd eilunaddolgar Canaan, y rhai yr oedd cwpan eu hanwiredd yn llawn: *am y rhai y dywedasai yr Arglwydd wrthynt*—tod

yn rhaid iddynt eu dinystrio: gwel ar Num. xxxiii. 51, &c., Deut. vii. 2, &c. Yma dechreuir adrodd pechodau Israel ar ol eu dyfod i Ganaan.

Adn. 35. *Eithr ymgymysgasant â'r cenhedloedd*] Mewn cyfathrachau a phriodasau; *a dysgasant eu gweithredoedd hwynt*—gan ddylyn eu harferion ffaidd ac annuwiol.

Adn. 36. *A gwasanaethasant eu delwau*] Gan eu haddoli, ac aberthu iddynt; *y rhai a fu yn fagl iddynt*—trwy eu tynu i bechu yn erbyn Duw, ac i gael eu cospi am hyny.

Adn. 37. *Aberthasant hefyd eu meibion a'u merched i gythreuliaid*] Hebr., *lashshedim*, 'i ellyllon,' y rhai y tybid eu bod yn preswyltio yn eu delwau: gwel ar Lef. xvii. 7, a xviii. 21.

Adn. 38. *Ac a dywalltasant waed gwirion*] Sef gwaed eu plant diniwed eu hunain, y rhai a aberthasant felly i gythreuliaid; *a'r tir a halogwyd â gwaed*—yn waeth nag yn amser y cenhedloedd, trwy ei fod bellach yn dir sant-aidd i'r Arglwydd.

Adn. 39. *Felly yr ymhalogasant yn eu gweithredoedd eu hun*] Yn ngolwg y Duw pur a santaidd; *ac y puteiniasant*—yn gnawdol ac ysbrydol, trwy eu heilunaddoliaeth. Yr oeddynt nid yn unig yn anffyddlon i'w Duw cyfammodol, ond hefyd yn dylun affendid ffaidd mewn addoliad rhai o'u duwiau, fel y gwelwom yn fynych, adn. 28.

Adn. 40. *Am hyny y cyneudd dig yr Arglwydd yn erbyn ei bobl*] Fel tân angherdol a dinystrion; *fel y ffeiddiodd efe ei etifeddiaeth*—neu ei bobl briodol ei hun.

Adn. 41. *Ac efe a'u rhoddes hwynt yn llaw y cenhedloedd*] Lawer gwaith o amser y Barnwyr hyd eu caethgludaid i Assyria a Babilon; *a'u caseion a lywodraethasant arnynt*—fel y byggythwyd, Lef. xxvi. 17.

Adn. 42. *Eu gelynion hefyd a'u gorthrym-*

43 Llawer gwaith y gwaredodd efe hwynt; hwythau a'i digiasant ef â'u cynglor eu hun, a hwy a wanychwyd am eu hanwiredd.

44 Eto efe a edrychodd pan oedd ing arnynt, pan glywodd eu llefain hwynt.

45 Ac efe a gofiodd ei gyfammod â hwynt, ac a edifarhaodd yn ol lluosogrwydd ei drugareddau:

46 Ac a wnaeth iddynt gael trugarcdd gan y rhai oll a'u caethiwai.

47 Achub ni, O Arglwydd ein Duw, a chynull ni o blith y cenhedloedd, i glodfori dy enw santaidd, ac i orfoleddu yn dy foliant.

asant] Yn dost mewn amrai ffyrdd; a darostyngwyd hwynt dan eu deylaw hwy—nes peri iddynt lefain ar yr Arglwydd am ymward.

Adn. 43. *Llawer gwaith y gwaredodd efe hwynt]* Trwy law y Barnwyr a gyfodai Duw i'w gwaredu; *hwythau a'i digiasant ef*—eilwaith; a *hwy a wanychwyd*—drachefn, yn gosp arnynt.

Adn. 44. *Eto efe a edrychodd pan oedd ing arnynt]* Hyn yw, efe a edrychodd yn ei drugaredd, er amled eu cythruddiadau; *pan glywodd eu llefain hwynt*—pan y byddent hwy yn llefain arno yn nghanol eu hing, efe a'u gwaredai hwynt eilwaith. Cawn lawer o siamplan o hyn yn llyfr y Barnwyr.

Adn. 45. *Ac efe a gofiodd ei gyfammod â hwynt]* Trwy yr hwn yr ymrwymasai efe i'w gwaredu; *ac a edifarhaodd*—neu a newidodd ei ymddygiad tuag atynt, trwy eu gwaredu yn lle eu ceryddu; *yn ol lluosogrwydd ei drugareddau*—ei hun, ac nid yn ol eu haeddiant hwy. Fel hyn efe a ddangosai lluosogrwydd o drugareddau yn ngwyneb eu lluosogrwydd beiau hwy, 'am fod yn hoff ganddo drugaredd,' Mica vii. 18.

Adn. 46. *Ac a wnaeth iddynt gael trugarcdd]* Trwy droi calonau eu gelyntyn i dosturio wrthynt: gwel anghraifft o hyn yn Ezra ix. 9.

Adn. 47. *Achub ni, O Arglwydd ein Duw]* Yr hwn a'n bachubaist ni mor fynyeh eisioes; a *chynull ni o blith y cenhedloedd*—pan fyddo rhai o bonom wedi syrthio i'w dwylaw hwy; *i glodfori dy enw santaidd*—yn dy gysegr yn Jerusalem; *ac i orfoleddu yn dy foliant*—neu yn y gwaith o'rh foliannu. Casgla rhai oddiwrth yr adnod hon mai yn ausser caethiwed Babilon yr ysgrifenydd y Salm hon; ond nid oes sail i hyn, trwy fod yr adnod hon o leiaf, os nid y Salm oll, wedi ei hysgrifenu gan Dafydd yn I Cron. xvi. 35: gwel y teitl.

Adn. 48. *Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel]* Yr hwn a fu mor drugarog a thosturiol wrth ei bobl Israel yn mhob oes; *erioed ac yn dragywydd*—Saes, 'o dragyddoldeb i dragyddoldeb.' *A dywedod yr holl bobl*—fel arwydd o'u cydsyniad, *Amen*—'felly y byddo.' *Molwch yr Arglwydd*—

48 Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel erioed ac yn dragywydd: a dywedod yr holl bobl, Amen. Molwch yr Arglwydd.

SALM CVII.

CLODFORWCH yr Arglwydd, canys da yw: o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd.

2 *Felly* dywedod gwaredigion yr Arglwydd, y rhai a waredodd efe o law y gelyn;

3 Ac a gasglodd efe o'r tiroedd, o'r dwyrain, ac o'r gorllewin, o'r gogledd, ac o'r deau.

Hebr., *Haleliwia*. Y mae yn dra phriodol i'r holl bobl, mewn cynulleidfodded crefyddol, ddangos trwy y ddau air cynwysfawr hyn, *Amen a Haleliwia*, eu bod yn ymuno â'u gweinidogion yn eu gweddiau a'u mawl, gan ddywedyd *Amen* wrth y gweddiau, a *Haleliwia* wrth y mawl: gwel HENRY. Yna y diwedda *pedwarydd* llyfr y Salmu, yn ol y rhaniad luddewig: gwel y rhagarweiniad.

SALM CVII. Y mae *pumed* llyfr y Salmu, yn ol y rhaniad luddewig, yn dechreu yma. Nid oes un teitl i'r Salm hon yn yr *Hebraeg*, nac mewn un o'r cyfieithiadau; canys nid yw y gair *Haleliwia*, a osodir o'i blaen mewn rhai o'r cyfieithiadau, yn un math ar deitl iddi; a benthycwyd ei ond odid o ddiwedd y Salm *haenorol*. Tybia yr *Esyob Patrick* mai *Dafydd* yw ei hawdwr; ond barna *Clarke* ei bod, fel y ddwy Salm *haenorol*, wedi ei gwenthur i'w chlanu ar gysegriad yr ail deml. Tybia *Louth* ac ereill ei bod wedi ei bwriadu i'w channu gan wahanol ddosbeirith, i ateb eu gilydd. Meddylir yn gyffredin mai cyflwr y *caethion yn Babilon* a osodir allan yn yr holl Salm. Y mae o gyfan-soddiad rhagorol, ac yn dra chywraidd, darlun-iadol, a chynwysfawr.

Adn. 1. *Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw]* Cawsom yr oll o'r adnod hon o'r blaen yn Salm cvi. 1, ond fod y cyfarchiad yno yn cael ei wneuthur i'r Isrealiaid, ac yma, gallwn feddwl, i holl ddynolryw. *O herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd*—fel ffrwd gref yn dylifo yn barhaus o fynnnonell ei ddaioni ef.

Adn. 2. *Felly dywedod gwaredigion yr Arglwydd]* Am eu bod hwy wedi cael y prawf llawnaf o'i ddaioni a'i drugaredd ef; *y rhai a waredodd efe o law y gelyn*—o law y Babiloniaid, yn ol rhai; oddiwrth y tralodau a grybwyllir ar ol hyn, yn ol ereill; neu o law gelyn eu beneidiau, trwy waredigaeth ysbrydol, yn ol ereill. Ond diamau fod yr ystyr olaf yn cael ei arwyddo yn yr holl Salm.

Adn. 3. *Ac a gasglodd efe o'r tiroedd, &c.]* 'Er i lawer o'r Iuddeuon ddychlwelyd i Jerusalem o wahanol barthau y byd dan deyrnasiad *Darius Hystaspes, Artaxerxes*, ac *Alex-*

4 Crwydrasant yn yr anialwch mewn ffordd ddisathr, heb gael dinas i aros ynddi:

5 Yn newynog ac yn sychedig, eu henaid a lewygodd ynddynt.

6 Yna y lfeasant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder; ac efe a'u gwardodd o'u gorthrymderau.

7 Ac a'u tywysodd hwynt ar hyd y ffordd uniawn, i fyned i ddinas gyfaneddol.

8 O na foliantent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!

9 Canys efe a ddiwalla yr enaid sychedig, ac a leinw yr enaid newynog â daioni.

10 Y rhai a breswylant yn y ty-

wyllwch a chysgod angau, yn rhwym mewn cystudd a haiarn;

11 O herwydd anufyddhau o honnynt eiriau Duw, a dirmygu cyngor y Goruchaf.

12 Am hyny yntau a ostyngodd eu calon â blinder: syrthiasant, ac nid oedd cynorthwywr.

13 Yna y gwaeddasant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder; ac efe a'u hachubodd o'u gorthrymderau.

14 Dyg hwynt allan o dywyllwch a chysgod angau; a drylliodd eu rhwymau hwynt.

15 O na foliantent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!

16 Canys efe a dorodd y pyrth

ander Fawr, fel y sylwa CLARKE; 'eto dan yr efengyl yn unig y caiff y broffwydoliaeth hon ei hollol gyflawniad, pan y bydd i holl derfynau y ddaear glywed iachawdwriaeth Duw.'

Adn. 4. *Crwydrasant yn yr anialwch mewn ffordd ddisathr*] Felly y gwnaeth plant Israel am ddeugain mlynedd; *heb gael dinas i aros ynddi*—ond yn gorfod trigo yn eu pebyll. Eithr tybia rhai mai cyfeiriad sydd yma at deithwyr yn gyffredinol yn anialdir-oedd Arabia, a manau ereill; neu at gyflwr moesol y saint ar y ddaear.

Adn. 5. *Yn newynog ac yn sychedig*] Heb fwy na diod yn fyuych; *eu henaid a lewygodd ynddynt*—neu yr oeddynt yn barod i lewygu o ddfygu cynaliaeth. Tybia CLARKE mai Israel yn eu caethiwd a gyffelybir yma i deithwyr mewn anialwch disathr.

Adn. 6. *Yna y lfeasant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder*] Yr hwn yn drugarog a wrandawodd ar eu llef; *ac efe a'u gwardodd o'u gorthrymderau*—yr hyn sydd yn brawf o'r haerriad yn adn. 1, fod yr Arglwydd yn 'dda,' a 'bod ei drugaredd yn dragywydd.'

Adn. 7. *Ac a'u tywysodd hwynt ar hyd ffordd uniawn*] O'r anialwch dyrys; *i fyned i ddinas gyfaneddol*—lle y caent yr angenrheidiâu natur ag yr oeddynt yn amddifad o honnynt.

Adn. 8. *O na foliantent yr Arglwydd am ei ddaioni*] O na feliannai y teithwyr crwydr-edig uchod ef am ei ddaioni iddynt hwy yn neillduol; *a'i ryfeddodau i feibion dynion*—i ereill yn gystal ag iddynt hwythau; neu i feibion dynion yn gyffredinol, yn gystal ag i feibion Duw. Y geiriau hyn, y rhai a gawn eto yn adn. 15, 21, 31, a genid gan y cydgor, ond odid, yn niwedd pob dosbarth.

Adn. 9. *Canys efe a ddiwalla yr enaid sychedig*] Mewn ystyr tymhorol ac ysbrydol; *ac a leinw yr enaid newynog â daioni*—sef â'r daioni ag y byddo yn hiraethu am dano. Y geiriau hyn yw y rheswm a roddir dros foliannu yr Arglwydd, fel y dywedwyd uchod; ac y maent yn perthyn i'r dosbarth blaenaf,

neu cydgenid hwynt gydag adn. 8: a'r ail ddoesbarth a ddechreuau yn yr adnod nesaf.

Adn. 10. *Y rhai a breswylant yn y tywyllwch a chysgod angau*] Sef mewn carcharau tywyllion, neu gelloedd tanddaearol; *yn rhwym mewn cystudd a haiarn*—neu, fel ei mynegir yn Job xxxvi. 8, y rhai 'a ddelir mewn rhaffau gorthrymder,' ac yn enwedig mewn gefynau a llyftheiriau haiarn. 'Yma,' ebai CLARKE, 'y dechreuau yr ail gyffelybiaeth, yr hon a ddefnyddia efe i osod allan gyflwr y caethion yn Babilon, sef eiddo carcharor mewn dyfn-gell erchyll.' Y mae ereill yn deall hwn mewn ystyr ysbrydol, am gaethiwd pechod, a'r waredigaeth a geir trwy Grist.

Adn. 11. *O herwydd anufyddhau o honnynt eiriau Duw*] Sef yn gomp am droseddau gorchymynion pendant Duw; *a dirmygu cyngor y Goruchaf*—sef ei lais ef yn ei air, neu trwy ei Ysbryd yn eu cydwbyodau.

Adn. 12. *Am hyny, yntau a ostyngodd eu calon â blinder*] A phoen a gofid yn eu corff a'u hysbryd: *syrthiasant*—i ddwyllaw y swyddogion gwladol, neu i gyflwr o gaethwasanaeth ac alltudiaeth; *ac nid oedd cynorthwywr*—trwy fod Duw wedi cilio oddiwrthynt, am iddynt hwy gilio oddiwrtho ef.

Adn. 13. *Yna y gwaeddasant ar yr Arglwydd, &c.*] Gwel ar adn. 6.

Adn. 14. *Dyg hwynt allan o dywyllwch a chysgod angau*] Trwy ei ragluniaeth hynod; *a drylliodd eu rhwymau hwynt*—gan eu gosod mewn rhyddid: gwel ar adn. 10.

Adn. 15. *O na foliantent yr Arglwydd, &c.*] Gwel ar adn. 8.

Adn. 16. *Canys efe a dorodd y pyrth pres*] Sef drysau eu carcharau; *ac a drylliodd y barau heigrn*—y rhai a sicrhäent y drysau hyn. Dywed Herodotus fod yn y mur o amgylch Babilon gant o byrth, a'r rhai hyny oll o bres: gwel ar Essay xlv. 2.

Adn. 17. *Ynfydion*] Neu ddyinion anfad a drygionus; *oblegid eu camweddu, ac o herwydd eu hamwreddau*—Hebr., 'o herwydd ffordd eu troseddau'; *a gystuddir*—âg am-

pres, ac a ddrylliodd y barau heiyryn.

17 Ynfydion, oblegid eu camweddau, ac o herwydd eu hanwir-eddau, a gystuddir.

18 Eu henaid a ffeiddiai bob bwyd; a daethant hyd byrth angau.

19 Yna y gwaeddasant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder; ac efe a'u hachubodd o'u gorthrymderau.

20 Anfonodd ei air, ac iachaodd hwynt, ac a'u gwaredodd o'u dinystr.

21 O na foliaunent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!

22 Aberthant hefyd aberth moliant; a mynegant ei weithredoedd ef mewn gorfoledd.

23 Y rhai a ddisgynant mewn llongau i'r môr, gan wneuthur eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion.

24 Hwy a welant weithredoedd

yr Arglwydd, a'i ryfeddodau yn y dyfnder.

25 Canys efe a orchymyn, a chyfyd tymhestl-wynt, yr hwn a ddyrchafa ei ddonau ef.

26 Hwy a esgynant i'r nefoedd, disgynant i'r dyfnder: tawdd eu henaid gan flinder.

27 Ymdroant, ac ymsymudant fel meddwyn: a'u holl ddoethineb a ballodd.

28 Yna y gwaeddant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder; ac efe a'u dwg allan o'u gorthrymderau.

29 Efe a wna yr ystorm yn dawel; a'i thônau a ostegant.

30 Yna y llawenhant am eu gostegu; ac efe a'u dwg i'r porthladd a ddymunent.

31 O na foliaunent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!

rywiol glefydau corfforol. Dyma y *drydedd* gyffelybiaeth, yn yr hon y meddylir fod caethiwed Babilon yn cael ei gydmaru i afiehyd neu gystudd trwm.

Adn. 18. *Eu henaid a ffeiddiai bob bwyd*] Fel nad allent edrych arno, chwaithach ei fwyta; a *daethant hyd byrth angau*—yn eu teimlad eu hunain, ac yn marn ereill.

Adn. 19. *Yna y gwaeddasant ar yr Arglwydd, &c.*] Gwel ar adn. 6.

Adn. 20. *Anfonodd ei air*] Gorchymynodd i'r clefyd eu gadael, naill ai o hono ei hun, neu trwy fendithio y feddyginiaeth a gymerent; ac *a'u gwaredodd o'u dinystr*—rhag y farwolaeth ag ydoedd yn eu bygwth.

Adn. 21. *O na foliaunent yr Arglwydd, &c.*] Gwel ar adn. 8.

Adn. 22. *Aberthant hefyd aberth moliant*] Neu 'aberth diolch;' naill ai trwy ddwyn anifel i'w aberthu, neu ynte trwy leferydd a chàn, 'yr hyn yw ffirwyth eu gwefusau yn cyffesu i'w enw ef,' Heb. xiii. 15: *a mynegant ei weithredoedd ef mewn gorfoledd*—gyda llawenydd a diolchgarwch. Y Saeson-aeg yw, 'boed iddynt aberthu a mynegu,' &c. Yn adn. 9, 16, ar ol y geiriau 'O na foliaunent,' &c., crybwyll achos chwanebol i folianu a wneir; ond yma, rhoddi *annogaeth* chwanebola a wneir.

Adn. 23. *Y rhai a ddisgynant mewn llongau i'r môr*] Efe a ddywed 'disgyn i'r môr,' am fod y tir yn *wach* na'r môr, i'r hwn y rhed yr afonydd; *gan wneuthur eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion*—dyma y *bedwaredd* gyffelybiaeth, lle y tybir fod caethion Babilon yn cael eu gosod allan fel morwyr mewn tymhestl ddychrynllyd.

Adn. 24. *Hwy a welant weithredoedd yr Arglwydd*] Yn llanw a thrai y môr, ac yn yr aneirif bysgod a heigiant yno; *a'i ryfeddod-*

au yn y dyfnder—yn ymchwydd y dôn, rhwad y dymhestl, a gostegiad yr unrhwy.

Adn. 25. *Canys efe a orchymyn*] A ddywed 'Bydded,' fel yn y cread gyt; a *chyfyd tymhestl-wynt*—yr hyn ni ddygyddia trwy ddamwain, ond trwy drefniad rhagluniaeth Duw; *yr hwn a ddyrchafa ei ddonau ef*—fel mynyddoedd uchel.

Adn. 26. *Hwy a esgynant i'r nefoedd*] Nid yn unig esgyna y tönau megys i'r wybrenau, ond y llongau hefyd ar frig y tönau, a'r morwyr ynddynt; *disgynant i'r dyfnder*—rhwng y ddwy mae: *tawdd eu henaid gan flinder*—y mae y morwyr a'r ymdeithwyr yn gyffredin, ar y fath achos, yn barod i drengu gan ofn.

Adn. 27. *Ymdroant, ac ymsymudant fel meddwyn*] Heb allu sefyll, na cherdedd yn wastad, gan ymsigliad y llong; *a'u holl ddoethineb a ballodd*—sef eu gwybodaeth a'u medrusrwydd morwriaethol. Nid yw eu llyw, eu hwyliâu, na'u compawd, o un lles iddynt mwyach; ac nis gwyddant pa beth i'w wneyd i achub y llong na'u bywydau. Adwaena yr ysgrifenydd un a fu yn y cyflwr hwn unwaith am bedair noson a thri diwrnod, a diamau i rai o'm darllenwyr fod felly yn fynych.

Adn. 28. *Yna y gwaeddant ar yr Arglwydd*] Ar ol i'w holl ddoethineb eu hunain ballu; *ac efe a'u dwg allan o'u gorthrymderau*—trwy dawelu yr ystorm, gostegu y tönau, a dwyn y llong i'r porthladd a ddymunent, adn. 29, 30: gwel ar adn. 6.

Adn. 29. *Efe a wna yr ystorm yn dawel*] A'i orchymyn yn unig, yr un modd ag y cyfododd efe hi, adn. 25; *a'i thônau a ostegant*—gwel anghraiffit o hyn ar orchymyn ein Harglwydd bendigedig, Mat. viii. 26. Marc iv. 39.

Adn. 30. *Yna y llawenhant am ei gostegu*] Trwy fod hyny yn arwydd iddynt yr achubid

32 A dyrchafant ef yu nghynull-eidfa y bobl, a molianant ef yn eisteddfod yr henuriaid.

33 Efe a wna afonydd yn ddi-faethwch, a ffynnonau dyfroedd yn sychdir.

34 A thir ffrwythlon yn ddiffwrwyth, am ddrygioni y rhai a drigant ynddo.

35 Efe a dry yr anialwch yn llyn dwfr, a'r tir cras yn ffynnonau dwfr.

36 Ac yno y gwna i'r newynog aros; fel y darparont ddinas i gyfaneddu:

37 Ac yr hauont faesydd, ac y

planont winllanoedd, y rhai a ddyg-ant ffrwyth toreithiog.

38 Ac efe a'u bendithia hwynt fel yr amhant yn ddirfawr, ac ni âd i'w hanifeiliaid leihau.

39 Lleiheir hwynt hefyd, a gostyngir hwynt, gan gyfyngder, drygfyd, a chyni.

40 Efe a dywallt ddirmyg ar foneddigion, ac a wna iddynt grwydro mewn anialwch heb ffordd.

41 Ond efe a gyfyd y tylawd o gystudd, ac a wna iddo deuluoedd fel praidd.

42 Y rhai uniawn a welant hyn,

y llong a'u bywydau; ac efe a'u dwg i'r porthladd a ddyment—sef i'r hafan ag y bwriadent ei gyraedd, yr hyn a briodolir yma i ragluniaeth ddaionus Duw, ac nid i'w medruswydd eu hunain.

Adn. 31. *O na foliantent yr Arglwydd,* &c.] Gwel ar adn. 8.

Adn. 32. *A dyrchafant ef yn nghynull-eidfa y bobl]* Trwy roddi diolch cyhoeddus iddo am eu gwaredigaeth yn y cysegr; *a molianant ef yn eisteddfod yr henuriaid*—yn uhorth y ddinas; nid yn unig yn y gynull-eidfa eglwysig, ond yn y llys gwladol hefyd, neu yn y senedd. Saes., 'boed iddynt ei ddyrchafu a'i foliantu ef,' yr hyn sydd *annogaeth* iddynt wneyd hyn: gwel ar adn. 22.

Adn. 33. *Efe a wna afonydd]* Neu dir yn cael ei ddyfrhau gan afonydd; *yn ddiffaethwch*—anial ac a ffrwythlon; *a ffynnonau dyfroedd yn sychdir*—trwy attal iddynt darddu, neu droi eu rhedid i ryw lwybr arall, yr hyn a wueir yn fynych trwy ddaeargryn.

Adn. 34. *A thir ffrwythlon yn ddiffwrwyth]* Hebr., 'yn halltrwydd,' yr hyn a achosa ddiffwythder; *am ddrygioni y rhai a drigant ynddo*—ni weinydda efe y barnedigaethau hyn yn ddinachos, eithr i gopsi pechod mewn rhai, ac i'w attal mewn ereill. Fel hyn gwastadedd yr Iorddonen, yr hwn cyn dynyst Sodom a Gomorra ydoedd ddyfradwy oll 'fel garrd yr Arglwydd,' Gen. xiii. 10, a drowyd yn dir hallt, brwmstanaidd, a diffwrwyth. A gellir dywedyd yn agos yn un peth am Palestina a'r Aifft.

Adn. 35. *Efe a dry yr anialwch yn llyn dwfr* &c.] O'r tu arall, pan fyddo ffyrdd dynion yn rhyngu bodd Duw, gall ef droi anialwch sych a diffwrwyth yn ardd ddyfradwy a ffrwythlon. Ac fel hyn hefyd yr ymddyga Duw tuag at luddewon a Chenhedloedd yn ngorchwyli-iaethau ei ras.

Adn. 36. *Ac yno]* Sef yn y fan a fuasai o'r blaen yn anialwch a chrasdir; *y gwna i'r newynog aros*—a chael digonedd o fara ac angenrheidiau ereill i gynal natur; *fel y darparont ddinas i gyfaneddu*—fel yr adeiladont dai a dinasoedd, ac y sefydlont drefedigaethau yno.

Adn. 37. *Ac yr hauont faesydd]* I gy-
424

nyrchu gwahanol fathau o fyd; ac y planont winllanoedd—yn nghyda gerddi a pherllanoedd; y rhai a ddygant ffrwyth toreithiog—trwy fendith Duw ar eu tir a'u llafar.

Adn. 38. *Ac efe a'u bendithia hwynt fel yr amhant yn ddirfawr]* Fel Israel yn yr Aifft; *ac ni âd i'w hanifeiliaid leihau*—eithr efe a'u cynyddu yn ddirfawr, tra byddo eu perchenogion yn rhyngu ei ffordd ef.

Adn. 39. *Lleiheir hwynt hefyd]* O ran nifer eu gwyr a'u hanifeiliaid, pan droant hwy yn anfyddlon iddo ef; *a gostyngir hwynt*—i'r cyflwr iselaf, ar ol iddynt ymgodi ac ymfalchïo trwy eu llwyddiant; *gan gyfyngder, drygfyd, a chyni*—Saes., 'gan orthrymder, cystudd, a gofid,' hyn yw, gostyngir hwynt trwy ryfeloedd, heintian, a phob math ar drallodion. Y fath ddarlun cywir a gawh yn yr adnodau hyn o boblogiad, llwyddiant, a dyrchafiad Unol Daleithiau yr America yn y blynyddoedd diweddar; ac wedi hyn o'u darostyngiad a'u gofid trwy y rhyfel waedlyd bresenol! (1863.)

Adn. 40. *Efe a dywallt ddirmyg ar foneddigion]* Pan y byddo iddynt ymdroi mewn balchder, drygioni, a gormes; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'ar dywysogion,' fel nas gallant ddiogelu iddynt eu hunain a'u hiliog-iaeth eu hurddas, eu gogoniant, na'u hawdurdod: *ac a wna iddynt grwydro mewn anialwch heb ffordd*—trwy ddyrsu eu synwrau, neu ynte trwy eu gyru i ymguddio mewn anialwch ac ofogaf rhag eu gelynyon. Dywedir i Pilat orfod erwydro yn altud fel hyn ar ol ei droi allan o'r raglawiaeth, ac iddo dori ei galon, ac yn y diwedd roddi teryn ar ei einioes yn Vienne, yn Gaul.

Adn. 41. *Ond efe a gyfyd y tylawd o gystudd]* Ilyny yw, tra yn darostwng boneddigion neu dywysogion beilchion a gorthrymus, efe a ddyrchafa y tylodion cystuddiedig neu erlidiedig a fyddont yn galw arno; *ac a wna iddo deuluoedd fel praidd*—y rhai a gynyddant yn ddirfawr mewn ychydig amser. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at adferiad y caethion o Babilon: ond y mae siamplau fel hyn o weinyddiadau rhagluniaeth i'w cael yn fynych.

Adn. 42. *Y rhai uniawn]* Sef dynion da a chyfiawn; *a welant hyn*—sef darostyngiad y

ac a lawenychant: a phob anwiredd
a gau ei safn.

43 Y neb sydd ddoeth, ac a gadwo
hyn, hwy a ddeallant drugareddau
yr Arglwydd.

SALM CVIII.

PAROD yw fy nghalon, O Dduw:
canaf a chanmolaf a'm gogoniant.

2 Deffro, y nabl a'r delyn: minau
a ddeffroaf yn fore.

3 Clodforaf di, Arglwydd, yn
mysg y bobloedd: canmolaf di yn
mysg y cenhedloedd.

4 Canys mawr yw dy drugaredd
oddiar y nefoedd: a' th wirionedd a
gyraedd hyd yr wybren.

5 Ymddyrycha, O Dduw, uwch y
nefoedd: a bydded dy ogoniant ar
yr holl ddaear;

6 Fel y gwareder dy rai anwyl:
achub a' th ddeheulaw, a gwrando fi.

7 Duw a lefarodd yn ei santeidd-

rwydd, Llawenychaf, rhanaf Sich-
em, a mesuraf ddyffryn Succoth.

8 Eiddof fi yw Gilead; eiddof fi
Manasse; Ephraim befud yw nerth
fy mhen: Juda yw fy neddfwr.

9 Moab yw fy nghrochan golchi;
tros Edom y taflaf fy esgid: budd-
ngoliaethaf ar Philistia.

10 Pwy a'm dwg i'r ddinas gad-
arn? pwy a'm dwg hyd yn Edom?

11 Onid tydi, O Dduw, yr hwn
a'n bwriaist ymaith? ac onid ai di
allan, O Dduw, gyda'n lluoedd?

12 Dyro i ni gynorthwy rhag cyf-
yngder: canys gau yw ymwared
dyn.

13 Trwy Dduw y gwnawn wrol-
deb: canys efe a sathr ein gelynion.

SALM CIX.

NA thaw, O Dduw fy moliant.

2 Canys genau yr annuwiol a
genau y twyllodrus a ymagorasant

boneddigion neu y tywysogion uchod a dyrch-
afiad y tylawd o'i gystudd; ac a lawenychant
—wrth ganfod fod Duw yn llywodraethu ar y
ddaear, ac yn gofalu am y tylodion cystudd-
iedig: a phob anwiredd a gau ei safn—bydd
raid i ddyinion anuwiol, anffyddaid, a chabl-
eddus, ddystewi mewn cywilydd, heb ganddynt
ddim i'w ddywedyd yn erbyn Duw wrth weled
en plaid hwy yn cael eu darostwng, a phobl
Dduw yn cael eu dyrchafu.

Adn. 43. *Y neb sydd ddoeth*] Yn ofni Duw,
nen yn berchen synwyr a dirnadaeth; ac a
gadwo hyn—yn eu cof, gan eu hystyried yn
ddyldwy; *hwy a ddeallant drugareddau yr*
Arglwydd—fod yr Arglwydd yn 'dda' a 'thru-
garog' yn ei holl weinyddiadau tuag at ei bobl
gaethiwus a gorthrymedig, fel y dywedwyd yn
adn. 1, 2; sef tuag at y rhai y soniwyd am
danant uchod dan y gyffelybiaeth o *deithwyr*,
adn. 4—9; *carcharorion*, adn. 10—16; *cleif-
ion*, adn. 17—22; *morwyr*, adn. 23—32; a
thylodion, adn. 33—41.

SALM CVIII. Y teitl yw, '*Cân neu Salm*
Dafydd.' Y mae y Salm hon yn gyfansodded-
ig o dduw Salm, ar y rhai y sylwyd eisioes.
Y mae adn. 1—5 yr un peth a Salm lvii. 7—
11; ac y mae adn. 6—13 yr un peth a Salm
lx. 5—12; gwel y sylwadau yno. Tybir yn
gyffredin mai *Dafydd* yw awdwr y dduw Salm
uchod, a'u bod yn gyfaddasol i'w achosion ef
y *pryd hyny*; a thybia rhai i'r caethion yn
Babilon gyfansoddi hon allan o'r dduw uchod,
a'i chyfaddas at eu cyflwr hwy. 'Trwy fod
eu caethiwed yn awr a'r ben, neu yn agos ar
ben,' ebai *Clarke*, 'y maent yn edrych ac yn
gweddio am eu hadferiad i'w gwlad eu hunain,
mor belaeth ag y meddiennid hi yn nyddian
mwyaf llwyddiannus *Dafydd*.' Y mae y

Syriaeg yn ei hystyried fel proffwydoliaeth
am alwad y Cenhedloedd. Y mae yr *Hebraeg*
a'r holl *gyfieithiadau* yn ei phriodoli i *Dafydd*.'

Adn. 1—5. *Parod yw fy nghalon*, &c.]
Gwel ar Salm lvii. 7—11. Y mae y geiriau
uchod yn cael eu hadrodd ddywywaith yno, ac
yma unwaith. *Canaf a chanmolaf a'm gogon-
iant*—wrth y *gogoniant* hwn, yr hwn nis ceir
yn y Salm uchod, y dealla rhai yr *Arglwydd*
ei hun; ereill, yr *arch*; ereill, *enaid* y Salm-
ydd; ereill, ei *dafod* ef; ereill, ei *ddawen*
proffwydoliaeth; ac ereill, ei *awen*: ond gwel
ar Salm xvi. 9, a xxx. 12.

Adn. 6—13. *Fel y gwareder dy rai anwyl*,
&c.] Gwel ar Salm lx. 5—12. Yn Salm lx. 10
dywedir, 'O Dduw, yr hwn nid ait allan gyda'n
lluoedd'; ond yma dywedir, 'Ac onid ai di
allan, O Dduw, gyda'n lluoedd?' adn. 11. *Cŵyn*
sydd yno am nad ai yr Arglwydd allan gyda
lluoedd Israel; ond *gweddi* sydd yma am iddo
fyned allan.

SALM CIX. Y teitl yw, '*Yr pencerdd, Salm*
Dafydd.' Y *Syriaeg* a'i geilw, 'Salm Dafydd
pryd y darfu i'r bobl, yn ddarwybod iddo ef,
wneuthur *Absalom* yn frenin; o herwydd yr
hyn y lladdwyd ef: ond i ni [Gristionogion]
efe a adrodda ddyoddefaint Crist.' Ei bod yn
cynwys proffwydoliaeth yn erbyn *Judas*, a
gelynion ereill ein Harglwydd, sydd eglur
oddiwrth Act. i. 20. Dichon ei bod, yn ei
hystyr cyntefig, yn cyfeirio at *Doeg* neu
Ahitophel. Dylai y melldithion ynddi gael
eu cyfieithu yn yr amser *dyfodol*, gan mai
datganiadan *proffwydol* yn unig ydynt am
anfoddlonrwydd Duw yn erbyn pechaduriaid:
gwel ar Salm v. 10. Wrth eu deal yn y
goleuni hwn, nis gallant fod yn drangwydd i
neb; canys y mae gan Dduw hawl i gyhoeddi

arnaf: â thafod celwyddog y llef-
arasant i'm herbryn.

3 Cylchynasant fi hefyd â geiriau
cas; ac ymladdasantâ mi heb achos.

4 Amfyngaredigrwyddy'ngwrth-
wynebant: minau a arferaf weddi.

5 Talasant hefyd i mi ddrwg am
dda, a chas am fy nghariad.

6 Gosod *dithau un* annuwiol arno
ef; a safed Satan wrth ei ddeheu-
law ef.

7 Pan farner ef, eled yn euog; a
bydded ei weddi yn bechod.

8 Ychydig fyddo ei ddyddiau; a
chhymered arall ei swydd ef.

y baredigaethau hyny yn mlaenllaw, y rhai
a dywallta efe ar weithredwyr anwiredd. Ond
fe allai, fel y sylwa *Clarke*, mai melldithion
gelymion Dafydd yn ei erbyn ef ei hun yw y
cwb1: gwel ar adn. 20.

Adn. 1. *Na thau*] Na fydd ddystaw, eithr
cyfod i amddiffyn fy achos; *O Dduw fy
moliant*—sef testyn fy holl foliant.

Adn. 2. *Canyis genau yr annuwiol a genau
y twylodrus*] Y rhai a chwanebant ragrith at
eu malais annuwiol; a *ymagorasant arnaf*—
i lefaru yn fy erbyn: *â thafod celwyddog y
llefasant i'm herbryn*—i geisio fy urgyu yn
mhob modd; neu, fel y gellir ei gyfieithu,
'y llefasant wrthyf,' sef mewn gweuiaith
twylodrus.

Adn. 3. *Cylchynasant fi hefyd â geiriau
cas*] Sef â geiriau chwervon a phigog; *ac yml-
laddasant â mi heb achos*—heb i mi wneuthur
dim yn eu herbryn.

Adn. 4, 5. *Am fy ngharedigrwyddy'ngwrth-
wynebant*] Trwy 'dalu i mi ddrwg am
dda, a chas am fy nghariad,' adn. 5. *Minau
a arferaf weddi*—yn lle dial arnynt, mi a
weddiad drostynt. Fel hyn y gwnai Dafydd,
ac fel hyn y gwnaeth Crist, Luc xxiii. 34.

Adn. 6. *Gosod dithau*] Hyny yw, 'ti a
osodi;' canys *rhagfynegu* y mae Dafydd yr
hyn a wnaî Duw, fel y danghoswyd yn y
teitl; *un annuwiol*—sef Satan, yr hwn a
enwir isod, neu ryw 'wrthwynebw'r' flyrnig
arall; *arno ef*—neu yn ei erbyn ef; sef yn
erbyn *Ahitophel*, fel y tybir, yn yr ystyr
blaenaf, ac yn erbyn *Judas*, mewn ail ystyr,
o'r hwn yr oedd Ahitophel yn gysgod nodedig.
A safed Satan—hyny yw, 'efe a saif,' neu
bydd iddo sefyll; *wrth ei ddeheulaw ef*—i'w
afonyddu a'i flino; neu ynte i'w gyhuddo ef,
canys dyma agwedd cyhuddwyr yn y llysoedd
Iuddewig. Tybia rhai mai rhyw *wrthwyneb-
wr* o blith dynion a olygir yma, yr hyn yw
ystyr y gair *Satan*; ond y mae yr holl gyf-
ieithiadau yn ei ddeall am y *diabol*. Eithr
weddi y cwbl, gall mai iaith *gelymion* Dafydd
yw hon, yn dymuno i Satan flino Dafydd:
gwel ar adn. 20.

Adn. 7. *Pan farner ef*] Pan ddyger ei
achos ef i'w brofi o flaen Duw, neu yn llys ei
gydwybod ei hun; *eled yn euog*—a chosper
ef tel y cyfryw; a *bydded ei weddi yn bechod*

9 Bydded ei blant yn amddifaid,
a'i wraig yn weddw.

10 Gan grwydro hefyd crwydred
ei blant ef, a chardotant: ceisiant
hefyd *eu bara* o'u hannghyfanedd-
leoedd.

11 Rhwyded y ceisiad yr hyn oll
sydd ganddo; ac anrheithied dy-
eithriaid ei lafur ef.

12 Na fydded *neb a estyno dru-
garedd iddo*; ac na fydded *neb a
drugarhao wrth ei amddifaid ef*.

13 Torer ymaith ei hiliogaeth ef:
dilêer eu henw yn yr oes nesaf.

14 Cofier anwiredd ei dadau o

—bydded ei weddi mor bell o gael gwrandaw-
iad trugarog, a'i bechodau; neu, pan y byddo
yn gweddio am arbediad, boed i'w farnwr ym-
gynddeiriozi yn fwy yn ei erbyn ef.

Adn. 8. *Ychydig fyddo ei ddyddiau*] Trwy
iddo orfod marw cyn ei amser; a *chhymered
arall ei swydd ef*—ei arolygaeth neu ei esgob-
aeth, yr hon a fyddo yn wag trwy ei farwol-
aeth ef. Dyma y geiriau a ddyfynwyd ac a
gymhwyswyd gan Pedr at *Judas*, ar etholiad
Matthias i'r apostoliaeth yn ei le ef, Act. i. 20.
Ond y mae y geiriau hyn, fel y sylwa *Dr.
Horne*, yn gyfaddasol nid at *Judas* yn unig,
ond at holl genedl yr Iuddewon, y rhai y bu
eu dyddiau [gwladwriaethol] yn 'ychydig' ar
ol iddynt groeshoelio Arglwydd y gogoniant,
a'r rhai a ddiffeddianwyd o'u lle a'u 'swydd'
yn eglwys Dduw, trwy i'r Cenhedloedd ddyfod
i mewn i'w breintiau.

Adn. 9. *Bydded ei blant yn amddifaid*]
Trwy gollu eu tad; *a'i wraig yn weddw*—
trwy gollu ei gŵr. Dywed rhai fod gan *Judas*
deulu, ac mai er cael arian i gynal y rhai hyny
y gwerthodd efe ein Harglwydd i'r archoffeir-
iaid.

Adn. 10. *Gan grwydro hefyd crwydred ei
blant ef*] O le i le heb gartref; a *chardotant*
—eu bara ar hyd yr anghyfanedd-leoedd lle
y byddant yn crwydro.

Adn. 11. *Rhwyded y ceisiad*] Sef y ceisbwl
neu y treisiwr, *yr hyn oll sydd ganddo*—yn
ei dŷ a'i ysguboriau; *ac anrheithied dyeithr-
iaid*—y rhai ni feddant hawl yn ei eiddo, *ei
lafur ef*—neu fliryth ei lafur yn y maesydd.

Adn. 12. *Na fydded neb a estyno drugar-
edd iddo*] Ac felly y bu gydag Ahitophel a
Judas, y rhai ill dau a ymgrogasant; *ac na
fydded neb a drugarhao wrth ei amddifaid
ef*—ond gadawer iddynt grwydro a chardota
yn ofer, heb gael dim.

Adn. 13. *Torer ymaith ei hiliogaeth ef*]
Trwy newyu, neu ryw farn arall; *dilêer eu
henw yn yr oes nesaf*—heb fod cymaint a
choffa am danynt.

Adn. 14. *Cofier anwiredd ei dadau o flaen
yr Arglwydd*] I'w gyffiroi ef i gopsi eu hiliog-
aeth hwynt am dano; *ac na dilêer pechod ei
fam ef*—eithr bydded i bechodau ei dad a'i
fam gael eu cospi yn mherson en mab hwn a'i
hiliogaeth. Y mae hen draddodiad ar gael,

flaen yr Arglwydd; ac na ddilœer pechod ei fam ef.

15 Byddant bob amser gerbron yr Arglwydd, fel y toro efe ymaith eu cofadwriaeth o'r tir.

16 Am na chofiodd wneuthur trugaredd, eithr erlid o hono y truan a'r tylawd, a'r cystuddiedig o galon, i'w ladd.

17 Hoffodd felldith, a hi a ddaeth iddo : ni fynai fendith, a hi a bellhaodd oddiwrtho.

18 Ie, gwisgodd felldith fel dilledyn; a hi a ddaeth fel dwfr i'w fewn, ac fel olew i'w esgryn.

19 Bydded iddo fel dilledyn yr hwn a wisgo efe, ac fel gwregys a'i gwregyso efe yn wastadol.

20 Hyn fyddo tâl fy ngwrthwyn-ebwyr gan yr Arglwydd, a'r rhai a ddywedant ddrwg yn erbyn fy enaid.

21 Tithau, Arglwydd Dduw, gwna erof fi er mwyn dy enw: am fod yn dda dy drugaredd, gwared fi.

22 Canys truan a thylawd ydwyf fi, a'm calon a archollwyd o'm mewn.

23 Aethym fel cysgod pan gilio: fel locust y'm hysgydwir.

ddarfod i Judas briodi ei fam ei hwn, a bod yma gyfeiriad at hynny.

Adn. 15. *Byddant bob amser gerbron yr Arglwydd*] Yn amlwg, heb eu cuddio trwy faddenant; *fel y toro efe ymaith eu cofadwriaeth o'r tir*—fel y cynhyrfer ef, gan yr olwg ar bechodau erchyll y rhieni, i lwyd ddiweiddio en hiliogaeth.

Adn. 16. *Am na chofiodd wneuthur trugaredd*] Am na chofiodd Ahitophel wneuthur trugaredd i Dafydd, neu Judas i Grist; *eithr erlid o hono y truan a'r tylawd*—felly yr oedd Dafydd y pryd hyny, adn. 22; neu fe allai ei fod yn cyfeirio at Grist, yr hwn 'a ddaeth er ein mwyn ni yn dylawd, fel y cyfoethogid ni trwy ei dylodi ef,' 2 Cor. viii. 9; *a'r cystuddiedig o galon*—felly yr oedd Dafydd y pryd hyny, ac felly yr oedd Crist yn barhaus, yn 'wr gofidus a chynefin â dolur,' Essay liii. 3; *i'w ladd*—hyn oedd amcan Ahitophel a Judas: ac yn wir gellir cynulwys y geiriau hyn at holl genedl yr Iuddewon, y rhai a sychedent am waed ein Harglwydd bendigedig.

Adn. 17. *Hoffodd felldith*] Sef y flordd a'r gweithredoedd a dydent felldith arno; *a hi a ddaeth iddo*—hyd yr eithaf, fel y gwelwn yn niwedd truenus Ahitophel a Judas: *ni fynai fendith*—er ei chynyg iddo ar amnodau hawdd; *a hi a bellhaodd oddiwrtho*—am byth. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at ddeisyfiad yr Iuddewon, 'Bydded ei waed et arnom ni, ac ar ein plant,' Mat. xxvii. 25.

Adn. 18. *Ie, gwisgodd felldith fel dilledyn*] Yn amlwg fel dilledyn, neu drosto oll fel dilledyn, neu mor fynych a dilledyn; *a hi a ddaeth fel dwfr i'w fewn*—tybia Houbigant fod yma gyfeiriad at y dwfr chwerau ag oedd yn peri y felldith i'r wraig anfyddlon, Num. v. 18—28; *ac fel olew i'w esgryn*—yn treiddio trwydd i'r mœr.

Adn. 19. *Bydded iddo fel dilledyn*] Hyny yw, bydded y felldith farnol iddo fel dilledyn, adn. 18; *ac fel gwregys a'i gwregyso efe yn wastadol*—fel y mae y gwregys yn rhwymo y dillad am y corff, felly bydded i felldith Duw rhwymo pob drwg, adfyd, ac afwydd, wrth ei gorff a'i enaid ef yn dragywydd.

Adn. 20. *Hyn fyddo tâl fy ngwrthwyneb-*

wyr gan yr Arglwydd] Neu 'hyn fydd eu tâl;' *a'r rhai a ddywedant ddrwg yn erbyn fy enaid*—sef yn erbyn ei fywyd, trwy geisio ei ladd, hyn fydd eu tâl hwythau. Ond y mae Clarke yn cyfieithu y wreiddiol fel hyn: 'Hyn yw gwaith fy ngwrthwynebwyr gerbron yr Arglwydd, a'r rhai a ddywedant ddrwg yn erbyn fy enaid,' neu ei fywyd. Hyny yw, fel y sylwa efe, 'Y mae y cwbl a ddywedid o adn. 6 hyd adn. 20 yn cynwys ganai drwg a rhegfeydd fy ngelymion yn erbyn fy enaid, gan geisio gosod yr Arglwydd, trwy regfeydd, yn fy erbyn i, fel y byddo i'w mellldithion gael effaith.' Ac efe a chwanea, 'Y mae hyn, yr hwn sydd ddeongliad rhesymol, yn rhyddhau yr holl Salm oddiwrth bob anhawdd.' Yn wir, y mae y mellldithion a gynwysir ynddi yn debyccach i rai yn dyfod o enau y drygonus, nag i rai yn dyfod oddiwrth un wedi ei ysbrydoli gan Ysbryd y Duw byw. Wrth gymeryd y geiriau yn yr ystyr hwn, yr hwn y credwyf ei fod y goraf, a'r hwn y bydd i'r wreiddiol ei oddef yn dda, ac a gefnogir gan amrai o'r cyffieithiadau, yna gall ein cyfieithiad ni sefyll yn union fel y mae; yn unig bydded i'r darllenydd gofio fod Dafydd, yn adn. 6, yn dechreu dywedyd pa fodd yr oedd ei elynion yn ei felldithio ef, tra yr oedd efe yn gweddio drosynt i'w; adn. 5.

Adn. 21. *Tithau, Arglwydd Dduw, gwna erof fi*] Yr hyn a addewaist, neu yr hyn yr wyf yn ei ddymunio; hyny yw, tra y maent hwy yn fy mellldithio, boed i ti fy mendithio; *er mwyn dy enw*—sef er mwyn gogoniant dy enw. *Am fod yn dda dy drugaredd*—tuag at bawb, ac yn enwedig tuag at y rhai sydd yn dy ofni ac yn dy garru; *gwared fi*—o law fy ngelymion, neu oddiwrth eu mellldithion hwy. Tybia Clarke fod y geiriau hyn yn brawf pellach o gywirdeb y deongliad uchod.

Adn. 22. *Canys truan a thylawd ydwyf fi*] Ac felly yn wrthdrrych addas o'th dosturi a'th gymhoorth; *a'm calon a archollwyd o'm mewn*—archollwyd fi, nid yn ysgafn, ond hyd fy nghalon, â gofidian angau; gwel ar adn. 16.

Adn. 23. *Aethym fel cysgod pan gilio*] Oddiar y ddeial; neu, yr wyf wedi dynesu at fachludiad haul fy einioes; *fel locust y'm hysgydwir*—dywed Dr. Shaw fod y locust-

24 Fy ngliniau a aethant yn egwan gan ympryd; a'm cnawd a guriodd o eisiau brasder.

25 Gwaradwydd hefyd oeddwn iddynt: *pan* welent fi, siglent eu penau.

26 Cynorthwya fi, O Arglwydd fy Nnw; achub fi yn oldy drugaredd:

27 Fel y gwyppont mai dy law di yw hyn; *mai* ti, Arglwydd, a'i gwnaethost.

28 Melldithiant hwy, ond bendithia di: cywilyddier hwynt, pan gyfodant; a llawenyched dy was.

29 Gwisger fy ngwrthwynebwy

iaid, wrth ehedeg ar wynt cryf, yn cael eu bysgwyd a'u chwythu yma a thraw, heb ddim gorphwysdra iddynt.

Adn. 24. *Fy ngliniau a aethant yn egwan gan ympryd*] Yr hwn a arferai efe yn fynych yn ei drallod, wrth weddio am waredigaeth oddiwtho; neu gan ympryd gorfodol o ddiffyg bwyd, neu o ddiffyg archwaeth at fwyd: *a'm cnawd a guriodd o eisiau brasder*—neu a gollodd ei fraser, fel nad oedd dim yn aros ond y croen a'r esgyrn.

Adn. 25. *Gwaradwydd hefyd oeddwn iddynt*] Neu, gwaradwyddid fi ganddynt; *pan welent fi, siglent eu penau*—fel hyn y trinwyd Dafydd gan Simei, 2 Sam. xvi. 5, &c., a Christ gan yr Iuddewon, Mat. xxvii. 39.

Adn. 26. *Cynorthwya fi, O Arglwydd fy Nnw*] I ddal dan y gwaradwydd a'r dirmyg hwn; *achub fi yn oldy drugaredd*—oddiwrth falais fy ngelynyon.

Adn. 27. *Fel y gwyppont mai dy law di yw hyn*] Hyny yw, achub fi yn y fath fodd ag a ddanghoso yn eglur mai ti yw fy Achubwr; *mai ti, Arglwydd, a'i gwnaethost*—fel hyn, ar ol adgyfodi Crist, forfu i'w elynion addef mai Duw a wnaeth hyn: gwel ar Rhuf. i. 4.

Adn. 28. *Melldithiant hwy*] Faint a fynont, fel y gwnaethant adn. 6—20; *ond bendithia di*—fyfi, ac telly ni chaf un niwed oddiwrth eu melldithion: *cywilyddier hwynt pan gyfodant*—i'm melldithio, trwy iddynt gael eu siomi yn eu dysgwiliad; *a llawenyched dy was*—trwy brofi dy fod di yn fy mendithio.

Adn. 29. *Gwisger fy ngwrthwynebwy a gwarth*] Neu hwy a wisgir; y gwel y teitl: *ac ymwisgant a'u cywilydd megys a chochl*—yn awlwg, neu drostynt oll: gwel ar adn. 18.

Adn. 30. *Clodforaf yr Arglwydd yn ddirfawr a'm genau*] Ar ol iddo fy nwyn yn ol i Jerusalem; *ie, moliannaf ef yn mysgr llawer*—yn ei gysegr santaid; neu 'yn mysgr y mawrion; fel y gellir cyfieithu y wreiddiol.

Adn. 31. *O herwydd efe a saif ar ddehulaw y tylawd*] Yn agos ato, fel ei noddwr a'i amddiffynwr; *i'w achub oddiwrth y rhui a farnant ei enaid*—neu a gyhoeddant ddedfryd marwolaeth yn ei erbyn ef. Y mae llawer o'r ymadroddion yn y Salm hon yn cyfateb yn briodol i amgylchiadau Dafydd yn amser

â gwarth, ac ymwisgant a'u cywilydd, megys a chochl.

30 Clodforaf yr Arglwydd yn ddirfawr a'm genau; ie, moliannaf ef yn mysgr llawer.

31 O herwydd efe a saif ar ddehulaw y tylawd, i'w achub oddiwrth y rhui a farnant ei enaid.

SALM CX.

DYWEDODD yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn fainc i'th draed.

gwrthryfel Absalom ac erledigaeth Saul; ac yr oedd efe yn yr holl ddyoddefiadau hyny yn gysgod o Grist a'i ddyoddefiadau.

SALM CX. Y teitl yw, '*Salm Dafydd*;' ac addeffir bron yn gyffredinol mai *Dafydd* yw ei bawdr hi, a'i fod yn llefaru ynddi, nid am dano ei hun, ond yn uniongyrchol am y MESSIA. Yn wir, nis gellir ei chymhwyso at neb ond Crist, a'i offeiriadaeth a'i lywodraeth dragwyddol ef. Darfu i rai o'r Iuddewon diweddar, gan wybod am y fantais a gai Cristionogaeth oddiwrth y Salm hon, geisio dirdynu ystyr arall iddi, a'i phriodoli i awdwr ereill; ond nid yw eu rhesymau yn deilwng o wrthbrofiad. Eithr yr Iuddewon ag oeddnynt yn byw yn amser ein Harglwydd a gredent mai Dafydd oedd ei bawdr hi, a'i bod yn llefaru am y Messia yn unig, fel y mae yn awlwg oddiwrth hyn, na ddarfu iddynt geisio gwrthbrofi ein Harglwydd pan y dyfynodd efe eiriau y Salm hon i brofi ei ddwyfol anfoniad: gwel ar Mat. xxii. 42—46. Y mae *St. Pedr* hefyd, Act. ii. 34, a *St. Paul*, 1 Cor. xv. 25, Heb. i. 13, v. 6, 10, vii. 17, a x. 12, 13, yn defnyddio rhanau o lioni i brofi anfoniad, dwyfoldeb, a dyrchafiad y Messia, neu ein Harglwydd Iesu Grist; ac ni feiddiodd neb eu gwrthbrofi hwynt, nac awgrymu eu bod yn camgymhwyso y Salm, neu yn camgymeryd ei hystyr.

Adn. 1. *Dyweddodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd*] Hebr., 'dyweddodd *Jehovah* wrth fy *Adoni*;' hyny yw, wrth ei Fab, y Messia, yr hwn yr wyf fi yn ei gydnabod fel fy *Arglwydd*. Mai y MESSIA a feddyllir yma wrth *Adoni*, neu 'Arglwydd Dafydd,' a brofwyd gan ein Hiachawdwr ei hun, a chan ei apostolion of *Pedr* a *Phaul*, fel y gwelom yn y teitl. Y mae Dafydd yn galw y Messia 'ei Arglwydd,' i ddysgu i'r holl eglwys, er ei fod yn *fab* iddo yn ol y cnawd, eto ei fod yn *Arglwydd* arno o ran ei natur ddwyfol, fel 'Duw bendigedig yn oesoesoedd;' canys 'efe yw Arglwydd pawb oll,' Act. x. 36. Y mae y gair *Adon* yn un o enwau Duw, yn arwyddo ei allu a'i awdurdod of dros bawb a phobpeth; ac am hyny rhoddir ef yn dra phriodol i'r MESSIA, i'r hwn 'y rhoddwyd pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear,' Mat. xxviii. 18.

2 Gwialen dy nerth a enfyn yr Arglwydd o Seion: llywodraetha di yn nghanol dy elynion.

3 Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth, mewn harddwch santeiddrwydd o groth y wawr; y mae gwllith dy enedigaeth i ti.

4 Tyngodd yr Arglwydd, ac nid

edifarha, Ti wyt Offeiriad yn dra-gwyddol, yn ol urdd Melchisedec.

5 Yr Arglwydd ar dy ddeheulaw a drywana frenhinoedd yn nydd ei ddigofaint.

6 Efe a farn yn mysy y cenhedloedd; lleinw leoedd â chelaneddau: archolla ben llawer gwlad.

Eistedd ar fy ncheulaw—arwydda hyn sefyllfa o'r awdurdod, yr anrhydedd, a'r gogoniant mwyaf. Fel pe dywedasai, Buost ddiagon o hyd yn cael dy faeddu a'th ddirmygu gan ddynton ar y ddaear; cymer bellach dy allu mawr, a theyrnasa yn dy gymeriad cyfryngol. Yr oedd ef erioed yn teyrnasu gyda'i Dad fel Duw, ond yma efe a deyrnasfa fel *Messia*, yn ei natur ddynol. *Hyd oni osodwyf dy elynion yn faine i'th draed*—yn gaethion i ti, yn plygu i'th awdurdod. Y mae yma gyfeiriad at arferiad y cadfridigion dwyreiniol o sathru ar yddfau y brenhinoedd a orchfygid ganddynt, gan eu gwneuthur fel pe byddai yn droedfainc iddynt: gwel ar Jos. x. 24, Act. ii. 35, 1 Cor. xv. 25, Eph. i. 22.

Adn. 2. *Gwialen dy nerth* [Sef 'teyrnwialen dy awdurdod.—HORSLEY. 'Ei air, yn ddylynedig â'i Ysbyrd.—HORNE. 'Yr efengyl, athrawiaeth Crist croeshoeliedig, yr hon yw teyrnwialen nerthol yr Arglwydd yr hwn a'n prynodd ni, a gallu Duw er iachawdriaeth i bob un sydd yn credu, Rhuf. i. 16.]

—CLARKE. *A enfyn yr Arglwydd o Seion*—neu Jerusalem; caeys yn yr oedd yn rhaid dechreu pregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef, Luc xxiv. 47. *Llywodraetha di yn nghanol dy elynion*—neu, 'ti a llywodraethi,' gan achub y rhai a ymostyngant ac a ufyddhant i ti, a chospi y rhai ni fynant i ti deyrnasu arnynt, Luc xix. 14, 27.

Adn. 3. *Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth* [Sef yn nyddiau yr efengyl, adn. 2. Nid yw y geiriau hyn yn cyfeirio at ddychweliad pechaduriaid at Dduw, eithr darlunio y maent nodweddiad pobl Dduw, neu ddeiliaid teyrnas y Messia, dan oruchwyliaeth yr efengyl. Fel pe dywedasai, Byddant y pryd hyn yn bobl ewyllysgar ac ufydd i ti, yn dy wasanaethu yn llawen a siriol, ac nid yn bobl gyndyn a gwargaled fel yr Iuddewon dan oruchwyliaeth Moses. *Mewn harddwch santeiddrwydd*—Hebr., *behadrey kodesh*, 'yn ngwisgoedd ysblenydd santeiddrwydd.' Tybia rhai fod yma gyfeiriad at wisgoedd hardd yr archoffeiriad. Ond y mae amrai argraffiadau Hebreig, ynngyda 34 oysgriflyfrau Kennicott, a 53 o eiddo *De Rossi*, yn darllen *beharerey Kodesh*, 'yn mynyddoedd santeiddrwydd,' sef yn eglwysi Duw. Y meddwl yw, y byddai holl wr ddeiliaid teyrnas y Messia wedi eu prydfertlu â santeiddrwydd calon a buchedd, a'u haddurno â grasau yr Ysbyrd Glân. *O groth y wawr*—neu 'o groth y bore,' fel y mae yn y Saesonaeig; hyn yw, bydd dy bobl mewn harddwch santeiddrwydd o wawriad yr oruchwyliaeth Gristionogol hyd ei diwedd hi. Ond y mae yn debycach fod y geiriau

hyn i gael eu cysylltu â'r *gwllith* yn y frawddeg nesaf, gan mai ar y *wawrddydd* yn gyffredin y fflurff gwllith. *Y mae gwllith dy enedigaeth i ti*—hyn yw, bydd dy blant, y rhai a enir i ti yn yr eglwys Gristionogol, mor *luosog* a gwllith y bore; neu, fel y dyflfa gwllith o groth y wawr, felly y dyflfa yr holl dduwion oddiwrtwy ti. 'Ymddengys fod *gwllith*, yn mblith yr ysgrifenwyl Groeg goraf, yn ymadrodd cyffelybiaethol am *epil* unrhyw greadur.—HORSLEY. 'Geuir dy blant cyn amled i ti a'r gwllith a ddisgyn o groth y wawr.'—REYNOLDS. 'Y mae gwllith dy hiliogaeth yn fwy na'r dyferion gwllith o groth y bore.'—LOWTH. 'Ilyny yw, bydd dy blant a genhedlir i ti trwy yr efengyl, yn rhagori mewn rhif, yn gystal ag mewn dysgleirdeb a barddwch, ar ddafnau gloewon gwllith y bore, y rhai a ddatguddia y wawrddydd i lygad boddhaol yr edrychydd. Y mae yr holl adnod, gan hyn, yn cynwys dysgrifiad bywiog o ddeiliaid teyrnas ysbyrdol Crist, y rhai a ddarlunir trwy eu perthynas âg ef fel ei bobl; trwy eu *hewyllysgarwch* i ufyddhau iddo a'i wasanaethu; trwy eu gwisg anrhydeddus, orwych, ac ysblenydd o *santeiddrwydd*; a thrwy eu *lluosogrwydd*, yn debyg i'r dafnau gwllith ar y glaswellt.—HORNE.

Adn. 4. *Tyngodd yr Arglwydd* [Wrth sefydlu offeiriadaeth Crist, i ddangos ei *pharhad*; yr hyn ni waeth efe ar sefydliad yr offeiriadaeth Lefaid, am fod hōno i gael ei *didlymu*, Heb. vii. 20, 21; ac nid edifarha—am dyngu felly, yr hyn a newyda ei benderfyniad diysgog ef i beidio arwydd offeiriadaeth Crist, na diddymn y cyfammod a sefydlwyd arni: *Ti wyt Offeiriad yn dra-gwyddol*—yn gystala Brenin; *yn ol urdd Melchisedec*—neu fel Melchisedec, yr hwn nid oes genym banes am *ddiwedd* ei offeiriadaeth na'i frenhiniaeth: gwel hyn yn cael ei egluro yn fanwl ar Heb. v. 6, a vii. 1, &c.; gwel hefyd y sylwadau ar Gen. xiv. 18, &c., a'r adfeddyliaidau yn niwedd y bennod hōno.

Adn. 5. *Yr Arglwydd ar ei ddeheulaw* [Yr Arglwydd Iesu, yr hwn sydd ar ddeheulaw y Tad, Ies. 1; a *drywana frenhinoedd yn nydd ei ddigofaint*—pan y byddo iddynt hwy gynhyrfu ei ddigofaint ei, trwy wrthwyn-eibu ei awdurdod neu wrthod ei efengyl. Ond tybia rhai fod y Salm yn y fan yma, a hyd y diwedd, yn llefaru am Grist ar ddeheulaw *Dafydd*, i'w amddiffyn a'i gynal ef: gwel yr adfeddyliaidau.

Adn. 6. *Efe a farn yn mysy y cenhedloedd* [Bydd i Grist ei amlygu ei hun fel Brenin a Barnwr cyffredinol, gan gospi y rhai oll a anufyddhant i'w gyfreithiau, ac a wrthodant ei

7 Efe a fŷ o'r afon ar y ffordd :
am hyny y dyrcha efe ei ben.

SALM CXI.

MOLWCH yr Arglwydd. Clod-
foraf yr Arglwydd a'm holl gal-
lon, yn nghymanfa y rhai uniawn,
ac yn y gynulleidfa.

2 Mawr yw gweithredoedd yr

iachawdriaeth. *Lleinw leoedd*—neu faesydd y frwydr, *â chelaneddau*—ei elynion; *archolla ben llawer gwlad*—sef eu brenhinoedd a' lluwodraethwyr, y rhai, megys amberawd-wyr Rhufain, a fyddont yn rhwystr i ledaeniad ei achos ef. Tybia *Gill* mai at frwydr *Armagedon* y cyfeirir yma, Dat. xvi. 16. Neu gellir edrych ar y Salm ydd yn darlunio buddugoliaethau ysbrydol Crist dan y gyffelybiaeth o fuddugoliaethau gwladol.

Adn. 7. *Efe a fŷ o'r afon ar y ffordd* Meddylir yu gyffredin fod hyn yn gosod allan ddarostyngiad a dyoddefaint Crist, trwy fod *dyfroedd* yn yr ysgrythyrau yn arwyddo dyoddefiadau, ac *yfed* yn arwyddo eu profi, neu fyned danynt. Efe a fŷ nid o *gupan*, ond o *afon*, yr hyn a arwydda *ddyflif* o drueni a dyoddefiadau. *Am hyny y dyrcha efe ei ben*—hyny yw, yn ol rhai, tra-dyrcheffir Crist i'r urddas uwchaf, 'o herwydd iddo ei ddarostwng ei hun, gan fod yn uffydd hyd angau, i.e. angau y groes,' Phil. ii. 8, 9. Ond y mac rhai, modd bynag, yn rhoddi i'r adnod hon ystyr gwahanol, gan feddwl fod 'yfed o'r afon' yn arwyddo profi eynaliaeth dwyl ras, neu dylanwadau yr Ysbryd Glân, y rhai a arddanghosir yn fynych dan y gyffelybiaeth o ddirw; a bod 'dyrchu ei ben' yn arwyddo ei alluogi ef i'w waith, a'i lwyddo fel buddugoliaethwr ar ei holl elynion: gwel *Fyfyrdodau Hervey*, cyf. i. dal. 129.

ADDEFDYLIADAU.—Y mac *Venema* ac ereill yn meddwl fod y tair adnod ddiweddar o'r Salm hon yn cyfeirio at *Dafydd*, fel y sylwyd ar adn. 5. Os telly, yna yr ystyr yw: Adn. 6. *Efe a farn yn mysg y cenhedloedd*—bydd i Dafydd eangu ei lywodraeth yn fawr, a theyrnasu ar yr Edomiaid, y Moabiaid, y Philistiaid, &c. *Lleinw leoedd â chelaneddau*—lleinw bydewau, neu gwna garneddau, â chelaneddau ei elynion. *Archolla ben llawer gwlad*—efe a ddarostwng allu yr holl frenhin-
oedd cymydogathol, fel ag i beri iddynt ei gydnabod ef fel eu brenin, a dwyn teyrnged iddo. Adn. 7. *Efe a fŷ o'r afon ar y ffordd*—caiff ofid blin ar ei daith, heb fawr o esmwythdra na dydanwch; eithr efe a â rhag-ddo yn barhaus, yn gorchfygu ac i orchfygu. *Am hyny y dyrcha efe ei ben*—efe a lwydda yn ei holl anturiaethau, ac a sefydlir o'r diwedd yn ei lywodraethau eang.—Gall y darlennydd gymeryd yr ystyr a fyddo, ond iddo gofio fod Dafydd yn ei ddyoddefiadau a'i fuddugoliaethau yn *gyssgod* o Crist. Addefir fod yn y Salm hon rai pethau tra dvyrs, a gwnaed hwy yn fwy felly gan rai a geisient eu hegluro. Modd bynag, ar ol pwysse yn fanwl wahanol

Arglwydd, wedi eu ceisio gan bawb a'u hoffant.

3 Gogoniant a harddwch yw ei waith ef; a'i gyfiawnder sydd yn parhau byth.

4 Gwnaeth gofio ei ryfeddodau: graslawn a thrugarog yw yr Arglwydd.

5 Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i

olygiadau y beirniadi, tueddri fi i feddwl fod y deongliadan a roddwyd uchod mor naturiol a dim a welais i hyd yma.

SALM CXI. Nid oes un teitl i'r Salm hon, oddieithr yr ystyriwn y gair *Halelwiw* felly, â'r hwn y dechreu. Tybia yr Esgob Patrick ei bod yn grynoded o Salm cv a ewi, wedi ei chyfansoddi yn wyddorol, trwy fod pob brawddeg yn dechreu gyda llythyren wahanol o'r wyddor llebreig. Ymddengys i'r Salm hon, fel amrai o'r rhai dyllynol, gael ei hysgrifenu at wasanaeth yr eglwys Iuddegw ar ei gŷylliau arbenig; a darllenir hi yn ngwasanaeth foreol ein Heglwys ninau ar ddydd y pasce.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd*] Hebr., *Halelwiw*. Ystyrir y gair hwn gan rai fe i teitl i'r Salm hon, yn enwedig trwy nad yw yn dechreu gyda llythyren flaenaf y wyddor Hebreig. *Clodforaf yr Arglwydd a'm holl galon*—â holl alluoedd fy nghorff a'm henaid; *yn nghymanfa y rhai uniawn*—'yn nghymdeithas neillduol y saint,' fel ei deallir gan yr Esgob Patrick; *ac yn y gynulleidfa*—gyhoeddus, lle y dysgwylid i holl genedl Israel ymgysfarfod.

Adn. 2. *Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd*] Fel efe ei hun; cynryebion gallu a doethineb anfeidrol; *wedi eu ceisio*—neu yn cael eu chwilio a'u rhyfeddu yn fawr, *gan bawb a'u hoffant*—neu a garant sylwi a myfyr-
io arnynt, sef gan bob gwir naturiaethwr.

Adn. 3. *Gogoniant a harddwch yw ei waith ef*] Neu, y mae ei holl waith ef yn ogoneddus a hardd, pa un bynag ai mewn natur ai gras; *a'i gyfiawnder sydd yn parhau byth*—y mae ei holl waith ef yn seiliedig ar gyfiawnder; neu, nid oes dim angybyfiawnder ynddo, ac ni bydd dim byth.

Adn. 4. *Gwnaeth gofio ei ryfeddodau*] Saes., 'gwnaeth ei weithredoedd rhyfedd i'w cofio;' fel y mae y pasce, er siamp, yn goffardwriaeth o ryfeddodau yr Aifft, a swper yr Arglwydd o ryfeddodau marwolaeth ac adgyfydiad Crist: *graslawn a thrugarog yw yr Arglwydd*—fel y profia ei holl weithredoedd a'i ymddygiadau ef: gwel ar Exod. xxxiv. 6.

Adn. 5. *Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofnant ef*] Sef manna ac angenrheidiau ereill i Israel yn yr anialwch; *efe a gofia ei gyfammod yn dragywydd*—yr hwn a wnaethau efe âg Abraham a'i had.

Adn. 6. *Mynegodd i'w bobl*] Nid yn unig mewn geiriau, ond hefyd trwy weithred; *gadernid ei weithredoedd*—neu ei allu mawr ynddynt; nad oeddynt yn cael eu gweauthur yn ffordd gyffredin natur, ond trwy allu

hofnant ef: efe a gofia ei gyfammod yn dragywydd.

6 Mynegodd i'w bobl gadernid ei weithredoedd, i roddi iddynt etifeddiaeth y cenhedloedd.

7 Gwirionedd a barn yw gweithredoedd ei ddwyllaw ef: ei holl orchymynion ydynt sicr:

8 Wedi eu sicrhau byth ac yn dragywydd, a'u gwneuthur mewn gwirionedd ac uniawnder.

9 Anfonodd ymwared i'w bobl: gorchymynodd ei gyfammod yn dragywyddol: santeiddiol ac ofnadwy yw ei enw ef.

10 Dechread doethineb yw ofn yr Arglwydd: deall da sydd gan y

rhai a wnant ei orchymynion ef: y mae ei foliant ef yn parhau byth.

SALM CXII.

MOLWCH yr Arglwydd. Gwŷn ei fydd y gŵr a ofna yr Arglwydd, ac sydd yn hoffi ei orchymynion ef yn ddirfawr.

2 Ei had fydd cadarn ar y ddaear: cenhedlaeth y rhai uniawn a fendithir.

3 Golud a chyfoeth fydd yn ei dŷ ef: a'i gyfiawnder sydd yn parhau byth.

4 Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn yn y tywyllwch: trugarog, a thosturiol, a chyfiawn, yw efe.

gwrthiol: i roddi iddynt etifeddiaeth y cenhedloedd—sef gwlad Canaan.

Adn. 7. *Gwirionedd a barn yw gweithredoedd ei ddwyllaw ef*] Y maent oll yn gyson â'i addewid ef, ac â rheolau cyfiawnder: ei holl orchymynion—y rhai a roddodd efe i Israel, yn enwedig y ddeddf foesol yn ei haddewidion a'i bygythion; ydynt sicr—ydynt ddiysgog a digyfaewid.

Adn. 8. *Wedi eu sicrhau byth ac yn dragywydd*] Ar natur a pherffeithderau Duw ei hun, neu yn ol rheolan tragywyddol gyfiawnder; a'u gwneuthur mewn gwirionedd ac uniawnder—gyda golwg ar ei ogoniant ei hun, a lles a dedwyddwch dynolryw.

Adn. 9. *Anfonodd ymwared i'w bobl*] Lawer gwaith, yn enwedig ei waredigaeth o'r Aifft trwy Moses, yr hon oedd yn gysgod ac yn wstl o waredigaeth fwy trwy Grist: *gorchymynodd ei gyfammod yn dragywyddol*—hyd ddiwedd y byd: canys yr un yw y cyfammod, o ran ei sylwedd, dan bob goruchwyliaeth, ond ei fod yn cyfnedd yn ei awgylchiadau: *santeiddiol ac ofnadwy yw ei enw ef*—ofnadwy i'w elynion, hybarch yn ngolwg ei bobl, a santeiddiol yn ei holl ymddygiadau tuag at bawb.

Adn. 10. *Dechread doethineb yw ofn yr Arglwydd*] Y mae doethineb ysbrydol yn dechreu gyda'r parchedig ofn hwn; neu, y cam cyntaf mewn gwir ddoethineb yw dduwioledeb neu wir grefydd: *deall da sydd gan y rhai a wnant ei orchymynion ef*—y mae cadw gorchymynion Duw yn brawf fod gan y neb a wnelo hyny ddeall a doethineb ysbrydol, neu eu bod yn 'ddoeth i iachawdwriaeth': *y mae ei foliant ef yn parhau byth*—clodforir y dyn a fyddo yn meddny doethineb a'r deall da nchod yn ddiddiwedd; ymestyna ei glod ef trwy amser i dragywyddoldeb. Ond tybia rhai mai moliant Duw a olygir yma.

SALM CXII. Nid oes un teitl i'r Salm hon, os nad yw y gair cyntaf, *Haleliuia*, yn deitl iddi. Tybia *Clarke* iddi gael ei hysgrifenu ar ol y caethiweid, a hyny ond odid gan *Zechariah* a *Haggai*, i'r rhai y priodola y

Vulgate hi. Y mae hon wedi ei chyfansoddi yn wyddorol fel yr un flaeorol; a thybia yr *Esgob Patrick* ei bod wedi ei bwriadu fel esboniad byr ar yr adnod olaf yn y Salm ddiweddar, i ddangos y doethineb a'r lles o gadw gorchymynion Duw, a byw yn dduwiol.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd*] Hebr., *Haleliuia*: gwel uchod. *Gwŷn ei fydd y gŵr a ofna yr Arglwydd*—canys y mae ofni yr Arglwydd nid yn unig yn 'ddechread doethineb,' ond yn arwain yn ddfifeth i ddedwyddwch presenol a thragywyddol. *Ac sydd yn hoffi ei orchymynion ef yn ddirfawr*—gan ei wneyd yn brif orchwyl ei fywyd i fyfyrion, deall, ac ufyddhau i orchymynion Duw. *Awgrymir yma fod sel a gwresogrwydd yn hanfodol i wir dduwioledeb.*

Adn. 2. *Ei had fydd cadarn ar y ddaear*] Ei blant a gynyddant mewn luosogrwydd, cyfoeth, a dduwioledeb: *cenhedloeth y rhai uniawn a fendithir*—os rhodiad hwy yn llwybrau crefyddol eu tadau, gan 'garu Duw, a chadw ei orchymynion,' Exod. xx. 6.

Adn. 3. *Golud a chyfoeth fydd yn ei dŷ ef*] Canys y mae gan dduwioledeb 'addewid o'r bywyd sydd yr awr hon,' yn gystal a'r 'hwn a fydd,' 1 Tim. iv. 8; *a'i gyfiawnder sydd yn parhau byth*—hyny yw, ei gyfiawnder ymarferol, yn gystal a'i gyfiawnder egwyddorol. Ond tybia *Clarke* fod 'cyfiawnder' yma yn arwyddo haelioni ac elusengarwch: gwel ar adn. 9.

Adn. 4. *Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn yn y tywyllwch*] Pan y bydd i drallodau a chyfyngderau eu cyfarfod, cânt gynaliaeth rasol dan eu dyoddefiadau, ac yn y diwedd ddedwyddol ymwared o'u holl gystuddian: cânt lewyrch gwnebu Duw arnynt yn eu helbulon, a gwneir i bob peth gydwethio er daioni iddynt. *Trugarog, a thosturiol, a chyfiawn, yw efe*—yw y gŵr da, yr un modd a'i Dad nefol. Gellir cyfieithu yr adnod hon yn fwy priodol, fel hyn: 'Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn yn y tywyllwch; i'r trugarog, y tosturiol, a'r cyfiawn.' Tra yr ydym ar y ddaear, yr ydym yn agored i dri math o *dywyllwch*, fel y sylwa yr *Esgob Horne*; tywyllwch cyfeiliornad, tywyllwch

5 Gŵr da sydd gymwynasgar, ac yn rhoddi benthgŵr: wrth farn y llywodraetha efe ei achosion.

6 Yn ddiau nid ysgogir ef byth: y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth.

7 Nid ofna efe rhag chwedl ddrwg: ei galon sydd ddisigl, yn ymddiried yn yr Arglwydd.

8 Attegwyd ei galon: nid ofna efe, hyd oni welo ei ewyllys ar ei elynion.

9 Gwasgarodd, rhoddodd i'r ty-

lodion; a'i gyfiawnder sydd yn parhau byth; ei gorn a ddyrchefir mewn gogoniant.

10 Yr annuwiol a wel hyn, ac a ddigia; efe a ysgyrnyga ei ddannedd, ac a dawdd ymaith: derfydd am ddymuniaid y rhai annuwiol.

SALM CXIII.

MOLWCH yr Arglwydd. Gweision yr Arglwydd, molwch, i'e, molwch enw yr Arglwydd.

2 Bendigedig fyddo enw yr Ar-

tristwch, a thywyllwch angau. I ymlid y rhai hyn, y mae Duw yn ymweled â ni, trwy ei air, â thri math o *oleuni*; goleuni y gwirionedd, goleuni cysur, a goleuni y bywyd.

Adn. 5. *Gŵr da sydd gymwynasgar*] Y mae yn rhoddi elusen i'r gwir dylodion, heb ei dysgwyl yn ol; ac yn rhoddi benthgŵr—i'r rhai a allant dalu yn ol mewn anser dyfodol: *wrth farn y llywodraetha efe ei achosion*—efe a ystyria yn bwylllog pa fodd y dylai ymddwyn at bawb, gan wneuthur rhagor rhwng y naill dylawd a'r llall.

Adn. 6. *Yn ddiau nid ysgogir ef byth*] O ran ei amgylchiadau tymhorol, adn. 3; neu o ran ei feddwl, os daw tralod i'w gyfarfod, adn. 7; neu, ni *ddinystrir* ef byth o ran ei enaid. *Y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth*—fel dyn da, tosturiol, a haelionus. Er y gall gael ei enllibio yn ei fywyd, eto, ar ol iddo farw, bydd ei goffadwriaeth yn barchus hyd yn nod gan ei elynion.

Adn. 7. *Nid ofna efe rhag chwedl ddrwg*] Wrth glywed fod rhyw adfyd yn ymyl, gan y gŵyr mai Duw sydd yn llywodraethu y cwbl: *ei galon sydd ddisigl*—neu benderfynol i rodio yn llwyr dyledswrdd, pa erledigaethau bynag a allant ei gyfarfod; yn ymddiried yn yr Arglwydd—gan fwrw ei holl ofal ar Dduw, ac ymddiried yn ei ragluniaeth, ei addewid, a'i ras.

Adn. 8. *Attegwyd ei galon*] Gan addewidion, gwenau, a gras ei Dduw: *nid ofna efe, hyd oni welo ei ewyllys ar ei elynion*—hyd oni welo hwynt oll wedi eu maeddau dan ei draed; 'hyd oni ddelo i'r nef, a gwled Satan, a'i holl elynion vsbyrdol, wedi eu llwyr orchfygu.' Neu, fel y mae *Green* yn ei gyfieithu, 'Nid ofna efe tra yn edrych yn ngwyneb ei elynion.' Gwel ar Salm xcii. 11.

Adn. 9. *Gwasgarodd*] Ei dda i'r anghenus; *rhoddodd i'r tylodion*—y rhai y gwyddai efe eu bod yn wir dylodion, adn. 5: *a'i gyfiawnder*—ei 'elusengarwch,' fel y tybia *Clarke* ac ereill; *sydd yn parhau byth*—hyny yw, fel y sylwa *Benson*, 'naill ai, (1) Y mae ei elusengarwch yn parhau hyd ddiwedd ei einioes; neu, (2) Nid yw yr hyn a gyfrana efe yn cael ei gollu, fel y tybia y cybydd a'r annuwiol, eithr dyma yr unig ran o'i etifeddiaeth a barha gydag ef dros dragwyddoldeb.' gwel ar adn. 3. *Ei gorn a ddyrchefir mewn gogoniant*—Saes., 'gydag anrhydedd.' Y mae rhai

yn deall hyn am ei lwyddiant ef yn y byd hwn; ac ereill, gyda'r Esgob *Horne*, yn ei ddeall am ogoniant tragwyddol.

Adn. 10. *Yr annuwiol a wel hyn*] A wel anrhydedd, dedwyddwch, allwyddiant y duwiol; ac a *ddigia*—wrth weled yr hwn a gasid ganddo ef, mor anrhydeddus a gwynfydedig. Tybia rhai mai *Satan* a olygir wrth yr 'annuwiol,' yn nechre yr adnod, ac mai *dynion drwg* a feddylir wrth y 'rhai annuwiol' yn ei diwedd hi. *Efe a ysgyrnyga ei ddannedd*—mewn cynddeiriogrwydd yn erbyn y dyn da a'i Dduw; ac a *dawdd ymaith*—gan genfigen a blinder meddwl. *Derfydd am ddymuniaid y rhai annuwiol*—hyny yw, ni chânt eu ddymuniaid byth; canys ddymuniaid y dynion drwg hyny oedd eu dyrchafiad eu hunain, a darostyngiad y cyfiawn. Yr *Esgob Horne* ar yr adnod hon a sylwa: 'Bydd i'r olwg ar Grist a'i saint mewn gogoniant boeni, mewn modd anhraethadwy, y rhai a groeshoeliasant y naill, ac a erlidiasant y lleill; gan y dengys iddynt fod holl obeatlion a ddymuniaidau eu gwrthwynebwyr wedi eu caniatáu yn llawn, a'u holl ddymuniaidau a'u cynlluniau hwy eu hunain wedi darof am byth; cynhyrfa hyny genfigen a fydd o angenrheidrwydd yn eu hysglyfio ei hun, cynrycha ofid nad ellir ei gysuro, esgor ar bryf nas gall byth farw, a chwyrtha y tânau hyny nas gall dim ei ddi-fodd.' Gwel ar Luc xiii. 28.

SALM CXIII. Geilw yr Iuddewon y Salm hon, a'r pumpe canlynol, yr '*Halel fawr*,' oddiwrth *Haleliwia*, y gair cyntaf ynddi. Canai yr Iuddewon hwynt yn eu gŵyliau arbenig, yn enwedig ar y *pasc*; nid oll ar unwaith, ond yn rhanau, yr olaf o ba rai a genid yn niwedd y *pasc*; a chyfeiriant, fel yr adefda yr Iuddewon eu hunain, at ofidiau y *MESSIA*, a'r adgyfodiad o feirw. Y Salmu hyn a wnaent i fyny yr 'hymn' hōno a genid gan Grist a'i ddysgyblion, ar ol y swper diweddaf, y nos y bradychwyd ef: gwel ar Mat. xxvi. 30.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd*] Hebr., '*Haleliwia*,' yr hwn a ystyrir fel *teitl* i'r Salm hon. *Gweision yr Arglwydd*—chwii Lefiaid, cantorion y cysegr, *molwch, i'e, molwch enw yr Arglwydd*—sef *JEHOFA* ei hun, yn ei natur a'i briodoliaethau anfeidrol.

Adn. 2. *Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd*] Fe allai mai yma yn briodol y

glwyddohynallanacyn dragywydd.

3 O godiad haul hyd ei fachludiad molianus *yw enw yr Arglwydd.*

4 Uchel *yw yr Arglwydd goruwch yr holl genhedloedd; a'i ogoniant sydd goruwch y nefoedd.*

5 Pwy *sydd fel yr Arglwydd ein Duw ni, yr hwn sydd yn preswyllo yn uchel?*

6 Yr hwn a ymddarostwng iedrych *y pethau yn y nefoedd, ac yn y ddaear?*

7 Efe *sydd yn codi y tylawd o'r llwch, ac yn dyrchafu yr anghennus o'r domen,*

8 I'w osod gyda phendefigion, *ie, gyda phendefigion ei bobl.*

9 Yr hwn a wna i'r anmhlantadwy gadw tŷ, *a bod yn llawen-fam plant. Canmolwch yr Arglwydd.*

SALM CXIV.

PAN aeth Israel o'r Aifft, tŷ Jacob oddiwrth bobl annghyfiaith;

2 Juda oedd ei santeiddrwydd, ac Israel ei arglwyddiaeth.

3 Y môr a welodd *hyn, ac a giliodd; yr Iorddonen a drôdd yn ol.*

4 Y mynyddoedd a neidiasant fel

dechreua y gân o foliant, mewn nfydd-dod i'r alwad uchod; *o hyn allan—trwy holl oesoedd y ddaear; ac yn dragywydd—yn y nefoedd.*

Adn. 3. *O godiad haul hyd ei fachludiad* Nid yn unig o fore hyd brydnawn, ond o'r dwyrain hyd y gorllewin, neu dros yr holl ddaear; *molianus yw enw yr Arglwydd—gan bawb a'i badwaeniant ef; neu molianus fydd ei enw, pan ledanaer yr efengyl dros yr holl fyd.*

Adn. 4. *Uchel yw yr Arglwydd goruwch yr holl genhedloedd* Mewn gallu ac awdurdod, neu efe sydd yn eu llywodraethu oll; *a'i ogoniant sydd goruwch y nefoedd—tra y mae gogoniant brenbinoedd y ddaear yn cael ei gyfyngu i'r byd isod hwn.*

Adn. 5. *Pwy sydd fel yr Arglwydd ein Duw ni* Mewn mawredd, gallu, doethineb, a santeiddrwydd? neu pa frenin daearol a gyfflybir iddo, neu a gystadlir âg ef? *Yr hwn sydd yn preswyllo yn uchel—ie, yn mhell uwchlaw y drydedd nef: gwel ar Esay lxxvi 1, 2.*

Adn. 6. *Yr hwn a ymddarostwng i edrych y pethau yn y nefoedd, ac yn y ddaear* Yr hwn sydd mor uchel, fel y rhaid iddo ymstwyng i edrych ar yr angylion uwchaf yn y nef, chwaithach ar ddyinion isel ar y ddaear, onidè ni wel nn o honynt byth. Y fath ymddarostyngiad anfeidrol, gan hyny, oedd iddo ddyfod i'n byd ni i wisgo ein cnawd am dano, ac i ddyoddef a marw yn ein lle!

Adn. 7. *Efe sydd yn codi y tylawd o'r llwch* Pan y mae dynion, ei frodyr ei hun, yn ei ddiystyru; *ac yn dyrchafu yr anghennus o'r domen—o'r cyflwr mwyaf isel a dirmygus.*

Adn. 8. *I'w osod gyda phendefigion* Megys y gwnaeth â Daniel, Joseph, a Dafydd; *ie, gyda phendefigion ei bobl—neu dwysogion mawrion y deyrmas: gwel ar 1 Sam. ii. 8. Ond y mae rhai yn deall hyn mewn ystyr ysbrydol, am godi llwch y llawr, sef dynion wedi bod yn ymdrybaedd mewn pob pechod, i'w gosod gydag angylion ac archangylion o flaen gorsedd Duw yn y nef; ac y mae un o'r rabiniaid Iuddewig yn ei ddeall am adgyfodiad y meirw.*

Adn. 9. *Yr hwn a wna i'r anmhlantadwy gadw tŷ* Neu deulu o'i heiddo ei hun; *a bod yn llawen-fam plant—fel y dygwyddodd i*

Sarah, Rahel, mam Samson, Hannah, a mam Ioan Fedyddiwr. Ond dichon mai cyfeiriad sydd yma at alwad y Cenhedloedd i'r eglwys dan yr efengyl: gwel ar Esay liv. 1, a Gal. iv. 27. *Canmolwch yr Arglwydd—am ei holl weithredoedd rhyfedd a daionus.*

SALM CXIV. Nid oes un teitl i'r Salm hon yn yr *Hebraeg*, ond rhoddir y gair '*Hal eliwia*' o'i blaen mewn amrai o'r cyfieithiadau. Mewn amrai ysgriffyfrau, a'r holl hen gyfieithiadau oddieithr y *Caldeaid*, cysylltir hi â'r Salm ganlynol, i wneyd un rhwng y ddwy. Nid yw yn anlwg pwy yw ei hawdwr hi; ond priodolir hi gan rai i *Sadrach, Mesach, ac Abednego*, a chan ereill i *Esther*, a elan ereill i *Mordecai*. Fel y mae y Salm fianorol yn galw ein sylw at ymddygiadau dwyfol ragluniaeth tuag at rai personau neillduol, felly dyry hon hanes gweithredoedd hynod rhagluniaeth Duw ar ran yr holl genedd Iuddewig, megys eu dwyn trwy y môr coch a'r Iorddonen, a rhoddi iddynt ddwfr o'r graig.

Adn. 1. *Pan aeth Israel o'r Aifft* Pan eu gwaredwyd o'r Aifft trwy allu gwrthiol Duw; *tŷ Jacob—sef holl lwythau Israel, y rhai a hanasant oddiwrth Jacob; oddiwrth bobl annghyfiaith—Saes, 'pobl o iaith ddy-eithr.'* Y mae yn dra thebyg nad oedd Israel yn gyffredin yn deall iaith yr Aifftiaid, trwy nad oeddnt yn ymgymysgu nemawr â hwynt: gwel ar Salm lxxxi. 5, Gen. xlii. 23.

Adn. 2. *Juda oedd ei santeiddrwydd* Felly y gelwir yr Iuddewon oll, am mai Juda oedd eu prif lwyth; *ac Israel ei arglwyddiaeth—neu ddeiliaid llywodraeth Duw.* Y meddwl yw, fod Duw y pryd hyny yn myned i sefydlu ei gysegr a'i frenhiniaeth yn eu plith hwy.

Adn. 3. *Y môr a welodd hyn* Fod Duw gyda hwynt; *ac a giliodd—ar y ddaear yn aswy, i wneyd ffordd rydd i Israel fyned trwyodd, Exod. xiv. 21, 22: yr Iorddonen a drôdd yn ol—ar ymddanghosiad y gogoniant dwyfol ag ydoedd yn eu barwain, Jos. iii. 15—17.* Er fod dengain mlynedd rhwng y ddau amgylchiad, eto, gan fod y ddwy wrth o'r un natur, sonir am danynt yma gyda'u gilydd. Fel hyn priodolir, mewn dull barddonol prydferth, synwyr a theimlad i'r dyfroedd a'r mynyddoedd.

hyrddod, a'r brynian fel wŷn defaid.

5 Beth *ddarfu* i ti, O fôr, pan giliaist? tithau, Iorddonen, *paham* y troaist yn ol?

6 *Paham*, fynyddoedd, y neidiech fel hyrddod? a'r brynian fel wŷn defaid?

7 Ofna, di ddaear, rhag yr Arglwydd, rhag Duw Jacob:

8 Yr hwn sydd yn troi y graig yn llyn dwfr, a'r gallestr yn ffynnon dyfroedd.

Adn. 4. *Y mynyddoedd a neidiasant fel hyrddod*] Yn y dychryn mwyaf; a'r brynian fel wŷn defaid—yn ysgafu a heinif, ar ddisgyniad JEHOFA i gyhoeddi ei gyfraith: gwel ar Exod. xix. 18. Cyfeirir yma at fynyddoedd Horeb a Sinai, y rhai oeddynt ddau gopa ar yr un mynydd, ac at fryniau ereill ond odid yn y gynnyddoedd hõno: gwel ar Exod. iiii. 1. Yr un gallu ag a wnaethai i'r dyfroedd sefyll, a wnaeth i'r mynyddoedd siglo a chrynu; canys y mae natur a'i holl elfenau dan lywodraeth Duw. Dylai hyn gywilyddio pechaduriaid cyndyn a gwargaled, y rhai a safant yn ddigr yn ngwyneb dadlennad gogoniant Duw!

Adn. 5. *Beth ddarfu i ti, O fôr, pan giliaist*] Yn y fath fodd? tithau, Iorddonen, *paham* y troaist yn ol—mor ddisymwth?

Adn. 6. *Paham, fynyddoedd, y neidiech fel hyrddod*] Yn y fath gyffro? a'r brynian fel wŷn defaid?—beth yw yr achos o'r dychryn a'r cynhyrfaidau hyn? Ar ol cynyg y cwestiynau arddunawl hyn, y mae y Salmwydd yn myned rhagddo i'w hateb hwy ei hunan:—

Adn. 7. *Ofna, di ddaear, rhag yr Arglwydd*] Neu, fel y mae agos yr oll o'r hen gyfeithiadau yn ei ddarllen, 'Y ddaear a ofnodd rhag yr Arglwydd.' Fel pe dywedasai, Dyna yr achos i'r môr *gilio*, i'r Iorddonen *droi yn ol*, ac i'r mynyddoedd a'r brynian *neidio*; gweled *Duw Jacob* a wnaethant, a dychrynu rhagddo! Y mae y darluniad yn farddonol a chynwysfawr iawn.

Adn. 8. *Yr hwn sydd yn troi y graig yn llyn dwfr*] O ba nn y dylifodd ffrydiau ac afonydd yn Horeb, Exod. xvii. 6, 7; a'r gallestr yn ffynnon *dyfroedd*—gwel ar Num. xx. 11. Gweled Duw o'r fath allu a hyn, a barodd i'r môr a'r mynydd arswydo felly rhagddo.

SALM CXV. Y mae y Salm hon yn barhad o'r un flaenorol mewn 18 o ysgrifysfran *Kennicott*, a 53 o eiddo *De Rossi*, a chan y LXX, y *Vulgate*, *Syriaeg*, *Ethiopaeg*, *Arabaeg*, *Anglo-Saxonaeg*, &c. Nid yw yn eglurpwy yw awdwr y naill na'r llall, nac ar ba achlysur eu hysgrifenydd: gwel deitl Salm cxiv. Tybia *Clarke* mai cân fuddugol yw hon, yn mha un y mae y fuddugoliaeth a ennillwyd yn cael ei phriodoli i Dduw. Casglu *Horne*, oddiwrth y ddwy adnod flaenaf, nad diolchgarwch am

SALM CXV.

NID i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant, er mwyn dy drugaredd, ac er mwyn dy wirionedd.

2 Paham y dywedai y cenhedloedd, Pa le yn awr y mae eu Duw hwynt?

3 Ond ein Duw ni sydd yn y nefoedd: efe a wnaeth yr hyn a fynodd oll.

4 Eu delwan hwy ydynt o aur

fuddugoliaeth ydyw, eithr gweddi am waredigaeth. Tybia *Patrick* ddarfos ei chyfansoddi ar yr achlysur i Jehosaphat weled tyrfa fawr yn dyfod i'w erbyn ef, 2 Cron. xx. 2, &c. A dywed *Horsley* nad oes un achlysur yn ymddangos yn debycach na ffœdigaeth Senacherib ar ol i'w fyddin gael ei lladd, 2 Bren. xix. 35, 36.

Adn. 1. *Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni*] Trwy yr ailadroddiad hwn dengys y Salmwydd ei deimlad dwfn o anheilyngdod yr Iuddewon o dderbyn y fuddugoliaeth a gawsent, neu y gweddiant am ei chael; ond *i'th enw dy hun dod ogoniant*—yr hwn yw yr achos o'n holl lwyddiant ni yn dymhorol ac ysbrydol; er mwyn dy drugaredd, ac er mwyn dy wirionedd—sef ei drugaredd yn addaw, a'i wirionedd yn cyflawni yr addewid hõno.

Adn. 2. *Paham y dywedai y cenhedloedd*] Eilunaddolgar, mewn gwawd a dirmyg, *Pa le yn awr y mae eu Duw hwynt*—yr hwn yr ymfrostiaid Israel ynddo fel yn rhagori ar ein duwiau ni, ac yn waredwr iddynt o'n dwylaw?

Adn. 3. *Ond ein Duw ni sydd yn y nefoedd*] Yn anfeidrol goruwch holl alluoedd a duwiau y cenhedloedd, ac oddiyno efe a lywodraetha holl achosion y ddaear: *efe a wnaeth yr hyn a fynodd oll*—mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a gras: ac felly, fel pe dywedasai, nid yw eich llwyddiant chwi yn ein herbyn unrhyw amser yn ymddibynn ar eich nerth a'ch doethineb chwi na'ch duwiau, ond ar ewyllys Jehofa, yr hwn a'n cystuddia ni fel hyn dros amser i ateb ei ddybenion daionus ei hun.

Adn. 4. *Eu delwan hwy*] Sef delwan y cenhedloedd uchod; ydynt o aur ac arian—ie, o bren a maen; *gwaith dwylaw dynion*—ac am hyny byddai yn fwy rhesymol iddynt hwy, pe gallent, addoli y dynion hyny a'u lluniasant, nag i ddynion eu haddoli hwy. Eithr ein Duw ni yw Creawdwr a Chynaliwr pawb a phobpeth; ac am hyny dylai pawb ei addoli a'i wasanaethu ef.

Adn. 5—7. *Genau sydd iddynt, &c.*] Darfu i'r toddydd, y cerfiwr, neu y lliwiedydd, wneathur ei ran ef; rhoddodd iddynt lun *genau*, *llygaid*, *clustiau*, *ffroenau*, *dwylaw*, *traed*, a *gwddf*; ond nid allodd roddi bywyd na theimlad ynddynt. Wedi yr oll a wnaeth efe iddynt, *ni lefarant*—mewn atebiad i'r

ac arian, gwaith dwylaw dynion.

5 Genau *sydd* iddynt, ond ni lefarant; llygaid *sydd* ganddynt, ond ni welant;

6 *Y mae* clustiau iddynt, ond ni chlywant; ffroenau *sydd* ganddynt, ond ni aroglant:

7 Dwylaw *sydd* iddynt, ond ni theimlant; traed *sydd* iddynt, ond ni cherddant; ni leisiant chwaiſt â'u gwddf.

8 *Y rhai a'u* gwnant ydynt fel hwythau, a phob un a ymddiriedo ynddynt.

9 O Israel, ymddiried di yn yr Arglwydd: efe *yw* eu porth a'u tarian.

10 *Tŷ* Aaron, ymddiriedwch yn yr Arglwydd: efe *yw* eu porth a'u tarian.

lyn a ofynir iddynt; *ni welant*—gyfyngder nac ymstyngiad en haddolwyr; *ni chlywant*—eu gweddïau hwynt; *ni aroglant*—bereiddra eu harog-darthau; *ni theimlant*—yr anrhegion a estynir iddynt i ennill eu flair; *ni cherddant*—i waredu y rhai a geisiant help ganddynt; *ni leisiant chwaiſt â'u gwddf*—i arwyddo fod teimlad a bywyd ynddynt; neu '*ni anadlant*,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu. Ond mor wahanol i hyn yw Duw Israel! Efe a wnaeth bob peth, tra y maent hwy wedi cael eu gwnenthur gan ddwylaw dynion; y mae ef yn y nefoedd, a hwythau ar y ddaear; efe a wna yr hyn a fydd, tra nas gallant hwy wneyd dim; y mae ef yn gweled cyfyngder ei addolwyr, yn gwrando ac yn ateb eu gweddïau, yn derbyn eu hoffryman, yn rhedeg i'w cyfarfod, ac yn eu gwaredu o'u cyfyngderau; tra y mae duwiau y cenhedloedd yn fud, yn ddall, yn fyddar, yn ddideimlad, disymudiad, a diallu.

Adn. 8. *Y rhai a'u gwnant ydynt fel hwythau*] Ydynt mor dywyll, syfrdan, a dirswm, a'r delwau hyny eu hunain; *a phob un a ymddiriedo ynddynt*—am achubiaeth a bywyd tragwyddol. Nid yw y nail na'r llall yn iawn ddefnyddio y cyneddau a roddodd Duw iddynt: nid ydynt yn *gweted* anweledig bethau y gwir a'r bywiol Dduw yn ngwaith y cread; nid ydynt yn *clywed* llais ei raglun-iaeth a'r ras ef, neu leferydd dydd a nos, y rhai a draethant ei ogonynt, Salm xix. 1—3; nid ydynt yn *deall* y rhaid fod delw difywyd, yr hon a wnaed â'u dwylaw hwy, yn waelach yn mhob ffordd na hwy eu hunain, ac yn anallug i weini iddynt y cymborth lleiaf yn nydd cyfyngder.

Adn. 9. *O Israel*] Sef holl gorff y genedl; *ymddiried di yn yr Arglwydd*—am fywyd, iachawdwriaeth, a phob bendith angenrheidiol arall: *efe yw eu porth*—neu gymorth Israel i orchfygu eu holl elynion; *a'u tarian*—i'w hamddiffyn rhab eu saethau a'u picellau hwynt.

11 *Y rhai a ofnwch yr Arglwydd*, ymddiriedwch yn yr Arglwydd: efe *yw* eu porth a'u tarian.

12 *Yr Arglwydd a'n* cofiodd ni; efe a'n bendithia: bendithia efe dŷ Israel; bendithia efe dŷ Aaron.

13 Bendithia efe y rhai a ofnant yr Arglwydd, fychain a mawrion.

14 *Yr Arglwydd a'ch* chwanega chwi fwyfwy, chwychwi a'ch plant hefyd.

15 Bendigedig *ydych* chwi gan yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nef a daear.

16 *Y nefoedd, i'e, y nefoedd ydynt* eiddo yr Arglwydd: a'r ddaear a roddes efe i feibion dynion.

17 *Y meirw* ni folianant yr Arglwydd, na'r neb sydd yn disgyn i ddystawrwydd.

Adn. 10. *Tŷ Aaron*] Yr holl offeiriad, yn cynwys hefyd y Llesaid o bob dosbarth; *ymddiriedwch yn yr Arglwydd*—gwel ar adn. 9.

Adn. 11. *Y rhai a ofnwch yr Arglwydd*] *Y rhai a addolwch y gwir Dduw*, nid yn unig yn mhilith yr Israeliaid, ond yn mhilith y proselytiaid Cenhedlig hefyd; *ymddiriedwch yn yr Arglwydd*—bydded i bobl y byd, os rhaid yw, wneuthur iddynt dduwiau i'w haddoli, ac ymddiried yn ngwaith eu dwylaw eu hunain; eithr bydded i'r eglwys oll ymddiried yn Jehofa, yr hwn yn unig a all eu cynorthwyo a'u hamddiffyn: *efe yw eu porth a'u tarian*—gwel ar adn. 9.

Adn. 12. *Yr Arglwydd a'n* cofiodd ni] Yn ein hadfyddau blaenorol; *efe a'n* bendithia—o hyn allan: *bendithia efe dŷ Israel*—sef holl gorff y genedl: *bendithia efe dŷ Aaron*—yr offeiriad a'r Llesaid, & phob bendith angenrheidiol i'w cyflwr a'u swydd; neu, efe a fendithia Israel tel eglwys a gwladwriaeth.

Adn. 13. *Bendigedig ydych* chwi gan yr Arglwydd] Yn mhob oes, ac yn mhilith pob genedl, Act. x. 34, 35; *fychain a mawrion*—ieuan a hen, isel ac uchel, tylawd a chyfoethog.

Adn. 14. *Yr Arglwydd a'ch* chwanega chwi *fwyfwy*] Mewn rhifedi, gallu, a chyfoeth; *chwychwi a'ch plant hefyd*—os ymddiriedant hwythau ynddo ef: neu, 'efe a'ch bendithia elwi yn eich plant.'

Adn. 15. *Bendigedig ydych* chwi gan yr Arglwydd] Gwel ar Esay lxi. 9; *yr hwn a wnaeth nef a daear*—ac felly sydd i'w phob bendith ysbrydol a thymhorol yn ei feddiant, i'w rhoddi i'r rhai a ymddiriedant ynddo.

Adn. 16. *Y nefoedd, i'e, y nefoedd*] Nid yn unig y nef wŷbrenol, bro y cymylau, a'r nef serenog, lle y mae yr haul a'r lloer, ond nef y gogonynt hefyd; *ydynt eiddo yr Arglwydd*—a than ei roelaeth a'i awdurdod ef fel eu Creawdwr a'n Cynaliwr; ac am hyny g'all fendithio ei bobl oddiyno hefyd: *a'r ddaear a*

18 Ond nywi a fendithiwn yr Arglwydd o hyn allan ac yn dragywydd. Molweh yr Arglwydd.

SALM CXVI.

DA genyf wrando o'r Arglwydd ar fy llef a'm gweddiau.

2 Am ostwng o hono ei glust ataf, am hyny llefaf dros fy nyddiau arno ef.

3 Gofidion angau a'm cylchynasant, a gofidiau uffern a'm daliasant: ing a blinder a gefais.

4 Yna y gelwais ar enw yr Ar-

roddes efe i feibion dynion—i'w llafurio hi, a mwynhau ei chynrych byd ddiwedd amser.

Adn. 17. *Y meirw ni foliannant yr Arglwydd* Ar ol i'w tafod gael ei gloi gan angau; *na'r neb sydd yn disgym i ddystawrwydd*—sef i'r bedd: eithr 'y byw, y byw, efe a'th fawldi,' Esay xxxviii. 18, 19. Y meddwl yw, Os goddefi i ni gael ein lladd gan eingelynyon, ni fydd neb ar y ddaer i'th foliannu di: gwel ar Salm vi. 5.

Adn. 18. *Ond nywi a fendithiwn yr Arglwydd* Am iddo ein cadw yn fyw; *o hyn allan*—tra y pery ein heinioes; *ac yn dragywydd*—yn y nefoedd. *Molweh yr Arglwydd*—cyduned pawb yn y gwaith hyfryd hwn.

SALM CXVI. Nid oes deitl i'r Salm hon; ac nid yw yr eglur pwy yw ei hawdwr, nac ar ba achlysur yr ysgrifenydd hi. Tybia Patrick mai *Dafydd* a'i hysgrifennodd hi ar ol gwrthryfel Absalom; a *Horsley*, mai *Hezeciah* ar ol ei adferiad o'i glefyd; a *Clarke*, mai rhywun ar ol y caethiwed, i ddiolch i Dduw am y waredigaeth fawr hono; a *Horne*, mai hymn efengylaidd ydyw yn ngenau yr edifeiriol, i ddatgan ei ddiolchgarwch am waredigaeth oddiwrth bechod a marwolaeth. Yn ol y *Syriac*, 'ysgrifenydd hi ar yr achlysur o ddyfodiad Saul at enau yr ogof lle yr oedd Dafydd yn ymguddio; ond, a'i deall yn ysbrydol, hi a gyfeiria at ddygiad y Cenhedloedd i'r fydd Gristionogol.' Yr oedd y rhan fwyaf o'r tadau yn meddwl ei bod yn cyfeirio yn gwbl at ddyoddefaint, marwolaeth, a buddugoliaeth Crist. Mewn rhai ysgriflyfrau cysylltir hi â'r Salm flaenorol.

Adn. 1. *Da genyf wrando o'r Arglwydd* Saes., 'caraf yr Arglwydd am iddo wrando; ar fy llef a'm gweddiau—y mae yn eglur oddiyma mai diolchgarwch am waredigaeth oddiwrth ryw drallod yw y Salm hon.

Adn. 2. *Am ostwng o hono ei glust ataf* I wrando ar fy llef yn fy nghyfyngder diwedd-ar; *am hyny y llefaf dros fy nyddiau arno ef*—tra y byddaf byw yn y byd, pa un bynag ai mewn hawddfyd ynte mewn adfyd.

Adn. 3. *Gofidion angau a'm cylchynasant* [Sef rhyw beryglon neu boenau corfforol ag y

glwydd; Atolwg, Arglwydd, gwarded fy enaid.

5 *Graslawn yw yr Arglwydd*, a chyfiawn; a thosturiol yw ein Duwni.

6 Yr Arglwydd sydd yn cadw y rhai annichellgar: tylodais, ac efe a'm hachubodd.

7 Dychwel, O fy enaid, i'th orphwysfa; canys yr Arglwydd fu dda wrthyt.

8 O herwydd it' waredu fy enaid oddiwrth angau, fy llygaid oddiwrth ddaagrau, a'm traed rhag lithro;

9 Rhodiaf o flaen yr Arglwydd yn nhir y rhai byw.

buasai ynddynt, oddiwrth elynion marwol neu glefyd adwythig; a *gofidiau uffern a'm daliasant*—fe allai ei fod yn ofni mai yn uffern y byddai, os terfynai y trychineb presenol mewn marwolaeth; neu ynte 'gofidiau y bedd,' y fath ag a deimla dynion wrth ofni y bedd, neu wrth farw: *ing a blinder a gefais*—o'r fath chweraf, yn fy nghorff a'm henaid.

Adn. 4. *Yna y gelwais ar enw yr Arglwydd* Fel yr unig un a allai ty ngwaredu; *Atolwg, Arglwydd, gwarded fy enaid*—sef ei fywyd; a'i enaid hefyd, fe allai, o feddiant uffern, adn. 3.

Adn. 5. *Graslawn yw yr Arglwydd* Yn ei natur; a *chyfiawn*—yn ei holl ffordd; a *thosturiol yw ein Duwni*—tuag at bob un gwir edifeiriol. Hyn oedd profiad y Salmydd ar ol cael atebiad i'w weddi yn adn. 4.

Adn. 6. *Yr Arglwydd sydd yn cadw y rhai annichellgar*] Sef rhai didwyll a chywir, y rhai ni arferant ystrywiau ac anghyfiawnder i gyraedd gwardigaeth. Arwydda *pethaim* rai yn ymddibynnu yn hollol ar Dduw, fel *plant bychain* ar eu rhieni. *Tylodais*—suddais i ddyfnder tralloed a thrueni; *ac efe a'm hachubodd*—o'm cyflwr alaethus.

Adn. 7. *Dychwel, O fy enaid, i'th orphwysfa*] I'r tawelwch meddwl, a'r hyder siriol hwnw yn rhagluniaeth ac addewidion Duw, a fwyneit gynt. Duw yn briodol yw gorphwysfa yr enaid; a'r rhai nis ceisiant hi yn Nuw, nis gallant ei chael mewn un man arall. *Canys yr Arglwydd fu dda wrthyt*—y waith hon, fel amrai weithiau o'r blaen. Ond tybia *Clarke* mai gwlad Canaan a feddylir wrth yr 'orphwysfa' hon, i'r hon yr oedd y gaethglud yn awr yn dychwelyd; ac efe a ddywed fod dau air yn yr adnod hon ag sydd yn *Galdeig*, sef *limenuchaichi*, 'i'th orphwysfa,' ac *alachi*, 'wrthyt'; a bod hyny yn profi mai ar ol y caethiwed yr ysgrifenydd y Salm hon.

Adn. 8. *O herwydd it' waredu fy enaid oddiwrth angau*] Neu ei fywyd oddiwrth y farwolaeth ag ydoedd yn ei fygwth; *fy llygaid oddiwrth ddaagrau*—trwy droi fy wylofaen yn orfoledd; *a'm traed rhag lithro*—i faglan fy ngelynyon, neu i byrth y bedd;—

Adn. 9. *Rhodiaf o flaen yr Arglwydd*]

10 Credais, am hyny y lleferais : cystuddiwyd fi yn ddirfawr.

11 Mi a ddywedais yn fy ffrwst, Pob dyn sydd gelwyddog.

12 Beth a dalaf i'r Arglwydd, am ei holl ddoniau i mi ?

13 Phiol iachawdwriaeth a gymeraf, ac ar enw yr Arglwydd y galwaf.

14 Fy addunedau a dalaf i'r Arglwydd, yn awr yn ngŵydd ei holl bobl ef.

15 Gwerthfawr yn ngolwg yr Ar-

glwydd *yw* marwolaeth ei saint ef.

16 O Arglwydd, yn ddiâu dy was di *ydwyf* fi; dy was di *ydwyf* fi, mab dy wasanaethwraig; dattodaist fy rhwymau.

17 Aberthaf i ti aberth moliant; a galwaf ar enw yr Arglwydd.

18 Talaf fy addunedau i'r Arglwydd, yn awr yn ngŵydd ei holl bobl.

19 Yn nghynteddoedd tŷ yr Arglwydd, yn dy ganol di, O Jerusalem. Molwch yr Arglwydd.

Yn ei wyddfod, ac er gogoniant i'w enw; *yn nhir y rhai byw*—yn mhllith dnyon byw ar y ddaear. Neu fe allai ei fod yn meddwl yn *eglwys* Dduw, lle y mae rhai byw ysbrydol, *Esay* iv. 3; canys nid *yw* y *byd* oll ddim ond un fynwent fawr, lle y mae pawb yn 'feirw mewn camweddau a phechodau,' *Eph.* ii. 1.

Adn. 10. *Credais*] Y gwnai Duw fy ngwr-andaw a'm hneub; *am hyny y lleferais*—wrtho ef mewn gweddi, neu am ei waredigaeth a'i ddaioni ef: gwel ar 2 *Cor.* iv. 13. *Cystuddiwyd fi yn ddirfawr*—gwel ar adn. 3.

Adn. 11. *Mi a ddywedais yn fy ffrwst*] Yn ei *syrbwylldra*; neu yn ei *ofn*, pan yr oedd dylchyn wedi gwanbau ei flydd; neu yn ei *ffuedigaeth*, fel y mae yn y Galdeaege. *Pob dyn sydd gelwyddog*—nid oes coel i'w roddi ar eu haddewid o waredigaeth. Wrth ei ddeall fel hyn, y mae efe yn amau gwirionedd addewidion Duw, eto yn y fath fodd fel ag i beidio beio yn uniongyrchol ar Duw, ond ar yr offerynau trwy y rhai y gwnaed yr addewidion.

Adn. 12. *Beth a dalaf i'r Arglwydd*] Mewn ffordd o ddiolchgarwch, *am ei holl ddoniau i mi*—yn dymhorol ac ysbrydol? Er i mi amau ei addewidion, eto ete a'u cyflawnodd; a pha fodd y gallaf fod yn ddigon diolchgar iddo?

Adn. 13. *Phiol iachawdwriaeth a gymeraf*] Mi a gymeraf y naill fendith oddiar ei law, i ddiolch iddo am y llall; *ac ar enw yr Arglwydd y galwaf*—am ychwaneg o'r un bendithion. Yr holl *ad-dulid* ag y mae Duw yn ei geisio am ei fendithion, ydwy i ni *ofyn* am ychwaneg; ac y mae ein bod eisioes wedi derbyn cynifer o drugareddau oddiar ei law, yn rheswm i ni ddysgwyl y cwbl a addawodd efe, i.e. bywyd tragwyddol. Meddylir fod yma gyfeiriad at waith y penteulu yn mhllith yr Iuddewon, yn niwedd eu gwleddoedd crefyddol, yn cymeryd cwpan y fendith yn ei law, ac yn yfed o hono, efe a'i deulu, gan ddywedyd, 'Bendigedig fyddo yr Arglwydd, Creawdwr y byd, yr hwn a greodd firwyth y winyddden.' Tybia *Dr. Hammond* fod dau gwpan gan yr Iuddewon; un yn cael ei offrw mewn modd mwy edmygol yn y cysegr, Num xxviii. 7; a'r llall yn fwy dirgelaidd yn eu teuluoedd, yr hwn a elwid 'cwpan diolchgarwch,' er cofiadwriaeth am ryw waredigaethau a dderbyniasent. Tybir mai mewn cydffurfiad â'r ddefod

hon y cymeroedd yr Iesu y cwpan ar ddiwedd swper y pasce, pryd y sefydlodd efe y cymun bendigedig, yr hwn sydd i barhau hyd ddiwedd goruchwyliaeth yr efengyl; gwel ar *Mat.* xxvi. 27.

Adn. 14. *Fy addunedau a dalaf i'r Arglwydd*] Y rhai a wnaethm yn fy nhrallod a'm perygl; *yn awr yn ngŵydd ei holl bobl ef*—yn nghynteddoedd tŷ yr Arglwydd yn Jerusalem; gwel ar adn. 19.

Adn. 15. *Gwerthfawr yn ngolwg yr Arglwydd*] Fel dygwyrddiad o'r pwys mwyaf; *yw marwolaeth ei saint ef*—ac am hyny ni âd efe eu marwolaeth hwy i ewyllys eu gelynyon. Y mae ei saint yn werthfawr yn ei olwg ef yn eu bywyd ac yn eu marwolaeth; 'canys pa un bynag ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw,' *Rhuf.* xiv. 8.

Adn. 16. *O Arglwydd, yn ddiâu dy was di ydwyf fi, &c.*] Y mae y Salmwydd yn adrodd hyn ddywywaith, i ddangos fel y gwerthfawrogi efe y fraint o gael bod yn was i'r Arglwydd; *mab dy wasanaethwraig*—cesglir oddiyma fod mam y Salmwydd yn wraig dduw-iol iawn, ac iddi ei ddwyn ef i fyny i wasanaethu yr Arglwydd o'i febyd; gwel ar *Salm* lxxxvi. 16. *Dattodaist fy rhwymau*—gwar-edaist fi oddiwrth fy ngelynyon, i'r rhai yr oeddwn yn gaethwas; ac am hyny y mae genyt bawl gyfiawn ynof fi a'm gwasanaeth. Fe allai fod yma gyfeiriad at y gwas a wrthodai fyned yn rhydd yn niwedd y seithfed flwyddyn, er fod ei rwmiau wedi eu dattod; ac a ddymunai yn hytrach gael tyllu ei glust, i'w wasanaethu ef byth; gwel ar *Exod.* xxi. 6.

Adn. 17. *Aberthaf i ti aberth moliant*] Trwy ganu dy glodydd yn barhaus; neu fe allai ei fod yn meddwl offrymu anifel iddo yn 'aberth diolch'; a galwaf ar enw yr Arglwydd—mewn gweddi ac addoliad parhaus.

Adn. 18. *Talaf fy addunedau i'r Arglwydd*] Gwel ar adn. 14.

Adn. 19. *Yn nghynteddoedd tŷ yr Arglwydd*] Cesglir oddiyma fod y deml y pryd hyn wedi ei hadeiladu, yr hyn nid oedd yn amser Dafydd; a'i bod yn awr heb ei dinystrio, fel yr oedd yn amser y caethiued. *Yn dy ganol di, O Jerusalem*—lle yr oedd y deml yn sefyll. *Molwch yr Arglwydd*—Hebr., 'Haleliwia.'

SALM CXVII.

MOLWCH yr Arglwydd, yr holl genhedloedd: clodforwch ef, yr holl bobloedd.

2 O herwydd ei drugaredd ef tuag atom ni sydd fawr: a gwirionedd yr Arglwydd a bery yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

SALM CXVII. Hon yw y Salm leiaf yn yr holl gasgliad; ac mewn 32 o ysgriflyfrau *Kennicott* a *De Rossi*, yn gystal ag mewn rhai hen argraffiadau, hi a saif fel rhan o'r Salm flaenorol; ac mewn tri o ysgriflyfrau ni cheir hi o gwbl. *Tybia Clarke* mai clodfodedd ydyw am waredigaeth o gaethiwed Babilon, yr hyn oedd yn gysgod o bryndigaeth y byd trwy ein Harglwydd lesu Grist. Dywed y *Syriaeg*, 'ei bod yn rhagfynegu galwad y Cenhedloedd trwy bregethiad yr efengyl'; ac yn yr ystyr yma y cymhwysir hi gan St. Paul, Rhuf. xv. 11.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd*] Am iddo ddarparu gogyfer â'ch iachawdwriaeth chwithau; *clodforwch ef, yr holl bobloedd*—sef yr holl luddewon, y rhai a foch cyhyd yn bobl pedair iddo; o herwydd tra y mae efe yn anfon ei Fab yn 'oleuni i oleu y Cenhedloedd,' y mae yn ei anfon ef hefyd i fod yn 'ogoniaut i'w bobl Israel,' Luc ii. 32.

Adn. 2. *O herwydd ei drugaredd ef tuag atom ni*] Iuddewon a Cenhedloedd, sef holl ddynolryw; *sydd fawr*—Hebr., 'sydd gryf'; y mae nid yn unig yn *fawr* o ran ei sylwedd a'i maint, ond y mae hefyd yn *gryf* o ran ei heffeithiant; y mae nid yn unig yn gorchfygu Satan, pechod, angau, ac uffern, ond hefyd yn agor teyrnas nef i bawb a gredant. *A gwirionedd yr Arglwydd*—neu ei fflyddlondeb yn cyflawni ei addewidion; *a bery yn dragywydd*—nid yn unig hyd ddiwedd y byd, ond hefyd hyd eithaf tragwyddoldeb. *Molwch yr Arglwydd*—cyduned luddewon a Cenhedloedd i'w foliannu ef am hyn oll.

SALM CXVIII. Meddylir yn gyffredin mai *Dafydd* yw awdwr y Salm hon, am ei bod yn llawn o ysbryd *Dafydd*, ac yn ymddangos fel gwaith pen meistr. Y mae ei harddull yn ardderchog iawn, a'i thestyn yn fawreddog ac arddunol. *Tybia Dr. Delaney* i *Dafydd* ei hysgrifennu ar ol ei fuddugoliaeth ar y Philistiaid, yr hon a adroddir yn 2 Sam. xxiii. 12, a 1 Cron. xi. 14; ac iddo ei chwau yn y tabernacl fel cerdd o ddiolchgarwch i Dduw am y fuddugoliaeth hono. Cynwysa y fath orlifaad o ddiolchgarwch i Dduw, y fath ymadroddion o hyder ynddo a gogoniant iddo, a'r fath ddarluniau bywiog o'i elynion, ag a ddanghosa yn amlwg atbrylith a medrusrwydd *Dafydd*. Ymddengys ei bod wedi ei chyfansoddi yn chwaryddol (*dramatical*), neu mewn ffordd o gyflafareddiad, lle y mae y naill yn ateb y llall. Y mae y pedair flaenaf yn

SALM CXVIII.

CLODFORWCH yr Arglwydd; canys da yw: o herwydd ei drugaredd ei bery yn dragywydd.

2 Dywedwed Israel yr awr hon, fod ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd.

3 Dywedwed tŷ Aaron yn awr, fod ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd.

gynghor cyffredinol i foliannu yr Arglwydd am ei drugaredd. Yna y mae y Salmydd, oddiar ei brofiad ei hun, yn annog y bobl i ymddiried yn Nuw, gan ddangos y fantais o hynny, adn. 5—9. Darlunia ei elynion, a dengys pa fodd y galluogodd Duw ef i'w dyfetha hwynt, adn. 10—13. Y bobl yn llawenyachu o'r herwydd, 14—16. Efe a sonia drachefn am y cymorth a gafodd gan yr Arglwydd; a cheisia dderbyniad i'r cysegr, fel y gallai glodfori yr Arglwydd am hynny, adn. 17—19. Y pyrth yn agor, ac yntau yn clodfori Duw, adn. 20, 21. Yr offeiriad yn cydnabod llaw yr Arglwydd yn y waredigaeth a wnaed, adn. 22—24. Y Salmydd, neu yn hytrach y bobl, yn gweddio am lywddiant, adn. 25. Yr offeiriad yn bendithio y bobl, a phawb yn cyduno mewn moliant, adn. 26, 27. Y Salmydd yn mynegu ei hyder yn Nuw, adn. 28. Y gydgân gyffredinol, adn. 29. Hon yw yr olaf o'r Salmiau a wnaent i fyny yr '*Halel fawr*,' yr hon a ganwyd gan ein Harglwydd a'i ddysgybllion ni niwedd y pasc: gwel deitl Salm cxiii. Y mae y rhai uwyaif dysgedig o'r Iuddewon, ben a diweddar, yn addef fod yma gyfeiriad at y MESSIA; a chymhwysir hi ato ef gan ysgrifenyddwr y Testament Newydd: gwel Mat. xxi. 42, Act. iv. 11. Darllenir y Salm hon yn ngwasanaeth brydnawnol yr Eglwys ar ddydd y pasc.

Adn. 1. *Clodforwch yr Arglwydd*] Am ei aneirif drugareddau, yn dymhorol ac ysbrydol; *canys da yw*—da yw yr Arglwydd, a da hefyd yw ei glodfori ef: *o herwydd ei drugaredd a bery yn dragywydd*—a ymestyna dros aniser a thragwyddoldeb i'r rhai a ymddiriedant ynddo.

Adn. 2. *Dywedwed Israel yr awr hon*] Sef y rhai hyny o lwythau Israel a flurient yr oryndaith hon; *fod ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd*—o'r hyn yr oeddynt hwy a'u tadau wedi cael y prawf llawnaf.

Adn. 3. *Dywedwed tŷ Aaron yn awr*] Yr offeiriad a'r Lefiaid y pryd hyny; *fod ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd*—nid yn unig dan oruchwyliaeth Moses, ond hefyd dan oruchwyliaeth y Messia; a dyledswydd holl weinidogion y Testament Newydd yw cyhoeddi hyn yn y modd llawnaf i'w holl gynulleidfaoedd.

Adn. 4. *Yn awr dywedwed y rhai a ofniant yr Arglwydd*] Sef yr holl broselytiaid o blith y Cenhedloedd, yn gystal a phob un gwir edifeiriol; *fod ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd*—dywedwed pob un hyny yn ei

4 Ynawr dyweded y rhai a ofnant yr Arglwydd; fod ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd.

5 Mewn ing y gelwais ar yr Arglwydd; yr Arglwydd a'm clybu, ac a'm gosododd mewn eangder.

6 Yr Arglwydd sydd gyda mi, nid ofnaf: beth a wna dyn i mi?

7 Yr Arglwydd sydd gyda mi yn mhlith fy nghynorthwywyr: am hyny y caf weled fy ewyllys ar fy ngliaseion.

8 Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd, nag ymddiried mewn dyn.

9 Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd, nag ymddiried mewn tywysogion.

10 Yr holl genhedloedd a'm ham-

ardal ei hun, ac wrth bawb o'i amgylch, fel yr ennillir y byd i ymddiried yn ei drugaredd ef.

Adn. 5 *Mewn ing y gelwais ar yr Arglwydd*] Fel pe dywedasai, Gallwch weled siampl o drugaredd Duw yn ofi, yr hwn oeddw'n mewn cyfyngder mawr, ac a elwais ar yr Arglwydd yn fy nghyfyngder: *yr Arglwydd a'm clybu*—Saes., 'a'm hatebodd; *ac a'm gosododd mewn eangder*—gwaredodd fi o'm cyfyngder, a roddodd i mi fuddugoliaeth ar fy holl elynion.

Adn. 6. *Yr Arglwydd sydd gyda mi*] I'm hamddiffyn a'm cysuro; *nid ofnaf*—gan hyny, unrhyw elyn: *beth a wna dyn i mi*—dyn gwan, brau, a marwol, pan y mae y Duw cadarn, hollalluog, a thrwgwyddol, yn amddiffynwr i mi? Y mae yr apostol yn dyfynu yr adnod hon, gan ei chymhwyso at bob gwir Gristion, Heb. xiii. 6.

Adn. 7. *Yr Arglwydd sydd gyda mi yn mhlith fy nghynorthwywyr*] Sef yn mhlith ei filwyr, i'w cynorthwyo hwy i'w amddiffyn ef; *am hyny y caf weled fy ewyllys ar fy nghaseion*—caf eu gwelod hwy wedi eu siomi yn eu bwriadau yn fy erbyn; neu, 'caf edrych yn eu gwyneb hwy yn ddiddychryn.' Nid yw y geiriau *fy ewyllys* yn y wreiddiol: gwel ar Salm liv. 7, a lix. 10, a xcii. 11.

Adn. 8. *Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd*] Yr hwn sydd Waredwr fyddlon a hollalluog; *nag ymddiried mewn dyn*—yr hwn nad yw ar y goraf ond gwan ac anwybodus, ac yn fynych yn gyfnewidiol a thwyllodrus. Fe allai ei fod yn cyfeirio at ei elynion, y rhai a ymddiriedent yn eu rhif, eu dewrder, a'u nerth eu hunain.

Adn. 9. *Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd*] Y mae hyny yn ddiogelach a doethach; *nag ymddiried mewn tywysogion*—cansys gall y rhai hyny fod yn analluog i'n gwaredu; neu os yn alluog, gallant fod yn anewyllysgar; neu os yn alluog ac ewyllysgar, gallant farw cyn cyflawni eu bwriad.

Adn. 10. *Yr holl genhedloedd a'm hamgylchynasant*] Sef y Philistiaid, y Syriaid, yr Ammoniaid, y Moabiaid, &c., y rhai a gy-

gylchynasant: ond yn eiu yr Arglwydd mi a'u toraf hwynt ymaith.

11 Amgylchynasant fi; i.e. amgylchynasant fi: ond yn enw yr Arglwydd mi a'u toraf hwynt ymaith.

12 Amgylchynasant fi fel gwenyn; diffoddasant fel tân drain: o herwydd yn eiu yr Arglwydd mi a'u toraf hwynt ymaith.

13 Gan wthio y gwthiaist fi, fel y syrthiwn: ond yr Arglwydd a'm cynorthwyodd.

14 Yr Arglwydd yw fy nerth a'm cân; ac sydd iachawdwriaeth i mi.

15 Llef gorfoledd a iachawdwriaeth sydd yn mhebyll y cyfiawn: deheulaw yr Arglwydd sydd yn gwneuthur grymusder.

nhyrid yn ei erbyn ef o herwydd ei lwyddiant, ac am ei fod yn gryfach na hwy, ac o gasineb at ei grefydd ef: *ond yn enw yr Arglwydd*—trwy ei gymorth ef, ac er gozoniart i'w enw; *mi a'u toraf hwynt ymaith*—'mi a'u siomaf hwynt.'—KENNICOTT. 'Toraf hwynt yn ddrylliau.'—HORSLEY. 'Gyrais hwynt yn ol.'—BERLIN.

Adn. 11. *Amgylchynasant fi, i.e. amgylchynasant fi*] Dywedir hyn ddwywaith, nid yn unig i gadarnhau y ffaith, ond hefyd i arwyddo mlyncheder a ffringrwydd y weithred, a'u hyder hwy am lwyddiant: *ond yn enw yr Arglwydd*, &c.—gwel ar adn. 10.

Adn. 12. *Amgylchynasant fi fel gwenyn*] Mewn lluosogrwydd mawr, fel heidiau o weny'n lliidiog a cholynog; *diffoddasant fel tân drain*—yr hwn, er ffamio o hono yn gryf am enyd, sydd yn ebrwydd yn diffodd o hono ei hun, heb adael dim ar ol ond mwg a lludw; neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'ffyrnigasant fel tân drain,' gan gyne'u i'w erbyn gydag angerdd mawr. *O herwydd yn enw yr Arglwydd*, &c.—gwel ar adn. 10.

Adn. 13. *Gan wthio y gwthiaist fi, fel y syrthiwn*] Dan dy draed. Y mae efe naill ai yn cyfeirio yma at ryw un penodol o'i elynion, neu ynte yn llefaru am danynt oll yn y rhif unigol. *Ond yr Arglwydd a'm cynorthwyodd*—i sefyll, yn lle syrthio; neu ynte i orclfygu y sawl a geisient ei orchfygu ef.

Adn. 14. *Yr Arglwydd yw fy nerth a'm cân*] Estynodd nerth iddo, a thestyn ei gân; *ac sydd iachawdwriaeth i mi*—awdwr ei iachawdwriaeth a'i ddiogelwch, yn dymhorol ac ysbrydol.

Adn. 15. *Llef gorfoledd a iachawdwriaeth sydd yn mhebyll y cyfiawn*] O herwydd y waredigaeth fawr a roddodd yr Arglwydd i ni; *deheulaw yr Arglwydd*—sef ei hollalluog nerth ef, *sydd yn gwneuthur grymusder*—neu weithredoedd grymus, megys darostwng gelynion Dafydd, a'i waredu ef o'u dwylaw hwynt.

Adn. 16. *Deheulaw yr Arglwydd a ddrychafwyd*] Yn ngolwg ein gelynion, neu yn

16 Deheulaw yr Arglwydd a ddyrchafwyd: deheulaw yr Arglwydd sydd yn gwneuthur grymusder.

17 Ni byddaf farw, ond byw; a mynegaf weithredoedd yr Arglwydd.

18 Gan gospi y'm cospodd yr Arglwydd: ond ni'm rhoddodd i farwolaeth.

19 Agorwch i mi byrth cyfiawnder: âf i mewn iddynt, a chlodforaf yr Arglwydd.

20 Dyma borth yr Arglwydd; y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo.

21 Clodforaf di; o herwydd i ti fy ngwrando, a'th fod yn iachawdwr-iaeth i mi.

22 Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, a aeth yn ben i'r gongl.

23 O'r Arglwydd y daeth hyn; hyn oedd ryfedd yn ein golwg ni.

24 Dyma y dydd a wnaeth yr Arglwydd; gorfoleddwn a llawenyehwn ynddo.

25 Atolwg, Arglwydd, achub yn awr: atolwg, Arglwydd, pâr yn awr lwyddiant.

26 Bendigedig yw a ddel yn enw yr Arglwydd: bendithiasom chwi o dŷ yr Arglwydd.

27 Duw yw yr Arglwydd, yr hwn a lewyrchodd i ni: rhwymwch yr aberth â rhaffau, hyd wrth gyrn yr allor.

amlwg o blaid ei bobl; *deheulaw yr Arglwydd, &c.*—gwel ar adn. 15.

Adn. 17. *Ni byddaf farw*] Trwy ddwyllaw fy ngelynyon; *ond byw*—trwy i Dduw arbed fy mywyd i: *a mynegaf weithredoedd yr Arglwydd*—defnyddiaf y bywyd a arbedodd efe, i draethu ei weithredoedd grymus, a hyny er addysg i ddynion a gogoniant i Dduw.

Adn. 18. *Gan gospi y'm cospodd yr Arglwydd*] Trwy oddef i'm gelynyon fy amgylchynu, adn. 11, 12; *ond ni'm rhoddodd i farwolaeth*—trwy eu dwyllaw hwy.

Adn. 19. *Agorwch i mi byrth cyfiawnder*] Yma efe a gyfarha y Lefiaid ond odid, y rhai oeddynt borthorion y cysegr: *âf i mewn iddynt*—neu trwyddynt i'r cysegr: *a chlodforaf yr Arglwydd*—am y fuddugoliaeth hynod a roddodd efe i mi. Gelwir pyrth y cysegr yn 'byrth cyfiawnder,' am fod cyfraith cyfiawnder yn cael ei dysgu yno, ac ebyrth cyfiawnder yn cael en hoffrymu yno.

Adn. 20. *Dyma borth yr Arglwydd*] Gellir ystyried y rhai hyn fel geiriau y Lefiaid mewn atebiad i'r alwad uchod: *y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo*—a hwy yn unig, Salm xv. 1—5. Neu gall mai yr ystyr yw, fod rhyddid i Dafydd fyned i mewn, gan ei fod ef yn ŵr cyfiawn. Y mae rhai yn deall y ddwy adnod uchod am esgyniad ein Gwaredwr i'r nef; ac y maent yn dra thebyg i Salm xxiv. 7—10.

Adn. 21. *Clodforaf di*] Ymddengys mai geiriau y brenin wrth Dduw yw y rhai hyn, ar ol iddo gael ei ollwng i mewn; *o herwydd i ti fy ngwrando*—pan yn galw arnat yn fy ing, adn. 5; *a'th fod yn iachawdwr-iaeth i mi*—neu am i ti fy ngwaredu rhag fy ngelynyon.

Adn. 22. *Y maen a wrthododd yr adeiladwyr*] Meddylir mai iaith yr offeiriad yn y cysegr yw hon, yn cyfeirio at wrthodiad Dafydd gan bennaethiaid Israel, fel maen yn cael ei wrthod gan adeiladwyr rhyw dŷ; gwel ar 1 Sam. xxvi. 19. *A aeth yn ben i'r gongl*—yr yn mwyaf gwerthfawr yn yr holl adeilad. Fel hyn dygodd Duw Dafydd i'r frenhiniaeth er gwaethaf pawb, i fod yn ben ar eu hadeilad gwladwriaethol hwy, neu yn frenin ar Israel

a Juda. Yr oedd Dafydd yn hyn yn gysgod o Grist, yr hwn a wrthodwyd gan yr Iuddeuon, ond a ddyrchafwyd i'r urddas mwyaf gan ei Dad: gwel y sylwadau ar Mat. xxi. 42, Act. iv. 11, Eph. ii. 20—22, 1 Pedr ii. 4—8.

Adn. 23. *O'r Arglwydd y daeth hyn*] Gwaith yr Arglwydd oedd gosod Dafydd yr orsedd: *hyn oedd ryfedd yn ein golwg ni*—yr oedd gosod Dafydd yn y frenhiniaeth yn beth annhosibl yn ngolwg dynion, wrth ystyried ei gyflwr isel gynt fel bugail defaid, a'r fath wrthwynebiad oedd iddo o bob cwr. Ond yr oedd dyrchafiad Crist yn llawer rhyfeddach, yr hwn, ar ol ei groesoheolio a'i ladd gan ddynion, a ddyrchafwyd gan Dduw ar ei ddeheulaw mewn gogoniant, i lywodraethu pob peth yn y nef a'r ddaear!

Adn. 24. *Dyma y dydd a wnaeth yr Arglwydd*] Cyfeirir yma naill ai at y dydd y rhoddodd yr Arglwydd fuddugoliaeth i Dafydd ar ei elynion; neu ynte, fel y mae debycaf, at y dydd yr aethai efe i'r cysegr i ddiolch am y fuddugoliaeth hono. *Gorfoleddwn a llawenyehwn ynddo*—am y fath gyfryngiad rhyfedd o eiddo yr Arglwydd ar ran ei was a'i bobl. Felly y mae dydd adgyfodiad a dyrchafiad ein Gwaredwr bendigedig, yn ddydd o orfoledd a llawenydd santaidd i bob gwir Gristion.

Adn. 25. *Atolwg, Arglwydd, achub yn awr*] Meddylir mai geiriau pobl Israel yw y rhai hyn pan yr oedd Dafydd yn y cysegr, yn atolygu i'r Arglwydd gadw en brenin o hyny allan. Y maent o'r un ystyr a 'Duw a gadwo y brenin,' fel y dywedir yn ein plith ni. *Hosanna yw y gair* Hebreu am 'achub yn awr; ac felly y llefai y torfeydd o flaen ein Ceidwad: gwel ar Mat. xxi. 9. *Atolwg, Arglwydd, pâr yn awr* *byddiant*—llwydda ein brenin a'i deyrnas o hyn allan byth.

Adn. 26. *Bendigedig yw a ddel yn enw yr Arglwydd*] Meddylir mai iaith yr offeiriad gyda golwg ar Dafydd yw hon, yr hwn a ddaethai i'r cysegr yn enw yr Arglwydd, ac i'w glodori ef, adn. 19. *Bendithiasom chwi o dŷ yr Arglwydd*—yr hyn oedd gwaith yr offeiriad; gwel ar Num. vi. 23—26.

Adn. 27. *Duw yw yr Arglwydd*] Efe a

28 Fy Nuw ydwyf ti, a mi a'th glodforaf: dyrchafaf di, fy Nuw.

29 Clodforwch yr Arglwydd; canys da yw: o herwydd yn dragywydd y pery ei drugaredd ef.

ddanghosodd yn eglur mai efe yw y 'Duw cadarn,' neu JEOFA, trwy gyflawni ei addewidion: gwel ar Exod. vi. 2, 3. Yr hwn a lewyrochodd i ni—yr hwn a chwalodd ein cymwlau duon, ac a'n gosododd mewn cwlwr o heddwch, llwrdiant, a dedwyddwch. Tybia Clarke y gallai fod goleuni dwyfol yn llewyrchlu y pryd hyn ar yr holl orymdaith, yn brawf o gymeradwyaeth Duw; a thybica ereill mai y meddwl yw, fod Duw wedi datguddio iddynt o'r newydd yr anfonai efe y Messia i fod yn oleuni y byd. *Rhymuch yr aberth á rhaffau, hyd wrth gyru yr allor*—casgla rhai oddiyma eu bod yn myned i aberthu ar yr achlysur; eithr ereill a gyfieithant y geiriau, 'Cedwch yr wyl â changau tewion cyrn yr allor:' ac felly y mae y LXX a'r Vulgate yn deall y geiriau. Ymddengys mai cydgán orfoleddus yw dechreu yr adnod, yn yr hon y mae y brenin, yr offeiriad, a'r holl bobl, yn cyduno.

Adn. 28. *Fy Nuw ydwyf ti*] Meddylir mai iaith y brenin Dafydd ei hun yw yr adnod hon, yn cydnabod yr Arglwydd fel ei Dduw cyfammodol; a mi a'th glodforaf—am dryfedd ddaioni a'th drugaredd i mi: *dyrchafaf di, fy Nuw*—mewn cân a moliant yn dragywydd.

Adn. 29. *Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw*] Meddylir mai cydgán gyffredinol yw yr adnod hon, lle y mae y naill yn annog y llall i glodfori yr Arglwydd am ei ddaioni a'i drugaredd. *O herwydd yn dragywydd y pery ei drugaredd ef*—gwel ar adn. 1. Fel hyn y mae y Salm yn cael ei dechreu a'i diweddu yn yr un geiriau; canys rhaid i ogoniant Duw fod yn Alpha ac Omega, yn ddechreu a diwedd, ein holl addoliadau.

SALM CXIX. Meddylir yn gyffredin mai *Dafydd* a ysgrifennodd y Salm hon, dan deyrnasiad Saul, pryd yr oedd efe yn cael ei erlid yn fynych; a phan y cai beth seibiant, efe a ysgrifennai ranau o honi, nes ei gorphen oll bob yn ychydig. Nid yn unig efe a'i dosbarthodd i gynifer o ranau ag sydd o lythyrenau yn y wyddor Hebraeg, yr hyn yw dwy-ar-hugain; ond dosbarthodd bob rhan hefyd yn wyth adnod, a phob un o'r adnodau hyn yn dechreu gyda'r lythyren hōno o'r wyddor ag sydd yn deitl i'r rhan. Fel hyn y mae pob un o'r wyth adnod yn y rhan gyntaf, a elwir *Aleph*, yn dechreu gyda'r lythyren *aleph*; fel y gwna y rhai hyn yn yr ail ran, a elwir *Beth*, gyda'r lythyren *beth*; ac felly y lleill oll. Am y rheswm hwn gelwir y Salm hon, yn y *Masora*, 'Y Wyddor Fawr.' Dylid sylwi hefyd fod gair Duw, neu gymaint o'r datguddiad dwyfol ag a oedd y pryd hyn wedi ei ysgrifenu, yn cael ei alw yma yn *eiriau* neu *ymadrodd*, *ffyrdd*, *cyfraith*, *deddf-*

SALM CXIX.

ALEPH.

GWYN fyd y rhai perffraith eu ffordd, y rhai a rodiant yn nghyfraith yr Arglwydd.

au, gorchymynion, barnedigaethau, cyflawnder, tystiolaethau, a gwirionedd. Trwy yr amrywiol eiriau hyn bwriadai y Salmwyd osod allan natur, dyben, a pherffieithrwydd y datguddiad dwyfol. Gelwir ef ei air neu ei *ymadrodd*, am mai efe a'i lefarodd; ei *ffordd*, am mai yn ol hwn y dylem rodio; ei *gyfraith*, am ei fod yn ein rhwymo i uffydd-dod; ei *deddfau*, i ddangos i ni ein dyledswyddau; ei *orchymynion*, i brofi ei hawl ef i'n llywodraethu; ei *farnedigaethau*, am ei fod wedi deilliaw oddiwroth ef fel Barnwr, neu yn barnu rhwng da a drwg; ei *cyflawnder*, am ei fod yn berffraith gyson â'i natur a'i ewyllys gyflawn ef; ei *tystiolaethau*, am ei fod yn dyst o ewyllys Duw a dyledswydd dyn; a'i *wirionedd*, am ei fod yn gywir, perffraith, a didwyll. ac yn sicr o gael ei gyflawni gyda'r manylwydd mwyaf. Deisyfyr i'r darlennudd gofio hyn, i arbed y drafferth o ailadroddiad afreidol yn y sylwadau ar y Salm. Nid oes ond rhyw ddwy adnod nen dair o'r 176 hwn, lle nad yw y naill neu y llall o'r ymadroddion hyn yn arferedig. Y mae y Salm hon yn cynnwys amrai syniadau a rheolau rhagorol, heb unrhyw ymddibyniad ar eu gilydd; neu gy-svlltiad rhwng y naill a'r llall; ac y mae yn debyg mai y diffyg o hyn a barodd i'r Salmwydd ei hysgrifenu yn y drefn wyddorol uchod; fel y byddai i'r lythyren ddechreol gynorthwyo y cof; canys dywedir fod yr Iuddewon yn peri i'w plant ei thrvorsori yn eu cof cyn gynted ag y medrent ddysgu dim. Amcan cyffredinol y Salmwydd yw mawrhu a gyfraith, a'i gwneyd yn anrhydeddus; dangos rhagoroldeb a defnydd y datguddiad dwyfol: a'i gynhell i'n serchiadau ni trwy ei siampl ef ei hun, yr hwn a lefarau yn brofiadol am y budd o hyn. Y mae y Salm wedi ei hysgrifenu yn gywraia a phrydferth, ac y mae ei drychfeddyliau wedi eu gosod i lawr mewn amrywiaeth o ddulliau ag sydd yn dangos chwaeth a medrusrwydd mawr. Yr oedd llawer o'r henafiaid, yn enwedig y tadau *Groeg*, yn ei hystyried fel crynodeb o hanes Dafydd, yn mha un y dengys efe yr holl gyflyrau ag y buasai ynddynt, y treialon a'r erledigaethau a ddyoddefasai, yn ughyda'r cynorthwyo'n a gawsai i fyned trwyddynt. Y mae y tadau *Lladin* yn canfod ynddi holl foesolaeth yr efengyl, a rheolau i ddynton ymddwyn wrthynt yn miob sefyllfa bywyd. A dywed *Cassiodorus* ei bod yn cynnwys syniadau y profwydi, yr apostolion, y merthyron, a'r saint oll.

Adn. 1. *Gwyn fyd y rhai perffraith eu ffordd*] Y rhai y mae eu calon a'u buchedd yn gyson â'u proffes; y rhai a rodiant yn nghyfraith yr Arglwydd—neu yn ol rheolau y datguddiad dwyfol: gwel y gwaharol enwau

2 Gwŷn fyd y rhai a gadwant ei dystiolaethau ef; ac a'i ceisiant ef a'u holl galon.

3 Y rhai hefyd ni wnant anwiredd, lwy a rodiant yn ei ffyrdd ef.

4 Ti a orchymynaist gadw dy orchymynion yn ddyfal.

5 O am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau!

6 Yna ni'm gwaradwyddid, pan edrychwn ar dy holl orchymynion.

7 Clodforaf di âg uniondeb calon, pan ddysgwyf farnedigaethau dy gyfiawnder.

8 Cadwaf dy ddeddfau; O na âd fi yn hollol.

BETH.

9 Pa fodd y glanha llanc ei lwybr? wrth ymgadw yn ol dy air di.

10 A'm holl galon y'th geisiais:

ar y gyfraith wedi eu hegluro unwaith am oll yn y teitl uchod.

Adn. 2. *Gwŷn fyd y rhai a gadwant ei dystiolaethau ef*] Gan eu gwneuthur; ac a'i ceisiant ef—sef yr Arglwydd, a'u holl galon—y mae y cyfryw yn wynfydedig wrth fyw, a byddant felly wrth farw, ac ar ol marw.

Adn. 3. *Y rhai hefyd ni wnant anwiredd*] Trwy wybodaeth neu fwrriad; *lwy a rodiant yn ei ffyrdd ef*—a thrwy hyn y cedwir lwynt rhag gwneyd anwiredd.

Adn. 4. *Ti a orchymynaist gadw dy orchymynion*] Gwel ar Deut. v. 29—33; yn ddyfal—yn fanwl, cyson, ac â'r holl galon.

Adn. 5. *O am gyfeirio fy ffyrdd*] Gan dy ras a'th Ysbyrd, canys yr oedd cyfarwyddyd y gair dwyfol ganddo eisioes; *i gadw dy ddeddfau*—oll, a hyny 'yn ddyfal,' adn. 4.

Adn. 6. *Yna ni'm gwaradwyddid*] Gan fy nghydwytbod fy hun, na chan fy Marwr; *pan edrychwn ar dy holl orchymynion*—yn eu manylwch mwyaf, trwy fy mod wedi eu cadw felly.

Adn. 7. *Clodforaf di âg uniondeb calon*] Yn y modd mwyaf cywir, didwyll, a gwresog; *pan ddysgwyf farnedigaethau dy gyfiawnder*—trwy gyfarwyddyd dy ras a'th Ysbyrd santaid, adn. 5.

Adn. 8. *Cadwaf dy ddeddfau*] Hyny yw fy mbenderfyniad ddysgog; *O na âd fi yn hollol*—rhag i'm llygredd fy hudo i'w troseddau.

Adn. 9. *Pa fodd y glanha llanc ei lwybr?*] Pa fodd y diwygia ese ei fuchedd, neu yr ymlanha oddiwrth bob afenddi crawd ac ysbyrd?

Wrth ymgadw yn ol dy air di—wrth wyllo ar ei gamrau, a rheoleiddio ei holl fuchedd yn ol gair Duw. Dyma y flordd i ymgadw yn lân o hyn allan; ond trwy waed Crist yn unig y mae i ni gael ein glanhau oddiwrth ein balogrydd blaenorol, I Ioan i. 7.

Adn. 10. *A'm holl galon y'th geisiais*] Y

na âd i mi gyfeiliorni oddiwrth dy orchymynion.

11 Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghalon, fel na phechwn i'th erbyn.

12 Ti, Arglwydd, wyt fendigedig: dysg i mi dy ddeddfau.

13 A'm gwefusau y traethais holl farnedigaethau dy enau.

14 Bu mor llawen genyf ffordd dy dystiolaethau, a'r holl olud.

15 Yn dy orchymynion y myfyriaf, ac ar dy lwybrau yr edrychaf.

16 Yn dy ddeddfau yr ymddigrifaf: nid anghosiaf dy air.

GIMEL.

17 Bydd dda wrth dy was, fel y byddwyf byw, ac y cadwyf dy air.

18 Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di.

ceisiais dy drugaredd a'th gynorthwyo grasol; na âd i mi gyfeiliorni oddiwrth dy orchymynion—trwy dynu o honot dy ras cynali oddiwrthyf.

Adn. 11. *Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghalon*] Sef yn ei gof; *fel na phechwn i'th erbyn*—trwy gael fy annog i fywyd santaidd gan dy addewidion ar un llaw, a'th fygythion yn erbyn pechod ar y llaw arall.

Adn. 12. *Ti, Arglwydd, wyt fendigedig*] Yn dy natur, neu yn haeddnu cael dy fendithio a'th glodfori gan bawb; *dysg i mi dy ddeddfau*—yn eu hysbryd a'u manylrwydd, canys gwyyddaf Dafydd hwynt eisioes yn y llythren.

Adn. 13. *A'm gwefusau y traethais*] Wrth fy nghymydogion ac ereill, *holl farnedigaethau dy enau*—y rhai a leferaist wrth Moses a'n tadau.

Adn. 14. *Bu mor llawen genyf ffordd dy dystiolaethau*] Sef ei rhodio a'i myfyrio a'r holl olud—hyny yw, yr oedd rhodio a myfyrio yn dy gyfraith yn peri mwy o lawenydd i mi na holl drysorau y ddaear.

Adn. 15. *Yn dy orchymynion y myfyriaf*] I ganfod fy nyledswyddau; *ac ar dy lwybrau yr edrychaf*—fel y gallwyf eu rhodio yn ddi-wyrdi.

Adn. 16. *Yn dy ddeddfau yr ymddigrifaf*] Gan eu hystyried yn bleser ac nid yn boen: *nid anghosiaf dy air*—ddydd na nos, gartref nac oddiartref.

Adn. 17. *Bydd dda wrth dy was*] Hebr., 'gwobrwyd dy was,' yn ol dy drugaredd; *fel y byddwyf byw*—yn ddedwydd a defnyddiol; *ac y cadwyf dy air*—canys nid oedd Dafydd yn chwennych bywyd i gyflawni ei ewyllys ei hun, ond i'w dreulio yn ngwasanaeth Duw.

Adn. 18. *Datguddia fy llygaid*] Goleua fy neall, a thyn y llen oddiar fy nghalon; *fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di*—fel y deallwyf santeiddrwydd dy natur,

19 Dyeithr ydwyf fi ar y ddaear : na chudd di rhagof dy orchymynion.

20 Drylliwyd fy enaid gan awydd i'th farnedigaethau bob amser.

21 Ceryddaist y beilchion mell-digedig, y rhai a gyfeiliornasant oddiwrth dy orchymynion.

22 Tro oddiwrthyf gywilydd a dirmyg; oblegid dy dystiolaethau di a gedwais.

23 Tywysogion hefyd a eisteddasant, ac a ddywedasant i'm herbyn : dy was dithau a fyfyrfa yn dy ddeddfau.

24 A'th dystiolaethau oeddynt fy hyfrydwch a'm cynghorwyr.

DALETH.

25 Glynodd fy enaid wrth y llwch : bywha fi yn ol dy air.

26 Fy ffridd a fynegais, a gwr-

andewaist fi : dysg i mi dy ddeddfau.

27 Gwna i mi ddeall ffordd dy orchymynion ; a mi a fyfyrfa yn dy ryfeddodau.

28 Dyferodd fy enaid gan ofid : nertha fi yn ol dy air.

29 Cymer oddiwrthyf ffordd y celwydd ; ac yn raslawn dod i mi dy gyfraith.

30 Dewisais ffordd gwirionedd : gosodais dy farnedigaethau o'm blaen.

31 Glynais wrth dy dystiolaethau : O Arglwydd, na'm gwaradwydda.

32 Ffordd dy orchymynion a redaf, pan eangech fy nghalon.

HE.

33 Dysg i mi, O Arglwydd, ffordd dy ddeddfau, a chadwaf hi hyd y diwedd.

drwg pechod, a gogoniad trefn fawr yr iachawdwriaeth. Y mae yr ysgrthyrau santaidd yn ddiagon eglur, oni bae fod calon dyn wedi ei thywyltu gan bechod. Y mae ar yr enaid fwy o eisian goleuni yr Ysbryd Glân, nag sydd ar y Beibl o eisian esboniad. Oni bae tywyllwch ein deall ni, byddai y pethau a berthynant i iachawdwriaeth yn hawdd eu hamgysfired.

Adn. 19. *Dyeithr ydwyf fi ar y ddaear*] Neu 'bererin,' fel fy nhadau, yn teithio tuag adref trwy anialwch y byd hwn ; *na chudd di rhagof dy orchymynion*—y rhai ydynt fy nghymhorth, fy nghysur, a'm harweinyddion ar daith fy mhererindod.

Adn. 20. *Drylliwyd fy enaid*] Neu, yr oedd ei galon ar ymdori o'i fewn ; *gan awydd i'th farnedigaethau bob amser*—gan awydd am eu deall yn well, neu eu cadw yn fanylach.

Adn. 21. *Ceryddaist y beilchion mell-digedig*] Neu gosodaist bwynt dan dy felldith a'th ddiogofaint. Ond yn lle *zedim*, 'y beilchion,' y mae rhai ysgriflyfrau yn darllen *zurim*, 'y dyeithriaid ;' ac y mae un, yn nghyda'r Syri-aeg, yn darllen *goyim*, 'y paganiaid.' Y rhai a gyfeiliornasant oddiwrth dy orchymynion—yr hyn oedd yr achos i ti eu melliithio.

Adn. 22. *Tro oddiwrthyf gywilydd a dirmyg*] Y rhai yr wyf yn eu dyoddef yn ddi-achos er fy fwyndi ; *oblegid dy dystiolaethau di a gedwais*—ac felly yr wyf yn ddiueog o'r hyn ag y maent yn fy ngwarthruddo a'm dirmygu o'i herwydd.

Adn. 23. *Tywysogion hefyd a eisteddasant*] Sef Saul a'i lyswyr ond odid ; *ac a ddywedasant i'm herbyn*—fel bradychwr fy mrenin a'm gwlaü : *dy was dithau*—ar yr nna pryd, a *fyfyrfa yn dy ddeddfau*—i'r dyben i allu gwneyd fy nyledswydd atynt hwy a phawb ereill.

Adn. 24. *A'th dystiolaethau oeddynt fy hyfrydwch*] Dan fy erledigaethau ; a'm cynghorwyr—i ddyysgu i mi pa fodd i fod yn gyf-

iawn ac amyneddgar dan fy nbralldodau.

Adn. 25. *Glynodd fy enaid wrth y llwch*] Y mae fy 'mywyd' yn y perygl mwyaf, neu yr wyf yn gorwedd yn y bedd, Salm xxii. 15 ; *bywha fi yn ol dy air*—cadw fi rhag marw, yn ol dy adedwig yn dy air. Ond y mae rhai yn deall yr adnod hon fel pe buasai y Salmydd, o ran ei serchiadau, yn glynu yn ormodol wrth bethau y ddaear, ac yn deisyf cael ei adnewyddu mewn ysbrydolrwydd meddwl.

Adn. 26. *Fy ffridd a fynegais*] Mewn gweddig ger dy fron ; *a gurandewaist fi*—trwy ei waredu o'i berygl neu ei ddaearoldeb, adn. 25 : *dysg i mi dy ddeddfau*—gwel ar adn. 12.

Adn. 27. *Gwna i mi ddeall ffordd dy orchymynion*] Yn fwy manwl a pherffaith ; *a mi a fyfyrfa yn dy ryfeddodau*—y rhai y souir am dauyut yn dy air. Saes, 'mi a lefaraf am dy ryfedd weithredoedd,' wrth ereill.

Adn. 28. *Dyferodd fy enaid gan ofid*] O herwydd gelynyon oddi allan, neu lygredd oddi-mewn ; *nertha fi yn ol dy air*—i ymgynnal dan fy ngofid, neu i ddyfod allan o hono.

Adn. 29. *Cymer oddiwrthyf ffordd y celwydd*] Sef pob twyll, rhagrith, a chyfeiliornad ; *ac yn raslawn dod i mi dy gyfraith*—neu egwyddor reddfol yn fy nghalon i'w chadw hi.

Adn. 30. *Dewisais ffordd gwirionedd*] Yn hytrach na 'ffordd y celwydd,' adn. 29 ; *gosodais dy farnedigaethau o'm blaen*—yn rheol i'm barn a'm buchedd.

Adn. 31. *Glynais wrth dy dystiolaethau*] Ergwaethaf pob gwrthwynebiad hyd yma ; *O Arglwydd, na'm gwaradwydda*—trwy fy ngadael i gilio oddiwrthynt o hyn allan.

Adn. 32. *Ffordd dy orchymynion a redaf*] Utyddhaf iddynt gyda'r parodwrydd a'r awydd mwyaf ; *pan eangech fy nghalon*—trwy ei llenwi a'th ras a'th gariad.

Adn. 33. *Dysg i mi, O Arglwydd, ffordd dy ddeddfau*] Yn ei chyfeiriad ysbrydol ; a

34 Gwna i mi ddeall, a chadwaf dy gyfraith; i.e. cadwaf hi a'm holl galon.

35 Gwna i mi gerdded yn llwybr dy orchymynion: canys ynddo y mae fy ewyllys.

36 Gostwng fy nghalon at dy dystiolaethau, ac nid at gybydd-dod.

37 Tro heibio fy llygaid, rhag edrych ar wagedd; a bywha fi yn dy ffyrdd.

38 Sierha dy air i'th was, yr hwn sydd yn ymroddi i'th ofn di.

39 Tro heibio fy ngwaradwydd yr wyf yn ei ofni: canys dy farnedig-aethau sydd dda.

40 Wele, awyddus ydwyf i'th orchymynion: gwna i mi fyw yn dy gyfiawnder.

FAU.

41 Deued i mi dy drugaredd, Arglwydd, a'th iachawdwriaeth yn ol dy air.

chadwaf hi hyd y diwedd—o'i dechre i'w diwedd, neu hyd ddiwedd ei einioes.

Adn. 34. *Gwna i mi ddeall*] Ei hysbrydolrwydd hi; a *chadwaf dy gyfraith*—yn ei llythren a'i hysbryd; i.e. *cadwaf hi a'm holl galon*—yn fanwl a gwresog.

Adn. 35. *Gwna i mi gerdded yn llwybr dy orchymynion*] Trwy oleu fy meddwl, nerthu fy nghalon, a chryfhau fy mhenderfyniad; *canys ynddo y mae fy ewyllys*—fy nymun- iad a'm hyfrydych penaf.

Adn. 36. *Gostwng fy nghalon at dy dystiolaethau*] Trwy ddylanwadau dy Ysbryd santaidd; *ac nid at gybydd-dod*—neu arian- garweh, yr hwn yw gwreiddyn pob drwg, i Tim. vi. 10.

Adn. 37. *Tro heibio fy llygaid, rhag edrych ar wagedd*] Megys cyfoeth, anrhydedd, a phleserau gwâg y byd; rhag edrych arnynt fel ag i ymserchu ynddynt: a *bywha fi yn dy ffyrdd*—gwna fi yn fywiog, selog, a gwresog yn nghadwraeth dy ddeddfau.

Adn. 38. *Sierha dy air i'th was*] Cyflawna dy addewidion i mi dy was; *yr hwn sydd yn ymroddi i'th ofn di*—i'th ofni, a'th garu, a'th wasanaethu.

Adn. 39. *Tro heibio fy ngwaradwydd yr wyf yn ei ofni*] Trwy fy nghadw rhag rhoddi lle i'm gelynyon fy ngwaradwyddo: neu fe allai ei fod yn ofni i ryw bechod dirgelaidd o'i eiddo ddyfod i'r golwg, a dymunai iddo gael ei guddio a'i faddeu: *canys dy farnedig-aethau sydd dda*—ac felly ni ddylasant gael eu trosedd.

Adn. 40. *Wele, awyddus ydwyf i'th orchymynion*] I'w deall a'u cadw; *gwna i mi fyw yn dy gyfiawnder*—galluoga fi i fyw yn gyfiawn o hyn allan, fel na byddo i mi ofni gwaradwydd, adn. 39.

444

42 Yna yr atebaf i'm cablydd: o herwydd yn dy air y gobeithiais.

43 Na ddwg dithau air y gwirionedd o'm genau yn llwyr: o herwydd yn dy farnedig-aethau di y gobeithiais.

44 A'th gyfraith a gadwaf yn wastadol, byth ac yn dragywydd.

45 Rhodiaf hefyd mewn cangder: o herwydd dy orchymynion di a geisiaf.

46 Ac am dy dystiolaethau di y llefaraf o flaen brenhinoedd, ac ni bydd cywilydd genyf.

47 Ac ymddigrifaf yn dy orchymynion, y rhai a hoffais.

48 A'm dwylaw a ddyrchafaf at dy orchymynion, y rhai a gerais; a mi a fyfyriaf yn dy ddeddfau.

ZAIN.

49 Cofia y gair wrth dy was, yn yr hwn y peraist i mi obeithio.

Adn. 41. *Deued i mi dy drugaredd*] Yr hon nad wyf yn ei haeddu; *a'th iachawdwriaeth*—yn dymhorol ac ysbrydol; *yn ol dy air*—neu dy addewid rasol yn dy air.

Adn. 42. *Yna yr atebaf i'm cablydd*] I ryw elyn ond odid a'i cablai ef am ymddiried yn nhrugaredd Duw; o *herwydd yn dy air y gobeithiais*—sef am gyflawniad o addewidion gair Duw.

Adn. 43. *Na ddwg dithau air y gwirionedd o'm genau yn llwyr*] Eithr dyro i mi achos adnewyddol i ganmol dy ffyddlondeb yn cyflawni dy air, neu i ddywedyd yn dda am dano wrth bawb o'm hamgylch; o *herwydd yn dy farnedig-aethau di y gobeithiais*—gan hyny na siomer fi yn fy ngobeithion.

Adn. 44. *A'th gyfraith a gadwaf yn wastadol*] Cetnogir fi trwy hyny i ufyddhau i'th gyfraith holl ddyddiau fy mywyd.

Adn. 45. *Rhodiaf hefyd mewn eangder*] Heb gael fy nghaethiwo gan ofnau ac amheuan; o *herwydd dy orchymynion di a geisiaf*—i rodio ynddynt.

Adn. 46. *Ac am dy dystiolaethau di y llefaraf o flaen brenhinoedd*] Y rhai yn gyffredin y pryd hyny a wawdient gyfraith Ddnw; *ac ni bydd cywilydd genyf*—dy arddel di a'th gyfraith yn eu gwydd hwynt. Tybia Dr. Delaney mai at Achis brenin Gath y cyfeiria Dafydd, yr hwn y ceisiai efe ei addysgu yn y grefydd Iuddeg.

Adn. 47. *Ac ymddigrifaf yn dy orchymynion*] Fel fy nhrysor penaf; *y rhai a hoffais*—yn fwy nag aur coeth, ac na dyferiad y dil- iau mêl: gwel ar adn. 72, a Salm xix. 10.

Adn. 48. *A'm dwylaw a ddyrchafaf at dy orchymynion*] I'w cofseidid gydag anwylded a serch; *y rhai a gerais*—yn fwy na dim byd yma, adn. 47; a *mi a fyfyriaf yn dy ddeddf-*

50 Dyma fy nghysur yn fy nghystudd: canys dy air di a'm bywhaodd i.

51 Y beilchion a'm gwatwarasant yn ddirfawr: *er hyn* ni throais oddiwrth dy gyfraith di.

52 Cofiais, O Arglwydd, dy farnedigaethau erioed; ac ymgysurais.

53 Dychryn a ddaeth arnaf oblegid yr annuwiolion, y rhai sydd yn gadu dy gyfraith di.

54 Dy ddeddfau oedd fy nghân yn nhŷ fy mhererindod.

55 Cofiais dy enw, Arglwydd, y nos; a chedwais dy gyfraith.

56 Hyn oedd genyf, am gadw o honof dy orchymynion di.

CHETH.

57 O Arglwydd, fy rhan *ydwyf*; dywedais y cadwu dy ciriau.

58 Ymbiliais â'th wyneb â'm holl galon: trugarha wrthyf yn ol dy air.

59 Meddyliais am fy ffyrdd, a throais fy nhraed at dy dystiolaethau di.

60 Brysiais, ac nid oedais gadw dy orchymynion.

61 Minteioedd yr annuwiolion a'm hyspeiliasant: *ond* nid aunghofiais dy gyfraith di.

62 Hanner nos y cyfodaf i'th foliannu, am farnedigaethau dy gyf-iawnder.

63 Cyfaill *ydwyf* fi i'r rhai oll a'th ofnant, ac i'r rhai a gadwant dy orchymynion.

64 Llawn yw y ddaear o'th drugaredd, O Arglwydd: dysg i mi dy ddeddfau.

au—fel y gallwyf eu deall yn well, a'u cadw yn fyddlonach.

Adn. 49. *Cofia y gair wrth dy was*] Sef dy addewid yn dy air; *yn yr hwn y perais i mi obeitio*—am gyflawniad sicr ac ebrwydd o hoto.

Adn. 50. *Dyma fy nghysur yn fy nghystudd*] Sef gair Duw, fel sail ei obaith a'i hyder; *canys dy air di a'm byrhaodd i*—yn fy ysbyrd a'm meddwl: gwel ar adn. 67, 71.

Adn. 51. *Y beilchion a'm gwatwarasant yn ddirfawr*] Am fy mod yn dy ofni di, ac yn ymddiried yn dy air; *er hyn ni throais oddiwrth dy gyfraith di*—i ochelyd eu gwawd a'u dirmyg hwy.

Adn. 52. *Cofiais, O Arglwydd, dy farnedigaethau erioed*] Neu dy ymddygiadau *gynt* tuag at ddynion, y modd yr oedditi yn cospi dy elynion ac yn gwaredu dy weision; *ac ymgysurais*—wrth gosio dy fod di yn llywodraethu ar y ddaear.

Adn. 53. *Dychryn a ddaeth arnaf oblegid yr annuwiolion*] Wrth rhoi felly am eu diwedd ofnadwy hwy; *y rhai sydd yn gadu dy gyfraith di*—ac yn byw yn ol eu chwantau annuwiol eu hunain.

Adn. 54. *Dy ddeddfau oedd fy nghân*] Neu destyn fy nghân; *yn nhŷ fy mhererindod*—yn fy nghrwydiadau wrth fioi rliag Saul, neu yn fy nheithian trwy y byd hwn, lle yr ydwyf yn bererin ac alltud fel fy holl dadau. Ond y mae rhai, gan dybied mai ar ol y caethiwyd yr ysgrifenydd y Salm hon, yn meddwl mai *Babilon* a olygir yma wrth 'dŷ ei bererindod.'

Adn. 55. *Cofiais dy enw, Arglwydd, y nos*] Tra yr oedd ereill yn cysgu, yr oeddwn inau yn meddwl am dy natur, dy briodoliaethan, a'th weithredoedd gogoneddus; *a chedwais dy gyfraith*—fel firwyth neu eifaith fy nghoffadwriaeth o'th enw santaid.

Adn. 56. *Hyn oedd genyf*] Neu, yn ol y Syriaeg, 'hyn oedd fy nghysur,' *am gadw o honof dy orchymynion di*—canys 'heddwch

mawr a fydd i'r rhai a garant ei gyfraith ef,' adn. 165.

Adn. 57. *O Arglwydd, fy rhan ydwyf*] Dewisais di fel fy rhan a'm trysor oll-ddigonol; *dywedais*—wrth dy ddewis yn rhan i mi, *y cadwn dy eiriau*—yn fanwl, cyson, ac â'm holl galon.

Adn. 58. *Ymbiliais â'th wyneb â'm holl galon*] Gan ofyn gyda'r gostyngedeiddrwydd a'r taerineb mwyaf am dy flafr a'th drugaredd: *trugarha wrthyf yn ol dy air*—yn ol dy addewid i'r editeiriol yn dy air.

Adn. 59. *Meddyliais am fy ffyrdd*] Neu fy nghrwydiadau pell oddiwrthyf; *a throais fy nhraed at dy dystiolaethau di*—i rodio yn ol eu cyfarwyddwyd hwy.

Adn. 60. *Brysiais*] Wedi fy llwyr argyhoeddi o'r angenrheidrwydd o yfudd-dod di-atreg; *ac nid oedais*—am gytiant ag un diwrnod; *gadw dy orchymynion*—yr hyn yw fy nyledyswdd a'm braint.

Adn. 61. *Minteioedd yr annuwiolion a'm hyspeiliasant*] Neu, yn ol y LXX, 'cortynau yr annuwiolion a'm maglasant.' Meddylia rhai fod Dafydd yn cyfeirio yma at y niwed a gafodd efe o dro i dro gan ei elynion, yn ei berson, ei gymeriad, a'i feddiannau. *Ond nid aunghofiais dy gyfraith di*—trwy ymddwyn yn groes iddi dan fy mhrofedigaethau.

Adn. 62. *Hanner nos y cyfodaf i'th foliannu*] Yn gystal a 'hanner dydd,' Salm lv. 17; neu, yn anfoddlon i wneyd hyn ar ei orwedd, efe a gyfodai at y gwaith ganol nos, yr hyn a ddengys ei fawr ddirifoldeb; *am farnedigaethau dy gyf-iawnder*—y rhai sydd mor fendithiol i'm benaid.

Adn. 63. *Cyfaill ydwyf i'r rhai oll a'th ofnant*] Byddent hwy dylawd neu gyfoethog; *ac i'r rhai a gadwant dy orchymynion*—fel prawf eu bod yn dy ofni ac yn dy garu.

Adn. 64. *Llawn yw y ddaear o'th drugaredd*] Gwel ar Salm xxxiii. 5: *dysg i mi dy ddeddfau*—gwel ar adn. 12. Fel pe dywed-

TETH.

65 Gwnaethost yn dda â'th was, O Arglwydd, yn ol dy air.

66 Dysg i mi iawn ddeall a gwybodaeth: o herwydd dy orchymynion di a gredais.

67 Cyn fy nghystuddio, yr oeddwn yn cyfeiliorni: ond yn awr cedwais dy air di.

68 Da ydwyf, a daionus: dysg i mi dy ddeddfau.

69 Y beilechion a glytiasant gelwydd i'm herbyn; minau a gadwaf dy orchymynion â'm holl galon.

70 Cyn frased a'r bloneg yw eu calon: minau a ymddigrifais yn dy gyfraith di.

71 Da yw i mi fy nghystuddio; fel y dysgwn dy ddeddfau.

asai, Er fod y ddaear yn llawn o fendithion dy ragluniaeth, dyro i mi fendithion dy iachawd-wriaeth.

Adn. 65. *Gwnaethost yn dda â'th was*] Yn dymhorol ac ysbrydol; *yn ol dy air*—neu dy addewid yn dy air.

Adn. 66. *Dysg i mi iawn ddeall a gwybodaeth*] Hebr., 'dyro i mi chwaeth a dirnadaeth dda;' o herwydd dy orchymynion di a gredais—o ran eu dwyfol awdurdod a'u buddioldeb. Fel pe dywedasai, Gad i mi weled a gwybod pob peth angenheidiol eu gwybod, a dyro i mi flas arnynt.

Adn. 67. *Cyn fy nghystuddio*] Ond odid â chystudd corfforol; *yr oeddwn yn cyfeiliorni*—yn fy meddwl a'm buchedd: *ond yn awr*—ar ol cael fy nwyn i'm lle trwy fy nghystudd, *cedwais dy air di*—gan vstyried hyn fel fy mraint fwyaf. Gall llawer eto ddywedyd yr un peth; canys y mae cystudd, wedi ei santeiddio, yn fendith annhraethol; ond heb ei santeiddio, nid yw ddim amgen na mellith chwanebol.

Adn. 68. *Da ydwyf*] Yn dy natur; *a daionus*—yn dy weithredoedd: *dysg i mi dy ddeddfau*—gwel ar adn. 12.

Adn. 69. *Y beilechion a glytiasant gelwydd i'm herbyn*] Gan ei gyhuddo o wrthryfel a bradwriaeth yn erbyn Saul, neu o bechodau ysgeler yn erbyn Duw: *minau a gadwaf dy orchymynion â'm holl galon*—gan adael i'm hymddygiadau cywir a gonest wrthbrofi eu henllib hwy.

Adn. 70. *Cyn frased a'r bloneg yw eu calon*] Arwydda hyn eu bod naill ai wedi ymbesgi trwy lythineb a moethau, neu ynte wedi myned yn syfrdan, caled, a dideimlad, fel nas gallai bygythion na chysuron gair Duw fenu arnynt: *minau a ymddigrifais yn dy gyfraith di*—fel pe dywedasai, Nid yw'n cenfigenu wrth eu llwyddiant a'u pleserau; canys yr wyf fi yn cael mwy o hyfrydych yn nghyfraith fy Nw, nag a gânt hwy yn methau y byd hwn.

72 Gwell i mi gyfraith dy enau, na miloedd o aur ac arian.

IOD.

73 Dy ddwyllaw a'm gwnaethant, ac a'm lluniasant: pâr i mi ddeall, fel y dysgwyl dy orchymynion.

74 Y rhai a'th ofnant a'm gwelant, ac a lawenychant; oblegid gobeithio o honof yn dy air di.

75 Gwn, Arglwydd, mai cyfiawn yw dy farnedigaethau; ac mai mewn ffyddlondeb y'm cystuddiaist.

76 Bydded, atolwg, dy drugaredd i'm cysuro, yn ol dy air i'th wasan-aethwr.

77 Deued i mi dy drugareddau, fel y byddwyf byw: o herwydd dy gyfraith yw fy nigrifwch.

Adn. 71. *Da yw i mi fy nghystuddio*] Er fod hynny ar y pryd yn chwerau ac anhwyryd; *fel y dysgwn dy ddeddfau*—sef dysgu eu deall yn well yn ei gystudd, a'u cadw yn well ar ol ei gystudd: gwel ar adn. 67.

Adn. 72. *Gwell i mi gyfraith dy enau*] Y mae yn fwy buddiol, angenheidiol, a gwerthfawr; *na miloedd o aur ac arian*—am ei bod yn rhoddi i mi hyfrydych sylweddol yn y byd hwn, ac yn fy arwain i ddedwyddych tragwyddol yn y byd a ddaw, lle na bydd aur ac arian o ddim gwerth.

Adn. 73. *Dy ddwyllaw a'm gwnaethant, ac a'm lluniasant*] Yn y groth, mor wirioneddol ag y gwnaed Adda o bridd y ddaear: *pâr i mi ddeall*—fy rhwymedigaethau i ti; neu, gan dy fod wedi fy ngwneuthur yn greadur cyfrifol, ac felly yn rhagori ar y creaduriaid afresymol, pâr i mi fyw bywyd uwch a rliagorach na'r eiddynt hwy; *fel y dysgwyl dy orchymynion*—i'w cadw a'u gwneuthur.

Adn. 74. *Y rhai a'th ofnant a'm gwelant*] Os gwaredi fi o'm cystuddiau, bydd i bob dyn duwiol weled hyn; *ac a lawenychant*—o'm hachos i fel eu brawd a'u cyfaill; neu o'u hachos eu hunain, wrth weled prawf ynof fi o'th ddaioni a'th ffyddlondeb i'th bobl; *oblegid gobeithio o honof yn dy air di*—a chael fy ngwaredu trwy hyn.

Adn. 75. *Gwn, Arglwydd, mai cyfiawn yw dy farnedigaethau*] Fod dy geryddon di yn gyfiawn, angenheidiol, a llesol; *ac mai mewn ffyddlondeb y'm cystuddiaist*—er fy nhragwyddol les, adn. 67, 71.

Adn. 76. *Bydded, atolwg, dy drugaredd i'm cysuro*] Yn fy nghystudd presenol; *yn ol dy air*—neu dy addewid yn dy air i'r rhai a'th wasanethant.

Adn. 77. *Deued i mi dy drugareddau*] Sef y drugaredd o iechyd i'w gorff, a'r drugaredd o gysur i'w enaid; *fel y byddwyf byw*—fel, wedi fy adfer i fywyd ac iechyd, y gallwyf fyw rhaglawn yn dduwiol, defnyddiol, a dedwydd; o herwydd dy gyfraith yw fy ni-

78 Cywilyddier y beilchion, canys gwnant gam â mi yn ddiachos: *ond myfi a fyfyrïaf yn dy orchymynion di.*

79 Tröer ataf fi y rhai a'th ofnant di, a'r rhai a adwaenant dy dystiolaethau.

80 Bydded fy nghalon yn berffaith yn dy ddeddfau; fel na'm cywilyddier.

CAPH.

81 Diffygiodd fy enaid am dy iachawdwriaeth: wrth dy air yr ydwyf yn dysgwyl.

82 Y mae fy llygaid yn pallu am dy air, gan ddywedyd, Pa bryd y'm dyddeni?

83 Canys ydwyf fel costrel mewn mwg; *ond nid annghofiais dy ddeddfau.*

84 Pa nifer yw dyddiau dy was?

grifwch—byw yn ol dy gyfraith di yw fy hyfrdwch penaf: gwel ar adn. 70.

Adn. 78. *Cywilyddier y beilchion*] Trwy eu siomi, neu eu dwyn i edifeirwch; *canys gwnant gam â mi yn ddiachos*—trwy gytio celwydd disail i'm herbyn, adn. 69: *ond myfi a fyfyrïaf yn dy orchymynion di*—i'm cy-suro dan eu henlib; neu, fel y gallwyf ddeall dy orchymynion yn well, a'u cadw yn fan-y-lach.

Adn. 79. *Tröer ataf fi y rhai a'th ofnant di*] I'm pleidïo i, heb wrando mwyach ar enllib a chamdystiolaeth y beilchion uchod; *a'r rhai a adwaenant dy dystiolaethau*—ac a allant trwy hyny weled fy mod inau yn eu hadnabod ac yn eu cadw.

Adn. 80. *Bydded fy nghalon yn berffaith yn dy ddeddfau*] Fel y gallwyf ufyddhau iddynt yn gywir, cyson, a chyfredinol; *fel na'm cywilyddier*—o herwydd eu tori, pan edrychwyr ar dy holl orchymynion, adn. 6.

Adn. 81. *Diffygiodd fy enaid am dy iachawdwriaeth*] Am fwynhad o gysuron dy iachawdwriaeth, neu am waredigaeth o'i dralod presenol: *wrth dy air yr ydwyf yn dysgwyl*—wrth dy addewidion yn dy air.

Adn. 82. *Y mae fy llygaid yn pallu am dy air*] Wrth edrych yn ofer am gyflawniad o hono; *gan ddywedyd*—mewn gweddïau taerion, *Pa bryd y'm dyddeni*—â dyddanwch dy iachawdwriaeth?

Adn. 83. *Canys ydwyf fel costrel*] Yr hon a wneid y pryd hyn o groen neu ledr yn unig; *mewn mwg*—wedi duo a chrychu i fyny yn fy nghystudd: *ond nid annghofiais dy ddeddfau*—o ran myfyrïo ynddynt a'u cadw.

Adn. 84. *Pa nifer yw dyddiau dy was*] I fyw eto yn y byd hwn, neu yn y trueni yma? *pa bryd y gwnei farn ar y rhai a'm herlidiant*—fel ag i attal iddynt fy erlid? Hon yw un o'r adnoddau lle na chyfeirir at y gyfraith ddwyfol.

pa bryd y gwnei farn ar y rhai a'm herlidiant?

85 Y beilchion a gloddiasant byllau i mi, yr hyn nid yw wrth dy gyfraith di.

86 Dy holl orchymynion ydynt wirionedd: ar gam y'm herlidiasant; cymhorth fi.

87 Braidd na'm difasant ar y ddaear; minau ni adewais dy orchymynion.

88 Bywha fi yn ol dy drugaredd; felly y cadwaf dystiolaeth dy enau.

LAMED.

89 Yn dragywydd, O Arglwydd, y mae dy air wedi ei sicrhau yn y nesoedd.

90 Dy wirionedd sydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth: seiliaist y ddaear, a hi a saif.

Adn. 85. *Y beilchion a gloddiasant byllau i mi*] I geisïo fy maglu, fel y bawn anifel gwyllt; *yr hyn nid yw wrth dy gyfraith di*—ond yn hollol groes iddi. Eithr y LXX, y *Vulgate*, yr *Ethiopiaeg*, a'r *Arabaeq* a gyfieithant yr adnod hon fel hyn: 'Y beilchion a draethasant wrthyf chwedlan halogedig, y rhai nid ydynt yn ol dy gyfraith di?' hyny yw, ond oddi, cymhellent arno eu duwiau, eu coel-grefydd, a'u harferion paganauidd.

Adn. 86. *Dy holl orchymynion ydynt wirionedd*] O ran eu natur, eu haddewidion, a'u bygythion; neu, dy holl orchymynion a gyflawnwyd genyf fi mewn gwirionedd: *ar gam y'm herlidiasant*—fel pe buaswn wedi eu troseddu hwynt: *cymhorth fi*—i gadw dy orchymynion o hyn allan, neu i faddeu i'r rhai a'm herlidiasant ar gam.

Adn. 87. *Braidd na'm difasant ar y ddaear*] Neu oddiar y ddaear; *minau ni adewais dy orchymynion*—ond yr oeddwn yn eu cadw yn gydwybedol yn fy mheryglon mwyaf.

Adn. 88. *Bywha fi yn ol dy drugaredd*] Sef ei gadw yn fyw o ran ei gorff, neu ei fywhan yn ysbyrdol o ran ei enaid; *felly y cadwaf dystiolaethau dy enau*—sef y gorchymynion dwyfol a ddaethant allan o enau Duw; canys heb fywyd ysbyrdol nis gall fod gwir ufyddod.

Adn. 89. *Yn dragywydd, O Arglwydd*] 'Yr ydwyf ti,' fel y chwanegir yma yn y Syriaeg, ac fel y gellir cyfieithu yr Hebraeg, ebai BENSON: *y mae dy air wedi ei sicrhau yn y nesoedd*—hyny yw, y mae dy wrriadan wedi eu penderfynn oll yn y nesoedd, ac fe'u cyflawnir oll yn ddfifeth ar y ddaear.

Adn. 90. *Dy wirionedd sydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth*] Y mae pob cenhedlaeth yn rhoddi prawf adnewyddol o wirionedd dy air: *seiliaist y ddaear*—penodaist iddi ei lle yn y gyfundrefn heulog; *a hi a saif*—yn y lle hwnw hyd ddiwedd amser, Preg. i. 4.

91 Wrth dy farnedigaethau y safant heddyw; canys dy weision yw pob peth.

92 Oni bae fod dy ddeddf yn hyfrydwch i mi, darfuasai yna am danaf yn fy nghystudd.

93 Byth nid annghofiaf dy orchymynion: canys â hwynt y'm bywheast.

94 Eiddot ti ydwyf, cadw fi: o herwydd dy orchymynion a geisias.

95 Y rhai annuwiol a ddysgwylasiant am danaf i'm dyfetha: ond dy dystiolaethau di a ystyriaf fi.

96 Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob perfeithrwydd: ond dy orchymyn di sydd dra eang.

MEM.

97 Mor gu genyf dy gyfraith

Adu. 91. *Wrth dy farnedigaethau*] Dy orchymyn, dy drefniad, a'th ddeddfau di; *y safant heddyw*—y saif y ddaear a'r holl gyrff nefol yn eu lleoedd priodol; *canys dy weision yw pob peth*—y mae y cwbl yn ufydd i ti, ac yn gwneuthur dy air.

Adu. 92. *Oni bae fod dy ddeddf yn hyfrydwch i mi*] Fel gwrthddrych fy myfyrdod a'm cysur; *darfuasai yna am danaf yn fy nghystudd*—neu y pryd hyny, pan yn fy nghystudd.

Adu. 93. *Byth nid annghofiaf dy orchymynion*] Na'r lles a'r cysur a gefais trwyddynt; *canys â hwynt y'm bywheast*—neu yr adfywiaist fy meddwl a'm hysbryd, pryd yr oedd fy nghalon ar dor.

Adu. 94. *Eiddot ti ydwyf*] Trwy greadigaeth a phrynedigaeth, yn gystal a thrwy ymgyfwyniad gwirfoddol o honof fy hun i'th wasanaeth; *cadw fi*—fel dy eiddo dy hun, rhag pechod a'i ganlyniadau; *o herwydd dy orchymynion a geisias*—i rodio ynddynt a'u cadw.

Adu. 95. *Y rhai annuwiol a ddysgwylasiant am danaf i'm dyfetha*] Gorff ac enaid; *ond dy dystiolaethau di a ystyriaf fi*—fel y moddion goraf i'm cyfarwyddo, fy nyddanu, a'm hamddiffyn rhag malais fy ngelynyon annuwiol hyny.

Adu. 96. *Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob perfeithrwydd*] Y mae pob peth daearol, pa mor berffaith, rhagorol, cadarn, a defnyddiol bynag y byddont, i derfynu cyn hir: *ond dy orchymyn di*—neu dy ddeddf di, yr hon sydd yn ddarlun o honot dy hun, ac yn arddanghosiad allanol o'th berffeithderau tragryddol; *sydd dra eang*—cyn lleted a'r greadigaeth, yn ymestyn dros holl oesau y ddaear, yn ymafyd yn mboed creadur rhesymol, ac yn cyrhaedd yn ei heffeithiau dros holl dragwyddoldeb.

Adu. 97. *Mor gu genyf dy gyfraith di!*] O fel yr wyf yn ei charu! neu, Y mae fy ngharniad ati yn fwy nag y gallaf ei draethu! Yr oedd Dafydd yn gallu apelio fel hyn at

di! hi yw fy myfyrdod beunydd.

98 A'th orchymynion yr ydwyf yn fy ngwneuthur yn ddoethach na'm gelynyon: canys byth y maent gyda mi.

99 Deallais fwy na'm holl athrawon: o herwydd dy dystiolaethau yw fy myfyrdod.

100 Deallais yn well na'r henuriaid, am fyf mod yn cadw dy orchymynion di.

101 Attelais fy nhraed oddiwrth bob llwybr drwg, fel y cadwn dy air di.

102 Ni chiliais oddiwrth dy farnedigaethau: o herwydd ti a'm dysgaist.

103 Mor felys yw dy eiriau i'm genau! *melysach* na mêl i'm safn.

Chwiliwr ei galon, yn ngwyneb holl gybuddiadau ei elynion ei fod yn ei throeddu. *Ili yw fy myfyrdod beunydd*—'ddydd a nos,' Salm i. 2.

Adu. 98. *A'th orchymynion*] Y rhai sydd yn fy nghyfarwyddo yn fyfdd cyflawder, neu yn dysgu i mi pa beth i'w wneuthur, a pha bryd, a pha fodd; *yr ydwyf yn fy ngwneuthur yn ddoethach na'm gelynyon*—y rhai a rodiant lwybrau dinystr, gan gael eu harwain gan eu hewyllys a'u tueddiadau llygredig eu hunain: *canys byth y maent gyda mi*—i fyfyrion ynddynt a'm cyfarwyddo. Casglodd rhai oiddyma mai *Daniel* a ysgrifennodd y Salm hon, a'i fod yn llefaru yma am dano ei hun, fel yn ddoethach na dewiniaid ac astronomyddion y Caldeaid; ond nid yw hyny yn debygol.

Adu. 99. *Deallais fwy na'm holl athrawon*] Sef yr offeiriad a'r Lefaid, neu ddoctoriaid y gyfraith yn amser Saul; *o herwydd dy dystiolaethau yw fy myfyrdod*—ac yr wyt tithau, trwy dy Ysbryd, yn agor fyf neall, ac yn fy ngwneuthur yn ddoeth ynddynt a thrwyddynt, adn. 98.

Adu. 100. *Deallais yn well na'r henuriaid*] Y rhai yr adlefid fod doethineb ynddynt, Job xii. 12; i.e. efe a lefarai yn eglurach am Crist a'i iachawdriaeth na neb o'r proffwydi a fuasai o'i flaen ef: *am fyf mod yn cadw dy orchymynion di*—efe a awgryma yma mai y flordd oraf i ddeall crefydd yw ei harferyd li.

Adu. 101. *Attelais fy nhraed oddiwrth bob llwybr drwg*] Nid er mwyn cael fy ngwneled gan ddyinion; ond, *fel y cadwn dy air di*—o barch i ti, neu am fod dy air ynddo ei hun yn deilwng o gael ei gadw yn gydwobodol gan bawb.

Adu. 102. *Ni chiliais oddiwrth dy farnedigaethau*] At eilunaddoliaeth, nac un math o bechodau ereill; *o herwydd ti a'm dysgaist*—trwy dy air a'th Ysbryd, i lynn wrthyt ti a'th greffydd.

Adu. 103. *Mor felys yw dy eiriau i'm genau!*]

104 Trwy dy orchymynion di y pwyllais: am hyny y caseais bob gau lwybr.

NUN.

105 Llusern yw dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr.

106 Tyngais, a chyflawnafl, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder.

107 Cystuddiwyd fi yn ddirfawr: bywha fi, O Arglwydd, yn ol dy air.

108 Atolwg, Arglwydd, bydd foddllawn i ewyllysgar offrymau fy ngenau, a dysg i mi dy farnedig-aethau.

109 Y mae fy enaid yn fy llaw yn wastadol: er hyny nid wyf yn anghofio dy gyfraith.

110 Y rhai annuwiol a osodasant

fagl i mi: ond ni chyfeiliornais oddiwrth dy orchymynion.

111 Cymerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth: o herwydd llawenydd fy nghalon ydynt.

112 Gostyngais fy nghalon i wneuthur dy ddeddfau byth, hyd y diwedd.

SAMECH.

113 Meddyliau ofer a gaseais; a'th gyfraith di a hoffais.

114 Fy lloches a'm tarian ydywt: yn dy air y gobeithiaf.

115 Ciliwoch oddiwrthyf, rai drygionus: canys cadwaf orchymynion fy Nuw.

116 Cynal fi yn ol dy air, fel y byddwyf byw: ac na ad i mi gywilyddio am fy ngobaith.

Cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth ddanteithion i'r corff; *melysach na mel i'm safn*—yw dy eiriau di i'm henaid: gwel ar Salm xix. 10.

Adn. 104. *Trwy dy orchymynion di y pwyllais*] Rhagruthro yn anystyriol i wneyd yr hyn oedd ddrwg; neu, yn ol y Saesonaeg, 'yr wyf yn cael deall,' neu wybodaeth ysbrydol i'm henaid: *am hyny y caseais bob gau lwybr*—ag sydd yn arwain i gyfeiliornad mewn barn a buchedd.

Adn. 105. *Llusern yw dy air i'm traed*] I ddangos i mi pa le a pha fodd i rodio; a *llewyrch i'm llwybr*—i oleno fy llwybr, neu i ddangos i mi y llwybr ag y dylwn ei rodio.

Adn. 106. *Tyngais*] Trwy lwnnen adduned; a *chyflawnafl*—yr adduned hōno; y *cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder*—neu dy orchymynion, y rhai sydd yn gyson â thragwyddol reolau cyfiawnder.

Adn. 107. *Cystuddiwyd fi yn ddirfawr*] Mewn corff a meddwl; *bywha fi, O Arglwydd, yn ol dy air*—neu dy addewid yn dy air: gwel ar adn. 25.

Adn. 108. *Atolwg, Arglwydd, bydd foddllawn*] Neu dangos dy fod yn foddllawn iddynt trwy eu derbyn; i *ewyllysgar offrymau fy ngenau*—neu fy ebyrth gwirfoddol o weddi a mawl, pan nad wyf mewn cyfleusdra i offrymu anifeiliaid yn ol y gyfraith: a *dysg i mi dy farnedigaethau*—yr oedd Dafydd eisioes yn gwybod mwy na'i elynion, ei athrawon, a'r henuriaid, adn. 98—100; ond gan fod y gorchymyn yn 'dra eang,' adn. 96, dymunai ei wybod yn belaeithach fyth.

Adn. 109. *Y mae fy enaid yn fy llaw yn wastadol*] Hyny yw, y mae fy mywyd mewn *perygl* yn wastadol, Barn. xii. 3, Job xiii. 14; *er hyny nid wyf yn anghofio dy gyfraith*—o ran ei myfyrio a'i chadw; neu nid wyf yn ei throeddu i geisio cadw fy mywyd.

Adn. 110. *Y rhai annuwiol a osodasant fagl i mi*] I'm dal a'm dyfetha; neu i'w ddenu at eilunaddoliaeth, adn. 85: *ond ni*

chyfeiliornais oddiwrth dy orchymynion—fel y mynent lwy i mi wneyd.

Adn. 111. *Cymerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth*] Yr hon a gefais oddiwrth fy nhadau, ac a adawaf ar fy ol i'm plant; o *herwydd llawenydd fy nghalon ydynt*—yr wyf yn eu caru yn fwy, ac yn cael mwy o lawenydd ynddynt, nag yn y mwynhad o bethau goraf y ddaear. 'Os na all dyn adael dim i'w blentyn ond *Beibl*,' ebai *Clarke*, 'y mae efe yn hwn yn cymyn-roddi iddo y trysor mwyaf yn y byd.'

Adn. 112. *Gostyngais fy nghalon*] Defnyddiais y gallu a roddaist ti i mi; i *wneuthur dy ddeddfau byth*—sef hyd 'ddiwedd' ei oes. Er mai gwaith Duw yw gostwng y galon i ufydd-dod i'r ddeddf, eto dywedir fod y dyn ei hun yn gneuthur hyny, pan y byddo efe yn gwrandao ar lais Duw, ac yn ufyddhau i gymhelliadau ei ras a'i Ysbryd ef.

Adn. 113. *Meddyliau ofer a gaseais*] Neu 'ddychymyngion gwylltion,' fel y mae rhai yn cyfieithu *sephaim*, yr hwn a arwydda 'ym-saethiadau y meddwl.' Ond tybia *Clarke* ei fod yma yn arwyddo 'dynion terfysgld,' yn aflonyddu yr heddwch cyffredin. *A'th gyfraith di a hoffais*—yr hon a ddysg i mi feddwl, llefaru, a bucheddu yn iawn.

Adn. 114. *Fy lloches a'm tarian ydywt*] Fy lloches i ymguddio ynddi o olwg fy ngel-yinion; a'm tarian i'm hamddiffyn rhagddynt yn nydd y frwydr: *yn dy air y gobeithiaf*—sef yn addewidion dy air.

Adn. 115. *Ciliwoch oddiwrthyf, rai drygionus*] A'n nad wyf yn caru eich cymdeithas na'ch ffydd; *canys cadwaf orchymynion fy Nuw*—yn lle dylwn eich cynghor a'ch siamplau chwi.

Adn. 116. *Cynal fi yn ol dy air*] Yn ol dy addewid yn dy air, neu i ficeddu yn ol dy air; *fel y byddwyf byw*—fel y cadwer fi mewn bywyd duwiol a defnyddiol yma, ac y caffwyf deitl clir i fywyd tragwyddol yr ochr draw: *ac na ad i mi gywilyddio am fy ngobaith*—

117 Cynal fi, a diangol fyddaf: ac ar dy ddeddfau yr edrychaf yn wastadol.

118 Sethraist y rhai oll a gyfeiliornant oddiwrth dy ddeddfau: canys twyllodrus yw eu dichell hwynt.

119 Bwriaist heibio holl annuwiolion y tir fel sothach: am hyny yr hoffais dy dystiolaethau.

120 Dychrynodd fy nghnawdrhag dy ofn, ac ofnais rhag dy farnedig-aethau.

AIN.

121 Gwnaethym farn a chyfiawnder: na âd fi i'm gorthrymwy.

122 Mechnia dros dy was er daioni: na âd i'r beilchion fy ngorthrym.

trwy gael fy siomi yn y diwedd yn fy nysgyliad am fywyd tragwyddol.

Adn. 117. *Cynal fi*] Canys nis gallaf sefyll yn fy nerth fy hun; a *diangol fyddaf*—neu 'ddiogel,' rhag cael niwed gan fy ngelynion tymhorol nac ysbrydol: *ac ar dy ddeddfau yr edrychaf yn wastadol*—fel pe byddai fy niogelwch yn ymddibynu ar hyny; neu edrychaf arnyat i'w cadw er gogoniant i'lh enw dy hun.

Adn. 118. *Sethraist y rhai oll a gyfeiliornant oddiwrth dy ddeddfau*] Gwnaethost hwynt yn droedfainc i'th draed, neu darostyngaist hwynt yn dy lid i warth a dynstr. Neu, 'ti a'u sethri,' &c. *Canys twyllodrus yw eu dichell hwynt*—bydd i'w dichell i faglu a dyfetha y cyfiawn, droi yn ddiynstr iddynt hwy eu hunain yn y diwedd, yn groes i'r hyn a feddyliasant.

Adn. 119. *Bwriaist heibio holl annuwiolion y tir*] Neu, 'ti a'u buri,' o'th wyddfod dy hun, o gymdeithas y duwiolion, ac o dir y rhai byw; *fel sothach*—nad yw dda i ddim ond ei losgi. Meddylir fod yma gyfeiriad at yr ysgai neu y sothach a gyfyd ar wyneb mettel-oedd toddedig, yr hwn a fwir ymaith cyn arllwys y mettel i'r fold. *Am hyny yr hoffais dy dystiolaethau*—am eu bod yn dangos rhagoriaeth duwioldeb ar annuwioldeb, a'r ffordd i gael fy mhuro oddiwrth fy halogrwydd, ac i ddianc rhag cosp yr annuwiolion uchod.

Adn. 120. *Dychrynodd fy nghnawdrhag dy ofn*] Wrth ystyried dy gyfiawnder a'th santeiddrwydd di; *ac ofnais rhag dy farnedig-aethau*—y rhai a ddisgynant yn y diwedd ar yr annuwiolion uchod. Fel pe dywedasai, Y mae fy ymwybodolrwydd o'm hanmherffieithrwydd fy hun yn peri i mi ofni rhag i ti fy nghospi inau gyda hwy, yr hyn y gellit yn gyfiawn ei wneuthur pe creffit ar fy anwredd: gwel ar Salm cxxx. 3.

Adn. 121. *Gwnaethym farn a chyfiawnder*] Tuag at fy holl orthrymwy, yn gystal a thug at bawb ereill, ar bob achos: *na âd fi i'm gorthrymwy*—i wneyd eu hewyllys â mi, neu dalu i mi ddrwg am dda.

123 Fy llygaid a ballasant am dy iachawdwriaeth, ac am ymadrodd dy gyfiawnder.

124 Gwna i'th was yn ol dy drugaredd, a dysg i mi dy ddeddfau.

125 Dy was ydwyf fi; pâr i mi ddeall, fel y gwypwyf dy dystiolaethau.

126 Amser yw i'r Arglwydd weithio: diddymasant dy gyfraith di.

127 Am hyny yr hoffais dy orchymynion yn fwy nag aur; i'e, yn fwy nag aur coeth.

128 Am hyny uniawn y cyfrifais dy orchymynion am bob peth; a chaseais bob gau lwybr.

Adn. 122. *Mechnia dros dy was er daioni*] Er diogelwch a ehysur i mi: *na âd i'r beilchion fy ngorthrymu*—yn ol eu hewyllys eu hunain. Fel pe dywedasai, Dyro i mi wyltlen neu arwydd y bydd i ti fy nghynorthwyo mewn amser o dralod; neu ymrwma di i sefyll o'm plaid yn ngwyneb fy ngorthrymwy, fel y gwna *meichia* o blaid dyledwr tylawd yn ngwyneb ei ofynwr dideimlad: gwel ar Heb. vii. 22. Ni sonir am y gyfraith ddwyfol yn y ddwy adnod uchod, mwy nag yn adn. 84, 132.

Adn. 123. *Fy llygaid a ballasant am dy iachawdwriaeth*] Wrth hir ddysgwyl am dani, adn. 82; *ac am ymadrodd dy gyfiawnder*—neu y cyflawniad o'th addewidion yn dy air.

Adn. 124. *Gwna i'th was yn ol dy drugaredd*] Nid yn ol dy gyfiawnder manwl dy hun, nac yn ol fy haeddiant inau; a *dysg i mi dy ddeddfau*—gwel ar adn. 12.

Adn. 125. *Dy was ydwyf fi*] O'm hieuenc-tid, Salm cxvi. 16; *pâr i mi ddeall*—dyro i mi iawn ddirnadaeth; *fel y gwypwyf dy dystiolaethau*—i'w cadw a'u gwneuthur fel dy fnyddlon was.

Adn. 126. *Amser yw i'r Arglwydd weithio*] Mewn amddiffyniad i'w enw a'i anrhydedd ei hun; neu y mae yn llawn bryd iddo ddyfod allan i attal a chospi ei elynion: *diddymasant dy gyfraith di*—yn belled ag y gallent hwy, nid yn unig trwy ei thori a'i gwrthod, ond hefyd trwy wadu ei hawlau hi ynddynt, a'i chosp ar y troseddwr o honi.

Adn. 127. *Am hyny yr hoffais dy orchymynion*] Am fod y gwrthodiad o honynt gan ddynton drwg yn brawf o'u rhagoroldeb, neu am fod ymadawiad rhai dynion oddiwrth-ynt yn gwneyd y ddyledswydd o'n hoffi ac ufyddhau iddynt yn fwy angenheidiol; *yn fwy nag aur*—gwel ar adn. 72.

Adn. 128. *Am hyny uniawn y cyfrifais dy orchymynion am bob peth*] Fel rheol uniawn i ddynt ei dilyn yn mhob amgylchedd, gyda golwg ar yr hyn ag y dylai ei wneyd, neu beidio ei wneyd; a *chaseais bob gau lwybr*

PE.

129 Rhyfedd *yw* dy dystiolaethau: am hyny y ceidw fy enaid hwynt.

130 Agoriad dy eiriau a rydd oleuni: pair ddeall i rai annichellgar.

131 Agorais fy ngenau, a dyheais: oblegid awyddus oeddwn i'th orchymynion di.

132 Edrych arnaf, a thrugarha wrthyf, yn ol dy arfer i'r rhai a garant dy enw.

133 Cyfarwydda fy nghamrau yn dy air: ac na lywodraethbed dim anwiredd arnaf.

134 Gwared fi oddiwrth orthrymder dynion: felly y cadwaf dy orchymynion.

—ag sydd yn arwain i gyfeiliornad mewn barn neu fuchedd, adn. 104. Y mae agos yr oll o'r hen gyfieithiadau yn ei darllen, 'Cerrdaiss yn uniawn yn dy holl orchymynion, a chaeais bob gau lwybr.'

Adn. 129. *Rhyfedd yw dy dystiolaethau*] O ran y dirgedigaethau dyfnion a eglurant, y cyfarwyddiadau daionus a roddant, a'r addewidion gwerthfawr a gynwysant. Ceir ynddynt y gwirioneddau ysbrydol mwyaf arddunawl, a hyny dan len o seremonïau, defodau, cyffelybiaethau, cysgodau, dammegion, &c. Pan yn cael eu hagar a'u gwasgu yn ddyladwy, y maent yn dychrynu ac yn argyhoeddi, yn dychwelyd ac yn meddygiaethu, yn dyddanu ac yn cadarnhau eneidiau dynion. Traethant am Dduw a'i berffeithderau, am Grist a'i iachawdriath, a'u farn a thragyddoldeb, ac am y gwobrwyon a'r cospau dyfodol, tuhwnt i ddim a'allodd y doethaf o'r philosophyddion paganaidd erioed ei wneyd. *Am hyny y ceidw fy enaid hwynt*—fel fy nhrysor gwerthfawroaf; neu am hyny yr yfuddhaf iddynt fel fy nyleddydd a'm braint. Cânt fod yn rheol fy ffydd a'm bymarweddïad, fy ngeiriau a'm meddyliau, fy nlymherau a'm bymddygiadau tuag at Dduw a dynion.

Adn. 130. *Agoriad dy eiriau*] Agoriad y gyfrol santaidd i'w darllen, neu agoriad eglurhaol dy Ysbyrd ar dy eiriau; a *rydd oleuni*—i'r rhai ag oeddnt o'r blaen mewn tywyllwch am Dduw a'i grefydd, am eu cyflwr truenus eu hunain trwy bechod, ac am fiordd o wared-igneth trwy Grist: *pair ddeall i rai annichellgar*—i rai a fyddont yn chwilio yn gywir am ddeall, neu i'r rhai mwyaf anwybodus.

Adn. 131. *Agorais fy ngenau, a dyheais*] Fel dyn ar gollï ei anadl yn agor ei enau i ddyheu am wynt, neu ddynt sychedig yn dyheu am ddiod; *oblegid awyddus oeddwn i'th orchymynion di*—i'w deall a'u cadw.

Adn. 132. *Edrych arnaf*] Yn fy awydd a'm biraeth presenol; a *thrugarha wrthyf*—trwy fy nghynorthwyo a'th Ysbyrd santaidd i ddeall a chadw dy orchymynion; *yn ol dy arfer i'r rhai a garant dy enw*—yn mhob oes a gwlad. Nid yw y gyfraith ddwy-

135 Llewyrcha dy wyneb ar dy was: a dysg i mi dy ddeddfau.

136 Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid: am na chadwasant dy gyfraith di.

TSADI.

137 Cyfiawn ydwynt ti, O Arglwydd, ac uniawn yw dy farnedigaethau.

138 Dy dystiolaethau y rhai a orchymynaist, ydynt gyfiawn, a ffyddlon iawn.

139 Fy sel a'm difaodd; o herwydd i'm gelynon anghofio dy eiriau di.

140 Purwyd dy ymadrodd yn ddirfawr: am hyny y mae dy was yn ei hoffi.

fol yn cael ei henwi yn yr adnod hon.

Adn. 133. *Cyfarwydda fy nghamrau yn dy air*] I rodio a gweithredu yn ol dy air; *ac na lywodraethed dim anwiredd arnaf*—fel ag i'm caethlwo i ddeddf pechod: gwel ar Rhuf. vii. 23.

Adn. 134. *Gwared fi oddiwrth orthrymder dynion*] Sef Saul a'i wŷr ond odid; *felly y cadwaf dy orchymynion*—yn llawer gwel.

Adn. 135. *Llewyrcha dy wyneb ar dy was*] Dyro i mi arwydd adnewyddol o'th ffaf a'th gymeradwyaeth, neu dyddana fi â dyddanwech dy Ysbyrd santaidd; *a dysg i mi dy ddeddfau*—gwel ar adn. 12.

Adn. 136. *Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid*] Nen ddafran helaeth a pharhaus; *am na chadwasant dy gyfraith di*—am fod dynion annuwol yn dy ddianrhydeddu di trwy eu pechodan, ac yn tynu dinysr anocheladwy arnynt eu hunain. Y mae hwn i raddau yn deimlad pob dyn duwiol eto: ac felly y teimlai Lot yn Sodom, 2 Pedr ii. 8; a Jereuniah, pen. ix. 1, a xiii. 17; a'n Harglwydd oendgedig ei hun, Luc xix. 41.

Adn. 137. *Cyfiawn ydwynt ti, O Arglwydd*] Yn dy natur a'th briodoliaethau; *ac uniawn yw dy farnedigaethau*—sef dy fygythion yn dy air yn erbyn pechaduriaid, neu dy gyflawniad o'r bygythion hyn.

Adn. 138. *Dy dystiolaethau y rhai a orchymynaist*] Y rhai y gorclymynaist i ddyinion eu cadw, neu a orchymynaist trwy Moses; *ydynt gyfiawn*—ynddynt eu hunain; y maent yn 'santaidd, yn gyfiawn, ac yn dda,' Rhuf. vii. 12; a *ffyddlon iawn*—neu yn wirionedd perffiaith.

Adn. 139. *Fy sel*] Dros dy gyfraith a'th anrhydedd di; *a'm difaodd*—neu a'm 'hysodd,' Salm lxxix. 9; *o herwydd i'm gelynon anghofio dy eiriau di*—gwel ar adn. 136. Yr oedd ef yn blino gymaint o herwydd hyny, nes yr oedd ei ddaagrau yn llifeirio dros ei ruddiau, a'igorf i'w iechyd yn dihoeni ymaith.

Adn. 140. *Purwyd dy ymadrodd yn ddirfawr*] Saes, 'dy ymadrodd sydd bur iawn,' heb y cymysgedd lleiaf o dwyll yddo. Ond y mae *teruphah* yn arwyddo peth i *burol*, yn

141 Bychan *ydwyf fi*, a dirmygus: ond nid annghofais dy orchymynion.

142 Dy gyfiawnder *sydd* gyfiawnder byth, a'th gyfraith *sydd* wirionedd.

143 Adfyd a chystudd a'm goddiweddasat: a'th orchymynion *oedd* fy nigrifwch.

144 Cyfiawnder dy dystiolaethau a *bery* yn dragywydd: gwna i mi ddeall, a byw fyddaf.

СОП.

145 Llefais â'm holl galon; clyw fi, O Arglwydd: dy ddeddfau a gadwaf.

146 Llefais arnat; achub fi, a chadwaf dy dystiolaethau.

147 Achubais flaen y cyfddydd, a

hytrach na pheth *wedi* ei buro. Y mae gair Duw yn *dân* i buro, yn gystal ag yn *ordd* i ddryllio, Jer. xxiii. 29. 'Yr awrhon yr ydych chiwi yn *lân*, ebai Crist, 'trwy y gair a leferais i wrthych,' Ioan xv. 3. *Am hynny y mae dy was yn ei hoffi*—am ei fod yn bur ynddo ei hun, ac yn puro y rhai a rodiant wrtho.

Adn. 141. *Bychan ydwyf fi, a dirmygus*] Neu wael a dirmygedig yn ngolwg fy ngelynyon; *ond nid annghofais dy orchymynion*—fel ag i lidio yn annuwiol, neu yn groes i'th orchymynion di, wrth fy ngelynyon am fy mychanu a'm dirmygu felly.

Adn. 142. *Dy gyfiawnder sydd gyfiawnder byth*] Sydd utiawn, perffaith, a digyfnawdros holl ystod tragwyddoldeb; *a'th gyfraith sydd wirionedd*—disigl a thragywyddol.

Adn. 143. *Adfyd a chystudd a'm goddiweddasat*] Yn fynych yn ystod fy mywyd; *a'th orchymynion oedd fy nigrifwch*—fy llawenydd, i'w nghysur, a'm cynaliaeth yn fy nghystudd, adn. 92.

Adn. 144. *Cyfiawnder dy dystiolaethau*] Neu uniondeb dy air o ran ei ofynion; *a bery yn dragywydd*—y mae yn ddigyfnawd fel ti dy hun, ac o rwymedigaeth ddi-ddiweidd. *Gwna i mi ddeall*—dy dystiolaethau, a'u cadw yn fanwl; *a byw fyddaf*—nid am eu cadw, ond yn ol dy drugaredd di a'th ras i'r rhai a'u cadwant, adn. 130.

Adn. 145. *Llefais â'm holl galon*] Mewn gweddi daer am dy iachawdwriaeth; *clyw fi, O Arglwydd*—neu gwrando ac ateb fi: *dy ddeddfau a gadwaf*—os rhoddi i mi gymhorth dy ras mewn atebiad i'm gweddiawn.

Adn. 146. *Llefais arnat*] Drachefn a thrachefn; *achub fi, a chadwaf dy dystiolaethau*—yr hyn nis gallat ei wneuthur yn fy nghyflwr natur, heb i ti fy achub a'm cynorthwyo.

Adn. 147. *Achubais flaen y cyfddydd, a gwaeddais*] Cyfodais i weddio arnat cyn tori gwawr y bore; *wrth dy air y dysgwyliais*—am gyflawniad o'th addewidion. Ymddengys

gwaeddais; wrth dy air y dysgwyliais.

148 Fy llygaid a achubasant flaen gwyliadwriaethau *y nos*, i fyfyrion yn dy air di.

149 Clyw fy llef yn ol dy drugaredd: Arglwydd, bywha fi yn ol dy farnedigaethau.

150 Y rhai a ddylynant ysgelderder a nesasant *arnaf*: ymbellhasant oddiwrth dy gyfraith di.

151 Tithau, Arglwydd, *wyt* agos; a'th holl orchymynion *sydd* wirionedd.

152 Er ys talm y gwyddwn am dy dystiolaethau, seilio o honot hwynt yn dragywydd.

RESH.

153 Gwel fy nghystudd, a gwared fi:

ei fod yn darllen ac yn myfyrion yn y gair, yn gystal ag yn gweddio.

Adn. 148. *Fy llygaid a achubasant flaen gwyliadwriaethau y nos*] Cyn i'r gwyflwr gyhoeddi y gwyliadwriaethau, yr wyl fi yn eiffo; *i fyfyrion yn dy air di*—er fy nghysur a'm haddysg ysbrydol. Yr oedd yr Iuddewon yn rhanu y nos yn dair gwyliadwriaeth, o bedair awr bob un, yn dechreu am chwech o'r gloch yn yr hwyr. Dysgodd y Rhufeiniaid iddynt wedi hyny eu rhanu yn bedair gwyliadwriaeth, o dair awr bob un; ac i ranu y dydd a'r nos yn ddeuddeg awr bob un. Awgryma Dafydd ei fod ef yn myfyrion ac yn gweddio nid yn unig y dydd, ond hefyd yn ngwahanol ramiadau y nos, pryd yr oedd gwahanol ddoesbeirith o filwyr yn gwlycio; a'i fod ef, cyn iddynt gyhoeddi dechre pob gwyliadwriaeth, wedi codi i darllen a gweddio.

Adn. 149. *Clyw fy llef yn ol dy drugaredd*] Ac nid yn ol haeddiant fy nghyflawniadau crefyddol i: *bywha fi yn ol dy farnedigaethau*—sef yn ol ei air, neu ei addewid yn ei air.

Adn. 150. *Y rhai a ddylynant ysgelderder*] Neu ddrygioni maleisus; *a nesasant arnaf*—i'm dyfetha: *ymbellhasant oddiwrth dy gyfraith di*—yr hon sydd yn gwahardd y fath weithred ysgeler: gwel ar adn. 126.

Adn. 151. *Tithau, Arglwydd, wyt* agos] Yn nes ataf i'm diogelu, nag y maent hwy i'm dyfetha: *a'th holl orchymynion sydd wirionedd*—o ran eu haddewidion i'th bobl, a'u bygythion yn erbyn eu gelynyon hwy.

Adn. 152. *Er ys talm y gwyddwn am dy dystiolaethau*] Er pan oeddwn yn fachgenyn; *seilio o honot hwynt yn dragywydd*—fel gwirioneddau safadwy a digyfnawd; canys gair ein Duw ni a saif byth, 'Esav xl. 8.

Adn. 153. *Gwel fy nghystudd*] Presenol, a gwared fi—o hono; *canys nid annghofais dy gyfraith*—nid yw Dafydd yn dywedyd hyn i awgrymu ei fod yn haeddu cael ei waredu am gadw y gyfraith, eithr dangos y mae ei fod yn

canys nid annghofiais dy gyfraith.

154 Dadleu fy nadl, a gwared fi : bywha fi yn ol dy air.

155 Pell yw iachawdwriaeth oddiwrth y rhai annuwiol : o herwydd ni cheisiant dy ddeddfau di.

156 Dy drugareddau, Arglwydd, sydd aml : bywha fi yn ol dy farnedigaethau.

157 Llauer sydd yn fy erlid, ac yn fy ngwrthwynebu ; er hyny ni throais oddiwrth dy dystiolaethau.

158 Gwelais y troseddwy'r, a gresynais am na chadwent dy air di.

159 Gwel fy mod yn hoffi dy orchymynion : Arglwydd, bywha fi yn ol dy drugarogrwydd.

160 Gwirionedd o'r dechread yw dy air ; a phob un o'th gyfiawn farnedigaethau a bery yn dragywydd.

no o'r rhai hyny ag yr arferai Duw yn drugarog eu gwaredu, adn. 132.

Adn. 154. *Dadleu fy nadl*] Yn erbyn fy ngelymion, Salm xxxv. 1 ; a *gwared fi*—o'u dwylaw hwynt yn aml, a phellach fyth o'u cyraedd tra yn gwrthod yr unig iachawdwr : o herwydd ni cheisiant dy ddeddfau di—yn rheol i fuch-eddu wrthi.

Adn. 155. *Pell yw iachawdwriaeth oddiwrth y rhai annuwiol*] Pell o'u meddwl hwynt yn aml, a phellach fyth o'u cyraedd tra yn gwrthod yr unig iachawdwr : o herwydd ni cheisiant dy ddeddfau di—yn rheol i fuch-eddu wrthi.

Adn. 156. *Dy drugareddau, Arglwydd, sydd aml*] I'r rhai a'th ofnart, ac a alwant arnat : *bywha fi yn ol dy farnedigaethau*—gwel ar adn. 149.

Adn. 157. *Llauer sydd yn fy erlid, ac yn fy ngwrthwynebu*] O'r ddaear ac o'u uffern ; *er hyny ni throais oddiwrth dy dystiolaethau*—sef oddiwrth eu hoffi, eu myfyrio, a'u cadw.

Adn. 158. *Gwelais y troseddwy'r*] Yn dirmygu ac yn tori dy ddeddfau ; a *gresynais*—gofidiais ac wylais lawer wrth feddwl am y dirmyg a daflent arnat ti, a'r nived a gaent trwy hyny iddynt eu hunain ; *am na chadwent dy air di*—gwel ar adn. 53, 136.

Adn. 159. *Gwel fy mod yn hoffi dy orchymynion*] Yr hyn a elli ei ganfod oddiwrth fy nheimlad yn achos y troseddwy'r o honynt, adn. 158 : *bywha fi yn ol dy drugarogrwydd*—gwel ar adn. 88.

Adn. 160. *Gwirionedd o'r dechread yw dy air*] O'i ddechre i'w ddiwedd, neu o ddechread y byd : *a phob un o'th gyfiawn farnedigaethau*—pob gorchymyn, addewid, a bygythiad yn dy air ; a *bery yn dragywydd*—a bery byth yn wirionedd digyfnawd, fel yr oedd yn y dechre.

Adn. 161. *Tywysogion a'm herlidiasant heb achos*] Sef Saul a'i lyswyr ond odid, i'r rhai ni wnaethai efe ddim cam, adn. 23 ; *er hyny fy nghalon a grynai rhag dy air di*—

SCHIN.

161 Tywysogion a'm herlidiasant heb achos : er hyny fy nghalon a grynai rhag dy air di.

162 Llawn ydwyf fi oblegid dy air, fel un yn cael ysglyfaeth lawer.

163 Celwydd a gaseais, ac a ffieiddiais : a'th gyfraith di a hoffais.

164 Seithwaith yn y dydd yr ydwyf yn dy glodfori ; o herwydd dy gyfiawn farnedigaethau.

165 Heddwch mawr fydd i'r rhai a garant dy gyfraith : ac nid oes dramgwydd iddynt.

166 Dysgwyliais wrth dy iachawdwraeth di, O Arglwydd ; a gwnaethym dy orchymynion.

167 Fy enaid a gadwodd dy dystiolaethau ; a hoffiawn genyf hwynt.

rhag cilio oddiwrtho neu ei droseddu, yn fwy na rhag ofa eu herledigaeth hwy.

Adn. 162. *Llawn ydwyf fi oblegid dy air*] Oblegid y lles a'r cysur a'r achos oddiwrthio ; *fel un yn cael ysglyfaeth lawer*—oddair elynion a orchfygedd ganddo ar faes y gwael.

Adn. 163. *Celwydd a gaseais, ac a ffieiddiais*] Sef pob math o dwyll, rhagrith, ac anonestrwydd ; *a'th gyfraith di a hoffais*—fel rheol fy fmarweddiad.

Adn. 164. *Seithwaith yn y dydd*] Hyny yw, 'yn fynych,' fel yr arwyddia y gair yn Diar. xxiv. 16, ac mewn mapau ereill ; *yr ydwyf yn dy glodfori*—ond odid trwy fawl a gweddi ; *o herwydd dy gyfiawn farnedigaethau*—neu dy ddeddfau dwytol, y rhai a roddaist yn rheol cyfiawnder i ddyinion. Ond dywed Rabbi Solomon fod y 'seithwaith' hyn i'w deall yn llythrenol, a bod yr hen Iuddeon yn clodfori Duw *ddwywaith* cyn darllen y deg gorchymyn yn y bore, ac *unwaith* wedi hyny ; *dwywaith* cyn eu darllen yn yr hwyr, a *dwywaith* ar ol hyny ; yr hyn a wna *seithwaith* cymhwys. Yr oedd yr hen Saxoniaid, yn y degfed canrif, yn gorchymyn i bob Cristion fendigod ei gorff seithwaith yn y dydd ag *arwydd y groes* : (1) Ar wawriad y dydd ; (2) Am 9 yn y bore ; (3) Ar hanner dydd ; (4) Am 3 yn y prydauwn ; (5) Am 6 yn yr hwyr ; (6) Cyn myned i orphwys ; (7) Ac ar hanner nos. Os oedd hyn yn angenrheidiol, rhaid addef eu bod yn rhagori yn fawr arnom ni.

Adn. 165. *Heddwch mawr fydd i'r rhai a garant dy gyfraith*] Sef heddwch yn eu cydwybod, a heddwch rhyngddynt a Duw ; a bydd hwn ganddynt wrth fyw, wrth farw, ac wedi marw : *ac nid oes dramgwydd iddynt*—dim i beri iddynt syrthio, neu golli eu heddwch.

Adn. 166. *Dysgwyliais wrth dy iachawdwriaeth di*] Yr hon a addewaist yn drugarog i'r rhai a gadwant dy gyfraith ; a *gwnaethym*

168 Cedwais dy orchymynion a'th dystiolaethau: canys *y mae* fy holl ffyrdd ger dy fron di.

TAU.

169 Nesäed fy ngwaedd o'th flaen, Arglwydd: gwna i mi ddeall yn ol dy air.

170 Deued fy ngweddi ger dy fron: gwared fi yn ol dy air.

171 Fy ngwefusau a draetha foliant, pan ddysgech i mi dy ddeddfau.

172 Fy nhafod a ddatgan dy air: o herwydd dy holl orchymynion *sydd* gyfiawnder.

173 Bydded dy law i'm cynorth-

wyo: o herwydd dy orchymynion di a ddewisais.

174 Hiraethais, O Arglwydd, am dy iachawdwriaeth; a'th gyfraith *yw* fy hyfrydwch.

175 Bydded byw fy enaid, fel y'th folianno di; a chynorthwyed dy farnedigaethau fi.

176 Cyfeiliornais fel dafad wedi colli: cais dy was; oblegid nid anghofiais dy orchymynion.

SALM CXX.

AR yr Arglwydd y gwaeddais yn fy nghyfyngder, ac efc a'm gwrandawd i.

dy orchymynion—nid i haeddu dy iachawdwriaeth, ond o hoflder tuag atynt, ac am y gwyddwn mai dyma y ffordd i gaffael trugaredd, adn. 132.

Adn. 167. *Fy enaid a gadwodd dy dystiolaethau*] Yn gydwybodol a gwirioneddol trwy gymhorth dy ras di; a *hoff iawn genyf hwynt*—y mae y gadwraeth o honynt yn fraint ac yn hyfrydwch i mi.

Adn. 168. *Cedwais dy orchymynion*] Y rhai a ddysgent i mi pa beth i'w wneyd; a'th *dystiolaethau*—y rhai a ddysgent i mi pa beth i'w gredu: *canys y mae fy holl ffyrdd ger dy fron*—ac am hyny gwyddost ddarfod i mi eu cadw.

Adn. 169. *Nesäed fy ngwaedd o'th flaen*] Yn gymeradwy a llywyddiannus: *gwna i mi ddeall yn ol dy air*—yn ol dy addewid, adn. 130; neu gwna i mi ddeall pob peth ag y mae dy air yn ei ddysgu, ac *fel y mae yn ei ddysgu*: gwel ar adn. 108.

Adn. 170. *Deued fy ngweddi ger dy fron*] Yr un deisyfiad ag yn adn. 169, yr hyn a ddengys ei daerineb a'i wresogrwydd ef yn ei weddi: *gwared fi yn ol dy awr*—sef yn ol dy addewid i'm bath i yn dy air.

Adn. 171. *Fy ngwefusau a draetha foliant*] Neu 'a fwrlyma gän o foliant,' megys firwd wastadol yn dylifo o galon ddiolchgar, fel yr arwydda y wreiddiol; *pan ddysgech i mi dy ddeddfau*—yn fwy llawn a manwl; neu 'am i ti ddysgu i mi dy ddeddfau,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu.

Adn. 172. *Fy nhafod a ddatgan dy air*] Wrth ereill; traethaf am ei wirionedd, ei felysder, a'i lesoldeb i eneidiau duynion: *o herwydd dy holl orchymynion sydd gyfiawnder*—hyd yn nod y rhai hyny ag a ystyrir gan yr annuwoliion yn ormesol ac anngyfiawn.

Adn. 173. *Bydded dy law i'm cynorthwyo*] Allan o'm cyflwr presenol, neu i'm helpu i rodio yn ffordd dy ddeddfau; *o herwydd dy orchymynion di a ddewisais*—i rodio yndynt.

Adn. 174. *Hiraethais, O Arglwydd, am dy iachawdwriaeth*] Am i ti fy ngwaredu nid yn unig oddiwrth fy nhrallodau, ond hefyd oddiwrth holl weddillion fy llygredd, a'm dwyn

yn y diwedd atat dy hun i'r nef: *a'th gyfraith yw fy hyfrydwch*—penaf ar y ddaear, adn. 47.

Adn. 175. *Bydded byw fy enaid*] Mewn dedwyddwch a bywyd ysbrydol, neu estyner fy 'mywyd' naturiol; *fel y'th folianno di*—fel y galluoger fi i'th foliannu mewn modd bywiog, gwaresog, a theilwng; a *chynorthwyed dy farnedigaethau fi*—bydded i hyfforddiadau ac annogaethau dy air fy zhueddau a'm cynorthwyo i'th foliannu wrth dy fodd.

Adn. 176. *Cyfeiliornais*] Lawer gwaith oddiar lwybr dy orchymynion, trwy fy anwybodaeth fy lun a grym teamtasiynau; *fel dafad wedi colli*—ei ffordd yn yr anialwch: *cais dy was*—yn ol i'th gorlan; *oblegid nid anghofiais dy orchymynion*—un amser yn hollol, fel ag i gwbl ddfateru am eu cadw. Neu fe allai mai yr ystyr yw, iddo fod yn *crwydro* o le i le yn ystod yr erledigaethau a fu arno dan Saul ac ereill, fel dafad wedi colli ei ffordd; a'i fod yn awr yn gweddio am i Dduw, fel bugail gofalus, ei ddwyn o'i beryglon, a'i adfer i ryddid, gorphwysdra, a thawelwch, am ei fod yn *was* iddo, ac heb *annghofio* ei orchymynion ef.

SALM CXX. Teitl y Salm hon, yn nghyda'r pedair-ar-ddeg canlynol, yw '*Cuniad y Graddau*,' neu yr *esgyniadau*; ond nid yw yn eglur ar ba gyfrif y gelwir hwynt felly. Dywed *Kimchi* fod *pymtheg* o risiau ar hyd pa rai yr esgynai yr offeiriad a'r Lefaid i'r deml, a'u bod yn canu un o'r *pymtheg* Salm hyn ar bob gris. Tybia *Aben Ezra* fod y gair yn arwyddo math ar *dön*, ar ba un y cennyd y Salmau hyn; neu, yn ol ereill, math ar *dyrchafiad* neu *godiad* yn y llais wrth eu canu. Tybia *Mudge* ac ereill, mai Salmau ydynt a genid gan yr Iuddewon wrth iddynt fynd deigrwaith yn y flwyddyn i addoli yn Jerusalem ar y gwyliau arbenig. Y mae yn debycach, ebai *Clarke*, os yw y teitl mewn gwirionedd mor hen a hyny, ddarfod ei roddi iddynt am eu bod yn cael eu canu gan yr Iuddewon ar eu dychwelid o gaethiwed Babilon i *fyfny* i Jerusalem. Tybia *Junius, Tremellius*, ac ereill, mai ystyr y gair yw, 'Cân y Rhagoriaethau'; a'u bod yn cael eu galw felly mewn cyfeiriad ar ragor-

2 Arglwydd, gwared fy enaid oddiwrth wefusau celwyddog, ac oddiwrth dafod twyllodrus.

3 Beth a roddir i ti? neu pa beth a wneir i ti, dydi dafod twyllodrus?

4 Llymion saethau cawr, yn nghyda marwor meryw.

5 Gwae fi, fy mod yn preswyllo yn Mesech, yn cyfaneddu yn mhebyll Cedar.

6 Hir y trigodd fy enaid gyda'r hwn oedd yn casâu tangnefedd.

7 Heddychol ydwyf fi: ond pan lefarwyf, y maent yn barod i ryfel.

iaeth eu cyfansoddiad. Y gwirionedd yw, fel y sylwa *Benson*, fod yn anhosodol dywedyd pa beth yw gwir ystyr y teitl. Cawsant eu priodoli i *Dafydd, Solomon, Ezra, Haggai, Zechariah, a Malachi*; ond nid oes sicrwydd pwy yw eu hawdwr, na phia bryd yr ysgrifenydd hwnant. Modd bynag, y maent o gyfansoddiad rhagorol, a chlynywsant syniadau grymus o'r duwioledeb uwchaf, yn cael eu gosod allan gyda phrydforthwch iaith, ac mewn ychydig eiriau.

Adn. 1. *Ar yr Arglwydd y gwaeddais yn fy nghyfyngder*] Yr hwn a achosid gan wefusau celwyddog, adn. 2; *ac efe a'm gwrandawodd i*—a atebodd fy ngweddi trwy gysuro fy enaid.

Adn. 2. *Arglwydd, gwared fy enaid oddiwrth wefusau celwyddog*] Oddiwrth Doeg, yn ol rhai, yr hwn a ddywedai yn gelwyddog fod Dafydd yn fradwr yn erbyn Saul; *ac oddiwrth dafod twyllodrus*—yr hwn a guddia ei fwriadau maleisus dan gysgod geiriau tég.

Adn. 3. *Beth a roddir i ti?* Fel cosp, gan Farnwr cyfiawn y byw a'r meirw? *neu pa beth a wneir i ti*—fel ad-daliad am dy gelwyddan? *dydi dafod twyllodrus*—fel pe dywedasai, Pa beth y mae dy gydwybod dy hun yn ei ddysgwyl am y fath gelwyddan?

Adn. 4. *Llymion saethau cawr*] Dy gosh fydd rhyw farnedigaethau dychrynlyd a disymwth oddiwrth Dduw, fel saethau yn cael eu tafu ataf gan gawr cryf; *yn nghyda marwor meryw*—rhyw losgfa fel oddiwrth dân annifoddadwy. Dywedir fod tân y *ferywen*, wedi unwaith y cyneuer ef, yn dra phoeth ac angherddol, ac yn parhau yn hir iawn heb ddiffoddi. Ond tybia rhai mai cyfeirio y mae y Salmwydd at effeithiau y tafod twyllodrus arno ef ei hun.

Adn. 5. *Gwae fi fy mod yn preswyllo yn Mesech*] Mesech oedd fab Japheth, oddiwrth yr hwn y disgynodd y Cappadociaid, a'r Muscofaid neu y Rwssiaid, Gen. x. 2; *yn cyfaneddu yn mhebyll Cedar*—Cedar oedd fab Ismael, a'i hiliogaeth ef a boblogent ran o Arabia, gan gyfaneddu mewn pebyll, Gen. xxv. 13. Yr oedd y ddaau bobl hyn yn dra barbariaid a gwyllt. Nid ydym yn darllen i Dafydd fod yn cyfaneddu yn mhllith y cen-

SALM CXXI.

DYRCHAFAF fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymhorth.

2 Fy nghymhorth a ddaw oddiwrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.

3 Ni âd efe i'th droed lithro: ac ni hun a dy Geidwad.

4 Wele, ni hun a ac ni chwsg Ceidwad Israel.

5 Yr Arglwydd yw dy Geidwad: yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheulaw.

hedloedd hyn, ac o ganlyniad rhaid i ni ddeall yr enwau hyn yn gyffelybiaethol, yn arwyddoedd fod Dafydd yn preswyllo yn mhllith dynion o'r un ysbryd a'r anwariaid creulon hynny.

Adn. 6. *Hir y trigodd fy enaid gyda'r hwn oedd yn casâu tangnefedd*] Sef gyda Saul a'i wŷr fe allai. Ond tybia rhai mai darluniad sydd yma, ac yn adn. 5, o'r Iuddewon yn mhllith y Babiloniaid yn amser y caethiweid.

Adn. 7. *Heddychol ydwyf fi*] Yn dymuno byw mewn heddwch: *ond pan lefarwyf*—ar unrhyw achos; *y maent yn barod i ryfel*—rhoddant gau-ystyr i'm geiriau, i'r dyben i dynu eweryl.

SALM CXXI. Y teitl yw, '*Cuniad y Graddau*': gwel deitl y Salm flaenorol. Tybia *Grotius* ddarod ei ysgrifenu gan Dafydd yn amser y rhyfel âg Absalom. Ymddengys ddarod ei chyfansoddi mewn ffordd o *gydymddyddaniad*.

Adn. 1. *Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd*] I Seion a Moriah, lle yr oedd y babel: gwel ar Salm lxxxvii. 1: *o'r lle y daw fy nghymhorth*—oddiwrth bresenoldeb Duw yn ei gysegr.

Adn. 2. *Fy nghymhorth a ddaw oddiwrth yr Arglwydd*] Yn hwn; *yr hwn a wnaeth nef a daear*—yr hwn sydd hollalluog, ac felly yn abl i'm cynorthwyo.

Adn. 3. *Ni âd efe i'th droed lithro*] Fel ag i syrthio i unrhyw afwydd neu niwed; *ac ni hun a dy Geidwad*—eitbr y mae yn wastad yn effro, i wrando dy weddi a'th achub. Meddylir mai atebiad yr offeiriad i'r Salmwydd yw y geiriau hyn; neu ynte ei eiriau ef wrth ei enaid ei hun.

Adn. 4. *Wele, ni hun a*] Neu 'ni bepiana,' fel dyn ar fin huno; *ac ni chwsg Ceidwad Israel*—fel un a fyddo mewn trymgwsg. Y geiriau hyn ond odid oedd gydgân orfoleddus yr holl dorf.

Adn. 5. *Yr Arglwydd yw dy Geidwad*] Ymddengys fod yr offeiriad yma yn ail ymallyd yn y gân, i gysuro y Salmwydd, neu y rhai a gynrychiolid ganddo: *yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheulaw*—y mae yn wastad gerllaw i ti, i'th gadw rhag pob niwed.

Adn. 6. *Ni'th dery yr haul y dydd*] Fel ag

6 Ni'th dery yr haul y dydd, na'r lleuad y nos.

7 Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg: efe a geidw dy enaid.

8 Yr Arglwydd a geidw dy fynediad, a'th ddyfodiad, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd.

SALM CXXII.

LLAWENYCHAIS pan ddywedent wrthyf, Awn i dŷ yr Arglwydd.

2 Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem.

3 Jerusalem a adeiladwyd fel

i gael dy niweidio gan ei belydr ef; na'r lleuad y nos—fel ag i gael niwed oddiwrthi hithau: hyny yw, ni chei niwed na dydd na nos, oddiwrth wres nac oerni. Y mae yn dra hysbys fod pelydr yr haul, yn yr India a manau ereill, yn taro dynion acanfeiliaid yn farw mewn moment: lladdwyd uwchlaw cant o ddyinion yn y modd yma, mewn un tymhor, yn nghymydogaeith Benares. Dywed Carne, yn ei 'Lythyrau o'r Dwyrain,' fod y lleuad yn effeithio ar y llygaid yno yn waeth na'r haul; ac y bydd i'r neb a gysgo heb orchudd dros ei wyneb, gael niweidio ei olwg yn fawr, os nid ei gollu.

Adn. 7. Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg] A all beri gwir niwed i ti: efe a geidw dy enaid—nid yn unig dy fywyd rhag marwolaeth anamserol, ond hefyd dy enaid rhag marwolaeth dragywyddol.

Adn. 8. Yr Arglwydd a geidw dy fynediad] Allan i'th daith; a'th ddyfodiad—adref at dy deulu; o'r pryd hwn hyd yn dragywydd—sef hyd diwedd ei einioes.

SALM CXXII. Y teitl yw, 'Caniad y graddau, o eiddo Dafydd:' gwel deitl Salm cxx. Tybia Benson i Dafydd ei chyfansoddi ar ol sefydlu yr arch ar fynydd Seion, i gefnogi y bobl i gyrru i Jerusalem ar y tair gŵyl flynnyddol, neu i ddatgan ei hyfrydwch wrth eu gwelw yn cyrru yno mor gyson. Tybia ereill mai ar ol i Cyrus orchymyn i'r gaethglud fyned adref i'w gwlad, y cyfansoddyd hi.

Adn. 1. Llawenychain pan ddywedent wrthyf] Pan gyhoeddodd Cyrus ei orchymyn iddynt, yn ol Clarke; neu pan anngogent eu gilydd i fyned i Jerusalem, yn y geiriau hyn: Awn i dŷ yr Arglwydd—i'w addoli ef mewn prydferthwch santeiddrwydd yn ei gysegr.

Adn. 2. Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem] Lle y mae ein calon einioes:

Adn. 3. Jerusalem a adeiladwyd fel dinas wedi ei chydgyssylltu ynddi ei hun] Sef yn ddinas drefnus a chryno, ac nid yn rhanau gwastgarog nen ar wahan, fel yr oedd cyn amser Dafydd: gwel ar 2 Sam. v. 9, 1 Cron. xi.

dinas wedi ei chydgyssylltu ynddi ei hun.

4 Yno yr esgyn y llwythau, llwythau yr Arglwydd, yn dystiolaeth i Israel, i foliannu enw yr Arglwydd.

5 Canys yno y gosodwyd gorsedd-feinciau barn, gorseddfeinciau tŷ Dafydd.

6 Dymunwch heddwch Jerusalem: llwydded y rhai a'th hoffant.

7 Heddwch fyddo o fewn dy ragfur, a ffyniant yn dy balasau.

8 Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion y dywedaf yn awr, Heddwch fyddo i ti.

7, 8. Fe allai fod yr ymadrodd yn arwyddo hefyd ei bod yn ganolbwynt undeb a dedwyddwch i'r holl lwythau.

Adn. 4. Yno yr esgyn y llwythau] Deirgwaith yn y flwyddyn; llwythau yr Arglwydd—canys yr oedd holl lwythau Israel yn eiddo i'r Arglwydd trwy gyfammod; yn dystiolaeth i Israel—ei fod ef wedi gorchymyn hyny iddynt, Exod. xiii. 14—17; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'at dystiolaeth Israel,' sef at arch y dystiolaeth, lle yr oedd llechau y gyfraith a roddodd Duw yn dystiolaeth i Israel; i foliannu enw yr Arglwydd—am ei ddaioni iddynt yn dymhorol ac ysbyrdol.

Adn. 5. Canys yno y gosodwyd gorseddfeinciau barn] Neu lysoedd cyflawnder, i drin achosion gwladol ac eglwysig: gorseddfeinciau tŷ Dafydd—eiddo y brenhinoedd o deulu Dafydd.

Adn. 6. Dymunwch heddwch Jerusalem] Ei daioni yn mhob ystyr, neu ei llwyddiant mewn pethau crefyddol, gwladwriaethol, a masnachol. Saes., 'gweddwiwch am heddwch Jerusalem.' Nid ei ddymuno yn unig, ond gweddio am iddo gymeryd lle, ac ymdrechu eu hunain hefyd i'w ddwyn oddiamgylch. Llwydded y rhai a'th hoffant—Saes., 'hwy a lwyddant.' Yn heddwch a llwyddiant y ddinas, caânt hwythau heddwch a llwyddiant iddynt eu hunain.

Adn. 7. Heddwch fyddo o fewn dy ragfur] Yn nhai y bobl gyffredin; a ffyniant yn dy balasau—i'r brenin, ei beudeffigion, a'r mawrion. Hon oedd y ffurf o weddi ag yr oeddynt i'w defnyddio, adn. 6. Pan y mae ffyniant yn mhilith y mawrion, y mae yn well bob amser ar y tylodion, yn enwedig os bydd y mawrion hyny yn ofni Duw.

Adn. 8. Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion] Sef holl lwythau Israel, a phawb ereill a gyrcient i Jerusalem ar ddybenion daionus a chyfeillgar; y dywedaf yn awr—o eigion fy nghalon, Heddwch fyddo i ti—hyd byth, yn dymhorol ac ysbyrdol. Felly nid er mwyn ei ddiogelwch a'i ogoniant ei hun, fel brenin y lle, y gweddiat Dafydd dros Jerusalem, ond er mwyn y lles cyffredin: er mwyn gogoniant Duw, adn. 9; cysur ei frodyr a'i gyfeillion,

9 Er mwyn tŷ yr Arglwydd ein Duw, y ceisiaf i ti ddaioni.

SALM CXXIII.

ATAT ti y dyrchafaf fy llygaid, ti yr hwn a breswylly yn y nefoedd.

2 Wele, fel y mae llygaid gweision ar law eu meistriaid, neu fel y mae llygaid llawforwyr ar law ei meistres; felly y mae ein llygaid ni ar yr Arglwydd ein Duw, hyd oni thrugarhao efe wrthym ni.

3 Trugarha wrthym, Arglwydd, trugarha wrthym; canys llanwyd ni â dirmyg yn ddirfawr.

4 Yn ddirfawr y llanwyd ein henaid â gwatwargerd y rhai goludog, ac â diystyrwch y beilchion.

SALM CXXIV.

ONI buasai yr Arglwydd yr hwn a fu gyda ni, y gall Israel ddywed-yd yn awr;

2 Oni buasai yr Arglwydd yr hwn

adn. 8; a lles a daioni cyffredinol y tylawd a'r cyfoethog, adn. 7.

Adn. 9. *Er mwyn tŷ yr Arglwydd ein Duw*] Sef y cysegr a'i wasanaeth, yr hwn sydd yn fwy yn fy ngolwg na'm tŷ a'm teyrnas fy hun; *y ceisiaf i ti ddaioni*—nid yn unig trwy weddio am dano, ond hefyd trwy wneyd yr oll a fedraf i sefydlu a chadw heddwch a fflyniant yn Jerusalem hoff. Ar yr adnod hon yr oerwog *Dr. A. Clarke* a sylwa: 'Ac a ydyw yn ddyledswydd ar bob dyn weddio dros ei *wlad ei hun?* Duw, natur, synwyr cyffredin, a hunan-les, a ddywedant, Ydwy! A pha beth a raid i ni ei feddwl am yr adnod, y rhai nid yn unig ni weddiant fel hyn, eithr a ymdrechiant i ddiunystrio yr heddwch cyffredin, dymchwelyd llywodraeth eu gwlad, codi terfysgoedd, a dyfetha ei holl sefydliadau gwladol a chrefyddol? *Ei feddwl am danynt!* Hyn: y byddai yn *ddianrhydedd i raff* eu crogi hwyt.'

SALM CXXIII. Y teitl yw, '*Caniad y Graddau*.' gwel deitl Salm cxx. Tybia *Clarke* mai cŵyn y caethion yn Babilon yw y Salm hon, yn ngwyneb y dirmyg a'r creulondeb a ddangosiodd iddynt yno. Tybia *Patrick* mai gweddi *Esay* ydyw, yn amser Hezechiah, pan anfonodd *Senacherib* ei weision yn erbyn Jerusalem, 2 Cron. xxxii. 9—20. Ac ereill a dybiant mai gweddi *Dafydd* ydyw, yn amser gwrthryfel *Absalom*.

Adn. 1. *Atat ti y dyrchafaf fy llygaid*] I edrych am waredigaeth; *ti yr hwn a breswylly yn y nefoedd*—mewn mawredd, gallu, a gogoniant; neu yr hwn y mae dy fawredd a' th nerth yn anfeidrol ragori ar eiddo brenhinioedd y ddaear.

Adn. 2. *Wele, fel y mae llygaid gweision ar law eu meistriaid, &c.*] Tybia rhai fod yma gyfeiriad at weision a morwynion yn y dwyrain yn edrych ar ysgogiad llaw eu meistriaid a'u meistresi, am arwydd neu orchymyn pa beth i'w wneyd. Fel hyn yn gyffredin y cyfarwyddir gweision a morwynion hyd heddwch yn mhlith y Tyrciaid, yr Aiffitiaid, a'r Persiaid. Tybia ereill mai cyfeirio y mae y *Salm* ydd at gaethweision a chaethforwynion dan gerydd, yn edrych yn edifeiriol ar law y neb a'u tarawai, i weled a oedd un arwydd o roddi y fferyll heibio, neu i erfyn am iddi gael ei rhoddi heibio. A thybia ereill mai

edrych am help, amddiffyniad, neu ymwared oddiar law y meist'r a'i feistres a feddyllir. *Felly y mae ein llygaid ni*—myfi a holl bobl adlydus Israel; *ar yr Arglwydd ein Duw*—ein Meistr mawr a'u Duw cyfammodol; *hyd oni thrugarhao efe wrthym*—trwy droi heibio y fferyll hon, neu estyn i ni ymwared.

Adn. 3. *Trugarha wrthym, Arglwydd*] Yn ol lluosogrwydd dy dosturiaethau; *trugarha wrthym*—y mae yr ailadroddiad hwn yn dangos nid yn unig daerineb eu gweddi, ond hefyd fawredd eu gofid; *canys llanwyd ni â dirmyg yn ddirfawr*—y roedd caeleu *dirmygu* yn ddiachos yn beth trwm, a'u llenwi â dirmyg yn beth trymach; ond cael eu llenwi â dirmyg yn *dirfawr*, oedd y peth trymaf oll.

Adn. 4. *Yn ddirfawr y llanwyd ein henaid â gwatwargerd*] A geiriau neu ganiadau o wawd, ynystal ag ymddygiadau sarhaus ac ysgornllyd; *y rhai goludog*—Saes., 'y rhai esmwyth arnynt'; *ac â diystyrwch y beilchion*—y rhai a ymddyrchafant o ran eu meddyliau eu hunain uwchlaw Duw a'i bobl. Y mae hyn yn ddarluniad priodol o ymddygiadau yr Assyriaid a'r Babiloniaid tuag at yr Iuddewon druain: gwel y teitl.

SALM CXXIV. Y teitl yw, '*Caniad y Graddau, o eiddo Dafydd*.' Y mae y geiriau 'o eiddo Dafydd' yn eisiau mewn amrai ysgriylffrau *Hebreig*, ac hefyd yn y LXX, y *Vulgate*, y *Syriac*, yr *Ethiopaeg*, a'r *Arabaeq*. Ond pwy bynag oedd ei hawdwr, a pha brd bynag yr ysgriafenwyd hi, ymddengys ei bod yn Salm o ddiolchgarwch yr Iuddewon i Dduw am eu gwaredu o ryw berygl dirfawr. Tybia *Delaney* mai *Dafydd* a'i hysgrifionodd hi, ar ol y fuddugoliaeth a grybwyllir 2 Sam. v. 20. Tybia *Theodorus* ddarod ei chyfansoddi yn broffwydol am y waredigaeth a gai yr Iuddewon oddiwrth eu gelynyon ar eu dychwelriad o Babilon. Tra y barna *Clarke* mai diolchgarwch yr Iuddewon ydyw am eu gwar-edigaeth rhag cyflafau *Haman*, ac iddi gael ei hysgrifenu gan *Mordecai*: gwel *Esther* vii—x.

Adn. 1. *Oni buasai yr Arglwydd yr hwn a fu gyda ni*] Yn amddiffynwr a gwaredwr i ni; *y gall Israel ddywedyd yn awr*—ar ol iddynt gael y waredigaeth.

Adn. 2. *Oni buasai yr Arglwydd yr hwn a fu gyda ni*] Neu, 'oni buasai fod yr Arglwydd gyda ni,' fel y mae *Houbigant* yr eni

a tu gyda ni, pan gyfododd dynion yn ein herbyn:

3 Yna y'n llyncasent ni yn fyw, pan enynodd eu llid hwynt i'u herbyn:

4 Yna y dyfroedd a lifasai drosom, y ffrwd a aethai dros ein henaid:

5 Yna yr aethai dros ein henaid ddyfroedd chwyddedig.

6 Bendigedig fyddo yr Arglwydd, yr hwn ni roddodd ni yn ysglyfaeth i'w dannedd hwynt.

7 Ein henaid a ddiangodd fel aderyn o fagl yr adarwyr: y fagl a

dorwyd, a ninau a ddiangasom.

8 Ein porth ni sydd yn enw yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.

SALM CXXV.

YRHAI a ymddiriedant yn yr Arglwydd, fyddant fel mynydd Seion, yr hwn ni syflir, ond a bery yn dragywydd.

2 Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch; felly y mae yr Arglwydd o amgylch ei bobl, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd.

ddarllen yma ac yn adn. 1: *pan gyfododd dynion yn ein herbyn*—sef Haman a'i blaid, fel yr adroddir yn llyfr Esther, yn ol Clarke; neu y Philistiaid, neu ryw elynion ereill, yn amser Dafydd: gwel y teitl.

Adn. 3. *Yna y'n llyncasent ni yn fyw*] Fel y gwna rhai bywstfild gwancus a'u hysglyfaeth; *pan enynodd eu llid hwynt i'n herbyn*—yr hwn nad allai neb ond Duw ei ddiifodd.

Adn. 4. *Yna y dyfroedd a lifasai drosom*] Ffel aton gref yn ysgubo y cwbl o'i blaen; *y ffrwd a aethai dros ein henaid*—fel ag i'n hamddifadu o'n heinioes.

Adn. 5. *Yna yr aethai dros ein henaid ddyfroedd chwyddedig*] Fel tonau cynddeiriog y môr ar ystorn uchel. Yma effelybir lluosogrwydd a nerth eu gelynyon i ddyfroedd llifeiriol a chwyddedig yn dylifo o'r mynyddoedd dros ran o wlad, gan ddyfetha y tir, ac ysgubo ymaith ei gynyrch a'i drigolion; ac awgrymir mai fel hyn y buasai gyda hwythau, oni buasai fod Duw gyda hwynt.

Adn. 6. *Bendigedig fyddo yr Arglwydd*] Molianner ef yn dragywydd am ei ddaioni i ni; *yr hwn ni roddodd ni yn ysglyfaeth i'w dannedd hwynt*—i'n llyncu yn fyw ganddynt felly, adn. 3.

Adn. 7. *Ein henaid a ddiangodd fel aderyn o fagl yr adarwyr*] Cyn iddynt allu ein dyfetha: *y fagl a dorwyd*—rhwystrodd rhagluniaeth Duw iddynt ddwyn eu hamcanion gwaeddyd i ben; *a ninau a ddiangasom*—a'n bywydau genym. Daughosir yma beryglon Israel trwy dair cyffelybiaeth: bywstfild rheibus, adn. 3; llifdyfroedd chwyddedig, adn. 4, 5; a magl adarwyr, adn. 7. Y mae y pethau hyn oll yn dra chyfaddasol at amgylchiad yr Iuddewon yn amser Haman, yr hwn a syrthiodd ei hun i'r fagl a fwriadasai efe iddynt hwy.

Adn. 8. *Ein porth ni*] Neu ein cymborth, *sydd yn enw yr Arglwydd*—yn ei allu a'i fyddlondeb ef; neu, fel y mae y Galdeag yn ei ddarllen, 'yn enw GAIR yr Arglwydd,' sef y Logos, neu y tragwyddol A1R, Ioan i. 1; *yr hwn a wnaeth nefoedd a daear*—cansy 'trwyddo ef,' sef y tragwyddol A1R, 'y gwnaethpwyd pob peth; ac hebdo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd,' Ioan i. 3.

SALM CXXV. Y teitl yw, '*Caniad y Graddau*.' gwel deitl Salm cxx. Tybia Patrick mai cynghor duwiol i'r Iuddewon ymddiried yn Nuw yw y Salm hon, pan yr oedd byddin Senacherib yn bygwth eu dinystrio. Barna Delaney iddi gael ei chyfansoddi gan Dafydd ychydig cyn yr ymosodiad ar amddiffynfeydd Seion. Tybia Clarke ac ereill mai cysuro yr Iuddewon y mae yr awdwr, pan yr oeddynt yn cael eu rhwystru gan Sanbalat, Tobiah, a Gesem, i ailadeilladu muriau Jerusalem a'r deml, Neh. iii. 19, 20. Ond y mae *Aben Ezra* yn cymbywso yr oll o'r Salm hon at ddyddiau y Messia.

Adn. 1. *Y rhai a ymddiriedant yn yr Arglwydd*] Yn ei allu a'i fyddlondeb ef; a *fyddant fel mynydd Seion*—yn gadarn a disigl fel hwnw; *yr hwn ni syflir*—gan wyntoedd nac ystornwydd yn dragywydd, nid yn unig am ei fod yn gadarn ynddo ei hun, ond hefyd am ei fod dan ofal ac amddiffyniad Duw, fel lle ei gysegr ef.

Adn. 2. *Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch*] Dywedir fod Jerusalem yn sefyll ar bedwar o fynyddoedd creigiog, sef *Seion, Moriah, Acra, a Bezetha*, y rhai a amgylchynid gan ddyffirnoedd dyfion *Jehosaphat, Gehinnom, a Gihon*; a bod yn rhaid dringo iddi o bob tu, oddieithr o ryw agoriad cul o du y gogledd yn unig. Amgylchid hi hefyd gan fynyddoedd ereill heb fod yn mhell oddiwrti, megys mynydd yr *Olewydd* o du y *duyrain*, yr hwn a ymestynai hefyd dros ran o'r tu *gogleddol* iddi; mynydd *Offiner* o du y *deau*; a mynyddoedd uchel ereill o du y *gorllewin*, rhyngddi a Môr-y-canolid: gwel y ddarlunlen. *Felly y mae yr Arglwydd o amgylch ei bobl*—yn ei ragluniaeth a'i ras, i'w cadw a'u bendithio. Nid yn unig y mae efe yn ol ac yn mlaen, ac ar y ddeau a'r aswy iddynt, ond y mae hefyd oddiarnt ac odditanylt, fel nad all neb na dim eu drygu heb ei genad ef, Deut. xxxiii. 26, 27, Job i. 10. *O'r pryd hwn hyd yn dragywydd*—mewn amser nac yn nhragyddoldeb. Gall mynyddoedd falurio a diflanu, a'r graig gael ei symud o'i lle, Job xiv. 18; eithr y cytammod hedd rhwng Duw a'i bobl, y rhai a barhant i'w garu, yfuddhan iddo, ac ymddiried ynddo, 'ni syfl,' (Esay liv. 10.)

3 Canys ni orphwys gwialen annuwoldeb ar randir y rhai cyfiawn; rhag i'r rhai cyfiawn estyn eu dwylaw at anwiredd.

4 O Arglwydd, gwna ddaioni i'r rhai daionus, ac i'r rhai uniawn yn eu calonau.

5 Ond y rhai a ymdroant i'w trofeydd, yr Arglwydd a'u gyr gyda gweithredwyr anwiredd: a bydd tangnefedd ar Israel.

nes eu cael hwy ato ei hun i ogoniant.

Adn. 3. *Canys ni orphwys gwialen annuwoldeb*] Ni phery erledigaeth neu lywodraeth yr annuwolion yn hir; *ar randir y rhai cyfiawn*—ar eu personau, eu trigfa, na'u gwlad: *rhag i'r rhai cyfiawn*—trwy eu gwendid eu hunain, neu trwy rym a pharhad eu profedigaethau a'u tralodau; *estyn eu dwylaw at anwiredd*—neu wneyd rhywbeth na ddylent ei wneyd, naill ai i foddhau eu gorthrymwr, neu ynterceyraedd ymwared mewn ffordd anghyfreithlon. Gallwn ddyso oddi-yma fod Daw yn ystried gwendid ei bobl, ac yn tosturio wrth eu cyflwr hwy, gan gymesuro neu gyfartalu eu profedigaethau yn gyfatebol i'w nerth. Gallai *hir orthrymder* beri i'r duwilion ymollwg yn eu beneidiau, ac estyn eu dwylaw at anwiredd. ac felly gael eu gyrn yn y diwedd gyda gweithredwyr anwiredd, adn. 5; ond rhag i hyny gymeryd lle, 'fe *fyrheir* y dyddiau hyny er mwyn yr etholedigion.' gwel ar Mat. xxiv. 12, 22.

Adn. 4. *O Arglwydd, gwna ddaioni i'r rhai daionus*] Megys ag yr addewaist gadw dy bobl rhag hir orthrech en gormeswyr annuwol, adn. 3, gwel yn dda hefyd roddi iddynt y cyfwr feudithion grasol ag a wnelont ddaioni i'w beneidiau; *ac i'r rhai uniawn yn eu calonau*—y rhai sydd yn parhau hyd yma yn ddiysgog a chywir yn dy wasanaeth di, er trymed yw eu dyoddefiadau.

Adn. 5. *Ond y rhai a ymdroant i'w trofeydd*] Neu a giliant i'w llywbrau gŵyrgam, a hyny trwy ddylanwad y wialen a grybwyllir adn. 3, neu trwy rym eu llygredigaethau eu hunain; *yr Arglwydd a'u gyr gyda gweithredwyr anwiredd*—i gael yr un gosp a hwythau yn y byd a ddaw: *a bydd tangnefedd ar Israel*—sef ar y gwir dduwion; hyny yw, tra y bydd i'r rhai a ymadawnt â ffridd yr Arglwydd gael eu cospi â dinystr, bydd i'r rhai a ymlynant yn flyddlon wrth Ddau a'i grefydd gael marw mewn heddwch, a myned i dangnefedd diddiwedd, Esay lviii. 2.

SALM CXXVI. Y teitl yw, 'Caniad y Craddau.' gwel deitl Salm cxx. Meddylir i'r Salm hon gael ei chyfansoddi gan Ezra, oddeutu amser dychwelïad yr Iuddewon o gaethiwed Babilon: neu ynte gan Iuggai a Zechariah, fel y dywedir yn y Syriaeg.

Adn. 1. *Pan ddychwelodd yr Arglwydd gaethiwed Seion*] Trwy beri i Cyrus gyhoeddi rbyddid i'r Iuddewon fyned adref i'w

SALM CXXVI.

DAN ddychwelodd yr Arglwydd gaethiwed Seion, yr oeddym fel rhai yn breuddwydio.

2 Yna y llanwyd ein genau â chwerthin, a'n tafod â chanu: yna y dywedasant yn mysg y cenhedloedd, Yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i'r rhai hyn.

3 Yr Arglwydd a wnaeth i ni

gwlad; *yr oeddym fel rhai yn breuddwydio*—yr oedd y newydd mor sydyu ac annysgwiliadwy, fel nad allem ar y cyntaf ei gredu ef, eithr ymdanghosiad i ni fel breuddwyd. Ond y mae *Hammond* ac ereill yn ei gyfieithu, 'Yr oeddym fel rhai wedi eu hadfer i iechyd.'

Adn. 2. *Yna y llanwyd ein genau â chwerthin*] Neu â llawenydd gorhoenus; *a'n tafod â chanu*—sef â chaniadau gorloeddus, ar ol bod yn wlylo yn hir wrth afonydd Babilon, a'n telynau yn ngbrog yno ar yr helyg, Salm cxxxvii. 1—4. *Yna y dywedasant yn mysg y cenhedloedd*—sef yn mysg y Babiloniaid, y Caldeaid, y Mediaid, &c.; *Yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i'r rhai hyn*—yr oedd eu gwaredigaeth mor ryfedd, nes yr oedd y paganiaid o'u hanglych yn gorffod cyfaddef nad allai neb ond JEHOWA, yr hwn yr oedd yr Iuddewon yn ei addoli, wneuthur y fath beth iddynt. (1) Yroeddynt yn gweled eu bod yn cael eu gorchymyn i ddychwelodd trwy ddeddf frenhinol; (2) Fod y brenia a roddasai y gorchymyn hwn iddynt wedi cael ei enwi gan y proffwyd ddau gant o flynyddau cyn ei eni; (3) A'u bod yn cael llestri aur ac arian tŷ yr Arglwydd i fyned yn ol gyda hwy, yn nghyda rhoddion ereill o olud, anifeiliaid, a phethau gwerthfawr: gwel ar Ezra i. 1—11.

Adn. 3. *Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion*] Ilon yw iaith yr Iuddewon eu hunain, mewn atebiad i'r cenhedloedd uchod. Fel pe dywedasant, Ydyw, y mae yn ddigon gwir iddo wneuthur i ni bethau mawrion a rhyfedd, a hyny mewn modd annysgwiliadwy. *Am hyny yr ydym yn llawen*—ac yn gallu canu yn orfoleddus, adn. 2.

Adn. 4. *Dychwel, Arglwydd, ein caethiwed ni*] Gorphen yr hyn a ddechreuast; ac megys y gwaidd ni yn ol i'n gwlad, dychwel hefyd y dyweddill o'n brodyr, y rhai sydd yn aros fyth yn gaethion yn Babilon a manau ereill. Y mae yn dra hysbys na ddychwelodd yr Iuddewon i'w gwlad ar nwaith; eithr daethant yn ol ar wahanol amserau, a than wahanol arweinyddion, megys Ezra, Nehemiah, Zorobabel, &c. *Fel yr afonydd yn y deau*—y rhai, ar ol i'w dyfroedd sychu neu ageru ymaith yn ngwres yr haf, a lenwid drachefn ar y tymhorau gwlawog, neu ar ol i'r eira doddi ar y mynyddau. Fel hyn efe a weddiai am i'r Iuddewon oll gael eu dychwelyd i'w gwlad, fel y dychwelai y dyfroedd i'r afonydd hyny

bethau mawrion; *am hyny* yr ydym yn llawen,

4 Dychwel, Arglwydd, ein caethiwed ni, fel yr afonydd yn y deau.

5 Y rhai sydd yn hau mewn dagran, a fedant mewn gorfoledd.

6 Yr hwn sydd yn myned rhagddo, ac yn wlylo, gan ddwyn had gwerthfawr, gan ddyfod a ddaw mewn gorfoledd, dan gludo ei ysgubau.

SALM CXXVII.

OS yr Arglwydd nid adeilada y tŷ, ofer y llafuria ei adeilad-

Adn. 5. *Y rhai sydd yn hau mewn dagrau*] Yr oedd y llafurwr tylawd yn y dwyrain yn hau mewn dagrau yn fynych, rhag ofn y methai yr had, neu am fod arno ei eisiau yn fara i'w deulu; ac yr oedd yn rhaid i'r hanwr yn aml gael ei amddiffyn gan wŷr arfog, rhag i yspeilwyr ladrata yr had oddiarno. *A fedant mewn gorfoledd*—wrth weled fod yr had hwnw, trwy fendith Duw, wedi cynrychu ffrwyth iddo ar ei gantef. Yn debyg i hyn yr oedd yr Iuddewon yn Babilon wedi bod yn ymostwg ac yn gweddio mewn dagran am waredigaeth o'u caethiwed; ond ar ol iddynt ddychwelyd adref, yr oeddylt yn cael medi ffrwyth eu gweddiau mewn gorfoledd, yn eu gwlad, eu dinas, a'u templ.

Adn. 6. *Yr hwn sydd yn myned rhagddo*] I lafurio a hau ei dir; *ac yn wlylo*—rhag ofn methiant, adn. 5; *gan ddwyn had gwerthfawr*—i'w gladdu yn y ddeare; *gan ddyfod a ddaw mewn gorfoledd*—yn amser y cynauaf; *dan gludo ei ysgubau*—aml, llawntion, a thoreithiog, i'w ysgubor. Felly y bu gyda'r Iuddewon ar ol eu rhyddhau o gaethiwed Babilon; ac felly y bydd yn nydd y farn gyda'r rhai oll ag sydd yn llafurio yn ffyddlon yn ngwinllan eu Harglwydd yma ar y ddeare.

SALM CXXVII. Y teitl yw, '*Caniad y Graddau i Solomon*;' neu, '*o eiddo Solomon*.' Y mae yr *Hebraeg*, y *Galdeag*, a'r *Vulgate*, yn nghyda llawer o'r esbonwyr goraf, yn ei phriodoli i Solomon; ond y *Syriac*g a'i geilw, 'Salm Dafydd yn nghylch Solomon.' Tybia *Clarke* ddarfod ei chyfansoddi erbyn ailadeiladiad y deml, dan Nehemiah, a hyn gan ryw broffwyd yr amser hwnw.

Adn. 1. *Os yr Arglwydd nid adeilada y tŷ*] Sef y deml gyntaf yn amser Solomon, yn ol rhai; neu yr ail deml, ar ol dychwelyd o Babilon, yn ol ereill: *ofer y llafuria ei adeiladwyr wrtho*—pa mor aml a medrns bynag y byddont: *os yr Arglwydd ni cheidw y ddinas*—sef Jerusalem, rhag ymosodiadau y gelynyon; *ofer y gwylia y ceidwaid*—neu y milwyr arfog o'i hamgylch. Y meddwl yw, fod yn angenrheidiol cael bendith Duw i gyd-fyned â llafur dyn yn mhob rhyw orchwyl, i'r

wyr wrtho: os yr Arglwydd ni cheidw y ddinas, ofer y gwylia y ceidwaid.

2 *Ofer i chwi fore-godi*, myned yn hwyr i gysgu, bwyta bara gofidiau: felly y rhydd efe hwn i'w anwlyd.

3 *Wele*, plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd: *ei wobwr ef yw* ffrwyth y groth.

4 *Fel y mae* saethau yn llaw y cadarn; felly *y mae* plant ieuentid.

5 *Gwyn ei fyd y gwŷr a lanwodd ei gawell* saethau â hwynt: nis gwaradwyddir hwy, pan ymddyddanant â'r gelynyon yn y porth.

dyben i'w wnenthur ef yn eifeithiol. Ond tybia rhai mai dwyn i fyny deulu lluosog a feddylir wrth 'adeiladu y tŷ' yn nechre yr adnod.

Adn. 2. *Ofer i chwi fore-godi*] I adeiladu y tŷ, neu i wlylo y ddinas; *myned yn hwyr i gysgu*—ar ol bod yn llafurio yn ddiwyd felly ar hyd y dydd; *bwyta baru gofidiau*—wedi ei ennill trwy lafur caled a blinderus: hyn yw, *ofer yw* y cwbl, heb fendith yr Arglwydd ar eich llafur a'ch gwaith. *Felly*—trwy ei fendith ef yn unig, *y rhydd efe hwn i'w anwlyd*—neu orphwysdra mewn corff a meddwl i'w anwlyd yr Iuddewon.

Adn. 3. *Wele*, plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd] Wedi eu rhoddi i'w rhieni trwy fendith Duw, ac nid wedi eu hennill yn ffordd natur yn unig. Efe a'u rhoddodd i ni, ac efe a'u piar ar ol eu rhoddi; ac am hynny dylem eu magu hwynt iddo ef. *Ei wobwr ef yw* ffrwyth y groth—gwelsom yn fynych fod amledd o blant yn cael ei ystyried yn fendith fawr dan y goruchwyliaethau Moesenaidd a phatriarchaidd, Gen. xxxiii. 5.

Adn. 4. *Fel y mae* saethau yn llaw y cadarn] Yn amddiffyniad iddo ef rhag ymosodiad ei elynion arno; *felly y mae* plant ieuentid—sef plant wedi eu geni tra y byddo eu rhieni yn ieuanc ac iraidd. Y mae y cyfryw blant yn gyffredin yn gryfach na'r rhai a enir o rieni oedranus; ac heblaw hyn, byddant wedi tyfu i fyny i fod yn amddiffyniad a chynaliaeth i'w rhieni yn eu henaint: tra y mae plant rhieni oedranus nid yn unig yn wan a nychlyd ar hyd eu hoed, ond hefyd yn aml heb orphen eu magu ar farwolaeth eu rhieni.

Adn. 5. *Gwyn ei fyd y gwŷr a lanwodd ei gawell* saethau â hwynt] Sef â thŷaid o blant wedi eu magu yn gryfion cyn iddo fyned yn hen: *nis gwaradwyddir hwy*—y plant na'u rhieni; *pan ymddyddanant â'r gelynyon yn y porth*—ni raid iddynt ofni cael eu camgyhuddo mewn llys cyfiawnder, trwy fod ganddynt ddigon o dystion i brofi eu diniweidrwydd; ac ni raid iddynt ofni i yspeilwyr dori i mewn at eu meddiannau, trwy fod yno ddigon o honynt i'w hamddiffyn.

SALM CXXVIII.

GWYN ei fyd pob un sydd yn ofni yr Arglwydd; yr hwn sydd yn rhodio yn ei ffyrdd ef.

2 Canys mwynhei lafur dy ddwy-law : gwyn dy fyd, a da fydd it'.

3 Dy wraig fydd fel gwinwydden ffrwythlawn ar hyd ystlysau dy dŷ : dy blant fel planhigion olewyydd o amgylch dy ford.

4 Wele, fel hyn yn ddiau y bendithir y gŵr a ofno yr Arglwydd.

5 Yr Arglwydd a'th fendithia allan o Seion; a thi a gai weled daioni Jerusalem holl ddyddiau dy einioes :

6 A thi a gai weled plant dy blant, a thanguefedd ar Israel.

SALM CXXVIII. Y teitl yw, ' *Caniad y Graddau* : gwel deitl Salm cxx. Tybia y *Syriac* mai cyfeirio y mae y Salm at *Zorobabel*, tywysog yn Juda, yr hwn oedd yn ddiwyd yn adeiladu teml yr Arglwydd. Tybia *Clarke* ei bod yn barhad o'r Salm flaenorol, neu yn ail ran o honi. Dywed rhai ei bod yn cael ei chanu yn mbriodasau yr hen Luddewon, fel y mae yn gwneyd rhan o wasanaethu pradas yn ein plith ni.

Adn. 1. *Gwyn ei fyd pob un sydd yn ofni yr Arglwydd*] Pa un bynag fyddo ai tylawd ai cyfoethog, Iudew neu Genedl-ddyn; yr hwn sydd yn rhodio yn ei ffyrdd ef—chwanegir hyn i egluro pa beth a feddylir wrth 'ofni yr Arglwydd' yn y rhan flaenaf, sef ei garu ef, ac i fyddhau iddo.

Adn. 2. *Canys mwynhei lafur dy ddwy-law*] Ni ddygir ffrwyth dy lafur oddiarnat i'w fwyta gan ddyethriaid, yr hyn a fygythir uwchben yr anusydd, Deut. xxviii. 33; ond cai di a'th deulu ei fwynhau eich hunain mewn dedwyddwch : *gwyn dy fyd*—mewn ystyr tymhorol; *a da fydd it'*—mewn ystyr ysbrydol hefyd, adn. 5.

Adn. 3. *Dy wraig fydd fel gwinwydden ffrwythlawn ar hyd ystlysau dy dŷ*] Yn dy fendithio à lluosogrwydd o blant; *dy blant fel planhigion olewyydd o amgylch dy ford*—yn iachusol, tirlion, a phrydferth. Darfu i rai wadu fod yr hen Luddewon yn planu eu gwinwydd ar hyd ystlysau en tai, fel y gwawn ni yn y wlad hon; ond profwyd hyn y foddlonrwydd gan Coceius, Kimchi, Patrick, Merriek, a Hammond.

Adn. 4. *Wele, fel hyn yn ddiau, &c.*] Sef fel yr adroddwyd yn adn. 2, 3.

Adn. 5. *Yr Arglwydd a'th fendithia allan o Seion*] A bendithion ysbrydol yn dy enaid, yn gystal ag à bendithion tymhorol yn dy faesydd a'th dŷ; *a thi a gai weled daioni Jerusalem*—ei llwyddiant a'i chynnyd mewn pethan gwladol a chrefyddol; *holl ddyddiau dy einioes*—yn ystod bywyd hir, adn. 6.

Adn. 6. *A thi a gai weled plant dy blant*]

SALM CXXIX.

LLAWER gwaith y'm cystuddiasant o'm hieuenctid, y dichon Israel ddywedyd yn awr :

2 Llawer gwaith y'm cystuddiasant o'm hieuenctid : eto ni'm gorfuant.

3 Yr arddwyr a arddasant ar fy nghefn : estynasant eu cwysau yn hirion.

4 Yr Arglwydd sydd gyfiawn : efe a dorodd raffau y rhai annuwiol.

5 Gwaradwydder hwy oll, a gyrrer yn eu hol, y rhai a gasant Seion.

6 Byddant fel gaelwellt pen tai, yr hwn a wywa cyn y tŷner ef ymaith :

Cai fyw yn ddigon hir i weled y drydedd genhedlaeth; a thanguefedd ar Israel—nid yn unig ar drigolion Jerusalem a'i chylliniau, ond ar yr holl genedl yn gyflediadol, y rhai a fyddont yn rhodio yn ffyrdd yr Arglwydd, adn. 1.

SALM CXXIX. Y teitl yw ' *Caniad y Graddau* : gwel deitl Salm cxx. Tybia *Dimock* ddarvoud ysgrifenu y Salm hon gan *Ezra* neu *Nehemiah*, i gysuro yr Iudewon pryd yr oedd eu gelynyon yn ceisio eu rhwystro i adeiladu y ddinas a'r deml.

Adn. 1. *Llawer gwaith y'm cystuddiasant o'm hieuenctid*] O'r amser ag y daethant allan o'r Aifft, 'pan oedd Israel yn fachgen,' Hos. xi. 1; y dichon Israel ddywedyd yn awr—ar ol cael y fath brafeddau aml o hyny oddiar ddwy law eu hanrywiol elynion, fel y dengys eu holl hanes.

Adn. 2. *Llawer gwaith, &c.*] Y mae y Salm ydd yn ailadrodd hys, i ddangos amledd a thrymder eu cystuddiau; *eto ni'm gorfuant*—ni lwy'r ddyfethwyd ni fel cenedl neu bobl.

Adn. 3. *Yr arddwyr a arddasant ar fy nghefn*] Efe a gyfeiria ond odid at y gosp o fillangeliad a ddwydddefent weithiau, yn enwedig yn Babilon, trwy yr hyn yr erddid eu cnawd yn gwysau dyfnion; *estynasant eu cwysau yn hirion*—ar hyd yr holl gefn, os nid ar hyd yr holl gorff hefyd. Fel hyn ein Harglwydd bendigedig a 'roddod ei gorff i'r curwyr,' yn ein lle ni, Esay l. 6; canys 'cymerodd Pilat yr Iesu, ac a'i fillangellodd ef,' Ioan xix. 1.

Adn. 4. *Yr Arglwydd sydd gyfiawn*] Ac am hyny efe a fynodd gyfiawnder i Israel gystuddiedig o'r diwedd : *efe a dorodd raffau y rhai annuwiol*—sef eu gallu i ddrygu a phoeni Israel.

Adn. 5. *Gwaradwydder hwy oll*] Hebr., 'gwaradwyddir hwy oll,' sef holl elynion presenol Israel; *a gyrrer yn eu hol*—Hebr., 'gyrrir yn eu hol,' mewn gwarth a chlywilydd; *y rhai a gasant Seion*—sef gelynyon eglwys Dduw; neu Sanbalat a'i gyfeillion, y rhai a geisient rwystro adeiladu y ddinas a'r deml : gwel y teitl,

7 A'r hwn ni leinw y pladurwr ei law; na'r hwn a fyddo yn rhwymo yr ysguban, ei fynwes.

8 Ac ni ddywed y rhai a ânt heibio, Bendith yr Arglwydd arnoch: bendithiwn chwï yn enw yr Arglwydd.

SALM CXXX.

O'R dyfnder y llefais arnat, O Arglwydd.

2 Arglwydd, clyw fy llefain; ystyried dy glustiau wrth lef fy ngweddïau.

3 Os creffi ar anwireddau, Ar-

Adn. 6. *Byddant fel gluswellt pen tai*] Yr hwn nis gellid ei gyweirio yn wair, na'i ffirwythloni yn yd; *yr hwn a wywa cyn y tynwr ef ymaith—shalak*, 'cyn iddo hadu.' Trwy fod penau eu tai yn y wlad hõno yn lleddf, yr oedd mwy o laswellt ac egin yn tyfu arnynt nag ar ein tai ni; ond gan nad oedd yno ddyfnder daer, yr oedd gwres yr haul yn ei wywo cyn iddo dyfu i berffeithrwydd. Felly boed, neu felly y bydd, i elynion Israel wywo a diflannu.

Adn. 7. *A'r hwn ni leinw y pladurwr ei law*] Trwy na bydd yno ddigon o hono i'w gynauafa; *na'r hwn fyddo yn rhwymo yr ysgubau, ei fynwes*—os egin yd fyddai, ni fyddai yno ddigon i wneyd un ysgub, neu goflaid.

Adn. 8. *Ac ni ddywed y rhai a ânt heibio*] Sef y fforddoliion neu y tramwyyr, *Bendith yr Arglwydd arnoch*—arnoch chwï a'ch ffirwythau: *bendithiwn chwï yn enw yr Arglwydd*—fe allai mai atebïd y medelwyr i'r fforddoliion yw y geiriau diweddf. Y mae yma gyfeiriad at yr hen arferiad duwiol o weddio dros y medelwyr, ar iddynt gael en eadw rhag damweiniau wrth fedi; ac o weddïau y medelwyr dros y rhai a'u bendithient hwy felly: gwel ar Rûth ii. 4. Y meddwl yma yw, na fendithid y dynion drygonus uchod gan neb, ac na fyddai i neb eu gwelod hwy yn cael eu cynauaf adref. Cyflawnwyd hyu yn llythyrenol, fel y sylwa *Clarke*, yn llwyr ddimchweliad Babilon, trwy nad oes llafuriau yn tyfu yn awr yn agos i'r fan lle y safai hi.

SALM CXXX. Y teitl yw, '*Caniad yr Graddau*.' gwel deitl Salm cxx. Meddylir i'r Salm hon gael ei chyfansoddi gan ryw broffwyd yn ystod y caethiwd yn Babilon; a'i bod yn cynwys cõwn edifeiriol yr Iuddewon cystuddiedig, yn nghyda'u gobaith am faddeuant o'r pechodau hyny ag oeddynt yn achos o'u dyoddefiadau, a'u dysgwiliad hyderus am gael eu hadfer i'w gwlad. Tybia ereill ddarfed ei hysgrifenu gan *Dafydd* pan yn cael ei erlid gan Saul, neu dan bwys ei euogrydd yn achos Bathseba. Y mae yn un o'r rhai a elwir yn 'Salmau edifeiriol.'

Adn. 1. *O'r dyfnder y llefais arnat, O Arglwydd*] O ddyfnder gofid ac ing, enogrydd pechod, neu drueni caethiwd Babilon.

glwydd, O Arglwydd, pwy a saif? 4 Ond y mae gyda thi faddeuant fel y'th ofner.

5 Dysgwyliaf am yr Arglwydd: dysgwyl fy enaid, ac yn ei air ef y gobeithiaf.

6 Fy enaid sydd yn dysgwyl am yr Arglwydd yn fwy nag y mae y gwylwyr am y bore; yn fwy nag y mae y gwylwyr am y bore.

7 Dysgwylid Israel am yr Arglwydd; o herwydd y maetrugaredd gyda'r Arglwydd, ac aml ymwared gydag ef.

Adn. 2. *Arglwydd, clyw fy llefain*] Am faddeuant a thrugaredd; *ystyried dy glustiau wrth lef fy ngweddïau*—wrth fy ngweddïau uchel, aml, a thaerion.

Adn. 3. *Os creffi ar anwireddau, Arglwydd*] Ar bob gwryad oddiwrth dy gyfraith santaidd mewn meddwl, gair, a gweithred, fel ag i gossi yn ddirugaredd yr anfydd-dod lleiaf, fel y gellit yn gyfiawn wneuthur; *O Arglwydd, pwy a saif*—yn ngwyneb y fath ymchwiliad? neu pwy a all ddianc rhag cospedigaeth dragwyddol? 'oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniait Duw!' Rhuf. iii. 23.

Adn. 4. *Ond y mae gyda thi faddeuant*] Neu drefn gyfiawn a gogoneddus i faddeu i bob pechadur edifeiriol, ei anwiredd, ei gamwedd, a'i bechod, ar gyfrif aberth ac iawn dy anwyl Fab; *fel y'th ofner*—nid ág ofn caethiws neu wasaidd, ond ág ofn mabaidd, neu barchedig ofn, yn cynwys cariad at Dduw, hyder ynddo, a diolchgarwch diffuant iddo: gwel ar Rhuf. iii. 25, 26.

Adn. 5. *Dysgwyliaf am yr Arglwydd*] Am ei faddeuant a'i iachawdriaeth ef; *dysgwyl fy enaid*—neu, 'y mae fy enaid yn dysgwyl,' yn ddyfal, cywir, ac awyddus; *ac yn ei air ef y gobeithiaf*—sef yn ei addewidion i'r edifeiriol yn ei air.

Adn. 6. *Fy enaid sydd yn dysgwyl am yr Arglwydd*] Am ei faddeuant a'i iachawdriaeth addawedig; *yn fwy nag y mae y gwylwyr am y bore*—hyny yw, yn fwy awyddus a hiraethlon; *yn fwy nag y mae y gwylwyr am y bore*—adroddir hyn ddwywaith, i ddangos mawredd a dwysder ei hiraeth ef am yr Arglwydd. Wrth y 'gwylwyr' hyn y meddylir naill ai y milwyr y rhai a wylent y ddinas, neu ynte yr offeiriad a'r Lefaiad y rhai a wylent yn y deml. Yr oedd y rhai hyn yn ffinedig trwy eu hir wasanaeth, ac yn hiraethu yn fawr am doriaid y dydd, fel y gallent fyned adref i orphwyo.

Adn. 7. *Dysgwylid Israel am yr Arglwydd*] Sef holl eglwys Dduw, ac yn enwedig pob un ag sydd yn teimlo ei angen am waredigaeth; *o herwydd y mae trugaredd gyda'r Arglwydd*—nid yn unig yn hanfodol yn ei natur, ond hefyd yn barod i gael ei gweinyddu ganddo, i bob pechadur gwir edifeiriol; *ac aml ymwared gydag ef*—i'r rhai oll a'i derbyniant

8 Ac efe a wared Israel oddiwrth eu holl anwireddau.

SALM CXXXI.

O ARGLWYDD, nid ymfalchiodd fy nghalon, ac nid ymddyrfhafodd fy llygaid: ni rodiais chwaith mewu pethau rhy fawr, a rhy uchel i mi.

2 Eithr gosodais a gostegais fy enaid, fel un wedi ei ddiddynfnu oddiwrth ei fam: fy enaid *sydd* ynof fel un wedi ei ddiddynfnu.

3 Dysgwylid Israel wrth yr Ar-

ar ei delerau ef, neu ar yr ammod o edifeirwch a fydd. Y mae yr ymadrodd 'aml ymwared,' yn cynwys gwaredigaethau tymhorol ac ysbrydol.

Adn. 8. *Ac efe a wared Israel*] Pawb a droant ato mewn gwirionedd, pob 'gwir Israeliad;' *oddiwrth ei holl anwireddau*—nid yn unig o gaethiwed Babilon, ond hefyd o gaethiwed pechod a Satan.

SALM CXXXI. Y teitl yw, '*Caniad y Graddau, o'r eiddo Dafydd.*' Addefir yn gyffredin mai *Dafydd* yw awdwr y Salm hon, ac iddo ei hysgrifenu fel atebiad i enllib Saul a'i llyswyr, y rhai a'i gwirionedd ef o uchelgais am yr orsedd. Y mae efe yma yn apelio at Dduw, yr hwn a adwaenai ei galon, nad oedd ef yn awyddu am ddon o'r fath, ond ei fod yn eithaf tawel yn y cyflwr a benodasai rhagluniaeth iddo, adn. 1, 2; ac y mae yn cymhell Israel oll i ddygwyl wrth Dduw fel y gwnai yntan, adn. 3.

Adn. 1. *O Arglwydd*] Yr hwn a wyddost bob peth, ac felly a wyddost fy mod yn dywed-yd y gwir: *nid ymfalchiodd fy nghalon*—mewn meddyliu uchel am fy nghymhwysderau fy hun; *ac nid ymddyrfhafodd fy llygaid*—i edrych yn awyddus am yr orsedd a'r llywodraeth; neu nid edrychodd efe yn genfigenus ar rai uwch nag ef, nac yn ddirmygus ar rai islaw iddo: *ni rodiais chwaith mewu pethau rhy fawr, a rhy uchel i mi*—neu bethau nad ydynt yn perthyn i ddon yn fy sefyllfa i.

Adn. 2. *Eithr gosodais a gostegais fy enaid*] Tawelais fy meddwl, neu gosodais fy awydd-fryd a'm cyflwr yn gydwastad a'u gilydd, heb geisio dim uwchlaw fy sefyllfa; *fel un wedi ei ddiddynfnu oddiwrth ei fam*—fel plentyn bychan a fyddo yn analluog i feddwl am bethau uchel: *fy enaid sydd ynof fel un wedi ei ddiddynfnu*—yr wyf mor ddiiniwed a plentyn yn y pethau ag y cybuddir fi o honynt gan Saul a'i lys; neu nid oedd efe yn edrych yn mlaen mewn awydd am y frenhiniaeth, mwy nag y gofalai baban pa beth a roddid iddo ar ol colli y fron.

Adn. 3. *Dysgwylid Israel wrth yr Arglwydd*] Yn unig, fel yr wyf fi yn gwneyd; *o'r pryd hwn hyd yn dragwydd*—am bethau tymhorol, ysbrydol, a thragwyddol. Ond

glwydd, o'r pryd hwn hyd yn dragwydd.

SALM CXXXII.

O ARGLWYDD, cofia Dafydd, a'i holl flinder.

2 Y modd y tyngodd efe wrth yr Arglwydd, ac yr addunodd i rymus *Dduw* Jacob.

3 Ni ddeuaf i fewn pabell fy nhŷ, ni ddringaf ar erchwyn fy ngwely;

4 Ni roddaf gwsg i'm llygaid, na hŷn i'm hamrantau.

5 Hyd oni chaffwyf lei'r Arglwydd, preswylfod i rymus *Dduw* Jacob.

tybia rhai fod cyfeillion Dafydd, trwy eu bod wedi blino ar lywodraeth orthrymus Saul, am ei osod ef ar yr orsedd yn lle Saul; a bod Dafydd yma yn eu cynghori hwynt i fod yn llonydd, a dysgwyl wrth yr Arglwydd, yr hwn a wnai bob peth yn iawn yn ei amser a'i dretin ei hun.

SALM CXXXII. Y teitl yw, '*Caniad y Graddau*;' gwel deitl Salm cxx. Meddylir yn gyffredin mai *Solomon* a gyfansoddodd y Salm hon, ar ol iddo adeiladu y deml, a chwblhau yr hyn a fwriadwyd gan ei dad Dafydd. Y mae yn debyg iddo ei bwriadu i'w channu ar gysegriad y deml, yr hon y dymunai efe i Dduw gymeryd meddiant o honi, adn. 8—10; canys â geiriau yr adnodau hyn y gorphenai efe ei weddi gysegrol. 2 Cron. vi. 41, 42. Tybiodd *Aben Ezra* a *Kimchi* mai *Dafydd* a'i cyfansoddodd hi; ond nid yw hyn yn debygol. Dywed *Clarke* mai rhyw awdwr ysbrydol-edig a'i hysgrifionedd hi yn niwedd y caethiwed, 'a'i bod yn cyfeirio at adeiladiad yr ail deml, a gosodiad arch y cyfammod ynddi;' eithr efe a anghofiai fod yr arch yn un o'r pump o bethau na buont erioed yn yr ail deml: gwel ar Ezra iii. 12.

Adn. 1. *O Arglwydd, cofia Dafydd*] Cofia ei fod mewn cyfammod â thi, neu cofia ei dduwioldeb a'i sel dros dy wasanaeth a'th addoliad; *a'i holl flinder*—ei holl ddyoddetiadau yn dy achos, neu ei bryder a'i awydd i gael tŷ i'th ogoniant.

Adn. 2. *Y modd y tyngodd efe wrth yr Arglwydd*] Y byddai iddo godi tŷ i'th enw; *ac yr addunodd i rymus Dduw Jacob*—Hebr., 'i Gadarn Jacob,' yn y geiriau a gawn yn yr adnodau canlynol. Diamau iddo dyngu ac addunedu fel byn, er na choffeir hyn yn ei hanes ef.

Adn. 3. *Ni ddeuaf i fewn pabell fy nhŷ*] Sef ei dŷ newydd, 2 Sam. v. 11; *ni ddringaf ar erchwyn fy ngwely*—i gysgu yn y tŷ hwnw.

Adn. 4. *Ni roddaf gwsg i'm llygaid*] Sef cwsgr trwm dros noson gyfaint; *na hŷn i'm hamrantau*—ni wnafl gymaint a gorwedd ar fy nglwth i hepiant dros ychydig amser liw dydd.

Adn. 5. *Hyd oni chaffwyf lei'r Arglwydd*] Neu dir i godi allor a theml iddo; *preswylfod*

6 Wele, clywsom am dani yn Ephratah: cawsom hi yn maesydd y coed.

7 Awn i'w bebyll ef; ymgrymwn o flaen ei faine draed ef.

8 Cyfod, Arglwydd, i'th orphwysfa; ti, ac arch dy gadernid.

9 Gwisged dy offeiriad gyflawnder; a gorfoledd dy saint.

10 Er mwyn Dafydd dy was, na thro ymaith wyneb dy eneiuiog.

11 Tyngodd yr Arglwydd *mewn* gwirionedd i Dafydd; ni thry efe oddiw'rth hyny; O ffrwyth dy gorff y gosdaf ar dy orseddfaine.

12 Os ceidw dy feibion fy nghyffammod a'm tystiolaeth, y rhai a ddysgwyf iddynt; eu meibion hwythau yn dragywydd a eisteddant ar dy orseddfaine.

13 Canys dewisodd yr Arglwydd Seion; ac a'i chwennychodd yn drigfa iddo ei hun.

14 Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd: yma y trigaf; canys chwennychais hi.

15 Gan fendithio y bendithiaf ei lluniaeth: diwallaf ei thylodion â bara.

16 Ei hoffeiriad hefyd a wisgaf

i rymus Dduw Jacob—i drigo yn ein plith ar y ddaear. Y mae yn dra thebyg mai ar ol yr baint a grybwyllir yn 2 Sam. xxiv. 16, y gwnaeth Dafydd y llw a'r adduned uchod; a'r dydd hwnw efe a gafodd *dir* gan Arafnah neu Ornan, i adeiladu allor i'r Arglwydd yn ol ei adduned, ar yr hwn hefyd wedi hyny yr adeiladwyd y deml gan ei fab Solomon: gwel ar 2 Cron. iii. 1. Yr oedd Dafydd yn llawn ffruiadu adeiladu y deml ei hun, yn gystal a chwilio am dir iddi; ac efe a wnaethai hyny oni buasai i Dduw ei attal ef: gwel ar 2 Sam. vii. 5, &c.

Adn. 6. *Wele, clywsom am dani yn Ephratah*] Fod yr arch gynt yn Silo yn Ephratah, sef yn llwyth Ephraim; *cawsom hi yn maesydd y coed*—sef yn Ciriath-jeirim, ystyr yr hwn yw 'dinas y coed': gwel ar 1 Sam. vii. 2, a 2 Sam. vi. 2.

Adn. 7. *Awn i'w bebyll ef*] Y rhai hyn ydynt eiriau Solomon: fel pe dywedasai, Gan fod yr arch yn awr wedi ei dwyn i le sefydlog, gallwn gwrechu ati yn fwy cyson a chyffredinol nag o'r blaen: *ymgrymwn o flaen ei faine draed ef*—sef o flaen y drugareddfa, ar yr hon, rhwng y cerubiad, yr eisteddai y SECINA dwyfol: gwel ar Exod. xxv. 17—22.

Adn. 8. *Cyfod, Arglwydd, i'th orphwysfa*] Gwna y deml hon yn orphwysfa barhaus i ti dy hun; *ti, ac arch dy gadernid*—yr hon sydd arwydd a gwystl o'th gadernid a'th allu mawr o blaid dy bobl yn barhaus.

Adn. 9. *Gwisged dy offeiriad gyflawnder*] Bydded iddynt fod mor hynod am gyflawnder, santeiddrwydd, ac iachawdriaeth oddifewn, ag a ydynt am wychder eu gwisgoedd santaidd oddiallan, y rhai a orchymynais iddynt 'er gogoniant a harddwch,' Exod. xxviii. 2; *a gorfoledd dy saint*—yn y mwynhad o'th bresenoldeb di, a'th ddaioni iddynt yn dymhorol ac ysbrydol: gwel ar 2 Cron. vi. 41.

Adn. 10. *Er mwyn Dafydd dy was*] Sef er mwyn yr addewid a wnaethost ti i Dafydd a'i had; *na thro ymaith wyneb dy eneiuiog*—sef gwyneb Solomon, yr hwn a eneiuiwyd yn frenin yn lle Dafydd ei dad. Na fwrw fi ymaith o'th wyddfod, neu na ommedd i mi fy neisyfiadau hyn.

Adn. 11. *Tyngodd yr Arglwydd mewn*

gwirionedd i Dafydd] Fel y tyngasai Dafydd lw o ffyddlondeb i'r Arglwydd, adn. 2, felly y tyngodd yr Arglwydd lw o ffyddlondeb i Dafydd: *ni thry efe oddiw'rth hyny*—ond efe a'i cyflawna iddo yn berffaith: *O ffrwyth dy gorff y gosdaf ar dy orseddfaine*—yr hyn a gyflawnydd mewn rhan yn Solomon mab Dafydd, ond yn benaf yn Nghrist: gwel ar 2 Sam. vii. 12—16.

Adn. 12. *Os ceidw dy feibion fy nghyffammod a'm tystiolaeth*] Canys ar yr ammod hon yr oedd y frenhiniaeth i barhau yn mhlith hiliogaeth naturiol Dafydd, 1 Bren. viii. 25, a ix. 5, 6, 2 Cron. vi. 16; y rhai a ddysgwyf iddynt—yn fy ngair, a thrywyf mhroffwydi; *eu meibion hwythau yn dragywydd a eisteddant ar dy orseddfaine*—ond ni chadwodd ei feibion ef gyfammod Duw, ac am hyny trowyd hwynt o'r frenhiniaeth. Er i had Dafydd lywodraethu fel *tywysogion* hyd ddyfodiad y Messiah, eto nid eisteddodd un o honynt ar orseddfaine Israel fel *brenin* ar ol iddynt gael eu caethgludo i Babilon am eu heilunaddoliaeth.

Adn. 13. *Canys dewisodd yr Arglwydd Seion*] Sef Jerusalem, neu fynyddoedd Seion a Moriah; *ac a'i chwennychodd yn drigfa iddo ei hun*—i osod ei arch a'i gwsegr yno, yn hytrach na Silo neu Ciriath-jeirim.

Adn. 14. *Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd*] Sef Seion; *yma y trigaf*—yn mhlith fy addolwyr; *canys chwennychais hi*—o flaen pob lle arall: gwel ar Salm lxxiv. 2, a lxxvi. 2, a lxxviii. 67, 68. Ond rhaid i ni ystyried y deml yn Jerusalem fel cygod o'r EGLWYS CRISTIONOGOL; canys hon yn briodol yw ei 'orphwysfa ef yn dragywydd.' Y mae Seion er's oesoedd wedi ei 'haredig fel maes;' ond y mae eglwys Crist yn parhau fyth yn 'dy' Dduw, yr hwn yw eglwys y Duw byw,' 1 Tim. iii. 15.

Adn. 15. *Gan fendithio y bendithiaf ei lluniaeth*] Sef cynaliaeth dymhorol yr offeiriad a'r Lefiaid; *a diwallaf ei thylodion â bara*—ar eu dyfodiad i'r gŵyliau blynyddol, Neh. viii. 10. Ond tybia rhai fod yr addewidion hyn yn perthyn i holl drigolion Jerusalem, am ddiogonedd o luniaeth iddynt bob amser.

Adn. 16. *Ei hoffeiriad hefyd a wisgaf* *âg iachawdriaeth*] A grasau a bendithion

âg iachawdwriaeth: a'i saint dan ganu a ganant.

17 Yna y paraf i gorn Dafydd flaguro: darperais lamp i'm heneiniog.

18 Ei elynion ef a wisgaf â chywilydd: arno yntau y blodeua ei goron.

SALM CXXXIII.

WELE, mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd.

2 Y mae fel yr enaint gwerthfawr ar y pen, yn disgyn ar hyd y farf,

achubol; a'i saint dan ganu a ganant—yn y mwynbad o'r un bendithion ysbrydol. Yn adn. 9 y mae Solomon yn gweddio am y bendithion hyn, ac yma y mae Duw yn eu haddaw iddynt.

Adn. 17. *Yna y paraf i gorn Dafydd flaguro*] Neu i frenhiniaeth Dafydd lwyddo a ffynu yn ei had ar ei ol ef: *darperais lamp i'm heneiniog*—neu olynnydd iddo yn y frenhiniaeth o'i hiliogaeth ef: gwel ar 1 Bren. xi. 36, a xv. 4.

Adn. 18. *Ei elynion ef a wisgaf â chywilydd*] Trwy eu siomi bwynt yn eu bwriadau yn ei erbyn ef; *arno ymlau y blodeua ei goron*—cyfeiriad at y goron flodau a roddid gynt ar ben y buddugoliaethwr. Y meddwl yw, tra y byddai i elynion Dafydd a'i feibion gael eu maeddu, y byddai i'w frenhiniaeth hwythau gael ei sicrhau, ei lwyddo, a'i heangu yn rhyfedd. Ond fe allai mai at frenhiniaeth Crist, ein Dafydd ysbrydol ni, y cyfeirir yn benaf yn y ddwy adnod uchod.

SALM CXXXIII. Y teitl yw, 'Caniad y Graddau, o'r eiddo Dafydd.' Priodolir y Salm hon i Dafydd yn yr Hebraeg, y Syriaeg, a'r Vulgate. Y mae yn dra thebyg iddo ei hysgrifenu ar ddiwedd y rhyfel rhwng dau dŷ Saul a Dafydd, neu ar ol i'r llywthan ereill ymuno â gwŷr Juda ar ol gwrthryfel Absalom.

Adn. 1. *Wele, mor ddaionus*] Ynddo ei hun, ac yn ngolwg Duw; *ac mor hyfryd*—i deimlad y rhai a'i harferant; *yw trigo o frodyr yn nghyd*—mewn undeb, brawdgarwch, a chydgordiad! Y mae hyn yn ddaionus a hyfryd, pa un bynag fyddont ai brodyr mewn eglwys, teulu, neu wladwriaeth.

Adn. 2. *Y mae fel yr enaint gwerthfawr ar y pen*] Yr hwn a wneid o cinnamon peraid, calamus peraid, casia, ac olew olewyydden, yn disgyn ar hyd y farf—yr oedd y fath helaethrwydd o'r enaint hwn yn cael ei dywallt ar ben Aaron, nes yr oedd yn rhedeg i lawr ar hyd ei farf ef, ac ar hyd ymyl ei wisgoedd; ac yr oedd ei arogl mor ddymunol a hyfryd, nes y mae nazoroldeb undeb a brawdgarwch yn cael ei gyffelybu iddo yma. Yr oedd yr enaint hwn yn gysgod o doniau a grasau yr Ysbryd Glân: gwel ar Exod. xxx. 23—33.

Adn. 3. *Fel gwllith Hermon*] Yr hwn oedd

sef barf Aaron; yr hwn oedd yn disgyn ar hyd ymyl ei wisgoedd ef; 3 Fel gwllith Hermon, ac fel y gwllith yn disgyn ar fynyddoedd Seion: canys yuo y gorchymynodd yr Arglwydd y fendith, sef bywyd yn dragywydd.

SALM CXXXIV.

WELE, holl weision yr Arglwydd, bendithiwyd yr Arglwydd, y rhai ydych yn sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos.

2 Dyrchefwch eich dwylaw yn y

yn disgyn yn helaeth yn y nos ar fynydd Hermon; ac fel y gwllith yn disgyn ar fynyddoedd Seion—Hebr., 'fel gwllith Hermon yn disgyn ar fynyddoedd Seion,' i'w hireiddio a'u ffrwythloni yn absenoldeb gwlaw. Trwy y gyffelybiaeth hon danghosir nid yn unig hyfrydych undeb a brawdgarwch, ond hefyd ei lesoldeb. Tybia rhai nad mynydd Seion yn Jerusalem a feddylir yma, ond y brynau hynny ag oeddynt yn ngodre mynydd Hermon, y rhai a elwid Seion, (Deut. iv. 48.) ac a wlychid gan wllith oddiar fynydd uchel Hermon. Ond tybia ereill mai mynydd Seion yn Jerusalem a feddylir yma, a bod undeb a brawdgarwch yn cael eu cyffelybu yma i'r gwllith nefol neu y bendithion ysbrydol a ddisgynent yno. *Canys yno y gorchymynodd yr Arglwydd y fendith*—sef yn y fan y mae undeb a brawdgarwch yn ffynu; *sef bywyd yn dragywydd*—bywyd o gysur a dedwyddwch parhaus. Ond tybia rhai mai yr ystyr yw, mai yn Seion, neu eglwys y Duw byw, y gorchymynodd yr Arglwydd, neu y trefnodd ac y sefydlodd efe, fendithion ysbrydol a thragyddol i'w holl wir addolwyr.

SALM CXXXIV. Y teitl yw, 'Cuniad y Graddau;' a'r Salm hon yw yr olaf o'r pymtheg a elwid felly: gwel deitl Salm cxx. Priodolir hi gan y Syriaeg i Dafydd. Ymddengys ei bod yn cynwys dwy ran, y rhai a genid yn yr hwyr wrth gau pyrth y deml: (1) Cyngbor yr archoffeiriad i'r offeiriad a'r Lefiaid a wylent y deml yn y nos, i dreulio eu hamser yn fuddiol, gan glodfori yr Arglwydd yn ddyladwy, adn 1, 2. (2) Gweddi yr offeiriad a'r Lefiaid ar ran yr archoffeiriad, wrth iddo fyned i orphwyo, adn. 3.

Adn. 1. *Wele, holl weision yr Arglwydd*] Sef yr offeiriad a'r Lefiaid, y rhai a wnaent i ffyn y wyladwriaeth; *bendithiwyd yr Arglwydd*—defnyddiwyd eich genedau a'ch calonau i ganu ei fawl ef, neu i ddatgan mor fawr a daionus ydyw; *y rhai ydych yn sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos*—i wylid yno yn ystod y gwyliadwriaethau, yn ol y drefn osod-edig: gwel ar 1 Cron. ix. 23—34.

Adn. 2. *Dyrchefwch eich dwylaw*] At Dduw mewn gweddi daer; *yn y cysegr*—yn nhŷ yr Arglwydd, lle yr ydych yn sefyll y nos; neu, 'mewn santeiddrwydd,' fel y mae

cysegr; a bendithiwech yr Arglwydd.

3 Yr Arglwydd yr hwn a wnaeth nefoedd a daear, a'th fendithio di allan o Seion.

SALM CXXXV.

MOLWCH yr Arglwydd. Molwch enw yr Arglwydd; gweision yr Arglwydd, molwch ef.

2 Y rhai ydych yn sefyll yn nhŷ yr Arglwydd, yn nghynteddoedd tŷ ein Duw ni,

3 Molwch yr Arglwydd; canys da yw yr Arglwydd: cenwch i'w enw, canys hyfryd yw.

4 Oblegid yr Arglwydd a ddetolodd Jacob iddo ei hun, ac Israel yn briodoriaeth iddo

5 Canys mi a wn mai mawr yw yr Arglwydd; a bod ein Harglwydd ni goruwch yr holl dduwiau.

6 Yr Arglwydd a wnaeth yr hyn oll a fynai yn y nefoedd, ac yn y ddaear, yn y môr, ac yn yr holl ddyfnderau.

7 Y mae yn codi tARTH o eithaf-oedd y ddaear; melt a wnaeth efe yn nghyda'r gwlaw; gan ddwyn y gwynt allan o'i drysorau.

8 Yr hwn a darawodd gyntafanedig yr Aiff, yn ddyn ac yn anifel.

9 Danfonodd arwyddion a rhyfeddodau i'th ganol di, yr Aiff; ar Pharao, ac ar ei holl weision.

10 Yr hwn a darawodd genhedloedd lawer, ac a laddodd frenhin-oedd cryfion;

ar ymyl y ddalen, ac fel y gorchymynir yn 1 Tim. ii. 8: *a bendithiwech yr Arglwydd*—yn wresog a diffuant trwy yr holl nos: gwel ar adn. 1.

Adn. 3. *Yr Arglwydd* Hyn, fel y bernir, yw atebiad yr offeiriad a'r Lefiaid; *yr hwn a wnaeth nefoedd a daear*—ac am hyny sydd â bendithion y ddau fyd wrth ei lywodraeth; *a'th fendithio di*—O archeoffeiriad, *allan o Seion*—mangre ei breswylfod. Fel pe dywedasant, Nyni a wnawn fel y gorchymynaist: dos dithau i orphwys hyd y bore, a thywalledt Duw fendithion y nefoedd a'r ddaear ar dy ben.

SALM CXXXV. Trwy nad oes un teitl i'r Salm hon, tybiodd rhai y dylid ystried 'Haleluia,' y gair cyntaf ynddi, fel teitl iddi. Cynwysa gyngbor i Israel oll, yn enwedig yr offeiriad a'r Lefiaid, i foliannu yr Arglwydd am ei weithredoedd rhyfedd, rhai o ba rei a enwir yma. Meddylir mai emyn foreol ydyw, yr hon y gorchymynid i'r offeiriad a'r Lefiaid ei chianu wrth agor y byrth yn y bore, fel y cenid y Salm ddiweddat wrth eu cau yn yr hwyr.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd* Hebr., 'Haleluia,' yr hwn ond odid yw teitl y Salm. *Molwch enw yr Arglwydd*—molwch Jehofa yn ei hanfod a'i briodoliaethau. *Gweision yr Arglwydd, molwch ef*—sef yr holl offeiriad a'r Lefiaid ag oeddynt y pryd hyny yn y deul.

Adn. 2. *Y rhai ydych yn sefyll yn nhŷ yr Arglwydd* Yn eich dyddgyloch priodol, Salm cxxxiv. 1; *yn nghynteddoedd tŷ ein Duw ni*—tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at y bobl gyffredin, y rhai a allent fod yn sefyll yn y cnytedd allanol.

Adn. 3. *Molwch yr Arglwydd* Oll gyda'ch gilydd; *canys da yw yr Arglwydd*—yn ei natur a'i weithredoedd: *cenwch i'w enw, canys hyfryd yw*—y mae canu iddo yn waith dymunol ynddo ei hun.

Adn. 4. *Oblegid yr Arglwydd a ddetolodd Jacob iddo ei hun* Sef hiliogaeth Jacob, y rhai oeddynt oll yn etheledigion i fwynhau

breintiau eglwysig: gwel ar Eph. i. 4: *ac Israel yn briodoriaeth iddo*—Sacs., 'yn drysor priodol' neu neillduol iddo: gwel ar Exod. xix. 5, 6.

Adn. 5. *Canys mi a wn mai mawr yw yr Arglwydd* Mawreded Jehofa yn anfeidrol, yr hyn oedd reswm arall dros ei foli ef; a *bod ein Harglwydd ni goruwch yr holl dduwiau*—gwel ar Salm lxxxvi. 8, a xcv. 3, a xcvi. 4. Gan mai Adon yw y gair yma am Arglwydd, tybia rhai mai yr Arglwydd Iesu a olygir yn y darn olaf.

Adn. 6. *Yr Arglwydd a wnaeth yr hyn oll a fynai yn y nefoedd, &c.* Ewyllys Duw yw ei reol i weithredu, pa un bynag ai mewn creadigaeth, rhaugluniaeth, ai gras; ond dylem gofio fod ei ewyllys a'i weithredoedd ef, bob amser mewn perffaith gysondeb â chyfiawnder, doethineb, a daioni.

Adn. 7. *Y mae yn codi tARTH o eithaf-oedd y ddaear* Yn gystal ag o'r môr, i beri gwlaw, Jer. x. 13, a xiv. 22; *melt a wnaeth efe yn nghyda'r gwlaw*—'y mae yn brawf mawr o ddwyfol ddoethineb a daioni,' ebai Horne, 'fod melt yn cael eu dilyn â gwlaw, i dnyneru eu cynddaredd, ac attal eu heffeithiau neweid-iol; *gan ddwyn y gwynt allan o'i drysorau*—i chwythu yn wan neu gryf, yn ol ei ewyllys ei hun. Yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid paganaidd priodolid y melt a'r taranu i Jupiter, a'r gwynti dduw arallaelwid Eolus; ond y mae y Salmudd yma yn dysgu i ni briodoli y peiriaunau wÿbrenol hyn i'w hiawn Berchenog; gan ddangos mai Duw sydd yn eu gwneyd, mai efe a'u piat, ac mai wrth ei ewyllys a'i lywodraeth ef y maent yn gweithredu.

Adn. 8. *Yr hwn a darawodd gyntafanedig yr Aiff* A marwolaeth, yr hyn oedd y degfed pla: gwel ar Exod. xi. 4, a xii. 29.

Adn. 9. *Danfonodd arwyddion a rhyfeddodau, &c.* Sef deg pla yr Aiff: gwel eu hanes Exod. vii—xii.

Adn. 10. *Yr hwn a darawodd genhedloedd*

11 Sehon brenin yr Amoriaid, ac Og brenin Basan, a holl freniniaethau Canaan :

12 Ac a roddodd eu tir hwynt *in* etifeddiaeth, yn etifeddiaeth i Israel ei bobl.

13 Dy enw, O Arglwydd, *a bery* yn dragywydd; dy goffadwriaeth, O Arglwydd, o genhedlaeth i genhedlaeth.

14 Canys yr Arglwydd a farna ei bobl, a bydd edifar ganddo o ran ei weision.

15 Delwau y cenhedloedd *ydnyt* arian ac aur, gwaith dwylaw dyn.

16 Genau sydd iddynt, ond ni lefarant; llygaid sydd ganddynt, ond ni welant.

17 Y mae clustiau iddynt, ond ni

chlywant; nid oes chwaith anadl yn eu genau.

18 Fel hwynt y mae y rhai a'u gwnant, a phob un a ymddiriedo ynddynt.

19 Tŷ Israel, bendithiwch yr Arglwydd: bendithiwch yr Arglwydd, tŷ Aaron.

20 Tŷ Lefi, bendithiwch yr Arglwydd: y rhai a ofnwch yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd.

21 Bendithier yr Arglwydd o Seion, yr hwn sydd yn trigo yn Jerusalem. Molwch yr Arglwydd.

SALM CXXXVI.

CLODFORWCH yr Arglwydd; canys *da yw*: o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

lawer] Sef saith genedl Canaan; *ac a laddodd frenhinoedd cryfion*—sef Sehon brenin yr Amoriaid, ac Og brenin Basan: gwel ar Num. xxi. 21, 35, Deut. ii. 26—36, a iii. 1, &c.

Adn. 11. *A holl freniniaethau Canaan*] Y rhai a enwir Jos. xii. 9—24.

Adn. 12. *Ac a roddodd eu tir hwynt*] Sef tir Sehon ac Og o du y dwyrain i'r Iorddonen, a thir brenhinoedd Canaan o du y gorllewin iddi; *yn etifeddiaeth i Israel ei bobl*—yn ol ei addewid i'w tadau hwynt.

Adn. 13. *Dy enw, O Arglwydd*] Sef gogoniant dy enw, fel awdr y gweithredoedd rhyfedd uchod; *a bery yn dragywydd*—holl ddyddiau y ddaear: *dy goffadwriaeth*—cofir byth, o genhedlaeth i genhedlaeth, mai ti a wnaethost hyn, mewn barn ar dy elynion, ac o gariad at dy bobl.

Adn. 14. *Cynys yr Arglwydd a farna ei bobl*] Bydd iddo mewn amser dyladwy amddiffyn ei bobl yn barhaus, neu roddi barn o'u plaid lwy yn erbyn en gelynyon. Ond tybia rhai mai yr ystyr yw, y bydd i Dduw gospi ei bobl, yr un modd a'i elynion, pan bechont i'w erbyn ef; ac felly y gwnaeth, fel y dengys eu caethgludiad i Assyria a Babilon, a'u gwasgariad presenol dros wyneb y ddaear: gwel ar Heb. x. 30. *A bydd edifar ganddo o ran ei weision*—ei fod wedi dangos cymaint o diriondeb i rai mor anffyddlon: gwel ar Gen. vi. 6. Neu yn hytrach, efe a newidia ei ymddygiadau tuag atynt, ac a eilw y ddedfryd drom bono yn ol, yr hon a gyhoeddasai efe yn eu herbyn o herwydd eu pechodau. Fe allai fod yma gyfeiriad at ddychwelliad yr Iuddewon i'w gwlad yn niwedd caethliwed Babilon.

Adn. 15—18. *Delwau y cenhedloedd ydynt arian ac aur, &c.*] Gwel ar Salm cxv. 4—8.

Adn. 19. *Tŷ Israel*] Sef holl genedl Israel; *bendithiwch yr Arglwydd*—addolwch a mawrygwch Jehofa yn unig, yr hwn a wnaeth gymaint eroch chwi, ac sydd hefyd yn rhagori mor fawr ar holl dduwiau y cenhedloedd. *Tŷ Aaron*—sef holl offeiriaid y cysegr.

Adn. 20. *Tŷ Lefi*] Sef holl lwyth Lefi, y rhai a neillduwyd i gynorthwyo yr offeiriaid yn ngwasanaeth y cysegr: *y rhai a ofnwch yr Arglwydd*—sef y proslertiaid crefyddol o blith y cenhedloedd: gwel ar Salm cxv. 9—11.

Adn. 21. *Bendithier yr Arglwydd o Seion*] Neu yn Seion; *yr hwn*—set yr Arglwydd, *sydd yn trigo yn Jerusalem*—fel Brenin yn mlith ei ddeiliaid, i'w llywodraethu a'u hamddiffyn; ac fel Duw yn inhlith ei bobl, i gael ei addoli a'i fendithio ganddynt. *Molwch yr Arglwydd*—Hebr., 'Haleliuia,' sef yr un gair ag yn nechre y Salm.

SALM CXXXVI. Y Salm hon, fel yr un flaenorol, sydd goffadwriaeth o ryfedd weithredoedd yr Arglwydd ar ran ei bobl Israel; a gelwid hi ganddynt lwy, 'Y diolchgarwch mawr.' Meddylir eu bod yn ei chanu bob dydd, yn enwedig ar eu gŵyliau arbenig; un blaidd yn canu y rhan flaenaf o bob adnod, a'r blaidd arall yn ateb yn y rhan olaf, 'O herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd.' Chwanegir y goiriau hyn yn niwedd pob adnod, i'r dyben i'w gwneuthur lwy yn fwy teimladwy o'u dyled i drugaredd Duw am y clwb a feddant, ac i'w hannog i ymddiriediaid llwnach yn ei drugaredd ef rhagllaw. Cymbhellwyd y ffurf hon gan Dafydd i'w harferyd yn barhaus, 1 Cron. xvi. 34, 41; a chan Solomon, 2 Cron. 7. 13, a vii. 3, 6; a chan Jehosaphat, 2 Cron. xx. 21.

Adn. 1. *Clodforwch yr Arglwydd*] Saes., 'O diolchwch i'r Arglwydd;' *canys da yw*—yn ei natur a'i weithredoedd: *o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd*—yr llyn sydd yn brawf o'i ddaioni ef, ac o'n dyled ninau i'w glodfori a diolch iddo. Y mae ei drugareddau tymhorol ef yn parhau hyd ddiwedd amser, a phery ei drugareddau ysbrydol hyd eithaf tragwyddoldeb. Dywed Clarke y gellir cyfieithu y frawddeg olaf, *ki leolam chasdo*, 'O herwydd ei dyner drugaredd sydd i'r oes a ddel;' ac efe a dybia y gall hyn fod yn cyfeirio at y dadleniad neillduol hwnw o'i drugaredd yn

2 Clodforweh Dduw y duwiau : oblegid ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

3 Clodforweh Arglwydd yr arglwyddi : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

4 Yr hwn yn unig *sydd* yn gwneuthur rhyfeddodau : canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

5 Yr hwn a wnaeth y nefoedd mewn doethineb : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

6 Yr hwn a estynodd y ddaear oddiar y dyfroedd : oblegid ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

7 Yr hwn a wnaeth oleuadau mawrion : canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd :

8 Yr haul, i lywodraethu y dydd : canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd :

9 Y lleuad a'r ser, i lywodraethu y nos : canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

10 Yr hwn a darawodd yr Aifft yn eu cyntafanedig : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

11 Ac a ddyg Israel o'u mysg hwynt : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd :

12 A llaw gref, ac â braich estynedig : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

13 Yr hwn a ranodd y môr coch yn ddwy ran : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

14 Ac a wnaeth i Israel fyned trwy ei ganol : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

15 Ac a ysgytioedd Pharao a'i lu yn y môr coch : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

16 Ac a dywysodd ei bobl trwy yr anialwch : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

17 Yr hwn a darawodd frenhinoedd mawrion : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd :

18 Ac a laddodd frenhinoedd ardderchog : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

19 Sehon brenin yr Amoriaid : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd :

20 Ac Og brenin Basan : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd :

21 Ac a roddodd eu tir hwynt yn etifeddiaeth : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd :

mhrynedigaeth y byd trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

Adn. 2, 3. *Clodforweh Dduw y duwiau*] Yr hwn *sydd* yn anfeidrol ragori ar bawb a elwir yn 'dduwiau,' pa un bynag ai angylion, dynion, ai eilunod. Ond gan fod *adonai* yn arwyddo *lywodraethwr*, &c., gall ei fod yn meddwl yma, nid *eilunod*, canys yn briodol nid yw Duw yn Dduw iddynt hwy; ond yr offeiriad a'r llywodraethwr ysbrydol; fel y mae *Arglwydd yr arglwyddi*, yn adn. 3, yn meddwl brenhinoedd, tywysogion, ac ynadon. Y mae Jehofa yn Dduw ac yn Llywodraethwr ar holl lywodraethwyr y ddaear, mewn pethau gwladol ac eglwysig.

Adn. 4. *Yr hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau*] Hebr., 'gwyrrthiau,' sef gwrthdroad, attaliad, mewn ddi-ddymiad deddfau natur. Nid yw *tresn sefydlog natur* mewn gwirionedd yn llai rhyfeddod na *gwyrrth*, neu gyfryngiad hollalluogrwydd Duw; ond fod yr olaf, o herwydd ei hanamledd, yn effeithio yn ddwysach ar ein meddyliau ni na'r gyntaf, yr hon a welwn bob dydd.

Adn. 5. *Yr hwn a wnaeth y nefoedd mewn doethineb*] Sef y nef wrybrenol a serenog. Y mae doethineb anfeidrol Duw i'w ganfod yn neillduol yn flurfiad, cynaliad, llywodraethiad, a dylanwad y cyrff nefol ar eu gilydd.

Adn. 6. *Yr hwn a estynodd y ddaear oddiar y dyfroedd*] Yn uwch na'r dyfroedd, fel na

lifont drosti; neu, fel y tybia rhai, gall fod yma gyfeiriad at gorff o ddyfroedd yn nghrombil y ddaear, 'bodoldeb yr hwn,' fel y sylwa *Clarke*, 'ni wrthbrofydd eto.'

Adn. 7—9. *Yr hwn a wnaeth oleuadau mawrion*, &c.] Gwel y sylwadau ar Gen. i. 14—18. A thrugaredd fawr i'n byd ni oedd gwneuthur yr haul, y lleuad, a'r ser; a phery y drugaredd hon hyd ddiwedd amser: gwel ar adn. 1.

Adn. 10. *Yr hwn a darawodd yr Aifft yn eu cyntafanedig*] Gwel ar Exod. xi. 4, a xii. 29.

Adn. 11, 12. *Ac a ddyg Israel o'u mysg hwynt*] A llaw gref, ac â braich estynedig, yr hyn a arwydda hollalluogrwydd Jehofa: gwel ar Exod. vi. 6.

Adn. 13, 14. *Yr hwn a ranodd y môr coch yn ddwy ran*] Fel y gallai Israel fyned trwy ei ganol ar dir sych: gwel ar Exod. xiv. 21, 22.

Adn. 15. *Ac a ysgytioedd Pharao a'i lu yn y môr coch*] Y mae y gair 'ysgytiodd' yn arwyddo, 'eu hysgwyd gyda nerth mawr,' neu eu tynu yn ol ac yn mlaen, i fyny ac i lawr: a boddwyd Pharao a'i lu o 'drugaredd' i Israel, i'w hachub rhag eu llid hwynt.

Adn. 16. *Ac a dywysodd ei bobl trwy yr anialwch*] Yr hyn a wnaeth efe am ddeugain mlynedd, trwy golofn niwl a than, gan eu porthi hwynt yno yn wyrthiol a thrugarog.

Adn. 17—20. *Yr hwn a darawodd frenhinoedd mawrion*] Sef Sehon brenin yr Am-

22 Yn etifeddiaeth y Israel ei was : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

23 Yr hwn yn ein hisel-radd a'n cofodd ni : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd :

24 Ac a'n hachubodd ni oddiwrth ein gelynyon : o herwydd ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

25 Yr hwn sydd yn rhoddi ymborth i bob cnawd : canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

26 Clodforwch Dduw y nefoedd : canys ei drugaredd *sydd* yn dragywydd.

oriaid, ac Og brenin Basan : gwel ar Salm cxxxv. 10, 11.

Adn. 21. 22. *Ac a roddodd eu tir hwynt yn etifeddiaeth*] I lwythau Israel, yn ol ei addewid i'w tadau hwynt.

Adn. 23. *Yr hwn yn ein hisel-radd a'n cofodd ni*] Sef yn eu cyflwr isel a dirmydedig yn yr Aifit, ac wedi hynny yn yr anialwch ac yn Nghanaan.

Adn. 24. *Ac a'n hachubodd ni oddiwrth ein gelynyon*] Yn amser y Barnwyr lawer gwaith, ac wedi hynny yn amser Dafydd a brenhinoedd ereill.

Adn. 25. *Yr hwn sydd yn rhoddi ymborth i bob cnawd*] I ddyn ac anifel, elhediaid a physgod. Ac y mae nid yn unig trugaredd Duw, ond hefyd ei allu a'i ddoethineb, i'w gwled yn amlwg yn narpariaeth gwahanol fathau o ymborth cyfaddasol i natur ac archwaeth pob creadur.

Adn. 26. *Clodforwch Dduw y nefoedd*] Clodfod pawb ef, o herwydd ei fawredd a'i allu, ei ddoethineb a'i drugaredd : *canys ei drugaredd sydd yn dragywydd*—gwel y teitl, a'r sylw ar adn. 1.

SALM CXXXVII. Nid oes teitl i'r Salm hon yn yr *Hebraeg* na'r *Galdeag* ; ac nid yw yn eglur pwy yw ei hawdrwr hi ; ond ymddengys iddi gael ei hysgrifenu gan un o'r caethion, ond odid gan *Hoggai*, yn ystod y caethiwd Babilonaidd, neu yn fuan ar ol eu hadferiad i'w gwlad. Yma arddanghosir y caethion yn cwyno ac yn galaru o herwydd gwawd eu gelynyon ; eto y maent yn cofio am Jerusalem, ac yn rhagweld dinystr Babilon. Gellir ystyried y Salm hon fel darluniad o gyflwr adfyddus y saint yn y byd hwn, a'u gwaredigaeth ddysgwyliedig allan o hono.

Adn. 1. *Wrth afonydd Babilon*] Y mae yn debyg mai y *Tigris* a'r *Euphrates* a olygir yma ; neu ynte *Chebar* ac *Ulai*, y rhai a ymarlloesent i'r *Euphrates*. *Yno yr eisteddasom*—agwedd arwrol galarwyr, Job ii 13, Esay xlvii. 1, 5. *Ac wylasom pan feddylisom am Seion*—am ei chyflwr adfeiliedig hi ar y pryd, neu ynte am eu cyflwr dedwydd hwy eu hunain yno gynt. Gan yr arferai yr Iuddewon, pan allan o'u gwlad, gynol cyfarfodydd cref-

SALM CXXXVII.

WRTH afonydd Babilon, yno yr eisteddasom, ac wylasom pan feddylisom am Seion.

2 Ar yr helyg o'u mewn y erogasom ein telynau.

3 Canys yno y gofynodd y rhai a'n caethiwasant i ni gân ; a'r rhai a'n hanrheithiasai, lawenydd, gan *ddedwydd*, Ceuwch i ni rai o ganiadau Seion.

4 Pa fodd y canwn gerdd yr Arglwydd mewn gwlad ddeythr ?

5 Os anghofiaf di, Jerusa-

yddol ar lánau afonydd, tybia rhai mai hynny oedd eu gwaith wrth afonydd Babilon y pryd hyn : gwel ar Act. xvi. 13.

Adn. 2. *Ar yr helyg o'u mewn*] Sef rhwng eu canghenau, neu o lewn glánau yr afonydd hynv ; y *erogasom ein telynau*—ymddengys i'r Lefiaid, cantorion y deml, gymyrd eu hoffierynau cerdd gyda hwynt i Babilon, fel y gallent naill ai canu clodydd Jehofa yno, neu eu defnyddio hwynt eiolwath yn Jerusalem os byth y denent yn ol. Yr oedd llawer o helyg yn tyfu ar lánau yr *Euphrates*, yr hon a elwid yn 'afon yr helyg,' Esay xv. 7. Y mae yn debyg i'r Iuddewon fyned at yr afon ar ol gadael eu gorchwylion yn yr hwyr, i'r dyben i ganu a gweddio ; ond llanwyd hwynt a'r fath hiraeth wrth feddwl am eu gwlad, fel y troisant i wylu yn lle canu, a chrogasant eu telynau ar yr helyg.

Adn. 3. *Canys yno y gofynodd y rhai a'n caethiwasant i ni gân*] Sef y Babiloniaid, y rhai a'u dylynasant hwy i lán yr afon i glywedd eu cerddoriaeth ardderchog ; *a'r rhai a'n hanrheithiasai, lawenydd*—sef caniadau i'w llawenau a'u difyru hwy. *Ceuwch i ni rai o ganiadau Seion*—yr oedd eu caethiwo a'u hanrheithio gan y paganiaid hyn yn ofid mawr iddynt ; ond yr oedd gofyn am ganiadau santaidd y cysegr i'w difyru hwy, neu i fod yn destyn gwawd iddynt, yn eu gofidio yn fwy na'r cwbl.

Adn. 4. *Pa fodd y canwn gerdd yr Arglwydd*] Neu y caniadau santaidd a gorfoleddus â pha rai y clodforem yr Arglwydd yn Seion ; *mewn gwlad ddeythr*—yn mysg paganiaid eilunaddolgar, er difyrywch cnawdol iddynt hwy, neu i gael eu gwawdio ganddynt ! Neu, pa fodd y gallwn ni ganu mewn cyflwr o gaethiwd a darostyngiad fel hyn ! Nid oedd yn anghyfreithlon canu hyd yn nod yn mysg y Cenedloedd, pan fyddai y galon mewn hwyli i ganu, Salm xviii. 49 : ond yr oedd amcan y rhai hyn rywbeth yn debyg i eiddo y Philistiaid, pryd y gyrasant am Samson i chwareu iddynt ar ol colli ei lygaid, 'i beri iddynt chwerrhin,' Barn. xvi. 25.

Adn. 5. *Os anghofiaf di, Jerusalem*] Os anghofiaf y dinystr a syrthiodd arnat ; neu os âf i ymddifyru mewn digrifwch, fel pe bawn

lem, anghofied fy neheulaw ganu.
6 Glyned fy nhafod wrth dafnod fy ngenau, oni chofaf di; oni chodaf Jerusalem goruwch fy llawenydd penaf.

7 Cofia, Arglwydd, blant Edom yn nydd Jerusalem; y rhai a ddywedent, Dynoethwch, dynoethwch hi hyd ei sylfaen.

8 O ferch Babilon, a anrheithir: gwyn ei fyd a dalo i ti fel y gwnaethost i ninau.

yn dy aungbodio di; *anghofied fy neheulaw ganu*—ar y delyn, yr hyn a ddysgasai efe o'i ieuenticid. Yr Hebraeg yw, 'anghofied fy neheulaw,' heb fynegu pa beth: fel pe dywedasai, Anghofied fy neheulaw bob gwaith, neu analluoger hi i wneyd pob peth ag yr aiferai ei wneuthur.

Adn. 6. *Glyned fy nhafod wrth dafnod fy ngenau*] Fel na allo ganu, lefaru, na symud; *oni chofaf di*—gyda'r fath anwydeb a chydymdeimlad ag a baro i mi ddirmygu a ffeiddio pob difyrwch arall; *oni chodaf Jerusalem goruwch fy llawenydd penaf*—Saes., 'oni ddewisaf Jerusalem o flaen fy llawenydd penaf.' Y meddwl yw, Glyned ei dafnod felly os na fyddai iddo garu Jerusalem, a'i theml, a'i haddoliad santaidd, yn fwy na phob hyfrydwch arall; neu os na fyddai i drueni presenol Jerusalem effeithio mor ddwys arno, fel ag i atfal iddo ymddifyru mewn dim arall. Yma y mae yr holl genedl yn tystio megys yn gwir, fel y sylwa *Horne*, na fydd i gystuddian na phleserau Babilon ddileu o'u meddwliau y goffadwriaeth am Jerusalem, nac atall iddynt edrych yn mlaen am eu hadferiad gogoneddus dyfodol. Os byddai i unrhyw ludoliaeth eu tueddu hwy i ddefnyddio eu tafodau a'u dwylaw yn ngwasanaeth Babel yn lle yn ngwasanaeth Seion, ewyllsient gollu defnyddiad y naill, a medruswydd y llall.

Adn. 7. *Cofia, Arglwydd, blant Edom*] Sef hiliogaeth Esau bravd Jacob; *yn nydd Jerusalem*—cofia eu hymddygiad creulon hwy yn nydd dinystr Jerusalem; *y rhai a ddywedent*—yr amser hwnw, *Dynoethwch, dynoethwch hi hyd ei sylfaen*—ymddengys oddiwrth Jer. xii. 6, Galar. iv. 21, 22, Eze. xxv. 12, Obed. 9—14, ddarfod i'r Edomiaid ymuno â byddin Nebuchodonosor yn erbyn eu brodyr yr Iuddewon, a'u bod yn brif offerynnau i ddy-noethi neu ddinystrio muriau Jerusalem hyd y llawr.

Adn. 8. *O ferch Babilon*] Sef dinas ac amherodraeth Babilon; a *anrheithir*—Saes., 'yr hon wyt i gael dy ddyfetha:' *gwyn ei fyd a dalo i ti fel y gwnaethost i ninau*—cyeitirir yma ond odid at *Cyrus*, yr hwn a ddewiswyd gan Dduw fel offeryn i ddyfetha Babilon, ac am hynny a elwir yn wynfydedig. Ond gwnaed mwy o ddfodiadau yno wedi hynny gan *Darius Hystaspes*, yr hwn a laddodd wŷr, gwragedd, a phlant yn y modd mwyaf barbaraid a chrenlon: gwel *Herod.*, llyfr iii.

9 Gwyn ei fyd a gymero ac a darawo dy rai bach wrth y meini.

SALM CXXXVIII.

CLODFORAF di â'm holl galon: yn ngwydd y duwiau y canafit'.

2 Ymgrymaf tua'th deml sant-aidd, a chlodforaf dy enw, am dy drugaredd a'th wirionedd: oblegid ti a fawrheist dy air uwchlaw dy enw oll.

Adn. 9. *Gwyn ei fyd a gymero ac a darawo dy rai bach wrth y meini*] Ymddengys oddiwrth Galar. ii. 11, 12, i'r Babiloniaid ladd llawer o blant yr Iuddewon wrth gymeryd Jerusalem, a hynny ond odid trwy eu taraw hwy yn erbyn y meini; ac awgrymir yma y gwneid felly i'w plant hwythau, yn ol profwydoliaeth Esay, pen. xiii. 16. Nid yw y brofiwydoliaeth hon o eiddo Esay, na dywydiad y Silmydd yn y testyn, yn annogiad i'w arbelyd creulondeb; nid yw y naill na'r llall ddim amgen na *rhagfymegiad* o'r hyn a gymerai le yn nhrefn rhagluniaeth Duw mewn ffordd o gyfiawnder ad-daledigol.

SALM CXXXVIII. Y teitl yw, '*Salm Dafydd*.' Y mae yr Hebraeg a'r holl gyfieithiadau yn ei phriodoli i Dafydd; a meddylir iddo ei chyfansoddi ar ol iddo gael ei waredu oddiwrth ei holl elynion, a'i sicrhau ar orseddfainc Israel. Ymddengys oddiwrth y LXX a'r *Arabaeg*, iddi gael ei defnyddio gan *Haggai* a *Zechariah*, ar orphaniad yr ail deml, fel ffurf o ddiolchgarwch i Dduw am eu gwaredigaeth o ddwyllaw eu gelynnion, a'u sefydliad yn eu gwlad eu hunain.

Adn. 1. *Clodforaf di â'm holl galon*] 'O Arglwydd.' Chwanegir hyn mewn amrai ysgriflyfrau a chyfieithiadau. *Yn ngwydd y duwiau y canaf it'*—sef yn ngwydd brenhin-oedd a thywysogion, barnwyr ac ynadon. Ond y mae y LXX, y *Vulgate*, yr *Ethiopaeg*, a'r *Anglo-Saxon*, yn ei ddarllen, 'yn ngwydd yr angylion,' y rhai y meddylid eu bod yn wyddfodol yn nghynulleidfaoedd y saint. Neu, yn ol *Clarke*, 'o flaen yr arch, lle yr oedd yr arwyddion santaidd o'r Goruchaf.'

Adn. 2. *Ymgrymaf tua'th deml santaidd*] Sef tua'r cysegr santaiddiolaf yn y babbell, lle yr oedd yr arch a'r drugareddfa, i ba le ni chaniateid hyd yn nod i'r brenin fyned; a *chlodforaf dy enw am dy drugaredd*—yn addaw i mi dy ffair a'th fendith; *a'th wirionedd*—yn cyflawni yr addewid hono: *oblegid ti a fawrheist dy air*—danghosaist dy ffyddlondeb yn y cyflawniad o'th addewid; *uwchlaw dy enw oll*—yn fwy na'th holl berffeithderan ereill; neu 'mawrheist, yn y cyflawniad o'th addewid, dy enw goruwch pob enw.' 'Mawrheist dy enw a'th air uwchlaw oll.'—*Clarke*. 'Mawrheist dy enw yn mhob gair o'r eiddot.'—*Kimchi*, 'Mawrheist uwchlaw pob dim dy air a'th allu.'—*Dimock*. Tybia

3 Y dydd y llefais, y'm gwrandewaist; ac a'm cadarnheist â nerth yn fy enaid.

4 Holl frenhinoedd y ddaear a'th glodforant, O Arglwydd, pan glyw-ant eiriau dy enau.

5 Canant hefyd am ffyrdd yr Arglwydd: canys mawr yw gogoniant yr Arglwydd.

6 Er fod yr Arglwydd yn uchel, eto efe a edrych ar yr isel: ond y balch a edwyn efe o hirbell.

7 Pe rhodiwn yn nghanol cyfyng-

rhai mai yr addewid o Grist a'i iachawdriaeth a olygir yma; ond y mae yn debycach mai cyfeirio y mae Dafydd at y llonyddwch, yr anrhydedd, a'r llyfddiant a roddasai Duw iddo ef: gwel y teitl.

Adn. 3. *Y dydd y llefais, y'm gwrandewaist* Yr hyn a ddengys barodrwydd Duw i wrando gweiddiau ei bobl; ac a'm cadarnheist â nerth yn fy enaid—ond odid trwy roddi iddo yr addewid ag y cyfeiriwyd ati uchod. Y mae y frawddeg olaf yn egluro y flaenaf, ac yn dangos yn mha ystyr y gwrandawodd Duw ef mor ebrwydd; nid trwy roddi iddo y dydd hwnw y peth a ddymunai, ond trwy roddi iddo addewid o hono, a gras i ddsyngwl yn amyneddgar am dano hyd amser Duw.

Adn. 4. *Holl frenhinoedd y ddaear* Neu y brenhinoedd o amgylch Canaan; a'th glodforant, O Arglwydd—pan glywant am dy addewidion a'th ddaioni i mi. Neu fe allai mai profwydoliaeth yw y geiriau hyn am alwad y Ceulredoedd, yn frenhinoedd yn gystal a deilliad, dan deyrnasiad y Messia: gwel ar Salm lxxii. 11. *Pan glywant eiriau dy enau*—neu bregethiad yr efengyl yn eu plith.

Adn. 5. *Canant hefyd am ffyrdd yr Arglwydd* Am ffyrdd ei ragluniaeth, ei ras, a'i iachawdriaeth trwy ffydd yn aberth ei Fab; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'canant yn ffyrdd yr Arglwydd;' hyny yw, nid yn unig daw holl frenhinoedd y ddaear i rodio yn ffyrdd yr Arglwydd, ond byddant wrth eu bodd ynddynt, yn kann mewn hyfrydwch a gorfoledd. *Canys mawr yw gogoniant yr Arglwydd*—ynddo ei hun; neu bydd i'r ddaear oll gael ei 'llenwi o wybodaeth gogoniant yr Arglwydd, fel y toa y dyfroedd y môr,' Hab. ii. 14.

Adn. 6. *Er fod yr Arglwydd yn uchel* Yn preswyllo yn uchel, neu yn anfeidrol uchel o ran ei natur a'i briodoliaethau; eto efe a edrych ar yr isel—a edrych yn drugarog a maddeugar ar ddynt isel, gwael, a thruenus, a fyddo yn 'erynu wrth ei air ef,' Esay lxvi. 2: ond y balch a edwyn efe o hirbell—efe a'i cenfydd ef o hirbell i'w wrthwynebu, ei ddarostwng, a'i gopsi; neu efe a'i ceidw ef yn mhell oddiwrtho, gan ei ddirmygu ef, fel y dirmygodd yntau rai ereill: gwel ar Salm ci. 5.

Adn. 7. *Pe rhodiwn yn nghanol cyfyng-*
der Neu beryglon bywyd; ti a'm bywhait

der, ti a'm bywhait: estynit dy law yn erbyn digofaint fy ngelynyion, a'th ddeheulaw a'm hachubai.

8 Yr Arglwydd a gyflawna â mi: dy drugaredd, Arglwydd, sydd yn dragywydd: nac esgeulusa waith dy ddwyllaw.

SALM CXXXIX.

A RGLWYDD, chwiliaist, ac adnabuost fi.

2 Ti a adwaenost fy eisteddiadau a'm cyfodiad: dealli fy meddwl o bell.

—trwy sirioli fy meddwl a chadw fy mywyd: estynit dy law yn erbyn digofaint fy ngelynyion—i'm noddï rhag eu cynyddaredd hwy; a'th ddeheu'law a'm hachubai—sef dy north hollalluog.

Adn. 8. *Yr Arglwydd a gyflawna â mi* Ei holl addewidion a'i fwriadau daionus. *Dy drugaredd, Arglwydd, sydd yn dragywydd*—gwel ar Salm cxxvi. 1. Efe a grybwylla hyn fel prawf y cyflawnai Duw ei addewidion iddo, megys y tystia efe uchod: neu fel sail i ofyn am yr hyn a ganlyn. *Nac esgeulusa waith dy ddwyllaw*—sef person Dafydd, a duwiolion ereill; neu ynte waith ei ras yn eu heneidiau hwy, neu weithredoedd ei ragluniaeth o'u plaid.

SALM CXXXIX. Y teitl yw, '*I'r pencerdd, Salm Dafydd.*' Y mae yr Hebraeg, a'r cyfieithiadau yn gyffredin, yn priodoli y Salm hon i *Dafydd*; a thybia rhai esbonwyr iddo ei chyfansoddi pan yn cael ei gyhuddo o ddrwg-fwriad yn erbyn Saul, ac o ddefnyddio crefydd fel cochel i guddio ei amcanion uchelfrydig. Yn y goleuni yma gellir edrych ar y Salm hon fel apeliad difrifol Dafydd at holl-bresenoldeb a hollwybodaeth Duw yda golwg ar ei ddiawiweidrwydd yn y pethau hyn. Ond myn *Clarke* ac ereill nad Dafydd a'i hysgrif-enodd hi, eithr rhyw ŵr ysbrydoleddig arall yn amser y caethiwed Babilonaidd, neu yn fuan ar ol hyny; a chasglant hyny yn benaf oddi-wrth ymadroddion *Caldeaid* a geir yn y wreiddiol yn adn. 2, 3, 7, 9, 19, 20. Ond pwy bynag yw ei hawdwr, neu ar ba achlysur bynag y cyfansoddwyd hi, addeffir yn gyffredinol fod ei syniadau yn dra arddunawl, ei harddull yn oruchel, a'i delweddau yn amrywiol, cynwysfawr, a phwysig. Dywed rhai o'r doctoriaid Iuddewig mai bon yw y Salm fwyaf mawreddog a rhagorol yn yr holl lyfr.

Adn. 1. *Arglwydd, chwiliaist, ac adnabuost fi* Neu, adnabnost fi mor drwyadl ag yr adnabydda dynion y pethau a chwiliant. Fel hyn apelia Dafydd at hollwybodaeth Duw, ei fod yn ddiueug o'r pethau ag y cyhuddid ef o'u plegid: gwel y teitl.

Adn. 2. *Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm cyfodiad* Sef fy holl symudiadau allanol; *dealli fy meddwl*—fy mwriadau a'm dychymygyion mewnol; *o bell*—yn hir cyn iddynt gael eu ffurfio, i.e. er tragwyddoldeb; ac am byth

3 Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa; a hysbys wyt yn fy holl ffyrdd.

4 Canys nid oes air ar fy nhafod, ond wele, Arglwydd, ti a'i gwyddost oll.

5 Amgylchynaist fi yn ol ac yn mlaen, a gosodaist dy law arnaf.

6 *Dyma* wybodaeth ry ryfedd i mi: nchel yw, ni fedraf oddiwrthi.

7 I ba le yr âf oddiwrth dy Ysbryd? ac i ba le y ffoaf o'th wydd.

8 Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti: os cyweiriaf fy ngwely yn uffern, wele di yno.

9 *Pe* cymerwn adenydd y wawr,

wedi y ffurfier hwynt. Dywedir mai y gair am 'feddwl' yma yw *lerei*, yr hwn sydd air Caldeaid: gwel Dan. ii. 29, 30.

Adn. 3. *Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa*] Trwy dy hollbresenoldeb; a *hysbys wyt yn fy holl ffyrdd*—trwy dy hollwybodaeth.

Adn. 4. *Canys nid oes air ar fy nhafod*] Da na drwg; ond *wele, Arglwydd, ti a'i gwyddost oll*—yn ei ystyr, ei ddyben, a'i ganlyniadau.

Adn. 5. *Amgylchynaist fi yn ol ac yn mlaen*] Trwy dy hollwybodaeth, neu yn llwybr dy ragluniaeth; a *gosodaist dy law arnaf*—neu gallest ei gosod, gan mor agos oedd it ataf o bob tu.

Adn. 6. *Dyma wybodaeth ry ryfedd i mi*] Sef dy hollwybodaeth di, yr hon nis gallaf ei darlunio na'i deall: *uchel yw*—y mae yn anfeidrol uwchlaw fy amgylfrediad i; *ni fedraf oddiwrthi*—ni fedraf ffurfio un dychymyg iawn am dani.

Adn. 7. *I ba le yr âf oddiwrth dy Ysbryd?*] Oddiwrthyt ti, yr hwn wyt ysbryd; neu oddiwrth dy Ysbryd Santaid, fel y mae rhai yn ei ddeall, sef y trydydd person yn y Drindod. *Ac i ba le y ffoaf o'th wydd?*—Hebr., *mippaneychu*, 'oddiwrth dy WYNEBU.' Dr. A. Clarke a ofyna yma, 'Paham yr ydym yn cyfarfod â'r gair hwn mor fynych yn y rhif *luosog*, pan yn cael ei gymhwyso at Dduw? A phaham y cawn ei *Ysbryd* ef, a'i *wynebau*, ill dau yma? Byddai i *Drindodiad* ddywedyd at unwaith, 'Y *luosog*grwydd o bersonau yn y Dduwdd a fwierid'; a phwy all brofi ei fod ef yn camgymeryd?'

Adn. 8. *Os dringaf i'r nefoedd*] Gan feddwl y byddwn yno yn mhell uwchlaw i ti; *yno yr wyt ti*—eisioes, yn teyrnasu mewn gogoniant amlyeach nag mewn un man arall: *os cyweiriaf fy ngwely yn uffern*—yn y dyfnder diwaelod, neu yn ngwlad y colledigion; *wele di yno*—yn teyrnasu mewn cyf-iawnder dialedol.

Adn. 9. *Pe cymerwn adenydd y wawr*] *Pe* gallwn ehodog neu deithio mor gyflym a'r goleuni ar godiad haul y bore; a *phe trigwn yn eithafoedd y môr*—yn mbarthau eithaf y gor-

a phe trigwn yn eithafoedd y môr, 10 Yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw.

11 *Pe* dywedwn, Diau y tywyllwch a'm cuddiai; yna y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch.

12 Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti; ond y nos a oleua fel dydd: un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti.

13 Canys ti a feddiennaist fy arenau: toaist fi yn nghroth fy mam.

14 Clodforaf di; canys ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed: rhyfedd yw dy weithredoedd; a'm henaid a wŷr *hyny* yn dda.

llewin, neu yn y man pellaf oddiwrth godiad yr haul yn y dwyrain;—

Adn. 10. *Yno hefyd y'm tywysai dy law*] Byddit ti yno o'm blaen i'm derbyn; *ac y'm daliai dy ddeheulaw*—yn fy ffoadan oddiwrthyt; neu 'byddit ti yno i'm cynal a'm dyddanu,' fel y mae rhai yn ei ddeall. Fel hyn y mae Duw yn bresenol yn mhob man ar unwaith, o'r uwelider mwaf hyd y dyfnder iselaf, ac o eithafion y naill begwn hyd eithafion y pegwn arall: gwel ar l Bren. viii. 27. Fel pe dywedasai, I ba le bynag yr âf fi, yr wyt ti yno eisioes; a lle nas gallaf fi fyned iddo, yr wyt yno hefyd!

Adn. 11. *Pe dywedwn*] Ynof fy hun, *Diau y tywyllwch a'm cuddiai*—o olwg yr Anfeidrol, er nas gallaf fyned oddiwrth ei bresenoldeb; *yna y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch*—i ddanos iddo nid yn unig fy mherson, ond hefyd fwriadau dirgelaff ynghalon. Yn nghanol y nos dywyllaf byddwn yr un mor amlwg iddo ef, ag yn nghanol y goleuni dysgleiriaf.

Adn. 12. *Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti*] I'm cuddio i na'm meddyliau oddiwrthyt; *ond y nos a oleua fel dydd*—i lygad dy hollwybodaeth: un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti—yr hwn wyt yn ffynnonell o oleuni ynot dy hun yn mhob man lle yr ydwyt.

Adn. 13. *Canys ti a feddiennaist fy arenau*] Neu, ti a adwaenost fy meddyliau a'm bwriadau dirgelaf, yr hwn wyt yn 'chwilio y calonau a'r arenau,' Salm vii. 9, a xvi. 7, a xxvi. 2. Ond gan y tybiai yr Hebreaid mai yr arenau a ffurfiid gyntaf yn y groth, barna Clarke mai yr ystyr yw, 'ti a osodai sail fy modaeth.' *Toaist fi yn nghroth fy mam*—neu, fel ei mynegir mewn lle arall, 'Ti a'm gwisgaist i â chroen ac â chnawd,' Job x. 11.

Adn. 14. *Clodforaf di*] O Arglwydd, â'm holl galon; *canys ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed*—y mae cyfansoddiad y corff dynol wedi ei wneuthur yn *rhyfedd* o ran ei gywreint-rwydd, ac yn *ofnadwy* o ran ei freuolr, trwy y gall y ddamwain leiaf amharu neu ddyfetha mewn moment y rhanau hyny ar ba rai yr ymddibyna bywyd. Neu, yr oedd ef yn *rhyfedd* o ran ei *gorff*, ac yn *ofnadwy* o ran ei *enaid*, yr hwn a fyddai byw cyn hir heb y corff, a

15 Ni chuddiwyd fy sylwedd oddi-wrthyt, pan y'm gwnaethpwyd yn ddirgel, ac y'm cywreiniwyd yn iselder y ddaear.

16 Dy lygaid a welsant fy annelwig ddefnydd; ac yn dy lyfr di yr ysgrifenydwyd hwynt oll, y dydd y llun- iwyd hwynt, pan nad oedd yr un o honynt.

17 Am hyny mor werthfawr yw dy feddyliau genyf, O Dduw! mor fawr yw eu swm hwynt!

18 *Pe* cyfrifwn hwynt, amlach ydynt na'r tywod: pan ddeffrowyf, gyda thi yr ydwyf yn wastad.

19 Yn ddiau, O Dduw, ti a leddi yr annuwiol: am hyny y gwyr gwaedlyd, ciliwch oddiwrthyf:

20 Y rhai a ddywedant ysgelerder yn dy erbyn; dy elynion a gymerant *dy enw yn ofer*.

21 Onid cas genyf, O Arglwydd, dy gaseion di? onid ffiائد genyf y rhai a gyfodant i'th erbyn?

hyny mewn gwae neu wynfyd. Neu ynte, yr oedd ei wneuthuriad cywrain a bynod yn llenwi y Salmydd a *rhyfeddod* neu syndod, ac ág *ofn* neu ddychryn rhag digio Duw mor alluog, doeth, a da. *Rhyfedd yw dy weithredoedd*—dy holl weithredoedd, mewn creadigaeth, rhag- luniaeth, a gras: *a'm henaid a w'yr hyny yn dda*—fod dy holl weithredoedd yn rhyfedd, er nad wyf fi yn gallu eu hamgyffred a'u deall fel ag y dymunwn.

Adn. 15. *Ni chuddiwyd fy sylwedd oddi-wrthyt*] Hebr., *atsmi*, 'fy esgyrn,' neu ei ysgerbwdd; *pan y'm gwnaethpwyd yn ddirgel*—pan yr oedd ei wahanol ranau yn cael eu ffurfio yn raddol o ddydd i ddydd yn y groth. Er fod hyny yn cael ei gario yn mlaen o olwg pawb ereill, eto nid oedd yn guddiedig o olwg Duw, trwy ragluniaeth neu offerynoliaeth yr hwn y dydd y cwbl yn mlaen. *Ac y'm cywreiniwyd*—Hebr., *rukkanti*, 'y'm brydweithiwyd,' fel gwaith edau a nodwydd. Fel y mae y gair cyntaf yn cyfeirio at ffurfiad cyfanwaith yr esgyrn, felly y mae hwn at ffurfiad y cyhfrau, y gewynau, y gwythenau, a'r giau, y rhai sydd yn ymestyn fel brwydwaith trwy yr holl gnawd a'r croen. Meddylir fod yma gyfeiriad at gaeadleni y babbell, neu wisgoedd yr offeir- iaid, y rhai oeddnt o wniadwaith neu frwyd- waith cywrain: gwel ar Exod. xxvi. 31, 36, a xxviii. 39. *Yn iselder y ddaear*—sef yn y groth, yr hon a elwir felly naill ai mewn ffordd ddestlus a hyfoes, neu ynte am ei bod mor guddiedig o olwg dyn ag ydyw iselder y ddaear.

Adn. 16. *Dy lygaid a welsant fy annelwig ddefnydd*] Neu fy nefnydd diddelw, cyn ei ffurfio ar lun dyn yn y groth; *ac yn dy lyfr di yr ysgrifenydwyd hwynt oll*—yr oedd fy holl ranau a'm haelodau yn weledig o flaen dy lygaid di y pryd hyny, fel pe buasai cynllun o honynt wedi ei dynu ar lyfr. Dy anfeidrol ddoethineb di a dynodd y cynllun, a'th au- ffeidrol allu a gododd yr adeilad i fyny yn ol y cynllun hwnw. *Y dydd y lluniwyd hwynt*—Saes., 'y rhai mewn parhad a luniwyd.' Y meddwl yw, fod dydd dechread adeiladaeth y corff dynol fel brwydwaith cywrain, a pharhad lluniad pob rhan o hono o ddydd i ddydd nes ei orphen, yn gwbl hysbys i Dduw, ac yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy offerynoliaeth ei rag- luniaeth ef. *Pan nad oedd yr un o honynt*—pan nad oedd un o'r aelodau wedi eu ffurfio o'r annelwig ddefnydd; neu pan nad oedd dim

o'r brwydwaith cywrain yn ymddangos, mwy na lluniau y gauadlen pryd yr oedd y sidan yn y bellen.

Adn. 17. *Am hyny mor werthfawr yw dy feddyliau genyf*] Sef meddyliau neu ofalon rhagluniaeth Duw am y Salmydd, nid yn nbig pryd yr oedd efe yn cael ei ffurfio yn y groth, fel yr adroddwyd nechod, ond hefyd bob dydd o'i fywyd ar ol ei eni! Yr oedd myfyrio am feddyliau Duw felly am dano ef yn beth gwerthfawr iawn yn ngolwg y Salmydd. Ond y mae *Green* yn cyfeithu y frawddeg fel hyn: 'Mor werthfawr genyf fi, O Dduw, yw y meddyliau am danat ti!' sef meddyliau y Salmydd ei hun am Dduw. Ond yr ystyr blaenaf yw y mwyaf naturiol. *Mor fawr yw eu swm hwynt*—neu nifer gorchwyliaethau a gofalon rhagluniaethol Duw tuag at y Salm- ydd yn holl ystod ei fywyd!

Adn. 18. *Pe cyfrifwn hwynt*] Hebr., 'a gyfrifaf fi hwynt?' hyny yw, a fydd i mi gyf- ryg ar y gwaith o'u cyfrif? *Amlach ydynt na'r tywod*—fel pe dywedasai, Byddai yn llawn crystal i mi geisio cyfrif y gronyrnau tywod. *Pan ddeffrowyf*—yn y bore, neu rywbryd ganol nos; *gyda thi yr ydwyf yn wastad*—y mae fy meddyliau yn rhedeg yn y fan i fyfyrto ar dy feddyliau di am danaf fi, adn. 17.

Adn. 19. *Yn ddiau, O Dduw, ti a leddi yr annuwiol*] Y rhai sydd yn llunio celwyddau arnaf fi, gan sychuad am fy ngwaed; gwel y teitl. Fel pe dywedasai, Gan dy fod wedi gwyllo drosaf mor fanwl a daionus hyd yma, ni adewi i mi o hyn allan gael fy lladd gan yr annuwiol; eithr ti a'u leddi hwynt, neu a'u rhoddi i fyny i ddwylaw eu gelynyon. *Am hyny y gwyr gwaedlyd*—sef Saul a'i bleid- wyr ond odid; *ciliwch oddiwrthyf*—efe a ddywedai hyn, nid am ei fod yn en hofni hwynt, ond am ei fod yn casáu eu gwaith a'u hamecanion drygionus.

Adn. 20. *Y rhai a ddywedant ysgelerder yn dy erbyn*] Saes., 'canys y maent yn llef- aru yn annuwiol yn dy erbyn di,' yn gystal ag yn fy erbyn inau: *dy elynion a gymerant dy enw yn ofer*—naill ai trwy lwon a chabled- dau, neu ynte trwy anudoniaeth neu ragrith.

Adn. 21. *Onid cas genyf, O Arglwydd, dy gaseion di*] Y rhai sydd yn dy gasáu di, a chyn belled ag y maent yn dy gasáu di? *onid ffiائد genyf y rhai a gyfodant i'th erbyn*—mewn geiriau cableddus neu ymddygiadau

22 A chascyflawny caseais hwynt: cyfrifais hwynt i mi yn elynion.

23 Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon: prawf fi, a gwybydd fy meddyliau.

24 A gwel a oes ffordd annuwiol genyf, a thywys fi yn y ffordd dragwyddol.

SALM CXL.

GWARED fi, O Arglwydd, oddi wrth y dyn drwg: cadw fi rhag y gŵr traws.

2 Y rhai sydd yn bwriadu drygioni yn eu calon: ymgasglant beunydd i ryfel.

gwrthryfelgar? Fel hyn efe a apelia at Dduw ei fod yn dywedyd y gwir.

Adn. 22. *A chas cyflawn y caseais hwynt*] Heb ddangos iddynt y gradd lleiaf o dosturi fel gwrthryfelwyr yn dy erbyn di: *cyfrifais hwynt i mi yn elynion*—gan eu bod yn elynion i ti. Y mae y dyn da yn casâu fel y mae Duw yn casâu; hynny yw, y mae yn casâu nid personau dynion, ond eu pechodau; nid yr hyn y gwnaeth Duw hwynt, ond yr hyn ag y darfu iddynt hwy eu gwneyd eu hunain.

Adn. 23. *Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon*] Yr oedd Duw wedi chwilio ac adnabod Dafydd eisieso ran ei wybodaeth *ei hun* o hono, adn. 1; ac yma y mae efe yn deisyf iddo ei chwilio drachefn, fel y gallai *yntau* ei hun wybod ei gyflwr oddiwrth y canlyniad o'r ymchwiliad hwnw. *Prawf fi, a gwybydd fy meddyliau*—rhag fod dim o'i le yn ei feddyliau ef wrth iddo gasâu a ffieiddio caseion Duw, adn. 21, 22; hynny yw, rhag ei fod wedi ymollwng i ffordd annuwiol trwy ei dymherau, ei eiriau, neu ei ymddygiadau.

Adn. 24. *A gwel a oes ffordd annuwiol genyf*] Rhyw gyfeiliornad mewn barn neu fuchedd, yr hyn a bair 'boen' a 'gofid,' fel yr arwydda y gair; neu rywbeth croes i dduwioldeb tuag at Dduw, neu gariad tuag at ddyn: *a thywys fi yn y ffordd dragwyddol*—yn y ffordd ag sydd yn arwain i fywyd tragwyddol; neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'yn yr hen ffordd,' yr hon yw y 'ffordd dda,' fel ei gelwir yn Jer. vi. 16, yn yr hon y rhodiai yr hen dduwiolion.

SALM CXL. Y teitl yw, '*I'r pencerdd, Salm Dafydd.*' Y mae yr *Hebraeg* a'r holl *gyfieithiadau* yn ei phriodoli i *Dafydd*; a meddylir ei bod yn cynwys ei gwynfaniad ef pan yn cael ei erlid gan Saul. Dywed y *Syriac* iddo ei chyfansoddi ar ol i Saul geisio ei wáu ef â'i waewffon, 1 Sam. xix. 10.

Adn. 1. *Gwared fi, O Arglwydd, oddi wrth y dyn drwg*] Sef Saul ond odid, yr hwn a geisiai ei ddyfetha ef; *cadw fi rhag y gŵr traws*—neu y gŵr ffyrnig a chreulon. Tybia rhai mai Doeg a olygir yn y frawddeg ddiweddaf.

3 Golymasant eu tafodau fel sarff: gwenwyn asp *sydd* dan eu gwefusau. *Selah.*

4 Cadw fi, O Arglwydd, rhag dwy-law yr annuwiol; cadw fi rhag y gŵr traws: y rhai a fwriadasant fachelu fy nhraed.

5 Y beilchion a guddiasant faglau i mi, ac a estynasant rwyd wrth dannau ar ymyl y llwybrau: gosodasant hoenynau ar fy medr. *Selah.*

6 Dywedais wrth yr Arglwydd, Fy Nuw *ydwynt* ti: clyw, O Arglwydd, lef fy ngweddiâu.

7 Arglwydd Dduw, nerth fy iachawdwriaeth, gorchuddiaist fy mhen yn nydd brwydr.

Adn. 2. *Y rhai sydd yn bwriadu drygioni yn eu calon*] Y rhai sydd â'u bryd yn barhaus i'm dyfetha i: *ymgasglant beunydd i ryfel*—i roddi eu bwriadau drygionus mewn gweithrediad, trwy geisio fy lladd i.

Adn. 3. *Golymasant eu tafodau fel sarff*] Neu blaen-llymasant eu tafodau. Dywedir fod rhyw fath o seirff yn golymu eu tafodau fel hyn, gan wneuthur blaen eu tafod neu eu colyn mor llym a blaen nodwydd, yr hwn a dreiddia i gnawd unrhyw creadur yn ddi-rwystr. Yr debyg i hyn y blaen-llymai gelynyon Dafydd eu tafodau, neu yr arferent y geiriau mwyaf pigog a chwerw i'w archolli ef yn ei gymeriad a'i deimladau. *Gwenwyn asp sydd dan eu gwefusau*—dywedir fod gwenwyn yr asp yn cael ei gadw mewn math o gostrel fechan dan y tafod, a'i fod yn cael ei frwr i'r archoll gyda'r brathiad, yr hwn sydd yn lladd yn anocheladwy yn mhen ychydig oriau: gwel ar Salm xci. 13. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 4. *Cadw fi, O Arglwydd, rhag dwy-law yr annuwiol*] Rhag i Saul a'i wŷr fy lladd â'u dwylaw; *cadw fi rhag y gŵr traws*—gwel ar adn. 1; *y rhai a fwriadasant fachelu fy nhraed*—yn eu maglau a'u rhwydau.

Adn. 5. *Y beilchion a guddiasant faglau i mi*] I'm maglu a'm dal, fel pe bawn anifel gwyllt; *ac a estynasant rwyd wrth dannau*—neu wrth linyneu, i'm dal yn agored, neu i attal i'r pryf ei llusgo ymaith ar ol syrthio iddi: *gosodasant hoenynau*—math arall o faglau i ddal y neb y ceisient ei ddyfetha. Tybia rhai mai y Ziphiaid a olygir wrth y 'beilchion' hyn, y rhai a arferent bob ystryw i roddi Dafydd yn nwyllaw Saul, 1 Sam. xxiii. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 6. *Fy Nuw ydwynt ti*] Sef ei Dduw cyfammodol, yr hyn oedd sail ei ddadl gerbron Duw: *clyw, O Arglwydd, lef fy ngweddiâu*—gwel ar adn. 8.

Adn. 7. *Arglwydd Dduw, nerth fy iachawdwriaeth*] Yr hwn wyt yn *alluog* i roddi i mi wardigaeth dymhorol ac ysbrydol, a'r hwn a addewaist fy ngwaredu wrth ymgysfiamodi â'm henaid: *gorchuddiaist fy mhen*—â'th

8 Na chaniata, Arglwydd, ddy-muniad yr annuwiol: na lwydda ei ddrwg-feddwl; rhag eu balchïo hwynt. Selah.

9 Y penaf o'r rhai a'm hamgylchyno, blinder eu gwefusau a'u gorchuddio.

10 Syrthied marwor arnynt: a bwrier hwynt yn tân; ac mew'n ceu-ffosydd, fel na chyfodant.

11 Na sicrhäer dyn siaradus ar y ddaear: drwg a hela y gŵr traws i'w ddystryw.

12 Gwn y dadleu yr Arglwydd ddadl y truan, ac y barna efe y tylodion.

amddiffyniad nerthol, megys â helm neu darian; yn nydd brwydr—lauer gwaith cyn hyn. Dichon ei fod yn cyfeirio yma at ei frwydrau â Goliath a'r Philistiaid.

Adn. 8. Na chaniata, Arglwydd, ddy-muniad yr annuwiol] Yr hyn yw fy nyfetha i; na lwydda ei ddrwg-feddwl—yn erbyn fy mywyd i; neu, 'na oddef iddo lwyddo,' fel yr arwydda y wreiddiol; rhag eu balchïo hwynt—trwy feddwl eu bod yn gryfach na thi a minau. Selah—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 9. Y penaf o'r rhai a'm hamgylchyno] I geisio fy nyfetha i; neu, fel y mae yr Esgob Hare, Mudge, ac ereill, yn ei gyfieithu, 'na foed i'r rhai a'm hamgylchynant godi eu pen': blinder eu gwefusau a'u gorchuddio—Saes, 'boed i drwg eu gwefusau eu hunain eu gorchuddio;' hyn yw, syrthied y drwg a'r blinder a fwriadant i mi, arnynt hwy eu hunain.

Adn. 10. Syrthied marwor arnynt] Neu farnedigaeithau angherddol Duw, y rhai a gyffelybir yn fynych i farwor; a bwrier hwynt yn tân—yr hwn a gyneusant i mi, neu yn nhân barnedigaeithau Duw; ac mew'n ceu-ffosydd—yn y pydewau a fwriadasant i'm maglu i, adn. 5; fel na chyfodant—oddiyno yn fyw; neu, fel y mae y Syriaeg yn ei ddarllen, 'fel na chyfodant i fywyd tragwyddol.' Y mae y geiriau hyn, fel y nodwyd yn fynych eisioes, yn yr amser dyfodol yn yr Hebraeg; ac am hynny y maent i'w deall fel datganiad profiwydoliaethol o'r hyn a ddygwyddai i elynion Dafydd, yn hytrach nag fel gweddi am i'r peth fod: gwel ar Salm v. 10.

Adn. 11. Na sicrhäer dyn siaradus ar y ddaear] Na fydded i ddy'n enllibs ac athrodgar, yr hwn a ddefnyddia ei dafod i niweidio y diniwed, lwyddo yn ei amcanion, nac yn godi i fawredd ac awurdod daerol trwy ei arferion drygonus. Y wreiddiol yw, 'ni sicrhäer dyn o dafod,' sef yr hwn a ddefnyddio ei dafod yn rhydd i ddwyded yd y peth a fydo. Drwg a hela y gŵr traws i'w ddystryw—sef y drwg o bechod, neu y drwg o gosp; neu, fel y mae y Galdeag yn ei ddarllen, 'Efe a ymlidir gan angel marwolaeth, ac a wthir i uffern.'

Adn. 12. Gwn] Oddiwrth addewidion a

13 Y cyfiawn yn ddiau a glodforant dy enw di: y rhai uniawn a drigant ger dy fron di.

SALM CXLI.

ARGLWYDD, yr wyf yn gwaeddi arnat: bryisia ataf; clyw fy llais, pan lefwyf arnat.

2 Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron fel arogldarth, a dyrchafiad fy nwyllaw fel yr offrwm pryduawnol.

3 Gosod, Arglwydd, gadwraeth o flaen fy ngenau: cadw ddrws fy ngwefusau.

natur Duw, ac oddiwrth fy mhrofiad fy hun o'i flyddlondeb ef yn yr amser a aeth heibio; y dadleu yr Arglwydd ddadl y truan—yr amddiffynia efe ei achos ef yn erbyn ei erlidwyr; ac y barna efe y tylodion—y gwna efe gyfiawnder a'u hachos hwy, er eu bod yn dy-lodion.

Adn. 13. Y cyfiawn yn ddiau a glodforant dy enw di] A gânt achos i'th glodfori am dy waredigaethau iddynt; y rhai uniawn a drigant ger dy fron di—i'th addoli a'th glodfori yn dy gysegr ar y ddaear, a byth yn y nef.

SALM CXLI. Y teitl yw, 'Salm Dafydd,' i'r hwn y priodolir hi yn gyffredinol; a meddylir iddo ei ehfansoddi yn amser erledigaeth Saul, pan yr oedd efe yn bwriadu ffoi at Achis, brenin Gath; gwel ar 1 Sam. xxvii. 1, &c. Y mae y Salm hon weddi bod yn cael ei harferyd am lawer o oesoedd yn yr Eglwys Roegaidd fel gweddi bryduawnol.

Adn. 1. Arglwydd, yr wyf yn gwaeddi arnat] Yn fy nghyfyngder presenol: bryisia ataf—i'm dysgu, i'm dyddanu, a'm gwaredu: clyw fy llais pan lefwyf arnat—sef yn awr, pan yr ydwyf yn llestain arnat.

Adn. 2. Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron] Neu deued fy ngweddi ger dy fron hyd yn nod o'r fan yma, lle yr ydwyf yn mhell oddiwrth dy gysegr; fel arogldarth—mor gymeradwy yn dy olwg a phe buasai yn cael ei hanfon at gyda mwg yr arogldarth oddiar dy allor, Exod. xxx. 7, 8: a dyrchafiad fy nwyllaw—sef gweddi yn cael ei hoffrwm â dwylaw dyrchafedig, yr hyn oedd yr ystum arferol wrth weddio; fel yr offrwm pryduawnol—mor gymeradwy genyt a phe buaswn yn cysylltu offrwm gyda'm gweddi. Dywed Clarke mai y cyfieithiad llythyrenol o'r adnod hon yw, 'Sefydler fy ngweddi yn lle arogldarth o flaen dy wynebau, a dyrchafiad fy nwyllaw yn lle yr offrwm pryduawnol.' Trwy fod Dafydd yn awr yn mhell o'r cysegr, ni allai efe gyflawni yr addoliad dwyfol yn y ffordd a benodid gan y gyfraith; a chan na allai addoli yn ol llythyren y gyfraith, efe a ewyllysiai addoli yn ol ei hysbryd hi.

Adn. 3. Gosod, Arglwydd, gadwraeth o

4 Na ostwng fy nghalon at ddim drwg, i fwriadu gweithredoedd drygioni gyda gwŷr a weithredant anwiredd: ac na âd i mi fwyta o'u danteithion hwynt.

5 Cured y cyfiawn fi yn garedig, a cherydded fi: na thored eu holew penaf hwynt fy mhen: canys fy ngweddi fydd eto yn eu drygau hwynt.

6 Pan dafler eu barnwyr i lawr mewn lleoedd caregog, clywant

fy ngeiriau; canys melys ydynt.

7 Y mae ein hesgyrn ar wasgar ar fin y bedd, megys un yn tori neu yn hollti coed ar y ddaear.

8 Eithr arnat ti, O Arglwydd Dduw, y mae fy llygaid: ynot ti y gobeithiais; na âd fy enaid yn ddi-angeledd.

9 Cadw fi rhag y fagl a osodasant i mi, a hoenynau gweithredwyr anwiredd.

10 Cydgywmped y rhai annuwiol

flaen fy ngenau] Rhag i mi ddywedyd dim a baro i frenin Gath feddlw mai yspwr a gelynydwyf: *cadw drws fy ngwefusau*—rhag i mi ddywedyd dim yn ddrwg am Saul, neu yn anheilwng am fy ngwlad a'm crefydd, na dim a fyddo yn ochri at eilunaddoliaeth y Philistiaid.

Adn. 4. *Na ostwng fy nghalon at ddim drwg*] Neu, na oddfe iddi gael ei gostwng. Cadw nid yn unig fy ngwefusau rhag traethu dim drwg, ond fy nghalon hefyd rhag meddwl dim drwg. *I fwriadu gweithredoedd drygioni gyda gwŷr a weithredant anwiredd*—hyny yw, cadw fi rhag ymuno â'r Philistiaid yn eu heilunaddoliaeth, a rhag bwriadu dim yn debyg i hyny. *Ac na âd i mi fwyta o'u danteithion hwynt*—y rhai a wagherddir yn dy gyfraith di; neu na fydded i mi ymgymysgu â hwynt yn eu gwleddoedd eilunaddolgar.

Adn. 5. *Cured y cyfiawn fi yn garedig, a cherydded fi*] Gellir cyfieithu y wreiddiol, 'Cerydded y cyfiawn fi mewn trugaredd, ac addysgedd fi;' ac yn debyg i hyny y darllenir y geiriau yn y *Syriaeg*, y *Vulgate*, yr *Ethiopiaeg*, yr *Arabaeg*, a chan y LXX. Gan y byddai y Salmydd yn y fath berygl o wro at bechod yn mhllith y Philistiaid, adn. 3, 4, efe a ddymuiai i ryw gyfaill duwiol ei geryddu ef yn garedig, a'i addysgu yn well, os gwelai efe ef un amser yn gogwyddo at ddim drwg. *Na thored eu holew penaf hwynt fy mhen*—y mae y geiriau hyn yn cael eu deall yn amrywiol. Y *Sacsonaeg* yw, 'Bydd yn olew rhagorol, yr hwn ni thyr fy mhen;' hyny yw, bydd i gerydd felly wneyd lles i mi, ac nid niwed. Ond y mae *Green* ac ereill yn cyfieithu y wreiddiol fel hyn: 'Ond na fydded i olew peraroglaidd y drygionus eneinio fy mhen;' hyny yw, na fydded i mi fyned fel gwestai i wleddoedd y drygionus, lle yr aferant eneinio penau y gwahoddedigion. *Canys fy ngweddi fydd eto yn eu drygau hwynt*—Hebr., 'yn erbyn eu drygau;' hyny yw, bydd fy ngweddi yn barhaus yn erbyn eu harferion drygionus hwy, megys eu heilunaddoliaeth, &c.; ac am hyny na fydded i mi ymgymysgu â hwy.

Adn. 6. *Pan dafler eu barnwyr i lawr mewn lleoedd caregog, &c.*] Tybia rhai fod Dafydd yma yn rhagweld diuistr Saul, yn nghyda barnwyr neu bennaethiaid a chadfridogion Israel, y rhai a ddryllid gan eu gelymion mewn lleoedd caregog; a'i fod yn gobeithio y byddai i Israel i pryd hyny wrandaw ar ei

rybyddion a'i gynghorion ef, ac y byddai ei eiriau yn felys ganddynt, er eu bod yn awr yn ei ddiystyru ef a'i gynghorion. Tybia ereill mai cyfeirio y mae Dafydd at ei driniaeth drugarog ef o Saul yn ogof En-gedi, 1 Sam. xxiv. 3, &c., ac wedi hyny yn myn Hachilah, 1 Sam. xxvi. 7, &c.; a chyfieithant yr adnod fel hyn: 'Eu barnwyr a ollyngwyd ymaith yn y lleoedd creigiog; a chlywsant fy ngwefusau, mai melys oeddychnt.' Ond y mae *Street* ac ereill yn cysylltu yr adnod hon â'r na flaenorol, ac yn eu darllen, 'Fy ngweddi fydd eto yn erbyn eu drygau hwynt, gan ddywedyd, Bydded i'w barnwyr gael eu dymchwelyd ar ymyl craig, fel y gwrandawont eiriau Jehofa, mai melys ydynt.' Ereill i ddybant mai cyfeirio y mae y geiriau at lofruddiad y pump a phedwar ugain o offeiriaid yr Arglwydd wrth orchymyn Saul: gwel 1 Sam. xxii. 18, a gwel isod.

Adn. 7. *Y mae ein hesgyrn ar wasgar ar fin y bedd*] Tybia rhai mai am dano ei hun a'i wŷr y sonia Dafydd yma, eu bod yn grwyrdiaid ar wasgar wrth ffoi rhag Saul; a'u bod fel esgyrn sychion ar fin y bedd, neu mewn perygl yn wastadol am eu heinioes. Tybia ereill mai cyfeirio y mae efe at lofruddiad yr offeiriaid dywededig gan Doeg, y rhai y gadawyd eu hesgyrn yn wasgaredig ar wyneb y ddaear, eu bedd cyffredin, fel ysglodion ar hyd y llawr yn ngweithdy y saer coed. Yn gyson â'r golygiad hwn y mae amrai o'r beirniaid enwocaf yn cyfieithu *lephi sheol*, 'wrth orchymyn Saul,' yn lle 'ar fin y bedd,' fel y mae genym ni. *Megys un yn tori neu yn hollti coed ar y ddaear*—gan wasgaru yr ysglodion ar hyd y ddaear o'i amgylch. Yn ol yr ystyr diweddaf gallwn weled gwahaniaeth dirfawr rhwng *geiriau Dafydd*, y rhai y dywedir eu bod yn 'felys' neu hyfryd, adn. 6, a *gorchymyn Saul*, yr hwn oedd yn greulondeb o'r mwyaf i'r offeiriaid hyny: gwel ar 1 Sam. xxii. 18, 19.

Adn. 8. *Eithr arnat ti, O Arglwydd Dduw*] Llywodraethwr mawr pawb a phobpeth; y mae fy llygaid—hyny yw, atat ti yr wyf yn edrych am ymwared a diogelwch: *ynot ti y gobeithiais*—bob amser, ac am mhob rhyw berygl: *na âd fy enaid yn ddiangeledd*—pa driniaeth bynag a gaiff fy nghorff; neu, 'na âd i'm bywyd gael ei dywallt,' Esay liiii. 12.

Adn. 9. *Cadw fi rhag y fagl a osodasant i*

yn eu rhwydau eu hun, tra yr elwyf
fi heibio.

SALM CXLII.

GWAEDDAIS â'm llef ar yr Ar-
glwydd; â'm llef yr ymbiliais
â'r Arglwydd.

2 Tywelltais fy myfyrdod o'i flaen
ef; a mynegais fy nghystudd ger ei
fron ef.

3 Panballodd fyysbrydo'm mewn,
tithau a adwaenit fy llwybr. Yn y
ffordd y rhodiwn, y cuddiasant i mi
fagl.

4 Edrychais ar y tu dehau, a del-
iais sylw, ac nid oedd neb a'm had-
waenai: pallodd noddod i mi; nid
oedd neb yn ymofyn am fy enaid.

5 Llefais arnat, O Arglwydd; a
dywedais, Ti yw fy ngobaith, a'm
rhan yn nhir y rhai byw.

6 Ystyr wrth fy ngwaedd; canys
truan iawn ydwyf: gwared fi oddi-
wrth fy erlidwyr; canys trech ydynt
na mi.

7 Dwg fy enaid allan o garchar,
fel y molianwyf dy enw: y rhai cyf-
iawn a'm cylchynant; canys ti a
fyddi da wrthyf.

mi] Sef rhag y farwolaeth a fwriadai Saul a'i
bleidwyr iddo; a hoonyau gweithredwyr
arwreidd—sef maglau angeuol y Philistiaid,
neu ystrywiau gwaedlyd y Ziphiaid: gwel ar
Salm cxi. 5.

Adn. 10. *Cydgwmped y rhai annuwiol
yn eu rhwydau eu hun*] Y rhai a fwriadasant
i'm dal i; *tra yr elwyf fi heibio*—yn ddiang-
ol. Ac fel hyn y dygweddodd yn achos Saul,
a'r Philistiaid, a gelynyon ereill Dafydd, fel y
gwelwn yn ei holl banes ef.

SALM CXLII. Y teitl yw, '*Maschil
Dafydd, Gweddi pan oedd efe yn yr ogof.*'
Ystyr y gair *Maschil* yw, 'Er hyfforddiant,
addysg, neu ddoethineb.' gwel deitl Salm
xxxiii a xlii. Bu Dafydd ddwywaith mewn
perygl mawr mewn ogof: (1) Yn ogof *Adulam*,
pan yn ffoi rhag Achis brenin Gath, 1 Sam.
xxii. 1. (2) Yn ogof *En-gedi*, i'r hon y ffoisai
efe rhag cynddaredd Saul, 1 Sam. xxiv. 3.
Tybia *Horne* mai y gyntat a feddylir yma;
ond y dyb fwyaf cyffredin yw, mai yn ogof
En-gedi y cyfansoddodd efe y Salm hon, neu
yn hytrach y gweddiodd efe y weddi hon.

Adn. 1. *Gwaeddais â'm llef ar yr Ar-
glwydd*] Hyn yw, yn uchel a thaer; *â'm
llef yr ymbiliais â'r Arglwydd*—neu 'yr ym-
bilias.' Y mae y berfau Hebreig yn yr amser
dyfodol, yma ac yn adn. 2; ac yn gosod allan
ei benderfyniad ef i geisio yniwared gan yr
Arglwydd, pan yr oedd pob help arall wedi
pallu.

Adn. 2. *Tywelltais fy myfyrdod*] Neu,
'tywalltat fy nghwyn o'i flaen ef.' a *myne-
gais*—neu 'mynegaf.' gwel ar adn. 1.

Adn. 3. *Pan ballodd fyysbryd o'm mewn*] Neu pan yr oedd yn barod i ddiffygio ynof
rhag ofn Saul a'i fyddin; *tithau a adwaenit
fy llwybr*—a wyddit nad oedd genyf un ffordd
i ddiandod trwy gyfyngiad dy allu di; neu,
fel y mae rhai yn ei ddeall, 'ti a adwaenit fy
uniondeb a'm diniweidrwydd i,' nad oeddwn y
fath ddynd drwg ag yr haerai Saul a'i wŷr fy
mod. *Yn y ffordd y rhodiwn*—yn mha le
bynag y byddwn, neu pa beth bynag a wnawn,
a phan dybiwn nad oedd un perygl yn agos;
y cuddiasant i mi fagl—i'm dal a'm dyfetha.
Fel hyn addawodd Saul Michal ei ferch yn

wraig i Dafydd, fel y byddai hi yn 'fagl' iddo,
neu yn achlysur o'i ddinyst, wrth iddo geisio
cyflawni yr ammod ar ba un yr oedd efe i'w
chael hi: gwel ar 1 Sam. xviii. 22—25.

Adn. 4. *Edrychais ar y tu deau*] Y fan lle
yr aferai noddwr ac amddiffynwr y cyhudd-
edig sefyll mewn llysoedd barn; y *deliais
sylw*—i edrych a oedd yno neb i'm pleidio:
ac nid oedd neb a'm hudwaenai—neu a gym-
merai arno ei fod yn fy adnabod, chwaithach
fy mhleidio. *Pallodd noddod i mi*—yn mhlith
dynion; *nid oedd neb yn ymofyn am fy
enaid*—neu yn gofalu am gadw ei *fywyd* ef,
ond yr oedd pawb am ei ddyfetha.

Adn. 5. *Llefais arnat, O Arglwydd*] Neu
'yr wyf yn llefain:.' *Ti yw fy ngobaith*—fy
unig obaith am noddod a diogelwch; *a'm
rhan*—fy eiddo i fel fy Nuw cyfammodol; *yn
nhir y rhai byw*—yn y bywyd hwn, ac yn
enwedig yn yr hwn sydd ar ddyfod.

Adn. 6. *Ystyr wrth fy ngwaedd*] Gwrandu
yn drugarog ar fy ngweddi, ac ateb hi; *canys
truan iawn ydwyf*—y mae fy nghyfyngder
a'm trueni yn anhraethadwy; *gwared fi
oddiwrth fy erlidwyr*—sef oddiwrth Saul a'i
wŷr, y rhai oeddynt y pryd hyn wrth enau yr
ogof; *canys trech ydynt na mi*—nid oedd gan
Dafydd y pryd hyn ond 600 o filwyr, a'r rhai
hyny fel yntau yn llwfr ac ofnus; tra yr oedd
gan Saul fyddin o 3000 o wŷr cryfion a dewr-
ion: gwel 1 Sam. xxiii. 13, a xxiv. 2.

Adn. 7. *Dwg fy enaid*] Hebr., *naphshi*,
'fy mywyd,' neu dwg fi yn fyw; *allan o
garchar*—o'r ogof hōno, wrth enau pa un yr
oedd Saul a'i fyddin yn chwilio am dano; *fel y
molianwyf dy enw*—holl ddyddian fy myw-
yd, am y fath waredigaeth. *Y rhai cyfiawn
a'm cylchynant*—a ddeuant ataf wedi hyn o
bob parti, i gydlawenhau â mi, ac i'th gyd-
foliannu dithau am dy ddaion i mi. Ond y
mae rhai yn cyfieithu *yachtiru* yma, 'a'm
coronant;' ac fe allai i Dafydd, trwy ysbryd
proffwydoliaeth, gael rhagolwg yn awr nid yn
unig ar ei waredigaeth o ddwyllaw Saul, ond
hefyd ar ei *goroniad* yn frenin Israel ar ol
marwolaeth Saul. *Canys ti a fyddi da wrth-
yf*—yn dymhorol ac ysbrydol, o'r hyn y caf-
odd efe yn awr wystl adnewyddol mewn ateb-
iad i'w weddi.

SALM CXLIII.

A RGLWYDD, clyw fy ngweddi, a gwrando ar fy neisfyfiadau: erglyw fi yn dy wirionedd, ac yn dy gyfiawnder.

2 Ac na ddos i farn â'th was: o herwydd ni chyfiawnehir neb byw yn dy olwg di.

3 Canys y gelyn a erlidiodd fy enaid: curodd fy enaid i lawr: gwnaeth i mi drigo mewn tywyllwch, fel y rhai a fu feirw er ys talm.

4 Yna y pallodd fy ysbryd o'm mewn: ac y synodd fy nghalon ynof.

5 Cofiais y dyddiau gynt; myfyriais ar dy holl waith: ac yn ngweithredoedd dy ddwyllaw y myfyriaf.

SALM CXLIII. Y teitl yw, 'Salm Dafydd.' Hon yw yr olaf o'r 'Salmau editeiriol,' fel eu gelwir; ac y mae yr *Hebraeg* a'r holl *gyfieithiadau* yn ei phriodoli i *Dafydd*. Dywed y LXX, y *Vulgate*, yr *Ethiopaeg*, a'r *Arabaeg*, ddarford i *Dafydd* ei chyfansoddi yn ystod gwrthryfel ei fab Absalom.

Adn. 1. *Arglwydd, clyw fy ngweddi, a gwrando ar fy neisfyfiadau* [Yn fy nghyflwr trallofus presenol: *erglyw fi yn dy wirionedd*—Saes., 'ateb fi yn dy fyddlondeb,' sef yn ei fyddlondeb a'i wirionedd i gyflawni ei addewidion; *ac yn dy gyfiawnder*—neu ei 'drugaredd,' fel y mae y gair a gyfieithir yma yn 'gyfiawnder' yn arwyddo yn fynych.

Adn. 2. *Ac na ddos i farn â'th was* [Al tabo, 'na ddeua i'r llys,' fel Baruw ar fy achos, nac fel Tyst i'm herbyn; o herwydd ni chyfiawnehir neb byw yn dy olwg di—ar dir diwiederwydd, trwy fod pawb yn euog: gwel ar Salm cxxx. 3. Meddyliwr fod *Dafydd* yn cyfeirio yma at ei bechod yn achos Bathseba ac Urias, yr hwn a ystyria i efe o hyd fel yn cael ei gopsi trwy wrthryfel Absalom.

Adn. 3. *Canys y gelyn a erlidiodd fy enaid* [Sef Absalom a'i blaid, y rhai a geisiant am ei fywyd ef: *curodd fy enaid i lawr*—y maent bron wedi tori fy nghalon, a'm gofidio i farwolaeth: *gwnaeth i mi drigo mewn tywyllwch*—dan gymyleu tewion o ofid a thrallod; *fel y rhai a fu feirw er ys talm*—hyny yw, yr wyf mewn cyflwr mor anobeithiol yn ngolwr dynion, a phe buaswn eisioes wedi pydru yn y bedd.

Adn. 4. *Yna y pallodd fy ysbryd o'm mewn* [Gan faint fy ofnau a'm tristwch; *acy synodd fy nghalon ynof*—gan ddychryn a braw, heb wybod pa beth fyddai y canlyniad o'm pechod, neu o'r gwrthryfel erechyll hwn.

Adn. 5. *Cofiais y dyddiau gynt* [Pryd y gwaredaist fi o safn y llew a'r arth, ac o ddwyllaw Goliath a Saul; neu efe a gofiai ddaioni Duw i Israel yn yr oesoedd gynt, a hyny er calondiaid mawr iddo yn ei dralloed presenol: *myfyriais ar dy holl waith*—dy drugareddau

6 Lledais fy nwyllaw atat: fy enaid fel tir sychedig *sydd yn hiraethu* am danat. *Selah.*

7 O Arglwydd, gwrando fi yn ebrwydd: pallodd fy ysbryd: na chuddia dy wyneb oddiwrthyf; rhag fy mod yn gyffelyb i'r rhai a ddisgynant i'r pwll.

8 Pâr i mi glywed dy drugarogrywydd y bore; o herwydd ynot ti y gobeithiaf: pâr i mi wybod y ffordd y rhodiwyf; oblegid atat ti y dyrchafaf fy enaid.

9 Gwared fi oddiwrth fy ngelynyion, O Arglwydd: gyda thi yr ymguddais.

10 Dysg i mi wneuthur dy ewyllys di; canys ti yw fy Nuw: tywysed

i'th bobl dy huo, a'th farnau ar eu gelynyion hwy: *ac yn ngweithredoedd dy ddwyllaw y myfyriaf*—yn barhaus, gan ymgysuro wrth feddwl am dy allu a'th fyddlondeb, a chyd-nabod mai mewn cyfiawnder yr wyt ti yn gwneuthur pob peth.

Adn. 6. *Lledais fy nwyllaw atat* [Mewn gweddi daer: *fy enaid fel tir sychedig*—a fyddo yn crasu ac yn agenu o eisiau gwlaw; *sydd yn hiraethu am danat*—am dy wenaau a'th fendithion. *Selah*—gwel ar Salm iii. 2.

Adn. 7. *O Arglwydd, gwrando fi yn ebrwydd* [Cyn ei myped yn rhy ddiweddar. Efe a arferai daerineb fel hyn, nid yn unig am fod ei berygl oddiwrth Absalom yn fawr, ond hefyd am fod ei edifeirwch yn fawr, a'i hiraeth am Dduw yn fawr. *Pallodd fy ysbryd*—dan bwys fy euogrywydd, fy ofnau, a'm hiraeth; *na chuddia dy wyneb oddiwrthyf*—yn dragrywydd; *rhag fy mod yn gyffelyb i'r rhai a ddisgynant i'r pwll*—rhag i mi farw, a mwyed i'r bedd; neu rhag i mi fod yn gyffelyb i'r annuwiolion a ddisgynant i bwl *uffern*, y rhai ni welant dy wyneb yn dragrywydd: gwel ar Salm xxviii. 1.

Adn. 8. *Pâr i mi glywed dy drugarogrywydd y bore* [Yn fore, neu ar frys, Salm xc. 14; o herwydd ynot ti y gobeithiaf—ac nid mewn dynt: *pâr i mi wybod y ffordd y rhodiwyf*—fel ag i ryngu dy fodd di, neu fel ag i allu dianc rhag cynddaredd Absalom; *oblegid atat ti y dyrchafaf fy enaid*—mewn dysgwyliad am gyfarwyddyd a gwaredigaeth.

Adn. 9. *Gwared fi oddiwrth fy ngelynyion* [Y rhai sydd yn sychedu am fy ngwared: *gyda thi yr ymguddais*—rhagddynt hwy hyd yma; neu, yn ol y Saesonaeg, 'atat ti yr wyf yn ffioi i ymguddio,' am nas gall yr anialwch a'r creigiau hyn fod yn noddfa i mi heb i ti fy niogelu.

Adn. 10. *Dysg i mi wneuthur dy ewyllys di* [Yn fy nghyflwr trallofus presenol; *canys ti yw fy Nuw*—yr hwn a addewaist fy addysgu: *tywysed dy Ysbryd daionus fi i dir ymgondeb*—i wneyd yr hyn sydd union;

dy Ysbryd daionus fi i dir uniondeb.

11 Bywha fi, O Arglwydd, er mwyn dy enw: dwg fy enaid allan o ing, er mwyn dy gyfiawnder.

12 Ac er dy drugaredd dinstria fy ngelynyon, a dyfetha holl gystuddwyr fy enaid: oblegid dy was di ydwyf fi.

SALM CXLIV.

BENDIGEDIG *fyddo* yr Arglwydd fy nerth, yr hwn sydd yn dysgu fy nwyllaw i ymladd, a'm bysedd i ryfela.

nen i 'dir Israel,' fel y mae rhai yn ei ddeall, ar ol i'r gwrthryfel presenol fyned heibio: neu, yn ol ereill, i fan lle y byddwyf ddiogel rhag fy ngelynyon.

Adn. 11. *Bywha fi, O Arglwydd*] Yn ei enaid â gras, neu yn ei feddwl â sirioldeb a dyddanwch; *er mwyn dy enw*—er gogoniant mynegol i'th enw: *dwg fy enaid allan o ing*—neu o'm cyfyngder a'm gwsgfeun presenol; *er mwyn dy gyfiawnder*—er mwyn dy 'drugaredd,' adn. 1; *nen er mwyn dy 'fyddlondeb'* i gyflawni dy addewidion, yr hwn yr arferi ei ddangos i'r rhai a ddysgwylant wrthyt. Y wreiddiol yw, 'Ti a'm bywhei, dygi fy enaid allan o ing;' ac felly arddanghosir yma hyder Dafydd.

Adn. 12. *Ac er dy drugaredd*] Sef o drugaredd i Dafydd; *dyfetha fy ngelynyon*—neu ti a'u 'dyfethi,' ac a 'ddinstri' holl gystuddwyr fy enaid; *oglegid dy was di ydwyf fi*—yr wyf wedi ymglyfwno i'th wasanaeth, a byddi i mi dy wasanaethu yn ufydd a fyddlon wedi yr elo y gwrthryfel hwn heibio: gwel y teitl.

SALM CXLIV. Y teitl yw, '*Salm Dafydd*;' ac iddo ef y priodolir hi gan yr *Hebraeg* a'r holl *gyfieithiadau*. Gallwn gasglu oddiwrth adn. 2, 10, mai Dafydd a'i hysgrif-enodd, a hyn ydychyd ead yn i'r orsedd, a chael buddugoliaeth mewn rhan ar ei elynion, er nad oedd wedi eu darostwng hwy oll, fel yr awgrymir yn adn. 7, 11. Meddylir yn gyffredin mai ar ol marwolaeth Absalom y cyfansoddodd efe hi.

Adn. 1. *Bendigedig fyddo yr Arglwydd fy nerth*] Yn yr hwn yr wyf yn hyderu, ac oddiwrth yr hwn y ceisais nerth i orchfygu fy ngelynyon, ac i gyflawni fy nyledswyddau fel brenin. *Yr hwn sydd yn dysgu fy nwyllaw i ymladd*—i ddefnyddio y cleddyf, y bidawg, a'r waewffon; *a'm bysedd i ryfela*—i ddefnyddio y bwa saeth a'r daff-ffon: gwel *Clarke*.

Adn. 2. *Fy nhrugaredd*] Duw oedd awdwr holl drugareddau Dafydd yn dymhorol ac ysbrydol; *a'm hamddiffynfa*—gadarn i ffoi iddi yn mhob perygl: *fy nhŵr*—Saes., 'fy uchel dŵr,' lle yr ydoedd allan o gryaedd malais ei elynion; *a'm gwaredydd*—hollalluog: *fy nharian yw efe*—i'm diogelu rhag saethau y

2 *Fy nhrugaredd*, a'm hamddiffynfa; *fy nhŵr*, a'm gwaredydd: *fy nharian yw efe*, ac ynddo y gobeithiais; yr hwn sydd yn darostwng fy mhobl danaf.

3 *Arglwydd*, beth *yw* dyn, pan gydnabyddid ef? *neu* fab dyn, pan wnait gyfrif o hono?

4 *Dyn* sydd debyg i wagedd; ei ddyddiau *sydd* fel cysgod yn myned heibio.

5 *Arglwydd*, gostwng dy nefoedd, a disgyn: cyffwrdd â'r mynyddoedd, a mygant.

6 *Saetha* fellt, a gwasgar hwynt:

gelyn; ac ynddo y gobeithiais—Saes., 'yr wyf yn gobeithio:' *yr hwn sydd yn darostwng fy mhobl danaf*—yn tueddu calonau fy neiliaid i'm derbyn i fel eu brenin, ac i ufyddhau i mi. Gall fod yma gyfeiriad at yr heddwch cartrefol a fyfiai yn eu mysg ar ol gwrthryfel Absalom.

Adn. 3. *Arglwydd, beth yw dyn, pan gydnabyddid ef?*] Trwy sylwi yn drugarog arno? *neu fab dyn, pan wnait gyfrif o hono*—fel gwrthddrych dy ofal a'th serch? Fel pe dywedasai, 'Er fy mod i yn frenin ar Israel, eto nid wyddon dyn gwan, marwol, a phechadurus; ac o'm cydmaru â thi, yr wyf yn llai na dim, ac na gwagedd. Fel hyn y mae Dafydd yn mawrygu daioni Duw tuag ato trwy yr ystyriaeth o'i waellder ei hun: gwel yn helaethach ar Salm viii. 4.

Adn. 4. *Dyn sydd debyg i wagedd*] Neu i 'darth,' yr hwn a ddiffinaw yn ebrwydd. Neu, fel y gellir cyfieithu y wreiddiol, 'dyn sydd debyg i *Abel*,' yn agored i'r un trueni, damweiniau, a marwolaeth; canys mewn miliynau o achosion, fel y sylwa *Clarke*, y mae dwyllaw brodyr yn cael eu codi i dywallt gwaed brodyr. Pa beth yw rhyfeloedd ond brawd-laddiad yn rheulu mawr dynoliaeth? *Ei ddyddiau sydd fel cysgod yn myned heibio*—neu yn cilio ar y ddeial: gwel ar Salm cii, 11, a cix. 23. 'Yr oedd bywyd *Abel* yn addaw llawer o ddedwyddwch,' ebai *Clarke*; 'ond ni roddodd ond *cysgod* dedwyddwch. Yr oedd ef yn bur a santaidd, yn anwyllgan ei rieni, ac yn anwyllgan Cduw; ond trwy ddyfod yn wrthddrych cenfigen ei frawd, daeth ei fywyd yn aberth i'w dduwioldeb.'

Adn. 5. *Arglwydd, gostwng dy nefoedd, a disgyn*] Gwel ar Salm xviii. 9; *cyffwrdd â'r mynyddoedd, a mygant*—fel y gwnaeth *Sinai* ar dy ddisgyniad gynt, Exod. xix. 18. Hyn sydd ddarlunio cyffelybiaethol a barddonol o ddyfodiad Duw i ddial ar ei elynion ef. Ymddengys mai brenhinoedd neu deyrnasoedd cyn gryfed a *mynyddoedd* a feddylir yma, fel yn Jer. li. 25, Zech. iv. 7.

Adn. 6. *Saetha fellt*] Nail ai melt naturiol, neu ryw farnedigaethau trymion ereill; *a gwasgar hwynt*—sef gelynyon Dafydd, megys y Philistiaid, y Moabïaid, yr Ammonïaid, neu y Syriaid: *ergydau dy saethau*—gwel ar Salm

ergydia dy saethau, a difa hwynt.

7 Anfon dy law oddiuchod; achub a gwared fi o ddyfroedd mawrion, o law plant estron;

8 Y rhai y llefara eu genau wagedd, ac *y mae* eu deheulaw yn ddeheulaw ffalsder.

9 Canaf i ti, O Dduw, ganiad newydd: ar y nabl *a'r* degtant y canaf i ti.

10 *Efe sydd* yn rhoddi iachawdwr-iaeth i frenhinoedd; yr hwn sydd yn gwaredu Dafydd ei was oddiwrth y cleddyf niweidiol.

11 Achub fi, a gwared fi o law meibion estron, y rhai y llefara eu

genau wagedd, ac *y mae* eu deheulaw yn ddeheulaw ffalsder.

12 Fel *y byddo* ein meibion fel planwydd yn tyfu yn eu hieuencetid; *a'n* merched fel conglfaen nadd wrth gyffelybrwydd palas:

13 Fel *y byddo* ein celloedd yn llawn, yn trefnu pob rhyw luniaeth; *a'n* defaid yn dwyn miloedd a myrddiwn yn ein heolydd.

14 *A'n* hychain yn gryfion i Iafurio; heb na rhuthro i mewn, na myned allan; na gwaedd yn ein heolydd.

15 Gwyn *eu* byd y bobl *y mae* felly iddynt: gwyn *eu* byd y bobl *y mae* yr Arglwydd yn Dduw iddynt.

xviii. 14—16; *a difa hwynt*—neu, ti a *wnei* hyn; gwel ar Salm v. 10.

Adn. 7. *Anfon dy law oddiuchod*] Neu waredigaeth oddiuchod o eiddo dy law, fel tad yn estyn ei law i dynu ei blentyn o'r dwf: *achub a gwared fi o ddyfroedd mawrion*—o dralloddau mawrion, neu oddiwrth elynion mawrion, y rhai ill dau a osodir allan yn fynych trwy 'ddyfroedd' yn yr ysgrythrau; *o law plant estron*—sef y cenhedloedd eilunddogar o amgylch iddo, y rhai oeddynt eto heb eu llwvz ddarostwng iddo ef.

Adn. 8. *Y rhai y llefara eu genau wagedd*] Wrth iddynt broffesu cyfeillgarwch ag Israel, neu ymostyngiad i Dafydd; *ac y mae eu deheulaw*—wrth law-nodi cyfammod o heddwch ag Israel; *yn ddeheulaw ffalsder*—neu dwyll, trwy nad oeddynt yn bwriadu heddwch ar y pryd, neu am na safasant at y cytundeb a wnaethant.

Adn. 9. *Canaf i ti, O Dduw*] Wedi y gwnelet y pethau a enwyd yn adn. 5—8; *ganiad newydd*—naill ai can o gyfansoddiad newydd, neu ynte un o'r hen ganiadau mewn hwyl ac ysbryd newydd: *ar y nabl a'r degtant y canaf i ti*—gwel ar Salm xxxiii. 2, 3.

Adn. 10. *Efe sydd yn rhoddi iachawdwr-iaeth*] Neu waredigaeth oddiwrth eu gelynon; *i frenhinoedd*—y rhai nas gallant eu gwaredu a'u hamddiffyn eu hunain, er amled eu cyfoeth a'u milwvz, heb i Dduw roddi ymwared iddynt: *yr hwn sydd yn gwaredu Dafydd ei was oddiwrth y cleddyf niweidiol*—yn llaw ei elynion, ac oddiwrth fod dan orfod i'w ddefnyddio ef ei bun.

Adn. 11. *Achub fi, a gwared fi o law meibion estron*] Gwel ar adn. 7; *y rhai y llefara eu genau wagedd*, &c.—gwel ar adn. 8.

Adn. 12. *Fel y byddo ein meibion*] Y rhai yw nerth, diogelwch, a gobaith ein gwlad a'n cenedl; *fel planwydd*—Saes., 'fel planhigion,' *yn tyfu yn eu hieuencetid*—yn gryf, ir-aidd, a chynyddol: *a'n merched*—ar y rhai yr ymddibyn eu gobaith am hiliogaeth; *fel conglfaen nadd*—neu gabledig, *wrth gyffelybrwydd palas*—yn gryf a phrydfertb, ac wedi eu haddurno â phob rhinwedd angenrheidiol i'w rhyw. Fel y mae conglfeini nadd

neu gabledig yn prydfertbu palasau, felly bydded i'n merched brydfertbu a dedwyddoli eu teuluoedd fel gwagedd a mamau da.

Adn. 13. *Fel y byddo ein celloedd yn llawn*] Sef ein hysguborian, ein heiniardai, a'n hystordai; *yn trefnu pob rhyw luniaeth*—neu yn cywys defnyddiau at bob rhyw luniaeth: *a'n defaid yn dwyn miloedd a myrddiwn yn ein heolydd*—'yn ein corlanau,' fel y mae yn y *Goldeneg*; neu 'yn ein porffeydd,' fel y mae gan y LXX. Fel hyn byddai i gynydd y deadelloedd beri cynydd yn amled y cigfwyd a werthid yn yr heolydd.

Adn. 14. *A'n hychain yn gryfion i Iafurio*] Neu aredig y ddaear, yn gystal ag yn aml o rif. *Heb na rhuthro i mewn*—gan elynion i'n dinasoedd neu ein gwlad; *na myned allan*—genym ninau i ryfela â 'meibion estron,' neu allan o'n gwlad fel carcharion rhyfel. *Na gwaedd yn ein heolydd*—yn cael ei hachosi gan drais, newyn, neu gaethgludiad ein pobl. Yr oedd y bendithion a enwir yn yr adnodau hyn wedi eu haddaw i Israel, os byddai iddynt hwy wrando ar lais yr Arglwydd, Deut. xxviii. 4—8; ac y mae yn debygol fod Dafydd â'i lygad ar yr addeiwid hono wrth ysgrifenu y geiriau hyn. Dywed *Green, Mudge, Clarke*, ac ereill, nad *gwedd* am y bendithion hyn yw y geiriau fel y maent yn y wreiddiol, ond *datganiad* fod y cyfrwv fendithion mewn meddiant ganddynt: '*Y mae* ein meibion fel planwydd, *y mae* ein celloedd yn llawn,' &c.

Adn. 15. *Gwyn eu byd y bobl y mae felly iddynt*] Y rhai y mae eu plant yn fendithiol a llwyddiannus, eu celloedd yn llawion, eu hanifeiliaid yn gynyddol a chryfion, a'n gwlad mewn lloayddwch a llawnder: *gwyn eu byd y bobl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt*—y rhai y mae efe mewn cyfammod a'u beneidiaid fel eu tragwyddol ran, ac yn Waredwr iddynt oddiwrth bechod a'i ganlyniadau. Fel pe dywedasai, Y mae y cyfrwv bobl yn wynfydedig a dedwydd yn y mwynhad o fendithion tymhorol, ac yn enwedig felly mewn mwynhad a gobaith o fendithion ysbrydol a thragwyddol.

SALM CXLV.

DYRCHAFAF di, fy Nuw, O Frenin; a bendithiaf dy enw byth ac yn dragywydd.

2 Beunydd y'th fendithiaf; a'th enw a folaf byth ac yn dragywydd.

3 Mawr yw yr Arglwydd a chanmoladwy iawn; a'i fawredd sydd anchwiliadwy.

4 Cenhedlaeth wrth genhedlaeth a fawl dy weithredoedd, ac a fynega dy gadernid.

5 Ardderchogrwydd gogoniant

dy fawredd, a'th bethau rhyfedd a draethaf.

6 Traethant hwy gadernid dy weithredoedd ofnadwy: mynegaf finau dy fawredd.

7 Cofiadwriaeth' amllder dy ddaioni a draethant; a'th gyfiawnder a ddatganant.

8 Graslaw'n a thrugarog yw yr Arglwydd; hwyrfrydig i ddi, a mawr ei drugaredd.

9 Daionus yw yr Arglwydd i bawb: a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd.

SALM CXLV. Y teitl yw, 'Clodforedd Dafydd,' i'r hwn y priodolir hi gan yr Hebraeg a'r holl gyfeithiadau. Hon yw yr olaf o'r 'Salmau gwyddorol;' a dylasai fod ynddi 22 o adnodan, eba'i Clarke, yn cyfateb i nifer y llythrenau yn y wyddor Hebraeg: gwel ar adn. 13. Y mae yn Salm o glodforedd dibafal; a delir hi yn y fath fri uchel gan y rabbiniaid Iuddeigg, fel yr haerant hwy, os bydd i ddy'n ei hadrodd hi deirgwaith yn y dydd gyda chywirdeb calon, y bydd iddo yn ddfiseth fwynhau bendithion y byd a ddaw. Nid ymddengys ar ba achlysur y cyfansoddwyd hi, nac yn wir pa un a oedd unrhyw achlysur neillduol iddi, amgen na diolchgarchwch i Dduw am ei fendithion annbraethadwy i ddydolryw. Y mae pob un o'r Salmau ereill, oddiyma i'r diwedd, yn fawl a chlodforedd i'r Arglwydd, heb na chwyn nac ocheanid yn prudeiddio un o honynt. Y mae galar y Salmydd bellach wedi troi yn gân, a'i wyllo yn orfoledd.

Adn. 1. *Dyrchafaf di fy Nuw, O Frenin*] Nen, 'O fy Mrenin,' fel y mae y LXX yn ei ddarllen. Er fod Dafydd ei hun yn frenin, eto efe a ystyrir fod Duw yn 'Frenin y brenhoedd,' ac yn haeddu cael ei ddyrchafu, ei anrhydeddu, ac ufyddhau iddo gan bawb. *A bendithiaf dy enw byth ac yn dragywydd*—Hebr., *leolam woed*, 'byth ac yn mlaen,' sef dros holl ystod ei fywyd ar y ddaear, ac yn dragywydd yn y nef.

Adn. 2. *Beunydd y'th fendithiaf*] Bob dydd o'm byswyd; a'th enw a folaf byth ac yn dragywydd—yn y byd hwn, ac yn yr hwn a ddaw: gwel uchod.

Adn. 3. *Mawr yw yr Arglwydd*] Yn ei natur, ei briodoliaethau, a'i ddaioni; a chanmoladwy iawn—yn haeddu cael ei ganmol a'i fawrygu gan bob bod rhesymol hyd eithaf ei alluodd: a'i fawredd sydd anchwiliadwy—yr hwn nas gellir amgyffred ei hyd na'i led, ei uwchder na'i ddfinder.

Adn. 4. *Cenhedlaeth wrth genhedlaeth a fawl dy weithredoedd*] Bydd i'r naill genhedlaeth ganmol dy weithredoedd mawreddog a daionus wrth genhedlaeth arall, sef y rhieni wrth eu plant, hyd ddiwedd amser; ac a fynega dy gadernid—Saes., 'dy weithredoedd nerthol.' Er fod gweithredoedd creadigol a rhagluniaethol Duw wedi eu cofrestru i ni yn

yr ysgrthyrau, eto rhaid i hanes gweithred-iadau rhagluniaethol a grasol Duw gael ei throsglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall hyd ddiwedd amser trwy draddodiad hefyd, gan eu bod o ddygywyddiad parhaus, neu yn cael eu hadnewyddu o ddydd i ddydd.

Adn. 5. *Ardderchogrwydd gogoniant dy fawredd*] Yma y mae Dafydd yn pentyru geiriau i geisio gosod allan fawredd Duw: 'Dy fawredd,' 'gogoniant dy fawredd,' 'ardderchogrwydd gogoniant dy fawredd.' *A'th bethau rhyfedd*—mewn creadigaeth a rhagluniaeth, ac yn enwedig yn nhrefn fawr yr iachawdwr-iaethl. *A draethaf*—tra y byddaf byw, trwy lesaru am danynt wrth ereill, ac ysgrifennu yn eu cych. Ond y mae *Mudde, Houbigant, Horsley, a Hare*, yn ei ddarllen, 'a draethant,' sef y naill genhedlaeth wrth y llall, adn. 4.

Adn. 6. *Traethant hwy*] Sef y naill genhedlaeth ar ol y llall; *gadernid dy weithredoedd ofnadwy*—yn dy ragluniaeth hynod o blaid dy bobl, neu yn erbyn dy elynion; *mynegaf finau dy fawredd*—sef mawredd dy ras, dy ddaioni, a'th drugaredd, adn. 8, 9.

Adn. 7. *Cofiadwriaeth amllder dy ddaioni a draethant*] Yn gystal a 'chadernid dy weithredoedd ofnadwy,' adn. 6; a'th gyfiawnder a ddatganant—Saes., 'a chanant am dy gyfiawnder,' yr hwn a ymddengys yr un mor amlwg yn holl weithredoedd Duw, pa un bynag fyddont ai 'trugaredd ai barn,' Salm ci. 1.

Adn. 8. *Graslaw'n a thrugarog yw yr Arglwydd*] Yn ei natur a'i weithredoedd; *hwyrfrydig i ddi*—yn ngwyneb y cythruddiadau cryfaf; a *nawr ei drugaredd*—hyd yn nod i'r pechaduriaid gwaethaf: gwel ar Exod. xxxiv. 6, 7, Num. xiv. 18—20.

Adn. 9. *Daionus yw yr Arglwydd i bawb*] Mewn ystyr tymhorol, trwy ei fod yn 'llenwi ein calou'n ni â lluniaeth ac â llawenydd,' 'gan agoryd ei law, a diwallu pob peth byw a'i ewyllys da,' adn. 16, Act. xiv. 17; a daionus hefyd mewn ystyr ysbrydol, trwy ei fod yn 'ewyllysis fod pob dyn yn gadwedig, a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd,' 1 Tim. ii. 4—6; 'heb ewyllysis bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch,' 2 Pedr iii. 9; ac wedi trefnu llwybr o gymod a chadwedigaeth ar gyfer yr holl fyf trwy farwolaeth ei Fab, 2 Cor. v. 18—20, 1 Ioan ii. 2. *A'i dru-*

10 Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O Arglwydd; a'th saint a'th fendithiant.

11 Dywedant am ogoniant dy frenhiniaeth; a thraethant dy gadernid:

12 I beri i feibion dynion adnabod ei gadernid ef, a gogoniant ardderchogrwydd ei frenhiniaeth.

13 Dy frenhiniaeth di sydd frenhiniaeth dragwyddol: a'th lywodraeth a bery yn oesoesoedd.

14 Yr Arglwydd sydd yn cynal y rhai oll a syrthiant, ac sydd yn codi pawb a ddarostyngwyd.

15 Llygaid pob peth a ddysgwyliant wrthyt; ac yr ydwynt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd;

16 Gan agoryd dy law, a diwallu pob peth byw a'th ewylls da.

17 Cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a santaidd yn ei holl weithredoedd.

18 Agos yw yr Arglwydd at y

garedd sydd ar ei holl weithredoedd—ar bob creadur byw a greodd ef ar wyneb yr holl ddaear, anifeiliaid ac adar yn gystal a dynion. Y mae yr holl drugaredd ag y mae natur pob un yn alluog i'w derbyn, yn cael ei chyfranu yn haelionus iddynt oll.

Adn. 10. *Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O Arglwydd*] Am dy ddaioni a'th drugreddau iddynt oll; neu, hwy a roddant achos cyfiawn i ddynion ac angylion dy ganmol a'th glodfori am danynt oll: *a'th saint a'th fendithiant*—yn dragwydd am dy ras a'th iachawdriaeth iddynt hwy. Y mae gweithredoedd ereill Duw yn ei glodfori ef, fel y mae adeilad hardd yn ganmoliaeth i'r adeiladwr, neu ddarlun prydfwrth yn ganmoliaeth i'r hwn a'i gwnaeth; ond y mae y saint yn ei ganmol ac yn ei glodfori ef a'u gwefusau, yn gystal ag yn santeiddrwydd eu calon a'u buchedd.

Adn. 11. *Dywedant am ogoniant dy frenhiniaeth*] O'r hon y maent hwy eu hunain yn ddeiliaid ufydd; *a thraethant dy gadernid*—fel Brenin mawr, galluog, a gogoneddus.

Adn. 12. *I beri i feibion dynion adnabod ei gadernid ef*] I roddi gwybodaeth o hono ef a'i weithredoedd i holl drigolion y ddaear, neu i'w gymhell ef i'w sylw fel eu Duw a'u Gwaredwr; *a gogoniant ardderchogrwydd ei frenhiniaeth*—Saes., 'a mawredd gogoneddus ei frenhiniaeth.' Traethant am hyn hefyd, i'r dyben i ennill yr holl fyd yn ddeiliaid ufydd iddo, neu i dderbyn ei Fab i deyrnasu arnynt, Luc xix. 27.

Adn. 13. *Dy frenhiniaeth di sydd frenhiniaeth dragwyddol*] Ac nid un dertynol fel eiddo brenhinoedd y ddaear; *a'th lywodraeth a bery yn oesoesoedd*—er y bydd i lywodraeth gyfyngol Crist gael ei rhoddi i fyny yn y dydd diweddaf i 'Dduw, sef y Tad,' neu i'r Ddwod fel Ffynnonell fawr pob bodeth; eto bydd i lywodraeth Crist, fel Creawdwr a Chynaliwr pob peth, barhau gydag ef, mewn undeb a'r Tad a'r Ysbryd, yn oesoesoedd; gwel ar 1 Cor. xv. 24, 2 Pedr i. 11.—Trwy fod yr adnod uchod yn dechreu gyda'r lythren m, dylai yr adnod nesaf yn nhrefn y wyddor ddechreu gydag n; ond nid yw yr adnod hōno i'w chael yma. 'Dywedyd na bu hi erioed i mewn,' ebai Clarke, 'sydd gyfeiliornus, am nad yw y wyddor yn llawn hebddi hi; ac y mae yn rheswm anatebadwy i brofi y dull diofal yn yr hwn y cadwai yr Iuddewon eu cofyfrau

dwyfol: gwel y teitl. Y mae adnod felly i'w chael yma yn LXX, y *Vulgate*, y *Syriac*, yr *Arabaeg*, a'r *Anglo-Saxon*; ac er nad yw mewn un ailun argraffedig o'r Beibl Hebreig, eto ceir hi ar waelod y ddalen mewn un ysgriflyfr Hebreig ag sydd yn awr yn Ngholeg y Drindod, Dublin, fel hyn: *Neeman Yehovah bechol debarav; vechasid bechol maasav*; 'Ffyddlon yw yr Arglwydd yn ei eiriau oll; a thrugarog yn ei holl weithredoedd.'

Adn. 14. *Yr Arglwydd sydd yn cynal y rhai oll a syrthiant*] Hebr., *nophelim*, 'y rhai sydd ar syrthio,' neu y gweiniaid; *ac sydd yn codi pawb a ddarostyngwyd*—ac a ddysgwyliant wrtho ef am gael eu codi. Y meddwl yw, fod pawb ag sydd yn sefyll heb syrthio, neu a godwyd ar ol syrthio, yn cael eu cynal gan yr Arglwydd yn unig, ac nid yn sefyll trwy eu nerth eu hunain.

Adn. 15. *Llygaid pob peth a ddysgwyliant wrthyt*] Am eu hymborth angenrheidiol; *ac yr ydwynt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd*—hyn yw, pan y byddo arnynt ei eisiau: gwel ar Salm civ. 21.

Adn. 16. *Gan agoryd dy law*] Sef llaw fawr ei ragluniaeth, yn yr hon y mae pob cyflawnder ar gyfer eisiau ei holl greaduriaid; *a diwallu pob peth byw a'th ewylls da*—yn ddyn ac anifell, ehediaid a physgod. Y mae efe hefyd yn diwallu anghenion ysbrydol dynion, yn gystal a'u hanghenion naturiol.

Adn. 17. *Cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd*] Sef yn ei holl ymddygiadau tuag at bawb, y drwg a'r da; *a santaidd yn ei holl weithredoedd*—trwy ei fod bob amser yn gweithredu yn gyson a'i natur bur a pherffaith. Ond y mae y gair a gyfieithir yma 'santaidd,' yn arwyddo yn gyffredin 'trugarog.' Y mae cymysgedd o *drugaredd* yn holl weinyddiadau tostaf Duw tuag at ddynion yn y fuchedd hon; canys 'barn ddiudregaredd' a weinyddir yn unig yn y byd a ddaw, Iago ii. 13, Dat. xiv. 10. Tybia Clarke mai y tebyg-olrwydd rhwng hon a'r adnod a ddylasai ganlyn y 13eg, oedd yr achos i hōno gael ei gadael allan.

Adn. 18. *Agos yw yr Arglwydd at y rhai oll a alwant arno*] Mewn gweddï daer, i wrando eu cwyn, ac i ganiatáu eu dymuniadau; *at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd*—gyda chalon gywir, grediniol, a hiraethlon; at y rhai a fyddont yn gofyn pethau yn

rhai oll a alwant arno, at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd.

19 Efe a wna ewylllys y rhai a'i hofnant: gwrendy hefyd eu llefain, ac a'u hachub hwynt.

20 Yr Arglwydd sydd yn cadw pawb a'i carant ef; ond yr holl rai annuwiol a ddyfetha efe.

21 Traetha fy ngenau foliant yr Arglwydd: a bendithied pob cnawd ei enw santiaidd ef byth ac yn dragwydd.

SALM CXLVI.

MOLWCH yr Arglwydd. Fy enaid, mola di yr Arglwydd.

ol ei ewylllys ef, a hyny mewn ffydd, ac yn y ffordd a benododd efe.

Adn. 19. *Efe a wna ewylllys y rhai a'i hofnant!* Ac a'i 'carant ef,' adn. 20, cyn belled ag y byddo hyny er lles iddynt hwy, ac er gogoniant iddo ei hun, 1 Ioan iii. 22: *gwrendy hefyd eu llefain*—yn mhob cyfyngder ag y byddont ynddo; *ac a'u hachub hwynt*—allan o hono, pan mai hyny fyddo oraf.

Adn. 20. *Yr Arglwydd sydd yn cadw pawb a'i carant ef!* Efe a'u ceidw nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw: *ond yr holl rai annuwiol a ddyfetha efe*—yn fynych yn y byd hwn, ond yn sicr yn y nesaf; hyny yw, efe a'u dyfetha â 'dinystr tragwyddol': gwel ar 2 Thes. i. 9.

Adn. 21. *Traetha fy ngenau foliant yr Arglwydd!* Fel fy Mrenin mawreddog, daionus, a thrugarog, adn. 1—13; ac fel fy Nghynaliwr hollalluog, a Cheidwad pawb a alwant arno mewn gwirionedd, adn. 14—20: *a bendithied pob cnawd ei enw santiaidd ef*—yda mi, ac yn ol fy siampl i; *byth ac yn dragwydd*—gwel ar adn. 1, 2.

SALM CXLVI. Hon yw y gyntaf o'r Salmu a elwir 'Haleliwia,' o'r rhai y mae *pump*, y rhai a orphenant y llyfr. Ni roddir enw yr awdwr o'i blaen yn yr *Hebraeg* na'r *Galdeae*; ond y mae y LXX, y *Vulgate*, y *Syriac*, yr *Arabaeg*, a'r *Ethiopaeg*, yn ei phriodoli i *Haggai* a *Zechariah*. Bernir yn gyffredin mai ar ol y caethiwed yr ysgrifenydd hi; a meddylir fod ynddi gyfeiriad at waith brehinoedd Persia, trwy gymhellid gelynyon yr Iuddewon, yn galw yn ol y gorchymyn a roisai Cyrus i adeiladu muriau Jerusalem: gwel ar adn. 3.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd!* Hebr., 'Haleliwia,' yr hwn a ddechreu a'r holl Salmuau canlynol hefyd, ac a ystyrir fel teitl iddynt. *Fy enaid, mola di yr Arglwydd*—pwy bynag arall a beidio.

Adn. 2. *Molaf yr Arglwydd yn fy myw!* Tra y byddaf byw yn y byd; *canaf i'm Duw tra fyddwyf*—Hebr., *beodi*, 'tra y byddaf mewn bod'; hyny yw, yn dragwydd.

2 Molaf yr Arglwydd yn fy myw: canaf i'm Duw tra fyddwyf.

3 Na hyderwch ar dywysogion, nac ar fab dyn, yr hwn nid oes iachawdwriaeth ynddo.

4 Ei anadl a â allan, efe a ddychwel i'w ddaear: y dydd hwnw y derfydd am ei holl amcanion ef.

5 Gwyl ei fyd yr hwn y mae Duw Jacob yn gymhorth iddo, sydd â'i obaith yn yr Arglwydd ei Dduw:

6 Yr hwn a wnaeth nefoedd a daear, y môr, a'r hyn oll y sydd ynddynt: yr hwn sydd yn cadw gwirionedd yn dragwydd:

7 Yr hwn sydd yn gwneuthur barn i'r rhai gorthrymedig, yn

Adn. 3. *Na hyderwch ar dywysogion!* Ar eu ffafir a'u haddewidion, pa môr fawr bynag y byddo eu cyfoeth, eu gallu, a'u hawdurdod; *nac ar fab dyn*—unrhyw ddyn, *yr hwn nid oes iachawdwriaeth ynddo*—Hebr., *teshuah*, 'un egwyddor achubol,' neu fodd i'ch achub neu eich cynorthwyo. Meddylir fod yma gyfeiriad at Artaxerxes brenin Persia, yr hwn a ddiddymodd y gorchymyn a roisai Cyrus i adeiladu Jerusalem a'r deml: gwel Ezra iv. 21—24. Gall fod yr Iuddewon wedi dechreu meddwl eu bod yn ddyledus am eu gwaredigaeth a'u llwyddiant i frehinoedd Persia; a goddefodd Duw i'r gwaith gael ei atal am flynyddoedd, i ddsygu iddynt beidio hyderu ar *ddyn*, ond ar Dduw yn unig.

Adn. 4. *Ei anadl a â allan!* Efe a drenga, fel y gwnaethai Cyrus, er ei fod yn dywysog neu frenin galluog: *efe a ddychwel i'w ddaear*—o ran ei gorff, o'r hon y lluniwyd ef. *Y dydd hwnw*—sef dydd ei farwolaeth, *y derfydd am ei holl amcanion ef*—fel nas gall eich cynorthwyo na'ch rhwystro. Y meddwl yw, os byddai tywysog daearol yn meddu ewylllys i'w cynorthwyo, y gallai ef fod yn analluog; neu os byddai yn ewyllysgar a galluog, y gallai farw eu cyflawni ei amcanion: gan hyny na hyderwch ar dywysogion, neu ar fraich o gwawd, adn. 3.

Adn. 5. *Gwyl ei fyd yr hwn y mae Duw Jacob yn gymhorth iddo!* Sef y Duw hwnw ag sydd yn hollalluog, digyfnwid, a thragwyddol; *sydd â'i obaith yn yr Arglwydd ei Dduw*—yr hwn a addawodd ei gynorthwyo, ac a gyflawna ei holl addewidion a'i amcanion yn ddfifeth. Gall dyn gyfnwid; ond y mae Duw Jacob yr un o byd: bydd i ddynt farw; ond y mae Jehofa yn parhau yn dragwydd.

Adn. 6. *Yr hwn a wnaeth nefoedd a daear, &c.* Ac am hyny sydd â phob gallu ganddo ynddo ei hun: *yr hwn sydd yn cadw gwirionedd yn dragwydd*—sef gwirionedd ei addewidion, trwy eu cyflawni hwynt oll.

Adn. 7. *Yr hwn sydd yn gwneuthur barn i'r rhai gorthrymedig!* Neu yn mynu cyfiawnder iddynt; *yn rhoddi bara i'r newynog*—gan eu diwallu â phob lluniaeth angen-

rhoddi bara i'r newynog. Yr Arglwydd *sydd* yn gollwng y carcharorion yn rhydd.

8 Yr Arglwydd *sydd* yn agoryd llygaid y deillion: yr Arglwydd *sydd* yn codi y rhai a ddarostyngwyd: yr Arglwydd *sydd* yn hoffi y rhai cyfiawn.

9 Yr Arglwydd *sydd* yn cadw y dycethriaid: efe a gynal yr amddifad a'r weddw; ac a ddadymchwel ffordd y rhai annuwiol.

10 Yr Arglwydd a deyrnasa byth, sef dy Dduw di, Seion, dros genhedlaeth a chenhedlaeth. Molwch yr Arglwydd.

rheidiol, Salm cxlv. 15, 16. Yr Arglwydd *sydd* yn gollwng y carcharorion yn rhydd—pan y byddont wedi eu carcharu ar gam. Jehofa, ac nid brenin Persia, a drefnodd ryddhad i gaethion Babilon, adn. 3.

Adn. 8. Yr Arglwydd *sydd* yn agoryd llygaid y deillion] Trwy ddwyn y carcharorion tan-ddaearol i welod goleuni y dydd, neu trwy oleuo meddyliann deillion ysbrydol. Cafodd y rhan yma o'r Salm ei chyflawni yn llythrenol gan ein Harglwydd bendigedig yn nyddian ei gnawd; a gall mai at yr Arglwydd Iesu y cyfeirir yn neillduol yma. Yr Arglwydd *sydd* yn codi y rhai a ddarostyngwyd—trwy gysuro a gwaredu y rhai a ddarostyngwyd gan ryw wendid, Luc xiii. 11—13; neu a ddarostyngwyd dan deimlad o'u heuogrywyd a drwg pechod. Yr Arglwydd *sydd* yn hoffi y rhai cyfiawn—yn hoffi gwneyd dation iddynt, ac yn hoffi gweled ei ddelw ei hun arnynt.

Adn. 9. Yr Arglwydd *sydd* yn cadw y dycethriaid] Y rhai yn fynych sydd heb gyfeillion, ac yn agored i lawer o sarhad oddiwrth eu cymydogion: efe a gynnal yr amddifad a'r weddw—mewn gwlad estronol, fel pe buasant gartref, pan yn dysgwyl wrth ei drugaredd ef, Salm cxlvii. 11: ac a ddadymchwel ffordd y rhai annuwiol—fel ag i attal iddynt gyflawni y drwg a friwiadent i'r dycethriaid, yr amddifad, a'r weddw. Ymddengys fod yma gyfeiriad at gyflwr yr Iuddewon yn Babilon.

Adn. 10. Yr Arglwydd a deyrnasa byth] Ar ei elynion yn ei lid, ac ar ei bobl yn ei ras a'i drugaredd; sef dy Dduw di, Seion—yr hwn y mae yr eglwys yn ei addoli fel eu Duw, ac yn ufyddbau iddo fel eu Brenin; dros genhedlaeth a chenhedlaeth—trwy holl chwyldroadau amser, a hyd eithafion tragwyddoldeb. Molwch yr Arglwydd—fel hyn y mae y Salm hon, megys yr holl rai dylynol, yn dechreu ac yn diweddu yn yr un geiriau.

SALM CXLVII. Priodolir y Salm hon gan amrai o'r cyfieithiadau i *Haggai* a *Zechariah*, er y tybia rhai mai *Nehemiah* yw ei hawdwr. Ymddengys iddi gael ei hysgrifenu ar ol y caethiwed, pryd yr oedd yr Iuddewon

SALM CXLVII.

MOLWCH yr Arglwydd: canys da yw canu i'n Duw ni; o herwydd hyfryd yw, ie, gweddus yw mawl.

2 Yr Arglwydd *sydd* yn adeiladu Jerusalem; efe a gasgl wasgaredigion Israel.

3 Efe sydd yn iachâu y rhai briwedig o galon, ac yn rhwymo eu doluriau.

4 Y mae efe yn rhifo rhifedi y ser: geilw hwynt oll wrth eu henwau.

5 Mawr yw ein Harglwydd, a mawr ei nerth: ancirif yw ei ddeall.

yn ailadeiladu Jerusalem, adn. 2, 13. Y mae yr holl ben gyfieithiadau, oddieithr y *Galdeæg*, yn diweddu y Salm hon gydag adn. 11, ac yn dechreu Salm arall gydag adn. 12. Trwy y rhaniad hwn y mae nifer y Salmau yn y cyfieithiadau yn cytuno â'r *Hebraeg*; canys yr oedd y rhif hyd yma un yn llai yn y cyfieithiadau.

Adn. 1. Molwch yr Arglwydd] Gwel ar Salm cxlvi. 1; canys da yw canu i'n Duw ni—y mae hyn yn dda ynddo ei hun, ac yn gymeradwy gan Dduw: o herwydd hyfryd yw—y mae y gorchwyl dymunol hwn yn siriol y meddwl, ac yn rhoddi i ni flaenbrawf o lawenydd y nef: ie, gweddus yw mawl—am fod Duw yn haeddu cael ei foli gan ei holl creaduriaid, ac wedi cynysgaeddu dynion ac angylion â galluoedd addas i'r gwaith.

Adn. 2. Yr Arglwydd *sydd* yn adeiladu Jerusalem] Trwy dueddu ei bobl i newnethur hyn; neu oddiwrtho ef yn unig y caed ffordd rydd i'w hadeiladu hi, ac nid oddiwrthi dywysogion Persia: gwel ar Salm cxlvi. 3. Efe a gasgl wasgaredigion Israel—o gaethiwed Babilon; hyn yw, yr Arglwydd a wnaethai hyn, ac nid Cyrus: nid oedd ef ddim ond offeryn yn llaw Duw.

Adn. 3. Efe sydd yn iachâu y rhai briwedig o galon] Y rhai yr oedd eu calon ar dori o herwydd eu caethiwed a'u hadfyd yn Babilon; neu dan deimlad o'u pechodau, y rhai oeddynt yr achos o'u caethiwed; ac yn rhwymo eu doluriau—fel meddyg yn rhwymo doluriau y corff i'w hiachâu.

Adn. 4. Y mae efe yn rhifo rhifedi y ser] Yn holl eangderau yr awyrgylch: geilw hwynt oll wrth eu henwau—fel y geillw tad ei blant, neu feistr ei weision. Y meddwl yw, nad oedd un anhawsder gan hyn iddo ef 'gasglu gwasgaredigion Israel' o holl wledydd eu caethiwed, adn. 2.

Adn. 5. Mawr yw ein Harglwydd] O ran ei hanfod a'i berffeithderau; a mawr ei nerth—fel Duw hollalluog; ancirif yw ei ddeall—fel Duw hollwybodol. Hyn sydd gasgliad priodol a naturiol, wedi ei dynu oddiwrth yr hyn a ddywedwyd uchod.

Adn. 6. Yr Arglwydd *sydd* yn dyrchafu y

6 Yr Arglwydd sydd yn dyrchafu y rhai llariaidd, gan ostwng yr annuwiol hyd lawr.

7 Cydgenwech i'r Arglwydd mewn diolchgarwech: cenwch i'n Duw â'r delyn;

8 Yr hwn sydd yn toi y nefoedd â chymylau, yn paratoi gwlaw i'r ddaear, gan beri i'r gwellt dyfu ar y mynyddoedd.

9 Efe sydd yn rhoddi i'r anifel ei borthiant, ac i gywion y gigfran, pan lefant.

10 Nid oes hyfrydwch ganddo yn nerth march: ac nid ymhoffa efe yn esgeirian gŵr.

rhai llariaidd] Y rhai 'isel a chystuddiedig; neu y rhai a lariaiddwyd gan driniaethau ei ras ar en heneidiau; *gan ostwng y rhai annuwiol hyd lawr*—i'r iselder a'r cyfyngder mwyaf, a hynny weithiau yn y byd hwn, ond yn sicr yn y nesaf.

Adn. 7. *Cydgenwech i'r Arglwydd*] Neu 'cenwch bob yn ail,' fel yr arwydda y wreiddiol, gan ateb eich gilydd mewn caniaadu olynol; *mewn diolchgarwech*—gan gydnabod y ddiolchus yn eich caniaadu ei allu, ei ddoethineb, a'i ddaioni ef. *Cenwch i'n Duw â'r delyn*—defnyddiwch offer cerdd, yn gystal a'ch tafodau, i ganu ei fawlef. Yr oedd y delyn wedi bod yn hir ar yr helyg yn Babilon, Salm cxxxvii. 2—4; ond yma gorchymynir ei defnyddio drachefn.

Adn. 8. *Yr hwn sydd yn toi y nefoedd â chymylau*] Trwy gasglu yr agerau a'r tARTH i orchudlio gwyneb y sfurfaen; *yn paratoi gwlaw i'r ddaear*—i'w mwldu a'i maethloni hi; *gan beri i'r gwellt dyfu ar y mynyddoedd*—yn ymborth i'r gwahanol greaduriaid yno. Y mae y LXX, y *Vulgate*, yr *Arabae*, yr *Ethiopaeg*, a'r *Anglo-Saxon*, yn chwaneu yma, 'A llyisiau i wasanaeth dyn;' gwel ar Salm civ. 14.

Adn. 9. *Efe sydd yn rhoddi i'r anifel ei borthiant*] Yr hwn ni fedr hau na meddi; *ac i gywion y gigfran pan lefant*—yn eu hiaith hwy, am ymborth gan Dduw. Dywed naturiaethwyr fod y gigfran yn gadael i'w chywion ymdaro drostynt eu hunain cyn gynted ag y dysgont ehedeg; ond pan yn cael eu hesgeuloso felly, y mae rhagluniaeth dirion Duw yn gofalu yn barhaus am danynt: gwel ar Job xxxviii. 41.

Adn. 10. *Nid oes hyfrydwch ganddo yn nerth march*] Er ei 'fawr gryfder,' Salm xxxiii. 17; *ac nid ymhoffa efe yn esgeirian gŵr*—neu 'yn nghoesau gŵr,' fel y mae yn y Saesonaeg, er cyflumed fyddo. Y meddwl yw, nad oes ar Dduw angen am wŷr meirch na gwŷr traed i'w alluogi ef i gyflawni ei furiadau. *Green* a'i cyfieitha, 'Nid ymhyfrydaefe yn gwroldeb y march, ac ni foddheir ef gan fywiogrydd y rhyfelwyr.'

Adn. 11. *Yr Arglwydd sydd hoff ganddo*

11 Yr Arglwydd sydd hoff ganddo y rhai a'i hofnant ef; *sef y rhai a ddysgwylant wrth ei drugaredd ef.*

12 Jerusalem, mola di yr Arglwydd: Seion, molianna dy Dduw.

13 O herwydd efe a gadarnhaodd fârau dy byrth: efe a fendithiodd dy blant o'th fewn.

14 Yr hwn sydd yn gwneuthur dy fro yn heddychol, ac a'th ddiwalla di â brasder gwenith.

15 Yr hwn sydd yn anfon ei orchymyn ar y ddaear: a'i air a red yn dra huan.

16 Yr hwn sydd yn rhoddi eira fel gwlan; ac a daena rew fel lludw.

y rhai a'i hofnant ef] Efe a hoffa eu noddi, eu cynorthwyo, a'u haclub hwy; *sef y rhai a ddysgwylant wrth ei drugaredd ef*—am ei nawdd a'i iachawdwriaeth. Dywedir hyn i egluro beth a feddylir wrth ei *ofni* ef yn nechre yr adnod. Y mae llef hyd yn nod yr edifeiriol, yr hwn sydd yn dechreu chwilio am drugaredd i'w enaid, yn foddhaol yn nghlustiau yr Arglwydd. Y mae y Salm hon yn diweddu yma yn yr holl hen gyfieithiadau, oddieithr y *Guldaeg*: gwel y teitl. Tybia *Clarke* fod hon ar y cyntaf yn ddwy Salm wahanol, a'u bod yn cyfeirio at ddau gyfuod gwahanol: gwel ar adn. 13.

Adn. 12. *Jerusalem*] Sef trigolion Jerusalem yn eu tai gartref; *mola di yr Arglwydd*—am y bendithion a enwir isod. *Seion*—sef eglwys Dduw pan yn ymgynulledig yn y deul; *molianna dy Dduw*—am fod y deul wedi ei hadeiladu, a'i addoliad ef wedi ei sefydlu yddi eilwaith.

Adn. 13. *O herwydd efe a gadarnhaodd fârau dy byrth*] Trwy dy alluogi di i orphenuriau Jerusalem; neu, y mae dy ddiogelwch yn gynwysedig nid yn dy furiau, a'th byrth, a'th fârau, ond yn nawdd ac amddiffyniad Duw. *Efe a fendithiodd dy blant o'th fewn*—â llawnder tymhorol, ac â bendithion ysbyrdol hefyd. 'Oddiwrt y rhan flaenaf o'r Salm, (gwel adn. 2,) ymddengys fod y muriau yn cael eu hadeiladu; oddiwrt hon, ymddengys eu bod wedi eu gorphen, a bod arlywyadau wedi cael eu dwyn i'r ddinas i gynnal ei thrigolion. Yr oedd y pyrth wedi eu gosod i fyny, a'u sicrhau yn dda â bârau, fel ag i ddiogelu y grawn, &c.'—*Clarke*.

Adn. 14. *Yr hwn sydd yn gwneuthur dy fro yn heddychol*] Oddiamgylch, heb i'u gelyn gynyg dy aflonyddu uwych; *ac a'th ddiwalla di â brasder gwenith*—sef â'r gwenith brasaf a goraf. Y meddwl yw, y caent lonyddwch bellach i lasurio y ddaear, a uwynhau ei firwythau goraf hi.

Adn. 15. *Yr hwn sydd yn anfon ei orchymyn ar y ddaear*] Pa un sydd ddiagonol, heb unrhyw offeryn, i wneuthur pa beth bynag a fyno efe mewn gras, natur, neu ragluniaeth; *a'i air*—neu y gorchymyn hwnw, a red yn

17 Yr hwn sydd yn bwrw ei iâ fel tameidiau: pwy a erys gan ei oerni ef?

18 Efe a enfyf yn ei air, ac a'u tawdd hwynt: a'i wynt y chwyth ef, a'r dyfroedd a lifant.

19 Y mae efe yn mynegu ei eiriau i Jacob, ei ddeddfau a'i farnedig-aethau i Israel.

20 Ni wnaeth efe felly âg un genedl; ac nid adnabuant ei farnedigaethau ef. Molwch yr Arglwydd.

dra buan—o ran y cyflawniad effeithiol o hono mewn unrhyw ran o'r gredigaeth.

Adn. 16. *Yr hwn sydd yn rhoddi eira fel gwlan* O ran ei liw a'i ddisgyniad ysgafn; *ac a daena rew*—Saes., 'llwydrew,' *fel lludw*—yn wasgaredig ar wyneb y ddaear.

Adn. 17. *Yr hwn sydd yn bwrw ei iâ fel tameidiau* Sef cenllusg mawrion yn disgyn yn dalpiau o'r awyr. *Pwy a erys gan ei oerni ef*—sef gan oerni Duw? Dywed *Jacobus de Vitruco* fod yr oerni mor fawr ger mynydd Tabor, ar y 24ain o Ragfyr, fel ag i achosi marwolaeth llawer o'r bobl dydolion yno, yn gystal ag anifeiliaid; a dywed *Albertus Aquensis*, wrth son am yr oerni yn Judea, ddar-fod i ddeg-ar-hugain o wŷr Baldwin I. drengu o'i herwydd yn nghyffiniau mynyddig y Môr Marw. Gallwn ddysgu oddiwrth hyn fod y gauaf yn fynych yn oer iawn yn Judea, ac mai da y dywed y Salmydd, 'Pwy a erys gan ei oerni ef?'

Adn. 18. *Efe a enfyf yn ei air, ac a'u tawdd hwynt* I attal y niwed a allai ddylyn gormodedd o eira, llwydrew, neu iâ, efe a ddyry orchymyn arall, yr hwn yr un mor 'fuan' a'u tawdd hwynt: gwel ar adn. 15. *A'i wynt y chwyth ef*—sef y deheuwynt, neu ryw boeth-wynt arall; *a'r dyfroedd a lifant*—o'r mynyddau i'r dyffirnoedd, trwy i'r eira a'r rhew gael eu toddi ganddo.

Adn. 19. *Y mae efe yn mynegu ei eiriau i Jacob* Sef ei ewylls ddatguddiedig i hiliog-aeth Jacob; *ei ddeddfau a'i farnedigaethau i Israel*—sef ei ddeddfau mesol, seremonïol, a gwladol.

Adn. 20. *Ni wnaeth efe felly âg un genedl* Hyd y pryd hyny; *ac nid adnabuant ei farnedigaethau ef*—nac o ganlyniad y pethau gogoneddus dau yr efengyl at y rhai y cyfeir-ient: ac am hyny yr oedd dyled fawr ar Israel oll i 'foli yr Arglwydd' am y breintiau grasol ac ysbrydol hyny. Ond gallwn ni, dan orchwylieth yr efengyl, ddywedyd ei fod wedi gwneyd llawer mwy i ni, trwy fod genym y Testament Newydd yn chwanegol at yr Ilen Destament; a bod holl gysgodau y diweddfaf wedi cael eu gwreiddu, a'i broffwydoliaethau wedi cael eu cyflawni yn NHRIST i'r eglwys Gristionogol. *Molwch yr Arglwydd*—bydded i bawb ei foli a'i ganmol ef yn dragywydd, ac yn enwedig pob Cristion yn mhob man o'i lywodraeth.

SALM CXLVIII.

MOLWCH yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd o'r nefoedd: molwch ef yn yr uchelderau.

2 Molwch ef, ei holl angylion: molwch ef, ei holl luoedd.

3 Molwch ef, haul a lleuad: molwch ef, yr holl ser goleuni.

4 Molwch ef, nef y nefoedd; a'r dyfroedd y rhai ydych oddiar y nefoedd.

SALM CXLVIII. Priodol y Salm hon gan y LXX, y *Syriaeg*, a'r *Ethiopaeg*, i *Haggai* a *Zechariah*; gan ereill i *Dafydd*; a chan rai i *Adda* yn mharadwys. Fel Salm o foliant, ystyrir hi y fwyaf arddunawl yn yr holl lyfr, yn yr hon y gelwir ar y nefoedd a'r ddaear, a phob peth ynddynt, i foli yr Arglwydd o herwydd ardderchogrwydd ei natur a'i weithredoedd.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd* Gwel ar Salm cxlvi. 1. *Molwch yr Arglwydd o'r nefoedd*—dechreuwr ar y gwaith santaidd o'i foli ef yn y nefoedd: *molwch ef yn yr uchelderau*—yn y lleoedd uwchaf yn nef y gogoniant.

Adn. 2. *Molwch ef, ei holl angylion* O bob gradd a dosbarth: *molwch ef, ei holl luoedd*—yn mhob man o'i lywodraeth. Fe allai mai yr *angylion* a olygir yma hefyd; a'u bod yn cael eu galw yn *lluoedd* ar gyfrif eu nifer, eu trefn reolaidd, a'u perffaith ymostyngiad i'w Cadfridog goruchel, yr hwn a elwir yn 'Arglwydd y luoedd.' Y mae yn wir nad oes eisiau annog yr angylion i foli Duw, ac nas gall y pethau difywyd a elwir ar ol hyn wneuthur hyny; ond y mae y Salmydd, mewn dull barddonol prydferth, ac yn ngwresogrwydd dirfawr ei enaid, yn galw arnynt oll i wneuthur hyny, i'r dyben i gynhyrfu *dynion* yn fwy i'w foli ef.

Adn. 3. *Molwch ef, haul a lleuad* Y maent hwy mewn effaith yn gwneuthur hyny eisioes yn eu haith eu hunain, trwy 'ddatgan gogoniant Duw,' a 'mynegu gwaith ei ddwy-law ef,' Salm xix. 1—6; ac hefyd wrth gadw yn rheolaidd y deddfau a roddwyd iddynt yn y dechre gan eu Creawdwr doeth a da. *Molwch ef, yr holl ser goleuni*—neu y 'ser dysgleiriaf a mwyaf goleu,' megys y planedau; neu gall ei fod yn cyfeirio at yr holl ser, y rhai sydd yn goleuo ac yn llewyrchu yn y ffurfafen.

Adn. 4. *Molwch ef, nef y nefoedd* Er fod yr ymadrodd hwn weithiau yn arwyddoedd 'nef y gogoniant,' eto meddylir ei fod yma yn cyfeirio at y cyfundrefnau uwchaf o'r nef serenog, lle y mae heuliau uwchlaw heuliau, neu ddesebau uwchlaw desebau, yn ymestyn yn ddiiddiwedd yn y gwagle anfesuradwy. *A'r dyfroedd y rhai ydych oddiar y nefoedd*—neu 'oddiair y ffurfafen,' fel y dywedir yn Gen. i. 7: gwel y sylw yno.

Adn. 5. *Molant enw yr Arglwydd* Oll gyda'u gilydd, sef yr angylion yn weithredol, a'r pethau ereill yn ddangosiadol, fel siamplau

5 Molant enw yr Arglwydd: o herwydd efe a orchymynodd, a hwy a grewyd.

6 A gwnaeth iddynt barhau byth yn dragywydd: gosododd ddeddf, ac nis trosedddir hi.

7 Molwch yr Arglwydd o'r ddaear, y dreigiau, a'r holl ddyfnderau:

8 Tân, a chenllusg; eira, a tharth; gwynt ystormus, yn gwneuthur ei air ef:

9 Y mynyddoedd, a'r bryniau oll; y coed ffrwythlawn, a'r holl gedrwýdd:

10 Y bwystfilod, a phob anifel;

o fawredd, gallu, doethineb, a gogoniant eu Creawdwr. *O herwydd efe a orchymynodd*—trwy ddywedyd, 'Bydded; neu efe a ewyllysiodd y peth yn ei feddwl tragwyddol ei hun, Gen. i. 3; a *hwy a grewyd*—a neidiasant i fodolaeth o groth dim.

Adn. 6. *A gwnaeth iddynt barhau byth yn dragywydd*] Hyd ddiwedd amser o leiaf, os nid dros dragwyddoldeb, fel y tybia llawer; gwel ar 2 Petr iii. 10, 13. Cyfeirir yma at y cyrrff nefol yn unig; canys nid yw diwedd yr adnod yn wir am yr angylion, llawer o ba rai a droseddasant ddeddf eu Creawdwr. *Gosododd ddeddf*—i'r haul a'r lleuad a'r ser, i drefnu iddynt eu lleoedd, eu chwyldroadau, a'u dylanwad priodol; *ac nis trosedddir hi*—ganddynt, er nad ydynt oddi sylweddau difwydd. Er fod miloedd o honnynt yn gwibio heibio eu gilydd yn mhob cyfeiriad er pan grewyd hwynt, eto nid ydynt erioed wedi dyrysu yn eu chwyldroadau, na tharaw yn erbyn eu gilydd; ac y mae hyn yn dangos gallu, doethineb, a daioni Duw, am yr hyn y dylai efe gael ei foli.

Adn. 7. *Molwch yr Arglwydd o'r ddaear*] Ar ol galw ar y *nefoedd*, a'r pethau sydd ynddynt, i foli Duw yn yr adnodau blaenorol, y mae y Salmwydd oddiyma i'r diwedd yn galw ar y *ddaear*, a'r pethau a berthynant iddi hithau, i wneyd yr un modd. *Y dreigiau*—dywedir fod y gair *tanninim* yn meddwl yma crocodiliaid, morfilod, a physgod mawrion ereill o bob math; *a'r holl ddyfnderau*—moroedd, hynocedd, ac afonydd, a phob peth o'u mewn.

Adn. 8. *Tân*] Yn cynwys mellt a goruchion; *a chenllusg*—y rhai a ddisgynant yn fynych ar amser mellt a tharanau; *eira a tharth*—sef dwfr yn ei wahanol gyffyrnau a'i agweddau; *gwynt ystormus*—yr hwn sydd yn dra llesol er puro yr awyr; *yn gwneuthur ei air ef*—y maent oll fel cenadau ffyddlon yn gwneuthur ewyllys Duw, ac yn eu hiaith yn ei foli ef.

Adn. 9. *Y mynyddoedd a'r bryniau oll*] Ar y rhai y pora gwahanol greaduriaid, ac o'r rhai y dylifa ffyrddau i ddyfrhau y dyffryn-ocedd; *y coed ffrwythlawn*—neu goed yn dwyn ffrwythau at wasanaeth dyn; *a'r holl gedrwýdd*—dan ba rai y cynwysir yr holl

yr ymlusgiaid, ac adar asgellog:

11 Brenhinoedd y ddaear, a'r holl bobloedd; tywysogion, a holl farnwyr y byd:

12 Gwŷr ieuaine, agwryfonhefyd; henafgwyr, a llanciau.

13 Molant enw yr Arglwydd: o herwydd ei enw ef yn unig sydd ddyrchafadwy; ei ardderchogwydd ef sydd uwchlaw daear a nefoedd.

14 Ac efe sydd yn dyrchafu corn ei bobl, moliant ei holl saint; *sef* meibion Israel, pobl agos ato. Molwch yr Arglwydd.

goedydd nad ydynt yn dwyn ffrwyth, ond sydd er hynny yn wasanaethgar i ddyd, ac yn arddangos daioni a doethineb Duw.

Adn. 10. *Y bwystfilod a phob anifel*] Gwyllt a gwâr; *yr ymlusgiaid*—o bob maint-ioli, yn y dyfroedd ac ar y tir; *ac adar asgello*—o bob lliw a maint, doñon a gwylltion. Y mae Duw yn ei ragluniaeth yn gofalu am ymborth i'r rhai hyn oll, a dylai gael ei foli am ei ddaioni iddynt hwy, ac am eu gwasanaeth hwythau i ddyd.

Adn. 11. *Brenhinoedd y ddaear*] Y rhai a ddyrchafwyd i'r urddas a'r anrhydedd mwyaf yn mblith dynion; *a'r holl bobloedd*—y rhai sydd ddeiliaid iddynt; *tywysogion, a holl farnwyr y byd*—gelwir ar y rhai hyn oll i foli yr Arglwydd, yr hwn yw 'Brenin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi,' ac oddiwrth yr hwn y cawsant hwy en holl awdurdod, Rhuf. xiii. 1, &c.

Adn. 12. *Gwŷr ieuaine, a gwryfonhefyd*] Yn mldau eu dyddian, ac yn ighanol eu nerth, eu hiechyd, a'u prydferthwch; *henafgwyr*—neu hen bobl ar deryn eu dyddiau; *a llanciau*—Saes., 'a phlant,' o bob rhyw ac oedran, y rhai sydd newydd ddyfod i'r byd, ac yn gweled pob peth yn newydd o'u hamgylch. Y mae ar y rhai hyn oll rwymau i foli yr Arglwydd am ei ddaioni iddynt, a holl alluoedd eu cyrrff ei heneidiau.

Adn. 13. *Molant enw yr Arglwydd*] Sef ei hanfod a'i briodoliaethau ef; *o herwydd ei enw ef yn unig sydd ddyrchafadwy*—neu yn haeddu cael ei ddyrchafu; *ei ardderchogwydd ef sydd uwchlaw daear a nefoedd*—yn anfeidrol ragori arnynt hwy, ac ar bob peth ynddynt; neu, y mae ei ardderchogwydd, ei fawredd, a'i ogoniant ef yn fwy nag y gall neb ar y ddaear nac yn y nefoedd byth eu traethu na'u hamgyffred.

Adn. 14. *Ac efe sydd yn dyrchafu corn ei bobl*] Yn eu codi i anrhydedd, llwyddiant, a nerth; *moliant ei holl saint*—sef gwrthdrysych en moliant; *sef meibion Israel, pobl agos ato*—yr unig bobl ag sydd mewn cyfammod âg ef, ac yn cael nesáu ato i'w addoli yn ei deml, ac i gyflwyno offryman ac aberthau iddo. *Molwch yr Arglwydd*—chwi oll a enwyd uchod, yn y nefoedd ac ar y ddaear. Bydded

SALM CXLIX.

MOLWCH yr Arglwydd. Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd, a'i foliant ef yn nghynulleidfa y saint.

2 Llawenhâed Israel yn yr hwn a'u gwnaeth: gorfoledded meibion Seion yn eu Brenin.

3 Molant ei enw ef ar y dawns: canant iddo ar dympan a thelyn.

4 O herwydd hoffodd yr Ar-

i fhoesgni y *plant*, a bleodd y *gwŷr ieuainc* a'r *gwyrifon*, ac ochenaid yr *henafgwyr*, esgyn at eu Tad cyffredinol yn fawl a diolchgarwch: canys y mae efe yn gwyllo y rhai sydd ar y fron, yn rheoli ac yn cynnal y gwŷr ieuainc a'r gwyrifon, ac yn cynorthwyo ac yn dyddannu yr henafgwyr ar fin y bedd. Haleliwia! cydfoliannwn yr Arglwydd!

SALM CXLIX. Amcan y Salm hon eto yw cynhyrfu Israel i foliannu Duw am ryw drugaredd neu fuddugoliaeth newydd a gawsent hwy trwyddo ef. Nid yw yn eglur pwy yw ei hawdwr, na pha bryd yr ysgrifenydd hi, er fod llawer yn ei phriodoli i *Dafydd*. Tybia ereill ei bod yn dra chyfaddasol at gyflwr yr Iuddewon pan yn adeiladu yr ail deml ar ol y caethiwed, pryd yr oeddynt yn gweithio â'u barfau yn eu dwylaw yn bared i'w frwydr; ac iddi gael ei chanu i'w gwrolï a'u cefnogi hwy ar y pryd: gwel Neh. iv. 13, &c. Ond y mae amrai o'r doctoriaid Iuddewig yn ei hystyried fel yn cyfeirio at deyrnasiad y Messia.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd*] Gwel ar Salm cxlvi. 1. *Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd*—neu 'ganiad ardderchog,' fel yr arwydda y gair; ond odid y Salm hon, yr hon a ystyrir yn ardderchog iawn yn gystal ag yn ystydd. *Ei foliant ef yn nghynulleidfa y saint*—yn y cysegr, neu y fau lle yr ymgynullent hwy i addoli yr Arglwydd.

Adn. 2 *Llawenhâed Israel yn yr hwn a'u gwnaeth*] Nid yn nnig yn *ddynion*, ond yn *saint* hefyd, neu yn bobl gyfammodol iddo ef ei hun; neu ynte yn yr hwn a'u 'mawrhaodd,' neu a'u 'dychafodd,' fel yr arwydda y gair yn fynych. *Gorfoledded meibion Seion yn eu Brenin*—am fod ganddynt y fath Frenin da, doeth, a galluog, i'w llywodraethu a'u hamddiffyn fel ei ddeiliaid.

Adn. 3. *Molant ei enw ef ar y dawns*] Hebr., *bemachol*, 'gyda'r chwibawogl,' neu rwy offeryn cerdd i chwythu ynddo: gwel PARKHURST. 'Ni wn i am un man yn y Beibl lle y mae *machol* a *machalath* yn weddwl *dawns* o un math; y maent bob amser yn arwyddo rhyw fath o *bibell*.'—CLARKE. *Canant iddo ar dympan a thelyn*—offerynnau cerdd a defnyddid yn fynych yn ngwasanaeth y cysegr: gwel ar y Salm ganlynol.

Adn. 4. *O herwydd hoffodd yr Arglwydd ei bobl*] Saes., 'y mae yr Arglwydd yn ymbleseru yn ei bobl,' i wneyd daioni iddynt.

glwydd ei bobl: efe a brydfertha y rhai llednais â iachawdwriaeth.

5 Gorfoledded y saint mewn gogoniant: a chanant ar eu gwelyau.

6 *Bydded ardderchog foliant Duw yn eu genau*, a chleddyf dau-finiog yn eu dwylaw;

7 I wneuthur dial ar y cenhedloedd, a chosp ar y bobloedd;

8 I rwymo eu brenhinoedd â chadwynau, a'u pendefigion â gefynau heigrn;

Nid yw yr ymadrodd yn cyfeirio at ei hoffder dehrenol ef, ond at ei hoffder presenol. *Efe a brydfertha y rhai llednais*—Saes., 'y rhai llariaidd,' neu isel a gostyngedig; *â iachawdwriaeth*—neu, fel y mae *Mudge* yn ei gyfieithu, 'Efe a addurnu y rhai gostyngedig â buddugoliaeth.' Y mae yn wir hefyd y bydd i'r *saint* gael eu prydferthu âg iachawdwriaeth yma, ac yn y nef â zogoniant tragwyddol.

Adn. 5. *Gorfoledded y saint mewn gogoniant*] Yn yr anrhydedd a'r fuddugoliaeth ogoneddus a gânt hwy ar eu gelynnion; a *chanant ar eu gwelyau*—boed iddynt ganu y nos, yn gystal a'r dydd; ar wely cystudd a marwolaeth, yn gystal ag ar wely gorphwysdra. Ond tybia *Coke* nad yw y 'gwelyau' hyn yn meddwl dim mwy na'r *glythau* byn ar ba rai y gorweddent wrth wleda ar yr aberth diolchgarwch a offrymid ar ol cael buddugoliaeth.

Adn. 6. *Bydded ardderchog foliant Duw yn eu genau*] Neu ganiadau o fawl iddo ef wrth fynd allan yn erbyn eu gelynnion, 2 Cron. xx. 21, 22; a *chleddyf dau-finiog yn eu dwylaw*—i'w hamddiffyn eu hunain, neu i ymosod ar y rhai a godent i'w herbyn. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at y dull yn yr hwn yr oedd yr Iuddewon yn adeiladu muriau Jerusalem; a chymhwysir y cwbl gan ereill, mewn ystyr ysbrydol, at fuddugoliaethau yr efengyl: gwel y teitl.

Adn. 7. *I wneuthur dial ar y cenhedloedd*] Ond odid ar yr Arabiaid, yr Ammoniaid, a'r Asodiaid neu y Philistiaid, y rhai a rwystrant i'r Iuddewon adeiladn muriau Jerusalem, Neh. iv. 7, &c.; a *chosp ar y bobloedd*—ar yr Iuddewon Bradwrs hyny fe allai, y rhai oeddynt mewn cynghrair â'r cenhedloedd i geisio eu battal hwy, Neh. vi. 17, 18. Ond y mae rhai yn cymhwysu hyn oll at amser y *Maccabaid*, pryd yr oedd yr Iuddewon weithiau yn cael llwyr fuddugoliaeth ar eu gor-thrymwr. Modd bynag, gellir casglu oddiwrth amrai ranan o'r Hen Destament a'r Newydd, y bydd i rywbeth o'r natur yma gymeryd lle yn amser dinstyr galluedd anghrist, a lledaeniad yr efengyl bur: gwel Zech. ix. 13—16, a xiv. 17—19, Dat. xix. 11—21.

Adn. 8. *I rwymo eu brenhinoedd â chadwynau*] Fel carcharorion rhyfel; *a'u pendefigion â gefynau heigrn*—tybia rhai fod hyn oll yn cyfeirio at fuddugoliaethau Dafydd ar y Philistiaid, yr Ammoniaid, a'r Syriaid;

9 I wneuthur arnynt y farn ysgrifenedig: yr ardderchogrwydd hwn sydd i'w holl saint ef. Molwch yr Arglwydd.

SALM CL.

MOLWCH yr Arglwydd. Molwch Dduw yn ei santeiddrwydd: molwch ef yn ffurfafen ei nerth.

2 Molwch ef am ei gadernid:

a barna ereill ei fod yn cyfeirio at amser teyrnasiad y Messia.

Adn. 9. *I wneuthur arnynt y farn ysgrifenedig*] Gwel Deut. vii. 2, 24. Chwanegir hyn, i ddangos nad oddiar deimlad maleisus a dialgar y gwneid hyn, ond mewn ufydd-dod i orchymyn Duw, ac yn y fath fodd ag a benodasai efi. *Yr ardderchogrwydd hwn*—Saes., 'yr anrhydedd yna,' sydd i'w holl saint ef—bydd i'r barnau hyn gael eu gweinyddu er anrhydedd i'w holl saint ef, neu er amddiffyniad iddynt rhag eu gormeswyr. Ond tybia rhai mai yn nydd y farn y bydd i hyn gael ei lwr gyflawni: gwel ar 1 Cor. vi. 2, Judas, 14, 15. *Molwch yr Arglwydd*—am y fath anrhydedd, neu am ei gyfyngiad cyfiawn a thrugarog ef ar ran ei bobl.

SALM CL. Tybia rhai mai Ezra yw awdwr y Salm hon; ac iddo ei hysgrifenu yn fwiadol fel *diweddglo* i lyfr y Salmu, wrth iddo ei gasglu yn nghyd, megys ag yr ysgrifenasai efi y Salm gyntaf yn *rhagymadrodd* iddo. Ymddengys ei bod yn cael ei chanu gan gydgor cyffredinol o'r holl *leisiau* a'r *offerynau cerdd* yn y deml, yn niwedd yr '*Haleliwya fawr*,' i ba un y perthynia y pum Salm ddiweddar.

Adn. 1. *Molwch yr Arglwydd*] Gwel ar Salm cxlvi. 1. *Molwch Dduw yn ei santeiddrwydd*—Saes., 'yn ei gysegr,' sef y deml; neu '*o herwydd* ei santeiddrwydd,' fel y gellir ei gyfieithu. *Molwch ef yn ffurfafen ei nerth*—bydded i'ch caniaedu o foliant ddyrchafu i'r ffurfafen, neu ddatseinio trwy y ffurfafen, lle y danghosir cynifer o'i weithredoedd nerthol a mawreddog ef.

Adn. 2. *Molwch ef am ei gadernid*] Am y nerth a ddanghosodd efi mewn creadigaeth, yn gystal ag mewn rhagluniaeth a gras: *molwch ef yn ol amllder ei fawredd*—bydded eich mawl yn gyfyro ag a weddai i Fôd mor fawr, goruchel, a gogonedus.

Adn. 3. *Molwch ef â llais udgorn*] Yr hwn sydd gryf, soniarus, a mawreddog, ac yn tynu sylw, yn gystal ag yn bywiocau ac yn siriol y meddwl: *molwch ef â nabl, ac â thelyn*—dau offeryn tannau, yn wag oddifevn.

Adn. 4. *Molwch ef â thympan*] Math ar dabwrdd, neu groen wedi ei ledu ar wyneb cylch; *ac â dawns*—sef pibell neu chwibanog, Salm cxlix. 3: *molwch ef â thannau*—math ar grwth neu ffilor; *ac â organ*—offeryn ond odid wedi ei wneyd o gyrs o wahanol hyd, i chwythu ynddynt.

molwch ef yn ol amllder ei fawredd.

3 Molwch ef â llais udgorn: molwch ef â nabl, ac â thelyn.

4 Molwch ef â thympan ac â dawns: molwch ef â thannau ac â organ.

5 Molwch ef â symbolau soniarus: molwch ef â symbolau llafar.

6 Pob perchen anadl, molianedd yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd

Adn. 5. *Molwch ef â symbolau soniarus*]

Ond odid yr offeryn a elwir tryfal neu y tri-ongl: *molwch ef â symbolau llafar*—y rhai hyn, fel y meddylir, oeddynt ddau blât pres yn cael eu taraw yn erbyn eu gilydd. Y mae yn dra anhawdd darlunio yr offerynau hyn yn gywir, gan yr addefa yr Iuddewon eu hunain nas gwyddant hwy yn iawn pa fath oeddynt. Un peth sydd eglur, eu bod yn cael eu harfer yn ngwasanaeth y cysegr, a hyny trwy orchymyn Duw. Yr ydym yn darllen am dan-ynt cyn rhoddiad y ddeddf, pryd y cymerodd Miriam, chwaer Aaron, dympan yn ei llaw i ganu i'r Arglwydd am eu gwaredu rhag Pharao a'r Aiftiaid; 'a'r holl wragedd a aethant allan ar ei hol hi, â thympanau ac â dawnsiaf,' neu chwibanoglu, Exod. xv. 20. Gan hyny nid dan y gyfraith y dygwyd yr offerynau cerdd i addoliad Duw, ac ni feddwn hanes iddynt gael eu diddymu gyda hi. Y mae tuedd mewn cerddoriaeth dda i fywiogi a dyrchafu serchiadau dynion yn addoliad Duw. Pan y danghoswyd i Ioan y cydgor nefol, nid yn unig efi a glywodd leisiau o fawl, ond clywodd hefyd 'lef telynorion yn canu ar eu telynau,' Dat. xiv. 2. A phabau na ddylai yr hyn a wneir yn y nef, gael ei wneuthur hefyd, hyd eithaf eu gallu, gan y saint ar y ddaear? neu pham y rhaid i caniaedaeth *offerol* gael ei diddymu fel seremoni ddeddfol, tra y mae caniaedaeth *leisiol*, yr hon oedd yr un mor seremonïol, yn cael ei pharhau? Y mae cerddoriaeth gysegr-edig yn cynorthwyo ein dyhebwyd, yn siriol ein hysbrydoedd, ac yn attal i ni fino ar y gwaith; y mae yn gwneyd y wasanaeth yn fwy edmygol, yn creu ynom ysbryd addoli, ac yn gwneyd ein dyledswydd yn lyfyrdweh i ni. Ond dylem gofio yn barhaus y rhaid i bob cerddoriaeth, mewn trefn i fod yn gymeradwy gan Dduw, gael ei dilyn â serchiadau defosynol a duwiol; rhaid i ni ei foli ef, yn gystal â'i addoli, mewn ysbryd a gwirionedd; rhaid fod genym wir gariad ato, ufydd-dod cywir iddo, a ffridd ynddo; rhaid i ni gyflwyno ein mawl i'r Tad yn enw ei Fab, a thrwy gynorthwyo ei Ysbyrd Glân. Heb hyn bydd i'r caniaadau nwyaf peraid, cyson, a pherffaiith, pa un bynag ai â'r lleisiau ynte âg offerynau cerdd y gwneir hwynt, gael eu hystyried ganddo ef yn swm gwâg ac amheraid, neu fel 'efydd yn seinio a symbol yn tincian.'

Adn. 6. *Pob perchen anadl*] Pob un a allo ganu â'i dafod, neu chwythu mewn udgorn, pibell, neu chwibanog; *molianedd yr Arglwydd*—hyd eithaf ei alluoedd ar y ddaear,

fel y byddo iddo gael cyduno a'r dyrfa wared-igol i'w foliannu ef yn dragwyddol yn y nef. *Moluch yr Arglwydd*—Hebr., '*Hateiwiua*' molianedd ac addoed pawb ef yn dragwydd. Gyda'r dymuniad gwresog a saintaidd hwn y gorphenia pèr-ganiedydd Israel ganiadau Seion. Dywed y duwiol *Esgob Horne*, yn ei ragymadrodd i'w Esboniad rhagorol ar y Salmuau, 'na ddarfu i un o honynt roddi iddo ef anesmythder ond yr olaf; canys y pryd hyny efe a ofidiai am fod ei waith ar ben; a gallai yr ysgrifenydd ddywedyd agos yr un peth, oni

bae fod ganddo waith cyffelyb o'i flaen yn y llyfrau pwysig ag sydd eto ar ol.

Y mae gan y LXX, y *Syriaeg*, yr *Ethiopiaeg*, a'r *Arabaeg*, Salm chwanoogol o wyth adnod yn dylyn yma, yn gwneyd yn y cyfan cli, yr hon ni cheir yn yr *Hebraeg*, y *Galdeaeg*, na'r *Vulgate*. Ei theitl yw, 'Salm yn llaw-ysgrifen Dafydd, yn chwanoogol at nifer y Salmuau, wedi ei chyfansoddi gan Dafydd ar ol iddo fod yn ymladd yn unigol a' Goliath.' Ond gan na chafodd erioed ei hystyried yn ganon-aidd, nid yw yn werth y drafferth o'i chyfieithu.

LLYFR Y DIAREBION.

GELWIR y llyfr hwn yn 'Ddiarebion Solomon,' adn. 1, nid am mai efe a'u hysgrifennodd hwynt oll, ond am mai efe yw awdwr y rhan fwyaf o honynt; yr un modd ag y gelwir y llyfr blaenorol yn 'Salmuau Dafydd.' Dywedir fod y gair *mezhalim*, a gyfieithir yma yn *ddiarebion*, yn deilliav oddiwrth *mashal*, yr hwn a arwydda yn yr ystyr blaenaf *cyffelybu* neu *efelychu*; ac, mewn ail ystyr, *rheoli* neu *lywodraethu*, gan gyfeirio ond odid at ansawdd awdurdodol y diarebion. Y mae y gair Lladin *proverbium*, oddiwrth yr hwn y deillia y gair Saesong *proverb*, yn gyfansoddedig o *pro* a *verb*, ac yn arwyddo 'yn lle gair,' neu *ychydig* eiriau yn lle *llawer*; ac fe allai mai hyn hefyd yw ystyr y gair Cymreig *di-areb* (di-araeth), sef ymadrodd *byr*, yn wrthygyferbyniol i araeth *hir*. Dywed yr *Esgob Lowth* mai 'nodwedd diareb yw byrdra, tywyllni, a thlysmi;' neu, fel y dywedir yn pen. i. 2—4, brawddegau byrion i beri 'gwybod doethineb ac addysg, i ddeall geiriau synwyr; i gymeryd athrawiaeth deall, cyflawnder, a barn, ac uniondeb; i roi callineb i'r anghzha, ac i'r baehgen wybodaeth a synwyr.' Yn l Bren. iv. 32, dywedir i Solomon 'lefaru tair mil o ddiarebion,' neu frawddegau byrion, synwyrllawn, a chynwysfawr, o'r rhai y eawn oddeutu mil yn y llyfr hwn a llyfr y Pregethwr. Er y gallwn feddwl eu bod oll yn foesol ac addysgiadol, eto y mae yn debyg nad oedd un o honynt dan ddwyfod ysbyrdoliaeth oddieithr y rhai a gawn yn yr ysgrifryrau santaidd, ac am hyny hwy a gollwyd: neu fe allai mai y rhai sydd ar gael a *ysgrifenydd* ganddo, ac mai eu *lefaru* yn unig a gafodd y lleill: gwel ar l Bren. iv. 29—33. Ysgrifenydd y rhai hyn dan ddwyfod ysbyrdoliaeth yr Ysbyrd Glân; ac am hyny gellir dywedyd, pa faint bynag o ddoethineb oedd gan eu hawdwr, 'Wele fwy na Solomon yma!'—Yr oedd y dull hwn o grifeu addysg yn cael ei arfer gan bob cenedl wareiddiedig o'r amser-oedd boreaf; ac addefir ei fod yn ddull tra manteisiol i alluogi dynion i gofio yr byn a draethir. Dywed *Dr. W. O. Pughe*, yn ei ragymadrodd i'w Eiriadur rhagorol, 'fod uwchlaw *deuddeg mil* o ddiarebion Cymreig wedi eu casglu yn nghyd er amser Catwg, abad cyntaf Llancafan, yn y cweched canrif;' ac y mae llawer o'r rhai hyn ar gael hyd heddyw.—Dyfynir rhanau o'r llyfr hwn, fel gair Duw, gan ysgrifenyddwyr y Testament Newydd, fel y gwelwn wrth gydmharu Rhuf. ii. 29, a Diar. xxv. 21, 22; Heb. xii. 5, 6, a Diar. iii. 11, 12; 2 Pedr ii. 22, a Diar. xxvi. 11.—Gellir rhanu y llyfr hwn yn ehe rhan: I. Rhagarweiniad, yn eynwys rhybyddion, cyfarwyddiadau, ac annogaethau i efrydau doethineb, pen. i—ix. II. Diarebion Solomon, a elwir yn briodol felly, wedi eu casglu yn nghyd ond odid ganddo ef ei hun, a'u gosod i lawr yn frawddegau byrion, annibynol, a chyffredinol, pen. x—xxii. 16. III. Yn y rhan hon y mae Solomon fel yn rhoddi hebio i raddau ei ddull diarebol, ac megys yn anrheg ei ddydsybl yn bersonol ar yr angenrheidiwrdd o gyraedd doethineb, pen. xxii 17—xxiv. IV. Diarebion Solomon wedi eu casglu gan w'r Hezechia, xxv—xxix. V. Addysgiadau Agur i'w ddydsyblion Ithiel ac Ucal, pen. xxx. VI. Cyfarwyddiadau mam Lemuel frenin i'w mab, i'w gadw ef rhag drygan, a'i sefydlu mewn egwyddorion o gyflawnder, a'i annog i briodi gwraig rinweddol, pen. xxxi. Ymddengys mai math o *atodiad* i llyfr y Diarebion yw ddyw bennod ddwyddaf.—Y mae yn amhosibl i neb ddarllen y llyfr hwn heb gael lles oddiwrtho, pa un bynag fyddont ai hen ai ieuane, brenhmoedd neu ddeiliaid, llyswyr a masnachwyr, rhieni a phlant, meistrïad a gweinidogion. Yr amcan mawr ynddo yw creu parr dwfn i Dduw, ofn rhag ei ddigio ef, ac awydd am ddoethineb, rhinwedd, a duwioldeb. Arddangosir yma anghyflawnder, anfadwydd, segurdd, meddwod, anlladrwydd, ac agos bob drwg arall, yn y lliwiau eryfaf; fel y mae bron yn amhosibl i neb a fyddo yn meddu rhyw bareb i'w gymeriad, ei anrhydedd, a'i iechyd, i'w gorf neu ei enaid, lai na gweddio am ras i ymogelyd rhagdynt.

PENNOD I.

DIAREBION Solomon mab Dafydd, brenin Israel;

- 2 I wybod doethineb ac addysg,
- i ddeall geiriau synwyr;
- 3 I gymeryd athrawiaeth deall,

PEN. I. Adn. 1. *Diarebion Solomon fab Dafydd, brenin Israel*] Am hanes Solomon, gwel l Bren. i—xi. Efe yw y cyntaf o'r ysgrifenyddwyr santaidd ag y saif ei enw wrth ben ei waith.

Adn. 2. *I wybod doethineb ac addysg*] Nef i *roddi* gwybodaeth o'r hyn sydd ddoeth ac addysgiadol; *i ddeall geiriau synwyr*—*i beri* i ddynion eu deall. Yr adnod gyntaf yw *teitl* yr holl lyfr, a'r tair adnod ganlynol

cyflawnder, a barn, ac uniondeb ;
4 I roi callineb i'r anng hall, ac
i'r bachgen wybodaeth a synwyr.

5 Y doeth a wrendy, ac a chwanea
ega addysg ; a'r deallgar a ddaw i
gyng horion pwylllog ;

6 I deall diareb, a'i deongl ;
geiriau y doethion, a'u dammegion.

7 ¶ Ofn yr Arglwydd yw dechre
ad gwybodaeth : ond fylliaid a
ddiystyrant ddoethineb ac addysg.

8 Fy mab, gwrandaw addysg dy
dad, ac nac ymadoâ chyfraith dy fam :

9 Canys cynydd gras a fyddant
hwy i'th ben, a chadwyni am dy
wddf di.

sydd eglurhad ar natur a dyben y llyfr, ac
ystyr y diarebion a gynnwysa.

Adn. 3. *I gymeryd athrawiaeth deall*
Saes., 'i dderbyn hyfforddiant doethineb,' sef
yr hyfforddiant doeth ag sydd yn dysgu i ddyn
ion fyw yn gyfiawn, gonest, ac uniawn tuag at
Dduw a'u cydgreaduriaid.

Adn. 4. *I roi callineb i'r anng hall* Mewn
pethau moesola chrefyddol ; *ac i'r bachgen*—di
brofiad, *wybodaeth a synwyr*—fel ag i'w allu
ogi i ymddwyn yn addas yn mhob amgylch
iad.

Adn. 5. *Y doeth a wrendy* Ar yr hyfford
diadau hyn ; *ac a chwanea gy addysg*—trwy
hyn, at yr hyn sydd ganddo eisioes : *a'r
deallgar a ddaw i gyng horion pwylllog*—neu
'dooeth ;' hyny yw, ete a ddaw i'w deall hwy
yn well, ac i allu eu rhoddi i ereill. Chwanegir
hyn, i ddangos fod yr addysg a roddir yn y
llyfr hwn yn fuddiol ac angenheidiol nid yn
unig i'r anng hall, ond i'r rhai doeth a deallgar
befyd.

Adn. 6. *I ddeall diareb, a'i deongl* I'w
deall o ran ei hystyr, fel ag i allu ei deongl i
ereill ; *geiriau y doethion*—y rhai sydd yn
rhy ddfw i'r cyffredin allu eu hamgyffred ;
a'u dammegion—Saes., 'a'u dywediadau ty
wyll.' Am ystyr y gair 'dammeg,' gwel ar
Mat. xiii. 3.

Adn. 7. *Ofn yr Arglwydd* Sef parch i
Dduw, ac ufydd-dod iddo ; *yw dechread gwy
bodaeth*—yw y cam cyntaf mewn gwyr wyboda
eth achubol, neu y wyddor elfenol mewn
creffydd. Heb hyn nid yw pob gwybodaeth
arall ddim ond gwagedd ac oferedd : gwel ar
Job xxviii. 28, Salm cxi. 10. *On d fylliaid*—
felly y gelwir pechaduriaid yn gyffredin yn y
llyfr hwn ; *a ddiystyrant wybodaeth ac
addysg*—a'r moddion trwy y rhai y mae eu
cyraedd hwynt.

Adn. 8. *Fy mab, gwrandaw addysg dy dad*
Fe allai mai Rehoboam mab Solomon a olygir
yma yn mlaenaf ; *ac nac ymadoâ chyfraith
dy fam*—yr hon a ddyssgodd hi i ti yn nydd
iau dy febyd. Ond yr oedd pob athraw yn
mysg yr Hebreaid yn cael ei alw yn *dad*, a
phob dysgybl yn cael ei alw yn *fab*.

Adn. 9. *Canys cynydd gras* Neu addurn

10 ¶ *Fy mab, os pechaduriaid
a'th ddenant, na chytuna.*

11 Os dywedant, Tyred gyda ni,
cynllwynwn am waed, ymguddiwn
yn erbyn y gwirion yn ddiachos :

12 Llyncwn hwy yn fyw, fel y
bedd ; ac yn gyfan, fel rhai yn dis
gyn i'r pydew :

13 Nyni a gawn bob cyfoeth
gwerthfawr, nyni a lanwn ein tai
ag yspail :

14 Bwrw dy goelbren yn ein
mysg ; bydded un pwrs i ni i gyd.

15 Fy mab, na rodia yn y ffordd
gyda hwynt ; attal dy droed rhag
eu llwybr hwy.

grasol ; *a fyddant hwy i'th ben*—hyny yw,
bydd ufydd-dod i addysg dy dad, ac ymlyniad
wrth gyfraith dy fam, fel coron anrhydeddus
ar dy ben ; *a chadwyni am dy wddf di*—bydd
ant fel cadwyni addurnol o aur a gemau yn
amgylchynu dy wddf.

Adn. 10. *Fy mab, os pechaduriaid a'th
ddenant* A geisiant dy ddenu i gyflawni un
rhyw bechod, neu i esgeuluso unrhyw ddyled
swydd ; *na chytuna*—a'u hudoliaethau hwy ;
canys paham y byddai i ti dy ddiystrio dy
hun i'w boddio hwy ? 'Nis gall hyd yn nod
y diafol ei hun arwain dyn i bechod,' fel y
sylwa Clarke, 'heb iddo ef gydsynio. Oni bae
ei bod felly, pa fodd y gallai Dduw hwy y
byd ?'

Adn. 11. *Os dywedant, Tyred gyda ni* Y
rhai ydym losog, cryfion, ac unfrydol ; *cyn
llwynwn am waed*—i lofruddio ac yspello y
fiorddoliion ; *ymguddiwn yn erbyn y gwirion*
—yn erbyn ymdeithwyr diniwed, ac ereill na
feddyliant am ddim perygl, ac felly nad ydynt
barod i'w gwrthsefyll ; *yn ddiachos*—heb idd
ynt wneyd dim i'n herbyn.

Adn. 12. *Llyncwn hwy yn fyw, fel y bedd*
Trwy eu lladd ar unwaith, a'u claddu o'r golwg ;
ac yn gyfan, fel rhai yn disgyn i'r pydew—
bob aelod o honynt, ar ol eu hyspeilio.

Adn. 13. *Nyni a gawn bob cyfoeth gwerth
fawr* A fyddo ganddynt, megys aur, arian,
gemau, a nwyddau ereill ; *nyni a lanwn ein
tai ag yspail*—ac felly bydd ein hennill yn
fawr, heb i'r weithred ddyfod byth i'r aulwg.

Adn. 14. *Bwrw dy goelbren yn ein mys*
Fel ag i fod yn un o honom, a hyny ond odid
trwy dyngu llw o fydldlondeb ; *bydded un
pwrs i ni i gyd*—un drysorfa gyffredinol, i'w
rhannu yn gyfartal yn y diwedd i'hwng pawb.

Adn. 15. *Fy mab, na rodia yn y ffordd
gyda hwy* Na wrandaw arnynt fel ag i tyned
gyda hwy : *attal dy droed*—os teiml chwant
i fyned gyda hwy, dyro lyffethar am dy droed
i'th attal, fel yr arwydda y wreiddiol ; *rhag
eu llwybr hwy*—rhag myned iddo, chwaith
ach rhodio ynddo. Yn y dechre y mae gwyllo
rhag pechod ; canys bydd yn anhwadd ym
ryddhau oddiwrtth ar ol dechreu ymddyrysu
ynddo.

16 Canys eu traed a redant i ddrygioni, ac a brysurant i dywallt gwaed.

17 Diau gwaith ofer yw taenu rhwyd yn ngolwg pob perchen aden.

18 Ac y maent hwy yn cynllwyn am eu gwaed eu hun : am eu heinioes eu hun y maent yn llechu.

19 Felly y mae llwybrau y rhai oll sydd chwannog i elw; yr hwn a ddwg einioes ei berchenogion.

20 ¶ Doethineb sydd yn gwaeddi oddiallan; y mae hi yn adrodd ei lleferydd yn yr heolydd :

21 Y mae hi yn llefain yn mhrif-leoedd y dyrfa, yn nrysau y pyrth; yn y ddinas y mae hi yn traethu ei hymadroddion, gan ddywedyd,

22 Pa hyd, chwi ynfydion, y cerwech ynfydrwydd? a chwi watwarwyr, y bydd hoff genych watwar? ac y casâ ffylliaid wybodaeth?

23 Dychwelwch wrth fy ngherydd: wele mi a dywalltaf fy ysbyrd i chwi, fy ngeiriau a hysbysafi chwi.

24 ¶ Yn gymaint ag i mi eich gwahodd, ac i chwithau wrthod; i mi estyn fy llaw, a neb heb ystyried;

Adn. 16. *Canys eu traed a redant i ddrygioni*] Wedi unwaith yr elont i lwybr drygioni; ac a brysurant i dywallt gwaed—yr hyn yw eithafion drygioni. Y mae yr adnod hon yn eisiau yn yr *Arabaeg*, a chan y LXX.

Adn. 17. *Diau gwaith ofer yw taenu rhwyd yn ngolwg pob perchen aden*] Am y bydd i synwyr neu reddf yr aderyn ei arwain ef i'w gochelyd hi. Ymdengys mai *diareb* yw y geiriau, yn cael ei defnyddio gan y gŵr doeth i egluro ei feddwl. Ond y mae tri ystyr yn y rhai y deallir ei chysylltiad gan wahanol feirniaid: (1) Y mae y pechaduriaid uchod yn amcanu rhwydo a dyfetha y rhai y cynllwynant am eu gwaed, adn. 11; ond ni lwyddant bob amser i'w maglu hwy. (2) Gwaith ofer yw iddynt daenu rhwyd i ddala ereill, am mai hwy eu hunain a syrthiant iddi fynychaf, adn. 18. (3) Y maent yn taenu eu rhwyd i geisio dy faglu di; defnyddia dy synwyr i ffoi rhagddynt.

Adn. 18. *Ac y maent hwy yn cynllwyn am eu gwaed eu hun*] Mewn eifaith; am eu heinioes eu hun y maent yn llechu—trwy mai hwy eu hunain yn y diwedd a ddeuant i'r fagl, ac a gospir trwy law y swyddog gwladol, neu gan farn Duw. Gwel y darlennydd oddiwrth y geiriau *Italig* yn yr adnod hon, y rhai nid ydynt yn y wreiddiol, y gellid ei chyfieithu fel hyn, 'Ac y maent hwy yn cynllwyn am waed; am einioes y maent yn llechu;' a thybia *Clarke* mai gwaed ac einioes y 'gwirion' uchod a feddylir yma: gwel ar adn. 11.

Adn. 19. *Felly y mae llwybrau y rhai oll sydd chwannog i elw*] Sef y rhai a geisiant elw trwy foddion anghyfiawn a drygonus; yr hwn a ddwg einioes ei berchenogion—trwy eu harwain i ddinyst, fel y dygwddodd i Ahab a Jezebel am chwennydi o honynt winllan Naboth: gwel ar 1 Bren. xxi. 19, 23.

Adn. 20. *Doethineb sydd yn gwaeddi oddi-allan*] Ar ol bod yn darlunio lleferydd ffylliaid neu ddyinion drwg, y mae y gŵr doeth yn awr yn myned i ddarlunio lleferydd doethineb, yr hon a bersonolir yma, fel mewn llawer man arall yn y llyfr hwn. Fe allai na feddylir dim mwy yma, wrth 'ddoethineb,' na'r *addysgiadau doeth* a roddir i ddyngan Ysbyrd Duw, a chan ei weision ef, neu yn y datguddiad dwyfol; er y tybia rhai mai CRIST a olygir, yr hwn a elwir yn 'ddoethineb Duw,' 1 Cor.

i. 24. *Y mae hi yn adrodd ei lleferydd yn yr heolydd*—yn y modd mwyaf amlwg a chyhoeddus.

Adn. 21. *Y mae hi yn llefain yn mhrif-leoedd y dyrfa, &c.*] Sef yn y manau lle y mae mwyaf o wrandawyr, a uwyafo o obaith am lwyddiant. Y meddwl yw, fod gair ac Ysbyrd Duw, synwyr cyffredin, deddfau cymdeithas, a phob peth ag sydd dda, yn tystio yn eglur a chyhoeddus yn erbyn pob math o ddrygioni, ac o blaid yr hyn sydd uniawn, rhesymol, a chyfiawn.

Adn. 22. *Pa hyd, chwi ynfydion*] Neu chwi bechaduriaid anystyriol a rhyfygus; y cerwech ynfydrwydd—yr hwn a dry allan yn y diwedd yn ddiinystri chwi? a chwi watwarwyr—y rhai sydd yn gwaudio rhinwedd, moesoldeb a chrefydd; y bydd hoff genych watwar—neu pa hyd yr ymhydrydych yn y fath waith annuwiol? ac y casâ ffylliaid wybodaeth—am ei bod yn afonyddu eu cydwybodaau hwy?

Adn. 23. *Dyclawelwch wrth fy ngherydd*] Hebr., *lethochacti*, 'wrth fy null argyhoedd-iadol o ymresymu.'—CLARKE. 'Wrth fy rhybydd hwn.'—BENSON. *Wele*—os dychwelwch ataf fi, mi a dywalltaf fy ysbyrd i chwi—sef doniau a grasau yr Ysbyrd Glân, yr hwn a addawa Duw i'r rhai a ddychwelant ato ef, ac a ofynant am dano, Luc xi. 13, Ioan iv. 14, a vii. 39. NEU, 'mi a amlygaf fy meddwl i chwi.'—COVERDALE. *Fy ngeiriau a hysbysaf i chwi*—galluogaf chwi i ddeall fy ngeiriau yn wirioneddol ac achubol, y rhai sydd guddiedig oddiwrth ereill, 2 Cor. iv. 3.

Adn. 24. *Yn gymaint ag i mi eich gwahodd*] Ataf fy hun, trwy fy ngair, fy ngweinidogion, ac ymrysoniadau fy Ysbyrd; ac i chwithau wrthod—dyfod ataf i gael eich achub. Dywderd hyn am yr ynfydion, y gwatwarwyr, a'r ffylliaid uchod, adn. 21; canys nid yw Duw yn ewyllysio marwolaeth hyd yn nod y rhai hyn. *I mi estyn fy llaw*—i gynyrr i chwi ras, trugaredd, ac iachawdwriaeth; a neb heb ystyried—neu, yn fwy priodol, 'a neb yn ystyried,' neu yn derbyn fy nghynnygion grasol.

Adn. 25. *Ond dinstyrasoch fy holl gynghor i*] Gan fyned rhagoch yn ol o'm cynghor eich hunain; ac ni fynech ddim i'm cerydd—ni wrandawech ar un o'm gorchymynion,

25 Ond diystyrasoch fy holl gynghor i, ac ni fynech ddim o'm cerydd:

26 Minau hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi; mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni;

27 Pan ddel arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni megys dystryw, ac y del eich dialedd arnoch megys corwynt; a dyfod arnoch wasgfa a chaledi:

28 Yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn fore y'm ceisiant, ond ni'm cânt:

29 Canys câs fu ganddynt wybodaeth, ac ofn yr Arglwydd ni dde-wisasant.

30 Ni chymerent ddim o'm cyng-hor i; dirmygasant fy holl gerydd.

31 Am hyny hwy a gânt fwyta ffrwyth eu ffordd eu hunain, a'u llenwi â'u cynghorion eu hunain.

32 Canys esmwythra y rhai anghall a'u lladd; a llwyddiant y rhai ffol a'u dyfetha.

33 Er hyny y sawl a wrandawo arnaf fi, a gaiff aros yn ddiogel, ac a gaiff lonyddwch oddiwrth ofn drwg.

PENNOD II.

FY mab, os derbyni di fy ngeiriau, ac os cuddi fy ngorchymynion gyda thi;

2 Fel y parech i'th glust wrando ar ddoethineb, ac y gogwyddech dy galon at ddeall;

3 Ie, os gwaeddi ar ol gwybodaeth, os cyfodi dy lef am ddeall;

fy rhybyddion, na'm cymhelliadau i, eithr chwarddech am eu pen, a gwawdiech hwyt.

Adn. 26. *Minau hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi*] Pan oddiwedder chwi gan gosp gyfiawn am eich pechodau; *mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni*—yn nydd angau, neu ddydd y gosp. Y meddwl yw, y byddai i dosturi a thrugaredd bellhau oddiwrth y gwatwarwyr anystyriol hyn, ar ol i gyfiawnder ad-daledigol ddechreu eu cospi am eu troseddau gwaedlyd, adn. 11, &c. Er mai cosp wladol yn y byd hwn ond odid a olygir yma, eto yn debyg i hyn y bydd hi hefyd ar bob pechadur anedifeiriol ddydd y farn.

Adn. 27. *Pan ddel arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni*] Neu y dylech ei ofni; *megys dystryw*—anocheladyw, neu megys cleddyf nen haint; *ac y del eich dialedd arnoch megys corwynt*—yn ddisymwth a nerthol, gan ysgubo y cwbl o'i flaen; *a dyfod arnoch wasgfa*—oddiallan; *a chaledi*—oddifewn; neu ing a chyfyngder o bob tu.

Adn. 28. *Yna y galwant arnaf*] Am dosturi a gwaredigaeth: *ond ni wrandawaf*—mwy nag y gwrandawsant hwythau ar fy lleferydd inau: *yn fore y'm ceisiant*—sef yn nechre eu gwasgfa a'u caledi; *ond ni'm cânt*—am iddynt adael iddi fyned yn rhy ddiweddar, neu am na cheisiant fi tra y gellid fy nghael, Essay lv. 6. Er y dywedir, 'Y sawl a'm ceisiant yn fore, a'm cânt,' pen. viii. 17; eto nid oes yma ddim anngyhsonder, am mai bore dydd bywyd nen ddydd gras a feddylir yno, ac mai bore dydd marwolaeth neu ddydd barn a olygir yma.

Adn. 29. *Canys cas fu ganddynt wybodaeth*] Yn nydd gras; *ac ofn yr Arglwydd ni ddewisasant*—eithr diystyrasant a gwrthodasant y wybodaeth achubol o Dduw a'i grefydd: gwel ar adn. 7.

Adn. 30. *Ni chymerent ddim o'm cynghor i*] Yn rheol iddynt; *dirmygasant fy holl*

gerydd—er ei roddi iddynt mewn cariad: gwel ar adn. 25.

Adn. 31. *Am hyny hwy a gânt fwyta ffrwyth eu ffordd eu hunain*] Neu fedi yr hyn a hauasant; cânt dderbyn cosp gyfatebol i'w pechodau, a chyflog yn ol eu gwaith: *a'u llenwi â'u cynghorion eu hunain*—sef â challyniadau eu cynghorion, gan iddynt ddiystyru fy holl gynghor i, adn. 25.

Adn. 32. *Canys esmwythra y rhai anghall*] Sef esmwythra gau a chnawdol pechaduriaid; *a'u lladd*—a dry allan yn ddynstr iddynt: *a llwyddiant y rhai ffol a'u dyfetha*—trwy droi eu meddyliau oddiwrth betiau ysbrydol, a'u gwneuthur yn ddiotal am les eu heneidiau. Yr ydym yn canfod siamplau mynych o hyn yn y dyddiau yma.

Adn. 33. *Er hyny y sawl a wrandawo arnaf fi*] Argynghorion ac addysgiadau dwyfol ddoethineb, fel eu darluniwyd uchod; *a gaiff aros yn ddiogel*—dan gysgod yr Hollalluog, Salm xci. 1; *ac a gaiff lonyddwch oddiwrth ofn drwg*—mewn ymwybodolrwydd o'i ddiniweidrwydd ei hun, ac o heddwch ac amddiffyniad y Goruchaf.

PEN. II. Adn. 1. *Fy mab, os derbyni di fy ngeiriau*] Fel ag i ufyddhan iddynt; *ac os cuddi fy ngorchymynion gyda thi*—yn dy galon, fel dy drysor penaf. Yma llefara Solomon ond odid yn ei enw ei hun, ac nid yn enw doethineb megys uchod.

Adn. 2. *Fel y parech i'th glust wrandaw ar ddoethineb*] Sef ar yr addysg, y rhybyddion, a'r cynghorion doeth a roddaf fi i ti; *ac y gogwyddech dy galon at ddeall*—i ddechaf y wybodaeth foesol a chrefyddol a osodir o'th flaen.

Adn. 3. *Ie, os gwaeddi ar ol gwybodaeth*] Hebr., 'os gwaeddi ar wybodaeth,' gan ei gwahodd, fel pe byddai, i ddyfod atat; *os cyfodi dy lef am ddeall*—mewn gweddi daer at Dduw am iddo ef dy ddyysgu.

4 Os ceisi hi fel arian, os chwili am dani fel *am drysorau cuddiedig*;

5 Yna y cei ddeall ofn yr Arglwydd, ac y cei wybodaeth o Dduw.

6 Canys yr Arglwydd sydd yn rhoi doethineb: allan o'i enau ef *y mae gwybodaeth a deall yn dyfod*.

7 Y mae ganddo yn nghadw i'r rhai uniawn ynddoethineb: tarian *yw efe i'r sawl a rodiant yn uniawn*.

8 Y mae efe yn cadw llwybrau barn, ac yn cadw ffordd ei saint.

9 Yna y cei di ddeall cyfiawnder, a barn, ac uniondeb, a phob llwybr daionus.

10 ¶ Pan ddelo doethineb i mewn i'th galon, a phan fyddo hyfryd gan dy enaid wybodaeth;

11 Yna cynghor a'th gynal, a synwyr a'th geidw:

12 I'th achub di oddiwrth y ffordd ddrwg, ac oddiwrth y dyn a lefaro drawsedd;

13 Y rhai a ymadawant â llwybrau uniondeb, i rodio mewn ffyrdd tywyllwch;

14 Y rhai a ymlawenychant i wneuthur drwg, ac a ymddigrifant yn anwiredd y drygionus;

15 Y rhai sydd â'u ffyrdd yn geimion, ac yn gildyn yn eu llwybrau:

16 I'th wared oddiwrth y fenyw estronaidd, oddiwrth y ddyeithr wenieithus ei geiriau;

17 Yr hona ymedy â llywodraethwr ei hieuencid, ac a ollwng dros gog gyfammod ei Duw.

Adn. 4. *Os ceisi hi fel arian*] Gyda'r un diwydrwydd ac awydd ag y ceisia masnachwr gyfoeth; *os chwili am dani fel am drysorau cuddiedig*—gyda phenderfyniad, ymroddiad, a dyfalwch, yn ngwyneb pob rhwystr a fyddo ar dy ffordd.

Adn. 5. *Yna y cei ddeall ofn yr Arglwydd*] Yr hyn yw dechread y wybodaeth hon, pen. i. 7; *ac y cei wybodaeth o Dduw*—yn athrawiaethol, profiadol, ac achubol.

Adn. 6. *Canys yr Arglwydd sydd yn rhoi doethineb*] Ac ef yn unig; gan hyny, 'o bydd ar neb o honoch eisiau doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddanod; a hi a roddir iddo ef,' Iago i. 5. *Allan o'i enau ef y mae gwybodaeth a deall yn dyfod*—sef yr addysgiadau a barant wybodaeth a deall.

Adn. 7. *Y mae ganddo yn nghadw i'r rhai uniawn*] I'r duwionion yn mhob oes; *wir ddoethineb*—neu 'fendithion sylweddol,' fel y mae *Waterland* yn ei gyfieithu; neu ddoethineb wirioneddol, ysbrydol, a thragwyddol. *Tarian yw efe i'r sawl a rodiant yn uniawn*—i'w hamddiffyn a'u cadw rhag pob drwg.

Adn. 8. *Y mae efe yn cadw llwybrau barn*] Neu yn diogelu y llwybrau cyfiawnder hyn ag y mae y rhai uniawn yn eu rhodio; *ac yn cadw ffordd ei saint*—rhag iddynt gael unrhyw niwed wrth ei rhodio.

Adn. 9. *Yna*] Sef ar ol i ti wneyd dy ran, fel ei darlunir adn. 1—4, ac ar ol i Dduw roddi i ti wir ddoethineb, adn. 6, 7; *y cei di ddeall cyfiawnder, a barn, ac uniondeb*—cei ddeall dy holl ddyledsnyddau ymarferol tuag at Dduw a dynion; a *phob llwybr daionus*—ag y dylit ei gerdded.

Adn. 10. *Pan ddelo doethineb i mewn i'th galon*] Trwy ddysgieidiaeth a dylanwad yr Ysbryd Glân; *a phan fyddo hyfryd gan dy enaid wybodaeth*—hyny yw, pan fyddot yn ymserchu ynddi fel dy drysor gwerthfawrocaf.

Adn. 11. *Yna cynghor a'th gynal*] Sef cynghor Duw, neu ddatguddiad o'i ewyllys ef

yn ei air; *a synwyr a'th geidw*—sef ei synwyr ei hun te allai, wedi ei goethi gan ras Duw: hyny yw, ti a gynelir ac a gedwir rhag gŵybro oddiar llwybrau uniondeb.

Adn. 12. *I'th achub di oddiwrth y ffordd ddrwg*] Yr hon sydd yn arwain i ddystryw; *ac oddiwrth y dyn a lefaro drawsedd*—i geisio llygru dy feddwl, neu dy ddenu i weithredoedd ysgeler, fel y rhai a enwyd pen. i. 10—14.

Adn. 13. *Y rhai a ymadawant â llwybrau uniondeb*] Sef llwybrau gorchymynion Duw; *i rodio mewn ffyrdd tywyllwch*—neu ffyrdd pechod, yr hwn yn fynych a elwir yn *dywyllwch*, am ei fod yn tarddu oddiar anwybodaeth, ac yn wrthwynebu i oleuni y gwirionedd, ac yn arwain yn y diwedd i wlad y tywyllwch tragwyddol.

Adn. 14. *Y rhai a ymlawenychant i wneuthur drwg*] Am ei fod yn gydweiddol â'u natur lygredig; *ac a ymddigrifant yn anwiredd y drygionus*—nid yn unig yn eu pechodau eu hunain, ond hefyd yn mhechodau dynion ereill, gan garu drygioni er ei fwyn ei hun: gwel ar Rhuf. i. 32.

Adn. 15. *Y rhai sydd â'u ffyrdd yn geimion*] Yn gŵybro oddiwrth real uniawn gair Duw; *ac yn gildyn yn eu llwybrau*—yn mynu eu cerdded yn ngwyneb pob cynghor, rhybydd, a bygythiad a roddir iddynt: y mae ar *gil* o ffordd y gwirionedd, ac yn *dyn* am eu ffordd eu hunain, fel yr arwydda y gair.

Adn. 16. *I'th wared di oddiwrth y fenyw estronaidd*] Sef oddiwrth y butan neu yr odinebwraig, yr hon a elwid yn 'estronaidd,' am mai o'r cenhedloedd yn gyffredin yr oedd y cyfryw; ac os ceid y rhai hyn yn mysg merched Israel, yr oeddynt y'w cyfrif fel y cenhedloedd estronaidd. *Oddiwrth y ddyeithr wenieithus*—yr hon a wenieithiai i ddynion er mwyn eu hudo i ddrygioni: gwel ar pen. vii. 5, &c.

Adn. 17. *Yr hon a ymedy â llywodraethwr ei hieuencid*] Sef â chyngorionu boreol ei

18 Canys y mae ei thŷ yn gŵyro at angau, a'i llwybrau at y meirw.

19 Pwy bynag a elo i mewn ati hi, ni ddychwelant, ac nid ymafaelant yn llwybrau y bywyd.

20 Fel y rhodiech di ar hyd ffordd gwŷr da, a chadw llwybrau y cyfiaw'n.

21 Canys y gwŷr cyfiawn a breswylant y ddaear, a'r rhai perffaith a gânt aros ynddi.

22 Ond yr annuwiolion a dorir oddiar y ddaear, a'r troseddwy'r a ddiwreiddir allan o honi.

PENNOD III.

FY mab na ollwng fy nghyfraith dros gof; ond cadwed dy galon fy ngorchymynion.

thad, nen ynte â llywodraeth ei gwŷr, yr hwn a'i priodasai hi yn ei hieuenctid; ac a *ollwng dros gof gyfammod ei Duw*—sef y cyfammod priodasol, yr hwn a wnaed fel yn ngwydd Duw, ac yn ol ei ordeiniad ef.

Adn. 18. *Canys y mae ei thŷ yn gŵyro at angau*] At angau naturiol yn fynych, trwy gelyfd gwarthau a marwol; ac at angau trawgyddol yn ddfifeth, os na ragflaenir hyny trwy edifeirwch prydlon: *a'i llwybrau at y meirw*—Hebr., *rephaim*, 'trigolion y byd anweledig.'

Adn. 19. *Pwy bynag a elo i mewn ati hi*] A ddechreuont gael eu hudo a'u llygru ganddi; *ni ddychwelant*—yn y cyffredin, oddiwrth eu haflendid; *ac nid ymafaelant yn llwybrau y bywyd*—Hebr., 'yn llywbr y bywydau,' trwy fod eu hiechyd wedi ei andwyo, a'u henaid wedi ei ddinystrio. Gallwn oethio fod rhai eithriadau i'r hyn a ddywedir yma; ond ni eheir siamplau yn fynych.

Adn. 20. *Fel y rhodiech di ar hyd ffordd gwŷr da*] Sef gwŷr diwair, rhinweddol, a santaidd; *a chadw llwybrau y cyfiawn*—y rhai a ymfuehddant yn onest a chyfiawn. Nodir yn y bennod hon dri o ffrwythau gwir ddoethineb: (1) Ei achub ef oddiwrth y ffordd ddrwg, adn. 12. (2) Ei wared oddiwrth y fenyw estronaidd, adn. 16. (3) Ei alluogi i rodio ar hyd ffordd gwŷr da, fel y dywedir yma.

Adn. 21. *Canys y gwŷr cyfiawn a breswylant y ddaear*] Sef gwlad Canaan; *a'r rhai perffaith a gânt aros ynddi*—mewn llwyddiant a digonoldeb, yn ol addewid Duw, Salm xxxviii. 3.

Adn. 22. *Ond yr annuwiolion a dorir oddiar y ddaear*] Trwy farwolaeth sydyn, cyfiawnder gwladol, neu farn Duw; *a'r troseddwy'r a ddiwreiddir allan o honi*—heb 'adael iddynt na gwreiddyn na changen,' Mal. iv. 1.

PEN. III. Adn. 1. *Fy mab, na ollwng fy nghyfraith dros gof*] Sef ei rybyddion a'i

2 Canys hir ddyddiau, a blynyddoedd bywyd, a heddwch, a chwanelegant hwy i ti.

3 Na âd i drugaredd a gwirionedd ymadael â thi: cylyma hwy am dy wddf, ysgrifena hwy ar lech dy galon.

4 Felly y cei di ras a deall da gerbron Duw a dynion.

5 ¶ Gobeithia yn yr Arglwydd â'th holl galon; ac nac ymddiried i'th ddeall dy hun.

6 Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef, ac efe a hyfforddia dy lwybrau.

7 ¶ Na fydd ddoeth yn dy olwg dy hun: ofna yr Arglwydd, a thyn ymaith oddiwrth ddrygioni.

8 Hyny a fydd iechyd i'th fogail, a mēr i'th esgyrn.

gynghorion, y rhai oeddynt seiliedig ar gyfraith Duw; *ond cadwed dy galon fy ngorchymynion*—canys o'r galon, neu y serchiadau, y rhaid i bob gwir ufydd-dod ddeill-iaw.

Adn. 2. *Canys hir ddyddiau, a blynyddoedd bywyd*] Ar y ddaear; *a heddwch*—iechyd, nerth, llwyddiant, a phob digonoldeb; *a chwanelegant hwy i ti*—yn ol addewid Duw, Deut. viii. 18, a xxx. 20, 1 Tim. iv. 8.

Adn. 3. *Na ad i drugaredd*] Tosturi, haelioni, a pharodrydd i wneyd daioni i ereill; *a gwirionedd*—gonestrwydd a ffyddlondeb yn y cyflawniad o'th ddyledsnyddau tuag at Dduw a dynion; *ymadael â thi*—ond bydded eu bod dy gymdeithion gwastadol: *cylyma hwy am dy wddf*—fel y gallot eu gwelym ni barhaus, neu fel y byddont yn addurn ac anrhydedd i ti; *ysgrifena hwy ar lech dy galon*—fel y gallot eu teimlo yn gystal a'u gweled. Ymadroddion diarebol, yn arwyddoedd nad oedd y pethau hyn byth i fod allan o'u meddyliau hwy yn amser: gwel ar Exod. xiii. 9, Deut. vi. 8.

Adn. 4. *Felly y cei di ras*] Saes., 'ffastr,' neu gymeradwyaeth; *a deall da*—cei dy gydnabod fel dyn call, cywir, a gonest; *gerbron Duw a dynion*—bydd i bawb dy werthfawrogi fel dyn trugarog, cywir, a ffyddlon.

Adn. 5. *Gobeithia yn yr Arglwydd â'th holl galon*] Yn ei ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni ef; *ac nac ymddiried i'th ddeall dy hun*—am y gall hwnw fethu.

Adn. 6. *Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef*] Fel dy Gynalydd, dy Arweinydd, a'th Geidwad doeth a da; *ac efe a hyfforddia dy lwybrau*—efe a'th esyd ar y llwybr ag y dylit ei rodio, ac a'th gynal ynddo nes gorphen dy yrfa mewn gogoniant.

Adn. 7. *Na fydd ddoeth yn dy olwg dy hun*] Fel pe na byddai arnat angen am hyfforddiad gan Dduw: *ofna yr Arglwydd*—yr hyn yw dy 'ddoethineb' penaf; *a thyn ymaith oddiwrth ddrygioni*—oddiwrth hunanoldeb a balchder, ac yn enwedig oddiwrth y drygau

9 ¶ Anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth penaf o'th holl ffrwyth :

10 Felly y llenwir dy ysguboriau â digonoldeb, a'th winwrŷfoedd a dorant gan win newydd.

11 ¶ Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd ; ac na flina ar ei gospedigaeth ef ;

12 Canys y neb a fyddo Duw yn ei garu, efe a'i cerydda, megys tad ei fab anwyl ganddo.

13 ¶ Gwŷn ei fyd y dyn a gaffo ddoethineb, a'r dyn a ddygo ddeall allan.

14 Canys gwell yw ei marsian-

diaeth hi na marsiandiaeth o arian, a'i chynyrch hi sydd well nag aur coeth.

15 Gwerthfawroeach yw hi na gemau : a'r holl bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddi.

16 Hir-hoedl sydd yn ei llaw ddeau hi ; ac yn ei llaw aswy y mae cyfoeth a gogoniant.

17 Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau hi ydynt heddwch.

18 Pren bywyd yw hi i'r neb a ymaflo ynddi : a gwŷn ei fyd a ddalio ei afael ynddi hi.

19 Yr Arglwydd trwy ddoethineb

hyny ag sydd yn niweidiol i'r iechyd, megys anghymedroldeb, anlladrydd, &c.

Adn. 8. *Hyny a fydd iechyd i'th fogail*] Sef i'r corff, yr hwn a arwyddir yma trwy un ran bwysig o hono, yr hon ydoedd gyfrwng ei faeth a'i iechyd yn y bru ; a mēr i'th esgyrn —yr hwn sydd anhebgorol angenrheidiol er maethlu a chryflau yr esgyrn. Y meddwl yw, fod ofni Daw, a chilio oddiwrth ddyrgioni, nid yn unig yn angenrheidiol er iachawdriaeth yr enaid, ond yn tueddu yn fawr hefyd i gynal iechyd a bywyd y corff.

Adn. 9. *Anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth*] Trwy gyfrano yn helaeth o hono at gynal a lledaenu ei achos ef yn y byd ; ac â'r peth penaf o'th holl ffrwyth—Saes., 'â blaenffrwythau dy holl gynyrch,' yr hyn a orchymyn yr benodol gan Dduw, Exod. xxii. 29, Deut. xxvi. 2, &c.

Adn. 10. *Felly y llenwir dy ysguboriau â digonoldeb*] O ŷd o bob math at dy gynaliaeth ; a'th winwrŷfoedd a dorant gan win newydd—hyny yw, a fyddant fel ar dori gan y llawnder a fydd ynddynt. Cyfrano yn helaeth at achos Duw, ac at gynal ei dylodion ef, sydd foddion effeithiol i gynyddu yr ystôr, ac nid i'w lleihau hi.

Adn. 11. *Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd*] Trwy ei gyfrif yn beth afreidiol, neu yn gam â thi, na thrwy ei briodoli i ddamwain ; ac na flina ar ei gospedigaeth ef—eithr dyoddefa y cwbl gydag amynedd a sirioldeb.

Adn. 12. *Canys y neb a fyddo Duw yn ei garu*] Fel ei blentyn anwyl a hoff ; efe a'i cerydda—nid yw hyn yn arwyddo fod Duw yn ceryddu heb achos, neu ei fod yn ceryddu yn unig er mwyn peri poen ; eithr y meddwl yw, ei fod ef trwy ei geryddon yn dangos fod ganddo ofal tadol am danom : megys tad ei fab anwyl ganddo—yr hwn y byddo efe yn mawr chwennych ei les. Y mae musar, yr hwn a gyfieithir yma yn 'gerydd,' yn meddwl dysgybiad a hyfforddiad teuluiaidd, yn hytrach na sffonodiau neu gosp : gwel ar Heb. xii. 5—8.

Adn. 13. *Gwŷn ei fyd y dyn*] Er amlod ei geryddon, a gaffo ddoethineb—sef gwir gref-

ydd, neu wybodaeth achubol o Dduw ; a'r dyn a ddygo ddeall allan—i'r amlwg, ar ol bod yn ei geisio fel arian, ac yn chwilio am dano fel am drysorau cuddiedig : gwel ar pen. ii. 4.

Adn. 14. *Canys gwell yw ei marsiandiaeth hi na marsiandiaeth o arian*] Am fod yr elw yn fwy, a'i fod yn ymestyn i'r byd tragwyddol, lle nad yw arian ac aur o ddim gwerth : a'i chynyrch hi—sef yr ennill clir oddiwrth y farsandiaeth ysbrydol hon, ar ol talu pob traul, hyny yw, ar ol dyoddef pob tywydd a gwrthwynebiad yn y gwaith ; sydd well nag aur coeth—er fod dynion y byd hwn yn gyffredin yn rhoddi mwy o fri ar hwnw.

Adn. 15. *Gwerthfawroeach yw hi na gemau*] Na holl berlau a meini gwerthfawr y dddear ; a'r holl bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddi—o ran bnddioldeb a gwerth : gwel ar Job xxviii. 15—19.

Adn. 16. *Hir-hoedl sydd yn ei llaw ddeau hi*] Y ma arddanghosir doethineb, fel pendefig haelionus, yn estyn ei rhoddion i'w chyfeillion ; ac yn ei llaw aswy y mae cyfoeth a gogoniant—Saes., 'cyfoeth ac anrhydedd,' y rhai sydd fendithion daearol gwerthfawr, ond nid mor werthfawr a hir-hoedled, sef bendith ei deheulaw. Gwyddom fod 'gan dduwioldeb addewid o'r bywyd sydd yr awrlon, ac o'r hwn a fydd,' 1 Tim. iv. 8 ; tra 'nad yw gwŷr gwaedlyd a thwyllodrus yn byw hanner eu dyddiau,' Salm lv. 23. Ond gellir deall y bendithion hyn, mewn ystyr ysbrydol, am fywyd, cyfoeth, a gogoniant tragwyddol mewn byd arall.

Adn. 17. *Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch*] I'r rhai oll a rodiant ynddynt mewn gwirionedd ; a'i holl lwybrau hi ydynt heddwch—sef heddwch cydwybod, a heddwch â Duw. Ceir heddwch a dedwyddwch nid yn unig yn niwedd y daith, ond hefyd ar y ffordd, neu yn y cyflawniad cydwybodol o holl ddyledswyddau crefydd.

Adn. 18. *Pren bywyd yw hi i'r neb a ymaflo ynddi*] Hebr., 'pren bywydau.' Y mae yn rhoddi bywyd ysbrydol iddo ef yn neehre y daith, a bywyd tragwyddol yn niwedd y daith. Y mae yma gyfeiriad eglur at 'bren y bywyd' yn ngardd Eden, Gen. ii. 9. A

a seiliodd y ddaear; y trwy ddeall y sicrhaodd efe y nefoedd.

20 Trwy ei wybodaeth ef yr holltodd y dyfnderau, ac y defnyna yr wÿbrenau wlith.

21 ¶ Fy mab, na ollwng hwynt allan o'th olwg: cadw ddoethineb a phwyll.

22 Yna y byddant yn fywyd i'th enaid, ac yn ras i'th wddf.

23 Yna y cei rodio dy ffordd yn ddiotal, a'th droed ni thrangwydda.

24 Pan orweddych, nid ofni; ti a orweddi, a'th gwsg fydd melys.

25 Nac ofna rhag braw disymwth, na rhag dinystr yr annuwiol pan ddelo.

26 Canys yr Arglwydd a fydd dy hyder di, ac a geidw dy droed rhag ei ddal.

27 ¶ Na attal ddaioni oddiwrth y rhai y perthyn iddynt, pan fyddo ar dy law ei wneuthur.

28 Na ddywed wrth dy gymydog, Cerdda ymaith, a thyred amser arall, ac y fory mi a roddaf; a chenyt *beth yn awr*.

29 Na feddlw ddrwg yn erbyn dy gymydog, ac yntau yn trigo yn ddiotal yn dy ymyl.

30 ¶ Nac ymryson â neb heb achos, os efe ni wnaeth ddrwg i ti.

31 ¶ Na chenfigenawrth w'r traws, ac na ddewis yr un o'i ffyrdd ef.

gwjn ei fyd a ddalio ei asael ynddi—yn barhaus, ar ol 'y maffyd' ynddi; canys 'y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig,' Mat. xxiv. 13.

Adn. 19. *Yr Arglwydd trwy ddoethineb a seiliodd y ddaear*] Yma cymerir doethineb yn ei ystyr priodol, am yr anfeidrol wybodaeth a'r medrusrwydd a amlygwyd gan Dduw yn nghread a chydoddiad y ddaear a'r nefoedd: *trwy ddeall y sicrhaodd efe y nefoedd*—fel nad ysgogo; neu, 'y darparodd efe y nefoedd,' fel y mae ar ymyl y ddalen.

Adn. 20. *Trwy ei wybodaeth ef yr holltodd y dyfnderau*] Fel ag i beri i fflynonnau ac afonydd darddu allan o'r ddaear; *ac y defnyna yr wÿbrenau wlith*—neu wlaw, i'w mwlydo a'i ffrwythloni hyn. Ond tybia rhai fod 'holltiad y dyfnderau' yn cyfeirio at y dylif, neu at waredigaeth Israel trwy y môr coch.

Adn. 21. *Fy mab, na ollwng hwynt allan o'th olwg*] Nac anghofia hwynt, sef naill ai y gweithredoedd doeth uchod o eiddo Duw, neu yr addysgiadau hyn o eiddo Solomon, neu ynte bob un o'r ddan. *Cadw ddoethineb a phwyll*—neu 'ddoethineb a synwyr,' yn dy feddiant yn barhaus: hyny yw, bydd ddoeth, synwyr, a chrefyddol, fel ag i feddlw yn wastadol am y pethau hyn.

Adn. 22. *Yna y byddant yn fywyd i'th enaid*] Sef i ti dy hun: estynant a dedwyddolant dy fywyd: neu byddant yn foddion i achub dy enaid. *Ac yn ras i'th wddf*—yn addurn prydfferth ac anrhydeddus i ti ar hyd dy fywyd, fel cadwyn aur am wddf un: gwel ar adn. 3, a pen. i. 9.

Adn. 23. *Yna y cei rodio dy ffordd yn ddiotal*] Heb ofn na pherygl; *a'th droed ni thrangwydda*—ni syrthi i bechod na gofid.

Adn. 24. *Pan orweddych, nid ofni*] Rhag tân, lladron, nac angau disyfyd: *ti a orweddi*—ac a gysgi hefyd, heb fod dan yr angenrheidrwydd o eistedd i fyny i wlyo dy eiddo; *a'th gwsg fydd melys*—fydd yn adfywiol i'th natur, heb i ti gael dy aflonyddu gan elynion, afiechyd, na breuddwydion brawychus.

Adn. 25. *Nac ofna rhag braw disymwth*] Rhag yr hyn a fygythia dy frawychu, neu a

bair fraw disymwth i ereill o'th amgylch: *na rhag dinystr yr annuwiol pan ddelo*—arnynt hwy, neu pan fygythion hwy dy ddinystrio di. Y mae rhai yn ei ddarllen, 'Nid ofni,' &c.

Adn. 26. *Canys yr Arglwydd a fydd dy hyder di*] Neu wrthdrrych dy hyder; *ac a geidw dy droed rhag ei ddal*—yn rhwydau dy elynion.

Adn. 27. *Na attal ddaioni oddiwrth y rhai y perthyn iddynt*] Sef oddiwrth rai mewn angen am dano; neu, fel yr arwyddia wreiddiol, 'oddiwrth ei berchenogion.' A phwy yw y rhai hyny? Wel, y *tylodion*; a thithau ydwyt *oruchwyliwr* yn unig ar y daioni hwnw. *Pan fyddo ar dy law ei wneuthur*—pan welot rywun mewn gwir eisiau, a phan y byddo genyt tithau fwy na digon at dy angenion dy hun a'th deulu. Y mae y 'daioni' hwn yn arwyddo nid yn unig elusen arianol, ond hefyd bob cynghor, cyfarwyddyd, ac hyd yn nod cerydd angenrheidrol.

Adn. 28. *Na ddywed wrth dy gymydog*] Anghenus hwnw, *Cerdda ymaith, a thyred amser arall, ac y fory mi a roddaf*—ond nid heddyw. Fel y mae yr adnod flaenorol yn gwahardd *gommeddiad*, felly y mae hon yn gwahardd *oediad* y rhodd, am y gallai y naill neu y llall farw cyn y fory. *A chenyt beth yn awr*—i'w roddi iddo. Ar y dybiaeth hon y mae yr oediad yn bechadurus; canys heb hyny byddai yn rhinwedd ynddo addaw mewn amser dyfodol, os byddai efe yn meddlw cyflawni.

Adn. 29. *Na feddlw ddrwg yn erbyn dy gymydog*] Na ddychymyga yn ddisail mai dyn drwg vdyw, neu na fwriada wneyd drwg iddo; *ac yntau yn trigo yn ddiotal yn dy ymyl*—heb ddim drwg yn ei feddlw ef tuag at ti, na'r dybiaeth leiaf fod drwg yn dy fwriad dithau ato yntau. Y mae attal daioni oddiwrth gymydog yn ddrwg, adn. 27, 28; ond y mae bwriadu drwg yn ei erbyn ef yn llawer gwaeth.

Adn. 30. *Nac ymryson â neb heb achos*] Mewn ffordd o gweryla neu gyfreithio; *os efe ni wnaeth ddrwg i ti*—fel ag i'th orfodi i'th amddiffyn dy hun.

32 Canys ffaidd gan yr Arglwydd y cyndyn : ond gyda'r rhai uniawn y mae ei gyfrinach ef.

33 ¶ Melldith yr Arglwydd sydd yn nhŷ yr annuwiol : ond efe a fendithia drigfa y cyfiawn.

34 ¶ Diau efe a watwar y gwatwarus : ond ei ras a rydd efe i'r gostyngedig.

35 Y doethion a etifeddant anrhydedd, a gwarth fydd dyrchafiad ffyliaid.

PENNOD IV.

GWRANDEWCH, blant, addysg tad, ac erglywch i ddysgu deall.
2 Canys yr ydwyf fi yn rhoddi i

Adn. 31. *Na chenfigena wrth ŵr traws*] Wrth ei lywyddiant na'i gyfoeth, yr hwn a gryhaeddodd efe trwy drais a gorthrwm; ac na ddewis yr un o'i ffyrdd ef—trwy y rhai y cyrhaeddodd efe ei gyfoeth a'i anrhydedd yn anngyfiawn.

Adn. 32. *Canys ffaidd gan yr Arglwydd y cyndyn*] Sef pob dyn o'r un ysbryd a'r gwŵr traws uchod: *ond gyda'r rhai uniawn y mae ei gyfrinach ef*—y mae efe yn cymdeithasu â'r duwion fel ei gyfeillion mynwesol, i'r rhai yr amlyga efe ei feddwl a'i ewyllys: gwel ar Salm xxv. 14.

Adn. 33. *Melldith yr Arglwydd sydd yn nhŷ yr annuwiol*] Ar ei berson, ei gyfoeth, a'i 'fendithion befyd,' Mal. ii. 2: *ond efe a fendithia drigfa y cyfiawn*—pa un bynag ai tylawd ai cyfoethog fyddo. Rhaid deall yr adnod hon fel yn cyfeirio yn benaf at fendithion ysbrydol.

Adn. 34. *Diau efe a watwar y gwatwarus*] Y rhai mewn balchder a watwarant Dduw, ei grefydd, a'i bobl, pen. i. 25, 26: *ond ei ras a rydd efe i'r gostyngedig*—ie, a 'gogoniant' befyd yn y diwedd: gwel ar Salm lxxxiv. 11. Iago iv. 6, 1 Pedr v. 5.

Adn. 35. *Y doethion*] Sef y rhai a ddylent byfforddiadau doethineb, fel eu traethwyd uchod; a *etifeddant anrhydedd*—yn y byd hwn a'r nesaf: a *gwarth fydd dyrchafiad ffyliaid*—yr unig ddyrchafiad a allant hwy ei ddysgwyl byth: gwel ar Dan. xii. 2. Y mae y geiriau hyn, yn y goleuni yma, yn fath ar wawdiaith lem. Ond y mae rhai yn eu darllen, 'A dyrchafiad ffyliaid a dry yn ddinystr iddynt.'

PEN. IV. Adn. 1. *Gwrandewch, blant, addysg tad*] Dewuch, fy nysgyblion ieuainc, a chlywch pa fodd y darfu i'm tad Dafydd fy addysgu i; a'r hyn a dderbyniais i gan fy nhad, a draddodaf finau yn awr i chiwi. *Ac erglywch i ddysgu deall*—byddwch ddyfal i ddal ar fy ngeiriau, fel y galloch ddeall a gwneuthur yr hyn a draethwyf.

Adn. 2. *Canys yr ydwyf fi yn rhoddi i chiwi addysg dda*] Yr hon a fydd yn llesol i

chiwi addysg dda: na wrthodwch fy nghyfraith.

3 Canys yr oeddwn yn fab i'm tad, yn dyner ac yn anwyl yn ngolwg fy mam.

4 Efe a'm dysgai, ac a ddywedai wrthyf, Dalied dy galon fy ngeiriau: cadw fy ngorchymynion, a bydd fyw.

5 Cais ddoethineb, cais ddeall: na âd dros gof, ac na ŵyra oddiwrth eiriau fy ngenau.

6 Nac ymâd â hi, a hi a'th geidw: câr hi, a hi a'th wared di.

7 Penaf peth yw doethineb: cais ddoethineb; ac â'th holl gyfoeth cais ddeall.

chiwi erbyn y ddau fyd: *na wrthodwch fy nghyfraith*—fy rhybyddion a'm haddysgiadau, y rhai a sylfaenir ar gyfraith Duw: gwel ar pen. iii. 1.

Adn. 3. *Canys yr oeddwn yn fab i'm tad*] Ei fab anwylaf, yr hwn a fwriadai efe i'w ddylyn ar yr orsedd, 1 Bren. i. 30; *yn dyner ac yn anwyl yn ngolwg fy mam*—sef Bathseba. Crybwyllir hyn i ddangos y rhaid gan hyn y fod y cynghorion a'r addysgiadau a roddid iddo ef, o'r fath oraf.

Adn. 4. *Efe a'm dysgai, ac a ddywedai wrthyf*] Wrth fy nysgu; *Dalied dy galon fy ngeiriau*—derbyn hwynt i'th galon, sef i'th serchiadau; neu ymdrecha i'w cofio: *cadw fy ngorchymynion, a bydd fyw*—hyny yw, 'byddi fyw,' neu 'cei fyw.' Addewid yw y geiriau mewn ffordd o orchymyn, fel yn pen. iii. 25.

Adn. 5. *Cais ddoethineb*] Neu wir grefydd; *cais ddeall*—sef gwybodaeth lawn o'th ddyledswyddau: *na âd dros gof*—fy ngorchymynion hyn; *ac na ŵyra oddiwrth eiriau fy ngenau*—oddiwrth y grediniaeth na'r ymarferiad o honnynt.

Adn. 6. *Nac ymâd â hi*] Sef â'r ddoethineb uchod; *a hi a'th geidw*—i fywyd tragwyddol: *câr hi*—uwchlaw holl drysorau a phleserau y ddaear; *a hi a'th wared di*—nid yn unig oddiwrth bechod, ond befyd oddiwrth lawer o ofidiau.

Adn. 7. *Penaf peth yw doethineb*] Gwir grefydd, neu dduwioldeb, yw y trysor gwerthfawrocaf yn y byd; ie, yr 'un peth angenrheidiol,' Luc x. 42. *Cais ddoethineb*—gan hyny, â'th holl galon, trwy lasurio a gweddio yn daer am dani; *ac a'th holl gyfoeth cais ddeall*—pe costiai i ti wario dy holl gyfoeth i'w gryaedd: gwel ar adn. 5. Fe allai fod ganddo olwg neilludol yma ar brynu llyfrau, dilyn ysgolion, a'r cyffell yma.

Adn. 8. *Dyrchafa di hi*] Trwy roddi y lle penaf i'r ddoethineb hon yn dy galon, neu trwy ddangos ei rhinweddau yn dy fuchedd; *a hithau a'th ddyrchafa di*—i ffafr gyda Duw a dynion: *hi a'th ddwyg di i anrhydedd*—nid yn

8 Dyrchafa di hi, a hithau a'th ddyrchafa di: hi a'th ddwg di i anrhydedd, os coffeidi hi.

9 Hi a rydd chwaneq o ras i'th ben di: *ie*, hi a rydd i ti goron gogoniant.

10 Gwrando, fy mab, a derbyn fy ngeiriau: a blynyddoedd dy fywyd a amlheir.

11 Yr ydwyf yn dy ddyngu yn ffordd doethineb; ac yn dy dywys yn llwybrau uniondeb.

12 Pan rodiech, dy gerddediad ni bydd cyfyng; a phan rodech ni thramgwyddi!

13 Ymafael mewn addysg, ac na ollwng hi: cadw hi; canys dy fywyd di yw hi.

14 ¶ Na ddos i lwybr yr annuw-
iolion, ac na rodia ar hyd ffordd y
drygionus.

15 Gochel hi, na ddos ar hyd-
ddi; cilia oddiwrthi hi, a dos heibio.

16 Canys ni chysgant nes gwneuth-
ur drwg; a'u cwsg a gollant nes
iddynt gwympo *rhyw ddyng*.

17 Canys y maent yn bwyta bara
annuwioledeb, ac yn yfed gwin trais.

18 Ond llwybr y cyfiawn sydd fel
y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy-
fwy hyd ganol dydd.

19 *Eithr ffordd y drygionus sydd*
fel y tywyllwch: ni wyddant wrth
ba beth y tramgwyddant.

20 ¶ Fy mab, gwrando ar fy
ngeiriau: gogwydda dy glust ar fy
ymadroddion.

21 Na âd iddynt fyned ymaith o'th
olwg: cadw hwynt yn nghanol dy
galon.

22 Canys bywyd ydynt i'r neb a'u

unig ar y ddaear, ond yn y nefoedd hwydd, os
coffeidi hi.

Adn. 9. *Ii a rydd chwaneq o ras i'th ben*
di Cyfeirir yma at yr addurniadau grasol neu
anrhydeddus a wisgid am y pen; *ie*, hi a rydd
i ti goron gogoniant—yn y nefoedd, yr hon ni
wywa byth.

Adn. 10. *Gwrando, fy mab, a derbyn fy*
ngeiriau Tybia rhai mai parhad o eiriau Da-
fydd wrth Solomon yw y rhai hyn; ond barna
ereill mai Solomon ei hun sydd yn llefaru yma
wrth ei fab Rehoboam, neu wrth ei ddysgybl-
ion: gwel ar adn. 4, a pen. i. 8. *A blynydd-*
oedd dy fywyd a amlheir—trwy fod crefydd,
diweirdeb, a chymedrollder, y rhai a gymhellir
yn y llyfr hwn, yn estyn bywyd dyn: gwel ar
pen. iii. 2, 16.

Adn. 11. *Yr ydwyf yn dy ddyngu yn ffordd*
doethineb Yn y ffordd i gyraedd doethineb,
neu yn y ffordd ag y mae doethineb yn cyf-
arwyddo dyn i rodio ynddi; ac yn dy dywys
yn llwybrau uniondeb—i wneyd yr hyn sydd
union a chyfiawn yn mhob peth, yn wladol,
moesol, a chrefyddol; gan hyny gweddus yw i
ti wrando a derbyn fy ngeiriau, adn. 10.

Adn. 12. *Pan rodiech* Felly yn ffordd
doethineb, adn. 11; *dy gerddediad ni bydd*
cyfyng—nid âi i gyfyngder, dyryswech, na
pherygl: *a phan redech*—mewn brys mawr i
gyflawni rhyw weithred o bwys; *ni thram-*
gwyddi—ni syrthi, trwy daraw dy droed wrth
rwystran.

Adn. 13. *Ymafael mewn addysg* Sef yn y
ddoethineb uchod; *ac na ollwng hi*—yr hyn
a ddengys fod y peth yn bosibl, onidê paham
y rhybyddir ef? *Cudw hi*—gyda'r gofal mwy-
af; *canys dy fywyd di yw hi*—dy gysur yn
y bywyd hwn, a'th arweinydd i fywyd tra-
gwyddol.

Adn. 14. *Na ddos i lwybr yr annuw-
iolion* I'w cyfeillach hwy, neu i ddylyn eu har-
ferion; *ac na rodia ar hyd ffordd y dryg-*
ionus—yr hon sydd yn arwain i ddystryw.

Adn. 15. *Gochel hi* Trwy beidio myned
ar hyd-ddi; *cilia oddiwrthi hi*—trwy fyned
heibio ar hyd ffordd arall.

Adn. 16. *Canys ni chysgant nes gwneuthur*
drwg Yr hyn a gyflawna yr annuwioledd
uchod yn gyffredin yn y nos; *a'u cwsg a*
gollant—yn wirfoddol, *nes iddynt gwympo*
rhyw ddyng—trwy ei faglu a'i yspeilio, ac fe
allai ei ladd.

Adn. 17. *Canys y maent yn bwyta bara*
annuwioledeb Sef yn byw ar ladrata ac ys-
peilio; *ac yn yfed gwin trais*—yr hwn a
gyrhaeddant trwy drais.

Adn. 18. *Ond llwybr y cyfiawn sydd fel y*
goleuni Neu sydd yn oleuni, er nad yw ond
gwanaidd ar y cyntaf, fel goleuni y dydd ar
doriad y wawr; *yr hwn a lewyrcha fwyfwy*
hyd ganol dydd—fel y mae goleuni y dydd
yn llewyrchu fwyfwy hyd nes y cyrhaeddo yr
haul y pwynt deheuol, felly y mae y cyfiawn
hefyd yn ei lwybr yntau: efe a gynydda yn
raddol mewn pob gwybodaeth, rhinwedd, a
defnyddioledeb, hyd oni pherffesthir ef mewn
gogoniant.

Adn. 19. *Eithr ffordd y drygionus sydd*
fel y tywyllwch Neu sydd yn dywyllwch,
cyfeillionard, a drygioni, ac yn arwain i dy-
wyllwch tragwyddol: *ni wyddant wrth ba*
beth y tramgwyddant—y maent yn barhaus
yn y perygl mwyaf, ac yn sicr o syrthio i ddi-
nystr yn y diwedd.

Adn. 20. *Fy mab, gwrando ar fy ngeiriau*
Gyda'r dyfalwch a'r astudrwydd mwyaf; *go-*
gwydda dy glust at fy ymadroddion—am eu
bod o'r pwys mwyaf i ti.

Adn. 21. *Na âd iddynt fyned ymaith o'th*
olwg I dirannghof; *cadw hwynt yn nghanol*
dy galon—yn dy serchiadau a'th tyfyr-
dodau.

Adn. 22. *Canys bywyd ydynt i'r neb a'u*
caffont Sef bywyd o ras a chysur yn y byd
hwn, a bywyd tragwyddol yn y byd a ddaw;
ac iechyd i'w holl gnawd—trwy ei gadw oddi-

caffont, ac iechyd i'w holl gnawd.

23 ¶ Cadw dy galon yn dra diesgeulus; canys allan o honi y mae bywyd yn dyfod.

24 Bwrw oddiwrthyt enau taeg-aidd, a gwefusau trofaus yn mhell oddiwrthyt.

25 Edryched dy lygaid yn uniawu; ac edryched dy amrantau yn uniawn o'th flaen.

26 Ystyria lwybr dy draed: a threfner dy holl ffyrdd yn uniawn.

27 Na thro ar y llaw ddeau nac ar y llaw aswy; symud dy droed oddiwrth ddrygioni.

PENNOD V.

FY mab, gwrando ar fy noethineb, a gostwng dy glust at fy neall:

wrth yr hyn sydd yn dyfetha iechyd: gwel ar adn. 10, a pen. iii. 2, 8, 16.

Adn. 23. *Cadw dy galon yn dra diesgeulus* [Hebr., 'uwchlaw pob cadwraeth;'] hyny yw, cadw y wyladwriaeth fanylaf ar dy feddwl, dy ewyllys, a'th serchiadau: *canys allan o honi y mae bywyd yn dyfod*—fel mai y galon yw fflynnionell bywyd naturiol, felly yr ewyllys a'r serchiadau yw eisteddle bywyd ysbrydol, o ba un y deillia pob da, neu bob drwg: gwel ar Mat. xv. 11, 17—19.

Adn. 24. *Bwrw oddiwrthyt enau taeg-aidd* [Neu ymadroddion sarug, trahaus, ac anfoneddigaidd; a *gwefusau trofaus yn mhell oddiwrthyt*—sef croesddadleuon a checrath. Na ddywed ddim i ddoluriu meddwl neb; neu na ddywed ddrwg wrth neb, nac am neb.

Adn. 25. *Edryched dy lygaid yn uniawn* [At y dyledswyddau ag sydd o'th flaen, gan gyfeirio at ogoniant Duw yn mhob peth; ac *edryched dy amrantau yn uniawn o'th flaen*—heb i'th olygon wibio yma a thraw ar ol gwrthdrrychau gwaharddedig.

Adn. 26. *Ystyria lwybr dy draed* [Ystyria beth yr wyt ar fedr ei wneutlur, a hyny cyn ei wneuthur; a *threfner dy holl ffyrdd yn uniawn*—yn gyson â gair ac ewyllys Duw yn mhob peth. Neu, fel y gellir ei gyfieithu, 'Hwy a drefnir.' Felly hyn sydd addewid, i gefnogi y gorchymyn blaenorol.

Adn. 27. *Na thro ar y llaw ddeau* [At goelgrefydd fe allai, i wneyd yr hyn na orchymynir yn ngair Duw; *nac ar y llaw aswy*—at anfoesoldeb, neu ddibrisdol o wir grefydd: *symud dy droed oddiwrth ddrygioni*—ac at ddaioni, yr hyn yw yr unig 'droad' sydd yn gweddu i ti. Y mae y LXX, yr *Arabaeg*, a rhai ailunau o'r *Vulgate*, yn chwaneu yma, 'Canys efe a wna dy lwybrau yn uniawn, a'th ymdeithian a dywys efe yn llwyddiannus.' Er na cheir y geiriau hyn yn awr yn yr *Hebraeg*, y *Galdeae*, na'r *Syriae*, eto y mae yr addewid a'g gwynsant yn berffaith gyson â phanau ereill o'r ysgrifthy.

2 Fel y gellych ystyried pwyll, a'th wefusau gadw gwybodaeth:

3 ¶ Canys gwefusau y ddyeithr a ddyferant *fel* y dil mêl, a'i genau *sydd* lyfnach nag olew:

4 Ond ei diwedd hi a fydd chwerw fel y wermod, yn llym fel cleddyf daufiniog.

5 Ei thraed hi a ddisgynant i angau; a'i cherddediad a sang uffern.

6 Rhag i ti ystyrio ffordd bywyd, y symud ei chamrau hi, heb wybod i ti.

7 Yr awr hon gan hyny, O blant, gwrandewch arnaf fi, ac nac ymadewch â geiriau fy ngenau.

8 Cadw dy ffordd yn mhell oddiwrthi hi, ac na nesâ at ddrws ei thŷ hi:

PEN. V. Adn. 1. *Fy mab, gwrando ar fy noethineb* [Ar y cynghorion a'r rhybyddion doeth ag yr wyf fi yn awr yn eu rhoddi i ti; a *gostwng dy glust at fy neall*—i wrando ar y wybodaeth a gyrhaeddais i trwy brofiad.

Adn. 2. *Fel y gellych ystyried pwyll* [Nen ddysgu synwyr a challineb; a'th wefusau gadw gwybodaeth—fel y gallo dy wefusau draethu gwybodaeth i'r genhedlaeth a ddol, ac felly ei chadw o oes i oes.

Adn. 3. *Canys gwefusau y ddyeithr* [Sef y 'fenyw estronaidd,' fel ei gelwir pen. ii. 16; a *ddyferant fel y dil mêl*—y mae ei geiriau yn felys, gweneithus, a deniadol; a'i genau—sef ymadroddion ei genau, *sydd lyfnach nag olew*—sydd dyner, caruaid, a hudoliaethus.

Adn. 4. *Ond ei diwedd hi a fydd chwerw fel y wermod* [Bydd i'w hudoliaethau dengar droi allan yn y diwedd yn ofid chwerw i'r neb a wrandawo arnynt, yn gystal ag iddi ei hun; *yn llym fel cleddyf daufiniog*—yr hwn a dŷr o bob tu, neu a archolla y corff a'r enaid.

Adn. 5. *Ei thraed hi a ddisgynant i angau* [A arweiniant i ddiwedd anamserol, gwarthus, a thruenus; a'i cherddediad a sang uffern—yr hon yw diwedd y fath yrfa bechadurus: gwel ar pen. ii. 18, 19.

Adn. 6. *Rhag i ti ystyrio ffordd bywyd* [Neu feddwl troi oddiwrth ei llybrau hi i ffordd rhinwedd a bywyd; y *symud ei chamrau hi*—at ryw ddull hudoliaethus arall, fel ag i'th gadw yn sicrach fyth yn ei llybrau fflaid; *heb wybod i ti*—yr hwn wyt anghy-nefin â'i hystriwiau.

Adn. 7. *Yr awr hon gan hyny, O blant! Banim*, 'meibion,' neu wŷr ieuainc yn gyffredinol, y rhai sydd debycaf o bawb i gael eu hudo ganddi; *gwrandewch arnaf fi*—yn eich cynghori fel hyn; *ac nac ymadewch â geiriau fy ngenau*—ar ol i chwi eu clywed.

Adn. 8. *Cadw dy ffordd yn mhell oddiwrthi hi* [Pan y byddo hi allan ar yr heolydd; *ac na nesâ at ddrws ei thŷ hi*—pan y byddo

9 Rhag i ti roddi dy harddwch i ereill, a'th flynyddoedd i'r creulon :
10 Rhag llenwi yr estron â'th gyfoeth di, ac i'th lafur fod yn nhŷ y dyeithr.

11 Ac o'r diwedd i ti ochain, wedi i'th gnawd a'th gorff gurio.

12 A dywedyd, Pa fodd y caseais i addysg! *pa fodd* y dirmygodd fy nghalon gerydd!

13 Ac na wrandawais ar lais fy athrawon, ac na ostyngais fy nghlust i'm dysgawdwr.

14 Bûm o fewn ychydig at bob drwg, yn nghanol y gynulleidfa a'r dyrfa.

15 ¶ Yf dddwr o'th bydew dy hun,

i mewn, rhag iddi dy ganfod a'th hudo.

Adn. 9. *Rhag i ti roddi dy harddwch*] Sef dy rinwedd a'th anrhydedd; *i ereill*—i butanod a'u cymdeithion; *a'th flynyddoedd*—dy flynyddoedd goraf, neu hnodau dy nerth a'th einïoes; *i'r creulon*—i butanod creulon, y rhai a'th yspeiliant o'th harddwch, a'th gyfoeth, a'th iechyd, ac fe allai o'th fywyd hefyd.

Adn. 10. *Rhag llenwi yr estron â'th gyfoeth di*] Sef y 'fenyw estronaidd' a'i chyfeillion; *ac i'th lafur*—sef y cyfoeth a ennillaist trwy lafur, *fod yn nhŷ y dyeithr*—sef y cenhedloedd, o'r rhai yn gyffredin yr oedd y putanod hyn yn deilliaw : gwel ar pen. ii. t6.

Adn. 11. *Ac o'r diwedd i ti ochain*] Dan bwys dy euogrydd, dy ymfyrdwydd, a'th drueni; *wedi i'th gnawd a'th gorff gurio*—nid yn unig dy gnawd, ond dy groen, dy esgryn, a'th gyhyrau hefyd, dan effeithiau yr afiechyd a'r doluriau a dynaist arnat dy hun trwy ddylyn dy anlladrwydd.

Adn. 12. *A dywedyd*] Wedi iddi fyned yn rhy ddiweddar, *Pa fodd y caseais i addysg*—sef rhybyddion a chygothorion fy nghyfeillion! *pa fodd y dirmygodd fy nghalon gerydd*—yr hwn a roddid i mi yn nechre fy aflywodraeth!

Adn. 13. *Ac na wrandawais ar lais fy athrawon*] Mewn pryd! *ac na ostyngais fy nghlust i'm dysgawdwr*—i wrando ar rybyddion fy rhieni, fy nghyfeillion, a gweinidogion Duw!

Adn. 14. *Bûm o fewn ychydig at bob drwg*] Canys y mae y rhai a ymwerthant i ddylyn puteindra, yn ddigon caled, hŷf, a digywilydd, i gyflawni agos bob pechod arall; *yn nghanol y gynulleidfa a'r dyrfa*—nid yn unig yn y tywyllwch, ac mewn lleoedd dirgel, ond yn y manau mwyaf cyhoeddus. Neu, fel y mae mewn un hen gyfeithiad Saesonig, 'yn nghanol yr eglwys a'r synagog.' Y mae llygaid y cyfryw rai yn 'llawn godineb,' hyd yn nod mewn cynulleidfaoedd crefyddol, 2 Pedr ii. 14.

Adn. 15. *Yf dddwr o'th bydew dy hun, &c.*] Ystyr y cnyghor hwn yw, tod iddo briodi, ac nid myned ar ol gwagedd dyeithr.

Adn. 16. *Tardded dy flynnonau allan*] Bydded i ti a'th wraig gael lluosogrwydd o

a ffrydiau allan o'th flynnon dy hun.

16 Tardded dy flynnonau allan, a'th ffrydiau dwfr yn yr heolydd.

17 Byddant yn eiddot ti dy hun yn unig, ac nid yn eiddo dyeithriaid gyda thi.

18 Bydded dy flynnon yn fendigedig: ac ymlawenha gyda gwraig dy ienenctid.

19 *Bydded fel ewig gariadus*, ac fel iyrches hawddgar: gâd i'w bronau hi dy lenwi bob amser, ac ymfoddlona yn ei chariad hi yn wastadol.

20 A phaham, fy mab, yr ymddigrifi yn y wraig ddyeithr, ac y cofleidi fynwes yr hon nid yw eiddot ti?

blant; *a'th ffrydiau dwfr yn yr heolydd*—bydded i'r plant a ddeillia oddiwrthych lenwi heolydd; neu na fydded cywilydd genyt eu gwled hwy ar yr heolydd, trwy eu bod yn blant cyfreithlon i ti dy hun.

Adn. 17. *Byddant yn eiddot ti dy hun yn unig*] Cyfeirir yma at yr angenheidrwydd i'w wraig ef hefyd fod yn ddiwair; *ac nid yn eiddo dyeithriaid gyda thi*—sef gwŷr ereill wedi dringo i halogi dy wely di.

Adn. 18. *Bydded dy flynnon yn fendigedig*] Bydded dy wraig wedi ei bendithio gan Dduw â llawer o blant, neu yn cael ei bendithio a'i dedwyddoli genyt ti; neu, fel y gellir deall y LXX, 'bydded dy flynnon yn neillduedig i ti dy hun:' *ac ymlawenha gyda gwraig dy ieuenctid*—yn lle myned ar ol gwagedd dyeithr, hyd yn nod wedi iddi hi heneiddio.

Adn. 19. *Bydded fel ewig gariadus, ac fel iyrches hawddgar*] Yn anwyl yn dy olwg bob amser. 'Y mae y gŵr doeth yma,' ebai yr *Esgob Patrick*, 'yn darlunio yn allegor ddedwyddwch y cyflwr priodasol; yn gyntaf, dan y gyffelybiaeth o *flynnon* deuluaidd, lle y gall dyn dori ei syched naturiol, ac o'r hon y gellir cael *ffrydiau*, neu blant, i wasanaethu y lles cyffredin; ac, yn ail, dan y gyffelybiaeth o *ewig gariadus* a *iyrches hawddgar*, y rhai y sylwa naturiaethwyr eu bod yn gwrauriaid hofus iawn, y rhai yr arferai y mawrion eu cadw yn eu palasau i'w difyrn, gan eu haddurno â chadwyni a choron-biechau.' *Gâd i'w bronau hi dy lenwi bob amser*—neu ddiwallu dy holl eisiau, fel y diwalla llaeth y fron angen y plentyn sugno; *ac ymfoddlona yn ei chariad hi yn wastadol*—heb grwydro ar ol gwagedd dyeithr.

Adn. 20. *A phaham, fy mab, yr ymddigrifi yn y wraig ddyeithr*] Pan y gelli gael gwraig gyfreithlon o'r eiddot dy hun? *ac y cofleidi fynwes yr hon nid yw eiddot ti*—ond sydd, fe allai, yn eiddo gŵr arall, i'r hwn y trôdd hi yn anffyddlon? gwel ar pen. vi. 29—35, a vii. 19. Cafodd Solomon ei hun brofiad chwerw o hyn, 1 Bren. xi. 1, &c., yn gystal a'i dad o'i faen, 2 Sam. xi. 2, &c.

Adn. 21. *Canys ffyrdd dyn sydd yn ngolwg*

21 Canys ffyrdd dyn sydd yn ngolwg yr Arglwydd, ac y mae efe yn dal ar ei holl lwybrau ef.

22 ¶ Ei anwiredd ei hun a ddeil yr annuwiol, ac efe a ddelir â rhaffau ei behod ei hun.

23 Efe a fydd farw o eisiau addysg; a rhag maint ei ffolineb yr â ar gyfeiliorn.

PENNOD VI.

FY mab, os mechniaist dros dy gymydog, ac os tarewaist dy law yn llaw y dyeithr,

2 Ti a faglwyd â geiriau dy enau, ti a ddaliwyd â geirian dy enau.

3 Gwna hyn yr awr hon, fy mab, a gwared dy hun, gan i ti syrthio i law dy gymydog; cerdd, ac ymost-

yr Arglwydd] Pa mor ddirgel bynag y ceisia efe gyflawni ei chwantau anniawr; ac y mae efe yn dal ar ei holl lwybrau ef—i'w gospi neu ei wobrwyo ar ol hyn am ei holl weithredoedd.

Adn. 22. *Ei anwiredd ei hun a ddeil yr annuwiol*] Er mor ddirgel y cyflawnwyd ef ganddo; ac efe a ddelir â rhaffau ei behod ei hun—y rhai nas gall efe eu tori, fel ag i ddianc rhag cosp.

Adn. 23. *Efe a fydd farw o eisiau addysg*] O eisiau gwneyd defnydd o'r addysg a gawsai, adn. 12, 13; a rhag maint ei ffolineb—neu gan fawredd ei ffolineb yn casâu addysg; yr â ar gyfeiliorn—ar hyd lwybrau pechod, ac wedi hyny i ddinystyr tragwyddol!

PEN. VI. Adn. 1. *Fy mab, os mechniaist dros dy gymydog*] Yn fyrbwyll ac anystyriol. I sicrlan dedwyddwch y bywyd priodasol, yr hwn a gymbellwyd yn y bennod flaenorol, y mae Solomon yma yn rhybyddio ei ddysgybl yn erbyn dau ddrwg ag sydd yn fynych yn dwyn gofid mawr i deulu, sef mechniaeth a diogi. *Ac os tarewaist dy law yn llaw y dyeithr*—sef yn llaw y gofynwr, yr hwn a eilw efe yma yn ddyeithr, am fod y rhai a fenthycant arian i ereill ar yr aumod o gael llog helaeth am danynt, naill ai yn deilliaw o blith y cenhedloedd paganaidd, neu yn cael eu cyfrif cyn waethed a phaganiaid, am fod hyny yn waharddedig gan y gyfraith, Deut. xxiii. 19. Ymddengys mai taro neu gysylltu dwylaw oedd yr hen ffordd o gadarnhau ymrwym-iadau o'r fath yma, Job xvii. 3.

Adn. 2. *Ti a faglwyd â geiriau dy enau*] A dy addewid, yr hon a gadarnhawyd trwy daro dwylaw; ti a ddaliwyd â geiriau dy enau—collaist dy ryddid, ac yr wyt yn awr yn gaeth i arall.

Adn. 3. *Gwna hyn yr awr hon, fy mab*] Fel y peth doethaf i ddyd yn dy gyflwr di; gan i ti syrthio i law dy gymydog—sef i law y dyledwr, fel ag i fod dan rwymau i dalu ei

wng iddo, ac ymbil â'th gymydog.

4 Na ddyro gwsg i'th lygaid, na hân i'th amrantau.

5 Gwared dy hun fel yr iwrc'h o law yr heliwr, ac fel aderyn o law yr adarwr.

6 ¶ Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth:

7 Nid oes ganddo neb i'w arwain, i'w lywodraethu, nac i'w feistrol; i;

8 *Ac er hyny* y mae efe yn parotoi ei fwyd yr haf, ac yn casglu ei luniaeth y cynauaf.

9 Pa hyd, ddiogyn, y gorweddi? pa bryd y cyfodi o'th gwsg?

10 Eto ychydig gysgu, ychydig hepian, ychydig blethu dwylaw i gysgu.

ddyled ef: *cerdda*—ato, ac ymostwng iddo—yn y dull mwyaf addfwyn a boneddigaidd; ac ymbil â'th gymydog—gan ddeisyf arno naill ai talu ei ddyled ei hun yn ddoedi, neu roddi diogelwch i ti rhag y gofynwr.

Adn. 4. *Na ddyro gwsg i'th lygaid, &c.*] Nes i ti wneuthur hyny.

Adn. 5. *Gwared dy hun fel yr iwrc'h, &c.*] Sef gyda'r cyflymdra mwyaf, fel y rheda iwrc'h rhag yr heliwr, neu yr eheda aderyn rhag magl yr adarwr.

Adn. 6. *Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn*] Os wyt yn tueddu at ddiogi: *edrych ar ei ffyrdd ef*—ei ddiwydrwydd yn casglu lluniaeth yn ei amser; nid erbyn y gauaf, pryd y mae efe yn cysgu, fel y dywed naturiaethwyr; ond at ei angen presenol, ac erbyn y dihuna efe o'i gwsg: *a bydd ddoeth*—yn ol ei siampl ef.

Adn. 7. *Nid oes ganddo neb i'w arwain*] At ei waith; *i'w lywodraethu*—yn ei waith; *nac i'w feistrol*—neu ei geryddu, am esgeuluso ei waith.

Adn. 8. *Ac er hyny y mae efe yn parotoi ei fwyd yr haf*] Yn y tymhor addasaf i weithio; *ac yn casglu ei luniaeth y cynauaf*—pryd y mae yr yd a firwythau ereill yn added, ac yn dyhido; hyny yw, y mae y morgrugyn yn arfer diwydrwydd, deheurwydd, a doethineb mawr, er nad oes ganddo neb i'w ddysgu na'i orfodi, adn. 7.

Adn. 9. *Pa hyd, ddiogyn, y gorweddi*] Yn lle bod gyda'th orchwylion fel y morgrugyn? *pa bryd y cyfodi o'th gwsg*—i fyned allan at dy waith?

Adn. 10. *Eto ychydig gysgu*] Gellir ystyried hyn fel atebiad y diogyn i'r gofyniad uchod, neu fel ei deimlad ef ar y pryd; *ychydig hepian*—dim ond ychydig; *ychydig blethu dwylaw i gysgu*—ac yna mi a gyfodaf. Y mae yr ymadrodd 'plethu dwylaw' yn gosod allan ei ystum diog ef: yn lle defnyddio ei ddwyllaw i weithio, y mae yn en plethu i gysgu a diogi. Y mae y morgrugyn yn casglu ei

11 Felly y daw tylodi arnat fel ymdeithydd, a'th angen fel gŵr arfog.

12 ¶ Dyn i'r fall, a gŵr anwir, a rodia â genau cyndyn.

13 Efe a amneidia â'i lygaid, efe a lesara â'i draed, efe a ddysg â'i fysedd.

14 *Y mae pob rhyw gyndynrwydd yn ei galon; y mae yn dychymyg drygioni bob amser, yn peri cynhenau.*

15 Am hyny ei ddinystir a ddaw arno yn ddisymwth: yn ddisymwth y dryllir ef, fel na byddo meddyginiath.

16 ¶ Y chwe peth hyn sydd gâs gan yr Arglwydd: ie, saith beth sydd ffaidd ganddo ef:

17 Llygaid beilchion, tafod cel-

wyddog, a'r dwylaw a dywalltant waed gwirion,

18 *Y galon a ddychymygo feddyliau drwg, traed yn rhedeg yn fuan i ddrygioni,*

19 *Tyst celwyddog yn dywedyd celwydd, a'r neb a gyfodo gynhen rhwng brodyr.*

20 ¶ *Fy mab, cadw orchymyn dy dad, ac nac ymado â chyfraith dy fam.*

21 *Rhwym hwynt ar dy galon yn wastadol; cwlwm hwynt am dy wddf.*

22 *Pan rodiech, hi a'th gyfarwydda; pan orweddych, hi a'th wylia; pan ddeffröych, hi a gydymddyddan â thi.*

23 *Canys canwyll yw y gorchymyn; a goleuni yw y gyfraith; a*

luniaeth yr haf a'r cynauaf, ac yn cysgu yn y ganaf pan nad oes ganddo ddim i'w wneyd; ond y mae y diogyn yn cysgu ac yn diogi haf, ganaf, a chynauaf, ie, ddydd a nos.

Adn. 11. *Felly y daw tylodi arnat fel ymdeithydd*] Yn ddisymwth ac annysgyliadwy; a'th angen fel gŵr arfog—yr hwn nas gelli ei wrthsefyll.

Adn. 12. *Dyn i'r fall*] Neu 'ddyn Belial,' Deut. xiii. 13; a *gŵr anwir*—un wedi ymwerthu i ddywedyd a gwneuthur pob anwiredd a drygioni; a *rodia â genau cyndyn*—gan lesaru pethau celwyddog a chableddu yn erbyn Duw, ei bobl, a phob daioni. Fe allai mai am y diogyn uchod y dywedir hyn, yr hwn, trwy ei ddiogi, oedd wedi myned yn ddyng i'r fall ac yn ŵr anwir. Er ei fod yn ddiogi i ddaioni, yr oedd yn weithgar mewn drygioni.

Adn. 13. *Efe a amneidia â'i lygaid*] I roddi arwydd i'w gyfeillion o ryw ddrwg-fwriad ag sydd yn ei galon; *efe a lesara â'i draed*—trwy swnio â'i draed, neu guro y llawr; *efe a ddysg â'i fysedd*—trwy gyfeirio at yr hwn ag y bwriada ei niweidio neu ei yspeilio. Efe a ddyry yr arwyddion hyn i'w gymdeithion yn ddiarwybod i ereill, fel ag i'w hennill i'w gy-northwyo ef yn ei fwriadau ysgeler.

Adn. 14. *Y mae pob rhyw gyndynrwydd yn ei galon*] Yn reddfol a gwreiddiol; y mae yn dychymyg drygioni bob amser—gan gynllunio y moddion tebygaf i allu ei gyflawni, Gen. vi. 5; yn peri cynhenau—rhwng gymydogion a theuluoedd yn barhaus, gan obeithio y daw rhyw elw neu bleser iddo ef oddiwrth hyny.

Adn. 15. *Am hyny ei ddinystir a ddaw arno yn ddisymwth*] Fel barn gyfiawn oddiwrth Dduw: yn ddisymwth y dryllir ef, fel na byddo meddyginiath—fel dryllio llestr pridd, yr hwn nis gelli ei gyfanu.

Adn. 16. *Y chwe peth hyn sydd gâs gan yr Arglwydd*] Y rhai a geir yn gyfredin yn y 'meibion Belial' hyny a ddarluniwyd uchod,

adn. 12—15; ie, saith beth sydd ffaidd ganddo ef—am eod yn groes i burdeb ei natur ef, ac yn wrthwyneb i'w ewyllys: gwel y dull hwn o ymadrodd yn cael ei egluro ar Job v. 19.

Adn. 17. *Llygaid beilchion*] Neu 'olygon uchel,' yn ddistyru ereill. *Dyma y cyntaf o'r saith beth ffaidd uchod.* (2) *Tafod celwyddog*—yn lesaru wrth ereill yr hyn y gwyr ei fod yn anwiredd. (3) *A'r dwylaw a dywalltant waed gwirion*—sef y llofrudd a'r mwrddrwr.

Adn. 18. (4) *Y galon a ddychymygo feddyliau drwg*] Yn erbyn arall i'w niweidio. (5) *Traed yn rhedeg yn fuan i ddrygioni*—neu yn cyflawni unrhyw ddrygioni gydag awydd a hyfrydwch.

Adn. 19. (6) *Tyst celwyddog yn dywedyd celwydd*] Mewn llys barn, a hyny ar lw. (7) *A'r neb a gyfodo gynhen rhwng brodyr*—rhwng perthynasan neu gyfeillion, mewn gwlad neu eglwys.

Adn. 20. *Fy mab, cadw orchymyn dy dad*] Cyn belled ag y byddo yn gyson â gorchymyn Duw; ac nac ymado â chyfraith dy fam—sef cyfraith Duw, yr hon a ddysgodd ei fam iddo: gwel ar pen. i. 8.

Adn. 21. *Rhwym hwynt ar dy galon yn wastadol*] Cofia ac ystyria hwynt yn barhaus; cwlwm hwynt am dy wddf—gwel ar pen. i. 9, a iii. 3.

Adn. 22. *Pan rodiech*] Allan, i ddylyn dy orchwhlon; *hi a'th gyfarwydda*—bydd i'r gyfraith hon dy arwain ar hyd llwybr dy ddyledswydd; *pan orweddych*—y nos i gysgu; *hi a'th wylia*—rhag pob rhyw niwed; *pan ddeffröych*—yn y bore, neu ganol nos; *hi a gydymddyddan â thi*—i'th gyfarwyddo drachefn y dydd hwnw hefyd: gwel ar pen. iii. 23, 24.

Adn. 23. *Canys canwyll yw y gorchymyn*] I oleuo llwybr dyn; a *goleuni yw y gyfraith*—i ddangos iddo ei ddyledswydd; a *ffordd i fywyd yw ceryddon addysg*—i gadw ac

ffordd i fywyd *yw* ceryddon addysg :

24 I'th gadw rhag y fenyw ddrwg, a rhag gweniaith tafod y ddyeithr.

25 Na chwennych ei phryd hi yn dy galon : ac na âd iddi dy ddal â'i hamrantau.

26 Oblegid y fenyw buteinig *y daw dyn* i damaid o fara; a gwraig gŵr *arall* a hela yr enaid gwerthfawr.

27 A ddichon gŵr ddwyn tân yn ei fynwes, heb losgi ei ddillad ?

28 A ddichon gŵr rodio ar hyd marwor, ac heb losgi ei draed ?

29 Felly, pwy bynag a ÷l at wraig ei gymydog; y neb a gyffyrddo â hi, ni bydd glân.

estyn ei fywyd naturiol, ac i'w arwain yn y diwedd i fywyd tragwyddol, pen. iii. 16.

Adn. 24. *I'th gadw rhag y fenyw ddrwg*] Sef y 'fenyw buteinig,' adn. 26; a *rhag gweniaith tafod y ddyeithr*—neu ei hudoliaethau gwenieithus hi : gwel ar pen. ii. 16, a v. 3.

Adn. 25. *Na chwennych ei phryd hi yn dy galon*] Sef ei phrydferthwch a'i hawddgarwch; ac na âd iddi dy ddal â'i hamrantau—sef â'i hedrychiad anniwair; neu ynte âg amrantau wedi eu paentio yn brydferth, yr hyn oedd arferiad mynyeh yn mllith putanod y dywraïn.

Adn. 26. *Oblegid y fenyw buteinig y daw dyn i damaid o fara*] Dim ond tamaid, neu dylodi mawr. Y LXX a'i darlenna, 'Pris putan yw oddeutu un dorth; ' ac y mae y *Vulgate*, y *Syriac*, a'r *Arabaeg* agos o'r un ystyr. A *gwraig gŵr arall*—a fyddo wedi troi yn odinebwraig, a *hela yr enaid gwerthfawr*—Saes, 'y bywyd gwerthfawr,' trwy lygru yr iechyd a'r cyfansoddiad, a dystrywio y corff a'r enaid, pen. ii. 18, 19.

Adn. 27. *A ddichon gŵr ddwyn tân yn ei fynwes*] Gwel ar Job xxxi. 12; *heb losgi ei ddillad?*—y mae y gofyniad yn cynwys gwadiad pendant : nis gall beidio eu losgi.

Adn. 28. *A ddichon gŵr rodio ar hyd marwor*] Yn droednoeth, ac heb losgi ei draed?—ymadroddion diarebol, yn arwyddo y niwed anocheladwy a gai y neb a elai at fenyw buteinig.

Adn. 29. *Felly, pwy bynag a ÷l at wraig ei gymydog*] Gyda bwriad godinebus, er heb ei gyflawni; y *neb a gyffyrddo â hi*—trwy gyflawniad o'i fwriad; *ni bydd glân*—ni ddiane rhag niwed, mwy na'r gŵr a ddygo dân yn ei'fynwes, neu a rodio ar hyd marwor.

Adn. 30. *Ni ddirmyga neb leidr a ladratao i ddiwallu ei enaid, pan fyddo arno newyn*] Ond bydd i bawb yn hytrach gydyndeimlo âg ef, a thosturio wrtho, er iddo wneyd gweithred a gospir yn drwm gan y gyfraith.

Adn. 31. *Ond os delir ef, efe a dâl yn saith ddyblyg*] Bydd raid iddo ddyoddef hyd eithaf y gyfraith, yr hon nis gall ddesturio na madd-

30 Ni ddirmyga neb leidr a ladratao i ddiwallu ei enaid, pan fyddo arno newyn :

31 Ond os delir ef, efe a dâl yn saith ddyblyg; efe a rydd gymaint oll ag a feddo yn ei dŷ.

32 Ond y neb a wnel odineb â benyw, sydd heb synwyr; y neb a'i gwnel, a ddyfetha ei enaid ei hun.

33 Archoll a gwarth a gaiff efe; a'i gywilydd ni ddilëir.

34 Canys cynddaredd *yw* eiddigedd gŵr; am hyny nid erbyd efe yn nydd dial.

35 Ni bydd ganddo bris ar ddim iawn; ac ni foddlonir ef, er rhoi rhoddion lawer.

eu: gwel ar Exod. xxii. 1—4. *Efe a rydd gymaint oll ag a feddo yn ei dŷ*—rhaid iddo dalu gofynion y gyfraith, pe gorfyddai iddo werthu y cwbl yn ei dŷ. Neu gall mai yr ystyr yw, y buasai yn well ganddo dalu yn saith ddyblyg, neu roddi cymaint oll ag a feddai yn ei dŷ, nag i'w ladrad ddyfod i'r golwg, hyd yn nod er nad oes neb yn ei ddirmygu o'i herwydd, gan iddo ei gyflawni yn ei newyn.

Adn. 32. *Ond y neb a wnel odineb â benyw, sydd heb synwyr*] Sydd euog o drosedd mil gwaeth, yr hwn a gospir yn fil trymach. Cyfeirir yma at drosedd *gŵr priod*, yr hwn oedd berchen *gwraig*, ac am hyny nad oedd yn yr un cyflwr a'r lleidr *newynog*, yr hwn ni feddai *ymborth*. Byddai i bawb gan hyny feio a dirmygu y godinebwr, tra yn tosturio wrth y llall. *Y neb a'i gwnel, a ddyfetha ei enaid ei hun*—canys dan gyfraith Moses yr oedd *godineb* i gael ei gospi â marwolaeth, Lef. xx. 10, Deut. xxii. 22.

Adn. 33. *Archoll a gwarth a gaiff efe*] Cai archoll gan y swyddog gwladol, os nid gan ŵr yr odinebwraig, fel y dywedir isod; a'i *gywilydd ni ddilëir*—tra y byddo ef byw, a thra y byddo ei enw mewn coffadwriaeth. Bydd i hyd yn nod y rhai hyny na ddirmygant ddynt tylwad am ladrata i dori ei newyn, gydduno i warthruddo hwn fel troseddwr di-esgus, hyd yn nod er iddo gael maddeuant gan Dduw.

Adn. 34. *Canys cynddaredd yw eiddigedd gŵr*] Wedi yr halogir ei wely ef: bydd i'w eiddigedd ymgynnddeiriogi i'r eithaf yn erbyn y troseddwr: *am hyny nid erbyd efe yn nydd dial*—pan gaffo gyffe i ddial. Yn lle dysgwyl wrth arafwch gweithrediau y gyfraith, efe a gymer y mater i'w law ei hun yn y fan, os gall. Yn mllith yr hen *Rufeiniaid*, pan ddilid dyn mewn godineb, arferai gŵr y wraig anffyddlon wthio *rhuddyglen* fawr i fyny i ymysgaroedd y troseddwr, yr hyn nid yn unig a fyddai yn warth iddo, ond a barai ei farwolaeth yn gyffredin.

Adn. 35. *Ni bydd ganddo bris ar ddim iawn*] A gynnygia y troseddwr iddo am arbed

PENNOD VII.

FY mab, cadw fy ngeiriau, a chuddia fy ngorchymynion gyda thi.

2 Cadw fy ngorchymynion, a bydd fyw; a'm cyfraith fel canwyll dy lygad.

3 Rhwym hwynt am dy fysedd, ysgrifena hwynt ar lech dy galon.

4 Dywed wrth ddoethineb, Fy chwaer wyt ti; a galw ddeall yn gares:

5 Fel y'th gadwont oddiwrth y wraig ddyeithr, a rhag y fenyw â'r ymadrodd gwenieithus.

6 ¶ Canys a mi yn ffenestr fy nhŷ, mi a edrychais trwy fy nellt;

7 A mi a welais yn mysg y ffyliaid, iē, mi a ganfŷm yn mhlith yr

ieuenctid, ddyn ieuanc heb ddeall ganddo,

8 Yn myned ar hyd yr heol gerllaw ei chongl hi; ac efe a âi ar hyd y ffordd i'w thŷ hi,

9 Yn y cyfnos gyda'r hwyr, pan oedd hi yn nos dŷ ac yn dywyll:

10 Ac wele fenyw yn cyfarfod âg ef, a chanddi ymddygiad putan, ac â chalon ddichellgar.

11 (Siaradus ac anufydd yw hi; ei thraed nid arhoant yn ei thŷ:

12 Weithiau yn y drws, weithiau yn yr heolydd, ac yn cynllwyn yn mhob congl.)

13 Hi a ymafaelodd ynddo, ac a'i cusanodd, ac âg wyneb digywilydd hi a ddywedodd wrtho,

14 Yr oedd arnaf fi aberthau heddi; heddyw y cywirais fy adduned:

ei fywyd; ac ni foddlonir ef, er rhoi rhoddion lawer—fel iawn am y trosedd. Y mae ei eiddgedd ef wedi troi yn gynddaredd, a rhaid iddo gael ei ffordd.

PEN. VII. Adn. 1. *Fy mab, cadw fy ngeiriau*] Trwy nfyddbau iddynt; a chuddia fy ngorchymynion gyda thi—yn dy galon, neu yn dy gof a'th serchiadan.

Adn. 2. *Cadw fy ngorchymynion, a bydd fyw*] Hyn yw, 'a chei fyw:' gwel ar pen. iv. 4: *a'm cyfraith fel canwyll dy lygad*—cadw hi gyda'r gofal mwyaf.

Adn. 3. *Rhwym hwynt am dy fysedd*] Fel modrwy i fod yn dy olwg yn wastadol; ysgrifena hwynt ar lech dy galon—gwel ar pen. iii. 3.

Adn. 4. *Dywed wrth ddoethineb, Fy chwaer wyt ti*] Un ag y dylwn ei pharehu yn fawr; a galw ddeall yn gares—agos ac anwyll. Y meddwl yw, gwna gyfeillion mynwesol o honnynt.

Adn. 5. *Fel y'th gadwont oddiwrth y wraig ddyeithr, &c.*] Y butan a'r odinebwraig: gwel ar pen. ii. 16, v. 3, a vi. 24.

Adn. 6. *Canys a mi yn ffenestr fy nhŷ*] Yn edrych allan gyda'r hwyr, adn. 9; *mi a edrychais trwy fy nellt*—yr oedd ffenestri y dwyrain yn gyffredin yn cael eu gwneyd o ddellt croesion, ac nid o wydr, fel y gollyngid awel i mewn i oeri y tai. Ond yr oedd gwydr yn adnabyddus yn yr amser hwnw; canys profodd *Wilkinson* ei fod yn cael ei wneuthur gan yr Aiffiaid er's mwy na 3,500 mlynedd yn ol: gwel *Farrar's Dict.*, dan y gair *Glass*.

Adn. 7. *A mi a welais yn mysg y ffyliaid*] Yn mysg yr ieuencid dibrofaidd, anystyriol, a pbechadurus; *ddyn ieuanc heb ddeall ganddo*—Hebr., 'heb galon ganddo;' corff heb feddwl, neu greadur dynol fel yn aundfadd o reswm a synwyr. Meddylf fod Solomon yma yn adrodd ffaith a ddygyddasai dan ei sylw ef ei hnn.

Adn. 8. *Yn myned ar hyd yr heol gerllaw ei chongl hi*] Sef congl yr heol; ac efe a âi ar hyd y ffordd i'w thŷ hi—sef ar hyd y ffordd ag oedd yn arwain i dŷ yr odinebwraig. Gallwn feddwl nad oedd ef yn bwriadu myned i'w thŷ hi ar y cyntaf, ond ddarford iddo gael ei 'droi â'i haml eiriau tēg,' adn. 21.

Adn. 9. *Yn y cyfnos gyda'r hwyr*] Pryd yr arfera y benywod hyn ddyfod allan i'r heolydd; *pan oedd hi yn nos dŷ ac yn dywyll*—nid oedd hi eto yn gwbl dywyll, canys y 'cyfnos' ydoedd, sef rhwng dau olen. Y meddwl yw, ar ol i'r haul fachludo, a chyn i'r lampau gael en goleno; neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'ar fin nos, pan oedd yn dechreu tywyllu.'

Adn. 10. *Ac wele fenyw yn cyfarfod âg ef*] Sef gwraig briod, os gallwn ei choelio hi, adn. 19; a chanddi ymddygiad putan—o ran gwisg, edrychiad, a lfeffrydd; ac â chalon ddichellgar—i geisio ei rwydo ef, fel y dengys ei hymadrodion isod.

Adn. 11. (*Siaradus ac anufydd yw hi*) Y mae yn ymgynghenu ac yn ymgeccu â'i gŵr yn barhaus, heb wneuthur dim a geisia efe ganddi: *ei thraed nid arhoant yn ei thŷ*—nid yw un amser yn gwarchad gartref, ond yn myned o dŷ i dŷ i gasglu a thaenu chwedlan.

Adn. 12. *Weithiau yn y drws*] Hi a saif weithiau wrth ddrws ei thŷ ei hun, i gymbell i mewn y rhai a él heibio; *weithiau yn yr heolydd*—sef mewn manau ereill lle y byddo mwy o dramwyad; *ac yn cynllwyn yn mhob congl*—i geisio hudo yr anochelgar.) Y mae y ddyw adnod uchod mewn cromfachau, yn y rhai y darlunia Solomon nodweddiad cyffredinol y fenyw hon.

Adn. 13. *Hi a ymafaelodd ynddo*] Pan yr oedd y dyn ieuanc yn myned heibio ond odid yn ddisywl o honi; *ac a'i cusanodd*—dan rith o gariad gwresog ato; *ac â gwyneb digywilydd hi a ddywedodd wrtho*—fel yr adroddir oddiyma hyd ddiwedd adn. 20.

15 Ac am hyny y daethym allan i gyfarfod â thi, i chwilio am dy wyneb; a chefais afael arnat.

16 Mi a drwsiais fy ngwely â lleni, ac â cherfiadau a llieniau yr Aifft.

17 Mi a fwgderthais fy ngwely â myrr, aloes, a synamon.

18 Tyred, moes i ni ymlenwi o garu byd y bore; ymhyfydwn â chariad.

19 Canys nid *yw* y gŵr gartref; efe *a* aeth i ffordd bell:

20 Efe a gymerth godaid o arian yn ei law; efe a ddaw adref ar y dydd ammodol.

21 Hi a'i troes ef â'i haml eiriau têt, ac â gweniaith ei gwefusau hi a'i cymhellodd ef.

22 Efe a'i canlynodd hi ar frys, fel yr ŷch yn myned i'r lladdfa, neu fel ynfyd yn myned i'r cyffion i'w gopsi:

23 Hyd oni ddryllio y saeth ei afu ef; fel yr aderyn yn prysuro i'r fagl, heb wybod *ei bod* yn erbyn ei einioes ef.

24 ¶ Yn awr gan hyny, *fy* meibion, gwrandedwch arnaf fi, ac ystyr-iwch eiriau fy ngenau.

25 Na thuedded dy galon at oi ffyrdd hi, na chyfeiliorna ar hyd ei llwybrau hi.

26 Canys llawer a gwypodd hi yn archolledig; i.e., *gwŷr* grymus lawer a laddodd hi.

27 Ffordd i uffern *yw* ei thŷ hi, yn disgyn i ystafelloedd angau.

Adn. 14. *Yr oedd arnaf fi aberthau hedd*] Yn fwy llythrenol, 'y mae ebyrth yr hedd-offrymau gyda mi;' *heddyw y cywiraïs fy adduned*—trwy offrymu aberthau i'r Arglwydd. *Yr oedd digywilydd-dra y fenyw* hon i'w ganfod yn ei gwaith yn ceisio cuddio ei haflendid â mantell crefydd. *Yr oedd tri math o offrymau hedd, o'r rhai y gallai yr offrymydd fwyta rhan yn ei dŷ ei hun:* gwel ar Lef. iii. 1—11, a vii. 11, &c. Teflir cryn olenni ar yr adnod hon gan y ffaith fod y duwiau yn ngwledydd y dwyrain yn cael eu haddoli mewn *puteindai*, a bod rhanau o'r offrymau yn cael eu bwyta yno gan y rhai a gyrchent i'r fath leoedd: gwel *WARD'S Customs*.

Adn. 15. *Ac am hyny y daethym allan i gyfarfod â thi*] Fel y gallot gael rhan o fy ngwedd; *i chwilio am dy wyneb*—am danat ti yn benodol; *a chefais afael arnat*—trwy dreftnid rhagluniaeth dirion.

Adn. 16. *Mi a drwsiais fy ngwely â lleni*] Hardd a chlyd, y rhai sydd yn crogi o'i ddeutu; *ac â cherfiadau*—rhyw luniau ond odid i enyn tueddiadau anniwair; *a llieniau yr Aifft*—sef y cyfasau meinaf a goraf. Ond tybia *Clarke* mai *glwth* neu *orwedd-faine* hardd a olygir yma, trwy fod gair gwahanol yn cael ei arfer am *wely* yn yr adnod nesaf.

Adn. 17. *Mi a fwgderthais fy ngwely, &c.*] Heblaw ei drwsio yn glud ac esmwyth, hi a'i peraroglassai hefyd â'r cyffyrïau mwyaf peraidd a dymunol.

Adn. 18. *Tyred, moes i ni ymlenwi o garu hyd y bore*] Neu 'ymfeddwi ar garu;' *ymhyfydwn â chariad*—Hebr., 'â chariadau,' yr eiddo hi a'r eiddo yntan.

Adn. 19. *Canys nid yw y gŵr gartref*] Yma hi a awgryma mai gwraig briod ydyf, ac nid putan gyffredin, at yr hon y buasai yn beryglus iddo nesân: *efe a aeth i ffordd bell*—ac ni all ddychweilyd lawer o ddyddiau eto.

Adn. 20. *Efe a gymerth godaid o arian yn ei law*] Hi a grybwyllia hyn i brofi ei fod yn bwriadu myned yn mhell, ac aros oddicartref

gryn amser: *efe a ddaw adref ar y dydd ammodol*—sef rhyw ddydd ag yr oedd ef wedi ei enwi wrth gychwyn oddicartref; neu, fel y mae *Houbigant* yn ei gyfieithu, 'ac ni ddychwel i'w dŷ cyn y llawn lloer.'

Adn. 21. *Hi a'i troes ef â'i haml eiriau têt*] Yn chwanelol at ei choffeidiadau a'i chusanau, adn. 13; *ac â gweniaith ei gwefusau hi a'i cymhellodd ef*—Saes., 'a'i gorfododd ef;' yr hyn a arwydda nad oedd ef yn bwriadu myned i'w thŷ hi yn y dechre: gwel ar adn. 8.

Adn. 22. *Efe a'i canlynodd hi ar frys*] Yn ewyllysgar bellach, ar ol i'w nwydau gael eu henyn; *fel yr ŷch yn myned i'r lladdfa*—sef mor ddiffeddwl a'r ŷch; *neu fel yr ynfyd yn myned i'r cyffion i'w gopsi*—yr hwn ni wyri i ba le y mae yn myned nes ei bod yn rhy ddiweddar: gwel ar yr adnod nesaf.

Adn. 23. *Hyd oni ddryllio y saeth ei afu ef*] Ei ranau bywydol, o ba rai y mae yr afu yn un. Y mae *Dr. Grey*, trwy ychydig gyfnewidiad yn y testyn Hebreig, yn ei gyfieithu fel hyn: 'Fel yr ŷch yn myned i'r lladdfa; fel ei i'r gadwyn; fel yr *hŷdd* hyd oni ddryllio y saeth ei afu ef; ac fel *aderyn* yn prysuro i'r fagl, ac heb wybod ei bod yn erbyn ei einioes ef.' Y mae yma bedair cyffelybiaeth, meddai efe; yr ŷch, y ci, yr hŷdd, a'r aderyn; a phob un yn cyfateb yn dda i achos dyn ieuanc yn cael ei hudo gan wraig odinebus, ac yn prysuro i ddinystyr yn ddiotfa a difeddwl.

Adn. 24. *Yn awr gan hyny, fy meibion*] Y rhai ydych yn ieuanc a brofiodd; *gwrandedwch arnaf fi*—yn eich cyngori rhag dylun siampl y dyn ieuanc ffol uchod; *ac ystyriwch eiriau fy ngenau*—yn ddirifol yn eich calon, gan yfyddhau iddynt mewn ymddygiad.

Adn. 25. *Na thuedded dy galon at ei ffyrdd hi*] Llauer llai eu rhodio; *na chyfeiliorna ar hyd ei llwybrau hi*—gan ymado â llwybrau diweirdeb a santeiddrwydd.

Adn. 26. *Canys llawer a gwypodd hi yn archolledig*] Heblaw y dyn ieuanc uchod; i.e., *gwŷr* grymus lawer a laddodd hi—nid yn unig archolledig lawer yn eu hiechyd, eu

PENNOD VIII.

ONID yw doethineb yn gwaeddi? a deall yn llefain?

2 Yn mhen lleoedd uchel, gerllaw y ffordd, lle y mae llwybrau lawer, y mae hi yn sefyll.

3 Gerllaw y pyrth, yn mhen y dref, yn ymyl y drysau, y mae hi yn llefain:

4 Arnoch chwi, wŷr, yr wyf fi yn galw; ac at feibion dynion y mae fy llais.

cydwybod, a'u cymeriad; ond *lladdodd* lawer o ran eu cyrff a'u heneidiau: gwel ar pen. ii. 18, 19.

Adn. 27. *Ffordd i uffern yw ei thŷ hi* [Ie, i uffern y colledigion, yn gystal ag i'r bedd: yn *disgyn i ystafelloedd angau*—ymadrodd yn cyfeirio at y beddau Iuddewig, y rhai a naddid yn wahanol ystafelloedd mewn creigiau neu ogofau. Priodol y sylwa *Culmet*, 'na fuasai raid i Solomon fyned yn mbellach na'i deulu ei hun am siamplu annedwydd o ddrwg effeithiau trythyllwch.'

PEN. VIII. Adn. 1. *Onid yw doethineb yn gwaeddi? a deall yn llefain?* [Yma y mae doethineb a deall yn cael eu personoli. Ar ol bod yn darlunio lleferydd yr odinebwraig yn y bennod flaenorol, y rhai sydd yn arwain i bechod a marwolaeth, y mae Solomon yma yn darlunio lleferydd doethineb a deall, y rhai sydd yn tywys i santeiddrwydd a bywyd tragwyddol. Ond pa beth a feddylir yma wrth **DOETHINEB?** I. 'Fe'i harddanghosir yn y bennod hon mewn ystyr deublyg: (1) *Y gallu* o farnu yn iawn, yn cynwys *gwybodaeth* o bethau dwyfol a dynol. (2) *Fel priodoledd* o eiddo Duw, yn cael ei dadlenu yn neillduol yn uwgweithrededd amrywiol a rhyfeddol creadigaeth. Ac nid oes iddi un *ystyr arall* yn yr holl bennod hon.—CLARKE. Pleidir y golygiad hwn gan *Patrick, Schultens, Good, &c.* II. Ereill a'i deallant am *drugwyddol Fab Duw*, yr hwn a elwir yn 'Ddoethineb Duw,' Luc xi. 49, 1 Cor. i. 24, a thryw yr hwn y crewyd pob peth, Ioan i. 1—3. Hon yw y dyb swyaf cyffredin. III. Ereill a'i hystyriant fel yn cynwys y ddau olygiad uchod. 'Dichon y gellir uno y ddau yn nghyd, ac y gellir deall y bennod yn llefaru am **GRIST** mewn rhan yn ei *berson*, ac mewn rhan yn ei *swydd*, yr hon oedd egluro meddwl ac ewylllys Duwi ddynolryw.'—POOLE. 'Nis gellir gwadu yn ddeg fod rhai brawddegau yn cytuno yn well â'r golygiad blaenaf, ac ereill â'r olaf.—BENSON. Gwel hefyd *Arnot, Boothroyd, Culmet, Coke, Gill, Henry, Holden, Scott, Sutcliffe, Watson, Williams, &c., &c.*

Adn. 2. *Yn mhen lleoedd uchel* [Neu amllwg, ac nid mewn conglau tywvillion, fel yr odinebwraig uchod, pen. vii. 9, 12; *gerllaw y ffordd, lle y mae llwybrau lawer*—lle y mae mwyaf o angen am gyfarwyddyd neu fyneg-

5 Ha ynyfydion, deallwch gyfrwysder; a chwi wŷr annghall, byddwch o galon ddeallus.

6 Gwrandewch: canys myfi a draethaf i chwi bethau ardderchog; ac a agoraf fy ngwefusau ar bethau union.

7 Canys fy ngenau a draetha wirionedd; a ffaidd gan fy ngwefusau ddrygioni.

8 Holl eiriau fy ngenau *ydynt* gyfiawn; nid oes ynddynt na gŵyr-ri na thrawsodd.

byst; y mae hi yn sefyll—i gyhoeddi ei chenadwri. Er mai *gwrywaidd* yw y gair 'doethineb' yn y Gymraeg, oer arferir ef yma yn y rhyw *fengwaidd*, i gyfateb i'r wreiddiol.

Adn. 3. *Gerllaw y pyrth yn mhen y dref* [Lle y mae y fforddion yn dyfod i mewn i'r ddinas, a'r ynadon yn eistedd i drin materion gwladol; yn ymyl y drysau—fel y gallu y rhai oddifeun ac oddifeun glywed ar unwaith, neu yn ymyl drysau y cysegr-leoedd; y mae hi yn llefain—i wahodd dynion i rodio ffyrdd rhinwedd a chrefydd. Gellir cymhwysio hyn yn dda at bregethiad Crist a'i apostolion, a'u holynwyr ffyddlon yn y weinidogaeth Gristionogol.

Adn. 4. *Arnoch chwi, wŷr, yr wyf fi yn galw* [Fe allai mai wrth y rhai hyn y golygir y gwŷr mwyaf uchel ac anrhydeddus; ac at *feibion dynion y mae fy llais*—sef y bobl gyffredin. Neu gall fod y 'gwŷr' yma yn dynodi yr Iuddewon; a 'meibion dynion,' y Cenhedloedd. Modd bynag, ar *ddyinion* syrthiedig y mae doethineb yn galw, ac nid ar *angylion* syrthiedig: gwel ar Heb. ii. 16, a'r nodyn yn ngwaelod y ddalen yno.

Adn. 5. *Ha ynyfydion* [Pethain, 'rhai dibrofiad, a hawdd eu twyllo a'u denu â gweniaith; *deallwch gyfrwysder*—neu 'ddoethineb,' fel y mae yn y Saesonaeg; hyn yw, byddwch ddoeth: a *chwi wŷr annghall*—*kesilim*, 'pobl syfrdan, ystyfnig, a gwargaled,' neu bechaduriaid gwirfoddol; *byddwch o galon ddeallus*—ystyriwch ganlyniadau pechod, a byddwch ddoeth i iachawdriaeth.

Adn. 6. *Gwrandewch*] Yn ddyfal ac ystyriol; *canys myfi a draethaf i chwi bethau ardderchog*—Hebr., 'bethau tywysogaidd,' y fath ag y byddai wiw i dywysogion eu dysgu a'u harferdy; *ac a agoraf fy ngwefusau ar bethau union*—pethau a dueddant i gywiro eich camdybiau, ac i unioni eich ffyrdd ceimion.

Adn. 7. *Canys fy ngenau a draetha wirionedd*] Sef gwirionedd pur a digymysg am Dduw, crefydd, a thragwyddoldeb; a *ffiaidd gan fy ngwefusau ddrygioni*—sef traethu yr hyn sydd groes i'r gwirionedd.

Adn. 8. *Holl eiriau fy ngenau*] Pa un bynag ai gorchymynion, addewion, neu fygythion; *ydynt gyfiawn*—ydynt berffaith union a santaidd, ac yn gysou â rheolau tragwyddol gyfiawnder: *nid oes ynddynt na*

9 *Y maent hwy oll yn amlwg i'r neb a ddeallo, ac yn uniawn i'r rhai a gafodd wybodaeth.*

10 *Derbyniwch fy addysg, ac nid arian; a gwybodaeth o flaen aur etholedig.*

11 *Canys gwell yw doethineb na gemau: nid oes dim dymunol cyffelyb iddi.*

12 *Myfi doethineb yw yw yf yn trigo gyda challineb: yr ydwyf yn cael allan wybodaeth cynghor.*

13 *Ofn yr Arglwydd yw casâu drygioni: balchder, ac uchder, a ffordd ddrygionus, a'r genau traws, sydd gas genyf fi.*

14 *Mi biai gyngor, a gwir ddoethineb: deall ydwyf fi; mi biai nerth.*

gŵyrni na thrawsedd—dim i dwyllo na gorthrymu neb.

Adn. 9. *Y maent hwy oll yn amlwg i'r neb a ddeallo*] Sef i'r neb a chwennycho eu deall, neu i'r hwn y goleuwyd ei feddwl gan Ysbyrd Duw; *ac yn uniawn i'r rhai a gafodd wybodaeth*—neu ddeall ysbyrdol gan Dduw.

Adn. 10. *Derbyniwch fy addysg, ac nid arian*] Yn hytrach nag arian, neu o flaen arian, gan ei gyfrif yn werthfawrocach nag arian; a *gwybodaeth*—achubol o Dduw, o *flaen aur etholedig*—sef yr aur puraf a gwerthfawrocaf.

Adn. 11. *Canys gwell yw doethineb na gemau, &c.*] Gwel ar pen. iii. 14, 15.

Adn. 12. *Myfi doethineb*] Tybir yn gyffredin mai Crist, 'Doethineb Duw,' a feddylir yma; *wyf yn trigo gyda challineb*—wyf yn ei feddu ef yn ei holl gyflawnder; *yr ydwyf yn cael allan wybodaeth cynghor*—neu, fel y gellir ei gyfieithu, 'wybodaeth a chynlluniaeth.' Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at wybodaeth o drefn ddoeth yr iachawdwriaeth yn y cynghor bore; ereill, ei fod yn arwyddo mai oddiwrtho ef y cafodd dynion eu holl wybodaeth a'u medrusrwydd celfyddydol; ac ereill a dybiant mai yr ystyr yw, ei fod ef yn deall holl fwriadau dirgelaf calon dyn.

Adn. 13. *Ofn yr Arglwydd yw casâu drygioni*] Y mae y neb sydd yn gwir ofni yr Arglwydd yn casâu pob math o ddrygioni, fel y mae Duw ei hun yn ei gasâu; ac am hyny y mae y neb sydd yn casâu drygioni nid yn unig yn ofni Duw, ond hefyd yn caru daioni. *Balchder, ac uchder, a ffordd ddrygionus*—y rhai yw nodau pob dyn diallanedig; *a'r genau traws*—yr hwn a hano anwiredau, neu a daeno gyfeilliornadau; *sydd gas genyf fi*—am eu bod yn groes i gyflawnder, santeiddrwydd, a gwirionedd.

Adn. 14. *Mi biai gyngor, &c.*] Y meddwl yw, mai Duw yw ffinnonell pob cynghor, doethineb, deall, a nerth; a lle bynag y canfyddir un o'r rhai hyn, mai oddiwrtho ef y mae wedi deillio: gwel ar Job xii. 13.

15 *Trwyof fi y teyrnasa brenhinoedd, ac y barna y penaethiaid gyflawnder.*

16 *Trwyof fi y rheola tywysogion a phendefigion, sef holl farnwyr y ddaear.*

17 *Y sawl a'm carant i, a garaf finau; a'r sawl a'm ceisiant yn fore, a'm cânt.*

18 *Gyda myfi y mae cyfoeth, ac anrhydedd, golud parhaus, a chyflawnder.*

19 *Gwell yw fy ffrwyth i nag aur, ië, nag aur coeth; a'm cynyrch sydd well na'r arian detholedig.*

20 *Ar hyd ffordd cyflawnder yr arweiniaf, ar hyd canol llwybrau barn:*

21 *I beri i'r rhai a'm carant eti-*

Adn. 15. *Trwyof fi y teyrnasa brenhinoedd*] Y gosdir hwynt ar yr orsedd, ac y galluogir hwynt i deyrnasu yn ddoeth a chyflawn; *ac y barna y penaethiaid gyflawnder*—eu hannghyflawnder a'u drygioni sydd ohonynt eu hunain yn unig, eithr yr holl gyflawnder a wnant sydd oddiwrth Dduw.

Adn. 16. *Trwyof fi y rheola tywysogion a phendefigion*] Yr holl is-lywiawdwyr dan y brenhinoedd uchod; *sef holl farnwyr y ddaear*—yn lle 'barnwyr y ddaear,' y mae 162 o ysgriflyfrau *Kennicolt a De Rossi* yn darllen 'barnwyr cyflawn,' neu 'farnwyr cyflawnder;' a hyn hefyd yw darlleniad y *Vulgate*, y *Galdeae*, a'r *Syriaeg*. Y mae llawer o farnwyr y ddaear o osodiad dynion, er fod eu swydd o Dduw; ond y mae yr holl rai *cyflawn* o osodiad Duw, a than ei arweiniad ef.

Adn. 17. *Y sawl a'm carant i*] 'Am i mi yn gyntaf eu caru hwy,' 1 Ioan iv. 19; *a garaf finau*—yn fwy fyth, trwy fod cariad y naill yn cenhedlu ac yn cynyddu cariad yn y llall; *a'r sawl a'm ceisiant yn fore*—â'u holl galon, a hyny yn more eu hoed, neu cyn i ddrws trugaredd gael ei gau, pen. i. 28; *a'm cânt*—yn arweinydd, ddyddanydd, ac achubydd iddynt. Nid yw bob amser yn rhy ddiweddar mewn henaint i geisio Duw; ond diogelach yw ei geisio ef yn more yr oes.

Adn. 18. *Gyda myfi y mae cyfoeth ac anrhydedd*] I'w roddi i'r rhai a'm carant, cyn bellag a y byddo hyny er lles iddynt, pen. iii. 16, a iv. 7—9; *golud parhaus, a chyflawnder*—fe allai fod y geiriau hyn yn golygu benthithion ysbyrdol, fel y mae y rhai blaenaf yn golygu benthithion tythorol. Felly y dywed yr apostol, 'Gan wybod fod genych i chwí eich hunain *olud gwell* yn y nefoedd, ac un *parhaus*,' Heb. x. 34.

Adn. 19. *Gwell yw fy ffrwyth i nag aur, &c.*] Gwel ar adn. 10, 11.

Adn. 20. *Ar hyd ffordd cyflawnder*] Sef ffordd rhinwedi, crefydd, a santeiddrwydd; *yr arweiniaf*—y rhai a'm carant i: *ar hyd canol llwybrau barn*—neu 'lwybrau union-

feddu sylwedd: a mi a lanwaf eu trysorau.

22 Yr Arglwydd a'm meddianodd i yn nechread ei ffordd, cyn ei weithredoedd erioed.

23 Er tragwyddoldeb y'm heneiniwyd, er y dechread, cyn bod y ddaear.

24 Pryd nad oedd dyfnder y'm cenhedlwyd, cyn bod ffynnonau yn llawn o ddyfroedd.

25 Cyn sylfaenu y mynyddoedd, o flaen y bryniau, y'm cenhedlwyd:

26 Cyn gwneuthur o hono ef y

ddaear, na'r maesydd, nac uchder llwch y byd.

27 Pan barotodd efe y nefoedd, yr oeddwn i yno: pan osododd efe gylch ar wyneb y dyfnder:

28 Pan gadarnhaodd efe y cymylau uwch ben: a phan nerthodd efe ffynnonau y dyfnder:

29 Pan roddes efe ei ddeddf i'r môr, ac i'r dyfroedd, na thorent ei orchymyn ef: pan osododd efe sylfeini y ddaear:

30 Yna yr oeddwn i gydag ef megys un wedi ei feithrin gydag ef:

deb, gan eu cadw rhag pob eithafion mewn barn a buchedd.

Adn. 21. *I beri i'r rhai a'm carant etifeddu sylwedd*] Sef dedwyddwch sylweddol, gwirioneddol, a pharhaus: *a mi a lanwaf eu trysorau*—hyny yw, llanwaf eu heneidiau â thrysorau ysbrydol a nefol.

Adn. 22. *Yr Arglwydd a'm meddianodd i yn nechread ei ffordd*] Dywedd Clarke ac ereill mai yr ystyr yw, fod doethineb mor dragwyddol gynhenid yn Nuw ag unrhyw briodolled hanfodol arall o eiddo ei natur ef. Ond y farn gyffredin yw, fod yma gyfeiriad at dragwyddol genhedliad Mab Duw, neu y GAIR, yr 'hwn oedd yn y dechread gyda Duw,' Ioan i. 1, 2. *Cyn ei weithredoedd erioed*—sef cyn 'gwneuthur dim a'r a wnaethpwyd,' Ioan i. 3. 'Dywedyd am y briodoledd o ddoethineb, fod Duw yn ei meddiannu yn nechread y greadigaeth, sydd oferedd: diau ei fod yn sylw rhy ddiastad i ddisgyn oddiwrth unrhyw ysgrifenydd synwrol; pa fodd, gan hyny, y gellir ei briodoli i frenin doeth Israel [neu i'r Ysbryd Glân]?—HOLDEN.

Adn. 23. *Er tragwyddoldeb y'm heneiniwyd*] 'A ellir dywedyd gyda phriodoldeb am *briodoledd*, ei bod wedi ei heneinio er tragwyddoldeb? Yn mha ystyr, llythyrenol neu gyffelybiaethol, y gellir dywedyd hyny am gynneddf neu ansawdd? Ond y mae yr ymadrodd yn hollol gyfaddasol i'r dwyfol Logos, yr hwn a eneiiniwyd â thywalltad o'r Ysbryd, ac a wisgwyd â gallu ac urddas er tragwyddoldeb.'—HOLDEN. Eneiiniwyd, ordeiniwyd, neu sefydlwyd Mab Duw yn nhragwyddoldeb fel y person trwy yr hwn y penderfynai y Tad wneuthur ei holl weithredoedd; yn gyntaf creu, yna cynal a llywodraethu pob peth, ac wedi hyny prynu a barnu y byd: gwel Ioan i. 1—3, a v. 22, Col. i. 16, 17, Heb. i. 3. *Er y dechread, cyn bod y ddaear*—hyny yw, er tragwyddoldeb, cyn i ddim gael ei greu.

Adn. 24. *Pryd nad oedd dyfnder y'm cenhedlwyd*] Hyny yw, cyn creu y tryblith neu y crynswdd cymysgld, o'r hwn y ffurfwyd y ddaear i'w chyflwr presenol, Gen. i. 2. Felly nid yw yr ymadrodd 'tragwyddol genhedliad' yn un afresymol ac anysgrhythol, fel yr haera rhai, pa un bynag ai am *briodoledd* ai am *berson* y defnyddir ef. *Cyn bod ffynnonau*

yn llawn o ddyfroedd—hyny yw, cyn creu dyfroedd.

Adn. 25. *Cyn sylfaenu y mynyddoedd*] Uwchaf a mwyafl; o flaen y bryniau—neu ffynnoedd llai; *y'm cenhedlwyd*—sef yn nhragwyddoldeb: gwel y sylw ar Heb. i. 3, a'r nodyn ar waeld y ddalen yno.

Adn. 26. *Cyn gwneuthur o hono ef y ddaear*] Yr hon sydd yn dal y mynyddoedd ai brynian uchod; *na'r maesydd*—sef y gwastadedd eang ag sydd yn ymestyn trwy y dyffrnoedd; *nac uchder llwch y byd*—*ros aphroth tebel*, 'y temig cyntaf o fater.' Ond tybia rhai mai *dyn*, y creadur *uwchaf* yn y byd, a olygir yma; a thybia ereill mai y rhanau *brasaf* o'r ddaear, neu y *metteloedd* gwerthfawrocaf ynddi.

Adn. 27. *Pan barotodd efe y nefoedd*] Wybrenol a serenog; *yr oeddwn i yno*—nid fel edrychlydd segur, ond fel cydweithredydd a'm Tad: *pan osododd efe gylch ar wyneb y dyfnder*—sef tertyn i'r môr mawr, fel pe byddai o fewn cylch; neu pan wnaeth efe y ddaear ddyffrilyd yn gron fel cylch; neu pan osododd efe y nwyfre yn gylch am y ddaear. Ond tybia Clarke fod hyn yn cyfeirio at sefydliad deddf *dymgyrch*, trwy ba un y tueddau pob peth at y canoldwynt, ac y cedwir y cwbl yn nghyd fel o fewn cylch.

Adn. 28. *Pan gadarnhaodd efe y cymylau uwch ben*] *Shechakim*, 'y broydd awyrol,' yn cynwys yr holl ffurfiant, yn nghyda'r cymylau, y tarth, a'r gorchuon ynddi; a *phan nerthodd efe ffynnonau y dyfnder*—trwy eu cadarnhau o fewn eu gwelyau priodol; neu pan nerthodd efe y ffynnonau i sugno eu dyfroedd o'r dyfnderau, a'u bwrw allan at wasanaeth dyn ac anifel.

Adn. 29. *Pan roddes efe ei ddeddf i'r môr*] I beri llanw a thrai; ac i'r dyfroedd, na thorent ei orchymyn ef—sef y gorchymyn i ymgadw o fewn eu terfynau: gwel ar Job xxxviii. 8—11: *pan osododd efe sylfeini y ddaear*—hyny yw, pan osododd efe y ddaear i grogi yn yr eangderau, a hyny mor gadarn a phe sylfaenesid hi ar graig dragwyddol: gwel ar Job xxvi. 7, Salm civ. 5. Ond tybia rhai mai cyfeiriad sydd yma at y deddfau trwy barai y cyflawaa y ddaear ei throadau dyddiol a blynyddol.

ac yr oeddwn yn hyfrydwech iddo beunydd, yn ymlawenhau ger ei fron ef bob amser;

31 Ac yn llawenyachu yn nghyfaneddle ei ddaear ef; a'm hyfrydwech oedd gyda meibion dynion.

32 Yr awrhon gan hyny, O feibion, gwrandewch arnaf; canys gwyn eu byd a gadwant fy ffyrdd i.

33 Gwrandewch addysg, a byddwch ddoethion; nac ymwrthodwch â hi.

34 Gwyn ei fyd y dyn a wrandawo

arnaf, ac a wyllo yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau, gan warchad wrth byst fy mhyrth i.

35 Canys y neb a'm caffo i, a gaiff fywyd, ac a feddianna ewyllys da gan yr Arglwydd.

36 Ond y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam â'i enaid ei hun: fy holl gaseion a garant angau.

PENNOD IX.

DOETHINEB a adeiladodd ei thŷ, hi a naddodd ei saith golofn.

Adn. 30. *Yna yr oeddwn i gydag ef*] Mewn undod anwahanadwy â'r Tad; *megys un wedi ei feithrin gydag ef*—fel ei dragwyddol Fab: *ac yr oeddwn yn hyfrydwech iddo beunydd*—fel ei 'anwyl Fab, yn yr hwn ei boddlonid,' Mat. iii. 17: *yn ymlawenhau ger ei fron ef bob amser*—yma gwelwn fod y Tad yn ymfrydu yn y Mab, a'r Mab yntau yn ymlawenhau yn y Tad, a hyny er tragwyddoldeb. Y mae yn wir y gallai doethineb, fel *pridoledd*, fod yn hyfrydwech i'r Tad; ond yn mha ystyr y gallai y bridoledd hōno *ymlawenhau* gerbron y Tad, fel y dywedir yma? Gan hyny rhaid mai *person* gwirioneddol a feddylir yma, ac nid pridoledd.

Adn. 31. *Ac yn llawenyachu yn nghyfaneddle ei ddacar ef*] Yn y rhagolwg o ddyfal i gyfaneddu ynddi fel Ceidwad pechaduriaid; *a'm hyfrydwech oedd gyda meibion dynion*—wrth feddwl am eu hachub, er eu bod eto heb eu creu. Yr oedd yn hyfrydwech ganddo feddwl am ddydd ei enedigaeth, ei weinidogaeth, ei ddyoddefiadau, a'i farwolaeth, fel y gallai trwy hyn fod yn iachawdwr holl-ddigonol i'r rhai ag y rhagwelai efe y byddent mewn angen am ei gyfrngod; ac yr oedd yn enwedig yn ymfrydu wrth feddwl am eu cael ato ei hun i'r nef, wedi eu golchi a'u caon yn ei waed ei hun.

Adn. 32. *Yr awrhon gan hyny, O feibion, gwrandewch arnaf!* Gan fy mod yn ymfrydu felly yn eich iachawdwriaethi er tragwyddoldeb, ac wedi dyfod yr awrhon atoch i'w dwyn i ben, gwrandewch ar fy nghyngorion a'm haddysgiadau, trwy yr hyn yn unig y gallwch fod yn gadwedig: *canys gwyn eu byd a gadwant fy ffyrdd i*—sef y rhai a uffyddhaant i'm gorchymynion, ac a rodiant yn fy llwybrau: byddant yn ddedwydd mewn amser, ac yn wnyfydedig yn nhragwyddoldeb.

Adn. 33. *Gwrandewch addysg!* A roddir i chwi gan 'Ddoethineb Duw'; *a byddwch ddoethion*—sef yn ddoeth i iachawdwriaeth. Gellir deall y geiriau hyn fel adawid yn gystal a gorchymyn. *Nac ymwrthodwch â hi*—trwy gefnu arni, neu fod yn anffyddlon iddi.

Adn. 34. *Gwyn ei fyd y dyn a wrandawo arnaf!* Ar addysgiadau Crist yn ei air, neu ar ei weision ef yn mhob oes; canys felly y dywedodd Crist, 'Y neb sydd yn eich gwrando chwi, sydd yn fy ngwrando i,' Luc x. 16: *ac*

a wyllo yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau—heb esgeuloso un cyfleusdra, 'Sul, gŵal, na gwaith: gan warchad wrth byst fy mhyrth i'—meddylir fod yma gyfeiriad at bobl Israel yn dysgwyl yn awyddus am egoriad pwrth y deml, fel y gallent fyned i mewn i addoli.

Adn. 35. *Canys y neb a'm coffo i, a gaiff fywyd*] Pwy a allai ddwywed yd hyn ond Crist, 'Doethineb Duw?' 'Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo; a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd,' 1 Ioan v. 12. *Ac a feddianna ewyllys da gan yr Arglwydd*—sef ei heddwch a'i ffafir, ei ras a'i ogoniant.

Adn. 36. *Ond y neb a becho yn fy erbyn*] Trwy dori fy meddfau, dirmygu fy addysg, a gwrthod fy iachawdwriaeth; *a wna gam â'i enaid ei hun*—trwy ei darostwng i'r ddannedigaeth hōno nad arfaethwyd iddi, a'r hon y trefnuwyd llywyr o waredigaeth rhagddi. *Fy holl gaseion*—pawb ag sydd yn fy nghasiau i a'm crefydd; *a garant angau*—mewn effaith, os nid mewn gweithred; canys gan eu bod yn caru *pechod*, yr hwn sydd yn arwain yn ddi-feth i angau, gellir dywed yd yn briodol en bod yn caru *angau*, yr hwn yw 'cyflog pechod,' Rhuf. vi. 23. 'Tua dechre y benod hon,' fel y sylwa *Arnot*, 'gellir deall rhywbeth fel yn gymhwysiadol at y ddoethineb ddwyfol yn gyffredinol; ond tua'r diwedd, y mae y Ddoethineb ymgawdoledig, yn mherson Emmanuel, yn sefyll allan yn unigol a hyf. Os na chymhwysir yr ymadroddion at Grist, rhaid eu dirdynu yn mhob achos.'

PEN. IX. Adn. 1. *Doethineb*] Yr un peth a feddylir yma wrth ddoethineb ag yn y benod flaenorol, sef Crist, 'Doethineb Duw'; *a adeiladodd ei thŷ*—i dderbyn a gwledda ei gwahoddedigion; *hi a naddodd ei saith golofn*—ymddengys mai harddwch a chadernid yr adeilad a osodir allan yma; neu gall fod yr ymadrodd yn eysfeirio at y profiwyd, yr apostolion, a gweinidogion ereill crefydd, y rhai a elwir yn 'golofnau,' Gal. ii. 9. Y mae y gair 'saith' yn arwyddo *amrai* golofnau, trwy ei fod yn rhif perffeithrwydd, ac yn sefyll am unrhyw rif. Y mae y tŷ hwn yn cael ei wrthgyferbynnu i dŷ y butan, a grybwyllwyd pen. vii. 8; ac ystyrir ef gan lawer o'r tadau, yn gystal ag esbonwyr diweddar, fel yn arwyddo yr EGLWYS, yr hon a adeiladwyd ac a

2 Hi a laddodd ei hanifeiliaid ; hi a gymysgodd ei gwin, ac a huliodd ei bwrdd.

3 Hi a yrodd ei llaw-forwynion : y mae yn llefain oddiar fanau uchel y ddinas :

4 Pwy bynag sydd annichellgar, trôed i mewn yma : ac wrth yr annoeth y mae hi yn dywedyd,

5 Denwch, a bwyteuoch o'm bara, ac yfwech o'r gwin a gymysgais.

6 Ymadewch â'r rhai ffol, a bydd-

wch fyw ; a cherddwch yn ffordd deall.

7 Yr hwn a geryddo watwarwr, a gaiff waradwydd iddo ei hun : a'r hwn a feio ar y drygionus a gaiff anaf.

8 Na cherydda watwarwr, rhag iddo dy gasâu : cerydda y doeth, ac efe a'th gâr di.

9 Dyro addysg i'r doeth, ac efe fydd doethach : dysg y cyfiawn, ac efe a chwanea gaeiddiaeth.

sefydlwyd gan Grist yn y byd, ac a elwir yn 'dŷ Dduw,' 1 Tim. iii. 15, Heb. iii. 3, 4. 'Yma,' ebai *Calmet*, 'arddangosir DOETHINEB fel arglwyddes hybarch, yr hon y mae ei phrydferthwch gwirioneddol a'i haddewidion sylweddol yn cael eu gwrthgyferbynu i budoliaethau twyllodrus PLESER, pa un a osodwyd allan yn y seithfed bennod dan y gyffelybiaeth o fenyw halogedig a digywilydd. Y mae hōno, i'r dyben i ddenu gwŷr ieuainc i'w maglu, yn darlano y *gwely*, y *peruroglau*, a'r *wledd* a barotoisai. Y mae DOETHINEB yn ymddwyn yr un modd : ond, yn lle y rhyseidd, y gau-bleseran, a'r gywestach gnawdol a addawsai PLESER, y mae hi yn cynyg i'w gwahoddedigion balas cadarn, hardd, a mawreddog, hyfydwech dihalog, hyfforddiadau iachusol, a bywyd wedi ei goroni â dedwyddwch.' Hyn yw swm a sylwedd y ddammeg hon, os gellir ei galw felly.

Adn. 2. *Hi a laddodd ei hanifeiliaid*] Yn wledd i'w gwesteion ; *hi a gymysgodd ei gwin*—naill ai â *pherlystiau*, i'w wneyd yn fwy cryf a blasus ; neu ynte â *duwr*, fel yr arferid yn y wlad boeth hōno, i'w wneyd yn fwy oer ac adfywiol ; *ac a huliodd ei bwrdd*—â phob math o'r danteithion goraf. Wrth gymhwyso hyn at Grist a'i eglwys, gall ei fod yn arwyddo gwleddoedd ysbrydol Seion, neu ordinhadau a bendithion yr iachawdwriaeth : gwel ar Esay xxx. 6.

Adn. 3. *Hi a yrodd ei llaw-forwynion*] I wahodd y gwesteion i'r wledd. Wrth y rhai hyn y meddyllir gweinidogion y gair ; a gelwir hwynt yma yn *llaw-forwynion*, am fod doethineb yn cael ei chyffelybu i ARGLWYDDES, fel y nodwyd, yr hon y mae llaw-forwynion yn cyfateb yn well i'w gwasaenaeth na gweision. Y mae yn *llefain oddiar fanau uchel y ddinas*—oddier benau lleddf y tai, neu yn y manau mwyaf cyhoeddus : gwel ar Mat. x. 27.

Adn. 4. *Pwy bynag sydd annichellgar*] Saes., *simple*, diniwed, diystyr, nen wirion fel plentyn ; *trôed i mewn yma*—i eglwys Dduw ond odid, lle y mae pob darpariaeth angenrheidiol ar eich cyfer : *ac wrth yr annoeth*—neu 'y *digalon*,' fel yr arwydda y wreiddiol, yr hwn ni fedd wroldeb, sefydlogrwydd, na synwyr ; y mae hi yn *dywedyd*—yn y modd mwyaf annogaethol.

Adn. 5. *Denwch*] I'r tŷ a adeileidais i ; a *bwyteuoch o'm bara*—o'r arlwyuaeth fras a danteithiol a barotoisai ; *ac yfwech o'r gwin a*

gymysgais—gwel ar adn. 2. Yn mblith yr hen Iuddeuon, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, nid oeddid braidd byth yn yfed gwin, heb ei gymysgu â mwy na chymaint arall o ddwfr i'w wanbau. Yr oedd rhai yn rhoddi tair hwn o ddwfr at un ran o win, ac ereill bump ; a sonia *Pliny* am rai gwinoedd ag oeddnt yn gofyn ugain rhan o ddwfr. Ond yr oeddid weithiau yn ei gymysgu â *myrr*, *mandragora*, ac *opium*, i'w wneyd yn gryfach a mwy syfrdanol.

Adn. 6. *Ymadewch â'r rhai ffol*] Sef â dynion pechadurus, halogedig, a gwatwarus, fel y rhai a grybwyllir adn. 7 ; a *byddwch fyw*—bywyd ysbrydol a santaid, yr hwn a arweinia i fywyd tragwyddol yn y nef ; a *cherddwch yn ffordd deall*—yn ffordd rhinwedd, crefydd, a gwir doethineb.

Adn. 7. *Yr hwn a geryddo watwarwr*] Sef y penrydd, yr anffyddiwr, a gwadwiwr crefydd a gair Dduw ; a *gaiff waradwydd iddo ei hun*—gan y gwatwarwr hwn yn gyffredin, a chan ereill a welant ei aflwyddiant ef wrth geisio ei droi : *a'r hwn a feio ar y drygionus*—ar becladur caled, rhyfygus, ystyfnig, a phenderfynol ; a *gaiff anaf*—neu fryn i'w feddwl a'i deimlad. Dyry hon a'r adnod ganlynol reswm dros waith doethineb yn galw ar yr annichellgar a'r annoeth yn unig, y rhai y mae mwy o obaith am danant nag am y rhai hyn : gwel ar adn. 4. Ni fyddai gwahodd y gwatwarwr a'r drygionus i wleddoedd Seion ddim amgen na thafu gemau o flaen moch, Mat. vii. 6.

Adn. 8. *Na cherydda watwarwr, rhag iddo dy gasâu*] Rhag iddo nid yn unig wrthod dy gerydd, ond hefyd dy wawdio, dy sarban, a'th ddirmygu. Y mae yn wir y dylai gweinidogion yr efengyl 'geryddu eu cymydog, heb ddyoddef pechod ynddo,' Lef. xix. 17 ; ond dylent wneyd hyny bob amser gyda doethineb mawr, ac mewn ysbryd cariad : ac os bydd iddynt wedi hyny watwar a chablu, gadawer hwynt i Dduw. *Cerydda y doeth, ac efe a'th gâr di*—am dy gariad a'th fyddlondeb tuag ato, ac am y lles a dderbynia efe oddiwrth dy gerydd.

Adn. 9. *Dyro addysg i'r doeth, ac efe fydd doethach*] Y wreiddiol yw, 'dyro i'r doeth, ac efe fydd doethach.' Pa beth bynag a roddi di iddo, efe a ymlesâ trwyddo ; y mae ef fel y wnenyn yn casglu mêl oddiar bob blodeuyn. *Dysg y cyfiawn, ac efe a chwanea gaeiddiaeth*—efe a gynydda mewn gras a gwy-

10 Dechread doethineb *yw* ofn yr Arglwydd: a gwybodaeth y sant-aidd *yw* deall.

11 Canys trwyof fi yr amlheir dy ddyddiau, ac y chwane-gir blynyddoedd dy einioes.

12 Os doeth fyddi, doeth fyddi i ti dy hun: ond os gwatwarwr fyddi, tydi dy hun a'i dygi.

13 ¶ Gwraig ffol a fydd siaradus; anghall *yw*, ac ni ŵyr ddim:

14 Canys hi a eistedd ar ddrws ei

thŷ, ar fainc, yn y lleoedd uchel yn y ddinas,

15 I alw ar y neb a fyddo yn myned heibio, y rhai sydd yn cerdded eu ffyrdd yn uniawn:

16 Pwy bynag sydd ehud, tröed yma: a phwy bynag sydd ddisynwyr, a hi a ddywed wrtho,

17 Dyfroedd lladrad sydd felys, a bara cudd sydd beraidd.

18 Ond ni ŵyr efe mai meirw *yw* y rhai sydd yno; a bod ei gwahoddwyr hi yn nyfnder uffern.

bodaeth ysbrydol trwy bob addysg a roddir iddo.

Adn. 10. *Dechread doethineb*] Neu wir wybodaeth achubol, *yw ofn yr Arglwydd*—gwel ar pen. i. 7: *a gwybodaeth y santaidd—kedoshim*, 'y rhai santaidd;' sef gwybodaeth o'r *Drindod Santaidd*, fel y mae rhai yn ei ddeall; neu wybodaeth brofiadol y *saint* o bethau ysbrydol; *yw deall*—dyna yr unig beth a haedda gael ei alw yn *deall*: gwel ar Job xxviii. 28, Salm cxi. 10.

Adn. 11. *Canys trwyof fi yr amlheir dy ddyddiau, &c.*] Gwel ar pen. iii. 2, 16. Y mae y LXX, y *Vulgate*, a'r *Syriac*, yn chwane-gu yma: 'Y neb a ymddiriedo mewn ffalsedd, a ymbortha ar wynt; ac y mae fel yr hwn a ymlidïo adar y nefoedd. Y mae yn gadaw ffordd ei winllan ei hun, ac yn cyfeilliorni o lwybrau ei etifeddiaeth ei hun. Efe a â hefyd i leoedd anghyfanedd, ac i dir a adawyd i svchder; a'i ddwyllaw a gasglant yr hyn ni ddryr firwth.' Ond nid yw y geiriau hyn yn y testyn *Hebreu* presenol.

Adn. 12. *Os doeth fyddi*] Mewn ystyr moesol neu ysbrydol; *doeth fyddi i ti dy hun*—er y gall dy siampl fod yn dra buiddiol i'th gyfeillion a'th gymydogion, eto ti dy hun a gaiff y budd mwyaf oddiwrth hyn: *ond os gwatwarwr fyddi*—gwel ar adn. 7, 8; *tydi dy hun a'i dygi*—a ddygi y gosp, neu a gaiff y niwed mwyaf oddiwrth hyn yn y diwedd: gwel ar Job xxxv. 1—8.

Adn. 13. *Gwraig ffol a fydd siaradus*] Yn siared yn uchel, fel y clywer hi; ac yn angherddol, fel y cynhyrfwr dynion gan ei darbylliadau: *anghall yw, ac ni ŵyr ddim*—fel y dylai wybod, neu ddim a wna les iddi hi yn y diwedd. Ond dichon mai wrth y 'wraig ffol' hon y deallir FFLINEB ei hun, mewn gwrthgyferbyniad i DDOETHINEB yn yr adnodau blaenorol; neu *bleserau cnaedol*, mewn gwrthgyferbyniad i *hyfrydych crefyddol*.

Adn. 14. *Canys hi a eistedd ar ddrws ei thŷ, ar fainc*] I ddyfsgwyl rhai yn myned heibio, pen. vii. 12; *yn y lleoedd uchel yn y ddinas*—yr un modd a llaw-forwynion doethineb, adn. 3.

Adn. 15. *I alw ar y neb a fyddo yn myned h'hibio*] I'w gwahodd i mewn i'w thŷ: *y rhai sydd yn cerdded eu ffyrdd yn uniawn*—sef yn myned yn mlean yn ddiniwed ar ol eu

gorchwylion eu hunain, heb feddyliau anniwa'r yn eu calonau.

Adn. 16. *Pwy bynag sydd ekud*] Saes., *simple*, gwirion a difeddwl, neu hawdd ei droi fel plenty'n. Yr un geiriau sydd yma ag yn adn. 4; a gelwir y rhai hyn yn *ehud a disynwyr*, nid gan y wraig ei hun, yr hyn a dueddasai i'w cadw draw yn hytrach na'u denu; ond gan Solomon, yr hwn a ddarlunia ei gwahoddiadau hi yn ei eiriau ei hun. *Tröed i mewn yma*—lle y caiff bleser a digrifwch digymysg. Doethineb a ddywed, 'Tröed yr annichellgar i mewn ataf fi.' Na, meddai Ffolineb, 'Tröed yr annichellgar i mewn ataf fi.' Fel hyn, lle yr egyr y gyntaf ysgol i addysgu yr anwybodus, y mae yr olaf yn agor ysgol yn y drws nesaf ati, i faeddu ei hamcanion daionus. *A phwy bynag sydd ddisynwyr*—yr oedd hi yn ddiogon craffi adnabod y rhai hyn ar yr olwg gyntaf, a gwahoddai hwynt i'w thŷ yn y geiriau canlynol.

Adn. 17. *Dyfroedd lladrad sydd felys, &c.*] Ymadroddion diarebol am bleserau anghyfreithlon; y rhai y dywedir eu bod yn *felys a pheraidd*, mewn rhan o herwydd yr anhawsder o'u caffael, ac mewn rhan am fod y gwabarddiad o honynt yn eu gwneuthur yn fwy cydnaws â natur lygredig dyn. Hyn yw gweiddyn cyffredin *godineb*; ac y mae ymddygiad lluoedd yn dangos yn amlwg eu bod yn cael eu llywodraethu gan ysbryd y ddiareb hon.

Adn. 18. *Ond ni ŵyr efe*] Sef yr *ehud* a'r *disynwyr* a elo i dŷ yr odinebwraig uchod; *mai meirw yw y rhai sydd yno*—meirw mewn ystyr ysbrydol, neu feirw mewn camweddu a phechodau, ac ar y ffordd i farwol-aeth dragwyddol: *a bod ei gwahoddwyr hi*—yn hytrach, ei gwahoddeddigion neu ei gwesteion hi; *yn nyfnder uffern*—sef y rhai hyn o honynt a gwympwyd ganddi, neu a fuont feirw eisioes: gwel ar pen. vii. 26, 27. Y mae y LXX, y *Syriac*, a'r *Arabaeg*, yn chwane-gu yma: 'Eithr tyn di yn ol, fel na byddot farw yn y lle hwn; ac na osod dyolygon arni: felly yr âi heibio y dyfroedd dy-eithr hyn. Eithr ymattai di oddiwrth ddyfroedd dyeithr, ac nac ŷf o fyfynon un arall, fel y byddot byw yn hir, ac y chwane-ger blynyddoedd at dy einioes.' Ond ni cheir y geiriau hyn yn yr *Hebraeg*, y *Galdeag*, na'r *Vulgate*.

PENNOD X.

DIAREBION Solomon. Mab doeth a wna dad llawen, a mab ffol a dristâ ei fam.

2 Ni thycia trysorau drygioni: ond cyfiawnder a wared rhag angau.

3 Ni edy yr Arglwydd i enaid y cyfiawn newynu: ond efe a chwâl ymaith gyfoeth y drygionus.

4 Y neb a weithio â llaw dwyllodrus, fydd tylawd: ond llaw y diwyd a gyfoethoga.

5 Mab synwryol yw yr hwn a gasgl amser haf: ond mab gwaradwyddus yw yr hwn a gwsg amser cynauaf.

6 Bendithion fydd ar ben y cyf-

iawn: ond trawsedd a gau ar enau y drygionus.

7 Cofladwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig: ond enw y drygionus a bydra.

8 Y galon ddoeth a dderbyn orchymynion: ond y ffol ei wefusau a gwymp.

9 Y neb a rodio yn union, a rodia yn ddiogel; ond y neb a gam-dry ei ffyrdd, a fydd hynod.

10 Y neb a amneidio â'i lygaid, a bair flinder: a'r ffol ei wefusau a gwymp.

11 Ffynnon bywyd yw genau y cyfiawn: ond trawsedd a gau ar enau y drygionus.

12 Casineb a gyfyd gynhenau: ond cariad a guddia bob camwedd.

PEN. X. Adn. 1. *Diarebion Solomon*] A elwir yn briodol felly; canys nid yw y naw pennod flaenorol, mewn gwirionedd, ddim angen na rhagarweiniaid i'r Diarebion, wedi ei fwrriadu i gynhyrfu meddyliau dynion i sylwi yn fanylach ar addysgiadau DOETHINER, y rhai a gawn o hyn yn mlaen. *Mab doeth*—call, rhinweddol, a duwiol; *a wna dad llawen*—*a mam lawen* hefyd, canys y mae y ddau yn gynwysedig yn y gair: *a mab ffol*—disynwyr, afradlon, ac annuwiol; *a dristâ ei fam*—yn gystal a'i *dud*. Crybwyllir y *fam* yma, am fod ei nwyddau a'i thymherau hi yn y cyffredin yn fwy angherddol nag eiddo y tad, neu am ei bod hi yn fwy teimladwy o ofid a blinder.

Adn. 2. *Ni thycia trysorau drygioni*] Sef cyfoeth a gasglwyd trwy ddrygioni, neu trwy lladrad a lofruddiaeth: *ond cyfiawnder a wared rhag angau*—rhag y gosg angeuol hōno ag yr arweinia lladrad a lofruddiaeth iddi.

Adn. 3. *Ni edy yr Arglwydd i enaid y cyfiawn*] Sef y cyfiawn ei hun, *newynu*—neu fwrth o eisiau bara, am ei fod wedi addaw ei borthi ef, Salm xxxiv. 9, 10, a xxxvii. 25: *ond efe a chwâl ymaith gyfoeth y drygionus*—yr hwn a gyrhaeddodd efe trwy ei ddrygioni: gwel ar Job xx. 5, &c.

Adn. 4. *Y neb a weithio â llaw dwyllodrus*] Sef y neb a weithio lai nag a ddylai, neu a wnele waith twyllodrus; *fydd tylawd*—yn y diwedd, er iddo gael ei lawn gyflog, neu gael llawn bris am ei nwyddau: *ond llaw y diwyd a gyfoethoga*—trwy arferdy diwydrwydd, a thrwy fendith Duw ar ei onestrydd, adn. 22.

Adn. 5. *Mab synwryol yw yr hwn a gasgl amser haf*] Pryd y mae pethau gwerthfawr i'w casglu: *ond mab gwaradwyddus yw yr hwn a gwsg amser cynauaf*—yn lle bod ar y maes yn medi, neu yn cywain i'w ysguboriau. Efe a waradwyddir am ei ddiogi nid yn unig gan ei gymydogion, ond hefyd gan y morgrug-

yn yn ei iaith ef, pen. vi. 6—8; ac y mae yn dwyn gwaradwydd nid yn unig iddo ei hun, ond i'w rieni hefyd, am iddynt esgeuluso ei geryddu a'i addysgu mewn pryd.

Adn. 6. *Bendithion fydd ar ben y cyfiawn*] Sef bendithion tymhorol ac ysbrydol: *ond trawsedd a gau ar enau y drygionus*—a'i gwna ef yn fud, neu a guddia ei wyneb ef â chywilydd a gwartli. Meddylir fod yma gyfeiriad at orchuddio gwynyb y rondemniedig, Esther vii. 8; neu at gyflwr galarwyr, Ezec. xxiv. 17.

Adn. 7. *Cofladwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig*] Sydd beraidd neu gamoladwy ar ol iddo farw, a hyny o herwydd y lles a'r daioni a wnaethai efe yn ei fywyd: *ond enw y drygionus a bydra*—a anghofir yn fuan; neu, os cofir am dano, gwneir hyny gydag atgasrwydd, fel peth pŵdr a flaiidd.

Adn. 8. *Y galon ddoeth a dderbyn orchymynion*] Sydd barod i nfyddhau nid yn unig i orchymynion Duw, ond hefyd i orchymynion dynion cyn belled ag y byddont yn gyfreithlon: *ond y ffol ei wefusau*—yr hwn a ddengys ffolineb ei galon trwy ymadroddion ei wefusau; *a gwymp*—i warth a gofid trwy ei ffolineb; neu *'a gurir'*, fel y gellir ei gytheithu.

Adn. 9. *Y neb a rodio yn union*] Yn ol gair ac ewyllys Duw yn mhob peth; *a rodia yn ddiogel*—heb berygl syrthio na chyfeiliorni: *ond y neb a gam-dry ei ffyrdd*—gan rodio yn wrygam rhagrithiol, neu ar hyd ffyrdd pechod; *a fydd hynod*—Saes., 'a adnabyddir;' hyny yw, ei ddrygioni a ddaw i'r amlwg.

Adn. 10. *Y neb a amneidio â'i lygaid*] I roddi arwydd i'w gyfeillion o ddrwg-fwrriad ei galon yn erbyn arall, pen. vi. 13; *a bair flinder*—i'r un arall hwnw, ac yn y diwedd iddo ei hun: *a'r ffol ei wefusau a gwymp*—gwel ar adn. 8.

Adn. 11. *Ffynnon bywyd yw genau y cyfiawn*] O'r hon y dylifa geiriau yn peri gras ac adfywiad ysbrydol i bawb a'u gwrandaw-

13 Yn ngwefusau y synwryol y ceir doethineb: ond gwialen a weddai i gefn yr anghall.

14 Y doethion a ystoriant wybodaeth: ond dinystr sydd gyfagos i enau y ffol.

15 Cyfoeth y cyfoethog yw dinas ei gadernid ef: ond dinystr y tylodion yw eu tylodi.

16 Gwaith y cyfiawn a dym at fywyd: ond ffwrwyth y drygionus tuag at bechod.

17 Ar y ffordd i fywyd y mae y neb a gadwo addysg: ond y neb a wrthodo gerydd, sydd yn cyfeiliorui.

18 A guddio gas â gwefusau celwyddog, a'r neb a ddywed enllib, sydd ffol.

19 Yn amllder geiriau ni bydd pall ar bechod: ond y neb a attalio ei wefusau sydd synwryol.

20 Tafod y cyfiawn sydd fel arian detholedig: calon y drygionus ni thâl ond ychydig.

21 Gwefusau y cyfiawn a borthant lawer: ond y ffyliaid, o ddiffyg synwyr, a fyddant feirw.

22 Bendith yr Arglwydd a gyfoethoga; ac ni ddwg flinder gyda hi.

23 Hyfryd gan ffol wneuthur drwg: a chan ŵr synwryol y mae doethineb.

24 Y peth a ofno y drygionus, a ddaw iddo: ond y peth a ddeisyfo y rhai cyfiawn, Duw a'i rhydd.

ont: ond trawsedd a gau ar enau y drygionus—gwel ar adn. 6.

Adn. 12. *Casineb a gwyfud gynhenau*] Rhŷng dynion ar yr achlysur lleiaf, neu heb un achlysur: ond cariad a guddia bob camwedd—mewn arall, ac felly a bair dangnefedd: gwel ar 1 Pedr iv. 8.

Adn. 13. *Yn ngwefusau y synwryol y ceir doethineb*] Sef ymadroddion doeth, yn tueddi i wneud ereill yn ddoethach: ond gwialen a weddai i gefn yr anghall—i ddysgu doethineb iddo, neu i'w gospi am ei ymadroddion ffol a niweidiol.

Adn. 14. *Y doethion a ystoriant wybodaeth*] Yn eu meddyliau, i'w dwyn allan mewn anser cyffaddas: ond dinystr sydd gyfagos i enau y ffol—yr hwn, o ddiffyg gwymbodaeth, a lefara lawer o ffolineb, er dinystr i'w gysur ei hun ac ereill.

Adn. 15. *Cyfoeth y cyfoethog yw dinas ei gadernid ef*] Fel y mae dinas gadarn yn ddiogelwch rhag gelynyddion, felly y mae cyfoeth rhag tylodi ac angen; neu y mae ei gyfoeth yn galernid iddo 'yn ei dyb ei hun,' pen. xviii. 11: ond dinystr y tylodion yw eu tylodi—yr hwn nid yn unig sydd yn eu cadw ar lawr, ond sydd hefyd yn fynyach yn eu gosod yn agored i ormes y creulon, ac yn eu gadael heb neb i'w cynorthwyo na'u cysuro.

Adn. 16. *Gwaith y cyfiawn a dym at fywyd*] At gael modd i gynal ei fywyd naturiol ei hun a'i deulu trwy ei ddiwydrwydd, neu at fywyd tragwyddol trwy i'w yn ol ewyllys Duw: ond ffwrwyth y drygionus tuag at bechod—y mae ei holl ogwyddiad ef at bechod, yr hwn yn fynyach a brysura farwolaeth naturiol, ac a ddiwedda yn ddiffeth mewn marwolaeth dragwyddol, os na ragflaenir hynny trwy edifeirwch prydlon.

Adn. 17. *Ar y ffordd i fywyd*] Dedwydd yn y byd hwn, a bywyd tragwyddol yn y byd a ddaw; y mae y neb a gadwo addysg—gan ufyddhau o'r galon i holl orchymynion Duw: ond y neb a wrthodo gerydd—gan fyned yn mlaen yn anystyriol yn ei ffordd ei hun; sydd

yn cyfeiliorni—sydd ar y ffordd i annedwyddwch a gwae yn y ddau byd.

Adn. 18. *A guddio gas â gwefusau celwyddog*] Gan ragrithio ei fod yn gyfaill, pan y mae gelyniaeth yn ei galon; a'r neb a ddywed enllib—yn gyhoeddus, heb geisio ei guddio; sydd ffol—neu bechadurus, am fod y naill a'r llall yn cael eu gwahardd gan gyfraith Duw.

Adn. 19. *Yn amllder geiriau ni bydd pall ar bechod*] Trwy fod yn siaradus yn gyffredin yn adrodd llawer o eiriau segur, enllibus, a ffol: ond y neb a attalio ei wefusau—neu a ŵyr pa bryd i'w lattal, a pha bryd i lefaru; ac wrth bwy, pa le, a pha beth; sydd synwryol—gwel ar pen. xvii. 27, 28.

Adn. 20. *Tafod y cyfiawn sydd fel arian detholedig*] Y mae ei ymadroddion ef yn bur, llesol, a gwerthfawr: calon y drygionus—ac o ganlyniad ei dafod hefyd, yr hwn a lefara o 'helaethrwydd y galon,' Mat. xii. 34; ni thâl ond ychydig—neu, 'sydd fel sothach.'

Adn. 21. *Gwefusau y cyfiawn a borthant lawer*] A gwymbodaeth ac â deall, trwy eu hymddyddanion a'u cynghorion doeth a dau-iol: ond y ffyliaid, o ddiffyg synwyr, a fyddant feirw—yn eu ffolineb. Ni feddant synwyr i wybod pa beth sydd oraf er eu lles lwy eu hunain, llai o lawer i borthi ereill.

Adn. 22. *Bendith yr Arglwydd a gyfoethoga*] Sef ei fendith ef ar lafar a diwydrwydd dynion yn eu galwedigaethau bydol, yn gystal ag yn eu pethau ysbrydol; ac ni ddwg flinder gyda hi—eithr cvsur a dedwyddwch yn dymhorol ac ysbrydol.

Adn. 23. *Hyfryd gan ffol wneuthur drwg*] Am ei fod yn gydnavs â'i natur lygredig ef; a chan ŵr synwryol y mae doethineb—i'w gadw ef rhag y drwg hwnw, ac i beri hyfrydwch iddo wrth wneud daioni.

Adn. 24. *Y peth a ofno y drygionus*] Sef y drwg a ofno; a ddaw iddo—yn sicr yn y diwedd, er maint ei ddyfais i geisio ei attal; ond y peth a ddeisyfo y rhai cyfiawn—yn unol âg ewyllys yr Arglwydd, yn enwedig pob gras a bendith ysbrydol; Duw a'i rhydd—yn

25 Fel y mae y corwynt yn myned heibio, felly ni bydd y drygionus mwy: ond y cyfiawn sydd sylfaen a bery byth.

26 Megys finegr i'r dannedd, a mwg i'r llygaid, felly y bydd y diog i'r neb a'i gyrrant.

27 Ofn yr Arglwydd a estyn ddyddiau: ond blynyddoedd y drygionus a fyrheir.

28 Gobaith y cyfiawn fydd llawenydd: ond gobaith y drygionus a dderfydd am dano.

29 Ffordd yr Arglwydd sydd gadernid i'r perffaith: ond dinystr fydd i'r rhai a wnant anwiredd.

30 Y cyfiawn nid ysgog byth:

ond y drygionus ni phreswylant y ddaear.

31 Genau y cyfiawn a ddwg allan ddoethineb: a'r tafod cyndyn a dorir ymaith.

32 Gwefusau y cyfiawn a wyddant beth sydd gymeradwy; ond genau y drygionus a lefara drawsedd.

PENNOD XI.

CLORIANAU anghywir sydd ffaidd gan yr Arglwydd: ond careg uniawn sydd foddolawn ganddo ef.

2 Pan ddel balchder, fe ddaw gwarth: ond gyda'r gostyngedig y mae doethineb.

'haelionus ac heb ddannod,' a 'thu hwnt i bob peth y maent hwy yn eu dymuno neu yn en meddwl:' gwel ar Eph. iii. 20, Iago i. 5, 1 Ioan v. 14, 15.

Adn. 25. *Fel y mae y corwynt yn myned heibio*] Gyda chyflymder mawr; *felly ni bydd y drygionus mwy*—â yntau heibio yn fuan a disymwth, trwy iddo gael ei ysgubo ymaith gan gorwynt digotaint Duw, pen. i. 27, Job xxvii. 20: *ond y cyfiawn sydd sylfaen*—neu 'a fedd sylfaen,' a bery byth—trwy fod ei dŷ ef wedi ei 'sylaennu ar y graig,' Mat. vii. 25.

Adn. 26. *Megys finegr i'r dannedd*] Yn peri dincod; *a mwg i'r llygaid*—yn peri poen; *felly y bydd y diog i'r neb a'i gyrrant*—pair yntau surni a phoen i'r neb a'i gyrrant ar neges, neu a geisiant ganddo weithio.

Adn. 27. *Ofn yr Arglwydd a estyn ddyddiau*] Am ei fod yn llawenhau y galon, yr hyn 'a wna les fel meddyginiaeth,' pen. xvii. 22; ac yn cadw dynion rhag yr hyn a fyrrha eu dyddiau: *ond blynyddoedd y drygionus a fyrheir*—trwy anghymedroldeb a drygioni, neu gomp farnol: gwel ar pen. iii. 2, 16.

Adn. 28. *Gobaith y cyfiawn fydd llawenydd*] A dry allan yn llawenydd, trwy iddo gael yr hyn y mae yn ei obeithio: *ond gobaith y drygionus a dderfydd am dano*—siomir ef yn ei obeithion, yr hyn a bair dristwch iddo.

Adn. 29. *Ffordd yr Arglwydd*] Sef ffordd ei orchymynion ef; *sydd gadernid i'r perffaith*—trwy ei fod yn cael ei gryfhau fwyfwy o hyd yn inob gras; neu, sydd ddiogelwch cadarn iddo rhag niwed: *ond dinystr fydd i'r rhai a wnant anwiredd*—sef dinystr mewn corff ac enaid: gwel ar 2 The. i. 9.

Adn. 30. *Y cyfiawn nid ysgog byth*] Ni chaethgludir ef byth o wlad ei etifeddiaeth: *ond y drygionus ni phreswylant y ddaear*—neu wlad Canaan, eithr dygir hwynt ymaith i gaethiwd, neu torir hwynt ymaith am eu drygioni. Y mae yn eglur oddiwrth ddiweddi yr adob hon, yn gystal ag oddiwrth ranau ereill o'r ysgriflyr, mai ar yr ammod i'r cyfiawn barhau yn ei gyfiawnder, y gwneir yr addewid hon iddo; canys 'cyfiawnder y cyfi-

iawn nis gwared ef yn nydd ei anwiredd,' Eze. xxxiii. 12, 13, 18.

Adn. 31. *Genau y cyfiawn*] Yr un yw hwn a'r dyn doeth, yr hwn a elwir yn ddoeth mewn gwrthgyferbyniad i'r flol, ac yn gyfiawn mewn gwrthgyferbyniad i'r drygionus; *a ddwg allan ddoethineb*—er lles, addysg, a chysur i bawb o'i amgylch, adn. 21: *a'r tafod cyndyn a dorir ymaith*—meddylir fod yma gyfeiriad at yr hen ddull o gospi cablwy'r, anudonwyr, a theyrnfradwyr, trwy dori ymaith eu tafodau.

Adn. 32. *Gwefusau y cyfiawn*] Neu y doeth, fel y sylwyd uchod; *a wyddant beth sydd gymeradwy*—gan Dduw, a buddiol i ddynion, ac a draethant hyn yn unig: *ond genau y drygionus a lefara drawsedd*—sef yr hyn sydd groes i wirionedd, cyfiawnder, a chyfraith Dduw.

PEN. XI. Adn. 1. *Clorianau anghywir*] A fyddo yn drymach yn y pen lle y rhoddir y nwyddau i'w gwerthu, nag yn y pen lle y byddo y pwys; *sydd ffaidd gan yr Arglwydd*—nid yn unig am ei fod yn dwyll ynddo ei hun, ond yn dwyll a ddygir yn mlaen dan rith cyfiawnder: *ond careg uniawn*—sef pwys cyfiawn, a mesur llawn: *sydd foddolawn ganddo ef*—fel cyfiawnder tég rhwng y prynwr a'r gwerthwr: gwel y gyfraith ar y pen hwn, Lef. xix. 35, 36, Deut. xxv. 13—15. Dywed *Maimonides* nad oedd yr Iuddewon i gael gwneyd eu pwysio o fetel, rhag iddynt rydu ac ysgafnhau; eithr o geryg rabeledig.

Adn. 2. *Pan ddel balchder*] I mewn i'r galon a'r ymddygiad; *fe ddaw gwarth*—yn fynych i'w ganlyn, trwy fod y balch yn meddwl mwy o hono ei hun nag a feddyllia ereill o hono, ac yn dysgwyl mwy o anrhydedd nag a roddir iddo; ac yn hysur y mae efe nid yn unig yn cael ei siomi, ond yn fynych yn cael ei warthrudlo hefyd: *ond gyda'r gostyngedig y mae doethineb*—yr hon a'i ceidw ef rhag ymddygiad flol a drygionus, yr hwn a ddarostwng y balch i warth.

Adn. 3. *Perffethrwydd yr uniawn*] Nen uniondeb eu calon a'u hegwyddor; *a'u tywys hwynt*—ar bydllywbrau y bywyd: *ond draws-*

3 Perffethrwydd yr uniawn a'u tywys hwynt: ond trawsedd yr anffyddloniaid a'u dyfetha hwynt.

4 Ni thycia cyfoeth yn nydd digofaint: ond cyfiawnder a wared rhag angau.

5 Cyfiawnder y perffaith a'i hyfforddia ef: ond o achos ei ddrygioni y syrth y drygionus.

6 Cyfiawnder y cyfiawn a'u gwarded hwynt: ond troseddwy'r ddelir yn eu drygioni.

7 Pan fyddo marw dyn drygionus, fe a ddarfu am ei obaith ef: a gobaith y traws a gyfrgollir.

8 Y cyfiawn a waredir o gyfyngder, a'r drygionus a ddaw yn ei le ef.

9 Rhagrithiwr â'i enau a lygra ei gymydog: ond y cyfiawn a waredir trwy wybodaeth.

10 Yr holl ddinas a ymlawenha o herwydd llwyddiant y cyfiawn: a phan gyfrgoller y drygionus, y bydd gorfoledd.

11 Trwy fendith y cyfiawn y dyrchefir y ddinas: ond trwy enau y drygionus y dinystrir hi.

12 Y neb sydd ddisynwyr a ddiystyra ei gymydog; ond y synwyr ol a daw â son.

13 Yr hwn a rodia yn athrodwr, a ddatguddia gyfrinach: ond y ffyddlon ei galon a gela y peth.

14 Lle ni byddo cynghor, y bobl a syrthiant: ond lle y byddo llawer o gynghorwyr, y bydd diogelwch.

15 Blinder mawr a gaiff y neb a fachnio dros ddeyithrddyn: ond y neb a gasao fachniaeth, fydd diogel.

edd yr anffyddloniaid a'u dyfetha hwynt—a'u harwain yn y diwedd i ddiynstr a cholledigaeth.

Adn. 4. *Ni thycia cyfoeth yn nydd digofaint*] I gadw ei berchenog annuwiol rhag digofaint Dduw: *ond cyfiawnder a wared rhag angau*—sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd, Phil. iii. 9. Neu fe allai ei fod yn cyfeirio yma at gyfiawnder ymarferol, yr hwn a waredd yn gyntaf rhag trosedd, ac yna rhag cosp wladol.

Adn. 5. *Cyfiawnder y perffaith a'i hyfforddia ef*] Ar hyd llwybrau y bywyd: *ond o achos ei ddrygioni y syrth y drygionus*—i afaelion cosp a marwolaeth.

Adn. 6. *Cyfiawnder y cyfiawn a'u gwarded hwynt*] Rhag cospau gwladol, a rhag llawer o offidiau presenol: *ond troseddwy'r ddelir yn eu drygioni*—yn fynych yn y byd hwn, ac yn ddiffeth yn y nesaf.

Adn. 7. *Pan fyddo marw dyn drygionus, fe a ddarfu am ei obaith ef*] Am ei obaith am iachawdriaeth, neu ddedwyddwch tudraw i angau: *a gobaith y traws a gyfrgollir*—yn dragywydd. Nid gobaith am fyw yn hwy yn y byd hwn, neu am gyfoeth daearol, a feddylir yma; canys yn yr ystyr llwng y mae gobaith y cyfiawn yn darfod hefyd: gwel ar pen. xiv. 32.

Adn. 8. *Y cyfiawn a waredir o gyfyngder*] Gall yntau syrthio i gyfyngderau, er ei fod yn gyfiawn; canys 'aml ddrygaw a gaiff y cyfiawn; ond yr Arglwydd a'i gwared ef oddiwrth ynt oll,' Salm xxxiv. 19: *a'r drygionus a ddaw yn ei le ef*—fel y daeth Haman i'r crogbren yn lle Mordecai, a'r Aiftiaid i foddii yn y môr coch yn lle yr Israeliaid.

Adn. 9. *Rhagrithiwr â'i enau*] Nen, tel y mae rhai yn deall *chaneph*, 'yr anffyddiwr â'i athrawiaethau cyfeiliornus'; a *lygra ei gymydog*—trwy ei hudo i'r un cyfeiliornadau: *ond y cyfiawn a waredir trwy wybodaeth*—sef gwybodaeth o Dduw a'i air, ac o'i weithfardoedd llusog ac anfeidrol ef.

Adn. 10. *Yr holl ddinas a ymlawenha o herwydd llwyddiant y cyfiawn*] Pan dyrchefer ef i gyfoeth, aurhydedd, neu awdurdod, oblegid ei fod yn fendith i'r trigolion yn gyffredinol: *a phan gyfrgoller y drygionus y bydd gorfoledd*—nid o herwydd ei ddiynstr ef, ond am eu bod hwy wedi cael gwaredigaeth trwy hynny oddiwrth y fath bla niweidiol i gymdeithas.

Adn. 11. *Trwy fendith y cyfiawn*] Sef trwy ei gynghorion, ei siamplau da, a'i weddiau; y dyrchefir y ddinas—mewn moesoldeb, rhinwedd, a llwyddiant: *ond trwy enau y drygionus*—sef trwy ei ymddyddanion drwg a llygredig, neu trwy ei regfeydd, ei gableddau, a'i ddedfryd anghyfiawn; y dinystrir hi—o ran ei moesau, ei llwyddiant, a'i heddwch.

Adn. 12. *Y neb sydd ddisynwyr a ddiystyra ei gymydog*] Am ei fod, neu am y tybir ei fod, islaw iddo ef mewn gwybodaeth, cyfoeth, neu waedoliaeth: *ond y synwyr ol a daw â son*—er fod ei gymydog mewn gwirionedd islaw iddo felly.

Adn. 13. *Yr hwn a rodia yn athrodwr, a ddatguddia gyfrinach*] Sef beiau ei gymydog, neu yr hyn a ymddiriedwyd iddo i'w gadw yn gyfrinach: *ond y ffyddlon ei galon a gela y peth*—yn lle creu cyben rhwng cymydogion. A phan nas gallo gelu rhyw ddiffyg mewn arall, efe a ymdrecha i roddi y lliw goraf arno.

Adn. 14. *Lle ni byddo cynghor*] I lywodraethu y ddinas; y bobl a syrthiant—i anhrefn ac afiwydd: *ond lle y byddo llawer o gynghorwyr*—a'r rhai hyn yn ddynton doeth a da; y bydd diogelwch—i eiddo a phersonau, trwy y bydd i'r naill gynghorwr ganfod rhyw lwybr o ddiogelwch pan fyddo y lleill yn methu.

Adn. 15. *Blinder mawr a gaiff y neb a fachnio dros ddeyithrddyn*] Yr hwn y byddo ei amgylchiadau a'i onestrydd yn anadnabyddus: *ond y neb a gasao fachniaeth*—ac am hynny a gilio oddiwrthi; *fydd diogel*—

16 Gwraig rasol a gaiff anrhydedd; a'r galluog a gânt gyfoeth.

17 Gŵr trugarog sydd dda wrth ei enaid ei hun: ond y creulon a flina ei gnawd ei hun.

18 Y drygionus a wna waith twyllodrus: ond i'r neb a hauo gyfiawnder, y bydd gwobr sicr.

19 Fel yr *arwain* cyfiawnder i fywyd: felly dylyn drygioniu *dywys* i angau.

20 Ffiaidd gan yr Arglwydd y neb sydd gyndyn eu calonau: eithr hoff ganddo ef y rhai sydd berffaith yn eu ffyrdd.

21 Er maint fyddo cymhorth, y

drygionus ni bydd dienog: ond had y cyfiawn a waredir.

22 Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch, *yw* benyw lân heb synwyr.

23 Deisyfiad y cyfiawn *sydd* ar ddaioni yn unig: ond gobaith y drygionus *sydd* ddigter.

24 Rhyw un a wasgar ei ddâ, ac efe a chwanegir *iddo*: a rhyw un arall a arbed mwy nag a weddai, ac a *syrrh* i dylodi.

25 Yr enaid hael a fraseir: a'r neb a ddyfrhao, a ddyfrheir yntau hefyd.

26 Y neb a attalio ei ffd, y bobl a'i melliithia: ond bendith a fydd ar ben y neb a'i gwertho.

rhag blinder a cholled yn yr achos hwnw: gwel ar pen. vi. 1—5.

Adn. 16. *Gwraig rasol a gaiff anrhydedd*] Gan ei gŵr, ei theulu, a'i chymydogion; a'r *galluog a gânt gyfoeth*—chwaneid; sef rhai galluog a medrus yn eu galwedigaeth, neu alluog i roddi arian allan mewn masnachiaeth. Ond y mae rhai yn alleirio yr adnod hon yn debyg i hyn: 'Gwraig rasol a ddeil ei gafael mewn anrhydedd, fel yr ymalla y cyfoethog mewn cyfoeth'; hynny yw, gydâ'r un awydd a phenderfyniad.

Adn. 17. *Gŵr trugarog*] Yr hwn sydd dda wrth ereill mewn angen a chyfyngder; *sydd ddu wrth ei enaid ei hun*—hefyd, am y try hyn yn elw iddo ef ei hun yn y diwedd; *ond y creulon*—neu y dyn caled, dialgar, ac anghostoriol; a *flina ei gnawd ei hun*—yn gystal ag eiddo y rhai y gwrthoda eu cynorthwyo. 'Anaml y gwelwn ddyn anynad, drygnaws, a dialgar,' ebai *Clarke*, 'mewn iechyd da, neu ddrych corfforol da. Mynych y clywais rai yn dywedyd am y cyfryw, ei fod yn gwenwyno ei gnawd oddiam ei esgyrn.'

Adn. 18. *Y drygionus a wna waith twyllodrus*] O ran ansawdd y waith, pen. x. 4; neu waith a dry allan yn dwyllodrus iddo ef ei hun yn y diwedd: *ond i'r neb a hauo gyfiawnder*—neu a wnelo bob peth yn onest a didwylly; y *bydd gwobr sicr*—neu gnwd torieithiog, yn cyfateb i'r had da a hanodd efe: gwel ar Gal. vi. 7, 8.

Adn. 19. *Fel yr arwain cyfiawnder i fywyd*] I ddiogelu y bywyd naturiol, ac i fwrnhad o fywyd tragwyddol, yr hwn yw 'dawn Duw': *felly dylyn drygioniu a dywys i angau*—i farwolaeth naturiol yn anamserol, ac i farwolaeth dragwyddol, yr hon yw 'cyflog pechod': gwel ar Rhuf. vi. 23.

Adn. 20. *Ffiaidd gan yr Arglwydd y neb sydd gyndyn eu calonau*] Heb blygu dan ei iau ef, nac uffyddhau i'w orchymynion; neu, 'y neb sydd ragrithiol a thwyllodrus,' fel y mae rhai yn ei ddeall: *eithr hoff ganddo ef y rhai sydd berffaith yn eu ffyrdd*—set y rhai sydd yn ymddwyn yn gywir a gonest yn mhob peth.

Adn. 21. *Er maint fyddo cymhorth*] Neu

ymdrech dynion drwg i ryddhau y drygionus, trwy dnygu anudon o'i blaidd ef, neu ymfyddino i'w amddiffyn; y *drygionus ni bydd dienyg*—daw ei enogrwydd i'r golwg, a chospir yntau am ei droseidd, efe a'i had, Exod. xx. 5: *ond had y cyfiawn a waredir*—trwy ofal rhagluniaeth ddaionus Duw, heb iddny hwy orfod cyrchu at foddion anghyfreithlon fel y rhai a grybwyllwyd uchod.

Adn. 22. *Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch*] Yr hon a fyddai yn dra anweddaidd i hwch yn tyrchu yn wastadol mewn laid a thomenydd; *yw benyw lân heb synwyr*—neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'yw harddwch i fenyw ynfyd'; yr hon, wedi iddi gollu pob teimlad o rinwedd, sydd yn gadael ei gŵr, ac yn myned i ymdreiglo mewn godineb a phob aflendid.

Adn. 23. *Deisyfiad y cyfiawn sydd ar ddaioni yn unig*] Ei unig ddymuniad ef yw gwneyd daioni i ereill, a chaffael daioni iddo ei hun: *ond gobaith y drygionus sydd ddigter*—ei ddymuniad ef yw dial ar ereill, yr hyn a bair i ddigofaint cyfiawn Duw ddisgyn yn y diwedd arno yntau.

Adn. 24. *Rhyw un a wasgar ei ddâ*] Mewn elusenau i'r tylodion, neu gyfraniadau at gynal a lledaenu achos crefydd; *ac efe a chwanegir iddo*—trwy fendith Duw ar y gweddill: *a rhyw un arall a arbed mwy nag a weddai*—fwy nag y mae cyfraith Duw a rheolau cymdeithas yn ei ganiatâu; *ac a syrth i dylodi*—er ei holl gynydd a'i gybydd-dod, trwy i ragluniaeth Duw wgu arna.

Adn. 25. *Yr enaid hael a fraseir*] Neu a gyfoethogir, mewn ystyr tymhorol ac ysbyrdol: *a'r neb a ddyfrhao*—ereill yn eu syched, neu a roddo iddynt yr hyn y byddont mewn angen am dano; *a ddyfrheir yntau hefyd*—caiff yntau fendithion rhagluniaeth a gras gan Dduw. 'Rhoddwch, a rhoddir i chwi,' &c. Gwel ar Luc vi. 38.

Adn. 26. *Y neb a attalio ei ffd*] Rhag ei werthu yn amser prinder, gan ddysgwyl i'w bris chwaneagu mewn amser dyfodol; *y bobl a'i melliithiant*—am ei greulondeb a'i gybydd-dod: *ond bendith a fydd ar ben y neb a'i gwertho*—a hynny am bris rhesymol, a phan

27 Y neb a ddyfal geisio ddaioni, a ennill ewylls da: ond y neb a geisio ddrwg, iddo *ei hun* y daw.

28 Y neb a roddo ei oglud ar ei gyfoeth, a syrth: ond y cyfiawn a fllodeuant megys cangen.

29 Y neb a flino ei dŷ ei hun, a berchenoga y gwynt: a'r ffol *a fydd* gwas i'r synwryol ei galon.

30 Ffrwyth y cyfiawn *sydd* megys pren y bywyd: a'r neb a ennillo eneidiau *sydd* ddoeth.

31 Wele, telir i'r cyfiawn ar y ddaear: pa faint mwy i'r drygionus a'r pechadur?

fyddo angen am dano. Bydd i'r tylodion weddio am fendith iddo, a bendithir ef gan Dduw mewn atebiad i'w gweddiau hwynt.

Adn. 27. *Y neb a ddyfal geisio ddaioni*] Neu a fyfyrta pa fodd i allu llesau ei gymydogion; a *ennill ewylls da*—pawb o'i amgylch, Duw a dynion: *ond y neb a geisio ddrwg*—neu niwed i'w gymydog; *iddo ei hun y daw*—fe ddaw yn sier iddo ef ei hun, er y gall ei gymydog ddiac rhagddo.

Adn. 28. *Y neb a roddo ei oglud ar ei gyfoeth*] Gan ymddried ynddo am nawdd, diogelwch, a dedwyddwch; a *syrth*—fel deilen wywedig neu impyn crin: *ond y cyfiawn a fllodeuant megys cangen*—iraidd a frwythlon, trwy fod eu goglud hwy ar Dduw: gwel ar Salm i. 3.

Adn. 29. *Y neb a flino ei dŷ ei hun*] Neu ei deulu ei hun, trwy ddiogi a seguryd, neu wastraff ac afradlondeb; a *berchenoga y gwynt*—ni fydd ganddo ddim at ei gynaliaeth ond gwynt: *a'r ffol a fydd gwas i'r synwryol ei galon*—i'r dyben i'w gynal ei hun a'i deulu, bydd raid iddo weithio dan yr hwn a fyddo yn alluog, trwy ei ddiwydrwydd a'i gynilleb, i roddi gwaith iddo.

Adn. 30. *Ffrwyth y cyfiawn*] Sef ei siamplau a'i weithredoedd da, ei addysgiadau, ei gynghorion, a'i weddiau; *sydd megys pren y bywyd*—yn werthfawr a defnyddiol, neu yn peri adfywiad a bywyd i bawb o'i amgylch: *a'r neb a ennillo eneidiau*—o fagl y diafol at Dduw, neu a ddygo eneidiau i edifeirwch, fydd, a santeiddrwydd; *sydd ddoeth*—y mae yn meddu 'y ddoethineb sydd oddiuchod': gwel ar Iago iii. 17, 18.

Adn. 31. *Wele, telir i'r cyfiawn*] Ceryddir neu gospir ef am ei ddiotalwch, ei esgeulndra, neu ei feiau; *ar y ddaear*—fel pe dywedasai, Er na ddianc yntan rhag cosp, eto cyfyngir ei ddyoddefiadau ef i'r byd hwn yn unig: *pa faint mwy i'r drygionus a'r pechadur?*—hyn yw, gan fod cosp y cyfiawn mor chwerw yma, pa faint chwerrwachi a thrymach fydd cosp pechaduriaid cyndyn a gwrthysig, gan y bydd iddi gael ei gweinyddu yn ddirngaredd nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn y byd a ddaw! Y LXX a'i cyfieithant: 'Ac os braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig, pa le yr

PENNOD XII.

Y NEB a garo addysg, a gâr wybodaeth: ond y neb a gasao gerydd, anifeilaidd *iw*.

2 *Gŵr* da a gaiff ffafr gan yr Arglywydd: ond gŵr o ddichellion drwg a ddamnia efe.

3 Ni sierheir dyn trwy ddrygioni: ond gwraidd y cyfiawn nid ysgoga.

4 Gwraig rymus *sydd* goron i'w gŵr: ond y waradwyddus *sydd* megys pydrni yn ei esgyrn ef.

5 Meddyliau y cyfiawn *sydd* un-

ymddengys yr annuwlid a'r pechadur? Dyfynwyd y cyfieithiad hwn yn llythyrenol gan yr apostol: gwel ar I Pedr iv. 18.

PEN. XII. Adn. 1. *Y neb a garo addysg*] Sef dysgyblaeth neu gerydd pan fyddo achos, fel y mae yn amlwg oddiwrt ddiwedd yr adnod; a *gâr wybodaeth*—a ddengys ei fod yn ei charu, trwy ei fod yn foddlon i ymestwng i unrhyw driniaeth er mwyn ei chyraedd: *ond y neb a gasao gerydd*—fel moddion i gyraedd gwybodaeth; *anifeilaidd iw*—nid yw ddim gwel nag anifel anwybodus, heb garu y peth sydd oraf er ei les.

Adn. 2. *Gŵr da a gaiff ffafr gan yr Arglywydd*] Sef pob bendith angenrheidiol, megys gras, iachawdwriaeth, a gogoniant; *ond gŵr o ddichellion drwg*—yr hwn sydd yn gyntaf yn lluoio drygioni yn ei feddwl, ac yna yn ei gyflawni; a *ddamnia efe*—efe a'i collfarna fel troseddwr, ac yna a'i damnia byth.

Adn. 3. *Ni sierheir dyn trwy ddrygioni*] Pa fodd bynag y llwydda efe am dymhor byr, ni sierheir ef yn y llwyddiant hwnw: *ond gwraidd y cyfiawn nid ysgoga*—eithr efe a fydd fel pren frwythlon wedi gwreiddio yn ddwfn yn y ddaear, yr hwn ni syflir allan o'i le.

Adn. 4. *Gwraig rymus*] Saes., 'rinweddol'; neu wraig rymus o ran ei chyneddau a'i moesau da; un yn gallu ei llywodraethu ei hun a'i theulu; *sydd goron i'w gŵr*—sydd o anrhydedd a chysur mawr iddo: *ond y waradwyddus*—yr hon sydd ddiog, gwastraffus, balch, a chynhenllyd; neu 'yr odinebu,' fel y mae rhai yn ei ddeall; *sydd megys pydrni yn ei esgyrn ef*—yn peri poen a gofid iddo yn barhaus, ac yn ei ddrygu yn ei gwymeriad a'i amgylchiadau.

Adn. 5. *Meddyliau y cyfiawn sydd union*] Tuag at Dduw a dynion yn mhob peth; a *chynghorion y drygionus sydd dwyllodrus*—ei amcan ef yn barhaus yw twyllo ereill, fel y galle gael rhyw fantais iddo ei hun.

Adn. 6. *Geiriau y drygionus*] Yn eu plith en hunain, *yw cynllwyn am wued*—trwy ymgyngori pa fodd i allu lladd ac yspellio y fforddoliou: gwel ar pen. i. 11—14: *ond genau yr uniawn a'u gwared hwynt*—a

ion: a chynghorion y drygionus sydd dwyllodrus.

6 Geiriau y drygionus *yw* cynllwyn am waed: ond genau yr uniawn a'n gwared hwynt.

7 Dyfethir y drygionus, fel na byddont hwy: ond tŷ y cyfiawn a saif.

8 Yn ol ei ddeall y canmolir gŵr: ond gŵr cyndyn ei galona ddiystyrir.

9 Gwell *yw* yr hwn a'i cydnabyddo ei hun yn wael, ac sydd was iddo ei hun, na'r hwn a'i haurhydeddo ei hun, ac sydd arno eisiau bara.

10 Y cyfiawn a fydd ofalus am fywyd ei anifel: ond tosturi y drygionus sydd greulon.

11 Y neb a lafurio ei dir, a ddi-gonir o fara: ond y neb a ganlyno ofer-wyr, disynwyr *yw*.

wared y rhai uniawn eu hnnain, trwy weddio am i Dduw eu gwaredu; neu a wared y fforddion rhag eu cynllwynwyr, trwy eu rhybyddio o'u peryl.

Adn. 7. *Dyfethir y drygionus, fel na byddont hwy*] Anfynych y mae Duw yn rhoddi bywyd hir, neu deulu llucsg, i rai hynod am eu drygioni; eithr dyfethir eu llinach hwy oddiar y ddaear yn when ychydig genedlaethau, rhag iddynt lygru ereill: *ond tŷ y cyfiawn a saif*—bydd i'w hiliogaeth ef barhau yn flodenog a llwyddiannus dros lawer o oesoedd.

Adn. 8. *Yn ol ei ddeall*] Pan fyddo ei foesan a'i rinweddau yn dangos fod ganddo ddeall; y *canmolir gŵr*—gan bob dyn synwyr: *ond gŵr cyndyn ei galon*—anfoesol ac afrinweddol, a *ddiystyrir*—er cyfuwch y byddo o ran cyfoeth, harddwch, neu waedoliaeth.

Adn. 9. *Gwell yw yr hwn a'i cydnabyddo ei hun yn wael*] Neu dylawd, ac sydd was iddo ei hun—yn trin ei orchwylion ei hun, yn lle cadw gwas; *na'r hwn a'i hanrhydeddo ei hun*—trwy ymddangosiad o rywsg a mawredd, ac sydd arno eisiau bara—neu a ddaw trwy hyn i fod mewn eisiau, heb fodd ganddo i gael gynalieth iddo ei hun chwathach i'w weision. Y mae y blaenaf yn ddedwyddach yn ei feddl ei hun, ac yn ddoethach yn meddyliau ei gymydogion, na'r olaf.

Adn. 10. *Y cyfiawn a fydd ofalus am fywyd ei anifel*] Ni wna gam âg et trwy ei yru na'i weithio yn ormodol, na thrwy esgeuluso rhoddi iddo ar ol ei waith orplwysdra, cynhesrwydd, a phob amgeledd: *ond tosturi y drygionus sydd greulon*—er maint y tosturi a broffesa efe tnag at ei anifel, y mae yn fynych yn ei yru neu yn ei weithio i farwolaeth.

Adn. 11. *Y neb a lafurio ei dir*] Neu a ddylyno ryw alwedigaeth onest arall; a *ddi-gonir o fara*—efe a gaiff, trwy fendith Duw, gynalieth ddigonol iddo ei hun a'i deulu: *ond y neb a ganlyno oferwyr*—mewn segur-

12 Y drygionus sydd yn deisyf rhwyd y drygionus: ond gwreiddyn y cyfiawn a rydd *ffrwyth*.

13 Trwy drosedd ei wefusau y meglir y drygionus: ond y cyfiawn a ddaw allan o gyfyngder.

14 Trwy *ffrwyth ei enau* y digonir gŵr â daioni; a thaledigaeth dwylaw dyn a delir iddo.

15 Ffordd yr ynfyd sydd uniawn yn ei olwg ei hun: ond y neb a wrandawo ar gynghor sydd gall.

16 Mewn un dydd y gwybyddir digter yr ynfyd: ond y call a guddia gywilydd.

17 Y neb a ddywedo y gwir, a ddengys gyfiawnder: ond gau dyst a draetha dwyll.

18 Rhyw ddyw a ddywed eiriau

dod neu wastraff; *disynwyr yw*—efe a genfydd cyn hir ei fod yn amddifad nid yn unig o fara, ond o synwyr hefyd.

Adn. 12. *Y drygionus sydd yn deisyf rhwyd y drygionus*] Y mae yn cymeradwyo ac yn defnyddio ystrwyiau a dicheillion dynion drwg ereill; neu yn dymuno eu rhwydo a'u careharu hwy, fel y gallo gael y lle i gyd iddo ei hun; neu, fel y gellir ei gyfieithu, 'sydd yn dymuno amddiffynfu y drygionus,' sef cael ei ddiogelu rhag cosp neu adwyddiant yn ei ddrygioni fel hwythau: *ond gwreiddyn y cyfiawn*—sef genestrwydd, rhinwedd, a chrefydd; a *rydd ffrwyth*—da a thoreithiog, o gysur, diogelwch, ac iachawdwriaeth.

Adn. 13. *Trwy drosedd ei wefusau*] Ei groes-ddywediadau neu ei gelwyddau, y meglir y drygionus—y delir ef, neu y dygir ef i ofid: *ond y cyfiawn a ddaw allan o gyfyngder*—trwy fod ei dystiolaeth ef bob amser yn gyson â'r gwirionedd.

Adn. 14. *Trwy ffrwyth ei enau*] Neu ei ymddyddanion doeth a grasol wrth ereill; y digonir gŵr â daioni—efe a gaiff foddlonrwydd iddo ei hun hefyd oddiwrth hyn: a *thaledigaeth dwylaw dyn*—sef taledigaeth neu wobr gwaith ei ddylaw, a *delir iddo*—gan Dduw, yn fuan neu yn hwyr.

Adn. 15. *Ffordd yr ynfyd sydd uniawn yn ei olwg ei hun*] Ac ni choelia efe neb a ddyweda ei bod yn draws a gŵyrgam: *ond y neb a wrandawo ar gynghor*—gan ereill, yn hytrach nag ymddiried i'w ddeall ei hun, *sydd gall*—sydd yn ymddwyn yn gall a synwyr.

Adn. 16. *Mewn un dydd*] Saes., 'yn y fan,' pan ddigier ef; y *gwybyddir digter yr ynfyd*—trwy nad oes ganddo lywodraeth ar ei dymherau, na challineb i gelu ei nwydau drwg: *ond y call a guddia gywilydd*—neu ddigter lliidiog, yr hwn a ddygai gywilydd iddo wrth ymwylltio felly.

Adn. 17. *Y neb a ddywedo y gwir*] Wrth roddi ei dystiolaeth mewn llys bara; a *ddengys gyfiawnder*—yr achos a fo ganddo mewn

fel brath cleddyf; ond tafod y doethion sydd feddyginiaeth.

19 Gwefus gwirionedd a saif byth: ond tafod celwyddog ni saif fynydd awr.

20 Dichell sydd yn nghalon y rhai a ddychymygant ddrwg: ond i gynghorwyr heddwch y bydd llawenydd.

21 Ni ddygwydd i'r cyfiawn ddim blinder: ond y drygionus a lenwir â drwg.

22 Ffiaidd gan yr Arglwydd wesusau celwyddog: ond y rhai a wnant yn ffyddlon, a ryngant fodd iddo ef.

23 Gŵr pwyllog a gela wybod-

aeth: ond calon ffyliaid a gyhoedda ffolineb.

24 Llaw y diesgeulus a deyrnasa: a llaw y twyllodrus a fydd dan deyrnged.

25 Gofid yn nghalon gŵr a bair iddi grymu: ond gair da a'i llawenhi.

26 Y cyfiawn a ragora ar ei gymydog: ond ffordd y rhai drygionus a'u twylla hwynt.

27 Ni rostia y twyllodrus ei helwriaeth: ond golud y dyn diesgeulus sydd werthfawr.

28 Yn ffordd cyfiawnder y mae bywyd; ac yn ei llwybrau hi nid oes marwolaeth.

llaw, neu gywirdeb a gonestrwydd ei feddwl ei hun: ond gau dyst a draetha dwyll—i waredu yrenog neu gondemnio y cyfiawn.

Adn. 18. *Rhyw ddydd a ddywed eiriau fel brath cleddyf*] Sef geiriau llym, pigog, ac enllibus, yn archolli teimlad dyn arall fel pe brethid ef â chleddyf: ond tafod y doethion sydd feddyginiaeth—i'r teimlad archolledig, trwy gysuro y rhai a frathesid felly, neu eu hamddiffyn hwy rhag yr enllibwr, neu ddiffodd cynhen a digofaint.

Adn. 19. *Gwefus gwirionedd a saif byth*] Am fod sail gadarn a ddyddog dan ei ddywed-iadan: ond tafod celwyddog ni saif fynydd awr—yn ngwnebymchwiliad manwl a goleu, eithr efe a syrth i anmharch fel dyn celwyddog a drygionus.

Adn. 20. *Dichell sydd yn nghalon y rhai a ddychymygant ddrwg*] Yn erbyn eu cymydogion diniwed: ond i gynghorwyr heddwch—y rhai a ymdrechant gynnal neu adfer heddwch mewn gwlad neu eglwys; y bydd llawenydd—yn eu mynwsan eu hunain, pa un bynag a lwyddant hwy ai peidio.

Adn. 21. *Ni ddygwydd i'r cyfiawn ddim blinder*] A wna wir niwed iddynt, am 'fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.' Rhuf. viii. 28: ond y drygionus a lenwir â drwg—y maent yn cael eu blino, en gofidio, a'u harcholli gan bob dygwyddiad a'u cyfarfuddo, heb i ddim gydweithio er daioni iddynt. Ond rhai a'i darllenant, 'Ni chwennych y cyfiawn ddim pechadurus: ond y drygionus sydd lawn o ddrwg.'

Adn. 22. *Ffiaidd gan yr Arglwydd wesusau celwyddog*] Sef y dyn a ddywedo gelwydd i dwyllo neu niweidio ei gymydog: ond y rhai a wnant yn ffyddlon—y rhai a ddywedant y gwir, neu a gyfiawnant en haddewidion; a ryngant fodd iddo ef—ac a wobrwyr ganddo fel y cyfryw.

Adn. 23. *Gŵr pwyllog a gela wybodaeth*] Nid ymfrostia efe yn ei wybodaeth, neu efe a'i cela hyd amser cyfaddas i'w hamlygu: ond calon ffyliaid a gyhoedda ffolineb—wrth ymfrostio mewn gwybodaeth nad yw

eiddynt, trwy yr hyn y danghosant anwybod-aeth a ffolineb.

Adn. 24. *Llaw y diesgeulus a deyrnasa*] Y meddwl yw, mai diwydrwydd yw y ffordd i anrhydedd a dyrchafiad, pen. xxii. 29, fel y dygwyddodd i Jeroboam, I Bren. xi. 26—28: a llaw y twyllodrus—yr hwn ni wna ei waith yn onest; neu 'y diog,' fel y mae yn y Saesonaeg; a fydd dan deyrnged—neu a fydd ddarostyngedig i ereill, heb ymgodi i uwchafiaeth.

Adn. 25. *Gofid yn nghalon gŵr*] Yn tarddu oddiar gystudd corfforol, siomedigaeth mewn masnach, neu edifeirwch am bechod; a bair iddi grymu—a'i hanallnoga ef i fod yn llawen a siroli: ond gair du—mewn ffordd o i'ysur a chyfarwyddyd oddiwrth ryw gyfaill teimlad wy, neu oddiwrth weinidog yr efengyl; a'i llawenhi—a ddwg iddo ddyddanwch, os nid gorfoledd.

Adn. 26. *Y cyfiawn a ragora ar ei gymydog*] Sef ar gymydog anghyfiawn a drwg, fel y mae yn eglur oddiwrth ddiwedd yr adnod; hyn yw, efe a ragora arno yn ei fuchedd, ei brofiad, a'i ddefnyddioldeb: ond ffordd y rhai drygionus a'u twylla hwynt—ni chânt yr elw, y cyzur, na'r diogelwch a addawsant iddynt eu hunain wrth ei rhodio hi.

Adn. 27. *Ni rostia y twyllodrus ei helwriaeth*] Hyn yw, ei helwriaeth ei hun, eithr helwriaeth rhywn arall; neu, ni chaiff y twyllodrus rhywnbau y golud a gyrhaeddodd efe trwy dwyll; neu, yn ol y Saesonaeg, 'ni rostia y diog ei helwriaeth;' hyn yw, ni fydd ganddo ef ddim i'w rostio, trwy ei fod yn rhy ddiog i ddal dim, neu i'w ennill; ond golud y dyn diesgeulus—sef y dyn gweithgar a diwyd; sydd werthfawr—yn ei olwg neu iddo ei hun, fel frwyth ei lafar; ac yn ngolwg Dnw, yr hwn a'i bendithia ef iddo.

Adn. 28. *Yn ffordd cyfiawnder y mae bywyd*] Hebr., 'bywydau'; sef estyniad bywyd naturiol, a mwynhad o fywyd vsbrydol a bywyd tragwyddol: ac yn ei llwybrau hi—sef llwybrau cyfiawnder neu wir grefydd; nid oes marwolaeth—sef marwolaeth anamserol yn ystod y daith, na marwolaeth dragwyddol yn ei diwedd hi.

PENNOD XIII.

MAB doeth a wrendy ar athraw-iaeth ei dad: ond gwatwarwr ni wrendy ar gerydd.

2 Gŵr a fwynha ddaioni o ffrwyth ei enau: ac enaid yr anghyfiawn a fwynha drawsedd.

3 Y neb a geidw ei enau, a geidw ei einioes: ond y neb a ledw ei wefusau, a ddinystir.

4 Enaid y diog a ddeisyf, ac ni chaff ddim: ond enaid y diwyd a wneir yn fras.

5 Cas gan y cyfiawn gelwydd: ond y drygionus sydd ffaidd, ac a ddaw i gywilydd.

6 Cyfiawnder a geidw y perffaith yn ei ffordd: ond annuwioldeb a ddymchwel y pechadur.

PEN. XIII. Adn. 1. *Mab doeth a wrendy ar athrawiaeth ei dad*] Ac a ufyddha i'w gyngorion duwiol ef: ond *gwatwarwr ni wrendy ar gerydd*—eithr efe a fyn ei ffordd ei hun yn mhob peth, gan wawdio a dirmygu athrawiaeth ei rieni.

Adn. 2. *Gŵr a fwynha ddaioni o ffrwyth ei enau*] Oddiwrt h ei ymadroddion doeth a llesol: ac *enaid yr anghyfiawn*—sef efe ei hun; a *fwynha drawsedd*—dychwelir ar ei ben ei hun y drwg a lefarodd neu a amcanodd efe yn erbyn arall.

Adn. 3. *Y neb a geidw ei enau*] Yn gaueid, rhag dywedyd dim yn gableddus neu fradwrs yn erbyn yr awurdodau gwladol; a *geidw ei einioes*—rhag y gomp gvsylltedig a hyn yn ol y gyfraith: ond *y neb a ledw ei wefusau*—i ddywedyd yn ddrwg am bennaeth ei bobl; a *ddinystir*—fel teyrnfradwr.

Adn. 4. *Enaid y diog a ddeisyf, ac ni chaff ddim*] Am na weithia efe i'w ennill yn onest: ond *enaid y diwyd a wneir yn fras*—trwy ei ddiwydrwydd a'i vmdrech ei hun, a bendith Duw ar hyn. Fel hyn y mae yn bod yn gyffredin mewn pethan tymhorol ac ysbrydol.

Adn. 5. *Cas gan y cyfiawn gelwydd*] Y mae yn ymgadw oddiwrt h ei hun, ac yn ei ffaiddio mewn ereill: ond *y drygionus sydd ffaidd*—gan ei gymydogion; ac *a ddaw i gywilydd*—o herwydd ei gelwyddau.

Adn. 6. *Cyfiawnder a geidw y perffaith yn ei ffordd*] Sef yn ffordd y bywyd: ond *annuwioldeb a ddymchwel y pechadur*—i ddinystir a cholledigaeth.

Adn. 7. *Rhyw un a ymfrostia ei fod yn gyfoethog*] Fel y byddo iddo gael ei barclu, ei sawrhan, ac ymddiried yndo gan ereill; ac *heb ddim ganddo*—o'i eiddo ei hun: ac *arall ei fod yn dylawd*—fel y gallo osgoi yr elusau neu y trethi a ddysgwylied oddiwrt h y cyfoethog; a *chyfoethog lawer iddo*—yn ddi-

7 Rhyw un a ymfrostia ei fod yn gyfoethog, ac heb ddim ganddo: ac arall ei fod yn dylawd, a chyfoethog lawer iddo.

8 Iawn am einioes gŵr yw ei ddâ: ond y tylawd ni chlyw gerydd.

9 Goleuni y cyfiawn a lawenha: ond canwyll y drygionus a ddi-foddur.

10 Trwy falchedd yn unig y cyffry cynhen: ond gyda'r pwylllog y mae doethineb.

11 Golud a gasgler trwy oferedd, a leiheir: ond y neb a gasglo a'i law a chwanea.

12 Gobaith a oeder a wanha y galon: ond pren y bywyd yw deisyfiad, pan ddel i ben.

13 Yr hwn a ddirmygo y gair, a ddyfethir: ond yr hwn sydd yn ofni y gorchymyn, a wobrwyr.

arwybod fe allai i'w gymydogion agosaf.

Adn. 8. *Iawn am einioes gŵr yw ei ddâ*] Mewn rhai gwledydd paganaid arferid weithiau gyhuddo y cyfoethog o deyrnfradwriaeth, neu ryw drosedd arall yn haeddu angau, a hyn yn ddisail, i'r dyben i gael arian ganddo am arbed ei einioes; ac fe allai fod yma gyfeiriad at hyn: ond *y tylawd ni chlyw gerydd*—nid ymosodai neb felly arno ef, trwy na feddai ddim arian i'w roddi iddynt.

Adn. 9. *Goleuni y cyfiawn a lawenha*] Bydd i lwyddiant a chysur y cyfiawn beri llawenydd iddo ef ar hyd ei oes: ond *canwyll y drygionus a ddi-foddur*—bydd i'w lwyddiant a'i orfoledd ef ddisflu, fel canwyll yn diffoddi. Ond fe allai mai eu *hikogaeth* hwy a teddylir yma wrth 'oleuni' a 'chanwyll': gwel ar l Bren. xi. 36.

Adn. 10. *Trwy falchedd yn unig y cyffry cynhen*] Lle bynag y bo cynhen rhwng gymydogion, rhwng pleidiau crefyddol, neu rhwng teyrnasoedd, ceir wrth chwilio fod yno falchder, hunanoldeb, neu uchelgais yn gyffredin wrth ei gwraidd hi: ond *gyda'r pwylllog y mae doethineb*—yr hon a'i dysg ef i ochel a chasau cynhen.

Adn. 11. *Golud a gasgler trwy oferedd*] Trwy anghyfiawnder a thwyll; a *leiheir*—am nad yw bendith Duw arno; ac am y bydd i'r un duedd lygredig ag a duedda ddynion i gasglu golud trwy oferedd, eu tueddau hefyd i'w wario ef mewn oferedd: ond *y neb a gasglo a'i law*—trwy ddiwydrwydd a llafur onest ei ddwyllaw; a *chwanea*—trwy fod bendith y nef arno.

Adn. 12. *Gobaith a oeder a wanha y galon*] Pan fyddo dyn yn gobethio neu yn dysgwyl yn awyddus am ryw ddaioni, ac yntau yn cael ei oedi, y mae calon y dyn hwn yn cael ei gwanhau trwy yr oediad, fel pe byddai mewn afiechyd: ond *pren y bywyd yw deisyfiad, pan ddel i ben*—y mae cael yr hyn a ddys-

14 Cyfraith y doeth *sydd* ffynnon bywyd, i gilio oddiwrth faglau angau.

15 Deall da a ddyry ras: ond ffordd troseddwy'r *sydd* galed.

16 Pob call a wna *bethau* trwy wybodaeth: ond yr ynfyd addengys ynfydrwydd.

17 Cened annuwiol a syrth i ddyrgioni: ond cened ffyddlon *sydd* iechyd.

18 Tylodi a gwaradwydd *fydd* i'r hwn a wrthodo addysg: ond yr hwn a gadwo gerydd, a anrhyddeddi.

19 Dymuniad wedi ei gyflawni, *sydd* felys gan yr enaid: ond ffaidd

gan ynfydion gilio oddiwrth ddyrgioni.

20 Yr hwn a rodia gyda doethion, fydd doeth: ond yr hwn *sydd* gyfaill i ynfydion, a gystuddir.

21 Drygyfyd a erlyn bechaduriaid: ond daioni a delir i'r rhai cyfiawn.

22 Y *gŵr* daionus a âd etifeddi-iaeth i feibion ei feibion: a golud y pechadur a roddwyd i gadw i'r cyfiawn.

23 Llawer o ymborth *sydd* yn maes y tylodion: ond y mae a ddi-nystrir o eisiau barn.

24 Yr hwn a arbedo y wialen, *sydd* yn casâu ei fab: ond yr hwn

gwylir yn bywiocâu ac yn sirioli y corff a'r meddwl.

Adn. 13. *Yr hwn a ddirmygo y gair*] Sef gair Duw, yn y darlenniad neu y pregethiad o heno; a *ddufethir*—am fod hynny yr un peth a dirmygu Duw ei hun: *ond yr hwn sydd yn ofni y gorchymyn*—yn ei barchu ac yn ufyddhau iddo; a *wobrwyir*—Hebr., 'a gaiff heddwch neu ddiogelwch.'

Adn. 14. *Cyfraith y doeth*] Sef ei athrawiaeth, ei addysgiadau, a'i gynghorion doeth; neu ynte gair Duw, yr hwn yw 'cyfraith y doeth'; *sydd ffynnon bywyd*—yn anafion allan ffyrdiau adfywiol ac iachusol i'r enaid sychedig; i *gilio oddiwrth faglau angau*—i'w addysgu a'i alluogi i gilio oddiwrth bechod, yr hwn *sydd* yn tywys i angau.

Adn. 15. *Deall da a ddyry ras*] Saes., 'a ddyry ffafr'; hynny yw, a wna ddyrn yn gymeradwy yn ngolwg Duw a dynion: *ond ffordd troseddwy'r sydd galed*—Hebr., 'sydd arw,' fel y cyfieithir y gair yn Deut. xxi. 4: y mae yn atgas yn ngolwg Duw a dynion da, fel y mae ffyrdd geirwon a charegog yn ngolwg yr ymdeithydd. Gellir dywedyd hefyd ei bod yn *galed* i'r troseddwy'r yn y byd hwn, a bydd yn galed iawn iddynt yn y diwedd. Y mae y rhan fwyaf o bechaduriaid yn cymeryd mwy o *boen a thrasserth* i ddamuio eu heneidiau, nag a fyddai raid iddynt i'w haehub hwynt: y maent yn treulio y nos a'r dydd i hynny, ac yn gwario eu cysur a'u hanrhydedd, eu hiechyd, eu nerth, a'u meddiannau, ïe, eu cyrff a'u heneidiau!

Adn. 16. *Pob call a wna bethau trwy wybodaeth*] Efe a ystyrir yn mlaenllaw pa beth a ddylai ei wneyd, a pha sut i'w wneyd yn y modd goraf: *ond yr ynfyd a ddenys ynfydrwydd*—yn y weithred a wna, a thrwy y modd y gweithreda.

Adn. 17. *Cened annuwiol*] Neu anffyddlon i'r ymddriediad a osodwyd ynddo; a *syrth i ddyrgioni*—a fradycha ei frenin a'i wlad i ddwylaw y gelynyion: *ond cened ffyddlon sydd iechyd*—a bair waredigaeth a diogelwch i'r deyrnas.

Adn. 18. *Tylodi a gwaradwydd a fydd i'r*

hwn a wrthodo addysg] Trwy ba un y gall-asai yntau, fel ereill, gyraedd cyfoeth ac anrhydedd: *ond yr hwn a gadwo gerydd*—a'i derbynio yn garedig, ac a ymlasă trwyddo; a *anrhydeddir*—â chyfoeth, ac â pharch gan bawb.

Adn. 19. *Dymuniad wedi ei gyflawni, sydd felys gan yr enaid*] Gwel ar adn. 12: *ond ffaidd gan ynfydion gilio oddiwrth ddyrgioni*—am ei fod yn gydnaws â'u tuedd lygr-edig hwy.

Adn. 20. *Yr hwn a rodia gyda doethion, fydd doeth*] Am y dysga efe ddoethineb a daioni oddiwrth eu cynghorion a'u siamplau da hwy: *ond yr hwn sydd gyfaill i ynfydion*—ac a'u dylno hwy yn eu hynfydrwydd a'u drygioni; a *gystuddir*—Saes., 'a ddystrywir,' yn ei gorff a'i enaid.

Adn. 21. *Drygyfyd a erlyn bechaduriaid*] Y drwg o gosp, yn gyfatebol i ddrwg yn pechod: *ond daioni a delir i'r rhai cyfiawn*—yn y byd hwn a'r nesaf.

Adn. 22. *Y gŵr daionus*] Diwyd, gonest, a gofalus: a *âd etifeddi-iaeth i feibion ei feibion*—bydd bendith Duw ar ei eiddo, yr hwn a barha yn ei deulu ef dros lawer o genedlaethau: a *golud y pechadur*—yr hwn a gyrhaeddodd efe trwy anonestrwydd; a *roddwyd i gadw i'r cyfiawn*—a drosglwyddir oddiwrth ei deulu ef trwy drefnriad rhagluniaeth, ac a roddir i ereill yn wobr am eu cyfiawnder.

Adn. 23. *Llawer o ymborth sydd yn maes y tylodion*] Er nad yw eu maes ond bychan, eto, trwy ei lafurio yn dda, a bendith Duw arno, y mae y tylodion yn fynych yn codi digon o fwyd arno i gynal eu teulu: *ond y mae a ddi-nystrir o eisiau barn*—neu gall-driniaeth; hynny yw, y mae ereill, mewn tyddyn llawer helaethach, yn methu cynal eu teulu o ddiffyg iawn-farn, gofal, diwydrwydd, a bendith Duw ar eu heiddo.

Adn. 24. *Yr hwn a arbedo y wialen*] Oddiwrth gefn ei fab pan y byddo yn ei haeddu; *sydd yn casâu ei fab*—mewn effaith, trwy ormod tynerwch tuag ato: *ond yr hwn a'i câr ef*—ac a chwennych wneyd iddo yr hyn *sydd* oraf er ei les; *a'i cerydda mewn*

a'i câr ef, a'i cerydda mewn amser.

25 Y cyfiawn a fwyty hyd oni ddigoner ei enaid: ond bol yr annwoliolion fydd mewn eisiau.

PENNOD XIV.

GWRAIG ddoeth a adeilada ei thy: ond y ffolog a'i tyn ef i lawr â'i dwylaw.

2 Yr hwn sydd yn rhodio yn ei unionder, sydd yn ofni yr Arglwydd; a'r hwn sydd gyndyn yn ei ffyrdd, sydd yn ei ddirmygu ef.

3 Yn ngenau y ffol y mae gwialen balchder: ond gwefusau y doethion a'u ceidw hwynt.

amser—cyn iddo ymgaedu mewn drygioni. Dywed *Plutarch* fod cyfraith gan yr ben *Lacedemoniaid* yn awdurdodi dyn i geryddu plentyn un arall, os gwelai efe ef yn gwneyd ar fai; ac os achwynai y plentyn arno ef wrth ei dad, yr ystyrir yn fai yn y tad os na wna iantau ei geryddu ef eilwaith am achwyn felly.

Adn. 25. *Y cyfiawn a fwyty hyd oni ddigoner ei enaid*] Hyn yw, bydd ganddo ddigon i'w fwyta; ac efe a'i bwyty hyd ddigonedd, heb ei arbed trwy gybydd-dod, na'i wastraffu trwy lythineb: *ond bol yr annwoliolion fydd mewn eisiau*—o herwydd eu diogi neu eu gwastraff.

PEN. XIV. Adn. 1. *Gwraig ddoeth a adeilada ei thy*] Trwy ei gofal, ei chyntildeb, a'i diwydrwydd, hi a wella amgylchiadau ei thŷ, o ran ymorth, dillad, dodrefn, a chysuron teuluaid: *ond y ffolog a'i tyn ef i lawr â'i dwylaw*—trwy ei diogi, ei diofalwch, a'i gwastraff, hi a ddyfetha gysur ei theulu, a hyn mor effeithiol a phe byddai iddi ddefnyddio ei dwylaw i ddystrywio.

Adn. 2. *Yr hwn sydd yn rhodio yn ei unionder*] Yn ol rheol uniawn gair Duw; *sydd yn ofni yr Arglwydd*—sydd yn ei barclhu, ei garu, a'i anrhydeddu et: *a'r hwn sydd gyndyn yn ei ffyrdd*—yn ei ffyrdd annwoliol ei hun; *sydd yn ei ddirmygu ef*—o ran awdurdod ei orchymynion a'i fgythion.

Adn. 3. *Yn ngenau y ffol y mae gwialen balchder*] Ei falchder a bair iddo lefaru geiriau pigog a thrahaus am ereill; neu, y mae efe trwy ei dafod affywdraethus yn dwyn arno ei hun yn fynyh y cerydd ag y mae ei falchder yn ei haeddu: *ond gwefusau y doethion a'u ceidw hwynt*—rhag y wialen hōno. Y mae y dyn doeth yn ofalus rhag dywedyd dim i ddirfrio na digio neb, ac felly cedwir ef rhag cael ei ddirfrio gan ereill.

Adn. 4. *Lle nid oes ychain, glân yw y preseb*] O angenrheidrwydd: *ond llawer o gnwd sydd yn dyfod trwy nerth yr ŷch*—trwy rin yr hyn a fwria efe oddiwrtho, neu trwy ei wasanaeth yn aredig. Y meddwl yw,

4 Lle nid oes ychain, glân yw y preseb: ond llawer o gnwd sydd yn dyfod trwy nerth yr ŷch.

5 Tyst ffyddlon ni ddywed gelwydd: ond gau dyst a draetha gelwyddau.

6 Y gwatwarwr a gais ddoethineb, ac nis caiff: ond gwybodaeth sydd hawdd i'r deallus.

7 Dos ymaith oddiwrth ŵr ffol, pan wpech nad oes ganddo wefusau gwybodaeth.

8 Doethineb y call yw deall ei ffordd ei hun: ond ffolineb y ffylliaid yw twyll.

9 Y ffylliaid a ymhyfyrdant mewn camwedd: ond yn mhllith y rhai uniawn y mae ewyllys da.

fod yn well cael beudy aflan oddiwrth lawer o ychain, na chael preseb glân hebddynt hwy.

Adn. 5. *Tyst ffyddlon*] Mewn llys gwladol, ni ddywed gelwydd—gymaint ag un, i ryddhau yr enog na chondemnio y diniwed: *ond gau dyst a draetha gelwyddau*—lawer o honnynt, pan fyddo hyny o ryw fantais iddo ef.

Adn. 6. *Y gwatwarwr*] Neu yr 'anffyddiwr,' yr hwn sydd yn gwatwar crefydd a'r holl ddatguddiad dyfod; *a gais ddoethineb*—trwy oleuni natur a nerth rheswm; *ac nis caiff*—am nad yw yn ei cheisio yn yr iawn le, sef yn ngair Duw, a thry dydsgeidiaeth yr Ysbryd Glân; 'canys yr Arglwydd sydd yn rhoi doethineb: allan o'i enau ef y mae gwybodaeth a deall yn dyfod,' pen. ii. 6: *ond gwybodaeth*—obethau rhagluniaethol, ysbrydol, ac achubol; *sydd hawdd i'r deallus*—i'r neb sydd yn deall ei angen am wybodaeth, a'r fan lle y mae i'w chael, ac yn ei cheisio yno. Eithr y LXX a'i darllenant, 'Ti a geisi ddoethineb yn mhllith dynion drwg, ac nis cei: ond synwyr da a geir yn hawdd yn mysg gwŷr deallus.'

Adn. 7. *Dos ymaith oddiwrth ŵr ffol*] Heb yngyfeillachu âg ef, na gwando arno; *pan wpech nad oes ganddo wefusau gwybodaeth*—nad oes ganddo wybodaeth fuddiol i'w thraethu, neu pan y dechreuo lefaru yn ffol neu annwoliol.

Adn. 8. *Doethineb y call yw deall ei ffordd ei hun*] Sef ffordd ei ddyledsyyddau ei hun, heb ymyrath â materion rhai ereill: *ond ffolineb y ffylliaid yw twyll*—sef eu twyllo eu hunain ac ereill. Y LXX a'i darllenant, 'Doethineb y call a'i cyfarwyddau yn ei ffordd: ond ffolineb yr anngball a'i camgymera hi.'

Adn. 9. *Y ffylliaid a ymhyfyrdant mewn camwedd*] A'i carant ef er ei fwyn ei hun, neu a waant yn ysgrafn o niweidio a drygu ereill: *ond yn mhllith y rhai uniawn y mae ewyllys da*—tuag at ereill; neu, y rhai uniawn a ymhyfyrdant mewn gwneyd daioni i ereill.

Adn. 10. *Y galon sydd yn gwybod chwerverder ei henaid ei hun*] Nid oes neb ond y dyn

10 Y galon sydd yn gwybod chwerwder ei henaid ei hun : a'r dyeithr ni bydd gyfranog o'i llawenydd hi.

11 Tŷ yr annwoliôn a ddinystri-ir : ond pabell y rhai uniawn a fflodeua.

12 Y mae ffordd sydd uniawn yn ngolwg dyn : ond ei diwedd hi yw ffyrdd angan.

13 Ie, wrth chwerthin y bydd blin ar y galon ; a diwedd y llawenydd hwnw yw tristwch.

14 Y gwrthysig o galon a gaiff ddigon o'i ffyrdd ei hun : ond y gŵr daionus a gilia oddiwrtho ef.

15 Yr ehud a goelia bob gair : a'r call a ddeil ar ei gamrau.

16 Y doeth sydd yn ofni, ac yn cilio oddiwrth ddrvgioni : ond y ffol sydd ffrom a hyderus.

17 Gŵr digllon a wna ffolineb : a chas yw y gŵr dichellgar.

18 Y rhai ehud a etifeddant ffolineb : ond y rhai call a goronir â gwybodaeth.

19 Y rhai drygionus a ymostyngant gerbron y daionus : a'r annwliôn yn mhyrth y cyfiawn.

20 Y tylawd a gasêir, iê, gan ei gymydog ei hun : ond llawer fydd yn caru y cyfoethog.

ei hun a wŷr am ei holl ofidiau ei hun : a'r dyeithr ni bydd gyfranog o'i llawenydd hi—wedi yr elo y gofidiau hyny heibio. Y meddwl yw, nad oes neb ond y dyn ei hun yn gwybod yn iawn am lawenydd ei enaid, mwy nag am ei chwerwder, er fod arwyddion o'r naill a'r llall i'w canfod gan ereill yn ei wedd a'i ysgogiadau.

Adn. 11. *Tŷ yr annwoliôn a ddinystri-ir*] O ran cysur a pharhad y teulu, am fod mældith yr Arglwydd arno : *ond pabell y rhai uniawn a fflodeua*—am fod ei fendith ef yn eu trigfa hwy : gwel ar pen. iii. 33.

Adn. 12. *Y mae ffordd sydd uniawn yn ngolwg dyn*] Y mae llawer o arferion *drwg* yn ymddangos i ddynion fel yn *dda*, am eu bod yn cael hyfrydych presenol ynddynt, neu am nad ydynt wedi cymeryd y drafferth o'u chwilio a'u profi yn ngwyneb gair Duw : *ond ei diwedd hi yw ffyrdd angau*—bydd i'r canlyniad o honynt ddangos eu bod yn ffyrdd pechadurus a dinystriol. Cynwysa y 'ffordd' nechod bob gau-grefydd, penboethini, ac erledigaeth grefyddol, lle 'y tybia pwy bynag a'ch lladdo, ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw,' Ioan xvi. 2.

Adn. 13. *Ie, wrth chwerthin y bydd blin ar y galon*] Ni chaffir yr annwliôn yn llawenydd yn y byd hwn, heb fod ynddo gymysgedd o ofid ; a *diwedd y llawenydd hwnw yw tristwch*—yn y byd a ddaw, heb ddim cymysgedd o lawenydd. Dywedir am y *Milwriad Gardiner*, yr hwn, cyn ei drôedigaeth, a elwid gan ei gyfeillion yn 'oferddyn dedwydd,' ei fod ef yn nghanol ei chwerthiniaid a'i ddirgrifwch annwliôn yn dyoddef gymaint oddiwrth gnofeydd cydwybod enog, fel, ar ddyfodiad ei i'r ystafell, yr ocheneidiai efe ynddo ei hun, gan ddywedyd, 'O na bawo i y ci yna!'

Adn. 14. *Y gwrthysig o galon*] Saes., 'y gwrthgilyier yn ei galon,' yr hwn a fyddo wedi cilio oddiwrth Dduw o ran ei serchiadau mewnol, er nad o ran ei broffes allanol ; a *gaiff ddigon o'i ffyrdd ei hun*—pan welo na throath hwy allan er daioni iddo ; neu, yn ol y Saesonaeg, 'a lenwir â'i ffyrdd ei hun,' sef â ffyrwyth ei ffyrdd, neu gospedigaeth ei bechgedau : *ond y gŵr daionus a gilia oddiwrtho*

ef—rhag cael ei lygru ganddo. Y Saesonaeg yw, 'a gŵr daionus a foddlonir o hono ei hun,' sef 'oddiwrth dymher dduwiol ei galon ei hun.'—BENSON. 'Efe a gaiff dystiolaeth ei gydwybod ei hun, mai mewn synlrywydd a phurdeb duwiol, nid mewn doethineb crawdol, ond trwy ras Duw, yr ymddygodd efo yn y byd.'—CLARKE. 'A gŵr daionus a gaiff ddigon o'i ffyrdd yntau.'—HOLDEN. 'A lenwir o'r hyn sydd 'goruwch iddo ei hun,' sef o'r gras sydd yn Nghrist.'—MONTANUS.

Adn. 15. *Yr ehud*] Yr 'hawdd ei hudo,' sef yr ynyfyd ; a *goelia bob gair*—a ddyweder wrtho, a hyny heb chwilio a oes sail iddo ai peidio : *ond y call a ddeil ar ei gamrau*—ar ei gamrau ei hun, pa le i roddi ei droed i lawr, neu pa beth i'w goelio ; neu ynte ar gamrau neu ysgogiadau y neb a fyddo am ei dwyllo â chwedlau disail.

Adn. 16. *Y doeth sydd yn ofni*] Pan glywo am farnedigaethau Duw ar y ddaear ; *ac yn cilio oddiwrth ddrvgioni*—yr hwn yw yr aches o honynt : *ond y ffol sydd ffrom*—neu ddirg wrth Dduw o'u herwydd ; a *hyderus*—neu ryfygus yn ei ddrvgioni fel o'r blaen.

Adn. 17. *Gŵr digllon*] Saes., 'yr hwn a ymddigia yn fuan,' neu, fel y mae gan y LXX, 'gŵr byrbwyll ;' a *wna ffolineb*—bydd i'w nwydau a'i dymherau poethion beri iddo ddywedyd a gwneyd yr hyn a bair gwyilydd iddo ei hun, a gofid i ereill : *a chas yw y gŵr dichellgar*—yr hwn a guddia ei ddirgofiant yn ei fywces ei hun hyd oni chaffo well cyfleusdra i ddial, heb dori allan yn filam ar unwaith fel y llall.

Adn. 18. *Y rhai ehud*] Gwel ar adn. 15 ; a *etifeddant ffolineb*—dyna fydd eu rhan a'u betifeddiaeth hwy : *ond y rhai call a goronir â gwybodaeth*—â phob gwybodaeth angenrheidiol gogyfer â'r byd hwn a'r nesaf.

Adn. 19. *Y rhai drygionus a ymostyngant gerbron y daionus*] I ofyn am elusen ganddynt : *a'r annwliôn yn mhyrth y cyfiawn*—i ofyn am eu fflar.

Adn. 20. *Y tylawd a gasêir, iê, gan ei gymydog ei hun*] Yr hwn a ddylai ei garu a'i gynorthwyo ef : *ond llawer fydd yn caru y cyfoethog*—â rhith o gariad o leiaf, er mwyn

21 A ddirmygo ei gymydog, sydd yn pechu : ond y trugarog wrth y tylawd, gwyn ei fyd ef.

22 Onid ydyw y rhai a ddychymygant ddrwg yn cyfeiliorni? eithr trugaredd a gwirionedd a fydd i'r sawl a ddychymygant ddaioni.

23 Yn mhob llafur y mae elw : ond o eiriau gwefusau nid oes dim ond tylodi.

24 Coron y doethion yw eu cyfoeth : ond ffolineb y ffyliaid sydd ffolineb.

25 Tyst fyddlon a weryd eneidiau : ond y twyllodrus a ddywed gelwyddau.

26 Yn ofn yr Arglwydd y mae gobaiith cadarn : ac i'w blant ef y bydd noddfa.

27 Ofn yr Arglwydd yw ffynnon y bywyd, i ddianc rhag maglau angau.

28 Mewn amlder y bobl y mae anrhydedd y brenin : ac o ddiffyg pobl y dinystrir y tywysog.

29 Y diog i ddigofaint sydd yn llawn o synwyr : ond y digllon ei ysbryd a ddyrchafu ynfydrwydd.

30 Calon iach yw bywyd y cnawd : ond cenfgen a bydra yr esgyrn.

31 Y neb a orthryma y tylawd, a gywilyddia ei Greawdydd : ond y neb a drugarhao wrth yr anghenus, a'i hanrhydedda ef.

32 Y drygionus a yrir ymaith yn ei ddrygioni : ond y cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw.

33 Doethineb sydd yn gorphwys

cael bod yn ei flafur a'i gymeradwyaeth.

Adn. 21. *A ddirmygo ei gymydog*] Am ei fod yn dylawd felly ; *sydd yn pechu*—nid yn unig yn erbyn ei gymydog, ond yn erbyn Duw hefyd, ac am hynny a go-pir : *ond y trugarog wrth y tylawd*—yr hwn a gyfrano iddo yn ei angen ; *gwyn ei fyd ef*—cauys ei wobr a fydd mawr, a phlentyn fydd i'r Goruchaf, Luc vi. 35.

Adn. 22. *Onid ydyw y rhai a ddychymygant ddrwg*] I'w cymydogion ; *yn cyfeiliorni*—o'r ffordd ag y dylent ei rhodio, gan bechu yn erbyn Duw? *Diau eu bod. Eithr trugaredd a gwirionedd*—sef cyflawniad fyddlon o holl addewidion trugarog Duw ; *a fydd i'r sawl a ddychymygant ddaioni*—i'w cymydog tylawd.

Adn. 23. *Yn mhob llafur y mae elw*] Yn gyfatebol i'r diwydrwydd a'r deheurwydd a arferir wrtho : *ond o eiriau gwefusau*—sef geiriau na fyddont yn dyliso o galon gywir, neu eiriau segur a gwageddus ; *nid oes dim ond tylodi*—yn enwedig os bydd y dyn yn bragalddian yn lle gweithio.

Adn. 24. *Coron y doethion yw eu cyfoeth*] Trwy yr iawn ddefnyddiaid o ba un y chwanegeant eu parch a'u hanrhydedd : *ond ffolineb y ffyliaid sydd ffolineb*—neu, yn ol y Galdeae, 'addurn y ffyliaid yw ffolineb.' Y meddwl yw, y bydd i gyfoeth y ffyliaid, yn lle bod yn goron neu addurn iddynt hwy, eu gyru i ddangos mwy fyth o ffolineb.

Adn. 25. *Tyst fyddlon a weryd eneidiau*] Nael a aclub tywydau y rhai dienog, pan yn cael en camgybuddo mewn llys barn : *ond y twyllodrus a ddywed gelwyddau*—trwy y rhai weithiau y dyfethir y diniwed.

Adn. 26. *Yn ofn yr Arglwydd y mae gobaiith cadarn*] Y mae gan y rhai sydd yn gwir otmi Duw, sail gadarn i obeithio am ei drugaredd ef ; *ac i'w blant ef y bydd noddfa*—rhag y digofaint a ddisgyn ar ei elynion ef.

Adn. 27. *Ofn yr Arglwydd yw ffynnon y bywyd*] O'r hon y dylifa bywyd o ras ac iachawd-wriaeth i'r enaid ; *i ddianc rhag maglau*

angau—i alluogi y neb sydd yn ofni Duw i ddianc rhag pechod, yr hwn sydd yn tywys i angau.

Adn. 28. *Mewn amlder y bobl y mae anrhydedd y brenin*] Y mae ei anrhydedd ef yn ymddibynu ar luosogrwydd, grym, a chyfoeth ei ddeiliaid ; *ac o ddiffyg pobl y dinystrir y tywysog*—trwy na fedd ddeiliaid i wneyd i fyny ei gyllid, neu filwyr i'w amddiffyn rhag ei elynion.

Adn. 29. *Y diog i ddigofaint*] Yr hwyr-frydig i ddigofaint, yr hwn nad yw yn hawdd ei ddigio ; *sydd yn llawn o synwyr*—yr hwn a ddanghosir ganddo yn eglur trwy ei bwyll a'i arafwch : *ond y digllon ei ysbryd*—yr hwn sydd yn barod i ymwylltio mewn tymber ddrwg ar y cythruddiad lleaf ; *a ddyrchafu ynfydrwydd*—i olwg pawb o'i ddeutu : gwel ar adn. 17.

Adn. 30. *Calon iach*] Rydd oddiwrth cenfgen, digofaint, a thymheran drwg ; *yw bywyd y cnawd*—a duedda yn fawr at iochyd corfflorol a hir-hoedledd ; *ond cenfgen*—wrth lwyddiant on arall, a *bydra yr esgyrn*—a wenwyna y meddwl, a ddryga yr iechyd, ac a ddfa y rhanau cryfaf o'r corff.

Adn. 31. *Y neb a orthryma y tylawd*] Trwy attal oddiwrtho ei hawliau cyfiawn, neu ofyn ganddo fwy nag sydd ddyledus oddiwrtho ; *a gywilyddia ei Greawdydd*—fel pe buasai efe wedi ei wneuthur ef o waelach defnydd na'r cyfoethog : *ond y neb a drugarhao wrth yr anghenus*—gan dosturio wrtho, ei barchu, a'i gynorthwyo ; *a'i hanrhydedda ef*—sef ei Greawdydd, trwy ufyddhau i'w orchymynion.

Adn. 32. *Y drygionus a yrir ymaith*] Gyrrir ef ymaith o'r byd, oddiwrth ei feddianau, ei bertlynasau, a moddion gras ; a gyrrir ef i'r bedd o ran ei gorff, ac i uffern o ran ei enaid. Ni fydd ef yn foddlon i fyned, eithr gyrrir ef. *Yn ei ddrygioni*—nid yn unig am ei ddrygioni, ond yn ei ddrygioni, yr hwn a fydd fel gwsg o dan am dano. Gyrrir ef ymaith yn ei holl ddrygioni—ei eiriau segur, ei lwon

yn nghalon y call: ond *yr hyn sydd* yn nghalon ffyliaid a wybyddir.

34 Cyfiawnder a ddyrchafa genedl: ond cywilydd pobloedd *yw* pechod.

35 Ewyllys da y brenin *sydd* ar ei was synwryol: ond ei ddigofaint a fydd ar was gwaradwyddus.

PENNOD XV.

ATEB arafaidd a ddettry lid: ond gair garw a gyffry ddigofaint.

2 Tafod y synwryol a draetha wybodaeth yn dda: ond genau y ffyliaid a dywallt ffolineb.

3 Yn mhob lle y mae llygaid yr

a'i regfeydd, ei bechodau gweithredol a gommeddol. Dyosgir efo bob peth ond ei ddrygioni: gedy ei feddiannau ar ol i ereill, a chaiff ei ddrygioni yn unig iddo ei hun. *Ond y cyfiawn a obeithia*—am wlad well, cwmni gwell, a chyflwr gwell. Bydd iddo yntau gael ei ddyosg o'r pethau a welir, fel y llall; ond bydd ei *obaith* ganddo, yn ngyha'di *ffydd*, ei *gariad*, a'i *regfydd*: 'a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt,' Dat. xiv. 13. *Pan fyddo yn marw*—pan fydd ei *dafod* wedi tewi, ei *lygaid* wedi pylu, a'i *glustiau* wedi byddaru, bydd ei *obaith* yn fyw; ac mewn moment ar ol iddo huno yma mewn *gobaith*, efe a ddefnyr tuhwnt i afon angau mewn tragwyddol *fwynhad*.

Adn. 33. *Doethineb sydd yn gorphwys yn nghalon y call*] Fel trysor cuddiedig, yn barod i'w ddwyn allan at ei wasanaeth ef pan fyddo achos am dano: *ond yr hyn sydd yn nghalon ffyliaid a wybyddir*—yn y fan; neu gwybyddir mai ffolineb yn unig ydyw: gwel ar pen. xii. 23.

Adn. 34. *Cyfiawnder a ddyrchafa genedl*] Yn ngolwg cenbedloedd ereill, ac uwchlaw iddynt oll; hyny yw, bydd i gyfiawn weinyddiad cyfreithiau uniawn, lle y byddo crefydd yn cael ei pharchu a Duw yn cael ei addoli, ddyrchafu y genedl hōno mewn llwyddiant a dedwyddwch uwchlaw pob cenedl arall lle ni byddo hyny: ac y mae hyn yn cael ei wirio yn hynod yn ein gwlad ni. *Ond cywilydd pobloedd yw pechod*—y mae yn dwyn gwarth, afwydd, a dinystr ar bob cenedl a'i coleddo. Y mae y LXX, y *Syriaeg*, a'r *Arabaeg* yn ei ddarllen, 'Ond pechod a leiha y llythau,' a *Clarke* a'i cyfieitha, 'A thrugaredd sydd bech-offrwm dros y bobl'; hyny yw, fel y sylwa efe, 'y mae *tuedd drugarog* mewn cenedl yn foddhaol yn ngolwg Daw fel pech-offrwm.'

Adn. 35. *Ewyllys da y brenin sydd ar ei was synwryol*] Bydd i'r brenin barchu a dyrchafu y rhai hyny o weinidogion y deyrnas a ymddygant yn ddoeth, cyfiawn, a rhinweddol: *ond ei ddigofaint a fydd ar was gwaradwyddus*—efe a ddiarddel o'i lys y gweinidog-

Arglwydd, yn canfod y drygionus a'r daionus.

4 Pren y bywyd *yw* tafod iach: ond trawsedd ynddo *sydd* rwyg yn yr ysbryd.

5 Dyn ffol a ddiystyra addysg ei dad: ond y neb a ddyoddefo gerydd, sydd gall.

6 Yn nhŷ y cyfiawn y *bydd* mawr gyfoeth: ond am olud yr annuwiol y mae trallod.

7 Gwefusan y doethion a wasgarant wybodaeth: ond calon y ffyliaid ni wna felly.

8 Aberth yr annuwiol *sydd* ffaidd gan yr Arglwydd: ond gweddi yr uniawn *sydd* hoffganddo.

ion anffyddlon a thwyllodrus hyny, y rhai a waradwyddant eu swydd, eu brenin, a'r llywodraeth.

PEN. XV. Adn. 1. *Ateb arafaidd a ddettry lid*] A'i try yn ol, neu a'i difodda ef: *ond gair garw*—neu atebiad dirmygus, sarug, a phigog; *a gyffry ddigofaint*—a gynhyrfa ddyd lliidiog i'wy o gynddaredd.

Adn. 2. *Tafod y synwryol a draetha wybodaeth yn dda*] Gan ystyried yn ofalus pa beth i'w lefaru, pa bryd, pa fodd, ac wrth bwy: *ond genau y ffyliaid a dywallt ffolineb*—yn helaeth a pharhaus, fel y tywallta ffynnon ddyfroedd.

Adn. 3. *Yn mhob lle y mae llygaid yr Arglwydd*] Fel Duw hollbresenol; *yn canfod y drygionus a'r daionus*—yn nghyda'u holl weithredoedd, fel Duw hollwybodol: gwel ar Salm cxxxix. 2, &c.

Adn. 4. *Pren y bywyd yw tafod iach*] Yr hwn a lefara bob amser 'er adeiladaeth, a chynghor, a chysur,' 1 Cor. xiv. 3: *ond trawsedd ynddo*—sef ymadroddion gŵyrgam, twyllodrus, a llygredig; *sydd rwyg yn yr ysbryd*—sydd yn archolli ac yn poenydio y lefarwr a'r gwrandawyr.

Adn. 5. *Dyn ffol a ddiystyra addysg ei dad*] Heb uffyddhau i'r hwn sydd yn ei garu, ac yn meddu awdurdod drosto: *ond y neb a ddyoddefo gerydd*—haeddiannol, ac a ddiwygio trwy y cerydd hwnw; *sydd gall*—sydd yn ymddwyn yn gall, ac yn chwanegu at ei gallineb.

Adn. 6. *Yn nhŷ y cyfiawn y bydd mawr gyfoeth*] Trwy fendith Duw ar ei feddiannau, y rhai a barheir i'w hilogaeth ef, pen. xiii. 22: *ond am olud yr annuwiol y mae trallod*—o herwydd ei golli, neu rhag ofn ei golli.

Adn. 7. *Gwefusan y doethion a wasgarant wybodaeth*] Trwy yr addysg a roddant i bawb o'u hamgylch: *ond calon y ffyliaid ni wna felly*—trwy na feddant wybodaeth fuddiol i'w gwasgaru, na ymuniad i wneyd daioni i ereill.

Adn. 8. *Aberth yr annuwiol*] Sef eu gweddiad, a'u cyflawniadau crefyddol hwy;

9 Ffordd yr annuwiol *sydd* ffaidd gan yr Arglwydd: ond efe a gâr y neb a ddyldn gyfiawder.

10 Cerydd *sydd* flin gan y neb a dry oddiar y ffordd: a'r neb a gasao gerydd, a fydd marw.

11 Uffern a dinystr *sydd* gerbron yr Arglwydd: pa faint mwy, calonau plant dynion?

12 Ni châr y gwatwarwr mo y neb a'i ceryddo; ac nid â at y doethion.

13 Calon lawen a wna wyneb siriol: ond trwy ddolur y galon y torir yr ysbryd.

14 Calon y synwrol a ymgais â gwybodaeth: ond genau y ffyliaid a borthir â ffolineb.

15 Holl ddyddiau y cystuddiedig *sydd* flin: ond gwledd wastadol yw calon lawen.

16 Gwell yw ychydig gydag ofn yr Arglwydd, na thrysor mawr a thrallog gydag ef.

17 Gwell yw pryd o ddail lle byddo cariad, nag ŷch pasgedig a chas gydag ef.

18 Gŵr digllon a gyffry gynhen: ond gŵr hwyrfrydig i lid a dyr ymryson.

19 Ffordd y diog *sydd* fel cae drain: ond ffordd yr uniawn *sydd* wastad.

20 Mab doeth a lawenha ei dad: ond dyn ffol a ddiystyra ei fam.

21 Ffolineb *sydd* hyfryd gan yr ynyf: ond gŵr deallus a rodia yn uniawn.

22 Ofer fydd bwriadau lle ni byddo cynghor: ac mewn amlder cynghorwyr y sicrheir *hwyt*.

sydd ffaidd gan yr Arglwydd—am nad ydynt yn deilliau oddiar ffydd a chariad, nac oddiar wir awydd i'w ogoneddu ef: *ond gweddi yr uniawn sydd hoff ganddo*—ac a wrandewir hefyd, am fod eu calon hwy yn uniawn gyda Duw.

Adn. 9. *Ffordd yr annuwiol sydd ffaidd gan yr Arglwydd*] Sef ei feddyliau, ei eiriau, a'i weithredoedd: *ond efe a gâr y neb a ddyldn gyfiawder*—a ymfuchedda yn ol rheol uniawn ei air ef.

Adn. 10. *Cerydd sydd flin gan y neb a dry oddiar y ffordd*] Sef ffordd ei ddyledswyddau: *a'r neb a gasao gerydd*—gan fynyed rhagddo yn rhyfgyus yn ffordd pechod; *a fydd marw*—yn dragywydd, yr hyn sydd yn fwy cosp na'r cerydd a gasêr ganddo.

Adn. 11. *Uffern*] SHEOL, 'y byd anweledig, cartrefle eneidiau dynion hyd fore yr adgyfodiad; 'a dinystr—ABADON, 'gwlad y boen.' Sef y mae rhai yn ei ddarlleu, 'uffern a diafol,' sef y dinystrydd; ac ereill, 'marwolaeth a'r bedd; ' ac ereill, 'y bedd ac uffern.' *Sydd gerbron yr Arglwydd*—sydd hysbys iddo ef, nen yn noeth ac yn agored o'i flaen, Job xxvi. 6. *Pa faint mwy*—hysbys iddo ef, yw *calonau plant dynion*—y drwg a'r da? adn. 3.

Adn. 12. *Ni châr y gwatwarwr mo y neb a'i ceryddo*] Sef y neb a ddywed wrtho am ei feiau a'i berygl, neu a'i rhybyddia mewn cariad; *ac nid â at y doethion*—neu i gymdeithas y duwion, am y gŵyr y bydd iddynt hwy ei geryddu ef fel mater cydwybod.

Adn. 13. *Calon lawen a wna wyneb siriol*] Am y bydd i'r llawenydd mewnol ymddangos yn y wedd allanol: *ond trwy ddolur y galon*—neu y gofid a deimlir oddifeu; *y torir yr ysbryd*—fel ag i daenu prudd-der dros yr holl ddyd.

Adn. 14. *Calon y synwrol a ymgais â gwybodaeth*] A ymgais am fwy o wybodaeth: *ond genau y ffyliaid a borthir â ffolineb*—

dyna yr ymborth a gymerant hwy i mewn, ac a roddant allan. Y mae gwranddo ac adrodd ffolineb megys ymborth blasus iddynt.

Adn. 15. *Holl ddyddiau y cystuddiedig sydd flin*] Fel nas gall efe ymhyfrydu mewn dim na neb, o herwydd ei gystudd, ei boen, a'i dristwch: *ond gwledd wastadol yw calon lawen*—Heb, 'yw calon dda.' Y mae pob peth yn hyfryd a dymunol i'w meddiannydd, bob amser ac yn mhob lle.

Adn. 16. *Gwell yw ychydig*] O gyfoeth y byd hwn; *gydag ofn yr Arglwydd*—neu fwyndad o wir grefydd: *na thrysor mawr*—heb grefydd; *a thrallog gydag ef*—yn tarddu oddiar ofn ei goll, neu oddiar euogryddid cydwybod o herwydd ei gael mewn ffordd anghyfiawn.

Adn. 17. *Gwell yw pryd o ddail lle byddo cariad*] Mewn teulu; *nag ŷch pasgedig, a chas gydag ef*—lle y byddo y teulu yn casâu eu gilydd.

Adn. 18. *Gŵr digllon a gyffry gynhen*] Mewn teulu neu gymydogaeith, neu mewn gwlad ac eglwys, lle yr oedd pawb yn byw yn gyttûn o'r blaen: *ond gŵr hwyrfrydig i ddiog a dyr ymryson*—a'i diffydd ef lle y byddo wedi dechreu.

Adn. 19. *Ffordd y diog sydd fel cae drain*] Sef fel gwrŷch neu berth ddrain, yr hyn y byddo yr anhawdd myned trwyddi neu drosti; hyn yw, pair ei ddiogi iddo ddychymygu fod mil o rwystrau ar ei ffordd: *ond ffordd yr uniawn sydd wastad*—nid yw y dyn da a gweithgar yn gwleud un anhawdsder i wneyd ei ddyledswydd.

Adn. 20. *Mab doeth a lawenha ei dad, &c.*] Gwel ar pen. x. 1.

Adn. 21. *Ffolineb sydd hyfryd gan yr ynyf*] Sef geriaid neu weithredoedd ffol a drygionus: *ond gŵr deallus a rodia yn uniawn*—a ymhyfryda i rodio a bucheddu yn ol rheol uniawn gair Duw.

Adn. 22. *Ofer fydd bwriadau*] Troant

23 Llawenydd fydd i ŵr o herwydd ymadrodd ei enau; ac *O mor dda yw gair yn ei amser!*

24 Ffordd y bywyd sydd fry i'r synwryol, i ochel uffern obry.

25 Yr Arglwydd a ddiwreiddia dŷ y beilchion: ond efe a sicrha derfyn y weddw.

26 Meddyliau yr annuwiol sydd ffaidd gan yr Arglwydd: ond geiriau y glân *ŷnt* beraidd.

27 Y neb a fyddo dra-chwannog i elw, a derfysga ei dŷ: ond y neb a gasao roddion, fydd byw.

28 Calon y cyfiawn a fyfyria i ateb: ond genau y drygionus a dywallt allan ddrwg.

29 Pell *yw* yr Arglwydd oddiwrth

y rhai annuwiol: ond efe a wrendy weddi y cyfiawn.

30 Llewyrch y llygaid a lawenha y galon: *a gair da a frasâ* yr esgryn.

31 Y glust a wrandawo ar gerydd y bywyd, a breswylia yn mhlith y doethion.

32 Y neb a wrthodo addysg, a ddiystyra ei enaid ei hun: ond y neb a wrandawo ar gerydd, a feddianna ddeall.

33 Addysg doethineb *yw* ofn yr Arglwydd; ac o flaen anrhydedd *yr â gostyngedd* rwydd.

PENNOD XVI.

PAROTOAD y galon mewn dyn, ac ymadrodd y tafod, oddiwrth yr Arglwydd y *mae*.

allan yn fynych yn ffaeldd a siomedigaeth; *lle ni byddo cynghor*—lle na byddo rhagystyriaeth neu ymgynghoriad wedi cymeryd lle: *ac mewn amlder cynghorwyr y sicrheir hwynt*—y sicrheir y cyflawniad o'r bwriadau hyn: gwel ar pen. xi. 14.

Adn. 23. *Llawenydd fydd i ŵr o herwydd ymadrodd ei enau*] Wrth weled fod ei gynghor yn ateb dŷben da: *ac O mor dda yw gair yn ei amser*—sef cynghor, rhybydd, neu gyfarwyddyd a rodder cyn iddi fyned yn rhy ddiweddar! Bu gair felly yn foddion filoedd o weithiau i achub corff ac enaid.

Adn. 24. *Ffordd y bywyd sydd fry i'r synwryol*] Y *mae* tyndid enaid y dyn doeth a da tua'r nefoedd yn barhaus, lle y *mae* ei drysor, ei galon, a'i ymarweddiad ef eisioes; *i ochel uffern obry*—sef gwlad yr ail farwol-aeth. Dwy ffordd a osodwyd o'n blaen ni, sef ffordd einioes a ffordd angau; ac y *mae* pob dyn gwir synwryol yn esgyn ar hyd ffordd einioes i'r nefoedd fry, tra y *mae* y pechadur ffol yn disgyn ar hyd ffordd angau i uffern obry.

Adn. 25. *Yr Arglwydd a ddiwreiddia dŷ y beilchion*] Sef eu teuluoedd beilchion ac annuwiol hwy: *ond efe a sicrha derfyn y weddw*—sef ei thŷ, ei thir, a'i theulu, rhag gormes y beilchion hyny.

Adn. 26. *Meddyliau yr annuwiol sydd ffaidd gan yr Arglwydd*] Am eu bod yn feddyliau drwg, aflan, a halogedig: *ond geiriau y glân ŷnt beraidd*—sydd yn arogl i ben beraidd yn ei ffioenau ef, am eu bod yn deilliaw o galon lân a santaidd.

Adn. 27. *Y neb a fyddo dra-chwannog i elw*] Sef y dyn cybyddlyd a thrachwantus, neu yr hwn a 'garo wobwr anghyfiawnder;' *a derfysga ei dŷ*—trwy ei dymher anffoddog, a'i orawdyd am y byd: *ond y neb a gasao roddion*—neu lwgr-wobwrwyon am dyngu andon neu ŵyro barn; *fydd byw*—yn dawel, boddlon, a llwyddiannus.

Adn. 28. *Calon y cyfiawn a fyfyria i ateb*] A ystyria yn bwylog pa atebion sydd oraf a

doethaf i'w rhoddi: *ond genau y drygionus a dywallt allan ddrwg*—sef helaethrwydd o ymadroddion byrbwyll, llygredig, a niweidiol, heb ofalu dim pa ganlyniadau a fydd iddynt.

Adn. 29. *Pell yw yr Arglwydd oddiwrth y rhai annuwiol*] Nid o ran ei hanfod, eithr o ran cymdeithasu â hwynt, ymddigrifo ynddynt, a gwrandao eu gweddiau: *ond efe a wrendy weddi y cyfiawn*—gyda'r parodrwydd mwyaf. Efe a nesâ mewn ffordd o drugaredd at y rhai oll a nesânt ato ef mewn ffordd o ddyledswydd.

Adn. 30. *Llewyrch y llygaid*] Neu edrychiad y llygaid ar brydterthwech anian a chelfyddyd; *a lawenha y galon*—a siroliâ ysbryd dyn: *a gair da*—neu newydd dymunol; *a frasâ yr esgryn*—a duedda yn fawr i gryfhau iechyd y corff.

Adn. 31. *Y glust a wrandawo ar gerydd y bywyd*] Ar gerydd neu addysg a dueddo i fwliau yr enaid; *a breswylia yn mhlith y doethion*—a wneir yn ddoeth, ac a gâr gymdeithas y doethion.

Adn. 32. *Y neb a wrthodo addysg*] Pan ei cynygir iddo gan y doethion, pa un bynag ai mewn ffordd o gerydd neu gynghor: *a ddiystyra ei enaid ei hun*—mewn effaith, trwy ei fod yn gwrthod yr hyn a lesâ ei enaid: *ond y neb a wrandawo ar gerydd*—ac a wellâ ei fuchedd trwy y cerydd hwnw; *a feddianna ddeall*—a gynydda mewn gwymbodaeth a doethineb ysbrydol.

Adn. 33. *Addysg doethineb yw ofn yr Arglwydd*] Gwaith neu ddyben doethineb yw dysgu dynion i ofni yr Arglwydd, a rhodio yn ostyngedig ger ei fron ef: *ac o flaen anrhydedd yr â gostyngedd* rwydd—canys 'pwy bynag a'i dyrchafo ei hun, a ostyngir; a phwy bynag a'i gostyngi ei hun, a ddyrcheffir,' Mat. xxiii. 12.

PEN. XVI. Adn. 1. *Parotoad y galon mewn dyn*] Y *mae* ein cyfeithiad ni o'r adnod hon yn dysgu i ni wirionedd mawr, sef uad ydym ni yn ddiagon o honom ein hunain

2 Holl ffyrdd dyn *ydymt* lân yn ei olwg ei hun: ond yr Arglwydd a bwysa yr ysbrydion.

3 Treigla dy weithredoedd ar yr Arglwydd, a'th feddyliau a safant.

4 Yr Arglwydd a wnaeth bob *peth* er ei fwyn ei hun: a'r annuwiol hefyd erbyn y dydd drwg.

5 Ffiائد gan yr Arglwydd bob dyn uchel galon: *er* maint *fyddo* ei gymhorth, ni bydd dieuog.

i feddwl na dŵwedyd dim ag sydd ddoeth a da; ond fod yn rhaid i Dduw 'weithio yn om ewrlllysio a gweithredu o'i ewrllys da ef,' Phil. ii. 13. Eithr y cyfieithiad llythyrenol o'r Hebraeg, *leadam maarchey leb*, yw, 'Parotoad y galon sydd i dlyn,' neu a berthyn i'r dyn ei hun. *Ac ymadrodd y tofod*—nid yn unig y traethiad o'r hyn ag y bwriada efe ei lefaru, ond y canlyniad o hono: *oddiwrth yr Arglwydd y mae*—yn unig. Gall dyn *ofyn* fel y myno, trwy y defayddiad o'r cyneddffau a roddodd ei Greawdr iddo; ond Duw biai *rhoddi*, neu *beidio* rhoddi, fel y barno efe yn oraf. Yr oedd Balaam wedi parotio ei galon i regi Israel; ond parodd Duw iddo a'i dafod fendithio Israel. Yn yr ystyr hwn y mae yr holl hen gyfieithiadau, a'r rhan gyfwaif o'r beirniaid diweddar, yn deall yr adnod hon.

Adn. 2. *Holl ffyrdd dyn ydymt lân yn ei olwg ei hun*] Y mae anwybodaeth, anystyriaeth, a hunanoldeb dynion yn peri iddynt yn fynych feddwl yn dda am eu gweithredoedd eu hunain, hyd yn nod pan y byddont yn bechadurus: *ond yr Arglwydd a bwysa yr ysbrydion*—y mae ganddo ef wybodaeth mor gywir o galonau dynion, ac o'u tueddiadau a'u gweithredoedd hwynt, ag sydd gan dlyn o'r hyn a bwysa efe mewn clorianau.

Adn. 3. *Treigla dy weithredoedd ar yr Arglwydd*] Fel y treigla dyn ei faich ar ysgwydd un arall, pan y byddo yn rhy drwm iddo ef ei hnn. Ymddried dy holl achosion iddo ef; gwna dy holl weithredoedd gyda golwg ar ei ogoniant ef; ac ymbwysa ar ei ragluniaeth a'i ras ef am gymhorth a llwyddiant. *A'th feddyliau*—dy ddymuniaidau a'th fwriadau daionus, y rhai a barotoaist yn dy galon, adn. 1; *a safant*—cyflawnir hwynt oll, neu dygir hwynt oll i ddiwedd da.

Adn. 4. *Yr Arglwydd a wnaeth bob peth*] Mewn creadigaeth ar y cyntaf, ac a wna bob peth mewn rhagluniaeth yn barhaus; *er ei fwyn ei hun*—er mwyn ei ogoniant ei hun, neu er mwyn dangos ei allu, ei ddoethineb, a'i ddaioni anfeidrol: *a'r annuwiol hefyd erbyn y dydd drwg*—sef dydd digofaint, a datguddiad cyfiawn farn Duw. Ni wnaeth Duw un dyn yn *annuwiol*, na chydabwriad i'w *ddamnio*: yn y gwrthwyneb, efe a'i creodd 'ar ei ddelw ei hun,' Gen. i. 26, 27; ac, fel y dywed Solomon, 'Wele hyn yn uzig a gefais, wneuthur o Dduw dlyn yn *uniawn*,' Preg. vii. 29. Ond gan i dlynion droi yn annuwiol o honynt

6 Trwy drugaredd a gwirionedd y dilëir pechod: a thrwy ofn yr Arglwydd *y mae* ymado oddiwrth ddrwg.

7 Pan fyddo ffyrdd gŵr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd, efe a bair i'w elynion fod yn heddychol âg ef.

8 Gwell *yw* ychydig trwy gyfiawnder, na chnwd mawr trwy gam.

9 Calon dyn a ddychymyg ei ffordd: ond yr Arglwydd a gyfarwydda ei gerddediad ef.

eu hunain, a'u bod yn parhau yn annuwiol yn ngwyneb pob moddion a drefnwyd gan Dduw er eu hiachawdriaeth, efe a fÿn ei ogoneddu yn eu cosp a'u dinystr hwy, yn gystal ag yn iachawdriaeth y duwiolion. Y mae *Holden* yn cyfieithu y darn olaf fel hyn: 'Ie, hyd yn nod yr annuwiol a gynaf efe bob dydd.' Y meddwl yn ol *Schultens* yw, 'fod Duw wedi ffurfio y bydysawd yn y fath ddrwg, nes y mae pob peth ynddo yn meddu ei gysylltiad a'i gyfatebiad priodol: y mae cosp yn cael ei chysylltu mor natrïol â drygioni, ag y cysylltir dedwyddwch a gwobr â santeiddrwydd a rhinwedd.'

Adn. 5. *Ffiائد gan yr Arglwydd bob dyn uchel*] Ac o ganlyniad ni wnaeth efe neb yn falch ac annuwiol felly: *er* maint *fyddo ei gymhorth*—neu ymdrech dynion i'w ryddhau, pen. xi. 21; *ni bydd dieuog*—ni chyfiawnheir ef yn nydd barn a chospedigaeth.

Adn. 6. *Trwy drugaredd a gwirionedd y dilëir pechod*] Neu trwy y cyfammed gras, yn yr hwn y mae trugaredd a gwirionedd yn llewyrchu mor ddysglaer; sef trugaredd a gwirionedd Duw, y rhai sydd yn ymgysgafod ac yn ymgusanu yn nghyffngod Crist, Salm lxxxv. 10. Trwy *drugaredd* Duw yn addaw, a'i *wirionedd* yn cyflawni yr addeiwid hōno, y dilëir ein pechodau ni, wrth i ni nesáu ato ef mewn gwir edifeirwch, gan fwrw ein heneidiau euog trwy ffydd ar ei drugaredd a'i wirionedd ef. *A thrwy ofn yr Arglwydd*—trwy barch mabaidd iddo, ac ofn rhag ei ddiogio ef; *y mae ymado oddiwrth ddrwg*—y cedwir ni rhag gwneud yr hyn sydd ddrwg, neu rhag dychwelyd i'n ffyrdd drwg.

Adn. 7. *Pan fyddo ffyrdd gŵr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd*] Pan y byddo ef yn bucheddu yn gyfiawn a santaidd; *efe a bair i'w elynion fod yn heddychol âg ef*—trwy eu tueddu i garu delw Duw arno, ac i deimlo nad oes ganddynt un achos i'w gasâu ef.

Adn. 8. *Gwell yw ychydig*] O bethau y byd hwn, *trwy gyfiawnder*—wedi eu cryaedd yn onest; *na chnwd mawr trwy gam*—wedi ei gasglu trwy drais, neu ei gadw trwy gybyddod: gwel ar pen. xv. 16.

Adn. 9. *Calon dyn a ddychymyg ei ffordd*] Efe ei hnn a drefna pa lwybr i'w gerdded, pa beth i'w wneyd, neu pa beth i'w ofyn: *ond yr Arglwydd a gyfarwydda ei gerddediad ef*—Duw yn unig biai goruchreoli a threfnu ei amcanion ef: gwel ar pen. i. 1.

10 Ymadrodd Duw sydd yn ngwefusau y brenin: ni wŷra ei enau ef mewn barn.

11 Pwys a chlorianau cywir, yr Arglwydd *a'u piat*: ei waith ef yw holl gerig y gŏd.

12 Ffaiidd yw i frenhinoedd wneuthur annuwioldeb: canys trwy gyfiawnder y cadarnheir yr orsedd.

13 Gwefusau cyfiawn sydd gymeradwy gan frenhinoedd; a'r brenin a gâr a draetho yr uniawn.

14 Digofaint y brenin sydd megys cenad angau; ond gŵr doeth a'i gostega.

15 Yn siriol wynebpryd y brenin y mae bywyd: a'i ewyllys da ef sydd megys cwmwl gwlaw diweddar.

16 Cael doethineb, *O mor well*

yw nag aur coeth! a chael deall, mwy dymunol yw nag arian.

17 Sarn y cyfiawn yw dychwelyd oddiwrth ddrwg: y neb a gadwo ei ffordd, a geidw ei enaid.

18 Balchder sydd yn myned o flaen dinystr: ac uchder ysbryd o flaen cwmp.

19 Gwell yw bod yn ostyngedig gyda'r gostyngedig, na rhanu yr yspail gyda'r beilchion.

20 A drinio fater yn ddoeth, a gaiff ddaioni: a'r neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd, *O gwŷn ei fyd hwnw!*

21 Y doeth ei galon a elwir yn ddeallus; a melysder y gwefusau a chwanega ddysgeidiaeth.

22 Ffynnon y bywyd yw deall i'w

Adn. 10. *Ymadrodd Duw sydd yn ngwefusau y brenin*] Cyfeiria Solomon ond oddid at ei ddwyfol ysbrydolidaeth ei hun: *ni wŷra ei enau ef mewn barn*—o herwdd y doethineb a'r deall a roddasai Duw iddo. Ond gan nad yw y fers sydd yn yr Hebraeg, gall mai yr ystyr yw, '*Bydded ymadrodd Duw yn ngwefusau y brenin; na wŷred ei enau ef mewn barn.*' Yn yr ystyr yma cyfeirir at yr hyn a ddytai pob brenin fod.

Adn. 11. *Pwys a chlorianau cywir, yr Arglwydd a'u piat*] Hyny yw, efe a'u gorchymynodd, Lef. xix. 35, 36: *ei waith ef*—neu ei drefniad a'i osodiad ef fel safon cyfiawnder rhwng gŵr a gŵr: *yw holl gerig y gŏd*—y rhai a gedwid mewn cŏd yn y cysegr, i brofi pwysau y wlad wrthyt: gwel ar pen. xi. 1.

Adn. 12. *Ffaiidd yw i frenhinoedd wneuthur annuwioldeb*] Am y byddai i'w siampl a'u dylanwad hwy lygru a niweidio ereill yn ddirfawr: *canys trwy gyfiawnder y cadarnheir yr orsedd*—sef trwy wneuthur cyfiawnder.

Adn. 13. *Gwefusau cyfiawn sydd gymeradwy gan frenhinoedd*] Sef gwetusan barn-wyr, cynghorwyr, a llyswyr, yn llefarn yr hyn sydd wir; *a'r brenin a gâr a draetho yr uniawn*—hyd yn nod pe byddai hyny yn gerydd iddo ef ei hun, fel yr oedd traethiad Nathan wrth Dafydd.

Adn. 14. *Digofaint y brenin sydd megys cenad angau*] Yn creu dychryn yn ei elynion, megys pe cyhoeddidd deddfyd marwolaeth uwch eu penau: *ond gŵr doeth a'i gostega*—a ymdreulia i'w ostegu trwy bob moddion dichonadwy, ac a lwydda weithiau.

Adn. 15. *Yn siriol wynebpryd y brenin*] Ar ol i'w ddigofaint gael ei ostegu felly; *y mae bywyd*—i'r sawl oedd dan ddeddfyd marwolaeth: *a'i ewyllys da ef sydd megys cwmwl gwlaw diweddar*—yr hwn sydd yn sirioli yr holl wlad, trwy ddisgyn i lenwi ac addfedu y twysenan erbyn y cynauaf: gwel ar Deut. xi. 14.

Adn. 16. *Cael doethineb*] Sef gwir grefydd,

neu wybodaeth achubol o Dduw; *O mor well yw nag aur coeth!*—gwel ar pen. iii. 14, 15: *a chael deall*—ysbrydol a phrofiadol o drefn yr iachawdwriaeth; *mwy dymunol yw nag arian*—am fod ei effeithiau yn ymestyn dros amser a thragwyddoldeb. Ond leied sydd yn credu hyn, er iddo gael ei lefarn gan y doethaf o ddyinion, a hyny dan ddwyfol ysbrydolidaeth!

Adn. 17. *Sarn y cyfiawn*] Saes., '*ei briffordd*,' ar hyd yr hon yn unig y teithia efe; *yw dychwelyd oddiwrth ddrwg*—neu ymgadw yn mhell oddiwrtho: *y neb a gadwo ei ffordd*—neu a roddio yn y briffordd hono, heb wŷro at ddrwg; *a geidw ei enaid*—rhagllawer o ofidiau, a rhag dinystr a cholledigaeth.

Adn. 18. *Balchder sydd yn myned o flaen dinystr*] Fel rhagredegydd iddo; *ac uchder ysbryd o flaen cwmp*—yr hwn sydd yn ei ddylun yn gyflym. Fel hyn y mae yn bod yn gyffredin, mewn ystyr tymhorol ac ysbrydol, er pan ddaeth pechod i'r byd.

Adn. 19. *Gwell yw bod yn ostyngedig gyda'r gostyngedig*] A boddioni i sefyllfa isel a thylawd yn y byd; *na rhanu yr yspail gyda'r beilchion*—ar ol cyraedd cyfoeth trwy anghyfiawnder a thrais.

Adn. 20. *A drinio fater yn ddoeth*] Sef rhyw achos neu alwedigaeth gyfreithlon; *a gaiff ddaioni*—neu elw trwy hyny: *a'r neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd*—yn lle ymddiried i'w ddeall ei hun; *O gwŷn ei fyd hwnw*—ragor y llall: efe a gaiff leis ysbrydol i'w enaid, yn chwanebol at ddaioni tymhorol.

Adn. 21. *Y doeth ei galon*] Yr hwn a ddengys ei ddoethineb yn ei dymher, ei ymddygiad, neu yn ei vsgrifeniadau; *a elwir yn ddeallus*—gan bawb o'i amgylch, neu a ennill barch ac aurhydedd oddiwrth bawb a'i hadwaeno: *a melysder y gwefusau*—neu hyawldedd grymus, lithrig, a swynol, vn denu dyinion i roddi gwrandawiad astud iddo; *a chwanega ddysgeidiaeth*—i'r rhai a wrandawant arno.

Adn. 22. *Ffynnon y bywyd yw deall i'w*

pherchenog: ond addysg ffyliaid *yw* ffolineb.

23 Calon y doeth a reola ei enau ef yn synwryol, ac a chwanea addysg i'w wefusau.

24 Geiriau tég *ydynt* megys dil mêl, yn felys i'r enaid, ac yn iachus i'r esgyrn.

25 Mae ffordd a dybir ei bod yn uniawn yn ngolwg dyn: ond ei diwedd *yw* fffydd marwolaeth.

26 Y neb a lafurio, a lafurio iddo ei hun; canys ei enau a'i gofyn ganddo.

27 Dyn i'r fall sydd yn cloddio drwg: ac ar ei wefusau *yr erys* fel tân poeth.

*p*herchenog] Y mae deall goleu, a barn gywir am bethau, fel fyfynn ddihsydd yn rhoddi cysur a bodlonrwydd parhaus yn perchenog, ac yn ei wneuthur ef yn dra buddiol ac adeiladol i ereill: *ond addysg ffyliaid yw ffolineb*—dysu yr addysg a gawsant hwy eu hunain, ac a feddant i'w gyfranu i ereill. Os â ffyliaid i addysu ereill, nis gallant ond eu gwneyd yn ffyliaid fel hwy eu hunain.

Adn. 23. *Calon y doeth a reola ei enau ef yn synwryol*] Neu a'i dysg ef i lefaru yn synwryol; *ac a chwanea addysg i'w wefusau*—a'i galluoga ef i draethu rhyw addysg newydd i'w wrandawyr yn barhaus.

Adn. 24. *Geiriau tég*] O gysur a dyddanwech, *ydynt megys dil mêl*—yr hwn yw y puraf a'r melysaf; *yn felys i'r enaid*—a fyddo mewn poen a gofid; *ac yn iachus i'r esgyrn*—yn tuedda yn fawr i lesau y corff a'r meddwl.

Adn. 25. *Mae ffordd a dybir ei bod yn uniawn, &c.*] Gwel ar pen. xiv. 12.

Adn. 26. *Y neb a lafurio*] Mewn unrhyw alwedigaeth onest; *a lafurio iddo ei hun*—er lles a chynaliaeth iddo ei hun a'i deulu; *canys ei enau a'i gofyn ganddo*—y mae llafurio felly yn ofynol ac anhegborol er diwallu ei anghenion naturiol.

Adn. 27. *Dyn i'r fall*] Neu 'fab Belial,' *sydd yn cloddio drwg*—sydd mor ddiwyd i wneuthur drwg, ag ydyw y chwarelwr i gloddio cerig, neu y mwawr i chwilio am fetelloedd; *ac ar ei wefusau yr erys fel tân poeth*—i enyn cynhen ac ymruson rhwng pawb o'i amgylch: gwel ar Iago iii. 6, &c.

Adn. 28. *Dyn cyndyn a bair ymryson*] Rhwng cymydogion, trwy ddywedw yr hyn a gynhyrfa ddiogfaint y naill yn erbyn y llall: *a'r hustyngwr*—yr hwn a garia chwedlan enllibaid am y naill yn ddirgel at y llall; *a neilldua dywysogion*—Saes., 'y cyfeillion penaf;' hyn yw, efe a bair rwyg rhyngdynt, neu a'u gwna yn elynion i'w gilydd.

Adn. 29. *Gŵr traws a huda ei gymydog*] I ymuno âg ef mewn gweithredoedd o drais; *ac a'i tywys i'r ffordd nid yw dda*—sef i'r cyflawniad o bechodau ysgeler.

28 Dyn cyndyn a bair ymryson: a'r hustyngwr a neilldua dywysogion.

29 Gŵr traws a huda ei gymydog, ac a'i tywys i'r ffordd nid *yw* dda.

30 Efe a gau ei lygaid i ddychymyg trawsedd; gan symud ei wefusau y dwg efe ddrwg i ben.

31 Coron aurhydeddus *yw* penllwydni, os bydd mewn ffordd cyfiawnder.

32 Gwell *yw* y diog i ddigofaint, na'r cadarn; a'r neb a reola ei ysbryd ei hun, na'r hwn a ennillo ddinas.

33 Y coelbren a fwir i'r arffed: ond oddiwrth yr Arglwydd *y mae* ei holl lywodraethiad ef.

Adn. 30. *Efe a gau ei lygaid i ddychymyg trawsedd*] Cyfeirir ynd at arteriad tra chlyffredin yn nidith syn-fyfyrrwy, y rhai a gauant eu llygaid rhag i'r olwg ar wrthdryschau o'u hamgylch ddenu a dyrus eu meddyliau: *gan symud ei wefusau*—i lefaru yn ddystaw wrtho ei hun, ren yn gyhoeddus wrth ereill; *y dwg efe ddrwg i ben*—sef y trawsedd a ddychymygasi.

Adn. 31. *Coron aurhydeddus yw penllwydni*] Ar hen ŵr da a duwiol, fel yr awgrymir yn y geiriau nesaf; *os bydd mewn ffordd cyfiawnder*—wedi dyfod arno trwy henaint tég, ac nid trwy ofid neu eogrwydd am wneyd o hono yr hyn oedd anghyfiawn a drwg: gwel ar Lef. xix. 32. Dywedir i wallt un o frenhinoedd Ffrainc, trwy ofid a blinder o herwydd ei garcharu, droi yn wŷn yn y carchar mewn un noson.

Adn. 32. *Gwell yw y diog i ddigofaint*] Sef y dyn hwyrfrydig i ddigio, a pharod i faddeu; *na'r cadarn*—yr hwn a allo drechu ei elynion trwy nerth: *a'r neb a reola ei ysbryd ei hun*—sef ei nwydau a'i dymherau, trwy iawn ddefyddio ei reswm; *na'r hwn a ennillo ddinas*—trwy rym ei arfau. Y mae buddugoliaeth rheswm yn fwy aurhydeddus i greadur rhesymol, na buddugoliaeth y cledd; canys y mae yn fuddugoliaeth na wna niwed i neb, yn yr hon nid aberthir bywydau ra meddiannau. Dywedir am Alexander Fawr, yr hwn a orchfygodd y byd trwy nerth ei arfan, iddo yntau ei hun gwael ei orchfygu gan ei nwydau anghymedrol.

Adn. 33. *Y coelbren a fwir i'r arffed*] Neu i lestr a ddelid ar yr arffed, yn ol yr arferiad yn yr hen amseroedd wrth ranu tiroedd, neu benderfynu achosion dyrus: *ond od iux. th yr Arglwydd*—ar ol gweddio yn daer a difrifol arno ef am ei gyfryngiad; *y mae ei holl lywodraethiad ef*—gwaith dynion oedd bwrw y coelbren; ond gwaith yr Arglwydd, trwy gyfryngiad ei ragluniaeth, oedd penderfynu yr achos mewn dadl: gwel ar Lef. xvi. 8—10. Num. xxvi. 55, 56, 1 Sam. xiv. 42, Act. i. 26.

PENNOD XVII.

GWELL *yw* tamaid sych a llonyddwch gydag ef, na thŷ yn llawn o aberthau gydag ymryson.

2 Gwas synwryol a feistrola ar fab gwaradwyddus; ac a gaiff ran o'r etifeddiaeth yn mhlith y brodyr.

3 Y tawddlestr *sydd* i'r arian, a'r ffwrn i'r aur: ond yr hwn a brawf y calonau *yw* yr Arglwydd.

4 Y drygionus a wrendy ar wefus anwir: a'r celwyddog a rydd glust i dafod drwg.

5 Y neb a watwaro y tylawd, sydd yn gwaradwyddo ei Wneuthurwr ef: a'r neb a ymddigrifo mewn cystudd, ni bydd dieuog.

6 Coron yr henafgwyr *yw* eu

PEN. XVII. Adn. 1. *Gwell yw tamaid sych*] O fara heb enllyn; a *llonyddwch gydag ef*—lle y byddo cariad a heddwch teuluaid: *na thŷ yn llawn o aberthau*—sef gweddillion yr aberthau, ar y rhai y gwleddai yr offrym-wyr a'u teuluoedd; neu ynte 'anifeiliaid lladedig,' fel y gellir ei gyfeithu; *gydag ymryson*—rhwng aelodau y teuluoedd hyn.

Adn. 2. *Gwas synwryol a feistrola ar fab gwaradwyddus*] Yr hwn y byddo ei ffolineb a'i ddrygioni yn waradwydd i'w deulu; ac *a gaiff ran o'r etifeddiaeth yn mhlith y brodyr*—naill ai yn wobr am ei synwyr a'i ffyddlondeb yn ngwasanaeth ei feistr, neu ynte yn dâl am edrych ar ol y mab gwaradwyddus, a thug at ei gynal ef.

Adn. 3. *Y tawddlestr sydd i'r arian, a'r ffwrn i'r aur*] I doddi, profi, a choethi yr arian a'r aur: *ond yr hwn a brawf y calonau yw yr Arglwydd*—y meddwl yw, er y gall dynion brofi metteloedd, nas gall neb ond Duw brofi y galon.

Adn. 4. *Y drygionus a wrendy ar wefus anwir*] Ar gelwyddau ac enlliban; *a'r celwyddog a rydd glust i dafod drwg*—trwy fod yn hoff ganddo glywed pethau cyfeilyb i'r hyn a lefara efe ei hun.

Adn. 5. *Y neb a watwaro y tylawd*] Am ei fod yn dylawd; *sydd yn gwaradwyddo ei Wneuthurwr ef*—yr hwn a'i gwnaeth ef felly, pen. xiv. 31: *a'r neb a ymddigrifo mewn cystudd*—i gystuddio neu boeni arall; *ni bydd dieuog*—Saes, 'ni bydd ddigosp.'

Adn. 6. *Coron yr henafgwyr yw eu hwyryon*] Yw gwelod a mwynhau cymdeithas plant eu plant, yn enwedig os byddant yn tyfu i fwy yn rhinweddol; ac *anrhydedd y plant yw eu tadau*—os byddant yn dadau doeth a da.

Adn. 7. *Anweddaiidd yw i ffol ymadrodd rhagorol*] Neu geisio ymgyraedd at iaith fawreddog, goeth, a dysgedig, uwchlaw ei amgylffwrddiad a'i ddysgeidiaeth ef; neu anwedd-

aiidd yn ngeuan pechadur yw iaith grefyddol: *mwy o lawer*—sef mwy anweddaiidd o lawer, *i benedig wefusan celwyddog*—y mae celwydd yn anweddaiidd i bawb, ac yn enwedig i benedig, yr hwn a addysgwyd yn well: i.e., y mae celwydd yn fwy anweddaiidd iddo ef nag yw ymadrodd rhagorol i ddyn ffol, neu ymadroddion crefyddol yn ngeuan pechadur.

Adn. 8. *Maen gwerthfawr yw anrheg yn ngolwg ei pherchenog*] Yr hon, tra na chostiodd ddim iddo ef, sydd ar yr un pryd yn anrhydedd a chyfoeth iddo: *pa le bynag y tro, hi a ffyna*—hi a gaiff dderbyniant parod, neu bydd i'r anrhegwr lwyddo trwy ei anrheg i ennill pleidiwr iddo ei hun.

Adn. 9. *Y neb a guddio bechod*] A wnaed gan arall yn erbyn y cuddiwr, neu yn erbyn rhyw gymydog iddo; *sydd yn ceisio curiad*—sydd yn ymdrechu byw mewn heddwch a chariad, yn lle perhychen wrth ddynoethi beiau: *ond y neb a adnewyddda fai*—trwy ei gyhoeddi neu ei gopsi; *sydd yn neillduo tywysogion*—neu 'wir gyfeillion,' fel y mae yn y Saesonaeg: gwel ar pen. xvi. 28.

Adn. 10. *Un sen a ofna y call*] Wedi iddo gollu ei le unwaith; *yn fwy na phe baeddid y ffol ganwaith*—neu yn fwy na phe rhoddid i'r ffol gant o wialenodiau. Y meddwl yw, fod un cerydd i ddyn call yn effeithio yn fwy er ei ddiwyg ef, nag a wna cant o geryddon i ddyn ffol; neu, fod un cynghor i'r call, yn well na chant o wialenodiau i'r ffol.

Adn. 11. *Y dyn drwg sydd a'i fryd ar derfysg yn unig*] Mewn teulu, cymydogoeth, neu eglwys; a *chenad greulon a anfonir yn ei erbyn ef*—i'w gopsi am ei derfysg a'i ddrygioni, naill ai oddiwrth y swrddog gwladol, neu ynte trwy ryw farn o eiddo Duw.

Adn. 12. *Gwell yw i w'r gyfarfod ág arthes wedi colli ei chenawon*] Pan y mae yn fwyaf creulon a chynddeiriog; *nag a'r ffol yn ei ffolineb*—yn eithafion ei nwydau a'i dymherau drwg. Dywed natuaethwyr fod yr

13 Y neb a dalu ddrwg dros dda, nid ymedy drwg â'i dŷ ef.

14 Pen y gynhen *sydd megys* ped agorid argae : am hyny gâd ymaith ymryson cyn ymyryd arni.

15 Y neb a gyfiawnhao y drygionus, ac a gondemnio y gwirion; fflaidd gan yr Arglwydd *ydŷnt* ill dau.

16 Paham y *bydd* gwerth yn llaw y ffol i berchenogi doethineb, ac *yntau* heb galon *ganddo*?

arthes yn fwy creulon na'r arth; a'i bod yn greulonach nag arferol pan fyddo ganddi genawon; ac mai ar ol colli ei chenawon y mae yn greulonaf oll. Gall artbes felly nid yn unig ddychrynu dyn yn sawr, ond hefyd ei ladd; ond gall y ffol yn ei ffolineb gynhyrfu dyn i bechu, ac felly beri iddo gael niwed i'w enaid, yr hyn sydd yn waeth na niweidio y corff.

Adn. 13. *Y neb a dalu ddrwg dros dda* | Y mae talu *drwg* am *ddrwg* yn bechod uwawr, Rhuf. xii. 17, 1 The. v. 15, 1 Pedr iii. 9; ond y mae talu *drwg* am *dda*, yn bechod mwy: a'r hwn a wna hyny, *nid ymedy drwg â'i dŷ ef*—tra y byddo ganddo dŷ, eithr daw rhyw aflwydd arno ef a'i denlu. Talu *drwg* am *ddrwg* sydd bechadurus; talu *drwg* am *dda* sydd ddeffig; eithr talu *da* am *ddrwg* sydd Gristionogol.

Adn. 14. *Pen y gynhen* | Saes., 'dechread cynhen,' *sydd megys ped agorid argae*—gan ruthriad dwfr, yr hwn nis gellir ei attal cyn iddo wneyd difrod mawr: *am hyny gâd ymaith ymryson cyn ymyryd arni*—rhag, wedi iddi unwaith ddechreu, y bydd ei heffeithiau yn ddinystri i gymdeithas.

Adn. 15. *Y neb a gyfiawnhao y drygionus* | Trwy ei gyhoeddi yu ddiueog; *ac a gondemnio y gwirion*—trwy ei ddedfrydu fel un euog; *fflaidd gan yr Arglwydd ydŷnt ill dau*—am fod y nail fel y llall yn droseiddwr o ddeddfau cyfiawnder.

Adn. 16. *Paham y bydd gwerth* | Saes., 'pris;' megys cyfoeth, talentau, gair Duw, moddion gras, gweinidogaeth yr efengyl, neu ryw fanteision ereill; *yn llaw y ffol i berchenogi doethineb*—i'walluogi i gyraedd doethineb ysbyrdol ac achubol; *ac yntau heb galon ganddo*—heb synwyr i ganfod gwerth doethineb, na dymuniad gwirioneddol am ei chaffael hi? Y mae y cwestiwn yn cynwys nad yw o un defnydd fod genym fanteision i gyraedd doethineb, os na ddefnyddiwn ni hwynt. Y mae y 'gwerth' hwn, neu alluoedd a chyfleuserau i gyraedd doethineb achubol, wedi ei roddi yn ein dwylaw ni oll: y mae genym enaid rhesymol, iawn dros ein pechodau, gorsedd gras, cynorthwyon yr Ysbyrd Glân, rhyddid i nesáu at Dduw mewn gweddi, a gwahoddiadau yr efengyl; y mae genym hefyd rieni, perthynasan, neu gyfeillion duwiol i'n cynhell, gweinidogion cymbwys i'n haddysgu, a llyfran da i'n cynorthwyo; ac felly, os bydd i neb o'n darllenwyr farw heb y ddoethineb

17 Cydymaith a gâr bob amser : a brawd a anwyd erbyn caledi.

18 Dyn heb bywyll a dery ei law, ac a facthnia o flaen ei gyfaill.

19 Y neb sydd hoff ganddo ymsenu, sydd hoff ganddo bechod; a'r hwn sydd yn gwneuthur ei ddrws yn uchel, sydd yn ceisio niwed.

20 Y cyndyn ei galon ni chaiff ddaioni: a'r hwn sydd drofaus yn ei dafod, a syrth i ddrwg.

hon, diau y bydd ef yn hollol ddiessus, ac y bydd ei waed ar ei ben ei hun.

Adn. 17. *Cydymaith* | Neu gyfaill cywir a ffyddlon, *a gâr bob amser*—nid yn unig mewn hawddfyd, ond mewn adfyd hefyd, pryd y bydd i gyfeillion gau ein gadael: *a brawd*—a fyddo felly nid yn unig mewn enw a gwaedoliaeth, ond hefyd mewn serchogrwydd; *a anwyd erbyn caledi*—a anfonwyd i'r byd, yn ahrefn rhagluniaeth, fel y gallo gysuro a clynorthwyo ei frawd gwan yn nydd cyfyngder a chaledi.

Adn. 18. *Dyn heb bywyll a dery ei law* | Yn arwydd a chadarnhad o'i facthniaeth; *o flaen ei gyfaill*—yn mhresenoldeb ei gyfaill, neu dros ei gyfaill: gwel ar pen. vi. 1—5, a xi. 15. Y mae yn wir y dylai y naill gyfaill gynorthwyo y llall hyd y gallo, fel y dywedir yn adn. 17; eto ni ddylai neb facthnio yn fyrbwyll dros arall, ac yn enwedig uwchlaw yr hyn a allo ei dalu; canys byddai iddo felly ei anallnogi ei hun i wneuthur daioni i'r gofynwr, i'r dyledwr, ac iddo ei hun.

Adn. 19. *Y neb sydd hoff ganddo ymsenu* | Neu yngynhenu, *sydd hoff ganddo bechod*—au fod ymsenu felly yn bechod: *a'r hwn sydd yn gwneuthur ei ddrws*—ac o ganlyniad ei dŷ, *yn uchel*—yn fawreddog a chostfawr uwchlaw ei allu, i'r dyben i beri iddo ragori ar dŷ ei gymydog, a hyny oddiar falchder a rhodres; *sydd yn ceisio niwed*—y mae hwnw ar y ffordd i'w niweidio neu ei ddinystrio ei hun, mor sicr a phe byddai yn ceisio hyny â'i holl egni. 'Mewn gwahanol barthau o Palestina,' ebai *Clarke*, 'y maent yn gorfod cael drysyan en cynteddu a'u tai yn bur *isel*, dim mwy na thair troedfedd o uchder, i attal yr Arabiaid, y rhai nid dynt braidd byth yn disgyn oddiar en ceffylau, rhag marchogaeth i'w cynteddu a'u tai i'w hyspeilio. Yr oedd ef gan hyny, yr hwn trwy falchder a rhodres a wnai ei ddrws yn uchel, yn ei osod ei hun yn agored i gael niwed; a dywedir yma ei fod yn ei *geisio*, am y gwyyddai y byddai hyny yn ganlyniad angenrheidiol o wneyd ei ddrws yn uchel. Ond er fod yr uchod yn fflaith, eto dychon fod *drws* yn cael ei roddi yma am y *genau*; a gall fod 'gwyneuthur ei ddrws yn uchel' yn arwyddo ymfrost balch a thrahaus, y fath ag a dueddai i enyn a dal i fyny gynhen: ac ymddengys fod yr ystyr hwn yn cytuno yn well â rhediad y cyd-destyn na'r llall.'

Adn. 20. *Y cyndyn ei galon* | Yr hwn sydd bob amser am gael ei ffordd ei hun; *ni chaiff*

21 Y neb a genhedlo un ffol, a *ennill* iddo ei hun dristwch: ac ni bydd lawen tad yr ynfyd.

22 Calon lawen a wna les *fel* meddyginiaeth: ond meddwl trwm a sych yr esgyrn.

23 Yr annuwïol a dderbyn rodd o'r fynwes, i gamdroi llwybrau barn.

24 Doethineb *sydd* yn wyneb y deallgar: ond llygaid y ffyliaid *sydd* yn nghyrrau y byd.

25 Mab ffol a *bair* ddiglonedd i'w dad, a chwerwder i'w fam.

26 Hefyd nid da cospi y cyfiawn, na tharo penaethiaid, *pan fyddant* ar yr iawn.

27 Gŵr synwryol a attal ei ymad-

roddion: a gŵr pwylllog sydd ymarhous ei yspryd.

28 Y ffol, tra tawo, a gyfrifir yn ddoeth; a'r neb a gauo ei wefusau, yn ddeallus.

PENNOD XVIII.

Y NEILLDUOL a gais wrth ei ddeisyfiad *ei hun*, ac a ymyra â phob peth.

2 Y ffol nid hoff gando ddeall; ond bod i'w galon ei datguddio ei hun.

3 Wrth ddyfodiad y drygionus y daw diystyrwch, a chyda gogan gwaradwydd.

4 Geiriau yn ngenau gŵr *sydd fel*

ddaioni—er iddo gael ei ffordd ei hun: canys bydd iddi yn gyffredin droi yn siomedigaeth iddo: *a'r hwn sydd drofus yn ei dofod*—yn dywydd celwyddan, yn ymgynhenn ag ereill, neu yn enllibio ei gynyddog; *a syrth i ddrwg*—wrth geisio drygu ereill.

Adn. 21. *Y neb a genhedlo un ffol* Sef mab gwrllt, afradlon, a drygionus; *a ennill iddo ei hun dristwch*—o herwydd ymddygiad ffol ac annuwïol ei fab: *ni bydd lawen tad yr ynfyd*—eithr efe a gaiff ofid parhaus, wrth iddo weled ei fab yn dylun ei ffolineb pechadurus.

Adn. 22. *Calon lawen* Nyn sirioldeb meddwl, yn enwedig yr un a dardda oddiar dystiolaeth cydwbybod dda; *a wna les fel meddyginiaeth*—i'r holl gorff: *ond meddwl trwm*—yn tarddu oddiar siomedigaeth, pryder, anniddigrwydd, neu nwydau drwg; *a sych yr esgyrn*—o'r mēr a'r nôdd a fyddo ynddynt; hyny yw, bydd i'r pethau hyny ddyfetha iechyd y corff, a phrysuro marwolaeth.

Adn. 23. *Yr annuwïol a dderbyn rodd o'r fynwes* Bydd i farnwr neu dyst annuwïol dderbyn 'rhodd *ddirgel*,' fel yr arwydda y gair yn pen. xxi. 14, sef rhodd yn cael ei chyfleu yn ddirgel o fynwes y rhodddwr i fynwes y derbyniwr; *i gamdroi llwybrau barn*—i'w wobrywo ef am wro barn. Y mae y dwyreinyr yn gyffredin yn cario eu pyrsaus yn eu mynwsau, uwchlaw en gwregys.

Adn. 24. *Doethineb sydd yn wyneb y deallgar* I'w ganfod yn eglur yn ei wedd; neu, 'o flaen ei wyneb,' hyny yw, efe a gyfeiria yn wastadol at yr hyn a fyddo ddoethaf a goraf er ei les: *ond llygaid y ffyliaid sydd yn nghyrrau y byd*—yn edrych ar bethau pell oddiwrthyt, neu amherthynol iddynt, yn lle gwlyio rhag peryglon yn en hynyl.

Adn. 25. *Mab ffol a bair ddiglonedd i'w dad* Saes., 'a bair ofid' iddo, adn. 21; *a chwerwder i'w fam*—trwy ei ffolineb a'i ddrygioni.

Adn. 26. *Hefyd nid da cospi y cyfiawn* Argam; *na tharo penaethiaid*—â'r dwrn neu â'r tafod, yr hyn y mae y condemniedig yn

dueddol i'w wneyd; *pan fyddant ar yr iawn*—pan fyddant yn cyhoeddi dedfryd gyfiawn ar droseddwr. Ond y mae rhai yn ei ddarllen, 'Nac i benaethiaid daro neb pan fyddo ar yr iawn.' Dywedir fod y wreiddiol yn goddet y cyfieithiad hwn: ac i benaethiaid neu ynadon y pethyn yn briodol daro neu gospi trosedd-wyr.

Adn. 27. *Gŵr synwryol a attal ei ymadroddion* Hyd oni bydd achos iddo lefaru; neu ni lefaru yn fyrbwyl a gwaedwyllt pan yn cael ei gythruddo: *a gŵr pwylllog sydd ymarhous ei ysbryd*—sydd o ysbryd tawel, amyneddgar, a digyffro, hyd yn nod pan fyddo dan brofedigeth.

Adn. 28. *Y ffol, tra tawo, a gyfrifir yn ddoeth* Yn enwedig gan ddyethriaid; *a'r neb a gauo ei wefusau*—rhag cyhoeddi ei ffolineb, yn ddeallus—bydd yn hyny yn ymddwyn fel dyn doeth a deallus.

PEN. XVIII. Adn. 1. *Y neillduol* Un a fyddo wedi ymneillduo oddiwrth bob galwedigaeth fyddol, neu o gymdeithas a dwdwr y byd, neu ddyn o chwaeth neillduol am wybodaeth; *a gais wrth ei ddeisyfiad ei hun*—a gais yr hyn y byddo yn ei ddeisyfu neu yn ei ddy-muno yn benaf; *ac a ymyra â phob peth*—a dry bob careg, fel y dywedwn, i geisio cryaedd gwybodaeth. Rhoddir gwahanol ystyron i'r adnod hon, ond yr wyf fi yn meddwl fod yr un uchod mor naturiol a'r goraf o honyt, ac y mae yn cytuno yn dda â'r adnod nesaf.

Adn. 2. *Y ffol nid hoff gando deall* Ac am hyny ni chlymer ef ddim trafferth i chwilio am wybodaeth; *ond bod i'w galon ei datguddio ei hun*—ei holdder penaf ef yw dangos ffolineb ei galon.

Adn. 3. *Wrth ddyfodiad y drygionus y daw diystyrwch* Bydd i'r drygionus gael ei ddiystyrn, neu bydd iddo ef ddiystyrn a goganu ereill, pa le bynag yr elo; *a chyda gogan gwaradwydd*—wrth iddo efoganu ereill, gwaradwyddir yntau.

Adn. 4. *Geiriau yn ngenau gŵr* Sef geiriau gŵr doeth a dysgedig, *sydd fel dyfroedd*

dyfroedd dyfnion; a fyynnion doethineb *sydd megys* afon yn lifo.

5 Nid da derbyn wyneb yr annuwiol, i ddymchwelyd y cyfiawn mewn barn.

6 Gwefusau y ffol a ânt i mewn i gynhen, a'i enau a eilw am ddyrnodiâu.

7 Genau y ffol *yw* ei ddinistr, a'i wefusau *sydd* fagl i'w enaid.

8 Geiriau yr hustyngwr *sydd* megys archollion, ac a ddisgynant i gilfachau y bol.

9 Y neb a fyddo diog yn ei waith, *sydd* frawd i'r treulgar.

10 Tŵr cadarn *yw* enw yr Arglwydd: ato y rhed y cyfiawn, ac y mae yn ddiogel.

11 Cyfoeth y cyfoethog *sydd* iddo

yn ddinas gadarn, ac yn fur uchel, yn ei dyb ei hun.

12 Cyn dinystr y balchïa calon gŵr; a chyn aurhdedd y *bydd* gostyngeddrwydd.

13 Y neb a ateb o beth cyn ei glywed, ffolineb a chywilydd *fydd* iddo.

14 Ysbryd gŵr a gynal ei glefyd ef: ond ysbryd cystuddiedig pwy a'i cyfyd?

15 Calon y pwylllog a berchenoga wybodaeth: a chlust y doethion a gais wybodaeth.

16 Rhodd dyn a eanga arno, ac a'i dwg ef gerbron penaethiaid.

17 Y cyntaf yn ei hawl a *dybir ei fod* yn gyfiawn: ond ei gymydog a ddaw ac a'i chwilia ef.

dyfnion—neu fel ffrydiau yn dylifo yn araf o ffynnonlaw; a *ffynnion doethineb sydd megys afon yn lifo*—yn bwrw allan yn barhaus hel-aethrwydd o addysgiadau buddiol.

Adn. 5. *Nid da derbyn wyneb yr annuwiol*] Am ei fod yn gwybod, yn gyfaill, neu yn ŵr cyfoethog: *i ddychwelyd y cyfiawn mewn barn*—i ddymchwelyd ei achos cyfiawn ef mewn llys barn, pen. xvii. 15.

Adn. 6. *Gwefusau y ffol a ânt i mewn i gynhen*] A ddywedant rywbeth a gyffry gynhen: *a'i enau a eilw am ddyrnodiâu*—yr hyn yn fynych sydd yn cael yn cynhen.

Adn. 7. *Genau y ffol yw ei ddinistr*] Efe a lefaru yr hwn a fydd yn ddinistr i'w gysur, os nid i'w feddiannau: *a'i wefusau sydd fagl i'w enaid*—efe a lefaru weithiau yr hyn a gyst iddo ei fywyd, fel yr Amaleciad hwn, 2Sam. i. 13—16.

Adn. 8. *Geiriau yr hustyngwr*] Yr hwn a enlliba ei gymydog yn ddirgel; *sydd megys archollion*—i'r hwn a enllibir felly, ac yn aul i'r enllibwr ei hun; *ac a ddisgynant i gilfachau y bol*—hwy a effeithiant ar ei iechyd ef, neu ar ei fywydoli.

Adn. 9. *Y neb a fyddo diog yn ei waith*] Nen yn esgeuluso ei alwedigaeth; *sydd frawd i'r treulgar*—sydd gyffelyb i'r hwn a waria yn ofer yr hyn a enlliba. Y mae y ddau, er yn rhodio llwybran gwahanol, yn cyfarfod yn yr un lle, sef mewn eisiau a thylodi.

Adn. 10. *Tŵr cadarn yw enw yr Arglwydd*] Yw yr Arglwydd ei hun, fel ei darlunir o ran ei gymeriad a'i briodoliaethau yn ei air santaidd: *ato y rhed y cyfiawn*—trwy ffydd a gweddi, fel i amddiffynfa a noddfa gadarn; *ac y mae yn ddiogel*—rhag grym a malais ei holl elynion daerol ac uffernol.

Adn. 11. *Cyfoeth y cyfoethog sydd iddo yn ddinas gadarn*] Yn lle 'enw yr Arglwydd,' adn. 10; *ac yn fur uchel*—rhyngddo a phob drwg; *yn ei dyb ei hun*—efe a dybia felly am ei gyfoeth yn awr; ond mawr fydd ei siomedigaeth yn nydd angau a barn!

Adn. 12. *Cyn dinystr y balchïa calon gŵr*] Fel eiddo Nebuchodonosor cyn ei yru i hori gwellt y ddaer fel eidonau, Dan. iv. 30, &c.: *a chyn aurhdedd y bydd gostyngeddrwydd*—gwel ar pen. xv. 33, a xvi. 18.

Adn. 13. *Y neb a ateb o beth cyn ei glywed*] Cyn ei glywed i gyd, neu cyn i'r llall orphen ei ymadrodd, a hwny i ddangos ei wybodaeth ddychynogol ei hun; *ffolineb a chywilydd fydd iddo*—chwerddir am ben ei atebiad ffol ac annhriodol, a'i dyb uchel am ei wybodaeth ei hun.

Adn. 14. *Ysbryd gŵr a gynal ei glefyd ef*] Bydd i'w feddwl dewr a gwrol, yn enwedig meddwl wedi ei gryfhau â chysuron crefydd, ei gynal ef yn ei glefyd: *ond ysbryd cystuddiedig*—neu feddwl llwfr ac ofnus; *pwy a'i cyfyd*—yn enwedig os bydd ef yn crymu dan lwyth o enogrwydd pechod? Neb ond Duw.

Adn. 15. *Calon y pwylllog a berchenoga wybodaeth*] Yr hon a gyraeddasai efe trwy ei ddiwydrwydd ei hun, a bendith Duw ar hyny; *a chlust y doethion a gais wybodaeth*—chwanegol, wrth wrando ar addysgiadau gwyr doethaeb na hwy eu hnnain.

Adn. 16. *Rhodd dyn a eanga arno*] A'i rhyddha ef o gyfyngder neu garchar; *ac a'i dwg ef gerbron penaethiaid*—i'w flafar a'u cymdeithas hwy. Gwelson yn fynych fod yn rhaid i ddyn gymeryd arhegion yn ei law wrth nesau i wyddod mawrion y dwyrain.

Adn. 17. *Y cyntaf yn ei hawl*] Sef yr hwn a ddadleua gyntaf ei hawl neu ei achos mewn llys barn; *a dybir ei fod yn gyfiawn*—gan y barnwr a'r holl llys: *ond ei gymydog a ddaw*—ar ei ol ef, i ddadlu ei achos yntau; *ac a'i chwilia ef*—a chwilia i mewn i resymau a thystiolaethau y blaenaf, ac a wrthbrofa ei holl haeriadau ef. Dysgir i ni yma beidio penderfynu unrhyw achos cyn clywed y ddwy ochr.

Adn. 18. *Y coelbren a wna i gynhenau beidio*] Trwy benderfynu y dadleuon a fyddo rhwng pleidiau, pen. xvi. 33; *ac a athrywyyn*—hyn yw, a heddycha; *rhwng cedyrn*—sef

18 Y coelbren a wna i gynhenau beidio, ac aathrywynrhwngcedyrn.

19 Anhaws *yw ennill ewylllys da brawd pan ddigier*, na dinas gadarn: a'u hymryson sydd megys trosol castell.

20 A ffrwyth genau gŵr y diwellir ei fol; ac o ffrwyth y gwefusau y digonir ef.

21 Angau a bywyd *sydd* yn meddiant y tafod: a'r rhai a'i hoffant ef, a fwytant ei ffrwyth ef.

22 *Y neb* sydd yn cael gwraig, sydd yn cael *peth* daionus, ac yn cael ffafr gan yr Arglwydd.

rhwng y pleidiau cynhenus. Enwir y 'cedyrn' yma, fel y rhai mwyaf cyndyn, neu fwyaf galluog i gario yr ymryson yn mlaen.

Adn. 19. *Anhaws yw ennill ewylllys da brawd pan ddigier*] Ef gan ei frawd naturiol ei hun; na *dinas gadarn*—nac ennill dinas gadarn, neu fyned i mewn iddi: *a'u hymryson sydd megys trosol castell*—sydd mor anhawdd ei dori neu ei blygu a'r trosolion heiyrn neu y bârau pres a fyddont ar flenestri a drysau cestyll. Y rheswm am hyny yw, fod *cariaid*, yr hwn o'r blaen oedd gryf fel angau, wedi troi yn *gasineb* cryf fel angau. Ond y mae agos yr oll o'r hen gyfieithiadau yn darllen yr adnod fel hyn: 'Brawd a gynorthwyer gan frawd, sydd fel dinas gaerog; a'u penderfyniadau hwy sydd megys bârau dinas.' *Coverdale* a'i cyfieitha, 'Undeb brodyr sydd gryfach na chastell; a'r rhai a ymlynant wrth en gilydd sydd megys bâr palas.' Y LXX a'i darllenant, 'Brawd a gynorthwyir gan ei frawd, sydd megys dinas gadarn uehel, a nerthol fel palas caerog.'

Adn. 20. *A ffrwyth genau gŵr y diwellir ei fol*] Y meddwl ond odid yw, fod llawer, trwy leferydd eu genau, yn entill bywioliaeth iddynt eu hunain; ac o *ffrwyth y gwefusau y digonir ef*—os bydd ei ymadroddion yn llesol i ereill, hwy a droant allan hefyd yn llesol iddo ei hun.

Adn. 21. *Angau a bywyd sydd yn meddiant y tafod*] Y mae rhai wedi colli eu bywyd, a llawer wedi ei gadw ef, trwy lefaru â'u tafod; neu fe allai mai at ddedfryd barnwyr uwelben carcharorion y cyfeirir: *a'r rhai a'i hoffant ef*—a hoffant lefaru llawer; a *fwytant ei ffrwyth ef*—a gânt dda neu ddrwg iddynt eu hunain yn ol natur yr hyn a lefarant: neu, yn ol y LXX, 'a'r rhai a'i llywodraethant ef, a fwytant ei ffrwyth.'

Adn. 22. *Y neb sydd yn cael gwraig*] Sef gwraig dda, rinweddol, dduwiol, a phwylllog, pen. xix. 14; *sydd yn cael peth daionus*—un o'r rhoddion daearol gwerthfawrocaf; ac *yn cael ffafr gan yr Arglwydd*—neu fendith ysbredol hefyd, trwy fod gwraig felly yn gynhorth iddo ef fyw yn dduwiol yn gystal ag yn ddedwydd. Y mae yr holl hen gyfieithiadau, oddieithr y *Culdeaidd*, yn chwaneu yma

23 Y tylawd a ymbil; a'r cyfoethog a etyb yn erwin.

24 Y neb y mae iddo gyfeillion, cadwed gariad: ac y mae cyfaill a lŷn *wrthyt* yn well na brawd.

PENNOD XIX.

GWELL *yw* y tylawd a rodio yn ei uniondeb, na'r traws ei wefusau, ac yntau yn ffol.

2 Hefyd, *bod yr enaid* heb wybodaeth, nid *yw* dda; a'r hwn sydd brysur *ei draed* a becha.

3 Ffolineb dyn a wŷra ei ffordd

'gwraig dda,' ac y mae un o ysgriflyfran Hebreig *Kennicott* yn ei ddarllen felly. 'Ond y mae hyn,' ebai *Clarke*, 'yn awdurdod rhy wan i gyfiawnhau newidiad y testyn Hebreig:' ac efe a chwaneu, 'Y mae *priodas*, gyda'i holl drallodau a'i thrafferthion, yn fendith oddiwrth Dduw; ac nid oes ond ychydig o achosion lle nad *yw gwraig o ryw fath* yn well na bod heb un, am fod gweddwdod yn ddrwg; canys Duw ei hun a ddywedodd, 'Nid da bod y dyn ei hunan;' a St. Paul, 'Anrhydeddus *yw priodas* yn mbawb:' gwel Gen. ii. 18, Heb. xiii. 4.'

Adn. 23. *Y tylawd a ymbil*] Am ffafr neu elusen gan y cyfoethog; *a'r cyfoethog*—yn fynych, yn lle rhoddi iddo ei gais; a *etyb yn erwin*—trwy ei fod wedi ymchwyddo gan ei gyfoeth a'i annibyniaeth. Ond y mae genym, trwy drugaredd, filoedd o anghrefitiau i'r gwrthwyneb yn mhlith ein mawrion.

Adn. 24. *Y neb y mae iddo gyfeillion*] Yn mhlith y cyfoethogion a'r mawrion hyny; *cadwed gariad*—ymdreched yn mhob modd i'w boddau a'u caru hwy, yr hyn yw yr unig ffordd i sicrhau eu cariad hwy tuag ato yntau: *ac y mae cyfaill*—i'w gael weithiau yn mhlith estroniaid; a *lŷn wrthyt yn well na brawd*—naturiol: gwel ar adn. 19, a pen. xvii. 17. Gallir dywedyd hyn gyda phriodoldeb am Grist, 'y Cyfaill goraf,' er mai nid ato ef y cyfeiria Solomon yma.

PEN. XIX. Adn. 1. *Gwell yw y tylawd a rodio yn ei uniondeb*] A fyddo yn gyfiawn ac uniawn yn ei eiriau a'i weithredoedd; *na'r traws ei wefusau*—na dyn ofer-siaradus neu gelwyddog, ac yntau yn ffol—neu, 'er ei fod yn *gyfoethog*.'—HOLDEN.

Adn. 2. *Hefyd, bod yr enaid* heb wybodaeth] Heb wybod pa fodd i lefaru neu ymddwyn yn iawn, ac yn enwedig heb wybodaeth o Dduw a'i iachawdwriaeth; *nid yw dda*—i'r gwrthwyneb, y mae yn ddrwg o'r mwyaf: *a'r hwn sydd brysur ei draed*—yr hwn a redo yn anystyriol i wneyd unrhyw weithred, yn enwedig gweithred ddrwg; a *becha*—a dŷn eogrwydd ar ei gydwybod, ac a ddwg ofid a blinder iddo ei hun ac ereill.

Adn. 3. *Ffolineb dyn a wŷra ei ffordd ef*] A'i harwain ef i ddyryswech ac adwydd; a'i

ef: a'i galen a ymddigia yn erbyn yr Arglwydd.

4 Cyfoeth a chwanea galen o gyfeillion: ond y tylawd a ddidolir oddiwrth ei gymydog.

5 Tyst celwyddog ni bydd dieuog: a lluniw'r celwyddau ni ddianc.

6 Llauer a ymbiliant o flaen pen-defig: a phawb sydd gyfaill i'r hael.

7 Holl frodyr y tylawd a'i casânt ef: pa faint mwy yr ymbellha ei gyfeillion oddiwrtho? er maint a ymneddo, ni throant ato.

8 A gaffo ddoethineb a gâr ei enaid: a gadwo ddeall a ennill ddaioni.

9 Tyst celwyddog ni bydd dieuog: a thraethwr celwyddau a ddyfethir.

*galen a ymddigia yn erbyn yr Arglwydd—*efe a feia ar ragluniaeth Duw, fel pe mai efe a'i barweiniasai i'r aflwydd hwnw.

Adn. 4. *Cyfoeth a chwanea galen o gyfeillion* I'r dyn a'i meddo: *ond y tylawd a ddidolir oddiwrth ei gymydog*—a ystyrir yn ddisylw hyd yn nod gan ei gymydogion agosaf.

Adn. 5. *Tyst celwyddog ni bydd dieuog* Saes., 'ni bydd ddiogosp;' a *lluniw'r celwyddau ni ddianc*—rhag barn Duw, os dianc efe yn ddisylw neu yn ddiogosp gan ddyuon.

Adn. 6. *Llauer a ymbiliant o flaen pen-defig* Am ryw gymwynas neu flafr oddiar ei law; a *phawb sydd gyfaill i'r hael*—rhai yn wirioneddol, ac ereill yn rhagrithiol er mwyn ei reddion.

Adn. 7. *Holl frodyr y tylawd a'i casânt ef* Gan ei ystyried fel yn ddiarhydedd iddynt; neu *cliant* oddiwrtho fel pe baent yn ei gasáu, rhag iddo bywio odynt: *pa faint mwy yr ymbellha ei gyfeillion oddiwrtho*—y rhai oeddynt yn gyfeillion iddo cyn ei fyned yn dylawd? gwel ar adn. 4. *Er maint a ymneddo*—neu a ymbilio efe arnynt, ni throant ato—i'w gysuro na'i gynorthwyo.

Adn. 8. *A gaffo ddoethineb* Y dyn a lafurio yn galed i gyraedd gwybodaeth fuddiol, ac yn enwedig gwybodaeth o Dduw a'i iachawd-wriazeth; a *gâr ei enaid*—y mae gau y dyn hwnw wir gariad at ei les penaf ei hun: a *gadwo ddeall*—ar ol ei gyraedd felly, neu y dyn a wna iawn ddefnydd o hono; a *ennill ddaioni*—presenol a thragwyddol iddo ei hun.

Adn. 9. *Tyst celwyddog ni bydd dieuog* Neu 'ddiogosp;' a *thraethwr celwyddau a ddyfethir*—yr un modd a'u lluniw'r hwynt: gwel ar adn. 5.

Adn. 10. *Nid gweddaidd i ffol hyfrydwch* Byddai yn fwy gweddaidd o lawer iddo ef *dristâu* am ei ffolineb pechadurus; neu, 'nid gweddaidd i ffol gael awdurdod,' fel y mae rhai yn ei ddarllen: *anweddeiddiach o lawer i was*—i ddyon o sefyllfa isel, neu un a fuasai yn gaethwas, neu un ag sydd o hyd yn gaethwas i'w nwydau a'i chwantau llygreddig; *arglwyddiaethu ar benaethiaid*—sef ar dywys-

10 Nid gweddaidd i ffol hyfrydwch: anweddeiddiach o lawer i was arglwyddiaethu ar benaethiaid.

11 Synwyr dyn a oeda ei ddiogofaint ef: a harddwch yw iddo fyned dros gamwedd.

12 Llid y brenin sydd megys rhuad llew ieuanc: ond ei ffafr ef sydd megys gwllith ar laswellt.

13 Mab ffol sydd orthrymder i'w dad: ac ymserth gwraig sydd megys defni parhaus.

14 Tŷ a chyfoeth i'nt etifeddiaeth y tatau: ond rhodd yr Arglwydd yw gwraig bwylllog.

15 Syrthni a bair drymgwsg: ac enaid twyllodrus a newyna.

ogion o waedoliaeth, neu wŷr o ddysg, doethineb, a deall.

Adn. 11. *Synwyr dyn a oeda ei ddiogofaint ef* I'yd nes y caffo amser i bwysio ac ystyried yr achos o'r cythruddiad; yr un uodd a *Plato*, yr hwn a ddywedodd wrth ei was, 'Mi a'th gurun di, oni bae fy mod yn ddioglon:' a *harddwch yw iddo fyned dros gamwedd*—ei faddeu ef heb ddiogo o gwbl, neu o leiaf heb ddaingos ei ddiogofaint.

Adn. 12. *Llid y brenin sydd megys rhuad llew ieuanc* Yn ddychryn i bawb o'i amgylch; ac felly yn neillduol yr oedd llid brenhinoedd y dwyrain, y rhai yr oedd eu hewyllys yn gyfraith, i ladd a chadw yn fyw y rhai a fyment: *ond ei ffafr ef sydd megys gwllith ar laswellt*—yn siroli ac yn adfywio pawb a'i caffont hi.

Adn. 13. *Mab ffol sydd orthrymder i'w dad* Trwy ei anfydd-dod, ei ddiogi, a'i wastraff: *ac ymserth gwraig*—sef ei thymher gynbeallid, ymrysongar, a chwerylus; *sydd megys defni parhaus*—yn disgyn trwy dô tyllog, ac yn dyfetha pob cysur yn y ty; fel nas gall y gŵr druan 'nac eistedd, sefyll, gweithio, na chysgu,' fel y sylwa *Clarke*, 'heb fod yn agored i'r defni hyn. Duw a helpo y dyn ag sydd yn y fath gyflwr, gyda *thŷ* neu *wraig*.'

Adn. 14. *Tŷ a chyfoeth i'nt etifeddiaeth y tatau* Sydd wedi disgyn i'r mab oddiwrth ei datau; neu, gall y tad roddi i'w fab dai, tiroedd, a chyfoeth lawer: *ond rhodd yr Arglwydd*—ei rodd ef yn unig yn nhrefn ei ragluniaeth, *yw gwraig bwylllog*—neu wraig gall, rinweddol a duwiol: gwel ar pen. xviii. 22. '*Ishshah mascaleth*, gwraig o ddeall da; un yn peidio achwyn, er fod ganddi yn fynych achos i hyny.'—CLARKE.

Adn. 15. *Syrthni a bair drymgwsg* Ni chaiff y dyn syrth a diog ddiogon o gysgu, pen. vi. 9—11; ac y mae ei syrthni yn ei wneyd yn ddiweddl am y canlyniad, fel dyn mewn trymgwsg: *ac enaid twyllodrus*—Saes., 'enaid diog,' neu ddyon diog; a *newyna*—am na weithia i ennill ei fywioliaeth.

Adn. 16. *Y neb a gadwo y gorchymyn* Trwy fydd-dod manwl i holl ddeddfau Duw,

16 Y neb a gadwo y gorchymyn a geidw ei enaid: a'r neb a esgeulusa ei ffyrdd fydd marw.

17 Y neb a gymero drugaredd ar y tylawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd; a'i rodd a dâl efe iddo drachefn.

18 Cerydda dy fab tra fyddo gobaiſh; ac nac arbeded dy enaid ef, i'w ddyfetha.

19 Y mawr ei ddiag a ddwg gospedigaeth: eanys os ti a'i gwaredi, rhaid it' wneuthur hyny drachefn.

20 Gwranddo gynghor, a chymer addysg; fel y byddech ddoeth yn dy ddiwedd.

21 Bwriadau lawer sydd yn nghalon dyn: ond cynghor yr Arglwydd, hwnw a saif.

22 Deisyfiad dyn yw ei drugaredd ef: a gwell yw y dyn tylawd na'r gwr celwyddog.

23 Ofn yr Arglwydd a dywys i fywyd: a'r neb y byddo ganddo a erys yn ddiwall, heb i ddrwg ymweled âg ef.

24 Y dyn swrth a gudd ei law yn ei fynwes, ac ni estyn hi at ei enau.

25 Taraw watwarwr, a'r ehud fydd gyfrwysach: a phan geryddech y deallus, efe a ddeall wybod-aeth.

yn tarddu oddiar wir gariad ato ef, a fydd yn ei Fab; a geidw ei enaid—i fywyd tragwyddol: a'r neb a esgeulusa ei ffyrdd—sef ffyrdd ei ddyledswyddau, fel eu gosodir o'i flaen yn yr ysgrythrau; *fydd marw*—yn dragwydd, a'i waed fydd ar ei ben ei hun.

Adn. 17. *Y neb a gymero drugaredd ar y tylawd*] Trwy roddi elusen iddo yn ei gyfyngder a'i dylodi; *sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd*—sydd yn rhoddi benthyg arian i Dduw ei hun: hyny yw, y mae Duw yn ei gyfrif ei hun yn ddyledwr i ni am bob ceiniog a roddwn i'r tylawd, yr hwn yw ei oruchwylwr ef; neu yn ystyried pob elusen a roddir i'r tylawd, fel yn cael ei rhoddi iddo ef ei hun. *A'i rodd a dâl efe iddo drachefn*—gyda llôg helaeth. Y mae hon yn addewid na thorwyd erioed; a dylai gael ei chredu gan bawb ag sydd yn profesu ymddiried yn addewid Duw am iachawdwriaeth eu heneidiau. Credu i Dduw am yr enaid, a bod heb gredu iddo am y *geiniog* a roddir i'r tylawd, sydd anghysondeb eglur.

Adn. 18. *Cerydda dy fab tra fyddo gobaiſh*] Am ei wella ef, sef tra fyddo yn ieuanc, a chyn iddo ymgaledu mewn drygioni; *ac nac arbeded dy enaid ef*—o ddynerwch tuag ato; *i'w ddyfetha*—gorff ac enaid, wrth adael iddo fyned rhagddo yn ddigerydd yn ei bechodau.

Adn. 19. *Y mawr ei ddiag*] Sef dyn lliidiog, neu ddyn o dymber atgas a phoethlyd; *a ddwg gospedigaeth*—a wna beth yn haeddu cospedigaeth, a dylai ddyoddef o'i herwydd: *canyos os ti a'i gwaredi*—trwy fachoſto drosto, neu dalu dirwy er mwyn ei ryddhau; *rhaid it' wneuthur hyny drachefn*—am y bydd iddo, os na chospir ef, gyflawni yr un trosedd eil-waith.

Adn. 20. *Gwranddo gynghor*] A wna les i ti; *a chymer addysg*—tra yr ydwynt yn ieuanc; *fel y byddech ddoeth yn dy ddiwedd*—yn dy henaient, neu cyn i angau dy oddiweddyd.

Adn. 21. *Bwriadau lawer sydd yn nghalon dyn*] Y rhai a dybia efe yn ddoeth a safadwy: *ond cynghor yr Arglwydd*—ei fwriadau neu ei feddwl ef; *hwnw a saif*—ac nid bwriadau y dyn ei hun: gwel ar pen. xvi. 1.

Adn. 22. *Deisyfiad dyn yw ei drugaredd*

ef] 'Yw cael trogaredd gan Dduw,' fel y mae rhai yn ddisail yn ei ddeall. Fe allai mai yr ystyr yw, 'Y deisyfiad a ddylai fod gan ddyn, yw bod yn drugarog neu dirion wrth ereill;' neu, yr hyn sydd yn cytuno yn well â diwedd yr adnod, 'Y mae dyn yn dangos ei drugaredd trwy ei ddeisfiad neu ei ddymuniaid i wneyd daioni i ereill, er ei fod yn amddifad o fodd i wneuthur hyny.' *A gwell yw y dyn tylawd*—yr hwn a wnai gareddwrwydd i arall pe gallai; *na'r gwr celwyddog*—hyny yw, yn ol y LXX, 'na'r cyfoethog celwyddog,' yr hwn a addawa wneyd cymwynas i'r tylawd, ac eto a beidia.

Adn. 23. *Ofn yr Arglwydd a dywys i fywyd*] I santeiddrwydd a dedwyddwch yn y ddau fyd: *a'r neb y byddo ganddo*—y bydd ofn yr Arglwydd ganddo, neu wir grefydd; *a erys yn ddiwall*—heb eisiau dim arno a fyddo yn angenrheidiol er ei gysur a'i gynaliaeth; *heb i ddrwg ymweled âg ef*—nrrhyw adfyd dinystriol. Y mae Schullens a Grey yn ei darllen, 'Ofn yr Arglwydd yn wir sydd fywyd: ond yr hwn a gwsq mewn diogelwch cnaudol, ni bydd rydd oddiwrth ddrwg:' a'r LXX, 'Ond yr hwn sydd heb ofn,' (sef ofn yr Arglwydd,) 'a erys mewn lleodd na byddo gwybod-aeth i'w lywodraethu;' hyny yw, efe a red yn ddall i bob math ar ddrwg.

Adn. 24. *Y dyn swrth a gudd ei law yn ei fynwes*] Yn lle ei hestyn allan i weithio; *ac ni estyn hi at ei enau*—hyny yw, y mae braidd yn rhy ddiog i'w borthi ei hun, neu ni weithia i ennill ei damaid.

Adn. 25. *Taraw watwarwr*] Cospa droseddwr cyndyn, yr hwn a fyddo yn ddiog caled i watwar Duw a'i grefydd; *a'r ehud fydd gyfrwysach*—os na wna hyny les i'r gwatwarwr ei hun, bydd i ddyinion difeddwl ereill gymeryd rhybydd oddiwrth ei gosp ef, y rhai heb hyny a fyddent mewn perygl o gael eu hudo ganddo i watwar fel yntau: a *phan geryddech y deallus*—am ryw drosedd a wnelo, *efe a ddeall wybod-aeth*—bydd iddo ef ddiwygio wrth gael ei geryddu; neu bydd i gerydd ysgafn mewn *geiriau* fod yn fwy effeithiol i ddiwygio dyn deallus, na *gwialen-odaau* trymion i watwarwr ffol a chaled.

26 Mab gwaradwyddus gwarthus a anrheithia ei dad, ac a yr ei fam ar grwydr.

27 Fy mab, paid â gwrando yr addysg a bair i ti gyfeiliorni oddiwrth eiriau gwybodaeth.

28 Tyst y fall a watwar farn : a genau y drygionus a lwnc anwiredd.

29 Barn sydd barod i'r gwatwarwyr, a chleisiau i gefn y ffyliaid.

PENNOD XX.

GWATWARUS *yw* gwin, a therfysgaidd *yw* diod gadarn : pwy bynag a siomir ynddi, nid *yw* ddoeth.

2 Megys rhwad llew ieuanc *yw*

Adn. 26. *Mab gwaradwyddus gwarthus*] Un yn dwyn gwarth a gwaradwydd arno ei hun, ei rieni, a'r natur ddynol yn gyffredin ; *yw* yr hwn a *anrheithia ei dad*—o'i feddianau, trwy eu gwario mewn oferedd a plechod ; *ac a yr ei fam ar grwydr*—allan o'i thŷ ei hun i gardota ei thamaid.

Adn. 27. *Fy mab*] Gwel ar pep. i. 8 ; *paid â gwrando*—byth mwyach, os darfu i ti hyd yn hyn ; *yr addysg a bair i ti gyfeiliorni oddiwrth eiriau gwybodaeth*—sef yr addysg a' th huda i wadu crefydd a'r ysgrythran, neu i fucheddu yn groes i'r unrhyw.

Adn. 28. *Tyst y fall*] Saes, 'tyst annwïol,' neu fab Belial ; a *watwar farn*—neu a ddirmyga wneyd cyfiawnder mewn llys barn, er iddo dyngu y rhoddai efe dystiolaeth gywir : a *genau y drygionus a lwnc anwiredd*—a lwnc wobr anwiredd, yr hwn a gynygir iddo am dyngu anudon ; neu bydd i *farnwyr* drygionus dderbyn ei gamdystiolaeth ef am wobr, a thrwy hynny wvro barn.

Adn. 29. *Barn sydd barod i'r gwatwarwyr*] Sef i'r rhai a watwarant farn, adn. 28 ; a *chleisiau i gefn y ffyliaid*—neu gosp yn peri cleisiau. Y meddwl ond odid *yw*, er y gall anudoniaeth ac anghyfiawnder, o'r fath ag a darluniwyd yn adn. 28, ddiace yn ddiogosp gan ddynion, eto na ddiangant hwy rhag cyfiawn farn Duw, yr hon sydd wedi ei pharatoi iddynt.

PEN. XX. Adn. 1. *Gwatwarus yw gwin, a therfysgaidd yw diod gadarn*] Y mae y defnyddiad anghymedrol o win a diod gadarn yn peri i ddyn fod yn watwarus a therfysgaidd, yr hwn nid oedd felly pan yn sofr ; ac y maent hefyd yn gwneyd gwawd o ddyn, trwy ei feddwi, ei amddifadu o'i reswn, a pheri iddo lefaru ac ymddwyn yn flol a bwystflaidd. *Pwy bynag a siomir ynddi*—yn nerth y ddiog gadarn, heb wyllo rhag y gormodedd o honi ; *nid yw ddoeth*—nid *yw* yn ymddwyn yn ddoeth wrth yfed gormod o honi, eithr busasi yn ddoethach iddo ef beidio cyffwrdd â hi ; ac yn enwedig nid *yw* ddoeth ar ol ei hyfed.

ofn y brenin : y mae *y neb* a'i cyffro ef i ddiogfaint yn pechu *yn erbyn* ei enaid ei hun.

3 Anrhydeddus *yw* i w'r beidio âg ymryson : ond pob ffol a fyn ymyraeth.

4 Y diog nid ardd, o herwydd oerder *y gauaf* ; am hynny y cardota efe y cynauaf, ac ni chaiff ddim.

5 *Megys* dyfroedd dyfnion *yw* pwyll yn nghalon gŵr : eto y gŵr call a'i tyn allan.

6 Llauer dyn a gyhoedda ei drugarogrwydd ei hun : ond pwy a gaiff w'r ffyddlon ?

7 Y cyfiawn a rodia yn ei uniondeb : gwyn eu byd ei blant ar ei ol ef.

Adn. 2. *Megys rhwad llew ieuanc yw ofn y brenin*] Gwel ar pen. xix. 12 : *y mae y neb* a'i cyffro ef i ddiogfaint—trwy ei ddiog ar air neu weithred ; *yn pechu yn erbyn ei enaid ei hun*—neu yn erbyn ei fywyd ei hun, trwy fod gan frehinoedd y dwyrain awdurdod i roddi y neb a fyent i farwolaeth.

Adn. 3. *Anrhydeddus yw i w'r beidio âg ymryson*] Am fod hynny yn brawf o'i amynedd, ei dduwioledeb, a'i lywodraeth dros ei nwydan ei hun : *ond pob ffol a fyn ymyraeth*—â plethau a greant ymryson ; neu yn materion dynion ereill, er na byddont yn perthyn dim iddo ef. Mor wahanol *yw* golygiadau Solomon yma i eiddo y gwyr hynny, y rhai a dybiant fod yn anrhydeddusach iddynt hwy beryglu eu bywyd trwy *ornest*, na chael edrych arnynt fel rhai rhy annewr neu ofnus i fod yn *llofruddion*!

Adn. 4. *Y diog nid ardd*] Ei dir, i'w baratoi i'r had ; o herwydd oerder *y gauaf*—am fod yr hin yn rhy oer iddo ef fyned allan i arddig : *am hynny y cardota efe y cynauaf*—trwy na fydd gaudio yd i'w fedi ; *ac ni chaiff ddim*—am y bydd pawb yn gwybod mai o herwydd ei ddiogi y bydd yn cardota.

Adn. 5. *Megys dyfroedd dyfnion yw pwyll*] Saes, 'yw cynghor' neu ddoethineb, *yn nghalon gŵr*—lle yr erys yn ddiogyffro mewn llaethrwydd mawr : *eto y gŵr call a'i tyn allan*—trwy ryw foddion neu gilydd, pan fyddo achos am dano. Y meddwl *yw*, nad *yw* yn hawdd gan ddyn pwyllog a synwryol roddi ei gynghor ar bob achos, hyd nes y byddo angen am dawo, neu hyd nes y cymhellir ef i'w roddi.

Adn. 6. *Llauer dyn a gyhoedda ei drugarogrwydd ei hun*] Pan wnebo efe ryw gymwynas i arall, a hynny er mwyn cael ei gannol : *ond pwy a gaiff w'r ffyddlon*—parod i wneyd daioni i arall heb ei weled gan ddynion ?

Adn. 7. *Y cyfiawn a rodia yn ei uniondeb*] Yr hyn a brawt ef fod yn gyfiawn o egwyddor, neu yn 'w'r ffyddlon,' adn. 6 : *gwyn eu byd ei blant ar ei ol ef*—y rhai a fendithir er

8 Brenin yn eistedd ar orsedd barn, a wasgar â'i lygaid bob drwg.

9 Pwy a ddichon ddywedyd, Mi a lanheais fy nghalon, glân wyf oddiwrth fy mhechod?

10 Amryw bwysau, ac amryw fesurau, ffliaidd gan yr Arglwydd bob un o'r ddau.

11 Bachgen a adwaenir wrth ei waith, ai pur ai uniawn yw ei waith.

12 Y glust yn clywed, a'r llygad yn gweled, yr Arglwydd a wnaeth bob un o'r ddau.

13 Na châr gysgu, rhag dy fyned yn dylawd: agor dy lygaid, fel y'th ddigoner â bara.

14 Drwg, drwg, medd y prynwr: ond pan éi o'r neilldu, efe a ymffrostia.

15 Y mae aur, a gemau lawer: ond gwefusau gwybodaeth sydd ddodrefnyn gwerthfawr.

16 Cymer wisg y gŵr a fachnio dros estron; a chymer wylt ganddo dros estrones.

17 Melys gan ŵr fara trwy ffalsedd: ond o'r diwedd ei enau a lenwir â graian.

mwyn eu tad, neu trwy rinwedd cyfammod Daw â'u tadau, Exod. xx. 6.

Adn. 8. *Brenin yn cistedd ar orsedd barn*] Yn gystal ag ar orsedd y llywodraeth; neu frenin yn edrych am i gyfiawnder a barn gael eu gweinyddu yn mysg ei ddeiliaid; a wasgar â'i lygaid bob drwg—sef trwy ei edrychiad manwl a gofalus ar ol amgylchiadau ei deyrnas. Bydd brenin felly yn ddechryn i weithredwyr anwired, ac yn rhwystr iddynt wneuthur drwg.

Adn. 9. *Pwy a ddichon ddywedyd*] Yn mhlith holl blant syrthiedig Adda; *Mi a lanheais fy nghalon*—fy hun; *glân wyf oddiwrth fy mhechod*—trwy fy nghyfiawnder fy hun? Nis gall neb ddywedyd iddo lanbau ei galon ei hun: ond gall Daw 'grew ynom galon lân,' Salm li. 10; a gall miloedd dystio fod 'gwaed Iesu Grist, ei Fab ef, yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod,' 1 Ioan i. 7, 9.

Adn. 10. *Amryw bwysau, ac amryw fesurau*] Rhai mawrion i brynu i mewn, a rhai bychain i werthu allan; *ffliaidd gan yr Arglwydd bob un o'r ddau*—am fod y naill fel y llall yn anghyfiawn a thwyllodrus: gwel ar pen. xi. 1, a xvi. 11.

Adn. 11. *Bachgen a adwaenir wrth ei waith*] Yn ei ddyddiau bachgenaid; *ai pur ai uniawn yw ei waith*—neu 'a fydd ei waith.' Y meddwl yw, y gellir adnabod yn y cyffredin oddiwrth duddiadau y bachgen yn ei febyd, pa fath ddyd a fydd efe; neu oddiwrth ei athrylith boreol, at ba beth y mae rhagluniaeth yn ei fwrriadu ef: a dylai rhieni fod yn ofalus iawn i ddwyn eu plant i fyny i'r alwedigaeth ag y maent wedi eu cymhwysio iddi gan natur.

Adn. 12. *Y glust yn clywed*] Hyny yw, fod gan ddyd glust at gerdoriaeth, er siamp; *a'r llygad yn gweled*—fod ganddo ddirnadaeth neu chwaeth at yr hyn sydd brydferth mewn natur neu gelyddydd, a medrusrwydd i'w efel-ychu; *yr Arglwydd a wnaeth bob un o'r ddau*—hyny yw, Daw yw yr hwn a roddodd gymhwysderau neu athrylith mewn dynion at wahanol swyddau a galwedigaethau bywyd: gwel ar Exod. xxviii. 3, lle y mae y pwnc hwn yn cael ei egluro yn fanwl.

Adn. 13. *Na châr gysgu*] Yn ormodol neu

yn anamserol, trwy syrthni a diogi; *rhag dy fyned yn dylawd*—fel hwn yn pen. vi. 6—11, trwy esgeuluso felly dy alwedigaeth: *agor dy lygaid*—dihuna yn fore at dy waith; *fel y'th ddigoner â bara*—fel y caffot ddiagon er dy gynal, os nid at ei ystorio hefyd.

Adn. 14. *Drwg, drwg*] Yw y nwyddau; *medd y prynwr*—wrth y gwerthwr, i'r dyben i'w cael am lai o bris: *ond pan éi o'r neilldu*—adref at ei gyfeillion; *efe a ymffrostia*—yn ei fargen, ac yn ei fedrusrwydd yn eu prynu am lai na'u gwerth. Ddarllenwyd, a ydyw hyn yn gyfiawn a gonest? St. Awstin a adrodda yr hanesyn canlynol: 'Rhyw chwaraewr a gyhoeddodd mewn chwareudy llawn, y byddai iddo ef y noson nesaf d dangos i bob dyn yn y lle yr hy'n fyddai yn ei galon. Yr adeg a ddaeth, pryd yr oedd y tŷ yn orlawn; ac yr oedd pawb yn dysgwyl, fel â dystawrwydd y bedd, am glywed pa beth a ddywedai efe wrth bob un. Efe a safodd i fyny, ac mewn un frawddeg cyflawnodd ei addewid:—*Vili vultis emere, et cura venidre*, 'Yr ydych oll yn dymuno prynu yn rhad, a gwerthu yn ddrud.' Rhoddwyd uchel gymeradwyath iddo; canys yr oedd pob un yn teimlo ei fod yn ddarlunied o'i galon ei hun, ac yn credu fod pawb ereill yn teimlo yn gyffelyb.'

Adn. 15. *Y mae aur*] Sef llestri neu ddo-drefn aur, a gemau lawer—yn y byd, y rhai a brisir yn fawr gan ddydion: *ond gwefusau gwybodaeth*—neu ymadroddion call a buddiol o wefusau gŵr doeth a da; *sydd ddodrefnyn gwerthfawr*—sydd drysor llawer gwell nag aur a gemau.

Adn. 16. *Cymer wisg y gŵr a fachnio dros estron*] I fod yn sicrwydd chwanegol o'r taliad; a chymer wylt ganddo dros estrones—rhag i ti gollu dy eiddo rhwyg y ddau. Wrth yr 'estrones' yma y meddylir 'putan' ond odid, fel yn pen. ii. 16, a v. 3, a vii. 5. Yr oedd y neb a fachniai dros estron, ac yn enwedig dros tuchan, yn ddyd ffol iawn, os nid yn ddyd drwg hefyd; a'r hyn a ddywedir yma sydd rybydd i'r echwynwr, i beidio rhoddi ei eiddo i ereill ar air dlyn ffol felly, heb gael rhyw sicrwydd ganddo yn chwanegol at ei air neu ei addewid.

Adn. 17. *Melys gan ŵr fara trwy [falsedd]*

18 Bwriadau a sierheir trwy gyng-
hor: a thrwy gynghor diesgeulus
dos i ryfela.

19 Y neb a fyddo athrodwr a
ddatguddia gyfrinach: am hyny nac
ymyr â'r hwn a weniethio â'i wef-
usau.

20 Y neb a felddithio ei dad nen
ei fam, ei ganwyll a ddiiffoddir yn y
tywyllwch dŷ.

21 Etiffeddiaeth a geir ar frys yn
y dechread; ond ei diwedd ni fen-
dithir.

22 Na ddywed, Mi a dalaf ddrwg:
dysgwyl wrth yr Arglwydd, ac efe
a'th achub.

23 Ffiaidd gan yr Arglwydd am-

ryw bwysau; a chlorian twyllodrus
nid yw dda.

24 Oddiwrth yr Arglwydd y mae
cerddeddiad gŵr: ond beth a ddeall
dyn o'i ffordd ei hun?

25 Magl yw i ŵr lynceu peth cy-
segredig; ac wedi addunedu, ym-
ofyn.

26 Brenin doeth a wasgar yr
annuwiol, ac a dry yr olwyn ar-
nynt.

27 Canwyll yr Arglwydd yw ys-
bryd dyn, yn chwilio holl gelloedd
y bol.

28 Trugaredd a ffyddlondeb a
gadwant y brenin; a'i orseddfa a
gadarnheir trwy drugaredd.

Sef cael cynaliaeth neu gyfoeth iddo ei hun
trwy dwyll ac anghyfiawnder: *ond o'r di-
wedd ei enau a lenwir â graian*—bydd i hyny
droi allan mor ofidus iddo ef a phe llenwid ei
enau â graian yn lle bara; yn enwedig yn y
diwedd, pan ddelo efe i wynebu angau a barn:
gwel ar pen. ix. 17.

Adn. 18. *Bwriadau a sierheir trwy gyng-
hor*] Y mae bytwyllwch yn dyfetha y bwr-
iadau goraf; a dylent gael eu dwyn yn mdaen
yn gall, trwy ymgynghoriad â dynion deallus,
os mynwn iddynt droi allan yn llwyddiannus:
a thrwy gynghor diesgeulus dos i ryfela—
hyny yw, nac eled brenin i ryfela â brenin.
neu â theyrnas arall, heb ymgynghori â'i lys
yn gyntaf, i edrych a ydyw hyny yn ddoeth,
cyfiawn, ac angenrheidiol. Gan fod bywyd
neu angau miloedd o ddynion, a llwydd neu
ddiinstyr yr holl deyrnas, yn ymddibynn ar y
rhyfel hono, ni ddylai neb ei dechreu na i
pharhau heb yr ymgynghoriad mwyaf doeth a
phwyllog.

Adn. 19. *Y neb a fyddo athrodwr a ddat-
guddia gyfrinach*] Gwel ar pen. xi. 13: *am
hyny nac ymyr â'r hwn a weniethio â'i
wefusau*—yr hwn trwy weniath a dderbynir
i gyfrinach, ac wedi hyny a'i datguddia i
ereill. Gwell i baw ymogelyd rhag y cyfryw,
heb fod ganddynt ddim i'w wneyd ag ef.

Adn. 20. *Y neb a felddithio ei dad neu ei
fam*] Am yr hyn y rhoddid efi farwolaeth dan
y gytraith, Exod. xxi. 17; *ei ganwyll a ddi-
ffoddir yn y tywyllwch dŷ*—hyny yw, torir
ef ymaith wreiddyn a changhen, fel na bydd
ganddo hiliogaeth i gario ei enw i'r oesau a
ddel: gwel ar pen. xiii. 9.

Adn. 21. *Etiffeddiaeth a geir ar frys yn y
dechread*] Sef un wedi ei chyraedd ar un-
waith trwy dwyll ac anonestrwydd: *ond ei
diwedd ni fendithir*—daw rhyw afwydd arni
i'w symud oddiwrth ei pherchenog.

Adn. 22. *Na ddywed*] Pan wneud un gam â
thi, neu pan y byddo yn dy orthrymwr; *Mi a
dalaf ddrwg*—am ddrwg iddo: *dysgwyl wrth
yr Arglwydd*—yr hwn 'biai dial,' Heb. x. 30;
ac efe a'th achub—oddiwrth dy orthrymwr
hwnw.

Adn. 23. *Ffiaidd gan yr Arglwydd amryw
bwysau*] Anghywir ac anghyfiawn; *a
chlorian twyllodrus nid yw dda*—hyd yn
nod er i'r pwysau fod yn gywir: gwel ar
adn. 10.

Adn. 24. *Oddiwrth yr Arglwydd y mae
cerddeddiad gŵr*] Y mae ei holl ysgogiadau
a'i weithredoedd ef dan oruwch lywodraeth
rhagluniaeth Duw; neu i'r Arglwydd y per-
thyn llwyddo neu siomi holl bwriadau dyn;
gwel ar pen. xvi. 1, 9: *ond beth a ddeall dyn
o'i ffordd ei hun?*—Saes., 'pa fodd gan hyny
y gall dyn ddeall ei ffordd ei hun,' neu pa
beth fydd ei diwedd hi?

Adn. 25. *Magl yw i ŵr lynceu peth cysegr-
edig*] Hyny yw, y mae yn bechod iddo ddefn-
yddio at ei wasanaeth ei hun y blaen-ffrwyth-
au a'r degynau a'r aberthau a berthynant i
Dduw, neu i wasanaeth ei dŷ: *ac wedi add-
unedu*—rhywbeth at wasanaeth yr Arglwydd;
ymofyn—am ryw lwybr i ymyrddhau oddi-
wrth ei addunedu.

Adn. 26. *Brenin doeth a wasgar yr an-
nuwiol*] O'i olwg, neu allan o'i deyrnas, fel y
gwasgerir peiswyn oddiwrth y grawn ar y
llawr dyrnu; gwel ar adn. 8: *ac a dry yr
olwyn arnynt*—cyfeiriat at yr olwyn ddan-
neddod, â'r hon y dyrnid yr yd yn y dwyrain.

Adn. 27. *Canwyll yr Arglwydd yw ysbryd
dyn*] Yw ei enaid anfarwol ef; *yn chwilio
holl gelloedd y bol*—yn dangos i'r dyn ei hun
ddirgelion ei galon. 'Y mae Duw wedi rhoddi
i bob dyn *feddwel*, yr hwn a oleua efe yn y
fath fodd trwy ei *Ysbryd ei hun*, fel y gall
dyn wybod pa fodd i wahaniaethu rhwng da
a drwg; a'r *gydwylhod*, yr hon a ddeilia oddi-
wrth hyn, a chwilia gilfachau mwyaf mewrol
yr enaid.'—CLARKE.

Adn. 28. *Trugaredd*] Sef hynawsedd tuag
at droseddwr, neu haelioni a charedigrwydd
tuag at y rhinweddol a'r da; *a ffyddlondeb*—
yn y cyflawniad o'i air neu ei addewid; *a
gadwant y brenin*—rhag terfysgoedd yn ei
deyrnas ei hun, a rhag gelynicion o deyrnasoedd
ereill: *a'i orseddfa a gadarnheir trwy dru-
garedd*—trwy ei drugaredd ef i'w ddeiliaid,
fel y nodwyd uchod, ac yn enwedig trwy dru-

29 Gogoniant gwŷr ieuaine *yw* eu nerth; a harddwch henafgwyr *yw* gwallt gwŷn.

30 Cleisiau briw a lanha ddrwg; felly *y gwna* dyrnodiau gelloedd *y bol*.

PENNOD XXI.

FEL afonydd o ddwfr *y mae* calon *y brenin* yn llaw *yr Arglwydd*: efe a'i try hi lle *y myno*.

2 Pob ffordd gŵr *sydd* uniawn *yn ei olwg* ei hun: ond *yr Arglwydd* a bwysa *y calonau*.

3 Gwneuthur cyfiawnder a barn *sydd* well *gan yr Arglwydd* nag aberth.

4 Uchder golwg, a balchder calon, *ac ar yr annuwiol, sydd* bechod.

5 Bwriadau *y diesgeulus sydd* at helaethrwydd *yn unig*: ond *yr eiddo* pob prysur *at eisiau yn unig*.

6 Trysorau a gasgler â thafod celwyddog, a chwelir megys gwagedd *gan y neb sydd yn ceisio* angau.

7 Anrhaith *yr annuwiol a'u dyfetha* hwynt, *am iddynt wrthod* gwneuthur barn.

8 Trofäus a dyeithr *yw ffordd* dyn: ond *y pur sydd* uniawn *ei waith*.

9 Gwell *yw* bod mewn congl *yn nen tŷ*, na bod *gyda* gwraig anynad *mewn tŷ eang*.

10 Enaid *yr annuwiol a ddeisyf* ddrwg: nid grasol *yw* *ei gymydog yn ei olwg* ef.

garedd Duw *yn ei fendithio* ef *am ei rinweddau*.

Adn. 29. *Gogoniant gwŷr ieuaine yw eu nerth*] Sef eu nerth corfforol a'u dewrder meddwl; a *harddwch henafgwyr yw y gwallt gwŷn*—'os bydd mewn ffordd cyfiawnder', pen. xvi. 31.

Adn. 30. *Cleisiau briw*] Neu gampau corfforol priodol, a *lanha ddrwg*—a fyddant yn foddion effeithiol *yn fynych i ddiwygio* dyn drwg: *felly y gwna dyrnodiau*—er eu bod *yn boenus* am *yr amser, gelloedd y bol*—effeithiant *yn ddaionus* ar *y galon*, i'w chadw rhag gwneuthur neu garu *yr hyn sydd ddrwg*: gwel ar Heb. xii. 10, 11.

PEN. XXI. Adn. 1. *Fel afonydd o ddwfr*] *Y rhai a droir* gan *yr amaethwr* neu *y gaddwr* dwyreiniol ar hyd flosydd, *i ddyfrhau* ei dir; *yw calon y brenin yn llaw yr Arglwydd*—*y mae* ei duediadau, ei fwriadau, a'i weithredoedd *ymtau yn hollol dan lywodraeth* Brenin *y brenhinoedd*: *efe a'i try hi lle y myno*—*i gyflawni* ei ewyllys a'i fwriadau *ei hun* trwy offerynoliaeth *y brenin hwnw*.

Adn. 2. *Pob ffordd gŵr sydd uniawn yn ei olwg ei hun, &c.*] Gwel ar pen. xvi. 2.

Adn. 3. *Gwneuthur cyfiawnder a barn*] Sef *y cyflawniad cydwybodol* o'n holl ddyledswyddau *tuag at ein gilydd*; *sydd well gan yr Arglwydd nag aberth*—na'r aberth mwyaf costfawr, *lle y byddo hyn yn ddiffygiol*: gwel ar 1 Sam. xv. 22, 23.

Adn. 4. *Uchder golwg*] Neu uchel drem dyn gwag a hunanol; a *balchder calon*—er na byddo *yn ganfyddadwy yn yr edrychiad*; *ac ar yr annuwiol*—*hyd yn nod ei waith yn aredig* ei dir, *yr hwn sydd un o'r gorchwylion mwyaf cyfreithlon* ac angenrheidiol *yddo* ei hun; *sydd bechod*—*am nad yw yn ei wneuthur* er gogoniant *i Dduw*, ond *er elw iddo* ei hun *yn unig*. Dywedid *fod y gair* Hebreig *ner*, a gyfieithir *yma yn ar*, *yn arwyddo llusern* neu *oleuni*; a meddyli'r *fod hyn yn*

arwyddo llwyddiant neu hiliogaeth *yr annuwiol*. *Y mae* hyd *yn nod ei lwyddiant* ef *yn bechod*, *am fod hyn yn meithrin* ei falchder a'i nchel drem ef.

Adn. 5. *Bwriadau y diesgeulus*] Sef *dyn* pwyllog, diwyd, a llafurus; *sydd at helaethrwydd yn unig*—*sydd yn tueddu* at gyfoeth a llawder: *ond yr eiddo pob prysur*—*yr hwn sydd yn trin* ei orchwylion *yn fyrbwyll* ac anystyriol; *at eisiau yn unig*—*y mae* ei fyrbwylltra a'i brysurwch *diamynedd yn debyg* o'i ddwyn ef *i gyfyngder* a thylodi *yu y diwedd*.

Adn. 6. *Trysorau a gasgler â thafod celwyddog*] Trwy gelwyddau neu dwyll masnachol; a *chwelir megys gwagedd*—megys *us* neu fŵg o flaen corwynt; *gan y neb sydd yn ceisio angau*—*neu yn dilyn y llwybrau* ag *sydd yn arwain i ddiynstr* ac angau.

Adn. 7. *Anrhaith yr annuwiol a'u dyfetha hwynt*] Sef *eu gwaith yn anrheithio* ac *yn gorthrymu* ereill; *am iddynt wrthod gwneuthur barn*—*neu gyfiawnder*, eithr *yn lle hyn* anngyfiawnder a thrais.

Adn. 8. *Trofäus a dyeithr yw ffordd dyn*] Wrth natur, *neu yn ei gyflwr syrthiedig*; *hyn yw*, *y mae* efe wedi gwŷro *ac ymddy-eithro* oddiwrth Dduw, *ac oddiwrth* real uniawn *ei air* ef: *ond y pur sydd uniawn ei waith*—*y mae* ei holl ymarweddiad, ei dymherau, ei eiriau, a'i weithredoedd ef, *yn gyson â gair* ac ewyllys Duw.

Adn. 9. *Gwell yw bod mewn congl yn nen tŷ*] *Yn y breswylfa gyfyngaf*, waelaf, a mwy- at digysur, *pe na byddai* ond congl *ar ben tŷ*, *gyda llongyddwch* a diddirgwydd: *na bod gyda gwraig anynad*—groes, gwerylus, a gwaedwylt; *mewn tŷ eang*—*lle y byddo digon* o le, a phob peth arall, *ond y wraig anynad* hōno, *yn tueddu* at gysur: gwel ar pen. xix. 13.

Adn. 10. *Enaid yr annuwiol a ddeisyf ddrwg*] *A ymdrecha i wneyd* drwg *i ereill*, neu a geisia foddhau *ei nwydan* drwg *ei hun*: *nid grasol yw ei gymydog yn ei olwg* ef—

11 Pan gosper gwatwarwr, y bydd yr ehud callach: a phan ddysger y doeth, efe a dderbyn wybodaeth.

12 Call y mae y cyfiawn yn ystyried am dŷ yr annuwiol: ond y mae Duw yn dyfetha y rhai annuwiol am eu drygioni.

13 Y neb a gauo ei glust rhag llef y tylawd, a lefain ei hunan, ac nis gwrandewir ef.

14 Rhodd yn y dirgel a dŷr ddigofaint; a gwobr yn y fynwes, lid cryf.

15 Llawen gan y cyfiawn wneuthur barn: ond dinystr fydd i weithwyr anwiredd.

16 Dyn yn myned ar gyfeiliorn oddiar ffordd deall, a orphwys yn nghynulleidfa y meirw.

17 Y neb a garo ddfyrwch, a ddaw i dylodi: a'r neb a garo win ac olew, ni bydd cyfoethog.

18 Yr annuwiol a roddir yn iawn dros y cyfiawn, a'r troseddwr dros yr uniawn.

19 Gwell yw aros yn yr anialwch, na chyda gwraig anynad ddigllon.

20 Y mae trysor dymunol, ac olew, yn nhrigfa y doeth; ond dyn fol a'u llwnc hwynt.

21 Y neb a ddylyno gyfiawnder a

Saes., 'ni chaiff ei gymydog ffafwr yn ei olwg ef,' yn enwedig os bydd iddo ei gynghori, neu ei geryddu am ei ddrygioni.

Adn. 11. *Pan gosper gwatwarwr*] Am watwar Duw a'i grefydd; *y bydd yr ehud callach*—gwel ar pen. xix. 25: *a phan ddysger y doeth*—trwy ei gynghori neu ei geryddu am rywbeth a wnelo o'i le; *efe a dderbyn wybodaeth*—chwanegol. 'Ond tybia Houbigant mai yr ystyr yw, y bydd i'r 'ehud' uchod gael gwybodaeth oddiwrth yr addysg a roddir i'r doeth, yn gystal ag oddiwrth y gosp a roddir i'r gwatwarwr.

Adn. 12. *Call y mae y cyfiawn yn ystyried am dŷ yr annuwiol*] Yr hwn y mae yn gweld na phery ei lywddiant yn hir: *ond y mae Duw*—o'r diwedd, er iddo hir oddef gyda hwynt, *yn dyfetha y rhai annuwiol am eu drygioni*—ar ol iddynt gyflawni mesur eu hanwiredd. Y mae y cyfiawn yn gall yn ystyried hyn, heb genigenu wrth ei lywddiant ef; yn lytrach, y mae efe yn gresynu wrth yr annuwiol llwyddiannus, ac yn gweddio drosto mewn tosturi wrtho.

Adn. 13. *Y neb a gauo ei glust rhag llef y tylawd*] Pan y byddo mewn eisiau, neu yn cael ei orthrymu; *a lefain ei hunan*—daw yntau ei hun i galedi a chyfyngder yn fuan neu yn hwyr; *ac nis gwrandewir ef*—gan Dduw na dynion, mwy nag y gwrandawodd yntau ar lef y tylawd uchod.

Adn. 14. *Rhodd yn y dirgel a dŷr ddigofaint*] Hyny yw, rhodd a estynr yn ddirgel i'r digofus, yr hyn a'i gwna yn fwy cymeradwy; canys y mae derbyn rhodd yn gyhoeddus o law troseddwr yn darostwng dyn i gael ei dybio yn gybydd, neu yn caru gwobr anghyfiawnder: *a gwobr yn y fynwes*—neu rodd ddirgel; *gwel ar pen. xvii. 23; lid cryf*—hyny yw, a dŷr lid cryf, fel anrheg Jacob i Esau, ac anrheg Abigail i Dafydd; *gwel ar Gen. xxxii. 13, &c., 1 Sam. xxv. 27, &c.*

Adn. 15. *Llawen gan y cyfiawn wneuthur barn*] Neu gyfiawnder, pa un bynag fyddo ai barnwr, tyst, neu gymydog: *ond dinystr fydd i weithwyr anwiredd*—fel frwyth naturiol eu haanghyfiawnder a'u drygioni.

Adn. 16. *Dyn yn myned ar gyfeiliorn oddiar ffordd deall*] Gan adael llywbrau yr

Arghwydd, a rhodio yn ol chwantau llygredig ei galon ei hun; *a orphwys*—a orphen ei daith, *yn nghynulleidfa y meirw*—Hebr., *rephaim*, gyda'r ysbrydion colledig hyny ag sydd mewn cadwynau tywyllwch yn aros dydd y farn: *gwel ar pen. ii. 18, 2 Pedr ii. 4.*

Adn. 17. *Y neb a garo ddfyrwch*] Megys hela, dawnsio, rhodiana, neu gyrchu i chwareudai, rhedegfeydd, &c., gan esgeuluso ei alwedigaeth ei hun; *a ddaw i dylodi*—yn ddfifeth, fel canlyniad naturiol ei wastraff amser ac eiddo; *a'r neb a garo win ac olew*—neu ddylyn cyfeddach, gwleddoedd, a moethusrwydd anghymedrol a chostfawr; *ni bydd cyfoethog*—am y rhaid i'r fath fywyd treulifawr a gwastraffus ddyfetha o angenrheidrwydd ei eiddo a'i iechyd.

Adn. 18. *Yr annuwiol a roddir yn iawn dros y cyfiawn*] Megys Acan dros Israel, a Haman dros Mordecai; neu, y mae Duw yn peri i'r annuwiol yn fynych syrthio i'r ffos a gloddiodd efe i'r cyfiawn a'r diniwed: *a'r troseddwr dros yr uniawn*—i attal i'r troseddwr ddyfetha yr uniawn. Y meddwl yw, fod Duw yn fynych yn cospi yr annuwiolion i'r dyben i waredu y cyfiawnion o gyfyngder, fel y cospwyd yr Aiffitaid i waredu yr Israeliaid, a byddin Senacherib i achub Hezecia a Jerusalem.

Adn. 19. *Gwell yw aros yn yr anialwch*] Anghyfanedd, lle ni allo dyn glywed llais dynol, neu yn nghanol creaduriaid rheibus a gwenwynig; *na chyda gwraig anynad ddigllon*—yr bon a fyddo yn drelio ac yn dwrddio pawb o'i deutu yn ddbaid: *gwel ar adn. 9.*

Adn. 20. *Y mae trysor dymunol*] Digon o aur ac arian, bwyd a dillad, a phob peth angenrheidiol arall; *ac olew*—i'w ddefnyddio ar amserau neillduol, megys mewn gwleddoedd, neu ar achos o laweydd a gorfolled; *yn nhrigfa y doeth*—wedi eu casglu ganddo trwy ddoethineb, diwydrwydd, a chynildeb: *ond dyn ffol a'u llwnc hwynt*—a wastraffa, ond ei afradlondeb a'i ryssed, yr hyn a gasglodd ei dad trwy ei ddoethineb a'i ddiwydrwydd.

Adn. 21. *Y neb a ddylyno gyfiawnder a thrugaredd*] Gan ymfucheddu ac ymddwyn yn gyfiawn a thrugarog tuag at bawb; *a gais fywyd*—cysurus a dedwydd yn y byd;

thrugaredd, a gaiff fywyd, cyfiawnder, ac anrhydedd.

22 Y doeth a ddring i ddinas y cedyrn, ac a furw i lawr y cadernid y mae hi yn hyderu arno.

23 Y neb a gadwo ei enau a'i dafod, a geidw ei enaid rhag cyfyngder.

24 Y balch a'r gwatwarwr uchel, yw enw y gŵr a wnelo beth mewn diglonedd balch.

25 Deisyfiadydioga'i lladd: canys ei ldwylaw a wrthodant weithio.

26 Yn hyd y dydd y mae yn fawr ei awydd: ond y cyfiawn a rydd, ac nid arbed.

27 Aberth y rhai annuwiol sydd

ffiaidd: pa faint mwy, pan offrymant mewn meddwl drwg?

28 Tyst celwyddog a ddyfethir: ond y gŵr a wrandawo, a lesara yn wastad.

29 Gŵr annuwiol a galeda ei wyneb: ond yr uniawna gyfarwydda ei ffordd.

30 Nid oes doethineb, na deall, na chynghor, yn erbyn yr Arglwydd.

31 Y march a ddarperir erbyn dydd y frwydr: ond ymwared sydd oddiwrth yr Arglwydd.

PENNOD XXII.

MWY dymunol yw enw da na chyfoeth lawer; a gwel yw ffafr dda nag arian, ac nag aur.

cyfiawnder—ymddygir yn gyfiawn a thrugargog tuag ato yntau gan ereill; *ac anrhydedd*—a pharch gan bawb.

Adn. 22. *Y doeth a ddring i ddinas y cedyrn*] Er uchel a chryfod y byddo ei chaerau: *ac a furw i lawr y cadernid y mae hi yn hyderu arno*—sef yr amddiffynfeydd a'r tyr-au uwchaf a chadarnaf, yn y rhai yr bydera y trigolion am ddiogelwch. Y meddwl yw, y bydd i'r doeth, trwy ei ddoethineb, ei ymroad, a'i ddyfalwch, orchfygu yr anhawsderau mwyaf a fyddo ar ei ffordd, a llwyddo i gyraedd ei amcanion.

Adn. 23. *Y neb a gadwo ei enau a'i dafod*] Rhag absen, gogan, a chelwydd; *a geidw ei enaid rhag cyfyngder*—rhag cael ei ddirmygu gan ddynion, rhag cael ei gopsi gan y gyfraith, a rhag llawer o ofid yn ei gydwylbod ei hun.

Adn. 24. *Y balch a'r gwatwarwr uchel yw enw y gŵr*] Dyna yr enw a gaiff efe gan bawb, a'r enw mwyaf priodol iddo hefyd: *a wnelo beth mewn diglonedd balch*—yw y gŵr a lywodraethir yn ei eiriau a'i holl ymddygiadau gan faicbder, hunanoldeb, a diystyrwch o ereill, ac nid gan reswm, cyfiawnder, a brawdgarwch.

Adn. 25. *Deisyfiad y diog a'i lladd*] Sef ei ddeisyfiad afwyddianus am ymorth a dillad, heb fodd ganddo i'w cael: ac nid rhyfedd hyny, canys ei ddwylaw a wrthodant weithio—i'w hennill iddo ei hun, ac y mae pawb ereill yn gwrthod ei gynorthwyo o achos ei ddiogi.

Adn. 26. *Yn hyd y dydd y mae yn fawr ei awydd*] Am gael yr hyn ni weithia i'w ennill; ac am hyny nid oes ganddo ddim i'w fwyphau ei hun, nac i'w roddi i ereill: *ond y cyfiawn a rydd, ac nid arbed*—efe a ymrodda i weithio, heb arbed ei gorff; ac am hyny, trwy fendith Duw ar ei lafur, y mae ganddo ef beth i'w roddi i'r gwir anghenus, heblaw yr hyn sydd angenrheidiol at ei gynaliacth ei hun.

Adn. 27. *Aberth y rhai annuwiol sydd ffaidd*] Am nad yw un amser yn cael ei offrymu oddiar gariad at Dduw, na chydabwriad cywir i'w ogoneddu ef: *pa faint mwy pan*

offrymant mewn meddwl drwg—yn fantell dros eu pechodau, fel y gallont, dan rith o grefydd, gyflawni rhyw bechod yn fwy effeithiol, neu gael eu parchu yn fwy gan ddynion?

Adn. 28. *Tyst celwyddog a ddyfethir*] Pan y ceisia efe, trwy gelwydd, ddyfetha ei frawd, Dent. xix. 16—19: *ond gwir a wrandawo*—cyn lesaru, neu na thystia ddim ond yr hyn a glywodd, neu a welodd, neu y gŵyr ei fod yn wir: *a lesaru yn wastad*—a lesaru yn uniawn a chysu: neu caiff hwnw, fel dyn geirwir, lesaru yn barhaus, hyd yn nod pan fyddo y llall wedi ei ddyfetha.

Adn. 29. *Gŵr annuwiol a galeda ei wyneb*] A ddywed gelwydd, neu a wna ddyrgioni, heb wrido: *ond yr uniawn a gyfarwydda ei ffordd*—a drefna ei gereddiad yn gywir yn ol gair ac ewylls Duw.

Adn. 30. *Nid oes doethineb, na deall, na chynghor*] O eiddo dynion na chythreuliaid; *yn erbyn yr Arglwydd*—hyny yw, a lwydda yn erbyn yr Arglwydd. Efe a ddywed yn eu gwyrneb hwy oll, 'Fy ngl nghor a saif, a'm holl ewylls a wnaif:' gwel ar Esay xli. 10.

Adn. 31. *Y march a ddarperir erbyn dydd y frwydr*] Y cwbl a all dynion ei wneyd yw darparu meirch, ac arlwyadau ereill rhyfel, erbyn dydd y frwydr; neu darperir hwynt gan ddynion, fel pe bae eu gwaredigaeth a'u buddugoliaeth yn ymddibyni arnynt hwy: *ond ymwared sudd oddiwrth yr Arglwydd*—Duw, ac nid meirch-filwyr, a all waredu dyn, neu beri buddugoliaeth iddo yn nydd y frwydr.

PEN. XXII. Adn. 1. *Mwy dymunol yw enw da*] Yw clod a bri gan ddynion doeth a da, ac yn enwedig gan Dduw; *na chyfoeth lawer*—heb enw da felly; gwel ar Preg. vii. 1: *a gwel yw ffafr dda*—sef ewylls da a chymeradwyaeth ereill; *nag arian, ac nag aur*—y rhai sydd yn peri llawer o bryder a gofali'w perchenog, ac yn ei osod ef yn agored i lawer o beryglon, ond heb chwaneu un gwerth gwirioneddol at ei gymeriad ef. Gall dyn ffol a drwg feddu llawer o gyfoeth; ond nis gall neb feddu rhinwedd a chrefydd, heb enw da.

8 Y neb a hauo anwiredd a fed flinder; a gwialen eiddigofaint a balla.

9 Yr hael ei lygad a fendithir: canys efe a rydd o'i fara i'r tylawd.

10 Bwrw allan y gwatwarwr, a'r gynhen a â allan; ie, yr ymryson, a'r gwarth a dderfydd.

11 Y neb a garo lendid calon, am ras ei wefusau a gaiff y brenin yn garedig iddo.

12 Llygaid yr Arglwydd a gadwant wybodaeth; ac efe a ddinystria eiriau y troseddwr.

13 Medd y diog, Y mae llew allan; fo'm lleddir yn nghanol yr heolydd.

14 Ffos ddofn yw genau gwragedd dyeithr: y neb y byddo yr Arglwydd yn ddog wrtho, a syrth yno.

15 Ffolineb sydd yn rhwym yn nghanol plentyn; ond gwialen cerwydd a'i gyr yn mhell oddiwrtho.

16 Y neb a orthrymo y tylawd er chwaneu ei gyfoeth, a'r neb a roddo i'r cyfoeth, a ddaw i dylodi yn ddiamau.

ymedy â hi yn hawdd, neu yn y cyffredin; eithr bydd i'r argraffiadau daionus a wnaed ar ei feddwl ef yn more ei oes, arnos arno ar hyd ei fywyd, os na fydd i ryw lygriad cryfach nag arferol eu dileu hwynt. Rieni, ac athrawon yr ysgol Sul, a ydych chwi yn cyflawni y ddyledswydd hon yn briodol?

Adn. 7. *Y cyfoethog a arglwyddiaetha ar y tylawd*] Ac weithiau a dra-arglwyddiaetha arno: ond y mae arglwyddiaeth neu lywodraeth gyfiawn y cyfoethog yn both yn ol gosodiad Duw, a phob amser yn fendith i'r tylawd. *A gwas fydd yr hun a gaffo fenthigg*—hyny yw, efe a fydd dan rwymedigaeth, a dylai fod yn ddiolchgar, i'r gŵr a roddo fenthigg—iddo yn ei angen.

Adn. 8. *Y neb a hauo anwiredd*] Neu 'annghyfiawnder'; hyny yw, yr hwn a wna gam âg ereill; a *fed flinder*—iddo ei hun, am y rhaid i'r cnwd gyfateb i'r had: *a gwialen ei ddigofaint ef a balla*—bydd i'r gallu a'r awdurdod a gamddeffnyddiodd efe gael eu cymeryd oddiarno.

Adn. 9. *Yr hael ei lygad*] Yr hwn a edrycho ar eisiau a thrueni dyn arall gyda thosturi a pharoddrwydd i'w gynorthwyo ef; a *fendithir*—gan Dduw a dynion: *canys efe a rydd o'i fara i'r tylawd*—yr hyn sydd weithred dda a chanmoladwy; neu, efe a gaiff fodd i'w roddi yn barhaus, yn wobr am ei haelioni blaenorol: gwel ar pen. xi. 25, a xix. 17.

Adn. 10. *Bwrw allan y gwatwarwr*] Fel y bwriwyd Ismael watwarus allan o deulu Abraham, Gen. xxi. 9, 10; *a'r gynhen a â allan*—gydag ef, sef yr achos o'r gynhen: *ie, yr ymryson a'r gwarth u dderfydd*—y rhai yr arferai y gwatwarwr eu codi yn y teulu pan yn cael ei geryddu am ei fai.

Adn. 11. *Y neb a garo lendid calon*] Sef y dyn pur a didwyll yn y llys; *am ras ei wefusau*—neu am ei ymadroddion gonest a chywir, a *gaiff y brenin yn garedig iddo*—bydd i'r brenin werthfawrogi ei onestrydd, a'i ddirychafu, fel y gwnaeth brenin Babilon wedi hyn â Daniel.

Adn. 12. *Llygaid yr Arglwydd a gadwant wybodaeth*] 'Bydd i Dduw, â llygad gofalus ei ragluniaeth, amddiffyn dynion o wybodaeth, neu ddynton doeth a da, y fath ag y soniwyd am danynt yn yr adnod ddiweddaf, y rhai y mae eu calon yn lân, a'u hymadroddion yn rasol. Nid yn unig bydd y brenin yn

garedig iddynt, fel y dywedodd yno; ond bydd Duw hefyd, yr hyn a chwaneu efe yma. *Ac efe a ddinystria eiriau y troseddwr*—eu hymadroddion twyllodrus a gwenieithus, trwy y rhai y bwriadent ac y dysgwylient ennill ffiaf a charedigrwydd gwyr mawrion.—BENSON. Ond fe allai mai yr ystyr yw, y bydd i ragluniaeth Duw gadw y *wybodaeth o hono ei hun*, fel ei datguddir yn yr ysgrythrau sant-aidd, heb ei cholli o'r byd tra y byddo yn parhau; ac y bydd iddo *ddinystrio geiriau y troseddwr*, sef yr holl lyfrau niweidiol a drwg a ysgrifenyddwyd gan anffyddwyr ac ereill.

Adn. 13. *Medd y diog*] Wrth y rhai a geisiant ganddo fyned i'r maes i weithio, neu a'i ceryddant ef am ei ddiogi; *Y mae llew allan*—yn ddechryn i bawb a elo dros drothwy ei dŷ: *fo'm lleddir yn nghanol yr heolydd*—os rhyfygaf fwyd at fy ngorchwyllion. Ond symuder ei ddiogi, a'r peryglon dychymygl hyn a ddifanant ar unwaith.

Adn. 14. *Ffos ddofn yw genau gwragedd dyeithr*] Sef eu geiriau tēg a gwenieithus, a'r rhai yr hudant yr anochelgar i bechod, pen. ii. 16, a vii. 5, 21: *y neb y byddo yr Arglwydd yn ddog wrtho*—neu wedi ei roddi i fynd i galedwel calon am bechodau ereill; *a syrth yno*—o ba le, heb wyrth o eiddo gras, nis gellir ei waredu mwyach: gwel ar pen. ii. 19.

Adn. 15. *Ffolineb sydd yn rhwym yn nghanol plentyn*] Wedi ymsefydlu yno yn reddf naturiol o'i fabandod, ie, 'o'r groth,' Salm li. 5, a lviii. 3, Essay xlviii. 8: *ond gwialen cerydd a'i gyr yn mhell oddiwrtho*—a bair iddo fino ar bechod, a gwlio rhagddo. Y meddwl yw, fod anwybodaeth, llygredd calon, a thuedd at ddrwg, yn dyfod gyda phob plentyn i'r byd, ac wedi ymygroddeddu â'i natur syrthiedig a dirywiedig ef; ond y bydd i addysg ac hyfforddiad boreol da, cerydd prydlon, yn nghyda bendith Duw ar y cwbl, ei ddiwygio ef oddiwrthynt, neu leihau yn fawr eu drwg effeithiau hwynt.

Adn. 16. *Y neb a orthrymo y tylawd*] Trwy ei yspeilio o'i feddiannau, neu trwy gymeryd mantais ar ei anwybodaeth neu ei angen; *er chwaneu ei gyfoeth*—ei hun yn annghyfiawn felly; *a'r neb a roddo i'r cyfoeth*—a roddo wobr iddo, i ennill ei ffaf ef, neu i osgoi cosp am orthrymu y tylawd felly; *a ddaw i dylodi*

17 Gogwydda dy glust, a gwrando eiriau y doethion, a gosod dy galon ar fy ngwybodaeth.

18 Canys peth peraidd yw os cedwi hwynt yn dy galon; cymhwysir hwynt hefyd yn dy wesusau.

19 Fel y byddo dy obaith yn yr Arglwydd, yr hysbysaisi ti heddyw, iê, i ti.

20 Oni ysgrifenais i ti eiriau ar-derchog o gynghor a gwybodaeth.

21 I beri i ti adnabod sierwydd geiriau gwirionedd, fel y gallit ateb geiriau y gwirionedd i'r neb a anfonant atat?

22 Na yspeilia mo'r tylawd, o

herwydd ei fod yn dylawd: ac na orthryma y cystuddiol yn y porth.

23 Canys yr Arglwydd a ddadlennu eu dadl hwynt, ac a orthryma enaid y neb a'u gorthrymo hwynt.

24 Na fydd gydymaith i'r digllon; ac na chyd-gerdd â gŵr lliidiog:

25 Rhag i ti ddysgu ei lwybrau ef, a chael magl i'th enaid.

26 Na fydd un o'r rhai a roddant eu dwylaw, o'r rhai a fachiânt am ddyled.

27 Oni bydd genyt i dalu, paham y cymerai efe dy wely odditanat?

28 Na symud mo'r hen derfyn, yr hwn a osododd dy dadan.

yn ddiamau—trwy farn Duw arno ef a'i feddiannau annglyfiawn.

Adn. 17. *Gogwydda dy glust*] O ddechreu. x hyd yma, cafodd hyfforddiadau doethioneb eu traethu mewn brawddegau byrion, neu diarebion a elwir yn briodol felly; ond yma y mae y dull hwn yn cael ei newid, ac un arall yn cael ei ddechreu, a'i barbau yn mlaen hyd ddiwedd pen. xxiv: gwel y rhagarweiniad. Yn y rhan hon cawn amrai cynghorion a gorchymynion o eiddo Solomon i'w fab neu ei ddysgybl, ar wahanol faterion cymdeithasol, moesol, a chrefyddol, a'r rhai llyny yn ymestyn weithiau dros ddwy, tair, neu fwy o adnodau. *A gwrando eiriau y doethion*—sef geiriau Solomon ei hun, a dynion ereill doethion a da; *a gosod dy galon ar fy ngwybodaeth*—yr hon yr wyf fi yma yn ei dysgu i ti.

Adn. 18. *Canys peth peraidd*] Ilyfryd a dymunol, yw os cedwi hwynt yn dy galon—yn dy serchiadau a'th fyfyrdd; *cymhwysir hwynt hefyd yn dy wesusau*—byddant yn gymbwys i'w traethu genyt tithau hefyd i ereill.

Adn. 19. *Fel y byddo dy obaith yn yr Arglwydd*] Am bob daioni tymhorol ac ysbrydol; *yr hysbysais i ti heddyw*—yr addysgiadau hyn; *iê, i ti*—am eu bod yn perthyn i ti yn gymaint ag i neb.

Adn. 20. *Oni ysgrifenais i ti eiriau ar-derchog*] Neu, fel y mae rhai yn ei ddarlenn, 'geiriau tywysogaidd,' y fath ag y gweddai i frenin en llefaru, ac i dywysog eu gwrandao ac ufyddhan iddynt; *o gynghor*—gyda golwg ar dy ddyledswyddau, a gwybodaeth—pa fodd i'w cyflawni yn iawn. Ond y mae rhai yn cyfieithu *shalisim* yma yn *driodd*: 'oni ysgrifenais i ti *driodd*?' a thybiant fod hyn yn cyfeirio at dri llyfr Solomon, sef y Diarebion, y Pregethwr, a'r Caniadau.

Adn. 21. *I beri i ti adnabod sierwydd geiriau gwirionedd*] I'th sicrhau a'th wreiddio di yn y mwirionedd, trwy ei egluro i ti yn y modd llawnaf; *fel y gallit ateb geiriau y gwirionedd i'r neb a anfonant atat*—am eglurhad ar unrhyw fater o bwys.

Adn. 22. *Na yspeilia mo'r tylawd*] O'r

ychedig a fyddo ganddo; *o herwydd ei fod yn dylawd*—ac felly yn analluog i'th wrthsefyll di, neu i'w amddiffyn ei hun; neu, 'na yspeilia ef, canys y mae yn dylawd; a byddai yn resyn gwneyd y tylawd yn dylotach.' *Ac na orthryma y cystuddiol yn y porth*—sef yn llys cyfiawnder, neu dan yr esgus o gyfiawnder; llai o lawer pan na fyddo genyt un rhith ogyfiawnder o'th blaidd. Fel hyn, ar ol gwneuthur y rhagymadrodd pwysig uchod, (adn. 17—21,) y mae Solomon yn myned rhagddo i roddi i'w ddysgybl rai rheolau gwerthfawr gyda golwg ar ddyledswyddau bywyd cymdeithasol.

Adn. 23. *Canys yr Arglwydd a ddadlennu eu dadl hwynt*] Neu a fyn gyfiawnder iddynt; *ac a orthryma enaid y neb a'u gorthrymo hwynt*—efe a ddyg ymaith nid yn unig eu heiddo oddiamynt, ond eu bywyd hefyd, am eu hannghyfiawnder a'u trais.

Adn. 24. *Na fydd gydymaith i'r digllon*] Nac ymgysyllachia âg ef; *ac na chyd-gerdd â gŵr lliidiog*—na rodia gydag ef ar y ffordd.

Adn. 25. *Rhag i ti ddysgu ei lwybrau ef*] Nen fyned yn ddigllon, lliidiog, a chynhenllyd fel yntau; *a chael magl i'th enaid*—sef gofid, carchar, a chosp.

Adn. 26. *Na fydd un o'r rhai a roddant eu dwylaw*] Yn nwyllaw y gofynwr; neu, fel y mae yn y Saesonag, 'na fydd un o'r rhai a darawant ddwyllaw'; gwel ar pen. vi. 1; *o'r rhai a fachiânt am ddyled*—gŵr arall, a hyn yn fyrbwyll ac anystyriol.

Adn. 27. *Oni bydd genyt i dalu*] Oni bydd genyt fodd i dalu; *paham y cymerai efe dy wely odditanat?*—hyn yw, paham y byddai i ti dy osod dy hun yn y perygl o gollu dy wely? Arferai rhai gofynwyr creulon werthu gwely y machniydd odditano, pan na fyddai ganddo arian i dalu dros y dyledwr.

Adn. 28. *Na symud mo'r hen derfyn*] Sef y post neu y maen; *yr hwn a osododd dy dadan*—i nodi y fan lle yr eodd eu tir hwy yn terfynu; hyn yw, na symud ef yn mbellach oddiwrth y dir dy gymydog, fel ag i helaethu dy ran dy hun trwy gwtogi ei ran ef; gwel ar Dent. xix. 14.

29 A welaist ti ŵr diesgeulus yn ei orchwyl? efe a saif gerbron brenhinoedd, ac nisais gerbron rhai isel-radd.

PENNOD XXIII.

PAN eisteddych i fwyta gyda thy-wysog, ystyria yn ddyfal beth sydd ger dy fron.

2 A gosod gyllell ar dy gêg, os byddi ddyn blysig.

3 Na ddeisyf ei ddanteithion ef: canys bwyd twyllodrus ydyw.

4 Nac ymfina i ymglyfoethogi: dod heibio dy synwyr dy hun.

5 A beri di i'th lygaid ehedeg ar y peth nid yw? canys golud yn ddiau a gymer adenydd, ac a eheda ymaith megys eryr tua'r wŷbr.

6 Na fwyta fwyd y drwg ei lygad; ac na chwennych mo'i ddanteithion ef.

7 Canys fel y meddylia yn ei galon, felly efe a ddywed wrthyt: Bwyta ac ŷf; a'i galon heb fod gyda thi.

8 Y tamaid a fwyteiaist a fwri i fyny, a'th eiriau melys a golli.

9 Na lefara lle y clywo y ffol: canys efe a ddiystyra ddoethineb dy eiriau.

Adn. 29. *A welaist ti ŵr diesgeulus yn ei orchwyl?* Sef gw'r gofalus, dyfal, a diwyd yn ei alwedigaeth? *Efe a saif gerbron brenhinoedd*—efe a ddyrchefir i gytoeth ac anrhydedd; *ac ni saif gerbron rhai isel-radd*—ni raid iddo ymboeni yn hir i ennill ei damaid, llai o lawer ei gardota ef: gwel ar pen. xii. 24.

PEN. XXIII. Adn. 1. *Pan eisteddych i fwyta gyda thywysog*] Pan y'th wahoddir at fwrdd rhyw ŵr mawr; *ystyria yn ddyfal beth sydd ger dy fron*—sef pa fwydydd a diodydd, rhag i ti fwyta ac yfed pethau rhyfoethus neu gryfion, ac felly syrthio yn ddiarwybod i ti dy hun i lythineb a meddwedd.

Adn. 2. *A gosod gyllell ar dy gêg*] Saes., 'ar dy wddf.' Ymadrodd diarebol, yn arwyddo bwyta ac yfed gydag ymarbediad neu gymedroldeb, fel pe bae dyn yn dal cylfell wrth wddf un arall, yn barod i gymeryd ymaith ei fywyd ef os trosedd. *Os byddi ddyn blysig*—yn duaddol i fwyta ac yfed i ormodedd. Ond y mae *Schullens* ac ereill yn darllen yr adnod hon, 'Canys ti a osodi gyllell ar dy wddf, os byddi flysig;' hyny yw, os na lywodraethi di dy flys, efe a'th esyd yn agored i berygl, fel pe byddai cyllell ar dy wddf.

Adn. 3. *Na ddeisyf ei ddanteithion ef*] Neu na thrachwanta bethau nad wyt gynefin â hwy, neu yn gwybod am eu natur; *canys bwyd twyllodrus ydyw*—yn ddymunol i'r golwg a'r archwaeth, ond yn niweidiol i'r iechyd. Os myni ochelyd anfoessed, ac ymddangos yn foneddigaidd, ac nid fel dyu a fuddo ar banner newynu gartref, neu ddyu na chafodd ddygiad da i fywyd, ymddyga yn ol y rheolau hyn.

Adn. 4. *Nac ymfina*] Trwy ofalon, pryder, a llafur diddiwedd; *i ymglyfoethogi*—fel y gwna dyn bydol neu gybydd: *dod heibio dy synwyr dy hun*—dy synwyr aniaul a llygreddig, neu dy orawydd am gyfoeth, yr hwn a bair i ddyu greu mai ei ddyledswydd ef yw cyraedd cyfoeth trwy unrhyw foddion, bydded dda neu ddrwg; a bod ei fywyd neu ei ddedswyddwch yn ymddibynau ar amllder y pethau sydd ganddi: gwel er Lu. xii. 15. Yn lle

pendith ef ar dy lafur cymedrol a chyfreithlon; a thrysora i'th drysor yn y nef.

Adn. 5. *A beri di i'th lygaid ehedeg*] Neu edrych yn awyddus a thrachwantus, *ar y peth nid yw*—yn eiddo i ti, neu o fewn dy gyraedd; neu ar beth nad yw yn meddu bodolaeth sylweddol a sefydlog? *Canys golud yn ddiau a gymer adenydd*—hyd yn nod y golud a fyddo gan un eisioes; *ac a eheda ymaith megys eryr*—yn gyflwm ac anadferadwy; fel adar gwylltion yn disgyn ar faes dyn, y rhai a hawlia efe yn eiddo iddo ei hun, am eu bod ar ei faes ef; ond pan y nesao atynt i'w dal, lwy a ehedant drosodd i faes dyn arall, neu i'r awyr. *Tua'r wŷbr*—yr hyn a awgryma fod golud megys yn dychwelyd at Dduw ei wir berchenog, i gael ei roddi ganddo ef drachefn i'r neb y myno.

Adn. 6. *Na fwyta fwyd y drwg ei lygad*] Neu fwyd dyn cybyddydd a chrintachlyd, yr hwn a rwnnach i ti yn ei galon bob tamaid a roddech yn dy ben; *ac na chwennych mo'i ddanteithion ef*—er iddynt fod o'r fath oraf.

Adn. 7. *Canys fel y meddylia yn ei galon*] Ragrithio o'th flaeu; *felly efe a ddywed wrthyt*—yn rhagrithiol fel y meddyliodd; *Bwyta ac ŷf*—yn helaeth, fy nghyfaill; *a'i galon heb fod gyda thi*—sef heb garu dy weled yn bwyta ac yn yfed. Ond y mae y Saeson-aeg ychydig yn wahanol: 'Canys fel y meddylia yn ei galon, felly y mae efe;' dyna yr hyn ydyw efe mewn gwirionedd, ac nid fel y *lefaru* â'i dafod.

Adn. 8. *I'th tamaid a fwyteiaist a fwri i fyny*] Pan ddealli y fath ddyu crintachlyd a rhagrithiol yw yr hwn y buost yn bwyta ar ei fwrdd, bydd ei fywyd fel yn fflaidd i ti, a byddai yn dda genyt pe buaisit heb fod yn ei dy; *a'th eiriau melys a golli*—bydd yn edifar genyt dy fod wedi ddiolch iddo mor wresog am ei groesawiad a'i garedigrwydd; neu bydd yn ddiffas genyt feddwl am yr ymddyddan cyfeillgar a fu rhyngoch wrth y bwrdd, pan y dealli mai croesaw rhagrithiol oedd y cwbl a gefaist ganddo.

Adn. 9. *Na lefara lle y clywo y ffol*] Na lefara wrth un ffol am ddyfnion bethau Duw, neu am bethau rhy uchel i'w amgylfrediad ef; neu na wastrafia dy gynghorion a'th addysg-

10 Na symud mo'r hen derfyn; ac na ddos i faesydd yr amddifaid:

11 Canys eu Gwardwr hwynt sydd northol; ac a amddiffyn eu cweryl hwynt yn dy erbyn di.

12 Gosod dy galon ar addysg, a'th glustiau ar eiriau gwybodaeth.

13 Na thyn gerydd oddiwrth dy blentyn: os curi ef â gwialen, ni bydd efe farw.

14 Cur ef â gwialen, a thi a achubi ei enaid rhag uffern.

15 Fy mab, os dy galon di fydd doeth, fy nghalon iau a lawenyha;

16 Ie, fy arenau a grychneidiant, pan draetho dy wefusau di gyfiawnder.

17 Na wynfyded dy galon wrth

bechaduriaid: ond aros yn ofn yr Arglwydd yn hyd y dydd.

18 Canys yn ddiau y mae gwobr; ac ni phalla dy ddysgwyliad.

19 Ergliw, fy mab, a bydd ddoeth, a chyfarwydda dy galon yn y ffordd.

20 Na fydd yn mysg y rhai sydd yn meddwi ar win; yn mysg rhai glythion ar gig.

21 Canys y meddw a'r glwth a ddaw i dylodi: a chysgu a bair fyned mewn gwisg garpiog.

22 Gwrando ar dy dad a'th genhedlodd: ac na ddiystyra dy fam pan heneiddio.

23 Pryn y gwir, ac na werth; felly doethineb, ac addysg, a deall.

iadau dauol ar bechaduriaid cyndyn ac anniwygiadwy: canys efe a ddiystyra doethineb dy eiriau—ac yna ni bydd y cwll ddim amgen na 'thafu gemau o flaen moch:' gwel ar Mat. vii. 6.

Adn. 10. *Na symud mo'r hen derfyn*] Gwel ar pen. xxii. 23; ac na ddos i faesydd yr amddifaid—i draws feddiannau eu heiddo hwy.

Adn. 11. *Canys eu Gwardwr hwynt*] Hebr., 'eu Cynsaf,' neu 'eu Cyfathrachwr,' i'r hwn y perthyn dial en cam, ac amddiffyn eu hiawiderau; gwel ar Lef. xxv. 25, Job xix. 25; *sydd northol*—neb llai na'r Arglwydd Dduw hollalluog; ac a amddiffyn eu cweryl hwynt yn dy erbyn di—efe a ddial arnat ti hyd yr eithaf, am wneuthur anghyfiawnder â hwynt.

Adn. 12. *Gosod dy galon ar addysg*] Gosod holl fryd y galon ar geisio addysg fuddiol a chrefyddol; a'th glustiau ar eiriau gwybodaeth—i wrando a dal ar bob peth a lesfärer er cynyddu dy wybodaeth.

Adn. 13. *Na thyn gerydd oddiwrth dy blentyn*] Pan fyddo achos am ei geryddu: os curi ef â gwialen—fel ag i'w gadw oddiwrth ddrwg; ni bydd efe farw—o farwolaeth warthus fel drwgweithredwr.

Adn. 14. *Cur ef â gwialen*] Nid â dwrn, troed, neu bastwn, yr hwn a duedda i galedu y plentyn yn hytrach na'i ddiwygio, os nid i'w anafu hefyd; ond â gwialen fain, yr hon a wna iddo deimlo yn llym, a chasau ond odid y drygionni ag oedd yn galw am y cerydd: a thi a achubi ei enaid rhag uffern—os ennillir ef trwy y cerydd i adael ei bechod, editarhan am dano, a cheisio tregaredd a maddeuant gan Dduw. I'r dyben hwn ni ddylai y tad byth geryddu ei blentyn, heb weddio drosto hefyd.

Adn. 15. *Fy mab, os dy galon di fydd doeth*] Tuag at Dduw, neu tuag at iachawdriaeth dy enaid; *fy nghalon iau*—fel tad, neu galon pob tad a maml dduwiol; a *lawenyha*—canys iachawdriaeth ein plant, yn nesaaf at yr eiddom ein hunain, a'w llawenydd nesaaf pob dyn da.

Adn. 16. *Ie, fy arenau a grychneidiant*] Neu a ddawnsiant o lawenydd; pan draetho dy wefusau di gystwondt—pan fyddo dy eiriau a'th weithredoedd yn tarddu oddiar gyfiawnder, ac yn arwain at gyfiawnder ymarferol; neu pan y byddo i ti bregethu cyfiawnder i ereill, neu gyhoeddi trefn Daw o gyfiawnhau pechiadur.

Adn. 17. *Na wynfyded dy galon*] Saes., 'na chenfigened dy galon,' wrth bechaduriaid—wrth eu llwyddiant na'u iffydd hwy; ond aros yn ofn yr Arglwydd yn hyd y dydd—ie, ar hyd dy fywyd.

Adn. 18. *Canys yn ddiau y mae gwobr*] I ti yn y byd sydd ar ol hwn. *Yesh ucharith*, 'y mae bywyd arall.'—CLARKE. 'Y mae cystur dyfodol.'—COKE. Ac ni phalla dy ddysgwyliad—ni siomir di am y gwobr hwnw, neu am ddedwydd anfarwoldeb tudraw i'r bedd.

Adn. 19. *Ergliw, fy mab, a bydd ddoeth*] Nac ymfoddloa ar glywed yn unig, ond edrych ar dy fod yn cynyddu yn ddoethach bob dydd trwy y cynghorion a glywi; a chyfarwyddu dy galon yn y ffordd—sef yn ffordd yr Arglwydd, yr hon sydd yn arwain yn ddiwyrni at y gwobr uchod yn y nef.

Adn. 20. *Na fydd yn mysg y rhai sydd yn meddwi ar win*] Neu ar ryw ddiod gadarn arall, rhag iddynt dy hudo dithau i feddwi; yn mysg rhai glythion ar gig—rhag i tithau fyned yn ddynglwlth, ac felly, trwy besgi dy gorff, esgenluso dy enaid.

Adn. 21. *Canys y meddw a'r glwth a ddaw i dylodi*] Trwy ei segruddo a'i wastraff: a chysgu—yn ddioglyd, yn lle gweithio; a bair fyned mewn gwisg garpiog—am na bydd ganddo fodd i brynu ei gwell.

Adn. 22. *Gwrando ar dy dad a'th genhedlodd*] Sef ar ei gynghorion a'i addysgiadau da ef, yr hwn sydd yn dy garu yn anwyl, ac a ddylai gael lfydd-dod genyt; ac na ddiystyra dy fam pan heneiddio—pan fyddo gwendid hennint wedi ci chwanegu at wendid ei rhyw.

Adn. 23. *Pryn y gwir*] Defnyddia bob llafur a diwydrwydd, te arian ac aur hefyd os

24 Tad y cyfiawn a orfoledda yn fawr; a'r neb a genhedlo fab doeth, a lawenha o'i blegid.

25 Dy dad a'th fam a lawenycha; a'r hon a'th ymddŷg a orfoledda.

26 Fy mab, moes i mi dy galon; dalied dy lygaid ar fy ffyrdd i.

27 Canys ffos ddofn *yw* putan: a phydedw cyfyng *yw* y ddyeithr.

28 *Ie*, hi a gynllwyn fel gwylliad; ac a chwanea bechaduriaid yn mysg dynion.

29 I bwy y mae gwae? i bwy y mae ochain? i bwy y mae cynhen? i bwy y mae dadwrdd? ac i bwy y

mae gweliâu heb achos? i bwy y mae llygaid cochion?

30 *I'r* neb sydd yn aros wrth y gwin: i'r neb sydd yn myned i ymofyn am win cymysgedig.

31 Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ddanghoso ei liw yn y cwpan, *pan* ymgynhyrfo yn iawn.

32 Yn y diwedd efe a frath fel sarff, ac a biga fel neidr.

33 Dy lygaid a edrychant ar wragedd ddyeithr, a'th galon a draetha drawsedd.

34 Ti a fyddi megys un yn cysgu

bydd achos, i gyraedd gwir wybodaeth o Dduw a'i ewyllys, pen. iv. 7; *ac na werth*—ef, ar ol ei gael, am holl drysorau y ddaear: *felly doethineb, ac addysg, a deult*—pryn y rhai llyn hefyd, pa faint bynag a gostiant, ac nac ymad â hwynt ar ol eu cael.

Adn. 24. *Tad y cyfiawn a orfoledda yn fawr*] Am fod ganddo y fath fab da a duwiol: *a'r neb a genhedlo fab doeth*—sef doeth tuag at Dduw; *a lawenha o'i blegid*—yn llawer mwy na phe byddai ei fab wedi cyraedd cyfoeth llawer.

Adn. 25. *Dy dad a'th fam*] Nid yn unig dy dad, ond dy fam hefyd, *a lawenycha*—am fod ganddyn y fath fab cyfiawn a doeth; *a'r hon a'th ymddŷg*—a hyny trwy boen a gofid, *a orfoledda*—hi a ystyria dduwioldeb ei mab yn ddiagon o dal am ei holl boen a'i gofid yn dy achos.

Adn. 26. *Fy mab, moes i mi dy galon*] Dyro dy fryd, neu dy holl serchiadau a'th gynneditau, i ddal ar fy athrawiaeth i: *dalied dy lygaid ar fy ffyrdd i*—y rhai yr wyf fi yn eu dysgu i ti, neu yn eu cymbell i'th sylw. Y mae y galon yma yn arwyddo yr holl enaid, a'r llygaid yr oll o'r corff. Ond y mae rhai yn ystyried y geiriau hyn fel galwad Duw, trwy Solomon, ar bob dyn a dynes ieuanc i roddi eu calon iddo ef, a rhodio yn ei lwybrau.

Adn. 27. *Canys ffos ddofn yw putan*] O afaelion yr hon y mae yn dra anhawdd dianc: gwel ar pen. ii. 19, a xxii. 14: *a phydedw cyfyng yw y ddyeithr*—enw arall ar butan: gwel ar pen. ii. 16. Y meddwl yw, fod y neb a elo i mewn ati hi, mewn cymaint perygl a phe syrthiai efe i ffos ddofn neu bydedw cyfyng.

Adn. 28. *Ie, hi a gynllwyn fel gwylliaid*] Sef fel *yspeilwyr* yn ngwylly nos; neu, yn ol y Saesonaeg, 'fel am ysglyfaeth'; *ac a chwanea bechaduriaid yn mysg dynion*—trwy amhau puteinwyr. Y mae mwy yn cael eu ludo i bechod trwy wragedd, a diod gadarn, nag sydd trwy unrhyw achos arall yn holl gyfundrefn pechod.

Adn. 29. *I bwy y mae gwae?*] Ar ol sylwi ar y pechod o *buteindra*, y mae y gwŷr doeth yn myned rhagddo i sylwi ar y pechod o *feddwod*, yr hwn sydd yn fynych yn ei ddylyn ef. Fel pe dywedasai, Os wyt ti am ochel-

yd y fath bechod aflan, gochel anghymedroldeb; effeithiau galarus pa un sydd mor luosog, fel y mae yn anhawdd eu rhifo hwynt. Canys *i bwy y mae gwae*—ar ol gwario ei arian a dyfetha ei iechyd? *i bwy y mae ochain*—gan boenau corff a gofid meddwl? *i bwy y mae cynhen*—neu amrafaelion yn barhaus? *i bwy y mae dadwrdd*—sef clebran ac ymdaeru yn ddiwedd? *ac i bwy y mae gweliâu heb achos*—sef archolion a chleisiau diachos dros ei holl gorff? *i bwy y mae llygaid cochion*—wedi eu llygru gan wirf; neu 'lygaid duon,' wedi eu hachosi trwy ymladd? Cawn atebiad i'r gofyniadau hyn yn yr adnod nesaf.

Adn. 30. *I'r neb sydd yn aros wrth y gwin*] Neu ryw ddiodydd meddwol ereill, am ddyddiau a nosweithiau yn nghyd; *i'r neb sydd yn myned i ymofyn am win cymysgedig*—sef am win wedi ei gymysgu âg amrai ddefnyddiau, i'w wneyd yn fyw cryf a meddwol: gwel ar pen. ix. 5.

Adn. 31. *Nac edrych ar y gwin*] Yn flysig, *pan fyddo coch*—yr hyn oedd lliw y gwinoedd goraf yn y wlad hono, y rhai am hyny a elwir yn 'waed,' Gen. xlix. 11, Deut. xxxiii. 14; *pan ddanghoso ei liw yn y cwpan*—yn ddymunol yn dy olwg; canys y mae y dwyreinwyr hyd heddyw, fel y dywed *Olearius*, yn hoffach o win coch na'r un gwŷn; *pan ymgynhyrfo yn iawn*—pan wreicliou gan gryfder a bywyd wrth ei dywallt i'r cwpan.

Adn. 32. *Yn y diwedd*] Ar ol hir ymarfer âg ef, er mor ddymunol ei liw a'i flas; *efe a frath fel sarff*—trwy achosi clefydau poenus; *ac a biga fel neidr*—efe a daena wenwyn trwy yr holl gyfansoddiad: bydd iddo niweidio y corff, gwanhau y meddwl, dita y meddianau, duo y cymeriad, archolli y gydwybod, ac andwyo yr enaid.

Adn. 33. *Dy lygaid*] Ar ol i ti yfed i ormodedd, *a edrychant ar wragedd ddyeithr*—i'w chwennychu hwynt; *a'th galon*—trwy oferynoliaeth dy enau, *a draetha drawsedd*—neu ymadroddion aflan, rhyfygus, a chabl-eddus.

Adn. 34. *Ti a fyddi megys un yn cysgu yn nghanol y môr*] Mewn llong ar ysturm beryglus; *ac fel un yn cysgu yn mhen yr hwylybren*—mewn perygl bob myned o gwmpo ar y

yn nghanol y môr, ac fel un yn cysgu yn mhen yr hwylybren.

35 *Curent fi, meddi, ac ni chlafychais; dulient fi, ac nis gwybûm: pan ddeffrôwyf, mi a âf rhagof; mi a'i ceisiaf drachefn.*

PENNOD XXIV.

NA chenfigena wrth wŷr annuwiol; ac na chwennych fod gyda hwynt.

2 Canys eu calon a fyfyria anrhaith, a'u gwefusau a draetha flinder.

3 Trwy ddoethineb yr adeiledir tŷ, a thrwy ddeall y sicrheir ef:

4 A thrwy wybodaeth y llenwir y celloedd o bob golud gwerthfawr a hyfryd.

5 Gŵr doeth sydd nerthol; a

gŵr pwyllog a chwanega ei nerth.

6 Canys trwy gynghor doeth y gwnei dy ryfel: a thrwy lawer o gynghorwyr y bydd diogelwch.

7 Rhy uchel yw doethineb i ffol; ni egyr efe ei enau yn y porth.

8 Y neb a fwriada ddrygau, a elwir yn ysgeler.

9 Bwriad y ffol sydd bechod; a ffaidd gan ddyinion y gwatwarus.

10 Os llwfrhei mewn amser cyfyngder, bychan yw dy nerth.

11 Gwared y rhai a lusgir i angau: a ymadewit â'r neb sydd barod i'w lladd?

12 Os dywedi, Wele, ni wyddom ni hyn: onid yw Pwyswr y calonau yn deall? a'r hwn sydd yn cadw dy enaid, oni wŷr efe? ac oni thâl efe i lob un yn ôl ei weithred?

bwddd, neu gael ei chwyrn-dastu i'r môr.

Adn. 35. *Curent fi, meddi*] Pan yn adrodd dy helynt wrth dy gyfeillion, ar ol bod yn ymladd yn dy feddwod; *ac ni chlafychais*—nid wyf ddim gwaeth: *dulient fi*—â'u dyrnau ac â'u traed; *ac nis gwybûm*—pwy a wnaeth hyn; neu, nid oeddwn yn teimlo dim oddi wrth hyn ar y pryd: *pan ddeffrôwyf*—pan ddeuaf ychydig ataf fy hun; neu bore fory, ar ol cysgu heno; *mi a âf rhagof*—ar hyd yr un llwybrau; *mi a'i ceisiaf drachefn*—âf i yfed ac ymladd eilwaith. Hyn yw ymddygiad llawer hyd heddyw yn ein gwlad ni, os nid eu biaith hefyd.

PEN. XXIV. Adn. 1. *Na chenfigena wrth wŷr annuwiol*] Wrth eu llwyddiant na'u ffyrdd hwy; *ac na chwennych fod gyda hwynt*—yn eu cymdeithas na'u cyfrinach.

Adn. 2. *Canys eu calon a fyfyria anrhaith*] Pa fodd i allu yspeilio dyn o'i feddiannau, os nid o'i fywyd hefyd; *a'u gwefusau a draetha flinder*—a draetha yr hyn a bair flinder yn y dechre i ereill, ac yn y diwedd iddynt eu hunain.

Adn. 3. *Trwy ddoethineb yr adeiledir tŷ*] Neu y codir teulu i fyny yn anrhydeddus, ac nid trwy anrhaith, neu ddylyn gwŷr annuwiol, adn. 1, 2; *a thrwy ddeall y sicrheir ef*—o ran parhad ei llwyddiant a'i ddedwyddwch.

Adn. 4. *A thrwy wybodaeth*] Neu fedrusrwydd i drin masnach neu gelfyddyd; *y llenwir y celloedd o bob golud gwerthfawr a hyfryd*—hyn yw, bydd gan y cyfryw fodd i bwrcasu pob peth angherididol er cysur teuluaid.

Adn. 5. *Gŵr doeth sydd nerthol*] Sydd allnog trwy ei ddoethineb i wneyd yr hyn nas gall nerth corfforol ei gyflawni; a *gŵr pwyllog*—neu wŷr o synwyr a gwybodaeth, a *chwanega ei nerth*—trwy ddyfeisio neu ddefnyddio peiriannau i'w gynorthwyo. Y LXX a'i cyfieithant, 'Gwell yw y doeth na'r nerthol; a'r sawyrol na'r llafurwr cryf.'

Adn. 6. *Canys trwy gynghor doeth y gwnei dy ryfel*] Hyn yw, y gwnei hi yn llwyddiannus. Fel pe dywedasai, Y mae yr hyn a ddywedwyd uchod i'w ganfod yn eglur hyd yn no'i mewn rhyfel, lle y mae buddugoliaeth yn fwy dyledus yn fynyeh i ddoethineb y cadfridog, nag i nerth neu rifedi ei filwyr. *A thrwy lawer o gynghorwyr y bydd diogelwch*—gwel ar pen. xi. 14, a xv. 22, a xx. 18.

Adn. 7. *Rhy uchel yw doethineb i ffol*] I allu ei chyraedd, sef i ddynd diffygiol o gynceddfau neu synwyr cyffredin: *ni egyr efe ei enau yn y porth*—ni chaffi efe byth ei ddyrchafu i swydd o anrhydedd, megys dadleuwr neu farnwr yn y llys.

Adn. 8. *Y neb a fwriada ddrygau*] Yn erbyn ei gymydog diniwed; a *elwir yn ysgeler*—yn ddynd drygionus a niweidiol, a pheryglus i gymdeithas, gan bawb a'i hadwaenant.

Adn. 9. *Bwriad y ffol*] Sef dyn ysgeler a drygionus felly, *sydd bechod*—hyd yn nod cyn iddo dori allan mewn gweithred: *a ffaidd gan ddyinion y gwatwarus*—yn gystal a chan Dduw.

Adn. 10. *Os llwfrhei mewn amser cyfyngder*] Os bydd i ti ddigalonni ac anobeithio mewn amser o berygl neu brofedigaeth; neu pan welot ereill mewn perygl, fel yr adroddir yn yr adnod nesaf; *bychan yw dy nerth*—neu wroldeb dy feddwl. Y mae hyn yn wir mewn pethau ysbrydol, yn gystal ag mewn pethau tymhorol.

Adn. 11. *Gwared y rhai a lusgir i angau*] Yn anghyfiawn, neu trwy ddwyllaw trais; hyn yw, gwna dy oraf i'w gwaredu; dadleua eu hachos, dangos en diniweidrwydd, ac ymdrecha i ddylanwadu ar ereill o'u plaid: *a ymadewit â'r neb sydd barod i'w lladd?*—a gefni di arnynt heb geisio eu gwaredu, pan fyddo ar dy law wneuthur hyn?

Adn. 12. *Os dywedi*] Yn anwireddus, i'th gyfiawrhau dy lun; *Wele, ni wyddom ni hyn*—neu ni wyddem eu bod hwy yn ddi-euog, neu mewn perygl, neu y gallaswn i a'm

13 Fy mab bwyta fêl; canys da yw: a'r dil mêl; canys melys yw i'th enau.

14 Felly y bydd gwybodaeth doethineb i'th enaid: os cei di hi, yn ddiau fe fydd gwobr, a'th obaith ni phalla.

15 Na chynllwyn di, O annuwiol, wrth drigfa y cyfiawn; nae anrheithia ei orphwysfa ef.

16 Canys seithwaith y syrth y cyfiawn, ac efe a gyfyd drachefn: ond yr annuwiolion a syrthiant mewn drygioni.

17 Pan syrthio dy elyn, na lawenycha: a phan dramgwyddo, na orfoledded dy galon:

18 Rhag i'r Arglwydd weled, a bod hyny yn ddrwg yn ei olwg ef, ac iddo droi ei ddig oddiwrtho ef *atat ti*.

19 Nac ymddigia o herwydd y drwg-*weithredwyr*; na chenfigena wrth yr annuwiolion:

20 Canys ni bydd gwobr i'r drygionus: canwyll yr annuwiolion a ddiffoddir.

cyfeillion eu gwaredu hwy: *oidd yw Pwyserr y calonau yn deill*—y gw; ddi't ti y pethau uchod, ac mai anwiredd yw dy esgus. *A'r hwn sydd yn cadw dy enaid*—neu dy einioes, rhag i'thau gael dy lusgo i angau, neu gollti dy fywyd yn anamserol trwy drais neu ddam-wain; neu, fel y gellir ei gyfieithu, 'yr hwn sydd yn sylwri ar dy enaid,' ac yn canfod ei holl fferiadau a'i ysgogiadau; *oni ŵyr efe*—fe ddyliau dirgelafdy galon? *Ac oni thâl efe i bob un yn ol ei weithred?*—i'r llofruddion uchod am dywallt gwaed gwirion, ac i'thau am heidio eu hattal bwy. Y mae yr hwn na wareda fywyd dyn arall pan y gallo yn gyfiawn wneuthur hyny, yn cael ei ystyried yn *llofrudd* gan Dduw a dynion; a chospir ef yn y diwedd fel y cyfryw.

Adn. 13. *Fy mab, bwyta fêl*! O'r hwn yr oedd amledd mawr yn Nghanaan; *canys da yw*—fel ymorth a meddyginiaeth: *a'r dil mêl*—a fyddo yn dyferu ar y pryd o'r crwybr; *canys melys yw i'th enau*—y mae yn felysach na hen fêl, yr hwn a fyddo wedi bod yn agored am grym amser i weithrediad neu effaith yr awyr. Darfu i'n Harglwydd ei hwn, ar ol cyfodi o'r bedd, fwyta hwn, Luc xxiv. 42. Ond y mae hwn yn cael ei grybwyll yma yn unig fel arweiniad at yr hyn a ddywedir yn yr adnod ganlynol.

Adn. 14. *Felly y bydd gwybodaeth doethineb i'th enaid*! Bydd i wir grefydd, neu wybodaeth brofiadol o dduwioldeb, fod mor felys i'th enaid, ag ydyw dil mêl i'th enau. *Os cei di hi*—a thi a'i cei, ond i ti ei cheisio fel ceisio arian, a chwilio am dani fel am drysorau cuddiedig, pen. ii. 4, 5; *yn ddiau fe fydd gwobr*—neu gyflwr dyfodol o wynfydedigrwydd i ti yn y byd a ddaw; *a'th obaith ni phalla*—ni siomir dy ddysgwyliad am y gwobr hwnw, neu am ddedwydd anfarwoldeb tudraw i'r bedd: gwel ar pen. xxiii. 18. Y lxx a'i cyfieithant, 'Os cei di hi, cei farwolaeth dda; a gobaith ni'th edy:' ar *Arabaeg*, 'Dy farwolaeth fydd *ogoneddus*, a'th obaith ni phalla.'

Adn. 15. *Na chynllwyn di, O annuwiol*! Pwy bynag ydwyf, wrth drigfa y cyfiawn—gyda bwriad i fyned i mewn i'w niweidio ef yn ei beron na'i fuddiannau: na anrheithia ei orphwysfa ef—nae yspellia ei dŷ ef, lle y gorhbwysa efe yn heiddychol a thawel. Ond os

goddefir i ti wneuthur hyny, nid rhyfead;—

Adn. 16. *Canys seithwaith y syrth y cyfiawn*! Hyny yw, efe a syrth yn *fymych*, sef i gyfyngderau, trallodau, a pheryglon oddiwrth ddynion annuwiol, adn. 15. Nid yw y gair *gyppol*, a gyfieithir yma *syrthio* byth yn arwyddo syrthio i *bechod*, ond bob amser i dralod neu adfod: gwel *Benson, Clarke, Gill, Holden, Patrick, &c.*; a gwel ar Salu xxxiv. 19, a xxxvii. 24. *Ac efe a gyfyd drachefn*—er i Dduw oddef weithiau i ddwyllaw *trais* yspellio ei drigfa. i *ofidiau* chwerwon flino ei feddwl, ac i *gystuddiau* trymion lethu ei gorff; eto y mae efe wedi hyny yn cael ei waredu oddiwrthyt, ac yn dyfod allan o'r fwrneisiau hyn yn llawer prach nag o'r blaen. *Ond yr annuwiolion a syrthiant mewn drygioni*—neu 'i ddrwg,' fel y mae yn y Saeson-aeg, o'r hwn ni chyfodant drachefn; ie, i ddinystir tragwyddol yn y byd a ddaw.

Adn. 17. *Pan syrthio dy elyn*! I ryw aflwydd, trallod, nen ing; *na lawenycha*—yn ei anffawd ef: *a phan dramgwyddo, na orfoledded dy galon*—hyd yn nod er ei fod yn elyn diachos i ti. Fel hyn ni a welwn fod caru ein gelynicen yn cael ei orchymyn i ni yn yr Hen Testament, yn gystal a'r Newydd: gwel ar Exod. xxiii. 4, 5.

Adn. 18. *Rhag i'r Arglwydd weled*! Canys efe a'i gwel, os bydd i'th galon lawenychu a gorfoleddu yn ei gywmp ef; *a bod hyny yn ddrwg yn ei olwg ef*—y mae yn ddrwg, am fod yr Arglwydd yn ei wahardd; *ac iddo droi ei ddig oddiwrtho ef atat ti*—a thrwy hyny roddi i ti achos deublyg i alaru am dy lawenydd pechadurus; neu, 'rhag iddo roddi annat ti gosp gyffelyb.'

Adn. 19. *Nac ymddigia o herwydd y drwg-*weithredwyr**! O herwydd eu llwyddiant hwy, neu o herwydd eu bod yn dianc weithiau yn y byd hwn yn ddigosp: *na chenfigena wrth yr annuwiolion*—wrth eu gwynfyd byrbarhaol hwynt yma.

Adn. 20. *Canys ni bydd gwobr i'r drygionus*! *Acharith*, 'ni bydd gyflwr dyfodol o wynfydedigrwydd iddynt:' gwel ar adn. 14, a pen. xxiii. 18. *Canwyll yr annuwiolion a ddiffoddir*—eu holl llyddiant, a'u gogoniant, a'u digrifweh, a ddrwydd am byth. Tybiodd rhai fod yma awgymiad y *dddymir* neu y

21 Fy mab, ofna yr Arglwydd a'r brenin, ac nac ymyr â'r rhai anwastad:

22 Canys yn ddisymwth y cyfyd eu dystryw hwy: a phwy a wŷr eu dinystr hwy ill dau?

23 ¶ Dyma hefyd *bethau doethion*. Nid da derbyn wyneb mewn barn.

24 Y neb a ddywedo wrth yr annuwiol, Cyfiawn *wyt*; y bobl a'i melldithiant ef, cenhedloedd a'i fficddiant ef:

25 Ond i'r neb a'i ceryddo, y

bydd hyfrydwch; a bendith dda a ddygwydd iddynt.

26 *Pawb a gusana wefusau y neb a atebou eiriau uniawn.*

27 Darpara dy orchwyl oddiallan, a dospartha ef i ti yn y maes: ac wedi hyny adeilada dy dŷ.

28 Na fydd dyst heb achos yn erbyn dy gymydog: ac na huda â' th wefusau.

29 Na ddywed, Mi a wnaif iddo ef fel y gwnaeth yntau i minau; mi a dalaf i'r gŵr yn ol ei weithred.

30 Mi a aethym heibio i faes y

difodir yr annuwiolion; ond nid yw y testyn yn cyfeirio at eu *bodaeth*, ond at eu *cyflwr* yn eu bodaeth. Bydd i'r annuwiolion barhau i *fodoli*, ond nid i fod yn *ddedwydd*.

Adn. 21. *Fy mab, ofna yr Arglwydd*] Dwy roddi parch, anrhydedd, ac addoliad dwyfol iddo ef; *a'r brenin*—trwy roddi anrhydedd ac ufydd-dod gwladol iddo yntau: *ac nac ymyr â'r rhai anwastad*—â'r dynion ag sydd yn anwadol ac ansefydlog yn eu hufydd-dod i Dduw a'r brenin, ac yn barod i wrthryfela yn erbyn llywodraeth ac awdurdod y dduw.

Adn. 22. *Canys yn ddisymwth y cyfyd eu dystryw hwy*] Fel gwrthryfelwyr yn erbyn Daw a'r brenin: a *phwy a wŷr eu dinystr hwy ill dau*—sef y rhai nad ofnant Dduw, a'r rhai nad ufyddhant i'r brenin? Pwy a wŷr pa mor drwm fydd eu cosp, a pha mor fuan y gweinyddir hi arnynt?

Adn. 23. *Dyma hefyd bethau doethion*] Saes., 'y pethau hyn hefyd a berthynant i'r doethion.' Fe allai fod yma *ddosbarth newydd* yn dechreu: a thobia rhai i'r diarebion a geir oddiyma hyd ddiwedd y bennod gael eu casglu gan ryw wŷr doethion o weithydd Solomon. Ffyrh barna *Calmet, Grotius, Grey*, ac ereill, iddynt gael eu casglu o lyfrau rhyw ddoethion ag oeddnt yn byw ar ol Solomon, a chy'n amser Hezeciah. Wedi y cwbl, gall mai yr ystyr yw, fel y sylwa *Coke, Benson*, ac ereill, fod y cynghorion ag sydd yn dilyn yma, yn gystal a'r rhai blaenorol, yn deilwng o ystyriaeth y doethion, neu yn perthyn fel y lleill i fywyd doeth a rhiweddol. *Nid da derbyn wyneb mewn barn*—trwy ryddbau yr euog am ei fod yn gyfoethog, neu yn gyfaill i'r barnwr; a chondemnio y diniwed am ei fod yn dylawd, neu am nad oes ganddo neb i'w bleiddio.

Adn. 24. *Y neb a ddywedo wrth yr annuwiol*] Mewn llys barn, *Cyfiawn wyt*—pan y gŵr ei fod yn droseddwr; *y bobl a'i melldithiant ef*—sef pobl Israel; *a'r cenhedloedd a'i fficddiant ef*—sef y cenhedloedd eilunaddolgar ond odid, y rhai nid ydynt mor ddi-gwyddor fel ag i gymeradwyo y fath halogedigaeth mewn cymdeithas.

Adn. 25. *Ond i'r neb a'i ceryddo*] Neu a gospo y fath droseddwr annghyfiawn; *y bydd hyfrydwch*—neu dawelwch cydwybod; a

bendith dda a ddygwydd iddynt—bydd i bawb ganmol a pharchu y fath farnwyr cyfiawn, yn lle eu melldithio a'u ffieiddio, adn. 24.

Adn. 26. *Pawb a gusana wefusau y neb a atebou eiriau uniawn*] Sef y neb a roddo farn gyfiawn neu dystiolaeth gywir mewn llys barn, neu y neb a ddywedo y gwir ar unrhyw achos arall; hyny yw, bydd i bawb barchu a chara y cyfryw, o'r hyn y mae 'cusan' yn arwydd.

Adn. 27. *Darpara dy orchwyl oddiallan*] Cyn dechreu adeiladu tŷ i ti dy hun, gofala am wneyd pob peth wrth gynllun neu mewn trefn; *a dosbartha ef i ti yn y maes*—myn sail dda odditano; neu gosod y gwaith maen, a'r gwaith coed, a phob cangen arall o'r adeilad, i ofal dynion cymhwys: *ac wedi hyny adeiladu dy dŷ*—dwg y defnyddiau at ei gilydd, a dechreu adeiladu. Ar y cynllun yma yr adeiladodd Solomon y deml. Neu gall mai yr ystyr yw, Gwna y pethau mwyaf angenrheidiol yn gyntaf, megys llafurio dy dir, a magu anifeiliaid ar hyd y maesydd, fel y byddo i ti gael elw neu gyfoeth oddiwrth hyny; ac wedi hyny gelli wneyd pethau ereill er addurn neu gysur, megys adeiladu tŷ helaeth a chyfleus: gwel BENSON. Ond y mae rhai, wrth y *tŷ hwn*, yn deall *teulu*: Dechreu dy fyd trwy drin y ddaear, fel y gallot gael modd i gynnal *teulu*; ac wedi hyny, os myni, gelli briodi, a magu *teulu*: gwel CALMET.

Adn. 28. *Na fydd dyst heb achos yn erbyn dy gymydog*] Hyny yw, ar gam, neu o ddigofaint personol tuag ato; neu, na achwyn arno am bob ryw gamwri, os na fydd ei drosedd yn gyfryw ag y byddai yn beryglus i'r gymydog-aeth iddo ddianc yn ddi-gosp: *ac na huda â' th wefusau*—neb i'w gospi ef; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'na thwylla â' th wefusau'; hyny yw, na ddwg gamdystiolaeth yn erbyn dy gymydog, fel ag i dwyllo y barnwr, neu ei hudo ef i gyhoeddi dedfryd annghyfiawn arno.

Adn. 29. *Na ddywed*] Mewn ysbyrd dialgar, *Na'i a wnaif iddo ef fel y gwnaeth yntau i minau*—hyny yw, gwnaif gam âg ef, neu *niveidiaf* ef yn ei berson, ei gymeriad, a'i feddiannau; *mi a dalaf i'r gŵr yn ol ei weithred*—heb faddeu iddo, na'i arbed yn y gradd lleiaf.

Adn. 30. *Mi a aethym heibio i faes y dyn diog*] Yr hwn oedd wedi cael ei esgeuloso

dyn diog, a heibio i winllan yr anghall ;

31 Ac wele, codasai drain ar hyd-ddo oll ; danadl a guddiasai ei wynneb ef ; a'i fagwyr gerig a syrthiasai i lawr.

32 Gwelais hyn, a mi a ystyriais yn ddwys ; edrychais arno, a chymerais addysg.

33 Ychydig gysgu, ychydig hepian, ychydig wasgu dwylaw i gysgu :

34 Felly y daw dy dylodi megys ymdeithydd, a'th angen fel gwŷr arfog.

PENNOD XXV.

DYMA hefyd ddiarebion Solomon, y rhai a gasglodd gwŷr Hezechiah brenin Juda.

ganddo ; a heibio i winllan yr anghall—yr hon oedd wedi ei gadael ganddo yn hollol ddi-angeledd.

Adn. 31. *Ac wele, codasai drain ar hyd-ddo oll*] Yn lle cwnw toeitbiog o ŷd ; *danadl a guddiasai ei wynneb ef*—yn blith-draphlith a'r drain ; *a'i fagwyr gerig*—yr hon oedd o amgylch ei winllan, a *syrthiasai i lawr*—am fod ei pherchenog yn rhy ddiog a ffol i'w di-geluo a'i ehyweirio.

Adn. 32. *Gwelais hyn*] Sef yr aserwech yma ; a *mi a ystyriais yn ddwys*—y fath drueni oedd yn canlyn diogi : *edrychais arno*—yn ddirifol a syn ; a *chymerais addysg*—i beidio bod yn ddiog ac anghall fel y dyn hwnw, mewn pethau daearol nac ysbrydol.

Adn. 33. *Ychydig gysgu, &c.*] Hon oedd iaith y diogyn hwnw, yr hwn a garai gysgu ddwydd a nos yn hytrach nag edrych ar ol ei eiddo : gwel ar pen. vi. 10.

Adn. 34. *Felly*] Wrth ddylyn arferion y diogyn uchod, y *daw dy dylodi megys ymdeithydd*—daw ar dy warthaf yn ddisymwth ; *a'th angen fel gwŷr arfog*—yr hwn ni ellir ei wrthsefyll. Fe allai fod yma gyfeiriad at ddyfodiad y ceisbwl i gymeryd hyd yn nod ei wely odditano.

PEN. XXV. Adn. 1. *Dyma hefyd ddiarebion Solomon*] Oddiyma hyd ddiwedd pen. xxix o leiaf. Yma y dechrena y pedwarydd dosbarth o'r llyfr hwn, fel y nodwyd yn y rhagarweiniad. *Y rhai a gasglodd gwŷr Hezechiah brenin Juda*—yn mhenoedd 250 o fynyddoedd ar ol marwolaeth Solomon. Fe allai mai wrth wŷr Hezechiah y meddylir *Esay, Mica*, a rhyw wŷr ysbrydoledig ereill, y rhai a roddwyd gan y brenin ar y gwaith hwn. Tybia *Clarke* mai o ddywediadau traddodiadol Solomon y casglwyd y diarebion hyn ; tra y tybia *Lightfoot* ac ereill mai o ben llyfr llychwynedig a gafwyd yn y deml, wrth i Hezechiah ei phuro a'i glanhau hi yn nechre ei deyrnasiad, y gwnaed hyn.

Adn. 2. *Anrhydedd Duw yw dirgelu peth*]

2 Anrhydedd Duw yw dirgelu peth : ond anrhydedd brenin yw chwilio peth allan.

3 Y nefoedd am uchder, y ddaear am ddyfnder, a chalon brenhinoedd, ni ellir eu chwilio.

4 Tyn yr anmhuredd oddiwrth yr arian, a daw i'r gôf-arian lestr.

5 Tyn yr annuwiol o olwg y brenin, a'i orseddfa ef a gadarnheir trwy gyfiawnder.

6 Nac ymogonedda gerbron y brenin ; ac na saf yn lle gwŷr mawr :

7 Canys gwell it' ddywedyd wrthyt, Tyred yma i fyny, na'th frwr yn is gerbron pendefig yr hwn a welodd dy lygaidd.

Yw cadw ei gynghorau, ei fwriadan, a gweithrediadan ei ragluniaeth, yn ddirgel iddo ei hun : *ond anrhydedd brenin yw chwilio peth allan*—sef pob peth ag y perthlyn iddo ei wybod fel dyn, brenin, a Christian. *Houbigant* a'i cyfieitha, 'Yr hwn a guddia beth sydd yn anrhydeddu Duw ; yr hwn a anrhydedda y brenin a'i chwilia ef allan.' Fe allai mai yr ystyr yw, fod Duw yn ymddwyn yn ddoeth wrth wneuthur pob peth wrth gynghor ei ewylls ei hun ; ond mai doethineb mewn brenin yw ymgynghori a'i lyswyr.

Adn. 3. *Y nefoedd am uchder*] Yr hwn ni ellir ei fesur ; y *ddaear am ddyfnder*—yr hwn ni ellir ei blymio ; a *chalon brenhinoedd*—sef bwriadau dirgel eu calon ; *ni ellir eu chwilio*—y meddwl yw, fod llawer o weinyddiadau y llywodraeth yn gyfryw ag nas gellir eu deall a'u hamgyffred gan y bobl gyffredin, mwy nag y gallant amgyffred uchder y nefoedd neu ddyfnder y ddaear.

Adn. 4. *Tyn yr anmhuredd oddiwrth yr arian*] Trwy ei doddi a'i goethi ef ; a *daw i'r gôf-arian lestr*—gall y gôf wedi hynny ei weithio yn llestr hardd o'r fath a fyno. Felly hefyd,—

Adn. 5. *Tyn yr annuwiol o olwg y brenin*] Tyn y cynghorwyr drygionus allan o'i lys ef ; *a'i orseddfa ef a gadarnheir trwy gyfiawnder*—bydd i gyfreithiau cyfiawn a da roddi boddlonrwydd i'r holl ddeiliaid, ac felly bydd i barhad a llwyddiant yr orsedd a'r frenhiniaeth gael eu sicrhau. Meddwl y ddiwy adnod yw, Megys nas gellir gwneyd llestr arian pur, heb i'r arian gael ei lanhau oddiwrth ei sotbach ; felly nis gellir cael llywodraeth bur a chadarn, heb i weinidogion a chynghoriaid anghyfiawn a drygionus gael eu bwrw allan o'r llys.

Adn. 6. *Nac ymogonedda gerbron y brenin*] Trwy ymddanghosiad balch a rhodresgar, neu trwy eiriau chwyddedig a hunanol yn ei bresenoldeb ef ; *ac na saf yn lle gwŷr mawr*—yn yr eisteddleoedd uwchaf, y rhai a neillduwyd i'r pendefigion, neu brif gynghoriaid y deyrnas.

8 Na ddos allan i gynhenu ar frys: rhag na *wypech* beth a wnelych yn ei diwedd, wedi dy gywilyddio gan dy gymydog.

9 Ymresyma â'th gymydog *ei hun*: ond na ddatguddia gyfrinach i arall:

10 Rhag i'r neb a fyddo yn gwr-andaw ddwyn gwarth arnat ti; ac i'th gywilydd na thro ymaith.

11 Gair a ddyweder mewn amser *sydd megys* afalau aur mewn gwaith arian cerfedig.

12 Ceryddwr doeth i'r glust a wr-andawo, *sydd fel* anwyl-dlws cur-aid, a gwisg o aur rhagorol.

13 Megys oerder eira yn amser cynauaf, *yw* cenad ffyddlon i'r rhai a'i gyrrant: canys efe a lawenycha enaid ei feistriaid.

14 Y neb a ymffrostio o achos gau rodd, *sydd gysfelyb* i gymylau a gwynt heb wlaw.

15 Trwy hirymaros y boddlonir pendefig: a thafod esmwyth a dyr asgwrn.

16 Pan gaffech fêl, bwyta a'th wasanaetho: rhag wedi dy lenwi o hono, i ti ei chwydu ef.

17 Cadw dy droed allan o dŷ dy gymydog: rhag iddo flino arnat, a'th gasâu.

Adn. 7. *Canys gwell i' ddywedyd wrthyl* Gan nn o'r pendefigion hyn, neu gan y brenin ei hun; *Tyred yma i fyny*—i le uwch ac anrhydeddusach; *na'th fwrw yn is gerbron pendefig*—na'th dynu i lawr yn ei olwg ef, neu ganddo ef, o'r lle anrhydeddus hwn; *yr hun a welodd dy lygaid*—yr hun yr aethost i'w wyddfod yn chwyddedig a balch. Y mae ein Harglwydd yn rhoddi cyngor cyffelyb i hwn yn Luc xiv. 8—10: gwel y sylwadau yno.

Adn. 8. *Na ddos allan i gynhenu ar frys* Na fydded i ti yn nwydwyllt a diamynedd tynd i ymgysfreithio â'th gymydog; *rhag na wypech beth a wnelych yn ei diwedd*—beth fydd y canlyniad; neu rhag y byddai yn d-la genyt yn niwedd y cynghaws, ar ol gwario dy holl arian yn ofer, pe buasit erioed heb ddechreu ymgysfreithio; *wedi dy gywilyddio gan dy gymydog*—wedi iddo ef ennill i gyfraith, trwy brofi mai efe oedd ar yr iawn, a thithau ar y bai.

Adn. 9. *Ymresyma â'th gymydog ei hun* Os wyt yn meddwl i'th gymydog wneyd cam â thi, dos i ymresymu yn fwynaid ag ef ei hun, yn lle rhuthro i roddi cyfraith arno: *ond na ddatguddia gyfrinach i arall*—cyn i ti weled nas gellir penderfynu y mater heb ei ddatguddio: gwel ar Mat. xviii. 15—17.

Adn. 10. *Rhag i'r neb a fyddo yn gwr-andaw ddwyn gwarth arnat ti* Wrth weled mai arnat ti yn unig y mae y bai; neu dy warth-ruddo di am beidio ymresymu â'th gymydog ar ei ben ei hun, fel y mae deddfau cyfiwrnder, cariadoldeb, a chymdeithas yn ei olyn; *ac i'th gywilydd na thro ymaith*—fod yn gyfryw na ddilêir tra y byddych byw.

Adn. 11. *Gair a ddyweder mewn amser* Sef gair o gyngor, rhybydd, neu gysur, yn cael ei ddywedyd mewn amser cyfaddas, pen. xv. 23; *sydd megys afalau aur mewn gwaith arian cerfedig*—sydd ddymunol a hytryd, fel canpiau aur mewn addurnwaith arian; neu, sydd iachus a llesol fel afalau eurad, sef oranges neu citrons, mewn dysglau arian ar fwrdd pendefig yn y gwledydd poethion.

Adn. 12. *Ceryddwr doeth i'r glust a wr-andawo* Sef i'r neb a dderbynio ei gerydd ef mewn cariad; *sydd fel anwyl-dlws euraidd*

—yn crogi wrth glust neu firoen boneddiges ddwyreiniol; *a gwisg o aur rhagorol*—hyn yw, y mae y cerydd, yn ei effoithiau a'i ganlyniadau daionus ar fuchedd y neb a'i derbyn-ia, yn addurn ac yn anrhydedd mawr iddo.

Adn. 13. *Megys oerder eira yn amser cynauaf* Pan fyddo y medelwyr ar drengu gan syched a gwres; *yw cenad ffyddlon i'r rhai a'i gyrrant*—ar neges, yr hwn a gyflawna ei neges yn dda: *canys efe a lawenycha enaid ei feistriaid*—wrth roddi haes gywir am lwyddiant ei daith a'i neges. Meddyllir fod yn nechre yr adnod hon gyfeiriad at oeri diod-ydd y medelwyr trwy rew neu eira wedi ei gadw erbyn y cynauaf, yr hyn sydd yn arferiad hyd heddyw mewn amri wledydd.

Adn. 14. *Y neb a ymffrostio o achos gau rodd* Hyn yw, y neb a wuelo addewid tost-fawr o rodd haelionus i arall, ac na chyflawno ei addewid; *sydd gysfelyb i gymylau a gwynt heb wlaw*—i wynt yn chwythu o bwynt gwlawog, a chymylau yn ymddangos fel yn addaw cawodydd maethlon, ond yn myned heibio heb dywallt dim.

Adn. 15. *Trwy hir-ymaros y boddlonir pendefig* Trwy amynedd ac ymostyngiad y neb a'i digiasai, yr heddyllir ef: *a thafod esmwyth*—neu iaith fwyn a thyner; *a dyr asgwrn*—a feddala galon mor galed ag asgwrn. Y mae hyn yn gyfstraf â diareb arall: 'Ateb arafaid a ddettry lid,' pen. xv. 1.

Adn. 16. *Pan gaffech fêl* O'r hwn yr oedd amledd mawr yn nghreigian a maesydd Pales-tina; *bwyta â'th wasanaetho*—bwyta yr hwn a fyddo yn ddiagon i ddiwallu dy angen, ac nid mwy; *rhag wedi dy lenwi o hono, i ti ei chwydu ef*—trwy i ormoddedd o hono droi yn wrthwynebl yd yn y cylla, ac felly beri cyfngiad. Hyn sydd gyngor i fod yn gymedrol yn y defnyddiad hyd yn nod o bethau cyfreithlon.

Adn. 17. *Cadw dy droed allan o dŷ dy gymydog* Rhag myned yno yn rhy am i'w rwystro ef yn ei orchwyllion, yn euwedig heb fod genyt ryw neges benodol, neu heb wahoddiaid: *rhag iddo flino arnat*—trwy dy ymweliadau rhy fynych; *a'th gasâu*—fel dyn segur, ymyrgar, a diddaioni.

Adn. 18. *Y neb a ddygo gandystiolaeth*

18 Y neb a ddygo gamdystiolaeth yn erbyn ei gymydog, sydd megys gordd, a chleddyf, a saeth lem.

19 Hyder ar ffalswr yn nydd cyfyngder, sydd megys dant wedi ei dori, a throed wedi tyrfu.

20 Fel yr hwn a ddygo ymaith wisg yn amser oerfel, ac fel finegr ar nitr, felly y mae yr hwn sydd yn canu canïadau i galon drist.

21 Os dy elyn a newyna, portha ef â bara; ac os sycheda, dod iddo ddiod i'w hyfed:

22 Canys marwor a bentryi ar ei

ben ef; a'r Arglwydd a dâl i ti.

23 Gwynt y gogledd a yr y gwlaw ymaith: felly y gyr wynebpryd digllon dafod athroddgar.

24 Gwell yw trigo mewn congl yn nen tŷ, na chyda gwraig anynad mewn tŷ eang.

25 Fel dyfroedd oerion i enaid sychedig, yw newyddion da o wlad bell.

26 Gŵr cyfiawn wedi syrthio i lawr gerbron y drygionus, sydd megys ffynnon wedi ei chymysgu â gofer budr.

yn erbyn ei gymydog] Fel ag i'w ddygu ef yn ei fasnach neu ei enw da; *sydd megys gordd*—yn dryllio ei amgylchiadau a'i gymeriad; a *chleddyf*—yn trywanu o fewn cyraedd; a *saeth lem*—yn archolli oddidraw.

Adn. 19. *Hyder ar ffalswr yn nydd cyfyngder*] Yr hwn ni chynorthwya y neb a ymddriedo ynddo; *sydd megys dant wedi ei dori*—yr hwn ni chynorthwya i falu yr ymorth; a *throed wedi tyrfu*—wedi crebachu, gwywo, neu ddaedgymalu, fel na allo gerdded. Y meddwl yw, fod dyn ffals a thwyllodrus mor boenus i feddwl y neb a ddydsgwyllia wrtho, ag ydyw dant drwg, neu droed wedi dadgymalu.

Adn. 20. *Fel yr hwn a ddygo ymaith wisg*] Oddiam gefu dyn tylawd, neu oddiar ei wely ef; *yn amser oerfel*—pan y mae mwyaf o angen am dani, yr hwn sydd greulondeb mawr; *ac fel finegr ar nitr*—yn achosi ymweithiad neu gynhyrfaid trwy groesnebu eu hansomdau: *felly y mae yr hwn sydd yn canu canïadau i galon drist*—nid yw y fath lawenydd anamserol yn esmwythau ei ofid ef, eithr yn hytrach yn ei gynyddu trwy wrthdarawiad neu anghydwasedd amrychiadau, yr hwn sydd greulondeb mawr. Y gair Hebraeg *nather*, yr hwn a gyfeithir yma *nitr*, a adwaenir gan fferyllwyr fel *natron* yr henafiaid a'r ysgrythran, a *carbonate of soda*; ac os tywellir finegr arno, fel y sylwa *Dr. Shaw*, bydd i ymweithiad cryf gymeryd lle yn y fan, yr hyn a eglura eiriau Solomon, 'fod canu canïadau i galon drist fel finegr ar natron:' hyny yw, nid oes dim cydberthynas rhyngddynt; a bydd i anghydwasedd, ymrysoniad, a gwrthweithiad gael eu hachosi gan unrhyw ymgais i'w huno.

Adn. 21. *Os dy elyn a newyna*] Yn dy olwg; *portha ef â bara*—i dori ei newyn, er mai *gelym* ydyw; *ac os sycheda, dod iddo ddiod i'w hyfed*—Saes., 'dod iddo ddrefr i'w yfed.' Wrth fara a diod yma y meddylir pob peth angenrheidiol er ei gysur a'i gynaliaeth. Gwna i'th elyn yr holl ddaioni yn dy allu: gwel ar Rhuf. xii. 20.

Adn. 22. *Canys marwor a bentryi ar ei ben ef*] Nid marwor i'w losgi ef, ond i losgi neu doddai ei elyniaeth tuag atati, neu i enyn *canïad* ynddo tuag atati fel ei gymwynaswr: neu, ni fydd ef yn alluog i'th gasâu di mwygch, mwy nag i ddyoddef marwor tanlyd ar ei

ben: gwel ar Rhuf. xii. 20. *A'r Arglwydd a dâl i ti*—hefyd; neu, bydd i'th garedigrwydd iddo gael llawn ad-daliad gan Dduw, os nid ganddo ef, yr hyn fydd yn llawer gwell.

Adn. 23. *Gwynt y gogledd a yr y gwlaw ymaith*] Trwy ddwyn rheu yn ei le ef; neu, fel y dywed Elihu, 'O'r gogleddwynt y daw hindda,' Job xxxvii. 22. Felly ond odid y mae yn bod mewn rhai gwledydd. *Felly y gyr wynebpryd digllon dafod athroddgar*—bydd i edrychiad digllon gŵr yru ymaith yr athroddwr o'i wyddfod, wrth beidio gwrando ar ei athroed ef. Ond y darlleniad ar ymyl y ddalen yw, 'Gwynt y gogledd a esgor ar wlaw;' a dywedir fod y darlleniad hwn nid yn unig yn fwy cyson a'r Hebraeg, ond hefyd yn cael ei gynnal gan y LXX, y *Galdeacg*, a'r *Syriacg*. Dywed *Aristotle* fod y gogleddwynt mewn rhai parthau o Affrica, y rhai sydd yn cyffinio â Môr-y-canoldir, yn dwyn gwlaw yno trwy y tARTH ag sydd yn dychafu o'r môr hwnw. Ond y mae yr Arabaeg yn darllen yma, *gwynt y deau*; a da y gwyddom fod y gwynt hwnw yn esgor ar wlaw yn ein gwlad ninau. *Felly*—yn yr ystyr a roddir i'r geiriau ar ymyl y ddalen, y *gyr wynebpryd digllon dafod athroddgar*—hyny yw, bydd i edrychiad sarug a digllon gŵr beri i ereill ei athrodi a'i oganu ef; neu, iel y mae ar ymyl y ddalen, 'tafod athroddgar (a bair) wyneb dig.'

Adn. 24. *Gwell yw trigo mewn congl yn nen tŷ, &c.*] Gwell ar pen. xxi. 9, 19.

Adn. 25. *Fel dyfroedd oerion i enaid sychedig*] Y rhai sydd yn ddymunol ac adfywl i'r corff; *yw newyddion da o wlad bell*—y rhai sydd yn lloeni meddwl ac ysbryd y neb a'u eaffo.

Adn. 26. *Gŵr cyfiawn wedi syrthio i lawr gerbron y drygionus*] Hyny yw, yn ol rhai, 'wedi syrthio i antoesoldeb;' *sydd megys ffynnon wedi ei chymysgu â gofer budr*—hyny yw, y mae yn dwy gwarth ar ei gymeriad ei hun, a gofid i'w gyfeillion, fel y gwna nant fudr a fyddo yn rhedeg i ffynnon lân. Neu gall mai yr ystyr yw: Pan y mae y cyfiawnynt yn cael eu gorthrymwu gan y drygionus, y mae cyflwr pethau mor ofidus yn y wlad hono, a phe byddai ei dyfroedd wedi eu haflaneiddio; ac y mae yn arwydd fod eu ffynnonau cyfiawnder hwy wedi eu gwenwyno neu eu llygru.

27 Nid da bwyta llawer o fêl : ac felly chwilio eu hanrhydedd, nid anrhydedd yw.

28 Y neb ni byddo ganddo attal ar ei ysbryd ei hun, sydd megys dinas ddrylliog heb gaer.

PENNOD XXVI.

MEGYS ôd yr haf, neu wlaw y cynauaf, felly nid cymhwys i'r ffol anrhydedd.

2 Fel yr aderyn wrth grwydro, a'r wenol wrth ehedeg, felly y fell-dith ddiachos ni ddaw.

Adn. 27. *Nid da bwyta llawer o fêl*] Am y try ar y cylla, gan beri cyfogiad, adn. 16: *ac felly chwilio eu hanrhydedd*—Saes., 'fod i *ddywion* chwilio eu hanrhydedd eu hunain,' neu chwilio yn awyddus am anrhydedd a gogoniant gan ereill; *nid anrhydedd yw*—ond yn hytrach gwarth, neu arwydd o feddwl isel a gwâg. *Coverdale* a'i cyfieitha, 'Fel nad da bwyta gormod o fel; felly yr hwn a chwilia allan bethau uchel, a'i caiff yn rhy drwm iddo.'

Adn. 28. *Y neb ni byddo ganddo attal ar ei ysbryd ei hun*] Neu lywodraeth ar ei nwydau a'i dymherau; *sydd megys dinas ddrylliog heb gaer*—yn agored i lawer o ddrygau a pheryglon.

PEN. XXVI. Adn. 1. *Megys ôd yr haf*] Neu eira, yr hwn fyddai yn anghymhwys iawn yn yr haf; *neu wlaw y cynauaf*—yr hwn nad oedd byth yn cael ei roddi yn y gwledydd hyny ond mewn barn, l Sam. xii. 16—18; *felly nid cymhwys i'r ffol anrhydedd*—yr hwn nid yw ef yn ei haeddu, nac yn gwybod pa fodd i'w ddefnyddio. Y meddwl yw, fod dyrchafu dynion ffol neu ddrygionus i swyddau uchel yn y wladwriaeth neu yn yr eglwys, yn beth nior anghymhwys ag a fyddai cael eira yn yr haf, neu wlaw yn y cynauaf.

Adn. 2. *Fel yr aderyn wrth grwydro*] O le i le; *a'r wenol wrth ehedeg*—yn yr awyr, neu dros y môr; *felly y fell-dith ddiachos ni ddaw*—bydd i'r dyn nad yw yn ei haeddu ddiacn rhagddi, fel y diacn yr adar hyny rhag magl yr adarw. Neu, ni fyddi i fell-dithion a ehedant o enau dynion yn ddiachos, ddisgyn ar y neb a fynant hwy, mwy nag y disgyna aderyn crwydol lle y mynant: nid oes ganddynt ddim mwy o lywodraeth ar eu rhesgeirdd, nag sydd ganddynt ar aderyn a fo yn ehedeg yn yr awyr.

Adn. 3. *Ffrewyll i farch*] Ystyfnig, i greu ofn ynddo, neu i'w yru yn ei flaeu; *ffrwyyn i asyn*—i'w arwain ar byd y ffordd y dylai ei cherdded; *a gwialen i gefn yr ynfyd*—i'w blygu at ei ddyledsyyddau. Y meddwl yw, fod cerydd mor angenrheidiol i'r ynfyd, ag yw ffrewyll i farch neu ffirwyn i asyn.

Adn. 4. *Na ateb ynfyd yn ol ei ynfydrwydd*] Fel ag i efelychu ei ynfydrwydd ef i'w ymadroddion byrbwyll, ffol, a thaiog;

3 Ffrewyll i farch, ffirwyn i asyn, a gwialen i gefn yr ynfyd.

4 Na ateb ynfyd yn ol ei ynfydrwydd; rhag dy fod yn gyffelyb iddo.

5 Ateb yr ynfyd yn ol ei ynfydrwydd; rhag iddo fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun.

6 Y neb a yro negesau gydag un anghall, a dŷr ymaith y traed, ac a ff gollod.

7 Nid gogyhyd esgeiriau y cloff: felly dammeg yn ngeuan ffyliaid.

8 Fel un yu rhwymo caredg mewn

rhag dy fod yn gyffelyb iddo—rhag i ti ymddangos mor ynfyd ag yntau.

Adn. 5. *Ateb yr ynfyd yn ol ei ynfydrwydd*] Yn y fath fodd ag yr haedda ei ynfydrwydd; trwy ei argyhoeddi ef o'i ynfydrwydd, a'i geryddu yn llym, a'i gwilyddio am dano; *rhag iddo fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun*—rhag i'th ddstawrwydd di ei wneuthur ef yn falch a rhyfgyus, fel pe byddai ei eiriau a'i resymau yn anatebadwy. Y mae yn hawdd cysoni y cyfarwyddiadau gwrthwynebol hyn, wrth ystyried y gwahaniaeth rhwng amgylchiadau y personau, neu y dybenion gwahanol ag y bwiedir eu cyraedd. Y rheswm dros ei ateb a olyga les yr *ynfyd*; 'rhag iddo fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun:' y rheswm dros *beidio* ei ateb a olyga dy les *di*; 'rhag dy fod yn gyffelyb iddo.' Neu, *na ateb ef*, pan y byddo yn feddw neu wedi ymwylltio, neu pan na byddo achos am hyny, nathebygolrwydd o ateb dyben da, trwy hyny: *ateb ef* pan y gallu hyny tod o les iddo ef, o ogoniant i Dduw, ac o ddaioni i ereill.

Adn. 6. *Y neb a yro negesau gydag un anghall*] Yr hwn ni fedr draethu ei neges yn iawn, na dychwelyd yr ateb yn briodol, na ehadw y gyfrinach a fyddo yn y neges; neu, y neb a yro neges gydag un *diog* ar y flordd; *a dŷr ymaith y traed*—sydd fel pe gyrai un heb *draed* ganddo; neu heb *symeyr*, yr hwn sydd mor angenrheidiol i drin ei neges yn dda, ag ydyw traed i'w gario; *ac a ff gollod*—a gaiff niwed a cholled iddo ei hun trwy gamymddygiad y fath negesydd anghall. Ond y LXX a'i cyfieithant, 'Y neb a yro negesau gydag un anghall, a dwg warth ar ei faterion:' ac ereill, 'Cloff yn ei draed, ac yn yfed drygionni, yw yr hwn a yro eiriau gyda negesydd ffol.'

Adn. 7. *Nid gogyhyd esgeiriau y cloff*] Neu ei *goesau* ei, yr hyn yw yr achos o'i gloffni; *felly dammeg yn ngeuan ffyliaid*—nid yw pob rhan o honi lithau yn cyiateb i'w gilydd. *Holden* a'i cyfieitha, 'Fel y mae yr esgeiriau yn wan trwy gloffni, felly y mae diareb yn ngeuan ffyliaid;' hyny yw, y mae yn fyro o nerth a grym, wrth gael ei chymhwysio yn annoeth ac anbhriodol.

Adn. 8. *Fel un yu rhwymo caredg mewn taff*] Yr hwn ni wŷr pan niwed a wna wrth ei thafu; *felly y gwna y neb a anrhydeddo ffol*

tafl; felly *y gwna* y neb a anrhydeddo ffol.

9 *Fel draen* yn myned i law dyn meddw; felly *y mae* diareb yn ngenau yr anghall.

10 *Y Duw mawr* yr hwn a luniodd bob *peth*, sydd yn gwobrwyo y ffol, ac yn talu i'r troseddwy'r.

11 Megys y mae y ci yn dychwelyd at ei chwydfa; felly *y mae* y ffol yn dychwelyd at ei ffolineb.

12 A weli di *ŵr doeth* yn ei olwg ei hun? gwell *yw* y gobaith am ffol nag am hwnw.

13 *Y mae* llew mawr ar y ffordd, medd y diog, *y mae* llew ar yr heol-ydd.

14 *Fel* y drws yn troi ar ei godyn, felly *y try* y diog yn ei wely.

15 *Y* diog a guddia ei law yn ei fynwes; blin ganddo ei hestyn at ei enau drachefn.

16 Doethach *yw* y diog yn ei olwg ei hun, na seithwyr yn adrodd rheswm.

17 *Y* neb wrth fyned heibio a ymyro â chynhen ni pherthyn iddo, *sydd megys* un yn cymeryd ei erbyn ei glustiau.

18 *Fel dyn* gwallgofus a daflo bentowynion tân, saethau, ac *arfau* marwolaeth;

19 Felly *y mae* y gŵr a dwyllo ei

—wrth iddo osod dyn ffol neu anzuwiol mewn swydd neu awdurdod, ni ŵyr yntau pa nived a wna trwy hyny. Neu, y mae yr hwn a roddo anrhydedd i ddyn ffol, fel nn yn tafu careg ymaith yn hollol ac yn anadferol. *Patrick* a *Houbigant* a'i cyfieithant, 'Fel nad yw careg a rodder mewn tafn yn aros yno yn hir, felly y mae yr anrhydedd hwnw a roddir i'r ffol yn cael ei dasfu ymaith.' Y darlleniad ar ymyl y ddalen yw, 'Fel un yn gosod maen gwerthfawr mewn carnedd cerig, yw yr hwn a anrhydeddo y ffol;' hyny yw, gwaith ofer a diles yw ei anrhydeddu ef.

Adn. 9. *Fel draen yn myned i law dyn meddw*] Yr hwn er na theimla efe nemawr ar y pryd, a deimla yn llym pan lidio y pigiad; *felly y mae diareb yn ngenau yr anghall*—yr hwn a drinia ei eiriau mor anfedrus fel ag i'w niweidio ei hun; ac er na theimla efe hyny yn y fan mwy na'r dyn meddw, eto efe a deimla yn ol llaw, pan gondemnr ef o'i enau ei hun, neu y dygir ei eiriau ei hun i'w erbyn. Neu, 'y mae mor beryglus i'r anghall ymyr-aeth â diareb, ag ydyw i ddyn meddw ymafl-yd mewn draen.'—*PATRICK*.

Adn. 10. *Y Duw mawr yr hwn a luniodd bob peth*] Yn y dechread; *sydd yn gwobrwyo y ffol*—yn ol ei ffolineb; *ac yn talu i'r troseddwy'r*—am eu troseddau: neu efe a wna hyny ddydd y farn, os nid yn y fuchedd hon. Ond y mae y gair Hebreig *rab* yn arwyddo y *Duw mawr*, neu *ŵr mawr*; ac am hyny y darlleniad ar ymyl y ddalen yw, 'Gŵr mawr a gythruddu bawb, ac sydd yn cyflogi y ffol, ac yn cyflogi befyd droseddwy'r, ond odid i'w gynorthwyo ef i gythruddo neu fino pawb o'i amgylch.'

Adn. 11. *Megys y mae y ci yn dychwelyd at ei chwydfa*] I'w llyneu ef eilwaith, yr hyn am y ci sydd 'wir ddiareb,' 2 Pedr ii. 22; *felly y mae y ffol yn dychwelyd at ei ffolineb*—hyd yn nod ar ol iddo unwaith ei adael ef, trwy fyned i rodio ffyrdd doethineb a chrefydd: gwel ar 2 Pedr ii. 22.

Adn. 12. *A weli di ŵr doeth yn ei olwg ei hun*] Yr hwn a ddiystyra ereill, gan ei djbied ei hun yn ddoethach na'i holl athrawon?

Gwell yw y gobaith am ffol nag am hwnw—hyd yn nod am y ffol a grybwyllwyd yn yr adnod flaenorol. Fe allai y gwrendy hwnw eilwaith ar addysg ei athrawon, ac y try efe eto oddiwrth ei ffolineb: ond am y llall, y mae efe yn rhy ddoeth yn ei feddwl ei hun i gyneryd ei ddydsu gan neb.

Adn. 13. *Y mae llew mawr ar y ffordd, medd y diog*] Fel esgus dros aros gartref i ddiogi; *y mae llew yn yr heol-ydd*—yr hwn a'm lladd os âf dros y trothwy: gwel ar pen. xxii. 13.

Adn. 14. *Fel y drws yn troi ar ei godyn*] Wrth ei agor a'i gau, ond heb byth symad oddiyno; *felly y try y diog yn ei wely*—o'r naill ochr i'r llall, ond heb godi oddiyno.

Adn. 15. *Y diog a guddia ei law yn ei fynwes*] I'w chadw yn gynhes, neu yn lle ei hestyn allan i weithio: *blin ganddo ei hestyn at ei enau drachefn*—gwell ganddo braidd newynw, na chymeryd y drafferth leiaf i ennill ei damaid: gwel ar pen. xix. 24.

Adn. 16. *Doethach yw y diog yn ei olwg ei hun*] Wrth goleddu ei ddiogi gartref, yn lle myned allan i weithio i'r oerfel a'r caledi; *na seithwyr*—unrhyw nifer o wŷr synwrol, yn adrodd rheswm—yn erbyn diogi, ac o blaid y lles ag sydd yn canlyu diwydrwydd; hyny yw, y mae efe yn ddoethach yn ei olwg ei hun na'r seithwyr hyny a'u holl resymau.

Adn. 17. *Y neb wrth fyned heibio*] Ar hyd yr heol, a ymyro â chynhen ni pherthyn iddo—sef cynhen neu ymyrson rhwng gŵr a gwraig, rhwng meistr a'i was, neu rhwng dau ddyeithrddy; *sydd megys un yn cymeryd ei erbyn ei glustiau*—hyny yw, sydd yn ei osod ei hun yn agored i berygl afreidiol, fel un a gynhyrfai gi mileinig trwy ei lusgo gerfydd ei glustiau.

Adn. 18. *Fel dyn gwallgofus*] Hebr., 'fel dyn yn ffuantu gwallgofrwydd,' fei y gallo dan yr esgus hwnw wneuthur drygioni yn ddigosp; *a daflo bentowynion tân*—i losgi tai ei gymydogion; *saethau*—i glywfo ereill; *ac arfau marwolaeth*—i ladd y lleill.

Adn. 19. *Felly y mae y gŵr a dwyllo ei gymydog*] Neu a'i niweidio ef, er dan rith

gymydog, ac a ddywed, Onid cellwair yr ydwyf?

20 Megys pan ddarfyyddo y coed, y diffydd y tân: felly pryd na byddo athrodwr, derfydd y gynhen.

21 Fel glo i'r marwor, a choed i'r tân; felly y mae gŵr cynhenus i enyn cynhen.

22 Geirian yr athrodwr sydd megys archollion, a hwy a ddisgynant i gelloedd y bol.

23 Fel sorod arian wedi eu bwrw dros ddyll o lestr pridd; felly y mae gwefusanu poeth, a chalon ddrwg.

24 Y dygasog a ragrithia â'i wefusau, ac yn ei galon yn bwriadu twyll.

25 Pan ddywedo efe yn dæg, na

caedigwydd, neu mewn ffordd o gellwair; megys trwy roddi iddo ddiod gref i'w feddwi, neu ddywedyd rhyw gelwydd arno er mwyn digrifwch: ac a ddywed—wedi y gwneio efe y weithred, Onid cellwair yr ydwyf?—nid oddwn yn meddwl dim drwg wrth wneyd yr llyn a wnaethym, neu wrth ddywedyd yr llyn a ddywedais: nid oedd y cwbl ddim ond ychydig o ddigrifwch. Eithr y mae digrifwch felly wedi costio i lawer eu henw da am eu hoes, ac weithian eu bywyd; ac felly wedi profi mor niweidiol iddynt a phentewynion tân, saethau, ac arfau marwolaeth!

Adn. 20. *Megys pan ddarfyyddo y coed, y diffydd y tân* Ar yr aelwyd; felly pryd na byddo athrodwr—i gario chwedlau drwg am y nail at y llall, derfydd y gynhen—rhwng cymydogion.

Adn. 21. *Fel glo i'r marwor, a choed i'r tân* Fel y mae tanwydd adnewyddol yn enyn tân a fyddo ar ddiffodd; felly y mae gŵr cynhenus i enyn cynhen—yn intob man lle y byddo.

Adn. 22. *Geirian yr athrodwr sydd megys archollion, &c.* Gwel ar pen. xviii. 8.

Adn. 23. *Fel sorod arian wedi eu bwrw dros ddyll o lestr pridd* Neu fel golchiad arian dros lestr pridd, i beri iddo ymddangos fel llestr o arian sylweddol; felly y mae gwefusanu poeth—neu ddyyn yn siared yn wresog a llyfn o blaid crefydd, neu dan rith cyfeillgarwch, a chalon ddrwg—o'i fewn ar yr un pryd. Y meddwl yw, fod calon ddrwg, wedi ei cluddio gan eirian tég, yn debyg i lestr pridd wedi ei olchi âg arian.

Adn. 24. *Y dygasog a ragrithia â'i wefusau* A gymer arno ei fod yn llawn cariad ac ewyllys da tuag ataf; ac yn ei galon yn bwriadu twyll—neu niwed i ti ar yr un pryd.

Adn. 25. *Pan ddywedo efe yn dæg* Yn dywyneb; na ymddiried iddo—na choelia ei fod yn onest a didwyll: canys y mae saith ffeidd-dra yn ei galon ef—hyny yw, y mae efe yn llawn o dwyll a drygioni oddifewn.

Adn. 26. *Trwy cyfrwysder y cuddir dy-*

ymddiried iddo: canys y mae saith ffeidd-dra yn ei galon ef.

26 Trwy gyfrwysder y cuddir dygasodd: ond ei ddrygioni a ddatguddir yn y gynulleidfa.

27 Y neb a gloddio bydew, a syrth ynddo; a'r neb a dreiglo garreg, ato y dychwel.

28 Y tafod celwyddog a gasâ y neb a gystuddio efe; a'r genau gwneioithus a wna ddinystyr.

PENNOD XXVII.

NAC ymfrostia o'r dydd y fory: canys ni wyddost beth a ddygwydd mewn diwrnod.

2 Canmoled arall dydi, ac nid dy enau dy hun; estron, ac nid dy wefusau dy hunan.

gasodd] Am ychydig amser; ond ei ddrygioni a ddatguddir yn y gynulleidfa—a ddaw yn amlwg i bawb cyn hir, a hyny fe allai mewn llys barn.

Adn. 27. *Y neb a gloddio bydew*] I gywmpo ei gymydog iddo; a syrth ynddo—ei hun, Salm vii. 15. 16: *a'r neb a dreiglo garreg*—i niweidio gŵr arall; *ato y dychwel*—sef ato ef ei hun, er mawr niwed iddo, os nid er ei ddinystyr.

Adn. 28. *Y tafod celwyddog a gasâ y neb a gystuddio efe*] Y dyn celwyddog, yn lle testurio wrth y neb a ddrygwyd ganddo trwy ei gelwydd, a'i casâ ef yn fwy nag o'r blaen, ond oddi am yr ofna i hwnw ddynoethi ei gelwydd ef, neu ddial arno am dano; *a'r genau gwneioithus*—yn gystal a'r tafod celwyddog, a wna ddinystyr—iddo ei hun yn y diwedd, yn gystal ag i'r neb y gwneioithia iddo.

PEN. XXVII. Adn. 1. *Nac ymfrostia o'r dydd y fory*] Fel adeg briodol i wneyd rhywbeth ag y dylit ei wneyd heddyw; canys ni wyddost beth a ddygwydd mewn diwrnod—a gei di fyw i weled y fory: gwel ar Iago iv. 13—15. Ddarlennydd, nac esgenlusa dithau byd y fery waith mawr dy iachawdriaeth! 'Wele, yn awr yr amser cymeradwy; wele, yn awr ddydd yr iachawdriaeth,' 2 Cor. vi. 2. 'Heddyw, os gwrandewch ar ei leferdyd ef, na chaledwch eich calonau,' Heb. iv. 7.

Adn. 2. *Canmoled arall dydi*] Od oes nyot ryw rinwedd neu ddaioni gwerth ei ganmol; ac nid dy enau dy hun—rhag i ti ymddangos yn falch, hunanol, a rhedresgar: estron—rhyw yn heb fod yn perthyn dim i ti, yr hwn na byddo ganddo ragfarn o'th blaid mwy nag yn dy erbyn; ac nid dy wefusau dy hunan—os na fydd hyny yn angenrheidiol er amddiffyniad eysfawn i ti a'r gwirionedd, ac er gogoniant i Dduw, neu er lles i ereill: dan yr angylchiadau hyny arferwyd hyn hyd yn nod gan St. Paul ei hunan: gwel 2 Cor. xi a xii.

Adn. 3. *Trom yw y gareg, a phynysfawr yw y tywod*] Yn eu natur; ond digofaint y

3 Trom *yw* y gareg, a phwysfawr *yw* y tywod: ond digofaint y ffol *sydd* drymach na hwy ill dau.

4 Creulon *yw* llid, felllif-ddwfr *yw* digofaint; a phwy a ddichon sefyll o flaen cenfigen?

5 Gwell *yw* cerydd cyhoedd na chariad cuddiedig.

6 Ffyddlon *yw* archollion y caredig: ond cusanau y dygasog *ydynt* dwyllodrus.

7 Y dyn llawn a fathra y dil mêl: ond i'r newynog pob peth chwerw sydd felys.

8 Gŵr yn ymdaith o'i le ei hun, sydd debyg i aderyn yn cilio o'i nyth.

9 Olew ac aroglarth a lawen-

ycha y galon; felly *y gwna* mwyn-der cyfaill trwy gynghor ffyddlon.

10 Nac ymado â'th gydymaith dy hun, a chydymaith dy dad; ac na ddos i dŷ dy frawd yn amser dy orthrymder: *canys* gwell *yw* cymydog yn agos na brawd yn mhell.

11 Bydd ddoeth, fy mab, a llawenycha fy nghalon; fel y gallwyf ateb i'r neb a'm gwaradwyddo.

12 Y call a wel y drwg *yn dyfod*, ac a ymgŷdd: ond yr annghall a ânt rhagddynt, ac a gospir.

13 Cymer wisg yr hwn a fachnio dros y dycithr; a chymer wystl ganddo dros y ddyceithr.

14 Y neb a fendithio ei gydym-

ffol sydd drymach na hwy ill dau—pan ddisgyno ar ei wrthdrrych: neu, y mae yn anhwadach ei symud na chareg drom neu lwyth o dywod.

Adn. 4. *Creulon yw llid*] Fel llew newynog; *fel llif-ddwfr yw digofaint*—yn ysgubo y cwbl o'i flaen; a *phwy a ddichon sefyll o flaen cenfigen*—yr hwn sydd gryfach na'r ddau? Y mae gan y rabiniaid chwedl hynod ar y pen hwn. Yr oedd dau ddyu, un yn *gybyddlyd* a'r llall yn *genfigenlyd*, i'r rhai yr addawodd rhyw ŵr roddi pa beth byneg a ofynent, a chymaint arall i'r neb a ofynai *ddiweddaf*. Ni wnai y *cybydd* ofyn yn *gynfaf*, am yr ewyllysai ef gael y rhan *ddy-blyg*; ac ni ofynai y dyn *genfigenlyd* yn *gynfaf*, am na allai ef oddef y meddwl o lesâu ei gymydog felly. O'r diwedd, modd bynag, efe a ofynodd am i un o'i lygaid gael ei dnuu allan, fel y byddai i'w gymydog gollu y *ddau!*

Adn. 5. *Gwell yw cerydd cyhoedd*] Pan fyddo yn rhaid ei roddi felly; *na chariad cuddiedig*—a fyddo yn goddef i droseddwr fyned rhagddo yn ei ddrygion yn ddigerydd, rhag ofn ei ddigio; hyn yw, y mae cerydd cyhoedd yn well yn ei effeithiau ar y neb a fyddo yn haeddu ei geryddu, ac yn gwasanaethu yn well fel rhybydd i ereill.

Adn. 6. *Ffyddlon yw archollion y caredig*] Y rhai a weinyddir ganddo er daioni i'r neb y byddo yn ei archolli, fel meddyg yn agor clyw er mwyn ei iacháu; *ond cusanau y dygasog*—ei eiriau tég, a'i arwyddion allanol o gariad, *ydynt dwyllodrus*—ac am hyn y dylent gael eu gochelyd.

Adn. 7. *Y dyn llawn a fathra y dil mêl*] A ddiystyra y pethau goraf, neu yr ymborth mwyaf danteithiol ac iachusol: *ond i'r newynog pob peth chwerw sydd felys*—y mae newyn yn gwneyd i ddyu gael blas ar yr ymborth mwyaf diflas, tra y mae cylla llawn yn ffeiddio yr ymborth mwyaf blasus. Amcan y ddiareb yw dangos y drwg ag sydd yn fynych yn nglyu â chyfoeth, a'r fantasia ag sydd yn dilyn tylodi; fel y byddo i'r cyfoethog ddylyn cymedroldeb, a'r tylawd foddlonrwydd.

Adn. 8. *Gŵr yn ymdaith o'i le ei hun*] Yn ymadael â'i gartref neu ei wlad, heb fod gwir achos am hyn; *sydd debyg i aderyn yn cilio o'i nyth*—ac yn ei osod ei hun trwy hyn yn agored i faglau a pheryglon. Y LXX a'i cyfieithant, 'Fel y delir aderyn pan ymadawo o'i nyth, felly y darostyngir dyn i gathwasanaeth pan yr ymedy â'i drigfa.'

Adn. 9. *Olew ac aroglarth a lawenycha y galon*] Trwy eu harogi peraidd a dymunol; *felly y gwna mwyn-der cyfaill trwy gynghor ffyddlon*—bydd i'w gymdeithas, ei gydymdeimlad, a'i gynghorion mwyn a ffyddlon yntau loni calon a sirioli ysbrydoedd yr hwn a fyddo mewn cyfyngder a thrallod.

Adn. 10. *Nac ymado â'th gydymaith dy hun*] Saes., 'â'th gyfaill dy hun,' yr hwn a ddaughosodd eisioes ei fod yn wir gyfaill i ti; a *chydymaith dy dad*—yr hwn a brofodd ei fod yn gyfaill cywir i'th dad hefyd o'th flaen: *ac na ddos i dŷ dy frawd yn amser dy orthrymder*—pan fyddo tylodi neu galedi wedi dy ddal, rhag iddo, wrth dybed ei fod ef dan rwyman naturiol i'th gynorthwyo, dy gasâu yn ei galon: *canys gwell yw cymydog yn agos*—sef tu agos atat o ran ei serchiadau, neu a fyddo wedi dangos eisioes ei fod yn gyfaill gwirioneddol i ti â'th deulu; *na brawd yn mhell*—sef brawd naturiol, yr hwn a fyddo wedi pellhau neu ymddyethrio oddiwrthyt yn ei serchiadau.

Adn. 11. *Bydd ddoeth, fy mab*] Yn dy holl ffyrdd; a *llawenycha fy nghalon*—trwy ymddwyn yn ddoeth felly; *fel y gallwyf ateb i'r neb a'm gwaradwyddo*—neu argyhoeddi y neb a haero fy mod wedi esgenluso dy hyfforddi di yn ffyrdd crefydd a duwioledeb: gwel ar pen. xxii. 6.

Adn. 12. *Y call a wel y drwg yn dyfod*, &c.] Gwel ar pen. xxii. 3.

Adn. 13. *Cymer wisg &c.*] Gwel ar pen. xx. 16.

Adn. 14. *Y neb a fendithio ei gydymaith â llef uchel y bore pan gyfodo*] Fel y byddo i'r cydymaith hwnw ac ereill fod yn sicr o'i glywed, asylwi arno; *cyfrifir hyn yn feldith*

aith â llaf uchel y bore pan gyfodo, cyfrifir *hyn* yn feiddith iddo.

15 Defni parhaus ar ddiwrnod gwlawog, a gwraig anynad, cyffelyb dynt.

16 Y mae yr hwn a'i cuddio hi, *megys* yn cuddio y gwynt, ac olew ei ddeheulaw, *yr hwn* a ymddengys.

17 Haiarn a hoga haiarn: felly gŵr a hoga wyneb ei gyfaill.

18 Y neb a gadwo ei ffigysbren, a fwyty o'i ffrwyth ef; a'r neb a wasanaetho ei feistr, a ddaw i anrhydedd.

19 Megys mewn dwfr y mae wyn-

idlo—y mae yn arwydd sicr ei fod ef trwy ei weniath yn bwriadu ei dwyllo ef; neu, yn ol y LXX, 'a gyfrifir yn ei feiddithio ef.' Y mae gan yr Eidaliaid ddiareb gyffelyb i hon: 'Y mae y neb a'th gannola yn fwy nag yr arferai wneuthur, naill ai wedi dy dwyllo, neu ar fedr gwneuthur hyny.'

Adn. 15. *Defni parhaus ar ddiwrnod gwlawog*] Yn disgyn trwy dō tyllog, ac yn dyfetha pob cysur yn y tŷ; *agwraig anynad*—groes, gwerylus, a chynhenllyd; *cyffelyb dynt*—y mae gwraig anynad felly ar ddiwrnod tŷ, mor boenus a defni parhaus ar ddiwrnod gwlawog: gwel ar pen. xix. 13, a xxi. 9, 10.

Adn. 16. *Y mae yr hwn a'i cuddio hi*] A geisia guddio ei rhac, ei chroesineb, a'i nwydu digofus; *megys yn cuddio y gwynt*—neu fel pe byddai yn ceisio ei guddio; neu ni waeth iddo geisio cuddio gwynt ystormus na cheisio ei dystewi hithau, yr hon y mae eiswn cyfwruch a swa y gwynt: *ac olew ei ddeheulaw*—hyny yw, byddai cystal iddo geisio cuddio arogl per-olew a fyddo ar ei ddwyllaw ar ol bod yn ei gymysgu, a cheisio cuddio ei hanniddigrwyd a'i dwdwr hithau; *yr hwn a ymddengys*—a fydd hysbys i'r holl gymydogion, gwnaed a fyno. *Houbigan* a'i cyfieitha, 'Gall yr hwn a'i cyfynga hi gartref, cyfyngu y gwynt; canys pa beth bynag a selia efe a'i law,' (neu a ewyllysia y gŵr ei gadw yn ddigrel.) 'hi a'i cyhoedda.'

Adn. 17. *Haiarn a hoga haiarn*] Cyfeirir yma at wasanaeth y ddurllif; *felly gŵr a hoga wyneb ei gyfaill*—efe a ddyry awch adnewyddol ar ei sel, ei gariad, a'i ddefnyddioldeb ef, wrth ei annog a'i gymbell yn parhaus at ei ddyledswyddau.

Adn. 18. *Y neb a gadwo ei ffigysbren*] Rhag ei niweidio gan sychder, prytaid, neu fwystilod; *a fwyty o'i ffrwyth ef*—yn wobr am ei safur: *a'r neb a wasanaetho ei feistr*—yn ffyddlon a gonest; *a ddaw i anrhydedd*—efe a dderbynia y parch a'r ganmoliaeth a haedda.

Adn. 19. *Megys mewn dwfr*] Wrth i ddyn edrych iddo fel mewn drych, *y mae wyneb yn ateb i wyneb*—y mae y dyn yn canfod llun ei wyneb ei hun yn gywir; *felly y mae calon*

eb yn ateb i wyneb: felly y mae calon dyn i ddyn.

20 Ni lenwir uffern na dystryw: felly ni lenwir llygaid dyn.

21 *Fel* y tawddlestr i'r arian, a'r ffwrnes i'r aur: felly y mae gŵr i'w glod.

22 Er i ti bwyo ffol mewn mortar â phestl yn mhlith gwenith; *eto* nid ymedy ei ffolineb âg ef.

23 Edrych yn ddyfal ar dy anifeiliaid, a gofala am dy braidd.

24 Canys cyfoeth ni phery byth: ac a bery y goron o genhedlaeth i genhedlaeth?

dyn i ddyn—y mae calon y naill ddyn yn cyfateb yn gywir i galon y llall, trwy fod calon pawb yr un fath a'u gilydd wrth natur, a'r un fath a'u gilydd hefyd ar ol ei chreu o'r newydd. Ond y mae *Castellio, Grey, Hodgson, Holden, Le Clerc*, ac ereill, yn ei ddarllen, 'Fel y mae y dwfr yn dangos y wyneb i'r wyneb; felly y mae y galon yn dangos y dyn i'r dyn'; hyny yw, gall dyn wybod yn gywir pa fath ddyn yw ef ei hun, ond iddo chwilio ei galon.

Adn. 20. *Ni lenwir uffern na dystryw*] Ni lenwir y bedd â chyrll' dynion, yr hwn ni ddywed byth, 'Digon,' pen. xxx. 16; ac ni lenwir *dystryw* âg eneidiau dynion, yr hwn a elwir y 'pydew diwaclod.' *felly ni lenwir llygaid dyn*—neu ei awydd a'i drachwant am gyfoeth, anrhydedd, a phleserau.

Adn. 21. *Fel y tawddlestr i'r arian, a'r ffwrn i'r aur*] Fel y mae arian ac aur yu cael eu profi gan dân y todddydd; *felly y mae gŵr i'w glod*—felly y profir gŵr trwy y clod a roddir iddo. (1) Os dyn baleb ydyw, efe a ymchwydda wrth ei gannol; ond os dyn difalch, pa fwyaf o glod a roddir iddo, mwyaf gostyngedig a fydd. Neu, (2) Adnabyddir ef, pa un ai da ai drwg fyddo, oddiwrth y dynion da neu ddrwg a fyddont yn ei gannol.

Adn. 22. *Er i ti bwyo ffol mewn mortar â phestl*] Fel y gwna y fferyllydd bwyo ei gyflyrian; *yn mhlith gwenith*—hyny yw, fel y pwyir gwenith wrth ei ddyrnu; canys arferid gynt ddyrnu y twysenau trwy eu pwyo mewn llestr: *eto nid ymedy ei ffolineb âg ef*—gellir ei bwyo ef felly i farwolaeth, ond nis gellir ei ddiwygio, ar ol iddo ymgaledu yn wirfoddol mewn pechod a drygioni.

Adn. 23. *Edrych yn ddyfal ar dy anifeiliaid*] Megys y gwartheg, y meirch, a'r asynod; *a gofala am dy braidd*—y defaid a'r geifr. Nac ymddiried hwynt i ofal y bugain yn unig, pa mor ofalus bynag y byddo; eithr bwrw olwg arnynt dy hun yn fynych, i edrych a ydynt yn eu rhif, neu yn lluosogi, ac yn cael amgeledd briodol.

Adn. 24. *Canys cyfoeth ni phery byth*] Ni fydd i'th eiddo a'th ddeadelloedd barhau yn dy feddiant yn hir, es na fydd i ti dy hun edrych ar eu hol: *ac a bery y goron o genhedlaeth i genhedlaeth?*—fel pe dywedasai, 'Pe byddai

25 Y gwair a flaendardda, a'r glaswellt a ymddengys, a llysiau y mynyddoedd a gesglir.

26 Yr ŵyn a'th ddillada, ac o'r geifr y *cei* werth tir.

27 Hefyd *ti a gei* ddigon o laeth geifr yn fwyd i ti, yn fwyd i'th dylwyth, ac yn gynaliaeth i'th lanc-esau.

PENNOD XXVIII.

YR annuwiol a ffy heb neb yn ei erlid: ond y rhai cyfiawn sydd huf megys llew.

2 O herwydd camwedd gwlad, aml fydd ei phenaethiaid: ond lle y byddo gŵr pwylllog synwryol, y pery hi yn hir.

gan dlyn gyfoeth brenin, efe a ddarfyddai cyn hir, os na edrychid ar ei ol.

Adn. 25. *Y gwair a flaendardda*] Trwy ddarpariaeth ragluniaethol Duw; *a'r glaswellt a ymddengys*—yn ei iawn bryd, yn boria i'th ddeadeloedd; *a llysiau y mynyddoedd a gesglir*—yn ystôr iddynt erbyn y gauf. Fel pe dywedasai, Y mae Duw yn gwneyd ei ran ef tuag at borthi a chynyddu dy braidd; gwna dithau hefyd dy ran, trwy edrych yn ofalus ar eu hol. Fe allai fod y 'llysiau' uchod yn golygu pob math o *fyd* yn gystal a *gwair*.

Adn. 26. *Yr ŵyn a'th ddillada*] Trwy y gwlan a gneifi oddiarnynt; *ac o'r geifr y cei werth tir*—neu fodd i dalu am dy dyddyn. Enwir y pethau hyn fel rhesymau dros 'edrych yn ddytal ar ol yr anifeiliaid,' adn. 23.

Adn. 27. *Hefyd*] Wrth edrych yn ofalus fe'lly ar eu hol, *ti a gei ddigon o laeth geifr yn fwyd i ti*—ac i'th blant a'th weision hefyd. Yr oedd *bara a llaeth geifr*, nid yn unig yn fwyd iachus a maethlon, ond hefyd yn fwyd cyffredin iawn i'r meistr a'i deulu yn y wlad hono y pryd hyny.

PEN. XXVIII. Adn. 1. *Yr annuwiol a ffy heb neb yn ei erlid*] Am fod euogrydd ei gydwbybod yn peri dychryn iddo; *ond y rhai cyfiawn sydd huf megys llew*—trwy fod ganddynt dystiolaeth cydwbybod dda, ac addewidion a chysuron dwyfol i'w cynal a'u gwroli.

Adn. 2. *O herwydd camwedd gwlad*] Neu ffyniant drygioni ynddi; *aml fydd ei phenaethiaid*—bydd ynddi lawer am fod yn benaethiaid ar unwaith; neu lawer yn dilyn eu gilydd mewn ychydig auser, trwy i'r wlad, neu y neb a drachwanta eu swydd, beri marwolaeth iddynt; neu ynte, aml fydd ei *swyddogion*, i ddal a chospi y troseddwr hyny: *ond lle y byddo gŵr pwylllog synwryol*—i ddarostwng camwedd a drygioni, ac i lywodraethu y wlad yn ddoeth a chyfiawn; *y pery hi yn hir*—mewn cyflwr dedwydd, blodeuog, a llwyddiannus; a phery yntau yn hir yn benaeth neu frenin arni.

Adn. 3. *Gŵr tylawd yn gorthrymu tylod.*

3 Gŵr tylawd yn gorthrymu tylodion, *sydd debyg i lif-ddwfr yr hwn ni âd luniaeth.*

4 Y rhai a ymadawant â'r gyfraith, a ganmolant yr annuwiol: ond y neb a gadwant y gyfraith a ymladd â hwynt.

5 Dynion annuwiol ni ddeallant farn: ond y neb a geisiant yr Arglwydd, a ddeallant bob *peth*.

6 Gwell *yw* y tylawd a rodio yn ei uniondeb, na'r traws ei ffyrdd, er ei *fod* yn gyfoethog.

7 Y neb a gadwo y gyfraith, *sydd* fab deallus: ond y neb a fyddo cydymaith i loddestwyr, a gywil-ddia ei *dad*.

ion] Yr hwn, ar ol ei ddyrchafu i swydd ac awdurdod, a wna gammaddefnydd o'i swydd trwy orthrymu y tylodion, neu beri iddynt dalu trefhoedd trymion i gynal ei rwyg ef, neu dalu ei ddyledion; *sydd debyg i lif-ddwfr yr hwn ni âd luniaeth*—yr hwn, gan redeg i lawr o'r mynyddau, a y'ch ymaith yr had a fyddo yn y ddaear, neu a ysgnba ymaith y cwnd a fyddo ar ei gwyneb hi.

Adn. 4. *Y rhai a ymadawant â'r gyfraith*] Gan fyw mewn anufydd-dod i gyfraith Duw a'r brenin: *a ganmolant yr annuwiol*—yr hwn a fyddo yn ei throeddau fel hwythau: *ond y neb a gadwant y gyfraith*—gan fyw yn ddeiliaid uffyd a ffyddlon i'r brenin; *a ymladd â hwynt*—a want eu goraf i ddarostwng y gwrthryfelwyr, ac i adferu heddwch ac uffydd-dod trwy yr holl wlad.

Adn. 5. *Dynion annuwiol ni ddeallant farn*] Ni wyddant weithiau ragor rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder, trwy fod eu rhagfarn wedi tywyllu eu deal a chaledu eu calon: *ond y neb a geisiant yr Arglwydd*—a geisiant ei Ysbryd ef i oleuo eu meddyliau, a'i ar ef yn lluseru i'w traed ac yn llewyrch i'w llwybrau; *a ddeallant bob peth*—angenrheid-iol ei wybod gogyfer â'r ddau fydd. 'Y mae ganddynt eneidiaid oddiwrth y Santaid hwnw, a hwy a wyddant bob peth,' 1 Ioan ii. 20.

Adn. 6. *Gwell yw y tylawd a rodio yn ei uniondeb*] A fyddo yn gyfiawn ac uniawn yn ei eiriau a'i weithredoedd; *na'r traws ei ffyrdd*—na'r gorthrymwr anghyfiawn a didosturi, er ei *fod yn gyfoethog*—odda y byd hwn: hyny yw, y mae ei gydwbybod yn fwy tawel yma, a bydd yn well arno ar ol myned oddiyma.

Adn. 7. *Y neb a gadwo y gyfraith, sydd fab deallus*] Sydd yn ymddwyn yn ddoeth a deallus yn hyny: *ond y neb a fyddo cydymaith i loddestwyr*—gan wario ei arian, ei amser, a'i iechyd i ddylyn oferwyr glwth a meddw; *a gywil-ddia ei dad*—bydd ar ei dad gywilydd o hono, a gwarthruddir ef hefyd ond odid gan ereill, fel pe buasai wedi esgeuluso iawn-hyfforddi ei fab.

8 Y neb a chwanoego ei gyfoeth trwy usuriaeth ac oeraeth, sydd yn casglu i'r neb a fydd trugarog wrth y tylawd.

9 Y neb a dry ei glust ymaith rhag gwrandio y gyfraith, fydd ffi-aidd ei weddi hefyd.

10 Y neb a ddeno y cyfiawn i ffordd ddrwg, a syrth yn ei bydew ei hun: ond y cyfiawn a feddianna ddaioni.

11 Gŵr cyfoethog sydd ddoeth yn ei olwg ei hun: ond y tylawd deallus a'i chwilia ef allan.

12 Pan fyddo llawen y cyfiawn, y mae anrhydedd mawr: ond pan ddyrchafer yr annuwiolion, y chwilir am ddyn.

13 Y neb a guddio ei bechodau, ni lwydda: ond y neb a'u haddeffo, ac a'u gadawo, a gaiff drugaredd.

14 Gwyn ei fyd y dyn a ofno yn wastadol: ond y neb a galedo ei galon, a ddygwydda i ddrwg.

15 Fel y llew rhuadus, a'r arth wancus, yw llywydd annuwiol i bobl dylodion.

16 Penadur heb ddeall sydd yn fawr ei drawsedd: ond y neb a gasawo gybydd-dra, a'estyn ei ddyddiau.

17 Dyn a wnelo drawsedd i waed neb, a ffy i'r pwll; nac attalied neb ef.

18 Y neb a rodio yn uniawn, a waredir: ond y neb a fyddo traws ei ffyrdd, a syrth ar unwaith.

19 Y neb a lafurio ei dir, a ddi-

Adn. 8. *Y neb a chwanoego ei gyfoeth trwy usuriaeth ac oeraeth*] Trwy godi gormod o lóg oddiar y tylawd wrth roddi benthyg arian iddo; *sydd yn casglu i'r neb a fydd trugarog wrth y tylawd*—nid erys ei gyfoeth yn hir gydag ef, eithr efe a drosglwyddir yn nhrefn rhagluniaeth Duw i rhywun mwy trugarog nag efe ei hun. Oddiar y tylodion y mynodd efe ei gyfoeth, ac i'r tylodion y dychwelir rhan o bono eilwaith.

Adn. 9. *Y neb a dry ei glust ymaith rhag gwrandio y gyfraith*] Fel ag i ufyddhau iddi; *fydd ffi-aidd ei weddi hefyd*—nid yw gweddio a phechu bob yn ail o ddim lles i ddyn; yn bytrach, y mae y gyfryw weddi yn ffi-aidd yn ngolwg Duw, i.e. yn bechod.

Adn. 10. *Y neb a ddeno y cyfiawn i ffordd ddrwg*] Neu a geisio ei ddenu ef i ryw af-lwydd, trwy dwyll neu ddichell; *a syrth yn ei bydew ei hun*—sef yn y prdew hwnw a gloddiasai efe i'r llall: *ond y cyfiawn a feddianna ddaioni*—a waredir rhag y pydewhwnw, neu ynte a ddaw allan o hono yn y diwedd yn fuddugoliaethus.

Adn. 11. *Gŵr cyfoethog*] A fyddo hefyd yn ffol ac anneallus, *sydd ddoeth yn ei olwg ei hun*—trwy fod ei gyfoeth a'i ffolineb wedi peri iddo ymchwyddo: *ond y tylawd deallus a'i chwilia ef allan*—a genfydd nad yw ef ddim ond dyn ffol a thruenns, ef maint fyddo ei gyfoeth a'i ddoethineb honiadol.

Adn. 12. *Pan fyddo llawen y cyfiawn*] O herwydd ei ddyrchafer i swydd ac awdurdod uchel yn y wladwriaeth; *y mae anrhydedd mawr*—yn cael ei roddi iddo ef, ac i'r holl deyrnas hefyd: *ond pan ddyrchafer yr annuwiolion*—i swyddau ac awdurdod felly; *y chwilir am ddyn*—sef am ddyn da i lenwi eu lle lwynt; neu chwiliant hwy am ddyn duwiol i'w erlid a'i gopsi oblegid ei grefydd. Ond *Houbigant* a'i cyfieitha, 'Pan fyddo dynion cyfiawn yn llywodraethu, y diasyddion a anrhydeddir yn fawr: pan fyddo dyn drwg yn y lle penaf, hwy a syrthiant.'

Adn. 13. *Y neb a guddio ei bechodau*] Trwy eu gwadu; *ni lwydda*—i'w cuddio yn

hir o olwg dynion; neu ni lwydda gerbron Duw yn ei weddi am drugaredd: *ond y neb a'u haddeffo*—mewn gwir edifeirwch; *ac a'u gadawo*—o hyny allan; *a gaiff drugaredd*—bydd i Dduw eu maddeu iddo, a'i dderbyn yntau i'w ffafur.

Adn. 14. *Gwyn ei fyd y dyn a ofno yn wastadol*] A ofno yr Arglwydd yn wastadol, ac a ofno bechu yn ei erbyn ef; canys felly y cedwir ef rhag pechod ac uffern, ac y dygir ef yn y diwedd i wynfyd tragwyddol: *ond y neb a galedo ei galon*—heb barchu Duw, nac ofni ei fygythion na'i farnedigaethau ef; *a ddygwydda i ddrwg*—sef i bechod a chospedig-aeth.

Adn. 15. *Fel y llew rhuadus, a'r arth wancus*] Y rhai sydd bob amser yn greulon, ac yn barod i rwygo eu bysglyfaeth; *yw llywydd annuwiol i bobl dylodion*—y rhai ni allant eu gwaredu eu hunain rhag ei wanc a'i greulondeb ef.

Adn. 16. *Penadur heb ddeall sydd yn fawr ei drawsedd*] Neu yn fawr ei ormes a'i anghyfiawnder, trwy yr hyn y cynhyrir ei ddeiliaid i ddwyn ei fywyd oddiarno: *ond y neb a gasawo gybydd-dra*—yr hwn yw y prif achos o bob trawsedd, gormes, ac anghlyfiawnder; *a'estyn ei ddyddiau*—ni fydd neb am dddwyn ei fywyd ef oddiarno, ond ymdrecha pawb o'i blaid, a gweddiant am i Dduw estyn ei ddyddiau.

Adn. 17. *Dyn a wnelo drawsedd i waed neb*] Neu a roddo arall i farwolneth ar gam; *a ffy i'r pwll*—a ddyfethir ar frys: *nac attalied neb ef*—ni fydd i neb chwennych neu geisio ei achub.

Adn. 18. *Y neb a rodio yn uniawn*] Yn ol gair Duw; *a waredir*—rhag dinystr, am fod Duw wedi ymrwngoi i waredu y cyfryw: *ond y neb a fyddo traws ei ffyrdd*—yn gŵybro oddiwrth yr uniondeb hwnw; *a syrth ar unwaith*—a syrth i ddinystr yn sydyn a diarywbod iddo.

Adn. 19. *Y neb a lafurio ei dir*] Neu a ddylyno ryw alwedigaeth onest arall; *a ddi-gonir o fara*—a gaiff, trwy fendith Duw ar ei

gonir o fara: ond y neb a ganlyno ofer-wyr, a gaiff ddigon o tylodi.

20 Gŵr ffyddlon a fydd aml ei fendithion: ond y neb a brysuro i fod yn gyfoethog, ni bydd digerydd.

21 Nid da derbyn wyneb: canys y cyfryw ŵr am damaid o fara a wna gam.

22 Gŵr drwg ei lygaid a brysura i ymgyfoethogi: ond bychan y gŵyr efe y daw tylodi arno.

23 Y neb a geryddo ddyn, a gaiff yn y diwedd fwy o ffafr na'r neb a draetho weniaith â'i dafod.

24 Y neb a yspellio ei dad neu ei fam, ac a ddywed, Nid yw hyn gamwedd, sydd gymhar i ddinystriwr.

25 Gŵr uchel ei feddwl a enyn gynhen: ond y neb a ymddiriedo

yn yr Arglwydd, a wneir yn fras.

26 Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun, sydd ffol: ond y neb a rodio yn bwylllog, a achubir.

27 Y neb a roddo i'r tylawd, ni bydd angen arno: ond y neb a guddio ei lygaid, â gaiff lawer o felldithion.

28 Pan ddyrchafer yr annuwiol, dynion a ymguddia: ond wedi darfod am danynt, yr amlheir y cyfiawn.

PENNOD XXIX.

GWR a gerydder yn fynych ac a galeda ei war, a ddryllir yn ddisymwth, fel na byddo meddyginiaeth.

lafur, ddigon o gynaliaeth iddo ei hun a'i deulu: ond y neb a ganlyno oferwyr—mewn segurdd neu wastraff; a gaiff ddigon o tylodi—fel canlyniad naturiol i'w segurdd a'i oferedd.

Adn. 20. *Gŵr ffyddlon*] Neu ŵr geirwir, gonest, a chyfiawn; *a fydd aml ei fendithion*—a gaiff ddigonedd o bethau y byd hwn gan Dduw, a pharch gan ddynion hefyd: *ond y neb a brysuro i fod yn gyfoethog*—yr hwn y byddo ei drachwant a'i gybydd-dod yn ei yru i ddefnyddio moddion anghyfreithlon i guraedd cyfoeth; *ni bydd digerydd*—neu ddi-gosp; ond, yn lle bendithion neu gyfoeth, efe a ddyg felldith a dinyst arno ei hun.

Adn. 21. *Nid da derbyn wyneb*] Mewn llys barn; *canys y cyfryw ŵr am damaid o fara*—neu am y gwob lleiaf; *a wna gam*—trwy gondemnio y cyfiawn a rhyddiau yr euog.

Adn. 22. *Gŵr drwg ei lygaid*] Neu ŵr cybyddlyd a thrachwantus, a brysura i ymgyfoethogi—trwy uarhwy foddion, cyfreithlon neu anghyfreithlon: *ond bychan y gŵyr efe*—neu yr ystyria efe yn nghanol ei brysurddeb, *y daw tylodi arno*—yn lle cyfoeth, wrth ddylyn y ffordd hōno.

Adn. 23. *Y neb a geryddo ddyn*] Yn ffyddlon ac mewn cariad, pan y byddo efe yn haeddu cerydd; *a gaiff yn y diwedd*—wedi i'r hwn a gerydder ganddo ddeall ei amcan ef, a gweldd mai er lles iddo yr oedd yn ei geryddu; *fwy o ffafr*—neu fwy o barch a chanmoliaeth; *na'r neb a draetho weniaith â'i dafod*—ac a allasai trwy llyny ei arwain ef yn ddiarwybod i ddinyst: gwel ar pen. xxvii. 5, 6.

Adn. 24. *Y neb a yspellio ei dad neu ei fam*] I gynal ei afradddeb a'i oferedd; *ac a ddywed*—yn ei galon, *Nid yw hyn gamwedd*—gan feddwl fod gauddo ef bawl i feddiannau ei rieni; *sydd gymhar i ddinystriwr*—efe a ddengys nid yn unig ei fod yn cyfeillachu â rhai a'i harweiniant ef i ddinyst yn y diwedd, ond ei fod yn ddigon caled eisies i fod yn

lleidr pen ffordd, os nid yn llofrudd hefyd. Ie, fel y sylwa Clarke, 'y mae y neb a yspellio ei rieni yn waeth nag yspellwyr cyffredin; canys at ei anonestrwydd efe a chwaega an-niolchgarwch, creulondeb, ac aufydd-dod.'

Adn. 25. *Gŵr uchel ei feddwl a enyn gynhen*] Am na roddir digon o barch ac anrhydedd iddo gan ereill, y rhai a ystyrir ganddo islaw iddo ei hun: *ond y neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd*—yn ei gadernid ef, gan edrych arno ei hun fel un isel, gwael, ac anhëilwng; *a wneir yn fras*—efe a fydd byw yn heddychol a dedwydd, a'i enaid a frasoir â bendithion ysbryddol.

Adn. 26. *Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun*] Yn ei ddoethineb, ei gyfiawnder, a'i nerth ei hun, yn lle yn yr Arglwydd; *sydd ffol*—ac a dderbyn wob ei fioledeb, sef dinyst: *ond y neb a rodio yn bwylllog*—Saes., 'yn ddoeth,' gan ymgyngeri âg ereill fel y gwna dyn doeth, ac yn enwedig â'r Arglwydd; *a achubir*—rhag dinyst a cholledigaeth.

Adn. 27. *Y neb a roddo i'r tylawd*] Yn ei angen; *ni bydd angen arno*—ef ei hun, am y tâl yr Arglwydd ei rodd iddo drachefu, pen. xix. 17: *ond y neb a guddio ei lygaid*—rhag edrych ar y tylodion, fel na byddo i'r olwg ar eu bangan a'u trueni hwy gynhyrfu tosturi yndde ef; *a gaiff lawer o felldithion*—bydd i'r tylodion hyny ei felldithio ef, a bydd mell-dith Duw hefyd arno ef a'i feddiannau.

Adn. 28. *Pan ddyrchafer yr annuwiol*] I swydd ac awdurdod yn y wladwriaeth, adn. 12; *dynion a ymguddia*—rhag eu hofn hwynt: *ond wedi darfod am danynt*—pan y byddant hwy feirw, fel Herod ac Antipater, Mat. ii. 20: neu pan y cymerir eu swydd a'u hawdurdod oddiarnynt; *yr amlheir y cyfiawn*—deuant allan o'u cuddfeydd; a thrwy eu cynghorion, eu siamplau, a'u gweddiau, gwneir llawer ereill yn gyfiawn.

PEN. XXIX. Adn. 1. *Gŵr a gerydder yn fynych*] Gan Dduw neu ddynion am ei feiau; *ac a galeda ei war*—fel fch anhywaith yn

2 Pan amlhäer y cyfiawn, y bobl a lawenychant: ond pan fyddo yr annuwiol yn llywodraethu, y bobl a ocheneidia.

3 Gŵr a garo ddoethineb a lawenycha ei dad: ond y neb a fyddo gyfaill i buteiniaid, a ddifa ei ddâ.

4 Brenin trwy farn a gadarnha y wlad: ond y neb a garo arnhegion, a'i dinystria hi.

5 Y gŵr a ddywedo weniaith wrth ei gymydog, sydd yn taenu rhwyd i'w draed ef.

6 Yn nghanwedd dyn drwg y mae magl: ond y cyfiawn a gân ac a fydd lawen.

7 Y cyfiawn a ystyria fater y ty-

lodion: ond yr annuwiol ni ofala am ei wybod.

8 Dynion gwatwarus a flaglant ddinas: ond y doethion a droant ymaith ddigofaint.

9 Os gŵr doeth a ymryson â dyn ffol, pa un bynag a wnel ai digio ai chwerrthin, eto ni bydd llongyddwch.

10 Gwŷr gwaedlyd a gasânt yr uniawn: ond yr uniawn a gais ei enaid ef.

11 Y ffol a dywallt ei holl feddwl: ond gŵr doeth a'i hattal hyd yn ol.

12 Os llywydd a wrendy ar gelwydd, ei holl weision fyddant annuwiol.

13 Y tylawd a'r twyllodrus a

gwrth ymstwg dan yr iau a ddryllir yn ddisymwth—yr un modd a Pharao a'r Aiffitiaid; fel na byddo meddyginioeth—neu obaith iddo am adferiad o'i gyflwr andwyol.

Adn. 2. *Pan amlhäer y cyfiawn*] Ar y ddaear; neu, yn ol y Saesonaeg, 'pan fyddo y cyfiawnion mewn awurdod'; y bobl a lawenychant—dan effeithiau eu llywodraeth ddaionus hwy: ond pan fyddo yr annuwiol yn llywodraethu—a hyny yn orthymus ac annglyfiawn; y bobl a ocheneidia—dan eu gormes a'u trais.

Adn. 3. *Gŵr a garo ddoethineb*] A garo dio yn ffridd rhinwedd a chrefydd; a lawenycha ei dad—yn enwedig os bydd ei dad hefyd yn ddyn crefyddol: ond y neb a fyddo gyfaill i buteiniaid—Hebr., 'y neb a bortho buteiniaid'; a ddisu ei ddâ—yr un modd a'r mab afradlon, Luc xv. 30.

Adn. 4. *Brenin trwy farn*] Sef trwy weinyddiad diduedd o gyfiawnder; a gadarnha y wlad—a'i ceidw hi mewn cyflwr o ddiogelwch a dedwyddwch, nen a'i hadfer iddo: ond y neb a garo arnhegion—neu a wertho gyfiawnder am lwgr-wobrwyon; a'i dinystria hi—pa mor gadarn a dedwydd bynag y byddo.

Adn. 5. *Y gŵr a ddywedo weniaith wrth ei gymydog*] Pan fyddo ei gymydog mewn cyflwr perglus neu annuwiol; sydd yn taenu rhwyd i'w draed ef—i'w fradychu, ei faglu, a'i ddinystrio.

Adn. 6. *Yn nghanwedd dyn drwg y mae magl*] Iddo ei hun ac oreill: ond y cyfiawn a gân ac a fydd lawen—am fod ganddo heddwch presenol yn ei gydwybod, a gobaith am ddedwyddwch tragwyddol.

Adn. 7. *Y cyfiawn a ystyria fater y tylodion*] A chwilia i mewn i'w cyfyngder, neu i'r trais a'r annglyfiawnder a wneir iddynt, fel y gallu eu cynorthwyo: ond yr annuwiol ni ofala am ei wybod—cânt ddyoddef eisiau, cystuddian, a thrais, heb iddo ef ymdrafferthu yn eu hachos, na thobsturio wrthynt.

Adn. 8. *Dynion gwatwarus*] Yn gwneuthur gwawd o Dduw a'i grefydd; y flagant ddinas—trwy ddwyn barn Dnw arni am ei hanfyddiaeth a'i drygioni: ond y doethion a droant

ymaith ddigofaint—trwy eu gweddiau drosti, a'u hymdrech i ddwyn yn mlaen grefydd a rhinwedd yn mhlith ei thrigolion.

Adn. 9. *Os gŵr doeth a ymryson â dyn ffol*] Trwy 'ymgyfreithio' äg ei, fel y mae *Uqubigant* a *Coverdale* yn ei ddeall; neu trwy geisio ei argyhoeddi o ryw fai neu gyfeiliornad; pa un bynag a wnel—y gŵr doeth hwn, ai desio—o ddirif, oi chwerrthin—i ddangos nad yw efe yn dligofus a dialgar; eto ni bydd llongyddwch—ni bydd diwedd ar yr ymrysoniad, neu ni fydd i'r dyn ffol gael ei foddloni na'i argyhoeddi. Neu gall mai yr ystyr yw, I'au un bynag a wnelo y dyn ffol ai digio wrth y gŵr doeth am geisio ei argyhoeddi ef, ynte chwerrthin yn watwarus am ei ben ef; eto ni äd y gŵr doeth lonydd iddo, eithr efe a barha i'w geryddu ef am ei fai, neu i geisio ei argyhoeddi.

Adn. 10. *Gwŷr gwaedlyd a gasânt yr uniawn*] Ac a geisiant ladd ei gorff ef: ond yr uniawn a gais ei enaid ef—a wna ei oraf i gadw enaid y rhai a sybedant am ei waed: neu, yr uniawn a gais achub bynydd ei frawd uniawn, yr hwn a elidir gan y gwŷr gwaedlyd. *Schultens* a'i cyfieithu, 'Gwŷr gwaedlyd a gasânt yr uniawn, ac a geisiant fywyd y cyfiawn.'

Adn. 11. *Y ffol a dywallt ei holl feddwl*] Allan ar unwaith, ärwg a da: ond gŵr doeth a'i hattal hyd yn ol—hyd oni welo achos i'w amlygu, ac y deallo y byddai o les ei ddatguddio.

Adn. 12. *Os llywydd a wrendy ar gelwydd*] Ar enllib a gweniaith ei weinidogion; ei holl weision fyddant annuwiol—clia pob dyn da o wasanaeth y llywydd hwn; neu efe a'u gyr hwynt ymaith trwy gelwyddau yr enllibwyr hyny; neu llygr hwynt trwy siamp y llywydd a'i weinidogion annuwiol; neu ni chyfloga efe neb ond gweneithwyr a chelwyddwyr i'w wasanaeth.

Adn. 13. *Y tylawd*] Yr hwn a gafodd gam; a'r twyllodrus—yr hwn a wnaethai gam äg ef; a gydgysfaryddant—wyneb yn wyneb ni y farn: a'r Arglwydd a lewyreha eu llygaid hwy ill dau—sef llygaid y tylawd cyfiawn, i

gydgyfarfyddant; a'r Arglwydd a lewyrcha eu llygaid hwy ill dau.

14 Y brenin a farno y tylodion yn ffyddlon, ei orsedd a sierheir byth.

15 Y wialen a cherydd a rydd ddoethineb: ond mab a gaffo ei rwysg ei hun, a gywilyddia ei fam.

16 Pan amlhao y rhai annuwiol, yr amlha camwedd: ond y rhai cyf-iawn a welant eu cwmp hwy.

17 Cerydda dy fab, ac efe a bair i ti lonyddwch; ac a bair hyfrydweh i'th enaid.

18 Lle ni byddo gweledigaeth, methu a wna y bobl: ond y neba gadwo y gyfraith, gwyn ei fyd ef.

19 Ni chymer gwas addysg ar eiriau: canys er ei fod yn deall, eto mid etyb.

20 A weli di ddyn prysur yn ei eiriau? gwell yw y gobaith am y ffol nag am dano ef.

21 Y neb a ddygo ei was i fyny yn foethus o'i febyd, o'r diwedd efe a fydd fel mab iddo.

22 Gŵr digllon a enyn gynhen; a'r lliodiog sydd aml ei gamwedd.

23 Balchder dyn a'i gostwng ef: ond y gostyngedig o ysbryd a gyn-al anrhydedd.

24 Y neb a fo cyfranog â lleidr, a gasâ ei enaid ei hun: efe a wren-dy ar felldith, ac nis mynega.

weled fod pob peth wedi cydweithio er daioni iddo ef; a llygaid y dyn twyllodrus, i ganfod ei bechod a'i gosp ei hun. Ond yn lle 'y tylawd a'r twyllodrus,' y mae rhai yn ei ddarllen, 'y tylawd a'r cyfoethiog,' fel yn pen. xxii. 2; ereill, 'y tylawd a'r echwynwr;' ac ereill, 'y dyledwr a'r gofynwr.' Yn ol hyny gall mai yr ystyr yw, fod y ddau yn cydfyw yn y byd hwn, a bod yr Arglwydd yn llewyrchu eu llygaid hwy ill dau â goleuni y dydd, â goleuni rheswm, ac â goleuni ei air; ac am hyny y dylent hwythau fod yn barod i wneyd daioni i'w gilydd, fel y gwna yr Arglwydd iddynt ill dau.

Adn. 14. *Y brenin a farno y tylodion yn ffyddlon*] Neu gyfiawn, heb wneuthur cyfreithiau gorthrymus i'w gwasgu hwynt; ei orsedd a sierheir—iddo ef, ac i'w blant ar ei ol: gwel ar pen. xx. 28, a xxv. 5.

Adn. 15. *Y wialen a cherydd a rydd ddoethineb*] I blentyn, trwy ddygu iddo ochel y drwg a gwneyd y da: ond mab a gaffo ei rwysg ei hun—yr hwn a oddeferi gael ei fiordd ei hun yn mhob peth yn ddigerydd; a gywilyddia ei fam—a'i dad hefyd, trwy ei ddrygioni a'i gosp.

Adn. 16. *Pan amlhao y rhai annuwiol*] Mewn gwlad neu ardal; yr amlha camwedd—am y bydd yno fwy o annuwiolion i gamwedd, a'r naill yn hudo ac yn llygru y lleill: ond y rhai cyfiawn a welant eu cwmp hwy—a gânt fyw i weled eu haffwydd a'u dinystr. Y mae rhai yn ei darllen, 'Pan goder y rhai annuwiol i awurdod, yr amlha camwedd,' &c.

Adn. 17. *Cerydda dy fab*] Tra fyddo yn ieuanc, a chyn iddo ymgeledu mewn drygioni, os bydd efe yn haeddu cerydd; ac efe a bair i ti lonyddwch—neu dawelwch, trwy beidio gwneuthur drygan i'th ofidïo; ac a bair hyfrydweh i'th enaid—wrth i ti ei weled yn troi allan yn blentyn ufydd a rhinweddol, a than arwyddion ei fod yn ofni yr Arglwydd.

Adn. 18. *Lle ni byddo gweledigaeth*] Neu 'broffwydoliaeth;' lyny yw, lle na byddo moddion cyhoeddus gras, neu lle na byddo y bobl yn cael eu dysgu i fyw yn grefyddol; methu a wna y bobl—yn eu moesau a'u buch-

eddau; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'y bobl a drengant,' o eisiau gwybodaeth o gyf-ryngau yr iachlawdriaeth: ond y neb a gadwo y gyfraith—ar ol ei chlywed yn cael ei phregethu a'i hegluro; gwyn ei fyd ef—y mae ef yn ddedwydd, ac ar y fiordd i gael cadw ei enaid trwy drugaredd Duw, yr hon a addawyd i'r cyfryw.

Adn. 19. *Ni chymer gwas*] Sef caethwas cyndyn ac ystyfnig, fel y mae y LXX yn ei ddarllen; addysg ar eiriau—a ddywedo ei feistr wrtho: canys er ei fod yn deall—geiriau ei feistr, a'i ddyledswydd ei hun; eto nid etyb—neu ni ufyddha, nes ei ofodi i hyny trwy gospedigaeth.

Adn. 20. *A weli di ddyn prysur yn ei eiriau*] Neu ddyn siaradus, yr hwn a fyn ddywedyd y cwbl ei hun, heb adael lle i neb arall draethu gair? Gwell yw y gobaith am y ffol nag am dano ef—canys diction y gwrendy hwnw ar ereill, ac y bydd iddo trwy hyny ddysgu rhywbetl.

Adn. 21. *Y neb a ddygo ei was i fyny yn foethus o'i febyd*] Trwy fod yn rhy dyner wrtho, a rhoddi iddo ormod o'i fiordd ei hun; o'r diwedd efe a fydd fel mab iddo—efe a anghofia mai gwas ydyw, ac a dry yn falch a hyf fel pe byddai yn etifedd ar y cwbl. 'O'r diwedd efe a fydd yn feistr arno.'—*Beibl yr Esgobion.* 'Y neb a ddyger i fyny yn foethus, a fydd was; a galar fydd o'i herwydd yn y diwedd.'—LXX.

Adn. 22. *Gŵr digllon a enyn gynhen*] Lle bynag y byddo, pen. xv. 18; a'r lliodiog sydd aml ei gamwedd—yn chwaneu nielldithion, cableddau, a chwerylon, at ei dymherau lliodiog.

Adn. 23. *Balchder dyn a'i gostwng ef*] Yn meddyliau ei gymydogion, yn gystal ag yn ei amgylchiadau tymhorol: ond y gostyngedig o ysbryd a gyn-al anrhydedd—efe a anrhydeddir gan Dduw a dynion.

Adn. 24. *Y neb a fo cyfranog â lleidr*] Trwy dderbyn rhan o'r lladrad am gelu y weithred; a gasâ ei enaid ei hun—Hebr., 'ei fywyd;' trwy ei osod ei hun yn agored i gollï ei fywyd am y fath ysgelerder: efe a wren-dy ar felldith—ar y neb a gollodd ei eiddo yn

25 Ofn dyn sydd yn dwyn magl :
ond y neb a ymddiriedo yn yr
Arglwydd, a ddyrehefir.

26 Llauer a ymgeisiant â gwyneb
y llywydd : ond oddiwrth yr Ar-
glwydd y mae barn pob dyn.

27 Ffiadd gan y cyflawn wr an-
nghyflawn : ffiadd gan yr annuwiol
wr uniawn ei ffordd.

PENNOD XXX.

GEIRIAU Agur mab Jaceh, *sef y*
broffwydoliaeth : y gŵr a lefar-

melldithio y lleidr, neu ar y barnwr yn ei
dyngbedu ef ei hun i ddywedyd yr holl wir
yn yr achos ; *ac nis mynega*—efe yr hyn a
ŵyr.

Adn. 25. *Ofn dyn sydd yn dwyn magl*
Mewn llauer achos, fel yn achos Abrah a'i
wraig, Gen. xii. 13 : *ond y neb a ymddiriedo*
yn yr Arghedd, a ddyrehefir—uwchlaw ofn
dyn, nen allan o'r fagl hōno.

Adn. 26. *Llauer a ymgeisiant â gwyneb y*
llywydd Am ryw flaftr neu gymwynas gan-
do : *ond oddiwrth yr Arglwydd y mae*
barn pob dyn—neu benderfyniad ei achos, yr
hwn a oruwchlywodraetha galon y llywydd
hwnw : neu, er i'r troseddwr lwyddo i gael
maddeuant gan y llywydd neu y barnwr, nid
yw hyn yn dileu ei euogrywyd ef yn ngolwg
Dduw, yr hwn a dal iddo yn ôl ei weithredoedd.

Adn. 27. *Ffiadd gan y cyflawn wr an-*
nghyflawn Hynny yw, y mae yn ffiadd gan-
do ei ffyrdd, ei weithredoedd, a'i gyfeillach
ef ; *a ffiadd gan yr annuwiol wr uniawn ei*
ffordd—am fod gŵr felly yn rhwystr iddo
ddylyn ei annuwioldeb.

PEN. XXX. Adn. 1. *Geiriau Agur mab*
Jaceh Y mae llauer o ddychymygion wedi
bod am y ddau wr hyn, ond nis gall neb sier-
hau pwy oeddynt, er y gallwn feddwl fod
Agur a'i dad yn ddiagon adnabyddus yn Israel
pan chwaneagwyd y ddwy bennod ganlynol at
lyfr y Diarebion. Tybiodd rhai o'r tadau mai
Solomon mab Dafydd oedd yr 'Agur mab
Jaceh' hwn ; ond gellir meddwl fod digon o
brofion mewnol yn y bennod hon i wrthbrofi
hyn : gwel adn. 2, 3, 8, 9. *Sef y broffwyd-*
oliaeth—neu yr addysg ysbrydoledig a roddid
gan Agur i'w ddysgybllion. Trwy fod y proff-
wydi gynt yn addysgu yn gyhoeddus, yn
gystal ag yn rhaeddywedyd pethau i ddyfod,
yr oedd eu pregethau yn gystal a'u rhagfyne-
giadau yn cael eu galw yn *broffwydoliaeth*, i
arwyddo eu bod yn llefaru trwy ysbrydoliaeth
Dduw. *Y gŵr a lefarodd wrth Ithiel*—tybia
rhai mai yr Ithiel hwn yw yr un a grybwyllir
yn Neh. xi. 7 ; ac os felly, rhaid mai ar ol y
dychweliad o Babilon y cyfansoddwyd y bennod
hon. *Wrth Ithiel, meddaf*—ymddengys
mai rhagymadrodd i eiriau Agur yw yr adnod
hon, wedi ei ysgrifennu gan y casglydd, pwy
bynag ydoedd. *Ac Ucal*—Ithiel ac Ucal
oeddynt ddau ddysgybil i Agur, y rhai a hy-

odd wrth Ithiel, wrth Ithiel, *meddaf*,
ac Ucal.

2 Yn wir *yr ydwyf* yn ffolach na
neb, ac nid oes deall dyn genyf.

3 Ni ddysgais ddoethineb, ac nid
oes genyf wybodaeth y saintaidd.

4 Pwy a esgynodd i'r nefoedd,
neu a ddisgynodd ? pwy a gasglodd
y gwynt yn ei ddyrnau ? pwy a
rhwymodd y dyfroedd mewn dilled-
yn ? pwy a gadarnhaodd holl derf-
fynau y ddaear ? beth *yw* ei enw ef,
a pheth *yw* enw ei fab, os gwyddost ?

fforddid ganddo mewn moesoldeb a chrefydd.

Adn. 2. *Yn wir yr ydwyf yn ffolach na*
neb Nis gallai Agur ddywedyd hyn am dano
ei hun ond dan deimlad o ŵylder a mawr
ostyngieiddrwydd ; *ac nid oes deall dyn genyf*
—fel hyn yr oedd efe yn ei ystyried ei hun yn
waelach na neb, er nad oedd ereill yn meddwl
felly am dano, yn enwedig ei ddau ddysgybil
uchod.

Adn. 3. *Ni ddysgais ddoethineb* Ni bŵm
eriod yn efrwydd yn ysgolion y doethion ;
neu ni chyrrhaeddais wybodaeth lawn am Dduw
a'i berffeithderau : *ac nid oes genyf wybod-*
aeth y saintaidd—Hebr., 'wybodaeth y rhai
santaidd,' sef y proffwydi neu yr angylion
santaidd, y rhai a wyddant fwy am Dduw nag
a wn i. Neu, nid oedd ganddo wybodaeth
drwyadl am y *Dduw saintaidd*, fel y mae yn
Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, nac am ei weith-
redoedd na'i ffyrdd. Ond y mae y LXX yn
rhoddi ystyr gwahanol i'r adnod hon : 'Duw
a ddysgodd i mi ddoethineb, a gwybodaeth y
saint a wybŵm i.'

Adn. 4. *Pwy a esgynodd i'r nefoedd* I
ddysgu i'w ewyllis, natur, a phriodoliaethau
Dduw ? *neu a ddisgynodd*—i'r ddaear, i draethu
yr unrhyw i ddyinion ? *Pwy a gasglodd y*
gwynt yn ei ddyrnau—fel ag i allu ei ostegu
ef, neu beri iddo chwythu o'r pegwn a fyno ?
pwy a rhwymodd y dyfroedd mewn dilledyn
—yn y cymylau, neu yn ngwely y môr, fel
sypyn wedi ei rwymo mewn cadach ? *pwy a*
gadarnhaodd holl derfynau y ddaear—fel na
allo y môr dori trwyddynt na throstynt i or-
chuddio y tir ? gwel ar Job xxxviii. 8—11,
Salm civ. 9. Neu pwy sydd yn cynal y belen
ddaearol i grogi yn y gwagle, neu rhag gwibio
ymaith i eithafion y nefoedd yn ei symudiad-
au trwy y nwyfre ? Y meddwl yw, Pwy ond
Dduw a wnaeth hyn oll ? neu, Byddai mor
anhawdd i ddyng yraedd y wybodaeth ag y
soniwyd am dani yn adn. 3, ag a fyddai iddo
esgyn i'r nefoedd, casglu y gwynt yn ei ddyrnau,
rhwymo y dyfroedd mewn dilledyn, neu
gadarnhau holl derfynau y ddaear. *Beth yw*
ei enw ef—sef enw y *dyn* a all wneyd hyn oll ?
a pheth yw enw ei fab, os gwyddost ?—fel pe
dywedasai, Os yw ef ei hun wedi marw, pwy
yw ei hiliogaeth ef ? Ond os cymhwyswn hyn
oll at *Dduw*, y meddwl yw, Beth yw ei natur,
ei hanfod, a'i briodoliaethau ef a'i Fab ? Nis
gall hyn fod yn cyfeirio at yr enwau JERUSALEM

5 Holl air Duw sydd bur: tarian yw efe i'r neb a ymddiriedant ynddo. 6 Na ddyro ddim at ei eiriau ef, rhag iddo dy geryddu, a'th gael yn gelwyddog.

7 Dau beth yr ydwyf yn eu gofyn genyt, na ommedd hwynt i mi cyn fy marw.

8 Tyn yn mhell oddiwrthyf wagedd a chelwydd; na ddyro i mi na thylodi na chyfoeth; portha fi â'm digonedd o fara:

9 Rhag i mi ymlenwi, a'th wadu di, a dywedyd, Pwy yw yr Arglwydd? a rhag i mi fyned yn dylawd, a lladrata, a chymeryd enw fy Nuw yn ofer.

10 Nac achwyn ar was wrth ei feistr, rhag iddo dy felldithio, a'th gael yn euog.

11 Y mae cenhedlaeth a felldithia ei thad, a'i mam ni fendithia.

12 Y mae cenhedlaeth lân yn ei golwg ei hun, er nas glanhawyd oddiwrth ei haflendid.

13 Y mae cenhedlaeth, O mor uchel yw ei llygaid! a'i hamrantau a ddyrchafwyd.

14 Y mae cenhedlaeth, a'i dannedd yn gleddyfan, a'i childdannedd yn gyllyll, i ddifa y tylodion oddi-ar y ddaear, a'r anghenus o blith dynion.

15 I'r gele y mae dwy ferch, yn

a'r MESSIA, am y gwyddai Israel oll am yr enwau hyny ar Dduw a'i Fab: o ganlyniad rhaid mai at eu natur a'u priodoliaethau hwynt y cyfeirir.

Adn. 5. *Holl air Duw sydd bur*] Heb y cymysgedd lleiaf o dwyll na chyfeiliornad ynddo, Salm xii. 6; ac yn hwn yn unig y gall dyn marwol gael yr holl wybodaeth gyraedd- adwy am Dduw a'i Fab. *Tarian yw efe—yw Duw, yr hwn a roddes ei air; i'r neb a ymddiriedant ynddo—'i bob un a ymddiriedo ynddo,' fel y mae 19 o ysgriflyfrau Kennicott a De Rossi yn ei ddarllen: gwel ar Salm xviii. 2.*

Adn. 6. *Na ddyro ddim at ei eiriau ef*] Gan fod holl air Duw yn bur, na lygra ef trwy chwaneu ato dy eiriau a'th dybian dy hun, fel pe byddent o'r un awdurdod a gair Duw; *rhag iddo dy geryddu—am dy ryfgy; a'th gael yn gelwyddog—yn gwrthdroi neu yn gwrthdwydedd ei eiriau ef: gwel ar Dat. xxii. 18, 19.*

Adn. 7. *Dau beth yr ydwyf yn eu gofyn genyt*] Y rhai a enwir yn yr adnod nesaf: *na ommedd hwynt i mi cyn fy marw—eithr dyro hwynt i mi yn awr, fel y gallwyf dreulio gweddill fy oes yn y cyflwr hwnw.*

Adn. 8. *Tyn yn mhell oddiwrthyf wagedd a chelwydd*] Y peth cyntaf a ofynir ganddo yw bendith ysbrydol, neu waredigaeth oddiwrth yr hwn a lygra yr enaid, megys gau-grefydd, cyfeiliornadau, a phob math ar bechod. *Na ddyro i mi na thylodi na chyfoeth—eithr dyro i mi yr hyn sydd rhwng y ddau; hyny yw, portha fi â'm digonedd o fara—â digon bob dydd at anghenion y dydd. Dyma yr ail beth a ofynir ganddo, sef bendith dymhorol, yr hon a lesâ y corff. Efe a weddia yn gyntaf am ddigon o ras, ac yna am ddigon o fwyd.*

Adn. 9. *Rhag i mi ymlenwi*] O falchder a hunanoldeb, neu o wtrës, gloddest, a rhysedd, os rhoddi GYFOETH i mi; *a'th wadu di—trwy dafu ymaith bob ymddybiad arnat, neu roddi heibio bob rhith o grefydd; a dywedyd—fel Pharao gynt, Pwy yw yr Arglwydd?—gwel ar Exod. v. 2. A rhag i mi—ar y llaw arall, os rhoddi DYLODI i mi; fyned yn*

dylawd, a lladrata—ac felly gael fy llusgo o flaen y barnwr; a chymeryd enw fy Nuw yn ofer—trwy dyngu fy mod yn ddiuog, i'r dyben i osgoi cosp a gwarth fy mbechod.

Adn. 10. *Nac achwyn ar was wrth ei feistr*] Heb i ti gael rhyw achos digonol; canys gall hyny weithiau fod yn angenheid- iol, megys pan fyddo y gwas yn yspeilio ei feistr: *rhag iddo dy felldithio—neu ddymano i Dduw dy felldithio; a'th gael yn euog—o achwyn arno ar gam, ac felly haeddu y felldith.*

Adn. 11. *Y mae cenhedlaeth a felldithia ei thad*] Hyny yw, y mae rhai personau anfad i'w cael yn mhob cenhedlaeth, y rhai a ddiys- tyrant, a ddirmygant, ac a felldithiant hyd yn nod eu tad eu hunain; *a'i mam ni fendithia—hyny yw, hwy a felldithiant eu mam hefyd, yr hon a'u magodd yn dyner ac anwyl. Yn hon a'r tair adnod ganlynol y mae Agur yn nodi pedwar o ddyrgau ysgeler a fyfient yn ei anser ef.*

Adn. 12. *Y mae cenhedlaeth lân yn ei golwg ei hun*] Neu hunan-gyfiawn, y rhai a dybiant ac a ymfrostiant eu bod yn wir gref- yddol; *er nas glanhawyd oddiwrth ei haflendid—trwy olchiar yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân,' Tit. iii. 5.*

Adn. 13. *Y mae cenhedlaeth, O mor uchel yw ei llygaid!*] Neu O mor falch ydant, a ddiystyrydd o bawb ereill! *a'i hamrantau a ddyrchafwyd—mor uchel, fel nas gallant edrych ar ddyinion cyffredin.*

Adn. 14. *Y mae cenhedlaeth, a'i dannedd yn gleddyfan, a'i childdannedd yn gyllyll*] Efe a gyfeiria yma at ddyinion creulon, maleis- us, a gorthyrmas; *i ddifa y tylodion oddi- ar y ddaear—trwy eu hyspeilio o'r ychydig ag oedd ganddynt, a'u gadael i drengu o newyn; a'r anghenus o blith dynion—trwy syrthio arnynt fel bwystfïlod rheibus yn rllwygo eu hysglyfaeth.*

Adn. 15. *I'r gele y mae dwy ferch*] Sef yr *ên wechaf a'r ên isaf, yn ol rhai; neu ynte ei dau ben, un yn sugno y gwaed i mew, a'r llall yn ei fwrw ef allan; yn llefain—yn eu hiaith, Moes, moes—heb byth gael digon. Tybia Calmet na chybydd-dod a feddyllir*

llefain, Moes. Tri *pheth* ni ddiwellir; *ie*, pedwar *peth* ni ddywedant byth, *Digon*:

16 Y bedd; y groth anmhlantadwy; y ddaear ni ddiwellir a dyfroedd; a'r tân ni ddiwed, *Digon*.

17 *Llygad* yr hwn a watwaro ei dad, ac a ddiystyrow fyddhau ei fam, a dyn cigfrain y dyffryn, a'r cywion eryrod a'i bwyty.

18 Tri *pheth* sydd guddiedig i mi; *ie*, pedwar *peth* nid adwaen:

19 Ffordd eryr yn yr awyr, ffordd

neidr ar graig, ffordd llong yn nghanol y môr, a ffordd gŵr gyda morwyn,

20 Felly *y mae* ffordd merch odinebus; hi a fwyty, ac a sych ei safn, ac a ddywed, Ni wnaethym i anwiredd.

21 O herwydd tri *pheth* y cynhyrfir y ddaear, ac o herwydd pedwar, *y rhai* niddichon hi eu dyoddef:

22 O herwydd gwas pandeyrnaso; ac un ffol pan lanwer ef o fwyd;

23 O herwydd *gwraig* atgas pan

wrth y *gele* hon, ac mai ei dwy ferch yw *trachwant* ac *uchelquis*. Tybia *Clarke* mai enw *DYNES* dra adnabyddus y pryd hyn yw y gair *Alukah*, yr hwn a gyfieithir yma *gele*. i'r hon yr oedd dwy ferch nodedig am eu cybydd-dod a'u hanlladwydd. Tybia y *rabbinaid* fod *alukah* yn arwyddo *TYGOD*, neu yr *angenhreidruydd* o *farw*, i ba un y mae dwy ferch, *Eden* a *Gehenna*, paradwys ac uffern. Tybia *Bochart* hefyd fod *alukah* yn meddwl *TYGOD*, a bod ei dwy ferch yn arwyddo y *bedd* ac *uffern*, i'r cyntaf o ba rai y disgyn y corff ar ol marw, a'r *enaid* i'r ail. Tri *pheth* ni ddiwellir—mwy nadwy ferch y 'gele'; *ie*, pedwar *peth*—y rhai a enwir yn yr adnod nesaf; ni ddywedant byth, *Digon*—ni ddiagonir hwynt, pa faint bynag a galfent. Y mae y dull uchod o enwi yn gyntaf rif penodol, ac yna chwaneu un ato, i'w ganfol yn dra mynych yn yr ysgrhythrau: gwel adn. 18, a pen. vi 16, a Job v. 19. Tybia yr *Esgob Patrick* i ddysgyblion Agur ofyn iddo ef pa bethau oeddynt fwyaf anhawdd eu *diwallu*; ac iddo yntau eu hateb trwy ddwyn yn mlaen yr anghreiffiau hyn.

Adn. 16. *Y bedd*] Ni ddiwellir â meirwon: *y groth anmhlantadwy*—ni foddlonir heb epil, Gen. xxx. 1; *y ddaear ni ddiwellir a dyfroedd*—pan yn sychu ac yn agenu yn y gwledydd poethon; *a'r tân ni ddywed*, *Digon*—eithr yn hytrach, pa faint bynag o danwydd a rodder arno, efe a eilw yn ei iaith o hyd am fyw.

Adn. 17. *Llygad yr hwn a watwaro ei dad*] Pan y byddo yn ceisio ei grnghori a'i addysgu ef; *ac a ddiystyrow fyddhau ei fam*—pan yn ceisio ganddo wneuthur yr hyn a fyddo oraf er ei les; *a dyn cigfrain y dyffryn*—daw hwnw i ryw ddiwedd drwg, fel pe tyndid ei lygaid ef gan cigfrain; neu gwneir llyny yn llythyrenol âg ef, ar ol i'w gelen gael ei gadael ar y maes; *a'r cywion eryrod a'i bwyty*—ar ol i'r fam grafu ei lygaid ef allan o'i ben, a'i gario yn ymborth i'w chywion yn y nyth.

Adn. 18. *Tri pheth sydd guddiedig i mi*] Y rhai nis gallaf eu holrhain; *ie*, pedwar *peth* nid adwaen—y rhai a enwir yn yr adnod nesaf.

Adn. 19. *Ffordd eryr yn yr awyr*] Nid wy'r eryr yn gadael dim o'i ôl lle yr eheda, ac am hyny nis gellir olrhain ei ffordd ef trwy

yr awyr; *ffordd neidr ar y graig*—er y gelliid olrhain ffordd neidr trwy y llaid meddal, eto nis gellir gwneyd hyn dros y graig galed; *ffordd llong yn nghanol y môr*—yr hon, yn mben rchydig amser, ni bydd dim o'i hól ar y dyfroedd; *a ffordd gŵr gyda morwyn*—i'w hudo yn ddirgel oddiar lwybrau rhinwedd. Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at furiad dirgelaid y plentyn yn y goethro. Ond y mae un ysgritlyfr Hebreig, a rhai o'r hen gyfieithiadau, yn ei ddarllen, 'ffordd' gŵr yn ei *ieuentid*; a gall hyn fod yn cyfeirio nail ai at ei ddirgel feddyliau a'i ystrywiau ef, neu ynte at ei dyfiant araf ac anghanfyddadwy.

Adn. 20. *Felly*] Yr un mor ddirgelaid ac anolrheinaidwy a'r pedwar *peth* uchod; *y mae ffordd merch odinebus*—neu '*wraig* odinebus,' yr hon a arfero bob ystryw i halogi gwely ei gŵr yn ddiairybod iddo, i'r dyben i foddhau ei nwydau aflan ei lun, ac ar yr un pryd ochelyd gwaith a chosp ei godineb. *Hi a fwyty*, *ac a sych ei safn*—rhag i ddim o ôl y bwyd fod ar ei genau; llyny yw, hi a gyflawna ei gweithredoedd anghyfreithlon, ac wedi hyn y muddengys mor wylaidd a diwair a sant, os nid mor grefyddol hefyd. *Ac a ddywed*—os drwgdybir hi o odineb, *Ni wnaethym i anwiredd*—nid wyf fi yn euog o'r hyn y cyhuddir fi o hono.

Adn. 21. *O herwydd tri pheth y cynhyrfir y ddaear*] Sef trigolion y ddaear; *ac o herwydd pedwar*—y rhai a enwir yn y ddwy adnod ganlynol; *y rhai ni ddiagonir hi eu dyoddef*—y rhai sydd annyoddefol yn y gymdeithas ddynol.

Adn. 22. *O herwydd gwas pan deyrnaso*] Sef pan ddyrchafar caethwas o'i sefyllfa isel i urddas ac awdurdod; *ac un ffol*—neu annwriol, *pan lanwer ef o fwyd*—pan fyddo wedi ei orlenwi â bwydydd a diodydd, neu pan fyddo wedi cyraedd gormodedd o gyfoeth.

Adn. 23. *O herwydd gwraig atgas pan brioder hi*] Pan ddyrchafar hi yn feistres mewn teulu, yr hon a fflna ac a gynhyrfa bawb o'i hamgylch trwy ei thymberau affywodraethus, y rhai a guddid ganddi cyn iddi briodi; *a llaw-forwyn a elo yn aeres i'w meistres*—yr hon a gaffo eiddo ei meistres ar ol ei marw hi, neu a gaffo lle ei meistres yn serchiadau ei meistres tra y byddo ei meistres yn fyw. Yn ol y LXX, 'A llaw-forwyn a fedro droi allan ei meistres.'

brïoder hi; a llaw-forwyn a elo yn aeres i'w meistres.

24 Y mae pedwar *peth* bychain ar y ddaear, ac eto *y maent* yn ddoeth iawn:

25 Nid *yw* y morgrug bobl nerthol, eto *y maent* yn darparu eu lluniaeth yr haf;

26 Y cwingod nid *ydynt* bobl rymus, eto hwy a wnant eu tai yn y graig;

27 Y locustiaid nid oes brenin iddynt, eto hwy a ânt allan yn dorfeydd;

28 Y pryf copyn a ymafaela â'i ddwyllaw, ac y mae yn llys y brenin.

Adn. 24. *Y mae pedwar peth bychain ar y ddaear*] Y rhai a enwir yn y pedair adnod ganlynol; ac eto *y maent yn ddoeth iawn*—o'u cydulharu â chreaduriaid direswm ereill. Amcan Agur yma yw, (1) Dysgu i ni fod yn ddoeth fel y creaduriaid hyn, a'u hefelychu hwyt yn eu rhagofal a'u diwydrwydd. (2) Ein cadw rhag ymafelfio yn ein doethineb ein hunain, am fod y creaduriaid direswm hyn yn gyfartal i ni yn eu trefniadau, os nid yn rhagori arnom. (3) Ein cyfarwyddo ni at bwy y dylem fyned i geisio doethineb pan fyddom yn teimlo awydd am ei gael, sef at y Duw hwnw a roddasai y fath ddoethineb hyd yn nod i greaduriaid direswm.

Adn. 25. *Nid yw y morgrug bobl nerthol*] Gelwir y morgrug, a chreaduriaid israddol ereill, yn *bobl*, am fod ganddynt dai, a threfi, a ffordd, a deddfau i'w llywodraethu, fel pobl reolaidd; a rhoddir yr enw hwn iddynt yn yr ysgrhythrau, yn gystal a chan *Homer, Virgil*, ac awduron ereill: gwel Joel i. 6, a ii. 2. *Eto y maent yn darparu eu lluniaeth yr haf*—yn yr anser uwyafl priodol i hyny: gwel ar pen. vi. 6—8.

Adn. 26. *Y cwingod nid ydynt bobl rymus*] O ran maintioli na nerth; eto hwy a wnant eu tai yn y graig—lle y maent yn ddiogel rhag eu gelynyon cryfach. Meddylir fod y gair *shaphan*, yr hwn a gyfieithir yma 'cwingod,' yn arwyddo math ar lygodyn fawr, yr hon a breswyliai mewn lleoedd creigiog: gwel ar Lef. xi. 5.

Adn. 27. *Y locustiaid nid oes brenin iddynt*] A fedr eu hamddiffyn rhag eu gelynyon, er fod ganddynt fath ar flaeon i'w harwain; eto hwy a ânt allan yn dorfeydd—lluosog a threfnus iawn: gwel ar Exod. x. 4, 5.

Adn. 28. *Y pryf copyn a ymafaela â'i ddwyllaw*] Yn yr edaf a nydda efe o'i ymgaroedd ei hun, i'w gweithio yn rhwyd i ddal ysglyfaeth iddo; ac y mae yn llys y brenin—yn gystal ag yn uwthyn y tylawd. Canmolir y morgrug yma am ddiwydrwydd a rhagofal; y cwingod, am ddiogelwch eu preswylfod; y locustiaid, am gydgoriad a chydweithrediad; a'r pryf copyn, am fedrus-

29 Y mae tri *pheth* a gerddant yn hardd, ie, pedwar *peth* a rodiant yn weddus:

30 Llew cryf yn mysg anifeiliaid, ni thry yn ei ol er neb.

31 Milgi cryf yn ei feingefn, a bwch, a brenin, yr hwn ni chyfyd neb yn ei erbyn.

32 Os buost ffol yn ymddyrchafu, ac os meddyliaist ddrwg, dyro dy law ar dy enau.

33 Yn ddiau corddi llaeth a ddwg allan ymenyn, a gwasgu ffroenau a dyn allan waed: felly cymhell lliid a ddwg allan gynhen.

rwydd yn ei orchwylion; a bwriedir hyn oll fel addysg i ni: gwel ar adn. 24.

Adn. 29. *Y mae tri pheth a gerddant yn hardd*] Yn wrol, mawreddog, a phrydferth; ie, pedwar *peth* a rodiant yn weddus—y rhai a enwir yn y ddiwy adnod ganlynol.

Adn. 30. *Llew cryf yn mhllith anifeiliaid*] Yn y goedwig, lle y mae efe yn teyrnasu fel brenin; ni thry yn ol er neb—er ymosod arno gan ffystflod ereill, neu gan ddynion: gwel ar Esay xxxi. 4.

Adn. 31. *Milgi cryf yn ei feingefn*] Y rhai, yn y dwyrain, sydd yn dra hardd a chyffwm. Ond tybia rhai mai *march rhyfel* a feddylir yma, wedi ei wisgo a'i arfogi i'r frwydr. *A bwch*—sef bwch geifr, neu fwech danas, yr hwn y mae ei rodiant yn falch a mawreddog. *A brenin, yr hwn ni chyfyd neb yn ei erbyn*—pan fyddo yn nghanol ei filwr a'i lyswyr, ac yn ei wisgoedd a'i rwyg brenhinol. Fe allai fod yma gyfeiriad at ormes-deyrn dwyreiniol, yr hwn yr oedd ei ewyllys yn ddeddf, a'i gynddaredd yn dân ysol.

Adn. 32. *Os buost ffol yn ymddyrchafu*] Gorwch ereill yn dy feddwl dy hun; ac os meddyliaist ddrwg—yn erbyn dy gymydog, neu rywun arall; dyro dy law ar dy enau—i'th attal rhag dyweddyd yr hyn a feddyliaist, neu rhag traethu geiriau cynhenllyd.

Adn. 33. *Yn ddiau corddi llaeth a ddwg allan ymenyn*] Fel canlyniad naturiol i'g gyfryw weithred; a gwasgu ffroenau a dyn allan waed—yn anocheladwy, pa mor bell bynag oddiwrth waedu oeddynt o'r blaen: felly cymhell lliid—ei wasgu neu ei gorddi ef allan trwy eiriau cas, pigog, a chynhyrfus; a ddwg allan gynhen—neu ymrysonau parhaus rhwng cymydogion, a hyny mcr sicr ag y ceir ymenyn trwy gorddi llaeth, neu waed o'r ffroenau trwy eu gwasgu.

PEN. XXXI. Adn. 1. *Geiriau Lemuel frenin*] Neu, fel y mae rhai yn ei ddarllen, 'geiriau i Lemuel frenin.' Ystyr yr enw *Lemuel* yw, 'un oddiwrth Dduw,' neu 'un yn perthlyn i Dduw.' Ond pwy oedd hwn? (1) Y dyb wyafl cyffredin yn mhllith ysgrif-

PENNOD XXXI.

GEIRIAU Lemuel frenin; y broffwydoliaeth addysgodd ei fam iddo.

2 Pa beth fy mab? pa beth mab fy nghroth? i.e. pa beth mab fy addunedau?

3 Na ddyro i wragedd dy nerth; na'th ffyrdd i'r hyn a ddyfetha frenhinoedd.

4 Nid gweddaidd i frenhinoedd, O Lemuel, nid gweddaidd i frenhinoedd yfed gwin; nac i benaduriaid ddiol gadarn:

enwyr Iuddewig a Christianogol yw, mai Solomon ydoedd; ac mai Bathseba ei fam a roddes yr enw hwn iddo, i ddwyn ar gof iddo ei rwywedigaethau mawrion i Dduw, a'i ddyledswydd o ymgylfwyno yn llwyr i'w wasanaeth ef: gwel Benson, Coke, Delaney, Gray, Henry, Schultens, &c. (2) Tybia ereill fod y bennod hon wedi ei hysgrifenu yn llawer diweddarach nag amser Solomon, sef ar ol y dychweliad o Babilon, trwy fod ynddi eiriau Caldeaid: gwel Clarke, Holden, Patrick, &c. (3) Dywed rhai mai Agur a ysgrifennodd y bennod hon; ereill, mai Hezeciah; ac ereill, mai rhyw Iuddewes dduwiol, yr hon oedd yn wraig un tywysog Caldeaid, ac yn fam i un arall. Y broffwydoliaeth a ddysgodd ei fam iddo—neu yr addysg a roddodd ei fam iddo trwy ddwyfod ysbrydoliaeth: gwel ar pen. xxx. 1. Ond y mae Houbigant ac ereill yn meddwl fod masea, yr hwn a gyfieithir yma yn 'broffwydoliaeth,' yn arwyddo lle; a chyfieithant yr adnodd, 'Geiriau Lemuel, brenin Massa, a'r rhai y dysgodd ei fam ef.'

Adn. 2. Pa beth, fy mab? Hyn yw, pa beth yr wyt ti ar fedr ei wneuthur? Y mae y gair Caldeaid *bar*, yn lle y gair Hebreig *ben*, yn cael ei ddefnyddio am *fab* ddwywaith yn yr adnod hon. Pa beth, mab fy nghroth?—tybia Clarke fod yr ymadrodd hwn yn arwyddo ei chyntafanedig hi, yr hyn nid oedd Solomon i Bathseba, 2 Sam. xii. 15, 24. Ie, pa beth, mab fy addunedau?—gall hyn fod yn arwyddo mab cyfieithlon, wedi ei genbedlu yn y cyfiammod priodasol; neu ynte mab wedi ei ofyn gan Dduw mewn gweddi, a'i addunedu i'w wasanaeth ef. Yr oedd Solomon yn cyfateb yn dda i'r cymeriad hwn. Coverdale a'i chyfieitha, 'Fy mab, ti fab fy nghorff, O fy anwyl gariadus fab!' Dywed Solomon ei fod ef 'yn dyner ac yn anwyl yn ngolwg ei fam,' pen. iv. 3; ac os geiriau Bathseba wrth Solomon yw y rhai hyn, y maent yn profi yn ddiogol ei fod ef felly.

Adn. 3. Na ddyro i wragedd dy nerth] Dywed meddygon fod y rhai a ymwerthant i ddylyn anniweirdeb neu buteindra, yn difa nerth eu cyffwrdd a'u meddyliau; na'th ffyrdd i'r hyn a ddyfetha frenhinoedd—hyn yw, na ddylyn y ffyrdd neu yr arferion anniwair hynny ag sydd yn dyfetha frenhinoedd yn gystal a'u deiliaid. Sylwa y dysgedigion fod terfyniad Caldeaid yma i'r gair *melachin*, 'brenbinoedd.'

5 Rhag iddynt yfed, ac ebargofi y ddeddf; a newidio barn yr un o'r rhai gorthrymedig.

6 Rhoddwch ddiod gadarn i'r neb sydd ar ddarfod am dano; a gwin i'r rhai trwm eu calon.

7 Yfed efe, fel yr anghofio ei dylodi; ac nas meddylio am ei flinfyd mwy.

8 Agor dy enau dros y mud, yn achos holl blant dinystr.

9 Agor dy enau, barn yn gyfiawn; a

Adn. 4. Nid gweddaidd i frenhinoedd, O Lemuel] Hi a adrodda hyn ddwywaith, i osod pwys ar ei geiriau; nid gweddaidd i frenhinoedd yfed gwin—i ormodeddf, fel yr awgrymir yn yr adnod nesaf: nac i benaduriaid—mewn gwlad neu eglwys, ddiod gadarn—o un math, mwy na gwin: hyn yw, nid yw gormodedd o'r naill na'r llall, nac yn wir yr arferiad o'u hyfed, oddieithr fod gwir achos am danynt, yn weddaidd nac yn anrhydeddus i neb.

Adn. 5. Rhag iddynt yfed] Hyd feddwod; ac ebargofi y ddeddf—ei hanghofio, ei chamddeall, neu ei gwrthdroi; a newidio barn yr un o'r rhai gorthrymedig—trwy wneyd cam, yn eu meddwod, a'r rhai y dylent eu hamddiffyn.

Adn. 6. Rhoddwch ddiod gadarn] Yn lle ei hyfed eich hunain; i'r neb sydd ar ddarfod am dano—dan ddeddfy marwolaeth. Cyfeirir yma at y ddiod syfrdanol a roddid i ddynion condemniedig, i ysgafnhau eu dyoddefnadau trwy eu gwneyd yn ddideimlad: gwel ar Mat. xxvii. 34. A gwin i'r rhai trwm eu calon—gan ofid, poen, neu flinfyd. Gwelsom cisioes fod gwin, wrth ei yfed yn gymhedrol, yn tueddu i lawenyachu, adfywio, a chryfhan dyn: gwel ar Barn. ix. 13, Salm lxxviii. 65, a civ. 15.

Adn. 7. Yfed efe] Y neb sydd ar ddarfod am dano, neu y trwm ei calon; fel yr anghofio ei dylodi—neu ei druenus gyflwr; ac nas meddylio am ei flinfyd mwy—nid oes yma ddim cefnogaeth i ddynt fodd ei ofidiau trwy feddwod parhaus, fel y tybiodd rhai; eithr caniatâd i roddi diod syfrdanol i rai yn dyoddef artheithian angau, neu loesau trymion dan gyrrlel y meddyg.

Adn. 8. Agor dy enau dros y mud] I amddiffyn achos y rhai hynny nas gallant eu hamddiffyn eu hunain, neu sydd yn rhy dylodion i dalu i ddadleuwr am gymeryd eu plaid; yn achos holl blant dinystr—sef y rhai sydd yn debyg o gael eu dinystrio yn eu meddianau neu eu personau, a hynny ar gam, os na fydd i rywun eu hamddiffyn.

Adn. 9. Agor dy enau] I amddiffyn achos pawb o'r cyfryw; barn yn gyfiawn—yn ol teilyngdod yr achos, heb gondeimio y cyfiawn na rhyddhau yr euog; a ddieu dros y tylawd a'r anghenus—y rhai ni feddant gyngorwyr, ac nas gallant ddadlu drostynt eu hunain.

Adn. 10. Pwy a fedr gael gwraig rinweddol? Hebr., 'gwraig rymus;' hyn yw, un

dadleu dros y tylawd a'r anghenus.

10 ¶ Pwy a fedr gael gwraig rinweddol? gwerthfawrocach yw hi na'r carbwnel.

11 Calon ei gŵr a ymddiried ynddi, fel na bydd arno eisiau anrhaith.

12 Hi a wna iddo les, ac nid drwg, holl ddyddiau ei bywyd.

13 Hi a gais wlan a llin, ac a'i gweithia â'i dwylaw yn ewyllysgar.

14 Tebyg yw hi i long marsiandwr; hi a ddwg ei hymborth o bell.

15 Hi a gyfyd hefyd liw nos, ac

a rydd fwyd i'w thylwyth, a'i dogn i'w llancesau.

16 Hi a feddwl am faes, ac a'i pryn ef; a gwaith ei dwylaw hi a blana winllan.

17 Hi a wregysa ei llwynau â nerth, ac a gryfha ei breichiau.

18 Hi a wêl fod ei marsiandiaeth yn fuddiol; ni ddiffydd ei chanwyll ar hyd y nos.

19 Hi a rydd ei llaw ar y werthyd, a'i llaw a ddeil y cogail.

20 Hi a egyr ei llaw i'r tylawd, ac a'estyn ei dwylaw i'r anghenus.

rymus mewn meddwl, yn gystal ag mewn corff; mewn gras a duwioldeb, yn gystal ag mewn rhinweddau teuluaid. Y mae y gofyniad hwn yn dangos anauled y cyfryw wragedd, a dedwyddwch y gŵr a gaffo un o honynt. *Gwerthfawrocach yw hi na'r carbwnel*—yr hwn oedd faen prydferth a gwerthfawr iawn, ac yn un o'r deuddeg yn nwyfrozeg yr arch-offeriad. Y mae yr holl adnodaau oddiyma i'r diwedd yn dechreu gyda llythyrenau y wddor Hebreig yn olynol, yr un modd a rhai o'r Salmâu; sef adn. 10 gydag *aleph*, adn. 11 gyda *beth*, adn. 12 gyda *gimel*, ac felly yn mlawn.

Adn. 11. *Calon ei gŵr a ymddiried ynddi* Fel gwraig ddiwyd, ofalus, a chynil; *fel na bydd arno eisiau anrhaith*—fel na bydd raid iddo yspello na gorthrymu ereill i'r dyben i gael cynaliaeth i'w deulu, neu i gynil i fyny ei rhwysg a'i gwastraff hi.

Adn. 12. *Hi a wna iddo les* Yn ei feddiannau a'i gymeriaid, ei gorff a'i enaid; *ac nid drwg*—o un math, nac o un gradd: *holl ddyddiau ei bywyd*—nid am ychydig amser yn unig ar ol ei phriodi, na chwaith ar ryw oriau penodol o natur dda, ond dros holl ddyddiau ei bywyd. Ei hmgais gwastadol hi yw llesâu ei gŵr yn mhob rhyw fodd, a bod bob amser yn amgeledd cymhwys iddo.

Adn. 13. *Hi a gais wlan* Wedi ei gneifio ond odid oddiar ei defaid ei hun; *a llin*—wedi ei dyfu fe allai ar ei maes ei hun, adn. 16; *ac a'i gweithia â'i dwylaw yn ewyllysgar*—yn ddillad iddi ei hun, ei gŵr, a'i theulu. Er ei bod yn wraig o radd uchel, ac felly yn deilwng o fod yn gydmdharies i Lemuel frenin, nid oedd yn rhy uchel i weithio fel hyn â'i dwylaw ei hun, a hyny nid o orfod, ond 'yn ewyllysgar.' Yr oedd hyn yn arferiad gynt gan wragedd o'r radd uwchaf yn mhllith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yn gystal a'r Iuddewon.

Adn. 14. *Tebyg yw hi i long marsiandwr* Yn trosglwyddo ei nwyddau ei hun i wledydd ereill: *hi a ddwg ei hymborth o bell*—yn gyfnewid am y nwyddau hyny, sef pethau nas gallai eu cynrechu gartref.

Adn. 15. *Hi a gyfyd hefyd liw nos* Yn fore, cyn toriad y dydd; *ac a rydd fwyd i'w thylwyth*—sef eu boreuwyd, fel y gallont fyned yn brydlon at eu gorchwylion; *a'u dogn*

i'w llancesau—sef eu dogn o fwyd am y dydd hwnw, neu eu tasg o waith, neu bob un o'r ddau.

Adn. 16. *Hi a feddwl am faes* Wrth weled ei theulu yn cynyddu, hi a feddwl am faes arall cyfagos, yn chwanelog at y rhai sydd ganddi eisioes; *ac a'i pryn ef*—fel y gallont oll gael digon o waith a chynaliaeth: *a gwaith ei dwylaw*—sef â'r hyn a ennillodd hi trwy waith ei dwylaw, *hi a blana winllan*—nid yw yn yn-gyfyngu at *angenrheidiau* bywyd yn unig, ond hi a fyn beth o'i *gysuron* hefyd; canys hi a blana *winllan*, fel y galla *gael gwin* i'w yfed, ac yn feddyglyn, ac yn ddiod-offrwn.

Adn. 17. *Hi a wregysa ei llwynau â nerth* I'w cryfhau, fel yr arterid gwneyd gynt erbyn llafur caled; *ac a gryfha ei breichiau*—trwy eu defnyddio mewn caledwaith. Y meddwl yw, nad oedd hi un amser yn arbed ei chofff trwy foethusrwydd neu ddiogi, ond ei bod yn barod bob amser i ymgymeryd âg unrhyw orchwyl.

Adn. 18. *Hi a wel fod ei marsiandiaeth yn fuddiol* Yn dwyn elw mawr iddi; ac am hyny, *ni ddiffydd ei chanwyll ar hyd y nos*—canys tra y bydd rhai o'i thylwyth yn cysgu, bydd y lleill yn gweithio y nos, ac yn cysgu y dydd. Nid oedd hyn yn beth anarferol yn yr amseroedd gynt, ac y mae felly eto weithiau yn mhob gwlad.

Adn. 19. *Hi a rydd ei llaw ar y werthyd* I nyddu y llin yn addefed; *a'i llaw*—arall, *a ddeil y cogail*—ar ba un yr oedd y llin wedi ei osod. Nid yn unig hi a esyd ei llancesau ar waith, ond hi a weithia ei hun hefyd. Ymddengys mai y werthyd a'r cogail yw yr hynaf o'r holl offer nyddu, y rhai a ddefnyddid yn gyffredinol cyn i'r droell a'r peiriannau cywraiu diweddarach gael eu dyfeisio. Yn nghyfreithiau y wlad hon gelwir pob merch a fyddo ar fin priodi yn nyddwraig, (*spinster*,) am y tybid fod pob un a elai i'r ystad briodasol wedi nyddu yn gyntaf ddefnydd cynfassau iddi ei hun.

Adn. 20. *Hi a egyr ei llaw i'r tylawd* Nid yn unig hi a weithia â'i llaw i gael angenrheidiau iddi ei hun a'i theulu, ond hi a egyr ei llaw hefyd i roddi elusen i'r tylawd; *ac a'estyn ei dwylaw i'r anghenus*—Hebr. 'i'r tylawd cystuddiedig,' gan roddi elusen ddeu-

21 Nid ofna hi am ei thylwyth rhag yr eira; canys ei holl dŷ hi a ddilledir âg ysgarlad.

22 Hi a weithia iddi ei hun garp-edau; ei gwisg yw sidan a phorphor.

23 Hynod yw ei gŵr hi yn y pyrth, pan eisteddo gyda henuriaid y wlad.

24 Hi a wna lian main, ac a'i gwerth, ac a rydd wregysau at y marsiandwr.

25 Nerth ac anrhydedd yw ei gwisg; ac yn yr amser a ddaw hi a chwardd.

26 Hi a egyr ei genau yn ddoeth;

a chyfraith trugaredd sydd ar ei thafod hi.

27 Hi a graffa ar ffyrdd tylwyth ei thŷ; ac ni fwyty hi fara seguryd.

28 Ei phlant a godant, ac a'i galw-ant yn ddedwydd; ei gŵr hefyd, ac a'i canmol hi:

29 Llauer merch a weithiodd yn rymus; ond ti a ragoraistarnynt oll.

30 Siomedig yw ffافر, ac ofer yw tegwch; ond benyw yn ofni yr Arg-lywdd, hi a gaiff glod.

31 Rhoddwch iddi o ffrwyth ei dwylaw; a chanmoled ei gweith-redoedd hi yn y pyrth.

bylg i'r neb sydd dylawd a chystuddiedig, sef elusen o'i dwy law, neu ymborth a meddyg-inaeth.

Adn. 21. *Nid ofna hi am ei thylwyth rhag yr eira*] Nid ofna nad oes ganddi ddigon o glydwech a chynhesrwydd iddynt erbyn y ganaf; *canys ei holl dŷ hi a ddilledir âg ysgar-tad*—y mae y gair *shanim*, oddiwrth *shannah*, 'dyblu,' yn arwyddo nid yn unig *ysgarlad*, yr hwn a elwir felly am ei fod wedi ei 'liwo ddwywaith;' ond hefyd *gwisgoedd dyblyg*, megys mantell neu gôb i'w doddi dros y dillad ereill. Neu gall mai *cochl goch* i'w thafu drostynt yn y ganaf a feddylir.

Adn. 22. *Hi a weithia iddi ei hun garp-edau*] I'w taenu dros y llawr, neu o amgylch ei glythau, ei byrddau, a'i dodrefn ereill: *ei gwisg yw sidan a phorphor*—y rhai oeddynt dra gweddus i wraig o'i sefyllfa hi, er nad ydynt felly i lawer sydd yn eu gwisgo yn ein dyddiau ni.

Adn. 23. *Hynod yw ei gŵr hi yn y pyrth*] Perchir ac anrhydeddir ef gan bawb, nid yn unig am fod ganddo y fath wraig rinweddol, ond hefyd am ei lanweithdra a'i wisgoedd trwsiadus odditan ei llaw hi; *pan eisteddo gyda henuriaid y wlad*—yn y cynghor, neu mewn llys barn.

Adn. 24. *Hi a wna lian main*] Yn chwangel at yr un brasach a wneid ganddi, adn. 13; *ac a'i gwerth*—i'r dyben i gynyddu ei chyfoeth; *ac a rydd wregysau at y marsiandwr*—i'w gwerthu i ereill. Yr oedd pryniad helaeth ar y rhai hyn y pyd hynt, trwy eu bod yn cael eu gwisgo gan wŷr a gwragedd; ac yr oeddynt yn cael eu gwneuthur o'r defnyddiau goraf a barddaf, a'u brwydweithio yn aml âg aur ac arian.

Adn. 25. *Nerth ac anrhydedd yw ei gwisg*] Y mae yr holl ddefnyddiau a weithir ac a wisgir ganddi hi yn gryf, parhaas, a phrydferth iawn; *ac yn yr amser a ddaw hi a chwardd*—ni chaiff byth achos i wrido na gofidio o herwydd unrhyw dwyll yn y nwyddau a wnaed, a wisgwyd, neu a werthwyd ganddi.

Adn. 26. *Hi a egyr ei genau yn ddoeth*] I addysgu, cynghori, neu geryddu ei theulu ac ereill, yn ol fel y byddo achos; *a chyfraith trugaredd sydd ar ei thafod hi*—hi a lefara

faddeuant yn y fan i'r troseddwr edifeiriol yn eu plith. Y meddwl yw, ei bod hi o ysbryd addfwyn, llonydd, a hawddgar yn ei theulu a'i chymydogoeth, heb dra-argiwyddiaethu ar ei gŵr a'i phlant, na gormesu ar ei gwasanaethyddion, nac ymgynbenu â'i chymydogion.

Adn. 27. *Hi a graffa ar ffyrdd tylwyth ei thŷ*] I welod fod ei phlant a'i gwasanaethyddion yn rhodio yn addes, rhinweddol, a chrefyddol yn mhob peth; *ac ni fwyty hi fara seguryd*—heb ei ennill yn gyfiawn â'i dwylaw ei hun.

Adn. 28. *Ei phlant a godant*] Mewn oedran, maintioli, a synwyr; neu, a godant ar eu traed i'w chyfarach a'i chanmol hi; *ac a'i galw-ant yn ddedwydd*—nid yn unig o herwydd eu parch iddi a'u cariad ati fel eu mam, ond hefyd o herwydd ei mawr ofal a'i llwyddiant hi yn eu dygiad hwy i fyuu yn llywbrau diwydrwydd, rhinwedd, a chrefydd: *ei gŵr hefyd*—a gyfyd i ddwyn tystiolaeth i'w rhag-oroldeb a'i rhinwedd; *ac a'i canmol hi*—yn y geiriau a ganlyn.

Adn. 29. *Llauer merch a weithiodd yn rymus*] Yn y cymeriad o wraig, meistrs, a mam: *ond ti a ragoraist arnynt oll*—mewn serchogrwydd, diwydrwydd, rhinwedd, a chrefydd.

Adn. 30. *Siomedig yw ffافر*] Hebr., *chen*, 'ymddygiad boneddigaidd allanol, wedi ei ddyysgu mewn ysgolion uchel.' Gall hnw ymddangos yn brydferth ar unrhyw un am dro, yn enwedig tra y byddo y ddysgyblaeth a'i cynyrcha yn parhau, fel paent tŷ ar bren pŵdr; ond os na fydd yn effaith rheoleiddiad moesol oddifeewn, efe a dry allan yn siomedig-aeth a thwell yn y diwedd. *Ac ofer yw tegwch*—Hebr., *haiyophi*, 'llun prydferth, gwynnebryd hardd, agwedd a cherddediad hygar.' Nid yw y pethau hyn oll ddim ond *oferedd* ynddynt eu hunain; canys *cystudd* a'u banmhara, *poen* a'u gwywa, ac *angau* a'u dinystria hwynt. *Ond benyw yn ofni yr Arg-lywdd*—yr hon fydd yn meddu rhinwedd a gwir grefydd wedi greddfu yn ei chalon, ac yn ymddangos yn ei thymherau, ei geiriau, a'i gweithredoedd; *hi a gaiff glod*—gan Ddau a dynion, pa beth bynag fyddo lliw ei chroen nen lun ei chorff.

Adn. 31. *Rhoddwch iddi o ffrwyth ei dwy-*

law] Caffed hir fwynhau yr hyn a ennillodd hi mor gyfiawn â'i dwylaw : a *chanmoled ei gweithredoedd hi yn y pyrth*—yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus a phoblogaidd. Fel pe dywedasai, Boed i'w siamplau dysglair hi gael eu dal allan o flaen llygad pob *merch* i Efa, yn

neillduol pob *gwraig*, ac yn enwedig pob *mam*; a boed iddynt ddysgu oddiwrthi hi yr hyn y gall pob *gŵr* ei gyfiawn ddysgwyl yn ei *wraig*, yn *meistres* ei deulu, ac yn *mam* ei blant.

LLYFR Y PREGETHWR.

GELWIR y llyfr hwn yn Hebraeg *Kohleth*, yn y rhyw fenywaidd, oddiwrth y gwreiddyn *kahal*, 'casgliu neu gynull yn nghyd;' ac arwydda, 'hi yr hon a gasgl gynulleidfa;' yr byn a gyfieithir gan y LXX, *Ekklesiastes*, 'llefarydd cyhoeddus,' neu 'lefarodd mewn cynulleidfa;' ac am hynny a elwir genym ni, *Pregethwr*. Ystyriwyd y llyfr hwn bob amser, yn yr eglwys Iuddewig a Christionogol, fel rhan o ganon santiaidd yr ysgrythyrau, ac wedi ei ysgrifenu dan *dywyfol ysbrydoliaeth*, er fod gwahanol farnau o berthynas i'w awdwr. Trwy nad yw enw *Solomon* yn ei ddechre, darfu i rai ysgrifenywr hen a diweddar ei briodoli i awduron ereill; megys y *Talmud-wyr*, i *HEZECIAH*; *Rabbi M. Kimchi*, a rhai Iuddewon ereill, i *ESAY*; a *Grotius*, i *ZOROBABEL*. Tybia *Zirkel* fod ei arddull yn debyg i eiddo yr ysgrifenywr Hebreig ar ol caethiwd Babilon, trwy fod ynddo rai geiriau *Caldeiaidd*, *Syriaidd*, a *Groegiaidd*; a thybia ereill mai cyfieithiad ydwy o'r *Rocg*, wedi ei ysgrifenu gan ryw Iuddew o Alexandria, oddeutu 240 o flynyddau cyn Crist. Ond y mae amrai rannau o hono, fel y cawn weled wrth fyned yn mlaen, y rhai nas gallai neb eu hysgrifenu gyda phriodoldeb ond *SOLOMON*, neu rywun yn ei enw ef; ac y mae y rhan fwyaf o'r ysgrifenywr Iuddewig a Christionogol wedi ei dderbyn ef yn mhob oes fel gwaith *Solomon*. Eithr gellir gofyn yma, yn mha gyfnod o oes *Solomon* yr ysgrifennodd efe y llyfr hwn? Atebwr yn gyffredin mai yn *niwedd* ei oes, ar ol iddo edifarhau am ei eilunaddoliaeth, a chael ei adferdy o'i wrthgiliaid. 'Ond nid oes un prawf yn yr hanes santiaid,' eba'i *Clarke* ac ereill, 'ddarfod i *Solomon* gael ei adferdy i ffaf Duw; canys yn y benod lle y dywedir ddarfod i'w wragedd droi ymaith ei galon ef oddiwrth yr Arglwydd, y dywedir hefyd am ei *farwolaeth* ef, heb yr awgrymiad lleiaf am ei *edifeirwch*.' Gwel yr adfeddyliadau yn niwedd i Bren. xi, lle yr ohneir hyn yn helaeth. Dywed *Watson* ac ereill iddo ei ysgrifenu yn *faenorol* i'w gwmpw ereillyll; ac yn wir gellir meddwl, fel y sylwa *Clarke*, 'fod yn y llyfr hwn ormod o brofion o *rym* meddyliol i ganiatáu y dybiaeth y *gallai* efe ysgrifenu y fath draethard yn ei *henaint*, ar ol iddo syrthio mor ddwfn oddiwrth *Dduw*.' Ac heblaw hynny, nid oes genym un prawf yn yr ysgrythyrau ddarfod i *Dduw* adier iddo y *ddwyfol ysbrydoliaeth* hono a feddiamaf efe o'r blaen; canys er i'r Arglwydd ymddangos iddo *ddwygwaith* cyn ei gwmpw, i Bren. xi. 9, ni roddir un awgrymiad ddarfod iddo ymddangos iddo y *dydedd* waith. Felly, a chaniatáu ddarfod i *Solomon* gael edifeirwch i'w ydwy, a marw yn heddwch *Duw*, y mae yn llawer tebycach mai *cyn* ei *gwmpw* yr ysgrifennodd efe y llyfr gwerthfawr hwn.—Ymddengys mai amean yr awdwr, fel y sylwa *Desauter*, yw dangos, i. Nas gall un llafur o eiddo dyn yn y byd hwn ei wneuthur ef yn ddedwydd, nen roddi iddo wir foddolrwydd meddwl, pen. i—iv. II. Fod meddiannau daearol mor bel oddiwrth ein gwneuthur ni yn ddedwydd, nes y gellir edrych arnynt fel gwir rywstrau i'n hesmwythder a'n dedwyddwch meddwl, pen. v a vi. III. Ae mai mew bywyd diwyllio a rhuinweddol y mae gwir gysur, dedwyddwch, a doethineb yn gynwysedig, pen. vii—xii. Tybiodd rhai mai math o *GVDYMDYDDIAN* rhwng gwir *gredadyn* ac *anffyddiwr* yw y llyfr hwn, ac mai tybiau a dywedadau yr *anffyddiwr* yw yr hyn a ymddengys ynddo fel gwrthdwyddiadau neu gyfeiliornadau. Edrychwyd arno gan ereill fel ymgais i brofi anafarwoldeb yr enaid, a bod eysfwr o wobr a chosp ar ol y fuchedd hon, oddiar egyptddorion philosophaidd yn unig, neu trwy gymhorth rheswm, ar wahân i dystiolaeth dwyfol ddatguddiad. Addeffir yn gyffredinol fod y llyfr hwn yn gyfansoddiad gwerthfawr iawn, ac, fel llyfr *Job*, yn anghraifft odidog o ddoethineb yr henafiaid.

PENNOD I.

GEIRIAU y Pregethwr, mab Dafydd, brenin yn Jerusalem.

PEN. I. Adn. I. *Geiriau y Pregethwr*] Er nas gallwn feddwl fod *Solomon* yn debyg i'r pregethwyr cyffredin yn mysg yr Hebreaid, eto y mae yn sicr ei fod ef yn llefaru yn gyhoeddus yn fynych er addysg i'r bobl; canys 'o bob pobloedd y daethpwyd i wrandaw doethineb *Solomon*;' 'ar holl fyd oedd yn ceisio gwelwed wyneb *Solomon*, i glywed ei ddoethineb ef, a roddasai *Duw* yn ei galon ef,' i Bren. iv. 34, a x. 24. *Mab Dafydd*—o ganlyniad nis gallasai ef fod na *Hezeciah*, *Esay*, na *Zorobabel*, fel y tybiodd rhai: gwel

2 Gwagedd o wagedd, medd y Pregethwr, gwagedd o wagedd; gwagedd yw y cwbl.

y rhagarweiniad. *Brenin yn Jerusalem*—dywedir hyn i ddangos pa un o feibion Dafydd ydoedd, sef *Solomon*, yr hwn oedd yn teyrnasu yno, adn. 12.

Adn. 2. *Gwagedd o wagedd*] Hwn sydd ddull Hebreig o osod allan yr uwchafodd. *Medd y Pregethwr*—ar ol dwys ystyriaeth, a hir brofiad, a thrwy ddwyfol ysbrydoliaeth. *Gwagedd o wagedd*—y mae efe yn ei ailardrodd, i ddangos fod y peth yn sicr, a thubwnt i bob amleuaeth. *Gwagedd yw y cwbl*—yw pob peth daearol; nid ynddynt eu hunain,

3 Pa fudd sydd i ddyn o'i holl lafur a gymer efe dan yr haul?

4 *Un* genhedlaeth a â ymaith, a chenedlaeth *arall* a ddaw: ond y ddaear a saif byth.

5 Yr haul hefyd a gyfyd, a'r haul a fachlud, ac a brysura i'w le lle y mae yn codi.

6 Y gwynt a â i'r deau, ac a amgylcha i'r gogledd: y mae yn myned oddiamgylch yn wastadol, y mae y gwynt yn dychwelyd yn ei gwmpasoedd:

7 Yr holl afonydd a redant i'r môr, eto nid *yw* y môr yn llawn: o'r lle y daeth yr afonydd, yno y dychwelant eilwaith.

8 Pob peth *sydd* yn llawn blinder; ni ddichon dyn *ei* draethu: ni chaiff y llygad ddigon o edrych, ac ni ddigonir y glust â chlywed.

9 Y peth a fu, a fydd; a'r peth a wnaed, a wncir: ac nid *oes* dim newydd dan yr haul.

10 A oes dim y gellir dywedyd am dano, Edrych ar hwn, dyma

cans y maent yn greaduriaid i Dduw, ac am hyn yn dda yn eu lle; ond gyda golwg ar beri y dedwyddwch hwnw a ddygwylia dynion ynddynt. Nid yn unig y mae y cwbl yn 'wagedd,' ond y maent yn 'wagedd o wagedd,' sef y gwagedd gwacaf, neu wagedd yn y gradd uwchaf. Y mddengys mai yr adnod hon oedd *testyn* y Pregethwr wrth draethu ar y rhan gyntaf o'i bregeth.

Adn. 3. *Pa fudd*] Ysbrydol a thragwyddol, *sydd i ddyn o'i holl lafur*—Hebr., 'ei lafur blinderus,' mewn corff a meddwl; a *gymer efe dan yr haul*—wrth chwilio am gyfoeth, dedwyddwch, neu ryw bethau daerol ereill?

Adn. 4. *Un genhedlaeth a â ymaith*] I dragwyddoldeb; a *chenhedlaeth arall a ddaw*—i breswyllo yma yn ei lle: *ond y ddaear a saif byth*—yr un fath trwy bob cenedlaeth hyd ddiwedd amser. Y meddwl yw, nas gall dynion fod yn ddedwydd yn y mwynhad o bethau y ddaear, er mor barhaus ydyw hi, am y gwyddant nas gallant hwy eu mwynhau ond dros ychydig amser yn unig, ac yna eu gadael i ereill.

Adn. 5. *Yr haul hefyd a gyfyd*] Yn y dwyrain; *a'r haul a fachlud*—yn y gorllewin; *ac a brysura i'w le lle y mae yn codi*—sef i'r dwyrain eilwaith; ac felly y gwna yn olynol, trwy droad dyddiol y ddaear, trwy yr holl genhedlaethau. Efe a ddywed yr un peth am y *gwyntoedd a'r afonydd*, adn. 6, 7, i'r dyben i ddangos gwagedd neu anallu pob peth daerol i beri gwir foddlonrwydd meddwl, am mai olynad o'r un pethau yw pob peth yma, heb 'ddim newydd dan yr haul,' adn. 9. Y mae meddwl dyn mor *eang*, fel y rhaid iddo gael rhywbeth *newydd* o hyd i'w foddhau: cans y mae hyd yn nod y pethau goraf a hyfrytaf yma, wrth eu cael yn rhy fynych, yn myned yn ddiffasod a phoenus; i.e. y mae y miel ei huo, wrth ei fwyta yn rhy aml, yn myned yn chwewr fel wermod.

Adn. 6. *Y gwynt a â i'r deau, ac a amgylcha i'r gogledd*] Y mae yr holl hen gyfieithiadau yn deall dechre yr adnod hon fel yn traethu am yr *haul*, ac nid am y gwynt: *y mae yn myned oddiamgylch yn wastadol*—gellir dywedyd hyn yn briodol am y gwynt, ac am yr haul hefyd fel y mae yn ymddangos i ni trwy droad dyddiol y ddaear: *y mae y gwynt yn dychwelyd yn ei gwmpasoedd*—gan chlythu weithiau o un pegwn, ac yna e un

arall; ac wedi hyny dychwela eilwaith i'r pegynau lle y buasai o'r blaen.

Adn. 7. *Yr holl afonydd a redant i'r môr*] O ddechre y byd hyd yma; *eto nid yw y môr yn llawn*—am fod cymaint o ddyfroedd ag a redant iddo yn cael eu sugno allan o hono trwy anweddiad neu godiad tARTH, *o'r lle y daeth yr afonydd*—o'r môr yn gyntaf, ac yna o'r ffynonau; *yno y dychwelant eilwaith*—ac felly yn olynol trwy bob cenedlaeth, heb ddim cyfnewiad, adn. 9.

Adn. 8. *Pob peth sydd yn llawn blinder*] Saes., 'yn llawn lafur.' Y mae yn annichoadwy dirnad gymaint o bryder, poen, llafur, a blinder sydd yn angenheidiol i gario allan orchwylion bywyd: ond y mae yr awydd ddi-ddiwedd am *elw*, a'r cyweirnrwydd diddiwedd i weled *amrywiaeth* o ganlyniadau, yn peri i ddynion lafurio yn mlaen. *Ni ddichon dyn ei draethu*—nac amgyffred y filled ran o'r blinder a'r llafur sydd yn y byd. *Ni chaiff y llygad ddigon o edrych*—ond y mae fyth am weled mwy; *ac ni ddigonir y glust â chlywed*—ond y mae o hyd am glywed rhagor, neu am glywed rhywbeth *newydd*: a'r casgliad naturiol oddiwrth y cwbl yw, nad oes yma wir foddlonrwydd meddwl.

Adn. 9. *Y peth a fu*] Mewn dyddiau, tymhorau, a blynyddoedd o'r blaen; a *fydd*—eto mewn amseroedd i ddyfod: *a'r peth a wnaed*—yn nhrefn natur mewn un flwyddyn, megys dydd a nos, haf a gauaf, llanw a thrai, daeargrynfâu, &c.; a *wncir*—yn gyffelyb yn mhob blwyddyn olynol: *ac nid oes dim newydd dan yr haul*—i'r llygad edrych arno, nac i'r glust ei glywed. Y mae y cwbl mewn natur yn olynad parhaus o'r un pethau; ac y mae gweled a chlywed yr un pethau o hyd, yn ddiffasod a blinder. Y rheswm fod plant yn fwy dedwydd na hen bobl, neu yn cymeryd mwy o ddyddordeb yu y pethau a welir, yw, am eu bod yn *newydd* iddynt; tra y mae dyddordeb ynddynt wedi ei gollu gan yr hen bobl, o herwydd eu cynefinod â hwy. Ond ni fodola y teimlad hwn gyda phethau ysbrydol yn y nef, am y bydd yno ddatguddiadau newyddion o ryfeddodau gogoneddus yn cael eu dadlenu o flaen y saint dros dragwyddoldeb.

'Rhyw newydd wrth o'r angau drud,

A ddaw o hyd i'r golwg.'

Adn. 10. *A oes dim*] Yn nhrefn a gweithrediadau natur, *y gellir dywedyd am dano*—

beth newydd? efe fu eisioes yn yr hen amser o'n blaen ni.

11 Nid oes goffa am y pethau gynt; ac ni bydd coffa am y pethau a ddaw, gan y rhai a ddaw ar ol.

12 ¶ Myfi y Pregethwr oeddwn frenin ar Israel yn Jerusalem:

13 Ac a roddais fy mryd ar geisio a chwilio trwy ddoethineb, am bob peth a wnaed dan y nefoedd: y llafur blin yma a roddes Duw ar feibion dynion i ymguro ynddo.

14 Mi a welais yr holl weithred-

wrth yr ymofnydd manwl a chywrair, *Edrych ar hun, dyma beth newydd*—na ddygwyddodd erioed o'r blaen? *Efe fu eisioes yn yr hen amser o'n blaen ni*—er na welsom ni ef, ac na chlywsom am dano. Y mae yn sicr nad ydym i ddeall hyn am yr holl beiriannau, y celfyddydau, a'r dyfeisiadau a wnaed o dro i dro, ac yn enwedig a wneir yn ein dyddiau ni; canys galleml enwi y pellebyr er siampl, yn nghyda'r ager-longau, yr ager-beiriannau, a lloedd o offer ereill, am y rhai y gellir dywedyd ar sail dda, 'Dyma beth newydd.' Felly rhaid i ni ddeall y Pregethwr yma fel yn cyfeirio yn benaf at ddygwyddiadau naturiol mewn daear ac awyr, mewn tân a dwfr, a'r cyffelyb; er fod yr hyn a ddywed efe yn wirionedd am rai pethau mewn celfyddyd hefyd.

Adn. 11. *Nid oes goffa am y pethau gynt* [Hyn yw, y mae llawer o bethau wedi dygwydd yn yr hen amseroedd, y rhai nad ysgrifenydd cofiadwriaeth o honant mewn llyfrau; ac y mae pethau ereill wedi myned i dir anghof, er eu cofia'u mewn llyfrau, trwy fod y llyfrau hynny wedi eu colli: *ac ni bydd coffa am y pethau a ddaw*—sef am yr oll o honant, mwy nag am y 'pethau gynt,' a hynny am yr un rheswm; *gan y rhai a ddaw ar ol*—mewn oesau dyllynol i'r dygwyddiadau hynny.

Adn. 12. *Myfi y Pregethwr* [Fel pe dywedasai, Pan roddais fy mryd ar geisio a chwilio trwy ddoethineb am bob peth a wnaed dan y nefoedd, adn. 13; *oeddwn frenin*—ac felly oeddwn yn meddu pob maint i gyraedd gwybodaeth a dedwyddwch; *ar Israel*—pobl gu ac anwyl gan Ddau; *yn Jerusalem*—lle yr oedd tŷ Ddau, a lle yr oedd yr offeiriad duwiolaf, doethaf, a dysgedigaf yn gweinyddu. Yr oedd Solomon yn ddiaw yn frenin yn awr yn Jerusalem, yn gystal a'r pryd hynny; a gall ei fod yn dywedyd, 'oeddwn yn frenin,' nid i ddangos nad oedd ef felly yn awr, ond i ddangos ei fod wedi dyfod i'r orsedd pan y gwnaeth efe y cyfryw ymchwiliad. Ond y mae y rhai a dybiant i Solomon ysgrifenu y llyfr hwn ar ol ei gwmp, yn meddwl ei fod yn llefaru fel hyn yn ei fawrostymgeiddrwydd: fel pe dywedasai, 'Yr oeddwn unwaith yn deilwng o'r enw *brenin*: eithr mi a syrthiais i bob drygioni; ac er i mi gael fy alferdyd, nid wyf mwyach yn deilwng o'r enw.' Ond y mae y golygiad cyntaf yn fwy naturiol.

oedd a wnaed dan haul; ac wele, gwagedd a gorthrymder ysbryd yw y cwbl.

15 Ni ellir uniawni yr hyn sydd gam, na chyfrif yr hyn sydd ddi-ffygiol.

16 Mi a ymddyddenais â'm calon fy hun, gan ddywedyd, Wele, mi a aethym yn fawr, ac a gesglais ddoethineb tuhwnt i bawb a fu o'n blaen i yn Jerusalem; a'm calon a ddeallodd lawer o ddoethineb a gwybodaeth.

Adn. 13. *Ac a roddais fy mryd ar geisio a chwilio trwy ddoethineb* [Yr hon a roddasai Duw i mi. Nid oedd Solomon wedi cael gwybodaeth hollol o bob peth fel greddf gan Ddau, ond efe a gawsai *allu* ganddo i gyraedd gwybodaeth ddefnyddiol o bob math, mewn langesiaeth, athroniaeth, llysiuath, barddoniaeth, &c.; a bu yn ddiwyd i ddefnyddio y gallu hwnw er chwaneu ei wybodaeth a'i ddoethineb. *Am bob peth a wnaed dan y nefoedd*—gan *Ddau*, megys gweithredoedd natur, rhagluniaeth, a gras; a chan *ddygnion*, mewn ffordd o ddeddfau, llyfrau, ac adeiladau. *Y llafur blin yma a roddes Duw ar feibion dynion i ymguro ynddo*—neu i ymdrafferthu ynddo; hynny yw, dyma y drefn sinderus, boenus, ac araf a benodwyd gan Ddau i ddygnion gyraedd gwybodaeth trwyddi.

Adn. 14. *Mi a welais yr holl weithredoedd a wnaed dan haul* [Gwel ar adn. 13; *ac wele, gwagedd a gorthrymder ysbryd yw y cwbl*—y mae hyd yn nod yr ymchwiliaeth iddynt yn llafurus a blinderus iawn; ac ar ol cyraedd gradd helaeth o wybodaeth am danynt, nid ydynt yn rhoddi y boddlonrwydd a'r dedwyddwch sylweddol hwnw ag y mae ar yr enaid ei eisiau. Nid yw y cwbl ddim angen nag 'ym-borthi ar wynt,' fel yr arwydda y wreiddiol.

Adn. 15. *Ni ellir uniawni yr hyn sydd gam* [Yn ngweithredoedd Duw, fel ei deallir yn gyffredin; *na chyfrif yr hyn sydd ddi-ffygiol*—neu a dybir gan ddygnion yn gam a diffygiol ynddynt. Ond er i ddygnion feddlw felly am weithredoedd Duw, y mae y cwbl yn *uniawn*; ac, fel y sylwa *Clarke*, 'nid oes yn holl *gadwyn natur* un ddolen yn doredig, diffygiol, nac ar goll.' Neu fe allai mai yr ystyr yw, *Ni ellir uniawni yr hyn sydd gam*—nid yw ein holl wybodaeth yn gwneyd dim ond datguddio ein trueni, heb allu ei symud; *na chyfrif yr hyn sydd ddi-ffygiol*—yn ein gwybodaeth, neu yn ddi-ffygiol i'n galluogi i gyraedd llawn foddlonrwydd a dedwyddwch meddwl. Y mae ein holl fisyriannau yma, ar ol i ni wneyd ein goraf i'w dwyn hwynt i berffeithrwydd, o hyd yn *di-ffygiol*; ac y mae y diffygion hynny mor aml, fel nas gellir byth eu *cyfrif*.

Adn. 16. *Mi a ymddyddenais â'm calon fy hun* [Ystyriais ynot fy hun yn mhaglyfwr yr oeddwn; *gan ddywedyd*—fel y canlyn; neu daethym i'r penderfyniad yma: *Wele, mi a*

17 Mi a roddais fy nghalon hefyd i wybod doethineb, ac i wybod ynfyrwydd a ffolineb: mi a wybŷm fod hyn hefyd yn orthrymder ysbryd.

18 Canys mewn llawer o ddoethineb y mae llawer o ddig: a'r neb a chwanegeo wybodaeth, a chwanegeo ofid.

PENNOD II.

MI a ddywedais yn fy nghalon, Iddo yn awr, mi a'th brofaf 4 llawenydd; am hyny cymer dy fyd

aethym yn fawr—mewn pob math ar wybodaeth fuddiol; *ac a gesglais ddoethineb tuhent i bawb a fu o'm blaen i yn Jerusalem*—trwy ymddyddan ag ereill, darllen llyfrau, gweddio ar Dduw, a myfrio; *a'm calon a ddeallodd llawer o ddoethineb a gwybodaeth*—yn chwanegeo at yr hyn a roddasai Duw i mi trwy ddwyfol ysbrydoliaeth. Nid ymfrost gwag oedd hwn, ond gwirionedd tra adnabyddus ac addefedig gan bawb, yr hwn yr oedd yn angenrheidiol iddo ef ei fynegu yma i'r dyben i egluro ei fater.

Adn. 17. *Mi a roddais fy nghalon hefyd i wybod doethineb*] Ar y naill law, trwy chwilio yn ddwys am yr unrhyw; *ac i wybod ynfyrwydd a ffolineb*—ar y llaw arall, trwy sylwi arnynt mewn ereill o'm hamgylch, fel y gallwn ddeall natur y naill a'r llall, a'r gwalianiaeth ag sydd rhwng gwirionedd a chyfeiliornad, a rhwng rhinwedd a drygioni. *Mi a wylŷm*—trwy brofaf chwerw, *fod hyn hefyd yn orthrymder ysbryd*—nad oedd ef ddim amgen nag 'ymborthi ar wynt' gwel ar adn. 14. Deallais nad oedd y cwbl gyda'u gilydd yn alluog i roddi i mi y dedwyddwch hwnw ag sydd yn boddioni enaid anfarwol. A phaham? Am nas gall dim llai na mwynhad gwirioneddol o Dduw ei grefydd wneuthur dyn yn wir ddedwydd.

Adn. 18. *Canys mewn llawer o ddoethineb y mae llawer o ddig*] Y mae y neb a'i meddo yn ddig wrtho ei hun am ei fod yn gwybod cyn lleied, ac y mae ereill weithian yn ddig wrtho am ei fod yn gwybod ymair: *a'r neb a chwanegeo wybodaeth, a chwanegeo ofid*—trwy fod yr ychydig a wŷr efe yn dangos iddo fod mwy ar ol heb ei wybod, ac y mae hyny yn peri iddo ofidio eisiau na buasai yn gwybod mwy. Felly nid oes dim gwir foddlonrwydd mewn doethineb a gwybodaeth. Ond y mae rhai yn deall y frawddeg olaf fel hyn: 'Y neb a chwanegeo wybodaeth am bethau gofidus, a chwanegeo ofid na ddaethai i'w ran pe buasai efe heb eu gwybod.' Y mae y *Targum* yn alleirio yr adnod fel hyn: 'Y mae y dyn a chwanegeo ddoethineb, pan yn pechu ac heb edifarhan, yn chwanegeo digofaint Duw yn ei erbyn ei hun; a'r neb a chwanegeo wybodaeth, ac eto sydd yn marw yn ei ienentid, a chwanegeo ofid calon i'w berthynasau.'

yn ddifyr: ac wele, hyn hefyd sydd wagedd.

2 Mi a ddywedais am chwerthin, Ynfyd yw; ac am lawenydd, Pa beth a wna?

3 Mi a geisiais yn fy nghalon ymroddi i win, (eto yn arwain fy nghalon mewn doethineb,) ac i gofleidio ffolineb, hyd oni welwn beth oedd y da hwnw i feibion dynion, yr hyn a wnant hwy dan y nefoedd holl ddyddiau en bywyd.

4 Mi a wnaethym i mi waith mawr; mi a adeileidais i mi dai; mi a blenais i mi winllanoedd:

PEN. II. Adn. 1. *Mi a ddywedais yn fy nghalon, Iddo yn awr*] O fy enaid. Hwn sydd fath ar gyfryngair i dynn sylw, neu i ddechreu ar ryw orchwyl, yn debyg i'n hymadredd ni, 'Ati yn awr.' *Mi a'th brofaf 4 llawenydd*—ar ol gwelod nad oedd dim ond gorthrymder ysbryd, dig, a gofid, yn deilliaw oddiwrt gyraedd doethineb a gwybodaeth, pen. i. 17, 18, y mae y Pregethwr yma yn penderfynu profi ei enaid ei hun 4 llawenydd neu ddirigfwech y byd hwn. *Am hyny cymer dy fyd yn ddifyr*—heb ymdrafferthu i gyraedd gwybodaeth, na gofidio o herwydd anwybodaeth, na meddwl dim am angau na barn: 'rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid,' pen. xi. 9. *Ac wele, hyn hefyd sydd wagedd*—sydd annigonol i wneyd dyn yn wir ddedwydd.

Adn. 2. *Mi a ddywedais am chwerthin*] Ar ol yr ystriaeth iwyaf sobr a dyladwy, *Ynfyd yw*—sef ynfyrwydd hollol: *ac am lawenydd*—sef llawenydd a dirigfwech y byd hwn, *Pa beth a wna?* hyny yw, pa beth a all efe ei wneuthur tuag at ddedwyddoli dyn?

Adn. 3. *Mi a geisiais yn fy nghalon ymroddi i win*] Neu ymfoddlau trwy ffyrwydd a diodydd; *eto yn arwain fy nghalon mewn doethineb*—gan wlyho rhag bwyta nac yfed i ormodedd: *ac i gofleidio ffolineb*—neu bleserau gweigion y fuchedd hon; *hyd oni welwn beth oedd y da hwnw i feibion dynion*—pa un a oedd dedwyddwch i feibion dynion ai peidio mewn gwin a ffolineb holl: *yr hyn a wnant hwy dan y nefoedd holl ddyddiau eu bywyd*—hyny yw, yr hyn y mae pawb mor dueddol iddo trwy ei holl oes, fel pe byddai rhyw ddedwyddwch a boddlonrwydd mawr i'w gael yndo. Ond cafodd y Pregethwr ei siomi yn hyn hefyd, fel y gwelwn yn adn. 11.

Adn. 4. *Mi a wnaethym i mi waith mawr*] Yr hyn a enwir isod, gan obeithio fod dedwyddwch i'w gael yn hyny. *Mi a adeileidais i mi dai*—sef ei dy ei hun, ty coedwig Libanus, a thy merch Pharao, heblaw ty yr Arelwydd, yr hwn ond didid ni chynwysir yma, 1 Bren. vii. 1, &c. *Mi a blenais i mi winllanoedd*—i gael grawnwin a gwin mewn helathrwydd.

Adn. 5. *Mi a wnaethym erddi*] *Paradesim*, 'paradwysi,' neu erddi hyfrydwch; a *pher-*

5 Mi a wnaethym erddi a pherllanau, ac a blenais ynddynt brenau o bob ffrwyth :

6 Mi a wnaethym lynau dwfr, i ddyfrhau â hwynt y llwyni sydd yn dwyn coed :

7 Mi a ddarperais weision a morwynion; hefyd yr oedd i mi gaethweision tŷ; i e, yr oeddwn i yn berchenog llawer o wartheg a defaid, tuhwnt i bawb a fuasai o'm blaen i yn Jerusalem :

8 Mi a bentyrtais i mi hefyd arian ac aur, a thrysor penaf brenhinoedd a thaleithiau: mi a ddarperais i mi gantorion a chantoresau, a phob rhyw offer cerdd, difyrwch meibion dynion.

9 A mi a aethym yn fawr, ac a gynyddais yn fwy na neb a fuasai o'm blaen i yn Jerusalem: a'm doethineb oedd yn sefyll gyda mi.

10 A pha beth bynag a ddeisyfai fy llygaid, ni ommeddwn hwynt: ni attaliwn fy nghalon oddiwrth ddim hyfryd; canys fy nghalon a lawenychai yn fy holl lafur: a hyn oedd fy rhan i o'm holl lafur.

11 Yna mi a edrychais ar fy holl weithredoedd a wnaethai fy nwyllaw, ac ar y llafur a lafuriais yn ei wneuthur: ac wele, hyn oll oedd wagedd a gorthrymder ysbryd, ac nid oedd dim budd dan yr haul.

12 A mi a droais i edrych ar ddoethineb, ac ar ynfyrwydd a

llanau—yn dwyn afalau a ffrwythau ereill; *ac a blenais ynddynt brenau o bob ffrwyth*—i gael hyfrydwyd ac elw gyda'u gilydd. Ni a ddysgwn oddiwrth 1 Bren. iv. 33, fod gan Solomon wybodaeth helaeth mewn anianyddiaeth a llysieaeth; ac felly yr oedd ef yn ŵr tra chymhwys at y gorchwylion a grybwyllir yma.

Adn. 6. *Mi a wnaethym lynau dwfr*] Yn agos i'r gerddi a'r perllanau uchod; *i ddyfrhau â hwynt*—trwy gafnau priodol, *y llwyni sydd yn dwyn coed*—sef y planhigfeydd o goed ieuainc. Yr oedd hon yn ddarpariaeth dra angenrheidiol, trwy nad oedd gwlaw yn disgyn yn fynych yn y wlad hono.

Adn. 7. *Mi a ddarperais weision a morwynion*] I drin fy gerddi, i fugeilio fy mhraidd, ac i gyflawni gwahanol orchwylion y tŷ a'r maes. *Hefyd yr oedd i mi gaethweision tŷ*—Saes., 'wedi eu geni yn fy nhŷ,' ac felly yn eiddo iddo yn hollol. *I e, yr oeddwn i yn berchen llawer o wartheg a defaid*—yn nghvdag amrai anifeiliaid ereill, glân ac aflan, 1 Bren. iv. 26; *tuhwnt i bawb a fuasai o'm blaen i yn Jerusalem*—ac fe allai yn y byd. Dywed yr Iuddewon fod 60,000 o bobl yn bwyta ar fwrdd y brenin bob dydd; ac yr oedd yn angenrheidiol felly fod ganddo lawer o weision a morwynion i wasanaethu iddynt oll, a llawer o anifeiliaid i fod yn ymborth iddynt. Yn 1 Bren. iv. 23, dywedir fod 'deg o ychain pasgedig, ac ugain o ychain porfadwy, a chant o ddefaid, heblaw ceirw, ac iyrchod, a buail, ac ednod breision,' yn cael eu parotol i'w fwrdd ef bob dydd: gwel y sylw yno.

Adn. 8. *Mi a bentyrtais i mi hefyd arian ac aur*] Yn helaeth, fel y gwelir yn 1 Bren. ix a x; *a thrysor penaf brenhinoedd a thaleithiau*—sef anrhegion, trethoedd, neu deyrnged oddiwrth frenhinoedd ereill. *Mi a ddarperais i mi gantorion a chantoresau*—i'm difyru â'u offer cerdd—yn chwanebol at y lleisiau dynol; *difyrwch meibion dynion*—yr hyn y mae pawb yn ei garu yn mhob oes a gwlad. Y geiriau Hebreig am 'offer cerdd' yma yw *shiddah veshiddoth*, y rhai yr addefir gan bawb

eu bod yn dra thywyll. Y mae rhai yn eu cyfieithu 'caethion a chaethesau;' ereill, 'cwp-anau a chostrelau;' ereill, 'cogyddion a chy-fieithwyr;' ereill, 'gwagedd a gordderchadon;' ac ereill, 'maesydd a thyddynod.'

Adn. 9. *A mi a aethym yn fawr*] Mewn cyfoeth, awdurdod, rhwysg, a gwyrcher allanol; *ac a gynyddais yn fwy na neb a fuasai o'm blaen i yn Jerusalem*—nac mewn nn man arall ond odid: *a'm doethineb oedd yn sefyll gyda mi*—nid oeddwn eto wedi anghofio Duw, nac yn ymfalchïo yn fy mawredd a'm llwyddiant.

Adn. 10. *A pha beth bynag a ddeisyfai fy llygaid*] Neu a chwennychai fy nghalon; *ni ommeddwn hwynt*—i mi fy hun, cyn belled ag yr oeddnt yn gyfreithlon o leiaf: *ni attaliwn fy nghalon oddiwrth ddim hyfryd*—ag oedd â thuedd ynddo i beri dedwyddwch a boddlonrwydd meddwl: *canys fy nghalon a lawenychai yn fy holl lafur*—heb ddim attalfa oddiwrth afiechyd, rhyfel, diffyg arian, nac un rhywstr arall: *a hyn oedd fy rhan i o'm holl lafur*—fy llawenydd wrth chwilio am lawenydd, neu yr hyfrydwch o feddwl fy mod yn llafurio am hyfrydwch a dedwyddwch, oedd y cwbl a gawn am fy holl drafwrth!

Adn. 11. *Yna mi a edrychais ar fy holl weithredoedd, &c*] I ystyried yn ddfrifol a oeddwn i wedi cael y boddlonrwydd a'r hyfrydwch hwnw yn fy ngweithredoedd a'm llafur ag a ddysgwyliaswn: *ac wele, hyn oll*—sef y pethau a enwyd adn. 3—10; *oedd wagedd a gorthrymder ysbryd*—yn achos o ofid a blinder i mi yn y pen draw, yn hytrach na dedwyddwch a boddlonrwydd meddwl: *ac nid oedd dim budd dan yr haul*—dim budd parhaus, neu ddim budd i'r enaid. Y mae yn wir fod *newydd-deb* y pethau yn difyru ei feddwl dros ychydig amser; ond wedi i'r newydd-deb lwnw fyned heibio, ac iddo yntau ymgynefino â hwynt, aeth y mynychiant o'r un pethau yn ddfilas a phoenus.

Adn. 12. *A mi a droais i edrych ar ddoethineb*] Gwel ar pen. i. 17; *ac ar ynfyrwydd a ffolineb*—hyn yw, efa a drôdd i gymeryd

ffolineb, (cansys beth a wnai y dyn a ddeuai ar ol y brenin? y peth a wnaed eisioes.)

13 Yna mi a welais fod doethineb yn rhagori ar ffolineb, fel y mae goleuni yn rhagori ar dywyllwch.

14 Y doeth sydd â'i lygaid yn ei ben; ond y ffol a rodia yn y tywyllwch: ac eto mi a welais yr un damwain yn dygwydd iddynt oll.

15 Yna y dywedais yn fy nghalon, Fel y dygwyydd i'r ffol, y dygwyydd i minau; pa beth gan hyny a dâl i mi fod yn ddoeth mwyach? Yna y dywedais yn fy nghalon, fod hyn hefyd yn wagedd.

ail olwg arnynt, i edrych ai nid oedd dim mwy o foddlonrwydd i'w gael ynddynt nag a dybiassai efe y tro cyntaf. *Cansys beth a wnai y dyn a ddeuai ar ol y brenin*—i wneuthur yr ymchwiliad hwn? *Y peth a wnaed eisioes*—neu lai na hyny. Yr oedd y brenin wedi gwneyd cymaint ag a allai neb ar ei ol ei wneuthur, trwy fod ganddo doethineb, a chyfoeth, a phob mantais arall i chwilio am ddedwyddwch; a chan ei fod ef wedi methu ei gyraedd, byddai i bawb ereill fethu yn sicr.

Adn. 13. *Yna mi a welais fod doethineb yn rhagori ar ffolineb*] Er na cheffais yn yr ymchwiliad hwn y dedwyddwch a'r boddlonrwydd ag yr oedd fy enaid yn hiraethu am dano, eto deallais gymaint a hyn, fod doethineb yn rhagori ar ffolineb, sef ar bleserau gweigion; *fel y mae goleuni yn rhagori ar dywyllwch*—o ran ei gyfaddasrwydd i ddangos i ddyn ei ffordd a'i waith, fel y dywedir isod.

Adn. 14. *Y doeth sydd â'i lygaid yn ei ben*] I ganfod ei waith a'i lwybr, ac i ochelyd perffector; *ond y ffol a rodia yn y tywyllwch*—fel pe byddai wedi colli ei olygon; *lynny yw, efe a drinia ei achosion yn ffol a byrbwyll, fel pe byddai yn amddifad o reswm. Ac eto mi a welais yr un damwain yn dygwyydd iddynt oll*—er yr holl ragoriaeth hwn o eiddo y doeth ar y ffol, hwy a ddeuant o'r diwedd i'r un man; cansys y mae y naill fel y llall yn agored i'r un adfydau, poenau, cystuddiau, a marwolaeth.

Adn. 15. *Yna y dywedais yn fy nghalon*] Yn yr ystyriaeth o'r pethau hyn; *Fel y dygwyydd i'r ffol, y dygwyydd i minau*—er maint fy noethineb. *Pa beth gan hyny a dâl i mi fod yn ddoeth mwyach*—pan nad yw fy noethineb, ar ol ymdrafferthu i'w gyraedd, yn fy nyrchafu uwchlaw y ffol? *Yna y dywedais yn fy nghalon, fod hyn hefyd yn wagedd*—fod doethineb y byd hwn, yr un modd a ffolineb, yn hollol analluog i roddi boddlonrwydd a deawyddwch i enaid anfarwol.

Adn. 16. *Cansys ni bydd coffa am y doeth*] Er maint ei ddysgeldiaeth, ei wybodaeth, a'i dalentau; *mwy nag am yr annoeth yn dra-gwydd*—neu yn barhaus: cansys er y gall eunw aubell un fod mewn coffadwriaeth ar

16 Cansys ni bydd coffa am y doeth mwy nag am yr annoeth yn dra-gwydd; y pethau sydd yr awr hon, yn y dyddiau a ddaw a ollyngir oll dros gof: a pha fodd y mae y doeth yn marw? fel yr annoeth.

17 Am hyny cas genyf einioes; cansys blin genyf y gorchwyl a wneir dan haul; cansys gwagedd a gorthrymder ysbryd yw y cwbl.

18 ¶ Ie, cas genyf fy holl lafur yr ydwyf fi yn ei gymeryd dan haul; am fod yn rhaid i mi ei adael i'r neb a fydd ar fy ol i.

19 A phwy a wŷr ai doeth ai annoeth fydd efe? eto efe a fydd feistr

ddalenau hanesiaeth am gryn amser, eto nid yw hyny ond eithriad i'r rheol gyffredin; cansys bydd i'r bedd, yr hwn yw 'tir anghof,' lwy'r ddileu pob coffadwriaeth am y miliynau ereill yn unhen chydig flynyddau. *Y pethau sydd yr awr hon*—yn cynhyfysu y ddaear ac yn synu y byd; *yn y dyddiau a ddaw a ollyngir oll dros gof*—fel y dygwyyddod erbyn heddyw i filoedd o'r pethau a fu o'r blaen. *A pha fodd y mae y doeth yn marw?*—sef dyn doeth a gwybodus yn mhethau y ddaear. *Fel yr annoeth*—uor sydyn, sicr, a phoenus ag yntau, o ran y weithred o farw ynddi ei hun gwel ar Salu xlix. 10.

Adn. 17. *Am hyny cas genyf einioes*] Hyd yn nod fy einioes fy hun, er maint fy anrhydedd, fy nghyfoeth, a'm doethineb; a buasai yn dda genyf pe buaswn heb fy ngeni, neu byddai yn dda genyf pe byddai i mi farw ar frys. Ond y mae y gair *hachairiym* yn arwyddo 'bywyddau'; sef einioes y doeth, ac einioes yr annoeth; neu einioes yn mhob cyfnod o honi, ieneuetid, canol oed, a henaint. *Cansys blin genyf y gorchwyl a wneir dan haul*—pob gorchwyl o bob math, ac o eiddo pawb. *Cansys gwagedd a gorthrymder ysbryd yw y cwbl*—yn peri mwy o boen nag o bleser i'r rhai a'u gwnant, neu a edrychant arnynt.

Adn. 18. *Ie, cas genyf fy holl lafur*] Nid yn unig lafur rhai ereill, ond fy llafur fy hun hefyd, yr ydwyf fi yn ei gymeryd dan haul—megys y tai a adeledais, y gerddi a blenais, a'r aur a'r trysorau a gesglais, adn. 4—8; *am fod yn rhaid i mi ei adael i'r neb a fydd ar fy ol i*—yn etifeddu fy eiddo, neu yn frenin yn Jerusalem.

Adn. 19. *A phwy a wŷr ai doeth ai annoeth fydd efe?*] Os annoeth, gall ddadwneyd yr oll a wnaethym i, a throï effeithiau fy noethineb i yn offerynau i'w ffolineb ei hun. *Eto*—pa un bynag ai doeth ai annoeth, *efe a fydd feistr ar fy holl lafur yr hwn a gymersais*—sef yn feddiannydd ar fy nhai a'm gerddi y rhai a wnaethym; *ac yn yr hwn y blin ddoeth dan haul*—lle y danghosais y fath ddoethineb, gwybodaeth, a deall. Fe allai ei fod yn cyfeirio yma at ei fab Rehoboam, yr hwn oedd yn ddyn tra annoeth a diegwyddor:

ar fy holl lafur yr hwn a gymerais, ac yn yr hwn y bŵm ddoeth dan haul. Dyma wagedd hefyd.

20 Am hyny mi a droais i beri i'm calon anobeithio o'r holl lafur a gymerais dan yr haul.

21 Canys y mae dyn yr hwn y mae ei lafur yn bwylllog, yn synwrol, ac yn uniawn: ac y mae yn ei adael yn rhan i'r neb ni lafuriodd wrtho. Hyn hefyd sydd wagedd, a gorthrymder mawr.

22 Canys beth sydd i ddyn o'i holl lafur a gorthrymder ei galon, yr hwn a gymerodd efe dan haul?

23 Canys ei holl ddyddiau sydd orthrymder, a'i lafur yn ofid: ie, ni chymer ei galon esmwythdra y nos. Hyn hefyd sydd wagedd.

24 ¶ Nid oes daioni mwy i ddyn, nag iddo fwyta ac yfed, a pheri i'w enaid gael daioni o'i lafur. Hyn hefyd a welais, mai o law Duw yr oedd hyn.

25 Canys pwy a ddichon fwyta, a phwy a'i mwynhâai o'm blaen i?

26 Canys i'r dyn a fyddo da yn ei olwg ef, y rhydd Duw ddoethineb, a gwybodaeth, a llawenydd; ond i'r pechadur y rhydd efe boen i gasglu ac i dyru, i'w roddi i'r neb a fyddo da gerbron Duw. Hyny hefyd sydd wagedd, a gorthrymder ysbryd.

PENNOD III.

Y MAE amser i bob peth, ac amser i bob amcan dan y nefoedd:

gwel ar 1 Bren. xii. 8, &c. *Dyma wagedd hefyd*—yr hwn nas gall byth roddi boddlonrwydd i ddyn ar y ddaear.

Adn. 20. *Yna mi a droais i beri i'm calon anobeithio*] Am y dedwyddwch hwnw a addawswn i mi fy hun; o'r holl lafur a gymerais dan yr haul—(1) Am ei fod wedi siomi fy nysgwyliadau; (2) Am nas gallaf ei fwynbau ond dros amser byr; ac, (3) Am y rhaid i mi adael y cwbl i fy mab annoeth ar fy ol.

Adn. 21. *Canys y mae dyn yr hwn y mae ei lafur yn bwylllog, yn synwrol*] Sacs., 'mewn doethineb ac mewn gwybodaeth:' ac yn uniawn—yr hwn a ymdrocha i sefydlu uniondeb a gweinyddu cyfiawnder yn mhob peth. Efe a gyfeiria yma ond odid ato ei hun. *Ac y mae yn ei adael*—sef yn gadael ffirwyth ei lafur, a'i ddoethineb, a'i wybodaeth; yn rhan i'r neb ni lafuriodd wrtho—yr hwn o ganlyniad nis gall ei werthfawrogi yn ddyladwy, sef i Rehoboam. *Hyn hefyd sydd wagedd, a gorthrymder mawr*—sydd annhrefn mawr ynddo ei hun, a gofid mawr, yn lle boddlonrwydd, i fy meddwl inau.

Adn. 22. *Canys beth sydd i ddyn*] Pa elw, dedwyddwch, neu foddlonrwydd sydd iddo; o'i holl lafur a gorthrymder ei galon—sef o'i holl lafur corfforol, a'i iug a'i bryder meddwl; yr hwn a gymerodd efe dan haul—gyda'i adeiladau, ac wrth gasglu ei gyfoeth?

Adn. 23. *Canys ei holl ddyddiau sydd orthrymder*] Yn tarddu oddiwrth wahaol achosion; a'i lafur yn ofid—yn yr hwn y dysgwyliodd gael pleser a dedwyddwch: ie, ni chymer ei galon esmwythdra y nos—ar ol poeni ei gorff gyda gorchwylion y dydd, y mae efe yn trallodi ei feddwl yn y nos gyda phryder a gofalon poenus. *Hyn hefyd sydd wagedd*—nid oes yn y cyfan ddim ond gwagder o bob da, ac yn ei le deimlad o bob gofid a thrueni.

Adn. 24. *Nid oes daioni mwy i ddyn*] Mewn ystyr tymborol, nag iddo fwyta ac yfed—sef mwynbau ei drugareddau mewn cymedr-oldeb; a pheri i'w enaid—sef efe ei hun, gael daioni o'i lafur—gael defnyddio a mwynbau

ffirwyth ei lafur er cysar a dedwyddwch iddo ei hun, gan ddiolch i Dduw am dano. *Hyn hefyd a welais*—yn y goleuni egluraf, mai o law Duw yr oedd hyn—sef fod i ddyn gael tzedd i fwynbau ei drugareddau er cysur iddo ei hun, a chalon i ddiolch i Dduw am danynt.

Adn. 25. *Canys pwy a ddichon fwyta*] Yr ymborth a ddyry Duw iddo, yn well na myfi? a phwy a'i mwynhâai o'm blaen i?—pwy a fedr gael yr hwn a fwyty, yn hawddach na myfi? Ond yn lle 'o'm blaen i,' y mae wyth o ysgriflyfrau *Kennicott* a *De Rossi*, yn nghyda'r LXX, y *Syriaeg*, a'r *Arabaeg*, yn darllen 'hebdo ef;' a *Coverdale* a'i cyfieithia, 'Canys pwy a ddichon fwyta, yfed, neu ddwyn unrhyw beth i ben, hebdo ef?' Duw sydd yn rhoddi i ni yr hyn a fwytown ac a yfwn; a thrwy ei fendith ef y gallwn gael lles oddiwrth y defnyddiad o'r hyn a feddwn.

Adn. 26. *Canys i'r dyn a fyddo da yn ei olwg ef*] Hyny yw, 'i'r neb y mwy;' neu, yn fwy cyson a'r wreiddiol, 'i'r hwn a ryngo ei fodd ef;' y rhydd Duw ddoethineb—i gasglu trugareddau y bywyd hwn; a gwybodaeth—pa fodd i'w hiawn-ddefnyddio er gogoniant i'r Rhoddwr haelionus; a llawenydd—yn y mwynhad cymedrol o honynt, cyn belled ag y perthyna i'r corff. *Onid i'r pechadur*—cybwyddlyd a thracwantus, yr hwn sydd yn ei ddigio ef yn barhaus trwy ei annuwioldeb a'i bechodau; y rhydd efe boen i gasglu ac i dyru—cyfoeth, ond heb roddi calon iddo i fwynbau yr hwn a gasglodd; i'w roddi i'r neb a fyddo da gerbron Duw—sef i'r cyfiawn a'r diniwed, Job xxvii. 16, 17, a'r 'neb a fyddo trugarog wrth y tylawd,' Diar. xxviii. 8. *Hyny hefyd sydd wagedd, a gorthrymder ysbryd*—sef fod i ddyn boeni i gasglu a thyru cyfoeth trwy ei oes, ac heb galon ganddo i fwynbau ei gyfoeth, na chael boddlonrwydd a dedwyddwch ynddo i'w gorff na'i enaid.

PEN. III. Adn. 1. *Y mae amser i bob peth*] Y mae Duw wedi rhoddi i ddyn y gyfran hono o barhad a elwir AMSER, neu yr

2 Amser i eni, ac amser i farw; amser i blanu, ac amser i dynu y peth a blawyd;

3 Amser i ladd, ac amser i iachâu; amser i fwrw i lawr, ac amser i adeiladu;

4 Amser i wŷlo, ac amser i chwerrhin; amser i alaru, ac amser i ddawnsio;

5 Amser i dafu cerig ymaith, ac amser i gasglu cerig yn nghyd;

amser i ymgofleidio, ac amser i ochel ymgofleidio;

6 Amser i geisio, ac amser i golli; amser i gadw, ac amser i fwrw ymaith;

7 Amser i rwygo, ac amser i wnïo; amser i dewi, ac amser i ddywedyd;

8 Amser i garu, ac amser i gasâu; amser i ryfel, ac amser i heddwch.

9 Pa fudd sydd i'r gweithydd

yspaid yn mha un y mae holl weithrediadau natur, dynion, ac anifeiliaid, yn cael eu dwyn yn mlaen. Nid yw hyn yn cynwys fod y cwbl a wneir mewn amser yn bethau cyfreithlon, neu fod Duw wedi rhoddi amser i ddyn gyda bwriad i'r holl bethau a wneir ynddo gael eu cyflawni; eithr y meddwl yw, mai Duw a roddes yr amser hwnw yn yr hwn y maent yn cael eu cyflawni. Ni roddes efe amser i ddyn fel y gallai dyn gael *cysteudra* i bechu, er mai efe a roddes yr amser yn yr hwn y mae dyn yn pechu. *Ac amser i bob amcan dan y nef-oedd*—yn yr hwn y dygir oddiamgylch yr holl bethau a wneir ar y ddaear. Nid yw hyn yn cynwys y bydd i bob peth a *amcana* dynion gael ei gyflawni, canys y mae miloedd o'u hancanion a'r nas cyflawnir byth; eithr yn hollol dan lywodraeth Duw, fel nas gall doethineb dyn ei attak, ei estyn, na'i gyfnewid.

Adn. 2. *Amser i eni*] Dyn i'r byd; ac amser i farw—neu fyned allan o'r byd: ond ni sonir yma am amser i fyw, ond oddi am fod dyn yn dechreu marw o'r mynyd y ganed ef. *Amser i blanu*—lysysia a phlanhigion yn y ddaear; ac amser i dynu y peth a blawyd—pan fyddo wedi addfudd neu gyraedd perffectrwydd yn nhymer y cynauaf.

Adn. 3. *Amser i ladd*] Trwy ddamweiniau neu mewn rhyfel; ac amser i iachâu—y neb y tybid ei fod wedi cael clwyf marwol. *Amser i fwrw i lawr*—hen adeiladau, neu ryw bethau ereill; ac amser i adeiladu—rhai newydd yn eu lle.

Adn. 4. *Amser i wŷlo*] O herwydd rhyw dralod neu adfyd; ac amser i chwerrhin—pan fyddo y tralod hwnw wedi myned hebio. *Amser i alaru*—ar ol cyfeillion ymadawedig; ac amser i ddawnsio—o lawenydd, ar ol cyraedd rhyw ddaioni arbenig a fyddo mewn dysgwyliaid, fel y gwnaeth Dafydd, 2 Sam. vi. 14.

Adn. 5. *Amser i dafu cerig ymaith*] O'r hen furiau wrth eu tynu i lawr; ac amser i gasglu cerig yn nghyd—i adeiladu a lwynt furiau neu dai newyddion, adn. 3. Neu gellir deall hyn am amser i dafu cerig o'r fflon dafu, ac amser i gasglu cerig ereill i'r god yn eu lle: neu amser i dafu cerig i faes i'w ddyfetha, ac amser i'w casglu oddiyno drachefn i'w flwythloni: gwel 2 Bren. iii. 25. *Amser i ymgofleidio*—ar ol i hen gyteillion gyfarfod

a'u gilydd; ac amser i ochel ymgofleidic—trwy ddyeithrwrch mewn serchiadau, neu ryw achosion ereill.

Adn. 6. *Amser i geisio*] Cyfoeth, a hynw yn llwyddiannus; ac amser i golli—y cyfoeth hwnw drachefn, trwy aflwyddiant masnachol. *Amser i gadw*—neu ddiogelu arian ar lög; ac amser i fwrw ymaith—neu wario yr arian hynw trwy wastraff, neu mewn rhoddion ac elusenau. Ond gellir cymhwysu y geiriau hyn at amser i gadw unrhyw beth arall a fyddo genym, ac at amser ag y byddai yn well ei fwrw ymaith, megys y bwriwyd y gwenith i'r môr o'r llong lle yr oedd Paul, Act. xxvii. 38. Gellir dywedyd yr un peth am yr holl adnodau ereill yma, lle y sonir am amser.

Adn. 7. *Amser i rwygo*] Y dillad mewn galar, Gen. xxxvii. 29, 34; ac amser i wnïo—y rhywygiad hwnw drachefn. *Amser i dewi*—dan dralodion chwerron, fel y gwnaeth Aaron, Gal. x 3; ac amser i ddywedyd—yn dda am enw neu weithredoedd Duw, fel y gwnaeth Job, pen. i. 21.

Adn. 8. *Amser i garu*] Duw, a charu ein gilydd; ac amser i gasâu—Duw a dynion, er nad i hyn y rhoddoed Duw ei amser gwerthfawr i ddyn: gwel ar adn. 1. *Amser i ryfel*—pa un bynag ai cyfreithlon ai anngyfreithlon a fyddo; ac amser i heddwch—bob yn ail a rhyfel, fel y mae wedi bod o ddyddiau Abraham hyd heddyw, Gen. xiv. 14. Ond beth oedd amcan y Pregethwr wrth grybwyll y pethau hyn? Hyn ond oddid, sef dangos *gwagedd* bywyd oddiwrt h ei amgylchiadau *cyfnewidiol*. Eithr tybia rhai, (1) Ei fod yma yn gosod allan brif ddygwyyddiaid amser gyda golwg ar ddyd, o'i enedigaeth i'w farwolaeth. (2) Tybia rhai o'r Tadau eu bod yn gweled yn y pethau a enwyd uchod holl amgylchiadau a helyntu yr eglwys Gristionogol. (3) A barna yr Iuddewon eu bod yn gosod allan holl amgylchiadau eu cenedl eu hunain, o enedigaeth Abraham hyd y pryd hwn.

Adn. 9. *Pa fudd sydd i'r gweithydd yn yr hyn y mae yn llofurio?*] Fel pe dywedasai, Pa wir elw, neu pa ddedwyddwch sylweddol, a geir oddiwrt holl lafur dyn yn y fuchedd hon, yn enwedig pan yr ystyriom fod holl ddygwyyddiaid bywyd tusaes i gylch llywodraeth dyn, ac nas gall efe wneyd na mwynhau dim wrth ei ewyllys ei hun, ond fel y gwelo Duw yn dda? Neu pa ddedwyddwch a boddlonrwydd i'w enaid a gaiff dyn yn ei lafur *corfforol*?

yn yr hyn y mae yn llafurio?

10 Mi a welais y blinder a roddes Duw ar feibion dynion, i ymfino ynddo.

11 Efe a wnaeth bob *peth* yn *dêg* yn ei amser : efe a osododd y byd hefyd yn eu calonau hwy, fel na allo dyn gael allan y gwaith a wnaeth Duw o'r dechread hyd y diwedd.

12 Mi a wn nad *oes* dim da ynddynt, ond bod i *ddynt* fod yn llawen, a gwneuthur daioni yn ei fywyd.

Adn. 10. *Mi a welais y blinder*] Y llafur, y drafferth, neu y gwaith ; a *roddes Duw ar feibion dynion*—fel en rhan a'u dyledsydd ; i *ymfino ynddo*—neu ymboeni gydag ef, fel y byddo iddynt yn barhaus amlygu eu diwdrwydd, eu hamynedd, a'u hymostyngiad i ewyllys Duw ; ac fel y gallont hefyd ganfod gwagedd pob beth daearol, a dyfod i geisio dedrwyddwch mewn pethau mwy sylweddol a pharhaus.

Adn. 11. *Efe a wnaeth bob peth yn dêg yn ei amser*] Mewn rhagluniaeth, yn gystal ag mewn creadigaeth ; ac y mae yn parhau i wneuthur felly o hyd. Tybia rhai fod hyn yn cael ei chwaneu yma fel diheurad neu esgusawd dros ragluniaeth Duw, yn ngwynneb y cymysgedd, y dyryswech, a'r anhreith ag sydd yn y byd. Y mae yma lawer o bethau yn ymddangos i feddlw bâs dyn fel yn anweddus ac afreolaidd, megys pan fyddo yr annuwiol yn llwyddo, a'r cyfiawn yn cael ei orthrymu ; ond pan y bydd i ni berffiaith ddeall gweithredoedd Duw, a gweled i ddybenion mawrion ef yn y cwbl, bydd i ni gael ein llwyr argyhoeddi mai da y gwnaeth efe bob peth. 'Pryd hyn bydd holl droion yr yrfa, yn siriol foddloni fy mryd.' *Efe a osododd y byd hefyd yn eu calonau hwy*—neu, fel y mae *Boothroyd* yn ei ddarllen, 'efe a osododd yn eu calonau hwynt i *arolygu* y byd ; fel na allo dyn gael allan y gwaith a wnaeth Duw o'r dechread hyd y diwedd'—fel na allo dyn ddeall yr oll o weithredoedd Duw mewn natur, rhagluniaeth, a gras, heb iddo felly arolygu y byd. Ond yn lle 'efe a osododd y byd,' y mae *Clarke* ac ereill yn cyfieithu *haolam*, 'yr amser cuddiedig hwnw, y cyfnod *tudraw* i hwn, TRAWYDDOLDEB.' Ac efe a chwanağa, 'Yr iawn gyfieithiad o'r frawddeg hon yw y canlynol : 'Efe a osododd y *tragyddoldeb* hwnw hefyd yn eu calon hwy, heb yr hwn nis gallai dyn gael allan y gwaith a wnaeth Duw o'r dechre i'r diwedd.' Y mae Duw wedi planu y meddylldrych o *dragyddoldeb* yn dâwfyn yn nghalon pob dyn ; ac y mae pob dyn ystyriol yn canfod fod holl weithrediadau Duw yn cyfeirio at y parhad diddiwedd hwnw : gwel adn. 14. Ac yn nhragwyddoldeb yn unig y bydd dyn yn alluog i ddarganfod bwriad Duw yn yr amrywiol weithredoedd y rhai a wnaeth efe.'—CLARKE ; ac felly *Peters, Desvœux, Gausset, Hales, &c.*

13 A bod i bob dyn fwyta ac yfed, a mwynhau daioni o'i holl lafur ; rhodd Duw yw hyny.

14 Mi a wn beth bynag a wnel Duw, y bydd hyny byth ; ni ellir na bwrw ato, a thynu dim oddiwrrtho : ac y mae Duw yn gwneuthur *hyn*, fel yr ofnai *dyuion* ger ei fron ef.

15 Y peth a fu o'r blaen sydd yr awrhon ; a'r peth sydd ar ddyfod a fu o'r blaen : Duw ei hun a ofyn y peth a aeth heibio.

16 ¶ Hefyd mi a welais dan yr

Adn. 12. *Mi a wn nad oes dim da ynddynt*] Sef yn mhethau y byd hwn ; ond bod i *ddynt* fod yn llawen—yn y defnyddiad a'r mwynhad cymedrol o honnynt ; a *gwneuthur daioni yn ei fywyd*—trwy gyfranu o honnynt i'r tylawd a'r anghienur, a hyny er gogoniant i Dduw.

Adn. 13. *A bod i bob dyn fwyta ac yfe*] Mewn cymedroldeb ; a *mwynhau daioni o'i holl lafur*—ei fwyndau mewn rhan ei hun yn ei fywyd, ac nid ei adael oll i ereill ar ei ol. *Rhodd Duw yw hyny*—yw trugareddau natur, a chalonn i'w mwynhau mewn cymedroldeb er gogoniant i Dduw.

Adn. 14. *Mi a wn beth bynag a wnel Duw, y bydd hyny byth*] Fod ei holl gynghorau a'i arfaethau ef yn anghyfnewidiol a thragwyddol : ni ellir nu bwrw ato, na thynu dim oddiwrrtho—hyny yw, ni all dynion beri un cytnewidiad yn nghynghor doeth a da Jehôfa, trwy ei eangau na'i gyfyngau : ac y mae Duw yn gwneuthur *hyn*, fel yr ofnai *dyuion* ger ei fron ef—fel, wrth ystyried ei allu a'i ddoethineb ef yn nhrefnodiad a llywodraethiad pob peth, y dysgai dynion ymddiried ynddo ac ymstwg iddo, gan ofni ei ddigio, a myfyrio pa wedd y rhyngent fodd iddo ef yn mhob peth. Casglia *Clarke* oddiwrrth yr adnod hon y bydd i'r holl greadigaeth anifeilaidd gael ei hadfer i fodolaeth trwy adgyfodiad yn y dydd diweddaf. Y neb a allo dderbyn hyn, derbyniad.

Adn. 15. *Y peth a fu o'r blaen, sydd yr awrhon*] Y mae yr haul a'r lloer a'r ser, dydd a nos, haf a gauaf, yn parhau yn awr fel yr oeddynt er dechre y byd ; a'r peth sydd ar ddyfod—yn nhrefn natur, a fu o'r blaen—lawer gwaith, am mai olyniaid parhaus o'r un pethau yw y cwbl a fu, sydd, ac a ddaw : gwel ar pen. i. 9, 10. *Duw ei hun a ofyn y peth a aeth heibio*—fod iddo ddychelydd eilwaith ac eilwaith yn ei drefn briodol a naturiol : neu, 'Duw a adnewyddia y peth a aeth heibio,' fel y gellir cyfieithu y wreiddiol. Fel hyn, er anghraifft, y mae y diffygiantau ar yr haul a'r lloer, ac ymddangosiadau y planedau a'r ser gwibiog, y rhai a welson ni a'n tadau yn eu tro, i ddygwyyd eto yn olynol hyd ddiwedd amser, a hyny trwy drefniad doeth yr Hollalluog, yr hwn a bair *adnewyddiad* neu ail ymddangosiad o honnynt.

Adn. 16. *Hefyd mi a welais dan yr haul le barn*] Neu lys barn ; *yno yr oedd annuwioldeb*—yn cael ei gario yn mlaen gan farnwyr

haul le barn, yno yr *oedd* annuwioldeb; a lle cyfiawnder, yno yr *oedd* anwiredd.

17 Mi a ddywedais yn fy nghalon, Duw a farn y cyfiawn a'r anghyfiawn: canys *y mae* amser i bob amcan, ac i bob gwaith yno.

18 Mi a ddywedais yn fy nghalon, am gyflwr meibion dynion; fel y byddai i Dduw eu hamlygu hwynt, ac y gwelent hwythau mai anifeiliaid ydynt.

19 Canys dygwydd meibion dynion a ddygwydd i'r anifeiliaid; yr un dygwydd sydd iddynt: fel y mae y naill yn marw, felly y bydd marw

y llall; i.e., yr un chwythad sydd i ddwynt oll; fel nad oes mwy rhagoriaeth i ddyn nag i anifel: canys gwagedd *yw* y cwbl.

20 Y mae y cwbl yn myned i'r un lle: pob un sydd o'r pridd, a phob un a dry i'r pridd eilwaith.

21 Pwy a edwyn ysbyrd dyn yr hwn sydd yn esgyn i fyny, a chwythad anifel, yr hwn sydd yn disgyn i waered i'r ddaear?

22 Am hyny mi a welaf nad oes dim well nag i ddyn ymlawenyachu yn ei weithredoedd ei hun; canys hyn *yw* ei ran ef: canys pwy a'i dwg ef i weled y peth fydd ar ei ol?

annuwiol: a lle *cyfiawnder*—lle y gallai yr hwn a gamyhuddid ddysgwyl cyfiawnder; *yno yr oedd anwiredd*—yn cael ei haeru a'i dyogu gan au-dystion. Hyn sydd reswm arall i brofi gwagedd y pethau daerol, neu yr amhosibilrwydd o gael y dedwyddwch a ddysgwylia dynion yn y byd hwn, am fod gormes ac anghyfiawnder yn fynu yma hyd yn nod mewn llysoedd cyfiawnder!

Adn. 17. *Mi a ddywedais yn fy nghalon*] Yn yr olwg ar yr anghyfiawnder hwn, *Duw a farn y cyfiawn a'r anghyfiawn*—gan ryddhau y diniwed a chondemnio yr euog: *canys y mae amser i bob amcan ac i bob gwaith yno*—sef amser i chwilio gweithredoedd a meddyliau dynion gerbron brawdle Duw. Amcan y geiriau hyn yw creu dychryn yn meddyliau barnwyr anghyfiawn, a dyddanu meddyliau dynion da, y rhai a orthrymir ganddynt.

Adn. 18. *Mi a ddywedais yn fy nghalon am gyflwr meibion dynion*] Sef cyflwr y barnwyr anghyfiawn uchod ond odid, adn. 16; *fel y byddai i Dduw eu hamlygu hwynt*—ar gyhoedd yn nydd mawr y farn gyffredinol, nid yn nraig i ereill, ond iddynt eu hunain hefyd; *ac y gwelent hwythau*—yn ngoleuni y farn, *mai anifeiliaid ydynt*—eu bod wedi eu darostwng eu hunain mor isel ag anifeiliaid trwy eu harferion creulon a gorthryms. Neu, fel y mae awdwr y *Cohleth* yn ei chyfieithu, 'Mi a ddywedais yn fy nghalon, wrth ystyried cyflwr meibion dynion, O na byddai i Dduw eu goleuo hwynt, a pheri iddynt weled eu bod hwy eu hunain yn gyffelyb i anifeiliaid!'

Adn. 19. *Canys dygwydd meibion dynion a ddygwydd i'r anifeiliaid*] Direswm ar hyd y maesydd; *yr un dygwydd sydd iddynt*—y mae y naill fel y llall yn ddarostyngedig i ddamweiniau, poenan, a marwolaeth. *Fel y mae y naill yn marw, felly y bydd marw y llall*—yr un mor sicr, a'r un mor gyflym a phoenus: *i.e., yr un chwythad sydd iddynt oll*—y maent yn anadlu yr un awyr, ac yn yr un modd; a phan beidiant ag anadlu, hwy a drengant fel en gilydd: *fel nad oes mwy rhagoriaeth i ddyn nag i anifel*—o ran bywyd ei gorff yn y byd hwn; canys am ddyn o ran ei gorff yn unig y sonir yma, ac nid am dano fel

ysbyrd anfarwol, neu ddeiliad byd arall. *Canys gwagedd yw y cwbl*—i.e., gwagedd hollol, a gorthrymder ysbyrd; canys y mae yr ystyr iaeth fod dyn ac anifel yn gydwestad â'u gilydd yn eu gweithredoedd, adn. 18. yn n'ill eu bywyd, ac yn eu marwolaeth, yn dra anghydweddol â chyflwr o ddedwyddwch a bodlonrwydd meddwl.

Adn. 20. *Y mae y cwbl*] Dyn ac anifel, *yn myned i'r un lle*—o ran eu cyrff: *pob un sydd o'r pridd*—yn eu dechread, Gen. i. 24, a ii. 7, 19; *a phob un a dry i'r pridd eilwaith*—pan drengant, Gen. iii. 19, Salm civ. 29, Preg. vii. 7.

Adn. 21. *Pwy a edwyn ysbyrd dyn, yr hwn sydd yn esgyn i fyny*] 'At Dduw yr hwn a'i rhoes ef,' pen. xii. 7; *a chwythad anifel, yr hwn sydd yn disgyn i waered i'r ddaear*—o'r hon y cafodd yntau ei gorff a'i ysbyrd? Fel hyn ni a welwn fod tynial naturiol ysbyrd dyn ac anifel tua'r fan lle y cawsant eu dechread. Y mae yn eglur fod Solomon yma yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng ysbyrd dyn ac ysbyrd neu chwythad anifel; nid yn wir mewn ENW, canys gwyddom fod y gair *ruach* yn arwyddoedd *ysbyrd* neu *anadl*; ond mewn GWEITHRED, neu yn yr hyn a gymer le yn eu marwolaeth hwy. Fel pe dywelasai, 'Er fod tebygolrwydd mawr rhwng cyrff dynion ac anifeiliaid, eto y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng eu *hysbrydoedd* hwy; canys yn eu marwolaeth y mae chwythad neu ysbyrd yr *anifel* yn darfod gyda'i gorff, tra y mae ysbyrd *dyn*, fel bôd anfarwol, yn esgyn i fyny at Dduw, yn lle disgyn i waered i'r ddaear. Ac eto, er yr holl wahaniaeth hwn, pwy a *edwyn* ysbyrd dyn o ran ei ansawdd anfateriol? neu pwy sydd yn ei *ystyried* ef yn ddyladwy, fel ag i ymbarotio erbyn ei oll-yngiad allan o'r corff yn angan?

Adn. 22. *Am hyny*] Gan fod dyn, o ran ei gorff, i farw yn ebrwydd yr un modd a'r anifel; *mi a welaf nad oes dim well*—tuag at gael dedwyddwch daerol yn y fuchedd hon; *nag i ddyn ymlawenyachu yn ei weithredoedd ei hun*—trwy fwythau ffirwyth ei lafur mewn cymedroldeb a llawenydd, a chydychalon ddi-olchgar i Dduw ac ei drugareddau, gan ym-

PENNOD IV.

FELLY mi a ddychwelais, ac a edrychais ar yr holl orthrymderau sydd dan yr haul: ac wele ddagrau y rhai gorthrymedig heb neb i'w cysuro; ac ar law eu treiswyr yr oedd gallu, a hwythau heb neb i'w cysuro.

2 A mi a ganmolais y meirw y rhai sydd yn barod wedi marw, yn fwy na'r byw y rhai sydd yn fyw eto.

3 Gwell na'r ddau yw y neb ni bu erioed, yr hwn ni welodd y gwaith blin sydd dan haul.

4 ¶ A mi a welais fod pob llafur,

drechu hefyd i lesâu a llawenychu pawb o'i amgylch. *Canyis hyn yw ei ran ef*—sef cymaint ag a fedro ei fwyndau ei hun, a'i roddi i ereill yn ei fywyd; oblegid yr hyn a edy efe ar ei ol, nid ei ran ef fydd hyn, ond rhan rhai ereill. *Canyis*—wedi iddo farw, *pwyc a'i dwg ef*—yn ol i'r ddaear, *i weled y peth fydd ar ei ol*—i weled pwy fydd yn meddiannu ei eiddo, a pha ddefnydd a wneir o hono?

PEN. IV. Adn. 1. *Felly mi a ddychwelais*] I ail ystyried amgylchiadau dynion yn y tuchedd hon; ac a edrychais ar yr holl orthrymderau sydd dan yr haul—y rhai y mae dynion yn eu dyoddef yn eu personau, eu meddiannau, neu eu henw da: ac wele ddagrau y rhai gorthrymedig—yn rhedeg yn hidl ar hyd eu gruddiau; heb neb i'w cysuro—dan eu dyoddefuad mawrion: ac ar law eu treiswyr yr oedd gallu—i'w gorthrymu yn fwy fyth; a hwythau heb neb i'w cysuro—trwy fod pawb yn ofth sefyll o'u plaid, rhag tytu gwg y treiswyr a'r gorthrymwy'r creulon hyn!

Adn. 2. *A mi a ganmolais y meirw*] A'u cyfrifais hwy yn fwy dedwydd; y rhai sydd yn barod wedi marw—ac felly wedi dianc o gyraedd eu gorthrymwy'r; yn fwy na'r rhai byw, y rhai sydd yn fyw eto—ac felly yn parhau i gael eu gorthrymu, neu yn ddarostyngedig i hyn. Nid yw y Pregethwr yn cyfeirio yma at gyflwr tragwyddol heb, ond yn unig at ymglychiadau dynion yn eu cysylltiad â'r bywyd hwn.

Adn. 3. *Gwell na'r ddau yw y neb ni bu erioed*] Yn byw ar y ddaear; yr hwn ni welodd y gwaith blin sydd dan haul—ond a fu farw yn y brw cyn ei eni; canys ni chafodd hwnw brofaed o'r trueni a deimlodd y rhai sydd eisioes wedi marw, a'r hwn y mae y rhai byw o hyd yn ei ddyoddef.

Adn. 4. *A mi a welais fod pob llafur*] Pob gorchwyl llwyddiannus o eiddo dyn; a phob uniondeb gwaith dyn—sef pob rhinwedd a daioni ynddo; yn peri iddo genfigen gan ei gymydog—am ei fod yn rhagori arno ef, ac yn ddyn da a llwyddiannus yn holl waith ei ddwyllaw. *Hyn hefyd sydd wagedd a gor-*

a phob uniondeb gwaith dyn, yn peri iddo genfigen gan ei gymydog. Hyn hefyd sydd wagedd a gorthrymder ysbryd.

5 Y ffol a wasg ei ddwyllaw yn nghyd, ac a fwyty ei gnawd ei hun.

6 Gwell yw llonaid llaw trwy lonyddwch, na llonaid dwy law trwy flinder a gorthrymder ysbryd.

7 ¶ Yna mi a droais, ac a welais wagedd dan yr haul.

8 Y mae un yn unig, ac heb ail; ie, nid oes iddo na mab na brawd; ac eto nid oes diwedd ar ei lafur oll: ie, ni chaiff ei lygaid ddigon o gyfoeth; ni ddywed efe, I bwy yr ydwyf yn llafurio, ac yn difuddio

thrymder ysbryd—hyn yw, nid oes dim boddlonrwydd meddwl neu ddedwyddwch enaid i'w gael mewn llafur ennillfawr, nac mewn uniondeb bywyd.

Adn. 5. *Y ffol a wasg ei ddwyllaw yn nghyd*] Neu a'u 'pletha' i ddiogi a chysgu yn lle gweithio, Diar. vi. 10; canys wrth weled fod diwydrwydd yn cael ei ddylyn gan genfigen, adn. 4, efe a red i'r eithafon gwrthwynebol: ac a fresty ei gnawd ei hun—a'i dwg ei hun i dylodi, trwy yr hyn y euria ei gnawd ef ymaith o eisiau bara.

Adn. 6. *Gwell yw llonaid llaw*] O ddâ y byd hwn, trwy lonyddwch—heb flinder na gorthrymder; na llonaid dwy law—gymaint arall, neu lawer iawn, trwy flinder a gorthrymder ysbryd—sef trwy flinder a gofid wrth ei ennill, neu wrth ei fwyndau neu ei gadw ar ol ei ennill. Gall y rhai hyn fod yn eiriau y diog uchod, yn cael eu llefaru mewn amddiffyniad i'w ddiogi: fel pe dywedasai, Gan fod pawb a lafuriant i gasglu cyfoeth yn wrthddrychau cenfigen, ac wedi eu gosod yn nôd i'r yspeillydd, gwell yw gwneithur fel yr wyf fi yn gwneyd, sef ennill ychydig yn unig, a mwynhau eu dyrnaid mewn lonyddwch. Neu gall y geiriau fod yn sylw o eiddo Solomon, yr hwn a draetha yr un syniad mewn manau ereill: gwel ar Diar. xv. 16, a xvi. 8, a xvii. 1.

Adn. 7. *Yna mi a droais*] Eilwaith o ran fy meddwl, ac a welais wagedd dan yr haul—o fath arall, yr hwn a ddarlunir yn yr adnod nesaf.

Adn. 8. *Y mae un yn unig, ac heb ail*] Yr hwn ni fedd heb ond ei hunan i ofalu am dano; ie, nid oes iddo na mab na brawd—i berchenog ei eiddo ar ei ol; ac eto nid oes diwedd ar ei lafur oll—y mae yn parhau i lafurio mor galed a diwyd a phe byddai ganddo denlu lluosog i'w cynal. *Ie, ni chaiff ei lygaid ddigon o gyfoeth*—hyd yn nod pe cai efe gymaint ag a wel; ac ni cheiff yntau ddim budd oddiwrtho heblaw ei weled, pen. v. 11. *Ni ddywed efe*—un amser ynddo ei hun, mewn ffordd o huan-ymboliad; *I bwy yr ydwyf yn llafurio*—gan nad oes genyf wraig, na phlant, na brawd,

fy enaid oddiwrth hyfrydwech? Hyn hefyd sydd wagedd, a dyma drafferth blin.

9 ¶ Gwell yw dau nag un, o achos bod iddynt wobr da am eu llafur.

10 Canys os syrthiant, y naill a gyfyd y llall: ond gwae yr unig; canys pan syrthio efe, nid oes ail i'w gyfodi.

11 Hefyd os dau a gydorwedddant, hwy a ymgynhesant; ond yr unig, pa fodd y cynhesa efe?

i feddiannu fy eiddo ar fy ol; ac yn difuddio fy enaid oddiwrth hyfrydwech—yn fy amddifadu fy hun o'r cysuron a'r mwyniannau a ganiataodd Duw i mi? Nid ystyria efe am fynyd a ydyw yn ddoeth iddo gymeryd yr holl drafferth yma, a dyoddef yr holl flinder a'r caledi llyn, a hyny er mwyn estron, neu elyn fe allai, yr hwn a fedd firwyth ei holl lafur, ei ddiwydrwydd, a'i drafferthion ef! *Hyn hefyd sydd wagedd*—neu ffolineb o'r mwya; a dyma drafferth blin—trwy ei fod yn llafur ac yn flinder i gyd, heb ddim hyfrydwech ynddo.

Adn. 9. *Gwell yw dau nag un* Sef unrhyw ddau, megys gŵr a gwaig, dau frawd, dau gyfaill, neu ddau gymydog a allont gyd-dynu yn dda. Ar ol son am ffolineb ac annedwyddwch yr unig, y mae Solomon yma yn myned rhagddo i son am yr hyfrydwech a'r fantais o fywdd cymdeithasol. *O achos bod iddynt wobr da am eu llafur*—trwy fod dau yn cydlafurio. Gall dau wneyd mwy o waith nag un, a rhyw fath o waith nad allai un byth ei gyflawni; ac heblaw hyny, bydd y naill yn siriol meddwl y llall, fel ag i alluogi pob un i weithio yn fwy egniol a llawen.

Adn. 10. *Canys os syrthiant, y naill a gyfyd y llall* Os syrthia un o honynt i'r ffos, bydd y llall yno yn barod i'w gyfodi: *ond gwae yr unig*—mewn amgylchiad felly; *canys pan syrthio efe, nid oes ail i'w gyfodi*—ond rhaid iddo naill ai trengu yno, neu ddyfod oddiyno ei hun.

Adn. 11. *Hefyd os dau a gydorwedddant* Yn yr un gwely ar noson oer; *hwy a ymgynhesant*—yn ngwres eu gilydd: *ond yr unig, pa fodd y cynhesa efe*—mor ebrwydd, ac mor effeithiol? Y mae yn wir y cynhesa yr unig mewn gwely clyd; ond nid mor lawdd, nac i'r fath raddau, ag y cynhesa dau.

Adn. 12. *Ac os cryfach fydd un nag ef* Os cryfach fydd ei elyn na'r dyn unigol hwnw; *dau a'i gwrthwynebant yntau*—neu a orchfygant y gelyn hwnw: *a rhaff deircaine ni thorir ar frys*—os torir hi o gwbl. Y meddwl yw, os bydd gan ddyn nid yn unig un, ond dau neu fwy i'w gynorthwyo, y bydd efe o gymaint a hyny yn fwy cryf yn ngwynebu unrhyw elyn a ymosodo arno, ac am hyny yn fwy calonog a dedwydd. Fel llyn hefyd, yn ein milwriaeth ysbrydol, gall y naill fod yn gynorthwy i'r llall; ac y mae y cysur a geir yn

12 Ac os cryfach fydd un nag ef, dau a'i gwrthwynebant yntau; a rhaff deircaine ni thorir ar frys.

13 ¶ Gwell yw bachgen tylawd a doeth, na brenin hen ac ynydd, yr hwn ni fedr gymeryd rhybydd mwyach:

14 Canys y naill sydd yn dyfod allan o'r carchardy i deyrnasu, a'r llall wedi ei eni yn ei frenhiniaeth yn myned yn dylawd.

15 Mi a welais y rhai byw oll y rhai sydd yn rhodio dan yr haul,

nglymundeby saint, yn ail i'r cysur a geir mewn cymundeby Dau.

Adn. 13. *Gwell yw bachgen tylawd a doeth* A osoder i deyrnasu yn ei icuenetid; hyny yw, y mae yn well ynddo ei hun, ac yn well hefyd i'w ddeiliaid; *na brenin hen ac ynydd*—yr hwn, er yn hybarch trwy benaent a gwaedoliaeth, na fedd synwyr i'w lywodraethu ei hun na'i ddeiliaid; *yr hwn ni fedr gymeryd rhybydd mwyach*—gan ei gyngoriaid yn ei lys, trwy ei fod yn rhy hen ac yn rhy ffyl.

Adn. 14. *Canys y naill sydd yn dyfod allan o'r carchardy i deyrnasu* Fel y bu mewn effaith gyda Joseph, Mordecai, ac ereill: *a'r llall wedi ei eni yn ei frenhiniaeth*—yr hwn, fel mab hynaf y brenin, oedd yn etifedd i'r goron o'r dydd y ganed ef; *yn myned yn dylawd*—yn ddiarhydedd ac yn ddiawdurdod. Dyry hanesiaeth i ni lawer o anghreiffitiau o ddynion cyffredin yn cael eu dyrechafu i awdurdod brenhinol, ac o frenhinoedd yn cael eu darostwng i'r swyddau isaf, ac i ddamod o fara. Esgynodd Agrippa ei hun i orsedd Israel ar ol bod yn hir mewn carchar; gwel Henaf. Josephus, llyfr xviii. pen. 8. Ond y mae y *Targum* yn cymhlwysu y ddwy adnod uchod at Abraham, gan feddwl mai ato ef y cyfeiriaol Solomon:—'Yr oedd Abraham yn fuchgen tylawd teirblwydd oed; ond yr oedd ganddo ysbryd proffwydoliaeth, ac efe a wrthododd addoli yr eilunod a osodasai yr hen frenin ynydd Nimrod i fyny: am hyny Nimrod a'i bwriodd ef i'r ffwrn dân. Eithr yr Arglwydd trwy wyrth a'i gwaredodd ef. Eto nid oedd gwybodaeth gan Nimrod, ac nifynai ei rhybyddio. Yna Abraham a adawodd wlad yr eilunaddolwyr, lle y *carcharesid* ef, ac a ddaeth ac a deyrnasodd ar wlad Canaan; a Nimrod a aeth yn dylawd yn v byd hwn.' Dyma y flraith at yr hon y tybiai yr hen rabiniaid fod Solomon yn cyfeirio yma.

Adn. 15. *Mi a welais y rhai byw oll* Yn fy meddwl; *y rhai sydd yn rhodio dan yr haul*—efe a gyfeiria yma at y genhedlaeth hōno yn unig ag ydoedd yn fyw y pryd hyny, fel y gwna efe yn yr adnod nesaf at y rhai a fuont o'u blaen hwy, ac a ddeuent ar eu hol. Hyny yw, efe a welodd mai tueddffryd cyffredin y werin yn mhob gwlad yw bod yn ansefydlog ac anwadal, gan ffino yn fuan ar eu llywodraethwyr, a dymuno cyfnewidid yn y llywodraeth. *Gyda'r ail mab, yr hwn a saif yn*

gyda'r ail mab yr hwn a saif yn ei le ef.

16 Nid oes dyben ar yr holl bobl, *sef* ar y rhai oll a fu o'u blaen hwynt, a'r rhai a ddel ar ol, ni lawenychant ynddo: gwagedd yn ddiau a blinder ysbryd yw hyn hefyd.

PENNOD V.

GWYLIA ar dy droed pan fydd-ech yn myned i dŷ Dduw, a

ei le ef—hyny yw, efe a welai eu bod oll yn pleidio ail fab y brenin. yr hwn a fynai gael yr orsedd oddiar ei frawd hynaf; neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, efe a welai eu bod yn sefyll gyda'r mab, yr hwn a geisiai ddiorseddu ei dat, fel y ceisiodd Absalom ddiorseddu Dafydd, 2 Sam. xv. Gwyddai Solomon mai arfer cyffredin dynion ansefydlog yw anfoddloni i'w brenin a'i gyfreithiau fel hyn, gan fod yn barod i withryfela yn ei erbyn ef ar yr esgus lleiaf, ac i osod arall ar yr orsedd yn ei le ef, gan feddwl y gwna hwnw well brenin. Y mae y *Targum* yn cyniwyso hyn at achos *Jeroboam a Rehoboam*; a gallai fod Solomon yma yn cael rhagolwg ar yr hyn a gymerai le ar ol iddo ef farw.

Adn. 16. *Nid oes dyben ar yr holl bobl* Nid oes diwedd ar eu berw afonydd hwy yn mhob oes; *sef ar y rhai oll a fu o'u blaen hwynt*—yn byw ar y ddaear o flaen y genhedlaeth hon; *a'r rhai a ddel ar ol*—yn yr oes neu y genhedlaeth nesaf. Fel y mae y tŷ presenol, felly yr oedd eu tadau, ac felly y bydd eu blant. *Ni lawenychant ynddo*—ni foddlonant yn hir i'w brenin, pwy bynag fydd hwnw; eithr codant yn ei erbyn ef, ac i bleidio un arall yn ei le, fel y gwnaeth eu tadau o'u blaen. *Gwagedd yn ddiau a blinder ysbryd yw hyn hefyd*—hyny yw, nid yw y dedwyddwch a'r boddlonrwydd meddwl hwnw ag y cyfeiriwyd ato i'w gael dan haul, hyd yn nod yn y swyddau uwchaf a mwyaf anrhydeddus: ni feddiennir ef mewn un oes, gan y brenin na'i ddeiliaid.

PEN. V. Adn. 1. *Gwylia ar dy droed pan fydddech yn myned i dŷ Dduw* I'r deml neu y synagog gynt, ac i eglwys neu gapel eto. Y meddwl yw, Gwylia ar dy galon, dy feddyliau, dy ddybenion, a'th agweddau, nid yn unig wrth fyned i addoli yr Arglwydd yn ei dŷ, ond tra y byddi yno, ac wrth ddychwelyd adref oddiyno. Yr oedd y patrieirch yn nesáu at alloran Duw, a'r offeiriad yn gweini yn y deml, bob amser yn droednoeth, am yr ystyriant fod y dwyfol bresenoldeb yn santeiddio y lle; a gorchymynodd Duw i Moses a Josua ddyosg eu hesgidiau oddiam eu traed, am fod y fan lle y safent yn ddaear santeidd: gwel ar Exod. iii. 5, Jos. v. 15. Peth gwrthun iawn ya y dyddiau hyn yw gweled dynion yn rhuthro gyda thrwst i dŷ Dduw, a'u hatam eu penau, ac yno yn eistedd ar y meinciau, gan

bydd barotach i wrandaw nag i roi aberth ffyliaid: canys ni wyddant hwy eu bod yn gwneuthur drwg.

2 Na fydd *ry* brysnr a'th enau, ac na frysied dy galon i draethu dim gerbron Duw: canys Duw sydd yn y nefoedd, a thithau sydd ar y ddaear; ac am hyny bydded dy eiriau yn anaml.

3 Canys breuddwyd a ddaw o drallod lawer: ac ymadrodd y ffol o laweroedd o eiriau.

lygad-rythu o'u hamgylch, yn lle penlinio o barch i'r hwn biaf y tŷ, ac i ofyn am ei fendith ef ar y gwasanaeth! Ddarllenwyd, os wyt ti yn euog o hyn, na wna felly mwyach. *A byddi barotach i wrandaw*—gair Duw, ac i ufyddhau iddo; *nag i roi aberth ffyliaid*—y tath ag yr arferfa dynion ffol a drygonus ei roddi, y rhai a dybiant y gallant foddloni yr Arglwydd gyda'u laberthau neu eu defodau allanol, neu gyda'u sel benboeth dros y dull hwn neu arall o addoli, heb wir utydd-dod, duwioldeb, a santeiddrwydd. *Canys ni wyddant hwy eu bod yn gwneuthur drwg*—with roddi addoliad cnawdol felly i Dduw, yn lle un ysbrydol a gwirioneddol. Ar ol awgrymu o'r blaen mai yr nniig feddyginiaeth rhag gwagedd dynol yw teimlad dyladwy o grefydd, y mae Solomon yn myned rhagddo yn awr i drin y mater pwysig hwn yn fanylach; a clawnd gandro rai cyfarwyddiaidau rhagorol gyda golwg ar yr iawn gyflawniad o'r wasanaeth ddwyfol, natur gweddli gyhoeddus a meddyliol, y perygl o addunedu yn fyrbwyll, a llawer o bethau buddiol ereill.

Adn. 2. *Na fyddi ry brysnr a'th enau* Gwylia nid yn unig ar dy droed, ond hefyd ar dy enau, pa beth a leferi yn nhŷ Dduw; *ac na frysied dy galon i draethu dim gerbron Duw*—heb i ti feddwl am dano yn ddirifol ac ystyriol yn mlaenllaw. *Canys Duw sydd yn y nefoedd*—hyny yw, sydd yn anfeidrol mewn mawredd, santeiddrwydd, a gwybodaeth; a *thithau sydd ar y ddaear*—yn bryf gwael, egwan, ac annheilwng; ac am hyny dylit nesáu i'w wyddfod ef gyda gwlder a pharchiedig ofn. *Ac am hyny bydded dy eiriau yn anaml*—heb fod yn faldorddus neu ofer-siaradas yn dy weddiau. Nac arfer ailadroddiaid mynych o'r un geiriau, na lluosogrwydd afreidiol o eiriau gwahanol, i'r dyben i estyn a chwyddo hyd dy weddi, fel pe ddygwylit gael dy wrandaw am dy aml eiriau, neu fel pe byddent yn angenrheidiol i hysbysu dy angen a'th drueni i Dduw: gwel ar Mat. vi. 7.

Adn. 3. *Canys breuddwyd a ddaw o drallod lawer* Y mae dynion yn fynych yn breuddwydio y nos am yr hyn oedd yn trallothi neu yn llenwi eu meddyliau y dwd o'r blaen; *ac ymadrodd y ffol o laweroedd o eiriau*—hyny yw, lle bynag y byddo llawer o eiriau, bydd rhyw ymadrodd ffol neu gilydd yn sicr o fod yn eu plith. Neu, fel y mae *breuddwydion* yn gyffredin yn effaith yr hyn y boom yn

4 Pan addunedech adduned i Dduw, nac oeda ei thalu: canys nid oes ganddo flas ar rai ynfyd; y peth a addunedaist, tâl.

5 Gwell i ti fod heb addunedu, nag i ti addunedu, a bod heb dalu.

6 Na âd i'th enau beri i'th gnawd bechu; ac na ddywed gerbron yr angel, Amryfusedd fu: paham y digiai Duw wrth dy leferydd, a dyfetha gwaith dy ddwyllaw?

7 Canys mewn llaweroedd o freuddwydion y mae gwagedd, ac

mewn llawer o eiriau: ond ofna di Dduw.

8 ¶ Os gweli dreisio y tylawd, a thraws-wyro barn a chyfiawnder mewn gwlad; na ryfedda o achos hyn: canys y mae yr hwn sydd uwch na'r uchaf yn gwylied, ac y mae un sydd uwch na hwynt.

9 ¶ Cynyrch y ddaear hefyd sydd i bob peth: wrth dir llafur y mae y brenin yn byw.

10 Y neb a garo arian, ni ddigonir âg arian; a'r neb a hoffio aml-

rhwng ynddo yn ystod y dydd; felly y mae llaweroedd o eiriau yn effaith ffolineb y galon.

Adn. 4. *Pan addunedech adduned i Dduw*] Yw wasanaethu ef yn ffyddlonach, neu i'w anrhydeddu ef a'i achos â chyfran o'th gyfoeth, os bydd iddo dy lwyddo mewn rhyw orchwyl a fyddo genyt mewn golwg, neu dy adfer i iechyd, neu estyn i ti ryw drugaredd neu flaf arall; *nac oeda ei thalu*—rhag yuiddangos o honot fel yn edifarhan am dy fod wedi gwneuthur yr adduned hiono, neu rhag i'th oeddi ddiweddu mewn gommeddiad: gwel ar Lef. xxvii. 2, Num. xxx. 2. *Canys nid oes ganddo flas ar rai ynfyd*—nid oes gan yr Arglwydd hysrydweh mewn dynion a addunedant neu a addawant wneuthur llawero bethau mewn cyfyngder, ac a eszeulasant gyflawni hyn ar ol i'r perygl fyned beibio. *Y peth a adduneduist, tâl*—rhag i ti. wrth beidio, ddiario Duw, a'i annog ef i ddwyn cyfyngder trymach arnat am dy anfydd-dod.

Adn. 5. *(Gwell i ti fod heb addunedu)* Canys ni byddai hyn yn bechod, am fod dynion yn rhydd i wneuthur neu beidio gwneuthur y cyfryw addunedau; *nag i ti addunedu, ac heb dalu*—oblegid ar ol gwneuthur yr adduned, nis zelli beidio ei thalu heb bechu.

Adn. 6. *Na âd i'th enau beri i'th gnawd bechu*] Hyn yw, beri i ti dy hun bechu, trwy wneuthur adduned, ac yna ei thori. *Ac na ddywed gerbron yr angel*—mewn ffordd o esgus dros beidio ei thalu, *Amryfusedd fu*—gwnaethym ar fai wrth wneuthur y gyfryw adduned, neu gwnaetym hi mewn anystyriaeth ac anwybodaeth. Ond pwy a feddylir wrth yr angel hwn? (1) Tybia rhai mai yr ail Berson yn y Drindod santaidd a olygir, sef Angel mawr y cyfammod, yr hwn a weithredai fel cenad Duw yn achosion dynion yn nyddiau y patrieirch a'r profwydi. (2) Barna ereill mai yr angelon da a feddylir, y rhai y tybid eu bod yn bresenol yn y cynulleidfaoedd cyhoeddus, ac yn dystion o ymrwymiadau a chyflawniadau dynion; a bod yr unigol yn cael ei roddi yma am y lluosog. (3) Tybia yr alleirwyr Caldeaid mai rhyw angel creulon a feddylir, yr hwn a awurdodai ar dorwyr adduned yn maru y dydd mawr. (4) Ond yr Hebraeg yw, 'na ddywed gerbron y genad,' hyn yw, fel y mae yn fwyaf naturiol i ni feddw, gerbron yr offeiriad, yr hwn oedd i gydnabod yr addunedau a'r offrymau a wneid

gan blant Israel, a'r hwn a elwir yn 'angel' neu 'genad Arglwydd y luoedd,' Mal. ii. 7. *Paham y digiai Duw wrth dy leferydd?*—hyn yw, paham y rhoddit ti achos iddo i ddiogio wrth dy leferydd, sef yn gyntaf wrth dy adduned fyrbwyll, ac yna wrth dy esgus ffildros beidio ei thalu? *A dyfetha gwaith dy ddwyllaw*—trwy beri aflwydd i ti yn yrlyn oll a wnei, ac yn enwedig yn y gorchwyl neillduol hwnw, gyda golwg ar lwyddiant pa un y gwnaethost y gyfryw adduned: gwel ar adn. 4.

Adn. 7. *Canys mewn llaweroedd o freuddwydion y mae gwagedd*] Pethau na ddeuant byth i ben: *ac mewn llawer o eiriau*—y mae gwagedd hefyd, trwy na chyflawnir hwythau: gan hyn, fel pe dywedasai, yn lle ofni y drwg a welaiet ti yn dy freuddwyd, neu a fygythiwyd i ti trwy eiriau y deonglwr breuddwydion, *ofna di Dduw*—ac felly ni raid i ti ofni neb na dim arall. 'Da y gall enaid uniawn ddywedyd wrth Satan ei hun, Yr wyf fi yn ofni Duw; ac o herwydd fy nod yn ei ofni ef, nid wyf yn dy ofni di.'—CLARKE.

Adn. 8. *Os gweli dreisio y tylawd*] Trwy ddwyn ei eiddo yn anghyfiawn oddiarno; a thraws-wyro barn a chyfiawnder mewn gwlad—yr hyn a ddygyddai yn fynych y pryd hyn, pen. iii. 16, a iv. 1; *na ryfedda o achos hyn*—fel pe byddai y goddefiad o hyn yn beth anghyson â daioni a chyfiawnder Duw; oblegid 'ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw,' Rhof. viii. 28. *Canys y mae yr hwn sydd uwch na'r uchaf yn gwylied*—yr hyn a wna y naill ac a ddyoddefa y llall, a bydd iddo uniawn pob camwri yn nydd mawr y farn. *Ac y mae un sydd uwch na hwynt*—sef Duw, yr hwn sydd uwch na'r uchaf o blant dynion.

Adn. 9. *Cynyrch y ddaear hefyd sydd i bob peth*] Saes., 'sydd i bawb,' hyn yw, y mae yn fuddiol ac yn angenrheidiol i bawb, ac y mae pawb hefyd yn cael cyfran o hono: *wrth dir llafur y mae y brenin yn byw*—neu oddiarno ef y mae hvd yn nod y brenin yn cael ei gynaliaeth; ei fara, ei gig, ei win, a phob peth arall.

Adn. 10. *Y neb a garo arian*] Yn ormodol, neu a'u trachwanto yn gybyddlyd; *ni ddigonir âg arian*—pa faint bynag a raffo; canys pa fwyaf a gaiff, mwyaf a geisia yn barhaus: *na'r neb a hoffio amltra*—o gyfoeth, trysorau.

dra, â chynyrch. Hyn hefyd *sydd* wagedd.

11 *Lle* y byddo llawer o ddâ y bydd llawer i'w ddifa: pa fudd gan hyny *sydd* i'w perchenog, ond eu gwelod â'u llygaid?

12 Melys yw hân y gweithiwr, pa un bynag ai ychydig ai llawer a fwytao: ond llawnder y cyfoethog ni âd iddo gysgu.

13 Y mae trueni blin a welais dan yr haul, cyfoeth wedi eu cadw yn niwed i'w perchenog.

14 Ond derfydd am y cyfoeth hyny trwy drallod blin; ac efe a ennill fab, ac nid oes dim yn ei law ef.

neu ffirwythau y ddaear, ni ddigonir yntau â *chynyrch*—sef â'r hyn a gaffo, pa faint bynag fydd hyny. *Hyn hefyd sydd wagedd*—am nad yw cael yr hyn a garo dyn yn diwallu nac yn boddloni ei wanc ef.

Adn. 11. *Lle y byddo llawer o ddâ*] Megys anifeiliaid, enydiau, a ffirwythau; y *bydd llawer i'w ddifa*—trwy fod llawer o wasan-aethyddion yn angerheidiol i edrych ar eu hol, y rhai a fyddant hefyd yn byw arnynt: *pa fudd gan hyny sydd i'w perchenog*—ragor pan nad oedd yn meddu dim ond digon i'w gynal ef ei hun yn unig; *ond eu gwelod â'u llygaid?*—yr oedd ef yn cael digon o'r blaen at ei angen ei hun: a'r hyn sydd ganddo yn awr dros ben hys, a dreulir i gynal ereill, neu a roddir heibio i edrych arno.

Adn. 12. *Melys yw hân y gweithiwr*] Ar ol ei lafur caled ac iachusol ar hyd y dydd; *pa un bynag ai ychydig ai llawer a fwytao*—o swper, neu pa un bynag ai prin ai helaeth fydd ei fywiolaeth gyffredin: *ond llawnder y cyfoethog ni âd iddo gysgu*—yn esmwyth a melys fel y gweithiwr tylawd a chaled uchod. Gall hyn fod yn cyfeirio at lawnder ei *gylla*, yn attal iddo gysgu yn esmwyth; neu at lawnder ei *gyfoeth*, yn peri iddo wlyio yn ofnus rhag lladron; neu at bob un o'r ddau.

Adn. 13. *Y mae trueni blin a welais dan yr haul*] O fath arall; *cyfoeth wedi eu cadw yn niwed i'w perchenog*—yr hyn a all ddygwedd amrai ffyrdd, megys trwy ei gam-ddenyddio mewn anghymedroldeb, yr hyn a ddryga iechyd y corff; trwy ei garu yn ormodol, yr hyn a niweidia yr enaid; trwy ei bentru yn nghyd, yr hyn a all demtio lladron i lofruddio ei berchenog er mwyn ei gael iddynt eu hunain; ac mewn amrai ffyrdd ereill.

Adn. 14. *Ond derfydd am y cyfoeth hyny*] A 'godwir' mewn modd cybyddlyd a pheryglus ielly; *trwy drallod blin*—sef trwy ei ladrata gan yspeliwyr fel y nodwyd, neu trwy ei wario rhwng cyfreithwyr, neu trwy ei gollu mewn masnach, neu trwy ryw aflwydd arall, fel y dygwyrdd yn fynych. *Ac efe a ennill fab, ac nid oes dim yn ei law ef*—sef yn llaw'r tad, i'w adael i'r mab hwnw ar ei ol; neu

15 Megys y daeth allan o groth ei fam yn noeth, y dychwel i fyned modd y daeth, ac ni ddwg ddim o'i lafur, yr hyn a ddygo ymaith yn ei law.

16 A hyn hefyd *sydd* ofid blin; yn hollol y modd y daeth, felly yr â efe ymaith: a pha fudd *sydd* iddo ef a lafuriodd am y gwynt?

17 Ei holl ddyddiau y bwyty efe mewn tywyllwch, mewn digter mawr, gofid, a llid.

18 ¶ *Wele y peth a welais i*; da yw a thêg i ddyn fwyta ac yfed, a chymeryd byd da o'i holl lafur a lafuria dan yr haul, holl ddyddiau

yn llaw y mab, trwy ei fod wedi gwario holl eiddo ei dad yn ystod ei fywyd ef.

Adn. 15. *Megys y daeth allan o groth ei fam yn noeth*] Heb ddim gauddo pan aned ef, neu pan grewyd dyn ar y cyntaf o bridd y ddaear; y *dychwel i fyned modd y daeth*—sef yn noeth i dragwyddoldeb, neu ynte i'r pridd yn ei ol: gwel ar Job i. 21. *Ac ni ddwg âdim o'i lafur, yr hyn a ddygo ymaith yn ei law*—hyny yw, ni all efe ddwyn dim o'i lafur ymaith gydag ef yn ei law.

Adn. 16. *A hyn hefyd sydd ofid blin*] Ei fod ef, hyd yn nod pe na ddarfyddasai ei gyfoeth yn ystod ei fywyd, adn. 14, yn gorfod ei adael ar ol yn gwbl wrth farw, heb allu dwyn ymaith gymaint a dynaid o hono gydag ef i dragwyddoldeb, adn. 15. *Yn hollol y modd y daeth*—i'r byd hwn ar y cyntaf; *felly yr â efe ymaith*—i'r bedd o ran ei gorff, ac i dragwyddoldeb o ran ei enaid, heb ddim o betlun y byd hwn ganddo. *A pha fudd sydd iddo ef a lafuriodd am y gwynt*—sef am gyfoeth, yr hwn sydd mor ddisylwedd, ausefydlog, a chyfnewidiol a'r gwynt?

Adn. 17. *Ei holl ddyddiau y bwyty efe mewn tywyllwch*] Mewn pryder, anghysur, ac ofnau mawrion. Ond yn lle *yochel*, 'bwyty,' y mae amrai o'r ysgrifiyfran yn darllen *yelech*, 'y rhodia' efe mewn tywyllwch; heb ddim sicrwydd ganddoam ei iachawdriaeth. *Mewn digter mawr, gofid, a llid*—Saes., 'ac y mae iddo lawer o ofid a llid gyda'i glefyd'; hyny yw, pan ymafla ei glefyd angeuol ynddo, llenwir ef â gofid a digter am ei fod yn gorfod ymadael â'i holl eiddo ar y ddaear, a gwynebu ar dragwyddoldeb, heb ddim ganddo i'w enaid ond gwae a llid tragwyddol!

Adn. 18. *Wele y peth a welais i*] Wrth sylwi a myfyrio; *da yw*—ynddo ei hun, a *thêg*—yn ngolwg ereill, i ddyn fwyta ac yfed—mewn cymedroldeb, ac er gogoniant i Ddau, gan ddiwallu hefyd anghenion y tylawd a'r newynog; a *chymeryd byd da o'i holl lafur a lafuria dan yr haul*—sef mwynhau ffirwyth ei lafur mewn cymedroldeb, a chyda chalon ddiolchgar i Ddau am ei drugaredau; *holl ddyddiau ei fywyd, y rhai a roddes Ddau iddo*—nid yn unig yn niwedd ei oes, ar ol iddo

ei fywyd, y rhai a roddes Duw iddo; canys hyny yw ei ran ef.

19 Ie, i bwy bynag y rhoddes Duw gyfoeth a golud; ac y rhoddes iddo ryddid i fwyta o honynt, ac i gymeryd ei ran, ac i lawenychu yn ei lafur; rhodd Duw yw hyn.

20 Canys ni fawr-gofia efe ddyddiau ei fywyd; am fod Duw yn ateb i lawenydd ei galon ef.

PENNOD VI.

Y MAE drwg a welais dan haul, a hwnw yn fawr yn mysg dynion:

2 Gŵr y rhoddodd Duw iddo gyfoeth, a golud, ac anrhydedd, heb arno eisiau dim i'w enaid a'r a ddymunai; a Duw heb roi gallu iddo i

fwyta o hono, ond estron a'i bwyty. Dyma wagedd, ac y mae yn ofid blin.

3 ¶ Os ennill gŵr gant o blant, ac a fydd byw lawer o flynyddoedd, fel y bo dyddiau ei flynyddoedd yn llawer, os ei enaid ni ddiwellir â daioni, ac oni bydd iddo gladdedig-aeth; mi a ddywedaf, *mai gwell yw* erthyl nag ef.

4 Canys mewn oferedd y daeth, ac yn y tywyllwch yr ymedy, a'i enw a guddir â thywyllwch.

5 Yntau ni welodd mo'r haul, ac ni wybu *ddim*: mwy o lonyddwch sydd i hwn nag i'r llall.

6 ¶ Pe byddai efe fyw ddwy fil o flynyddoedd, eto ni welodd efe ddaioni: onid i'r un lle yr â pawb?

gasglu digon o gyfoeth, ond ar hyd ei oes tra y byddo yn ei gasglu; *canys hyny yw ei ran ef*—o'r holl bethau a ennillodd efe trwy ei lafur: gwel ar pen. ii. 24, a iii. 12, 13, 22.

Adn. 19. *Ie, i bwy bynag y rhoddes Duw gyfoeth a golud*] Trwy fendithio ei lafur a'i ddiwydrwydd ef wrth eu hennill yn gyfreithlon; *ac y rhoddes iddo ryddid i fwyta o honynt*—trwy beidio eu gwabardd iddo ar y nail law, a thrwy roddi iddo iechyd a nerth i'w mwynhau ar y llaw arall; *ac i gymeryd ei ran*—gyda chalau ddiolchgar i Dduw am dani; *ac i lawenychu yn ei lafur*—sef yn y mwynhad o ffrwyth ei lafur; *rhodd Duw yw hyn*—oll, sef cyfoeth i brynu bywyd, rhyddid i'w fwyta, a lawenydd wrth ei fwynhau.

Adn. 20. *Canys ni fawr-gofia efe ddyddiau ei fywyd*] Nid ystyria efe ei fywyd yn faith a blinderus, eithr efie a'i treulia oll mewn llawenydd a hyfrydwch; *am fod Duw yn ateb i lawenydd ei galon ef*—trwy roddi iddo bob peth angenrheidiol ei lawenydd; neu trwy roddi iddo fwy o lawenydd yn y mwynhad o'i gyfoeth, nag a gafodd o boen ar hyd ei fywyd wrth ei gasglu.

PEN. VI. Adn. 1. *Y mae drwg a welais dan haul*] Yr hwn a enwir yn yr adnod nesaf; *a hwnw yn fawr yn mysg dynion*—yn fawr yn ei raddau, neu yn gyffredin iawn yn mblith plant dynion.

Adn. 2. *Gŵr y rhoddodd Duw iddo gyfoeth*] Tai, a thiroedd, ac anifeiliaid; *a golud*—o aur ac arian; *ac anrhydedd*—sef parch ac awdurdod ar gyfrif ei gyfoeth a'i olud; *heb arno eisiau dim i'w enaid a'r a ddymunai*—neu a allai ei ddymano yn y byd hwn: *a Duw heb roi gallu iddo i fwyta o hono*—ond yn ei adael dan lywodraeth ei duedd gybyddlyd ei hun, fel cosp am ei anniolegharwch i Ddwy trugareddau; *ond estron a'i bwyty*—ar ol iddo ef farw yn ddiblant. *Dyma wagedd*—sef meddu cyfoeth, heb duedd i'w ddefnyddio a'i fwynhau; *ac y mae yn ofid blin*—yn lle dwyn hyfrydwch a boddlonwydd i feddwl ei ber-

chenog, y mae ei gyfoeth yn ei ofidio yn llawer mwy na phe buasai hebbdo.

Adn. 3. *Os ennill gŵr gant o blant*] Ar ol dangos cyflwr adfyddus dyn diblant yn adn. 2, y mae y f'regethwr yma yn dangos cyflwr gresynus dyn â chanddo deulu lluosog; *ac a fydd byw lawer o flynyddoedd*—fel ag i allu casglu llawer o gyfoeth i'w adael i'w blant ar ei ol: *os ei enaid ni ddiwellir â daioni*—os bydd i'w gybydd-dod attal iddo fwynhau ei gyfoeth yn ei fywyd; *ac oni bydd iddogladedig-aeth*—o gwbl; neu os na chaiff efe gladdedigaeth barehus ar ol iddo farw, a hōno yn cyfateb i'w sefyllfa yn y byd; *mi a ddywedaf*—yn hyf, *mai gwell yw erthyl nag ef*—canys caiff hwnw gladdedigaeth briodol i erthyl, heb ddim diraddiad nac amharch ynddi: neu, fel na fwynhaodd yr erthyl hwnw ddim o gysuron bywyd, felly ni theimlodd efe ddim o adfyddau bywyd, ac am hyny y mae yn well arno ef nag ar y cybydd truenus hwnw.

Adn. 4. *Canys mewn oferedd y daeth*] Hyny yw, daeth yr erthyl i'r byd yn ofer, neu i ddim pwrpas; *ac yn y tywyllwch yr ymedy*—heb weled yr haul, adn. 5; *a'i enw a guddir â thywyllwch*—hyny yw, ni chaiff fyw i dderbyn yr enw a fwradasai ei rieni iddo; neu efe a lwy'r anghofio'r yn fuan.

Adn. 5. *Yntau ni welodd mo'r haul*] Trwy iddo farw yn y brŷ, neu gael ei fwrw o'r brŷ cyn cael bywyd; *ac ni wybu ddim*—am gysuron na gofidiau bywyd: *mwy o lonyddwch sydd i hwn nag i'r llall*—trwy na theimlodd yr erthyl ddim aflonyddwch erioed; tra yr oedd y cybydd yn cael ei aflonyddu ar hyd ei fywyd, adn. 2, 3.

Adn. 6. *Pe byddai efe fyw ddwy fil o flynyddoedd*] Yr hyn fyddai yn fraint na chafodd yr erthyl ddim o honi; *eto ni welodd efe ddaioni*—ni fyddai y cybydd wedi mwynhau dim gwir gysur yn yr hir oes hōno: *onid i'r un lle*—yn y diwedd, sef i'r bedd, yr & pawb—hen ac ieuanc? Y meddwl yw, y bydd pawb cyn hir, pa un bynag ai wedi eu geni yn mhen eu hamser neu cyn eu hamser, pa un

7 Holl lafur dyn sydd dros ei enau, ac eto ni ddiwellir ei enaid ef.

8 Canys pa ragoriaeth sydd i'r doeth mwy nag i'r annoeth? beth sydd i'r tylawd a fedr rodio gerbron y rhai byw?

9 ¶ Gwell yw golwg y llygaid nag ymdaith yr enaid. Ilyn hefyd sydd wagedd a gorthrymder ysbryd.

10 Beth bynag fu, y mae enw arno; ac y mae yn hysbys mai dyn yw efe: ac ni ddiehon efe ymryson â'r neb sydd drech nag ef.

11 ¶ Gan fod llawer o bethau yn amlhau gwagedd, beth yw dyn well?

12 Canys pwy a wŷr beth sydd dda i ddyn yn y bywyd hwn holl ddyddiau ei fywyd ofer y rhai a dreulia efe fel cysgod? canys pwy a ddengys i ddyn beth a ddygwyyd ar ei ol ef dan yr haul?

PENNOD VII.

GWELL yw enw da nag enaint gwerthfawr; a dydd marwolaeth na dydd genedigaeth.

2 ¶ Gwell yw myned i dŷ galar, na myned i dŷ gwledd: canys hyny yw diwedd pob dyn; a'r byw a'i gesyd at ei galon.

bynag ai byr ai hir fyddo eu bywyd, yn gyfllyb i'w gilydd o ran diwedd y bywyd hwn, at yr hwn yn unig y cyfeirir yma: a chyda golwg ar y bywyd nesaf, bydd cyflwr y cybydd a fydd marw yn ei bechodau yn anhraethol waeth nag eiddo erthyl.

Adn. 7. *Holl lafur dyn sydd dros ei enau* I gael bywd a diod, neu i ddiwallu angenrheidiâu ei gorff; *ac eto ni ddiwellir ei enaid ef*—trwy ei ofal am ei gorff; eithr bydd i'w enaid farw o newyn yn nghanol y danteithion melysaf o eiddo natur, os na roddir ymborth ysbrydol iddo.

Adn. 8. *Canys pa ragoriaeth sydd i'r doeth mwy nag i'r annoeth* Yn y pethau hyn? Y mae y ddau yn agored i'r un angenlyon a chysuron bywyd fel eu gilydd; a rhaid i'r ddau fwyta ac yfed i'r dyben i gynnal bywyd naturiol; a rhaid i'r naill fel y llall gael maeth ysbrydol i'w beneidiau, neu farw yn dragwyddol. *Beth sydd i'r tylawd a fedr rodio gerbron y rhai byw*—sef yr hwn a wŷr pa fodd i ymddwyn neu ymagwedu yn gyfatebol i'w sefyllfa mewn bywyd? Y mae y frawddeg gyntaf yn cyferbynu y doeth a'r annoeth, a'r frawddeg olaf yn cyferbynu y tylawd a'r cyfoethog; a'r meddwl yw, nad oes dim gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall o ran eu cyflwr yn y byd hwn. Y mae y ddau yn agored i'r un dygwyyddiau, da a drwg; a rhaid i'r naill fel y llall glefychu, dihoeni, a threngu.

Adn. 9. *Gwell yw golwg y llygaid* Neu fwyhad presenol o'r pethau a welir; *nag ymdaith yr enaid*—neu grwydriad diorhwys y meddwl a'r serchidiau ar ol pethau ni welir. *Ilyn hefyd sydd wagedd*—sef erwydriad diorhwys y meddwl ar ol gwrthdrysychau newyddion; a *gorthrymder ysbryd*—y mae yn peri mwy o boen a gofid i'r meddwl, nag o dded-wyddwch.

Adn. 10. *Beth bynag fu* Pwy bynag fu, neu sydd, yn ei hynodi ei hun o ran ei gryfder a'i wroldeb mewn corff neu feddwl; *y mae enw arno*—ag sydd yn dangos eiddilwch a breuolder ei natur: *ac y mae yn hysbys mai dyn yw efe*—nad yw efe ddim ond dyn egwan, wedi ei wneuthur o briad y ddnear: *ac ni ddiehon efe ymryson â'r neb sydd drech nag ef*—sef â'i Greawdwr hollalluog.

Adn. 11. *Gan fod llawer o bethau yn amlhau gwagedd* Ilyn yw, gan mai gwagedd, fel y gwelsum, yw y rhan fwyaf o'r pethau a enwyd yn y pennodau blaenorol; *beth yw dyn well*—er caffael o hono yr oll a allo ei fwyhau neu ei chwennychu yn y fuchedd hon?

Adn. 12. *Canys pwy a wŷr beth sydd dda i ddyn yn y bywyd hwn* Ai cyfoeth ynte tyloidi, ai iechyd ynte cystudd, ai hawddfyd ynte adfyd; *holl ddyddiau ei fywyd ofer, y rhai a dreulia efe fel cysgod*—heb ddiu sylweddol neu safadwy ynddynt, ond sydd yn fuan yn cilio neu yn diflanu ymaith? Y pethau a farnwn ni yn dda i ddyn, a droant allan yn fynych yn ddrwg iddo; a'r pethau a dybiwn ni yn ddrwg iddo, a droant allan weithiau yn dda. Y fath yw ein hanwybodaeth a'n tywyllwch ni yn y bywyd hwn, tel mai gwelw yw ni bob amser ein hymddiried ein hunain a'n hachosion yn llaw yr Arglwydd. *Canys pwy a ddengys i ddyn beth a ddygwyyd ar ei ol ef dan yr haul*—i'w deulu neu i'w feddiannan? Fel hyn, tra y mae dyn yn fyw, efe a ewyllysia wybod pa beth sydd o'i flaen ef; ac wrth iddo farw, efe a chwennycha wybod beth a ddygwyyd ar ei ol: ond y mae Duw yn ei drugaredd yn ruddio y ddau oddiwrth ddy.

PEN. VII. Adn. 1. *Gwell yw enw da* Neu glod am ddoethineb a daioni gan ddyinion doeth a da, ac yn enwedig gan Ddau; *nag enaint gwerthfawr*—yr hwn oedd yn dra phier-agrolaidd, rhinweddol, a meddyginiolaidd, ac o werth a bri mawr yn y gwledydd hyny: *a dydd marwolaeth*—i'r duwio, yr hwn a fyddo marw yn yr Arglwydd; *na dydd genedigaeth*—am fod dydd ei farwolaeth yn rhoddi terfyn ar ei holl dralloidion a'i gystuddiau, y rhai a ddechrenasant ar ddydd ei enedigaeth, ac yn ei ollwng i'r gwynfydedigwydd hwnw nas gellir ei fwyhau na'i gynnal yn y fuchedd hon. Ond nid yw telly i'r annuwiol, yr hwn, er iddo fe allai gael ei eni i gyfoeth, mawredd, ac anrhydedd, sydd er hyny yn marw i fyned i dyloidi, gwarth, a gwae.

Adn. 2. *Gwell yw myned i dŷ galar* Lle y mae y teulu yn galaru ar ol eu meirw; *na myned i dŷ gwledd*—lle y mae dynion yn bwyta ac yn yfed yn fynych i ormodedd:

3 Gwell *yw* digter na chwerthin : canys trwy dristwch yr wynebpryd y gwelheir y galon.

4 Calon doethion *fydd* yn nhŷ y galar; ond calon ffyliaid yn nhŷ llawenydd.

5 Gwell *yw* gwrandaw sen y doeth, na gwrandaw cân ffyliaid.

6 Canys chwerthiniaid dyn ynfyd *sydd* fel clindarddach drain dan

grochan. Dyma wagedd hefyd.

7 ¶ Yn ddiau trawsedd a ynfyda y doeth, a rhodd a ddyfetha y galon.

8 Gwell *yw* diweddiad peth na'i ddechread : gwell *yw* y dyoddefgar o ysbryd na'r balch o ysbryd.

9 Na fydd g₃ fflwm yn dy ysbryd i ddigio : oblegid dig sydd yn gorphwys yn mynwes ffyliaid.

10 Na ddywed, Paham y bu y

canys hyny—sef marwolweth, yr achos o'r galar uchod, *yw diwedd pob dyn*—beth bynag fyddo ei sefyllfa yn y byd; *a'r byw a'i gesud at ei galon*—a ddygir ond odid i ystyried fod marwolaeth yn ei aros yntau, ac i ymbarotoi erbyn hyny : tra y mae *gwelddoedd* yn cael en dylun yn gyffredin ag ysgafnder, gwamalydd, ac amrai hudoliaethau, ac yn anaddasu meddyliaid dynion at bethau ysbrydol a nefol. Casglu rhai oddiyma na chafodd y rhanau hyny o'r llyfr hwn ag sydd yn ymddangos fel yn pleidïo bywyd glwth ac anianel, en llefaru gan Solomon yn ei enw ei hun, neu fel ei dyb bendodol ef; eithr barnant ddarfod eu llefaru gan neu yn enw rhyw wrthdadaeluydd gloddesgar ac anffyddaid : gwel y rhagarweiniad.

Adn. 3. (*Gwell yw digter*) Saes., 'tristwch,' yr hyn a feddylir yma, fel y mae yn eglur oddiwrth ddiwedd yr adnod; *na chwerthin*—ffol ac anystyriol, yr hyn a gymer le yn fynych mewn tŷ gwelld; *canys trwy dristwch y wynebpryd*—yr hwn y mae ei eisteddle yn y galon, er ei fod yn cael ei amlygu yn y wynebpryd; *y gwelldir y galon*—y diddyfoir hi yn fynych oddiwrth chwantau a gwageddau y byd hwn, y rhai sydd yn niaglu ac yn dyfetha dynion; ac y tueddîr y dyn trist hwn i chwilio am ddedwyddwch sylweddol a thragwyddol i'w enaid.

Adn. 4. *Calon doethion fydd yn nhŷ y galar*] Hyd yn nod pan fyddo eu cyrif yn absenol. Byddant yno, o ran eu meddwl, yn cydymdeimlo ac yn cydalaru â'r teulu wyiofus; ac y maent yn barhaus yn myfyrio ar bethau difrifol, megys angan a barn, gwagedd pethau goraf y byd hwn, a sylweddolrwydd pethau tragwyddoldeb. *Ond calon ffyliaid yn nhŷ llawenydd*—y mae eu meddyliaid a'u serchliadau hwy wedi en gosod yn gwbl ar wagedd, ysgafnder, a digrifwch enawdol; nid ydynt yn meddwl nemawr neu ddiu am rai mewn galar, nac yn ystyried fod amser yn pysuro yn gyflwm i'w cyfarfod hwythau, pryd y trv en llawenydd a'u digrifwch yn alar, griddfan, a gwae.

Adn. 5. *Gwell yw gwrandaw sen y doeth*] Nen gerydd gan ddu na a duwoli, yr hwn a duedda i arwain y cyfeiliornus o ffyrdd pechod a dinystr; *na gwrandaw cân ffyliaid*—sef eu digrifwch neu en gweniaith hwy, er y gall hyny fod mor hyfyddol i natur llygredig ag ydyw cerddoriaeth i'r glust. Meddylir fod yma gyfeiriad at gantorion crwydrol, y rhai a deithient o le i le i ddifysu a gwenieithio i'r rhai a dalent iddynt am hyny.

Adn. 6. *Canys chwerthiniaid dyn ynfyd*] Ei lawenydd a'i ddirgrifwch gwâg a ffol; *sydd fel clindarddach drain dan grochan*—yn clecian ac yn fflamio dros ychydig, ac yna yn darfod yn ebrwydd, heb adael dim ar ol ond mwg a lludw. *Dyma wagedd hefyd*—heb ddim gwir sylwedd nac hyfyddwch yndo.

Adn. 7. *Yn ddiau trawsedd a ynfyda y doeth*] Fe allai mai y meddwl vw, naill ni, (1) Pan syrthio y doeth i'r pechod o orthrwmu ereill, ei fod yn cael ei ynfydu trwy yr elw a ennilla efe yn y ffordd hono; neu, yn hytrach, (2) Pan orthrymir y doeth gan ddyinion drwg, fod hyny yn fynych yn peri iddo ymchwerwi ac ymfino, a llefaru neu ymddwyn yn fyrbwll a ffol. *A rhodd a ddyfetha y galon*—bydd i wobrau ddallu ac yufydu yn aul hyd yn nod y doeth a'r da. Yn yr ystyr yma gellir ynfydu y doeth weithiau mewn dwy ffordd, trwy ddyoddef trawsedd oddiwrth ereill, neu trwy dderbyn gwobrwyon am orthrymu ereill. Eithr gellir cyfieithu y wreiddiol, 'Yn ddiau trawsedd a ddyry *lewyrch* i'r doeth;' hyny yw, pan ddygir y doeth i anhawsderau, ei ddoethineb a'i rinweddau ereill a lewyrchant ac a yunddysgleiriant.

Adn. 8. *Gwell yw diweddiad peth na'i ddechread*] Y mae dechreu adeiladu tŷ, er siampl, yn dda; ond y mae ei orphen ef yn well, gan nad yw y dechread o hono o ddim lles heb y diweddiad neu y gorpheniad; ac felly y gellir dywedyd am bob gwaith da arall. *Gwell yw y dyoddefgar o ysbryd*—yr hwn a â trwy ei ofidiau a'i ddyoddefiadau yn amyneddgar; *na'r balch o ysbryd*—a fyddo yn gwingo ac yn ymddigio dan y croes-ragloniaethau lleiaf.

Adn. 9. *Na fydd gysflwm yn dy ysbryd i ddigio*] Am bob peth bychan a wneier neu a ddyweder yn dy erbyn; *oblegid dig sydd yn gorphwys yn mynwes ffyliaid*—y mae digter yn arwyddo feddwl bäs a ffol. Gall dyn doeth, mewn awr o anwyliaduriaeth, deimlo gradd o ddigofaint yn ei fynwes dros enyd; ond nid yw yn cael *gorphwys* yno; y mae ef yn ceisio diffodd y tân hwn yn ddiodeb. Eithr *ffyliaid*, y rhai sydd yn cael eu llywodraethu yn gwbl gan eu nwydau llygredig eu hunain, a'i coloddant ac a'i magant ef, nes y mae yn cynyddu yn fuan i falais, ac yn dybenn yn gyffredin mewn dialedd, ac weithiau mewn gornest neu lofruddiaeth.

Adn. 10. *Na ddywed*] Yn dy feddwl dy hun, neu wrth Oduw, *Paham y bu y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn*—yn fwy

dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn? canys nid o ddoethineb yr wyf yn ymofyn am y peth hyn.

11 ¶ Da yw doethineb gydag etifeddiath: ac o hynny y mae elw i'r rhai sydd yn gweled yr haul.

12 Canys cysgod yw doethineb, a chysgod yw arian: ond rhagoriaeth gwybodaeth yw, bod doethineb yn rhoddi bywyd i'w pherchenog.

manteisiol i fyw yn grefyddol, neu â llai o hndoliaethau i bechod ynddynt? *Canys nid o ddoethineb yr wyf yn ymofyn am y peth hyn*—eitir mewn annoethineb a rhyfsg mawr, ac i esgusodi dy feiau a'th flolineb. Nid oes genym brawf fod y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn; canys yr oedd dynion yn yr oesoedd a aethant heibio cynddrwg ag y maent yn awr, ac yr oedd crefydd yn llai cyffredin. Y mae Duw yn awr yr un ag a ydoedd efe gynt; yr un mor dda a thrugarog, a'r un mor barod i faddeu ac aclub. Ie, y mae ein dyddiau ni yn well, ar lawer o gyfrifon, nag unrhyw ddyddiau neu oes a gaed er pan ddaeth pechod i'r byd. Y mae yr oruchwyliaeth Gristionogol yn rhagori ar y ddwy o'r blaen; ac y mae llewyrch Haul Cyfiawnder yn dysgleirio yn danbeidiach yn barhaus, fel yr ydym yn nesáu at y millffyddiant; a gallwn chwaneu, fod mwy o ddiwoliolion ar y ddaear heddyw nag a fu erioed o'r blaen mewn un cyfnod er dechre y byd; a bydd iddynt gynyddu mewn rhifedi bob dydd, nes yr ennillir holl dylwythau y ddaear i goffeidio crefydd Crist.

Adn. 11. *Da yw doethineb gydag etifeddiath*] Pan fyddo y ddau yn cyfarfod yn yr un dyn; ac o hynny y mae elw i'r rhai sydd yn gweled yr haul—sef i ddyinion yn byw ar y ddaear: nid yn unig i'r dyn hwnw ei hun, ond hefyd i bawb o'i amgylch. Y mae doethineb, heb gyfoeth, yn gadael dyn yn amddiffad o foddion, neu oflerynau i wneyd daioni; ac y mae cyfoeth, heb ddoethineb, yn debyg i gleddyf yn llaw dyn gorphwyllog, yn achlysur i wneyd llawer o ddrwg; ond lle byddo y ddau yn nghyd, y mae yn dda i'r dyn ei hun, ac yn peri elw neu les i bawb o'i amgylch.

Adn. 12. *Canys cysgod yw doethineb*] I ddiogelu dyn rhag llawer o dralodion bywyd; a *chysgod yw arian*—i'w amddiffyn ef rhag tylodi ac angen: yn yr ystyr yma y mae y ddau yn ymddangos fel yn gyfartal. *Onid rhagoriaeth gwybodaeth*—neu ddoethineb ys-brydol, ar arian—yw hyn; *bod doethineb yn rhoddi bywyd i'w pherchenog*—sef bywyd o ras yma, a bywyd tragwyddol ar ol myned oddi yma, yr hyn nis gall arian ei roddi. Er y gall arian fod yn foddion i gysgodi, amddiffyn, a chlynal y bywyd naturiol, eto nis gallant ennill fflafr Duw, na rhoddi bywyd ys-brydol i'r enaid. Heblaw hynny, y mae arian wedi bod lawer gwaith yn achos i ddyinion gollu eu bywyd naturiol; tra y mae gwybodaeth achubol o Dduw yn cadw ei pherchenog yn ddiffeth i fywyd tragwyddol.

13 Edrych ar orehwyl Duw: canys pwy a all uniawni y peth a gamodd efe?

14 Yn amser gwynfyd bydd lawen; ond yn amser adfyd ystyria: Duw hefyd a wnaeth y naill ar gyfer y llall, er mwyn na chai dyn ddim ar ei ol ef.

15 Hyn oll a welais yn nyddiau fy ngwagedd: y mae un cyfiawn yn

Adn. 13. *Edrych ar orehwyl Duw*] Yn ei ragluniaeth a'i ras; neu ystyria ei lywodraethiad doeth, cyfiawn, ac effeithiol ef o holl helyntion bywyd; yr hyn a gymbellir fel y feddyginiaeth ddiweddaf a goraf rhag pob grwnachrwydd. *Canys pwy a all uniawni y peth a gamodd efe?*—nis gall neb ddiwygio na chyfnwid dim ar un o weithredoedd Duw; ac am hynny y mae ymddigio wrth ein sefyllfa, neu wrth ddrwgau yr amseroedd, fel y dywedwn, nid yn unig yn bechadurus ynddo ei hun, ond hefyd yn beth ofer a difudd: gwel ar pen. i. 15. Y fath yw trefniadau rhagluniaeth Duw, fel nad yw yn rhoddi cyfoeth ond i ychydig; tra y mae doethineb, neu yr grefydd, yn nghyraedd pawb. Nid yw y blaenaf yn anheggorol angenrheidiol i ddedwyddwch, ac am hynny nid yw yn cael ei roddi i bawb; ond y mae yr olaf sely, ac am hynny y mae Duw yn ei ddaioni wedi ei roddi yn nghyraedd pob un a'i ceisia yn gywir a difrifol ganddo ef. Dysgir i ni yma, fel mewn amrai ranau ereill o'r ysgrythyrau santaid, fod llaw Duw i'w chydabod yn holl amgylchiadau ein bywyd, a'i fod ef yn goruchwylwodraethu pob peth er gogoniant iddo ei hun, ac er lles i ninan.

Adn. 14. *Yn amser gwynfyd bydd lawen*] Mwynha drugareddau Duw gyda chalon ddi-olchgar am danyt, ac ymdrecha trwyddnt lwy i lawenhau a dedwyddoli pawb o'th amgylch; ond yn amser adfyd ystyria—fod yr holl adfyd hwnw yn efaith pechod, ei fod dan oruchwylwodraethiad Duw, nad yw mor drwm ag yr hacddaist, a'i fod yn cael ei fwiadu er dy dragwyddol les. *Duw hefyd a wnaeth y naill ar gyfer y llall*—a gyfartalodd y naill trwy y llall, neu a drefnodd yn ddoeth fod i wynfyd ac adfyd ddylyn eu gilydd bob yn ail i'r un dyn; er mwyn na chai dyn ddim ar ei ol ef—ddim gwybodaeth pa beth a ddeuai iddo nesaf, ai parhad pellach o'i gyflwr presenol o wynfyd neu adfyd, ynte newidai am y llall. Gwnaeth Duw bethau yn gyfnewidiol fel hyn, er mwyn cadw dyn mewn ymddibyniad parhaus arno ei hun. Ni chaiff wybod pa hyd y pery ei wynfyd, rhag iddo ymfalclio, ac anghofo Duw; na pia hyd y pery ei adfyd, rhag iddo dori ei galon, ac ymollwng dan ei adfyd.

Adn. 15. *Hyn oll a welais yn nyddiau fy ngwagedd*] Er pan ddaethym i'r byd gwageddus a chyfnewidiol hwn. Ond y mae y rhai a dybiant i Solomon ysgrienu y llyfr hwn yn ei henaht, yn meddwl mai at ddyddiau ei wrthgiliaid y cyfeiria efe yma: gwel y rhag-arweiniad. *Y mae un cyfiawn yn diflanu yn*

diflanu yn ei gyfiawnder, ac y mae un annuwiol yn estyn ei ddyddiau yn ei ddrygioni.

16 Na fydd ry gyfiawn; ac na chymar arnat fod yn rhy ddoeth: paham y'th ddyfethit dy hun?

17 Na fydd ry annuwiol; ac na fydd ffol: paham y byddit farw cyn dy amser?

18 Da i ti ymafael yn hyn: ac oddiwrth hyn na ollwng dy law:

cansys y neb a ofno Dduw, a ddaw allan o honynt oll.

19 Doethineb a nertha y doeth, yn fwy na deg o gedyrn a fyddant yn y ddinas.

20 Cansys nid oes dyn cyfiawn ar y ddaear a wna ddaioni, ac ni phecha.

21 Na osod dy galon ar bob gair a ddyweder; rhag i ti glywed dy was yn dy feiddio.

22 Cansys llawer gwaith hefyd y

ei gyfiawnder—neu yn trengu er maint ei gyfiawnder, yr hwn nis gwared ef yn nydd ei drallod; neu 'am ei gyfiawnder,' yr hwn a'i gesyd ef yn agored i genfigen, lliid, a malais dynion drwg. *Ac y mae un annuwiol yn estyn ei ddyddiau yn ei ddrygioni*—er maint ei ddrygioni, am yr hwn yr haeddodd yn gyfiawn gael ei dori ymaith. Wrth weled hyn oll, casglai Solomon y rhaid fod byd ar ol hwn, i wobrwyo y cyfiawn a chospi y drygionus.

Adn. 16. *Na fydd ry gyfiawn*] Mewn un ystyr, y mae yn amhosibl bod yn rhy gyfiawn, nac yn wir yn *ddigon* cyfiawn yn ngwyneb manylwydd deddf Duw; ond mewn ystyr arall, gall dynion fyned i eithafion, a bod yn fwy manwl nag y byddai raid iddynt mewn pethau o ychydig bwys, neu bethau nad yw yr ysgriythyr yn eu gofyn nac yn eu gwahardd, a hyny er mwyn dangos i ddynion eu bod yn gyfiawn: gwel ar Esay lxxv. 5, a Luc xviii. 9—12.

Ac na chymar arnat fod yn rhy ddoeth—yn ddoethach nag ydwyt mewn gwirionedd, neu yn ddoethach na phawb ereill; ac yn enwedig na fydd ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenydwy yn ngair Duw. *Paham y'th ddyfethit dy hun*—o ran dy barch a'th anrhydedd o leiaf, os nid o ran dy iechyd, dy fywyd, a'th enaid hefyd? Ond y mae rhai yn deall y cyfiawnder a'r doethineb gwaharddedig uchod am weinyddiad rhy fanwl o gyfiawnder mewn llys gwladol; fel pe dywedasai, Na fydd 'ry lym' (felly yr *Arabaeg*) yn dy ofynion am gyfiawnder manwl yn mhob peth, neu i gario allan lythyren y gyfraith i'r eithafion pellaf yn mhob achos; ac na chymar arnat dy fod yn deall y gyfraith yn well na neb arall, fel ag i beri i bawb dy ffeiddio, a chilio oddiwrthyt. Tybia ereill mai iaith rhyw wrthddadleuydd penrhwydd, neu broffeswr clauar, yw yr adnod hon, yn ceryddu y gŵr doeth am fod yn rhy fanwl a chaeth gyda'i grefydd; a meddyliant fod Solomon yn ei ateb ef yn yr adnod nesaf.

Adn. 17. *Na fydd ry annuwiol*] Cansys hyny fyddai cario pethau yn rhy bell i'r eithafion ereill; *ac na fydd ffol*—y gwrthwyneb i fod yn 'rhy ddoeth' yn yr adnod uchod; hyny yw, nac ymollwng i ynfydu mewn afradlonedd a phechodan. *Paham y byddit farw cyn dy amser*—trwy dy ladd dy hun wrth fyw yn afradlon, neu trwy syrthio yn ysglyfaeth i'r gyfraith wladol am dy droseddau, neu trwy gael dy dori ymaith gan farn Duw, fel un rhy annuwiol i gael byw yn hwy a y ddaear? Ond fel y nodwyd ar adn. 16, tybia rhai mai atebiad Solomon i'r gwrthddadleuydd uchod

yw y geirian hyn, yn ei rybyddio yntau i beidio bod yn rhy annuwiol a ffol, a gwyllo rhag annoz Duw i'w dori yntau ymaith am ei annuwioldeb cyn ei amser: gwel ar Job vii. 1, a xiv. 5, 6.

Adn. 18. *Da i ti ymafael yn hyn*] Neu sylwi yn dda ar y cyngor uchod; *ac oddi wrth hyn na ollwng dy law*—sef oddiwrth yr ymarferiad o'r cyngor uchod, neu oddiwrth ufydd-dod iddo. *Cansys y neb a ofno Dduw*—gan rodio yn mhob peth yn ol rheol ei air ef; *a ddaw allan o honynt oll*—a waredir o bob perygl neu eithafion, ac oddiwrth eu holl ddrwg ganlyniadau hwynt.

Adn. 19. *Doethineb a nertha y doeth*] Sef gwir grefydd, neu 'ofn Duw,' adn. 18, fel y mae rhai yn ei deall; *yn fwy na deg o gedyrn a fyddant yn y ddinas*—bydd iddi ei gysuro yn fwy yn ei drallodau, a'i ddiogelu yn fwy effeithiol rhag peryglon, na llwaws o gedyrn a fyddant wedi uno eu byddinoedd i'w gynorthwyo a'i amddiffyn. Neu dichon mai yr ystyr yw, y gall un dyn doeth a chelfyddydgar fod o fwy o wasanaeth i gadarnhau ac amddiffyn dinas, na deg o dywysogion. Gwel angbraiffot o hyn yn achos *Syracuse*, pryd yr ymosodwyd arni oddiar y môr a'r tir gan y Rhufeiniaid, ac y drylliodd *Archimedes* eu llynges hwynt a'i beiriannau.

Adn. 20. *Cansys nid oes dyn cyfiawn ar y ddaear a wna ddaioni, ac ni phecha*] *Lo ychta*, 'a'r nas gall bechu,' neu, a'r nad yw yn agored i bechu; ac am hyny dylai y dyn mwyaf cyfiawn a santiaidd wyllo a gweddio yn barhaus, ac ymddiried yn nerth yr Arglwydd. 'Ni ddywed y testyn fod y dyn cyfiawn yn pechu, ond yn unig y gall efe bechu.'

CLARKE. Gwel y sylw ar I Bren. viii. 46. Ond tybia rhai mai yr ystyr yw, nad oes neb cyfiawn a dibechod o'i enedigaeth i'w farwol-aeth wedi bod erioed ar y ddaear; hyny yw, na bu, nad oes, ac na ddaw neb byth a all ddyweddyd na phechodd efe erioed. Y mae y geiriau, o'n deall fel hyn, yn gyfystyr âg eiddo yr apostol, 1 Ioan i. 8, 10: gwel y sylwadau yno.

Adn. 21. *Na osod dy galon ar bob gair a ddyweder*] Am danat, neu yn dy erbyn; *rhag i ti glywed dy was yn dy feiddio*—neu yn dy regi, gan ddyweddyd yn ddrwg am danat, neu ddyddio drwg i ti; cansys byddai i hyny dy dneddu i ddiol arno yntau, a thalu drwg dros ddrwg, yr hyn a fyddai yn bechod ynot.

Adn. 22. *Cansys llawer gwaith hefyd y*

gŵyr dy galon, ddarfod i ti dy hun
felfdithio ereill.

23 ¶ Hyn oll a brofais trwy
ddoethineb: mi a ddywedais, Mi a
fyddaf ddoeth; a hithau yn mhell
oddiwrthyf.

24 Y peth sydd bell a dwfn iawn,
pwy a'i caiff?

25 Mi a droais â'm calon i wybod,
ac i chwilio, ac i geisio doethineb, a
rheswm; ac i adnabod annuwioldeb
ffolineb, seffolineb, ac ynfyrwydd:

26 Ac mi a gefais beth chwerwach

nag angau, y wraig y mae ei chalon
yn faglau ac yn rhwydau, a'i dwy-
law yn rhwymau: y neb sydd dda
gan Dduw, a waredir oddiwrthi hi;
ond pechadur a ddelir ganddi.

27 Wele, hyn a gefais, (medd y
Pregethwr,) wrth chwilio o'r naill
beth i'r llall, i gael y rheswm;

28 Yr hwn beth eto y chwilia fy
enaid am dano, ac ni chefais; un
gŵr a gefais yn mllith mil; ond un
wraig yn eu plith hwy oll nis
cefais.

gŵyr dy galon] Neu dy gydwybod; *ddarfod i ti dy hun*—dan ryw gythruddiad neu gilydd, neu pan mewn pang o welltineb; *felfdithio ereill*—eu beio ar gam, neu ddywed- yd yn ddrwg am danynt, os nid dymuno drwg iddynt. Pan ddigier neu y niweidier ni, dyl- em holi ein cydybodau a fuom ni yn ym- ddwyn yr un modd, neu yn waeth, tuag at ereill; ac os cawn ein bod, dylem gymeryd achlysur oddiwrth hyn y adnewyddu ein hedifeirwch, ac i gymesuro ein digofaint at ereill: ac os byddwn yn ddig writhym ein hunain am sarhau a chablu ereill, byddwn felly yn llai digofus wrth ereill am ein sarhau a'n cablu ninau. Dylem 'ddangos pob add- fwynder tuag at bob dyn, am ein bod ninau hefyd gynt yn annoethion, Titus iii. 2, 3.

Adn. 23. *Hyn oll a brofais trwy ddoeth- ineb*] Profasai Solomon trwy y ddoethineb a roddasai Duw iddo eisioes, mai da iawn oedd yr holl reolau uchod iddo ef ei hun, ac am hynny y mae yn eu cymbell ar ereill. *Mi a ddywedais*—a benderfynais yn fy meddwl, *Mi a fyddaf ddoeth*—mi a ddefnyddiaf bob moddion o fewn fy ngallu i gyraedd perffeith- rwydd doethineb; *a hithau yn mhell oddi- wrthyf*—sef y perffeithrwydd o honi yn y fuchedd hon.

Adn. 24. *Y peth sydd bell a dwfn iawn*] Megys arfaethau, gweithredoedd, a fflydd Duw: *pwy a'i caiff?*—pwy, er chwilio, a'u deall lwynt hyd berffeithrwydd? Ond os at ddoeth- ineb ysbrvdl, neu wir grefydd, y cyfeirir, y mae ynddi lithau lawer o bethau dyfnion nas gellir eu cael allan hyd berffeithrwydd yma, er fod y pethau hanfodol er iachawdriaeth ynddi yn nghyraedd pawb.

Adn. 25. *Mi a droais â'm calon*] A'm holl fryd, heb gymeryd fy nigaloni gam anhwader y gorchwyl; *i wybod, ac i chwilio, ac i geisio*—tri gair yn meddwl yr un peth, i arwyddo ei fawr awydd a'i ymdrech ef i gyraedd *doeth- ineb a rheswm*—sef *grybodaeth* o wahanol orchwyliacthau rhagluniaethol Duw, a'r *rhes- wm* am danynt; *ac i adnabod annuwioldeb ffolineb*—neu fawr ddrwg pechod o bob math a gradd.

Adn. 26. *Ac mi a gefais*] Wrth chwilio i geisio 'adnabod annuwioldeb ffolineb ac ynfyr- rwydd'; *beth chwerwach nag angau*—sef chwerwach nag angau tymhorol, am ei fod yn achosi angau tragwyddol; *y wraig y mae ei*

chalon yn faglau ac yn rhwydau—sef y 'fenwv estronaidd,' Diar. ii. 16, yr hon y mae ei chalon yn llawn ystrywiau gweneithus i ddenu a maglu dynion; *a'i dwylaw yn rhwymau*—i'w dal hwynt yn gaeth, ar ol iddi unwaith ymaflyd ynddynt. *Y neb sydd dda gan Dduw*—v neb sydd yn ofni Duw, neu y neb y gwelo Duw yn dda ei gadw rhagddi; *a waredir oddiwrthi hi*—fel y gwaredwyd Joseph o afaelion ei feistres, Gen. xxxix. 12: *ond pechadur a ddelir ganddi*—fel y dyn ieuanc diddeall hwnw a grybwyllir Diar. vii. 7—23; ac fel y daliwyd Solomon ei hun wedi hyn, 1 Bren. xi. 1, &c.

Adn. 27. *Wele, hyn a gefais, medd y Preg- ethwr*] Nid trwy brofiad, canys yr oedd Solo- mon eto heb syrthio; ond trwy ymresymiad, fel y dywedir yma; *wrth chwilio o'r naill beth i'r llall i gael y rheswm*—i gael gwybod- aeth fanol a chywir, fel duweinydd ac athron- ydd, o'r pethau da a drwg a ddygwyddant ar y ddaear.

Adn. 28. *Yr hwn beth eto y chwilia fy en- aid am dano*] Gyda mwy o ddiwydrwydd a manylwrch nag o'r blaen; neu, efe a chwilias- ai am y peth hwn eto, yn chwangel at y pethau o'r blaen; *ac ni chefais*—afael ynddo, neu foddlonrwydd i fy meddwl gyda golwg arno, er maint fy ymchwiliad. *Un gŵr*—doeth, rhinwedol, ac uniawn, *a gefais yn mllith mil*—o'r rhai y bwm yn ymddyddan â hwynt; *ond un wraig yn eu plith hwy oll nis cefais*—yn dyfod i fyny yn hollol â'r safon hwnw. Tybia *Scott* ac ereill nad ydym i gasglu oddiyma, fod Solomon o'r farn fod llai o wragedd da nag o wŷr da y pryd hynny; ond mai y meddwl yw, nad aethai efe ar hyd y fiordd iawn i gael hyd i'r wraig rinwedol, pan y gŵyrodod mor bell oddiwrth ddeddf wreiddiol priodas; hynny yw, na chafodd Solo- mon un wraig ddoeth, rinwedol, a chrefyddol, yn mllith y mil a briodasai efe, 1 Bren. xi. 3. Yr nnig wthwynebiad i'r golgydd hwn yw, ei fod yn gymeryd yn ganiataol mai ar ol adferiad Solomon o'i wrthgiliad yr ysgrifennodd efe y llyfr hwn, tra y mae y rhesymau cryfaf yn erbyn hyn: gwel y rhagyrweinid a'r sylwadau ar 1 Bren. xi. Yr ystyr a ddyry y *Targum* i'r geiriau yw, 'Y mae peth arall ag y chwiliodd fy enaid am dano, yr hwn nis cef- ais; gŵr perffaith a dieuog, ac heb lygredd ynddo, o ddyddiau Adda hyd nes y ganed

29 Wele hyn yn unig a gefais; wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn: ond hwy a chwiliasant allan lawer o ddychymygiion.

PENNOD VIII.

PWY sydd debyg i'r doeth? a phwy a fedr ddeongl peth? doethineb gw'r a lewyrcha ei wyneb, a nerth ei wyneb ef a newidir.

2 Yr ydwyf yn dy rybyddio i gadw gorchymyn y brenin, a hynny o herwydd llw Duw.

Abraham gyflawn, yr hwn a gaed yn flyddlon ac uniawn yn mhlith y mil o frenhinoedd a ddaethant yn nghyd i adeiladu twr Babel: ond un wraig fel Sarah nis ceffais yn mhlith holl wragedd y frenhinoedd hynny.

Adn. 29. *Wele hyn yn unig a gefais*] Swm a sylwedd yr holl wybodaeth a gefais trwy fy ymchwiliad manyiaf i bethau, o ddechre y bydd hyd yma, yw hyn; *wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn*—ar y cyntaf, heb ddim drwg yndao; ac felly, pa ddrwg bynag a geir yn awr yn mhlith gwyr a gwagedd, nid oddiwrth Dduw y deilliodd: *ond hwy*—ein rhieni cyntaf, trwy gamddefnyddio eu rhyddid, a gwranddo ar lais y temtiwr; a *chwiliasant allan lawer o ddychymygiion*—neu flyddd newyddion i gyraedd, fel y tybient hwy, fwy o wybodaeth a dedwyddwch nag a feddent yn eu cyflwr creadigol: gwel ar Gen. iii. 6. Ond tybia rhai fod y 'dychymygiion' hyn yn cyfeirio yn hytrach at y dyfeisiau, y celfyddydau, a'r gwaahanol beiriannau a luniwyd gan ddyn i gynorthwyo bywyd.

PEN. VIII. Adn. 1. *Pwy sydd debyg i'r doeth*] O ran ei radoroldeb a'i ddefnyddioldeb yn y byd? *a phwy a fedr ddeongl peth*—neu egluro unrhyw fater, yn debyg i'r doeth? *Doethineb gw'r a lewyrcha ei wyneb*—a bair iddo edrych yn siriol, addfwyn, a hybarch; *a nerth ei wyneb ef*—neu ei edrychiad sarug, a newidir—gan ddoethineb i wedd fwyn a hygar. Gellir darllen yn y wynebryd bob cyflwr o eiddo y galon; ac, fel y sylwa Clarke, 'y mae y fath amlygrwydd o gyflwr boddlon, dedwydd, pur, a charaidd yr emaid yn ymdangos yn ngwyneb pob dyn gwir dduwiol, fel ag y rhaid ei ganfod, ac nas gellir ei gamgymeryd.'

Adn. 2. *Yr ydwyf yn dy rybyddio i gadw gorchymyn y brenin*] Sef ei hoil orchymynion ef, pan na byddont yn groes i orchymynion dy Greawdwr; canys felly 'rhaid yw ufyddlau i Dduw yn fwy nag i ddynion,' Act. v. 29. *A hynny o herwydd llw Duw*—sef y llw o flyddlondeb a dyngesid i'r brenin yn ngwydd ac yn enw Duw. Ymddengys fod y tywysogion a'r penaethiaid Iuddewig yn arterfol o dnygu llw o flyddlondeb i'w brenin, fel y gwnaed i Dafydd, 2 Sam. v. 1—3; i Jous, 2 Bren. xi. 17; ac i Solomon, 1 Cron. xxix.

3 Na ddos ar frys allan o'i olwg ef; na saf mewn peth drwg: canys efe a wna a fyuo ei hun.

4 Lle y byddo gair y brenin, y mae galla: a phwy a ddywed wrtho, Beth yr wyt ti yn ei wneuthur?

5 Y neb a gadwo y gorchymyn, ni wybydd oddiwrth ddrwg; a chalou y doeth a edwyn amser a barn.

6 ¶ Canys y mae amser a barn i bob amcan; ac y mae trueni dyn yn fawr arno.

7 Canys ni ŵyr efe beth a fydd:

24: gwel hefyd Ezec. xvii. 16, 18. Ond y mae rhai yn cyfieithu dechre yr adnod hon, 'Yr wyt fi yn cadw *genau* y brenin;' hynny yw, nid wyf yn datguddio cyfrinach y brenin, neu ddirgelion y llywodraeth.

Adn. 3. *Na ddos ar frys allan o'i olwg ef*] O lys neu o wasanaeth y brenin; neu, na ddos allan o'r llys uewn nwydau gwylltion, fel un yn bygwth y brenin. *Na saf mewn peth drwg*—os digiaist y brenin, na pharha yn gynydd yn i'wneuthur felly, eithr cyfaddef dy fai, a gofyn am faddeuant ganddo. *Canys efe a wna a fyuo ei hun*—y mae ei awdurdod e'f yn annibynol, ac ni feiddia ei ddeiliaid ei alw i gyfrif am ddim a wnelo.

Adn. 4. *Lle y byddo gair y brenin*] Yn gorchymyn cospi y troseddwr, neu yn gofyn ufydd-dod gan ei ddeiliaid; *y mae galla*—neu awdurdod ganddo i fynu ufydd-dod i'w air: *a phwy a ddywed wrtho*—hyd yn nod pe byddai yn ymddwyn ar gam, *Beth yr wyt ti yn ei wneuthur?*—hynny yw, pwy a feiddia ei alw ef i gyfrif am ei weithredoedd, pa un bynag fyddont ai da ai drwg? Cyfeirir yma at frenhiniaeth dra-arglywddiaethol, lle y mae ewylllys y brenin yn ddeddf iddo. Nid yw fel hyn, trwy drugaredd, yn ein gwlad ni, ac nid oedd felly yn hollol yn Israel gynt; canys cawn Samuel yn dywedyd felly taewn effaith wrth Saul, a Nathan wrth Dafydd, ac amrai broffwydi ar eu hol hwy wrth frenhinoedd Juda ac Israel.

Adn. 5. *Y neb a gadwo y gorchymyn*] Sef gorchymyn y brenin, adn. 2; *ni wybydd oddiwrth ddrwg*—ni ddarostyngir ef i gosp yr anufydd: *a chalou y doeth a edwyn amser a barn*—a edwyn yr amser goraf i wneuthur a dywedyd unrhyw beth, a pha farn neu reswm i'w draethu ar bob rhyw byrd neu achos.

Adn. 6. *Canys y mae amser a barn i bob amcan*] Sef adeg a threfn briodol i gyflawni pob gorchwyl a ewylllysio dyn, (gwel ar pen. iii. 1—3,) y rhai a adwaenir gan y doeth ei galon, adn. 5: *ac y mae trueni dyn yn fawr arno*—pan nad yw yn eu hadnabod neu yn eu gwybod.

Adn. 7. *Canys ni ŵyr efe beth a fydd*] Yn y dyfodiant: *canys pwy a ddyngys iddo ni byrd y bydd*—y peth a ofna efe twyaf, neu pa byrd y bydd efe farw? Nid oes un dewin, na

canys pwy a ddengys iddo pa bryd y bydd?

8 Nid oes un dyn yn arglwyddiaethu ar yr ysbryd, i attal yr ysbryd; ac nid oes ganddo allu yn nydd marwolaeth: ac nid oes bwrw arfau yn y rhyfel hwnw; ac nid achub annuwioldeb ei pherchenog.

9 Hyn oll a welais i, a gosodais fy nghalon ar bob gorchwyl a wneir dan haul: *y mae* amser pan arglwyddiaetha dyn ar ddydd er drwg iddo.

10 Ac felly mi a welais gladdu y rhai annuwiol, y rhai a ddaethent ac a aethent o le y Sантаidd; a

hwy a e bargofwyd yn y ddinas lle y gwnaethent felly. Gwagedd *yw* hyn hefyd.

11 O herwydd na wneir barn *yn erbyn* gweithred ddrwg yn fuan, am hyny calon plant dnyon sydd yn llawn ynddynt i wneuthur drwg.

12 ¶ Er gwneuthur o bechadur ddrwg ganwaith, ac estyn ei ddyddiau ef; eto mi a wn yn ddiaw y bydd daioni i'r rhai a ofnant Dduw, y rhai a arswydant ger ei fron ef.

13 Ond ni bydd daioni i'r annuwiol, ac ni estyn efo ei ddyddiau, *y rhai sydd* gyffelyb i gysgod; am nad *yw* yn ofni gerbron Duw.

brudiwr, na phroffwyd a all ragfynegu y dyfodol, heb i Dduw ei ddangos iddo.

Adn. 8. *Nid oes un dyn yn arglwyddiaethu ar yr ysbryd, i attal yr ysbryd*] Neu i'w gadw ef yn y corff, pan y byddo Duw yn ei wysio ef allan; *ac nid oes ganddo allu yn nydd marwolaeth*—i gadw angau draw: *ac nid oes bwrw arfau yn y rhyfel hwnw*—fel y gwna rhyfelwyr weithiau ar faes y gwaed, er mwyn cael eu harbed gan eu gelynyon buddugol: *ac nid achub annuwioldeb ei pherchenog*—o ddwyllaw marwolaeth, er ei bod yn fynych yn gwneyd dyn yn galed, beiddgar, a rhyfygus, ac yn ei achub ef weithiau o ddwyllaw dyn. Nis gall yr annuwioldeb cyfrwysaf dwyllo angau, na'r annuwioldeb cryfaf ei orthrechru ef.

Adn. 9. *Hyn oll a welais i*] Yn ystod fy mywyd, sef y pethau a grybwyllwyd uchod, a'r pethau a enwir isod: *a gosodais fy nghalon ar bob gorchwyl a wneir dan haul*—i sylwi yn ddwys amlynt, ac i geisio eu deall. *Y mae amser pan arglwyddiaetha dyn ar ddydd er drwg iddo*—Saes., 'er niwed iddo ei hun;' ac felly y dygwyddodd wedi hyn i Rehoboam, ac i lawer ar ei ol ef: gwel ar 1 Bren. xii. 13, &c.

Adn. 10. *Ac felly mi a welais gladdu y rhai annuwiol*] Y rhai ond odid a dorwyd ymaith cyn eu hamser, o herwydd tra-arglwyddiaethu o honyt ar ddyinion ereill, fel y dywedwyd uchod; *y rhai a aethent ac a ddaethent o le y Sантаidd*—hyny yw, y rhai a arferent gyrchu naill ai fel addolwyr i'r *cyssegr*, preswylfod y Duw santaidd; neu ynte fel barnwyr i *frawdlysoedd*, lle y tybid fod Duw yn eistedd fel Penllwydd, a hwythau yn rhaglafiaid dan o. *A hwy a e bargofwyd*—yn fuan, er maint eu hurddas; *yn y ddinas lle y gwnaethent felly*—lle yr arferent *addoli* neu *farnu*, er y galledid meddwl y buasai i'w coffadwriaeth barhau yno am oesoedd. *Gwagedd yw hyn hefyd*—fod i ddynion ddal swyddau uchel, neu geisio am sawredd daerol, yr hwn sydd mor ebrwydd yn diflanu, fel na bydd yn fuan ddim cymaint a choffadwriaeth o hono yn aros.

Adn. 11. *O herwydd na wneir barn yn*

erbyn gweithred ddrwg yn fuan] Trwy gopi y drwgweithredwr yn y fan ar ol iddo dros-eddu; *am hyny calon plant dnyon sydd yn llawn ynddynt i wneuthur drwg*—y maent yn ymfyfaul i bechu yn ddiattal, gan feddwl naill ai nad *yw* Duw yn eu canfod, neu ynte na fydd iddo en galw i gyfrif am eu gweithredoedd drwg. Fel hyn y mae *hir-amynedd* Duw, yr hwn a fwriadwyd i dywys dnyion i edifeirwch, yn ei gamddefnyddio ganddynt fel ag i'w tywys i chwaneig o bechodau!

Adn. 12. *Er gwneuthur o bechadur ddrwg ganwaith*] Trwy orthrymu, camfarnu, a thra-arglwyddiaethu ar y duwion; *ac estyn ei ddyddiau ef*—heb ei dori i lawr yn y fan am ei ddrvgioni: *eto mi a wn yn ddiaw y bydd daioni i'r rhai a ofnant Dduw*—y meddwl yw, er fod daioni arbedol a chyddoddefol felly yn cael ei estyn yn fynych i bechadur rhyfygus a chynodyn; eto y byddai i ddaioni gwirioneddol, sylweddol, a thragwyddol, gael ei estyn yn ddiaw i'r rhai a ofnent Dduw, sef i'r rhai a'i carent ac a'i gwasanaethent ef. Efe a gasglai oddiwrth ddaioni Duw i'r rhai *drwg*, y byddai i'r rhai *du* gael cyfranogi yn helaeth o bono.

Adn. 13. *Ond ni bydd daioni i'r annuwiol*] Yn hir iawn; *ac ni estyn efo ei ddyddiau*—o hyd, er i Dduw yn ei amynedd a'i ddaioni ganiatâu hyny iddo am beth amser, fel y dywedwyd uchod; *y rhai sydd gyffelyb i gysgod*—yn myned heibio yn gyflym tra y maent yn parhau, fel na w'yr efo pa mor fuan y difanant; *am nad yw yn ofni gerbron Duw*—fel y gwna y duwion, adn. 12, y rhai yn unig a feddant 'addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd,' 1 Tim. iv. 8. Er y gall yr annuwiol fyw weithiau yn *hwy* na'r duwiol, eto nid *yw* hyny yn dirymu yr hyn a ddywedir yma; eithr dangos y mae, (1) Ddaioni ac amynedd Duw tuag at yr annuwiol, wrth estyn ei ddyddiau felly, pan nad *yw* wedi addaw hyny; (2) Rhagoriaeth y duwiol ar yr annuwiol, pan y mae gan y cyntaf 'addewid o'r bywyd sydd yr awr hon,' tra nad oes gan yr olaf y fath beth; ac, (3) Daioni a thrugaredd neillduol Duw i'r duwiol, wrth ei gymeryd ef ymaith o ganol drygau bywyd i

14 Y mae gwagedd a wneir ar y ddaear; bod y cyfiawn yn damwain iddynt yn ol gwaith y drygionus: a bod y drygionus yn drygwyddo iddynt yn ol gwaith y cyfiawn. Mi a ddywedais fod hyn hefyd yn wagedd.

15 Yna mi a ganmolais lawenydd, am nad oes dim well i ddyn dan haul, na bwyta ac yfed, a bod yn llawen: canys hyny a lŷn wrth ddyn o' ilafur, ddyddiau ei fywyd, y rhai a roddes Duw iddo dan yr haul.

16 ¶ Pan osodais i fy nghalon i wrabod doethineb, ac i edrych ar y drafferth a wneir ar y ddaear; (canys

y mae ni wel hŷn â'i lygaid na dydd na nos:)

17 Yna mi a edrychais ar holl waith Duw, na ddichon dyn deall y gwaith a wneir dan haul: oblegid er i ddyn lafurio i geisio, eto nis caiff; i.e. pe meddyliai y doeth fŷnu gwybod, eto ni allai efe gael hyny.

PENNOD IX.

ER hyn oll mi a ystyriais yn fy nghalon, i ddangos hyn oll; *bod* y cyfiawn, a'r doethion, a'u gweithredoedd yn llaw Duw: ni wŷr dy

fwynhau oes o dragwyddol lawenydd a gogoniant yn y nef; tra y mae y llall yn cael estyn ei ddyddiau ar y ddaear, yr hyn, onid edifarha efe, a achosa chwangedd at ei gosp yn y byd a ddaw.

Adn. 14. *Y mae gwagedd a wneir ar y ddaear*] Gan bnaethiaid drygionus, y rhai yn fynyh a ddyrchafant ddynion anheilwng, ac a orthlymant ddynion rhinweddol a da; neu ynte a wneir yn nhrefn rhagluniaeth Duw, yr hwn, am lawer o resymau doethion a phwysig, a drefna felly achosion y byd hwn; *bod y cyfiawn yn damwain iddynt yn ol gwaith y drygionus*—yn cael yr un driniaeth chwercw ag a haedda dynion drwg; *a bod y drygionus*—ar y llaw arall, *yn drygwyddo iddynt yn ol gwaith y cyfiawn*—yn cael en gwobrwyo a'u llwyddo, yn lle eu darostwng a'u cospi. *Mi a ddywedais fod hyn hefyd yn wagedd*—yn beth annhŷg yn ol barn rhewm dynol, neu wrth edrych arno yn ei gysylltiad â'r fuchedd hon yn unig, ac ar wahân oddiwrth yr hyn sydd i gymeryd lle yn y byd a ddaw, pryd yr unionir y pethau a ymddangosant yma yn anwastad neu annhŷg.

Adn. 15. *Yna mi a ganmolais lawenydd*] Neu fywyd siriol a llawen; *am nad oes dim well i ddyn dan haul*—gyda golwg ar ei gysur a'i ddedwyddwch yn y bywyd hwn; *na bwyta ac yfed, a bod yn llawen*—na'r defnyddiaid cymedrol o drugareddau natur, gan fod yn ddiolchgar i Dduw am danynt: *canys hyny a lŷn wrth ddyn o' ilafur*—ni chaffi efe ddiu iddo ei hun o hirwlyth ei lafar, ond yr hyn a allo ei fwyta, ei yfed, a'i wisgo; *ddyddiau ei fywyd*—sef holl ddyddiau ei fywyd, y rhai a roddes Duw iddo dan yr haul—hyny yw, ni chaffi efe ddim ond hyny yn y fuchedd hon. Fel pe dywedasai Solomon, Ar yr ystyriaethau hyn daethym i'r penderfyniad, fod yn well i ddyn beidio ymfino gyda'r meddyliau am gamwri ymddangosiadol gorchwyliaethau rhagluniaethol Duw, a'r anhrefn mawr sydd yn y byd, na chyda gofalon ac ofnau am bethau i ddyfod, na chyda dymuniad angherddol am bethau y byd hwn; eithr fod iddo fwynhau y cysuron a roddasai Duw iddo gyda thawelwch, sirioldeb, a diolchgarwch: gwel ar pen. ii. 24, a iii. 12, 13. Ond tybia rhai mai geiriau

gwrthddadleuydd anffyddaid yw y ddwy adnod uchod a'u cyfilyb: gwel y rhagarweiniad, a'r sylwadau ar pen. vii. 2, 16, 17.

Adn. 16. *Pan osodais i fy nghalon i wrabod doethineb*] Sef i deall y modd y mae rhagluniaeth Duw yn llywodraethu y byd a'i drigolion; *ac i edrych ar y drafferth a wneir ar y ddaear*—sef ar wahol orchwylion ac amcanion meibion dynion, neu eu llafur diffino gyda phethau y byd hwn: *canys y mae ni wel hŷn â'i lygaid na dydd na nos*—gan faint ei drafferth a'i awydd i gyraedd cyfoeth neu anrhydedd daeorol. Tybia rhai mai atebiad Solomon i'r gwrthddadleuydd uchod yw y ddwy adnod hyn.

Adn. 17. *Yna mi a edrychais ar holl waith Duw*] Sef ar ei llywodraethiad rhagluniaethol ef o'r byd a'i drigolion, a daethym i'r penderfyniad hwn; *na ddichon dyn deall y gwaith a wneir dan haul*—am ei fod yn anhraethol tuhwnt i'w amgylfrediad ef. Gall dyn deall fod y gwaith yn cael ei wneyd; ond pa fodd, ac i ba ddybenion, nid oes neb a all ei ddirnad. *Oblegid er i ddyn lafurio i geisio*—ei ddirnad, *eto nis caiff*—ddirnadacth lawn o hono: *i.e. pe meddyliai y doeth fŷnu gwybod*—sef y dyn doethla a fu yn y byd erioed, hyl yn nod Solomon ei hun; *eto ni allai efe gael hyny*—byddai llawer o weithredoedd Duw yn aros fyth yn anolrheiniadwy. Y mae llawer o weithredoedd Duw yn debyg i Dduw ei hun, yn anfeidrol uwelhaw deall ac amgylfrediad dynion ac angylion. Gan hyny gwel yd i ui beidio ymdrafferthu mewn ymchwiliadau cywrair a manwl i'r pethau hyn, eithr ymostwng yn dawel i ewyllys Duw, gan fyw yn ei ofn ef, ac er gogoniant i'w enw.

PEN. IX. Adn. 1. *Er hyn oll mi a ystyriais yn fy nghalon*] Weithredoedd Duw; neu, efe a ystyriodd yn fanylach bob peth a'r a ddywedasai yn y bennod flaenorol am drefniadau ac ymddygiadau rhagluniaeth Duw tuag at ddynion da a drwg; *i ddangos hyn oll*—yn gyntaf i mi fy hun, ac wedi hyny i ereill; *bod y cyfiawn, a'r doethion, a'u gweithredoedd yn llaw Duw*—yn cael eu hamddiffyn gan ei allu, ac yn ddiogel yn ei flafr. Efe a enwa y rhai hyn, nid am y golygai nad oedd

gariad, neu gás, wrth yr hyn oll sydd o'u blaen.

2 Yr un peth a ddamwain i bawb fel eu gilydd: yr un peth a ddamwain i'r cyfiawn, ac i'r annuwiol; i'r da ac i'r glân, ac i'r aflan; i'r neb a abertha, ac i'r neb ni abertha: fel y mae y da, felly y mae y pechadur; a'r neb a dyngo, fel y neb a ofno dyngu.

3 Dyma ddrwg yn mysg yr holl bethau a wneir dan haul; sef bod yr un dyben i bawb: hefyd calon meib-

yr anghyfiawnyon a'u gweithredoedd hefyd yn ei law ef, neu dan eilywodraeth a'i awdurdod, canys y mae y frawddeg nesaf yn cyfeirio at y drwg a'r da; ond efe a enwa y cyfiawnyon yn benodol, am y gallent hwy ymddangos fel yn cael eu hesgeuluso gan Dduw, pan y mae efe yn goddef iddynt gael eu bliuo a'u tralodi mor fynych. *Ni wŷr dyn gariad, neu gás, wrth yr hyn oll sydd o'u blaen*—neu yn dygwydd iddynt ar y ddaear; hyny yw, nis gall neb farnu oddiwrt h amgylchiadau allanol dynion yn y fuchedd hon, pa un ai en *caru* ynte en *casáu* y mae Duw; canys y mae efe yn fynych yn *ceryddu* y sawl y mae yn eu caru, ac yn goddef i'r rhai y mae yn eu *casáu* *hwyddo* yn y byd.

Adn. 2. *Yr un peth a ddamwain i bawb fel eu gilydd*] Y mae yr un pethau da neu ddrwg, mewn ystyr tymhorol, yn dygwydd i bawb fel eu gilydd yn y bywyd hwn. *Yr un peth a ddamwain i'r cyfiawn*—yr hwn sydd yn dilyn cyfiawnder manwl yn ei holl weithredoedd; *ac i'r annuwiol*—yr hwn nid yw yn ceisio rhyngu bodd Duw mewn dim. Y mae y dda, weithian, yn cael hawddfyd fel eu gilydd, ac weithian adfyd fel eu gilydd, neu gymysgedd o'r dda yr un ffunud, fel pe na byddai dim gwahaniaeth yn eu cyflyrau moesol. *I'r da ac i'r glân*—y rhai sydd yn dilyn bachedd dda a saintaidd; *ac i'r aflan*—y rhai sydd yn ymdroi mewn pob affentid moesol. (Ond y mae y *Syriac* yn darllen yma, 'i'r da ac i'r drwg; i'r glân ac i'r aflan.') *I'r neb a abertha*—yn gydwytbodol i Dduw, fel y gwnai llawer o'r Iuddewon gynt; *ac i'r neb ni abertha*—o gwbl, neu a wna hyny yn esgeulus a rhagithiol. *Fel y mae y da*—yr hwn sydd yn dilyn pob daioni yn ei fywyd; *felly y mae y pechadur*—hyfa rhytys, o ran y dygwyddiadau rhagluniaethol a'u cyfarfyddant yma. *A'r neb a dyngo*—yn ddiris, neu ar gam; *fel y neb a ofno dyngu*—oddieithr ar achos o'r pwys mwyaf, pryd y gwna efe hyny yn bwyllig a difrifol, fel yn ngwyddod Duw. Yn yr adnod hon nodir y cyfiawn trwy bump neu chwech o wahanol gymeriadau, a'r drygionus trwy gynifer a hyny o gymeriadau gwrthgyferbyniol ar eu cyfer; ac er fod gwahaniaeth mawr rhyngddynt mewn ystyr moesol, nid oes dim gwahaniaeth rhyngddynt, yn y cyffredin, o ran dygwyddiadau neu ddamweiniâu allanol y

ion dynion sydd yn llawn drygioni, ac ynfydrwydd sydd yn eu calon tra fyddant fyw, ac ar ol hyny y maent yn myned at y meirw.

4 ¶ Canys i'r neb a fo yn nghymdeithas y rhai byw oll, y mae gobaiith: canys gwell yw ei byw na llew marw.

5 O herwydd y rhai byw a wyddant y byddant feirw: ond nid oes dim gwybodaeth gan y meirw, ac nid oes iddynt wobr mwyach: canys eu coffa hwynt a anghofiwyd.

fuchedd hon. Y mae yn wir fod rhai eithriedau weithiau i'r drefn hon, pryd y pair Duw i'w ragluniaeth gyfryngu yn eglur ar ran ei fyddlon ganlynwyr; ond yn y cyffredin y rheol yw, fod i'r da a'r drwg gydygyfrangi fel eu gilydd o fendithion a drygau naturiol y bywyd hwn. Y *drygau naturiol* hyn ydynt effeithiau CWYMP dyn; ac ni fydd i Dduw bob amser attal deddfau cyffredinol, na'u newid hwy, i foddhau hyd yn nod ei blant ei hun; ac nid yw yn wriadau fod i'w gymeradwyaeth neu ei anghymeradwyaeth o bersonau neillduol gael ei amlygu trwy ddamweiniâu neu ddygwyddiadau bywyd. Y mae digon o ddrwg yn y byd i ddangos fod dyn wedi syrtháo oddiwrt Dduw, a digon o dda i ddangos fod Duw yn ymddwyn tuag at ef mewn *trugaredd*; ac y mae gan bob dyn gwir sautaid ddigon o dystiolaeth o gymeradwyaeth Duw yn ei gydwytbod ei hun i'w wneuthur ef yn wir ddeudwydd, bydded y pethau allanol fel y byddent.

Adn. 3. *Dyma ddrwg yn mysg yr holl bethau a wneir dan haul*] Ag sydd yn ddigon anlwg i bob dyn ystyriol; *sef bod yr un dyben i bawb*—sef yr un damweiniâu yn y bywyd hwn i bawb, fel y nodwyd uchod; neu yr un *diwedd* i bawb, sef marwolaeth. *Hefyd calon meibion dynion*—cyn ei chyfnewid trwy ras, *sydd yn llawn drygioni*—trwy fod 'holl friad meddyllfryd eu calon yn unig yn ddrygionus bob amser,' Gen. vi. 5; *ac ynfydrwydd sydd yn eu calon tra fyddant fyw*—yr hyn sydd yn peri iddynt tynd rhagddynt yn ynyfyd yn eu pechodau, heb ofai y caulniadau; *ac ar ol hyny y maent yn myned at y meirw*—yn eu pechodau, ac i fod yn dragwyddol druenus o ran en heneidiau; ac y mae hwn yn ddrwg gwaeth na'r cyntaf.

Adn. 4. *Canys i'r neb a fo yn nghymdeithas y rhai byw oll*] Sef i'r neb a fyddo byw ar y ddaear; y mae gobaiith—am fidedant ac iachawdwriaeth, pa mor ddrygionus bynag y byddo: *canys gwell yw ei byw na llew marw*—ymadrodd diarebol, yn arwyddod fod *bywyd* hyd yn nod yn y creadur gwaelaf, o ran ei ddefnyddioldeb a'i fanteision daearol, yn rhagori ar y *diffyg* o hono yn y creadur cryfaf ac enwocaf.

Adn. 5. *O herwydd y rhai byw a wyddant y byddant feirw*] A gellir dysgwyl y bydd i'w wybodaeth o hyn eu harwain hwy i ymbarotoi

6 Eu cariad hefyd, a'u cás, a'u cenfigen, a ddarfu yn awr; ac nid oes iddynt gyfran byth mwy o ddim oll a wneir dan yr haul.

7 ¶ Dos, bwyta dy fwyd yn llawen, ac ŷf dy win â chalon hyfryd: canys yn awr cymeradwy gan Dduw dy weithredoedd.

8 Bydded dy ddillad yn wñion bob amser; ac na fydded diffyg olew ar dy ben.

9 Dwg dy fyd yn llawen gyda'th wraig anwyl holl ddyddiau bywyd dy oferedd, y rhai a roddes efe i ti

erbyn marw. *Onid nid oes dim gwybodaeth gan y meirw*—yn y bedd, am ddim o'r pethau a wneir ar y ddaear, nac am drefn o iachawd-wriaeth iddynt eu hunain ar ol marw mewn cyflwr ambarod; *ac nid oes iddynt wobrwmyach*—pe gallent wneuthur rhyw weithredoedd da rhagllaw; *canys eu coffa hwynt a anghofeydd*—gan bawb ar y ddaear: neu yn hytrach, y maent yn hollol yr un modd, o ran gwybodaeth a gweithrediad corfforol, a phe byddent wedi eu difodi; neu, y maent yr un modd a phe buasent heb erioed gael bodoliaeth. Nid yw hyn yn golygu nad oes iddynt wobrw neu gosg yn y byd arall am yr hyn a wnaed ganddynt yma yn y corff; eithr y meddwl yw, nad vdynt hwy mwyach mewn cyflwr o braff, fel ag i haeddu gwobr neu gosg chwangelol.

Adn. 6. *Eu cariad hefyd* [At eu cyfeillion; a'u cás—at eu gelynon; a'u cenfigen—wrth lwyddiant rhai ereill; a ddarfu yn awr—yn y bedd; *ac nid oes iddynt gyfran byth mwy o ddim oll a wneir dan yr haul*—am eu bod hwy wedi eu trosglwyddo o fyd o amser i'r byd tragwyddol. Nid yw y Pregethwr yn son dim yma am gyflwr eneidiau y meirw mewn byd arall, ond yn unig am eu cyflwr mewn cysylltiad â'r byd hwn.

Adn. 7. *Dos, bwyta dy fwyd yn llawen* [Yr hwn y mae Duw yn ei ddaion yn ei roddi i ti; *ac ŷf dy win â chalon hyfryd*—heb ymfino a gofidio yn nghylch dygwyddiadau bywyd; *canys yn awr*—ar ol dy achub trwy ras, *cymeradwy gan Dduw dy weithredoedd*—y rhai yr ydwynt yn eu gwneuthur mewn nyfdd-dod iddo ef, ac er gogoniant i'w enw. Meddylir mai wrth y dyn duwiol y llefarir yma, ac yn y tair adnod ganlynol.

Adn. 8. *Bydded dy ddillad yn wñion bob amser* [Yr oedd y dwyrainwr yn arferol o wisgo dillad gwñion yn eu gwleddoedd, eu priodasau, a'r cyfielyb achlysuron, yn arwydd o orfoledd a llawenydd; *ac na fydded diffyg olew ar dy ben*—yr hwn, mewn amseroedd o lawenydd, a dywelltid yn helaeth ar y pen. Gall y dillad gwñion hefyd arwyddo sant-eiddrwydd a phurdeb buchedd; a'r olew ar y pen, rasantu a rhinweddau ysbrydol.

Adn. 9. *Dwg dy fyd yn llawen gyda'th wraig anwyl* [Prioda un wraig, a dim ond

dan yr haul, holl ddyddiau dy oferedd: canys dyna dy ran di yn y bywyd yma, ac yn dy lafur a gymeri dan yr haul.

10 Beth bynag yr ymafael dy law yuddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni: canys nid oes na gwaith, na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd, lle yr wyt ti yn myned.

11 ¶ Mi a droais, ac a welais dan haul, nad yw y rhedfa yn eiddo y cyflym, na'r rhyfel yn eiddo y cedryn, na'r bwyd yn eiddo y doethion,

ac ymhyfrydwel yn nghvmedithas eich gilydd, gan fwynhau gyda chalon ddiolcbgar y trugareddau a ddyry Duw i chwi: *holl ddyddiau bywyd dy oferedd*—neu holl ddyddiau dy fwyd brau a darfodedig; *y rhai a roddes efe i ti dan yr haul*—i'w mwynhau mewn cyflwr priodasol ar y ddaear: *holl ddyddiau dy oferedd*—efe a ddefnyddia yr ymadrodd hwn eilwaith, i gymedroli ein serchiadau hyd yn nod at bethau cyfreithlon, ac i'n hannog i feddwl mwy am ein diwedd, ac am fyd mwy sylweddol na hwn. *Canys dyna dy ran di yn y bywyd yma*—sef bwyta ac yfed â chalon hyfryd, ymwisgo yn weddus, a bod yn llawen gyda dy wraig anwyl, adn. 7—9; *ac yn dy lafur a gymeri dan yr haul*—dyna yw y cwbl a elli di ei fwynhau o firwyth dy lafur yn y byd yma.

Adn. 10. *Beth bynag a ymafael dy law yuddo i'w wneuthur* [Mewn ffordd o ddyledswydd tuag at Dduw, tuag ataf dy hun, neu tuag at ereill; *gwna â'th holl egni*—gyda holl alluoedd dy gorff â'th enaid, neu gyda'r grym, v diwydrwydd, a'r brws mwaf. Ar ol i'r Pregethwr gynghori ei ddysgybl yn yr adnodau blaenorol i fwynhau cysuron bywyd, y mae efe yma yn ei gynghori ef i gyflawni dyledswyddau bywyd. *Canys nid oes na gwaith*—trwy yr hwn ygelli ymlsáu; *na dychymyg*—neu ddyfais, trwy ba un y gelli ddianc rhag cosp; *na gwybodaeth*—am ymwared o un man; *na doethineb*—trwy ba un y gelli goraedd flastr a delw Duw; *yn y bedd*—oer a thywyll, *lle yr wyt ti yn myned*—gyda'r cyflymdra mwaf. Am hwny gwna â'th holl egni y gwaith ag y mae Duw yn ei ofyn genyt, tra y gelwir hi *heddyw*.

Adn. 11. *Mi a droais, ac a welais dan haul* [Y pethau canlynol. Ar ol i'r Pregethwr gymhell dynion yn yr adnod flaenorol i lafurio â'u holl egni, efe a chwanea yma, mewn ffordd o rbydd, fod yn rhaid iddynt hwy beidio ymddiried yn eu nerth eu hunain, fel pe byddent yn sicr o lwyddo trwy hwny; ond fod yn rhaid iddynt edrych i fyny at Dduw am ei fendith, heb yr hon ni byddai eu holl ymdrech hwy ddim ond ofer. *Nad yw y rhedfa yn eiddo y cyflym*—ond fod Duw yn fynch yn peri i'r cloff a'r musgrell ennill y gamp, neu ddianc i bag ei erlidiwr; *na'r rhyfel*

na chyfoeth yn eiddo y pwylllog, na ffafyr yn eiddo y cyfarwydd; ond amser 'a damwain a ddygwydd iddynt oll.

12 Canys ni wŷr dyn chwaith ei amser: fel y pysgod a ddelir â'r rhwyd niweidiol, ac fel yr adar a ddelir yn y delm; felly y delir plant dynion yn amser drwg, pan syrthio arnynt yn ddisymwth.

13 ¶ Hefyd y doethineb hyn a

yn eiddo y cedyrn—ond ei fod ef weithiau yn peri i'r blaidd wanaf fuddugoliaethu, fel y gwnaeth Dafydd ar Goliath: *na'r bwyd yn eiddo y doethion*—ond fod y rhai annoeth yn fynych yn cael eu digonedd o fara, tra y mae y doethion weithiau yn anghennu a newynog; *na chyfoeth yn eiddo y cyfarwydd*—y rhai y mae eu medrusrwydd a'u lathrylith, yn lle ennill ewylls da a pharch eu cymydogion, yn peri iddynt weithiau fod yn wrthdrysychau eu cennigau a'u casineb hwy. *Ond amser*—sef adeg neu gyfleusdra iddynt lwyddo yn y pethau uchod; *a damwain*—rhyw rwystr ar eu fiordd i lwyddo; *a ddygwydd iddynt oll*—y meddwl yw, mai rhaglaniaeth Duw biai llywodraethu holl weithredoedd ac amgylchiadau dynion, ac nid en medrusrwydd neu eu galluoedd hwy eu hunain.

Adn. 12. *Canys ni wŷr dyn chwaith ei amser*] Sef amser ei farwolaeth, neu ei ddiwedd, fel y mae yn y Lladin. *Fel y pysgod a ddelir â'r rhwyd niweidiol*—tra y byddont yn chwerau ac yn ymddifaru yn y dyfroedd; *ac fel yr adar a ddelir yn y delm*—neu y fagl angenol, a hynny yn ddiarwybod iddynt; *felly y delir plant dynion yn amser drwg*—gan aflydd neu farwolaeth, *pan syrthio arnynt yn ddisymwth*—heb iddynt hwy feddwl am dano, na'i ddysgwyl: gwel ar 1 The. v. 3.

Adn. 13. *Hefyd y doethineb hyn a welais i dan haul*] Sef yr hyn a adroddir isod, ac a chwaneigr yma er cartmoliaeth i ddoethineb, er ei fod yn annigonol er diogelwch a dedwyddwch dyn heb fendith Duw; *ac sydd fawr genyf fi*—yn werthfawr yn fy ngolwg i, er fod llawer yn ei ddiabrisio.

Adn. 14. *Yr oedd dinas fechan, ac ynddi ychydig wŷr*] I'w hamddiffyn trwy nerth arfa—*a brenin mawr a ddaeth yn ei herbryn hi*—gyda byddin luosog; *ac a'i hamgylchynodd*—â milwyr a pheiriannau rhyfel: *ac a gododd glawdd uchel yn ei herbryn*—i ddiogela ei filwyr ei hun rhag saethau y dinasyddion, ac i'w hattal bwythau rhag dianc o'r ddinas, na chael cymhorth oddiallan.

Adn. 15. *A chafwyd ynddi wŷr tylawd doeth*] Yr hwn ond odid nad oedd neb wedi gwneyd nemawr sylw o hono o'r blaen; *ac efe a waredodd y ddinas hono â'i ddoethineb*—naill ai trwy ymbeddychu â'i gelynyon, neu trwy ddyfeisio rhyw foddion i'w gorchfygu

welais i dan haul, ac sydd fawr genyf fi:

14 *Yr oedd dinas fechan*, ac ynddi ychydig wŷr; a brenin mawr a ddaeth yn ei herbryn hi, ac a'i hamgylchynodd, ac a gododd glawdd uchel yn ei herbryn:

15 *A chafwyd ynddi wŷr tylawd doeth*, ac efe a waredodd y ddinas hono â'i ddoethineb; eto ni chofiodd neb y gŵr tylawd hww.

hwy: *eto*—ar ol iddo felly waredu y ddinas, *ni chofiodd neb y gŵr tylawd hww*—i roddi tâl na diolch iddo am y daioni mawr a wnaeth ai efe iddynt. Yr oedd hyn yn annglyfawnder o'r mwaf, ac y mae yn ddyvgrifiad cywir o ymddygiadau dynion yn mhob oes a gwlad tuag at lawer o'u cymwynaswyr. Tybia rhai fod Solomon yma yn cyfeirio at ryw *ffraith* wirioneddol, gyffelyb i'r hon a grybwillir yn 2 Sam. xx. 15—22: tra y tybia ereill mai *dammeg* yw y geiriau, yn gosod allan werth doethineb, a'r anniolchgarwch a'r diystyrwch a ddaenghosir yn fynych tuag at y rhai a'i defnyddiant er lles y cyffredin. 'Y mae y rhai a ysbrydolant yr adnoda hwn,' ebai *Clarke*, 'gan beri i'r ddinas fechan osod allan yr EGLWYS, a'r ychydig wŷr yr APOSTOLION, a'r brenin mawr y DIAFOL, a'r gŵr tylawd doeth IESU CRIST, yn gwneyd cam â'r testyn.' Y mae yr adnoda hyn yn derbyn eglurhad prydferth oddiwth achos *Archimedes* yn gwaredu dinas *Syracuse* rhag byddin-oedd y Rhufeiniaid, y rhai a ymosodent arni o'r tir a'r môr. Efe a dyfethodd en llongan hwynt â'i *wydrau llosgawl*, ac a gododd en rhwyf-longau hwynt o'r dwfr â'i beiriannau, gan chwilfrwio rhai a suddo y lleill. Darfu i ddoethineb un gŵr lwyddo yma am hir amser yn erbyn yr ymdrechadau mwaf grymus o eiddo cenedl nerthol. 'Ond, ai ni chymerydd *Syracuse* er gwaethaf ymdrechadau y gŵr tylawd doeth hwn?' Naddo: eithr ei *bradychu* a gafodd trwy ddyhirwch *Mercius*, Hispanwr, un o gadfridogion *Syracuse*. Efe a draddododd yr holl dalaeth dan ei lywodraeth i ddwyylaw *Marcellus*, yr uchel-faer Rhufeinig, ar ol i *Archimedes* faeddu pob ymgeis a wnaed gan y Rhufeiniaid ar for a thir. Nid oedd ganddo fyddin dan ei lywodraeth, eithr efe a'u drysodd ac a'u dyfethodd hwynt â'i beiriannau. Dygweddodd hyn oeddu 208 o flynyddau cyn Crist, tua'r amser pryd y tybia y rhai na phriodolant y llyfr hwn i Solomon ddarod ef ysgrifenu ef. Ni chofiodd neb y gŵr tylawd hwn; eithr efe a laddwyd gan filwr Rhufeinig pan yn tynu lluniau ar y tywod, i'r dyben i weithredu wrthynt yn ei ymdrechadau pellach yn erbyn gelynyon ei wlad: gwel *Plutarch*, a haneswyr y rhwlf hon yn *Syracuse*.—Wele anghraifft arall: Pan oedd *Alexander Fawr* ar fedr dyfetha dinas *Lampsacus*, daeth ei hen feistr *Anaximenes* allan i'w gyfarfod ef. *Alexander*, wrth ragweled ei fwriad ef o eiriol dros y ddinas, a

16 Yna y dywedais, Gwell *yw* doethineb na nerth : er hyny dirmygir doethineb y tylawd, ac ni wrandewir ar ei eiriau ef.

17 Geiriau y doethion a wrandewir mewn dystawrwydd, rhagor bloeddyr hwn sydd yn llywodraethu yn mysg ffyliaid.

18 Gwell *yw* doethineb nag arfau rhyfel; ond un pechadur a ddinystria lawer o ddaioni.

chan benderfynu ei dyfetha hi, a dyngodd na chaniatiai efe iddo ddim a'r a ofynai efe. Yna dywedodd *Anaximenes*, 'Yr wyf yn erfyn arnat ddyfetha y ddinas hon.' Cadwodd *Alexander* ei lw, ac arbedwyd y ddinas. Felly, trwy y cyfrwysdra hwn, cafodd yr hen ddinas ardderchog hono ei chadw rhag y dinystri ar hwn y bygythid hi : gwel *Valerius Maximus*.—Hefyd, bu doethineb *Jadua*, yr archoffeiriad Iuddewig, yn foddion i gadw *Jerusalem*, tua'r un amser, rhag cael ei dyfetha gan *Alexander*; yr hwn, ar ol iddo ddinystrio Gaza, a aeth tua Jerusalem gyda bwriad i'w gwneuthur hithau yn garneddau. Ond trwy i *Jadua* a'i offeiriad fyned allan i'w gyfarfod ef yn eu gwisgoedd offeiriadol, efe a darwyd mor nerthol gan eu hymddanghosiad, fel ag y darfu iddo nid yn unig ymgyrnu o flaen yr archoffeiriad, ac arbed y ddinas, ond hefyd ganiatáu iddi freintiau arbenig o'r newydd.

Adn. 16. *Yna y dywedais*] Yn yr ystyr iaeth o'r hyn a wnaethai y gŵr tylawd doeth uchod; *Gwell yw doethineb*—mewn amgylchiadau o'r fath ag a enwyd; *na nerth*—sef nerth milwyr ac arfau rhyfel, adn. 18: hyny yw, y mae yn well, am ei fod yn dŵyn gwaredigaeth heb goll gwael. *Er hyny dirmygir doethineb y tylawd*—yn fynych iawn, am ei fod yn dylawd; *ac ni wrandewir ar ei eiriau ef*—er fod ei gyngorion yn llawn doethineb, os na fydd *perygl* yn agos: gwel isod.

Adn. 17. *Geiriau y doethion*] Pa un bynag fyddont ai tylawd ai cyfoethog; *a wrandewir mewn dystawrwydd*—gyda'r parch a'r derbynaiad mwyaf, pan fyddo perygl yn *bygwth* y ddinas, fel yr adroddwyd uchod; neu, a wrandewir er iddynt gael eu llefaru mewn dystawrwydd; *rhagor bloedd yr hwn sydd yn llywodraethu yn mysg ffyliaid*—sef bloedd brenin ffol yn rhybyddio ei ddeiliaid ffolion. Neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'Gwrandewir ar eiriau tawel y doethion, yn fwy nag ar ddadwrdd llywodraethwr ffol.' 'Geiriau y doethion,' ebai *Aben Ezra*, 'a ddirmygir gan y bobl pan y maent mewn hawddfyd, adn. 16; ond pan y maent mewn cyfyngder, ac wedi eu dystewi gan ofn a gofid, yna hwy a wrandawant yn awyddus a dyfal.'

Adn. 18. *Gwell yw doethineb nag arfau rhyfel*] Fel y danghoswyd uchod, adn. 14—16: *ond un pechadur*—balch, ynfyd, ac annuwiol, yr hwn a fyddo yn gwrthwynebu mesurau a chynlluniau y doethion hyny; *a ddinystria*

PENNOD X.

GWYBED meirw a wnant i enaint yr apothecari ddrewi; *felly* y gwna ychydig ffolineb i ŵr ardderchog o herwydd doethineb ac anrhydedd.

2 Calon y doeth *sydd* ar ei ddeheulaw; a chalon y ffol ar ei law aswy.

lawer o ddaioni—yr hwn a geid, neu a allesid ei gael, trwy dderbyn y cynlluniau hwy. Bu fel hyn yn fynych yn mrenhiniaeth Juda, pryd y codai brenin annuwiol ar ol brenin da, ac y dinystriai yr holl ddaioni a wnaethid gan hwnw; ac yn debyg i hyn y bu yn y deyrnas hon, pan ddaeth Mari waedlyd i'r orsedd ar ol Edward VI. Yn wir y mae un dyn drygionus mewn toulu, mewn ardal, neu mewn eglwys, yn ddigon i ddinystrio pob heddwch a fyddo yno; ac y mae yn aml, fel ychydig lefain, yn lefeinio yr holl does; neu fel un gwreiddyn chwerrwedd yn tyfu i fyny, ac yn peri blynder, a thrwy hwnw llygru llawer, Heb. xii. 15.

PEN. X. Adn. 1. *Gwybed meirw a wnant i enaint yr apothecari ddrewi*] Ar ol i'r apothecari neu y cyfferiwr barotoi ei enaint gwerthfawrocaf, aiff y gwybed i'r llestr lle y byddo os na chymmer efe ofal i'w orchuddio, a byddant feirw yno; ac yna, er mor fychain ydynt, gwnant yr enaint pereinidaf ddrewi: *felly y gwna ychydig ffolineb*—neu un weithred annoeth ac ysgeler, i ŵr ardderchog o herwydd doethineb ac anrhydedd—yr hwn a fyddo wedi cyraedd ardderchogrwydd trwy ei ddoethineb a'i ymddygiadau anrhydeddus. Bydd i'r un weithred ffol hono ddwyn gwarth ac anfi ar ei gymeriad ef, a dyfetha yr holl ardderchogrwydd oedd iddo o'r blaen, fel y dyfethir yr enaint gwerthfawrocaf a phereiddiaf gan wybed meirw. Ymddengys fod Solomon yn y geiriau hyn yn dilyn yn mlaen yr hyn a ddywedasai efe yn niwedd y bennod flaenorol, gan ddaigos gymaint o ddaioni a ddinystir trwy un weithred bechadurus. Pa ddoethaf neu oraf y byddo dyn, mwyaf gochelgar y dylai ef fod yn ei holl eiriau a'i weithredoedd, os yw am gadw ei fri a'i anrhydedd yn y byd, yr hyn a ddyry iddo fantas fawr i wneyd daioni; canys y mae yn hawdd i'r parch a enuillodd efe trwy lawer o anhawsdra doethineb, gael ei gollu trwy ychydig ffolineb. Ac y mae yn dygwydd fel hyn, (1) Am fod holl ymddygiadau y cyfryw ddyinion yn cael sylw manylaf eu cymydogion, tra y mae ymddygiadau dnyion anwybodus a ffol yn myned heibio yn ddisylw ganddynt; ac, (2) Am fod y duedd genfigenllyd a maledisns ag sydd mewn rhai dnyion yn peri iddynt ganfod yn fuan, a thaenu gyda brys a hyfrydwch, feiau neu ffaeiddau y dyn a fyddo yn rhagori arnynt hwy.

Adn. 2. *Calon y doeth sydd ar ei ddeheu*

3 Ie y ffol, pan rodio ar y ffordd, sydd â'i galon yn pallu, ac y mae yn dywedyd wrth bawb ei fod yn ffol.

4 Pan gyfodo ysbryd penadur yn dy erbyn, nac ymado â'th le : canys ymostwng a ostega bechodau mawrion.

5 Y mae drwg a welais dan yr haul, cyffelyb i gyfeiliorni sydd yn dyfod oddi gerbron y llywydd :

6 Gosodir ffolineb mewn gradd-

au uchel, a'r cyfoethog a eistedd mewn lle isel.

7 Mi a welais weision ar feirch, a thywysogion yn cerdded fel gweision ar y ddaear.

8 Y sawl a gloddio bwl, a syrth ynddo; a'r neb a wasgaro gae, sarff â'i brath.

9 Y sawl a symudo gerig, a gaiff ddolur oddiwrthynt; a'r neb a hollto goed, a gaiff niwed oddiwrthynt.

law] Y mae ei galon neu ei ddoethineb ef yn barod i'w gynorthwyo bob amser yn ei holl weithredoedd; *a chalon y ffol ar ei law aswy*—yn mbell oddiwrth ei ddeheulaw, yr hon yw offeryn ei weithrediadau ef. Neu, y mae y doeth yn gwneyd pob peth o *ddeau*, ac fel y dylai ei wneyd; tra y mae y ffol yn gwneyd pob peth o *chwith*, ac mewn modd na ddylai. Y mae y galon, mewn ystyr naturiol a llythrenol, yn yr un man yn nghorff pob dyn. Yr oedd yr henafiaid yn galw pob peth doeth a da yn weithred y *ddeheulaw*; a phethau ffol a drwg, yn ei ymddygiad o leiaf, ei *fod yn ffol*—yn amddifad o ddoethineb ac egwyddor i wneyd daioni.

Adn. 3. *Ie y ffol, pan rodio ar y ffordd*] Yn mhob man lle y byddo, ac yn mhob gweithred a waa; *sydd â'i galon yn pallu*—Saes., 'sydd â'i ddoethineb yn pallu;' hyny yw, y mae efe yn mhob man yn dangos ei wendid â'i annoethineb: *ac y mae yn dywedyd wrth bawb*—yn ei ymddygiad o leiaf, *ei fod yn ffol*—yn amddifad o ddoethineb ac egwyddor i wneyd daioni.

Adn. 4. *Pan gyfodo ysbryd penadur yn dy erbyn*] O herwydd rhyw drosedd o'r eiddod pan yn ei wasanaeth; *nac ymado â'th le*—na ddos allan o'i wyddod neu o'i wasanaeth ef yn fyrbwyll a gwaedwyll: gwel ar pen. viii. 3: *canys ymostwng*—neu gyfaddeiaid edifeiriol o'th fai, *a ostega bechodau mawrion*—neu a ostega ddigofaint am bechodau mawrion. Y mae hwn yn gyngor da i was gyda golwg ar ei feistr, neu i *bientyn* gyda golwg ar ei rieni.

Adn. 5. *Y mae drwg a welais dan yr haul*] Sef drwg o fath arall, yr hwn a enwir yn adn. 6, 7; *cyffelyb i gyfeiliorni sydd yn dyfod oddi gerbron y llywydd*—neu, fel y gellir cyfieithu y wreiddiol, 'yr hwn yn wir sydd gyfeiliornad yn dyfod oddiwrth y llywydd.' Nis gallai neb ond llywydd neu frenin fod yn euog o'r drwg hwn, neu rywun yn meddu awdurdod i ddyrchafu neu ddarostwng dynion.

Adn. 6. *Gosodir ffolineb mewn graddau uchel*] Neu ddynion ffol a diddysg mewn swyddau nchel yn y llywodraeth; *a'r cyfoethog*—sef gwŷr o gyfoeth, gwaedoliaeth, dysgeidiaeth, a doethineb; *a eistedd mewn lle isel*—mewn swyddau isel, neu yn wir heb un swydd, er fod ganddynt bob cymhwysder iddi.

Adn. 7. *Mi a welais weision ar feirch*] Sef dynion o'r graddau isaf yn marchogaeth mewn rhwysg ac awdurdod fel tywysogion; *a thywys-*

ogion—dynion o gymhwysderau priodol i lywodraethu teyrnas, *yn cerdded fel gweision ar y ddaear*—yn cerdded wrth ochr y lleill fel gweision, neu yn crwydro mewn cyflwr o dy-lodi ac israddiad, ac yn cael eu diystyru os nid eu dirmygu. Yr oedd hyn yn beth mynvel yn y wlad hon yn amser *Thomas à Becket* a'r *Cardinal Wolsey*, y rhai a dra-arglywdiaethent ar yr holl deyrnas, ac a ddyrchafent neu a ddarostyngent ddynion o bob gradd yn ol en mympwy eu hunain. Trwy y math yma o *gyfeiliorni* cafodd llawer penadur deyrnasiad tra annedwyld a blinderus, a cholodd rhai eu bywydau.

Adn. 8. *Y sawl a gloddio bwl*] I gwmpo ei gymydog iddo; *a syrth ynddo*—ei hun, fel barn arno am ei ddrwg-fwrdd i arall, *Diar. xxvi. 27: a'r neb a wasgaro gae*—neu a chwalo hen wrych neu glawdd, i'r dyben i eargu ei derfynau ei hun; *sarff â'i brath*—yr hon a all fod yn nythn yno. Meddwl yr adnodau hyn, y rhai y gellir eu hystyried fel diarebion cyffredin, yw, y bydd i'r sawl a geisiant niwed i ereill, ddwyn drwg yn fynych iddynt eu hunain trwy hyny.

Adn. 9. *Y sawl a symudo gerig*] A fyddont wedi eu gosod fel terfyn rhwng meddianau gwŷr a gwŷr; neu a symudo gerig o hen adeilad wrth ei thynu i lawr; *a gaiff ddolur oddiwrthynt*—trwy i rai o honynt ond oddi syrthio arno: *a'r neb a hollto goed*—a fyddont wedi caledu yn yr hen adeilad hōno; *a gaiff niwed oddiwrthynt*—trwy i rai o'r ysgyrrion dasgu i'w wyneb, neu trwy iddo fethu ei ergyd, a'i ddolurio ei hun. Y mae *Melancthon*, *Patrick*, *Benson*, ac amrai esbonwyr enwog ereill, yn deall yr adnodau hyn fel rhybydd i bennaethiaid a phobl, i ofalu rhag cynyg gwneuthur cyfnewidiadau byrbwyll a threisiol yn nhrefa sefydlog pethau mewn eglwys neu wladwriaeth. 'Na foed i'r tywysog na'r bobl,' ebai *Henry*, 'gynyg yn angherddol ar unrhyw gyfnewidiadau, nac ymosod yn orthrechol ar sefydliad gwladwriaethol; canys bydd iddynt i'f dau ei gael o ganlyniad peryglus. Na foed i dywysogion ymosod ar iawnderau a rhyddid eu deiliaid, ac na foed i'r deiliaid derfysgu a gwrthryfela yn erbyn eu tywysogion, eithr bydded iddynt ill dau foddoloni o fewn eu terfynau eu hunain. Y mae Duw trwy ei ordeiniad, fel trwy glawdd, wedi cau o amgylch rhagofreintiau ac awdurdod tywysogion, ac y mae eu personau dan ei

10 Os yr haiarn a byla, oni hoga efe y min, rhaid iddo roddi mwy o nerth: eto doethineb *sydd* ragorol i gyfarwyddo.

11 Os brath sarff heb swyno, nid gwell yw dyn siaradus.

12 Geiriau genau y doeth *sydd* rasol: ond gwefusau y ffol a'i dyfetha ef ei hun.

13 Ffolineb yw dechread geiriau ei enau ef: a diweddaiad geiriau ei enau *sydd* anfad ynfydrwydd.

nawdd neillduol ef; gan hyny nid yw y rhai a luniant ryw twriadau bradwrus yn erbyn eu heddwch, eu coron, a'u hurddas, ddim ond yn plethu rhaff i'w crogi eu hunain. A'r rhai a ânt oddiamgylch i newid llywodraeth a fyddo wedi ei hiawn-gynllunio a'i hiawn-sefydlu, dan yr esgus o wella rhyw gamwri neu ddiwygio rhywbeth o'i le ynddi, a ganfyddant yn fuan nid yn unig fod yn hawddach canfod gwall na'i wella, a dinystrio yr hyn sydd dda nag adeiladu yr hyn sydd well, ond eu bod yn tynu tŷ i lawr ar eu penau eu hunain, dan ddefilion pa un y gallant ond odid gael eu llethu i farwolaeth.

Adn. 10. *Os yr haiarn a byla* [Sef y fwyell â pha un y byddo y dyn yn ceisio hollti ei goed, adn. 9; *oni hoga efe y min*—fel ag i wneyd ei fwyell yn fwy awchlym, *rhaid iddo roddi mwy o nerth*—wrth ei bwrr i'r pren. Y meddwl yw, os na ddefnyddia dyn foddion priodol i wneuthur unrhyw waith, y cyst iddo i'w o lafur a phoen. *Eto doethineb sydd ragorol i gyfarwyddo*—yn y dewisiad a'r defnyddiad o foddion. Mewn geiriau ereill, fel y mae doethineb yn cyfarwyddo dyn yn y pethau lleiaf, felly hefyd y mae yn fuddiol i'w gyfarwyddo ef yn mhob achos o bwys.

Adn. 11. *Os brath sarff heb swyno* [Sef heo iddi gael ei swyno gan y rhiniwr, fel ag i'w battal rhag brathu; neu, fel y gellir cyfieithu *belo luchash*, 'heb sio neu chwythu,' neu heb iddi roddi *rhybydd*. Ond yn ol ein cyfieithiad ni, cyfeirir at yr arferiad o swyno nadroedd a seirifi trwy gerddoriaeth, fel ag i'w battal rhag brathu a gweunydd dnyion: gwel ar Salm lviii. 4, 5. *Nid gwell yw dyn siaradus*—sef enllibwr neu athrodwr: y mae yntau mor beryglus a niweidiol a sarff wenyngyn. Defnyddia pob un o'r rhai hyn ei dafod fel pe byddai yn arglwydd arno, gan wneyd yn fynych lawer o niwed trwyddo; yn enwedig yr olaf, yr hwn, trwy ei eiriau enllibus, a frath yn ddirgel fel sarff, ac a ddyry archoll anfeddyginiathol i enw da y rhai a fyddont absenol.

Adn. 12. *Geiriau genau y doeth sydd rasol* [Nid yn unig y maent yn ddiinwied, ond y maent hefyd yn llesol i ereill, ac yn aurhydedd iddo ef ei hun: *ond gwefusau y ffol*—neu eiriau y dyn enllibus, drygonus, ac ynydd; *a'i dyfetha ef ei hun*—wrth iddo geisio dyfetha ereill.

Adn. 13. *Ffolineb yw dechread geiriau ei enau ef*] Pan ddechreuo efe siared ar unrhyw

14 Y ffol hefyd sydd aml ei eiriau: ni w'yr neb beth a fydd; a phwy a fynega iddo pa beth fydd ar ei ol ef?

15 Llafur y ffyliaid a flina bawb o honyt; canys ni fedr efe fyned i'r ddinas.

16 ¶ Gwae di y wlad *sydd* â bachgen yn frenin i ti, a'th dywysogion yn bwyta yn fore.

17 Gwyn dy fydd di y wlad *sydd* â'th frenin yn fab i bendefigion,

achos, bydd ei ffolineb a'i ddyrgioni yn amlwg i bawb yn y fan: a *diweddaiad geiriau ei enau*—sef y rhan ddiweddar o'i evriau, ar ol i'w nwydau a'i ddiwberau gael eu cynhyrfu i'r eithaf; neu ganlyniad ac effeithiau ei eiriau; *sydd anfad ynfydrwydd*—neu ynfydrwydd yn esgor ar y niwed uwyaif iddo ei hun ac ereill.

Adn. 14. *Y ffol hefyd sydd aml ei eiriau*] Efe a fyn siared y cwbl ei hun; neu efe a fyu siared y gair diweddar, er na byddo ond yr un peth a'r gair cyntaf: *ni w'yr neb beth a fydd*—ei, feddwl ef, neu beth a ddywed efe nesaf, gan mor gymysglyd ac amherthynusol y llefara: a *phwy a fynega iddo pa beth fydd ar ei ol ef*—pa effeithian niweidiol a ganlyniant oi ymadroddion ffol a drygonus?

Adn. 15. *Llafur y ffyliaid a flina bawb o honyt*] Trwy eu bod yn llafurio yn ofer, neu i ddim pwrpas, o herwydd eu ffolineb a'u hanwybodaeth; *canys ni fedr efe fyned i'r ddinas*—am na w'yr y ffordd ei hun, ac na chymher ei ddysgu gan ereill. Tytia Clarke mai diareb yw y trawdddeg ddiweddar, am ddyd ffol a disynwyr: fel pe dywedasai, Y mae efe yn ihy ffol i wybod y ffordd i'r ddinas agosaf ato.

Adn. 16. *Gwae di y wlad sydd â bachgen yn frenin i ti*] Sef bachgen o ran oedran, neu ddyd ffol a difrofiad fel bachgen; *a'th dywysogion yn bwyta yn fore*—yn ddyinion moethus a gloddestgar, yn rhoddi eu bryd ar fwyta ac yfed yn gyntaf peth yn y bore, gan ddylyn eu gwleddoedd hyd yr hwyr, heb ofalu am ddim arall. Nid oedd yr Iuddewon bron byth yn bwyta cyu naw o'r gloch y bore, yr hon oedd awr y weddi foreol, nac ar ddyddiau gwyl hyd ar ol hanner dydd; ac yn mhilith yr holl hen genhedloedd ni arferid bwyta ond unwaith bob pedair awr ar hugain, a hyny oddeutu canol dydd.

Adn. 17. *Gwyn dy fydd di y wlad sydd â'th frenin yn fab i bendefigion*] O liliogaeth brenhinoedd doethion ac anrhydeddus, ac wedi eu hyfforddi yn dda, ac yn frenin da fel ei benafiaid; *a'th dywysogion yn bwyta eu bwyd yn eu hamser*—ar ol bod yn gyntaf yn y cysegr yn addoli; neu yn bwyta i'r dyben i hyrwyddo ac nid rhwystro gorchwylion maerion y deyrnas; *er cryfder*—i gryflau ac adfywio eu cyrff a'u meddylliau at eu dyledswyddau pwysig; *ac nid er meddurdod*—nid i foddhau eu gwanc anifeilaidd eu hunain trwy rysedd a gloddest. Ond fe allai fod y

a'th dywysogion yn bwyta eu bwyd yn eu hamser, er cryfder, ac nid er meddwod.

18 ¶ Trwy ddiogi lawer yr adfeilia yr adeilad; ac wrth laesu y dwylaw y gollwng y tŷ ddefni.

19 ¶ Arlwyant wledd i chwerthin, a gwin a lawenycha y rhai byw; ond arian sydd yn ateb i bob peth.

20 ¶ Na felldithia y brenin yn dy

feddwl; ac yn ystafell dy wely na felldithia y cyfoethog; canys ehed-iaid yr awyr a gyhoedda y llais, a pherchen adain a fynega y peth.

PENNOD XI.

BWRW dy fara ar wyneb y dyfroedd; canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau.

rhan flaenaf o'r adnod hon yn cyfeirio yn benaf at frenin *cyfreithlon*, yr hwn y byddo ei hawl i'r orsedd yn annadlneuadwy. Y mae llawer o amser yn ofynol i sefydlu hawl i'r orsedd ar y cyntaf, a bydd y wlad yn y cyfamser mewn perygl yn barhans oddiwrth ymhonwyr neu drawsmwthwyr. Ond lle y byddo y brenin yn etifedd addefedig a chyfreithlon, ac wedi disgyn trwy linach frenhinol adnabyddus, y mae yno yn gyffredin foddlonrwydd, fyddlondeb, ac ufydd-dod yn mhllith y deiliaid.

Adn. 18. *Trwy ddiogi lawer yr adfeilia yr adeilad*] Lle y byddo y perchenog neu y deiliaid yn rhy ddiog i adgyweirio ei dŷ fel y byddo yr angen, efe a waethga bob dydd; *ac wrth laesu y dwylaw*—mewn segruryd a difaterwch, y *gollwng y tŷ ddefni*—trwy beidio adgyweirio y tŷ. Y meddwl yw, fod diogi a difaterwch tywysogion yn nhrefniad achosion y deyrnas, yr hyn bob amser a gawlina eu gloddest a'u meddwod, yn dra dinystriol iddynt hwy en hunain a'u pobl.

Adn. 19. *Arlwyant wledd i chwerthin*] Nid yn unig i wledda arni, ond er mwyn difyrwch cymdeithasol; a *gwin a lawenycha y rhai byw*—a lona ac a siriola eu meddyliau, fel y byddont yn fwy parod i chwerthin: *ond arian sydd yn ateb i bob peth*—sydd yn foddion i gael nid yn unig fwydydd a diodydd, ond pob peth angenrheidiol arall at gysur bywyd: am hyny, fel pe dywedasai, bydd gyoil, heb wario y cwbl ar fwydydd a diodydd, gan gofio fod arian yn angenrheidiol i lawer o ddybenion ereill. Y mae rhai yn cyfeirio yr adnod hon at y brenin bachgenaid a'r tywysogion glythion yn adn. 16, gan ystyried y frawddeg olaf yn cael ei chwaneu yma i fwyhau y pechod a'r nyfydrwydd o ymloddesta; trwy yr hyn y mae tywysogion, wedi nauwaith yr ymollyngont iddo, nid yn unig yn esgeuluso gorchwylion pwysig en teyrnas, ond hefyd yn gwastraffu yr arian a'r trysoran hyny ag sydd mor dra angenrheidiol er eu cynaliath eu hunain a'u llywodraeth; ac mewn canlyniad i hyny y maent yn gorfod gwasgu arian oddiwrth eu deiliaid trwy drethoedd gorthymus, ac arferion ereill dianrhydeddus a pheryglus.

Adn. 20. *Na felldithia y brenin yn dy feddwl*] Na oddef i ti dy hun feddwl yn ddrwg am dy frenin, na dymuno yn ddirgel ddrwg iddo: *ac yn ystafell dy wely*—y lle mwyaf dirgel, pan fyddot yn efrío yn dy wely, a phawb ereill yn cysgu yn drwm o'th amgylch; *na felldithia y cyfoethog*—y tywysogion a'r llyw-iaudwyr dan y brenin, y rhai yn gyffredin

sydd gyfoethog: *canys ehediaid yr awyr a gyhoedda y llais, &c.*—bydd i'th felldithion a'th feddyliau dirgelaf gael eu hamlygu ryw-fodd i'r brenin, fel pe byddai ehediaid yr awyr yn cyhoeddi dy leferydd, a pherchen adain yn mynegu y peth a ddywedaist neu a feddyliaist yn ddrwg am y brenin a'i swyddogion. Ar ol llefaru am feiau brenhinoedd, y mae y Pregethwr yma yn rhybyddio eu deiliaid i beidio cymeryd achlysur oddiwrth hyny i lefaru yn amharclus a dirmygus am danynt, na meddwl na bwriadu dim drwg yn erbyn eu personau na'u llywodraeth: canys er fod afrinwedd i'w gondemnio lle bynag y byddo, eto y mae parch ac ufydd-dod yn ddyledus i frenhinoedd ac ynadon fel rhaglaziad a gweinidogion Duw, a hyny er bod o honynt hwy yn ddynton drwg, fel y mae yn eglur oddiwrth Rhuf. xiii. 1—6, 1 Pedr ii. 13, 14. Y mae llywodraeth wladol yn ordeiniad mor benodol o eiddo Duw, fel y myn efe ei hamddiffyn er lles dynolryw; ac y mae y rhai a geisiant ei haflynyddu a'i gwrthwynebu, yn cael eu nodi yn gyffredin â'i an-foddlonrwydd ef.

PEN. XI. Adn. 1. *Bwrw dy fara*] Neu yr had, yr hwn a elwir yn fara, am mai o'i gynyrch ef y gwneir bara, neu am y gallai ei berchenog fod mewn angen am dano yn fara iddo ei hun a'i denlu. *Ar wyneb y dyfroedd*—hyny yw, naill ai ar lanau afonydd, neu mewn tir gwlyb a lleidiog, neu hyd yn nod ar wyneb y dyfroedd a fyddont yn gorchuddio y tir yn amser llifogydd, lle y gellid meddwl na fyddai fawr o obaith am gnwd. Tybia rhai fod Solomon yn cyfeirio yma at y dull o hau reis yn y gwledydd dwyreiniol; canys, fel y sylwa Syr John Chardin ar Essay xxxii. 20, 'y maent yn ei hau ef ar wyneb y dyfroedd; a chyn hau, tra y byddo y ddaer yn orchuddiedig â dwfr, parant i'r tir gael ei sargu gan ychain, meirch, ac asynod, y rhai a ant i'r dwfr hyd hanner eu coesau; a hon yw y ffordd i barotai y tir erbyn hau.' *Canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau*—yn gnwd toreithiog yn amser y cynauaf. Ond er y gallai Solomon fod yn cyfeirio at hyn, y mae yn amlwg ei fod ef yn y geiriau hyn yn cymbell haelioni i'r tylodion. Fel pe dywedasai, Cyfrana arian, ymborth, ac angenrheidiau ereill bywyd, yn helaeth i'r tylawd; a bydd hyny fel had wedi ei hau mewn tir da, yr hwn y pair Duw iddo ddwyn cynyrch helaeth i ti ar ol hyn. Y mae y *Galdeaeq*, y *Vulgate*, ac un cyfieithiad *Saesonig*, yn ei ddeall am roddi bara i'r rhai sydd ar y dyfroedd, sef i *forwyr*

2 Dyro ran i saith, ac hefyd i wyth: canys ni wyddost pa ddrwg a ddygwydd ar y ddaear.

3 Os bydd y cymylau yn llawn gwlaw, hwy a ddefnyddiant ar y ddaear: ac os tua'r deau neu tua'r gogledd y syrth y pren; lle y syrth y pren, yno y bydd efe.

4 Y neb a ddalio ar y gwynt, ni

haua; a'r neb a edrycho ar y cymylau, ni feda.

5 Megys nas gwyddost ffordd yr ysbryd, na pha fodd y ffurfheir yr esgyrn yn nghroth y feichiog; felly ni wyddost waith Duw, yr hwn sydd yn gwneuthur y cwbl.

6 Y bore haua dy had, a phrydnawn nac attal dy law: canys ni

tylodion. Deallir y geiriau gan ereill am hau ar 'wyneb y dyfroedd,' hyny yw, heb un olwg ar gynauaf; gan gymhell haelioni heb un olwg ar ad-daliad; er y ceir hyny 'ar ol llawer o ddyddiau,' sef yn nhragwyddoldeb.

Adn. 2. *Dyro ran i saith*] O'r pethau sydd genyt, neu o'rh arlwyadau. Efe a gyfeiria ond odid at hen arferiad arglwyddi y wledd, y rhai a gyfranent ddogonau i bob un o'u gwesteion, ac a anfonent ranau i'r tylodion. Ac *hefyd i wyth*—i gynnifer ag a allot. Am y dull hwn o chwaneu un at y rhif blaenorol, gwel ar Job v. 19, a Diar. xxx. 15. *Canys ni wyddost pa ddrwg a ddygwydd ar y ddaear*—i ti dy hun. Fel pe dywedasai, Gall drygan mawrion dy oddiweddyd dithau, fel ag i'th ddarostwng i dydoli, a'th analluogi i wneuthur daioni i ereill: i'e, gelli dithau ar ol hyn fod mewn angen am help gan ereill, y rhai y bydd i ragluniaeth Duw eu tueddi i estyn elusen i ti; tra nas gall y rhai na ddangosasant drugaredd i ereill, ddysgwyl un drugaredd gan Dduw na dynion.

Adn. 3. *Os bydd y cymylau yn llawn gwlaw*] Nid ei gadw iddynt eu hunain a wnant; eithr, *hwy a ddefnyddiant ar y ddaear*—i'w dyfrbau a'i ffirwthloni hi. Felly y gŵr sydd yn llawn cyfoeth, ni ddylai yntau ei gadw oll iddo ei hun, eithr cyfranu o hono i'r neb sydd mewn angen. *Ac os tua'r deau neu tua'r gogledd y syrth y pren*—wrth ei dori i lawr; *lle y syrthio y pren, yno y bydd efe*—yn aros yn ddygfnwid. Fel pe dywedasai, 'Nid yw marwolaeth yn mhell oddiwrthyt; nid oes genyt ond amser byr i wneuthur daioni. Cais *dueddfryd* nefol tra yma; canys ni fydd *cyfnewidiad* ar ol y fuchedd bon. Os byddi farw mewn cariad at Dduw a dyn, yn y cyflwr hwnw y ceir di ddydd y farn. Os bydd pren ar syrthio yn gogwyddo tua'r *gogledd*, tua'r *gogledd* y syrth efe; os tua'r *deau*, efe a syrth tuag yno. Yn mha *duedd* neu gyflwr enaid bynag y byddi farw, yn hwnw y ceir di yn y byd tragwyddol. Nid yw angau yn coethi dim, yn puro dim, yn ladd un pechod, yn parotio neb i ogoniant. Bydded dy ogwyddiad a'th *dueddiad* parhaus at Dduw, at *sant-eiddrwydd*, at elusengarwel, at drugaredd, ac at y nef; yna, pa bryd bynag y syrthi, ti a syrthi yn dda.'—CLARKE.

Adn. 4. *Y neb a ddalio ar y gwynt*] Yn amser aredig a hau, ei fod yn chwythu yn rhy gryf, neu o bwynt rhy oer; *ni haua*—ei faes o gwbl: *a'r neb a edrycho ar y cymylau*—yn amser y cynauaf, eu bod yn bygwth gwlaw; *ni feda*—lle y byddo wedi bod yn hau. Y

meddwl yw, y bydd i'r hwn a esgeuluso y gwaith o hau a medi, am nad yw yr hin yn ol ei feddwl ef, gollu ei gynauaf yn gwbl. 'Nid yw dyn rhy fanwl,' fel y sylwa *Clarke*, 'byth yn debyg o lwyddo mewn dim. Os na fydd i ddyn aredig na hau hyd nes y byddo y tywydd yn gwbl yn ol ei feddwl ef, bydd i'r tymhor yn ol pob tebygolgrydd fyned heibio cyn iddo ef wneyd dim. Felly, os bydd i tithau fod yn rhy fanwl i geisio cael allan pwy yw y *twyll-wyr* yn mhllith y rhai a broffesant fod mewn *angen*, gall y gwir wrthddrych drengu, yr hwn pe amgen y gallest ei gynorthwyo, a'r hwn y gallasai ei fywyd trwy hyny gael ei achub. Nid yw y bobl ry fanwl a rhy amheus hyny, y rhai a fynant chwilio pob peth i'w waelod yn mhob achos, a'r rhai y rhaid eu boddloni yn llwyr yn mhob peth cyn y gweithredant, braidd byth yn gwneyd un daioni, ac nid ydynt eu hunain yn y cyffredin yn dda i ddim. Tra y maent hwy yn sylwi ar y *gwynt ar y cymylau*, y mae ereill yn cysylltu dwylaw â Duw, ac yn peri i ddyn tylawd gael byw.'

Adn. 5. *Megys nas gwyddost ffordd yr ysbryd*] Pa fodd na pha bryd y mae yr enaid antarlwyl yn cael ei fodaethi, neu yn ymuno â'r corff yn y brw; *na pha fodd y ffurfheir yr esgyrn yn nghroth y feichiog*—sef yr holl *gorff*, yn gynywsegid o esgyrn, enawd, croen, cyhyrau, gwynnau, giau, &c. *Felly ni wyddost waith Duw*—ei ddybenion ef wrth adael rhai mewn tydoli, ac wrth roddi cyfoeth i ereill; *yr haen sydd yn gwneuthur y cwbl*—'wrth gyngor ei ewyllys ei hun,' mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a gras, Eph. i. 11. Meddylir mai atebiad yw hyn i wrthiddadlenydd cybyddlyd, yr hwn a ddywedai na wyddai efe pahan yr oedd rhai yn tydodion mwy nag ereill, na pha fodd y gallai efe gyfranu iddynt yn barhaus, heb fod ar ei gollod trwy hyny. Fel pe dywedasai Solomon, Gan na wyddost pa fodd y ffurfir yr enaid na'r corff yn nghroth y feichiog, pa fodd y gelli wybod dyfion dreftadau rhagluniaeth Duw gyda golwg ar amgylchiadau dynion? Y mae Duw ei hun yn gwybod y pethau hyn oll, a dylit tithau foddloni ar hyny.

Adn. 6. *Y bore haua dy had*] Mewn un cwr o'th faes; *a phrydnawn nac attal dy law*—ond parha i hau mewn cwr arall, nes gorphen dy holl faes: *canys ni wyddost pa un a ffyna*—neu a ddyg fwyaf o ffirwyth toreithiog, *ai hyn yma ai hyn acw*—ai yr haua yn y bore mewn un cwr, ynte yr haua yn yr prydnawn mewn cwr arall; *ai ynte da fyddant ill dau yn yr un ffynud*—pau elych i fedi yn

wyddost pa un a ffyna, ai hyn yma ai hyn acw, ai ynte da fyddant ill dau yn yr un ffinud.

7 ¶ Melys yn ddiau yw y goleuni, a hyfryd yw i'r llygaid weled yr haul.

8 Ond pe byddai dyn fyw lawer o flynyddoedd, a bod yn llawen ynddynt oll; eto cofied ddyddiau tywyllwch; canys llawer fyddant. Beth bynag a ddygwydda, oferedd yw.

9 ¶ Gwna yn llawen, ŵr ieuanc, yn dy ieuentid, a llawenyched dy

galon yn nyddiau dy ieuentid, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid: ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll.

10 Am hyny bwrw ddig oddiwrth dy galon, a thro ymaith ddrwg oddiwrth dy gnawd: canys gwagedd yw mebyd ac ieuentid.

PENNOD XII.

COFIA yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuentid, cyn dyfod

amser y cynaaf. Y meddwl ond odid yw, bydd barod bob amser i ddangos trugaredd: dechreuau yn y bore, a dal ati hyd yr hwyr. Ni wyddost ti pwy yw y gwrthdrys teilyngaf, ai yr hwn a dderbynia dy elusen yn y bore, ynte yr hwn ai derbynia yn yr hwyr; neu ynte a ydyw y ddau yn deilwng: y mae yn ddiog fod Duw yn gwybod. Ac os yw dy ddyben di yn dda, bydd iddo ef dy wobrwyo, nid yn ol teilyngod neu annheilyngod y derbynydd, ond yn ol dy egwyddor di wrth ei gworthwyo: gwel ar Mat. x. 41, 42.

Adn. 7. *Melys yn ddiau yw y goleuni*] Mewn cydmariaeth i dywyllwch; a *hyfryd yw i'r llygaid weled yr haul*—yn y bore, ar ol tywyllwch dŷ a hirfaith y nos. Y meddwl yw, fod bywyd ei hun, a llwyddiant a chysur mewn bywyd, yn beth ag y mae pawb yn chwennychu ei fwynhau; ac am hyny y dylai pawb wleud a allont i beri i ereill hefyd ei fwynhau.

Adn. 8. *Ond pe byddai dyn fyw lawer o flynyddoedd*] Hyd yn nod cyhad a Methusalem; a *bod yn llawen ynddynt oll*—gan fwynhau holl gysuron bywyd, heb ddim o ofidian bywyd dros ei oes: *eto cofied ddyddiau tywyllwch*—sef adeg marwolaeth neu y bedd, pa un a osodir allan yn fynych trwy y meddylddrych o 'dywyllwch,' Job x. 21, Salm lxxxviii. 12; *canys llawer fyddant*—yn ymestyn o'i farwolaeth hyd fore yr adgyfodiad, pryd y teilir y rhai a fyddant feirw yn anedifeiriol i dywyllwch tragwyddol. Chwanegir hyn fel rhybydd i ddyonion rhag llawenyachu yn ormodol yn y mwynhad o gysuron y bywyd presenol, eithr ceisio bywyd dedwyddach a mwy parhaol mewn byd arall. *Beth bynag a ddygwydda*—i ddyonion mewn cysylltiad a'r bywyd hwn yn unig, pa un bynag ai cysur ai blinder; *oferedd yw*—nid yw ond brau a dafoddedig, a hollol analluog i ddedwyddoli enaid anarwol.

Adn. 9. *Gwna yn llawen, ŵr ieuanc, yn dy ieuentid*] Tybiai y Pregethwr na choeliai pobl ieuane yn gyffredin mai oferedd yw pob peth a ddygwydda, fel y dywedasai efe yn niwedd yr adnod o'r blaen; gan hyny perai iddynt gymeryd eu byd yn llawen yn eu hieuentid, gan mai hyny a fyntent; a *llawenyched dy galon yn nyddiau dy ieuentid*—tra yr wyt yn ieuane, heiniſ, bywiog, a chryf; a

rhodia yn ffyrdd dy galon—yn ol tueddiadau dy galon lygredig a thwyllodrus; *ac yn ngolwg dy lygaid*—gan ganiatáu i ti dy hun bob peth ag yr edrychi arno i'w chwennychu. Nid anog pobl ieuane i fyw yn ol eu chwantau ofer a llygredig y mae y Pregethwr yn ddiau, ond dangos iddynt y perygl a'r canlyniad o hyny yn ol llaw, fel y mae yn amlwg oddiwrth y geirian mesaf. Math ar *wardiaith* yw y geiriau, fel yr hyn a geir yn fynych mewn ysgrifenywr cyffredin a chysegredig: gwel i Bren. xviii. 27, a xxii. 15, Eze. xviii. 3, 4. Fel pe dywedasai, Gan dy fod yn penderfynu myned yn mlaen yn y flordd bon, cymer dy raff, dylun dy dueddiadau llygredig, ac na ommedd i ti dy hun ddim a'th wna yn llawen a hyfryd. *Ond gwybydd*—cofia hyn ar yr un pryd, y *geilw Duw di i'r farn am hyn oll*—hyny yw, y gorfoda efe dydi i ymddangos gerbron ei frawdle, i roddi cyfrif am dy holl anghof o hono, dy esgeulusod o'i wasanaeth, dy gamddefnyddiad o'th amser a'th dalentau, dy lawenydd a'th ddiग्रifwch cnawod, dy eiriau segur a'th feddyliau ofer, a'th holl bechodau ereill yn nyddiau dy ieuentid, yn gystal ag yn dy flynyddoedd addfetach.

Adn. 10. *Am hyny*] Gan y geilw Duw di i'r farn am hyn oll, *bwrw ddig oddiwrth dy galon*—sef pechod o bob math, yr hwn sydd yn dwn digofaint Duw arnat; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'bwrw driŵech o'th galon,' yr hyn a arwydda, er fod y cyfryw bechau yn boddkaau nwyddau dynion yn bresenol, y bydd iddynt cyn hir ddwyn *tristwch* znoddefadwy iddynt. *A thro ymaith ddrwg oddiwrth dy gnawd*—sef 'pob halogwydd cnaud ac vsbrwd,' yr hyn a ddyg i ti ddrwg yn y diwedd, 2 Cor. vii. 1. *Canys gwagedd yw mebyd ac ieuentid*—y mae yr amserau hyn yn llawn o chwantau gwageddus a phechadurs; neu, y maent yn myned heibio ac yn diflanu yn fuan iawn, ac yn cael eu dylun gan henaint, cystudd, marwolaeth, barn, a thragwyddoldeb.

PEN. XII. Adn. 1. *Cofia yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuentid*] Yr hon yw yr unig flordd i ŵr ieuanc 'fwrw dig oddiwrth ei galon,' a 'thro ymaith ddrwg oddiwrth ei gnawd,' pen. xi. 10; sef cofio mai Duw yw ei Greawdwr, ei Gynaliwr, a'i Farnwr; a chofio ei ofni, ei garu, a'i wasanaethu ef yn

y dyddiau blin, a nesâu o'r blynyddoedd yn y rhai y dywedi, Nid oes i mi ddim dyddanwech ynddynt :

2 Cyn tywyllu yr haul, a'r goleuni, a'r lleuad, a'r ser, a dychwelyd y cymylau ar ol y gwlaw :

3 Yr amser y cryna ceidwaid y tŷ, ac y cryma y gwŷr cryfion, ac y

metha y rhai sydd yn malu, am eu bod yn ychydig, ac y tywylla y rhai sydd yn edrych trwy ffenestri ;

4 A chau y pyrth yn yr heolydd, pan fo isel swm y malu, a'i gyfodi wrth lais yr aderyn, a gostwng i lawr holl ferched cerdd :

5 Ie, yr amser yr ofnant yr hyn

more ei oes, tra y mae ei gynneddau yn gryfion a bywiog, a'i galon heb galedu mewn pechod. *Cyn dyfod y dyddiau blin*—sef dyddiau beniant, gwendid, nychod, a methiant, y rhai sydd yn *flin* ynddynt eu honan, ac yn llawer mwy felly pan wedi eu llwthyo âg adfodion o bechodau ieuencid, ac â rhagolwg dychrynllyd o agosad angau a barn. *A nesâu o'r blynyddoedd yn y rhai y dywedi*—oddiair brofiad chwerau, *Nid oes i mi ddim dyddanwech ynddynt*—mewn corff na meddwl, trwy fod hyd yn nod fy *nerth* wedi mynd yn 'boen a blinder,' Salm xc. 10. Yn y rhan fwyaf o'r Beiblau Hebreig cyffredin ceir y geir *Borecycha*, 'dy GREAWDWR,' yn y rhif lluosog ; ond mewn 176 o ysgriflyfrau *Kenricott*, ac mewn 96 o eiddo *De Rossi*, y mae y gair yn y rhif unigol, *Borecha*, 'dy GREAWDWR.' ac felly hefyd y mae mewn llawer o hen argraffiadau, ac yn yr oll o'r hen gyfseithiadau. 'Nid ellir ymddibynnu ar y ffurf *luosog* yn y rhan fwyaf o'r argraffiadau diwyddar,' fel y sylwa *Clarke*; 'er fod rhai argraffiadau gwerthfawr yn dangos y gair yn y ffurf hon, ac yn eu mysg Beiblau Amlicieithawg *Antwerp*, *Paris*, a *Llundain*, ar *Complutensiaidd*. Gan hynny nid yw y prawf ag y tybir fod y testyn hwn yn ei roddi o athrawiaeth y *Drindod* fyth-fendigaidd ddim ond ansicr, ac nis gellir rhoddi ond ychydig bygs ansicr : ac nid ewyllsiai un dyn ag sydd yn caru y gwirionedd, ei amddiffyn ef trwy dystiolaethau amheus. Y mae dynion annwy, wrth osod pwys ar destynau amheus ynddynt eu hunain, a'r rhai y gellir eu deongli ffordd arall, yn mawr niweidio y wir fydd. Er y gall y cyfryw fod yn gyfeillion i'r wir fydd yn eu calonau, y maent mewn gwirionedd y cyfeillion *gwaethaf* iddi, ac y mae eu cymorth yn gyfryw ag sydd yn helpu eu gwrthwynebwyr.'

Adn. 2. *Cyn tywyllu yr haul, a'r goleuni, a'r lleuad, a'r ser*] Nid yw yr ymadrodd *a'r goleuni* i'w gael yn y *Syriaeg*; ac ymddengys mai yr ystyr yw, 'cyn tywyllu *goleuni* yr haul, a'r lleuad, a'r ser.' Arwydda hyn, naill ai, (1) Harddwch y wynebydd, tegwch lliw y gruddiau, a bywiogrwydd y llygaid, y rhai a gydmerhir yn fynych i'r haul, a'r lleuad, a'r ser, a'r rhai a anmherir mewn henaint, fel y mae yr alleirydd *Caldeuidd* yn ei ddeall. Neu, (2) Cynneddau mewnol y meddwl, megys y deall, y crebwyll, a'r cof, y rhai y gellir eu cyffelybu yn briodol i'r haul, a'r lleuad, a'r ser, a'r rhai sydd yn diffygio yn fawr yn y rhan fwyaf o hen bobl. Neu ynte, (3) Gellir ei ddeall am bethau allanol, megys cyfnwidiad eu gorhoenedd a'u llawenydd, yr hyn a feddiannent yn eu hienentid, i dristwch, gofid, a phoen, y rhai

sydd yn gymdeithion gwastadol i henaint. Y mae yr ystyr hwn yn cyduno yn dda â'r adnod ffenorol, yn yr hon y darlunia y Pregethwr drueni henaint ; ac â'r geiriau canlynol, y rhai a chwaneir i egluro yr ymadroddion cyffelybiaethol hyn. *A dychwelyd y cymylau ar ol y gwlaw*—arwydda hyn cymylau yn dwyn gwlaw ar ol gwlaw, neu olynid parhaus o wlaw, fel yr hyn a geir yn y gaul yn y gwledydd dwyreiniol. Ymddengys mai dyma wreiddyn y gyffelybiaeth, yr hon a ddarlunia henaint fel *gaulf* bywyd dyn, pryd y mae gormwythoedd neu ddyflifiad noddau y corff yn rhedeg yn ddiabed mewn hen bobl, neu y naill ofid a dolur yn dylun y llall yn barhaus.

Adn. 3. *Yr amser y cryna ceidwaid y tŷ*] Wrth y *tŷ* yma y meddylir y corff dynol ; ac wrth *ceidwaid* y tŷ y golygir y dwlaw ar breichiau, â'r rhai y mae dyn yn ei amddiffyn ei hun, ac yn ennill ei gynaliaeth ; a'r rhai mewn henaint a ât i *grynu* yn erwin, fel y gwel pawb ac y teimla llawer. *Ac y cryma y gwŷr cryfion*—sef yr ysgwyddau a'r cefn, y coesau a'r morddydydd, y rhai yw prif gryfder y corff. Y mae *gwargrymmedd* yn gydymaith cyffredin i henaint, yn gystal ag awstwrthder a chloffni. *Ac y metha y rhai sydd yn malu*—sef y dannedd, y rhai sydd yn malu y bywd yn y genau ; *am eu bod yn ychydig*—o rifeidi, trwy fod y rhan fwyaf o honnynt wedi eu colli o dro i dro, a bod y rhai sydd yn aros heb fod ar gyfer eu gilydd, trwy yr hyn y *methant* gyflawni eu gorehwyl. *Ac y tywylla y rhai sydd yn edrych trwy ffenestri*—sef y llygaid, y rhai a dywyllant yn gyntaf o ran eu sylweddau mewnol, ac yna o ran eu galluoedd i weled gwrthdrysau allanol.

Adn. 4. *A chau y pyrth yn yr heolydd*] Sef y pyrth nesaf allan, neu y gwefusau, y rhai a gauir neu a wesgir yn nghyd gan hen bobl ar ol colli eu dannedd, rhag i'r tamaid syrthio allan o'u genau ; *pan fo isel swm y malu*—pan fyddo y bywd yn cael ei gnoi yn araf a dystaw gan gig y dannedd. *A'i gyfodi*—o'i wely, neu ei ddiuno, pan nad allo mwyach ail huno ; *wrth lais yr aderyn*—wrth ganiad cyntaf y ceiliog ; tra y mae yr ieuencid yn cysgu yn drwm. *A gostwng i lawr holl ferched cerdd*—sef holl beiriannau y llais peraid, yn gystal a'r chwaeth at gerddoriaeth ; ac y mae y glust hefyd, yr hon gynt a fedrai wrando a mwyhau canu da, wedi mynd bellach yn analluol i hyny trwy henaint, fel eiddo Barsilai, 2 Sam. xix. 35.

Adn. 5. *Ie, yr amser yr ofnant yr hyn sydd uchel*] Megys dringo i'r llofft, neu sefyll ar le uchel, neu edrych i fyny, o herwydd eu pen-ysgafnder. *Ac yr arswyddau yn y ffordd*

suidd uchel, ac yr arswydant yn y ffordd, ac y blodeua y pren almon, ac y bydd y ceiliog rhedyn yn faich, ac y palla chwant: pan elo dyn i dŷ ei hir gartref, a'r galarwyr yn myned o bob tu yn yr heol:

6 Cyn tori y llinyn arian, a chyn tori y cawg aur, a chyn tori y piser

gerllaw y ffynnon, neu dori yr olwyn wrth y pydew.

7 Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef.

8 ¶ Gwagedd o wagedd, medd y Pregethwr; gwagedd yw y cwbl.

—rhag ei meithder, ei hanwastadrwydd, neu ei rhiwiau; neu rhag syrthio ar y ffordd, neu gyfarfod â rhywbeth yno i'w dychrynau, rhag yr hwn nis gallant ffoi. Y maent fel pe byddent wedi myned yn bleatnaidd eilwaith, ac yn ofni fel plentyn pan nad oes dim i'w ofni. *Ac y blodeua y pren almon*—yr hyn a arwydda *benwyni*; canys dywed *Hasselquist* fod y pren almon yn Judea, pan y mae yn llawn blodau gwŷnion, yn debyg i hen ŵr penwyn. Eithr dywed *Clarke* fod y gair *genaets* yn arwyddo nid *blodeuo*, ond *syrthio*. Y mae y gwallt mewn henaint, o ddiffyg ir-eidd-der maethlon, yn gyntaf yn glasu, yna yn gwŷnu, ac wedi hyn yn gwywo ac yn syrthio fel blodau y pren almon. *Ac y bydd y ceiliog rhedyn yn faich*—neu y locust, os dygwredd iddo ddisgyn arnynt. Y meddwl yw, fod y peth lleiaf yn y byd yn faich i hen ŵr, yr hwn mewn gwirionedd sydd yn faich iddo ei hun. *Ac y palla chwant*—at fwydardd, diodydd, cymdeithas, a phob digrifwch eg sydd yn difyru yr ieuenticid. *Pan elo dyn*—ar ol yr adfeiliadau uchod, neu tra y byddo yn myned; *i dŷ ei hir gartref*—i'r *bedd* o ran ei gorff, lle yr erys byd fore yr adgyfodiad; ac i *dragyddloddeb* o ran ei enaid, o ba leni nidychwel mwyach i breswyllo y ddaear fel y bu. *A'r galarwyr yn myned o bob tu yn yr heol*—i ddylyn ei gorff tua'r *bedd*. Y meddwl ond odid yw, eu bod yn llenwi yr holl heol, o bob tu iddi; neu ynte eu bod yn cerdded yn ddwy res, a'r corff yn y canol rhyngddynt. Ond tybia rhai fod y 'galarwyr hyn o bob tu i'r heol' yn arwyddo griddfannau yr hen ŵr, a'r rhwnc yn ei wddt, yr hwn sydd yn blaenori marwolaeth.

Adn. 6. *Cyn tori y llinyn arian*] Sef madruddyn y cefn, yr hwn sydd yn rhedeg o'r ymennydd i lawr ar hyd agswrn y cefn; a'r hwn a elwir yn *llinyn*, oddiwirth ei debygolrwydd i liain; ac yn *llinyn arian*, oddiwirth ei liw a'i werthfawrogrwydd: ac wrth ei fed yn cael ei *dori* y deallir, ei lwyrr analluogi i gyflawni ei swydd mwyach. *A chyn tori y cawg aur*—wrth hwn y meddylir y benglog, neu yn hytrach y bilionen o fewn y benglog, yr hon a gynwys yr ymennydd: ac fe'i gelwir yn *gawg*, oddiwirth ei thebygolrwydd i'r llestr hwnw; ac yn *gawg aur*, oddiwirth ei lliw a'i gwerthfawrogrwydd, fel y dywedwyd am y 'llinyn arian' uchod: ac ar ddynesiad angau y mae y bilionen hon yn cael ei chrebachu i fyny, ac weithiau ei thori. *A chyn tori y piser gerllaw y ffynnon*—wrth y ffynnon yma y meddylir y galon, yr hon yw ffynnonell fawr bywyd; ac wrth y *piser* gerllaw y ffynnon y golygir ond odid y llestr neu y rhedweli ag

sydd yn trosglwyddo y gwaed yn ol i'r galon. *Neu dori yr olwyn wrth y pydew*—y mae yn debyg mai y galon a feddylir yma eot dan yr enw *pydew*; ac mai y rhedweli fawr ag sydd yn derbyn y gwaed ar ei ddychweliad o'r galon, ac yn ei drosglwyddo dros yr holl gorff, a olygir wrth yr *olwyn*; yr hon a elwir felly mewn cyfeiriad at yr olwyn neu y rhod trwy yr hon y codai y dwyreinwyr eu dwfr o'r pydewau dyfnion at wasanaeth eu teuluoedd, neu i ddyfrhau eu gerddi. Wrth *dori* y piser a'r olwyn yma y meddylir eu hanalluogi i drosglwyddo y gwaed i'r galon ac o'r galon, pryd y mae y gwaed yn ceulo ac yn fferu, y cylchrediad yn cael ei attal, a'r dyn yn marw, fel y dywedir yn yr adnod nesaf. Y mae yn amlwg oddiyma fod *cylchrediad* y gwaed, yr hyn a dybid yn ddatuddiad diweddar gan ein cydwladwr enwog *Dr. Harvey*, yn 1616, yn adnabyddus i Solomon doeth er's yn agos i dair mil o flynyddau yn ol. Ac yn awr, oddiwirth y darluniad nchod o henaint a'i ganlyniadau, ni a welwn yr anadarswydd o adael crefydd heb ei cheisio hyd y pryd hyn; neu, mewn geiriau ereill, yr angenrheidrwydd o 'gofio ein Creawdwr yn nyddiau ein hieuenticid, cyn dyfod y dyddiau blin': ac i annog ei wrandawr y'r ddyledswydd bwysig hon y llefarodd y Pregethwr y geiriau uchod.

Adn. 7. *Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu*] Sef y *CORFF*, yr hwn a wnaed ar y cyntaf o bridd y ddaear, Gen. ii. 7; *ac y dychwel yr ysbryd at Dduw*—sef yr ENAID anfarwol, i gael ei dderbyn ganddo i'r nef, neu ei yru ganddo i gadwynau tywllwch hyd farn y dydd mawr, yn ol fel y byddo cyflwr moesol y dyn yn amser ei farwolaeth; *yr hwn a'i rhoes ef*—yn y corff ar y cyntaf: gwel ar Gen. ii. 7. Y mae y Pregethwr ysbrydoledig yn gwneuthur gwaliaeth amlwg yma rhwng y corff a'r enaid: nid yr un peth ydynt yn ei farn ef, neu yn hytrach yn maru yr Ysbryd tragwyddol trwy yr hwn y llefarai; ac nid i'r un lle y maent yn myned yn angau. Y mae y *corff*, yr hwn sydd bridd neu fater, yn dychwelyd i'r pridd, o ba un y gwnaed ef; ac y mae yr *ysbryd*, sef yr enaid anfateriol, yn dychwelyd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef.

Adn. 8. *Gwagedd o wagedd, medd y Pregethwr*] Gwel ar pen. 1. 2; *gwagedd yw y cwbl*—gan i'r Pregethwr ddywedwyd hyn yn nechre ei ymchwiliad i helyntion dynion yn y byd hwn, da y gallai ddywedwyd hyn yn awr ar ol gorphen ei ymchwiliad, ac ar ol bod yn dylun dyn ar hyd holl yrfa ei fywyd blin, a thrwy ofidiau henaint, nes dychwelyd o hono i'r pridd. Yr oedd y Pregethwr yn awr wedi profi ei bwnc yn hollol, ac wedi gweled

9 A hefyd, am fod y Pregethwr yn ddoeth, efe a ddsygodd eto wybodaeth i'r bobl; ie, efe a ystyriodd, ac a chwiliodd allan, ac a drefnodd ddiarebion lawer.

10 Chwiliodd y Pregethwr am eiriau cymeradwy; *a'r hyn oedd ysgrifenedig oedd uniawn, sef geiriau gwirionedd.*

mai gwagedd o wagedd oedd pob beth daearol, ac mai gwagedd oedd y cwbl yn nghyd.

Adn. 9. *A hefyd, am fod y Pregethwr yn ddoeth* Wedi ei gynysgaethu gan Dduw ei hun a doethineb thwnt i holl feibion dynion, pen. i. 16, 17, 1 Bren. iv. 29—34; *efe a ddsygodd eto wybodaeth i'r bobl*—efe a barhaodd i ddefnyddio y deall a'r doethineb a roddasai Duw iddo i addysgu ereill, sef mewn diarebion yn gystal ag mewn pregethan, neu mewn ysgrifeniadau yn gystal ag ar dasod leferydd. *Ie, efe a ystyriodd*—yn y modd dwysaf, pa beth oedd oraf i'w ddywedwyd wrthynt; *ac a chwiliodd allan*—gyda'r dyfalwch a'r manylrydd mwyaf, am faterion newyddion, gan 'ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth;' *ac a drefnodd ddiarebion lawer*—dair mil o leiaf yn y cyfan, 1 Bren. iv. 32, o'r rhai y cawn oddeutu mil yn y llyfr hwn a'r un blaenorol, y rhai sydd oll yn gynwysfawr, buddiol, a hawdd eu cofio. Yn awr, os oedd yn angenrheidiol i bregethwr mor ddoeth a Solomon, yr hwn oedd hefyd dan ddywfol ysbrydoliaeth, *ystyried, chwilio, a threfnu* yr hyn a ddywedai wrth ddsygu gwybodaeth i'r bobl, pa faint mwy angenrheidiol ydwy i bregethwyr cyffredin fel nyhi ystyried, myfyrio, chwilio, a threfnu y pethau ag y bwriadwn eu traethu i bobl ein gofal?

Adn. 10. *Chwiliodd y Pregethwr am eiriau cymeradwy* Nid yn unig am faterion cymeradwy, ond hefyd am eiriau cymeradwy i osod allan y materion hyn yn y modd mwyaf eglur, effeithiol, a blasus i'w wrandawyr; sef geiriau coeth, eglur, a rhwydd, yn debyg i iaith yr ysgrhythrau. Dylai pob pregethwr eto ei efelychu ef yn hyn; canys 'os llefaru a wna neb, llefarad megys geiriau Duw,' 1 Pedr iv. 11. *A'r hyn oedd ysgrifenedig*—yn yr ysgrhythrau santaidd yn gyffredinol; neu yr hyn a ysgrifenydd y Pregethwr yn y llyfr hwn a'i lyfrau ereill; *oedd uniawn*—yn ngolwg Duw, ac mewn cysondeb a'i ewylls a'i feddwl ef; *sef geiriau gwirionedd*—neu athrawiaethau pur, santaidd, a chywir, y rhai a'u canmolent eu hunain i bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw.

Adn. 11. *Geiriau y doethion*] Sef dynion doeth a santaidd Duw, y rhai 'a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân,' 2 Pedr i. 21; *sydd megys symbyltau*—yn treiddio i feddyliau a chalona dynion, gan eu cymbell at bob dyledswydd orphwysedig arnynt tuag at Dduw a dynion; *ac fel hoelion wedi eu sicrhau gan feistriaid y gynulleidfa*—yn aros yn nghof a chydwybodau y gwrandawyr; *y rhai a roddir oddiwrth un*

11 Geiriau y doethion sydd megys symbyltau, ac fel hoelion wedi eu sicrhau gan feistriaid y gynulleidfa, *y rhai a roddir oddiwrth un bugail.*

12 Yn mhellach hefyd, fy mab, cymer rybydd wrth y rhai hyn; nid oes dyben ar wneuthur llyfrau lawer, a darllen llawer sydd flinder i'r cnawd.

bugail—gwaith yr hwn yw edrych ar ol meistr-iaid y gynulleidfa. Wrth *feistriaid y gynulleidfa* hyn, neu 'feistriaid y casgliadau,' fel y gellir cyfieithu *baaley asuphoth*, y mae rhai yn deall y personau cyhoeddus hyn a benodid gan y brenin ei hun, fel yr *unig fugail*, i edrych na roddid dim yn nwyllaw y bobl ond a fyddai yn fuddiol iddynt ei ddarllen; a thybiant fod *gwŷr Hezeciah*, y rhai a *gasgylasant* ran sawr o lyfr y Diarebion, yn perthyn i'r dosbarth hwn; gwel ar Diar. xxv. 1. Tybia ereill fod *meistriaid y gynulleidfa* yma yn meddwl athrawon cyhoeddus; *geiriau y doethion*—yr ysgrhythrau santaidd, o'r rhai yr addysgent hwy y bobl; yr *un bugail*—yr Hollalluog, neu yr Arglwydd Iesu Grist, Bugail mawr yr eglwys yn mhob oes, oddiwrth yr hwn y derbynient hwy eu hawdurdod a'u heneiniad i bregethu y gwirionedd; athrwy *Ysbryd* yr hwn yr oedd y ddsyggeidiaeth nefol yn glyn yn nghalonau y gwrandawyr fel hoelion wedi eu gyru i bren caled. Er nad yw gweinigodion yr efengyl yn ein dyddiau ni dan ysbrydoliaeth Duw fel yr oedd y profwydi a'r apostolion gynt, eto y mae yr *un Bugail* yn rhoddi llawer o'i gymborth iddynt hwythau yn barhaus i lefaru y gair, ac yn arddel eu gweini-dogaeth i bob dyben achubol i bechaduriaid.

Adn. 12. *Yn mhellach hefyd, fy mab*] Tybia rhai fod Solomon yma yn llefaru wrth Rehoboam ei fab; ond y mae yn debycach mai cyfarch ei ddsygyblion neu ei wrandawyr y mae efe dan yr enw *Diar*, yn ol arferiad yr Iuddewon; gwel ar Diar. i. 8. *Cymer rybydd wrth y rhai hyn*—sef oddiwrth addysgiadau y doethion uchod, neu oddiwrth eu llyfrau hwy, y rhai a wnant i fyny ganon yr ysgrhythrau. *Nid oes dyben ar wneuthur llyfrau lawer*—fel pe dywedasai, Gallwn yn hawdd ysgrifenu llawer o lyfrau mawrion ar y pethau hyn; ond byddai hyn yn waith blinderus ac afreidiol, trwy fod pob peth angenrheidiol i'w wybod a'i wneuthur yn gorwedd o fewn cylch bychan, fel yr adroddir yn yr adnod nesaf, sef 'ofni Duw, a chadw ei orchymnion ef.' Y mae yn agos i dair mil o fynyddoedd wedi myned heibio erpan ysgrifenydd hyn; ac er y pryd hynny cafodd rhai miliynau o draethodau eu hysgrifenu ar bob math o destynau, yn chwanegol at y rhai a wnaethid o'r blaen. Y mae y wasg fyth yn griddfan wrth esgor ar lyfrau afrifed; ac eto nid oes un pwnc wedi ei *ddyhysbyddu*, er cymaint a ysgrifenydd arno; ac nid ydym ni, y rhai sydd yn byw yn yr amseroedd diweddfaf hyn, fel y sylwa *Clarke*, ddim nes i'r diwedd, yn yr ymchwiliad o NATUR a'i phriodoliaethau; o

13 ¶ Swm y cwbl a glybu-
wyd yw, Ofna Dduw, a chadw ei
orchymynion: canys hyn yw holl
ddyled dyn.

DDUW, ei briodoliaethau, ei ragluniaeth, a'i
ras; o IESU GRIST, yn ei berson, a'r bryned-
igaeth trwyddo ef; o'r YSERID GLAN, yn ei
ddeilliadaeth, a'i ddylanwadau santeiddiol;
o DDYN, ei fywyd anifeilaidd, ei enaid anfar-
wol, a'i alluoedd rhyfeddol; o DRAGWYDDOLDEB,
yn ei barhad, a phoenau y colledigion, a gwyn-
fyd y saint. Am lawer o'r pethau hyn, a'u
cyffelyb, ni wyddom ni fawr fwy na'r rhai oedd
yn byw bum mil o flynyddau o'n blaen ni; ac
ni wyddom ni ddim yn *sier* trwy y lyfrau di-
ddiweidd a gyhoeddwyd, oddieithr yn nnig
trwy yr hwn sydd yn dwyn sêl Duw y nef-
oedd arno, fel ei cyhoeddwyd trwy ysbyrdol-
iaeth yr Ysbyrd tragwyddol. *A darllen llawer*
—Saes., 'myfyrio neu efrwyd llawer,' *sydd*
flinder i'r enwad—sydd yn annharu iechyd
corff dyn, ac yn treulio ei nerth a'i ysbryd ef,
ac eto heb roddi iddo foddlonrwydd meddwl,
nac ad-daliad llawn am y boen, y drafferth, a'r
annglyfuedra a achosir trwy hyn. 'O mor
wir yw hyn! Boed i liniau crynedig, dwy-
law parlysaidd, llygaid tywyllledig, calon ddol-
urus, a meddwl syfrdanol pob dwys efrwydd,
ei fynegu!'—CLARKE. Ac fel y chwanea yr
awdwr llafurus hwn, y gallaf finau ddywedyd,
'Pe na byddai neb mwy teilwng o'r enw efrwyd-
ydd o fewn cyraedd i ymgynghori âg ef, y
mae ysgrifenydd y gwaith hwn yn brawf o'r
peth.'

Adn. 13. *Swm y cwbl a glybuwyd*] Yn holl
lyfr y Pregethwr, ac yn wir yn holl lyfrau
ereill yr ysgrifthyrau santaidd; *yw*—yr hyn a
gywysir yn y ddan air canlynol: *Ofna*
Dduw—âg ofn parhedig a mabolaidd, gan ei
garu a'i addoli ef â holl alluoedd y corff a'r
meddwl: *a chadw ei orchymynion*—yn ofalus
a chydwybodol, a hyny oddiar egwyddor o

14 Canys Duw a ddwg bob
gweithred i farn, a phob peth
dirgel, pa un bynag fyddo ai da ai
drwg.

gariad gwirioneddol ato ef, pa mor gustus,
blinderns, neu beryglus bynag y byddo hyny
i ti. *Canys hyn yw holl ddyled dyn—col*
haadam, 'yr oll o Adda,' neu 'yr holl ddyn';
hyny yw, yr oll a ofynai Duw gan y dyn
cyntaf, ac a ofyn efe yn barhaus gan ei holl
hiliogaeth ef. Hyn yn wir yw *dyledswydd*
dyn, a'i *frain* ef hefyd; hyn yw ei holl ddoeth-
ineb, ei anrhydedd, ei berffeithrwydd, a'i
ddedwyddwch; hyn yw swm a sylwedd yr
oll ag y mae arno angen am ei wneyd, ei wy-
bod, a'i fwynhau. Hyn yn unig sydd yn ei
wneuthur ef yn *ddym* mewn gwirionedd, neu
yn deilwng o'r enw dyn; a thrwy hyn, a hyn
yn unig, y gall efe ateb dyben mawr ei gre-
adigaeth, a'r holl orchwyliaethau dwyfol mewn
perthynas iddo.

Adn. 14. *Canys Duw a ddwg bob gweith-
red i farn*] Hyn yw y *rheswm* paham y dylem
ni ofni Duw, a chadw ei orchymynion ef;
sef, (1) Am fod barn i fod; (2) Am y dygir
pob *gweithred* i farn; ac, (3) Am mai y *Duw*
hollwybodol a hollalluog fydd y Barnwr. *A*
phob peth dirgel—nid yn unig pob gweithred
allanol, ond pob meddwl mewnol hefyd; pob
peth a wnaed gan bawb o ddechre y byd i'w
ddiweidd, mewn meddwl, gair, a gweithred.
Pa un bynag fyddo ai da ai drwg—hyny yw,
dygir gweithredoedd da a drwg y dyn da i'r
farn, yn gystal a gweithredoedd da a drwg y
dyn *drwg*. Heb hyny nis gellir barnu y byd
mewn cyfiawnder. Edrychir i mewn hefyd i
ddybenion pob un wrth gyflawni ei weithred-
oedd, ac i'r manteision neu yr anfanteision dan
ba rai y gweithredai; a gwobrwyr neu gospir
pob un yn ol hyny. Ddarllenwyd, meddwl am
hyn mewn pryd, a bydd barod i gyfarfod â'th
Dduw!

CANIAD SOLOMON.

GELWIR y llyfr hwn yn yr Hebraeg SUIR HASSHIRIM, 'Cân y Caniadau;' yr hyn a all arwyddo,
'Cân wedi ei chymeryd o blith Caniadau ereill,' o'r rhai yr oedd gan Solomon 'fil a phump,'
1 Bren. iv. 32; neu 'Cân yn rhagori ar yr holl Caniadau ereill;' gwel ar pen. i. l. Er i rai o'r
rabbiniad dadogi y llyfr hwn i *Esay*, eto y farn gyffredin yn mhilith yr Iuddewon eu hunain yw,
mai *Solomon* yw ei awdwr, fel y dywedir yn yr adnod gyntaf. Y mae rhai yn ei ystyried ef fel
Cerdd i'w chanu gyda'r delyn, neu ryw offeryn arall; ereill, fel *Molawd* ar briodas Solomon gyda
merch Fbarao; ereill, fel *Arall* yn gosod allan ymddygiad Jehofa tuag at yr Hebraid ar eu
dygiad o'r Aifft i Ganaan; ereill, fel *Cân* yn gosod allan *gwadedoliad* Crist, neu ei briodas ef â'r
natur ddynol; ereill, fel *Pryddest* ar ogoniant Crist a Mair y Forwyn; ereill, fel *Bugeilgerdd*, yn
arddangos Solomon yn edrych ar ol ei braidd; ac ereill, fel *Chwareu-gerdd* i ddiifyru y gwesteion
mewn priodas, lle y traethir y gwahanol ranau yn enw gwahanol bersonau, megys y priodas y
briodferch, a ehyfeillion y naill a'r llall. Ond y farn fwyaf cyffredin yn mhilith Iuddewon a
Christianogion, a'r hon a amddiffynir oraf, yw, mai ARALLEG yw y llyfr hwn, yn gosod allan yr
anwylddeb a'r briodas ysbyrdol rhwng Crist a'i eglwys; hyny yw, fod Solomon yma yn defnyddio
yr undeb a'r berthynas serchog ag sydd rhwng priodfab a'i briodferch yn *edrych* i ddangos yr
undeb anwyl ag sydd rhwng Crist a'i bobl. Addcfr gan bawb fod ysgrifthyrau yr Hen Testament
a'r Newydd yn llawn o ymadroddion allegol o'r fath yma; a bod yr athrawiaeth o Grist fel *priod*
ei *eglwys* yn dra adnabyddus i'r proffwydi a'r Iuddewon duwiol dan yr Hen Testament; a bod

Duw yn fynych yn ei gydmaru ei hun i briodfab, a'i eglwys i briodferch, gan ei alw ei hun yn briod i'w bobl, (Esay liv. 5, Hos. ii. 16, 19, 20,) yr hyn a gyfeiria yn ddiamau ar yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a ddaeth wedi hynny o'r ncofoedd i'r ddaear i'r beirffithio y briodas ysbrydol hon rhyngddo ei hun a'i eglwys, yr hon a elwir yn 'briodasferch, gwraig yr Oen,' Dat. xxi. 9. Addefir hefyd fod Salm xlv, yr hon sydd fath ar dalfyriad o'r llyfr hwn, er yn cyfeirio at briodas Solomon a mereh Pharaon, wedi cael ei hysgrifenu am y Messia, yn ol tystiolaeth yr ysgrifenydd Iuddewig a Christianogol. Oddiwrth yr ystyriaethau hyn, ac erill a ellid eu dwyn yn mlaen, y mae yn ddigon amlwg mai amcan y llyfr hwn yw darlunio y cydanwyldeb a'r undeb ysbrydol ag sydd rhwng Crist a'i eglwys yn amrywiol amgylchiadau y bywyd hwn. Gallwn chwangu, fod y llyfr hwn wedi cael derbyniad diamheus gan yr awduron Iuddewig, yn nghyda'r tadau Cristionogol, fel rhan werthfawr o'r datguddiad dwyfol; ac yr oedd efe yn y canon santiaid, gyda llyfrau eraill yr Hen Testament, o'r amseroedd boreaf: derbyniwyd ef hefyd i gyfieithiad y LXX, ac felly yr oedd mewn arferiad gwastadol fel rhan o'r ysgrifthyrau santiaid yn amser Crist a'i apostolion. Dywedir yn y *Talmud Iuddewig*, 'fod yr holl lyfrau canonaidd yn santiaid, ond mai CANIAD SOLOMON yw y santiaid o honnynt oll, ac nad yw holl oesoedd y byd o gymaint gwerth a'r dydd y derbyniodd Israel hwn.' Er nad oes un llyfr o fewn y gyfrol santiaid ag y gall y meddwl anianol ei gamddeall a'i gamddefnyddio yn hawddach, y mae er hynny wedi bod yn ddy gwledd i eglwys Dduw bob amser er pan y cyfansoddwyd ef. Ac er fod yr Iuddewon yn gwahardd i bawb ei ddarllen ef nes bod yn 30 mwydd oed, eto nid oeddynt yn gwneyd hwy o ammharch iddo, ond i ddangos fod eisiau meddwl wedi ei lenwi â phrofiad santiaid cyn y gellid ei ddarllen yn ei ysbryd priodol ei hun, ac er adelladaeth ysbrydol. Am fwy o hysbysrwydd ar y pethau hyn a'u cyfelyb, gwel y sylwadau canlynol.

PENNOD I.

CAN y caniaidau, eiddo Solomon.
2 Cusaned fi â chusanau ei fin:
canys gwell yw dy gariad na gwin.

PEN. I. Adn. 1. *Cân y caniaidau* Neu gân yn rhagori ar holl ganiadau ereill Solomon, o'r rhai yr oedd ganddo 'fil a phump;' neu, yn ol y LXX, 'bum mil' gwel y rhagarweiniad, a'r sylw ar I Bren. iv. 32. Neu gall mai yr ystyr yw, 'cân yn rhagori ar bob cân arall yn yr ysgrifthyrau.' Dywed y rabbiniaid fod *deg* o'r cyfryw wedi en canu, a bod hon yn rhagori arnynt oll: (1) Y *gyntaf* a ganwyd gan *Adda*, pryd y maddeuwyd ei bechod, Salm xcii. 1, &c. (2) Yr *ail* a ganwyd gan *Moses* o'r *Israeiliaid* wrth y môr coch, Exod. xv. 1. (3) Y *drydedd* a ganwyd gan *feibion Israel*, pryd yr yfasant o'r graig yn yr anialwch, Num. xxi. 17. (4) Y *bedwaredd* a ganwyd gan *Moses*, pryd y gwiswyd ef i ymadael â'r byd hwn, Deut. xxxii. 1. (5) Y *bummed* a ganwyd gan *Josua*, pryd y safodd yr haul a'r llenad; gwel y *Targum* ar Jos. x. 12. (6) Y *chweched* a ganwyd gan *Debora* a *Barac*, ar ol gorchfygu Sisera, Barn. v. 1. (7) Y *seithfed* a ganwyd gan *Ihannah*, pan yr addawodd yr Arglwydd iddi fab, I Sam. ii. 1. (8) Yr *wythfed* a ganwyd gan *Dafydd*, am yr holl drugareddau a roddwyd iddo gan Dduw, 2 Sam. xxii. 1. (9) Y *navfed* a ganwyd gan *Solomon* mewn ysbryd profiwyddolaeth, yr hon a geir yn y llyfr hwn. (10) Y *ddegfed* yw yr un a ganwyd gan *blant Israel* ar ol eu hadfer o gaethiwed, Esay xxx. 29: gwel y TARGUM.

Eiddo Solomon—sef yr hon a ganwyd gan Solomon i osod allan y cydanwyldeb a flyna rhwng Crist a'i eglwys: gwel y rhagarweiniad.

Adn. 2. *Cusaned fi â chusanau ei fin* Neu 'ei enau,' fel y mae yn y Saesonaeg. Y rhai hyn ydynt eirian y ddyweddi, neu yr eglwys, yn y rhai y mae yn anadlu allan ei chariad gwresog at ei phriod, yr Arglwydd Iesu, yr hwn nid yw yn ei enwi oblegid ei gorchwyl-
edd, ac i ddangos iddo fwy o barch. Y medd-

3 O herwydd arogl dy enaint da-
ionus, enaint tywalltedig yw dy enw:
am hynny y llancesau a'th garant.

4 Tyn fi, ni a redwn ar dy ol.

wl yw, Bydded iddo amlygu ei gariad ataf trwy ei gymdeithas hysryd a dymunol yn tnodion gras, ac yn holl ordinhadau ei dŷ. *Canys gwell yw dy gariad na gwin*—y mae yn fwy hytryd ac adfywiol na'r gwin melysaf, neu y danteithion brasaf. Y mae y cyfnewid-
iad sydyn hwn yn y personau yn beth cyffred-
ian iawn mewn ymadroddion serch-gyffrous. Yn gyntaf hi a lefara am dano yn y trydydd person fel yn absenol; yna y mae fel yn dyfod yn fwy eofn, i lefaru wrtho yn yr ail berson; ac mewn awydd a fflydd wresog hi a'i cyfarcha ef fel yn absenol.

Adn. 3. *O herwydd arogl dy enaint da-
ionus*] Sef y doniau a'r grasauau hynny o eiddo Ysbryd Duw, â pha rai yr eneiuiwyd ef yn helaeth; *enaint tywalltedig yw dy enw*—y mae dy enw, neu dy glodydd, yn arogl yn beraidd fel enaint wedi ei dywallt ar hyd yr ystafell. Fel y gwelsom yn fynych, yr oedd ac y mae enaint a pheraroglau mewn bri mawr yn mhlith y dwyreiniwyr: y maent yn cael eu defnyddio yn helaeth yn eu gwledd-
oedd, eu priodasau, ac ar achosion cyffelyb. Fel pe dywedasai, Y mae dy enw mor adfywi-
ol i'm calon, ag yw y peraroglau gwerthfawr-
ocaf i deimladau y gwesteion, pan wasgarer hwynt ar hyd yr ystafelloedd. *Am hynny y
llancesau a'th garant*—sef morwynion y
briodferch, neu ei chyfeillesau, Salm xlv. 14.
Neu fe allai mai hi ei hun a feddylir, a'i bod
yn lefaru fel hyn am dano ei hun oblegid ei
gorchwylled.

Adn. 4. *Tyn fi*] Trwy dy ras a'th Ysbryd;
ni a redwn ar dy ol—sef myfi, dy ddyweddi,
a'm llancesau. Neu fe allai fod y cyfnewid-
iad hwn yn y rhif yn cael ei fwriadu i ddangos
mai un corff mawr yw y ddyweddi, yn gy-
nwysedig o lawer o aelodau. Ni a'th ddylynwn
di i bob man, a hynny yn ewyllysgar, cyflym, a

Y brenin a'm dyg i i'w ystafellau : ni a ymhyfrydwn ac a ymlawen-hawn ynot ; ni a gofiwn dy gariad yn fwy na gwin : y rhai uniawn sydd yn dy garu.

5 Dû ydwyf fi, ond hawddgar (merched Jerusalem) fel pebyll Cedar, fel lleni Solomon.

6 Nac edrychwch arnaf, am fy mod yn ddu, ac am i'r haul edrych arnaf : meibion fy mam a ddigiasant wrthyf, gosodasant fi i gadw gwin-

siriol. *Y brenin a'm dyg i i'w ystafellau—i'w dŷ, i foddion gras, neu i gymdeithas a chymundeb dirgel ac agos âg ef ei hun fel ei ddyweddî. Ni a ymhyfrydwn ac a ymlawen-hawn ynot—fel ein Priod tyner ac anwyll, neu fel ein Duw cyfammodol. Ni a gofiwn dy gariad yn fwy na gwin—y mae dy gariad a'th gymdeithas yn fwy dymunol yn ein golwg na'r gwin melysaf. Y rhai uniawn—eu calon gyda Duw, neu y rhai uniawn eu ffyrdd, neu y rhai a gyfnewidwyd trwy fydd ; sydd yn dy garu—wrth gofio am dy gariad dirfawr di tuag atynt hwy. 'Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni,' 1 Ioan iv. 19.*

Adn. 5. *Dû ydwyf fi*] Wrth natur, ac yn fy ngolwg fy hun ; *ond hawddgar—er hyn, yn ngolwg fy Mhriod nefol, a thrwy santeiddiad ei Ysbyrd ef ; merched Jerusalem—felly y dywedaî hi wrth ferched Jerusalem, y rhai oeddynt o'i hamgylch hi, ac yn gyfeillesau iddi. Fe allai fod yma gyfeiriad at liw tywyll merch Pharao. Dywedir fod llawer o ferched yr Aifft yn dra hawddgar a lluniaiidd, er fod eu lliw yn dywyll. Fel pebyll Cedar, fel lleni Solomon—fel pe dywedasai, Er fy mod yn ddu fel pebyll yr Arabiaid gwylltion, biliogaeth Cedar, yn yr anialwch, Gen. xxv. 13, y rhai a wisgid â chrwyn eu defaid duon, eto yr wyf yn hawddgar fel lleni Solomon o amgylch ei wely neu ei ffenestri ef, y rhai oeddynt dra phrydferth ac yspenydd. Tybia rhai fod merched Jerusalem yma yn golygu aelodau y synagog ; a'r ddyweddî, gwir eglwys Crist.*

Adn. 6. *Nac edrychwch arnaf*] Gyda golwg ddirmygus, am fy mod yn ddu—fy lliw, ac am i'r haul edrych arnaf—a llygri a thywyllu fy nghroen. Fe pe dywedasai, Nid yw y dduwch hwn yn beth hanfodol neu ansymudadwy, eithr achoswyd ef gan belydr crasboeth yr haul, sef gan erledigaethau a gorthrymderau trymion, y rhai a osodir allan trwy yr haul, Mat. xiii. 6, 21. Meibion fy mam a ddigiasant wrthyf—sef brodyr o'r un fam, ond nid o'r un tad : gosodasant fi i gadw gwinlloedd ereill — ac felly yn agored i belydr poethion yr haul ; fy ngwinllan fy hun nis cedwais—ac felly nid trwy fy ngwaith fy hun yr wyt yn ddu fy lliw fel hyn. Meddylir fod meibion ei mam yma yn cyfeirio at frodyr gau, y rhai a gymerant arnynt mai yr eglwys yw eu mam, tra y mae eu gweithredoedd yn dangos nad yw Duw, Priod yr eglwys, yn Dad iiddynt : at broffeswyr rhagrithol, y rhai bob

llanoedd ereill ; fy ngwinllan fy hun nis cedwais.

7 Mynega i mi, yr hwn a hoffodd fy enaid, pa le yr wyt yn bugeilio, pa le y gwnei iddynt orwedd ganol dydd : canys paham y byddaf megys un yn troi heibio wrth ddeaddellau dy gyfeillion ?

8 ¶ Oni wyddost ti, y decaf o'r gwragedd, dos allan rhagot ar hyd ôl y praidd, a phortha dy fynod gerllaw pebyll y bugeiliaid.

amser yw y gelynydd gwaethaf i wir eglwys a phobl Dduw ; ac at y gau-athrawon a'u canlynwyr, y rhai, trwy eu hathrawiaethau llygredig, eu hymyrsioniadau, a'u hymraniadau, sydd yn peri niwed mawr i'r eglwys yn barhaus.

Adn. 7. *Mynega i mi, yr hwn a hoffodd fy enaid*] Yn fwy na phawb a phobpeth yn y nefoedd a'r ddaear ; *pa le yr wyt yn bugeilio—dat-guddia i mi pa nn yw dy wir eglwys, a pha rai yw y cynulleidfaoedd a'r bobl hyny lle yr wyt ti yn bresenol yn eu mysg. Iawn ond oddid yw deisyfiad credinwyr neillduol neu unigol. Pa le y gwnei iddynt orwedd ganol dydd—sef yn ngwres yr haul, pryd yr oedd y bugeiliaid yn y gwledydd poethion hyny yn arferol o arwain eu praidd i leoedd cysgodol. Cyfeirir yma at amser o ERLEDIGAETH, pryd y mae yn an-hawdd gwahaniaethu y wir eglwys, am ei bod wedi ei llychwino gymaint trwy yr erledigaeth hōno, ac wedi ei gyru megys i'r anialwch. Cynys paham y byddaf megys un yn troi heibio—yn grwydredig, neu yn myned ar ddisperdd, wrth ddeaddellau dy gyfeillion—neu oddiurth ddeaddellau dy gyfeillion? neu paham y byddaf yn eu hymyl hwynt, ac eto heb eu hadnabod? Ond tybia rhai mai cynulleidfaoedd o athrawon ac addolwyr llygredig a feddylir yma wrth 'ddeadellau ei gyfeillion,' y rhai a elwir yn gyfeillion i Crist, am eu bod fyth yn professu ei enw ef, ac yn cymeryd arnynt ei addoli.*

Adn. 8. *Oni wyddost ti*] Hyny yw, os na wyddost ti pa le yr wyt yn bugeilio : *y decaf o'r gwragedd—felly y geilw Crist ei eglwys y gyfrinodol, a phob aelod gwirioneddol ynddi, hyd yn nod mewn amseroedd o erledigaeth ; dos allan rhagot ar hyd ôl y praidd—gan sango yn eu camrau hwynt, nes i ti gyraedd atynt. Y ffordd oraf i ni ochel rhagrithwyr a chyfeiliornwyr, a chael byd i wir bobl Dduw, yw canlyn ôl yr hen dduwiolion gynt, fel eu danghosir yn yr ysgrhythrau, a hyny mewn athrawiaeth a buchedd. A phortha dy fynod—sef credinwyr ieuaine a gweiniaid ; gerllaw pebyll y bugeiliaid—yn ôl hyfforddiadau fy ftyddlon fugeiliaid, sef y proffwydi a'r apostolion, a'r rhai a gyfodaf eto o dro i dro i fugeilio fy eglwys.*

Adn. 9. *I'r meirch yn ngherbydau Pharao*] Y rhai oeddynt yn gryf, ufydd, a hardd iawn ; *y'th gyffelybais, fy anwybydd—o ran dy enwogrydd a'th rinweddu. Yr oedd yr Aifft*

9 I'r meirch yn ngerbydau Pharao y'th gyffelybais, fy anwylyd.

10 Hardd yw dy ruddiau gan dlysau, a'th wddf gan gadwyni.

11 Tlysau o aur, gan boglynu o arian, a wnawn i ti.

12 ¶ Tra yw y brenin ar ei fwrdd, fy nardus i a rydd ei arogl.

13 Fy anwylyd sydd im' yn bwysi myrr; rhwng fy mronau yr erys dros nos.

14 Cangen o rawn camphir yw fy anwylyd i mi, yn ngwinllanoedd Engedi.

15 Wele di yn dæg, fy anwylyd, wele di yn dæg; y mae i ti lygaid colomenod.

16 Wele di, fy anwylyd, yn dæg, ac yn hawddgar; ein gwely hefyd sydd iraidd.

17 Swmerau ein tai sydd gedrwydd; ein distiau sydd ffynidwydd.

yn nodedig am feirch da, a diaman fod y rhai goraf o honynt yn ngerbydau Pharao. Yr oeddynt yn ymddangos yn wychion a mawreddog iawn yn eu barnesiaiu, yn ufydd i'w gyrrwyr, yn cyd-dynu yn rheolaidd yn ngwasanaeth y brenin, ac yn cael eu porthi yn dda. Y mae eglwys Crist yn gyffelyb iddynt yn y pethau hyn oll: y mae hithau yn hardd mewn cyfiawnder a santeiddrwydd, yn ufydd a llywodraethus dan iau Crist, yn cyd-dynu yn dda yn ngwasanaeth ei Brenin, ac yn cael trin-iaeth a phorthiant o'r fath oraf.

Adn. 10. *Hardd yw dy ruddiau gan dlysau*] Y rhai, ar ol eusierchau am y talcen, neu wrth y benwisg, a grogent i lawr ar hyd gruddiau y briodferch yn yr amseroedd hyny, nes yr oedd ei gwyneb fel wedi ei guddio mewn perlan; a'th wddf gan gadwyni—sef cadwyni o aur a gemau, y rhai a wisgai hi am ei gwddf, ac a grogent i lawr ar hyd ei mynnes. Tlysau a chadwynau hardd yr eglwys yw ei rhinweddau gwerthfawr, yn nghyda doniau a grasusau yr Ysbryd Glân, y rhai a'i gnant hi yn hardd iawn yn ngolwg ei Phriod nefol.

Adn. 11. *Tlysau o aur, a boglynu o arian*] I'th harddu yn fwy fyth; a wnawn i ti—tybia rhai mai morwynion y briodferch sydd yn dywedyd hyn wrthi hi; tra y tybia ereill mai iaith y Priodfab nefol yw hon, yr hwn a lefara yn enw y Drindod santaidd.

Adn. 12. *Tra yw y brenin ar ei fwrdd*] Neu gyda mi yn ngwleddoedd ac ordinhadau ei dŷ. Hon yw iaith yr eglwys am ei Phriod a'i Brenin nefol. *Fy nardus i a rydd ei arogl*—hwn oedd fath arlysienny peraroglaidd, yr hwn a sawriai yn ddymunol, ac a ddefnyddid yn ngwneuthuriad yr enaint gwerthfawr a grybwyllir mor fynych yn yr ysgrhythrau. Arwydda yma rასusan a doniau yr Ysbryd Glân, y rhai a dderbyniasai hi, a'r rhai a gy-nhyrfid i weithrediad santaidd ac egniol gan bresenoldeb Brenin yr eglwys.

Adn. 13. *Fy anwylyd sydd im' yn bwysi myrr*] Neu yn 'fodeuglwm o fyrr.' Yr oedd myrr yn cael ei gyfrif bot amser yn mhlith y llysiâu mwyaf peraroglaidd, a gwisgid ef gan y dwyreiniwyr yn eu mynnesau er mwyn ei sawr hyfrydol. *Rhwng fy mronau yr erys dros nos*—hyn a ddywedir am y blodeuglwm peraroglaidd hwn. Y meddwl yw, fod cymdeithas Crist, anwylyd yr eglwys, yn dra ddymunol a hyfryd ganddi hi fel swp o fyrr, a'i bod yn dymuno cael ei gyndeithas ef dros nos

dywell ac anghysurus ei hymdaith yn y byd trallodus hwn.

Adn. 14. *Cangen o rawn camphir yw fy anwylyd i mi*] Tybia *Hasselquist* mai swp o rawn *Cyprus* a feddylir yma wrth y *camphir* hwn; ond barna *Syr W. Jones, Shaw, Sonnini*, ac ereill, mai yr *henna* a olygir, yr hwn sydd blanhigyn tra pheraroglaidd, ac a wisgid gan y boneddigesau dwyreiniol fel blodeuglwm. Nid yw o bwys i ni pa beth a feddylir wrtho, gan yr adefeir ei fod yn rhyw sylwedd dymunol, ac yn gosod allan yr hyfrydwch mawr a deimlai yr eglwys yn nghymdeithas Crist. *Yn ngwinllanoedd Engedi*—lle dyfhaol, ffrwythlon, a dymunol yn llwyt Juda, ar fin y môr heli, lle yr oedd llawer o blanhigion hyfryd yn tyfu, Jos. xv. 62.

Adn. 15. *Wele di yn dæg, fy anwylyd*] Yn lân, hawddgar, a phrydferth mewn santeiddrwydd. Hon yw iaith y Priodfab wrth ei ddyweddi, yr hwn a eilw yr eglwys yn anwylyd iddo, megys y galwasai hithau yntau, adn. 13, 14. *Wele di yn dæg*—y mae efe yn ailadrodd hyn, i ddangos ei fawr serchogrwydd tuag ati hi. *Y mae i ti lygaid colomenod*—y rhai sydd ddysglaer, serchog, gŵylloidd, a diwair. I ganfod grym yr ymadrodd hwn, rhaid i ni gael golwg ar lygaid hawddgar colomenod Syria, ebai *Boothroyd*, y rhai sydd yn fawr a phrydferth iawn. Y meddwl yw, ei bod hi yn alluog i syllu yn dda ar bethau ysbrydol, yn enwedig ar ogoniant ei Phriod, fel ag i'w garu ef, a chadw ei hun yn bur a diwair oddiwrth y byd.

Adn. 16. *Wele di, fy anwylyd, yn dæg, ac yn hawddgar*] Yr wyf fi yn meddwl mai iaith yr eglwys yw hon, yn ateb Crist yn ei eiriau ei han: fel pe dywedasai, Na, tydi, a thydi yn unig, wyt dæg a hawddgar. *Ein gwely hefyd sydd iraidd*—Saes., 'sydd wyrddlas;' hyny yw, sydd mor ddymunol yndo ei hun ag ydyw y lliw hwnw i'r llygaid. Dywedir yr arferid taenu dail gwyrdllas a llysiâu peraroglaidd ar y gwely priodas yn y gwledydd hyny, ac mai at hyny y cyfeirir yma. Ond dichon mai ordinhadau sefydlog yr eglwys a olygir yma wrth y 'gwely iraidd,' yn y rhai y mae Crist a'i bobl yn cymdeithasu yn hyfryd â'u gilydd, a'r rhai sydd yn dra effeithiol dan ei fendith ef i beri i'r eglwys flaguro yn iraidd mewn gras, a blodeuo mewn pob rhinwedd a santeiddrwydd.

Adn. 17. *Swmerau ein tai sydd gedrwydd*] Y rhai sydd nid yn unig yn gryfion, ond yn

PENNOD II.

RHOSYN Saron, a lili y dyffryn-
oedd, *ydwyf*.

2 Megys lili yn mysg y drain,
felly *y mae* fy anwylyd yn mysg y
merched.

3 Megys pren afalau yn mysg
prenau y coed, felly *y mae* fy an-
wylyd yn mhlith y meibion: bu dda
genyf cistedd dan ei gysgod ef, a'i
ffrwyth oedd felys i'm genau.

beraroglaidd hefyd; *ein distiau sydd ffymid-
wydd*—neu, fel y mae llawer yn ei gyfieithu,
'sydd cypreswydd,' y rhai hefyd oeddynt
brenau cryfion a pheraroglaidd, ac am hyn yn
cyfateb yn dda i'r cedrwydd. Gallwn feddwl
fod swmerau a distiau tŷ Solomon a thŷ ei
briod wedi eu gwneuthur o'r coed hyn, am eu
bod yn rhagori yn fawr ar bob coed ereill yn y
wlad hono. Ond, yn ysbrydol, gall mai cad-
ernid y cyfammod gras 'a olygir yma, yn
nghyda chadernid, parhad, a melysder athraw-
iaethau gwirioneddol yr efengyl.

PEN. II. Adn. 1. *Rhosyn Saron*] Yr oedd
Saron yn fan tra ffirwythlon, lle yr oedd ychain
Dafydd yn cael eu pessi, 1 Cron. xxvii. 29; a
chrybwyllir am dano fel lle godidog, Esay
xxxv. 2, a chorlan defaid, Esay lxx. 10. Par-
odd yr ystyriaeth o hyn i rai feddwl mai y
Priodfab sydd yn llefaru fel hyn am dano ei
hun, gan ddangos ei ardderchogrwydd ei hun.
Ond y mae y LXX, a'r rhan fwyaf o'r hen *guf-
ieithiadau*, yn ei ddarllen, 'rhosyn y maes,'
neu 'fodeuyn y maes;' ac y mae bron yr oll
o'r doctoriaid Iuddewig, a'r berniaid enwocaf,
yn deall yr adnod hon fel iaith y *briodferch*.
Yr oedd y *Priodfab* newydd ei galw hi yn *dæg*,
pen. i. 15; ac y mae lithau yma, gyda gwyl-
der priodol, yn dangos nad oedd dim yn an-
nghyffredin yn ei thegwch hi, gan ei chyd-
mharu ei hun i fodeuyn cyffredin y maes. *A
lili y dyffrynoedd ydwyf fi*—'nid y fodeuyn
prydfertth hwnw a elwir felly genym ni, ond
planhigion Syriaidd o rywogaeth y lili, yr hwn
a arferu dyfu mewn tiroedd isel.'—HARMER.

Adn. 2. *Megys lili yn mysg y drain*] Hwn
yw atebiad y *Priodfab* i ddywediad gwylaidd
y *briodferch* yn yr adnod flaenorol; *felly y
mae fy anwylyd yn mysg y merched*—yn
rhagori gymaint ar bob merch arall, ag ydyw
y fodeuyn prydfertthaf ar ddrain cyffredin.
Dichon mai cynulleidfaoedd bydol a digrefyddol,
neu rai rhith-grefyddol, a olygir yma wrth y
merched hyn.

Adn. 3. *Megys pren afalau*] Sef pren
citron, neu bren afalau euraid, yr hwn y mae
ei ffirwyth yn hyfryd ac iachusol iawn; *yn
mysg prenau y coed*—neu brenau diffirwyth
cyffredin; *felly y mae fy anwylyd yn mhlith
y meibion*—yn rhagori ar bawb trwy nef a
llawr. Hon yw iaith y *briodferch* wrth ei
morwynion, mewn atebiad i'r ganmoliaeth
uchod, adn. 2. *Bu dda genyf cistedd dan ei*

4 *Efe a'm dyg i'r gwindŷ, a'i
faner drosol ydoedd gariad,*

5 *Cyneliwch fi â photelau, cysur-
wch fi âg afalau; canys claf ydwyf
fi o gariad.*

6 *Ei law aswy sydd dan fy mhen,
a'i ddeheulaw sydd yn fy nghofleid-
io.*

7 *Merched Jerusalem, tynghedaf
chwi trwy iyrechod ac ewigod y
maes, na chyffrôch, ac na ddeffrôch
fy nghariad, hyd oni fyno ei hun.*

gysgod ef—ar ol cydmharu ei Phriod i bren
afalau, hi a gydmhara fwrnbad o'i gymdeithas
as a'i fendithion i eistedd dan gysgod pren
afalau ar ddiwrnod poeth, a bwyta o'i gynyrch
i'w disychedu a'i hadfywio. *A'i ffrwyth oedd
felys i'm genau*—sef profiad melyn o faddeu-
ant pechod a heddwch cydwybod, a blaenbrawf
o ogoniant dyfodol.

Adn. 4. *Efe a'm dyg i'r gwindŷ*] Sef i'w
gysegr, lle y dyg Crist ei bobl i fwynhau
gwleddoedd a danteithion ysbrydol, neu gym-
deithas felys âg ef ei hun yn moddion gras;
a'i faner drosol ydoedd gariad—sef cariad
Crist croesholiedig, yr hwn fel baner awlwg
a ddadlenir yn yr efengyl. Dywedir fod y
priodfab gynt, ar ddiwrnod y briodas, yn dal
banner i fyny uwchben ei briodferch, a'r gair
CARIAD wedi ei weithio arni, wrth ei dwyn hi
i dŷ gwledd y briodas; a meddyllir mai at
hyn y cyfeirir yma.

Adn. 5. *Cyneliwch fi â photelau*] Sef â
gwin neu feddyglyn o botelau. Ond y mae y
cyfieithiadau yn gyffredin yn deall yma ryw
fath o enaint neu berarog dymunol a gedwid
mewn costrel. Y *briodferch* a ddywedai hyn
wrth ei morwynion, pan yr oedd bron a lles-
meirio o herwydd ei theimladau. *Cysurwch
fi âg afalau*—neu ffirwyth y pren *citron*, yr
hwn oedd yn dra dymunol ac adfywiol, adn. 3.
Canys claf ydwyf fi o gariad—at fy Mhriod
a'm Brenin. Ymddengys mai mwynhad o
fendithion ysbrydol, trwy ddylanwadau ad-
fywiol yr Ysbyrd Glân, neu gymhwysiad o
addewidion dyddanu yr ysgrythyrau gan
weinigdigion yr efengyl, a olygir yma trwy y
cyffelybiaethau hyn.

Adn. 6. *Ei law aswy sydd dan fy mhen*]
Nen 'a oedd dan fy mhen,' &c.; canys y mae
yr adnod nesaf yn ei arddangos ef fel yn cysgu;
a'i ddeheulaw sydd—neu a oedd, *yn fy nghof-
leidio*—hyn yn llythyrenol sydd ddarluniad o
gariad gw'r at ei wraig, pan welo efe ei bod hi
yn glaf, neu arlewygu. Ond y mae y geiriau
hyn, mewn ystyr ysbrydol, yn gosod allan
gariad Crist tuag at ei eglwys, a'i barodwrwydd
i gynal a dyddanu ei bobl yn eu holl drallodau,
trwy nerth a dylanwad ei Ysbyrd santaidd.

Adn. 7. *Merched Jerusalem*] Sef morwyn-
ion a chyfeillesau y *briodferch*, yr hon sydd
yma yn eu cyfarch; *tynghedaf chwi trwy
iyrechod ac ewigod y maes*—nid yn enw y
creaduriaid hyn, ond megys yn eu *presenoldeb*
hwy, y rhai oeddynt yn greaduriaid llonydd,

8 ¶ *Dyma* lais fy anwylyd i wele ef yn dyfod, yn neidio ar y mynyddoedd. ac yn llamu ar y bryniau.

9 Tebyg yw fy anwylyd i iwrch neu lwdn hŷdd; wele efe yn sefyll y tu ol i'n pared, yn edrych trwy y ffenestri, yn ymddangos trwy y dellt.

10 Fy anwylyd a lefarodd, ac a ddywedodd wrthyf, Cyfod, fy anwylyd, a thyred di, fy mhrydferth.

diniwed, a hawddgar iawn. Ymddengys mai dull cyffredin gwladwyr a bugeiliaid y parthau hyn oedd tynghedn fel hyn. *Na chyffrôch ac na ddeffrôch fy nghariad hyd oni fyno ei hun*—na wneloch ddim swm neu dwrw i'w gyffroi a'i ddiuno ef. Fel hyn, pan gaffo yr eglwys fwynhad o gymdeithas a chariad ei Phrynwr, y mae yn ofni colli hyn trwy gamymddygiad profesywyr ienainc ac anwyliadwrs. Ond tybia rhai mai Crist sydd yn gorchymyn yma na wnelo neb ddim i aflonyddu heddwch yr eglwys.

Adn. 8. *Dyma lais fy anwylyd* ¶ Sef lais Crist yn ngair ei ras, neu yn ei addewidion bore. *Wele ef yn dyfod*—i'r byd, yn ol ei addewid; *yn neidio ar y mynyddoedd, ac yn llamu ar y bryniau*—hyn yw, yn dyfod gyda brys, awydd, a nerth anorchfygol. Yr oedd eglwys yr Hen Destament o'r dechre, trwy y proffwydi a'r cysgodau, yn clywed swm y Messia yn dyfod, 'yr hwn yr oedd ei fynediad allan o'r dechred, ar dyddiau tragwyddoldeb,' Mica v. 2; a phan ddaeth 'cyflawnder yr amser,' efe a neidiodd ac a lamodd dros fynyddoedd a bryniau o rwystrau, i ddyfod yn Waredwr ac yn Briod i'w eglwys.

Adn. 9. *Tebyg yw fy anwylyd i iwrch neu lwdn hŷdd* ¶ O ran cyflwmra ei ddyfodiad. *Wele efe yn sefyll*—gall y gwahanol ymaddroddion isod fod yn cyfeirio at y gwahanol orchwyliaethau, yn y rhai yr oedd Crist yn olynol yn dyfod yn fwy i'r golwg; *y tu ol i'n pared*—yn ymguddio megys dan leni yr orchwyliaeth batriarchaidd, heb ddyfod eto i'r golwg yn iawn; *yn edrych trwy y ffenestri*—sef trwy gysgodau a seremonïau y gyfraith Foesenaidd, yr hyn a arwydda nesâd amlyc-ach; *yn ymddangos trwy y dellt*—i'w weled yn bersonol dan orchwyliaeth yr efengyl, ond eto nid yn llawn, eithr megys trwy ddellt. Ni welir ef yn ei lawn ogoniant nes y cawn fyned ato i'r nef, i'w weled 'megys ag y mae.' gwel ar 1 Cor. xiii. 12, a 1 Ioan iii. 2.

Adn. 10. *Fy anwylyd a lefarodd, ac a ddywedodd wrthyf* ¶ Yn allanol trwy ei air, ac yn fewnol trwy ei Ysbryd; *Cyfod, fy anwylyd*—ymysgwyd oddiwrth bob peth ag sydd yn dy ddigalonni ac yn dy rwystro; *a thyred di, fy mhrydferth*—ataf fi dy Briod nefol, i'm harddel yn fwy digywilydd, i'm gwisanacthu yn fyddlonach, ac i fwynhau mwy o'm cymdeithas yn y byd hwn, fel ag i gael dy addfedu a'th gymlywso i fod gyda mi am byth yn y nef.

11 Canys wele y gauaf a aeth heibio, y gwlaw a basiodd, ac a aeth ymaith.

12 Gwelwyd y blodau ar y ddacar, daeth amser i'r adar ganu, clywyd llais y durtur yn ein gwlad.

13 Y ffygysbrwn a fwriodd allan ei ffygys irion, a'r gwinwydd â'u hegin grawn a roddasant arogl tég. Cyfod di, fy anwylyd, a thyred di, fy mhrydferth.

Adn. 11. *Canys wele y gauaf a aeth heibio* ¶ Dywedir hyn fel rheswm i ddangos nad oedd achos iddi ofni myned allan gydag ef o herwydd oerni yr hin, canys y gauaf a aethai heibio; *y gwlaw a basiodd, ac a aeth ymaith*—ac felly y mae yr hin yn hyfryd, y ffyrdd yn sychion, a holl naturiaeth fel yn gwenu, yr hyn a ddarlunir isod. Y meddwl ond odid yw, fod y gauaf dŵ o dralodau ysbrydol, yn tarddu oddiar deimlad dwys o euogrwydd pechod, digofaint Duw, a melldith y ddeddi, wedi myned heibio, neu wedi cael ei symud; ac am hyn, fel pe dywedasai, gan fod Duw wedi ei heddychu trwy yr iawn, a bod gwlawogydd ei ddigofaint ef wedi pasio a myned ymaith, bwrw oddiwrtht dy holl ofnau a'th egsusodion, a thyred i'm canlyn i yn llwyrach.

Adn. 12. *Gwelwyd y blodau ar y ddacar* ¶ Yr hyn a ddygyddda yn y gwanwyn a'r haf, ar ol i'r gauaf fyned heibio; *daeth amser i'r adar ganu*—yn beraidd yn y coedwigoedd, ar ol i'r gwanwyn ddyfod i mewn; *clywyd llais y durtur yn ein gwlad*—dywed rhai mai math ar golomen yw y durtur, yr hon ni cilywir ei llais ond ar y tymhor a grybwyllir yma; neu ynte rhyw aderyn tramwyol ydoedd, megys y gôg, yr aran, a'r wenol, y rhai a wnant eu hymddanghosiad yn y gwanwyn neu yr haf, fel y gellir casglu oddiwrth Jer. viii. 7, lle y dywedir fod y durtur, yr aran, a'r wenol yn 'cadw amser eu dyfodiad.' Mewn ystyr ysbrydol, wrth y blodau hyn y gallwn ddeall ond odid doniau, grasau, a chysuron yr Ysbryd Glân, y rhai a roddir i gredinwyr, ac a ymddanghosant arnynt fel blodau prydfferth a pheraroglaidd mewn tymhor hafaid; ac wrth yr adar yn canu y gellir deall y saint yn gorfoleddu, neu yn canu mawl i Dduw am eu hadferiad i'w ffaf ef; ac wrth lais y durtur y deallir yn gyffredin weinidogaeth beraidd yr efengyl. Ond tybia rhai mai tystiolaeth fewnol Ysbryd Duw gydag ysbryd y saint, eu bod hwy yn blant i Dduw, a feddylir yma wrth lais y durtur, o herwydd i'r Ysbryd Glân ddisgyn fel colomen ar Grist: gwel ar Mat. iii. 16, a Rhuf. viii. 16.

Adn. 13. *Y ffygysbrwn a fwriodd allan ei ffygys irion* ¶ Yr hyn oedd arwydd 'fod yr haf yn agos,' Mat. xxiv. 32; *a'r gwinwydd â'u hegin grawn*—neu 'â'u blodau,' fel y mae yr hen gyfieithiadau yn ei ddarllen; a *roddasant arogl tég*—y mae gwinwydd y dwyrain, pan yn eu blodau, yn arogl yn hyfryd; a dywedir fod y trigolion yn rhoddi dau bwys o'r

14 ¶ Fy ngholomen, yr hon wyt yn holltau y graig, yn lloches y grisiau, gad i mi weled dy wyneb, gad i mi glywed dy lais: canys dy lais sydd beraidd, a'th olwg yn hardd.

15 Deliwch i ni y llwynogod, y llwynogod bychain, y rhai a ddi-fwynant y gwinllanoedd: canys y mae i'n gwinllanoedd egin grawnwin.

16 ¶ Fy anwylyd sydd eiddof fi,

blodau hyn yn mhob barilaid o win newydd, i'w wneyd yn fwy blasu a dymunol. Wrth y *ffigys irion* a'r *egin grawn* hyn y gellir deall ond odid ddechread y gweithrediadau dwyfol a grasol yn eneidiau y saint, neu ynte ddechread cysuron y saint ar ol gauaf dŷ o drallodau, adn. 11. *Cyfod di, fy anwylyd*—gwel ar adn. 10; a *dyred di, fy mhrydyferth*—y mae Crist, with roddi yr enwau hyn ar ei eglwys, yn dangos ei hawl ef ynddi trwy gyfammod priodasol, a'i bod yn anwyl ac yn bydferth iawn yn ei olwg ef trwy waith ei Ysbryd arni.

Adn. 14. *Fy ngholomen*] Felly y gelwir yr eglwys, i ddangos ei hawddgarwch, ei dini-weidrydd, a'i hanallu i'w hamddiffyn ei hun; yr hon wyt yn holltau y graig—arferai y colomenod nythu yn holltau y creigiau, ac ymguddio yno rhag ef gelyzior, Jer. xlviii. 28; yn lloches y grisiau—yn nhyllau creigiau ysgythrog ag oeddynt fel grisiau, neu yn ngrisiau castelli. Dywedir fod tŵr cerig yn agos i Jerusalem a elwid *craig y colomenod*, lle yr oedd yn fynych gynter a phum mil o golomenod yn nythu ar uwtaith; ac os oedd y tŵr hwnw yno yn amser Solomon, fel y mae yn debyg ei fod, fe allai mai at hwnw y cyfeirir yma. Bu eglwys Dduw yn fynych yn gorfod ymguddio mewn lleoedd cystfelyb, Heb. xi. 37, 38; ac weithiau y mae megys yn ymguddio gan enogryddod ac ofnan, heb fod yn ddigon hyderus i nesáu at Dduw am drugaredd a maddeuant. *Gad i mi weled dy wyneb*—fel pe dywedasai, Nac ofna ymdangos ger fy mron i; *gad i mi glywed dy lais*—dy weddiau am drugaredd, neu dy fawl ar ol ei derbyn: *canys dy lais sydd beraidd*—i'm clustiau i, pa un oynag fyddo ai cwynfaniad ai cân: *a'th olwg yn hardd*—er y gall dy rndaiau fod yn wlyb gan ddagrau.

Adn. 15. *Deliwch i ni y llwynogod*] Hon yw iaith y Prifodaf wrth y *gwinllanwyr*, ar ol iddo lwyddo i gael ei briodferch i ddyfod allan gydag ef i'r gwinllanoedd, adn. 10—13; y *Llwynogod bychain*—y rhai a ddenent i mewn trwy fanau nad allai y llwynogod mawrion ddyfod trwyddynt; y rhai a ddi-fwynant y *gwinllanoedd*—trwy fwyta en firwyth, chwalm eu cloddiau, a thyllu y ddaear: *canys y mae i'n gwinllanoedd egin grawnwin*—y rhai y mae yn hawdd en dyfetha, os na edrychir ar en hol. Addeffir yn gyffredin fod yn ngwlad Canaan lawer o llwynogod, a dywed

a minau yn eiddo yntau; y mae efe yn bugeilio yn mysg y lili,

17 Hyd oni wawrio y dydd, a chilio o'r cysgodau; tro, bydd debyg, fy anwylyd, i iwrech, neu lwdn hŷdd yn mynyddoedd Bether.

PENNOD III.

LLIW nos yn fy ngwely y ceisiais yr hwn a hoffa fy enaid: ceisiais ef, ac nis cefais.

haneswyr eu bod yn dra dinystriol i'r gwinllanoedd yno: gwel ar Barn. xv. 4. Mewn ystyr ysbrydol, eglwys Dduw yw y *gwinllanoedd*, a'u gweinidogion yw y *gwinllanwyr*; profeswyr ieuau yw yr *egin grawnwin*; cyfeiliornadau, neu athrawon cyfeiliornus, yw y *llwynogod*; a chyfeiliornadau yn eu dechread, neu bechodau bychain, yw y *llwynogod bychain*. Y mae chwantau a phechodau dirgelaidd hefyd, fel llwynogod bychain, yn difwyno crefydd llawer profeswr, yn enwedig chwantau ienenetid.

Adn. 16. *Fy anwylyd sydd eiddof fi, a minau yn eiddo yntau*] Y rhai hyn ydynt eiriau y briodferch, neu yr eglwys, yn profesu gyda sierwydd diamheul fod Crist a'i holl gyflawnder yn eiddo iddi hi, a hithau yn eiddo iddo yntau trwy briodas ysbrydol, ac mewn cyfammod tragwyddol. *Y mae efe yn bugeilio yn mysg y lili*—sef yn mysg ei bobl ffyddlon, y rhai a gyffelybir i lili, adn. 2: neu, yn ol y Saesonaeg, 'yn ymborthi yn mysg y lili;' hyny yw, fel y mae rhai yn ei ddeall, y mae ei arogl mor hyfryd a phe byddai yn trigo yn mysg y lili, neu yn ymborthi ar y blodau mwyaf melys a pherogolaid.

Adn. 17. *Hyd oni wawrio y dydd*] O dra-gwyddol ogoniant y y nef, neu fore yr adgyfodiad; a *chilio o'r cysgodau*—sef anwybod-aeth, cystudd, a thralod, y rhai sydd yn perthyn i gyflwr yr eglwys ar y ddaear; *tro*—i ymweled a'th ddywyddid drachefn a thrachefn, tra y byddo hi yn cael ei gadael yn y byd anial hwn: *bydd debyg, fy anwylyd, i iwrech neu lwdn hŷdd*—o ran cyflymdra dy ddyfodiad ataf; yn mynyddoedd Bether—yr un a Beth-horon, fel y meddyllir, lle yr oedd llawer o'r creaduriaid cyffm hyn. Ond wrth *wawriad y dydd* uchod y dealla rhai wawriad goruchwyliaeth yr efengyl, pryd y byddai i'w cysgodau yr hen oruchwyliaeth gilio. Yn ol yr ystyr hwn rhaid i ni edrych ar eglwys yr Hen Destament fel yn gweiddio am i Crist barhan yn ei ymweliadan â hi hyd oni wawriai y dydd hwnw, a chilio o'r cysgodau hyny.

PEN. III. Adn. 1. *Lliw nos yn fy ngwely*] Pan yr oedd ereill yn cysgu yn drwm; ym ceisiais yr hwn o hoffa fy enaid—sef cyndeithas rasol Crist fy anwylyd. Tybia rhai mai adrodd ei breuddwyd y mae y briodferch yma. *Ceisais ef*—y mae yr ailadroddiad hwn yn dangos ei hawydd mawr a'i pharhad

2 Codaf yn awr, ac âf o amgylch y ddiras, trwy yr heolydd a'r ystrydoedd, ceisiaf yr hwn a hoffa fy enaid: ceisiais ef, ac nis cefais."

3 Y gwylwyr, y rhai a aent o amgylch y ddinas, a'm cawsant: *gofynais*, A welsoch chwi yr hwn sydd hoff gan fy enaid?

4 Nid aethwn i neb pell oddiwrthynt, hyd oni chefais yr hwn swâc hoff gan fy enaid: deliais ef, ac nis gollyngais, hyd oni ddygais ef i dŷ

fy mam, ac i ystafell yr hon a'm hymddŷg.

5 Merehed Jerusalem, tynghedaf chwi trwy iyrchod ac evigod y maes, na chyffrôch ac na ddeffrôch fy nghariad, hyd oni fyno ei hun.

6 ¶ Pwy yw hon sydd yn dyfod i fyny o'r anialwch megys colofnau mwg, wedi ei pherarogli â myrr, ac â thus, ac â phob powdr yr apothecari?

7 Wele ei wely ef, *sef* yr eiddo

diffino wrth ei geisio; *ac nis cefais*—cans yr oedd ef wedi tynn ymaith yr amlygiadau o'i gariad oddiwrthi, naill ai am ei bod wedi camddeffnyddio ei flaf ef, neu ynte am ei bod wedi esgeulso rhyw ran o'i dyledswydd. Fe allai y dylem ni edrych ar hwn fel darluniad o gyflwr credinwyr unigol.

Adn. 2. *Codaf yn awr*] O'm wely; *ac âf o amgylch y ddinas*—*sef* dinas Duw, neu y cysegr; *trwy yr heolydd a'r ystrydoedd*—wrth y rhai y deallir yn gyffredin moddion gras ac odinbadau yr efengyl: *ceisiaf yr hwn a hoffa fy enaid*—yn y manau tebycaf i'w gael. *Ceisiais ef*—felly, yn heolydd ac ystrydoedd y ddinas; *ac nis cefais*—trwy ei fod ef fel yn ymgnddio rhagof.

Adn. 3. *Y gwylwyr, y rhai a aent o amgylch y ddinas*] *Sef* gweinidogion Crist, neu swyddogion yr eglwys; *a'm cawsant*—yn chwilio am dano ef felly yn moddion gras. *Gofynais*, *A welsoch chwi yr hwn sydd hoff gan fy enaid?*—nid yw hi yn ei enwi ef, am y tybiai nas gallai un o'r fath hawddgarwch a rhinwedd lai na bod yn adnabyddus iddynt. Ni chrybwyllir eu hatebiad hwy chwaith, naill ai am nad oedd y foddhaol ganddi hi, neu am na roisant atebiad iddi. Y mae hyd yn nod y gweinidogion goraf weithiau yn methu dyddanu eneidiau tralldus, fel ag y rhaid iddynt basio pawb i ymofyn am Grist ei hun.

Adn. 4. *Nid aethwn i neb pell oddiwrthynt*] Yn fy ymchwiliadau am dano ef, *hyd oni chefais yr hwn sydd hoff gan fy enaid*—trwy iddo ei ddatguddio ei hun i mi mewn atebiad i'm gweddiau hiraethlon. *Deliais ef, ac nis gollyngais*—o freichiau fy ffydd a'm cariad; *hyd oni ddygais ef i dŷ fy mam*—*sef* i'r eglwys; cans dywedir hyn ond odid am berson neu bersonau unigol; *ac i ystafell yr hon a'm hymddŷg*—lle y cefais fy aieni.

Adn. 5. *Merehed Jerusalem, tynghedaf chwi, &c.*] Gwel ar pen. ii. 7; *na chyffrôch ac na ddeffrôch fy nghariad*—tybia rhai mai geiriau y briodferch yw y rhai hyn, yn chwennych hir fwyhad tawel o Grist ar ol cael gafael ynddo; tra y tybia ereill mai geiriau Crist ei hun ydynt, yn gorchymyn i'w ddywedd gael llonydd i orplwys yn ei gymdeithas ef ar ol ei holl drafierth yn ymofyn am dano. Bob bore yn ystod y wledd briodas gynt, yr oedd y llancesau yn deffroy priodfâd a'i briodferch trwy chwareu yr offer cerdd, a dawnsio wrth ddrws eu hystafell; a meddylir mai cyf-

eiriad sydd yma at hyny, yn gwahardd i'r llancesau wneyd felly.

Adn. 6. *Pwy yw hon sydd yn dyfod i fyny o'r anialwch*] Y rhai hyn ydynt eiriau merch-ed Jerusalem, yn rhyfeddu wrth haddwch y ddywedd yn dyfod i fyny o'r anialwch; gan bwysu ar ei hanwyllyd, pen. viii. 5. Yr oedd y credinwyr i gael eu galw nid yn unig o wlad Canaan, yr hon oedd garrd yr Arglwydd, ond hefyd o'r byd Cenhedlig, yr hwn a ddarlunir yn yr ysgrhythrau fel anialwch. *Megys colofnau mwg*—neu yn nghanol y colofnau mwg, y rhai a ddyrchafent wrth lesgi peraroglu ar ddydd y briodas. Ond tybia rhai mai cyfeiriad sydd yma at arweiniad yr eglwys Iuddewig trwy yr anialwch, gyda'r golofn niwl a thân. *Wedi ei pherarogli â myrr, ac â thus, ac â phob powdr yr apothecari*—cyfeiria hyn ond odid at rinweddau a doniau ysbrydol yr eglwys; neu ynte at weddiau, a mawl, a gwasanaeth ysbrydol y saint, yn esgyn i fyny i'r nef yn gymeradwy gan Dduw.

Adn. 7. *Wele ei wely ef*] Meddylir mai y ddywedd sydd yn llefaru yma wrth ferched Jerusalem, gan alw arnynt i ryfeddu wrth ogoniant ei Phriod, yn hytrach na rhyfeddu wrth ei gogoniant hi; *sef yr eiddo Solomon*—neu wely y Brenin mawr a gysgodid gan Solomon, ac a oedd yn 'fwy na Solomon.' *Y mae tri ugain o gedyrn o'i amgylch*—rhif penodol yn cael ei enwi am rif amhenodol; *sef o gedyrn Israel*—*se* allai fod cynifer a hyny o wŷr cedyrn ac arfog o amgylch gwely Solomon i'w ddiogelu ef liw nos, at yr hyn y cyfeirir yma yn yr ystyr llythyrenol; ond mewn ystyr ysbrydol, cyfeirir yma at Grist, Brenin a Phriod ei eglwys. *Ei wely ef yw ei eglwys a'i bobl; ar cedyrn o amgylch ei wely yw gweinidogion y gair, a'r angylion santiaid, a Duw ei hun, a hyny er diogelwch nid i Grist ei hun, ond i'w eglwys ef.* Ond wrth y 'gwely' hwn y mae rhai yn deall *calonau* y credinwyr, yn y rhai y mae Crist yn trigo trwy ffydd, Eph. iii. 17. *Y preseb oedd gwely cyntaf Cist* ar ei ddyfodiad i'r byd hwn, ac wedi hyny bu yn aml heb le i roddi ei ben i lawr; a'i wely olaf yma oedd y *bedd oer*; eithr ei wely yn awr yw ei *eglwys*, neu *galon* y creadyn.

Adn. 8. *Hwytoll a ddaliant gledddyf*] Mewn ystyr llythyrenol, cyfeiria hyn at gedyrn Israel yn dal cleddyfau o amgylch gwely Solomon; *wedi eu dysgu i ryfel*—y maent oll

Solomon; *y mae tri ugain o gedyrn o'i amgylch, sef o gedyrn Israel.*

8 Hwyt oll a ddalient gleddyf, wedi eu dysgu i ryfel, pob un â'i gleddyf ar ei glân, rhag ofn liw nos.

9 Gwnaeth y brenin Solomon iddo gerbyd o goed Libanus.

10 Ei byst ef a wnaeth efe o arian, ei lawr o aur, ei leni o borffor: ei ganol a balmantwyd â chariad i ferched Jerusalem.

11 Ewch allan, merched Seion, ac

edrychwch ar y brenin Solomon yn y goron â'r hon y coronodd ei fam ef yn ei ddydd dyweddi ef, ac yn nydd llawenydd ei galon ef.

PENNOD IV.

WELE di yn dæg, fy anwylyd, wele di yn dæg; dy lygaid ydynt golomenaidd rhwng dy lywethau; dy wallt sydd fel deadell o eifr, y rhai a ymddanghosant o fynydd Gilead.

yn gyfarwydd â thriu arfau; *pob un â'i gleddyf ar ei glân*—yn barod i'w dynu o'r wain pan fyddo achos am hyn; *rhag ofn liw nos*—rhag i elynion y brenin rithro arno pan fyddo efe yn cysgo. Ond mewn ystyr ysbyrdol, cyfeirir at y rhai hynny a ddefnyddir gan Dduw i amddiffyn ei eglwys, pa un bynag fyddont ai gweinidogion y gair, tywysogion gwladol, angylion, neu rywbeth arall. Y mae llawer nos dywell o drallodion a pheryglon wedi bod ar eglwys Dduw o ddechre y byd, a llawer o elynion wedi bod yn ceisio ei haflonyddu a'i dyfetha hi; ond darfu i'r Arglwydd ei hamddiffyn hi yn rhyfedd hyd yma, hyd yn nod yn ei hamserau tywyllaf a'i pheryglon mwyaf, a hynny trwy weinidogaeth ei ragluniaeth, neu trwy weinidogion ei air gyda chleddyf yr Ysbyrd yn eu dwylaw.

Adn. 9. *Gwnaeth y brenin Solomon iddo gerbyd o goed Libanus*] Sef o gedrwydd cedryn a pharhaol, i gludo ei briod frenhinol ynddo mewn rhwysg. Gall hyn fod yn llythyr-enol wir am Solomon: ond pa beth a feddyllir wrth y cerbyd hwn yn ei berthynas â Christ? Tybia rhai mai y cyfammod gras a olygir wrtho; ereill, mai natur ddynol ein Ceidwad; ac ereill, mai yr efengyl a'i gweinidogaeth, yn yr hon y mae Crist yn marchog yn fuddugol-iaethus trwy y byd, gan orchyfygu ei elynion, a darostwng teyrnasoedd y ddaear i ufydd-dod iddo. Y mae y *cedrwydd*, fel coed anlygrad-wy, yn arwydd priodol o'r efengyl, yr hon sydd yn 'aros yn dragwydd,' 1 Pedr i. 25.

Adn. 10. *Ei byst ef a wnaeth efe o arian*] Sef yst y cerbyd, y rhai oeddynt yn dal ei leni ef; *ei lawr o aur*—neu fatiau a rhestogau wedi eu gweithio âg aur; *ei leni o borffor*—yr hwn oedd liw prydferth a drud iawn; *ei ganol a balmantwyd â chariad*—â rhyw gyddulluniau neu eiriau cariadlaw; *i ferched Jerusalem*—er cysur a hyfrydwch i law-forwynion y briodferch: neu 'gan ferched Jerusalem,' fel y mae rhai yn ei ddeall; hynny yw, yr oedd rhanau mewnol y cerbyd wedi eu brwydweithio yn hardd a chywrair gan ferched Jerusalem, a'u rhoddi yn anrheg i Solomon a'i briod. Nid yw yn angenrheidiol i ni gymhwyso yr holl betbau uchod at betbau yn yr efengyl; digon yw dywedyd eu bod yn arwyddo fod efengyl Crist yn mhob ystyr yn berffiaith a haddgar, fel y mae y darluniau uchod yn dangos perffechrwydd a phrydferthwch cerbyd Solomon. Modd bynag, tybia rhai

fod y *pyst arian* yn golygu addewidion cynaliol Duw yn ei air; y *llawr aur*, cyfammod Duw, neu gyfyngdod Crist, yn mha un y mae yr holl addewidion yn ië, ac yn amen: y *leni borffor*, y bendithion ag sydd yn dyfod i'r eglwys trwy waed Crist; y *canol* wedi ei *balmantu â chariad*, yn arwyddo mai mewn cariad y mae Duw yn Nghrist i'w gwneyd pob peth er lles ac iachawdriaeth dnynon.

Adn. 11. *Ewch allan, merched Seion*] Meddyllir mai yr un yw y rhai hyn a 'merched Jerusalem,' neu law-forwynion y briodferch, y rhai a gyferchir ganddi hi yn y geiriau hyn; *ac edrychwch ar y brenin Solomon yn y goron â'r hon y coronodd ei fam ef yn ei ddydd dyweddi ef*—âg un o'i wragedd, sef merch Pharao, neu Naamah yr Ammonees, 1 Bren. iii. 1, a xiv. 21; *ac yn nydd llawenydd ei galon ef*—sef dydd ei briodas, yr hwn oedd yn ddydd o lawenydd mawr i'w galon ef yn ddiamau. Yr oedd yn arferiad yn mhllith y dwyreiniwr, fel yn mhllith y Groegiaid i'r Rhufeiniaid, i'r priodfab gael ei goroni â choron o sfodau ar ddydd ei briodas, at yr hyn y cyfeirir yma yn llythyr-enol; ac ymddengys mai Bathseba ei fam ef a roddes y goron briodasol hon ar ben Solomon. Ond mewn ystyr ysbyrdol, cyfeirir yma at yr anrhydedd a roddir i Grist gan yr eglwys, pan y mae eneidiau o'r newydd yn cael eu dwyn i gyfammod âg efar y ddaear, neu yn cael eu derbyn ato i'r nef. Y mae yr eglwys gyffredinol yn cael ei galw yma yn *fam* i Grist, am ei fod ef o ran ei ddynoliaeth wedi ei eni ynddi, ac yn aelod o honi, yn gystal ag yn Briod iddi.

PEN. IV. Adn. 1. *Wele di yn dæg, fy anwylyd*] Gwel ar pen. i. 15; *wele di yn dæg*—wedi dy wisgo â chyflawnder, a'th addarno â grasusau a doniau yr Ysbyrd Glân. Y rhai hyn ydynt eiriau y Priodfab nefol, yn canmol tegwch a phrydferthwch moesol ei ddyweddi, neu yr eglwys. *Dy lygaid ydynt golomenaidd*—ydynt serchog, dysglaer, a gŵylaid, fel llygaid colomenod Syria, pen. i. 15; *rhwyng dy lywethau*—sef rhwyng cndynau neu fodrwyau ei gwallt, y rhai a grogent ar hyd ei gwyneb: ond tybia rhai mai at fath o orchudd y cyfeirir yma. *Dy wallt sydd fel deadell o eifr*—fel blew deadell o eifr, y rhai yn y partnau hynny oeddynt droellog, birion, meinion, a thynner iawn; y rhai a ymddanghosant o fynydd Gilead—neu ar fynyddoedd Gilead, o du y

2 Dy ddannedd *sydd* fel deadell o *ddefaid gwastad-gnaif*, y rhai a ddaethant i fyny o'r olchfa; y rhai *oeddynt* bob un yn dwyn dau oen, ac nid *oedd* un ynddynt yn ddiépil.

3 Dy wefusau *sydd* fel edau ysgarlad, a'th barabl yn weddus: dy arleisiau rhwng dy lywethau *sydd* fel darn o bomgranad.

4 Dy wddf *sydd* fel tŵr Dafydd, yr hwn a adeiladwyd yn dŷ arfau;

dwyrain i'r Iorddonen. Dywed *Bochart* fod blew geifr y parthau hyny mor dynar a'r sidan meinaf, ac yn debyg iawn i wallt dolenog neu fodrwyog benyw brydferth. Neu, 'dy wallt *sydd dew*, neu *aml*, fel deadell o eifr ar fynydd Gilead,' fel y mae rhai yn ei ddeall, gan ei gyfeirio at amled y dycheledigion yn yr eglwys. Y mae y darluniad a roddir o'r eglwys yn yr adnodau hyn, wedi ei gymeryd oddiwrth brydferthwch gwahanol ranau y corff dynol.

Adn. 2. *Dy ddannedd sydd fel deadell o ddefaid gwastad-gnaif* Neu ddefaid wedi eu cneifio yn llyfa a gwastad; *y rhai a ddaethant i fyny o'r olchfa*—y meddwl yw, eu bod yn lân, gwastad, a gwyn; *y rhai oeddynt bob un yn dwyn dau oen*—ymddengys fod hyn yn cyfeirio at y ddwy res o ddannedd; *ac nid oedd un ynddynt yn ddiépil*—nid oedd un o'r ddannedd wedi ei gollu, neu yn eisiau. Wrth y *dannedd* yn yr adnod hon y dealla y *Targum* yr offeiriad a'r *Lefiaid*: a gallwn ninâu eu deall fel yn arwyddo gwainidogion yr efengyl, y rhai sydd yn enoi neu yn ddarparu ymborth ysbrydol i'r eglwys, a'r rhai a ddylent fod yn *lân* a santeidd eu hunain, ac yn foddion i *en-nill* eneidiau at Grist.

Adn. 3. *Dy wefusau sydd fel edau ysgarlad* Yn deneuon, a choeb eu lliw; *a'th barabl yn weddus*—o ran preidd-dra dy lais, a sylwedd dy ymadroddion: *dy arleisiau rhwng dy lywethau*—cynwysa y rhai hyn ei gruddiau rhwng ei cludynau, yn gystal a'i harleisiau neu ei thalcen; *sydd fel darn o bomgranad*—yn yr hwn y mae cyruysgeidd prydfferth o goch a gwyn. Da y gall y rhan flaenaf o'r dysgrifiad hwn osod allan weinidogion yr efengyl, a'u hathrawiaethau iachus a gweddus, pan yn llefaru am Grist a'i aberth, a'r iachawdriaeth ag sydd trwy ei waed ef; a gall y rhan ddiweddf fod yn gosod allan brydferthwch ysbrydol y saint, yr hwn a ymddengys yn eu gwynnebpryd trwy ddyllanwad yr Ysbryd Glân ar eu calonau.

Adn. 4. *Dy wddf sydd fel tŵr Dafydd* Yn syth ac uchel, yn brydferth a chadarn; *yr hwn a adeiladwyd yn dŷ arfau*—pryd yr oedd Dafydd yn adgyweirio ac yn helaethu y ddinas trefhinol. *Tarianau fil sydd yn crogi ynddo*—sef yn nliwr Dafydd, yn barod i'w defnyddio mewn rhyfel; *i gyd yn estylech y cedyrn*—yn rhai a fusent i gyd yn estylich neu yn darianau i'r cedyrn yn amser Dafydd, ac a oeddynt yno o hyd yn barod i'w defnyddio felly pan fyddai achos am danynt. Tybia rhai mai gwainidogion yr efengyl a osodir allan

tarianau fil sydd yn crogi ynddo i gyd yn estylech y cedyrn.

5 Dy ddwy fron *sydd* fel dau lwdn iwrech o efeilliaid yn pori yn mysg lili.

6 Hyd oni wawrio y dydd, a chilio o'r cysgodau, âf i fynydd y myrr, ac i fryn y thus.

7 Ti oll *ydwynt* dŷg, fy anwylyd; ac nid *oes* ynot frycheuyn.

8 ¶ Tyred gyda mi o Libanus,

yma trwy y *gwddf*, y rhai sydd yn nesaf i Grist y Pen mawr, ac yn paratoi i'r crediwywyr arfau eu milwriaeth ysbrydol. Ond gan mai y *gwddf* sydd yn cysylltu y corff â'r pen, fe allai ei fod yma yn arwyddo *ffydd* yr eglwys, yr hon sydd yn ei huno li â'i Phen, ac yn *darian* i'w hamddiffyn rhag eu gelynyon ysbrydol, ac i 'ddiffoddi holl bicellau tanlyd y fall:' gwel ar Eph. vi. 13—16.

Adn. 5. *Dy ddwy fron sydd fel dau lwdn iwrech o efeilliaid* O'r un llun a maintoli a'u gilydd yn hollol; *yn pori yn mysg lili*—lle yr oedd blodau peraid a phorfa dda i'r iyrech hyny. Tybia *Clarke* mai at ei *dienuau* y cyfeirir, y rhai oeddynt yn gorwedd ar ei mynawes *wen* fel y lili. Y mae rhai yn deall y rhai hyn am y *ddau Destament*, y rhai ydynt yn fronau dyddanwch a magwraeth i'r eglwys; ac ereill, am wir *weinidogion yr efengyl*, y rhai sydd yn fronau laethog i'r eglwys, ar ol bod yn pori eu hunain yn mysg y lili. Pa un bynag o'r ddau olygiad hyn a dderbynir, y mae pob un o honynt yn *efeilliaid* o ran eu tebygolrwydd i'w gilydd, ac o ran eu cyswdeb â'u gilydd yn eu hathrawiaethau dwyfol.

Adn. 6. *Hyd oni wawrio y dydd, a chilio o'r cysgodau* Dywedasai y briodferch y geiriau hyn yn ei chais gan ei Hanwylyd, pen. ii. 17; ac yma y mae yntau yn eu defnyddio yn ei atebiad i'r cais hwnw. *Âf i fynydd y myrr, ac i fryn y thus*—sef i fynydd a bryn *Moriau*, lle yr oedd y deml, a lle y defnyddid myrr a thus yn ngwasanaethu y cysegr. I'r lle hwnw yr âf Crist, ac yno y rhoddai efo ei bresenoldeb i'w eglwys, hyd oni wawriai dydd yr efengyl, a chilio o gysgodau y seremonïau; ac yn yr eglwys Gristionogol, lle y mae grასusau yr Ysbryd Glân yn arogl yn beraid a hyfryd fel myrr a thus, y mae efo eto yn aros, hyd oni wawrio y dydd o goniant tragwyddol, a chilio o holl gysgodau anwybodaeth, cystudd, a phechod. Fel hyn y mae Crist yn dangos i'r credinwyr y fan lle y gallant ei gael ef, sef yn ei eglwys a'i hordinhadau.

Adn. 7. *Ti oll ydwynt dŷg, fy anwylyd* Felly y mae yr eglwys, ar ol iddi gael ei golchi yn ngwaed yr Oen, trwy santeiddiad yr Ysbryd Glân; *ac nid oes ynot frycheuyn*—ond trwy fod llawer o frychau ac anubertfethderau yn y goraf o'r saint ar y ddaear, rhaid fod hyn yn cael ei ddywydd am danynt mewn cyfeiriad at yr hyn a fyddant bwy ar ol hyn, 'yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychnei, na dim o'r cyfryw:' gwel ar Eph. v. 27. Ond os

fy nyweddi, gyda mi o Libanus; edrych o ben Amana, o gopa Senir a Hermon, o lochesau y llewod, o fynyddoedd y llewpardiaid.

9 Dygaist fy nghalon, fy chwaer, a'm dyweddi; dygaist fy nghalon ág un o'th lygaid, ág un gadwyn wrth dy wddf.

10 Mor dæg yw dy gariad, fy chwaer, a'm dyweddi! pa faint

gwell yw dy gariad na gwin, ac arogl dy olew na'r holl beraroglaui!

11 Dy wefusau, fy nyweddi, sydd yn dyferu fel dil mêl: y mae mêl a llaeth dan dy dafod, ac arogl dy wisgoedd fel arogl Libanus.

12 Gardd gauedig yw fy chwaer, a'm dyweddi: ffynnon glöedig, ffynnon seliedig yw.

13 Dy blanhigion sydd berllan o

deallwn y rhai hyn fel geiriau yr eglwys am ei Phriod nefol, y maent yn wirionedd llythyr-nol.

Adn. 8. *Dyred gyda mi o Libanus*] I fynydd y myrr a'r thus, adn. 6; *fy nyweddi*—dyma y tro cyntaf i Grist roddi iddi yr enw hwn, yr llyn a wna efe yma i'w chefnogi i fyned gydag ef. *Gyda mi o Libanus*—hwn ydoedd fynydd uchel yn gorwedd rhwng Phenice a Syria. *Edrych o ben Amana*—sef rhan o Libanus, fel y tybir; *o gopa Senir a Hermon*—nid yw y rhai hyn ond dau enw ar yr un mynydd, Deut. iii. 9, neu enwau ar wahanol barthau o fynydd Hermon, yr hwn oedd o'r tuhwnt i'r Iorddonen, ac o du y gogledd i fynyddoedd Gilead. *O lochesau y llewod, o fynyddoedd y llewpardiaid*—ymddengys fod llawer o lewod a llewpardiaid rheibus yn llochesu yn y mynyddoedd hyn, ac yn ysgleifio pa beth bynag a allent. *Tybia Coke* ac ereill fod *Libanus* yma yn arwyddo *Jerusalem*, yr hon oedd wedi ei haddurno â choed Libanus, ac a ddaethai yn awr yn ogof lladron a llofruddion, o'r hon y geilw Crist ar ei bobl i ymadael. Gall fod y mynyddoedd ereill i anwir yma yn arwyddo y *byd* drwg presenol, yn llawn o ddynion ffyrnig a chrenlon fel llewod, ac wedi eu britho fel crwyn llewpardiaid â phob math o bechodau, y rhai a gnyllwyent ac a sychedent am waed yr eglwys. Felly gelwir ar yr eglwys yma i ymneilldu oddiwrth y byd, ac arcs dan gysgod ac amddiffyniad ei Phriod nefol.

Adn. 9. *Dygaist fy nghalon*] Yn gwbl ar dy ol; *fy chwaer a'm dyweddi*—felly y geilw Crist ei eglwys, i ddangos mawredd ei serch tuag ati, yr hwn nis gallai ei amlygu yn ddi-gonol trwy un o'r enwau hyn. Neu gellir dywedyd fod yr eglwys yn *chwaer* i Grist, am ei bod o'r un natur dilynol ag yntau; ac yn *ddyweddi* iddo, trwy ei gyffammod priodasol â hi. *Dygaist fy nghalon ág un o'th lygaid*—neu ág un edrychiad o'r eiddod. Ond crybwyll *Tertullian* am arferiad yn y dwyrain, lle y mae y boneddigesau yn tyu y gorcludd oddiar un llygad yn unig wrth ymddyddan, gan gadw y llall yn orcluddiedig; a sonia *Niebuhr* am yr un arferiad mewn rhai parthau o Arabia; ac fe allai mai at hyny y cyfeirir yma. *Ag un gadwyn wrth dy wddf*—sef ág un o'r cadwyni aur a gemawg a amgylchynent ei gwddf, neu ág un o'gudynan troellog ei gwallt, y rhai a grogent ar ei hysgwyddau. Y meddwl yw, fod Crist yn ymseachu yn fawr hyd yn nod mewn un edrychiad i'fddygiog o

eiddo ei eglwys arno, ac mewn un o'i rhin, weddau grasil a phrydfert hi.

Adn. 10. *Mor dæg yw dy gariad*] Tuag ataf fi, fy chwaer a'm dyweddi—gwel ar adn. 9. *Pa faint gwell yw dy gariad na gwin*—dywedasai yr eglwys hyn am gariad Crist, pen. i. 2, 4; ac yma y mae yntau yn dywedyd yr un peth am gariad yr eglwys. *Ac arogl dy olew*—sef doniau a grasusau yr Ysbryd Glân, â'r rhai yr eneinuiwyd hi; *na'r holl beraroglaui*—a geir ar y ddaear.

Adn. 11. *Dy wefusau, fy nyweddi, sydd yn dyferu fel dil mêl*] Y mae dy eiriau wrthyf fi mewn gweddiau a mawl, a'th gynghorion i ereill er eu llesid a'u hadeiladaeth ysbrydol, yn felys a chymeradwy iawn genyf fi. *Y mae mêl a llaeth dan dy dafod*—y mae y madroddion dy enau mor ddymunol genyf fi a phe byddent oll yn fêl a llacth. Yr oedd hyawldedd ac ymadroddion deniadol yn cael eu cymharu yn fynych gan yr henafiaid i fêl a llaeth: gwel *Homer*, *Iliad*. llyfr i. llin. 247. *Ac arogl dy wisgoedd fel arogl Libanus*—y mae dy gyfiawnder a'th santeiddrwydd yn arogl yn beraidd i mi, fel y blodau a'r llyisiau pereiddiaf ar y ddaear. Yr oedd llawer o berlyisiau dymunol yn tyfu yn nyffyrnoedd Libanus, at y rhai y cyfeirir yma. Ond wrth y *wisgoedd* hyn y dealla y *Targum* wisgoedd yr offeiriaid.

Adn. 12. *Gardd gauedig yw fy chwaer a'm dyweddi*] Gelwir yr eglwys yn *ardd*, ar gyfrif ei phrydfertwch; ac yn *ardd gauedig*, am ei bod wedi ei neilldu oddiwrth bawb ereill i fod yn eiddo i'r Priodfa ei hun. *Ffynnon glöedig*—at wasanaeth ei Pherchenog nefol yn unig; *ffynnon seliedig yw*—gall fod yma gyfeiriad at ffynnonau neu bydewau seliedig pen-defigiau at eu gwasanaeth eu hunain, megys eiddo brehnihoedd Persia, o'r rhai ni chaf neb yfed oddieithr y brenin a'i fab hynaf. Neu gall fod yma gyfeiriad at ystafelloedd y benywod yn nhai yr Atheniaid, y rhai nid yn unig a *glöid*, ond a *selid* hefyd. Anialych mawr agored yw y *byd*; ond *gardd gauedig* yn y byd yw yr *eglwys*, wedi ei chau i mewn gan Dduw yn ei ras, ac yn llawn planhigion ysbrydol gwertisfawr o'i blaniad ef ei hun, y rhai a wrteithir yn dda ganddo, ac a wneir yn flodeuog a ffirwythlon mewn santeiddrwydd a gweithredoedd da. Y mae gan yr eglwys hefyd *ffynnon* o'i mewn, yr hon a'i dyfrha hi oll, sef dylanwadau ireiddlon a maethlon yr Ysbryd Glân, Ioan vii. 38, 39. Ond ffynnon *glöedig* a *seliedig* yw hon i'r eglwys yn unig.

bomgranadau, a ffrwyth peraidd, camphir, a nardus;

14 *Ie*, nardus a saffron, calamus a synamon, â phob pren thus, myrr, ac aloes, yn nghyda phob rhagorol perlysiau.

15 Ffynnon y gerddi, ffynnon y dyfroedd byw, a ffrydiau o Libanus.

16 ¶ Deffro di, ogleddwynt, a thyred ddeheuwynt, chwyth ar fy ngardd, fel y gwasgarer ei pher-

fel y mae hithau i'w Phriod, yr hon nid yw y byd annuwiol yn profi dim o'i dyfroedd bywiol a rhinweddol.

Adn. 13. *Dy blanhigion sydd berllan o bomgranadau* Math ar *afalau grawnïadd* tra pheraidd a melys; a *ffrwyth peraidd*—hyn yw, y mae y credinwyr, y rhai a blawyd ynot ti, yn debyg i berllan o bomgranadau, neu ffrythlau peraidd a lluosog, y rhai sydd yn ddymunol iawn i'r arogl a'r golwg, ac yn felys i'r genau. Danghosir yma awrywiaeth, lluosogrydd, a rhagoroldeb y doniau a'r rhinweddau a berthynant i wahanol aelodau y wir eglwys. *Camphir a nardus*—y rhai, wedi y dyger hwynt at eu gilydd, neu y cydgymsger hwynt, sydd yn arogl yn bereiddiach.

Adn. 14. *Ie, nardus a saffron, &c.* Wrth y rhai hyn, mewn ystyr ysbrydol, y deallir gwahanol rasusau yr eglwys. Y mae rhai o honant yn hysryd i'r *golwg*, ereill yn beraidd i'r *blas*, a'r lleill yn ddymunol i'r *arogl*; ac y mae rhai o honant yn meddu rhinwedd *glanhaol*. Y mae y cwbl yn nghyd yn gosod allan hawddgarwch, gwerthfawredd, a chysur y rhinweddau Cristionogol.

Adn. 15. *Ffynnon y gerddi* Yn mha uu y mae digonedd o ddyfroedd gristalaidd at wasanaeth yr holl erddi. Tybia rhai mai yr eglwys sydd yn dywedyd hyn am Crist, o'r hwn y dylifa pob dawn ysbrydol i'r holl gredinwyr; ood y mae yn debycach mai geiriau Crist ydynt am ei eglwys, o'r hon y dylifa pob bendith ysbrydol i'r byd. *Ffynnon y dyfroedd byw*—fel pe dywedasai, Er fod fy nyweddï fel ffynnon glöedig a seliedig, adn. 12, eto nid yw hi yn cadw ei dyfroedd iddi ei hun, eithr y mae fel ffynnon o ddwfr *rhedegog* yn dyfrhau y gerddi, gan beri i'w blodau a'u planhigion gynyddu. Y mae yr eglwys yn trosglwyddo i'r holl gredinwyr ddwfr y bywyd, yr hwn a dderbynia hi gan Crist. *A ffrydiau o Libanus*—y mae fel yr afonydd adfywiol hyny a ddylyfant o fynydd Libanus, o'r rhai y mae yr Iorddonen yn un.

Adn. 16. *Deffro di, ogleddwynt* Y rhai hyn ydynt cirian yr eglwys, yn gweddïo am awelon neu ddyllanwadau yr Ysbryd Glân; a *dyred ddeheuwynt*—ond gan fod y ddeheuwynt yn Palestina yn dra phoeth ac annyoddefol, tybia *Harmer* mai yr ystyr yw, 'Tyred di ogleddwynt, ac *encilia* di ddeheuwynt,' fel y byddo i fy anwylyd gael ei ddenau i'w ardd gan yr awelon oeraidd ac iachusol. Neu gall mai yr ystyr yw, Chwythed yr awelon o bob parth

aroglu: deued fy anwylyd i'w ardd, a bwytaed ei ffrwyth peraidd ei hun.

PENNOD V.

DAETHYM i'm gardd, fy chwaer, a'm dyweddï: cesglais fy myrr gyda'm perarogl, bwyteais fy nil gyda'm mêl, yfais fy ngwin gyda'm llaeth: bwyteuch, gyfeillion, yfwch, ie, yfwch yn helaeth, fy rhai anwyl.

ar unwaith, fel y gwasgarer peraroglu rhinweddol yr eglwys dros bedwar ban byd. *Chwyth ar fy ngardd*—y mae yr eglwys yma yn galw yr ardd yn eiddo iddi ei hun, yn gystal ag yn eiddo i'w hanwylyd yn niwedd yr adnod, o herwydd yr *undeb* ag sydd rhyngddynt, pen. ii. 16. *Fel y gwasgarer ei pheraroglu*—yn inblith pob llwyth, iaith, a phobl. *Deued fy anwylyd i'w ardd*—amlyged ei hun yn ei eglwys trwy ei bresnoddeb grasol, a thrwy weithrediadau achubol ei Ysbryd; a *bwytaed ei ffrwyth peraidd ei hun*—boed iddo gydweleda a'i saint, ac ymhysrydu yn ngwaith ei ras ar eu calonau hwynt; neu boed iddo dderbyn eu mawla'u haddoliad hwy, a chymeradwyo eu hufydd-dod parod.

PEN. V. Adn. 1. *Daethym i'm gardd* Hwn yw atebiad y Priodfawr i weddi ei eglwys yn yr adnod ddiweddaf; *fy chwaer a'm dyweddï*—gwel ar pen. iv. 9. Gwelun yma mor barod yw Dau i wrando gweddï, ac mor barod yw Crist i dderbyn gwahoddiadau ei bobl, er ein bod ni yn hysrydyd i wrando ar ei alwadau ef, ac i dderbyn ei wahoddiadan! *Cesglais fy myrr gyda'm perarogl*—y rhai hyn a osodant allan rinweddau peraidd a hysryd yr eglwys, wedi eu cynrychlu trwy ras ei Phriod nefol, ac am hyny a elwir yn eiddo iddo ei hun. *Bwyteais fy nil gyda'm mêl*—cyfeiria y rhai hyn ond odid at athrawiaethau melysion efengyl Crist, y rhai sydd mor hysryd a dymunol yn ngolwg Crist ag yw y dil mêl i'r bwytaur. *Yfais fy ngwin gyda'm llaeth*—cyfeiria y rhai hyn ond odid at ymborth ysbrydol yr eglwys, yr hwn a barotodd Crist ei hun, ac a gydfwynheir ganddo ef a'i ddyweddï, Dat. iii. 20. Y mae yn ngwleddoedd Seion nid yn unig *win* i'r tadau, ond *llaeth* hefyd i'r plant. *Bwyteuch, gyfeillion*—o ddanteithion breision yr iachlawdriaeth; *yfwch, ie, yfwch yn helaeth*—o win fy nghariad, o'r hwn y mae cyflawnder wedi ei barotai ar gyfer pob enaid sychedig. *Fy rhai anwyl*—felly y geitw efe bob gwir aelod o'i eglwys, am eu bod yn anwyl iawn yn ei olwg ef fel ei gyfeillion. Ond dylid cofio mai y rhai hyn yn unig yw ei *gyfeillion* ef, y rhai a 'wnant pa bethau byuag y mae ef yn eu gorchymyn iddynt,' Ioan xv. 14. Nid oes i'w *dynion*, 'y rhai ni fyant iddo ef deyrnasu arnynt,' na rhan na chyfran yn ngwleddoedd ysbrydol Seion.

Adn. 2. *Myfi sydd yn cysgu* Hwn yw iaith

2 ¶ Myfi sydd yn cysgu, a'm calon yn effro: llais fy anwylyd yw yn curo, *gan ddywedyd*, Fy chwaer, fy anwylyd, fy ngholomen, fy nihalog, agor i mi: canys llanwyd fy mhen â gwllith, a'm gwallt â defnyneau y nos.

3 Dyosgais fy mhais; pa fodd y gwisgaf hi? golchais fy nhraed; pa fodd y diwynaf hwynt?

4 Fy anwylyd a estynnodd ei law

trwy y twll; a'm hymysgaroedd a gyffrôdd er ei fwyn.

5 Mi a gyfodais i agori i'm hanwylyd; a'm dwylaw a ddyferasant gan fyrr, a'm bysedd gan fyrr yn dyferu ar hyd hespenau y clo.

6 Agorais i'm hanwylyd; ond fy anwylyd a giliasai, ac a aethai ymaith: fy enaid a lewygodd pan lefarodd: ceisiais, ac nis cefais; gelwais ef, ond ni'm hatebodd.

yr eglwys, neu bersonau nnigol ynddi, yn cyferio at ei chyflwr o glanarineb neu gysgadwydd ysbrydol, yr hwn a'i daliasai ryw dro ar ol y wledd â ddarlunwyd nchod; *a'm calon yn effro*—er ei bod mewn agwedd farwaidd, nid oedd yn gwbl ddeideimlad, neu wedi syrthio i hollol wrthgiliad. Ond tybia *Clarke* ac ereill, mai adrodd ei *breuddwyd* y mae y briodferch yma, ac hyd ddiwedd adn. 7. *Llais fy anwylyd sydd yn curo*—fe allai fod hyn yn cyferio at ei *lais* yn ngweinigdoeth yr efengyl, a'i waith yn *curo* trwy ymyrsoniadau ei Ysbryd yn y gydwylbod. *Gan ddywedyd*, *Fy chwaer, fy anwylyd, fy ngholomen, fy nihalog*—y mae y cyfarchiad cariadlawn hwn, neu y rhifes o enwau a roddir gan Grist i'w eglwys, yn dangos ei serchogrwydd mawr ef at ei bobl hyd yn nod yn eu cyflwr o glanarineb, yr hyn a ddylai eu bysgwyd hwy oddiwrth eu marweidd-dra ysbrydol, ac ail enw filam eu cariad. *Agor i mi*—dy Briod a'th Brynwr: *canys llanwyd fy mhen â gwllith*—wrth aros cyhyd ta allan i'r drws; *a'm gwallt â defnyneau y nos*—yn ystod dy nos ddu o gwsg a marweidd-dra ysbrydol. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at ddyoddeifiadau y Cyfryngwr, yn enwedig at ei chwys gwaeddyd ef yn ngardd Getisemane; neu at ddyoddeifiadau ac anghysur ei weinidogion wrth geisio dibuno yr eglwys o'i syrthini a'i marweidd-dra ysbrydol.

Adn. 3. *Dyosgais fy mhais*] Hyn yw atebiad y briodferch oddifewn, yn cyferio at ei dillad a wisgai hi yn y dydd; *pa fodd y gwisgaf hi?*—y mae hynny yn anghyfleus ac anhawdd yn nhywyllwch y nos. *Golchais fy nhraed*—yr hyn yr arferai y dwyreiniwyr ei wneyd wrth fyned i'w gwelyau, trwy nad oeddynt yn gwisgo dim am eu traed ond sandalau, neu waddau wedi'u rhwymo â chareiau am y migwrn a chefn y troed; *a pha fodd y diwynaf hwynt*—eithwaith, wrth gerdded ar y llawr pridd at y drws i'w agord? Nid oedd yr esgusodion hyn ond gwael ac annheilwng iawn gan wraig wrth ei phriod, yr hwn a'i cyfarchasai hi mor anwylaid yn yr adnod flaenorol: eithr ni a gawn esgusodion llawn mor wael ac annheilwng gan lawer o broffeswyr cysgwyd, pau y gelwir arnynt i gyflawni eu dyledsdyddau crefyddol, neu pau yr holir hwynt am eu hesgusodion. 'Rhaid fod y briodferch hon mewn *breuddwyd*, neu mewn mawr *ddyryswech meddwl*, pan y gwai y fath esgusodion gwâg ag a grybwyllir yma.—CLARKE.

Adn. 4. *Fy anwylyd a estynnodd ei law trwy y twll*] I geisio dadfolltio y clo, yr hyn modd bynag ni wnaeth; neu i roddi ireidd-dra nefol ar hespenau y clo, fel ag i rwyddhau ei egoriad ganddi hi: *a'm hymysgaroedd a gyffrôdd er ei fwyn*—wrth ystyried ei awydd am ddyfod i mewn. Meddylir fod yr hyn a ddywedir yn nechre yr adnod trwy y twll, adn. 4; *a'm bysedd gan fyrr yn dyferu ar hyd hespenau y clo*—yr hwn a roddasai efe yno, fel y tybir, wrth geisio ei agor. Fel hyn, er na ddaeth eife i mewn y pryd hynny, efe a dawodd eneidniad peraroglaidd a hyfydd yno ar ei ol. Ond fe allai, wedi y cwbl, mai hi ei hun oedd wedi ymroi â myrr, a hyny i'r fath raddau nes yr oedd yn dyferu oddiwrth ei dwylaw ar hyd hespenau y clo wrth iddi agor y drws; canys dywed *Brissomius*, *Isidore*, ac ereill, yr arferai y briodferch yn mysg y Rhufeiniaid iro pyst y drws âg olew neu enaint peraroglaidd wrth gael ei harwain i mewn i dŷ y priodfab; a gallai yr arferiad fod yn ffynnu yn mllith yr Iuddewon, i wneyd yr ystafell yn fwy hyfyddol.

Adn. 5. *Mi a godais i agori i'm hanwylyd*] Ond yn rhy ddiweddar, fel y gwelwn eto; *a'm dwylaw a ddyferasant gan fyrr*—yr hwn, fel y tybir yn gyffredin, a ddyferasai oddiwrth ei law ef wrth iddo ei hestyn trwy y twll, adn. 4; *a'm bysedd gan fyrr yn dyferu ar hyd hespenau y clo*—yr hwn a roddasai efe yno, fel y tybir, wrth geisio ei agor. Fel hyn, er na ddaeth eife i mewn y pryd hynny, efe a dawodd eneidniad peraroglaidd a hyfydd yno ar ei ol. Ond fe allai, wedi y cwbl, mai hi ei hun oedd wedi ymroi â myrr, a hyny i'r fath raddau nes yr oedd yn dyferu oddiwrth ei dwylaw ar hyd hespenau y clo wrth iddi agor y drws; canys dywed *Brissomius*, *Isidore*, ac ereill, yr arferai y briodferch yn mysg y Rhufeiniaid iro pyst y drws âg olew neu enaint peraroglaidd wrth gael ei harwain i mewn i dŷ y priodfab; a gallai yr arferiad fod yn ffynnu yn mllith yr Iuddewon, i wneyd yr ystafell yn fwy hyfyddol.

Adn. 6. *Agorais i'm hanwylyd*] Gan feddwl ei fod ef yn aros wrth y drws o hyd: *ond fy anwylyd a giliasai, ac a aethai ymaith*—yr hyn oedd yn gospi gyflawn arnaf fi am fy esgeulusdra a'm difaterwch blaenorol. *Fy enaid a lewygodd pan lefarodd*—neu 'wrth ei leferydd'; hyny yw, pan *gofiodd* hi am ei leferydd cariadlawn ef, y rhai a zroddir yn adn. 2. *Ceisais*—ef yn mhob man oddeutu y tŷ a'r ardd; *ac nis cefais*—er mor fanwl y ceis-iwn: *gelwais ef*—â llais uchel, gan obeithio nad oedd efe yn mhell; *ond ni'm hatebodd*—yr hyn oedd yn brawf ei fod ef nid yn unig wedi cilio, ond wedi myned ymaith hefyd, fel y dywedir uchod. Meddylir fod hyn yn cyferio at weddiâu taerion yr eglwys, neu bersonau unigol.

Adn. 7. *I'w gylwyr y rhai a cent o angyleh y ddinas*] Oddifewn, i edrych fod pob peth yn iawn yn y ddinas: *a'm cawsant*—yn chwilio am fy anwylyd ar hyd yr heolydd;

7 Y gwylwyr y rhai a aent o amgylch y ddinas a'm cawsant, a'm tarawsant, a'm harchollasant: gwylwyr y caerau a ddygasant fy ngorchudd oddiarnaf.

8 Merched Jerusalem, gorchymynaf i chwi, os cewch fy anwylyd, fynegn iddo fy mod yn glaf o gariad.

9 ¶ Beth yw dy anwylyd ragor anwylyd arall, y decaf o'r gwragedd? beth yw dy anwylyd ragor

anwylyd arall, pan orchymyni i ni felly?

10 Fy anwylyd sydd wŷn a gwridog, yn rhagori ar ddeng mil.

11 Ei ben fel aur coeth, ei wallt yn grych, yn ddŵ fel y frân.

12 Ei lygaid fel llygaid colomenod wrth afonydd dyfroedd, wedi eu golchi â llaeth, wedi eu gosod yn gymhwys.

13 Ei ruddiau fel gwely perlysi-

a'm tarawsant, a'm harchollasant—gwnaethant hyn ond odid gan dybied mai benyw anniwair ydoedd, yn cerdded yr heolydd i ddybenion drwg. *Gwylwyr y caerau*—y rhai a wylent rhag drwg oddiallan i'r ddinas; a *ddygasant fy ngorchudd oddiarnaf*—a'r hwn y gorchuddai hi ei gwneb, yn arwydd o'i gwyllder a'i diweirdeb. Os gweinidogion neu swyddogion eglwysig a olygir yma wrth y *gwylwyr* hyn, fel y tybir yn gyffredin, gall eu bod yn arwyddo rhai byrbwyll a dibrofiad, y rhai na fedrent gydymdeimlo âg eneidiau trallodus, na'u tywys hwy at Grist. Ond ar yr un pryd, nid yw yn anmhosibl i weinidogion duwiol weithiau gamddeall achos eneidiau trallodus, a'u trin yn galed fel rhagrithwyr neu benboethiaid, yn lle gweini cysar a dyddanwch iddynt.

Adn. 8. *Merched Jerusalem*] Neu lancesau y briodferch, y rhai a ddeallir gan rai fel yn arwyddo aelodau y synagog; gan ereill, profesyw ieuainc; a chian ereill, credinwyr unigol. Yma darlunir yr eglwys yn myned heibio y gwylwyr, ac yn ymofyn am ei hanwylyd gyda phob credadyn unigol a gyfarfydda. *Gorchymynaf i chwi, os cewch fy anwylyd*—os cyfarfyddwch âg ef mewn rhyw le o'm blaen i; *fynegn iddo fy mod yn glaf o gariad*—fy mod bron a llesmeirio wrth chwilio am dano, ac o hiraeth ar ei ol. Gall hyn fod yn arwyddo dymuniad yr eglwys am i'w holl aelodau weddio am bresenoldeb a chymdeithas ei Phrioddi a'i Phrynwr.

Adn. 9. *Beth yw dy anwylyd ragor anwylyd arall*] Ragor priod rhyw wraig arall, y decaf o'r gwragedd?—felly y goilw merched Jerusalem hi, er maint y gamdriniaeth a gawsai gan y gwylwyr, adn. 7. *Beth yw dy anwylyd ragor anwylyd arall, pan orchymyni i ni felly?*—y maent yn gofyn iddi yr un peth eilwaith, mewn awydd i gael gwylbod-aeth helaethach am Grist a'i ragoriaethan. Gwyddent ei fod ef yn anwyl iawn, a chredent fod ei ogoniant a'i ardrdechgrwydd ef tuhwnt i ddim ag yr oeddynt hwy eto wedi ei amgylfred; ac am hyny dymunent gael mwy o hysbysrwydd yn ei gylch.

Adn. 10. *Fy anwylyd sydd wŷn a gwridog*] Y lliwiau cymysg hyn a arwyddant barddwch ac iechyd ar unwaith; *yn rhagori ar ddeng mil*—yn mwneidd-dra ei dymberan, helaethrwydd ei rinwedd, hawddgarwch ei berson, a phrydferthwch ei wedd, fel y darlunir isod. Ond yn lle 'yn rhagori ar ddeng mil,' y mae rhai yn ei gyfieithu, 'yn dwyn baner

yn mblith deng mil;' neu, 'yn un ag y dygir y *faner* o'i flaen;' hyny yw, y mae efe yn llywydd ac yn ben ar y cwbl. Tybia rhai fod yr eglwys yma yn galw ei lhanwylyd yn *wŷn*, mewn cyfeiriad at ei natur ddwyfol; ac yn *wridog* neu *goch*, gyda golwg ar ei natur ddynol; a thybia ereill fod ei *wŷn* yn cyfeirio at santeiddrwydd ei fuchedd a'i ymarweddiad, a'i *gochni* at ei ddyoddefiad gan gwaedlyd. Yn mhob un o'r ystiriaethau hyn y mae Crist yn hawddgar iawn yn ngolwg ei eglwys, ac yn anfeidrol ragori ar bawb oll, dynion ac angylion hefyd.

Adn. 11. *Ei ben fel aur coeth*] Nid o ran lliw ei wallt, canys dywedir yma fod hwnw yn ddŵ; ond am fod coron o aur coeth arno, neu ryw addurn melyn arall: *ei wallt yn grych, yn ddŵ fel y frân*—y mae gwallt crych a dŵ yn arwyddo ieuentid a chryfder, fel y mao gwallt gwŷn yn arwyddo henaint a methiant; a thybia rhai fod y gwallt crych a dŵ yma yn arwyddo cryfder a gallu Crist yn ngeinyddiad ei swyddau cyfryngol. Ond fe allai na ddylem ni chwilio am gymhwysiad manwl a neillduol o'r pethau hyn at ryw ragoriaeth arbenig yn Nghrist, am nas gall hynd fod yn ddim amgen na dychymyg ar y goraf; canys unig amcan y darluniad hwn yw gosod allan brydferthwch Crist dan y dybiaeth o berson hygar, heb ddim diffyg neu amberffleithrwydd ynddo o goryn y pen hyd wadn y troed. Modd bynag, yr oedd gwallt dŵ, o liw y frân, yn cael ei ystyried yn harddwch mawr yn mhlith y dwyreinwyr.

Adn. 12. *Ei lygaid fel llygaid colomenod*] Yn hawddgar, siriol, a diniwed. Yn pen. i. 15, a iv. 1, dywedasai Crist fod llygaid ei ddyweddi felly; ac yma dywed lhiathu fod ei lygaid yntau felly. *Wrth afonydd dyfroedd*—dyweddi fod colomenod y dwyrain yn boffi bod ar lanau afonydd, lle y golchant eu llygaid, ac yr edrychant yn fwy siriol a deddwdd. *Wedi eu golchi â llaeth*—cyteiria hyn at liw y colomenod eu hunain; neu at wŷn eu llygaid, fel yn dra gwŷn: *wedi eu gosod yn gymhwys*—hyny yw, y mae ei lygaid yn edrych yn union a diŵyrni, neu heb suddo yn y pen, na thaftu allan yn ormodol. Gall hyn fod yn arwyddo edrychiad hawddgar a serchog Crist ar aelodau ei eglwys; ei hoffer o fod gyda hwy yn moddion gras, y dyfroedd ysbrydol; a phurdeb ei edrychiad ef, yr hwn sydd 'lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg, IIab. i. 13.

Adn. 13. *Ei ruddiau fel gwely perlysi-*

iau, *fel blodau peraid*: ei wesusau fel lili yn dyferu myrr dyferol.

14 Ei ddwyllaw *sydd fel* modrwyau aur, wedi ei llenwi o beryl: ei fol *fel dysglær ifori* wedi ei wisgo *â saphir*.

15 Ei goesau *fel colofnau marmor* wedi eu gosod ar wadnau o aur coeth: ei wynebpryd *fel Libanus*, mor ddewisol a chedrwydd.

16 Melys odiaeth *yw ei enau*; ië, *y mae efe* oll yn hawddgar. Dyma

fy anwylyd, dyma fy nghyfaill, O ferched Jerusalem.

PENNOD VI.

I BA le yr aeth dy anwylyd, y decaf o'r gwragedd? i ba le y trôdd dy anwylyd? fel y ceisiom ef gyda thi.

2 Fy anwylyd a aeth i waered i'w ardd, i welyau y perlaysiau, i ymborth yn y gerddi, a i gasglu lili.

3 Myfi *wyf eiddo* fy anwylyd, a'm

Tybia *Clarke* fod hyn yn cyfeirio at y trawsych, neu flew y gern, y rhai a ystyrir yn brydforthwch mawr ar ddydd, ac a eneidir yn fynych âg olew peraroglaidd; a *blodau peraid*—o amrai liwiau, yn enwedig gwŷn a choch, adn. 10. *Ei wesusau fel lili*—yn brydforth a hawddgar. Crybwyll *Pliny* am fath ar lili, *rubens lilium*, ag sydd yn debyg o ran eu lliw i wesusau cochion ieuencid. *Yn dyferu myrr dyferol*—yr hwn a ddisgynai ond oddid ar hyd y farf. Gellir dywedyd am hawddgarwch gogoneddus Crist, ei fod yn ymddangos yn debyg i hyn yn ngolwg yr eglwys, pan y byddo efe yn ei egluro ei hun iddi; ac y mae geiriau grasol ei wesusau yn hyffryd iddi fel y lili, ac yn dyferu i eneidiau y credinwyr gysuron ysbrydol fel myrr iachus a pheraroglaidd.

Adn. 14. *Ei ddwyllaw sydd fel modrwyau aur, wedi eu llenwi o beryl*] Hyuy yw, y mae ei ddwyllaw yn llawn o fodrwyau aur, yn y rhai y gosodwyd y meini harddaf a gwerthfawrocaf. Y *beryl* sydd faen hardd o liw gwyrddlas y môr; ond y mae rhai yn cyfieithu *tarshish* yma yn *chrysolithus*, yr hwn sydd o liw melyn. *Ei fol fel dysglær ifori wedi ei wisgo â saphir*—gall hyn fod yn cyfeirio at ryw wisg neu wregys ysblynydd am ei ganol ef, wedi ei harddu â meini gwerthfawr. Dichon fod y rhan flaenaf o'r adnod hon yn cyfeirio at baelion Crist yn cyfranu bendithion gwerthfawr i'w eglwys; a'r rhan ddiweddfaf, at dosturi ei ymysgaroedd ef, neu olud anchwiliadwy ei drugareidd i'r rhai a'i carant ef.

Adn. 15. *Ei goesau fel colofnau marmor*] Yr hyn a all fod yn arwyddo cadernid a sefydllogrwydd Crist, Dat. i. 15; *wedi eu gosod ar wadnau o aur coeth*—yr hyn a all fod yn cyfeirio at ei sandalau ef; canys yr oedd y rhai hyn yn cael eu haddurno yn fynych yn y gwledydd dwyreiniol âg aur lawer, yn ol sefyllfa y perchenog. *Ei wynebpryd fel Libanus*—o ran ei urddas a'i fawrfrydigrwydd, neu o ran ei uchder, yn yr hyn yr oedd Libanus yn rhagori ar yr holl fynyddoedd yn y parthau hyn; *mor ddewisol a chedrwydd*—y rhai a dyfent ar Libanus, ac a oeddynt yn goed gwerthfawr iawn. Y mae y darluniad a roddir yma yn gosod allan ogoniant annhraethol Crist yn ei berson, ei swyddau, a'i weithredoedd oll.

Adn. 16. *Melys odiaeth yw ei enau*] Sef geiriau ei enau, yn ei athrawiaethau dwyfol, ei

wahoddiadau tirion, ei addewidion mawr iawn a gwerthfawr, a'i holl amlygiadau ereill o gariad. *le*—mewn un gair, *y mae efe* oll yn hawddgar—yn ei berson, ei swyddau, ei eiriau, a'i holl ymddygiadau. Yma y mae ei galluoedd darluniadol hi fel yn pallu, a'i hiaith yn rhy fyr o eiriau i osod allan ei degwch ef; ac i grynhoui y cwbl mewn un frawddeg, hi a ddywed, 'Y mae efe oll yn hawddgar!' *Dyma fy anwylyd*—yr hwn yr wyf fi yn chwilio am dano; *dyma fy nghyfaill*—yr hwn nas gallaf adrodd y filfed ran o'i hawddgarwch dros holl oesoedd tragwyddoldeb; *O ferched Jerusalem*—ac felly chwi a welwch nad oes genyf fi achos i gywilyddio am dano, na chenyh chwithau achos i ryfeddu fy mod yn glaf o gariad ato: gwel ar adn. 8, 9.

PEN. VI. Adn. 1. *I ba le yr aeth dy anwylyd, y decaf o'r gwragedd?*] Y rhai hyn yw geiriau merched Jerusalem, y rhai a alwant y ddyweddi hon eto y 'decaf o'r gwragedd,' fel y gwaethant o'r blaen, pen. v. 9. *I ba le y trôdd dy anwylyd*—oddiwrthyt, *fel y ceisiom ef gyda thi?*—ymddengys oddiyma fod y darluniad grymus a roddasaf hi o ardderchogrwydd ei Phriod wedi gwresgoi eu cariad hwythau, a pheri iddynt liraethu yn fawr am ei weled ef: gwel ar pen. v. 9.

Adn. 2. *Fy anwylyd a aeth i waered i'w ardd*] Yr oedd y ddyweddi hyd yn hyn wedi colli ei hanwylyd; ond wrth chwilio yn ddyfal am dano, cafodd atebiad grasol oddiwrth Dduw, yn ei chyfarwyddo i'r fan lle y gallai ei gael ef. Wrth yr ardd yma y gellir deall yr eglwys gyffredinol; ac wrth y gerddi isod, cynulleidfaoedd neillduol o gredinwyr, lle y mae Crist yn amlygu ei bresenoldeb grasol. *I welyau y perlaysiau*—yr un rhai ond oddid a'r gerddi isod, lle y mae doniau a grasusau Ysbryd Duw, y rhai a gyffelybir yn briodol i lysiau neu flodau peraroglaidd, yn ymddangos ac yn tyfu. *I ymborth yn y gerddi*—i ymddifyru yn nghynulleidfaoedd y saint, neu i wleda yn ysbrydol ar eu haddoliad a'u mawr hwy. *Ac i gasglu lili*—gall hyn fod yn arwyddo casglu eneidiau ato ei hun i'w eglwys, neu gasglu y saint o'r eglwys i'r nef trwy farwolaeth.

Adn. 3. *Myfi wyf eiddo fy anwylyd, a'm hanwylyd yn eiddo finau*] Hon yw iaith yr eglwys, yn llefaru mewn llawn hyder fydd am ei bundeb â'i Phriod nefol, a'i hawl yn ei holl gyflawnder ef: *yr hwn sydd yn bugeilio yn*

hanwylyd yn eiddof finau, yr hwn sydd yn bugeilio yn mysg y lili.

4 ¶ *Têg ydwyt ti, fy anwylyd, megys Tirsah, gweddus megys Jerusalem, ofnadwy megys llu banerog.*

5 Tro dy lygaid oddiwrthyf, canys hwy a'm gorchfygasant: dy wallt sydd fel deadell o eifr y rhai a ymddanghosasant o Gilead.

6 Dy ddannedd sydd fel deadell o ddefaid a ddai i fyny o'r olchfa, y rhai sydd bob un yn dwyn dau oen,

mysg y lili—gwel yr adnod hon wedi ei hegluro eisoes, pen. ii. 16.

Adn. 4. *Têg ydwyt ti, fy anwylyd*] Y rhai hyn ydynt eiriau Crist, yr hwn yn awr a'i hamlygasai ei hun i'w ddyweddi neu ei eglwys. Ar ol iddi hi gael ei darostwng yn ddiogol am ei chlawarineb a'i difaterwch, pen. v. 2, 3; ac ar ol iddi amlygu ei chariad at Grist, a'i biraeth am dano, pen. v. 6—9, a'i fydd gref ynddo, adn. 3; y mae efe yn ei amlygu ei hun iddi drachefa, yn canmol ei thegwch, ac yn ei galw yn anwylyd iddo, megys ag y galwasai hithau yntau yn yr adnod o'r blaen. *Megys Tirsah*—o ran dy degwch. *Tirsah* ydoedd ddaenas yn llwyth Manasse, yr hon a fu yn gartrefe i frenhinoedd Israel am hir amser, 1 Bren. xiv. 17, a xv. 33. Ystyr ei henw yw *hyfryd* neu *hauddgar*; ac ymddengys ei bod hi felly ynddi ei hun, a'i bod yn sefyll mewn lle hyfryd. *Gweddus megys Jerusalem*—yr oedd Jersalem yn brydierth iawn o ran ei sefyllfa, ac ar gyfrif ei hadeiladau yspenlydd; a gelwir hi yn 'degwch bro,' a 'llawenydd yr holl ddaear,' Salm xlvi. 2. Fel hyn cyffelybr tegwch yr eglwys i harddwch y ddwy ddaenas enwocaf yn Palestina, y rhai oeddynt yn brif-ddinasoedd i frenhinoedd Israel a Juda. *Ofnadwy megys llu banerog*—hyny yw, yn ofnadwy i'w gelyniou, y rhai a faeddir ganddi oll yn y man. Y mae pob gwir gredadyn yn filwr dan faner Iesu, ac yn rhyfela yn erbyn byd, cnawd, a diafol; yn erbyn pechod o bob math, a holl deyrnas y twyllwch.

Adn. 5. *Tro dy lygaid oddiwrthyf*] Y rhai hyn eto ydynt eiriau Crist wrth ei ddyweddi; *canys hwy a'm gorchfygasant*—pan edrychodd y ddyweddi ar ei hanwylyd, cyfrôdd ei gariad ef mor fawr, fel nad allai mwyach ddangos na theimlo dim anfodlonrwydd tuag ati am ei hymddygiad anfwynaid tuag ato ef, pen. v. 3. Pan ddywedodd yr angel wrth Jacob, 'Gollwng fi,' a phan ddywedodd yr Arglwydd wrth Moses, 'Ged i mi lonydd,' yr oedd hyny yn annogaeth iddynt hwy ymdrechu â Duw yn fwy, Gen. xxxii. 26, Exod. xxxii. 10; felly yr un modd, y mae y geiriau, 'Tro dy lygaid oddiwrthyf,' yn annogaeth gref i'r credadyn, ac i'r holl eglwys, *barhau* i edrych ar Iesu, ac yn sicrwydd y gorchfyga yntau gyda Duw trwy hyny. *Dy wallt sydd fel deadell o eifr, &c.*—gwel ar pen. iv. 1, lle y ceir yr un geiriau.

ac heb un yn ddiepil yn eu mysg.

7 Dy arleisiau rhwng dy lywethau sydd fel darn o bomgran.

8 Y mae tri ugain o freninesau, ac o ordderchwagedd bedwar ugain, a llancesau heb rifedi.

9 Un ydyw hi, fy ngholomen, fy nihalog; unig ei mam yw hi, dewisol yw hi gan yr hon a'i hesgorodd: y merched a'i gwelsant, ac a'i galwasant yn ddedwydd; y breninesau a'r gorderchwagedd, a hwy a'i canmolasant hi.

Adn. 6. *Dy ddannedd sydd fel deadell o ddefaid, &c.*] Gwel ar pen. iv. 2.

Adn. 7. *Dy arleisiau rhwng dy lywethau, &c.*] Gwel ar pen. iv. 3.

Adn. 8. *Y mae tri ugain o freninesau*] Neu wragedd cyfreithlon i frenhinoedd; ac o *ordderchwagedd bedwar ugain*—sef wragedd o'r ail radd, 1 Bren. xi. 3; a *llancesau heb rifedi*—sef gwryfion i weini iddynt yn yr *harem*. Tybia rhai fod Solomon yma yn cyfeirio at ei wragedd a'i ordderchadon ei hun, gan enwi rhif penodol am rif amhenodol; a thybia ereill mai cyfeirio y mae efe at arferiad cyffredin brenhinoedd y dwyrain, y rhai a briodent luaws mawr o wragedd yn freninesau, gyda llawer mwy yn ordderchadon, i'r rhai yr oedd llancesau dirif yn gweini: ond nid oedd un o honynt i'w chydmaru o ran tegwch i'r ddyweddi hon. Fe allai fod y *breninesau* a'r *gorderchwagedd* hyn yn arwyddoedd yr eglwys pabaidd, a holl eglwys cyfeiliornus ereill y byd yn mhob oes; a bod y *llancesau* heb rifedi yn cyfeirio at y rhai a ymllynant wrthynt hwy. Modd bynag, cyfeirir at y wir eglwys yn yr adnod nesaf.

Adn. 9. *Un ydyw hi*] Fy unig un, neu fy unig ddyweddi; *fy ngholomen, fy nihalog*—geiriau yn arwyddoedd ei diniweidrwydd, ei harddwch, a'i phurdeb hi, a'i ddirfawr serch yntau ati hi. *Unig ei mam yw hi*—y mae hi mor anwyl a gwerthfawr yn fy ngolwg i, ag ydyw unig blentyn yn ngolwg ei rieni, yr hwn sydd yn neillduol felly yn ngolwg y fam: *dewisol yw hi gan yr hon a'i hesgorodd*—sef gan ei mam, nid yn unig am ei bod yn unig ferch iddi, ond ar gyfrif ei bawddgarwch a'i rhinweddau mawrion. *Y merched a'i gwelsant*—sef y llancesau a grybwyllwyd adn. 8; *ac a'i galwasant yn ddedwydd*—fel priod gyfreithlon y Brenin; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'ac a'i *bendithiasant*;' hyny yw, dymnasant bob bendith a dedwyddwch iddi, fel un hawddgar, grydferth, a rhinweddel. *Y breninesau a'r gorderchwagedd*—hetyd, am y rhai y soniwyd adn. 8, a'i gwelsant hi yn ei thegwch a'i harddwch rhagorol; a *hwy a'i canmolasant hi*—nid yn unig fel yn dirfawr ragori arnynt hwy eu hunain, ond fel y wraig byrdferthiaf a welsant erioed. Y meddwl yw, fod y gwir gredinwyr, neu wir eglwys Crist, trwy eu bod wedi eu cyfannhau, a'u santeiddio, a'u golchi yn ngwaed yr Oen, yn meddu pryd:

10 ¶ Pwy yw hon a welir fel y wawr, yn dëg fel y lleuad, yn bur fel yr haul, yn ofnadwy fel llu banerog?

11 Aethym i waered i'r ardd gnau, i edrych am ffrwythydd y dyffryn, i weled a flodeuasai y winwydden, a flodeuasai y pomgranadau.

ferthwch moesol ag sydd yn anfeidrol ragori ar bob prydfertwch daearol; a phan ddaw eu rhagoriaeth hwy yn llawn i'r golwg, y bydd i bawb eu rhyfeddu a'u canmol, a'u cyfrif yn ddedwydd a bendigedig.

Adn. 10. *Pwy yw hon a welir fel y wawr*] Tybia rhai mai y Priodfab sydd yma yn canmol tegwch ei ddyweddi; eithr tybia ereill mai geiriau y breninesan a'r gwragedd ereill a enwyd uchod yw y rhai hyn: modd bynag, dywedir ei bod yn ymddangos fel y wawr—neua oleuni y bore, yr hwn, ar ol tywyllwch dŷ y nos a aethai heibio, sydd yn ymddangos yn dra hyfryd a dymunol; *yn dëg fel y lleuad*—pan fyddo yn llawn, ac 'yn cerdded yn ddysglaer,' Job xxxi. 26; *yn bur fel yr haul*—yn yr hwn ni welir y fath frychrau duon ag a ymddanghosant yn y lleuad; *yn ofnadwy fel llu banerog*?—gwel ar adn. 4. Tybia rhai fod y cydunariaethau uchod yn gosod allan wawriad graddol dydd yr efengyl, neu ogoniant yr eglwys, o'r addewid gyntaf yn Eden hyd gyfodiad Haul Cyflawnder; a thybia ereill eu bod yn arddanghosiad o gynydd y credadyn mewn gras, o'i ddychweliad cyntaf hyd ei ogoneddiad yn y nef. Y mae y darluniad uchod yn un tra barddonol, ac yn ddull cyffredin gan y beirdd o ganmol tegwch y rhywfenywaidd.

Adn. 11. *Aethym i waered i'r ardd gnau*] Sef enau y pren allon, fel y tybia Clarke. Y rhai hyn ydynt eiriau y Priodfab, yn adrodd i'w ddyweddi i ba le yr aethai efe pan y collodd hi ef, fel ei mynegir pen. v. 6. Aethai i waered i'w ardd, fel y dywedasai hi wrth ferched Jerusalem, adn. 2; ac yma gelwir hi yn ardd gnau, am fod yno gnau o ryw fath yn tyfu, yn nghyda flwrythau ereill. *I edrych am ffrwythydd y dyffryn*—yr hwn, gan ei fod yn cael ei ddyfrhau yn dda, y gellid dysgwyl fod flwrythau toreioghy ynddo. *I weled a flodeuasai y winwydden*—yn arwydd o gnwdd o winraw; *a flodeuasai y pomgranadau*—sef coed yr afalau grawnnaidd, pen. iv. 13. Wrth y enau yn yr ardd y mae rhai yn deall y credinwyr yn yr eglwys, y rhai sydd yn wael o ran eu golwg allanol; ac wrth *ffrwythydd y dyffryn*, gweithredoedd da y saint, y rhai a waant hwy mewn mawr ostyngieiddrwydd a lunanymwadiad, heb ewyllsio i neb ond Duw eu gwled; ac wrth y *winwydden a'r pomgranadau yn blodeuo*, y deallant y credinwyr ienainc yn blodeuo mewn rhinwedd a santieiddrwydd.

Adn. 12. *Heb wybod i mi y'm gwnaeth fy enaid megys cerbydau Amminadib*] Hyny yw, yn gyflym fel cerbydau Amminadib, y

12 Heb wybod i mi y'm gwnaeth fy enaid megys cerbydau Amminadib.

13 Dychwel, dychwel, y Sulamees; dychwel, dychwel, fel yr edrychom arnat. Beth a welwch chwi yn y Sulamees? Megys tyrfadau lu.

rhai oeddnyt yn ddiarebol felly. Dichon mai nn o gerbydwyr Solomon oedd Amminadib, yr hwn a arferai yru yn gyflym iawn. Er mai ystyr yr enw hwn, yn ol Clarke, *yw fy mhobol ardderchog* nen *dywysogaidd*, eto y mae yn debyg mai enw priodol dyn yw efe yma, yr hwn oedd yn glodfawr am ei fedrusrwydd a'i gyflymder yn gyru, fel Jehu. Tybia rhai mai geiriau y ddyweddi yw y rhai hyn, yn arwyddo na wyddai hi i ba le yr aethai ei hanwylyd pan y collodd hi ef, pen. v. 6; ac iddi fyned i chwilio am dano gyda brys a chyflymder cerbydau Amminadib: tybia ereill mai geiriau y Priodfab ydynt, yn arwyddo, pan y meddyliodd efe yn yr ardd gnau uchod am dralod ei ddyweddi wrth chwilio am dano, i'w ymysgaroedd ef ynghesu mewn tosturi a chariad tuag ati, ac iddo megys yn ddiarwybod iddo ei hnn frysio tuag ati gyda chyflymder cerbydan Amminadib.

Adn. 13. *Dychwel, dychwel, y Sulamees*] Neu *Solomones*. Yr enw hwn yw y ffurf fenywaidd o'r gair *shelomoh* neu *shelomon*, SOLOMON, fel y mae yr enw *Charlotte* yn cael ei ffurfio o CHARLES; *Henrietta*, o HENRY; a *Jannette*, o JOHN. Gelwir hi *Solomones*, am ei bod yn *wraig* i Solomon; a chian fod *Crist* yn cael ei alw yn *Solomon* yn pen. iii. 7, priodol y gelwir yr eglwys yn *Solomones*, fel ei ddyweddi ef. *Dychwel, dychwel*—y mae y gair hwn yn cael ei arferdy yma bedair gwaith, i arwyddo mawr serch ei hanwylyd tuag ati, a'i hiraeth am ei chymdeithas hi, a'i hwyrfrydigrwydd hithau i droi ato. Fe allai fod arni gywilydd o herwydd ei hymddygiad yn pen. v. 3, a'i bod o herwydd hyny yn methu anturio nesâu ato ef gyda'r un hyfdra ag o'r blaen, yr hyn oedd yr achos o'r taerineb hwn. *Fel yr edrychom arnat*—fel y gallwyf fi a'm cyfeillion gwel golwg ar dy prydfertwch. *Beth a welwch chwi yn y Sulamees*?—pa beth yr ydych chiwi, fy nghyfeillion, yn dysgwyl ei weled ynddi? Gofyna y Priodfab hyn i'r dyben ei'w parotio hwy i sylwi yn fwy crassaf ar ei rhagorledeb hi. *Megys tyrfadau lu*—dyma eu hatebiad hwy ar ol ei gwelled; yr hyn a arwyddo fod yr eglwys yn cael ei gwneyd i fyny o 'dyrfa fawr, yr hon ni all neb ei rhibo.' Dat. vii. 9; a'i bod yn *ddau lu* wedi cydymgynghreirio. Gall y rhai hyn fod yn arwyddo eglwys yr Hen Destament, ac eglwys y Testament Newydd; neu uniad yr Iuddewon a'r Cenhedloedd yn eglwys Crist; neu yr eglwys filwriaethas ar y ddaear, a'i eglwys orfoleddus yn y nef. Ond tybia rhai mai merched Jersalem, neu lancesau y briodferch, sydd yma yn ei chymhell i ddychwel-

PENNOD VII.

MOR dæg yw dy draed mewn esgidiau, ferch pendefig! cymalau dy forddwydydd sydd fel tlysau, gwaith dwylaw y cywraint.

2 Dy fogail sydd fel gorflwch crwn, heb eisiau lleithder: dy fru

yd, fel y gallent hwy syllu ar ei thegwch hi drachefn; a'i bod hithau, neu ei Phriod, yn gofyn iddynt beth a walent hwy ynddi hi? a'u bod hwythau yn ateb, 'Megys tyrfa dau lu.' Dywedir fod y gair *mecholath*, a gyfieithir yma *tyrfa*, yn arwyddo 'côr o gantorian gorfoleddus,' yr hyn a ail gyfeirio yn dda at yr *angylion* a'r *saint* yn cydfoliannu y Priodfab nefol.

PEN. VII. Adn. 1. *Mor dæg yw dy draed mewn esgidiau*] Hyny yw, mor brydferth yw dy rodiad! *ferch pendefig*—yr oedd gwraig Solomon yn ferch i bendefig; ac y mae yr eglwys felly hefyd, yn ferch i Frenin y brenhinoedd, wedi ei geni o Dduw, ac yn briod i Dywysog brenhinoedd y ddaear: gwel Salm xlv. 13, Ioan i. 13, Dat. i. 5. Yr oedd esgidiau a sandalau boneddigesau y dwyrain wedi eu llunio yn brydferth, a'u brwydweithio a'u haddurno yn gywraint iawn; ac yr oedd dull en cerddediad yn fawreddog a gogoneddos. Ymddengys mai y Priodfab nefol sydd yn llefaru yma am harddwch a phrydferthwch ei ddyweddi, gan gannol ei cherddediad, ei haddurniadau, ac aelodau ei chorff. Gellir dywedyd yr un peth am ei ddarluniad ef o honi hi, ag a ddywedwyd am ei darluniat hithau o hono yntau, pen. v. 11, sef nad oes achos i ni chwilio am gymhwysiad manwl a neilldrol o'r pethau hyn at ryw ragoriaeth arbenig ynddi hi, gan mai amcan y darluniat hwn yw gosod allan harddwch a gogoniant yr eglwys dan y dybiaeth o fenyw brydferth ac ardderchog. Ond gellir dywedyd hyn, fod yr eglwys, wrth ddarlunio Crist, yn dechreu yn y pen, ac yn disgyn i waered hyd y coesau a'r traed, pen. v. 11—15; tra y mae Crist yma, wrth ddarlunio ei ddyweddi, yn dechreu yn y traed, ac yn gorphen gyda'r pen, adn. 5. *Cymalau dy forddwydydd sydd fel tlysau, gwaith dwylaw y cywraint*—hyny yw, fe allai, sydd yn gymhwys a lluniatidd fel tlysau o waith dwylaw crefftwyr cywraint. I'r dyben i allu *rhodio* yn brydferth, y mae mor angenrheidiol i gymalau y morddwydydd fod yn berffaith, ag ydyw i'r traed fod felly, at yr hyn ond odid y cyfeirir yma. Ond tybia rhai mai at ei gwregys hi, neu at ei llodrau wedi eu haddurno â thlysau, y cyfeirir yma; canys arferai y pendefigesau dwyreiniol wisgo llodrau addarnol dan eu gwisgoedd tenenon. Mewn ystyr ysbrydol, gall fod yma gyfeiriad at weinidogion yr eglwys, yn 'gwisgo am eu traed esgidiau parotoad efengyl tangnefedd,' Eph. vi. 15.

fel twr gwenith wedi ei amgylchu â lili.

3 Dy ddwy fron megys dau lwdn iwrch o efeilliaid.

4 Dy wddf fel tŵr o ifori; dy lygaid fel pysgod-lynoedd yn Hesbon wrth borth Bath-rabbim: dy drwyn fel tŵr Libanus yn edrych tua Damascus.

Adn. 2. *Dy fogail sydd fel gorflwch crwn, heb eisiau lleithder*] Neu, 'yn llawn gwin cymysgedig,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu. Gall hyn fod yn cyfeirio at ryw addurn a wisgai y briodferch o amgylch ei lwynau, yr hwn ond odid oedd ar lun phiol gron yn llawn o wlybedd. Ond mewn ystyr ysbrydol, gall fod yma gyfeiriad at weinidogaeth y gair, neu ordinhadau yr efengyl, y rhai sydd fel llestr yn llawn o fendithion ireiddiol i'r eglwys. *Dy fru fel twr gwenith wedi ei amgylchu â lili*—meddylir fod hyn hefyd yn cyfeirio at ryw addurniadau ar ei gwisg hi, megys llun ysgub o wenith wedi ei hamgylchu â blodau y lili. Ond, mewn ystyr ysbrydol, dichon ei fod yn arwyddo firwythlondeb a phrydferthwch yr eglwys. Y mae ei bru yn firwythlon o blant ysbrydol, fel dâs o wenith yn llawn o rawn; ac y mae y rhai hyny yn brydferth fel y lili o ran harddwch a santeiddrwydd.

Adn. 3. *Dy ddwy fron*] Tybia Ainsworth fod y cyffelybiaethau yn y ddwy adnod hyn wedi eu cymeryd oddiwrth wraig feichtog; y plentyn yn y bru yn cael ei faethu trwy llyny y *bovail* hyd nes y genir ef i'r byd, ac wedi hyny yn cael ei gynaliaeth trwy *fronau* y fam. *Megys dau lwdn iwrch o efeilliaid*—gwel ar pen. iv. 5.

Adn. 4. *Dy wddf fel tŵr o ifori*] Yn uchel, gwyn, a glân; ac yn addurnedd â pherlau, fel yr oedd tŵr Dafydd â tharianau, pen. iv. 4. Meddylir fod hyn yn cyfeirio at *ffydd* yr eglwys, trwy ba un y cysylltir hi fel corff â Christ ei Phien. *Dy lygaid fel pysgod-lynoedd*—yn loewon, llawn, a hyfrydol; *yn Hesbon*—dinas hyfryd tuhwnt i'r Iorddonen, yr hon oedd yn cael ei dyfrhau yn dda; *wrth borth Bath-rabbim*—neu yn agos i'r porth ag oedd yn arwain o Hesbon tua Rabba, neu Rabboth Ammon, yn y gogledd. Fe allai mai y meddwl yw, fod *golygiadau ysbrydol* y saint yn glir a gloew fel y pysgod-lynoedd hyny. *Dy drwyn fel tŵr Libanus*—yr hwn y tybir iddo gael ei adeiladu gan Solomon yn mynydd Libanus; *yn edrych tua Damascus*—hyny yw, lle yr oedd gwylwyr yn gwylio rhag gelynyon o'r rhan hōno o Syria. Gan mai y trwyn yw peiriant yr aroglaid, gall ei fod yma yn arwyddo *doethineb* yr eglwys, trwy ba un y mae hi yn adnabod y pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt, ac y cedwir hi rhag llyncu athrawiaethau niweidiol.

Adn. 5. *Dy ben sydd arnat fel Carmel*] Yn uchel, firwythlon, a hardd, fel mynydd Carmel yn y gorllewin. Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at ei meddwl hi, wedi ei lenwi â gwy-

5 Dy ben *sydd* arnat fel Carmel, a gwallt dy ben fel porffor; y brenin *sydd* wedi ei rwymo yn y rhodfeydd.

6 Mor dëg ydwyf ac mor hawddgar, fy nghariad, a'm hyfrydwch!

7 Dy uchder yma *sydd* debyg i balmwydden, a'th fronau i'r grawn-sypiau.

8 Dywedais, Dringaf i'r balmwydden, ymaflaf yn ei cheinciau: ac yn awr dy fronau fyddant megys grawn-ganghenau y winwydden, ac arogl dy ffroenau megys afalau;

bodaeth ysbrydol; ac ereill, at ei *gobaith* nefol, yn cyfodi oddiar ei flydd, sef y gwddf yn adn. 4. *A gwallt dy ben fel porffor*—wedi ei addurno âg amrai addurniadau neu yswodnau o'r lliw hwnw, i'w gwneud yn fwy hawddgar yn ngolwg ei Phriod. Tybia rhai fed y *gwallt* yma yn golygu *llywodraethwyr* yr eglwys, y rhai, pan y maent yn ofalus i gyflawni eu dyledswyddau, a chwanegant yn fawr at ei phrydferthwch hi. *Y brenin sydd wedi ei rwymo yn y rhodfeydd*—fel nas gall dynu ei olgion oddiar dy brydferthwch i edrych ar ddim arall. Rhodfeydd Brenin Seion yw *moddion gras* ac *ordinhadau ei dŷ*, lle y mae y saint yn cyfarfod âg ef yn fynych; ac y mae efe fel pe byddai wedi ei *rwymo* yn y rhodfeydd hyn gan ei serch at gymdeithas ei bobl: gwel Salm xvi. 3, a cxxxii. 13, 14, a cxlvii. 11.

Adn. 6. *Mor dëg ydwyf!* O ran dy bryd a'th wedd, ac mor hawddgar—o ran dy rodiad a'th dymberau, *fy nghariad*—yr hon yr wyf yn dy garu mor fawr o herwydd *hyfrydwch* dy berson! Fel hyn y mae sarteiddrwydd buchedd y saint, yn nghyfa'u gweddiau a'u mawl, a'u holl rodiad duwiol, yn gymradwy iawn gan Grist, ac yn hyfrydwch mawr iddo.

Adn. 7. *Dy uchder yma!* Sef ei uchder o'i thraed i'fny hyd ei phen, adn. 1—5, *sydd debyg i balmwydden*—yr hon a dyf yn uchel, syth, a chonaidd, gan feinhau yn raddol o'r bôn i'r brig, a hyny mewn modd prydferth iawn; a'th fronau i'r grawnsypiau—sef i'r dates, y rhai a dyfant yn sypiau ar y balmwydden; neu i rawnsypiau y winwydden, at y rhai y cyfeirir yn yr adnod nesaf. Wrth y bronau hyn y dealla rhai y ddau Destament; ereill, athrawiaeth y profwydi a'r apostolion; ac ereill, gweinidogion ac ordinhadau yreglws. Y mae y naill a'r llall o'r rhai hyn yn debyg i fronau llaethog, neu i rawnsypiau addfed a pheraidd.

Adn. 8. *Dywedais!* Yn fy meddwl, *Dringaf i'r balmwydden, ymaflaf yn ei cheinciau*—rhaid dringo y balmwydden yn uchel iawn cyn y gellir ymaflaf yn ei cheinciau, trwy mai yn mrig y pren yn unig y ceir hwy. Wrth y gyffelybiaeth hon y deallir dyfodiad Crist i'w eglwys, i'fwynhau cymdeithas ei bobl, ac i dderbyn eu mawl a'u haddoliad. *Ac yn awr dy fronau*—am y rhai y soniwyd adn. 7, *fyddant megys grawn-ganghenau y winwydden*—yn llawn o firwyth addfed a melys, trwy

9 A thafod dy enau megys y gwin goraf i'm hanwylyd, yn myned i waered yn felys, ac yn peri i wesusau y rhai a fyddo yn cysgu lefaru.

10 ¶ Eiddo fy anwylyd *ydwyf* fi, ac ataf fi y mae ei ddymuniaid ef.

11 Tyred, fy anwylyd, awn i'r maes, a lletywn yn y pentrefi.

12 Bore-godwn i'r gwinllanoedd; edrychwn a flodeuodd y winwydden, a agorodd egin y grawnwin, a flodeuodd y pomgranadau: yno y rhoddaf fy nghariad i ti.

iddynt gael eu gwneuthur felly gan ei bresenoldeb a'i ras ef ei hun. *Ac arogl dy ffroenau megys afalau*—sef megys arogl afalau peraid. Cyfeiria hyn ond odid at weddiau yr eglwys, neu ei gweithredeedd da.

Adn. 9. *A thafod dy enau!* Sef ei hymadroddion neu ei chynghorion llesol: *megys y gwin goraf*—yn felys ac adfywiol iawn; *i'm hanwylyd*—i bob un o'm pobl anwyl, yn gystal ag i minau; *yn myned i waered yn felys*—yn cael eu dderbyn gydag hyfrydwch gan bawb; *ac yn peri i wesusau y rhai a fyddo yn cysgu lefaru*—y mae yma gyfeiriad at effaith gwin da, wedi yr yfer ef yn gymhedrol, yn peri i'r mwyafr dystaw neu drymlyd lefaru yn hylithr. Fel pe dywedasai, Y mae gwledd dy wedd, a chlywed dy lais swynol yn llefaru, yn ddigon i gynhyrfu y mwyafr tawedeg i'th gammel gydag hawyledd.

Adn. 10. *Eiddo fy anwylyd ydwyf fi!* Geiriau y ddyweddi yw y rhai hyn, mewn atebiad i ymadroddion serchog ei Phriod yn yr adnodau blaenorel, yn y rhai y mae yn ei hadfed ei hun yn eiddo iddo ef fel ei ddyweddi; *ac ataf fi y mae ei ddymuniaid ef*—fel pe dywedasai, Ac y mae ef yn fy ngharu i, fel yr wyf finau yn ei garu yntau. Fel hyn y mae yr eglwys, a phob gwir gredadyn ynddi, yn eiddo i Grist, ac yn profesu hyn, Esay xlii. 5; ac y mae ddymuniaid Crist tuog atonny hwythau yn wastadol. Meddyllir fuad Solomon yn cyfeirio yn yr adnod hon at Salm xiv. 11; ac yn wir gellir meddwl fod ei lygad ef ar y Salm hône wrth ysgrifenu yr holl lyfr hwn.

Adn. 11. *Tyred, fy anwylyd!* Yr oedd ei Phriod wedi ei chymbell hi allan yn y geiriau hyn amrai weithiau, pen. ii. 10—13, a iv. 8; ac yn awr y mae hithau yn ei gymhell yntau allan yn yr enau geiriau. *Awn i'r maes*—gyda'n gilydd, fel y gallwyf fi gael cyfle i draethu fy anghenion a'm gofidiau yn rhydd a dirwystyr wrthy ti, ac fel y gallot tithau roddi addysg, a chynghor, a chysur i minau. *A lletywn yn y pentrefi*—fel y caffom fwynhau cymdeithas ein gilydd mewn neillduaeth a dystawrwydd. Wrth y *maes* a'r *pentrefi* hyn y mae rhai yn deall cynulleidfaoedd bychain yma ac acw yn y wlad, newydd gael eu dwyn i goseidio yr efengyl, y rhai y dymuna yr eglwys gyffredinol iddynt gael cymdeithas a phresenledeb ei Phriod nefel yn eu mysg.

Adn. 12. *Bore-godwn i'r gwinllanoedd!*

13 Y mandragorau a roddasant arogledd, ac wrth ein drysau y mae pob rhyw odidawg ffrwythau, newydd a hen, y rhai a rois i gadw i ti, fy anwylyd.

PENNOD VIII.

ONA bait megys brawd im', yn sugno bronau fy mam! pan y'th

Sef i'r cynulleidfaoedd neillduol hyny a grybwyllwyd adn. 11. Y mae yr eglwys yma, ar ol colli ei Hanwylyd o'r blaen trwy ei chlaur-ineb a'i diogi, pen. v. 6, yn awr fel am ddyblu ei diwydrwydd. *Edrychwn a fodeuodd y winyrddeu, a agorodd egin y grawnwin, a fodeuodd y pomgranadau*—hyny yw, boed i ni edrych i mewn i lwyddiant ein llafur, pa nifer o eneidiau a ddygwyd i mewn i'r eglwys, ac a ydynt hwy yn blodeno ac yn cynyddu mewn gras, rhinwedd, a duwioledeb. *Yno y rhoddaf fy nghariad i ti*—yno y danghosaf i ti pa mor fawr yr wyf yn dy garu; neu yno y cybaliat gymdeithas ysbrydol â thi, yn ordinhadan santaidd dy dŷ.

Adn. 13. *Y mandragorau a roddasant arogledd*] Y mae llawer o wahanol faruau yn nghylch y mandragorau hyn. Ni chrybwyllir am danynt yn yr ysgrhythrau onid yma, ac yn Gen. xxx. 14—16; a chan ein bod wedi traethu yn helaeth amynt yn y sylwadau ar yr adnodau hyny, deisyfir i'r darlennydd droi yno. Sonir am danynt gan naturiaethwyr fel 'cariad-fodau,' neu 'serch-swynion;' ac awgrymir yma eu bod yn aroglu yn hyfryd. *Ac wrth ein drysau y mae pob rhyw odidawg ffrwythau*—hi a awgryma eu bod wedi eu dwyu yno gan eu cyfeillion, i anrhydeddu eu priodas hwy; *newydd a hen*—sef ffrwythau y flwyddyn bresenol, a ffrwythau y flwyddyn o'r blaen; *y rhai a rois i gadw i ti, fy anwylyd*—i'th foddhau a'th groesawu di ar dy ddyfodiad i'm cynteddau. Wrth y ffrwythau hyn, mewn ystyr ysbrydol, y gallwn ddeall gwahanol rinweddau godidog y saint, neu eu gweithrededd da hwy. Yn mhllith y duwioleion hyny ag sydd yn byw mewn neillduath oddiwrth y byd, ac mewn cymdeithas agos a chynhes â Duw ac â'u gilydd, ceir pob math o ffrwythau ysbrydol mewn helaethrwydd, y rhai sydd yn addurn i'grefydd, yn ogoniant i Dduw, ac yn fendith i'r byd; a bydd i'r rhai hyny ag sydd yn gwir garu Crist, ystyried y cwbl a feddant, hyd yn nod eu ffrwythau mwyaf godidog, yn anrheg ryfachi i'w rhoddi iddo ef; y maent yn cydnabod mai oddiwrtho ef y derbyniasant y cwbl, ac yn teimlo mai efe a ddylai gael y cwbl.

PEN. VIII. Adn. 1. *Ona bait megys brawd im'*] Yn un ag y gallwn dy gofeidio a'th gusanu yn y modd mwyaf cyhoeddus, cyfeillgar, a dirodes, fel y gwna brodyr a chwiriwydd yn gyffredin; *yn sugno bronau fy mam*—cyfeiria hyn nid at y berthynas rhyngddynt, canys y mae hōno yn cael ei chynhwys yn y frawddeg gyntaf; ond at faintioli neu oedran ei brawd,

gawn allan, cusanwn di; eto ni'm dirmygid.

2 Arweinwn, a dygwn di i dŷ fy mam, yr hon a'm dysgai: parwn it' yfed gwin llysiuog o sugu fy mhomgranadau.

3 Ei law aswy fyddai dan fy mhen, a'i law ddeau a'm cofleidiai.

4 Tynghedaf chwi, ferched Jeru-

yr hwn y dymunai hi iddo fod megys plentyn sugno: ac y mae ei rheswm am y dymuniad hwn yn cael ei roddi yn y geiriau nesaf. *Pan y'th gawn allan*—yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus, neu yn cael dy gario ar hyd yr heol-ydd yn mrechiau y fammaeth: *cusanwn di*—yn y modd mwyaf serchog, cyhoeddus, a digwylydd; ac er gwneuthur o honof hyny â fy mrawd bach, *eto ni'm dirmygid*—gan y rhai a'm gwelent yn dy gusanu felly; hyny yw, ni thybiai neb fod dim yn anniawr neu anweddus yn ngwaith chwaer yn cusanu ei brawd bach. Amcan y geiriau hyn yw dangos awydd yr eglwys am fwy o undeb â Christ ei Phriod nefol, ac am gymdeithas fwy agos, cyfeillgar, a rhydd ag ef. Y mae yn wir ei bod hi eisioes wedi ei dyweddio iddo ef yn mynd y gelynyon a'r erledigaethau; ond nis gellir edrych ar y briodas fel yn gyflawn hyd nes y daw y corff i fyny o'r bedd yn more yr adgyfodiad, pryd y daw y Priodfab at gymylau y nef i geisio ei ddywediato ei hun i gartref ei ogoniant, lle yr ymgoffeidiant byth heb i nebeu 'dirmygu.' Y mae rhai yn edrych ar y geiriau hyn fel gweddidi saint yr Hen Destament am brysuriad dyfodiad Crist yn y enwad, pryd yr ymddanghosai efe megys brawd iddynt, yn gwisgo yr un natur ddydol a hwythau: gwel ar Heb. ii. 11—17. Ac yn nghyflawnder yr amser efe a ddaeth yn frawd iddynt, fel y dywedir yma: efe a sugnodd frouau ei fam fel pob plentyn arall; a sugnodd befyd frouau yr eglwys Iuddewig yn ei hordubadau.

Adn. 2. *Arweinwn, a dygwn di i dŷ fy mam*] Ar ol dy gael allan ar yr heol fel fy mrawd bach; *yr hon a'm dysgai*—pa fodd i'th drin gydag anwyledeb, neu pa fodd y gallwn ddangos mwy fyth o serchogrwydd tuag atat. Yma hi a golla olwg arno fel ei brawd, ac a gyfeiria ato fel ei phriod, yr hwn y dysgai ei mam iddi pa fodd i'w barchu a'i garu yn ddylawly. *Parwn it' yfed gwin llysiuog o sugu fy mhomgranadau*—yr oedd gwin wedi ei gymysgu â sŷdd perlysiâu mewn bri mawr yn mhllith y dwyreiniwyr. Y meddwl yma yw, Rhoddwn i ti y derbyniad gwresocaf, a'r arlywyaeth fwyaf danteithiol: defnyddiwn fy holl ddoniau, a'm grasusau, a'm galluoedd, i'th wasanaethu a'th groesawu. Yr oedd yn arferiad yn y wlad hōno, ar ddydd y briodas, i'r priodfab a'r briodferch yfed o'r un cwpan, i arwyddo eu bod i gydfwynhau cysuron bywyd, neu i gydd-ddyoddef gofidiau bywyd.

Adn. 3. *Ei law aswy fyddai dan fy mhen*] Sef llaw aswy ei Phriod, ar ol iddi ei gael ef i dŷ ei mam; *a'i law ddeau a'm cofleidiai*—yn y modd tyneraf a serchocaf, fel ei ddywedi:

salem, na chyffrôch, ac na ddeffrôch fy nghariad, hyd oni fyno ei hun.

5 (Pwy yw hon sydd yn dyfod ar fyny o'r anialwch, ac yn pwyso ar ei hanwylyd?) Dan yr afallen y'th gyfodais: yno y'th esgorodd dy

gwel ar pen. ii. 6, lle y cawsom yr un geiriau o'r blaen. Y meddwl yw, na fyddai iddo ef ei dirmygu hi o herwydd ei hyddra serchog tuag ato, ond y byddai iddo yn y modd mwyaf caruaid dderbyn yr arwyddion hyny o'i chariad tuag ato ef, a'i charu hithau yn fwy fel ad-daliad.

Adn. 4. *Tynghedaf chwi, ferched Jerusalem*] Gwel ar pen. ii. 7, a iii. 5, lle y ceir yr un geiriau; na chyffrôch ac na ddeffrôch fy nghariad—yma y mae yr eglwys gyfrinodol, ein mam ni oll, fel y sylwa *Henry*, yn gorchymyn i'w holl blant na wnelont hwy byth ddim a barai i Grist eneilio oddiwrthynt, yr hyn yr ydym ni yn dueddol iawn i'w wneuthur. Paham y byddai i chwi ddangos y fath sarhad iddo? paham y byddech chwi y fath elynion i chwi eich hunain? Pan y'n temtir i wneyd yr hyn a ofidai ei Ysbryd ef, dylem ymresymu fel hyn â ni ein hunain:—'Beth! a ydwyf fi wedi blino ar bresenoldeb Crist, pan yr wyf yn ei sarhau ef, ac yn ei annog i ymadael oddiwrthyf? Paham y gwnawn i yr hyn a gymer efe mor angharedig, a'r hyn y bydd i minau yn ddiamau edifarhau am dano?'

Adn. 5. *Pwy yw hon sydd yn dyfod i fyny o'r anialwch!*] Ymddengys mai geiriau merch-ed Jernsalem, neu gyfeillesau y briodferch, yw y rhai hyn, yn rhyfeddu wrth yr undeb dedwydd hwn, a'r gymdeithas gu ag oedd rhwng yr eglwys a'i Phriod: gwel ar pen. iii. 6. *Ac yn pwyso ar ei hanwylyd*—yr hyn a arwyddai ryddid a chyfeillgarwch mawr, ac ymddibyniad llwyr ar allu a fyddlondeb ei Phriod. Ond tybia rhai mai geiriau y Priodfab ei hun ydynt, yn amlygu ei foddlonrwydd yn ngwaith ei ddyweddi yn ymbwysu arno ef, ac yn ymddiried yn ei fyddlondeb. Fel hyn y daeth yr eglwys Iuddewig i fyny o'r anialwch, gan gael ei chynnal gan allu a fyddlondeb Duw, Deut. xxxii. 10, 11; ac fel hyn y daeth yr eglwys Gristionogol, yn gyfansoddedig o Iuddewon a Chenhedloedd, i fyny o gyflwr isel ac anial iawn; ac fel hyn hefyd y mae pob un o wir blant Duw yn dyfod i fyny i'r nefoedd o anialwch dyrys y byd hwn, gan bwysu ar addewid a gallu Crist, er syndod i ddynion, angylion, a chythreuliaid. *Dan yr afallen y'th gyfodais*—tybia rhai mai geiriau Crist yw y rhai hyn, yn arwyddo mai dan ei gysgod ef ei hun, yr hwn a gyfelybwyd gan y ddyweddi i afallen neu bren afalau, pen. ii. 3, y cyfodwyd hi o gyflwr o iselder a thyloidi mawr i fod yn briodferch iddo. *Yno y'th esgorodd dy fam, yno y'th esgorodd yr hon a'th ymddy*—sef yn yr iselder a'r tyloidi moesol hwnw; neu, 'yno, dan yr afallen,' sef dan gysgod Crist, y dygwyd hi trwy borth yr adenedigaeth. Ond tybia ereill mai geiriau yr eglwys yw y rhai hyn, yn dyweddy wrth Grist,

fam; yno y'th esgorodd yr hon a'th ymddy.

6 ¶ Gosod fi megys sêl ar dy galon, fel sêl ar dy fraich: canys cariad sydd gryf fel angau; eiddig-odd sydd greulon fel y bedd: ei

wrth ddyfod i fyny o'r anialwch a'i phwys arno ef, ddarfod iddi hi ei gyfodi ef megys o'i gwsg a'i gweddiau taerion; a bod y frawddeg ddiweddaf yn cyfeirio at iselder a thyloidi Crist yn ei enedigaeth. Y mae rhai yn cymlywso hyn oll at Efa yn colli ei phurdeb trwy bechod wrth y pren gwaharddedig; a Iesu Grist, fel yr had addawedig, yn ei chyfyodi hi gydag addewid o drugaredd trwy waed ei groes.

Adn. 6. *Gosod fi megys sêl ar dy galon, fel sêl ar dy fraich*] Y rhai hyn ydynt eiriau y ddyweddi wrth ei Phriod. Eu hystyr yw, Byddeddy feddwl a'th serchiadau wedi eu gosod a'u sefydlu arnaf fi yn *barhaus*. Ymddengys fod yma gyfeiriad at yr arteriad o osod llafnau cerfedig o aur, arian, neu bres, yn cynwys llun neu enw cyfaill neu berthynas, i grogi ar y fynwes, neu wedi ei rwymo am y fraich, i'r dyben i gadw cofiadwriaeth barhaus o'r cyfryw o flaen y llygad; neu ynte at yr argraff a wneid ar groen y fynwes, y fraich, neu y llaw, gyda rhyw fath o inc glâs annileadwy, fel y gwelwom yn fynych. Y mae llun merched ieuainc yn cael ei dynu fel hyn yn fynych ar fynwesau neu freichiau eu cariadon, i'r dyben i gadw cofiadwriaeth gynhes o bonnynt yn eu meddyliau pan fyddont yn mhell oddiwrthynt. Gall mai rhywbeth fel hyn oedd yn ngolwg y ddyweddi uchod. Ond tybia rhai mai cyfeiriad sydd yma at waith yr archeffeiriad Iuddewig yn ymddangos gerbron Duw gydag enwau denndeg llwyth Israel ar ei ddywfron ac ar ei ysgwyddau, yn yr hyn yr oedd efe yn gysgod nodedig o Grist yn ymddangos gerbron Duw drosom ni: gwel ar Exod. xxv. 7, a xxviii. 9—29, Dat. vii. 3—8.

Canys cariad sydd gryf fel angau—yr hwn ni saif neb na dim o'i flaen, ac a orchfyga bob rhwystr. Fel pe dywedasai, Byddai yn well genyf farw na cholli dy gariad ataf fi, neu fod yn amddifad o gariad ataf ni. *Eiddigedd*—neu gariad wedi ei siomi tu ei ddigio, *sydd greulon fel y bedd*—yr hwn a lwnc ac a ddifa bawb yn hollol a diarbod. Y mae y *bedd* yma yn cael ei osod allan fel yn gryfach a mwy didosturi nag hyd yn nod *angau* ei hun. Ni wna angau gyfnewid dim ar lun y corff, nac ar ei ansoddau chwaith: y mae yr aelodau yn aros fyth yn eu llun a'u rhif, er iddo ef wneyd ei waethaf. Ond y mae y *bedd* yn chwala yr holl beiriant, yn dattod yr holl gymalau, ac yn troi yr holl gyfansoddiad anifeillaidd yn llygredigaeth a phridd, fel na fydd yno yn mhen ychydig flynyddau ddim o olion y corff yn aros! *Ei farwor*—sef marwor eiddigedd, *sydd farwor tanllyd*—yn llosgi ac yn toddi fy nghalon fel tân; *a flam angherddol iddynt*—sef i farwor tanllyd a difaol eiddigedd. Ond yn lle 'flam angherddol,' y mae llôg o ysgriflyfrau *Kennicott*, a llôg o eiddo *De*

farwor *sydd* farwor tanllyd, a ffiam angherddol iddynt.

7 Dyfroedd lawer ni allant ddi-ffoddi cariad, ac afonydd nis boddant: pe rhoddai gŵr holl gyfoeth ei dŷ am gariad, gan ddirmygu y dirmygid hyny.

8 ¶ *Y mae* i ni chwaer fechan, ac

nid *oes* fronau iddi: beth a wnawn i'n chwaer y dydd y dyweder am dani?

9 Os caer *yw* hi, ni a adeiladwn arni balas arian; ac os drws *yw* hi, ni a'i cauwn hi âg estyllod cedrwydd.

10 Caer *ydwyf* fi, a'm bronau

Rossi, yn darllen 'fflam *Jehofa*,' gan gyfeirio, fel y tybia *Clarke*, at y fellten. Os *yw* y darlleniad hwn yn gywir, cawn enw *Duw* unwaith o leiaf yn y llyfr hwn. Fel pe dywedasai, 'Boed i mi gael fy arlun ar dŷ *fraich*, yr hon sydd bob amser o flaen dy lygad, fel na byddo i ti byth fy anghoſio; a boed i mi gael fy arlun ar dŷ *fynewes*, yn arwydd o'r rhan a feddaf yn dŷ *galon* a'th *serchiadau*. Gwna hyn fel prawf o'r cariad ag sydd genyf fi atat ti, yr hwn sydd yn gyfryw ag nas gall dim ond *angau* ei ladd: a gwna ef i ragfaenn unrhyw *eiddigedd* a allwn ei deimlo, yr hwn sydd grenlon fel y *bedd*, ac mor ddynystriol a saethan *tanllyd* neu *bicellau gwenwynig* a dafter i'r corff.'

Adn. 7. *Dyfroedd lawer ni allant ddi-ffoddi cariad*] Er y gallant ddi-ffoddi tân; ac *afonydd nis boddant*—eithr efe a fydd byw yn yr eglwys yn nghanol dwf'r than: gwel ar Rhuf. viii. 35—39. Ymddengys fod y *dyfroedd* a'r *afonydd* hyn yn arwyddo dychrynfeydd a chystuddiau, neu ynte hndoliaethau, gwrthwynebiadau, a phrofedigaethau mawrion. Ni fydd i *swn* y dyfroedd hyn dŷdychrynu na di-ffoddi cariad yr eglwys at Grist: boed iddynt wneyd eu gwaethaf, Crist o hyd fydd y *Cyfaill* anwyfaf ganddi. Ni fydd i *orlhiad* yr afonydd hyn beri i gariad yr eglwys ddigaloni na llwfrbau; ond efe a'i galluoga hi i 'lawenbau mewn gorthrymderau,' ac i ddywydd gyda Job, 'Pe lladdai efe fi, eto mi a obeithiaf yddo,' pen. xiii. 15. 'Cariad byth ni chwmp ymaith;' ond efe a barha trwy holl ystod yr eglwys ar y ddaear, ac am byth yn y nef, I Cor. xiii. 8. Rhaid i ni ddeall y cariad annifffoddadwy hwn fel *dawn* yn yr eglwys, yn hytrach nag fel *teimlad* mewn personan neillduol; canys yn yr ystyr olaf dywedir, 'O herwydd yr amlha anwired, fe a *oera* cariad llawer,' Mat. xxiv. 12. *Pe rhoddai gŵr holl gyfoeth ei dŷ am gariad*—i brynu cariad yr eglwys oddiwrth Grist, a'i osod ar y byd a'r cnawd drachefn; *gan ddirmygu y dirmygid hyny*—gan yr eglwys, fel y dirmygodd yntau 'holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant,' pan eu cynygiwyd iddo i brynu ei gariad ef oddiwrthi hitban, Mat. iv. 8. Y meddwl *yw*, nas gellir *prynu* y 'dawn *Duw*' hwn âg arian, mwy na'i *werthu*. 'Os na fydd i *gariad* gael ei gynyrchu yn naturiol,' fel y sylwa *Clarke*, 'nis gall dim arian ei brynu, na dim eiddo ei ennill, na dim dyfais ei berswadio. Mor ofer y goeithia *hen wŷr cyfoethog* allu ennill *serchiadau merched ieuanc* trwy eu llwytho âg *anrhegion a chyfoeth*! Nis gall unfenywr lywodraethu ei serchiadau; nid ydynt dan ei hawdurdod hi. Lle na byddont yn cyfodi yn

naturiol o honynt eu bunain, nis gallant byth fodoli. 'Pe rhoddai gŵr holl gyfoeth ei dŷ am gariad, gan ddirmygu y dirmygid hyny.' Boed i'r *hen*, yn gystal a'r *hoew* a'r *penchwiban*, feddwl am hyn.'

Adn. 8. *Y mae i ni chwaer fechan*] Y rhai hyn befyd ydynt eiriau y ddyweddi, yn son wrth ei hanwylyd am chwaer fechan iddi hi, ac iddo yntan befyd fel yr oedd yn briod iddi. Hyn *yw*, mewn geiriau ereill, y mae yr eglwys bresenol, yr hon a wneid i fyny yn benaf o *Iuddewon*, yn son am eglwys ddyfodol arall, yr hon oedd i fod yn gynwysedig yn benaf o *Genhedloedd*. Hi a'i geilw yn *fechan*, am mai hi oedd y chwaer ieuangaf, ac am nad oedd hi y pryd hyn ond prin yn bodoli fel eglwys; canys nid oedd ond ychydig gredinwyr y pryd hyn yn mhliht y Cenhedloedd, ac nid oedd gair *Duw* ganddynt, na nemawr o foddion gras yn eu mysg. A hi a'i geilw ei *chwaer*, am ei bod felly yn rhagwybodaeth a bwriad *Duw*, eu Tad cyffredin, er ei bod yn bresenol yn ddyieithr iddo i fesur mawr; ac befyd i arwyddo y byddai i'r eglwys Genhedlig hon gael ei derbyn i gyfranogiad o'r un breintiau ysbrydol a'r eglwys Iuddewig. *Ac nid oes fronau iddi*—nid *yw* wedi dyfod eto i oedran ac addfedrwydd priodasol. Arwyddo hyn gyflwr alaethus crefydd y pryd hyn yn mhliht y Cenhedloedd, a'u hamddifadrwydd hwy o air ac ordinadau *Duw*, y rhai sydd fel *bronau* yn rhoddi maeth a chysur ysbrydol i'r enaid. Nid oeddynt eto wedi eu huno â'r Priodfab nefol, na chwaith mewn cyflwr added i'w priodi âg ef. *Beth a wnawn i'n chwaer*—i'w pharotoi hi erbyn y briodas ysbrydol hon? Pa fodd y gallwn wneyd i fyny y diffyg hwn? Hyn *yw*, pa fodd y gallwn ddwyn oddiam-gylch ddychweliad y Cenhedloedd, a'u huno hwy â'r Messia addawedig? *Y dydd y dyweder am dani*—gan rywun, i'w chael yn briod iddo; neu y dydd y gwelw Brenin y nef oedd gnygiad i'w phriodi hi, ac y byddo ei chydysniad hithau yn ofynol? Fel hyn yr oedd pryder yr Iuddewon yn fore am iachawdwriaeth y Cenhedloedd; ac oni ddylem ninau, mewn ffordd o ad-daliad, fod yn bryderus am eu iachawdwriaeth hwythau, a gwneyd ein goraf tuag at eu 'himpio i mewn yn eu holewydden eu hun?' gwel y sylwadau ar Rhuf. xi.

Adn. 9. *Os caer yw hi*] *Yw* y chwaer fechan ag y soniwyd am dani uchod. Y rhai hyn ydynt eiriau y Priodfab nefol am y Cenhedloedd. *Ni a adeiladwn arni balas arian*—hyn a ddywed efe am dano ei hun a'r eglwys Iuddewig, yr hon a ofynasai uchod, 'Beth a wnawn ni i'n chwaer?' neu ynte am dano ei hun mewn undeb â'i Dad a'r Ysbryd Glân.

fel tyrau: yna yr oeddwn yn ei olwg ef megys wedi cael tangnefedd.

11 Yr oedd gwinllan i Solomon yn Baal-hamon: efe a osododd y winllan i warcheidwaid; pob un a

ddygai am ei ffrwyth fil o ddarnau arian.

12 Fy ngwinllan sydd ger fy mron: mil a roddir i ti, Solomon, a dau gant i'r rhai a gadwant ei ffrwyth hi.

Ac os drws yw hi—ac nid caer neu fur, *ni a'i cauen hi âg estyllod cedrwydd*—addefir gan bawb fod yr ymadroddion hyn yn dra thywyll. Ond gellir crynhoi y gwahanol olygiadau arnynt i dri dosbarth, o'r rhai y gall y darllenydd ddewis yr un a fyfno. I. *Os caer yw hi*—os yw hi yn ddiagon cryf i briodi; *ni a adeiladwn arni balas arian*—ni a roddwn iddi gynysgaeth helaeth: *ac os drws yw hi*—os yw yn alluog i fod yn fam i blant; *ni a'i cauen hi âg estyllod cedrwydd*—ni a'i ham-ddiffynwn hi, fel na chaffo ddim niwed. II. Y mae yr holl ymadroddion hyn, ebai *Calmet*, yn dangos fod yn angenrheidiol darparu gwŷr i'r chwaer ieuanc hon; canys y mae *dynes* heb ŵr fel caer heb dyrau, neu fel *drws* heb follt neu glo: rhaid iddynt gan hyny chwilio am ŵr cyfoethog, grymus, ac enwog iddi; rhinweddu a osodir allan yma trwy *dyrau* neu *balasau arian*, a *drysau cedrwydd*. Gan fod yn arferiad adeiladu tyrau *ar gaer*, a rhoddi bolltau a barau *ar ddrws* i'w ddiogelu, felly gall yr ymadroddion nodi allan y *diffyniad*, y *naewd*, a'r *warchodaeth* ag y tybient hwyf fod ar y ferch ieuanc hon eu heisiau. III. Ond mddengys i ni mai at yr *eglwys* yn mhlith y Cenhedloedd y cyfeirir yma, a bod Crist yn ymrwymo i ddarparu iddi y pethau a gyfatebent oraf i'w chyflwr. Fel pe dywedasai, *Os caer yw hi*—os bydd y Cenhedloedd, pryd y dychwelir hwynt, yn gryf a diysgog yn y ffydd, fel caer neu fur cadarn; *ni*—sef fy Nhad a minau, yn nghyda'r Ysbyrd Glân, fel y prifadeiladwyr, a'm gweinidogion fel gweithwyr dalom ni; *a adeiladwn arni balas arian*—a chwanegwngwn ati fwy o nerth a phrydferthwch, gan ei helaethu a'i haddurno. *Ac os drws yw hi*—yr hwn sydd wanach na caer; hyny yw, os bydd hi yn wan yn y ffydd, ni fydd i ni ei gwrthod o herwydd hyny; eithr, *ni a'i cauen hi*—ni a'i cryfhawn ac a'i ham-ddiffynwn hi, *âg estyllod cedrwydd*—y rhai sydd nid yn unig yn hardd, ond yn gryf a pharhaus hefyd. Mewn geiriau ereill, yni a ofalwn am dani yn gyfatebol i'r cymhwysder a fyddo ynddi i dderbyn ein hamgeodd, ac i ymliesau trwyddo, fel yr arferfa dynion adeiladu ar sylfeini da. Yr oedd y dwyrainwyr yn hoff iawn o lefaru fel hyn mewn dammegion neu gyffelybiaethau.

Adn. 10. *Caer ydwyf fi, a'm bronau fel tyrau*] Hyny yw, yr wyf fi mewn oedran, cryfder, ac addfedrwydd priodasol. Tybia *Poole*, *Scott*, ac ereill, mai geiriau yr eglwys Iuddewig yw y rhai hyn, yn adfyfrio ar ei breintiau ei hun. Yr oedd bi yn *gaer* er cyn ymddanghosiad y Messia, wedi ei hadeiladu gan Dduw ei hun ar y wir sylfaen; ac yr oedd ganddi *fronau* llawnion, sef gair Duw ac ordinhadau ei dŷ, â'r rhai y maethai hi ei phlant:

ac yr oedd yn ei olwg ef—sef yn ngolwg ei Phriod, *megys wedi cael tangnefedd*—neu ffafur tuhwnt i bob cenedl arall ar wyneb yr holl ddaear, wrth gael ei dyweddio felly iddo ef: gwel ar Ezec. xvi. 7, 8. Gan hyny, fel pe dywedasai, 'Cyn gynted ag y byddo fy chwaer yn fy nghyflwr i, boed i gydmarh priodol gael ei chwilio allan iddi hithau.'—*Clarke*. Ond tybia *Patrick*, *Ainsworth*, *Gill*, ac ereill, mai geiriau y chwaer fechan yw y rhai hyn, mewn atebiad i eiriau Crist yn yr adnod flaenorol, a hyny ar ol iddi gael ei breintio â pethau yr efengyl, a chael tangnefedd trwy ffydd yn Nghrist. Fel pe dywedasai, Caer felly ydwyf fi; ac nid wyf mwyach yn rhy ieuanc i fod yn ddywedd i Grist, ac i gael fy anrhydeddu â'i gariad a'i dangnefedd ef.

Adn. 11. *Yr oedd gwinllan i Solomon yn Baal-hamon*] Dywed *Aben Ezra* fod y lle hwn yn agos i Jerusalem, lle yr oedd gwinllanoedd gan lawer. *Efe a osododd y winllan i warcheidwaid*—efe a'i rhentodd hi allan bob yn ddarn i wahanol winllanwyr nen ddeiliadon. *Pob un a ddygai am ei ffrwyth fil o ddarnau arian*—sef mil o siclau arian, yr hyn, yn ol 2s. 6c. y sicl, a gyrhaeddai i £125 o'n harian ni, yr hyn oedd rheot pob darn yn ffynyddol. Dywedasom o'r blaen y gallai priodas Solomon â merch Pharaon, neu âg un o'i wragedd ereill, fod yn achlysur o ysgrifeniad y llyfr hwn, i osod allan yr undeb a'r anwylydeb ag sydd rhwng Crist a'i eglwys: yn unol â hyny gall fod yma gyfeiriad at winllan ag ydoedd gan Solomon mewn gwirionedd yn Baal-hamon, yr hon oud odid a gawsai efed gyda'i wraig. Eto, ar yr un pryd, gellir edrych ar y winllan hon megys cysgod o'r eglwys a'i phethan dan olygiad gweinidogion y gair, fel yr oedd Solomon ei hun yn gysgod o Grist: gwel ar Esay v. 1—7, Mat. xxi. 33, &c.

Adn. 12. *Fy ngwinllan sydd ger fy mron*] Ymddengys mai geiriau gwaig Solomon yw y rhai hyn, yn cyfeirio at y winllan hōno ag ydoedd yn eiddo iddi hi ei hun cyn iddi briodi, ac a roddwyd wedi hyny fel cynysgaeth gyda hi i Solomon: gwel uchod. *Mil a roddir i ti, Solomon*—sef mil o siclau arian yn ffynyddol oddiwrth bob darn o'r winllan, adn. 11; *a dau gant i'r rhai a gadwant ei ffrwyth hi*—hyny yw, caiff pob deiliad £25 iddo ei hun yn ffynyddol am ei llafurio, ar ol talu i ti £125 o rent. Dengys hyn ffirwythloner y winllan hōno, neu fawredd ei chynrych. Godd-efa y wreiddiol ei chyfieithu fel hyn: 'Fy ngwinllan, yr hon o'r blaen a ddygai i mi fil o siclau, sydd yn awr yn eiddot ti, Solomon; ac y mae dau gant o siclau i'r rhai a edrychant ar ol ei ffirwyth hi.' Wrth gymhwyso y geiriau hyn at Grist a'i eglwys, gall mai eu hystyr yw: Fel y darfu i wraig Solomon, ar ei

13 O yr hon a drigi yn y gerddi! y cyfeillion a wrandawant ar dy lais: pâr i mi ei glywed.

phriodas ág ef, roddi ei gwinllan a'i holl eiddo iddo ef; felly y mae yr eglwys, dyweddi Crist, wrth ymbriodi ág ef, yn rhoddi iddo yntau nid yn unig ei hunan, ond y cwbl a fedda, heb gadw hawl ei hunan mewn dim. Ond eto er hyny, trwy ganiatâd ei Phriod nefol, bi a ofala am gynaliath i'r rhai sydd yn llafurio yn y winllan, ac yn edrych ar ol ei ffrwyth hi, sef gweinidogion y cysegr. 'Canys,' fel y dywedodd Crist, 'teillwng yw i'r gweithiwr ei gyflog,' Luc x. 7; ac meddai yr apostol, 'Cyfraned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, â'r hwn sydd yn ei ddyngu, yn mhob peth da,' Gal. vi. 6.

Adn. 13. *O yr hon a drigi yn y gerddi!* Hon yw iaith y Priodfab nefol yn cyfarch ei ddyweddi, neu gynulleidfaodd y saint, cyn iddo ymadael am enyd oddiwrthynt. Efo a ddywed ei bod yn trigo yn y *gerddi*, ac nid yn anialwch y byd, am fod y credinwyr wedi eua 'dewis allan o'r byd,' Ioan xv. 19; a'r gerddi hyn yw eglwysi y saint, y rhai a gauodd ac a wrteithiodd Duw iddo ei hun. Efo a'u geilw yn *erddi*, mewn cyfeiriad at y gwahanol gynulleidfaodd, o'r rhai y gwneir i fyny yr eglwys fawr gyffredinol. *Y cyfeillion*—sef cyfeillion y Priodfab a'r briodferch, a *wrandawant ar dy lais*—pan y byddot yn llefaru wrthynt trwy dy athrawon yn ngweinidogaeth y gair: *pâr i mi ei glywed*—sef clywed dy lais yn dy gyffesiad o'th fydd, ac hefyd yn dy weddiau a'th fawl yn fy nghysegr. Y mae rhai yn darllen y geiriau olaf fel hyn: 'Pâr i minau gael fy nghlywed.' Fel pe dywedasai, Y mae genyt ti gyfleusdra yn aml i lefaru wrthy dy gyfeillion, ac y maent yn gwrando ar yr hyn a leferi di: llefara am danaf fi bob am-

14 ¶ Brysfa, fy anwylyd, a bydd debyg i iwrech neu lwdn hŷdd ar fynyddoedd y perlysiau.

ser wrthynt, a phâr iddynt glywed fy lleferydd i trwy dy weinidogaeth di. Ond casgla rhai, oddiwrth yr adnod nesaf, mai gofyn caniatâd yr eglwys i ymadael dros ychydig y mae y Priodfab nefol yma, gan ddymunio iddi *ysgrifenu* yn fynych ato ef o 'erddi' y ddaear, tra y byddai efo yn trin ei hachos hi yn ei swydd gyfryngol ar fynyddoedd y perlysiau yn y nef: gwel HENRY.

Adn. 14. *Brysia, fy anwylyd!* Fel pe dywedasai yr eglwys, Gan y rhaid i ti fyned ymaith am enyd, brysia yn ol; a *bydd debyg i iwrech neu lwdn hŷdd*—o ran cyflymdra dy ddyfodiad ataf; ar *fynyddoedd y perlysiau*—yr un rhai ond odid a mnyddoedd *Bether*, lle yr oedd llawer o berlysiau, a llawer o'r creaduriaid hyny yn eu pori: gwel ar pen. ii. 17, a iv. 6. Gellir ystyried y geiriau hyn fel gweiddi yr eglwys Iuddewig am brysuriad dyfodiad Crist yn y cnawd; ac fel gweiddi yr eglwys Gristionogol am brysuriad ei ail ddyfodiad ef yn y dydd diweddfaf. Fel pe dywedasai, Gorphen dy waith ar frys, fel y gallot ddyfod i'm cymeryd i ataf dy hun i'r nef, lle y caf dy weled fel yr wyt, a bod byth yn dy gymdeithas. Yn yr olwg yma y mae y geiriau yn gyfystyr â'r weddi brydferth hono yn ngwasanaeth y gladdedigaeth: 'Gan atolygu i ti ryngu bodd it' o'th rad awn ddaioni, gyflawni ar fynder nifer dy etholedigion, a phrysnro dy deyrnas; modd y gallom ni, gyda'r rhai oll a ymadawsant â'r byd yn ngwir fydd dy enw bendigedig, gaffael i ni ddiwedd perffaith, a gwynfyd mewn corff ac enaid, yn dy ddiranc a'th dragwyddol ogoniant, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.'

CYNWYSIAD LLYFR Y CANIADAU.

Y MAE Solomon yn y llyfr hwn, fel y gwelsom, yn cyfeirio at briodas ysbrydol Iesu Grist â'i eglwys yn gyffredinol, ac â phob credadyn yn neillduol. Hwn yw y meddylddrych arddunawl at ba un y dylem ddyrchafu ein meddyliau a'n calonau wrth ddarllen y llyfr hwn. Pwy bynag a edrycho i mewn iddo â llygad halogedig, ac â chalon lawn o gnawdolrwydd, efo a gaiff ynddo ystyr llythyrenol ag sydd yn lladd, yn lle ystyr ysbrydol ag sydd yn bywhau. Y mae dilystrwydd canonaid y llyfr hwn yn cael ei gredu yn ddiarnhenol gan Iuddewon a Cristionogion, fel y nodwyd yn y rhagarweiniad; ac ni wyddom am neb yn mysg y Cristionogion boreaf, oddieithr *Theodore Mopsuestes*, a feddai hyfdrâ i'w wadu; ac yn wrthygerbyniol i'r ychydig o ysgrifenywyr diweddar ag sydd yn anghredu ei ysbrydolrwydd, gallwn restru tystiolaeth unfrydol yr Iuddewon, awdurdod yr eglwysi Cristionogol yn mhob oes, yn nghyda'r oll o'r hen dadau,

a'r esbonwyr mwyaf eu dysg a'u duwioldeb yn mhob gwlad. Os nad yw enw *Duw* i'w gael ynddo, (gwel ar pen. viii. 6), hyny sydd am fod natur y fath gyfansoddiad allegol yn gofyn i'w enw gael ei guddio dan len allegori, neu ei ddarlurio yn unig fel brenin, priod, neu anwylyd yr eglwys; a dyledswydd esbonwyr a phregethwyr y gair yw codi ymylon y llen hon, i ddangos i'w darllenwyr a'u gwrandawyr y gwir berson. Y mae yr ysgrifthyrau yn llawn o ymadroddion ffugyrol o'r fath yma; a sonir yn fynych, yn yr Hen Destament a'r Newydd, am yr eglwys dan y gyffelybiaeth o briodferch neu winllan. Y mae y rhai a achwynant am na allant gael dim ond allegori yn llyfr y Caniadau, yn achwyn o ganlyniad heb achos; canys yr hyn a alwant hwy yn ystyr allegol a chyfriniol, yw, mewn gwipionedd, ei ystyr priodol ef; canys os deonglir ef mewn ystyr cnawdol, camddeallir ef yn hollol. Y mae y llyfr rhagorol hwn wedi cael ei

ysgrifenu mewn dull o GYDYMDYDDAN rhwng Crist a'i eglwys, a rhwng yr eglwys a Christ, ac â chredinwyr neillduol; y rhai a osodir allan yma fel y priodfab, ei briodferch, a'i llaucesâu, neu 'ferched Jerusalem.' I gael golwg ar unwaith ar ei gynwysiad, a'r personau sydd yn llefaru ynddo, y mae yn angenrheidiol i ni ddostrannu pob pennod yn y drefn ganlynol:

PEN. I. Yn y bennod hon, ar ol teitl y llyfr, adn. 1, nyni a gawn Grist a'i eglwys, neu Grist a'r credadyn, yn mynegu eu cariad at ei gilydd. I. Y mae y briodferch, yr eglwys, yn llefaru wrth y priodfab, adn. 2—4; wrth ferched Jerusalem, adn. 5, 6; ac yna wrth y priodfab, adn. 7. II. Y mae Crist, y priodfab, yn llefaru mewn atebiad i achwyniad a deisyfiad ei ddyweddi, adn. 8—11. III. Y mae yr eglwys yn datgan y bri mawr a osodai hi ar Grist, a'r hyfydwch a gai yn ei gymdeithas ef, adn. 12—14. IV. Y mae Crist yn canmol prydfertwch yr eglwys, adn. 15. V. Yr eglwys yn dychwelyd y ganmoliaeth, adn. 16, 17. Lle y byddo tân gwir gariad at Grist yn y galon, bydd hyn o ddefnydd i'w chwythu ef yn ffilam.

PEN. II. Yn y bennod hon, I. Cawn yr eglwys yn llefaru am dani ei hun, adn. 1, a Christ lefydd yn llefaru am dani, adn. 1, 2. II. Yr eglwys yn llefaru, (1) Gan gofio yr hyfydwch a'r boddhad a gawsai hi yn nghymdeithas Crist, adn. 3, 4. (2) Yn mwynhau yr arwyddion presenol o'i ffiaf ef, ac yn ofalus rhag i ddim ddygwydd i'w rhwystru hwynt, adn. 5—7. (3) Yn ymorfoleddu yn ei nesâd ati, adn. 8, 9. (4) Yn adrodd y galwadau grasol a roddasai efe iddi i fyned allan gydag ef, adn. 10—14; a'r gorchymyn a roddasai efe i'r gweision i ddyfethia yr hyn a fyddai yn niweidiol i'r winllan, adn. 15. (5) Yn llawenychu yn ei hawl ynddo ef, adn. 16. (6) Yn hiraethu am ei ddyfodiad, adn. 17. Hwynthwy, y rhai y mae eu calonau wedi eu llenwi â chariad at Grist, ac â gobaiith am y nef, a wyddant oraf pa beth y mae y pethau hyn yn eu harwyddo.

PEN. III. Yn y bennod hon, I. Y mae yr eglwys yn adrodd y gofid trwm a'i goddiweddodd trwy enciliaid ei hanwylyd oddiwrthi, y drafferth a gafodd i adferdy y teimlad dedwydd o'i ffiaf ef eilwaith, a'i phenderfyniad i beidio ei gollu ef drachefn trwy ei diofalwch ei hun, adn. 1—5. II. Merched Jerusalem yn sefndu wrth harddwch a godidogrwydd yr eglwys yn ei dyfodiad i fyny o'r anialwch, adn. 6. III. Yr eglwys yn rhyfeddu wrth ogoniant Iesu Grist dan yr enw Solomon, adn. 7; ei wely, a'r gwylwyr arfôg o'i amgylch, adn. 8; ei gerbyd, adn. 9, 10; ac yn galw ar ferched Seion, y rhai a ryfeddent wrth ei harddwch hi, i ryfeddu yn hytrach wrth ei harddwch ef, yn eawedig fel yr oedd ef yn ymddangos ar ddydd ei goroniad, a dydd ei ddyweddiad, adn. 11.

PEN. IV. Yn y bennod hon, I. Y mae Iesu Grist, ar ol dyweddio yr eglwys iddo ei hun, (pen. iii. 11.) yn mawr ganmol ei thegwch a'i phrydfertwch hi yn gyffredinol, adn. 1—5; a thrachefn, adn. 7. II. Y mae efe yn

encilio, ac yn ei gwabodd hithan i fyned gydag ef o' fynyddoedd y llewod a'r llewpardiad, i fynyddoedd y myrr a'r thus, adn. 6—8. III. Y mae efe yn profesu ei gariad ati hi, a'i hyfydwch yn ei chariad bithau ato yntan, adn. 9—14; a'i gwasanaeth i ereill, adn. 15. IV. Yr eglwys yn priodoli i Grist bob peth gwerthfawr ag ydoedd ynddi hi, ac yn ymddibynu ar ddyllunwad parhaus ei ras ef i'w gwnenthoru yn fwy cymeradwy fyth yn ei olwg ef, adn. 16.

PEN. V. Yn y bennod hon, I. Cawn Grist yn gwneyd derbyniad grasol o'r gwahoddiad a roddasai ei eglwys iddo, a'i ymweliad tirion â hi, adn. 1. II. Yr hanes a ddyry y ddyweddi am ei hynfydrwydd ei hun yn dystyru ei hanwylyd, a'r gofid ag y bu ynddo o herwydd iddo fyned ymaith oddiwrthi hi, adn. 2—8. III. Ymfyniad merched Jerusalem yn nghylch hawddgarwch a rhagoriaethau ei hanwylyd, adn. 9. IV. Ei hatebiad hithan i'r ymfyniad hwnw, lle y gesyd efallan fel oll yn hawddgar, o'i ben i'w draed, adn. 10—16. I chwi gan hynny, y rhai ydych yn credo, y mae yn urddas.

PEN. VI. Yn y bennod hon, I. Y mae merched Jerusalem, ar ol eu cynhyrfu gan y dysgrifiad effrous a roddasai yr eglwys o Grist, yn holi yn ei gylch ef, adn. 1. II. Yr eglwys yn eu cyfarwyddo hwynt i'r fan lle y gallent ei gael ef, adn. 2, 3. III. Y mae Crist yn awr, ar ol i'r rhai a chwiliant am dano ei gael, yn mawr ganmol tegwch ei ddyweddi, yr hwn oedd yn ei orchfygu ef, adn. 4—7; yn ei dewis hi o flaen pawb ereill, adn. 8, 9; yn ei chanmol hi i sylw a pharch ei holl gymdogion, adn. 10; ac, yn ddiweddar, yn cyfaddef yr argraffiadau a wnaethai ei harddwch hi arno ef, a'i fawr hoffder ef ynddi, adn. 11—13.


PEN. VII. Yn y bennod hon, I. Y mae Crist, y priodfab brethinol, yn myned rhagddo i ddarlunio prydfertwch ei ddyweddi, neu ei eglwys, o'i thraed i'w phen, adn. 1—5; yn mynegu ei gariad ati, a'i hyfydwch yn ei chymdeithas hi, adn. 6—9. II. Y mae ei ddyweddi, neu yr eglwys, yn ei haddef ei hun yn eiddo iddo yntan, adn. 10; yn ei wahodd ef i fyned allan gyda hi i'r maesydd, y pentrefi, a'r gwinllanoedd, adn. 11, 12; ac yn dangos y croesawiad ag yr oedd hi yn ei furriadu iddo, adn. 13. Y fath gydanwylded sydd rhwng Crist a'r credadyn! A pha beth yw y nef ond tragwyddol gyfnewidiad cariad rhwng y Duw santiaid a'r eneidiau santiaid!

PEN. VIII. Yn y bennod diweddar hon y mae y cydanwylded rhwng Crist a'i eglwys mor gryf a bywyg ag erioed, ac yn wir yn fwy felly. I. Y mae y ddyweddi yn parhau i ddymuno cael cymdeithas fwy agos a chyfeillgar â'i phriod, adn. 1—3. II. Y mae hi yn tynghedu merched Jerusalem i beidio rhwystru y gymdeithas ag oedd rhyngddi hi a'i hanwylyd, adn. 4; ac y maent hwythau yn ngwyneb hynny yn hoff-ryfeddu ei hnyddibyniad hi arno ef, adn. 5. III. Y mae hi yn deisyf ar ei hanwylyd, yr hwn a ddiunasai hi a'i gweddiad, adn. 5, am iddo trwy ei ras gadarnhau yr undeb dedwydd a gwresog hwnw

âg ef ei hun, i'r hwn yr oedd hi wedi cael ei derbyn, adn. 6, 7. IV. Y mae hi yn eiriol dros ereill befyd, ar foel i ofal am danynt hwsthan gael ei gymeryd, adn. 8, 9; ac yn ymlawenhau wrth feddwl am yr hawl ag yd-oedd ganddi hi yn Nghrist, a'i gariad yntau tnag ati, adn. 10. V. Y mae hi yn ei haddef ei hun fel yn dal gwinllan daao ef yn Baal-

hamon, oddiwrth ffrwyth yr hon y dymunai id do gael tâl, adn. 11, 12. VI. Y mae ygan yn diweddu trwy gyd-ddeisyfiadau ymadawol: y mae Crist yn gorchymyn i'w ddyweddi adael iddo ef gael clywed oddiwrthi hi yn fynych, adn. 13; ac y mae hithau yn deisyf iddo yntau ddychwelyd ati hi gyda brys, adn. 14.

DIWEDD Y DRYDEDD GYFROL.





BS
308
1858
v.3

Bible. Welsh. 1858
Y Deonglydd berniadol

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

UTL AT DOWNSVIEW



D RANGE BAY SHLF POS ITEM C
39 11 07 07 01 007 2